




35
Thirty five
pounds



TESTAMENT

Y

YSGOL SABBOTHOL.

CYNNWYSA

Y CYFEIRIADAU CYFLAWNAF;
NODIADAU BEIRNIADOL, EGLURHAOL, A DAEARYDDOL;
SYLWADAU AR EIRIAU AC ARFERION, &c:
YNGHYD A THRAETHAWD YN EGLURO
AMCAN, MATERION, AC IEITHWEDD POB LLYFR.

GAN AMRYW O

WEINIDOGION Y TREFNYDDION CALFINAIDD.

CYF. II.

1 CORINTHIAID—DADGUDDIAD.

DINBYCH:
ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXCIX.

ENTERED AT STATIONER'S HALL.

RHAGYMADRODD I'R AIL GYFROL.

NID oes gan y cyhoeddwr na'r ysgrifenwyr ond ychydig i'w chwanegu, ar gwblhâd y gwaith hwn, at yr hyn a ddywedwyd ganddynt bum mlynedd yn ol, ar ymddangosiad y gyfrol gyntaf o hono. Corphorir y cyfieithiad awdurdodedig o'r Testament Newydd yn y gwaith, am mai hyny a ymddangosai iddynt y llwybr mwyaf diogel. Ymadewir âg ef yn y nodiadau pan geir rhesymau digonol dros yr ymadawiad. Ni anturiant wneuthur felly oddi eithr yn yr enghreifftiau ag y bu asai cadw ato yn brawf o ofergoeledd. Etto, mor bell ag yr oedd tuedd yn myned, yr oedd yn hytrach o blaid ymlynu wrth y testyn derbyniedig; am y buasent, wrth ymollwng gyda'r duedd wrth-wynebol, yn sicr o gael eu hunain yn aml mewn ansicrwydd a dyryswch. Y mae yn deilwng o sylw fod Tischendorf—yr awdurdod uchaf ar destyn y Testament Newydd—yn ei argraphiad diweddaraf o'r "*Recension of the New Testament*," yn dychwelyd yn nes at y testyn derbyniedig. Dywed Scrivener fod Tischendorf, yn ei ddiwygiadau o destyn Efengyl Mathew, yn ei seithfed argraphiad, "yn dychwelyd at y darllen-iadau derbyniedig, y rhai a wrthodwyd ganddo yn 1849 mewn dim llai na 187 o leoedd." Yn ei adgyweiriad o *pen.* iii., yn 1849, ymadawai dri ar ddeg o weithiau oddi wrth y testyn derbyniedig; ond yn y seithfed argraphiad, dychwela ato saith o weithiau o'r tri-ar-ddeg. Gellir casglu oddi wrth hyn y bydd cynnyrch mwyaf aeddfed ei ymchwiliadau yn fwy unol â'r testyn derbyniedig. Pa fodd bynag, llawer mwy diogel, mewn gwaith poblogaidd fel hwn, oedd seilio y nodiadau ar y cyfieithiad awdurdodedig, a glynu wrtho yn wastad, oddi eithr yn yr enghreifftiau lle y ceir unfrydedd yn mysg y beirniaid o barth gwall neu ddiffyg y cyfieithiad ei hun, neu wall yn y testyn y ffurfiwyd y cyfieithiad o hono. Gyda golwg ar y diwygiadau a dybid yn ammheus, boddlonid yn unig ar grybwylliad am danynt, gan roddi mantais i'r darllenydd i farnu drosto ei hun.

Ni byddai yn deg, ac fe ddichon nad oes eisieu, cymmharu y gwaith hwn â gweithiau ereill o'r un natur a dyben, oedd o'r blaen yn adnabyddus i'r Cymry. Etto, i gyfiawn-hau ei ymddangosiad, gellir sylwi yr addefir yn gyffredin fod y cyfryw waith ag yr amcana hwn fod yn cael ei deimlo er's amser maith yn angenrheidiol; ac mai bwriad y cyhoeddwr a'r ysgrifenwyr oedd rhoddi gwell mantais nag oedd o'r blaen yn iaith y Cymry i ddeall meddwl Duw yn ysgrifeniadau yr efengylwyr a'r apostolion sanctaidd. I'r dyben hwnw, talwyd, yn mharotoad y nodiadau, llawer o sylw i gynnyrchion yr ymchwilwyr diweddaf i feusydd perthynol i eglurhadaeth yr Ysgrythyr: yn y rhanau hanesyddol i hanesyddiaeth, defodau, anianyddiaeth, a daearyddiaeth: ac yn y rhanau athrawiaethol, yn gystal a'r rhanau hanesyddol, i eiriau yr ysgrifenwyr; o blegid yr oeddynt yn credu fod yn ammhossibl deall y meddwl heb wneyd ymchwiliad dyfal i ystyr a grym y geiriau a arferir, a bod mawr bwys i'w roddi ar y geiriau a ddysgid gan yr Ysbryd Glân. Tuag at wneuthur hyn, gwnaent ddefnydd o'r grammadegau a'r geiriaduron Groeg goreu, ynghyd âg o'r esbonwyr hyny yn yr Almaen, America, a'r wlad hon, sydd wedi seilio eu heglurhadaeth o'r Beibl ar efrydiaeth fanwl o iaith y Beibl.

Mewn eglurhadaeth ysgrythyrol yr ydoedd ysgrifenwyr crefyddol Prydain, hyd y ganrif hon, yn fwyaf diffygiol. Oddi eithr ychydig eithriadau, megys "*Owen ar yr Hebreaid*," a "*Hammond ar y Testament Newydd*," yr oedd yr hen esbonwyr Saesnig yn hynod o ddiffygiol yn y wybodaeth ieithyddol oedd yn ofynol i egluro y Beibl. Ymddengys fod amryw o honynt—Louth, er enghraifft—yn llawer mwy llwyddiannus gydag Ysgrythyrau yr Hen Destament nag oeddynt gyda'r Testament Newydd. Dichon na ddarfu i neb o esbonwyr y Testament Newydd yn y wlad hon dalu mwy o sylw i'r iaith na Macknight; ond addefir erbyn hyn fod ei gyfnewidiadau yn y cyf-ieithiad gan mwyaf yn wallau. Y mae esboniadau Scott, Guyse, Doddridge, ac ereill, yn llawn o sylwadau ac addysgiadau crefyddol da, ac o duedd i adeiladu ysbryd y darllenydd; ac y mae esboniad Henry yn nodedig o gyfoethog o wybodaeth ysbrydol. Etto, cydnabyddir yn gyffredin fod yr oes yr oeddynt yn ysgrifenu ynddi yn hynod

brin, wrth ei chymmharu â'r oes bresennol, o'r manteision sydd yn angenrheidiol i ddeall geiriau y Beibl, ac o amryw ganghenau ereill o wybodaeth sydd yn ofynol tuag at ddeall y meddwl yn ei gyfanrwydd a'i brydferthwch. Y mae Ellicot, Lightfoot, Alford, Hodge, Alexander, ac ereill, yn meddu ar lawer mwy o'r wybodaeth hon nag oedd esbonwyr y ganrif ddiweddaf; ac heb fod yn ddiffygiol yn y parch a'r crefyddolder oedd ynddynt hwy, ac a wnai eu llyfrau yn foddion adeiladaeth ysbrydol i'w darllenwyr. Nid oedd yr hen esbonwyr Saesnig yn alluog i ganfod yr anhawsderau ag y mae yr esbonwyr diweddaf yn gwneuthur ymdrech galed i'w hesbonio, ac yn fynych iawn yn llwyddo.

Dylid hefyd cydnabod fod esbonwyr goreu yr oes, yn Mhrydain ac America, dan y ddyled fwyaf i feirniaid yr Almaen. Er yr holl gri a godwyd gan rai yn y wlad hon yn eu herbyn, fel pe buasent oll o dueddiadau ammheuol, y mae yn gyfiawn cydnabod, os ydyw astudiaeth ddyfal o'r Beibl yn arddangosiad o barch iddo, mai yn yr Almaen y mae wedi derbyn mwyaf o barch yn yr oes bresennol. Tra yn addef fod llawer o hadau gwenwynig wedi dyfod drosodd o'r Cyfandir, dylid cydnabod hefyd fod duwinyddion ac esbonwyr goreu Prydain yn y blynyddoedd hyn yn ddyledus i lawer o wŷr dysgedig y Cyfandir, ac nad ydynt yn ammharod i gydnabod eu dyled iddynt. Oddi yno y daeth y prif symbyliad, yn gystal a'r cynnorthwy goreu, i efrydiaeth o'r Beibl yn ein dyddiau ni. A chyfrifir mai y prif reswm dros gyhoeddiad "TESTAMENT YR YSGOL SABBOTHOL" ydyw, ei fod yn amcanu gosod mewn cylch bychan gynnyrch ymchwiliadau esbonwyr goreu yr oes; a chredir, wrth ei gyflwyno i'r Cymry, y bydd ar unwaith yn wasanaethgar i eangu eu gwybodaeth yn Ngair yr Arglwydd, ac i gadarnhau eu ffydd yn y gwirioneddau a gredir yn ddiammheu yn ein plith.

YR AWDWYR.

Chwefror, 1871.

YR

EPISTOL CYNTAF AT Y CORINTHIAID.

Yr oedd amryw o bethau yn cydgyfarfod i wneuthur Corinth yn ddinas o hynodrwydd mawr. Yr oedd yn hynod yn ei sefyllfa ddaearyddol; yn ei pherthynas â hanes Groeg a Rhufain; ac yn ei pherthynas â'r Eglwys Gristionogol yn ei hamserau boreuaf. Yr oedd yn sefyll ar wddf o dir a gydiai y Peloponnesus â pharth gogleddol tir Groeg. Y gwddf neu y cyfyngdir hwn ydoedd yn agos i bedair milldir o led, enw priodol pa un oedd *isthmus*—enw a ddaeth mewn amser i gael ei gymmhwyso yn gyffredinol at lain cyffelyb o dir yn cyssylltu gorynys â'r brif diriogaeth-Gelwir y cyfyngdir yma gan Pindar yn "Bont y Môr," a chan Xenophon yn "Borth y Peloponnessus." Ar y cyfyngdir hwn y safai dinas Corinth. Enw cyntefig y ddinas ydoedd Ephyre: yn ddiweddarach, galwyd hi wrth yr enw Corinth—yr enw cynneñin arni mewn hanesyddiaeth: ond y mae Homer yn ei dynodi wrth y ddau enw. Llygriad o'r enw diweddaraf ydyw yr un sydd yn bresennol ar yr ychydig adfeilion sydd yn y fan—*Gortho*. Prif hynodrwydd daearyddol y ddinas oedd y graig uchel, serth, y gorweddai dan ei chysgod. Ymddyrchafai yr Acro-Corinthus (canys dyna enw y graig, yn sydyn a syth oddi ar y gwastattir uchder o 2,000 o droedfeddi, ac yr oedd yn ddigon llydan yn y pen uchaf i gynnal tref o gryn faintioli. Wrth ei chymmharu â'r graig hon, nid oedd Acropolis Athen ond bechan ac isel. Yr Acro-Corinthus oedd allwedd Groeg; a hawdd oedd deall pwy oedd oruchaf yn y llywodraeth yn unig trwy wybod yn llaw pwy yr oedd yr amddiffynfa hon. O uchelion y graig anferth hon, gallesid gweled yn mhell ar draws y Môr Ægeaidd tua'r dwyrain; tua'r Môr Ionaidd i'r gorllewin; mynyddoedd Attica tua'r gogledd; ac yr oedd Acropolis Athen yn dyfod i'r golwg oddi arni mewn pellder o bump a deugain o filldiroedd. Perthynai i Corinth ddau borthladd, yr hyn oedd prif achos ei henwogrwydd masnachol. Y porthladd gorllewinol oedd Lechæum, ynghylch deuddeg ystâd, neu filldir a hanner, o'r ddinas; a'r porthladd dwyreiniol oedd Cenchrea (*Act.* xviii. 18), a elwir yn awr Cechries, yr hwn oedd 70 o ystadiau, neu wyth milldir, o'r ddinas. Y cyntaf oedd cyfrwng marsiandiaeth Corinth âg Italy, a'r olaf â'r dwyrain. Mewn maintioli, nid oedd Corinth yn ail i un ddinas yn nhir Groeg oddi eithr Athen yn unig. Yr oedd amgylchedd y muriau, yn amgau y ddinas briodol, yr Acro-Corinthus a'r Lechæum, yn dair ar ddeg o filldiroedd. Nid oes adroddiadau cwbl gredadwy ar gael am rif y boblogaeth; etto y mae seiliau i dybied ei fod ynghylch 100,000—y ddinas ei hun yn cynnwys 80,000, a'r cymmydogaethau 20,000. Yr oedd yr hen ddinas Roegaidd yn nodedig am ysblander ei hadeiladau; ac yr oedd y ddinas ddiweddarach, yr hon a adeiladwyd gan Julius Cæsar, ar ol bod yn gorwedd yn adfeiliedig, os nad yn gwbl anghyfannedd, am gan mlynedd, yr un mor nodedig am orchestion rhagoraf celfyddyd Rhufain. Y cwbl sydd yn aros yn bresennol o adeilyddiaeth y ddinas foreuaf—y Gorinth Roegaidd—ydyw y colofnau Doraidd ardderchog, ar gŵr gorllewinol y dref ddiweddarach, y rhai a berthynent unwaith i demi baganaidd, ac ydynt y mwyaf mewn tryfesur o'r math Doraidd o golofnau sydd yn awr ar gael yn Groeg. Mae yr hen golofnau hyn wedi bod yn edrych i lawr ar gyfodiad, llwyddiant, ac adfeiliad Corinth dair o weithiau. Yr oedd Corinth yn ddinas enwog a hynod dan y Groegiaid a than y Rhufeiniaid, ac yr oedd yn cael ei hynodi gan yr un pethau yn ystod y ddau gyfnod. Yr oedd, cyn ei dinystr gan y Rhufeiniaid, yn glodfawr, fel y sylwyd, am ardderchogrwydd ei hadeiladau, eangder ei thrafnidiaeth fasnachol, nifer, dysg, medrusrwydd, a bywiogrwydd meddyliol ei thrigolion, y rhai a ddygasant y celfyddydau i'r fath uchder, fel y gelwid y ddinas gan Cicero yn *totius Græciæ lumen* —goleuad yr oll o dir Groeg, a chan Florus yn *Græciæ decus*—addurn Groeg. Ond yr oedd drygfoesau y trigolion yn ei gwarthruddo yn foesol, yn gymmaint ag yr oedd eu bywiogrwydd a'u dysg yn ei henwogi yn feddyliol a masnachol: yr ydoedd ar unwaith yn ogoniant ac yn warth Groeg. Dywed Strabo fod mwy na mil o buteiniaid yn cael eu cadw yn nheml Venus yn Corinth, y rhai a elwir ganddo yn gaethion y deml, y rhai, er anrhydedd i'r dduwies, a werthent eu hunain am gyflog i bawb a ddelai atynt; ac mai trwyddynt hwy y daeth y ddinas yn gyfoethog, trwy fod yn gyrchfa i gynnifer o ddyeithriaid. Yr oedd ei llygredigaeth yn cael ei achosi, heb law gan yr hyn sydd yn rhoddi bod iddo yn mhob man ac yn mhob oes, gan y ddau amgylchiad yma—ymgyfoethogiad y ddinas oddi ar ei llwyddiant masnachol, a'r nawdd a roddid i aflendid gan ei defodau o addoliad. Tra mai teml Minerva a goronai Acropolis Athen, teml Venus—nawdd-dduwies pleser a chwant—ydoedd prif ardderchogrwydd adeiladyddol Corinth. O holl ddinasoedd Groeg, Corinth, uwch law cymmhariaeth, ydoedd y benaf mewn rhysedd ac aflendid. Gan ei bod yn fawr yn ei chyfoeth, ac yn ganolbwynt trafnidiaeth cenhedloedd Asia ac Ewrop, a

chan, yn fwyaf neillduol, fod puteindra yn rhan o addoliad ei phrif dduwies, yr oedd yn gyrchfa i bob benyw brydferth a amcanai ymgyfoethogi ar wobrau ei chywilydd. Ac ymddengys fod y gwarthrudd hwn yn anurddo cymmeriad cymdeithasol y ddinas dan y Rhufeiniaid yr un modd. Gan fod yr ail ddinas yn ganolbwynt masnach, fel y gyntaf, naturiol hefyd oedd i'w chyflwr moesol fod yn gyffelyb. Yr oedd ei hafiendid mor fawr nes bod yn ddiarebol: yr oedd galw menyw yn *Gorinthes* yr un peth a'i galw yn butain; a phe y dywedasid am ddyn ei fod yn ymddwyn yn Gorinthaidd, y meddwl fuasai ei fod yn cyflawni puteindra. Er y dywedir fod Corinth yn "llygad Groeg," etto nid oedd ei rhagoriaeth yn gymmaint mewn llenyddiaeth ac athroniaeth ag ydoedd mewn ystyron masnachol a milwrol. Pobl o feddwl bywiog, yn hytrach na dwfn, oedd y Corinthiaid. Nid yw dinas fasnachol un amser yn gydweddol â'r pwyll a'r difrifwch meddyliol hwnw sydd yn wastad yn rhagflaenu y rhagoriaeth uchaf. Ac felly, nid oes cymmaint ag un o drigolion Corinth i'w gael yn holl restr beirdd, athronwyr, ac areithwyr Groeg. Rhagorai Corinth ar Athen mewn masnach ac yn y celfyddydau; ond teflid hi yn gwbl i'r cysgod gan ei chydymgeisydd mewn athroniaeth a llenyddiaeth. Hawdd oedd i Corinth feddu ar y bywiogrwydd meddyliol a'i cyfodai i'r safle uchaf mewn masnach, heb feddu ond gradd fechan o'r nodwedd meddyliol hwnw a wnai Athen yn glodfawr. Yr ymddangosiadus a'r rhwysgfawr—ffug gyda phob peth—y llenyddiaeth a'r rheithieg a weinyddent bleser ar y pryd, oedd gwrthddrych ymofyniad y Corinthiaid. Nid oeddynt yn feddiannol ar yr hoffder hwnw o ddoethineb er ei mwyn ei hun sydd yn ammod rhagoriaeth mewn athroniaeth. Yn amser y Rhufeiniaid, daeth Corinth, dan nawdd Augustus Cæsar, i adfeddiannu ei hen fawrwychedd. Ar ymweliad Paul â hi, yr oedd ei hail ogoniant heb ddechreu gwywo. Y pryd hyny, yr oedd yn brif ddinas talaeth Achaia, ac yn feddiannol ar allu gwleidyddol cydradd â'i henwogrwydd masnachol. Ynddi hi y preswyliai trafnoddwr Achaia; ac yn nyddiau Paul, llenwid y swydd hono gan Galio, brawd i'r athronydd Seneca, yr hwn oedd yn ŵr gonest ac addfwyn, yr hyn a gadarnheir gan y crybwylliadau a geir am dano yn yr *Actau*. Fel yr awgrymwyd o'r blaen, yr oedd Corinth yn awr dan y Rhufeiniaid yn dwyn delw yr hen Gorinth Roegaidd. Yr oedd yn ddinas oferwag, foethus, a thrythyll: cyfoeth a phleser oedd gwrthddrychau penaf uchelgais y boblogaeth, ac yn nesaf at y ddau beth yma, y lenyddiaeth hono sydd yn dwyn sylw ar y pryd—nid y lenyddiaeth fwyaf dofn, sylweddol, a phur. Yr oedd yn y ddinas lawer o ysgolion i ddysgu athroniaeth a rheithieg, i ba rai y cyrchai dyeithriaid o bob gwlad. Buan yr ymledodd ei hanfoesau fel ag i wneuthur y ddinas dan y Rhufeiniaid mor aflan ag y buasai dan y Groegiaid. Felly yr oedd y priodoldeb mwyaf yn annogaethau yr apostol i'r Corinthiaid Cristionogol i ochel godineb; ac ar ol nodi rhestr o'r rhai anghyfiawn na chaent etifeddiu teyrnas Dduw, nid yw yn beth rhyfedd iddo chwanegu, "Hyn fu rhai o honoch chwi."

II. PAUL YN CORINTH.

Gan fod Corinth yn ddinas mor enwog yn ei chyssylltiad â holl dir Groeg, ac yn enwedigol â masnach y byd, buan y gwelodd Paul ei bod yn bwysig iawn mewn cyssylltiad â lledaeniad Cristionogaeth. Yr oedd yn ffynnonell o ba un y llifai dylanwadau o bob natur i bob gwlad, ac i fysg pob cenedl; gan hyny, yr oedd o bwys mawr i Gristionogaeth fod i'r ffynnonell hon gael ei phuro. Ymddengys pwysigrwydd Corinth gyda golwg ar ledaeniad yr efengyl yn yr olwg ganlynol:—Hi oedd prif ddinas talaeth Achaia yr amser hwn, a phrif cisteddle llywodraeth a masnach. Yr oedd ei phorthladdoedd yn llawn o longau, a'i heolydd yn heidio gan boblogaeth gymmysg o Iuddewon, Groegiaid, a Rhufeiniaid. Yr oedd llawer mwy o Iuddewon yn trigo ynddi yn amser Paul, o achos gwaith Claudius yn eu hymlid o Rufain; ac yr oedd yn llawnach o Rufeinwyr ar gyfrif trigias y trafnoddwr yno. Yr oedd y drafnidiaeth gysson oedd rhyngddi â phrif wledydd y dwyrain a'r gorllewin, yn cynnwys Rhufain ei hun, yn rhwym o sicrhau lledaeniad helaeth i'r efengyl, wedi iddi gael derbyniad ynddi hi. Y casgliad yma o amgylchiadau manteisiol a barai i'r apostol edrych ar Corinth yn ail yn unig i Rufain mewn cyssylltiad â lledaeniad yr efengyl. Am ei ymweliad â'r ddinas, gwel *Act.* xviii. 1—17, a'r nodiadau ar y lle; lle y gwelir iddo dreulio yn Corinth flwyddyn a hanner, ac i'w lafur gael ei goroni â llwyddiant mawr; etto y mae seiliau i feddwl fod y llwyddiant yn fwy eang nag ydoedd o ddwfn. Yr oedd y dychweledigion yno gan mwyaf o'r Cenhedloedd (1 *Cor.* xii. 2), er fod yn eu mysg lawer o Iuddewon; a thlodion oeddynt yn benaf. Yr oedd yn wir am Corinth, ac yn fwy, fe allai, nag am un ddinas, mai "nid llawer o'r cyfoethogion a alwyd:" etto yr oedd rhai teuluoedd o gyfoeth uwch na'r cyffredin yn mysg y gwir ddychweledigion, megys Crispus yr archsynagogydd, Erastus, goruchwyliwr y ddinas, a Gaius, llettywr yr apostol: *Act.* xviii. 8: 1 *Cor.* i. 14; *Rhuf.* xvi. 23. Dangosir hefyd yn hanes afreoleidd-dra yr eglwys gyda chyfranogiad Swper yr Arglwydd nad oedd yn cael ei chyfansoddi o un dosbarth yn gwbl: 1 *Cor.* xi. 22. Yr oedd yr apostol mewn mwy o bryder yn Corinth nag odid un man. Yr oedd y gwrthnawsedd cryfaf yn ysbryd y trigolion i'r efengyl, yn codi oddi ar y graddau helaethaf o fydolrwydd—bydolrwydd yn ystyr helaethaf y gair—ac oddi ar ysgafnder, moethineb, ac aflendid. Yr oedd pob nodwedd a hynodai gymmeriad y Corinthiaid yn gastell cadarn yn erbyn yr efengyl. Yr oeddynt yn ddiffygiol o ddwysder mewn meddwl a theimlad, ac yn gaethion trwyadl i'r gau a'r ymddangosiadus; y gau hyd yn oed mewn athroniaeth a rheithieg oedd yn eu swyno. Yr oedd ynddynt y gwrthdarawiad cryfaf ar unwaith i ddirgelwch, ysbrydolrwydd, purdeb, a graslonrwydd yr efengyl. Ac yr oedd yr apostol, gan hyny, yn eu mysg "mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr." Arswydai rhag i'w genadwri fyned yn ofer yn eu mysg. Dangosodd ei wroldeb, a nerth ei ffydd yn ngallu yr efengyl, trwy beidio ymostwng at eu chwaeth, nac amcanu at foddhau eu hawydd am wag-ddoethineb a choegreitheg; ymwrthodai â "geiriau denu o ddoethineb dynol," gan ymddibynu yn gwbl am lwyddiant ei genadwri ar "eglurhâd yr Ysbryd a nerth." Yr oedd gwrthwynebiad yr Iuddewon digredd iddo (*Act.* xviii. 5), arferion blaenorol y dychweledigion, ac amledd a nerth temtasiynau y ddinas, yn achosi y pryder dyfnaf iddo. Yr oedd llygredigaeth erchyll y ddinas yn eu gosod yn agored

yn wastad i gael eu llithio oddi wrth burdeb yr efengyl, ac ysbryd uchelfrydig y Corinthiaid, a'u gorawydd am y rhwysgfawr, yn peryglu eu hymlyniad wrth yr efengyl, ac wrth addysg syml eu dysgawdwr cyntaf.

Dau gwestiwn o ddadl sydd yn mysg esbonwyr ydynt, Pa sawl gwaith y bu yr apostol yn Corinth? A pha nifer o lythyrau a anfonwyd yno ganddo? Nid ydyw Llyfr yr Actau yn crybwyll ond am ddau ymweliad o'i eiddo â'r ddinas; sef yr ymweliad yn *Act.* xviii. pan sylfaenwyd yr eglwys, a'r ymweliad yn *Act.* xx. 2, wedi iddo gael ei ymlid o Ephesus. Mae yn amlwg fod y ddau epistol sydd ar gael wedi eu hysgrifenu cyn yr ail ymweliad (gwel y *Rhag.* i 2 *Cor.*). Ymddengys felly, ar yr olwg gyntaf, mai un ymweliad a gymmerodd le cyn anfoniad yr ail epistol, a bod y wybodaeth am ansawdd yr eglwys a ddaw i'r golwg yn y ddau wedi cael ei throsglwyddo iddo gan ereill, megys teulu Chloe, &c. A hyn ydyw y golygiad cyffredin. Ond gellir sylwi nad yw distawrwydd Llyfr yr Actau yn ddigon o brawf o hyn, o leiaf os ceir awgrymau o ymweliad arall yn un o'r epistolau. Pe bai yr Actau yn proffesu rhoddi adroddiad cyflawn o lafur a theithiau yr apostol, penderfynai hyny ein heglurhâd o'r epistolau; ond nid yw hyny yn bod. Nid yw yr Actau yn gwneuthur un crybwylliad, nac hyd yn oed yn rhoddi awgrym am y daith i Arabia. Felly, os ceir awgrym am daith arall i Corinth, nid all fod distawrwydd yr Actau yn un wrthddadl i'r gwrthwyneb. Mae Alford yn nodi amryw esamplau ereill o ddistawrwydd yr hanes yn yr Actau, megys y daith genhadol yn Syria a Cilicia, a sylfaeniad yr eglwysi yn y gwledydd hyny, ynghyd â'r lliaws peryglon a nodir ganddo yn 2 *Cor.* xi. 24. Os gadewir allan o'r hanes un daith i Corinth, tra y sonir am ddwy, nid ydyw mewn un modd yn rhyfedd mewn hanes sydd heb amcanu at fod yn gyflawn. Ond y mae yr ail epistol yn cynnwys amryw eiriau sydd yn cyfeirio at ymweliad arall rhwng y ddau a goffeir yn yr Actau. Dywedir yn 2 *Cor.* xii. 14, "Wele y drydedd waith yr wyf yn barod i ddyfod atoch." Meddwl amlwg yr ymadrodd hwn ydyw ei fod ar fin gwneuthur y drydedd daith i Corinth:—nid fod hwn yn drydydd bwriad ganddo. Ond y mae y peth yn cael ei osod tu hwnt i ddadl yn 2 *Cor.* 13. 1; "Y drydedd waith hon yr ydwyf yn dyfod atoch." Dywed hefyd yn 2 *Cor.* ii. 1; "Eithr mi a fernais ynof fy hun na ddelwn drachefn mewn tristwch atoch;" ond rhy brin y gellir golygu ei ymweliad cyntaf â Corinth yn ymweliad "mewn tristwch." Yn hytrach, cymmerodd rhywbeth le yn yr eglwys, ar ol ei ymweliad cyntaf, yn achosi tristwch iddo ef a hwythau, ac yn galw am ail ymweliad—am yr hwn ni sonir yn yr Actau—oddi wrtho. Y golygiad mwyaf tebygol ydyw, i'r apostol, ar ol clywed gan deulu Chloe, ac ereill, am yr afreoleidd-dra oedd yn eu mysg, ysgrifenu llythyr atynt, yn yr hwn yr annogai hwynt i beidio "ymgymmysgu â godinebwyr:" ond heb fod yn foddlawn ar hyn o gais i ddiwreiddio y drwg—drwg yr amgylchid hwy gan gynnifer o demtasiynau cryfion iddo—iddo yn ddiysymmwth, heb un bwriad blaenorol, dalu ymweliad byr â'r ddinas. Ac fel nad ydyw yr Actau yn rhoddi adroddiad am yr ymweliad, felly nid yw y llythyr ar gael o fewn y canon.

Mae hyn etto yn destyn cryn ddadl, A ddarfu iddo anfon llythyr arall atynt heb law y ddau sydd yn y canon? Sylfaenir y farn gadarnhaol ar 1 *Cor.* v. 9; "Mi a ysgrifenais atoch mewn llythyr, na chydymgymmysgech â godinebwyr." Mae amryw yn dal yn gryf mai y llythyr hwn—yr Epistol Cyntaf—ydyw y llythyr mewn golwg. Profa Macknight y gall *té epistole* arwyddo "y llythyr hwn." Mae y fannod, yr hon a ragddodir yma gyda "llythyr," ebe Clenard, i'w chymmeryd yn gyfystyr â'r rhagenw dangosiadol; felly y mae "y llythyr" yn gyfystyr â "y llythyr hwn." Y mae yn amlwg fod enghreifftiau o hyn yn Ngroeg y Testament Newydd: gwel *Mat.* xxiv. 32, "Dysgwch ddammeg," hyny yw, y ddammeg hon: *tés odón* yn *Act.* ix. 2, am "y ffordd hon," &c. Nid oes un ystyriaeth ieithyddol, gan hyny, yn milwrio yn erbyn y golygiad a amddiffynir gan laweroedd, sef mai at yr un epistol ag a ysgrifenai y pryd hwnw y mae y cyfeiriad. Etto y mae rhywfaint o rym yn y ddadl y buasai yn afreidiol iddo wneuthur y chwanegiad, *en té epistolé*, gyda golwg ar yr epistol yr ydoedd yn ei ysgrifenu ar y pryd. Ond y prif ddadl ydyw, fod yr apostol yma yn galw eu sylw at orchymyn pennodol o'i eiddo mewn llythyr atynt—yr hwn orchymyn nid yw i'w gael yn y llythyr presennol. Nid ydyw yn bossibl, ebe Ellicot, cyfeirio yr ymadrodd penodol, "Na chydymgymmysgech â godinebwyr," at yr hyn sydd yn flaenorol yn *adn.* 2, neu *adn.* 6; ac nis gellir tybied fod y geiriau yn golygu y gorchymyn a rydd yr apostol yn awr y waith gyntaf. Y brif ddadl ar yr ochr arall ydyw, fod yn dra annhebygol y buasai epistol o eiddo Paul yn myned ar goll i eglwys Dduw: dadleuir hefyd, os bu y cyfryw lythyr, fod yn debygol y gwnaethai rhywun sylw o hono yn oesoedd boreuaf yr eglwys. Ond attebir yr wrthddadl gyntaf yn foddhaol, dybygem, trwy ddywedyd nad yw yn annhebygol i amryw o fân lythyrau yr apostolion fyned ar ddifancoll. Gwelir, wrth edrych ar ffeithiau ac ar debygoliaethau, yn lle goddef i dybiau blaenorol ormesu ar ein barn, fod yn bur hawdd ac yn dra thebygol i'r cyfryw beth ddigwydd. Onid yw yn fwy na phossibl fod yr apostol Paul wedi ysgrifenu amryw lythyrau o nodwedd yr un at Philemon? Yr oedd ei dueddfryd mor serchiadol, ac yn amser ei garchariad yn Rhufain yr oedd cyfleusderau gohebiaeth rhwng y brif ddinas a'r taleithiau mor liosog, fel mai y casgliad naturiol yw, fod yr apostol yn dwyn yn mlaen ohebiaeth eang â chylch mawr o gyfeillion. Cawn hefyd, yn 1 *Cor.* xvi. 3, ddarfod iddo ysgrifenu llawer o lythyrau ar faterion neilldiol nad ydynt yn awrjar gael, ac na buont erioed yn cael cylchrediad yn yr eglwysi. Byddai meddwl fod pob ysgrif o eiddo yr apostol wedi ei chadw yr un mor ddisail ag a fyddai tybied fod ei holl eiriau ar gael.—*Alford's Prolegomena.* Ac yn erbyn yr wrthddadl y buasai yn annhebygol i'r cyfryw lythyr ddiangc heb i neb o'r ysgrifenwyr Cristionogol wneuthur un cyfeiriad ato, gellid atteb fod y llythyr, yn ol pob tebyg, mor fyr, ac yn ymwneyd yn gwbl âg achos neilldiol mewn eglwys neilldiol, fel ag i syrthio yn fuan i ebargofiant, heb gael mwy o sylw nag a fwriedid iddo ar y pryd. Gwelir yn nechreu y ddau epistol sydd ar gael, eu bod hwy yn cael eu hanfon, nid at eglwys Corinth yn unig, ond hefyd "at yr holl seintiau sydd yn Achaia." Y mae un llythyr ffugiedig ar gael yn yr Armeniaeg, yn proffesu bod yn eiddo Paul at eglwys Corinth; a dichon fod yn hyn awgrym, mor bell ag y mae yn myned, fod crediniaeth yn bod er yn foreu ddarfod i'r apostol anfon mwy o lythyrau na'r ddau sydd ar gael at yr eglwys yn Corinth.—*Smith's Dictionary.*

III. SEFYLLFA YR EGLWYS YN CORINTH.

Y mae yn hawdd casglu oddi wrth y darluniad blaenorol o gymmeriad Corinth pa beth oedd peryglon penaf yr eglwys yno. "Yr oedd y nifer mwyaf o'r dychweledigion at Gristionogaeth yn Roegiaid; ac yn mhob oes yr oedd y Groegiaid yn cael eu nodweddu gan hoffder o ddamcaniaeth, gan orwagedd a rhysedd, a chan ysbryd ymbleidio. Gallesid disgwyl i eglwys wedi ei ffurfio o'r fath ddynion o'r cyfryw nodweddau, gyda chryn nifer o Iuddewon ynddi, wedi eu haddysgu yn nghanol paganiaeth goeth, yn cael eu cylchynu gan bob temtasiwn i rysedd, eu haddysgu i edrych ar bleser fel daioni i ymgyrhaedd ato, a'u dylanwadu ar bob llaw gan athronwyr a gau athrawon —arddangos yr un nodweddau ag a ddygir ger ein bron mor eglur yn yr epistol hwn."—*Hodge.* Bu ymweliad Apolos â Chorinth yn achlysur i ddarostwng yr apostol yn eu golwg. Er fod mater ei addysg yr un, etto yr oedd ei ddull o addysgu yn wahanol, a'i araethyddiaeth yn fwy cydunol â'u chwaeth. Y mae yn eglur hefyd fod yno rai wedi bod yn amcanu iselu yr apostol yn eu golwg. Daeth i'w mysg ddysgawdwyr Iuddewig, gyda llythyrau canmoliaeth o eglwysi ereill (2 *Cor.* iii. 1), y rhai a gyrchent at eu cymmeradwyaeth eu hunain fel eu hamcan uchaf, ac er mwyn boddhau chwaeth y Corinthiaid, a chwanegent at yr efengyl bethau anghydrywiol â hi, er heb ymwrthod yn llwyr â'r efengyl. Disgrifia yr apostol hwynt fel adeiladwyr anghelfydd, yn adeiladu coed, gwair, a sofl, ar y sylfaen a osodwyd ganddo ef. Y gau athrawon hyn oedd achos ei flinderau penaf; dioddefai fwy yn ei ysbryd oddi wrth gynllwynion dichellgar y brodyr gau nag oddi wrth wrthwynebiadau mwy agored ei gaseion cyhoeddus ef a'r efengyl. Dilynent ef yn mhob lle, gan geisio dinystrio yr hyn a adeiladodd efe. Ofer fuasai iddynt ei wynebu ef ei hunan; ond yn ei absennoldeb yr oeddynt yn llwyddo i wneuthur drygau mawrion. Un o'u hystrywiau yn mhob lle—ac yn Corinth yn neilldnol—oedd diraddio yr apostol, gan wybod mai y ffordd fwyaf uniongyrchol i leihau ei ddylanwad oedd bychanu ei awdurdod. Tafient ammheuon am ei apostoliaeth, a sicrhaent nad oedd o ogyfuwch awdurdod âg eiddo y deuddeg a fuont yn myned i mewn ac allan gyda'r Iesu. Nid ydyw yn hysbys beth oedd eu dysgeidiaeth; ond y mae yn sicr eu bod yn rhoddi y flaenoriaeth i Pedr, ac yn edrych ar Paul fel ymyrwr diawdurdod; ac fe allai, mai yr achos o hyn oedd natur dysgeidiaeth Paul ar ryddid yr efengyl, ac ar gyraddoldeb y Cenedl-ddyn a'r Iuddew yn yr Eglwys Gristionogol. Dichon fod eu hysbryd maleisus, a'u cynllwynion dichellgar, yn waeth na'u haddysg, er fod yr olaf yn anghysson a disylwedd, ac felly yn gyfryw na ddaliai y prawf trwy dân.

Oddi ar hyn y cyfododd yr ymbleidiau yn yr eglwys: "A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, fod pob un o honoch yn dywedyd, Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; minnau yn eiddo Apolos; minnau yn eiddo Cephas; minnau yn eiddo Crist;" 1 *Cor.* i. 12. Byddem dan orfod o fyned i ormod meithder pe gwnaem sylw o'r amrywiol dybiau ag y dadleuir drostynt gan yr esbonwyr Ellmynaidd ar y pleidiau hyn. Yr ydym yn barnu fod yr olwg a gymmerir gan yr esbonwyr Saesneg ac Americaidd arnynt yn llawer mwy sobr, ac yn cyttuno yn well â hanes blaenorol yr eglwys yn Corinth. Y mae golygiad Hodge, Ellicot, Alford, &c., o ran sylwedd, fel y canlyn:—Nid yw yn ymddangos fod yr adnod uchod yn cyfeirio at bleidiau pendant, ond yn hytrach at *ysbryd* plaid—yr ysbryd hwnw sydd yn y diwedd yn ymgorphori mewn pleidiau neilldnol. Dywediadau personau, nid yr eiddo pleidiau, oedd, "Myfi ydwyf eiddo Paul," &c. Llawer llai yr ydym i feddwl fod yr apostol yn gwneyd achos tybiedig: y mae yn hytrach yn llefaru am sefyllfa oedd yn bod; yr oedd yno mewn gwirionedd rai yn proffesu eu hunain yn ganlynwyr Paul, ereill yn edmygwyr Apolos, &c. Ond y mae y golygiad fod yr apostol yn enwi ei hunan, ac Apolos, a Chephas, ond yn golygu ereill yn bresennol, heb neb yn ei gefnogi. Yn awr, yr oedd yn Corinth liaws yn proffesu eu hunain yn ganlynwyr i Paul; ac nis gallasai dim fod yn fwy naturiol. Efe a sylfaenodd yr eglwys yno (1 *Cor.* iii. 6), ar ei ail daith genhadol. Bu yn aros yn y ddinas ddeunaw mis, ar y cyntaf yn nhŷ Aquila a Phriscila, ac yna yn nhŷ y proselyt Iustus. Y rhai a ddywedent mai eiddo Paul oeddynt, oedd y Cenhedloedd a ddychwelasid i'r ffydd Gristionogol trwy ei weinidogaeth. Naturiol oedd i'r rhai a oleuwyd ac a ddygwyd i'r iawn trwy ei weinidogaeth, edrych mwyach ato ef fel eu hathraw. Cydnabyddent ei awdurdod apostolaidd, a glynent wrth ei athrawiaeth. Gan fod y rhai hyn o'r Cenhedloedd, yr oedd hefyd yn naturiol iddynt roddi y pwys mwyaf ar yr hyn a ymddangosai iddynt hwy fel yn hynodi dysgeidiaeth yr apostol, sef y rhyddid y mae Cristionogion wedi eu galw iddo. Yr apostol Paul, yn anad un o'r apostolion, oedd yn deall rhyddid yr efengyl oreu; a'r Cristionogion o fysg y Cenhedloedd oedd yn gallu cydymdeimlo fwyaf â'r rhyddid hwnw. Mor bell a hyn yr oedd y rhai a lynent wrth Paul yn eu lle Etto, y mae yn sicr eu bod wedi cario y gwirionedd hwn i eithafion. "Fel y mae yn wastad yn bod gyda rhai ymbleidgar," ebe Alford, "yr oeddynt hwythau yn rhoddi gormod o bwys ar arferion a dywediadau o eiddo Paul ag oeddynt ynddynt eu hunain yn ddibwys. Nid ydyw yr apostol yn ymdrin yn athrawiaethol â'r blaid hon, am nad oedd angen am hyny; etto, y mae yn eu cynnwys yn yr un cerydd yn y pennodau cyntaf o'i epistol, ac yn dangos nad oedd ganddo ef un amcan i ennill anrhydedd personol iddo ei hun, ond i'w hadeiladu yn unig ar Grist." Dywed Hodge hefyd yn gyffelyb am danynt—"Yr oeddynt yn dueddol i gario rhyddid yr efengyl i eithafion, i edrych yn ddibwys ar bethau oeddynt bechadurus, ac i ammharchu ammheuon a phetrusder y gweiniaid." Y mae yn hawdd, yn y lle nesaf, cael syniad (1 *Cor.* i. 18; xvi. 12) lled benderfynol o barth y rhai a ddywedent eu bod yn eiddo Apolos. Yn fuan wedi ymadawiad Paul o Corinth, daeth yr Alexandriad Apollos yno, wedi iddo gael ei addysgu yn fanylach yn yr efengyl gan Acwila a Phriscila yn Ephesus. Nis gall dim fod yn fwy sicr na bod addysg Apolos yr un yn gwbl o ran ei sylwedd a'r eiddo Paul, a bod y cydymdeimlad mwyaf rhyngddynt â'u gilydd; etto, gan fod Apolos yn ymadroddwr hyawdl, ac yn gwneuthur mwy o ddefnydd o'r dull rheithyddol oedd mor ddeniadol i'r Corinthiaid, diammheu ei fod yn fwy derbyniol gan y rhai a ymofynent am "eiriau denu, a doethineb ymadrodd." I'r cyfryw rai, yr oedd presennoldeb corphorol yr apostol yn wan, a'i ymadrodd yn ddirmygus. Yr

oedd y gwahaniaeth hwn oedd rhwng y ddau yn cael ei gymmeryd gan y dosbarth hwn yn achlysur i roddi pwys gormodol ar addurniadau areithyddol, ar y dull o addysgu yn hytrach nag ar fater y ddysgeidiaeth; yr hyn a feir gan yr apostol yn niwedd y bennod gyntaf a dechreu yr ail o'r epistol hwn. Gellid tybied hefyd mai at hyn y cyfeirir yn 1 *Cor.* xv. 12; "Ac am y brawd Apolos, mi a ymbiliais lawer âg ef am ddyfod atoch chwi gyda'r brodyr: eithr er dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod yr awr hon; ond efe a ddaw pan gaffo amser cyfaddas." Gwelir yma fod gan Paul ymddiried yn Apolos, a serch cryf ato; a gellir tybied mai yr achos o'i ammharodrwydd i ddyfod atynt, yn ol cais taer yr apostol, oedd fod ei ymweliad blaenorol wedi bod yn achlysur o'r ymbleidiaeth yma yn yr eglwys. Y mae yr un mor debygol mai y rhai oeddynt eiddo Cephas oedd y Cristionogion o'r Iuddewon, ar y rhai y gadawodd y gau athrawon Iuddewig, y rhai a ddaethant i Corinth gyda llythyr canmoliaeth (2 *Cor.* iii. 1), argraph niweidiol. Yr oeddynt hwy, fel y gwelsom o'r blaen, yn wrthwynebwyr i Paul yn bersonol, ac yn amcanu yn mhob peth ei ddarostwng yn ngolwg yr eglwysi, gan dafiu ammheuon o barth i'w awdurdod apostolaidd, a dyrchafu y deuddeg i'r dyben o'i iselu ef. Ac fel cynnrychiolydd y deuddeg, rhoddent y lle uchaf i Cephas. Gwelir oddi wrth y ddau Epistol at y Corinthiaid fod yr athrawon hyn yn Hebreaid (2 *Cor.* xi. 22), yn proffesu bod yn weinidogion Crist (2 *Cor.* xi. 23), yn apostolion gau (2 *Cor.* xi. 13), yn weinidogion Satan, ac yn trin gair Duw yn dwyllodrus. Ymddengys, oddi wrth 1 *Cor.* ix. 1—3, a 2 *Cor.* xii. 11, 12, eu bod yn gwadu apostoliaeth Paul, am nad oedd yn un o'r deuddeg. Ac er mwyn codi eu hunain i safle uwch nag ef, hònent eu bod yn ganlynwyr i Pedr, y cyntaf o'r apostolion. Yr oeddynt hefyd yn cyhuddo Paul o ansefydlogrwydd a diffyg purdeb: 2 *Cor.* i. 17—24. Yn awr yr oedd yn haws i'r gau athrawon dichellgar hyn arwain y Cristionogion Iuddewig ar gyfeiliorn na'r Groegwyr dychweledig. Trwy fod eu hunain yn Iuddewon ac yn Iuddewaidd, yr oedd ganddynt fantais i weithio ar ragfarnau Cristionogion o'u cenedl eu hun. Yr oedd eu hen ragfarnau cenedlaethol yn glynu i ryw fesur wrth yr Iuddewon ar ol iddynt gofleidio y ffydd Gristionogol; ac felly, yr oedd yn hawdd eu dattod oddi wrth y rhai a ymffrostient eu bod yn ddilynwyr i'r dysgawdwr oedd yn fwyaf rhydd oddi wrth y cyfryw ragfarnau. Yr oedd eu dull o feddwl a theimlo yn wahanol i'r rhai a lynent wrth Paul ac Apolos. Nid oeddynt yn alluog i gydymdeimlo â syniadau y cenedloedd Cristionogol ar ryddid yr efengyl. Yr oedd rhywfaint o'u hen barch i osodiadau Moses yn parhau; nis gallent ar unwaith ymddattod yn llwyr oddi wrthynt. Fel y gellir gweled oddi wrth *pen.* viii., ix., a x., o'r epistol hwn, yr oeddynt yn gwahaniaethu oddi wrth y rhai oeddynt yn "eiddo Paul" ynghylch bwydydd a aberthasid i eilunod. Gelwir hwy yn frodyr gweiniaid, â'r rhai y gorchymynir i'r Cenhedloedd a ddeallent ryddid yr efengyl yn well i gyd-ddwyn. Dewisent gyfenwi eu hunain ar enw Cephas;—apostol yr enwaediad oedd eu harweinydd; ei weithredoedd ef oedd rheol eu hymddygiadau. Barna Ellicot fod edmygwyr Pedr yn cael eu nodweddio gan fwy o chwerwder ysbryd na'r pleidiau ereill; ond dylid cofio fod gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r gau athrawon Iuddewig. Nid athrawon oeddynt, ond aelodau. Ac er fod yn debygol fod y gau athrawon wedi cael mwy o ddylanwad ar y rhan Iuddewig o'r eglwys, etto ni ddylid cyfrif i'r olaf yr adgasedd personol at Paul a hynodai y cyntaf. Nid oes un sail i feddwl fod yr Iuddewon Cristionogol yn Corinth wedi gŵyro oddi wrth y ffydd, nac fod eu hymddygiadau yn fwy afreolus na'r blaid Genhedlig, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb; eu trin y mae yr apostol fel brodyr gweiniaid, nid fel rhai dichellgar. Y mae mwy o anhawsder i benderfynu pwy a feddylir wrth y rhai a hònent eu bod "yn eiddo Crist." Ar yr olwg gyntaf, gellid dychymygu, fel y mae rhai wedi gwneuthur, mai dyma yr oreu o'r pleidiau; ond y mae yn sicr fod hyn yn gamsyniad mawr: dyma y rhai mwyaf anfrawdol o'r cwbl; hwy oedd Phariseaid eglwys Corinth; meddylient eu bod yn sancteiddiach na'r gweddill, a'u bod yn sefyll mewn perthynas agosach â Christ na phawb ereill. "Mae y geiriau yn rhoddi ar ddeall," ebe Alford, "eu bod yn ymffrostio o fod yn rhydd oddi wrth ddylanwad pob dysgawdwr dynol, a'u bod yn diystyru awdurdod yr apostol Paul." Gwneir cyfeiriadau atynt yn fynych yn y ddau epistol, ac yn enwedig yn 2 *Cor.* x. 7—11. Y mae rhai yn barnu fod y blaid hon yn dwyn cyffelybrwydd i blaid Pedr, fel yr oedd plaid Apolos i'r eiddo Paul, ac mai Iuddewaidd oedd ei thueddiadau. Dyna olygiad Baur, yr hwn a amddiffynir ganddo gyda medrusrwydd mawr; ond dadleuir yn ei erbyn, pe cangen o blaid Pedr fuasai, y buasai yn debygol iddi ymrestru dan enw rhyw ddysgawdwr dynol. Llawer mwy naturiol yw y golygiad fod y rhai a alwent eu hunain ar enw Crist yn ymddattod oddi wrth Pedr yn gystal a'r eiddo Paul, er mai tuag at Paul y dangosent fwyaf o wrthwynebiad. Golyga Schenkel a De Wette, eu bod yn hòni agosrwydd neilldiol at Grist trwy gyfrwng gweledigaethau. Ond y golygiad a dderbynir yn fwyaf cyffredinol ydyw yr eiddo Neander ac Olshausen; sef, mai tueddiadau gau athronaidd oedd yn eu hynodi—nid rhai Iuddewaidd; nid ysbryd cyfyng, petrusgar, y Cristionogion Iuddewig, ond gor-ryddid paganaidd. Ac y mae yn deilwng o sylw, mai nid ymosod y mae yr apostol yn y llythyrau ar syniadau a thueddiadau Iuddewig, fel y gwna mewn epistolau ereill, ond ar syniadau penrydd—ar y rhysedd hwnw sydd yn ymgodi dan fantell rhyddid Cristionogaeth. I grynhoi y sylwadau blaenorol:—y rhai oeddynt eiddo Paul oedd y dychweledigion o'r Cenhedloedd, y rhai a lynent wrth ei athrawiaeth, ond a garient ei addysg ar ryddid yr efengyl mor bell nes dirmygu petrusder eu brodyr gweiniaid o fysg yr Iuddewon Cristionogol. Y rhai oeddynt eiddo Apolos, oeddynt, o ran sylwedd eu ffydd, yr un, oddi eithr eu bod yn mawrygu Apollos yn fwy na'r apostol ar gyfrif hylithredd ei ddoniau a'i arddull Roegaidd. Y rhai a ddywedent eu bod yn eiddo Pedr, oedd y Cristionogion o dueddiadau mwy Iuddewaidd—"brodyr gweiniaid" yr epistol. Y rhai a hònent berthynas neilldiol â Christ oeddynt yr aelodau mwyaf penrhydd o ran barnau ac ymddygiadau.

Yr oedd cymmeriad yr eglwys hon yn cael ei anurddo gan bethau ereill; ac yn eu mysg, gellir nodi ymddygiadau anniwair ac anweddaidd. Yr oedd afiendid y ddinas yn gadael effeithiau galarus ar yr eglwys. Ac wrth ystyried arferion blaenorol y Cristionogion, a lliosogrwydd a nerth y temtasiynau o'u hamgylch, nid yw yn rhyfedd fod lliaws o'r Corinthiaid Cristionogol yn edrych

ar buteindra yn beth dibwys mewn cymmhariaeth. Yr oedd y llygredigaeth hwn yn ymledu yn dra chyffredinol yn eu mysg, a'r personau euog o hono yn cael eu goddef yn ddigerydd. Y mae hefyd yn debygol fod eu llacrwydd mewn gweinyddiad ceryddon eglwysig yn codi i ryw fesur oddi ar ddiffyg undeb a chydwelediad yn eu mysg. Oddi ar eu harferion blaenorol hefyd y cyfodai yr ysbryd diofal oedd mewn un dosbarth o'r eglwys o barth bwydydd a aberthasid i eilunod. A'r un modd, eu hafreolaeth wrth Fwrdd yr Arglwydd, a'r caniatâd i wragedd ymddangos yn y gynnulleidfa yn ddiorchudd, ac i addysgu yn gyhoeddus; a'r camddefnyddiad o ddoniau ysbrydol oddi ar ysbryd cydymgeisiol. Yr oedd hefyd yn yr eglwys rai yn gwadu yr adgyfodiad, o dan ddylanwad eu syniadau athronaidd blaenorol. Y mae yn dra thebygol mai cofleidwyr yr heresi hon oedd y rhai a ddywedent eu bod "yn eiddo Crist."

IV. AWDWR YR EPISTOL; AC AMSER A LLE EI GYFANSODDIAD.

Y mae yr epistol hwn, a'r ail, yn cael eu priodoli yn gyffredinol i'r apostol Paul. Y mae y ddau yn dwyn cymmaint o ddelw yr apostol, yn eu mater, eu harddull, a'u hysbryd, a'u cyfeiriadau hanesyddol yn cyfatteb mor hollol â'r hanes yn yr Actau, fel y byddai mor afresymol ammheu eu dilysedd ag a fyddai ammheu hanfodiad yr apostol. Yr un mor foddhaol ydyw y dystiolaeth allanol. Clement o Rufain, Polycarp, Yr Epistol at Diognetus, Irenæus, Athenagoras, Clement o Alexandria, ac ereill, a gyfrifant ei awduraeth "i'r apostol bendigedig Paul." A'r un modd am yr ail epistol.

Penderfynir lle cyfansoddiad yr epistol yn *pen.* xvi. 8; "Mi a arosaf yn Ephesus hyd y Sulgwyn." Bernir fod y camsyniad yn yr olygrif, yn mha un y dywedir mai o Philippi y cafodd ei anfon, wedi cael ei achosi trwy gamddeall 1 *Cor.* xvi. 5: "Eithr mi a ddeuaf atoch, gwedi yr elwyf trwy Macedonia," a ddeallwyd gan rai yn gyfystyr âg "Yr wyf yn myned trwy Macedonia." Rhydd hyn oleuni hefyd ar amseriad y llythyr. Awgrymir yn yr ymadrodd dyfynedig fod yn mwriad yr apostol i adael Ephesus ar ol y Sulgwyn, a gellir gweled oddi wrth yr hanes yn yr Actau iddo gyflawni ei fwriad tua Sulgwyn y flwyddyn 57. Ysgrifenwyd yr epistol felly yn gynnar yn y flwyddyn hon—o ddeutu y Pasc, fel y casgla rhai oddi wrth 1 *Cor.* i. 7. Y mae Alford, fodd bynag, yn gwadu fod yn y geiriau hyn sail i'r dybiaeth, er ei fod yn barnu mai yn lled gynnar yn y flwyddyn 57 yr ysgrifenwyd yr epistol.

V. AMCAN, MATER, AC ARDDULL YR EPISTOL.

Yr oedd y Corinthiaid wedi anfon at yr apostol am gyfarwyddyd ar faterion cyssylltiedig â'u bywyd priodasol (*pen.* vii.), a chyda golwg ar fwyd wedi ei aberthu i eilunod (*pen.* viii.—x.); dichon hefyd iddynt ofyn ei gynghor o barth ymddygiad gwragedd yn y cynnulliadau cyhoeddus (*pen.* xi. 3—16), ac o barth doniau ysbrydol (*pen.* xii.—xiv.) Yr oedd efe wedi eu hannog i wneuthur casgliad i'r saint, a hwythau yn ol wedi gofyn ei gyfarwyddyd am y dull goreu i'w wneuthur.—*Alford.*

Ond yr oedd pethau ereill yn galw yn fwy am lythyr oddi wrtho. Yr oedd wedi ei hysbysu gan y rhai oedd o dŷ Chloe am eu hanghydfyddiaethau; a chan yr un rhai, neu ereill, am waith yr eglwys yn goddef y dyn drygionus y cyfeirir ato yn *pen.* v., ac am eu harferiad anghristionogol o ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ynghyd âg am eu hafreolaeth wrth Fwrdd yr Arglwydd. Deallodd hefyd fod rhai o egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth yn cael eu gwadu yn eu mysg. Un amcan i'r epistol hwn oedd rhoddi iddynt y cyfarwyddyd a ofynent, a diwreiddio y drygau a'r cyfeiliornadau oedd yn ymledu yn eu mysg. Amcan arall oedd amddiffyn ei apostoliaeth yn ngwyneb cais y gau athrawon i'w darostwng. Y mae Olshausen yn dosbarthu yr epistol i bedair rhan:—1. Ynghylch ymbleidiau (*pen.* i. v.). 2. Pethau perthynol i'r Cristionogion fel personau unigol, ac yn eu cyssylltiadau teuluaidd (*pen.* v.—x. 33). 3. Cyfarwyddiadau tuag at ddwyn yn mlaen addoliad cyhoeddus yn weddaidd ac mewn trefn. 4. Amddiffyn athrawiaeth yr adgyfodiad.

Ar ryw gyfrif, hwn yw y cyfoethocaf o holl epistolau Paul—o leiaf y mwyaf amrywiol. Y mae ei werth i eglwys Dduw yn codi mewn rhan oddi ar amrywiaeth ei faterion, ac yn enwedig oddi ar y cymmhwysiad a geir ynddo o egwyddorion mawrion yr efengyl at achosion neilltuol, a'r rhai hyny yn achosion ag y gall rhai cyffelyb iddynt mewn rhyw bethau ddigwydd yn fynych. "Yr ydym yn cael yma ddarlun o gynnulleidfa Gristionogol fel yr oedd wedi ymgyfarfod i addoli mewn rhyw oruwchystafell yn nhŷ Acwilla neu Gaius. Yr ydym yn gweled nad oedd yr amserau hyn o ddefosiwn yn diangc heb gael eu llychwino gan wagedd a chynnhyrfiad anianol; etto, ar y llaw arall, canfyddwn y gwrandawr paganaidd yn cael ei ddwysbigo yn ei galon gan hyawdledd ysbrydoledig y prophwyd Cristionogol, dirgelion ei gydwybod yn cael eu dadguddio, ac yntau yn cael ei orchfygu nes y mae yn syrthio ar ei wyneb ac yn addoli Duw. Ni a glywn y rhoddiad diolch a gwresog yn cael ei ddilyn gan yr Amen unllais; ni a welwn y gariad-wledd yn dybenu yn ngweinyddiad y cymmun sanctaidd. Yr ydym hefyd yn dyfod i gyfarfyddiad âg anhawsderau bywyd teuluaidd, anfoesoldeb paganaidd yn llygru yr eglwys, ofergoeledd hirbarhaol, damcaniaeth ryfygus, gŵyrdroad a llygriad hyf ar ryddid Cristionogol."—*Conybeare a Howson.*

YR EPISTOL CYNTAF AT Y CORINTHIAID.

PENNOD I.

Ar ol iddo gyfarch iddynt, a diolch dr ostyngiad, 10 *y mae efe yn eu hannog i undeb;* 12 *ac yn beio ar eu hanghyttunderb hwy.* 18 *Bod Duw yn dyfetha doethineb y doethion,* 21 *trwy ffolineb pregethu;* 26 *ac nad yw efe yn galw y doethion, na'r gallucog, na'r boneddigion, ond* 27, 28, *y ffol, a'r gwan, a'r distadl.*

B. A. 57.

[a] 1 Cor. 3. 9; 9. 1, 2; Ioan 20. 21; Gal. 1. 1; Eph. 4. 11.

PAUL, wedi ei alw *i fod* [a] yn apostol Iesu Grist, trwy

Pennod I.

1—9. Arweiniad i'r epistol, yn yr hwn y mae yr apostol yn anerch y Corinthiaid fel rhai wedi eu sancteiddio yn Nghrist Iesu, ac wedi eu galw i fod yn saint; yn diolch i Dduw am ei ras iddynt, ac yn dadgan ei hyder y byddai iddynt gael eu cynnal hyd y diwedd.

1. *Wedi ei alw.*—Gwel *Rhuf.* 1. 1. *Trwy ewyllys Duw.*—Nid trwy ddewisiad yr eglwys, na galwad y rhai oeddynt o'i flaen yn y swydd, ond trwy osodiad digyfrwng yr Arglwydd. Cyfeirir yma at y cais oedd yn Corinth i iselu ei awdurdod fel apostol. "Ar ei alwad, trwy ewyllys Duw, y gorphwysai ei awdurdod apostolaidd gyda golwg ar yr eglwysi; a hyn oedd sail ei ysbryd aiddgar a gostyngedig gyda golwg arno ei hun."—*Bengel.* Wrth grybwyll ewyllys Duw, y mae yn cau allan bob teilyngdod oddi wrtho ei hun. Pe y gadawsid ef i'w ewyllys ei hunan, ni ddaethai byth yn apostol.—*Sosthenes.* —Nid yr un, fel y tybir, â'r hwn y crybwyllir am dano yn *Act.* xviii. 17. Yr oedd hwn yn enw cyffredin. Yr oedd y person a nodir yma yn adnabyddus i'r Corinthiaid, ac fe allai yn un o'r cenhadau a anfonasid gan yr eglwys at Paul. Er fod Paul yn cyssylltu ereill âg ef ei hun yn y cyfarchiad mewn amryw o'i epistolau, etto nid yw trwy hyny yn eu gosod ar yr un tir—Paul *yr apostol:* Sosthenes *y brawd.*

2. *At eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth.*—Dywed Calvin ar hyn:—"Fe allai yr ymddengys yn ddieithrol fod yr apostol yn rhoddi yr enw 'Eglwys Dduw' ar dyrfa o bobl a ffinid gan gynnifer o anhwylderau, fel y gallesid dywedyd mai Satan oedd yn teyrnasu arnynt, ac nid Duw. Y mae yn sicr nad oedd yn meddwl gwenieithio i'r Corinthiaid; o blegid ysgrifenu y mae dan arweiniad yr ysbryd, yr hwn nid ydyw yn arfer gweniethio. Ond gellir gofyn, pa beth sydd yn gyffelyb i eglwys yn nghanol cynnifer o lygredigaethau? Yr wyf yn atteb, Gan fod yr Arglwydd wedi dywedyd wrtho, "Y mae i mi lawer o bobl yn y ddinas hon, (*Act.* xviii. 9, 10), y mae yntau, gan gadw yr addewid yma o flaen cwyllys Duw, [b] a'r brawd Sosthenes,

[b] Act. 18. 17

2 At eglwys Dduw yr hon sydd [c] yn Corinth, at y rhai a [c] sancteiddiwyd yn Nghrist Iesu, [d] a alwyd yn saint, [e] gyda phawb ag sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist, yn mhob man, o'r eiddynt hwy a ninnau.

[c] 1 Cor. 6. 9—11; Ioan 17. 17—19; Heb. 2. 11.
[d] Rhuf. 1. 7; 1 Thes. 4. 7.
[e] Salm 45. 11 Act. 7. 59 60.

ei feddwl, yn rhoddi y fath anrhydedd ar ychydig nifer o dduwiolion, fel ag i'w cydnabod yn eglwys yn mysg nifer mawr o bobl annuwiol. Heblaw hyny, er fod llawer o ddrygau a chyfeiliornadau wedi ymlusgo i mewn, yr oedd, er hyny, amryw o nodau gwir eglwys etto yn aros. Dylid talu sylw neilluol i'r ymadrodd hwn, fel na byddo i ni ddisgwyl cael yr eglwys, trs yn y byd hwn, yn rhydd oddi wrth bob brycheuyn, neu gyhoeddi pob cymdeithas ag na byddo pob peth o'i mewn yn ol ein meddwl yn annheilwng o'r cyfryw deitl; o blegid y mae meddwl nad oes eglwys o gwbl, lle nad oes purdeb perffaith, yn demtasiwn beryglus. O blegid y mae y dyn a feddylio fel hyn yn sicr yn y diwedd o gilio oddi wrth bawb ereill, gan ystyried ei hunan fel yr unig sant yn y byd, neu osod i fyny sect neilluol mewn undeb âg ychydig o ragrithwyr. Pa sail, gan hyny, oedd gan Paul dros gydnabod eglwys yn Corinth? Am ei fod yn cael athrawiaeth yr efengyl, y gweinyddiad o fedydd a Swper yr Arglwydd yno—yr hyn bethau ydynt y nodau wrth y rhai y dylid barnu eglwys." *Gyda phawb ag sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist.*—Nid yw yn golygu, "a alwyd yn saint" yr un modd "a phawb," &c.; ond fod pawb sydd yn galw, &c., yn cael eu cynnwys yn y cyfarchiad, yn gystal a'r eglwys yn Corinth; yr hyn drachefn sydd yn arwyddo, nid fod yr epistol yn un cyffredinol, fel y tybir gan rai, ond ei fod yn cael ei anfon, yr un modd a'r ail, "at eglwys Dduw yn Corinth, gyda'r holl seintiau y rhai sydd yn holl Achaia." Gwneir y chwangegiad hwn, ebe Alford, er mwyn dangos fod aelodaeth o'r eglwys fawr gyffredinol yn gynnwysedig mewn galw ar enw Crist:—nid mewn cyssylltiad â Paul, Apolos, na Chephas. "Enw cyffredin yw hwn ar yr holl dduwiolion. Dyma un o brif weithrediadau ffydd. Y mae hyn yn brawf o Dduwdod Crist; o blegid y mae 'galw ar' yn un o'r ymadroddion penaf sydd yn dynodi addoliad dwyfol. Dynoda hefyd y broffes gyflawn o ffydd yn Nghrist."—*Calvin. O'r eiddynt hwy a ninnau.*—A gyssylltir gan rai (ac yn eu mysg Calvin) â'n Harglwydd Iesu Grist,

[f] Rhuf. 1. 7. 3 [f] Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

[g] Rhuf. 1. 8. [h] Ioan 10. 30. 4 [g] Yr ydwyf yn diolch i'm Duw bob amser drosoch chwi, am [h] y gras Duw a rodded i chwi yn Nghrist Iesu:

[i] 1 Cor. 4. 7—10; 2 Cor. 9. 11. 5 Am [i] eich bod yn mhob peth wedi eich cyfoethogi ynddo ef, mewn pob ymadrodd, a phob gwybodaeth;

[k] 1 Cor. 2. 1, 2; Act. 18. 5. [l] 1 Cor. 4. 5; Gen. 49. 18; Mat. 25. 1. [m] Phil. 1. 6, 10. 6 Megys [k] y cadarnhawyd tystiolaeth Crist ynoch.

7 Fel nad ydych yn ol mewn un dawn, [l] yn dysgwyl am ddadguddiad ein Harglwydd Iesu Grist:

[n] 1 Cor. 10. 13; Num. 23, 19; Deut. 7. 9; Salm 100. 5; Esa. 11. 5. 8 Yr hwn hefyd a'ch cadarnha chwi hyd y diwedd, yn ddiargyhoedd, [m] yn nydd ein Harglwydd Iesu Grist.

9 [n] Ffyddlawn *yw* Duw, trwy yr hwn y'ch galwyd i [o] gymdeithas ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni.

[o] 1 Cor. 10. 16.

10 Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfan-gyssylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.

11 Canys fe ddangoswyd i mi am danoch chwi, fy mrodyr, gan y rhai *sydd o dŷ* Chloe, fod cynnenau yn eich plith chwi.

12 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, bod pob un o honoch yn dywedyd, Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; minnau yn eiddo Apolos; minnau yn eiddo Cephas; minnau yn eiddo Crist.

eu Harglwydd hwy a ninnau, gyda chyfeiriad at y blaid a hônai ei bod yn fwy nag ereill yn eiddo Crist. Ond y mae y golygiad hwn yn gwneyd y rhagenw *émôn* (ein) o flaen Arglwydd yn ddiangenrhaid. Prin hefyd y gellir meddwl fod yr apostol etto yn gwneyd cyfeiriad at un blaid neilldual. Mwy priodol ydyw edrych arnynt mewn cyssylltiad â *man*—"yn mhob man o'r eiddynt hwy a ninnau"—yn mhob lle o'r eiddynt hwy sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist, ac o'r eiddom ninnau; myfi a Sosthenes, a chwithau y Corinthiaid. Nid oes un sail i olygiad Eichhorn, "yn mhob cynnulleidfa"—yn cyfeirio at ymraniadau y Corinthiaid i wahanol gynnulleidfaoedd; o blegid dangosir, yn *pen.* xi. 18, nad oedd hyny yn bod.—*Alford, Hodge.*

3. Gras ydyw y gwreiddyn, tangnefedd ydyw y ffrwyth. Y mae pwys neilldual yma ar y deisyfiad am dangnefedd iddynt, ar gyfrif sefyllfa ranedig yr eglwys.—*Olshausen.*

4. *Yn Nghrist Iesu.*—Nid trwy Grist Iesu, ond i chwi yn eich undeb âg ef.

5. *Ymadrodd.*—Y gwirionedd a bregethid—gwybodaeth y gwirionedd a ddeallid ac a dderbynid.

6. *Tystiolaeth Crist.*—Yr oeddynt wedi eu cyfoethogi am fod tystiolaeth Crist wedi ei chadarnhau yn eu mysg; ac yr oedd mesur y cyntaf yn gyfattebol i fesur yr olaf. Yn ol eu cadarnhâd yr oedd eu cyfoethogiad. Tystiolaeth Crist a olyga, naill ai tystiolaeth neu ddadguddiad Crist am Dduw, neu dystiolaeth yr apostol am Grist. Yr olaf o bossibl ydyw y meddwl yma. *Cadarnhawyd:*—wedi ymwreiddio yn eich mysg. Cadarnhâd tu mewnol yn eu cred a'u profiad a feddylir; nid cadarnhâd allanol trwy wyrthiau.

7. *Fel nad ydych yn ol:—h.y.*, yn ol i ereill. *Mewn un dawn.*—Dawn neu ras yn yr ystyr eangaf; grasau sanctaidd, yn hytrach na doniau gwyrthiol. Mae hyn yn eglur oddi wrth yr holl adran, yn yr hon y lleferir am rasau tu mewnol Cristionogaeth, nid am y doniau allanol.—*Alford.* Y mae Hodge yn barnu yn wahanol. Heb gau allan y doniau grasol—golygir yma yn fwyaf neilldual y doniau anghyffredinol. Ac yn y doniau hyn nid oedd eglwys Corinth yn ol i un eglwys apostolaidd. Yr oedd i'w beio o herwydd diffyg ei grasau a'i rhinweddau, ond i'w chanmawl am ei doniau. Y mae y gair sydd yn canlyn yn ffafrio y golygiad cyntaf yn fwy. Effaith y gras a roddwyd iddynt ydyw disgwyl am ddyfodiad Iesu Grist; ac y mae hyn yn cael ei gyssylltu â'r gras a dderbyniasant, am mai yn ei ddyfodiad ef y cyrhaeddant y cyflawnder o'r hyn y cawsant yr ernes a'r blaenffrwyth yn y doniau. Ond y mae yn amlwg mai doniau sancteiddiol yr Ysbryd ydyw yr ernes, ac nid y doniau anghyffredinol.

8. *Yr hwn.*—Duw. *Hyd y diwedd.*—Gall arwyddo diwedd einioes, neu ddiwedd yr oruchwyliaeth; *h.y.*, hyd ddiwedd y cyfnod oedd i flaenori ymddangosiad Crist; neu, cyhyd ag y bydd eisieu eich cadarnhau a'ch sefydlu—hyd oni byddoch allan o berygl llwfrhau a syrthio. Y mae y gair, ebe Bengel, mewn cyferbyniad â'r dechreuad a awgrymir yn yr ymadrodd 'y gras Duw a roddwyd i chwi,' yn *adn.* 4.

9. *Ffyddlawn yw Duw:*—i gyflawni ei addewidion. Sail ei hyder am gadarnhâd y saint yn Corinth hyd y diwedd oedd, nid eu nerth hwy eu hunain, ond ffyddlondeb Duw. Cyfarcha hwy, yn *adn.* 2, fel rhai wedi eu galw i fod yn saint; "a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe." *Trwy yr hwn:*—gan yr hwn. *Cymdeithas ei Fab ef.*—Y mae y gair gwreiddiol *coinônia* yn dynodi cydgyfranogiad; cymmun corph Crist ydyw cyfranogiad o gorph Crist. Y prif beth yn y cymmundeb a olygir yma ydyw cyfranogiad o ogoniant Crist. "Cymdeithas ei Fab ef," ebe Meyer, "ydyw gogoniant meibion Duw; canys byddant yn gyd-etifeddion â Christ, a chânt eu gogoneddu gydag ef;" *Rhuf.* viii. 17, 23; 2 *Thes.* ii. 14. Dichon fod yr apostol yn crybwyll am y cymmundeb er mwyn dangos pa mor anghydweddol â sefyllfa y saint ydyw ymbleidiau.

10—16. *Yr ymbleidiau yn Corinth.*—Dangosir pechadurusrwydd a ffoledd y cyfryw ymbleidiau am fod Crist ei hun yn ammhossibl i'w ranu. Gan nad oes ond un Pen, nis gall fod ond un corph. Y mae yr eglwys i fod yn un, am nad oes ond un Crist. Ac yn yr ail le, am nad oes un dysgawdwr yn ganolbwynt undeb i'r eglwys.

[2]Cor.11.4. 13 A [p]ranwyd Crist? ai Paul a groeshoeliwyd drosoch? neu ai yn enw Paul y'ch bedyddiwyd chwi?
[q]Adn. 4; 1Cor.14.18; 2Cor. 2.14. 14 [q]Yr ydwyf yn diolch i Dduw, na fedyddiais i neb o honoch, ond Crispus a Gaius;
15 Fel na ddywedo neb fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun.
16 Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas: heb law hyny nis gwn a fedyddiais i neb arall.
17 Canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu; [r]nid [r]1 Cor. 2, 4, 13; 2 Pedr1.16. na wnelid croes Crist yn ofer. [s]1 Cor. 2. 5

Nid gan ei dysgawdwyr y cafodd yr eglwys ei phrynu a'i gwaredu, ac nid yw ei haelodau yn y bedydd wedi rhwymo eu hunain i ymlynu wrth y naill ddysgawdwr mwy na'r llall. Yr oedd yr ymbleidiau hyn, gan hyny, yn cyfodi ar un llaw, oddi ar anghof o'r berthynas sydd rhwng yr holl Gristionogion fel eu gilydd â Christ; ac ar y llaw arall, oddi ar gamsyniad am y berthynas sydd rhwng credinwyr a'u dysgawdwyr.—*Hodge.*

10—12. Gwel *y rhagymadrodd. Y rhai sydd o tŷ Chloe.*—Y mae yn eu henwi er mwyn dangos fod ganddo dystiolaeth ddigonol o barth yr anghydfyddiaethau oedd yn eu mysg. Nid yw yn hysbys pa un ai brodor o Corinth, ynte o Ephesus, ydoedd y fenyw Gristionogol hon; na phwy oedd y rhai a berthynent i'w thŷ, ai plant neu weision.

13. Seiliau ymlyniad Cristionogion wrth Crist rydyw mai efe ydyw "*y* Crist, Mab y Duw byw"—mai efe a'u prynodd, a'u bod wedi eu cyflwyno iddo yn y bedydd. Y mae efe yn haeddu pob arglwyddiaeth arnynt ar gyfrif ei urddas personol, ei gariad atynt yn nhrefn y prynedigaeth, a'u hymgyfammodiad âg ef. A rhoddir mynegiad i'r tair ystyriaeth yn y cwestiwn triphlyg yma. "Fel nad all fod ond un Crist, un Prynawdwr, ac un bedydd, felly nis gall Cristionogion gael eu rhanu heb dori y rhwymyn sydd yn eu cyssylltu wrth Grist, ac wrth eu gilydd."—*Hodge.* Nid oes un sail i ddarlleniad Lachmann—'Y mae Crist wedi ei ranu yn eich mysg;' ac y mae pob esboniad ar yr enw *Crist,* oddiwrth Person Crist (megys efengyl, neu eglwys Crist), yn gwanychu yr ystyr. *A'i yn enw Paul?*—Os nad ê, nid yn sicr yn enw Cephas neu Apolos, o blegid Paul a sefydlodd yr eglwys yno.

14, 15. "Y mae Rhagluniaeth Duw yn rheoli yn fynych yn y digwyddiadau, am ba rai y canfyddir y rheswm yn y canlyniad." *Bengel.*—Sylwa yr un awdwr, fod Paul wedi bedyddio y personau mwyaf parchedig—nid oddi ar uchelgais, ond am eu bod hwy yn mysg y rhai cyntaf a gredasant. Er fod y gommisiwn apostolaidd yn gorchymyn bedyddio yn gystal a dysgu, etto dysgu oedd y rhan benaf o'i waith; ac yn yr ystyr yma y dylid deall, "Nid anfonodd Crist fi i fedyddio ond i efengylu;" sef, i efengylu yn fwyaf neilltuol. Felly nid oes i ni feddwl ei fod yma yn tynu oddi wrth urddas neu effeithiolrwydd y sacrament o fedydd. Nid cymmhariaeth o'r fath hwng bedyddio a dysgu sydd yn y geiriau. Yn unig dangosir mai gwaith penaf y dysgawdwyr sbrydoledig oedd addysgu, a hyny nid er mwyn yr eglwys mewn un oes, ond trwy yr holl oesoedd, tra yr oedd digon o ddysgawdwyr iaddol yn yr eglwys yn meddu ar gymmhwysder i fedyddio; a chan y gallesid addysgu llaweroedd yn unwaith, ac nas gallesid bedyddio personau ond o un i un, yr oedd Paul, yr hwn a ragorai yn y ddawn o addysgu, yn dewis cyfyngu ei hun yn benaf i'r gwaith y cymmhwyswyd ef mewn modd arbenig i'w gyflawni. — *Calvin. Fel na ddywedo.*—Amcan Duw, ac nid amcan Paul ei hun, ar y pryd.

16. Stephanas oedd blaenffrwyth Achaia yn Nghrist (1 *Cor.* xvi. 15). Y mae y crybwylliad am y personau hyn yn y cyssylltiad hwn, wrth ei gymmharu â'r crybwylliadau ereill am danynt yn yr Actau a'r epistolau, yn ffurfio un o'r enghreifftiau prydferthaf yn *Paley's Horæ Paulinæ,* o'r cyttundeb anfwriadol a geir mor fynych rhwng yr Actau a'r epistolau, a rhwng yr epistolau a'u gilydd. Gwelir yma fanylder gofal yr apostol wrth ysgrifenu :—daeth i'w gof, ar ol enwi Crispus a Gaius, am Stephanas hefyd. Dichon fod Stephanas ar y pryd gydag ef; a rhag bod rhywrai ereill wedi eu bedyddio ganddo nad oedd yn cofio ar y pryd am danynt, y mae yn chwanegu, "Heb law hyny nis gwn a fedyddiais i neb arall." Gwelir yma hefyd fod yr ysgrifenwyr sanctaidd hyd yn oed dan arweiniad ysbrydoliaeth yn weithgar o ran ymroddiad eu meddyliau eu hunain: appeliai yr apostol at ei gof pwy a fedyddiwyd ganddo: etto nid oedd ysbrydoliaeth yn ei wneuthur yn hollwybodol, er yn anffaeledig, yn yr hyn a ddywedai. Pe y dangosid iddo fedyddio rhyw rai ereill na enwir yma, y mae yn amlwg na byddai hyny yn anghysson â chywirdeb perffaith yr adroddiad hwn. Y mae Hodge yn sylwi ar yr ymadrodd "tylwyth Stephanas" fel y canlyn: —"Dan yr hen oruchwyliaeth, pa bryd bynag y proffesai un Iuddewiaeth, neu yr ymaflai yn nghyfammod Duw megys un o'i bobl, byddai ei holl blant a'i dylwyth yn cael eu cynnwys yn y cyfammod, ac yn derbyn yr enwaediad fel arwydd o hono. Yn gyffelyb o dan yr efengyl: pan ymunai Iuddew neu Genedlddyn â'r Eglwys Gristionogol, byddai ei blant yn derbyn bedydd, ac yn cael eu cydnabod hefyd fel aelodau o'r eglwys."

17—31. AMDDIFFYNIAD PAUL I'W BREGETHIAD.

17. *Nid i fedyddio.*—Ymddengys fod yn rheol gan yr apostolion i adael y gwaith o fedyddio i ereill; *Act.* x. 48, 'Efe a orchymynodd eu bedyddio." Yr oedd, ac y mae y cyhoeddiad o wirionedd yn uwch na'r gweinyddiad o ddefodau eglwysig allanol, er iddynt fod yn osodiadau dwyfol. Prif achos adfeiliad yr eglwys ydyw cyfnewid y drefn yma: gosod defodau uwchlaw gwirionedd, gwneuthur yr allanol yn fwy pwysig na'r mewnol. Ond nid oes yma reswm dros edrych yn isel ar y sacramentau: nid oedd neb yn fwy eofn na Phaul yn ei wrthwynebiad i'r syniad fod enwaediad yn hanfodol i iachawdwriaeth; etto, cydnebydd y budd mawr oedd yn gyssylltiedig âg ef. A'r un modd, er nad yw y bedydd yn hanfodol i iachawdwriaeth, yr un modd a ffydd, etto y mae yn bechadurus a pheryglus dibrisio a bychanu yr ordinhâd. *Nid mewn doethineb ymadrodd.*—Mae Calvin yn tyhied fod yr apostol yma yn rhagflaenu gwrthddadl.

[1] Adn.23,24; 1 Cor. 2. 2; [2] Gal. 6. 12 —14. [3] 2 Cor. 10. 4, 5.

18 Canys [t]yr ymadrodd am y groes, i'r rhai colledig, ynfydrwydd yw; eithr [u]i ni, y rhai cadwedig, nerth Duw ydyw.

19 Canys ysgrifenedig yw, Mi a ddyfethaf ddoethineb y doethion, a deall y rhai deallus a ddileaf.

[w] 2 Sam. 15. 31; 16. 23; 17. 14, 23; Iob 12. 17, 20, 24; Esa. 44. 25; Rhuf. 1. 22.

20 Pa le *y mae* y doeth? pa le *mae* yr ysgrifenydd? pa le *y mae* ymholydd y byd hwn? [x]oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd?

21 Canys o herwydd yn noethineb Duw, [y]nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu.

[y] Mat.11.25 Luc 10. 21 Rhuf. 1. 20 —22, 28.

22 O blegid y mae yr Iuddewon yn gofyn arwydd, a'r Groegwyr yn ceisio doethineb:

23 Eithr nyni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb;

Dywed o'r blaen mai i efengylu yr anfonwyd ef, mai dyma waith arbenig ei swydd; ond gallesid gwrthddadleu pa fodd yr oedd yn ddiffygiol o'r addurniadau areithyddol, ac o'r athroniaeth a fuasent yn ngolwg y Corinthiaid yn gymmaint o gynnorthwy iddo yn ei waith o addysgu. I hyn y mae yr apostol yn atteb, fod ei ddull ef—dull diaddurn, wrth ei olygu o safle rheitheg goeg Corinth—yn fwy cydweddol âg amcan yr efengyl, sef dwyn doethineb y byd hwn i waradwydd. *Doethineb ymadrodd.*—Golyga athroniaeth yn fwy nag areithyddiaeth, y mater yn hytrach na'r dull. Y mae yr ymadrodd canlynol yn awgrymu hyny. Gwnelsid croes Crist yn ofer, yn fwy trwy ddwyn yn mlaen faterion ammherthynasol iddi.

18. Y rheswm pa ham y pregethai yr ymadrodd am y groes, ac nid doethineb ddynol—athrawiaeth y groes yn unig sydd effeithiol er iachawdwriaeth. *Nerth Duw ydyw:*—cyfrwng nerth Duw. —*Meyer.* Perffeithrwydd nerth Duw; y nerth ei hun, yn yr amlygiad mwyaf mawreddog o hono.—*Alford.* Dengys yr apostol, yn *Rhuf.* i. 16, 17, pa fodd y mae yr efengyl yn allu Duw—"Canys ynddi hi y dadguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd." Y rhai colledig ydynt y rhai sydd yn myned ar goll; y rhai, trwy anghredinïaeth, ydynt ar y ffordd i golledigaeth dragwyddol: y rhai cadwedig ydynt y rhai sydd yn cael eu cadw, sydd yn ffordd cadwedigaeth.—*Billroth.* Y gwahaniaeth rhwng y golygiad hwn a'r un a gyflëir yn y darlleniad Cymraeg ydyw, fod yr olaf yn dynodi y ddwy sefyllfa fel yn yr amser a aeth heibio—wedi eu cadw, wedi eu colli, tra y mae y cyntaf yn eu golygu fel yn y presennol—yn cael eu cadw, yn cael eu colli.

19. Parhâd o'r rheswm pa ham nad efengylai "mewn doethineb ymadrodd;" canys y mae wedi ei ragfynegu y diddymid y cyfryw ddoethineb. Y mae y dyfyniad o *Esa.* xxix. 14: er fod yr Arglwydd mewn amrywiol fanau ereill, yn y prophwydi, fel y sylwa Hodge, wedi dysgu y genedl fod rheswm a doethineb ddynol yn annigonol i arwain dynion i wybodaeth o ffordd iachawdwriaeth.

20. Herfeiddiad i'r doeth o bob cenedl i wrthbrofi ei haeriad fod Duw wedi gwneuthur doethineb y byd hwn yn ynfydrwydd. *Y doeth:*—yn gyffredinol, o bob cenedl, ac yn cynnwys y ddau ddosbarth dilynol. *Yr ysgrifenydd:*—yr Iuddew dysgedig. Dodwyd yr enw yn gyntaf ar ysgrifenyddion brenin, y rhai a barotöent y deddfau ac a'u cyhoeddent (2 *Sam.* viii. 17); wedi hyny ar esbonwyr y gyfraith. *Ymholydd y byd hwn:*—yr athronydd Groegaidd. Y mae yr enw *ymholydd* yn dra nodweddiadol o'r *Sophists.* Y mae arddull yr adnod hon, a chyflead y geiriau, yn dra thebyg i *Esa.* xxxiii. 18; a dichon fod geiriau y prophwyd o flaen meddwl yr apostol; etto, nid oes yma ddyfyniad. Nid oedd yn y naill amgylchiad gyfattebiaeth i'r llall.

21. Y mae yr adnod hon a'r rhai dilynol yn cynnwys ail ddadl yr apostol er profi annigonedd doethineb ddynol. Wedi i hanes y byd brofi anallu y ddoethineb ddynol, y mae y Goruchaf yn dwyn ei dystiolaeth i'w haflesoldeb trwy ddefnyddio ffolineb pregethu fel moddion iachawdwriaeth. *Yn noethineb Duw.*—Y mae dau olygiad ar hyn:—1af, Yn ordeiniad doeth goruchwyliaethau Duw [*Alford*]. Yr oedd yn amlygiad o ddoethineb ddwyfol i adael dynolryw am oesoedd i chwilio am oleuni ac ymofyn am adferiad trwy eu gallu a'u doethineb eu hunain er mwyn eu hargyhoeddi o'u hanallu, a dwyn dwyfoldeb yr iachawdwriaeth yn fwy i'r golwg. 2il, Yn nghanol amlygiadau o ddoethineb Duw. "Gwaith y greadigaeth, yn yr hwn y rhoddir dadguddiadau ardderchog o ddoethineb Duw." —*Calvin.* Er fod dynolryw yn cael eu cylchynu gan amlygiadau o ddoethineb ddwyfol mewn creadigaeth a rhagluniaeth, etto, methasant â chyrhaedd hyd at wybodaeth achubol o Dduw. —*Hodge.* Yr un yw golygiad Bengel, oddi eithr ei fod ef yn chwanegu addysg y prophwydi a ddadguddiadau natur. "Yr oedd y rhai a glywsant y prophwydi yn eu diystyru. Y rhai ni chlywsant hwynt oeddynt o'r fath ysbryd fe y buasent yn eu diystyru." *Ffolineb pregethu* —pregethu yr hyn a ystyrid gan y byd yn ffolineb.

22. Helaethiad eglurhaol ar yr adnod o'r blaen. *Arwydd.*—Gwel ar *Mat.* xii. 38. Nid yw y beia a gynnwysir yma ar yr Iuddewon yn arwydd fod yn ammhriodol gofyn am wyrth fel cadarnhâd i ddwyfol anfoniad dysgawdwr. Nid yw Gideon yn cael ei feio am ofyn arwydd dyblyg *Barn.* vi. 37, &c. Condemnir Ahaz am wrthod gofyn arwydd: *Esa.* vii. 12. Bai yr Iuddewon oedd eu bod yn gofyn arwydd i ddybenion drwg —nad oeddynt yn gwneuthur defnydd o'r arwyddion a roddid iddynt, a bod eu hawydd am arwyddion yn anghymmedrol. Nid oedd arnyn eisieu credu: yr oedd natur yr arwyddion gofynent am danynt yn gyfryw ag a fuasai y amddifadu eu crediniaeth o bob rhinwedd *Doethineb.*—Prawf a foddlonai eu rheswm yr athrawiaeth ei hun. Ni chredent ddim he ei ddeall.

23. *Eithr nyni.*—Nid yw yr ymadrodd am groes yn cyfarfod â chais y naill na'r llall. Y oedd cyhoeddiad o iachawdwriaeth trwy Gri

24 Ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw.

25 Canys y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion; a gwendid Duw yn gryfach na dynion.

26 Canys yr ydych yn gweled eich galwedigaeth, frodyr, nad llawer *o rai* doethion yn ol y cnawd, nad llawer *o rai* galluog, nad llawer *o rai* boneddigion, *a alwyd.*

27 Eithr Duw a etholodd ffolbethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion; a gwan-bethau y byd a etholodd Duw, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn;

28 A phethau distadl y byd, a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw, a'r pethau nid ydynt, fel y diddymai y pethau sydd;

29 Fel [a] na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef.

30 Eithr yr ydych chwi o hono ef [b] yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn [c] gyfiawnder, ac yn [d] sancteiddrwydd, ac yn [e] brynedigaeth:

31 Fel, megys ag y mae yn ysgrifenedig, [f] Yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.

[b] Esa. 45.17; Ioan 15. 1—6; Rhuf. 16. 7, 11; Eph. 2. 10. [c] Salm 71. 15, 16; Dan. 9. 24; Rhuf. 5. 19, 21; 2 Pedr 1. 1. [d] Ioan 17. 17—19; Gal. 52. 2-24; 1 Ioan 5. 6. [e] Gal. 3. 13; Col. 1. 14; Dad. 14. 4. [f] 1 Cron. 16. 10, 35; Salm 105. 3; Gal. 6. 13, 14; Phil. 3. 3.

PENNOD II.

1 *Y mae efe yn dangos fod ei bregeth ef, er nad ydoedd yn dwyn gyda hi oddidowgrwydd ymadrodd, 4 neu ddoethineb dynol: eithr yn sefyll mewn 4, 5 nerth Duw; ac yn rhagori cymmaint 6 ar ddoethineb y byd yma, 9 a synwyr dynol, ag nas 14 gall y dyn anianol mo'i deall.*

A MYFI, pan ddaethum atoch, frodyr, a ddaethum nid yn ol godidowgrwydd ymadrodd, neu ddoethineb, gan fynegu i chwi [a] dystiolaeth Duw. B. A. 57.

[a] Esa. 8. 20; 2 Tim. 1. 8; Dad. 19. 10.

2 Canys [b] ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.

[b] Ioan 17. 3; Gal. 3. 1; 6. 14; Phil. 3. 8-10

---

i ei groeshoelio yn *dramgwydd* i rai a ddislient am Fessiah fel tywysog daearol a ysgfawr; ac nis gallasai dim fod yn fwy thdarawiadol i falchder a hunan-dyb y ddwl Groegaidd nag adferiad i'r byd trwy li, darostyngiad, ac angeu y Gwaredwr.

. Gallu Duw, a doethineb Duw.—Gofyniad dewon a Groegwyr yn cael eu hatteb yn y ldau uchaf yn mherson a gwaith yr Arydd Iesu. Y mae yr ymadrodd am y groes cynnyrchu effeithiau nas gallai dim ond u anfeidrol eu cynnyrchu. Yma y mae yr langosiad uchaf o allu a doethineb.

. Cadarnhâd o *adn.* 24. *Ffolineb Duw*:—i ai yr hyn a elwir gan ddynion yn ffolineb, r ymadrodd am y groes; neu yr amlygiadau o ddoethineb ddwyfol. Os ydyw yr amlygu isaf o ddoethineb ddwyfol yn ddoethach ynion, pa faint mwy yr amlygiad mawr yn engyl?

. Y mae yr adnod hon yn sefyll mewn cysiad, yn ol barn Hodge, â'r holl gyd-destynau laen, ac yn cynnwys prawf newydd o afles- b doethineb ddynol. Appelia at eu profhwy eu hunain, "Nad llawer," &c. Barna rd i'r gwrthwyneb—fod ei chyssylltiad yn uniongyrchol â'r adnod o'r blaen: fel prawf ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a ndid Duw yn gryfach na dynion, y mae yn eu sylw at y ffaith fod yr Eglwys Gristion- , yr hon sydd mor lawn o'r doethineb a'r a dwyfol, trwy breswyliad yr Ysbryd o'i n, yn cael ei gwneyd i fyny yn benaf, nid o loeth a galluog, ond o rai a ddiystyrid gan rd. Ymddengys y golygiad cyntaf i ni yn unol âg ymresymiad yr apostol: ychydig o'r hion a alwyd, yr hyn sydd yn brawf nad v doethineb y byd hwn o un gwasanaeth i awdwriaeth.

, 28. Y Cristionogion cyntaf oeddynt, gan af, o ddosbarth y caethion a'r rhai iselradd. *adl*:—yn cyfeirio at ffaith, sef eu bod o dras neu haniad isel. *Dirmygus*:—yn cyfeirio at y wedd yr edrychid arnynt gan ereill. *Pethau nid ydynt*:—yn myned yn mhellach na'r gair *dirmygus*; yr oeddynt fel pe na buasent yn bod yn nghyfrif ereill. Pan y meddyliai y byd am danynt, ni wnai ond eu dirmygu; ond anfynych y sylwai arnynt—y "pethau nid ydynt" oeddynt. Rhy brin yr oedd y doeth a'r galluog yn adnabod eu hanfodiad—yr oeddynt islaw eu dirmyg.

30. *Yr ydych*:—gyda chyfeiriad at eu cyfrifiad yn ngolwg y byd fel "pethau nid ydynt." *A wnaethpwyd i ni gan Dduw.*—"Yr hwn oedd i ni oddi wrth Dduw yn ddoethineb," &c.—*Alford. Yn ddoethineb*:—yn ei gnawdoliaeth, ei fywyd, eiiweithredoedd, ei ddysgeidiaeth, ei farwolaeth, ei adgyfodiad, ac yn anfoniad ei Ysbryd, &c. *Yn gyfiawnder*:—trwy yr hyn y cyfiawnheir ein personau ger bron Duw. *Yn sancteiddrwydd*:—trwy oruchwyliaethau ei Ysbryd. *Yn brynedigaeth*:—yr holl waredigaeth trwy Grist; neu, os ydyw i'w wahaniaethu oddi wrth gyfiawnder a sancteiddrwydd, golyga gwblhâd y waredigaeth yn mhrynedigaeth y corph.

Pennod II.

1. Y mae yr apostol yma yn myned yn mlaen gyda'i amddiffyniad f'w ddull o bregethu. Gan mai trefn Duw ydyw achub dynolryw trwy yr efengyl, ac nid trwy ddoethineb ddynol, daeth Paul i fysg y Corinthiaid yn unig fel cyhoeddwr tystiolaeth, ac nid fel areithiwr nac athronydd. Ymddibynai yn gwbl ar eglurhâd yr Ysbryd a nerth. *Myfi*:—fel un o'r "nyni," yn *adn.* 23. *Ymadrodd, neu ddoethineb*:—yn cyfeirio yn y naill at ffurf ei ddysgeidiaeth, ac yn y llall at ei mater.

2. *Canys*:—cadarnhâd o'r ymadrodd o'r blaen. Ni ddaeth atynt yn ol godidogrwydd ymadrodd neu ddoethineb, am na phenderfynai, &c. *A hwnw*, &c.—Ei unig amcan wrth fyned i Corinth oedd pregethu Crist fel un wedi ei groeshoelio;

3 A mi a fum yn eich mysg mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr.
[a] Act. 20. 17. 4 A'm [c] hymadrodd, a'm pregeth i, ni *bu* mewn geiriau denu,
[d] Rhuf. 15. 19; [e] Thes. 1. 5, 1 Pedr 1. 12. o ddoethineb dynol, [d] ond yn eglurhâd yr Ysbryd a nerth:
5 Fel na byddai eich ffydd nid fel dysgawdwr, neu esampl, neu ddyn perffaith.—*Hodge.* Dyma swm yr efengyl: Iesu Grist—y *person*; a hwnw wedi ei groeshoelio—*ei waith a'i swydd.*

3. Cyfeirir yma, nid at ei wendid corphorol, fel y gwneir mewn manau ereill, ond at sefyllfa ei feddwl. Ymddangosai yn eu mysg dan ddwfn deimlad o'i wendid a'i annigonedd. Ond bernir yn wahanol gan ereill. Dywed Alford, er addef mai y golygiad uchod a feddylir yn fwyaf neilldnol, etto y cyfeirir yma at ei wendid mewn ymadrodd: ond gan nad oedd yr apostol yn ymddibynu yn y mesur lleiaf ar odidogrwydd ymadrodd, nis gallasai ei ddiffyg yn yr hyn a fuasai yn boddio y Corinthiaid weithio ofn a phryder yn ei feddwl. Golyga yr erlidigaethau y dioddefai oddi wrthynt, yn ol barn Chrysostom; ond nid oes un sail i feddwl felly.

4. *Ymadrodd, a'm pregeth*:—y cyntaf yn golygu ei ymadroddion cyfeillachol, yr olaf ei bregethiad cyhoeddus.—*Hodge, Olshausen.* Yn hytrach, y mae y cyntaf (*logos*) yn golygu ei ymresymiad, ei athrawiaeth; yr olaf, cyhoeddiad (yr hyn ydyw ystyr y gwreiddiol) o ffeithiau.—*De Wette. Nâ bu mewn geiriau denu.*—Pan y mae yr apostol yn y fan hon, a manau ereill, yn dadgan ei ymwrthodiad âg areithyddiaeth Corinth, nid oes i ni feddwl fod ei ymadroddion yn amddifad o hyawdledd. Y gwir yw, nad oedd dim cymmhariaeth rhwng hyawdledd areithwyr Corinth â'r eiddo Paul, wrth eu barnu yn unig fel areithwyr. Mae y llythyrau at y Corinthiaid yn cynnwys i'r hyawdledd uchaf, ac felly pregethau yr apostol. Hyawdledd yr apostol oedd hyawdledd mater a theimlad; nid cyffelyb i reitheg goeg ddisylwedd Corinth. Ond gan fod yr olaf yn cyd-daraw âg ysgafnder cymmeriad y Corinthiaid, y mae yn amlwg nas gallasai ymadrodd cwbl wrthwyneb—areithyddiaeth lawn o sylwedd a difrifwch—fod yn gydnawsâ'u chwaeth. *Eglurhâd yr Ysbryd a nerth*:—eglurhâd y gwirionedd, yr hyn a wneir gan yr Ysbryd Glân, yr hwn y mae ei weithrediadau yn amlygiad o allu Duw.

6—16. Er yn ymwrthod â doethineb ddynol, etto yr oedd yr apostol a'i frodyr yn llefaru doethineb—ond doethineb uwch nag eiddo y byd hwn. Y mae y ddoethineb hon o Dduw; wedi ei dadguddio gan yr Ysbryd; ac yn ddeilladwy yn unig i'r rhai ysbrydol.

6. Wedi i'r apostol, yn y bennod o'r blaen, broû annigonedd doethineb y byd hwn, ac yn y bennod hon ddangos ei fod o fwriad yn peidio ei dysgu, y mae yma yn rhagflaenu pob tybiaeth am dano, ei fod yn ddiystyr o ddoethineb. Yn hytrach, yr oedd yn llefaru y ddoethineb uchaf mewn bod—doethineb Duw, a doethineb benaf Duw. A gellir sylwi yn mhellach, nad oedd yr apostol yn dirmygu doethineb y byd hwn yn ei lle ei hun, ond yn unig yn dangos nad oedd yn ddigonol er achubiaeth dynion. *Yn mysg rhai perffaith.*—Y mae dau olygiad ar ystyr "y rhai perffaith:"—1af. Cristionogion addfed mewn doethineb dynion, [a] ond mewn nerth Duw.
[a] Act. 16. 1 2 Cor. 4. 6. 7.
6 A doethineb yr ydym ni yn [f] ei llefaru yn mysg rhai perffaith: eithr [g] nid doethineb y byd hwn, [h] na thywysogion y byd hwn, y rhai [b] sydd yn diflanu.
[f] 2 Cor. 4. Eph. 2. Iago 3. [g] Salm 2. [h] Act. 4. 25. [b] 1 Cor. 1.

dirnadaeth a barn, y rhai y perthyn bwyd cr iddynt (*Heb.* v. 16), ac sydd ganddynt, o herwyd cynnefindra, synwyr wedi ymarfer i ddosbarth drwg a da. Dyma olygiad De Wette, Benge Alford, &c. 2il, Y credinwyr, y rhai ysbrydo mewn gwrthgyferbyniad i'r anianol a'r annu chweledig. Dyma olygiad Chrysostom, Calvin Grotius, Olshausen, a Hodge. Y ddau brif reswr o blaid y 1af ydynt (*a*), Mai enw arferol ar Gris ionogion addfed ydyw "rhai perffaith:" (*b*) ceir yr un dosraniad yn 1 *Cor.* iii. 1. Y rhesyma o blaid yr 2il olygiad ydynt:—(*a*), Mai nid rhai bach yn Nghrist oedd yn cyfrif athrawiaet Paul yn ffolineb; ond doethion y byd hwn. fod dirnadaeth ddofn o athrawiaeth yr efengy yn foddion i ddwyn ei gogoniant yn fwy i golwg, etto y mae pob crediniwr, gan nad fain fyddo ei amgyffred ysbrydol, yn ei chyfrif y ddoethineb: oddi ar ei hadnabod fel trefn syd yn deilwng o ddoethineb a gallu Duw, y mae y ei derbyn. "I chwi y rhai a alwyd, yn Gris gallu Duw, a doethineb Duw:" y mae yr efengy yn ddoethineb yn ngolwg yr holl alwedigio (*b*), Y cyferbyniad yn yr holl gyd-destyna sydd rhwng y cadwedig a'r colledig, y rhai alwyd a'r rhai sydd heb eu galw; nid o gwl rhwng credinwyr perffaith a chredinwyr an mherffaith. (*c*). Os wrth y perffaith y golygi Cristionogion uchel, mewn gwrthgyferbyniad rai bach yn Nghrist, felly, nid yr efengyl, fel cyfryw, ydyw y ddoethineb hon, ond rhy ddosbarth uchel o'i gwirioneddau. Ac yn wi dyma ydyw golygiad y rhai a amddiffynant y eglurhâd cyntaf. Y mae De Wette yn nodi en hreifftiau allan o epistolau Paul o'r ddoethine hon—y bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith megys y cyferbyniad rhwng Adda a Christ, a ymdriniaeth ar arfaeth a rhagwybodaeth Duw yn yr Epistol at y Rhufeiniaid; y dirgelwch a berson a gwaith yr Iachawdwr yn yr Epistol a y Colossiaid a'r Ephesiaid; ac offeiriadaeth Cris yn yr Epistol at yr Hebreaid. Ond dadleuir y erbyn hyn, mai nid rhyw ddosbarth neilldnol wirioneddau, dealladwy yn unig i gredinwyr amgyffred ysbrydol cryf, ydyw doethineb Duw ond yr oll o'r efengyl, ac hyd yn oed ei ffeithia hawdd eu deall; Crist wedi ei groeshoelio ydy gallu Duw a doethineb Duw. Am yr efengyl hun, yr holl efengyl, y sonia Paul yn y benno o'r blaen ac yn hon. Nid yw yn gwneuthur u math o gymmhariaeth rhwng un rhan a rha arall o'r gyfundraeth—rhwng "egwyddorion d chreuad ymadroddion Duw," a'r gwirionedds uchaf: yr unig gymmhariaeth a wneir gandd ydyw yr un rhwng doethineb Duw a doethine y byd hwn. Heb law hyny, gofyna Hodge, rai ydynt yr athrawiaethau uchaf hyny a bre ethid gan Paul i'r ychydig yn unig? Nid o mewn Cristionogaeth ddim uwch nag a ddysg yn yr epistol hwn, ac yn yr epistolau at y Rhu einiaid a'r Ephesiaid; ac y mae yr epistol hyn yn cael eu hanfon at gorph yr eglwysi. Pa sonir am laeth a bwyd cryf, cyfeirir at wahan

7 Eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch, *sef y ddoethineb* guddiedig, yr hon a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd [i]i'n gogoniant ni.

8 Yr hon [k]nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn: o herwydd pes adwaenasent, ni chroeshoeliasent [l]Arglwydd y gogoniant.

9 Eithr fel y mae yn ysgrifenedig, [m]Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, [n]y pethau a ddarparodd Duw i'r [o]rhai a'i carant ef.

edr 5. 0. t 11.25; n 7. 48.

[i] Act. 3. 15; Iago 2. 1. [k] Ioan 8. 16; 1 Pedr 1 12. [l] Mat. 25 34; Heb. 11.16. [m] Rhuf. 8. 28; Iago 1. 12; 2. 5; [o] 1 Ioan 4.19.

lliau o addysgu, nid at wahanol fathau o rawiaeth.—*Hodge.* Y mae yr apostol, gan y, yn defnyddio yr ymadrodd "rhai perth" yn gyfystyr â "dynion addas i farnu;" addasrwydd hwn ydyw bod yn feddiannol ar s ysbrydol, yr hyn a berthyn i bawb o'r t, yn gymmaint a bod Ysbryd Duw yn trigo idynt. Wedi y cwbl, yr ydym yn teimlo awsder i dderbyn y naill na'r llall o'r golygau hyn. Onid yw y golygiad cywir yn gorld yn y canol rhwng y ddau? Ar un llaw, y e yn anhawdd credu fod arwyddocâd y "rhai ffaith" yn wahanol i'w arwyddocâd mewn edd ereill; ac ar y llaw arall, mae yn amlwg, y sylwa Hodge, mai nid y gymmhariaeth a ydyw yr un rhwng Cristionogion addfed a istionogion babanaidd; ac y mae, dybygem, n mor amlwg mai wrth *ddoethineb* y golygir holl efengyl, fel o ddechreu yr ymdriniaeth, nid rhyw wirioneddau neilltuol y golly ngir gwyddoredig (*the initiated*) i mewn i wybodaeth o honynt. Yr esboniad yr ydym ni, gan y, yn tueddu ato ydyw, mai wrth y "rhai ffaith" y meddylir Cristionogion o amgyffred rydol uchel, i'r rhai y mae ardderchogrwydd efengyl fel trefn sydd yn ffrwyth doethineb w yn dadguddio ei hun yn fwyaf; etto, na uir allan Gristionogion o amgyffred is; o gid y mae yr holl rai a alwyd, i fesur mwy lai, yn adnabod yr efengyl fel doethineb w; ond dywedir yma "i'r rhai perffaith," mai iddynt hwy mewn graddau arbenig y e ei doethineb yn ymddangos. Felly, y meriadau mwyaf eithafol a gyferbynir yma id y Cristion addfed a'r Cristion babanaidd, y Cristion addfed a'r Iuddew digred, neu y egwr uchelfrydig. "Mae yr hyn a leferir ym yn cael ei gyfrif yn ddoethineb gan yr l alwedigion, ond yn enwedig gan y rhai yaf perffaith o honynt." Yn y golygiad hwn, wir at ystyr y geiriau, heb wneuthur cam â'r destyn. *Nid doethineb y byd hwn:*—neu, thineb nid o'r byd hwn: nid i'r byd hwn y hyna; nid yn y byd hwn y gwreiddiodd: hyrhaeddir hi gan y rhai sydd o'r byd. *Na wysogion y byd hwn:*—y doeth a'r galluog, 1 *Cor.* i. 26. *Y rhai sydd yn diflanu:*—o'r un r ag 1 *Cor.* i. 28; "Fel y diddymai y peth- ydd." Yr un gair sydd yno am "ddiddymu" sydd yma am "ddiflanu." Y meddwl yw, tywysogion y byd hwn yn cael eu gwaraddo neu eu diddymu, trwy waith Duw yn is pethau gweiniaid a dirmygus y byd, gan adael hwynt heibio. Nid oes yma un cyfad at natur wag a diflanedig pob mawredd arol. Y mae y golygiad uchod yn well na'r lo Olshausen, sef fod tywysogion y byd hwn i croeshoelio yr Iesu, ond iddynt gael eu radwyddo trwy ei adgyfodiad a llwyddiant chos.

Mewn dirgelwch, sef y ddoethineb guddiedig. ae yr ymadrodd cyntaf, "ddoethineb mewn elwch," yn fwy cymmhwysadwy at ddyn; doethineb mewn ffurf ddirgel, yn ammhossibl i'w hamgyffred gan ddyn yn ngrym ei allu naturiol; tra y mae yr ymadrodd "doethineb guddiedig" yn cyfeirio at Dduw; yn guddiedig yn Nuw, yn ei fôd anfeidrol, ac felly o darddiad dwyfol.—*Olshausen. Cyn yr oesoedd.*—Mae yn rhagori ar ddoethineb y byd hwn mewn hynafiaeth. *I'n gogoniant ni:*—gyda chyfeiriad at ddifianiad tywysogion y byd hwn.

8. Prawf hanesyddol o anwybodaeth tywysogion y byd hwn o ddoethineb Duw. Yr oedd lleiddiaid Crist yn gynnrychiolwyr o fawrion y byd; Pilat, o'r tywysogion Cenhedlig; a'r archoffeiriaid, o'r rhai Iuddewig.

9. Saif yr adnod hon mewn gwrthgyferbyniad i'r adnod flaenorol. Nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn mo'r ddoethineb hon; ond dadguddiwyd hi gan Dduw i'r rhai a'i carant ef, yn gymmaint ag na buasai egnïon dynol byth yn ei chael allan. Y mae "llygaid," "clust," a "chalon," yn dynodi y gwahanol ffyrdd ag y mae y meddwl yn meddiannu gwybodaeth. Nid oes air yn gwbl fel hwn yn yr Hen Destament. Cynnullir yr adnod o amryw fanau, ac yn benaf o *Esa.* lxiv. 4, ac mewn rhan o *Esa.* lii. 15, a lxv. 17:—ond nid yw yr amrywiad yn fwy ymaoddi wrth y gwreiddiol nag a geir mewn dyfyniadau ereill. Barna Alford nad yw yr apostol yn dyfynu allan o'r prophwyd er mwyn cadarnhau y mater dan sylw, ond yn unig am fod y geiriau yn gyfaddas. Ond y mae darlleniad y *Vulgate* yn cyfleu yr un ystyr ag sydd gan Paul. Hyn ydyw y golygiad y dadleua Calvin drosto: dywed fod yr hyn a ganlyn yn gyfieithiad cywir o'r Hebraeg—"O Dduw! ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust; ond ti yn unig a wyddost y pethau yr wyt yn arfer eu gwneuthur i'r rhai a ddisgwyliant wrthyt." Dengys y prophwyd, ar ol crybwyll pa fodd yr oedd y Goruchaf yn gofalu am ei bobl yn mhob cyfyngder, fod ei gymmwynasau iddynt tu hwnt i ddirnadaeth y deall dynol. Dyma yn wir y syniad amlwg a gyfleir yn y darllenïad Cymraeg: "Ac erioed ni chlywsant, ni dderbyniasant â chlustiau, ac ni welodd llygad, O Dduw! ond tydi, yr hyn a ddarparodd efe i'r neb a ddisgwyl wrtho;" *Esa.* lxiv. 4. Ond gellid gofyn, ebe Calvin, Pa beth sydd a wnelo gwaredigaethau tymmorol Duw i'w bobl â phethau ysbrydol—testynau ymdriniaeth yr apostol yma? Gellid atteb, nad oedd yn annaturiol i'r prophwyd ymddyrchafu ar bwys pethau daearol at y pethau nefol, o ba rai yr oeddynt yn arwyddion neu bortreadau. Ond gwell gan Calvin feddwl mai cyfeirio yn unig y mae y prophwyd at ddaioni tymmorol y Goruchaf i'w bobl. Ond dylem, gyda'r daioni hwn, sylwi ar ei achos, a'i ffynnonell; a'r achos a'r ffynnonell ydyw gras a daioni natur Duw. "Pwy bynag, gan hyny, a farno y pethau hyn yn gywir, a edrycha arnynt, nid yn eu hagwedd noeth yn unig—nid yn unig ynddynt eu hunain, ond yn eu perthynas â chariad tadol Duw; a arweinir fel hyn oddi wrth ffafrau tymmorol at fywyd

[p] Amos 3. 7; Eph. 3. 3, 5; 1 Pedr. 1. 12; [q] Esa. 48. 16; Ioan 14. 26. [r] Rhuf. 8. 26, 27. [s] Dan. 2. 22; Rhuf. 11. 33—36. [t] Rhuf. 11. 34.

10 Eithr [p] Duw a'*u* heglurodd i ni [q] trwy ei Ysbryd: canys [r] yr Ysbryd sydd yn chwilio pob peth; ïe, [s] dyfnion bethau Duw hefyd.

11 Canys pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond ysbryd dyn yr hwn sydd ynddo ef? [t] felly hefyd, pethau Duw nid edwyn neb, ond Ysbryd Duw.

[u] Rhuf. 8. 15, 16.

12 A nyni a dderbyniasom, nid ysbryd y byd, [u] ond yr Ysbryd sydd o Dduw; [x] fel y gwypom y pethau a rad-roddwyd i ni gan Dduw.

[x] Ioan 1. 14, 15.

13 Y rhai yr ydym yn eu llefaru hefyd, nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol, [y] ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân; gan gyd-farnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol.

[y] 1 Pedr 1.

14 Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn [z] y pethau sydd o Ys-

[z] Ioan 14.

tragwyddol. Gellid hŏni hefyd fod yr ymresymiad yma o'r lleiaf at y mwyaf; o blegid os ydyw deall dyn yn anaddas i fesur rhoddion daearol Duw, pa faint llai y gall ymgyrhaedd hyd uchder y nef?" Nid oes un sail i olygiadau y tadau, megys fod y geiriau wedi eu cymmeryd o ryw hen brophwyd [*Chrysostom, Theodoret*], neu o lyfr apocryphaidd, a elwir *Dadguddiad Elias*. Nid yw y geiriau, "Y mae yn ysgrifenedig," yn cael eu cymmhwyso ond at eiriau ysgrythyrol yn unig.

10. *Yn chwilio*:—yn dynodi y wybodaeth a ennillir trwy ymchwiliad, yn hytrach na'r ymchwiliad ei hun. Yr un gair a ddefnyddir am wybodaeth Duw o galonau plant dynion: *Rhuf.* viii. 27; *Dad.* ii. 23. *Dyfnion bethau Duw*:—dirgelion dyfnaf ei fod; ei berffeithiau, a'i gynghor. Y mae yr Ysbryd, ar gyfrif y wybodaeth berffaith yma, yn gymmhwys i ddadguddio y ddoethineb oedd erioed yn guddiedig yn Nuw. Profa yr adnod hon dduwdod a phersonoliaeth yr Ysbryd; priodolir iddo wybodaeth na pherthyna i neb ond Duw, a gweithrediad priodol i berson.

11. Prawf o'r ammhossiblrwydd i neb ond Ysbryd Duw weinyddu gwybodaeth o bethau Duw. Fel nas gall neb wybod meddyliau dyn ond y dyn ei hunan, felly nis gall neb wybod meddyliau Duw ond Duw ei hunan; gan hyny, Person Dwyfol yn unig a all amlygu meddyliau Duw. Y mae Hodge ac Alford yn sylwi nad oes yma un sail dros gario y gyffelybiaeth yn mhellach, fel pe byddai yr un berthynas mewn pethau ereill rhwng yr Ysbryd a Duw, ag sydd rhwng ysbryd dyn a dyn.

12. *Ysbryd y byd.*—Nid yw yn golygu, "yr ysbryd sydd yr awrhon yn gweithio yn mhlant yr anufudd-dod" [*Alford*], neu dueddfryd daearol a bydol [*Estius*], ond yn benaf doethineb ddynol. Nid rheswm oedd ffynnonell y wybodaeth a ddysgid gan yr apostol. Edrychir yma ar y byd, nid yn ei wrthwynebiad i Dduw, yn gymmaint ag yn ei ddyeithrwch oddi wrtho.—*Stanley.*

13. Fel mai nid o'r byd y mae ein doethineb, felly nid o'r byd y mae ein dull o'i mynegu. Mae ein iaith yn ffrwyth yr Ysbryd a roddwyd i ni. *Yn eu llefaru hefyd.*: Nid yn unig, yr ydym ein hunain yn gwybod, ond yr ydym hefyd yn cyfranu i ereill y pethau sydd o Ysbryd Duw. *Gan gyd-farnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol.*—Nid yw y gair gwreiddiol am "gydfarnu" yn arwyddo cymmharu, yn ol y testyn Saesneg. Y mae ei ystyr yn agosach i egluro, deongli (fel yn y Deg a Thrigain, yn *Gen.* xl. 8, 16; *Dan.* v. 12, 15, 26). Mae y darlleniad Cymraeg yn gyfieithiad llythyrenol o'r gwreiddiol, er nad yw, fe allai, yn trosgiwyddo ystyr y gwreiddiol gydag eglurder. Mae *sugcrino* yn golygu y weithred o uno pethau gan y meddwl; eu huno mewn trefn i'w cymmharu, neu i egluro a gosod allan peth wrth beth arall. Y golygiad cyffredin yma ydyw, cyssylltu geiriau ysbrydol â phethau ysbrydol; yr hyn ni wnaem pe y defnyddiem eiriau doethineb ddynol i ddysgu pethau ysbrydol. Mae yn ddiammheuol mai y gair oedd gyssylltiedig yn meddwl yr apostol â *pneumatikois* (ysbrydol) oedd *logois* (geiriau). Heb fod yma gyttundeb grammadegol, y mae yr gyttundeb hefyd â'r mater dan sylw: "Nid geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol, ond ddysgir gan yr Ysbryd Glân, gan egluro pethau ysbrydol â geiriau ysbrydol." "Dywed ei fod yn cymmhwyso pethau ysbrydol at bethau ysbrydol, trwy addasu y geiriau at y materion. Mae yn gosod allan ddoethineb nefol yr Ysbryd mewn arddull dysyml, sydd yn gyfryw o natur ag sydd yn dwyn delw gweithrediad yr Ysbryd."—*Calvin.* "Cyfaddasa y geiriau a pwngc, fel ag y mae y pethau a ddysgir gan a'i ddull o'u dysgu yn ysbrydol."—*Beza.* Nid oes un sail i olygiadau rhai o'r tadau a'r eid Grotius, sef egluro pethau ysbrydol yr Destament gyda phethau ysbrydol y Newyd Nid am y ddau Destament y mae yr apostol llefaru, ond am fater ei ddysgeidiaeth, a geir ei ddysgeidiaeth. Y mae rhai yn gwrthddadl yn erbyn yr esboniad hwn, am ei fod yn ffai y golygiad mwyaf caeth ar ysbrydoliaeth golygiad sydd yn gwneuthur yr ysgrifenwyr peiriannau goddefol. Ond nid ydym yn tein un grym yn yr wrthddadl; o blegid, os gall Ysbryd reoli meddyliau dyn, heb ei ysbeilio ryddid, pa ham nas gall hefyd reoli ei ymadro Y mae dull dynion o feddwl mor amrywiol ydyw eu dulliau o gyfleu eu meddyliau; cyntaf ydyw yr achos o'r olaf: os oedd yn bos i'r ysgrifenwyr gadw eu teithi meddyliol hunain o dan arweiniad yr Ysbryd, yr un hawdd iddynt oedd cadw hynodion eu ddull.

14. *Dyn anianol.*—Gwel ar "corph, enaid ysbryd;" 1 *Thes.* v. 23. "Wrth y 'dyn anianol' golyga yr apostol, nid y dyn sydd wedi roddi i'w drachwantau, ond unrhyw ddyn s heb ei gynnysgaethu â'r hyn sydd uwch galluoedd natur. Ymddengys hyn oddi wrth ymadrodd cyferbyniol, 'dyn ysbrydol.' Pe yna yr enaid (*psuchi*, y gair y ffurfir 'anianol hono) i diriogaeth natur; ond y mae yr ysb yn oruwchnaturiol."—*Calvin.* "Yr anian ydyw yr hwn sydd heb gymmundeb â Duw *Stanley.* Gwna Alford y sylwadau canlyno "Y dyn anianol ydyw yr hwn a lywodrae yn mhob peth gan y *psuchi*, yr enaid—*the animal soul.* Ynddo ef y mae yr ysbryd heb ei fyw gan Ysbryd Duw, ac yn cael ei gadw dan gan y *psuchi*, gyda'i ewyllysiau a'i synia fath fel y dywedir ei fod yn amddifad o ho

bryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall *eu* gwybod, o blegid yn ysbrydol y bernir hwynt.

al. 6. 1; ol. 1. 9. 15 Ond [a] yr hwn sydd ysbrydol, sydd yn barnu pob peth; eithr efe nis bernir gan neb.

Rhuf. 11. 16 Canys [b] pwy a wybu feddwl yr Arglwydd, yr hwn a'i cyfar-

oan15.15; ph. 3. 3,4. wydda ef? [c] Ond y mae genym ni feddwl Crist.

PENNOD III.

2 *Bod llaeth yn gymmhwys i blant;* 3 *cynnen ac ymbleidio yn arwyddion o feddwl bydol.* 7 *Nad ydyw yr hwn sydd plannu, na'r hwn sydd yn dyfrhau, ddim.* 9 *Bod y gweinidogion yn gydweithwyr i Dduw.* 11 *Crist yw yr unig sylfaen.* 16 *Bod dynion yn demlau Duw, y rhai* 17 *sydd raid eu cadw yn sanctaidd.* 19 *Nad yw doethineb y byd yma ond ffolineb gyda Duw.*

B. A. 57.

AMYFI, frodyr, nis gallwn lefaru wrthych megys wrth rai ysbrydol, ond megys rhai cnawdol, megys wrth [a] rai bach yn Nghrist. [a] Rhuf. 2. 2.

2 Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd: canys hyd yn hyn nis gallech, ac nis gellwch chwaith etto yr awr hon *ei dderbyn.*

n anianol, heb fod yr Ysbryd ganddynt;' *udas* 19. *Y psuchi* ydyw yr ochr hono o'r naid dynol sydd â'i hwyneb at y cnawd, y byd, r diafol; ac felly y mae y dyn anianol i ryw ddau o angenrheidrwydd yn gnawdol (1 *Cor.* 1. 3), yn ddaearol ac yn gythreulig: *Iago* 1. 15." *Nis gall eu gwybod.*—Gwybod 'peth, lyw adnabod ei ragoriaeth; adnabod ei natur, i ei wirionedd, ei ddaioni, a'i brydferthwch. ae hyn allan o gyrhaedd y dyn anianol. Triga anallu, nid yn unig yn ei ewyllys—nid, "Ni n eu gwybod" a ddywedir; ond yn ei holl atur; yn nhywyllwch ei ddeall, yn gystal ag i ei ewyllys. Mae yn amddifad o'r chwaeth dd yn ofynol i'w hadnabod. *Yn ysbrydol y rnir hwynt.*—Mae yr ystyr yn ymddibynu ar wyddocâd y geiriau *anianol* ac *ysbrydol.* Os rth yr "ysbrydol" y golygir y dyn y mae ei bryd wedi ei ryddhau oddi wrth ormes anian- deb, y meddwl ydyw, y bernir hwynt gan eithrediad ysbryd dyn dan ddylanwad Ysbryd uw. Os golygir y dyn sydd wedi derbyn yr sbryd Glân, y meddwl ydyw, y bernir hwy yn n trwy yr Ysbryd Glân. Y gwahaniaeth yw, d yr ysbryd, yn y naill olygiad, yn cael ei ygu fel rhan o'r dyn—rhan a gedwir mewn ethiwed, ac a luddir rhag gweithredu, yn y n anianol: ond yn y dyn ysbrydol, y mae wedi ddeffroi a'i ryddhau trwy breswyliad yr sbryd Glân o'i fewn. Y golygiad arall ydyw, d yr "anianol" yn hollol amddifad o'r hyn a wir *ysbrydol* yn y fan hon, a'i fod yn cael ei aeuthur yn ysbrydol; nid trwy ddeffroad dim dd ynddo o'r blaen, ond trwy ei gyfranogiad r Ysbryd Glân.

15. *Barnu*:—adnabod, amgyffred, gwerth- wrogi; ac felly barnu. *Pob peth.*—Mae gan dyn ysbrydol allu newydd trwy ba un y mae n barnu pob peth; ond nis gellir ei farnu ef n yr hwn sydd heb ei feddu. Dealla efe yr ith yn mha un y llefara ereill; ond ni ddeall- t hwy yr iaith yn mha un y llefara efe.—*anley.* Ni ddylid, fe allai, cyfyngu y "pob th" at y pethau sydd o Ysbryd Duw, fel y yna Hodge a Meyer. Ymadrodd cyffredinol lyw, i osod allan uchder safle y dyn ysbrydol; mae wedi ymddyrchafu i diriogaeth mor uchel l y gall weled a barnu pob peth. *Gan neb*:— ldi eithr gan rai ysbrydol, fel efe ei hun.

16. Cadarnhâd o *adn.* 15. Nis gall neb farnu dyn ysbrydol: byddai hyny yr un peth a barnu Arglwydd. Y mae Duw wedi dadguddio hrawiaethau neilduol. Mae y dyn ysbrydol yn adnabod gwirionedd y rhai hyny. Yn awr, byddai i un farnu yr athrawiaethau hyn, a barnu y dyn ysbrydol, yr un peth a dysgu neu gyfarwyddo yr Arglwydd. Gesyd Alford yr ymresymiad hwn ger bron fel y canlyn:—"Mewn trefn i'r dyn anianol, yr hwn sydd heb dderbyn cynnorthwy Crist, allu barnu yr ysbrydol, mae yn rhaid iddo fod yn feddiannol ar feddwl Crist; ie, mwy na hyny, y mae yn rhaid iddo fod yn alluog i gyfarwyddo Crist; o blegid, gan nad yw, fel y rhai ysbrydol, wedi cael ei ddysgu gan Grist, y mae yn rhaid iddo feddu doethineb annibynol o'i eiddo ei hun:—a phwy sydd ag y gellir dywedyd hyn am dano?"

Pennod III.

1—23. Cerydda y Corinthiaid o blegid eu hymbleidiau. Un o'u gwrthddadleuon yn erbyn yr apostol oedd, fod ei bregethiad yn rhy syml. Atteba yntau, fod eu sefyllfa fel babanod mewn crefydd yn gwneuthur hyny yn angenrheidiol. A phrawf o'u hanaddfedrwydd oedd eu hymbleidiau (1—4). Gan fod eu hanghydfod yn dwyn perthynas â'u dysgawdwyr crefyddol, amcana yr apostol wellhau y drwg trwy osod y swydd weinidogaethol ger eu bron yn y goleu priodol. Nid meistriaid ydyw y gweinidogion, neu arweinwyr pleidiau; ond gweision, heb ddim awdurdod o'r eiddynt eu hunain (5—7). Y maent hefyd yn un: yn gydweithwyr ar yr un maes, yn gydadeiladwyr o'r un deml (8, 9). Mae eu cyfrifoldeb yn fawr (10—17). Ni ddylai y bobl osod eu hyder ar y gweinidogion, o blegid perthynant hwy i'r eglwys, nid yr eglwys iddynt; hwy (21—23).—*Hodge.*

1, 2. Yn y bennod o'r blaen, yr ysbrydol yw y credadyn, a'r anianol ydyw yr annychweledig; ond nid yr un cymmeriadau a olygir yma wrth yr ysbrydol a'r cnawdol. Yn 1 *Cor.* i., a ii., y mae yr apostol yn amddiffyn mater a ffurf ei addysg gyda chyfeiriad at ddoethion a doethineb y byd hwn; yma, gyda chyfeiriad at y Cristionogion yn Corinth, y rhai yr oedd eu chwaeth heb ei phuro i'r fath raddau, fel ag i'w gosod ar dir i dderbyn yr amgyffredion uchaf am ogoniant yr efengyl. Felly, gan fod safle yr apostol yma yn wahanol, nid ydyw y geiriau *ysbrydol* a *chnawdol,* yn y bennod hon i'w golygu yn gyfystyr âg *ysbrydol* [ac *anianol* yn y bennod o'r blaen. Wrth eu cymmharu â'r annychweledig, y rhai a gyfrifent yr ymadrodd am y groes yn ffolineb, yr oedd y Corinthiaid yn ysbrydol; ond wrth eu cymmharu â Christionogion addfed,

3 Canys cnawdol ydych chwi etto: canys tra *fyddo* yn eich plith chwi genfigen, a chynnen, ac ymbleidio; onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol?

[b] 1 Cor. 1. 12; 4. 6. 4 Canys tra dywedo un, [b] Myfi ydwyf eiddo Paul; ac arall, Myfi *wyf* eiddo Apolos; onid ydych chwi yn gnawdol?

5 Pwy gan hyny yw Paul, a phwy Apolos, [c] ond gweinidogion [d] trwy y rhai y credasoch chwi, [d] ac fel y rhoddes yr Arglwydd i bob un?

[c] 1 Cor. 4. 1, 2. [d] 1 Cor. 9. 17; Mat. 25. 15.

6 Myfi a blenais, Apolos a ddyfrhaodd; ond [e] Duw a roddes y cynnydd.

[e] 1 Cor. 1. 30; 15. 16. Salm 127. 1; Esa. 55. 10, 11; Act. 21. 19.

7 Felly nid yw yr hwn sydd yn planu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrhau; ond Duw yr hwn sydd yn rhoi y cynnydd.

8 Eithr yr hwn sydd yn planu, a'r hwn sydd yn dyfrhau, un ydynt; a phob un a dderbyn ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun.

9 Canys [f] cydweithwyr Duw ydym ni: [g] llafur-waith Duw, adeiladaeth Duw, [h] ydych chwi.

[f] Adn. 6. [g] Salm 65. 9—13. [h] 1 Cor. 6. 19; Zech. 6. 12, 13; Mat. 16. 18; Col. 2. 7.

10 Yn ol y gras Duw a roddwyd i mi, megys pen-saer celfydd, myfi a osodais y sylfaen, ac y mae arall yn goruwch-adeiladu. Ond edrycher pob un pa wedd y mae yn goruwch-adeiladu.

11 Canys [i] sylfaen arall nis gall neb ei osod, heb law yr un a osodwyd, yr hon yw Iesu Grist.

[i] Esa. 28. 16; Mat. 16. 18; 1 Pedr 2, 6—8.

12 Eithr os goruwch-adeiladа neb ar y sylfaen hon, [k] aur, arian, meini gwerthfawr, coed, gwair, sofl:

[k] Salm 19 10. Esa. 60. 17; 1 Pedr 1. 7.

---

yr oeddynt yn gnawdol. Nid ydyw y geiriau, *bwyd a llaeth*, yn gosod allan ddau ddosbarth gwahanol o wirioneddau, ond graddau gwahanol yn nadblygiad yr un gwirioneddau: *Heb.* v. 12—14.

3. *Yn ddynol*:—yn ol dyn; yn nghamrau dyn annychweledig.

5—7. *Pwy gan hyny.*—Gan eich bod chwi yn eu gosod fel penau arnoch, pwy ydynt? *Gweinidogion* (*diaconoi*):—gweision; dim ond offerynau. Dywed Olshausen fod y cwestiwn, Pwy yw? yn gystal a'r gair *diaconoi* (gweinidogion), yn cynnwys diraddiad. *Fel y rhoddes yr Arglwydd.*—Defnyddir y gair *Arglwydd* er mwyn gwrthgyferbyniad â *gweinidogion*. Ynddo ef y triga yr holl awdurdod; nid ydynt hwy ond offerynau. Yn *adn.* 7, attebir cwestiwn *adn.* 5; nid yw y gweinidogion *ddim*. Gan nad ydynt ond offerynau yn llaw Duw, yn analluog i wneuthur dim ar wahân oddi wrtho ef, ac mai trwyddo ef yn unig y maent yn nerthol, pa ham y dywed un, "Myfi wyf eiddo Paul;" ac arall, "Myfi wyf eiddo Apolos;" fel pe byddai gan Paul neu Apolos ryw allu neu awdurdod ynddynt eu hunain?

8. *Un ydynt.*—Mae ganddynt yr un swydd, yr un gwaith; safant yn yr un berthynas â Duw, ac â'r eglwys; cydweithwyr ydynt. Felly, y mae eu gosod yn erbyn eu gilydd, ac ymbleidio yn eu hachos, yn anghysson â'r undod hwn. Gellid ymbleidio gyda golwg ar nifer o wrthymgeiswyr, ond nid gyda golwg ar gydweithwyr.

9. Prawf o'r hyn a ddywedir yn yr adnod o'r blaen. Derbynia "pob un ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun;" a chan Dduw y derbynia ei wobr; "canys cydweithwyr Duw ydym ni." *Cydweithwyr Duw*:—nid yn arwyddo, cydweithwyr â'n gilydd dan Dduw, ond cydweithwyr â Duw. Y mae ffurf yr ymadrodd yr un a *Rhuf.* xvi. 3, lle y dywedir fod Acwila a Phriscila yn gydweithwyr â Phaul. Undeb â Duw yn ei waith ydyw y drychfeddwl a gyfleir yn y geiriau; ond y mae natur y peth yn arwyddo eu darostyngiad i Dduw. *Llafurwaith Duw*:—maes neu ffarm Duw. Y gair gwreiddiol ydyw *geórgion* (yn arwyddo maes, *Diar.* xxiv. 30, y Deg a Thrigain), oddi wrth ba un y mae yr enw *Geórge* mor gyffredin yn y gwledydd Cristionogol. Mae y gymmhariaeth yn awgrymu y boen a ddyiai gweinidogion ei gymmeryd tuag at wneuthur yr eglwys yn ffrwythlawn. *Adeiladaeth Duw.*—Y mae y gymmhariaeth yma yn well na'r llall i osod allan amrywiaeth gwaith y dysgawdwyr.

10. *Yn ol y gras*:—yn addas fel dadganiad o ostyngeiddrwydd yr apostol, pan ar gymmharu ei hun i ben-saer celfydd. *Pen-saer celfydd.*—*Sophos* (doeth) ydyw y gair gwreiddiol am "celfydd." Mae y ddau air Groeg a gyfleithir yma *pen-saer celfydd*, i'w cael hefyd yn *Esa.* iii. 3, ac yn y Deg a Thrigain, ac a ddarllenir yn y testyn Cymraeg, "crefftwr celfydd." "Yr oedd Paul, nid yn unig yn llafurwr, ond hefyd yn ben-saer, yn arch-adeiladydd. Yr oedd holl gynllun yr adeilad wedi ei ddadguddio iddo, ac yr oedd wedi ei gymmhwyso i ddadblygu y cynllun hwnw, ac i ddangos y ffordd yn mha un yr oedd i'w gario allan."—*Hodge. Myfi a osodais y sylfaen*:—yr un drychfeddwl ag yn *adn.* 6, "Myfi a blenais." Dygir hyn yn mlaen fel prawf o'i gelfydd-dra fel pen-saer. Nid yw yr adeiladydd anghelfydd yn ofalus am y sylfaen (*Luc* vi. 49): adeilada efe ei dŷ ar y ddaear, heb sail iddo. *Arall*:—pwy bynag a ddaw ar fy ol; nid yw o angenrheidrwydd yn cyfeirio at Apolos. *Pa wedd*:—gyda pha ddefnyddiau. Gofynir ffyddlondeb, yn gystal a diwydrwydd, yn y gweinidog; gan nad pa mor lafurus fyddo, oddi eithr iddo adeiladu ar y sylfaen y defnyddiau priodol, bydd yn sicr o golli ei wobr.

11. *Canys.*—Y cyssylltiad ydyw, Gan fod y sylfaen wedi ei gosod unwaith am byth, yr oruwch-adeiladaeth ydyw yr unig beth ag y dylid gofalu bellach am dani. Un sylfaen sydd, ac y mae yr un hono eisoes wedi ei gosod. "Etto y mae yma rybudd rhag ceisio gosod sylfaen arall."—*Alford.* Pwy a osododd y sylfaen? Cyfeirir yma at Dduw, medd rhai, yr hwn a osododd ei Fab yn sylfaen i'w eglwys; a hyn yw y golygiad mwyaf unol â rheidiad cyffredin yr Ysgrythyr—"Wele fi yn sylfaenu maen yn Seion," &c. Paul, ebe ereill; efe a bregethodd Grist yn Corinth, a thrwy hyny a sefydlodd yr eglwys; a'r golygiad hwn sydd fwyaf unol â'r cyd-destyn. Dywed yr apostol yn *adn.* 10, "Myfi a osodais y sylfaen."

12—16. *Eithr.*—Er nad oes ond un sylfaen, etto mae amrywiol ddulliau o oruwch-adeiladu

13 Gwaith pob dyn a wneir yn amlwg: canys y dydd a'i dengys, o blegid trwy dân y dadguddir ef: a'r tân a brawf waith pa vb, pa fath ydyw.

14 Os gwaith neb a erys, yr hwn a oruwch-adeiladodd ef, efe a dderbyn wobr.

15 Os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled: eithr efe ei hun a fydd cadwedig; etto felly, megys trwy dân.

16 Oni wyddoch chwi mai [l]teml[l] Duw ydych, a bod [m] Yspryd Duw yn trigo ynoch? 2 Cor. 6.16, 17; Heb. 3. 6. [n] Ez. 36, 37; Ioan 14. 17

17 [n] Os llygra neb deml Duw, Duw a lygra hwnw: [o] canys sanctaidd yw teml Duw, yr hwn ydych chwi. [o] 1 Cor. 6. 18–20; Salm 5. 3; Ez. 5. 11; Zeph. 3. 4.

18 Na thwylled neb ei hunan. [p] Od oes neb yn eich mysg yn tybied ei fod ei hun yn ddoeth yn y byd hwn, bydded ffol, fel y byddo ddoeth. [p] Gen. 23. 17; Salm 93. 5. 1 Cor. 8. 1, 2; Diar. 3. 5, 7; Esa. 5. 21; Rhuf. 11. 25

arni. Nid ydym i olygu fod yr apostol yn cyfeirio at wahanol fathau o adeiladau ar yr un sylfaen [*Stanley*], ond at un adeilad, rhanau o ba un a adeiledir yn dda, a rhanau yn wael. Y rhai sydd yn adeiladu aur, &c., ydynt y gwir weinidogion—yn hytrach, y rhai sydd yn dysgu yr athrawiaeth yn ei phurdeb. Y rhai sydd yn adeiladu coed, &c., ydynt, nid athrawon twyllodrus, ond athrawon anfedrus, adeiladwyr anghelfydd; nid ydynt yn gwrthod y sylfaen, ond yn adeiladu arni ddefnyddiau gwaelion, disylwedd; sef y rhai sydd yn dysgu athrawiaeth lai pur a sylweddol nag athrawiaeth yr apostolion —yr efengyl wedi ei chymmysgu âg ffuddewiaeth neu athroniaeth gau.—*Estius.* Etto, nis gellir ei golygu yn ddysgeidiaeth hereticaidd a pheryglus—peryglus yn y graddau mwyaf; o blegid dinystriai y gyfryw athrawiaeth y sylfaen. Mae yr athrawon hyn, er holl ammhuredd eu haddysg, yn pregethu Crist, ac yn llafurus a didwyll gyda'u gwaith; ac felly eu hunain yn gadwedig yn y prawf trwy dân. Mae y defnyddiau yn yr adeiladaeth yn golygu yn benaf athrawiaethau, ond heb gau allan personau; o blegid y mae yr athrawiaeth a ddysgir yn cael ei chorpholi yn mhersonau y rhai sydd yn ei derbyn, ac yn cynnyrchu ei heffeithiau priodol ynddynt. *Meini gwerthfawr*:—ydynt farmor, iaspis, &c. Yr oedd aur ac arian yn cael eu defnyddio yn helaeth er addurno temlau; ac felly y maent yn arwyddluniau addas o athrawiaeth bur. *Coed*, &c.:—ydynt y defnyddiau gwaelion y gwnelid tai a bwthynod cyffredin o honynt, ond ni chymmhwysid hwynt at demlau. Gwneid y drysau a'r pyst o goed: gwair neu laswellt sych a gymmysgid â llaid i wneuthur y muriau, a sofl i'r tô. Gan fod y defnyddiau hyn yn anaddas i adeilad wych, neu deml, y maent yn arwyddluniau priodol o addysg wael a disylwedd. *Canys y dydd a'i dengys.* Nid dydd dinystr Ierusalem; na threigliad amser—"amser a ddengys waith pawb;" na dydd gwybodaeth, mewn cyferbyniad i anwybodaeth yr amser presennol [*Calvin*]; na dydd blinder [*Awstin*]; ond "dydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd," yr hwn a ddadguddir trwy neu gyda thân. Yn 2 *Thes.* i. 8, dywedir yr ymddengys yr Arglwydd o'r nef "gyda thân fflamllyd." *Tân* ydyw yr arwyddlun cyffredin o brawf a barn. Yr ystyr ydyw, y bydd dydd yr Arglwydd yn ddydd o brawf llym. Darostyngir pob gwaith i brawf ac archwiliad nas gall dim ammhur ei ddal.—*Alford, Hodge. A'r tân a brawf.*—Nis gall athrawiaeth ammhur ddal prawf y dydd olaf mwy nag y gall coed, gwair, a sofl, ddal y fflamau tân. Barna Stanley fod yr holl gymmhariaeth yma wedi cael ei hawgrymu i'r apostol gan

losgiad Corinth dan Mummius, pan ydoedd y temlau cedyrn yn sefyll yn nghanol dinystr y tai cyffredin. *Eithr efe ei hun a fydd cadwedig.* —Er na chaiff wobr, gan iddo adeiladu defnyddiau rhy waelion i oddef y prawf trwy dân, etto cedwir ef ei hunan, am iddo adeiladu ar y sylfaen. Gwel 2 *Ioan* 8. Y dysgawdwyr hyn, ebe Meyer, ydynt y rhai "olaf" yn rhai o eiriau yr Iachawdwr: *Mat.* xx. 16; *Marc* x. 31. *Etto felly, megys trwy dân.*—Cedwir ef trwy anhawsderau mawr: o'r braidd y bydd yn gadwedig—megys dyn yn diange allan o adeilad fyddo ar dân, a'i einioes yn unig ganddo. Ennilla ei fywyd, ond cyll ei wobr—lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nefoedd. Nid oes yn y geiriau hyn un sail i athrawiaeth y Babaeth am y purdan; o blegid am ddysgawdwyr y mae yr apostol yn llefaru, ac nid am grediniwyr yn gyffredinol. Nid yw yn sôn am brawf cyn y farn, ond am brawf y farn ei hun: y farn yw y tân gyda pha un y dadguddir Iesu Grist; ac nid "puro trwy dân" ydyw y meddwl, ond cadw trwy anhawsderau.—*Hodge.*

16. Edrycha Paul ar yr holl eglwysi fel un deml i Dduw—nid fel lliaws o demlau. Mae y gwahanol eglwysi yn cael eu cydadeiladu yn deml i Dduw trwy ei Ysbryd.

17. Megys mai y gosp am lygru neu halogi y deml faterawl oedd marwolaeth dymmorol (*Exod.* xxviii. 43), felly marwolaeth ysbrydol ydyw y gosb am lygru y deml ysbrydol. *Yr hwn ydych chwi*:—*h.y.*, sanctaidd ydych chwi; gan eich bod yn sanctaidd, yr ydych yn deml Duw. Gan fod Duw yn llygru yr hwn a lygro ei deml, fe lygra yr hwn a'ch llygra chwi.

18. Dychwela yr apostol yma at yr hyn a ddechreuodd yn *adn.* 5. *Na thwylled neb ei hunan*:—o barth doethineb y byd hwn. Nac ammheued neb wirionedd yr hyn a ddywedais am afiesoldeb doethineb ddynol, ac am y perygl o'i gosod hi yn lle doethineb Duw. Os gwna, caiff weled iddo gamsynied.—*Hodge. Yn y byd hwn*:—i'w gyssylltu â doeth—doeth yn y byd hwn, yn gyfystyr â "doeth yn ol y cnawd" yn 1 *Cor.* i. 26 [*Hodge*]; neu â'r holl ymadroddion blaenorol, ac felly yn golygu yr honiad a wneir gan un i ddoethineb; yr hwn, gan ei fod yn cael ei wneuthur yn y byd presennol, yr hwn a noddweddir gan wagedd, sydd ei hunan yn cyfranogi o'r gwagedd a'r geudeb.—*Alford. Bydded ffol*: —ymwrthoded â'i ddoethineb ei hun—derbynied yr efengyl yn ei symledd, fel y byddo yn ddoeth mewn gwirionedd, ac yn yr ystyr uchaf. "Y mae yn rhaid i ni ymwrthod â'n cyflawnderau ein hunain, mewn trefn i gael ein gwisgo yn nghyflawnder Crist—bod yn wâg er mwyn dyfod yn llawn—ymwadu â'n nerth, mewn trefn

19 Canys doethineb y byd hwn *sydd* ffolineb gyda Duw: o herwydd ysgrifenedig yw, [q] Y mae efe yn dal y doethion yn eu cyfrwysdra.

[q] Exod.7.10; 18. 11; Salm 141. 10; [r] Salm94.11.

20 A thrachefn, [r] Y mae yr Arglwydd yn gwybod meddyliau y doethion, mai ofer ydynt.

21 Am hyny na orfoledded neb mewn dynion: canys pob peth peth sydd eiddoch chwi:

22 Pa un bynag ai Paul, ai Apolos, ai Cephas, ai y byd, ai bywyd, ai angeu, ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod; y mae pob peth yn eiddoch chwi;

23 A [s] chwithau yn eiddo Crist; a [t] Christ yn eiddo Duw.

[s] 1 Cor. 6. 19, 20; Ioan 17. 9, 10; Rhuf.14.3. [t] 1 Cor. 8. 6; 11. 3; Phil.2.8-11 B. A. 57.

PENNOD IV.

1 *Pa gyfrif a ddylid ei wneuthur o weinidogion.* 7 *Nad oes genym ni ddim o'r nas derbyniasom.* 9 *Bod yr apostolion yn ddrychau i'r byd, i'r angylion, ac i ddynion;* 13 *yn ysgubion, ac yn sorod y byd:* 15 *ac er hyny eu bod yn dadau i ni yn Nghrist,* 16 *ac y dylem ni eu dilyn hwy.*

FELLY cyfrifed dyn nyni, megys [a] gweinidogion i Grist, a goruchwylwyr ar [b] ddirgeledigaethau Duw.

[a] 2 Cor. 4. 5; Col. 1. 25; 1 Tim. 3. 6. [b] Mat.13.11; Rhuf. 16. 25; Eph. 1. 9; 3. 3-9; 6. 19; Col. 1. 26, 27. 2. 2; 1 Tim. 3. 9, 16.

2 Am ben hyn, yr ydys yn disgwyl mewn goruchwylwyr, gael un yn ffyddlawn.

i gael ein gwneuthur yn gryfion—dodi heibio ein doethineb tuag at fod yn wir ddoeth. Y mae hon yn ddeddf gyffredinol, ac y mae yn berffaith resymol. Gofynir yn unig i ni gydnabod fel gwir yr hyn sydd wir. Ni ofynir i ni ymwrthod â'n cyfiawnder, ein nerth, neu ein doethineb, pe baent mewn gwirionedd yr hyn y maent yn ymddangos; ond gan mai diwerth ydynt, y gelwir arnom i'w cyfrif felly."—*Hodge.*

19, 20. Dau ddyfyniad: y naill o *Iob* v. 13, a'r llall o *Salm* xciv. 11. Y gwirionedd a gynnwysant ydyw annigonedd doethineb ddynol. Nis gall fod un prawf uwch o'i hannigonedd na'i bod yn cael ei throi gan Dduw yn erbyn y rhai sydd yn ymddiried ynddi.

21. Urddas eu sefyllfa yn cael ei osod ger bron fel cymmhelliad i iawn ymddygiad, fel yn *pen.* vi. 2, 3. Y mae gorfoleddu yn y dysgawdwr hwn, neu y dysgawdwr arall, yn ddarostyngiad ar rai sydd yn etifeddu pob peth. Os ydyw pob peth—ac yn eu mysg holl ddysgawdwyr yr eglwys—yn eiddo i chwi, pa ham yr ymgyfenwa un ar enw y naill, ac arall ar enw y llall? Hefyd, y mae y dysgawdwyr yn bod er mwyn yr eglwys—nid yr eglwys er eu mwyn hwy. Dylech wneuthur defnydd o honynt oll; ac nid cymmeryd y naill na'r llall yn arglwydd ar eich cydwybod. Tra y dywedir fod Paul, Apolos, a Cephas yn eiddo iddynt hwy, dywedir eu bod hwy yn eiddo Crist; yr hyn sydd yn dangos fod eu perthynas â Christ yn wahanol i'w perthynas â'u dysgawdwyr. Tra y maent hwy yn bod er mwyn yr eglwys, y mae yr eglwys yn bod er mwyn Crist, ac yn mhob peth yn ddarostyngedig iddo; ac nid yw y gadwen yn terfynu hyd yn oed yma, ond y mae 'Crist yn eiddo Duw;' y mae yr hwn sydd fel Person dwyfol yn ogyfuwch â Duw, fel Duw-ddyn a Chyfryngwr yn eiddo Duw, ac yn ddarostyngedig i Dduw. Gwel *Ioan* xiv. 28; 1 *Cor.* xi. 3. Y mae Hodge yn sylwi fod y Beibl yn llefaru am ddarostyngiad triphlyg y Mab i'r Tad. 1af, Ymddibyniad yr ail berson ar y cyntaf am ddull ei hanfodiad fel person; yr hyn sydd yn berffaith gydweddol âg undod Duwdod a mawredd gogyfuwch y ddau berson. Y drychfeddwl hwn a drosglwyddir yn y geiriau *Tad* a *Mab*—y cyntaf yn cenhedlu, a'r ail yn cael ei genhedlu. 2il, Darostyngiad gwirfoddol y Mab i'r Tad yn agwedd gwas. 3ydd, Darostyngiad swyddol fel Duw-ddyn, at ba un y cyfeirir yma. Pan ddywedir fod y byd, bywyd ac angeu, pethau presennol a phethau i ddyfod, yn eiddo y saint, y meddwl yw fod y cyfan yn cael eu llywodraethu gan Grist er daioni i'w eglwys. Y meddiant uchaf ydyw fod peth yn gwasanaethu ar un; y mae yr eglwys yn meddiannu pob peth, am fod pob peth yn cydweithio er ei daioni. Ni ddylid cyfyngu y pethau hyn, fel y gwna Chrysostom, Grotius, ac ereill; megys fod "bywyd ac angeu" yn golygu einioes a marwolaeth y dysgawdwyr; a'r "pethau presennol" yn golygu dawn tafodau a doniau i iachau. Yn hytrach, y maent i'w deall yn yr eangder mwyaf.

PENNOD IV.

1, 2. Ceir yma yr olwg gywiraf ar swydd y gweinidog. *Goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw.*—Ffugr newydd. Yn y bennod o'r blaen, edrychir arnynt dan y cymmhariaethau o lafurwyr ac adeiladwyr; yma, fel goruchwylwyr yn nhŷ Dduw, wedi eu gosod gan berchen y tŷ ar ei deulu—ymborth y teulu ydyw dirgeledigaethau Duw. *Eiconomoi*, yn y cyffredin, oeddynt weision (caeth-weision) wedi eu gosod fel trefnwyr neu olygwyr. Eu gwaith oedd gofalu am drefn ac achosion y teulu, a rhoddi allan yr ymborth. Y mae y syniad o ddarostyngiad i awdurdod rhywun uwch yn cael ei gyfieu hyd yn oed yn fwy amlwg yn y gair a gyfieithir yma *gweinidogion*, yr hwn a arwydda, yn llythyrenol, *is-rwyfwyr*, neu *forwyr cyfredin*, ac yna gweision is-raddol o unrhyw fath—y dosbarth isaf o weision. Cynnwysa y ddau air y syniad o ddarostyngiad ac israddoldeb. Nid oes gan weinidogion un gallu deddfwrol: eu holl allu ydyw y gallu i weinyddu y cyfreithiau a osododd y Pen yn yr eglwys, ac i gyhoeddi y dirgeledigaethau a ddadguddiwyd ganddo ef. *Dirgeledigaethau* Duw ydyw yr holl wirionedd a ddadguddiwyd gan Ysbryd Duw. Nid oes un sail i gydolygu â'r Pabyddion y golygir y sacramentau; nid elwir hwynt unwaith yn y Beibl wrth yr enw "dirgeledigaethau."

2. *Am ben hyn*:—yn mhellach. Y mae yn debygol fod darlleniad Lachmann a Tischendorf i'w ddilyn yma, yn hytrach na'r un a ddilynir gan y cyfeithwyr Cymraeg a Saesneg. Wrth ddarllen *ôde* yn lle *ó de*, yn nechreu yr adnod, y mae yr ystyr, yn ol Alford, fel hyn, "Ac yma ar y ddaear gwneir ymchwiliad gyda golwg ar oruchwylwyr, fel y caffer un yn ffyddlawn; neu, Ac yma ar y ddaear yr ydym yn dysgwyl mewn goruchwylwyr, gael un yn ffyddlawn." Ond nid yw Stanley yn rhoi yr un ystyr i *ôde;* ond *in this matter.* Y mae golygiad Hodge yr un

3 Eithr genyf fi bychan iawn yw fy marnu genych chwi, neu gan farn dyn: ac nid wyf chwaith yn fy marnu fy hun.

4 Canys ni wn i ddim arnaf fy hun; ond yn hyn ni'm cyfiawnhawyd: [c] eithr yr Arglwydd yw yr hwn sydd yn fy marnu.

5 Am hyny na fernwch ddim cyn yr amser, [d] hyd oni ddelo yr Arglwydd, [e] yr hwn a oleua ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura fwriadau y calonau: ac yna y bydd y glod i bob un gan Dduw.

6 A'r pethau hyn, frodyr, mewn cyffelybiaeth a fwriais i ataf fy hun, ac *at* Apolos, o'ch achos chwi: fel y gallech ddysgu ynom ni, na synier mwy nag sydd ysgrifenedig, fel na byddoch y naill dros y llall yn ymchwyddo yn erbyn arall.

7 Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti *ac arall?* a pha beth sydd genyt a'r nas derbyniaist? ac os derbyniaist, [f] pa ham yr wyt ti yn gorfoleddu, megys pe bait heb dderbyn?

8 Yr ydych chwi yr awr hon wedi eich diwallu, yr ydych chwi yr awr hon wedi eich cyfoethogi, chwi a deyrnasasoch hebddom ni: [g] ac och Dduw [h] na baech yn teyrnasu, fel y caem ninnau deyrnasu gyda chwi.

9 Canys [i] tybied yr wyf ddarfod i Dduw ein dangos ni yr apostolion diweddaf, [k] fel rhai wedi eu

[c] 2 Cor.5.10.
[d] Mat. 24. 30, 46; Iago 5. 7; Dad. 1. 7.
[e] Preg. 11.9; Rhuf. 2.16; Dad.20. 12.
[f] Ez. 28. 2-5; 29. 3; Dan. 4. 30 —32; 5. 1 —23; Act. 12. 22, 23.
[g] Act. 26.29; 2 Cor. 11.1.
[h] Salm 122. 5—9; Rhuf. 12. 15; 2 Tim. 2. 11, 12; Dad. 5. 10. 2 Cor. 1. 8—10; Phil. 1. 29, 30;
[i] 1 Thes.3.3; [k] Salm44.22; Rhuf.8.36. Dad.6.9-11.

---

ag eiddo Alford. Arall-eiria Stanley yr adnod fel hyn:—"Y cwbl sydd yn aros i'w ddyweyd am danom yw hyn: Peidiwch a'n beio na'n canmawl ni. Yn unig gofynwch am ffyddlondeb oddi wrthym."

3. Y mae swydd goruchwyliwr yn awgrymu cyfrifoldeb: gofynir i weinidogion Crist fod yn ffyddlawn; ond pwy sydd i eistedd mewn barn ar eu ffyddlondeb? Nid y Corinthiaid—nid y byd—nid hwy eu hunain—ond yr Arglwydd. *Bychan iawn.*—Dibwys yn ngolwg yr apostol oedd pa un a fernid ef gan y Corinthiaid yn ffyddlawn neu yn anffyddlawn. Nid iddynt hwy yr oedd yn gyfrifol. Nid ganddynt hwy yr oedd i dderbyn gwobr ei waith. *Neu gan farn dyn:*—yn ol y gwreiddiol, *dydd* dyn. Dydd Duw ydyw dydd barn Duw; a dydd dyn ydyw dydd barn dyn.

4. *Ni wn i ddim arnaf fy hun.*—O blegid, er na wn i ddim am danaf fy hun, *h.y.*, er nad wyf yn ymwybodol o anffyddlondeb ynof fy hun yn nghyflawniad fy swydd, etto nid yw hyn yn fy nghyfiawnhau: arall sydd yn fy marnu. Pe buaswn yn farnwr arnaf fy hun, pe i fy nghydwybod fy hun y buaswn yn gyfrifol, buasai ei chymmeradwyaeth hi yn ddigon. Ond nid yw ei barn hi yn wastad yn gywir, na byth yn derfynol. Yr Arglwydd ydyw fy marnwr diduedd, cyfiawn, a therfynol.

5. *Na fernwch ddim:*—am danom ni, y gweinidogion, er ein cyfiawnhau na'n condemnio. *Ddirgelion y tywyllwch:*—yn gyfystyr â "bwriadau y calonau;" cymmhellion a dybenion mwyaf dirgel y galon. Mewn manau ereill (*Eph.* v. 11), arwydda weithredoedd a gyflawnir yn guddiedig.

6—13. Dengys yr apostol yma iddo, o'r dechreu hyd yn hyn, lefaru am dano ei hun ac Apolos, nid gyda chyfeiriad atynt hwy ill dau yn unig, ond i'r dyben o wrthweithio ymbleidiaeth ac uchelgais yn gyffredinol yn eu mysg; yna, er mwyn darostwng eu huchelfrydedd, y mae yn portreadu o'u blaen sefyllfa flinderus yr apostolion eu hunain.

6. *Mewn cyffelybiaeth:*—yn lle dysgu mewn dull dansoddol (*abstract*) a chyffredinol mai gweinidogion a goruchwylwyr oeddynt, gosododd y gwirionedd ger eu bron mewn esampl, mewn ffurf *concrete*, gan ddywedyd mai gweision oedd efe ac Apolos: yr oedd yn gwneuthur hyn "fel y gallent ddysgu ynddynt hwy." *Na synier mwy nag sydd ysgrifenedig:*—na synier yn amgen am danom ni, eich athrawon, nag sydd yn unol â dysgeidiaeth yr Ysgrythyr. Nid yw y cyfeiriad at yr hyn a ddywedasai yr apostol yn yr epistol hwn, nac at rai o eiriau yr Iachawdwr [*Theodoret*], nac at *Deut.* xvii. 20, yn neilldu ol [*Olshausen*], ond at rediad cyffredinol Ysgrythyrau yr Hen Destament. "Cyfeirir yn wastad yn y gair *gegraptai* at lyfrau yr Hen Destament.' —*Grotius. Fel na byddoch.*—Yr oedd edmygwyr Apolos yn dyrchafu eu hunain uwchlaw yr eiddo Paul, a'r eiddo Paul uwch law yr eiddo Cephas; ac nid yn unig yn dyrchafu eu hunain uwch law, ond hefyd yn erbyn eu brodyr.

8. Enghraifft o'r wawdiaeth lemaf. "Wedi iddo o'r blaen ddarostwng, y mae yma yn gwawdio eu hymchwydd a'u hunan-ddigonedd."—*Calvin.*—*Yr awr hon;*—eisoes. Yr ydych mor hunanddigonol a phe bai y nod wedi ei gyrhaedd eisoes, eich holl angenion wedi eu diwallu, pob gelyn wedi ei orchfygu, pob perygl wedi ei osgoi, a holl ddaioni teyrnas Dduw wedi ei gyrhaedd genych. Ceir yma esgyniaeth:—Yr ydych wedi eich diwallu: mwy na hyny, yr ydych wedi eich cyfoethogi; y mae genych fwy na digon; ïe, yr ydych yn teyrnasu fel brenhinoedd. *Hebddom ni.*—Yr ydych wedi ein gadael ni, yr apostolion, yn mhell o'ch ol. Yr ydym ni etto yn edrych yn mlaen mewn gobaith at y nôd a gyrhaeddwyd eisoes genych chwi. *Ac och Dduw,* yn ymadrodd rhy gryf [i'r gwreiddiol:—"Mi a fynwn yn wir pe baech yn teyrnasu." Pe bai y deyrnas wedi dyfod mewn gwirionedd, caem ninnau fwynhau ei gogoniant a'i chyflawnder gyda chwi.

9. *Canys.*—Rheswm dros y dymuniad blaenorol:—Mi a fynwn yn wir fod teyrnasiad y saint wedi dyfod; o blegid yr ydym ni, yr apostolion, yn mhell o fod yn cael ymddwyn atom fel brenhinoedd." Y mae natur ein sefyllfa bresennol yn rheswm dros ddymuno yr urddas hwn, ac yn brawf nad ydym etto wedi ei gyrhaedd. *Ein dangos ni:*—ar gyhoedd; ein hardd angos, megys mewn chwareuía, gan y bron y byd. *Yr apostolion diweddaf.*—Y mae yma gamgyfieithiad. Nid oes yn y gair olaf un cyfeiriad at Paul ac Apolos fel rhai wedi eu galw ar ol y

[1] Heb.10.33; 11. 36. bwrw i angeu: o blegid [1]nyni a wnaethpwyd yn ddrych i'r byd, ac i'r angylion, ac i ddynion.

10 *Yr ydym* ni yn ffyliaid er [m] Mat. 5.11; Act. 9. 16; [j] 1 Pedr 4.14. [e] Ier. 8. 8, 9. [m]mwyn Crist, a chwithau [n]yn ddoethion yn Nghrist; nyni yn weiniaid, a chwithau yn gryfion; chwychwi yn anrhydeddus, a ninnau yn ddirmygus.

11 Hyd yr awr hon yr ydym ni yn dwyn newyn a syched, ac yr ydym ni yn noethion, ac yn cael cernodiau, ac yn grwydraidd;

12 Ac yr ydym yn llafurio, gan weithio â'n dwylaw ein hunain. [o] Luc 6. 28; Rhuf. 12. 14, 20; [j] 1 Pedr 2.23; 3. 9; Iudas 9. [p] 1 Pedr 3.14; 4. 12-14, 19. [o] Pan y'n difenwir, yr ydym yn bendithio; [p] pan y'n herlidir, yr ydym yn ei ddioddef;

13 Pan y'n ceblir, yr ydym yn gweddïo: fel ysgubion y byd y lleill, ond at yr holl apostolion fel rhai olaf "neu ddirmygus yn ngolwg y byd." Gellir darllen fel hyn:—"Ddarfod i Dduw ein harddangos ni, yr apostolion, ger bron y byd, fel y rhai olaf, mwyaf dirmygus—fel rhai wedi eu condemnio i farwolaeth." Y mae Stanley, yn ei aralleiriad, yn cyssylltu y ddau ymadrodd, "fel y rhai olaf wedi eu condemnio i angeu," gyda chyfeiriad, yn ol ei farn ef, at yr ymdrechwyr a arweinid yn olaf i farwolaeth yn y *theatre*. Edrycha Paul arno ei hun, a'r apostolion eraill, fel rhai wedi eu condemnio i farw rhwng dannedd gwylltfilod, tra yr oedd y Corinthiaid yn eistedd ar wahân yn yr orielau o amgylch, yn llygaiddystion o'r olygfa, ac yn edrych ar y cwbl yn eithaf dibryder. *Angylion*:—sef angylion da. Dyma ei arwyddocâd yn wastad pan y mae heb air arall cyssylltiedig âg ef yn dynodi y gwrthwyneb.

10. Y mae y tri chyferbyniad yn cyfatteb i'r rhai a geir yn *pen.* i. 27—doethion, cryfion, anrhydeddus, a ffyliaid, gweiniaid, dirmygus. *Yr ydym ni yn weiniaid.*—Y mae ein hymlyniad ni wrth Grist a'i achos yn gyfryw fel ag yr edrychir arnom genych chwi fel yn ffyliaid. Yr ydych chwi, yn eich tyb eich hunain, mor ddigonol, fel nad oes arnoch eisieu dim.

11. *Yn noethion*:—yn brin o ddillad [*Alford*]: yn rhynu wrth yr oerni.—*Stanley.* Gwel 2 *Cor.* xi. 27. *Yn grwydraidd*:—yn ddigartref.

12. *Gan weithio â'n dwylaw ein hunain.*—Iddo wneuthur hyn yn Corinth sydd eglur oddi wrth *Act.* xviii. 3; 1 *Cor.* ix. 6; 2 *Cor.* xi. 7—12; a'i fod felly yn bresennol, gwel *Act.* xx. 34. Nid oes yma ddigon o brawf, er fod yma awgrym fod yr apostolion ereill yn gwneuthur hyny hefyd.

13. *Pan y'n ceblir, yr ydym yn gweddïo.*—Arwydda y gair a gyfleithir *gweddïo*, annog a diddanu:—Yr ydym yn cyfarfod pob drygair a gwarthnod a deflir arnom â geiriau addfwyn. Y mae yn golygu, ebe Stanley, naill ai Yr ydym yn gweini dyddanwch; neu, Yr ydym yn ymbil ar ddynion i ddilyn ein hesampl.

13. *Sorod pob dim*:—yn cynnwys mwy o ddirmyg hyd yn oed na'r gair blaenorol. Dywed Hodge, ae ereill, fod y ddau air. yn enwedig y gwnaethpwyd ni, *a* sorod pob dim hyd yn hyn.

14 Nid i'ch gwaradwyddo chwi yr ydwyf yn ysgrifenu y pethau hyn; ond *eich* rhybuddio yr wyf fel fy mhlant anwyl.

15 Canys pe byddai [q] i chwi [r] ddeng mil o athrawon yn Nghrist, er hyny nid *oes i chwi* nemawr o dadau: [r]canys myfi a'ch cenhedlais chwi yn Nghrist Iesu, trwy yr efengyl. [q] 2 Tim. 4.3. [r] Act. 18. 4—11; 2 Cor. 3.1-3; Gal. 4. 19; Philem. 10—12, 19; 1 Pedr 1.23.

16 Am hyny yr wyf yn attolwg i chwi, byddwch ddilynwyr i mi.

17 O blegid hyn yr anfonais atoch Timotheus, yr hwn yw fy anwyl fab, a [s] ffyddlawn yn yr Arglwydd, yr hwn a ddwg ar gof i chwi [t] fy ffyrdd i yn Nghrist, megys yr wyf yn mhob man yn athrawiaethu yn mhob eglwys. Num. 12.7; Mat. 24.45; Eph. 6. 21; Col. 1. 7; 2 Tim. 2. 2; Dad. 2. 10, 13. [t] 2 Tim. 3.10.

cyntaf (*ysgubion*), yn cael eu cymmhwyso at bersonau o'r dosbarth iselaf a ddewisid mewn adeg o gyfyngder gwladol i gael eu haberthu i'r duwiau; a thybir fod yma gyfeiriad at yr arferiad hwnw. Edrychid arno ef a'i frodyr fel rhai heb fod yn werth dim ond i'w bwrw i farwolaeth er daioni i ereill. Etto, nid yw yn debygol fod y gymmhariaeth yn cael ei chario yma mor bell. Os oes yma gyfryw gyfeiriad, y cwbl a awgrymir ydyw gwaeledd a safle isel y rhai a ddiofrydid i'r diwedd hwnw.

14. Rhydd yr apostol y wawdiaeth heibio yn yr adnod hon. *Nid i'ch gwaradwyddo*:—nid i weithio ar eich teimladau. Y mae y gair a gyfleithir *gwaradwyddo* yn dynodi, troi y meddwl i mewn arno ei hun. *Eich rhybuddio*:—y gair cyffredin am gynghor tad.

15. Y mae genyf hawl i'ch rhybuddio felly. Beth bynag ydyw eich perthynas â dysgawdwyr ereill, nis gall dim ddifodi eich perthynas â mi fel eich tad ysbrydol. *Athrawon.*—Dynoda y gair gwreiddiol (yr un a *pedagogue* yn Saesneg), y caethion a arweinient blant i'r ysgol. Wrth ei gymmharu â defnyddiad yr un gair yn *Gal.* iii. 24, 25, awgryma ddull träarglwyddol y gauathrawon.—*Stanley.* Er fod "deng mil" yn ffugyrol a thybiaethol, etto awgrymir yn y gair fod nifer yr athrawon yn fawr, fel y gellir tybied oddi wrth *pen.* xii. *Yn Nghrist*:—i'w gyssylltu, fe allai, â *chwi*; nid âg *athrawon.* Pe byddai i chwi yn eich perthynas â Christ ddeng mil o athrawon.

16. *Am hyny*:—am mai myfi ydyw eich tad. *Byddwch ddilynwyr i mi*:—sef, fy efelychu, fel plant eu tad.

17. *O blegid hyn*:—i'ch dwyn i ddilyn fy esampl. Yr oedd wedi anfon Timotheus atynt, fel y gallai efe, ei fab yn Nghrist, a'r hwn oedd o gyffelyb feddwl âg ef, ddwyn ar gof iddynt ei fuchedd a'i ddysgeidiaeth. Amcan dyfodiad Timotheus atynt oedd amddiffyn yr apostol. Yr oedd yn gymmhwys i'r gwaith, fel ei fab anwyl, ac fel un ffyddlawn yn yr Arglwydd. *Fy ffyrdd*:—fy nghyssondeb, fy llafur, fy sel, fy ngosodyngeiddrwydd, fy ffyddlondeb fel gweinidog i Grist. Y ffyrdd yr wyf yn eu rhodio yn ngwasanaeth Crist. Y mae yma brawf, wrth

18 Ac y mae rhai wedi ymchwyddo, fel pe bawn i heb fod ar fedr dyfod atoch chwi.

19 Eithr mi a ddeuaf atoch ar [t] Act.18. 21; Rhuf. 15. 32; Heb. 6. 3; Iago 4. 15. fyrder, [u] os yr Arglwydd a'i myn; ac a fynaf wybod, nid ymadrodd y rhai sydd wedi chwyddo, ond *eu* gallu.

[x] Rhuf.1.16; 2 Cor. 10. 4, 5; [1] Thes. 1. 5. 20 Canys [x] nid mewn ymadrodd *y mae* teyrnas Dduw; eithr mewn gallu.

21 Beth a fynwch chwi? ai dyfod o honof fi atoch chwi â gwïalen, ynte mewn cariad, ac ysbryd addfwynder?

---

gymmharu *adn.* 17 âg *adn.* 15, mai trwy Paul [y] dychwelwyd Timotheus i'r ffydd. *A ddwg ar gof* :—yr hyn yr oedd y Corinthiaid, trwy ddylanwad y gau athrawon, wedi braidd ei anghofio.

18. Gan ei fod yn anfon Timotheus, yn lle dyfod ei hun, yr oedd yr athrawon chwyddedig hyn yn cymmeryd mantais yn fwy i gyhuddo yr apostol o anwadalwch, ac yn perswadio y Corinthiaid i gredu fod arno ofn dyfod drachefn atynt.

19. *Ar fyrder* :—gwel *pen.* xvi. 8. *Eu gallu.* —Mynaf wybod a ydynt yn alluog trwy nerth yr Ysbryd Glân, ai nid ydynt; a ydynt yn feddiannol ar y gallu cyffredinol hwnw sydd yn perthyn i ni, yr apostolion, trwy fod yr Ysbryd wedi ei roddi i ni. "Eglurhâd yr Ysbryd a nerth." Ni ddylid cyfyngu ystyr y gair at allu gwyrthiol, nac at ryw un neilldiol o effeithiau ac arwyddion y gallu. "Mynaf wybod, nid beth a allant ddywedyd, ond beth a allant wneyd."—*Hodge.*

20. Mynaf wneuthur y prawf arnynt—*Canys nid, &c.*—Teyrnas gallu ydyw teyrnas Dduw.

21. Yn hytrach na bod arno ofn myned i Corinth, fel yr oedd ei gaseion yn tybied, yr oedd yn barod i fyned yno gydag awdurdod. Efe oedd eu tad: yr oedd ganddo hawl i'w gorchymyn ac i'w ceryddu, yr hyn a ddangosir ganddo yn y bennod ganlynol. Ymddibynai arnynt hwy yn mha gymmeriad y byddai iddo ymddangos yn eu mysg—pa un ai fel ceryddwr ai fel cysurwr. *Ysbryd addfwynder.*—Wedi ei lanw â'r Ysbryd Glân fel awdwr addfwynder. Y mae Meyer yn sylwi fod "ysbryd," pan yn cael ei gyssylltu âg enw dansoddol yn y sefyllfa feddiannol, bob amser yn arwyddo yr Ysbryd Glân; megys ysbryd ffydd, ysbryd y gwirionedd, ysbryd doethineb a dadguddiad, ysbryd mabwysiad. Gwelir yma fod yr apostolion yn arfer awdurdod ar yr holl eglwysi: derbynient i'r eglwys, ac ysgymunent allan o honi, yn ol eu meddyliau eu hunain, heb ymgynghori â'r eglwys. Perthynai hyn iddynt o herwydd eu safle fel dynion ysbrydoledig. Yr oedd eu gweithredoedd fel apostolion yn anffaeledig. Perthyna yr hawl yma yn bresennol i'r holl eglwys, fel yn cael ei phreswylio gan yr Ysbryd Glân, a'i chyfarwyddo gan air yr Arglwydd.

Pennod v.

1—13. Achos y dyn godinebus.

Gadawa yr apostol ymbleidiau y Corinthiaid, ac â rhagddo i ymdrin am yr achos anhyfryd

PENNOD V.

1 *Bod y gŵr godinebus 6 yn achos o gywilydd iddynt, yn hytrach nag o orfoledd. 7 Rhaid yw ymʼanhau oddi wrth yr hen lefain. 10 Y dylid cilio oddi wrth anfad ddrwg-weithredwyr.*

B. A. 57.

MAE y gair yn hollol, *fod* yn eich plith chwi odineb, a chyfryw odineb ag na enwir unwaith yn mysg y Cenhedloedd; *sef* cael o un wraig ei dad.

2 Ac yr ydych chwi wedi ymchwyddo, ac ni alarasoch yn hytrach, fel y tynid o'ch mysg chwi y neb a wnaeth y weithred hon.

---

arall y clywsai am dano gan y rhai oedd o dŷ Chloe, neu gan ereill. Dyma y prif achos yn yr holl epistol: gyda'r achos hwn, ebe Stanley, y mae yr ystorm yn ymdori. Yr oedd ei sŵn i'w glywed megys o bell o'r blaen (yn 1 *Cor.* iii. 16; iv. 5, 20, 21); a gwelir ei olion, nid yn unig yn yr epistol hwn (1 *Cor.* vii. 2; x. 8, 22; xv. 33), ond hefyd yn yr ail epistol, yr hwn y mae y rhan gyntaf o hono (o *pen.* i. hyd vii.) yn cael ei gymmeryd i fyny i liniaru y cynnhwrf a wnaed yn yr eglwys gan ymliwiadau llymion yr apostol yn y rhan hon. Arweinir yr apostol gan yr achos hwn i ymdrin yn helaeth ar gyssylltiad y Cristionogion â'r paganiaid.

1. *Mae y gair yn hollol.*—Mae yn anhawdd penderfynu beth yw grym y gair a gyfeithir yma *hollol.* Cyfieitha Stanley, "Mae y gair yn sicr." —"*it is reported certainly.*" Unig amcan *olŏs* ydyw chwanegu nerth at yr hyn a ddywedir. Cyffelyb yw Alford—"*actually.*" Mae Hodge yn dilyn y cyfieithiad Saesneg—*yn gyffredin.* Y mae yn beth hysbys a chyhoeddus fod godineb yn bod yn eich mysg, ac yn cael ei oddef. *Godineb* :—mewn ystyr eang, yn cynnwys pob math o droseddiadau o'r seithfed gorchymyn. *A chyfryw odineb* :—esampl neu achos pendant a mwy ysgeler na'r cyffredin oedd yn ffynu yn eu mysg. *Enwir.*—Nid yw y gair a gyfeithir fel hyn i'w gael yn y prif lawysgrifau. *Cael o un.*—Y trosedd oedd, fod un o'r Cristionogion wedi priodi ei fam-yn-nghyfraith. Ei fod wedi ei phriodi, sydd amlwg oddi wrth y geiriau a arferir i osod allan ei gyssylltiad â hi; o'r rhai y mae hwn yn un—"cael o un"—*echein.* Y mae "gwraig ei dad" yn enw ysgrythyrol ar fam-yn-nghyfraith: *Lef.* xviii. 8. Gellid meddwl oddi wrth 2 *Cor.* vii. 12, fod tad y trosedd wr yn fyw. Yr oedd y trosedd yn llosgach; a dangosir yma, yn ol barn Hodge ac ereill, fod cyfraith Moses gyda golwg ar briodas o hyd mewn grym. Dywedir fod y cyfryw gyssylltiad yn beth dyeithr yn mysg y paganiaid; wrth yr hyn y meddylir, nid nad oedd byth yn cymmeryd lle yn eu mysg, ond yr edrychid arno gyda ffieidd-dra ac adgasedd. Dywed Cicero fod y cyfryw gyssylltiad yn drosedd anghredadwy, ac na chlywodd ond unwaith am y fath beth.

2. Yr oeddynt yn llawn o ymchwydd, ac yn coledd y tybiau uchaf am eu rhagoriaeth fel Cristionogion, er eu bod yn goddef pechod a ffieiddid hyd yn oed gan baganiaid. Mae rhai yn rhoddi cyfrif am hyn trwy dybied fod y troseddwr a'r eglwys yn gweithredu yn ol yr egwyddor a ddysgid gan rai o'r Iuddewon, fod

3 Canys myfi yn ddiau, fel absennol yn y corph, etto yn bresennol yn yr ysbryd, a fernais eisoes, fel pe bawn bresennol, *am* yr hwn a wnaeth y peth hwn felly:

4 Yn enw ein Harglwydd Iesu [a] Mat.16.19: Ioan 20. 23. Grist, [a]pan ymgynnulloch ynghyd, a'm hysbryd innau, gyda gallu ein Harglwydd Iesu Grist,

[b] Act. 26.18: 2 Cor. 2. 6 [c] 2 Cor. 2. 7; Judas 22, 23. 5 [b]Draddodi y cyfryw un i Satan, i ddinystr y cnawd, [c]fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu.

6 Nid da eich gorfoledd chwi. Oni wyddoch chwi fod ychydig lefain yn lefeinio yr holl does?

7 Am hyny certhwch allan yr hen lefain, fel y byddoch does newydd, megys yr ydych [d] Exod. 12. 5, 6; Act. 8. 32–35; Dad. 5. 6-9. [e] 1 Pedr 4. 2, 3. ddilefeinllyd. Canys [d]Crist ein pasc ni a aberthwyd drosom ni.

8 Am hyny cadwn ŵyl, [e]nid â hen lefain, nac â lefain malais a drygioni; ond â [f]*bara* croyw purdeb a gwirionedd. [f] Ios. 24. 14; 2 Cor. 1. 12.

tröedigaeth yn dattod holl rwymau perthynas naturiol. Yr oedd proselyt at Iuddewiaeth yn greadur newydd; dodwyd arno enw newydd. Nid oedd ei dad mwyach yn dad, na'i fam mwyach yn fam iddo. Yr oedd rhai o'r Rabbiniaid felly yn dysgu y gallai proselyt briodi ei berthynas agosaf. Bernir y gallai y cyfryw syniad gael ei dderbyn yn mysg y rhan Iuddewig o'r eglwys: ond y mae Hodge, &c., yn gwrthod y dybiaeth, am ei bod yn rhy wrthun i'w chredu, ac am fod y desbarth goreu o'r Iuddewon eu hunain yn condemnio y cyfryw ymddygiad. Dichon mai esgusawd y Corinthiaid dros y gyfryw briodas oedd nad ydoedd y ddau o'r un gwaed.

3—5. *Canys myfi yn ddiau.*—Y cyssylltiad ydyw hwn:—Mi a fynwn yn wir i chwi fod mewn ystâd meddwl parodi symmud y troseddwr oddi wrthych, canys yr ydwyf fi wedi penderfynu ei fwrw allan. Mae "Myfi yn ddiau" yn cyfleu y drychfeddwl hwn—Pa beth bynag a wnewch chwi yn y mater, neu a adewch heb ei wneyd, fe wnaf fi fy nyledswydd. *Yn bresennol yn yr Ysbryd.*—Nid oedd ei allu a'i awdurdod i farnu y troseddwr ac i gyhoeddi dedfryd ar ei achos, yn ymddibynu ar ei bresennoldeb corphorol yn eu mysg. Yr oedd yn bresennol yn yr Ysbryd—nid yn golygu ei fod yn meddwl am danynt. Yr oedd yn bresennoldeb gwybodaeth, gallu, ac awdurdod. *A fernais eisoes*:—heb ddisgwyl am wybodaeth o'u barn hwy. Mae cyflead y geiriau canlynol yn ol y drefn a ddilynir gan Estius, De Wette, Meyer, Alford, fel hyn:—Perthyna "yn enw ein Harglwydd Iesu Grist" i "draddodi y cyfryw un," &c.; a "gyda gallu ein Harglwydd Iesu Grist," i "pan ymgynnulloch ynghyd, â'm hysbryd innau." *Draddodi*:—yr hyn a ddynoda, yn ol rhai, ddiarddeliad o'r eglwys, a dim yn chwaneg: yn ol ereill, fod y diarddeledig yn cael ei drosglwyddo i allu y diafol—fod yr eglwys yn cael ei hawdurdodi gan yr apostol i ddwyn rhyw afiechyd corphorol ar y troseddwr fel cosp am ei drosedd. O blaid y golygiad cyntaf, dadleuir fod "traddodi i Satan" yn ymadrodd priodol am esgymundod o'r eglwys, am fod y byd dan awdurdod Satan: bwrw un o'r eglwys oedd ei fwrw o deyrnas Crist i deyrnas Satan. Ond y mae seiliau cryfion i gredu fod yma fwy nag esgymundod. Dangosir yn aml yn yr Ysgrythyrau fod drygau corphorol yn cael eu dwyn ar ddynion trwy offerynoliaeth Satan. Dangosir hefyd fod yr apostolion wedi eu cynysgaethu â gallu i ddwyn drygau corphorol ar ddynion: gwel yn hanes Ananias a Sapphira, ac Elymas y swynwr, yn yr *Actau*. Defnyddir yr un geiriau yn yr un ystyr yn 1 *Tim.* i. 20, am Hymeneus a Philetus, y rhai a draddodasai yr apostol i Satan, "fel y dysgent na chablent." Nid oes un sail i dybied y defnyddid y geiriau hyn gan Iuddewon yr oes hono am esgymundod; ac felly, nid yw yn debygol y buasent yn cael eu deall yn y gyfryw ystyr oddi wrth yr apostol. Chwanegir na buasai diarddeliad yn dinystrio y cnawd yn yr ystyr ag yr arferir y gair yma. Felly y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn barnu fod yma rhyw ddrwg corphorol yn cael ei fygwth. Gan fod "cnawd" yn gyferbyniol i "ysbryd," ystyr y cyntaf yw corph, yn hytrach na llygredigaeth moesol. Yr oedd y troseddwr i gael ei draddodi i Satan, yr hwn a oddefid i'w gospi yn ei gorph â rhyw afiechyd blin, fel y byddai i hyny fod dan fendith i buro ei ysbryd oddi wrth ddrwg, erbyn dydd yr Arglwydd Iesu.

6. *Eich gorfoledd chwi*:—mater eu bôst. Nid oes genych sail i ymffrostio o'ch ystâd grefyddol fel eglwys, pan y gallech oddef y cyfryw un yn eich mysg. *Ychydig lefain*, &c.—Ymddengys fod yr ymadrodd yn ddiarebol: digwydda hefyd yn *Gal.* v. 9. Yr un yw sail y ddammeg yn *Mat.* xiii. 33. Mae y Rabbiniaid yn cyffelybu trachwant i lefain neu surdoes, am fod ychydig yn llygru y dyn i gyd. Ond y mae y crybwylliad am lefain yn awgrymu iddo y Pasc, pryd y byddai y surdoes yn cael ei lwyr lanhau o bob tŷ. Fel yr arferid y gofal mwyaf i garthu y lefain allan wrth fwyta y Pasc, felly y dylech chwithau wneuthur. Yr ydych chwi yn bobl i Dduw, wedi eich dwyn allan o'r caethiwed; wedi eich galw i fywyd newydd; mae yr oen Pasc wedi ei ladd drosoch yn mherson Crist; pa beth bynag ynoch chwi, gan hyny, sydd yn cyfatteb i'r surdoes naturiol, a raid ei garthu allan. Mae yn rhaid cadw y pasc ysbrydol, fel y pasc cysgodol, yn rhydd oddi wrth bob dylanwad o duedd i lygru.—*Stanley.*

7. *Certhwch allan*:—ymadrodd cryf, i osod allan y puredigaeth mwyaf gofalus, cyffelyb i eiddo yr Israeliaid: *Exod.* xii. 15. Mor fawr oedd gofal a manylder yr Iuddewon mewn amserau diweddarach, fel y byddent, ar y pedwerydd dydd ar ddeg, yn chwilio y conglau a'r tyllau tywyllaf gyda chanwyllau. *Megys yr ydych ddilefeinllyd*:—yn cymmeryd yn ganiataol eu bod yn Gristionogion. Yr ydych yn proffesu bod yn sanctaidd; gan hyny, ymsanctteiddiwch. Mae yn beth cyffredin gan yr apostol i seilio annogaethau ar eu sefyllfa fel Cristionogion. Gwel *Col.* iii. 3, a 5; "Meirw ydych

9 Mi a ysgrifenais atoch mewn llythyr, na chyd-ymgymmysgech â godinebwyr.

10 Ac nid yn hollol â godinebwyr y byd hwn, neu â'r cybyddion, neu â'r cribddeilwyr, neu âg eilunaddolwyr; o blegid felly rhaid fyddai i chwi fyned allan o'r byd.

11 Ond yn awr mi a ysgrifenais atoch, na chyd-ymgymmysgech: [e] os bydd neb a [g] enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eilunaddolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr; gyda'r cyfryw ddyn na chyd-fwyta chwaith.

[e] 1 Cor. 6. 6; 7. 12; Act. 9. 17.

12 Canys beth sydd i mi a farnwyf ar y rhai sydd oddi allan? [h] onid y rhai sydd oddi mewn yr ydych chwi yn eu barnu? [h] 1 Cor. 6. 1—5.

13 Eithr y rhai sydd oddi allan, [i] Duw sydd yn eu barnu. Bwriwch chwithau ymaith y drygionus hwnw o'ch plith chwi. [i] Salm 1. 6; Act. 17. 31.

PENNOD VI.

1 *Na ddylai y Corinthiaid ffino eu brodyr, trwy fyned i gyfraith â hwynt;* 6 *yn enwedig ger bron y rhai digred.* 9 *Na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Duw.* 15 *Bod ein cyrph ni yn aelodau i Grist,* 19 *ac yn demlau i'r Ysbryd Glân:* 16, 17, *ac am hyny na ddylid mo'u halogi.* B. A. 57.

A FEIDDIA neb o honoch, a chanddo fater yn erbyn arall, [a] ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ac nid o flaen [b] y saint? [a] Adn. 6, 7. [b] 1 Cor. 14. 33. [c] Salm 49. 14; 149. 5—9.

2 Oni wyddoch chwi [c] y barna Duw, ac yn parchu enw eilun. Y mae y rhai a wnelont hyn yn rhoddi achlysur i'r dyeithriaid ddywedyd, 'Gwelwch mor heddychlawn ydynt hwy sydd yn gwasanaethu un Duw.'"—*Weitstein.* Rhoddwyd iddynt felly yr hawl o benderfynu eu hachosion eu hunain gan y Rhufeiniaid, yr hyn a welir yn araeth Gallio wrth yr Iuddewon a ymosodasant ar Paul. Gan fod y Cristionogion yn cael eu cyfrif gan y Rhufeiniaid fel sect Iuddewaidd, naturiol oedd i'r un rheol gael ei chymmhwyso atynt hwythau. Ymddengys fod yn mysg y Cristionogion y pryd hwn lysoedd ar wahân oddi wrth lysoedd y paganiaid, i benderfynu materion mewn dadl, at ba rai y ceir cyfeiriadau yn yr *Apostolic Constitutions* a'r *Clementines.* Dichon fod y Cenhedloedd Cristionogol yn Corinth yn teimlo gogwydd at y llysoedd yr arferasant â hwynt cyn dyfod yn Gristionogion.

1. *A feiddia*:—yn arwyddo fod y cyfryw ymddygiad yn wrthwyneb i'w hurddas a'u dyledswydd fel Cristionogion. Yr oedd ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn yn weithred o hyfdra a beiddgarwch, ac yn sarhâd ar y grefydd a broffesent. Yr oeddynt drwy hyny yn rhoddi argraph ar feddyliau y paganiaid eu bod yn cael eu llywodraethu gan y cyfryw ysbryd hunangeisiol a chwerylgar ag sydd yn hollol groes i Gristionogaeth; ac hefyd yn rhoddi ar ddeall fod yr eglwys yn ddiffygiol o'r farn a'r uniondeb sydd yn angenrheidiol i benderfynu achosion mewn dadl rhwng brodyr. *Y rhai anghyfiawn*:—yn golygu cymmeriad y paganiaid yn gyffredinol, am mai gwadiad o'r unig wir Dduw, ac addoliad eilunod, ydyw yr anghyfiawnder mwyaf. Nid oes yma sail i dybied fod y barnwyr paganaidd yn gyffredinol, yn ngweinyddiad eu swyddau, yn anghyfiawn. *O flaen y saint.*—Yr oedd cyfreithiau Rhufain yn caniatau i'r Iuddewon benderfynu dadleuon ynghylch meddiannau yn eu mysg eu hunain; a chan nad oedd y Cristionogion boreuaf, fel dosbarth, yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth yr Iuddewon, y mae yn ddiammheu fod yr un fraint yn perthyn iddynt hwythau. Ond nid oes i ni feddwl fod gan y Cristionogion lysoedd barn o'u heiddo eu hunain.

2, 3. *Oni wyddoch chwi.*—Dull arferol gan yr apostol o osod rhyw wirionedd pwysig ger bron

---

Marwhewch eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear." Nid oes fawr o debygolrwydd y cyfeirir yma, fel y tybia Wieseler, at waith y Corinthiaid ar y pryd yn cadw y Pasc.

9. Gwel y rhagymadrodd i'r epistol.

10, 11. Y mae yr apostol yma yn cywiro camddealltwriaeth o'r eiddynt o'i orchymyn blaenorol. Rhoddodd o'r blaen annogaeth iddynt i beidio cydymgymmysgu â godinebwyr; cwynent hwythau o herwydd cyfyngder y gwahardd-iad;—pa fodd y gallent beidio ymwneyd â'r cyfryw mewn dinas mor boblogaidd ac mor lygredig a Chorinth? Dywed yr apostol nad oedd efe yn golygu y gwaharddiad yn yr ystyr mwyaf cyfyng; y byddai yn rhaid iddynt felly fyned allan o fysg dynion. Ei feddwl oedd, fod iddynt beidio ymgyfeillachu yn y fath fodd âg un a enwid yn frawd yn odinebwr, fel ag i gyfreithloni y dybiaeth y gallai yr efengyl oddef y cyfryw bechodau. *Na chyd-fwyta*:—nid oeddynt i gydnabod y cyfryw un yn Gristion, hyd yn oed trwy gyd-fwyta âg ef. Ni olygir yma gyd-fwyta wrth fwrdd yr Arglwydd.

12. Perthynai gorchymyn yr apostol yn unig i'r rhai o fewn yr eglwys: nid ei waith ef oedd barnu y rhai oddi allan. Awgryma trwy hyn y gallasent ddeall ei orchymyn yn well. Ac yr oeddynt hwy eu hunain yn gweithredu ar yr un egwyddor: yr oeddynt yn cyfyngu dysgyblaeth eglwysig o fewn cylch aelodaeth eglwysig.

13. Wedi rhoddi pob eglurhâd angenrheidiol ar achos y dyn godinebus, a chywiro eu camsyniad hwy, y mae, wrth adael y mater, yn rhoddi gorchymyn, "Bwriwch," &c., gan ddilyn *Deut.* xxiv. 7.

Pennod VI.

1—11. Yn erbyn ymgyfreithio o flaen y paganiaid.

Cyssylltiad yr adran hon â'r bennod flaenorol ydyw:—"Fel nad oes genym ni ddim a wnelom â barnu y rhai sydd oddi allan, neu y paganiaid; felly hefyd ni ddylem ninnau fyned ger eu bron hwythau i gael ein barnu. Yr oedd hwn yn gwestiwn oedd wedi ei hen benderfynu yn mysg yr Iuddewon. Yr oedd yr Iuddewon yn dysgu (ar sail *Exod.* xxi. 1) fod yn anghyfreithlawn i Iuddew wysio ei frawd o flaen barnwr Cenhedlig. "Os dwg rhywun farnedigaethau Israel ger bron y Cenhedloedd, y mae yn dianrhydeddu enw

y saint y byd? ac os trwoch chwi y bernir y byd, a ydych chwi yn anaddas i farnu y pethau lleiaf?

3 Oni wyddoch chwi y barnwn ni angylion? pa faint mwy y pethau a berthyn i'r bywyd hwn?

[d] 1 Cor. 12.5.

4 Gan hyny, [d]od oes genych farnedigaethau am bethau a berthyn i'r bywyd hwn, dodwch

[e] Act. 6.3-4.

ar y faingc [e]y rhai gwaelaf yn yr eglwys.

5 Er cywilydd i chwi yr ydwyf yn dywedyd. Felly, onid oes yn eich plith gymmaint ag un doeth, yr hwn a fedro farnu rhwng ei frodyr?

6 Ond bod brawd yn ymgyfreithio â brawd, a hyny ger bron y rhai digred.

7 Yr awr hon gan hyny y mae yn hollol ddiffyg yn eich plith, am eich bod yn ymgyfreithio â'ch gilydd. Pa ham nad ydych yn hytrach yn dioddef cam? pa ham nad ydych yn hytrach mewn colled?

8 Eithr chwychwi sydd yn gwneuthur cam, a cholled, a hyny i'r brodyr.

9 Oni wyddoch chwi na chaiff [f]y [f]rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwyr, nac eilunaddolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwryw-gydwyr,

[f] Exod. 23.1; Diar. 11. 1; Esa. 10.1,2; Zech. 5 3; Act. 24. 25; 1 Tim. 1. 9; [g] Rhuf. 6. 17—19; Eph. 2.1-3. [h] Joan 13.10; Eph. 5. 26; Heb. 10.22; 1 Pedr 3.21. [i] Act. 26.18. [k] Esa. 45.25; 53. 11; Act. 13. 39; Gal. 2. 16; 3. 8, 11, 24; Tit. 3. 7; Iago 2. 21-26.

10 Na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw.

11 A [g]hyn fu rai o honoch chwi: eithr [h]chwi a olchwyd; [i]eithr chwi a sancteiddiwyd; [k]eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn

ei ddarllenwyr, yr hwn oedd yn hysbys iddynt, oud a esgeulusid ganddynt. *Y barna* :—nid yn golygu yr un peth a (1 *Cor.* ii. 15), "Yr hwn sydd ysbrydol sydd yn barnu pob peth," o blegid rhagorfraint ddyfodol a olygir yma. Nid chwaith, yr ennillai Cristionogaeth uchafiaeth yn ymherodraeth Rhufain [*Whitby, Macknight*], nac y byddai i ymddygiad y saint gondemnio y byd; ond uchafiaeth ac anrhydedd y saint yn y dydd diweddaf. Byddant yn barnu y byd yn Nghrist fel eu Pen a'u cynnrychiolydd, ac yn barnu y byd gyda Christ fel eu brawd hynaf: gwel *Rhuf.* viii. 17; 2 *Tim.* ii. 12; *Mat.* xix. 28; *Luc* xxii. 30; *Dad.* ii. 26, 27. Mae pob golygiad arall, oddi eithr hwn, yn anghysson âg "Oni wyddoch chwi y barnwn ni angylion?" Yn ol golygiad y tadau, a'r nifer mwyaf o esbonwyr, wrth *angylion* y meddylir, naill ai angylion drwg, neu angylion da a drwg. Gwrthddadl Alford, ac ereill, i hyn ydyw, mai y rhai da yn unig a olygir wrth y gair *angylion*, pan y digwydda heb un dynodiad. Mae Hodge yn golygu mai y meddwl yma ydyw, "Oni wyddoch chwi y bydd y saint wedi eu dyrchafu uwch law yr angylion?" am fod hyn yn osgoi yr anhawsder o dybied y bydd angylion da yn cael eu barnu. *Os trwoch chwi y bernir* :—neu, "os ger eich bron." Y mae Chrysostom yn amcanu—gyda'r arddodair *en* (yn) a gyfieithir yma *trwy*—profi mai yr ystyr ydyw, condemnio y byd trwy eich esampl; ond y mae Alford a Stanley yn dangos mai yr ystyr yw, barnu yn eich gwydd, neu o'ch blaen. *Yn anaddas i farnu y pethau lleiaf* :—neu, yn annheilwng o'r barnedigaethau lleiaf; yn arwyddo, naill ai brawdleoedd, neu y gwaith o farnu; nid materion i'w barnu, fel yn y testyn Cymraeg. Materion y barnedigaethau a olygir yn *adn.* 3; sef, "y pethau a berthyn i'r bywyd hwn"—pethau a berthyn i fywoliaeth.

4. Y mae y rhai gwaelaf o'r rhai ydynt i farnu angylion yn addas i farnu materion bychain bywoliaeth. Mae ereill yn cymmeryd yr adnod fel cwestiwn, A ydych yn gosod ar y faingc y rhai a berchir leiaf yn yr eglwys, sef y paganiaid? Ond yr ystyr a drosglwyddir yn y cyfieithiad Cymraeg a dderbynir yn fwyaf cyffredin. Dywed Alford, ei fod hefyd yn fwy unol â'r gwreiddiol. Mae y gair a gyfieithir *dodwch* yn arwyddo eu bod hwy eu hunain i *osod* rhai i farnu eu hachosion, ac nid i fyned ger bron barnwyr oeddynt eisoes wedi eu gosod.

7. *Yn hollol ddiffyg yn eich plith.*—Yr ydych yn hyn yn syrthio yn fyr o'r hyn a ddylech fod fel Cristionogion. Mae ysbryd yr adnod hon yr un a *Mat.* v. 40.

8. Yn hytrach nag ymostwng i ddioddef cam, yr oeddynt, i'r gwrthwyneb, yn gwneuthur cam a cholled, a hyny i'r brodyr, ac felly yn amddifad o uniondeb cyffredin a chariad Cristionogol.

9, 10. Y cyssyltiad â'r adnod o'r blaen ydyw:—Yr ydych yn gwneuthur cam, yn gweithredu yn anghyfiawn, fel pe baech wedi anghofio y cauir yr anghyfiawnion allan o deyrnas Dduw. *Oni wyddoch chwi?*—A ydych chwi yn Gristionogion, ac etto yn anwybodus o beth sydd yn egwyddor sylfaenol yn y grefydd a broffesir genych? Mae *anghyfiawn* yma yn golygu y cymmeriad sydd yn sangu ar egwyddorion uniondeb yn ei drafodaeth â'i gyd-ddynion. Enwir *godinebwyr* yn gyntaf gyda chyfeiriad at yr ymdriniaeth yn y bennod o'r blaen, ac am fod Corinth yn heidio o'r cyfryw gymmeriadau; yr hyn a wnai beryglyr eglwys yn fawr. Dilynir y godinebwyr yn y rhestr gan *eilunaddolwyr*, am fod eilunaddoliaeth nid yn unig yn bechod ysgeler ynddo ei hun, ond hefyd yn rhiant i lawer o lygredigaethau ereill: o blegid yr oedd eilunaddolwyr yn cael eu cefnogi i, a'u noddi yn y cyflawniad o buteindra, godineb, sodomiaeth, lladrad, a meddwdod, gan esampl eu duwiau. *Masweddwyr* :—y rhai a oddefent i ddynion eu hammharchu; ac felly yn gyssyltiedig â gwryw-gydwyr, y rhai a gyflawnent yr ammharch arnynt. Rhoddid yr enw *pathics* ar y dosbarth cyntaf: yr oeddynt yn gwisgo fel benywod.

11. *Chwi a olchwyd.*—Mae yr esbonwyr yn gyffredin yn darllen yn hytrach, "Chwi a'u golchasoch ymaith," am fod y ferf yn y *middle voice*. Etto yr un yw y meddwl a phe buasai y ferf yn y goddefol. Gelwir ar ddynion i olchi ymaith eu pechodau (*Act.* xxii. 16), i roddi heibio

enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni.

12 Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, ond nid yw pob peth yn llesau; pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr ni'm dygir i dan awdurdod gan ddim.

13 Y bwydydd i'r bol, a'r bol i'r bwydydd: [l]eithr Duw a ddinystria hwn a hwythau. A'r corph nid *yw* i odineb, [m]ond i'r Arglwydd; a'r Arglwydd i'r corph.

14 Eithr [n]Duw a gyfododd yr Arglwydd, ac a'n cyfyd ninnau [o]trwy ei nerth ef.

15 Oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn aelodau i Grist? gan hyny a gymmeraf fi aelodau Crist, a'u gwneuthur yn aelodau putain? Na atto Duw.

16 Oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn cydio â phutain, yn un corph? canys y ddau (medd efe) fyddant un cnawd.

17 Ond [p]yr hwn a gyssylltir â'r Arglwydd, un ysbryd yw.

18 Gochelwch odineb. Pob pechod a wnelo dyn, oddi allan i'w gorph y mae; ond yr hwn sydd yn godinebu, sydd yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun.

19 Oni wyddoch chwi fod eich corph yn demel i'r Ysbryd Glân, yr hen ddyn, ac i wisgo y dyn newydd (*Eph.* iv. 22, 24), er fod y cyfnewidiad hwn yn cael ei briodoli wrth manau ereill i Ddiuw. Yr egwyddor a welir yn hyn ydyw, nad yw dyn yn hollol oddefydd yn ei adferiad: er mai yn nhrefn a thrwy ddylanwad yr Ysbryd Glân y mae yn cael ei lanhau oddi wrth ei bechod, etto y mae a wnelo ei weithrediad ef ei hun, mewn ymostyngiad, edifeirwch, a dychweliad, â'r glanhâd hwn. *A sancteiddiwyd.*—Wedi i chwi ymlanhau oddi wrth eich llygredigaethau blaenorol, neillduwyd chwi i Dduw ac i'w wasanaeth. Yr oeddynt yn sanctaidd, yn dufewnol ac yn allanol. Trwy eu proffes Gristionogol, yr oeddynt yn ddidoledig oddi wrth eilunaddolwyr.

12—20. Y CAMDDEFNYDD O RYDDID CRISTIONOGOL.

Nid oes sail i dybied fod yr apostol, wrth ddywedyd, "Pob peth sydd gyfreithlawn i mi," yn defnyddio geiriau gwrthwynebydd neu wrthddadleuydd. Y mae yn hytrach yn dadgan ei syniad ei hun o barth rhyddid Cristionogaeth gyda golwg ar bethau heb fod yn dda na drwg ynddynt eu hunain. Mae pob peth o'r dosbarth hwn yn gyfreithlawn i Gristion i'w arfer; etto y mae dau gyfyngiad i fod ar yr egwyddor hon; yr ystyriaeth o'u llesoldeb, a'r ystyriaeth o'n hannibyniaeth a'n rhyddid ysbrydol. Cyfiwynir y naill syniad a'r llall yn *adn.* 12, "Nid yw pob peth yn lleshau;" a "Ni'm dygir i dan awdurdod gan ddim." Ond yr oedd y Corinthiaid mewn perygl o gymmhwyso yr egwyddor yma mewn ymarferiad Cristionogol at bethau pechadurus. Gan fod y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn gyffredin yn edrych ar odineb fel yn mysg y pethau dibwys, y mae yn debygol fod rhai o Gristionogion Corinth, trwy ryw eu magwraeth dan y fath ddylanwadau, heb eu llwyr waredu oddi wrth y cyfryw syniad, ac fod gweddillion yr ammhuredd yma yn eu barn yn gadael effaith niweidiol ar eu hymddygiadau. Tybient, fe allai, fod ganddynt sail i feddwl fel hyn am aflendid a godineb: barnent am fwydydd oddi wrth gyfaddasrwydd bwydydd i'r cylla: "Y bwydydd i'r bol, a'r bol i'r bwydydd." Mae yn gyfreithlawn ymborthi ar rhyw fwyd neilldiol, os ydyw yn cydweddu â'r cylla: dyna ydyw yr unig ystyriaeth; a'r un modd y mae yn gyfreithlawn boddhau unrhyw flys fyddo yn naturiol. Mae attebiad yr apostol i hyn yn ddyblyg: dywed y dylid cyfyngu ar ryddid gyda phethau dibwys, trwy ystyried a ydyw y defnyddiad o honynt yn llesol, ai peidio; ac yn mhellach, nad oes un gyfattebiaeth rhwng pethau dibwys, megys bwydydd, a godineb. *Eithr ni'm dygir.*—Nid yw fod pob peth yn gyfreithlawn i mi yn un rheswm dros i mi fod yn gaethwas i fy mlysiau. Os rhaid i ddyn ddefnyddio ei ryddid, y mae felly yn colli ei ryddid. *Y bwydydd i'r bol,* &c.—Mae Alford yn trosglwyddo ymresymiad yr adnod hon a'r un ganlynol fel hyn: —Mae bwydydd wedi eu darparu yn neilldiol i'r cylla, a'r cylla iddynt hwythau; ac y mae y naill a'r llall o natur ddiflanedig. Yn y cyfnewidiad i'r sefyllfa fwy perffaith, dinystria Duw y naill a'r llall. Gan hyny, y mae bwydydd yn bethau dibwys. Ond nid ydyw y corph wedi ei greu i odineb; ac nid ydyw y difianiad hwn chwaith yn perthyn i'r corph: y corph sydd i'r Arglwydd Iesu, a'r Arglwydd Iesu, yn ei waith cyfryngol, i'r corph; ac megys y cyfodwyd ein Harglwydd, felly y cyfodir ninnau; felly nid ydyw y corph i ddarfod, ond i aros, ac i barhau mewn gwedd ragorach, fel eiddo tragwyddol yr Arglwydd Iesu. Ond y mae yr hwn sydd yn godinebu yn pechu yn erbyn ei gorph. Gan hyny, nid yw godineb yn un o'r pethau dibwys. *Pob pechod a wnelo dyn.*—Mae yr adnod hon yn dyrysu llawer o'r esbonwyr. Dywedir yma fod pob pechod a wnelo dyn, oddi eithr godineb, oddi allan i'w gorph; ond gofynir, Onid ydyw glythineb a meddwdod yn perthyn i'r un dosbarth a godineb, yn bechodau yr un mor unionyrchol yn erbyn y corph? "Yn y gocheliad hwn," ebe Macknight, "y mae glythineb a meddwdod yn cael eu cymmeryd i fewn fel cymdeithion cyffredin puteindra. O blegid y mae y rheswm am y gocheliad yr un mor gymmhwysiadol at y pechodau hyn hefyd: y maent yr un mor ddinystriol i'r corph ag yw godineb." Ond y mae yn amlwg fod geiriau yr apostol yn gwahardd y cyfryw syniad. Llefara yn unig am un o bechodau y cnawd, a gwahaniaetha yr un hwnw oddi wrth bob un arall. Caua allan lythineb a meddwdod, yn gystal ag eilunaddoliaeth. Mae sylw Alford ar y geiriau fel y canlyn:—Mae yr haeriad hwn yn wir yn yr ystyr fanylaf. Meddwdod a glythineb ydynt bechodau a gyflawnir yn, a chan y corph, ac ydynt bechodau trwy gamddefnyddiad o'r corph; etto oddi allan i'r corph y maent. Y maent yn bechadurus, nid yn y weithred, ond yn eu heffaith—yr hon effaith y mae yn ddyledswydd ar bob dyn i'w rhagweled a'i gochel. Ond y

[l] Ioan 6. 27, 49; Col. 2. 22, 23. [m] Rhuf. 6. 12, 13; 7. 4; 12. 1; 14. 7–9; 2 Cor. 5. 15; 11. 2; Eph. 5. 23; 1 Thes. 4. 3–7. [n] Act. 2. 24; 17. 31; Rhuf. 6. 4–8; 8. 11. [o] Ioan 5. 28, 29; 6. 39, 40; 11. 25, 26; Eph. 1. 19, 20. [p] Ioan 3. 6; 17. 21–23; Eph. 4. 3, 4; 5. 30. Phil. 2. 5.

sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn
[q] 1 Bren. 20. 4; Rhuf. 14. 7—9; 2 Cor. 5. 15.
ei gael gan Dduw, [q]ac nad ydych yn eiddoch eich hunain?
[r] Act. 20. 28. [s] Mat. 5. 16.
20 Canys [r]er gwerth y prynwyd chwi: gan hyny, [s]gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw.

PENNOD VII.

1 *Y mae efe yn crybwyll am briodas; 4 ac yn dangos mai rhwymedig yw yn erbyn*

mae godineb yn dyeithrio y corph sydd eiddo yr Arglwydd, oddi wrtho, gan ei wneuthur yn eiddo putain. Mae yn bechod yn ei natur, yn erbyn corph y dyn ei hun, yn erbyn natur y corph; nid yn ei effaith ar y corph, oddi ar gyfranogiad o bethau oddi allan, ond yn wrthdarawiad i natur, i'r hyn yw y corph, yn cael ei gyflawni o fewn y corph ei hun. Pan y mae gŵr a gwraig yn un yn yr Arglwydd, wedi eu huno gan ei ordinhâd ef, nid oes dim o'r cyfryw ddyeithriad ar y corph yn cymmeryd lle, ac felly nid oes dim pechod.

Pennod VII.

1—40. Cyfarwyddiadau ynghylch priodas.

Y mae yr apostol, o'r bennod hon hyd 1 *Cor.* xiv. 40, yn ymdrin am y pethau yr ymofynnwyd o barth iddynt gan y Corinthiaid yn y llythyr a dderbyniasai oddi wrthynt. Eu cwestiwn cyntaf oedd ynghylch priodas, a pherthynas y rhywiau â'u gilydd. Nid ydyw yn debyg, er y gellid tybied fod *adn.* 18 yn ffafrio y golygiad, mai oddi wrth y blaid Iuddewig yn yr eglwys y cyfodasid y cwestiwn. Yr oedd yr Iuddewon bob amser yn ystyried fod priodas yn ddyledswydd; ac yn gymmaint felly, fel yr ystyrid yr hwn na byddai wedi priodi pan yn ugain mlwydd oed, wedi pechu. Ond yr oedd y duedd at annyweddïaeth mor gref yn mysg y Cenhedloedd yr amser hwn, fel yr oedd yn angenrheidiol gwneuthur deddfau tuag at ei wrthweithio: ac yr oedd amryw o athronwyr Groeg yn cyfranogi o'r duedd hon. Yr oedd yn gwestiwn yn eu mysg, Ai nid gwell oedd i ddyn doeth ymattal oddi wrth briodas? ac yr oeddynt yn cydolygu mai hyny oedd oreu.—*Grotius.* Y mae felly yn debygol mai oddi wrth y blaid Genhedlig, yr hon a ddilynai Paul, y cyfododd y cwestiwn. Ymofynid âg ef, mae yn amlwg, gan y rhai a ymostyngent i'w awdurdod, ac a barchent ei farn: nid gan y rhai a dueddent i wrthddadleu yn ei erbyn. Disgwylient, fe allai, am attebiad oddi wrtho a fuasai yn cadarnhau eu syniadau blaenorol, yn enwedig am y gwyddent ei fod yn arwain bywyd dibriod. Mae hefyd yn debygol fod yr Iuddewon yn edrych yn ïs ar Paul o herwydd hyn, yn gymmaint a bod yr apostolion a gyfrifent hwy fel eu harweinwyr yn wŷr priod. Ond os oes yn y bennod hon ryw ran yn fwy cyfeiriedig at yr Iuddewon, y mae yn debyg mai y rhan sydd yn ymdrin am briodasau cymmysg ydyw hono. Swm cyfarwyddiadau yr apostol ydyw, fod priodas, yn eu sefyllfa bresennol hwy, yn anghyfleus; etto, fel rheol gyffredin, fod priodas i'w hargymmell (*adn.* 1, 2): fod rhwymedigaethau yn gorwedd ar bob un o'r pleidiau, ac felly nad oes gan y naill hawl i adael y llall; etto, fod ymadawiad

godineb; 10 *a'na dilyid dattod y cwlwm hwnw mewn ysgafnder.* 18, 20 *Rhaid i bob dyn fod yn foddlawn i'w alwedigaeth.* 25 *Pa ham y dylid mawrhau gwyryfdod;* 35 *ac ar ba achosion y gallwn ni briodi, neu beidio â phriodi.*

B. A. 57.

[a] Adn. 9; 1 Cor. 6. 18; Diar. 5. 18, 19; 1 Tim. 4. 3. [b] Diar. 18. 22; 19. 14; Mal. 2. 14, 15; Eph. 5. 28—33.

A cam y pethau yr ysgrifenasoch ataf: Da i ddyn na chyffyrddai â gwraig.

2 Ond [a]*rhag* godineb, [b]bydded i bob gŵr ei wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gŵr ei hun.

â'u gilydd dros amser yn gyfreithlawn, er mwyn amcanion crefyddol. Nid yw yr apostol yn gorchymyn hyd yn oed hyn, ond yn ei ganiatau. Yr oedd y peth i'w benderfynu gan farn a chydwybod pob un, yn ol y gras a dderbyniasai efe gan yr Arglwydd. Yna dengys anghyfreithlondeb ysgariad: *adn.* 10, 11. Gyda golwg ar gyddrigias Cristion â chymmhar o Iuddew, neu bagan, ar yr hyn nid oedd yr Iachawdwr wedi rhoddi un cyfarwyddyd, dywed yr apostol (*a*) fod y briodas i barhau, os ydyw y digred yn foddlawn; (*b*) os byddai i'r digred ymadael, gan wrthod parhau yn y berthynas briodasol, fod y briodas trwy hyny yn cael ei dattod, ac fod y gŵr neu y wraig grediniol yn rhydd: *adn.* 12—15. Etto, dylid gochel y cyfryw ysgariadau, os yw yn bossibl, am nad ydyw Cristionogaeth wedi ei bwriadu i ddattod cyssylltiadau bywyd. Fel rheol gyffredin, dylai pob un aros yn y sefyllfa y galwyd ef iddi: *adn.* 16—24.

1. *Da i ddyn.*—Y mae amddiffynwyr annyweddïaeth yn rhoddi pwys mawr ar ystyr y gair a gyfieithir *da* (*calon*). Nid oes well enghraifft i'w chael o ddylanwad opiniynau blaenorol ar y farn wrth ymdrin â'r Beibl. Tra y mae y rhai sydd yn pleidio bywyd dibriod yn rhoddi yr ystyr uchaf i'r gair (rhagorol, uchel, ardderchog), y mae cefnogwyr priodas yn rhoddi iddo ystyr llawer is—cyfleus i'r amgylchiadau presennol. Mae yn amlwg mai ystyr y gair ydyw *da*—da mewn ystyr foesol: felly y defnyddir ef gan Aristotle, ac ereill o'r Groegiaid, wrth ysgrifenu ar foesau. Etto, y mae yr un mor amlwg fod ei arwyddocâd yma i'w benderfynu trwy gynnorthwy y cyd-destynau. Gwelir yn y bennod hon nad ydyw yr apostol yn dysgu fod priodas ynddi ei hun yn ddrwg, wrth ei chymmharu â bywyd annyweddïol, nac ychwaith ei bod, fel rheol gyffredin, yn afiesol. Dengys y gwrthwyneb yn yr adnod ddilynol. Dywed yn *adn.* 26, mai edrych yr oedd ar y cwestiwn yn ei berthynas â'r "angenrhaid presennol." Dywed, yn 1 *Tim.* iv. 3, fod "gwaharddpriodi" yn un o arwyddion dynesiad yr ymadawiad mawr. Nid oes neb yn dangos urddas priodas fel ordinhâd ddwyfol, ac fel cysgod o berthynas Crist â'r eglwys, yn fwy na'r apostol. Edrych yn unig y mae Paul yma ar briodas yn ei pherthynas â sefyllfa y Cristionogion ar y pryd: yn wir, golwg isel a gymmer arni yn *adn.* 2, wrth ei chymmharu âg *Eph.* v. 25—32. Gellir sylwi yn mhellach fod *calon* (da) yn cael ei arfer yn fynych yn y Testament Newydd yn yr ystyr yma—da yn gymmhariaethol, llesol, buddiol. *Chyffyrddai:*—yn cael ei arfer yn yr ystyr eangaf, heb un olwg ar y gwahaniaeth rhwng y cyfreithlawn a'r anghyfreithlawn.

2. Dyma y rheol gyffredin. Eithriadau oddi wrthi ydyw pob achos yn mha un y mae yn well peidio priodi. Os ydyw defnyddioldeb bywyd

[e] Exod. 21. 10; [f] 1 Pedr 3. 7.

3 [e] Rhodded y gŵr i'r wraig ddyledus ewyllys da; a'r un wedd y wraig i'r gŵr.

4 Nid oes i'r wraig feddiant ar ei chorph ei hun, ond i'r gŵr; ac yr un ffunud, nid oes i'r gŵr feddiant ar ei gorph ei hun, ond i'r wraig.

5 Na thwyllwch eich gilydd, oddi eithr o gydsyniad dros amser, fel y galloch ymroi i ympryd a gweddi: a deuwch drachefn

[d] Mat 19.11; 1 Thes. 3.5.

ynghyd, [d] rhag temtio o Satan chwi o herwydd eich anlladrwydd.

6 A hyn yr wyf yn ei ddywedyd [e] o ganiatâd, nid o orchymyn.

[e] Adn. 12, 25.

7 Canys mi a fynwn fod pob dyn fel fi fy hun: [f] eithr y mae i bob un ei ddawn ei hun gan Dduw; i un fel hyn, ac i arall fel hyn.

[f] 1 Cor. 12. 11; Mat. 19.12.

8 Dywedyd yr wyf wrth y rhai heb briodi, a'r gwragedd gweddwon, Da yw iddynt os arosant fel finnau.

---

un yn ymddibynu ar iddo fod yn rhydd oddi wrth ofalon, gwell fyddai iddo beidio priodi; ond nis gall hyny fod ond yn anfynych. Cyfraith Duw a phrofiad dyn ydyw, "Nid da bod y dyn ei hunan." Yr eithriad ydyw annyweddïaeth: priodas ydyw y rheol. *Rhag godineb:*—yn fwy cywir, *o herwydd godineb.* O achos aflendid ac anniweirdeb yr amser (yr un ag *adn.* 5). *Bydded:*—nid caniatâd, ond gorchymyn.

3—5. Dyledswydd gŵŷr a gwragedd i gydfyw â'u gilydd. Yr oedd hyn, y mae yn debygol, yn un o destynau ymofyniad y llythyr. *Dyledus ewyllys da* ydyw y gwrthwyneb i ymattaliad yn y bywyd priodasol a ddilynai ddylanwad egwyddorion asceticaidd neu feudwyol. Yr oedd y syniad fod priodas yn sefyllfa is a llai sanctaidd na bywyd sengl yn arwain yn naturiol i'r syniad y dylai gŵŷr a gwragedd wahanu oddi wrth eu gilydd. Dengys yr apostol nad oes gan rai fyddant wedi priodi hawl i hyn, ond trwy gydsyniad y ddwy blaid; a hyny am amser, ac i ddybenion crefyddol. "Nis gall dim fod yn mhellach o feddwl yr apostol na'r ysbryd a lanwodd y mynachdai a'r lleiandai yn ystod y canol-oesoedd."—*Hodge. Fel y galloch ymroi i ympryd a gweddi.*—Am fod yn ddyledswydd ar glerigwyr weddïo dros eu pobl ar bob amser, y mae Jerome a'r Pabyddion yn ymresymu oddi wrth yr ymadrodd hwn, y dylent fyw bywyd sengl. Ond y mae y casgliad yn ddisail. Llefaru y mae yr apostol, nid am ddyledswyddau cyffredin defosiwn, ond am adegau neilltuol o ddefosiwn ag y gelwir iddynt gan achosion neilltuol. Dywed Alford fod ffurf y ferf yn yr *aorist* yn dynodi mai at achosion neilltuol y cyfeirir yma; a dangosir hyny yn eglurach yn yr ymadrodd, "O gydsyniad *dros amser.*"

6. *A hyn.*—Beth ydyw yr "hyn?" Yr hyn a gynnwysir yn *adn.* 5, ebe rhai:—Mae y cynghor hwn yn dibynu yn gwbl ar y possiblrwydd iddynt gael eu temtio gan anlladrwydd. Gwyddai efe eu bod yn nghanol temtasiynau; ac am hyny, y mae yn rhoddi iddynt y cyfryw gyfarwyddyd; etto nid yw yn orchymyn yn mhob achos. Dywed ereill [*Rosenmüller, Macknight*] y golygir yma yr hyn sydd yn canlyn yn *adn.* 7, 8. Ond y golygiad a dderbynir yn fwyaf cyffredin yw, mai yr hyn a ddywedir yn *adn.* 2, a olygir, "Bydded i bob gŵr ei wraig ei hun," &c. Ymddengys y gair hwn fel gorchymyn; etto, er mai priodas ydyw y rheol gyffredin, nid yw yn rhwymedigaeth—yn orchymyn ar bawb. Nid yw yr apostol yn cydfarnu â'r Iuddewon, fod priodas yn rhwymedigaeth. Cyttuna y golygiad hwn yn well âg *adn.* 8, 9.

8, 9. *Y rhai heb briodi:*—o'r ddau ryw. Nid y gwrywaid dibriod yn unig, o blegid y mae y gair cyferbyniol yn *adn.* 10, "y rhai a briodwyd," yn cynnwys y ddau ryw. Mae Hodge yn sylwi ar yr adnodau hyn y dylid rhoddi pwys neilltuol ar amgylchiadau y Cristionogion boreuol. Heb gymmeryd yr ystyriaeth yma i mewn, y mae geiriau yr apostol yn ymddangos fel pe byddent yn anghefnogi priodas, gan gymmeryd yr olwg isaf arni, fel pe na bai iddi un amcan uwch na mwyniant anianol. Ond y mae yn amlwg oddi wrth eiriau ereill o eiddo yr apostol (*Eph.* v. 22—33) ei fod yn cymmeryd golwg annhraethol uwch ar briodas; yn edrych arni fel undeb mor uchel a phur fel ag i'w gwneuthur yn arwyddlun cymmhwys o'r undeb sydd rhwng Crist a'i eglwys. Gwna priodas i ddyn o fewn cylch naturiaeth yr hyn a wna undeb â Christ iddo yn nheyrnas gras. Ond y mae yr apostol yn ysgrifenu at y Corinthiaid fel y gwnaethai at fyddin fyddai ar fin myned i ryfel faith â gelyn galluog. Dywed wrthynt, Nid dyma yr amser i chwi feddwl am briodi: gwir fod genych hawl i briodi: ac yn y cyffredin, gwell ydyw i ddyn ion briodi. Ond yn eich sefyllfa bresennol chwi, nis gall priodas lai na bod yn anghyfleusdra i chwi, a'ch arwain i fwy o flinderau. "Dyma yr unig wedd ar y mater sydd yn unol âg egwyddorion ereill o eiddo yr apostol, â rheidiad y Beibl, ac â ffaith." "Mae yr apostolion yn yu llythyrau yn ymdrin yn fynych am briodas; er apostol Paul yn unig, a hyny unwaith, nid o'i ddewisiad ei hun, ond pan ymofynwyd âg ef ynghylch y peth, sydd yn annog i annyweddïaeth, a hyny yn dra chynnil."—*Bengel.* Mae y sylwadau cynnwysfawr hyn yn cynnwys adroddiad cyflawn o'r achos. Mae yn amlwg fod yr ymdriniaeth yn y bennod hon, pan ymddengys ynddi bethau yn anghysson â manau ereill, i'w hesbonio yn unol â'r manau hyny. Yn yr ymadroddion lle y mae yn ymdrin â'r pwngc o briodas, fel pwngc arno ei hun, heb gyfaddasu ei sylwadau i amcanion ac amgylchiadau neilltuol, y dylid ymofyn am ei holl feddwl ar y mater. Fel y sylwyd o'r blaen, y mae ei gyfarwyddiadau yma yn derbyn eu priodoldeb oddi wrth "yr angenrhaid presennol." Ac nid oes drwy y bennod hon un gair yn rhoddi ar ddeall fod yr apostol yn edrych ar annyweddïaeth yn ystâd uwch a sancteiddiach ynddi ei hun na'r sefyllfa briodasol: ac mewn man arall (1 *Tim.* iv. 1—3), y mae yn dangos fod gwahardd priodi, oddi wrth y cyfryw syniad, yn un o arwyddion "yr amseroedd enbyd" yn y dyddiau diweddaf. Prawf arall mai cyfarwyddiadau gogyfer âg amgylchiadau neilltuol a geir yma, ydyw fod y cynghor a roddir yma i wragedd gweddwon beidio priodi, yn cael ei alw yn ol yn 1 *Tim.* v. 14. *Fel finnau.*—Nid oes sail i dybied y buasai

[g] Adn. 15; Ier. 3. 20; Mal. 2. 14–16; Mat. 5. 32; 19. 6–9; Marc 10. 11, 12; [h] Luc 16. 18. [i] Barn. 19. 2, 3; Ier. 3. 1. [j] Deut. 22. 19; Esa. 50. 1; Marc 10. 2. [k] Adn. 6, 25; 2 Cor. 11. 17.

9 Eithr onid allant ymgadw, priodant: canys gwell yw priodi nag ymlosgi.

10 Ac i'r rhai a briodwyd yr ydwyf yn gorchymyn, nid myfi *chwaith*, ond yr Arglwydd, [g] Nad ymadawo gwraig oddi wrth *ei* gŵr:

11 Ac os ymedy hi, arhöed heb briodi, [h] neu cymmoder hi â'i gŵr: [i] ac na ollynged y gŵr *ei* wraig ymaith.

12 Ac wrth y lleill, [k] dywedyd

[1] Ezra 10. 2, 3, 11–19.

yr wyf fi, nid yr Arglwydd, [l] Os bydd i un brawd wraig ddigred, a hithau yn foddlawn i drigo gyda ef, na ollynged hi ymaith.

13 A'r wraig, yr hon y mae iddi ŵr digred, ac yntau yn foddlawn i drigo gyda hi, na wrthoded hi ef.

14 Canys [m] y gŵr digred a sanctteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sanctteiddir trwy y gŵr. Pe amgen, aflan yn ddiau

[m] 1 Cor. 6. 15–17; Ezra 9. 1, 2; 1 Tim. 4. 5; Tit. 1. 15.

Paul unwaith yn briod. Yr oedd ei dueddiad naturiol ef, mae yn bossibl, yn ffafriol i annyweddiaeth; o leiaf, wedi ei dröedigaeth, cafodd ei feddwl ei feddiannu mor llwyr gan un amcan, fel na feddyliodd am gymmhar bywyd. Y mae chwedl Iuddewig yn cael ei choffhau gan Epiphanius [*Ado. Hær.*] i Paul, pan yn ieuangc, syrthio mewn cariad â merch yr archoffeiriad. Mae rhai yn dadleu y rhaid fod Paul yn benteulu, pan oedd yn aelod o'r Sanhedrim, gan fod cyfraith yr Iuddewon yn gofyn hyny. Ond y mae Stanley ac ereill yn barnu nad oes yma ddigon o sail i'r dybiaeth.

10, 11. Nid y gwahaniaeth yma ydyw yr un rhwng geiriau ysbrydoledig a geiriau anysbrydoledig; ond rhwng geiriau yr Arglwydd—Crist yn nyddiau ei gnawd—a'r hyn a ddysga Paul trwy Ysbryd Crist. Dywed wrth y Corinthiaid nad oedd raid iddynt, gyda golwg ar ysgariaeth, ysgrifenu ato am gyfarwyddyd. Mae Crist ei hun yn dysgu nad all y gŵr, yn ol ei ddewisiad ei hun, dori y rhwymyn priodasol. Nid oes gan y wraig hawl i ymadael â'i gŵr, na'r gŵr i fwrw ymaith y wraig: gwel *Mat.* v. 32; xix. 3, 9; *Marc* x. 2—12. Nid ydyw yr apostol yma yn crybwyll yr hyn a nodir gan Grist, fel yn cyfreithloni ysgariad—"o achos godineb." Ymdrin y mae efe am y rheol, nid am yr eithriad: ac ar ol y pethau a ddywedasai o'r blaen ar odineb, deallid ar unwaith ei fod yn deall yr eithriad yn gystal a'r rheol yr un fath a Christ.

12. *Y lleill*:—y personau oedd wedi priodi, na chymmerir i fewn yn yr ymdriniaeth flaenorol—priodasau cymmysg. Mae hyn yn rhoddi ar ddeall mai am y priodasau ag yr oedd y ddwy blaid yn Gristionogion y lleferir hyd yma. Dywed nad oedd ganddo ar hyn un gorchymyn neillduol o eiddo Crist i gyfeirio ato. Etto, nid yw yn teimlo un petrusder i'w cyfarwyddo, am ei fod yn ymwybodol o arweiniad Ysbryd Crist. Awgrymir yn hyn natur y cyssylltiad rhwng geiriau Crist ac eiddo yr apostolion—nid fod geiriau yr olaf yn llai eu hawdurdod, ond fod geiriau Crist yn cynnwys yr hadau—yr egwyddorion mawrion, cyffredinol, ac fod geiriau yr apostolion yn ddadblygiad o honynt; yn gymmhwysiad ar y gwirioneddau cyffredinol at amgylchiadau neillduol. Mae yr apostol, o'r adnod hon hyd *adn.* 16, yn rhoddi cyfarwyddiadau i Gristionogion oeddynt, cyn eu tröedigaeth, wedi priodi paganiaid. Dengys nad ydyw y cyfryw amgylchiad, ynddo ei hun, yn rheswm dros ysgariad ar y pleidiau; a cheir y rheswm o hyny yn *adn.* 14, &c. Etto, os ewyllysia y blaid baganaidd neu ddigred ymadael, gadawer iddo at ei ryddid i wneuthur hyny.

13. Yr un gair gwreiddiol a gyfleithir yma "na wrthoded" ag yn *adn.* 12, "na ollynged."

14. Ar ol dywedyd y gallai y cyfryw briodasau cymmysg barhau, â yr apostol rhagddo i symmud y petrusder y gallai y credadyn deimlo ynghylch y peth. Dengys nad oes yn y cyssylltiad ddim ansanctaidd:—"y gŵr digred a sanctteiddir trwy y wraig" grediniol; y prawf o hyny yw fod y plant, trwy gydsyniad cyffredinol, yn sanctaidd; ond y mae yn amlwg nas gallasent fod felly, oni buasai fod yr undeb a roddes fod iddynt yn sanctaidd. Y mae yn egwyddor safadwy fod cymmundeb neu berthynas â'r sanctaidd yn gwneuthur peth yn sanctaidd. Ystyr y gair *sanctaidd* yma ydyw *cyssegredig*: nid yw yn arwyddo purdeb personol, mewnol. Y mae unrhyw berson neu beth fyddo wedi ei neillduo neu ei gyssegru i Dduw a'i wasanaeth, yn cael ei olygu yn sanctaidd. Felly yr oedd dyddiau, lleoedd, dynion, anifeiliaid, a dodrefn, dan y gyfraith. Yr oedd holl genedl Israel yn sanctaidd; ac yr oedd felly, yn yr ystyr yma, ar wahân oddi wrth ei chymmeriad moesol. Y mae hyn, gan hyny, yn esbonio ystyr y gair *aflan* yn yr adnod hon: nid aflan neu ammhur mewn ystyr foesol a olygir, er fod y pagan felly; ond aflan yn yr ystyr o fod yn anneillduedig neu anghyssegredig:—"cyffredin" ydyw un o'r geiriau Beiblaidd cyfystyr. Sancteiddio peth neu berson ydyw ei drosglwyddo o'r naill ystâd i'r llall—ei neillduo i Dduw a'i wasanaeth. Yn *Act.* x. 15, arferir y gair *glanhau* yn gyfystyr â *sanctteiddio*. Yr oedd yr Israeliaid yn sanctaidd, am ddarfod iddynt gael eu neillduo oddi wrth genhedloedd ereill, a'u cyflwyno i Dduw a'i wasanaeth. Ac yr oedd pawb a ymunent â hwy yn dyfod yn sanctaidd, yr un modd a hwythau, trwy rinwedd yr undeb. Yr oedd eu gwragedd a'u plant yn gyssegredig. Felly, y mae yn amlwg nad oedd y sanctteiddrwydd yma yr un peth a sanctteiddrwydd tufewnol. Nid oedd sanctteiddio mewn ffordd o gyssegru yn effeithio dim ar sefyllfa foesol yr hyn a sanctteiddid. Priodolir y sanctteiddrwydd hwn i wrthddrychau na allant gyfranogi o ddim moesol; etto, dylid cofio mai amcan y math hwn o sanctteiddrwydd oedd arddangos sanctteiddrwydd uwch, ac argraphu ar feddwl Israel yr angenrheidrwydd am dano. Felly, pan ddywedir yma fod y gŵr digred yn cael ei sanctteiddio trwy y wraig, y meddwl ydyw, nid fod hyny yn ei wneuthur yn Gwaherddir y gŵr crediniol i fwrw ymaith ei wraig ddigred, a'r wraig grediniol i fwrw ymaith ei gŵr digred. Mae y ferf yn y *middle voice*; a'r cyfleithiad mwyaf llythyrenol o honi fyddai *ymadael â*; yn hytrach na gwrthod. Gosodir y gŵr a'r wraig, trwy ddefnyddiad yr un gair, ar yr un tir gyda golwg ar y peth, am fod cyfreithiau Groeg a Rhufain yn rhoddi yr un hawl o ysgariaeth i'r gŵr a'r wraig.

fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt.

15 Eithr os yr anghredadyn a ymedy, ymadawed. Nid yw y

sanctaidd dufewnol, na'i fod ychwaith, er fod hyny yn wir, yn ddeiliad dylanwad o duedd i'w wellhau yn foesol; ond ei fod, trwy rinwedd ei undeb â Christion, mewn perthynas newydd. Fel yr oedd y deml yn sancteiddio pob peth a berthynai iddi, felly y mae y wraig grediniol, yr hon sydd yn gyssegredig i Dduw, fel ei deml, yn sancteiddio ei gŵr digred: mae efe yn briod i un o etholedigion Duw, ac yn rhïant i blant y cyfammod. Mae yn ymddangos i ni fod Stanley yn cario "sancteiddiad y gŵr digred" yn rhy bell, wrth ddywedyd fod y gŵr digred, trwy rinwedd ei undeb â gwraig grediniol, "i gael ei restru yn mysg pobl Dduw." Nid llefaru y mae yr apostol yma am freintiau y gŵr digred, ond yn unig am gyfreithlondeb yr undeb rhwng gwraig grediniol a'r cyfryw un. Nid edrychir ar ei sancteiddiad yn ddim pellach na'r undeb priodasol. Yn hytrach na bod yr undeb yn cael ei wneyd yn anghyfreithlawn gan ei gymmeriad ef fel un digred, y mae gan dduwioldeb y wraig fwy o allu i sancteiddio yr undeb nag sydd gan annuwioldeb y gŵr i'w aflanhau.—*Calvin.* Nid yw y sancteiddiad hwn o un budd, fel y cyfryw, i'r digred; ei unig wasanaeth ydyw, nad yw y wraig grediniol yn cael ei haflanhau trwy gyssylltiad âg ef, na'r briodas ei hun yn cael ei gwneuthur yn anghyfreithlawn. *Pe amgen.*—Yr un drychfeddwl ag a geir yn *Rhuf.* xi. 16. Mae dau olygiad ar y geiriau: (1.) Os ydyw plant credinwyr, fel yr ydych yn addef, yn sanctaidd, pa ham, ar yr un tir, nad ydyw gŵr neu wraig credadyn yn sanctaidd. Mae perthynas gŵr a gwraig yr un mor agos ag ydyw perthynas rhieni a phlant. Os nad ydyw y gŵr yn cael ei sancteiddio trwy y wraig grediniol, nid yw plant yn cael eu sancteiddio trwy eu rhieni crediniol. Y ddadl yn erbyn hyn ydyw, fod y golygiad hwn yn tybied fod y tad a'r fam yn gredinwyr, tra y lleferir am blant i rieni ag y mae un yn Gristion, a'r llall yn bagan. (2.) Y golygiad a dderbynir yn fwyaf cyffredin yw, Cyfrifir plant y priodasau cymmysg hyn fel yn sanctaidd—ystyrir hwy yn perthyn i'r eglwys. Os felly, mae yn rhaid fod y priodasau eu hunain yn unol â chyfraith Duw: mae y gŵr digred yn cael ei sancteiddio gyda golwg ar barhâd y briodas, trwy y wraig grediniol. Gwrthddadleuir i hyn, nad yw yn debygol fod hawl eglwysig y cyfryw blant yn bwngc diammheuol yn eglwys Corinth, mor foreu ar ol sefydliad yr eglwys. Ond y mae yn ddigon o attebiad fod yr egwyddor y gorphwysa hyn arni yn un o hen egwyddorion yr Eglwys Iuddewig; ac yr oedd yr Eglwys Gristionogol yn y dechreu yn ymffurfio yn naturiol yn unol â phethau Iuddewig nad oeddynt yn perthyn i Iuddewiaeth fel y cyfryw. Yr oedd tref̈n addoliad yr Eglwys Gristionogol, fel esampl yn cael ei ffurfio yn ol defodau y synagog Iuddewig. Yn awr, yr oedd hyn yn bod yn yr Eglwys Iuddewig—yr oedd y plant yn sanctaidd pan fyddai un o'r rhieni yn Israeliad. Darfu i Paul enwaedu ar Timotheus, yr hwn yr oedd ei dad yn Roegwr, am y gwyddai fod enwaediad yn rhwymedig yn y cyfryw achosion. Cymmer yr apostol yn ganiataol fod y Corinthiaid yn hysbys o egwyddorion a ffeithiau yr Hen Destament (gwel 1 *Cor.* x. 1—13).—*Hodge.* Dangosir yma mewn modd diammheuol fod

plant credinwyr dan y Testament Newydd yn sanctaidd yn yr un ystyr ag yr oedd plant yr Israeliaid dan yr Hen felly. Y maent yn aelodau o'r Eglwys Gristionogol, ac yn meddu hawl i'w breintiau, megys yr oedd y plant yn Israel yn aelodau o'r Eglwys Iuddewig, ac yn meddu cyfran yn ei breintiau. Yr oedd gan y naill hawl yn yr enwaediad, ac felly y llall yn y bedydd. Yr oedd hâd Abraham yn derbyn arwydd eu neilluaeth, am fod y peth ei hun ganddynt: os oes a wnelo bedydd â neilluaeth Cristionogion, eu cyssegriad i Dduw, o'r hyn y mae yn arwydd, pa gyssondeb sydd mewn addef eu bod yn feddiannol ar y peth ei hun, ond er hyny eu hattal oddi wrth yr arwydd? Y mae amryw o esbonwyr yr Almaen, a Stanley yn y wlad hon, yn haeru fod yr adnod hon yn awgrymu fod bedydd babanod yn anadnabyddus yn yr oes apostolaidd, er fod Stanley yn addef fod yr egwyddor ar ba un y mae bedydd babanod yn gorphwys yn cael ei hamddiffyn yma. Eu seiliau dros yr haeriad ydynt (1.) Y buasai yr apostol yn seilio ei brawf o sancteiddrwydd neu lendid plant, nid ar eu perthynas â thad neu fam grediniol, ond ar y ffaith eu bod wedi eu derbyn i'r eglwys trwy fedydd, os caniateir fod hyny yn bod. (2.) Na buasai yn llefaru am y tad digred fel yn sanctaidd, yr un modd a'r plant, os oedd cymmaint o wahaniaeth rhyngddynt a bod yr olaf yn fedyddiedig. Attebiad digonol i'r wrthddadl gyntaf ydyw, mai nid bedydd oedd yn gwneuthur y plant yn sanctaidd, ond eu perthynas â rhieni crediniol. Bedyddiid hwynt am eu bod yn sanctaidd, yn rhinwedd eu perthynas â thad neu fam grediniol. Enwaedid ar y plentyn Iuddewig, nid i'w wneuthur yn Iuddew, ond am ei fod yn Iuddew. Y mae yr apostol, gan hyny, yn gosod ger bron yma *wreiddyn* sancteiddiad y plant—nid yr *arwydd* o'u sancteiddiad. Gyda golwg ar yr ail wrthddadl, y mae yn ymddangos i ni fod amcan yr apostol yn cael ei atteb yn fwy effeithiol, wrth ddeall y geiriau fel yn profi, o leiaf yn awgrymu bedyddiad y plant:—Os ydyw plant y briodas hon yn sanctaidd—mor sanctaidd fel y mae ganddynt hawl yn mreintiau yr eglwys, yna y mae yn rhaid fod y briodas ei hun yn sanctaidd. Nid ydyw undeb y pagan â gwraig grediniol yn rhoddi hawl iddo ef yn mreintiau yr eglwys, am ei fod ef yn rhydd-weithredydd drosto ei hun; ond y mae undeb y plant â'u mam grediniol yn rhoddi yr hawl hono iddynt hwy, am eu bod, a chyhyd ag y byddont, yn cael eu cynnrychioli gan eu mam. *A sancteiddir trwy y gŵr:*—yn llythyrenol, *trwy y brawd*—trwy rinwedd Cristionogaeth ei gŵr.

15. *Gaeth.*—Os ydyw yr anghredadyn yn foddlawn i aros, y mae y wraig yn "gaeth;" hyny yw, yn rhwym o gydfyw âg ef; os ymedy, nid yw yn rhwym wrth y cyfammod priodasol. *Eithr Duw a'n galwodd ni i heddwch.*—Mae dau olygiad yn cael eu rhoddi ar gyssylltiad y geiriau: —1. Gan fod Duw wedi ein galw i fyw mewn heddwch, y mae yn wrthwyneb i natur ac amcan ein galwedigaeth i wraig Gristionogol gydfyw â phagan fyddo yn anfoddlawn i aros gyda hi. Gadawed i'r gŵr digred ymadael, yn hytrach na pheryglu yr heddwch y galwyd hi iddo, trwy barhau mewn undeb âg ef. Dyma olygiad

[q] 1 Cor. 14. 33; Rhuf. 12. 18; 14. 19; 2 Cor. 13. 11; Gal. 5. 22; Heb. 12. 19.
[r] 1 Cor. 9. 22; Diar. 11. 30; Luc 15. 10; 1 Tim. 4. 16; Iago 5. 19, 20; 1 Pedr 3. 1.
[s] Adn. 7; Mat. 19. 12; Rhuf. 12. 3-8; 1 Pedr 4. 10, 11.
[t] Adn. 18, 21.

brawd neu y chwaer gaeth yn y cyfryw *bethau:* eithr Duw a'n galwodd ni [n] i heddwch.

16 Canys beth a wyddost ti, [o] wraig, a gedwi di *dy* ŵr? a pheth a wyddost tithau, ŵr, a gedwi di *dy* wraig?

17 Ond [p] megys y darfu i Dduw ranu i bob un, megys y darfu i'r Arglwydd [q] alw pob un, felly rhodied. Ac fel hyn yr wyf yn ordeinio yn yr eglwysi oll.

18 A alwyd neb wedi ei enwaedu? nac adgeisied *ddïenwaediad.* A alwyd neb mewn dïenwaediad? nac enwaeder arno.

19 Enwaediad nid yw ddim, a dïenwaediad nid yw ddim, [r] ond cadw gorchymynion Duw.

[r] 1 Sam. 15. 22; Ier. 7. 22, 23.

20 Pob un yn yr alwedigaeth y galwyd ef, yn hono arosed.

21 Ai yn was y'th alwyd? na fydded gwaeth genyt; etto os gelli gael bod yn rhydd, mwynhâ *hyny* yn hytrach.

22 Canys yr hwn, ac ef yn was,

Stanley, Alford, &c. Y mae Hodge yn dadleu fod y golygiad hwn yn wrthwyneb i holl ysbryd yr adran, yn yr hon y mae yr apostol yn milwrio yn erbyn ysgariadau diangenrhaid:—Gwir; ond nid yw yn erbyn *adn.* 15, yn yr hon y dangosir fod gan y wraig grediniol hawl i ymadael, os nad ydyw y gŵr digred yn foddlawn i gydfyw â hi. 2. Duw a'n galwodd ni i heddwch: felly, er fod y credadyn yn rhydd, os gadewir ef gan ei gymmhar digred, dylid gochel y cyfryw ysgariadau hyd y mae yn bossibl: nid yw yr efengyl wedi ei bwriadu i ysgar gwŷr a gwragedd. Y golygiad cyntaf sydd fwyaf unol â'r adran.

16. Y mae yr adnod hon, nid, fel y tybir yn gyffredin, yn rheswm dros annog y credadyn i aros gyda'i briod digred, oddi ar y tebygolrwydd y gallai ei hennill at Gristionogaeth; ond yn rheswm dros yr annogaeth iddynt ymadael, os byddai y cymmhar digred yn anfoddlawn i aros:—Gwell yw i chwi ymadael â'ch gilydd, ac nid tarfu eich heddwch fel Cristionogion, er mwyn budd sydd mor ansicr ac annhebygol ag ydyw tröedigaeth y cymmhar digred. Dyma y golygiad mwyaf cyffredin yn bresennol; cefnogir ef gan De Wette, Meyer, Stanley, Alford, &c. Y mae ereill yn cymmeryd golygiad hollol wahanol:—"Dylech ymgais am fod mewn heddwch â'ch gilydd, o blegid beth a wyddost ti, wraig, *na* chedwi dy ŵr. Ond sicrheir nad oes digon o reswm dros ddeall y frawddeg fel yn cyfleu tebygolrwydd a gobaith cryf; ond i'r gwrthwyneb, yn cynnwys y drychfeddwl o annhebygolrwydd.

17. Y mae yr adnod hon yn cynnwys eithriad. Y mae yr apostol yn rhoddi gocheliad iddynt rhag i'r cymmhar Cristionogol gario y rhyddid hwn i ymadael yn rhy bell: ni ddylai efe fod yn awyddus i ddattod yr undeb priodasol, ond aros yn y sefyllfa ag y galwyd ef iddi. Yr adnod non ydyw terfyniad y frawddeg flaenorol, yn hytrach na dechreuad yr un ganlynol. "Nid oes genyf chwaneg i'w ddywedyd oddi eithr hyn."—*Stanley.* Yn unig byddwch ofalus rhag gwneyd hyn yn sail i chwi eich hunain i achosi yr ysgariad. Rheol Cristionogaeth ydyw gadael y cyssylltiadau teuluaidd fel y cafodd hwynt.

18. Dyma yr enghraifft gyntaf o'r rheol uchod. Bydded i'r Iuddew aros yn Iuddew, a'r Cenedl-ddyn yn Genedl-ddyn. Amcanai yr Iuddewon, ar ol gadael eu crefydd, ddileu arwydd yr enwaediad oddi ar eu cyrph. Yr oedd y gau athrawon Iuddewig, ar y llaw arall, yn argymmhell yr enwaediad ar ddychweledigion Cenhedlig. Ond yr oedd y ddau ddosbarth o'u lle. Yr oedd enwaediad yn cael ei ystyried fel un o nodau gwareiddiad yn y cyn-oesoedd; ond yn amser y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, fel arwydd o farbareidd-dra. Ac yr oedd llawer o Iuddewon, er mwyn cydffurfio âg arferion Groegaidd, yn ceisio ei ddileu.

20. Yr un ystyr sydd i'r gair *galwedigaeth* yma ag yn mhob man arall yn y Testament Newydd, sef galwediaeth Duw: nid yw y gair gwreiddiol, yn yr ysgrifenwyr clasurol nac yn y Testament Newydd, yn golygu celfyddyd neu grefft. Nid yw yr apostol yma yn son am orchwylion neu sefyllfa fydol, ond am sefyllfa enwaededig neu gyflwr dienwaededig:—Na cheisiwch newid enwaediad am ddienwaediad, neu ddienwaediad am enwaediad: y mae pob un o'r sefyllfaoedd hyn wedi eu sancteiddio, trwy fod y sefyllfa yn mha un yr oeddych pan alwyd chwi.

21. Y mae dau olygiad ar yr adnod. Y naill ydyw yr un a gynnygiai ei hun i bob darllenydd Cymreig.—Na fydded flin genyt, os wyt yn gaethwas; etto, os yw yn bosibl i ti fod yn rhydd, cymmer y cyfleusdra. Na fydded gwaeth genyt os wyt yn gaeth: etto, dewisa ryddid yn hytrach. Hwn ydyw golygiad Calvin, Luther, Beza, a'r nifer mwyaf o esbonwyr. Yr wrthddadl ieithyddol yn erbyn hyn ydyw, fod y cyssylltair *cai* yn digwydd yn yr adnod, â'r hwn nid oes dim yn cyfatteb yn y cyfieithiad; ond y mae Hodge yn dadleu nad oes dim yn y gwreiddiol yn erbyn y golygiad cyffredin. Y golygiad a gymmeradwyir gan amryw o'r tadau, a chan Bengel, Estius, Meyer, De Wette, Alford, Stanley, &c., ydyw:—Ai yn was y'th alwyd, na fydded gwaeth genyt; ac os wyt hyd yn oed yn alluog i fod yn rhydd, defnyddia ef yn hytrach; *h.y.*, aros yn gaeth. Dywedir fod y gair a gyfieithir *mwynhau*, dewisa, defnyddia, yn fwy cefnogol i'r golygiad cyntaf, tra y mae y *cai* yn arwain yn hytrach i'r golygiad olaf. Dywed Stanley fod ystyr yr adnod hon arni ei hun yn fwy ffafriol i'r gyntaf, ond fod rhediad y cyd-destyn yn fwy o blaid yr olaf. Y mae iaith ac ymddygiad Paul ei hunan, fel y ceir disgrifiad o honynt yn Llyfr yr Actau, yn pleidio yr eglurhâd cyntaf (*Act.* xvi. 37; xxii. 38); tra y mae teimlad cyffredin yr eglwys, fel y gosodir ef allan yn yr Epistolau, yn fwy o blaid yr eglurhâd olaf. Prin y buasai yn werth i'r gwas ymafiyd yn ei ryddid, o leiaf gwneuthur ûn ymdrech er mwyn ei ryddid, ar fin dynesiad y diwedd. Yr un fath ag y mae yr apostol yn rhoddi y flaenoriaeth i annyweddfaeth, o herwydd "yr angenrhaid presennol," felly hefyd y mae, o herwydd yr un rheswm, yn dangos nad yw yn werth i'r caethwas ymestyn at ryddid.

22. Yn cynnwys y rheswm am yr annogaeth

a alwyd yn yr Arglwydd, gŵr rhydd i'r Arglwydd ydyw: a'r un ffunud yr hwn, ac efe yn ŵr
[z] 1 Cor. 9 19; Rhuf. 1. 1. [t] 1 Cor. 6. 20; Tit. 2. 14. rhydd, a alwyd, [z]gwas i Grist yw.
23 [t]Er gwerth y'ch prynwyd; na fyddwch weision dynion.

24 Yn yr hyn y galwyd pob un,
[u] 1 Cor. 10 31; Col. 3. 23, 24. frodyr, yn hyny [u]arosed gyda Duw.

[x] Adn. 6, 10, 12, 40. 25 Eithr am wyryfon, [x]nid oes genyf orchymyn yr Arglwydd: ond barn yr ydwyf yn ei roi, fel
[y] 1 Cor. 4. 2; 15. 10. un [y]a gafodd drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlawn.

26 Am hyny yr wyf yn tybied mai da yw hyn, o herwydd yr angenrhaid presennol, mai da, *meddaf*, i ddyn fod felly.

27 A wyt ti yn rhwym i wraig? na chais dy ollwng yn rhydd. A wyt ti yn rhydd oddi wrth wraig? na chais wraig.

28 Ac os priodi hefyd, [x]ni
[x] Adn. 36; Heb. 13. 4. phechaist: ac os prioda gwyryf, ni phechodd: er hyny y cyfryw rai a gânt flinder yn y cnawd: eithr yr wyf yn eich arbed chwi.

29 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, frodyr, am fod yr amser yn fyr. Y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt;

flaenorol. Ni ddylai y gwas bryderu am ei ryddid, am ei fod, os ydyw wedi ei alw, yn mwynhau y rhyddid uchaf. *Gŵr rhydd i'r Arglwydd ydyw.*—Un a ryddhawyd gan yr Arglwydd oddi wrth wasanaethu arall—diafol a phechod. Gwelir yma fod gwasanaeth Crist yn rhyddid perffaith, a bod rhyddid y Cristion yn wasanaeth i Grist. Y mae y rhyddid yn gaethiwed hyfryd, a'r darostyngiad hollol i awdurdod Crist yn rhyddid gwirioneddol a pherffaith.

23. Sail eu rhwymedigaeth i Grist. *Na fyddwch*, &c.—Na adewch i'ch cyssylltiad â chymdeithas, pa un bynag ai yn rhydd ynte yn rhwym, eich dwyn i gaethiwed, fel ag i'ch gwneyd yn bryderus am ymryddhau o'ch caethiwed, neu chwanegu eich rhyddid.—*Alford.* Y mae ereill yn deall yr annogaeth yn fwy cyffredinol:—Yr ydych yn eiddo Crist: ei gaethweision ef ydych, ac fel y cyfryw y dylech ymddwyn—nis gellwch fod yn weision i ereill. Nis gall gwas i un meistr fod yn was i arall. Y mae yn amlwg fod hyn yn gymmhelliad cryf i'r gweision ddygymmod a'u sefyllfa: yr oeddynt hwy, yn gystal a'u meistriaid crediniol, yn wrthddrychau y prynedigaeth. Barna Chrysostom mai llygad-wasanaeth, er boddloni dynion, a waherddir yma.

24. *Arosed gyda Duw*:—mewn cymmundeb gwastadol âg ef; yr hyn a'u gwnelai yn ddeddwydd a boddlawn, er eu bod yn weision.

25—40. YNGHYLCH GWYRYFON.

25. *Eithr.*—Y mae y gair a gyfeithir felly yn rhoddi ar ddeall fod yr apostol yma yn dychwelyd at ei fater penaf yn y bennod, sef priodas. *Am wyryfon*:—morwynion. Ond y mae Olshausen, Bengel, a Hodge, yn barnu fod y gair yn cynnwys y ddwy ystlen; ac y mae yr ansoddair ffurfiedig o hono yn dynodi y gwryw yn *Dad.* xiv. 4; "Y rhai hyn yw y rhai ni halogwyd â gwragedd, canys gwyryfon ydynt." *Nid oes genyf orchymyn yr Arglwydd*:—y pwyslais ar y gair *gorchymyn.* Ni roddes Iesu Grist orchymyn neilliduol ar y peth. Ac nid oedd Ysbryd Crist yn Paul yn ei arwain i wneuthur dim cryfach nag annog a chynghori. Arweinid ef, nid i orchymyn, ond i gynghori. Etto, yr oedd ei gyfarwyddyd yn deilwng o'r sylw mwyaf, yn gymmaint a'i fod wedi cael trugaredd gan yr Arglwydd Iesu i fod yn ffyddlawn—i fod yn un teilwng o ymddiried yn ei gyfarwyddiadau. Yr oedd ei gynghor yn fwy na chynghor dyn doeth.

26. *Yr angenrhaid presennol.*—Yr hyn a ragddywedwyd gan yr Arglwydd Iesu (*Mat.* xxiv. 8, 31)—y pethau a ragflaenant ei ddyfodiad, yn enwedig *adn.* 19; "A gwae y rhai beichiogion," &c. Y mae ystyr y gair a gyfieithir *presennol* i'w benderfynu gan y cyd-destyn y ceir ef ynddo, yn arwyddo naill ai yr angenrhaid neu y cyfyngder sydd wedi dyfod neu ar ddyfod. Golygir yma y blinderau oedd yn agosau, yn hytrach na dim oedd yn awr wedi syrthio arnynt. Gwelai yr apostol oddi wrth arwyddion yr amser yn gystal ag oddi wrth eiriau Crist, fod yr ystorm i ddechreu cyn hir.

27. Yr oedd priodas, yn sefyllfa yr eglwys y pryd hwn, yn fwy o faich ac anfantais nag o gysur a budd. Nid yw yr "angenrhaid presennol" yn gyfryw fel ag i ysgaru y rhai a briodwyd; etto y mae yn gyfryw ag i ddarbwyllo Cristionogion rhag priodi.

28. Y mae priodas yn anghyfleus—nid yn bechadurus. Dwg priodas, dan yr amgylchiadau presennol, flinder, ond nid euogrwydd; nid blinder tumewnol, ond blinder yn y cnawd. *Eithr yr wyf yn eich arbed chwi*:—yn eich amddiffyn rhag y cyfryw flinder, trwy eich annog i beidio priodi.

29—31. *A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd*:—i rymuso fy annogaeth. Y mae y prif esbonwyr yn cyttuno yn y farn fod y cyfeithiad Cymraeg yn gystal a'r Saesneg yn ddiffygiol o osod allan feddwl y gwreiddiol. Dichon fod y darlleniad canlynol yn gywir:—"A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, frodyr, fod yr adeg sydd yn ol wedi ei fyrhau, fel y byddai i'r rhai sydd â gwragedd iddynt, fod megys pe byddent hebddynt." Y mae y gair a gyfieithir, *Y mae yn ol*, ac a gamgyfleir yn y testyn Cymraeg, yn perthyn i'r gair *cairos* (amser). Y mae yr amser, y tymmor, sydd yn aros heb ei dreulio, wedi ei fyrhau; gan olygu byrder y cyfwng o'r amser yr ysgrifenwyd yr epistol hyd ddyfodiad Mab y dyn. Ceir yr un drychfeddwl yn ngeiriau Crist yn *Mat.* xxiv. 22; *Marc* xiii. 20. Er fod yr ymadrodd yn wirioneddi gyda chyfeiriad at einioes dyn ar y ddaear; etto, nid dyma y golygiad yn y lle hwn. Y mae y gair a gyfieithir *amser* yn dynodi adeg bennodedig. Y mae rhai esbonwyr, eithr heb un sail, yn barnu fod y gair a gyfieithir *yn fyr*, yn arwyddo "yn flinderus" (*calamitosus;* Saes., *calamitous*). Dyma yw yr ystyr a roddir iddo gan Olshausen, &c. Ond y mae Alford yn dangos nad yw byth yn meddu yr arwyddocâd hwn. "Ystyr y gair," ebe Hodge, "ydyw rholio neu blygu i fyny, ac y mae i'w

[a] Salm 30. 5; Ioan 16. 22.

30 A'r rhai [a]a wylant, megys heb wylo; a'r rhai a lawenhânt, megys heb lawenhau; a'r rhai a brynant, megys heb feddu;

31 A'r rhai a arferant y byd hwn, megys heb ei gam-arfer.

[b] Iago 1. 10, 11;

[b]Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio.

[c] Salm 55. 22; Mat. 6. 25-34.

32 Eithr [c]mi a fynwn i chwi fod yn ddiofal. Yr hwn sydd heb briodi, sydd yn gofalu am bethau yr Arglwydd, pa wedd y boddlona yr Arglwydd:

33 Ond y neb a wreicâodd,

[d] Neh. 5. 1-5.

[d]sydd yn gofalu am bethau y byd, pa wedd y boddlona *ei* wraig.

34 Y mae gwahaniaeth hefyd rhwng gwraig a gwyryf. Y mae

[e] Luc 2. 36, 37; 2 Cor. 7. 11.

[e]yr hon sydd heb briodi, yn gofalu am y pethau sydd yn perthyn i'r Arglwydd, fel y byddo hi sanctaidd yn nghorph ac ysbryd: ac y

35 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd er llesâd i chwi eich hunain; nid i osod magl i chwi, eithr er mwyn [f]gweddeidd-dra, [g]a dyfal lynu wrth yr Arglwydd yn ddiwahân.

[f] Adn. 36; Eph. 5. 3; Phil. 4. 8, 9; 1 Tim. 1. 10; Tit. 2. 3.

[g] Adn. 33, 34; Luc 8. 14; 10. 40-42; 21. 34.

36 Ond os yw neb yn tybied ei fod yn anweddaidd tuag at ei wyryf, od â hi dros [h]flodau *ei* hoedran, [i]a bod yn rhaid gwneuthur felly; gwnaed a fyno, [k]nid yw yn pechu: priodant.

[h] 1 Sam. 2. 33.

[i] 1 Cor. 9. 37.

[k] Adn. 28.

37 Ond yr hwn sydd yn sefyll yn sicr yn ei galon, ac yn afraid iddo, ac â meddiant ganddo ar ei ewyllys ei hun, ac a roddodd ei fryd ar hyny yn ei galon, ar gadw o hono ei wyryf; da y mae yn gwneuthur.

---

ddeall," ebe fe, "yn y dull hwn yn *Act.* v. 6;"—yma, byrhau. Y mae y gweddill hyd ddiwedd *adn.* 31, i'w ddeall, nid fel annogaeth yr apostol yn ngwyneb byrhâd yr amser, ond amcan Duw yn y byrhâd. Bwriad Duw yn ei waith yn canlatau i ni amser mor fyr yn ein sefyllfa bresennol, ydyw ein cael i gadw ein serchiadau yn llac wrth bethau daearol. *Megys heb ei gam-arfer*:—neu, Megys heb ei arfer yn ormodol. Nid yw y darlleniadau Cymraeg a Saesneg yn anghywir o ran iaith, ond y mae hwn yn fwy cyttunol â'r holl adran. Nid yr hyn yr annogir yn ei erbyn ydyw arfer y byd i ddybenion gwaharddedig, ond ei arfer i raddau gormodol—rhoddi mwy o'u serch arno nag sydd yn gyddweddol â byrhad yr amser. *Canys y mae dull*:—rheswm dros ddywedyd fod yr amser wedi ei fyrhau. *Dull* yw y ffurf allanol—yr ymddangosiad presennol. Y mae y ffugr wedi ei gymmeryd oddi wrth olygfeydd y chwareudy yn cael eu newid. Y mae yr amser wedi ei fyrhau, o blegid y mae ffurf bresennol pethau yn awr yn cael eu newid. Ond y mae Hodge yn ystyried hyn yn rheswm yn hytrach dros y geiriau agosaf—dylem wylo megys heb wylo, &c., canys, &c. Dadl Alford yn erbyn hyn ydyw, fod y geiriau hyn yn ymddibynu ar y rhan gyntaf o *adn.* 29, fel amcan byrhâd yr amser.

32. *Mi a fynwn i chwi fod yn ddiofal*:—*h.y.*, yn rhydd oddi wrth ofalon teuluaidd. Dyma y trydydd rheswm a ddygir yn mlaen gan yr apostol dros annog y gwyryfon i beidio priodi. Y cyntaf ydyw, y blinder a ochelid (*adn.* 28); yr ail, fod yr amser wedi ei fyrhau; a'r trydydd, fod sefyllfa ddibriod yn fwy rhydd oddi wrth bryder a gofalon.

34. Yn llythyrenol, gellir darllen, "Rhanedig (gwahanol) ydyw gwraig a gwyryf." Y mae y gair a gyfeithir yma *gwahaniaeth* yn ferf yn y gwreiddiol. Y mae gan y wraig briod a'r forwyn achosion gwahanol i ddwyn eu sylw. Rhaid i'r naill ofalu am feddiannau a chysuron ei gŵr, ond y mae y llall yn rhydd oddi wrth y cyfryw ofalon. *Fel y byddo hi sanctaidd yn nghorph ac ysbryd.*—Fel y byddo gyssegredig. Yr ystyr yma sydd i'r gair *sanctaidd*, ac nid yr ystyr o *bur*. Nid oes i ni feddwl oddi wrth y frawddeg hon fod y wyryf yn fwy pur na'r wraig, neu fod gwyryfdod yn sefyllfa burach na bywyd priodasol. Yr unig fantais sydd gan y wyryf ar y wraig ydyw, ei bod yn fwy rhydd oddi wrth ofalon, drwy yr hyn y gall ymroddi yn llwyrach i grefydd. Nid oes dim yn mhellach oddi wrth feddwl yr apostol na dysgu fod rhyw burdeb arbenig yn perthyn i annyweddiaeth.

35. *Er llesâd i chwi eich hunain*:—nid, er mwyn atteb un amcan personol o'r eiddof fy hun—nid er mwyn arfer fy awdurdod apostolaidd. *Nid i osod magl i chwi.*—Nid i'ch beichio â chyfarwyddiadau anhawdd cydffurfio â hwynt [*Alford*]; yn hytrach, nid i attal a lleihau eich rhyddid. Y mae anifail mewn magl wedi colli ei ryddid i ymsymmud. Nid gwneuthur yr un peth â hwynt oedd amcan yr apostol, mwy na dangos ei awdurdod ei hun, ond eu llesau.

36. Perthyna yr adnod hon, a'r rhai canlynol, i dadau; o blegid ganddynt hwy, yn mysg yr Iuddewon a'r Groegiaid, yr oedd hawl i roddi eu merched yn wragedd. Er fod yr apostol yn ystyried fod priodas y pryd hyny yn anghyfleus ac anamserol, o herwydd yr angenrhaid presennol, etto y mae yn dywedyd wrth dadau eu bod yn rhydd i weithredu yn ol eu barn eu hunain trwy roddi eu merched mewn priodas, neu eu cadw yn wyryfon. *Os yw neb yn tybied ei fod yn anweddaidd tuag at ei wyryf.*—Os oes rhyw dad yn meddwl ei fod, yn ei waith yn gwrthod rhoddi ei gydsyniad i'w ferch i briodi, yn ymddwyn yn anweddaidd tuag ati, trwy osod o'i blaen demtasiwn i bechu gyda'i chariad.—*Alford.* Rhydd yr apostol annogaeth, o leiaf ganiatâd, i'r tad roddi ei ferch mewn priodas, os bydd y ferch wedi myned dros flodau ei hoedran, ac os bydd rhyw reswm i wneyd ei phriodas yn angenrheidiol. Dywedai Plato mai blodau oedran merch oedd ugain mlwydd.

37. *Sydd yn sefyll yn sicr yn ei galon*:—sydd yn llwyr argyhoeddedig o'r anghyfleusdra o roddi ei ferch mewn priodas, heb un petrusder ei fod yn ymddwyn yn anweddaidd tuag ati—ei fod yn ei gosod yn llwybr temtasiwn. *Ac yn*

38 Ac am hyny, yr hwn sydd yn *ei* rhoddi yn briod, sydd yn gwneuthur yn dda; ond yr hwn nid yw yn *ei* rhoddi yn briod, sydd yn gwneuthur yn well.

39 Y mae gwraig yn rhwym wrth y gyfraith, tra fyddo byw ei gŵr: ond o bydd marw ei gŵr, y mae hi yn rhydd i briodi y neb a fyno; [1]yn unig yn yr Arglwydd.

[1] Gen. 6. 2; Deut. 7. 3, 4; Mal. 2. 11; [2] Cor. 6. 14–16.

40 Eithr dedwyddach yw hi os erys hi felly, yn fy marn i: ac yr ydwyf finnau yn tybied fod Ysbryd Duw genyf.

PENNOD VII

1 *Bod iddynt ymgadw oddi wrth y bwyddyd a offrymer i eilunod.* 8, 9 *Na ddylem ni gamarferyd ein rhyddid Cristionogaidd, i rwystro ein brodyr:* 11 *eithr frwyno ein gwybodaeth â chariad perffaith.*

afraid iddo.—Mewn cyferbyniad i'r gair yn *adn.* 36; "A bod yn rhaid gwneuthur felly." Pan nad yw y ferch yn benderfynol i briodi. *Ac a meddiant ganddo ar ei ewyllys:*—yn abl i wneuthur gyda'i ferch yn ol ei farn.

38. Gan nad oes dim pechadurus mewn priodas, nac un gradd uwch o rinwedd mewn bywyd sengl, y mae yn gwestiwn yn unig o gyfleusdra i gael ei benderfynu yn gwbl gan amgylchiadau.

39. *Yn unig yn yr Arglwydd:—h.y.*, y mae yn rhaid i'w hail ŵr fod yn Gristion. Dywed Hodge y gellir deall hyn mewn un o ddau ystyr; yn gyntaf, fod iddi briodi un sydd yn yr Arglwydd; sef, Cristion. Er nad oedd priodasau cymmysg i'w tori, etto nid oeddynt i'w ffurfio. Yn ail, gellir deall y geiriau mewn ystyr ragferfol, yn dynodi dull; yn unig fel y gweddai i rai ydynt yn yr Arglwydd. Y mae iddi briodi fel y gweddai i Gristion. Y golygiad cyntaf ydyw y cywiraf, er fod yr olaf yn cynnwys y cyntaf. Wrth i'r weddw briodi fel y gweddai i Gristion, y peth cyntaf yn y gweddeidd-dra hwnw ydyw fod gwrthddrych ei dewisiad yn Gristion.

40. *Ac yr ydwyf finnau:*—finnau hefyd, yn gystal ag ereill; gyda chyfeiriad at gau hôniadau rhai o'r athrawon yn Corinth. *Yn tybied:*—yn meddwl. Nid yw y gair yn golygu y graddau lleiaf o ammheuaeth. Dull bonedd-igaidd, arferedig yn mysg y Groegiaid, o ddywedyd, "Y mae genyf." Meddylir mwy nag a ddywedir. Y mae Macknight yn cyfeirio at liaws o fanau lle yr arferir y gair *tybied*, heb ei fod yn cynnwys yn y radd leiaf y syniad o betrusder; ond y sicrwydd mwyaf. Cymmerer, fel enghraifft, *pen.* iv. 9; "Canys *tybied* yr wyf ddarfod i Dduw ein dangos ni, yr apostolion diweddaf, fel rhai wedi ein bwrw i angeu," &c. Nid oedd ganddo ammheuaeth o'r hyn a ddywedai. Nid oedd dim yn brofiad sicrach ganddo. Y mae Pearce yn dyfynu *Ulpian*, yn Demosthenes, yr hwn a ddywed fod "*docein* (y gair yn y fan hon am *dybied*) yn cael ei ddefnyddio gan yr hynafiaid, nid yn wastad i ddynodi yr hyn sydd ammheus, ond hefyd i ddynodi yr hyn sydd sicr."

Pennod VIII.

1—13. Ynghylch bwydydd a aberthid i eilunod. O *adn.* 1 hyd 7, dangosir nad yw bwyta yr hyn a aberthwyd i eilunod yn ddrwg ynddo ei hun; etto, *adn.* 8—13, y dylid gochel hyny os rhoddai dramgwydd. Gyda golwg ar yr ebyrth paganaidd, ymddengys fod rhan o'r anifail yn cael ei losgi ar yr allor, rhan yn cael ei roddi i'r offeiriaid, a'r gweddill yn ddefnydd gwledd, o ba un y cyfranogai yr offrymydd a'i gyfeillion. Ymborthid felly ar y gweddill, naill ai yn y deml baganaidd, neu yn nghartref yr offrymydd. Os byddai yr aberth yn fawr, gwerthid rhan o hono yn y farchnadfa. Y Cristionogion a wahoddid weithiau gan eu cymmydogion paganaidd i'r cyfryw wleddoedd. Y rhai hyny o'r Cristionogion a goleddent y syniadau eangaf ar ryddid yr efengyl, er mwyn, fe allai, osgoi erlidigaeth, a dderbynient y gwahoddiadau hyn. Gan nad oedd yr eilun ddim yn y byd, tybient nad oedd cyfranogi o aberth yr eilun, hyd yn oed yn y deml, yn weithred bechadurus. A dyma yr ail achos yr appeliodd y Corinthiaid at yr apostol am ei gyfarwyddiadau arno:—A oedd yn gyfreithlawn bwyta o'r ebyrth eilunaddolgar? Yn y bennod hon, a'r ddwy ganlynol, edrycha yr apostol ar y cwestiwn yn ei wahanol agweddau. Y mae Hodge yn sylwi fod anghyssondeb ymddangosiadol rhwng y pennodau hyn a phenderfyniad y cynghor yn Ierusalem (*Act.* xv. 29). Yn y cynghor hwnw, penderfynwyd ar gynghori y Cenhedloedd Cristionogol i ymgadw, yn mysg pethau ereill, "oddi wrth yr hyn a aberthwyd i eilunod;" ac yr oedd yr apostolion, yn y penderfyniad hwn, yn gweithredu yn ol meddwl yr Ysbryd Glân. Etto, er fod yr apostol Paul yn bersonol yn y cynghor hwnw, y mae yma, nid yn unig yn peidio gwneuthur un cyfeiriad ato, ond yn ymddangos fel yn gwrthwynebu y penderfyniad. Dywed yn yr ymdriniaeth yma (*pen.* x. 25), "Beth bynag a werthir yn y gigfa, bwytewch; heb ofyn dim er mwyn cydwybod." Ond nid oes yma ddim anghyssondeb gwirioneddol. Y mae yn ddiammheu fod Paul yn cyttuno yn mhob peth â'i frodyr yn y cynghor; yr oedd efe a hwythau dan arweiniad yr un Ysbryd. Y mae geiriau Paul yma yn tafiu goleu ar ystyr ac amcan penderfyniadau y cynghor. Dangosir, trwy gymmhariaeth o'r naill a'r llall, nad oedd y gwaharddiad i fwyta yr hyn a aberthasid i eilunod yn cyfodi oddi ar ddim rhesymau moesol digyfnewid—nad oedd bwyta y cyfryw fwyd yn weithred ddrwg ynddi ei hun. Yr oedd y gwaharddiad yn cyfodi oddi ar natur amgylchiadau y Cristionogion—yn gyffelyb i'r annogaeth i fywyd o annyweddïaeth yn y bennod o'r blaen; felly, nis gellir golygu y gwaharddiad yn barhaol a diammodol. Yr oedd a wnelo barn y cynghor yn Ierusalem â Christionogion yn byw yn mysg Iuddewon, y rhai yr oedd bwyta yr hyn a aberthwyd i eilunod yn ffieidd-beth yn eu golwg. Felly, yr oedd amgylchiadau gwahanol yn symmud ymaith reswm y gwaharddiad. Nid oedd y gwaharddiad yn sefyll, wedi i'w sail beidio. Y mae yn sefyll ar yr un tir a'r gwaharddiad i wragedd ymddangos yn y gynnulleidfa Gristionogol yn ddiorchudd. Ni feddylia neb y dylid deall y gwarafuniad hwn yn awr yn y dull mwyaf llythyrenol, er ei fod yn cynnwys egwyddor sydd yn bod yn barhaus. Gan fod yr [a]rgylchiadau,

B. A. 57.

EITHR am yr hyn a aberthwyd i eilunod, ni a wyddom fod gan bawb o honom wybodaeth. Gwybodaeth sydd yn chwyddo, eithr cariad sydd yn adeiladu.

2 Eithr os yw neb yn tybied ei fod yn gwybod dim, ni ŵyr efe
[a] Rhuf. 8. 29; Iago 1. 12; 1 Pedr 1. 8; 1 Ioan 4. 19. etto ddim fel y dylai wybod.

3 Ond od oes neb yn [a] caru Duw, hwnw a adwaenir ganddo ef.

4 Am fwyta gan hyny o'r pethau a aberthir i eilunod, ni a wyddom nad *yw* eilun ddim yn y byd, ac nad [b] *oes* un Duw arall ond un.

[b] Deut. 6. 4; Esa. 44. 6, 8; Ier. 10. 10; 1 Tim. 1. 17.

5 Canys er bod rhai a elwir yn dduwiau, pa un bynag ai yn y nef ai ar y ddaear (megys y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer)

wedi newid, y mae y gwaharddiad wedi peidio —wedi colli ei rym.

1. *Eithr* :—gair sydd yn dwyn mater newydd i mewn. *Am yr hyn a aberthwyd i eilunod* :—yn dylythrenol ynghylch eilun-aberthau. *Ni a wyddom fod gan bawb o honom wybodaeth.*—Ond pa fodd y mae hyn yn gysson âg *adn.* 7 : "Ond nid yw y wybodaeth hon gan bawb?" Dywed Meyer, &c., mai *pawb* yn *adn.* 1, oedd yr apostol a'r rhai mwyaf goleuedig yn mysg y Corinthiaid; ond ei fod, yn *adn.* 7, yn golygu Cristionogion yr oes gyntaf, y rhai cryfion a'r rhai gweiniaid. Ond y golygiad mwyaf tebygol yw, y gwahaniaethir yma, nid rhwng dau ddosbarth o Gristionogion, ond rhwng dau fath o wybodaeth. Y mae pawb o'r Cristionogion yn cydnabod, fel *prinsip*, nad yw eilun ddim yn y byd ; ond nid yw y wybodaeth hon wedi cyrhaedd nerth ymarferol yn mynwesau pawb o honynt. Y mae y dadau ymadrodd yn gyffelyb i'r hyn a ddywed yr un apostol am y paganiaid. Yn *Rhuf.* i. 23, dywed eu bod "yn adnabod Duw ;" yn 1 *Cor.* i. 21, dywed eu bod "heb adnabod Duw." Y mae y gair *gwybod* yn meddu ystyron gwahanol, ac yw ddeall mewn graddau gwahanol. Y mae yr hyn sydd yn canlyn yn profi mai am wybodaeth *bynciol* y llefara yr apostol yma.—*Alford, Hodge.* *Gwybodaeth sydd yn chwyddo.*—Mae y gair gwreiddiol am *chwyddo* yn arwyddocau llenwi â gwynt, ac yna gwneuthur un yn oferwag a rhodresgar. Hyn ydyw nodwedd gwybodaeth bynciol—gwybodaeth wedi ei hysgaru oddi wrth gariad, pan ymchwydda y meddwl. Tra y mae gwybodaeth fel hyn yn llanw dyn â meddyliau uchel am dano ei hun, ac yn peri iddo ddirystyru ereill, y mae cariad yn ei ddwyn i deimlo llesâd ereill : cariad sydd yn adeiladu. "Nid yw cariad yn terfynu gydag ef ei hun, fel y mae gwybodaeth bynciol, ond yn myned allan o hono ei hun, yn byw ac yn gweithio er mwyn ereill."

2, 3. Dangosir yma nad ydyw y wybodaeth honno sydd heb fod mewn undeb â chariad, yn wybodaeth wirioneddol. Gyda golwg ar lawer o'r wrthddrychau gwybodaeth, nid yw gwybodaeth y deall pan ar wahân oddi wrth deimlad y galon, yn werth dim ; "Ni ŵyr efe etto ddim fel y dylai wybod." Y mae y gyfryw wybodaeth yn gadael prif nodweddau gwrthddrych heb eu hadnabod o gwbl. Cariad ydyw y wybodaeth ithaf. Caru Duw ydyw ei adnabod, a'i adnabod ydyw ei garu. Nis gellir ei adnabod heb ei garu, ac y mae cariad ato yn chwanegu yr adnabyddiaeth o hono. "Yma," ebe Hodge, "y mae cariad yn wybodus, a gwybodaeth yn hanner teimlad." *Os yw neb yn tybied ei fod yn gwybod dim* :—os yw yn falch ac ymffrostgar o'i wybodaeth, nid yw ei wybodaeth yn amgen nag anwybodaeth. Nid yw yn alluog i ganfod gwir natur y gwrthddrychau y meddylia efo ei fod yn eu deall. Nid yw yn amgyffred eu mawredd, eu cyssylltiadau, eu gogoniant, a'u rhagoriaeth. Dyma nodweddau penaf gwirioneddau crefydd ; ac heb ddirnadaeth am y nodweddau hyn, maent heb eu hadnabod. Ond y mae yr hwn a fedd y wybodaeth hon o honynt yn wastad yn ostyngedig, ac yn gweled ei wybodaeth yn fechan ac arwynebol ; nid ydyw efe yn *tybied* ei fod yn gwybod, ond yn deimladol o'i anwybodaeth, ac yn dyheu am fwy o oleuni. Ond y mae yr hwn na ŵyr ddim fel y dylai wybod, yn dra thueddol i dybied y gŵyr y cwbl, ac i ymchwyddo oddi ar y dybiaeth hono. *Od oes neb yn caru Duw* :—yr hyn ydyw gwreiddyn ein cariad at ein cymmydog, ac at ein brodyr. *Hwnw a adwaenir ganddo ef* :—gwreiddyn ein gwybodaeth o hono. "Y mae gwybodaeth weithredol yn canlyn gwybodaeth oddefol ;" *pen.* xiii. 12 —*Bengel.* Yr ydym yn adnabod Duw fel effaith adnabyddiaeth neilldiol Duw o honom ni. Y mae y wybodaeth o'r ddwy ochr—Duw a'r credadyn : "A chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw ;" *Gal.* iv. 9.

4. *Gan hyny* :—yn cymmeryd i fyny yr hyn a ddechreuwyd yn *adn.* 1. *Nad yw eilun ddim yn y byd* : neu, *nid oes un eilun yn y byd.*—Nid oes gan y rhai a gynnrychiolir gan eilunod y paganiaid ddim bodolaeth wirioneddol. Dywed yr apostol, yn wir, yn 1 *Cor.* x. 20, fod y rhai a addolant eilunod yn addoli cythreuliaid ; ond nid yw hyny yn gwrthddyweyd yr adnod hon ; o blegid nid yw y bodau ag y tybient eu bod yn eu haddoli yn meddu bodolaeth. Creaduriaid eu dychymmyg oedd Iau, Juno, a Mars ; fel mai gwaith eu dwylaw oedd yr eilunod a'u cynnrychiolent.

5, 6. "Hyd yn oed pe byddai rhai o'r duwiau lawer, a'r arglwyddi lawer, y rhai a wyddom sydd yn bod, yr un ag eilunod y paganiaid, etto i ni nid oes ond un Duw."—*Alford.* Llefaru yn dybiaethol y mae yr apostol. Dywed yn *adn.* 4, "nad yw eilun ddim yn y byd"—nad ydyw yr eilun yn cynnrychioli un bod gwirioneddol ; ond yma dywed, pe bai hyny yn bod, nad oes i ni, y Cristionogion, ond un Duw. Mae syniad Hodge yn wahanol :—"Nid oes ond un gwir Dduw ; o blegid er yr addefir fod lliaws o fodau yn cael eu galw yn dduwiau, fel y mae duwiau ac arglwyddi lawer yn bod mewn gwirionedd, etto nid oes i ni ond un." Cyffelyb yw golygiad De Wette. Y gwahaniaeth rhwng y ddau, fe welir, ydyw hyn : gwueuthur tybiaeth y mae yr apostol, yn ol golygiad Alford a Meyer, o beth nad yw yn bod. Caniatau yr hyn sydd y mae, yn ol golygiad Hodge a De Wette. *Megys y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer.*—Gorphwysa yr addefiad hwn ar addysg yr Hen Destament, lle y gelwir Iehofah yn Dduw y duwiau ac Arglwydd yr arglwyddi : gwel *Deut.* x. 17 ; *Salm* cxxxv. 2, 3. Golygiad De Wette yw, "Y mae

[a] Adn. 4.
[d] Act. 17.28; Rhuf. 11. 36; Eph. 4. 6.
[e] Ioan 14.20; 17. 21-23.
[f] Mat. 28.18; Ioan 5. 20-29; Act. 5. 31; Eph. 1. 20—23; Phil. 2. 9—11; Col. 1. 16, 17; 1 Pedr 1. 21; Dad. 1. 18.
[g] Ioan 1. 3; Heb. 1. 2. 3.

6 Eithr i ni *nid oes ond* [c] un Duw, y Tad, [d] o'r hwn *y mae* pob peth, [g] a ninnau ynddo ef; [f] ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn *y mae* pob peth, [g] a ninnau trwyddo ef.

7 Ond nid *yw* y wybodaeth *hon* yn marn y paganiaid dduwiau lawer ac arglwyddi lawer." Ond nid yw hyn yn ymddangos yn debygol, ac nid oes dim grym yn ngwrthddadl De Wette yn erbyn y golygiad arall fod yn ammhossibl i'r apostol ddywedyd fod duwiau lawer ac arglwyddi lawer yn bodoli yn wrthddrychol. Gellir atteb nad yw yn ammhossibl nac yn annhebygol iddo ddywedyd fel hyn yn yr ystyr ag y dylid deall ei eiriau: o blegid nid yw yn dywedyd fod duwiau lawer—yn yr ystyr a roddai y paganiaid i'r gair *duwiau*—yn bod mewn gwirionedd; ond fod creaduriaid yn hanfodi, y rhai a elwir yn yr Hen Destament yn dduwiau. Nid oes y fath fodau a lau a Merchер, a Sadwrn: etto y mae lliaws o fodau goruwchnaturiol a elwir yn dduwiau ac arglwyddi, nid yn unig gan y paganiaid, ond hefyd gan ysgrifenwyr yr Hen Destament. "Nid yw chwedlonaeth Groeg ond ffug—cynnyrch y dychymmyg. Nid oes y cyfryw dduwiau mewn bod, er fod lluoedd o ysbrydion, o amryw iol raddau a galluoedd, y rhai a elwir yn dduwiau." Y mae yma ddau beth yn cael eu gwadu—hanfodiad duwiau y paganiaid, a dwyfoliaeth y bodau a elwir yn dduwiau. Etto, pe bai y rhai a elwir yn dduwiau yn cael eu cynnrychioli gan eilunod y paganiaid (yr hyn nid ydyw yn bod, o blegid nid yw eilun ddim yn y byd), nid oes i ni ond un Duw. *I ni nid oes ond un Duw.*—Pa un bynag a yw yr eilunod yn cynnrychioli bodau gwirioneddol ai peidio, yr ydym yn dal nad oes ond un Duw.—*Alford.* Y mae hyn yn well nag aralleiriad Hodge: "Er fod lliaws o greaduriaid yn bod dan yr enw duwiau, nid oes ond un gwir Dduw, creawdwr pob peth." Y mae un Duw yma mewn cyferbyniad i "dduwiau lawer," a'r un "Arglwydd Iesu Grist," mewn cyferbyniad i "arglwyddi lawer." *Y Tad*:—yn cyfatteb i "Arglwydd Iesu Grist," yn yr adran ddilynol, ac felly yn cyfeirio at ei berthynas â Christ, Tad ein Harglwydd Iesu Grist.—*Alford.* Mae ereill yn barnu fod *Tad* yma yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr mwy cyffredinol; yn mherthynas Duw â'r greadigaeth a dynolryw, yn hytrach nag yn ei berthynas â'r ail berson yn y Drindod. *O'r hwn*—fel gwreiddyn a ffynnonell eu hanfodiad. *A ninnau ynddo*:—y mae yma ymadawiad oddi wrth y gwreiddiol: dylasai fod "A ninnau *iddo.*" Efe yw amcan ein hanfodiad; creodd ni iddo ei hun, i'w wasanaethu a'i fwynhau. *Trwy yr hwn*:—gwel *Ioan* i. 3; *Heb.* i. 2; "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth." *Y mae pob peth*:—yr un mor eang ag yn yr adran flaenorol; pob peth sydd o'r Tad. Y mae hefyd *trwy* yr Arglwydd Iesu Grist. Gwelir yma fod yn briodol llefaru am y Mab dan yr enwau a berthynant iddo fel Duw-ddyn, wrth son am weithredoedd a gyflawnwyd ganddo cyn ei ymgnawdoliad. Gelwir ef yma *Iesu Grist*, er mai fel y Gair tragwyddol y gwnaethpwyd y bydoedd trwyddo. *A ninnau trwyddo ef*:—sef, fel Cristionogion, gan bawb: canys rhai a chanddynt gydwybod o'r eilun, hyd y pryd hwn, sydd yn bwyta fel peth a aberthwyd i eilunod; a'u cydwybod hwy, a hi yn wan, a halogir.

[h] Rhuf. 14. 17; Col. 2. 20-23; Heb. 13. 9

8 Eithr [h] nid yw bwyd yn ein gwneuthur ni yn gymmeradwy gan Dduw: canys nid ydym, os trwyddo. Ni olygir ein cread trwyddo, o blegid cynnwysir ni yn mysg y pob peth, yn yr ymadrodd blaenorol; ond ein hadferiad, ein prynedigaeth. Lleinw y Mab yr un lle yn y greadigaeth newydd ag yn yr hen.

7. *Y wybodaeth hon*, ydyw y wybodaeth neillduol y llefara am dani, sef y wybodaeth nad yw eilun ddim yn y byd. Er fod y brodyr gweiniaid yn gwybod nad oes ond un Duw, etto, nid oeddynt wedi sylweddoli y gwirionedd mai gwegi ac oferedd yw eilunod. *A chanddynt gydwybod o'r eilun, hyd y pryd hwn.*—Y mae y gair gwreiddiol am *gydwybod* yn arwyddo "ymwybodaeth" yn gystal Y mae Hodge yn dewis y gair *cydwybod* fel yn fwy addas yma; yr oedd eu cydwybod dan ddylanwad yr eilun. Yn 1 *Pedr* ii. 9, y mae "cydwybod i Dduw" yn golygu cydwybod dan ddylanwad Duw. Yr oedd y personau y cyfeiria yr apostol atynt dan ddylanwad y dyb baganaidd y gallai yr eilunod fod yn fodau gwirioneddol. O herwydd y dyb hon, yr oeddynt yn bwyta yr hyn a aberthasid fel aberth fel peth yn meddu ystyr a dylanwad crefyddol, ac nid fel ymborth cyffredin. Y mae Alford yn dewis y gair *ymwybyddiaeth* yn hytrach na "cydwybod," ond nid oes y gwahaniaeth lleiaf yn ystyr yr adnod. *A'u cydwybod hwy, a hi yn wan, a halogir.*—Cydwybod wan yw hono sydd yn ystyried peth yn ddrwg nad yw felly mewn gwirioneddol, neu gydwybod betrusgar. "Beth bynag nid yw o ffydd, pechod yw;" *Rhuf.* xiv. 23: felly, pa beth bynag a wnelo dyn, os meddylia ei fod yn ddrwg, neu os ammheua pa un ai drwg ai da ydyw, iddo ef y mae yn bechod. Yn unol â'r rheol hon, os oedd y Cenedl-ddyn Cristionogol yn bwyta yr hyn a aberthwyd i eilun, ac yn ansicr a oedd yn gwneuthur yn iawn ai peidio, yr oedd yn halogi ei gydwybod. Y mae y gydwybod yn cael ei halogi, naill ai pan y mae hi yn coleddu ac yn cymmeradwyo pechod, neu pan y llwythir hi gan euogrwydd pechod. Yr olaf a olygir yma. Y mae y dyn a fwytao yr eilun-aberth, gyda meddwl petrusgar, oddi ar gydwybod i'r eilun, yn teimlo euogrwydd; y mae wedi gwneuthur yn groes i argyhoeddiad ei gydwybod. Y mae yn amlwg mai y Cenhedloedd Cristionogol a olygir yma. Dywedir fod ganddynt gydwybod o eilun *hyd y pryd hwn.* Gallesid disgwyl y buasent bellach wedi ymryddhau oddi wrth ddylanwad yr eilun; ond nid yw yn rhyfedd fod gweddillion o'u hen syniadau a'u rhagfarnau yn glynu wrthynt; o blegid yr oeddynt, yn flaenorol i'w trŵedigaeth, yn ystyried eu heilunod yn dduwiau gwirioneddol. Nis gallasai yr Iuddewon Cristionogol gael ei molestu gan "gydwybod i'r eilun."

8. Rheswm pa ham y dylai y rhai cryfion barchu rhagfarnau y gweiniaid yn y peth hwn. Y mae bwyta, neu beidio bwyta, yn hollol ddibwys. Nid pethau o'r natur hyn sydd yn rhyngu bodd Duw.

bwytawn, yn helaethach; nac onis bwytawn, yn brinach.

9 Ond edrychwch rhag mewn un modd i'ch rhyddid hwn fod yn dramgwydd i'r rhai sydd weiniaid.

10 Canys os gwêl neb dydi sydd â gwybodaeth genyt, yn eistedd i fwyta yn nheml yr eilunod, oni chadarnheir ei gydwybod ef, ac yntau yn wan, i fwyta y pethau a aberthwyd i eilunod;

[i] Rhuf. 14. 15, 20, 21; 1Ti. 1—3. 11 Ac a [i] ddyfethir y brawd gwan trwy dy wybodaeth di, dros yr hwn y bu Crist farw?

[k] Ex. 32.21; 1Sam. 2.25; Mat 18.21. [l] Ezec. 16.8; Mat. 12. 49, 50; Act. 9. 4, 5. 12 A [k] chan bechu felly yn erbyn y brodyr, a churo eu gwan gydwybod hwy, [l] yr ydych chwi yn pechu yn erbyn Crist.

13 O herwydd pa ham, os yw bwyd yn rhwystro fy mrawd, ni fwytâf fi gig byth, rhag i mi rwystro fy mrawd.

9. A chaniatau fod genych hawl i fwyta o'r ebyrth, etto gofelwch rhag tramgwyddo y gweiniaid. Dylech ofalu yn fwy, am fod y peth ynddo ei hun yn ddibwys.

10. Dangosir yma pa fodd y gallai bwyta yr ebyrth hyn fod yn achlysur i ereill bechu. *Eistedd i fwyta yn nheml yr eilunod.*—Dengys yr apostol, wrth fyned rhagddo (1 *Cor.* x.), fod bwyta yn nheml yr eilunod yn eilunaddoliaeth, ac yn ymadawiad oddi wrth Grist. Ond nid yw yma yn edrych ar bechadurusrwydd yr ymddygiad, ond ar ei effaith niweidiol ar y brawd gwan.

11. Ymadrodd llawn o nerth a theimlad. A fydd i ni, er mwyn bwyta un math o fwyd yn hytrach na math arall, beryglu iachawdwriaeth y rhai y bu Crist farw drostynt? Os darfu i un mor fawr a Christ—Mab Duw—ymwadu er mwyn lleshad ddynolryw, pa faint mwy y dylem ni? Os buiddo ef farw er mwyn eu hiachawdwriaeth, ai gormod i ni ydyw peidio bwyta yr hyn a aberthwyd i eilunod er eu mwyn?

12. *Yn erbyn Crist*:—o herwydd eu hundeb agos âg ef: *Mat.* xxv. 40.

13. Y mae yr apostol yma yn rhoddi mynegiad grymus o'i benderfyniad ei hun, yn ngwyneb yr ystyriaethau blaenorol, mewn ffordd o esampl iddynt. "I'r dyben o fod yn sicr o ochel bwyd wedi ei aberthu i eilunod, ni fwytâf fi un math o gig."—*Bengel.*

Pennod ix.

Y mae yr apostol yn y bennod hon yn rnoddi esampl o'r ysbryd hunan-ymwadol a ddygir i'r golwg yn ei benderfyniad yn 1 *Cor.* viii. 13. Dengys yn y bennod flaenorol mai dyledswydd y rhai cryfion ydyw rhoddi heibio y defnyddiad o'u hiawnderau er mwyn eu brodyr gweiniaid; ac yma ei fod ef ei hun yn gweithredu oddi ar yr egwyddor hon. Cyferbynna ei hawliau fel apostol â'i ymddygiad yn peidio eu mynu.

1. Y mae braidd yr oll o olygwyr y Testament Groeg yn barnu fod y ddau gwestiwn wedi eu camgyfieu—fod y cyntaf yn ail, a'r ail yn gyntaf. "Onid wyf fi yn rhydd? Onid wyf fi yn apostol?" Y mae llawysgrif A, B., y mwyafrif o'r

PENNOD IX.

1 *Y mae efe yn dangos ei ryddid; 7 ac y dylai y gweinidog fyw wrth yr efengyl. 15 etto ddarfod iddo ef o'i wirfodd ymgadw, 18 rhag na'u gyru hwy mewn trawl, 22 na bod yn achos o ruystr i neb, mewn pethau cyfredin. 24 Bod ein bywyd ni yn debyg i yrfa.*

B. A. 57.

ONID wyf fi yn apostol? onid wyf fi yn rhydd? [a] oni welais i Iesu Grist ein Harglwydd? [b] onid fy ngwaith i ydych chwi yn yr Arglwydd?

[a] 1 Cor. 15.8; Act. 9. 3, 5, 17; 18. 9. [b] 1 Cor. 3. 6; 4. 14, 15; 2 Cor. 6. 1.

2 Onid wyf yn apostol i ereill, etto yr wyf i chwi: [c] canys sêl fy apostoliaeth i ydych chwi yn yr Arglwydd.

[c] 1 Joan 6. 27; 2 Cor. 3. 1—3.

3 Fy ymddiffyn i, i'r rhai a'm holant, yw hyn;

4 Onid oes i ni awdurdod i fwyta ac i yfed?

5 Onid oes i ni awdurdod i arwain o amgylch wraig *a fyddai* hen ddarlleniadau, a lliaws o'r tadau, yn darllen felly; ac y mae yn amlwg mai dyma drefn naturiol y geiriau. "Onid wyf fi yn rhydd? Onid wyf fi yn Gristion, ac felly yn feddiannol ar holl iawnderau y rhai a ryddhawyd gan Grist? Onid wyf mor rydd a chredinwyr ereill i reoli fy ymddygiad yn ol fy syniad fy hunan am yr hyn sydd iawn—yn rhydd oddi wrth bob rhwymedigaeth i gydffurfio â rhagfarnau pobl ereill? Etto, nid wyf wedi defnyddio y rhyddid hwn." Amcan yr ymadrodd ydyw dangos nad ydyw yr apostol, yn y penderfyniad yn *pen.* viii. 13, yn gweithredu oddi ar un angenrhaid na rhwymau. *Onid wyf fi yn apostol?*—Mwy na meddu iawnderau Cristionogion ereill, yr wyf hefyd yn apostol. Fel profion o'i apostoliaeth, y mae yma yn appelio at ddwy dystioiaeth—ddarfod iddo weled Crist, a llwyddiant ei weinidogaeth. Nid oes un sail i dyb Schrader (ar bwys 2 *Cor.* v. 16), fod yr apostol yn cyfeirio at ryw adeg ag y gwelsai Grist yn nyddiau ei gnawd. Golygir ymddangosiadau Crist iddo ar y ffordd, ac ar adegau ereill—y cyntaf yn fwyaf neilltuol, o blegid y pryd hyny y gosodwyd ef yn y swydd. *Yn yr Arglwydd.*—Fy ngwaith i fel apostol, fel gwas yr Arglwydd Iesu.

2. Nid oes genych chwi, pa beth bynag am ereill, un sail i ammheu fy apostoliaeth. Yr ydych chwi eich hunain yn sel a phrawf o honi. Y mae tröedigaeth dynion yn waith dwyfol, ac felly yn gyffelyb i wyrthiau—yn gadarnhâd o anfoniad dwyfol y rhai y gwneir y gwaith trwyddynt. Etto, fel y sylwa Hodge, y mae yn bosibl i'r prawf gael ei gamsynied weithiau. Yr un pryd, pan y mae gweinidogaeth un yn cael ei dilyn gan ddychweliadau amlwg, nis gall fod prawf cadarnach o ddwyfol anfoniad yr un hwnw. *I ereill*:—yn nghyfrif ereill.

3. *Yw hyn*:—yr hyn a ddywed o'r blaen. *Hyn*:—sef, llwyddiant fy ngweinidogaeth yw fy amddiffyn, ger bron y rhai a gwestiynant fy awdurdod. Y mae y ddau air a gyfieithir *amddiffyn*, a *holant*, yn eiriau cyfreithiol.

4, 5. Perthyna y cwestiynau hyn i'w hawl i gael ei gynnal gan yr eglwysi. Nid ydyw y geiriau *bwyta* ac *yfed* yn golygu ei ryddid i fwyta,

chwaer, megys ag *y mae* i'r apostolion ereill, ac i frodyr yr Arglwydd, ac i Cephas?

6 Ai myfi yn unig a Barnabas, nid oes genym awdurdod i fod heb weithio?

[d] 2 Cor. 10. 4, 5. [e] 1 Cor. 3. 6—8; Deut. 20. 6. [f] Ier. 23. 2, 3. [g] Diar. 27. 27. [h] 1 Cor. 7. 40. [i] 1 Cor. 14. 34; Esa. 8. 20; Rhuf. 3. 31.

7 Pwy [d]sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? pwy [e]sydd yn planu gwinllan, ac nid yw yn bwyta o'i ffrwyth hi? [f]neu pwy sydd yn porthi praidd, ac [g]nid yw yn bwyta o laeth y praidd?

8 Ai [h]yn ol dyn yr wyf fi yn dywedyd y pethau hyn? [i]neu onid yw y ddeddf hefyd yn dywedyd hyn?

9 Canys ysgrifenedig yw yn neddf Moses, [k]Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu. [l]Ai dros ychain y mae Duw yn gofalu?

[k] Deut. 25. 4; 1 Tim. 5. 18. [l] Num. 22. 28—35; Deut. 5. 14; Mat. 6. 26—30.

10 Ynte er ein mwyn ni yn hollol y mae yn dywedyd? canys er ein mwyn ni yr ysgrifenwyd, mai mewn gobaith y dylai yr arddwr aredig, a'r dyrnwr mewn gobaith, i fod yn gyfranog o'i obaith.

[m] Mal. 3. 8, 9; Mat. 10. 1; Rhuf. 15. 27; Gal. 6. 6.

11 Os nyni a [m]hauasom i chwi

yn yr ystyr a osodir ger bron yn y bennod o'r blaen, ond yn golygu ei hawl i fwyta ac yfed ar draul yr eglwysi. Nid yw *adn.* 5 yn dynodi ei hawl i briodi, ond i ddwyn gwraig gydag ef oddi amgylch yn ei deithiau. *Gwraig a fyddo chwaer:* —a ddynoda "gwraig grediniol." Y mae y gair *chwaer* o flaen *gwraig* yn y gwreiddiol. Yr oedd yn weddus i'r chwaer fyddai yn gydymaith fod yn wraig i'r apostol. Mae Eusebius yn dadleu oddi wrth hyn fod gan yr apostol wraig, ond ei fod yn ei gadael gartref yn ei deithiau; ond nid oes yma ddigon o sail i'r dybiaeth. Yr oedd Tertullian, Awstin, a lliaws o'r tadau, yn barnu mai dadleu y mae yr apostol o blaid ei hawl ef a'i frodyr o ddwyn gyda hwynt, yn eu teithiau, wragedd cyfoethog, i weini arnynt. Ac y mae haneswyr eglwysig yn dyweyd fod cryn afreoleidd-dra wedi cymmeryd lle yn y canrifoedd cyntaf oddi ar y camddealltwriaeth yma o'r adnod. *Cephas.*—Yr enw a rydd Paul ar yr apostol yn mhob man, oddi eithr yn yr Epistol at y Galatiaid. Fod Pedr yn ŵr priod, sydd eglur oddi wrth *Mat.* viii. 14; *Marc* i. 30. Felly yr oedd ereill o'r apostolion, fel y dangosir yn yr adnod hon. Y mae traddodiad ar gael fod Pedr yn annog ac yn cysuro ei wraig pan arweinid hi i'w merthyru. Dywed rhai o'r tadau hefyd fod ganddo blant. Am y geiriau *brodyr yr Arglwydd,* ymgynghored y darllenydd â manau ereill yn nghorph y gwaith. Yr hen olygiad, golygiad y tadau, a llais traddodiad, ydyw mai ceraint yr Iesu oeddynt; ond y mae y mwyafrif o'r esbonwyr diweddar, yn Lloegr, America, a'r Almaen, yn dadleu yn gryf, ac i ni yn dra boddhaol, mai plant Mair ac Ioseph oeddynt. O'r rhai hyn yr enwocaf oedd Iago (*Gal.* i. 19; ii. 9, 12; *Act.* xii. 17; xv. 13; xxi. 18), esgob neu weinidog sefydlog yr eglwys yn Ierusalem.

6. A oes rhyw reswm pa ham y dylwn i a Barnabas fod yr unig eithriadau i'r rheol fod gweinidogion yr efengyl i gael eu cynnal gan yr eglwysi. Ymddengys yma fod Barnabas, tra yn gydymaith i Paul, ac ar ol ymadael oddi wrtho, yn gweithio â'i ddwylaw fel yntau, rhag pwyso ar yr eglwysi.

7. Ei ddadl gyntaf dros gael cynnaliaeth a sylfaenir ar yr egwyddor a gydnabyddir ac y gweithredir arni yn gyffredinol, sef fod gwaith yn rhoddi hawl i gyflog. Rhoddir yma dair enghraifft—y milwr, y llafurwr, a'r bugail. *Ar ei draul ei hun.*—"Pa filwr mewn rhyfel a elwir i'w gynnal ei hun? Os gorfodwch chwi ef i wneuthur hyny, chwi a'i gwnewch ef yn ysbeiliwr; ac os gofynir i weinidogion gynnal eu hunain, y perygl ydyw y gorfodir hwynt i fod yn ddynion y byd."—*Hodge.*

8. "A ydwyf yn llefaru y pethau hyn yn unig yn ol barn ddynol am yr hyn sydd iawn? na, nid felly yn unig, ond y mae y ddeddf hefyd yn dywedyd yr un peth." Llefaru "yn ol dyn," ydyw llefaru fel y mae dynion yn arfer llefaru—llefaru ein meddyliau a'n hegwyddorion, ac arfer cymmhariaethau oddi wrth ein harferion ein hunain; cymmhwyso barnau synwyr cyffredin at bethau dwyfol ac eglwysig; *Rhuf.* iii. 5; *Gal.* iii. 15; *Rhuf.* xi. 19.

9. Gwel yn *Deut.* xxv. 4. Gweler hefyd *Esa.* xxviii. 28; xli. 15; *Hoseu* x. 11. Nid oedd y dwyreinwyr yn dyrnu yn yr un dull ag y gwneir genym ni; gwesgid y grawn allan trwy gael eu sathru gan ychain. Ond yn fwy diweddar, sonir am fen-ddyrnu â ffustiau: 2 *Sam.* xxiv. 22; *Esa.* xli. 15. Gofyna Calvin, "Pa ham y mae yr apostol yn dewis yr ymadrodd hwn o'r gyfraith, pan yr oedd ynddi eiriau ereill yn ymddangos yn fwy i'r pwrpas? megys *Deut.* xxiv. 15: 'Yn ei ddydd y rhoddi iddo ei gyflog; ac na fachluded yr haul arno.' Ond y mae yn amlwg fod mwy o nerth yn y dyfyniad hwn, yn mha un y gorchymyna yr Arglwydd ofal am anifeiliaid; o blegid oddi wrth hyn ymresymir oddi wrth y lleiaf at y mwyaf, pa faint o uniondeb a ofyna yn mysg dynion tuag at eu gilydd, pan yr ewyllysia fod hyny i gael ei ddangos at anifeiliaid." *Ai dros ychain?*—Nid oes i ni feddwl fod yr hwn sydd yn gofalu am aderyn y tô yn ddiofal am ychain: ac y mae yr hwn sydd yn porthi y brain, ac yn gwrando ar lef cywion y cigfrain, yn darparu hefyd at eu hangen hwy. Y meddwl yma yw fod gan y gyfraith olwg uwch. Amcan agosaf a mwyaf uniongyrchol y gorchymyn oedd, fod yr ychain a lafuriant i gael eu trin yn addas; ettо, yr amcan uchaf oedd dysgu i ddynion y gwirionedd moesol a gynnwysir yn y gorchymyn. Os ydyw Duw yn dysgu na ddylid gwneuthur cam â'r ych, na ddylid attal oddi wrtho ef wobr ei waith, pa faint mwy y mae yn dysgu cyfiawnder ac uniondeb rhwng dynion a'u gilydd. Yr oedd Duw yn golygu gwelliant moesol dynion fel ei brif amcan wrth roddi y gorchymyn gyda golwg ar anifeiliaid.

10. *Ynte er ein mwyn ni yn hollol?*—Sicrhâ Hodge nad yw y gair *hollol* yn gyfleithiad cywir o'r gwreiddiol—o leiaf, mai nid *hollol* ydyw y meddwl yn y fan hon; o blegid yr oedd Duw yn gofalu am ychain hefyd, wrth roddi y gorchymyn hwn; er yn benaf am danom ni, etto nid yn hollol am danom ni. Y mae yr ystyr o *yn sicr, yn wir* (*assuredly*) yn cael ei roddi i'r gair mewn amryw fanau; gwel *Luc* iv. 43; *Act.* xviii. 21; a diammheu mai dyma yr ystyr yn y

bethau ysbrydol, *ai* mawr *yw* os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?

12 Os yw ereill yn gyfranogion o'r awdurdod *hon* arnoch; onid *ydym* ni yn hytrach? Eithr nid arferasom ni yr awdurdod hon: [n] ond goddef yr ydym bob peth, fel na [o] roddom ddim rhwystr i efengyl Crist.

13 Oni wyddoch chwi fod [p] y rhai sydd yn gwneuthur pethau cyssegredig, yn bwyta o'r cyssegr? a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr allor, yn gydgyfranogion o'r allor?

14 Felly hefyd [q] yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl, fyw wrth yr efengyl.

15 Eithr [r] myfi nid arferais yr un o'r pethau hyn: [s] ac nid ysgrifenais y pethau hyn, fel y gwnelid felly i mi: [t] canys gwell *yw* i mi farw, na gwneuthur o neb fy ngorfoledd yn ofer.

16 Canys os pregethaf yr efengyl, nid oes orfoledd i mi: canys angenrhaid a osodwyd arnaf; a gwae fydd i mi, oni phregethaf yr efengyl.

17 Canys os gwnaf hyn o'm

[n] 1 Cor. 4. 11, 12. [o] Gen. 24. 58; Neh. 4. 8; Rhuf. 15. 22. [p] 1 Cor. 10. 18; Lef. 6. 16–18; 7. 6–8. [q] Adn. 4. [r] Adn. 12. [s] 2 Cor. 11. 9–12. [t] Mat. 18. 6.

fan hon. Rhoddwyd y gorchymyn i'r dyben o ddysgu yr egwyddorion y dylai llafur gael ei wobrwyo. *Er ein mwyn ni*:—er ein mwyn ni ddynion: rhoddwyd y gorchymyn am anifeiliaid, er mwyn dysgu yr egwyddor i ddynion. Nid yw y cyfeiriad yn gyfyng at weinidogion, fel y barna Alford, gan ddilyn De Wette, a rhai o'r tadau.

12. Dadl yn cael ei chyfeirio at y Corinthiaid eu hunain. Yr oeddynt gyda dysgawdwyr ereill wedi cydnabod yr egwyddor fod eu hathrawon yn haeddu cynnaliaeth; felly nis gallasent, gyda dim priodoldeb, wadu ei hawl yntau. *Ond goddef*:—goddef caledi, llafur, lludded, a phrinder, a hyny yn dawel, fel y mae y gair a gyfeithir *goddef* yn arwyddocau. *Fel na roddom ddim rhwystr.* Gan fod gelynion yr apostol yn lliosog, ac oll yn faleisus, ac yn ceisio troi pob peth yn achlysur yn ei erbyn, buasai yn rhwystr ar ffordd llwyddiant yr efengyl iddo wneuthur dim a roddasai y rhith lleiaf o sail i neb ammheu purdeb ei gymmhelliadau. Felly gwell ganddo ef oedd dioddef pob peth na rhoddi sail i neb i ddywedyd ei fod yn pregethu yr efengyl er mwyn cynnaliaeth.

13. Mae yr hyn a ddywed yr apostol yn nechreu yr adnod hon yn wir am bob crefydd, er ei fod ef yn cyfeirio at y grefydd Iuddewig yn unig. Mae yr ymadrodd, "gwneuthur pethau cyssegredig," yn un arferedig am offrymu aberthau. Dywed Meyer, fod y cyfeiriad yn yr holl adnod at yr offeiriaid, gan gau allan y Lefiaid. Gwel ar yr hyn a ddywedir yma am yr offeiriaid Iuddewig, yn *Num.* xviii. 8; *Deut.* 18. 1.

14. *Felly hefyd*:—yn gyfattebol i'w ordeiniad yn y grefydd Iuddewig. Fel y darfu i'r Arglwydd Iesu Grist ordeinio dan yr Hen Destament, felly hefyd y mae wedi ordeinio dan y Newydd. Efe oedd awdwr yr ordeiniad yn yr eglwys Iuddewig a'r eglwys Gristionogol. Ar orchymyn Crist, gwel *Mat.* x. 10; *Luc* x. 8. Mae y gorchymyn hwn yn rhwymedig ar weinidogion ac eglwysi. Ni ddylai y cyntaf ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn: eu dyledswydd ydyw ymofyn am gynnaliaeth oddi wrth yr eglwys, ac nid oddi wrth alwedigaethau bydol; a dyledswydd yr eglwys ydyw rhoddi cynnaliaeth iddynt. Hon ydyw y rheol; dyma orchymyn Crist. Er fod rhai amgylchiadau yn bod pan y mae yn peidio bod yn ddyledswydd ar weinidogion; etto y mae y cyfryw amgylchiadau yn dygwydd yn anynych. Y mae Calvin a Bengel yn sylwi, pe buasai y rhai sydd yn pregethu yr efengyl yn "offeiriaid" hefyd, y buasai yn naturiol disgwyl rhyw gyfeiriad atynt fel y cyfryw yn y geiriau hyn. Ond gan nad oes vma y fath gyfeiriad, y gallwn gasglu nad oedd yr "offeiriadaeth," fel yr ystyrir hi yn yr Eglwys Babaidd, ac yn mysg plaid liosog yn Eglwys Loegr, yn adnabyddus yn yr oes apostolaidd. Nid oedd yr heresi offeiriadol wedi dyfod i mewn etto i'r eglwysi; a llawer llai yr oedd y drychfeddwl yn cael ei gyduabod gan yr apostolion. Gwaith neilduol prif swyddwyr yr eglwys dan oruchwyliaeth y Testament Newydd ydyw addysgu—pregethu yr efengyl.

15. *Yr un o'r pethau hyn*:—nid arferais un o'r *dadleuon* hyn, er mwyn cael fy nghynnal. Yn hytrach, yr *hawliau* hyn. Nid arferais fy hawl, ar yr hon yr edrychir yn yr adnodau blaenorol mewn amrywiol agweddau—yr hawl o daledigaeth am lafur (*adn.* 7); yr hawl o gael budd cyfattebol i ddaioni a weinyddwyd (*adn.* 11); yr hawl o gael bod ar yr un tir a gweinidogion ereill (*adn.* 12); yr hawl o gael ymddwyn tuag ato yn ol gosodiad Duw dan yr Hen Destament a'r Newydd (*adn.* 13, 14). *Canys gwell*:—cyffelyb i ymadrodd arall o eiddo yr un apostol—"Nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw;" *Act.* xx. 24. Ei unig amcan oedd llwyddiant yr efengyl: nid oedd dim arall, hyd yn oed ei fywyd, yn ymgystadlu byth yn ei feddwl â'r amcan hwn. Felly, gwell fuasai ganddo golli ei fywyd na hôni ei hawl yn ei gynnaliaeth, am y buasai hyny yn rhwystr ar ffordd llwyddiant ei bregethiad. Yr oedd hyn yn orfoledd ganddo: am ei fod, ar sail yr hunanymwadiad yma, yn gallu wynebu ei wrthwynebwyr gyda hyder cadarn.

16. Y rheswm pa ham yr oedd yn beth mor bwysig yn ei olwg ymwadu â'i hawl fel gweinidog, mai hyn yn unig oedd ei orfoledd. Nid oedd y ffaith ei fod yn pregethu yr efengyl yn achos gorfoledd neu fôst iddo; am ei fod dan rwymedigaeth i wneuthur hyny. Nis gall dim fod yn destyn bôst ond y peth y mae un at ei ryddid i'w wneuthur neu i beidio ei wneuthur. Yr oedd yn rhydd i gymmeryd neu i beidio cymmeryd tâl am bregethu; ond nid oedd at ei ryddid i bregethu neu beidio. Yr oedd angenrhaid wedi ei osod arno. Ceir egwyddor hyn yn ngeiriau Crist, yn *Luc* xvii. 10.

17. *Canys os gwnaf hyn o'm bodd, y mae i mi wobr.*—Nid yw y gair, "o'm bodd," yn gwadu nad oedd yn pregethu yr efengyl yn llawen; nad oedd ei holl galon yn y gwaith; ond nad

bodd, y mae i mi wobr: ond os
[a] Adn. 16; 1 Cor. 4. 1. o'm hanfodd, [a] ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl.

18 Pa wobr sydd i mi gan hyny? Bod i mi, pan efengylwyf, [z] Rhuf. 14. 15. osod efengyl Crist yn rhad, [z] fel na chamarferwyf fy awdurdod yn yr efengyl.

19 Canys er fy mod yn rhydd oddi wrth bawb, mi a'm gwnaethum fy hun yn was i bawb fel yr ennillwn fwy.

20 Ac mi a ymwnaethum i'r Iuddewon megys yn Iuddew, fel yr ennillwn yr Iuddewon; i'r rhai dan y ddeddf, megys dan y ddeddf, fel yr ennillwn y rhai sydd dan y ddeddf;

21 I'r rhai dideddf, megys di- [y] Salm. 19. 32. Mat. 5. 17-20; Rhuf. 7. 22-25. Gal. 5. 13, 14. 22. ddeddf [y] (a minnau heb fod yn dideddf i Dduw, ond dan y ddeddf i Grist) fel yr ennillwn y rhai dideddf.

22 Ymwnaethum i'r rhai gwein-

---

oedd at ei ddewisiad i wneuthur neu beidio. Nid oedd wedi ymgymmeryd â'r swydd am iddo ddewis y swydd, ond am fod yr Arglwydd wedi ei hymddiried iddo, a gosod angenrhaid arno. Goruchwyliwr ydoedd– caethwas i Grist. Ac y mae y gwahaniaeth mwyaf rhwng y caethwas yn ufuddhau i orchymyn ei feistr, a dyn rhydd yn ymgymmeryd â gorchwyl dan gymmhelliad ei feddwl ei hun; er y gall y cyntaf ymhyfrydu yn ei waith yn gymmaint a'r olaf. Llefaru y mae yr apostol yma am ei rwymedigaeth, ac nid am ei hoffder o'i waith. Buasai iddo wobr, pe cymmerasai y swydd o'i ddewisiad ei hun; buasai hyny yn ddefnydd bôst iddo: ond nid oedd yn fôst, gan mai o'i anfodd y cymmerodd hi. Ar y gair, "O'm hanfodd," gwel *Act.* ix. 15; xxii. 14; xxvi. 16. *Ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl*:—yn fwy unol â'r gwreiddiol, "Ond os o'm hanfodd, goruchwyliaeth ydyw a ymddiriedwyd i mi." Rhoddwyd i mi swydd ag yr wyf yn rhwym i'w chyflawni: gwas ydwyf, a dim mwy. Felly nid oes, i mi le i orfoleddu am wneuthur fy rhwymedigaeth.

18. Mae y nifer mwyaf yn ystyried ei "wobr" yma yr un a'i "orfoledd" yn yr adnodau o'r blaen. "Pa wobr"—pa orfoledd—sydd i mi? "Os nad yw pregethu yn fater o fôst, beth yw fy môst?" Yna y mae yn atteb, "Bod i mi," &c. Ei orfoledd a'i wobr oedd ei aberthu ei hun er mwyn ereill. Ei wobr oedd ymwrthod â gwobrau: yr oedd rhoddi a hunan-ymwadu, nid yn unig yn orfoledd ganddo yn ngwyneb ei elynion, ond yn wobr hefyd yn ei fynwes ei hun. Hwn ydyw golygiad Calvin a Hodge. Ond y mae yn annaturiol meddwl mai yr un peth a olyga wrth ei orfoledd a'i wobr: o blegid yr oedd ei orfoledd yn bod yn y presennol, ond ei wobr i ddyfod iddo yn y canlyniad. Y mae Meyer yn deall y geiriau fel hyn:—"Pa wobr sydd i mi gan hyny? Dim. Yr wyf yn ymwrthod â gwobr, er mwyn efengylu yn rhad," &c. Y mae Alford yn gwrthod y golygiad yma ar bwys rhesymau sydd yn ymddangos i ni yn gedyrn. Y mae Meyer, trwy y golygiad hwn, yn gwahanu yr adnod hon oddi wrth y geiriau dilynol; ac yn yspeilio gorfoledd yr apostol o'i wobr. Yr ystyr a roddir gan Alford ydyw hyn:—"Pa wobr gan hyny sydd i mi, i fy nghymmhell i bregethu yr efengyl yn rhad?" Ceir yr attebiad yn y geiriau canlynol:—"Fel yr ennillwn fwy." Ei wobr oedd fod ei weinidogaeth yn fwy llwyddiannus, am ei fod yn ei chyflawni yn rhad. *Fel na chamarferwyf fy awdurdod.*—Fel na arferwyf. —*Alford.* Y mae y darlleniad cyffredin, "camarferwyf," er yn unol âg ystyr cyffredin y gair gwreiddiol, yn anghysson â'r cyd-destyn; ac ni ofynir ef gan ddefnyddiad y gair. Nid y camarferiad, ond yr arferiad o'i hawl i gynnaliaeth, a wrthodai yr apostol.—*Hodge.* Ond y mae Calvin yn sylwi:—"Ymddengys oddi wrth hyn fod y cyfryw ddefnyddiad o'n rhyddid ag a rydd achlysur tramgwydd, yn gamddefnyddiad o'n rhyddid."

19. Dyma ei wobr—"Fel yr ennillwn fwy." Hyn fydd ei wobr yn nydd yr Arglwydd Iesu: 1 *Thes.* ii. 19, 20.

20. Enghreifftiau o "Mi a'm gwnaethum fy hun yn was i bawb." *I'r Iuddewon.*—Gwel enghreifftiau: *Act.* xvi. 3; xxi 26. Gweithredai fel hwythau; cydffurfiai â'u harferion; ettô gan ddangos yn wastad mai er mwyn eu hennill y gwnai felly. Ond ni wnai byth yn y fath fodd ag i gyfreithloni y dyb ei fod yn ystyried y cydffurfiad hwn yn angenrheidiol. Mae ei ymddygiad gwahanol gyda golwg ar Timotheus a Titus yn dangos oddi ar ba egwyddor y gweithredai. Enwaedodd ar y cyntaf, am nad oedd, yn wneuthur hyny, yn aberthu un egwyddor; ond yn hytrach yn cario allan yr egwyddor y soniasyma am dani—gwneuthur ei hun yn bob peth i bawb; ond gommeddodd enwaedu ar Titus, am fod hyny yn cael ei argeisio fel peth angenrheidiol. Nid oedd un amser yn cyfaddasu ei ymddygiadau at ragfarnau neb gyda phethau pwysig. *I'r rhai dan y ddeddf*:—nid proselytiaid: ond yr un rhai ag "Iuddewon" yn yr ymadrodd blaenorol. Perthynai yr apostol ei hun i'r Iuddewon: yr oedd yn Iuddew fel hwy i fan, ond nid oedd o nifer y rhai oedd dan y ddeddf.

21. *I'r rhai dideddf*:—y Cenedloedd: gwel *Rhuf.* ii. 12. Etto gan fod y gair am "dideddf" yn arwyddo anwir, difoes, yn gystal a bod heb ddeddf ysgrifenedig, y mae yr apostol yn cyfaddefu, tra yn gwneuthur ei hunan yn dideddf mewn un ystyr, etto ei fod "heb fod yn dideddf i Dduw, ond dan y ddeddf i Grist." Yr oedd yn mhob man, a chyda phob peth, dan y ddeddf foesol, dragwyddol; etto nid oedd yn cydnabod Iuddewaeth pan gyda'r Cenhedloedd. Yn Ierusalem, cyddffurfiai â'r gyfraith Iuddewig; ond gwrthodai wneuthur felly yn Antiochia a cheryddodd Pedr am fyw yn Iuddewaidd yn mysg y Cenedloedd: *Gal.* ii. 11, &c. Prin y gellir meddwl, gyda Chrysostom, y golygir y cyfryw rai a Chornelius wrth y "dideddf," sef rhai yn ofni Duw, heb gyddfurfiad â'r gyfraith. Ond y paganiaid a olygir; a cheir esampl o ymddygiad Paul atynt yn ei araeth i'r Atheniaid yn Areopagus. *A minnau heb fod.*—Mae Alford yn sylwi fod y negydd *mê* (heb) yn arwyddo fod yr apostol yn cyfeirio at ymwybyddiaeth mewnol, yn hytrach nag at y ffaith allanol. Ei hofiad oedd, nad oedd yn dideddf i Dduw,

22. Y *rhai gweiniaid*, yn ol barn rhai, ydynt

iaid megys yn wan, fel yr ennill-
[z]1 Cor. 10. 33. wn y gweiniaid: [z]mi a ym-
wnaethum yn bob peth i bawb,
[a]Adn. 19. fel y gallwn yn hollol [a]gadw
rhai.

23 A hyn yr wyf fi yn ei
[b]Marc 8. 35; 2 Cor. 2. 4; Gal. 2. 5; 2 Tim. 2. 10. wneuthur [b]er mwyn yr efengyl,
fel y'm gwneler yn gydgyfrannog
o honi.

24 Oni wyddoch chwi fod y
[c]Salm 19. 5. rhai sydd [c]yn rhedeg mewn gyrfa,
i gyd yn rhedeg, ond bod un yn
derbyn y gamp? [d]felly rhedwch, fel y caffoch afael.

[d]Gal. 2. 2; 5. 7; Phil. 2. 16.

25 Ac y mae pob un a'r sydd yn ymdrechu, yn ymgadw yn mhob peth: a hwynthwy yn wir, fel y derbyniont goron lygredig; [e]eithr nyni, un anllygredig.

[e]2 Tim. 4. 8.

26 Yr wyf fi gan hyny felly yn rhedeg, nid megys ar amcan; felly yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo yr awyr.

27 Ond yr wyf fi yn cosbi fy

Cristionogion gweiniaid a phetrusgar;—yr un rhai ag yn 1 *Cor.* viii., a *Rhuf.* xiv. Felly, nid ydyw y gair "ennill" yn dynodi tröedigaeth yr annychweledig, ond dwyn rhai sydd eisoes yn Gristionogion drosodd i olygiadau mwy addfed ar natur Cristionogaeth. Yr hyn sydd yn cefnogi y golygiad hwn yn fwyaf ydyw, mai amcan yr holl ymdriniaeth bresennol ydyw dwyn y rhai cryfion i gyd-ddwyn â'r rhai gweiniaid. Mae ereill yn golygu mai yr un ystyr sydd i'r gair yma ag sydd iddo yn *Rhuf.* v. 6—yn dynodi Iuddewon a Chenhedloedd anghrediniol fel yn rhy weiniaid i dderbyn yr efengyl. Tueddir ni i gymmeradwyo y golygiad cyntaf.

23. Mae Alford, ar awdurdod amryw o'r hen lawysgrifau, yn gwrthod y darlleniad cyffredin: yn lle, "A hyn yr wyf yn ei wneuthur:" darllena, "Ond pob peth yr wyf yn ei wneuthur:" nid yn unig yr hyn yr wyf wedi llefaru am dano, ond y mae yr oll o'm gweithredoedd er mwyn yr efengyl. Yr un yn hollol ydyw golygiad y nifer mwyaf o'r esbonwyr.

24. Saif yr adnod hon yn gyssylltiedig â'r amcan a nodir yn niwedd *adn.* 23. Annogir y Corinthiaid i hunanymwadiad ac ymdrech, fel y caffent afael ar y wobr, fel y gwnelid hwynt yn gydgyfranog o'r efengyl. Cyfeirir yma at y campau Olympaidd, neu Isthmiaidd. Yr oedd y rhai olaf yn cael eu dwyn yn mlaen bob trydydd haf yn nghymmydogaeth Corinth, i ba rai y cyrchai llaweroedd o bobl o bob parth o dir Groeg. Parai yr ymdrechfeydd hyn y cydymgais mwyaf cynnhyrfiol trwy yr holl diriogaethau. Hyd yn oed yr ymherawdwyr Rhufeinig a deimlent y dyddordeb mwyaf ynddynt, ac weithiau a ymrestrent yn mysg yr ymdrechwyr. Yr oedd bod yn orchfygwr yn y campau hyn yn foddhâd i'r uchelgais penaf. Gwnai enwogrwydd y cyfryw gampau y cyfeiriad hwn yn dra effeithiol ar feddyliau y Corinthiaid. Yr oeddynt yn dra chydnabyddus â hwynt—nid oedd yn eu mysg un sefydliad mwy cenedlaethol. *Mewn gyrfa.*—Y gair Groeg ydyw yr un a'r Lladin—*stadium*: yr oedd yr yrfa ynghylch 200 llath o hyd. *Felly rhedwch*:—felly, sef fel yr un sydd yn ennill y gamp [*Hodge, Meyer, De Wette*]; neu fel y rhai oll sydd yn rhedeg, a phob un o honynt yn ymdrechu bod yr un hwnw a ennilla y gamp.

25. *Yn ymdrechu.*—Mae y gair gwreiddiol yn cynnwys pob math o ymdrech; megys rhedeg, codymu, curo. Y mae yr ymadrodd, "pob un a'r sydd yn ymdrechu," nid yn cyfeirio at adeg yr ymdrech, ond at yr ymdrechydd yn flaenorol—"pob ymdrechydd cofrestredig"—pob un y mae ei enw ar y rhestr. *Yn ymgadw.*—Arfera hunanymwadiad a chymmedroldeb mewn bwydydd, a chyda golwg ar bleserau; goddefa y ddysgyblaeth fwyaf poenus, a hyny am amser maith. Y mae yr ysgrifeniadau clasurol yn llawn o gyfarwyddiadau i ymdrechwyr: a dangosir pa fath fwyd oedd yn briodol, pa faint i'w fwyta, ac ar ba oriau; pa nifer o oriau i orphwys, a pha nifer i ddysgyblu eu hunain. Gwaherddid iddynt ymarfer â gwin ac â benywod. Parhäai y cyfryw ddysgyblaeth am lawer o flynyddoedd. Yr enw a roddid ar y ddysgyblaeth oedd *ascésis*; ac oddi wrth yr enw hwn y galwyd y mynachod yn *Asceticiaid*, oddi ar eu bod yn rhagori hyd yn oed ar yr ymdrechwyr Groegaidd mewn dysgyblaeth gorphorol. *Goron lygredig.*—Yr oedd y coronau hyn wedi eu plethu o ddail gwyrddlas, y rhai a wywent yn fuan. Yn y campau Olympaidd, y rhai oeddynt gyssegredig i Iau, yr oedd y coronau wedi eu gwneuthur o ddail yr olewydden wyllt. Yn y campau Pythiaidd, y rhai oeddynt gyssegredig i Apollo, yr oeddynt o ddail y llawryf (*laurel*): yn y campau Isthmiaidd, o ddail pinwydd. Ac fel dail y coronau, felly hefyd yr oedd anrhydedd y gamp, yn ddiflanedig—yn gyfyngedig i'r bywyd presennol.

26. *Nid megys ar amcan*:—nid fel un sydd heb wybod at ba beth nac am ba beth y mae yn rhedeg. Y mae yr hwn sydd yn ansicr o barth yr yrfa a'r amcan, yn rhedeg heb fawr o ymadferth ac ysbrydiaeth. Cyfeirir yn yr ymadrodd *curo awyr*, naill ai at un sydd heb wneuthur dim ond ymarfer—curo heb wrthwynebydd; nid yw ond curo awyr, gan nad oes iddo wrthwynebydd: nid oes ond ychydig o nerth ac egni yn ei ymdrech. Neu, fe allai, at ymdrechydd sydd yn methu taraw ei wrthwynebydd. Y golygiad cyntaf a gefnogir gan Chrysostom a Macknight, &c., a cheir cyfeiriad at y cyfryw gau-ymdrech yn *Æneid* Virgil. Yr olaf a gymmeradwyir gan y nifer fwyaf o esbonwyr: felly Alford. Enwir y gwir wrthwynebydd yn yr adnod ganlynol:—"Yr wyf yn cosbi fy nghorph." Ond y mae yr ystyr yr un yn y ddau olygiad. Y mae yr ymdrech yn ofer yn y naill a'r llall.

27. *Cosbi.*—Y mae y gair gwreiddiol yn arwyddo taraw mor drwm ar y wyneb nes ei dduo. "Yr wyf yn cleisio fy nghorph." *Dwyn yn gaeth*:—a ddynoda arwain fel caethwas. Nid yw "cosbi fy nghorph" yn un warant dros boenydio y corph, fel y camddeallwyd y geiriau gan rai; ond yn golygu marweiddiad ar y natur bechadurus—darostwng balchder a hunangais y cnawd. Yr un peth a feddylir yma wrth gosbi y corph, ag a feddylir o'r blaen yn y bennod yn yr esamplau o hunanymwadiad a nodir. Bernir y cyfeiria yr apostol yn y geiriau *pregethu i ereill*, at swydd cyhoeddwr cyfreithiau neu reolau yr ymdrech. Yr oedd Paul yn gyhoeddydd y rheolau, ac hefyd yn ymdrechydd. Yn

nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i ereill, fod fy hun yn anghymmeradwy

PENNOD X.

1 *Bod sacramentau yr Iuddewon 6 yn cysgodau i ni, 7 a'u cospedigaethau hwy* 11 *yn esamplau i ni.* 14 *Rhaid i ni ochelyd gau-ddiwiaeth.* 21 *Na ddylem ni wneuthur bwrdd yr Arglwydd yn*

anghymmeradwy. — Byddai yr ymdrechwyr buddugol yn myned dan archwiliad manwl ar ol yr ymdrechfa: ac os gellid profi iddynt ymdrechu yn annheg, yn groes i reolau yr ymdrech, caent eu hamddifadu o'r gamp, a'u gyru allan o'r lle mewn gwarth. Gelwid y rhai hyn yn anghymmeradwy. Felly, pe buasai yr apostol, ar ol cyhoeddi rheolau y gamp ei hunan, yn fyr o arfer y rheolau hyn, y canlyniad fuasai iddo fod yn anghymmeradwy yn y dydd y bydd y gwobrau yn cael eu rhanu.

Pennod x.

1—22. A yr apostol rhagddo i rybuddio y Corinthiaid i ochel eilunaddoliaeth. Wedi iddo, yn niwedd y bennod o'r blaen, eu hannog i ymdrech a hunan-ymwadiad, y mae yma yn cadarnhau yr annogaeth, trwy ddangos y modd yr oedd yr Israeliaid wedi cael eu dinystrio, trwy eu hesgeulusiad o'r cyfryw hunan-ymwadiad. Yr oeddynt hwy, mewn rhyw ystyr, yr un âg Eglwys y Testament Newydd; cawsant eu ffafrio gan yr un Duw â breintiau cyffelyb; yr oedd ganddynt sacramentau megys ninnau; etto cafodd y nifer mwyaf o honynt eu dinystrio. Ac y mae eu hanes wedi ei gadw i fod yn rhybudd i Gristionogion yn nherfynau yr oesoedd. Yn y rhan olaf o'r bennod y mae yr apostol yn profi fod cyfranogi o ebyrth yr eilunod yn nhemlau yr eilunod yn eilunaddoliaeth.

1. *Ac*:—yn hytrach, *canys*. Saif yr adnod yn y cyssylltiad agosaf â diwedd y bennod o'r blaen. Wedi argymmhell ymdrech a hunan-lywodraeth arnynt, y mae yma yn cadarnhau yr un peth mewn achosion neilduol—eilunaddoliaeth a phuteindra—ac yn dwyn hanes eu tadau er eu cymmhell i hunan-lywodraeth. *Ein tadau*:—nid gyda chyfeiriad at yr Iuddewon Cristionogol, ond at yr eglwys yn ei holl aelodau o bob cenedl fel parhâd o'r eglwys Iuddewig. Crefyddol, nid naturiol, yw y berthynas a gyfleir yn y gair. *Oll.*—Digwydda y gair ddwywaith yn yr adnod hon, ac unwaith yn y nesaf; ac y mae y cowyslais i'w osod arno, gyda chyferbyniad i "y rhan fwyaf o honynt hwy," yn *adn.* 5; "I gyd yn rhedeg, ond un yn derbyn y gamp." "Ein tadau *oll* a adawsant yr Aipht, ond Caleb ac Iosuah yn unig a aethant i mewn i wlad yr addewid."—*Hodge. Dan y cwmmwl.*—Dan ei arweiniad, ebe Hodge; ond gwell yw y golygiad fod yma ystyr leol i'r gair. Yr ydoedd y golofn gwmmwl—cartref y presennoldeb dwyfol, yn myned o'n blaen, ac yn amddiffyniad iddynt; ac oddi wrth hyn llefarir am dano fel gorchudd yn eu cysgodi: "efe a daenodd gwmmwl yn do;" *Salm* x. 5, 39. Nis gallasai fod un arwydd amgycach o'u hetholedigaeth gan Dduw fel ei bobl priodol ei hun.

2. Edrychir yma ar freintiau yr Israeliaid o safle y Testament Newydd, yr un modd ag yr

ford cythreuliaid: 21 *ac y dylem, mewn perthau cyffredin, ystyried ein brodyr.*

B. A. 57.

AC ni fynwn i chwi fod heb wybod, frodyr, fod ein tadau oll dan y cwmmwl, a'u myned oll trwy y môr;

2 A'u [a] bedyddio *hwy* oll i Mo- [a] Ex. 14. 31. ses, yn y cwmmwl, ac yn y môr;

3 A [b] bwyta o bawb *o honynt* [b] Ex. 16. 15, 35; yr un bwyd ysbrydol; Deut. 8. 3.

edrychir yn yr Hen Destament ar freintiau y cyfammod newydd oddi ar safle yr hen oruchwyliaeth. Pan y sonir yn y prophwydi am gyffredinolrwydd addoliad a mawl dan y Testament Newydd, dywedir, "Yn mhob lle arogldarth a offrymir yn fy enw i, ac offrwm pur:" ac yma edrychir ar fynediad Israel trwy y môr fel bedydd y genedl. Y mae breintiau y naill oruchwyliaeth yn cael eu gwisgo yn nillad y llall. Bedyddio i Moses, ydyw bedyddio i arweiniad crefydd a goruchwyliaeth Moses. Mai hyn oedd canlyniad y waredigaeth o'r Aipht a'u harweiniad trwy y môr, a ddangosir yn *Exod.* xiv. 31; "A'r bobl a ofnasant yr Arglwydd, ac a gredasant i'r Arglwydd, ac i'w was ef Moses." Gwnaed hwynt, trwy y waredigaeth fawr hon, yn ddysgyblion Moses. Yr un peth i'r genedl oedd y mynediad trwy y môr, yn ei chyssylltiad âg Iuddewaeth, ag ydyw y bedydd i ni, yn ein cyssylltiad â Christionogaeth. *Yn y cwmmwl, ac yn y môr.*—Y mae yn amlwg mai yr unig ystyriaeth yn y cyferbyniad rhwng y mynediad trwy y môr a bedydd y Testament Newydd, ydyw ystyr a chanlyniad y ddau; ac nid un cyffelybrwydd allanol pellach na'r cyfeiriad at yr elfen ddwfr. Y partïol yn unig a freuddwydia fod yma ddim i gefnogi bedydd trwy drochiad, mwy na bedydd trwy daenelliad. Bedyddiwyd hwy, ebe rhai, trwy eu trochi yn y môr: ebe ereill, trwy gael eu taenellu â dafnau o'r dwfr a safai ar bob llaw iddynt! Dyma y pryd y cyflawnwyd yn llythyrenol yr ymadrodd hwnw, ebe y taenellwyr cryfion—"Dyhidlaist wlaw graslawn ar dy etifeddiaeth." Ond nid oes yma sail i'r naill dybiaeth mwy na'r llall. Bedyddiwyd hwynt yn y cwmmwl yn gystal ag yn y môr; ond amlwg yw na chawsant eu trochi na'u taenellu yn y cwmmwl. Y cwbl a olygir yw, fod yr arweiniad trwy y môr wedi eu dwyn i berthynas newydd â Moses—wedi eu gwneuthur yn ddysgyblion iddo.

3, 4. Wedi dangos fod ganddynt beth oedd yn cyfatteb i'r bedydd, dangosir yma fod ganddynt beth oedd yn cyfatteb i'r sacrament arall yn ei dwy elfen. *Bwyd ysbrydol, a diod ysbrydol.*—Pa ham y gelwir hwy yn *ysbrydol?* Cynnygir yr eglurhadau canlynol:—1. Bwyd o natur oruchel, yn rhagori ar fwyd cyffredin. Cadarnheir y golygiad hwn â *Salm* lxxviii. 25, lle y gelwir y manna yn "fara angylion." Gelwir ef hefyd gan Josephus yn "fwyd dwyfol a rhyfeddol." Ond y mae yn amlwg nad ydyw y rhagoriaeth hwn yn gymmwysiadwy at y dwfr o'r graig, yr hwn hefyd a ddynodir yn ddwfr ysbrydol; nid oes i ni feddwl fod y dwfr o'r graig yn rhagori ar ddyfroedd ereill. Gellir chwanegu nad yw y gair *ysbrydol* yn cyfieu y dyrchafeddwl yma. 2. Yn gyfystyr â gwyrthiol—nid cynnyrch natur yn ei ffordd gyffredin, ond ffrwyth cyfrynngiad goruwchnaturiol y Creawdwr. Dyma y golygiad a gefnogir gan Alford a Hodge. Ebe

4 Ac [c]yfed o bawb *o honynt* yr
Ex. 17. 6; Num. 20. 11; Ioan 4. 10.
un ddïod ysbrydol: (canys hwy
[d] Ezec. 5. 4, 5; Heb. 10. 1.
a yfasant o'r Graig ysbrydol a
oedd yn canlyn: [d] a'r Graig oedd
Crist)

[e] Num. 14. 11, 12, 28—33; Deut. 1. 34, 35.
5 Eithr [e]ni bu Dduw foddlawn
i'r rhan fwyaf o honynt: canys
cwympwyd hwynt yn y diffaethwch.

6 A'r pethau hyn a wnaed yn
esamplau i ni, fel na chwennych-

yr olaf: "Un o ystyron mwyaf cyffredin y gair *ysbrydol* ydyw, deilliaw oddi wrth yr Ysbryd." Doniau a bendithion ysbrydol ydynt y doniau a'r bendithion ag y mae yr Ysbryd yn awdwr o honynt. Pob peth a wna yr Arglwydd mewn natur a gras, a wneir ganddo trwy ei Ysbryd: felly, pan ddywedir fod Duw wedi rhoddi iddynt fara o'r nef i'w fwyta, y meddwl yw mai yr Ysbryd a'i rhoddodd; o blegid trwy yr Ysbryd yr oedd Duw yn ei roddi. Yr oedd y manna, gan hyny, yn fwyd ysbrydol, yn yr un ystyr ag y mae doniau neilduol Duw yn cael eu galw yn ddoniau ysbrydol. Nid ymborth naturiol oedd, ond ymborth wedi ei ddarpar mewn ffordd wyrthiol. Ac yn yr un ystyr y gelwir y dwfr yn yr adnod nesaf yn ysbrydol. Dygir *Gal.* iv. 29, yn mlaen i brofi cyfreithlondeb defnyddiad y gair yn yr ystyr hwn. 3. Yn gyfystyr â *cysgodol:* yr oedd y manna a'r dwfr yn rhagarwyddol o ddarpariaeth yr efengyl. Y mae hyny yn wir: ond yr wrthddadl a ddygir yn mlaen yn erbyn ydyw, nad yw y gair *ysbrydol* yn cael ei ddefnyddio yn gyfystyr â *cysgodol.* 4. Yn gyfystyr â *sacramentaidd:* bwyd a diod yn dwyn perthynas âg ysbryd dyn—pethau cnawdol ydyw y pethau a berthynant i'r corph; pethau ysbrydol ydyw y pethau a berthynant i'r ysbryd. Yr oedd y manna yn cael ei fwriadu, nid yn unig i'r corph, ond hefyd i'r ysbryd. Derbynir y golygiad hwn yn lled gyffredin; a diammheu ei fod yn fwy cydweddol â rhediad yr ymresymiad. O blegid dangosir fod y Cristionogion a'r Israeliaid mewn sefyllfa gyffelyb i'w gilydd. Yr oeddynt yn mwynhau breintiau o'r un natur. Nid edrych y mae yr apostol ar yr arweiniad trwy y môr yn unig fel gwaredigaeth i'r genedl, ond fel bedydd iddi; nâc ar y manna a'r dwfr o'r graig fel darpariaeth er diwallu anghenion eu cyrph, ond fel peth oedd iddynt hwy yn cyfatteb i Swpper yr Arglwydd i ni. Nid y daearol a gyferbynir â'r crefyddol, ond y crefyddol â'r crefyddol. Cymmerer yr ystyr o wyrthiol—ettio nid oedd ffrwyth y wyrth uwch law y daearol, os nad oedd yn sacramentaidd. Yr olaf ydyw golygiad Calvin. "Yr oedd y manna, a'r dwfr a lifeiriodd o'r graig, yn gwasanaethu nid yn unig fel cynnaliaeth i'r corph, ond hefyd i'r enaid." *A oedd yn canlyn.*—Dywed Alford fod yn ammhossibl, heb wneuthur cam â'r geiriau, peidio meddwl fod yr apostol yma yn derbyn y traddodiad Iuddewig, fod y graig yn canlyn yr Israeliaid yn eu holl deithiau trwy yr anialwch. Y mae Wetstein a Lightfoot yn rhoddi dyfyniadau helaeth o'r traddodiadau hyn. Ond a ydyw yn debyg fod yr apostol, heb son am ei ysbrydoliaeth, yn ddigon ehud i roddi coel i'r fath chwedl—chwedl nad oes dim yn yr hanes gan Moses i'w chefnogi. Golygiad arall yw mai y dwfr o'r graig oedd yn eu canlyn. Nid oes dim

7 Ac na [f]fyddwch eilunaddol-
[f] 1 Cor. 14. 20, 22; 5. 11; 6. 9; 8. 7; Deut. 9. 12, 16—21; Salm 106. 19, 20; 1 Ioan 5. 21.
wyr, megys rhai o honynt hwy;
fel y mae yn ysgrifenedig, Eisteddodd y bobl i fwyta ac i yfed,
ac a gyfodasant i chwareu.

8 Ac na [g]odinebwn, fel y god-
[g] 1 Cor. 6. 9, 18; Num. 25 1—9.
inebodd rhai o honynt hwy, ac y
syrthiodd mewn un dydd dair mil
ar hugain.

yn annaturiol yn hyn, ebe Hodge. Pe dywedid fod gwinwydd Ffrainge yn canlyn y bobl i ba le bynag yr ânt, ni fyddai hyny yn ddull ammhriodol o ddyweyd fod y gwin yn eu canlyn. Dyma olygiad Calvin, "Wrth y graig y meddylir y ffrydiau dyfroedd a lifent o honi." Gwel *Salm* cv. 41; lle y dangosir fod yno gyflawnder o ddyfroedd. *A'r graig oedd Crist.*—Nid yn golygu mai efe oedd ffynnonell cynnaliaeth yr Israeliaid; ond mai efe oedd gwrth-gysgod y dwfr o'r graig. Yr oedd y dwfr o'r graig yn arwyddocaol o hono, yr un modd ag y mae y gwin yn y cymmun sanctaidd.

5. *Yr rhan fwyaf o honynt.*—Nid oedd Duw wedi bod yn foddlawn ond i Caleb ac Iosuah yn unig.

6. *Esamplau:* yn llythyrenol *cysgodau.*—Yr Israeliaid, a ffeithiau mawrion eu hanes, oeddynt gysgodau o honom ni. Yr oeddynt hwy a ninnau mewn sefyllfa gyffelyb. Y mae ein sefyllfa ni yn uwch—ein sacramentau yn fwy perffaith; etto yr oeddynt yn un â ni, ac felly yn gysgodau o honom. Gan ein bod yn debyg iddynt yn ein breintiau, ni a fyddwn, "os chwennychwn ddrygioni," fel y gwnaethant hwy, yn gyffelyb iddynt yn eu dinystr. Saif eu hanes yn rhybudd difrifol i ni. *Megys ag y chwennychasant hwy.*—Gwel *Num.* xi. 4, 34; *Salm* lxxviii. 27—41; x. 5; xiv. 15.

7. Yr oedd yr Israeliaid gynt, a'r Corinthiaid yn bresennol, yr un mor agored i demtasiynau oddi wrth eilunaddoliaeth. Yr oedd y cyntaf a'r olaf yn amcanu lliniaru eilunaddoliaeth. Gŵyl i Iehofah oedd addoliad y llo aur yn ngolwg Israel; ac yn gyffelyb yr oedd y Corinthiaid yn barod i ymesgusodi am bob dynesiad at eilunaddoliaeth. Y mae yr addasrwydd mwyaf yn y dyfyniad hwn i gyfarfod sefyllfa y Corinthiaid. Dyma y demtasiwn yr oeddynt hwy yn agored iddi. Yr oedd y ddawns yn perthyn i'r gŵyliau eilunaddolgar.

8. Y mae y cyssylltiad agosaf rhwng eilunaddoliaeth a godineb. Dangoswyd hyn yn hanes plant Israel. Gwel *Num.* xxv. 1—9. Yr oedd Baal-peor, duw y Moabiaid, yn cael ei addoli trwy buteindra benywod. Felly yr oedd hefyd yn Corinth. Yr oedd y brif deml yno wedi ei chyflwyno i Venus, duwies trachwant a phleser. *Dair mil ar hugain:*—24,000, yn ol *Num.* xxv. 9; a'r un modd gan Philo a Josephus. Ond pwy ond y gorfanwl a ddichon ganfod yma ddim anghyssondeb? Yr amcan yn mhob adroddiad o'r ffaith ydyw dangos erchylldra y dinystr; ac y mae y ddau rifedi yn gosod hyny ger bron y darllenydd. Nid ydym i ddisgwyl manylder rhifyddol mewn cofnodau hanesyddol o'r natur yma. Y mae yn rhaid fod y Beibl yn llyfr rhyfedd yn ei gyssondeb, fel yn mhob rhagoriaeth arall, pan y ceisir ei warthruddo ar bwys

Ex.17.2,7; 13. 20, 21; Num. 21.5; Deut.6.16; Salm 78. 18, 56.

9 Ac na [h] themtiwn Grist, megys ag y temtiodd rhai o honynt hwy, ac a'u distrywiwyd gan seirph.

10 Ac na rwgnechwch, megys y grwgnachodd rhai o honynt hwy, ac a'u distrywiwyd gan y dinystrydd.

11 A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn esamplau iddynt hwy, [i] ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd.

Rhuf.15,4.

Diar. 16. 18; Mat.26.33.

12 Am hyny, [k] yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio.

13 Nid ymaflodd ynoch demtasiwn, ond un dynol: [l] eithr ffyddlawn *yw* Duw, [m] yr hwn ni âd eich temtio uwch law yr hyn a alloch; [n] eithr a wna ynghyd â'r temtasiwn ddïangfa hefyd, fel y galloch *ei* ddwyn.

[l] Deut' 7. 9; Salm 36. 5; 89. 33; Esa. 11. 5; 25. 1; 49. 7. Galar.3.23; Hos. 2. 20. [m] Ex.13.17; Salm125.3. Luc 22. 32; Ioan 10. 28–30. [n] Gen. 19. 20, 21; Salm124.7; Luc 16. 26; Act. 27. 44. [o] 2 Cor.6.17; 1 Ioan 5.21; Dad. 2. 14;

14 O herwydd pa ham, fy anwylyd, [o] ffowch oddi wrth eilunaddoliaeth.

15 Dywedyd yr wyf fel wrth rai synhwyrol: bernwch chwi beth yr wyf fi yn ei ddywedyd.

16 [p] Phïol y fendith, yr hon a

13. 8; 21. 8; 22. 15. [p] Mat. 26. 26–28; Marc 14. 22–24.

cyfryw anghyssonderau ymddangosiadol ag y nae hon yn anghraifft o honynt.

9. *Ac na themtiwn Grist.*—Y mae yn destun adl pa un ai *Crist*, ynte *Arglwydd*, oedd yn y wreiddiol. Y mae rhai llawysgrifau a chyfeithiadau o blaid y naill, a rhai o blaid y llall. Na themtiwn yr Arglwydd" ydyw y darlleniad gymmeradwyir gan Alford. Gan mai y dareniad mwyaf anhawdd ydyw y tebycaf i fod yn ywir, y mae ereill yn dadleu dros yr un a ddernir yn fwyaf cyffredin—y darlleniad Cymraeg. 'r oedd yn fwy o demtasiwn newid *Crist* i *Arlwydd* na newid *Arglwydd* i *Crist*. Mae y gair gyfieithir *temtio* yn arwyddo temtio i'r graddu eithaf—temtio yn drwyadl; herfeiddio Duw; oddi prawf ar ei amynedd. Gwel *Num.* xiv. 2; "Ac a'm temtiasant y dengwaith hyn." arna Chrysostom a Theophylact mai "ceisio rwydd" oedd yma yn ngolwg yr apostol: Theoret, mai yr afreolaeth oedd mewn perygl i yfodi oddi wrth y rhai a lefarent mewn gwanol dafodau [*Alford*]. Tybia Hodge mai emtio Crist trwy anfoddogrwydd ac ysbryd namynneddgar, cyffelyb i eiddo yr Israeliaid, a lygir. Felly hefyd Calvin:—"Ffynnonell y rwg y rhybuddia yr apostol rhagddo ydyw namynedd, pan yr ewyllysiwn fyned o flaen Duw, ac y gwrthodwn roddi ein hunain i fyny w arweiniad a'i reolaeth, ond yn hytrach eisio ei rwymo ef at ein tueddiadau ni." *Gan eirph.*—Gwel *Num.* xxi. 6.

10. *Ac na rwgnechwch*:—yn erbyn eu harweinyr a'u dysgawdwyr, fel y gwnaethant yn erbyn loses ac Aaron (*Num.* xiv. 2; xvi. 41). Dyma lygiad Estius, Grotius, De Wette. Ond, fel y lwa Alford, heb law fod hyn yr un peth a rwgnach yn erbyn Duw, y mae yn debygol, pe t hyn y cyfeiriasid yma, y chwanegasid rhyw iriau at y gair *grwgnach*. Yr un peth a olygir ma ag yn y *temtio* yn yr adnod o'r blaen, oddi ithr y dangosir yma pa fodd yr oeddynt yn emtio Crist; sef trwy duchan yn eu hysbryd, a nynegi anfoddogrwydd eu hysbryd mewn geiriu grwgnachlyd. Y dinystr y cyfeirir ato ydyw r amgyichiad a nodir yn *Num.* xvi. 41—y pla, ba un y bu feirw 14,700.

11. *Terfynau yr oesoedd.* Diwedd yr oruchyliaeth Iuddewig; neu, yr olaf o gyfnodau mser. Yr oedd un gyfres o oesoedd yn terfynu n ymddangosiad cyntaf y Messiah; ac y mae y yfres arall, yr hon sydd yn myned yn mlaen n bresennol, i derfynu yn ei ail ymddangosiad.

12. *Yn sefyll*:—Yn sefyll yn ei le fel aelod o glwys Crist, i gael ei arddelwi ganddo yn ei ddyfodiad fel ei eiddo. I'r cyfryw un y mae esampl yr Israeliaid yn rhybudd i wylio rhag syrthio, megys y syrthiasant hwy o'u lle yn eglwys Dduw.—*Alford*.

13. Edrychir ar yr adnod hon gan rai [*Chrysostom, Bengel, De Wette*] fel parhâd o'r rhybudd blaenorol. "Edrychwch na syrthioch; mae eich peryglon i fod yn llawer mwy ar ol hyn; bychain a gweiniaid mewn cymmhariaeth oedd y temtasiynau a ymosodasant arnoch hyd yma; nid ymaflodd ynoch etto demtasiwn ond un ddynol: ond y mae temtasiwn gryfach wrth y drws." Ond yn hytrach na'r golygiad hwn, gwell genym yr un a gefnogir gan Calvin, ac ereill. Dygir yr ystyrlaeth yma yn mlaen fel cysur iddynt:—"Y mae i chwi bob cefnogaeth i wylio rhag syrthio; y mae o fewn eich gallu i sefyll; nid ydyw yn ddiobaith i chwi gael eich cynnal yn nghanol eich holl demtasiynau; nid ydyw eich temtasiwn ond dynol: y mae eich holl flinderau a'ch hudoliaethau, yn gyffredin ac adnabyddus i'ch brodyr yn y byd. *Eithr ffyddlawn yw Duw.*—Priodolir eu diogelwch, nid i'w sefydlogrwydd eu hunain, ac nid i'r gras oedd ganddynt, ond i ofal Duw am danynt. Digon o reswm, dybygem, yn erbyn y golygiad cyntaf—mai rhybudd, ac nid cysur, ydyw yr adnod hon—ydyw, mai nid am flinderau neu erlidigaethau y mae yr apostol yn llefaru, ond am hudoliaethau oddi wrth y byd a'r cnawd: ac yn yr ystyr yna, nis gallasai temtasiwn y Corinthiaid fod yn fwy tanllyd nag ydoedd ar y pryd hwn. Y mae ystyr y gair *dynol* yn amlwg wrth ei gymmharu â'r gair cyferbyniol, *uwch law yr hyn a alloch;* nid oedd uwch law gallu dynoliaeth i'w wrthsefyll. —*Ddiangfa*:—nid symmud y demtasiwn, ond goddef y demtasiwn; a gwneuthur diangfa ar yr un amser a'r demtasiwn. Y mae gan Dduw lywodraeth ar y temtasiynau sydd yn cyfarfod ei blant; ac y mae ei ffyddlondeb cyfammodol tuag atynt yn dyfod i'r golwg mewn dau beth—gwneyd y demtasiwn yn gymmesur i'w gallu, a pharotoi diangfa iddynt. Oni buasai am hyny ni buasai yn ffyddlawn. Gwel 1 *Thes.* v. 24; "Ffyddlawn yw yr hwn a'ch galwodd, yr hwn hefyd a'i gwna."

15. Nid yw yn appelio at awdurdod, ond at synwyr cyffredin; nid at awdurdod ddwyfol na dynol, ond at eu meddyliau eu hunain fel yn alluog i weled grym ymresymiad.

16. Cymmerir yma yn ganiataol fod cyfranogiad o Swper yr Arglwydd yn ein dwyn i gymmundeb â Christ. Os felly, y mae cyfranogi o ford cythreuliaid yn ein dwyn i gymmundeb â

[q]Ioan 6. 53—58; Heb. 3. 14; 1 Ioan 1. 3, 7.
[r]Act. 2. 42, 46; 20. 7, 11.
[s]Col. 2. 19; 3. 11, 15.
[t]1 Cor. 3. 4.
21: 11. 26 —

fendigwn, [q] onid cymmun gwaed Crist ydyw? [r] y bara yr ydym yn ei dori, onid cymmun corph Crist yw?

17 O blegid [s] nyni yn llawer ydym un bara, ac un corph: canys yr ydym ni oll yn gyfrannogion o'r un bara.

18 Edrychwch ar yr Israel yn ol y cnawd: onid yw y rhai sydd yn bwyta yr ebyrth, yn gyfrannogion o'r allor?

19 Beth gan hyny yr ydwyf yn ei ddywedyd? bod yr eilun yn ddim, neu yr hyn a aberthwyd i eilun yn ddim?

20 Ond y pethau y mae y Cenhedloedd yn eu haberthu, i gythreuliaid y maent yn eu haberthu, ac nid i Dduw. Ni fynnwn i chwi fod yn gyfrannogion â'r cythreuliaid.

21 [u]Nid ellwch yfed o phïol yr Arglwydd, a phïol y cythreuliaid. Nid ellwch fod yn gyfrannogion o fwrdd yr Arglwydd, a bord y cythreuliaid.

[u]Mat. 6. 24; 2 Cor. 6. 16, 17.

---

chythreuliaid. *Yr hon a fendigwn.*—Nid, "yr hon sydd yn gweini bendith" [Olshausen]; nid yw chwaith yn gyfystyr â "rhoddi diolch:" o blegid gwrthddrych y rhoddi diolch ydyw Duw, tra mai gwrthddrych y "bendigo" ydyw y cwpan. Yr ystyr o gyssegru a berthyn i'r gair. Nid yw gwin, fel y cyfryw, yn arwydd sacramentaidd o waed Crist; ond pan gaffo ei gyssegru, ei neilldio yn ddifrifol, y mae felly. Y mae hyd yn oed ein hymborth cyffredin yn cael ei sancteiddio trwy air Duw a gweddi (1 *Tim.* iv. 5), gan ei fod yn cael ei neilldio trwy wasanaeth crefyddol i'r amcan i ba un yr ordeiniwyd ef [*Hodge*]. Nid oes yn y golygiad hwn y sail leiaf i gredo y Pabyddion a'r Puseyaid am gyssegriad offeiriadol yr elfenau. *Onid cymmun, &c.*—Onid y moddion yw i gyfranogi o waed Crist? Yr ystyr yw fod yr hwn sydd yn cyfranogi o'r cwpan yn cyfranogi o waed Crist. Etto, nid yw hyn yn wir ond am gredinwyr yn unig. At gredinwyr y mae yr apostol yn ysgrifenu. Llefara wrthynt trwy yr epistol ar y dybiaeth gariadus o'u bod yn saint. Yn yr un ystyr y dywedir fod bedydd yn golchi ymaith bechod, ac fod y gair yn sancteiddio: o herwydd y mae pob ymadrodd o'r fath, sydd yn priodoli y cyfryw rinwedd i'r moddion, yn tybied ffydd yn nerbynydd y llesâd. Dywed Hodge nad oes yma un sail i syniad y Pabyddion a'r Lutheriaid fod y cymmunwr yn cyfranogi o sylwedd corph a gwaed Crist, mwy nag y mae y geiriau sydd yn son am gymmundeb â Duw yn golygu cyfranogiad o sylwedd y Duwdod. Cymmun gwaed Crist ydyw cyfranogiad o holl rinweddau ei aberth.

17. Amcan yr apostol ydyw dangos fod pob un sydd yn dyfod i'r sacrament yn dyfod i undeb â'i gydgymmunwyr. Y maent yn cyfansoddi un corph yn rhinwedd eu cydgyfranogiad o Grist: gan hyny, y mae y rhai sydd yn mynedi'r gwleddoedd eilunaddolgar yn ffurfio un corph: y maent mewn cymmundeb â'u gilydd. Darlleniad Hodge o'r adnod ydyw, "Gan mai un bara sydd, ni, y llawer, ydym un corph: canys yr ydym ni oll yn gyfranogion o'r un bara." Yr un hefyd ydyw darlleniad Calvin a Bengel. Mae Alford, ac ereill, yn amddiffyn yr un darlleniad a'r Gymraeg. Golygiad Alford ydyw, "Trwy gyfranogi o'r bara yr ydym yn dyfod, nid yn ffugrol, ond yn wirioneddol, yr un bara: y mae y bara yn mynedi sylwedd ein cyrph; ac y mae o fewn pob un sydd yn cyfranogi ran o hono ei hun, yr hyn yw y bara hwnw. Y bara oedd o'r blaen, yn awr *ydym ni*. Ond y bara hwnw, wedi ei dori a'i fendigo, ydyw cyfrwng ein cymmundeb â chorph Crist. Nyni felly, gan ein bod yr un bara, ydym un corph: o blegid yr ydym oll yn cyfranogi o'r un bara."

18. Enghraifft arall o gymmundeb. *Cyfranogion o'r allor:*—yn hytrach, â'r allor. Yr oedd yr allor yn cael rhan, a'r cyfranogydd ran. Gyda'r Iuddewon, fel gyda chenedloedd ereill, yr oedd rhan o rai aberthau yn cael ei losgi ar yr allor, a rhan yn cael ei ddosbarthu rhwng yr offeiriad a'r offrymydd: *Lef.* vii. 15; *Deut.* xii. 18. Y mae y gair yn arwyddo eu bod yn dyfod yn addolwyr y Duw ag y mae yr allor wedi ei chyssegru iddo. Yr oedd cyfranogi o aberth Iuddewig fel aberth yn y lle sanctaidd yn weithred o addoliad i Iehofah. A'r un modd gydag aberthau yr eilunod. Nid oes yma sail i dybied fod y cymmun yn aberth: y mae yr holl bwys yn perthyn i'r geiriau *cymmun, cyfranogi.* "Am fod cyfranogiad o'r ordinhadau Cristionogol yn cynnwys cymmundeb â Christ, y mae cyfranogiad o ordinhâd paganaidd yn cynnwys cymmundeb â chythreuliaid—y rhai oeddynt y duwiau a addolid ac a wasanaethid yn nhemlau y paganiaid.

19, 20. Gallesid tybied oddi wrth yr ymresymiad blaenorol fod Paul yn gosod duwiau y paganiaid allan y peth y meddylient hwy eu bod. Sonia am gyfranogi â'r eilun, fel pe buasai yr eilun yn bod mewn gwirionedd—fel pe buasai lau neu Gwener yn dduwiau gwirioneddol. Ond y mae yma yn rhagfaenu y dybiaeth. Nid ydynt ddim yn y byd. Nid oes iddynt hanfodiad gwirioneddol: nid duwiau a addolir, ond cythreuliaid. Yr oedd y gair a gyfeithir yma *cythreuliaid* yn cael ei ddefnyddio gan y Groegiaid am unrhyw dduw, neu ysbryd, neu unrhyw fod oedd yn wrthddrych parch neu arswyd [*Hodge*]. Yn ngenau yr Atheniaid, yn *Act.* xvii. 18, y mae y gair yn arwyddo *Duw.* Pan arferir ef gan yr ysgrifenwyr sanctaidd, y mae heb eithriad yn arwyddo angylion syrthiedig. Tra yr oedd duwiau y paganiaid yn fodau dychymmygol, heb neb mewn gwirionedd yn cyfatteb i'r enwau Jupiter, Mars, &c., etto, yr oeddynt yn addoli cythreuliaid. Er nad oeddynt yn amcanu hyn, etto yr oeddynt yn ei wneuthur. Nid yw pechadur yn meddwl ei fod yn gwasanaethu y diafol pan y mae yn ei wasanaethu ffyddlonaf. Y rhai mwyaf dyfal yn ei wasanaeth sydd yn sylweddu lleiaf o allu eu brenin arnynt. "Gan fod y gwledydd paganaidd dan lywodraeth Satan, duw y byd hwn, efe a'i angylion ydyw y gwir alluoedd a anrhydeddir ac a wasanaethir gan y trigolion, gan nad pa mor ychydig y deallant ac yr ystyriant hyny."—*Alford.*

Ex. 20. 5. Iob 9. 4; 40. 9-14.

22 [x] Ai gyru yr Arglwydd i eiddigedd yr ydym? [y] a ydym ni yn gryfach nag ef?

23 Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr nid yw pob peth yn llesau: pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr nid yw pob peth yn adeiladu.

24 Na cheisied neb yr eiddo ei hun; ond pob un yr eiddo arall.

Adn. 28; Exod. 19. 5; Deut. 10. 14; Iob 41. 11; Salm 24. 1; 1 Cor. 1. 12.

25 Beth bynag a werthir yn y gigfa, bwytewch: heb ofyn dim er mwyn cydwybod.

26 Canys [z] eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.

27 Os bydd i neb o'r rhai digred eich gwahodd, ac os mynnwch fyned; bwytewch beth bynag a rodder ger eich bron, heb ymofyn dim er mwyn cydwybod.

28 Eithr os dywed neb wrthych, Peth wedi ei aberthu i eilunod yw hwn; [a] na fwytewch er mwyn hwnw yr hwn a'i mynegodd, ac er mwyn cydwybod: canys eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.

[a] 1 Cor. 8. 10—13; Rhuf. 14. 15.

29 Cydwybod, meddaf, nid yr eiddot ti, ond yr eiddo arall:

22. *I eiddigedd*:—trwy fod yn anffyddlawn i'r rglwydd Crist, yn ein gwaith yn dosranu ein erch a'n gwasanaeth rhyngddo ef a chythreuliid. Eiddigedd ydyw y teimlad sydd yn cyfdi oddi ar gariad wedi ei glwyfo—y mwyaf ngerddol o'r holl nwydau. "Eiddigedd sydd reulawn fel y bedd." Gosodir yr Arglwydd rist allan yma fel priod yr eglwys, ac eilunddoliaeth fel anffyddlondeb tuag ato ef—fel priad o'r cyfammod priodasol. Y mae amryw eiriau yr Hen Destament yn ngolwg yr aposol yma: megys *Salm* lxxviii. 58, ac yn enwedgol *Deut.* xxxii. 21.

23. A yr apostol rhagddo i ddangos iddynt an ba amgylchiadau yr oedd yn gyfreithlawn yfranogi o fwyd a aberthasid i eilunod. Wedi rofi yn flaenorol fod ymborthi arno dan y yfryw amgylchiadau ac yn y cyfryw leoedd g a roddent ystyr grefyddol i'r weithred, yn mddygiad eilunaddolgar, eglura o hyn hyd diwedd y bennod dan ba amgylchiadau yr oedd cyfranogiad hwn heb fod felly, pan y gallasent wyta heb ddim petrusder. Dychwela at egyddorion rhyddid Cristionogaeth, y rhai y nae wedi ymdrin â hwynt o'r blaen yn *pen.* vi. 2. Ein rheol mewn materion dibwys ydyw ein esâd ein hunain ac adeiladaeth ereill. Ni raid etruso o barth y cig a werthir yn y farchnad, neu osodir ger ein bron mewn tai cyffredin. Ond i ddylem archolli ein cydwybodau ein hunain, a'r eiddo ereill, hyd yn oed gyda phethau cyfeithlawn a dibwys. Yn y cwbl, dylem olygu ogoniant Duw fel y nod uchaf.

24. Yr egwyddor yma ydyw, y dylai pob dyn, n ei ddefnyddiad o'i ryddid, gadw golwg ar esâd ereill.

25. *Heb ofyn dim er mwyn cydwybod.*—"Pan wch i'r farchnad, prynwch yr hyn sydd arnoch isieu, ac na wnewch y peth yn fater cydwybod o wbl. Ni raid fod genych betrusder cydwyodol ynghylch y peth; ac felly peidiwch a gofyn westiynau pa un a yw y cig wedi ei aberthu i eilunod, ai nad ydyw." Yr ystyr a roddir gan lford ydyw, "Bwytewch heb ymholi, rhag i'ch ydwybod gael ei thramgwyddo. Os gwnaethch ymholiad am y peth, a chael mewn attebiad od y cig wedi cael ei aberthu i eilunod, cai eich ydwybod ei thramgwyddo." Gwell genym ni y olygiad cyntaf. Yr ystyr gan Alford ydyw—od iddynt fyned i'r farchnad â'u llygaid yn auad. Yr ystyr yn y golygiad arall, fod iddynt yddhau eu meddyliau oddi wrth y cyfryw betusder: gan nad ydyw o bwys pa un a oedd y cig wedi ei aberthu i eilunod, ai peidio.

26. Rheswm pa ham na ddylai y gydwybod gael ei molestu gan y cyfryw ammheuon. Dyma y ffurf gyffredin yn mysg yr Iuddewon o gydnabod Duw cyn bwyd. Dysgir yr un athrawiaeth yn 1 *Tim.* iv. 4. Gan fod y cig yn y gigfa, a phob darpariaeth arall, yn greaduriaid Duw, i'w defnyddio gan ddyn, nis gall fod yn aflan: ac felly nad oes betrusder i'w deimlo gyda golwg ar ei fwyta.

27. Yr oedd yr aberthau yn colli eu cyssegredigaeth grefyddol trwy gael eu dwyn i'r farchnad: felly hefyd yr oeddynt mewn gwleddoedd teuluaidd. Nis golygid hwynt mwyach fel aberthau, ond ymborth cyffredin; ac felly, gellid cyfranogi o hono yn gwbl ddibetrus. Y mae yn amlwg mai cydwybod y dyn ei hun a feddylir; ac nid yr eiddo arall, fel y golyga De Wette. Nid oes neb arall yn cael ei grybwyll yn y cyd-destyn; ond y dyn ei hun. Er fod yn amlwg yma, fel y sylwa Hodge, fod y Cristionogion at eu rhyddid i fyned i wleddoedd cyhoeddus cymmysg, etto rhoddir awgrym, fel y sylwa Grotius, yn y gair, "os mynwch fyned," mai gwell oedd iddynt beidio.

28. Ceir yma eithriad i'r rheol uchod. O'u rhan eu hunain, ac o ran Duw, yr oedd pob dysgladd yn rhydd iddynt, ac felly pob darn o gig yn y farchnad. Ond os dywedai rhywun a eisteddai gyda hwynt wrth y bwrdd, fod rhyw ran neilluol wedi ei haberthu i eilunod, dylasent beidio, er ei fwyn ef ac er mwyn ei gydwybod. Pwy yw yr un hwn? Nid y gwahoddwr: nid rhyw bagan gwahoddedig a ddywedai hyn i roddi y Cristion ar ei brawf: ond y brawd gwan—o blegid ymddengys fod y peth iddo ef yn fater cydwybod. Pe buasai y Cristion y lleferir yma wrtho yn defnyddio ei ryddid, buasai yn archolli cydwybod ei frawd. Gwelir yma y rhyddid mwyaf goleuedig mewn undeb prydferth â'r duedd fwyaf ostyngedig i roddi ffordd i wendid ereill. "Y dyn mwyaf goleuedig yn ei oes ydoedd yr un parotaf i ildio yn mhob achos dibwys."

29. *Cydwybod, meddaf, nid yr eiddot ti.*—Yn *adn.* 25, 27, cydwybod y dyn ei hun a feddylir; ond rhag iddo dybied mai ei gydwybod ei hun a feddylir yn *adn.* 28, y mae yr apostol yn rhoddi yr eglurhâd hwn. *Canys paham*:—neu, Paid a bwyta, o herwydd petrusder cydwybod dy frawd gwan: o blegid pa ham y bydd i dy ryddid di gael ei gondemnio gan gydwybod arall? Pa ham y beiir di am fwyta yr hyn a ddefnyni gyda diolch? Pa ham y gwnei y cyfryw ddefnyddd o'th ryddid ag a roddai dramgwydd.

canys pa ham y bernir fy rhyddid
i gan gydwybod un arall?
30 Ac os wyf fi trwy ras yn
cymmeryd cyfran, pa ham y'm
ceblir am y peth yr wyf yn rhoddi
diolch am dano?
1 Cor.7.13; Deut. 12. 7, 11; Zech.7.5,6; Luc 11. 41; 1 Pedr4.11; Adn. 33; 1 Cor. 8. 13; Rhuf. 14. 13; 2 Cor. 6. 3; Phil. 1. 10.
31 Pa un bynag gan hyny [b] ai
bwyta ai yfed, ai beth bynag a
wneloch, gwnewch bob peth er
gogoniant i Dduw.
32 Byddwch [c] ddiachos tram-
gwydd i'r Iuddewon ac i'r Cen-
hedloedd hefyd, ac i eglwys
Dduw:
33 Megys yr ydwyf finnau yn
rhyngu bodd i bawb yn mhob
peth; heb geisio fy llesâd fy hun,
ond *llesâd* llaweroedd, fel y bydd-
ont hwy gadwedig.

30. *Ac os wyf fi trwy ras*:—yn fwy cywir, "Ac os wyf fi trwy roddi diolch."

31, 32. Egwyddor fawr gyntaf y fuchedd Gristionogol ydyw gwneuthur pob peth er gogoniant i Dduw: yr ail ydyw gwylio rhag rhoddi tramgwydd i neb, yn yr ystyr o roddi *achos* tramgwydd. Cariad at Dduw, a chariad at ddyn, a ddylent reoli ein holl ymddygiadau.

33. Yr oedd yr apostol ei hun yn gwneuthur hyn. Ei amcan oedd, nid ei lesâd na'i foddhâd ei hun, ond yr eiddo ereill. Yn mhob peth dibwys gwnelai ei hun yn bob peth i bawb: *pen.* 9. 22. *Yn rhyngu bodd.*—Mae Meyer yn sylwi mai hyn oedd yr ymarferiad ar ran Paul ei hun, er nad y canlyniad gyda golwg ar ereill. Nid oedd neb yn mhellach nag efe oddi wrth foddhau pawb—yr oedd yn wrthddrych mwy o atgasedd a gwrthwynebiad na neb yn ei ddydd: etto, yr oedd yn amcanu at hyn—ni roddai achos tramgwydd i neb. Yr oedd pob achos tramgwydd mewn ereill—nid ynddo ef.

Pennod xi.

1—34. Yr anmhriodoldeb i wragedd fod heb eu gorchudd yn y cynnulliadau cyhoeddus; yn yr hon ymdriniaeth y mae yr apostol yn myned rhagddo oddi wrth gamarferion personol at afreoleidd-dra eglwysig. Egwyddor yr ymdriniaeth ynghylch ymddangosiad y gwragedd yn y cyhoedd ydyw, y dylent gyddfurfio â'r arferion hyny ag y cyssylltid gweddeidd-dra â hwynt gan y teimlad cyffredin ar y pryd. Yr oedd y gorchudd yn cael ei ystyried yn y gwleddyd hyny yn arwydd o ymostyngiad a gwylder yn y fenyw. Yr oedd felly yn anweddus i'r fenyw roddi heibio ei gorchudd.

1. Perthyna yr adnod hon i ymresymiad y bennod o'r blaen. Yn yr ail adnod y mae mater newydd yn cael ei ddwyn ger bron.

2. Er eu bod yn ddiffygiol o ddilyn yr apostol yn ei ysbryd hunan-ymwadol, etto yr oeddynt ar y cyfan yn ofalus am y rheolau a'r gwirioneddau a draddodasai iddynt. Dyma eu hymddygiad cyffredinol; etto yr oedd eithriadau, y rhai a nodir ganddo yn y canlyniad. Mae y gair a gyfieithir yma, *traddodiad* yn arwyddo addysg, ond heb olygu o angenrheidrwydd iddi gael ei throsglwyddo mewn ffurf eiriol o'r naill oes i'r llall.

Pennod xi.

B. A. 57.

1 *Y mae efe yn eu ceryddu hwy,* 4 *am fod eu gwŷr yn y cynnulleidfaoedd sanctaidd yn gweddïo â pheth am eu penau,* 6 *a'u gwragedd yn ben-noethion:* 17 *ac o ran eu bod hwy yn cyffredinol yn cyfarfod, nid er gwell ond er gwaeth;* 21 *gan halogi super yr Argiwydd â'u gwleddoedd eu hunain.* 23 *Yn ddiweddaf, y mae efe yn eu galw hwy yn eu hol, at ordinhâd cyntaf y swper hwnw.*

[a] Rhuf. 15. 2, 3; Eph. 5. 1, 2; Phil. 2. 4, 5; [b] 1 Cor. 4. 17; 15. 2. [c] 1 Cor. 7. 17; 1 Thes. 4. 1, 2; 2 Thes. 2 15.

BYDDWCH ddilynwyr i mi, [a] megys *yr wyf* finnau i Grist.

[d] Eph. 1. 22, 23; 4. 15; 5. 23; Phil. 2. 10, 11. [e] 1 Cor. 3. 23; 15. 27, 28; Esa. 49. 3-6; 52. 13; 55. 4; 61. 1—4. Mat. 28. 18; Ioan 3. 34-36; 5. 20, 30; 14. 28; 17. 2—5;

2 Yr ydwyf yn eich canmol, frodyr, [b] eich bod yn fy nghofio i yn mhob peth, [c] ac yn dal y traddodiadau, fel y traddodais i chwi.

3 [d] Eithr mi a fynwn i chwi wybod, mai pen pob gŵr yw Crist; a phen y wraig *yw* y gŵr; a [e] phen Crist *yw* Duw.

Eph. 1. 20—22: Phil. 2. 7—11.

3. Dywed De Wette ar yr adnod hon, fod yn ymddangos fod y gwragedd yn eglwys Corinth yn cymmeryd mantais ar athrawiaeth yr efengyl am ryddid a chydraddoldeb credinwyr (*Gal.* iii. 28), i hôni iddynt eu hunain yr un hawliau a'r gwrywiaid. Mae yn ddiammheu fod Cristionogaeth wedi gwneuthur llawer er urddasu a dyrchafu y rhyw fenywaidd; etto yr oedd hyn yn cael ei wneuthur mewn dull distaw a graddol. Ond ymddengys iddynt, yn Corinth, ymgymmeryd â mater annibyniaeth y fenyw gyda gormod o aidd a phrysurdeb. Ai y gwragedd tu hwnt i derfynau eu hystlen, trwy ddyfod yn mlaen i weddïo a phrophwydo yn y gynnulleidfa gyda'u penau heb eu gorchuddio. Anghymmeradwya yr apostol y naill a'r llall—eu gwaith yn gwneuthur eu hunain yn gyhoeddus, ac yn symmud eu gorchudd. Ymgadwa yma at yr olaf yn unig: dychwela at y cyntaf yn *pen.* xiv. 34. *Mai pen, &c.*—"Cyn crybwyll y peth ag y bwriadai ei gondemnio, y mae yn mynegi yr egwyddor ar ba un y gorphwysa y condemniad hwnw. Yr egwyddor yw, fod trefn ac ufudd-dod yn treiddio y greadigaeth, ac yn hanfodol i'w bodolaeth. Pen y gŵr yw Crist: pen y wraig yw y gŵr: pen Crist yw Duw. Os torir ar y drefn yma yn un o'r rhanau, dyryswch a dinystr a fydd y canlyniad. Y pen ydyw yr hyn ag y mae y corph yn ddibynol arno, ac yn ddarostyngedig iddo. Ystyr amlwg y geiriau yw, fod y wraig yn ddarostyngedig i'r gŵr, y gŵr i Grist, a Christ i Dduw. Y mae yn amlwg hefyd fod y darostyngiad hwn yn wahanol yn yr enghreifftiau amrywiol a nodir. Y mae darostyngiad y wraig i'r gŵr yn rhywbeth hollol wahanol i'r eiddo y gŵr i Grist; ac y mae hwn drachefn yn ddarostyngiad anfeidrol fwy mewn gradd na'r eiddo Crist i Dduw. Yn mhellach, megys y mae darostyngiad y wraig i'r gŵr yn berffaith gysson â'u hunddod o ran natur, felly hefyd y mae darostyngiad Crist i Dduw yn gysson â'i gyfranogiad o'r un natur a'r Tad."—*Hodge.* Er y dywed yr apostol yn *Gal.* iii. 28, fod gwahaniaeth y rhywiau wedi ei ddiddymu yn Nghrist, mor bell ag y mae awnelo rhagorfreintiau yr efengyl â hwynt, etto, i amcanion ymarferol, ac er mwyn trefn a gweddeidd-dra yn eu cyfarfodydd crefyddol, y mae y gwahaniaeth hwn etto yn parhau i ddylanwadu arnynt.

4 Pob gŵr yn gweddïo, neu yn prophwydo, â pheth am *ei* ben, sydd yn cywilyddio ei ben.

5 Eithr pob gwraig yn gweddïo, neu yn prophwydo, yn ben-noeth, sydd yn cywilyddio ei phen: canys yr un yw a phe byddai wedi ei heillio.

6 Canys os y wraig ni wisg *am ei phen*, cneifier hi hefyd: eithr os brwnt i wraig ei chneifio, neu ei heillio, gwisged.

7 Canys gŵr yn wir ni ddylai wisgo *am ei* ben, am [f]ei fod yn [f] Gen. 1. 26, 27; 5. 1; 9. 6; Salm 8. 6. ddelw a gogoniant Duw: a'r wraig yw gogoniant y gŵr.

8 Canys nid yw y gŵr o'r wraig; ond y wraig o'r gŵr.

9 Ac ni chrewyd y gŵr er mwyn y wraig; eithr y wraig er mwyn y gŵr.

10 Am hyny y dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar *ei* phen, o herwydd yr angylion.

4. Yn mysg y Groegiaid, yr oedd yr offeiriaid yn gwasanaethu yn bennoeth: y Rhufeiniaid a'u penau wedi eu gorchuddio. Yr oedd yr Iuddewon, o leiaf yn fuan ar ol yr oes apostolaidd, yn gwisgo gorchudd ar eu penau yn eu gwasanaeth cyhoeddus. Dengys yr apostol yma fod gorchuddio y pen yn anghydweddol â sefyllfa y gŵr, ond yn cael ei ofyn gan sefyllfa y wraig. *Sydd yn cywilyddio ei ben*:—ei ben ei hun, ebe Hodge, ac ereill. Buasai i ddyn rhydd ymddangos yn ngwisg neilltuol caethwas, yn warthrudd arno. A'r un modd, byddai i ŵr ymddangos gyda gorchudd, yr hwn sydd yn arwydd cymdeithasol o ddarostyngiad, yn warth ieu gywilydd iddo. Os yw y gŵr wedi ei fwrladu i gynnrychioli awdurdod Duw, dylai weithredu ac ymddangos yn unol â hyny, ac nid ymddangos yn ngwisg benyw. Y mae Alford a Calvin, ac ereill, yn gwrthod y golygiad hwn. Y pen yn yr adnod hon, fel yn yr adnod flaenorol, ydyw Crist. Pen y gŵr, yn yr ystyr yma o anrhydeddu neu gywilyddio, ydyw Crist. Y mae y gŵr yn ei ddianrhydeddu ef, trwy ymddangos ger bron dynion wedi ei orchuddio; y mae trwy hyny yn cydnabod darostyngiad iddynt *hwy* newn cynnulleidfa a ddylai fod wedi ei chyduriffio â *threfn* Cristionogaeth.

5. Y mae yn wahanol gyda'r wraig. Os darorchuddia hi ei phen yn y cyfryw gynnulleidfa, y mae yn cywilyddio ei phen. Ceir yr un gwahaniaeth yma hefyd rhwng yr esbonwyr. Dywed Hodge "fod y gwreiddiol yn arwyddo *ei phen ei hun*: nid ei gŵr, ond hi ei hun. Y mae hyn yn eglur, nid yn unig oddi wrth nerth y geiriau, ond wrth yr adran ganlynol, 'Canys yr un yw â phe byddai wedi ei heillio.' Dyma y rheswm pa ham y mae wedi cywilyddio ei hun. Y mae yn rhoddi ei hun yn yr un dosbarth a benywod sy byddo eu gwallt wedi ei eillio. Yr oedd eillio y gwallt, yr hwn yw prif addurn naturiol y wraig, naill ai yn arwydd o ofid a galar (*Deut.* xxi. 12), neu yn gosb waradwyddus." Y mae golygiad ereill yn wahanol. Ei phen ydyw ei gŵr: —trwy ymddangos yn bennoeth, y mae mewn ymddangosiad yn bwrw ymaith ei awdurdod a'i benogaeth. Os ydyw am daflu ymaith ei awdurdod, pa ham nad â yn mhellach, i eillio ei gwallt, yr hwn, ynddo ei hun, sydd yn arwydd o ymostyngiad. Y mae Billroth ac Olshausen yn barnu fod yma ystyr dyblyg, yn cymmeryd mewn y ddau olygiad crybwylledig:—"Arwydda yn gyntaf y rhan o'r corph sydd yn arddangos y dianrhydedd; ac yna fod y dyn yn dianrhydeddu Crist: ac am y wraig, y mae yn ymostyngiad iddo." Mae y gŵr yn arddangos yr egwyddor lywodraethol yn mysg dynion, a'r wraig yr egwyddor wasanaethol; felly, yn y cyntaf, yr oedd yr ymddangosiad rhydd ac agored yn weddaidd, ac yn yr olaf yr ymddangosiad gwylaidd, gyda'r gorchudd.

6. Ymddyged yn gysson. Os nad yw yn foddlawn i ymddangos fel benywod parchus, eillied ynte. Ymddangosed fel y dosbarth y mae yn agosau atynt trwy ymddangos yn bennoeth.

7. Y wraig yn unig a ddylai orchuddio ei phen. Ni ddylai y gŵr wneuthur felly. Yn hytrach, dylai beidio; "am ei fod yn ddelw a gogoniant Duw." Y meddwl yma yw, mai y gŵr sydd yn cynnrychioli awdurdod Duw; ynddo ef yn benaf yr arddangosir y mawredd a'r gallu dwyfol. Yn *Gen.* i. 27, dynodir awdurdod a llywodraeth fel prif nodwedd y ddelw ddwyfol [*Olshausen*]: amlygwyd hyn yn fwy yn y gŵr nag yn y wraig; ac ar y cyfrif hwn yn unig y cyfrifa yr apostol ddelw Duw i'r gŵr. *Y wraig yw gogoniant y gŵr*:—wedi ei chymmeryd o hono, ac yn llewyrchu, nid o oleuni wedi deilliaw yn ddigyfrwng o Dduw, ond o'r gŵr. "Nid yw y wraig wedi ei bwriadu i ddangos gogoniant Duw fel llywodraethwr: gogoniant ei gŵr ydyw. Derbynia a dadguddia yr hyn sydd ynddo ef o fawredd. Y mae bob amser yn cyfranogi o'i sefyllfa ef: yn frenhines os ydyw efe yn frenin; ac yn amlygu i ereill y cyfoeth a'r anrhydedd a berthynant i'w gŵr."—*Hodge.*

8, 9. Rhesymau dros yr hyn a ddywedir yn yr adnod flaenorol. Yn gyntaf, cafodd y wraig ei bod o'r gŵr. Y gŵr a grewyd gyntaf. Yn ail, cafodd hi ei chreu er ei fwyn ef. Y mae y ddwyfaith yn cadarnhau darostyngiad y wraig i'r gŵr.

10. Y mae hon yn un o'r adnodau anhawddaf i'w deall; o leiaf, yn un o'r rhai ag y mae mwyaf o geisiadau wedi eu gwneuthur i'w hesbonio. Y mae yma ddau anhawsder: Beth a feddylir wrth awdurdod? A phwy ydyw yr angylion, o herwydd y rhai y dylai y wraig feddu awdurdod ar ei phen? O barth i'r gair *awdurdod*, yr ystyr y cyttunir yn fwyaf cyffredin arno yw, arwydd o awdurdod neu ymostyngiad, sef y gorchudd. Y mae yr apostol wedi dangos fod gan y gŵr awdurdod ar y wraig—fod y wraig yn ddarostyngedig i'r gŵr; a chymmerai yn ganiataol fod y gorchudd yn arwyddlun cymdeithasol o hyn. Y casgliad gan hyny ydyw, y dylai y wraig wisgo yr arwyddlun cyffredin o awdurdod y gŵr arni. Y mae ereill yn ceisio gwneyd y gair a gyfieithir *awdurdod* i arwyddo "gorchudd;" ereill, mai arall oedd y gair gwreiddiol yn y lle hwn: yn lle *exousia*, *exoubia*, neu *exiousa*, ond heb ddim sail. Y golygiad a nodwyd, yn ddiammheuol, ydyw yr un cywir. Gyda golwg ar yr angylion, dywed rhai mai cenhadon neu yspïwyr oddi

11 Er hyny nid *yw* na'r gŵr heb
y wraig, na'r wraig heb y gŵr, yn
yr Arglwydd.

12 Canys yr un wedd ag *y mae*
y wraig o'r gŵr, felly *y mae* y gŵr
1 Cor. 8. 6; Diar. 16. 4. trwy y wraig: [g] a phob peth *sydd*
o Dduw.

13 Bernwch ynoch eich hunain,
ai hardd yw i wraig weddïo Duw
yn ben-noeth?

14 Onid yw naturiaeth ei hun yn
eich dysgu chwi, os gwallt-laes a
fydd gŵr, mai ammharch yw iddo?

15 Eithr os gwraig a fydd
gwallt-laes, clod yw iddi: o blegid
ei llaes-wallt a ddodwyd yn or-
chudd iddi.

[h] 1 Tim. 6. 3. 16 Od oes neb [h] a fyn fod yn ym- 1) 1 Cor. 7. 17; 16. 1; 1 Thes. 2. 14.
rysongar, nid oes genym ni gyfryw
ddefod, na chan [i] eglwysi Duw.

---

wrth y paganiaid, ac fod yn weddus i'r gwragedd ymddangos gyda phob gweddeidd-dra yn y cyhoedd, fel na cheblid daioni y Cristionogion. Ereill, mai angylion neu brif swyddwyr yr eglwysi. Ereill, fod y gair *angylion* heb fod yn y gwreiddiol: mai rhyw air arall tebyg yn ei ffurf ydoedd, megys, er enghraifft, *agelon*—o herwydd y praidd. Ond nid oes un sail i'r cyfryw dybiaeth. Dywed ereill mai yr angylion drwg a olygir; y rhai y gellir cynnhyrfu chwantau anianol ynddynt. Dyma yw syniad Tertullian, gyda chyfeiriad at yr hen olygiad am "feibion Duw" yn *Gen.* vi. Y farn gyffredin ydyw, mai angylion da a feddylir. Un rheswm cryf dros hyny ydyw, nad yw y gair *angylion*, pan yn digwydd, megys y mae yma, arno ei hun, heb un ansoddair yn gyssylltiedig âg ef, byth yn golygu neb ond yr angylion sanctaidd. Etto, nid oes sail i olygiad Theophylact a Theodoret, mai angel gwarcheidwawl pob Cristion a feddylir. Ond beth yw grym y gair, *o herwydd yr angylion?* Y mae Bengel yn atteb, Am fod yr angylion eu hunain yn cuddio eu hwynebau â'u hadenydd yn mhresennoldeb y Mawrhydi Dwyfol (*Esay* vi. 2). Ond y mae nerth yn ngwrthddadl Olshausen yn erbyn y golygiad hwn:—Profai hyn ormod; o blegid gellid yr un mor briodol ddywedyd y dylai y gŵr hefyd orchuddio eu penau a'u hwynebau. Y golygiad yw, fod yr angylion yn bresennol gyda'r saint yn eu cynnulliadau crefyddol, ac yn ymhyfrydu wrth sylwi ar eu trefn, a'u hymostyngiad y naill i'r llall, a'u bod bob un yn llanw ac yn cadw ei le priodol ei hun; ond y mae i wraig ymddangos yn bennoeth yn droseddiad ar y drefn bryderth yma. Felly dylai y wraig wisgo gorchudd, nid yn unig am fod y peth yn briodol ynddo ei hun, ac am fod y teimlad cymdeithasol yn gofyn am dano, ond hefyd oddi ar barch i'r angylion sanctaidd.

11. Daw yr adnod hon yn mlaen i wrthweithio balchder yn y gŵr. Ni ddylai ymfalchïo am fod y wraig dan ei awdurdod, o blegid y mae efe yn ddibynol arni hi megys y mae hi arno ef. Nis gallant fyw heb eu gilydd. *Yn yr Arglwydd.*—Yn ol gorchymyn ac ordeiniad yr Arglwydd *Olshausen*]. Yn yr ystâd Gristionogol—yn Nghrist.—*Alford.*

12. Yn ol golygiad Alford, y mae yr adnod o'r blaen yn dangos fod y ddau ryw yn cael eu hystyried gan Gristionogaeth yn ddibynol ar eu gilydd: y maent felly "yn yr Arglwydd." Ac yma dangosir fod Cristionogaeth yn hyn yn cyttuno âg ordeiniad gwreiddiol y Creawdwr. *A phob peth sydd o Dduw.*—Gwirionedd cyffredinol (2 *Cor.* v. 18). Y gŵr a'r wraig, yr un wedd a phob peth arall, ydynt o Dduw. Y maent yn ddibynol y naill ar y llall; ond y maent gyda eu gilydd yn ddibynol ar Dduw.

13. Appeliad at eu teimlad o weddeidd-dra

Gwneir yr un peth yn *pen.* x. 15. Y mae yr apostol, yr un modd a Christ ei hunan, yn cydnabod awdurdod barnau cynnhenid y meddwl: *Rhuf.* i. 32; iii. 8. Gan fod cyfansoddiad ein natur wedi ei dderbyn oddi wrth Dduw, y mae y deddfau a osododd ef yn fynegiadau eglur o'i ewyllys.

14, 15. Wrth "naturiaeth" y golygir deddfau ein natur. Wedi appelio yn yr adnod o'r blaen at y syniad naturiol o weddeidd-dra, y mae yma yn cyfeirio at natur ei hun. Y mae natur wedi rhoddi llaes-wallt i'r fenyw, a gwallt cwta i'r gwryw. Awgryma hyn fod y gŵr wedi ei fwriadu gan naturiaeth i fod yn ben-noeth, a'r wraig i wisgo gorchudd. Mae naturiaeth wedi rhoddi gorchudd iddi. Felly y mae arferion cymdeithas i gael eu ffurfio mewn cydweddiad âg awgrymau naturiaeth. Dywed Hodge, "Y mae naturiaeth yn rhoddi i'r gŵr wallt byr, ac i'r wraig wallt llaes; ac felly, y mae yn dysgu fod gwallt llaes yn waradwydd i'r naill ac yn addurn i'r llall: o blegid y mae yn beth cywilyddus mewn gwryw i fod yn debyg i'r fenyw, ac i'r fenyw fod yn debyg i'r gwryw." Yr oedd gwisgo llaes-wallt yn groes i arferion y Groegiaid a'r Hebreaid. Yr oedd y Nazareaid, fel math o nôd gwahaniaethol, yn goddef i'w gwallt dyfu yn hir. Gwawdiai Juvenal wallt llaes mewn dynion fel arwydd o wendid benywaidd. Condemnid y peth hefyd gan gynghorau eglwysig. Ond y mae y peth wedi cael ei ystyried yn mhob oes yn addurn i'r fenyw. Y mae wedi ei roddi iddi hi gan natur fel gorchudd; ac y mae yn glod neu ogoniant iddi *am ei fod* yn orchudd. Felly y mae yn rhaid fod y gorchudd a chwanegir at orchudd natur yn weddaidd i'r fenyw.

16. *Ymrysongar* ydyw y duedd i ddadleu er mwyn dadleu: "Os oes rhywun heb ei foddloni ar y rhesymau a ddygais yn mlaen." *Nid oes genym ni gyfryw ddefod.*—Rhoddir dau olygiad ar y geiriau. Os myn neb o honoch fod yn ddadleugar, nid yw yn arferiad genym ni, na chan yr eglwysi i fod felly. Nid ydym yn ymostwng i afradloni geiriau gyda dynion na fynant wrandaw ar reswm. Er fod Calvin, Beza, ac ereill, yn deall y gair fel hyn, nid oes un rheswm o bwys, yn ein golwg ni, yn cael ei roddi dros y golygiad. Y *ddefod*, ydyw yr hyn y llefarir am dani er dechreu y bennod—gwragedd yn gweddïo yn ben-noeth. Ar ol dwyn amryw resymau yn mlaen yn erbyn y peth, y mae yma yn rhoddi y mater o'r neilldu trwy ddangos ei fod yn groes i arferiad eglwysi Duw. "Nid yw yn gyfreithlawn i neb, oddi eithr ar dir ysgrythyrol amlwg, ac o dan deimlad o angenrheidrwydd i ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion, ymadael oddi wrth arferion sefydledig yr eglwys mewn materion o bwysigrwydd cyhoeddus."—*Hodge.*

17 Eithr wrth ddywedyd hyn, nid ydwyf yn *eich* canmol, eich bod yn dyfod ynghyd, nid er gwell, ond er gwaeth.

18 Canys yn gyntaf, pan ddel- 1 Cor. 1 10 -12; 5. 1.
och ynghyd yn yr eglwys, [k]yr ydwyf yn clywed fod ymrafaelion yn eich mysg chwi; ac o ran yr wyf fi yn credu.

19 Canys rhaid yw bod hefyd heresiau yn eich mysg, fel y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi.

20 Pan fyddoch chwi gan hyny yn dyfod ynghyd i'r un lle, nid bwyta Swper yr Arglwydd ydyw *hyn*.

21 Canys y mae pob un wrth fwyta, yn cymmeryd ei swper ei hun o'r blaen; ac un sydd â newyn arno, ac arall sydd yn feddw.

22 Onid oes genych dai i fwyta ac i yfed? [l]ai dirmygu yr ydych [l] 1 Cor. 1a. 32; 15. 9.
chwi eglwys Dduw, a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt? Pa beth a ddywedaf wrthych? a ganmolaf fi chwi yn hyn? Nid wyf yn *eich* canmol.

23 Canys [m]myfi a dderbyniais [m] 1 Cor. 15. 3; Mat. 28. 20.
gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a

17—34. *Gweinyddiad y Swper sanctaidd.*—Y mae yr arferion llygredig oedd wedi ymlusgo i mewn i eglwys Corinth, mewn cyssylltiad â gweinyddiad Swper yr Arglwydd, yn ymddangos i ni yn anhawdd rhoddi cyfrif am danynt. Ond y mae y peth yn fwy dealladwy pan yr ystyriom beth oedd dull y Corinthiaid o fyw yn eu cyflwr eilun-addolgar, ac fod Swper yr Arglwydd yn cael ei weinyddu mewn cyssylltiad â phryd cyffredin o fwyd. Megys ag y sefydlwyd y cymmun gan Iesu Grist, ar yr un eisteddiad ag yr oedd efe a'i ddysgyblion yn bwyta y Pasc, felly yr oedd yn arferiad gan y Cristionogion cyntefig i ymgynnull i gydfwyta bara, a chyssylltu y cyfranogiad o'r cymmun â'r wledd gyfeillgar hono. Bernir fod amryw eiriau yn yr *Actau* yn cyfeirio at y cyfryw arferiad: *pen.* ii. 42; v. 46; xx. 7. Ond gan nad beth am ystyr y manau hyn, y mae yn amlwg fod hyn yn arferiad yn Corinth. Nid oedd yn cael ei wahardd gan hanes sefydliad y cymmun, ac yr oedd yn ymddangos i'r Corinthiaid yn gydffurfiol âg arferion yr Iuddewon a'r Groegiaid. Ymddangosai cyssylltu y cymmun â phryd cyffredin yn beth annaturiol i ni: ond iddynt hwy nis gallasai dim fod yn fwy naturiol. Gyda'r Iuddewon a'r Groegiaid. yr oedd gŵyl a gwledd yn perthyn i offrymiad aberth. Ac yn unol âg arferiad Groegaidd, yr oedd pawb yn dwyn eu darpariadau eu hunain i'r wledd. Dygai y cyfoethog lawer, a'r tlawd ychydig. Yr oedd cymmundeb a chydraddoldeb y saint wedi colli o'r gwleddoedd hyn yn Corinth. Yn lle y cariad a'r undeb a ddylasai ffynu yn eu mysg, yr oedd rhaniadau ac ymbleidiau y Corinthiaid yn cyrhaedd mor bell fel ag i effeithio ar eu cymmundeb â'u gilydd wrth fwrdd yr Arglwydd. Yr oedd gan y cyfoethog ddigon, a mwy na digon; ac yr oedd tlodi y tlawd yn cael ei ddadguddio. Yr oedd y cymmundeb brawdol a berthyna i'r gariad-wledd Gristionogol, yn yr hon ni ddywedai neb fod y darpariadau a ddygai iddi yn eiddo iddo ei hun, yn gwbl absennol o gariad-wleddoedd Corinth.

17. Darllenir yr adnod yn wahanol:—"Eithr hyn yr wyf yn ei orchymyn i chwi, heb eich canmawl, eich bod," &c. *Hyn* ydyw yr hyn a ddywedodd o'r blaen, ynghylch ymddangosiad y gwragedd yn y cyhoedd. *Ond er gwaeth*:—yr ydych yn dwyn yn mlaen eich cyfarfodydd crefyddol yn y fath fodd fel y mae drwg yn sicr o ganlyn. Dichon y cyfeirir yma at yr holl afreoleidd-dra a ddygir ger bron yn y bennod hon a'r nn ganlynol; er, fe allai, yn fwyaf neilduol, at yr afreolaeth a nodwyd yn flaenorol.

18. *Yn gyntaf*:—Yn mha le y mae yr ail? Yn y bennod nesaf, sef yr afreolaeth gyda'r ysbrydol ddoniau. *Yn yr eglwys*:—nid oes yma gyfeiriad lleol: ond "pan ddeloch ynghyd yn gynulleidfa," neu "fel eglwys." *Ymrafaelion*:—yn llythyrenol, *sismau*. Dywedir yn y canlyniad pa fath oeddynt. Nid oes yma un cyfeiriad at ymbleidiau *pen.* i. Ni olygir fod eu golygiadau yn gwahaniaethu, ond fod yma wahanol deimladau. Nid ysgariad allanol ydoedd, ond dyeithrwch tufewnol. Yr oedd felly rhwng y cyfoethogion a'r tlodion, ac fe allai rhwng y Cristionogion Iuddewig a'r rhai cenhedlig. *O ran yr wyf fi yn credu*:—Amlygiad o hynawsedd yr apostol. Ni chredaf y cwbl a glywyf am danoch, heb orfod i wneyd: ond y mae yn rhaid i mi gredu mewn rhan.

19. Y rheswm pa ham y credai mewn rhan yr hyn a glywsai am danynt. Gwyddai fod yn rhaid i'r cyfryw bethau ddygwydd, ac fod gan yr Arglwydd fwriad doeth ynddynt. Nid yw y gair *heresiau* yma yn arwyddo gŵyriad oddi wrth y gwirionedd mewn barn; ond ymraniadau, ac anghydfyddiaethau.

20. *Nid bwyta*, &c. Er mai hyn ydyw eich amcan proffesedig, etto nid dyma eich *gwir* amcan. Yr ydych yn dyfod ynghyd i gyfranogi o wledd gyffredin, annheilwng o'r enw "cariadwledd." Ystyr arall a roddir i'r geiriau ydyw yr un sydd fwyaf unol â'r darlleniad Cymraeg: "Nid yw eich gwledd yn haeddu ei hystyried yn fwyta o Swper yr Arglwydd." Na: "Gan eich bod yn ymgynnull yn y modd yr ydych, nis gellwch fwyta o Swper yr Arglwydd." Mae y gwahaniaeth mwyaf rhwng Swper yr Arglwydd a'ch gwleddoedd cyffredin.

21. Y rheswm pa ham nad oedd gwleddoedd y Corinthiaid yn Swper yr Arglwydd. Nid oedd cymmundeb ynddynt. Nid oeddynt yn bwyta o un bara (*pen.* x. 17), nid oeddynt yn aros eu gilydd. Yr oedd y naill yn bwyta y swper a ddygasai i'r wledd ei hun, ac yn ei fwyta o flaen ereill. Y canlyniad oedd, fod un yn feddw, a'r llall, y tlawd, â newyn arno. Nid oes i ni feddwl fod yr apostol yn lliwio yn rhy gryf wrth ddywedyd, "arall sydd yn feddw."

22. *Y rhai nid oes ganddynt*:—*h.y.*, nad oes ganddynt dai i fwyta ac yfed; ac felly a gyrchent yn feunyddiol i'r cariad-wleddoedd i fwyta.

23. Dangosir yma fod eu dull o gyfranogi o'r Swper yn anghysson â'i sefydliad cyntaf. Yr oeddynt wedi clywed hyn o enau Paul; ac felly yn fwy anesgusodol. *Myfi a dderbyniais*:—yn ddigyfrwng: *Gal.* i. 12. *Y nos y bradychwyd*

draddodais i chwi; Bod i'r Ar-
[a] Mat. 26.2. glwydd Iesu, [b] y nos y bradych-
[c] Mat. 26. 26—28; Marc 14. 22—24. wyd ef, [c] gymmeryd bara:
24 Ac wedi iddo ddiolch, efe
[d] 1 Cor. 5.7,8; Ioan 6. 53—57. a'i torodd, ac a ddywedodd, Cym-
merwch, [d] bwytewch; [e] hwn yw fy
[e] Adn. 6,20, 28; 10. 3,4, 16, 17. nghorph, yr hwn a dorir trosoch:
gwnewch hyn er coffa am danaf.
25 Yr un modd *efe a gymmer-*
odd y cwpan, wedi swperu, gan
[f] Adn. 27,28. ddywedyd, [f] Y cwpan hwn yw y
testament newydd yn fy ngwaed:
gwnewch hyn, cynnifer gwaith
bynag yr yfoch, er coffa am danaf.
26 Canys cynnifer gwaith byn-
ag y bwytaoch y bara hwn, ac yr
[g] 1 Cor. 4. 5; 15. 23; Ioan 21. 22. Heb. 9. 28; Dad. 1. 7. yfoch y cwpan hwn, y dangoswch
farwolaeth yr Arglwydd [g] oni ddelo.
27 Am hyny, [h] pwy bynag a
[h] 1 Cor. 10. 21; Mat. 22. 11; Ioan 13. 18—27. fwytao y bara hwn, neu a yfo
gwpan yr Arglwydd yn annheil-
[i] Adn. 29 [k] Adn. 31. Zech. 7. 5—7; 2 Cor. 13. 5. wng, [i] euog fydd o gorph a gwaed
yr Arglwydd.
28 Eithr [k] holed dyn ef ei hun;
ac felly bwytaed o'r bara, ac yfed
o'r cwpan.

29 Canys yr hwn sydd yn bwyta
ac yn yfed yn annheilwng, sydd
yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth
iddo ei hun, [l] am nad yw yn iawn- [l] Preg. 8. 5; Heb. 5. 14.
farnu corph yr Arglwydd.
30 O blegid hyn *y mae* llawer
yn weiniaid ac yn llesg yn eich
mysg, a llawer yn huno.
31 Canys pe iawn-farnem ni
ein hunain, ni'n bernid.
32 Eithr pan y'n [m] y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel
na'n damnier gyda'r byd. [m] Deut. 8. 5; Iob 34. 31, 32.
33 Am hyny, fy mrodyr, pan
ddeloch ynghyd i fwyta, aroswch
eich gilydd.
34 Eithr os bydd newyn ar neb,
bwytaed gartref; fel na ddeloch
ynghyd i farnedigaeth. Ond y
pethau eraill mi a'u trefnaf pan
ddelwyf.

PENNOD XII.

1 *Bod amryw ddoniau ysbrydol,* 7 *eithr y cwbl er lles;* 8 *ac o ran hyny hwy a gyfrenir mewn amryw foddion.* 12 *Megys y mae aelodau y corph naturiol yn gwasanaethu bob un* 16 *er harddwch i'w gilydd*

ef.—Nodir hyn er mwyn cyssylltu difrifwch a pharchedigaeth â'r ordinhâd. Pan oedd y cynllun bradwrus yn myned yn mlaen, yr adeg hono y sefydlodd Crist y cymmun sanctaidd.

25. *Yn fy ngwaed.*—Y testament neu y cyfammod newydd, a gadarnhawyd yn fy marwolaeth. Gwel ar sefydliad y cymmun yn yr Efengylau.

27. Os ydyw y Swper sanctaidd yn goffadwriaeth ac yn arddangosiad o farwolaeth yr Arglwydd, y mae yn canlyn fod y rhai sydd yn cyfranogi o hono fel pe bai yn swper cyffredin, mewn dull dibarch, neu i unrhyw amcan amgen nag y bwriadwyd ef, yn "euog o gorph a gwaed" Crist: y maent yn euog gyda golwg ar gorph a gwaed Crist. "Y mae y dyn a fathro luman ei wlad, yn difrïo ei wlad; y mae yr hwn a ammharcho gynnrychiolydd brenin, trwy hyny yn tramgwyddo y brenin ei hun; ac yn gyffelyb, y mae yr hwn a ymddygo yn annheilwng ac ammharchus at arwyddion corph a gwaed Crist, yn euog o ammharch at Grist ei hun."—*Hodge.* Nid ydyw y geiriau yn cynnwys y syniad ei fod mor ddrygionus ag y cymmerasai ran yn ngroeshoeliad Crist. Nid oes yma chwaith ddim sail i gyfeiliornadau y Pabyddion, y Lutheriaid, a'r Puseyaid, fod corph a gwaed Crist yn bresennol yn yr elfenau; nac fod yr anghredinwyr yn derbyn corph a gwaed Crist. "Gofynir," ebe Hodge, "os nad ydynt yn eu derbyn, pa fodd y gallant fod yn euog gyda golwg arnynt? Y mae yr attebiad yn barod: Trwy ymddwyn yn ammharchus atynt, yn eu harwyddion gosodedig."

28. *Holed dyn ef ei hun?*—A oes ganddo olygiadau cywir am natur ac amcan yr ordinhâd, ac a ydyw efe yn yr ansawdd meddwl priodol i gyfranogi o honi.

29. *Barnedigaeth.*—Y mae y gair yma yn rhy gryf, o leiaf yn cyflwyno syniad rhy gryf i'r darllenydd Cymraeg. Yr ystyr a roddir yn gyffredinol i'r gair ydyw "cosb dragwyddol;" ond ystyr priodol y gair yn y Testament Newydd yw condemniad, barnedigaeth. Nid oes un fannod yn gyssylltiedig â'r gair yn y gwreiddiol, mwy nag yn y testyn Cymraeg; felly nid "*y* farnedigaeth" a feddylir. Yr ystyr yma yw, fod yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed gydag ysbryd diofal, heb fwriad na dymuniad i wneuthur côf calonog o angeu Crist fel aberth dros bechod—fod hwnw yn ei osod ei hun yn agored i anfoddlonrwydd Duw. Dengys yr adnod ddilynol pa fath farnedigaeth oedd yn ngolwg yr apostol. *Iawn farnu corph yr Arglwydd,* ydyw gwahaniaethu rhwng y bara a'r gwin yn y cymmun ac ymborth cyffredin. Gwahaniaethu, didol, ysgar, ydyw ystyr y gair gwreiddiol.

30. Y gwahaniaeth rhwng *gweiniaid* a *llesg* ydyw, fod y naill yn golygu personau ag y darfu i'w nerth wywo megys o hono ei hun; a'r llall, y rhai hyny a wnaed felly gan afiechyd. Nid oes y sail wanaf i dyb Olshausen, y golygir gwendid a marwolaeth ysbrydol.

31. Y mae amser y berfau yma yn wahanol yn y gwreiddiol; "Canys pe iawn-farnasem ni ein hunain, ni'n barnesid."

33. Mewn cyferbyniad i *adn.* 22, yn lle eu bod yn bwyta o flaen eu gilydd, annogir hwy i aros eu gilydd.

34. *Bwytaed gartref:*—gan nad prif ddyben y cariad-wleddoedd oedd boddhau y blysiau corphorol. Crefyddol oedd eu hamcan. Dirmygu eglwys Dduw oedd dyfod i'r cariad-wleddoedd yn unig i fwyta ac yfed. *Y pethau ereill:*—pethau perthynol i'r cymmun. *Pan ddelwyf:*—pa bryd bynag y deuai. Dywedir fod y geiriau yn arwyddo ansicrwydd, yr hyn sydd absennol o'r darlleniad Cymraeg.

Pennod XII.

Am ysbrydol ddoniau:—eu natur a'u gwerth.

Hyn hefyd ydyw y mater yn y bennod nesaf. Dyma yr ail beth a ofynai gael ei wellhau yn eu

22 *er gwasanaeth* 26 *a chymmhorth i'r un corph:* 27 *felly yr un modd y dylem ni uneuthur y naill er y llall, er mwyn gorphen dirgel gorph Crist.*

B. A. 83.

EITHR am ysbrydol *ddoniau*, frodyr, ni fynwn i chwi fod heb wybod.

2 Chwi a wyddoch mai Cenhedloedd oeddych, yn eich arwain ymaith at yr eilunod mudion, fel y'ch tywysid.

3 Am hyny yr wyf yn hysbysu i chwi, [a]nad oes neb yn llefaru trwy Ysbryd Duw, yn galw yr Iesu yn esgymmunbeth: ac nis gall neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy yr Ysbryd Glân. [a] Marc 9. 39; Ioan 16. 14, 15; 1 Ioan 4. 2, 3.

4 Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd.

5 Ac y mae amryw weinidogaethau, [b]eithr yr un Arglwydd.

6 Ac y mae amryw weithredoedd, ond yr un yw Duw, yr hwn [b] Mat. 23. 10; Phil. 2. 11.

cynnulliadau. Dygir y cyntaf i mewn yn 1 *Cor.* xi. 18. Hynodrwydd goruchwyliaeth y Testament Newydd yw cyflawnder doniau yr Ysbryd. Argraphwyd y nodwedd hwn arni yn ei dechreu—yn yr oes apostolaidd. Rhoddwyd yr Ysbryd yn ei ddoniau i bob dosbarth o ddynion, yn ol prophwydoliaeth Ioel. Yr oedd y doniau yn helaeth ac yn amrywiol, ac yn cael eu cyfranu i laweroedd. Nid oedd dim gwahaniaeth rhwng gwryw a benyw, caeth a rhydd, doeth ac annysgedig. Yr oedd yr Ysbryd yn cael ei dywallt ar bob cnawd. Naturiol oedd i afreoleidd-dra gyfodi dan y fath amgylchiadau. Yr oedd y lle mwyaf i dwyll a phenboethni i ddyfod i'r golwg. Byddai rhai yn anfoddlawn ar eu doniau—chwennychent ddawn arall a dybient yn well, neu radd helaethach o'r ddawn a feddent; eiddigeddent wrth rai a dderbyniasant chwaneg. Yr oedd y rhai a gawsant fwyat yn dueddol, ar y llaw arall, i ymchwyddo gan falchder. Gwnaent gymmaint a'r a allent i roddi cyhoeddusrwydd i'w doniau. Pan y byddent gyda'u gilyud, yr oedd yr afreolaeth mwyaf yn cymmeryd lle, trwy fod pawb yn chwennych arfer ei ddawn ar yr un adeg—afreolaeth ag y gwelwyd ei gyffelyb lawer tro yn Nghymru mewn amseran o adfywiad, ac afreolaeth na cheid ond ychydig yn ei feio, er fod y bennod hon, a'r un ganlynol, yn cyffwrdd yn uniongyrchol â'r cyfryw afreolaeth.

1. Yn lle dywedyd, *Yn yr ail lle*, gyda chyfeiriad at 1 *Cor.* xi. 17, y mae yn dechreu gyda'r gair *eithr*, a ddylasai fod *Yn awr*.

2. Y mae yr apostol yma, fel yn *Eph.* ii. 11, yn cymmharu sefyllfa flaenorol ei ddarllenwyr â'u sefyllfa bresennol. Dygir eu sefyllfa flaenorol yn mlaen, er mwyn dangos iddynt eu bod mewn angen am gyfarwyddyd. Nid oedd dim yn eu bywyd blaenorol a dueddai i roddi goleuni iddynt ar y mater. *Eich arwain ymaith.* Yn cynnwys y syniadau o arwain ar gyfeiliorn, a'u harwain yn ddall, yn hollol wrth ewyllys y neb oedd yn eu harwain: arweinid hwynt gan ddylanwad nad oeddynt yn ei ddeall, ac nad allent ei wrthsefyll. Y mae yma gyferbyniad yn cael ei ddeall rhwng yr arweiniad hwn a dylanwad yr Ysbryd Glân. "Yr oedd y naill yn ddylanwad afresymol, yn gormesu ar y deall a'r ewyllys; yr oedd y llall yn dylanwad oddi wrth Dduw, yn gydweddol â'u natur, ac yn arwain i ddaioni."—*Hodge. Eilunod mudion.*—Gwel *Heb.* ii. 18, 19; *Salm* cxv. 5; cxxxv. 16. Nis gall fod dim yn dynodi eu darostyngiad blaenorol yn fwy. Dichon fod yma gyferbyniad rhwng eu heilunod blaenorol, fel rhai mudion, â Duw, fel yr oedd yn llefaru ynddynt a thrwyddynt trwy ei Ysbryd. Pa fodd y gallesid disgwyl i'r rhai oeddynt hyd yn ddiweddar yn gwasanaethu eilunod mudion, yn awr ddeall y doniau ysbrydol?

3. *Am hyny*:—gwel *adn.* 1, "Am na fynwn i chwi fod heb wybod am y doniau ysbrydol." Y gwirionedd cyntaf a esyd ger eu bron ydyw y prawf o wir ddylanwad dwyfol. Gwna hyn yn nacaol ac yn gadarnhaol. *Llefaru trwy Ysbryd Duw*:—neu, yn Ysbryd Duw. Ysbryd Duw ydyw y gallu sydd yn treiddio y llefarydd, yr elfen yn mha un y mae yn llefaru.—*Alford. Yr Iesu*:—yr enw hanesyddol, yr enw wrth ba un yr adnabyddid ef ar y ddaear. Amlwg ydyw na buasai yr enw swyddol, *Crist*, mor briodol i'w ddefnyddio yn y fan yma. *Esgymmunbeth*:—yr un gair ag *anathema.* Ystyr cyntaf y gair ydyw, peth wedi ei gyssegru neu ei neilduo i Dduw: a chan y byddai creadur a fyddai wedi ei ddiofrydu yn rhwym o gael ei ladd, daeth y gair i gael ei arfer am berson wedi ei ddedfrydu i farw—person yn rhwym i farw dan farn Duw. Dyma yr ystyr bob amser yn y Testament Newydd: *Rhuf.* ix. iii; *Gal.* i. 8, 9; 1 *Cor.* xvi. 22. Gan hyny, yr oedd dyweyd fod yr Iesu yn anathema, neu yn esgymmunbeth, yr un peth a dyweyd ei fod yn ddrwgweithredwr a gondemniwyd yn gyfiawn i farn marwolaeth. Ond yr oedd yn gwbl ammhossibl i'r dyn a lefarai dan ddylanwad yr Ysbryd Glân alw yr Iesu yn esgymmunbeth. Byddai tybied possiblrwydd y peth yn wrthuni o'r mwyaf. Pan y mae Ioan (1 *Ioan* iv. 1, 2), yn gosod safon i brofi yr ysbrydion, y mae yn rhoddi pwys ar yr ochr ddynol i'r gyffes; sef, "cyffesu ddyfod Crist yn y cnawd." Yr achos o'r gwahaniaeth, fel y sylwa Bengel, oedd fod Paul yn gosod safon o wirioneedd yn erbyn y Cenhedloedd; Ioan, yn erbyn y gau brophwydi. *Ddywedyd yr Arglwydd Iesu.*—Y mae y cyfeithiad hwn yn dywyll: dylai fod "Nis gall neb ddywedyd mai Iesu ydyw yr Arglwydd." Yr un ydyw *Arglwydd* y Testament Newydd ac *Iehofah* yr Hen Destament. Addefiad o hono fel y gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol a olygir yma. Ac nid dichon neb adnabod yr Iehofah yn y dyn Iesu, a'i gyffesu fel Arglwydd, oddi ar grediniaeth wirioneddol, ond trwy yr Ysbryd Glân. Cyflwynir yma yr un gwirionedd ag a geir yn *Mat.* xvi. 17; 1 *Ioan* iv, 2, 3, a v. 15. Cablu Crist (*maledicere Christo*), ydoedd y ffurf i wadu Cristionogaeth ger bron y brawdleoedd Rhufeinig. A'r ffurf o'i gyffesu oedd, "Yr wyf yn credu fod Iesu yn Fab Duw." Yr oedd dynion, trwy addef Duwdod Crist, yn rhoddi eu hunain allan fel Cristionogion. Dyna oedd bod yn Gristionogion mewn cyffes.—*Hodge.*

4—6. Yr oedd y doniau yn cael eu gweini oll gan yr Ysbryd Glân—rhai yn uniongyrchol, ac ereill yn anuniongyrchol. Yn mysg y cyntaf yr oedd gwyrthiau, tafodau, a dawn i iachau: yn mysg yr olaf, yr oedd athrawiaethu. Yr oedd sail yr olaf ynddynt yn eu sefyllfa flaenorol yn y dalent a'r doniau naturiol oedd ganddynt. Yr

[a] Iob 33. 29; Ioan 5. 17; Phil 1. 13; Heb. 13 21. [c] Mat. 25. 14; 1 Pedr 4. 11. Gen. 41. 38, 39; Iob 32. 8; Salm 143. 10; Esa. 11. 2; 1. 4; Mat. 13. 11; Act 6. 3; Eph. 1. 17, 18.

sydd [c]yn gweithredu pob peth yn mhawb.

7 Eithr [d]eglurhâd yr Ysbryd, a roddir i bob un er llesâd.

8 Canys i un, [e]trwy yr Ysbryd, hyn a wnai yr Ysbryd oedd sanctteiddio doniau natur i fod o wasanaeth yn yr eglwys. Y mae yr apostol yn cyssylltu doniau, gweinidogaethau, a gweithrediadau—y cyntaf â'r Ysbryd; yr ail, â'r Arglwydd Iesu; a'r trydydd â'r Tad. Nid ydym i feddwl fod y tri gair yn dynodi tri dosbarth o ddoniau gwahanol, ond yr un doniau mewn agweddau gwahanol. Edrychir arnynt fel gweithrediadau—fel amlygiadau o nerth yn cael ei achosi gan Dduw Dad, ffynnonell wreiddiol pob dylanwad ysbrydol; fel gweinidogaethau yn cael eu hordeinio a'u trefnu gan y Mab, Arglwydd a Phen yr eglwys; ac fel doniau yn cael eu gweithredu gan, ac yn derbyn eu ffurf yn mhawb, oddi wrth yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn preswylio ac yn gweithio yn yr eglwys.

d Ioan 5. 17; Phil 1. 13; Heb. 13 21. [e] Mat. 25. 14; 1 Pedr 4. 11. Gen. 41. 38, 39; Iob 32. 8; Salm 143. 10; Esa. 11. 2; 1. 4; Mat. 13. 11; Act 6. 3; Eph. 1. 17, 18.

7. *Eithr.*—Er eu bod oll yn meddu yr un ffynonell, yn cael eu gweinyddu a u cynnyrchu gan un Duw, un Arglwydd, ac un Ysbryd, etto y maent yn cael eu rhoddi gydag amrywiaeth i bob un. *Eglurhâd yr Ysbryd:*—y modd y mae yr Ysbryd yn egluro ei hun. Y mae yr Ysbryd, yr hwn sydd yn preswylio yn yr eglwys fel corph Crist, yn amlygu ei hun mewn un aelod yn y ddawn hon, ac mewn aelod arall mewn dawn arall.

8—10. Prin yr ydym i feddwl fod yma ddosbarthiad rheolaidd ar y doniau; hyny yw, fod un math yn dilyn "i un" yn *adn.* 8; a math arall yn dilyn, "i arall" yn *adn.* 9; ac felly hefyd yn *adn.* 10. Y mae Meyer yn eu dosbarthu yn dri math; (1.) Doniau yn meddu cyfeiriad at alluoedd deallawl, megys "ymadrodd doethineb:" (2.) doniau yn cael eu sylfaenu ar ffydd oruchel, megys dawn i iachau; (3.) doniau yn meddu cyfeiriad at ymadrodd, megys tafodau, a chyfleithiad tafodau. Ond y mae De Wette ac Alford yn dwyn amryw resymau boddhaol yn erbyn. Yn un peth, nid yw y rhestr yn gyflawn (gwel *adn.* 28): ac heblaw hyny, y mae mwy o gyffelybrwydd rhwng llefaru â thafodau a phrophwydoliaeth nag sydd rhwng prophwydoliaeth a doniau i iachau; ac y mae y ddau gyntaf yn cael llefaru am danynt ynghyd ar ol hyn [*Alford*]. *Ymadrodd doethineb—ymadrodd gwybodaeth.*—Beth ydyw y gwahaniaeth rhyngddynt? Y mae a wnelo y cyntaf â'r bywyd Cristionogol *ymarferol;* yr olaf âg athrawiaeth yr efengyl—adnabyddiaeth ddofn o bethau dwyfol.—*Neander.* Barna Bengel yn y gwrthwyneb, fod "ymadrodd doethineb" yn golygu yr hyn a olyga Neander wrth "ymadrodd gwybodaeth." Dywed Meyer mai "doethineb" ydyw y ddoethineb Gristionogol uchaf, am yr hon, fel y golyga efe, y lleferir yn pen ii. 6; a'r ymadrodd hwnw sydd yn gosod ei gwirioneddau allan gydag eglurder ydyw "ymadrodd doethineb." Ond nid yw hyn o angenrheidrwydd yn cynnwys ymdreiddiad pyngciol i'r gwirioneddau hyn, yr hyn a olygir yma wrth wybodaeth; a'r ymadrodd sydd yn amcanu at hyn ydyw ymadrodd gwybodaeth." Cyffelyb i'r golygiad hwn ydyw yr un a noda Hodge: fod y cyntaf yn dynodi gwybodaeth y rheswm, a'r olaf wybodaeth y deall. Effaith y cyntaf ydyw dirnadaeth ysbrydol; effaith yr olaf, gwybodaeth byngciol—y wybodaeth hono sydd yn canfod perthynasau gwirioneddau dwyfol â'u gilydd. Y golygiad a gefnogir gan Hodge ydyw hwn: fod "ymadrodd doethineb" yn arwyddo y ddawn uchaf yn yr eglwys, yr hon a roddwyd i'r apostolion, ac iddynt hwy yn unig, sef y ddawn i hysbysu dirgelwch yr efengyl, ac i osod i lawr y sylfeini—mewn gair, dawn ysbrydoliaeth yn ei helaethrwydd mwyaf: ac fod "ymadrodd gwybodaeth" yn dynodi y ddawn a roddid i'r athrawon, trwy ba un yr eglurent ac y cymmhwysent y gwirioneddau oedd wedi eu hysbysu gan yr apostolion. *Ffydd.*—Gan fod y ffydd hon yn perthyn yn neillduol i rai o'r Cristionogion, nid ydym i feddwl mai ffydd gadwedigol ydyw; o blegid y mae hono yn feddiant gan yr holl saint fel ei gilydd. Yr un yw a *Mat.* xvii. 19, 20: 1 *Cor.* xiii. 2. *Wneuthur gwyrthiau:*—yn fwy eang na'r ddawn flaenorol—y ddawn i iachau. *Prophwydoliaeth:*—Ymadrodd yn cael ei gynnyrchu gan ddadguddiad yr Ysbryd Glân, heb fod yn perthyn i unrhyw swydd neilduol. Y gwasanaeth a gyflawnai oedd dadguddio dyfnderoedd y galon ddynol a'r cynghor dwyfol, ac felly yr oedd yn dra effeithiol er goleuo, annog, a dyddanu credinwyr, ac ennill anghredinwyr. Yr oedd y prophwyd yn gwahaniaethu oddi wrth yr hwn a lefarai â thafodau, trwy ei fod yn llefaru gyda'i ddeall yn dirnad yr hyn a lefarai—ei ysbryd yn ddarostyngedig iddo: tra y llefarai y llall dan gynnhyrfiadau perlewygawl. Daw natur y ddawn hon yn fwy i'r golwg yn *pen.* xiv. Ni chyfyngid hi at ragfynegu pethau i ddyfod, megys y gwelir hi yn Agabus. Yr oedd yn llawer uwch na dawn yr athrawon. Nid oedd yr olaf yn ddawn anghyffredinol, fel y gyntaf. Y gwahaniaeth rhwng prophwydoliaeth a dawn uchaf yr apostolion oedd, mai yn achlysurol yr oedd y naill, tra yr oedd y lleill yn barhaus yn ddeiliaid ysbrydoliaeth. *Wahaniaeth ysbrydoedd.*—Y gallu i ganfod y gwahaniaeth rhwng gweithrediadau yr Ysbryd Glân a gweithrediadau yr ysbrydion aflan yn ffugio y cyntaf, neu yr eiddo y dyn ei hun. Gwel 1 *Ioan* iv. 1. Amlwg yw oddi wrth epistolau Ioan fod ysbrydoliaeth yn cael ei hôni gan laweroedd oeddynt yn gwbl amddifaid o hono. Yr oedd diwedd yr oes apostolaidd yn cael ei hynodi gan y cyfryw gau honiadau. Yr oedd felly o bwys fod yn yr eglwys ddosbarth o ddynion a allent wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau. Cyfeirir at y ddawn hon yn *pen.* xiv. 29. *Amryw dafodau:*—Y gallu i lefaru mewn ieithoedd oeddynt o'r blaen yn anadnabyddus i'r llefarwyr. Dyma yr hen olygiad, a'r un mwyaf cyffredin. Cawn nodi y golygiadau ereill yn y bennod nesaf. Y mae hanes dydd y Pentecost yn fanteisiol i benderfynu pa fath oedd dawn tafodau. Nid ydyw yn ymddangos i ni fod digon o sail dros feddwl fod "y tafodau

[f] 1 Cor. 13. 2; Mat 21. 21; Marc 11. 22, 23; Luc 17. 5, 6.

9 Ac i arall [f]ffydd, trwy yr un Ysbryd; ac i arall ddawn i iachau, trwy yr un Ysbryd;

10 Ac i arall, wneuthur gwyrth-

iau; ac i arall, brophwydoliaeth; ac i arall, wahaniaeth ysbrydoedd;
[a] Marc 16. 17; Act. 19. 6. ac i arall, [a] *amryw* dafodau; ac i arall, gyfieithiad tafodau.
[b] Ioan 3. 27; Eph. 4. 7. 11 [b] A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'r neilldu megys y mae yn ewyllysio.

12 Canys fel y mae y corph yn un, ac iddo aelodau lawer, a holl aelodau yr un corph, cyd byddont lawer, ydynt un corph; felly *y mae* Crist hefyd.

ereill," ar ddydd y Pentecost yn beth gwahanol i'r ddawn y lleferir am dani yn yr epistol hwn. Yr un geiriau a arferir yn wastad wrth son am dani: megys "tafodau newyddion," "tafodau ereill," a "tafodau." Addewir yn *Marc* xvi. 17, y byddai iddynt lefaru â "thafodau newyddion." Yn *Act.* ii. 4, dywedir fod yr apostolion wedi llefaru "â thafodau ereill." Yn *Act.* x. 46, a xix. 6, dywedir am y rhai a dderbynient yr Ysbryd Glân, y byddai iddynt lefaru "â thafodau." Yn awr, y mae yn anhawdd meddwl mai nid yr un ddawn a olygir yn yr holl fanau hyn. Os felly, pa reswm digonol sydd dros ymadaw â'r un ystyr yn y Corinthiaid? Os ieithoedd a feddylir wrth *tafodau* yn Marc a'r Actau, rhaid mai yr un ystyr sydd iddo yma. Heb law hyny, y mae y golygiad hwn yn cyfarfod â holl anghenrheidiau y testynau sydd yn llefaru am y peth. Nid ydym yn cyfarfod âg un anhawsder o bwys wrth eu hesbonio ar y dybiaeth mai ieithoedd newyddion oedd y tafodau. Y mae Hodge yn nodi y pethau canlynol:—1. Bod yr hyn a ddywedid mewn tafodau yn ddealladwy i'r rhai a ddeallent ieithoedd dyeithr: *Act.* ii. 11. Felly, nid llefaru mewn rhyw *ddull* dyeithr yd-oedd, ond mewn *ieithoedd* oeddynt yn ddyeithr i bawb ond y rhai a ddeallent yr ieithoedd hyny. 2. Yr oedd yr hyn a leferid yn eiriau croew—yn gyfrwng gweddi, mawl, a diolch: 1 *Cor.* xiv. 14—17. 3. Yr oedd o duedd i adeiladu, ac felly yn ymadrodd a ddeallid gan yr hwn a lefarai: 1 *Cor.* xiv. 4, 16. 4. Yr oedd yn bossibl esbonio yr ymadrodd; yr hyn a arwydda ei fod yn ddealladwy. 5. Er fod yr ymadrodd yndo ei hun yn ddealladwy, ac felly hefyd i'r llefarydd, etto yr oedd yn anealladwy i ereill, sef i'r rhai oeddynt yn anghyfarwydd â'r iaith a ddefnyddid; ac felly yr oedd yn anghymmhwys i gynnulleidfa Gristionogol gyffredin. Gallai y llefarydd ei hun ddeall yr hyn a ddywedai; ond yr oedd y cwbl yn ddifudd i ereill. Ac y mae yr apostol yn ceryddu yr afreoleidd-dra afiesol yma yn *pennod* xiv. 6. Y mae y gymmhariaeth a fenthycir yn 1 *Cor.* xiv. 7, 11, oddi wrth offerynau cerdd, ac oddi wrth sefyllfa barbariad, yn gofyn yr esboniad cyffredin. Addefa Paul, am y seiniau, nad oedd un o honynt yn aflafar, sef heb ystyr: ei achwyniad ydyw, fod yr hwn a lefarai mewn iaith ddyeithr iddo ef yn farbariad. Arwydda hyn fod y lleferydd ynddo ei hun yn ddealladwy, er heb fod felly i'r rhai fyddent yn gwrandaw. 7. Y mae yr esboniad cyffredin yn cydweddu â'r geiriau sydd yn cael eu teimlo yn fwyafanhawdd i w hegluro gyda'r esboniad hwn: megys, *pen.* xiv. 14, 16; ond cawn ddychwelyd atynt yn y lle priodol. 8. Y mae hefyd yn gysson â'r ffaith fod dawn cyfieithiad tafodau yn wahanol oddi wrth y ddawn o lefaru â thafodau. Os gallai un lefaru â thafod dyeithr, gellid gofyn pa ham nad allai hefyd gyfieithu? Yr attebiad yw, mai nid hyny oedd ei ddawn. Yr hyn a lefarodd mewn iaith ddyeithr, ei lefaru yr oedd dan gynhyrfiad yr Ysbryd: pe buasai yn ceisio ei gyfieithu heb y ddawn hono, o hono ei hun y buasai yn llefaru, ac nid fel y rhoddai yr Ysbryd ymadrodd iddo. Buasai yn ddeiliad dylanwad anghyffredinol yr Ysbryd yn y naill, ac heb fod felly yn y llall.

Y gwrthddadleuon a ddygir yn mlaen yn erbyn y golygiad cyffredin ydynt (*a*) fod y cyfryw wyrth yn afreidiol, am fod yr iaith Roeg yn cael ei deall yn mhob man y pregethid yr efengyl. Addefa Hodge fod hyn yn wir i ryw raddau. Groeg ydoedd iaith y dosbarth dysgedig trwy yr holl ymherodraeth Rufeinig; etto nid oedd wedi ymlid yr ieithoedd cenedlaethol o arferiad mewn bywyd cyffredin. Heb law hyny, nid oedd pregethiad yr apostolion yn cael ei gyfyngu o fewn terfynau ymherodraeth Rhufain. Heb law hyny, y mae yr wrthddadl hon yn tybied mai unig amcan y ddawn oedd hyrwyddo lledaeniad yr efengyl. Yr oedd hyn, fe ddichon, yn un amcan. Ond yr oedd iddi ddybenion ereill. Yn benaf yr oedd yn gwasanaethu i ddwyn tystiolaeth i bresennoldeb yr Ysbryd yn yr eglwys foreuol; ac i fod yn arwyddocâd o alwad y Cenhedloedd i'r eglwys, ac i gyfranogiad pob cenedl yn gydradd o freintiau yr efengyl. (*b*) Nad yw yn arferiad gyda Duw i symmud anhawsderau mewn ffordd wyrthiol oddi ar ffordd ei bobl, y rhai ydynt o fewn eu gallu hwy eu hunain i'w symmud. Ond nid oes un grym yn yr wrthddadl hon, wrth dderbyn y syniadau cywir am ddybenion y ddawn. Pe symmud anhawsderau fuasai ei hunig amcan, dichon y buasai rhywfaint o rym yn yr wrthddadl. (*c*) Dywedir fod yn ammhossibl i ddyn lefaru mewn iaith na ddysgasid o'r blaen ganddo. Digon o attebiad i hyn ydyw, "Yr hyn sydd ammhossibl gyda dynion sydd bossibl gyda Duw." (*d*) Nid oedd Paul a Barnabas yn alluog i ddeall iaith Lycaonia: *Act.* xiv. 11—14. Ond nid yw y ddawn yn cynnwys fod y rhai a'i derbynient yn medru pob iaith. Dichon na allent lefaru mewn mwy nag un neu ddwy o ieithoedd ereill. *Cyfieithiad tafodau*:—Y mae natur y ddawn hon yn dibynu ar natur y ddawn o'r blaen. Nid oedd y ddawn i gyfieithu yn cael ei meddiannu yn wastad gan y rhai a lefarent mewn tafodau: *pen.* xiv. 13.

12. Eglurhâd o'r gwirionedd blaenorol. Y mae yn mhob corph amrywiaeth ac unoliaeth; ac felly y corph dynol. Y mae y gwahanol ranau wedi eu huno ynddo yn y fath fodd fel ag i ffurfio un cyfanwaith. Y mae yr apostol wedi dangos fod amrywiaeth doniau yn undod yr eglwys. Felly y mae y corph. Er ei fod yn un, etto cynnwysa lawer o aelodau. Ac y mae yr amrywiaeth yma yn hanfodol i unoliaeth; o blegid pe na chynnwysai lawer o aelodau, ni byddai yn un corph cyfuniaidd. Felly y mae Crist hefyd, sef y Crist dirgeledig—y pen a'r corph. Y mae yr eglwys yn un, ac etto y mae iddi aelodau lawer, a chan bob aelod ei swydd a'i ddawn ei hun. Ni byddai yn un corph cyfan, hardd, a defnyddiol, oni bai am yr amrywiaeth yma.

13 O herwydd [i]trwy un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph, [k]pa un bynag ai Iuddewon ai Groegwyr, ai [l]caethion ai rhyddion; ac *ni* a [m]ddiodwyd oll i un Ysbryd.

14 Canys y corph nid yw un aelod, eithr llawer.

15 Os dywed y troed, Am nad wyf law, nid wyf o'r corph; [n]ai am hyny nid yw efe o'r corph?

16 Ac os dywed y glust, Am nad wyf lygad, nid wyf o'r corph; ai am hyny nid yw hi o'r corph?

17 Pe [o]yr holl gorph *fyddai* lygad, pa le y *byddai* y clywed? pe y cwbl *fyddai* glywed, pa le *y byddai* yr arogliad?

18 Eithr yr awr hon [p]Duw a osododd yr aelodau, bob un o honynt yn y corph, [q]fel yr ewyllysiodd efe.

19 Canys pe baent oll un aelod, pa le *y byddai* y corph?

[i] Ezec. 36. 25—27; Mat. 3. 11; Luc 3. 16; Ioan 1. 33; 3. 5; Act. 1. 5; Rhuf. 6. 3—6; 8. 9—11; Tit. 3. 4—6; 1 Pedr 3. 21. [k] Rhuf. 3. 29; 4. 11. Gal. 3. 28; Eph. 2. 11—18, 19—22; 3. 6; Col. 1. 27; 3. 11. [l] Eph. 6. 8. [m] Can. 5. 1; Esa. 41. 17, 18; 55. 1; Zech. 9. 15—17; Ioan 4. 10, 14; 6. 63; 7. 37—39. [n] Rhuf. 12. 3, 10; Phil. 2. 3; [o] 1 Sam. 9. 9; Salm 94. 9; 139. 13—16; Diar. 20. 12. [p] Adn. 24, 28. [q] Adn. 11.

20 Ond yr awr hon llawer *yw* yr aelodau, eithr un corph.

21 Ac ni all y llygad ddywedyd wrth y llaw, Nid rhaid i mi wrthyt; na'r pen chwaith wrth y traed, Nid rhaid i mi wrthych.

22 Eithr yn hytrach o lawer, yr aelodau o'r corph y rhai a dybir eu bod yn wanaf, ydynt angenrheidiol.

23 A'r rhai a dybiwn ni eu bod yn ammharchedicaf o'r corph, ynghylch y rhai hyny y gosodwn chwaneg o barch; ac y mae ein *haelodau* anharddyn cael chwaneg o harddwch.

24 O blegid [r]ein *haelodau* hardd ni nid rhaid iddynt *wrtho:* eithr Duw a gyd-dymherodd y corph, gan roddi parch chwaneg i'r hyn oedd ddiffygiol:

25 Fel [s]na byddai anghydfod yn y corph; eithr bod i'r aelodau [t]ofalu yr un peth dros eu gilydd.

26 A pha un bynag ai dyoddef

[r] Gen. 2. 25; 3. 11. [s] 2 Cor. 13. 11. [t] 2 Cor. 7. 12; 8. 16.

13. Prawf o'r hyn a ddywedir yn *adn.* 12. Y mae yr eglwys yn un, o blegid y mae wedi ei bedyddio trwy, yn, neu gan un Ysbryd yn un corph. Cyfeirir yma, yn ol barn y rhan fwyaf o'r esbonwyr, at yr ordinhâd o fedydd: nid am fod y bedydd arno ei hun yn gwneuthur hyny, ond am y derbyniasant yr Ysbryd Glân pan y bedydd. Billroth ac Olshausen a farnant mai dylanwad arosol yr Ysbryd Glân a olygir. Tybia Hodge nad oes yma un cyfeiriad at eu bedyddiad â dwfr, ond mai bedydd yr Ysbryd Glân a olygir, neu adenedigaeth. Gwir y cynnwysir hyn, ac mai hyn yw y brif elfen yn y bedyddiad; etto y mae yn ymddangos i ni y cyfeirir yma, yn gyntaf ac yn benaf, at eu bedyddiad â dwfr, fel yn arwyddocâd o, ac yn cael ei ddilyn gan dderbyniad yr Ysbryd Glân. *Ni a ddiodwyd*, &c.—Yn ol y darlleniad a gymmeradwyir gan Lachmann a Tischendorf, gellir darllen "A gwnaethpwyd i ni yfed yr un Ysbryd." Hwn a gefnogir gan Alford, &c. Yn ol y darlleniad Cymraeg, yr hwn ydyw yr un cyffredin, y meddwl yw, "Gwnaed i ni oll yfed fel ag i ddyfod yn un ysbryd." Megys yr ydym un corph, felly hefyd yr ydym un ysbryd. Tybia Luther, Calvin, Beza, mai at sacrament Swper yr Arglwydd y mae y cyfeiriad. Ond ystyrir fod amser y ferf yn wrthwyneb i hyn, yr hon a gyfeiria at beth wedi myned heibio. "Y mae yr athrawiaeth a ddysgir yma yn eglur; sef, ein bod, trwy dderbyn yr Ysbryd Glân, wedi ein gwneuthur yn aelodau o gorph Crist, ac mai yn hinwedd preswyliad yr Ysbryd y mae yr eglwys yn un."—*Hodge.* Etto, onid oes gyfeiriad yn y gair *diodi* at y naill sacrament, megys ag y mae yn yr ymadrodd blaenorol at y sacrament arall?

14. Prawf fod amrywiaeth doniau ac aelodau yn angenrheidiol i undod yr eglwys. Nid yw yr eglwys yn gynnwysedig o bersonau ydynt oll yn feddiannol ar yr un doniau, mwy nag y mae yr holl gorph yn llygad neu yn glust. Megys mai nid un aelod, ond llawer, yw y corph, felly hefyd nid un aelod yw yr eglwys, ond llawer. Nid yn unig y mae lliosogrwydd aelodau yn hanfodol i'r naill a'r llall, ond amrywiaeth hefyd yn y lliosogrwydd hwnw.

15, 16. Y casgliad cyntaf a mwyaf naturiol a gyfyd oddi wrth y wedd a rydd yr apostol ar natur yr eglwys ydyw y ddyledswydd o fod yn foddlawn. Dylai pawb fod yn dawel ar y lle sydd iddo, a pheidio tuchan am na buasai ei swydd yn uwch a'i ddawn yn wahanol. Y mae hyn mor afresymol a phe byddai i'r llaw chwennych bod yn droed, neu ynte i'r glust chwennych bod yn llygad. Y mae yn hyn duedd i ddinystrio elfen gyfansoddol eglwys.

21. Dangosir yma fod pob ymchwydd a balcher mewn aelodau o'r eglwys yn groes i'r drychfeddwl o eglwys fel un corph; o blegid y mae yr holl aelodau, fel eu gilydd, yn angenrheidiol i gyfander a pherffeithrwydd y corph.

22, 23. Yn hytrach na'r peth y lleferir yn ei erbyn yn yr adnod o'r blaen—bod gan un aelod sail i ymchwyddo yn erbyn y llall, a dyweyd, "Nid rhaid i mi wrthyt," y mae y berthynas rhwng y gwahanol aelodau yn gwbl wahanol: y mae dinodedd aelod yn rheswm yn hytrach dros ofalu yn fwy am dano. Wrth "yr aelodau o'r corph, y rhai a dybir eu bod yn wanaf," y golyga Alford, nid y rhai ydynt yn naturiol felly yn mhawb, ond y rhai sydd wedi eu darostwng i wendid trwy fod doluriau neu afiechyd arnynt. Trwy hyn, y mae yn sylweddoli "eu bod yn angenrheidiol," yn fwy na chyda golwg ar yr aelodau iach a chryfion. *Chwaneg o harddwch;* —trwy eu gwisgo. Nid ydym yn gwisgo y wyneb, ond yr ydym yn cuddio y traed.

25, 26. Y mae Duw wedi cydlunio y corph yn y fath fodd ag i sicrhau na byddai anghydfod yn y corph—dim amrywiaeth teimlad a gofal gyda golwg ar rai aelodau mwy nag ereill. Y mae y naill aelod yn gofalu am aelod arall, fel y mae yn gofalu am dano ei hunan. Gofala y llaw nid am dani ei hun yn unig, ond hefyd am y llygad,

a wna un aelod, y mae yr holl aelodau yn cyd-ddyoddef; ai anrhydeddu a wneir un aelod, y mae yr holl aelodau yn cydlawenhau.

[a] Adn. 12.

27 Eithr [a]chwychwi ydych gorph Crist, ac aelodau o ran.

[x] Act. 20. 28; Rhuf. 12. 6—8. Eph. 4. 11—13; Heb. 13. 17, 24.

28 A [x]rhai yn wir a osododd Duw yn yr eglwys; yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau; wedi hyny doniau i iachau, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywogaethau tafodau.

[y] Adn. 4-11, 14—20.

29 Ai [y]apostolion pawb? ai prophwydi pawb? ai athrawon pawb? ai gwneuthurwyr gwyrthiau pawb?

30 A oes gan bawb ddoniau i iachau? a yw pawb yn llefaru â thafodau? a yw pawb yn cyfieithu?

31 Eithr [z]deisyfwch y doniau goreu. Ac etto yr wyf [a]yn dangos i chwi ffordd dra rhagorol.

[z] 1 Cor. 8. 1; 14. 1, 39. [a] Phil. 3. 8. Heb. 11. 4;

PENNOD XIII.

1 *Nad ydyw y doniau godidocaf ddim heb gariad.* 4 *Canmoliaeth cariad perfaith,* 13 *a'i arddercwgrwydd rhagor gobaith a ffydd.*

Y mae y llygad mor wagelog am y troed ag am dano ei hunan. Y canlyniad yw, os bydd un aelod yn dioddef, y bydd yr holl aelodau yn cyd-ddioddef; ac os anrhydeddir un aelod, y bydd yr holl aelodau yn cydlawenhau.

27. Cymmhwysiad o'r holl bethau a ddywedwyd am y corph naturiol at y Corinthiaid fel corph dirgeledig Crist. Y mae pob eglwys yn gorph Crist, fel y mae pob eglwys, a phob aelod newn eglwys, yn deml i Dduw ac i'w Ysbryd. Medda yr aelod unigol nodweddau eglwys, a medda eglwys neu gynnulleidfa neilldiol holl nodweddau yr un eglwys fawr. Y mae y llai yn ddarlun o'r mwy, a'r naill a'r llall yn bortreadau o'r mwyaf. *O ran:*—Y mae yn chwanegu hyn am mai nid y Corinthiaid oedd yn cyfansoddi holl aelodau corph Crist [*Bengel*]. Gwel xiv. 36. Dylai eglwys Rhufain fod yn foddlawn, ebe Bengel, os ydyw yn *rhan.*

28. Trefniad dwyfol yr aelodau yn y corph ysbrydol. Yn *Eph.* iv. 11, dywed yr apostol, "Efe a roddes *rai* yn apostolion, a *rhai* yn brophwydi," &c. Y mae yma, yn y dechreu, yn defnyddio yr un ffurf; ond yn y fan yn newid ffurfiad y frawddeg, i "*yn gyntaf.*" *Yn yr eglwys:*—yn yr eglwys gyffredinol. Meddwl a geir yn fynychach yn yr Epistol at yr Ephesiaid ydyw nag mewn un rhan arall o ysgrifeniadau yr apostol [*Alford*]. *Yn gyntaf apostolion.*—Nid yn unig y deuddeg; ond yn chwanegol atynt, Paul, Iago brawd yr Arglwydd, a Barnabas. "Ni enwir Pedr ar wahân oddi wrthynt: dyma y radd gyntaf. Dilyna y lleill hwynt yn gyddweddol â natur eu swydd, eu hamser, eu hurddas, a'u defnyddioldeb."—*Bengel. Prophwydi.*—Y rhai a dderbynient ysbrydoliaeth yn achlysurol. Gwel *adn.* 10. *Athrawon.*—Dynion heb ysbrydoliaeth, ond wedi derbyn dawn i athrawiaethu. Gosodir y rhai hyn uwch law gwyrthiau. Y mae swydd yr athrawon yn arosol yn yr eglwys. *Gwyrthiau.*—Yn cael ei ddefnyddio am ddynion a feddent y ddawn; a hyny, fe allai, am nad oedd un dosbarth neilldiol yn meddu y ddawn, mwy na dosbarthiadau ereill. Felly hefyd am y doniau dilynol. *Cynnorthwyau* oeddynt yr aelodau hyny, a appwyntid i gynnorthwyo swyddwyr ereill yr eglwys i ofalu am y cleifion a'r tlodion; yn ol Chrysostom, diaconiaid a diaconesau. Llenwid y swydd hon fynychaf gan yr aelodau mwyaf cyfoethog. *Llywodraethau.*—Yr un rhai a'r esgobion a'r henuriaid, yn ol barn rhai. Golyga y Presbyteriaid fod yr un gwahaniaeth rhwng "cynnorthwyau" a "llywodraethau" ag syddyn eu plith hwy rhwng diaconiaid a henuriaid llywodraethol. *Rhywogaethau tafodau.* Dichon y dodir hyn yn olaf yn y rhestr am fod y Corinthiaid yn ei brisio yn ormodol. Nid yw y rhestr yn gyflawn. Nid yw "llywodraethau" yn cael ei gysylltu gan *ac* â "rhywogaethau tafodau;" yr hyn sydd yn awgrymu fod *et cetera* (ac felly yn y blaen) yn ddealledig yma.—*Bengel.*

29, 30. Fel nad yw yr oll o'r corph yn llygad, neu yn glust, felly nid yw pawb yn yr eglwys yn meddu yr un swyddau a doniau.

31. Er fod y doniau yn cael eu gweinyddu gan yr Ysbryd fel y mynai efe, etto dylid ymofyn am danynt yn y llwybr ordeiniedig:—*Deisyfwch. Y doniau goreu:*—y rhai, yn ol *pen.* xiv. 5, oeddynt y mwyaf buddiol, yn tueddu yn fwyaf at adeiladaeth yr eglwys. Nid yn ol gwerth a budd y doniau yr oedd y Corinthiaid yn eu deisyfu, ond yn ol eu haddasrwydd i ddenu sylw. Chwennychent y rhai a ymddangosent yn fwyaf ysblenydd. *Ffordd dra rhagorol:*—Y meddwl yw, nid ffordd fwy rhagorol na deisyfu doniau, ond ffordd dra rhagorol i gael doniau. Y ffordd hon yw cariad. Trwy gariad y gellir gwneyd y doniau yn effeithiol yn yr ystyr uchaf.

Pennod xiii.

Yn iawn yr ystyrir y bennod hon fel un o'r gemau mwyaf prydferth yn yr holl ysgrythyr. "Ar gyfrif ei nodwedd foesol ddyrchafedig, ei chyfoeth a'i ehangder, prydferthwch a phriodoldeb ei hymadroddion, y mae wedi bod yn wrthddrych edmygedd yr eglwys yn mhob oes." Gelwir hi gan un yn "Salm Cariad;" gan un arall, yn "Molawd Cariad." Y mae amryw o'r esbonwyr yn sylwi ar ystyr y gair *ágapé,* a gyfeithir yma *cariad,* ac a gamgyfleithir yn y testyn Saesneg *charity.* Dywed Hodge nad yw y gair Groeg a arferir yma o darddiad paganaidd. Nid oedd gan y paganiaid un syniad am y gras a osodir allan wrtho. Nid yw y geiriau arferedig gan y Groegwyr paganaidd—*erós,* na *philia*—yn atteb i ystyr ysgrythyrol y gair *ágapé;* a gellir cadarnhau yr un peth am y geiriau Lladinaidd, *amor* a *caritas.* Dywed Olshausen am y geiriau a arferid gan y paganiaid am gariad, nad oeddynt, yn eu ffurf uchaf a mwyaf pur, yn amgen nag amlygiadau o ddiffyg—y dymuniad am gariad yn codi oddi ar yr ymwybyddiaeth o'r amddifadrwydd o'r hyn sydd hawddgar. Ond y mae yr *ágapé* a ddarlunir yma, cariad y bywyd Cristionogol, yn deimlad cadarnhaol: y mae yn llanw y galon. Duw ei hun yn preswylio yn yr

B. A. 58.

[a] Rhuf. 14. 15; Gal. 5. 6, 22.

[b] Num. 24. 15—24; Mat. 7. 22, 23.

[c] Mat. 17. 20.

[d] 1 Cor. 8. 4.

[e] Luc 21. 3, 4.

[f] Dan. 3. 16—28; Ioan 13. 37.

PE llefarwn â thafodau dynion angylion, [a]ac heb fod genyf gariad, yr wyf *fel* efydd yn seinio, neu symbal yn tingcian.

2 A phe [b]byddai genyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; [c]a phe bai genyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, ac heb genyf gariad, [d]nid wyf fi ddim.

3 A [e]phe porthwn y tlodion â'm holl dda, [f]a phe rhoddwn fy nghorph i'm llosgi, ac heb gariad genyf, nid yw ddim llesâd i mi.

4 Y mae cariad [g]yn hirymaros, yn gymmwynasgar; cariad nid yw yn cenfigenu; nid yw cariad yn ymffrostio, nid yw yn ymchwyddo.

[g] Diar. 10. 12.

5 Nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, [h]nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, [i]ni feddwl ddrwg.

[h] Phil. 2. 5, 21; [i] 1 Ioan 3. 16, 17. [i] Iob 21. 2[7]; Luc 7. 39.

6 [k]Nid yw lawen am anghyfiawnder, ond [l]cyd-lawenhau y mae â'r gwirionedd;

[k] Diar. 14. 9; Luc 22. 5. [l] Exod. 18. 9; 1 Thes. 3. 6—10.

7 Y *mae* yn dioddef pob dim, enaid ydyw ei ffynnonell; ac y mae afonydd o ddwfr bywiol yn dylifo allan o'r enaid hwnw.

1. Sonir yn gyntaf am dafodau, am mai dyma fater yr holl ymdriniaeth, ac am fod y Corinthiaid yn eu prisio uwch law pob dawn arall. *Pe llefarwn*:—yn tybied amgylchiad ammhossibl. Nid yw dawn tafodau, yn ei helaethrwydd a'i pherffeithrwydd mwyaf, yn ddim heb gariad. *Ac heb fod genyf gariad*:—yn y defnyddiad o'r tafodau hyn, ac yn holl gylchoedd bywyd. Y mae gan lawer brophwydoliaeth a doniau ereill, heb gariad a'i ffrwythau (*Mat.* vii. 22), y rhai a elwir yn ddoniau, nid yn gymmaint gyda golwg ar y rhai a'u meddant, a chyda golwg ar ereill. —*Bengel.* Y mae cariad i'w gymmeryd yn y bennod hon yn ei arwyddocâd eangaf—cariad at Dduw a dynion. *Efydd yn seinio.*—Ni olygir yma un offeryn cerdd, o blegid fod rhyw gymmaint o ddymunoldeb yn sain y cyfryw offeryn. Darn o bres yn gwneuthur sain diystyr a feddylir. Cyffelyb yw *symbal yn tingcian*—y math gwaelaf o offeryn cerdd. Cyfeirir, y mae yn debygol, at ddau fath o symbalau yn *Salm* cl. 5: —"symbalau soniarus," a "symbalau llafar." Yr oedd sain y cyntaf yn beraidd, eiddo yr olaf yn gras ac uchel, ac annymunol i'r glust. At yr olaf y cyfeirir yma.

2. Cyfeirir at dair o'r doniau—prophwydoliaeth, ymadrodd gwybodaeth, a gwyrthiau. *Y dirgelion oll.*—Dirgelion cynghor Duw: *Rhuf.* xi. 25; xvi. 25. Gwirioneddau mawrion nas gall rheswm dynol eu darganfod; y rhai a hysbyswyd gan ddadguddiad yn unig. Gwybod y dirgelion hyn oll a fuasai perffeithrwydd prophwydoliaeth. *Pob gwybodaeth* a olyga y pethau sydd agosat atom, wedi eu dadguddio eisoes. Yn *pen.* xvi. 6, cyssyllta yr apostol brophwydoliaeth â dadguddiad, neu weledigaeth; gwybodaeth âg athrawiaeth. *Yr holl ffydd*:—gyda chyfeiriad at *Mat.* xvii. 20; xxi. 21.

3. *A phe porthwn*, &c.—Eithaf yr hyn a allai y "cynnorthwyau," yn *pen.* xii. 28, ei wneuthur. Gesyd yn y lle uchaf yr hyn a berthyn i'r ewyllys, ag sydd yn ymddangos yn y cyssylltiad agosaf â chariad, gyda golwg ar weithio a dioddef. Y mae yr hwn sydd yn rhoddi ei dda i'r tlodion, a'i gorph i'w losgi, yn meddu ar gariad mawr (gwel 2 *Cor*, xii. 15); ond y mae yr hwn sydd yn eu rhoddi heb feddu ar gariad yn cadw ei enaid heb ei roddi. Y mae yma gam pellach nag sydd yn yr adnod o'r blaen. Yno dangosir oferedd y doniau uchaf heb gariad; yma oferedd y gweithredoedd uchaf o haelfrydedd—gweithredoedd sydd yn arfer codi oddi ar gariad. Gellir gwneuthur y gweithredoedd sydd yn briodol i gariad oddi ar gymmhelliadau ereill, a'r rhai hyny yn hunanol.

4—7. Dangosir yma beth ydyw priodoliaethau cariad. "Nid yw yn dywedyd, Cariad sydd yn llefaru â thafodau, sydd yn prophwydo, sydd yn rhoddi i'r tlawd, ond sydd hirymaros," &c.—*Bengel.* Cyfeiria y gair *hirymaros* at ddrwg yn dyfod oddi wrth ereill; *cymmwynasgar* at gyfranu daioni i ereill. Y naill yw yr ochr nacaol, y llall yr ochr gadarnhaol, i'r dymmer garuaidd. *Nid yw yn cenfigenu*:—Y mae y gair gwreiddiol yn dynodi unrhyw deimlad beius a gynnyrchir gan yr olwg ar ddaioni neu hapusrwydd ereill; megys cenfigen, eiddigedd, a phob teimlad sydd i ryw raddau yn cyfranogi o natur cenfigen neu eiddigedd. *Nid yw yn ymffrostio.* [Alford:—*Displays not itself.* Bengel:—*It does not act insolently.*] Cynnwysa hyn yr holl geisiadau i ennill canmoliaeth ereill. Nid yw cariad am ddwyn ei weithredoedd i gyhoeddusrwydd. Boddlona ar fod o'r golwg. Nid mewn clod gan ddynion y mae ei gwobr. Gwobr cariad ydyw cariad ei hun. *Nid yw yn ymchwyddo.*—Dyma wreiddyn yr olaf. Y dyn sydd yn coledd tybiau bostfawr am dano ei hun sydd awyddus am sylw a chanmoliaeth oddi wrth ddynion. *Yn anweddaidd.*—Gyda chyfeiriad at yr anweddeidd-dra mewn gwisgo ag yr oedd y Corinthiaid yn euog o hono [*Olshausen*]; ond y mae y gair, yn ol barn ereill, yn meddu arwyddocâd cwbl gyffredinol. *Ni feddwl ddrwg.*—Meithrin teimladau dialgar; meddwl yn barhaus am y drwg a gyflawnodd rhywun.—*Olshausen.* Gall olygu un o dri pheth:—naill ai cynllunio drwg, neu briodoli drwg i arall, megys cymmhellion anheilwng. Nid yw cariad yn ddrwgdybus. Neu nid yw yn gosod y drwg a ddiodde'a yn erbyn y dyn a wnaeth y drwg: y mae yn faddeugar, yn lle bod yn ddialgar.—*Hodge.*

6. Y mae cariad yn cydymdeimlo â daioni, nid â drygioni. *Cydlawenhau â'r gwirionedd*:—Y mae pob gwirionedd yn cynnyrchu llawenydd [*Bengel*]. "Nid yw lawen am anghyfiawnder, yr hyn yw teimlad cyffredin y byd digariad." [*Alford*]. Y mae gwirionedd yn cael ei berson-oli yma yr un modd a chariad. Ac y mae cariad, yn lle llawenhau am anghyfiawnder, yn cydlawenhau â'i chwaer gwirionedd—yn llawenhau yn yr olwg ar ledaeniad gwirionedd yn mysg dynion [*Meyer*]. Fel egwyddor sanctaidd, y mae ei chydymdeimlad â gwirionedd yn mhob ffurf ac yn mhob peth.

7. *Yn dioddef pob dim.*—Gall y gair gwreiddiol arwyddo naill ai *dioddef*, fel y mae yn y testyn Cymraeg, neu *cuddio.* Naill ai goddef

[m] Adn. 4. [n] Luc 19. 4-10. [o] Gen. 29. 20 yn credu [m] pob dim, [n] yn gobeithio pob dim, [o] yn ymaros â phob dim.

[p] Luc 22. 32; Gal. 5. 6. 8 Cariad [p] byth ni chwymp ymaith: eithr pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana.

9 Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo.

10 [q] Eithr pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileir.

[q] 1 Esa. 24. 23; Dad. 21. 22, 23.

11 Pan oeddwn fachgen, [r] fel bachgen y llefarwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y meddyliwn: ond pan aethum yn ŵr, mi a roes heibio bethau bachgenaidd.

[r] Preg. 11. 10; Gal. 4. 1.

12 Canys gweled yr ydym yr

---

blinderau a chamwri oddi wrth ereill yn dawel; neu guddio, yn yr ystyr o daflu gorchudd dros neu esgusodi diffygion ereill, yn hytrach nag ymblesera yn y gwaith o'u dwyn i'r golwg—yn cynnwys yr un drychfeddwl mewn ffurf gadarnhaol ag a geir yn nacaol yn yr ymadrodd blaenorol, "Nid yw lawen am anghyfawnder." Yr olaf ydyw darlleniad Bengel. Ond y mae Hodge ac Alford yn barnu nad oes un sail dros ymadael â'r ystyr a roddir mewn manau ereill gan yr apostol i'r gair: gwel *pen.* ix. 12; 1 *Thes.* iii. 1, 5. *Yn credu pob dim.*—Nid yw yn ddrwgdybus. Y mae yn dueddol i dderbyn yr esboniad mwyaf ffafriol ar bob peth. Bychana y drwg, a mwyha y da. *Yn gobeithio pob dim.*—Gwel beth yw sail y gobaith hwn, yn *Rhuf.* xiv. 4, "Efe a gynnelir; canys fe a all Duw ei gynnal ef." Nid yw y "credu" a'r "gobeithio," yn y lle hwn, yn cyfeirio at grediniaeth a gobaith yn ngwirioneddau yr efengyl. "Y mae hwn," ebe Alford, "yn obaith yn erbyn gobaith." Y mae cariad yn gobeithio yn dda am arall, hyd yn oed pan y mae ereill wedi rhoddi pob gobaith i'yny." *Yn ymaros á phob dim.*—Y mae y gair a gyfieithir yma *ymaros* yn air milwraidd, ac yn dynodi ymgynnal yn ngwyneb ymosodiad y gelyn. Arferir ef yn y Testament Newydd i osod allan y meddyldrych o sefyll yn eofn yn ngwyneb dioddefiadau, blinderau, ac erlidiau: ymgynnal danynt, meddiannu yr enaid ynddynt, a'u goddef yn dawel ac yn amyneddgar. Y gwahaniaeth, fe ddichon, rhwng y "dioddef pob dim" a'r "ymaros â phob dim," ydyw, fod y cyntaf yn arwyddo diddefthau anhyfryd oddi wrth ereill, a'r olaf ymgynnal dan erlidiau. Ond y mae Olshausen, yda Bengel, yn ystyried y dylid deall y cyntaf yn yr ystyr o *guddio.*

8—12. CARIAD YN AROS BYTH.

8. *Cariad byth ni chwymp ymaith.*—Nid yw yn cael ei ddinystrio; nid yw yn pallu neu yn peidio—y mae bob amser yn cadw ei le [*Bengel*]. Nid yw cariad wedi ei fwriadu na chwaith wedi i addasu, yn gyffelyb i'r donian dan syiw, yr sefyllfa bresennol o fodolaeth yn unig, and i'r ystâd ddyfodol ac anfarwol. *Eithr pa un bynag.*—Bydd i'r ddau gyntaf ddiflanu yn ollol; yr olaf yn berthynasol. Newidir gwybodaeth ammherffaith am wybodaeth berffaith. *Alford*). Neu, yn fwy cywir, fe allai, bydd i'r air beidio yn yr un ystyr; o blegid "gwybodaeth" fel dawn neilldiol a olygir yma.

9, 10. Y rheswm pa ham y mae tafodau, prophwydoliaeth, a gwybodaeth, i beidio. Rhanol o ammherffaith ydynt: ac felly, yn addas yn unig i sefyllfa ammherffaith. Dygir yn mlaen dwy gymmhariaeth i osod hyn allan—y gwaniaeth rhwng maboed a chyflawn oed; a'r gwahaniaeth rhwng gweled peth trwy gyfrwng tywyll, a'i weled yn uniongyrchol a digyfrwng. Yr un yw y drychfeddwl yma ag a geir yn *Eph.* iv. 11—13.

11. Y mae y cynnydd, o ras i ogoniant, yn cael ei gymmharu i wahanol yrfaoedd y bywyd dynol, gyda golwg ar y credadyn yn bersonol, ac ar yr holl eglwys. *Fel bachgen:*—Mynegiad o ostyngeiddrwydd Paul. *Y llefarwn—y deallwn—y meddyliwn.*—Y llefarwn—y teimlwn—y barnwn [*Alford*]. Y mae Bengel ac Olshausen, gan ddilyn rhai o'r tadau, yn barnu fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at y tair dawn flaenorol—"llefaru," at ddawn tafodau; "deall," synied neu deimlo, at brophwydoliaeth; "meddwl," barnu neu ymresymu, at ymadrodd gwybodaeth. Ond y mae Hodge, Alford, ac ereill, yn gwrthod y golygiad, gan hôni nad yw y tri gair yn cyfatteb ond i raddau ammherffaith i'r tair dawn. *Ond pan aethum yn ŵr:*—Nid yw yn dywedyd, "Pan roddais heibio bethau bachgenaidd, mi a ddaethum yn ŵr;" ond yn y gwrthwyneb. Nid yw y gauaf yn dwyn gwanwyn, ond y gwanwyn sydd yn ymlid y gauaf ymaith. Felly hefyd y mae yn yr enaid ac yn yr eglwys [*Bengel*]. Nid yw yn canlyn oddi wrth y geiriau hyn, fod ein golygiadau yn y byd hwn am bethau dwyfol yn anghywir. Mor bell ag y maent yn myned, y maent yn gywir. Ond nid ydynt yn cyrhaedd yn bell: golygiadau annigonol ydynt. Etto, y maent yn gywir, o blegid y maent yn gorphwys ar ddadguddiad Duw ei hun: yr unig ddadguddiad a allesid ei roddi i ni yn ein sefyllfa bresennol, ac felly y dadguddiad mwyaf addas i'r sefyllfa hono. Nid amcan yr apostol ydyw ansefydlu ein ffydd a'n hyder yn yr hyn a ddadguddia Duw trwy ei air a'i Ysbryd i'w bobl, ond ein dwyn i beidio golygu yr ystad bresennol fel y fwyaf perffaith; ein dwyn, tra yn ddiolchgar am yr hyn a gawsom, i ddyheu am y cyflawn a'r perffaith.

12. *Yr awr hon*:—yn ein sefyllfa bresennol, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Cadarnhâd ydyw yr adnod hon o'r hyn a fynegir yn yr adnod flaenorol. Ammherffaith ydyw ein gwybodaeth yn y presennol, "*Canys* gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dammeg." Nid ydym i ddeall yr arddodair *trwy* yn yr ystyr offerynol, *trwy gyfrwng*, ond yr ystyr leol—gweled *trwy*, fel trwy ffenestr; etto, nid gweled trwy gyfrwng tryloew, megys gwydr, ydyw y meddwl, ond gweled mewn drych. Yr un ydyw yr ystyr yma i'r gair *drych* ag sydd iddo yn *Iago* i. 23. Etto, dywedir *trwy* ddrych, nid *mewn* drych; o blegid er fod y gwrthddrych a welir mewn gwirionedd yr un ochr i'r drych a'r edrychydd, etto yn ymddangosiadol y mae fel arall—y mae yr edrychydd yn ei weled *trwy* y drych. Pres neu fath arall o fetel oedd drychau yr hynafiaid, heb fod

awrhon trwy ddrych, mewn dam-
[s] Exod. 33. 11. meg; ond yna, [s] wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir.

[t] 1 Pedr 1. 23. 13 Yr awrhon y mae [t] yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn *yw* cariad.

yn agos mor berffaith a'r eiddom ni yn yr oesoedd diweddar hyn. Y mae cofio hyn yn angenrheidiol mewn trefn i deimlo grym y gymmhariaeth. *Mewn dammeg.*—Y gair gwreiddiol am ddammeg ydyw yr un a gyfleithir *enigma* yn yr iaith Saesnig, sef ymadrodd tywyll. Y mae y darlleniad Cymraeg yn rhagorach na'r darlleniad rhagferfol Saesneg, *darkly.* Y mae y Saesneg yn ddeilliadol *(subjective)*—ni yn gweled yn aneglur; ond y mae y Cymraeg, yn ol y gwreiddiol, yn wrthddrychol *(objective)*—yn gweled mewn dammeg, sef mewn awgrymau aneglur. Y mae gwirioneddau dwyfol heb eu dadguddio yn y byd hwn fel y maent ynddynt eu hunain. Nid yw yn bossibl eu deall gan ddyn ond mewn drychau tywyllion. Nid oedd yn bossibl eu dadguddio i ni ond yn y dull hwn. Yn ngeiriau a delweddau cynnefin dynoliaeth yn unig y gallesid eu hysbysu. Buasent yn gwbl goruwch ein dirnadaeth ni pe dadguddiesid hwynt trwy ryw ddulliau gwahanol. Etto, trwy eu dwyn i lawr at ein hamgyffredion, yr oedd yn rhaid eu diosg o'u mawredd nefol eu hunain. Y mae yn amlwg nas gallesid cyflwyno cystal drychfeddwl i ni a'n berthynasau y Drindod â'u gilydd a thrwy alw un person yn Dad, yr ail yn Fab, a'r trydydd yn Ysbryd—anadl, neu wynt. Etto, nid ydyw y perthynasau hyn, y rhai yr ydym yn ymwybodol o'r teimladau a gynnwysir ynddynt, ond dammegion aneglur o'u perthynasau dwyfol. Nid oes neb wedi ysgrifenu yn well ar hyn na Mansel, yn ei lyfr ar *The Limits of Religious Thought. Wyneb yn wyneb* :—a arwydda, yn ddigyfrwng: *Gen.* xxxii. 31; *Num.* xii. 8. *Yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir* :—yna, yn y sefyllfa berffaith, yr adnabyddaf Dduw megys yr adwaenir fi gan Dduw yn y sefyllfa bresennol. Megys y mae Duw yn berffaith, yn ei anfeidroldeb ei hun, felly y bydd y saint yn y nefoedd yn berffaith hyd eithaf gallu a chyrhaeddiad eu natur. Gofynir i ni fod yn berffaith fel y mae ein Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith: *Mat.* v. 48. "Yn y byd hwn yr ydym yn adnabyddus gan Dduw, yn hytrach, nag yn adnabod Duw:" *Gal.* iv. 9; 1 *Cor.* viii. 3.—*Alford.*

13. *Yr awrhon.*—Nid ydyw hyn yn arwyddo parhâd [felly *Bengel, Alford, Olshausen*]; hyny yw, nid amcan yr apostol ydyw rhoddi ar ddeall fod ffydd, gobaith, a chariad, yn aros yn y sefyllfa bresennol. O blegid y mae y gair *aros* yn dynodi parhâd fydd yn ymestyn tu hwnt i'r sefyllfa ammherffaith hon. Yr ystyr yw (*rebus sic stantibus*), gan fod y pethau hyn felly, y mae yn aros. Acy mae yn amlwg fod y ddau ystyr i'r geiriau "yr awrhon" yn cyfleu dau arwyddocâd cwbl wahanol i'r adnod. Meddwl yr adnod yw, Y mae rhai doniau i ddiflanu; ond bydd i'r tri gras yma, ffydd, gobaith, a chariad, aros byth. Dywed Alford mai y gair mwyaf arbenig, y gair y gorwedda pwys yr adnod arno, yw *aros,* fel yn wrthgyferbyniol i'r pethau ag y dywedir yn

PENNOD XIV.

1 *Canmol prophwydoliaeth, 2, 3, 4 a'i osod o flaen ilefaru â thafodau dyeithr, 6 trwy gyffelybrwydd oddi wrth offer cerdd:* 12 *rhaid yw cyfeirio pob un o'r ddau tu ag at ddeiladaeth,* 22 *megys tuag at eu gwir a'u priodol bennod:* 26 *iawn arfer pob un o'r ddau,* 29 *a'u cam arfer.* 34 *Gwarafun gwraged i lefaru yn yr eglwys.*

B. A. 57. — [a] Dinr. 15. 9; Rhuf. 9. 30; Heb. 12. 14. [b] 1 Cor. 13, 1—8. [c] 1 Cor. 12. 1, 31.

DILYNWCH[a] gariad, [b]a [c] deisyfwch *ddoniau* ysbrydol; flaenorol eu bod i beidio pallu a diflanu. Y mae yr ymadrodd, *y tri hyn,* yn gosod arbenigrwydd i ffydd, gobaith, a chariad, uwchlaw yr holl ddoniau blaenorol. Ond yr anhawsder, yn ol yr esboniad yma, ac yn ddiammheu yr esboniad cywir, ydyw, Pa fodd y gellir dywedyd am ffydd a gobaith eu bod i barhau byth? Onid yw ffydd i droi yn olwg, a gobaith yn fwynhâd? Onid yw yr un apostol mewn manau ereill yn darlunio ffydd a gobaith fel grasau sydd yn angenrheidiol yn unig i'n sefyllfa ammherffaith bresennol (*Rhuf.* viii. 24; 2 *Cor.* v. 7; *Heb.* xi. 1)? Onid sail neu sylwedd y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd neu arbroñad o'r pethau nid ydys yn eu gweled, yw ffydd? Yr atteb a roddir i hyn yw, y bydd y grasau hyn yn aros byth yn eu hanfod, er nad yn eu ffurf, neu eu dull presennol o weithredu. Hanfod ffydd ydyw hyder ac ymddiried yn Nuw; ac y mae yn rhaid addef y bydd ffydd, yn y golygiad yma arni, yn aros yn y nefoedd: ïe, yn y nefoedd y bydd wedi cyrhaedd ei pherffeithrwydd. A'r un modd am obaith. Bydd i ryfeddodau a mwynderau newyddion, fel y bydd tragwyddoldeb yn eu dadblygu, yn codi ac yn ennyn gobeithion newyddion ac uwch yn ysbrydoedd y saint yn ddiddiwedd. "Nid ydyw gweled a mwynhau yn y nefoedd yn symmud neu ddiddymu ffydd a gobaith, ond yn hytrach yn eu cyflawni."—*Bileroth. A'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.*—Beth sydd yn gwneuthur cariad y mwyaf o'r tri hyn? Am mai cariad yw gwreiddyn y lleill. Y mae cariad yn cynnwys ffydd a gobaith. Yr ydym yn credu yr hwn a gerir genym. Mewn un felly yn unig y gallwn ymddiried; a'r hyn yr ydym yn ei garu yr ydym yn gobeithio am dano. Dyma olygiad De Wette ac Alford. Y mae Hodge yn gwadu hyn, ond heb ddigon o reswm, hyd ag y gallwn ni farnu. Ei olygiad ef yw, y gelwir cariad y mwyaf yn yr un ystyr ag y priodola ragoriaeth i un ddawn ar ddawn arall, fel y mae prophwydoliaeth yn rhagorach na dawn tafodau, am ei bod yn fwy buddiol. Felly hefyd y mae cariad yn fwy buddiol i ereill na ffydd a gobaith. Y mae ffydd yn cadw y dyn ei hunan, ond y mae cariad yn lleshau ereill. Hwn hefyd yw golygiad Calvin. Ond y mae y cyntaf yn ymddangos i ni yn fwy cywir. Cariad ydyw y ffurf uchaf ar ras; cariad ydyw y bywyd ysbrydol ei hun. Cariad yw amcan yr holl rasusau. Trwy gariad y mae y dyn yn ymdebygu fwyaf i Dduw, am yr hyn y dywedir mai cariad yw. Bywyd yr holl rasau ereill yw fod cariad yn treiddio drwyddynt oll.

Pennod XIV

1—25. Prawf o ragoriaeth dawn prophwydoliaeth ar ddawn tafodau.

1. Dangoswyd yn y peunodau blaenorol (*a*) Fod holl ddoniau anghyffredinol yr Ysbryd yn wrthddrychau priodol i ddeisyfu am danynt.

ond yn hytrach fel y prophwydoch.

2 Canys yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dyeithr*, nid wrth ddynion y mae yn llefaru, ond wrth Dduw: canys nid oes neb yn gwrandaw; er hyny yn yr ysbryd y mae efe yn llefaru dirgeledigaethau.

3 Eithr yr hwn sydd yn prophwydo, sydd yn llefaru wrth ddynion er adeiladaeth, a chynghor, a chysur.

Adn. 14. 4 Yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dyeithr*, [d]sydd yn ei adeiladu ei hunan; eithr yr hwn sydd

Adn. 3, 18, 19. yn prophwydo, [e]sydd yn adeiladu yr eglwys.

5 Mi a fynwn pettych chwi oll yn llefaru â thafodau *dyeithr*; [f]ond yn hytrach brophwydo o honoch: canys mwy *yw* yr hwn sydd yn prophwydo, nâ'r hwn sydd yn llefaru â thafodau; oddi eithr iddo *ei* gyfieithu, fel y derbynio yr eglwys adeiladaeth.

[f] Adn. 1, 3.

[g] 1 Cor. 10. 33; 12. 7; 13. 3; 1 Sam. 12. 21; Mat. 16. 26; 2 Tim. 2. 14; Tit. 3. 8; Heb. 13. 9.

6 *Ac* yr awrhon, frodyr, os deuaf atoch gan lefaru â thafodau, [g]pa lesâd a wnaf i chwi, oni lefaraf wrthych naill ai trwy [h]weledigaeth, neu trwy wybodaeth, neu trwy brophwydoliaeth, neu trwy athrawiaeth?

[h] 1 Cor. 26. 30; Mat. 11. 25; Eph. 1. 17; Phil. 3. 15.

7 Hefyd pethau dienaid, wrth roddi sain, pa un bynag ai pibell ai telyn, [i]oni roddant wahaniaeth

[i] Adn. 8; Num. 10. 2–10; Mat. 11. 17; Luc 7. 32.

---

b) Eu bod yn gwahaniaethu yn eu gwerth cymhariaethol. (*c*) Bod cariad o fwy o werth na phob dawn. Yn unol â hyn, annoga yr apostol i Corinthiaid i ddilyn cariad; neu i gyrchu ar ol cariad, fel mewn gyrfa (*Phil.* iii. 12, 14). Ar-geisiwch gariad fel y daioni penaf. Etto, nid yw rhagoriaeth cariad ar ddoniau ysbrydol yn peri na ddylech ddeisyf yr olaf hefyd. Dywed Bengel fod y gair a gyfieithir *dilyn* yn cynnwys mwy na'r gair a gyfieithir *deisyf*.

2. Rheswm pa ham yr oeddynt yn hytrach i ddeisyf dawn prophwydoliaeth. Dangosir, ebe Hodge, yn yr adnod hon, y tri pheth canlynol: —fod yr hwn sydd yn llefaru â thafodau, yn llefaru nid wrth dynion, ond wrth Dduw—fod yn yn cynnwys nad yw dynion yn ei ddeall; mai yr achos ei fod yn annealladwy i ddynion oedd rhywbeth yn y cyfrwng trwy ba un y llefarai, yn hytrach nag yn y pethau a leferid ganddo. *Er hyny*, &c.—Nid ydym i olygu ysbryd y dyn ei hun, ond Ysbryd Duw. Y mae yr ymadrodd "llefaru yn yr Ysbryd" yn arferedig yn y Testament Newydd, am lefaru dan gynhyrfiad ac arweiniad yr Ysbryd Glân. Ystyry gair *dirgeledigaethau* yn y fan hon ydyw gwirioneddau dwyfol. Nid yw yn cael ei arfer yma mewn ystyr ddrwg, yn ol golygiad Calvin: "Yr wyf yn deall y geiriau fel yn golygu ymadroddion tywyll, aneglur, a chymmysglyd, fel pe dywedasai, 'Y mae yn llefaru yr hyn nis gall neb ei ddeall.'" Hyn hefyd ydyw golygiad Alford: "pethau cuddiedig oddi wrth y gwrandawyr, ac weithiau oddi wrtho ef ei hun." Gwir fod yr hyn a leferid â thafodau dyeithr, fel y dywed Calvin ac Alford; ond y cwestiwn yw, ai dyma feddwl y gair *dirgeledigaethau* yn y fan hon? Onid oeddynt hefyd yn llefaru pethau a ddadguddid iddynt gan yr Ysbryd Glân? Ac onid mwy tebygol yw fod y gair *dirgeledigaethau* yn cael ei ddefnyddio yma i olygu y wedd ddwyfol ar y ddawn, yn hytrach na'r anfantais ddynol a berthynai iddi? Dyma ystyr cyffredin y gair. Y mae y frawddeg yn amddifad o ystyr yn ol y golygiad a wrthwynebir genym. Darllenai fel hyn: "Canys nid oes neb yn ei ddeall [*Cymraeg* 'yn gwrandaw'], er hyny yn yr Ysbryd y mae efe yn llefaru pethau ammhossibl i'w deall."

3. Yr oedd y prophwyd yn llefaru yn iaith y gwrandawyr: nid felly yr hwn a lefarai â thafodau. *Adeiladaeth*:—yn cynnwys y ddau olaf, sef *cynghor* (neu annogaeth), a *chysur*.

4. *Ei adeiladu ei hunan*:—yr hyn, medd rhai, yw y golygiad mwyaf naturiol, sydd yn arwyddo ei fod yn deall yr hyn a lefarai. Ond y mae ereill [*Alford*, &c.] yn dadleu nad yw yr adnod o angenrheidrwydd yn cynnwys hyny; o blegid y gellir ystyried fod defnyddiad y ddawn, yn unol â chynnhyrfiad yr Ysbryd, yn adeiladaeth i'r dyn yn bersonol. Yr oedd dwysder ei deimlad mewn gweddi neu fawl, o duedd i'w leshau, er iddo fod yn anwybodus o'r hyn a lefarai. Dywed Alford fod y golygiad hwn yn angenrheidiol ar gyfrif yr hyn a ddywedir yn *adn.* 5; sef, os gallai gyfieithu, y derbyniai yr eglwys adeiladaeth. Ond y mae yr wrthddadl a nodasom yn flaenorol yn ddigonol, dybygem, fel attebiad i hyn. Yr oedd cyfieithu yn ddawn ar ei phen ei hun; a phossibl oedd i'r hwn a lefarai mewn tafod dyeithr ddeall yr hyn a lefarai, heb gael ei gynnhyrfu gan yr Ysbryd i gyfieithu er adeiladaeth yr eglwys.

5. Dengys yr apostol yma nad oeddynt i dybied, oddi wrth yr hyn a ddywedasai, ei fod yn dibrisio dawn tafodau. *Mwy yw yr hwn sydd yn prophwydo*:—Mwy mewn buddioldeb, ac felly mewn urddas: gwel *adn.* 6. Ond os cyfieithir yr hyn a lefarwyd â thafodau, bydd y ddau ynghyd yn gystal a phrophwydoliaeth: o blegid bydd dadguddiad o wirionedd dwyfol wedi ei ddwyn at ddeall y bobl. Gwelir yma fod yr hyn a leferid mewn tafod dyeithr o duedd i adeiladu, ac mai nid rhyw ebychiadau anghysylltiol o fawl a gweddi, yn codi oddi ar deimlad cynnhyrfedig yn unig ydoedd.

6. O barth i'r pedwar gair sydd yn niwedd yr adnod, y mae y cyntaf i'w gyssylltu â'r trydydd, a'r ail â'r pedwerydd. Deuai prophwydoliaeth trwy weledigaeth neu ddadguddiad (yr hwn ydyw y gair sydd yn cyfatteb oreu i'r gwreiddiol), ac athrawiaeth trwy wybodaeth. Yr oedd yr hwn a gaffai weledigaeth neu ddadguddiad yn brophwyd: yr hwn a feddai wybodaeth yn ddysgawdwr neu athraw.

7. Yn lle *hefyd* yn nechreu yr adnod, darllener *etto*, yr hwn air a ddyiassai fod o flaen "oni roddant wahaniaeth yn y sain." Amcan y gymmhariaeth hon ydyw dangos aflesoldeb y seiniau nad ydynt yn cael eu deall. Nid yw golygiad Calvin yma yn gywir. Tybia efe mai y gyfattebiaeth ydyw—fod y rhai a lefarent â thafodau yn traddodi math o gymmysgedd diwerth, cyffelyb i'r cymmysgedd seiniau a wnelid gan

yn y sain, pa wedd y gwybyddir y peth a genir ar y bibell, neu ar y delyn?

8 Canys os yr udgorn a rydd sain anhynod, pwy a ymbarotoa i ryfel?

9 Felly chwithau, oni roddwch â'r tafod ymadrodd deallus, pa wedd y gwybyddir y peth a leferir? canys chwi a fyddwch yn llefaru wrth yr awyr.

10 Y mae cymmaint, ysgatfydd, o rywogaethau lleisiau yn y byd, ac nid *oes* un o honynt yn aflafar.

11 Am hyny, oni wn i rym y llais, myfi a fyddaf farbariad i'r hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd yn llefaru *a fydd* i mi yn farbariad.

12 Felly chwithau, [k]gan eich bod yn awyddus i *ddoniau* ysbrydol, ceisiwch ragori tuag at adeiladaeth yr eglwys. [k] 1 Cron. 1; 12-7. 31; Tit. 2. 14.

13 O herwydd pa ham, yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dyeithr*, gweddied a'r iddo allu cyfieithu.

14 Canys os gweddiaf â thafod *dyeithr*, [l]y mae fy ysbryd yn [l] 1 Cron. 2, 15, 16, 19.

offerynau difywyd, oddi eithr i'r cyfryngau a'r yspeidiau rheolaidd rhwng pob sain gael eu cadw. Ond nid yw hyn yn unol â'r olwg a rydd yr apostol ar y ddawn hon. Y mater i'w ddangos ydyw yr anfuddioldeb o ganu offeryn cerdd, ac o lefaru, oni bydd y seiniau a'r geiriau yn cyfleu syniadau i'r gwrandawyr.

8. Cadarnhâd o'r hyn a ddywedir yn niwedd yr adnod o'r blaen. Nid ydyw y sain a roddir allan yn cynnyrchu ei effaith briodol, os bydd yn ansicr ac annealladwy. Oddi wrth wahanol nodau'r udgorn y gwybyddai y fyddin pa bryd i wneyd ymosodiad ar y gelyn, neu pa bryd i gilio yn ol. Er i'r udgorn seinio yr alwad i ryfel, etto os na ddeallir y sain, pwy a ymbarotoa? Felly, hefyd, er i'r dyn lefaru y daddguddiadau ardderchocaf o wirionedd dwyfol, etto pa fudd fyddai hyny i'r rhai sydd heb ddeall. *Anhynod* :—Ansicr, aneglur yn ei ystyr.

9. Yr esamplau neu y cymmhariaethau uchod yn cael eu cymmhwyso at y mater dan sylw. *A'r tafod* :—Offeryn y geiriau ; yn cyfatteb i'r bibell neu y delyn, fel offeryn y seiniau. *Wrth yr awyr*, neu *i'r awyr* :—Bydd i'ch geiriau golli yn yr awyr. Ni dderbynir hwynt gan neb.

10. Y mae y gair a gyfieithir *ysgatfydd* yn cael ei ddefnyddio i wneuthur adroddiad yn amhennodol pan y mae manylder naill ai yn amhossibl neu yn ddibwys. Nid oedd o un pwys, gyda golwg ar fater yr apostol, pa un ai mwy ynte llai sydd o rywogaethau lleisiau yn y byd. Rhywogaethau lleisiau, yn ol Calvin, a olyga lais neu gri naturiol pob anifail. Nid oes un creadur byw yn fud. Y mae ei gri yn cael ei ddeall gan ei rywogaeth ei hun. Ond y mae y nifer mwyaf o esbonwyr yn barnu mai ieithoedd a feddylir wrth leisiau; ac nid oes un iaith yn aflafar, *h.y.*, heb ystyr a meddwl. Hanfod ac amcan iaith ydyw ei bod yn meddu ar ac yn cyfleu ystyr. Y mae y gymmhariaeth hon yn cadarnhau y syniad mai ieithoedd gwahanol oedd y tafodau dyeithr. Fel y mae i bob iaith ei hystyr, felly hefyd i'r tafodau hyn. Nid yn yr iaith a leferid yr oedd yr anhawsder, ond yn anwybodaeth y gwrandawr.

11. *Rym y llais* :—Ystyr, arwyddocâd, yr hyn a leferir. *Farbariad*.—Dyn o wlad dramor. Yr oedd pob cenedl arall, pa un bynag ai gwareiddiedig ai peidio, yn farbariaid i'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Fel yr oedd gwareiddiad yn dyfod yn gyfyngedig i'r cenhedloedd hyn, daeth y gair *barbariad* i gael ei gymmeryd yn gyfystyr âg anwariad. Ond nid ydyw yn meddu dim o'r arwyddocâd hwn yn y fan hon.

13. Y mae yn anhawdd cael allan feddwl yr adnod hon. Y mae Hodge yn ei deall yn unol â'r darlleniad Cymraeg, sef "Gweddïed am y ddawn o gyfieithu." Dyma olygiad lliaws ereill; ac yn eu mysg, Chrysostom, ac amryw o'r tadau, Calvin, Beza, Grotius, Olshausen. Y mae golygiad Alford ac ereill yn wahanol: "Os gweddïa un â thafod dyeithr, y mae ei ysbryd yn gweddïo, ond ei ddeall yn ddiffrwyth. Y weddi hon yn yr ysbryd ydyw, cyfeiriad dwys ei ewyllys a'i serchiadau at Ddiuw, yn cael ei ddilyn gan fynegiad geiriau sydd yn annealladwy iddo. Ynabydded i'r hwn sydd yn llefaru â thafod dyeithr weddïo gydag ymdrech (yn ngweddi ei ysbryd) am y ddawn o gyfieithu. Ymdreched, wrth weddïo, am y ddawn o gyfieithu." Y gwrthddadleuon i'r golygiad hwn ydynt, y cymmerir yma yn ganiataol mai gweddïo a moliannu oedd unig waith yr hwn a lefarai â thafodau; ei fod yn gynnwysedig mewn mynegiad cynnhyrfus o eiriau mawl a gweddi, oeddynt yn annealladwy nid yn unig i ereill, ond hefyd i'r dyn ei hunan. Ond dywedir fod y dybiaeth yma yn groes i'r ysgrythyr. Gwel *Act.* ii. 5, 11. A cheir yn yr ymdriniaeth yn y pennodau hyn nad oedd llefaru â thafodau yn gyfyngedig i fawl a gweddi.

14. Y rheswm pa ham y dylai yr hwn sydd yn llefaru â thafodau dyeithr weddïo am iddo allu cyfieithu. Oddi eithr iddo allu cyfieithu, nis gall eiſweddi wneuthur lles. Yr un syniad ag a geir yn *adn.* 16, 17. Nis gall yr anghyfarwydd ymuno â'r gweddïwr. *Y mae fy ysbryd yn gweddïo.*—Gwelsom yn y sylw ar yr adnod flaenorol mai drychfeddwl yr ymadrodd hwn, yn ol Alford ac ereill, ydyw, fod y galon a'r ewyllys yn gweddïo—fod galluoedd uchaf yr enaid yn weithgar—dyhead y galon a'r serchiadau am bethau dwyfol yn ddwys a chryf, pan y mae y dyn yn gweddïo mewn tafodau dyeithr; ond fod ei ddeall yn amddifad o syniadau am yr hyn a lefarai. Y mae ereill yn barnu mai wrth yr ysbryd y meddylir, "Yr Ysbryd Glân ynof fi. Fy nawn ysbrydol, neu fy ysbryd i fy hun fel offeryn (*organ*) yr Ysbryd Glân. Y mae gan bob un ei ysbryd (*adn.* 12), sef ei ddawn ysbrydol ei hun. A meddwl yr apostol yw—pan y mae dyn yn gweddïo gyda thafod dyeithr, fod ei ddawn ysbrydol yn cael ei harfer: mewn geiriau ereill, fod yr Ysbryd Glân yn weithgar o'i fewn, ond nad yw ereill yn cael eu hadeiladu. "Ni ddylid meddwl fod yr hwn a lefarai â thafodau dyeithr yn benboethyn, neu fel un gwallgof. Y mae mewn gwirionedd yn *organ* yr Ysbryd Glân. Ond gan nad ydyw dylanwad yr Ysbryd, dan ba

gwe ldïo. ond y mae fy neall yn ddiffrwyth.

15 [m]Beth gan hyny? [n]Mi a weddïaf â'r ysbryd, ac a weddïaf â'r deall hefyd: canaf â'r ysbryd, [o]a chanaf â'r deall hefyd.

16 Canys os bendithi â'r ysbryd, pa wedd y dywed yr hwn sydd yn cyflawni lle yr anghyfarwydd, Amen, â dy ddodiad diolch, gan nas gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd?

17 Canys tydi yn ddiau ydwyt yn diolch yn dda, ond y llall nid yw yn cael ei adeiladu.

18 Yr [p]ydwyf yn diolch i'm Duw, fy mod i yn llefaru â thafodau yn fwy na chwi oll:

19 Ond [q]yn yr eglwys gwell genyf leferu pum gair trwy fy neall, fel y dysgwyf ereill hefyd, na myrddiwn o eiriau mewn tafod *dyeithr.*

20 *O* frodyr! na fyddwch fechgyn mewn deall: eithr [r]mewn drygioni byddwch blant; ond mewn deall byddwch berffaith.

21 Yn y ddeddf y mae yn ysgrifenedig, Trwy rai estronieithus, a *thrwy* wefusau estronol, y llefaraf wrth y bobl hyn; ac ni'm gwrandawant felly, medd yr Arglwydd.

22 Am hyny tafodau ydynt arwydd, nid i'r rhai sydd yn credu, ond i'r rhai digred: eithr pro-

[m] 1 Cor. 10. 19; Rhuf. 3. 5; 8. 31; Phil. 1. 18. [n] Adn. 19; Ioan 4. 23, 24; Rhuf. 1. 9; Eph. 5. 17—20; 6. 18; Col. 3. 16; Judas 20. [o] Salm 47. 7; Rhuf. 12. 1, 2.

[p] 1 Cor. 1. 4—6; 4. 7

[q] Adn. 4, 21, 22.

[r] Mat. 18. 33; 1 Pedr 2. 2.

un y llefara, yn anwrthwynebol, ni ddylai arfer ei ddawn, pan na wna hyny ddim llesâd i ereill. Dylai lefaru, wrtho ei hun ac wrth Dduw (*adn* 28).—*Hodge. Fy neall yn ddiffrwyth.*—Yn ol rhai, nid oedd efe ei hunan yn deall yr hyn a lefarai; ond yn fwy unol âg ymadroddion ereill, nid oedd ei ddeall yn adeiladu ereill. Edrych y mae yr apostol yn y bennod hon at fuddioldeb y gwahanol ddoniau, nid i'r dyn ei hun, ond i'r eglwys. Cadarnheir y golygiad hwn gan yr adnodau canlynol. Yr wrthddadl fwyaf pwysig i'r eglurhâd hwn ydyw, y dylid deall *fy ysbryd*, yn gystal a *fy neall*, am wahanol alluoedd y dyn ei hun, ac nid y cyntaf am Ysbryd Duw. Y dull yr attebir yr wrthddadl hon ydyw, mai nid yr Ysbryd Glân fel person a olygir, wrth "fy ysbryd," ond yr Ysbryd yn ei ddylanwad, a'r amlygiadau o hono yn Ysbryd y dyn—dawn ysbrydol y dyn ei hun. Y mae yr un grym yn yr wrthddadl yn erbyn yr ymadrodd "ysbrydoedd y prophwydi:" o blegid "ysbrydoedd y prophwydi" a olyga yr Ysbryd Glân yn ei weithrediadau ynddynt, neu y dylanwad ysbrydol ag yr oeddynt hwy yn ddeiliaid o hono.

15. *Beth gan hyny?*—Beth yw'y casgliad oddi wrth yr hyn a ddywedwyd? *A'r deall* a arwydda gyda'r bwriad o gyfeithu [*Meyer*], neu, gyda'r amcan o gael fy neall [*Hodge*]. Ebe yr olaf, "Pan lefarai dyn â'r ysbryd, yr ysbryd oedd y prif ysgogydd yn ei gynnhyrfu i lefaru, ac yn penderfynu pa beth a lefarai. Pan lefarai â'i ddeall, y deall oedd yr egwyddor lywodraethol. Ond yr oedd modd uno y ddau. Gallai y dyn lefaru yn y fath fodd dan arweiniad yr Ysbryd fel ag i fod yn ddealladwy i ereill.

16, 17. *Cyflawni lle yr anghyfarwydd.*—Yr anghyfarwydd ei hun. Nid oes yma un cyfeiriad at sedd i'r cyfryw yn y gynnulleidfa. "Yr anghyfarwydd" a arwydda un sydd allan o swydd, mewn cyferbyniad i swyddwr. Y mae yn cael ei ddefnyddio gyda chyfeiriad at amryw o sefyllfaoedd neu swyddi, yn yr ystyr o lëygwr—un anwybodus o waith rhyw swydd neilldiol. Gyda golwg ar faterion gwladol, arwydda un heb fod mewn swydd yn y wladwriaeth: gyda golwg ar athrawiaeth, un annysgedig. Dynoda yma yr un sydd yn amddifad o'r doniau ysbrydol—un heb allu llefaru â thafodau, ac heb allu cyfieithu. *Amen.*—Ansoddair Hebraeg, yn arwyddo *gwir*

neu *fyddlawn;* yn dynodi cydsyniad â'r hyn a ddywedir—*Felly y byddo.* Yr oedd y bobl yn y synagog yn arfer dywedyd yr "Amen." Gwel hefyd *Deut.* xxvii. 15, 26; a *Neh.* viii. 6. Ac yr oedd yr Iuddewon yn rhoddi pwys mawr ar hyn. Elent weithiau i ofergoeledd gyda'r peth hwn. Ceir ymadroddion fel y canlyn yn rhai o'r Rabbiniaid:—"Y mae yr hwn a ddywed Amen yn fwy na'r hwn sydd yn bendithio." "Y mae pyrth paradwys yn agored i'r hwn a ddywedo Amen." "Pwy bynag a ddywedo Amen yn fyr, byrheir ei ddyddiau: pwy bynag a'i dywedo yn eglur a hirseiniol, estynir ei ddyddiau." Dywed Justin Martyr fod yr arferiad hon wedi ei throsglwyddo i'r Eglwys Gristionogol; ac awgrymir hyny yn yr adnod hon. Iawn y sylwa Calvin, Doddridge, ac ereill, fod eglwys Rhufain yn parhau yn gyndyn i arfer iaith farbaraidd yn yr addoliad cyhoeddus, yn erbyn gorchymyn pendant yr Ysgrythyr, yn gystal ag yn groes i reswm a synwyr cyffredin.

19. Rhoddir ar ddeall yn yr adnod hon fod yr hwn a lefarai mewn tafodau dyeithr yn deall yr hyn a lefarai; ac nad oedd ar y pryd mewn ystâd o anymwybyddiaeth.

20. *Fechgyn mewn deall.*—Yr hyn oeddynt, yn eu gwaith yn rhoddi mwy o bris ar y ddawn o lefaru â thafodau nag ar un ddawn arall.

21. Dyfynir o *Esay* xxviii. 11, 12. Nid yw yr ymadrodd yn cael ei ddyfynu fel yn meddu un cyfeiriad prophwydol at amgylchiadau eglwys Corinth, ond o herwydd yr addasrwydd sydd yn y geiriau i osod allan y mater dan sylw. Yr oedd yr Iuddewon wedi gwrthod gwrandaw ar y prophwydi yn llefaru yn eu hiaith eu hunain, a bygythiai Duw ddwyn atynt bobl nas gallent ddeall eu hiaith. Yr oedd hyn yn farn arnynt. A gallasai y Corinthiaid ddeall oddi wrth hyn nad oedd yn arwyddo ffafr Duw, ei fod yn rhoddi iddynt athrawon nas gallent eu deall.

22. *Tafodau ydynt arwydd.*—Cynnygir amryw olygiadau fel esboniad ar y gair *arwydd.* 1. Yn yr ystyr o nôd neu brawf; yn yr un ystyr ag "arwyddion apostol" (2 *Cor.* xii. 12)—yr arwyddion neu y nodau wrth ba rai yr adwaenir apostol. Yn ol yr ystyr hwn, meddwl yr ymadrodd ydyw:—Tafodau ydynt brawf fod y rhai yr arferir hwynt yn eu mysg yn anghredinwyr; a phrophwydoliaeth sydd brawf eu bod yn gredinwyr. Ond dywedir fod gwrthddadl ieithyddol

phwydoliaeth, nid i'r rhai digred, [s] ond i'r rhai sydd yn credu.

[s] Adn. 3.
[t] 1Cor. 11. 18.

23 Gan hyny [t] os daw yr eglwys oll ynghyd i'r un lle, a llefaru o bawb â thafodau *dyeithr*, a dyfod o rai annysgedig neu ddigred i mewn; [u] oni ddywedant eich bod yn ynfydu?

Hos. 9. 7; Ioan 10. 20; Act. 2. 13; 26. 24.
[u] Ioan 1. 47-49; 4. 29; Act. 2. 37; Heb. 4. 12, 13.

24 Eithr os prophwyda pawb, a dyfod o un digred neu annysgedig i mewn, [x] efe a argyhoeddir gan bawb, a fernir gan bawb:

[x] Gen. 44. 14; Deut. 9. 18; Salm 72. 11; Esa. 60. 14; Luc 5. 8; 8. 28; Dad. 5. 8; 19. 4.

25 Ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; ac felly [y] gan syrthio ar *ei* wyneb, efe a addola Dduw, gan ddywedyd fod [z] Duw yn wir ynoch.

[y] Esa. 45. 14; Zech. 8. 23.

26 Beth gan hyny, frodyr? pan ddeloch ynghyd, [a] y mae gan bob un o honoch salm, y mae *ganddo* athrawiaeth, y mae *ganddo* dafodiaith, y mae *ganddo* ddadgudd-iad, y mae *ganddo* gyfieithiad.

[a] Adn. 6; 1Cor. 12. 8—10.

[b] Gwneler pob peth er adeiladaeth.

[b] Rhuf. 14. 19; 2Cor. 12. 19; 13. 10; Eph. 4. 12, 16. 29; 1 Thes. 5. 11.

27 Os llefara neb â thafod *dyeithr*, *gweler* bob yn ddau, neu o'r mwyaf *bob yn* dri, a hyny ar gylch; a chyfieithed un.

28 Eithr oni bydd cyfieithydd, tawed yn yr eglwys; eithr llefared wrtho ei hun, ac wrth Dduw.

29 *A* llefared y prophwydi ddau neu dri, a [c] barned y lleill.

[c] 1 Thes. 5. 20, 21.

30 Ac os [d] dadguddir *dim* i un arall a fo yn eistedd yno, tawed y cyntaf.

[d] Adn. 6, 26.

---

yn erbyn y golygiad hwn. Yn lle arwydd *i*, dylasai fod arwydd *o*. 2. Yn yr ystyr o ryfeddod; megys yn yr ymadrodd, "arwyddion a rhyfeddodau." Yn ol hyn, y meddwl fyddai:—Tafodau ydynt ryfeddod wedi ei fwriadu er budd anghredinwyr, nid er budd credinwyr. Ond nid yw hyn yn wir, nac yn unol âg *adn.* 24. 3. Yn yr ystyr o rybudd:—Tafodau ydynt rybudd i anghredinwyr: gan olygu wrth anghredinwyr, nid y rhai sydd heb ffydd, ond y rhai sydd yn wrthodwyr ystyfnig o'r gwirionedd. Ond nid dyma ystyr y gair yn y bennod hon. Heb law hyny, y mae yn amlwg nas gellir cario allan yr ystyr hwn i'r rhan olaf o'r adnod:—"prophwydoliaeth sydd rybudd i'r credinwyr." 4. Yn yr ystyr o amlygiad o'r presennoldeb dwyfol:—"Tafodau ydynt arwydd o bresennoldeb Duw, yn meddu cyfeiriad, nid at gredinwyr, ond at anghredinwyr: ac y mae prophwydoliaeth yn amlygiad cyffelyb, yn meddu cyfeiriad, nid at anghredinwyr, ond at gredinwyr. Y mae Alford yn sylwi nad oes pwys neilldiol yn perthyn i'r gair arwydd yn yr adnod; ac y buasai yr ystyr yr un mor amlwg pe buasai wedi ei adael allan o'r adnod.

23—25. Eglurhâd, trwy enghraifft debygol, o'r adnod flaenorol. *Annysgedig*:—yr un ag "anghyfarwydd yn *adn.* 16: credinwyr oeddynt yn ddyeithr i ddawn tafodau. Dengys De Wette nad yr un person ydyw y digred a'r annysgedig. Gan nad ydynt yn deall yr hyn sydd yn myned yn mlaen, y mae y rhai sydd yn llefaru â thafodau yn ymddangos iddynt fel rhai yn ynfydu: fel yr oedd yr apostolion i'r gwrandawyr ar ddydd y Pentecost. *Os prophwyda pawb:*—os bydd iddynt athrawiaethu gwirioneddau mawrion Cristionogaeth, mewn dull dealladwy, yn nerth a goleuni yr Ysbryd Glân. *O un.*—Yn yr adnod o'r blaen, dywedir, "o rai," yma, "o un." Yr hyn a ddengys mai yr hyn a ganlyn fyddai yr effaith yn mhob neu mewn unrhyw enghraifft. Ond yn yr adnod flaenorol, dangosir, pa nifer bynag a elai i mewn, nas gallasai neb o'u nifer werthfawrogi y ddawn [*Alford*]. *Digred neu annysgedig.*—Yma enwir y digred o flaen yr annysgedig, yn wrthwyneb i'r drefn yn yr adnod o'r blaen; o blegid rhoddir y pwys ar allu prophwydoliaeth yn y peth mwyaf a gyrhaeddir ganddi, sef trŵedigaeth yr anghredadyn. Yr anny gedir a enwir gyntaf yn yr adnod flaenorol, o blegid y prif ddrychfeddwl yno oedd afleso ldeb tafodau, nid yn unig i'r digred, ond i'r annysgedig [*Alford*]. Y mae yr hyn a nodir yn *adn.* 25 wedi cael ei wneuthur filoedd a myrddiynau o weithiau gan bregethiad grymus o'r efengyl yn holl wledydd cred ar ol dyddiau yr apostolion; ac nid mewn un wlad yn fwy nag yn Nghymru.

26—40. CYFARWYDDIADAU YNGHYLCH IAWN ARFER Y DONIAU.

26. *Beth gan hyny?*—Yr un fath ag *adn.* 15. Beth yw y casgliad oddi wrth yr hyn a ddywedwyd? *Y mae gan bob un.*—Nid yw yn golygu y cymmerai pob un a fyddai yn bresennol ran yn y gwasanaeth cyhoeddus. Y mae yr ymadrodd yn meddu ystyr raniadol (*distributive*)—"Mae gan un salm, gan arall," &c. *Salm.*—Nid un o salmau yr Hen Destament, ond caniad wedi ei pharotoi i'r pwrpas ganddo ef ei hun, fel yr eiddo Deborah, Simeon, &c. *Athrawiaeth*:—eglurhâd ar un o wirioneddau yr efengyl. *Tafodiaith.*—Y mae yn dyfod i'r gynnulleidfa dan gynnhyrfiad i lefaru mewn tafod dyeithr. *Ddadguddiad.*:—wedi derbyn dadguddiad, fel prophwyd, oddi wrth Dduw. Rhoddir yma ddarlun bywiog o gynnulleidfa Gristionogol gyntefig. Yr oedd ynddi ryddid mawr. Nid oedd dim ffurfioldeb ac oerfelgarwch wedi cyffwrdd etto â hi. Y perygl y syrthiai iddo, yn ngrym y teimlad dwys oedd yn gweithredu yn yr aelodau, ac yn yr absennoldeb o bob ffurfiau i gaethiwo, oedd annhrefn ac anweddeidd-dra. Gwellhau y sefyllfa hon ydyw unig amcan yr apostol yn y bennod hon.

29. *A barned y lleill*:—Arferant y ddawn o wahaniaethu yr ysbrydoedd. Y mae Hodge yn barnu, oddi wrth yr adnod hon, fod y "farn" a nodir yma yn gyssyllt iedig â'r ddawn o brophwydoliaeth; o blegid yr oedd y "lleill," sef y prophwydi, nad oeddynt ar y pryd yn llefaru, i eistedd mewn barn ar yr hyn a leferid, i'r dyben o benderfynu a oedd y rhai a honent fod yn brophwydi yn wirioneddol ysbrydoledig.

30. *Tawed y cyntaf*:—er rhoddi lle i'r ail; etto nid trwy gael ei attal ganddo, tra yn llefaru, mewn dull afreolaidd ac anfoneddigaidd; ond trwy gael ar ddeall, trwy ryw awgrym, fod prophwyd arall newydd dderbyn dadguddiad, ac yna roddi terfyn ar ei ymadroddion ei hun [*Alford*]. Darlleniad Grotius ydyw, "Gadawer i'r

31 Canys chwi a ellwch oll brophwydo bob yn un, fel y dysgo pawb, ac y cysurer pawb.

32 Ac y mae ysbrydoedd y proffwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi.

33 Canys nid yw Duw *awdwr*

Diar. 1. 5; 9. 9; Eph. 4. 11, 12. Rhuf. 1. 12; 2 Cor. 1. 4; 6. 6, 7.

yntaf ddibenu," a disgwylied yr ail hyd hyny. Ond sicrheir fod hyn yn anrammadegol. Tebyg dyw golygiad Hodge: "Tawed y cyntaf cyn i'r lall ddechreu."

31. Y rheswm na ddylai dau brophwyd lefaru r unwaith. Gallent gael cyfleusdra i lefaru bob n un ac un. Dangosir yma hefyd beth oedd yr mcan iddynt oll lefaru. Gwnai ymadrodd un yfarfod â sefyllfa rhai o'r gwrandawyr; ac ymdrodd arall gyfarfod â'r eiddo ereill, ac fel hyn r oedd pawb i gael eu dysgu, a phawb i gael eu ysuro. Dylid rhoddi pwys ar y gair *a ellwch*: —Y mae genych *allu* i wneuthur fel hyn. Gellrch fod yn ddistaw, os ewyllysiwch.

32. Gwirionedd o'r un natur ag a ddysgir yn r adnod flaenorol: "Chwi a ellwch oll brohwydo bob yn un:"—y mae genych allu i neuthur felly. Pa ham? "Y mae ysbrydoedd prophwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi." fi orfodir chwi i lefaru gan un cynnhyrfiad nwrthwynebol. *Ysbrydoedd:*—Ysbrydoedd y ropbwydi eu hunain, wedi eu llanw gan yr Ysryd Glân [*Meyer*]. Y dylanwad dwyfol dan ba n yr oedd y prophwydi yn llefaru [*Hodge*]. Ysryd Duw yn mhob un [*De Wette*]. Ond y mae ieddwl yr adnod yr un, pa olygiad bynag a ymmerir. A'r meddwl hwnw yw, nad oedd y ylanwad dwyfol yn dinystrio hunan-lywodraeth prophwydi. Yr oeddynt yn gweini eu haddysg iewn dull tawel a hunan-feddiannol. Felly, id oedd raid i un dori ar draws un arall, neu i dau lefaru ar yr un pryd. Nid oes un sail i ygiad Calvin, ar ol rhai o'r tadau, mai ysbryd naill brophwyd oedd yn ddarostyngedig i browydi ereill.

33. Y rheswm am y cyfarwyddiadau blaenorol. wdwr trefn a thangnefedd, nid anghydfod a ryrswch, yw Duw. Ei eglwys ef ydyw yr eglwys. elly, y mae yn rhaid i bethau yn ei eglwys ef iel eu dwyn yn mlaen yn drefnus a rheolaidd. c y mae genym brawf mai awdwr tangnefedd lyw efe, yn mhob cynnulleidfa sydd yn eglwys do. Ond y mae amryw o'u beirniaid goreu *achmann, De Wette, Meyer, Hodge*] yn cysılltu, "Fel yn holl eglwysi y saint" â'r adnod osaf—"Megys yn holl eglwysi y saint, tawed ch gwragedd yn yr eglwysi."

34. Yn ol y golygiad diweddaf—fod diwedd adnod o'r blaen i'w chyssylltu â'r adnod hon yr oedd y ffaith nad oedd llefaru yn gyhoeddus n cael ei oddef mewn un eglwys yn brawf ıdarn fod hyny yn ymddygiad anghristionogol yn groes i ysbryd Cristionogaeth. Ond y mae apostol yn chwanegu pwys ei awdurdod aposlaidd at y gwaharddiad i'r peth, ynghyd âg wdurdod rheswm ac ysgrythyr. Y llefaru a ygir yma ydyw llefaru cyhoeddus, ac yn enwligol yn yr eglwys. Rhagfynegwyd yn yr Hen estament, "Eich meibion a'ch merched a ropbwydant:" yr hyn a gyflawnwyd ar ddydd y entecost (*Act.* ii. 17). Ac yn *Act.* xxi. 9, cryllir am bedair o ferched i Philip yn proawydo. Drachefn, cymmer yr apostol yn

anghydfod, ond tangnefedd, fel yn holl eglwysi y saint.

34 Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi: canys ni chaniatawyd iddynt lefaru; ond bod yn ddarostyngedig, megys ag y mae y gyfraith yn dywedyd.

1 Tim. 2. 11, 12.

ganiataol, yn *pen.* xi. 5, y gallai gwragedd dderbyn ac arfer dawn prophwydoliaeth. Yr hyn a waherddir yma ydyw arfer y ddawn hono yn y cyhoedd. Gwrthwynebir hyn ar dir rheswm: ei fod yn groes i'r berthynas o is-raddiad y wraig i'r gŵr, fod iddi ymddangos fel addysgydd cyhoeddus. Yr oedd yr Iuddewon a'r Groegwyr yn dilyn yr un rheol gyda hyn; ac felly, yr oedd y dull newydd oedd wedi ei gymmeryd gan y Corinthiaid, neu a dueddent i'w gymmeryd, yn wrthwyneb i'r arferiad cyffredin, a'r arferiad cyffredin hwnw yn gorphwys ar synwyr a rheswm. Dangosir hefyd fod yr ysgrythyr yn wrthwyneb i'r newydd-beth yma—"Megys y mae y gyfraith yn dywedyd." Y gyfraith ydyw ewyllys Duw, fel y mae yn cael ei hamlygu yn yr Hen Destament. Dadguddir yno, yn gystal ag yn y Testament Newydd, y dylai gwragedd fod mewn darostyngiad i'w gŵr. Ond byddai addysgu yn y cyhoedd yn groes i'r darostyngiad hwn: o blegid y mae y neb sydd yn gosod ei hun allan fel dysgawdwr, yn dyrchafu ei hun uwch law y rhai a addysgir ganddo. Ac felly, yr oedd y gwragedd a lefarent yn yr eglwys yn Corinth, yn gosod eu hunain uwch law eu gŵr. "Yr oedd y gwragedd," ebe Olshausen, "i fod yn ddarostyngedig i'w gŵr yn mhob peth: i ddysgu, hyny yw, i dderbyn addysg; ac nid i addysgu, neu gyfranu addysg. Ond gellid gofyn, i ba ddyben y cynnysgaethid hwynt gan Ddnw â'r doniau, os gwaherddid iddynt eu defnyddio? Yr ydym yn darllen yn Llyfr yr Actau fod gan Phylip bedair o ferched yn prophwydo. I hyn attebwn, y gallent gymmhwyso y doniau hyn at eu hadeiladaeth eu hunain (1 *Cor.* xiv. 4), neu eu harfer er lleshâd ereill, ond nid yn y cynnulliadau cyhoeddus." Gwna Calvin y sylwadau canlynol: *Ond bod yn ddarostyngedig.*—Ond pa gyssylltiad sydd rhwng y darostyngiad y gesyd y gyfraith y gwragedd yndd, â'r amcan sydd gan yr apostol mewn golwg? O blegid, fel y gallai un ofyn, pa beth sydd i luddias gwraig i fod yn ddarostyngedig, ac etto ar yr un pryd addysgu? Yr wyf yn atteb, fod y swydd o addysgu yn uchafiaeth yn yr eglwys, ac felly yn anghysson â sefyllfa o ddarostyngiad neu isafiaeth. O blegid pa mor anweddaidd fyddai i un ag sydd mewn darostyngiad i un o'r aelodau fod mewn sefyllfa o awdurdod ac uchafiaeth ar yr holl gorph! Y mae y ddadl hon, gan hyny, yn ddadl oddi wrth bethau anghysson. Os ydyw y wraig yn ddarostyngedig, y mae, gan hyny, dan waharddiad i lefaru yn y cyhoedd. Ac yn ddiddadl, pa le bynag y mae hyd yn oed gweddeidd-dra naturiol wedi ei ddilyn, y mae benywod yn mhob oes wedi cael eu cau allan oddi wrth lywodraethu yn gyhoeddus. Y mae yn un o wirebau synwyr cyffredin fod llywodraeth fenywaidd yn ammhriodol ac anweddaidd. Nid yw awdurdod i addysgu yn gydweddol â sefyllfa briodol gwraig; o blegid, os addysga, hi a ymddyrchafa uwch law yr holl wrywiaid, tra mai gweddaidd iddi yw bod yn ddarostyngedig."

35 Ac os mynant ddysgu dim,
[b] Eph. 5. 25–27. [i] Ain. 34; 1 Cor. 9. 6, 14; Eph. 5. 12. [b] ymofynant â'u gŵŷr gartref: o blegid [i] anweddaidd yw i wragedd
[k] Esa. 28. 3; Mic. 4. 12; Zech. 14. 8. lefaru yn yr eglwys.
36 [k] Ai oddi wrthych chwi yr aeth gair Duw allan? neu ai atoch chwi yn unig y daeth efe?
[l] 1 Cor. 25, 40; 1 Thes. 4. 1–8. 37 Os ydyw neb yn tybied ei fod yn brophwyd, neu yn ysbrydol, [l] cydnabydded y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, mai gorchymynion yr Arglwydd ydynt.
38 Eithr od yw neb heb wybod, bydded heb wybod.

[m] 1 Thes. 5. 20. 39 Am hyny, frodyr, [m] bydd-wch awyddus i brophwydo, ac na waherddwch lefaru â thafodau *dyeithr.*

40 Gwneler pob peth yn weddaidd, ac mewn trefn.

PENNOD XV.

3 *Wrth adgyfodiad Crist,* 12 *y mae efe yn profi y bydd raid i ninnau adgyfodi, yn erbyn y rhai a wadant adgyfodiad y cnawd.* 21 *Ffrwyth,* 35 *a dull yr adgyfodiad cyffredinol;* 51 *ac fel y newidir y rhai a gaffer yn fyw ar y dydd diweddaf wrthganiad yr udgorn.* 54 *Gorfoledyr apostol wrth weled fod y gelyn diweddaf yn cael ei lyncu mewn buddugoliaeth.*

35. Y mae yn amlwg mai ystyr y gair *dysgu* yma ydyw derbyn, nid cyfranu addysg. Dyma arwyddocâd y gwreiddiol. "Rhag iddo ymddangos, yn y gwaharddiad yn yr adnod o'r blaen, fel pe byddai yn cau gwragedd allan oddi wrth gyfleusderau i gael addysg, y mae yn dymuno arnynt, os ydynt mewn ammheuaeth o barth rhywbeth, i ymofyn â'u gŵŷr gartref."—*Calvin.* Nid yw y dymuniad am wybodaeth yn y wraig i gael ei attal, na'r cyfleusderau i'w foddhau i gael eu gommedd iddynt. Etto, dylid gofalu am gadw lledneisrwydd eu hystlen yn mhob peth. Gallant ddysgu pob peth a ddymunant wybod heb ymddangos yn y cyhoedd. *Anweddaidd:*—Gwrthun; yr hyn sydd yn peri ffieidd-dod—yr ymwrthodiad mwyaf. "Gan fod gallu a defnyddioldeb neilluol y fenyw yn ymddibynu ar ei bod yn wrthddrych edmygedd a serch, dylai pob peth a dueddo i gynnyrchu y teimladau gwrthwyneb, ar y cyfrif hwnw, gael ei osgoi."—*Hodge.*

36. Dangosir yma yr ammhriodoldeb oedd i'r Corinthiaid roddi bod i arferion anhysbys i eglwysi ereill, fel pe mai eu heglwys hwy oedd y fam-eglwys. Cyfeirir, nid yn unig at yr anweddeidd dra o fod gwragedd yn addysgu yn gyhoeddus, ond at yr holl arferion anweddaidd y sonir am danynt yn holl gorph yr epistol. *Ai oddi wrthych chwi,* &c.—Ai chwi ydyw y fam-eglwys? Ai chwi ydyw yr unig eglwys? Yr oedd eu gwaith yn ymadael oddi wrth yr arferion a ddilynid gan yr holl eglwysi ereill yn rhoddi ar ddeall eu bod yn ystyried eu heglwys hwy fel o uwch awdurdod. Yr oeddynt yn gweithredu yn annibynol; ie, fel pe buasai ganddynt hawl i osod rheolau i eglwysi ereill.

37. Nis gall fod un honiad uwch o ysbrydoliaeth anffaeledig. Yr oedd am i'r hwn a dderbyniasai ddoniau anghyffredinol brofi mai oddi wrth Ysbryd Duw yr oedd wedi eu derbyn, trwy ymostwng i'w awdurdod ef. Cyffelyb i 1 *Ioan* iv. 6.

38. *Eithr od yw neb heb wybod.*—Os oes rhywun yn anwybodus o'm hawdurdod ddwyfol, neu yn gwrthod ei chydnabod, bydded iddo fod felly. Nid âf i geisio ei argyhoeddi—ni chollaf amser i ymddadleu âg ef. Y mae yr ymadrodd, *bydded heb wybod,* yn arwyddo y llwyr annhebygolrwydd o adferu y cyfryw un i wybodaeth, a'r difaterwch gyda pha un yr edrychai yr apostol ar ei wrthwynebiad.

40. *Yn weddaidd.*—Yn y cyfryw fodd ag i beidio troseddu yn erbyn lledneisrwydd, a'r synhiad sydd i fesur yn mhob dyn, ac yn enwedig yn y Cristion coethedig, am weddeidd-dra. Y mae yr ansoddair, ebe Hodge, yn arwyddo yr hyn sydd brydferth, wedi ei lunio a'i ffurfio yn dda (*well formed, comely*); yr hyn sydd yn cynnyrchu y teimlad hyfryd o brydferthwch. Yr annogaeth yw, fod pob peth yn y gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y fath fodd ag i wneuthur argraph ddymunol ar bawb sydd yn synied yn briodol. *Mewn trefn*:—pob peth yn ei le ei hun ac yn ei amser ei hun. "Yn yr amser priodol, ac yn y cyfartaledd priodol."—*Alford.*

Pennod xv.
Am adgyfodiad y meirw.

O *adn.* 1—34, dangosir fod adgyfodiad Crist yn sicrhau adgyfodiad y saint; o *adn.* 34 hyd ddiwedd y bennod ymdrinir ar natur corph yr adgyfodiad. Y mae yn amlwg wrth rediad yr ymresymiad, ac oddi wrth *adn.* 12, fod yn Corinth rai athrawon gau yn gwadu adgyfodiad y meirw. Pwy oeddynt, a pha beth oedd sail eu gwadiad o'r athrawiaeth, nid oes genym fwy o fantais i wybod nag a geir yn y bennod hon. Y dyb gyffredin ydyw mai Cristionogion fuont unwaith yn Saduceaid oeddynt. Yr unig reswm dros y dybiaeth yma ydyw, fod y Saduceaid yn gwadu yr adgyfodiad, ac fod yr apostol o'r blaen wedi bod mewn trafferth gyda hwynt (*Act.* xxiv. 6—9; xxvi. 6—8). Un rheswm a ddygir yn mlaen yn erbyn hyn ydyw, fod y gwrthwynebiad rhwng Saduceaeth a Christionogaeth mor fawr fel y mae yn dra annhebyg y buasai Saduceaeth yn lefeinio yr eglwys. Nid nad oedd Saduceaid wedi eu dychwelyd i'r ffydd; ond fod y gwrthdarawiad yn gymmaint fel ag i wneuthur y Cristionogion yn fwy gochelgar yn erbyn egwyddorion anffyddaidd amlwg, nag yn erbyn heresiau a weithient eu ffordd yn ddirgelaidd yn yr eglwys dan rith ac ymddangosiad gwirionedd. Ereill a dybiant mai yr Epicuriaid oedd gwrthwynebwyr yr athrawiaeth. Ond pe felly, gallesid disgwyl cyfeiriadau ereill yn yr epistol at eu hegwyddorion anghristionogol. Ac yn *adn.* 32, y mae y diofalwch a'r anianoldeb a noddweddent olygiadau y blaid hono yn cael eu gosod allan fel canlyniad, yn hytrach nag fel achos, y gwadiad o athrawiaeth yr adgyfodiad. Y golygiad a dderbynir yn fwyaf cyffredin, oddi ar y seiliau goreu, ydyw, mai Cenhedloedd o fagwraeth Roegaidd oedd y rhai a wadent yr adgyfodiad. Dywedir yn *Act.* xvii. 32, fod "rhai yn gwatwar" pan glywsant Paul yn pregethu yr athrawiaeth. Un o deithi y meddwl Groegaidd oedd anewyllysgarwch i gredu yr hyn nad oedd prawf digonol o hono. Rhaid oedd i'r meddwl

B. A. 57.
Act. 18. 4, 5; Gal. 1. 6–12. Ioan 12. 48.

HEFYD [a] yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, yr efengyl a bregethais i chwi, [b] yr hon hefyd a dderbyniasoch, ac yn yr hon yr ydych yn sefyll;

Act. 2. 47.

2 Trwy yr hon [c] y'ch cedwir hefyd, os ydych yn dal yn eich côf â pha ymadrodd yr efengylais i chwi, [d] oddi eithr ddarfod *i* chwi gredu yn ofer.

[d] Salm 106. 12, 13; 8. 31, 32.

3 Canys [e] mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais, [f] farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr ysgrythyrau;

[e] Ezec. 3. 17. Rhuf. 3. 25; 4. 25; Eph. 1. 7; 5. 2.
[f] Esa. 53. 9

4 [g] A'i gladdu, [h] a'i gyfodi y trydydd dydd, [i] yn ol yr ysgrythyrau;

[g] Mat. 28. —6.
[h] Salm 16. 10, 11; Esa. 53. 10 —12; Hos. 6. 2; Ionah 1. 17.
[i] Esa. 53. 10 —12; Hos. 6. 2; Ionah 1. 17.

5 [k] A'i weled ef gan Cephas, [l] yna gan y deuddeg.

[k] Luc 24. 34. [l] Marc 16. 14.

nwnw gael deall y rheswm a'r modd cyn y rhoddai ei gydsyniad i beth. Y mae rhai, fodd bynag, ac yn eu mysg Olshausen a Hodge, yn barnu fod a wnelo athroniaeth y dwyrain â'r gwadiad hwn. Yr oedd yr athroniaeth hono yn dal mai mater ydyw eisteddle drwg, a thybir fod y syniad hwn wedi cael effaith ar feddyliau yr ammheuwyr yn Corinth, i'w gwneuthur yn debyg i Hymeneus a Philetus, y rhai a ddywedent ddarfod yr adgyfodiad eisoes; mai yr unig adgyfodiad a addewir gan Gristionogaeth ydyw adgyfodiad ysbrydol i'r enaid — cyfnewidiad moesol, ac nid un anianyddol. Yr unig sail i'r dyb yma ydyw y rhan olaf o'r bennod, yn yr hon yr ymdrinir am gyfnewidiad y corph anianol i ystâd ysbrydol. Yn ol y golygiad hwn, dynion o dueddiadau cyfriniol ac alegoraidd oedd gwrthwynebwyr yr athrawiaeth yn Corinth. Yn ol y golygiad arall, yr hwn a bleidir gan Alford, ac amryw ereill, dynion oeddynt o dueddiadau athronyddol a rhesymolaidd, yn ammheu yr hyn y teimlent anhawsder i ddeall y possiblrwydd o hono.

1. *Yn hysbysu* :—yn hysbysu o'r newydd, fel pe buasent heb ei chlywed o'r blaen. Y mae y gair yn cynnwys cerydd ysgafn iddynt. *Yr ydych yn sefyll.*—Yr oedd hyn yn wir am gorph yr eglwys ;—"rhai yn eu plith" (*adn.* 12) oedd yn gwadu adgyfodiad y meirw.

2. *Trwy yr hon y'ch cedwir hefyd* :—neu, Yr ydych yn cael eich cadw. [*Alford* : "Ye are even being saved: ye are in the course of salvation."] Edrychir ar eu hiachawdwriaeth, nid yn yr amser a aeth heibio, nac ychwaith yn yr amser dyfodol, ond yn myned yn mlaen yn y presennol. *Yn dal yn eich cof* :—yn fwy cywir, Yn glynu wrth. Y mae yn amlwg mai nid dal yn y cof a olygir yma fel telerau eu hiachawdwriaeth; ond glynu a pharhau yn y ffydd. *A pha ymadrodd.*—Y mae gradd o anhawsder yn nghyflead y geiriau yn y rhan hon o'r adnod: ond yr ystyr, ebe Hodge, ydyw, "Os ydych yn glynu wrth yr efengyl megys y pregethwyd hi i chwi genyf fi." *Oddi eithr ddarfod*, &c.—Cedwir chwi trwy yr efengyl, os bydd i chwi lynu wrthi. Pe na chedwid chwi, er glynu o honoch wrthi, yr achos fyddai, eich bod yn credu yn ofer. Ac wrth *gredu yn ofer* y golygir, nid crediniaeth ofer yn dufewnol, ond yn wrthddrychol. Nid ffydd farw mewn gwirioneddau byw a sylweddol; ond ffydd mewn athrawiaeth gau. Ac amcan yr apostol yn y canlyniad ydyw profi mai nid ofer oedd eu crediniaeth.

3. *Ar y cyntaf* :—nid "cyntaf" gyda chyfeiriad at amser, ond cyntaf gyda golwg ar bwysigrwydd: yr un a "sail" yn *Heb.* vi. 1. Mae yr adnod hon, a'r un ganlynol, mewn undeb âg *Eph.* iv. 4—6, a *Heb.* vi. 1, &c., ac 1 *Ioan* iv. 2, yn ffurfio *Credo* yr Eglwys Apostolaidd [*Olshausen*]. *Yr hyn hefyd a dderbyniais* :—trwy ddadguddiad dwyfol unïongyrchol a digyfrwng: gwel 1 *Cor.* xi. 23; *Gal.* i. 12. Gallasai felly lefaru gyda hyder anffaeledig am gynnwysiad yr efengyl, ac am ei gwirionedd. Y mae Alford yn sylwi y gallasai yr apostol cyn ei dröedigaeth fod yn gwybod y ffaith o farwolaeth Crist: ond trwy ddadguddiad y daeth i wybod beth oedd ystyr a natur ei farwolaeth: cyn ei dröedigaeth, nid oedd adgyfodiad Crist ond chwedl ynfyd yn ei olwg, ond hysbyswyd ef trwy ddadguddiad o'i gwirionedd, ei phwysigrwydd, a'i chyttundeb â phrophwydoliaeth.

4. *Yn ol yr Ysgrythyrau.*—Perthyna y geiriau i'r tair ffaith a nodir yn flaenorol. Dysgir yma ddau beth: gwirionedd y ffeithiau y cyfeirir atynt, a bod y ffeithiau hyny wedi cael eu rhagfynegu. Dangosir fod y ffeithiau hyn yn wrthddrychau prophwydoliaeth yr Hen Destament, yn *Ioan* xx. 9; *Act.* xxvi. 23. Yr ysgrythyr y rhydd yr apostolion fwyaf o bwys arni, fel yn rhagfynegu adgyfodiad Crist ydyw, *Salm* xvi. 10. Ond y mae yr Hen Destament yn llawn o'r gwirionedd hwn, am ei fod, ar un llaw, yn rhagfynegu marwolaeth y Messiah; ac, ar y llaw arall, ei arglwyddiaeth gyffredinol a thragwyddol. Ond y mae yn amlwg mai ei adgyfodiad o'r meirw a wnai y ddau ddosbarth o ragfynegiadau yn gysson â'u gilydd. Y mae Olshausen yn sylwi y gallai yr ysgrythyrau canlynol fod o fiaen meddwl yr apostol :—gyda chyfeiriad at ei farwolaeth, *Salm* xxii. ac *Esay* liii.; gyda chyfeiriad at ei adgyfodiad, y cysgodau prophwydol, megys hanes y prophwyd Ionah, ynghyd â *Salm* xvi. 10, a *Hosea* vi. 1, 2.

5. Gan mai ffaith hanesyddol ydyw adgyfodiad Crist, y mae i'w phrofi trwy dystiolaeth hanesyddol. Appelia yr apostol, gan hyny, at dystiolaeth tystion cymmhwys. Y mae pob cyfreithiau dynol yn cymmeryd yn ganiataol fod tystiolaeth dau dyst, pan na byddo eu tystiolaethau yn cael eu gwrthbrofi, ac yn enwedigol pan yn cael eu cadarnhau gan brofion annibynol cyfochrog, yn cynnyrchu y cyfryw argyhoeddiad o wirionedd y ffaith a sicrheir ag i gyflawnhau cymmeryd bywyd cydgreadur oddi arno. Y mae hyder yn y cyfryw dystiolaeth yn seiliedig, nid ar brofiad, ond ar gyfansoddiad ein natur. Yr ydym wedi ein cyfansoddi yn y fath fodd fel nas gallwn wrthod crediniaeth o dystiolaeth dynion da i ffaith fyddo yn deg o fewn eu gwybodaeth. I wneuthur y cyfryw dystiolaeth yn anwrthwynebol, y mae yn angenrheidiol, 1. Fod y ffaith fyddo i'w phrofi o'r fath natur fel y gellir ei gwybod i sicrwydd. 2. Bod cyfleusderau addas gan y tystion i wneuthur eu hunain yn gyfarwydd â'i natur, ac i foddloni eu hunain o'i gwirionedd. 3. Bod y tystion yn eu pwyll. 4. Eu bod yn ddynion geirwir. Os

[m] Mat. 28. 10, 16, 17.

6 Wedi hyny [m]y gwelwyd ef gan fwy na phum cant brodyr ar unwaith: o'r rhai y mae y rhan fwyaf yn aros hyd yr awrhon; eithr rhai a hunasant.

7 Wedi hyny y gwelwyd ef gan Iago; yna gan yr holl apostolion.

[n] Act. 9. 3-5; 18. 9; 2 Cor. 12. 1—6;

8 Ac yn ddiweddaf oll [n]y gwelwyd ef genyf finnau hefyd, megys gan un annhymmig.

9 Canys myfi yw y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw.

10 Eithr [o]trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf: a'i ras ef, yr hwn *a roddwyd* i mi, ni bu yn ofer; [p]ond mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll: [q]*ac* nid myfi chwaith, ond gras Duw yr hwn oedd gyda mi.

[o] Rhuf. 11. 1, 5, 6; Eph. 2. 7, 8; 3. 7, 8; [p] 1 Tim. 1. 15, 16. [q] Rhuf. 15. 17—20; 2 Cor. 12. 11.

11 Am hyny, [r]pa un bynag ai myfi ai hwynthwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credasoch chwi.

[r] Mat. 10. 20; 2 Cor. 3. 5; Col. 1. 28, 29. [s] 1 Cor. 2. 2.

bydd yr ammodau hyn yn cydgyfarfod, y mae tystiolaeth ddynol yn sicrhau gwirionedd peth tu hwnt i bob ammheuaeth rhesymol. Os, yn chwanegol at y pethau hyn, y rhydd y tystion eu tystiolaeth ar draul aberth personol mawr, gan ei chadarnhau â'u gwaed—os bydd y digwyddiad mewn dadl wedi cael ei raghysbysu er's canrifoedd cyn iddo gymmeryd lle—os darfu iddo gynnyrchu effeithiau nas gellir rhoddi cyfrif am danynt trwy ddim arall, effeithiau yn ymestyn i bob cenedl, a thros yr holl oesoedd—os bydd yr athrawiaeth fydd ynglŷn â'r ffaith, ac yn codi oddi arni, yn ei hargymmhell ei hun fel gwirionedd i reswm a chydwybodau dynion—ac os bydd Duw yn cadarnhau, nid yn unig tystiolaeth y tystion gwreiddiol i'r ffaith, ond hefyd wirionedd yr athrawiaeth a orphwys ar y ffaith hono, trwy eglurhâd ei Ysbryd—yna y mae ei gwadu yn wallgofrwydd ac yn ddrygioni. Y mae yr holl delerau hyn yn cydgyfarfod er profi adgyfodiad Crist, ac yn ei gwneuthur y ffaith a gadarnheir yn y modd sicraf o holl ddigwyddiadau hanesyddiaeth y byd."—*Hodge. Cephas*:—gwel *Luc* xxiv. 34. *Y deuddeg.*—Arferir y gair yn y fan hon mewn dull poblogaidd: adnabyddid yr apostolion wrth y dynodiad hwn; a gelwid hwy felly er iddynt oll beidio bod yn bresennol. Ac felly yma. Nid oedd y nifer yn gyflawn ar ol cwymp Judas hyd neillduad Matthias. Yr amgylchiad a olygir yma ydyw *Ioan* xx. 19; *Luc* xxiv. 36.

6. *Gan fwy na phum cant brodyr.*—Yn ol pob tebyg, ar y mynydd yn Galilea. Yr oedd arbenigrwydd mawr yn perthyn i'r cynnulliad hwn. Dywedodd Crist am dano cyn ei farwolaeth (*Mat.* xxvi. 32). Ac yn foreu ar y Sabbath yr adgyfododdd (*Mat.* xxviii. 10). Dywedir hefyd fod yr holl apostolion wedi myned yno. Yr oedd hwn yn gyfarfod pennodedig: gwnaed ef mor hysbys ag oedd bossibl. "Pwy a fuasai yn absennol o'i fodd o'r cynnulliad hwn?" Ond y mae ereill yn barnu mai yn Ierusalem y gwelwyd ef gan y "pum can brodyr;" cyn i'r lliaws a ddaethant i'r ŵyl ymwasgaru.

7. *Gan Iago*:—brawd yr Arglwydd (*Gal.* i. 19) fel y tybir. *Yr holl apostolion.*—Y mae y gair yn meddu ystyr eangach yma nag sydd i'r gair "deuddeg.' Meddylia rhai y cynnwysir y "deg a thrigain.'

8. *Un annhymmig.*—Edrycha ar yr apostolion fel teulu, ac arno ei hun fel un annhymmig yn eu mysg; yr hwn yr oedd ei berthynas â'r lleill gyda golwg ar deilyngdod yn gyffelyb i'r eiddo plentyn anaeddfed ac anffurfiol i'r gweddill o'r teulu.

9. *Y lleiaf*:—nid am mai efe oedd yr olaf, ond yr annheilyngaf. Y mae y gostyngeiddrwydd dwfn a ddaw i'r golwg yma yn hollol gysson â hôniadau yr apostol mewn manau ereill: 2 *Cor.* xi. 5: xii. 11; *Gal.* ii. 6—9. *Am i mi erlid.*—Dyma y pechod mawr na faddeuodd Paul iddo ei hun. Nid ydyw maddeuant pechodau yn dileu yr adgof o honynt, nac yn symmud ymaith y teimlad o annheilyngdod a drwg haeddiant.

10. Nid yw gostyngeiddrwydd yn gynnwysedig mewn gwadu y da sydd ynom, ond mewn syniad gwastadol o'n hannheilyngdod, ac ymwybyddiaeth mai i ras Duw yr ydym yn ddyledus am bob daioni sydd ynom. *Mi a lafuriais*:—yn golygu ei waith fel apostol, yn ei holl ganghenau. *Na hwynt oll*:—na'r penaf o honynt oll [*Alford*, &c.], na'r holl apostolion ynghyd [*Meyer, Hodge*]. Dywed Alford yr ymddangosai yr ystyr olaf fel mwyhâd neu ormodiaith diangenrhaid. Pa fodd? Yr oedd hyn yn wirionedd mewn ffaith. Llafuriodd Paul yn helaethach na'r holl apostolion gyda'u gilydd: a chan mai gogoneddu gras ydyw ei amcan, wrth gyfeirio at hyn, nid oedd dim yn lluddias iddo i roddi yr olwg eangaf ar ei lafur. Y mae Olshausen yn sylwi mai un achos fod llafur Paul yn eangach nag eiddo yr apostolion ereill, oedd, nad oedd yr Iuddewon yn cael eu cynnwys yn ei genadwri. Gan fod y deuddeg wedi eu hordeinio i'r Iuddewon, yr oedd maes eu llafur hwy yn fwy cyfyng. *Ac nid myfi*, &c.—Y mae yn wir, fel y dywed Awstin, nad yw y geiriau hyn yn diddymu rhyddid dyn: "Nid gras Duw ei hun, nac efe ei hun, ond gras Duw gydag ef." Etto y mae Alford yn gywir, pan y dywed nad yw Awstin, yn y frawddeg, yn gwneuthur chwareu teg â'r geiriau. Rhydd yr apostol yr holl arbenigrwydd i ras Duw. Yr oedd gras Duw yn gweithio gydag ef yn y fath fesur, wrth ei gymmharu â'i weithrediad ei hun, fel mai nid ei waith ei hun ydoedd mwyach, ond gwaith gras. Ond nid ydyw Awstin yn rhoddi lle i'r drychfeddwl yma. Nid yw yn sylwi ar yr holl le a roddir i ras. Yn y testyn, nid yw Paul yn gwneuthur dim: gras ydyw yr unig weithredydd. Nid y meddwl yw, "Ond gras Duw, yr hwn oedd (yn gweithio) gyda mi;" ond, "Gras Duw gyda mi." Nid cydweithredydd ydyw gras, ond yr unig weithredydd. Etto, y mae yn amlwg nad ydyw yr apostol, yn y geiriau, yn cyfyngu ar ryddid yr ewyllys; ei amcan ydyw rhoddi y lle mwyaf i ras. Pa beth a fuasai efe oni buasai gras.

11. Y mae yn ail ymaflyd yn y mater, ar ol myned oddi wrtho, i wneuthur sylwadau am dano ei hun.

12 Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw; pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi, nad oes adgyfodiad y meirw?

13 Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist chwaith.

14 Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer *yn wir yw* ein pregeth ni, ac ofer hefyd *yw* eich ffydd chwithau.

15 Fe a'n ceir hefyd yn dystion i Dduw; canys ni a dystiasom am Dduw, ddarfod iddo gyfodi Crist: yr hwn nis cyfododd efe, os y meirw ni chyfodir.

16 Canys os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith.

17 Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer *yw* eich ffydd chwi; yr ydych eto yn eich pechodau.

18 Yna hefyd y cyfrgollwyd y rhai a hunasant yn Nghrist.

19 Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni.

[a] Salm 73. 13; Esa. 49. 4; Ier. 8. 8; Mat. 15. 9; Gal. 2. 2. [b] Exod. 23. 3; Iob 13. 7—10; Rhuf. 3. 7, 8. [c] Salm 17. 14.

12, 13. Dangosir yma fod caniatau y ffaith o adgyfodiad Crist yn anghysson â'r gwadiad o adgyfodiad y meirw. Os ydyw adgyfodiad yn ammhossibl, y mae yn amlwg nas gallasai Crist gyfodi. Os cyfododd Crist, profa hyny fod yr adgyfodiad yn bossibl. Yr hyn a fu unwaith a ddichon fod etto. Dengys y dull hwn o ymresymu, ebe Hodge, fod y gwrthddadleuon oedd yn ifynu yn Corinth, yn myned yn erbyn y ffaith fod Crist wedi cyfodi, yn gystal ag yn erbyn athrawiaeth yr adgyfodiad cyffredinol. Dichon y seilid y gwadiad hwn ar y dybiaeth fod yr adgyfodiad yn ammhossibl. Barna rhai fod yr ammheuwyr hyn yn gwrthwynebu yr athrawiaeth, am y tybient hefyd y byddai adgyfodi y corph yn fwy o anfantais nag o fantais. Yr oedd yn ddywedad gan rai athronwyr, a gamenwir felly, mai "gobaith moch oedd gobaith yr adgyfodiad." Wedi rhyddhau yr enaid unwaith oddi wrth faich y corph, byddai ei uno â'r corph drachefn yn garchariad arno. Nid yw ymresymiad yr apostol yn cynnwys fod y gwrthddadleuwyr yn cydnabod adgyfodiad Crist fel ffaith. Yn eu herbyn y mae yn dadleu. Ei amcan ydyw dangos fod eu gwrthddadleuon i'r adgyfodiad yn profi gormod. Os oeddynt yn profi rhywbeth, profent beth na chaniateid gan un Cristion, sef fod Crist heb adgyfodi oddi wrth y meirw. Y cwestiwn sydd yma mewn dadl ydyw, nid hanfodiad parhaus yr enaid ar ol angeu, ond adferiad y corph i fywyd. A cedd yr ammheuwyr yn Corinth yn gwadu anfarwoldeb yr enaid, sydd ansicr. Y tebygolrwydd yw, nad oeddynt; o blegid nis gallasent hôni eu hunain yn Gristionogion, a pheidio credu mewn byd ar ol hwn. Y cwbl sydd sicr ydyw, eu bod yn dadleu yn erbyn athrawiaeth yr adgyfodiad, ar seiliau oeddynt yn cynnwys gwadiad o adgyfodiad Crist.—*Hodge.*

14. Dyma y canlyniad cyntaf o wadu adgyfodiad Crist;—y mae yr holl efengyl yn cael ei dinystrio. Ffaith orbwysig Cristionogaeth ydyw adgyfodiad Crist. Dyma y sail y gorwedda gwirionedd ei holl hôniadau fel Messiah arni. Os yw ei adgyfodiad yn ffaith, yna y mae ei hôniadau fel Mab Duw wedi eu gwirio:—efe yw y Messiah profedig; efe ydyw gwir Iachawdwr y byd. Y mae ei holl ddysgeidiaeth am dano ei hun, am ei Dad, am y fuchedd dragwyddol, am dref yr iachawdwriaeth, wedi derbyn yr awdurdodiad uchaf a allesid ei roddi arni. Y mae ei aberth wedi ei dderbyn gan Dduw. Ond os gau yw y dystiolaeth am ei adgyfodiad, y mae ei holl hôniadau wedi eu profi yn gau. Nid oedd yn amgen na gau Fessiah, fel lliaws ereill yn yr oesoedd hyny: *Rhuf.* i. 3. Dangosir pwysigrwydd adgyfodiad Crist gan y ffaith fod yr apostolion wedi eu happwyntio fel tystion o'r adgyfodiad. *Ofer*:—gwag; amddifad o wirionedd, a nerth.

15. Dyma yr ail ganlyniad, ar y dybiaeth na chyfodwyd Crist:—Buasai yr apostolion yn gau dystion gwirfoddol, trwy ddwyn tystiolaeth i beth na chymmerodd le. *A'n ceir*:—a'n ceir allan, a'n hamlygir, fel y cyfryw. *Gau dystion i Dduw*:—tystion Duw, er hyny yn gau dystion. —*Billroth.* Tystion sydd yn camddefnyddio enw Duw fel tystiolaeth.—*Grotius.* Yn hôni bod yn dystion, ond heb fod.—*Knapp.* Ond gwell yw y syniad a gyfleir yn narlleniad Alford: "gau dystion am Dduw." *A dystiasom am Dduw*:—yn llythyrenol, *yn erbyn Duw.* Yr ydym yn tystio iddo wneuthur yr hyn ni wnaeth. Dywed Alford, fodd bynag, mai y darlleniad *am Dduw* ydyw y goreu.

17. *Ofer.*—Nid yr un gair ag a gyfleithir felly yn *adn.* 14. Meddwl y gair *ofer* yn *adn.* 14, ydyw *gwag*; yma *diffrwyth*: a dangosir pa fodd y byddai eu ffydd yn ofer yn yr ystyr o ddiffrwyth, yn y canlyniad—"Yr ydych etto yn eich pechodau;" etto dan gondemniad eich pechodau. Yr oedd ei adgyfodiad ef yn angenrheidiol er ein cyfiawnhâd (*Rhuf.* iv. 25). Anfynych y mae cyfeiliornwyr yn gweled canlyniadau eu hathrawiaethau. Y mae cyfundrefn yr efengyl yn un cyfanwaith—yn un corph cyfluniol a chydgyssylltiol; fel, os gwedir un rhan, nis gellir yn gysson ddal y rhanau ereill.

18. Y pedwerydd canlyniad:—Byddai i'r rhai a fuont feirw yn Nghrist, mewn ffydd a chymmundeb âg ef, fyned ar gyfrgoll yn dragwyddol y funyd y byddent yn meirw. Nid dihanfodiad a olygir wrth golledigaeth yn yr adnod hon, ond trueni diddarfod. Os na chyfododd Crist, nid oedd ganddynt gyfiawnder i ymddangos ynddo ger bron gorsedd Duw.

19. Y canlyniad olaf:—Nid yn unig cyfrgollir ni yn y dyfodol, ond yr ydym hefyd y truenusaf o bawb yn y presennol, os Crist ni chyfodwyd. Os ydyw ein gobaith yn Nghrist i ddarfod gyda'r fuchedd bresennol, yr ydym o bawb yn wrthddrychau gresyni. Y mae ein hesmwythder yma yn llai—rhoddir ni beunydd i angeu: y mae ein gobaith yn fwy dwys na'r eiddo neb arall, ac felly yn peri i ni adael pob peth er ei fwyn; ac os somir ni yn y gobaith hwn, byddwn yn nyfnder trueni. Y mae Hodge yn sylwi na ddysgir yma fod Cristionogion yn fwy truenus yn y byd hwn na dynion ereill. Y mae hyn yn groes i brofiad. Y mae y duwiolion yn treulio einioes ddedwyddach na'r annuwiolion. Ond y cwbl a olyga yr apostol ydyw, os ysgeilir y saint o Grist, y collant y cwbl. Efe ydyw ffynnonell eu dedwyddwch presennol, yn gystal a'u ded-

[x] Adn. 4–8.

20 Eithr [x] yn awr Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, *ac* a
Act. 26.23; Rhuf. 8.11. wnaed [y] yn flaenffrwyth y rhai a hunasant.

21 Canys gan *fod* marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd *y mae* adgyfodiad y meirw.

22 O blegid megys yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn Nghrist y bywheir pawb.

23 Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaenffrwyth *yw* Crist; wedi hyny [z] y rhai *ydynt* eiddo Crist, yn ei ddyfodiad ef.

[z] 2 Cor. 10.7 Gal. 3. 29; 5. 24.

24 Yna *y bydd* y diwedd, wedi y rhoddo efe [a] y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.

[a] Esa. 9. 7; Dan. 7. 14, 27; Mat. 28.18; Ioan 3. 35; 13 3; 1 Tim.6.15.

[b] Salm .110.

25 Canys [b] rhaid iddo deyrnasu 1; Mat.22.44; Act 32. 4, 35; Eph. 1. 22; Heb. 1. 13; 21 13. 10.

---

wyddwch dyfodol. Y mae hyn yn wir; etto diammheu fod yr apostol yn cyfeirio at y trallodau cyssylltiedig â phroffes o Grist yn yr oes hono.

20. *Eithr yn awr.*—Eithr fel y mae y mater yn awr yn sefyll. Buasai yr holl ganlyniadau pruddaidd ag a nodir yn flaenorol yn cymmeryd lle pe buasai Crist heb gyfodi. Ond gan iddo ef gyfodi, nid oes un o honynt yn bod. Nid ofer yw ein pregeth ni, ac nid ofer yw eich ffydd chwithau. Nid ydyw y meirw yn Nghrist wedi myned ar gyfrgoll. Nid ydym yn fwy truenus na neb yn y byd hwn. Y gwrthwyneb i'r tybiaethau hyn ydyw y gwirionedd. Nid yn unig y mae Crist wedi cyfodi, ond hefyd wedi cyfodi fel cynnrychiolydd. Y mae ei adgyfodiad ef yn wystl o adgyfodiad ei bobl. Y mae wedi cyfodi fel "blaenffrwyth y rhai a hunasant;" ac nid hwy yn unig, ond y rhai a hunant ynddo ef hyd ddiwedd amser [*Hodge*]. Y mae y gymmhariaeth o flaenffrwyth yn cynnwys mwy na bod adgyfodiad Crist yn blaenori yr eiddo ei bobl. Y mae yn wystl, ernes, neu sicrhâd o hono; megys yr oedd yr ysgub gyntaf o'r cynhauaf, a gyfiwynid i Dduw fel offrwm diolch, yn ernes o ddygiad yr holl gynhauaf i mewn. Y mae yr un grym yn y gair yn *Rhuf.* viii. 23; xi. 6.

21. Megys yr oedd cyssylltiad achosawl rhwng marwolaeth Adda a marwolaeth ei hâd, felly hefyd y mae yr un cyssylltiad rhwng adgyfodiad Crist ac adgyfodiad ei bobl. Ni ddangosir yma pa fath yw y cyssylltiad hwnw. Dangosir yma mai *dyn* ydyw dygiadur marwolaeth a bywyd. Dywed Alford mai eglurhâd ydyw yr adnod hon ar yr ymadrodd yn yr adnod flaenorol, fod Crist yn flaenffrwyth—nid prawf o hyny. Rhaid i'r blaenffrwyth fod yr un a'r cynhauaf. Y gwirioneddau orwedd dan yr adnod hon yw, mai trwy *ddyn yn unig* y gellir dwyn oddi amgylch effeithian cyffredinol ar yr holl hil ddynol.

22. Dangosir yma ei fod yn ben neu yn gynnrychiolydd ein natur, megys yr oedd y dyn cyntaf: *yn* Adda—*yn* Nghrist. Gwel ar athrawiaeth yr adnod hon yn *Rhuf.* v. 12, &c. Y mae Hodge yn gwneuthur y sylwadau canlynol ar y gair *pawb* yn y rhan olaf o'r adnod. Y mae yn amlwg mai y credinwyr a olygir. 1. Y mae pawb yn cael ei gyfyngu gyda golwg ar Adda a Christ yn gystal: y pawb oedd yn Adda sydd yn meirw; ac felly y pawb sydd yn Nghrist a fywheir. Gan mai undeb â Christ ydyw sail y cyfraniad o fywyd ag y lleferir yma am dano, nid ydyw yn cyrhaedd at neb ond sydd yn yr undeb hwnw. Ond nid oes neb ynddo ef ond ei bobl. 2. Nid yw y gair a gyfieithir yma *bywhau* byth yn cael ei ddefnyddio am y drygionus. Pa bryd bynag y defnyddir ef gyda chyfeiriad at Grist, y mae yn wastad yn golygu y cyfraniad o'r bywyd sydd yn trigo ynddo ef fel ei ffynonell: *Ioan* v. 21; vi. 36; *Rhuf.* viii. 11; 1 *Cor.* xv. 45; *Gal.* iii. 21. Y mae y bywhâd yma, gan hyny, yn cynnwys annhraethol fwy na chyfodiad y marw i fywyd; cynnwysa gyfranogiad o fywyd tragywyddol a gogoneddus—yr holl fywyd sydd yn Nghrist ar gyfer ei eiddo. 3. Er fod yr apostol mewn manau ereill yn llefaru am adgyfodiad cyffredinol i'r cyfiawnion a'r anghyfiawnion (*Act.* xxiv. 15), etto, yn y bennod hon nid ydyw yn son ond am adgyfodiad y saint yn unig.

23. *Yn ei drefn ei hun.*—Y mae y gair a gyfieithir *trefn* yn arwyddo llu [*Alford*, "rank, troop in an army"]; neu [*Hodge*] trefn olyniad—"*order of succession.*" Yr hyn a ddysga Paul yw hyn: er fod adgyfodiad Crist yn sicrhau adgyfodiad ei bobl, etto nad yw y ddau ddigwyddiad i gymmeryd lle yr un amser. Yn gyntaf, Crist—yna, ei eiddo ef.

24, 25. *Yna*:—y nesaf mewn olyniad; y trydydd yn y drefn. *Y diwedd*:—y diwedd yn yr ystyr mwyaf priodol. Nid diwedd yr adgyfodiad, fel y barna Theodoret, Bengel, Meyer, &c.; ac nid diwedd teyrnasiad Crist [*Grotius*]; ond diwedd pob peth, pryd y bydd pob peth wedi eu cyflawni. Pan nad oes dim yn gyssylltiedig â'r gair *diwedd* yn y cyd-destyn, dyma yn ddiammheu ydyw yr ystyr. Yn yr arwyddocad yma y deallir y gair yn fwyaf cyffredin; 1 *Pedr* iv. 7. *Mat.* xxiv. 6—14; "Yna y daw y diwedd." Yr ystyr ydyw yr un ag sydd yn y gair "diwedd y byd," neu "amseroedd adferiad pob peth" (*Act.* iii. 21). Y mae yr hyn sydd yn dilyn yn ffafrio y golygiad hwn. Daw y dydd pan y bydd Crist yn rhoddi y deyrnas i fyny, wedi iddo ddarostwng ei holl elynion; *h.y.*, wedi iddo orphen gwaith y prynedigaeth. *I Dduw a'r Tad*:—neu, i Dduw, ei Dad. Y mae Alford yn sylwi fod gweddill yr adran, hyd *adn.* 29, yn eglurhad ar yr ymadrodd "rhoddi y deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad." Gorphwysa ar y gwirionedd mawr hwn:—y mae teyrnasiad Crist dros y byd hwn, yn ei ddechreuad, ei ddygiad yn mlaen, a'i berfeithiad, yn meddu un amcan mawr—gogoneddiad y Tad gan y Mab. Gan hyny, pan y bydd ei deyrnas wedi ei llwyr sefydlu, pob gelyn wedi ei orchfygu, pob peth wedi ei ddarostwng iddo—bydd iddo ef ei rhoddi i fyny i'r Tad. Nid teyrnasu arni ei hunan. Felly, yn ol *adn.* 25, parha ei deyrnasiad, nid, fel yr eiddo brenhinoedd daearol, *wedi* iddo osod ei holl elynion dan ei draed, ond *hyd oni* osodo hwynt dan ei draed; ac yna bydd iddi gael ei llyngcu i fyny yn mawrhydi hollbresennol Duw, er mwyn gogoniant yr hwn y dygwyd hi yn mlaen o'r dechreu i'r diwedd. Y mae yn amlwg fod hyn oll yn perthyn i lywodraeth gyfryngol y Mab—yr arglwyddiaeth hono ar y meirw a'r byw, er mwyn pa un y bu Crist farw, ac yr adgyfododd. Felly ni ddywedir dim yn y geiriau hyn sydd yn dwyn cyssylltiad â sefyllfa y Mab fel person dwyfol,

hyd oni osodo ei holl elynion dan
[e]Esa. 28. 8; ei draed.
Hos. 13. 14; 2Tim. 1. 10; Heb. 2. 14.
26 Y [e]gelyn diweddaf a ddin-
[d]Salm 8. 6, 7; Mat. 11. 27; Ioan 3. 35; 13. 3; 1Pedr 3 22; Dad. 1. 18.
ystrir *yw* yr angeu.
27 Canys [d]efe a ddarostyng-
odd bob peth dan ei draed
ef. Eithr pan yw yn dywedyd
fod pob peth wedi eu darostwng,
amlwg *yw* mai oddi eithr yr
hwn a ddarostyngodd bob peth
iddo.
[e]Salm 21. 8, 9; Dan. 2. 34, 35, 40—45; Phil. 3. 21. 1Ioan 14. 28.
28 A phan [e]ddarostynger pob
peth iddo, [f]yna y Mab ei hun
hefyd a ddarostyng'r i'r hwn a
ddarostyngodd bob peth iddo ef,
fel y byddo Duw [g]oll yn oll.
[f]Ephes. 1. 23; Col. 3. 11.

gogyd-dragwyddol a gogyfuwch â'r Tad, yr hon oedd yn bod o flaen ei sefyllfa gyfryngol, ac yn annibynol arni; na chwaith â thragwyddoldeb ei ddyno'iaeth. Erys y Mab dros byth yn Ddduwddyn. Ond gellid gofyn, Pa fodd y mae y golygiad hwn am roddiad y deyrnas i fyny i Dduw, y Tad, yn gysson â'r ymadroddion y parha ei deyrnasiad dros byth? "Efe a deyrnasa ar dŷ Iacob yn dragywydd," &c. Mae Hodge, mewn attebiad i'r cwestiwn hwn, yn sylwi fod y Beibl yn son am deyrnas ddyblyg fel yn perthyn i Grist; y deyrnas sydd ganddo o anghenrheidrwydd, fel person dwyfol, oddi wrth ba un nis gall byth ymddiosg. A'r deyrnas sydd ganddo fel person dwyfol ymgnawdoledig, yn ymestyn dros ei holl bobl; y mae y deyrnas hon hefyd yn ddiddiwedd. Parha dros byth yn ben a brenin y prynedigion. Y deyrnas hono a roddwyd iddo ar ol ei adgyfodiad, pan y rhoddwyd pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear iddo. Am y deyrnas hon, yr hon a ddyga yn mlaen fel Duw-ddyn, ac sydd yn ymestyn dros yr holl dywysogaethau a'r meddiannau—dros y gweledig a'r anweledig —y mae i'w rhoddi i fyny pan y bydd gwaith y prynedigaeth wedi ei gwblhau. Cynnysgaethwyd ef â'r awdurdod a'r llywodraeth yma, yn ei gymeriad cyfryngol, i'r dyben o ddwyn ei waith rhagddo i'w berffeithiad. Pan y bydd hyny wedi ei wneuthur—ei holl elynion wedi eu darostwng —yna ni bydd iddo mwyach lywodraethu y bydysawd fel cyfryngwr, ond fel person dwyfol; etto bydd i'w benogaeth ar ei bobl barhau yn dragywydd. *Pob pendefigaeth*, &c.—Pob pendefigaeth a nerth sydd yn elynol i'w deyrnas ef, medd y rhan fwyaf o'r esbonwyr. Y mae Calvin ac ereill, yn cymmeryd y gair *pob* yn ei ystyr eangaf—dileu pob gallu mewn bod: pob awdurdod a weithredir yn bresennol gan ddynion ar eu gilydd, dileir hwynt oll. Nid yn unig ni bydd un gallu nac awdurdod yn ei erbyn, ond ni bydd yr un heblaw yr eiddo ef. Bydd pawb yn ymostwng iddo—pawb yn cydnabod ei uchafiaeth—pob glin yn plygu iddo, a phob tafod yn cyffesu ei enw. *Hyd oni osodo.*—Lleferir fel hyn am y Mab; nid am y Tad. Dyna ddyben ei deyrnas, yr hon sydd i barhau hyd oni osodo ei elynion dan ei draed, a dim yn hwy na hyny.

26. Angeu yw y *gelyn diweddaf*, megys y mae yn ganlyniad pechod; pan fyddo y gelyn hwn wedi ei ddinystrio, bydd holl waith y prynedigaeth yn amlwg wedi ei orphen. Bydd y canlyniadau wedi eu symmud ymaith. Dywed Olshausen fod yr ymadrodd "gelyn diweddaf" yn cynnwys cyfeiriad, nid yn unig at adeg y fuddugoliaeth, ond hefyd at nerth ei wrthwynebiad. Y mae gorchfygu angeu yn gofyn am yr amlygiad uchaf o'r bywyd ei hun.

28. *Yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir.* —Y mae y golygiadau a gynnygir fel eglurhad ar yr ymadrodd hwn yn dra lliosog. Enwn rai o honynt. Gormodiaeth ydyw, yn gosod allan undeb perffaith Crist a'r Tad.—*Chrysostom, ac* amryw o'r tadau. Y mae y gair i'w gyfyngu at natur ddynol Crist. — *Theodoret, Augustine.* Felly hefyd Calvin, gyda'r chwanegiad, y bydd i Grist, yn ei natur ddwyfol, gyd-deyrnasu â'r Tad. Cyfeirir yn y gair *y Mab ei hun* at gorph cyfrinfol Crist, sef ei eglwys. — *Theodoret.* Y mae Hodge yn gwneuthur y sylwadau canlynol ar y geiriau. Y mae yr ymadrodd hwn yn gwbl gyfystyr â "rhoddi y deyrnas i Dduw a'r Tad," yn *adn.* 24. Nid am berson y Mab, fel y cyfryw, y dywedir y darostygnir ef; mwy nag y meddylir wrth y deyrnas, ei lywodraeth ddwyfol hanfodol. Fel y mae rhoddiad y deyrnas gyfryngol i fyny yn gysson â'i barhâd tragwyddol fel brenin dwyfol, felly hefyd y mae darostyngiad yn yr achos hwn yn berffaith gysson â'i gydraddoldeb tragwyddol â'r Tad. Am y Mab fel Duw-ddyn yn unig y lleferir yma. Y mae y dywediadau ysgrythyrol am y Mab yn ddarostyngedig i'r Tad, ac ar unwaith yn gystal neu gydradd â'r Tad, yn berffaith wir, ac yn hollol gysson â'u gilydd, wrth gofio, mai am dano fel Duw-ddyn y cadarnheir y naill, ac mai am dano fel Tragwyddol Fab y cadarnheir y llall. Mewn un ystyr, y mae yn ddarostyngedig i'r Tad—mewn ystyr arall yn ogyfuwch â'r Tad. "Gall mab brenin fod yn gydradd â'i dad yn mhob perffeithder naturiol, er mewn swydd yn ddarostyngedig iddo. Felly hefyd gall Tragwyddol Fab Duw fod yn ogyfuwch â'i Dad, er mewn ystyr swyddol yn ddarostyngedig iddo." Ond nid darostyngiad y ddynoliaeth a feddylir yma, ond darostyngiad swyddol y Duw-ddyn. Nid yw y geiriau *y Mab ei hun* yn dynodi yr ail Berson, fel y cyfryw; ond yr ail Berson yn natur dyn, ac yn ei swydd gyfryngol. Gellid dynodi y person oddi wrth un o'r naturiaethau, pan y mae y dynodiad yn perthyn i natur arall, neu i'w holl berson; megys pan sonir am "briod waed" Duw, neu am "Grist Iesu" wedi dibrisio ei hun, a chymmeryd arno agwedd gwas; neu, pan briodolir perffeithiau dwyfol i Fab y dyn; neu, pan ddywedir fod Arglwydd y gogoniant wedi ei groeshoelio ac wedi marw. *Fel y byddo Duw oll yn oll.*—Fel y byddo Duw ei hunan yn oll yn mhob peth. Bydd yr oll yn ddarostyngedig i'r Mab, a'r Mab i'r Tad.—*Bengel.* Cyn esgyniad Crist, yr oedd Duw yn llywodraethu fel Duw: wedi hyny, y mae yn llywodraethu trwy y Duw-ddyn: pan ddaw y diwedd, rhydd y Duw-ddyn y deyrnas i fyny i'w Dad, a bydd Duw eilwaith oll yn oll. Y mae yn amlwg nad oes dim yn yr ymadrodd arddunol yma, wrth edrych arno yn ei gyssylltiad â'r cyd-destyn, i ffafrio oll-dduwiaeth ar y naill law, na chredo yr Adferiadwyr ar y llaw arall. Yr holl gwestiwn yma ydyw, Pwy sydd i lywodraethu ar ol y diwedd? Ac atteba yr apostol y bydd yr awenau, y rhai ydynt yn bresennol yn llaw Crist, yn cael eu trosglwyddo yn ol yn y diwedd i law Duw—ffynnonell annechreuol pob hawl ac awdurdod. Yr *oll* yn niwedd yr ymadrodd ydyw deiliaid y prynedigaeth.

29 *Os* amgen, beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? pa ham ynte y bedyddir hwy dros y meirw?

30 A pha ham yr ydym ninnau mewn perygl bob awr?

31 Yr [b]ydwyf beunydd yn marw, [b] Act. 20.23; Rhuf.8.36; Cor. 4. 10, 11; 11. 23. myn eich gorfoledd yr hwn sydd genyf yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.

32 Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus, pa lesâd *sydd* i mi, oni chyfodir y meirw? bwytawn ac yfwn; canys y fory marw yr ydym. [i] Diar. 9. 6; 13. 20; 2 Tim. 2.16—18; Heb. 12.15 2 Pedr 3. 2, 18—20.

33 Na thwyller chwi: [i]y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da. [i] Joel 1. 5; Jonah 1. 6; Rhuf. 13. 11; Eph. 5. 14.

34 [k]Deffrowch yn gyfiawn, ac

29. Dychwela yr apostol yma at ei ymresymiad o blaid yr adgyfodiad. "Y mae y meirw i gael eu cyfodi: os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw." Dywed Alford fod y cwestiwn *Beth a wna?* yn awgrymu y cyfeiria yr apostol at ryw ddefod nad oedd efe yn ei chymmeradwyo. Y mae gwahanol esboniadau yn cael eu rhoddi ar yr adnod hon, yn troi ar ystyron y geiriau *bedyddio, dros, a meirw.* Cwbl ofer fyddai i ni nodi yr holl olygiadau a gynnygir fel esboniad ar yr adnod ddyrus hon. Bodlonwn ar nodi rhai o honynt. Y mae amryw o'r tadau yn deall y gair *dros* yn yr ystyr o *uwch ben;* bedyddio uwch ben beddau y saint trangcedig. Byddai y Cristionogion, rai prydiau, er mwyn rhoddi dadganiad o'u ffydd yn yr adgyfodiad, yn bedyddio dychweledigion newyddion uwch ben beddau y merthyron. Deallir y gair *dros* hefyd yn yr ystyr o *yn lle:* Pa ham y bedyddir dynion yn lle y rhai a fuont feirw—i lanw eu lleoedd yn yr eglwys, ac felly i gadw y rhestr yn gyflawn? Y mae Olshausen yn tueddu i dderbyn y golygiad hwn. Ereill, Pa ddyben bedyddio corph marw? *h.y.*, Pa ddyben rhoddi sêl cyfammod Duw ar y corph, yr hwn nid yw i gael ei adgyfodi? Dealla ereill y gair *meirw* yn yr ystyr o rai ar fin trangcedigaeth. Dyma olygiad Calvin, Pa ham y bedyddid rhai ar fin angeu, os nad oes adgyfodiad? Y mae ereill yn barnu fod y frawddeg yn ddiffygiol (*elliptical*); ac mai y meddwl yw, Pa beth a wna y rhai a fedyddir dros (yn y gobaith am) adgyfodiad y meirw? Ond y golygiad a ymddengys i ni yn cael ei gylchynu gan leiaf o anhawsderau ydyw yr un a amddiffynir gan Alford, Hodge, &c. Yn ol y golygiad hwn, ni raid trawsnewid y geiriau, na dodi geiriau newyddion i mewn: a gellir deall yr holl eiriau yn yr ystyr mwyaf priodol a naturiol. Y mae hanes yr eglwys yn ein hysbysu fod math o fedydd machnïol (*vicarious*) yn adnabyddus yn mysg y Corinthiaid a'r Marcionïaid yn y canrifoedd boreuaf. Yn mysg y sectau cyfeiliornus hyn, os digwyddai i ymgeisydd farw cyn cael ei fedyddio, bedyddid rhywun yn ei enw a throsto, fel y byddai i'r marw gael ei gyfrif yn mysg Cristionogion, a derbyn y budd deilliedig oddi wrth fedydd. Ond os nad oes adgyfodiad y meirw, pa fudd a ganlynai y ddefod hon? Os dyma yw y meddwl yma, y mae yn rhaid cymmeryd yn ganiataol fod y ddefod hon wedi ymlusgo mor foreu a hyn i'r eglwys. Dygir amryw wrthddadleuon yn erbyn y golygiad hwn; megys, fod yr arferiad yn gyfeiliornus, ac ofergoelus; nad oes arwyddion fod y ddefod yn bod cyn yr ail ganrif; y condemnid hi gan y brif eglwys; nas gellid meddwl y gwnaethai yr apostol gyfeiriad at y gyfryw ddefod heb ei chondemnio. Ond gellid atteb fod yr apostol yn awgrymu condemniad o honi. Ymddiosga efe ei hunan oddi wrth bob rhan ynddi. Sonia yn yr adnod nesaf am dano ei hun a'i frodyr, "Pa ham yr ydym ni?" &c. Ond yma "rhai," "hwy." Heb law hyny, y mae yn arferiad gan yr apostol i ymresymu â'i wrthwynebwyr ar sail eu daliadau hwy eu hunain [gwel 1 *Cor.* x. 8]. Gellir sylwi nad oedd dim yn sefyllfa yr eglwys yn Corinth a wnaethai fabwysiadu y ddefod hon yn beth anghredadwy.

31. *Beunydd yn marw:*—yn barhaus yn mhresennoldeb marwolaeth—mewn peryglon a allent unrhyw adeg ddibenu mewn angeu. Yr un ystyr ag yn 2 *Cor.* iv. 11. *Myn eich gorfoledd:*—math o gadarnhâd difrifol. Ond y mae y darlleniad Cymraeg yn anghywir: yn lle, "eich gorfoledd," dylai fod, "Fy ngorfoledd o'ch achos chwi, yr hwn sydd genyf," &c. Yr ystyr yw, Mor sicr a fy mod yn eich caru, y mae yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd yn wir [*Alford*]. Ni fynai er dim gamarwain y rhai y gorfoleddai ynddynt ger bron Duw.

32. *Yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus.*—Cyfeirir yma at ryw un amgylchiad neilldiol. Etto y farn gyffredin yw fod y geiriau i'w deall mewn ystyr ffugrol. Defnyddir y gymmhariaeth hon gan ereill am ymdrechion gyda dynion cynddeiriog a nwydwyllt. Etto prin yr ystyrir y gwrthddadleuon a ddygir yn mlaen gan rai yn erbyn y golygiad llythyrenol yn ddigon cedyrn. Er enghraifft, dywedir fod yn dra annhebygol y buasai un oedd yn ddinesydd Rhufeinig, fel yr apostol, yn cael ei ddwyn dan y gosbedigaeth. Ond dylid cofio ar yr un pryd yr ymddygwyd tuag ato ef yn hollol groes i'r gyfraith. Caiodd ei guro deirgwaith â gwialen; yr hyn nid oedd yn gyfreithlawn ei wneuthur â dinesydd Rhufeinaidd. Nid yw distawrwydd Llyfr yr Actau chwaith yn rheswm digonol yn erbyn y golygiad llythyrenol; am nad ellir ystyried fod yr Actau yn cynnwys hanes ei holl ddioddefiadau: etto, y mae y ddwy wrthddadl yna, yn enwedig pan chwanegir atynt yr ystyriaeth na wneir un crybwylliad ganddo, yn y rhestr helaeth a rydd o'i ddioddefiadau yn 2 *Cor.* xi. 23—29, yn ffurfio y tebygolrwydd cryfaf yn erbyn yr ystyr llythyrenol.

33. Y mae y gair a gyfieithir yma *ymddiddanion* yn arwyddo cydgyfeillach, cyfathrach; a chyffyrddiad, cymmundeb â drygioni, sydd yn llygru. Ymddengys fod yr ymadrodd hwn yn meddu ar gynnefindra diareb: ceir ef yn y bardd Groegaidd Menander, a chyn hyn yn Euripides. Y mae yr hanesydd eglwysig, Socrates, yn dwyn hyn fel prawf o gydnabyddiaeth yr apostol â gweithiau y bardd enwog hwnw [*Alford*]. Fe allai mai o Euripides y cafodd Menander yr ymadrodd, a Phaul o Menander [*Burton*].

34. Y mae y gair a gyfieithir *deffrowch*, yn arwyddo sobri o sefyllfa o feddwdod. *Yn gyf-*

Salm 119. 11; Ioan 5. 14; 8. 11. [m] Rhuf. 1. 23; 1 Thes. 4. 5. [n] Iob 22. 13; Salm 73 11; Preg. 11. 5; [o] Ezec. 37. 3, 11; Ioan 3. 4, 9; 9. 10. [p] Mat. 22. 29, 30; Phil. 3. 21. [q] Ioan 12. 24. [r] Salm 104. 14; Esa. 61. 11; Marc 4. 28—29.

[l]na phechwch: canys [m]nid oes gan rai wybodaeth am Dduw. Er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn.

35 Eithr fe a ddywed rhyw un, [n]Pa fodd y cyfodir y meirw? ac [o]â pha *ryw* gorph y deuant?

36 O ynfyd! [p]y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir oni bydd efe marw.

37 A'r peth yr wyt yn ei hau, nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau, ond gronyn noeth, ysgatfydd o wenith, neu o ryw *rawn* arall.

38 Eithr [q]Duw sydd yn rhoddi iddo gorph fel y mynodd efe, ac i bob hedyn ei gorph ei hun.

39 Nid *yw* pob cnawd unrhyw gnawd: eithr arall *yw* cnawd dynion, ac arall *yw* cnawd anifeiliaid, a *chnawd* arall *sydd* i bysgod, ac arall i adar.

40 *Y mae* hefyd gyrph nefol, a chyrph daearol: ond arall *yw* gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daearol.

41 Arall *yw* gogoniant yr haul, ac arall *yw* gogoniant y lloer, ac arall *yw* gogoniant y ser: canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.

42 Felly hefyd [r]*y mae* adgyfodiad y meirw. Efe a heuir mewn llygredigaeth, *ac* a gyfodir mewn anllygredigaeth: [r] Dan. 12. 3; Mat. 13. 43; Phil. 3. 20 21.

43 Efe a heuir mewn ammharch, Pwynt y gymmhariaeth ydyw, fod yr hyn sydd yn dyfod i fyny yn dra gwahanol i'r hyn a hauwyd. Hedyn a hauir, ond planhigyn a ddaw yn nhreigliad amser i'r golwg. Felly, corph anianol a ddodir yn y bedd; ond corph ysbrydol a gyfyd i fyny yn y dydd diweddaf. Dysga natur nad oes dim grym yn yr wrthddadl fod yn rhaid i'r corph a fydd fod yn gyffelyb i'r corph presennol.

38. *Fel y mynodd efe.*—Yn y greadigaeth. Ewyllysiodd yn y dechreuad pa gorph a roddai i bob hedyn, ac y mae yn barhaus yn rhoddi iddo y corph hwnw. Os ydyw felly yn rhoddi i bob hedyn ei gorph ei hun, pa ham nas gall benderfynu y ffurf a roddir i'r corph dynol yn yr adgyfodiad?—*Hodge.*

39. Os ydyw cyrph mor wahanol i'w gilydd yn yr ystâd bresennol, pan y mae ammodau bywyd yr un, pa ham y cymmerir yn ganiataol y bydd corph yr adgyfodiad yn gyffelyb i'r corph presennol.

40. Dangosir yma nad oes derfyn ar foddau mater:—"Y mae cyrph nefol, a chyrph daearol." *Cyrph nefol.*—Cyfeirir, ebe rhai esbonwyr, at angylion; naill ai ar y dybiaeth fod ganddynt gyrph, neu am eu bod yn ymddangos i ddynion fel sylweddau corphorol. Dyma olygiad De Wette a Meyer. Dywed ereill, y golygir cyrph y saint yn y nefoedd: ereill, yr haul, y lleuad, a'r ser. Nid oes dim grym yn yr wrthddadl na buasai yr apostol yn defnyddio y gair sydd yn gynnefin yn yr oesoedd diweddar mewn llenyddiaeth ("cyrph nefol") am fydoedd y ffurfafen; o blegid yr oedd Galen, yr hwn oedd yn byw gàn mlynedd ar ol dyddiau yr apostol, yn defnyddio yr un geiriau yn yr un ystyr. Rheswm arall dros y golygiad hwn ydyw, y nodir y bydoedd wybrenol yn yr adnod nesaf.

41. Nid yn unig y mae y cyrph nefol yn gwahaniaethu oddi wrth y rhai daearol, ond hefyd oddi wrth eu gilydd.

42. *Felly hefyd y mae adgyfodiad y meirw.*—Megys y mae y cyrph a nodwyd yn flaenorol yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd, felly y bydd corph yr adgyfodiad yn gwahaniaethu oddi wrth y corph presennol. Nid y golygiad yw, y bydd y naill gredadyn yn gwahaniaethu oddi wrth y llall, fel y mae y naill seren oddi wrth seren arall.

43. Edrychir yma ar y corph, pan sonir am *ammharch* a *gwendid* mewn cyssylltiad âg ef,

iawn.—Deffrowch, fel y mae yn gyfiawn, yn addas, yn briodol, ebe rhai. Deffrowch yn iawn [*Olshausen*]. Deffrowch i gyfiawnder: deffrowch fel ag i fod yn gyfiawn [*Chrysostom*]; ac felly y darlleniad Saesneg. Y mae yn fwy tebyg mai golygiad Olshausen, ac ereill, yr hwn sydd fwyaf unol â'r testyn Cymraeg, ydyw y goreu. *Nid oes gan rai*:—yr un rhai ag a nodir yn *adn.* 12; y rhai a wadent yr adgyfodiad. *Er cywilydd i chwi*:—yr hyn sydd yn dangos fod y rhai hyn yn yr eglwys. Yr oedd y ffaith fod y cyfryw ddynion yn yr eglwys yn sarhâd arni.

35—50. Y mae yr apostol yma yn myned oddi wrth y prawf o'r adgyfodiad fel ffaith, i ddangos y modd:—dengys â pha gyrph y cyfyd y meirw. Ymddengys mai un o'r prif wrthddadleuon yn erbyn yr athrawiaeth yn Corinth, oedd y dybiaeth ddisail y byddai y corph yn yr adgyfodiad o'r un natur a'r corph anianol yn y fuchedd hon. Ond y mae yr apostol yn profi fod y dybiaeth hon yn ffol.

36. *O ynfyd!*—Ymadrodd yn dynodi anghymeradwyaeth a dirmyg: *Luc* xii. 20; *Eph.* v. 15: etto nid chwerwder; *Luc* xxiv. 25. Ynfydrwydd yr wrthddadl oedd yn cynnhyrfu digllonedd yr apostol. Nis gall y marw fyw drachefn, ebe y gwrthddadleuwr. O ynfyd! ebe yr apostol, nis gall yr hedyn fyw heb farw yn gyntaf. "Dadansoddiad ydyw ammod angenrheidiol adansoddiad neu adluniad. Os erys yr hedyn yn hedyn, dyna ddiwedd arno; ond os syrthia i'r ddaear a marw, dwg ffrwyth lawer: *Ioan* xii. 28. Y mae yr hedyn yn cael ei ddadansoddi i'r fath raddau fel y mae y corph yn y bedd. Os ydyw un yn marw, y mae y llall yn marw. Nid ydyw marwolaeth yn ddifodiad, ond yn ddadansoddiad—yn ŷnediad o un ystâd o fodolaeth i ystâd arall. Pa fodd, gan hyny, y gall dadansoddiad y corph yn y bedd fod yn wrthddadl i athrawiaeth yr adgyfodiad?"—*Hodge.* Dichon na buasai y pethau sydd mewn natur yn gyfattebion i adgyfodiad y corph yn awgrymu yr athrawiaeth i neb dynion: pa fodd bynag, ni buasent byth yn ei phrofi. Ond wedi i ddadguddiad ei hysbysu, y mae y cyfattebion lliosog hyn yn ddigon i symmud pob gwrthddadl yn ei herbyn, ac yn ei gwneyd yn hawdd i'w chredu.

37. *Nid y corph a fydd.*—Nid y planhigyn neu y pren sydd yn cael ei hau, ond gronyn syml.

ac a gyfodir mewn gogoniant: efe a heuir mewn gwendid, *ac* a gyfodir mewn nerth: efe a heuir yn gorph anianol, *ac* a gyfodir yn gorph ysbrydol.

44 Y mae corph anianol, ac y mae corph ysbrydol.

45 Felly hefyd y mae yn ys- [a]Gen. 2. 7; Dad. 16. 3. grifenedig, [b]Y dyn cyntaf Adda pan yn cael ei gladdu yn y bedd. Y corph yn myned i'r bedd, ac yn cael ei gyfodi o'r bedd, a gyferbynir. *Mewn gogoniant*:—gwel *Phil.* iii. 21; "Yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef." *Gwendid.*—Nid oes dim yn cyfleu y syniad o wendid yn fwy na chorph marw: ni pherthyn iddo un gradd o un math o nerth. Y mae gwendid y corph anianol mewn bywyd yn cael ei berffeithio mewn marwolaeth. Y gwendid a olygir yma yn fwyaf neilduol, ebe Chrysostom, ydyw gwendid y corph i luddias llygredigaeth. Ond diammheu y cynnwysir pob gwendid a berthyn iddo yn yr ystâd farwol. *Corph anianol*:—yn cynnwys yr holl ansoddau blaenorol—ammharch, gwendid. Corph anianol yw corph ag y mae y bywyd anifeilaidd, yr enaid, yn ei ysgogi. Ac er fod y bywyd hwnw wedi ymadael pan y dodir y corph yn y bedd, etto y cyfryw ydyw cyfansoddiad y corph marw hwnw fel mai i'r elfen anianol y mae yn addas. *Corph ysbrydol:*—corph a fywioceir gan yr ysbryd—y rhan uchaf o'r dyn, ac yn addas fel preswylfod yr ysbryd; megys y mae y corph presennol yn addas breswylfod i'r elfen anianol. "Ni a wyddom oddi ar brofiad pa fath ydyw corph anianol. Corph ydyw sydd yn feddianuol ar yr un ansoddau ag eiddo anifeiliaid direswm. Y mae y corph anianol yn gynnwysedig o gig a gwaed; yn agored i boen ac adfeiliad; ac mewn angen am awyr, ymborth, a gorphwysiad. Y mae wedi ei addasu i ammodau bodolaeth ddaearol. Pa beth ydyw corph ysbrydol, nis gwyddom ond yn unig oddi wrth ddisgrifiad yr apostol, ac oddi wrth ymddangosiadau Crist yn ei gorph gogoneddedig. Mae yn anllygradwy, gogoneddus, nerthol, wedi ei addasu i'r sefyllfa uwch o fodolaeth yn y nefoedd, ac felly heb fod yn addas i'r sefyllfa ddaearol."—*Hodge.* Corph ysbrydol, yn ol rhai [*Theophylact*], ydyw corph awyrawl: yn ol ereill, corph o'r un natur ag ysbryd; yr hyn sydd wrthddywediad amlwg. Nid ysbryd ydyw, ond corph ysbrydol—corph wedi ei addasu i'r rhan uchaf o'r dyn, ac i'r sefyllfa ysbrydol. Etto, dichon fod yn y gair gyfeiriad, nid yn unig at y byd ysbrydol, ac at yr ysbryd, fel yr elfen uchaf mewn dynoliaeth, ond hefyd at Ysbryd Duw. Er y bydd cyrph yr annuwiolion yn gyfaddas i'r byd tragywyddol, etto cyfyngir y gair *corph ysbrydol* i'r saint, am ei fod yn cynnwys y drychfeddwl o ogoniant a chyffelybrwydd i gorph gogoneddedig yr Arglwydd Iesu. Corph wedi ei buro oddi wrth holl effeithiau pechod, yn drigfan addas i ysbryd y dyn ac i Ysbryd Duw, a fydd.

44. Darllenir yr adnod hon ychydig yn wahanol:—"Os oes corph anianol, y mae hefyd gorph ysbrydol." Nid yw mewn un modd yn fwy rhyfedd y ceir corph fyddo yn addas i elfenau uchaf dynoliaeth ac i'r byd ysbrydol, nag fod yn awr gorph addas i'r elfen anifeilaidd, ac i'r byd materol. Mor sicr a bod genym yn y a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf [c]yn ysbryd yn bywhau. [c]Ioan 14. 6, 19; Act. 3. 15; Phil. 3. 21; 1 Ioan 1. 1—3; Dad. 22. 1, 17.

46 Eithr nid cyntaf yr ysbrydol, ond yr anianol; ac wedi hyny yr ysbrydol.

47 Y [d]dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol; yr ail dyn [e]yr Arglwydd o'r nef. [d]Gen. 2. 7; 3. 19; Ioan 3. 31; 2 Cor. 5. 1. [e]Esa. 9. 6; Ioan 6. 33; Act. 10. 36; 1 Tim. 3. 16.

byd hwn gorph wedi ei gymmhwyso i'r rhan isaf, bydd genym gorph, yn y byd arall, wedi ei gymmhwyso i'r rhan uchaf.

45. Perthyna y dyfyniad i'r geiriau, *a wnaed yn enaid byw.* Crewyd Adda gyda natur anianol—"enaid byw"—i'r hon natur yr oedd corph anianol yn angenrheidiol. Anianol ydyw yr ansoddair o'r sylweddair a gyfeithrir *enaid.* Er fod y gair a gyfeithir *enaid,* o'r Hebraeg a'r Groeg, yn cael ei ddefnyddio am elfen resymol ac anfarwol ein natur, etto yn fwyaf cyffredin, ac yn fwyaf priodol, dynoda fywyd isaf ein natur—y bywyd sydd yn gyffredin i ddyn ac i'r anifail. At y bywyd hwn y cyfeirir yn yr ymadrodd dyfynedig o Genesis. *Yr Adda diweddaf.*—Enw arferol ar y Messiah gan y Rabbiniaid. Gelwir ef wrth yr enw hwn, am mai efe ydyw ail ben a chynnrychiolydd dynoliaeth, megys mai Adda oedd y cyntaf, ac fel y cyfryw yn ffurf yr hwn oedd ar ddyfod: *Rhuf.* v. 14. Dywed ereill, y gelwir ef "y diweddaf," am mai efe ydyw cynnrychiolydd olaf dynoliaeth, wedi ymddangos yn y dyddiau diweddaf. Ond gwell yw y golygiad arall. Rhy brin y gellir meddwl fod yma un cyfeiriad at adeg ei ymddangosiad. Dau gynnrychiolydd a ymddangosodd—"y cyntaf" a'r "diweddaf." *Yn ysbryd yn bywhau.*—Y mae y gair *a wnaed* neu *a ddaeth* yn ddealledig. Pa bryd y daeth i fod felly? Yn ei gnawdoliad, ebe rhai: ereill, yn ei adgyfodiad: ereill, yn ei esgyniad. Dywed Hodge: "Nid yw yr apostol yn cyfeirio at yr hyn oedd Crist cyn ei gnawdoliad, ond at yr hyn y daeth. Fel yr "ail Adda" y lleferir am dano. Ac yn ei gnawdoliad y gwnaethpwyd ef felly. Yr oedd ynddo allu i roddi bywyd fel Mab Duw wedi ymddangos yn y cnawd: *Ioan* v. 26. Gwnaed yr "ail ddyn" yn ysbryd yn bywhau, trwy undeb y natur ddwyfol â'r natur ddynol yn nghyfansoddiad ei berson." Y mae y geiriau hyn yn cynnwys sefyllfaoedd ei ddarostyngiad a'i ddyrchafiad.—*Alford.*

46. Nid yw yn golygu yn unig fod y corph anianol yn dyfod o flaen y corph ysbrydol; ond y mae yn fynegiad o ddeddf gyffredinol. Daw yr isaf yn gyntaf—yr uchaf ar ol hyny: rhagflaenir y perffaith gan yr elfenol a'r ammherffaith. Y mae hyn yn wir yn holl diriogaethau natur a chelfyddyd: yn ngweithredoedd Duw a dyn. Y mae un ystâd yn barotoawl i un arall, yr hyn sydd yn cynnwys ei bod yn llai perffaith.

47. Yn ol y ddeddf gyffredinol a nodir yn yr adnod o'r blaen, y daeth Adda a Christ. *Yr Arglwydd o'r nef*:—gwel *Ioan* iii. 13. Yr oedd rhai o'r cyfeiliornwyr boreuaf yn cymmeryd yr ymadrodd yma i seilio arno y dyb na aned yr Iesu yn wirioneddol o'r forwyn Fair, ond mai o'r nef y disgynodd ei ddynoliaeth. Mewn gwrthwynebiad i hyn y dysgid yn y brif eglwys fod ei gorph o'r un sylwedd â'r eiddom ni, tra yr oedd ei Ddiwdod o'r un sylwedd â'r Tad. Y mae Alford yn dyfynu rhai o sylwadau Meyer

48 Fel *y mae* y daearol, felly *y mae* y rhai daearol hefyd; ac fel y mae y nefol, felly *y mae* y rhai nefol hefyd.

49 Ac megys y dygasom ddelw y daearol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol.

50 Eithr hyn meddaf, *O* frodyr! [y] na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth.

[y] Mat. 16.7; 2 Cor. 5. 1.

51 Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch: [z] Ni hunwn ni oll, eithr ni a [a] newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf.

[z] 1 Thes. 4. 15—17. [a] Phil. 3.21.

52 Canys yr udgorn a gân, [b] a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninnau a newidir.

[b] Adn. 42,50

ar y rhan gyntaf o'r adnod hon gyda chymmeradwyaeth. Gan fod corph Adda yn cael ei ddynodi fel corph anianol a daearol, ac fod y cyfryw gorph yn cynnwys marwoldeb fel elfen berthynol iddo, y mae yn amlwg nad ydyw yr apostol yn ystyried fod Adda, o angenrheidrwydd, fel y crewyd ef, yn rhydd oddi wrth farwolaeth; ac â hyn y cyttuna *Gen.* ii. 7; iii. 19. Gan mai o bridd y ddaear y ffurfiwyd ef, yr oedd gwywdra a darfyddiad yn naturiol iddo. Etto nid yw hyn yn milwrio yn erbyn yr athrawiaeth mai trwy bechod y daeth marwolaeth i'r byd (*Rhuf.* v. 12). O blegid pe buasai ein rhieni cyntaf heb bechu, arosasent yn mharadwys, a daethent, trwy fwyta o bren y bywyd, yr hwn ni waharddwyd iddynt gan Dduw, yn anfarwol (*Gen.* ii. 16, 17; iii. 22). Ond ymlidiwyd hwynt o baradwys, cyn iddynt brofi o ffrwyth pren y bywyd (*Gen.* iii. 22); ac felly, yn unol â'r hyn a ddysgir hefyd yn Genesis, daeth marwolaeth i'r byd trwy bechod.

50. *Eithr hyn, meddaf.*—Gwasanaetha y geiriau hyn i alw eu sylw at beth y dylasent ei ystyried, ac yr oedd yn hawdd iddynt ei esgeuluso. Nid yn unig y mae y cyfnewidiad hwn ar y corph yn bossibl; y mae hefyd yn angenrheidiol. *Cig a gwaed*:—y corph anianol; y corph yn ei gyfansoddiad presennol. Nid yw yn cynnwys y syniad o lwgr moesol. Dywed Hodge nad yw yr ymadrodd un amser yn cynnwys y syniad olaf. Y gwirionedd a osodir allan yma ydyw, nas gall y corph, yn ei sefyllfa anianol bresennol, fwynhau teyrnas Dduw, yn y sefyllfa y bydd ynddi ar ol yr adgyfodiad. Yr un syniad a drosglwyddir, mewn ymadroddion dansoddol, yn y frawddeg ddilynol—"Nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth:" nid yw y marwol yn anfarwol; y darfodedig yn anniflanedig. Y mae yn rhaid newid y llygredig cyn y bydd yn y sefyllfa hono nas gall lygru. *Yn etifeddu.* Defnyddir yr amser presennol er mwyn dangos fod y peth yn gwbl ammhossibl yn natur pethau.—*Alford.*

51. Dengys yma natur y cyfnewidiad, yr hwn y gwelsom yr angenrheidrwydd am dano yn yr adnodau o'r blaen. *Dirgelwch,* ydyw athrawiaeth oedd o'r blaen yn guddiedig. Nid gwirionedd anamgyffredadwy; ond gwirionedd oedd dan len, cyn ei hysbysu trwy ddadguddiad. Dyma arwyddocâd cyffredin y gair yn y Testament Newydd. Cymmhwysa yr apostol y gair at y gwirionedd o alwad y Cenhedloedd. Y mae yr adran hon, "Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch," yn gwbl o'r un ystyr a 1 *Thes.* iv. 15; "Canys hyn yr ydym yn ei ddywedyd wrthych yn ngair yr Arglwydd." *Ni hunwn ni oll.*—Meddwl yr adnod hon, yn mha un y mae cryn anhawsder ieithyddol, yn cyfodi oddi wrth le y negydd *ni*, ydyw, na bydd yr holl gredinwyr feirw—bydd rhai yn fyw yn yr adgyfodiad—ond newidir pawb, y meirw a'r byw. Ni ddylid cyfyngu y *newidir* at y byw, megys y gwneir weithiau, pan ddywedir yr adgyfodir y meirw, ac y newidir y byw. Amcan yr apostol yn yr adran ydyw dangos y rhaid newid y corph anianol cyn y dichon etifeddu teyrnas Dduw. Mae rhai o'r esbonwyr diweddar yn deall y geiriau fel yn gosod allan ddisgwyliad yr apostol y byddai iddo ef, ac ereill o'r genhedlaeth hono, aros hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Ond nid yw y golygiad hwn yn gorwedd o angenrheidrwydd yn yr adnod. Y *ni oll* yw y credinwyr—eiddo Crist, yn mha genhedlaeth bynag. Nid oes dim yn y bennod i gyfyngu y "ni oll" at gredinwyr y genhedlaeth hono. Gwel ar 1 *Thes.* iv. 15. *Mewn moment.*—Y gair Groeg ydyw y gair *atom* yn Saesneg, yn dynodi y pwynt lleiaf, pwynt anraniadwy, o amser. Dywed Olshausen, fod yr apostol yn gosod allan y newidiad fel i ddigwydd mewn *moment*, er mwyn symmud pob syniad a allai fod yn meddyliau y Corinthiaid y gallai rhai fod yn rhy ddiweddar i gyfranogi o deyrnas Crist ar y ddaear. Sylwa yn mhellach nad yw sydynrwydd y cyfnewidiad yn milwrio yn erbyn y golygiad fod gogoneddiad cyrph y saint yn cymmeryd lle yn raddol, yn gyfattebol i sancteiddiad eu hysbrydoedd yn y byd hwn; ond mai yn ddisymmwth y tŷr hyny allan: yn gyffelyb i'r glöyn byw, ar ol bod am faith amser dan drawsffurfiad, ar berffeithiad y trawsffurfiad hwnw, yn ymryddhau mewn munudyn oddi wrth ei wisg flaenorol, gan lamu i oleuni yr haul. *Yr udgorn diweddaf.*—Ymadrodd cyffelybiaethol sydd yn gosod allan gynnulliad yr holl genhedloedd ger bron Mab y dyn. Gelwir ef y "diweddaf," am mai yn y dydd diweddaf yr adgyfodir y meirw. Dywed yr Iuddewon yr udgenir saith o udgyrn yn olynol. Ond rhy brin y gellir meddwl fod yma gyfeiriad at y cyfryw dybiaeth. "Er fod mynychiad y gair *udgorn* gan yr apostol yn rhoddi ar ddeall fod y gair i gael ei ddeall yn llythyrenol, etto yr wyf fi yn hytrach yn ei ddeall yn gymmhariaethol. Yn 1 *Thes.* iv. 16, y mae yn cyssylltu 'bloedd yr archangel' âg udgorn Duw. Megys, gan hyny, y mae maes-lywydd, gyda sain udgorn, yn galw ynghyd ei filwyr i'r frwydr, felly Crist, â'i lawdd pelldreiddiol, yr hon a glywir drwy yr holl fyd, a eilw ger ei fron yr holl feirwon. Dywed Moses (*Exod.* xix. 16), fod seiniau uchel ac ofnadwy yn cael eu gwneuthur ar yr achlysur o roddiad y gyfraith. Tra gwahanol fydd y cynhwrf yn y dydd diweddaf, pan elwir ynghyd, nid un genedl, ond yr holl fyd, ger bron gorseddfaingc Duw. Ac nid y rhai byw yn unig a wysir felly, ond y meirwon hefyd, o'u beddau." —*Calvin.* *A ninnau a newidir.*—Wrth *ninnau*, yn ol barn rhai, y golygir y rhai a fyddant byw yn nyfodiad yr Arglwydd: a hyn sydd yn fwyaf unol â dysgeidiaeth Paul yn 2 *Thes.* ii. 2—12.

53 O herwydd rhaid i'r llygr-
[c]2 Cor. 5. 2—4; Gal. 3. 27. adwy hwn [c]wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb.

54 A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac [d]i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, yna y bydd yr ymadrodd a [e]ysgrifenwyd, [f]Angeu a lyngcwyd mewn buddugoliaeth.
[d] Rhuf. 2. 7; 2 Tim. 1. 10. Esa. 25. 8; Dad. 20. 14. Act. 9. 5. [e] Gen. 3. 17—19; Ioan 8. 21, 24; Heb. 9. 27. [f] Rhuf. 3. 19, 20; Gal. 3. 10—13.

55 O angeu! pa le *mae* dy [g]golyn? O uffern! pa le *mae* dy [h]fuddugoliaeth?

56 [i]Colyn angeu *yw* pechod, a [h]grym pechod *yw* y gyfraith.
[g] Salm 98. 1; Ioan 16. 33; Dad. 12. 11. [i] 1 Cor. 15. 56.

57 Ond i Dduw *y bydd* y diolch, yr hwn [j]sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist.
[j] Ioan 6. 28, 29; Phil. 2. 30; 1 Thes. 1. 3. 2 Cron. 15. 7; Salm 19. 11; Gal. 6. 9; Heb. 6. 10.

58 Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr, a diymmod, *a* hel-aethion [k]yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol; a [l]chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd.
[k] Ioan 6. 28, 29; [l] 1 Cor. 15. 58.

PENNOD XVI.

1 *Y mae yn eu hannog i borthi anghen y brodyr yn Ierusalem:* 10 *yn canmawl Timotheus;* 13 *ac ar ol rhybuddion cardeig,* 16 *yn diweddu ei epistol ag amryw anerchion.* B. A. 57.

HEFYD am y gasgl i'r saint; megys yr ordeiniais i eg-

Ond y mae Calvin, ac ereill, yn barnu ei fod yn cynnwys ei hunan a'i ddarllenwyr yn mysg y rhai a fyddent yn aros hyd hyny; etto nad yw hyn ond lleferydd ei obaith. Os golygir ei fod yn dysgu hyn fel gwirionedd diddadl, y mae amser wedi profi anghywirdeb ei addysg. Yn hytrach na chredu hyny—yr hyn fyddai yn anghysson â'i anffaeledigaeth fel dysgawdwr—yr ydym yn dewis y golygiad arall. Nad oedd yn credu y byddai efe byw ar udganiad yr udgorn diweddaf, a ymddengys oddi wrth y geiriau yn yr Epistol at y Thessaloniaid (ii. 2—12).

53. Cynnwysir yma y rheswm pa ham y mae yn rhaid newid pawb. Nid ydyw yn bossibl i lygredigaeth etifeddu anllygredigaeth.

54. Mae rhywbeth gorfoleddus yn rhedeg trwy yr adnod hon, yn ei ffurf yn gystal ag yn ei mater. Gwneir y dyfyniad o *Esay* xxv. 8. Dywedir fod cyfieithiad Theodotion o'r geiriau yr un ag eiddo yr apostol yma. Ac amcana Whitby brofi fod y geiriau a gyfieithir "mewn buddugoliaeth," yn arwyddo yn gystal "yn dragywydd." Gan nad pa wahaniaeth sydd yn y geiriau, y mae yr ystyr yr un; sef, fod y fuddugoliaeth ar angeu yn gyflawn a thragwyddol.

55. Y mae yr apostol, wrth sylweddoli y fuddugoliaeth hon, yn tori allan mewn mawl a gorfoledd. "Y mae yn gosod ei hun a'i ddarllenwyr yn mhresennoldeb yr Iachawdwr a'r saint, pan wedi eu gwisgo âg anfarwoldeb; ac yn mhresennoldeb yr olygfa fawreddog, y mae yn tori allan mewn geiriau o fuddugoliaeth."—*Hodge.* Y ffugr a arferir yma am angeu ydyw y sarph; neu greadur colynog, gwenwynig; oddi wrth *Gen.* iii. Y gair Groeg am *uffern* ydyw *hades*, yr anweledig, preswylfa y meirw yn yr ystyr helaethaf. Cyfeirir yma yn fwyaf neilltuol at y bedd, fel lle cyrphŷ meirw. Nid am ddygiad eneidiau o sefyllfa anweledig y lleferir, ond am fywhâd cyrph o'r bedd.

57. *Ein Harglwydd Iesu Grist.*—Y mae yr enw yn gyflawn, fel y gweddai i ddifrifwch ac urddasolrwydd y diolchgarwch [*Alford*].

58. Dyma y casgliad oddi wrth y cyfan. Gan fod athrawiaeth yr adgyfodiad yn wir, a phwys y gwirionedd hwn mor fawr, dylai Cristionogion fod yn sefydlog yn eu hymlyniad wrthi. *Am hyny:*—gan mai fel hyn y mae pethau yn bod; gan fod buddugoliaeth ar angeu ac ar bob gelyn yn sicr. *Sicr, a diymmod.* Y mae yma esgyneb (*climax*), ebe Meyer. *Diymmod* ydyw ansymudadwy. *Gwaith yr Arglwydd* ydyw y bywyd crefyddol yn ei holl ddyledswyddau—gweithredol a goddefol, dirgel, teuluaidd, a chyhoeddus. *Yn ofer:*—yr hyn a fyddai, pe na byddai adgyfodiad y meirw.

Pennod XVI.

1—24. Amryw gyfarwyddiadau ac anerchiadau.

1. *I r saint.*—Gelwir hwynt yn *Rhuf.* xv. 26, "y rhai tlodion o'r saint sydd yn Ierusalem." Y mae yn amlwg oddi wrth amryw grybwylliadau yn yr epistolau fod mwy o dlodi yn cael ei ddioddef yn yr eglwys yn Ierusalem nag mewn un eglwys arall yn yr oes apostolaidd. Y mae braidd yr holl annogaethau o eiddo Paul i ofalu am y tlodion yn cael eu gwneuthur gyda chyfeiriad at y fam-eglwys. Yr oedd o'r blaen wedi appelio at eglwysi Galatia a Macedonia i gynorthwyo y tlodion yn Ierusalem; ac yn awr y mae yn gwneuthur appeliad cyffelyb at y Corinthiaid. "Y mae yn gosod y Galatiaid fel esampl i'r Corinthiaid, y Corinthiaid i'r Macedoniaid, a'r Corinthiaid a'r Macedoniaid i'r Rhufeiniaid: 2 *Cor.* ix. 2; *Rhuf.* xv. 26. Y mae grym mawr mewn esampl."—*Bengel.* Sylwa Bengel ei fod yn defnyddio y gair *saint* yma—"y gasgl i'r saint"—am fod yr enw hwn yn addas i bwysigrwydd yr amcan, ac felly hefyd er cyrhaedd yr amcan hwnw. Nid yw yn gwbl sicr pa beth a allasai fod yr achos fod y saint yn Ierusalem dan fwy o dlodi nag eglwysi ereill. Dichon fod amryw o gydachosion yn peri hyny. Y mae y rhan fwyaf, fodd bynag, yn cyttuno fod y drefn a ddygwyd i mewn yn foreu yn Ierusalem, am ba un y sonir yn y pennodau cyntaf yn Llyfr yr Actau (*Act.* ii. 44, 45) wedi achosi y tlodi hwn mewn rhan. "Yr oedd hyny," ebe un awdwr, "yn gamsyniad—wedi codi oddi ar fod cariad yn gorbwyso gwybodaeth. Ac mewn deng mlynedd ar hugain yr oedd y camsyniad wedi esgor ar ei ganlyniadau naturiol. Y mae perffeithrwydd mewn un peth yn gofyn perffeithrwydd yn mhob peth. Yj mae cydraddoldeb hollol mewn meddiannau yn gofyn am ryddid hollol oddi wrth hunangais a diogi." Gwel *Actau* ii. 44, 45. Dichon fod y blinderau a ddioddefai yr eglwys hon, yn anad un arall, yn achosi y tlodi hwn. Sylwa Alford mai naturiol oedd i'r fam-eglwys gael ei chynnorthwyo gan yr holl eglwysi ereill; ac y dichon mai un

lwysi Galatia, felly gwnewch chwithau.

2 Y *dydd* cyntaf o'r wythnos, pob un o honoch rhodded heibio yn ei ymyl, gan drysori, [a]fel y llwyddodd *Duw* ef, fel na byddo casgl pan ddelwyf fi.

3 A [b]phan ddelwyf, [c]pa rai bynag a ddangosoch eu bod yn gymmeradwy trwy lythyrau, y rhai hyny a ddanfonaf i ddwyn eich rhodd i Ierusalem.

4 Ac os bydd y peth yn haeddu i minnau hefyd fyned, hwy a gânt fyned gyda mi.

5 Eithr mi a ddeuaf atoch, gwedi yr elwyf trwy Macedonia

[a] Gen. 26. 12; Deut. 8. 18; Luc 16. 10.

[b] 1 Cor. 4. 19—21; 11. 34.

[c] Act. 6. 1—6; 2 Cor. 8. 19—24.

achos o barodrwydd yr apostol i'w cynnorthwyo, ac yn enwedig o'i awydd i ddwyn y [casgliad iddynt, oedd ddarfod iddo ef ei hun, cyn ei drŵedigaeth, fod yn offeryn blinder iddynt. Nid oes dim annaturiol yn y dybiaeth fod yno weddwon, amddifaid, a thlodion; a wnelsid felly ganddo ef, yn mysg ereill o gaseion yr eglwys.

2. *Y dydd cyntaf o'r wythnos*:—yn llythyrenol, "Ar un o'r Sabbath;" ond yn arwyddo yr un peth a'r darlleniad Cymraeg. Ceir yma un prawf, allan o amryw yn yr Actau a'r Epistolau, fod y dydd cyntaf o'r wythnos yn cael ei gyfrif yn ddydd neilduol, ac yn fwy addas nag un arall i gyflawni dyledswydd gynnulleidfaol neu eglwysig. Awgrymir yma fod y saint yn ymgynnull ynghyd ar y dydd hwnw; yr hyn a brofir yn amlwg yn *Act.* xx. 7. *Heibio yn ei ymyl*,—Gartref, ebe rhai. Y mae Hodge, ac ereill, yn gwrthod y golygiad o herwydd amryw resymau. Y mae y gair, *gan drysori*, yn hytrach yn fwy ffafriol i'r dybiaeth mai rhoddi heibio mewn rhyw drysorfa gyffredinol a feddylir. Yr unig reswm dros annog i wneuthur hyn ar y dydd cyntaf o'r wythnos ydoedd, mai ar y dydd hwnw yr oedd y saint yn ymgynnull ynghyd, pan y gallent roddi bob un ei gyfran mewn rhyw gronfa eglwysig. Y mae y golygiad hwn hefyd yn fwy unol â diwedd yr adnod. Os oedd pob un yn rhoddi cyfran heibio yn ei gartref, pa fodd y sicrhäai hyny na byddai casgliad pan ddelai yr apostol atynt? Ond os dodent eu rhodd bob Sabbath mewn trysorfa gyffredinol, buasai yn afreidiol gwneuthur casgliad ar ol iddo ddyfod: byddai y casgliad wedi ei wneyd cyn hyny. *Fel na byddo*:—cai ei amser ei dreulio er mwy o fudd i'r eglwys trwy gael ei gymmeryd oll i weini addysg ysbrydol, na thrwy arolygu y casgliad.

3. Y mae cyfiead y geiriau *'trwy lythyrau* yn anghywir. Dylai fod, "Y rhai hyny a ddanfonaf gyda llythyrau i ddwyn eich rhodd," &c. Y bobl oedd i gasglu yr arian: yr oedd yr arian i gael eu hymddiried i ddynion o ymddiried, o'u dewisiad eu hunain: ond Paul, fel ysgogydd y casgliad, oedd i'w anfon i Ierusalem.

4. *Yn haeddu i minnau.*—Os bydd yr achlysur yn galw—os bydd y casgliad yn fawr—äf finnau hefyd [*Bengel*]. Y mae yma yn eu denu i fod yn haelfrydig: addawa ddwyn y casgliad. Nid yw fod gan un farn gywir am dano ei hun yn falch-der: 2 *Cor.* i. 19. *Hwy a gânt fyned gyda mi*:—fel ag i ragfaenu pob drwgdybiaeth.

(canys trwy Macedonia yr wyf yn myned)

6 Ac nid hwyrach yr arosaf gyda chwi, neu y gauafaf hefyd, [d]fel y'm hebryngoch i ba le bynag yr elwyf.

7 Canys nid oes i'm bryd eich gweled yn awr ar fy hynt; ond, yr wyf yn gobeithio yr arosaf ennyd gyda chwi, [e]os cenhada yr Arglwydd.

8 Eithr mi a arosaf yn Ephesus hyd [f]y Sulgwyn.

9 Canys [g]agorwyd i mi ddrws mawr a grymus, [h]ac *y mae* gwrthwynebwyr lawer.

10 Ac [i]os Timotheus a ddaw,

[d] Act. 15. 3; 17. 15; 20. 38; 21. 5; Rhuf. 15. 24; 3 Ioan 6. 7.

[e] Diar. 19. 21; Ier. 10. 23; Act. 18. 21; Rhuf. 1. 10; Iago 4. 15.

[f] Exod. 23. 16; Lef. 23. 15; Act. 2. 1, 21.

[g] Act. 19. 8, &c

[h] 1 Cor. 15. 32; Act. 19. 9, 10; 2 Cor. 1. 8-10

[i] Act. 19. 22.

5. Yr oedd y cynllun hwn yn gyfnewidiad oddi wrth fwriad blaenorol (gwel 2 *Cor.* i. 15, 16). Ei fwriad blaenorol oedd myned yn uniongyrchol o Ephesus i Corinth, ac o Corinth i Macedonia, ac yna yn ol i Corinth, ac oddi yno i Ierusalem. Dywed wrthynt yn awr ei fod am fyned i Macedonia cyn myned i Corinth. Yr oedd ei wrthwynebwyr wedi gwneuthur y cyfnewidiad hwn yn ei gynllun yn achos o achwyniad yn ei erbyn, fel y gwelir yn ei amddiffyniad yn y bennod gyntaf o'r Ail Epistol. Cyhuddent ef o ysgafnder neu anwadalwch meddwl. Dywed yntau, mai tynerwch atynt hwy oedd unig achos y cyfnewidiad: 2 *Cor.* i. 23; ii. 1. Glynodd wrth ei ail gynllun; yn Macedonia yr oedd pan yr ysgrifenodd ei Ail Lythyr at y Corinthiaid (2 *Cor.* ii. 13; viii. 1), ac ar ei ffordd i Corinth (2 *Cor.* xii. 14; xiii. 1). Ceir hanes byr o'r daith yn *Act.* xx. 1, 2 [*Alford, Hodge*]. *Canys trwy Macedonia yr wyf yn myned*:—nid yw yn golygu ei fod ar y pryd yn teithio trwy Macedonia; ond fod ei gynllun wedi ei lawn benderfynu. Camsynied hyn a barodd i'r epistol hwn gael ei ddyddio gan goplwyr (gwel yr olygrif) o Philippi; pan y mae yn amlwg, oddi wrth *adn.* 8, mai o Ephesus yr ysgrifenwyd ef.

6. Af trwy Macedonia, ond arosaf gyda chwi. Fel y llefara yma yn ansicr ("ac nid hwyrach"), y bu, megys y gwelir yn Llyfr yr Actau. Treuliodd dri mis y gauaf yn Corinth (*Act.* xx. 3).

8, 9. Penderfynai aros yn Ephesus hyd y Sulgwyn, am fod yno gyfleusdra neu faes eang yn agored o'i flaen; yr hyn a eilw *yn ddrws mawr a grymus*. Nid yw yr ansoddair "grymus" yn cyttuno â'r ffugr "drws," ond â'r hyn a osodir allan yn y ffugr. Disgwyliai effeithiau mawrion a grymus oddi wrth y cyfleusdra. "Peth perthynol i ddyn doeth ydyw gwylio cyfleusderau." —*Bengel. Ac y mae*, &c.—Yn fynych y mae daioni, a drygioni hefyd, yn blaguro ar yr un pryd [*Bengel*]. Ac felly yn Ephesus; yr oedd yno gyfleusderau i lwyddiant mawr; ac yr oedd yno hefyd lawer o wrthwynebwyr. Cynllun Paul, ebe Hodge, oedd treulio y gwanwyn yn Ephesus, yr haf yn Macedonia, a'r gauaf yn Corinth.

10. Beth oedd yn galw am y cyfryw ocheiliad oddi wrth Paul gyda golwg ar Timotheus? Am ei fod yn israddol i Paul. Ac os oedd yn Corinth rai yn gwrthwynebu Paul, pa faint mwy y gwrthwynebent Timotheus. "Os oedd rhai yn diystyru yr apostol, pa faint mwy parod fyddent i

edrychwch ar ei fod yn ddiofn
[a]1 Cor. 15. 58; Rhuf. 16. 21; gyda chwi: [k] canys gwaith yr Arglwydd y mae yn ei weithio, fel finnau.
2 Cor. 6. 1; Phil. 2. 19-22; 1 Thes. 3. 2. [l]Luc 10. 16; 1 Thes. 4. 8; 1 Tim. 4. 12; Tit. 2. 15. 11 [l] Am hyny na ddiystyred neb ef: ond hebryngwch ef mewn heddwch, fel y delo ataf fi: canys yr wyf fi yn ei ddisgwyl ef gyda'r brodyr.
[m]1 Cor. 3. 5; Act. 18. 24-28; 19. 1; Tit. 3. 13. 12 Ac am [m] y brawd Apolos, mi a ymbiliais lawer âg ef am ddyfod atoch chwi gyda'r brodyr: eithr er dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod yr awrhon; ond efe a
[n]Preg. 3. 1; Marc 6. 21; Act. 24. 25. ddaw [n] pan gaffo amser cyfaddas. 13 Gwyliwch, [o]sefwch yn y
[o]1 Cor. 15. 2, 58; 2 Cor. 1. 24 ffydd, ymwrolwch, ymgryfhewch.
[p]Rhuf. 13. 8-10. 14 Gwneler [p] eich holl bethau chwi mewn cariad.
15 Ond yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr (chwi a adwaenoch dŷ Stephanas, mai blaenffrwyth Achaia ydyw, ac iddynt ymosod i weinidogaeth y saint)
16 Fod o honoch chwithau yn ddarostyngedig i'r cyfryw, ac i bob un sydd yn cydweithio, ac yn llafurio.
17 Ac yr ydwyf yn llawen am ddyfodiad Stephanas, Ffortunatus, ac Achaicus: [q] canys eiddiffyg chwi hwy a'i cyflawnasant;
[q]Phil. 2. 30.
18 Canys [r] hwy a esmwythasant ar fy ysbryd i, a'r eiddoch chwithau: cydnabyddwch gan hyny y cyfryw rai.
[r]Diar. 25. 13, 25; Rhuf. 15. 32.
19 Y [s] mae eglwysi Asia yn eich anerch chwi. Y mae Acwila a Phriscila, gyda'r eglwys sydd yn eu tŷ hwynt, yn eich anerch chwi yn yr Arglwydd yn fynych.
[s]Act. 19. 10.
20 Y mae y brodyr oll yn eich

---

dystyru y brodor ieuange o Lystra?"—*Bengel.* Dywed ereill, mai ei ieuengctid a barai hyn. Barna De Wette ac Alford ei fod o dueddfryd ofnus; a cheir awgrymau cadarnhaol o hyn yn 1 *Tim.* iii. 15; v. 22, 23.

12. Yr oedd Apolos yn adnabyddus i'r Corinthiaid: wedi bod yn eu dyfrhau. Ac yma, dywed yr apostol y rheswm pa ham na ddeuai efe gyda'r lleill atynt, rhag i'r Corinthiaid dybied fod yr apostol wedi rhoddi rhywbeth ar ei ffordd i'w attal. Gan ei fod mor adnabyddus iddynt, a derbyniol ganddynt, yr oeddynt, fe allai, yn fwy parod i dybied fod pethau wedi cael eu llunio yn y fath fodd gan yr apostol, o herwydd fod y Corinthiaid wedi ei dramgwyddo, fel ag i rwystro Apolos i fyned atynt. Yr oeddynt o leiaf yn barod i ofyn, Pa ham yr anfonodd y rhai hyn atom, yn hytrach nag Apolos! Y mae yn atteb, fod hyn i'w briodoli iddo ef, am ei fod wedi ymbil llawer âg ef am ddyfod atynt, ond mai dyna oedd ei ewyllys ef ei hunan.—*Calvin.* "Nid oedd ar Paul ofn i'r Corinthiaid ddewis Apolos o'i flaen ef."—*Bengel.* Gwelir yma nad oedd Apolos o dan awdurdod Paul.—*Hodge.* Sylwa Meyer fod y Corinthiaid, yn ol pob tebyg, wedi anfon cais am gael Apolos. Dichon mai yr achos o ammharodrwydd Apolos i ddyfod atynt oedd, fod ei enw wedi bod mor ddiweddar yn achlysur o gynnen yn eu plith.

14. Y mae yr holl epistol, fel y mae yn taflu goleu ar sefyllfa yr eglwys, yn dangos priodoldeb yr annogaeth yma.

15. Dywedir, yn *Rhuf.* xvi. 5, yn y testyn cyffredin, mai Epenetus oedd blaenffrwyth Achaia; yma mai Stephanas oedd blaenffrwyth Achaia. Ond y mae y darleniad yn y Rhufeiniaid yn anghywir: yn lle *Achaia*, darllener *Asia.* *I weinidogaeth y saint.*—Nid yn golygu swydd y weinidogaeth, ond fod tŷ Stephanas wedi ymroddi i wasanaethu ar y saint.

16. Y mae y gair a gyfieithir "ymosod," yn yr adnod o'r blaen, yn cynnwys y meddwl fod Stephanas a'i deulu wedi rhoddi eu hunain yn ewyllysgar, o gymmhelliad cariad yn eu mynwesau eu hunain, i wasanaeth y saint; ac yma y mae yr apostol yn annog y Corinthiaid hwythau, fel ad-daliad am eu gwasanaeth, i ymddarostwng i'r cyfryw. Y mae yr annogaeth i fod yn ddarostyngedig iddynt yn cynnwys fod i'r Corinthiaid ddangos parodrwydd i barchu eu cyfarwyddiadau, a rhoddi eu hunain dan eu harweiniad. "Nid oes dim yn fwy naturiol nag ymostyngiad i'r da." Ac annogir yr ymostyngiad hwn i bawb sydd yn llafurio yn gyffelyb iddynt hwy.

17. Dichon fod Ffortunatus ac Achaicus yn aelodau o deulu Stephanas. Y mae Clement, yn ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid yn crybwyll am frawd o'r enw hwn—yr un, fe ddichon, ag a nodir yma. Possibl yw mai hwy oedd dygiadwyr y llythyr (1 *Cor.* vii. 1) i'r apostol. Barna Bengel mai nid yr un yw y Stephanas yma a'r un a nodir yn *adn.* 15; ond mai ei fab ydoedd. Ond nid ydyw hyn yn debygol. Nid oes yma ddim i gefnogi y dybiaeth. Yr oedd yr apostol yn llawen am eu dyfodiad. *Canys*, &c.—Yr oedd presennoldeb y brodyr hyn yn gwneuthur i fyny am absennoldeb y Corinthiaid.

18. "Nid yw ymweliad brodyr gwirioneddol, er o radd isel, yn ofer."—*Bengel.* Yr oedd un mor fawr a'r apostol Paul yn cael ei esmwytho a'i adloni trwy bresennoldeb brodyr cyffredin. *Ar fy ysbryd i, a'r eiddoch chwithau.*—"Fw presennoldeb hwy gyda mi yr ydych yn ddyledus am y pethau hyny yn y llythyr hwn ag a roddant adfywiad ac esmwythdra i'ch hysbryd."—*Meyer.* Neu, dichon mai y meddwl yw, gan fod eu dyfodiad wedi sirioli yr apostol, y byddai ei sirioldeb ef yn sirioldeb iddynt hwythau hefyd.

19. *Asia*:—a elwir *Proconsular* Asia, o ba un Ephesus oedd y brif ddinas; yr hon dalaeth hefyd a gynnwysai y "saith eglwys," yn nechreu Llyfr y Dadguddiad. *Eich anerch.*—yn cofio atoch; yn dymuno eich llwyddiant yn mhob peth. Anerchiad Cristionogol ydyw dymuno llachawdwriaeth un. *Acwila a Phriscila.*—Wedi ymadael o Rufain (*Act.* xviii. 2), arosasant yn Corinth; ac aethant wedi hyny gyda'r apostol i Ephesus, a thrigasant yno. Yr oedd ganddynt eglwys yn eu tŷ yn Rhufain, ac yn Ephesus: *Rhuf.* xvi. 5.

20. *Y brodyr oll*:—nid yn unig yr eglwys yn nhŷ Acwila a Phriscila, ond yr holl ffyddloniaid

[t] 2 Cor. 12. 13. anerch. [t] Anerchwch eich gilydd â chusan sancteiddiol.

21 Yr anerch â'm llaw i Paul fy hun.

[u] Can. 1. 3, 4, 7. [x] Mat. 25. 41, 46. [y] Rhuf. 16. 20, 24. 22 Od oes neb [u] nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded [x] Anathema, Maranatha.

23 [y] Gras *ein* Harglwydd Iesu Grist *a fyddo* gyda chwi.

24 Fy [z] serch innau *a fo* gyda chwi oll yn Nghrist Iesu. Amen. [1] 1 Cor. 4. 14, 15

¶ Yr *epistol* cyntaf at y Corinthiaid a ysgrifenwyd o Philippi, gyda Stephanas, a Ffortunatus, ac Achaicus, a Thimotheus.

yn Ephesus. Nid oedd tŷ y pâr Cristionogol a ffyddlawn yma yn ddigon eang i gynnwys yr holl eglwys. *A chusan sancteiddiol.*—Gwel *Rhuf.* xvi. 22.

21. Yn ol 2 *Thes.* iii. 17 [gwel ar y lle], yr oedd yr anerchiad diweddol yn wastad yn llawysgrif yr apostol ei hun, er mwyn rhoddi prawf o ddilysedd yr epistolau. Yr holl epistol, oddigerth hyn, a ysgrifenid gan arall. Tertius oedd ysgrifydd y llythyr at y Rhufeiniaid (*Rhuf.* xvi. 22). Yr oedd ei waith yn ysgrifenu y llythyr at y Galatiaid (*Gal.* vi. 11) â'i law ei hun, yn deilwng o nodiad ganddo.

22. Hyn, a'r hyn a ganlyn, a ysgrifenodd â'i law ei hun. "Ni raid i'r geiriau hyn wrth esboniad. Y maent yn dwyn eu cynnwysiad arswydlawn adref i bob calon."—*Hodge. Nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist.*—Os ydyw yr Iesu yn Arglwydd, uwch law pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd, yn Berson anfeidrol hawddgar, y mae peidio ei garu ef yn profi nad oes yn y dyn sydd felly ddim gwir ddaioni yn trigo. Nid ydyw yn gwir garu dim daioni, na brawdgarwch moesol—nid yw yn caru Duw, os nad yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist. "Os yw efe yn Dduw wedi ymddangos yn y cnawd er mwyn ein hiachawdwriaeth; os ydyw yn uno yn ei berson ei hun bob rhagoriaeth dwyfol a dynol; os ydyw wedi ein caru yn y fath fodd ag i gymmeryd ein natur at ei natur dragwyddol ef, ac yn y natur hono ddibrisio a darostwng ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe angeu y groes, fel na'n coller, ond caffael o honom fywyd tragwyddol; yna y mae yn rhaid i'n calonau gydsynio âg uniondeb y felldith a gyhoeddir yma hyd yn oed yn ein herbyn ein hunain, os nad ydym yn ei garu ef. Yr ydym yn teimlo y dylem fod yn *Anathema, Maranatha.*—Dau air Aramaeg ydynt, yn arwyddo, "Mae yr Arglwydd yn dyfod." Maent yn cael eu defnyddio yma fel rhybudd pwysig, ac i gyfleu y syniad o bwysigrwydd caru Crist, ac ofnadwyaeth y felldith a gyhoeddir yn y gair *Anathema.*

24. *Fy serch innau a fo gyda chwi oll yn Nghrist Iesu.*—Dywed hyn am fod yr epistol, o'r dechreu i'r diwedd, yn llawn o geryddon llymion. Ond nid oedd y llymder yn arwyddo diffyg cariad ynddo ef. Nid oedd ei eiddigedd yn erbyn eu hafreoleidd-dra ond ffurf a gymmerai ei gariad atynt

YR

AIL EPISTOL AT Y CORINTHIAID.

Nid oes y gradd lleiaf o ammheuaeth wedi bod o barth awduriaeth a dilysrwydd yr epistol hwn. Y maent yn cael eu cadarnhau gan gynnwysiad yr Epistol Cyntaf, ynghyd â chan y ffeithiau hanesyddol a gofnodir yn yr Actau. Ac nid oes un epistol yn dwyn mwy o ddelw meddwl ac ysbryd yr apostol Paul. Y mae yr un peth yn cael ei gadarnhau hefyd gan nifer mawr o dystiolaethau allanol. Cyfrifir yr epistol i Paul gan Irenæus, Athenagoras, Clement o Alexandria, Tizmilian, Tertullian, Cyprian, a Novatus. Ond y mae rhai wedi taflu ammheuon am gyfander yr epistol. Golygai Semler ei fod yn cynnwys tri o lythyrau gwahanol. Ond nid oes dim sail i'r dybiaeth, fel y dangoswyd yn foddhaol gan Gablen a Meyer.

AMSER A LLE EI GYFANSODDIAD.

Cafodd yr epistol ei ysgrifenu yn Macedonia (2 *Cor.* ii. 13; vii. 5; ix. 2—4). Dywed yr olysgrif mai o Philippi yr anfonwyd ef. Ond nid ydyw hyny yn debygol. Yn *pen.* viii. 1, sonia am yr haelfrydedd oedd yn ganlyniad gras Duw yn eglwysi Macedonia; yr hyn sydd yn arwyddo ei fod, pan yn ysgrifenu, wedi dyfod i gydnabyddiaeth âg eglwysi Macedonia; yr hyn ni fuasai yn bod pe o Philippi yr anfonasai yr epistol: o blegid eglwys Philippi oedd y gyntaf yr ymwelodd â hi ar ei ffordd o Asia. Barna ereill iddo gael ei ysgrifenu yn Troas, gan appelio at 2 *Cor.* ii. 12. Ond wrth gymmharu y lle hwn â'r geiriau dilynol, amlwg yw i'r apostol adael Troas cyn cyfansoddi yr epistol. Dywed ereill mai o Berea yr anfonwyd yr epistol. Ond dywed Davidson fod hyn yn gwbl annhebygol. Yr oll a wyddom, ebe Alford, ydyw, fod yr epistol wedi ei ysgrifenu yn Macedonia; ac yn niwedd y daith, yn hytrach nag yn ei dechreu. Nid oes, ebe Davidson, ddim crybwylliadau yn yr epistol i ffafrio un lle mwy na lleoedd ereill. Tueddir rhai i feddwl mai nid mewn un lle y cyfansoddwyd ef; ond mewn amrywiol leoedd, ac ar wahanol adegau. Ond y mae y dybiaeth hon yn cael ei chefnogi gan y rhai a feddyliant eu bod yn canfod olion o frys yn y cyfansoddiad. Y cwbl sydd sicr yw, mai yn Macedonia y cafodd ei ysgrifenu; a'r holl dybiau a nodasom, ac ereill o'r un natur, nid ydynt ond tybiau heb seiliau iddynt yn nghorph yr epistol ei hun.

Y farn fwyaf cyffredin am amser cyfansoddiad yr epistol ydyw, i hyn gymmeryd lle yn lled fuan ar ol anfoniad yr Epistol Cyntaf. O ddeutu y Sulgwyn [B. A. 57], ymadawodd yr apostol o Ephesus i fyned i Troas: arosodd yno dros amser byr; aeth oddi yno i Macedonia; arosodd yn Macedonia ddigon o amser i ymgydnabyddu â theimlad yr eglwysi, ac i wneuthur y casgliad. Yr adeg yma, sef tua diwedd ei arosiad yn Macedonia, yr ysgrifenodd yr epistol hwn. Ar ol hyn, daeth i dir Groeg, ac i Corinth, lle yr arosodd am dri mis. Ac wedi teithio trwy Macedonia, yr ydym yn ei gael yn Philippi ar ei ddychweliad, ar y Pasc yn y flwyddyn B. A. 58. Oddi wrth hyn cesglir, gyda mesur o sicrwydd, fod yr epistol wedi ei ysgrifenu yn haf neu gynhauaf y flwyddyn B. A. 57. Dyma olygiad Alford, ac ereill. Yr un hefyd yw barn Dr. Davidson, er ei fod yn seilio ei farn ar rai tybiau ammheus. Y mae, er enghraifft, yn cymmeryd 2 *Cor.* i. 4—10, yn y rhai y cyfeiria yr apostol at y perygl y bu ynddo yn Ephesus—"y cystudd a ddaeth i ni yn Asia"—yn sail dros dybied fod yr Ail Epistol wedi ei ysgrifenu yn fuan ar ol y Cyntaf. Dywed fod hyn yn cael llefaru am dano yn y fath fodd ag i arwyddo fod y peth wedi digwydd yn bur ddiweddar; ac mai at yr hyn a grybwyllir yn *Act.* xix. 23—41, y cyfeirir. Ond y mae Alford, gan ddilyn De Wette a Ruckert, yn gwrthod y golygiad. "Nis gallaf lai na synu," ebe Alford, "fod neb sydd wedi astudio cymmeriad a hanes yr apostol yn parhau i dybied ei fod yn cyfeirio at y cythrwfl yn Ephesus. Y mae y dybiaeth yn ei wneuthur yn agored i'r cyhuddiad o feddu ysbryd anwrol, yr hyn ni pherthynai iddo yn y mesur lleiaf; a buasai addefiad o'r cyfryw ysbryd yn beth tra ammhriodol mewn epistol, yn yr hwn y mae, fel un o'i amcanion wrth ei ysgrifenu, yn amddiffyn ei effeithiolrwydd fel apostol." Y cystudd a ddaeth arno yn Asia, oedd, yn ol pob tebyg, yr afiechyd trwm, yn gyssylltiedig â phryder blin a dwys. Disgwyliasai gyfarfod â Titus yn Troas (2 *Cor.* ii. 13), gyda rhyw hysbysiad am yr effaith a gafodd ei lythyr cyntaf ar yr eglwys yn Corinth. Cafodd ei somi yn ei ddisgwyliad (2 *Cor.* ii. 13); etto cyfarfuasant yn Macedonia (2 *Cor.* vii. 5, 6), lle y cafodd yr hysbysrwydd disgwyliedig. Yr oedd yr hysbysiad a roddwyd iddo gan Titus ar y cyfan yn foddhaol. Gwnaeth y llythyr argraph ddwys, a'r argraph hono yn iachusol ar yr eglwys.

Cydnabyddid dwyfol awdurdod yr apostol gan gorph yr eglwys, yr hon a ddangosai barodrwydd

i gyddfurfio â'i annogaethau. Ymofidiai yr aelodau a herwydd eu hafreolaeth; a pharod oeddynt i ymgymmodi â'u "tad yn Nghrist." Gwnaethant yn ol cyfarwyddyd yr apostol â'r dyn drygionus y buont yn ei lochesu yn yr eglwys. Bwriwyd ef allan o'r eglwys [gwel ar y lle]. Ond er fod yr effaith ar y cyfan yn ddymunol, nid oedd yn gwbl felly gyda'r holl aelodau. Nid oedd pawb yn ymostyngol ac edifeiriol, gan amlygu parodrwydd i wneuthur pob peth yn weddus, ac mewn trefn. Nid oedd yn bossibl diwreiddio yr holl ddrygau ar unwaith. Yr oedd anghydffyddiaethau wedi ysu yn rhy ddwfn i mewn i'r eglwys i un llythyr apostolaidd eu llwyr ddileu. Yr oedd ei wrthwynebwyr ef, a gwrthwynebwyr symledd yr efengyl, yn fwy maleisus nag o'r blaen; y rhai a arferent bob moddion annhêg i iselu ei awdurdod. Ac y mae hyn yn rhoddi cyfrif am y gwahanol deimladau a amlygir yn yr epistol. Tra yn canmawl y lliaws, nid ydyw yr epistol yn colli golwg ar yr ychydig oeddynt yn ei wrthwynebu a'i ddrwgliwio. Ceir amryw awgrymau yn yr epistol hwn a ddangosant beth oedd natur y cyhuddiadau a ddygid ganddynt yn erbyn yr apostol. Gwnaent ddefnydd o'r cyfnewidiad a wnaethai yn ei gynllun i'w gyhuddo o anwadalwch. Awgryment nas gellid rhoddi mwy o ymddiried yn y ddysgeidiaeth nag yn y dysgawdwr ei hun. Gosodent ef allan hefyd fel un bostfawr a gwag-ogoneddgar, am ei fod yn son cymmaint am dano ei hun. Galwent sylw y Corinthiaid at waeledd ei ymddangosiad personol, gan gyferbynu â hyny gryfder ei lythyrau. Dywedent ei fod yn hoff o fygwth yr hyn na allai ac na fynai ei ddwyn i weithrediad; ac er ei fod yn ymddangos, tra yn absennol, yn nerthol a llawn o awdurdod, etto fod ei ymddangosiad, pan yn bresennol, yn wan, a'i ymadrodd yn ddirmygus. Yr oedd arno ofn dyfod atynt, rhag i'w waeledd a'i ddinodedd ddyfod i'r amlwg. Tybir gan rai mai o'r blaid Iuddewaidd, yr hon a ymffrostiai yn Cephas, yr oedd y gwrthwynebwyr maleisus yma. Ereill a farnant, ac yn eu mysg De Wette, mai perthyn yr oeddynt i'r rhai a ddywedent ieu bod "yn eiddo Crist;" a dichon mai dyma y dybiaeth fwyaf tebygol. Barna Davidson, fodd bynag, eu bod yn perthyn i'r ddwy blaid yma, er mai yn mysg yr olaf yr oedd y prif wrthwynebwyr. Dichon fod y cyfeiriad at y blaid Iuddewaidd yn y manau canlynol:—2 *Cor.* iii; x. 7; xi. 12, 13; xii. 11. Dywed Davidson nad oes ammheuaeth na olygir y blaid hon yn y manau uchod. Yn awr, cafodd yr Ail Epistol ei gyfansoddi gyda golwg ar y sefyllfa hon ar yr eglwys, ac i'r dyben o arbed i'r gwrthwynebwyr radd o'r llymder ag y teimlai ei hun dan orfod i'w ddangos tuag atynt, wedi iddo ddyfod atynt (2 *Cor.* xiii. 10). Amcanai, felly, trwy lythyr eu hennill, cyn talu ymweliad â'r eglwys.

IEITHWEDD A MATER YR EPISTOL.

Y mae y golygiadau mwyaf eithafol yn ffynu yn mysg dosbarth gwahanol o esbonwyr o barth arddull neu ieithwedd yr epistol hwn. Dywed Davidson, fod rhai wedi arfer y llymder mwyaf wrth feirniadu yr arddull. Dywedant nad yw i'w gymmharu am funud âg eiddo rhai o'r epistolau ereill a gyfrifir i'r un awdwr. Y mae arddull yr epistol hwn, ebe Eichhorn, yn arw, afreolaidd, ac ammhrydferth. Ond y mae yn ddiammheu fod y beirniaid hyn yn bradychu anwybodaeth gresynus, wrth lefaru yn y cyfryw fodd. Dichon fod yma wahaniaeth: nad yw yr arddull mor esmwyth ag yn yr Epistol Cyntaf, ac y gellid casglu fod yr epistol wedi ei gyfansoddi dan deimlad cynnhyrfus ar rai adegau. "Ond nid ydyw y pethau hyn ond eithriadau. Y mae yn ymddangos nad yw yr ieithwedd, ar y cyfan, yn israddol i'r eiddo epistolau ereill yr apostol. Nid oes yma brinder ymadroddion i osod allan feddwl yr ysgrifenydd gyda chyflawnder. Y mae yn feistr ar Roeg Helenistaidd pur, ac yn fynych ar yr hyn a ystyrid yn Roeg clasurol pur gan feirniaid cymmhwys. Yn fyr, y mae y geirweddiad a'r arddull yn dwyn argraph Paul—yn nodweddiadol o hono."—*Davidson.* Dywed Alford, nad yw y materion a'r arddull mor amrywiol mewn un epistol arall ag ydynt yn hwn. Ceir yma gyfnewidiadau sydyn oddi wrth un mater at fater arall, ac o un teimlad i deimlad arall. Y mae yn awr yn dyddanu; yn y fan yn ceryddu: ceir yma doster |a thynerwch yn ymyl eu gilydd: a'r dôn fwyaf difrifol yn dilyn y wawdiaith fwyaf llem. Dichon fod sylwadau Meyer mor agos i'r gwirionedd ag eiddo neb. O ran sylwedd maent fel y canlyn:—Y mae yr ymadroddion rai prydiau yn aneglur, a chyflead y brawddegau yn anhawdd: ac y mae hyn yn cael ei achosi gan gynnhyrfiad y serchiadau, a'r mynediad disymmwth o un teimlad i deimlad gwahanol: ac fe allai gan frys. Ond y mae hyn oll yn gwasanaethu i fwyhau ein hedmygedd o'r nerth, y medr, a'r lledneisrwydd areithyddol, yn mha un y mae yr apostol yn arllwys ei ysbryd allan.

O ran mater, gellir dosbarthu yr epistol yn dair o ranau. Yn y rhan gyntaf (2 *Cor.* i.—vii. 16) llefara yr apostol am ei ddioddefiadau er mwyn yr efengyl; pwysau y rhai, fodd bynag, a leihëid gan yr ystyriaeth o urddasrwydd ei swydd fel gweinidog y Testament Newydd, a chan y rhagolwg ar dragwyddol bwys gogoniant yn y byd a ddaw. Yn yr ail ran (*pen.* viii. a ix.) ymdrina am y casgliad oedd yn cael ei wneuthur yn Macedonia er cynnorthwyo y saint tlodion yn Ierusalem. Yn y drydedd ran (*pen.* x. hyd ddiwedd yr epistol), gwna yr apostol ei ddiffyniad yn ngwyneb awgrymau y gau athrawon yn ei erbyn. Er ei fod, mewn cymmhariaeth, yn iad yn ngwyneb awgrymau y gau athrawon yn ei erbyn. Er ei fod, mewn cymmhariaeth, yn iad yn ngwyneb awgrymau y gau athrawon yn ei erbyn. Yr oedd wedi anghyfarwydd ar ymadrodd, etto nid ydoedd felly mewn gwybodaeth. Yr oedd wedi gwneuthur gwyrthiau yn eu plith; ïe, yr oedd wedi derbyn dadgudd iedigaethau oddi wrth yr Arglwydd. Yr oedd ei lafur a'i ddioddefiadau wedi bod yn helaethach nag eiddo ei wrthwynebwyr. Yr oedd y Corinthiaid eu hunain yn llythyrau o ganmoliaeth iddo, ac, fel ei blant yn Nghrist, yn seliau ei weinidogaeth. Bydded i'w wrthwynebwyr, os gallent, ddwyn yn mlaen profion cyffelyb o'u hawdurdod eu hunain. Rhoddwn etto ddosbarthiad mwy manwl o gynnwysiad yr epistol hwn. Yn *pen* i. 3—14, y mae yn diolch i Dduw fod ei cyflwr cyffredinol yr hyn ydoedd. *Pen.* i. 15, hyd *pen.* ii. 2, y mae yn cyfeirio at ei fwriad i ymweled â hwynt. *Pen.* ii. 3—11, y mae yn cyfeirio at gyfarwyddiadau cyffredinol oedd yn gynnwysedig yn ei lythyr cyntaf. Yn *pen.* ii. 12, hyd ddiwedd y bennod, y mae drachefn yn dychwelyd yn ol at ei gynlluniau ei hun. Yn *pen.* iii. 1, hyd ddiwedd y bennod, y mae yn cyfeirio at ei urddas fel apostol. Yn

pen. iv. 1, hyd y diwedd, y mae yn sylwi yn faith ar ysbryd a natur ei lafur, a'r blinderau a'r erlidiau a ddioddefodd. Yn *pen.* v. 1, hyd y diwedd, y mae yn sylwi ar ei obeithion ef, a gobeithion pob Cristion. Yn *pen.* vi. 1—10, y mae yn nodi ei ddioddefiadau fel prawf o'i fod yn weinidog ffyddlawn i Grist. Yn *pen.* vi. 11, hyd y diwedd, y mae yn dychwelyd gan roddi dadganiadau mwy pennodol o'i gariad tuag at ei blant yn y ffydd, a'i ddymuniad iddynt wylio rhag ffaidd eilunaddoliaeth. Yn *pen.* vii., y mae yn rhoddi dadganiad pellach o'i deimladau tuag atynt. Yn *pen.* viii. 1—17, y mae yn eu hannog i haelioni, trwy gyfeirio at haelioni eglwysi Macedonia, ac at eu rhinweddau *ysbrydol* eu hunain, ac hefyd at esiampl Crist. Yn *pen.* viii. 18, hyd y diwedd, y mae yn symmud yn mlaen i sylwi yn fwy manwl ar natur cenadwri Titus a'i ganlynwyr. Yn *pen.* ix., y mae yn ail annog y Corinthiaid i haelioni, trwy ddangos y canlyniadau sydd i ymddygiadau o'r fath. Yn *pen.* x., y mae yn rhybuddio y rhai a ammheuent ac a wadent ei awdurdod apostolaidd. Yn *pen.* xi., y mae yn mhellach yn amddiffyn ei apostoliaeth, yn dangos ei amynedd, ac yn ymffrostio yn ei lafur. Yn *pen.* xii. 1—11, y mae yn egluro y dadguddiadau a dderbyniodd. O *adn.* 12 i'r diwedd, sylwa eilwaith ar natur ei ymddygiadau tuag at ei blant yn y ffydd. Yn *pen.* xiii., y mae yn terfynu yr epistol hwn trwy eu rhybuddio yn ddifrifol, a thrwy anerchiadau i gariad a heddwch.

YR AIL EPISTOL AT Y CORINTHIAID.

PENNOD I.

3 *Y mae yr apostol yn eu cysuro hwy yn yn erbyn traliod, trwy y diddanwch a'r ymwared a roisai Duw iddo ef, megys yn ei holl gyfyngderau,* 8 *felly yn enwedig yn ei berygl diweddar yn Asia:* 12 *a chan gymeryd tystiolaeth ei gydwybod ei hun, a'r eiddynt hwythau, am ei ddidwylled ddull yn pregethu anghyfnewidiol wirionedd yr efengyl,* 15 *y mae efe yn ei esgusodi ei hun nas daethai atynt; gan iddo wneuthur hyny, nid o ysgafnder meddwl, eithr o'i dynerwch tuag atynt hwy.*

B. A. 57.

[a] Rhuf. 1. 1 —5; 1 Cor. 1. 1.
[b] Act. 16. 1; Rhuf. 16. 21; Phil. 2. 19—22; Col. 1. 1.
[c] Act. 18. 1.

PAUL,[a] apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, [b]a'r brawd Timotheus, at [c]eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, gyda'r holl seintiau y rhai sydd yn holl Achaia:

[d] Rhuf. 7. 1.

2 [d]Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

3 Bendigedig *fyddo* Duw, a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, Tad y trugareddau, a Duw pob dyddanwch;

4 Yr hwn sydd yn ein dyddanu ni yn ein holl orthrymder, fel y gallom ninnau ddyddanu y rhai sydd mewn dim gorthrymder, trwy y dyddanwch â'r hwn y'n dyddenir ni ein hunain gan Dduw.

[e] 1 Cor. 4. 10—13; Phil. 1. 20; 3. 10; Col. 1. 24. [f] Phil. 2. 1; 2 Thes. 2. 16, 17.

5 O blegid [e]fel y mae dioddefiadau Crist yn amlhau ynom ni; [f]felly trwy Grist y mae ein dyddanwch ni hefyd yn amlhau.

PEN. I. 1, 2. YR ANERCHIAD.

1. *Trwy ewyllys Duw*:—gwel 1 *Cor.* i. 1. *A'r brawd Timotheus.*—Yr un modd ag y cyssyllta Sosthenes âg ef ei hun yn 1 *Cor.* i. 1.—etto heb awgrymu cydraddoldeb swyddol; ond i'r gwrthwyneb. Gwelir, oddi wrth 1 *Cor.* iv. 17, fod Timotheus yn Macedonia, ar ei ffordd i Corinth, pan gafodd yr epistol cyntaf ei ysgrifenu. Yr oedd yn awr gyda'r apostol yn un o ddinasoedd Macedonia. *Gyda'r holl seintiau*, &c.—Bwriedid yr epistol hwn, fel yr un at y Galatiaid, i fod yn gylchlythyr i holl seintiau Achaia. Etto, ni ddywedir, "i holl eglwysi Achaia," fel y dywedir "i eglwysi Galatia." Dichon mai y rheswm am hyny ydyw, nad oedd y seintiau a anerchir wedi ymgorphori mewn eglwysi ar eu penau eu hunain [*Hodge*]; neu, fod yr epistol yn cael ei fwriadu yn benaf i eglwys Corinth, gyda chyfeiriad at bethau perthynol iddi hi: tra yr oedd yr epistol at y Galatiaid yn eiddo cyffredin i holl eglwysi Galatia, ac nid yn fwy i un nag i ereill.

3—11. DIOLCHGARWCH AM WAREDIGAETH A DYDDANWCH.

3. Y mae y teitlau goruchel a rydd yr apostol ar Dduw yn amlygu llawnder ei fynwes ar y pryd o fawl a defosiwn. Etto, y mae defosiwn ei galon, yn y ffurf a gymmer yma, yn cael ei arwain gan yr hyn sydd dan ymdriniaeth yn yr adnodau canlynol. Y mae yn moliannu yr hwn a'i "gwaredodd oddi wrth gyfryw ddirfawr angeu," dan y teitl o "Dad y trugareddau;" yr hwn a weinyddodd iddo gyfryw ddyddanwch dan y teitl o "Dduw pob dyddanwch." *Bendigedig.*—Nid ydyw y gair gwreiddiol yn cael ei gymmhwyso yn y Testament Newydd at neb ond Duw. Y mae ar unwaith yn cyfieu diolchgarwch a pharch addoliadol.

4. *Fel y gallom.*—Amcan Duw yn ei drallodion, ac yn enwedig yn y dyddanwch a weinyddai iddo ynddynt, oedd ei gymmhwyso i ddyddanu ereill mewn trallodion cyffelyb. Boddlonai yr apostol i fod yn orthrymedig ei hun, er mwyn gallu cynnal y gorthrymedig yn well. Bywyd tlawd i ereill ydyw y bywyd hwnw na ŵyr ond am esmwythyd. Bywyd y dyn trallodedig, profedig gan gystuddiau, sydd gyfoethocaf i ereill.

5. Cadarnhâd o'r adnod flaenorol, "Galluogir ni i ddyddanu ereill, canys y mae ein dyddanwch yn gyfartal â'n dioddefiadau."—*Hodge. Dioddefiadau Crist* a olyga ei ddioddefiadau ef yn ei aelodau: nid dioddefiadau o herwydd Crist. Y mae grym y sefyllfa feddiannol yn erbyn y golygiad olaf. Y mae Hodge yn gwrthod y golygiad cyntaf, ac ar sail *Mat.* xx. 23, yn dadleu mai yr ystyr yw, dioddefiadau cyffelyb i'r rhai yr aeth Crist danynt. Sonia yr apostol hefyd am gymdeithas â'i, neu gyfranogiad o'i ddioddefiadau ef: *Phil.* iii. 10. *Ein dyddanwch ni hefyd yn amlhau.*—Yr oedd y dyddanwch y llefara yr apostol am dano yn deilliaw oddi wrth bresennoldeb Crist gydag ef yn ei orthrymder; oddi ar brofiad o gariad Crist wedi ei dywallt yn ei galon; oddi ar y llawenydd a weinyddai llwyddiant yr efengyl iddo; oddi ar ei obaith sicr am y wobr anhyweth oedd yn ei aros; oddi ar ei wybodaeth am ddylanwad daionus el ddioddefiadau er cryfhau a chalonogi ereill; ac oddi ar y golygiadau eang a feddai ar allu y llywodraeth ddwyfol i beri i bob peth gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. Trwy rym y cyfryw ystyriaethau, yr oedd nid yn unig yn dawel yn ei ddioddefiadau, ond yn gorfoleddu danynt, ac nid yn unig yn gorfoleddu

6 A pha un bynag ai ein gorthrymu yr ydys, er dyddanwch ac iachawdwriaeth i chwi *y mae*, yr hon a weithir trwy ymaros dan yr un dioddefiadau, y rhai yr ydym ninnau yn eu dioddef; ai ein dyddanu yr ydys, er dyddanwch ac iachawdwriaeth i chwi *y mae hyny*.

7 Ac *y mae* ein gobaith yn sicr am danoch; gan i ni wybod, mai megys yr ydych yn gyfranogion o'r dioddefiadau, felly *y byddwch* hefyd o'r dyddanwch.

8 Canys ni fynem i chwi fod heb wybod, frodyr, am ein cystudd a ddaeth i ni yn Asia, bwyso arnom yn ddirfawr uwch ben *ein* gallu, hyd onid oeddym yn amheu cael byw hefyd. [f] Iob 40. 14; Salm 44. 6—7; Diar. 28 28. Ier. 17. 5—7; Luc 18. 9.

9 Eithr ni a gawsom ynom ein hunain farn angeu, [g] fel na byddai

danynt, ond yn gorfoleddu ynddynt. Yr oedd ei dioddefiadau yn wrthddrych neu yn destyn gorfoledd iddo. A pho trymaf oedd y dioddefiadau, mwyaf oedd y dyddanwch.

6, 7. Prif ddrychfeddwl yr adnodau hyn ydyw fod sefyllfa yr apostol, pa un bynag ai ei orthrymder ynte ei ddyddanwch, er budd i'r Corinthiaid. Yr oedd y berthynas oedd rhyngddo â hwynt yn gyfryw fel ag y teimlai yn hyderus y byddai iddynt gyfranogi o'i ddioddefiadau a'i ddyddanwch, ac felly brofi buddioldeb y naill a'r llall. *Dyddanwch ac iachawdwriaeth.*—Yr olaf ydyw amcan y cyntaf. Y mae y cyntaf yn deimlad a brofir yn yr enaid: yr olaf yn ffaith, yn gaffaeliad a gyrhaeddir.—*Bengel. Yr hon a weithir trwy ymaros dan yr un dioddefiadau.*—Y mae y darlleniad hwn yn cael ei farnu gan amryw yn anghywir. Nid ydyw "yr hon"—"a weithir"—a "thrwy ymaros," yn cyfleu ystyr y gwreiddiol. Dichon mai y darlleniad goreu ydyw, "A pha un bynag ai ein gorthrymu yr ydys, y mae er dyddanwch ac iachawdwriaeth i chwi, yr hyn (dyddanwch) sydd yn gweithio mewn amynedd dan yr un dioddefiadau." Y mae effeithiolrwydd y dyddanwch hwn yn dyfod i'r golwg mewn amynedd dan ddioddefiadau. Y mae hyn yn well na'r darlleniad cyffredin, sydd yn cymmeryd y ferf yn yr ystyr oddefol: y dyddanwch hwn a weithir allan neu a brofir mewn amynedd dan y dioddefiadau. Y brif ddadl yn erbyn hyn ydyw, nad yw y ferf yn cael ei defnyddio yn yr ystyr oddefol yn ysgrifeniadau Paul. *Yr un dioddefiadau.*—Yr oedd dioddefiadau y Corinthiaid yr un ag eiddo yr apostol. Yr oeddynt hwy, trwy nerth eu cydymdeimlad, yn gwneuthur ei ddioddefiadau ef yn ddioddefiadau iddynt hwy eu hunain: yr oeddynt yn dioddef i ryw fesur yn gyffelyb iddo, ac yr oedd eu dioddefiadau yn ddioddefiadau Crist yn yr un ystyr a'r eiddo ef.

8. Cadarnha yr apostol trwy ffeithiau diweddar yn hanes ei fywyd yr hyn a ddywedasai yn yr adnodau blaenorol am ei ddioddefiadau a'i ddyddanwch. *Asia*:—y rhan hono o Asia a elwir *Proconsular Asia*, yr hon a gynnwysai daleithiau gorllewinol Asia Leiaf; sef, Mysia, Lydia, Caria, a rhan o Phrygia. *Ein cystudd.*—Nid yw yn sicr pa beryglon a dioddefiadau a olygir yma. Y golygiad mwyaf cyffredin ydyw, mai at y terfysg yn Ephesus (*Act.* xix. 23—41) y mae yn cyfeirio. Amddiffynir y golygiad hwn gan Davidson, ar ol Wieseler a Neander. Y mae Ruckert, ac ereill, yn dadleu fod yr ymadroddion, "cystudd," &c., yn cyfeirio, nid at erlidiau a ddioddefodd Paul, ond at aflechyd perygl us, dan effeithiau pa un yr oedd yn Macedonia, y rhai a deimlid ganddo pan yn ysgrifenu yr epistol hwn. Ond y mae Neander yn dadleu y dylid esbonio yr adnod hon yn ol *adn.*

5. Dywed y gellid dynodi afiechyd mewn rhyw ystyr yn "ddioddefiadau Crist;" etto, yn unol â geirweddiad yr apostol, dylem eu cymmhwyso yn benaf at flinderau o herwydd achos Crist. Dywed Ruckert, pe y cythrwfl yn Ephesus a feddyliasai yr apostol, y buasai yn enwi y ddinas hono yma, fel yn yr epistol cyntaf. Ond nid ydyw Neander yn gweled dim grym yn y ddadl hon. Pa ham nas gallai ddewis enw cyffredinol y dirlogaeth, o ba un yr oedd Ephesus yn brif ddinas? Ac onid yw yn bossibl fod y gwrthwynebiad a gyfododd yn ei erbyn yn Ephesus wedi ymledu i ranau ereill o Asia Leiaf? Os felly, gofyna Neander pa ham nas gallasai ddyweyd fod yr erlidiau "wedi pwyso arno ef a'i frodyr yn ddirfawr uwch ben eu gallu, hyd onid oeddynt yn ammheu cael byw?" Yn 2 *Cor.* iv. 9, ac 11, y mae yn nodi erlidiau yn mha rai yr oedd yn mherygl gwastadol marwolaeth, a'r hyn y mae 1 *Cor.* xv. 30, 31, yn cyttuno. Gwelir oddi wrth y geiriau hyn ei fod yn agored i berygl on na cheir coffa am danynt yn yr *Actau.* "Nid ydym yn gwadu," chwanega Neander, nad oedd yr apostol yn dioddef oddi wrth wendid corphorol: y mae yn debygol fod y blinderau yr elai danynt yn gwanychu ei nerth corphorol; ond nid yw yn canlyn fod un cyfeiriad at hyny yn y geiriau dan sylw. Y mae ereill, fodd bynag, yn dilyn Ruckert: dywed Alford nad yw yr ymadroddion cryfion a ddefnyddir yma yn cael eu cyfiawnhau gan yr hyn a fynegir am y cythrwfl yn Ephesus a'i ganlyniadau—ymddangosant fel yn golygu rhyw afiechyd peryglus a ddygodd yr apostol i byrth y bedd. Barna efe fod ymadroddion yn yr adnodau dilynol yn ffafrio y golygiad hwn. Y mae Hodge o'r un farn a Neander:—"Y tebygolrwydd yw ei fod yn cyfeirio at ddioddefiadau o wahanol fathau, ac yn enwedigol at gynllwynion a cheisiadau yn erbyn ei fywyd. Cylchynid ef gan elynion, luddewon a phaganiaid, y rhai a sychedent am ei waed. Ac yr ydym yn gwybod nad yw *Actau* yr apostolion yn cynnwys adroddiad ond am rai o'i flinderau." Dichon fod yn deilwng o sylw fod yr apostol yn llefaru am y cystudd yn Asia fel peth perthynol i'w gymdeithion yn gystal ag iddo yntau—"ein cystudd"—"bwyso arnom"—"Ni a gawsom ynom ein hunain farn angeu;" ac y mae hyn yn cynnwys mwy na chyfranogiad ei gymdeithion, trwy nerth cydymdeimlad â'r apostol: arwyddir eu bod hwythau yn ddeiliaid uniongyrchol o'r cystudd gystal ag yntau.

9. Yn hytrach na disgwyl cael byw, cawsant, i'r gwrthwyneb, ynddynt eu hunain farn angeu, neu *atteb angeu*: ein hattebiad ynom ein hunain i'r cwestiwn, "Bywyd, ynte angeu?" oedd, "Angeu." *Yr hwn sydd yn cyfodi y meirw.*—Golygai ei waredigaeth fel adgyfodiad o feirw. Neu, wedi anobeithio am waredigaeth rhag

i ni ymddiried ynom ein hunain, [k] Ezec. 37. 1 —14; Rhuf. 4. 17 —25; Heb. 11. 19. [l] 1 Sam. 7. 12; Iob 5. 17—22; Esa. 46. 3, 4; 2 Tim. 4. 17; 2 Pedr 2. 9.
ond [h]yn Nuw, yr hwn sydd yn cyfodi y meirw:

10 Yr hwn [l]a'n gwaredodd ni oddi wrth gyfryw ddirfawr angeu, ac sydd yn ein gwaredu; yn yr hwn yr ydym yn gobeithio y gwared *ni* hefyd rhagllaw:

11 A chwithau hefyd yn cydweithio drosom mewn gweddi, fel, am y rhoddiad *a rodded* i ni o herwydd llawer, y rhodder diolch gan lawer drosom.

12 Canys ein gorfoledd ni yw hyn; *sef*, tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn [k]symlrwydd a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb cnawdol, ond trwy ras Duw, yr ymddygasom yn y byd, ond yn hytrach tuag atoch chwi. [k] Rhuf. 16. 18, 12.

13 Canys nid ydym yn ysgrifenu amgen bethau atoch nag yr ydych yn eu darllen, neu yn eu cydnabod, ac yr wyf yn gobeithio a gydnabyddwch hyd y diwedd hefyd: [l] 1 Cor. 3. 21 —23; Phil. 1. 26. [m] 1 Cor. 15. 31; Phil. 2. 16; 4. 1; 1 Thes. 2. 19, 20.

14 Megys y cydnabuoch ni o ran, [l]mai nyni yw eich gorfoledd chwi, [m]fel chwithau yr eiddom ninnau hefyd, [n]yn nydd yr Arglwydd Iesu. [n] 1 Cor. 1. 8; Phil. 1. 6, 10; 1 Thes. 5. 23.

angeu yn y byd hwn, cyfodai ei olwg at obaith yr adgyfodiad.

10. Yr ydym yn methu cydweled âg Alford fod tôn yr adnod hon yn ffafrio y dybiaeth mai aflechyd trwm oedd yn ngolwg yr apostol. Onid yw yr ymadrodd, "cyfryw ddirfawr angeu," yn cyfeirio yn hytrach at ryw farwolaeth lem a phoenus a fwriadwyd iddo gan ei gaseion? A dengys yr apostol yn y geiriau, "ac sydd yn ein gwaredu," nad oeddynt etto wedi peidio cynllwyn yn erbyn ei fywyd. Yr oedd eu hystrywiau yn ei ganlyn i ba le bynag yr elai.

11. Dengys yr apostol yma fod ei hyder ef am ei ddiogelwch rhagllaw yn gorphwys, nid yn unig ar ei brofiad o ddaioni yr Arglwydd iddo yn yr amser a aeth heibio, ond hefyd ar weddiau y Cristionogion ar ei ran:—"A chwithau hefyd yn cydweithio drosom mewn gweddi." *Yn cydweithio* :—yn golygu ymuniad y Corinthiaid âg eglwysi ereill i eiriol ar ran yr apostol, yn hytrach nag â'r apostol ei hun.—*Hodge. Fel.*—Amcan Duw wrth uno ei bobl mewn gweddi ar ran eu gilydd, pan mewn adfyd neu berygl, ydyw, fel y byddai y waredigaeth yn destun diolch a mawl cyffredinol oddi wrthynt i Dduw. Nid ydym yn canfod darlleniad De Wette, yr hwn a gymmeradwyir gan Alford, ac ereill, yn gwahaniaethu oddi wrth y Cymraeg :—"Er mwyn i'r drugaredd a ddangosir i ni trwy eiriolaeth llawer o bersonau gael rhoddi diolch am dani gan laweroedd ar ein rhan."

12—24. HYDER YR APOSTOL YN EI DDIFFUANTRWYDD TUAG ATYNT; A DIFFYNIAD IDDO EI HUN YN NGWYNEB Y CYHUDDIAD O ANWADALWCH AC YSGAFNDER.

12. *Canys* :—rheswm pa ham y dylent ei gynnorthwyo â'u gweddiau. Oddi eithr i ni fod n ymwybodol o ddiffuantrwydd tuag at ereill nis gallwn fod yn sicr o'u hyder hwy ynom. *Ein gorfoleddd.*—Gall olygu, sail ein gorfoledd. Y mae i'r gair gorfoledd, felly, ystyr drawsenwol. Heb drawsenwad, gall olygu, Y mae fy hyder llawen yn gynnwysedig mewn ymwybyddiaeth o gwirdeb a phurdeb. Tystiolaeth cydwybod ydyw ymwybyddiaeth: a'r hyn yr oedd Paul yn ymwybodol o hono oedd purdeb, symlrwydd, neu ddiffuantrwydd.—*Hodge.* Y mae y gair *symlrwydd* yn cyfieu ystyr y gwreiddiol: arwydda unplygrwydd meddwl, y gwrthwyneb i feddwl dauddyblyg. Y mae yr hen awysgrifau, A. B. C., yn darllen *agiotis*, yn lle *aplotis* (symlrwydd, unplygrwydd). Ystyr y gyntaf ydyw *sancteiddrwydd*. Y mae y geiriau "mewn symlrwydd, a phurdeb duwiol" yn cael eu darllen gan Alford, "*In holiness and sincerity of God.*" Y mae y gair a ddarllenir *purdeb* yn arwyddo tryloewder (*translucence*), clirder. Gelwir ef yn "burdeb duwiol," neu "burdeb Duw," am ei fod yn rhodd Duw; neu, ddiwiol neu ddwyfol, i'w wahaniaethu oddi wrth y rhinweddd naturiol o unplygrwydd; neu y purdeb a arddangosir yn ngŵyddd Duw a chyda ei wasanaeth. "Purdeb ger bron Duw."—*Calvin.* "Y mae gwahaniaeth rhwng rhinweddau moesol a grasau ysbrydol, er eu bod yn cael eu galw wrth yr un enwau. Y mae yn bossibl y gall dyn duwiol a dyn moesol fod yn gyffelyb i'w gilydd yn ngolwg dynion, er fod bywyd tufewnol yr olaf yn ddynol, a'r eiddo y cyntaf yn ddwyfol. Dengys Paul yma fod y rhinweddau a nodweddent ei fywyd yn Corinth, nid yn unig yn ffurfiau o ryw ragoriaeth perthynol iddo ef ei hun, ond yn ffurfiau y bywyd dwyfol oedd ynddo; y moddau yn mha rai yr oedd Ysbryd Duw, yr hwn oedd yn trigo ynddo, yn amlygu ei hun. *Doethineb cnawdol* :—doethineb yn gwreiddio yn ein natur ein hun. *Yn hytrach.*—Yr oedd y profion o'i burdeb a'i ddiffuantrwydd yn fwy lliosog yn eu mysg hwy, ac yn fwy amlwg iddynt, nag i ereill. Nid feddylia neb yr awgryma yma ei fod yn llai pur yn mysg ereill; ond fod y profion o'i burdeb yn fwy adnabyddus i'r Corinthiaid. Buasai yr apostol yn aros yn hir yn eu mysg.

13, 14. Cadarnhâd o'r haeriad blaenorol.—"Y mae fy nghymmeriad yn fy ysgrifeniadau yr un." Yr oedd yr un unplygrwydd a gonestrwydd yn hynodi ei lythyrau ag a nodweddai ei fywyd. Nid ysgrifenai un peth a meddwl peth arall. Nid oedd yn gyfnewidiol ac anwadal: yr oedd o'r blaen wedi profi ei hun yn ddiffuant, ac yn gobeithio y dygid yr un dystiolaeth i'w burdeb gan weithredoedd ei fywyd dyfodol. *Yn eu cydnabod* :—neu wybod. "Yr wyf yn meddwl yn fy ysgrifeniadau yr hyn a wyddoch chwi ydyw yr ystyr." *Megys y cydnabuoch ni o ran.*—Yr oedd rhan o honynt yn ei gydnabod ef felly: yr oedd ereill yn meddu rhagfarn yn ei erbyn, ac felly yn cau eu llygaid yn erbyn y wybodaeth hon am symlrwydd ei gymmeriad. *Mai nyni yw eich gorfoledd chwi*, &c.—Yr oedd Paul yn credu y byddai i'r Corinthiaid lawenychu o'i blegid ef, fel efe o'u plegid hwythau, yn nydd yr Arglwydd Iesu: y byddai iddynt hwy, yn yi dydd hwnw, werthfawrogi y fraint o'i gael ef fel eu dysgawdwr, fel y llawenychai yntau ynddynt hwy fel rhai a ddychwelwyd i'r ffydd trwyddo. Yr oedd y gorfoledd hwn, a

15 Ac yn yr hyder hwn yr oeddwn yn ewyllysio dyfod atoch o'r blaen, fel y caffech ail ras;

16 A myned heb eich llaw chwi [a] Macedonia, [b] a dyfod drachefn o Macedonia atoch, a chael fy hebrwng genych i Iudea.

[a] Act. 19. 21, 22: 1 Cor. 16. 5—7.

17 Gan hyny, pan oeddwn yn bwriadu hyn, a arferais i ysgafnder? neu y pethau yr wyf yn eu bwriadu, ai [c] yn ol y cnawd yr [c] Ioan 8. 15; Gal. 1. 16; 2. 2; 1 Thes. 2. 18.

ŷyddai yn berffaith yn ymddangosiad Crist, ganddo ef a hwythau yn awr mewn rhan:—"Nyni yw eich gorfoledd chwi."

15, 16. *Yr hyder hwn.* Yn yr hyder mai efe oedd eu gorfoledd hwy. *Ail ras*:—ail fudd: *second benefit*: y budd o'm gweled i ddwywaith—unwaith cyn myned i Macedonia, ac unwaith ar ol ŷ nychweliad oddi yno. Dyma olygiad De Wette, Bleek, &c. Golygiad arall yw, fod yma gyfeiriad at ei ymweliad cyntaf â Chorinth. Y budd neu y gras cyntaf oedd eu tröedigaeth; yr ail ŷyddai y budd a ddeilliai iddynt oddi wrth ei ymweliad drachefn â hwynt. Ond y mae yn wrthddadl ddigonol i hyn, yr ymddengys oddi wrth amryw eiriau yn yr epistol ddarfod i'r apostol fod ddwywaith yn Corinth cyn hyn, ac felly nis gallasai lefaru ám ei ymweliad bwriadol fel ei ail ymweliad. Y mae yn amlwg fod y gair *ail* yn cyfeirio at y gair *o'r blaen*. Yr oedd yn ei fryd eu gweled *cyn* ac *ar ol* myned i Macedonia.—*Hodge. Gras*:—gair a ddefnyddir yn gyffredinol yn y Testament Newydd am fendith ysbrydol. *Heb eich llaw chwi.* Myned trwy Corinth i Macedonia. Y mae Alford yn rhoddi yr eglurhâd a ganlyn ar fwriad yr apostol. Yr oedd wedi hysbysu iddynt yn y llythyr sydd ar goll (gwel 1 *Cor.* v. 9) ei fwriad, megys yr hysbysa yma, o dalu ymweliad â hwynt *ar ei ffordd* i Macedonia: ond darfu i'r wybodaeth a dderbyniodd gan "y rhai o dŷ Chloe" newid ei fwriad, fel y mae yn 1 *Cor.* xvi. yn son am ymweled â hwynt "gwedi yr elai trwy" Macedonia. Cyhuddid ef o herwydd y cyfnewidiad hwn o ysgafnder ac anwadalwch. Mae yn ymddangos yn sicr fod rhyw son yn y llythyr sydd ar goll am ei fwriad i ymweled â hwynt: gwel 1 *Cor.* iv. 18. *A chael fy hebrwng genych.*—Pan oedd cyfleusderau teithio yn brinion, yr oedd yn arferiad i gyfeillion y teithiwr i rwyddhau ei ffordd, a'i hebrwng o'r naill ddinas i'r llall.

17. *Ysgafnder.*—Yr ysgafnder neu yr anwadalwch mewn bwriad y cyhuddir ñ o hono.—*Olshausen, De Wette.* Yr ysgafnder bwriad sydd yn berthynol i ddynoliaeth.—*Winer.* Yr oedd cyfnewidiad ei fwriad yn ei wneyd yn agored i gyhuddiad dyblyg: ysgafnder ac anghyssondeb: dyweyd un peth, a gwneuthur peth arall; neu, ddyweyd un peth ar un adeg, a'r gwrthwyneb ar adeg arall; fel ag i fod yn gwbl annheilwng o ymddiried fel dyn ac fel athraw. Gan fod ei wrthwynebwyr yn adeiladu cyhuddiad mor bwysig ar sail mor wan, nid yw yn rhyfedd fod digofaint yr apostol yn cael ei ennynu. *Ai yn ol y cnawd?*—A lywodraethir ñ gan yr ysbryd—aethau sydd yn liywodraethu dynion y byd, y rhai a arweinir yn hollol gan eu natur lygredig? Nodwedd y cnawd ydyw cyfnewidioldeb, hunanghyssonedd, ac anniffuantrwydd. *Fel y bydd-ŵ*:—yn cyfleu amcan, nid canlyniad yn unig,

wyf yn eu bwriadu, fel y byddai gyda mi, ïe, íe, a nagê, nagê?

18 Eithr [d] ffyddlawn *yw* Duw, a'n hymadrodd ni wrthych chwi ni bu ïe a nagê.

[d] Ioan 8. 26; 1 Ioan 5. 20; Dad. 3. 7. 14.

19 Canys [e] Mab Duw, Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd yn eich plith genym ni, *sef* genyf fi, a Silfanus, a Thimotheus, nid ydoedd ïe a nagê, eithr ynddo ef ïe ydoedd.

[e] Salm 2. 7; Mat. 17. 5; Luc 1. 35.

"A ydwyf yn bwriadu fel dynion cnawdol, fel y gallwyf gilio ac anwadalu fel y mynwyf?" *Íe, íe, a nagé, nagé*:—yn cadarnhau ac yn gwadu yr un peth. A ydwyf yn dywedyd íe a nage yr un amser am yr un peth? Y mae amryw o'r tadau, ac ar eu hol Calvin, Bengel, &c., yn cynnyg golygiad gwahanol. Dywedant fod yr apostol yn amddiffyn ei hun yn ngwyneb newid ei gynllun, trwy ddangos nad oedd efe, fel dynion cnawdol a daearol, yn glynu yn ystyfnig wrth ei fwriad, heb un olwg ar ewyllys Duw yn ŷ peth: fod ei íe yn íe, er i Dduw ddyweyd Nage. Er íddo ef fwriadu, etto os cai awgrym oddi wrth Dduw fod y bwriad yn groes i'w ewyllys ef, yr oedd ar unwaith yn gadael i'w fwriad syrthio i'r llawr. Ond y mae yr adnod nesaf yn dangos nas gellir cymmeryd y golygiad hwn ar y geiriau, er ei fod yn cynnwys gwirionedd: y mae y geiriau "íe a nage" yno yn esbonio ystyr "íe, íe, a nage, nage," yma. Heb law hyny, fel y dywed Hodge, nid amddiffyn ei hun y mae yma yn ngwyneb y cyhuddiad o ystyfnigrwydd, ond yn ngwyneb y cyhuddiad o ysgafnder ac anwadalwch.

18. *Eithr ffyddlawn yw Duw.*—Math o gadarnhâd difrifol—braidd yn llŵ: "Mor wir a bod Duw yn ffyddlawn, ein hymadrodd ni," &c. Nid oedd y fath ansefydlogrwydd ag y cyhuddwch ñ o hono yn nodweddu fy mhregethiad. A yr apostol oddi wrth ei ddianwadalwch fel dyn at ei gyssondeb fel pregethwr. Dengys hyn ddau beth: (1.) Fod ei wrthwynebwyr yn amcanu ei ddiraddio fel pregethwr, gan haeru nad oedd ei ymadrodd yn y cymmeriad hwnw yn fwy teilwng o ymddiried nag oedd ei eiriau fel dyn; (2.) Fod yr apostol yn fwy pryderus am achos yr efengyl nag am ei barch personol. Y mae gan hyny yn prysuro oddi wrth y naill gyhuddiad at y llall. *Íe, a nagé.*—Nid yw fy athrawiaeth yn anghysson â hi ei hun.

19. Y mae yma yn cadarnhau yr adnod o'r blaen. Y mae fy mhregethiad yn wir: y mae Iesu Grist felly. Nid ammheuai yr apostol a oedd ei bregethiad ef yn arddangosiad cywir o Grist yn ei berson a'i gyfryngdod; ac felly, os oedd Crist yn "Íe" tragywyddol—yr un ddoe a heddyw, ac yn dragywydd—os efe yw y gwirionedd; felly hefyd yr oedd ei ymadrodd ef am dano. *Mab Duw*:—defnyddia y teitl goruchel hwn er mwyn rhoddi pwys ac urddasolrwydd ar y peth. Mor annhebyg, mor annhraethadwy o annhebyg, ydyw fod anwadalwch ynglŷn â'r fath berson! *A Silfanus,* &c.—Y mae yn eu cyssylltu hwy âg ef ei hun, am eu bod gydag ef yn Corinth yn ei ymweliad cyntaf. Gwna yma fath o appeliad at adgofion Cristionogol cyntaf y Corinthiaid. Dengys hefyd fod ei bregethiad, nid yn unig yn gysson âg ef ei hun, ond fod ei bregethiad ef a'i gydweithwyr yn cyttuno.

[s] Gen. 3. 15; Salm 72. 17; Esa. 7. 14; 9. 5, 6. [t] Salm 102. 16: Mat. 6. 13; [u] Salm 37. 23, 24; Esa. 9. 7.

20 O blegid [s] holl addewidion
Duw ynddo ef *ydynt* ïe, ac ynddo
ef amen, [t] er gogoniant i Dduw
trwom ni.
21 A'r hwn sydd yn ein [u] ca-
darnhau ni gyda chwi yn Nghrist,
ac a'n heneiniodd ni, *yw* Duw:
22 Yr hwn hefyd a'n seliodd,
ac a roes [x] ernes yr Ysbryd yn
ein calonau.
23 [y] Ac yr wyf fi yn galw Duw yn
dyst ar fy enaid, mai er eich arbed
chwi na ddaethum etto i Corinth.
24 Nid am ein bod yn arglwydd-
iaethu ar eich ffydd chwi, ond yr
ydym yn gydweithwyr i'ch llaw-
enydd: [z] o blegid trwy ffydd yr
ydych yn sefyll.

[x] Rhuf. 8. 23.

[y] Rhuf. 1. 9; 9. 1; 1 Thes. 2. 5, 10.

[z] 1 Cor. 15. 1; 1 Pedr 5. 8. 9.

PENNOD II.

1 *Wedi iddo ddangos yr achos na ddaethai efe atynt,* 6 *y mae efe yn erchi iddynt faddeu i'r dyn a ysgymunasid, a'i gysuro:* 10 *megys y maddeuasai yntau iddo, ar ei wir edifeirwch:* 12 *gan ddangos hefyd yr achos pa ham yr aethai efe o Troas i Macedonia;* 14 *a'r llwyddiant a'r ffyniant a roisai Duw i'w bregeth ef yn mhob lle.*

B. A. 57.

EITHR mi a fernais hyn ynof
fy hunan, na ddelwn dra-
chefn mewn tristwch atoch:
2 O blegid os myfi a'ch tristaf
chwi, pwy yw yr hwn a'm llaw-

20. Prawf neu gadarnhâd o'r adnod o'r blaen. "Ië" ydyw Crist—nid yn ansicr ac anghysson; o blegid y mae holl addewidion Duw er dechreu y byd wedi eu cyflawni ynddo ef. Y mae y darlleniad cywir yma ychydig yn wahanol i'r testyn Cymraeg: "O blegid cynnifer bynag ydyw addewidion Duw, ynddo ef y maent yn Ië," &c. Cynnifer o addewidion a roddes Duw o'r dechreuad, ynddo ef y maent oll yn cael eu cyflawniad. *Amen.*—O'r amryw olygiadau ar y gair hwn, nid oes un yn deilwng o fawr o sylw, ond yr un sydd yn cyfrif *Amen* fel cadarnhâd neu ddwyseddiad ar yr ystyr a gyflëir yn y gair *Ië*. Ni a roddwn yma sylwadau Bengel ar y geiriau: "Y mae y ddau air, *ïe* ac *amen*, sydd yn cyttuno â'u gilydd, yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad hapus i'r geiriau *ïe* a *nage* (*adn.* 19), y rhai ydynt yn groes i w gilydd:—*ïe*, mewn cadarnhâd; *amen*, mewn llŵ: neu *ïe*, gyda golwg ar y Groegiaid; *amen*, gyda golwg ar yr Iuddewon: neu *ïe*, gyda chyfeiriad at Dduw, yr hwn sydd yn addaw, *amen* gyda chyfeiriad at gredinwyr: *ïe*, gyda golwg ar yr apostolion; *amen*, gyda golwg ar eu gwrandawyr.

21, 22. Oddi wrth ddianwadalwch y gwirionedd ei hun, y mae yr apostol yma yn myned at sefydlogrwydd y saint yn y gwirionedd. *A'n heneiniodd ni.*—Nid yr apostolion yn unig, ond yr holl saint. Yr oedd swyddwyr yr Hen Destament yn cael eu heneinio. Felly Crist; felly hefyd y credinwyr. Eu heneiniad ydyw eu cymmhwysiad gan yr Ysbryd Glân i wasanaeth Duw. *A'n seliodd.*—Arferid y sel i arwyddo perchenogaeth; i brofi dilysrwydd peth; ac i ddiogelu peth. Mewn un olwg y mae yr Ysbryd Glân yn enaint, mewn ystyr arall y mae yn sel. Pa le bynag y mae efe yn preswylio, y mae yn nodi y dyn hwnw allan fel eiddo neillduol Duw. Dwg hefyd dystiolaeth i'w hysbrydoedd eu bod yn blant i Dduw. Profa hwynt iddynt eu hunain, ac i ereill, fel credinwyr gwirioneddol. Ac y mae yn eu diogelu rhag gwrthgiliad a cholledigaeth.—*Hodge.* Y mae y drychfeddwl o ddiogelwch yn cael ei ddwyn i fwy o arbenigrwydd yn y ffugr nesaf; sef, *ernes yr Ysbryd.*—Y mae "ernes" ac "Ysbryd" mewn atosodiad: yr Ysbryd ei hun yw yr ernes. Y mae efe ar unwaith yn flaenbrawf ac yn sicrhâd o gadwedigaeth. Arwydda y gair a gyfieithir *ernes*, gwystl. Gair Hebraeg ydyw, a gymmerwyd gan y Groegiaid i'w hiaith oddi wrth y Pheniciaid. Cynnwysa y rhan hono o arian y pwrcas a delir yn mlaen llaw fel sicrhâd am y gweddill. Dyma yw preswyliad yr Ysbryd Glân yn ei berthynas â'r etifeddiaeth dragywyddol sydd yn aros y credadyn: y mae yn sicrhâd o'r etifeddiaeth, ac ar unwaith yn rhan o honi, ac o'r un natur a hi. Felly nid yw y gair *gwystl* yn cyfleu yr un drychfeddwl. Y mae y gwystl yn cael ei ddychwelyd pan geir yr hyn y gwystlwyd am dano; ac nid yw y gwystl felly yn un rhan o'r taledigaeth.

23. Dengys yma y gwir achos nad ymwelodd â hwy yn ol ei fwriad. *Yn dyst ar fy enaid:*—neu, yn erbyn fy enaid. Geilw y Duw hollwybodol a hollalluog yn ei erbyn os ydyw yn eu twyllo.

24. Esboniad llarieiddiol ar y geiriau o'r blaen. Pan yn dywedyd mai er mwyn eu harbed na ddaeth i Corinth, nid yw yn awgrymu ei fod yn arglwydd ar eu ffydd. Nid oes gan hyd yn oed yr apostol awdurdod ar ffydd arall. Gorphwysa ffydd ar dystiolaeth Duw yn unig. Yr oedd ganddo awdurdod mewn materion o ddysgyblaeth, ond nid mewn materion o ffydd.

PEN. II. 1—4. SYLWADAU PELLACH AR OHIRIAD EI YMWELIAD A HWYNT.

1. *Eithr.*—Saif yr adnod hon mewn cyssylltiad uniongyrchol â'r hyn sydd o'i blaen. "Gohiriais fy ymweliad er mwyn eich arbed; nid am fy mod yn hòni bod yn arglwydd ar eich ffydd, ond am fy mod yn gynnorthwywr eich llawenydd: a gwnaethum hyny hefyd fel na ddeuwn atoch drachefn mewn tristwch." Y mae y gair *drachefn* yn rhoddi ar ddeall y buasai yr apostol ddwywaith eisoes yn Corinth, a bod yr ail o'r ymweliadau hyn mewn tristwch. Nis gellir dynodi yr ymweliad a grybwyllir yn *Act.* xviii. fel y cyfryw. Felly yr oedd yn rhaid iddo dalu ymweliad wedi hyny â Corinth, yr hwn ymweliad oedd mewn tristwch. Mae Alford a Hodge yn barnu fod cyfeiriadau at yr ymweliad yma yn *pen.* xii.; xiv. 21; xiii. 1. Nid yw dystawrwydd yr Actau am y cyfryw ymweliad yn ddigon o reswm i brofi na bu. *Mewn tristwch.*—Tristwch o'r ddwy ochr; myfi yn eich tristau chwi (*adn.* 2), a chwithau yn fy nhristau innau (*adn.* 3); nid tristwch i Paul ei hunan [Chrysostom]; nac iddynt hwy eu hunain oddi wrth Paul [Meyer, &c.]—*Alford.*

2. Rheswm o'r blaenorol. Nis gallai efe fod yn hapus os byddent hwy yn dristion. Oddi eithr i'w ymweliad weini llawenydd iddynt hwy ni ddygai ddim llawenydd iddo ef. Y mae yr adnod hon yn un o'r llawer sydd yn rhoddi

enha i, ond yr hwn a dristawyd genyf fi?

3 Ac mi a ysgrifenais hyn yma atoch, fel pan ddelwn na chawn [a]1 Cor. 12. 11. [b]Gal. 5. 10; Philem. 21. dristwch oddi wrth y rhai [a]y dylwn lawenhau; [b]gan hyderu am danoch oll, fod fy llawenydd i *yn llawenydd* i chwi oll.

4 Canys o orthrymder mawr a chyfyngder calon yr ysgrifenais [c]2 Cor. 7. 8, 9, 12; 12. 15. atoch â dagrau lawer; [c]nid fel y'ch tristäid chwi, eithr fel y gwybyddech y cariad sydd genyf yn helaethach tuag atoch chwi.

5 Ac os gwnaeth neb dristau, ni wnaeth efe i mi dristau, ond o ran; rhag i mi bwyso arnoch chwi oll.

6 Digon i'r cyfryw *ddyn* y cerydd yma *a ddaeth* oddi wrth laweroedd:

7 Yn gymmaint [d]ag *y dylech*, yn y gwrthwyneb, yn hytrach faddeu *iddo*, a'i ddyddanu; rhag [e]llyngcu y cyfryw gan ormod tristwch. [d]Gal. 6. 1, 2; Eph. 4. 32; Col. 3. 13; 2 Thes. 3. 6, 14, 15; Heb. 12. 13—15.

8 Am hyny yr ydwyf yn atolwg i chwi, gadarnhau *eich* cariad tuag ato ef. [e]2 Sam. 20. 19, 20; Esa. 28. 7; 1 Cor. 15. 54.

9 Canys er mwyn hyn hefyd yr ysgrifenais, fel y gwybyddwn brawf o honoch, [f]a ydych ufudd yn mhob peth. [f]Phil. 2. 12; 2 Thes. 3. 14; Philem. 21.

10 I'r [g]hwn yr ydych yn maddeu dim iddo, *yr wyf* finnau: canys os maddeuais ddim, [g]Mat. 18. 18; Ioan 20. 23; 1 Cor. 5. 4.

golwg i ni ar dynerwch a lledneisrwydd teimlad yr apostol.

3. Y mae yn ysgrifenu atynt, er mwyn iddynt hwy wellhau yr afreoleidd-derau cyn ei ddyfod, fel y byddai ei ymweliad yn achos llawenydd o'r ddwy ochr. *Hyn yma*:—yw y cyfnewidiad yn ei fwriad, yr hwn fwriad a amlygid iddynt yn 1 *Cor.* xvi. 7. Ond y mae Hodge yn barnu mai "hyn yma" yw yr hyn a ysgrifenodd o barth y dyn godinebus yn yr epistol o'r blaen. Y mae Alford hefyd yn barnu mai y ddau olygiad yma ydynt y mwyaf tebygol, er ei fod ef yn cymmeradwyo y cyntaf.

4. Yn hytrach na'r ysgafnder y cyhuddent hwy ef o hono, yr oedd yn ysgrifenu atynt o orthrymder mawr, a chyfyngder calon, a chyda dagrau lawer. Cyfeiria yn yr ymadroddion hyn, nid at ei amgylchiadau allanol, ond at ei deimladau tufewnol. *Eithr fel*:—yr oedd ei amcanion yn y llythyr blaenorol yn amrywiol. Gwel *adn.* 7, 9; yr amcan a nodir yma ydyw dangos helaethrwydd ei gariad tuag atynt.

5—11. YN CYFEIRIO AT ACHOS Y DYN GODINEBUS.

5. Y mae cryn anhawsder yn yr adnod hon. Y golygiad a gymmeradwyir yn fwyaf cyffredinol, ar ol Chrysostom a Chalvin, ydyw yr un a gyfëir yn y darlleniad canlynol:—"Ac os parodd neb dristwch, ni pharodd dristwch i mi; ond mewn rhan, neu i ryw raddau (rhag i mi bwyso yn rhy drwm arno), tristaodd chwi oll." Prif ddrychfeddwl yr adnod, ebe Hodge, ydyw, Nid myfi a dristaodd efe, ond chwychwi. Y mae yr holl eiriau ereill yn yr adnod yn ddarostyngedig i'r drychfeddwl yma. Cymmer yr apostol yn awr yr olwg dyneraf ar y pechadur edifeiriol. Dywed nad oedd wedi troseddu yn ei erbyn ef yn bersonol; ac nad oedd wedi tristau y Corinthiaid oll, ond mewn rhan. Nid oedd yn dymuno pwyso yn rhy drwm ar y troseddwr yn bresennol. Y mae ereill [*Luther, Bengel*] yn rhoddi golygiad arall:—"Ni ddarfu iddo fy nhristau i yn unig, nac yn benaf, ond yn unig mewn rhan; tristaodd chwithau hefyd. Pe dywedwn na thristaodd efe chwi, pwyswn yn rhy drwm arnoch chwi, byddwn gystal a dywedyd eich bod chwi yn gyfranog o'i drosedd, wrth awgrymu na pharodd i chwi dristau." Ond y mae y golygiad hwn yn cael ei anghymmeradwyo fel yn groes i rai o eiriau yr adnod.

6. Ni ddymunwn fod yn galed wrtho ef, o blegid y mae y cerydd a gafodd yn ddigon. *Oddi wrth laweroedd*:—y mwyafrif; gan awgrymu nad oedd yr holl eglwys yn cyttuno â'r cerydd a roddes yr apostol arno. Dichon fod y rhaid wrthwynebus i Paul yn Corinth yn gwrthod cydsynio â gorchymyn yr apostol. Mae Grotius yn sylwi ar y geiriau *y cerydd yma*, fod yn debygol fod y dyn, yn y canlyniad i'w draddodiad i Satan gan yr apostol, wedi cael ei daraw gan afiechyd blin. Ond nid oes ddigon o sail dros hyny yn yr epistol o'r blaen, nac yn yr epistol hwn. Barna ereill [*Calvin, Beza*], na weithredodd yr eglwys yn ffyddlawn trwy gario allan orchymyn yr apostol, ac esgymuno y dyn; ond fod llaweroedd o'r aelodau wedi ei geryddu, a chilio oddi wrtho, ac i hyny fod yn fendithiol i'w ddwyn i edifeirwch; a bod yr apostol yma yn dadgan ei foddlonrwydd o'r hyn a wnaethai yr eglwys, er nad oedd wedi cyflawni yn ffyddlawn â chyfarwyddiadau yr apostol. Y mae Hodge, fodd bynag, yn dadleu ar sail *adn.* 9, ac ymadroddion yn *pen.* ix., fod y mwyafrif o'r eglwys wedi cario gorchymyn yr apostol i weithrediad.

7. *Rhag llyngcu y cyfryw*:—rhag ei ddiynystrio gan anobaith. Dangosir yma fod llymder gormodol i'w ochel gyda dysgyblaeth eglwysig fel peth niweidiol iawn i'r troseddwr. Pwy yn llymach na'r apostol yn erbyn pechod, a phwy yn dynerach nag ef wrth y pechadur edifeiriol! Mor gyflawn o ddelw ei Arglwydd ydoedd!

8. *Gadarnhau eich cariad.*—Y mae y gair a gyfieithir "cadarnhau" yn arwyddo cadarnhau gydag awdurdod trwy weithred ffurfiol a chyhoeddus. Geilw yr apostol hwynt i sefydlu y troseddwr edifeiriol yn ei freintiau eglwysig fel o'r blaen.—*Hodge.*

10. Parod ydyw yr apostol i ymuno â'r Corinthiaid mewn maddeuant i'r dyn: gesyd sel ei apostoliaeth ar eu maddeuant iddo. *Er eich mwyn chwi.*—Eu lles hwy oedd yn ei gymmheli o'r blaen i esgymuno y dyn, ac yn awr i faddeu iddo, ac nid dim ystyriaethau personol. *Yn ngolwg Crist.*—Gall y gair "yn ngolwg" arwyddo hefyd "yn mherson Crist." Pleidia Hodge y darlleniad cyffredin, "yn ngolwg (gŵydd) Crist"—gweithredai yn yr holl drafodaeth gydag ystyriaeth fod Crist yn sylwi arno. Mae Luther ac ereill yn cymmeradwyo y golygiad arall.

[a] 1 Cron. 21. 1, 2; Iob 1. 11, 12; 2. 3, 5, 9, 10; Zech. 3. 1-4; Luc 22. 31; Ioan 13. 2, 27; Act. 1. 25; Eph. 6. 11 12; 1 Pedr 5. 8

i'r hwn y maddeuais, er eich mwyn chwi *y maddeuais* yn ngolwg Crist;

11 Fel na'n [b] siomer gan Satan: canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef.

12 Eithr gwedi i mi ddyfod i Troas i *bregethu* efengyl Crist, [c] ac wedi agoryd i mi ddrws gan yr Arglwydd,

[c] Act. 14. 27; 1 Cor. 16. 9; Col. 4. 3; Dad. 3. 7, 8.

13 Ni chefais lonydd yn fy ysbryd, am na chefais Titus fy mrawd: eithr gan ganu yn iach iddynt, mi a aethum ymaith i Macedonia.

14 Ond [d] i Dduw *y byddo* y diolch, [1] yr hwn yn wastad sydd yn peri i ni oruchafiaeth yn Nghrist, ac sydd yn eglurhau arogledd ei wybodaeth trwom ni yn mhob lle.

[d] Eph. 5. 20; 1 Thes. 3. 9; Dad. 7. 12. [e] Salm 104. 47; 143. 14.

Gweithredai yr apostol yn mherson Crist, fel ei gynnrychiolydd, dan ei awdurdod. Fel hyn yr oedd yn gweithredu yn y diarddeliad, "yn enw ein Harglwydd Iesu Grist:" ond y mae gwrthddadl Hodge i'r golygiad hwn yn deilwng o sylw; sef, mai y gair arferedig i gyfieu y drychfeddwl hwn ydyw *yn enw Crist*, nid yn mherson Crist. Y cyntaf yw golygiad Calvin.

11. *Fel na'n siomer gan Satan:*—trwy ein hysbeilio o'r dyn, yr hyn a wnai pe byddai i'ch ymddygiad chwi tuag ato fod yn achos iddo gael ei lyngcu gan ormod tristwch. Cyssylltir yr adnod hon â'r annogaeth flaenorol i faddeu i'r dyn. Buasai yn ennill i Satan naill ai i un enaid gael ei suddo i lwfrdra ac anobaith, neu i heddwch yr eglwys gael ei derfysgu. Buasai y ddau ddrwg yn debygol o gymmeryd lle pe buasai y ddysgyblaeth yn cael ei chario i eithafoedd llymder. *Canys nid ydym.*—Dangosir yma, yn gystal ag mewn rhanau ereill o'r Ysgrythyr, fod Satan yn fod personol—nid yn enw ar yr egwyddor o ddrwg; fod ganddo ffordd i ddyfod i gyssylltiad agos â meddyliau; ei fod yn meddu dylanwad mawr arnynt—y dylanwad nesaf i'r dylanwad dwyfol ei hun; mai nerth ei ddylanwad ydyw twyll; er mai creadur ydyw, etto fod ei lywodraeth yn cymmeryd i fewn ddynion yn gyffredinol; fod ei weithrediadau ef mewn undeb â'i angelion, braidd yn hollbresennol gyda golwg ar ddynolryw; ac fod ei ddeall, a'i ystrywiau, a'i ymroad tu hwnt i'n dirnadaeth.

12—14. Pa ham nad arosodd yn Troas.

12. *Eithr.*—Yn ail gymmeryd i fyny y mater. *I Troas:*—ar ei daith o Ephesus: *Act.* xx. 1, 2; 1 *Cor.* xvi. 5—9. Troas oedd yr enw a roddid ar yr holl diriogaeth o amgylch sefyllfa Troy. Nid oedd yr apostol yn bwriadu gwneuthur taith gyflym i Corinth, ond am aros ar y ffordd i bregethu yr efengyl. Yr oedd hon yn daith genhadol, yn ol ei fwriad ef. Buasai o'r blaen yn Troas, ond ni oddefwyd iddo aros yno gan ymddangosiad gŵr o Macedonia iddo mewn gweledigaeth. Ymwelodd yn awr yr ail waith â'r lle gyda'r bwriad o aros yno i bregethu. Ar ei ddychweliad i Asia, arosodd yno saith niwrnod: *Act.* xx. 6—12. *Ddrws gan yr Arglwydd.*—Cyfleusderau i weithio. Yn lle *gan*, dylid darllen *yn* yr Arglwydd; yn ngwasanaeth yr Arglwydd Crist; yn gyffelyb i lawer o'i ymadroddion—er enghraifft, "cydweithwyr yn yr Arglwydd." Arfera yr apostol ymadrodd cyffelyb i hwn yn 1 *Cor.* xvi. am yr un daith, er nad am yr un lle—*Alford.* Ond er fod y rhagolygon mor ffafriol, etto "ni chefais lonydd yn fy ysbryd," neu, i fy ysbryd. Nis gallai ddwyn yn mlaen y gwaith oedd yn agored o'i flaen gyda dim tawelwch a hyfrydwch. Y rheswm oedd, *Am na chefais Titus fy mrawd.*

Yr oedd ei hyder mor fawr o barth effaith ei lythyr blaenorol ar eglwys Corinth. Ystyriai fod yr eglwys y pryd hwn yn yr argyfwng (*crisis*) mwyaf pwysig. Yr oedd ei sefyllfa yn y canlyniad yn ymddibynu ar y wedd a gymmerai ar lythyr yr apostol. Os ufuddhaent i'w orchymyn, hyderus fuasai y sefydlid hi yn yffydd; ond os gwrthodai ei gyfarwyddyd, nid oedd dim yn aros iddi ond dinystr. Nid rhyfedd felly na chaffai yr apostol esmwythyd i'w ysbryd. Nis gallasai ymgynnal dan y cyfryw betrusder pryderus. Penderfynodd gan hyny ymadael â Troas a myned i Macedonia.

14—17. *Mawl i Dduw am lwydd yr efengyl.*—Yn unol â nodwedd cynnhyrfiol a bywiog meddwl yr apostol, y mae yma yn tori allan i foliannu Duw am lwyddiant ei weinidogaeth, yn lle mynegu iddynt y newyddion â dderbyniodd oddi wrth Titus. Etto y mae amryw yn barnu mai y cyfeiriad cyntaf yma sydd at effaith y llythyr ar feddyliau y Corinthiaid. Mawrygu Duw y mae am y newyddion a dderbyniodd, yn lle eu hysbysu hwy o honynt, a hyny yn enwedigol am nad oedd yn angenrheidiol iddo eu hysbysu hwy. Etto y mae rhai yn tybied mai at lwyddiant yr efengyl yn Macedonia, ereill, mai at ei llwyddiant yn Troas y cyfeirir. Barna Bengel fod yr apostol yma yn ymgodi ar bwys amryw ystyriaethau, megys yr oll a nodwyd, i'r mawl hwn. "Y mae y llwyddiant hwn" (ebe Hodge), yn cynnwys ei oruchafiaeth ar rwystrau a gwrthwynebwyr, a'i effeithioldeb mewn lledaenu gwybodaeth yr efengyl." Tebygol yw mai dyma y golygiad cywir. *Yn peri i ni oruchafiaeth.*—Y mae gwahanol farnau am ystyr yr ymadroddion hyn. Y mae nifer o esbonwyr yn darllen, "Yr hwn sydd yn wastad yn ymorfoleddu mewn buddugoliaeth arnom ni." *Alford: Leading us in triumph—who over triumphs over us;* y mae yn ein gorchfygu yn ein hofnau, ein petrusder, a'n ammheuon. Dywed Alford fod dau ddosbarth o bersonau yn cael eu harwain mewn gorymdaith fuddugol, sef y rhai a gyfran ogent o'r fuddugoliaeth, a'r rhai y buddugoliaethid arnynt. Yn *Col.* ii. 15, golygir yr olaf. Yr un yw yr ystyr yma hefyd, yn ol barn Meyer ac Alford; "Yr ydym ni, y rhai oeddym gynt yn elynion iddo, yn cael ein harddangos fel rhai wedi eu gorchfygu ganddo." Ac er fod yr ystyr yma yn ymddangos yn ddyeithrol; *h. y.*, fod yr apostol yn diolch i Dduw am gael ei orchfygu, etto, ebe Alford, os edrychwn yn ddyfnach i'r geiriau, dyma yr unig ystyr a ellir ei dderbyn. Yn ein gyrfa ysbrydol, ein hunig wir fuddugoliaethau ydyw buddugoliaethau Duw arnom. Y mae Calvin, Hodge, &c., yn ymgadw at yr ystyr a gyfleir yn y darlleniad Cymraeg. "Y mae yn diolch i Dduw, yr hwn sydd yn ei arddangos ef a'i gydweithwyr fel cyfranogion o'i oruchaf-

15 Canys per-arogl Crist ydym
[a] Esa. 49. 5, 6; ni i Dduw, [m] yn y rhai cadwedig,
1 Cor. 1. 18; 2 Thes. 2. 10. ac yn y rhai colledig:
16 I'r naill *yr ydym* yn arogl marwolaeth i farwolaeth; ac i'r lleill, yn arogl bywyd i fywyd. A phwy *sydd* ddigonol i'r pethau hyn?
[n] Cer. 23. 27—32; Tit. 1. 11; 2 Pedr 2. 1—3; 1 Ioan 4. 1; Dad. 2. 14, 15.
17 Canys nid ydym ni, megys [n] llawer, yn gwneuthur masnach o air Duw: eithr megys o burdeb, eithr megys o Dduw, yn ngŵydd Duw yr ydym yn llefaru yn Nghrist.

PENNOD III.

1 *Rhag i'w gau-athrawon hwy roi gwaeorfoledd yn ei erbyn ef, y mae efe yn dangos fod fydd a doniau y Corinthiaid yn canmol ei weinidogaeth ef yn ddigon helaeth: 6 ac er hyn, trwy gyffelybrwydd rhwng gweinidogion y ddeddf a'r efengyl, 12 y mae efe yn profi fod ei weinidogaeth ef yn rhagori, o gymmaint ag y mae efengyl y bywyd a rhyddid yn fwy gogoneddus na chyfraith damnedigaeth.*

B. A. 57.

A I dechreu yr ydym drachefn ein canmol ein hunain? ai rhaid i ni, megys i rai, wrth lythyrau canmoliaeth atoch chwi, neu *rai* canmoliaeth oddi wrthych chwi?

---

iaeth." Mae Hodge yn addef mai y darlleniad arall ydyw y mwyaf unol âg arwyddocâd cyffredin y gair a gyfleithir yma, *peri i ni oruchafiaeth*—arddangos fel gorchfygedig, yn hytrach nag arddangos fel gorchfygydd. Ëtto, gellir cyfiawnhau y darlleniad cyffredin oddi wrth y ffaith fod amryw oferfau, y rhai ydynt yn y Groeg cyffredin yn ganolryw, yn cael eu defnyddio yn yr ystyr weithredol yn y dafodiaith Hellenistaidd. Y gair yn y Groeg cyffredin am "fod yn ddysgybl" a arferir yn y Groeg Hellenistaidd am "wneuthur dysgybl," a llawer o enghreifftiau cyffelyb. *Arogledd ei wybodaeth*:—gyda chyfeiriad at orymdaith fuddugol. Ar y cyfryw amgylchiad yr oedd peraroglau yn cael eu llosgi a'u gwasgaru trwy yr heolydd. Megys yr oedd nesâd yr orymdaith yn cael ei wneuthur yn hysbys, felly y mae Duw trwom ni yn gwneuthur yn hysbys arogledd gwybodaeth Crist, yr hwn ydyw y buddugwr, a ninnau yn ein hundeb âg ef.

15. Yn *adn.* 14, Crist oedd y perarogl; yma, yr apostol. Ond nid oes yma anghyssondeb. Yr oedd yr apostol yn berarogl Crist yn ei gymmeriad fel gweinidog neu gynnrychiolydd Crist. Wrth ddywedyd ei fod yn *berarogl Crist*, y meddwl ydyw ei fod yn foddion neu offeryn i ledaenu gwybodaeth Crist. *Yn y rhai cadwedig.*—"Y mae yr efengyl, a'r rhai sydd yn ei phregethu yn berarogl cymmeradwy gan Dduw, pa un bynag a yw dynion yn ei derbyn ac yn cael eu cadw, ynte yn ei gwrthod ac yn cael eu colli. Y mae y goleuni yn annhraethol werthfawr, pa un bynag a yw y llygaid yn gorfoleddu ynddo, ynte, trwy afiechyd, yn cael ei ddinystrio ganddo."—*Hodge.*

16. Gwirionedd mawr difrifol, o'r math mwyaf difrifol, ac a gyhoeddir yn fynych yn y Beibl: *Ioan* iii. 16; 1 *Pedr* ii. 7, 8. Y mae yr efengyl, i bawb a'i clywo, yn rhwym o fod yn achos o fywyd, neu yn achlysur o farwolaeth. Adeilada pob un ei hun ar Grist, y sylfaen a osododd y Tad; neu, fe syrthia arno, trwy yr hyn y melir ef yn chwilfriw. Bydd Crist yn gwymp neu yn gyfodiad. Pâr goleuni ei ymddangosiad i'r deillion weled, ac i'r rhai sydd yn gweled fyned yn ddeillion. Yr ydoedd ei ddammegion yn dirgelu ac yn dadguddio: yr oedd ochr oleu y golofn at yr Israeliaid, a'i hochr dywell at yr Aiphtiaid. *Arogl marwolaeth i farwolaeth.*—Y farwolaeth cyntaf yn dynodi ansawdd yr arogl, yr olaf ei effaith. Arfera y Rabbiniaid ymadrodd cyffelyb am y gyfraith, yr hon a ddywedent oedd yn arogl bywyd neu farwolaeth. Meddylia rhai fod yn y geiriau *marwolaeth* a *bywyd* gyfeiriad at farwolaeth a bywyd Crist. I rai, nid ydyw Crist ond Crist wedi marw, dyn wedi ei groeshoelio. Yn eu tywyllwch a'u hanghredîniaeth, tramgwyddant wrth yr hysbysiad, a gweithir ynddynt farwolaeth trwy anghredîniaeth: ond i'r crediniol, y mae Crist yn fywyd—yn un wedi cyfodi o feirw, ac yn byw yn oes oesoedd; a gweithredir ynddynt fywyd tragwyddol trwy ffydd ynddo. *A phwy*, &c.:—gan fod pregethu yr efengyl yn fater bywyd neu angeu. Awgryma yr apostol yma, ebe Calvin, nad oedd y gau athrawon, y rhai a lygrent air Duw, yn ddigonol; ond ei fod ef a'i frodyr, y rhai a bregethent efengyl bur oddi ar gymmhelliadau purion. Y mae hyn yn cael ei ddangos gan yr apostol yn y canlyniad.

17. Prawf o'i ddigonedd ei hun a'i frodyr. *Megys llawer*:—gyda chyfeiriad at yr athrawon gau, am y rhai y llefara ar ol hyn yn fwy dîgêl. *Yn gwneuthur masnach o air Duw.*—Golyga y gair gwreiddiol unrhyw fath o werthwr, ac yn enwedigol gwerthwr gwinoedd; ac oddi wrth gyffredinolrwydd yr arferiad o gymmysgu gwin â phethau gwaelach, un yn llwgr-gymmysgu. Y mae ereill yn barnu fod y drychfeddwl a geir yn y testyn Cymraeg yn y gair yn gystal; sef pregethu gyda'r amcan isel o elwa. "Nid oedd yr apostol yn llygru gair Duw, trwy ei gymmysgu âg Iuddewiaeth neu dwyll-athroniaeth, nac yn ei ddefnyddio i atteb unrhyw ddybenion hunanol a masnachol." — *Hodge.* Ceir yma bortread o weinidog cymmhwys y Testament Newydd. Nid yw yn llygru gair Duw trwy unrhyw gymmysgedd, nac yn ei ddefnyddio i unrhyw amcan isel-wael; ond y mae yn cael ei lywodraethu gan gymmhellion pur. Y mae o Dduw, ac yn sylweddoli presennoldeb Duw yn nghyflawniad ei swydd; ac yn gweini yn enw Crist mewn undeb âg ef, ac wedi ei lenwi â phryder am lwyddiant ei achos..

Pen. iii. 1—11. Profion o gymmhwysder yr apostol i'w swydd, a natur y swydd.

1. *Drachefn ein canmol ein hunain*:—gyda chyfeiriad, y mae yn debygol, at gyhuddiad a ddygid yn ei erbyn, o wneyd hyny yn ei epistol cyntaf—yn y rhanau cyntaf o'r epistol, ac yn *pen.* v. 9, 14, 15. Gwel 2 *Cor.* x. 18. *Ai rhaid i ni.*—Y mae rhai yn darllen, "Oddi eithr y rhaid i ni," yr hyn sydd yn rhoddi tôn wawdus i'r ymadrodd. Gwelir yma fod y gau-athrawon wedi cael derbyniad i'r eglwys yn Corinth ar bwys llythyrau o ganmoliaeth, y mae yn debyg oddi wrth eglwysi ereill. Ac mor anadna-

B. A. 57.
[a] 1 Cor 3.10. [b] Rhuf. 1. 8; 1 Thes. 1. 8.
[c] Exod. 31. 18; Dad. 2.1,8; 3. 1, 7. [d] Ios. 3. 10; Salm 84. 2; Mat. 16.16; 1 Thes. 1. 9.
[e] Phil. 1. 6.
[f] Exod. 18. 19; 1 Thes. 1. 8.

2 [a]Ein llythyr ni ydych chwi yn ysgrifenedig yn ein calonau, [b]*yr hwn* a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn:

3 *Gan fod* yn eglur mai [c]llythyr Crist *ydych*, wedi ei weini gennym ni, wedi ei ysgrifenu nid âg inge, ond âg [d]Ysbryd y Duw byw; nid mewn llechau ceryg, eithr mewn llechau cnawdol y galon.

4 A [e]chyfryw hyder sydd gennym trwy Grist [f]ar Dduw:

5 Nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain i [g]feddwl dim megys o honom ein hunain; [g]eithr ein digonedd ni *sydd* o Dduw:

6 Yr hwn hefyd a'n gwnaeth ni yn weinidogion cymmhwys y testament newydd; nid i'r llythyren, ond i'r ysbryd: [h]canys y mae y llythyren yn lladd, [i]ond yr ysbryd sydd yn bywhau.

7 Ac os bu gweinidogaeth angau, mewn llythyrenau wedi eu

[g] Exod. 4. 11 —16; Ier. 1. 6-10; Mat. 10.19, 20; 1 Cor. 3. 5, 10; Phil. 2. 13; Iago 1. 17.
[h] Deut. 27. 26; Gal. 3. 10-12, 21, 22.
[i] Ioan 6. 63; Rhuf. 8. 2; 1 Ioan 1. 1

byddus ac anenwog oeddynt fel yr oedd yn rhaid iddynt gael y cyfryw lythyrau o Corinth i fyned i fanau ereill.

2. Nid oedd ar yr apostol angen y cyfryw lythyrau. *Ein llythyr ni ydych chwi.*—Y mae eich tröedigaeth chwi yn llythyr oddi wrth Grist, yn awdurdodi ein cenadwriaeth, ac yn profi ein ffyddlondeb. *Yn ysgrifenedig yn ein calonau.*—Nid yn cael ei ddangos yn ein llaw, ond wedi ei ysgrifenu yn ein hymwybyddiaeth [*Alford*]. Yr oedd yr apostol yn meddu tystiolaeth fewnol fod y Corinthiaid yn llythyr canmoliaeth i'w weinidogaeth. Tybia Olshausen fod yma gyfeiriad at enwau y llwythau ar ddwyfroneg yr archoffeiriad. Ond nid ymddengys fod un sail i'r dybiaeth. *A ddeallir*, &c.—Yr oedd effaith ei weinidogaeth yn Corinth yn ffaith fawr adnabyddus i'r holl eglwys—*i bob dyn:* i bawb oedd mewn mantais i wybod.

3. *Llythyr Crist:*—wedi ei ysgrifenu gan Grist. *Wedi ei weini genym ni.*—Gwaith Crist oedd tröedigaeth y Corinthiaid, wedi ei ddwyn oddi amgylch trwy yr apostol. Crist oedd y gweithredydd — Paul oedd y moddion. "Llythyr Crist oeddynt, wedi ei ysgrifenu gan law Paul." —*Hodge.* Yn hytrach, yn ol golygiad Alford, cyffelyba yr apostol ei hun i lythyrgludydd, nid i ysgrifydd (*amanuensis*). *Âg ysbryd y Duw byw:*—yr hyn nis gall neb ei wneuthur ond Crist. Y drychfeddwl yw, fod tröedigaeth y Corinthiaid yn waith goruwchnaturiol a dwyfol; ac felly yn brawf fod Paul, yr hwn oedd yn offerynol i wneuthur y cyfryw waith, yn weinidog Crist. *Nid mewn llechau ceryg*, &c.—Gwaith ysbrydol a thumewnol ydoedd. Yr oedd ysgrifenu y deng air ar lechau yn waith dwyfol, ac yn profi anfoniad dwyfol Moses; etto gwaith allanol oedd. Y mae adferu y galon yn weithrediad uwch nag un wyrth ar wrthddrychau y byd gweledig [*Hodge*].

4. *A chyfryw hyder:*—yr hyder a amlyga yn ei swydd, o 2 *Cor.* ii. 15—17, hyd yma. *Trwy Grist:*—nid hunan-hyder ydoedd, ond hyder trwy Grist. *Ar Dduw:*—tuag at Dduw. Gyda golwg ar waith Duw, ac ar y cyfrif yr ydym i roddi i Dduw [*Alford*]. Ger bron Duw [*Hodge*].

5. Hysbysa yma beth oedd ffynnonell ei ddigonedd, a pheth nad oedd. Dywed yn bendant mai nid ynddo ef ei hunan yr oedd y digonedd hwn. *O honom ein hunain.....megys o honom ein hunain.*—Cyfeiria yr olaf at "o honom ein hunain" yn fwy fel ffynnonell. Nid efe oedd ffynnonell y digonedd hwn, yn anuniongyrchol nac yn uniongyrchol. Mynegem ni yr un drychfeddwl trwy ddyweyd, Nid yw ein digonedd ynom nac o honom ein hunain.—*Hodge.*

I feddwl.—Meddwl ydyw y ffurf iselaf o'n heffeithiolrwydd. Y mae yn haws meddwl daioni na'i ewyllysio a'i wneuthur. Mynegir yr un gwirionedd yn 1 *Cor.* xv. 10.

6. Cadarnhâd o'r ymadrodd blaenorol. *Y Testament Newydd*:—y cyfammod newydd: yr efengyl (*Eph.* iii. 7; *Col.* i. 23) mewn cyferbyniad i'r ddeddf, yr hon oedd yr Hen Destament neu gyfammod. *Nid i'r llythyren*, &c.—Per thyna y geiriau hyn nid i'r testament, ond i'r gweinidogion; gweinidogion nid i'r llythyren. Gelwir yr hen gyfammod yn llythyren, y newydd yn ysbryd. Ceir yr un syniadau gan yr un apostol yn *Rhuf.* vii. 6; ac yn *Rhuf.* ii. 27, mewn rhan; ac yn *Gal.* iii. 3. Dynodir y gyfraith yn llythyren, am ei bod yn ysgrifenedig; oherwydd yr un rheswm ag y gelwir hi "yr ysgrythyr;" ond yn fwyaf neilltuol, yr oedd y ddeddf, fel deddf ysgrifenedig, yn beth allanol yn anerch y synwyrau. Nid egwyddor fewnol ydoedd. Daliai ger bron dynion reol ymddygiad, ond nid allasai gyfranu y duedd i ufuddhau. Ond y mae yr efengyl, ar y llaw arall, yn ysbrydol, ac felly yn wahanol i'r hyn oedd allanol a defodol. Gallu Duw ydyw (*Rhuf.* i. 16) y drefn yn mha un y mae yr Ysbryd yn cyfranu bywyd i'r enaid. Yr oedd y naill yn allanol, yn wrthddrychol; y mae y llall yn ysbrydol a thufewnol, y naill yn orchymyn oddi allan: y llall yn allu oddi mewn. Yn y naill yr oedd y gyfraith wedi ei hysgrifenu ar lechau, yn y llall yn y galon. Felly yr oedd un yn llythyren, y llall yn ysbryd [*Hodge*]. Nid oes yn y geiriau "llythyren" ac "Ysbryd" un sail i olygiad Origen am ystyr llythyrenol ac ystyr ysbrydol neu alegoraidd yr Ysgrythyrau. *Yn lladd:*—Eglurir hyn yn y manau canlynol: *Rhuf*, x. 5, *Gal.* iii. 12. Gofyn ufudd-dod y mae, yr hyn nis gall pechadur ei roddi iddi; ac y mae yn gofyn ufudd-dod heb allu rhoddi tuedd i ufuddhau. Gwel hefyd *Rhuf.* vii. a *Gal.* iii. *Ond yr ysbryd.*—Yr Ysbryd Glân trwy yr efengyl. *Yn bywhau*:—yn rhoddi bywyd yn ystyr eangaf y gair: cyflawnhâd, sancteiddiad, a gogoneddiad. Dylid cofio fod yr apostol, wrth wneuthur y gymmhariaeth yma, yn llefaru, nid am yr oll a berthynai i'r amseroedd cyn Crist, ond i gyfammod Sinai yn unig. Yr oedd Duw yn gweithio trwy ei Ysbryd yn yr amserau hyny, ac felly yn bywhau pechaduriaid: ond nid o weinidogaeth y ddeddf y deilliai hyny, ond o ras yr addewid. "Y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist," a thrwyddo ac o hono ef y deuent yn ngoruchwyliaeth yr Hen Destament.

7, 8. Amcan ac effaith y ddeddf oedd lladd:

hargraphu ar geryg, mewn gogoniant, fel nas gallai plant yr Israel edrych yn graff ar wyneb Moses, gan ogoniant ei wynebpryd, yr hwn *ogoniant* a ddilëwyd;

8 Pa fodd [k] yn hytrach na bydd gweinidogaeth yr Ysbryd mewn gogoniant?

9 Canys [l] os *bu* gweinidogaeth damnedigaeth *yn* ogoniant, [m] mwy o lawer y mae gweinidogaeth cyfiawnder yn rhagori mewn goniant.

10 Canys hefyd ni ogoneddwyd yr hyn a ogoneddwyd yn y rhan hon, o herwydd y gogoniant tra rhagorol.

11 O blegid os *bu* yr hyn a ddilëid yn ogoneddus, mwy o lawer *y bydd* yr hyn sydd yn aros yn ogoneddus.

12 Am hyny gan fod genym

[k] Esa. 59.21; Ioan 1. 17; Rhuf. 8. 9-16.
[l] 2 Cor. 6. 7.
[m] Esa. 46.13; 1 Cor. 1.30; Phil. 3. 9.

rhoddi adnabyddiaeth i ddynion o'u pechadurusrwydd a'u sefyllfa ddigymmhorth; etto yr oedd y weinidogaeth hon yn ogoneddus, am ei bod yn angenrheidiol i addasu y byd i Grist Y ddeddf oedd ein hathraw at Grist: *Gal.* iii. 24. Etto nid yw gogoniant y weinidogaeth sydd yn dadguddio ein pechod a'n heuogrwydd i'w gymmharu â gogoniant y weinidogaeth sydd yn ein rhyddhau oddi wrth bechod ac euogrwydd. *Mewn llythyrenau:*—yn hytrach "yn y llythyren." Y mae "wedi ei hargraphu ar geryg" yn cydweddu â "gweinidogaeth." Yr oedd hanfod a sylwedd cyfammod Sinai yn gynnwysedig yn y deng air oedd wedi eu hargraphu ar y llechau. Dywed Hodge fod y geiriau yn cynnwys y ddau ddrychfeddwl canlynol:—(1.) Fod Moses yn weinidog cyfammod a gynnyrchai farwolaeth—"gweinidogaeth angau." (2.) Mai cyfundrefn allanol oedd y cyfammod hwnw—"wedi ei argraphu ar geryg." *Fel nas gallai plant yr Israel.*—"Gwnaed y ddeddf yn ogoneddus gan lawer o wyrthiau. Nid yw yr apostol yma, fodd bynag, yn crybwyll ond am un o honynt; sef, fod wyneb Moses yn llewyrchu mor ddisglaer fel nas gallai plant Israel edrych yn graff arno. Yr oedd y disglaerdeb hwn yn arwyddlun o ogoniant y gyfraith."—*Calvin.* Yr oedd disgleirdeb wyneb Moses yn arwyddlun dyblyg o ogoniant yr hen gyfammod. Disgleirdeb allanol ydoedd: a'r un modd yr oedd rhagoriaeth ac addasrwydd y cyfammod yn ymddibynu llawer ar yr un elfen. Ond yn benaf, nid oedd disgleirdeb wyneb Moses ond diflanedig, yr hyn a arwyddocâai yr un peth am y cyfammod ag yr oedd efe yn weinidog arno. Y mae Alford yn sylwi mai yr achos nas gallai plant Israel edrych yn graff ar wyneb Moses oedd, nid anallu allanol, anianyddol, ond anallu oddi ar ofn. Arswydent nesau ato: *Exod.* xxxiv. 30. *Gweinidogaeth yr Ysbryd.*—Dywedir "yr Ysbryd" yma—nid bywyd, yr hyn a fuasai y cyferbyniad mwyaf eglur i "angau"—am mai yr Ysbryd yw ffynnonell bywyd. *Na bydd.*—Pa'm na ddywedir "nad yw?" Am na bydd y gogoniant yn gyflawn hyd eglurhâd y deyrnas—hyd berffeithiad yr iachawdwriaeth [*Alford*]. Dynoda yr amser dyfodol y canlyniad sicr [*Hodge*]. Am fod yr apostol yn edrych ar y cyfammod newydd oddi ar safle yr hen [*Bengel*]. *Yr Ysbryd.* — Yn ol rhai, yr Ysbryd Glân, gweithredydd bywyd. Yn ol ereill, enw ydyw ar yr efengyl ei hun, mewn cyferbyniad i "lythyren," fel yn *adn.* 6. Priodol, fe allai, ydyw galw yr efengyl yn ysbryd, heb un cyfeiriad uniongyrchol at yr Ysbryd Glân, am fod y gair yn addas i osod allan ei nodwedd fewnol, fywiol, ysbrydol, fel y mae llythyren yn gosod allan nodwedd ddefodol ac allanol y gyfraith.

9. Yn cynnwys dadl chwanegol dros ogoniant cyfiawnder yn rhagori mewn goniant. Gelwir y naill yn *weinidogaeth damnedigaeth*, neu gondemniad, am ei bod (y gyfraith) yn dadguddio pechod ac yn ei gondemnio. Gwna y dyn yn ymwybodol o hono, ac o'i anallu i ymryddhau oddi wrtho yn ei halogrwydd ac yn ei euogrwydd. Gelwir y llall yn *weinidogaeth cyfiawnder*, am fod ynddi gyfiawnder i'r euog trwy ffydd: *Rhuf.* i. 17. Y mae rhoddi bywyd i'r euog trwy gyfiawnder yn annhraethol mwy gogoneddus na chondemnio yr euog hwnw i farwolaeth dragywyddol.

10. Yr un drychfeddwl yn cael ei gario allan; neu ystyr y "mwy o lawer" yn yr adnod o'r blaen yn cael ei ddwyshau. "Mwy o lawer"—cymmaint mwy fel y mae gogoniant y naill yn diflanu yn mhresennoldeb y llall, fel y mae disgleirdeb y lloer a'r ser yn colli pan gyfodo yr haul. *Yr hyn:*—gweinidogaeth Moses. *Yn y rhan hon.*—Gyda golwg ar hyn, sef "o herwydd y gogoniant tra rhagorol." Edrycher ar ogoniant gweinidogaeth Moses mewn cymmhariaeth â gweinidogaeth y Testament Newydd, ac y mae yn llwyr ddiflanu.

11. Pwynt arall yn rhagoriaeth y newydd ar yr hen—yr oedd y naill yn ddiflanedig, y llall yn arosol. Yr efengyl a'i gweinidogaeth ydyw dadguddiad olaf, ac felly perffeithiaf, Iehofah i'r byd. Defnyddia yr apostol y gair *gyda* neu *trwy* ogoniant, wrth lefaru am yr Hen Destament; *mewn gogoniant*, wrth lefaru am y Newydd: ar yr hyn y mae Estius ac Olshausen yn rhoddi pwys. Ond y mae Alford a Hodge yn barnu mai amrywiaeth geirweddiad ydyw, heb un gwahaniaeth mewn ystyr. Mae Piscator yn ei "*Scholia in Epist.* II. *at Corinth*" yn gosod allan y gwrthgyferbyniad a wneir yma rhwng y ddeddf a'r efengyl, fel yn cynnwys wyth o faterion, fel y canlyn:—

1 Y Testament Newydd.	1 Yr Hen Destament.
2 Ysbryd.	2 Llythyren.
3 Bywyd.	3 Angau.
4 Yn ysgrifenedig ar galonau dynion.	4 Yn ysgrifenedig ar lechau.
5 Yn aros yn sefydlog.	5 Yn ddiflanedig.
6 Yn weinidogaeth cyfiawnder.	6 Yn weinidogaeth condemniad.
7 Yn rhagorol mewn gogoniant.	7 Yn gymmhariaethol amddifad o ogoniant.
8 Yn eglur.	8 Yn dywyll.

Y mae yr apostol yn myned at y gymmhariaeth olaf o hyn hyd ddiwedd y bennod.

12—18. EGLURDER YR EFENGYL MEWN CYMMHARIAETH I ANEGLURDER Y DDEDDF.

12. *Gyfryw obaith.*—Yn *adn.* 4, y mae yn llefaru am "hyder;" llefara yn awr am "obaith." am fod ei olwg ar "yr hyn sydd yn aros;" *adn.*

gyfryw obaith, yr ydym yn arfer hyfder mawr:

[a]Exod. 34, 33-35. 13 Ac nid megys [n]y gosododd Moses orchudd ar ei wyneb, fel

[a]Adn. 13. nad [o]edrychai plant Israel yn graff ar ddiwedd yr hyn a ddiléid.

14 Eithr dallwyd eu meddyliau hwynt; canys hyd y dydd heddyw[a] y mae yr un gorchudd, wrth ddarllen yn yr Hen Destament, yn aros heb ei ddadguddio; yr hwn yn Nghrist a ddiléir.

15 Eithr hyd y dydd heddyw, pan ddarllenir Moses, [p]y mae y [p]Act. 13. 27 -29. gorchudd ar eu calon hwynt.

11 [*Bengel*]. *Hyfder mawr.*—Y mae y testyn Saesneg, fe allai, yn cyfieu y drychfeddwl yn well:—"*great plainness of speech.*" Y gwrthwyneb i bob cais i gelu peth.

13. *Ac nid megys.*—Nid oedd efe am gelu: yr oedd Moses yn gwneuthur hyny. Llefaru y mae yr apostol, fel y gwel y darllenydd, am natur gweinidogaeth Moses; nid am nodweddy dyn. Nid oedd yn unol á'i swydd ef i arfer yr eglurder a arferai yr apostol. Yr oedd celu yn rhan o'i waith: gwel *Eph.* iii. 5. Anfonwyd Moses, yn wir, i hysbysu gwirioneddau mawrion, etto i'w dadguddio trwy gyfryngau amherffaith, defodau a seremoniau tywyllion. Gosodai orchudd ar ei wyneb, nid i lwyr guddio y gogoniant, ond i dywyllu ei ddisgleirdeb. Yr oedd gogoniant ei wynebpryd yn arwyddlun o ogoniant ei weinidogaeth, a'r gorchudd yn arwyddlun o aneglurder ei weinidogaeth. *Fel nad edrychai plant,* &c.—Yn golygu amcan gosodiad y gorchudd ar ei wyneb, ac nid yn unig y canlyniad. *Ar ddiwedd yr hyn a ddiléid:*—neu, ar ddiwedd y difianedig. Beth a olygir wrth "yr hyn a ddiléid," ac wrth "ddiwedd yr hyn a ddileid?" Yr hyn a ddiléid, yn ol barn rhai, ydoedd gweinidogaeth Moses, a'r diwedd oedd dyben neu amcan ei weinidogaeth. Ond diwedd y ddeddf, ei dyben, a'i hamcan oedd Crist. Ond y mae yn anhawdd, fel y sylwa Hodge, gweled pa fodd yr oedd gwaith Moses yn gorchuddio ei wyneb yn lluddias yr Israeliaid i weled Crist, diwedd ac amcan y ddeddf. Y tebygolrwydd yw, nad yw yr apostol yn ymadael trwy yr adnod oddi wrth yr arwyddocâd llythyrenol. Y mae *y wyneb* a'r *gorchudd* yn cyfeirio at ffaith yn hanes Moses; felly hefyd y mae y geiriau *diwedd yr hyn a ddiléid.* Nis gellir cymmeryd yr ymadroddion olaf yn ffugrol, a'r rhai cyntaf yn llythyrenol. Dylid derbyn yr holl adnod yn yr ystyr llythyrenol, a golygu yr oll yn arwyddlun o weinidogaeth Moses. *Yr hyn a ddileid,* gan hyny, ydoedd y disgleirdeb gweledig ar wyneb Moses, a "*diwedd* yr hyn a ddiléid" oedd difianiad graddol y disgleirdeb hwnw. "Y mae y frawddeg, gan hyny, yn arwyddo fod Moses yn dodi gorchudd ar ei wyneb i'r dyben i attal yr Israeliaid i weled pa mor ebrwydd yr oedd y disgleirdeb yn difianu." Ac megys yr oedd y disgleirdeb yn arwyddluniol o ogoniant ei weinidogaeth, felly hefyd yr oedd y gorchudd o'i haneglurder. Fel y gosodai orchudd ar ei wyneb fel nad allai yr Israeliaid weled difianiad y gogoniant, felly hefyd y dysgai trwy gyfryngau tywyll fel nad allai y bobl ddeall natur ac amcan ei weinidogaeth. Ond y mae y golygiad hwn etto yn codi anhawsder; ond nid yw ond yr un anhawsder ag y ceir enghreifftiau eraill o hono. Dywed Hodge ar hyn: "Os oedd Moses yn addysgu yn aneglur, neu mewn cysgodau, yr oedd Duw wedi bwriadu mai felly y byddai. Os y ffaith oedd i'r Iuddewon gamddeall natur eu goruchwyliaeth eu hunain, gan olygu fel yn ddiweddol a pharhaus yr hyn oedd mewn gwirionedd yn barotoawl a difianedig, y mae yn amlwg fod hyn yn cael ei arfaethu yn y bwriad dwyfol. Cynllun Duw oedd dadguddio trefn y prynedigaeth yn raddol. Os teimlir yma anhawsder, cyfarfyddir á'r cyffelyb mewn cyssylltiad á dammegion Crist ei hun: *Mat.* xiii. 11—14. Y mae yma anhawsder arall. Dywedir yn *Exod.* xxxiv. 33, "Ac nes darfod i Moses lefaru wrthynt, efe a roddes len gudd ar ei wyneb;" *h. y.,* efe a roddes len gudd ar ei wyneb tra yr oedd yn llefaru wrth y bobl: a'r awgrymiad a roddir yn y geiriau, wrth eu darllen fel hyn, ydyw, iddo wneuthur hyny o herwydd fod y bobl yn ofni. Ond y mae darlleniad y gwreiddiol yn hollol wahanol: "Ac wedi i Moses beidio llefaru, efe a roddes len gudd ar ei wyneb." Felly hefyd cyfieithiadau y Deg a Thrigain, a'r *Vulgate.* Tynai Moses y llen gudd yn mhresennoldeb Iehofah: ond pan ddeuai oddi wrth yr Argiwydd at y bobl llefarai wrthynt heb y llen gudd; wedi darfod llefaru cuddiai ei wyneb á'r llen gudd. Felly, amcan y llen gudd oedd, nid lliniaru ofnau y bobl, ond rhag iddynt weled diwedd neu ddifianiad yr hyn a ddiléid. Gwir y dywedir yn *Exod.* xxxiv. 30, fod Aaron a'r bobl yn ofni nesau ato. Ond nid oedd yr ofn hwn ond y teimlad cyntaf ar ol gweled ei wyneb yn disgleirio. Pan alwodd Moses arnynt i nesau ato, ciliodd yr ofn.

14. Y mae yr apostol, o'r adnod hon hyd ddiwedd y bennod, yn gwneuthur cyferbyniad rhwng yr Israeliaid a'r Cristionogion. *Yr un gorchudd.*—Yr un tywyllwch. Yr oedd gorchudd ar y gwirionedd ar y cyntaf pan ddadguddiwyd ef trwy Moses: ac y mae y gorchudd yn aros ar y llyfr pan ddarllenir ef byth ar ol hyny. *Yn aros heb ei ddadguddio.*—Rhoddir yma ddau ddarlleniad:—(1.) "Canys hyd y dydd heddyw y mae yr un gorchudd yn aros, wrth ddarllen yr Hen Destament, gan na ddadguddiwyd fod hwn (yr hen gyfammod) wedi ei ddileu yn Nghrist." Yr oedd anwybodaeth yr Iuddewon o'r ffaith fawr hon yn eu hattal i ddeall yr Hen Destament. Pe y deallasent hyn, buasent hefyd yn deall y cyfammod a sefydlwyd trwy Moses. Ond nid feddiannasant fel cenedl mo'r drychfeddwl hwn am nodwedd amserol a pharotoawl y cyfammod, fel nad oeddynt yn gweled difianiad y disgleirdeb oddi ar wyneb Moses. Parha hyn yn wir am y genedl, nid yn unig "hyd y dydd heddyw" yn yr adnod hon, ond hyd y dyddiau yr ydym ni yn byw ynddynt. Pe llewyrchai y gwirioniedd mawr hwn ar eu meddyliau, fod yr hen gyfammod wedi ei ddileu yn Nghrist, symmudid y dallineb oddi arnynt o barth natur yr hen gyfammod. Y darlleniad hwn a gefnogir gan Alford. Y darlleniad Cymraeg a dderbynir gan ereill. Yn Nghrist y dileir yr hen gyfammod; gan fod yr Iuddewon yn gwrthod Crist, y mae y gorchudd a guddiai ystyr yr Hen Destament yn aros heb ei symmud oddi ar eu meddyliau.

[a] Exod. 34. 34; Deut. 30. 10; Rhuf. 11. 25–27.
16 Ond [q]pan ymchwelo at yr Arglwydd, tynir ymaith y gorchudd.
[b] Ioan 6. 63; 1 Cor. 15. 45.
17 Eithr [r]yr Arglwydd yw yr Ysbryd: [s]a lle *mae* Ysbryd yr Arglwydd, yno *y mae* rhyddid.

[c] Salm 51. 12. Esa. 61. 1; Rhuf. 8. 15, 16; Gal 4. 6; 2 Tim. 1. 7. [d] Ioan 1. 14; 1 Tim. 1. 11.
18 Eithr nyni oll âg wyneb [t]agored [u]yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd.

Dichon mai y darl eniad cyntaf ydyw yr un cywir.

16. Yn gyffelyb i'r modd y dywedir am Moses yn *Exod.* xxxiv. 34, "A phan ddelai Moses ger bron yr Arglwydd, efe a dynai ymaith y llen gudd." Cymmhara yr apostol y naill beth i'r llall, yr hyn a brofir gan ei ddefnyddiad o'r un geiriau ag a geir yn y Deg a Thrigain yn *Exodus*. Yr oedd wyneb Moses yn disgleirio pan ymddiddanai â Duw: pan yn mysg y bobl, oddi eithr ar yr adegau y byddai yn mynegu ei genadwri iddynt, efe a wisgai y llen gudd neu y gorchudd: pan ddychwelai at yr Arglwydd, tynai ymaith y gorchudd. Felly hefyd yma. Cyhyd ag y troai yr Israeliaid oddi wrth yr Arglwydd, yr oedd y gorchudd ar eu calon; ni ddeallent yr Ysgrythyrau. Ond pan y dychwelant at yr Arglwydd, tynir ymaith y gorchudd; y mae amcan ac ystyr yr Hen Destament yn amlwg iddynt. *Pan ymchwelo*:—eu calon hwynt: nid Moses [*Calvin, Stanley*]. Y mae Calvin, wrth olygu mai Moses ydyw yr enwedigydd i'r ferf "ymchwelo," yn ei ystyried fel cynnrychiolydd y gyfraith:—"Pan ymchwelo Moses, neu gyfraith Moses, at yr Arglwydd Iesu, yr hwn ydyw ei diwedd, yna caiff y gorchudd ei dynu ymaith." Mae Stanley yn golygu Moses fel cynnrychiolydd y bobl. Ond y golygiad cyntaf ydyw y mwyaf tebyg o fod yn gywir.

17. *Eithr yr Arglwydd yw yr Ysbryd.*—Y golygiad goreu a ymddengys i ni, allan o lawer, ar yr ymadrodd anhawdd hwn, yr hwn a dderbynir gan Hodge, Alford, &c., ydyw yr un canlynol:—Y mae yr adnod yn eglurhâd ar, neu yn chwanegiad at, yr adnod o'r blaen. Dangosir yma y rheswm fod ymchweliad at yr Arglwydd yn sicrhau symmudiad ymaith y gorchudd:—yr Arglwydd, yr hwn yr ymchwelir ato, yw yr Ysbryd, a lle y mae yr Ysbryd, yno y mae rhyddid: rhyddid oddi wrth y ddeddf, yn ei chaethiwed—rhyddid oddi wrth y tywyllwch a osodir allan dan y gymmhariaeth o orchudd. Yr Arglwydd yw yr Arglwydd Crist. Dywedir yn *adn.* 14, mai yn Nghrist y dileir y gorchudd. Prif ddrychfeddwl yr holl gyd-destyn, ebe Hodge, ydyw, mai yr adnabyddiaeth a'r addefiad o Grist fel Arglwydd neu Iehofah ydyw yr allwedd i ddealltwriaeth o'r Hen Destament. Ond pa ham y gelwir yr Arglwydd Iesu *yr Ysbryd?* Dywed Calvin: "Nid bwriad yr apostol ydyw dadgan fod Crist yn meddu ar hanfod ysbrydol, fel y mae rhai yn golygu, gan gyssylltu y geiriau hyn âg *Ioan* iv. 24, *Ysbryd yw Duw.*—Nid oes a wnelo yr ymadrodd hwn â hanfod Crist, ond yn unig â'i swydd; o blegid y mae yn gyssyllitiedig â'r hyn sydd yn myned o'r blaen—lle y dangosir fod athrawiaeth y ddeddf yn llythyren, ac yn achlysur marwolaeth. Y mae yma, ar y llaw arall, yn galw Crist yn ysbryd y gyfraith, gan olygu y bydd yn fywiol, ac yn fywiocaol yn unig pan yr anedlir i mewn iddi gan Grist. Uner yr enaid â'r corph, ac yna y mae yn ddyn byw, yn feddiannol ar ddeall a synwyriaeth, yn addas i holl weithrediadau bywyd. Symmuder yr enaid o'r corph, ac nid oes dim yn aros ond celain diddefnydd, amddifad o bob teimlad." Golygiad Calvin, fe welir, ar yr ymadrodd ydyw fod *ysbryd* yn gyfystyr â *ystyr*: yr "ysbryd" a gyferbynir yn *adn.* 6 i "lythyren:" meddwl ac arwyddocâd y gyfraith: y gwirioneddau a'r gallu achubol a orweddai o dan y cysgodau a'r defodau. Dyma hefyd olygiad Olshausen—"ystyr ysbrydol y ddeddf." Y brif wrthddadl i hyn ydyw, nas gall y gair *yr Ysbryd*, yr hwn a arferir yn wastad mewn un ystyr, osod allan y syniad hwn. Y golygiad a dderbynir yn fwyaf cyffredin ydyw, "Yr Arglwydd Iesu yw yr Ysbryd Glân"—yr un ag Ysbryd yr Arglwydd yn yr adnod nesaf: *h. y.*, nid yr un yn bersonol, ac ni olygir yma chwaith yr un o ran hanfod; nid yr un yn yr un ystyr ag y dywed y Mab am dano ei hun a'i Dad, "Un ydym;" ond yr un yn eu gweithrediad: dwyfol—yn y peth y lleferir yma am dano. "Y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei ystyried yn yr holl Feibl fel ffynnonell pob bywyd, gallu, gwirionedd, sancteiddrwydd, gwynfyd, a gogoniant. Ond y mae yr apostol, yn y cyd-destyn, wedi llefaru am Grist fel ffynnonell bywyd, ac fel gwaredydd oddi wrth gaethiwed a chondemniad y gyfraith. Ond yr un yw efe a'r Ysbryd: ac felly lle y mae Crist, neu Ysbryd Crist—o blegid gyda golwg ar hyn, un yw y ddau—yno y mae rhyddid." Y rhyddid hwn yw ysbryd mabwysiad, "trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Abba Dad;" yr holl ryddid a rydd yr efengyl i'r credadyn.

18. *Eithr nyni oll.*—Yr holl Gristionogion: nid yr apostolion yn unig. Nyni oll, mewn cyferbyniad i "blant Israel" yn *adn.* 13. *Ag wyneb agored*:—âg wyneb heb orchudd. Y mae y tywyllwch a gyfodai oddi ar ddyeithrwch, pellder, a rhagfarnau, wedi ei symmud ymaith yn ein dychweliad at yr Arglwydd. *Yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd*:—gogoniant yr Arglwydd Crist, yn ei berson a'i gyfryngdod. *Megys mewn drych.*—Nid oes ddigon o sail i ymadael oddi wrth y cyfleithiad Cymraeg, megys y gwna Chrysostom, Bengel, Olshausen, ac ereill—"adlewyrchu gogoniant;" er fod y gair gwreiddiol, yn y wedd weithredol, yn arwyddo, "arddangos mewn drych;" etto y ffurf ganolog sydd i'r gair yma, yn arwyddo "gweled ei hunan mewn drych." Dyma ystyr wastadol y gair yn yr awdwyr clasurol; ac y mae i'w gael yn Philo am weled mewn drych. Y cyfammod newydd ydyw y drych yn yr hwn y mae gogoniant yr Arglwydd Iesu yn cael ei adlewyrchu. Yn y byd arall y mae y saint yn gweled ei wyneb yn ddigyfrwng—yn ei weled megys ag y mae: yn y byd hwn, nid ydynt ond yn gweled delw o hono yn nrych yr efengyl; etto y mae y canfyddiad o hono mewn drych yn effeithiol i'w newid i'r unrhyw ddelw. Y mae y cyferbyniad yma, nid rhwng y Cristionogion a Moses, ond rhyngddynt a phlant Israel, y rhai yr oedd y gorchudd yn aros ar eu calonau. Y mae y saint, i'r gwrthwyneb, yn edrych âg wyneb diorchudd ar ogoniant Crist yn nrych y cyfammod newydd. *A newidir i'r unrhyw ddelw*:—i'r unrhyw ddelw ag a welir genym yn y drych. Cyfnewidiad ysbrydol ydyw

PENNOD IV.

1 *Y mae efe yn dangos arferu o hono ef bob math o burdeb a diwydrwydd ffyddlawn wrth bregethu yr efengyl, 7 a bod y blinderau a'r erlid yr oedd efe beunydd yn eu dioddef o achos yr efengyl, er moliant i allu Duw,* 12 *a lleshâd i'r eglwys,* 16 *a gogoniant tragwyddol iddo yntau.*

B. A. 57.

AM hyny gan fod i ni y weinidogaeth hon, megys y cawsom drugaredd, nid ydym yn pallu:

2 Eithr *ni* a ymwrthodasom â chuddiedig bethau cywilydd, heb rodio mewn cyfrwysdra, na thrin gair Duw yn dwyllodrus, eithr [a] trwy eglurhâd y gwirionedd yr [2 Cor. 6. 4,] ydym yn ein canmol ein hun [7.] wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw.

3 Ac os [b] cuddiedig yw ein hefengyl ni, [c] yn y rhai colledig y mae yn guddiedig; [b Rhuf. 2. 16; 1 Tim. 1. 11. c 2 Thes. 2. 9-11.]

4 Yn y rhai y [d] dallodd duw y byd hwn feddyliau y rhai digred, [d Esa. 6. 10; Ioan 12. 40.]

hwn. Trwy edrych yr ydym yn cael ein newid: edrych yw yr achos, ein newid ydyw yr effaith. Dengys hyn mai y darlleniad cyffredin, "*edrych* ar ogoniant yr Arglwydd," nid "*adlewyrchu* gogoniant yr Arglwydd," ydyw y darlleniad cywir. Y mae perthynas achosol rhwng *edrych* a *newid*. Wrth edrych yr ydym yn cael ein newid; yr edrychiad sydd yn effeithio y trawsffurfiad i'r unrhyw ddelw: ond nis gellir canfod y cyfryw berthynas rhwng *adlewyrchu* a *newid*. Gwelir yr un berthynas gyda golwg ar ganfyddiad arall: 1 *Ioan* iii. 2. *O ogoniant i ogoniant.* —O ogoniant yr Arglwydd i ogoniant ynom ni. —*Bengel.* Cyffelyb yw golygiad rhai o'r tadau {*Theodoret*, a *Theophylact*}:—O ogoniant yr Arglwydd, yr hwn a ganfyddir genym, ac a ddybena mewn gogoniant. Gwell yw y golygiad cyffredin—o un gradd o ogoniant i radd arall; o'r amlygiad boreuaf o'r gogoniant arnom hyd gyddfurfiad perffaith a delw ei Fab. "O nerth i nerth:" *Salm* lxxxiv. 7. *Megys gan Ysbryd yr Arglwydd.*—Dichon nad oes sail i ddarlleniad De Wette, "Megys gan Arglwydd yr Ysbryd" —gan Grist, ysbryd yr hwn ydyw yr Ysbryd, ac a anfonir ganddo; na chwaith i'r darlleniad, "Yr Ysbryd, yr hwn yw yr Arglwydd;" *h.y.*, yr Ysbryd dwyfol. Y darlleniad a gymmeradwyir gan Luther, Billroth, De Wette, Hodge, Alford, ydyw, "megys gan yr Arglwydd yr Ysbryd;" gyda chyfeiriad at, ac yn cynnwys yr un dyrchafeddwl ag *adn.* 17. "Yr Arglwydd yw yr Ysbryd."

mae yma yn dangos ei fod yn gweithredu yn gwbl wahanol. *Cuddiedig bethau cywilydd:*—golygiadau, cymmhelliadau, neu weithredoedd a guddir rhag cywilydd. Ni olygir, fe allai, gweithredoedd gwarthus, anfoesol; ond cynllwynion dichellgar, y rhai a arferid gan y gauathrawon. Awgrymir fod dirgelwch yn noddweddu ffyrdd a chynlluniau ei wrthwynebwyr, tra yr oedd ei holl weithredoedd swyddol ef yn amlwg ac agored. *Cyfrwysdra:*—arwydda y gair gwreiddiol am *y cyfrwys*, un a all ymostwng at *bob peth*, pa mor isel, anonest, ac annheilwng bynag, er mwyn cyrhaedd yr amcan fydd ganddo mewn golwg. Fe gymmhwysir y gair at Satan, pan yn temtio Efa: 2 *Cor.* xi. 3. *Na thrin gair Duw yn dwyllodrus.*—Yr un ystyr ag sydd yn 2 *Cor.* ii. 17; "gwneuthur masnach o air Duw;" ei gymmysgu âg athrawiaethau a thraddodiadau dynion. *Eithr trwy eglurhâd y gwirionedd:*—fel ein hunig foddion: gwel 1 *Thes.* ii. 3, 4. Mynegu y gwirionedd yn ei burdeb a'i eglurder. *Yn canmol ein hunain.* —Amcanai y gau athrawon wneuthur hyny trwy gyfrwysdra, a thrwy lygru gair Duw: gwnai yr apostol hyny trwy eglurhâd gwirionedd yr efengyl. *Pob cydwybod dynion:*—pob math o gydwybod o'r eiddo ei wrandawyr. Ymddibynai yr apostol ar allu hunanbrofawl yr efengyl i fynu tystiolaeth o'i phlaid yn nghydwybodau hyd yn oed y rhai a'i gwrthodent. *Yn ngolwg Duw.*—Yr oedd yn gweithredu, nid yn unig f foddhau cydwybodau dynion, ond gyda golwg ar Dduw; yr oedd yn wastadol yn sylweddoli ei bresennoldeb of yn nghyflawniad ei swydd.

3. *Ac os cuddiedig:*—yn fwy cywir, "Eithr os." Er fod yr efengyl yn cael ei gosod allan ganddo gydag eglurder, etto yr oedd yn guddiedig oddi wrth rai.

4. Y rheswm am yr hyn a ddywedir yn yr adnod flaenorol. *Duw y byd hwn:*—y diafol; yr hwn a elwir felly o herwydd y gallu sydd ganddo ar ddynion y byd hwn, a'r ufudd-dod llwyr a dalant hwy iddo. Gwel *Ioan* xii. 31; xiv. 30; *Mat.* iv. 8, 9; *Eph.* ii. 2; vi. 12. Gelwid y diafol gan y Rabbiniaid wrth yr enw hwn. Yr oedd rhai o'r tadau yn rhoddi cyfiead tra dyeithrol i eiriau yr adran hon—"Yn y rhai y mae Duw wedi dallu meddyliau y byd hwn." Yr achos iddynt wneuthur hyn oedd fod yr Ariaid yn dadleu nad yw y ffaith fod Crist yn cael ei alw yn Dduw yn un prawf o'i wir ddiwdod, am fod Satan yn cael ei alw yn Dduw. Yr oedd y Manicheaid hefyd yn cymmeryd yr enw hwn i gefnogi eu golygiad am ddwy egwyddor ogyddragwyddol. Y mae Calvin yn sylwi fel y canlyn ar y golygiad hwn: "Gwelwn yma pa mor bell y gall ysbryd dadl arwain dynion i wyrdroi yr Ysgrythyrau. Gall y gair *Duw* gael ei ddefn-

---

PENNOD IV.

1—6. YN CYMMERYD I FYNY *pen.* iii. 12, GAN DDANGOS Y DULL AGORED A DIHOCED Y CYFLAWNAI EI WEINIDOGAETH.

Yr oedd ei holl ymddygiad yn deilwng o urddas a natur ei swydd, fel gweinidog y Testament Newydd. Nid oedd yn cael ei luddias gan ofn na chan dwyll i fod yn eglur, hyf, ac agored yn nghyflawniad ei waith. Oddi ar gadernid ei ffydd yn yr efengyl, ymwrthodai â phob dull annheg yn y cyhoeddiad o honi. *Am hyny:*—gyda chyfeiriad at y darluniad blaenorol o rydd-id ac eglurder yr efengyl. *Y weinidogaeth hon:*—y cyfryw weinidogaeth ag a ddisgrifiwyd yn y bennod o'r blaen. *Megys*, &c.:—pan y cawsom ein gosod yn y weinidogaeth. Edrycha yr apostol ar roddiad y weinidogaeth iddo fel amlygiad nodedig o rad drugaredd Duw: *Rhuf.* xv. 15, 16; 1 *Cor.* xv. 9, 10; *Eph.* iii. 8. *Yn pallu.*—Y gwrthwyneb i "hyfder mawr," eofndra a rhyddid ymadrodd, yn 2 *Cor.* iii. 12; 'Nid ydym yn ymddwyn mewn dull anwrol."—*Alford.*

2. Yn hytrach na throi yn anffyddlawn i'w ddyledswydd, oddi ar feddwl ofnog ac anwrol, y

[a] Ioan 8. 12; Col. 1. 27; Tit. 2. 13. [b] Ioan 1. 18; yw [c] delw Dug. Phil. 2. 6; Col. 1. 15; Heb. 1. 3. [d] Mat. 23.8. [e] Gal. 5. 13. [f] Eph. 1. 17, 18; 5. 8; 2 Pedr 1. 19. [g] Salm 63. 2; Esa. 6. 1-3; Ioan 11. 40. [h] Ioan 1. 14; [k] Col. 1. 15; Heb. 1. 3. [m] 1 Cor. 2. 3-5; Eph. 1. 19, 20; 2. 5, 8, 9.

[a]fel na thywynai iddynt lewyrch [b]efengyl gogoniant Crist, yr hwn [c]yw [c]delw Dug.

5 Canys nid ydym yn ein pre-[d]gethu ein hunain, ond [e]Crist Iesu yr Arglwydd; a [h]ninnau yn [e]weision i chwi er mwyn Iesu.

6 Canys Duw, yr hwn a or-[f]chymynodd i'r [f]goleuni lewyrchu [g]o dywyllwch, *yw* yr hwn a [i]lew-yrchodd yn ein calonau, i *roddi* [k]goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, [l]yn wyneb Iesu Grist.

7 Eithr y mae genym y trysor [m]hwn mewn llestri pridd, [m]fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.

8 Yn mhob peth *yr ym* yn gys-tuddiol, ond nid mewn ing; *yr ydym* mewn cyfyng-gynghor, ond nid yn ddiobaith;

9 Yn cael *ein* herlid, ond heb *ein* llwyr adael; yn cael *ein* bwrw i lawr, eithr heb *ein* dyfetha;

10 Gan [n]gylch-arwain yn y corph bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu, [o]fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein corph ni.

11 Canys yr ydys yn ein rhoddi

[n] Rhuf. 8. 17, 18; Phil. 3. 10, 11. [o] Ioan 14. 19; Rhuf. 8. 17; Dad. 1. 17, 18.

yddio yn ffugrol yn gystal ag yn llythyrenol. Nid ydyw ein bod yn dyweyd fod mammon yn dduw y byd hwn, neu fod Paul yn liefaru am ryw ddynion mai "eu duw yw eu bol," yn profi nad yw galw Iehofah yn Dduw yn honiad o'i wir ddiwdod." *Y rhai digred* :—yr un a'r rhai "colledig." *Fel na thywynai*. Y mae y geir-iau hyn yn arwyddo amcan, nid canlyniad yn unig. Cyfeirir yn yr ymadroddion hyn at 2 *Cor.* iii. 18.

5, 6. Dangosir ynma nad oedd gan yr apostol a'i frodyr un achos i arfer cyfrwysdra, am nad oedd ganddynt ddim amcanion hunanol i'w cyr-haedd. Nid oedd raid iddynt wneuthur pethau yn ddirgel, fel y gau athrawon: eu nerth oedd mewn ymddangos, nid ymguddio; gwnaethpwyd hwynt gan Dduw yn oleuadau i belydru goleuni ar ereill. *Yr Arglwydd* :—mewn cyferbyniad i'r hyn sydd yn canlyn, "a ninnau yn weision." *Yn weision* :—yn gaethwesion. *Canys Duw* :—rheswm am yr adnod flaenorol. "Gweision ydym i chwi: yr ydym yn ymroddol i'ch gwas-anaeth; canys y mae Duw wedi dadguddio i ni y wybodaeth am Grist. Y mae Calvin yn deall y cyssylltiad yn wahanol—"Crist Iesu yr ydym yn ei bregethu; canys ynddo ef yr amlygir go-goniant Duw. Y cyntaf a gymmeradwyir gan Alford; yr olaf gan Hodge. *Yr hwn a orchym-ynodd*, &c. :—gyda chyfeiriad amlwg at waith Duw yn ngreadigaeth y byd. *I roddi goleuni.* —I'r dyben o roddi allan oleuni gwybodaeth gogoniant Duw i ereill.—*Alford. Yn wyneb Iesu Grist* :—llewyrcha Duw i galonau pechad-uriaid i'w galluogi i weled gogoniant ei gymmer-iad, fel yr amlygwyd ef yn mherson a chyfryng-dod Iesu Grist. Cynnwysir yma ddwy ffaith bwysig:—1. Fod Duw wedi dyfod yn Nghrist yn wrthddrych gwybodaeth. Y mae y dadguddiad egluraf o'r bod o Dduw, ac o'r hyn ydyw, wedi ei wneuthur yn mherson Crist, fel ag i beri fod y rhai sydd yn gwrthod gweled Duw yn Nghrist yn colli pob gwir wybodaeth o hono: *Ioan* i. 18; *Mat.* xi. 27; 1 *Ioan* ii. 23. 2. Fod y wybodaeth yma o Dduw yn Nghrist, nid yn unig yn bwngc y deall, yr hwn a ellir ei drosglwyddo gan y naill ddyn i'r llall; ond yn ddirnadaeth ysbrydol, yn cael ei roddi yn unig gan Ysbryd Duw.—*Hodge.* Y mae Alford yn sylwi fod y ffugr yma etto yn cael ei gymmeryd o'r bennod o'r blaen, ac yn cyfeirio at y disgleirdeb oedd ar wyneb Moses. Yn Nghrist y gwelir gwir ddisgleirdeb gogon-iant Duw.

7—18. GWEINYDDIR Y WEINIDOGAETH OGON-EDDUS HON GAN OFFERYNAU GWEINIAID, Y RHAI A GYNNELIR I FYNY GAN YSBRYD FFYDD.

Barna Calvin ac Estius fod yr adnodau hyn wedi cael eu hachlysuro gan waith ei wrthwyn-ebwyr yn ei waradwyddo ar gyfrif dinodedd corphorol. Diammheu eu bod hwy yn gwneuth-ur hyny, ond nid oes ddigon o sail i dybied y cyfeirir at hyny yn y geiriau hyn. Y mae y dar-luniad hwn yn briodol am holl weinidogion y gair.

7. *Y trysor hwn* :—gweinidogaeth yr efengyl. —*Calvin, Hodge.* Goleuni gwybodaeth gogon-iant Duw.—*Alford. Mewn llestri pridd.*—Y corph; yr un a'r dyn oddi allan, yn *adn.* 13. *Fel y byddai* :—fel y gwelid mai felly y mae.

8, 9. Yn egluro yr ymadrodd "llestri pridd." *Yn mhob peth.*—Yn mhob modd. *Yr ydym yn gystuddiol, ond*, &c.—Nid yw y cyfeithiad yn cyfleu prydferthwch y gwreiddiol. "*Pressed for room, but still having room.*"—*Hodge.* "*Pressed, but not crushed.*"—*Alford.* Gwesgir arnom, ond nid yn cael ein llethu. Yn debyg i'r ymdrechydd, yn cael gwasgu yn drwm arno gan ei wrthwynebydd, etto yn cael lle i droi. *Mewn cyfyng-gynghor, ond*, &c.—Dywedir ynma yn llythyrenol yr un peth ag a ddywedir yn ffugrol yn yr ymadrodd o'r blaen. *Yn cael ein bwrw i lawr*, &c.—Cyfeiriad etto at ymdrechydd yn y campau. Nid yn unig gwesgid yn drwm arno, ond teflid ef i lawr; etto, ar ôn dinystr, agorid iddo ddrws o ymwared. Cymmhara ei hun i ymdrechydd—yn gyntaf yn cael gwasgu yn drwm arno; yna yn cael ei amgylchu, ei gau i mewn; yna yn cael ei ymlid, ac yn y diwedd ei fwrw i'r llawr. Y mae Alford yn llefaru yn erbyn y cyfryw gyfeiriad, ond nid gyda digon o sail. *Gan gylch-arwain.*—Yr ydym yn ymddang-os yn ein personau ein hunain ddioddefiadau Crist: trinir ni fel efe; yr ydym yn dioddef oddi wrth ddynion yr un pethau ag a ddioddef-odd efe. *Farweiddiad.*—Ceir yr un gair yn y gwreiddiol yn *Rhuf.* iv. 19, "marweidd-dra;" arwydda yma rhoddiad i farwolaeth. Cyfeitha Alford, "*The killing.*" Cynnwysa y marweidd-iad hwn bob peth a'i gwnai yn ddirmygedig ger bron dynion. Gwel *Gal.* vi. 17. Yr un ystyr a dioddefiadau Crist yn 2 *Cor.* i. 5. *Fel yr eglur-id.*—Yr oedd y cynnaliaeth a dderbyniai yr apostol yn ei gystuddiau, a'r gorfoledd a'r dy-ddanwch a brofai, ei waredigaethau, a'r gwaith mawr a gyflawnai dan gymmaint o flinder, yn brawf fod yr Iesu yn fyw, ac yn fyw fel Pen ei eglwys, ac fel tywysog ac Iachawdwr ei bobl.

11. *Y rhai ydym fyw.*—Mae bywyd ac angau

ni, y rhai ydym yn fyw, yn wastad i farwolaeth er mwyn Iesu, fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein marwol gnawd ni.

[p]1 Cor. 4. 10; Phil. 2. 17, 30.

12 Felly [p]y mae angau yn gweithio ynom ni, ac einioes ynoch chwithau.

[q]Heb. 11. 1, &c.; 2 Pedr 1. 1. [r]Salm 116. 10.

13 *A* chan fod genym [q]yr un ysbryd ffydd, yn ol yr hyn a ysgrifenwyd, [r]Credais, am hyny y lleferais; yr ydym ninnau hefyd

[s]Diar. 21. 28. yn credu, [s]ac am hyny yn llefaru.

14 Gan wybod y bydd i'r hwn a gyfododd yr Arglwydd Iesu, ein cyfodi ninnau hefyd trwy Iesu, a'*n* gosod ger bron gyda chwi.

15 Canys pob peth *sydd* er eich mwyn chwi, fel y byddo i ras wedi amlhau, trwy ddiolchgarwch llaweroedd, ymhelaethu i ogoniant Duw.

16 O herwydd pa ham nid ydym yn pallu; eithr er llygru ein dyn oddi allan, er hyny y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd.

17 Canys ein byr ysgafn gystudd ni [t]sydd yn odidog ragorol yn gweithredu [u]trag wyddol bwys gogoniant i ni;

[t]Mat. 5. 12; Rhuf. 5. 3—5. Salm 31. 19; Esa. 64. 4.

yn wrthwyneb i'w gilydd, ond ynom ni y maent wedi eu huno. Gwel 1 *Cor.* iv. 9. Eglura Duw farwolaeth yn y byw, er mwyn eglurhau bywyd yn y marw.

12. Cyfyngir y marw i ni; yr ydych chwi yn cael budd y bywyd. Nid yw yr adnod hon yn cynnwys dim o'r wawdiaith sydd yn 1 *Cor.* iv. 8—10, fel y barna Calvin.

13. Yma dechreua ddwyn yn mlaen y pethau oedd yn ei attegu yn ei flinderau. Y cyntaf oedd ffydd. *Yr un ysbryd ffydd*:—yr un ffydd ag a nodir yn y gair sydd yn canlyn. Dyma iaith Dafydd yn *Salm* cxvi. 10, pan oedd ei amgylchiadau yn gyffelyb i'r rhai yr oedd yr apostol ynddynt. Gan fod ffydd yr apostol yr un a ffydd Dafydd, yr oedd ei heffaith yr un. Yr oedd Dafydd yn ei flinderau yn mynegu ffyddlondeb a daioni Duw, trwy ffydd. Felly hefyd y gwnai yr apostol: yn nghanol ac er gwaethaf ei holl ddioddefiadau, cyhoeddai yr efengyl gyda llawn hyder yn ei gwirionedd ac yn ei gyfranogiad ei hunan o'i bendithion.

14. Yn manylu ar y meddwl a gynnwysir yn yr ymadrodd blaenorol, "yr ydym ninnau yn credu," ac yn rhoddi sail y "llefaru." Am yr adgyfodiad yn y dydd diweddaf y lleferir yma. Ni ddylid rhoddi i'r gair un ystyr ysbrydol na ffugrol, pan y gellir ei ddeall yn llythyrenol. Parhäai yr apostol i bregethu yr efengyl dan bob blinder a dioddefaint, am y credai y byddai iddo ef a'r holl gredinwyr gael bod yn gyfranog o'i holl fendithion yn y perffeithiad yn y dydd olaf. *A'n gosod ger bron*:—gwelir yr un peth fel gwrthddrych ei hyder yn 2 *Cor.* i. 14; 1 *Thes.* ii. 19, 20; iii. 13.

15. Sail ei hyder yn yr adnod o'r blaen y caffai y Corinthiaid gydgyfranogi âg ef o'r iachawdwriaeth—"ein gosod ger bron gyda chwi." *Pob peth*:—nid yn yr un ystyr helaeth ag sydd i'r gair yn 1 *Cor.* iii. 21; ond pob peth a weithreddodd, a ddioddefodd, ac a brofodd, yr oedd y cwbl er mwyn y Corinthiaid. Gellir aralleirio diwedd yr adnod fel hyn: "Er mwyn i'r gras a'r daioni helaeth a ddangoswyd i mi, trwy eich diolchgarwch chwi—diolchgarwch yn cael ei weithio ynoch gan eich profiad o'r bendithion a ddeillient oddi wrth fy llafur a'm dioddefiadau—ymhelaethu i ogoniant Duw." Dengys yr apostol fod y gras a'r ffafr a ddangoswyd iddo ef yn dybenu mewn mwy o ogoniant i Dduw, am fod llaweroedd, heb law efe, yn cael eu harwain i roddi diolch am dano. "Y mae yr eglwys yn un. Os anrhydeddir a wneir un aelod, y mae yr holl aelodau yn cydlawenhau. Os gwaredid Paul oddi wrth ei elynion, yr oedd yr holl eglwys yn rhoddi diolch i Dduw. Yr oedd y ffafr a ddangosid iddo ef yn ffafr i bawb, ac felly yr oedd yn cael ei liosogi ar ei ganfed, ïe, ar ei filfed, a'i wneuthur yn fil cyflawnach o ddiolchgarwch i Dduw." Er fod cryn anhawsder ynglŷn â chyflead geiriau yr adnod, etto nid oes ddadl nad dyma ei harwyddocâd.

16. Yn yr adnodau o'r blaen, dengys yr apostol fel yr oedd yn cael ei gynnal yn ei flinderau gan y gras o ffydd; yma gan y gras o obaith. *O herwydd paham.* O herwydd yr hyn a ddywedir yn *adn.* 14—gobaith yr adgyfodiad. *Nid ydym yn pallu*:—nid ydym yn llwfrhau, fel ag i gilio o'r maes, er maint y dioddefiadau. *Ein dyn oddi allan.*—Ein corph (*Rhuf.* vii. 22), yr hwn a wywai ymaith dan bwysau y marweiddiad gwastadol a weithiai ynddo. *Y dyn oddi mewn.*—Ein bywyd ysbrydol, y bywyd sydd yn amlygu bywyd Iesu, a borthir yn barhaus gan adgyflenwadau newyddion o ras.—*Alford.* Nid yr enaid neu yr ysbryd a feddylir wrth y dyn oddi mewn, ac nid y bywyd ysbrydol yn yr enaid, ond y ddau fel un: yr ysbryd fel deiliad y bywyd dwyfol.

17. Yr heswm pa ham nad ydym yn pallu. Ein cystudd sydd yn ysgafn, byr, ac yn sicrhau tragwyddol bwys gogoniant. Nid ynddo ei hun yn ysgafn, nac yn gymmharol â'r eiddo ereill. Yr oedd blinderau yr apostol yn drymion dros ben (1 *Cor.* iv. 9—13; 2 *Cor.* xii. 23—29): ysgafn yn unig oedd wrth ei ddwyn i gyferbyniad â phwys y gogoniant oedd yn ei aros: *Rhuf.* viii. 18. Ac nid oedd ei gystudd yn fyr ynddo ei hun, gan ei fod yn parhau o'i dröedigaeth hyd ei ferthyrdod. Merthyrdod gwastadol oedd ei holl fywyd apostolaidd. Ond yr oedd yn fyr wrth ei gymmharu â thragwyddol bwys gogoniant. *Yn gweithredu*:—yn gweithio allan i ni; yn effeithio. Dyma y moddion i sicrhau a dwyn oddi amgylch y gogoniant: gwel *Mat.* xix. 29; 2 *Tim.* ii. 12, 13; 1 *Pedr* i. 6; iv. 13. Y mae grym anghyffredinol yn ngeiriadyr adnod hon:—"Canys ein byr ysgafn gystudd ni"—yn fwy tebyg i eiriad cryno y gwreiddiol na'r darlleniad Saesneg. "*For the present light (burden) of our affliction*" [*Alford*]; "*For the momentary lightness of our affliction*" [*Hodge*]. Dylasai y gair *ysgafn* fod yn *ysgafnder*, i gyfatteb i'r gwreiddiol, yr hwn sydd yn sylweddair, mewn cyferbyniad i *pwys*: "Canys byr ysgafnder ein cystudd ni." Arferir y rhagferf (a gyf-

[x] Rhuf. 8. 24, 25; Heb. 11. 1, 25—27; 12. 2, 3. [y] 2 Thes. 2. 16; 1 Ioan 2. 16, 17.

18 Tra [x]na byddom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir: [y]canys y pethau a welir *sydd* dros amser, ond y pethau ni welir *sydd* dragwyddol.

PENNOD V.

1 *Ei fod ef mewn sier obaith o'r gogoniant tragwyddol,* 9 *a disgwyl am dano, ac am y farn gyffredinol, yn ymegnïo i gadw*

ieithir yma *byr*) fel ansoddair, a'r ansoddair (*ysgafn*) fel sylweddair. Cyfieithiad Alford o *parautica* (byr) ydyw *present*; Olshausen, *temporal*; Hodge, *momentary*. Arwydda yr hyn sydd yn bod am yr adeg bresennol, ac felly yn cynnwys y syniad o ddiflaniad ebrwydd. Y mae y cystudd yn rhwym o fod yn ysgafn, yn gymmaint a'i fod yn ddiflanedig. Saif *byr* mewn cyferbyniad i *tragwyddol*; *ysgafnder* i *pwys*; *cystudd* i *gogoniant*. Y mae y geiriau *yn odidog ragorol* yn gais teg i osod allan nerth y gwreiddiol. Yr un modd hefyd y mae darlleniad Alford arno:—"*In a surpassing and still more surpassing manner.*" "*According to excess unto excess; exceeding exceedingly.*"—*Hodge.* Mae yr apostol yn ymegnïo, dan wendid iaith, i osod allan ei feddwl. Gall y darllenydd Cymreig gael rhyw ddrychfeddwl am gryfder yr ymadrodd pan ddywedwn wrtho, fod y gair a gyfieithir yn 2 *Cor.* 1. 8, yn "ddirfawr" yn cael ei ddyblu yma. Y mae y darlleniad Cymraeg yn rhagori ar y Saesneg—"yn odidog ragorol yn gweithredu." Rhydd y Saesneg y cyssylltiad *and* rhwng *exceeding* ac *eternal*, yr hyn sydd yn gwanychu ac yn tywyllu yr ystyr. Dylid cofio fod yr ymadroddion "yn odidog ragorol" yn perthyn i'r ferf, "yn gweithredu," nid i "pwys gogoniant." Y mae yr ystyr cywir yn cael ei gyfleu yn y Gymraeg. Hyn a gymmeradwyir gan De Wette a Meyer, &c. Dichon fod yr ymadrodd *pwys gogoniant* wedi ei awgrymu i'r apostol am mai yr un gair sydd yn yr Hebraeg am *pwys* a *gogoniant*.

18. Y mae y gweithrediad hwn yn cymmeryd lle, *tra nad ydym*, &c. Dengys hyn i ba fath ddynion y mae cystuddiau yn gweithredu gogoniant;—nid i'r daearol a'r cnawdol, ond i'r rhai y mae eu calonau wedi eu sefydlu ar y tragwyddol. Y mae y gair a gyfieithir *edrych* yn arwyddo edrych yn graff, edrych yn sefydlog at nôd. Felly cynnwysa y syniad o edrych ar y pethau ni welir fel y nôd eithaf, fel y gwrthddrychau y mae bryd y galon wedi ei sefydlu arnynt, y rhai y gwneir yr egnïon mwyaf i'w cyrhaedd. "Y mae pob un yn dilyn hyd at yr hyn y mae yn edrych arno fel ei nôd."—*Bengel.* Y mae y geiriau, "y pethau ni welir," yn meddu gwahanol ystyron: o blegid y mae llawer o bethau nad ydynt i'w gweled yn awr i fod yn weledig pan y bydd ymdaith ein ffydd wedi ei gorphen.—*Bengel. Canys.*—Y rheswm pa ham y maent yn edrych ar y pethau ni welir. *Dros amser*:—gwell na'r Saesneg, *temporal*. Arwydda y gair Saesneg yr hyn a berthyn i amser; y Cymraeg, yr hyn sydd yn parhau dros fyr amser yn unig.

PENNOD V.

1—16, RHESYMAU O BLAID YR HYDER A FYNEGAI YR APOSTOL YN Y BENNOD O'R BLAEN:

cydwybod dda; 12 *nid er mwyn ymffrostio yn hyny,* 14 *eithr megys un wedi derbyn bywyd oddi wrth Grist, yn ceisio byw fel creadur newydd i Grist yn unig,* 18 *ac yn ymdrechu hefyd gymmodi eraill â Duw yn Nghrist, trwy weinidogaeth y cymmod.*

B. A. 57.

[a] Gen. 3. 19; 1 Cor. 15. 46—48; 2 Pedr 1. 13, 14. [b] Ioan 14. 2, 3. [c] Col. 2. 11.

CANYS ni a wyddom,[a] os ein daearol dŷ [b]o'r babell *hon* a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, [c]*sef* tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd.

GORPHWYSA YR HYFDER A'R HYDER HWN AR Y SICRWYDD OEDD GANDDO AM OGONIANT YN Y BYD ARALL.

1. *Canys*:—y rheswm am *pen.* iv. 17. Yr oedd y byr ysgafn gystudd yn gweithredu yr odidog ragorol, "canys ni a wyddom," &c. *Os.*—Pe bai hyny yn cymmeryd lle; pe bai y marweiddiad parhaus yn dybenu mewn marwolaeth. *Ein daearol dŷ o'r babell hon.*—"*Our earthly tabernacle-dwelling.*"—*Alford.* Nid ydyw ein daearol dŷ ond pabell; trigfan freuol a difanedig, mewn cyferbyniad i adeilad fwy cadarn a pharhaus: 2 *Pedr* i. 13, 14. Nid oes sail i dybied fod yn yr ymadroddion un cyfeiriad at ymdaith yr Israeliaid mewn pebyll yn yr anialwch. Y mae y ffugr yn cael ei arfer yn gyffredin gan yr ysgrifenwyr Groeg clasurol. *A ddattodir.*—Ymadrodd tyner.—*Bengel.* Gwahanol ranau y babell yn cael eu tynu i lawr. *Adeilad gan Dduw.*—Adeilad, nid pabell: ac yn wahanol i bob adeilad arall, y rhai ydynt o waith llaw, adeilad oddi wrth Dduw, o'r hon y mae efe yn adeiladydd. Nid yw gan hyny yn gyffelyb i'r adeiladau a wneir gan ddynion. Y mae gwahanol olygiadau ar y gair hwn. Yn ol rhai esbonwyr, y mae yr "adeilad gan Dduw" yn golygu y nefoedd ei hun. Yn ol ereill, corph yr adgyfodiad. Yn ol ereill, yr ystâd yr â yr enaid iddo yn ebrwydd ar ol angau—rhyw gorph wedi ei gyfaddasu i'r enaid aros ynddo hyd yr adgyfodiad yn y dydd diweddaf. Y mae Hodge yn ymdrin â'r tri golygiad gyda mesur mawr o allu. Y mae yn gwrthod yr olaf yn holiol. Sail y dybiaeth yma ydyw y golygiad materawl nas gall yr ysbryd hanfodi, o leiaf fod yn ymwybodol, ar wahân oddi wrth y corph. Fel nas gall bywyd llysieuol fodoli ond mewn undeb â llysiau, felly nis gall yr enaid fodoli ond mewn cyssylltiad â'r corph. Ond y mae yn amlwg fod y dybiaeth yma yn gorphwys ar yr athroniaeth fwyaf materawl—yr athrawiaeth hono sydd yn gwneuthur yr elfen resymol mewn dyn yn effaith trefniant y rhan anianol. Y mae yn wir mai sefyllfa uchaf dyn fydd hono pan y bydd ei ysbryd perffaith wedi ei uno â chorph ysbrydol; etto y mae gwahaniaeth anfesurol rhwng hyn a'r golygiad nas gall yr enaid fod yn ymwybodol ond yn ei undeb â'r corph. Y mae y dybiaeth yma yn groes i holl rediad y Beibl, yn gystal yn wir ag i'r adnod dan sylw. Beth bynag a olygir wrth yr "adeilad gan Dduw," amlwg yw mai nid math o gorph hyd yr adgyfodiad a fydd, ond y "tŷ tragwyddol." Nid yw yr Ysgrythyr yn son ond am ddau gorph; sef corph y byd a'r bywyd hwn, y corph anianol; a chorph y byd a'r bywyd a ddaw, y corph ysbrydol. Felly gorfodir ni i dderbyn un o'r ddau olygiad arall—y nefoedd, neu corph yr adgyfodiad. O blaid y golygiad mai y nefoedd a feddylir, gellir dwyn yn mlaen yr ystyriaethau canlynol. (1.)

2 Canys am hyny yr ydym yn ocheneidio, gan ddeisyfu cael ein [d] harwisgo â'n tŷ sydd o'r nef:

[d] 1 Cor. 15. 53, 54.

Lleferir yn fynych am y nefoedd dan y gymhariaeth o dŷ: *Luc* xvi. 9; *Ioan* xiv. 2, &c). (2.) Y mae y ffugr, yn ol y golygiad hwn, yn un tra phriodol. Fel y mae y corph yn dŷ, yn yr hwn y preswylia yr ysbryd yn awr, felly y nefoedd fydd y tŷ i ba un yr el wedi y dattodir y tŷ presennol. (3.) Cyttuna y disgrifiad yn yr adnod hon â disgrifiadau mewn manau ereill o'r nefoedd: gwel *Heb.* ix. 11; xi. 10. (4.) Y mae yr enaid yn mynedi mewn i'r tŷ hwn yn ebrwydd ar ol angeu. Dyma y brif ddadl o blaid y golygiad hwn. Ymddengys fod yr apostol yn rhoddi ar ddeall fod y "tŷ, nid o waith llaw," yn barod ganddo, megys yn ei ddysgwyl, ar ol dattodiad y daearol dŷ. (5.) Y mae y golygiad hwn yn unol â holl rediad y Beibl, lle y dangosir fod ysbrydoedd y saint yn diange yn ddioed o dan ddwylaw angeu i ogoniant. "Y drychfeddwl syml ydyw, na bydd yr enaid, pan yn gadael ei babell ddaearol, yn cael ei golli mewn gwagle, na'i yru ymaith yn ddigartref, ond y caiff dŷ a chartref yn y nefoedd. Nid yw enaid y credadyn yn peidio a bod yn angau. Nid yw yn suddo i sefyllfa o anymwybyddiaeth. Nid ydyw yn myned i'r purdan; ond, wedi ei berffeithio mewn sancteiddrwydd, y mae yn myned yn ebrwydd i ogoniant. Mor gynted ag y mae yn absennol o'r corph y mae yn cartrefu gyda'r Arglwydd. Dyma'r cwbl a ddadguddir, ac y mae hyn yn ddigon."—Gwel Hodge ar yr adnod. Gwna Calvin y sylwadau canlynol:—"Nid ydyw yn sicr pa un a yw yr apostol yn golygu wrth y gair *adeilad gan Dduw* yr ystâd o anfarwoldeb gwynfydedig ag yr ä y credadyn iddi ar ol angeu, ynte y corph gogoneddus ac anllygredig a gaiff yn yr adgyfodiad. Nid yw y naill olygiad na'r llall yn anghyfaddas; er fy mod yn deall y geiriau fel yn golygu mai sefyllfa ddedwydd yr enaid ar ol marw ydyw dechreuad yr adeilad, a gogoniant yr adgyfodiad diweddaf ydyw ei berffeithiad."

2. Gellir edrych ar yr adnod hon fel rheswm am 2 *Cor.* iv. 18—yr oedd yn edrych ar y pethau ni welir, am ei fod yn ocheneidio, &c.—neu am yr hyn sydd yn adnod 1. Gwyddai fod iddo adeilad gan Dduw, am fod y fath awyddfryd ynddo am dano. *Am hyny:*—yn hytrach *yn yr hon;* yn y babell hon. *Gan ddeisyfu:*—gan hiraethu: y rheswm pa ham yr oedd yn ocheneidio; ochenaid o hiraeth ydoedd. *Ein harwisgo.*—Y ffugr yn cael ei newid i wisg: hiraethai am y tŷ sydd o'r nef fel arwisg am y corph. Mae y rhai sydd yn barnu fod yr apostol yn yr adnod o'r blaen a'r adnod hon yn llefaru am gorph yr adgyfodiad, yn rhoddi pwys mawr ar y geiriau *diosg* ac *arwisgo;* sef gogoneddu y corph trwy ei newid, heb weled angeu. Ond y mae Hodge, ac ereill, yn dadleu yn gryf nad oes digon o sail i'r golygiad hwn yn y geiriau y cyfeiriasom atynt. Y mae Bengel ac Alford yn wahanol. "Gan y dywedir 'o'r nef,' nid y nef ei hun ydyw y tŷ hwn."—*Bengel.* "Lleferir yma am y tŷ fel pe byddai yn cael ei ddwyn gyda'r Arglwydd yn ei ddyfodiad, a'i ddodi am danom ni y rhai a fyddwn yn fyw y pryd hyny."—*Alford.*

3. Y mae llawer o geisiadau tuag at esbonio yr adnod hon; a dichon nad oes un adnod yn yr holl epistol y mae ei hystyr yn fwy ansicr.

3 Os hefyd [e] wedi ein gwisgo, [f] nid yn noethion y'n ceir.

[e] Gen. 3. 7—11; Dad. 3. 18.

4 Canys ninnau hefyd y rhai

Y mae darlleniad gwreiddiol y geiriau a gyfeithir, "Ac os," yn ammheus. Y mae y darlleniad derbyniedig, yr un a'r Cymraeg, yn arwyddo sicrwydd:—*os* o gadarnhâd neu ymresymiad. Y mae y darlleniad arall, yr hwn sydd yn cael ei amddiffyn yn rymus gan Zachmann, yn cynnwys ammheuaeth—yn debyg i "A phe wedi ein gwisgo." Y tri phrif esboniad ydynt, (1.) Yr eiddo Calvin, Olshausen, &c. Y mae y geiriau *gwisgo* a *noethion* yn cyfeirio at sefyllfa neu gyflwr yr enaid, fel wedi, neu heb ei wisgo yn nghyflawnder Crist.—*Calvin.* Y mae yn cyfyngu i gredinwyr yr hyn a ddywedodd am sicrwydd y fuchedd ddyfodol, gan ei fod yn perthyn yn neillduol iddynt hwy: o blegid y mae yr anghyflawnion hwythau yn cael eu diosg o'r corph; ond gan nad ydynt yn dwyn dim i bresennoldeb Duw ond noethder cywilyddus a gwrthun, nid ydynt, gan hyny, yn cael eu gwisgo â chorph gogoneddus; ond y mae y credinwyr, y rhai ydynt yn ymddangos ger bron Duw wedi eu gwisgo yn nghyflawnder Crist, a'u haddurno â'i ddelw, yn derbyn gwisgoedd gogoneddus anfarwoldeb. Mae yr apostol, felly, yn sôn am wisg ddyblyg, â pha un y gwisgir ni gan Dduw—cyflawnder Crist a sancteiddiad ei Ysbryd yn y byd hwn, ac anfarwoldeb a gogoniant ar ol angeu." Ond y mae yn rhaid addef nad yw yr esboniad hwn yn naturiol; nid ydyw yn gyfreithlawn defnyddio yr un geiriau mewn gwahanol ystyron yn yr un cyssyltiad. "Nid oes yma le," ebe Hodge, "i rybuddio yr anghyflawnion. Ni sonir am danynt o gwbl yn y cyd-destynau." Seilir yr ail olygiad ar y dyb fod *adn.* 2 yn llefaru am y rhai byw, a newidir yn nyfodiad Crist. Dywed Grotius: "Cawn ein harwisgo—dodir corph newydd ar y corph presennol hwn, os digwydda i'r dydd hwnw ein cael ni wedi ein gwisgo yn y corph, ac nid yn ysbrydoedd noethion." Golygiad Meyer ydyw, "Os byddwn wedi ein gwisgo â'r tŷ sydd o'r nef—â chorph newydd—ni cheir ni yn noethion yn nyfodiad yr Iesu." Ond y mae gwrthddadl Hodge i'r golygiadau hyn yn ymddangos i ni yn ddigonol: y mae yr apostol yn yr holl gyd-destynau yn ymresymu ar y dybiaeth ei fod i farw—fod y daearol dŷ o'r babell hon i gael ei ddattod. Nid yw yn gwneuthur y dybiaeth y gallai aros yn fyw hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Y golygiad a ymddengys i ni yn debycaf i fod yn gywir ydyw yr un sydd yn esbonio y geiriau yn unol â'r golygiad, mai at ogoniant yr enaid yn y nef ar ol yr ymddattodiad yn angeu y llefara yr apostol yn yr holl adran:—'Os byddaf farw, mi a wn fod genyf dŷ yn y nef; ac yr wyf yn deisyfu cael myned i mewn i'r tŷ nefol hwnw, o blegid pan yrir fi allan gan angeu o'r babell ddaearol, ni byddaf wed'yn yn noeth a digartref.' Yn ol y golygiad hwn, ebe Hodge gwrthddrych ei ddymuniad oedd gogoniant a gwynfyd y nefoedd: yn ol y golygiad arall, fod iddo gael byw hyd ddyfodiad Crist, ac felly ddiange rhag poenau marwolaeth. Nid oedd yr olaf ond amcan isel mewn cymmhariaeth, a chwbl anghydweddol â'r ysbryd gwrol sydd yn treiddio drwy yr holl adnodau.

4. Cadarnhad o *adn.* 2. *Yn ocheneidio, yn llwythog.*—Pa ham? O herwydd pa beth? O

y'm yn y babell *hon* ydym yn ochneidio, yn llwythog: yn yr hyn nid y'm yn chwennych ein diosg,
[f] Esa. 25. 8; 1 Cor. 15. 53, 54. [f] ond ein harwisgo, fel y llyngcer yr hyn sydd farwol gan fywyd.
[e] Esa. 29. 23; Eph. 2. 10. 5 A'r hwn a'n [g] gweithiodd ni i hyn yma *yw* Duw, yr hwn hefyd
[h] 1 Ioan 3. 24. a roddodd i ni [h] ernes yr Ysbryd.
[i] Adn. 1. 6 Am hyny *yr ydym* yn hyderus bob amser, ac yn gwybod, [i] tra yr ydym yn gartrefol yn y corph, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd:
[k] Rhuf. 8. 24, 25; 1 Pedr 1. 8. 7 Canys [k] wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg.
8 Ond yr ydym yn hyf, ac yn gweled yn dda yn hytrach fod
[l] Salm 73. 23—26; Dad. 7. 14-17. oddi cartref o'r corph, a [l] chartrefu gyda'r Arglwydd.
9 Am hyny hefyd yr ydym yn ymorchestu, pa un bynag ai gartref y byddom, ai oddi cartref,
[m] Gen. 4. 7; Heb. 12. 28. ein bod yn [m] gymmeradwy ganddo ef.

10 Canys [n] rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau *a wnaethpwyd* yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da ai drwg.
[n] Mat. 25. 31—46; 1 Pedr 4. 5; Judas 14 15.
11 A ni gan hyny yn gwybod [o] ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion; [p] eithr i Dduw y'n gwnaed yn hysbys; ac yr ydwyf yn gobeithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd.
[o] Salm 73. 19; Mat. 25. 46; 1 Cor. 4. 5; [p] 1 Thes. 2. 3—11.
12 Canys nid ydym yn ein canmol ein hunain drachefn wrthych, ond yn rhoddi i chwi achlysur gorfoledd o'n plegid ni, fel y caffoch beth i *atteb* yn erbyn y rhai sydd yn gorfoleddu yn y golwg, ac nid yn y galon.
13 Canys pa un bynag ai ammhwyllo yr ydym, [q] i Dduw *yr ydym;* ai yn ein pwyll yr ydym, i chwi *yr ydym.*
[q] 2 Sam. 6. 21, 22.

---

harwydd yr hyn a noda yn y geiriau canlynol. *Yn yr hyn*:—*o herwydd* yr achos pa ham yr oedd yn ocheneidio, ac yn llwythog.

5. *I hyn yma.*—I'r hyn a nodir yn yr ymadrodd diweddaf, "Fel y llyncir," &c. I'r rhagorfraint oruchel yma yr oedd Duw wedi ei addasu ef a'i frodyr, drwy eu prynu, a'u sancteiddio—rhoddi iddynt yr holl gymmhwysderau angenrheidiol i ogoniant. *Yr hwn hefyd.*—Nid yn unig yr oedd Duw wedi ei addasu i ogoniant, ond hefyd wedi rhoddi iddo sicrwydd o ogoniant, ynghyd â blaenbrawf o hono yn nawn yr Ysbryd Glân. Y mae y gair *ernes yr Ysbryd* yn un tra chyffredin yn ysgrifeniadau yr apostol: *gen.* i. 22; *Eph.* i. 13, 14; *Rhuf.* viii. 16. Yr ysbryd ei hun ydyw yr ernes, ac nid un ddawn neilltuol o'i eiddo. Ei breswyliad ef yn yr enaid sydd yn sicrhau perffeithiad iachawdwriaeth y saint. Cymmharer y llecedd y cyfeiriwyd atynt ar gynnwys yr ymadrodd.

7. Prawf ei fod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd. Trwy rinwedd ffydd, yr hon sydd yn sylweddu yr anweledig, yr oedd yn myned rhagddo ar ei yrfa grefyddol, ac nid yn mhresennoldeb y gwrthddrychau eu hunain; yr hyn sydd yn brawf mai oddi cartref yr oedd.

8. Y mae y frawddeg a adawyd yn anorphen yn *adn.* 6, yn cael ei gorphen yma. Y mae yr adnod hon yr un o ran meddwl ag ydyw y bedwaredd adnod.

9. *Am hyny.*—Gan mai y cyfryw yw ein hyder, y mae hiraeth am gymmundeb â Duw yn cynnyrchu y dymuniad a'r ymdrech am fod yn gymmeradwy ganddo. "Yr hwn y mae ganddo y gobaith hwn ynddo ef sydd yn ei buro ei hun;" 1 *Ioan* iii. 3. Gwrthddrych ei ddymuniad ydyw iddo fod yn gymmeradwy gan yr Arglwydd, pa un bynag ai yn y byd hwn, ai yn y byd arall.—*Chrysostom.*

10. *Canys.*—Rheswm am yr ymdrech a nodir yn flaenorol. Gan mai Crist sydd i benderfynu ein tynged dragwyddol, y mae o'r pwys mwyaf i ni fod yn gymmeradwy yn ei olwg. *Ymddangos.*—Cynnwysa y gair gwreiddiol fwy na'r cyfeithiad; sef, ein gwneyd yn amlwg yn ein gwir gymmeriad"—ymddangos yr hyn ydym: 1 *Cor.* iv. 5. *Brawdle.*—Arferir ef am y sedd ddyrchafedig ar ba un yr eisteddai yr ynad Rhufeinig i weinyddu cyfiawnder a barn. *Y derbynio.*—Y gair am dderbyn cyflog. *Yn y corph*:—neu, *trwy* y corph fel offeryn.

11—21. DIFFYNIAD YR APOSTOL YN NGWYNEB Y CYHUDDIAD O'I FOD YN EI GANMAWL EI HUNAN.

11. *A ni yn gwybod*:—a ni yn ymwybodol o ofn yr Arglwydd. *Ofn yr Arglwydd.*—Nid yr ystyr a drosglwyddir gan y darlleniad Saesneg, (*terror*, arswyd); ond ofn parchedig, mabaidd. Yr ofn iachusol o Grist, fel y barnwr yr ydym i sefyll ger ei fron. *Yr ydym yn perswadio dynion*:—o'n purdeb ein hunain. 'Yr ydym yn ceisio perswadio dynion o'n purdeb difrycheulyd; ond ni raid i ni ddarbwyllo Duw, gan ein bod yn hysbys iddo ef.' Y mae ereill yn golygu mai perswadio dynion o wirionedd yr efengyl, eu hennill at Grist, ydyw yr ystyr. Ond y llall sydd fwyaf unol â'r cyd-destyn.

12. Rheswm am yr hyder a fynega yn niwedd yr adnod o'r blaen: nid oedd yn llefaru am dano ei hun oddi ar ysbryd hunan-ganmoliaeth. *Drachefn.*—Gwel *pen.* iii. 1. *Gorfoleddu yn y golwg*:—disgrifiad o'r gau athrawon. Yr oeddynt yn gorfoleddu yn y sancteiddrwydd, y sel, a'r defosiwn a ddeuent i'r golwg yn eu hwyneb-au.—*Meyer.* Eu bôst oedd eu bod yn perthyn i'r wir eglwys, ac mai sismaticiaid ac Ymneilldu wyr oedd Paul a'i frodyr.—*Hodge.* Yn y pethau oedd ganddynt oddi allan, ac nid yn y pethau oedd yn eu calon.—*Alford.*

13. *Canys.*—Cadarnhâd o'r blaenorol. Y mae genych reswm digonol i fostio o honof fel dysgawdwr. *Ammhwyllo*:—ynfydu. Dygwyd y cyhuddiad yn erbyn Paul gan Ffestus (*Act.* xxvi. 24), a cheisid darostwng ei ddylanwad yn Corinth drwy yr un cyhuddiad gan y gau athrawon. Y mae y gair *ammhwyllog* yn trosglwyddo ystyr y gwreiddiol yn dda:—penboeth, yn cael ei

[r] Can. 1. 4; Mat. 10.37, 38.
[s] Esa. 53. 6; 1 Ioan 2. 1, 2.
[t] Luc 15. 24, 32.
[u] Rhuf. 6. 6.

14 Canys [r]y mae cariad Crist yn ein cymmhell ni, gan farnu o honom hyn; os bu [s]un farw dros bawb, [t]yna meirw oedd pawb:
15 Ac efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw [u]fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.
16 Am hyny nyni o hyn allan nid adwaenom neb yn ol y cnawd: ac os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd, etto yn awr nid ydym yn *ei* adnabod *ef* mwyach.
17 Gan hyny od [x]*oes* neb yn Nghrist, *y mae efe* yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.

[x] Gal. 3. 28; Eph. 1. 3.

arwain gan ei sel dros bob terfynau. *I Dduw yr ydym.*—Nid er ei fwyn ei hun yr oedd felly, ond er mwyn gogoniant Duw, a lles ei achos; ac felly gallasent hwy ei amddiffyn yn ngwyneb cyhuddiadau ei wrthwynebwyr. Pa un bynag o'r ddau ydym, y mae genych achos i ymorfoleddu ynom: os ydym yn ammhwyllog, y mae sancteiddrwydd a duwioldeb wrth wraidd, ac yn amcan i ein ammhwylldra: os ydym yn ein pwyll neu yn sobr, y mae yn sobrwydd yn eich gwasanaeth chwi.

14. Y rheswm am ei ymroddiad dan bob amgylchiad ac yn ngwyneb pob cyhuddiad. *Cariad Crist*:—cariad Crist ei hun, nid ein cariad ni at Grist. Cariad Crist fel yr amlygir ef yn ei angeu. *Yn ein cymmhell*:—yn ein llwyr lywodraethu, yn peri nad oes genym ond un amcan mewn golwg, ac yn cau allan pob ystyriaethau ereill. *Gan farnu.*—Y rheswm pa ham yr oedd cariad Crist yn eu cymmhell. Darllena Alford, "am ein bod wedi ffurfio y farn yma," yn ein tröedigaeth. Dysgasom i edrych ar hyn fel gwirionedd. *Dros bawb*:—nid er bodd pawb, ond yn lle pawb. Gall y gair gwreiddiol (*uper*) olygu y naill neu y llall: etto, pa bryd bynag yr arferir ef yn y geiriau sydd yn son am un yn marw dros ereill, y mae yn cynnwys y drychfeddwl o drososodiad nen fachniaeth. "Nid yw y ddadl yn gorphwys ar rym yr arddodair, ond ar natur yr achos. Yr unig ffordd y gallasai marwolaeth yr aberth lesau yr offrymydd oeidd, trwy drososodiad. Felly, pan ddywedir i Grist farw yn aberth dros bechod, y meddwl yw ei fod wedi marw yn ein lle."—*Hodge.* Y mae y rhan fwyaf hyd yn oed o feirniaid rhesymolaidd yr Almaen yn cydnabod mai *yn ile* ydyw ystyr *uper* yn y cyfryw gysyllt iad. Y mae y gair *pawb* i'w esbonio yn gydweddol â'r drychfeddwl a drosglwyddir yn *uper* (yn lle), ac âg amcan a chanlyniad y farwolaeth. *Meirw oedd pawb.*—Bu pawb farw. Y mae y ferf yma yn yr un amser ag yn yr adran o'r blaen:—"Os bu un farw dros bawb, yna bu pawb farw;" *h. y.*, yr oedd pawb ag y bu ef farw drostynt yn marw ynddo. Yr oedd y cynnrychioledig yn marw yn marwolaeth y cynnrychiolydd. Dyma yn ddiau ydyw y meddwl, ac nid 'Yna bu pawb farw i bechod, ac iddynt eu hunain;' ei farwolaeth wirioneddol ef yn sicrhau eu marwolaeth hwy yn ffugrol neu ysbrydol. Nid chwaith, "yna meirw oedd pawb," fel yn y darlleniad Cymraeg: *h. y.*, yr ydoedd marwolaeth Crist drostynt yn profi eu bod hwy yn feirw dan gondemniad y gyfraith. Ond y mae y gair yn golygu, nid y *cyflwr* yr oedd y pawb ynddo, ond eu *gweithred* hwy yn marwolaeth Crist: nid *meirw* oedd pawb, ond *bu* pawb *farw*. Y mae y golygiad a gymmeradwyasawn fel yr un cywir, yn rhedeg drwy holl ysgrifeniadau yr apostol: nid oes un yn digwydd yn amlach ynddynt.

15. *Fel na byddai i'r rhai byw*:—y rhai sydd yn byw yn y bywyd hwn; yn gyfystyr â "cyhyd ag y byddant yn y sefyllfa bresennol."—*De Wette.* "Er eu bod wedi marw yn Nghrist mewn un ystyr, etto y maent yn fyw mewn ystyr arall." *Ac a gyfodwyd.*—Nid Iachawdwr marw a wasanaethir genym. Y mae ei adgyfodiad mor angenrheidiol er ein iachawdwriaeth ag ydyw ei farwolaeth.

16. "Y cyfryw ydyw natur y cyfnewidiad a brofais drwy adnabod cariad Crist, fel nad wyf mwyach yn gweled ac yn barnu pethau yn ol y cnawd." Yr oedd yn gweithredu oddi ar y cymmhelliad pur af—cariad Crist. ac i'r amcan uchaf —byw i Grist. Dywed ei fod yn gweithredu fel hyn, gyda chyfeiriad at ymddygiad gwahanol y gau athrawon." Cyferbynna yr apostol ei hun yn awr â'r hyn oedd cyn ei dröedigaeth, ynghyd â'i wrthwynebwyr Iuddewaidd yn Corinth."—*Hodge.* Nid oedd barn yr apostol am neb yn cael ei rheoli gan yr hyn oedd allanol. *Os buom.*—Nid yn golygu ei fod yn adnabyddus o Grist yn nyddiau ei gnawd; ond ei fod, cyn ei dröedigaeth, yn ei adnabod yn unig yn ol y cnawd —yn ol ei ymddangosiad allanol, fel un tlawd, dirmygus, gwrthodedig gan yr awdurdodau, yn unig fel Iesu o Nazareth; ac nid fel y gwir Dduw, Iachawdwr y byd, a'r bywyd tragwyddol. Wedi ei dröedigaeth, adnabyddai ef fel yr un a "eglurwyd yn Fab Duw, yn ol ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw." Yr oedd iddo ef, ac y mae i bawb sydd yn credu, "yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw." Pan alwyd ef, gwelodd Duw yn dda ddadguddio ei Fab ynddo ef: *Gal.* i. 16.

17. *Gan hyny.*—Casgliad chwanegol oddi wrth yr ymadroddion o'r blaen. 'Os oedd y dadguddiad o Grist, yr adnabyddiaeth o'i ogoniant a'i gariad, wedi effeithio y cyfryw gyfnewidiad ynddo ef (Paul), y mae yr un pethau yn rhwym o effeithio y cyffelyb gyfnewidiad mewn ereill.' *Yn Nghrist.*—Yr ymadrodd sy bry doledig sydd yn dynodi y berthynas achubol, fywiol, sydd rhwng Crist a'i bobl. "Y maent ynddo ef trwy gyfammod, megys yr oedd holl ddynolryw yn Adda; y maent ynddo ef fel aelodau o'i gorph, trwy breswyliad ei Ysbryd; ac y maent ynddo trwy ffydd, yr hwn ras sydd yn cymmeryd meddiant o hono fel bywyd a rhan yr enaid. Y mae yr undeb hwn yn meddu gallu i gyfnewid y rhai sydd ynddo. Derbynir bywyd newydd trwyddo. Y mae yn peri creadigaeth newydd. Y mae y gair hwn, *creadur newydd*, yn dynodi, nid yn unig mawredd a natur trwyadl y cyfnewidiad, ond hefyd ei darddiad dwyfol. Y mae yn ddechreuad sefyllfa newydd o fodolaeth."—*Hodge. Newydd.*—Ansoddair o ragoriaeth. Y mae pob peth yn newydd yn yr iachawdwriaeth:—enw newydd, cân newydd, yr Ierusalem newydd, &c. *Yr hen bethau.*—Mae y gair yn cynnwys gradd

[f] Ioan 8. 10, 27.
[g] Rhuf. 5. 1, 10, 11.
[h] Col. 1. 20.

18 A [y]phob peth *sydd* o Dduw, [z]yr hwn a'n cymmododd ni âg ef ei hun trwy Iesu Grist, ac [a]a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod;

[i] Mat. 1. 23.
[k] Rhuf. 3. 24—26.
[l] Salm 32. 1, 2.

19 Sef, bod [b]Duw yn Nghrist [c]yn cymmodi y byd âg ef ei hun, [d]heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac wedi gosod ynom ni air y cymmod.

[m] Diar. 13. 17.
[n] Neh. 9. 29; Esa. 55. 6, 7.
[o] 1 Cor. 5. 4, 5.
[p] Diar. 1. 22; Ier. 13. 16, 17.
[q] Esa. 53. 9.

20 Am hyny yr ydym ni yn [e]genhadau dros Grist, [f]megys pe byddai Duw yn deisyf *arnoch* trwom ni: yr ydym yn erfyn [g]dros Grist, [h]Cymmoder chwi â Duw.

21 Canys [i]yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef

---

PENNOD VI.

1 *Ddarfod ildo ei ddangos ei hun yn weinidog ffyddlawn i Grist, trwy ei ynghorion,* 3 *a diniweidrwydd ei fuchedd,* 4 *a'i ddioddefgarwch mewn pob math o gystudd, ac ammharch er mwyn yr efengyl:* 10 *am yr hon y mae efe yn nyfach yn llefaru yn eu plith, am fod ei galon ef yn agored iddynt:* 13 *ac y mae yn disgwyl am y cyfryw ewyllysgarwch drachefn oddi wrthynt hwy;* 14 *gan eu hannog i ochelyd cymdeithas ac offeiriad eilun-addolwyr, a hwythau yn demlau y Duw byw.*

B. A. 57.

A NINNAU, gan gydweithio, ydym yn attolwg *i chwi,* [a]na dderbynioch ras Duw yn ofer.

[a] Mat. 23. 3: Rhuf. 12. 1.

---

[y] ddiystyrwch.—*Bengel.* Hen bethau ei fywyd blaenorol: yr holl hen gymmhellion, golygiadau, rhagfarnau, y rhai oeddynt yn hunanol, ac ammhur. *A aethant heibio*:—yn ddiysymmwth, fel eira'r gwanwyn.—*Bengel. Wele*.—gyda chyfeiriad at *Esa.* xliii. 18.

18. *Pob peth*:—yn y greadigaeth newydd. Duw ydyw unig achos ac effeithydd y cyfnewidiad. *A'n cymmododd.*—Yn Nuw y mae achos y cymmod. Meddwl Duw oedd y meddwl i gymmodi â phechadur. Golygir yma y cymmod cyfreithiol â Duw fel barnwr trwy iawn ei Fab; ac nid yr heddwch a deimlir yn y canlyniad yn enaid y pechadur. Y mae y *ni* cyntaf yn golygu pawb sydd yn Nghrist—y *ni* olaf, yr apostolion.

19. Cadarnhâd ac eglurhâd ar yr adnod o'r blaen. Y mae amseriad yr adnod hon yn y gorphenol, ac nid yn y presennol, fel yn y testyn Cymraeg. Gellid darllen, "Sef, i Dduw yn Nghrist gymmodi y byd âg ef." Gwnaeth Duw gymmod dros bechodau y byd yn Nghrist: gosododd ei Fab yn iawn. Nis golygir yma, gwneuthur dynion yn gymmodlawn âg ef, trwy eu dychwelyd ato; ond gwneuthur heddwch â'r byd unwaith am byth yn angeu ei Fab. Dyma gynnwys gweinidogaeth y cymmod. Y prawf o'i fod wedi gwneuthur cymmod yn iawn ei Fab yw, ei fod wedi gosod yn yr apostolion air y cymmod, ac nad yw yn cyfrif i ddynion eu pechodau. Y mae maddeuant pechodau a sefydliad y weinidogaeth yn dystiolaethau sydd yn profi fod Duw wedi gwneuthur heddwch â'r byd. *Gosod ynom.*—Yn cynnwys y drychfeddwl dyblyg o awdurdodiad ac addasiad. Nid yn unig ymddiriedodd y swydd i ni, ond hefyd dododd ni yn ei holl neges, ei chymmhwysderau, a'i hysbryd, yn ein calonau.

20. *Cenhadau.*—Ar unwaith yn genhadau ac yn gynnrychiolwyr. Nid yn unig wedi eu hanfon oddi wrth Grist, ond hefyd yn llefaru yn lle Crist. Y mae awdurdod Crist yn addynt; ac y mae diystyru eu cenadwriaeth yr un peth a diystyru Crist. *Megys.*—Disgrifiad o'r genadwriaeth, yn hytrach nag erfyniad yn cael ei wneyd ar y Corinthiaid. *Cymmoder chwi.*—Derbyniwch y cymmod sydd eisoes wedi ei wneyd. Cofleidiwch delerau yr efengyl am heddwch.

21. Rheswm am y blaenorol, *Cymmoder chwi â Duw.*—Y mae y ddyfais i ddwyn y cymmod oddi amgylch yn gyfryw ag y gellwch fyned yn hyderus at Dduw am gymmod o'i phlegid.

Nid adnabu:—trwy brofiad personol, trwy gyffyrddiad ac ymhalogiad â phechod. Gwel *Ioan* viii. 46; 1 *Pedr* ii. 22; *Heb.* vii. 26. *Yn bechod.*—Y mae y golygiadau ar yr ymadrodd hwn yn dra amrywiol. Y mae y nifer mwyaf o'r esbonwyr boreuaf yn deall y gair "yn bechod" yn gyfystyr â phech-aberth. Ond nid ydyw yr ystyr hwn yn cael ei roddi iddo un amser [*Alford*]; ac y mae yn naturiol tybied fod yr un ystyr iddo yma ag sydd yn yr adran flaenorol:—gwnaed yr hwn nad adnabu bechod yn bechod. Y mae y nifer mwyaf o'r esbonwyr diweddar yn deall y gair yn yr ystyr llythyrenol: felly Calvin. "Y mae pechod yma yn gyferbyniol i gyfiawnder. Y mae yr apostol yn ein dysgu ein bod yn cael ein gwneuthur yn gyfiawnder Duw ar y sail fod Crist wedi ei wneuthur yn bechod. Ond nid ydyw cyfiawnder yn dynodi cyfiawnder o ran ansawdd, ond cyfiawnder trwy gyfrifiad. Felly, wrth bechod y golygir euogrwydd pechod." Dywed Hodge: "Yr un ydyw ystyr y naill a'r llall; o blegid yr unig fodd yn mha un y gwnaed Crist yn bechod ydyw, ei fod wedi dwyn euogrwydd pechod; ac yn y modd yma yr oedd pob pech-aberth wedi ei wneuthur yn bechod." Y mae fod Crist wedi ei wneuthur yn bechod yn gysson â'i fod ef ei hunan yn rhydd oddi wrth bechod; fel y mae ein gwneuthur ni yn gyfiawn yn gysson â'n bod ynom ein hunain yn annuwiol. Cyfrifwyd ein beiau ni arno ef, a chyfrifir ei gyfiawnder ef i ni. Yn *Gal.* iii. 13, dywedir i Grist gael ei wneuthur "yn felldith drosom ni," yr hyn sydd yn gyfystyr a'i fod wedi ei wneyd "yn bechod drosom ni." Gwnaed Crist yn bechod yn yr un ystyr ag yr ydym ni yn cael ein gwneuthur "yn gyfiawnder." Pwy a feiddiasai lefaru fel hyn, oni buasai i Paul lefaru yn gyntaf? Cymmharer *Gal.* iii. 13. "O herwydd hyn y gadawyd Crist ar y groes."—*Bengel. Yn gyfiawnder Duw.*—Fel y gwnaed y Meichniydd yn bechod, felly y gwneir ninnau yn gyfiawnder. Yr ydym yn gyfiawn yn nghyfiawnder Duw; nid yn yr eiddom ein hunain. Y mae y cyfiawnder hwn yn twy urddasola gogoneddus na chyfiawnder perffaith a creadur. *Ynddo ef*:—yn ein hundeb â Christ, y mae ei gyfiawnder ef yn dyfod yn eiddo i ni.

PENNOD VI. 1—10. PARHAD O HUNANAMDDIFFYNIAD YR APOSTOL.

1. *Gan gydweithio*:—A phwy? A Christ, gyda chyfeiriad at *adn.* 20, yn y bennod o'r

[b] Esa. 49. 8; 61. 2.

2 (Canys y mae efe yn dywedyd, Mewn [b]amser cymmeradwy y'th wrandewais, ac yn nydd iachawdwriaeth y'th gynnorthwysai: wele, yn awr yr amser cymmeradwy; wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth)

3 Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth:

4 Eithr gan ein dangos ein hunain yn mhob peth [c]fel gweinidogion Duw, [d]mewn amynedd a [e]mawr, mewn [f]cystuddiau, mewn anghenion, mewn cyfyngderau,

[c] Esa. 61. 6; Ioel 1. 9. [d] Luc 21. 19. [e] Act. 20. 23, 24

5 Mewn gwïalennoddiau, mewn

---

blaen; sef, "cenhadau dros Grist."—*Meyer.* A chwi.—*Bengel, Olshausen.* Yr ydoedd yn cydweithio â'r Corinthiaid, gan eu cynnorthwyo â'i annogaethau. Dyma y syniad a drosglwyddir yn narlleniad y *Vulgate*:—*adjuvantes.* Ond y mae Alford yn gwrthwynebu y golygiad hwn ar y seiliau canlynol:—y buasai hyn yn cael ei fynegu yn amlwg yn y testyn; ac nad ydyw yn cydweddu â dull yr apostol o lefaru am y weinidogaeth. Yr ystyr a gymmeradwyir yn fwyaf ydyw, cydweithio â Duw. Yr oeddynt yn ei gynnrychioli, ac yn argymmhell ei ras. *Ras Duw yn ofer.*—Dywed Hodge, nad ydyw y gair *gras*, yn un o'r manau lle y dangosir y gellir syrthio oddi wrtho, neu ei dderbyn yn ofer, yn arwyddo maddeuant gweithredol o bechod, neu ddylanwad dwyfol ar y galon. Gan fod yr Arglwydd Iesu wedi marw dros ein pechodau, ac ennill i ni brynedigaeth dragwyddol, yr oedd yr apostol, yn y modd mwyaf difrifol, yn annog dynion i beidio gadael i'r ffafr fawr hon, gyda golwg arnynt hwy, i fod yn ofer. Mai hyn yw yr ystyr yma a awgrymir gan y ffaith mai nid annogaeth uniongyrchol i'r Corinthiaid yw hon; ond mynegiad o'r dull yn mha un y cyhoeddai yr apostol genadwri y cymmod. Cefnogir y golygiad hwn hefyd gan gyssyltiad yr adnod hon â'r un ganlynol. "Yn awr ydyw yr amser cymmeradwy," &c.—ystyriaeth dra phriodol fel cymmhelliad i dderbyn y cynnyg am gymmod â Duw; ond nid ydyw yn briodol fel rheswm pa ham y dylai y rhai sydd wedi derbyn y cymmod beidio syrthio o'r cyflwr hwnw.—*Hodge.* Amcan yr all adnod ydyw cefnogi yr annogaeth yn y gyntaf, trwy osod allan bwysigrwydd yr adeg bresennol fel y dydd i ymneddychu a Duw. *Mewn amser cymmeradwy.*—Hebraeg: yn amser gras. Llefara yr Hen Destament yn yr ymadroddion dyfynedig am "amser o ras," a "dydd o iachawdwriaeth"—amser y byddai gras Duw wedi ei ddadguddio i'r byd, ac iachawdwriaeth yn nghyrhaedd dynion. Mewn ffordd o chwanegiad, dywed yr apostol mai y cyfnod presennol ydyw yr amser nodedig hwnw. Mae y bennod y cymmerir yr ymadrodd o honi yn bennod Fessiaidd: *Esa.* xlix. Wrtho ef y dywedodd Duw, "Mewn amser cymmeradwy y'th wrandewais," &c. Ond pa fodd y cymmhwysir y geiriau hyn at ddynion? Am fod y person a gyferchir yn y brophwydoliaeth yn cynnwys ei bobl mewn undeb âg ef.—*Alexander on Isaiah.* Yr un hefyd ydyw golygiad Calvin a Bengel. Amser cymmeradwy y Messiah yw amser cymmeradwy pechaduriaid: y naill ydyw yr achos o'r llall.

3—10. Amcan yr apostol yn yr adnodau hyn yw dangos fel yr oedd efe, yn yr holl amgylchiadau blinion yr oedd ynddynt, yn attegu yr annogaeth i beidio derbyn gras Duw yn ofer, trwy ei addysg a'i fuchedd. *Dim achos tramgwydd.*—Yr oedd yn ymarweddu yn y fath fodd nad allai neb gael un esgus oddi wrtho i wrthod yr efengyl. *Ein dangos ein hunain.*—Ein harganmol ein hunain; nid trwy arfer hunan-glod, ond trwy weithredu yn y fath fodd ag i ddwyn pob cydwybod i roddi tystiolaeth i'w purdeb. *Mewn amynedd mawr.*—Y mae y gair gwreiddiol yn cynnwys y syniad dybiyg o ddioddefgarwch a dianwadalwch. Goddefai gystudd yn ddirwgnach, a glynai yn ffyddlawn wrth wasanaeth ei Arglwydd dan ei holl gystuddiau. Y mae Bengel yn rhanu y pethau a nodir yn yr adnodau hyn i dri dosbarth, a phob un yn cynnwys tri—*three triplets.* Y mae y dosbarth cyntaf yn gyffredinol:—*cystuddiau, anghenion, cyfyngderau.* Mae yr ail yn neilltuol:—*gwïalenoddiau, carcharau, terfysgau.* Y trydydd sydd wirfoddol:—*poenau, gwyliadwriaethau, ymprydiau.* Gyda golwg ar y tri cyntaf, sylwa Bengel—"Mewn cystuddiau y mae llawer o ffyrdd yn agored, ond y maent oll yn anhawdd; mewn anghenion y mae un ffordd yn agored, er yn anhawdd; mewn cyfyngderau, nid oes un ffordd yn agored." *Mewn gwïalenoddiau.*—Gwel *pen.* xi. 24, 25, lle y gwelir y buasai Paul cyn hyn wyth o weithiau dan wialenodiau; pum waith gan yr Iuddewon, a theirgwaith gan y Cenedloedd. *Mewn carcharau.*—Ni chrybwyllir yn yr Actau ond am un tro cyn hyn, sef ei garchariad yn Philippi; ond nid ydym i feddwl fod y llyfr hwnw yn rhoddi hanes cyflawn am dano. Yr oedd yr Ysbryd Glân wedi hysbysu fod "rhwymau a blinderau yn ei aros yn mhob lle." Felly yr oedd hyn yn beth cyffredin yn ei hanes. *Terfysgau.*—Gwel *Act.* xiii. 50, xiv. 5, 19; xvi. 22; xvii. 5; xviii. 12; ac yn enwedigol xix. 23—41. "Terfysgau o'i blaid neu yn ein herbyn."—*Bengel.* Yr olaf yn hytrach; o blegid anfynych yr ymgynnhyrfai y teimlad cyhoeddus o'i blaid. Fe welir wrth y cyfeiriadau uchod at ranau o'r Actau, y buasai yr apostol yn wrthddrych ac yn achlysur y terfysgau hyn yn Antiochia, Pisidia, Lystra, Philippi, Ephesus, ac yn Ierusalem, &c. "Yn mhresennoldeb y cyfryw amlygiadau o ddigofaint a nerth, y mae y dynion dewraf yn crynu ac yn llesmeirio. Nis gellir gwrthsefyll y cyfryw derfysgau trwy nerth, na'u tawelu trwy ddarbwylliad. Pa beth a ddichon un dyn ei wneuthur yn ngwyneb gwallgofrwydd fel hyn mewn lliaws o bobl? Yr un peth fyddai iddo geisio gwrthsefyll y corwynt. Etto, yr oedd yr apostol yn dawel ynddynt, ac yn glynu wrth ei amcan."—*Hodge. Poenau*:—llafur. *Gwyliadwriaethau*:—nosweithiau o anhunedd, o herwydd maint ei bryder ynghylch, a'i ofal am yr eglwysi. *Ymprydiau*:—i'w wahaniaethu oddi wrth newyn, neu angen bwyd o orfod. Arwydda y gair ymattaliad gwirfoddol oddi wrth ymborth, o herwydd maint ei ofalon. Dealler mai ymprydiau cyssyltiedig â llafur yr apostol, yn hytrach nag â'i ddefosiwn, oeddynt. *Mewn purdeb*, &c.—Megys yr oedd yr apostol yn ei arganmol ei hun fel gweinidog Duw yn y blinderau amrywiol hyn, felly hefyd, *trwy* y

carcharau, mewn terfysgau, mewn
poenau, mewn gwyliadwriaethau,
mewn ymprydiau,

6 Mewn purdeb, mewn gwy-
1 Thes. 1. 5, 6; 1 Pedr 1. 12. [b] bodaeth, [f] mewn hirymaros, mewn
tiriondeb yn yr Ysbryd Glân,
mewn cariad diragrith,

[c] Eph. 4. 21; Iago 1. 18. [d] Marc 16. 20; 1 Cor. 1. 24; Eph. 1. 19, 20; Heb. 2. 4. [e] Esa. 11. 5; 59. 17; 2 Tim. 4. 7. 7 Yn [g] ngair y gwirionedd, yn
[h] nerth Duw, trwy [i] arfau cyf-
iawnder ar ddehau ac ar aswy,

8 Trwy barch ac ammharch,
trwy anghlod a chlod: megys
twyllwyr, ac *er hyny* yn eirwir;

9 Megys anadnabyddus, ac *er*
hyny yn adnabyddus; megys yn
meirw, ac wele byw ydym; megys
wedi ein ceryddu, a heb ein lladd;

10 Megys wedi ein tristau, ond
yn wastad yn llawen; megys yn
dlodion, ond yn cyfoethogi lla-
wer; megys heb ddim genym, ond
etto yn meddiannu pob peth.

11 Ein genau ni a agorwyd
wrthych chwi, O Gorinthiaid!
[k] ein calon ni a eangwyd. [k] Salm 119. 32; Hab. 2. 5.

12 Ni chyfyngwyd arnoch yn-
om ni, eithr cyfyngwyd arnoch
yn eich ymysgaroedd eich hun-
ain.

13 Ond am yr un tâl (yr ydwyf

---

rhinweddau a'r grasau a enwir ganddo. *Mewn purdeb*:—symledd ei amcan a sancteiddrwydd ei ymarweddiad. Nid yw yn debyg fod yma arbenigrwydd yn cael ei roddi i'r rhinwedd o ddiweirdeb. *Mewn gwybodaeth*:—gwybodaeth arbenig o gynnwysiad yr efengyl. Yn *Gal.* i. 12, appelia at y wybodaeth anghyffredinol a feddai fel prawf sicr a diymwad o'i ddwyfol anfoniad; ac yn yr un cyssylltiad y dygir yr un peth i mewn yma. *Mewn tiriondeb yn yr Ysbryd Glân.*—Yn hytrach, "mewn tiriondeb, yn yr Ysbryd Glân." Yr Ysbryd Glân oedd y gallu trwy ba un yr oedd y rhinweddau a'r grasau ereill oll yn cael eu cynnyrchu. *Yn ngair y gwirionedd*:—trwy bregethiad y gair, yr hwn yw gwirionedd Duw. Nid yw y cyfeiriad yma at ffyddlondeb a gwirionedd yr apostol ei hun, ond at wirionedd ei athrawiaeth. *Yn nerth Duw*:—y nerth dwyfol a amlygid yn ei weinidogaeth yn yr oll o hono: yr un a *pen.* iv.

7. *Trwy arfau cyfiawnder.*—Newidir yr adroddair *yn i trwy*, i gydweddu yn well âg *arfau.* Pa ham y gelwir hwy yn arfau *cyfiawnder?* Yr arfau, neu yr arfogaeth a roddir gan burdeb, anniondeb, a chyfiawnder.—*Calvin.* Yn ol y rhan fwyaf o'r esbonwyr, y mae y cyfeiriad at cyfiawnder ffydd. Yr arfogaeth a ddarlunir yn ei holl ranau yn *Eph.* vi. 13—17 a olygir; ac yno cyssylltir "y ddwyfroneg â chyfiawnder," fel y gwneir yma â'r holl arfogaeth. Y mae yr hwn sydd wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd yn meddu ar bob gras sydd yn angenrheidiol er amddiffyniad iddo ei hun, ac er ymosodiad ar ei elynion. Y mae yr arfau hyn *ar ddehau ac aswy*:—y cyntaf yn golygu yr arfau ymosodol pan yr ydym mewn llwyddiant, yr olaf yr arfau diffynol pan yr ydym mewn adfyd.—*Bengel.* Y mae Alford yn gwrthod y manylrwydd hwn yn y geiriau. Arwyddant yn unig fod yr arfogaeth yn cylchynu ac yn amddiffyn yr holl berson.

8—10. *Trwy barch ac ammharch.*—Y golygiad cyffredin am nerth y gair *trwy* yw yn nghanol. Yr oedd yr apostol yn arganmol neu yn profi ei hun fel gweinidog Duw *drwy* y pethau a grybwyllwyd o'r blaen—ei rinweddau, ei ddoniau, a'i ddioddefiadau: ac felly yn nghanol yr holl amgylchiadau a nodir yn *adn.* 8—10. Cadwodd ei burdeb a'i ffyddlondeb dan y cwbl—yn nghanol parch ac ammharch, anghlod a chlod. Ond y mae ereill yn dal fod yr un ystyr yma i'r arddod-air "*trwy* barch ac ammharch." Yr oedd y ffaith fod yr apostol yn cael ei barchu gan y saint, a'i ammharchu gan gyfeiliornwyr ac anghredinwyr, yn gadarnhâd o'i apostolaeth.

Llefaru y mae yn y fan yma, nid am ei weithredoedd ei hun, ond am y modd yr edrychid arno gan ereill. "Gesyd yr apostol farnau ei wrthwynebwyr am dano, gan eu harwain â'r gair *megys*, mewn cyferbyniad i'w wir gymmeriad—cymmeriad oedd mor amlwg i olwg ffydd."—*Olshausen. Megys twyllwyr*:—rhai yn cilio eu hunain, ac yn arwain ereill ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd. Edrychir arnom fel twyllwyr pan yr ydym yn gyhoeddwyr a chefnogwyr y gwirionedd. Yr ydym y naill yn marn ein gwrthwynebwyr; y llall, mewn gwirionedd, ac yn marn y saint. *Anadnabyddus.*—Ni edrychid arno yn ei wir gymmeriad gan y lliaws. Cymmerid ef yn bob peth ond apostol Iesu Grist. Yr oedd yn dduw yn Lystra; mewn manau ereill yn heretic, neu yn goeg siaradwr, neu yn benboethyn, neu yn gynnhyrfiwr heddwch cymdeithas. Barna Olshausen y cyfeirir yma at haeriad ei elynion mai dysgawdwr anadnabyddus o'i awdurdod ydoedd, heb fodd i'w gystadlu â Phedr, Iago, ac Ioan. *Megys yn meirw.*—Yn golygu ffaith (*pen.* vi. 7), yn hytrach na barn ereill am dano. Felly hefyd yr ymadrodd canlynol, "Megys wedi ein ceryddu," &c. Cyfeirir yma at *Salm* cxviii. 18. *Megys wedi ein tristau*:—felly mewn gwirionedd. Un o'r croes-dybiau a gymmodir â'u gilydd yn mhrofiad y Cristion. Yr oedd yr apostol ar unwaith yn drist ac yn llawen. Nid oedd ei grefydd yn symmud ymaith ei flinderau, yn ei godi uwch law iddynt, nac yn ei wneuthur yn annheimladol o honynt, ond yn gweini llawenydd yn eu canol. *Yn dlodion.*—Nid yn unig yn nghyfrif ereill, ond felly mewn gwirionedd, ac etto yn cyfoethogi llawer â grasau a doniau ysbrydol.

11—18. ANNOGAETHAU I YMGADW YN NEILLDUEDIG ODDI WRTH EILUNADDOLWYR.

11. *A agorwyd*:—yn golygu y dull rhydd ac agored â pha un y llefara yr apostol yn yr ymadroddion blaenorol am y weinidogaeth. Ni chuddiai ddim oddi wrthynt. Yr oedd ei deimladau tufewnol yn cael eu gwneuthur yn hysbys iddynt. *A eangwyd.*—Wrth lefaru mor rydd ac agored wrthynt, yr oedd ei galon wedi ei eangu mewn serchogrwydd tuag atynt.

12. *Ni chyfyngwyd.*—Nid oes brinder o le yn ein calon i'ch cynnwys oll. *Yn eich ymysgaroedd*, &c.—'Y mae eich calon chwi yn rhy gyfyng i'm derbyn i mewn. Yn eich ochr chwi, nid yr eiddof fi, y mae yr amddifadrwydd o gariad.'

13. *Ond am yr un tâl.*—Yr un modd fel addaliad am eangder fy nghalon i tuag atoch chwi.

yn dywedyd megys wrth *fy* mhlant, [l]eanger chwithau hefyd.

14 Na [m]ieuer chwi yn anghymharus gyda'r rhai digred: [n]canys pa gyfeillach *sydd* rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder? a pha gymmundeb rhwng goleuni a thywyllwch?

15 A [o]pha gyssondeb *sydd* rhwng Crist a Belial? [p]neu pa ran *sydd* i gredadyn gydag anghredadyn?

16 A [q]pha gydfod *sydd* rhwng teml Duw ac eilunod? canys [r]teml y Duw byw ydych chwi; fel y dywedodd Duw, [s]Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn *eu mysg*, ac a [t]fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwy a fyddant yn bobl i mi.

17 [u]O herwydd pa ham deuwch allan *o'u* canol hwy, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd, ac na chyffyrddwch â dim aflan; [x]ac mi a'ch derbyniaf chwi,

18 Ac a fyddaf [y]yn Dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog.

[l] 2 Bren. 13. 13-19; Iago 1, 6, 7.
[m] Exod. 34. 16; Diar. 22. 24.
[n] 1 Cor. 7. 39. Salm 16. 3; Ioan 15. 18, 19; Act. 4. 28.
[o] 1 Cor. 10. 20, 21.
[p] Marc 16. 16.
[q] Ios. 24. 14-24; 1 Sam. 7. 3, 4.
[r] 1 Cor. 3. 16, 17.
[s] Ioan 6. 56; Dad. 21. 3.
[t] Gen. 17. 7, 8; Zech. 13. 9; Heb. 8. 10.
[u] Ezra 6. 21; Salm 1. 1-3.
[x] Ioan 6. 37.
[y] Ioan 1. 12; Eph. 1. 5; Dad. 21. 7.

PENNOD VII.

Y mae efe yn mhellach yn eu hannog hwy i burdeb buchedd; 2 ac i ddwyn y cyfryw awyllys da tuag ato ef, ag yr oedd yntau yn ei ddwyn tuag atynt hwy: 3 a rhag iddynt hwy feddwi ei fod ef yn ammheu hyny. 4 Mae efe yn dangos pa gysur a gymmerodd efe yn ei ffiniderau, pan fynegodd Titus y tristwch duwiol a weithasai ei epistol cyntaf ef ynddynt hwy. 13 A'u caredi rwydd hwynt, a'u hufudd-dod tuag at Titus, megys y bostiasai efe o'r blaen am danynt hwy.

B. A. 57

AM hyny, gan fod genym yr addewidion hyn, anwylyd, ymlanhawn oddi wrth bob [a]halogrwydd cnawd ac ysbryd, [b]gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw.

2 Derbyniwch ni. [c]Ni wnaethom gam i neb; ni lygrasom neb; ni nid yspeiliasom neb.

3 Nid i'*ch* condemnio yr wyf yn dywedyd: canys mi a ddywedais o'r blaen [d]eich bod chwi yn ein calonau ni, [e]i farw ac i fyw gyda *chwi*.

4 Maent weithiau yn rhoddi ystyr neu rediad cyffredinol yr Ysgrythyrau, yn hytrach nag ystyr rhan neu ranau neilldiol. 5 Nid ydynt yn dyfynu dim fel yn meddu ar awdurdod, ond allan o lyfrau canonaidd yr Hen Destament.

[a] 1 Cor. 6. 20; 1 Thes. 5. 23.
[b] Heb. 12. 23; 1 Pedr 5. 10.
[c] Act. 20. 33; 2 Thes. 3; 7-9.
[d] Phil. 1. 8, 9.
[e] Ruth 1. 16, 17; 1 Thes. 2. 8.

PENNOD VII.

1—16. EFFEITHIAU EI EPISTOL BLAENOROL.

1. Perthyna yr adnod hon i ddiwedd y bennod o'r blaen, fel y casgliad naturiol oddi wrthi. *Yr addewidion hyn:*—gwel 2 *Cor.* vi. 17, 18. *Ymlanhawn.*—Nid yn unig cadwn ein hunain yn lân trwy ochel ymlygriad, ond, fel rhai wedi ymlygru eisoes, ymlanhawn. Er mai Duw yw y sancteiddydd, etto nid yw hyny yn cau allan ymdrech ei bobl. Y prawf fod Duw yn ein glanhau ydyw ein bod ni yn ymlanhau. *Halogrwydd cnawd ac ysbryd.*—Yr halogrwydd ag y mae y corph yn achlysur ac offeryn ei weithrediad, a'r halogrwydd sydd yn cyfodi yn fwy uniongyrchol o'r ysbrydol, ac yn effeithio yn gwbl ar yr ysbryd. Y mae y naill yn darostwng dyn yn is na'r anifail, a'r llall yn ei wneuthur yn debyg i'r diafol. I'r naill ddosbarth y perthyn glythineb, meddwdod, a godineb; i'r llall twyll, celwydd, malais, a dygasedd. I'r cyntaf y mae sancteiddrwydd yn gyferbyniol, i'r olaf ofn Duw. *Perffeithio sancteiddrwydd:*—yr elfen gadarnhaol, tra y mae y rhan flaenorol o'r annogaeth yn cynnwys yr elfen nacaol.

2. *Derbyniwch ni:*—i serch eich calonau: yn gyfystyr â'r 2 *Cor.* vi. 13—"Eanger chwithau hefyd." *Ni lygrasom neb.*—Y mae y gair yn arwyddo un yn ei foesau, yn ei gorph, neu yn ei feddiannau. Yr olaf a feddylir yn benaf yma. Gallasai sel yr apostol dros wneuthur elusenau, a'i arosiad mewn teuluoedd, &c., ei wneuthur yn agored i'r cyfryw gyhuddiad.

3. Yr ydych yn gyfryw yn fy nghalon fel y mynwn fyw a marw gyda chwi.

Megys wrth fy mhlant:—gan y gellir disgwyl i blant ad-dalu cariad a gofal y rhieni â chariad a gofal cyfattebol.

14. Y mae yr annogaeth yma yn gyffredinol: gwaherddir pob gogwyddiad at baganiaeth. *Yn anghymmharus.*—Gyda chyfeiriad at waharddiad yn nghyfraith Moses i ieuo anifeiliaid o rywogaethau gwahanol â'u gilydd: *Deut.* xxii. 10. *Rhai digred:*—paganiaid. Y mae yr adnod hon, er nad yn gwahardd yn bendant i broffeswyr ymbriodi âg un dibroffes, etto yn cynnwys egwyddor groes i hyny. Ni ddylai y Cristion fyned i gyfathrach agos â pherson ag y mae nawsa ei ysbryd a'i holl dueddiadau yn wahanol a gwrthwyneb i'r eiddo ef. Y mae hyny mor anghymmharus ag ieuo ych ac asyn â'u gilydd, ac yn rhwym o fod yn achos o flinder i'r ddau.

15. *Belial:*—yn arwyddo drygioni, ac felly yn enw addas ar y diafol—yn un drwg.

16—18. Yn yr adnodau hyn gosodir ger bron y pethau canlynol:—yr anghydfod sydd rhwng teml Dduw ac eilunod yn cael ei gadarnhau:—y rheswm dros osod allan yr anghydfod hwn:—"Teml y Duw byw ydych chwi:" prawf o'r Ysgrythyr fod credinwyr yn deml Dduw:—y ddyledswydd a gyfyd oddi ar y berthynas agos yma â Duw; a'r addewid rasol a roddir i bawb a fyddant byw yn gydweddol â'r cyfryw berthynas.—*Hodge.* Y mae y dyfyniad wedi ei gymmeryd yn rhydd, o gof yr apostol, o *Esa.* lii. 11, ac *Ezec.* xx. 34, a manau ereill o'r Hen Destament. Y mae y dyfyniad hwn yn dangos i ni y dull y defnyddid yr Hen Destament gan ysgrifenwyr y Testament Newydd. Noda Hodge y pethau canlynol:—1. Y maent yn fynych yn gwneuthur defnydd o gyfeithiad nad ydyw yn llythyrenol o'r gwreiddiol. 2. Gwnant hyny yn fynych yn ol y synwyr; nid yn ol y llythyren. 3. Unant amryw o ymadroddion, fel ag i roddi synwyr mwy nag un adnod neu adran mewn un dyfyniad.

4 *Y mae* hyfder fy ymadrodd
[f] 1 Thes. 2. 19. yn fawr wrthych. [f] *Y mae genyf*
orfoledd mawr o'ch plegid chwi:
[g] Rhuf. 5. 3; 8; Phil. 2. 17. yr wyf yn llawn o ddiddanwch,
yn dra chyflawn o lawenydd yn
ein holl orthrymder.

5 Canys wedi ein dyfod ni i
Macedonia, ni chafodd ein cnawd
ni ddim llonydd; eithr yn mhob
[h] Deut. 32. 25; 1 Cor. 15. 31, 32. peth cystuddiedig *fuom:* [h] oddi
allan *yr oedd* ymladdau, oddi
[i] Gal. 4. 11, 19, 20; 1 Thes. 3. 5. fewn [i] ofnau.
[k] Esa. 12. 1; 61. 1, 2; Rhuf. 15. 5. 6 Eithr Duw, [k] yr hwn sydd yn
diddanu y rhai cystuddiedig, a'n ddiddanodd ni wrth ddyfodiad Titus.

7 Ac nid yn unig wrth ei ddyfodiad ef, ond hefyd, y diddanwyd
â'r hwn y diddanwyd ef ynoch
chwi, pan fynegodd efe i ni eich
[l] awyddfryd chwi, eich galar chwi,
eich sel tuag ataf fi; fel y llawenheais i yn fwy.
[l] Phil. 1. 20; Heb. 2. 1; Iago 5. 17; Iudas 3.

8 Canys er i mi eich tristau
chwi mewn llythyr, nid yw edifar
genyf, [m] er bod yn edifar genyf;
canys yr wyf yn gweled dristau
o'r llythyr hwnw chwi, er *nad oedd ond* dros amser.
[m] Exod. 5. 22, 23; Ier. 20. 7-9.

9 Yn awr [n] yr ydwyf yn llawen,
nid am eich tristau chwi, ond am
eich tristau i edifeirwch: canys
tristau a wnaethoch yn dduwiol,
fel na chaech golled mewn dim
oddi wrthym ni.
[n] Adn. 6, 7.

---

5. Ceir cyfeiriad at yr un teimlad yn 2 *Cor.* i 12. *Oddi allan..... oddi fewn.* Oddi allan ac oddi fewn i'r eglwys.—*Calvin. Ymladdau*, oddi wrth yr Iuddewon a'r paganiaid: *ofnau*, neu bryder ar ran yr eglwysi. Ond y mae yn fwy tebygol fod "oddi allan" yn golygu y blinderau oddi allan iddo ei hun, ymrysonfeydd â gwrthwynebwyr, pa un bynag ai yn ynte allan o'r eglwys; ac "oddi fewn," ei ofnau tumewnol o'i blegid ei hun, ac ereill, a'r Corinthiaid yn neilldiol. Yr oedd mewn pryder o barth y modd y cafodd ei lythyr blaenorol ei dderbyn ganddynt.

6. Ei fod heb gael Titus a barai ei anesmwythyd yn Troas: 2 *Cor.* ii. 12. Yr oedd Titus wedi ei anfon ganddo i Corinth i wybod ansawdd yr eglwys.

7. Nid y mwynhâd o ail gyfarfod â Thitus yn gymmaint a'r newyddion cysurus a ddygid iddo, oedd yn dyddanu yr apostol. Yr oedd y dyddanwch a gafodd Titus yn Corinth yn ddyddanwch i'r apostol. *Eich awyddfryd:*—i'm gweled i, neu i gyflawni fy nymuniad. *Eich galar:*—naill ai o herwydd eu pechodau, neu o herwydd trallodion mewnol yr apostol: fe allai y ddau, a'r olaf yn benaf. *Eich sel tuag ataf.*—Eu hoffder ato, a'u hymlyniad wrtho. Golygai yr apostol hyn yn beth mawr iawn, a gwerthfawr dros ben, mewn eglwys lle y cawsai gymmaint o wrthwynebiad ynddi, ac y gwnaed cymmaint yn mysg ei haelodau gan y gau-athrawon i ddyeithro eu meddyliau oddi wrtho. Etto, er y cwbl, yr oedd corph yr eglwys yn glynu wrtho; ac yr oedd ymlyniad wrtho ef yn brawf o ffyddlondeb i wirionedd yr efengyl.

8. Yn cynnwys y rheswm pa ham y llawenychai. *Nid yw edifar genyf, er bod ym edifar genyf.*—Yr oedd yn edifar ganddo ysgrifenu gyda'r fath lymder ag y gwnaethai, hyd oni ddeallodd pa effeithiau dalonus a gafodd ei lythyr ar feddyliau y Corinthiaid. Y mae Calvin, fodd bynag, yn rhoddi esboniad mwy cymmedrol, yn ol ei dyb ef, ar y geiriau. Dywed na ddylid deall y gair gwreiddiol mor gryf a'r gair "edifarhau," am yr arwyddai hyny fod ei lythyr blaenorol wedi cael ei ysgrifenu dan gymmhelliad teimladau dynol, ac nid dan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân. Barna mai yr hyn oll a olyga yr apostol yw, ei fod yn gofidio fod y llythyr hwnw wedi achosi poen i'r Corinthiaid, etto nad oedd yn edifarhau am ddarfod iddo ei ysgrifenu. Ond y mae yn amlwg mai edifarhau ydyw ystyr y gair: ac ni ddylid tyneru ystyr geiriau ysgrifenydd, ac yn enwedig ysgrifenydd ysbrydoledig, er mwyn iddo gydweddu yn well â rhyw olygiad o'r eiddom ni. "Dyma," ebe Hodge, "gyfaddasu ein cyfundraeth o ysbrydoliaeth at effeithiau yr ysgrythyr, ac nid ffeithiau yr ysgrythyr at ein cyfundraeth ni o ysbrydoliaeth. Gallasai yr apostol ammheu a oedd efe, mewn rhyw amgylchiad neilldiol, wedi gwneyd iawn ddefnydd o'i anffaeledigaeth, fel y gallasai ammheu a oedd wedi arfer ei ddawn wyrthiol yn ddoeth. Ni ddarfu iddo erioed ammheu o barth gwirionedd yr hyn a ysgrifenasai. Ond y mae peth arall i'w gymmeryd i ystyriaeth: nid oedd ysbrydoliaeth yn dadguddio ei hun yn yr ymwybyddiaeth. Y mae yn eithaf dealladwy y gallasai un fod yn ysbrydoledig heb wybod hyny. Diammheu fod Paul wedi ei gynnhyrfu gan yr Ysbryd i ysgrifenu y llythyr blaenorol, yn gystal a'i fod dan ddwyfol arweiniad wrth ei ysgrifenu; ond y cwbl yr oedd yn ymwybodol o hono oedd ei feddyliau a'i deimladau ei hun. Nid yw y credadyn yn ymwybodol o weithrediadau gras, ac nid oedd yr apostol yn ymwybodol o'i ysbrydoliaeth. Ond fel y gall y credadyn wybod ei fod yn ddeiliad dylanwad dwyfol, felly hefyd yr oedd yr apostolion yn gwybod eu bod yn ysbrydoledig. Ac fel y gall y credadyn ammheu doethineb rhai o'i weithredoedd mwyaf sanctaidd, felly y gallasai yr apostol ammheu doethineb rhai pethau a wnaed ganddo dan arweiniad yr Ysbryd. Gwir fod y cyfryw weithredoedd bob amser yn ddoeth, ond gall y gweithredydd fod weithiau yn analluog i ganfod eu doethineb." Y mae Alford hefyd yn cydnabod nad oes yma ddim anhawsder ar y dybiaeth fwyaf cyfyng am ysbrydoliaeth. *Canys yr wyf.*—Rheswm pa ham yr oedd yn edifar ganddo. *Er bod yn edifar:*—yn hytrach, Er y *bu* yn edifar genyf.

9. *Yn awr:*—gair â phwys ynddo, i wahaniaethu ei lawenydd yn awr oddi wrth ei edifeirwch o'r blaen. Yr oedd erbyn hyn yn deall nid yn unig am eu tristwch, ond am eu tristwch fel wedi gweithio edifeirwch. Yr oedd eu tristwch hwy yn peri edifeirwch iddo ef; eu tristwch hwy i edifeirwch yn troi ei edifeirwch ef i lawenydd. *Yn dduwiol:*—neu, gyda chyfeiriad at Dduw, yn ol Duw: yr oeddynt yn edifarhau yn unol âg ewyllys Duw. "Edifarhau yn ol Duw," a fyddai y darlleniad priodol. *Fel na chaech.*—Yr oedd Duw yn bwriadu na byddai i'r tristwch a barai llythyr yr apostol gael effaith

10 Canys duwiol dristwch sydd [o] yn gweithio [o]edifeirwch, er iach- [o] 2 Sam. 12. 13; Mat. 26. 75.
awdwriaeth ni bydd edifeirwch o [p] Gen. 4. 13, 15; Diar. 15. 13
honi: eithr [p]tristwch y byd sydd yn gweithio angeu.

11 Canys wele hyn yma, [q]eich tristau chwi yn dduwiol, pa as- [q] Jonah 4. 9. [r] Esa. 66. 2; 1 Cor. 5. 2.
tudrwydd ei faint a weithiodd ynoch, ïe, *pa* amddiffyn, ïe, *pa* soriant, ïe, *pa* ofn, ïe, *pa* awydd- [r] Salm 69. 9; 119. 139; Ioan 2. 17; Act. 17. 16.
fryd, ïe, *pa* [r]sêl, ïe, *pa* ddial! Yn mhob peth y [s]dangosasoch [s] Rhuf. 14 18; 2 Tim. 2. 15. [t] 1 Cor. 5. 1.
eich bod yn bur yn y peth hwn.

12 O herwydd pa ham, er ys- grifenu o honof atoch, [t]ni *ysgrif- enais* o'i blegid ef a wnaethai y cam, nac o blegid yr hwn a gawsai

[u] 1 Tim. 3. 5.

13 Am hyny [x]nyni a ddiddan- wyd yn eich diddanwch chwi: a mwy o lawer y buom lawen am lawenydd Titus; [y]o blegid es- mwythau ar ei ysbryd ef genych chwi oll.

[x] Rhuf. 12. 15; Phil. 2. 28; 1 Pedr 3. 8. [y] Rhuf. 15. 32; 2 Tim. 1. 16; Philem. 2

14 O blegid os bostiais ddim wrtho ef am danoch, ni'm cywil- yddiwyd: eithr megys [z]y dywed- asom wrthych bob dim mewn gwirionedd, felly hefyd gwirion- edd oedd ein bôst ni, yr hwn *a fu* wrth Titus.

[z] 2 Cor. 1. —20.

15 Ac y mae ei ymysgaroedd

niweidiol, ond yn hytrach yr effaith mwyaf dy- munol.

10. Rheswm am yr hyn a ddywedir yn flaen- orol:—Ni chawsoch golled—ni ddarfu i'r trist- wch eich niweidio, "canys duwiol dristwch," &c. *Ni bydd edifeirwch o honi.*—O'r iachawd- wriaeth. Dyma farn Meyer, De Wette, ac Al- ford, &c. Ond mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn cyssylltu y gair âg "edifeirwch:"—Y cyfryw yw eich edifeirwch yn ei effeithiau dymunol na bydd genych byth edifar o hono, er iddo ar y pryd beri poen i chwi. Addefa Alford fod y naill olygiad a'r llall yr un mor gywir mewn iaith; ac y mae y ddau olygiad yr un mor wir. *Tristwch y byd:*—tristwch yn ol y byd; tristwch nad oes dim gwell wrth ei wraidd nag ysbryd y byd, yr hwn a deimlir gan blant y byd hwn. *Yn gweithio angeu.*—Yn gyterbyniol i'r iachawdwr- iaeth a weithir gan dduwiol dristwch. Y mae tristwch o'r natur yma, heb ei sanctteiddio gan grefydd, yn dyeithro yr enaid oddi wrth Dduw: a pha beth ond angeu ysbrydol yw hyny?

11. Dangosir yma beth oedd effeithiau duw- iol dristwch arnynt. Dywed yr apostol yn yr adnod o'r blaen fod y tristwch hwn yn iachusol —i iachawdwriaeth; ac yma profa hyny oddi wrth eu hanes hwy. *Hyn yma:*—sef, tristau yn dduwiol. *Astudrwydd:*—Saesneg, *carefulness;* Alford, *earnestness;* yn llythyrenol, *brys,* mewn cyferbyniad i'w diofalwch blaenorol ynghylch y peth. Yr oeddynt wedi gadael i bechod an- fad yn un o aelodau yr eglwys ddiange yn ddi- sylw. Yr effaith gyntaf i'w duwiol dristwch oedd gofal a phryder ynghylch y bai a'r beius. *Ie:*—nid astudrwydd yn unig; y mae hyn yn rhy ychydig i'w ddywedyd am eich tristwch.—*Alford. Amddiffyn.*—Y gair Groeg ydyw yr un ag *apology* yn Saesneg. "Nid oeddynt yn cymmeradwyo y trosedd."—*Bengel.* Yr oedd eu tristwch yn eu harwain i glirio eu hunain oddi wrth y bai a gyflawnasant. Nid i fychanu eu heuogrwydd, ond i'w gyfaddef, ac i geisio maddeuant.—*Hodge.* Gwnaent yr amddiffyn hwn i Paul trwy Titus. *Soriant:*—digofaint. Yr oeddynt yn ddigllawn wrthynt eu hunain am eu hymddygiad blaenorol. Un o arwyddion goreu edifeirwch. Dywed Bengel fod y gair gwreiddiol am *soriant* yn un tra phriodol, gan ei fod yn dynodi poen, o ba un y mae yr achos yn y dyn ei hun. *Ofn.*—Nid yw yn sicr pa un ai ofn anfoddlonrwydd Duw, ynte ofn yr apos- tol. Y ddau, yn ol barn Hodge. "Rhag i mi

ddyfod atoch â gwialen."—*Bengel.* Felly hefyd Alford. *Awyddfryd:*—am fy ngweled i.—*Ben- gel.* Naill ai am wellhau y drwg, neu am gym- eradwyaeth a phresennoldeb yr apostol.—*Hodge. Sel:*—yn *adn.* 7, "sel tuag at fi." Ond mwy tebyg mai y troseddwr oedd gwrth- ddrych y teimlad hwn. Mae y gair dilynol yn cefnogi hyn. *Pa ddial!*—Yr oedd eu duwiol dristwch wedi deffro ynddynt y teimlad o gyf- iawnder—y teimlad y dylai pechod gael ei gosbi. Y mae Bengel, ac ereill, yn barnu am y chwe pheth a arweinir i mewn gan ïe, fod y ddau gyntaf yn cyfeirio at deimladau y Corinthiaid tuag atynt hwy eu hunain, y trydydd a'r pedwerydd at eu teimladau tuag at yr apostol, a'r ddau olaf at eu teimladau at y dyn godinebus. Yn ol Olshausen, perthyna "amddiffyn" i'w hymddygiad eu hunain, "soriant" tuag at y trosedd, yr "ofn" i anfoddlonrwydd Duw, yr "awyddfryd" a'r "sel" i'r apostol, a "dial" yn ganlyniad yr holl deimladau blaenorol sydd wedi eu henwi.

12. Amcan yr apostol wrth ysgrifenu atynt oedd gweithio ynddynt y tristwch hwn. Dyma yr amcan penaf; ac nid er dwyn cerydd ar y troseddwr, nac er sicrhau cyfiawnder i'r hwn a gawsai gam. *Yr hwn a gawsai gam* —Pwy yd- oedd? Paul ei hun, ebe rhai; ond y mae hyn yn groes i 2 *Cor.* ii. 5. Y Corinthiaid, o blegid yr oeddynt hwy wedi dioddef cam: 2 *Cor.* ii. 5. Ac arferir yr unigol am y lliosog.—*Bengel.* Mam yn nghyfraith y dyn godinebus, yr hon oedd yn ordderchwraig: dichon fod y tad wedi marw.—*Theodoret.* Y dyb fwyaf tebygol ydyw, mai y tad a olygir.

13. Dylid darllen yr adnod hon yn wahanol. "O herwydd hyn ni a ddyddanwyd; ac yn chwanegol at ein dyddanwch, mwy o lawer y buom lawen am lawenydd Titus." Nid cael ei ddyddanu yn eu dyddanwch a wnaeth Paul, ond yn eu tristwch. A chwanegwyd ei lawenydd am fod Titus wedi ei esmwythau.

14. Achos y llawenydd chwanegol y sonir am dano yn yr adnod o'r blaen oedd, fod ei ymffrost wrth Titus o'r Corinthiaid wedi cael ei wirio. Yr oedd wedi eu canmawl wrth Titus—wedi bostio wrtho y caffai hwynt yn ufudd. Pe buasai ei feddwl uchel am danynt yn troi yn somedig, buasai yn cywilyddio; ond gan na feddyliodd ac na ddywedodd yn rhy dda am danynt, yr hyn a brofwyd yn y canlyniad, yr oedd yn naturiol iddo lawenhau.

ef yn helaethach tuag atoch, wrth
[a] Phil. 2. 12. goño o hono [a] eich ufudd-dod chwi
[b] Salm 2. 11; 119. 120; Esa. 66. 2; Hos. 13. 1. oll, pa fodd [b] trwy ofn a dychryn
[c] 2 Thes. 3. 4. y derbyniasoch ef.

16 Am hyny [c] llawen wyf, am fod i mi hyder arnoch yn mhob dim.

PENNOD VIII.

Y mae efe yn ea hannog hwynt i gyfranu yn helaeth i'r saint ilodion yn Ierusalem, trwy esampl y Macedoniaid; 7 trwy ganmawl eu parodrwydd hwy o'r blaen, 9 trwy esampl Crist, 14 a thrwy y lleshâd yr rydol a ddaw iddynt hwy o hyny: 16 gan ddangos iddynt burdeb ac ewyllys gurwch Titus, ac ereill o'r brodyr, y rhai, ar ei ddeis-iad, a'i annog, a'i orchymyn ef, a ddaethant atynt hwy yn bwrpasol ynghylch y peth hwn.

B. A. 60.

[a] 2 Cor. 5. 19. [b] Act. 11. 23; 1 Cor. 15. 10. [c] Act. 16. 9; 1 Thes. 1. 7, 8. [d] 1 Thes. 1. 6; 3. 3, 4. [e] Neh. 8. 10-12; Act. 2. 45, 46. [f] Luc. 21. 1-4. [g] Deut. 15. 4; Diar. 11. 25; Esa. 32. 5-8. [h] Act. 11. 29.

YR [a] ydym ni hefyd yn hysbysu i chwi, frodyr, [b] y gras Duw a roddwyd yn [c] eglwysi Macedonia;

2 Ddarfod, [d] mewn mawr brofiad cystudd, [e] i helaethrwydd eu llawenydd hwy, [f] a'u dwfn dlodi, ymhelaethu i [g] gyfoeth eu haelioni hwy.

3 O blegid [h] yn ol *eu* gallu (yr wyf fi yn dyst) ac uwch law eu gallu, *yr oeddynt* yn ewyllysgar o honynt eu hunain;

4 Gan ddeisyfu arnom trwy lawer o ymbil, ar dderbyn o honom ni y rhodd, a chymdeithas [i] gweinidogaeth y saint.

[i] Mat. 20. 28; Ioan 19. 26, 27.

5 A *hyn a wnaethant*, nid fel yr oeddym ni yn gobeithio, [k] ond hwy a'u rhoddasant eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac i ninnau trwy ewyllys Duw:

[k] 1 Sam. 1. 28; Esa. 44. 3-5; Zech. 13. 9.

6 Fel y dymunasom ni ar Titus, megys y dechreuasai efe o'r blaen, felly hefyd orphen o hono yn eich plith chwi y gras hwn hefyd.

7 Eithr fel yr ydych yn mhob peth yn helaeth, [l] mewn ffydd, a gair, [m] a gwybodaeth, a phob astudrwydd, [n] ac yn eich cariad tuag atom ni; [o] *edrychwch* ar fod o honoch yn y [p] gras hwn hefyd yn ehelaeth.

[l] 1 Cor. 13. 2. [m] 1 Cor. 8. 1, 2; 13. 8. [n] 2 Cor. 7. 7. [o] Phil. 1. 9, 11. [p] Eph. 4. 29.

8 Nid trwy orchymyn yr ydwyf yn dywedyd, ond o blegid diwydrwydd rhai ereill, a chan brofi gwirioneedd eich cariad chwi.

9 Canys chwi a adwaenoch [q] ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, [r] ac yntau yn gyfoethog, gallu, *yr oeddynt* yn ewyllysgar o honynt eu hunain;

[q] Ioan 1. 14, 17. [r] Salm 102. 25—27.

PENNOD VIII. 1—IX. 15.

YR AIL RAN O'R EPISTOL, YNGHYLCH Y CASGLIAD I'R SAINT.

1. *Y gras Duw.*—Yr oedd haelioni yr eglwysi hyn yn effaith gras Duw Nid oes un arwydd sicrach o weithrediad dwyfol ar y galon na'r hyn sydd yn gwrthweithio ei hunan-gais. Y mae amryw o grybwyllion am haelioni eglwysi Macedonia yn epistolau Paul: *Philip.* ii. 25; iv. 15, 18.

2. *Mewn mawr brofiad cystudd.*—Y prawf a roddai eu blinderau ar eu purdeb, a'u hymlyniad wrth achos Crist. Cyfeiria yr apostol at eu cystudd yn 1 *Thes.* i. 6; ii. 14. Gwel hefyd *Act.* xvi. 20; xvii. 5. *I helaethrwydd eu llawenydd hwy, a'u dwfn dlodi.*—"Tlodi i lawr hyd y dyfnderoedd. Y mae yr un ferf, 'ymhelaethu,' yn perthyn i'r ddau enw blaenorol, 'llawenydd' a 'thlodi,' ond mewn ystyron gwahanol. Ymhelaethodd eu llawenydd i gyfoeth eu haelioni, am iddo ei gynnyrchu. Yr oedd yr effaith yn profi fod y llawenydd yn helaeth. Ymhelaethodd eu tlodi i'w haelioni, am ei fod i'w weled yn fawr mewn cyssyltiad âg ef. Gwnaeth eu haelioni i'w tlodi ymddangos yn fwy, trwy wrthgyferbyniad."—*Hodge. Haelioni*:—symledd, y gwrthwyneb i ddyblygrwydd. "Y mae symledd yn gwneyd dynion yn haelionus."—*Bengel.* Y mae Dr. Arnold, yn ei "*Roman Commonwealth*," yn rhoddi disgrifiad o gyflwr isel a thlawd gwlad Groeg dan deyrnasiad Augustus.

3, 4, 5. Y prawf o'u haelioni. *A chymdeithas gweinidogaeth y saint.*—Deisyfent gael cyfrangi o'r gras a'r weinidogaeth hon. Y mae y gair a gyfieithir *gwernidogaeth* (diaconiaid) yn fynych yn arwyddo cymmhorth: *Act.* vi. 1; xi. 29. Oddi ar hyn y daeth y gair *diaconiaid*—rhai yn gwsini cymmhorth i'r tlodion. *Yn gyntaf i'r Arglwydd.*—Nid cyntaf o ran amser, ond o ran pwysigrwydd. I Grist yr oedd y rhodd yn uniongyrchol—ac yn israddol i'r apostol.

6. *Y dechreuasai efe o'r blaen.*—Awgrymir yn *adn.* 10 ddarfod i'r Corinthiaid ddechreu ar y casgliad o flaen eglwysi Macedonia. *Orphen o hono*:—perffeithio y gras hwn ynddynt, megys yr oedd ereill ganddynt yn helaeth, fel y dangosir yn *adn.* 7.

7. O'r adnod hon hyd *adn.* 16, mae yr apostol yn argymmhell haelioni ar y Corinthiaid, gan ddwyn yn mlaen y rhesymau canlynol:—1. Yr oedd yn angenrheidiol i gyfanrwydd y cymmeriad Cristionogol. 2. Yn brawf o'u purdeb. 3. Am i Grist ddyfod er eu mwyn yn dlawd. 4. Y byddai er mantais iddynt. 5. Am fod yr hyn a ofynid oddi wrthynt yn gwbl resymol.—*Hodge. Astudrwydd*:—difrifwch, gweithgarwch: yn ol y Saesneg, diwydrwydd. Ymadferth a bywiogrwydd y bywyd crefyddol, o ba un y mae cariad yn amlygiad.

8. *O blegid diwydrwydd rhai ereill.*—Y mae hyn yn fwy nerthol nag unrhyw orchymyn.—*Bengel.* Nid ufudd-dod i orchymyn a ddyiai gweithred o haelioni fod, ond peth yn codi yn naturiol yn y meddwl.

9, 10. Cyssyltiad yr adnod hon â'r un flaenorol ydyw.—Yr wyf yn dymuno dwyn eich cariad at yr unig brawf o hono—hunan-aberthiad; canys chwi a wyddoch mai fel hyn yr amlygwyd gras ein Hargiwydd Iesu Grist. Yma y mae hunanymwadiad Crist yn cael ei ddwyn yn mlaen ar unwaith yn gymmhelliad i, ac yn esiampl o, haelioni. *Yn dlawd.*—Trwy ddibrisio, gwaghau ei hun o'r gogoniant oedd ganddo er tragwyddoldeb. Nid cyfoeth o ran meddiannau a olygir yn y cyfoeth, ond y cyfoeth oedd yuddo; ac nid tlodi o ran amgylchiadau ydyw y tlodi, ond yr

Esa. 62. 1. [s] fyned er eich mwyn chwi yn Luc 16. 11 dlawd, [t] fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef.

10 Ac yr ydwyf yn rhoddi cynghor yn hyn: canys hyn sydd dda i chwi, y rhai a rag-ddechreuasoch, nid yn unig wneuthur, ond hefyd ewyllysio er y llynedd.

11 Ac yn awr gorphenwch wneuthur hefyd; fel megys ag *yr oedd* y parodrwydd i ewyllysio, felly *y byddo* i gwblhau hefyd o'r hyn sydd genych.

12 Canys os bydd parodrwydd meddwl o'r blaen, yn ol yr hyn sydd gan un, *y mae* yn gymmeradwy, nid yn ol yr hyn nid oes ganddo.

13 Ac nid fel y byddai esmwythdra i ereill, a chystudd i chwithau;

14 Eithr o gymmhwysdra: y pryd hwn *bydded* eich helaethrwydd chwi *yn diwallu* eu diffyg hwy, fel y byddo eu helaethrwydd hwythau *yn diwallu* eich diffyg chwithau; fel y byddo cymmhwysdra:

15 Megys y mae yn ysgrifenedig, Yr hwn *a gasglodd* lawer nid oedd ganddo weddill; ac a *gasglodd* ychydig, nid oedd arno eisieu.

16 Eithr [u] i Dduw *y byddo* y diolch, yr hwn a roddodd yr un diwydrwydd trosoch yn nghalon Titus. [u] Col. 3. 17 Dad. 17 17.

17 O blegid yn wir efe a [x] dderbyniodd y dymuniad; [y] a chan fod yn fwy diwyd, a aeth atoch o'i wirfodd ei hun. [x] Heb. 13. 22. [y] Adn. 8, 10

18 Ni a anfonasom hefyd gydag ef y brawd, yr hwn *y mae* ei glod yn yr efengyl [z] trwy yr holl eglwysi: [z] Rhuf. 16. 4

19 (Ac nid *hyny* yn unig, eithr hefyd a ddewiswyd gan yr eglwysi i gyd-ymdaith â ni â'r gras hwn, yr hwn a wasanaethir genym [a] er gogoniant i'r Arglwydd ei hun, ac *i amlygu* parodrwydd eich meddwl chwi) [a] Phil. 4. 13, 19. 1 Pedr 4. 10, 11.

20 Gan ochelyd hyn, rhag i neb feio arnom yn yr helaethrwydd yma, yr hwn a wasanaethir genym:

21 Y rhai ydym yn rhag-ddarpar pethau onest, [b] nid yn unig yn ngolwg yr Arglwydd, ond hefyd yn ngolwg dynion. [b] Mat. 5. 16; 6. 1, 4; 23. 5; 1 Thes. 5. 22.

22 Ac ni a anfonasom gyda hwynt ein brawd, yr hwn a brof-

---

nwaghâd, neu yr ymddarostyngiad personol yr oedd ei fywyd tlawd yn y byd yn arwydd bono ac yn gaulyniad iddo. Gwel *Phil.* ii. 6, 7. *Trwy ei dlodi ef.*—Ei ddarostyngiad, ei udd-dod, a'i farwolaeth ef a haeddodd ein chawdwriaeth ni. *Hyn sydd dda i chwi.*—noddi cynghor, yn hytrach na gorchymyn, dd fwy priodol i chwi, gan eich bod eisoes edi dangos eich hunain mor ewyllysgar.—*Ellroth, Meyer,* ac *Alford.* Rhoddi i'r tlawd dd dda i chwi. Y mae yn weithred gysson ch crefydd, ac o duedd i'ch dwyn ar gynnydd ewn crefydd.—*Hodge.* Wedi iddynt ddechreu y gwaith, gwnaent gam â hwy eu hunain ei cael yn anorphen. *A rag-ddechreuasoch.*—Y acedoniaid. Yr oeddynt wedi cael y blaen nynt yn y bwriad ac yn y gwaith.

12. Eglurhâd ar yr ymadrodd, "o'r hyn sydd nych" yn *adn.* 11. Meddwl yr adnod ydyw, d Duw yn cymmeradwyo y parodrwydd, os ddi yn gyfattebol i'r moddion. Dichon rhodd chan fod yn brawf o fwy o barodrwydd, mewn enghraifft, na rhodd fawr mewn enghraifft all. Gwel *Marc* xii. 42.

13. Ni fynai yr apostol iddynt fyned tu hwnt gallu, am nad da fuasai eu beichio hwynt, esmwythau ereill. Yr "ereill" hyn oedd y int tlodion yn Ierusalem.

14. *Eithr o gymmhwysdra.*—"*But by the rule equality.*"—*Alford.* Nid oes yma un cyfeiriad at y dybiaeth y dylai y cyfoethogion ranu holl eiddo rhwng y tlodion, fel ag i osod wb yn yr un sefyllfa o gydraddoldeb. Y cymhwysdra, neu y cydraddoldeb, a olygir yw, fod wb yr un mor rydd oddi wrth angen.

15. Y mae y cyfarwyddyd a roddes yr apostol yn yr adnod o'r blaen yr un ag a geir yn hanes casglu y manna yn *Exod.* xvi. 18.

16. Yr oedd Titus yr un mor awyddus a'r apostol ei hun am i'r Corinthiaid brofi eu diffuantrwydd crefyddol yn y gras hwn.

17. Y prawf o ddiwydrwydd neu sel Titus. Nid oedd raid ei annog i fyned. Yr oedd yn barod o hono ei hunan, er ei fod yn ymostwng i fy nghyfarwyddyd i.

18. Pwy oedd y brawd hwn, nid ellir gwybod. Y mae y cwestiwn hwn wedi cael llawer mwy o sylw nag a haeddai. Y mae Barnabas, Silas, Luc, Marc, Trophimus, wedi cael eu henwi gan esbonwyr.

19. Yr oedd y brawd hwn yn haeddu pob ymddiried; o blegid, yn chwanegol at ei gymmeriad cyffredinol yn yr holl eglwysi, yr oedd wedi cael ei ddewis i gyd-deithio â Phaul gyda'r gwaith hwn. *Parodrwydd eich meddwl chwi.*—Yn ol darlleniadau ereill, y rhai a ddilynir gan liaws, "Ein parodrwydd." Nodwyd y brawd hwn i gydymdaith â'r apostol, ac i gydweithio gyda'r casgliad; yr hyn a wnaed i osgoi drwgdybiau a fuasent yn niweidiol i ogoniant Duw, ac i sel yr apostol.

21. Y rheswm am y gofal a'r gwyliadwriaeth a nodir uchod. Nid digon ydyw bod yn gywir: y mae o bwys ymddangos yn gywir. "Balchder ynfyd a arwain i ddiystyrwch o farn a theimlad y cyhoedd." Dylem ymddwyn yn y fath fodd fel ag i osod dynion dan orfod i gydnabod ein purdeb.

22. Ni wyddys chwaith pwy ydyw y brawd hwn.

asom mewn llawer o bethau lawer gwaith, ei fod ef yn ddyfal, ac yn awr yn ddyfalach o lawer, am y mawr ymddiried *y sydd genyf* ynoch.

[c] Luc 5.7, 10; Philem 17. 23 *Os gofynir* am Titus, [c]fy nghydymaith *yw*, a chyd-weithydd tuag atoch chwi; neu *am* ein [d] Phil. 2. 25. brodyr, [d]cenhadau yr eglwysi *ydyni*, *a* gogoniant Crist.

[e] 2 Cor. 7. 14; 9. 2—4. 24 Am hyny [e]dangoswch iddynt hwy hysbysrwydd o'ch cariad, ac o'n bôst ninnau am danoch chwi, yn ngolwg yr eglwysi.

PENNOD IX.

1 *Y mae efe yn dangos yr achos pa ham y danfonasai efe Titus a'i frodyr o'r blaen, er ei fod yn gwybod eu parodrwydd hwy:* 6 *ac y mae efe yn eucynhyrfu hwy i roddi elusen yn helaeth; gan fod hyn megys math o hauad had,* 10 *yr hwn a ddwg iddynt gynnwrch,* 13 *ac a bair aberth mawr o foliant i Ddduw.*

B. A. 57.

CANYS tuag at am y weinidogaeth i'r saint, afraid yw i mi ysgrifenu atoch.

[f] 1 Thes. 1. 7, 8. 2 O herwydd mi a adwaen [f]barodrwydd eich meddwl chwi, yr hwn yr ydwyf yn ei fostio wrth y Macedoniaid am danoch chwi, fod Achaia wedi ymbarotoi er y llynedd; a'r sêl *a ddaeth* oddi wrthych chwi a [b] annogodd lawer iawn. [b] Heb. 10. 24.

3 A mi a ddanfonais y brodyr, fel na byddo ein bôst ni am danoch chwi yn ofer yn y rhan hon; fel, megys y dywedais, y byddoch wedi ymbarotoi:

[g] 2 Cor. 8. 1-5. 4 Rhag, [c]os y Macedoniaid a ddeuant gyda mi, a'ch cael chwi yn ammharod, bod i ni (ni ddywedaf, chwi) [d]gael cywilydd yn y fôst hyderus yma. [d] 2 Cor. 11. 17.

5 Mi a dybiais gan hyny yn angenrheidiol attolygu i'r brodyr, a'r iddynt ddyfod o'r blaen atoch, a rhag-ddarparu eich bendith chwi yr hon a fynegwyd; fel y byddo parod megys bendith, ac nid megys *o* gybydd-dra.

6 A hyn *yr wyf yn ei ddywedyd,* [e]Yr hwn sydd yn hau yn brin, a fed hefyd yn brin; a'r hwn sydd yn hau yn helaeth, a fed hefyd yn helaeth. [e] Diar. 19. 17; Luc 19. 16—26

7 Pob un megys y mae yn rhag-

PENNOD IX.

1. Nid oes yma fater newydd; ond parhâd o'r hyn sydd yn y bennod o'r blaen. Y mae y cyssylltiad fel hyn:—'Yr wyf yn deisyf arnoch ddarbyn y brodyr a anfonwyf yn groesawgar; canys ynghylch y weinidogaeth i'r saint, afraid yw i mi ysgrifenu atoch."

2. Y rheswm pa ham yr oedd yn afraid iddo, &c. Yr oedd yr apostol, gan farnu oddi wrth eu parodrwydd, wedi gwneuthur y fôst yma yn eu cylch.

3. *A mi.*—Yn fwy cywir, "Eithr mi"—mewn cyferbyniad i'r hyder a ddadgana am eu parodrwydd yn yr adnod gyntaf; ac yn rhoddi ar ddeall ei fod yn ofni ddarfod iddo fostio yn ofer ynddynt. Y mae y geiriau hyn yn uno beiad â chanmoliaeth.

4. Gellir casglu oddi wrth yr adnod hon nad oedd y ddau frawd y sonir am danynt yn y bennod o'r blaen o Macedonia, gan ei fod yn bresennol yn Macedonia, yr oedd yn unol âg arferiad i rai oddi yno ei hebrwng i Corinth. *Bod i ni*:—y rhai a fostiasom. *Ni ddywedaf, chwi*:—y rhai y bostiasom o'u plegid. Buasai y methiant hwn yn fwy o gywilydd i'r Corinthiaid nag iddo ef—yr hyn a awgrymir ganddo; etto, mewn dull llednais, gesyd ei hun yn eu lle, fel yr hwn y disgynai y cywilydd arno.

5. *Gan hyny.*—I'r dyben o osgoi yr anghysur o fod ei fôst yn cael ei wneyd yn ofer. *Y brodyr*:—Titus, a'i ddau gydymaith. *Eich bendith.*—Mae y gwreiddiol yn arwyddo bendithio ar air a bendithio ar weithred—*benefaction* yn ystal a *benediction*. Yr un ystyr ag sydd yma sydd iddo yn *Eph.* i. 3. *Yr hon a fynegwyd.*—Y mae y darlleniad Saesneg yn anghywir; sef, *"Whereof ye had notice before;"* a'r darlleniad Cymraeg yn aneglur. Y meddwl ydyw—y fendith yr hysbysasyd am dani er's talm i'r Macedoniaid. Gwel *adn.* 2. *Megys bendith, ac nid megys o gybydd-dra.*—Fel ffrwyth bendith, yn tarddu o ac yn profi meddwl haelfrydig; ac nid yn gyfryw ag i fradychu cybydd-dra yr hwn sydd yn rhoddi.

6, 7. Cadarnheir geiriau olaf *adn.* 5, âg ymadroddion wedi eu dyfynu o ysgrythyrau yr Hen Destament. *Yn helaeth*:—yn ol y gwreiddiol, "gyda bendithion." Y mae A'ford yn cymmeradwyo y darlleniad llythyrenol, gan farnu fod y cyfeiriad, nid at helaethrwydd y rhodd, ond at naws calon y rhoddwr. Nid yw yn rhoddi yn anewyllysgar a grwgnachlyd, ond gyda bendithion; y mae ei holl galon yn myned gyda'i rodd: a bydd i'r cyfryw un fedi hefyd gyda bendithion mawrion a helaeth. Yr un pryd, y mae y darlleniad Cymraeg yn cyttuno â'r gair cyferbyniol, *yn brin*, ac y mae deall y gwreiddiol yn yr ystyr yma yn unol âg arferiad yr iaith Roeg. Ceir yr un drychfeddwl mewn geiriau ereill, megys yn *Diar.* xi. 24; *Gal.* vi. 7; *Mat.* x. 41; *Luc* vi. 38. Os y golygiad cyntaf a enwasom ydyw yr ystyr cywir, nid ydyw *adn.* 7 ond parhâd o *adn.* 6: os nad ê, y mae yn dwyn i mewn beth newydd. *Megys y mae yn rhagarfaethu yn ei galon.*—Bydded i lawn cydsyniad ei galon fyned gyda'i rodd: esbonir hyn gan y gair canlynol. *Nid yn athrist*:—yn llythyrenol, "Nid o dristwch"—o feddwl cythryblus, anfoddog, am fod y rhodd megys wedi ei dirwasgu allan o'r rhoddwr. Lliaws ydyw y rhoddion hyn—amgylchiadau yn gosod y dyn dan orfod i roddi. Y mae ereill yn yr un sefyllfa wedi rhoddi rhyw swm neilduol; a chymmhellir ef gan ei gyfeillion i roddi. Pe peidiai a rhoddi, gwyddai y cyfrifid ef yn grintachlyd. Onid amgylchiadau o'r fath ydyw yr achos o'r rhan fwyaf o'r hyn a gyfrifir yn wir haelioni. Nid am fod y rhoddwr yn dewis rhoddi y mae yn fynych yn gwneuthur. Ond

Exod. 25.2: Diar. 22. 9. [c] Salm84.11; Diar. 3. 9, 10; Hag. 2. 8; Phil. 4. 18, 19. [d] 1Pedr4.10. [e] 1 Cron. 29. 12—14. [f] Act. 9. 36; Eph. 2. 10; Col. 1. 10; 2Thes. 2.17. [g] Salm112 3; Diar. 8. 18; Esa. 51. 8; 1Cor.13.13; Gal. 5. 5,6. [h] Gen. 1.11, 24; Esa. 55.10.

arfaethu yn ei galon, *felly rhodded;* nid yn athrist, neu trwy gymhell: canys [f]rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.

8 Ac [g]*y mae* Duw yn abl i beri i [h]bob gras fod yn helaeth tuag atoch chwi; fel y byddoch chwi yn mhob peth, [i]bob amser, [k]a chenych bob digonoldeb yn helaeth i bob gweithred dda:

9 (Megys yr ysgrifenwyd, Efe a wasgarodd; rhoddodd i'r tlodion: [l]ei gyfiawnder ef sydd yn aros yn dragywydd.

10 [m]A'r hwn sydd yn rhoddi had i'r hauwr, rhodded hefyd

[c] Diar. 11. 18; Preg. 11. 6; Phil. 4. 17. [d] Eph. 5. 9; Phil. 1. 11. [e] 2 Cor.1.14; [f] Rhuf. 10. 26.

fara yn ymborth, ac [n]amlhaed eich had, [o]a chwaneged ffrwyth eich cyfiawnder)

11 Wedi eich cyfoethogi yn mhob peth i bob haelioni, [p]yr hwn sydd yn gweithio trwom ni ddiolch i Dduw.

12 Canys y mae gweinidogaeth y swydd hon, nid yn unig yn cyflawni diffygion y saint, ond hefyd yn ymhelaethu trwy aml roddi diolch i Dduw;

13 (Gan eu bod, trwy brofiad y weinidogaeth hon, yn gogoneddu Duw o herwydd [q]darostyngiad eich cyffes chwi i efengyl Crist,

dylid cofio fod ammharodrwydd calon yn dinystrio crefyddoldeb a gwir haelioni y rhodd. *Trwy gymmhell*:—yn cael ei orfodi gan amgylchiadau. Dichon mai y darlleniad Saesneg ydyw y goreu, "*Of necessity*"—o angenrhaid, nid o rydd ddewisiad. *Rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.*—Yr hwn y mae rhoddi yn hyfrydwch iddo, ac felly sydd yn gwneuthur hyny gyda sirioldeb. Y mae Duw yn caru y cyfryw roddwr; o blegid y mae yn debyg iddo ef ei hun, yr hwn sydd yn rhoddi yn helaeth, yn llawen, ac nid o angenrhaid. Hynodir Duw fel rhoddwr gan yr holl bethau a ddysgir yma sydd yn rhoddi gwerth ar rodd.

8. Dangosir yma, ac yn yr adnodau canlynol, y gofala Duw am i'r rhoddwr llawen a rhyddgalon gael rhywbeth yn wastad i'w roddi. *Duw yn abl.*—Appelia yr ysgrifenwyr sanctaidd yn fynych at allu Duw fel sail hyder i'w bobl: *Rhuf.* xvi. 25: *Eph.* iii. 20; *Iudas* 24. A gwnant hyn yn neilldiol pan elwir arnom i gredu rhywbeth fyddo yn groes i gwrs naturiol pethau. Felly yma. Rhoddi, i 'olwg natur, ydyw y ffordd i leihau yr hyn sydd genym—nid i'w gynnyddu. Ond dywed y Beibl mai dyma y ffordd i chwanegu ein meddiannau. Ac i gredu hyn, nid oes eisieu ond i ni gredu yn ngallu, rhagluniaeth, ac addewid Duw. *I bob gras*:—tymmorol ac ysbrydol. Y cyfeiriad yma sydd at y cyntaf; yr hyn sydd yn cydweddu yn well â'r cyssylltiad. *Bob digonoldeb.*—Y mae Grotius a Meyer yn rhoddi yr ystyr "boddlonrwydd" i'r gair yma. Nid digonoldeb oddi allan, ond boddlonrwydd oddi mewn. Ond mwy tebygol yw mai y darlleniad cyffredin ydyw yr un cywir.

9. Dyfyniad o *Salm* cxii.; yn yr hon hefyd y dywedir am y cyfiawn, "Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef." Amcan y dyfyniad ydyw dangos y bydd gan yr haelionus rywbeth i'w gyfranu yn wastadol; y cedwir ef gan ragluniaeth Duw rhag syrthio i brinder. Ond gellid gofyn, A yw ein gylwadaeth a'n profiad yn cadarnhau hyn? A ydyw haelioni yn cael ei ddilyn yn wastad gan lawnder? I hyn atteba Hodge, nad yw y cyfryw eiriau i'w cymeryd yn llythyrenol, nac i'w cymmhwyso y gyffredinol. Y maent yn dangos tri pheth:—1. Tuedd pethau: a thuedd cyfiawnder ydyw cymmyrchu dedwyddwch, megys mai tuedd drygioni ydyw cynnyrchu trueni. 2. Cwrs cyffredinol rhag uniaeth ddwyfol. Y mae Duw, fel rheol gyffredin, yn llwyddo y diwyd, ac yn bendithio y cyfiawn. 3. Hyd yn oed yn y bywyd hwn, y mae daioni yn effeithio y can cymmaint mwy o hapusrwydd nag y gwna drygioni.

10. Y mae yr adnod hon i'w darllen yn wahanol: "*Ond* (cadarnhâd y gwna Duw yr hyn a ddywedir yn yr adnod o'r blaen) *yr hwn sydd yn rhoddi hâd i'r hauwr a bara yn ymborth* (cyfeiriad at *Esa.* lv. 10), *a amlha eich had, ac a chwanega ffrwyth eich cyfiawnder.*" Mynegu dymuniad am i Dduw roddi yn helaeth ydyw yr hyn a gyflëir yn y darlleniad Cymraeg; ond sicrhâd y bydd i Dduw wneuthur hyny yw y gwir ystyr. Amcan yr apostol ydyw dyfnhau argyhoeddiad meddyliau y Corinthiaid na byddai neb yn dlotach o fod yn haelionus. *Eich hâd*:—eich adnoddau, eich cyfoeth; yr hyn a heuir genych yn eich gweithredoedd haelionus. *Ffrwyth eich cyfiawnder.*—A chwanega eich gallu i wneuthur daioni.—*Hodge.* Y wobr dragwyddol am eich rhoddion yn enw Crist.—*Alford.* Mwy unol â'r cyd-destyn ac âg amcan yr apostol ydyw y golygiad cyntaf.

11. *Eich cyfoethogi.*—Yr un ystyr ag o'r blaen. Os ydych yn haelionus, rhydd Duw yn helaeth i chwi, fel y byddoch yn gyfoethog i bob haelioni. *Trwom ni*:—am mai Paul fu yn offerynol i gyffroi haelioni y Corinthiaid. *Ddiolch i Dduw.*—Yr oedd amcan uwch i'w haelioni hyd yn oed na chynnorthwyo y saint tlodion: yr oedd yn foddion i Dduw gael ei ogoneddu, fel y dangosir yn yr adnod nesaf.

12. *Gweinidogaeth y swydd hon.*—Y gair gwreiddiol am weinidogaeth ydyw *diaconia.* Yn lle "swydd" gwell fyddai y gair *gwasanaeth.* Darllena Alford fel hyn: "*The ministration of this public service.*" Y mae y gair a gyfieithir "swydd" yn arwyddo gwasanaeth cyhoeddus, ond braidd bob amser yn y Testament Newydd y cyfryw wasanaeth ag a gyflawnid gan yr offeiriaid yn y deml (*Luc* i. 23; *Heb.* viii. 6; ix. 21), neu y weinidogaeth Gristionogol (*Phil.* ii. 17). Yr oedd y weinidogaeth hon yn gynnwysedig yn y gwasanaeth neu yr haelioni hwn.

13. Yr oedd derbynwyr haelioni y Corinthiaid yn gogoneddu Duw drwy neu ar yr achlysur c'r prawf a roddid iddynt yn y weinidogaeth hon (ei haelioni at y saint tlodion) o ufudd-dod y Corinthiaid i efengyl Crist. *Darostyngiad eich cyffes chwi i efengyl Crist.*—Y mae y gair a gyfieithir "cyffes" yn arwyddo yn wastad yn y Testament Newydd y broffes Gristionogol. Y mae amryw gyfieithiadau ar yr adran hon. *Beza*:—"eich ufudd-dod proffesedig:" yr hwn a ddilynir gan y Saesneg. Yr ufudd-dod a bro-

ac *o herwydd* haelioni eich cyfraniad iddynt hwy, ac i bawb)

[r]Salm 41. 1, 2; Luc 16. 9.

14 A [r]thrwy eu gweddi hwythau drosoch chwi, *y rhai ydynt* yn hiraethu am danoch chwi, am

[s]1 Tim 1. 14. [t]Salm 92. 1; Dad. 4. 9.

[s]y rhagorol ras Duw *yr hwn sydd* ynoch.

[u]Esa. 49. 6; Ioan 3. 16; Rhuf. 8. 32.

15 [t]Ac i Dduw *y byddo* y diolch am [u]ei ddawn annhraethol.

PENNOD X.

1 *Yn erbyn y gau-apostolion, y rhai a ddiystyrent wendid ei bresennoldeb corfforol ef, y mae efe yn gosod allan y nerth a'r awdurdod ysbrydol y gwisgid ef â hwynt yn erbyn pob gwrthwyneb allu; 7 gan eu sicrhau hwy, y ceir ef, ar ei ddyfodiad, mor nerthol wewn gair, ag ydyw efe yr awr hon yn absennol yn ei ysgrifen; 12 a chan feio ar y gau-athrawon am ymgyrhaeddyd y tu hwnt i'w mesur, ac yn ymfrostio yn llafur gwŷr ereill.*

ffesir genych. Ereill:—"yr ufudd-dod sydd yn deilliaw o'ch proffes." Ereill:—"ufudd-dod i'ch proffes." Cyfeithiad Alford ydyw:—"Darostyngiad eich proffes gyda golwg ar efengyl Crist." Ond pa un bynag o'r rhai uchod ydyw y cywir, y mae yr ystyr yn gwbl eglur. *Haelioni eich cyfraniad iddynt hwy, ac i bawb.*—Y cyfeithiad mwyaf llythyrenol i'r geiriau gwreiddiol am "haelioni eich cyfraniad," a fyddai "symlrwydd eich cymmundeb." Darllena Meyer, "dilysrwydd eich cymmundeb." Dywed Hodge y gall y termau cyffredinol, os bydd y cyd-destyn yn galw am hyny, gael eu cymmeryd yn yr ystyr neilduol a roddir iddynt yma gan y cyfeithwyr, "haelioni eich cyfraniad." Ond os yn yr ystyr cyntaf, y mwyaf llythyrenol, y cymmerir hwynt, y maent yn rhoddi ystyr dda. Y sail ar ba un y rhoddai y saint tlodion yn Ierusalem ddiolch i Dduw oedd yr amlygiad a gafwyd yn yr haelioni tuag atynt o'r cymmundeb ysbrydol a brofai y Corinthiaid â hwynt, ac â'r holl saint. Yr ymwybyddiaeth o undeb y saint â'u gilydd, er eu holl wahaniaethau cenhedlaethol a lleol, oedd yr hyn a ennynai eu mawl i Dduw.

14. Y mae yr adnod hon arni ei hun yn gwbl eglur, ond y mae anhawsder mawr yn ei ffurfiad a'i chyssylltiad. Gellir ei chyssylltu âg *adn.* 12:—'Y mae gweinidogaeth y swydd hon yn ymhelaethu trwy aml roddi diolch i Dduw, a thrwy eu gweddi hwythau drosoch chwi.' Cynnyrcha eich haelioni lawer o ddaioni, nid yn unig trwy ennyn diolch i Dduw, ond hefyd trwy beri i wrthddrychau eich haelioni weddïo drosoch. Ac y mae hyn i chwi yn gyflawn daledigaeth. Gweddïau a bendithion y tlawd ydyw y daioni a gyfrenir i'r cyfoethog, yn disgyn arnynt fel gwlith Hermon. Neu, gellir ei chyssylltu â'r gair "gogoneddu" yn yr adnod flaenorol: y maent yn gogoneddu Duw, o herwydd darostyngiad eich cyffes chwi, a thrwy roddi diolch i Dduw. Ond addefir nad ydyw hyn yn rhoddi ystyr dda. Golygiad Meyer ydyw, "Yr ydych chwi, y Corinthiaid, yn amlygu eich cymmundeb â hwy—hwythau hefyd, gyda gweddi drosoch, yn hiraethu am danoch." Y cyssylltiad a dderbynir yn fwyaf cyffredinol ydyw y cyntaf. Y mae sylwedd y nodiad hwn wedi ei gymmeryd o esboniad Hodge.

15. *Ei ddawn annhraethol.*—Pa beth ydyw? Digonolrwydd o bethau da, yn dufewnol ac yn allanol; yr hyn sydd ynddo ei hun yn annhraethol, ac sydd yn dwyn ffrwyth o nodwedd cyffelyb. —*Bengel.* Felly Calvin, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr. Ond gellid meddwl fod yr iaith yn rhy gref i osod hyn yma allan. Dawn annhraethol Duw ydyw ei Fab. Ac y mae yn naturiol meddwl mai dyma y ddawn a olygir yma; o blegid y mae yn arferiad gan yr apostol, pan yn llefaru naill ai am gariad gwan neu roddion byehain y saint, y naill i'r llall, i gyfeirio, mewn ffordd o gyferbyniad, at gariad anfeidrol Duw atom yn rhoddiad ei unig Fab i ni: *pen.* viii. 9; *Eph.* v. 1. Y mae yn arferiad ganddo hefyd ddwyn i mewn ebychiadau neu ddiolchiadau, yn nghanol neu ar ddiwedd ei addysgiadau a'i annogaethau: *Rhuf.* i. 25; ix. v; 1 *Cor.* xv. 17; 1 *Tim.* i. 17. Felly, dylid edrych ar yr adnod fel diolch yn ymdori allan o galon yr apostol i Dduw am roddi ei Fab. A diammheu mai yn y wedd hon yr arweinid Cristionogion yn gyffredinol i edrych ar yr adnod. Y mae hyd yn oed Macknight, na'r hwn nid oes un esboniwr yn meddu ar lai o naws ysbrydol ae efengylaidd, yn deall y gair yn yr ystyr yma. "Gellir ammheu a alwai Paul y ddawn hono (haelioni i'r saint) yn annhraethol. Gyda mwy o briodoldeb y cymmhwysir arddodair mor fawreddog at y Mab. Heb law hyny, gan fod effeithiau dedwydd cymdeithas garuaidd y saint â'u gilydd, o blith ffuddewon a Chenhedloedd, yn awr yn unedig mewn un ffydd, un addoliad, ac un eglwys, yn llanw meddwl yr apostol yn bresennol, yr oedd yn naturiol iddo dori allan mewn diolchgarwch i Dduw, am iddo roddi ei Fab; yr hwn ydyw awdwr yr undeb dedwydd hwnw, a ffynonell y bendithion a fwynha dynolryw. A chan fod y bendithion hyn mor liosog ac mor fawrion, fel nas gellir eu mynegu|yn llawn mewn iaith ddynol, gellir yn briodol alw Crist, awdwr y cwbl, yn "ddawn annhraethol."

PENNOD X. 1—XIII. 13.

Y DRYDEDD RAN O'R EPISTOL, YR HON A GYNNWYSA AMDDIFFYNIAD YR APOSTOL O'I APOSTOLAETH.

Y mae holl dôn yr epistol yn newid oddi yma i'r diwedd. Y mae y gwahaniaeth mor fawr fel y mae yn anhawdd i neb beidio sylwi arno. Tybiodd rhai, o herwydd maint y gwahaniaeth, ond yn hollol ddisail, fod yma ddau epistol gwahanol, wedi eu hysgrifenu ar wahanol amserau. Yr hyn sydd yn rhoddi cyfrif am y newidiad ydyw, fod yr apostol yn y pennodau blaenorol yn anerch y rhan oreu o'r eglwys, y dosbarth ffyddlawn a thringar— y rhai yr oedd y llythyr blaenorol wedi cael yr effaith fwyaf iachusol arnynt; a'i fod, oddi yma i'r diwedd, yn cadw ei olwg yn benaf ar y dosbarth ystyfnig ac anllywodraethus, y gau-athrawon a'u canlynwyr, y rhai nid yn unig a ddarostyngent ei awdurdod ef, ond hefyd a gymmerent hyny yn fantais i lygru gair Duw. Y dôn a gymmera yn naturiol gan hyny ydyw tôn lem a meistrolaidd. Yn ymdeimlo â'i allu a'i awdurdod, y mae yn rhybuddio y cyfryw rai. Er ei fod i'w golwg yn wan a gwael, etto yr oedd ganddo nerth ag y buasai yn well i'r gau-athrawon a'i gwrthwynebent beidio ei ddeffro yn eu herbyn eu hunain.—*Hodge.*

1. *A mi gŵi, Paul, wyf fy hun.*—Mae yr apostol yma yn gwneuthur ei bersonoliaeth ei hun yn

B. A. 57.

[a] Salm 45.4; Esa. 42.3,4; Zech. 9. 9.

[b] Rhuf. 10. 20.

AMYFI, Paul, wyf fy hun yn attolwg i chwi, [a]er addfwynder a hynawsedd Crist, yr hwn yn bresennol *wyf* wael yn eich plith, ond yn absennol [b] ydwyf yn hyf arnoch.

2 Ac yr ydwyf yn dymuno na byddwyf yn bresennol yn hyf â'r hyder yr wyf yn meddwl bod tuag at rai, y sydd yn ein cyfrif ni megys rhai [c]yn rhodio yn ol y cnawd:

[c] Rhuf. 8. 1.

3 Canys er ein bod ni yn rhodio yn y cnawd, [d]nid ydym yn milwrio yn ol y cnawd:

[d] 1 Tim. 1. 18; Heb. 12. 1. [e] Eph. 6. 13—18.

4 (Canys [e]arfau ein milwriaeth ni nid *ydynt* gnawdol, ond [f]nerthol trwy Dduw [g]i fwrw cestyll i'r llawr)

[f] Esa. 41. 14—16; Zech. 4. 6, 7; 1 Cor. 1. 18—24. [g] Ios. 6. 26; Heb. 11. 30.

5 [h]Gan fwrw dychymmygion

[h] Luc 1. 51.

arbenig; "myfi fy hun"—y dyn yr ydych chwi yn ei ddarostwng a'i ddirmygu yn y fath fodd. Dywed Alford, fod "myfi, Paul," yn gosod allan ei urddas apostolaidd mewn cyferbyniad i'r iselhâd sydd yn canlyn; a "fy hun" yn cyferio at y nodweddau personol a grybwyllir yn niwedd yr adnod; sef, fy hun, "yr hwn wyf wael," &c. Gwel *Gal.* v. 2; *Eph.* iii. 1; *Philem.* 19. Ond nid oes yma un sail i'r dybiaeth a wna rhai, fod yr apostol yn awr, mewn cynnhyrfiad meddwl, wedi cymmeryd yr ysgrifbin o law ei ysgrifwas, i ysgrifenu y rhan sydd yn canlyn â'i law ei hun. *Er addfwynder a hynawsedd Crist.*—Golyga y cyntaf y rhinwedd tutewnol, yr olaf yr amlygiad allanol o hono. Nid yr addfwynder a'r hynawsedd a dderbyniodd Paul oddi wrth Grist [*Bengel*], ond yr addfwynder a'r hynawsefid a lewyrchent yn nghymmeriad Crist: *Mat.* xi. 29, 30. Dylai dysgyblion Crist efelychu y rhinweddau hyn oedd yn berffaith ynddo ef. Grym y geiriau yn y cyssylltiad hwn ydyw—gan fod dilynwyr Crist dan rwymau i fod yn addfwyn a hynaws fel efe, y mae yr apostol yn attolygu ar y Corinthiaid i beidio ei osod ef dan orfod i fod yn llym:—"Cofiwch pa mor addfwyn oedd fy Meistr; ac na orfodwch fi, ei was, i fod yn wahanol tuag atoch chwi."—*Alford. Yn bresennol*:—yn llythyrenol, "o flaen y wyneb;" arwydda, "o ran ymddangosiad personol." Y mae yn caniatau, etto gyda mesur o wawdiaith, y cyhuddiad a ddygai ei wrthwynebwyr yn erbyn ei leihau dylanwad ei lythyrau. *Wyf wael*:—wyf isel. Defnyddir y gair gwreiddiol weithiau mewn ystyr dda—"gostyngedig;" ond yma am y gwaelder hwnw sydd yn codi oddi ar ddiffyg gwroldeb. *Yn hyf*:—yn eofn, gwrol, di-ofn. Cyhuddid Paul gan ei elynion o fod yn ddyn eiddil, anwrol, yn hoff o fostio yn ei lythyrau pan yn absennol, a phan na byddai un perygl yn y golwg. "Nid oes neb yn bresennol," ebe Hodge, "oddi eithr Rückert yn credu fod y cyhuddiad hwn am dano. Ni amlygwyd gwir wroldeb yn fwy yn mywyd un dyn erioed nag yn mywyd yr apostol; yr hwn, yn erbyn nifer, cyfeith, a gallu, oedd yn wastad yn ffyddlawn i'w argyhoeddiadau; yr hwn a osodai ei wyneb yn erbyn pob math o beryglon a dioddefiadau yn ngwasanaeth ei Arglwydd, a'r hwn yr oedd ei holl ymddygiad yn profi ei fod yn barod, nid yn unig i gael ei rwymo, ond hefyd i farw dros enw yr Arglwydd Iesu." Meddwl y gair "hyf" yma, ebe Alford, ydyw llym; un, wrth feio, yn llarad ei feddwl allan yn ddiattal.

2. *Ac*:—yn hytrach, *ond*; gan nad beth am yn:—Pa un bynag ai cywir ai anghywir ydyw y ymmeriad a roddwch chwi i mi, "Yr ydwyf yn ymuno arnoch," &c. *Na byddwyf*.—Mater ei dymuniad. *Yn bresennol*:—fel yr ydwyf yn wriadu bod, yn fy ymweliad nesaf. *Arhyder*:—i arfer ei awdurdod swyddol i benderfynu, a'i allu swyddol i gario ei benderfyniad i weithredïad. *Yn rhodio yn ol y cnawd*:—felly y cyfrifid yr apostol gan ei wrthwynebwyr. Pa beth a olyga yr apostol wrth hyn? Ymddygiad yn cael ei nodweddu gan waeledd ac eiddilwch.—*Beza.* Heb feddu ar ddim uwch law gallu dynol, ac felly yn gyfyng ag y gallesid eu diystyru a'u gwrthwynebu heb oini drwg yn y canlyniad.—*Bengel.* Y mae gwendid, o angenrheidrwydd, yn perthyn i'r cnawd, ac i'r rhai sydd yn rhodio yn ol y cnawd. Ond y mae yn debygol mai arall ydyw yr ystyr: y mae y gair *cnawd* i'w ddeall yn yr ystyr sydd iddo fynychaf yn y Testament Newydd; sef, dynoliaeth lygredig a phechadurus, ac nid dynoliaeth arni ei hun, heb ei chyfrinlewi a'i gwisgo â nerthoedd goruwchnaturiol. Felly, "rhodio yn ol y cnawd" yw ymddwyn dan reolaeth natur lygredig, teimladau iselwael, ac amcanion hunangeisiol: rhodio gan ymddibynu ar ddynoliaeth yn unig, heb bwyso âr Dduw. Cyhuddid Paul hyd yn oed o hyn gan ei wrthwynebwyr. "Ymddwyn yn anffyddlawn ac anweddaidd yn y cyflawniad o'i swydd," ydyw golygiad Chrysostom.

3. *Rhodio yn y cnawd*, ydyw byw yn y byd; neu, fel geiriau yr apostol mewn man arall, "bod yn gartrefol yn y corph." Ond nid oedd hyn yn lluddias dylanwad yr Ysbryd Glân rhag dangos ei hun mewn modd rhyfeddol yn ei wendid.—*Calvin.* Nid gan y cnawd yr oedd yr apostol yn cael ei gynnhyrfu, ei arwain, a'i nerthu, yn ei filwriaeth yn erbyn cyfeiliornad a llygredigaeth. Y mae yn amlwg fod yr apostol yma yn chwareu ar y gair *cnawd*. Nid yr un ystyr yn hollol sydd iddo yn y naill ymadrodd a'r llall: dynoliaeth a arwydda yn y naill, llygredigaeth dynoliaeth yn y llall.

4. Helaethir meddwl yr adnod flaenorol. Pe yn ol y cnawd y byddai ein milwriaeth, cnawdol fyddai ein harfau; ond ysbrydol ydynt, yr hyn sydd yn profi mai nid yn ol y cnawd yr ydym yn milwrio. "Yn y frwydr a ymladdai Paul, nid ynddo ei hun, neu mewn rheswm dynol, neu yn nerth hyawdledd, neu yn adnoddau dichell a chyfrwysdra, yr oedd yn ymddiried, ond yn unig a chwbl yn nerth goruwchnaturiol Duw."—*Hodge. Arfau ein milwriaeth*, a gynnwysent yr holl foddion a arferai yr apostol er amddiffyn a llediaenu y gwirionedd am Grist. *Nerthol trwy Dduw.*—Y golygiad a gymmeradwyir ydyw, nerthol yn ngolwg, yn nghyfrif Duw. Y mae ffurf yr ymadrodd yr un a "tlws i Dduw," yn *Act.* vii. 20. Y mae ereill yn darllen "nerthol i Dduw," moddion Duw i amlygu ei hun; ac ereill, yn ol y darlleniad Cymraeg, "trwy Dduw." Ond y cyntaf ydyw y goreu o lawer.

5. *Dychymmygion*:—meddyliau a rhagfarnau y rhai a osodent eu rhesymau eu hunain yn erbyn gwirionedd Duw. Y cyfryw ddychym-

[i] Exod. 5. 2; Salm 10. 4; Phil. 3. 4-9. [i]a lawr, [i]a phob uchder ar sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, a chan gaethiwo pob meddwl i [k]ufudd-dod Crist;

[k] Salm 18. 44; Rhuf. 16. 26.

6 Ac yn barod genym ddial ar bob anufudd-dod, pan gyflawner eich ufudd-dod chwi.

7 Ai edrych yr ydych chwi ar bethau yn ol y golwg? [l]os ymddiried neb ynddo ei hun, ei fod ef yn eiddo Crist, meddylied hyn drachefn o hono ei hun, megys ag *y mae* efe yn eiddo Crist, felly

[l] 1 Cor. 3. 23; 14. 37; 15. 23; Gal. 3. 29.

ein bod ninnau hefyd yn eiddo Crist.

8 O blegid pe bostiwn beth chwaneg hefyd am ein hawdurdod (yr hon a roddodd yr Arglwydd i ni er adeilad, ac nid er eich dinystr chwi) ni'm cywilyddiaf:

9 Fel na thybier fy mod megys yn eich [m]dychrynu chwi trwy lythyrau.

[m] Adn. 10.

10 O blegid y llythyrau yn wir (meddant) *sydd* drymion a chryf-

mygion ag y llefara am danynt yn *adn.* 2.—*Bengel.* Pob mympwy sydd yn ely cnawd.—*Alford. A phob uchder* :—pob peth uchel ; tŵr neu amddiffynfa : yr un ystyr a "chestyll" yn *adn.* 4. Pob peth a gyfyd balchder rheswm dynol yn erbyn gwybodaeth Duw. Y pethau a gyferbynir yma ydyw gwybodaeth ddynol yn sefyll yn erbyn gwybodaeth Duw, neu y dadguddiad o Dduw yn yr efengyl. *Pob meddwl.*—"*Every intent of the mind*;" pob bwriad o eiddo y meddwl.—*Alford.* Gall y gair gwreiddiol ddynodi y meddwl ei hun—y gallu sydd yn meddwl, neu y meddyliau a gynnyrcha y gallu hwnw. Yr olaf, "*thought*," ydyw y cyfeithiad Saesneg. Gall yr un Cymraeg arwyddo y naill neu y llall. Darostyngiad y deall i'r efengyl ydyw y drychfeddwl, yn ol Hodge : darostyngiad yr ewyllys, ebe Alford.

6. Er hyny dichon y bydd i rai yn Corinth barhau yn ystyfnig : ac os felly, yr ydym yn barod i ddial arnynt : etto, ni a oedwn wneuthur hyny hyd oni roddir iddynt bob cyfleusdra i weithio ynddynt duedd ufudd. Er ei fod yn awr yn barod i weinyddau llymder, etto ni wnai hyny hyd oni aflwyddai pob moddion tyner, ac hyd oni wneid yn amlwg pwy o'r Corinthiaid a wnaent ymostwng, a phwy a barhaent yn eu hystyfnigrwydd. Dichon mai esgymundod ywy "dial" hwn ; neu, fe allai, ei fod yn cynnwys defnyddiad o'r holl allu a feddai yr apostol ; ei fod yn rhoddi iddynt rybudd mewn pryd y gwnai yr hyn oll a allai er mwyn dinystrio dylanwad y gwrthwynebwyr hyn. Y mae yn amlwg, oddi wrth 1 *Cor.* v. 5, a 1 *Tim.* i. 20, y gallai wneuthur mwy nag esgymuno yn unig o'r eglwys. Meddai awdurdod i draddodi rhai cyndyn i Satan.

7. *Ar bethau yn ol y golwg.*—Y mae yn eu cymmeryd ar eu tir eu hunain. Yr oeddynt wedi sylwi ar ei bresennoldeb corphorol, gan ei ystyried yn wael a dirmygus. Y mae yma yn eu gwahodd i edrych ar yr ymddangosiad allanol—ar bethau yn ol y golwg. 'Ar y tir hwn mi a ddangosaf i chwi fy mod yn apostol ; dygaf fygythion fy llythyrau i weithredu ; dangosaf fy mod yn eiddo Crist, yn llawn cymmaint a'r rhai sydd yn bostio o berthynas neilliduol âg ef. Dichon fod cyfeririad neilliduol y geiriau at y rhai a ddywedent eu bod yn eiddo Crist ; etto, nid atynt hwy yn unig. Cynnwys sir yma ei holl wrthwynebwyr. *Meddylied hyn drachefn o hono ei hun.*—Meddylied o hono ei hun heb gael ei arwain gan arall. Yr oedd y peth mor amlwg fel nad oedd raid ei gadarnhau a'i brofi. Meddylied hyn drachefn—sydd iddo adystyried y mater.

8. Gallasai yr apostol fostio mwy nag a wnaethai yn yr adnodau blaenorol. Yr oedd efe yn dawer mwy nag yr hònai ei wrthwynebwyr eu hod hwy eu hunain. Pe buasent hwy mewn gwirionedd yr hyn yr honent fod, buasai Paul drachefn yn rhagori arnynt. Er uched ydoedd eu honiadau, nid oeddynt wedi bostio eu bod yn meddu rhai pethau oedd ganddo ef. Pe byddai iddo roddi mwy o raff i'w fost, ni fuasai yn dyfod i gywilydd, o blegid buasai yn alluog i gyfiro ei fost â ffeithiau. *Chwaneg* :—nag a hôna iddo ei hun yn *adn.* 3—6 : chwaneg na bod yn Nghrist, yr hyn a ellid ddywedyd am ereill yn gystal ag am yr apostol. *Ein hawdurdod.*—Yr oedd ganddo awdurdod i lywodraethu yn yr eglwys, ac yr oedd ganddo allu i osod yr awdurdod mewn gweithrediad.

9. Y mae cyssylltiad yr adnod hon yn fwy amlwg gyda'r geiriau, "A hyn yr wyf yn ei ddywedyd," neu y cyffelyb—yn ddealledig o flaen "Fel na thybier," neu, "Fel na fynwyf ymddangos megys," &c. Cyfeirir yn amlwg at gamddarluniad y gau-athrawon, fod yr apostol yn defnyddio y cyfryw dôn awdurdodol yn ei lythyrau i'r dyben o'u dychrynu, heb fod ganddo na'r galluna'r ewyllys i weithredu yn ol ei fygythion.

10. Ni fynai ymddangos iddynt megys yn ceisio eu dychrynu, o blegid dyma y cyhuddiad a ddygent yn ei erbyn. *Drymion a chryfion* :—yn cynnwys y syniad o nerth, awdurdod, a llymdostedd. *Wan.*—Tybir oddi wrth yr ymadrodd hwn, ynghyd âg ychydig ereill, fod Paul yn ddyn o ymddangosiad di-olwg a gwael. Ond nid yw y geiriau hyn, a chaniatau eu bod yn wir (o blegid geiriau ei gaseion ydynt) o angenrheidrwydd yn cynnwys hyny. Mae y cyfeiriad at ei ymddygiad pan yn bresennol, yn hytrach nag at ei ymddangosiad corphorol. Ysgrifenai yn hyf, lleferai yn wan. Nid oedd ei weithredoedd yn cael eu hystyried gan y cyfryw nerth a phenderfyniad ag a allesid disgwyl oddi wrth iaith ei lythyrau. Dyma y portreiad a dynid o hono gan ei wrthwynebwyr, ond a brofir ganddo ef yn anghywir. Yr un ydyw ystyr y gair, "yr ymddangosiad yn dirmygus"—golygir yr argraph a wnai ei ardeithiau a'i anerchiadau. Ni hònai yr un awdurdod wrth lefaru ag wrth ysgrifenu. Nid yw yn cael ei brofi yma fod ynddo ddim anghymmwysder mewn na llais, golygiad, nac ystum, i arferthio yn effeithiol. "Y mae ei holl nanes," ebe Hodge, "ei lafur dibaid, ei deithiau gwastadol, ei ddioddefiadau afrifed, y rhai a ddeuai i'r amlwg yn ei brofi nad oedd yn ddyn o gyfansoddiad gwanaidd. Ac y mae ei fynegiadau ei hun, yn gystal a'i gymmeriad, yr hwn y

ion, eithr presennoldeb y corph *sydd* wan, a'r ymadrodd yn ddirmygus.

11 Y cyfryw un meddylied hyn, mai y fath ydym ni ar air trwy lythyrau yn absennol, yr un fath befyd *a fyddwn* ar weithred yn bresennol.

12 Canys nid ym ni yn beiddio ein cystadlu, neu ein cyffelybu ein hunain, i rai sydd yn eu canmawl eu hunain: eithr hwyntbwy, gan eu mesur eu hunain wrthynt eu hunain, a'u cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain, nid ydynt yn deall.

13 Eithr ni fostiwn ni hyd at bethau allan o'*n* mesur, ond yn pa beth nid yw efe ei hunan yn ei wneuthur, y mae yn awgrymu yr hyn a wnant hwy. Cerydda eu beiddgarwch eofn."—*Bengel. Ein cystadlu, neu ein cuffelybu.*—Ystyr y gair a gyfieithir yma "cystadlu" ydyw "cyfrif yn mysg." Nid oedd yr apostol yn cyfrif ei hun o nifer y cyfryw, nac yn ei gyffelybu ei hun iddynt. Y gau-athrawon sydd ganddo mewn golwg, y rhai a'u hynodent eu hunain gymmaint mewn hunan-ymddiried a a hunan-ganmoliaeth. Y mae cryn anhawsder yn cael ei deimlo gyda'r rhan ganlynol o'r adnod. Golygiad rhai ydyw, mai ato ei hun a'i frodyr y cyfeiria yr apostol yn y gair a gyfieithir "hwynthwy." "Y maent hwy yn eu canmawl eu hunain; eithr nyni, gan fesur ein hunain wrthym ein hunain—gan farnu ein teilyngdod a'n gallu wrth ein gweithredoedd." Ond y mae llawer o wrthddadleuon pwysig i'r darlleniad hwn. Y mae golygiad arall, yr hwn a gefnogir gan Chrysostom, Calvin, ac amryw o'r prif esbonwyr diweddar, yn unol â darlleniad y testyn Cymraeg. Yr oedd y gau-athrawon yn canmawl eu hunain, yn bostio hyd at bethau allan o'u mesur, ac yn diystyru ereill. Ar y llaw arall, yr oedd yr apostol yn ymwrthod â phob bôst personol: nid ymffrostiai yn y cnawd; ymddibynai yn gwbl ar ras a nerth Duw; ymgadwai o fewn ei derfynau ei hun, heb ladrata y clod oddi wrth lafur rhai ereill. "Cyfeiria yr apostol, megys â'i fys, at eu ffolineb. Y mae y dyn nad oes ganddo ond un llygad yn gweled yn dda yn mysg deillion; a'r dyn y mae ei glyw yn drwm yn clywed yn glir yn mysg rhai sydd yn hollol fyddar. Y cyfryw oedd y rhai a foddlonent arnynt eu hunain, ac a ymddangosent yn fawrion yn ngŵydd ereill, yn unig am nad edrychent at neb oedd uwch law iddynt eu hunain. O blegid pe cymmharasent eu hunain â'r apostol, neu unrhyw un cyffelyb iddo, teimlasent ar unwaith yn rhwym i ymddiosg oddi wrth y syniad ffol oedd ganddynt am danynt eu hunain, a chyfnewid ymffrost am gywilydd."—*Calvin.*

13. *Eithr ni fostiwn ni*:—mewn cyferbyniad i'r rhai y lleferir am danynt yn yr adnod ddiweddaf. *Hyd at bethau allan o'n mesur.*—Y mae amryw ddarlleniadau ar yr adran hon. 'Ni fostiwn yn anghymmedrol—tu hwnt i'r hyn sydd weddaidd.' Neu, 'Ni fostiwn gyda golwg ar bethau allan o'n mesur—pethau y tu allan i gylch ein llafur apostolaidd.' Nid oedd terfynau i fôst y gau-athrawon; tybiau hunanol, nid ffeithiau sylweddol, oedd mater eu hymffrost. Ond yr oedd Paul yn cyfyngu ei fôst o fewn cylch ei lafur a'i weithredoedd. Ond mwy naturiol, yn ein tyb ni, yw y golygiad a dderbynir gan Alford; "Ni fostiwn heb fesur—heb safon." Gan fod y gau-athrawon yn cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain, nid oedd ganddynt un safon i'w cynnorthwyo i ffurfio iawn farn am danynt eu hunain; ond nid oedd yr

Mat. 25. 15: 1Cor.12.11.

rhoddir eglurhâd mor gyflawn o hono, yn profi nad oedd y cyfryw ddiffyg cydweddiad rhwng ei lythyrau a'i weithredoedd ag y ceisiai y gau-athrawon, i'r rhai, fe allai, yr oedd yn bersonol yn anadnabyddus, gan bobl gredu." Cyffelyb i raddau ydyw golygiad Alford:—dywed nad oes yma un sail i'r dybiaeth ei fod yn wanaidd o gyfansoddiad, ac yn fychan o gorpholaeth. Teflir goleu ar y geiriau hyn yn 1 *Cor.* ii. 1, &c. Ni cheisiai gynnorthwy oddi wrth ddim allanol wrth bregethu yr efengyl; ymwrthodai â help y cyfryw ddoethineb ac areithyddiaeth ag yr amcanai y gau-athrawon, trwy eu defnyddio, i foddhau chwaeth y Corinthiaid; cyhoeddai ei genadwri, pan oedd yn bresennol yn eu mysg, "mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr." A hyn, ac nid gwendid llais, a wnai ei ymadrodd yn ddirmygus yn eu cyfrif. Etto, barna Alford fod yn y cyferbyniad a wneir rhwng nerth y llythyrau a gwendid ei bresennoldeb, sail i gredu fod rhywbeth yn ei bresennoldeb a'i draddodiad yn anffafriol; a chyfeiria ni at *pen.* xii. 7. "Y gwahaniol draddodiadau o hen ysgrifenwyr, a'r arluniau boreuaf, a gydunant oll i'w osod allan fel un byr o gorpholaeth, â chanddo wynebpryd hir, a thalcen uchel, trwyn Rhufeiniaidd, aeliau mawrion. Hynodion ereill a enwir ydynt penfoelni, llygaid llwydion, prydwedd clir, a mynegiad wynebpryd ennillgar."—*Smith, Dictionary of the Bible.* Y cais diweddaf a wnaed yn y deyrnas hon i leihau ein hedmygedd o alluoedd yr apostol ydyw yr un gan Mr. Jowett, yn ei esboniad galluog ar yr Epistolau. "Er ei holl ragoriaethau, yr oedd ei ymddangosiad a'i ymadrodd (ebe fe) yn gwneuthur argraph o eiddilwch. Llefarai mewn ymadroddion tor-ed'g, a dull petrusgar, heb ddim prydferthwch yn ei arddull. Yr oedd hefyd yn feddyliwr tywyll a chymmysglyd." Ond nid oes neb braidd yn cydymdeimlo â'r feirniadaeth hon. Y mae yr apostol, hyd yn oed yn ngalluoedd ei feddwl yn gystal ag yn egwyddorion ei galon, a'r rhagoriaethau digyffelyb a amlygwyd yn ei fywyd apostolaidd, wedi bod yn wrthddrych edmygedd a syndod mwyaf holl wledydd cred; ac y mae yr esbonwyr hyny sydd yn mhell o gael eu cyfrif yn uniongred yn cyfranogi yr un mor ddwfn a'r rhai mwyaf uniongred ac efengylaidd o'r edmygedd a'r syndod yma. Cydnabyddant ef yn un o'r dynion mwyaf a goreu yn holl oesoedd y byd—os nad y mwyaf a'r goreu o honynt oll—yr agosaf o ddynion ammherffaith i'w Arglwydd, a'r un a yfodd yn ddyfnaf o'i ysbryd ef.

12. Mewn ffordd o gadarnhâd i'w haeriad, y ceid ei weithredoedd yn cyfateb i'w eiriau, y mae yn chwanegu nad ydyw yn gyffelyb i'r rhai, heb fod ganddynt ddim i'w ganmawl, ydynt yn canmawl eu hunain. *Yn beiddio.*—Nis gallwn ddwyn ein hunain i wneuthur y fath beth. Y mae yr ymadrodd yn wawdus. "Tra y dywed

ol mesur y rheol a ranodd Duw i ni, mesur i gyrhaeddyd hyd atoch chwi hefyd.

14 Canys nid ydym, megys *rhai* heb gyrhaeddyd hyd atoch chwi, [p]yn ymestyn allan tu hwnt i'*n mesur;* canys hyd atoch chwi he- [o] fyd y daethom [q]âg efengyl Crist:

15 Nid [p]gan fostio hyd at bethau allan o'*n* mesur, yn llafur rhai ereill; eithr gan obeithio, pan gynnyddo eich ffydd chwi, gael ynoch chwi ein mawrygu yn ol ein rheol yn ehelaeth,

16 I bregethu yr efengyl tuhwnt i chwi; *ac* nid i fostio yn rheol un arall am bethau parod eisoes.

17 Eithr [q]yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.

[o] Marc 1. 1: at. 1 6-8; 1Tim.1.11.
[p] Adn. 13.
Salm105.3; 1 Cor. 1. 29, 31; Gal. 6. 1 14.

18 Canys nid yr hwn sydd yn ei ganmawl ei hun, sydd gymmeradwy; [r]ond yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ganmawl.

[r] Ioan 5. 41—44; 1 Cor. 4 5.

PENNOD XI.

1 *Allan o'i eiddigedd dros y Corinthiaid, y rhai oedd yn dangos eu bod yn gwneuthur mwy o gyfrif o'r gau apostolion nag o hono ef, y mae yn gorfod arno, yn erbyn ei ewyllys, ei ganmawl ei hun, 5 trwy ei gystadlu ei hun â'r apostolion penaf, 7 a'i fod yn pregethu yr efengyl yn rhad, ac yn ddigost, iddynt hwy:* 13 *gan ddangos nad oedd efe ddim gwaeth na'r gweithredwyr twyllodrus hyny mewn un rhagorfraint o'r ddeddf,* 23 *a'i fod yn rhagori arnynt yn ngwasanaeth Crist, ac yn mhob math o ddioddefiadau o achos ei weinidogaeth.* B. A. 57.

ONA chyd-ddygech â myfi ychydig yn *fy* ffolineb; eithr hefyd cyd-ddygwch â myfi.

apostol yn cymmeryd y fath reol ammhennodol i ffurfio ei farn am dano ei hun. *Mesur y rheol:* —yn ol y mesur y cyfeirir ato gan y rheol; y mesur a benderfynwyd iddo. Y gair a gyfieithir "rheol" *(canon)* ydyw y llinyn mesur, yr hwn a ddefnyddiai Duw wrth benderfynu pa beth fyddai doniau a chylch yr apostol. *A ranodd Duw i ni.*—Hyn oedd yn penderfynu gweithgarwch yr apostol. Nid cymmeryd y llafur a maes y llafur arno ei hun a wnaeth—nid rheol a osoddodd iddo ei hun oedd y rheol; ond rheol wedi ei rhanu neu ei phennodi iddo gan Dduw. Golygâ hyn fod yr apostol yn rheoleiddio ei fôst wrth ei ddoniau, neu gyda chyfeiriad at yr hyn a wnaeth o fewn y terfynau a osodwyd iddo i bregethu yr efengyl. "Mewn cyferbyniad i'r gau-athrawon, y rhai nid yn unig a fostient mewn doniau nad oeddynt yn eu meddu, ond a gymmerent iddynt eu hunain y clod am lafur rhai ereill, trwy ymwthio i mewn i eglwysi na bu ganddynt law yn eu planu, dywed yr apostol na wnaeth efe y naill na'r llall o'r pethau hyn. Nid oedd ei fôst yn anghymmedrol, nac yn seiliedig ar bethau a wnaethai ereill. Nid ymwthiai i faes llafur dyn arall. Ei fwriad sefydlog ef oedd pregethu yr efengyl yn y lle nad enwid Crist, a pheidio adeiladu ar sail un arall. Yn gweithredu ar yr egwyddor hon, yr oedd ganddo hawl i olygu Corinth fel yn gyfreithlawn o fewn maes ei lafur. Yr oedd terfynau gosodedig ei lafur yn cyrhaeddyd hyd atynt hwy. Yr oedd efe wedi sylfaenu yr eglwys yno, ac yr oedd ereill wedi adeiladu ar y sylfaen hono."—*Hodge.*

14. Buasai yr apostol yn bostio hyd at bethau allan o'i fesur, pe buasai heb fod o'r blaen yn Corinth: ond gan mai efe a blanodd yr eglwys yno, nid oedd, wrth lefaru gyda'r fath awdurdod ag y gwna yn yr epistol hwn, yn ymestyn allan tu hwnt i'w fesur.

15, 16. *Gael ymoch chwi ein mawrygu yn ol ein rheol yn ehelaeth.*—Nid yw y darlleniad hwn yn foddhaol: nid ei obaith oedd cael ei fawrygu gan y Corinthiaid, neu yn eu mysg. Yn lle "ein mawrygu," darllener, "ein helaethu" — ein cangu, gyda chyfeiriad at y gair "mesur." Yr oedd yn gobeithio, fel y cynnyddai ffydd y Corinthiaid, estyn ei faes ta hwnt i Corinth. *Yn rheol un arall:*—o fewn y maes llafur a lenwir gan arall.

17. *Yn yr Arglwydd:*—mewn cyferbyniad i fôst y gau-athrawon. Yr oedd eu hymffrost hwy ynddynt eu hunain.

18. Y rheswm dros yr annogaeth flaenorol. Nid yr hwn sydd yn ei ganmawl ei hun, fel y gau-athrawon, ond yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ganmawl, trwy ei bennodi i fod yn was iddo, trwy fendithio ei lafur, trwy wneuthur dynion yn seliau ei weinidogaeth—hwnw sydd gymmeradwy, efe yn unig a ddeil bob prawf a wneir arno.

Pennod xi.

Ymadrina yr apostol yma ar ei waith yn ymffrostio. Yr oedd newydd gondemnio hunanganmoliaeth y gau-athrawon, etto yr oedd yn cael ei orfodi i wneyd yr hyn a allai ymddangos yr un peth ag a gondemniai efe mewn ereill. Mynega y rhesymau a'u cymmhellent i ymffrostio: yr oedd yn eiddigus rhag iddynt, trwy golli eu hymddiried ynddo ef fel apostol, mewn canlyniad i gamddarluniadau ei wrthwynebwyr o hono, gael eu llygru oddi wrth y symlrwydd sydd yn Nghrist.

1. *Yn fy ffolineb.*—Yr oedd bôst y gau-athrawon yn codi oddi ar wagedd a hunandyb:—yr eiddo Paul oddi ar gymmhellion cwbl wahanol. Nid oedd y mesur lleiaf o hunandyb na gwagedd yn ei fôst; gwnai y cwbl mewn hunanddiffyniad, a hyny nid er ei fwyn ei hunan, ond er mwyn Crist a'i waith, ac er diogelu y Corinthiaid yn ffydd yr efengyl. Etto, er fod y gwahaniaeth mwyaf rhwng ei fôst ef a'u bôst hwy, o ran noddwedd a dyben, yr oeddynt yn gyffelyb mewn ymddangosiad: yr oedd y naill fel y llall yn cynnwys hunan-ganmoliaeth. Ac yma gesyd yr un enw arnynt—*ffolineb:* diffyg synwyr. Y mae y gair a gyfieithir *ffolineb* yn meddu ar ystyr wanach na'r gair *moria*, ynfydrwydd. Y mae y naill yn gyfystyr âg *imprudence*, ac yn cyfeirio yn benaf at ymadrodd:—y llall yn gyfystyr âg ynfydrwydd *(stultitia—folly)*, ac yn cynnwys elfen ddrygionus. *Eithr hefyd cyd-ddygwch â myfi.*—Cyfieithiad anghywir. Dylasai fod, "Ond yr ydych chwi yn wir yn cyd-ddwyn â myfi." Wrth attolwg arnynt i gyd-ddwyn âg ef, nid yw

Gal. 4. 11, 17–19; Phil. 1. 8; 1 Thes. 2. 11. [a] Lef. 21.13–15; Ezec 44.22. [b] Gen. 3. 4, 13; Ioan 8. 44; Dad. 12. 9. [c] 2 Cor. 1.12; Rhuf. 12.8; 16. 18, 19.

2 Canys [a] eiddigus wyf trosoch âg eiddigedd duwiol: canys mi a'ch dyweddïais chwi i un gŵr, i'ch rhoddi *chwi megys* [b] morwyn bur i Grist.

3 Ond y mae arnaf ofn, rhag [c] mewn modd yn y byd, [c] megys y twyllodd y sarph Efa trwy ei chyfrwysdra, felly bod eich meddyliau chwi wedi eu llygru oddi [d] wrth [d] y symlrwydd sydd yn Nghrist.

4 Canys yn wir os ydyw yr hwn

[a] Act. 4. 13 1 Tim. 2. 5–11. [b] 1 Cor. 12. 4

sydd yn dyfod [c] yn pregethu Iesu arall yr hwn ni phregethasom ni, neu *os* ydych yn [d] derbyn Ysbryd arall yr hwn nis derbyniasoch, neu efengyl arall yr hon ni dderbyniasoch, teg y cyd-ddygech *âg ef*.

5 Canys yr ydwyf yn meddwl na bûm i ddim yn ol i'r apostolion penaf.

6 Ac os *ydwyf* hefyd yn anghyfarwydd ar ymadrodd, etto nid *wyf felly* mewn gwybodaeth; eithr

yn dymuno awgrymu eu bod yn ddiffygiol o'r cyd-ddygiad hwnw: ond y mae yn deisyf am chwaneg, oddi ar ei fod wedi derbyn peth eisoes oddi ar eu llaw.

2. Ymddengys fod y cyfryw gyd-ddygiad âg ef yn ddyledus oddi wrthynt iddo. *Eiddigedd duwiol*:—yn llythyrenol, eiddigedd Duw; sef, yr eiddigedd hwnw ag y mae anrhydedd Duw yn nôd iddo.—*Alford.* Y cyfryw eiddigedd ag sydd gan Dduw ei hun.—*Chrysostom.* Gall arwyddo yr eiddigedd ag y mae Duw yn wrthddrych iddo, neu yn awdwr o hono, neu a gymeradwyir gan Dduw, neu a deimlir ganddo. Dichon nad ydyw yn dynodi y naill o'r golygiadau, gan gau y lleill oll allan. Nid sel o nodwedd hunanol oedd, ond y cyfryw ag a gyfodai oddi ar awyddfryd i hyrwyddo gogoniant Duw. *A'ch dyweddïais*:—yn eich trŵedigaeth. Y rheswm pa ham y teimlai y fath eiddigedd drostynt:—safai yn y berthynas agosaf â hwy: efe oedd yr offeryn i'w dwyn i undeb â Christ: 1 *Cor.* iv. 15; ix. 1. Tybir yn gyffredin, ebe Hodge, fod y cyfeiriad yma at waith cyfaill y priodfab, yr hwn a ddewisai y briodferch, yr oedd yn gyfrifol am ei hymddygiad, ac a'i cyflwynai i'r priodfab. Yn yr ystyr yma y gelwid Moses yn "gyfaill y priodfab" gan y Rabbiniaid, yn gymmaint ag mai trwyddo ef yr aeth y genedl i gyfammod â Duw. Neu, gallai fod y cyfeiriad at dad, yr hwn a roddai ei ferch mewn priodas. Ond yr un yw y golygiad, gan nad at bwy y mae y cyfeiriad. Y cyfryw oedd perthynas Paul â'r Corinthiaid, fel mai efe oedd awdwr eu priodas â Christ, ac fel y cyfryw nis gallai lai na theimlo y dyddordeb dyfnaf yn eu ffyddlondeb. *I'ch rhoddi chwi*:—yn ail ddyfodiad Crist. Gwel *Eph.* v. 27.

3. Etto yr oedd yn ofni rhag i'w calon gael ei lladrata oddi arno, a'i sefydlu ar ryw wrthddrych arall. Yr oedd yn eiddigeddus, am ei fod yn ofni. Nid oeddynt eto wedi eu llygru; ond yr oeddynt mewn perygl o gael eu llygru. *Y sarph*:—Satan, trwy y sarph. Cadarnheir yma wirionedd hanes y cwymp; fod adroddiad Moses, nid yn chwedl neu alegori, ond yn wir hanesyddol. Gwel hefyd 1 *Tim.* ii. 14; *Dad.* xvi. 9, 15. *Y symlrwydd*:—unplygrwydd eu serch tuag at Grist. Yr oedd efe yn ofni rhag iddynt ranu eu calon rhwng Crist a gwrthddrychau ereill.

4, 5. Gesyd Alford rediad yr adnodau hyn fel y canlyn:—"Pe buasai yr athrawon newydd hyn wedi dwyn gyda hwynt efengyl newydd, yn gwneyd fy efengyl i yn ddiangenrhaid, buasai ganddynt sail i hawlio eich parch a'ch gwrandawiad. Ond gan nad oes ond un efengyl, yr un a bregethais i chwi, a'r hon yr honant hwy hefyd eu bod yn ei phregethu, yr wyf yn tystio nad oes gan neb o honynt y cyffelyb honiad i barch, yn yr efengyl hono, a myfi. *Yr hwn sydd yn dyfod*:—yn cyfeirio at ddosbarth, nid at berson neilldiol Dywed Alford fod yma wawdiaith yn yr ymadrodd, gan fod "yr hwn sydd yn dyfod," yn air mawr, yn galw sylw at urddas yr hwn y dywedir felly am dano. *Iesu arall*:—un arall, yn lle yr hwn a aned o Fair, fel y Messiah. Y mae "arall" yma yn gyfieithiad o ddau air. Yn y naill, *arall* ydyw yr ystyr, heb olygu dim ond personoliaeth arall; yn y llall, y mae yn cynnwys dry chfeddwl o fath gwahanol: *arall* a *gwahanol. Nis derbyniasoch...ni dderbyniasoch.*—Nid yr un yw y gair yn y gwreiddiol. Ac y mae y ddau air gwahanol yn cyfatteb i ddeiliad pob un—yr ysbryd a'r efengyl; yn gymmaint ag nad yw ewyllys dyn yn cydweithio wrth dderbyn yr Ysbryd, fel y mae wrth dderbyn yr efengyl.—*Bengel.* Ystyr yr adnod, yn ol Chrysostom, ydyw, "Pe bai rhywun yn wir yn pregethu efengyl arall—yn cyhoeddi i chwi drefn arall o iachawdwriaeth—da y gwnaech gyddfdwyn âg ef (yn ei fôst) a'i dderbyn yn llawen." Yr ystyr, yn ol Hodge, ac ereill, ydyw, "Cyddygwch â myfi; o blegid pe bai dysgawdwr gau yn pregethu i chwi efengyl arall, chwi a gyddygech âg ef." Y mae Olshausen yn sylwi ar y geiriau, "Iesu arall, efengyl arall, ysbryd arall," nad ydynt yn cynnwys crefydd arall yn hollol, ond esboniadau cyfeiliornus o'r gwirionedd. Etto, os llygrir gwirioneddau sylfaenol Cristionogaeth, y mae drwy hyny yn cael ei throi yn efengyl arall. Anercha yr apostol y Galatiaid yn yr un dull: *pen.* i. 9. Yr oeddynt hwy, trwy fyned yn ol at y ddeddf, wedi colli Crist. Nid oedd y Corinthiaid wedi myned etto i'r eitha oedd hyn.

5. Pwy yw yr *apostolion penaf*? Pedr, Iago, ac Ioan, ebe rhai. Ond dadleuir yn erbyn hyn, fod yr ymadrodd hwn yn meddu ar dôn wawdus; "*These sur*¡ *assers of the apostles,*" ydyw darlleniad Alford; ac nad ydyw gwneuthur cymhariaeth â'r gwir apostolion yn unol âg ysbryd yr adran. Yr un yw y meddwl yma ag yn y gair "apostolion gau," yn *adn.* 13. A'r cyssylltiad, yn ol Alford, ydyw, "Gan nad oes ond un efengyl, a'u bod hwy a minnau yn proffesu pregethu yr un Iesu, a chyfranu yr un ysbryd, nid oes ganddynt y cyfryw honiad—y mae fy honiad i yn uwch; a dylech ddangos mwy o gyd-ddygiad â mi yn fy môst.

6. Dengys yma os oedd yn ol iddynt mewn ymadrodd—yn y ffurfiau rheithyddol, rhodresgar, a foddhaent y Corinthiaid—nad oedd felly

yn eich plith chwi nyni a eglurhawyd yn hollol yn mhob dim.

7 A wnaethum i fai wrth fy ngostwng fy hun, fel y dyrchefid chwi, o blegid pregethu o honof i chwi efengyl Duw yn rhad?

8 Eglwysi ereill a ysbeiliais, gan gymmeryd cyflog *ganddynt hwy*, i'ch gwasanaethu chwi.

[f]2 Cor. 12. 13: Neh 5. 15; Act. 20. 33; 1 Thes. 2. 9; 2 Thes. 3. 8. 2 Cor 1. 23; 12. 19; Gal. 1. 20: Thes 2. 5, 10.

9 A phan oeddwn yn bresennol gyda chwi, ac arnaf eisieu, [g]ni ormesais ar neb: canys fy eisieu i a gyflawnodd y brodyr a ddaethant o Macedonia: ac yn mhob dim y'm cedwais fy hun heb bwyso arnoch, ac mi a ymgadwaf.

10 Fel [h]y mae gwirionedd Crist ynof, ni argauir yr [i]ymffrost hwn yn fy erbyn yn ngwledydd Achaia.

[i]2 Cor. 10. 15; 1 Cor. 9. 15 15—18.

11 Pa ham? *ai* am nad wyf yn eich caru chwi? [k]Duw a'i gŵyr.

[k]Adn. 10

12 Eithr yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, a wnaf hefyd; fel y torwyf ymaith achlysur oddi wrth y rhai sydd yn ewyllysio cael achlysur; fel yn yr hyn y maent yn ymffrostio, y ceir hwynt megys ninnau hefyd.

13 Canys y cyfryw gau-apostolion *sydd* weithwyr twyllodrus, wedi ymrithio yn apostolion i Grist.

[l]2 Cor. 2. 11; Gen. 3. 1–5; Mat 6

14 Ac nid rhyfedd: [l]canys y

---

mewn gwir wybodaeth. O'r gair gwreiddiol am *anghyfarwydd*, y deillia y gair Saesneg *idiot*, ac y mae yn dynodi dyn llëyg—dyn heb dderbyn yr addysg briodol yn y pethau y cymmer arno eu haddysgu i ereill. *Gwybodaeth* a ddynoda ddyfnder dirnadaeth yr apostol yn nirgelwch yr efengyl: *Eph.* i. 1—4. *Nyni a eglurhawyd.*—Yn hytrach, "nyni a eglurhasom:" a thrwy hyny yn dangos ei wybodaeth.

7. Noda beth arall, yr hwn yr oedd ynddo yn rhagori ar y gau-apostolion: sef, pregethu yr efengyl yn rhad. *Fy ngostwng fy hun*:—trwy ymwrthod â braint ag yr oedd ganddo hawl iddi. Yr oedd yn weithred o ymostyngiad i'r cyfryw un dderbyn cynnorthwy oddi wrth eglwysi ereill tra yn gwasanaethu y Corinthiaid, a llafurio â'i ddwylaw ei hun er ei gynnaliaeth. *Fel y dyrchefid chwi.*—Gwrthodai gymmeryd ei gynnal ganddynt: nid am nad oedd ganddo hawl i hyny, ond er mwyn eu hadeiladaeth ysbrydol hwy, trwy symmud pob achlysur beiad arno oddi wrth bawb. Nis gallasai eu hadeiladu hwynt i raddau mor fawr, pe gallesid eu dwyn i gredu ei fod yn cael ei ddylanwadu i ryw fesur gan egwyddorion hunangeisiol wrth bregethu yr efengyl.

8. *A ysbeiliais.*—Gair cryf, yn cael ei arfer i ddwyn allan y cyferbyniad rhwng y Corinthiaid ac eglwysi Macedonia yn y peth hwn, ac i osod cywilydd ar y cyntaf. Yr unig briodoldeb sydd yn y gair ydyw, ei fod wedi cymmeryd oddi wrth ereill yr hyn a ddylasai gael gan y Corinthiaid.

9. Y rheswm pa ham na phwysodd ar neb. Yr oedd ganddo arian yn ei feddiant pan aeth i Corinth, wedi eu cael gan eglwysi ereill, a chwanegai atynt trwy weithio â'i ddwylaw. Wedi iddynt dreulio, derbyniodd adgyflenwad gan y brodyr o Macedonia. Y mae y gair a gyfieithir *gormesais* yn dynodi pwyso yn drwm ar un.

10. *Fel y mae gwirionedd Crist ynof.*—Darllener y geiriau hyn yn debyg i lŵ, a deallir hwy felly gan Calvin a Beza, &c. Ond y mae Alford, Hodge, ac ereill, yn ymwrthod â'r golygiad. Dywedant fod yr ymadrodd yma yn gyfystyr â *Rhuf.* ix. 1; "Y gwir yr wyf yn el ddywedyd yn Nghrist." 'Yr ydwyf yn llefaru yn unol â'r gwirionedd ag y rhoddes Crist esampl o hono, pan y dywedwyf,' &c. *Ni argauir yr ymffrost hwn yn fy erbyn.*—Enghraifft o gyfieithiad llythyrenol tywyll. Y meddwl yw, 'Ni chaiff un dyn fy attal rhag y fôst hon.' Y mae ei ymffrost yn cael ei bersonoli, a sicrha yr apostol na chai neb gau ei enau (genau ei ymffrost). Ystyr y gair gwreiddiol am "argauir" ydyw "cau genau:" *Rhuf.* iii. 19. *Yn ngwledydd Achaia.*—Nid yn unig yn Corinth, ond yn holl Achaia. Yr oedd yn ewyllysgar i dderbyn tâl neu gynnorthwy gan eglwysi Macedonia; ond nid gan eglwysi Achaia. A mynega y rhesymau dros y penderfyniad hwn o'i eiddo yn yr adnodau canlynol.

12. Y mae anhawsder mawr yn cael ei deimlo yn yr adnod hon, yn enwedig yn y rhan olaf o honi. Yr esboniad a ymddengys i ni yn fwyaf naturiol yw hyn:—Y rheswm dros ei waith yn penderfynu peidio cymmeryd dim arian am ei lafur yn eglwysi Achaia oedd, fel y dygai oddi ar ei elynion bob rhith esgus dros ei gyhuddo o fod yn pregethu yr efengyl oddi ar gymmhellion hunangeisiol; ac yn hyny yr oedd yn amcanu eu gwneuthur hwythau mor hunanymwadol ag oedd efe ei hun. Dymunai roddi eu hegwyddor ar brawf. Y mae Calvin, Grotius, ac ereill, yn tybied fod y gau-athrawon yn Corinth yn pregethu yn rhad, ac mai yr achos fod yr apostol yn gwneuthur yr un peth oedd, rhag rhoddi iddynt un fantais i ymorfoleddu arno; ac felly y ceid hwy yn eu hymffrost ar yr un tir ag yntau. Yr oeddynt hwy yn ymffrostio o'u bod yn pregethu yn rhad; felly hefyd yr oedd yr apostol; ac felly yr oedd efe ar yr un tir, yn y peth hwn, a'r gau-athrawon. Y mae yr esboniad hwn yn cyddweddu yn dda â geiriau yr adnod; ond y mae y dybiaeth o'u bod hwy yn pregethu yn rhad yn groes i ffaith. Y mae yn amlwg, oddi wrth yr oll a wyddom am eu cymmeriad, ac yn enwedig oddi wrth *adn.* 20, nad oeddynt hwy yn ddigon hunanymwadol i bregethu yr efengyl yn rhad. Felly, er yr holl anhawsder, gwell genym yr esboniad cyntaf.

13. Y rheswm am benderfyniad yr apostol i dori ymaith achlysur oddi wrth y rhai a amcanent ei ddarostwng ef yw hyn. *Weithwyr twyllodrus*:—yn cymmeryd arnynt wasanaethu yr efengyl, tra yn hyrwyddo eu hamcanion eu hunain. Dan yr esgus o bregethu Crist, dyrchafent eu hunain, a llygrent ereill. Y mae yr apostol yn galw yr un rhai yn "ddrwg-weithwyr:" *Phil.* iii. 2.

14. Nid yw yn rhyfedd fod gau-apostolion yn hôni eu bod yn apostolion i Grist; o blegid y mae Satan ei hun, y creadur gwaethaf mewn

mae Satan yntau yn ymrithio yn angel goleuni.

15 Gan hyny nid mawr *yw*, er [a]ymrithio [m]ei weinidogion ef fel [n]gweinidogion cyfiawnder, [o]y rhai y bydd eu diwedd yn ol eu gweithredoedd.

16 Trachefn meddaf, Na thybied neb fy mod i yn ffol: os amgen, etto derbyniwch fi fel ffol, fel y gallwyf finnau hefyd ymffrostio ychydig.

17 Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd yn ol yr Arglwydd, eithr megys mewn ffolineb, yn hyn o fôst hyderus.

18 Gan fod [q]llawer yn ymffrostio yn ol y cnawd, minnau a ymffrostiaf hefyd.

19 Canys yr ydych yn goddef ffyliaid yn llawen, gan fod *eich hunain* yn synhwyrol.

20 Canys yr ydych yn goddef, os bydd un i'ch caethiwo, os bydd un i'*ch* llwyr-fwyta, os bydd un yn cymmeryd *genych*, os bydd un yn ymddyrchafu, os bydd un yn eich taro chwi ar *eich* wyneb.

21 Am ammharch yr ydwyf yn

[a] Act. 13. 10; Dad. 9. 11. [b] 2 Cor. 3. 9. [c] Esa. 9. 14, 15; Ier. 29. 32; Mat. 7. 15, 16; Judas 4. 10—13.

[p] 1 Cor. 7. 6, 12. [q] 2 Cor. 10. 12—18; Ier. 9. 23, 24; 1 Pedr 1. 24.

bod, yn ymrithio fel y sancteiddiaf a'r uchaf o greaduriaid. *Angel goleuni.*—Goleuni ydyw Duw, ac y mae yn trigo yn y goleuni; y mae yr angylion hefyd sydd yn sefyll ger ei fron yn cael eu cylchynu gan y goleuni hwnw. Y mae goleuni yn arwyddlun o ragoriaeth purdeb a dedwyddwch. Barna rhai, fod yma gyfeiriad at *Iob.* i. 6; ond mwy tebyg yw fod y cyfeiriad yn hollol gyffredinol at ddull y diafol yn twyllo dynolryw, o'r demtasiwn gyntaf hyd y dydd hwn. Nid ydyw byth yn ymddangos fel gelyn Duw, a chasawr trefn a dedwyddwch y greadigaeth. Ymrithiodd i'r Iesu fel un yn teimlo pryder ynghylch ei gysur a'i lwyddiant. Dangosai wybodaeth yn yr Ysgrythyrau, ac wrth ddyfynu ymadrodd ar ol ymadrodd allan o'r Hen Destament, ceisiai gan yr Iesu dywed ei fod yn teimlo parch iddynt. Daw i'r golwg weithiau fel un eiddigus dros wirionedd, a phob amser mewn rhyw rith heb law ei wir ymddangosiad ei hun. Iawn ddeall yr ymrithiad hwn o'i eiddo ydyw "gwybod ei ddichellion ef."

15. Os gall angel drwg ymddangos yn debyg i angel da, pa ham nas gall dyn drwg ymddangos fel dyn da? *Nid mawr yw:*—nid anhawdd yw *Y rhai y bydd eu diwedd:*—er eu holl ymrithiadau. *Yn ol eu gweithredoedd:*—nid yn ol eu honiadau. Yn y diwedd tynir yr hugan oddi ar eu hwynebau, pryd y deuant i'r golwg yn eu gwir gymmeriad.

16—21. Y mae yn yr adnodau hyn yn rhoddi rhesymau am y fost a fwriadai ei gwneuthur. *Yn ffol:*—yn ei waith yn ymffrostio. Y mae hunan-ganmoliaeth yn ffolineb, ac y mae hunanganmoliaeth mewn ffordd o hunan-amddiffyniad yn debyg i ffolineb. Yr oedd yr orfodaeth oedd ar yr apostol i'w ganmawl ei hun yn peri poen iddo. Y mae yn y gair *trachefn* gyfeiriad at *adn* 1. *Os amgen.*—Cyd-ddygwch â myfi fel y cyd-ddygech âg un y gwyddech ei fod yn ffol. *Finnau hefyd:*—cystal a'r gau-athrawon. *Nid ydwyf yn ei ddywedyd yn ol yr Arglwydd.*—Y golygiad a dderbynir gan lawer ydyw, fod yr apostol yn caniatau nad oedd dan ysbrydoliaeth pan yn ymffrostio.—*Bengel, Alford.* Golygiad Hodge ac ereill ydyw—Nid yn ol yr Arglwydd—nid yn gyfryw ag a nodweddai yr Arglwydd Iesu, ac sydd yn gweddu i'w ddysgyblion. Nid bostiwr oedd Crist, ac nid yw ei Ysbryd yn arwain dynion i fostio. Nid ydym yn gweled fod dim yn anghydweddol âg ysbrydoliaeth yr apostol yn y fôst a wna. Byddai yn rhaid profi yn gyntaf fod ei fôst yn bechadurus.

18. Y rheswm pa ham yr ymffrostiai: yr oedd bôst ei wrthwynebwyr yn ei osod yntau dan orfod i ymffrostio. *Yn ol y cnawd:*—ymffrostio yn yr allanol a'r amgylchiadol, megys yr enwaediad, a haniad o Abraham, &c. Gwel *Gal.* vi. 13; *Phil.* iii. 4. Neu, ymffrostio yn ol cynhyrfiadau llygredig, ac oddi ar gymmhellion annheilwng. *Minnau a ymffrostiaf hefyd:*—sef, ebe rhai, "yn ol y cnawd"—yn yr ystyr o ymffrostio yn yr allanol a'r amgylchiadol, yr hyn a wneir ganddo yn yr adnodau canlynol. Y mae yr apostol yma yn rhoddi ei hun yn lle dyn ffol.

19. Anturiai yr apostol ymffrostio, o blegid yr oedd y Corinthiaid, er cywilydd iddynt eu hunain, wedi goddef i'r gau-athrawon bostfawr ennill dylanwad arnynt. Gan mai gwaith y doeth ydyw cyd-ddwyn â'r ffol, felly y gallai y Corinthiaid, yn eu doethineb, gyd-ddwyn â'r apostol. Y mae yn y fan yma y wawdiaith fwyaf llem.

20. Hawdd y gallent ddioddef ychydig o ffolineb oddi wrth ddyn diniwed fel yr apostol, pan yr oeddynt yn dioddef gorthrwm oddi wrth y cyfryw ddrwg ddynion a'r gau-athrawon. *I'ch caethiwo.*—Gormeswyr oeddynt, yn gwneuthur y Corinthiaid yn gaethion iddynt eu hunain. *Llwyr fwyta:*—fel y Phariseaid gynt: *Mat.* xxiii. 14. Dangosir yma nad oeddynt yn gwasanaethu yr efengyl yn rhad fel Paul, ac nid yn unig hyny, ond ni foddlonent ar gynnaliaeth gysurus. *Yn cymmeryd genych.*—Cyfleithiad anghywir. Y meddwl yw, cymmeryd un yn gaeth yn ei rwyd, fel yr heliwr ei ysglyfaeth. *Yn ymddyrchafu.*—Yn codi ei hun yn falchaidd yn eich erbyn. *Eich taro chwi ar eich wyneb.*—Yr ammharch mwyaf: *Luc* xxii. 64; *Act.* xxiii. 2; 1 *Bren.* xxii. 24. "Dyma duedd yr awdurdod eglwysig hono nad ydyw yn ol yr Ysgrythyr." Y mae y dysgawdwyr yn gorthrymu yr aelodau, a hwythau yn ymostwng i bob triniaeth oddi wrthynt. Y mae hyn yn wir am berthynas yr offeiriaid Pabaidd âg aelodau eu heglwys. Y mae y wir athrawiaeth yn groes i hyn: o blegid y mae yn dysgu mai un ydyw yr holl aelodau yn Nghrist, ac nad oes yr un Arglwydd ar yr eglwys ond Crist.

21. Nid yw y cyfleithiad yn cyflwyno yr ystyr. Dichon ei fod yn debyg i hyn:—Mewn ffordd o hunan-ddiraddiad yr wyf yn dywedyd (yn caniatau) fy mod yn wan (pan yn eich plith). Yr wyf yn teimlo fy mod yn gostwng fy hun trwy addef fy mod i yn rhy wan bob amser gyda chwi i gyflawni y pethau hyn; sef, y pethau a nodir ganddo yn yr adnod o'r blaen, y rhai a

[q] 2 Cor. 10. 1, 2, 10; 13. 4. dywedyd, [r] megys pe buasem ni weiniaid: eithr yn mha beth bynag y mae neb yn hyf (mewn ffolineb yr wyf yn dywedyd) hyf wyf finnau hefyd.

Exod. 3. ; Act. 22. 8. 22 Ai [s] Hebreaid ydynt hwy? felly finnau: ai Israeliaid ydynt

[t] Gen. 17. 8, 9; Mat. 3. 9. hwy? felly finnau: ai [t] had Abraham ydynt hwy? felly finnau.

[u] 2 Cor. 3. 6; 6. 4; 1 Cor 3. 5. 23 Ai [u] gweinidogion Crist ydynt hwy? (yr ydwyf yn dywedyd

[r] 2 Cor. 12. 11, 12 yn ffol) [x] mwy *wyf* fi; mewn blinderau yn helaethach, mewn gwnai y gau-athrawon iddynt.—*De Wette, Meyer.* Fe wcir fod yr ymadrodd yn llawn gwawdiaith, fel llawer ereill yn y rhan hwn o'r epistol. Cyffelyb yw yr ystyr a roddir gan Hodge: "Y mae eich dysgawdwyr yn ddynion mawr; nid wyf fi ddim mewn cymmhariaeth â hwynt. Y maent hwy yn gryfion, ond (er cywilydd i mi fy hun yr wyf yn dywedyd) yr wyf fi yn wan." *Eithr*:—yn gyferbyniol i'r gwendid a briodolid iddo. 'Yr wyf yn gystal a neb o honynt.' Beth bynag a allant hwy, mi allaf finnau. 'Bydded iddynt hwy wneuthur eu bwriadau, mi wnaf finnau yr eiddof finnau. Ymffrostiant hwy—ymffrostiaf finnau uwch law iddynt. Os "Hebreaid ydynt hwy, felly finnau," &c.—*Hodge.*

22. Yma y dechreua yr apostol ar ei fôst. *Hebreaid* ydyw yr enw cenhedlaethol; *Israeliaid*, yr enw dwyfiywiol (*theocratic*); *had Abraham*, yn eu dynodi fel etifeddion yr addewid, a rhai yn disgwyl am y Messiah.—*Meyer.* Golyga y cyntaf eu perthynas cenhedlaethol, yr ail a'r trydydd eu perthynas grefyddol neu ysbrydol. —*Bengel.*

23. Safai yn gydradd âhwynt ar dir perthynas â'r eglwys Iuddewig, ac a'r eglwys Gristionogol. Dengys y cyntaf yn yr adnod o'r blaen—yr olaf yn yr adnod hon. *Gweinidogion Crist.*—Y cyfryw oeddynt o ran eu proffes: ac yma caniata yr apostol, er mwyn cyferbyniad rhyngddo ef a hwy, eu bod felly mewn gwirionedd. *Yr ydwyf yn dywedyd yn ffol.*—Y mae y gair gwreiddiol yma am "ffol" yn gryfach na'r un a gyfieithir felly o'r blaen yn y bennod hon. Arwydda yma un wedi colli arno ei hun ("*I say it as a madman*").—*Alford.* Defnyddia yr apostol y fath air cryf oddi ar ymwybyddiaeth o'i annheilyngdod a'i annigonedd. Dau y fath deimlad yr oedd ymffrostio yn wir boenus iddo, ac yn ymddangos yn debyg i wallgofrwydd. *Mwy wyf fi.* —Nid mwy wyf fi na gweinidog i Grist; neu fod seliau ei weinidogaeth ef yn fwy sicr nag eiddo y gau-athrawon. Wrth ei gyferbynu ei hun â hwy, dylid cofio ei fod yn caniatau eu bod hwythau yn weinidogion Crist. Y meddwl yw, nid ei fod yn uwch na bod yn weinidog i Grist, ond ei fod yn rhywbeth chwaneg na hyny; yn weinidog mewn gradd uwch, yn fwy llafurus, hunanymwadol, ac yn dioddef mwy na hwy. *Mewn blinderau yn helaethach.*—Dyma ddechreuad y prawf o'r haeriad, "Mwy wyf fi." *Mewn gwialenodiau dros fesur:*—mewn amledd a llymdosteds. *Mewn carcharau yn amlach:*—er nad yw yr *Actau* yn crybwyll ond am un tro cyn ysgrifenu yr epistol hwn.—*Alford. Mewn marwolaethau yn fynych.* —"Yr wyf beunydd yn marw," ebe fe ei hun. A dywed hefyd ei fod

[x] 1 Cor. 10. 1, 2, 10; 13. 4. alenodiau dros fesur, mewn carcharau yn amlach, mewn marwolaethau yn fynych.

24 Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais ddeugain *gwialenod* ond un.

25 Tair gwaith [y] y'm curwyd â [y] Act. 22. 24. gwiail; [z] unwaith y'm llabyddo- [z] Act. 14. 5, iwyd; [a] teirgwaith y torodd llong [a] Act. 27. 41. arnaf; noswaith a diwrnod y bûm yn y dyfnfor;

26 Mewn teithiau yn fynych; yn mheryglon llif-ddyfroedd; yn

yn cylch-arwain yn y cor,h bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu. Sonia am hyn yn *pen.* i. a iv. Cyfeirier hefyd at y lleoedd hyn: *Act.* ix. 23, yn Damascus; xiii. 50, yn Antiochia yn Pisidia; xiv. 5, 6, yn Iconium; xiv. 19, yn Lystra; xvi. 23, yn Philippi; xvii. 5, Thessalonica; xvii. 13, yn Berea; a llawer o amgylchiadau ereill nad ydym yn gwybod dim am danynt.

24, 25. Yn esbonio yr ymadroddion blaenorol. *Gan yr Iuddewon bumwaith, &c.*—Yr oedd cyfraith Moses (*Deut.* xxv. 3) yn gwahardd rhoddi mwy na deugain gwialenod; ac er mwyn ymgadw yn fanwl at lythyren y gyfraith, nid oedd yr Iuddewon yn rhoddi mwy na deugain onid un, rhag myned dros y rhif pennodedig. Crybwylla Josephus (*Hyn. Iudd.*, iv. 8—21) am yr arferiad hwn. Dywed Wolfius fod yr Iuddewon yn cadw at yr un nifer, wrth gosbi drwgweithredwyr, mewn amseroedd diweddar. Y mae y *Mishna* yn dodi y rheol i lawr gyda manyldra: dylid curo y troseddwr â'r nifer hyny o wialenodiau sydd agosaf at ddeugain. Gan fod y fflangell wedi ei gwneuthur yn dair caingc, a bod pob tarawiad yn cael ei gyfrif yn dri, nid oedd nifer y tarawiadau un amser yn fwy na thri-ar-ddeg; yr hyn a wnai ddeugain gwialenod ond un. Nid oes grybwylliad yn llyfr yr *Actau* am gymmaint ag un o'r fflangelliadau hyn. *Tair gwaith y'm curwyd â gwiail.*—Y mae *gwialenod* yn gyfieithiad anhappus o'r gair o'r blaen, gan nad yw yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng y dull yr oedd yr Iuddewon a'r dull yr oedd y Rhufeiniaid yn fflangellu—y naill â chwip o gareiau, a'r llall â gwialen neu ffon. Gan yr ynadon Rhufeinig y cafodd y driniaeth hon; ac nid yw llyfr yr *Actau* yn crybwyll ond am un o'r tair gwaith: xvi. 22, 23. *Unwaith y'm llabyddiwyd.*—Gwel *Act.* xiv. 19, pan y tybiai ei elynion ei fod wedi marw. Bu yn agos iddo a chael ei labyddio cyn hyn; ond wedi deall y bwriad, ffodd i Lystra a Derbe: *Act.* xiv. 5, 6. *Teirgwaith y torodd llong arnaf:*—am yr hyn nid oes son yn yr *Actau.* Ar ol hyn y digwyddodd y llongddrylliad ya Melita, pan oedd yr apostol ar ei fordaith i Rufain. *Noswaith a diwrnod, &c.*—Ar ryw astell o'r llong. Bu felly am ddiwrnod, cynnwysedig o bedair awr ar hugain.

26. *Mewn teithiau yn fynych.*—Y mae holl lyfr yr *Actau* yn profi hyn. *Llif-ddyfroedd:*—yn llythyrenol, *afonydd*—i'w gwahaniaethu oddi wrth "beryglon ar y môr" yn mlaen. Y mae hanes y gwiedydd a deithid gan yr apostol yn dangos y rhaid ei fod mewn peryglon mawrion wrth groesi afonydd. Yr oedd y ffordd o Jeru-

[b] Act. 20. 3, 19; 23. 12, &c. [c] Act. 19. 23—41. [d] Adn. 32; Act. 17. 5.

mheryglon lladron; [b]yn mheryglon gan *fy* nghenedl *fy hun;* [c]yn mheryglon gan y Cenhedloedd; [d]yn mheryglon yn y ddinas; yn mheryglon yn yr anialwch; yn mheryglon ar y môr; yn mheryglon ym mhlith brodyr gau:

27 Mewn llafur a lludded; mewn anhunedd yn fynych; mewn newyn a syched; mewn ympryd-iau yn fynych; mewn anwyd a noethni.

28 Heb law [e]y pethau *sydd yn digwydd* oddi allan, yr ymosod yr hwn *sydd arnaf* beunydd, [f]y gofal dros yr holl eglwysi.

[e] Adn. 23-27 [f] Act. 15. 36, 41; Rhuf. 16. 4.

29 Pwy sydd wan, nad wyf finnau wan? pwy a dramgwyddir, nad wyf finnau yn llosgi?

30 Os rhaid ymffrostio, [g]mi a ymffrostiaf am y pethau sydd yn perthyn i'm gwendid.

[g] 2 Cor. 12. 5—10. [h] 2 Cor. 1. 3; Ioan 10. 30; 1 Pedr 1. 3. [i] Neh 9. 5; Salm 41. 13.

31 [h]Duw a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, [i]yr hwn

---

salem i Antiochia, yr hon a gerddwyd fwy nag unwaith gan yr apostol, yn cael ei gorchuddio weithiau gan orlifiadau o Lebanon. Crybwylla Maundrell am un teithiwr a gollodd ei fywyd yn un o'r gorlifiadau hyn. *Peryglon lladron* :—i'r rhai yr oedd pob teithiwr yn agored. Gwel ar *Act.* xiii. 14. *Gan fy nghenedl fy hun.*—Yr oeddynt hwy wrth wraidd llawer o ymosodiad-au a wneid arno gan ereill. Yn y rhan fwyaf o droion hwynthwy oedd y cyntaf i gynnhyrfu y bobl yn ei erbyn. Felly yn Damascus (*Act.* ix. 23), yn Jerusalem (ix. 29), yn Antiochia Pisidia (xiii. 50), yn Iconium (xiv. 5), yn Lystra (14. 19), yn Thessalonica (xvii. 5), yn Berea (xvii. 13), ac yn Corinth (xviii. 22). *Gan y Cenhedloedd* :—fel yn Philippi ac Ephesus. *Yn y ddinas* :—gwel y cyfeiriadau uchod. *Yr anialwch.*—Y mae per-yglon yr anialwch yn ddiarhebol—peryglon oddi wrth yspeilwyr, newyn, syched, &c. Yr oedd Paul wedi teithio anialwch Arabia, a'r parthau mynyddig yn Asia Leiaf. *Ar y môr* :—heb law y llongddryliadau a enwyd o'r blaen. *Brodyr gau.*—Nid y meddwl ydyw, Cristionogion gau, rhagrithiol, ond gau tuag at yr apostol; er y dichon fod y cyntaf hefyd.

27. *Llafur a lludded.*—Gwel *pen.* vi. 5, ar y geiriau hyn, ac ereill yn yr adnod. "Y mae yr adnodau hyn, tu hwnt i un adran fe allai, yn ddigon i wneuthur i'r gweinidogion mwyaf llafurus yn yr oesoedd diweddaraf i guddio eu hwynebau mewn cywilydd. Pa beth erioed a wnaethant neu a ddioddefasant hwy i'w gym-mharu â'r hyn a wnaeth yr apostol? Y mae yn gysur gwybod fod Paul yn bresennol mor fynod-edig mewn gogoniant, ag ydoedd yma mewn dioddefiadau."—*Hodge.*

28. Y mae y geiriau, *Heb law y pethau sydd yn digwydd oddi allan,* yn gyfieithiad anghywir, er ei fod yn dilyn y *Vulgate.* Nid yw y gair a ddarllenir "oddi allan" byth yn meddu ar yr ystyr hwnw: gair ydyw yn dynodi eithriad, yn arwyddo "pethau ereill." Felly y meddwl yw, "Heb law pethau ereill, yr ymosod beunydd," &c. Dengys yr apostol nad oedd y cyfrifiad uchod o'i flinderau, er yn gyfrifiad helaeth, yn un cyflawn. Yr oedd ganddo bethau ereill i'w nodi. Y mae y gair a gyfieithir *ymosod,* mewn rhai awdwyr clasurol, yn dynodi yr hyn sydd yn a peri adoediad, attalfa, neu ofal, astudrwydd. Ond nid y gair a fedd yr ystyron hyn ydyw y darlleniad derbyniedig; etto dyma y darlleniad a gymmeradwyir gan Zachmann, Meyer, Alford, ac ereill. "Fy astudrwydd beunydd, y gofal dros yr holl eglwysi," ydyw darlleniad Meyer; yn mha un y mae yr ymadrodd olaf yn eglurha-ol o'r cyntaf. Os y darlleniad arall a dderbynir, y meddwl yw, "yr ymgyrchfa o bobl sydd yn mynu fy sylw beunydd." Ond dichon fod y drychfeddwl a gyfleir yn y gair Cymraeg "ym-osod" yn gywir, ar y dyb mai y darlleniad der-byniedig yw y gwir ddarlleniad. Dywed Beza: "Y mae yn sicr fod *episustasin* yn dynodi tyrfa wedi dyfod ynghyd yn erbyn un; a hyny nid unwaith, ond lawer gwaith." Y mae Raphelius yn ystyried y gair yn gyfystyr âg ymadrodd a ddefnyddir gan Cicero: "*concursus occupatio-num*"—cydgyfarfyddiad o orchwylion.

29. Y mae y "gofal," am yr hyn y sonia yr apostol yn yr adnod o'r blaen, yn cynnyrchu cydymdeimlad; yr hyn sydd yn arwain gweini-dog i Grist i gyfranogi o deimladau pawb, ac i'w ddodi ei hunan yn lle pawb, fel y gallo gyfadd-asu ei hun at bawb."—*Calvin.* Yr oedd y cyd-ymdeimlad hwn ynddo, nid yn unig yn ganlyn-iad o'r cymmundeb sydd rhwng y saint a'u gil-ydd (1 *Cor.* xii. 26), ond hefyd yn effaith y berthynas neilduol oedd rhyngddo ef a'r eglwysi a blanesid ganddo. *Pwy sydd wan?*—yn y ffydd, yn betrusgar (1 *Cor.* ix. 22), neu yn ddi-ffygiol mewn gwroldeb Cristionogol. Y mae rhai dynion sydd naill ai yn diystyru gwendidau eu brodyr, neu yn eu mathru dan eu traed. Nid yw y cyfryw rai yn deall ond ychydig am eu calonau eu hunain, ac nid oes ganddynt ond ychydig o ysbryd Paul, na'i Arglwydd. "Nid yw Duw byth yn diffodd y llin yn mygu."—*Calvin. A dramgwyddir* :—a arweinir i bechod. *Yn llosgi* :—gan sel a digofaint. Nid peth dibwys gan yr apostol oedd fod neb o'r brodyr, trwy rym esampl ddrwg neu hudoliaethau y gau-athrawon, yn cael eu llithio oddi wrth y gwir-ionedd neu i weithredu yn groes i'w proffes. Yr oedd y cyfryw beth, nid yn unig yn ei lanw â gofid o herwydd llithriad y gwan, ond hefyd â digofaint at y rhai a barent eu cwymp. Fel hyn, yr oedd ei feddwl yn cael ei gadw mewn cynnhwrf gwastadol gan ei ofalon lliosog a'i gydymdeimlad eang.—*Hodge.*

30. Cyssylltiad rhyfedd ydyw yr un sydd rhwng *ymffrost* a *gwendid.* Awgryma yr apostol yma nad oedd ei ymffrost ef yn gyffelyb i'r eiddo y gau-athrawon. Yn eu haniad, eu dysg, a'u hyawdledd—pethau y cyssylltir gallu â hwy gan y byd—yr oeddynt hwy yn ymffrostio: ond efe, ar y llaw arall, yn y pethau sydd yn awgrymu gwendid, megys dioddefiadau, newyn, noethni, pryder, &c. Penderfynai ymffrostio yn y pethau y diystyrid ef o'u plegid gan ereill fel un gwan.

31. Barna rhai y gwna yr apostol y llŵ hwn i gadarnhau yr holl adroddiad uchod o'i flinderau a'i lafur; ereill, ei fod i'w gyfynguu i'r mynegiad yn yr adnod o'r blaen, sef mai yn ei wendid yr oedd yn ac y gwnai ymffrostio; ereill, ei fod yn perthyn i'r adroddiad canlynol, y modd y dianga-odd o Damascus. I roddi mwy o debygolrwydd

sydd fendigedig yn oes oesoedd,
Adn. 1. k a ŵyr nad wyf yn dywedyd celwydd.

32 Yn Damascus, y llywydd dan Aretas y brenin a wyliodd ddinas y Damasciaid, gan ewyllysio fy nal i:

33 A thrwy ffenestr mewn basged y'm gollyngwyd ar hyd y mur, ac y diengais o'i ddwylaw ef.

yn y golygiad diweddaf, barna Meyer fod yn mwriad yr apostol roddi adroddiad helaeth o'i ddioddefiadau a'i waredigaethau, gan ddechreu gyda'r digwyddiad hwn yn Damascus; ond ei fod wedi ei attal gan rywbeth i gario y bwriad hwn allan. Ymddengys i ninnau, fel i Alford, fod y dybiaeth hon heb ddim i'w chefnogi. Barna Hodge fod cyfeiriad y cadarnhâd difrifol hwn at yr holl adroddiad uchod o'i ddioddefiadau. Bwriadai foddloni ei ddarllenwyr nad oedd yn rhoddi lliw rhy gryf, nac yn arfer gormodiaith. Gwyddai Duw nad oedd yn dywedyd celwydd, ond fod y cwbl yn wir.

32, 33. Nid yw yn hysbys pa ham y dethola yr apostol y ffaith hon allan o fysg ei ffinderau lliosog. Dichon mai am mai hon oedd yr erlidigaeth gyntaf y buasai dani [*Olshausen*]; neu, am fod rhywbeth ynglŷn â'i ffoedigaeth a allasai ei wneuthur yn agored i ddirmyg ei gaseion. Ar y ffaith, gwel *Act.* ix. 24, 25. Yr unig wahaniaeth rhwng y ddau adroddiad ydyw, y cyfrifir y cais i ddal yr apostol yn y naill, i'r Iuddewon, ac yn y llall i lywydd y ddinas. Ond y mae yr anghyssondeb yn diflanu pan gofiwn y gallasai y peth ddigwydd trwy gynnhyrfiad yr Iuddewon. Y mae hanes y terfysgoedd yn y rhan fwyaf o'r dinasoedd, yn achos yr apostol, yn gwneuthur yr eglurhâd yma yn fwy na thebygol. Nis gallasai fod gan y llywydd ei hunan un gŵyn yn erbyn Paul. *Y Wywydd.* —Gwreiddiol, *ethnarch*; gair a gymmhwysid at dywysog a fyddai dan deyrnged i lywodraethwr arall, neu lywydd pennodedig gan frenin ar ddinas neu dalaeth. Rhoddir ef ar Simon yr archoffeiriad, yr hwn oedd yn llywodraethu dan Syria; ar raglawiaid y saith tiriogaeth, i ba rai y rhanwyd yr Aipht gan y Rhufeiniaid; ac i brif ynadon yr Iuddewon, yn byw dan eu cyfreithiau eu hunain mewn gwledydd tramor. Nid yr olaf ydyw yr ystyr yma; o blegid nis gallasai ceidwadaeth y ddinas fod dan ofal prif ynadon yr Iuddewon. Yr oedd y llywydd hwn wedi ei setydlu yn Damascus gan frenin Arabia. *Aretas:* —enw cyffredin ar frenhiniaeth Arabia, fel Pharaoh ar frenhiniaeth yr Aipht. Sonia Josephus am ryfeloedd y brenin Aretas. Yr oedd un o'r enw yn cydfyw âg Antiochus Epiphanes. Yr Aretas hwn oedd dad-yn-nghyfraith Herod Antipas. Wedi i Herod ei rhoddi ymaith, cyhoeddodd ei thad ryfel yn ei erbyn, a llwyr orchfygodd ei fyddin. Ymgymmerodd Vitellius, trafnoddwr Syria, â'r gorchwyl o'i gospi am ymosod fel hyn ar Herod, yr hwn oedd dan nawdd Rhufain. ond cafodd ei luddias yn ei ymgyrch trwy farwolaeth yr ymherawdwr Tiberius. Ac fe dybir mai yn ystod yr oediad yma y darfu i Aretas, yr hwn oedd frenin Petra, ennill perchenogaeth am dymmor o Damascus. —*Hodge. A wyliodd.*—Gwel yr *Actau.* Gwylio

PENNOD XII.

1 *Er gallu o hono ef orfoleddu yn ei ddadguddiadau rhyfeddol, er mwyn gosod allan ei apostoliaeth, 9 etto y mae yn well ganddo orfoleddu yn ei wendid: 11 gan fwrw bai arnynt hwy, am ei yru ef i wag-fostio fel hyn. 14 Y mae efe yn addaw dyfo i atynt hwy drachefn, ac er hyny trwy dadol gureidrwydd, 20 er ei fod yn ofni y caiff efe yno lawer o ddrwgweithredwyr, ac annhrefn cyffredinol.*

B. A. 57.

YMFFROSTIO yn ddiau nid yw fuddiol i mi: canys myfi

y pyrth. *A thrwy ffenestr:*—agoriad yn y mur, neu ffenestr mewn tŷ oedd ar y mur. Ceir arluniau o'r cyfryw dai ar fur Damascus yn ngwaith Conybeare a Howson. Yn gyffelyb y ffodd yr yspîwyr (*Ios.* ii. 15) a Dafydd (1 *Sam.* xix. 2).

Pennod xii

1 Y golygiad cyffredin, a mwyaf naturiol, ydyw yr un canlynol:—Y mae yr apostol o'r blaen wedi llefaru unwaith ac eilwaith am ymffrostio fel ymddygiad ffol a phoenus. Amlyga yr un peth yma trwy ddyweyd nad oedd yn fuddiol: nid oedd y ffordd fwyaf buddiol i gyrhaedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg wrth ymffrostio, sef profi ei apostoliaeth. Felly, y mae yn newid ei fater; y mae yn rhoddi heibio ymffrostio, ac yn myned at beth arall. Yn lle mynegu yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd, y mae yn myned i fynegu yr hyn a wnaethpwyd iddo gan Dduw; ac nis gall hyny fod yn sail i ymffrostio: nid oes yma le i hunan-ganmoliaeth, ond i ganmawl daioni Duw. Y mae Alford yn deall y cyssyltiad yn wahanol. Barna efe mai myned yn mlaen gyda'r un mater, yn yr un llinell, y mae yr apostol. Y mae newydd gryb wyll am amgylchiad yn ei hanes a allai ei wneuthur yn wrthddrych diystyrwch; yr oedd hwn yn un o'r gwendidau yr oedd efe yn ymffrostio ynddynt. Y mae yn awr yn dyfod at amgylchiad arall; ond y mae hwn yn gyssylltiedig â dadguddiad gogoneddus a dderbyniodd gan yr Arglwydd. Y mae yn nodi y dadguddiad hwn, ond etto yn gwneuthur hyny heb ei gyssylltu âg ef ei hun, ac yn sefydlu sylw ei ddarllenwyr yn unig ar y gwendid oedd yn canlyn yr amgylchiad. Y mae Alford, gan hyny, yn ol y golygiad uchod ar gyssylltiad yr adnod, yn ei harall-eirio yn debyg i hyn:—"Ymffrostio yn wir, nid yw fuddiol i mi: canys gwelir nad yw felly, oddi wrth y ffaith yr wyf ar ei hadrodd, yn yr hon y rhoddwyd attalfa megys ar fy ffordd, fel na'm tra dyrchefid. Y mae yr amgylchiad yr wyf ar nodi adroddiad o hono yn dangos nad buddiol ydyw ymffrostio; ac y mae yr amgylchiad hwnw yn gyfryw ag y gellid caniatau ymffrost, pe bai ymffrostio rywbryd yn dda." *Weledigaethau a dadguddiedigaethau yr Arglwydd*:—sef, y rhai a dderbyniodd efe gan yr Arglwydd. Y mae y cyntaf o'r ddau air yn dynodi y dull o dderbyn yr olaf. Y mae y cyntaf yn arwyddo cenadwri yn cael ei rhoddi trwy gyfrwng y golwg, ac felly trwy ryw arwyddlun; yr olaf yn dynodi trosglwyddiad yr Ysbryd Glan i r ysbryd dynol.—*Olshausen.* "Y mae y gwahaniaeth hwn rhyngddynt. Tra y made dadguddiad yn cael ei wneuthur yn fynych mewn breuddwyd, neu trwy oracl, heb fod dim yn cael ei gyflwyno ger bron y llygaid, nid yw gweledig-

[a]Num. 12. 6. a ddeuaf at [a] weledigaethau a dadguddiedigaethau yr Arglwydd.

[b]Adn. 3, 5. 2 Mi [b] a adwaenwn ddyn yn Nghrist er's rhagor i bedair blynedd ar ddeg (pa un ai yn y corph, ni wn; ai allan o'r corph, ni wn i: Duw a ŵyr) y cyfryw *un* a gipiwyd i fyny hyd y drydedd nef.

3 Ac mi a adwaenwn y cyfryw ddyn (pa un ai yn y corph, ai allan o'r corph, ni wn i: Duw a ŵyr)

[c]Luc 23. 43. 4 Ei gipio ef i fyny i [c] baradwys, ac iddo glywed geiriau annhraethadwy, y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd.

5 Am y cyfryw *un* yr ymffrost-

---

aeth braidd byth yn cael ei rhoddi heb ddadguddiad; neu, mewn geiriau ereill, heb i'r Arglwydd amlygu pa beth a osodir allan ynddi."—*Calvin.*

2. Llefara yr apostol am dano ei hun yn y trydydd person. Nid yw yn dyweyd mai efe ei hun a gipiwyd hyd y drydedd nef, &c.; etto, y mae yn amlwg, oddi wrth *adn.* 7, mai am dano ei hun yr oedd yn llefaru: ac yr oedd hyny yn eithaf hysbys i'r Corinthiaid. "Y mae yn llefaru am yr hyn a gymmerodd le fel pe na buasai efe yn fwy na llygad-dyst, a hyny fe allai am nad oedd efe mewn un gradd yn weithredydd yn yr amgylchiad."—*Hodge.* Cyffelyb ydyw Edward— "Y mae yn amlwg y bwriedir gwrthgyferbyniad rhwng y person a gafodd ei ogoneddu fel hyn, ag efe ei hun, yr hwn oedd yn eiddil a blinderus o herwydd y swmbwl oedd yn ei gnawd. Nid oedd y gogoniant yn perthyn iddo ef; ond yr oedd y gwendid. Mor bell yr oedd y gogoniant o fod yn perthyn iddo ef, fel nas gwyddai pa un ai yn ai allan o'r corph yr ydoedd ar y pryd. "Onid y *myfi*, yn gyfansawdd o gnawd ac ysbryd (*Rhuf.* vii. 25), oedd deiliad y gogoneddiad hwn, ond mewn ffurf arall, megys, o'i bersonoliaeth, yn gyfattebol i'r ffurf fydd genym wedi ein diosg o'r corph." Dywed Calvin:—"Pa ham y mae yr apostol yn llefaru yn mherson un arall yn hytrach nag yn ei berson ei hun? Y mae fel pe dywedasai, 'Buasai yn dda genyf fod yn ddistaw — dewisaswn gadw yr holl hanes yn ddirgel o fewn i'y meddwl fy hun: ond ni oddefa fy ngwrthwynebwyr hunan-geisiol i mi wneyd felly. Mi a grybwyllaf y peth, gan hyny, mewn dull petrusgar, fel y gellir gweled fy mod yn llefaru dan anhawsder.' Dylid cofio mai nid yn y dadguddiad y mae yr apostol yn ymffrostio ond y gwendid a ddilynodd y dadguddiad." *Ddyn yn Nghrist.*—Cristion: un sydd yn sefyll mewn undeb â Christ. *Er's rhagor i bedair blynedd ar ddeg.*—Y mae y geiriau i'w cyssylltu âg "a gipiwyd," nid â "dyn yn Nghrist." *Pa un ai yn y corph,* &c.—Barna Alford fod yn amlwg y tueddai yr apostol i dybied yr olaf; sef, mai allan o'r corph yr oedd: felly y cipiwyd ei ysbryd o'i gorph. Dangosir yma fod y nefoedd yn lle neilltuol; ac fod yr apostol yn barnu y gall yr ysbryd fod yn ymwybodol allan o'r corph. *A gipiwyd.*—Y gair priodol i ddynodi symmudiad un o'r naill le i'r llall, heb weithrediad nac ewyllysiad ar du y dyn ei hun. *Hyd y drydedd nef.*—Nid oedd y cyfryw ddosbarthiad yn mysg yr Iuddewon: sonient hwy am saith nefoedd. Deallir yma radd uchel o ddyrchafiad nefol.—*Alford.* Dywed Hodge nad oes sail fod opiniynau y dysgawdwyr Iuddewig am saith nefoedd yn ffynu yn amser Paul: nad oes genym le i feddwl fod yr ysgrifenwyr sanctaidd yn cymeradwyo eu dosbarthiad; a bod yn amlwg fod y "drydedd nef" a "pharadwys" yn meddwl yr un peth. "Y mae y ddau air yn arwyddo yr un peth:—tiriogaeth fwyaf dyrchafedig goleuni presennoldeb digyfrwng Duw."—*Olshausen.* Dywed Calvin:—"Defnyddir y gair 'y drydedd nef,' mewn ffordd o ragoriaeth, i ddynodi yr hyn sydd oruchaf a chyfiawnaf. Y mae hyd yn oed y gair *nef*, arno ei hun, yn arwyddo teyrnas fendigedig a gogoneddus Duw; yr hon sydd goruwch yr holl nefoedd—yr holl ffurfafen, holl gyfanwaith y bydysawd. Ond nid yw yr apostol yn foddlawn i ddefnyddio y gair syml *nef*, ond yn chwanegu ei fod wedi cyrhaedd yr uchelion mwyaf dyrchafedig."

4. *I baradwys.*—Gair o wreiddyn Sanscritaidd, yn arwyddo *gardd.* Defnyddir ef yn y Deg a Thrigain, yn *Gen.* ii. 8, yn y disgrifiad o Eden fel yn gyfystyr â gardd. Dywed Barnes fod y gair yn y Sanscrit yn golygu tir uchel, diwylliedig; yn yr Armaenaeg, gardd o gwmpas tŷ, wedi ei phlanu o goed a llysiau, er ymborth a phryderthwch; yn iaith Persia, gerddi pleser a pharciau, â gwyllt-filod ynddynt, oddi amgylch tai gwiad brenhinoedd a thywysogion. Tair gwaith y digwydda y gair yn y Testament Newydd: *Luc* xxiii. 43; *Dad.* ii. 7; ac yn y lle hwn. Yr oedd paradwys yr Iuddewon yn arwyddo yr ochr hyfrydol o Hades neu Scheol—y lle yr oedd ysbrydoedd y cyfiawnion yn aros hyd yr adgyfodiad. Nid y baradwys yma a feddylia Paul; ond y baradwys y llefara Crist ar ys groes am dani, i'r hon yr oedd ei ysbryd ef ar fyned. *Y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn.*—Geiriau yn cael eu gweini gan Dduw, ond nid i'w hadrodd i ereill; ac felly yn cael eu bwriadu, fel y gellid meddwl, er cysur a chynnaliaeth i'r apostol ei hun. O ba fath oeddynt, neu gan bwy y cawsant eu llefaru, ni roddir i ni un awgrym; a byddai yn waeth na segurwaith i ni geisio dyfalu.—*Alford, Calvin.* Yr oedd y geiriau hyn yn annhraethadwy, ond nid ynddynt eu hunain. Pe felly, nis gallasai Paul eu clywed; ond nid oeddynt i gael eu llefaru gan ddyn, ac felly nid gan Paul ei hun. Pwy a lefarodd y geiriau? Ai Duw, Crist, angel neu angylion, ynte ysbrydoedd y cyfiawnion? Ac i bwy? Nid yw Paul yn dywedyd, os gwyddai. Diammheu eu bod yn eiriau o arddunedd mawr; o blegid nid yw yr oll o eiriau y nef yn annhraethadwy (*Exod.* xxxiv. 6; *Esa.* vi. 3), ac etto y maent yn dra gogoneddus ac arddunol. Arferir y geiriau *cyfreithlawn* a *phossibl* am yr hyn na waherddir gan y peth ei hun, na chan y gyfraith. Felly y mae *geiriau annhraethadwy* ac *nid yw gyfreithlawn* yn esbonio eu gilydd, ac yn cadarnhau naill ai nas gall dyn lefaru y geiriau hyn, neu nad yw gyfreithlawn iddo wneuthur hyny. Nis gall y rhai ni chlywsant hwynt eu hadrodd, ac nis gallai Paul, yr hwn a'u clywodd, eu hadrodd; a phe buasai yn alluog, ni byddai gyfreithlawn; ni byddai yn briodol yn y sefyllfa lion o farwoldeb; am nad allai trigolion y ddaear eu deall. —*Bengel.*

5. Y mae yma drachefn yn taraw cyweirnod yr holl ymdriniaeth—yn ymffrostio yn ei wendid.

iaf; eithr am danaf fy hun nid ymffrostiaf, oddi eithr yn fy ngwendid.

6 Canys os ewyllysiaf ymffrostio, ni byddaf ffol; canys mi a ddywedaf y gwir: eithr yr wyf yn arbed, rhag i neb wneuthur cyfrif o honof fi uwch law y mae yn gweled fy mod, neu yn ei glywed genyf.

7 Ac fel na'm tra-dyrchafer gan odidowgrwydd y dadguddiedigaethau, rhoddwyd i mi [d]swmbwl yn y cnawd, [e]cenad Satan, [f]i'm cernodio, fel na'm tra-dyrchefid.

8 Am y peth hwn [g]mi attolygais i'r Arglwydd deirgwaith, ar fod iddo ymadael â mi.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf,

[d] Gal. 4. 13, 14.
[e] 1 Cor. 5. 5.
[f] Mat. 2. 67.
[g] 1 Sam. 15. 11; Mat. 26. 39—44.

Ymffrostia am y cyfryw un, wedi ei ffafrio a'i ddyrchafu yn y fath fodd; ond nid ydyw yn gwneuthur hyn ond megys wrth fyned heibio: nid hyn yw ei fater. Dygwyd hyn i mewn yn benaf i ddwyn ger bron y gwendid a ddilynai. —*Alford.*

6. *Ni byddaf ffol*:—byddai genyf sail ddigonol i ymffrostio. *Yn arbed*:—yn ymattal rhag ymffrostio Ac yna dywed y rheswm pa ham yr ymattaliai—rhag iddo ymddangos fel un yn isbrisio y cyfryw destyn ymffrost ag a noda yn yr adran hon; sef, gweledigaethau a dadguddiedigaethau yr Arglwydd. Y rheswm oedd ganddo dros beidio ymffrostio yn yr amgylchiad hwn a rhai cyffelyb oedd, y dymunai gael ei farnu oddi wrth y pethau a welent ynddo ac a glywent am dano gan ereill. "Ni ddymunai gael ei farnu oddi wrth yr hyn a ddywedai am dano ei hun, ac am ei brofiadau. Dewisai i ddynion farnu am dano oddi wrth yr hyn a welent ac a glywent."—*Hodge.*

7. Megys y penderfynai yr apostol i beidio rhoddi achlysur i ereill feddwl yn rhy uchel am dano, felly hefyd y dywed fod Duw wedi gofalu na byddai iddo ymddyrchafu yn ormodol yn ei feddwl ei hun. Dyrchefir meddyliau dynion am danynt eu hunain yn gymmaint gan y sylw a wneir o honynt gan eu huchafiaid, a chan eu meddiant o fanteision personol. — *Hodge. Rhoddwyd i mi*:—gan Dduw; a chan Dduw yr attolygai am ryddhâd. *Swmbwl yn y cnawd*:—neu, *yn fy nghnawd*. Saesneg, *thorn*—draen. Y mae y gair gwreiddiol yn arwyddo y naill a'r llall. Ei ystyr briodol ydyw swmbwl, neu ffon flaenllym; ac yna, draen. Y mae rhai, fodd bynag, yn dewis y darlleniad Cymraeg; felly Calvin: dywed i'r gymmhariaeth gael ei chymmeryd oddi wrth yr arferiad o symbylu ychain wrth aredig. Y mae ereill yn deall y gair yn gyfystyr âg ystange, neu groes, y dodid drwgweithredwyr arni. Ond y drychfeddwl a gyfleir yn y darlleniad Saesneg a gymmeradwyir yn fwyaf cyffredinol, er fod awdwr yr erthygl ar *Paul* yn *Smith's Dict. of the Bible*, yn sefyll dros y darlleniad Cymraeg. *Cenad Satan*:—nid, fel y myn rhai, *angel Satan*, gan ystyried y ddau air mewn atosodiad—angel, yr hwn yw Satan. *I'm cernodio.*—Y mae yr amseriad presennol yn dangos fod hyn yn beth a ddioddefai yr apostol yn barhaus. *Fel na'm*, &c.—Amcan Duw yn goddef i'r apostol gael ei boenydio fel hyn. Ni wyddys yn sicr pa beth oedd y swmbwl. Amlwg yw fod profiad personol y gwahanol esbonwyr, neu yr ysgol y perthynent iddi, yn dylanwadu ar eu barn, wrth geisio cael hyn allan. Barna rhai mai hudoliaethau y diafol a feddylir:—meddyliau cableddus, ebe Gerson a Luther. Dioddefai yr olaf lawer ei hun oddi wrth y cyfryw feddyliau; nid oedd dim yn ei folestu yn gymmaint, ac felly naturiol oedd iddo dybied mai yr un peth oedd blinder penaf yr apostol Gwrthddadl ddigonol i'r dybiaeth yma ydyw, fod yn anhawdd deall pa fodd y gallasai yr apostol ymffrostio yn y gwendid hwn; a pha fodd yr oedd yr hudoliaethau ysbrydol hyn yn wendid yn ei gnawd, neu ei gorph. Barna amryw o'r esbonwyr Pabaidd mai temtasiynau tanllyd i chwantau cnawdol oedd y swmbwl; ond ni cheir dim yn hanes na llythyrau yr apostol i brofi ei fod yn fwy agored nag ereill i'r cyfryw demtasiynau. Ereill a dybiant mai gwrthwynebiad oddi wrth gaseion, ac oddi wrth ryw un yn neilduol, oedd y swmbwl. Felly Calvin, Beza; ac yn ddiweddar, Tritzsche. Y dybfwyaf tebygol yw mai rhyw boen corphorol neilduol a olygir. Y mae yr esbonwyr diweddaraf yn cyttuno â'r tadau yn y golygiad hwn; ettо, pa fath boen, nid yw yn hysbys:—poen yn y pen, ebe rhai; pruddglwyf, ebe ereill; poen llym yn y llygaid, ebe ereill. Cyfeirir at amryw fanau a roddant gefnogaeth ymddangosiadol i'r golygiad olaf: *Act.* xiii. 9; xxiii. 1; *Gal.* iv. 13—15. Ond y mae Alford, ac ereill, yn gwrthod y ddau olygiad olaf, am nad ydynt yn cyfatteb i'r awgrym a roddir yn y gair "swmbwl" o ryw boen llym, arteithiol. Y mae *Gal.* iv. 14, yn cefnogi y golygiad mai poen corphorol ydoedd; ettо y mae pob cais i gael allan pa fath boen yn aflwyddiannus. Ac fe addefa y darllenydd nad yw o bwys pa fath. Y mae y nodiad canlynol o eiddo Macknight yn werth ei ddyfynu:—"Yr wyf yn dilyn Whitby, Barrington, Benson, ac ereill, wrth feddwl mai y swmbwl yn nghnawd yr apostol oedd rhyw wendid corphorol wedi ei achosi gan ei gipiad hyd y drydedd nef, a'r hwn trwy effeithio ar ei edrychiad, ei ystum, a'i ymadrodd, a wnai ei ddull o lefaru yn llai cymeradwy. Yr ydym, yn y cyffelyb fodd, yn darllen fod y dadguddiadau a roddwyd i Daniel yn achosi i'w wynebpryd newid ei wedd (vii. 28), ac yn ei ddwyn i aflechyd (viii. 27). Yn gydunol â'r adroddiad am swmbwl yn ei gnawd, y mae yr apostol yn *Gal.* iv. 14, yn son am ei brofedigaeth yn ei gnawd, yr hon ni ddiystyrid gan y Galatiaid. Yr oedd Moses hefyd yn ofni y byddai i'w ddull o lefaru ei wneuthur yn genad hollol anghymmhwys at Pharaoh: *Exod.* iv. 10."

8. *Am y peth hwn.*—Gyda golwg ar hyn, neu hwn. Gall y rhagenw fod yn y gwrywaidd neu y canolryw. Os yr olaf, arwydda, "Gyda golwg ar y traflod hwn;" os y cyntaf, "Gyda golwg ar y cenad hwn," sef cenad Satan. Yr olaf a dderbynir yn gyffredin, ar gyfrif y gair "ymadael" yn y canlyniad. *Deirgwaith.*—Yr un modd a'i Arglwydd yn Gethsemane. "Ni roddwyd iddo attebiad y tro cyntaf, na'r ail, ond daeth y drydedd waith; a darfu i'w ymostyngiad ffyddlawn i ewyllys Duw ei luddias i atolygu drachefn."—*Meyer.*

9. *Ac efe a ddywedodd wrthyf.*—Y mae y ferf

[a] Ios. 1. 9; Esa 43. 2; Luc 21. 15; Col. 1 28, 29; Heb. 4. 16; [b] Saim 8. 2; Dan. 10. 16–19; Eph. 3. 16. [c] 2 Cor. 11. 30. [d] Mat. 28. 18, 20; 1 Pedr 4. 13. [e] 2 Cor. 7. 4; Act. 5. 41. [f] Mat. 5. 11; Luc 6. 22; Ioan 15. 21; 1 Cor. 4. 10; Dad. 2. 3. Eph. 6. 10. [g] 2 Cor. 11. 5; 1 Cor. 3. 4–7. 29; Gal. 2. 6–14. [h] 2 Cor. 6. 4–10; Rhuf 15. 18, 19; 1 Cor. 1. 5–7; 9. 2; 14 18.

Digon i ti fy ngras i: [i] canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid. Yn llawen iawn gan hyny yr [k] ymffrostiaf fi yn hytrach yn fy ngwendid, fel [l] y preswylio nerth Crist ynof fi.

10 Am hyny [m] yr wyf yn foddlawn mewn gwendid, mewn amharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau [n] er mwyn Crist: [o] canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn.

11 Mi a aethum yn ffol wrth ymffrostio; chwychwi a'm gyrasoch. Canys myfi a ddylaswn gael fy nghanmawl genych chwi: [p] canys ni bûm i ddim yn ol i'r apostolion penaf, er nad ydwyf fi ddim.

12 [q] Arwyddion apostol yn wir a weithredwyd yn eich plith chwi, mewn pob amynedd, mewn arwyddion, a rhyfeddodau, a gweithredoedd nerthol.

13 Canys beth yw yr hyn y buoch chwi yn ol am dano, mwy na'r eglwysi ereill, oddi eithr [r] am na bûm i fy hun ormesol arnoch? maddeuwch i mi hyn o gam.

14 Wele, y drydedd waith yr wyf fi yn barod i ddyfod atoch; ac ni byddaf ormesol arnoch: [s] canys nid ydwyf yn ceisio yr eiddoch chwi, ond chwychwi: canys ni ddylai y plant gasglu trysor i'r rhieni, ond y rhieni i'r plant.

15 A [t] myfi yn ewyllysgar iawn a dreuliaf, ac a ymdreuliaf, dros eich eneidiau chwi, [u] er fy mod yn eich caru yn helaethach, ac yn cael fy ngharu yn brinach.

[i] 2 Cor. 11. 8; 9; 1 Cor. 9. 6, 15–18. [k] Diar. 11. 30; Act. 20. 33; Phil. 4. 1, 17; 1 Thes. 2. 5, 6, 19, 20; 1 Pedr 5. 2, 4. [l] 2 Cor. 2. 3; 7. 3; Ioan 10. 10, 11; Gal. 4. 19; Phil. 2. 17; Col. 1. 24; 1 Thes. 2. 8; 2 Tim. 2. 10. [m] 1 Cor. 4. 8, 18.

yn yr amser perffaith—"*he hath said.*" Barna Alford nad yw yn cyfieu syniad gwahanol yma na'r *historical aorist*—yr amser gorphenol. Ond y mae Hodge yn sefyll dros rym yr amser perffaith, yr hwn sydd yn cyssylltu y gorphenol â'r presennol. "Yr oedd yr attebiad, nid yn rhywbeth yn unig yn y gorphenol, ond yn beth oedd yn parhau yn ei allu cysurlawn." *Canys fy nerth i*, &c.—Y rheswm dros fod gras Crist yn ddigon iddo. Nid yw ffyrdd Duw yn gyffelyb i ffyrdd dyn: nid yr un fath y perffeithir gallu Crist ag y perffeithir gallu dyn. Mewn gwendid y llawn amlygir y gallu dwyfol. "Gwendid ydyw y teleirau ar ba rai y dadguddir ei allu. Po wanaf fyddo ei bobl, mwyaf eglur fydd ei nerth yn eu cynnal a'u gwaredu."—*Hodge.* *Yr ymffrostiaf fi yn hytrach yn fy ngwendid.*—Dylasai "yn hytrach" fod o flaen y gair "ymffrostiaf:"—"Yn llawen iawn gan hyny yn hytrach yr ymffrostiaf," &c. Nid ymffrostio yn ei wendid yn hytrach nag yn y dadguddiadau a gafodd, neu mewn pethau ereill; ond dewisai yn hytrach ymffrostio yn ei wendid nag attolygu am waredigaeth. Os oedd ei wendid yn achlysur i Grist amlygu ei allu, yr oedd Paul yn llawen yn ymffrostio yn ei wendid. *Fel y preswylio.*—Y mae y gair "preswylio," a welir yma, yn arwyddo *pabellu.*

10. *Am hyny.*—Am fod nerth Crist yn cael ei berffeithio yn ei wendid.

11. *Gael fy nghanmawl.*—Pe gwnaethai y Corinthiaid eu dyledswydd trwy ei amddiffyn yn ngwyneb cyhuddiadau y gau-athrawon, ni buasai angen am iddo ei amddiffyn ei hun, ac ni osodasid ef dan rwymau i ymffrostio. *Apostolion penaf.*—Pwy a feddylir wrthynt? Barna Olshausen, Alford, &c., mai y gau-apostolion a feddylir, fel y barnant mai hwy a feddylir hefyd yn *pen.* xi. 5. "*These surpassers of the apostles,*" ydyw darlleniad Alford. Dywed fod amseriad y ferf yn cefnogi y golygiad hwn. *Ni bûm.*—I'an oeddwn gyda chwi, nid oeddwn mewn dim yn ol i'r apostolion penaf—i'r rhai a dybient eu hunain uwch law yr apostolion. Ond ni chaf-odd y Corinthiaid gyfleusdra i gymmharu Paul â'r gwir apostolion ereill. Ond y mae Hodge, ar y llaw arall, yn golygu mai y rhai penaf o'r gwir apostolion, megys Pedr, Iago, ac Ioan, y rhai a elwir yn golofnau (*Gal.* ii. 9), a feddylir yma, yn gystal ag yn *pen.* xi. 5; ond yma yn fwy amlwg nag yno. *Er nad ydwyf fi ddim.*—Cyffelyb i 1 *Cor.* xv. 9—11.

12. Prawf nad oedd ddim yn ol i'r apostolion penaf. *Yn wir.*—Y mae y gair gwreiddiol a gyfieithir "yn wir," yn cael ei ddilyn yn gyffredin gan eiryn arall, *de*, mewn gwrthgyferbyniad a ddeallir yma ydyw—Arwyddion apostol yn wir a weithredwyd yn eich plith chwi, *ond* ni chydnabuasoch chwi hwynt. Arwyddion apostol oedd y profion hyny o osodiad yn y swydd. Ar arwyddion apostol, gweler y lleoedd canlynol: *Gal.* i. 12; 1 *Cor.* ii. 10–13; ix. 2; xii. 29; xiv. 37; xv. 3; 2 *Cor.* iii. 2, 3; *Gal.* ii. 8. *Mewn pob amynedd.*—Nid oedd amynedd yn un o'r arwyddion; ond gweithredwyd yr arwyddion yn y cyfryw amgylchiadau ag a alwent am ddianwadalwch ac amynedd. "Amynedd oedd yr elfen yn mha un y gweithredwyd yr arwyddion."—*Alford.*

13. Gofynwyd y cwestiwn hwn gyda gwawdiaith lem. *Hyn o gam.*—Yr oedd peidio cymmeryd tâl am ei lafur gan y Corinthiaid yn ymddangos fel sarhâd arnynt—fel diffyg nyder ganddo yn eu haelioni tuag atynt. Dengys yr apostol yn y bennod o'r blaen nad ydoedd felly mewn gwirionedd.

14. *Y drydedd waith.*—Perthyna y geiriau i "i ddyfod"—nid i "yn barod." Heb law yr adnod hon, y mae adnodau ereill yn rhoddi ar ddeall y buasai yr apostol cyn hyn ddwywaith yn Corinth. Gwel *pen.* xiii. 1. *Canys ni ddylai*, &c.—Paul oedd tad ysbrydol y Corinthiaid: felly ni fynai ei gyfoethogi ei hun ar eu traul; ond fel tad, drysori iddynt hwy. Yn hytrach na bod ei waith yn ymwrthod â thal oddi wrthynt yn arwyddo diffyg cariad ar ei du ef tuag atynt, y mae yma yn dangos mai oddi ar ei gariad tadol yr oedd hyn yn codi.

15. Y mynegiad cryfaf o gariad anhunangar. Nid yn unig yr oedd yr apostol yn foddlawn i roddi ei eiddo, ond ei hunan, ei nerth a'i fywyd, iddynt, a hyny er cael ei garu yn brinach ganddynt. *A dreuliaf*:—fy meddiannau. *A ymdreuliaf*:—se', ei nerth yn cael ei dreulio. *Yn*

16 Eithr bid, ni phwysais i arnoch: ond, gan fod yn gyfrwys, mi a'ch deliais chwi trwy ddichell.

[r] 1 Cor. 4.17. 17 A [x] wnaethum i elw o honoch chwi trwy neb o'r rhai a ddanfonais atoch?

18 Mi a ddeisyfais ar Titus, a chydag *ef* mi a anfonais frawd: a [y] 2 Cor 8. 6, 16—23. alwodd Titus ddim arnoch? [y] onid yn yr un ysbryd y rhodiasom? [z] Rhuf. 4.12. onid [z] yn yr un llwybrau?

19 Drachefn, a ydych chwi yn tybied mai ymesgusodi yr ydym wrthych? ger bron Duw yn [a] 1 Cor. 9. 12 —23. Nghrist yr ydym yn llefaru; [a] a phob peth, anwylyd, er adeiladaeth i chwi.

20 Canys ofni yr wyf, rhag pan [b] 2 Cor. 13. 9. [c] 2 Cor. 2. 1-3; 10. 2, 6, 8, 9; 13. 2, 10; 1 Cor. 4. 18 —21; 5. 3-5. ddelwyf, [b] na'ch caffwyf yn gyfryw rai ag a fynwn, [c] a'm cael innau i chwithau yn gyfryw ag nis mynech: rhag *bod* cynbenau, cenfigenau, llidiau, ymrysonau, goganau, hustyngau, ymchwyddiadau, anghydfyddiaethau:

21 Rhag, pan ddelwyf drachefn, [d] fod i'm Duw fy narostwng yn eich plith, ac i mi ddwyn galar dros lawer, y rhai a bechasant eisoes, [e] ac nid edifarhasant am yr aflendid, a'r godineb, a'r anllad-rwydd a wnaethant. [d] 2 Cor. 8. 24 & 9. 3, 4. [e] 2 Cor. 2. 5-11; 7. 9-11; 10. 6; 1 Cor. 6. 9—11; Rhuf. 2. 20—23

PENNOD XIII.

1 *Y mae efe yn bygwth pechaduriaid dieifeirio' â thoster a gallu ei apostoliaeth: 5 a chan eu cynghori hwynt i brofi eu ffydd, 7 ac i ddiwygio eu beiau cyn ei ddyfod ef,* 11 *y mae efe yn diweddu ei epistol, trwy eu hannog hwy yn cyfredinol, a gweddio.*

B. A. 60. — [a] Deut. 17. 6. Y DRYDEDD waith hon yr ydwyf yn dyfod atoch. [a] Yn ngenau dau neu dri o dystion y bydd safadwy pob gair.

brinach.—Y mae cariad yn disgyn, yn hytrach nag yn esgyn,—*Bengel.*

16. *Eithr bid, ni phwysais i arnoch.*—Eithr caniataer y ffaith na phwysais i arnoch. *Ond, gan fod yn gyfrwys, mi a'ch deliais chwi trwy ddichell.*—Gwna yr apostol dybiaeth arall, a allai fod, ac fe allai ydoedd, yn wrthddadl gan ei wrthwynebwyr; os nad oedd efe ei hun yn pwyso arnynt, etto ei fod yn gwneuthur hyny yn ddichellgar trwy ereill. "Y mae y dybiaeth hon yn dangos beth oedd cymmeriad ei wrthwynebwyr yn Corinth. Y mae y ffaith ei fod yn gweled yn angenrheidiol ymgadarnhau yn ngwyneb cyhuddiadau mor isel a disail, yn brawf o ddoethineb ei waith yn peidio rhoddi yr achlysur lleiaf i'r cyfryw wrthymgeiswyr i ammheu purdeb ei gymmhelliadau."—*Hodge.*

17, 18. Appelia yr apostol at ffeithiau, er profi nad oedd neb o gynnorthwywyr yr apostol, mwy nag efe ei hun, wedi derbyn dim gan y Corinthiaid. Ni elwodd Titus, ei brif gydweithiwr, na'r brawd a anfonodd yr apostol gydag ef, ddim arnynt. Yr anfoniad hwn ar Titus a'i gydymgyrch yn un a nodir yn *pen.* viii., i'r dyben o wybod pa beth oedd effaith y llythyr cyntaf ar yr eglwys.

19—21. Amcana yr apostol yma ddileu dau gamsyniad o feddyliau y Corinthiaid; sef, ei fod yn ymddiheuro ger eu bron fel barnwyr, neu fod amcan ei ddiheurad yn hunanol. Cywira y naill trwy ddyweyd mai "ger bron Duw yr oedd yn llefaru," fel yn gyfrifol yn unig iddo ef; cywiria y llall trwy ddyweyd mai "er adeiladaeth iddynt hwy," ac nid er ei ddyrchafiad ei hunan. Y mae y geiriau, "Drachefn a ydych chwi yn tybied mai ymesgusodi yr ydym wrthych," yn mhell o drosglwyddo grym y gwreiddiol. Mynegiad sydd yn y geiriau, ac nid gofyniad. Darllena Alford, "Yr ydych wedi bod am amser (yn ystod fy hunan-amddiffyniad) yn tybied mai wrthych chwi yr wyf yn amddiffyn fy hun." *Canys ofni yr wyf.*—Amcanai at eu hadeiladaeth, am yr ofnai nad oedd eu sefyllfa yn gyfryw ag y dymunai. Ofnai rhag bod y drygau y cyfeiriwyd aml waith atynt yn yr epistol yn bod etto yn eu mysg. *Ymrysonau.*—Alford: "*self-seekings.*" *Goganau, hustyngau:*—"*open detractions and secret calumnies.*"—*Hodge.* Y mae yn amlwg fod cyfeiriad y geiriau hyn at y rhan ystyfnig o'r eglwys. *Fy narostwng yn eich plith.*—Nid oedd dim yn fwy o orfoledd i'r apostol na llwyddiant ei bregethiad; na dim, ar y llaw arall, yn peri mwy o dristwch iddo na gweled fod ei lafur wedi troi yn ofer.—*Beza. Yn eich plith*:—gyda golwg arnoch.

Pennod XIII.

1—10. Wedi iddo o'r blaen gynghori a rhybuddio y rhai anufudd yn Corinth, y mae yma yn mynegu ei fwriad o roddi prawf ar ei awdurdod apostolaidd; etto, y mae yn eu hannog i beidio ei osod dan orfod i wneuthur y prawf hwn.

1. Ystyr amlwg a naturiol y geiriau ydyw y buasai yr apostol ddwywaith eisoes yn Corinth, a'i fod ar fyned yno y drydedd waith. Nid yw y ffaith na chrybwyllir onid am un ymweliad yn yr Actau yn un prawf na fu yno dro arall. *Yn ngenau dau neu dri o dystion,* &c.—Ni ellid condemnio neb dan y gyfraith oddi eithr ar dystiolaeth dau neu dri: *Num.* xxxv. 30; *Deut.* xvii. 6; xix. 15. Gan fod y gyfraith hon yn gorphwys ar egwyddor uniawn, cadarnheir hi hefyd yn y Testament Newydd: *Mat.* xviii. 16; *Ioan* viii. 17; *Heb.* x. 28; 1 *Tim.* v. 19. Amcan y geiriau yma ydyw, fod yr apostol yn dadgan ei benderfyniad i lynu yn fanwl, wrth weinyddu dysgyblaeth, wrth y rheol a osodir i lawr gyda golwg ar dystiolaeth yn yr Hen Destament. "Nid yw yr apostol yn y mater hwn yn meddwl am ymddibynu ar ddadguddiad digyfrwng, ond ar dystiolaeth dyniol."—*Bengel.* Y mae rhai, fodd bynag, yn cyssylltu y geiriau â'i dri ymweliad â hwynt. "Gan gyfeirio at *Deut.* xvii. 6, &c., y mae yn dwyn yn mlaen y ffaith o'i bresennoldeb yn eu mysg amryw droion, fel tyst o'i blaid i brofi gwirionedd ei annogaethau, ac fel dadl dros iddynt ymostwng iddo."—*Olshausen.* Felly hefyd Calvin:—"Dywed wrthynt y bydd ei dri dyfodiad atynt fel yn cymmeryd lle tri o dystion." Ond pa fodd y mae tri dyfodiad yn gyfwerth â thystiolaeth tri thyst?

2 Rhagddywedais i chwi, ac yr ydwyf yn rhagddywedyd fel *pe bawn* yn bresennol yr ail waith, ac yn absennol yr awr hon yr ydwyf yn ysgrifenu at y rhai a bechasant eisoes, ac at y lleill i gyd, os deuaf drachefn, nad arbedaf:

2 Cor. 10. 8—10.

3 Gan [b] eich bod yn ceisio profiad o Grist yr hwn sydd yn llefaru ynof, yr hwn tuag atoch chwi nid yw wan, eithr sydd nerthol ynoch chwi.

4 Canys er [c] ei groeshoelio ef o [d] nerth Duw: canys [d] ninnau hefyd ydym weiniaid ynddo ef, [e] eithr byw fyddwn gydag ef trwy nerth Duw tuag atoch chwi.

[c] Luc 22. 43, 44; Ioan 10. 18. [d] 1 Cor. 2. 3. [e] Act. 3. 16.

2. Darlleniad cywir y rhan gyntaf o'r adnod, yn ol Alford ac ereill, ydyw:—"Yr wyf wedi eich rhagrybuddio, ac yr wyf yn awr yn eich rhagrybuddio, fel y gwnaethum pan yn bresennol yr ail waith, ac yr wyf yn gwneuthur yr awrhon yn absennol," &c. *At y rhai a bechasant eisoes*:—yr un a *pen.* xii. 21. Nid a bechasant yn flaenorol i ail ymweliad yr apostol â Chorinth: ond y rhai oeddynt yn adnabyddus hyd yma fel rhai anufudd ac ystyfnig. "Yr oedd yr apostol wedi sylwi fod lliaws o aelodau eglwys Corinth heb ffieiddio yn briodol eu pechodau paganaidd blaenorol, gan fod yn rhy benrydd gyda materion perthynol i'r ddwy ystlen, ac edrych yn rhy ysgafn ar gydgyfranogiad â'r eilunaddolwyr yn y gwleddoedd a gynnelid yn nhemlau yr eilunod; felly, dymunai eu llanw â theimlad o wir edifeirwch, a gweled olion y cyfryw deimlad ar eu hymddygiad pan ddeuai i Corinth."—*Olshausen. Ac at y lleill i gyd.*—Y rhai oeddynt heb fod yn nosbarth y rhai a bechasant eisoes, etto oeddynt mewn perygl o herwydd eu cyfathrach â hwynt, ac felly mewn angen am gael eu rhybuddio. Y mae Olshausen yn barnu eu bod yn bellach na bod yn unig mewn perygl:—"Nid oeddynt yn wir mor euog a'r rhai a bechasant eisoes, etto yr oeddynt mewn angen edifeirwch am ildio, hyd yn oed i ryw fesur, i ddylanwadau drygionus."

3. Y rheswm pa ham nad arbedai hwynt. Yr oedd y gau-athrawon, a'r rhai a lynent wrthynt, yn gwadu awdurdod apostolaidd Paul: gofynent am brawf fod Crist yn llefaru ynddo. Gan nad oedd y prawf a roddes mewn gair a gweithred yn ddigonol i'w boddloni, yr oedd ar fedr rhoddi iddynt brawf nas gallent ei wrthsefyll. *Profiad o Grist*:—prawf, tystiolaeth. Naill ai, prawf fod Crist yn llefaru ynof; neu, prawf wedi ei roddi gan Grist, yr hwn sydd yn llefaru ynof. Nid yw yr ystyr yn gwahaniaethu yn y naill a'r llall: y meddwl yw, prawf o'i awdurdod apostolaidd. Yr olaf a gymmeradwyir gan De Wette, Meyer, Alford, &c. *Yr hwn*:—Crist. *Sydd nerthol.*—Yn cyfeirio at ddoniau a gwyrthiau, ac at allu Crist, yr hwn a roddai allan mewn cospedigaeth arnynt. Pan gyhoeddai yr apostol y ddedfryd ar y rhai ystyfnig, yr oedd Crist gydag ef, i'w dwyn i weithrediad. Gwel *Act.* xiii. 11. "Nid diberygl i'r Corinthiaid oedd tramgwyddo a dirmygu y dyn oedd yn genad ac offeryn Crist; o blegid nid oedd Crist yn wan, ond yn nerthol. Yr oedd ei allu wedi ei brofi yn eu mysg, nid yn unig yn nhröedigaeth llawer oedd, ond trwy arwyddion a rhyfeddodau."—*Hodge.*

4. Prawf o'r hyn a ddywedir yn *adn.* 3; "Nid yw wan, eithr sydd nerthol." *Canys er ei groeshoelio ef o ran gwendid, etto byw ydyw trwy nerth Duw.*—Dywedir fod y testyn derbyniedig yn ammheus; a darllenir, "Canys ofe a groeshoeliwyd trwy wendid." "Trwy, neu o wendid: —dyma yr elfen ammodol, yr hon a wnai ei groeshoeliad yn bossibl."—*Alford.* "Ei wendid oedd achos, neu ammod angenrheidiol ei farwolaeth. Nid yw hyn yn arwyddo nad oedd ei farwolaeth yn wirfoddol; o blegid dywed ei fod yn rhoddi ei einioes i lawr o hono ei hun: ond yr oedd cymmeryd natur ddynol wan, agored i farwolaeth, yn angenrheidiol mewn trefn i wneuthur marw yn bossibl i dragywyddol Fab Duw: *Phil.* ii 6; *Heb.* ii. 14, 15."—*Hodge.* Nid yw y gwendid hwn yn cynnwys un elfen bechadurus, ond fod ei natur ddynol yn agored i dioddef a marw. Dyma, ebe Olshausen, yr unig ymadrodd ysgrythyrol lle y mae y gair "gwendid" yn cael ei ddefnyddio mewn cyssylltiad â Christ. *Byw ydyw trwy nerth Duw.*—Nerth Duw ydyw ffynonell ei fywyd. Duw a'i cyfododd ef o feirw: *Rhuf.* vi. 4.; viii. 11; *Eph.* i. 20; *Phil.* ii. 9. Ond nid y ffaith mai trwy nerth Duw y cyfodwyd Crist, ond y ffaith ei fod yn awr yn fyw, ac wedi ei wisgo â gallu dwyfol, a ddygir yn mlaen yma gan yr apostol fel yn dwyn perthynas â'r mater. *Canys ninnau hefyd.*—Ynddo ef—yn ein cymmundeb âg ef, a'n cyffelybrwydd iddo—yr ydym ninnau, fel y gwnaeth efe, yn rhoddi ein gallu heibio, er eich arbed chwi: yr ydym yn cyfranogi o'i ymwrthodiad gwirfoddol â gallu, yr hwn a allasem ei ddefnyddio.—*Alford.* Yr un ydyw golygiad y rhan fwyaf o'r prif esbonwyr. Yr oedd yr apostol, yn rhinwedd ei undeb a'i gymmundeb â Christ, yn wan a dioddefgar yn Corinth: yr oedd yn ymddwyn fel pe na buasai ganddo fodd i amddiffyn ei awdurdod a'i hawliau, fel apostol, yn ngwyneb cyhuddiadau ei wrthymgeiswyr; yn gyffelyb i'w Arglwydd, yr hwn a ymddangosai, pan yn nwylaw ei elynion, fel pe buasai wan—yn rhy wan i'w amddiffyn ei hun, ac i'w ryddhau ei hun o'u gafaelion. "Fel oen yr arweiniwyd ef i'r lladdfa." Ond fel mai gwendid a gymmerai arno ei hun oedd y gwendid hwn, megys yr oedd nerth hollalluog yn gorwedd yn guddiedig oddi tan y gwendid, felly yr oedd nerth ac awdurdod yn gorwedd, gyda'r apostol, o dan y gwendid, yr hynawsedd, a'r goddefgarwch, a welid ynddo tuag at ei wrthwynebwyr. *Eithr byw fyddwn.*—Ni a brofwn ein hunain yn alluog i arfer awdurdod. Fel yr oedd bywyd Crist, ar ol ei adgyfodiad, yn fywyd yr amlygid ynddo nerth ac awdurdod, felly y byddai y bywyd y sonia yr apostol am dano mewn cyssylltiad âg ef ei hun. Nid oes yma gyfeiriad at fywyd yr apostol mewn gogoniant mewn byd arall, ond at weinyddiad gallu apostolaidd yn Corinth; ac y mae gallu yn un o nodau penaf bywyd. "A gwendid y mae yr apostol yn cyferbynu bywyd; ac felly y mae wrth y gair hwn yn golygu sefyllfa flodeuog a llawn o urddas."—*Calvin. Tuag atoch chwi.*—Rhoddwn brawf o'n bywyd, o'n gallu, a'n hawdurdod, gyda golwg arnoch chwi, trwy weinyddu ein hawdurdod apostolaidd yn eich plith.

5 Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, *sef* [f]Col. 1. 27. [f]bod Iesu Grist ynoch, oddi eithr chwi fod yn anghymmeradwy?

6 Ond yr wyf yn gobeithio y gwybyddwch nad ydym ni yn anghymmeradwy.

7 Ac yr wyf yn gweddïo ar Dduw na wneloch chwi ddim drwg; nid fel yr ymddangosom ni yn gymmeradwy, ond fel y gwneloch chwi yr hyn [g]sydd dda, er bod o honom [g]Rhuf. 12. 17. ni megys rhai anghymmeradwy.

8 Canys ni allwn ni ddim yn erbyn y gwirionedd, ond dros y gwirionedd.

9 Canys llawen ydym pan fyddom ni yn weiniaid, a chwithau yn gryfion: a hyn hefyd yr ydym yn ei ddymuno, *sef* eich perffeithrwydd chwi.

10 Am hyny myfi yn absennol ydwyf yn ysgrifenu y pethau hyn, fel pan fyddwyf bresennol nad arferwyf doster, yn ol yr awdurdod a roddes yr Arglwydd i mi er adeilad, ac nid er dinystr.

11 Bellach, frodyr, [h]byddwch wych. Byddwch berffaith, diddaner chwi, syniwch yr un [i]peth, byddwch heddychol; a [k]Duw y cariad a'r heddwch a fydd gyda chwi. [h]Luc 9. 61. [i]Gen. 45. 24. [k]Rhuf. 15. 33.

12 Anerchwch eich gilydd â

5. *Profwch chwychwi eich hunain.*—Mynech fy mhrofi i,—profwch eich hunain. Neu, Yr ydych yn ceisio prawf o Grist yn llefaru ynof fi: ceisiwch brawf o hono ynoch eich hunain. Oni wyddoch chwi fod Crist ynoch chwi (oddi eithr i chwi fod yn anghymmeradwy); ac os yw ynoch chwi—os ydych mewn gwirionedd yn aelodau o'i gorph—chwi gewch wybod ei fod ynof fi. Dywed Hodge fod yr adnod hon yn gyfystyr â'r adnodau hyny ag y mae yr apostol ynddynt yn appelio at y Corinthiaid fel seliau ei weinidogaeth (1 *Cor.* ix. 1), ac fel ei lythyrau canmoliaethol (2 *Cor.* iii. 2). *Anghymmeradwy*:—analluog i ddal y prawf; heb fod yn amgen na Christionogion mewn enw a phroffes yn unig. Alford, "*worthless.*"

6. *Ond yr wyf yn gobeithio.*—Pa ffordd bynag y try y prawf allan a wnewch arnoch chwi eich hunain.

7. Etto y mae yn gweddïo ar Dduw na byddo iddynt, trwy eu drwg ymddygiadau, roddi gorfod arno i roddi y cyfryw amlygiadau o'i allu apostolaidd, hyd yn oed pe y collai efe ei gymmeradwyaeth yn eu mysg. Yn hytrach na dymuno cael achlysur i arddangos ei allu goruwchnaturiol, yr oedd yn dymuno na chyfarfyddai â'r cyfryw achlysur. "Amcan ei wedi oedd, nid fel y byddai iddo ennill dim cymmeradwyaeth trwy eu grasau Cristionogol, ond ar iddynt hwy fod wedi eu cynnysgaethu yn helaeth â hwynt, hyd yn oed pe canlyniad hyny fuasai ei wneuthur ef ei hun yn is mewn cymmeradwyaeth."—*Beza.* Nid oedd yr apostol yn dymuno ar iddynt fod mewn sefyllfa grefyddol dda, oddi ar y cymmhelliad hunanol iddo ef ei hun ymddangos yn apostol cymmeradwy ger eu bron—fel un nad oedd ammheuaeth a oedd Crist yn trigo ynddo. Yr oedd mathau gwahanol o brofion o gadernid ei hawliau ef fel Cristion ac apostol;—ei fuchedd sanctaidd a'i lafur amrywiol; y gallu apostolaidd â pha un y gwisgid ef; llwyddiant ei weinidogaeth, nifer a chymmeriad y rhai a ddychwelid trwyddo. Yr oedd sefyllfa grefyddol dda eglwys Corinth, felly, yn dystiolaeth ei fod yn gymmeradwy—y daliai efe y prawf. Etto nid hyn, ebe fe, ond y rheswm pa ham y gweddïai na wnelent ddim drwg.

8. Os byddwch yn rhodio yn y gwirionedd, ni a fyddwn yn un â chwi; ac felly ni byd genym achlysur i ddangos ein gallu. Nis gallwn arfer yr awdurdod a'r gallu sydd yn brawf o fod Crist yn llefaru ynom ond yn unig o blaid y gwirionedd. Os byddwch chwi o dan y gwirionedd, yn eich holl ymddygiad, byddem ni yn wan, pe deuem yn eich herbyn. Y mae yr ymadrodd hwn, ebe Hodge, yn meddu pwysigrwydd neilldiol, fel y mae yn sefydlu teriynau pob gallu eglwysig, pa un bynag ai cyffredin, ynte gwyrthiol. Ni buasai penderfyniad yr apostol, pe yn erbyn y gwirionedd, o un grym yn ngolwg Duw: buasai y gallu goruwchnaturiol â pha un y gwisgasid ef yn gadael ei fraich, pe codasai hi yn erbyn pobl Dduw. Mae addewid Crist i'r eglwys, y cai yr hyn a rwymid ar y ddaear ei rwymo yn y nefoedd, yn cael ei gyfyngu gan yr ystyriaeth y rhaid i'w phenderfyniadau fod yn unol â'r gwirionedd. Y mae athrawiaeth y blaid eithafol yn Eglwys Rhufain, fod actau o esgymmundod yn effeithiol a chadarn, hyd yn oed pan y mae yr eglwys yn gamsyniol yn ei gwybodaeth o ffeithiau, yn gwbl anghysson âg addysg yr apostol. Nid oedd efe yn hôni y cyfryw hawl.

9. *Ni yn weiniaid*:—pan na bydd genym achlysur i ddangos ein gallu mewn ceryddon eglwysig. *A chwithau yn gryfion*:—yn y meddiant o rasau a rhinweddau Cristionogaeth, ac felly heb fod dim yn eich sefyllfa yn galwam i ni ddefnyddio ein hawdurdod.

10 *Am hyny.*—Am fy mod yn dymuno eich perffeithrwydd chwi. *Yn ol yr awdurdod.*—Y rheswm pa ham na fynai yr apostol arfer toster neu lymder—am yr ymddangosai y gallu fel yn cael ei ddefnyddio i amcan fuasai yn wrthwyneb i'r un a fwriadwyd gan yr hwn a'i rhoddes iddo.

11. Yr oedd Paul wedi ysgrifenu i raddau yn llym, wrth ymdrin â'r mater hwn: y mae yma yn fwy tyner, ond etto heb ymadael â'r mater ei hun.—*Bengel.* Y mae yma yn llefaru fel tad wrth ei blant—yn eu hanerch fel brodyr, ac aelodau o deulu Duw a chorph Crist. *Byddwch wych*:—yn llythyrenol, Llawenhewch; *h.y.*, yn yr Arglwydd. *Byddwch berffaith.*—Diwygiwch eich hunain, unionwch y drygau sydd yn ffynu yn eich mysg.—*Hodge. Diddaner chwi.*—Gall y gair arwyddo hefyd, Annogwch eich gilydd: ond tybir mai gwell ydyw y darlleniad cyffredin; ac fod yr apostol yma yn dychwelyd at yr un peth ag oedd ganddo yn nechreu yr epistol—diddanwch yn Nghrist (*pen.* i. 6).

12. *A chusan sanctaidd*:—gwel *Rhuf.* xvi. 16.

[l]Rhuf. 16 chusan sanctaidd. [l]Y mae yr
[k]16, 21—23. holl saint yn eich anerch chwi.
[k]Ioan 1 16, 17 13 [m]Gras *ein* Harglwydd Iesu
[n]Rhuf. 5. 5; Grist, [n]a chariad Duw, [o]a chym-
1 Ioan 3. 16.
[o]Ioan 14. 15—17. Gal. 5. 22.

13. Y fendith apostolaidd fwyaf helaeth o'r holl epistolau, ac felly yn cael ei defnyddio ar derfyn y gwasanaeth crefyddol cyhoeddus yn fwy mynych nag un fendith arall. Cynnwysa addefiad o Dduwdod a phersonoliaeth pob un o'r personau—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; a phrofa y gellir cyfeirio gweddi at bob un—fod y deithas yr Ysbryd Glan, *a fyddo* gyda chwi oll. Amen.

¶ Yr ail at y Corinthiaid a ys grifenwyd o Philippi yn Macedonia, gyda Thitus a Luc.

Mab a'r Ysbryd yn wrthddrychau gweddi a mawl yr un modd a'r Tad. "Gras ein Harglwydd Iesu Grist a enwir gyntaf, o blegid trwy ras Crist y deuir at gariad y Tad."—*Bengel.* "Y Mab sydd gyntaf yn arwain dyn at y Tad, ac sydd yn perffeithio ei fywyd yn nghymdeithas yr Ysbryd Glân."—*Olshausen.*

YR

EPISTOL AT Y GALATIAID.

Y MAE yn ddiammheuol mai yr apostol Paul oedd awdwr yr epistol hwn. Y mae y profion tufewnol ac allanol o'i awduriaeth mor gryfion, fel na bu un ddadl gwerth ei chrybwyll erioed o barth i'w ddilysrwydd. Nid oes un o'r epistolau yn dwyn arwyddion mor bendant o brioddddull yr apostol o feddwl a chyfansoddi. Y mae bywyd a chymmeriad, yn gystal a theithi meddwl ac arddull, apostol y Cenhedloedd yn cael eu hadlewyrchu yn mhob brawddeg. Y mae hyn yn wir i raddau mor bell, fel y sylwa Windischmann y buasai pwy bynag a wadai ddilysrwydd yr epistol hwn yn sefyll ar unwaith yn hunan-gondemniedig, fel un analluog i wahaniaethu y gwir oddi wrth y gau. Y mae y profion tufewnol hyn yn cael eu cadarnhau gan lawer o brofion allanol. Ceir cyfeiriadau a dyfyniadau anuniongyrchol o'r epistol yn ysgrifeniadau y tadau apostolaidd; megys Clement, Ignatius, a Polycarp. Cyfeiriadau o'r natur yma oedd i'w disgwyl yn naturiol yn ngweithiau y tadau hyn. yn hytrach na dyfyniadau ffurfiol, yn gymmaint a'u bod yn byw mor agos o ran amser at yr apostol, fel yr oedd adsain ei leferydd yn aros megys yn eu clustiau, a'i feddyliau ef yn ymgymmysgu bron yn anymwybodol â'r eiddynt eu hunain. Ond mor fuan ag y cyfododd llenyddiaeth ddduwinyddol, yn ystyr priodol y gair, yn yr eglwys, yr ydym yn cael yr epistol ar unwaith yn cael ei ddyfynu yn bendant ac wrth ei enw. Ceir hyn yn ngweithiau yr ysgrifenwyr tua diwedd yr ail ganrif, megys Irenæus, Clement o Alexandria, a Tertullian. Y mae eu tystiolaeth hwy yn derbyn pwysigrwydd chwanegol oddi wrth eu sefyllfa fel cynnrychiolwyr gwahanol ganghenau o'r eglwys, ac oddi wrth eu dull yn dyfynu; yr hyn a ddangosai fod yr ysgrifeniadau a ddyfynid ganddynt yn cael eu cydnabod yn gyffredinol fel rhai awdurdodedig. Ceir amryw ddyfyniadau uniongyrchol o'r epistol yn ysgrifeniadau hereticaidd mor foreu a r hanner cyntaf o'r ail ganrif: ac y mae cyfeiriadau ato, a rhai ymadroddion yn amlwg wedi eu cymmeryd o hono, yn ngweithiau rhai oedd yn elynion chwerw i Gristionogaeth ac i'r apostol Paul megys Celsus, ac ereill. Ceir amryw o syniadau ac ymadroddion yr epistol hefyd yn ysgrifeniadau amddiffynwyr Cristionogaeth; megys yn yr "*Epistol at Diognetus*," a chan Justin Ferthyr, Melito, ac Athenagoras. Gellir chwanegu fod yr epistol hwn i'w gael yn mhob canon ysgrythyrol adnabyddus o eiddo yr Eglwys Gatholig yn yr ail ganrif.

II. AT BWY YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Ysgrifenwyd yr epistol hwn "at eglwysi Galatia" (*pen.* i. 2). Galatia ydoedd dalaeth yn Asia Leiaf, yn cael ei therfynu tua'r gogledd gan Paphlagonia a Bithynia, tua'r dwyrain gan Pontus a Cappadocia, tua'r deheu gan Cappadocia a Phrygia, a thua'r gorllewin gan Phrygia a Bithynia. Yr oedd yn wlad fynyddig, ond etto ffrwythlawn, yn enwedig yn agos i'r afon Halys. Ei phrif ddinasoedd oeddynt Ancyra, Pessinus, a Tavium. Darfu i'r ymberawdwr Augustus gyhoeddi Ancyra yn brif ddinas y dalaeth Gallai braslun o hanes a chymmeriad y bobl a breswylient y wlad hon fod yn fantais i ddeall yn well rai cwestiynau dyddorol sydd yn codi yn yr ymdriniaeth â'r epistol.

Pan ddaeth yr apostol â'r efengyl i Galatia, cafodd ei hun yn mysg pobl estronol, hollol wahanol o ran nodweddiad ac arferion i'r cenhedloedd cymmydogaethol. Yr oedd eu cartref yn y gorllewin pell; ond yr oedd rhyw ddaeargryn mawr o natur gymdeithasol wedi eu hysgar oddi wrth eu daear gynhenid; ac ar ol iddynt dreiglo am amser yma a thraw dros wledydd eang, y maent o'r diwedd yn ymsefydlu mewn gwlad ddyeithr yn nghanol Asia Leiaf. Y mae llinellau eu cymmeriad, fel y maent yn ymddangos yn y llythyr hwn, yn eu gwahaniaethu ar unwaith oddi wrth y cenhedloedd cylchynol. Y mae eu cymmeriad yn dra gwahanol ar un llaw i'r eiddo y Corinthiaid coeth a llygredig—y cynnrychiolwyr tecaf oedd yn aros y pryd hwnw o Roeg yr hen oesoedd; ac yn hollol wrthwyneb ar y llaw arall i'r gyfriniaeth freuddwydiol a anurddai eglwysi dwyreiniol Ephesus a Colossa. Yr oedd y cymmeriad Galatiaidd yn sefyll ar ei ben ei hun.

Perthynai y Galatiaid i'r un teulu mawr o genhedloedd ag yr ydym ninnau, y Cymry, yn perthyn iddynt; sef, y dosbarth hwnw o'r hil ddynol ag y mae ieithwyr diweddar wedi cyttuno i'w galw yn *Geltiaid*. Yn nechreuad hanesyddiaeth Ewropaidd, y Celtiaid oedd yn cyfanneddu rhan fawr o gyfandir Ewrop i'r gorllewin o'r afon Rhine, ynghyd â'r ynysoedd o'r neilldu, megys Prydain. Yr oedd y dosbarth yma o'r teulu dynol yn cael eu hadnabod gan yr hen ysgrifenwyr clasurol wrth dri enw—Celtiaid, Galatiaid, Gâliaid. *Celtiaid* yw yr enw hynaf; ceir ef yn ysgrifeniadau

yr haneswyr Groegaidd boreuaf—Hecatæus a Herodotus (yr ydys yn cyfarfod âg ef yn y ddwy ffurf—*Keltoi* a *Keltai*). Y mae *Galatiaid* yn enw diweddarach: ceir ef gyntaf yn ngwaith Timæus, ysgrifenydd yn y drydedd ganrif. Y mae y beirniaid goreu a diweddaraf ar yr epistol hwn yn tybied fod y ddau enw (*Celtiaid* a *Galatiaid*) yn ddwy ffurf wahanol, ac etto yn perthyn yn agos, ar yr un gair, wedi eu cael gan y Groegiaid oddi wrth wahanol ganghenau o'r hil Geltaidd, a pha rai y daethant ar wahanol amserau i gyfarfyddiad. *Galiaid* drachefn oedd yr enw wrth ba un yr adnabyddid y bobl hyn yn gyffredin gan y Rhufeiniaid.

Y mae yr ambell drem yr ydym yn ei chael yn awr ac eilwaith ar yr hil Geltaidd yn ngwyll hanesyddiaeth yn dangos yr un dymmer anesmwyth ac anwadal ag sydd yn dyfod i'r golwg fel yn perthyn iddynt yn yr epistol hwn o eiddo Paul. Y maent yn ymddangos mewn berw gwyllt ac ymfudiad diddiwedd. Ceir hwynt yn dra chynnar wedi meddiannu darnau helaeth o'r gwledydd oedd yn gorwedd i'r deheu ac i'r dwyrain o'u terfynau priodol eu hunain. Y maent yn croesi mynyddoedd yr Alps, ac yn ymdywallt i Italy ogleddol. Y maent yn croesi y Rhine, ac yn ymsefydlu yn y rhandir hono a adweiniid gan yr hynafiaid wrth yr enw "y goedwig Hercynaidd," ac ar lanau y Danube. Fel y mae hanesyddiaeth yn dyfod allan i oleu dydd, y mae llifeiriant yr ymfudiad Celtaidd i'w weled o hyd yn treiglo tua'r dwyrain. Yn nechreu y bedwaredd ganrif cyn Crist, y mae tôn o honynt yn troi ac yn ysgubo dros yr or-ynys Italaidd, ac yn gorchuddio Rhufain ei hunan. Yn mhen tair neu bedair cenhedlaeth yn ddiweddarach, y mae tôn arall yn troi tua'r deheu etto, ac yn llifo i Macedonia a Thessaly, gan garlo pob peth am ryw ysbaid o'i blaen. Darfu i'r gwrthdarawiad penderfynol a gawsant yn Delphi roddi terfyn ar yr ymosodiad Celtaidd ar Groeg yn y flwyddyn 279 cyn Crist.

Y mae cyssylltiad uniongyrchol rhwng y sefydliad Celtaidd yn Asia Leiaf a'r rhuthrgyrch y cyfeiriwyd ato ddiweddaf. Yr oedd nifer lled gryf o honynt wedi ymwahanu oddi wrth y corph mawr, ac wedi gwrthod cymmeryd rhan yn yr ymosodiad. Chwanegwyd atynt wedi hyny gan weddill o'r fyddin orchfygedig; ac yna gweithiasant eu ffordd, o dan arweiniad y penaethiaid Leonnorius a Lutarius, trwy Thracia nes cyrhaedd glanau yr Hellespont. Nid arosasant yn hir yno; ond defnyddiasant y cyfleusderau cyntaf i groesi drosodd i'r wlad ffrwythlawn yr ochr draw. Goresgynasant y rhan fwyaf o Asia Leiaf. Gosodasant yr holl gyfandir i'r gorllewin o Taurus dan deyrnged; a dywedir fod hyd yn oed y brenhinoedd Syriaidd wedi cael eu gorfodi i ymostwng i'r ammodau darostyngol hyn. Byddent weithiau yn fflangell, a phryd arall yn blaid i'r tywysogion Asiaidd, y naill ar ol y llall, yn ol fel y byddai eu nwydau neu eu hunan-les yn eu cymmhell; a dilynent eu tueddiadau ysbeilgar yn ddiattalfa. Ond o'r diwedd, goddiweddodd dialedd hwynt. Rhoddwyd attalfa effeithiol ar eu rhwysg trwy gyfres o anffodion, yn terfynu yn eu llwyr orchfygiad gan y tywysog Pergameaidd Attalus y Cyntaf, rywbryd (er nad yw yr amseriad yn sicr) o ddeutu y flwyddyn 230 cyn Crist.

Trwy yr amgylchiadau hyn, gwasgwyd hwynt y tu fewn i derfynau lled gyfyng yn nghanolbarth Asia Leiaf. Yr oedd y wlad i ba un y cyfyngwyd hwynt fel hyn, sef Galatia, yn llain cul o dir dros ddau can milldir o hyd, yn rhedeg o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin. Rhanwyd y wlad yn y dull canlynol rhwng y tri llwyth o ba rai yr oedd y Galiaid (neu y Galatiaid) yn cael eu gwneyd i fyny. Cymmerodd y Trocmiaid y rhan fwyaf dwyreiniol, yn terfynu ar Cappadocia a Pontus, gyda Tavium, neu Tavia, fel eu pen tref. Ymsefydlodd y Tolistobogiaid yn y rhan orllewinol o'r wlad ar derfynau Bithynia a Phrygia Epictetus; a chymmerasant Pessinus yn ben tref. Darfu i'r llwyth arall, sef y Tectosagiaid, gartrefu yn nghanol y wlad, rhwng y ddau lwyth ereill, gan gymmeryd Ancyra fel eisteddle eu llywodraeth, yr hon a gyfrifid yn brif ddinas holl Galatia.

Er fod eu gallu wedi ei gwtogi yn fawr trwy yr helbulon hyn, etto parhasant i chwareu rhan bwysig yn ymrafaelion y tywysogion Asiaidd. Pan yn ymladd yn y wedd yma fel milwyr cyflogedig y daethant gyntaf i gyfarfyddiad â gallu ofnadwy Rhufain. Yn mrwydr Magnesia, tynwyd sylw y Rhufeiniaid gan gorph o filwyr Galatiaidd yn ymladd o du Antiochus; ac o'r foment hono allan yr oedd eu tynged wedi ei selio. Bu un rhyfelgyrch o eiddo y consul Manlius yn ddigon i ddarostwng Galatia yn hollol. O hyn allan buont fyw mor heddychol ag y caniatäai eu hysbryd aflonydd o dan nawddogaeth Rhufain. Ymddygodd y Rhufeiniaid yn rhyddfrydig tuag atynt: goddefid iddynt gadw i fyny eu hannibyniaeth, a chael eu llywodraethu gan eu tywysogion eu hunain. Ond o'r diwedd, wedi bod yn llywodraethu eu hunain fel hyn am gant a hanner o flynyddoedd, darfu i'r ymherawdwr Augustus, ar farwolaeth Amyntas, un o'r tywysogion brodorol, wneuthur Galatia yn dalaeth Rhufeinig, tua'r flwyddyn 25 cyn Crist.

Mae terfynau y dalaeth yn lled bwysig yn eu perthynas â rhai cwestiynau cyssylltiedig â hanes boreuol yr efengyl. Yr oedd y dalaeth yn cyfatteb yn fras i deyrnas Amyntas, er fod rhai dosbarthiadau o'r olaf wedi eu cyssylltu â llywodraeth arall. Fel hyn, yr oedd Galatia, fel talaeth Rufeinig, yn cynnwys, heblaw y wlad a elwid yn briodol felly, Lycaonia, Isauria, y rhandir deddwyreiniol o Phrygia, a rhan o Pisidia. Enwir Lycaonia yn bennodol fel yn perthyn iddi; ac y mae profion fod Derbe a Lystra yn bennodol yn gynnwysedig o fewn ei therfynau. Pan y ffurfiwyd hi yn dalaeth, cymmerodd y tair prif dreu yn Galatia briodol, sef Ancyra, Pessinus, a Tavium, yr enw o Sebaste neu Augusta, yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd gan gyfenwau y gwahanol lwythau i'r rhai y perthynent. O blegid hyn, pan y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd, yr apostol Paul, neu yr efengylwr Luc, yn son am Galatia, y mae y cwestiwn yn cyfodi pa un a ydynt yn cyfeirio at diriogaeth fwy cyfyngedig Galatia briodol, ai ynte at randir helaethach y dalaeth Rufeinig. Y mae hyn wedi bod yn bwngc dyddorol o ddadl. Elem yn rhy bell allan o'n llwybr i roddi yma hyd yn oed grynodeb o'r rhesymau ar bob ochr i'r ddadl hon, ac o berthynas y cwestiwn hwn âg amseriad yr epistol, ac â'r amgylchiadau a gymmerasant le rhwng y ddau apostol, Paul a Phedr, fel eu cofnodir yn *pen.* ii. Am ymdriniaeth â'r materion hyn, cyfeirir y darllenydd at yr erthygl yn y "*Gwyddoniadur*" ar yr *Epistol at y Galatiaid.* Gallwn yn unig grybwyll wrth adael hyn mai yr ystyr cyntaf a enwyd (Galatia briodol) a roddid i'r gair mewn arferiad cyffredin, tra yr oedd yr ystyr olaf (y dalaeth Rufeinig) yn fwy ffurfiol a swyddogol.

Fe allai y dylem dafla golwg fer ar y gwahanol elfenau a gyfansoddent y bobl a elwid Galatiaid. Nid y Gâliaid, neu y Celtiaid, oedd yn gwneyd i fyny yr holl boblogaeth. Fel y sylwa Lightfoot, "yr oedd y Galatiaid, y rhai a orchfygodd Manlius trwy arfau Rhufain, a'r apostol Paul trwy gleddyf yr Ysbryd, yn hil dra chymmysgedig." Gwneid i fyny sylfaen y boblogaeth o breswylwyr gwreiddiol y wlad, sef y Phrygiaid yn benaf: ni wyddys nemawr am iaith y bobl hyn, ond yr oedd eu cyfundrefn grefyddol yn un hynod, ac yn cael lle arbenig mewn hanesiaeth henafol. Yr oedd yr haen uchaf o'r boblogaeth drachefn yn gyfansoddedig o'r gorchfygwyr Gâlaidd; ond yn chwanegol at hyn, ac wedi eu gwasgaru yn afreolaidd trwy gorph y bobl, yr oedd sefydlwyr Groegaidd, wedi dyfod yno yn ddiammheu ar ol olynwyr Alexander, a'r rhai oeddynt eisoes yn y wlad pan y cymmerodd y Gâliaid feddiant o honi. Rhoddodd y Rhufeiniaid yr enw *Gallogrœcia* ar y wlad a gynnwysai y boblogaeth gymmysg yma—enw yn cael ei gyfansoddi o ddwy elfen y boblogaeth, y Gâliaid a'r Groegiaid—ond yn gadael allan y Phrygiaid yn ddisylw, hen breswylwyr cyntefig y wlad. Pan y goresgynwyd y wlad gan Rufain, nid oedd y Gâliaid buddugoliaethus wedi cydymgymmysgu â'u deiliaid Phrygiaidd: a'r gwaith mawr a wnaeth y concwest Rhufeinig yma oedd toddi y Celtiaid a'r Phrygiaid i'w gilydd—y gorchfygwyr a'r gorchfygedig; er nad oedd hyn, fel y sylwa un, ond canlyniad i fesur mawr o'r ddeddf naturiol hono drwy yr hon y mae pob gwahaniaethau llai yn cael eu llyfelu yn mhresennoldeb gallu uwch. Dechreuodd yr ymgymmysgiad o hyn allan; ac nid hir y bu y Gâliaid yn mabwysiadu hyd yn oed grefydd eu deiliaid Phrygiaidd.

Fel hyn, yr oedd y Galatia a oresgynwyd gan Rufain yn cynnwys poblogaeth gymmysgedig o Phrygiaid, Gâliaid, a Groegiaid. Ond yr oedd dwy elfen newydd wedi eu chwanegu atynt cyn ymweliad yr apostol Paul â'r wlad. Un o'r rhai hyn oedd y Rhufeiniaid, a dynwyd yma pan wnaethpwyd Galatia yn dalaeth; yr oedd rhyw rai o honynt yn ymgasglu o gwmpas canolbwynt y llywodraeth yn mhob gwlad, naill ai yn dal swyddi eu hunain neu mewn rhyw gyssylltiadau â'r rhai oedd felly. Yr elfen arall oedd yr un Iuddewig. Ymddengys fod yma nifer mawr o Iuddewon wedi cartrefu. Darfu i Antiochus Fawr sefydlu dwy fil o deuluoedd Iuddewig yn Lydia a Phrygia; ac os nad oedd y sefydliadau hyn yn cyrhaedd i Galatia, a elwid yn briodol felly, nid oes dim dadl na ddaeth y trefedigaethwyr Iuddewaidd drosodd yn lluoedd cyn pen nemawr o amser, i wlad oedd yn meddu cyfleusderau mor nodedig i anturiaethau masnachol ag oedd Galatia.

Ond er yr holl gymmysgedd tramor yma, y gwaed Celtaidd oedd yn rhoddi ei nodwedd arbenig i gymmeriad y Galatiaid, ac yn eu gwahaniaethu mor amlwg oddi wrth eu cymmydogion agosaf. I hyn y priodolir y gwahaniaeth pendant o ran tymmer grefyddol oedd rhwng dychweledigion Paul yn Galatia a'r Cristionogion yn Colossa, er eu bod wedi eu dwyn i fyny yn yr addoliad Phrygiaidd ac yn ddarostyngedig i'r un dylanwadau Iuddewig a'u gilydd. Y mae amryw ysgrifenwyr yn sylwi fod bywyd gwydn y cymmeriad Celtaidd wedi ei gadw ei hunan yn Asia yn mhlith Phrygiaid a Groegiaid, fel y mae wedi gwneyd yn ein plith ninnau yn yr ynysoedd hyn yn nghanol Saxoniaid, Daniaid, a Normaniaid, heb golli y neilluolion priodol iddo ei hun yn nhreigliad oesoedd a than yr amgylchiadau mwyaf anfanteisiol. Fel prawf nodedig o hyn, cyfeirir at y ffaith fod y bobl hyn wedi cadw eu hiaith bron yn ddilwgr am dros chwe chan mlynedd wedi eu hymsefydliad yn eu cartref pellenig yn Asia Leiaf. Afreidiol ydyw i ni grybwyll fod "cadwedigaeth yr iaith Gymraeg" hyd heddyw rhwng mynyddoedd Cymru yn enghraifft fwy nodedig fyth o'r un peth!

O blegid hyn, chwilia rhai esbonwyr yn dra hyderus am olion o'r cymmeriad Celtaidd yn yr Epistol at y Galatiaid, gan fod cymmeriad cenedl yn gyffredin yn goroesi hyd yn oed ei hiaith. Y mae yn dra thebyg fod y bobl hyn wedi dirywio ar ol canrifoedd o ymgymmysgiad â'r Groegiaid a'r Phrygiaid; ac etto, bernir fod y cymmeriad Celtaidd o dan y wyneb yn aros yr un. Y mae rhai ysgrifenwyr yn tybied eu bod yn canfod cyfeiriadau at amryw linellau duon yn y cymmeriad yn yr epistol hwn. Tybir fod y crybwylliad am "feddwdod a chyfeddach" (*pen.* v. 21), wrth ei gyplysu âg edliwiadau ysgrifenwyr hynafol, yn nodi allan un o bechodau anwyl yr hil Geltaidd. Dywedir fod ei waith yn condemnio eu prinder yn cyfranu at achosion crefyddol, gan alw hyny yn "watwar Duw" (v. 7), yn ein hadgofio eu bod fel pobl yn wastad yn cael eu cyhuddo o drachwant am gyfoeth, fel yr oedd cybydd-dod y Gâliaid wedi myned yn ddiareb. Edrychir ar ei rybuddion mynych rhag "cenfigenau, gwag-ogoniant, casineb, cynhenau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio," &c. (v. 20, 21, 26: vi. 3), fel yn cyfeirio at hen ddrwg yn y gwaed Celtaidd oedd o hyd yn berwi yn eu gwythienau. Esbonia rhai yr ymadrodd "cnoi a thraflyngcu eich gilydd" (v. 15) fel yn gosod allan "ystumiau digofus a thônau bygythiol y bobl nwydwyllt hyn." Ond y mae yn bossibl fod rhai o'r ysgrifenwyr hyn yn tynu casgliadau nad oes sail gyfreithlawn iddynt yn ymadroddion yr apostol. Pa fodd bynag, y mae yn debyg y gellir yn ddiogel ddyweyd fod y nodiadau achlysurol a geir ar y cymmeriad Celtaidd yn yr awduron clasurol yn taflu goleuni ar iaith yr apostol yn y llythyr hwn gyda golwg ar ddau beth:—tymmerfryd naturiol y Galatiaid, a'u nodweddiad crefyddol.

1. Y mae y prif linellau yn y cymmeriad Gâlaidd yn cael eu nodi allan yn dra eglur gan ysgrifenwyr Rhufeinig. Cyflymdra i amgyffred, parodrwydd i weithredu, hyrwydd-der mawr i dderbyn argraph, a syched cryf am wybodaeth:—dyma yr ochr oleu i'r cymmeriad Celtaidd. Ond ar yr ochr dywyll i'r cymmeriad yr oedd ysgrifenwyr cyfoesol yn aros fwyaf. Ac un o'r prif bethau a roddir yn eu herbyn fel diffyg neu fai yn eu tymmer, ydyw anwadalwch. Cwyna Cæsar yn erbyn ansefydlogrwydd eu cymmeriad fel un o'r prif rwystrau i ymwneyd â hwynt. Yr oedd y dymmer anwadol hon yn dyfod i'r golwg yn eu hymdrafodaeth â chrefydd. Derbyniasant yr apostol a'i genadwri ar y cyntaf gydag awyddfryd angerddol; ond gwrthgiliasant yn ebrwydd oddi wrth eu hymlyniad personol wrtho ef fel apostol i Grist, ac hefyd oddi wrth yr athrawiaeth a ddysgasai efe iddynt. Yr oedd yr apostol Paul wedi cael profiad helaeth a chwerw o ansefydlogrwydd personau ac eglwysi cyn hyn; ond y mae efe yn gorfod rhyfeddu at yr engraifft anghyffredin a roddasai y Galatiaid o hyny:—"Y mae yn rhyfedd genyf," meddai, "ddarfod eich symmud mor

fuan;" *pen.* i. 6. Edrychai arnynt fel rhai o dan effaith rhyw swyngyfaredd dyeithrol:—"O! y Galatiaid ynfyd, pwy a'ch *llygaid-dynodd ?*" *pen.* iii. 1. Rhywbeth tra thebyg i'r ymddygiad hwn ydyw y darluniad o'u gwroldeb milwraidd gan yr ysgrifenwyr Rhufeinig—yn llawn angerddoldeb tra yn gwneuthur yr ymosodiad cyntaf, ond eu brwdfrydedd yn ymdoddi ymaith yn ngwres y frwydr.

2. Y mae hanesyddwyr yn lled unfrydol, feddyliem, yn y disgrifiad a roddant o nodweddion tueddfryd crefyddol y cenhedloedd Celtaidd. Darlunir yr hen Galiaid fel pobl ofergoelus, yn ymroddi i ddefodau allanol. Gosodir eu crefydd allan yn llawn anferthwch—yn apelio at y synwyrau a'r nwydau, yn hytrach nag at y galon a'r meddwl; yn arddodi defodau o greulondeb digyffelyb, ac yn hawlio ufudd-dod slafaidd i awdurdod yr offeiriaid. Addefir fod crefydd yr hen Derwyddon o nodwedd uwch, a mwy ysbrydol. Ond darlunir tueddiadau crefyddol y meddwl Celtaidd fel yn gynnwysedig mewn ysfa ddidor am newydd-deb, ac ymhoffder mewn cyfundrefn o ddefodau allanol yn boddhau y synwyrau ac yn cyffroi y nwydau. Gan fod llawer o'r defodaeth hwn yn nghrefydd y Phrygiaid, swynwyd hwy ganddi, y mae yn ymddangos, yn fuan; ac fel y bu gyda Groeg a Rhufain mewn ystyr eangach, aeth y gorchfygwyr, yn y pwngc o grefydd, yn gaethion i'r rhai gorchfygedig. Pan ddaeth yr apostol Paul i bregethu yr efengyl i'w mysg, darfu i'w frwdfrydedd ef ennill eu calonau megys trwy ruthrgyrch. Ond yr oedd yr hen lefain yn aros o hyd. Nis gallai dysgeidiaeth bur ac ysbrydol Cristionogaeth eu boddhau yn hir. Yr oedd eu tymmherfryd crefyddol, yr hwn oedd wedi ennill nerth trwy hir arferiad, yn dyheu am grefydd fwy allanol a defodol. Fel hyn yr ennillwyd cynnifer o honynt mor rwydd gan y gau athrawon Iuddewig i gofleidio crefydd y seremoniau. Wedi "dechreu yn yr Ysbryd," yr oeddynt am gael eu "perffeithio yn y cnawd;" *pen.* iii. 3. Ac mewn adeg ddiweddarach yn hanes yr eglwys, yr ydys yn cael y Galatiaid yn dyheu am ffurfiau newyddion o Gristionogaeth yn yr un ysbryd o ysfa didor am newydd-deb, yn chwilio am "efengyl arall" i foddhau eu cariad at grefydd newydd a defodau.

III. AMSER A LLE EI GYFANSODDIAD.

Nid oes genym ddefnyddiau yn yr epistol ei hunan i'n galluogi i benderfynu gyda dim sicrwydd pa amser yr ysgrifenwyd ef. Nid yw yr apostol ei hunan yn rhoddi bron ddim o'r manylion am y drafodaeth a fu rhyngddo ag eglwysi Galatia; ac nid yw yr hanesydd Luc ond yn unig yn mynegu y ffaith noeth ei fod wedi bod yn pregethu yno. Y mae y distawrwydd deublyg hwn yn peri nad oes genym dystiolaethau uniongyrchol i'n harwain i sefydlu amseriad yr epistol. Nid oes genym ond casglu hyn trwy ffyrdd anuniongyrchol. Ac o ganlyniad, y mae yr amseriadau mwyaf amrywiol wedi eu priodoli iddo: rhai, fel Marcion yn mhlith hen ysgrifenwyr, a Michaelis ac ereill yn mhlith rhai diweddar, yn ei osod yn *gyntaf* o epistolau Paul: ac ereill, fel Schrader a Köhler, yn ei osod yn *olaf:* tra y mae bron bob cyflead possibl rhwng y ddau eithaf yna wedi ei roddi iddo y naill dro ar ol y llall. Ond y ddau olygiad ag y mae mwyaf o resymau drostynt o ddim cymmhariaeth—y ddau olygiad yn wir ag yr ydym yn cael ein cau i ddewis rhyngddynt—ydynt y rhai canlynol:—

1. Fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu o Corinth, yn ystod gauaf y flwyddyn 57—58, yr hwn a dreuliodd yr apostol yn y ddinas hono, ac o ba le hefyd yr ysgrifenodd efe yr Epistol at y Rhufeiniaid. Dyma farn Grotius ac ereill yn mhlith yr hen ysgrifenwyr, a dyma y golygiad a fabwysiedir gan yr ysgrifenwyr diweddar ar "Fywyd ac Epistolau Paul"—Conybeare a Howson; ac amddiffynir ef ganddynt yn fedrus mewn nodiad maith a dyddorol ["*The Life and Epistles of Paul,*" *intermediate edition*, cyf. ii. td. 164, 165]. Seiliant y farn hon bron yn gwbl ar dystiolaeth dufewnol, sef y cyffelybrwydd sydd rhwng yr epistol hwn a'r un at y Rhufeiniaid, a'r tebygolrwydd sydd yn canlyn drachefn fod y ddau wedi cael eu hysgrifenu yn agos iawn i'r un amser.

2. Y golygiad arall ydyw, ei fod wedi ei ysgrifenu yn ystod arosiad yr apostol yn Ephesus (*Act.* xix.) o gynhauaf y flwyddyn 54 hyd Bentecost y flwyddyn 57. Amddiffynir y farn hon gan Alford [*Greek Test. Prolegomena*, cyf iii. td. 4, 5], o herwydd yn un peth fod y golygiad arall yn rhoddi tymmor rhy faith ar ol ail ymweliad Paul â Galatia i fod yn gyson â *pen.* i. 6:—"Y mae yn rhyfedd genyf ddarfod eich symmud *mor fuan* oddi wrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist at efengyl arall." Ac hefyd, am fod y tebygolrwydd yn gryf o blaid y farn fod y Llythyr at y Galatiaid wedi ei ysgrifenu o flaen yr un at y Rhufeiniaid—fod y blaenaf wedi ei alw allan gan deimlad angerddol, dan gynnhyrfiad yr Ysbryd, fel amddiffyniad i wirionedd a rhyddid Cristionogol, yn cyfodi o'r amgylchiadau neilluol yr oedd yr eglwysi hyn ynddynt ar y pryd; tra y darfu i'r ail inellau hyn weithio eu hunain allan, o dan ddysgeidiaeth ac arweiniad yr un Ysbryd, i'r traethawd duwinyddol a anfonodd efe wedi hyny i eglwys prifddinas y byd, heb un achlysur neilluol yn galw am dano, ond fel ei brif eglurhâd ar athrawiaeth yr efengyl. Wrth gymmharu *pen.* i. 9, a iv. 16, ag *Act.* xviii. 23, a xix., cesglir fod Paul wedi dyfod i Ephesus yn uniongyrchol ar ei ddychweliad o Galatia (yr ail ymweliad); ac wrth gyssylltu â hyn grybwylliad yr apostol am sydynrwydd eu gwrthgiliad (*pen.* i. 6), bernir ei fod wedi ysgrifenu y llythyr hwn, fel y dywedwyd, yn ystod ei arosiad yn Ephesus yn nghorph y tair blynedd a nodwyd. Dyma farn y mwyafrif mawr o feirniaid diweddar, y rhai ydynt yn cyttuno i roddi amseriad yr epistol yn ystod tair blynedd arosiad Paul yn mhrifddinas Asia (o. c. 54—57), ond yn gwahaniaethu trwy ei roddi yn gynnarach neu yn fwy diweddar yn y tymmor hwn, yn ol eu gwaith yn rhoddi mwy neu lai o bwys ar yr ymadrodd, "eich symmud *mor fuan;*" *pen.* i. 6. Yn ol y golygiad yma, byddai y swp o lythyrau a berthynent i'r cyfnod hwn o hanes yr apostol yn ymrestru fel hyn—Galatiaid, 1 Corinthiaid, 2 Corinthiaid, a Rhufeiniaid.

Ond er mai dyma y farn a goleddir gan y rhan fwyaf o lawer o feirniaid diweddar, y mae y diweddaraf oll o honynt—un o'r rhai mwyaf galluog a dysgedig, a r un a gynnyrchodd, feddyliem, yr esboniad mwyaf trwyadl a chyflawn, yn gystal a manwl, o'r epistol hwn a ymddangosodd etto

—yn barnu yn wahanol. Yr esboniwr hwn ydyw y Parch. J. B. Lightfoot, D. D., proffeswr duwinyddiaeth yn Mhrifysgol Caergrawnt. Y mae Dr. Lightfoot, ar ol ymchwiliad nodedig o ofalus a galluog i'r cwestiwn hwn, ffrwyth yr hwn a roddir ganddo yn un o'r traethodau arweiniol i'w esboniad, yn syrthio i'r golygiad cyntaf a enwyd, o ran amser, er nad yn hollol o ran lle; sef, fod yr Epistol at y Galatiaid wedi ei ysgrifenu yn ngauaf neu wanwyn y blynyddoedd 57—58 o. c., nid o Corinth nac o un o eglwysi mawr Macedonia, ond o Macedonia neu Achaia, neu ar y daith o'r naill i'r llall. Felly, trefn cpistolau y cyfnod hwn o fywyd yr apostol a tyddai—1 Corinthiaid, 2 Corinthiaid, Galatiaid, a Rhufeiniaid. Wedi dilyn yn lled fanwl ymresymiad maith Dr. Lightfoot, yr hwn sydd yn dra galluog a dyddorol, ac yn ymadio yn hynod o naturiol â'r hanes ac â'r epistolau, ynghyd â nodiad rhagorol Conybeare a Howson, tueddir ni yn gryf i dderbyn y golygiad hwn fel yr un mwyaf cywir. Y mae y beirniad hwn yn adeiladu ei gasgliad ar y seiliau canlynol:—crybwylliadau hanesyddol uniongyrchol: arddull a nodweddion yr epistol yn cyfatteb i'r eiddo yr ail swp amseryddol o'r epistolau, yn dwyn tebygolrwydd mawr i'r ail Epistol at y Corinthiaid ac i'r Epistol at y Rhufeiniaid, a'r fath debygolrwydd ag sydd yn ei wneuthur bron yn sicr ei fod wedi ei ysgrifenu tua'r un amser a'r Llythyr at y Rhufeiniaid, ond o'i flaen, a'i fod yn ddolen gyssylltiol rhwng yr Ail Epistol at y Corinthiaid a'r Epistol at y Rhufeiniaid: mai dyma y drefn sydd yn cyttuno oreu â hanes personol yr apostol, ac â chynnydd y gwrthwynebiad Iuddewig, yn gystal a'r cynnydd cyfattebol mewn athrawiaeth o du yr apostol i'w cyfarfod: ac yn olaf, fod yr amseriad hwn yn egluro un neu ddau o gyfeiriadau yn yr epistol ag y mae yn anhawdd ar y golygiad arall roddi cyfrif am danynt.

IV. ACHLYSUR AC AMCAN EI GYFANSODDIAD.

Wedi i'r apostol Paul fod yn pregethu yr efengyl, ac yn planu eglwysi yn Galatia gyda llwyddfant anghyffredin, daeth gau athrawon Iuddewig i'w mysg, i geisio dadwneyd ei waith. Yr oedd eu hamcan yn ddeublyg; neu yn hytrach, ymgeisient am y cyntaf fel moddion i gyrhaedd yr olaf. Yr amcan cyntaf oedd gwrthweithio y dylanwad personol cryf a ennillasai Paul ar feddyliau y Cristionogion hyn, yr hyn a amlygid yn eu serch a'u hymlyniad gwresog wrtho. Gwyddai yr athrawon hyn yn dda mai dyma oedd un o'r prif rwystrau ar ffordd llwyddiant eu hathrawiaeth. O ganlyniad, ymdrechent trwy bob ystrywiau enllibus i ddarostwng ei gymmeriad fel dyn (v. 11), ac i ddirmygu ei swydd a'i awdurdod fel apostol, ïe, i wadu ei apostoliaeth yn hollol (i. 1—11). Yr amcan eithaf oedd hudo y Galatiaid oddi wrth wirionedd yr efengyl, yr hon a dderbyniasant o enau yr apostol, sef athrawiaeth gras neu drefn cyfiawnhâd trwy ffydd; a'u hennill i gofleidio Iuddewiaeth. Haerent fod yr enwaediad, a chyffurfiad cyflawn â chyfraith Moses, yn hanfodol er iachawdwriaeth (v. 2; vi. 12); a thrwy y ddysgeidiaeth hon, yr oeddynt yn llwyddo i ddadymchwelyd ffydd rhai yn hollol, tra yr oeddynt yn arwain yr eglwysi yn gyffredinol i ddyrysweh ac ansicrwydd o berthynas i ffordd iachawdwriaeth. Ymddengys fod y dylanwad niweidiol hwn ar gynnydd: yr oedd amryw ddychweledigion diweddar eisoes wedi ymostwng i'r enwaediad (vi. 13), ac wedi rhoddi derbyniad mor aiddgar i'w hathrawon newydd ag a roddasent ychydig cyn hyny i Apostol y Cenhedloedd (iv. 14, 15); a thafiwyd y gweddill o'r eglwysi i gyflwr o derfysg ac ymraniad (i. 6, 7; iii. 1—3; iv. 9—11; v. 7—12). Yr oedd yr apostol eisoes wedi gwrthdystio yn bersonol yn erbyn yr athrawon hyn, yn ystod ei ail ymweliad âg eglwysi Galatia (i. 9; iv. 16, cymh. â *Act.* xviii. 23). Ac yn awr, yn gymmaint a bod y dylanwad gwenwynig hwn yn gweithio mor gyflym, ac yn ennill tir i raddau mor ddifrifol, y mae yn ysgrifenu yr epistol hwn atynt yn bennodol i'r dyben o'i wrthweithio. Dyma *achlysur* yr epistol.

Y mae *amcan* yr epistol gan hyny yn ddeublyg:—(1.) amddiffyn ei awdurdod ei hun fel apostol; ac yn (2.) dynoethi dysgeidiaeth dwyllodrus yr athrawon Iuddewig, a chadarnhau y Galatiaid yn ffydd yr efengyl. O ganlyniad, y mae yr epistol yn cynnwys dwy ran—yr amddiffynol (*pen.* i. ii.), a'r ddadleuol (*pen.* iii. iv.). Dilynir y rhai hyn yn naturiol â diweddglo ymarferol (*pen.* v. vi). Gwelir y prif ranau hyn yn cael eu dosranu dan y penawd nesaf.

Wedi rhoddi golwg gyffredinol tel yna ar achlysur ac amcan yr epistol, gallai mai nid anfuddiol a fyddai rhoddi adroddiad ychydig yn fanylach o'r amgylchiadau. Crybwylla Luc am ddau ymweliad â Galatia, ond ni roddir dim o hanes y naill na'r llall. Yr achlysur cyntaf oedd yn ystod ail daith genhadol yr apostol, yn y flwyddyn 51 neu 52, fel y mae yn fwyaf tebyg: *Act.* xvi. 6. Cymmerodd yr ail ymweliad le ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, fe allai yn y flwyddyn 54, yn ystod ei drydedd daith genhadol, ac yn union o flaen ei arosiad maith yn Ephesus: *Act.* xviii. 23. Y mae yr epistol yn cynnwys cyfeiriadau, fel y gwelir, at y ddau ymweliad; ac wrth gyssylltu y cyfeiriadau hyn â'r crybwyllion yn Llyfr yr Actau, yr ydym yn dyfod i feddiant o'r ffeithiau canlynol.

1. Ar ol y cynghor apostolaidd yn Ierusalem, cychwynodd yr apostol Paul o Antioch gyda Silas i ail ymweled â'r eglwysi a blanasai efe yn Syria, Cilicia, a Lycaonia. Yn Lystra, tarawsant wrth Timotheus, yr hwn a'u canlynodd o hyny allan drwy y daith: *Act.* xv. 40—xvi. 5. Hyd yn hyn, yr oedd yr apostol wedi bod yn teithio dros dir oedd wedi ei lafurio ganddo o'r blaen. Yn awr y mae yn dyfod i faes newydd, "Phrygia a gwlad Galatia;" *Act.* xvi. 6. Y mae ffurf yr ymadrodd yn y Groeg yn arwyddo nad yw Phrygia a Galatia i'w golygu yma fel dwy wlad wahanol. Gallesid galw y wlad oedd yn awr yn cael ei hefengyleiddio naill ai yn Phrygia neu yn Galatia. Fel y dangoswyd o'r blaen dan *adran* ii., y wlad hono ydoedd a gyfanneddid yn wreiddiol gan Phrygiaid, ond a feddiannwyd ar ol hyny gan Gâliaid; neu mor bell ag yr oedd efe yn teithio y tu hwnt i derfynau y sefydliad Gâlaidd, yr oedd efe etto yn pregethu yn mharthau cymmydogaethol Phrygia, y rhai a ellid yn briodol eu cynnwys o dan un enw cyffredinol.

Nid yw yn ymddangos fod gan Paul unrhyw fwriad ar y cyntaf i bregethu yr efengyl yn Galatia. Gallai ei fod yn awyddus i weithio ei ffordd yn mlaen gyda'i gennadwri ar unwaith i'r rhandir fwy pwysig ac addawol o Asia, a chwir Asia Raglawiaethol *(Proconsular Asia)*: *Act.* xvi. 6. Ond

attaliwyd ef yn Galatia gan ymosodiad o'r hen anhwyldeb, "y swmbwl yn y cnawd, cenad Satan i'w gernodio" (2 *Cor.* xii. 7)—rhyw ymosodiad sydyn a llym, y mae yn ymddangos, yr hwn a'i darostyngai ac a wanychai ei nerth yn ddirfawr. Fel hyn y mae rhai o'r beirniaid goreu yn deongli *pen.* iv. 13;—"A chwi a wyddoch mai trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf." Nid ei fod yn pregethu iddynt y tro hwnw mewn gwendid: ond mai ymosodiad llym o'i hen anhwyldeb a'i daliodd ef yn eu plith "y waith gyntaf" y daeth i'w mysg, pan ar ei daith i le arall, ac felly a fu yn achlysur iddo bregethu yr efengyl iddynt o gwbl. I'r amgylchiad rhagluniaethol hwn yr oedd y Galatiaid yn ddyledus am eu gwybodaeth o Grist. Gallesid meddwl wrth edrych ar bethau o'r tu allan, fod yma bob peth yn anffafriol i lwyddiant y gennadwri;—crwydryn digartref, yn nghanol dyeithriaid, newydd gyfodi o wely cystudd! nid ymddangosai y fath un ond amddiffynwr egwan i achos mor bwysig. Ond y drefn ddwyfol oedd i nerth gael ei berffeithio mewn gwendid yn mhregethiad yr efengyl. Darfu i sel y pregethwr a brwdfrydedd y gwrandawyr fuddugoliaethu ar bob rhwystrau. Yr oedd y llwyddiant yn aruthrol. Cariai y gennadwri bob peth o'i blaen. Derbyniodd y Galatiaid hyn y genad a'r gennadwri gyda serch a gwresogrwydd angerddol. Ei brofedigaeth, yr hon oedd yn ei gnawd, ni ddiystyrasant ac ni ddirmygasant; eithr hwy a'i derbyniasant ef megys angel Duw, megys Crist Iesu. "Pe buasai bossibl, hwy a dynasent eu llygaid, ac a'u rhoddasent iddo ef;" *pen.* iv. 14, 15. Dyma yr argraph a wnaed ar galon yr apostol gan eu croesawiad serchiadol cyntaf iddo, yr hwn oedd yn ffurfio y fath gyferbyniad poenus i'w gwrthgiliad dilynol.

Nid yw yn hawdd rhoddi cyfrif, ar yr olwg gyntaf, oddi ar achosion naturiol, am y dylanwad nerthol, ond byr barhaol, a gafodd pregethiad yr efengyl ar y Galatiaid. Ymddengys fod holl ysbryd Cristionogaeth yn ddyeithr i'w dulliau hwy o feddwl: safai yr efengyl fel cennadwri o drugaredd, ac fel ffydd ysbrydol mewn cyferbyniad uniongyrchol i'r crefyddau defodol a chreulawn yn y rhai y magesid hwynt—pa un bynag ai yr hen gredo Celtaidd, ai eu crefydd fabwysiedig yn Phrygia. Gallai fod yr athrawiaeth o anfarwolaeth yr enaid ganddynt, yr hon, fel y dywedir, oedd yn ffurfio rhan o'r addysg Dderwyddol; gallai hefyd fod yr hen argyhoeddiad Celtaidd yn ares hyd yn oed yn Galatia, yr hwn a amlygid mewn dulliau mor greulawn yn eu haberthau barbaraidd; sef, mai trwy waed dyn yn unig yr oedd modd i ddyn gael ei waredu. Gyda yr eithriad o'r pethau hyn, yr oedd y grefydd yn wynebu arnynt fel newydd-beth tra estronol. Ond er yr holl anfanteision, y mae yn hawdd credu fod ysbryd tanllyd yr apostol wedi cynneu yn rhwydd eu brwdfrydedd crefyddol. Y mae y ffuer a ddefnyddia i ddarlunio ei bregethu iddynt yn awgrymu i ni gyda pha fath fywyd a gallu disgrifiadol yr oedd yn traddodi ei gennadwri iddynt. Yr oedd yn *portreadu* Iesu Grist wedi ei groeshoelio o flaen eu llygaid (*pen.* iii. 1), nes tynu sylw y sefyllwyr mwyaf diofal, a'u sefydlu ar y darlun. Dyna fe! yn adyn gwrthodedig a digyfeillion, yn awr a phryd arall yn cael ei ddirdynu gan yr anhwyldeb poenus oedd yn ei flino, ond yn daer mewn amser ac allan o amser—weithiau yn taranu, bryd arall yn erfyn, yn appelio at loesion dwaredwr croeshoeliedig, ac fe allai ar brydiau, fel yn Lystra, yn attegu ei appel a gwyrth ryfeddol! Wrth ddarlunio yr olygfa hon i ni ein hunain, nid yw yn anhawdd deall fel y gallasai tymmer angerddol y Galiaid gael ei chyffroi, tra nad oedd etto ond yn unig ar wyneb ei natur ysbrydol wedi ei chyffwrdd. Yr oedd pob peth am amser fel yn myned yn mlaen yn foddhaol. "Chwi a redasoch yn dda" (*pen.* v. 7), meddai yr apostol, gan gyfeirio at ei hoff ffugr o redegfa. Ond yr oedd y sydynrwydd â pha un y derbyniasant yr efengyl ynddo ei hunan yn argoeli yn beryglus. Y mae y defnydd sydd yn derbyn argraph mor rwydd yn ei cholli drachefn yn rhwydd. Ac felly, nid anhawdd oedd gwneyd i waed newydwyllt y Celtiaid redeg i sianel arall gan ryw gynnhyrfiad crefyddol newydd. Nid oedd eu derbyniad o'r efengyl wedi ei sylfaenu ar argyhoeddiad dwfn o'i gwirioneedd, nac ar wir brofiad o'i nerth ysbrydol.

Gellid casglu nad oedd yr ymweliad cyntaf hwn â Galatia yn un o hir barhâd. Y mae yn naturiol, wedi iddo gael ei attal gan gystudd, y buasai yn awyddus i fyned yn mlaen ar ei daith mor fuan ag y buasai yn alluog. Yr oedd yn gweithio ei ffordd yn mlaen o dan arweiniad dwyfol at faes newydd o lafur cenhadol yn nghyfandir Ewrop—cyfandir ag yr oedd hyd yma heb ericed dreiddio iddo.

2. Y mae yn rhaid fod cyfwng o tua thair blynedd wedi myned heibio cyn yr ail ymweliad â Galatia. Yr oedd yr apostol yn awr ar ei drydedd daith genhadol; ac yn ol ei arfer, cyn dechreu ar faes newydd o lafur, ei ofal cyntaf oedd i ail ymweled ac i "gadarnhau" yr eglwysi yr oedd efe eisoes wedi eu planu. Daeth y neges hwn âg ef i "Phrygia a gwlad Galatia" yn B. A. 54. Gellir casglu oddi wrth y crybwylliad am y daith yma fod lliaws o gynnulleidfaoedd neu eglwysi wedi eu sefydlu yn Galatia:—"Efe a aeth ymaith, gan dramwy trwy wlad Galatia, a Phrygia, *mewn trefn*, a chadarnhau yr *holl* ddysgyblion;" *Act.* xviii. 23.

Yr ydys yn gwybod llai am yr ail daith i Galatia nag hyd yn oed am y gyntaf. Ond y mae yn ymddangos fod rhyw arwyddion drwg wedi ymddangos, ag oeddynt yn bygwth purdeb yr efengyl. Pa fodd bynag, y mae rhai ymadroddion yn yr epistol, y rhai a 'gyfeirir yn fwyaf naturiol at yr ymweliad hwn, yn awgrymu fod pethau wedi ymddangos y pryd hwnw ag oedd yn anesmwytho meddwl yr apostol. Gorfodid ef yn awr i gyfarch ei ddychweledigion mewn tôn o rybudd difrifol: *pen.* v. 21. Tynghedai hwynt i gyfrif yn esgymmunedig pwy bynag a ŵyrdroai yr efengyl a bregethasai efe iddynt. A phan y mae wedi hyny yn ysgrifenu atynt, y mae yn cyferbynu y derbyniad oeraidd a gafodd ganddynt y tro hwn â'r croesaw calonog a gawsai ar ei ymweliad cyntaf, ac yn priodoli yr ymddyeithrad yn eu serch tuag ato i'r dull gonest a difloesgni yr oedd efe wedi dynoethi eu cyfeiliornadau:—"A aethum i gan hyny yn elyn i chwi, wrth ddywedyd i chwi y gwir?" *pen.* iv. 13—16.

Fel yr ydym wedi ceisio dangos dan *adran* iii., ysgrifenwyd yr epistol yn mhen tua thair neu bedair blynedd ar ol yr ail ymweliad hwn: ond y mae yn ddiau fod Paul yn y cyfamser yn dal i fyny ei gydnabyddiaeth â'r eglwysi Galatiaidd, trwy genhadau neu ryw ffyrdd ereill. Treuliodd yr apostol ran fawr o amser y cyfwng hwn yn Ephesus; ac oddi yno buasai yn hawdd iddo ymohebu

â Galatia. Y mae crybwylliad damweiniol yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid yn taflu goleuni ar hyn. Rhoddir ar ddeall i ni yno fod yr apostol wedi appelio at eglwysi Galatia (1 *Cor.* xvi. 1—6), megys y gwnaeth hefyd at yr eiddo Macedonia ac Achaia, i gyfranu at gynnorthwyo eu brodyr tlodion yn Palestina, y rhai oeddynt yn dioddef o dan newyn tost. Trwy drafodaeth, yn cael ei dal i fyny fel hyn, yr oedd yr apostol yn dyfod i wybod am gynnydd llygredigaeth eglwysi Galatia oddi wrth ymledaeniad cyfeiliornadau yr athrawon Iuddewaidd.

Y mae yn naturiol meddwl fod rhwyddineb y Galatiaid yn llyngcu y cyfeiliornadau Iuddewaidd hyn yn awgrym o gydnabyddiaeth flaenorol â hanesyddiaeth Iuddewig, ac o ryw radd o gynnefindra â dulliau Iuddewig o feddwl. Gellir tynu yr un casgliad oddi wrth y cyfeiriadau lliosog a manwl at yr Hen Destament sydd yn yr epistol y rhai ydynt yn tybied mesur lled helaeth o wybodaeth o ysgrythyrau yr Hen Destament yn y dychweledigion.

Y mae yn ddiammheuol fod dylanwad Iuddewig cryf yn Galatia. Dangoswyd yn barod, dan *adran* ii., fod poblogaeth gref o Iuddewon yn y wlad. Y mae yn debyg fod yr apostol wedi dewis y lleoedd hyny i fod yn ganolbwynt ei genhadaeth mewn gwahanol wledydd, lle y caffai gorph digon cryf o drigolion Iuddewig i ffurfio cnewyllyn eglwys Gristionogol. Fel yr oeddynt hwy yn geidwaid oraclau cyssegredig, atynt hwy yr oeddid yn naturiol yn cyfeirio yn mhob peth a berthynai i hanes a thraddodiadau eu cenedl; ac o ganlyniad, yr ydoedd bron yn gymmaint o gyfleusdra cenhadol ag ydoedd o rwymedigaeth grefyddol i gynnyg yr efengyl "i'r Iuddew yn gyntaf, ac yna i'r Groegwr." Ac fel hyn y gwnai yr apostol bron yn mhob man lle y cawn ei hanes yn lled fanwl yn planu eglwysi: elai at ei gydwladwyr yn gyntaf, a chyfarchai hwynt ar y dydd Sabbath, ac yn y synagog. Fel hyn yr oedd yr apostol ei hunan, yn y weithred o blanu eglwys Gristionogol, yn planu ar unwaith hadau rhagfarn ac ymryson.

Nid oes genym sail i feddwl fod yr efengyl wedi ennill dylanwad mawr ar yr Iuddwon yn Galatia. Y mae iaith yr apostol yn dangos fod y corph mawr o'i ddychweledigion o leiaf yn Genhedlgoedd (cawn ef yn cyfeirio at eu heiliun-addoliaeth bleenorol): *pen.* iv. 8; iii. 29; v. 2; vi. 12. Etto y mae yn ddiammheu fod rhai dychweledigion Iuddewig yn eglwysi Galatia. Buasai y rhai hyn yn ffurfio dolen o gymmundeb â'u brodyr yn Palestina, ac yn gyfrwng i drosglwyddo arferion Iuddewig i'w cyd-Gristionogion Cenhedlig. Beth bynag oedd y rheswm am hyny, yr oedd Iuddewiaeth y Galatiaid yn gwisgo gwedd mwy pendant a ffyrnig nag yn yr un o'r eglwysi Cenhedlig ereill. Ymadawodd yr haint yn eu plith gyda nerth a sydynrwydd. Attaliwyd hwy ar unwaith yn eu gyrfa wrol am y gamp: *pen.* v, 7. Trowyd eu llygaid ymaith gan ryw swyn rhyfedd oddi wrth y portread o Grist wedi ei groeshoelio: *pen.* iii. 1. Dyma y cymmhariaethau a ddefnyddia i ddarlunio eu gwrthgiliad. Yr oedd eu Iuddewiaeth o'r nodwedd Phariseaidd a mwyaf eithafol. Cymmhellid arnynt yn gryf yr angenrheidrwydd am eneaediad: *pen.* v. 2, 11: vi. 12, 13. Gosodid pwys mawr ar "gadw diwrnodau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd;" *pen.* iv. 10. Mewn gair, gellid meddwl nad oedd dim llai yn ngolwg y rhai a'u haflonyddent nag ymostyngiad i'r holl gyfraith seremonïol. O leiaf, dyma oedd y canlyniad naturiol a chysson i'w gwaith yn ymgymmeryd â defod ddechreuol yr enwaediad: *pen.* v. 3.

Y mae yn amlwg nas gallasai y dysgawdwyr Iuddewig ennill y Galatiaid i'w hegwyddorion heb yn gyntaf ddinystrio eu hymddiried yn yr apostol Paul. Yr oedd yn rhaid i'w awdurdod ef gael ei osod o'r neilldu trwy ryw foddion neu gilydd; a chynnygiodd lwybr pur hawdd i'w meddyliau i ddwyn hyn oddi amgylch. Rhoddasant y si allan nad oedd efe yn wir apostol. Nid oedd efe wedi bod yn un o ganlynwyr personol yr Arglwydd Iesu—nid oedd wedi derbyn ei wybodaeth o'r efengyl ond yn ail llaw. O ganlyniad, i'r fam-eglwys yn Ierusalem yr oedd pob cwestiwn o ddadl i'w gyfeirio, ac i apostolion mawr yr enwaediad yn arbenig, "colofnau" yr eglwys—i Iago yn gyntaf fel brawd yr Arglwydd, i Pedr yr hwn a dderbyniasai gommisiwn neilldual gan ei Feistr, ac i Ioan y penaf o'i gyfeillion personol: *pen.* ii. 2, 6, 9. Y mae yr apostol yn cadw ei olwg o'r dechreu i'r diwedd yn yr Epistol at y Galatiaid ar y feirniadaeth ddifrifol hon o eiddo ei wrthwynebwyr. Dechreua y llythyr drwy honi, yn yr ymadroddion cryfaf, ei ddwyfol gommisiwn uniongyrchol fel apostol—"nid o ddynion, na thrwy ddyn" (*pen.* i. 1); ac y mae yn ail adrodd yr haeriad hwn yn y modd mwyaf pendant: *pen.* i. 11, 12. Rhydd yn nghorph y llythyr adroddiad hanesyddol manwl o'r drafodaeth a fuasai rhyngddo ac apostolion yr enwaediad, yr hyn a ddangosai ei annibyniaeth hollol arnynt: *pen.* i. 15; ii. 21. Y mae yn diweddu, fel y dechreuodd, gydag amddiffyniad i'w swydd a'i gommisiwn. "O hyn allan," llefai gydag ciddigedd, "na flined neb fi: canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu;" *pen.* vi. 17. Teimlai fod yna wawdiaith ddideimlad mewn gwadu ei apostoliaeth, ac yntau wedi cael ei nodi fel "gwas" (*slave*—caethwas) ffyddlawn i Grist am byth gan losgnod creulawn erledigaeth.

Yehydig cyn hyn, yr oedd yr apostol wedi dyfod trwy erledigaethau dros fesur. Rhydd restr effeithiol o honynt yn yr Ail Lythyr at y Corinthiaid (*pen.* xi. 23—27)—y llythyr a ysgrifenasai efe ddiweddaf cyn yr un at y Galatiaid. Y mae yn debyg mai at olion y triniaethau creulawn hyn ar ei gorph y mae yn cyfeirio yn y "nodau" yn yr adnod uchod. Ac y mae yn deilwng o sylw mai ar ol hyn y mae gyntaf yn galw ei hun yn *slave* (*doulos*—caethwas) Iesu Grist; sef, yn y Llythyr at y Rhufeiniaid (*pen.* i. 1), yr hwn a ysgrifenwyd ganddo yn nesaf ar ol yr un at y Galatiaid. O hyn allan, yr Iesu oedd ei Feistr; o hyn allan yr oedd efe yn "gaethwas" Crist, mewn ystyr llawnach nag o'r blaen. Yr oedd yn ymhyfrydu mewn gweled nodau ei Feistr a'i berchenog, ac olion y gwasanaeth, megys wedi eu llosgi i fewn i'w berson.

Ond ni safai ymosodiadau ei elynion ar hyn. Cyhuddent ef o anghywirdeb egwyddor, ac anghyssondeb ymddygiad. Ac yr oedd llawer o amgylchiadau yn mywyd yr apostol ag oedd yn hawdd i falais ei elynion roddi y lliw yma arnynt. Arno ef yn benaf, fel offeryn, y disgynodd y gwaith mawr ac anhawdd o lywio llestr yr eglwys yn ddiogel trwy y culfor peryglus rhwng y ddwy oruchwyliaeth. Yr oedd yn hawdd rhagweled y byddai anhawsder mawr a chyntaf yr Eglwys Gristionogol yn cyfodi, nid oddi allan iddi, ond o'i mewn—o'i hegwyddorion hi ei hunan. Yr anhawsder hwnw oedd, y berthynas oedd rhwng cyfraith Moses a'r efengyl. Prin y gallwn ni

sylweddoli yr anhawsder hwn, yn yr oes a'r goleuni yr ydym ni yn byw ynddynt. Ond yn sefydliad Cristionogaeth, yr oedd hyn yn rhwym o gael ei deimlo yn anhawsder mawr a phwysig. Yr oedd dwy blaid eithafol ar hyn yn yr eglwys apostolaidd. Mynai un arddodi y defodau Iuddewig hyd yn oed ar y Cristionogion Cenhedlig; mynai y llall gipio y cyfan yn y fan ac ar unwaith hyd yn oed oddi ar Gristionogion o Iuddewon. Llywiai yr apostol ei gwrs yn ddoeth ac yn ddiogel rhwng y creigiau hyn; nid trwy aberthu egwyddor, ond oddi ar yr egwyddor buraf. Caniatäai i Gristionogion Iuddewig barhau am ychydig yn yr argyfwng hwn i gyflawni rhai o ddefodau eu hen grefydd, fel duwiol ymarferiad eu tadau, tra y byddai iddynt hwy ofalu am adael y cwbl allan yn llwyr o ammod iachawdwriaeth, fel ag i ddim beidio a myned rhyngddynt â Christ croeshoeliedig. Gadawai yr apostol amser i egwyddorion ysbrydol yr efengyl, yn rhinwedd eu dadblygiad naturiol eu hunain, wneyd i ffwrdd yn llwyr ac am byth â'r seremoniau Iuddewig; yn hytrach na myned ati i ddistrywio y cwbl ar unwaith cyn dechreu adeiladu. Oddi ar yr egwyddor hon, ymwnäai yr apostol "i'r Iuddewon megys yn Iuddew, fel yr ennillai yr Iuddewon; i'r rhai dan y ddeddf, megys dan y ddeddf, fel yr ennillai y rhai oedd dan y ddeddf; i'r rhai dddeddf, megys dddeddf—fel yr ennillai y rhai dddeddf." Ymunai "yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai;" 1 *Cor.* ix. 20—22. Nid ei gadw ei hun oedd mewn golwg ganddo wrth gymmeryd y llwybr canol hwn, ond cadw ereill—cadw eneidiau a hyrwyddo sefydliad teyrnas yr Arglwydd Iesu yn y byd. Ond y mae yn hawdd gweled nad oedd un ymddygiad haws i'w gymmeryd yn achlysur gan ei elynion i'w gamliwio. Ac felly y gwnaethant. Mynent fod Paul yn awr yn ei gweled yn gyflens i ymwrthod â'i egwyddorion, er mwyn gweithio ei hunan i ffafr y Cenhedloedd (*pen.* i. 10). Dywedent ei fod yntau wedi bod yn pregethu yr enwaediad yr oedd efe yn awr yn ei wrthwynebu mor egnïol (*pen.* v. 11). Enwaedodd ei hunan ar Timotheus (*Act.* xvi. 3); a rhoddodd ei sel wrth arferion Iuddewig yn ei ymweliad olaf âg Ierusalem, pan y darfu iddo, ar annogaeth Iago, ddwyn traul y gwŷr a gymmerasant arnynt adduned Nazareaidd (*Act.* xxi. 20—26). Y rhyddfrydigrwydd doeth hwn o eiddo yr apostol, o fewn terfynau egwyddorion hanfodol, oedd yr achlysur i'w elynion ei gyhuddo o anghyssondeb.

Ymddengys nad preswylwyr Galatia oedd cynnhyrfwyr y gwrthryfel hwn yn erbyn awdurdod a dysgeidiaeth yr apostol. Cenhadau o'r fam-eglwys yn Ierusalem, y mae yn dra thebyg, oedd ei brif wrthwynebwyr—naill ai yn cam-ddefnyddio y commisiwn a dderbyniasent gan apostolion yr enwaediad, neu ynte yn cymmeryd arnynt awdurdod nad oedd erioed wedi ei rhoddi iddynt. Bu amgylchiad cyffelyb gydag eglwys Corinth, a chyfeiria yr apostol, yn *pen.* ii. 12, at "rai a ddaethent oddi wrth Iago," gan awgrymu o bossibl fod tebygrwydd rhwng y ddau amgylchiad. Y mae y cyfeiriadau achlysurol hefyd a geir yma a thraw yn yr epistol yn ymddangos fel pe byddent yn cyfeirio at blaid fechan unol o ymwthwyr dyeithr, yn hytrach nag at gyfeiliornadau wedi cyfodi yn ddistaw ac o honynt eu hunain yn eglwysi Galatia. Efrau oeddynt, wedi eu hau yn fwriadol yn y maes gan y gelyn yn y nos, ac nid y chwyn a dyfent yma a thraw fel cynnyrch naturiol y tir. "Y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does;" *pen.* v. 9. Y mae "rhai yn eich trallodi chwi;" *pen.* i. 7. Braidd nas gallem dybied fod rhyw ben-blaenor yn mysg yr athrawon Iuddewig, yn enwog ar y lleill o herwydd sefyllfa uwch neu weithgarwch mwy. "Y neb sydd yn eich trallodi a ddwg farnedigaeth, pwy bynag fyddo;" *pen.* v. 10.

Pa fodd bynag yr hauwyd y cyfeiliornadau hyn, cawsant ddaear gydnaws yn Galatia. Yr oedd Iuddewiaeth, fel cyfundrefn o ddefodau, yn taraw i mewn yn naturiol â thymmer y bobl ac â'u haddysg grefyddol cyn eu dychweliad. Felly ceisient arosod defodau Iuddewig ar symlrwydd yr efengyl. Tybia rhai, mai cyfeirio at y dymmer a fagesid ynddynt gan eu hen addysg baganaidd y mae yr apostol, pan yn dannod iddynt eu bod yn "troi drachefn at yr egwyddorion llesg a thlodion, y rhai yr oeddynt yn chwennych drachefn o newydd eu gwasanaethu" (*pen.* iv. 9,; ac yn cymmeryd eu "dal drachefn gan iau caethiwed" (*pen.* v. 1). Nid oeddynt ond wedi ymwrthod â defodaeth baganaidd, i gofleidio yn ei lle ddefodaeth Iuddewaidd.

Dyma yr ystâd oedd ar bethau y pryd hwn yn eglwysi Galatia: ac i gyfarfod â'r amgylchiadau hyn yr ysgrifenodd yr apostol yr Epistol at y Galatiaid. Fel y sylwyd yn nechreu yr adran hon, y mae amcan yr apostol yn y llythyr yn cyfatteb i'r amgylchiadau a'i hachlysurodd—amddiffyn ei swydd a'i awdurdod fel apostol, ac ennill y Galatiaid yn ol, o'u gwrthgiliad i ddefodaeth Iuddewig, at wirionedd yr efengyl a'r symlrwydd sydd yn Nghrist.

V. MATER, ARDDULL, A CHYNLLUN YR EPISTOL.

1. Ymdrinwyd â mater yr epistol mewn rhan dan y pen diweddaf. Y mae dosbarthiad bras o hono yn ei ranu i dair rhan, yn cynnwys dwy bennod bob un. Y mae y rhan gyntaf (*pen.* i. a ii.) yn amddiffynol (*apologetic*), neu bersonol. Cynnwysa grynodeb hanesyddol tra gwerthfawr o yrfa apostolaidd Paul, yn profi ei annibyniaeth ar awdurdod ddynol, ac yn cadarnhau yn gystal ag yn egluro yr hanes yn yr Actau, trwy grybwyll y prif achlysuron y bu efe mewn cymmundeb â'r apostolion ereill; gan adrodd hefyd y drafodaeth hynod hono a gymmerodd le rhyngddo a'r apostol Pedr, yr hon oedd mor bwysig ynddi ei hunan, a'r hon hefyd a fu yn achlysur i'r dystioleaeth werthfawr a roddir i wirionedd yr efengyl yn *pen.* ii. 14—21. Dengys yr apostol trwy y drafodaeth hon nid yn unig ei annibyniaeth ar bob awdurdod ddynol, ond ei wrthwynebiad iddi yn mherson Pedr, pan oedd yr apostol hwnw wedi gweithredu gydag anghyssondeb.

Y mae yr ail ran, sef yr un ddadleuol (*polemical*), neu athrawiaethol, yn cynnwys hefyd ddwy bennod; sef, y iii. a'r iv. Yn y rhan hon y mae yr apostol yn defnyddio ymresymiad (*pen* iii.), apeliad (*pen.* iv. 12—20), ac eglurhadaeth trwy gymmhariaethau (*pen.* iv. 1—7, a 21—30) i sefydlu gwirionedd y gosodiadau sylfaenol fod cyfiawnhâd trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf (*pen.* iii. 5, 6), ac mai y rhai hyny yn unig ag sydd o ffydd ydynt etifeddion yr addewid, a gwir blant Abraham (*pen.* iii. 7—9, 10—29). Y mae y rhan hon yn dwyn llawer o debygolrwydd i'r Epistol at y Rhufeiniaid. Yr un athrawiaeth fawr sydd yn cael ei phrofi yn y naill a'r llall;

sef cyflawnhad pechadur trwy ffydd yn unig, heb weithredoedd y ddeddf. Ond y mae hyn o wahaniaeth yn amlwg rhyngddynt, yn yr Epistol at y Rhufeiniaid :—ymdrinir â'r pwngc ar dir eang a chyffredin, heb gyfeiriad at unrhyw amgylchiadau neilldiol; tra yn y llythyr hwn y mae yr ymdriniaeth yn cymmeryd ffurf ddadleuol neu ymresymiadol, yn cael ei chyfaddasu at sefyllfa yr eglwysi hyn ar y pryd, a chyda chyfeiriad gwastadol at y gau athrawon Iuddewig a'u dysgeidiaeth. Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, profir yr ammhossiblrwydd i bechadur gael ei gyflawnhau trwy gyddfurfiad âg unrhyw *ddeddf*, neu trwy haeddiant ei ufudd-dod personol: ond yma, profir yr ammhossiblrwydd hwnw yn benaf yn ei *gyssylltiad* â'r ddeddf *seremonol*, am fod yr athrawon Iuddewig yn dysgu fod cyddfurfiad â'r ddeddf hono yn ammod iachawdwriaeth. *Defodaeth* oedd y pla oedd yn anrheithio eglwysi Galatia.

Y mae y drydedd ran etto yn cynnwys dwy bennod (v. a vi.). Y mae y rhan hon yn annogaethol neu ymarferol. Cynnwysa annogaethau a rhybuddion (*pen.* iv. 31—v. 6); engreifftiau o'r hyn sydd yn cyfansoddi gwir gyflawni y ddeddf (*pen.* v. 13—26); hyfforddiadau ymarferol (*pen.* vi. 1—10); ynghyd âg adgrynhoad bywiog mewn ffurf o ddiweddglo (*pen.* vi. 11—16). Ceir elfeniad manylach o'r epistol yn niwedd yr adran hon, dan *cynllun*.

2. O ran *arddull*, y mae y llythyr hwn yn sefyll ar ei ben ei hun yn mhlith epistolau Paul. Gwahaniaethir ef yn arbenig gan,

(1.) *Unoliaeth amcan.*—Nid ydyw yr apostol yn colli golwg o gwbl, o ddechreu y llythyr i'w ddiwedd, ar y gwrthgiliad Galatiadd yn ei wedd ddyblyg, fel gwadiad o'i awdurdod ef ei hunan, ac ymwrthodiad âg athrawiaeth gras. Y mae y cyfarchiad agoriadol yn dwyn y mater dyblyg hwn yn mlaen. Gyda bod yr enw *Paul* wedi disgyn dros ei wefusau, y mae yn myned i mewn i'r mater ar unwaith. Dyma sydd yn llenwi yr eglurhâd hanesyddol sydd yn canlyn. Y mae corph y llythyr, sef y rhan athrawiaethol, yn cael ei gymmeryd i fyny yn gwbl ganddo. Y mae yr annogaethau ymarferol sydd yn canlyn yn cyfodi yn naturiol o hono. Ac yn olaf, dwg ef yn mlaen gydag arbenigrwydd yn y diwedd-glo. Y mae y ddwy frawddeg olaf yn adlewyrchu y wedd ddeublyg ar yr un amcan oedd yn rhedeg trwy y llythyr :—"O hyn allan, na fined neb fi. Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda'ch ysbryd chwi." Fel hyn y mae ei eiriau olaf yn adsain o'i rai cyntaf, "Paul, apostol nid o ddynion :"—"Duw, yr hwn a'ch galwodd yn ngras Crist."

Y mae y llythyr yn yr ystyr yma yn dra gwahanol i'r ddau Epistol at y Corinthiaid, er ei fod mewn rhyw bethau ereill yn gyffelyb iddynt. Fel yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, ysgrifenwyd gyda'r amcan uniongyrchol o ddiwygio cyfeiliornadau pennodol. Ond y mae y gwahaniaeth yn amlwg. Yr oedd llawer o fân-bleidiau yn eglwys Corinth—yr oedd yr afreoleidd-dra mewn manylion neu ymarferiadau, heb fod wedi ei sylfaenu ar unrhyw egwyddor lydan o gyfeiliornad—ac y mae yr epistol o angenrheidrwydd yn adlewyrchu yr amrywiaeth hwn. Y mae yr Epistol at y Galatiaid etto, fel yr Ail Epistol at y Corinthiaid, yn ddadguddiad nodedig o fywyd tufewnol yr apostol. Ond y mae y gwahaniaeth yn llawn cymmaint yma etto. Yn y llythyr at y Corinthiaid, y mae yn tywallt ei deimladau yn ddiattalfa, gan gyfeirio at ei brofiad ei hunan a'i drallodion ei hunan, yn rhydd ac heb unrhyw amcan pennodol. Ond yn hwn, y mae pob crybwylliad am dano ei hun yn cael ei wneyd yn ddarostyngedig i amcan y llythyr: pa mor gynnhyrfus bynag ydyw gweithrediadau ei enaid, gwesgir hwynt oll i'r sianel hon. Nid yw yma byth yn crybwyll am dano ei hunan ond i'r dyben o gadarnhau awdurdod ei swydd, neu ryddid yr efengyl.

(2.) Nodweddir arddull yr epistol hwn gan *lymder* mawr. Nid ydyw y Galatiaid yn cael eu cyfarch fel "y saint yn Nghrist," na'r "ffyddlawn frodyr." Ni fedd yr apostol ddim llon-gyfarchiadau, dim gair o ganmoliaeth i'r eglwys wrthgiliedig hon. Yr oedd yn gallu pentyru ymadroddion o ganmoliaeth a serch ar y Corinthiaid, er eu holl ddiffygion; ond nid oes yma ddim felly o'r dechreu i'r diwedd. Y mae yn mhob un o'i epistolau at yr eglwysi yn datgan ei ddiolchgarwch drostynt yn y dechreu; ond nid yw yn gwneyd hyny yn hwn—dyma yr unig eithriad. Cawn ef weithiau yn y llythyr hwn yn tori allan ar ganol ymresymiad mewn edliwiaeth ddigllawn. Yr oedd yn ymwneyd â phobl ddifeddwl a hanner barbaraidd. Yr oeddynt wedi cyfeiliorni fel plant, a rhaid eu ceryddu fel plant.

Ar yr un pryd, y mae rhai esbonwyr yn canfod yma "ddaioni," yn gystal a "thoster." Dywed Alford fod yr epistol hwn yn uno y ddau deimlad eithafol a berthynent i gymmeriad rhyfeddol yr apostol, llymder a thynerwch—y ddau yn briodoliaethau dyn o deimladau cryfion a dyfnion. Nis gall dim fod yn fwy difrifol o lym nag agoriad y llythyr, a *pen.* iii. 1—5; na dim yn fwy toddiadol o serchus na rhai o'i appeliadau, megys *pen.* iv. 18—20, &c. "Buasai pobl hanner barbaraidd, fel y Galatiaid, adnabyddus am eu dysymledd a'r hawsder i wneyd argraph arnynt, yn debyg o wrandaw ar y ddau ddull yma o gyfarchiad—o gael eu hennill gan ei erfynion tadol, yn gystal ag o gael eu dychrynu gan ei geryddon a'i fygythion apostolaidd."

Dyma yr epistol a ddewisodd Luther yn ei ymosodiad ar Babyddiaeth fel y peiriant mwyaf effeithiol i glirio y crugiwyth o gyfeiliornadau mewn barn ac ymarferiad oedd wedi eu pentyru ar sylfeini syml yr efengyl. Ysgrifenodd ac adysgrifenodd ei esboniad ar y Galatiaid gyda dyfalwch mawr. Costiodd iddo fwy o lafur, a phrisid ef yn uwch ganddo na dim o'i weithiau. Arferai ddyweyd mai ei epistol ef oedd yr Epistol at y Galatiaid—ei fod wedi dyweddïo ei hun iddo, ac wedi ymbriodi âg ef.

3. I roddi eglurhâd manylach ar *gynllun* yr epistol, nis gallwn wneyd dim yn well na gosod ger bron y darllenydd yr elfeniad rhagorol a ganlyn o eiddo Dr. Lightfoot.

ELFENIAD O'R EPISTOL.

I. PERSONOL:—*yn benaf yn y ffurf o hanes.*

1. Y cyfarchiad a'r dadganiad o fawl wedi ei eirio yn y fath fodd fel ag i ddwyn i mewn brif bwngc y llythyr:—*pen.* i. 1—5.
2. Y mae yr apostol yn ceryddu y Galatiaid am eu gwrthgiliad, yn traethu bygythion uwch

ben y gau-athrawon, ac yn dadgan gwirionedd tragwyddol yr efengyl yr oedd yn ei phregethu:—*pen.* i. 6—10.

3 Daeth yr efengyl hon yn uniongyrchol oddi wrth Dduw.
(i.) Derbyniodd yr apostol hi trwy ddatguddiad neillduol:—i. 11, 12.
(ii.) Diau nas gallasai ei addysg flaenorol ei arwain yn mlaen ati, canys dygasid ef i fyny mewn egwyddorion hollol wrthwyneb i ryddid yr efengyl:—i. 13, 14.
(iii.) Nis gallasai chwaith fod wedi ei dysgu oddi wrth Apostolion yr Enwaediad, o blegid cadwodd ar wahân oddi wrthynt hwy am beth amser ar ol ei ddychweliad:—i. 15—17.
(iv.) A phan o'r diwedd yr aeth efe i Ierusalem, nid oedd ei gymdeithas â hwynt yn agos nac yn faith, a daeth yn ol heb fod lliaws y credinwyr yn ei adnabod, hyd yn oed o ran golwg:—i. 18—24.
(v.) Y mae yn wir yr ymwelodd âg Ierusalem drachefn, yn mhen blynyddoedd; ond cadwodd i fynu ei annibyniaeth yn ofalus. Ymgymmysgai â'r apostolion ar delerau o gydraddoldeb cyfeillgar. Nid oedd efe yn eu dyled o ddim:—ii. 1—10.
(vi.) Ië, mwy:—efe a geryddodd Pedr yn Antiochia am ei anghyssondeb. Trwy roddi ffordd i waith y defodwyr yn pwyso arno, yr oedd Pedr yn gosod y ddeddf yn lle gras, ac felly yn gwadu egwyddor sylfaenol yr efengyl:—ii. 11—21.

[Yr amgylchiad yma yn Antiochia sydd yn ffurfio y ddolen o gyssylltiad rhwng y rhan gyntaf a'r ail ran o'r epistol. Yr oedd cyfeiliornad y Galatiaid yr un a'r eiddo y defodwyr ag yr oedd Pedr wedi derbyn wyneb iddynt. Fel hyn, y mae yr apostol Paul yn llithro, megys yn anymwybodol, o'r rhan hanesol i'r un athrawiaethol.]

II. Athrawiaethol:—*yn benaf yn ymresymiadol.*

1. Y mae y Galatiaid yn profi eu hunain yn ynfyd. Y maent yn cymmeryd y cnawd yn lle yr Ysbryd, gweithredoedd y ddeddf yn lle ufudd-dod ffydd, yn anghofio profiad yr amser a aeth heibio, ac yn troseddu deddf cynnydd:—iii. 1—5.

2. Etto, trwy ffydd y cyfiawnhawyd Abraham, ac felly y rhaid iddi fod gyda gwir blant Abraham:—iii. 6—9.

3. Y mae y ddeddf, i'r gwrthwyneb, mor bell o fod yn cyfiawnhau, fel nad ydyw ond yn condemnio; ac oddi wrth y condemniad hwn y mae Crist wedi ein gwaredu ni:—iii. 10—14.

4. Fel hyn, efe a gyflawnodd yr addewid a roddasid i Abraham, yr hon, gan ei bod o flaen y ddeddf, nis gallasai gael ei dirymu ganddi:—iii. 15—18.

5. Os felly, beth oedd dyben y ddeddf?—iii. 19.
(i.) Goruchwyliaeth is-raddol ydoedd, wedi ei rhoddi fel tyst yn erbyn pechod; nôd ystâd o gaethiwed, nid fel yn wrthwyneb i, ond yn barotoadol at, yr efengyl:—iii. 19—23.
(ii.) Ac felly trwy y ddeddf yr ydym yn cael ein haddysgu at ryddid yr efengyl:—iii. 24—29.
(iii.) Fel hyn, dan y ddeddf, yr oeddym yn blant dan oed; ond yn awr, yr ydym yn feistri arnom ein hunain:—iv. 1—7.
(iv.) Ond etto, i'r cyfiwr hwn o warchodaeth y mae y Galatiaid am fynu dychwelyd yn ol:—iv. 8—11.
Y mae yr ymresymiad yn cael ei dori yn y fan yma, tra y mae yr apostol yn troi at ei gyssylltiadau personol â'i ddychweledigion, ac yn beio yn llym ymddygiad y gau-athrawon:—iv. 12—20.

6. Yn wir y mae y ddeddf yn dwyn tystiolaeth yn ei herbyn ei hunan. Y mae y berthynas rhwng y ddau gyfammod, sef y ddeddf a gras, ynghyd â buddugoliaeth yr olaf, yn cael ei gysgodi yn hanes Agar a Sarah. Rhaid i fab y wasanaeth-wraig roddi lle i fab y wraig rydd:—iv. 21—31.
"Plant ydym ni i'r wraig rydd." Y gair hwn, "rhydd," ydyw y ddolen o gyssylltiad â'r drydedd ran o'r epistol.

III. Annogaethol:—*Cymmhwysiadau ymarferol.*

1. Deliwch eich gafael yn y rhyddid hwn, yr hwn y mae eich gau-athrawon yn ei roddi mewn perygl:—v. 1—12.

2. Ond na adewch iddo ddirywio i benrhyddid. Cariad yw cyflawnder y gyfraith. "Rhodiwch yn yr Ysbryd;" ac fe fydd i'r Ysbryd eich achub rhag penrhyddid, fel y mae yn eich achub rhag defodaeth; canys cnawdol ydyw y ddau. Y mae eich llwybr yn amlwg. Mae gweithredoedd yr Ysbryd yn eithaf hawdd i'w gwahaniaethu oddi wrth weithredoedd y cnawd:—v. 13—26.

3. Gadewch i mi chwanegu dau gynghor neillduol:—
(i.) Dangoswch oddefgarwch a chydymdeimlad brawdol:—vi. 1—5.
(ii.) Cyfrenwch yn haelionus:—vi. 6—10.

Diweddglo *yn llawysgrif yr apostol ei hun*:—vi. 11.

4. Unwaith etto: gochelwch yr athrawon luddewaidd yna, o blegid y maent yn ddynion twyllodrus. Yr ydwyf fi yn mynegu i chwi wir egwyddorion yr efengyl. Tangnefedd fyddo ar y rhai a rodiant felly:—vi. 12—16.

5. Na fydded i un dyn wadu fy awdurdod i, canys yr wyf fi yn dwyn nôd Crist:—vi. 7.

6. Ffarwel yn Nghrist:—vi. 18.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

PENNOD I.

6 Y mae efe yn rhyfeddu iddynt ei adael ef a'r efengyl: eyn cyntaf; 8 ac yn melldithio y rhai a bregethant efengyl amgen na'r hon a bregethai efe. 11 Nad gan ddynion y dysgodd efe yr efengyl, eithr gan Dduw. 13 Ac y mae efe yn dangos pa beth ydoedd efe cyn ei alw, 17 a pha beth a wnaeth efe yn y man wedi ei alw. B. A. 57.

PAUL, apostol (nid o ddynion, na thrwy ddyn, [a]eithr trwy [a] Act. 9. 15, 16; 1 Tim. 1. 11—14.

Pennod I. 1—5.

Y cyfeiriad a'r anerchiad.

Y mae gwresogrwydd ysbryd yr apostol, a phwys ei fater, yn dyfod i'r golwg yn y frawddeg gyntaf. Y mae y ddwy edef sydd yn rhedeg trwy lyr epistol wedi eu cylymu wrth eu gilydd yn y cyfarchiad agoriadol—amddiffyniad yr apostol o'i awdurdod apostolaidd, a'i amddiffyniad o athrawiaeth gras. Trwy agor ei deitl swyddol fel ag i ddwyn allan ei gommisiwn uniongyrchol oddi wrth Dduw, y mae yn cyfarfod âg ymosodiad personol ei wrthwynebwyr (*adn.* 1); a thrwy roddi crynodeb o waith y prynedigaeth mewn cyssylltiad âg enw "ein Harglwydd Iesu Grist" (*adn.* 4), y mae yn gwrthdystio yn erbyn eu cyfeiliornadau athrawiaethol.

1. *Apostol.*—Defnyddir y gair "apostol" yma yn ei ystyr manylaf ac uchaf. Gwrthodai yr athrawon Iuddewaidd ganiatau y teitl hwn i neb y tu allan i'r deuddeg. Yr oedd hyn yn cynnwys llawer mwy na difriad personol ar gymeriad yr apostol Paul; yr ydoedd cystal a haeru fod Crist wedi dyhysbyddu ei allu i alw apostolion wedi ei esgyniad, ac felly gwadu ei awdurdod barhaus fel Brenin ei eglwys. Yr oedd galwad yr apostol Paul yn atteb ymarferol i'r wrthddadl hon, yr hon oedd mewn effaith yn wadiad o'r holl efengyl. O herwydd hyn y gesyd Paul gymmaint o bwys ar ei apostoliaeth.—*Maurice. Nid o ddynion na thrwy ddyn.*—Y mae yr arddodiad cyntaf, "o" (*apo*), yn golygu achos gwreiddiol ei apostoliaeth; a'r ail, "trwy" (*dia*), yr achos offerynol. Nid o ddynion fel ffynnonell, na thrwy ddyn fel cyfrwng. Yn y cyntaf, y mae yn gwahaniaethu ei hun oddi wrth apostolion gau, y rhai nid oeddynt wedi eu hawdurdodi gan Dduw o gwbl; yn yr ail, y mae yn rhestru ei hun gyda'r deuddeg, y rhai oeddynt wedi derbyn eu commisiwn oddi wrth Grist yn uniongyrchol. Y mae newidiad yr arddodiad (o—trwy) yn cario gydag ef yma newidiad yn y rhif (dynion—dyn). Mewn achosion fel hyn, y mae yr hyn a wneir "o ddynion" yn cael ei wneyd yn gyffredin "trwy ddyn." Y mae teitlau a swyddau sydd yn deilliaw oddi wrth gorph o ddynion yn cael eu rhoddi gan eu cynnrychiolydd unigol. Rhoddid gweithredoedd y senedd mewn grym drwy y tywysog, a'r eiddo y Sanhedrim drwy yr archoffeiriad. Heb law hyn, y mae y newidiad i'r rhif unigol yn cael ei wneyd er mwyn y priodoldeb o gyfatteb i'r ymadrodd nesaf—"trwy Iesu Grist."—*Lightfoot.* Golygiad Luther ar y frawddeg hon sydd fel hyn:—"Yr oedd yr athrawon Iuddewig yn gallu dangos seliau eu hawdurdod fel dysgyblion i apostolion neu genhadau dros eglwysi, ac yn dirmygu Paul am na feddai efe y cyfryw. I hyn y mae efe yn atteb, fod yn wir nad oedd ganddo gommisiwn oddi wrth ddynion, ond ei fod ef wedi derbyn ei awdurdod o ffynnonell uwch." *Eithr trwy Iesu Grist.*—At ba amgylchiad y cyfeiria yr apostol yma? Pa bryd y derbyniodd efe ei gommisiwn oddi wrth Grist ei hunan? Dywed, yn 1 *Cor.* ix. 1, ei fod wedi gweled Iesu Grist, fel prawf o'i apostoliaeth: a gellid meddwl yn naturiol fod hyn yn cyfeirio at y weledigaeth ar y ffordd i Damascus: *Act.* ix. 3, &c. Oddi yma gan hyny yr oedd ei gommisiwn yn cychwyn. Y dadguddiad hwn o'r Arglwydd Iesu a'i neilduodd ef mewn modd arbenig i'w swydd fel apostol, er y gall ei urddiad allanol fod wedi cymmeryd lle yn ddiweddarach, a thrwy offerynoliaeth ddynol: gwel *Act.* ix. 15—17; a xiii. 2, 3. Y mae yn bossibl fod y cyfryngiad hwn o eiddo prophwydi ac eglwys Antioch wedi rhoddi rhyw fesur o liw i'r camddarluniad, mai "apostol o ddynion" ydoedd. *A Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw.*—Yma, y mae yr un arddodiad "trwy" (*dia*), yn uno Iesu Grist a Duw Dad: "trwy Iesu Grist a thrwy Dduw Dad." Pa ham na fuasai yr arddodiad arall, "o" (*apo*), yn cael ei ddefnyddio yma i gyfatteb i'r frawddeg flaenorol, "trwy Iesu Grist, ac o Dduw Dad," ac i gadw y cymmhwysiad o *trwy* at y cyfrwng, ac o at y ffynnonell? Y rheswm a rydd Ellicott am hyn ydyw, mai er mwyn byrdra ymadrodd; yr hyn sydd yn oddefol pan nad oes angen pendant am dynu llinell o wahaniaeth rhwng ffynnonell, cyfrwng, a gweithrediad; ac hefyd am fod yr ysgrifenydd yn teimlo fod y ddau berson yn un yn ei ddewisiad a'i alwad yn apostol. Dywed Alford fod hyn yn dwyn i lawr y cyfryngiad dwyfol hyd yn oed at y ffaith o'i anfoniad; ac felly yr ydoedd i'w gasglu yn gryfach fyth fod yr achos gwreiddiol yn ewyllys Duw. Y mae Lightfoot yn sylwi fod yr ymadrodd fel y mae yn llawer cryfach. Trwy uno y ddwy ran o'r frawddeg dan un arddodiad, y mae yr apostol yn dadgan

[b] Mat. 28.18—20. Iesu Grist, [b]a Duw Dad, yr hwn
[c] Act. 2. 24, 32. a'i [c]cyfododd ef o feirw)
[d] Act. 15.41; 16. 5, 6. 2 A'r brodyr oll y rhai sydd gyda mi, at [d]eglwysi Galatia.
3 Gras *fyddo* i chwi a heddwch

gyda mwy o rym nodwedd uniongyrchol ei gomisiwn dwyfol. Yr oedd sianel neu gyfrwng ei awdurdod (*dia*—trwy) yn cyd-daraw â'i ffynonell (*apo*—o). Buasai rhoddi "o" i mewn yn pylu pwynt y frawddeg. Ac er mai "o" a ddefnyddir fynychaf mewn cyssylltiad â pherson y Tad, gellir defnyddio "trwy" hefyd, am ei fod ef yn offeryn, yn gystal a ffynnonell, yn nghyflawniad ei fwriadau ei hunan. Y mae pob peth "o hono, trwyddo, ac iddo ef:" *Rhuf.* xi. 36. Buasai y dull yma o eirio yn cael ei ddefnyddio yn bennodol wrth son am Dduw yn ei amlygu ei hunan mewn rhyw weithred arbenig, megys yma yn cyfodi ei Fab o feirw. Dywedir yma "trwy Iesu Grist, a Duw Dad:" dywedir yn y drydedd adnod, "oddi wrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist." Y mae y naill ymadrodd yn cyflawni y llall:—"Ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti:" *Ioan* xvii. 21. Y mae rhai o'r tadau yn rhoddi pwys mawr ar gyflead y geiriau hyn fel dadl dros Dduwdod ein Hiachawdwr: y mae "Iesu Grist" yn cael ei roddi yn y gwrthgyferbyniad cryfaf i "ddyn," ac y mae hefyd yn cael ei uno â Duw Dad dan un arddodiad. Nis gallasai yr apostol ysgrifenu fel hyn pe na buasai yn credu fod Iesu Grist a'r Tad yn un. Edrychir ar Dduw yma fel Tad; nid yn yr ystyr eangaf i holl ddynolryw, na chwaith yn yr ystyr gyfyngach i greduwyr; ond gyda chyfeiriad neilltuol at y person a enwyd yn flaenorol—fel Tad ein Harglwydd Iesu Grist. *Yr hwn a'i cyfododd ef o feirw.*—Pa ham y dygir adgyfodiad Crist i mewn yma? Y mae yr attebion a gynygiwyd i roddi cyfrif am hyn yn dra amrywiol ac yn rhy liosog i'w crybwyll. Gallai fod yma gyfeiriad pell at bwysigrwydd adgyfodiad y Gwaredwr fel ffaith sylfaenoi Cristionogaeth. Ond y mae yn dra thebyg, yn ol golygiad Lightfoot ac Ellicott, ac mewn rhan Alford hefyd, fod y cyfeiriad yn uniongyrchol at apostoliaeth Paul. "Cefais i fy nghommisiwn gan yr Arglwydd Iesu ar ol ei adgyfodiad a'i esgyniad i'w ogoniant. Yr ydwyf yn mhob ystyr yn apostol, yn dyst cymmhwys o'i adgyfodiad, ac yn enghraifft nodedig o'i allu."

2. *A'r brodyr oll y rhai sydd gyda mi.*—Gellir casglu yn lled sicr pwy a feddylir wrth y rhai hyn, oddi wrth y cyfeiriadau yn yr epistolau ereill: 1 *Cor.* i. 1; 2 *Cor.* i. 1; *Col.* i. 1; *Phil.* i. 1. Y mae yn debyg mai ei gyd-lafurwyr yn yr efengyl oeddynt—y fintai fechan oedd yn cyddeithio âg ef ar y pryd. Nid, fel y mae rhai wedi tybied, yr holl eglwys yn y lle o ba un yr oedd efe yn ysgrifenu yr epistol; onid é, buasai yn dyweyd ei fod ef gyda hwynt, ac nid eu bod hwy gydag ef. Felly yr ydym yn ei gael, yn *Phil.* iv. 21, 22, yn gwahaniaethu y "brodyr oedd gydag ef" oddi wrth "y saint oll." Gallasai y cwmni hwn fod yn cynnwys Timotheus (2 *Cor.* i. 1), ac Erastus (*Act.* xix. 22). Gallasai Titus hefyd, a'r ddau frodyr o Corinth, fod wedi ymuno âg ef erbyn hyn (2 *Cor.* viii. 16—24), a gallasai fod gydag ef hefyd rai o'r rhai a aethant gydag ef ar ol hyn ar ei ddychweliad i Asia, megys Tychicus a Trophimus (*Act.* xx. 4, 5), os nad yr oddi wrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist;
4 Yr hwn [c]a'i rhoddes ei hun [c] Mat. 26.28. dros ein pechodau, fel y'n gwaredai ni oddi wrth y byd drwg

un ydynt a'r ddau frodyr crybwylledig. Y mae y tadau, ac amryw o esbonwyr diweddar, yn tybied eu bod yn gweled yn ngwaith yr apostol yn crybwyll "y brodyr oll y rhai oedd gydag ef," awydd i roddi ar ddeall i'r Galatiaid yr unfrydedd oedd yn bod rhyngddo ef a'i gyd-weinidogion ar bwngc yr epistol, ac felly i chwanegu cymmaint a hyny o bwysigrwydd at ei addysg iddynt. Y mae Lightfoot yn dal fod hyn yn hollol groes i holl ysbryd yr epistol, yn yr hwn y mae pob awdurdod ddynol yn cael ei gosod o'r neilldu. Y mae yr apostol, medd efe, yn darfod â son am ei gymdeithion mor fuan ag yr oedd modd mewn un frawddeg, ac yna yn dychwelyd at y rhif unigol "myfi;"—"Y mae yn rhyfedd genyf, &c." Awdurdod Paul oedd wedi ei galw i gwestiwn, ac efe yn unig sydd yn atteb yr haeriad. *At eglwysi Galatia.*—Tebyg fod hwn yn gylchlythyr wedi ei gyfeirio at y gwahanol eglwysi—Ancyra, Pessinus, Tavium, ac ereill—yn y dalaeth. Yn mhob un o'r epistolau ereill, yr ydym yn cael rhyw deitlau o anrhydedd neu serch yn y cyfarchiad: diau mai peth bwriadol oedd eu gadael oll allan yma, i ddangos pellder eu gwrthgiliad.

3. *Gras fyddo i chwi a heddwch.*—Edrychir ar y cyfarchiad hwn gan rai fel cyfuniad o'r ddwy ffurf o gyfarch oedd mewn arferiad yn mhlith yr Iuddewon; a chan ereill, fel y ffurf Roegaidd ("gras") a'r ffurf Hebreaidd ("heddwch") wedi eu huno. Ond y mae hefyd yn fwy na hyn. Y mae hwn yn gyfarchiad llawn o ystyr ysbrydol; —"gras," fel y sylwa Olshausen, yn arwyddo y cariad dwyfol yn ei amlygu ei hunan tuag at ddyn, a "heddwch" yn golygu yr ystâd sydd yn tarddu oddi ar dderbyniad o hono. Fel hyn y mae ffurfiau y dwyrain a'r gorllewin=o gyfarch yn cael eu toddi i'w gilydd a'u hysbrydoli yn y cyfarchiad Cristionogol. *Oddi wrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist.*—Fel y sylwyd o'r blaen, megys y mae "trwy" yn *adv.* 1, yn cael ei gymmhwyso at y Tad yn gystal a Christ; felly yma y mae "oddi wrth" yn cael ei gymmhwyso at Grist yn gystal a'r Tad. Mewn ystyr manwl, y Tad yw rhoddwr gwreiddiol gras, a'r Mab yn gyfrwng; ond fel y sylwa Olshausen, nid oes dim yn siarad yn fwy penderfynol dros Ddduwdod yr ail berson na'r dull yma ag sydd yn treiddio trwy iaith yr Ysgrythyr o osod y Mab mewn cydgyflead â'r Tad.

4. *Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau:*—*h. y.*, i farw yn aberth dros bechod. Dyma ddadganiad o wir sylfaen cymmeradwyaeth ger bron Duw. Yr oedd y Galatiaid, wrth ddychwelyd at ddefodau Moses, yn ymwrthod yn ymarferol â marwolaeth Crist fel iawn, ac felly yn gwadu hanfod yr efengyl. *Fel y'n gwaredai ni.*—Yn y gair hwn, "gwaredu," y seinir cyweirnod yr epistol. Gwaredigaeth ydyw yr efengyl, rhyddhâd o gflywr o gaethiwed: *pen.* iv. 9, 31, a v. 1, 13.—*Lightfoot. Oddi wrth y byd drwg presennol:*—neu, "oddi wrth yr oes (*aiôn*) bresennol, a'i holl ddrygau." Defnyddir y gair weithiau am "y byd yma" (1 *Tim.* vi. 17): "y byd hwn" (*Rhuf.* xii. 2), yn gyferbyniol i'r "byd

[f] Salm 40. 8; Mat. 26. 42; Luc 22. 42. [g] Salm 72. 19.

presennol, [f] yn ol ewyllys Duw a'n Tad ni:
5 [g] I'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

6 Y mae yn rhyfedd genyf eich symmud mor fuan oddi wrth yr hwn [h] a'ch galwodd i ras Crist, at efengyl arall:

[h] 1 Cor. 4. 15; 2 Thes. 2. 14.

hwnw" (*Luc* xx. 35); "y byd a ddaw" (*Luc* xviii. 30), neu y byd tragywyddol; a phryd arall am gyfnod neillduol yn hanes y byd, neu y byd yn gyffredinol yn ei ddull a'i gwrs; "helynt" y byd hwn (*Eph.* ii. 2)—*buchedd.* Y mae yr oes hon, y byd hwn, o dan "dduw" (2 *Cor.* iv. 4), neu "dywysogion" (1 *Cor.* ii. 6) o'i eiddo ei hunan, mewn gwrthwynebiad i'r Tragwyddol Dduw, Brenin yr oesoedd: 1 *Tim.* i. 17. Soniai yr apostolion am danynt eu hunain a'u cyfoeswyr fel yn byw ar ymylon dau fyd, neu ddwy oes ("terfynau yr oesoedd:" 1 *Cor.* x. 11), a'r efengyl yn eu trosglwyddo dros y terfyn. Wrth "y byd drwg presennol," y mae Meyer yn golygu yr oesoedd oedd yn dyfod i mewn y pryd hwnw —oes ddrwg o wrthgiliad ac o ddadblygiad nerthoedd anghrist, yr hyn oedd eisoes wedi dechreu. Ond y mae y beirniaid goreu yn gwrthod yr ystyr hwn, ac yn cymmeryd y golygiad arall:—Y mae yr efengyl yn ein gwaredu oddi wrth "helynt y byd hwn"—cwrs drygionus y fuchedd bresennol, ac yn ein gwneuthur yn ddinasyddion byd gwell, sef y fuchedd dragwyddol. *Yn ol ewyllys Duw.*—Nid yn ol ein teilyngdod ni, ac nid yn ol trefniant dynol. Y mae gras yr efengyl a'i gosodiadau yn ddwyfol. Yr oedd y gau-athawon yn rhoddi heibio y naill a'r llall. *A'n Tad ni.*—Yn ol Ellicott ac Alford nid yw *ein* i'w gymmhwyso at y gair "Duw" yma, ond at "Tad" yn unig. Barna Lightfoot yn wahanol: "ein Duw a'n Tad ni." Dywed ef fod y gair "Tad," yn *adn.* 1, i'w gymmhwyso yn benaf at Grist; yn *adn.* 4, at ddynolryw; ac yn *adn.* 3, ei fod yn enw personol yn unig.

5. *I'r hwn y byddo gogoniant.*—Wrth son am drugaredd Duw yn mhrynedigaeth dyn trwy angeu Crist, y mae yr apostol yn tori allan mewn dadganiad o fawl, fel y gwnai yn fynych: *Rhuf.* vii. 25; ix. 5; xi. 36; 2 *Cor.* ix. 15; *Eph.* iii. 20. Y mae y fannod "y" yn y gwreiddiol o flaen "gogoniant," a'r geiriau "y byddo," fel y gwelir, ar ol. Y mae yr esbonwyr goreu dros roddi *y mae* yn hytrach nag *y byddo*, gan ddeall y geiriau fel dadganiad yn hytrach na dymuniad: "I'r hwn y mae y gogoniant;" fel yn Ngweddi yr Arglwydd—"Eiddot ti yw y gogoniant"—gogoniant fel y mae yn briodoledd hanfodol y Duwdod. *Yn oes oesoedd, Amen.*— Am oesoedd diderfyn; yn llythyrenol, "i oesoedd yr oesoedd." Weithiau, ceir "oes yr oesoedd," ac "oes yr oes"—y cwbl yn ffurfiau Hebreaidd am y parhâd meithaf: ac yma fe allai yn gyferbyniol i'r oes ddiflanedig bresennol: *adn.* 4. Gwelir yr un cyferbyniad yn gryfach yn *Eph.* ii. 2, 7.

6—10. ACHLYSUR YR EPISTOL: HAWLIAU YR EFENGYL.

6. *Y mae yn rhyfedd genyf eich symmud.*—Yn lle y diolch arferol ar ran yr eglwysi o herwydd eu ffydd a'u llafur, y mae yr apostol yma yn dadgan ei syndod digllawn. Dyma yr unig enghraifft o waith yr apostol yn gadael allan y dadganiad o'i ddiolchgarwch wrth gyfarch unrhyw eglwys. Y mae math o gyfuniad o dynerwch a llymder yn y gair a gyfieithir, "Y mae yn rhyfedd genyf." Y mae ynddo dynerwch, o gymmaint ag y mae yn awgrymu y disgwyliasai yr apostol bethau gwell oddi wrthynt; y mae yn air o ymostyngiad fel yn dwyn yr apostol i lawr i dir cydwastad â hwynt, ac i ofyn am eglurhâd oddi wrthynt am eu hymddygiadau dyeithr. Ond y mae y gair yn fynych yn awgrymu rhyfeddu at yr hyn sydd feius—y mae cerydd yn y tynerwch. Y mae y gair a gyfieithir yma "symmud" yn golygu math neillduol o symmudiad: "myned drosodd oddi wrth," "syrthio ymaith oddi wrth"—gwrthgilio. Y mae y gair yn yr amser presennol—"eich bod yn myned drosodd." Yr oedd y gwrthgiliad yn myned yn mlaen ar y pryd. Y mae y ferf hefyd nid yn y llais neu yr ansawdd goddefol, ond yn yr un canol (*middle voice—metatithesthe*), yr hyn sydd yn cyfatteb i'r blaenddawd *ym* yn y Gymraeg—*ym*adael, *ym*wrthod. Nid goddefol oeddynt yn unig, yn cael eu llusgo gan ddylanwad anwrthwynebol: yr oedd eu gwrthgiliad yn un gwirfoddol. Defnyddir y gair weithiau am wrthgiliad milwraidd neu boliticaidd, ac yn fynych am gyfnewidiad mewn crefydd, athroniaeth, neu foesau. *Mor fuan.*—Y mae pwys mawr wddi ei roddi ar y gair hwn, a phwys amrhiodol feddyliem, yn y ddadl o berthynas i amseriad yr epistol. Y mae Alford, a'r rhai sydd yn dadleu dros yr amseriad cynnaraf (sef 54—57), yn cymmeryd yn ganiataol fod y gair yn cyfeirio at ail ymweliad yr apostol âg eglwysi Galatia. Cymmerodd yr ymweliad hwnw le yn y flwyddyn 54. Gan fod yr apostol yn y llythyr yn dadgan ei syndod eu bod wedi cyfnewid "mor fuan" ar ol ei ail ymweliad hwn â hwynt, dadleuir fod yn rhaid fod y llythyr wedi ei ysgrifenu yn lled fuan ar ol yr ymweliad—yn mhen ychydig fisoedd, neu o bellaf yn mhen o ddwy i dair blynedd—onid ê, ni fuasai yr ymadrodd hwn yn briodol. A rhoddir dyddiad yr epistol gan rai yn gynnarach, a chan ereill yn fwy diweddar, o fewn tymmor arosiad Paul yn Ephesus, sef o Hydref 54 hyd haf 57, yn ol fel y maent yn tueddu i gwtogi neu i estyn ystyr yr ymadrodd, "mor fuan." Ond y mae Lightfoot wedi profi yn dra boddhaol, feddyliem, fod yr ymresymiad hwn yn cynnwys dau gamgymmeriad. Yn 1af, cymmerir yn ganiataol yn y golygiad hwn fod yr apostol yn cyfeirio, yr ymadrodd "mor fuan," at ei ail ymweliad â hwynt:— "mor fuan wedi i mi ymadael â chwi." Ond y mae y cyd-destynau yn dangos yn amlwg mai nid dyna y meddwl. Ceryddu ei ddychweledigion yr oedd yr apostol am eu hanwadalwch—am eu bod mor fuan wedi ymwrthod â'u proffes Gristionogol, ac wedi cymmeryd i fyny "efengyl arall." Felly, y mae yn amlwg mai yr adeg yr oedd efe yn cyfrif o honi oedd adeg eu dychweliad, sef ei ymweliad cyntaf â hwynt, ac nid ei ail ymweliad. Rhyfeddu yr oedd yr apostol, nid am eu bod wedi anghofio mor ebrwydd ei addysgiadau diweddaf iddynt, ond am eu bod wedi blino mor fuan ar ryddid yr efengyl. "Y mae yn rhyfedd genyf eich symmud mor fuan," meddai, "oddi wrth yr hwn a'ch galwodd." Pa faint bynag gan hyny yw hyd y tymmor a gynnwysir yn y gair "mor fuan," y mae yn rhaid ei fod yn cychwyn o'r amser y daethant gyntaf i wybodaeth o'r efengyl, sef o'r flwyddyn 51. Yn

7 Yr hon nid yw arall; ond bod rhai yn eich trallodi chwi, ac [i]Ier. 23. 26; Mat. 24. 24; Act. 13. 10. yn chwennych [i]dattroi efengyl Crist.

8 Eithr pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengylu i chwi [k]Gen. 9. 25; Ios. 9. 23; Mat. 25. 41; 2 Pedr 2. 13. amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, [k]bydded anathema.

2il, cyfrifir nas gellir estyn yr ymadrodd "mor fuan" i olygu mwy nag ychydig flsoedd, neu o'r hyn pellaf o ddwy i dair blynedd. Ond y mae meithder a buandra yn eiriau o ystyr berthynasol: hyny ydyw, y mae yr ystyr yn amrywio gydag amgylchiadau. Y mae buandra cyfnewidiad i'w fesur wrth bwysigrwydd yr achosion fydd yn y chwareu. Mewn un amgylchiad, gall blwyddyn fod yn dymmor hir; mewn amgylchiad arall, gall deng mlynedd fod yn dymmor byr. Ni byddai pump neu ddeng mlynedd ond tymmor byr i barhâd teyrnach neu gyfansoddiad llywodraeth: a buasai pobl a fuasent yn newid y naill neu y llall mewn amser mor fyr yn cael eu cyfrif yn bobl anwadal. Os felly, nid rhyfedd fod yr apostol, pan yn siarad am wirioneddau oeddynt i oroesi bywyd teyrnasoedd a chenhedloedd, yn cwyno fod ei ddychweledigion wedi syrthio ymaith "mor fuan" oddi wrth eu ffydd, hyd yn oed pe buasai tymmor o ddeng mlynedd yn cael ei olygu wrth hyny. Ond nid yw y tymmor a ofynir i'r dyddiad diweddarach ond tua chwe blynedd. Ac yn ddiweddaf, y mae yn bur bossibl nad yw y gair yn golygu unrhyw bwynt sefydlog o amser o gwbl, ond yn hytrach mai y meddwl ydyw, "mor rwydd ac ehud—mor ebrwydd wedi i'r cyfleusdra gynnyg ei hunan."—*Lightfoot. Oddi wrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist.*—Y mae yn ddiammheu mai nid "i" a ddylai fod yma, ond "yn" (fel y mae ar ymyl y ddalen yn y Beibl Cymraeg), neu ynte "trwy." Yr oedd rhai o'r hen esbonwyr, megys Jerome, ac ereill, yn rhoddi Crist fel awdwr yr alwedigaeth—"yr hwn a'ch galwodd mewn gras, sef Crist;" ond yr ydym yn cael fod yr apostol Paul bob amser yn priodoli galwedigaeth y saint i Dduw Dad: *adn.* 15; *Rhuf.* viii. 30; ix. 24; 1 *Cor.* i. 9; vii. 15, 17; 1 *Thes.* ii. 22; 2 *Thes.* ii. 14; 2 *Tim.* i. 9. Ceir fod y gair "Crist" ar ol mewn rhai ysgrifau, ac felly rhoddir "efengyl gras" a'r "efengyl arall" mewn gwrthgyferbyniad cryf ac uniongyrchol. Ond y mae y gair i mewn yn yr ysgrifau goreu, a chadarnheir cywirdeb y darlleniad hwn gan adnodau cyfatebol, megys *Act* xv. 11. "Yr hwn a'ch galwodd *yn* ngras Crist:" gras Crist ydyw cyfrwng ein galwedigaeth gan Dduw—dyma swm yr oll a wnaeth efe tuag at ein dwyn at Dduw—dyma yr elfen yn yr hon y mae galwedigaeth y Tad yn cael lle.—*Alford.* Ond y mae Ellicott (yn fwy cywir, feddyliem) yn golygu fod Paul yma yn edrych ar ras Crist, nid fel elfen oddefol yn unig, ond fel dylanwad byw a gweithredol, ac felly yn cyfieu yr ystyr o offeryngliaeth — "*trwy* ras Crist," fel y mae yr arddodiad *er* yn gwneyd mewn rhai amgylchiadau. Y mae yr apostol yma yn nodi dwy o linellau gwahaniaethol y wir efengyl, yr hon yr oedd y Galatiaid wedi troi oddi wrthi:—1. Y ffynnonell:—dychweliad yn dy fod o Dduw, ac nid o honynt hwy eu hunain ("Yr hwn a'ch galwodd"). 2. Y cyfrwng:—ei bod yn gyfammod o ras, ac nid o weithredoedd. —*Lightfoot.*

6, 7. *At efengyl arall: yr hon nid yw arall.*—Geilw yr apostol ddysgeidiaeth y gau-athrawon yn "efengyl arall;" ond rhag i hyny gael ei gamesbonio fel addefiad o'i du ef y gallasai unrhyw efengyl fod mewn gwirionedd heb law yr un a bregethasai efe iddynt, y mae yn chwanegu, "yr hon nid yw arall." Nid fod y gau-athrawon yn pregethu yr efengyl o ran sylwedd, end eu bod wedi llygru rhyw gymmaint arni: "na," meddai yr apostol, "nis gall fod dwy efengyl; a chan nad yw hon yr un a'r hon a bregethwyd genyf fi, nid yw yn efengyl o gwbl. Y mae dau wahaniaethiad i'w cadw mewn golwg tuag at gael eglurhâd cyflawn ar y gwrthddywediad ymddangosiadol sydd yn yr ymadrodd hwn:—laf, Fel y mae Hilgenfeld yn sylwi (yn cael ei ddyfynu a'i gymmeradwyo gan Ellicott), y mae y gair "efengyl" yn cael ei ddefnyddio yn y rhan gyntaf o'r ymadrodd, mewn ystyr rhyddach ac ammhenodol, ond yn y rhan olaf yn ei ystyr mwyaf manwl a phendant. "Y maent hwy yn ceisio eich hudo at rywbeth dan rith efengyl; ond nid ydyw mewn gwirionedd yn efengyl o gwbl." 2il, Y mae yr "arall" cyntaf ychydig yn wahanol yn ei ystyr i'r ail "arall." Fel y gwelir, yr un gair sydd genym ni yn y cyfieithiad Cymraeg (ac yn y Saesneg yr un modd) yn y ddau le; ond yn y gwreiddiol y maent yn ddau air gwahanol, ac o ystyron gwahanol. Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt yn un prydferth iawn, a gwerth i ni graffu arno. Y mae y cyntaf (*heteros*) yn golygu gwahaniaeth natur, a'r ail (*allos*) chwanegiad nifer. Nid yw yr ail yn golygu dim mwy nag "arall" yn yr ystyr o un heb law y llall; ond y mae y cyntaf yn golygu "arall" yn yr ystyr o un ac nid y llall. Nid yw *allos* ond yn chwanegu, tra y mae *heteros* yn gwahaniaethu. Ystyr cyntaf a syllaenol *heteros* yw "un o ddau;" felly, defnyddir ef mewn geiriau cyfansawdd o'r un natur ag "un-llygeidiog." Dyma yr ystyr cyntaf. Ond pan y mae ein sylw yn cael ei gyfyngu at ddau wrthddrych, yr ydym yn naturiol yn eu cymmharu a'u cyferbynu; o ganlyniad, daeth y gair *heteros* i gymmeryd yr ystyr o "annhebyg—gwrthwyneb." Y mae *allos* yn golygu "arall"—nid yr un un; a *heteros* yn golygu "arall"—nid yr un fath. Fel hyn, y mae ystyr y gair yn *adn.* 6 yn egluro ei ystyr yn *adn.* 7, ac y mae yr haeriad yn y naill yn rheswm dros y nacâd yn y llall: "efengyl *wahanol*, yr hon nid yw *arall.*" "Y mae yr hyn a gynnygir i chwi dan rith efengyl mor wrthwynebol i'r wir efengyl, fel nad ydyw yn efengyl o gwbl." *Ond bod rhai yn eich trallodi chwi.*—"Yn yr ystyr hwn yn unig y mae yn efengyl arall, am ei bod yn ymgais i ŵyrdroi yr unig wir efengyl." Ystyr y gair a gyfieithir yma "trallodi" ydyw, "cyfodi terfysg yn eich mysg, eich ysgwyd o'ch ffyddlondeb"—parhâd o'r ffugr yn *adn* 6: myned drosodd o un ochr i ochr arall. *Ac yn chwennych dattroi efengyl Crist.*—Gwrthdroi, newid i'r gwrthwyneb, troi o chwith. Nid yr efengyl a bregethwyd gan Grist yw yr ystyr, ond yr efengyl am Grist—i'r hon efengyl y mae Crist yn wrthddrych o honi. —*Ellicott.*

8. Y mae y ferf, *efengylu*, yn yr adnod hon a'r un ganlynol, mewn dau fodd (*mood*) gwahanol. Yma, nid yw ond tybiaeth noeth, a hono o'r fath fwyaf annhebygol, "pe byddai i ni efengylu," &c. Yn *adn.* 9, y mae y peth yn ffaith

9 Megys y rhagddywedasom, felly yr ydwyf yr awr hon drachefn yn dywedyd, Os efengyla neb i chwi [l]amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema.

[l] Deut. 1 13. —11.

10 Canys [m] yr awr hon ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw? neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? canys pe rhyngwn fodd dynion etto, ni byddwn [n] was i Grist.

[m] Act. 4. 19, 20; 1 Thes. 2 4.

[n] Rhuf. 1. 1.

oedd wedi cymmeryd lle ac yn cymmeryd lle ar y pryd, "Os efengyla," &c. *I ni.*—Ymddengys nad yw Paul ond yn dra anfynych, os byth, yn defnyddio y rhif lliosog wrth lefaru am dano ei hun. Y mae yma yn cymmeryd i mewn, y mae yn debyg, "y brodyr y rhai oedd gydag ef" (*adn.* 2), megys Silas a Timotheus, y rhai oeddynt wedi bod yn cydlafurio âg ef yn mhlith y Galatiaid. Tybia Lightfoot fod yr apostol yn cyfeirio yn neilluol yma at Timotheus, yr hwn oedd gydag ef, y mae yn ymddangos, ar y ddau ymweliad â Galatia, ac yn un o'i gymdeithion, y mae yn debyg, pan oedd yn ysgrifenu y llythyr hwn. *Neu i angel o'r nef.*—Dygir ef i mewn fel yr awdurdod uchaf sydd yn bossibl, yn nesaf at berson dwyfol: "pe byddai'n pregethwr yr uchaf o fodau crëedig." Gallai fod yma gyfeiriad, fel y barnai Chrysostom, at waith y dysgawdwyr Iuddewig yn llechu o dan gysgod enwau y prif apostolion.—*Alford. Amgen na'r hyn a efengylasom i chwi.*—Heb law yr hyn; neu ynte, Yn wrthwyneb i'r hyn a efengylasom. Y mae y cwestiwn, pa un o'r ddau ystyr yma a roddir i'r arddodiad, *para,* yn y lle hwn, wedi bod yn begwn ar ba un y bu dadl ddyddorol yn troi rhwng Protestaniaid a Phabyddion o berthynas i draddodiad. Myn y Pabyddion mai nid chwanegu at y gwirionedd dwyfol sydd yn dyfod o dan gondemniad yma; ond yn unig dwyn i mewn yr hyn sydd groes iddo: felly dadleuasant dros yr ystyr "gwrthwyneb i." Yr oedd yr ysgrifenwyr Protestanaidd, ar y llaw arall, yn dadleu dros yr ystyr o "heb law," neu "chwanegol at." Dyma yr ystyr a amddiffynir gan Lightfoot. Barna efe mai amcan yr apostol yma ydyw sefyll dros undod, neu gyfanrwydd yr efengyl. Nid yw yn goddef unrhyw ymgystadlydd. Ni dderbynia unrhyw gymmysgedd estronol. Y mae Ellicott (yn fwy cywir yma, feddyliem) yn sefyll dros yr ystyr arall—fod holl rediad ymadroddion yr apostol yn rhoddi ar ddeall fod efengyl y dysgawdwyr Iuddewig yn "efengyl arall"—yn wrthwyneb yn ei hanfod i'r wir efengyl. Dywed Alford drachefn fod y ddau syniad yn cael eu cynnwys yn yr arddodiad *para,* a'i fod yn golygu, myned y tu hwnt, yn yr ystyr o gamu dros y terfyn i diriogaeth newydd. *Bydded anathema.*—Y ffurf oedd ar y gair hwn yn y Groeg cyffredin oedd "anathema," ac yn yr un clasurol, "anathêma." Yr un ystyr oedd i'r gair yn wreiddiol yn y ddwy ffurf; sef, unrhyw beth a fyddai wedi ei gyssegru i'r duwiau. Ond yn raddol, daeth y ffurf clasurol i arwyddo "cyssegredig" mewn ystyr dda—neillduedig at wasanaeth y duwiau: a'r ffurf gyffredin i ddynodi "cyssegredig" mewn ystyr ddrwg—peth wedi ei neilldu yn aberth i ddigofaint y duwiau; *h. y.,* yn felldigedig. Cyflwr ysbrydol yn ddiau a olygir yma, ac nid esgymmundod eglwysig: o blegid y mae "angel o'r nef" yn cael ei gynnwys yn y dybiaeth. Gyda threigliad amser, yn mhell ar ol y cyfnod Cristionogol, y daeth y gair i sefyll am y cerydd eglwysig o esgymmundod.

9. *Megys y rhagddywedasom.*—Y mae y cwestiwn yn cyfodi yma yn naturiol—At ba beth y cyfeiria yr apostol yn y blaenddawd "rhag?" Pa un ai at yr hyn yr oedd efe newydd ei ddyweyd yn *adn.* 8, ai at yr hyn a ddywedasai efe pan gyda hwynt yn ei ymweliad diweddaf? Y golygiad olaf, feddyliem, ydyw yr un mwyaf tebygol o lawer, a'r un a gymmeradwyir gan yr esbonwyr goreu. Pe at yr adnod flaenorol y buasai y cyfeiriad, y mae yn dra thebyg y buasai y gair yn y rhif unigol; ond, fel y sylwa Alford, y mae "rhag-ddywedasom" yn ymasio âg "efengylasom"—efe a'i gyd-lafurwyr pan yn eu plith. *Felly yr ydwyf yr awrhon drachefn yn dywedyd.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cadarnhau y golygiad blaenorol. Y mae yr "awrhon drachefn" yn amlwg yn cyfeirio at adeg bellach yn ol nag ysgrifeniad *adn.* 8. *Os efengyla neb.*—Nid yw mwyach yn gosod y peth fel tybiaeth, ond yn ei gymmeryd yn ganiataol fel ffaith:—"Os oes neb yn eich efengyleiddio (fel yr wyf ya gwybod fod) yn amgen," &c. Gwel ar *adn.* 8.

10. *Canys yr awr hon.*—Nid cyferbynu ei ymddygiad presennol â'i Phariseaeth blaenorol y mae efe yma; ond galw sylw arbenig at yr iaith gref a ddefnyddiasai efe yn *adn.* 8 a 9. *Ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw?*—hyny yw, perswadio, yn yr ystyr o geisio boddio un er mwyn ennill ei ffafr. Y meddwl ydyw, gwneyd cyfeillion (*conciliate*), yn gyfystyr â "rhyngu bodd" yn y rhan arall o'r adnod. Cyhuddid yr apostol gan yr athrawon Iuddewaidd o ymddygiad anghysson ac egwyddor anghywir. Cymmerent achlysur oddi wrth yr egwyddor arddechog oddi ar ba un y gweithredai o "ymwneyd yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai," i'w gamddarlunio fel dyn diegwyddor, yn ymgeisio yn unig at ennill ffafr dynion, er mwyn gwneyd plaid, neu sicrhau rhyw fantais iddo ei hun ar y pryd. Y mae y geiriau hyn yn wrthdystiad digllawn yn erbyn y cyfryw gyhuddiad. Appelia at yr ymadroddion cyffion a ddefnyddiasai yn *adn.* 8 a 9. "Yr awr hon, a ydwyf fi yn awr yn defnyddio iaith debyg i'r eiddo un a fyddai yn ceisio ennill ffafr dynion? Bernwch yn awr a ydwyf fi yn un sydd yn ceisio boddhau y rhai sydd yn tueddu at Iuddewiaeth? Pa un debygech chwi yw fy amcan, ai gwneyd cyfeillion o ddynion, ai ynte gwneuthur cyfaill o Dduw?" *Neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion?*—Ymadrodd eangach a mwy cyffredinol na'r un blaenorol, ac yn cymmeryd i mewn holl gwrs ei ymddygiad yn ei lafur gyda'r efengyl. *Canys pe rhyngwn fodd dynion etto:*—"Etto," ar ol y cwbl a'm cyfarfu—ar ol yr holl brofiadau tanllyd y daethum drwyddynt. Fel yn *pen.* v. 11: "Os yr enwaediad etto yr wyf yn ei bregethu:" a *pen.* vi. 17; "O hyn allan na flined neb fi, canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu." Yn wir, yr oedd y syniad yn wrthun fod y fath un a'r apostol Paul, yr hwn nad oedd ei fywyd ond un merthyrdod parhaus dros enw Crist—ei fod ef, yn anad neb, yn ymgais i ryngu bodd dynion.

•Adn. 1. 11 Eithr yr ydwyf yn hysbysu
i chwi, frodyr, °*am* yr efengyl a
bregethwyd genyf fi, nad yw hi
ddynol.
12 Canys nid gan ddyn y der-
byniais i hi, nac y'm dysgwyd;
eithr trwy ddadguddiad Iesu
Grist.

13 Canys chwi a glywsoch fy
ymarweddiad i gynt yn y grefydd
Iuddewig, i mi allan o fesur erlid
eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi;
14 Ac Pi mi gynnyddu yn y P Esa. 29, 13;
grefydd Iuddewig yn fwy na 57. 12.
llawer o'm cyfoedion yn fy nghen-
edl fy hun, gan fod yn fwy

Ni byddwn was i Grist.—Cyfeiriad anuniongyrchol, fe allai, at y nodau erledigaeth ag yr oedd efe yn eu dwyn yn ei gorph (vi. 17).ª "Pe bod yn boblogaidd gyda dynion a fuasai fy ancan, ni buaswn wedi dioddef dros Grist—ni buaswn wedi fy llosg-nodi fel caethwas (*slave—doulos*) Crist."—*Lightfoot.*

Adn. 11—ii. 21. Y rhan amddiffynol, neu bersonol, o'r epistol. Prawf hanesyddol fod Paul wedi derbyn yr efengyl trwy ddadguddiad neillduol oddi wrth Dduw, ac yn annibynol ar awdurdod a dysgeidiaeth yr apostolion ereill.

11, 12. *Hysbysiad o'r testyn uchod.*—"Yr ydwyf yn eich sicrhau, frodyr, nad yw yr efengyl a ddysgwyd i chwi genyf fi o ddyfais ddynol. Ni dderbyniais hi gan ddyn, ond gan Iesu Grist. Ni ddysgais hi, fel y mae un yn dysgu gwers, trwy efrydiaeth boenus. Llewyrchodd arnaf, fel dadguddiad o'r nef."—*Lightfoot.*

11. *Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr.*—Yr oedd hon yn ffurf a arferai yr apostol i ddwyn i mewn rhyw fynegiad o bwys neillduol: 1 *Cor.* xii. 3; xv. 1; 2 *Cor.* viii. 1. Cymmharer yr ymadrodd cyffelyb: "Ni fynwn i chwi fod heb wybod." Y mae y gair "eithr" yn cael ei roddi yma fel arwydd fod yr apostol yn symmud yn mlaen oddi wrth y pethau a ddywedasai eisoes i edrych ar y pwngc mewn arweddion newydd. *Nad yw hi ddynol.*—Defnyddir yr amser presennol "yw," ac nid y gorphenol, i ddangos parhad ac anghyfnewidioldeb yr efengyl: *yen.* ii. 2. "Dynol:" yn llythyrenol, yn ol dyn. Y mae yr ymadrodd arno ei hun yn arwyddo "yn ol dull, neu safon dynol;" ond y mae yn cynnwys mwy yma—"nid yw ddynol" yn ei tharddiad, ei natur, na'i dyben.—*Ellicott.*

12. *Canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd.*—Prawf o'r haeriad blaenorol. Y mae yr "i" yma yn bwysleisiol: "Nid gan ddyn y derbyniais i yr efengyl, mwy na'r apostolion ereill."—*Olshausen.* "Y derbyniais hi" (yn hanesyddol), "nac y'm dysgwyd" (yn athrawiaethol).—*Alford.* Arwydda y blaenaf dderbyniad allanol: yr olaf, ymsylweddiad mewnol.—*Ellicott. Eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist.*—Pa bryd y cymmerodd y dadguddiad hwn le? Y mae yn ddiammheuol mai yn fuan ar ol ei ddychweliad, i roddi iddo wybodaeth o'r efengyl yr oedd efe wedi hyny i'w phregethu; felly, yn ol pob tebyg, rhoddwyd ef yn ystod ei ymdeithiad yn Arabia: *adn.* 17. Nis gallasai fod yr un a'r gweledigaethau y cyfeirir atynt yn 2 *Cor.* xii.—o blegid ysgrifenwyd yr epistol hwnw yn B. A. 57, ac yr oedd y weledigaeth hono wedi cymmeryd lle 14 mlynedd cyn hyny—felly yn y flwyddyn 43. Ond yr oedd dychweliad yr apostol yn y flwyddyn 37; ac ni pharhaodd ei ddistawrwydd dilynol ond tair blynedd (*adn.* 18), yn ystod yr hwn, dybygid, yr oedd yn cael ei barotoi i'w waith trwy y dadguddiad hwn o'r efengyl. Nis gallasai chwaith fod yr un a'r ymddangosiad o eiddo yr Arglwydd Iesu iddo, a gofnodir yn *Act.* xxii. 18; canys nid oedd ynglŷn â hwnw ddadguddiad, ond yn unig rhybudd a gorchymyn. Gellid meddwl ei fod yn cyfeirio at y dadguddiad neilduol hwn yn yr adroddiad a ddyry am sefydliad y Swper sanctaidd: 1 *Cor.* xi. 23.—*Alford.* Y mae yn bwngc o ddadl barhaus, pa un a oedd addysgiaeth yr apostol Paul yn ffrwyth un act o'i ddadguddiad, ai ynte o ddadblygiad graddol. Gellid meddwl mai y farn mwyaf naturiol ydyw—fod holl wirioneddau sylfaenol yr efengyl wedi eu dadguddio iddo cyn iddo ddechreu ar ei weinidogaeth; ond ar yr un pryd (yn unol â deddfau ein natur ysbrydol) fod ei dirgelion dyfnaf yn cael eu gweled a'u teimlo ganddo trwy brofiadau ymarferol ei lafur apostolaidd.—*Ellicott.*

13. Oddi yma i ddiwedd yr ail bennod, y mae yr apostol yn gweithio allan y prawf hwn yn hanesyddol. Y mae yn appelio, yn gyntaf oll, (*adn.* 13 a 14) at ei fuchedd Phariseaidd, yn yr hon yn ddiau ni ddysgasai yr efengyl gan neb dynion. "Y mae fy addysg foreuol yn brawf na dderbyniais i yr efengyl oddi wrth ddyn. Dygwyd fi i fyny mewn ysgol orfanwl o ddefodaeth, hollol wrthwyneb i ryddid yr efengyl. Yr oedd fy oedran a'm tymmer, yn chwanegol at fy addysg, yn fy nhueddu i ymlyniad diysgog wrth egwyddorion yr ysgol hono. Oddi ar yr egwyddorion hyny, erlidiais y frawdoliaeth Gristionogol yn ddiarbed. Gan hyny, nis gallasai unrhyw oruchwyliaeth ddynol ddwyn oddi amgylch y fath gyfnewidiad. Nis gallai dim ond cyfryngiad uniongyrchol oddi wrth Dduw." *Chwi a glywsoch.*—"Dywedais i chwi, pan oeddwn gyda chwi." Yr oedd hanes ei yrfa flaenorol fel erlidiwr yn ffurfio rhan o'i bregethu: *Act.* xxii. 2—21. xxvi. 4—23; 1 *Cor.* xv. 8—10. *Fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig.*—"Yn yr Iuddewiaeth;" enw yn awgrymu gradd o waradwydd, a ddyfeisiwyd gyntaf gan y paganiaid, i osod allan y grefydd yn gyferbyniol i baganiaeth. Wedi ei fabwysiadu gan yr Iuddewon eu hunain, collodd ei ystyr ddirmygus, a daeth yn enw o anrhydedd, yr un modd a "Christionogion" yn yr oesoedd apostolaidd, a "Methodistiaid" mewn amseroedd diweddar—y naill a'r llall o ba rai oeddynt ar y cyntaf yn enwau o waradwydd. Defnyddir ef yn y Testament Newydd yn gyferbyniol i Gristionogaeth.

14. *Cyfoedion.*—Rhai o'r un oedran ag ef, ac yn cofleidio crefydd eu tadau gyda holl sel a gwladgarwch ieuengctyd. *Yn fy nghenedl fy hun.*—Awgrym damweiniol fod yr apostol yn cyfarch dychweledigion Cenhedlig. Felly *Rhuf.* xvi. 7, 21; "Fy nghberaint." Hefyd, *Rhuf.* ix. 3. *Gan fod yn fwy awyddus.*—"Gan fod o'r dechreu yn fwy eithafol fel dall-bleidiwr," neu "fel un yn dwyn mawr sel" (*zelótés*): hyny yw, yn fwy na'r cyfoedion. Ymddengys y perthynai Paul i'r blaid eithafol o'r Phariseaid (*Act.* xxii. 3; xxiii. 7; xxvi. 5; *Phil.* iii. 5, 6). Ymfalchïent yn yr

[q] *Esa.* 49.1, awyddus i draddodiadau fy nhad- [r] *Act.* 9. 15; 22. 14, 15. au.

[s] *Rhuf.* 1. 5; 1 *Cor.* 15. 10; 2 *Tim.* 1. 9; 1 *Pedr* 5. 10. 15 Ond pan welodd Duw yn [t] *Mat.* 16. 17; *Cor.* 2 9-18 *Eph.* 1. 17. dda, [q]yr hwn a'm neilldúodd i o groth fy mam, [r]ac a'm galwodd *i* trwy ei ras,

16 I [s]ddaddguddio ei Fab ef

[t] *Act.* 22. 21; *Rhuf.* 15. 16—19; *Eph.* 3.1.8; [u] *A. D.* 38. ynof fi, [t]fel y pregethwn ef yn mhlith y Cenhedloedd; yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed;

17 Ac nid aethum yn fy ol i Ierusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion; ond mi a [u]aethum i Arabia, ac a drois drachefn i Ddamascus.

18 Yna wedi tair blynedd yr aethum i fyny i Ierusalem i ymweled â Cephas, ac a arhosais gyd ag ef bymtheg niwrnod.

19 Ond ni welais i neb arall o'r apostolion, ond Iago brawd yr Arglwydd.

20 Ac yn y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu attoch, wele, gerbron Duw, nid wyf yn dywedyd celwydd.

21 Wedi hynny mi a ddeuthum i wledydd Syria a Cilicia.

22 A mi oeddwn anadnabyddus o ran wyneb i'r eglwysi yn Judea, y rhai oedd yng Nghrist:

23 Eithr yr oeddynt wedi clywed yn unig, mai'r hwn oedd yn ein herlid gynt, sydd yn pregethu'r ffydd yr hon gynt a anrheithiai efe;

24 A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi.

2 Wedi hynny, ymhen pedair blynedd ar ddeg, mi a euthum drachefn i Ierusalem gyd â Barnabas, ac a gymerais Titus gyd â mi.

2 A mi a euthum i fyny trwy ddatguddiad, ac a osodais ger eu bron hwynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ymhlith y Cenhedloedd, ond yn breifat i'r rhai a dybiasant eu bod yn rhywbeth, rhag i mi redeg, neu fy mod wedi rhedeg yn ofer.

3 Eithr nid gorfodwyd Titus, yr hwn oedd gyd â mi, er ei fod yn Roegwr, i enwaedu:

4 Ac hynny o herwydd y gau frodyr a ddygwyd i mewn yn ysbiwyr, y rhai a ddaethant i mewn i ysbeilio ein rhyddid yr hwn sydd gennym yng Nghrist Iesu, fel y caethiwent ni:

5 Y rhai nid ildiasom trwy ufudd-dod i'r rhai hyn, dros awr; fel y parhao gwirionedd yr efengyl gyd â chwi.

6 Eithr oddi wrth y rhai a dybiasant eu bod yn rhywbeth, (pa beth bynnag oeddynt gynt, nid yw dderbyn wyneb dyn gennyf fi: canys nid ymgynghorodd y rhai hyn â mi ddim:)

7 Eithr yn hytrach, pan welsant fod i mi ymddiried yr efengyl dienwaededd, megis i Pedr yr enwaededd;

8 (Canys yr hwn a weithredodd yn effeithiol yn Pedr i apostoliaeth yr enwaededd, a weithredodd yn effeithiol ynof finnau hefyd tuag at y Cenhedloedd:)

9 A phan wybuant y gras a roddasid i mi, Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybiasid eu bod yn colofnau, a roesant i mi a Barnabas ddeheulaw cymdeithas; fel yr elem ni at y Cenhedloedd, a hwythau at yr enwaededd.

10 Yn unig y dymunent i ni gofio'r tlodion; yr hyn hefyd a ddiwydrwyd i'w wneuthur.

11 Eithr pan ddaeth Pedr i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais ef yn wyneb, am ei fod yn haeddu ei feio.

12 Canys cyn dyfod rhai oddi wrth Iago, efe a fwytaodd gyd â'r Cenhedloedd: ond pan ddaethant hwy, efe a ymneillduodd ac a ymddidolodd, gan ofni'r rhai oedd o'r enwaededd.

13 A'r Iuddewon eraill a gydrithiasant hefyd gyd ag ef; fel y dygwyd Barnabas hefyd gyd â hwynt i'w rhithiau.

14 Eithr pan welais i nad oeddynt yn cerdded yn uniawn wrth wirionedd yr efengyl, mi a ddywedais wrth Pedr ger bron pawb, Os tydi, yr hwn wyt Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, paham yr wyt ti yn gorfodi'r Cenhedloedd i Iudeiddio?

15 Nyni yr hai ydym Iuddewon o ran cenedl, ac nid pechaduriaid o'r Cenhedloedd,

16 Gan wybod nad ydyw dyn yn cyfiawnhau trwy weithredoedd y gyfraith, ond trwy ffydd Iesu Grist, nyni hefyd a gredasom yng Nghrist Iesu, fel y cyfiawnhaem trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y gyfraith: canys trwy weithredoedd y gyfraith ni chyfiawnheir un cnawd.

17 Eithr os tra yr ydym yn ceisio ein cyfiawnhau yng Nghrist, ninnau hefyd a gawsom ein cael yn bechaduriaid, ai Crist sydd weinidog pechod? Na ato Duw.

18 Canys os adeiladaf drachefn y pethau a ddinistriais, mi a'm gwnaf fy hun yn drosedwr.

19 Canys mi trwy'r gyfraith a fum farw i'r gyfraith, fel y byddwn byw i Dduw.

20 Croeshoeliwyd gyd â Christ: ac nid mwy yr wyf fi yn byw, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r bywyd yr wyf yn awr yn byw yn y cnawd, yr wyf yn byw trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd i, ac a'i rhoddes ei hun drosof fi.

21 Nid wyf yn dirmygu gras Duw: canys os trwy'r gyfraith y mae cyfiawnder, yna Crist a fu farw yn ofer.

3 O ynfyd Galatiaid, pwy a'ch swynodd chwi, fel na ufuddhaech i'r gwirionedd, y rhai y mae Iesu Grist o flaen eich llygaid wedi ei ddarlunio yn groeshoeliedig yn eich plith?

2 Hyn yn unig a fynnwn ei ddysgu gennych chwi, A dderbyniasoch chwi yr Ysbryd trwy weithredoedd y gyfraith, neu trwy wrando â ffydd?

3 Ai felly yr ydych chwi ynfyd? wedi dechreu yn yr Ysbryd, ai yr ydych yn awr yn darfod yn y cnawd?

4 A ddioddefasoch chwi gymaint yn ofer? os yn ofer hefyd.

5 Yr hwn gan hynny sydd yn rhoddi i chwi yr Ysbryd, ac yn gweithredu gwyrthiau yn eich plith, ai trwy weithredoedd y gyfraith, neu trwy wrando â ffydd?

6 Megis yr ymddiriedodd Abraham i Dduw, ac y cyfrifwyd hyny iddo yn gyfiawnder.

7 Gwybyddwch gan hynny mai'r rhai sydd o ffydd, hwy-hwy yw plant Abraham.

8 A'r Ysgrythyr, gan ragweled y cyfiawnhâi Duw y Cenhedloedd trwy ffydd, a ragefengylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl genhedloedd.

9 Felly y mae'r rhai sydd o ffydd yn cael eu bendithio gyd â Abraham ffyddlon.

10 Canys cynifer ag sydd o weithredoedd y gyfraith, dan felldith y maent: canys ysgrifenedig yw, Melldigedig yw pob un nid yw yn parhau yn mhob peth ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith, i'w gwneuthur.

11 Ond mai trwy'r gyfraith nid cyfiawnheir neb gerbron Duw, sydd eglur: canys y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.

12 A'r gyfraith nid yw o ffydd: eithr y dyn a'u gwnelo hwynt a fydd byw trwyddynt.

13 Crist a'n prynodd ni oddi wrth felldith y gyfraith, gan ei wneuthur yn felldith trosom ni: canys ysgrifenedig yw, Melldigedig yw pob un a grogo ar bren:

14 Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd trwy Iesu Grist; fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd.

15 Frodyr, mi a ddywedaf yn ol dyn; Er nad ydyw ond cyfammod dyn, pan gadarnhaer, nid oes neb yn ei ddirymu, nac yn ychwanegu ato.

16 Yn awr i Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had. Nid yw yn dywedyd, Ac i hadau, megis am lawer; eithr megis am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist.

17 A hyn yr wyf yn ei ddywedyd, Y cyfammod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw yng Nghrist, nid yw'r gyfraith, yr hon a ddechreuodd bedwar cant a thrigain o flynyddoedd wedyn, yn ei ddirymu, fel yr anrheithiai yr addewid.

18 Canys os o'r gyfraith y mae'r etifeddiaeth, nid yw mwyach o addewid: eithr Duw a'i rhoddes i Abraham trwy addewid.

19 Beth gan hynny yw'r gyfraith? Fe'i hychwanegwyd o herwydd camweddau, hyd oni ddelai'r had i'r hwn yr addawsid; ac a'i gosodwyd trwy law angylion yn llaw cyfryngwr.

20 Yn awr nid yw cyfryngwr o un: eithr Duw sydd un.

21 A ydyw'r gyfraith gan hynny yn erbyn addewidion Duw? Na ato Duw: canys pe rhoddasid deddf yr hon a allasai fywhau, yn wir cyfiawnder a fuasai trwy'r gyfraith.

22 Eithr yr ysgrythyr a gaeodd bawb dan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist i'r rhai a gredant.

23 Eithr cyn dyfod ffydd, dan y gyfraith y'n gwarchadwyd, wedi ein cau i fyny hyd y ffydd a ddylai ddyfod wedyn.

24 Fel hyn y gyfraith a fu yn athraw i ni hyd Grist, fel y cyfiawnhaem trwy ffydd.

25 Eithr wedi dyfod ffydd, nid ydym mwyach dan athraw.

26 Canys meibion Duw ydych oll trwy ffydd yng Nghrist Iesu.

27 Canys cynifer ag a'ch bedyddiwyd i Grist, Crist a wisgasoch.

28 Nid oes Iuddew na Groegwr, nid oes gaeth na rhydd, nid oes gwryw a benyw: canys un ydych oll yng Nghrist Iesu.

29 Ac os eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid.

4 Ac yr wyf yn dywedyd, Tra fyddo'r etifedd yn blentyn, nid yw wahanol dim i gaeth, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl;

2 Eithr dan diwtoriaid a llywiawdwyr y mae hyd yr amser a osodwyd gan y tad.

3 Felly ninnau hefyd, pan oeddem blant, caethiwyd ni dan elfennau'r byd:

4 Eithr pan ddaeth cyflawnder yr amser, Duw a anfonodd allan ei Fab, yr hwn a wnaethpwyd o wraig, a wnaethpwyd dan y gyfraith,

5 I brynu'r rhai oedd dan y gyfraith, fel y derbyniem fabwysiad.

6 Ac am eich bod yn feibion, Duw a anfonodd allan Ysbryd ei Fab ef i'n calonnau ni, yn llefain, Abba, Dad.

7 Am hyny nid wyt mwyach yn gaeth, eithr yn fab; ac os mab, yna etifedd Duw trwy Grist.

8 Eithr yna, pan nad adwaenech Dduw, chwi a wasanaethasoch y rhai wrth natur nid ydynt dduwiau.

9 Eithr yn awr wedi i chwi adnabod Duw, neu yn hytrach wedi eich adnabod gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr elfennau gwan a thlodion, i'r rhai drachefn yr ydych yn dymuno bod yn gaeth?

10 Yr ydych yn cadw dyddiau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd.

11 Ofnaf rhag i mi yn ddiau fod wedi llafurio yn ofer i chwi.

12 Brodyr, atolygaf arnoch, byddwch megis myfi; canys megis chwithau yr wyf finnau: ni wnaethoch gam â mi o gwbl.

13 Ond chwi a wyddoch mai trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi o'r blaen.

14 A'm profedigaeth yn fy nghnawd, ni ddirmygasoch, ac ni wrthodasoch; eithr chwi a'm derbyniasoch megis angel Duw, megis Crist Iesu.

15 Pa le gan hynny y mae eich gwynfyd? canys tystiolaethaf i chwi, pe gallasai fod, chwi a dynasech allan eich llygaid, ac a'u rhoddasech i mi.

16 Am hyny a ydwyf fi wedi myned yn elyn i chwi, am fy mod yn dywedyd y gwirionedd i chwi?

17 Y maent hwy yn eiddigeddu wrthych yn ddrwg; eithr nid yn dda: ie, mynant eich cau chwi allan, fel yr eiddigeddoch wrthynt hwy.

18 Eithr da yw bod yn eiddigeddu bob amser mewn peth da, ac nid yn unig pan fyddwyf fi yn bresennol gyd â chwi.

19 Fy mhlant bychain, am y rhai yr wyf yn ymofidio drachefn hyd oni ffurfier Crist ynoch chwi,

20 Mi a fynnwn fod yn bresennol gyd â chwi yr awr hon, a newidio fy llais; canys yr wyf yn petruso yn eich cylch chwi.

21 Dywedwch i mi, chwi sydd yn mynnu bod dan y gyfraith, onid ydych yn gwrando'r gyfraith?

22 Canys ysgrifenedig yw, Fod gan Abraham ddau fab, un o'r wasanaeth-ferch, a'r llall o'r wraig rydd.

23 Eithr yr hwn o'r wasanaeth-ferch a anwyd yn ol y cnawd; a'r hwn o'r wraig rydd trwy addewid.

24 Pethau yn arwyddocâu ydynt: canys y rhai hyn yw dau gyfammod; un o fynydd Sinai, yn esgor ar gaethiwed, yr hon yw Agar.

25 Canys Agar sydd fynydd Sinai yn Arabia, ac yn cyfateb i'r Ierusalem sydd yr awr hon, ac yn gaeth gyd â'i phlant.

26 Eithr yr Ierusalem uchod sydd rydd, yr hon yw mam i ni oll.

27 Canys ysgrifenedig yw, Llawenha, anmhlantadwy, yr hon nid wyt yn esgor; bloeddia a gwaedda, yr hon nid wyt yn gwaedu: canys lluosocach yw plant yr anghyfaneddol nag eiddo'r hon sydd ganddi wr.

28 Ac yr ydych chwi, frodyr, megis Isaac, plant addewid.

29 Eithr megis yr adeg honno yr hwn a anwyd yn ol y cnawd a erlidiai yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd, felly hefyd yr awr hon.

30 Eithr beth y mae'r ysgrythyr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y wasanaeth-ferch a'i mab: canys ni bydd etifedd mab y wasanaeth-ferch gyd â mab y wraig rydd.

31 Felly, frodyr, nid ydym blant i'r wasanaeth-ferch, eithr i'r wraig rydd.

5 Safwch gan hynny yn y rhyddid y rhyddhaodd Crist ni, ac nac ymgymhellwch drachefn â iau caethiwed.

2 Wele, myfi Paul a ddywedaf wrthych, Os enwaedir chwi, ni lesâ dim Crist i chwi.

3 Canys tystiolaethaf drachefn i bob dyn a enwaedir, mai dyled arno yw gwneuthur holl gyfraith.

4 Ymddatodasoch oddi wrth Grist, chwi sydd yn ymgyfiawnhau trwy'r gyfraith; syrthiasoch oddi wrth ras.

5 Canys nyni trwy'r Ysbryd o ffydd a ddisgwyliwn obaith cyfiawnder.

6 Canys yng Nghrist Iesu nid yw enwaediad na dienwaediad o ddim gwerth, eithr ffydd yr hon sydd trwy gariad yn gweithredu.

7 Chwi a redasoch yn dda; pwy a'ch rhwystrodd chwi i beidio ufuddhau i'r gwirionedd?

8 Nid yw'r perswâd hwn oddi wrth yr hwn sydd yn eich galw chwi.

9 Ychydig lefain sydd yn lefeinio'r holl does.

10 Yr wyf fi yn hyderu amdanoch chwi yn yr Arglwydd, na fyddwch chwi feddwl dim arall: eithr yr hwn sydd yn eich cynhyrfu chwi a ddwg ei farn, pwy bynnag ydyw.

11 Ac myfi, frodyr, os enwaediad a bregethaf eto, paham yr erlidir fi hyd yn awr? yna tramgwydd y groes a beidiodd.

12 Mi a fynnwn ar iddynt hwy hefyd dorri ymaith eu hunain sydd yn eich cynhyrfu chwi.

13 Canys chwi, frodyr, a alwyd i ryddid; yn unig na throer eich rhyddid yn achlysur i'r cnawd, eithr trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd.

14 Canys yr holl gyfraith yn un gair a gyflawnir, sef yn hwn, Cerid dy gymydog fel dy hun dy hun.

15 Eithr os brathu a llarpio eich gilydd yr ydych, gwelwch na'ch difethir gan eich gilydd.

16 Hyn yr wyf yn ei ddywedyd, Rhodiwch trwy'r Ysbryd, ac ni chyflawnwch mo chwant y cnawd.

17 Canys y cnawd a chwennych yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant y naill i'r llall; fel na allo y pethau a ewyllysiwch chwi, hyny a wneloch.

18 Eithr os yr Ysbryd a'ch arwain chwi, nid ydych dan y gyfraith.

19 Yn awr amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai hyn yw, godineb, anlladrwydd, aflendid, anniweirdeb,

20 Eilunaddoliaeth, swyngyfaredd, casineb, cynhennau, cenfigennau, llidiau, ymrysonau, ymrannau, hereticiaethau,

21 Eiddigeddau, llofruddiaethau, meddwdod, rhialtwch, a'r pethau cyffelyb i'r rhai hyn: am y rhai yr wyf yn rhagddywedyd i chwi, megis y rhagddywedais hefyd, Na fydd i'r rhai a wnelo y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw.

22 Eithr ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, tirionwch, daioni, ffydd,

23 Addfwynder, hunanymwadiad: yn erbyn y cyfryw bethau nid oes gyfraith.

24 A'r rhai sydd eiddo Crist Iesu a groeshoeliasant y cnawd gyd â'r chwantau a'r blysiau.

25 Os byw yr ydym yn yr Ysbryd, yn yr Ysbryd hefyd rhodiwn.

26 Na fyddwn chwenychgar, gan gynhyrfu ein gilydd, gan genfigennu wrth ein gilydd.

6 Frodyr, os rhagflaenir dyn mewn rhyw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adferwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan ystyried dy hun rhag i tithau hefyd gael dy demtio.

2 Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist.

3 Canys os tybia dyn ei fod yn rhywbeth, a bod yn ddim, efe a dwyllo ei feddwl ei hun.

4 Eithr profed pob un ei waith ei hun, ac yna y bydd ganddo ymffrost mewn perthynas iddo ei hun yn unig, ac nid mewn perthynas i arall.

5 Canys pob un a ddwg ei faich ei hun.

6 Cyfranned yr hwn a ddysgir yn y gair â'r hwn sydd yn dysgu, mewn pob peth da.

7 Na chyfeiliornwch; Duw ni watwerir: canys pa beth bynnag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe.

8 Canys yr hwn a hauo i'w gnawd, o'r cnawd y medi lygredigaeth; eithr yr hwn a hauo i'r Ysbryd, o'r Ysbryd y medi fywyd tragwyddol.

9 A rhag blino ohonom wneuthur daioni: canys yn ei bryd y medwn, oni lesgâom.

10 Gan hyny tra fyddo gennym amser, gwnawn ddaioni i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.

11 Gwelwch pa faint o lythyr a ysgrifenais atoch â'm llaw fy hun.

12 Cynifer ag a ewyllysiant ymddangos yn dda yn y cnawd, y rhai hyn a'ch cymhellant chwi i enwaedu; yn unig rhag iddynt erlid dros groes Crist.

13 Canys nid yw'r rhai enwaedir eu hunain yn cadw cyfraith; eithr ewyllysiant eich enwaedu chwi, fel y gorfoleddant yn eich cnawd chwi.

14 Eithr na fydded i mi ymffrostio ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy'r hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd.

15 Canys yng Nghrist Iesu nid yw enwaediad na dienwaediad o ddim gwerth, eithr creadigaeth newydd.

16 Ac fel cynifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd a thrugaredd fyddo arnynt, ac ar Israel Duw.

17 O hyn allan na flined neb arnaf: canys yr wyf fi yn dwyn ar fy nghorff nodau yr Arglwydd Iesu.

18 Brodyr, gras ein Harglwydd Iesu Grist fyddo gyd â'ch ysbryd chwi. Amen.

aethum i Arabia, a thrachefn y dychwelais i Damascus.

rhwng y Môr Coch a chulfôr Persia; ond defnyddiid ef mewn ystyr eang fel ag i gynnwys y wlad o amgylch Damascus, ac hyd yn oed Damascus ei hunan; ac estynid ef weithiau hyd yn oed at Libanus a gororau Cilicia. (1.) Y mae un cyfleithydd o'r Ysgrythyrau i'r Arabaeg yn rhoddi "El Belka" am Arabia—y rhandir a orweddai i'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o'r Môr Marw. Ond ymddengys nad oes unrhyw sail i'r dybiaeth hon. (2.) Y farn fwyaf cyffredin ydyw fod yr apostol wedi ymneilduo i'r rhan hono o anialwch Arabia oedd yn terfynu ar Damascus. Tybir ei fod, yn nghyffro cyntaf ei brofiadau newyddion, wedi tafiu ei hun i'r unig le gwyllt yma, allan o gylch llywodraeth Rhufain, a hwnt i derfyn gwareiddiad, yn mhell oddi wrth yr oll o'i hen gyssylltiadau. Gwrthddadleuir yn erbyn y dyb hon, ei bod yn rhoddi ystyr eangach i'r gair "Arabia" nag a roddid yn gyffredin o leiaf, a'i bod yn gwahanu Arabia y pennodau cyntaf o'r epistol oddi wrth Arabia y bedwaredd bennod (iv. 25). Ac hefyd, ei bod yn amddifadu yr ymweliad hwn o ystyr pwysig a berthynai iddo ar olygiad arall a mwy tebygol. (3.) Y golygiad hwnw ydyw, fod yr apostol wedi myned y pryd hwn i gymmydogaeth mynydd Sinai. Tybir fod y crybwylliad a wna o *Hagar*, yr enw Arabaidd ar *Sinai*, yn cadarnhau hyn (iv. 25), am y bernir na fuasai yn debyg o ddyfod i wybod am yr enw hwn ond trwy fod ei hunan yn y fan. 2. Y mae amcan yr ymdeithiad yn Arabia wedi bod yn destyn dadl. Gallai mai y farn fwyaf tebygol ydyw, fod yr apostol, yn nghyffro ei argyhoeddiad, ac yn y chwyldröad rhyfeddol a gymmerasai le yn ei hanes ysbrydol, yn dewis yn naturiol encilio am ysbaid i'r neilluedd hwn, i ymddiddan â'i galon ei hun, ac i ddal cymmundeb â Duw; a bod Ysbryd Crist ar yr un pryd yn ei arwain i'r amgylchiadau hyn i gyfranu iddo, mewn rhyw ffordd nas gwyddom, y wybodaeth angenrheidiol o'r efengyl, ac i'w ddwyn drwy yr holl barotoad meddwl a chalon oedd yn eisieu i'w gymhwyso i'w phregethu yn mysg y Cenhedloedd. Nid yw yn debyg mai amcan ei fynediad i Arabia oedd i bregethu yr efengyl, fel y mae rhai wedi tybied; ond yn hytrach i ymbarotoi at waith ei apostoliaeth; er, fel y sylwa Alford, nas gallwn ddywedyd nad oedd yr apostol yn pregethu yn achlysurol yn y synagogau yn Damascus yn ystod yr amser hwn, fel y gwnaeth cyn ac wedi hyn (*Act.* ix. 20—22), er na ddylid edrych ar ei bregethu cyn hyn yn ddechreuad ei lafur swyddol fel apostol, ond yn hytrach yn dystiolaeth am Grist gan un oedd newydd ei ddwyn i'w adnabod. Ond y mae y golygiad arall a grybwyllwyd (yr hwn a gynnygir gan Lightfoot) am "le" yr ymdeithiad hwn, sef cymmydogaeth mynydd Sinai, yn rhoddi ystyr neilluol i'r amcan. I ddefnyddio geiriau yr awdwr hwn:—"Os tybiwn fod yr apostol ar yr adeg bwysig hon wedi myned i gymmydogaeth Sinai—lle rhoddiad y gyfraith—yna y mae ei ymweliad âg Arabia yn dyfod yn llawn o ystyr. Yr oedd yn cael ei at-dynu yno gan ysbryd cyffelyb i'r un ag oedd o'r blaen wedi anfon Elias i'r un rhandir. Pan yn sefyll ar drothwy y cyfammod newydd, yr oedd yn awyddus i edrych ar le genedigaeth yr hen; fel y gallai, tra yn aros am ysbaid mewn neilluedd yn mhresennoldeb "y

18 Yna, ar ol tair blynedd, [u] y [a] Act. 9. 26—daethum yn fy ol i Ierusalem i [29; 22. 17, 18.]

mynydd yn llosgi gan dân," fyfyrio ar ogoniant diflanedig "gweinidogaeth angeu," a dirnad ei gwir amcan yn ei pherthynas â'r cyfammod mwy gogoneddus oedd yn awr i gymmeryd ei lle. Yma, yn cael ei amgylchu gan blant y diffeithwch, hiliogaeth Agar y wasanaethferch, darllenai wir ystyr a grym y gyfraith. Yn y rhandir garw a diffrwyth o ba un y rhoddasid hi, gwelai gysgod cymmhwys o'r anghyfanedd-dra anial, yr hwn a greodd hi, ac y bwriadwyd hi i'w greu yn enaid dyn. Yn nghanol y cyfryw olygfeydd ac adgofion, cyweiriwyd ei ysbryd i gydgordiad â'i genhadaeth ddwyfol, a chymmhwyswyd ef i dderbyn o'r newydd "weledigaethau a dadguddiedigaethau yr Arglwydd." Fel hyn, yn anialwch Sinai, fel ar fynydd y gweddnewidiad, yr oedd y tair goruchwyliaeth yn cydgyfarfod. Yma yr oedd Moses wedi derbyn llechau y gyfraith yn nghanol tân a thymmestl a thywyllwch dudew. Yma etto yr oedd Elias, y prophwyd rhag-gysgodol, wedi bod yn gwrandaw ar lais Duw, ac yn myned allan wedi ei adnewyddu ar ei genhadaeth o gyfiawnder. Ac yma yn olaf, yn nghyflawnder yr amser, yr oedd yr apostol Paul, y pregethwr mwyaf o hono ef am yr hwn y tystiolaethai y gyfraith a'r prophwydi, yn cael ei nerthu a'i sancteiddio at ei waith mawr, yn cael ei addysgu am led yn gystal a dyfnder golud doethineb Duw, ac yn cael ei drawsffurfio, o fod yn ben campwr traddodiad dallbleidiol a chul, i fod yn apostol eang-galon y Cenhedloedd." 3. Am amser ei arosiad yn Arabia etto, nid oes genym fodd i benderfynu gyda sicrwydd. Dywed yr apostol yma (*adn.* 18) fod y cyfwng hwn yn dair blynedd, rhwng ei dröedigaeth â'i ymweliad cyntaf âg Ierusalem. Y mae yn debyg fod ei ymneilliduad yn Arabia wedi cymmeryd i fyny ran fawr, os nad y rhan fwyaf, o'r tair blynedd hyn. Dywed Alford fod y "llawer o ddyddiau," yn *Act.* ix. 23, yn gwrthbrofi hyny, am fod y dyddiau hyny wedi eu treulio yn Damascus. Ond fel y dadleuai Lightfoot, y mae yr ymadrodd "llawer o ddyddiau" gan Luc yn un hollol benagored, ac yn un a all olygu unrhyw ysbaid yn ol yr amgylchiadau. Ac nid ydyw dystawrwydd yr hanesydd chwaith yn Llyfr yr Actau o barth i'r ymweliad âg Arabia yn ddigon i brofi nad oedd ond byr; o blegid yn mhell ar ol hyn y dechreuodd ymgydnabyddiaeth Luc â'r apostol Paul.

Y mae yn amlwg, pa fodd bynag, fod y crynodeb byr, ac etto manwl, yma o hanes boreuol yr apostol, wedi ei fwriadu i roddi cyfrif am yr amser, ac i ddangos nad oedd efe wedi bod mewn un man, rhwng ei dröedigaeth a dechreuad ei lafur swyddol fel apostol, lle y gallasai gael ei addysgu yn yr efengyl gan yr apostolion ereill. *A thrachefn y dychwelais i Damascus.*—Y mae yn ddiau fod y ddinas dra hynafol hon yn bod mor foreu a dyddiau Abraham (*Gen.* xiv. 15, a xv. 2), a thybir fod ganddi, yn y cyfnod pell hwnw, lywodraeth annibynol. Wedi ei gorchfygu gan Dafydd (2 *Sam.* viii. 5, 6), gwrthryfelodd dan Solomon (1 *Bren.* xi. 24), bu yn elsteddle llywodraeth dra eang (cym. 1 *Bren.* xx. 1), adfeddiannwyd hi gan Ieroboam mab Ioash (2 *Bren.* xiv. 28), ymunodd mewn cynghrair â theyrnas Israel, ond cymmerwyd hi drachefn gan Tiglath Pileser (2 *Bren.* xvi. 9). Wedi

ymweled â Phedr; ac a arosais gydag ef bymtheng niwrnod.

19 Eithr *neb* arall o'r apostol-
[a] Mat 13.55; ion nis gwelais, ond Iago [a]brawd Marc 6. 3. yr Arglwydd.

syrthio yn olynol dan lywodraeth Fabilonaidd, Bersiaidd, a Seleuciaidd, aeth o'r diwedd o dan yr eiddo Rhufain (c. c. 64); ac yn amser yr apostol, ffurfiai ran o deyrnas ddibynol Aretas (2 *Cor.* xi. 32). Cymmerodd amgylchiad le ar yr achlysur y cyfeirir ato yma, yn yr hwn y bu bywyd yr apostol mewn perygl; ac ymddengys od hyn wedi gwneyd argraph ddwys ar ei feddwl. Crybwyllir ef ganddo mewn epistol arall a ysgrifenwyd o ddeutu yr un amser. Gwel etto 2 *Cor.* xi. 32.

18—24. Nid ymgynghorodd â dynion; ond ar ol ymweliad byr â Phedr yn Ierusalem, ymneillduodd i Syria a Cilicia.

18. *Yna, ar ol tair blynedd.*—O ba bryd y mae dechreu cyfrif y "tair blynedd" hyn? Gallesid meddwl ar yr olwg gyntaf mai o'i ddychweliad i Damascus, ond wrth graffu gwelir fod y geiriau "ar ol tair blynedd" yn gyferbyniol i'r gair "yn y fan" (*adn.* 16); a bod y geiriau "y daethum yn fy ol i Ierusalem" yn yr adnod hon yn gyferbyniol i "nid aethum," &c., yn *adn.* 17. Yr ydym gan hyny i gyfrif o gyfnod mawr ei fywyd, sef ei dröedigaeth: y mae o'r geiriau "pan welodd Duw yn dda" (*adn.* 15) i'r gair "Cenhedlodd" (*adn* 16) yn llywodraethu yr holl hanes. "Yn y fan," yn y cychwyn cyntaf—"nid ymgynghorais â chig a gwaed;" ac nid hyd nes i dair blynedd fyned heibio, yr aethum i Ierusalem. *I ymweled â Phedr.*—Y mae y gair a gyfieithir yma "ymweled," medd Chrysostom, yn air a ddefnyddid gan y rhai a elent i weled dinasoedd mawrion ac enwog. Defnyddir ef yn fwy mynych am bethau a lleoedd nag am bersonau. *Cephas* yw y darlleniad o'r awdurdod fwyaf. Defnyddiai yr apostol yr enw Arameaidd a'r un Groegaidd yn ddiwahaniaeth. Nid yw Paul yn crybwyll enw Pedr ond yn yr epistol hwn, ac yn 1 *Cor.* Yr oedd Pedr ar y pryd hwn y mwyaf hynod yn mhlith yr apostolion; a dyben yr ymweliad hwn o eiddo Paul âg ef oedd, nid i dderbyn hyfforddiant neu addysg ganddo, ond i ffurfio cydnabyddiaeth âg ef. *Ac a arosais gydag ef bymtheng niwrnod.*—Nodir byrder ei arosiad i ddangos nas gallasai fod yn ddyledus i Pedr am ei addysg apostolaidd. Gwelir yn Llyfr yr Actau pa ham nad arosodd yn hwy yn Ierusalem. Dygwyd ei ymweliad y tro hwn i derfyniad disymmwth: ymadawodd o herwydd brâd-fwriad yn erbyn ei fywyd (*Act.* ix. 29) ac mewn canlyniad i weledigaeth (*Act.* xxii. 17—21).

19. Y mae yn gwestiwn a ydyw Iago yma yn cael ei gydnabod yn apostol, ai nad yw. Gellir deall y geiriau mewn un o ddwy ffordd; "Ni welais yr un apostol arall oddi eithr Iago," neu "Ni welais yr un apostol arall, ond yn unig Iago." Y mae yr esbonwyr diweddar goreu yn unfryd dros y golygiad fod Iago yma yn cael ei alw yn apostol, pa un bynag a ydoedd yn un o'r deuddeg, ai nad oedd. Rhoddwyd y teitl chwanegol, "brawd yr Arglwydd," i mewn, fe allai, i'w wahaniaethu oddi wrth Iago mab Zebedeus, yr hwn oedd yn fyw y pryd hwnw. Y mae rhai yn ceisio gwneyd allan (ac yn eu mysg Calvin) mai

20 A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, wele, ger bron Duw, nad wyf yn dywedyd celwydd.

21 Wedi hyny y daethum i wledydd Syria a Cilicia;

yr un oedd "Iago brawd yr Arglwydd" ac "Iago mab Alpheus," ac felly yn ei wneyd yn un o'r deuddeg. Y mae Ellicott yn tueddu i bleidio y golygiad hwn; ac yn rhoddi rhestr o'r beirniaid Saesoneg ac Almaenaidd sydd wedi ysgrifenu ar y cwestiwn. "Y mae yr apostol yn yr adnodau hyn, tra yn ofalus i ddangos ei annibyniaeth ar yr apostolion ereill, etto yn dangos ei undeb â hwynt. Nid oedd ganddo achosion ar wahân oddi wrth yr eiddynt hwy, ac nid oedd yn awyddus i ochel eu cymdeithas; onid ê. ni buasai yn myned yn un pwrpas i ymweled â Phedr. Er nad arosasai am eu hawdurdodiad hwy cyn ymgymmeryd â'i swydd, etto yr oedd yn cymmeryd ei le fel apostol, nid yn erbyn eu hewyllys, ond gyda'u llawn gydsyniad a'u cymmeradwyaeth." —*Calvin.*

20. *A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifenu atoch.* —Y mae hyn yn cyfeirio yn fwyaf neilduol at y ffeithiau yr oedd efe newydd eu hadrodd iddynt, am ei arosiad byr yn Ierusalem, a'i ddyeithrwch i'r apostolion ereill. *Wele, ger bron Duw, nid wyf yn dywedyd celwydd.*—Sicrhâd difrifol o wirionedd ei adroddiad. Enllibiau ei wrthwynebwyr oedd yr hyn a barai iddo ddefnyddio iaith mor gref. Os oedd y gair wedi ei daenu yn Galatia ei fod, ar ol ei ddychweliad, wedi treulio blynyddoedd yn Ierusalem, ac wedi derbyn addysg reolaidd yn y grefydd Gristionogol gan yr apostolion, buasai y pethau yr oedd efe newydd eu dywedyd (*adn.* 17—19) yn achosi syndod mawr, ac felly y mae yn myned ar ei lŵ i gadarnhau eu gwirionedd. Ceir yr ymadrodd hwn hefyd yn 1 *Tim.* v. 21; 2 *Tim.* ii. 14; a iv. 1.

21. Adroddir yn hanes y daith hon gan Luc fod y brodyr yn Ierusalem, pan wybuant am y bwriad i gymmeryd einioes yr apostol, wedi "ei ddwyn ef i waered i Cesarea, a'i anfon ef ymaith i Tarsus" (*Act.* ix. 30); a dywedir yn mlaen fod Barnabas wedi myned i Tarsus i geisio Saul, ac wedi iddo ei gael ei fod wedi ei ddwyn i Antiochia, lle yr arosasant am flwyddyn gyfan yn dysgu y bobl cyn dychwelyd i Ierusalem: *Act.* xi. 25—30. Y mae yn ddiammheu mai Cesarea Stratonis a feddylir yma, ac nid Cesarea Philippi fel y tybia Olshausen; o blegid nid yn unig dyma y ffordd fwyaf tebygol iddo i'w chymmeryd, ond y mae iaith Luc yn ein cau i'r golygiad yma:—(1). Y mae y geiriau a gyfieithir "dwyn i waered," ac "anfon ymaith" yn arwyddo porthladd, a mynediad ymaith mewn llong; ac (2.) y mae "Cesarea," heb ddim chwaneg, bob amser yn golygu y benaf o'r ddwy dref a elwid felly. Ymddengys ynte oddi wrth yr adroddiad gan Luc fod yr apostol yn hwylio o Cesarea ar ei ffordd i Tarsus. Wrth gymmharu yr adroddiad hwnw â'r crybwylliad yma, rhaid i ni dybied un o dri pheth:—(1.) Nad aeth Paul yn uniongyrchol i Tarsus; ond ei fod wedi ymweled â Syria ar ei ffordd. Neu (2.) Ei fod wedi myned o Tarsus i ymweled â Syria; ac ar ol pregethu yno, ei fod wedi dychwelyd yn ei ol i Tarsus, lle y cafodd Barnabas ef. Ar y naill neu y llall o'r ddwy dybiaeth yma, buasai Luc wedi gadael yr ymweliad â Syria heb ei grybwyll. Neu (3.)

22 Ac yr oeddwn heb fy adna-
[f]Act. 9. 31; 1Thes. 2. 14. [g]Phil. 1. 1; 1Thes. 1. 1; 2Thes. 1. 1. bod wrth *fy* wyneb yn [g]eglwysi Iudea y rhai oedd [z]yn Nghrist:
23 Ond yn unig hwy a glyw-
sant, fod yr hwn oedd gynt yn
ein herlid ni, yr awr hon yn preg-
ethu y ffydd, yr hon gynt a an-
[a]Num. 23. 23; Act. 21. 20; 2Cor. 9. 13. rheithiasai.
24 A [a]hwy a ogoneddasant
Dduw ynof fi.

Nad yw geiriau yr apostol yma "Syria a Cilicia" wedi eu bwriadu i ddangos y drefn yn mha un yr ymwelsai â'r ddwy wlad. Dyma y dybiaeth fwyaf tebygol. Yr oedd Cilicia yn dwyniperthynas nes, yn ddaearyddol, â Syria nag âg Asia Leiaf. Enwir y wlad fwyaf pwysig yma yn gyntaf, a'r llall yn ail.—*Lightfoot.*

22. 'Mor bell oeddwn o fod yn ddysgybl i'r apostolion, neu o aros yn eu cymdeithas, fel nad oedd eglwysi Iudea, lle yr oeddynt hwy yn benaf yn llafurio, hyd yn oed yn fy adnabod wrth fy wyneb.' *Eglwysi Iudea*:—yn gyffredinol, ar wahân oddi wrth yr eglwys yn Ierusalem, yr hon nis gallasai lai na'i adnabod; fel y gellid casglu oddi wrth yr hanes yma, heb law yr hanes am ei bregethu nerthol yn Llyfr yr Actau. O Ierusalem cymmerwyd ef ar frys i Cesarea, ac wrth hwylio oddi yno gadawodd lanau Palestina. O ganlyniad, ni chawsai eglwysi ereill Iudea gyfleusdra i'w adnabod. Gwahaniaethir Iudea yma oddi wrth Ierusalem, fel y mae yr Ital iyn fynych yn cael ei gwahaniaethu oddi wrth Rufain. *Y rhai oedd yn Nghrist.*—Eglwysi Cristionogol, i'w gwahaniaethu oddi wrth gynnulleidfaoedd o Iuddewon heb eu dychwelyd at Gristionogaeth.

23. *Fod yr hwn oedd gynt yn ein herlid ni.*—Yn fwy llythyrenol, "fod ein herlidiwr blaenorol ni." Y mae y cyssylltiad "fod" *(hoti)* pan yn cael ei ddwyn i mewn o flaen ddyfyniad, yn fynych yn peri newidiad sydyn o'r dull anuniongyrch *(oblique)* i'r dull uniongyrchol o lefaru; byny yw, rhoddir y geiriau i lawr fel yr oeddynt yn ngenau y rhai a'u llefarent—"yn ein herlid ni;" *Act.* xiv. 22; xxiii. 22; *Gal.* iii. 10. *Yr awr hon yn pregethu y ffydd.*—Y mae yn brawf tarawiadol o'r lle mawr oedd "ffydd" yn ei ddal yn meddwl yr eglwys foreuol, fod y gair wedi myned mor fuan yn enw arall ar yr efengyl: *Act.* vi. 7. Y mae yr ystyr yn yr adnod hon yn hofian rhwng yr efengyl a'r eglwys.—*Lightfoot.* Mŷn Ellicott ar y llaw arall fod ffydd yma yn golygu rheol bywyd; ac er fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn fynych gan y tadau eglwysig am yr efengyl, fod yn ammheus a ydyw byth i'w gael yn y Testament Newydd yn yr ystyr hwnw. *Yr hon gynt a anrheithiasai.*—Y mae y gair yn arwyddo "dinystrio." Yr oedd efe o'r blaen, mor bell ag yr oedd yn gallu, yn dinystrio eglwys Dduw: *adn.* 13.

24. *A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi.*—"Yn fy amgylchiad i," neu "o'm plegid i." Gwel ar *adn.* 16. Yr oedd y wyrth o ras ag oedd wedi cyfnewid y penaf o'r erlidwyr i fod yn benaf o'r apostolion yn peri i'r eglwysi synu a gogoneddu Duw. "Nid ydyw yn dyweyd," medd Chrysostom, "yr oeddynt yn synu ataf fi, yn fy nghanmawl i, ac yn fy edmygu i; ond y mae efe yn priodoli y cwbl i ras. Hwy a ogoneddasant Dduw," meddai, "ynof fi."

PENNOD II.

1 *Y mae efe yn dangos pa bryd yr aeth efe i fyny i Ierusalem, ac i ba beth;* 3 *ac nad cwnaeadasid ar Titus;* 11 *a gwrthwynebu o hono ef Pedr.* 14 *Pa ham y mae efe ac ereill, a hwythau yn Iuddewon, yn credu y cant eu cyfiawnhau yn Nghrist trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd;* 20 *ac na bo ddynt hwy, y rhai a gyfiawnhawyd felly, fyw mewn pechod.*

YNA, wedi pedair blynedd ar ddeg, [a]yr aethum drachefn [a]Act. 15. 2-4. B. A. 57.

Pennod II.

1—10. Ar ei ymweliad dilynol âg Ierusalem, cadwodd i fyny yr un annibyniaeth; derbyniwyd ef gan yr apostolion fel o awdurdod ogyfuwch â'r eiddynt eu hunain, a chydnabyddwyd ef yn apostol y dienwaediad.

1. *Yna, wedi pedair blynedd ar ddeg, yr aethum drachefn i fyny i Ierusalem.*—Y mae un o'r cwestiynau mwyaf dyddorol yn hanes Paul, yn amseryddol a hanesyddol, yn cyfodi o'r geiriau hyn—cwestiwn ag y mae beirniaid ysgrythyrol wedi ysgrifenu llawer arno o bob ochr. Yn hytrach y mae yma ddau gwestiwn, y rhai ydynt i fesur yn annibynol ar eu gilydd. Ni oddef ein terfynau i ni yma ond eu crybwyll yn fyr. 1. O ba amser y mae "y pedair blynedd ar ddeg" i'w cyfrif—pa un ai o ddychweliad yr apostol, ai ynte o'i daith gyntaf i Ierusalem, yr hon a adroddir yn *pen.* i. 18? Y mae Meyer a Lightfoot yn pleidio y golygiad olaf; ond Alford ac Ellicott, gyda rhesymau cryfach dybygem, y blaenaf. (1.) Y mae yn ddiau fod y pedair ar ddeg mlynedd yn cael eu cyfrif o ryw gyfnod yn hanes personol yr apostol; ac nid oes yr un yn fwy tebyg i fod y cyfnod hwnw na'r un oedd yn wastad yn bresennol i'w feddwl, sef adeg ei droedigaeth. (2.) O hwn yn ddiammheu yr oedd "y tair blynedd," yn *pen.* i. 18, yn cael eu cyfrif; ac y mae y tebygrwydd rhwng geiriad yr adnod hono a'r un dan sylw yn ei wneyd yn bur naturiol i gyfrif y ddwy daith o'r un cyfnod. Yn laf, "Ar ol tair blynedd" (wedi fy nhröedigaeth) aethum i Ierusalem. Yn 2il, "Wedi pedair blynedd ar ddeg" (o'r un adeg) aethum yno drachefn. (3.) Dadleua Alford fod *dia* (wedi) yn cael ei roddi yma, ac nid *meta* (ar ol) fel yn i. 18, rhag i'r pedair blynedd ar ddeg gael eu cyfrif o'r daith gyntaf. (4.) Dadleua yr un beirniad yn mhellach fod cyfiead y geiriau yn y Groeg yn y ddwy adnod yn awgrymu yr un peth —y "blynyddoedd" yn cael y lle pwysleisiol yn i. 18, a'r "pedair ar ddeg" yma; yn dangos fod y blynyddoedd yma i'w cyfrif o'r un cychwyniad ag yn i. 18. 2. Ond y cwestiwn mwyaf pwysig ydyw, Pa un o'r pum taith o eiddo yr apostol i Ierusalem a gofnodir yn yr Actau ydoedd yr un y cyfeiria ati yma? Y mae rhyw ychydig (a Paley yn eu mysg) wedi anturio cynnyg y golygiad nad oedd hon yn un o honynt—na chrybwyllir am hon yn Llyfr yr Actau o gwbl. Y mae y golygiad hwn mor ddisail, fel nad oes un beirniad o bwys yn ei ddal. Y cwestiwn gan hyny ydyw, Pa un o'r pump oedd hon? (1.) Nid y bummed:—(*a*) Ni ddychwelodd Paul i Antiochia ar ol y bummed daith: gwnaeth hyny ar ol hon: *Gal.* ii. 11. (*b*) Y mae yn ddiammheu fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu cyn y bummed daith. (2.) Nid y bedwaredd:—Heblaw amryw resymau ereill, digon yw crybwyll fod Barnabas wedi myned i Ierusalem gyda Phaul yn y daith

i fyny i Ierusalem gyda Barnabas, gan gymmeryd Titus hefyd gyda mi.

2 Ac mi a aethum i fyny yn ol datguddiad, [b] ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei [b] Gal. 1. 16.

dan sylw; ond yr oedd cyssylltiad Barnabas â Phaul wedi darfod cyn y bedwaredd daith. (3.) Nid yr ail (*Act.* xi. 29, 30) :—(*a*) Neges yr ail daith oedd dwyn cynnorthwy i'r brodyr tlodion yn amser y newyn, yr hwn a gymmerodd le cyn B. A. 46. Pe hon fuasai, buasai naill ai taith gyntaf yr apostol, neu ei dröedigaeth, yn cael ei dafiu yn ol at B. A. 32 (sef pedair blynedd ar ddeg yn flaenorol), yr hyn nis gallasai fod. (*b*) Yr oedd Paul yn y daith hon eisoes wedi ei gydnabod fel apostol y Cenhedloedd (ii. 7), ac wedi pregethu gyda Barnabas yn mysg y Cenhedloedd (ii. 8, 9). Ond nid oedd commisiwn Paul a Barnabas i bregethu i'r Cenhedloedd yn cychwyn ond o *Act.* xiii. 1—yr hyn oedd ar ol yr ail daith. (4.) Nid y gyntaf:—Y mae hyn yn cael ei brofi gan y gair "drachefn," a'r pedair blynedd ar ddeg yn cael eu nodi fel dyddiad y daith hon, yn gyferbyniol i'r "tair blynedd" —dyddiad y daith gyntaf (i. 18), a'r hon yn ddiau ydoedd yr un ag *Act.* ix. 26. Yr ydym gan hyny yn cael ein cau i fyny i'r casgliad, fod hon yr un a'r drydedd daith a gofnodir yn Llyfr yr Actau, sef y daith i'r Cynghor Apostolaidd yn Ierusalem: *Act.* xv. Y mae cyd-darawiad hollol rhwng yr amser, y lle, y personau, yr achlysuron, a'r penderfyniadau. Nid yw y gwahaniaeth rhwng y ddau adroddiad (*Act.* xv. a *Gal.* ii.) yn milwrio dim yn erbyn y golygiad, o blegid y mae amcan y ddau yn wahanol. Yn yr Actau, adroddir hanes yr hyn oedd yn bwysig i'r eglwys yn gyffredinol; yn yr epistol, adroddir yr hyn yn unig oedd yn eisieu i glirio yr apostol oddi wrth y dybiaeth o'i ymddibyniad ar ddyn am ei awdurdod neu ei addysg apostolaidd. Gwrthddadl arall a ellir ei chodi ydyw:—Adroddir yr hanes gan yr apostol yn y lle hwn, fel pe mai yr ail daith i Ierusalem a fuasai hon: "Ar ol tair blynedd, aethum i Ierusalem" (*pen.* i. 18); ac "wedi pedair blynedd ar ddeg, aethum yno drachefn." Os y drydedd daith oedd hon, pa ham y mae yn myned heibio i'r ail yn ddisylw, heb ei chrybwyll o gwbl? I hyn gellir atteb, nad dyben yr apostol oedd nodi ei holl deithiau i Ierusalem, ond yn unig nodi y cyfleusderau a gawsai i ymgynabyddu â'r apostolion ereill. Yn ol pob tebyg, ni chafodd y cyfleusdra hwn o gwbl yn yr ail daith (*Act.* xi. 30) —ac felly buasai ei chrybwyll yma yn hollol ammherthynasol i'r mater. Dyben yr ail daith oedd cymmeryd elusen yr eglwys yn Antiochia i Jerusalem, i'w gweinyddu i'r brodyr tlodion oedd yno yn dioddef newyn ar y pryd. Yr oedd hwnw yn amser o erledigaeth, pan yr oedd Iago mab Zebedeus, a Phedr, yn ngallu Herod; a'r apostolion ereill, yn ol pob tebyg, wedi eu gwasgaru. Y tebygolrwydd yw, na welodd Barnabas a Saul yr un o honynt ar y daith hon. Ar ol cyflawni eu neges, dychwelasant gydag Ioan Marc: *Act.* xii. 25. Y mae yr holl gwestiwn hwn yn cael ei drafod yn fanwl a galluog gan Alford: *Gr. Test., Vol.* II., *Proleg. pp.* 26, 27; *Lightfoot's Ep. to the Galat., pp.* 109—114; a *Conybeare & Howson's Life & Epist. of St. Paul, Appendix*:., *Vol.* I. *Gyda Barnabas, gan gymmeryd Titus hefyd gyda mi.*—Ymddengys mai Paul oedd y prif ddyn erbyn hyn ("gan gymmeryd gyda mi"). Yn y daith flaenorol i Ierusalem (yr ail) Barnabas oedd yn cymmeryd y blaen. Yr oedd Titus yn y "rhai ereill o honynt," yn *Act.* xv. 2: ac enwir ef yn bennodol yma o herwydd yr ymryson y bu yn achlysur o hono: *adn.* 3. Anfonwyd ef o Antiochia, ynghyd âg ereill na roddir eu henwau, i'r dyben, y mae yn debyg, o gynnrychioli y Cristionogion Cenhedlig; yn debyg fel y darfu i apostolion yr enwaediad, ar ddychweliad y cenhadon, anfon Iudas a Silas yn ol i gynnrychioli y credinwyr Iuddewig: *Act.* xv. 27. Buasai hyn yn fwy cofiadwy gan yr apostol, am fod Titus lawer yn ei feddwl, os nad oedd hefyd yn ei gwmni, pan yn ysgrifenu yr epistol hwn: 2 *Cor.* ii. 13; vii. 6, 13—15; viii. 16, 22; xii. 18.

2. *Ac mi a aethum i fyny yn ol datguddiad.* —Nid i ymgynghori âg ereill, nac i ddysgu ganddynt, ond mewn ufudd-dodi orchymyn dwyfol. Dywedir, yn *Act.* xv. 2, fod yr eglwys yn Antiochia wedi pennodi Paul i fyned i'r Cynghor yn Ierusalem; nid yw hyny yn anghysson â'r hyn a ddywedir yma, ei fod wedi myned yno "yn ol datguddiad." Darfu i'r datguddiad naill ai arwain i benderfyniad yr eglwys, neu ynte ei gadarnhau. Ceir esampl gyffelyb yn Llyfr yr Actau, fel y mae Meyer yn sylwi, o'r cymmhe liad dyblyg hwn: tueddwyd Pedr gan weledigaeth, ac ar yr un pryd gan genhadau Cornelius, i fyned i Cesarea. Nid yw cyfleithiad Hermann —"er mwyn dadguddiad," hyny yw, eglurhâd ar y pwngc oedd mewn dadl—yn oddefol ar dir esboniadaeth nac ieithyddiaeth. *Ac a fynegais iddynt.*—Nid i'r apostolion yn unig, fel y tybia Calvin, Olshausen, ac ereill; ond i'r Cristionogion oeddynt yn Ierusalem.—*Alford, Ellicott, Lightfoot. Ond o'r neilldu i'r rhai cyfrifol.*—Neu, "i'r rhai enwog," sef Iago, Pedr, ac Ioan (*adn.* 9)—yr apostolion blaenaf, a'r unig rai o'r apostolion, fel yr ymddengys, oedd yn bresennol ar yr achlysur hwnw yn Ierusalem. Traethai yr apostol yn y cynnulliad cyhoeddus yn hyf a digêl sylwedd yr efengyl a bregethid ganddo; ond y mae yn debyg ei fod wedi myned i mewn yn fanylach i'w olygiadau athrawiaethol mewn ymddiddan cyfrinachol â'r apostolion penaf. Gwelir fod yma ymgynghoriad dirgelaidd wedi cymmeryd lle â'r prif apostolion, ac hefyd gynnadleddau cyhoeddus o'r holl liaws—y cyfarfod cyhoeddus sydd yn y golwg yn yr hanes gan Luc, er y tybia rhai fod cyfeiriad aneglur ato yn *Act.* xv. 4. Y mae yn dra thebyg fod yr ymgynghoriad cyfrinachol yn cymmeryd lle o flaen y gynnadledd gyhoeddus: yr oedd y drafodaeth ddirgelaidd yma yn fesur tra doeth er gochel camddealltwriaeth; ac yr oedd y gymmanfa gyhoeddus drachefn yn fater o angenrheidrwydd, er mwyn cael cydnabyddiaeth o ryddid yr eglwysi Cenhedlig.—*Lightfoot. Rhag mewn un modd fy mod yn rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg.*—A ydyw y geiriau hyn yn cynnwys, fel y gellid tybied ar yr olwg gyntaf, fod yr apostol yn wirioneddol ammheus o barth i uniondeb ei olygiadau ar yr efengyl, hyd nes iddynt dderbyn sel cymmeradwyaeth apostolion yr enwaediad? Y mae y cyfryw olygiad mor groes i ysbryd yr adnodau hyn, mor annhebyg o dan yr amgylchiadau, ac mor ddinystriol i holl ymresymiad yr apostol, fel y rhaid ei wrthod ar

[a]Preg. 10. 1; Act. 5. 34; Phil. 2. 29. [d]Mat. 10. 16; 1 Cor. 9. 26; Phil. 2. 16; 1 Thes. 3. 5.

phregethu yn mhlith y Cenhedloedd; ond o'r neilldu i'r rhai [c]cyfrifol, rhag mewn un modd [d]fy mod yn rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg.

3 Eithr Titus, yr hwn oedd gyda mi, er ei fod yn Roegwr, ni chymmhellwyd chwaith i enwaedu arno:

4 A hyny o herwydd y gau frodyr a ddygasid i mewn, y rhai [a]Ioan 8. 31—36; 1Pedr 2. 16. a ddaethant i mewn i yspïo [e]ein

unwaith. Nid oedd yn ofni y byddai i'w weiniddogaeth fyned yn ofer, os na chai ei chydnabod gan yr eglwys yn Ierusalem. Ond, yn ol Hammond ac Ellicott, ofnai i'w lafur gorphenol neu bresennol gael ei golli, cyn belled ag y byddai i ereill edrych ar y llafur hwnw yn ofer ac anawdurdodedig. Y mae golygiad Alford yn debyg:—"Wrth feddwl am ragfarn cryf yr eglwys yn Ierusalem, yr oedd yn naturiol i'r apostol deimlo pryder rhag i'w waith gael ei ddiarddel ganddynt mewn modd terfysglyd: a defnyddiai fesurau er gochel hyny." Yr un golygiad, yn cael ei eirio yn fwy llawn fe allai, ydyw yr eiddo Lightfoot:—"Rhaid cymmeryd y geiriau gan hyny i ddadgan ei ofn rhag i'r Cristionogion Iuddewig, trwy sefyll yn dŷn at ddefodau Moses, rwystro ei ymdrechion y pryd hwn, ac yn flaenorol i hyn, i sefydlu eglwys ar sylfaen rydd frydig. Trwy ymgynghori â hwynt, ac yn fwy neillduol âg apostolion yr enwaediad, gallai nid yn unig dawelu hyny o bryder a deimlai ei hunan, ond hefyd eu hennill drosodd i'w olygiadau, os byddai rhyw radd o ddiffyg unfrydedd rhyngddynt."

3. *Eithr Titus, yr hwn oedd gyda mi.*—Eithr—fel y prawf cryfaf nad oeddwn wedi rhedeg yn ofer—ni orfodwyd yr enwaediad ar Titus. Y mae y pwyslais yma i fod ar "Titus"—"hyd yn oed Titus." Pa ham "hyd yn oed" Titus? (1.) Fe allai mai dyma ystyr y pwyslais:—"Hyd yn oed Titus, yr hwn fel fy nghydlafurwr a gai ei ddwyn i gyfarfyddiad gwastadol â'r Iuddewon; ac felly y gallesid disgwyl i ni gydsynio iddo wneyd pob peth tebycaf i'w hennill." Yn gyffelyb i amgylchiad Timotheus (*Act.* xvi. 3):—"Paul a fynai i hwn fyned allan gydag ef; ac efe a'i cymmerth ac a'i henwaedodd ef, o achos yr Iuddewon." Yn ol yr ystyr yma, byddai y pwyslais hefyd ar y geiriau, "yr hwn oedd gyda mi." Neu (2.) "Hyd yn oed Titus, er i ni yn ei achos ef gael ein gwasgu mor galed i'w enwaedu." Gallai fod y ddau reswm wedi eu cyfuno yma. *Er ei fod yn Roegwr.*—Ac felly mewn amgylchiad iddynt gymmhell ar iddo gael ei enwaedu. Felly Alford ac Ellicott. Er fod y rheswm yna yn rhoddi ystyr da a thebygol iawn i'r geiriau, yr ydym yn tybied mai golygiad Lightfoot ar hyn yw y cywiraf:—fod yr apostol yn dyweyd ei fod yn Roegwr, nid fel rheswm pa ham yr oedd y blaid Iuddewig yn gofyn am iddo gael ei enwaedu, ond fel rheswm pa ham y gwrthododdd Paul gydsynio â'u gofyniad. "Gan ei fod yn Roegwr, ni oddefasom"—gyda chyfeiriad distaw o bossibl at achos Timotheus. Gellid meddwl fod yr apostol yn ymresymu fel hyn:—'Yr ydych chwi yn dadleu fy mod wedi addef rhwymedigaeth deddf Moses wrth enwaedu Timotheus (*Act.* xvi. 1, 3). Ond yr oedd Timotheus o un ochr o haniad Iuddewig. Pa fodd yr ymddygais yn achos Titus, yr hwn oedd yn genedl-ddyn pur? Yma, ni roddais i fewn iddynt am foment.' *Ni chymmhellwyd chwaith i enwaedu arno.*—Rhaid addef nad ydyw y cyfeirhiad yn y lle hwn yn cyfleu gwir feddwl y geiriau. Y gair mwyaf cywir fuasai, "ni orfoddwyd;" hyny yw, ni oddefasom ni iddo gael ei orfodi i enwaedu arno, er i hyny gael ei gymmhell gyda'r egni mwyaf. Y mae yma awgrym eglur, ac â hyny y mae yr hanes yn yr Actau yn cyttuno (xv. 5), fod cais penderfynol wedi ei wneuthur yn y cynghor yn Ierusalem i gael enwaedu ar Titus. Y mae yn ddiau mai y blaid Iuddewig fwyaf eithafol, y Phariseaid dychwelediga (*Act.* xv. 5) oedd yn gwasgu hyn. Ymddengys fod achos Titus wedi dyfod yn gwestiwn mor bwysig yn y cynghor, fel mai dyma y pegwn ar ba un yr oedd y frwydr fawr rhwng Iuddewiaeth a Christionogaeth i droi. Yr oedd y pwngc o athrawiaeth megys wedi ei gorphori yn mherson Titus, ac i gael ei benderfynu y naill ochr neu y llall yn ol fel y penderfynid ei achos ef—pa un a orfodid ef i gymmeryd ei enwaedu, ai ni wneid? Yr oedd yr apostol yn teimlo fod yr achos oedd mor agos at ei galon, a'r hwn y daethai i'r cynghor i ymladd drosto, sef rhyddid yr eglwysi Cenhedlig, yn crogi ar y penderfyniad hwn; ac o blegid hyny yr ydoedd mor benderfynol yn eu gwrthsefyll. Cwestiwn dyddorol sydd yn ei gymmhell ei hunan arnom ym ydyw, Pa ran a gymmerodd apostolion yr enwaediad yn y ddadl hon yn y cynghor yn Ierusalem? Y golygiad mwyaf tebygol ar y cyfan ydyw yr eiddo Lightfoot: eu bod ar y cyntaf wedi annog Paul i roddi y pwynt i fyny, fel goddefiad rhyddfrydig i ragfarnau y dychweledigion Iuddewig: ond o'r diwedd, wedi eu hargyhoeddi gan ei resymau ef y byddai ei waith yn rhoddi i fewn o dan yr amgylchiadau yn ddinystr i'r egwyddor fawr ag yr oedd efe yn ymladd drosti, eu bod wedi tynu eu hannogaeth yn ol, a rhoddi iddo eu cefnogaeth. Dyma y wedd ar y drafodaeth sydd yn cyttuno oreu â ffeithiau yr hanes, ac â'r hyn y gellid barnu oedd yn fwyaf tebygol, wedi cymmeryd pob peth i ystyriaeth, i fod wedi cymmeryd lle.

4. *A hyny o herwydd y gau frodyr a ddygasid i mewn.*—Y blaid Iuddewig eithafol yn yr eglwys yn Ierusalem—Phariseaid o galon, ond yn ymwisgo yn enw ac agwedd credinwyr. Nid oeddynt yn addef yr egwyddor fawr o gyfiawnhâd trwy ffydd yn Nghrist yn unig; o herwydd hyn y gelwir hwynt yn "gau frodyr." Y mae y gair "a ddygasid i mewn" yn cyfleu y syniad o ymlusgo i mewn yn lladradaidd, i ddybenion plaid. Y mae cystrawiad yr adnod hon, fel yr adnodau cylchynol iddi, yn lled aneglur (gwel ar *adn.* 6). Y golygiad mwyaf naturiol a chywir, dybygid, ar gyssylltiad yr adnod hon â'r un flaenorol yw, fod "a hyny" (*dia de*) yn dwyn yr hyn a ddywedir i mewn yn rheswm dros waith Paul a Barnabas yn sefyll mor benderfynol yn erbyn enwaedu ar Titus; sef, am fod y "gau frodyr" yn ei wneuthur yn gwestiwn plaid. Yn ol y golygiad hwn, dyna yr ystyr—'Pe buasai y peth yn cael ei ofyn gan frodyr gweiniaid, buaswn yn rhoddi i fewn rhag bod yn dramgwydd i'w gwan gydwybod hwy: ond gan ei fod yn cael ei hawlio gan frodyr gau, i ddal i fyny y pwngc o enwaed-

rhyddid ni yr hon sydd genym yn Nghrist Iesu, fel y'n caethiwent ni:

5 I ba rai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, na ddo dros awr; [t] fel yr arosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi. [t] 1 Thes. 2. 13.

6 A chan y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth (pa fath *gynt* oeddynt, nid yw ddim i mi; [s] nid yw [s] Iob 34. 19.

lad, yr oedd yn ammhossibl cydsynio." Fel hyn yr oedd Awstin yn deall y geiriau (dyfynedig gan Lightfoot). *Y rhai a ddaethant i mewn i ysbio ein rhyddid ni yr hon sydd genym yn Nghrist Iesu.*—Y ffugr yn yr ymadroddion hyn ydyw, yspïwyr neu fradwyr yn ymlusgo i mewn yn llechwraidd i wersyll y gelyn. Yr oeddynt fel hyn wedi ymwthio i mewn yn lladradaidd i'r Eglwys Gristionogol, i "yspïo" a oeddym yn cadw ein rhyddid yn Nghrist—yn yr efengyl—oddi wrth y ddeddf seremonïol, ac i ba raddau. *Fel y'n caethiwent ni.*—Golyga y gair darostwng i gaethwasiaeth (*slavery*) hollol.

5. I ba rai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, na ddo dros awr.—'Ni ddarfu i ni (sef Paul, a Barnabas, a Titus, y rhai a anfonasid i Ierusalem, i ddadleu achos y Cristionogion Cenhedlig) roddi i fyny, naddo dros awr, trwy ymddarostwng i ofynion y blaid Iuddewaidd.' *Fel yr arosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi.*—Yr efengyl yn ei chyfanrwydd a'i phurdeb, yn gyferbyniol i gau ddysgeidiaeth y blaid Iuddewaidd; athrawiaeth gras, neu gyfiawnhâd trwy ffydd yn unig, a rhyddid Cristionogol oddi wrth ddefodau cyfraith Moses. "Gyda chwi"—y Galatiaid, fel yr ydych yn rhan o'r eglwysi Cenhedlig. O ran y ffaith, yr oedd y fuddugoliaeth hon yn sicrhau rhyddid Cristionogol i'r holl eglwysi Cenhedlig; ond y mae yr apostol, er mwyn dwyshau yr effaith, yn ei gymmhwyso at y Galatiaid yn benodol.—*Alford.* Y mae y ferf a gyfleithir "aros," o ran ei ffurf gyfansawdd, a'i hamser gorphenol (*diameiné*), a'r arddodiad, yn dynodi "meddiant cadarn."—*Lightfoot.*

6. A chan y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth.—Y mae yn dychwelyd yn awr at ei arosiad yn Ierusalem, a'i drafodaeth â'r rhai "cyfrifol." Y mae meddwl yr adnod yn eglur, ond y cystrawiad yn anhawdd. Gan y prif apostolion, y rhai y gosodir cymmaint o fri arnynt, 'ni roddwyd dim i mi,' neu rywbeth i'r un ystyr, yn ddealledig. *Pa fath gynt oeddynt, nid yw ddim i mi.*—'Nid yw yn gwneyd un gwahaniaeth i mi eu bod unwaith wedi adnabod Crist yn ol y cnawd, ac wedi bod yn ganlynwyr personol iddo.' Tybia ereill fod y cyfeiriad at eu bywyd blaenorol cyn eu hargyhoeddiad. *Nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn.*—Nid ydyw Duw yn barnu dynion felly; nid yw yn eu mesur yn ol y breintiau allanol a gawsant, neu y sefyllfa y maent ynddi; ond yn ol yr hyn ydynt, a'r hyn y maent yn ei wneyd. *Canys y rhai cyfrifol ni chwanegasant ddim i mi.*—Pa beth bynag oeddynt ac ydynt, nid wyf fi yn ddyledwr iddynt mewn un modd. Ni roddasant ddim i mi yn yr efengyl, mewn ffordd o awdurdod nac addysg. Y mae y cystrawiad, fel y crybwyllwyd, yn anhawdd. Oddi wrth y ffurf sydd ar ddechreu yr adnod, "gan y rhai," &c., buasem yn disgwyl iddi derfynu gyda rhyw eiriau tebyg i "ni roddwyd dim i mi," neu, "ni dderbyniais i ddim;" ond y mae y geiriau sydd rhwng cromfachau yn torl y cyfosodiad naturiol, ac yn peri fod y frawddeg oedd yn dechreu mewn ffurf oddefol yn diweddu mewn ffurf weithredol, yn y geiriau "ni chwanegasant ddim i mi." Ond fe allai mai yn y gair "canys" y mae prif anhawsder yr adnod yn gorwedd: beth yw grym a chyssylltiad y gair? Tybia rhai [felly Lightfoot, ond yn ammheus] mai ei wasanaeth yma ydyw yn unig ail ddechreu y frawddeg, wedi iddi gael ei thori gan y geiriau rhwng cromfachau. Ereill, ei fod yn ymresymiadol; naill ai yn rheswm dros "pa fath gynt oeddynt, nid yw ddim i mi" [*Alford*], neu dros "nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn."—*Meyer.* Dadleua Ellicott drachefn yn gryf mai eglurhaol ydyw, yn yr ystyr o leddfu a chyfiawnhau y geiriau a ddefnyddia yn nechreu yr adnod wrth son am apostolion yr enwaediad, "y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth;" "yr wyf yn cyfeirio atynt fel hyn, canys i mi (pa beth bynag a allant fod wedi ei wneyd i ereill) y mae yn ffaith ddiammheuol na chwanegasant ddim." Hwyrach y dylid crybwyll yma fod rhai o'r esbonwyr craffaf yn sylwi, nas gellir llai na theimlo rhyw gymmaint o dôn ddiraddiol yn ymadroddion yr apostol yn y paragraph hwn, wrth gyfeirio at apostolion yr enwaediad. Geilw hwynt ddwy waith "y rhai cyfrifol," neu "enwog" (*adn.* 2 a 6); hefyd, "y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth" (*adn.* 6); a'r "rhai a dybid eu bod yn golofnau" (*adn.* 9); ynghyd â'r oll o *adn.* 6. Y mae yr ymadroddion eu hunain yn rhai anrhydeddus (oddi gerth fe allai "y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth," *adn.* 6), ond y maent yn cael eu cyfleu mewn tôn ag yr ydys yn teimlo sydd yn cyfranogi i ryw fesur o wawdiaith. Ar gyfer hyn, dylid sylwi (1.) nad oedd y dôn ddiraddiol hon yn un awgrym fod yr apostol am dafiu yr ammheuaeth lleiaf o barth i'w teilyngdod personol, na'u hurddas apostolaidd: ond yn hytrach, ei fod wedi eu bwriadu i fod yn fath o sen ddistaw i'r blaid Iuddewig am eu gwaith yn eu tra dyrchafu hwynt, ar draul ei ddarostwng a'i gamddarlunio ef. Y mae am roddi yr argraph—pa mor enwog bynag oeddynt, a pha mor uchel bynag yr oedd ei wrthwynebwyr yn dymuno eu dyrchafu—nad oedd efe yn ddyledwr iddynt am ddim, ond ei fod yn mhob modd o awdurdod gyfartal ac annibynol. (2.) Y mae y paragraph ei hunan yn cynnwys tystiolaeth uniongyrchol o gydnabyddiaeth a pharch o bob tu rhwng yr apostol a'r deuddeg (*adn.* 8, 9, 10). Cyn gadael yr adnod hon, nis gallwn lai na sylwi fod cystrawiad yr adnodau, o 2 i 6, yn anhawdd iawn. Y mae priod-ddull yr adnodau hefyd yn eithaf taraw fel un tra thywyll ac anghyffredin. Y mae geiriau yn cael eu gadael allan; brawddegau yn cael eu dechreu, yn cael eu hattal ar y canol, a'u gadael yn anorphen: edef y cyssylltiad yn cael ei thori, ei chymmeryd i fyny eilwaith, a'i thori drachefn. Mewn gair, y mae adeilwaith rammadegol y paragraph yn ddyrus dros ben. Y mae y rheswm a ddyry Lightfoot yn dra boddhaol. Dywed ef fod yr apostol ymabron a dyrysu, rhwng ofn dyweyd gormod ac ofn dyweyd rhy fychan. Rhaid iddo ddal i fyny ei annibyniaeth ei hun, ac etto rhaid iddo ofalu am gymmeriad y deuddeg. Pa fodd y gall efe ei gyfiawnhau ei hun heb ymddangos i fod yn eu condemnio hwy? Y mae eisieu siarad yn eglur, ac y mae eisieu bod yn gynnil a gochelgar hefyd.

Duw yn derbyn wyneb dyn) canys y rhai cyfrifol ni chwanegasant ddim i mi.

7 Eithr yn y gwrthwyneb, pan welsant ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, megys am *efengyl* yr enwaediad i Pedr:

[b] Act. 1. 8. 8 (Canys [b]yr hwn oedd yn gweithredu yn nerthol yn Pedr i apostoliaeth yr enwaediad, a [i] nerthol weithredodd ynof finnau hefyd tuag at y Cenhedloedd)

[i] Act. 13. 2—11; 14. 3-11.

9 A phan wybu Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, [k]y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i Barna-

[k] Rhuf. 1. 5.

Yr oedd yr apostol, fel y mae yn naturiol i ddyn fod pan yn siarad ar bwngc cynnil, yn cael ei dynu rhwng gwahanol deimladau; ac felly yn gadael geiriau allan, yn dechreu ei frawddegau, yn rhoddi rhyw air o eglurhâd ar y canol, ac yna yn eu gadael yn anorphen. Er fod y fuddugoliaeth yn y cynghor yn un lwyr yn y pen draw, etto ymddengys nad ennillodd yr apostol mo honi heb ymdrech galed; a'i fod wedi ei adael ei hunan am ryw ysbaid yn y gynnadledd i ymladd dros ryddid y Cenhedloedd. Y drafodaeth lawn o anhawsderau a gymmerodd le rhwng yr apostol Paul ac apostolion yr enwaediad yn Ierusalem oedd y graig guddiedig (medd yr awdwr hwn) ar ba un yr aeth grammadeg y paragraph yn llongddrylliad.

7. *Eithr yn y gwrthwyneb.*—Pa beth oedd "yn y gwrthwyneb?" Yn ol Jowett [dyfynedig gan Alford] dyna yr hyn a olygir—yn lle cryfhau dwylaw Paul, eu gwaith yn ei adael i ymladd ei frwydr ei hunan. "Cymmerwch eich llwybr eich hun: pregethwch chwi efengyl y dienwaediad i'r Cenhedloedd, pregethwn ninnau un yr enwaediad i'r Iuddewon." Mae golygiad Ellicott a Lightfoot yn ymddangos i ni yn llawer mwy rhesymol:—"Eithr yn y gwrthwyneb;" *h.y.*, mor bell o gyfranu addysg i mi, rhoddasant sel eu cymmeradwyaeth wrth y gwaith yr oeddwn i wedi ymaflyd ynddo yn annibynol arnynt." "Yn lle cael dim yn ddiffygiol neu gyfeiliornus yn fy nysgeidiaeth, darfu iddynt yn galonog gydnabod fy nghenadwriaeth." *Efengyl y dienwaediad.*—Yn dynodi gwahanol gylch o lafur, ac nid gwahanol fath o efengyl. *Megys am efengyl yr enwaediad i Pedr.*—Nid oedd Pedr yn apostol i'r enwaediad yn unig; o blegid efe a etholwyd i agor drws y ffydd—i bregethu yr efengyl gyntaf i'r Cenhedloedd: *Act.* x. a xv. Ond yn rhaniad y gwaith apostolaidd ar ol hyny, ymddengys fod ei lafur ef yn benaf yn mysg yr Iuddewon: 1 *Pedr* i. 1.

8. Y mae yr adnod hon yn gadarnhâd hanesyddol (mewn cromfachau) o'r hyn a ddywedwyd yn *adn.* 7. *Yr hwn oedd yn gweithredu,* oedd Duw (*Rhuf.* xv. 15; 1 *Cor.* xii. 6), trwy Grist (*Rhuf.* i. 5). "Dros Pedr," ydyw y cyfieithiad llythyrenol, yn hytrach nag *yn. I apostoliaeth yr enwaediad*:—i gyflawniad llwyddiannus yr apostoliaeth.

9. *A phan wybu.*—Parhâd o hanes gweithredfadau y cynghor. Y mae y "gweled," yn *adn.* 7, yn cyfeirio at yr argraph a wnaed ar eu meddyliau pan y dygwyd ger eu bron natur a llwyddiant gweinidogaeth Paul; a'r "gwybod" yn yr adnod hon yn golygu y canlyniad o'r wybodaeth a gawsant oddi wrtho ef ei hunan.—*Ellicott.* Y mae y "gweled" yn arwyddo eu gwaith yn deall yr arwyddion allanol o'i gommisiwn, fel ei dangosid yn ei lafur llwyddiannus; a'r "gwybod" yn cynnwys yr argyhoeddiad a weithiwyd ynddynt mewn canlyniad fod gras Duw gydag ef.—*Lightfoot. Iago, a Cephas, ac Ioan.*—Dyma y darlleniad cywir yn ddiammheu; ac nid "Pedr, ac Iago, ac Ioan," yr hwn ddarlleniad a gyfododdo'r awydd i ddal i fyny uwchafiaeth Pedr. "Iago"—"brawd yr Arglwydd"—esgob Ierusalem, ac felly yn cael ei roddi yn gyntaf mewn trefn yn yr adroddiad o'r gweithrediadau a gymmerasant le yn yr eglwys hono. Y mae dau gyd-darawiad teilwng o sylw rhwng y darlleniad cywir a'r hanes yn Llyfr yr Actau:—1. Yn *pen.* i. 19, gelwir Iago yn "frawd yr Arglwydd;" tra y mae y chwanegiad hwnw at ei enw yn cael ei adael allan yma, ac yn *adn.* 12. Y mae yr hanes gan Luc yn tafiu goleuni ar hyn. Yn y cyfwng rhwng dau ymweliad Paul âg Ierusalem, yr oedd Iago mab Zebedeus wedi ei roddi i farwolaeth. O ganlyniad, nid oedd angen yn awr am unrhyw nôd o wahaniaeth: nid oedd dim perygl camgymmeryd, gan nad oedd yr Iago arall, mab Alpheus, er yn apostol, yn lleiwi unrhyw safle uchel. 2. Y mae y lle a roddir yma i Pedr ac Iago yn eu perthynas â'u gilydd yn cyfatteb yn hollol i'r hanes yn yr Actau. Pan y mae Paul yn siarad am swydd genhadol yr eglwys yn gyffredinol, Pedr sydd yn cael y lle blaenaf (*adn.* 7 ac 8); ond pan y mae yn cyfeirio at weithred neilluol o eiddo yr eglwys yn Ierusalem, Iago a enwir gyntaf (*adn.* 9). Gwel *Act.* xii. 17; xv. 13; a xx. 18. *Y rhai a dybid eu bod yn golofnau.*—Y mae "a dybid" yn cyfeirio at *adn.* 2 a 6. "Colofnau:"—prif attegion yr eglwys, dynion o enwogrwydd a phwysau. Yn y ffugr hwn, edrychir ar yr eglwys fel tŷ neu deml Dduw, megys *Dad.* iii. 12. *Y gras a roddwyd i mi*:—gras yr apostoliaeth. Gwelsant yn eglur, oddi wrth yr adroddiad a roddasai Paul a Barnabas o lwyddiant eu llafur yn y byd Cenhedlig, nas gallasai dim ond gras Duw gynnyrchu y fath effeithiau: felly argyhoeddwyd hwynt (*adn.* 7) fod Paul wedi derbyn commisiwn cyffelyb yn mysg y Cenhedloedd i'r un a dderbyniasai Pedr yn mysg yr Iuddewon. Enwir Pedr yn unig, dros yr holl apostolion ereill, fel y mae Paul yn cael ei enwi yn unig yn lle Barnabas a'i gydlafurwyr. —*Olshausen. Hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddeheu-ddwylaw cymdeitha*:—hyny yw, 'Hwy a'n cydnabuant ni yn frodyr yn y swydd apostolaidd o addysgu a phregethu.' Yr oedd "rhoddi deheulaw" yn hen arwydd yn mhlith amryw genhedloedd o gyfeillgarwch neu gyttundeb. *Fel yr elem,* &c.—Y mae y ferf ar ol, ac i'w chyflenwi—"efengylu," neu "fyned," fel yn ein cyfieithiad ni. Er gochel pob dadl ac eiddigedd, y maent yn nodi allan y gwahanol feusydd llafur. Nis gellid, ac ni fwriedid, ymgadw yn fanwl at y dosbarthiad hwn. Ni phetrusai Paul yn ei deithiau trwy Palestina i Ierusalem bregethu i'r Iuddewon; ac hyd yn oed yn y byd Cenhedlig, rhoddai y cynnyg cyntaf yn wastad i'r Iuddewon. Mewn amseroedd diweddarach, fel yr ydoedd yn dyfod yn fwy amlwg fod corph y genedl Iuddewig yn gwrthod yr efengyl, tra yr oedd y Cenhedloedd yn ei derbyn, ymddengys

bas ddeheu-ddwylaw cymdeithas;
[l] Act. 15. 23—30. fel [l]*yr elem* ni at y Cenhedloedd, a hwythau at yr enwaedïad.
[m] Act. 11. 29, 30. 10 Yn unig [m]ar fod i ni gofio y tlodion; yr hyn hefyd y bûm i ddïwyd i'w wneuthur.
11 A phan ddaeth Pedr i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb, am ei fod i'w feio.
12 O blegid cyn dyfod rhai oddi wrth Iago, efe a fwytaodd gyda'r Cenhedloedd: ond wedi iddynt ddyfod, efe a giliodd, ac a neillduodd ei hun oddi wrthynt,

fod y cyttundeb hwn yn syrthio yn ddistaw i ebargofiant; felly yr ydys yn gweled fod Pedr ac Ioan, yr apostolion a fwriedid ar gyfer yr Iuddewon, yn gadael Palestina tua diwedd eu hoes, ac yn cyssegru eu llafur hwythau yn gwbl i'r Cenhedloedd.—*Olshausen.*

10. *Yn unig ar fod i ni gofio y tlodion.*—Dyma yr unig ammod yn y cyttundeb. Nodir dau achlysur pan y bu yr apostol Paul yn dwyn elusenau oddi wrth y dychweledigion Cenhedlig i'r tlodion yn Ierusalem:—(1.) Ar ei ail daith i Ierusalem (*Act.* xi. 29, 30), rai blynyddoedd cyn y drafodaeth yma. (2.) Ar ei bummed daith, a'i olaf (*Rhuf.* xv. 26, 27; 1 *Cor.* xvi. 3; 2 *Cor.* ix. 1, &c.; *Act.* xxiv. 17), yn fuan wedi ysgrifenu yr epistol hwn. Teifl y ffeithiau hyn oleuni ar yr amgylchiad hwn. Gofal Paul am eu tlodion cyn hyn a gymmhellodd yr apostolion hynaf i ddadgan y dymuniad. Ei sêl yntau yn yr un achos ar ol hyn oedd yr attebiad i'w cais.—*Lightfoot.* Tybia Olshausen mai y rheswm pa ham yr oedd anfon cyfraniadau i'r tlodion Iuddewig yn cael ei osod fel dyledswydd ar y Cristionogion Cenhedlig, ydoedd hyn:—fod yn ymddangos yr edrychid arno fel rhywbeth i gadw lle treth Iuddewig y deml, ac fel mynegiad o'u hymddibyniad ar y fam eglwys yn Ierusalem. *Yr hyn hefyd y bûm i ddïwyd i'w wneuthur.*—'Dyma oedd dymuniad fy nghalon i fy hunan. Nid oedd eisieu fy nghymmhell i hyn.' Yr oedd y Galatiaid wedi cael profiad personol o'i sêl yn yr achos hwn, o blegid yr oedd efe wedi bod gyda hwynt ychydig amser cyn hyn, ac yn gofyn eu helusenau yn bennodol at yr amcan yma: 1 *Cor.* xvi. 3. [Gwel yr *Arweiniad* ar *Amseriad yr Epistol*].

11—17. Y DDADL RHWNG YR APOSTOLION PAUL A PHEDR:—Y mae yn profi ei annibyniaeth yn mhellach, trwy adrodd ei hanes yn ceryddu Pedr am ei anghyssondeb yn Antiochia:—'Yn Ierusalem, nid oeddwn yn ddyledwr am ddim i apostolion yr enwaedïad. Cedwais fy annibyniaeth a'm cydraddoldeb. Yn Antiochia, yr oeddwn yn fwy na chydradd. Bradychodd prif apostol yr enwaedïad achos y Cenhedloedd trwy ei anghyssondeb. Rhoddodd i fyny mewn llwfrdra i ddylanwad y defodwyr. Hudwyd y lleill ymaith trwy ei esampl ef. Aeth hyd yn oed Barnabas, fy nghydlafurwr, cyfaill ac apostol y Cenhedloedd, ar gyfeiliorn. Sefais i fyny fy hunan i amddiffyn rhyddid 'yr efengyl. Ni wnaed hyn mewn congl. Y mae holl eglwys Antiochia yn dyst i mi.'

11. *A phan ddaeth Pedr i Antiochia.*—Cymmerodd hyn le, mae yn debyg, yn ystod arosiad Paul a Barnabas yn Antiochia, yn union ar ol y gymmanfa apostolaidd: *Act.* xv. 30—40. Nis gellir ei roddi yn adeg ei drigiad blaenorol yn Antiochia (*Act.* xiii. 1—3), o blegid y mae yr apostol yn amlwg yn adrodd yr amgylchiadau hyn yn eu trefn amseryddol. Nid achlysur diweddarach chwaith ydoedd (*Act.* xviii. 23), am nad yw yn ymddangos fod Barnabas gydag ef y pryd hwnw. *Mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb.*—Y mae Calvin yn sylwi fod y cerydd hwn o eiddo Paul yn dangos ei fod o urddas goruchaf a'r apostolion ereill, ac yn dinystrio yr athrawiaeth Babaidd am uchafiaeth Pedr; canys yr oedd Paul yn ei geryddu y pryd hwn, nid fel y gallai unrhyw Gristion geryddu Cristion arall, ond yn swyddol—yn yr ymarferiad o'i awdurdod apostolaidd. Yr oedd rhai o'r tadau, er mwyn achub awdurdod Pedr, wedi ceisio dal mai rhyw "Cephas" arall oedd hwn, ac nid Pedr yr apostol; ac ereill, megys Chrysostom a Jerome, yn esbonio yr ymadrodd "yn ei wyneb" fel yn golygu "mewn ymddangosiad, ac nid mewn gwirionedd:"—fod Pedr yn ei le, ac nad oedd cerydd Paul iddo ond un ffugiol, am ei fod wedi cael ei feio gan ereill. *Am ei fod i'w feio.*—Cyttuna yr esbonwyr goreu nad ydyw y cyfleithiad hwn yn gywir, o ran ystyr y ferf na'i hamser. Rhangymmeriad goddefol ydyw y gair, yn yr amser gorphenol (*perfect*), ac yn arwyddo "condemnio"—"am ei fod yn gondemniedig," neu "wedi ei gondemnio:" naill ai gan y corph mwyaf uniawn eu syniadau o'r Cristionogion yn Antiochia [*Ellicott*], neu gan y Cristionogion Cenhedlig, oddi wrth y rhai y ciliasai [*Olshausen*]. Neu, safai yn hunan-gondemniedig—yr oedd yr hyn a wnaethai yn ei gondemnio.—*Alford, Lightfoot.*

12. *O blegid cyn dyfod rhai oddi wrth Iago.*—Y mae ansicrwydd mawr pwy oedd y rhai hyn, a pha beth ydoedd natur eu cenhadaeth. Y cwbl a ellir ei gasglu yn ddiogel am danynt ydyw eu bod yn perthyn i'r eglwys yn Ierusalem. Tybia rhai eu bod yn gosod eu hunain allan fel canlynwyr manwl i Iago, ond heb un genhadaeth oddi wrtho. Y mae yn bossibl, ar y llaw arall, eu bod wedi eu hanfon gan Iago, a'u bod yn euog o gamddefnyddio yr awdurdod a gawsent. Y mae Alford yn gryf o'r farn eu bod yn genhadau anfonedig gan Iago: fod Iago wedi cadw yn dyn at ei syniad am ddyledswyddau y dychweledigion Iuddewig, hyd yn oed ar ol penderfyniad y cynghor o barth i gredinwyr o'r Cenhedloedd: ac mai amcan y genhadaeth hon oedd adgofio y dychweledigion Iuddewig o'u rhwymedigaethau hwy, y rhai yr oedd y Cenhedloedd yn rhydd oddi wrthynt. Nid oes un sail i dybied, gyda De Wette, fod Iago wedi cael ei or-berswadio yn y Cynghor gan sêl a hyawdledd Paul, ac yna wedi llithro yn ol i'w farn flaenorol ar ol hyny. Y mae y geiriau yn araeth Iago yn y Cynghor—"Na flinom y rhai o'r Cenhedloedd, a droisant at Dduw"—(*Act.* xv. 19)—yn awgrymu, y mae yn debyg, ei fod yn golygu y byddai yr Iuddewon yn rhwymedig fel o'r blaen.—*Alford. Efe a fwytaodd gyda'r Cenhedloedd*:—fel yr ydoedd wedi gwneuthur o'r blaen, mewn ufudd-dod i weledigaeth nefol (*Act.* x.). Yr oedd "y rhai oedd o'r enwaediad" yn ei feio am hyny y tro hwnw: ond amddiffynodd ei hun yn ardderchog ar yr achlysur hwnw (*Act.* xi.). *Efe a giliodd, ac a neillduodd ei hun oddi wrthynt.*—Y mae y

[a] Diar. 29.25; [b] Salm 57. 11. gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad.

[c] Gen. 12. 11—18. 13 °A'r Iuddewon ereill hefyd a gyd-ragrithiasant âg ef; yn gymmaint ag y dygwyd Barnabas hefyd i'w rhagrith hwy.

[d] Adn. 8. 14 Eithr pan welais i nad oeddynt yn iawn droedio at [e] wirioneddw ferf yn llywodraethu "ei hun." "Cilio ei hun" (ymgilio), a "neilduo ei hun:" arwydda y gyntaf y weithred ddechreuol, a'r ail yr un orphenol. Y mae y geiriau gwreiddiol yn ddarluniad grymus o berson ofnus yn cilio yn raddol a gochelgar, ac yn ceisio peidio tynu sylw. Y mae y ferf *hupostellein* (ymgilio) yn cael ei defnyddio am ysgogiad milwraidd mewn brwydr. Disgrifir y blaid Iuddewig a flinai yr eglwys y pryd hwn fel dychweledigion yn perthyn i sect y Phariseaid: *Act.* xv. 5. Un o brif egwyddorion y sect hon oedd y gwaharddiad i fwyta gyda rhai aflan: *Luc* xv. 2. Gan fod y gariad-wledd yn cael ei chydnabod fel rhwymyn brawdoliaeth yn yr eglwys yn adeg ei mabandod, yr oedd yr ymwahaniad hwn yn myned o dan wraidd bywyd Cristionogol.—*Lightfoot.* Sylwa Alford fod amser y ddwy ferf yn dangos fod Pedr wedi gwneyd hyn ar fwy nag un achlysur—mai dyma y llwybr a arferai gymmeryd. *Gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad.*—Tra thebyg i Pedr:—y cyntaf i gydnabod, a'r cyntaf i dynu yn ol oddi wrth egwyddorion a gwirioneddau mawr.—*Jowett.*

13. *A gyd-ragrithiasant âg ef.*—Effaith yr esampl ddrwg—ymwahaniad y gweddill o'r Cristionogion Iuddewig yn Antiochia oddi wrth gymmundeb cymdeithasgar â'r dychweledigion Cenhedlig. Yr oedd y rhai hyn o'r blaen, fel Pedr, wedi ymgymmysgu yn rhydd a'r Cenhedloedd cyn dyfodiad y brodyr hyn o Ierusalem. Nid ydyw "rhagrithio" yn air rhy gryf i osod allan yr ymddygiad. Cristionogion Antiochia oedd y rhai cyntaf i glywed ac i lawenychu am benderfyniad y Cynghor (*Act.* xv. 31) o blaid rhyddid yr efengyl. Nid oedd gwaith y rhai a ddaethant o Ierusalem yn ymarfer â defodau Phariseaidd ond amlygiad didwyll o ddallbleidiaeth grefyddol: ond yn Iuddewon Antiochia yr oedd yr rhagrith—yn cuddio eu gwir syniadau, ac yn peri i blynt ymddangos yr hyn nad oeddynt. Yr oedd felly yn arbenig yn Pedr, fel y gwelir wrth yr egwyddorion a gyffesai o'r blaen yn amgylchiad Cornelius. Y mae Alford yn sylwi fod yr amgylchiad hwn yn un tra gwahanol i'r un a drinir yn 1 *Cor.* viii.—x.; *Rhuf.* xiv. Nid cwestiwn o arfer rhyddid oedd yma, ond o ddal i fyny wirioneddau sylfaenol — cyfiawnhâd trwy ffydd yn Nghrist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf. *Barnabas.*—"Hyd yn oed Barnabas, fy nghyfaill a'm cydlafurwr, yr hwn a aethai i fyny mor ddiweddar i amddiffyn achos y Cenhedloedd yn erbyn dirwasgiad y brodyr Phariseaidd." Gallasai yr amgylchiad hwn, trwy greu anymddiried, barotoi y ffordd i'r ymwahaniad rhwng Paul a Barnabas: *Act.* xv. 39. Nid ydym yn cael eu hanes yn cydlafurio ar ol hyn; er fod pob crybwylliad a wna Paul am Barnabas yn ddilynol i hyn yn arwyddo cydymdeimlad a pharch: 1 *Cor.* ix. 6; *Col.* iv. 10.

14. *Iawn droedio at wirionedd yr efengyl.*—Yr unig fan y defnyddir y gair *orthopodein*—iawn-droedio—yn y Testament Newydd. Arwydda cerdded yn wastad, cadw ar y llinell uniawn. "At"—tuag at, yn ol, gyda golwg am gynnal a lledaenu gwirionedd yr efengyl. *Mi a ddywedais wrth Pedr.*—Nid yw yn hawdd penderfynu pa un a lefarodd yr apostol yr oll o'r adnodau dilynol i ddiweddu y bennod ar y pryd hwnw, ai ynte a ydyw efe yma yn chwanegu, mewn ffordd o eglurhâd, wrth adrodd yr amgylchiad wedi hyny i'r Galatiaid; ac os yr olaf, yn mha le y mae y geiriau eu hunain yn diweddu, a'r eglurhâd yn dechreu? Dywed Ellicott fod yn amlwg fod araeth yr apostol yn parhau i ddiweddu y bennod, ac mai dyma sylwedd yr hyn a ddywedasai efe ar yr achlysur pwysig hwn: er fod yn bur bossibl ei fod yma wedi newid ychydig ar y ffurf, er ei wneyd yn fwy dealladwy ac yn fwy cyfaddas i'r rhai yr oedd efe yn awr yn ysgrifenu atynt. Y mae Lightfoot yn barnu fod adroddiad yr apostol yn ymgolli yn y meddyliau a gyfodent o hono—fod y testyn a'r esboniad wedi eu cydwau â'u gilydd fel nas gellir eu gwahanu heb drais. Y mae efe yn barnu fod y gair "pechaduriaid," yn *adn.* 15 a 17, yn iaith Iuddew wrth Iuddewon, ac felly fod yr araeth wreiddiol yn cyrhaedd o leiaf hyd ddiwedd *adn.* 17; ac er fod y cyssylltiad yn ddi-dôr oddi yno yn mlaen, etto gellid meddwl erbyn diwedd y bennod (*adn.* 21) fod meddyliau ac iaith yr apostol wedi myned ymaith oddi wrth Pedr yn Antiochia at yr athrawon Iuddewig yn Galatia. Gwelir engreifftiau cyffelyb o gydblethiad iaith union-gyrchol y llefarydd âg eglurhâd dilynol yr adroddwr yn *Ioan* i. 15—18, lle y mae tystiolaeth y Bedyddiwr yn ymgolli yn meddyliau yr efengylydd; ac *Act.* i. 16—21, lle y mae cyfeiriad Pedr at farwolaeth Iudas yn cael ei gyd-wau â'r eglurhadau dilynol Luc.—*Lightfoot. A thi yn Iuddew.*—"Os wyt ti, a thithau wedi dy eni a'th fagu yn Iuddew (y mae y gair yn bwysleisiol, yn debyg i 'wrth naturiaeth' yn *adn.* 15) yn tafiu ymaith arferion Iuddewig, mor afresymol i ti eu harddodi ar Genhedloedd." *Yn byw fel y Cenhedloedd.*—Yn ymgymmysgu yn rhydd â'r Cenhedloedd, ac felly yn dodi heibio y gyfraith Iuddewig ynghylch bwydydd. *Ac nid fel yr Iuddewon.*—Y mae yr amser presennol a ddefnyddir yn yr ymadroddion hyn yn gosod allan egwyddorion cyffredinol (yr apostol Pedr, fel yr oedd wedi gweithredu arnynt yn mhell cyn hyn yn Cesarea (*Act.* x. 28), ac yn ddiweddar yn Antiochia (*adn.* 12), er ei fod ar y funyd yr oedd Paul yn llefaru yn byw fel yr Iuddewon, ac nid fel y Cenhedloedd. *Yn cymmhell y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd.*—Trwy ei ddylanwad, yr oedd yn dyfod i hyny yn y pen draw—gorfodi y Cenhedloedd i gyd-ffurfio â defodau Moses. Yr oedd nerth ei esampl, wrth guddio ei wir egwyddorion, yn dyfod yn fath o orfodaeth.

15. *Nyni.*—'Ti a miunau, ac ereill cyffelyb i ni.' Y mae yn siarad â Phedr oddi ar dir cyffredin eu Huddewiaeth. *Wrth naturiaeth.*—

[a] Diar. 29.25; [b] Salm 57. 11. edd yr efengyl, mi a ddywedais wrth Pedr yn *eu* gŵydd *hwy* oll, Os wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, [q] pa ham yr wyt ti yn cymmhell y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd?

[q] Act. 15.10.

15 Nyni, *y rhai* wrth natur-

[r] Marc 7. 26 —28. iaeth *ydym* Iuddewon, ac nid [r] o'r Cenhedloedd yn bechaduriaid,

[s] Gal. 5. 4. 16 Yn gwybod [s] nad ydys yn

[t] Rhuf. 3. 21 —26, 30; 1 Cor. 6. 11; Heb. 7. 18, 19. cyfiawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, [t] ond trwy ffydd Iesu Grist, [u] ninnau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhaer trwy ffydd Crist, ac nid

[x] Ioan 20. 21; [x] Salm 143. 2. trwy weithredoedd y ddeddf: [x] o blegid ni chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf.

[y] Rhuf. 9. 30 —33; 11. 7.

17 Ac os [y] wrth geisio ein cyfiawnhau yn Nghrist, y'n caed ninnau hefyd yn bechaduriaid, [z] *a ydyw* Crist am hyny yn weinidog pechod? Na atto Duw.

[z] Mat. 1. 21; Rhuf. 15. 8.

18 Canys os wyf fi yn adeiladu drachefn y pethau a ddistrywiais,

Nid yn unig heb fod yn Genhedloedd, ond heb fod yn broselytiaid—Iuddewon o enedigaeth. Yr oedd y grefydd yn disgyn i ni fel etifeddiaeth: *Phil.* iii. 4, 5. *O'r Cenhedloedd yn bechaduriaid.* —Pechaduriaid o Genhedloedd. Yn iaith grefyddol yr Iuddewon, yr oedd "Cenhedloedd" a "phechaduriaid" bron yn eiriau cyfystyr. Defnyddir y gair yma mewn gradd o wawdiaeth ar hunan-dyb yr Iuddew, tra y mae ar yr un pryd yn rhoddi mwy o fin ar ymresymiad yr apostol.

16. *Yn gwybod.*—'Gan ein bod yn gwybod.'—Appeliad at argyhoeddiad Cristionogol Pedr a phob credadyn o drefn Duw yn yr efengyl i gadw pechadur trwy ffydd yn Nghrist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf. Er mai y ddeddf seremoniol a olygir yn benaf yma yn y cyssylltiad hanesyddol, y mae y gair yn cynnwys "deddf" yn mhob ffurf, fel yn *Rhuf.* iii. 21.—*Olshausen.* Yr holl ddeddf—y ddeddf foesenaidd yn ei hystyr eangaf.—*Ellicott. Ninnau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu.*—"Ninnau" (yn bwysleisiol), "hyd yn oed nyni." Ganwyd ni i holl freintiau y genedl Iuddewig; nid oeddym ni yn bechaduriaid, fel y byddem yn ein balchder yn galw y Cenhedloedd. Ond beth er hyny a wnaethom? Gwelsom nas gallai cadw deddf gyfiawnhau neb, mai trwy ffydd yn unig yr oedd cyfiawnhâd. O ganlyniad, troisom i gredu yn Nghrist. Ac fel hyn y mae ein proffes Gristionogol ni yndd ei hunan yn addefiad fod y defodau seremoniol hyn yn ddiwerth ac ofer. *O blegid ni chyfiawnheir un cnawd,* &c.—"Y mae yn wirionedd sylfaenol yn ein duwinyddiaeth na chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf."—*Alford.* Y mae yn fwy tebyg, fel y mae Lightfoot yn sylwi, fod y geiriau hyn yn cael eu dwyn i mewn fel dyfyniad o'r Hen Destament: y mae y gair "o blegid," ynghyd â'r dullwedd Hebreig (*ow pasa*), yn cadarnhau hyny. Ni byddai y geiriau ond ailadroddiad, heb unrhyw chwanegiad at yr ystyr, o'r hyn a ddywedwyd eisoes yn yr adnod hon, oni bai fod yr apostol yn cadarnhau ei ddywediadau ei hun â rhyw ddadganiad awdurdodedig. Mae y geiriau i'w cymmeryd fel dyfyniad rhydd o *Salm* cxliii. 2. Yn lle "neb byw," rhoddir yma ymadrodd cyfystyr a ddefnyddid yn fynych yn yr Hebraeg, "un cnawd." Gwneir yr un dyfyniad yn *Rhuf.* iii. 19. Yn y ddau le, chwanega yr apostol y geiriau "trwy weithredoedd y ddeddf" fel eglurhâd o'i eiddo ei hunan ar sefyllfa y bobl a olygid gan y Salmydd. Y mae y cyd-destyn i'r adnod yn y Rhufeiniaid yn cyfiawnhau y dyfyniad, trwy ddyweyd, "pa bethau bynag y mae y ddeddf yn ei ddywedyd, wrth y rhai sydd dan y ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd."

17. *Ac os.*—Ond os. *Wrth geisio.*—Yn ystod ein hymdrech ddifrifol. *Ein cyfiawnhau yn Nghrist.*—Yn Nghrist, fel yr elfen—y corph, yn ein cynnwys ni fel aelodau. *Y'n caed ninnau hefyd yn bechaduriaid.*—Y'n caed, yn ngolwg Duw a dynion, wedi ein holl "geisio," yn bechaduriaid yn y diwedd, fel y Cenhedloedd. *A ydyw Crist am hyny yn weinidog pechod?*—Mewn effaith, yn cefnogi pechod, yn ei ddwyn yn mlaen; yn weinidog pechod, ac yntau yn weinidog cyfiawnder:—nis gall y ddau fod. O'r holl olygiadau a gynnygiwyd ar yr adnod hon, nid oes (medd Lightfoot) ond tri yn deilwng o ystyriaeth. 1. Fod y geiriau yn wrthddadl o eiddo yr Iuddew yn erbyn troi cefn ar y ddeddf, am fod hyny yn ein harwain i'r casgliad gwrthun fod Crist yn weinidog pechod. 'Y mae ymwrthod â'r ddeddf yn bechod; o ganlyniad, nis gall fod yn iawn i ni ymwrthod â'r ddeddf i gael ein cyfiawnhau yn Nghrist, o blegid byddai hyny yn gwneuthur Crist yn weinidog pechod.' 2. Fod y geiriau yn ddadl o eiddo yr apostol i brofi nad oedd ymwrthod â'r ddeddf yn bechadurus:—'Nis gall ymwrthod â'r ddeddf fod yn bechadurus, o blegid y mae yn rhaid ymwrthod â'r ddeddf tuag at gael ein cyfiawnhau yn Nghrist; a phe byddai hyny yn bechadurus, byddai Crist felly yn cael ei wneyd yn weinidog pechod. Yn ol y naill a'r llall o'r golygiadau uchod, y mae fod Crist yn "weinidog pechod" yn gasgliad sydd yn cael ei dynu yn gyfreithlon oddi wrth y cynseiliau, os unwaith yr addefir y rhai hyny; ac felly rhaid golygu yr adnod fel ymosodiad ar y cynseiliau, trwy ddangos gwrthuni y casgliad y maent yn arwain iddynt: 'Os yw yn angenrheidiol, mewn trefn i gael ein cyfiawnhau yn Nghrist, i ni ymwrthod â'r ddeddf, ac os ydyw ymwrthod â'r ddeddf yn bechadurus, yna y mae Crist yn cael ei wneyd yn weinidog pechod.' Y mae y golygiad laf, yn gwadu y gosodiad cyntaf yn yr ymresymiad hwn, ac yn dal yr ail; y mae golygiad yr 2il, yn dal y cyntaf, ac yn gwadu yr ail. Ond gwell na'r ddau, feddyliem, ydyw y golygiad arall, sef y 3ydd, Fod y geiriau "Crist yn weinidog pechod" yn gasgliad cyfeiliornus oddi wrth gynseiliau cywir. 'Wrth weled, mewn trefn i gael ein cyfiawnhau yn Nghrist, fod yn rhaid i ni adael yr hen dir o gyfiawnder deddfol, a dyfod yn bechaduriaid (*h. y.*, dyfod i lawr i'r un tir a'r Cenhedloedd), a ydyw yn canlyn oddi wrth hyny fod Crist yn cael ei wneyd yn weinidog pechod?' Dyma yr eglurhâd, fel y sylwa Lightfoot, sydd yn dwyn allan oreu y wawdiaeth guddiedig sydd yn y defnydd a wneir yma o'r gair "pechaduriaid." Yr ydym ni, Iuddewon, yn edrych i lawr ar y Cenhedloedd fel pechaduriaid. Ond nid oes genym yn awr ddim i'w wneyd ond dyfod yn bechaduriaid fel hwythau." *Na atto Duw.*—'Na: dim o'r fath beth! Ymaith â'r fath syniad!' Defnyddir yr ymadrodd yn yr ystyr yma yn fynych mewn ysgrifeniadau Iuddewig a Christionogol, a rhai ereill.

18. *Canys os wyf fi yn adeiladu drachefn y pethau a ddistrywiais.*—Cadarnhâd uniongyrchol i'r "Na atto Duw" yn *adn.* 17, a dadblygiad uniongyrchol o "y'n caed yn bechaduriaid." Yr

yr wyf yn fy ngwneuthur fy hun
[a] Rhuf 3.19, 20; 4. 15; 5. 20. yn droseddwr.
19 Canys yr wyf fi [a]trwy y ddwyf yn dyweyd, Na atto Duw gyda golwg ar Grist yn weinidog pechod: o blegid nid mewn ceisio ein cyfiawnhau ynddo ef y mae pechod, ond mewn ceisio gosod i fyny eilwaith y seremoniau a dynais i lawr. Wrth geisio ail adeiladu deddf Moses fel hyn, yr ydwyf mewn gwirionedd yn troseddu yn erbyn egwyddorion y ddeddf ei hunan.—*Ellicott.* Y mae yn ddiddadl fod yr ymadrodd cyffrediuol, "y pethau," yn golygu y defodau Iuddewig. Yn ol Ellicott, y mae y trosedd yn gynnwysedig yn yr "adeiladu drachefn," ac felly yn un gwirioneddol; ond yn ol Alford a Lightfoot, y mae y trosedd yn y "dystrywio" blaenorol: hyny yw, yr oeddynt hwy, wrth geisio ail osod y ddeddf i fyny, yn condemnio eu hunain fel troseddwyr am eu gwaith yn ei thynu i lawr. Y mae yn bossibl fod y geiriau yn golygu fod anghyssondeb yr ymddygiad yn hunan-gondemniad, pa ochr bynag a gymmerid. Os oedd yr "adeiladu drachefn" yn iawn, yr oedd y "dystrywio" o'r blaen yn drosedd; ac os oedd y "dystrywio" yn iawn, yr oedd yr "adeiladu drachefn" yn drosedd. Y mae Alford yn sylwi fod yr apostol yn defnyddio y person cyntaf yn lle yr ail er mwyn gweiniaeth y cerydd mewn ffurf mwy tyner. Buasai yr ail berson (tydi) yn gosod Pedr yn y lle ag yr oedd y person cyntaf (myfi) yn golygu iddo osod ei hunan ynddo.

19. *Canys yr wyf fi.*—Y mae y gair "canys" yn cadarnhau ac yn egluro y gosodiad blaenorol, trwy ddangos fod dychwelyd yn ol at y ddeddf yn drosedd o wir egwyddorion y ddeddf ei hunan; tra y mae y rhagenw "myfi" (yr hwn sydd yn bwysleisiol) yn chwanegu grym a bywyd profiad personol.—*Ellicott.* Nid "myfi, Paul," yn gyferbyniol i ereill, ond yn gyferbyniol iddo ef ei hunan mewn dau gyfiwr gwahanol. "Canys, wrth adael y ddeddf, ni wnaethum ond dilyn arweiniad y ddeddf ei hunan. Yr wyf fi, Paul, y dyn anianol, caethwas yr hen gyfammod, wedi marw, &c."—*Lightfoot. Trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf.*—Nid ydyw y fannod yn y gwreidd iol: "trwy ddeddf wedi marw i ddeddf." Y mae Lightfoot yn dadleu oddi wrth hyn mai "deddf" fel egwyddor a olygir yma, yr hon egwyddor oedd ar yr un pryd yn cael ei harddangos yn fwyaf arbenig yn y ddeddf Foesenaidd. Yr hyn oedd ordeiniadau Moses i'r Iuddewon, dyna oedd cyfundraethau caeth ereill, mewn ystyr is, i genhedloedd ereill; yr oeddynt hwythau—yr oedd y Galatiaid yn eu cyfiwr paganaidd—wedi profi caethiwed deddf, mewn rhyw ffurf neu gilydd: gwel *pen.* iv. 9, 11, a v. 1. Ond yn mha ystyr y dywed yr apostol ei fod "trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf?" Gellir crybwyll tri golygiad. 1. Y ddeddf yn ei *hamcan fel trefniant*—'Dygai y ddeddf ar ei hwyneb brofion nad ydoedd wedi ei bwriadu i barhau ond dros amser. Yr oedd ei phrophwydoliaethau yn rhaghysbysu Crist; yr oedd ei haberthau a'i defodau yn rhag-gysgodi Crist. O ganlyniad, pan y daeth Crist, nid oeddwn ond yn cyflawni gweithred o ufudd-dod i'r ddeddf ei hunan i'w gymmeryd ef fel fy meistr yn lle y ddeddf. 2. Y ddeddf yn ei *heffeithiau moesol.*—Mae y ddeddf yn dadguddio pechod, yn ei gynnhyrfu, ac mewn un ystyr yn ei greu: hyny yw, y ddeddf sydd yn

ddeddf wedi marw i'r ddeddf,
[b] fel y byddwn fyw i Dduw.
[b] Rhuf. 14. 7, 8; 1Cor.10.31.
20 Mi a groeshoeliwyd gyda cyfansoddi drygioni neu bechadurusrwydd yn bechod, o blegid "ni chyfrifir pechod pryd nad oes deddf;" *Rhuf.* v. 13. Fel hyn, "grym pechod yw y gyfraith;" 1 *Cor.* xv. 56. Ond nid yw yn darpar unrhyw waredigaeth oddi wrtho; yn lle hyny, y mae yn condemnio y pechadur yn anobeithiol o'i blegid. Beth sydd ganddo i'w wneyd ynte i ddiangc? Dim ond tafiu ymaith gaethiwed y ddeddf, canys y ddeddf ei hunan a'i harweiniodd i hyn. Y mae yn cael y waredigaeth y mae yn ei cheisio yn Nghrist: *Rhuf.* vii. 24, 25, ac o *pen.* v. 20. i viii. 11. Y mae felly yn myned trwy dair ystâd:—(1.) Cyn y ddeddf—yn bechadurus, ond yn anwybodus o bechod. (2.) Dan y ddeddf—yn bechadurus, ac yn ymwybodol o bechod, yn dyheu am ryddhâd. (3.) Yn rhydd oddi wrth y ddeddf—yn rhydd oddi wrth bechod, ac wedi ei gyfiawnhau yn Nghrist. Ceir yr olyniad hwn yn *Rhuf.* v. 20. Y mae yr ail ("trwy y ddeddf") yn barotoad angenrheidiol i'r drydedd ("wedi marw i'r ddeddf"). Y mae "marw i'r ddeddf" yn golygu, fel y'n dysgir yn *Rhuf.* vii. 1—6, cael ein rhyddhau gan farwolaeth oddi wrth y ddeddf, yn yr hon y'n delid.—*Lightfoot.* 3. Y ddeddf yn ei *gallu condemniol.*—Dyma olygiad Alford ac Ellicott. Y mae yr olaf yn dal nad yw absennoldeb y fannod yn profi dim yn erbyn cyfyngu yr ystyr i ddeddf Moses—mai yr un yw ystyr y gair y ddwy waith y defnyddir ef yn yr adnod—fod y ddeddf yn cael edrych arni yma yn hollol yn yr un wedd ag yn *Rhuf.* vii. 6—13—"fod "trwy y ddeddf" yn golygu, nid "gyda golwg ar" neu "tuag at" y ddeddf; ond mai trwy offeryniaeth y ddeddf yr oedd yr egwyddor bechadurus yn ymweithio oddi fewn, ac yn dyfod â marwolaeth ar bawb—fod "marw i'r ddeddf" yn golygu, nid ffarwelio â'r ddeddf yn unig, ond marw iddi yn ystyr dyfnaf y gair; *h. y.*, marw iddi fel yr oedd hi yn gofyn bywyd y pechadur; a bod yr apostol yn yr adnod nesaf yn egluro yn fanylach pa fodd yr oedd efe wedi "marw i'r ddeddf," sef trwy gael ei "groeshoelio gyda Christ."

Y mae efe yn arall-eirio yr adnod fel hyn:—"Myfi, trwy y ddeddf, o blegid pechod, a ddygwyd dan ei melldith; ond trwy fod wedi dioddef hono gyda ac yn mherson Crist (*pen.* iii. 13, cymharer â 2 *Cor.* v. 15), yr ydwyf wedi marw i'r ddeddf yn yr ystyr llawnaf a dyfnaf, gan fod yn rhydd oddi wrth ei gofynion, ac wedi boddloni ei melldith." Nid ydym yn meddwl fod y golygiad hwn yn anghysson â'r ail a nodasom; ond ei fod yn rhoddi lle mwy i allu condemniol y ddeddf, ac ystyr dyfnach i "farw" i'r ddeddf, gan ei gyssylltu â'r "croeshoelio" yn yr adnod nesaf. Hwyrach y dylasem grybwyll fod rhai o'r tadau, ynghyd â Luther, Bengel, ac ereill, yn golygu wrth y "ddeddf" gyntaf, yr efengyl:—"Yr wyf fi trwy yr efengyl wedi marw i'r ddeddf—trwy un ddeddf wedi marw i un arall," fel *Rhuf.* viii. 2. Ond fel y dywed Alford, y mae yn amlwg i bawb a ddilyno yr ymresymiad nas gall hyn fod yr ystyr. *Fel y byddwn fyw i Dduw.*—Dyma ddyben gwaith Crist, ac undeb y pechadur âg ef—"byw i Dduw."

20. *Mi a groeshoeliwyd gyda Christ.*—Y mae rhai esbonwyr yn golygu fod y geiriau hyn yn gosod allan waith y credadyn yn darfod â

[a] Ioan 14. 19, 20; 17. 21; 2 Cor. 4. 13. [b] 2 Cor. 4. 11; 16. 3; 1 Pedr 4. 1. [c] Ioan 6. 57; Phil. 4. 13; 1 Pedr 1. 8. [d] Mat. 20. 28, Ioan 15. 13.

Christ: eithr byw ydwyf; etto nid myfi, [c]ond Crist sydd yn byw [c]ynof fi: [d]a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, [e]ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, [f]yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi.

21 Nid wyf yn dirymu gras phechod, fel yr oedd yn yr adnod flaenorol yn darfod â'r ddeddf. Gan fod y ddeddf a phechod yn gollwng eu gafael oddi arno ar unwaith, fod ei farwolaeth fel hyn yn troi yn fywyd: wedi ei groeshoelio gyda Christ, y mae yn cyfodi gyda Christ ac yn byw i Dduw. Lled gyffelyb ydyw golygiad Calvin—fod ein croeshoeliad gyda Christ yn ein rhyddhau oddi wrth euogrwydd a melldith y ddeddf; ond fod y gair yn y lle hwn yn egluro pa fodd yr ydym yn "byw i Dduw" (*adn.* 19); sef, trwy gael ein himpio i farwolaeth Crist, a derbyn o honi nerth dirgelaidd fel y gwna y brigyn oddi wrth y gwreiddyn. Tueddir ni i feddwl, gydag Alford ac Ellicott, fod y geiriau yn eu hystyr manylaf yn golygu y rhyddhâd cyfreithiol oddi wrth bechod, ac nid y rhyddhâd moesol; er fod yr olaf o angenrheidrwydd yn dilyn y blaenaf, a'r ddau yn tarddu o angeu Crist. Mae y geiriau "croeshoelio gyda Christ" yn nodi yn fanylach gynnwys neu ddull y "marw i'r ddeddf" (*adn.* 19). Y mae y credadyn yn "marw i'r ddeddf"—yn atteb i'w holl ofyn, ac felly yn myned allan o'i thiriogaeth. Pa foddi trwy gael ei "groeshoelio gyda Christ:" nid trwy "groeshoeliad y cnawd" (v. 24—effaith foesol y llall), ond trwy yr undeb hwnw â Christ yn yr hwn y mae y credadyn yn cyfranogi o angeu ei Arglwydd croeshoeliedig. Gan fod "un wedi marw dros bawb," *bu* y "pawb hyny feirw" ynddo ef: 2 *Cor.* v. 14. *Eithr byw ydwyf; etto nid myfi.*—Y mae beirniaid diweddar yn cyttuno fod y gwahan-nodiad yn y frawddeg hon yn anghywir: nid dau osodiad ydyw, ond un gosodiad mewn un frawddeg;—'Ond nid myfi mwyach sydd yn byw;' hyny yw, 'pan yr wyf yn son am fyw, nid wyf yn meddwl yr hen myfi, neu fy hunan blaenorol—nid myfi yn fy nghyfiwr natur. Nid wyf fi mwyach yn meddu hanfodiad wrthyf fy hunan. Yr ydwyf wedi ymgolli yn Nghrist.' *Ond Crist sydd yn byw ynof fi.*—Y mae yn egluro yma pa fodd yr oedd yn "byw i Dduw" (*adn.* 19). Nid efe oedd biau y bywyd: bywyd Crist ydoedd, yn cael ei weithio allan ynddo a thrwyddo ef. Fel y mae Olshausen yn sylwi, dyma y lle mwyaf pwysig yn epistolau Paul ar y pwngc o fywyd Crist yn y credadyn; ac nid ffugr dwyreiniol sydd yma fel yr hona y rhesymolwyr: y mae yr apostol yma, fel mewn llawer o ymadroddion ereill, yn amlwg yn dal preswyliad gwirioneddol Crist yn yr enaid, trwy gyfraniad o'i fod. "Y mae Crist a'i Ysbryd yn trigo yn y credadyn, fel enaid ei enaid—yn gweithio ynddo mewn meddwl a gweithred yr hyn sydd gymmeradwy yn ngolwg Duw."—*Hooker. A'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd.*—Y mae "yr hyn" yn nodi terfynau a natur y syniad o fywyd: "mor bell ag yr ydwyf yr awr hon yn byw yn y cnawd, bywyd ffydd ydyw." "Yr awrhon:" ei fywyd newydd yn Nghrist yn gyferbyniol i'w hen fywyd cyn ei drœdigaeth: nid ei fywyd presennol ar y ddaear yn gyferbyniol i'w fywyd dyfodol yn y nef.—*Alford,*

[e] Esa. 49. 4; 1 Cor. 15. 2, 14, 17. [f] Gal. 1. 4; Eph. 5. 2, 25; Tit. 2. 14.

Duw: canys os o'r ddeddf *y mae* cyfiawnder, yna [g]y bu Crist farw yn ofer.

PENNOD III.

1 *Y mae efe yn gofyn pa beth a'u cynnhyrfodd hwy i ymadael â'r fydd, ac i lynu wrth y gwirfaith.* 6 *Y rhai a gredant a*

Light foot. Y mae yr apostol yn dyweyd hyn yn eglurhâd, ac mewn rhan yn addefiad, yn wyneb gwrthddadl a allasai gael ei chodi o anghyssondeb ymddangosiadol yr haeriad fod "Crist yn byw ynddo" â'r ffaith o'i fod yn byw yn weithredol yn y cnawd. "Y mae yn wir," meddai, "fy mod i etto yn byw yn y cnawd: y mae awyrgylch ddaearol etto o fy amgylch; ond hyd yn oed fel hyn yr ydwyf yn byw ac yn anadlu yn yr elfen bur o ffydd—ffydd yn yr hwn a'm carodd, le, ac a roddes y fath brofion o'i gariad."—*Ellicott. Ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw.*—Y mae y mwyafrif o esbonwyr, a'r rhai goreu, yn cydsynio mai y cyfeithiad mwyaf cywir yw "yn ffydd Mab Duw." Yr elfen yn yr hon y mae yn anadlu, yn y bywyd newydd ysbrydol hwn o'i eiddo. Y mae Alford ac ereill yn sylwi, y gelwir ef yma yn Fab Duw er mwyn mawreddusrwydd (mewn ffydd, a hono yn ffydd Mab Duw), ac am mai ei dragwyddol Faboliaeth yw ffynnonell ei allu i gyfranu bywyd: *Ioan* v. 25, 26. Mewn rhai hen gopïau, darllenir "trwy ffydd Duw a Christ." *Yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi.*—'Dyma y ddoîen sydd yn cyssylltu tragwyddol Fab Duw â mi—ei gariad.' Y mae yn debyg, fel y mae Calvin yn sylwi, fod hyn yn cael ei chwanegu i ddangos yn mha le y mae cuddiad cryfder ffydd. Gallesid gofyn yn naturiol—O ba le y mae ffydd yn derbyn y fath nerth ag i drosglwyddo bywyd Crist i'n heneidiau? Yr atteb ydyw—mai cariad Crist a'i farwolaeth ydyw y gwrthddrychau ar ba rai y mae ffydd yn gorphwys. Yr ydym yn byw yn ffydd Mab Duw, am ei fod wedi ein caru. Fel hyn, y mae y ffydd hon yn gweithio trwy gariad—*Ac a'i dodes ei hun drosof fi.*—Dyma y prawf mawr o'i gariad. Y mae yr apostol yn hawlio meddiant iddo ei hun yn nghariad ac angeu Crist. Dyma un o briodoliaethau ffydd. Y mae Crist yn gyfaill personol i bob credadyn, ac yn gymmaint iddo ef a phe na buasai wedi marw dros neb arall. Dywed Calvin ar hyn:—"Y mae pwys mawr ar y geiriau 'drosof fi.' Ni bydd yn ddigon i un dyn i feddwl am Grist fel wedi marw er iachawdwriaeth y byd, oni bydd efe wedi profi effeithiau ei farwolaeth, ac yn gallu ei hawlio fel yr eiddo ei hun."

21. *Nid wyf yn dirymu gras Duw:*—fel yr oedd Pedr a'r blaid Iuddewaidd yn gwneyd. Yr oedd ceisio cyfiawnder trwy ddeddf Moses yn dirymu—gwneuthur yn ddiddim, ras Duw fel yr amlygir ef yn angeu Crist ac yn ein cyfiawnhâd trwy ffydd ynddo ef. *Canys.*—Y mae yn gasgliad diymwad (i gyfiawnhau y gair cryf, "dirymu.") *Os o'r ddeddf y mae cyfiawnder.*—Os gallasai y ddeddf fod yn gyfrwng cyfiawnder (nid cyfiawnhâd, ond canlyniad cyfiawnhâd). *Yna y bu Crist farw yn ofer.*—Y mae y gair "ofer" (*dôrean*) yn golygu, nid ofer yn yr ystyr o afiwyddiannus, ond yn yr ystyr o afreidiol: nid wedi methu cyrhaedd yr amcan, ond yn ddiamcan—yn ddiachos, 'ni buasai angen am i Grist farw.'

cyflawnheir, 9 *ac a fendithir cydag Abraham:* 10 *a hyn y mae efe yn ei ddangos trwy lawer o resymau.*

B A. 57.

[a] Act. 6. 7; Rhuf. 2. 8; 6.17; 10.16; 2 Cor. 10. 5.

O Galatiaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynodd chwi fel [a]nad ufuddhaech i'r gwirionedd, i ba rai o flaen eu llygaid y portreadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn eich plith?

2 Hyn yn unig a ewyllysiaf ei ddysgu genych; [b] Ai wrth weithredoedd y ddeddf y derbyniasoch yr Ysbryd, ynte wrth wrandawiad ffydd?

[b] Act. 2. 38; Heb. 2. 4. 1 Pedr 1. 12

3 A ydych chwi mor ynfyd? [c] gwedi i chwi ddechreu yn yr Ysbryd, a berfeithir chwi yr awrhon yn y cnawd?

[c] Heb. 7. 16—19.

4 A ddioddefasoch gymmaint yn ofer? os *yw* ofer hefyd.

PENNOD III.—IV.

YR AIL RAN; SEF, Y RHAN ATHRAWIAETHOL O'R LLYTHYR.

Dechreuodd yr apostol y paragraph olaf yn y bennod flaenorol trwy adrodd hanes yr amgylchiad yn Antiochia. Ond yr oedd ei feddwl wedi bod yn gweithio yn raddol at y gau athrawon yn Galatia, ac wedi rhoddi ffurf gyfattebol ar ei ymadroddion. Arweiniwyd ef fel hyn at y gwrthwynebrwydd uniongyrchol i'r efengyl oedd yn ymddygiad yr athrawon luddewaidd, gan fod yr ymddygiad hwnw yn cynnwys hŏniad dirgel y gallai dyn gael ei gyfiawnhau trwy ei weithredoedd ei hun. Yr oedd hyn yn wadiad ymarferol o effeithiolrwydd marwolaeth Crist. Y mae y syniad hwn yn anniddefol iddo; ac felly y mae yn tori allan i'r cerydd digllawn â pha un y mae y bennod hon yn dechreu.

1. *O! y Galatiaid ynfyd.*—Nid ydyw yr ynfydrwydd hwn yn golygu unrhyw ddiffyg o synwyr naturiol (y mae tystiolaethau hen awdwyr am y Galatiaid fel cenedl yn hollol wrthwyneb i hyny) —ond y diffyg o wneuthur defnydd priodol o'u synwyr; tymmer ehud, anwadal; "gwaligofrwydd," fel y sylwa Calvin, yn hytrach na ffolineb. *Pwy a'ch llygad-dynodd chwi?*—Tarddodd y ffugr hwn o'r gred boblogaidd yn nylanwad y "llygad drwg." Golyga y gair yma fath o swyn a dybid oedd yn ngallu dewiniaid i'w weithredu, yn tarddu oddi ar falais yn y gweithredydd, ac yn cael effaith niweidiol ar y gwrthddrych. Credid mai plant bychain oedd y rhai mwyaf darostyngedig i'r dylanwad drwg hwn; ac y mae Jerome yn tybied ei fod yn gweled yn hyn gyfeiriad at fabandod ysbrydol y Galatiaid. Y mae hyn o bossibl yn gyru y gymmhariaeth yn rhy bell. *Fel nad ufuddhaech i'r gwirionedd.*—Y mae y geiriau hyn yn cael eu gwrthod gan y rhan fwyaf o feirniaid diweddar, fel chwanegiad anawdurdodedig at y testyn. Y maent ar ol yn y rhan fwyaf o hen ysgrifau a chyfieithiadau, ac wedi eu rhoddi i mewn yma, yn ol pob tebyg, gan ryw gopïwr, allan o *pen.* v. 7. *I ba rai o flaen eu llygaid y portreadwyd Iesu Grist.*—Y mae y gair a gyfieithir yma "portreadu" yn golygu, nid darlun; ond hysbysiad cyhoeddus, rheith-archeb (*edict*), neu gyhoeddiad swyddogol (*proclamation*), y rhai a roddid i fyny yn y llecedd mwyaf amlwg. Cyffelyb i hyn ydoedd pregethiad yr apostol o Grist iddynt, pan oedd efe yn llafurio yn eu mysg. Dylasai yr hysbyslen hon gadw eu llygaid rhag crwydro, ac felly gweithredu fel swyn i'w diogelu rhag cyfaredd y gau athrawon luddewig. Ond gadawsant hwy i'w llygaid grwydro oddi wrth gyhoeddiad grasol eu brenin, i orphwys ar lygad difaol y swyngyfareddwr. Yr oedd yr edrychiad drwg hwnw wedi sychu i fyny fywyd eu heneidiau.—*Lightfoot. Wedi ei groeshoelio yn eich plith.*—Cynnwysa hyn holl ddirgelwch prynedigaeth trwy ras, a rhyddhâd oddi wrth rwymedigaeth ddeddf.—*Alford.* Y mae Jowett yn sylwi fod yn y gair hwn adsain o'r "croeshoelio gyda Christ," yn *pen.* ii. 20. Y mae rhai (a'r rhan fwyaf) yn cyssylltu "yn eich plith" â "portreadu," ac ereill â "croeshoelio." Yn ol y blaenaf, yr oedd y gwirionedd am Grist croeshoeliedig wedi cael ei bregethu yn eu plith, yn dwyn nodwedd arddangosfa bersonol a lleol. Yn ol yr olaf, gallesid dyweyd fod Crist wedi ei groeshoelio yn eu plith gan mor fyw yr ydoedd wedi cael ei arddangos yn ngweinidogaeth yr apostol.

2. *Hyn yn unig.*—'A gadael heibio bob tir arall y gallwn seilio fy ymresymiad arno, dymunwn ofyn i chwi yr un cwestiwn hwn.' Appelia'd at eu profiad personol, i gadarnhau gwirioneddau ei athrawiaeth. *Yr Ysbryd.*—Holl ddonian yr Ysbryd, yn ysbrydol ac allanol. *Wrth wrandawiad ffydd.*—"Gwrandaw athrawiaeth ffydd," yn gyferbyniol i "wneuthur gweithredoedd y ddeddf," neu "ymadrodd neu genadwri ffydd." Yr olaf, medd Ellicott; am fod y gwir gyferbyniad, nid rhwng gwrandaw a gwneuthur, ond rhwng y ddwy egwyddor—deddf a ffydd.

3. *Mor ynfyd.*—Yn cyfeirio at yr hyn sydd yn canlyn. *Dechreu yn yr Ysbryd.*—Cychwyniad cyntaf eu bywyd Cristionogol: ar eu derbyniad cyntaf o'r efengyl, derbyniasant yr Ysbryd: *adn.* 2. *A berfeithir chwi.*—Y mae y gair yn cynnwys, nid yn unig gorphen, yn gyferbyniol i ddechreuad, ond cyflawni, perffeithio. *Yn y cnawd.*—Pan y mae yr Ysbryd a'r cnawd mewn cyferbyniad fel hyn â'u gilydd, y mae yr Ysbryd yn golygu yr Ysbryd Glân, fel yr egwyddor sydd yn llywodraethu ac yn arwain mewn dyn; a'r cnawd i'r gwrthwyneb, fel tuedd fydol y bywyd dynol, "bywyd ac ymsymmudiad dyn yn mhe'hau y byd gweledig." Os yw hyn yn gywir, dengyddir yr Ysbryd a'r cnawd yma, nid i ddynodi Cristionogaeth ac Iuddewiaeth arnynt eu hunain, ond hanfod ac egwyddor y naill a'r llall.—*Müller, Ellicott.* Dyma oedd yr ynfydrwydd y cyhuddda yr apostol hwynt o hono: wedi cymmeryd eu gwersi cyntaf yn yr Ysbryd, edrych am gyrhaedd perffeithrwydd drwy y cnawd; yn lle dringo yn mlaen yn yr ysbrydol, dyfod i lawr i'r cnawdol; mewn gair, gwrthdroi deddf naturiol cynnydd.

4. *A ddioddefasoch.*—Y mae rhai yn dadleu fod y gair (*paschein*) a gyfieithir yma "dioddef," o ystyr ammhenodol, yn arwyddo "profi;" ac y gellir ei gymmhwyso at dda neu ddrwg, y naill fel y llall: a'i fod yma yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr dda, gan olygu y bendithion ysbrydol a dderbyniasai y Galatiaid; neu ynte, ei fod yn cynnwys yr holl oruchwyliaethau ysbrydol, yn ddioddefiadau a bendithion. Ond y mae yn dra ammheus a ydyw y gair arno ei hunan yn cael ei ddefnyddio o gwbl, yn y Testament Newydd o leiaf, yn yr ystyr hwn: diau fod y gair i'w

[d] Adn 2. 5 Yr hwn gan hyny [d]sydd yn trefnu i chwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith, *ai* o weithredoedd y ddeddf, neu o wrandawiad ffydd *y mae?*

[e] Gen. 15. 6. 6 Megys [e]y credodd Abraham i Dduw, ac y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

[f] Ioan 8. 39. Rhuf. 4. 11 —16. 7 Gwybyddwch felly [f]mai y rhai sydd o ffydd, y rhai hyny yw plant Abraham.

8 A'r ysgrythyr yn rhagweled

ddeall yma yn ei ystyr cyffredin o "ddioddef," ac yn cyfeirio at y llafur a'r erledigaethau a ddioddefasai dychweledigion boreuol Galatia yn y naill ffurf neu y llall. Er nad yw yr hanes yn son am erledigaethau yn Galatia, y mae yr un mor ddistaw am bob peth perthynol i sefyllfa eglwysi Galatia; a chan fod y Cristionogion yn dioddef ar y pryd yn y gwledydd o'u hamgylch ar bob llaw, y mae yn dra thebyg nad oeddynt hwythau yn diangc. Os yr Iuddewon oedd y rhai mwyaf blaenllaw yn yr erlidiau hyn, fel y gellid meddwl, y mae appeliad yr apostol yn dyfod yn fwy llawn o ystyr fyth. Yr oedd yr holl ddioddefiadau hyn yn brawf dilys o "ddechreu yn yr Ysbryd"—yn arwyddion gwerthfawr o ddylanwad yr Ysbryd. *Yn ofer.*—Yr oeddynt yn awr yn diystyru y rhyddid hwnw yn Nghrist ag yr oeddynt y pryd hwnw wedi dioddef o'i blegid:—yr oeddynt yn troi i wrandaw ar yr athrawon hyny ag yr oeddynt y pryd hwnw wedi eu gwrthwynebu hyd at ddioddef erledigaeth: dyma wneyd y dioddefiadau yn ofer. *Os yn ofer hefyd.*—Dengys hyn mor anhawdd oedd ganddo gredu yr elai y cwbl yn ofer yn y diwedd; y mae yn gobeithio pethau gwell am ei ddychweledigion. Y mae yr ystyr yma yn llawer mwy naturiol, dybygem, ac yn fwy cydweddol â chalon fawr, dyner yr apostol, na'r ystyr arall a gynygiwyd gan rai:—"os yn wir nad yw ond ofer," *h. y.*, os ydyw heb fod yn rhywbeth gwaeth nag ofer.

5. Yr oedd y cwestiwn yn *adn.* 2 yn cynnwys cyferbyniad rhwng ffydd a gweithredoedd. Awgrymodd y cwestiwn hwnw ddau syniad arall:—fod y Galatiaid yn troseddu deddf cynnydd (*adn.* 3), a'u bod yn gwneuthur eu dioddefiadau blaenorol yn ffolineb (*adn.* 4). Yn awr, y mae yn dychwelyd at gwestiwn yr ail adnod yn y gair "gan hyny." *Yr hwn sydd yn trefnu i chwi yr Ysbryd.*—Arwydda y gair a gyfieithir "trefnu" yma, rhoddi cyflenwad helaeth. *Ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith.*—Yn hytrach, yn ol y beirniaid goreu, "Ac yn gweithredu galluoedd gwyrthiol ynoch chwi." Nid yw yn hawdd penderfynu natur y gwyrthiau hyn—pa un ai y byd naturiol, ai y moesol, oedd cylch eu gweithrediad. Yn ol ystyr gyffredin *dunameis,* a'r dosbarthiad yn 1 *Cor.* xii. 10, gellid meddwl mai y byd naturiol. *Ai o weithredoedd y ddeddf, neu o wrandawiad ffydd, y mae?*—Ar y gwahaniaethiad hwn, gwel ar *adn.* 2. Gwelir fod y ferf wedi ei gadael allan yn y gwreiddiol, ac i'w chyflenwi oddi wrth yr ymadroddion blaenorol yn yr adnod:—'A ydyw efe yn gwneuthur hyny o weithredoedd, ynte o ffydd?' "O" fel tarddle—achos cynnhyrfiol y gweithrediadau. Y mae yn ddiammheu mai y gweithredydd y lleferir am dano yma ydyw Duw, ac nid yr apostol ei hun, fel y mae rhai wedi tybied; ac yn gysson â hyn y mae yr amser presennol yn cael ei ddefnyddio, iddynodi pa rhâd y gweithrediadau; ac felly, nid yn edrych yn ol at yr adeg yr oedd yr apostol gyda hwynt. Y mae yn amlwg mai amcan yr apostol yn yr adnod hon, fel y dywed Calvin, ydyw dangos i'r Galatiaid fod holl ddoniau yr Ysbryd, y rhai yr oeddynt hwy yn rhagori ynddynt, yn ffrwythau yr efengyl—yr efengyl a bregethasai efe iddynt â'i enau ei hunan. Yr oeddynt yn fforffetio y doniau hyn, wrth adael yr efengyl trwy ddylanwad hudoliaeth yr athrawon Iuddewig.

6—9. CYFIAWNHAD ABRAHAM TRWY FFYDD, AC ADDEWID DUW IDDO, DRWY YR HON Y MAE YR HOLL GREDINWYR YN ETIFEDDU EI FENDITH.

6. *Megys y credodd Abraham i Dduw.*—Y mae yr atteb i'r cwestiwn blaenorol mor amlwg fel y mae yr apostol yn ei gymmeryd yn ganiataol, "diau mai o ffydd; megys—felly hefyd yr un modd yr ydoedd—yn achos Abraham," tad y genedl Iuddewig, gwreiddyn yr eglwys yn ei ffurf weledig. "Credodd Abraham i Dduw:"—dyfyniad o gyfieithiad y Deg a Thrigain o *Gen.* xv. 6. Wedi appelio o'r blaen at brofiad a ffeithiau, â yn mlaen yn awr at dystiolaethau yr Ysgrythyr, gan ddechreu gyda'r esampl fawr o gyfiawnhâd Abraham. *A chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.*—Gwel ar *Rhuf.* iv. 3.

7. *Gwybyddwch felly.*—Y modd mynegol, ac nid y gorchymynol (yn ol Alford, ac ereill): "Yr ydych gan hyny yn gweled oddi wrth hyn." Dadleua Ellicott dros y modd gorchymynol. *Mai y rhai sydd o ffydd.*—Y rhai hyddd yn cymmeryd ffydd yn bwynt cychwynol, yn egwyddor sylfaenol.—*Lightfoot.* Golyga yr "o" wreiddyn neu darddiad:—Y rhai ydynt wedi hanu yn ysbrydol o ffydd, y rhai y mae ffydd yn ffynnonell eu bywyd ysbrydol.—*Ellicott. Y rhai hyny.*—A neb ond y rhai hyny. *Yw plant Abraham.*—Oddi ar y cyfeiriad at ffydd Abraham y mae yr apostol yn egluro i'r Galatiaid y gwir syniad am blant Abraham. Yr oedd y blaid Iuddewaidd yn ei gymmeryd mewn ystyr cnawdol ac allanol: dengys yntau ei fod i'w ddeall mewn ystyr ysbrydol a thufewnol.—*Olshausen.*

8. *A'r ysgrythyr yn rhagweled.*—Wedi dangos mai perchenogion ffydd ydyw gwir blant Abraham, dangosir yn mhellach mai hwynthwy yn unig sydd yn cyfranogi yn ei fendith. Y mae yr "ysgrythyr" yma yn cael ei phersonoli: yr unig enghraifft yn y Testament Newydd lle y priodolir "golwg" iddi. Yr oedd hon yn ffurf Iuddewig o ymadrodd:—"Beth a wêl yr ysgrythyr?" *Mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y Cenhedloedd.*—Defnyddir yr amser presennol, "y mae," yn ol Lightfoot ac Ellicott, i ddangos sicrwydd y bwriadau dwyfol, a'r cyflawniad o honynt yn cael ei ragweled fel yn bresennol; neu, ac yn hytrach fe allai, yn ol Alford, am mai dyma unig drefn Duw i gyfiawnhau—ni chyfiawnhaodd erioed mewn unrhyw ffordd arall: felly, presennol trefn sefydlog (*normal present*) ydyw. Nid ydyw "y Cenhedloedd" i'w ddeall yma mewn ystyr cyfyng, fel yn wrthgyferbyniol i'r Iuddewon; ond yn yr ystyr eangaf, fel yn yr addewid a roddwyd gynt i Abraham a ddyfynir yn y rhan olaf o'r adnod. Nid rhwng Iuddewon a Chenhedloedd y mae y

[f] Rhuf 3.28 [g] —30. [h] Heb. 4. 2; Gen. 23.14.

mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y Cenhedloedd, [h] a rag-efengylodd i Abraham, *gan ddywedyd,* Ynot ti y bendithir yr holl genhedloedd.

9 Felly gan hyny, y rhai sydd o ffydd a fendithir gydag Abraham ffyddlawn.

[i] Dad.11.15. [k] Esa. 43.28. [l] Deut. 27. 26; Ier. 11. 3.

10 Canys cynnifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, [k] dan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, [l] Melldigedig *yw* pob un nid

[m] Iago 3. 2; 1 Ioan 1. 8 —10; Dad. 5. 9; 7. 14, 15. [n] Hab. 2. 4.

yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.

11 Ac [m] na chyfiawnheir neb trwy y ddeddf ger bron Duw, eglur *yw:* o blegid, [n] Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.

12 A'r ddeddf nid yw o ffydd: eithr, Y dyn a wna y pethau hyny, a fydd byw ynddynt.

13 Crist a'n llwyr brynodd oddi wrth felldith y ddeddf, gan ei

cyferbyniad yma; ond rhwng y rhai oedd "o ffydd," a'r rhai oedd am ddychwelyd at weithredoedd y ddeddf, pa un bynag ai Iuddewon ai Cenhedloedd.—*Alford. A rag-efengylodd i Abraham.*—A hysbysodd y newyddion da yn mlaen llaw. Yr oedd yr addewid i Abraham yn rhagghyoeddiad o'r efengyl, nid yn unig fel yr oedd yn hysbysu y Messiah, ond hefyd fel yn cynnwys yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd. *Ynot ti:*—fel tad ysbrydol yr holl ffyddloniaid. *Y bendithir yr holl genhedloedd.*—Ceir yma y ddwy adnod, *Gen.* xii. 3, a *Gen.* xviii. 18, wedi eu toddi i'w gilydd.

9. *Felly gan hyny.*—Casgliad sicr oddi wrth yr ymresymiad yn *adn.* 6—8. *Y rhai sydd o ffydd a fendithir gydag Abraham ffyddlawn.*—*Adn.* 8, "yn Abraham;" yma, "gydag Abraham." Y mae y cyfnewidiad yn yr arddodiad yn dwyn i mewn gyfnewidiad cyfattebol yn y wedd yr edrychir ar Abraham ynddi. Dan yr arddodiad "yn," edrychir ar Abraham fel y patriarch, y cyndad ysbrydol, yn yr hwn y bendithir; a than "gydag," fel y dyn [enwog mewn ffydd, gyda'r hwn y mae yr holl rai sydd o ffydd yn cyfranogi yn ei fendith.—*Ellicott.* Pa fodd y mae y casgliad hwn yn canlyn oddi wrth yr adnodau blaenorol (6—8)? Addawyd hiliogaeth i Abraham, aneirif fel y ser. Credodd Abraham, a chyfrifwyd ei ffydd yn gyfiawnder. Pwy ynte ydyw y plant a addawyd i Abraham? Diau mai y rhai sydd yn etifeddu ffydd Abraham. O blegid hyn y dywed yr ysgrythyr y bendithid yr holl genhedloedd ynddo. Dyma eiriau rhagwelediad yn gwybod fod Duw yn cyfiawnhau y Cenhedloedd trwy ffydd: o blegid felly yn unig y gallent gael eu bendithio yn Abraham. Yr ydym yn casglu gan hyny mai y ffyddloniaid, a hwy yn unig, sydd yn cyfranogi gydag ef yn y fendith.—*Lightfoot.*

10—12. Yn y tair adnod hyn, cadarnheir y casgliad yn *adn.* 9 trwy ymresymiad arall. Wedi dangos trwy brawf cadarnhaol mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, profir yr un gwirionedd yn mhellach trwy brawf nacaol, yn cyfodi o'r ammhossibilrwydd iddo gael ei gyfiawnhau trwy y ddeddf. Y mae y prawf nacaol hwn yn ddeuddylyg:—1. Y mae cyflawni gofynion y ddeddf yn ammhossibl i ddyn fel pechadur, ac y mae peidio cyflawni yn ein gosod o dan ei melldith (*adn.* 10). 2. Pe byddai y cyflawniad yn bossibl, y mae ysbryd y ddeddf yn wrthwyneb i ffydd: a ffydd (fel y profir o le arall) ydyw ffynnonell bywyd (*adn.* 11, 12).

10. *Canys cynnifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent.*—Yn perthyn i neu yn gorphwys ar, weithredoedd y ddeddf. Y mae yr "o" yma yn arwyddo ymddibyniad ar, yn hytrach na tharddiad o. Yn lle bod yn gyfranog o fendith Abraham, y maent yn weithredol o dan felldith.

Gwelir yma enghraifft o un o nodweddion yr apostol Paul fel ysgrifenydd—ei duedd at roddi ffurf ymresymiadol i'w feddyliau, ei hoffder neilduol i brofi pob gosodiad.—*Ellicott. Canys ysgrifenwyd.*—Dyfyniad o *Deut.* xxvii. 26, er nad yn hollol yn ngeiriau yr Hebraeg na'r Deg a Thrigain. Cymmerir yn ganiataol yma, fel peth dealledig, nas gallant "aros yn yr holl bethau," &c.; felly y maent yn dyfod o dan y felldith: *Rhif.* iii. 9—20.

11. Yr un gosodiad yn cael ei brofi trwy ffordd arall. *Trwy y ddeddf.*—Yn hytrach, "yn y ddeddf;" o fewn cylch neu diriogaeth y ddeddf: *Act.* xiii. 39; *Rhuf.* ii. 12 ("a bechasant yn y ddeddf"). Y mae cyfiawnhâd yn gorwedd yn hollol y tu allan i diriogaeth y ddeddf, ac yn anghydweddol â'i natur a'i rhodweddiad. *Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.*—Dyfyniad o *Hab.* ii. 4. Gwel ar *Rhuf.* i 17.

12. *A'r ddeddf nid yw o ffydd.*—Nid dyna ei phwynt cychwynol, na'i sylfaen; nid oes unrhyw gyssylltiad rhyngddi â ffydd o ran egwyddor na tharddiad. *Eithr, Y dyn a wna y pethau hyny.*—Yr gwrthwyneb, y mae y ddeddf yn mynu cyflawniad o'i holl ofynion. Yn fwy llythyrenol, "a wnaeth," neu "sydd wedi gwneuthur" (*poiésas*). Dyfyniad o *Lef.* xviii. 5. Y mae "y pethau hyny" yn cael eu hegluro gan y geiriau yn y testyn gwreiddiol blaenorol i'r rhai a ddyfynir; y mae yr apostol yn tybied cydnabyddiaeth ei ddarllenwyr â hwynt. *A fydd byw ynddynt.*—Ynddynt, fel elfen ammodol.—*Alford.* Y mae un esboniwr (*Meyer*) yn sylwi fod y ddwy adnod (11 a 12) yn cynnwys cyfresymiad (*syllogism*) perffaith. Fel hyn:—

"Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd:" *adn.* 11. (Y prif osodiad.)

"Y ddeddf nid yw o ffydd:" *adn.* 12. (Y lleiaf, neu yr ail—yn cael ei brofi trwy y dyfyniad o *Lef.*)

O ganlyniad, "Ni chyfiawnheir neb trwy y ddeddf:" *adn.* 11. (Y casgliad.)

13, 14. Y PRYNEDIGAETH TRWY GRIST YN SYMMUD Y FELLDITH, AC YN GOSOD CENHEDLOEDD AC IUDDEWON AR YR UN TIR.

13. *Crist a'n llwyr brynodd.*—Y mae y cyferbyniad dedwydd yn cael ei ddwyn i mewn yn ddisymmwth, heb yr un cyssyllt-air: condemniodd y ddeddf ni, Crist a'n llwyr brynodd ni. Y mae i'r ferf hon ddau ystyr:—1. "Gwaredu, rhyddhau trwy brynu" (megys o gaethiwed). Dyma yr ystyr cyffredin. 2. "Prynu i fyny" (megys yr hyn sydd brin a gwerthfawr). Yr ystyr cyntaf sydd yma, ac yn *pen.* iv. 5. Yr ail

wneuthur yn felldith drosom: canys y mae yn ysgrifenedig, [o] Melldigedig *yw* pob un sydd yn nghrôg ar bren:

[o] Ieu. 10. 26, 27.

14 Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd, trwy Grist Iesu; fel y [p] derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd.

[p] Rhuf. 8. 9, 16, 26, 27.

ystyr sydd i'r gair yn *Ephes.* v. 16, a *Col.* iv. 5: "prynu yr amser." *Ni.*—Nid ydyw y rhagenw hwn yn ein cyfieithiad ni, fel y gwelir, ond fel y cynnwysir ef yn yr "a'n;" gwell fuasai iddo fod, am ei fod yn y cyssyltiad hwn yn air pwysig. Cyttuna yr esbonwyr goreu fod y gair yn golygu ynïy lle hwn yr Iuddewon yn bennodol: rhoddir y Cenhedloedd yn gyferbyniol yn *adn.* 14. Y mae yr holl gyd-destyn, fel y sylwa Ellicott, yn dangos mai y "ddeddf" a olygir yma ydoedd y ddeddf Foesenaidd; ac nid oedd y ddeddf hon mewn ystyr fanwl mewn grym ar y Cenhedloedd; y ddeddf hon mewn gwirionedd ydoedd y canol-tur oedd yn gwahanu Iuddewon a Chenhedloedd (*Eph.* ii. 14, 15). "Hwnthwy yn unig oeddynt o dan felldith (*adn.* 10); ac wedi eu prynu hwy gan Grist oddi wrth y felldith hono, y mae bendith Abraham (cyflawnhâd trwy ffydd), yr hon oedd bob amser wedi ei bwriadu gan Dduw i redeg drwy yr Iuddewon i'r Cenhedloedd, yn cael ei gollwng yn rhydd fel hyn i redeg allan at y Cenhedloedd."—*Meyer* [dyfynedig gan *Alford*]. *Oddi wrth felldith y ddeddf.*—Y ffurf sydd ar y syniad ydyw, fod y ddeddf (wedi ei phersonoli) yn ein dal ni (Iuddewon) yn berffaith gaeth o dan ei melldith: oddi wrth y caethiwed hwn Crist a'n prynodd, yn y drefn neu y llwybr a eglurir yn y frawddeg nesaf. *Gan ei wneuthur yn felldith drosom.*—Dyma drefn ein prynedigaeth: Crist yn cymmeryd y felldith arno ei hun er ein mwyn, ac yn ein lle. Y mae yn debyg fod y gair yn cael ei ddefnyddio, fel y mae Meyer yn awgrymu, yn ei ffurf pur neu ddansoddol (*abstract*) — melldith (nid "peth," neu "un melldigedig"), i osod allan gyda mwy o rym gyflawnder y boddlonrwydd a roddodd Crist i'r ddeddf. Gwnaed ef, nid yn felldigedig, ond yn felldith—cyfled a'r trueni yr oeddym ni yn ei afael. Y mae yn dra thebyg fod yma gyfeiriad, fel y sylwa Lightfoot, at y bwch diangol o dan y gyfraith: *Lef.* xvi. 5, &c. Ystyrid y creadur hwnw yn dwyn pechodau y rhai y gwnelid cymmod drostynt. Yr oedd y felldith yn cael ei throsglwyddo oddi wrthynt hwy iddo ef. Yr oedd yn dyfod mewn rhyw ystyr yn bersonoliad o'r pechod ac o'r felldith. Felly hefyd y dywedir ei fod wedi ei wneuthur yn "bechod" drosom: 2 *Cor.* v. 21. *Drosom.*—Drosom ni, yr Iuddewon otto. Y mae llawer o ddadleu wedi bod gyda golwg ar ystyr manwl yr arddodiad *huper* (dros) yn yr adnod hon ac adnodau tebreill—pa un a ydyw yn golygu yn unig "er ein mwyn," ai ynte "yn ein lle?" Yr ydym yn tybied mai y golygiad mwyaf cywir ar hyn ydyw yr eiddo Ellicott: —"fod y gair, mewn amryw adnodau athrawiaethol fel hon, yn uno y ddau ystyr: "yn ein lle," a hyny "er ein mwyn," neu er budd i ni. *Canys y mae yn ysgrifenedig:*—yn *Deut.* xxi. 23. *Melldigedig yw pob un sydd yn nghrôg ar bren.*—Gwneir y dyfyniad hwn, megys rhwng cromfachau, er cadarnhau y gosodiad a gynnwysir yn y frawddeg flaenorol, "gan ei wneuthur yn felldith drosom." Nid ydyw y geiriau yn *Deut.* yn cyfeirio at groeshoeliad, ond at gyrph yn cael eu gadael yn yr awyr agored yn grogedig ar ystangciau neu groesau; ond y mae yn hollol berthynasol yma, fel yn nodi "y neillduolrwydd gwaradwyddus hwnw i ba un yr oedd y felldith gyfreithiol yn perthyn," yr hwn a gyflawnwyd yn ffurfiol gan ein Gwaredwr trwy fod yn grogedig ar y groes ar ol marw.—*Ellicott.*

14. *Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd.*—Gellir cyssylltu y geiriau hyn naill ai â'r "llwyr brynu oddi wrth felldith y ddeddf," neu â'r "gwneuthur yn felldith drosom." Bydd y syniad yr un yn y naill a'r llall; ond fe allai fod y ffurf sydd ar yr ail ymadrodd fel rhan gymmeriad (*participle*) yn ei wneuthur yn fwy naturiol i'w gosod i ddibynu ar y prif osodiad:—a'n llwyr brynodd, fel y delai. Y mae y gair "fel" yn dynodi amcan eang y prynedigaeth yn ei berthynas â'r Cenhedloedd, fel rhai oedd o'r blaen â chanolfur gwahaniaeth rhyngddynt âg eglwys Dduw. Y mae yr amcan a nodir flaenaf (*adn.* 13), yn golygu y genedl Iuddewig yn nghaethiwed yr holl ddeddf Foesenaidd, fel un gyfundrefn fawr, dan yr hon yr oeddynt wedi ei gosod: yr amcan hwnw oedd eu prynu hwy oddi wrth y felldith. Yr amcan a nodir yma, yr hwn oedd ynglŷn â'r llall, oedd estyniad bendith Abraham i'r Cenhedloedd: ond nid trwy y ddeddf, eithr yn Nghrist Iesu (o'r blaen, yr oedd "iachawdwriaeth o'r Iuddewon;" *Ioan* iv. 22). Y mae y ddeddf—"deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau" (*Eph.* ii. 15), y mur mawr oedd o'r blaen yn cau y Cenhedloedd allan, wedi ei ddattod a'i ddirymu yn Nghrist. Trwy ei symmudiad, gosodir y Cenhedloedd ar dir cydwastad â'r Iuddewon. *Trwy Grist Iesu.*—Mwy cywir ydyw "yn Nghrist Iesu." Anfynych y defnyddir *en* ynglŷn â pherson mewn ystyr offerynol: ac nid oes dim yn galw am yr ystyr hwnw yma. "Yn Nghrist, yn y wybodaeth o hono ef ac yn ei angen y derbyniodd y Cenhedloedd y fendith.—*Ellicott. Fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd.*—Mae dau gystrawiad yn bossibl ar y frawddeg hon. 1. Gellir ei gosod i ymddibynu ar y frawddeg flaenorol, fel yr oedd hono yn dibynu ar y "prynu" yn *adn.* 13. "Crist a'n llwyr-brynodd, &c.—fel y delai," &c. "Daeth bendith Abraham ar y Cenhedloedd, fel y derbyniem," &c. 2. Gellir ei gosod yn gyd-raddol (*co-ordinate*) â'r frawddeg flaenorol, yn lle yn is-raddol (*subordinate*) iddi, a'r ddwy i osod allan amcanion ac effeithiau y prynedigaeth yn *adn.* 13; "Crist a'n llwyr brynodd, &c.—fel y delai bendith Abraham, &c.—(ac) fel y derbyniem," &c. Y mae Lightfoot yn tueddu i ddewis y cyntaf—Ellicott ac Alford, yr ail. Yr ail, feddyliem ydyw y goreu, yn enwedig os cymmerir y Cenhedloedd yn yr ystyr cyfyng, fel yn wrthgyferbyniol i'r Iuddewon; ac ymddengys mai yn yr ystyr hwnw y mae pwynt a grym yr ymresymiad yn ein gorfodi i'w gymmeryd. Y mae "addewid yr Ysbryd" yn golygu, nid addewid gan yr Ysbryd, ond yr addewid am yr Ysbryd, yr hon y mae yr Ysbryd yn destyn iddi: derbyn yr addewid hon ydyw derbyn sylweddoliad yr addewid—derbyn yr Ysbryd ei hunan. Ac y mae rhodd fawr yr Ysbryd yn cynnwys yr oll sydd yn angenrheidiol bellach ynddi ei hunan. "Dyma yr apostol," fel y mae Ellicott yn sylwi, "ar ol cadwen ryfeddol o ymresymiadau, yn cael eu traethu gyda chyfartal rym, byrder, a

15 Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol; Cyd na byddo ond ammod dyn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymu, neu yn rhoddi ato.

16 [q] I Abraham y gwnaethpwyd a'r person i'r hwn y gwnaed y cyfammod heb ymddangos, pan roddwyd y ddeddf. *I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef.*—Fel pe dywedasai:—'Ond am yr achos hwn, nid 'cyfammod' yn unig ydyw, ond addewid—le, 'addewidion;' ac nid i ddyn yn unig, megys Abraham, y gwnaethpwyd hwynt; ond i Grist.' —*Ellicott.* Defnyddir y rhif liosog, "addewidion," am ei bod wedi ei rhoddi lawer gwaith, ac mewn amryw ffurfiau o ymadroddion; ac am ei bod, fel y sylwa Bengel, yn cynnwys, nid yn unig fendithion daearol, ond rhai nefol: *Gen.* xiii. 15; xv. 18; xvii. 8; xxvi. 4; xxviii. 14. "Ac i'w had ef;"—nid i Abraham ar ei ben ei hun, ond "i Abraham, ac i'w had." Y mae pwysau yr ymresymiad sydd yn canlyn, fel y gwelir, ar y gair hwn yn y rhif unigol—had. *Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer; ond megys am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist.*—Y mae yr ymresymiad hwn o eiddo yr apostol wedi bod yn achlysur o ddadleu mawr, o amser Jerome hyd yn awr. Y ddadl a ddygir yn erbyn yr apostol ydyw—ei fod yn gosod ei ymresymiad yn yr adnod hon i bwyso ar wall grammadegol. Gellir geirio yr wrthddadl fel hyn: 'Y mae yr apostol yn ceisio profi ei bwngc oddi wrth fod y rhif unigol (had) yn cael ei ddefnyddio; ac nid y rhif lliosog (hadau). Y ffaith ydyw, nid oes rhif lliosog yn perthyn i'r gair Hebraeg a gyfieithir "had" (ond yn unig pan y mae yn golygu "grawn," neu "gnydau: 1 *Sam.* viii. 15); ac felly nis gellir seilio unrhyw ymresymiad ar y defnydd o'r gair yn y rhif unigol. Y mae yr wrthddadl hon wedi ei hateb yn dra boddhaol gan yr esboniwr Pabaidd, Windischmann, a chan Alford, Ellicott, ac yn enwedig Lightfoot. Ceisiwn roddi sylwedd yr attebion hyn mor fyr ag y gallwn. 1. Nid ar y gair pennodol a ddefnyddir y mae yr apostol yn rhoddi y pwys; ond ar y ffaith mai enw unigol o ryw fath sydd yma, ac nid rhyw enw lliosog arall y gallesid yn hawdd ei gymmeryd; megys plant, disgynyddion, &c. Buasai enw lliosog fel hyn yn anghysson â'r ystyr a ddyry yr apostol i'r gair: y mae yr enw a ddefnyddir (had), er yn enw cynnulliadol (*collective*), ac felly yn cymmeryd i mewn liosogrwydd, etto yn cynnwys y syniad o undod. A gadael heibio dermau celfyddydol [grammadeg, nis gallasai yr apostol ddangos ei feddwl yn fwy syml na thrwy roddi y gair oedd dan sylw i lawr yn y rhif lliosog mewn cyferbyniad:—"nid i'th hadau, ond i'th had." 2. Y mae y priodoldeb o ddefnyddio enw unigol, ac nid enw lliosog, yn seiliedig ar y gwirionedd mai Crist yw gwir had Abraham:—"i'th had di, yr hwn yw Crist." Y mae yn ddiau mai had Abraham yn ei ystyr cyntaf oedd y genedl Iuddewig, megys mai yr etifeddiaeth yn yr ystyr cyntaf oedd Gwlad Canaan. Ond yr oedd dwy ystyr i'r cysgodau ac i'r ymadroddion cysgodol dan yr Hen Destament:—un yn ystyr uniongyrchol a daearol, a'r llall yr ystyr uwchaf ac ysbrydol. Yn yr ystyr olaf hwn, had Abraham oedd Crist. Ynddo ef yr oedd yr hiliogaeth yn cael ei symio i fyny. Ynddo ef yr ydoedd yn cyrhaedd ei hamcan, ac yn dyfod yn fendith i'r holl ddaear. Hebddo ef, buasai ei hanfodiad ar wahân fel pobl briodol yn beth diystyr. Fel

15 Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol; Cyd na byddo ond ammod dyn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymu, neu yn rhoddi ato.

16 [q] I Abraham y gwnaethpwyd [s]Gen. 12. 7 13. 15, 16.

a'r person i'r hwn y gwnaed y cyfammod heb ymddangos, pan roddwyd y ddeddf. *I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef.*—Fel pe dywedasai:—'Ond am yr achos hwn, nid 'cyfammod' yn unig ydyw, ond addewid—le, 'addewidion;' ac nid i ddyn yn unig, megys Abraham, y gwnaethpwyd hwynt; ond i Grist.' —*Ellicott.* Defnyddir y rhif liosog, "addewidion," am ei bod wedi ei rhoddi lawer gwaith, ac mewn amryw ffurfiau o ymadroddion; ac am ei bod, fel y sylwa Bengel, yn cynnwys, nid yn unig fendithion daearol, ond rhai nefol: *Gen.* xiii. 15; xv. 18; xvii. 8; xxvi. 4; xxviii. 14. "Ac i'w had ef;"—nid i Abraham ar ei ben ei hun, ond "i Abraham, ac i'w had." Y mae pwysau yr ymresymiad sydd yn canlyn, fel y gwelir, ar y gair hwn yn y rhif unigol—had. *Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer; ond megys am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist.*—Y mae yr ymresymiad hwn o eiddo yr apostol wedi bod yn achlysur o ddadleu mawr, o amser Jerome hyd yn awr. Y ddadl a ddygir yn erbyn yr apostol ydyw—ei fod yn gosod ei ymresymiad yn yr adnod hon i bwyso ar wall grammadegol. Gellir geirio yr wrthddadl fel hyn: 'Y mae yr apostol yn ceisio profi ei bwngc oddi wrth fod y rhif unigol (had) yn cael ei ddefnyddio; ac nid y rhif lliosog (hadau). Y ffaith ydyw, nid oes rhif lliosog yn perthyn i'r gair Hebraeg a gyfieithir "had" (ond yn unig pan y mae yn golygu "grawn," neu "gnydau: 1 *Sam.* viii. 15); ac felly nis gellir seilio unrhyw ymresymiad ar y defnydd o'r gair yn y rhif unigol. Y mae yr wrthddadl hon wedi ei hateb yn dra boddhaol gan yr esboniwr Pabaidd, Windischmann, a chan Alford, Ellicott, ac yn enwedig Lightfoot. Ceisiwn roddi sylwedd yr attebion hyn mor fyr ag y gallwn. 1. Nid ar y gair pennodol a ddefnyddir y mae yr apostol yn rhoddi y pwys; ond ar y ffaith mai enw unigol o ryw fath sydd yma, ac nid rhyw enw lliosog arall y gallesid yn hawdd ei gymmeryd; megys plant, disgynyddion, &c. Buasai enw lliosog fel hyn yn anghysson â'r ystyr a ddyry yr apostol i'r gair: y mae yr enw a ddefnyddir (had), er yn enw cynnulliadol (*collective*), ac felly yn cymmeryd i mewn liosogrwydd, etto yn cynnwys y syniad o undod. A gadael heibio dermau celfyddydol [grammadeg, nis gallasai yr apostol ddangos ei feddwl yn fwy syml na thrwy roddi y gair oedd dan sylw i lawr yn y rhif lliosog mewn cyferbyniad:—"nid i'th hadau, ond i'th had." 2. Y mae y priodoldeb o ddefnyddio enw unigol, ac nid enw lliosog, yn seiliedig ar y gwirionedd mai Crist yw gwir had Abraham:—"i'th had di, yr hwn yw Crist." Y mae yn ddiau mai had Abraham yn ei ystyr cyntaf oedd y genedl Iuddewig, megys mai yr etifeddiaeth yn yr ystyr cyntaf oedd Gwlad Canaan. Ond yr oedd dwy ystyr i'r cysgodau ac i'r ymadroddion cysgodol dan yr Hen Destament:—un yn ystyr uniongyrchol a daearol, a'r llall yr ystyr uwchaf ac ysbrydol. Yn yr ystyr olaf hwn, had Abraham oedd Crist. Ynddo ef yr oedd yr hiliogaeth yn cael ei symio i fyny. Ynddo ef yr ydoedd yn cyrhaedd ei hamcan, ac yn dyfod yn fendith i'r holl ddaear. Hebddo ef, buasai ei hanfodiad ar wahân fel pobl briodol yn beth diystyr. Fel

dyfnder, yn dychwelyd yn ol at bwngc *adn.* 2—dawn yr Ysbryd Glân wedi dyfod trwy ffydd yn Iesu Grist." Yn y frawddeg olaf hon o'r adnod, y mae y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenhedloedd wedi ei golli—y prynedigaeth wedi eu huno: y maent yn cydgyfarfod yn yr ymadrodd "fel y derbyniem," a chyda'u gilydd yn yr un ffydd yn cael dyfodfa trwy un Cyfryngwr, "mewn un Ysbryd, at y Tad;" *Eph.* ii. 15—18.

15—18. PRAWF NA CHAFODD YR ADDEWID EI DIRYMU GAN Y DDEDDF.

15. Beth os darfu i'r ddeddf, yr hon a ddaeth ar ol yr addewid i Abraham, ddirymu yr addewid? Y mae yr adnodau hyn yn cynnwys attebiad i'r wrthddadl yna. *Y brodyr.*—Y mae yma gyffyrddiad o dynerwch yn yr appeliad hwn. fel i liniaru llymder y cerydd blaenorol: *pen.* iii. 1; cymh. â iv. 31, a vi. 1. *Ar wedd ddynol.*—I eglluro ymwneyd Duw â dynion yn y ddeddf a'r efengyl, y mae yn ymresymu yma oddi wrth egwyddorion a gydnabyddid yn nhrafodaeth gyffredin dynion â'u gilydd. *Cyd na byddo ond ammod dyn.*—Y pwyslais ar "dyn." "Hyd yn oed," neu, "er na byddo ond—ammod dyn." Ymresymiad oddi wrth y lleiaf at y mwyaf, oddi wrth y dynol at y dwyfol: fel oddi wrth dad naturiol yn *Luc* xi. 11, neu y barnwr yn *Luc* xviii. 1, &c. Gwel hefyd *Heb.* vi. 16. "Ammod:"—cyfammod, neu gyttundeb. Nid testament. Er fod y gair *diathékć* gan yr ysgrifenwyr clasurol bron bob amser yn arwyddo "ewyllys," neu "destament," nid yw braidd byth yn cael ei ddefnyddio gan y Deg a Thrigain ond yn yr ystyr o "gyfammod." Ac ynyr ystyr olaf y defnyddir ef yn y Testament Newydd yn mhob man, oddigerth un eithriad (*Heb.* ix. 15—17): ac hyd yn oed yn yr eithriad hwnw, y mae yr ysgrifenydd yn cychwyn gyda'r syniad o "gyfammod," ond yn llithro i'r syniad o "destament;" a hyny am fod y cyfammod hwnw yn trosglwyddo etifeddiaeth, ac yn dyfod i rym trwy farwolaeth y cyfammodwr. Y mae yn ddiau mai "cyfammod" ydyw yr ystyr yn y lle hwn, oddi wrth (1.) drefn y geiriau; ac (2.) oddi wrth y gymmhariaeth ddealledig yma rhwng cyfammod dyn a chyfammod Duw (*adn.* 17).—*Lightfoot, Ellicott. Yn ei ddirymu, neu yn rhoddi ato.*—Wedi ei gadarnhau yn rheolaidd unwaith, ystyrir ef yn gyssegredig ac annhoradwy. Nis gellir ei droi heibio, na'i luddio âg ammodau newyddion. Yr oedd athrawiaeth y blaid Iuddewaidd mewn gwirionedd yn dirymu yr addewid, er nad oedd mewn ymddangosiad ond yn gosod ammodau newyddion: yr oedd y naill fel y llall yn dori y cyfammod.—*Lightfoot.*

16. Llawer mwy sicr ynte ydyw cyfammod dwyfol. Cyn myned yn mlaen gyda'r ymresymiad, y mae yr apostol yn yr adnod hon yn rhoddi gair o eglurhâd pwysig, megys rhwng cromfachau, ar natur y cyfammod. Dengys na wnaed y cyfammod yn unig nac yn benaf âg Abraham yn bersonol, ond âg Abraham a'i *had.* Yr oedd yr "had" hwn drachefn yn golygu, nid y genedl Iuddewig, neu hiliogaeth naturiol Abraham; ond Crist. Y mae hyn yn parotoi y ffordd i ddangos prif bwngc ymresymiad yr adnodau hyn:—Yr oedd y cyfammod o ganlyniad heb ei gyflawni, ond yn aros ei gyflawniad,

yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer; ond megys am [a] un, Ac i'th had di, [b] yr hwn yw Crist.

[a] Adn. 27-29.

17 A hyn yr wyf yn ei ddywedyd, *am* yr ammod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw [a] yn Nghrist, nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd

[a] Gen. 15. 18; Ioan 8. 56—58.

lyn yr oedd efe nid yn unig yn gynnrychiolydd y genedl, ond yn gorphoriad o honi. Yn yr ystyr yma yr oedd pobl Israel yn gysgod o Grist; ac yn y Testament Newydd gosodir allan gyfatebiad rhwng gyrfa y naill a bywyd y llall. (Gwel y cymmhwysiad o *Hosea* xi. 1 at ein Iachawdwr yn *Mat.* ii. 25.) Yn yr ystyr hwn y defnyddia yr apostol yr enw "had Abraham" yma. 3. Yn mhellach, ymddengys y priodoldeb o ddefnyddio enw unigol, ac etto cynnulliadol, megys had, yn arwyddo lliosogrwydd mewn undod, ac nid enw lliosog, wrth ystyried mai nid Crist yn bersonol a olygir, ond Crist â'i eglwys ynddo. Fel y sylwa Windischmann:—"Y mae fod y gair yn arwyddo undod cynnulliadol, yn gosod allan nad oedd yr addewid wedi ei gwneuthur i Abraham ac i'w blant, yn wrthwynebol i ragfarn yr Iuddewon cnawdol, y rhai a honent fod yr addewid yn perthyn i'r lliosogrwydd o honynt hwy, hiliogaeth bersonol y patriarch, fel y cyfryw. Y mae yr apostol yn dal allan y gwirionedd, nad oes i neb gyfran yn yr addewid ond yn unig yr undod—Crist, ynghyd â'r rhai a gydgorphorir ynddo ef." Y mae Olshausen yn cyfleu yr un syniad yn gryf ac yn oleu yn y dyfyniad canlynol:—"Yr oedd Paul yn dymuno gosod hiliogaeth Abraham, mewn un ystyr, yn gyferbyniol i'r hiliogaeth hwnw mewn ystyr arall, fel nad ydyw efe yn llefaru am bersonau unigol, ond am ddosbarthiadau o bersonau. Megys nad oedd yr holl blant o gorph Abraham yn etifeddion o'i fendith ef, eithr Isaac yn unig, fel y dangosir yn mhellach (*pen.* iv. 22, &c.), felly hefyd nid hiliogaeth Abraham, mewn ystyr naturiol yn unig, ydynt etifeddion ei addewidion ef; ond yn unig y Crist yn eu mysg hwynt yw yr etifedd hwnw, yr hwn (etifedd) a gyfansoddir o'r rhai a "gerddant iwybrau ffydd Abraham;" *Rhuf.* iv. 12. Y gwahaniaeth hwn rhwng had Abraham yn ol y cnawd ac yn ol yr ysbryd, gyda golwg ar eu perthynas âg addewidion grasol Duw, ydyw yr hyn sydd yn cael ei osod allan drwy y pwys a roddir ar y rhif unigol. Yn awr, pe gofynai rhywun a oedd y syniad yna yn cael ei gynnwys yn fwriadol yn y gair "had" yn y rhif unigol gan awdwr Llyfr Genesis, nis gallwn ni mewn un modd ddyweyd ei fod. Ond yr oedd gan Paul, fel yr holl ysgrifenwyr yn y Testament Newydd, trwy oleuni yr Ysbryd Glân, lawn allu i ymgyfodi uwch law y safle oddi ar ba un yr oedd yr ysgrifenydd yn ymwybodol yn edrych ar y pwngc, ac i ddadlenu gwirionedd mwyaf tumewnol y syniad, yn unol â meddwl yr hwn a addawai ac a brophwydai."—*Olshausen's Commentary on the Epistle to the Galatians*, td. 56. I'r un perwyl y mae Ellicott yn dal allan fod "ystyr cyfriniol i ddefnyddiad y gair Hebraeg yn *Gen.* xiii. 15, a xvii. 8, a gyfleithir "had," mor sicr a bod dadl dros yr adgyfodiad yn *Exod.* iii. 6, er nad oedd yr ysgrifenydd o angenrheidrwydd yn hysbys o hyny yn y naill le na'r llall. Megys ag y mae y gair Hebraeg am had yn gyffredin (oddigerth *Gen.* iv. 25; a 1 *Sam.* i. 11), yn ei ystyr syml yn dynodi, nid yn unig hiliogaeth dyn, ond ei olafiaid a'u hystyried yn un—yn eu cyfanrwydd cyd-

gyssylltiedig; felly yma, yn ei ystyr cyfriniol, y mae yn dynodi nid yn unig hiliogaeth ysbrydol Abraham, ond efe yn yr hwn y mae yr holl hiliogaeth hwnw wedi eu cyfluniol gydgyssylltu—y cyflawnder, y Pen, sef Crist." Y mae y darllenydd erbyn hyn, ni a dybiwn, yn hollol barod i edrych ar yr ymadrodd olaf yn yr adnod dan sylw yn ei wir a'i gyflawn ystyr:—"yr hwn yw Crist." Nid yr "Iesu Grist" personol yn unig: pe felly, fel y sylwa Alford, yr enwad personol "Crist Iesu" a ddefnyddiasid, fel yn *adn.* 28:—"Canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu." Yma, lle y dynodir y person yn unig, gofelir am roddi yr enw personol—Crist Iesu: ond yn yr adnod dan sylw, golyga y gair, yr Arglwydd Iesu Grist â'i eglwys ynddo, ac yn un âg ef. "Y gwirionedd ydyw, fod yn rhaid i ni osod ein hunain yn sefyllfa Paul gyda golwg ar y syniad am Grist, cyn y gallwn gymmeryd i mewn yr oll a feddyliai efe yn y fan yma wrth y gair. Y mae Cristionogion, nid drwy ffugr, ond yn wirionedd ol yn gorph Crist: y mae Crist yn cynnwys ei bobl, a gwnai hyd yn oed y crybwylliad am y Crist personol ddwyn gydag ef i feddwl yr apostol ei bobl crediniol fel y maent yn gynnwysedig ynddo. Yr had hwn yw y Crist; nid yn yr ystyr cyfyngaf yn unig—y dyn Crist Iesu: ond Crist yr Had, Crist yr Ail Adda, Crist Pen y corph.... Felly, tra y mae yn angenrheidiol, er mwyn ffurf yr ymresymiad yma, i'w ddynodi ef, i'r hwn y gwnaethpwyd yr addewidion....etto y mae yr apostol wedi dwyn ei enw i mewn yn y fath fodd fel ag i beidio cau am ei bersonoliaeth, ond yn gadael lle i gymmeryd i mewn ei gorph dirgeledig ef."—*Alford.* Yr ydym yn hyderu y gwelir erbyn hyn yn lled eglur mai ystyr yr adnod yn fyr ydyw hyn:—Ni wnaed y cyfammod yn unig, nac yn benaf, âg Abraham, ond âg Abraham a'i had; ac yr oedd yr had hwnw yn cyfeirio, nid at y genedl Iuddewig, ond at Grist. Yn awr, pan roddwyd y ddeddf, nid oedd y cyfammod yna wedi ei gyflawni; ond yr oedd y cyfammod y pryd hwnw yn aros ei gyflawniad, ac yn aros ymddangosiad y person hwnw â'r hwn y gwnaethpwyd ef.

17. *A hyn yr wyf yn ei ddywedyd.* — Cymmhwysiad o'r ymresymiad yn *adn* 15 a 16 at y mater dan sylw:—"Yn awr, y peth ydwyf yn ei feddwl—y peth a ddymunwn ei ddangos oddi wrth yr ymadroddion blaenorol—ydyw hyn." *Yr ammod.*—Yr un gair ag yn *adn.* 15: cyfammod ydyw y cyfeithiad goreu yn y ddau le. *A gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw.*—Nid yw y cadarnhâd hwn yn golygu gweithred ar wahân i'r cyfammod, ac ar ei ol o ran amser: cyfeirir yn hytrach at gadernid y cyfammod ei hunan. Yr un syniad o bossibl ag yn *Heb.* vi. 17, 18. *Yn Nghrist*—Y mae y beirniaid goreu, gan mwyaf, yn gwrthod y gair hwn fel llygriad ar y testyn gwreiddiol, er fod rhai (megys Ellicott) yn ammheus, ac yn ei adael i mewn rhwng cromfachau. *Nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi.*—Wrth gymharu y geiriau hyn â'r crybwyllion yn *Gen* xv. 13, ac *Exod.* xii. 40, ac *Act.* vii. 6. yr ydym yn

[t] Heb. 6. 13—18. wedi, yn ei ddirymu, [t]i wneuthur yr addewid yn ofer.

[u] Gal 2. 21. 18 Canys [u]os o'r ddeddf *y mae* yr etifeddiaeth, nid *yw* hayach o'r addewid: [x]ond Duw a'*i* rhad- [x] Adn. 16. roddodd i Abraham trwy addewid.

19 Beth gan hyny *yw* y ddeddf? O blegid troseddau y rhoddwyd hi

cyfarfod âg anhawsder amseryddol. Yn ol Paul yn y lle hwn, yr oedd yr ysbaid rhwng yr addewid i Abraham a rhoddiad y ddeddf yn 430 o flynyddoedd: ond yn *Exod.* xii. 40, rhoddir yr un nifer—ac yn *Gen.* xv. 13, ac *Act.* vii. 6, rhoddir y bras-gyfrif (*round number*) 400 mlynedd—am yr ymdaith yn yr Aipht yn unig. Ni a feddyliem, fel y mae Ellicott yn sylwi, fod yr hen ddull o egluro yr anhawsder hwn yn berffaith foddhaol, ac nad oes un gwell i'w gael. Hyny yw—fod y 430 mlynedd yn y llecoedd a nodwyd yn golygu mewn gwirionedd yr ymdaith yn Nghanaan (tua 215 o flynyddoedd) yn gystal a'r un yn yr Aipht, a bod yr olaf yn cael ei enwi i gynnrychioli y cwbl—yr oll o'u trigias "mewn gwlad nid yw eiddynt:" *Gen.* xv. 13. Cadarnheir y golygiad hwn gan yr ystyriaethau canlynol:—

1. Wrth gymmharu gwahanol amseriadau yn hanes y patriarchiaid, ymddengys fod yn ammhossibl i dymmor arosiad meibion Israel yn yr Aipht fod cyhyd a 430 mlynedd. Gwelir hyn oddi wrth gofrestrau teulu Lefi. Yr ydym yn cael fod Amram, ŵyr Lefi, yn priodi Iochebed chwaer ei dad (*Exod.* vi. 20: cymh. *Exod.* ii. 1, a *Num.* xxvi. 59). Gan yr ymddengys yn debygol, wrth gymmharu amseriadau, fod Lefi wedi ei eni pan oedd Iacob tua 87 mlwydd oed, buasai Lefi yn 43 pan y daeth i'r Aipht; yno y mae yn byw 94 o flynyddoedd: *Exod.* vi. 16. Gan hyny, a chaniatau hyd yn oed fod Iochebed wedi ei geni yn y flwyddyn jolaf o fywyd Lefi, buasai raid iddi fod o leiaf yn 256 mlwydd oed pan anwyd Moses, pe buasai yr ymdaith yn yr Aipht yn 430 mlynedd. 2. Y mae cyfeithiad y Deg a Thrigain o *Exod.* xii. 40 yn darllen fel hyn:—"Tra y trigasant yn ngwlad yr Aipht, ac yn ngwlad Canaan." Y mae yr un darlleniad yn y Pum Llyfr Samaritanaidd. Ceir yr un darlleniad hefyd yn y Vat. MS. a'r Alex. MS. Fel y sylwa Lightfoot, ymddengys mai dyma ydoedd yr amseriad a dderbynid yn gyffredinol: ceir ef gan Josephus, ac yn un o'r Targumau, ac mewn ysgrifeniadau Iuddewaidd ereill. 3. Yn ol y cyfrifon goreu a manylaf, y mae y trigiad yn Nghanaan ac yn yr Aipht gyda'u gilydd yn gwneyd i fyny y nifer hwn yn gymmhwys, 430 mlynedd—215 mlynedd i bob un. Os gofynir etto, Pa ham y mae y cyfrif yn cael ei roddi yn ddim ond 400 mlynedd yn *Gen.* xv. 13, ac *Act.* vii. 6?—gellir atteb mewn un o ddwy ffordd. (1.) Nad oes yn y ddau le hwn ond y bras-gyfrif (*round number*) yn cael ei enwi, ac nid y manwlgyfrif i'r flwyddyn: gwneir hyn gan bob awdwr. (2.) Fod y 430 mlynedd yn cychwyn o ddyddiad gwahanol: fod y blaenaf yn ymestyn dros yr holl ymdaith, o alwad Abraham yn Ur y Caldeaid i'r ymadawiad o'r Aipht; ond fod yr olaf yn cychwyn o enedigaeth Isaac, gan mai yn y bennod hono (*Gen.* xv.) y rhoddir yr addewid am Isaac; ac mai y cyfrifiad hwn a gymmerwyd gan Stephan yn Llyfr yr Actau (vii. 6). *Yn ei ddirymu, i wneuthur yr addewid yn ofer.*—Y canlyniad o "ddirymu" yr addewid fuasai ei "gwneuthur yn ofer." Yr oedd cadarnhâd yr addewid wedi cymmeryd lle "o'r blaen"—yn flaenorol i'r ddeddf, a hyny o flynyddoedd lawer. Gan hyny, yn unol â'r egwyddor a osodwyd i lawr yn *adn.* 15, nis gallasai y ddeddf, yr hon oedd wedi dyfod i mewn gymmaint yn ddiweddarach, ddirymu yr addewid, neu y cyfammod blaenorol.

18. *Canys os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth.*—Yr ymadroddion blaenorol yn cael eu cadarnhau, a'u hagor. "Canys:"—dyna a fuasai gosod yr etifeddiaeth i ymddibynu ar y ddeddf, sef dirymu yr addewid, a'i gwneuthur yn ofer. Y mae y "canys" yn cyfiawnhau yr ymadroddion "dirymu" a "gwneuthur yn ofer." Defnyddir y gair "etifeddiaeth," gan yr apostol yma yn ei ystyr uchaf, yn golygu yr holl fendithion a addawsid i Abraham fel yr oeddynt yn cael eu symio i fyny yn ei had ef; mewn geiriau ereill, holl fendithion teyrnas y Messiah—etifeddiaeth y Ganaan nefol, yr hon a gysgodid trwy yr un ddaearol.—*Ellicott, Alford. Nid yw hayach o'r addewid.*—"Nid yw mwyach." Golyga y gair "mwyach" yma, nid amser, ond canlyniad ymresymiadol. Y mae y geiriau "deddf" a "addewid" heb y fannod yn y testyn gwreiddiol, yn golygu dwy egwyddor gyferbyniol, y naill yn cau allan y llall:—Os o ddeddf, nid o addewid: fel "gras" a "gweithredoedd," yn *Rhuf.* xi. 6. *Ond Duw a'i rhad-roddodd i Abraham trwy addewid:*—sef, yr "etifeddiaeth." Awgryma yr "ond" fod yr hyn a ddywedir yn ffaith hollol adnabyddus. Nid ymddibynai mwynhâd yr etifeddiaeth ar unrhyw ammodau ni ddaethai trwy unrhyw gyfrwng, ond addewid—gweithred o ras pur. Dengys hyn, fel y sylwa Olshausen, yn gymmaint a bod y ddeddf yn dyfod i mewn rhwng yr addewid a'i chyflawniad, ac yn gofyn ufudd-dod gweithredol oddi ar law yr etifeddion i ba rai y gwnaethid hi, nas gallasai y ddeddf weithredu dim tuag at gyflawni yr addewid ar un llaw, ac nas gallasai chwaith, ei dirymu ar y llaw arall.

19. *Beth gan hyny yw y ddeddf?*—Y mae yr ymofyniad hwn yn cyfodi yn naturiol—'Beth gan hyny yw ystyr a dyben y ddeddf? Gan nad yw yn meddu unrhyw allu i ddirymu nac i gyflawni yr addewid, yn ol yr ymresymiad blaenorol, beth gan hyny oedd dyben ei rhoddiad? Onid yw y ddeddf yn sefydliad difudd ac ofer? I gyfarfod â'r wrthddadl naturiol hon, sydd yn cael ei hawgrymu ganddo ef ei hunan, y mae yr apostol yn egluro gwir ddefnydd y ddeddf, ei swyddogaeth, ei nodweddion, a'i pherthynas â'r cyfammod gras. *O blegid troseddau y rhoddwyd hi.*—Y mae llawer o olygiadau wedi eu cynnyg ar y frawddeg hon, yn cyfodi oddi ar y gwahanol ystyron a briodolir i'r gair "o blegid" (*charin*). Y mae tri yn deilwng o sylw:—1. Fod y ddeddf wedi ei rhoddi er mwyn attal troseddau, yn wrthglawdd i attal dylif llygredigaeth rhag gorchuddio y ddaear. Dyma farn amryw o'r tadau a'r hen esbonwyr, ynghyd âg ychydig o'r rhai diweddar. 2. Er mwyn lliosogi troseddau, eu galw allan, a'u gweithio i bwynt o aeddfedrwydd: "Eithr y ddeddf a ddaeth i mewn fel yr amlhâai y camwedd;" *Rhuf.* v. 20. Dyma farn Meyer, Lightfoot, Alford, &c. Y mae Alford yn egluro y golygiad hwn yn mhellach fel hyn:—fod swydd y ddeddf yn un ragwyddorol (*propœdeutic*), sef, i gyfansoddi pechod yn troseddau; gwneuthur yr hyn oedd yn y byd o'r blaen,

yn chwaneg, hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid; *a hi* a drefnwyd trwy angylion [y] yn llaw cyfryngwr.

[y] Exod. 20. 19—21; Lef. 1, &c.

20 A chyfryngwr nid yw *i* un; [z] ond Duw sydd un.

[z] Gen 15.18

sef pechod mewn ystyr cyffredinol, i ymffurfio yn awr, wedi ei ddwyn wyneb yn wyneb â deddf Duw yn drosedd: a thrwy hyny "gyd-gau" y byd o dan bechod, yr hyn yw "anghyfraith"—trosedd o'r gyfraith ddwyfol. 3. Y golygiad arall, a'r goreu, feddyliem, ydyw yr eiddo Awstin, Calvin, ac ereill—ac â'r hwn y mae Ellicott hefyd yn cyttuno—mai swydd y ddeddf oedd egluro troseddau, deffro argyhoeddiad o bechod yn y galon a'r gydwybod, trwy y dadleniad a wna y ddeddf o'i fawr ddrygedd, yn ei wrthdarawiad i natur a llywodraeth yr Anfeidrol—("Eithr pechod, fel yr ymddangosai yn bechod—fel y byddai pechod trwy y gorchymyn yn dra phechadurus;" *Rhuf.* vii. 13); a thrwy hyn ddwyn dyn i deimlo ei angen am Waredwr. *Yn chwaneg*:—nid yw hyn yn anghysson âg *adn.* 15; o blegid ni ddaeth y ddeddf i mewn fel ail destament neu gyfammod (*epidiathékē*) i newid neu osod o'r neilldu y cyfammod blaenorol, neu yr "addewid," ond fel sefydliad newydd, chwanegol at yr un oedd yn bod eisioes, ac fel y dangosir yn mlaen (*adn.* 24), un gwasanaethgar iddo.—*Meyer. Hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid*:—sef Crist. Ond nid yr Iesu personol yn unig, ond Crist â'r eglwys ynddo fel ei gorph ef (gwel ar *adn.* 16): felly yr ystyr ydyw—nad oedd y ddeddf ond trefniant dros amser yn unig, ac is-wasanaethgar i'r drefn newydd ac uwch ar bethau a ddygwyd i mewn trwy Grist.—*Olshausen. A hi a drefnwyd trwy angylion.*—Diau mai "angylion" yn ystyr priodol y gair a olygir, ac nid dynion yn cael eu galw felly trwy draws-enwad, megys Moses, Aaron, a'r prophwydi, fel y mae Chrysostom ac ereill wedi tybied. "A drefnwyd:"—*h.y.*, a weinyddwyd. Nid yr angylion oedd rhoddwyr y ddeddf, ond ei gweinidogion—ei gweinyddwyr offerynol: y mae y ddeddf bob amser gan Paul yn ddeddf Duw (*Rhuf.* vi. 22).—*Alford.* Nid yw yr hanes yn Exodus yn dywedyd dim am bresennoldeb a chydweithrediad angylion yn rhoddiad y ddeddf. Y crybwylliad cyntaf am hyn a geir yn *Deut.* xxxiii. 2. Yr oedd gweinidogaeth yr angylion yn rhoddiad y ddeddf yn cael ile arbenig yn y dduwinyddiaeth Iuddewig; ac y mae eu gwasanaeth ar yr achlysur hwnw yn cael ei gydnabod yn y Testament Newydd, yn araeth Stephan: *Act.* vii. 53; ac yn *Heb.* ii. 2. Pa un ai i fawrhau y ddeddf, ynte i ddangos ei hîs-raddoldeb i'r efengyl, y dywedir ei bod wedi ei threfnu trwy angylion? Yr amcan blaenaf oedd yn araeth Stephan—gweinidogaeth angylion yn cael ei chyferbynu â'r eiddo dynion. Yr olaf oedd amcan yr apostol yn *Heb.* ii. 2, lle y cyferbynir gweinidogaeth angylion â'r eiddo "yr Arglwydd" Iesu ei hunan. Yr olaf ydyw yr amcan yma hefyd, medd Lightfoot: cyfryngiad bodau crëedig yn cael ei ddal yn gyferbyniol i weithrediad uniongyrchol Duw ei hunan. Dadleua Alford (gyda Meyer) mai yr amcan arall sydd yma—mwyhau pwysigrwydd rhoddiad y ddeddf fel parotoad at Grist, mewn attebiad i'r gofyniad difriol braidd, "Beth gan hyny yw y ddeddf?" *Yn llaw cyfryngwr*:—"yn llaw:" dulliaith Hebreaidd neu Arameaidd; ystyr tebyg i "trwy"—gweinyddiad neu offerynoliaeth. Y cyfryngwr hwn ydoedd Moses: *Deut.* v. 5. Dyma ei deitl cyffredin mewn ysgrifeniadau Iuddewig: a gall fod cyfeiriad ato yn y cymeriad hwn yn *Heb.* viii. 6 (cymmharer ix. 15; xii. 24), lle y gelwir Crist yn "gyfryngwr cyfammod gwell." Y mae yn debyg fod yr apostol â'i olwg yna ar roddiad cyntaf y ddeddf: yn ei gweinyddiad dilynol a pharhaus yr archoffeiriad fuasai y "cyfryngwr." Er nad yw y gair "cyfryngwr" yn digwydd yn yr hanes Moesenaidd, y mae swyddogaeth gyfryngol Moses yn ymddangos yno yn amlwg: *Exod.* xx. 19; a *Deut.* v. 2, 5. Addefir mor gyffredinol yn awr mai Moses a olygir yma, fel y mae yn syn meddwl fod cynnifer o'r tadau yn deall y gair yn y llw hwn am Grist.

Y mae yn gwestiwn lled anhawdd ei benderfynu, fel yr awgrymwyd eisoes, pa beth ydoedd amcan yr apostol yn yr adnod hon yn gosod i lawr yr amrywiol nodweddion a berthynent i'r ddeddf. Os i brofi is-raddoldeb y ddeddf, buasai rhai o'r pethau a enwa, dybygid, yn tueddu yn hytrach i'r gwrthwyneb. Os i ddangos natur ogoneddus y ddeddf, buasai hyny drachefn yn milwrio yn erbyn amcan yr ymresymiad, a chysylltiad y cyd-destynau. Wrth gymmeryd y cwbl i ystyriaeth, yr ydym yn barnu yn gryf mai y golygiad blaenaf ydyw yr un cywir. Profi is-raddoldeb y ddeddf i'r addewid, neu yr efengyl, ydyw amcan yr apostol; ac nid yw dywedyd ei bod wedi ei threfnu trwy "angylion" yn anghysson â hyny; o' blegid yr oedd y ffaith fod cyfryngau yn cael eu defnyddio o gwbl, er iddynt fod yn angylion, yn dangos ei hisafiaeth i'r addewid, yn y wedd yr edrycha yr apostol arni yma. Gallai mai y wedd fwyaf naturiol ar y golygiad hwn ydyw yr un a ddyry Ellicott—mai yr amcan oedd nodi allan y gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddeddf a'r efengyl; ac oddi wrth hyny, fel canlyniad naturiol y cyferbyniad, natur derfynol a rhagddarbodol goruchwyliaeth y ddeddf. Y mae yma bedwar o'r gwahaniaethau hyn yn cael eu nodi. 1. Yr oedd y ddeddf yn sefydliad cyfyngedig ac ammodol: "o blegid troseddau y rhoddwyd hi yn chwaneg" (yn chwanegol at, ac yn ddilynol i'r addewid). Y mae hyn yn cynnwys yn mhellach, fel y sylwa Lightfoot, mai ei gwaith oedd condemnio, ac nid cyflawnhau—lladd, nid rhoddi bywyd: chwanegwyd hi i egluro ac i amlhau troseddau. 2. Terfynol a rhagddarbodol: "hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid." Wedi hyny diléid hi, a delai dylanwadau uwch i weithio oddi fewn. 3. Ni roddwyd hi yn uniongyrchol gan Dduw i ddyn. Yr oedd yma gyfyngiad dyblyg rhwng y rhoddydd a'r derbynydd. Rhoddwyd hi gan Dduw trwy gyfrwng angylion, y rhai a'i gweinyddent fel offerynau; derbyniwyd hi drachefn gan ddyn trwy gyfrwng Moses (a'r archoffeiriaid ar ol hyny, y rhai a'i gweinyddent ar hyd yr oruchwyliaeth). 4. Fel canlyniad i'r syniad o gyfryngwriaeth, yr ydoedd o natur cyttundeb, yn dibynu am ei gyflawniad ar gadwraeth ei ammodau gan y ddwy blaid yn y cyttundeb. Nid felly yr addewid, yr hon a ddeilliai yn gwbl o ewyllys Duw ei hunan, ac felly ydoedd yn ddiammodol a digyfnewid. Eglurhâd pellach ar y nodwedd olaf hwn ydyw *adn.* 20.

20. *A chyfryngwr nid yw i un; ond Duw sydd un.*—Yr ydym yn awr wedi dyfod at un o'r

21 ***A ydyw*** **y ddeddf gan hyny yn erbyn adnodau anhawddaf yn y Testament Newydd, fel y profir yn y nifer anhygoel bron o wahanol esboniadau a roddwyd arni; y rhai ydynt, meddir, dros bedwar cant o nifer! Chwi myned i osod ger bron y darllenydd y prif olygiadau ar yr adnod hon, tybiwn mai y peth mwyaf cyfleus fyddai rhoddi yn y dechreu y golygiad a ymddengys i ni y goreu, yr hwn yw yr eiddo Lightfoot. Y mae yn wir nad oes nemawr o wahaniaeth rhyngddo a'r eiddo Ellicott o ran sylwedd; ond ymddengys i ni mai Lightfoot sydd yn rhoddi gwir feddwl yr adnod yn y dull mwyaf syml ac mewn lleiaf o eiriau. Dyma fel y dywed:—"A chyfryngwr nid yw *i* un." Y mae y drychfeddwl o gyfryngiad ynddo ei hunan yn tybied dau berson o leiaf, rhwng y rhai y dygir y cyfryngiad yn mlaen. Y mae y ddeddf, gan hyny, o'r un natur a chyttundeb rhwng dwy blaid—Duw ar y naill law, a'r genedl Iuddewig ar y llaw arall. Nid yw mewn grym ond yn unig tra y parhao y ddwy blaid i gyflawni telerau y cyttundeb. Y mae felly yn ansicr, ac nid yn ddiammodol. [Y mae y fannod o flaen "cyfryngwr" (*ho mesitês*) yn gosod allan y drychfeddwl, y cynllun pennodol, megys *Ioan* x. 11;—"y bugail da."] "Ond Duw sydd un." Ond Duw (rhoddwr yr addewid) sydd un. Nid fel y ddeddf, y mae yr addewid yn berffaith sicr a diammodol. Y mae yn ymddibynu ar benderfyniad Duw yn unig. Nid oes dwy blaid yn ymgyfammodi. Nid oes dim o natur cyttundeb. Y rhoddwr yw pob peth, a'r derbynydd yn ddim. Fel hyn y mae ystyr cyntaf "un" yn y fan yma yn nodi rhif. Gellir hwyrach awgrymu y syniad pellach o anghyfnewidioldeb; ond os felly, y mae yn hytrach yn ddamweiniol nag yn hanfodol. Ar y llaw arall y mae y gosodiad hwn yn hollol ddigyssylltiad â dadganiad sylfaenol y gyfraith Foesenaidd, "Yr Arglwydd dy Dduw di sydd un Arglwydd," er ei fod yn debyg iddo o ran ffurf. Gallem feddwl fod y golygiad hwn yn myned i galon y mater, ac yn ymasio yn berffaith naturiol âg ymresymiad yr apostol yn y paragraph hwn. Yr oedd y ddeddf yn perthyn i gyttundeb rhwng dwy blaid, yr hyn a welir yn y ffaith fod "cyfryngwr" yn cael ei ddefnyddio: yr oedd y ddeddf gan hyny yn drefniant ammodol, ansicr, gan nad ydyw cyttundeb mewn grym ond tra y parhao y ddwy blaid i'w gadw. Ond am yr "addewid," nid ydyw yn dibynu ar ddwy blaid, ond ar un, a'r blaid hono ydyw Duw: gweithred o ras pur ydyw: ac felly yn *absolute*—yn ddiammodol, mor gadarn a'r Duw digyfnewid a'i rhoddodd. Dywed Alford nad yw yr wrthddadl fod yr efengyl hefyd "yn llaw cyfryngwr," yn gymmhwysadwy at y lle hwn:—1. O blegid nid oes un cwestiwn yma o berthynas i'r efengyl, ond yn unig i'r addewidion, fel yn uniongyrchol oddi wrth Dduw. 2. Y mae "cyfryngwr" yr efengyl yn hollol wahanol, a'i waith yn wahanol: y mae efe wedi hollol gymmodi y pleidiau gwrthwynebol, ac wedi eu gwneuthur yn un ynddo ei hunan. Mae Alford yn gosod i lawr yn mhell ach y rheolau canlynol o barth i esboniadaeth yr adnod:—"1. Y mae pob esboniad yn anghywir ag sydd yn golygu Crist wrth y gair "a chyfryngwr." Y mae y cyd-destyn yn ei benderfynu fel ymadrodd dansoddol (*abstract*), a bod ei gyfeiriad at Moses, cyfryngwr y gyfraith. 2. Y mae pob esboniad yn anghywir ag sydd yn golygu addewidion Duw? Na atto Duw: canys wrth *un*, yn y rhan olaf o'r adnod, "un blaid" yn y cyfammod. Y mae y frawddeg, "Duw sydd un," arni ei hun yn gwrthbrofi pob golygiad felly, gan ei bod yn osodiad cyffredinol, hollol adnabyddus, ac yn gyfryw na oddefa ei hesbonio i ystyr cyfyng a neilltuol. 3. Y mae pob esboniad yn anghywir sydd yn cyfyngu "un" i'w ystyr rhifyddol yn unig, ac heb gymmeryd i mewn y syniadau y gwnai; y gosodiad cyffredinol eu cyfodi. 4. Y mae pob esboniad yn anghywir ag sydd am gasglu oddi wrth yr adnod gyttundeb y ddeddf a'r addewidion; o blegid y mae yr apostol ei hun yn yr adnod nesaf yn tynu casgliad hollol groes i hyny oddi wrthi, ac yn gwrthbrofi hyny ar seiliau ereill hefyd. 5. Y mae pob ymgais i ymwrthod â'r adnod fel llygriad, neu chwanegiad anawdurdodedig at y testyn gwreiddiol yn hollol ofer."**

Er i'r nodiad hwn fyned yn lled faith, nid ammhriodol, fe allai, gydag adnod mor bwysig ac anhawdd, fyddai chwanegu dau neu dri o'r prif olygiadau a gynnygiwyd arni. Rhoddwn yr eiddo Alford i ddechreu:—"Y mae 'cyfryngwr' yn golygu dwy blaid, gan mai ei waith yw myned rhyngddynt. Felly, y syniad cyntaf ydyw y cyferbyniad mewn rhif—un, yn gyferbyniol i ddau; 'cyfryngwr, nid yw i *un*, ond Duw sydd *un*.' Ond y mae yn ddiammheu fod y gosodiad, 'Duw sydd un,' yn cynnwys mwy nag undod Duw yn yr ystyr o nifer; golyga ei unoliaeth ef fel priodoledd hanfodol, yn ymestyn trwy yr holl gymmeriad dwyfol. Ac fel hyn, er na fuasai y gosodiad—'a chyfryngwr nid yw i un'—arno ei hunan yn cyfiwyno unrhyw ystyr heb law hyny, sef fod cyfryngwr yn perthyn i fwy nag un; etto, pan y cyssylltid ef â'r gosodiad, 'Duw sydd un,' buasai yn derbyn cysgod o ystyr nad oedd o'r blaen yn ei ddwyn; sef, y fath sefyllfa ar bethau, cynnwysedig yn y ffaith fod cyfryngwr yn cael ei ddefnyddio, ac nad ydoedd yn gydredol âg unoliaeth Duw, neu, a llefaru felly, nad ydoedd yn gorwedd yn mhrif lwybr ei fwriad digyfnewid. Ac fel hyn, y mae y ddeddf, yr hon a weinyddwyd gan y cyfryngwr, ac a berthynai i'r sefyllfa hono ar bethau o fod heb fod yn un—dau mewn ymrafael—y mae y ddeddf hono mewn ymddangosiad yn wrthwyneb i'r addewidion, y rhai a berthynent yn hollol i'r un—yr un Duw ffyddlawn." Rhoddwn yn nesaf olygiad Olshausen:—"Bwriedid *adn.* 19, y mae yn wir, i osod allan ragoriaeth perthynasol y ddeddf, ond yn y fath fodd fel ag yr oedd ei hisraddoldeb i'r efengyl o hyd yn amlwg. Dwyn yr is-raddoldeb hwn i sylw ydyw yn hollol yr hyn a amcana yr apostol wrth roddi yr eglurhad hwn ar y syniad o gyfryngwr. Y mae y cyfryngiad yn rhagdybied y sefyllfa o fod ar wahân; nis gellir cyfryngu dros un: gan mai Duw ydyw un blaid, rhaid fod yna hefyd blaid arall—dynolryw—y rhai oeddynt wedi gwahanu oddi wrth Dduw. Ond yn yr efengyl, y mae yn wahanol. Yn Nghrist, cynnrychiolydd yr eglwys, y mae yr oll yn un, y mae pob ymraniadau a gwahaniaethau wedi eu diddymu ynddo ef, fel y dangosir yn *adn.* 28." Chwanegwn etto ddyfyniad o nodiad rhagorol Ellicott ar yr adnod. Gwelir fod ei olygiad ef, fel y crybwyllwyd eisoes, yn debyg o ran sylwedd i'r eiddo Lightfoot; ond ar yr un pryd yn hollol annibynol (wedi ei gyhoeddi flynyddoedd o'i flaen), ac yn cael ei roddi mewn

pe rhoisid deddf a allasai fywhau, yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder.

[b]Salm143.2. 22 Eithr [b]cyd-gauodd yr Ysgrythyr bob peth dan bechod, [c]fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist [d]i'r rhai sydd yn credu.

[c]Rhuf. 5. 20, 21; 1 Ioan2.25. [d]Marc 16. 16; Act. 16. 31.

gwedd ychydig yn wahanol:—"Y mae y cyddestyn (*adn.* 19), yn gosod i lawr yn fyr y pedwar nodwedd gwahaniaethol a berthynent i'r ddeddf fel y crybwyllwyd yn barod, gyda chyfeiriad distaw at yr addewidion. Eir heibio i dri o'r rhai hyn; gwneir sylw ar yr olaf, fel yr un mwyaf pwysig. Yr oedd y ddeddf *gyda*, yr oedd yr addewid *heb* gyfryngwr. Ymddengys *adn.* 20 fel hyn yn gyfresymiad, y casgliad perthynol i'r hwn a adewir allan:—

Yn awr, nid yw cyfryngwr yn perthyn i un (yn sefyll neu yn gweithredu yn unigol).

Ond (yn yr addewid) *Duw sydd un* (sydd [yn sefyll ac yn gweithredu yn unigol).

Gan hyny (yn yr addewid) *nid oes gyfryngwr yn perthynu i Dduw."*

A ydyw y ddeddf, gan hyny (goruchwyliaeth ag ydoedd, heb law amryw o wahaniaethau ereill, yn cynnwys cyfryngwr) *yn erbyn yr addewidion y rhai a orphwysent ar Dduw* (ac na chynnwysent gyfryngwr)? *Na atto Duw.*—Yn ol y golygiad hwn, y mae yr unig wir anhawsder yn cael ei gyfyngu i'r ail osodiad. Pa fodd yr oedd Duw yn un? Ac ymddengys mai yr atteb ydyw, Nid am ei fod yn hanfodol yn undod: nac am ei fod yn un wrtho ei hunan, ac Abraham yn un wrtho ei hunan; na chwaith am ei fod ar unwaith y rhoddwr (y Tad) a'r derbynydd (y Mab) mewn undeb: ond, gyda'r wedd y mae y rhan olaf o *adn.* 18 yn ei roddi ar yr holl ymresymiad, am ei fod yn ymwneyd âg Abraham yn unigol ac uniongyrchol, yn sefyll wrtho ei hun, ac heb ddefnyddio un cyfryngwr. Os teimlir anhawsder i gyssoni hyn oll â'r gwirionedd fod cyfryngwr hefyd yn yr efengyl, "y dyn Crist Iesu," rhaid cofio fod y cyfryngwr hwn yn Dduw; ac felly nid yw yn ysgogi dim ar osodiad yr apostol, "Duw sydd un." Yn wir y mae hyn yn ei gadarnhau: nis gellid meddwl am unrhyw brawf cryfach na hyn, mai y rhoddwr ydyw pob peth yn yr addewid a'r derbynydd yn ddim. Dywed Lightfoot ar hyn:—"Gwelir fod ymresymiad Paul yma yn gorphwys mewn effaith ar dduwdod ein Harglwydd fel ei sylfaen. Onid ê, fel arall, buasai efe yn gyfryngwr yn yr un ystyr ag yr oedd Moses yn gyfryngwr. Y mae Paul ei hun yn llefaru am ein lachawdwr fel cyfryngwr mewn ystyr arall, ac uwch: 1 *Tim.* ii. 5."

21. *A ydyw y ddeddf, gan hyny, yn erbyn addewidion Duw?*—Yr ydys wedi gweled fod y ddeddf yn dra gwahanol i'r addewid, ond a ydyw o blegid hyny yn wrthwyneb i'r addewid? A ddarfu i'r ddeddf ymyraeth â'r addewid? Yn hollol fel arall.—*Lightfoot.* Y mae y "gan hyny" yn casglu i fyny yr ymresymiad blaenorol, ac yn cymmhwyso yn uniongyrchol y casgliad amlwg oddi wrtho: "A ydyw cyfundrefn a addefir sydd yn wahaniaethol, yn seremoniol, ac yn gyfryngol, yn sefyll mewn gwrthwynebiad i'r addewidion a roddodd Duw i Abraham heb gyfryngwr, ac heb unrhyw seremoniau gwahaniaethol?" Y mae pwys ar y gair *Duw* yma—"yr addewidion syddlyn ymddibynu yn uniongyrchol ar Dduw, ac heb eu cadarnhau gan yr un cyfryngwr." Defnyddir y rhif liosog "addewidion," fel yn *adn.* 16, mewn cyfeiriad at wahanol ail adroddiadau o'r addewid, ac i awgrymu yr amrywiol ffyrdd oedd mewn golwg i'w chyflawni. —*Ellicott. Canys pe rhoisid deddf a allasai fywhau.* — Prawf o wirionedd y dadganiad blaenorol. Cynnwysai y "bywhau" hwn fywyd ysbrydol yn y byd hwn, a bywyd o ogoniant yn y byd a ddaw; yr oedd y ddau yn anwahanol yn syniad yr apostol. Y mae y ddau yn yr "etifeddiaeth."—*Lightfoot. O'r ddeddf y buasai cyfiawnder.*—Y mae y cwestiwn wedi cael ei ofyn, pa un ai ymresymu y mae yr apostol yma oddi wrth yr effaith ("bywhau") at yr achos ("cyflawnder"), ai ynte oddi wrth yr achos ("bywhau" yn yr ystyr o fywyd moesol newydd) at yr effaith ("cyflawnder")? Y cyntaf yn ddiammheu: "cyflawnder" sydd yn y canol rhwng "y ddeddf a bywyd." Pe buasai y ddeddf yn rhoddi bywyd, y ddeddf fuasai yn cyflawnhau, a buasai y ddeddf felly yn dyfod yn lle yr addewid. Ond nid dyma oedd effaith deddf Moses, fel y dangosir yn yr adnodau dilynol.

22. *Eithr cyd-gauodd yr Ysgrythyr bob peth dan bechod.*—"Eithr:" mor bell o fod cyflawnder o'r ddeddf, fel mai y gwrthwyneb ydyw y ffaith. "Yr Ysgrythyr:"—Ysgrythyr yr Hen Destament wedi ei phersonoli, fel cynnrychiolydd yr hwn a'i llefarodd. Gwnaeth yr Ysgrythyr hyn trwy dystiolaethu mai fel hyn yr ydoedd pethau yn bod. Yn ol Alford ac Ellicott, golyga yr Ysgrythyr yn y lle hwn rediad cyffredinol yr Ysgrythyr, yn hytrach nag unrhyw destyn neilldiol, fel yr ydys yn cael yr apostol, yn *Rhuf.* iii. 10—18, yn casglu ynghyd lawer o adnodau i'r pwrpas hwn. Dadleua Lightfoot ar y llaw arall fod yma gyfeiriad at adnod neu gyfres neilldiol o'r Ysgrythyr, am y rhesymau canlynol:—1. Pan y mae y cyfeiriad yn amlwg at yr ysgrifeniadau sanctaidd yn y cyfanswm, y rhif liosog, "Ysgrythyrau," a ddefnyddir bob amser: *Act.* xvii. 11; xviii. 24, 28. 2. Ceir yn fynych yr ymadroddion "ysgrythyr arall" (*Ioan* xix. 37), "yr ysgrythyr hon" (*Luc* iv. 21), a "pob ysgrythyr" (2 *Tim.* iii. 16). 3. "Yr Ysgrythyr" a ddefnyddir fynychaf i ddwyn i mewn ddyfyniad neilldiol; a phan nad yw yn cael ei nodi, y mae yn hawdd casglu yn gyffredin oddi wrth y cyd-destyn at ba adnod y cyfeirir. Tybia Lightfoot fod y cyfeiriad yma at *Salm* cxliii. 2 (dyfynedig yn *pen.* ii. 16), neu at *Deut.* xxvii. 26 (dyfynedig yn *pen.* iii. 10). Y mae "cyd-gau dan bechod" yn ymadrodd cryf. Arwydda y rhagddawd "cyd," nid yn gymmaint fod pawb yn yr un cyflwr (fel y dywed Bengel), ond yn hytrach (fel Meyer), gwasgiad—darostyngiad i lywodraeth a chondemniad pechod heb fodd i ddiangc. Cynnwysa y ffugr hwn, medd Lightfoot, ddau ddrychfeddwl; un yn yr adnod hon, a'r llall yn yr un ddilynol. Y syniad yma yw, caethiwed neu ormes: yr oeddynt wedi eu dwyn dan arglwyddiaeth pechod, wedi eu cloi i fyny yn ei garchardy, ac felly yn cael eu gwneyd yn deimladwy o'i rym. Yn ol Bengel, Jowett, ac ereill, y mae y "pob peth" yn cynnwys nid yn unig dynion, ond eu holl weithredoedd—pob peth dynol. Y mae Ellicott a Lightfoot yn gwrthod hyn, ac yn dal nad ydyw y gair yn y canolryw (*neuter*) wedi ei ddewis, ond am ei fod yr ymadrodd mwyaf eang. *Fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist*

23 Eithr cyn dyfod ffydd, y'n cadwyd dan y ddeddf, wedi ein [a] Luc 10. 23, 24; 1 Pedr 1. 11, 12. cyd-gau [a] i'r ffydd, yr hon oedd i'w dadguddio.

24 Y ddeddf gan hyny oedd ein hathraw ni at Grist, fel y'n cyfiawnhäid trwy ffydd.

25 Eithr wedi [f] dyfod ffydd, [g] nid ydym mwyach dan athraw.

[f] Adn. 23. [g] Heb. 7. 11–19; 8. 3–13.

26 Canys [h] chwi oll ydych blant i Dduw trwy ffydd yn Nghrist Iesu.

[h] Ioan 20. 17; Rhuf. 8. 14–17; Phil. 2. 15; Heb. 2. 10–15.

27 Canys [i] cynnifer o honoch ag

[i] Mat. 28. 19, 20; Marc 16. 15, 16; Act. 8. 36–38; Rhuf. 6. 3, 4.

---

i'r rhai sydd yn credu.—Y mae y "fel" (*heina*), yn golygu, nid y canlyniad yn unig, ond amcan Duw; megys yn *Rhuf.* xi. 32. Y mae yr ymwybyddiaeth o bechod yn gam angenrheidiol tuag at gyfiawnhâd. Golyga "yr addewid" y pethau a addawsid, cynnwys yr addewid, sef yr "etifeddiaeth." Y mae yn deilliaw o ffydd fel ei ffynonell a'i gwreiddyn—y ffydd hono ag y mae "Iesu Grist" yn rhoddydd yn gystal ag yn wrthddrych o honi. Nid yw "trwy ffydd" ac "i'r rhai sydd yn credu" yn ail adroddiad afreidiol. Addefai gwrthwynebwyr Paul nas gallai neb ond credinwyr etifeddu yr addewid; ond dalient hwy eu bod yn ei chael trwy eu gweithredoedd. Ar gyfer hyny, dywedir yma ei bod yn dyfod "i'r rhai sydd yn credu," a hyny "trwy ffydd."

23. *Eithr.*—Nid ydyw y gair yn hollol mewn ffordd o gyferbyniad; ond dwg ni gam yn mlaen yn yr eglurhâd ar swydd a lle y ddeddf yn ei pherthynas â ffydd; ettо y mae yr eglurhâd hwnw yn cynnwys cyferbyniad. *Cyn dyfod ffydd.* —Nid gwrthddrychau ffydd, ond y ffydd oedd newydd ei chrybwyll—"ffydd Iesu Grist;" y ffydd hono nad oedd yn bod (yn yr ystyr briodol) hyd ddyfodiad Crist.—*Alford. Y'n cadwyd dan y ddeddf, wedi ein cyd-gau.*—Dywed Lightfoot fod y gair hwn yn rhoddi yr ail syniad sydd yn y gymmhariaeth o "gyd-gau" (gwel ar *adn.* 22), sef gofal gwyliadwrus—cadw mewn gwarchodaeth, *in ward.* Yr oedd y genedl luddewig wedi eu cau i mewn o amgylch fel pobl briodol, fel y byddai iddynt mewn amser cyfaddas ddyfod yn ystordy yr efengyl, ac yn ganolbwynt ei lled aeniad. Y mae Ellicott a'r esbonwyr goreu yn cyssylltu y "cyd-gau," nid â'r geiriau ar ei ol—"i'r ffydd, &c.," ond â'r geiriau blaenorol, "dan y ddeddf;" "y'n cadwyd dan warchodaeth wedi ein cau i fyny dan y ddeddf:" y ddeddf yma, yn ol Ellicott, yn cael ei gosod allan fel ceidwad carchar, i gadwraeth yr hwn yr oeddym wedi ein trosglwyddo. *I'r ffydd.*—Y mae yr arddodiad "i'r" (*eis*) yn golygu yma, nid canlyniad yn unig, ac nid amser ("hyd nes"), ond bwriad; ac y mae i'w gyssylltu (medd Alford), nid â'r "cau i fyny," y weithred orphenol (nid "cyd-gau i'r ffydd"), ond â'r ferf arall—y cyfiwr o fod yn cael ein cadw dan warchodaeth. Dywed Lightfoot fod y defnydd a wneir o'r gair "ffydd" yn yr adnodau hyn (22, 23, 25) yn cyssylltu dwy ystyr eithaf y gair, gan fyned drosodd o'r naill i'r llall: (1.) *Ffydd*—ystâd du mewnol y Cristion. (2.) *Y ffydd*—yr efengyl, y ddysgeidiaeth oddi allan, y gyfundrefn o ba un y mae "ffydd" yn brif nodwedd. *Yr hon oedd i'w dadguddio.*—"Cyhyd ag nad oedd y fath beth yn bod a ffydd yn Nghrist, yr oedd y ffydd hon etto heb ei dadguddio; yr ydoedd hyd yma yn elfen o fywyd yn gorwedd yn guddiedig yn nghynghor Duw."—*Meyer.*

24. *Y ddeddf gan hyny oedd ein hathraw ni at Grist.*—"Gan hyny:" canlyniad oddi wrth y mynegiad blaenorol. Nid y syniad o "ysgolfeistr" yw yr un a gyfleir trwy y gair a gyfeithir yma *athraw.* Nid yw y naill air na'r llall yn rhoddi yr ystyr yn fanwl. Ystyr llythyrenol *paidagógos* ydyw "arweinydd y plentyn," neu y bachgen. Caethwas ffyddlawn oedd y *paidagógos,* i'r hwn yr ymddiriedid holl ofal y bachgen, o'i flynyddoedd boreuaf nes y cyrhaeddai aeddfedrwydd oedran, i'w gadw oddi wrth ddrwg naturiol a moesol, ac i fyned gydag ef i'w chwareuon a'i efrydiau. Chwanega yr apostol y syniad ein bod yn feibion Duw, at yr hyn a ddywedasai yn *adn.* 23; ac yn awr fe drodd allan mai y "ddeddf" oedd ein "hathraw"—ein gwarcheidwad, hyd nes y deuem i'n hoed yn nyfodiad Crist.—*Alford.* Nid ydyw y gair i'w gyfyngu chwaith, fel y mae rhai yn gwneyd, i'r ystyr o "un i'n harwain i ysgol Crist." Nid oes yma gyfeiriad at waith Crist fel dysgawdwr. Y mae yn debyg fod y syniad yn cymmeryd i mewn holl waith y *paidagógos*— cadw dan warchodaeth fanwl a llym, arwain, dysgu, dysgyblu. Cyflawnai y ddeddf y swydd hon yn gadarnhaol mewn rhybuddion a bygythion; yn *nacaol* (yr hon yw y prif ystyr yma) mewn deffro y gydwybod, a gweithio argyhoeddiad o bechod.—*Ellicott. Fel y'n cyfiawnhäid trwy ffydd.* —Yn Nghrist, y mae yr etifedd wedi dyfod i'w oed: nid yw mwyach yn cael ei gadw dan warchodaeth, a'i gau i fewn; ondyn cael ei "gyfiawnhau trwy ffydd"—gweithred gŵr rhydd.—*Alford.*

25. *Eithr wedi dyfod ffydd.*—Y "ffydd" y sonir am dani yn *adn.* 23, â'r hon y mae y cyferbyniad. *Nid ydym mwyach dan athraw.*—Cyferbyniad rhwng rhyddid yr efengyl a chaethiwed y ddeddf—y cyflwr o fod dan warcheidwaeth "athraw" (*tutor, pedagogue*).

26. *Canys chwi oll.*—Cadarnhâd o wirionedd y geiriau blaenorol. Y mae pwys ar yr "oll," yn golygu Iuddewon a Chenhedloedd yr un modd, y rhai oedd dan y ddeddf, a'r rhai oedd heb y ddeddf. *Ydych blant i Dduw.*—Y mae "plant" yn air pwysig; yn hytrach "meibion" (*uhioi*), ac yn gyferbyniol i'r ystâd flaenorol o blentyndod. 'Yr ydych chwi yn awr yn feibion, ac felly yn hawlio breintiau a rhyddid meibion, fel y mae gwarchodaeth lem yr 'athraw' (*paidagógos*) yn darfod pan yr ydych chwi yn darfod a bod yn blant (*paides*)." Sylwa Lightfoot fod yr ymadroddion "meibion Duw," a "plant Duw," gan Paul yn cyfleu yn benaf y syniad o ryddid (*pen.* iv. 6, 7; *Rhuf.* viii. 14); a chan Ioan y syniad o ddidwyllder a chariad (*Ioan* iii. 1, 2. 10). *Trwy ffydd yn Nghrist Iesu.*—Dadleua rhai esbonwyr dros gyssylltu y geiriau "yn Nghrist Iesu," nid â "ffydd," ond â "phlant i Dduw"—"plant i Dduw yn Nghrist Iesu, trwy ffydd." Y mae Ellicott yn ymwrthod â'r cystrawiad, ac felly Alford, fel un annaturiol a diystyr. Dadleua Lightfoot drosto, gan ddal fod y geiriau yn cael eu tafluiddiwedd y frawddeg fel ag i ffurfio math o osodiad ar ei ben ei hun, ar yr hwn y mae yr apostol yn ymhelaethu yn yr adnod nesaf:—"Yr ydych yn feibion i Dduw trwy eich undeb â—eich hanfodiad yn Nghrist Iesu."

27. *Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd*

[a] Luc 15. 22; Rhuf. 13. 14; Eph. 4. 24. [l] Ioan 17. 20, 21; 1 Cor. 12. 12; Eph. 4. 4, 15, 16. [m] Rhuf. 4. 13, 14; 1 Cor. 3. 22; Heb. 11. 7.

[a] fedyddiwyd yn Nghrist, a [k] wisgasoch Grist.

28 Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes ‘na gwryw na benyw: [l] canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu.

29 Ac os eiddo Crist *ydych*, yna [m] had Abraham ydych, [m] ac etifeddion yn ol yr addewid.

yn Nghrist, a wisgasoch Grist.—“Canys :” prawf a chadarnhâd eglurhaol o'r haeriad blaenorol. Cyttunir mai y cyfeithiad cywir ydyw: “a fedyddiwyd i (*eis*) Grist.” Ymddengys fod ystyr *eis* gyda *baptizo*—“bedyddio i,”—yn ddeublyg: —1. Gesyd allan amcan, dyben: *Mat.* iii. 11; *Act.* ii. 38. 2. Arwydda undeb a chymmundeb: *Rhuf.* vi. 3. Dyna yr ystyr yma: undeb ysbrydol a dirgeledig âg ef yn enw yr hwn y gweinyddir yr ordinhâd; cymundeb â Christ ac ymgorphoriad yn ei gorph dirgeledig.—*Ellicott. A wisgasoch Crist.*—Tybiwyd gan rai fod y ffugr wedi ei gymmeryd oddi wrth y dillad gwynion yn y rhai y gwisgid y saw' a fyddent newydd eu bedyddio. Ond prin y gelli meddwl fod y dull neu y ddefod mewn bedydd wedi ei sefydlu mor foreu a hyn, fel ag y buasai cyfeiriad o'r natur yma ar unwaith yn ddealladwy. Y mae y gymmhariaeth yn dra chyffredin yn y Deg a Thrigain. — *Lightfoot.* Ymadrodd cryf yn dynodi ymgymmeriad cyflawn o natur un arall.—*Ellicott.*

28. Gosodir allan yma y canlyniad ymarferol o “wisgo Crist.” Y mae y “wisg” newydd a sanctaidd yn peri i bob gwahaniaeth arall, pa un bynag ai o genedl (“Iuddew na Groegwr,”) ai o sefyllfa (“caeth na rhydd,”) neu hyd yn oed o ryw (“gwryw na benyw”), gael eu colli o'r golwg a'u hanghofio. Cedwid i fyny y gwahaniaeth cenhedlaethol trwy yr oesoedd yn y grefydd Iuddewig. Yr oedd gwahaniaeth sefyllfa yn rhedeg drwy holl gyfundrefn gymdeithasol a chrefyddol y gwledydd paganaidd: byddai y caethion yn cael eu cau allan yn llwyr o rai o'r temlau a'r defodau paganaidd; ac yr oedd y gwahaniaeth rhyw yr un modd yn mhlith y cenhedloedd paganaidd yn peri fod y wraig yn cael ei darostwng i sefyllfa o gaethiwed a diraddiad mawr:—“Ond yn Nghrist yr ydych oll yn feibion, oll yn rhydd. Ysgubwyd ymaith bob attalfa. Nid oes unrhyw hawliau neilltuol, nac anghymmwysderau neilltuol yn bod ynddo ef—nis gall yr un fod. Y mae y gwahaniaethau a gyd-nabyddir o ddosbarth crefyddol, neu o radd gymdeithasol, wedi eu hallteudio oddi yma. Un galon sydd yn curo yn yr oll; un meddwl sydd yn arwain yr oll; un bywyd sydd yn cael ei fyw gan yr oll. ‘Chwi oll un ydych (‘un dyn, un gŵr, un person’) yn Nghrist Iesu;’ canys aelodau ydych o Grist.”—*Lightfoot.*

29. *Ac os eiddo Crist ydych.*—“Ond os” yn hytrach (*de*). Cymmer i fyny yr ymresymiad ar ol *adn.* 27: y mae *adn.* 28 wedi ei rhoddi i mewn megys rhwng cromfachau. Yn llythyrenol, “Ond os ydych o Grist;” nid “eiddo Crist,” medd Lightfoot, na “gweision Crist,” ond “os ydych yn rhan o Grist—yn aelodau o Grist.” Y mae yr ymresymiad yn troi ar y ffaith fod credinwyr yn hollol yr un peth a Christ—yn rhan o hono. *Yna had Abraham ydych.*—‘Os ydych chwi fel hyn yn un â Christ, rhaid eich bod chwi yr hyn ydyw yntau, sef had Abraham :—gwel

PENNOD IV.

1 *Ein bod ni dan y ddeddf hyd ddyfodiad Crist, fel y mae yr etifedd dan ei ymgeleddwr nes ei ddyfod i'w oed: 5 eithr darfod i Grist ein rhyddhau ni oddi wrth y ddeddf: 7 nad ydym ni gan hyny weision iddi mwyach. 14 Y mae efe yn cofio eu hewyllys da hwynt tuag atoef, a'r eiddo yntau trag atynt hwythau: 22 ac yn dangos mai meibion i Abraham ydym ni o'r wraig rydd, ac nid o Agar, y wasanaethferch.*

adn. 16—o blegid efe ydoedd ‘yr had i'r hwn y gwnaethid yr addewid ;” *adn.* 19. *Ac etifeddion yn ol yr addewid.*—Gan mai i Abraham a'i had y gwnaethpwyd yr addewid, a chan eich bod chwi yn had Abraham, yna yr ydych yn etifeddion yr addewid. Ond, fel y dywed Ellicott, gosodir yr etifeddiaeth yn yr adnod hon mewn modd hollol, arni ei hunan (*absolute*): yr oeddynt, nid yn unig yn etifeddion Abraham, ac hyd yn oed yn etifeddion yr addewid yn unig, ond yn “etifeddion ;” sef o'r oll a gynnwysid yn yr addewid, yr iachawdwriaeth a theyrnas Crist. Y mae y geiriau “yn ol yr addewid” yn bwysleisiol : daw yr ystyr allan yn fwy eglur wrth eu cyfieithu fel y maent yn llythyrenol, heb y fannod :—“Yr ydych yn wir yn etifeddion, ond etifeddion, cofiwch, yn ol addewid (yn y ffordd neu y drefn o addewid), ac nid yn ol deddf nac unrhyw ddefodau deddfol.” Rhoddir y gosodiad i lawr yn *adn.* 7, mai “y rhai sydd o ffydd” yw gwir blant Abraham : “ac yn awr,” medd Ellicott, “y mae y gosodiad hwnw wedi ei brofi a'i agor gan 22ain adnod o'r ymresymiad mwyaf dwfn, mwyaf amrywiog, a mwyaf cynnwysfawr ag sydd yn bod y tu fewn i holl gwmpas ysgrifeniadau yr apostol mawr.”

Pennod iv.

1—7. Yr oedd yr apostol yn y paragraph blaenorol wedi gosod allan ystâd yr eglwys cyn dyfodiad Crist yn gyffelyb i'r eiddo y bachgen o dan “athraw” neu warcheidwad (*pen.* iii. 24); ond yn awr yr oedd credinwyr yn “blant” (*adn.* 26), hyny yw, yn “feibion” cyflawn oed, ac felly yn “etifeddion” (*adn.* 29)—nid mewn hawl a disgwyliad mwyach, ond yn weithredol. Y mae y saith adnod cyntaf o'r bennod hon yn cadarnhau ac yn egluro yr un gwirionedd. Yr oedd yr etifedd, pan yn fachgen, yn gosod allan gyflwr y byd yn gystal a'r eglwys cyn yr efengyl. Ymddengys fod yr apostol yn cynnwys cenhedloedd yn gystal ag Iuddewon fel rhai “o dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr,” gan eu bod oll, i raddau mwy neu lai, wedi bod yn ddarostyngedig i gyfundrefn o ordeiniadau defodol, ac felly wedi dyfod trwy fath o addysgiaeth ddysgyblaethol. Y mae dau gwestiwn yn cyfodi gyda golwg ar y gymmhariaeth a ddefnyddia yr apostol :—1. A ydyw y gymmhariaeth yn tybied fod tad yr etifedd yn fyw, ai ynte wedi marw? Y mae yn wir fod y gymmhariaeth, o ran ei chymhwysiad, yn cyfeirio at Dad byw : y mae yr etifeddion ysbrydol yn dyfod i feddiant o'r etifeddiaeth, er nad yw eu Tad byth yn marw. Ond yn y gymmhariaeth ei hunan, ymddengys fod tybiaeth o farwolaeth y tad: dyma y pwynt yn yr hwn y mae y gymmhariaeth yn syrthio yn fyr o gyfatteb i'r sylwedd. 2. Y mae wedi bod yn destyn ymholiad—A ydyw yr apostol yn benthyca ei gyffelybiaeth oddi wrth y gyfraith Rufeinig, ynte yr un Iuddewaidd; neu fel y tybia rhai, oddi wrth ryw

B. A. 57

A *HYN* yr wyf yn ei ddywedyd: [a]dros gymmaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl;

[a] Gen. 24. 2, 3; 2 Bren. 11 12.

2 Eithr y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad.

[b] Dan. 9. 24-26; Malacia 3. 1.

3 Felly ninnau hefyd, pan oeddym fechgyn, oeddym gaethion dan wyddorion y byd:

[c] Esa. 43. 15, 17; Ioan 3. 16, 17; 10. 36; 1 Ioan 4. 9, 10 14.

4 Ond pan [b]ddaeth cyflawnder yr amser, [c]y danfonodd Duw ei

ddeddf neilldduol mewn grym yn Galatia? Cyn belled ag y mae yn cyfeirio mewn modd pendant at unrhyw ffurf o gyfraith gwarcheidwaeth, ymddengys mai yr un Rufeinig oedd hono; ond yr un pryd, gellid meddwl mai y syniad cyffredinol am swydd gwarcheidwad sydd o flaen meddwl yr apostol, yn hytrach nag unrhyw ddeddf bendant o berthynas iddi.—*Lightfoot.*

1. *A hyn yr wyf yn ei ddywedyd.*—Arferir y ffurf hon i ddwyn i mewn barhâd o ymresymiad eglurhaol, ac nid yn unig i egluro meddwl brawddeg neu ddywediad blaenorol. *Yr etifedd:*—sef, pob etifedd. *Yn fachgen.*—Yr ystyr yw, un dan oed (*nêpios, an infant, a minor*), yn gyferbyniol i un wedi cyrhaedd oedran cyflawn. *Nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas.*—Y mae y gair "gwas" yma yn golygu caethwas (*doulos*). Yr oedd yr etifedd dan oed yn cael ei osod gan y gyfraith mewn sefyllfa dra chyffelyb i'r eiddo y caethwas. Nis gallai gyflawni unrhyw weithred, ond trwy ei gynnrychiolydd cyfreithiol. Y gwarcheidwad ydoedd y cynnrychiolydd hwnw gyda golwg ar un dan oed, a'r meistr gyda golwg ar y caethwas: yr oedd y naill a'r llall yn sefyll dros y rhai a gynnrychiolid ganddynt yn eu perthynas â'r llywodraeth; ac yr oedd eu cydsyniad hwy yn angenrheidiol i sicrhau unrhyw gyttundeb neu ymrwymiad yr elid iddo ar eu rhan. Gelwid y person cyfrifol hwn yn iaith y gyfraith yn "arglwydd."—*Lightfoot. Er ei fod yn arglwydd ar y cwbl.*—Yr ydoedd yr etifedd felly o ran perthynas a hawl, er nad o ran meddiant presennol.

2. *Ymgeleddwyr a llywodraethwyr.*—Y mae y blaenaf o'r ddau air yn golygu yn fwyaf neilldduol gwarcheidwaid neu ymddiriedolwyr, cynnrychiolwyr cyfreithiol yr etifedd, y rhai a gymmerent ofal am ei berson, ynghyd â'i addysg a'i ddygiad i fyny; tra y mae y "llywodraethwyr" yn golygu goruchwylwyr (*stewards, bailiffs*), y rhai a ofalent am ei dŷ a'i feddiannau. *Yr amser a osodwyd gan y tad:*—sef yr amser i'r etifedd ddyfod i'w oed, ac i fwynhâd o'i holl freintiau. Gan fod yr "amser" hwn yn cael ei benderfynu gan y gyfraith, yn mhlith yr Hebreaid yn gystal ag yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, pa fodd y sonir am dano yma fel yn ymddibynu ar bennodiad y tad? Cynnygiwyd amryw ystyriaethau i roddi cyfrif am hyn:—1. Er nad oedd amser gwarcheidwaeth yr etifedd yn cael ei benderfynu gan ewyllys y tad, etto mai y tad oedd yn pennodi y personau i weithredu fel gwarcheidwaid. 2. Fod parhâd y tymmor i'r etifedd fod dan "ymgeleddwyr a llywodraethwyr" mewn rhyw amgylchiadau neilldduol yn cael ei ymddiried i'r tad. 3. Fod iaith yr apostol yn y lle hwn yn dduwinyddol, yn hytrach na chyfreithiol. 4. Fod cyfeiriad yn cael ei wneyd yma at ryw freintiau eithriadol ag yr oedd y gyfraith Rufeinig yn eu caniatau mewn achosion fel hyn i'r Galatiaid.

3. *Felly ninnau hefyd.*—Cymmhwysiad o'r gymmhariaeth yn yr adnodau blaenorol. Y mae peth gwahaniaeth barn ar y cwestiwn—pwy yn fwyaf neilldduol a olygir wrth y "ninnau" yn y lle hwn: pa un ai Iuddewon ai Cenhedloedd, ynte y naill fel y llall? Barna Ellicott fod y cyfeiriad yn gyntaf ac yn benaf at yr Iuddewon—mai hyn sydd yn cyd-daraw â'r ymresymiad blaenorol; ond fod y cyfeiriad hefyd yn cymmeryd i mewn y Cenhedloedd, yn unol â'r ymresymiad dilynol. Dywed Lightfoot ac Alford fod yr holl gyd-destyn o blaid y golygiad mai Iuddewon a Chenhedloedd a feddylir, y naill fel y llall, fel wedi derbyn y mabwysiad yn Nghrist. *Pan oeddym fechgyn.*—Nid at anaeddfedrwydd yn ngalluoedd y "ninnau" yn bersonol y cyfeirir, ond at oes yr eglwys yn y cyfnod y cyfeirir ato yn *adn.* 2: "Hyd yr amser a osodwyd gan y tad." *Oeddym gaethion dan wyddorion y byd.*—"Gwyddorion" neu "elfenau," yn arwyddo yn wreiddiol llythyrenau yr egwyddor wedi eu cyfleu yn rhesi (*stoicheia*). O'r ystyr cyntaf hwn y mae dau ystyr arall wedi tarddu:—1. Elfenau natur. Yn yr ystyr yma y mae Awstin yn esbonio y geiriau, fel yn cyfeirio at waith y Cenhedloedd yn addoli elfenau natur. Y mae Chrysostom ac ereill yn cymmhwyso y geiriau at y newydd-loer a'r gŵyliau Iuddewig ereill, a Neander at grefydd mewn ffurfiau gweledig, neu grefydd y synwyrau yn gyferbyniol i'r ysbryd. 2. Egwyddorion cyntaf addysg. Y mae yr esbonwyr goreu yn cyttuno mai dyma ystyr y geiriau yn y lle hwn. Yn ol cyfieithiad Conybeare, golyga y geiriau "wersi elfenol pethau allanol," neu "ordeiniadau allanol." O'r natur yma yr oedd yr holl osodiadau perthynol i'r gyfraith: enwir rhai o honynt yn bennodol yn *adn.* 10. Diau fod cyfeiriad cyntaf y geiriau at yr Iuddewon, er nad mewn un modd yn cau allan y Cenhedloedd. "Oeddym gaethion:"—y mae y ffurf sydd ar y gair yn y gwreiddiol yn awgrymu cyflwr parhaus o gaethwasanaeth (*slavery*).

4. *Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser.*—Y foment oedd yn llenwi i fyny yr amser, yn cyfatteb i *adn.* 2, "yr amser a osodwyd gan y Tad." Yr oedd yr adeg hon yn "gyflawnder yr amser" mewn dwy ystyr:—1. Yn ei pherthynas â'r rhoddwr. Yr oedd y foment wedi dyfod ag yr oedd Duw wedi ei rhagordeinio o'r dechrenad, ac wedi ei rhaghysbysu trwy y prophwydi, i'r Messiah ymddangos ynddi (*adn.* 2). 2. Yn ei pherthynas â'r derbynydd. Attaliwyd yr efengyl nes yr oedd y byd wedi cyrhaedd cyflawn oed: yr oedd deddf wedi gweithio allan ei hamcan o addysg a dysgyblaeth: yr oedd "ffordd yr Arglwydd" wedi ei pharotoi trwy gyfres o oruchwyliaethau, yn y rhai yr oedd Duw yn defnyddio dynion fel offerynau i ddwyn ei amcanion i ben. Gellir edrych ar addysg y byd yn ddyblyg: (1). Nacaol. Amcan deddf, ac yn arbenig deddf Moses, oedd dyfnhau yr argyhoeddiad o bechod, a dangos anallu pob cyfundrefn ddynol i ddwyn dynion at Dduw. (2). Cadarnhaol. Rhaid golygu fod yr addysg yn cynnwys cangiad moesol ac ysbrydol, trwy yr hyn y gwneid y byd yn fwy cymmhwys i dderbyn yr efengyl nag y buasai mewn adeg foreuach,

[a] Esa. 9. 6, 7; Fab, [d] wedi ei wneuthur o wraig, Micah 5. 2; [e] wedi ei wneuthur dan y ddeddf; Zech. 6. 12. Mat. 5. 17; Luc 2. 21—27.

Cynnwysir hyn yn y gymmhariaeth o fachgen yn tyfu i'w gyflawn oed. Er fod y cyfeiriad yn hyn oll yn fwy uniongyrchol at yr Iuddewon, rhaid golygu fod y Cenhedloedd hefyd yn cael eu cymmeryd i mewn (ac felly y Galatiaid) fel wedi dyfod trwy gwrs o addysgiaeth elfenol.—*Lightfoot, Alford.* Y mae "cyflawnder yr amser" yn gyfnod hanesyddol o bwysigrwydd cyffredinol i ddynolryw: y mae yn wir yn dro-bwynt yr hen amser a'r newydd, fel ag y mae Crist yn ffurfio canolbwynt hanes y byd, yn yr hwn y mae yr holl linellau yn cydgyfarfod, at yr hwn y mae y cwbl o'i flaen yn cyfeirio, ac oddi wrth yr hwn y mae y cwbl ar ei ol yn deilliaw. Y mae pennodiad yr amser hwn yn ddiau yn weithred o arfaethiad dwyfol, ond nid yn un o natur bendant, eithr yn hytrach yn cael ei phenderfynu gan gwrs dadblygiad yr hil ddynol. Y mae yr ymadrodd "cyflawnder" i'w egluro trwy ddychymmygu ysbaid gwag yn cael ei lenwi i fyny trwy lifeiriad parhaus amser i mewn iddo hyd nes y cyrhaeddir y terfyn diweddol. Golygir yr un pryd fod yr holl ammodau angenrheidiol i ddyfodiad i mewn weinidogaeth Crist wedi eu cwblhau.—*Olshausen.* *Y danfonodd Duw ei Fab.*—Golyga y gair *exapesteilen*, danfon oddi wrtho ei hunan, fel ei gynnrychiolydd. Y mae y gair yn cynnwys rhaghanfodiad y Mab. *Wedi ei wneuthur o wraig.*—Nid yw y geiriau hyn i'w gwasgu fel prawf o genhedlad goruwchnaturiol y Gwaredwr, ond yn unig fel yn gosod allan ei wir a'i briodoldyn oliaeth: ar yr un pryd y maent yn hollol gysson â'r ffaith hono. *Wedi ei wneuthur dan y ddeddf.*—Trwy ei "wneuthur[e] o wraig" yr oedd yn dyfod yn un â holl ddynolryw; trwy ei "wneuthur dan y ddeddf" yr oedd yn dyfod yn Waredwr rhai oedd o dan ddadguddiad a chyfammod neilldiol. A siarad yn ddynol, mor bell ag y mae Duw wedi rhoddi ammodau i'w weithrediadau ei hun, nis gallasai Cenedl-ddyn achub y byd. Yr Iuddewon ydoedd y genedl gyndd rychiol (*representative*), ac i hon yr oedd yn rhaid i'r dyn cynddrychiol fod yn perthyn.—*Alford.* Y mae Lightfoot yn cymmeryd golwg wahanol ar y geiriau; ac yn casglu oddi wrth absennoldeb y fannod yn y gwreiddiol ("wedi ei wneuthur dan ddeddf") fod yr egwyddor o gymmhwysiad cyffredinol ac nid i'w chyfyngu at ddeddf Moses, er mai o dan hono y ganwyd y Gwaredwr: gwel ar *adn.* 5. Cymmer Ellicott yr un golwg ag Alford:—fod y "gwneuthur o wraig" yn gosod allan yr Arglwydd Iesu fel gwir ddyn, a'r "gwneuthur dan y ddeddf" yn ei osod allan fel gwir aelod o'r genedl Iuddewig, ac yn sefyll yn yr un perthynasau crefyddol â phob Israeliad arall.

5. *Fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf.*—Yma etto y mae y fannod ar ol yn y gwreiddiol: ("y rhai oedd dan ddeddf"). Cyfeiria Paul yn y lle cyntaf at ddeddf Moses, fel y ffurf uchaf a llymaf o ddeddf; ond y mae yn estyn y cymmhwysiad o'r egwyddor at bawb oedd o dan unrhyw gyfundrefn o ordeiniadau pendant. Gwelir yr un helaethiad, yn cychwyn oddi wrth ddeddf Moses, yn 1 *Cor.* ix. 20.—*Lightfoot.* Dyma ddyben grasol cyntaf Duw yn anfon ei Fab, wedi ei wneuthur fel hyn o wraig ac o dan y ddeddf, er mwyn prynu y rhai oedd o dan yr un rhwym-

[f] Mat. 20 28; Act. 20. 28; Titus 2. 14.

5 Fel [f] y prynai y rhai *oedd* dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad.

edigaethau crefyddol ag y ganwyd ein Hargiwydd ei hunan o danynt. Y mae y prynedigaeth (fel y mae Bengel a De Wette yn dal) nid yn unig oddi wrth felldith, ond hefyd oddiwrth gaethiwed y ddeddf.—*Ellicott.* *Fel y derbyniem y mabwysiad.*—Dyma ail ddyben grasol Duw yn deilliaw o'r cyntaf: dyfod â'r mabwysiad, nid i'r Iuddewon fel cenedl yn unig, ond i gyrhaedd dynolryw, dynion o bob cenedl yn ddiwahanaieth—perchenogion y natur a gymmerodd ein Harglwydd: pwy bynag a'i derbyniant ef trwy gredu ynddo, rhoddir iddynt allu i fod yn feibion i Dduw. Gellir edrych ar y geiriau hyn mewn un o ddau ystyr: gellir cymmeryd y "mabwysiad" i olygu y berthynas, neu ynte safle a breintiau priodol y berthynas; ac yn unol â'r gwahaniaethiad hwn, gellir edrych ar y gair "derbyniem" yn golygu y byd yn gyffredinol—dynion, fel y cyfryw, neu ynte yr eglwys yn neilldiol. Y mae Ellicott ac Alford yn cymmeryd y golygiad blaenaf, a Lightfoot megys yn petruso rhwng y ddau. Tueddir ni yn gryf i farnu (gyda Neander) fod y ddau feddwl nid yn unig yn cael eu cynnwys, ond eu golygu yn bennodol yn y geiriau; o blegid y mae yn dra thebyg fod sefyllfa y byd a'r eglwys o flaen meddwl yr apostol o'r adnod laf hyd y 5ed, ac y mae y prynedigaeth wedi effeithio ar sefyllfa y naill a'r llall. Yn unol â hyn y mae y geiriau yn golygu y ddau wirionedd canlynol:—1. Trwy yr ymgnawdoliad a'r prynedigaeth, rhyddhawyd y byd o'r cyflwr gwasaidd yr oedd ynddo yn flaenorol, dattodwyd canolfur y gwahaniaeth cenedlaethol, a dygwyd y "mabwysiad" i gyrhaedd Cenhedloedd yn gystal ag Iuddewon. 2. Y mae yr eglwys (yr hon a wneir i fyny bellach o bob cenedl yn ddiwahaniaeth) wedi ei rhyddhau o gaethiwed ordeiniadau cnawdol; ac fel yr etifedd llawn oed, y mae wedi dyfod i feddiant o gyflawn freintiau y berthynas o "feibion." Y mae y ffurf sydd yn y gwreiddiol ar y ferf a gyfieithir "y derbyniem" (*apolabómen*) wedi arwain rhai esbonwyr (Awstin yn mhlith yr hen, a Jowett yn mhlith y rhai diweddar) i roddi i'r ferf yr ystyr o "adferu—derbyn yn ol," mewn cyfeiriad at yr hyn a gollasom yn Adda. Yr ydym yn barnu gydag Alford ac Ellicott fod hyn yn anghywir. Y mae y "mabwysiad" sydd yn dyfod trwy y prynedigaeth yn rhywbeth nad ydoedd gan Adda, ac yn fwy gogoneddus na dim oedd ganddo. Barna Ellicott fod y rhagddawd *apo*, yn y ferf hon, yn awgrymu y syniad o dderbyn o ryw le yn yr hwn yr oedd y pethau a gyfrenir wedi eu hystorio. Hwyrach y dylem sylwi yn mhellach, fod y ddwy frawddeg sydd yn yr adnod hon yn dechreu gyda "fel" yn ymddibynu ar y ddau osodiad yn yr adnod flaenorol: nid y cyntaf yn *adn.* 5, yn ymddibynu ar y cyntaf yn *adn* 4, a'r ail yn y naill ar yr ail yn y llall; ond i'r gwrthwyneb (trwy ffugr o ymadrodd a elwir *chiasm*) y mae y gosodiad cyntaf yn *adn.* 5 yn ymddibynu ar yr ail yn *adn.* 4; a'r ail yn *adn.* 5 yn ymddibynu ar y cyntaf yn *adn.* 4,—fel hyn: "Wedi ei wneuthur o wraig" (*adn.* 4)—"fel y derbyniem y mabwysiad" (*adn.* 5). Gwnaethpwyd Mab Duw yn ddyn fel y gallai dynion yndo ef gael eu gwneyd yn feibion Duw. "Wedi ei wneuthur dan y ddeddf" (*adn.* 4)—"fel y prynai y rhai ydoedd dan y ddeddf" (*adn.* 5).

6 Ac o herwydd eich bod yn [c] feibion, yr anfonodd Duw [g] Ys-bryd ei Fab i'ch calonau chwi, yn llefain, Abba, Dad.

[c] Ioan 3. 34; 16. 17; Rhuf. 8. 9; 1Cor. 15. 45.

Gwnaethpwyd Mab Duw dan y ddeddf, fel y gallai y rhai oedd yn ddarostyngedig i ddeddf gael eu rhyddhau o'u caethiwed.

6. *Ac o herwydd eich bod yn feibion.*—Pa un ai fel canlyniad, ai ynte fel prawf o'r berthynas fabaidd, y mae anfoniad yr Ysbryd yn cael ei osod allan? Y blaenaf medd Alford: yr olaf medd Ellicott a Lightfoot. Diau nas gellir gwahanu y ddau olygiad—y maent yn angenrheidiol gyssylltiedig â'u gilydd, er fod yr apostol yn nodi y peth yn fwy neilltuol yn y naill wedd neu y llall. Ni a feddyliem ei fod yn cael ei ddwyn yn mlaen fel prawf i'r Galatiaid o'u mabwysiad; ond yr hyn sydd yn ei wneyd yn brawf o'r berthynas ydyw ei fod yn ganlyniad o honi. Y mae y ffrwyth yn brawf o'r gwreiddyn (neu yr effaith o'r achos) am ei fod wedi deilliaw o hono. *Yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi.*—Yr Ysbryd Glân: 'gelwir ef yma gyda phriodoldeb neilltuol yn "Ysbryd ei Fab ef," am fod ei anfoniad i'r galon yn cael ei ddwyn yn mlaen fel prawf eu bod yn feibion, yn gymaint a bod y berthynas babaidd yn cael ei ffurfio trwy undeb â'r tragwyddol Fab, a chyfranogiad o'i Ysbryd. Yn o. darlleniad arall, "i'n calonau ni;" y mae pwysau awdurdod beirniadol yn hytrach yn fwy o blaid hwn na'r darlleniad yn y testyn. *Yn llefain.*—Dywedir yn *Rhuf.* viii. 15 mai y credinwyr sydd yn llefain trwy yr Ysbryd: ond yma, gan mai yr Ysbryd ydyw y prif destyn, edrychir arno ef fel gweithredydd, a'r credadyn fel ei gyfrwng.—*Alford. Abba, Dad.*—Y mae yma ddau air wedi eu cyssylltu, y cyntaf yn Aramaeg, a'r ail yn Groeg. Nid yw yr ail yn cael ei chwanegu yn unig fel eglurhâd ar y cyntaf ('Abba—hyny yw Tad'); na chwaith ddangos uniad Iuddewon a Chenhedloedd. Yn hytrach, medd Ellicott, y mae y ddau yn ymdoddi i'w gilydd fel yn gwneyd i fyny ffurf ddifrifol o gyfarchiad mewn gweddi a arferid gan y Cristionogion boreuol. Darfu i'r teitl Arameaidd, wrth yr hwn y byddai ein Hiachawdwr yn cyfarch ei Dad nefol, gael ei gyssylltu mewn adeg bur gynnar â'r gair cyfystyr yn y Groeg, mewn coffadwriaeth barchus a serchog am dano ef, yr hwn a'n dysgodd ac yn wir a'n galluogodd i alw Duw wrth yr enw "Ein Tad;" ac felly deuwyd i ddefnyddio y ddau air yn un ffurf o ymadrodd mewn cyfarchiadau gwresog at Dduw. Dywed Alford nad ydyw y ddau air yn hollol o'r un ystyr a'u gilydd—fod y gair Groeg *ho patér* ("tad") yn enw o berthynas, tra yr oedd y gair "Abba" yn cael ei arfer yn fwy fel enw o anwyldeb nag fel yn trosglwyddo ei wir ystyr—"fy nhad." Defnyddid y ffurf yma o gyfarchiad mewn gweddi gan yr Arglwydd Iesu ei hunan: "Ac efe a ddywedodd, Abba, Dad, pob peth sydd bossibl i ti;" *Marc* xiv. 36. Cawn yr un ffurf hefyd yn *Rhuf.* viii. 15. Y mae Lightfoot yn rhoddi cyfrif am y ffurf hon o gyfarchiad mewn un o ddwy ffordd. 1. Ei fod wedi dechreu gyda yr Iuddewon Groegaidd, y rhai a fuasent yn naturiol yn glynu gyda serchogrwydd wrth y gair gwreiddiol a gyssegrasid yn eu gweddiau gan hir arferiad, ac yn chwanegu ato y gair cyfystyr yn yr iaith Roeg, yr hon a siaradent mewn ymddiddan cyffredin.

7 Felly [h] nid wyt ti mwy yn was, ond yn fab; ac os mab, [i] etifedd hefyd i Dduw trwy Grist.

[h] Gal. 5. 1. [i] Gen. 17. 7, 8; 1 Cor. 3. 21—23.

2. Neu, gallasai fod wedi dechreu gydag Iuddewon Palestina wedi iddynt ddyfod yn gydnabyddus â'r iaith Roeg. Fel hyn ni buasai y ffurf ond enghraifft o daer ddeisyfiad, yn ol dull naturiol o chwanegu pwys y peth trwy wneyd ail adroddiad o'r un gair mewn ffyrdd gwahanol. Ceir esamplau cyffelyb yn *Dad.* xii. 9, a xx. 2. Pa un bynag o'r ddau olygiad a gymmerir, gellir edrych ar y ffurf hon o ymadrodd, medd Lightfoot, yn dystiolaeth o'r ymdoddiad hwnw o Iuddew a Groegwr i'w gilydd, a baiotôdd y ffordd i bregethiad yr efengyl yn mysg y paganiaid. Felly y mae yr apostol yn rhoddi pwys ar y ffurf hon, fel arlun o undeb yr Iuddew a'r Cenhedloedd yn Nghrist.

7. *Felly nid wyt ti mwy yn was, ond yn fab.*—"Felly," mewn cyfeiriad at yr hyn oll a ddywedasid yn flaenorol. Y mae hyn yn ganlyniad naturiol o'r ddwy ystyriaeth:—1. Nid ydych mwyach dan oed—y mae y tymmor hwnw wedi dyfod i ben. 2. Y mae genych brawf unionyrchol o hyny yn rhoddiad yr Ysbryd—arwydd y mabwysiad.—*Lightfoot.* "Nid wyt ti mwy:" yn awr, wedi dyfodiad Crist. Y mae defnyddiad yr ail berson, "ti," yn unigoli ac yn gwasgu y casgliad adref. Dywed Meyer fod yma raddfa yn nefnyddiad y personau, yn cychwyn o *adn.* 5, ac yn cyrhaedd ei bwynt eithaf yn yr adnod hon:—ni, chwi, ti. 1. Nyni—'pawb Cristionogion, pell ac agos, Iuddewig a Chenhedlig yr un modd' ("y derbyniem:" *adn.* 5). 3. Chwi—'fy nychweledigion Galatiaidd' ("eich bod,"—"i'ch calonau chwi:" *adn.* 6.) 3. Ti—'pob un yn bersonol sydd yn clywed fy ngeiriau' ("nid wyt ti;" *adn.* 7). "Yn was:—'yn gaethwas (*slave*), fel yr oeddit pan dan wyddorion y byd:' *adn.* 3. *Ac os mab, etifedd hefyd.*—Ceir ymadroddion cyffelyb yn *Rhuf.* viii. 17: "Ac os plant, etifeddion hefyd." Mor bell ag y mae yma gyfeiriad at gyfreithiau dynol, diau fod y cyfeiriad at y gyfraith Rufeinig, ac nid yr un Iuddewig. Buasai yr un Rufeinig yn fwy adnabyddus i'w ddarllenwyr; ac yr oedd y gyfraith Rufeinig hefyd yn llawer gwell cymmhariaeth i ddangos breintiau y Cristion yn yr ystyr yma na'r un Iuddewig. Yn ol deddf etifeddiaeth yn nghyfraith Rhufain, yr oedd yr holl biant, meibion a merched, yn etifeddu yr un fath; ond yn ol y gyfraith Iuddewig, etifeddai y meibion yn anghyfartal (rhoddid rhan ddwbl i'r cyntafanedig), a chauid y merched allan ond pan na byddai etifeddion gwryw. *I Dduw trwy Grist.*—Y mae y beirniaid goreu yn ymwrthod â'r darlleniad hwn, ac yn ystyried y geiriau "trwy Grist" fel chwanegiad at y testyn gwreiddiol. Y gwir ddarlleniad yn ddiammheu ydyw:—"etifedd hefyd trwy Dduw." 'Etifeddion nid yn rhinwedd genedigaeth, na thrwy unrhyw deilyngdod o'r eiddoch eich hunain, ond trwy Dduw yr hwn a'ch mabwysiadodd.' Sylwa Windischmann ar y geiriau hyn:—"Y mae 'trwy Dduw' (*dia Theou*) yn cyfuno, ar ran dynolryw, holl oruchwyliaeth rag-grybwylledig y Drindod fendigaid: y mae y Tad wedi anfon y Mab a'r Ysbryd, y mae y Mab wedi ein rhyddhau oddi wrth y ddeddf, y mae yr Ysbryd wedi cwblhau ein

[k] Ier. 10. 25; Ioan 1. 10; Rhuf. 1. 28.

8 Eithr y pryd hwnw, [k] pan oeddych heb adnabod Duw, chwi a wasanaethasoch y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau.

[l] Mat. 11. 27; Ioan 17. 3. [m] Ioan 10. 14, 27.

9 Ac yn awr, [l] a chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach [m] yn adnabyddus gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion llesg a thlodion, y rhai yr ydych yn chwennych drachefn o newydd eu gwasanaethu?

10 Cadw yr ydych ddiwrnodau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd.

11 Y mae arnaf ofn am danoch, rhag ddarfod i mi boeni wrthych yn ofer.

12 Byddwch fel fyfi, canys *yr*

---

mabolaeth: ac fel hyn y mae y prynedigion yn etifeddion trwy y Duw Tri-yn-Un ei hunan: ac nid trwy y ddeddf, na thrwy unrhyw haniad cnawdol."

8—11. Y mae yr apostol yn y pedair adnod hyn yn appelio atynt, ar sail y casgliad y daethpwyd iddo (*adn.* 7)—gan eu bod wedi dyfod allan o gaethiwed i ryddid, pa ham yr oeddynt yn awr yn dychwelyd yn ol i'r hen gyflwr?

8. *Eithr y pryd hwnw.*—Seilir yr appeliad hwn ar yr ymadroddion blaenorol. Y mae y gair "eithr" yn gosod allan gyferbyniad cryf rhwng eu cyflwr blaenorol a phresennol. *Pan oeddych heb adnabod Duw.*—Cyn amser eu mabwysiad. Y mae yma esgus mewn rhan dros eu caethiwed blaenorol. *Chwi a wasanaethasoch.*—O herwydd eich bod heb adnabod Duw, yr oeddych yn gaethweision. *Y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau:*—sef, rhai wedi eu gwneyd yn dduwiau gan ddychymmyg dyn: neu, yn ol Alford, 'y rhai wrth naturiaeth nid ydynt (yn bod).' Darluniad ydyw hwn o gyflwr y byd paganaidd.

9. *Ac yn awr, a chwi yn adnabod Duw.*—Y mae y gair a gyfeithir yma "adnabod" yn gryfach na'r un yn *adn.* 8, ac yn arwyddo, nid fel y blaenaf, wybodaeth noeth o ffeithiau yn unig, ond gwybodaeth dufewnol o adnabyddiaeth a chymmeradwyaeth. *Ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw.*—Nid cyrhaedd y wybodaeth o Dduw a wnaethant, yn gymmaint a chael eu derbyn i adnabyddiaeth, neu eu cydnabod ganddo ef: gwnai hyn eu gwrthgiliad yn waeth, fel yr ydoedd yn wrthwynebiad i'w ewyllys ef o berthynas iddynt.—*Alford.* Sylwa Olshausen fod yma raddeg yn y tri 'adnabod:—"1. Heb adnabod Duw" (*eidotes*), *adn.* 8:—gwybodaeth allanol yn unig fod Duw yn bod. 2. "Yn adnabod Duw" (*gnontes*), *adn.* 9:—y wybodaeth dufewnol hanfodol mewn gweithgarwch. 3. "Yn adnabyddus gan Dduw" (*gnósthentes*), *adn.* 9:—y wybodaeth oddefol o Dduw mewn cariad. Dengys y gair hwn nad yw iachawdwriaeth pechadur o hono ef ei hunan, ond o Dduw: nid oes neb yn dyfod i adnabod Duw ond trwy gael eu hadnabod yn gyntaf gan Dduw. *Pa fodd yr ydych yn troi drachefn.*—Nid oedd y Galatiaid hyn wedi bod o'r blaen dan gaethiwed y defodau luddewig; ond yr oeddynt hwythau mewn rhyw ffurf wedi bod yn gaeth dan "wyddorion y byd;" yn yr hyn y golygai yr apostol grefyddau luddewig a Chenhedlig, cyn belled ag yr oeddynt yn ddaearol ac yn ymwneyd â'u synwyrau. Yr oeddynt yn awr yn troi yn ol eilwaith at yr elfenau hyny wrth ymgymmeryd âg luddewiaeth. *At yr egwyddorion llesg a thlodion.*—Y mae yr elfenau defodol hyn yn "llesg," am nad oes ganddynt allu i gyfiawnhau; y maent yn "dlodion," am nas gallant ddwyn gyda hwynt gynnysgaeth o drysorau ysbrydol. Neu ynte (fel yr awgryma Alford) y mae y ddau air hyn yn cyfeirio at yr ystâd fachgenaidd y soniwyd am dani o'r blaen. Y mae yr etifedd yn y sefyllfa hono yn "wan"—heb gyrhaedd aeddfedrwydd oedran: ac yn "dlawd"—heb ddyfod i feddiant o'r cyfoeth. Am yr "egwyddorion" hyn, gwel *adn.* 3. *Y rhai yr ydych yn chwennych drachefn o newydd eu gwasanaethu.*—Ymadrodd cryf yn dynodi llwyredd eu gwrthgiliad.—*Lightfoot.* "Drachefn o newydd"—nid ail adroddiad, ond dau syniad gwahanol yn cael eu cyfleu. Yr oedd y Galatiaid wedi bod yn gaethweision i'r "egwyddorion llesg a thlodion" yn y ffurf o baganiaeth: yn awr yr oeddynt am gaethiwo eu hunain drachefn i'r "gwyddorion" hyn, ac am eu dechreu o newydd yn y ffurf o Iuddewiaeth. Y mae yma syrthiad yn ol i gaethiwed, ac ail ddechreuad o'i egwyddorion.

10. *Diwrnodau:*—y dyddiau a ddeuent o amgylch yn wythnosol, y Sabbathau. *Misoedd:*—y cynnulliadau misol, y lleuadau newydd. *Amseroedd:*—y gŵyliau blynyddol, megys y Pasc, y Pentecost, &c. *Blynyddoedd:*—y blynyddoedd cyssegredig, megys y blynyddoedd Sabbathol a blwyddyn yr Iwbili.—*Lightfoot.* Tybia Alford yn wahanol—nad yw yr enwau hyn f'w gwasgu at ystyr pendant a manwl i bob un, ond eu bod i'w cymmeryd gyda'u gilydd fel disgrifiad araethyddol o'r rhai a gadwent amserau a phrydiau. Y mae y gair a gyfeithir "cadw" yn golygu cadwraeth o'r fath fanylaf. Y mae rhai beirniaid yn dal fod yr adnod hon ar ffurf gofyniad, fel *adn.* 9.

11. Yr oedd ei lafur yn eu dysgu yn egwyddorion yr efengyl yn myned yn ofer, os oeddynt yn troi at Iuddewiaeth. Y mae y ferf "*darfod i mi boeni*" (*kekopiaka*) yn y modd mynegol, am fod yr ysgrifenydd yn ammheu fod yr hyn yr oedd efe yn ei ofni eisoes wedi cymmeryd lle.

12—16. APPELIAD ATYNT I'W EFELYCHU EF AR SAIL EU CARIAD A'U PARCH BLAENOROL TUAG ATO.

12. *Byddwch fel fyfi.*—Y mae ystyr y rhan hon o'r adnod yn eglur dybygid. 'Ymryddhewch o gaethiwed defodau, fel yr ydwyf fi yn rhydd.' *Canys yr wyf fi fel chwi.*—Cynnygiwyd esbonio y geiriau hyn mewn amryw ffyrdd. Gwelir nad yw y gairiau "yr wyf" yn y gwreiddiol, ond eu bod wedi eu chwanegu gan y cyfieithwyr. Gellir crybwyll dau olygiad:—1. 'Canys yr oeddwn i fel chwi: *h.y.*, 'Yr oeddwn i gynt mewn caethiwed, fel yr ydych chwi yn awr.' 2. 'Canys mi a ddaethum fel chwi:'—'Mi a ymwrthodais â'm sail dduddfol o gyflawnder, a daethum yn Genedl-ddyn fel chwi. Rhoddais i fyny holl arferion fy hynafiaid—holl gysylltiadau anwyl fy nghenedl a'm crefydd, i ddyfod fel chwi. Yr ydwyf wedi byw fel Cenedl-ddyn fel y gallwn bregethu i chwi Genhedloedd. A wnewch chwi gan hyny fy ngadael (a throi at Iuddewiaeth) pan yr ydwyf fi wedi gadael y cwbl er eich mwyn chwi?' Y mae yr ystyr yma yn cydweddu yn dda â'r appeliad tyner —"y brodyr, attolwg i chwi;" ac â'r eglurhâd difrifddwys—"ni wnaethoch i mi ddim cam."

wyf fi fel chwi, y brodyr, attolwg i chwi: ni wnaethoch i mi ddim cam.

13 A chwi a wyddoch mai trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf.

14 A'm profedigaeth, yr hon [a]oedd yn fy nghnawd, [b]ni ddiystyrasoch, ac ni ddirmygasoch; eithr

[a] Salm 119. 141; [b] Esa. 53. 2, 3;

Y brodyr, attolwg i chwi.—Taer ddeisyfiad, yn perthynu, nid i'r geiriau sydd ar ei ol (fel y deallid ef gan Chrysostom ac ereill, ac fel y mae yn yr hen gyfieithiadau), ond i'r geiriau sydd o'i flaen. Y mae Ellicott yn sylwi fod hynodrwydd yn perthyn i'r geiriau hyn, yn gymmaint a bod y rhai goreu o'r hen esbonwyr, a'r rhai goreu o'r esbonwyr diweddar yn hollol wrthwyneb i'w gilydd gyda golwg arnynt; yr hyn beth nad yw yn digwydd ond yn dra anfynych. *Ni wnaethoch i mi ddim cam.*—Gellir deall y geiriau mewn un o ddwy, neu dair ystyr:—1. 'Nid oes genyf yr un cŵyn yn eich erbyn o natur bersonol.' 2. 'Ni wnaethoch gam â mi yn awr trwy wrthod gweithredu fel yr ydwyf yn attolygu arnoch wneyd.' Cyfeiriad at eu hymddygiad blaenorol fel cymmhelliad iddynt i ufuddhau i'w gais ef yn awr. 3. 'Pan ddaethum i fel chwi, ac i bregethu i chwi, ni wnaethoch i mi ddim cam y pryd hwnw; dangosasoch bob cydymdeimlad a charedigrwydd tuag ataf. O ganlyniad, os aethum yn elyn i chwi, y mae yn rhaid mai ar ol hyny yr aethum felly, trwy ddywedyd i chwi y gwir' (*adn.* 16). Dyma olygiad Alford: y mae Ellicott yn dadleu dros yr ail, a Lightfoot yn dewis y cyntaf. Y mae y trydydd, feddyliem, yn ymasio yn dra naturiol â'r adnodau dilynol (13—16); ar yr un pryd, fel y sylwa Lightfoot, y mae yn bossibl fod yr apostol yn cyfeirio yn ddistaw at ryw amgylchiadau hysbys iddynt hwy ac yntau, ond anadnabyddus i ni, a bod y gwir eglurhâd yn gorwedd yn guddiedig o dan y rhai hyny.

13. *A chwi a wyddoch.*—'Mor bell o fod wedi gwneuthur dim cam â mi, chwi a wyddoch,' &c. *Mai trwy wendid y cnawd.*—Diau fod "gwendid y cnawd" yn cyfeirio, nid at y Galatiaid, fel y mae rhai wedi ei ddeall, ond at yr apostol ei hunan; a'i fod hefyd yn golygu, nid ei fod ef wedi pregethu iddynt y tro hwnw mewn gwendid, ond mai o herwydd neu trwy wendid y cnawd (*dia astheneian*) y pregethodd iddynt o gwbl. Hyny yw, pan oedd yr apostol yn myned trwy Galatia ar ei daith, ymddengys iddo gael ei ddal yno am ysbaid o amser gan afiechyd; ac felly, yr afiechyd hwn a fu yr achlysur iddo bregethu yr efengyl i'r Galatiaid. Yr oedd yr amgylchiadau hyn yn peri fod derbyniad gwresog y Galatiaid o hono yn fwy canmoladwy. *Yr efengylais i chwi y waith gyntaf.*—Gallai y geiriau "y waith gyntaf" (*to proteron*) olygu yn unig "o'r blaen," neu ynte "y tro cyntaf." Yr olaf y mae yn dra thebyg, ydyw yr un cywir—fod yr apostol yn cyfeirio at y cyntaf o ddau ymweliad â Galatia.

14. *A'm profedigaeth, yr hon oedd yn fy nghnawd.*—Mewn rhai darlleniadau, yr ydym yn cael "a'ch profedigaeth"—fod afiechyd yr apostol yn brofedigaeth i'r Galatiaid, am y gallasai hyny eu harwain i wrthod ei weinidogaeth. Dyma y darlleniad a gymmeradwyir gan Ellicott a Lightfoot. Gwell genym, gydag Alford, y

chwi a'm derbyniasoch megys angel Duw, megys Crist Iesu.

15 Beth wrth hyny oedd eich dedwyddwch chwi? canys tystio yr wyf i chwi, pe *buasai* bossibl, y tynasech eich llygaid, ac a'u rhoisech i mi.

16 A aethum i gan hyny yn

darlleniad cyffredin yn y lle hwn. Y mae yn debyg mai yr un peth a olygir wrth y brofedigaeth hon a'r hyn a elwir mewn man arall yn "swmbwl yn y cnawd" (2 *Cor.* xii. 1): tybia rhai mai gwendid yn y llygaid ydoedd, ac ereill mai gwendid gewynol (*nervousness*), neu ryw anhwylderb corphorol arall o natur boenus a phrofedigaethus i'r apostol yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau gweinidogaethol. *Ni ddiystyrasoch ac ni ddirmygasoch.*—Y mae yr ail air yn gryfach na'r cyntaf: 'Nid ymddygasoch tuag at fy mhrofedigaeth yn ddisylw a dideimlad, na chwaith gydag atgasrwydd gweithredol.' *Eithr chwi a'm derbyniasoch megys angel Duw.*—Cyfeirir yma, o bossibl, at yr angylion fel bodau rhydd oddi wrth wendidau y cnawd, ac fel cenhadon yn cael eu hanfon gan Dduw: gallai y cyfeirir hefyd at ddywediad yr Arglwydd Iesu o berthynas iddynt: *Luc* x. 16. *Megys Crist Iesu.*—Y mae yma esgyneb (*climax*): y cyfryw ydoedd dwfn barch a serch y Galatiaid tuag at yr apostol, fel y derbyniasant ef, nid yn unig fel angel, ond fel un uwch na mwy gogoneddus—fel yr hwn sydd yn Arglwydd angylion.—*Ellicott.*

15. *Beth wrth hyny oedd eich dedwyddwch chwi?* — Ymofyniad trist, yn dangos barn yr apostol am werth eu dedwyddwch tybiedig. Cyfeirir, y mae yn debyg, at eu gwaith yn ymddedwyddu, yn ymffrostio, neu yn gorfoleddu yn ngwres eu cariad cyntaf. Darllena rhai copïau, "pa le" (*pou*) am "beth" (*tis*), a gadewir allan "oedd," gan ddeall "mae" yn ei le. Y mae dau olygiad yn cyfodi o'r darlleniadau hyn: —1. 'Mor wâg, mor ddiystyr oedd eich gorfoleddau!' (yn ol y darlleniad cyffredin). 2. 'Pa le y mae eich gorfoledd yn awr? Pa beth a ddaeth o hono? I ba le y diflanodd?' Yr olaf a gymmeradwyir gan Olshausen a Lightfoot. *Canys tystio yr wyf.*—Dadganiad cadarnhaol a difrifol. *Pe buasai bossibl.*—Pe buasai hyny o ryw les i mi. *Y tynasech eich llygaid, ac a'u rhoisech i mi.*—Mae rhai wedi gwneuthur defnydd o'r geiriau hyn i amddiffyn y golygiad mai gwendid neu ryw afiechyd yn y llygaid oedd y "brofedigaeth" ydoedd yn nghnawd yr apostol. Cesglir yr un peth hefyd oddi wrth *Act.* xxiii. 1. Rhaid addef fod hyn yn dra ammheus, yn enwedig pan gofir fod y geiriau yn fath o ymadrodd diarebol i osod allan eithafoedd serch a chymmwynasgarwch—parodrwydd i ymadael â'r peth gwerthfawrocaf a feddwn, ac i'w roddi i arall. Defnyddir y llygad fel arwyddlun o'r peth tyneraf a gwerthfawrocaf yn un o ymadroddion yr Hen Destament:—"Cadw fel canwyll llygad;" *Salm* xvii. 8.

16. *A aethum i gan hyny yn elyn i chwi.*—"Gan hyny;" casgliad naturiol wrth gyferbynu ystâd bresennol pethau â'r amgylchiadau blaenorol; ond yn lle ei roddi fel haeriad cadarnhaol, y mae yr apostol fel am osgoi y casgliad annymunol a gobeithio yn erbyn gobaith, ac felly yn ei roddi mewn ffurf o ofyniad. Gellir deall y gair

[o]Gal. 5. 7. elyn i chwi, °wrth ddywedyd i chwi y gwir?

[p]Rhuf. 10. 2; 2 Cor. 11. 2, 13–15. 17 Y maent [p]yn rhoi mawr-serch arnoch, *ond* nid yn dda: eithr chwennych y maent eich cau chwi allan, fel y rhoddoch fawr-serch arnynt hwy.

18 Eithr da *yw* dwyn mawr-serch mewn peth da yn wastadol, ac nid yn unig tra fyddwyf bresennol gyda chwi.

19 Fy mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn, hyd oni [q]ffurfier Crist ynoch,

[q]Rhuf. 8. 29; [r]Eph. 4. 24; Phil. 2. 5; Col. 1. 27.

20 *Ac* mi a fynwn pe bawn yn awr gyda chwi, a newidio fy llais; o herwydd yr wyf yn ammheu o honoch.

"yn elyn i chwi" mewn un o ddwy ffordd—goddefol neu weithredol. Mewn ystyr oddefol, y meddwl fyddai eu bod hwy yn teimlo yn elynol tuag ato ef: gwnelai hyn ystyr da, a dygai allan gariad blaenorol y Galatiaid at yr apostol, a'u gelyniaeth presennol i gyferbyniad tarawiadol â'u gilydd. Dyma olygiad Meyer ac Alford. Ond yr ydym yn tueddu (gydag Ellicott a Lightfoot) i ddewis yn hytrach yr ystyr gweithredol i'r gair—fod yr apostol, yn eu tyb hwy, neu a barnu yn ol eu hymddygiad hwy, wedi myned yn elyn iddynt. Y mae hwn yn ystyr cryfach, ac yn cael ei gadarnhau hefyd gan yr ystyriaeth fod hwn yn un o'r enwau a roddid ar yr apostol gan yr athrawon luddewig—"y gelyn ddyn," "y dyn gelynol." *Wrth ddywedyd i chwi y gwir.*—At ba adeg y cyfeiriai hyn? Nid at yr epistol hwn o angenrheidrwydd, canys nis gallasai yr apostol wybod yn awr pa beth fyddai effaith ei lythyr; nid chwaith at ei ymweliad cyntaf, pan yr oedd ystâd teimlad y Galatiaid mor dra gwahanol. Felly, diau y cyfeirir at y rhybuddion a roddasai efe iddynt yn ei ail ymweliad, pan yr oedd luddewiaeth, dybygid, wedi gwneuthur peth cynnydd yn eu plith. Gwelaiy pryd hwnw fod y drwg wedi dechreu, a llefarai yn eofn yn ei erbyn.

17. *Y maent yn rhoi mawr-serch arnoch, ond nid yn dda.*—"Y mae y gau athrawon hyn yn ymddangos yn pryderu yn selog yn eich cylch, yn cymmeryd dyddordeb mawr ynoch (*zêlousin*), ond nid oddi ar ddyben cywir ac anrhydeddus." *Eithr chwennych y maent eich cau chwi allan.*—Y mae yn naturiol gofyn, Eu cau allan oddi wrth ba beth? Dywed rhai mai oddi wrth Grist a'i grefydd, ereill mai oddi wrth Paul a'i gymundeb, ereill mai oddi wrth bob athrawon heb law hwy eu hunain, ac ereill mai oddi wrth ryddid Cristionogol. Yr ystyr tebycaf, fe allai, ydyw, eu cau allan oddi wrth y rhan hono o'r eglwys oedd yn parhau yn eu hymlyniad wrth yr apostol Paul a dysgeidiaeth bur yr efengyl. *Fel y rhoddoch fawr-serch arnynt hwy.*—Dyben y dynion hyn oedd eu proselytio—peri iddynt ymneilduo oddi wrth eu brodyr Cristionogol, ac ymffurfio yn blaid wahanedig i ddyfod gyda'u gilydd yn ddysgyblion iddynt hwy. 'Y maent hwy yn dyfod ar eich hol chwi, **or** mwyn eich hudo chwi i ddyfod ar eu hol hwynt.'

18. Ymddengys yr adnod hon ar y cyntaf yn lled dywyll. Cyttuna yr esbonwyr goreu fod yn rhaid i'r eglurhâd a roddir arni gael ei lywodraethu gan y ddwy ystyriaeth ganlynol:—1. Rhaid i'r gair "mawr-serch" gael ei ddeall yn yr un ystyr ag yn yr adnod flaenorol. 2. Rhaid i'r gair "dwyn mawr-serch" gael ei ddeall yn y llais goddefol. Yn ol hyn, cyfyngir y golygiadau, teilwng o sylw, ar yr adnod i'r ddau ganlynol:—laf, 'Nid wyf fi yn cwyno o blegid y sylw a delir i chwi. Nid wyf fi yn meddwl mai genyf fi yn unig y mae hawl i'ch gwasanaethu. Y mae yn dda fod rhai yn edrych ar ol eich lles yn fy absennoldeb, ond i'w hachos fod yn un da, a'u dyben yn gywir.' Neu yn 2il, 'Nid wyf yn cwyno eu bod hwy yn dymuno ennill eich serch chwi, na chwithau yr eiddynt hwythau. Y mae y pethau hyn yn dda ynddynt eu hunain. Nid wyf fi yn ddiystyr fy hunan o'r cyfryw ymlyniadau. Yr ydwyf yn coño mor gynnhes oedd eich teimladau tuag ataf fi pan oeddwn gyda chwi. Buasai yn dda genyf pe na buasent wedi oeri yn fy absennoldeb.' Y mae y golygiad olaf yn ymasio yn dda â'r cyd-destyn, yn enwedig â'r cyfarchiad tyner sydd yn y geiriau nesaf.—*Lightfoot.*

19. *Fy mhlant bychain.*—Dull o gyfarchiad cyffredin gan Ioan, ond ni ddefnyddir ef gan Paul yn un man, oddi eithr y lle hwn. Y mae hwn yn enw o serch ac o gerydd ar unwaith: gesyd allan dynerwch yr apostol tuag at ei ddychweledigion, a'u gwendid hwythau, ac y mae hefyd yn rhan o'r ffugr sydd yn canlyn. *Y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn.*—"Buom mewn gwewyr gyda chwi o'r blaen, i'ch dwyn at Grist. Trwy eich gwrthgiliad hwn, yr ydych yn adnewyddu poenau esgor ynof." Cyfeirir yma at boen a phryder y fam hyd nes y byddo y plentyn wedi ei eni. *Hyd oni ffurfier Crist ynoch.*—"Hyd oni byddwch wedi cymmeryd ffurf Crist," fel y mae yr anelwig ddefnydd yn y groth, trwy ddadblygiad graddol, yn cymmeryd ffurf plentyn.—*Lightfoot.* Yn ol ereill, newidir y gymmhariaeth yn sydyn yn y geiriau hyn; ac y mae y dychweledigion Galataidd yn cael eu cyffelybu yn awr, nid i'r plentyn ond i'r fam, a Christ yn cael ei ffurfio ynddynt yn raddol, am mai Crist yn trigo yn y saint ydyw dirgelwch ac egwyddor eu bywyd newydd.

20. *Ac mi a fynwn pe bawn yn awr gyda chwi.*—Y mae yma gyfeiriad amlwg at y rhan olaf o *adn.* 18: fel pe dywedasai, 'Wrth son am fod yn bresennol gyda chwi, buasai yn dda genyf pe buaswn yn awr gyda chwi. *A newidio fy llais.*—Newid o ba beth i ba beth? Yn ol rhai, o dynerwch i lymder: ond y mae hyn yn dra chroes i ysbryd y cyfarchiad serchog hwn. Diau mai yr ystyr hollol wrthwyneb yw yr un mwyaf cydweddol â'r ymadroddion hyn:—newid o'r llymder a arferasai yn flaenorol pan yr aeth efe yn elyn iddynt trwy ddywedyd iddynt y gwir (*adn.* 16), i dynerwch ac addfwynder mawr gyda'i phlentyn (=yn "dywedyd y gwir," etto, ond mewn tôn wahanol). Y mae ei bryder i liniaru effaith ei gerydd ysgrifenedig yn cyfatteb yn hollol i'w ymdrafodaeth â'r troseddwr yn eglwys Corinth: 2 *Cor.* ii. 5, &c. *O herwydd yr wyf yn ammheu o honoch:*—hyny yw, 'Yr wyf mewn dyryswch a chyfyng-gynghor yn eich cylch. Yr wyf mewn ammheuaeth pa fodd i ymddwyn tuag atoch—pa un ai llymder ai tynerwch i'w arfer, mewn trefn i'ch dychwelyd i'r wir ffydd. Arferais lymder y tro o'r blaen; pe bawn gyda chwi yn awr, rhoddwn brawf ar dynerwch.'

21 Dywedwch i mi, y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf, onid ydych chwi yn clywed y ddeddf?

22 Canys y mae yn ysgrifenedig, fod i Abraham ddau fab; un o'r wasanaeth-ferch, ac un o'r *wraig* rydd.

23 Eithr yr hwn *oedd* o'r was- [r]Rhuf. 9.7, 8. anaeth-ferch, a [r]aned yn ol y cnawd; [s]a'r hwn *oedd* o'r *wraig* rydd, trwy yr addewid. [s]Gen. 16. 16 —14; Heb. 11. 11, 12.

24 Yr hyn bethau ydynt mewn alegori: canys y rhai hyn yw y ddau destament; un yn ddiau o fynydd Sinai, [t]yn cenedlu i gaeth- [t]Rhuf. 8. 15. iwed, yr hon yw Agar:

25 Canys yr Agar yma yw mynydd Sinai yn Arabia, ac y mae yn cyfatteb i'r Ierusalem *sydd* yn

21—30. Eglurhâd o'r berthynas rhwng y ddeddf a'r addewid trwy esboniad allegawl ar hanes dau fab Abraham. Bwriedir y gymmhariaeth hon i ddinystrio dylanwad y gau athrawon â'u harfau eu hunain, ac i'w ddadwreiddio o'i ddaear briodol ei hun.

21. *Y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf.*—Cyflëir yr ystyr yn fwy eglur yma wrth ddilyn y gwreiddiol, trwy adael allan y fannod o flaen y gair "deddf:"—"Y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf:"—*h. y.*, y rhai a fynwch fod yn ddarostyngedig i gaethiwed mewn rhyw ffurf neu gilydd. *Onid ydych chwi yn clywed y ddeddf?*—Y mae y fannod i mewn yma, am y cyfeirir at y gair ysgrifenedig; yr hwn, weithiau, a olyga holl ysgrifeniadau yr Hen Destament (*Rhuf.* iii. 19), a phryd arall bum llyfr Moses: *Rhuf.* iii. 21; *Luc* xxiv. 21. Yr ystyr a rydd rhai i'r gofyniad ydyw, 'Onid ydych yn clywed y ddeddf yn cael ei darllen yn gyssonyn y synagogau?' Ond yr ystyr mwyaf naturiol a bossibl ydyw—'Onid ydych yn rhoddi gwrandawiad—yn talu sylw i'r hyn a ddywedir yn y ddeddf?'

22. *Canys y mae yn ysgrifenedig.*—Cyfeiriad cyffredinol, ac nid dyfyniad uniongyrchol. *Un o'r wasanaeth-ferch, ac un o'r wraig rydd:*—sef Ismael o Agar, ac Isaac o Sarah.

23. *Eithr:—h. y., Er* eu bod yn feibion yr un tad. *A aned yn ol y cnawd.*—Yn nghwrs cyffredin natur. Yr oedd Ismael hefyd mewn rhyw ystyr yn fab addewid (*Gen.* xvi. 19), ond nid ymyrwyd â chwrs natur yn ei amgylchiad ef, canys ni wnaethpwyd yr addewid hyd nes yr oedd Agar wedi beichiogi arno. Rhaid cofio, yr un pryd, fod yr apostol yma, wrth ddethol ei eiriau, yn edrych, nid yn unig ar yr hanes gwreiddiol, ond ar y cymmhwysiad allegawl—yr Iuddewon yn blant Abraham yn ol y cnawd, a Christionogion yn blant iddo trwy yr addewid. *A'r hwn oedd o'r wraig rydd, trwy yr addewid.*—Ganwyd Isaac trwy rym neu rinwedd yr addewid. Cyfrynglad dwyfol, fel cyflawniad yr addewid, ydoedd yr achos effeithiol o feichiogiad Sarah yn groes i naturiaeth: *Rhuf.* iv. 19.—*Alford.*

24. *Yr hyn bethau.*—Nid y pethau neilldual am enedigaeth y ddau fab; ond y cyfryw bethau—y dosbarth yma o bethau.—*Lightfoot. Ydynt mewn alegori.*—I'w deall mewn ystyr heb law, neu yn chwanegol at eu hystyr llythyrenol. Nid yw yr apostol mewn un modd yn gwadu gwirioneddau hanesyddol a llythyrenol yr hanes; ond y mae yn dal fod meddwl arall a dyfnach yn gorwedd dan y cyntaf. Yr oedd y Rabbiniaid Iuddewig yn arfer alegoreiddio, neu ysbrydoli hanesyddiaeth yr Hen Destament; a diau eu bod hwy, a rhai o'r tadau, yn cario hyny yn rhy bell—i eithafion dychymmygol a ffol: ac y mae rhai ysgrifenwyr diweddar, ysywaeth, yn gosod yr esboniad hwn o eiddo yr apostol yn yr un dosbarth, gan ei briodoli i'w addysg Rabbinaidd. Byddai yn dda, fel y sylwa Ellicott, i'r cyfryw ysgrifenwyr gofio fod yr apostol Paul, yn y lle hwn, yn dadgan, o dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, fod y rhan a ddyfynir ganddo o'r Hen Destament yn meddu ystyr arall a dyfnach na'r un a ymddengys ar y wyneb; ac felly y mae fod yr ystyr hon yn bod yn wirionedd pendant, sylweddol, a diammheuol. *Canys y rhai hyn:*—sef, y ddwy wraig (nid y ddau fab, fel yr esbonia rhai). Y ddwy fam ydynt y ddau destament, a'r ddau fab ydynt blant y ddau destament. *Yw y ddau destament.*—Y maent yn cynnrychioli—yn gosod allan 'y ddau destament,' sef y ddau gyfammod, neu y ddwy oruchwyliaeth. *Un:*—sef, un cyfammod, neu oruchwyliaeth. *Yn ddiau o fynydd Sinai.*—Yr oedd y cyfammod hwnw yn cychwyn o fynydd Sinai; neu mynydd Sinai oedd canolbwynt y cyfammod. *Yn cenhedlu i gaethiwed.*—Ystyr y gair "cenhedlu" yn y lle hwn ydyw dwyn plant. Defnyddir y gair "cenhedlu" (*gennósa*) am y fam mewn lleoedd ereill, megys *Luc* i. 13, lle y cyfieithir ef yn y Gymraeg yn "ddwyn." Y meddwl ydyw, fod yr oruchwyliaeth Iuddewig yn dwyn y rhai oll ydoedd dan i gyflwr o gaethiwed. *Yr hon yw Agar.*—Yr oruchwyliaeth hon sydd yn yr alegori yn cyfatteb i Agar.

25. *Canys yr Agar yma yw mynydd Sinai yn Arabia.*—Wrth "yr Agar yma" yr ydym i ddeall, nid Agar—y person; ond Agar—y gair, yr enw. Megys ag yr oedd sefyllfa Agar, gwasanaeth-ferch Abraham yn arlun o natur goruchwyliaeth Sinai, felly y mae hyd yn oed yr enw "Agar" yn cyfatteb i fynydd Sinai: *h. y.*, yr oedd Agar (sef, craig), yn yr Arabaeg yn enw a roddid ar fynydd Sinai. Y mae teithwyr a dysgedigion, yn enwedig Büsching, yn cadarnhau fod y gair Arabaeg am gareg—'Hadgar' (Agar)—yn enw a roddid ar Sinai, heb law fod tref o'r enw Agar yn nghymmydogaeth y mynydd. Gallasai fod Paul wedi dyfod i wybod hyn yn ystod ei arosiad yn Arabia; yn enwedig os oedd ei arosfa (fel y ceisiwyd dangos—gwel ar *pen.* i. 17) yn nghymmydogaeth mynydd Sinai. Y mae y geiriau "yn Arabia" yn cael eu hesbonio mewn dwy ffordd: Iaf, Fel i arwyddo "yn mysg yr Arabiaid:"—'Y mae y gair Agar yn enw a ddefnyddir yn mysg yr Arabiaid ar fynydd Sinai.' Neu, yn 2il, Fel yn dynodi y wlad yn yr hon y mae mynydd Sinai yn sefyll; ac felly dygir i mewn gyd-darawiad newydd rhwng Agar a Sinai:—'Nid yn unig y mae mynydd Sinai yn cael ei alw dan yr enw Agar, ond y mae y mynydd yn sefyll 'yn Arabia'—gwlad caethion, y wlad lle y mae hiliogaeth Agar yn byw. Gelwid yr Arabiaid yn "feibion Agar." *Ac y mae yn cyfatteb i'r Ierusalem sydd yn awr.* Yn ol rhai esbonwyr, yr hyn oedd yn cyfatteb oedd mynydd Sinai; yr hwn, yn llythyrenol, oedd yn cael ei gyssylltu trwy res ddidor o drumau

awr, ac y mae yn gaeth *hi* a'i phlant.

[u] Salm 87. 3—6; Esa. 65. 18; Phil. 3. 20; Dad. 21. 2, 10—27.

26 Eithr yr [u] Ierusalem hono uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam ni oll.

27 Canys ysgrifenedig yw, Llawenha, di yr ammhlantadwy, yr hon nid wyt yn eppilio; tor allan a llefa, yr hon nid wyt yn esgor: canys i'r unig y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi ŵr.

28 A ninnau, frodyr, megys *yr oedd* Isaac, ydym blant yr addewid.

29 Eithr megys y pryd hwnw, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd a erlidiai yr hwn *a anwyd* [x] yn ol yr Ysbryd, felly yr awr hon hefyd.

[x] Ioan 3. 5, Rhuf. 8. 1, 5, 13.

30 Ond beth y mae yr Ysgrythyr yn ei ddywedyd? [y] Bwrw allan y wasanaeth-ferch, a'i mab: canys ni chaiff mab y wasanaeth-ferch etifeddu gyda mab y *wraig* rydd.

[y] Gen. 21. 10, 12; Rhuf. 11. 7—11.

mynyddig, â dinas Ierusalem. Ond y mae yr esbonwyr goreu braidd yn unfrydol yn gwrthod y golygiad yna ar amryw gyfrifon. Cyttunant hefyd yn y golygiad mai yr hyn sydd yn cyfatteb ydyw Agar: yr hyn y mae Agar yn cyfatteb iddo ydyw yr Ierusalem sydd yn awr; *h.y.*, yr Ierusalem o dan y gyfraith, Ierusalem yr Iuddewon, yn wrthgyferbyniol i Ierusalem teyrnas y Messiah; neu, yn ol Lightfoot, y mae prifddinas yr Iuddewon yn cael ei chymmeryd i gynnrychioli yr holl genedl. Y mae y gair a gyfieithir "cyfatteb" (*sunstoichei*) yn ymadrodd milwraidd, ac yn arwyddo 'bod yn perthyn i'r un reng neu golofn.' Dengys yr ymadrodd nesaf yn mha beth y mae y cyfattebiad yn gynnwysedig. *Ac y mae yn gaeth, hi a'i phlant.* — Y mae yr Ierusalem bresennol, ddaearol (mam y genedl Iuddewig mewn ystyr grefyddol), a'i phlant (yr Iuddewon a ymlynent wrth gyfraith Moses) "yn gaeth," mewn sefyllfa o gaethiwed ysbrydol—fel yr oedd Agar a'i phlentyn Ismael mewn caethiwed cymdeithasol.

26. *Eithr yr Ierusalem hono uchod sydd rydd.* —Megys yr oedd Agar yn cyfatteb i'r Ierusalem ddaearol, felly cymmerir yr ochr arall i'r cyferbyniad yn ganiataol, fel peth a fyddai yn ddealledig heb ei grybwyll—fod Sarah yn cyfatteb i'r Ierusalem ysbrydol. Gelwir hi yma yn "Ierusalem uchod:" nid mewn ystyr leol, ond mewn cyfeiriad at ei hansawdd nefol. Megys ag yr oedd yr "Ierusalem sydd yn awr," yn ganolbwynt Iuddewiaeth, a hen deyrnas y *theocracy*, felly y mae yr "Ierusalem uchod" yn arlun cysgodol o Gristionogaeth, a theyrnas y Messiah. Dywed Ellicott, fod Ierusalem yn y Testament Newydd yn cymmeryd tri ystyr: yr eglwys ar y ddaear dan yr efengyl—yr eglwys yn llwyddiant mawr y mil blynyddoedd—a'r eglwys ogoneddedig yn y nefoedd. Defnyddir y gair yn y lle hwn yn yr ystyr blaenaf. Y mae yr Ierusalem hon a'i phlant hithau yn "rhydd"—oddi wrth holl gyfundrefn y ddeddf fel y cyfryw. *Yr hon yw ein mam ni oll.* — "Ni:" Gristionogion, yn Iuddewon a Chenhedloedd. Gwrthodir y gair "oll" gan y beirniaid goreu, fel chwanegiad at y testyn gwreiddiol.

27. *Canys ysgrifenedig yw.*—Prawf o'r berthynas uchod oddi wrth brophwydoliaeth: gwneir y dyfyniad o gyfieithiad y Deg a Thrigain o *Esa.* liv. 1. Llefarwyd y brophwydoliaeth yn ei hystyr cyntaf er cysuro yr eglwys, trwy raghysbysu ei gwaredigaeth o'r caethiwed; ond gyda chyfeiriad pellach at ddyddiau y Messiah, a galwad y Cenhedloedd. *Yr ammhlantadwy.*—Y mae yr apostol yn cymmhwyso "yr ammhlantadwy" at Sarah, yr hon nid oedd yn planta yn ol y cnawd; a'r "hon y mae iddi ŵr," ydoedd Agar, yr hon am ryw ysbaid oedd yn serchiadau Abraham, ac a feichiogodd o hono. Yn ol rhai, yr oedd Sarah yn cyfatteb i'r addewid, ac Agar i'r ddeddf: neu cynnrychiolai Sarah yr eglwys efengylaidd, ac Agar yr eglwys Iuddewig. Yn ol Lightfoot, nid Cenhedloedd ac Iuddewon a gyferbynir, ond y ddwy oruchwyliaeth. *Llawer mwy o blant.*—Y cyfieithiad mwyaf cywir ydyw:—I'r amddifad y mae llawer o blant, mwy nag i'r hon y mae iddi ŵr. Arwyddir fod "llawer" i'r ddwy, ond mwy i'r "amddifad."

28. *A ninnau.*—Cymmhwysiad ydyw o'r alegori flaenorol at amgylchiad y rhai yr oedd yr apostol yn eu cyfarch. Dadleua rhai mai cywirach ydyw y darlleniad "A chwithau." *Megysyr oedd Isaac.* —Yr oedd y Cenhedloedd wedi deilliaw oddi wrth un "cystal a marw;" nid oedd ganddynt hawliau cenedl a haniad. *Ydym blant yr addewid:*—Megys Isaac, nid "yn ol y cnawd," ond "trwy yr addewid;" *adn.* 23.

29. *Yr hwn a anwyd yn ol y cnawd:*—sef Ismael. *A erlidiai.*—Nid ydyw y gair Hebraeg, yn *Gen.* xxi. 9, ond "chwerthin." Ar yr un pryd y mae digofaint Sarah ar yr achlysur yn rhoddi sail gref i farnu fod y chwerthiniad yn un o ddirmyg. Rhoddid arbenigrwydd mawr yn y traddodiadau Rabbinaidd i waith Ismael yn erlid ei frawd. Parhawyd hyn yn ei hiliogaeth; yr oedd ymsodiadau y llwythau Arabaidd (*Salm* lxxxiii. 7; 1 *Cron.* v. 10, 19) ar yr Israeliaid megys yn ffurfio y gwrth-gysgod i ddirmyg Ismael ar Isaac. *Yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd:*—sef, Isaac. Ganwyd ef yn rhinwedd yr addewid yr hon a roddwyd gan yr Ysbryd; neu yn rhinwedd gweithrediad yr Ysbryd. Y cyntaf fe allai yw y goreu. —*Alford.* Y mae "yn ol y cnawd" yn golygu y deddfau naturiol wrth ba rai y ganwyd Ismael; ac "yn ol yr Ysbryd," y deddfau goruwchnaturiol drwy y rhai y cenhedlwyd ac y ganwyd Isaac. —*Ellicott.*

30. *Ond beth y mae yr Ysgrythyr yn ei ddywedyd?*—Yr "Ysgrythyr" y cyfeirir ati ydyw *Gen.* xxi. 10, yr hon a ddyfynir o'r Deg a Thrigain: ond fod yr apostol wedi rhoddi "mab y wraig rydd" yn lle y geiriau fel yr oeddynt yn dyfod o enau Sarah, "fy mab i, Isaac." *Bwrw allan y wasanaeth-ferch a'i mab.*—Geiriau Sarah wrth Abraham oedd y geiriau, ond yn cael eu cadarnhau wedi hyny gan Dduw ei hunan: *Gen.* xxi. 12. Y mae y ffurf ofynol sydd yn dwyn i mewn y dyfyniad yn rhoddi iddo fwy o rym a phwys. *Canys ni chaiff mab y wasanaeth-ferch etifeddu gyda mab y wraig rydd.* Nis gall y ddeddf a'i efengyl (hyny yw, Iuddewiaeth a Christionogaeth) gyd-hanfodi; rhaid i'r ddeddf gilio o flaen yr efengyl. Y mae braidd yn ammhossibl mesur nerth yr argyhoeddiad a dyfnder y craffder prophwydol a gynnwysir yn y datganiad hwn. Dyma yr apostol fel hyn yn hyderus yn swnio cnul Iuddewiaeth ar adeg pan yr oedd hanner y byd Cristionogol yn glynu wrth gyfraith Moses

31 Felly, frodyr, nid plant i'r wasanaeth-ferch ydym, ond i'r *wraig* rydd.

PENNOD V.

1 *Y mae efe yn eu hannog hwy i sefyll yn eu rhyddid,* 3 *ac nid arferont enwaediad;* 13 *either yn hytrach car a'i, yr hwn yw cyfiawnder y gyfraith.* 19 *Y mae efe yn rhifo gweithredoedd y cnawd,* 22 *a ffrwythau yr Ysbryd;* 25 *ac yn eu hannog i rodio yn yr Ysbryd.*

B. A. 57.

[a] Mat. 11. 28 —30. 1 Cor. 7. 22.

SEFWCH, gan hyny, yn [a]y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni; ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed.

2 Wele, myfi Paul wyf yn dywedyd wrthych, Os enwaedir chwi, ni lesâ Crist ddim i chwi.

3 Ac yr wyf yn tystiolaethu drachefn i bob dyn a'r a enwaedir, ei fod ef [b]yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf.

[b] Deut. 27. 26.

4 [c]Chwi a aethoch yn ddifudd oddi wrth Grist, y rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf:

[c] Rhuf. 9. 31, 32.

gyda'r fath serch eiddigus ag oedd bron yn ymylu ar wallgofrwydd, a thra yr oedd y blaid Iuddewig fel pe buasai yn cynnyddu mewn dylanwad, ac yn ddigon cref i weithio dan ddylanwad yr apostol, ac i beryglu ei fywyd hyd yn oed yn yr eglwysi Cenhedlig a sylfaenesid ganddo ef ei hunan.—*Lightfoot.*

31. Y mae y gair *felly* yn rhoddi i'r adnod hon y wedd o gasgliad oddi wrth yr holl alegori flaenorol: ar yr un pryd, nid casgliad ymresymiadol yw yn gymaint, eithr casgliad ymarferol: "Felly, frodyr, bydded i ni gofio nad plant i'r wasanaeth-ferch ydym, ond i'r wraig rydd: na fydded i ni, gan hyny, ymddwyn fel caethweision." Y mae y fannod ar ol yn y gwreiddiol, o flaen "gwasanaeth-ferch:"—"Nid plant i wasanaeth-ferch ydym"—i unrhyw wasanaeth-ferch, pa un bynag ai Iuddewiaeth ai rhyw ffurf o baganiaeth: ond "i'r wraig rydd"—y briodferch gyfreithlawn, eglwys Crist, yr hon sydd yn un. —*Lightfoot.*

PENNOD V.

1—12. Yma y mae y rhan annogaethol, sef y drydedd ran o'r epistol, yn dechreu: gwel td. 139. Y mae o'r *adn* 1. hyd *adn.* 12, yn gymmhwysiad ymarferol o'r holl ymresymiad yn yr han athrawiaethol, sef yr ail ran o'r epistol, yn cymmhell y Galatiaid yn daer i aros yn rhyddid yr efengyl, ac i beidio cymmeryd eu camarwain gan y gau athrawon

1. *Sefwch.*—'Sefwch yn gadarn—sefwch yn syth—na phlygwch eich gyddfau i iau caethiwed.' —*Lightfoot. Yn y rhyddid.* — Rhydd y gair "yn" ar ddeall mai y rhyddid hwn ydyw yr effen ag y mae Cristionogion i fyw, symmud, a bod ynddi. *A'r hwn y rhyddhaodd Crist ni.*—Darllena rhai "i'r hwn." Nid ystyr offeryn sydd i'r gair "â'r:" diau mai y meddwl ydyw, "y rhyddid a ddygodd Crist i ni, â'r hwn y cynysgaeddodd efe ni." Y mae y gair "Crist" yn bwysleisiol: y ffaith hon, yr hon a brofasid o'r blaen yn yr ymresymiad, sef mai Crist a'n rhyddhaodd, sydd yn gwneyd y rhyddid mor werthfawr a gwrthgiliad o hono mor beryglus. *Ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed.*—Mae y gair "drachefn" yn edrych yn ol at gyflwr blaenorol y Galatiaid mewn stâd o baganiaeth. Wedi diangc o gaethiwed paganiaeth, yr oeddynt etto am blygu i gaethiwed Iuddewiaeth.

2. *Wele.*—Geilw y gair hwn sylw at yr hyn sydd yn canlyn fel mynegiad cryf a phwysig. Y mae yr apostol yn y pwynt yma yn cymmeryd tôn lemach i gondemnio cyddfurfiad â'r ddeddf. Nid arddodiad difudd a baich caethiwus yn unig ydyw; ond y mae erbyn hyn yndo ei hunan yn niweidiol a dinystriol. *Myfi Paul wyf yn dywedyd wrthych.*—Beth yw grym pennodol y geiriau "myfi Paul?" Pa ham y mae yr apostol yn dwyn ei hunan ger bron gyda'r fath arbenigrwydd? Gall fod un o ddau reswm:—1. Fel hôniad o awdurdod. "Myfi Paul, yr hwn a dderbyniais gommisiwn uniongyrchol oddi wrth Grist, yr hwn a wnaethum, ac a ddioddefais gymmaint dros yr efengyl a throsoch chwithau, yr hwn y mae genyf hawl mor gref ar eich gwrandawiad." Neu 2. Fel gwrth-brofiad anuniongyrchol (ac mewn ffordd o wawdiaeth) o enllibau ei elynion. "Myfi Paul, yr hwn (bid siwr) wyf fy hunan wedi bod yn pregethu yr enwaediad, yr hwn wyf yn dywedyd pethau esmwyth i foddhau dynion, yr hwn ydwyf yn cyfaddasu fy athrawiaeth at archwaeth fy ngwrandawyr:" *Gal.* i. 10; a 2 *Cor.* x. 1. Nid yw y ddau ystyr yn anghydweddol â'u gilydd, a gallasent fod yn bresennol ar unwaith o flaen meddwl yr apostol. *Os enwaedir chwi.*—"Os parhewch i ddilyn y ddefod o enwaediad." *Ni lesâ Crist ddim i chwi.*—Nis gall Iuddewiaeth a Christionogaeth gyd-sefyll 'Os glynwch wrth y cysgod, chwi a gollwch y sylwedd—bydd y drefn i gadw trwy Grist o'ch rhan chwi, a thuag atoch chwi, yn ofer.'

3. *Ac yr wyf yn tystiolaethu drachefn.*—Ystyr y gair a gyfleithir yma "tystiolaethu" yw, nid dwyn tystiolaeth, ond haeru megys yn mhresenoldeb tystion. Cyfeiria y gair "drachefn" at y mynegiad yn *adn.* 2: 'Yr ydwyf eilwaith yn sicrhau i chwi.' *I bob dyn a'r a enwaedir.*—I bob un oedd yn myned o dan y ddefod. Nid y ffaith o'u bod wedi eu henwaedu yn flaenorol a gondemnir (yr oedd hyny yndo ei hunan yn ddibwys), ond eu gwaith yn ymostwng i'r ddefod yn awr, a hwythau yn rhydd-weithredyddion. *Yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf.*—Yr ymresymiad yw hyn:—"Enwaediad yw sêl y ddeddf. Y mae yr hwn sydd o'i wirfodd yn cymmeryd ei enwaediad, yn myned i gyfammod i gyflawni y ddeddf. Y mae felly yn rhwym o'i chyflawni, ac nis gall bledio gras Crist, canys y mae efe wedi myned at lwybr arall o gyflawnhâd."—*Lightfoot.*

4. *Chwi a aethoch yn ddifudd oddi wrth Grist.* —Y mae amser y ferf hon, a'r un yn niwedd yr adnod, "syrthio ymaith," yn gosod allan y canlyniadau fel wedi cymmeryd lle yn y fan—yn ddiattreg:—'Y funyd yr ydych yn troi at enwaediad yr ydych yn y fan yn cael eich cau allan o Grist.' Y mae y ferf a gyfleithir "a aethoch yn ddifudd" (*katérgēthête*) yn arwyddo cael eu tori ymaith yn hollol—eu diddymu oddi wrth Grist:—'nid ydych yn ddim gyda golwg ar Grist.' *Y rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf.*—Yn ceisio cyfiawnhâd trwy gyddfurfiad â'r ddeddf. *Chwi a syrthiasoch ymaith oddi wrth*

[d] Rhuf 11. 6; Heb. 6. 4–6; Dad. 2. 5.
[d] chwi a syrthiasoch ymaith oddi wrth ras.

[e] Gen. 49. 18; Salm 25. 3, 5; Rhuf. 8. 24, 25
5 Canys nyni yn yr Ysbryd [e] trwy ffydd [e] ydym yn dysgwyl gobaith cyfiawnder.

[f] Mat. 25. 31–40; 2 Cor. 5. 14; Iago 2. 14–26.
6 Canys yn Nghrist Iesu ni all enwaediad ddim, na dienwaediad; ond [f] ffydd yn gweithio trwy gariad.

7 Chwi a redasoch yn dda; pwy a'ch rhwystrodd chwi, fel nad ufuddhaech i'r gwirionedd?

8 Y cynghor *hwn* nid *yw* oddi wrth yr hwn sydd yn eich galw chwi.

9 Y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does.

[g] 2 Cor. 2. 3; 2 Thes. 3. 4; Philem. 21.
10 Y mae genyf fi[g] hyder am

ras.—'Ydych wedi eich gyru ymaith, wedi eich alltudio, gydag Agar eich mam' (*Gal.* iv. 30), oddi wrth drefn gras yn yr efengyl. Prawf o anwybodaeth dygn yn elfenau symlaf esboniadaeth ysgrythyrol, neu ynte o anonestrwydd i "drin Gair Duw yn dwyllodrus," yw defnyddio y geiriau hyn i geisio dal i fyny yr hyn a elwir yn "gwymp oddi wrth ras."

5. Prawf o'r gosodiad blaenorol oddi wrth y gwrthwyneb, megys yn *pen.* iii. 10, oddi wrth gyflwr a gobaith Cristionogion. *Canys nyni.*—Nyni, y rhai ydym mewn undeb â Christ; nyni, y rhai ydym yn glynu wrth y cyfammod gras. *Yn yr ysbryd*:—neu, "yn ysbrydol." Y mae bob amser yn anhawdd, ac weithiau megys yma yn ammhossibl, penderfynu pa bryd y mae *pneuma* (ysbryd) yn cyfeirio yn uniongyrchol at yr Ysbryd Glân, a pha bryd nad ydyw. Y mae y naill ystyr yn rhwym o red·g i'r llall, gan fod yr ysbrydol mewn dyn wedi ei iawn gyfeirio yn amlygiad, yn breswyliad o'r Ysbryd Dwyfol.—*Lightfoot. Trwy ffydd.*—Neu, o ffydd (*ek*), fel tarddle a ffynnonell. Dywed Alford fod yma dri gair pwysleisiol, yn nodi tri o gyferbyniadau. 1. *Nyni*—mewn cyferbyniad i'r "rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf:" *adn.* 4. 2. *Yn yr ysbryd*—yn gyferbyniol i'r rhai oedd "yn y cnawd," dan ddefodau cnawdol y gyfraith. 3. *Trwy ffydd*—yn gyferbyniol i'r rhai oedd dan y ddeddf, ac felly yn ceisio cyfiawnder trwy weithredoedd. *Ydym yn disgwyl gobaith cyfiawnder.*—Gobaith yma ydyw y peth y gobeithir am dano—gwrthddrych y gobaith, sef cyfiawnder perffaith (*genitive of the object*). Y mae rhai drach·fn yn ei ddeall yn yr ystyr arall (*genitive of the subject*)—y gobaith y mae y rhai cyfiawn yn ei goleddu, sef gobaith am fywyd tragwyddol. Y mae yn debyg fod yma gyferbyniad yn cael ei awgrymu hefyd yn y gair "disgwyl." Yr oedd yr Iuddew yn edrych ar y "cyfiawnder" fel peth allanol, presennol, mewn gafael; ond edrycha y Cristion arno fel peth tufewnol, dyfodol, ac anghyrhaeddadwy, ond yn unig trwy ffydd yn Nghrist. Ac y mae y "cyfiawnder" hwn hefyd yn ei lawn ystyr yn cymmeryd i mewn ogoneddiad y saint yn y nefoedd, ac felly yn ymestyn i dragwyddoldeb—o ganlyniad yn wrthddrych disgwyliad.—*Ellicott.*

6. *Canys yn Nghrist Iesu.*—Cadarnhâd o'r dywediad blaenorol, ein bod yn disgwyl cyfiawnder trwy ffydd. 'Yn Nghrist Iesu' sydd ffurf o ymadrodd a arferir yn fynych gan yr apostol Paul i osod allan undeb, cymdeithas, ac ymgorphoriad â Christ croeshoeliedig. *Ni all enwaediad ddim, na dienwaediad.*—Yr oedd yr apostol o'r blaen wedi cyhoeddi dedfryd bendant o gondemniad ar enwaediad. Y mae yn y frawddeg hon, megys yn anuniongyrchol, yn lliniaru y condemniad hwnw: dengys nad yw enwaediad ynddo ei hun na gwell na gwaeth na dienwaediad: 1 *Cor.* vii. 18—20; *Gal.* vi. 15). Y niwed mawr sydd ynddo yn awr ydyw, ei fod yn arwain ei ddeiliaid oddi wrth Grist a'r Ysbryd, i "ymffrostio yn y cnawd." *Ond ffydd yn gweithio trwy gariad.*—Gall y gair a gyfeithir "gweithio" gael ei ddeall mewn ystyr oddefol neu weithredol: ffydd 'yn cael ei pherffeithio trwy gariad,' neu ffydd 'yn gweithredu, yn amlygu ei gweithgarwch trwy gariad.' Yr oedd hen ddduwinyddion Eglwys Rhufain, a rhai esbonwyr Protestanaidd, yn sefyll dros yr ystyr oddefol: ond y mae y beirniaid goreu, ac hyd yn oed prif ysgolheigion Eglwys Rhufain ei hunan, yn awr yn ymwrthod â'r ystyr hono ac yn addef mai ystyr weithredol sydd i'r gair yn y lle hwn. Ar yr un pryd, y mae y Pabyddion yn defnyddio y gair i ddal i fyny y golygiad hwnw o'r eiddynt sydd yn rhoddi lle ffydd i gariad yn y cyfiawnhâd. Y mae Lightfoot yn sylwi fod y geiriau "ffydd yn gweithio trwy gariad," megys pont yn croesi y cyfwng sydd yn gwahanu iaith Paul ac Iago o berthynas i ffydd. Y mae y ddau yn dal ffydd fel egwyddor o weithgarwch ymarferol, mewn cyferbyniad i syniad diffrwyth a marw.

7. *Chwi a redasoch yn dda.*—Neu yn hytrach—'Yr oeddych yn rhedeg yn dda:' cyfeiriad at hoff ffugr Paul—y rhedegfa. Yr oeddynt yn cychwyn rhedeg eu gyrfa Gristionogol yn llawn yni a gwres. *Pwy a'ch rhwystrodd chwi?*—Arwydda y cwestiwn synedigaeth yr apostol. Y mae y gair a gyfeithir "rhwystro" (*enekopsen*) yn arwyddo, rhwystro trwy dori ffordd i fyny, trwy ddinystrio pontydd, &c., ac felly ei gwneyd yn annhramwyadwy. Y mae y darlleniadau yn amrywio rhwng y gair yna a gair arall (*anekopsen*) yn arwyddo rhwystro trwy wthio yn ol. Ymddengys mai y cyntaf sydd yn meddu yr awdurdod beirniadol mwyaf o'i blaid. *Fel nad ufuddhaech i'r gwirionedd*:—Sef, i efengyl Crist.

8. *Y cynghor hwn*:—neu, 'y perswadiad hwn—i ba un yr ydych chwi yn rhoddi eich hunain i fyny.' Defnyddir y gair mewn ystyr oddefol:—yr ystâd o fod wedi eu perswadio, sef argyhoeddiad; neu, mewn ystyr weithredol—y weithred o berswadio. Yr ystyr olaf sydd yma. *Nid yw oddi wrth yr hwn sydd yn eich galw chwi*:—sef, Duw. Nid dylanwad dwyfol ydyw yr un ag yr ydych chwi yn ufuddhau iddo.

9. Rhybudd yn cael ei roddi mewn ffurf o ddiareb. Gall yr "ychydig lefain" olygu y gau athrawiaeth, neu y gau athrawon oedd yn ei lledaenu. Yr olaf, fe allai, yw y tebycaf; gan fod y cyfeiriad yma, yn ol y cyd-destyn, at ychydig bersonau yn afionyddu ar heddwch yr eglwysi. Dyfynir yr un ddiareb yn 1 *Cor.* v. 6. Y mae "lefain," yn wastad yn y Beibl yn arwyddlun o ddrwg, oddigerth yn y ddammeg (*Mat* xiii. 33; a *Luc* xiii. 20, 21).

10. *Y mae genyf fi hyder am danoch.*—Wedi y rhybudd yn *adn.* 8, 9, sierhâ yr apostol hwynt yma fod ganddo ymddiried ynddynt, ond na chai y rhai oedd yn eu gŵyr-droi ochel cospedigaeth 'Y mae genyf fi' (yn bwysleisiol)—'o'm

danoch yn yr Arglwydd, na syniwch chwi ddim arall: ond y neb sydd yn eich trallodi a ddwg farn- [a] Act. 16. 3.
edigaeth, pwy bynag fyddo. [b] Esa. 8. 14;
11 A myfi, frodyr, [b]os yr en- Rhuf. 9. 32, 33;
waediad etto yr wyf yn ei breg- 1 Cor. 1. 18,
ethu, pa ham y'm herlidir etto? 23;
yn wir [c]tynwyd ymaith dram- [c] 1 Pedr 2. 8, 9.
gwydd y groes.

rhan fy hunan.' *Yn yr Arglwydd.*—Yr elfen yn yr hon yr oedd ei hyder yn troi ac yn cael ei ammodi: hyder nefol, nid daearol. *Na syniwch chwi ddim arall.*—Dim yn wahanol i'r hyn a ddysgasai yr apostol iddynt. *Ond y neb sydd yn eich trallodi.*—'Yn cyfodi terfysg ac ymrysonau yn eich plith.' Gallai fod y gair "neb" yn awgrymu fod rhyw un yn blaenori y terfysgwyr: neu, yn ol ereill, y mae yr apostol yn defnyddio y ffurf yma er mwyn unigoli y rhybudd, a'i wasgu adref at bob un o'r gau athrawon. *A ddwg farnedigaeth.*—Fel dwyn baich; bydd yn pwyso yn drwm arno: gwel *pen.* vi. 2, 5. *Pwy bynag fyddo.*—Beth bynag fyddo ei sefyllfa yn yr eglwys, neu pa faint bynag yr ymffrostia yn ei gydnabyddiaeth personol a'r Gwaredwr: 2 *Cor.* x. 7.

11. *A myfi, frodyr, os yr enwediad etto yr wyf yn ei bregethu.*—Nid yw y cyssylltiad rhwng yr adnod hon a'r un flaenorol yn hollol glir. Ond ymddengys mai troi yn sydyn y mae yr apostol at y camgyhuddiad a ddygai ei elynion yn ei erbyn; sef, ei fod ef ei hunan yn pregethu yr enwediad. Yr achlysur o hyn, fe allai, oedd ei fod wedi enwedu Timotheus. Y mae yr "etto" yn gyferbyniol i'w Iuddewiaeth blaenorol; er nad oedd yn "pregethu" yr enwediad cyn ei dröedigaeth, yr oedd yn ddadleuwr ffyrnig dros y gyfundraeth o ba un yr oedd enwediad yn rhan. *Pa ham y'm herlidir etto?*—Dyma yr atteb i enllib ei elynion:—'Os ydwyf fi etto yn pregethu yr enwediad, ar ba dir y parheir i'm herlid? A ydyw yn debyg fy mod i, sydd yn wrthddrych gelyniaeth marwol yr athrawon Iuddewig, ac yn nôd i erledigaeth barhaus oddi wrthynt—a ydyw yn beth credadwy fy mod i yn pregethu yr enwediad?' *Yn wir tynwyd ymaith dramgwydd y groes.*—Y mae y gair "yn wir" (*ara*) yn cael ei ddefnyddio mewn gwawdiaeth: fel pe dywedasai:—'Felly yn wir! Os tel y maent hwy yn dyweyd y mae pethau yn bod, yr ydwyf wedi ymgymmeryd â'u trefn hwy o gyfiawnhâd; yr ydwyf yn ddistaw ynghylch croes Crist; nid oes neb yn awr yn tramgwyddo wrth fy mhregethu; y mae pob peth yn myned yn mlaen yn dawel a hwylus!' Y mae "y groes" yn sefyll yma am farwolaeth iawnol Crist. Yr oedd croeshoeliad y Messiah ynddo ei hun yn "faen tramgwydd" i'r Iuddewon, ond yr oedd ei bregethu yn foddion cymmod yn ei wneyd yn ddwbl felly (1 *Cor.* i. 23).—*Lightfoot.*

12. *Mi a fynwn.*—Dymuniad digllawn yn cael ei alw allan gan yr hyn a ddywedasid yn *adn.* 11, a chan y gwrthgyferbyniad rhwng yr enwediad a chroes Crist. *Pe torid ymaith.*—Y mae llawer o ddadleu wedi bod am ystyr y ferf hon. Y mae bron yr holl esbonwyr yn cyttuno nad yw y cyfieithiad cyffredin yn gywir—nad yw y ferf i'w chyfieithu yn oddefol. Y mae dau ystyr arall yn bossibl:—1. 'Mi a fynwn pe byddai i'r terfysgwyr hyn dori eu hunain o'ch cymmundeb.'

12 Mi a fynwn, ïe, pe torid ymaith y rhai sydd yn aflonyddu arnoch.

13 Canys i ryddid y'ch galwyd [a] 1 Cor. 8. 9; Barn. 4. 16
chwi, frodyr: [a]yn unig nac ar- —12.
ferwch y rhyddid yn achlysur i'r [b] Ioan 13. 14, 15;
cnawd, [b]ond trwy gariad gwas- 2 Cor. 4. 5;
anaethwch eich gilydd. Iago 2. 15, 17.

14 Canys yr holl ddeddf a gyf-

Dywed Ellicott fod yr apostol, oddi ar ei adnabyddiaeth fanwl o sefyllfa ysbrydol y Galatiaid, a'r gwir serch sydd trwy yr epistol hwn, yn tymmheru ei lymder, yn cael ei arwain i ddadgan, fel dymuniad, yr hyn yr oedd ganddo hawl fel yn 1 *Cor.* v. 11) i'w arddodi fel gorchymyn. 2. 'Mi a fynwn pe byddai i'r rhai sydd yn aflonyddu arnoch (nid yn unig enwaedu, ond) hyd yn oed ddysbaddu eu hunain.' Yr oedd hwn yn un o'r dulliau ofnadwy yn y rhai y byddai yr offeiriaid paganaidd yn eu hanafu eu hunain, yn enwedig offeiriaid y dduwies Cybele, eisteddle addoliad yr hon oedd yn Pessinus, un o brif ddinasoedd Galatia. Yr oedd enwaediad, fel y sylwa Lightfoot, o dan y ddeddf ac i'r Iuddewon yn arwydd cyfammod; ond i'r Galatiaid, o dan oruchwyliaeth yr efengyl, nid oedd yn meddu unrhyw ystyr felly. Iddynt hwy nid oedd yn ddim amgen nag anafiad corphorol, yn gwahaniaethu mewn gradd, ond nid mewn natur, oddi wrth arferion dychrynllyd yr offeiriaid paganaidd.

13—26. Oddi yma i ddiwedd y bennod, rhybuddia yr apostol y Galatiaid rhag iddynt gamddeall a chamddefnyddio rhyddid yr efengyl, fel ag iddo ddirywio i benrhyddid. Dengys fel y mae y ddeddf a'r efengyl yn dyfod yn un yn yr egwyddor o gariad. Cymmhellir hwynt i rodiad ysbrydol, yr hyn a'u cadwai rhag penrhyddid yn gystal a rhag defodaeth; gwahaniaethir gweithredoedd y cnawd a'r Ysbryd.

13. *Canys i ryddid y'ch galwyd chwi, frodyr.*—Y dadganiad hwn o'r efengyl, fel goruchwyliaeth o ryddid, yw amddiffyniad yr apostol i'r cerydd llym yr ydoedd newydd ei roddi i'r terfysgwyr: "Y maent yn gwrthweithio hyd yn oed ddyben eich galwedigaeth: i ryddid y galwyd chwi, ac nid i gaethiwed."—*Lightfoot. Yn unig nac arferwch y rhyddid yn achlysur i'r cnawd.*—Dyma ocheliad pwysig a thra angenrheidiol: 'Rhyddid, nid afreoleath.' Gallai fod yma, fel yn eglwys Corinth, blaid wrthwyneb i'r un Iuddewaidd, yn amlygu tuedd at eithafion Antinomaidd. Pa fodd bynag, yr oedd mawr berygl o hyn gyda golwg ar gyfundeb o baganiaid dychweledig, ac yn enwedig rhai yn meddu tymmherfryd nwydwyllt y Celtiaid. *Ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd.*—Yr oedd y gair "gwasanaethu" yn cael ei arfer yn y frawddeg hon gydag ystyr neilltuol: 'Os eisieu myned i gaethiwed sydd arnoch, mi a ddangosaf i chwi pa gaethiwed a wna y tro —Caethiwer chwi i'ch gilydd yn ngwasanaeth cariad. Tymmherwch eich rhyddid â'r caethiwed hwn, ceidw hyny ef rhag dirywio i benrhyddid.'—*Lightfoot.*

14. 'Os awydd sydd arnoch i gyflawni y ddeddf, mi a ddangosaf i chwi ffordd syml a chynnwysfawr i wneyd hyny.' *Canys yr holl ddeddf a gyflawnir mewn un gair.*—Y mae hyn yn gadarnhâd ysgrythyrol o'r gorchymyn yn *adn.* 13. Y mae amser y ferf yn arwyddo gweithred orphenol a pharhaus—'sydd wedi, ac yn, cael ei chyflawni.

lawnir mewn un gair, *sef* yn hwn;
[m] Lef. 19. 18, Mat. 22. 39; Luc 10. 27 [n] Gât dy gymmydog fel ti dy hun.
15 Ond os cnoi a thrafflyngcu eich gilydd yr ydych, gwyliwch na ddyfethir chwi gan eich gilydd.
16 Ac yr wyf yn dywedyd,
[r] Rhuf 8. 1, 4, 5, 13, 14. [o] Rhuf. 13. 13, 14; 2 Cor. 7. 1. [p] Esa. 6. 5. Rhodiwch yn yr Ysbryd, [o] ac na chyflawnwch drachwant y cnawd.
17 Canys [p] y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynag a ewyllysioch.

18 Ond [q] os gan yr Ysbryd y'ch arweinir, [r] nid ydych dan y ddeddf.
[q] Esa. 48. 16—18; Ioan 16. 13; 1 Ioan 2. 20. [r] Rhuf. 6. 14, 15.
19 Hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd; y rhai yw, Torpriodas, godineb, aflendid, anlladrwydd,
20 Delw-addoliaeth, swyn-gyfaredd, casineb, cynhenau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, [s] heresiau,
[s] Titus 3. 10 2 Pedr 2. 1.
21 Cenfigenau, llofruddiaeth, [t] meddwdod, [u] cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn: am y rhai yr
[t] Eph 5. 18. [u] 1 Pedr 4. 3.

—*Ellicott.* "Un gair:"—un gorchymyn. Y mae Meyer yn sylwi fod yr apostol yn y geiriau hyn yn cymmeryd safle ysbrydol uchel, o ba un yr edrychai ar yr holl orchymynion yn ddarostyngedig i gyfraith cariad; fel nas gellid edrych ar y dyn oedd wedi cyflawni hon ond fel un wedi cyflawni yr holl gyfraith.

15. Math o rybudd rhwng cromfachau: 'Wrth ymryson â'ch gilydd, nid buddugoliaeth i un blaid a fydd y diwedd, fel yr ydych chwi yn tybied, ond dinystr i'r ddwy.'—*Lightfoot.*

16. *Ac yr wyf yn dywedyd.*—'Dyma yr hyn wyf yn ei feddwl,' neu 'dyma fy ngorchymyn i chwi.' *Rhodiwch yn yr Ysbryd.*—Y mae y gair *pneumati* yn arwyddo yn hytrach—"wrth yr Ysbryd" yn ol rheol ac arweiniad yr Ysbryd Glân. Sylwa Lightfoot fod yr Ysbryd yn yr adnod hon yn gyferbyniol i'r cnawd, ac hefyd i'r ddeddf. Y mae perthynas agos rhwng y cnawd a'r ddeddf; y maent yn ymsymmud yn yr un elfen, o fewn cylch pethau gweledig ac allanol. Nid yw y ddeddf yn attalfa ar y cnawd, ond yn hytrach yn ei gynnhyrfu; ac y mae yn rhaid i'r hwn a ymwrthyd â'r cnawd ymwrthod â'r ddeddf hefyd. Ceir yma hadau rhai o'r syniadau a eglurir yn fwy cyflawn yn yr Epistol at y Rhufeiniaid. *Ac na chyflawnwch drachwant y cnawd.*—Y mae yn destyn dadl pa un ai gorchymynol ai mynegol ydyw y ferf hon. Y mae y beirniaid goreu dros yr ystyr olaf—ffurf gref o fynegiad yn yr amser dyfodol: 'Ni bydd i chwi mewn un modd gyflawni.' A hyn y mae yr adnodau dilynol hefyd yn cyttuno oreu.

17. Wele yn awr brawf o'r gosodiad—os bydd ai iddynt rodio yn yr Ysbryd, na byddai iddynt gyflawni trachwant y cnawd; o blegid y mae y ddau mewn gwrthwynebiad hollol ac anghymodlawn â'u gilydd. Wrth "yr Ysbryd" yn yr adnodau hyn y mae yn rhaid deall Ysbryd Duw; canys nid yw ysbryd dyn ynddo ei hunan yn sefyll mewn gwrthwynebiad i'r cnawd. *Fel na alloch wneuthur beth bynag a ewyllysioch.*—Appeliad at eu hymwybyddiaeth hwy eu hunain:—'Onid oes genych brawf o'r ddwy egwyddor wrthwynebol hyn yn eich calonau eich hunain? Oni buasai hyn, pa ham nad ufuddhaech bob amser i gymmhellion eich cydwybod?'

18. *Ond os gan yr Ysbryd y'ch arweinir.*—Cyflwr cyferbyniol i'r ymdrechfa a ddarluniwyd yn yr adnod flaenorol. *Nid ydych dan y ddeddf.*—Pan y mae yr Ysbryd wedi dyfod mewn gwirioneddi i fod yn egwyddor arweiniol, yna y mae yr ymdrechfa ammheus wedi darfod; nid oes mwyach gyflawni gweithredoedd y cnawd, ac o ganlyniad nid oes mwyach gaethiwed i'r ddeddf.—*Ellicott.*

19. *Hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd.*—'Os dymunech wybod pa un a ydych yn rhodio yn ol y cnawd, ai yn yr Ysbryd, cymmhwyswch atoch eich hunain y prawf amlwg ac ymarferol.' *Y rhai yw.*—Ni fwriedir rhoddi yma restr gyflawn, ond yn unig rai o'r prif enghreifftiau. *Godineb, aflendid, anlladrwydd.*—Y mae yr un tri gair gyda'u gilydd, ond mewn trefn wahanol, yn 2 *Cor.* xii. 21. Y drefn yn yr adnod hon, fe allai, ydyw yr un fwyaf naturiol:—"godineb" (*porneia*) ffurf bennodol o ammhurdeb;" "aflendid" (*akatharsia*), ammhurdeb yn mha ffurf bynag; "anlladrwydd" (*aselgeia*), ammhurdeb mewn ffurfiau cyhoeddus a digywilydd.—*Lightfoot.*

20, 21. Mewn cyssylltiad â phethau ysbrydol enwir dau bechod, *delw-addoliaeth* — cydnabyddiaeth gyhoeddus o dduwiau gau; a *swyngyfaredd* — ymwneyd dirgelaidd âg ysbrydion drwg. Gellir olrhain egwyddor o ddosbarthiad yn y rhestr sydd yn canlyn:—1. *Casineb:* —enw cyffredinol gwrthwyneb i gariad: trosedd o gariad mewn teimlad neu ymddygiad. Y mae yr enwau yn cyfodi mewn gradd eg reolaidd o'r pwynt yma yn mlaen. 2. *Cynhenau:* — ffurf o gasineb y gellid ei galw yn ymgecraeth, heb fod o angenrheidrwydd yn golygu hunan-les. 3. *Gwynfydau:*—neu ymgystadleuaeth, yn yr hon y mae y syniad o hunan-gais yn dyfod yn amlwg. 4. *Llid:* — ffurf mwy nwydwyllt o "gynnen." 5. *Ymrysonau:*—golyga y gair hwn (*eritheiai*) yn y Testament Newydd "ysbryd plaid," yn cyfodi o'r drwg anwydau rhag-grybwylledig. 6, a 7. Y mae yr anghariad yn awr wedi cyrhaedd y pwynt lle y mae y pleidiau gwrthwynebus yn ymwahanu. Y mae yr ymraniad hwn naill ai dros amser, yn *ymbleidiau*, neu ynte yn barhaus, *heresiau* — neu sectau newyddion. 8. *Cenfigenau:*—trosedd mwy ar gariad nag un o'r rhai a enwyd hyd yma; y dymuniad i amddifadu un arall o'r hyn sydd ganddo. 9. *Llofruddiaeth:*—y ffurf mwyaf eithafol a all casineb ei chymmeryd; amddifadu un o fywyd. *Meddwdod, cyfeddach.*—Arwydda y gair "cyfeddach," gwaith dynion yn ymgyfarfod i'r diben o yfed a chydloddesta, y canlyniad naturiol a mynych o'r hyn yw "meddwdod." Gellir yn awr, fe allai, roddi y dosbarthiad cyffredinol a ganlyn o'r holl restr:—1af, Nwydau cnawdol, "godineb, aflendid, anlladrwydd." 2il, Ymarferiadau anghyfreithlawn mewn pethau ysbrydol: "delw-addoliaeth, swyngyfaredd." 3. Troseddau yn erbyn cariad brawdol: o "gasineb" i fyny i "lofruddiaeth." 4. Gloddest anghymedrol: "meddwdod, cyfeddach."—*Lightfoot.*

wyf fi yn rhag-ddywedyd wrthych, megys ag y rhag-ddywedais, [x] na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw.

[x] Esa. 3. 11; i Cor. 6. 9, 10.

[y] Luc 13. 9; Ioan 15. 2, 5, 15. [z] 1 Cor. 13. 4—7; Titus 2. 2—12. [a] 1 Cor. 13. 7, 13.

22 Eithr [y] ffrwyth yr Ysbryd yw, [z] Cariad, Ilawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, [a] ffydd, addfwynder, dirwest:

[b] Rhuf. 8. 9. [c] 1 Pedr 2. 11; Ioan 8. 34; Rhuf. 8. 2, 10.

23 Yn erbyn y cyfryw nid oes ddeddf.

24 A'r [b] rhai *sydd* yn eiddo [c] Crist, a [c] groeshoeliasant y cnawd, a'i wyniau, a'i chwantau.

25 Os [d] byw yr ydym yn yr Ysbryd, [e] rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd.

[d] Rhuf 8. 5. [e] Rhuf 8.

26 Na fyddwn wâg-ogoneddgar, gan ymannog ein gilydd, gan ymgenfigenu wrth ein gilydd.

PENNOD VI.

1 *Y mae efe yn eu hannog hwy i ymddwyn yn llariaidd tuag at frawd a lithrodd; 2 ac i ddwyn bob un faich ei gilydd: 6 i fod yn hael tuag at eu dysgawdwyr; 9 ac na ddiffygiont yn gwneuthur da. 12 Y mae efe yn cangos pa beth yw amcan y rhai sydd yn prepethu yr enwaediad. 14 Nad ow efe ân gorfoleddu mewn dim, ond t yn nghroes Crist.*

Y BRODYR, os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwy-

A chyffelyb i'r rhai hyn.—Pob peth o'r un natur, neu yn yr un dosbarth. *Megys y rhag-ddywedais.*—Pan oeddwn yna gyda chwi. Y mae y blaenddawd "rhag," a ddefnyddir yma ddwywaith, yn cyfeirio at ddydd mawr y cyfrif. *Etifeddu teyrnas Dduw.*—Nid ydynt yn perthyn i'r wir eglwys yn y byd hwn, ac ni chânt fod gyda hi mewn gogoniant.

22. *Eithr ffrwyth yr Ysbryd.*—"Gweithredoedd y cnawd" a ddywedir, ond "ffrwyth yr Ysbryd." Yr olaf ydyw y gwir ffrwyth ar ddynion (*Ioan* xv. 1—3), yn tarddu oddi ar wreiddyn pob daioni, sef Ysbryd Duw, ac yn bawf o fywyd. Y maent hwy yn cael eu hamlygu, y mae yn wir, mewn "gweithredoedd:" ond y maent yn fwy na hod yn weithredoedd—y maent yn "ffrwyth." Nid yw y lleill yn "ffrwyth;" nid ydynt ond "gweithredoedd" drwg, heb ffrwyth i neb oddi wrthynt—"Pa ffrwyth gan hy y, oedd i chwi?" &c.: *Rhuf.* vi. 21. *Cariad, llawenydd,* &c.—Y mae yr anhawsder i ddosbarthu yn fwy yn y rhestr hon nag yn y rhestr o weithredoedd y cnawd. Mae y rhestr, dybygid, yn cynnwys tri dosbarth, a thri gras yn mhob un. 1. Ansoddau meddwl y Cristion yn eu gwedd gyffredinol: "cariad"—y sylfaen: "llawenydd"—yr adeilad: "tangnefedd"—coron y cwbl. 2. Y rhinweddau neil duol yntyn effeithio ar ymdraiod dynion â'u gilydd. Y mae yma etto raddfa esgynol: "hir-ymaros"—goddefol, dioddef yn amyneddgar o dan gam a roddir arnom gan ereill: "cymmwynasgarwch,"—canolog, tueddf yd caredig tuag at ein cymmydogion, ond heb fod o angenrheidrwydd i yn cymmeryd ffurf ymarferol: "daioni"—gweithredol, yr egwyddor weithgar o wneyd da i ereill. 3 Yr egwyddorion cyffredinol a lywodraethant ymddygiad y Cristion. "*Ffydd:*" Nid yw y gair yn cael ei arfer yma yn ei ystyr ddwyinyddol (crediniaeth yn Nuw), ond yn hytrach yn ei ystyr oddefol—bod yn ffyddlawn i ymddiried, yn gyfryw ag y gellir credu ynom, yn deilwng o ymddiried (*trustworthy*): "addfwynder"—ysbryd ymostyngar i Dduw ac i ddynion, bod yn hydrin, yn hawdd ein trin: "dirwest"—hunan-lywodraethiad o ran yr holl nwydau a'r tueddfadau.

23. *Yn erbyn y cyfryw nid oes ddeddf.*—Y mae deddf yn cael ei gosod i'r dyben o attal; ond yn ngweithredoedd yr Ysbryd nid oes dim i'w attal. Y mae yr apostol yma yn profi yr hyn a ddywedasai yn *adn.* 18; "Os gan yr Ysbryd y'ch arweinir, nid ydych dan y ddeddf."

24. *A'r rhai sydd yn eiddo Crist:*—neu, "y rhai ydynt o Grist," yn perthyn i Grist. Y mae y gair "Iesu" i fewn yn y lle hwn yn yr ysgrifau hynaf, a dylid yn ddiammheu ei gadw. *A groeshoeliasant y cnawd.*—Y mae y gair yn yr amser gorphenol, ac yn arwyddo, nad i ai eu lod wedi gwneyd hyn yn y bedydd, pan yn cymmeryd i fyny broffes gyhoeddus o Grist (*Rhuf* vi. 2), neu yn dynodi fod y cyfnewidiad yn un llwyr a chyflawn, heb olygu rnrhyw bwynt neilldnol o amser. *A'i wyniau a'i chwantau.*—G syd y geiriau hyn bechod allan yn ei ochr oddefol a gweithredol. Gan fod y rhai sydd yn eiddo Crist wedi croeshoelio y cnawd, y maent ar wahân oddi wrth, ac yn farw i'r ddeddf.

25. *Os byw yr ydym yn yr Ysbryd.*—Cyfleithir yr ymadrodd hwn yn wahanol gan esbonwyr: "byw trwy yr Ysbryd," "byw i'r Ysbryd," neu "byw yn yr Ysbryd" (*pneumati*) Y mae yn debyg mai y meddwl ydyw, 'Os ydym yn byw y bywyd tufewnol goruchel hwnw a genhedlir, ac a gynnelir gan yr Ysbryd'—y bywyd sydd wedi ei guddio yn Nuw o ran ei darddle a'i gyflenwad. *Rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd.*—Prowyn hyny trwy yw y bywyd ymarferol ac allanol yn unol â'r llall, mewn dwyn "ffrwyth yr Ysbryd"

26. *Na fyddwn wâg-ogoneddgar.*—Cynnwysa hyn medd De Wette, pob gogoniant bydol, fel amcan annheilwng i Gristion i'w geisio. *Gan ymannog ein gilydd, gan ymgenfigenu wrth ein gilydd.*—Y mae y gair "ymannog" yn golygu herio i ymgystadlu, gyru i eiddiwedd. Ac "ymgenfigenu" ydyw y weithred o du y gwan sydd yn cyfatteb i "ymannog" o du y cryf. Y mae y cryf yn herio yn ymffrostgar eu brodyr gwanach: nis gallant hwythau atteb ond â chenfigen. —*Ellicott* Rhoddir yr annogaeth hon i bob plaid yn eglwysi Galatia fel en gilydd: yr oedd y naill a'r llall yn y perygl—y blaid luddewaidd a'r uniongred.—*Alford.*

Pennod VI.

1—5. Cynghor i swyddogion yr eglwysi gyda golwg ar y gweinyddiad o ddysgyblaeth eglwysig, a'u hymddygiad tuag at eu gilydd.

1. *Y brodyr.*—Cyfarchiad caredig, i ennill eu serch, ac i arwyddo dygiad i mewn fater newydd. *Os goddiweddir dyn ar ryw fai.*—Deallir y gair "goddiweddir" yn gyffredin yn y lle hwn fel wedi ei fw iadu i lanity n drwg; megys pe buasai y bai wedi goddiweddyd y dyn. Ond y mae yr esbonwyr goreu yn dadleu, oddi ar y lle pwysleisiol sydd i'r gair yn y frawddeg, mai yr

B. A. 57.
[a] Mat. 18. 12—15.

chwi y rhai ysbrydol, [a]adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan dy ystyried dy hun, rhag dy demtio dithau.

2 Dygwch feichiau eich gilydd, [b] Ioan 3.14, 15, 34, 35; 1 Cor. 9.21; 1 Ioan 4.21. ac felly cyflawnwch [b]gyfraith Crist.

3 O blegid os tybia neb ei fod yn rhywbeth, ac yntau heb fod yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei hun.

4 Eithr [c] profed pob un ei waith ei hun; ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall. [c] Salm 26. 2; 1 Cor. 11. 28; 2 Cor. 13. 5.

5 Canys [d] pob un a ddwg ei faich ei hun. [d] Ier. 17. 10; Mat. 16. 27.

ystyr holl ol groes i hyny sydd iddo—mai mwyhau y dwyg y mae. Nid y bai sydd yn goddiweddyd y dyn: rhywrai ereill sydd yn goddiweddyd y dyn ar y bai; hyny yw, yn ei ddal yn y weithred o gyflawni unrhyw bechod, fel nas gall fod ammheuaeth am ei euogrwydd. *Chwychwi y rhai ysbrydol.*—Y mae dau olygiad am ystyr "y rhai ysbrydol" yn y lle hwn. Yn ol Olshausen, Ellicott, ac ereill, cyfeiria yr apostol at y rhai oedd yn eglwysi Galatia wedi glynu yn ffyddlawn wrtho ef a'i ddysgeidiaeth, ac felly yn "rhai ysbrydol," mewn yferbyniad i'r dosbarth arall oedd yn cymmeryd eu hudo at ddefodau cnawdol luddewiaeth. Gallai fod yma awgrymiad cynnil, os dyna ydyw yr ystyr, fod "y rhai ysbrydol" hyn mewn perygl o arfer llymder gormodol tuag at frodyr gweiniaid. Yn ol Lightfoot, ac ereill, yr ystyr yw, nid "rhai ysbrydol" o ran eu barn am athrawiaeth yr efengyl, ond o ran ansawdd meddwl a chalon. Yr oedd yr apostol yn y bennod o'r blaen wedi cymmheli llawer arnynt i ysbrydolrwydd, i "rodio yn yr Ysbryd," &c. (*adn.* 16, 25); ac yn awr, y mae yn appelio at y rhai oedd fel hyn yn cymmeryd eu harwain gan yr Ysbryd. *Adgyweiriwch y cyfryw un.*—Y mae y gair a gyfieithir "adgyweirio" yn cyfieu y drychfeddwl o ddiwygio, yn hytrach na chospi. Y mae yn air a arferir mewn llaw-feddygiaeth (*surgery*), am osod asgwrn neu aelod yn ei le. *Mewn ysbryd addfwynder.*—Nid "mewn ysbryd addfwyn." Y mae yr ymadrodd hwn yn llawer cryfach, ac yn golygu ysbryd sydd a'i brif ansawdd neu ei nodwedd mwyaf arbenig yn addfwynder. Y mae addfwynder yn nôd o wir ysbrydolrwydd: felly byddai yr "ysbryd addfwynder," a ddangosir mewn dysgyblaeth eglwysig, yn dyfod yn fesur o ysbrydolrwydd y rhai fyddai yn ei gweinyddu. *Gan dy ystyried dy hun, rhag dy demtio dithau.*—Adgofir hyd yn oed "y rhai ysbrydol," eu bod hwythau yn agored i gael eu temtio i bechod; a gwesgir hyn arnynt fel rheswm pa ham y dylent ddangos ysbryd Cristionogol mewn adferu un nad oedd wedi syrthio ond yn yr un modd ag yr oedd pob un o honynt hwythau yn agored i wneyd. Newidir y rhif o'r lliosog i'r unigol er mwyn gwasgu y peth adref yn fwy at gydwybod pob un yn ersonol.

2. *Dygwch feichiau eich gilydd.*—Cymmhelliad i ysbryd o gyd-oddefiad a chyd-gynnorthwyad Cristionogol, mewn cyferbyniad i ysbryd hunanol a hunan-geisiol. Y mae y gair "beichiau" o ystyr eang, ac yn cymmeryd i mewn bob ffurf o wendidau a dioddefiadau, ac fe allai yn fwy neilduol pechodau.—*Ellicott. Ac felly cyflawnwch gyfraith Crist*:—sef, "cyfraith cariad," yr hon a gyhoeddodd efe (*Ioan* xiii. 34; 1 *Ioan* iii. 23), a'r hon a weithredodd allan mor rasol yn ei fywyd a'i angeu. Sylwa Ellicott fod y gair "cyfraith" yn cael ei arfer yma gyda chyfeiriad at amgylchiad y Galatiaid. Yr oeddynt hwy am fyned i gadw cyfraith Moses, ond dyma "gyfraith Crist," yr hon a gynnwysai gyflawniad o'r holl gyfraith. Dyma y gyfraith y dlmunwn i chwi ei chyflawni, dyma y "beichiau" y dymunwn i chwi eu dwyn: nid defodau trymion y ddeddf, ond gwendidau, a beiau, a phrofedigaethau eich brodyr. Cynnwysa y gair a gyfeithir "cyflawnwch" yr ystyr o gyflawni yn llwyr a thrwyadl.

3. *O blegid os tybia neb ei fod yn rhywbeth.*—Cadarnhâd i'r annogaeth flaenorol i addfwynder a gostyngeiddrwydd, trwy ddangos drwg y dymmher groes i hyny. *Ac yntau heb fod yn ddim.*—Nid mewn ffordd o dybiaeth y mae hyn yn cael ei ddyweyd, ond o gadarnhâd: y mae y ffaith ei fod ef yn "tybied ei fod yn rhywbeth" ar unwaith yn ei gondemnio, ac yn ei brofi mewn gwirionedd "heb fod yn ddim" *Y mae efe yn ei dwyllo ei hun.*—Golyga y gair (*phrenapata*) "twyllo ei feddwl ei hun," neu "twyllo ei hun yn ei feddwl," yn ei ddychymmygion, heb ddim sail mewn dim oddi allan iddo ei hun i orphwys arni. O blegid hyn y gorchymynir iddo yn y geiriau nesaf i gymmeryd ei waith allanol yn faen-brawf, a ffurfio ei farn am dano ei hun wrth hwnw. Y mae yr adnod hon yn ein dysgu mai y prif rwystr i gydymdeimlad â beichiau ereill ydyw hunan-dyb: teimlad o'n gwendid ein hunain a'n gwna yn dyner tuag at ereill.

4. *Eithr profed pob un ei waith ei hun.*—Dyma ddwyn y cwestiwn i brawf gwirioneddol: "gwaith," neu y ffrwyth yn dyfod i'r golwg yn mywyd y dyn, yn gyferbyniol i bob "tybiau" a "meddwl-dwyll" am dano ei hun. *Ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig.*—Gallai fod yma radd o wahdiaeth, 'Pa ddefnydd neu sail bynag o orfoledd a gaiff, wedi gwneyd y prawf hwnw, efe a'i caiff ynddo ef ei hunan.' *Ac nid mewn arall.*—Efe a'i caiff yn ei ragoriaeth ei hun, ac nid yn niffygion ei frawd.

5. *Canys pob un a ddwg ei faich ei hun.*—Cadarnhâd o'r gosodiad yn *adn.* 4. Ni raid i bob un ond edrych ato ei hun i weled fod ganddo ei "faich" ei hunan i'w ddwyn, ac y mae hyn yn rheswm da dros iddo beidio hôni uwchafiaeth ysbrydol ar ei gymmydog. Wrth y "baich" yma yn ddiau y golygir, nid y baich o gyfrifoldeb, ond y baich o wendidau, amnherfeithrwydd a phechodau, sydd yn pwso ar bob un; y mae "a ddwg" yn yr amser dyfodol, ond nid yn cyfeirio at ddydd y farn, eithr yn golygu yr hyn a raid fod yn ol natur pethau yn y bywyd hwn. Nid yr un gair a gyfieithir "baich" yma ag yn *adn.* 2. Y gair sydd yno ydyw *baros*, ac yn cynnwys, heb law bai, y syniad o orthrymder a helbul—y cyfryw ag y gall brodyr, i ryw fesur, gynnorthwyo eu gilydd i'w ddwyn; ond y gair yn yr adnod hon ydyw *phortion*, arferedig am becyn teithiwr neu filwr, ac yn golygu y cyfryw faich ag sydd yn perthyn i'r dyn ei hunan yn benodol—yn cynnwys y syniad o fai a gwendid nas

Deut. 12. 19; 1 Cor. 9. 9-14. 6 °A chyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, a'r hwn sydd yn ei ddysgu, yn mhob peth da.

f Job 13. 8. 9; Jud. 18. g Hos. 8. 7; Luc 16. 25. 7 Na thwyller chwi. fNi watwarir Duw: gcanys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe.

h Rhuf. 6. 13. i Diar. 22. 8. k Adn 7. 8 O blegid yr hwn sydd yn hhau i'w gnawd ei hun, o'r iffêd lygredigaeth: eithr yr hwn sydd yn khau i'r Ysbryd, gellir ei drosglwyddo i arall. Y mae *adn.* 2 a'r adnod hon yn enghraifft o'r gwrthddywediadau ymddangosiadol y mae yr apostol weithiau yn hoffi eu harfer; "Dygwch feichiau eich gilydd" (*adn.* 2)—"Canys pob un a ddwg ei faich ei hun" (*adn.* 5). Ond y maent yn hollol gysson â'u gilydd, a'r naill yn dyfod yn rheswm dros y llall. "Bydded i chwi ddangos pob cydymdeimlad tuag at eich gilydd yn meiau a phrofedigaethau eich gilydd, canys y mae gan bob un o honoch ei faich ei hunan o feiau a gwendidau." Y teimlad o'n hammherffeithrwydd ein hunain a'n dysg oreu i gydymdeimlo â gwendidau ein brodyr.

6—10. Annogaeth i aelodau yr eglwys i ddangos haelioni tuag at eu hathrawon crefyddol, ac i feithrin cymmwynasgarwch cyffredinol.

6. *A chyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, a'r hwn sydd yn ei ddysgu.*—Wrth "y gair" yma yn ddiau y deallir yr efengyl. Gorchymyn eglur a phendant i'r rhai sydd yn mwynhau gweinidogaeth yr efengyl i gydnabod llafur eu gweinidogion, trwy "gyfranu â hwynt." Nid "cyfranu iddynt" a ddywedir, fel pe buasai elusen: y mae y gair yn llawer cryfach, ac yn cyfleu syniad arall; sef, "myned yn rhanog â hwynt" (cyd-ran)—yn "*bartners*" (*koinónetó*). *Yn mhob peth da*:—sef mewn pethau tymmhorol—pethau "da" y bywyd hwn. Y mae gweinidogion yr efengyl yn cymmeryd eu gwrandawyr a'u praidd i mewn i gael "cyfranau" (*shares*) gyda hwynt mewn pethau ysbrydol—ffrwyth eu llafur yn y gair. Dangosir yma y dylent hwythau, gan hyny, o'r ochr arall, gymmeryd eu gweinidogion i mewn i "gyfranau," i *shares* â hwythau mewn pethau tymmhorol—ffrwyth eu llafur hwythau yn eu gwahanol alwedigaethau bydol.

7. *Na thwyller chwi.*—Rhybudd difrifol i gadarnhau yr annogaeth flaenorol, ac mewn cyfeiriad at yr egwyddor gyffredinol. *Ni watwarir Duw.*—[c] Os ydych am brinhau yn eich rhoddion at achos crefydd, na thwyllwch eich hunain trwy feddwl y gellwch ddiange yn ddigosp. Ni ellwch watwar neu dwyllo Duw.[f] Er fod dynion yn "gwatwar Duw" o ran dyben ac egwyddor, twyllo eu hunain y maent—nid oes y fath beth a "gwatwar Duw" mewn gwirionedd yn bossibl. *Canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe.*—Diareb gyffredin yn y Beibl (*Iob* iv. 8), ac mewn awdwyr paganaidd; yn dangos y cyssylltiad anwahanol rhwng gweithredoedd dyn—cwrs cyffredin ei fywyd—a'u canlyniadau tymmhorol a thragwyddol. "Hyny"—yr un o ran natur, ac nid dim arall ("hyny" o ran swm hefyd, ond y blaenaf yw y prif feddwl yma); "a fêd efe"—yn y cynhauaf mawr yn y dydd olaf. "Defnyddir yr un ffugr yn 2 *Cor.* ix. 6, mewn cyfeiriad at y casgliad i'r brodyr tlodion yn Iudea. Yr oeddid

[l] o'r Ysbryd a fêd fywyd trag- [l] Mat. 19. 29. wyddol.

9 Eithr yn gwneuthur daioni na ddiogwn: [m]canys yn ei iawn [m] Lef. 26. 4. bryd y medwn, oni ddiffygiwn.

10 Am hyny tra yr ydym yn cael amser cyfaddas, [n]gwnawn [n] Salm 37. 3, dda i bawb, ond yn enwedig i'r 27. rhai sydd o deulu y ffydd.

11 Gwelwch cyhyd y llythyr a

wedi ceisio gan yr eglwysi yn Galatia gyfranu at yr achos hwn hefyd: 1 *Cor.* xvi. 1. Gellir casglu, gan hyny, fod crintachrwydd yn bechod parod i'w hamgylchu; nad oeddynt wedi atteb yn siriol i'r alwad hono, a bod yr apostol yn cymmeryd y cyfle hwn i geryddu eu cybydd-dod, wrth fyned yn mlaen oddi wrth eu rhwymedigaeth i gynnal eu gweinidogion at y ddyledswydd gyffredinol o haelioni.—*Lightfoot.*

8. Edrychir yma ar y "cnawd" a'r "Ysbryd," fel dau faes i hau ynddynt, ac i fedi o honynt. Y mae "hau i'w gnawd ei hun" yn golygu, nid yn unig cnawdolrwydd, ond hunan-gais yn mhob ffurf—dyn yn byw i foddhau ei dueddiadau a'i flysiau ei hunan, y rhai oll nid ydynt ar y goreu ond "cnawd." *A fêd lygredigaeth.*—"Llygredigaeth" yr holl ddyn, gorph ac enaid, yr hyn sydd yn cynnwys marwolaeth dragwyddol. *Bywyd tragwyddol.*—Mewn cyferbyniad i'r "llygredigaeth."

9. *Eithr yn gwneuthur daioni.*—Yn gyffredinol, yn mhob cylch. *Na ddiogwn.*—Arwydda y gair, troi yn llwfr a digalon. *Canys yn ei iawn bryd y medwn*:—sef, yn amser y cynhauaf. *Oni ddiffyiwn.*—Cyfeiriad, o bossibl, at lafurwyr wrth hau neu lafurio y ddaear, yn cael eu gorchfygu gan wres a lludded.

10. *Tra yr ydym yn cael amser cyfaddas.*—Fel y byddo cyfleusdra yn agor. Bydded i'n cymmwynasgarwch gyfatteb i'n cyfleusderau. Nid "tra yr ydym," o ran amser, a feddylir; ond yn ol—yn gyfattebol. *Gwnawn dda i bawb.*—Yn llythyrenol, 'y peth da' (*to agathon*)—yr hyn a fyddo yn dda—an gymmwynasgar yn mhob amgylchiad neilldiol. *Teulu y ffydd.*—Neu, "y rhai sydd yn perthyn i'r ffydd."

11—18. Yr ol-ysgrif a'r fendith.

Y mae yr apostol yn y fan yma yn cymmeryd yr ysgrif-bin o law ei ysgrifenydd, (*amanuensis*), ac yn ysgrifenu y paragraph diweddol â'i law ei hun. O'r amser y dechreuwyd ysgrifenu llythyrau twyllodrus yn enw yr apostol (2 *Thes.* ii. 2, a iii. 17), ymddengys ei fod wedi dechreu yr arferiad o ddiweddu ei lythyrau âg ychydig eiriau yn ei law-ysgrif ei hunan, fel rhagochellad yn erbyn y cyfryw dwyll-ysgrifau. Cyfyngai ei hunan weithiau i ddim ond ysgrifenu y fendith derfynol (2 *Thes.* iii. 17, 18) gydag un frawddeg, fe allai o gynghor, megys "Od oes neb nad yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist," &c. (1 *Cor.* xvi. 21—24); neu, "Cofiwch fy rhwymau:" *Col.*, iv. 18. Ymddengys ei fod, yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, wedi ysgrifenu y molawd, yr hwn sydd yn darllen fel ol-ysgrif (xvi. 25—27). Yn yr amgylchiad hwn, y mae yn ysgrifenu paragraph cyflawn, yr hwn sydd yn symio i fyny brif wersi yr epistol mewn brawddegau cynnwysfawr, brwd, a gwasgarog. Y mae yn ei ysgrifenu hefyd mewn llythyrenau breision hyfion, fel y byddai i'w lawysgrif adlewyrchu brydaniaeth a phenderfyniad

ysgrifenais atoch â'm llaw fy hun.

12 Cynnifer ag sydd yn ewyllysio ymdecâu yn y cnawd, y rhai hyn sydd yn eich cymmhell i'ch [o]Phil. 3. 18. enwaedu; yn unig [p]fel nad erlidier hwy o blegid croes Crist.

13 Canys nid yw y rhai a enwaedir, eu hunain yn cadw y ddeddf; ond ewyllysio y maent [p]1 Cor. 3. 21; 5. 6. enwaedu arnoch chwi, [p]fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi.

[o]Dan. 4. 30, 31; 1 Cor. 1. 29 —31. 14 Eithr na atto Duw [q]i mi ymffrostio [r]ond yn nghroes ein [r]Esa. 45. 24, 25 Harglwydd Iesu Grist, trwy yr [s]Act. 20. 23 24. hwn [s]y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd.

ei enaid. At hyn y mae yn galw sylw yn yr adnod nesaf.—*Lightfoot.*

11. Y cyfiei hiad cywir ydyw: "Gwelwch mewn llythyrenau mor fawr yr ysgrifenais atoch â'm llaw fy hun.' Y mae Ellicott ac Alford yn barnu, yn wahanol i'r nodiad uchod o eddo Lightfoot, fod yr apostol wedi ysgrifenu yr holl epistol hwn â'i law ei hun. Barna rhai ei fod yn ysgrifenu mewn llythyrenau breision fel hyn fel effaith gwendid ei lygaid. neu ei ewynau (y "swn.bwl yn y cnawd"), ac felly ei fod yn galw sylw at hyn fel prawf o ddilysrwydd ei epistol. Y mae yn anhawdd pende fynu pa un ai fel yna ai yn fwriadol yr ysgrifenai fel hyn i ddangos e yni a'i deimla'.

12. *Ymdecâu yn y cnawd.* — 'Fel y mae fy llythyr, fe ly yr wyf finnau—nid ydwyf fel y gauathrawon hyn am wneyd ymddangosiad teg oddi allan.' Yr oeddynt hwy am wneuthur arddangosiad rhodresgar o grefydd mewn defodau allanol. *Yn eich cymmhell.*—Yn myned oddi amgylch i'ch gorfodi i gymmeryd eich enwaedu *O blegid croes Crist.*—Fel nad erlidier hwy am broffesu croes Crist. Y mae "croes Crist," a'r "cnawd,' yn wrthgyferbyniol fel ffydd a gweithredoedd.—*Lightfoot.*

13. *Yn cadw y ddeddf.*—Nid oeddynt yn cadw yr holl ddeddf, ond yn cymmeryd rhyw bethau o honi i roddi pwys arnynt yn ol eu mymeuwy.—*Alford.* Cyhuddir hwynt yma o anghywirdeb: nid oeddynt yn ddigon o ddifrif i'w chadw yn fanwl eu hunain.—*Lightfoot. Fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi.*—"Fel yr ymffrostiont yn eich ymddangostyngiad chwi i'r dde od gnawdol hon, ac felly yr ennillont enw gyda'r Iuddewon am i roselytio."—*Lightfoot.*

14. *Yn nghroes ein Harglwydd Iesu Crist.*—Marwolaeth iawnol Crist (er y gwaradwydd a berthynai iddi yn neolwg y byd) fel moddion cymmod â Duw. Rhoddir enw y Gwaredwr yn llawn er mwyn rhoddi argraph gryfach o bwys a difrifoldeb, a rhoddir y gair "ein" er mwyn gwasgu y Galatiaid i deimlad o'u rhwymediaeth i fod yn ffyddlawn i efengyl Crist. *Trwy yr*

15 Canys yn Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na di- [t]2 Cor. 5. 17; Eph. 2. 10. enwaediad, [t]ond creadur newydd.

16 A chynnifer ag a rodiant [u]Num. 6. 23 —27. yn ol y rheol hon, [u]tangnefedd ar- [x]Salm 73. 1. nynt a thrugaredd, ac ar [x]Israel Duw.

17 O hyn allan na flined neb [y]2 Cor. 1. 5; 4. 10. fi: canys [y]dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu.

18 [z]Gras ein Harglwydd Iesu [z]2 Cor. 13. 14; Philem. 25; Dad. 22. 21. Grist *a fyddo* gyda'ch ysbryd chwi, frodyr. AMEN.

¶ At y Galatiaid yr ysgrifenwyd o Rufain.

hwn.—Yn fwy cywir (yn ol rhai "trwy yr hon," sef y groes. *Y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd.* — Y groes oedd offeryn croeshoeliad Paul, megys Crist; o blegid dywedai, "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ." Wrth "y byd," medd Alford, y golygir yr holl gyfundrefn o ddynion a phethau anysbrydol, anghristionogol. Yr oedd y byd ac yntau bellach yn farw i'w gilydd; ac nid yn unig yn farw, ond wedi eu "croeshoelio" Y mae y "croeshoeliad" hwn o bob tu yn ddull cryf o osod allan ddarfyddiad hollol pob cymmundeb rhwng yr apostol a'r byd: ac y mae hyn oll yn gwreiddio yn mherffeithrwydd undeb y credadyn â Mab Duw yn ei angeu.

15. Gwel ar *pen.* v. 6. *Ond creadur newydd.* —Neu, "creadigaeth" newydd. Gwel ar 2 *Cor.* v. 17.

16. *A chynnifer.*—Pwy bynag fyddont; pa un bynag ai o'r enwaediad ai o'r dienwaediad. *Y rheol hon.*—Llinell wastad, fel llinyn mesur y saer neu y tir-fesurydd—y rheol hon o ffydd neu athrawiaeth. *Tangnefedd arnynt a thrugaredd.* —Nid dadganiad, ond dymuniad ('tangnefedd fyddo,' &c., yn ol dull y genedith apostolaidd), a arferir mor fynych yn nechreuad yr epistolau.—*Alford. Ac ar Israel Duw.*—Y gwir Israel ysbrydol, Iuddewon neu Genhedloedd, mewn cyferbyniad i'r Israel yn ol y cnawd.

17. "O hyn allan na foed i neb ammheu fy awdurdod—na fydded i un dyn fy rnwystro a'm cythryblu." *Canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu.*—'Yr Iesu ydyw fy Meistr a'm Hamddiffynwr. Yr ydwyf yn gaethwas gwirfoddol iddo. Y mae ei "nodau" (y nodau i ddangos meddiant, a roddid ar gyrph caethweision, neu gaethion rhyfel, neu filwyr)—y mae ei nodau ef (olion erlidigaeth) wedi eu hargraphu ar fy nghorph. Yr ydwyf yn dwyn yn fy nghorph arwyddion (*stigmata*) y gwaith anrhydeddus.' (Gwel yr Arweiniad i'r epistol: td. 136.)

18. Y FENDITH APOSTOLAIDD. — Gwel ar 1 *Cor.* xvi. 23, a 2 *Cor.* xiii. 13.

YR

EPISTOL AT YR EPHESIAID.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Y MAE y tystiolaethau sydd genym o blaid dilysrwydd yr epistol hwn yn gryfion iawn. Fr i nî orfod addef nad ydyw y dyfynion a wnair o Ignatius a Polycarp yn hollol benderfynol, nid oes dim yn fwy diamnheuol na bod Irenæus, Clement o Alexandria, Origen, a Tertullian, yn rhoddi eu tystiolaethau yn eglur i awduraeth yr epistol.

"Megys y dywed Paul yn ei Epistol at yr Ephesiaid," &c.—*Iren., adr. Haer.*, v. 2, 3.

"O herwydd pa ham hefyd, yr ysgrifena (sef Paul), yn ei Epistol at yr Ephesiaid," &c.—*Clem. Alex., Strom.* iv. adran. 65.

"Yr ydwyf yma yn pasio heibio y dywediad ynghylch epistol arall, yr hwn yr ydym ni yn golygu iddo gael ei ysgrifenu at yr Ephesiaid, ond yr Hereticiaid a haerant mai at y Laodiceaid yr ysgrifenwyd ef."—*Tertull., contra Marcion* v., 11.

Ar ol hyny, y mae tystiolaethau gan yr eglwys i ddilysrwydd yr epistol yn gysson a chyffredinol. Ond yn ddiweddar, y mae amryw o feirniaid galluog wedi ceisio taflu ammheuaeth ar y gred gyffredinol hon. Yn mhlith eraill, y mae De Wette, Schwegler, a Baur, wedi ymdrechu yn galed i geisio profi ei annilysrwydd. Ceisia De Wette brofi nad yw ond ymhe aethiad difywyd ar epistol at y Colossiaid; a'i fod yn cynnwys ymadroddion ac athrawiaethau anghysson â'r eiddo yr apostol Paul. Priodola ei awduriaeth i un o ddysgyblion yr apostolion yn ysgrifenu yn eu henw. Ceisia ddangos, trwy enghreifftiau lliosog, mai ffugiaeth efelychiadol yw. Swm a sylwedd y profion ydyw yr ammhebygolrwydd yn ei iaith a'i feddyliau i'r eiddo Paul; neu, mewn geiriau eraill, y mae y ffugiaeth yn adfywyddiannus hollol, ac yn bawdd ei brofi a'i ddynoethi. Yn awr, pa fodd y mae i ni roddi cyfrif fod ffugiaeth mor amlwg wedi ei dderbyn fel gwirionedd dilys gan y gauaf gyntaf, yr ail, a'r drydedd, y rhai oeddynt yn meddu ar bob manteision i adnabod geudeb ei gynnwys, a phrofi annilysrwydd ei awduriaeth. Gallwn chwanegu hefyd fod grym rhagfarn i'w ganfod mewn modd tarawiadol yn y ffaith fod un fel De Wette yn gallu synied mor isel am gynnwys yr epistol arddunol hwn fel ag i'w ystyried yn helaethiad di ystyr ar yr Epistol at y Colossiaid: a'r nid ydyw yn rhyfedd fod Esboniad De Wette ar yr Epistol mor i-raddol mewn cymmariaeth i'w esboniadau eraill. Hawdd ydyw canfod fod ei ragfarnau yn taflu eu cysgodion trwyn ar ei feddwl, a yn ei attal rhag canfod gogoniant an dunol cynnwys yr epistol a ysgrifenodd Paul at yr Ephesiaid. Y mae Baur, Schwegler, ac eraill, yn gwrthod yr Epistol at y Colossiaid, yn gystal a'r un at yr Ephesiaid, gan olygu y dylau fel ynnyrchion yr oes yr oedd Montaniaeth a Gnosticiaeth i'r un peth yn ffynu yuddi. Y prawf sydd ganddynt yw fod geiriau a syniadau Gnosticaidd i'w cael ynddynt; ac hefyd fod yn llawer mwy tebygol fod yr epistolau hyn wedi cymmeryd eu geiriau oddi wrth yr heresiau, na bod yr heresiau wedi eu benthyca oddi ar yr epistolau. Nid ydyw yn anhawdd a deb hanfod yr wrthddadl hon. Y mae yn rhaid i ni, yn ol deddfau dadblygiad syniadau ac iaith ddynol, olygu od yr ymadroddion y cyfeirir atynt wedi bod yn graddol ymagor ac ymddadblygu am rai oesoedd, a dlau eu bod mewn ymarferiad, mewn ystyr llai cyfeiliornus a dirywiedig, yn nyddiau yr apostolion: canys ni a wyddom fod cyfeiliornadau, fel cyfeiliornwyr, o ran symlau ac o ran geiriau, yn myned rhagddynt, fel y dywed yr apostol, yn waeth-waeth. Nid oes dim yn fwy naturiol, gan hyny, i ni gredu na bod yr apostol wedi cymmeryd eu geiriau a'u dyehteddyliau i fyny i'w pero o'r hyn oedd gyfeiliornus ynddynt, a'u llanw â gwirioneedd pur ar elengyl: a thrwy hyny daethant i fod yn eiriau a bywyd a doethineb yn dynt, wedi eu dysgu gan yr Ysbryd Glân, lle yr oeddynt unwaith wedi eu dysgu gan ddoethineb dynol. Trefn Ysbryd i uw ydyw peri i fywyd dreiddio i mewn i ganol marwolaeth, a dwyn allan o'i ganol oleuni trefn a phrydferthwch bywyd.

II. AT BWY YR YSGRIFENWYD EF.

Yn ol y testyn, fel y mae yn sefyll yn gyffredin, cafodd y llythyr hwn ei ysgrifenu at yr eglwys yn Ephesus. Ond y mae rhai ysgrifenwyr wedi ceisio profi y dylai "yn Ephesus" (*pen.* i. 1), gael ei adael allan. Dadleuir, yn gyntaf, fod y llawys rif bwysig B. heb y geiriau hyn; felly hefyd y llawysgrif rhif 67. Y mae genym hefyd dystiolaeth Basil, eu bod yn absennol o'r hen gopiau y

gwyddai ef am danynt. Ymddengys hefyd yn lled glir fod Tertullian ac Origen yn cymmeryd eu habsennoldeb yn ganiataol. Y mae haeriad Basil yn cael ei gadarnhau gan Ierome ac Epiphanius. Hefyd, yn ail, dywed Marcion mai teitl yr epistol hwn yn y casgliad a arferai ef o'r epistolau ydoedd, "yr Epistol at y Laodiceaid." Yr oedd Marcion yn frodor o'r diriogaeth, lle y gallasem ddisgwyl i'r copiau hynaf o'r epistol fod yn ffynu.

Ond ar y llaw arall, attebir trwy ddywedyd, (1). Fod gorbwysedd awdurdod a thystiolaeth allanol yn gryf o blaid gadael y geiriau "yn Ephesus" i mewn. Cyfeiriwn yma at dystiolaeth dra ddodiadol yr eglwys, tystiolaeth y cyfeirthiadau, ynghyd â lliaws mawr o'r llawysgrifau gwreiddiol. Gellir rhoddi cyfrif am eu gadawiad allan o B., trwy ŷ dybiaeth fod y neb a'i copïodd yn cael ei ddylanwadu gan ammheuaeth seiliedig ar brofion mewnol tybiedig? (2). Yr anhawsder o roddi unrhyw ystyr ddealladwy i'r adnod heb y geiriau "yn Ephesus." Byddai y darlleniad hebddynt fel y canlyn:—"At y saint, y rhai sydd, a'r ffyddloniaid yn Nghrist Iesu."

Drachefn, dadleuir yn erbyn Ephesus, ar sail profion mewnol yn yr epistol ei hun, megys (1.) Absennoldeb cyfarchiadau personol, lle y gallasem eu disgwyl mewn llythyr at eglwys y buasai Paul yn llefaru ynddi am dair blynedd. Yn atteb i hyn dywedir fod aelodau mewn lle fel Ephesus yn newid yn fuan trwy ymadawiadau a marwolaethau: a gwyddom fod chwe blynedd wedi pasio er y pryd y buasai Paul yn eu plith. Heb law hyn, y mae ei Epistolau at y Corinthiaid, y Galatiaid, a'r Thessaloniaid, yn amddifaid o gyfarchiadau personol: ac fe ddichon, hefyd, eu bod wedi eu hymddiried y tro neillduol hwn i Tychicus, gyda phethau neillduol ereill. (2.) Yn *Eph* i. 15, dywed yr apostol "wedi clywed," &c. Ond gellir deall hyn am ansawdd pethau yn eu mysg ar ol ei bresennoldeb yn eu plith. (3.) *Eph.* iii. 2; "Os clywsoch am oruchwyliaeth gras Duw," &c. Gellir atteb yr un modd i hyn etto.

Ar y cyfan, nid oes un golygiad, yn ein barn ni, yn fwy diogel, ac yn cyfarfod yn llwyrach â'r holl anhawsderau cyssylltiedig â'r mater, na'r un a gynnygiwyd i ddechreu gan Usher; sef, fod yr epistol wedi ei gyfarch a'i gyfaddasu, nid yn unig at eglwys Ephesus, ond hefyd at yr eglwysi cylchynol, y rhai oeddynt yn terfynu ac yn dibynu ar yr eglwys hono. Gwyddom fod yr Epistol at y Galatiaid wedi ei gyfarch at yr holl eglwysi yn Galatia, a'r epistolau at y Corinthiaid at y Cristionogion "yn holl Achaia." Yn unol â hyn, gellir golygu "yn Ephesus" yn holiol ddilys. Buasai yn naturiol i'r apostol Paul gyfarch y brif eglwys dan ei henw, ac ar yr un pryd gyfaddasu ei epistol i'r lleill, a chyfarwyddo Tychicus iddo gael ei anfon iddynt.

AMSER A LLE EI YSGRIFENIAD.

Y mae yn amlwg, oddi wrth yr epistol ei hun, fod yr apostol, pan yn ei ysgrifenu, yn garcharor (*pen.* iii. 1; iv. 1; vi. 20); ond y mae gwahaniaeth barn ar y mater, pa un ai at ei garcharîad yn Cesarea [Schultz, Meyer], ai ei garchariad yn Rhufain, y cyfeirir yn yr adnodau uchod. Dros yr olaf dadleuir, yn gyntaf, oddi wrth *pen.* vi. 19, 20, fod ganddo ryw gymmaint o ryddid i bregethu yr efengyl; yr hyn sydd yn cyfatteb yn well i'w sefyllfa fel carcharor yn Rhufain (*Act.* xxiv. 23), na'i sefyllfa fel y cyfryw yn Cesarea: *Act.* xxiii. 21. Eilwaith, y mae yn fwy tebygol fod y lliaws enwau o gyfeillion a roddir yn yr epistol fel gydag ef pan yn ei ysgrifenu, yn gyfeillion iddo yn Rhufain yn hytrach nag yn Cesarea. Y mae y dadleuon ar yr ochr arall yn lled ymddangosiadol, ond nid ydynt yn argyhoeddiadol.—Gwel *Alford*, sec. iv. Gallwn, ar y cyfan, yn ddiogel gredu i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu gan yr apostol Paul o Rufain, yn y flwyddyn B. A. 62.

ACHLYSUR, AMCAN, RHEDIAD, AC ARDDULL YR EPISTOL.

Nid ydyw yn ymddangos i unrhyw amgylchiadau pendant achlysuro ei ysgrifeniad. Yn hyn gwahaniaetha oddi wrth yr Epistol at y Colossiaid (gwel rhagymadrodd i'r epistol hwnw), yr hwn a ysgrifenwyd, o bossibl, yr un amser, neu ychydig yn gynt na'r un at yr Ephesiaid. Gyda golwg ar yr amcan oedd gan yr apostol wrth ac yn ei ysgrifenu, gellir ei alw yn "epistol yr eglwys," gan mai y drychfeddwl mawr sydd yn gorwedd dano, ac yn rhedeg drwyddo ydyw, "yr eglwys"—yr eglwys yn Nghrist—yr eglwys yn Nghrist wedi ei chyflawni â phob cyflawnder, a'i bendithio â phob bendithion ysbrydol—yr eglwys wedi ei chyflawni yn Nghrist â holl gyflawnder Duw, yn Dri Pherson—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Pob cyflawnder tuag ati o'r Tad, pob cyflawnder drosti o'r Mab, a phob cyflawnder ganddi o'r Ysbryd Glân. Y mae athrawiaeth fawr ddirgeledig a gogoneddus y Drindod, fel yr awgrymir gan Bengel, ac fel yr heiaethir ar yr awgrymiad gan Stier, yn rhedeg fel gwythien auraidd trwy holl haenau dyfnion yr epistol. Yr oedd yn dra naturiol i'r apostol olygu yr eglwys yn yr epistol hwn yn ei drychfeddwl o deml i Dduw, gan ei fod yn ei gyfeirio yn benaf at y rhai oedd yn "tyfu gan dyngod temi fawr Diana," a chymmeryd achlysur oddi wrth hyny i ddangos mai eglwys Crist oedd yn llanw y drychfeddwl i'w ardderchawgrwydd mwyaf. Y mae undeb yr eglwys, cyffredinolrwydd yr eglwys, a pharhâd yr eglwys, yn cael ymdrin â hwy gan yr apostol yn yr iaith a'r arddull mwyaf arddunol. Fel hyn y mae y meddyliau a'r arddull yn cyfatteb i'w gilydd yn dra dyrchafedig ac arddunol. Y mae Goodwin yn gofyn y cwestiwn yn ei ragymadrodd, Pa ham y cyfarwyddodd yr Ysbryd Glân yr apostol Paul i ysgrifenu y dyfnaf a'r ardderchocaf o'i epistolau at yr Ephesiaid? ac yn ei atteb trwy gyfeirio at yr hanes yn y Actau am yr Ephesiaid yn aberthu ac yn llosgi eu llyfrau dysgedig a swynyddol, ac mai er anrhydedd iddynt y cawsant hwythau eu gwobrwyo, trwy dderbyn y llythyr anghymmharol hwn. Yn yr un modd, cafodd Paul, ar y llaw arall, ei wobrwyo i dderbyn gan Ysbryd Duw y trysorau o wirioneddau ag sydd wedi eu crynhoi yndda yn wobr ac yn ad-daliad am ei waith yn cyfrif ei holl ddysgeidiaeth luddewig yn dom ac yn golled er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ei Arglwydd. Fel ag y gallesid disgwyl yn mlaen llaw, y mae yr anhawsderau cyssylltiedig â deall a dwyn allan drysorau y llythyr hwn yn fawrion iawn. Dywedir fod y meteloedd mwyaf gwerthfawr yn y greadigaeth naturiol yn gorwedd yn yr haenau dyfnaf, hynaf, a chaletaf. Felly y mae anchwilladwyaeth olud Crist yn yr epistol hwn, yn gorwedd, nid ar y wyneb, ond i lawr yn mhell îs-law y wyneb; ac

nis gellir dyfod i olwg ei gynnwys cyfoethocaf ond fel ffrwyth myfyrdod dwys, ymchwiliad manwl, a gweddi daer; ac wedi y cyfan nid oes gan y meddwl dynaf ond sefyll uwch ben ei gynnwys didrai, gan lefain, O ddyfnder! Y mae y sylwadau canlynol o Alford yn werth eu cyfleithu:—"Rhaid i efrydydd yr Epistol at yr Ephesiaid beidio disgwyl myned dros lawer o dir yn gyflym; rhaid iddo beidio digaloni os bydd diwedd yr wythnos yn ei gael gyda'r un paragraph, neu hyd yn oed gyda'r un adnod, yn pwyso, yn barnu, yn treiddio yn raddol drwy rym meddwl yr Ysbryd trwy y naill arwyneb allanol i un arall—yn casglu yn ei law y naill edafedd ar ol y llall, nes o'r diwedd y gafaela yn y prif linyn, o'r hwn yr ymwahanasant oll, ac yn yr hwn y maent oll yn cyduno ac yn sefyll, gan lawenychu yn ei wobr, wedi ei wreiddio yn y ffydd, ac yn dal gafael cadarnach yn y gwirioned megys y mae yn yr Iesu."

EPHESUS.

Cyfeiriwn ein darllenwyr am hysbysiad mwy helaeth ynghylch y ddinas enwog hon at lyfrau ereill. Gwel yn Gymraeg y *Gwyddoniadur, Geiriadur Charles*, &c. Hefyd yn Saesneg, *Smith's Dictionary of Geography; Conybeare and Howson's Life and Epistles of St. Paul; Lewin, Leake's Asia Minor*, &c. Digon i ni yma ydyw rhoddi crynodeb byr iawn o'i sefyllfa, ei themi, a'i llywodraeth. Yi sefyllfa ydoedd yn rhandir Ionia, yn Asia Leiaf, agos gogyfer ag ynys Samos. Yr oedd yn sefyll ar yr afon Cayster—mewn rhan ar y gwastadedd, ac mewn rhan ar y bryniau cyfagos, y mwyaf pwysig o'r rhai oeddynt Prion a Cressus.

Ni bu erioed yn enwog am ei hanturiaeth forwrol, ac ni phlanodd ond ychydig o drefedigaethau arforawl. Yr oedd yn ddyledus am ei mawredd i'w masnach gyda chanolbarth y wlad, ac hefyd i eangder y rhandir y perthynai iddi, yr hyn a gafodd yn raddol ar gôst y Lydiaid.

TEML AC ADDOLIAD DIANA.

Yr oedd sefyllfa teml ac addoliad Diana wrth ben porthladd y ddinas, yr hwn a elwid Panormus. Adeiladwyd hi ar sylfeini o geryg o faintioli anferth, o herwydd ansawdd mawnog y tir. Llosgwyd y deml foreuol y noson y ganwyd Alexander Fawr, c. c. 355; ond trwy gydgyfraniad holl Asia, cyfodwyd adeilad arall anferth mewn maintioli, ac ardderchog mewn ymddangosiad. Mesurai 425 troedfedd mewn hyd, a 220 mewn lled. Perthynai iddi 127 o golofnau, a phob un o honynt yn 60 troedfedd o uchder. Cyfansoddai ei harddull fel adeilad gyfnod mewn celfyddyd Groegaidd, gan mai ynddi hi y perffeithiwyd y dull Ioniaidd (*Ionic order*). Yr oedd ei hardderchowrwydd yn ddiareb trwy yr holl fyd, a chyfrifid hi yn un o saith ryfeddodau y byd. Rhydd y ffeithiau hyn rym chwanegol i'r ymadrodd "teml," pan yn cael ei arfer gan yr apostol Paul yn yr Epistol at yr Ephesiaid, ac hefyd yn ei Epistol at y Corinthiaid, yr hwn a ysgrifenodd o Ephesus, ac yn ei Epistolau at Timotheus, y rhai a anfonwyd ato yno. Ond os oedd teml Diana yn ardderchog, nid oedd y ddelw ag oedd wedi ei rhoddi yn nghadw o fewn ei chyssegrfa ond gwael ac ammherffaith yr olwg arni. Yr oedd ei defnydd o bren, a'r ddelw ei hunan yn terfynu yn flocyn anffurfiol. Daliai y ddelw *fur* o fetel yn mhob llaw. Yr oedd ei gwisg wedi ei gorchuddio âg amryw ddyfeisiau, ac yr oedd y cyssegr yn yr hwn y safai wedi ei orchuddio â llen yn y tu blaen i'do. Credai yr Ephesiaid i'r ddelw ddisgyn o'r nef: *Act.* xix. 35. Gwneid delwau bychain cludadwy o'r cyssegr ar ddelw naill ai o goed, pren, neu arian. Gweithiai Demetrius hwynt o'r olaf. Yr oedd seremoniau ei haddoliad yn cael eu dwyn yn mlaen gan offeiriadaeth ddeublyg. Cynnwysai offeiriaid Diana y rhai a elwid *Megabuzi*—eunuchiaid o'r canol-barthau, uwch ben y rhai yr oedd un archoffeiriad, yr hwn ydoedd un o bersonau mwyaf dylanwadol y ddinas. Gyda'r rhai hyn yr oedd hefyd lu o offeiriadesau, y rhai a elwid *Melissæ*; ac hefyd gaethweision, y rhai a elwid *Neokoroi*, ysgubwyr y deml. Daeth y gair o ddynodi gostyngeiddrwydd i arwyddo anrhydedd a dyrchafiad. Ceir ef yn *Act.* xix. 35.

Ei llywodraeth.—Yr oedd Ephesus, yn amser y Rhufeiniaid, yn parhau yn ddinas rydd, fel yr ydoedd yn yr amseroedd gynt. Yr oedd ganddi ei senedd a'i chynnulliadau poblogaidd. Crybwyllir am y cyntaf gan *Shabr* a Josephus, ac am yr olaf yn yr Actau gan Luc.

ESBONIADAU AR YR EPISTOL.

Rückert (Leipzic, 1834); *Hares's* (1843); *Olshausen* (1840); *Meyer* (1853); *Eadie* (1854); *Ellicott* (1855); *Alford* (1857); *Stier*, 2 vols; *Lt. Davies* (1866); *Hodge* (1868, London). Harless yw yr un mwyaf cyflawn; a Stier, o bossibl, y mwyaf dwfn-dreiddiol.

YR EPISTOL AT YR EPHESIAID.

PENNOD I.

2 Ar ol cyfarch yr Ephesiaid, 3 a diolch drostynt, 4 y mae efe yn crybwyll am ein hetholedigaeth ni, 6 a'n mabwysiad trwy ras, 11 yr hwn yw gwir ffynnon iachawdwriaeth dyn: 13 ac am na ellir yn hawdd gyrhaeddyd uchder y dirgelwch hwn, 16 y mae efe yn gweddïo ar iddynt ddyfod 18 i gyflawn wybodaeth, 20 a meddiant o hono yn Nghrist.

B. A. 62.

[a] Rhuf. 1. 7; 1 Cor. 1. 2.

PAUL, apostol Iesu Grist trwy
ewyllys Duw, [a] at y saint sydd
yn Ephesus, a'r ffyddloniaid yn
Nghrist Iesu:
2 Gras [b] *fyddo* i chwi, a thang- [b] Rhuf. 1.7
nefedd oddi wrth Dduw ein Tad,
a'r Arglwydd Iesu Grist.
3 [c] Bendigedig *fyddo* Duw a [c] Gen. 14. 20; Neh. 9. 5.
Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
yr hwn a'n bendithiodd ni â phob
bendith ysbrydol [d] yn y nefolion [d] Eph. 2. 6.
leoedd [e] yn Nghrist: [e] Ioan 17. 21.

PENNOD I.

1. *Apostol...trwy ewyllys Duw.*—Mae yr apostol yn olrhain ei apostoliaeth i'r un ffynnonell a threfn iachawdwriaeth; sef, i ewyllys rasol a phenarglwyddiaethol Duw. Dengys yn helaeth yn nghynnwys y bennod hon, mai ewyllys Duw ydyw rheswm pellaf trefn yr iachawdwriaeth a'i bendithion: ac mewn ffordd o ragarweiniad cyfattebol i'r gwirionedd hwnw, awgryma mai yr un rheswm sydd yn rhoddi cyfrif am ei apostoliaeth yntau, fel un o ranau neu foddion dygiad y drefn rasol hon yn mlaen mewn amser. *At y saint:*—gwel ar 1 *Cor.* i. 1, 2. *Yn Ephesus:*—(gwel rhagymadrodd). Pe byddai yn rhaid i ni olygu y ddau air yma fel llygriad, safai y darlleniad fel y canlyn:—"At y rhai sydd yn bod ac yn credu yn Nghrist Iesu." Y meddwl felly a fyddai, naill ai eu bod yn Nghrist cyn dechreu y byd, ac yn credu mewn amser, neu eu bod yn Nghrist trwy gredu. *A'r ffyddloniaid yn Nghrist Iesu.*—Y mae y gair "ffyddloniaid" yma yn arwyddo yr un peth a "chredinwyr;" sef, rhai yn credu yn Nghrist. Y mae rhai esbonwyr (Harless ac ereill) yn cyssylltu "yn Nghrist Iesu" â'r ymadrodd "saint," yn gystal ag â'r gair "ffyddloniaid:" ond y mae mantoliad y frawddeg yn cadarnhau y golygiad arall, "saint yn Ephesus—ffyddloniaid yn Nghrist Iesu." Y mae yr enwad cyntaf yn cyfeirio at yr hyn oeddynt yn arbenig yn eu cyssylltiad â gras Duw; a'r ail, at yr hyn ydoedd yn disgyn arnynt hwy eu hunain, i'w wneuthur fel ffrwyth y gras hwnw.

2. *Gras a thangnefedd.*—Y mae gras a thangnefedd i darddu oddi wrth y Tad, a Christ: oddi wrth y Tad fel ffynnonell wreiddiol, ac oddi wrth Iesu Grist fel cyfrwng, gan ei fod ef, o ran ei berson, nid yn unig yn gyfrwng, ond yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion yn rhoddiad a derbyniad yr oll o fendithion yr iachawdwriaeth. Ond cynnwysa fwy, fel y dengys Calvin, yn ei "*Institutes,*" nag "oddi wrth trwy," sef, "oddi wrth yn." Trwy gymmundeb y saint â Christ, y maent yn derbyn bendithion, nid yn unig trwyddo, ond o hono a chanddo. Y maent yn derbyn o'r Tad fendithion trwyddo, ac yn derbyn drwy yr Ysbryd fendithion o hono.

3 *Bendigedig...yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith.*—Y mae Duw yn ein bendithio, ond nis gallwn ni ond ei fendigo ef. Y mae y naill yn golygu gweithred: nid yw y llall ond gair. Y mae y naill yn cynnwys rhoddi: nid yw y llall ond cydnabyddiaeth o'r rhodd ar ol ei derbyn. Fel y mae sylweddau naturiol yn adlewyrchu pelydrau yr haul; felly y mae calonau credinwyr yn adbelydru bendithion gweithredol Duw yn fendith a mawl iddo ef yn ol. Yn Llyfr y Datguddiad y mae eglwys yn cael ei darlunio fel yn dychwelyd ei hiachawdwriaeth yn ol yn y ffurf o fawl i Dduw. "Teilwng wyt ti, O Dduw! i dderbyn iachawdwriaeth." "*Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.*" Gellir, gyda'r un cywirdeb a phriodoldeb, gymmeryd yr ymadrodd hwn i olygu (1.) Duw—a Thad ein Harglwydd Iesu Grist; neu (2.) Duw a Thad—ein Harglwydd Iesu Grist. Yr ail ydyw y mwyaf tebygol yn y lle hwn. Gwel *adn* 17: "Duw ein Harglwydd Iesu Grist." *A phob bendith ysbrydol:*—yn llythyrenol, "yn mhob bendith ysbrydol." Y mae y bendithion yn cael eu golygu fel yr elfen yn mha un y mae y saint yn hanfodi. Edrychir arnynt yn eu bodolaeth newydd yn Nghrist, fel yn anadlu mewn awyr o fywyd a bendithion ysbrydol o bob rhyw. Gelwir y bendithion yn "ysbrydol," am eu bod yn dyfod trwy roddiad a gweithrediad yr Ysbryd Glân. Dylid cofio fod y gair "ysbrydol" yn y Testament Newydd yn wastad, o leiaf, yn golygu dylanwad yr Ysbryd Glân yn ysbryd dyn. *Yn y nefolion leoedd, yn Nghrist.*—Y mae y gair hwn, "lleoedd" mewn llythyrenau Italaeg. Nid oes yn y gwreiddiol ond "yn y nefolion." Gall yr ymadrodd olygu pethau, personau, neu leoedd. Yr olaf ydyw y tebycaf o lawer. Y mae yr ystyr lleol yn amlwg yn cael ei roddi yn y rhanau ereill o'r epistol hwn: ac nis gallwn, gydag un gradd o debygolrwydd, gredu y buasai yr apostol yn rhoddi

[f] Deut. 7. 6, 7: Salm 135. 4; Esa. 41 8 9; Mat. 24. 22.

ystyr arall iddo yn yr un a'r unig fan hon. Ond pa fodd y mae i ni ddeall yr ymadrodd yn yr ystyr lleol? Fe allai mai y cyfystyr agosaf ato yn ein dull ni yn yr oes hon o lefaru ydyw "y byd ysbrydol." Y mae i bethau ysbrydol eu byd, fel i bethau tymmorol. Yn y byd hwnw y maent yn hanfodi, ac yn y byd hwnw y maent yn cael eu rhoddi. Yn yr un byd y mae ysbrydion drwg yn hanfodi, a'u pethau hwythau. Ysbrydol yw y naill fel y llall: "drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd," y gelwir hwynt. Ond fel y mae y pethau yn gwahaniaethu fel y mae drwg a'r da, felly y mae eu byd yn gwahaniaethu, fel y mae uffern a'r nefoedd yn gwahaniaethu. Y mae y saint yn ysbrydol yn y nefoedd. Yno y mae eu trysor, eu gobaith, a'u hetifeddiaeth, ac yno y mae eu bendithion ysbrydol—holl ddylanwadau santeiddiol yr Ysbryd ynddynt. *Yn Nghrist.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gyssylltu â'r ferf, "yr hwn a'n bendithiodd...yn Nghrist." Yn ei berson ef fel Cyfryngwr, y mae y saint wedi, ac yn derbyn pob bendith gan y Tad. Y mae yr adnod hon yn enghraifft ddechreuol i ni o'r ffaith fawr, fod athrawiaeth y Drindod yn gorwedd fel gwythïen euraidd dan haenau dyfnion yr epistol. Y Tad yw yr hwn sydd yn bendithio yn Nghrist, y Mab, â phob bendith Ysbrydol. Y Tad ydyw y ffynnonell, y Mab y cyfrwng, a'r Ysbryd Glân y gweithredydd, neu y perffeithydd.

4. *Megys yr etholodd efe ni.*—Y mae y gair "megys" yn y lle hwn yn gyssylltiedig âg, ac yn cyfeirio yn uniongyrchol at yr ymadrodd, "yr hwn a'n bendithiodd ni," yn *adn.* 3. Arwydda yn llythyrenol "yn ol fel:"—fe'n bendithiodd yn ol fel yr etholodd ni, &c. Y mae ei ystyr, mewn rhan, yn achosol, gan olygu yr ethol, &c., yn achos o'r bendithio mewn amser, ac mewn rhan yn enghreifftiol. "Megys er enghraifft, fe'n bendithiodd, gan iddo ein hethol," &c.; ac mewn rhan hefyd yn gyddfurfiol:—"Fe'n bendithiodd megys yr etholodd." Y mae bendithion mewn amser yn cyfatteb i'r etholiad iddynt cyn seiliad y byd. Y mae y gair "ethol" yn y ffurf y ceir ef yma yn cynnwys, medd Ellicott, dri o ddrychieddyliau. (1.) Dewisiad allan. (2.) Dewisiad wedi ei gwblhau—"etholodd;" nid y mae yn ethol. (3.) Dewisiad iddo "ei hun," yr hyn a gynnwysir yn ffurf y ferf, *middle voice.* Y mae yr ymadrodd *cyn seiliad y byd,* ar unwaith ac uwch law pob dadl, yn sefydlu y gweithrediad hwn yn un tragwyddol ddiddechreu. "O herwydd," fel y dywed Goodwin, "os edrychwn yn ol tu draw i seiliad y byd, yr ydym yn rhoddi ein pen allan i dragwyddoldeb yn y fan. Ar ol dodi o'r neilldu yr holl esboniadau arwynebol ar yr adnodau canlynol, gellir rhanu yr amrywiol olygiadau i dri dosbarth. 1af, Eu bod yn gosod allan weithrediad y meddwl dwyfol yn nhragwyddoldeb tuag at ei wrthddrychau. 2il, Eu bod yn gosod allan weithrediad y meddwl dwyfol yn nhragwyddoldeb; nid tuag at, ond gyda golwg ar ei wrthddrychau. 3ydd, Eu bod yn ddarluniad o weithrediad y meddwl dwyfol mewn amser, ac edrych arno o'n safle ni, fel rhai yn byw eu hunain mewn amser; ond yn weithrediad yn nhragwyddoldeb, os edrychir arno o safle y meddwl dwyfol ei hunan. Sylwn ar yr olaf yn gyntaf. Yn ol y golygiad hwn, nid ydyw etholedigaeth Duw yn nhragwyddoldeb yn weithynddo ef [g] cyn seiliad y byd, fel [g] Mat. 25. 34; Ioan 17. 24. y byddem yn sanctaidd ac yn

rediad arall, na gwahanol, i'w etholedigaeth mewn amser, trwy alw y saint yn Nghrist i fywyd sanctaidd. Nid dau weithrediad gwahanol, ond dwy olygfa wahanol ar yr un gweithrediad ydynt. Os edrychwn o'n safle ein hunain, mewn amser y mae: y mae yn cynnwys yr hyn oll a wna Duw yn neiliduad yr eglwys oddi wrth y byd mewn trefn i'w sacteiddio ger ei fron. Os edrychwn ar yr un a'r unrhyw weithrediad o safle uwch, sef o dragwyddoldeb, megys y mae Duw yn edrych arno, gan ei fod yn preswylio tragwyddoldeb, rhaid i ni ei olygu fel gweithrediad tragwyddol, ac nid amserol. Yr ail olygiad ydyw yr un sydd yn golygu etholedigaeth fel gweithrediad y meddwl dwyfol yn nhragwyddoldeb gyda golwg ar wrthddrychau pennodol, ond nid tuag atynt. Y mae y golygiad hwn yn cynnwys mwy o lawer na'r cyntaf; sef, fod Duw, heb law gweithredu, wedi penderfynu gweithredu. Nid yn unig y mae yn gweithredu, pa un bynag ai mewn amser ai yn nhragwyddoldeb y golygir y gweithrediad, ond yn nhrefn ei feddwl tragwyddol y mae wedi bwriadu a phenderfynu gweithredu yn flaenorol. Nid yr ystyr ydyw ei fod wedi penderfynu, yn ol trefn amser cyn gweithredu, ond yn ol trefn meddwl. Y mae yr ymadroddion cryfion a ddefnyddir gan yr apostol yn y bennod hon, yn gystal ag mewn lleoedd ereill yn yr Ysgrythyrau, yn ein rhwymo o angenrheidrwydd i gredu fod trefn y meddwl dwyfol yn golygu, nid yn unig weithrediad, ond bwriad a phenderfyniad. Y mae yn wir nas gellir eu gwahanu, o blegid ynddo ef y maent yn un. Y mae ei ewyllys yn weithred, a'i weithred yn ewyllys: ond etto, y mae yn rhaid eu gwahanaethu. Ar yr un pryd, y mae y golygiad hwn yn edrych ar etholedigaeth y saint yn unig fel penderfyniad gyda golwg ar y personau pan ddeuent i fod. Y mae y trydydd golygiad yn edrych arno fel gweithrediad tragwyddol tuag at y gwrthddrychau fel rhai yn bod yn dragwyddol di-ddechreu ynddo ef. Yn ol yr ail olygiad, y mae yr ymadrodd "ynddo ef" i'w gyssylltu â'r gwaith o ethol: am nad oedd y gwrthddrychau eu hunain etto yn bod, fe'u hetholodd Duw i sancteiddrwydd yn Nghrist—sylfaenodd ei fwriadau gyda golwg arnynt yn mherson y Cyfryngwr ei hun. Y mae ffurf yr ymadrodd yn ddiau yn cynnwys mwy; sef, eu bod yn bod yn Nghrist. Cyn bod ynddynt eu hunain yr oeddynt yn bod ynddo ef. Y mae etholedigaeth yn golygu "bodolaeth" flaenorol—nid ethol i fod a ddarfu Duw, ond ethol rhai yn bod ynddo ef i fod yn sanctaidd a difeus. Y maent i'w golygu yn bod ynddo ef—ynddo ef fel pen-cyfammodwr a chynnrychiolydd, ac fel y cyfryw yn cael eu hethol. Pa fodd ynte, gellir gofyn, y rhoddwyd y fodolaeth hon iddynt? Yn newisiad y Mab yn ben-cyfammodwr fe'u dewiswyd hwythau ynddo ef. Yr oedd y Mab yn bod fel Mab o angenrheidrwydd; ond fel Cyfryngwr, yr oedd yn bod erioed trwy ddewisiad ac etholiad; ac yn yr un a'r unrhyw etholiad ag yr oedd ef yn bod erioed yn ben-cyfammodwr, yr oeddynt hwythau yn bod ynddo ef; ac yn y fodolaeth hon y cawsant eu hethol. Fel yr oedd y naill yr oedd y llall. Y mae natur y fodolaeth hon yn ddirgelwch anamgyffredadwy: ond nid ydyw yn fwy felly na'i fodolaeth ef fel pen-cyfammodwr tragwyddol. Fe

ddifeius ger ei fron ef mewn cariad:

[a] Rhuf. 8. 29, 30. [b] Ioan 29. 17. 5 Wedi iddo [b] ein rhagluniaethu ni i fabwysiad [1] trwy Iesu Grist

allai y dywedir fod ei fodolaeth ymwybyddol ef fel Mab yn sail i'w fodolaeth gyfryngol, ac y gallem ei hamgyffred yn haws am hyny: ond rhaid cofio fod ein bodolaeth gynnrychiol ni yn dibynu, nid ar ein bodolaeth ymwybyddol ein hunain, eithr ar ei fodolaeth ef. *Fel y byddem yn sanctaidd, ac yn ddifeius.*—'Yr agweddau cadarnhaol a nacaol i fywyd Cristionogol.'—*Ellicott.* Y mae rhai esbonwyr 'Olshausen Meyer),' yn cymmeryd yr ymadroddion i arwyddo y cyfiawnhâd, yn hytrach na'r sancteiddhâd: ond gwel 1 *Thes.* iv. 7; 1 *Pedr* i. 16, a *Dad.* xxii. 11. Y mae yn fwy naturiol i ni ddeall, mewn cysylltiad â gwaith Duw yn ethol ei bobl oddi wrth y byd, fod yr ymadroddion ag sydd yn gosod allan amcan terfynol eu hetholiad yn gyfryw ag i ddisgrifio eu cymmeriad mewnol, yn hytrach na'u cyflwr allanol. *Mewn cariad.*—Yn ol yr esbonwyr goreu, dylid cyssylltu yr ymadrodd hwn â'r "rhagluniaethu" yn *adn.*5—wedi iddo mewn cariad ein rhagluniaethu.

5. *Wedi iddo ein rhagluniaethu.*—Hon ydyw yr ail fendith ysbrydol â'r hon y bendithiodd Duw y Tad y saint yn y nefolion leoedd yn Nghrist cyn dechreu y byd. Y mae yr etholedigaeth i'w gosod yn ei chanlyn rhagluniaethiad o ran trefn; nid trefn parhâd, ond trefn natur, neu trefn dilyniad yn meddwl yr anfeidrol. Fe'n hetholodd—wedi iddo ein rhagluniaethu. Beth ydyw y gwahaniaeth rhwng etholedigaeth a rhagluniaethiad? Dywed rhai mai y gwahaniaeth ydyw hyn: fod etholedigaeth yn weithred o eiddo ewyllys Duw, gan mai yr ewyllys sydd yn dewis neu yn gwrthod; ond fod rhagluniaeth yn weithred o eiddo deall neu holl-wybodaeth Duw yn gweithredu trwy gynghor: gwel *adn.* 11, ac *Act.* iv. 28. Ereill a olygant fod y naill a'r llall yn golygu ewyllysiad neu arfaethiad, ond fod y naill yn cymmeryd i mewn y dyben i ba un y cawsant eu dewis, a'r llall y moddion i gyrhaedd y dyben hwnw. Ar hyn etto y gwahaniaethir: cymmer rhai fod yr etholedigaeth yn cymmeryd i mewn y dyben, a'r rhagluniaethiad y moddion; ond dealla ereill yn groes (*vice versa*). Yn ol Scherzer, fel y dyfynir e fgan Ellicott, y gwahaniaeth ydyw, fod etholedigaeth yn golygu yn fwy neilltuol y cyfausnwm, o'r hwn y gwnaed y detholiad, a rhagluniaethiad yn cyfeirio at ragarfaethiad y dewisiad ei hun. Y mae Goodwin yn cyttuno â'r golygiad hwn o ran y cyntaf, sef etholedigaeth, ond yn golygu fod etholedigaeth yn cyfeirio at yr hyn y cawsant eu dewis o hono, a rhagluniaethiad yr hyn y cawsant eu dewis iddo. Cawsant eu hethol o'r byd, cawsant eu rhagluniо i fabwysiad. Yn chwanegol at hyn, golyga Goodwin fod etholedigaeth yn cynnwys dewisiad i fodolaeth, a rhagluniaethiad ddewisiad i ddedwyddwch a daioni: y naill yn ddewisiad i fodolaeth mewn sancteiddrwydd, a'r llall i fywyd mewn dedwyddwch trwy fabwysiad iddo ei hun; ac am hyny cyssylltir sancteiddrwydd âg etholedigaeth, o herwydd nis gallasem fod yn Nghrist heb fod yn sanctaidd: ac ar y llaw arall, cyssylltir gogoniant a dedwyddwch â rhagluniaethiad. Gallwn feddwl am Dduw yn ethol i fodolaeth mewn sancteiddrwydd heb ragluniо i ogoniant trwy fabwysiad; ond nid felly

iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef,

[a] Eph. 8, 12, 14, 18. [b] Esa. 45. 24, 25. 6 Er [k] mawl gogoniant ei ras, ef, trwy yr hwn y [1] gwnaeth ni

y gwnaeth: chwanegodd ogoniant at ras, a hyny er mawl, nid yn unig i ras, ond i ogoniant ei ras. Y mae y sylwadau uchod o eiddo Goodwin yn dangos treiddgarwch dwfn, ac nis gallwn lai na chredu fod ynddynt lawer o wirionedd; ond y mae yn ammheus a yw y golygiad yn gywir ar berthynas etholedigaeth a rhagluniaethiad gymmaint ag ydyw ar y gwahaniaeth rhyngddynt. Os cymmerwn ystyr llythyrenol y frawddeg, rhaid i ni olygu rhagluniо yn cymmeryd lle yn flaenorol o ran trefn i ethol; ond yn ol golygiad Goodwin yn y sylwadau uchod, y mae yn rhaid i ni edrych ar etholedigaeth yn flaenorol o ran trefn i ragluniaethu. Nis gallwn lai na chredu fod gwirionedd yn y golygiad cyntaf a nodwyd, sef fod etholedigaeth yn golygu yn fwy arbenig weithred o eiddo ewyllys Duw, a rhagluniaethiad yn fwy neilltuol weithrediad ei wybodaeth a'i ddoethineb, ond etto heb gau allan ei ewyllysiad. Dynoda, fe allai, weithrediad doethineb a chynghor Duw yn llunio allan yn ei feddwl tragwyddol y berthynas uchel yr ewyllysiai iddynt gael eu dwyn iddi, sef mabolaeth; yr hyn a osodai allan yn yr ymadrodd "iddo ei hun:" ac hefyd y cynllun goruchel â'r hwn yr oeddynt i gael eu cyd-ffurfio âg ef, i'w dwyn i'r faboliaeth hon, sef delw ei Fab ef: a'r moddion effeithiol trwy yr hwn yr oeddynt i gael eu dwyn i'r cyd-ffurfiad hyn, sef trwy Iesu Grist. Felly, mater y rhagluniaethiad ydoedd mabolaeth trwy fabwysiad, a mabwysiad trwy yr uniganedig Fab. Yr oedd y gweithrediad tragwyddol hwn o eiddo y Tad, gan hyny, yn weithredigaol gyda golwg ar y saint, yn hytrach na thuag atynt: o blegid yn y rhagluniaethiad, nid ydynt etto yn cael eu golygu fel yn bod hyd yn oed yn gyfammodol. Golygid hwy fel rhai nid yn bod, ond i fod, neu bossibl i fod: ac fel y cyfryw y cawsant eu rhagluniо; ac wedi eu rhagluniо, cawsant eu hethol yn ddoe cf. *I fabwysiad:*—nid i fabolaeth. Y mae y drychfeddwl o faboliaeth yn gynnwysedig yn yr ymadrodd "iddo ei hun." Am natur y mabwysiad, gwel ar *Gal.* iv. 5. *Trwy Iesu Grist iddo ei hun.*—Y mae yr ymadrodd "iddo ei hun" yn dynodi hanfod maboliaeth y saint, sef undeb a chymmundeb â Duw. Mabolaeth ydyw, nid trwy greadigaeth, na chwaith trwy ddagwyddol genhediad fel yr uniganedig, ond trwy fabwysiad i enedigaeth ysbrydol mewn amser. *Yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn dangos fod mwy na chynghor doethineb yn cael ei olygu yn rhagluniaethiad Duw, sef ewyllys ac arfaeth benaglwyddiaethol. Nid llunio y drychfeddwl gogoneddus a ddarfu iddo; ond gwnaeth hyny yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef. Penderfynodd ei sylweddoli trwy ei allu. Deallir y gair "boddlonrwydd" gan rai yn yr ystyr o ddaioni, a chan ereill yn yr ystyr o benarglwyddiaeth. Y naill, nid heb y llall, ond gyda y llall, ydyw y gwir a'r cyflawn ystyr. Y mae mater yr ewyllys yn ddaioni pur, ond ei ffurf yn benarglwyddiaeth rhad.

6. *Er mawl ogoniant ei ras ef.*—Dyma amcan terfynol yr etholedigaeth a'r rhagluniaethiad—"er mawl." Dywedir mai ystyr wreiddiol y gair Hebraeg am "fawl" yw adbelydriad. Y cwbl y mae Duw yn ei ddisgwyl yn ol o'i holl ddaioni

[m] Salm 130. 7; Zech. 13.1, 7.

yn gymmeradwy yn yr Anwyl-
yd:
7 Yn yr [m] hwn y mae'i ni bryn-
digaeth trwy ei waed ef, [n] *sef*
maddeuant pechodau, yn ol [o] cyf-
oeth ei ras ef;

[n] Exod. 34. 7; Salm 32. 1, 2. [o] Adn. 6.

grasol ydyw i'r saint ei ddychwelyd yn fawl i'w ras, ac i ogoniant ei ras. Gan i Dduw amlygu, nid ei ras, ond hefyd gogoniant ei ras, disgwylia "fawl i ogoniant ei ras." Gallasai Duw yn ei ras ddarparu iachawdwriaeth heb ddarparu gogoniant; ond yn lle hyny, trefnodd i ni "gaffael iachawdwriaeth gyda gogoniant tragwyddol." Buasai y cyntaf yn amlygiad o ras, ond y mae yr ail yn amlygiad o ogoniant gras; ac am hyny teilynga fawl i ogoniant gras. Cynnwysa yr ymadrodd, gan hyny, annhraethol fwy na gras gogoneddus, a mwy hefyd na gogoniant grasol. *Trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymmeradwy.*—Ymyl y ddalen:—"y rhâd-garodd ni," yr hyn yn ddiau ydyw y gwir ystyr. Ystyr manwl y gair *charito* ydyw "cyfranu gras;" ond gan fod y gair "gras" yn cael ei ddefnyddio i arwyddo y tueddfryd grasol yn y rhoddwr, yn gystal a'r rhodd sydd yn tarddu i'r tueddfryd hwnw, gall yr ymadrodd "cyfranu gras" olygu, naill ai amlygu gras neu ffafr anhaeddiannol tuag atom, neu ynte gynnyrchu gras ynom fel rhodd allanol. Ond y mae yn amlwg mai cyfeirio y mae yr apostol yma, nid at yr hyn a wneir ynom ni, ond yr hyn a wnaeth Duw yn nhragwyddoldeb tuag atom ni. Fe'n hetholodd, fe'n rhagluniodd, ac fe'n rhâd-garodd ni, a'r cwbl, trwy ras. Yn yr ystyr hwn y defnyddir yr un gair yn yr unig le arall yn y Testament Newydd ag y mae i'w gael, sef *Luc* i. 28: "Yr hon a gefaist ras." Y meddwl yw, nid fod Mair wedi cael cynnyrchu gras ynddi; ond yn hytrach ei bod wedi cael amlygiad o ras tuag ati. Y mae yr ymadrodd yn cyfatteb, o ran ystyr, i un cyffelyb yn *pen.* ii. 8: "O herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y'n carodd ni. Nid y meddwl ydyw, rhoddi cariad ynddynt, ond ei amlygu tuag atynt; a'r un modd gyda golwg ar ras yn y lle hwn—gellir cyfieithu "ei ras ef trwy yr hwn y bu raslawn i ni." Hon yw y drydedd fendith ysbrydol â'r hon y bendithiodd y Tad y saint yn Nghrist cyn dechreu y byd. Yn yr ymadrodd diweddaf, "er mawl gogoniant ei ras ef," y mae yr apostol yn myned yn mlaen at amcan terfynol eithaf trefn yr iachawdwriaeth: ond yn yr ymadrodd hwn y mae yn myned yn ol megys ar un naid at ei ffynnonell wreiddiol, sef gras ei hunan. Yn y gweithrediad hwn o ras er tragwyddoldeb, darfu iddo, gyda golwg arnynt, eu harfaethu i fod yn wrthddrychau ei ffafr uchaf. Yn ganlynol, o ran trefn ei feddyliau grasol, rhagluniodd yn ei feddwl mawr yr hyn yr ewyllysiai iddynt fod trwy ei ras: ac yna fe'n hetholodd yn Nghrist fel cyfryngwr i fod yn sanctaidd a difeius ger ei fron ef. Yn ol yr eglurhâd hwn, y mae yr apostol, yn nilyniad ei ddrychfeddyliau, yn myned yn *ol* o'r etholedigaeth i'r rhagluniaethiad, ac o'r rhagluniaethiad i'r weithred wreiddiol o ras, gan eu cymmeradwyo fel gwrthddrychau rhagluniad ac etholiad. *Yn yr Anwylyd.*—Person Crist fel Anwylyd y Tad, yw rheswm a sail ei gariad atom ni, sef ei ras. Edrychodd arnom ynddo cyn ein rhaglunio a'n hethol i fod ynddo. Yn y weithred o garu y Mab y carodd ninnau; ac o ganlyniad, y mae eithaf ffynnonell ein iachawdwriaeth yn gorwedd yn nghariad tragwyddol y Tad at y Mab.

7. *Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth.*—Yma y mae yr apostol yn disgyn o'i ehedfa uchel yn nhragwyddoldeb diddechreu i edrych ar y bendithion ysbrydol yn cael eu sylweddoli mewn amser tuag at ac yn y saint. Y gyntaf a enwa ydyw prynedigaeth, sef maddeuant: yn ail, helaethrwydd doethineb a deall: yn drydydd, eu gwneuthur yn etifeddion, neu yn etifeddiaeth: yn bedwerydd, eu selio ar ol credu: ac yn bummed, derbyn yr Ysbryd fel ernes eu hetifeddiaeth. Yn gyfattebol i'r disgyniad hwn, a newidiad ei safle o dragwyddoldeb i amser, y mae yr apostol yn newid amseriad yr iaith:—"Yn yr hwn y *mae* i ni brynedigaeth:" nid yn yr hwn y'n prynwyd—a chynnwysa hefyd dderbyniad gwastadol mewn amser. Gellir ei gyfieithu, "Yn yr hwn yr ydym yn cael prynedigaeth." Dywed Eadie yn brydferth, "*We are ever needing, and are ever having it:*"—Yr ydym yn wastadol mewn angen am dano, ac yn wastadol yn ei gael. Y mae y gair "prynedigaeth" yma yn arwyddo rhyddhâd trwy bryniad, a defnyddir ef i osod allan weithiau y pryniad sydd yn effeithio y rhyddhâd, ac weithiau y rhyddhâd sydd yn canlyn y pryniad. Yma cyfeirir at yr olaf. Y mae y cyfeiriad at y drychfeddwl o bryniad yn yr ymadrodd "trwy ei waed." *Trwy ei waed ef.*—Y mae y prynedigaeth yn dyfod i ni *yn* y person, ond *trwy* ei waed; y naill yn golygu yr achos effeithiol, a'r llall yr achos offerynol. "Golygir Crist fel ffynnonell ein prynedigaeth, *h. y.*, er iddo gael ei effeithio yn weithredol trwy ei angeu; etto yn ei fywyd a'i eiriolaeth y mae yn gweithio yn mlaen fel gallu bywiol. Y mae ei waith yn anwahanol oddi wrth ei berson; y mae i ni brynedigaeth, nid yn ei waith ar wahân oddi wrth ei berson, ond yn ei berson, gyda'r hwn y mae ei waith yn ffurfio unoliaeth bywiol."—*Olshausen.* Gwel ar y "prynedigaeth," *Rhuf.* iii. 25. *Sef maddeuant pechodau.*—Chwanegir yr ymadrodd hwn i egluro y gair "prynedigaeth," ac i ddangos mai rhyddhâd oddi wrth bechod ydyw cynnwys y rhyddhâd ag y mae y saint yn ei dderbyn yn Nghrist trwy ei waed. Nid rhyddhâd mewnol oddi wrth bechod, chwaith, a olygir yma, ond rhyddhâd allanol—rhyddhâd maddeuant, rhyddhâd yn wyneb deddf: ond lle y mae y naill y mae y llall, ac y mae profiad o'r naill yn foddion ac yn gymmhelliad i gynnyrchu y llall. Ond enwir y rhyddhâd allanol yma, am ei fod yn dwyn cyssylltiad uniongyrchiol, ac yn amcan uniongyrchiol dioddefiadau ac angeu Crist. *Yn ol cyfoeth ei ras.*—Y mae y saint yn derbyn maddeuant yn y person (Crist) trwy ei waed, ac yn ol cyfoeth gras (y Tad). Cyfoeth gras y Tad ydyw y ffynnon, gwaith y Cyfryngwr ydyw y sianel trwy yr hon y llifodd allan o berson y Tad i berson y Mab; ac yn ei berson ef y mae yr ystorfa fywiol, o'r hon y dylifa, trwy ffydd, i'r rhai sydd yn ei dderbyn. Wrth "gyfoeth gras" y mae i ni ddeall y cyfoeth sydd yn perthyn i ras, ac yn tarddu allan o ras Duw—cyflawnder anfeidrol ei gynnwys a'i effeithiau. Y mae gwaredigaeth, neu ryddhâd trwy bryniad, mor bell o fod yn anghysson â gras, fel y mae yn ol gras. Gras a ddarparodd y pryniad, a gras a dderbyniodd y pryniad ar ol iddo gael ei ddarparu. Trwy ras, hefyd, y mae pechadur yn cael ei dueddu a'i nerthu, trwy ffydd, i'w dderbyn; canys rhodd Duw ydyw ffydd.

8 Trwy yr hwn y bu efe helaeth
i ni yn mhob doethineb a deall.
9 Gwedi iddo hysbysui ni ddir-
[b] Adn. 5. gelwch ei ewyllys, [b]yn ol ei fodd-
lourwydd ei hun, yr hon a arfaeth-
asai efe ynddo ei hun:
10 Fel yn ngoruchwyliaeth cyf- [a] Mat.25.32: Heb. 12. 22
lawnder yr amseroedd, [a]y gallai

8. *Trwy yr hwn y bu efe helaeth i ni.*—Gellir cyfieithu, ac ar y cyfan, fe allai, yn fwy cywir, "Yr hwn a wnaeth efe i fod yn helaeth tuag atom ni yn mhob doethineb a deall." Ar ol dangos cyfoeth y gras fel y mae yn cael ei amlygu mewn maddeuant, y mae yn myned yn mlaen i ddangos helaethder y cyfoeth yn nghyfraniad doethineb a deall ysbrydol, i adnabod dirgelwch ewyllys Duw yn yr efengyl. Y mae rhai yn cyssylltu y doethineb a'r deall â Duw, yn hytrach nag â'r saint. Yn erbyn hyn, dadleuir fod yn ammhriodol i ni briodoli deall i Duw. Y mae Alford yn rhoddi attebiad boddhaol, dybygid. i'r ddadl hon, trwy gyfeirio at fanau lle y mae deall (*prudence*) yn cael ei briodoli i Dduw: *Diar.* iii. 19; *Ier.* x. 12; 1 *Bren.* iii. 28. Drachefn, dadleuir nad ydyw yn addas llefaru am Duw fel un yn meddu ar bob doethineb a deall. Y mae yn bossibl i ni feddwl am ddynion fel yn ddiffygiol, neu yn rhagori mewn un neu arall o agweddau doethineb a deall; ond y mae dull cyffelyb o lefaru am y Duw unig ddoeth yn annaturiol ac ammhriodol. Nid ydym yn teimlo fod y ddadl hon etto yn argyhoeddiadol, gan y gwyddom fod y Beibl mor fynych yn llefaru am weithrediadau ymeddwl dwyfol yn ol cynllun ac oddi ar safle gweithrediadau cyfattebol yn meddwl dyn, fel un wedi ei wneuthur ar lun ei Greawdwr. Tueddir ni i feddwl, ar y cyfan, y gall fod y ddau olygiad yn gyssoa â'u gilydd, ac yn cyflawni eu gilydd, ac fod y geiriau yn gosod allan helaethrwydd doethineb a deall Duw, trwy ras yn cael ei gyfranu yn ddoethineb a deall yn meddyliau y saint. Fel y mae, trwy yr Ysbryd Glân, yn tywallt ei gariad i'w calonau, y mae hefyd yn tywallt ei ddoethineb a'i ddeall i'w meddyliau. Pa fodd yr ydym i wahaniaethu rhwng doethineb a deall yn y lle hwn? Yn ol Ellicott, y gwahaniaeth ydyw, fod doethineb yn fwy cyffredinol na deall, ac fod deall yn ganlyniad neu yn briodoledd doethineb. Ereill a farnant fod doethineb yn fwy athrawiaethol, a deall yn fwy ymarferol. Yn hytrach, gallem feddwl fod doethineb yn golygu dirgelwch mawr yr efengyl yn ei agweddau a'i berthynasau uchaf, a deall yn golygu yr un dirgelwch yn ei agweddau is: y naill yn ei olygu yn fwy arbenig yn ei berthynas â Duw, a'r llall yn fwy neilltuol yn ei berthynas â dynion. Trwy y naill, cawn yr olwg neíol ar y pethau; trwy y llall, yr olwg ddaearol.

9. *Gwedi iddo hysbysu i ni ddirgelwch ei ewyllys.*—Y mae y ddoethineb a'r deall yn ffrwyth a chanlyniad hysbysiad dirgelwch ei ewyllys. Y mae yr hysbysiad hwn yn cyfeirio at y dadguddiad allanol o ddirgelwch yr efengyl, tra y mae yr adnod flaenorol yn cyfeirio at y dadguddiad mewnol trwy yr Ysbryd yn y meddwl. Wrth "ddirgelwch ei ewyllys" y mae i ni ddeall, nid y dirgelwch sydd yn tarddu o'i ewyllys, ond y dirgelwch sydd â'i hanfod yn ewyllys Duw. *Yn ol ei foddlonrwydd ei hun.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gyssylltu â'r gair "hysbysu." "Iê, O Dad! canys felly y rhyngodd bodd i ti," ydyw yr esboniad goreu sydd i'w gael ar yr ymadrodd hwn. Boddlonrwydd ewyllys Duw ydyw rheswm a rheol yr hysbysiad a roddes Duw o ddirgelwch yr efengyl. *Yr hon a arfacthasai:*—neu yn fwy manwl, "Yr hwn a arfaethodd ynddo ei hun." Y mae rheswm holl arfaethau Duw yn gorwedd, nid y tu allan iddo ei hun, ond yn hytrach ynddo ef ei hun.

10. *Fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd.*—Fe allai y byddai y meddwl yn fwy eglur pe rhoddem gyfieithiad mwy llythyrenol:—"Yn ol ei foddlonrwydd ei hun, yr hwn a arfaethodd ynddo ei hun gyda golwg ar oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, i grynhoi ynghyd yn Nghrist," &c. Y mae egluro yn glir ystyr y gair "goruchwyliaeth" yn y lle hwn yn beth lled anhawdd. Y mae y gair *oikonomia* yn ei ystyr llythyrenol a manwl yn arwydio "iawn drefn tŷ neu deulu." Y mae y gair Saesneg "*economy*" yn tarddu o hono, ac yn parhau i gadw ei ddrychfeddwl gwreiddiol. Defnyddir ef naw o weithiau yn y Testament Newydd. Yn *Luc* xvi. 2, defnyddir ef yn ei ystyr naturiol am oruchwyliwr (*steward*) ar deulu. Mewn rhanau ereill, defnyddir ef i osod allan y swydd apostolaidd fel goruchwyliaeth yn nhŷ Dduw, sef yr eglwys; ac hefyd defnyddir ef yn ei ystyr mwy eang am drefniad neu sefydliad. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair genym ni yn gyffredin, i wahaniaethu yr hen gyfammod a'r cyfammod newydd. Gelwir y naill yr hen oruchwyliaeth, a'r llall yn oruchwyliaeth yr efengyl. Dïau mai yn yr ystyr eang hwn y defnyddir y gair gan yr apostol yn y lle hwn. Y mae y gwaith mawr o grynhoi ynghyd y pethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear yn cael ei olygu gan yr apostol fel trefniad neu sefydliad. Y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ol a thrwy gynllun mawr, ag sydd yn rhoddi nodwedd i amser ei hunan, ac am hyny gelwir ef yn "oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd." Dyma y gwaith mawr sydd yn llenwi ac yn cyflawni gwagder amser ei hun. Ynddo ac o hono ei hun, gwagder ydyw amser fel lle; ac fel mai gwrthddrychau sydd yn llanw y naill, felly digwyddiadau sydd yn llenwi y llall; ond buasai amser, er yr holl amgylchiadau a ddigwyddant ynddo, yn wâg heb yr amgylchiad mawr hwn. Yn nghyflawniad hwn y cyflawnir amser a'i holl gyfnodau. Cyflawnder yr oruchwyliaeth a fydd cyflawnder amser ei hun. *Crynhoi ynghyd.*—Y mae y gair a ddarllenir yma "crynhoi ynghyd" yn arwyddo yn llythyrenol, "symio i fyny ynghyd drachefn." Y mae gwreiddyn y ferf yn arwyddo "pen;" ac y mae rhai ysgrifenwyr dysgedig yn barnu fod y drychfeddwl o "grynhoi ynghyd dan un pen" yn meddwl yr apostol pan yn ei ddefnyddio yn y lle hwn. Nid ydyw hyn yn ammhossibl, ond y mae yn lled anghebyg. Yn y ffurf y ceir y ferf, y mae wedi ei chyfansoddi o'r ansoddair *kephalaion*—swm. Gwel *Heb.* vi. 1: "Swm y pethau a ddywedwyd yw hyn." Felly arwydda y ferf, yn fanwl, symio neu grynhoi i fyny i unoliaeth—crynhoi ynghyd. Y mae y rhagddodiad *ana*, sydd wedi ei osod o flaen y ffurf anghyfansawdd, yn arwyddo "drachefn." Felly yr ystyr ydyw, "Crynhoi ynghyd drachefn." Ac y mae y ffurf y ceir y ferf ynddo (*middle voice*), yr hwn sydd yn cyfatteb i'r rhagddodiad Cymraeg "ym," megys yn "ymgoneddu," &c., yn chwanegu at y drychfeddwl, fel ag i gynnwys, "Crynhoi ynghyd drachefn iddo

grynhoi ynghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear, ynddo ef:

[r] Act. 20. 32; Rhuf. 8. 17. [s] Adn. 5.

11 Yn yr hwn [r]y'n dewiswyd hefyd, [s]wedi ein rhagluniaethu yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun:

12 Fel y byddem ni er mawl i'w ogoniant ef, [t]y rhai o'r blaen a obeithiasom yn Nghrist.

[t] Salm 2. 12; Ier. 17. 6-7; 23. 6; Ioan 14. 1.

13 Yn yr hwn [u]*y gobeithiasoch* chwithau hefyd, [x]wedi i chwi [u] Col. 1. 21-23. [x] Ioan 1. 17; Rhuf. 6. 17. [y] Marc 16. 15, 16. glywed gair y gwirionedd, [y]efengyl eich iachawdwriaeth: yn yr hwn hefyd, wedi i chwi gredu,

ei hun." *Yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear.*—Y mae yr ymadrodd yn eang; ac yn hytrach na cheisio ei gyfyngu at ryw wrthddrychau pennodol, megys Iuddewon a Chenhedloedd, dynion ac angylion, y saint yn y nefoedd a'r saint ar y ddaear, &c., gwell o lawer ydyw eu cymmeryd yn eu helaethder priodol, i gynnwys pob personau a phethau ag sydd yn ac i fod o fewn cylch dylanwad yr iawn; mewn gair, pob personau a phethau ag sydd yn bod, oddi eithr pechod a marwolaeth, ynghyd â'u gwrthddrychau, y rhai ni chrynhöir byth, ond yn unig i'r graddau ag y cânt eu dinystrio ar y naill law, a'u puro ar y llaw arall. Nid oes yn yr ymadroddion hyn, gan hyny, y sail leiaf i olygiad y rhai a haerant yr hyn a elwir yn adferiad cyffredinol, er mai hon ydyw eu hadnod fawr i geisio profi eu hathrawiaeth. Pa beth sydd i'w olygu, gan hyny, wrth grynhoi ynghyd y gwrthddrychau hyn? Y mae yn rhaid i ni addef fod y drychfeddwl tu hwnt i'w egluro a'i ddirnad. Y mae yn ymestyn o flaen y meddwl yn ei eangder arddunol fel dirgelwch mawr. Y mae y gwrthddrychau yn eang—"yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear." Y person anfeidrol yn yr hwn y crynhöir hwynt ydyw yr Arglwydd Iesu—"ynddo ef." Yr adeg yn yr hon y crynhöir hwynt ydyw amser. "Goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd" ydyw yr oruchwyliaeth. Gweithredydd gwreiddiol y crynhöad ydyw person y Tad. Y mae y crynhöad yn golygu, crynhoi mewn unoliaeth, mewn undeb, ac mewn perffeithrwydd digyffelyb, a'r cyfan yn mherson y Duw-ddyn Crist Iesu. Ynddo ef y mae yr holl greadigaeth wedi ei chrynhoi mewn unoliaeth, yr hwn a lanwodd y gwagle anfeidrol oedd rhwng y Creawdwr a'i greadigaeth ei hun; o herwydd yn ei berson ef y mae y meidrol a'r anfeidrol wedi dyfod yn un. Ynddo ef, hefyd, y maent wedi eu crynhoi mewn undeb, ar ol y gwasgariad mawr trwy bechod. Yn ei berson fel Duw-ddyn y mae yr unoliaeth; yn ei berson fel iawn y mae yr undeb; ac yn ei allu fel Brenin y mae y perffeithrwydd yn cael ei sylweddoli.

11. *Yn yr hwn y'n dewiswyd hefyd.*—Y darlleniad ar ymyl y ddalen ydyw, "Yn yr hwn y cawsom etifeddiaeth." Gellir hefyd ei ddeall, "Yn yr hwn y gwnaethpwyd ni yn etifeddiaeth." Y mae cymmhariaeth â'r Epistol at y Colossiaid yn ffafrio yr ail: sef, yr un ar ymyl y ddalen: gwel *Col.* i. 12. Cadarnheir ef hefyd trwy ei gymmharu âg *adn.* 18 o'r bennod hon, lle y sonir am "etifeddiaeth y saint." Nid y saint a olygir yn etifeddiaeth, er y lleferir am danynt felly weithiau yn eu perthynas â Duw; ond edrychir ar yr etifeddiaeth fel yn eiddo iddynt hwy. Ystyr y ferf a ddefnyddir yma (*clerow*), yn y ffurf weithredol, ydyw dewis trwy goelbren, ac wedi hyny yn gyffredinol, dewis. Hefyd, gall arwyddo, yn yr un ffurf, rhoddi meddiant trwy goelbren: ac yn y ffurf oddefol, gall arwyddo naill ai bod yn ddewisedig, derbyn meddiant, neu wneuthur un yn feddiant. Yn y ffurf oddefol, wrth reswm, y mae yn cael ei defnyddio yma, a hyny yn ol y cyfeithiad awdurdodedig, yn yr ystyr gyntaf; yn ol y darlleniad ar ymyl y ddalen yn yr ail: tra y mae amryw esbonwyr cywir a manwl yn ei gymmeryd yn yr olaf.—*Olshausen, Ellicott,* &c. Fel y dywedasom uchod, tueddir ni yn gryfach at yr ail. Y mae y saint yn Nghrist, nid yn unig wedi eu crynhoi, ond hefyd wedi derbyn etifeddiaeth, i'r hyn hefyd y cawsant eu harfaethu. *Yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio,* &c.—Dyma y drydedd fendith mewn amser: maddeuant ydyw y gyntaf, doethineb a deall yr ail, a chyfiawnhâd y drydedd. Y mae yr apostol yma yn dangos eu bod mewn amser wedi derbyn yn weithredol yr hyn yr oeddynt wedi eu harfaethu iddo yn nhragwyddoldeb, a hyny yn ol yr arfaeth, a thrwy weithrediad yr arfaethiad—"Yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio," neu yn gweithredu pob peth, &c. *Wrth gynghor ei ewyllys ei hun.*—Pa fodd y mae i ni wahaniaethu rhwng "cynghor" ac "ewyllys" yn y lle hwn? Y gwahaniaeth rhwng y gair a ddarllenir yma "ewyllys" (*thelêma*), a'r gair a ddarllenir yma yn "gynghor" (*boulê*), yn ol Butmann, ydyw, fod y cyntaf yn arwyddo amcan a chynllun, a'r olaf yn golygu yn unig y tueddiad a'r bwriad. Y mae y gwahaniaeth hwn yn anghysson, dybygid, âg ystyr amryw leoedd yn y Testament Newydd, ac hefyd âg ystyr y geiriau yn y gweithiau clasurol yn fynych. Tueddir ni i feddwl fod y gair "ewyllys" yn cyfeirio at y cynllun, a'i reswm, fel y mae yn hanfodi yn dragwyddol yn y Duwdod; a'r gair "cynghor" yn dynodi, yn fwy arbenig, ei weithrediad allan mewn amser; ac felly, hwyrach mai y cyfeithiad mwyaf cywir a fuasai, "Yn ol ewyllysiad (nid ewyllys) ei gynghor ei hun."

12. *Fel y byddem ni er mawl i'w ogoniant ef.*—Yn *adn.* 6, darlunir amcan terfynol yr arfaeth yn yr ymadrodd, "Er mawl gogoniant ei ras ef." Yma dariunir amcan terfynol gweithrediad yr arfaeth—"Er mawl i'w ogoniant ef." Y rheswm am y gwahaniaeth, fe allai, yw, fod yr adnod hon yn golygu yr hyn ydyw y saint yn wrthddrychol; sef, yn ogoneddus yn eu meddiant o'u hetifeddiaeth, ac felly "er mawl i'w ogoniant ef." Y *rhai o'r blaen,* &c.:—sef yr Iuddewon, y rhai a obeithiasant yn Nghrist o'r blaen, neu cyn iddo ymddangos yn y cnawd. Pa ham yr enwir "gobaith" yma, yn hytrach na "ffydd?" Y mae gwahaniaeth rhwng gobeithio *am* a gobeithio *yn.* Pan fyddom yn gobeithio mewn person am rywbeth, fe gynnwysa hyny ymddiried yn y person, a disgwyliad a hiraeth am y peth i'w fwynhau. Mae yr ymddiried yn y person yn hanfodol yr un a ffydd, a'r disgwyliad am y peth yr un a gobaith. Y mae yr ymadrodd, gan hyny, yn gosod allan obaith, ac yn tybied ffydd.

13. *Yn yr hwn.....chwithau.*—Gwelir fod y gair "gobeithiasoch" wedi ei roddi i fewn gan y cyfeithwyr. Yn y Groeg, y darlleniad ydyw,

[a]Joel 2. 28. y'ch seliwyd trwy [z]Lân Ysbryd yr addewid;

14 Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd [a]bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef.

[a]Lef. 25. 24, &c.; Luc 21. 28.

15 Ô herwydd hyn minnau hefyd, wedi clywed eich ffydd yn yr Arglwydd Iesu, a'ch cariad tu ag at yr holl saint,

16 Nid wyf yn peidio a diolch drosoch, [b]gan wneuthur coffa am [b]1 Thes. 1. 2. danoch yn fy ngweddïau;

17 Ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, [c]Tad y gogoniant, [c]Mat. 6. 13; Luc 2. 14.

"Yn yr hwn, chwithau hefyd, wedi i chwi glywed gair y gwirionedd, efengyl eich iachawdwriaeth, yn yr hwn, wedi i chwi hefyd gredu, a seliwyd," &c. Y mae ereill yn rhoddi "ydych" yn lle "gobeithiasoch"—"Yn yr hwn yr ydych chwithau hefyd," &c. Ereill a roddant, "Y cawsoch chwithau etifeddiaeth." Gwell ydyw peidio ceisio rhoddi dim i fewn, ond cymmeryd cyfansoddiad yr adnod fel enghraifft o'r hyn a elwir yn *anacoluthon*, neu anghyfartaliad, ac felly cyssylltu y gair "chwithau" â'r ferf "seliwyd" yn uniedd yr adnod:—"Yn yr hwn chwithau ..... a seliwyd." Cawsom ni, y rhai a obeithiasom o'r blaen yn Nghrist, etifeddiaeth yndd o: "yn yr hwn, chwithau hefyd, wedi i chwi glywed, ond nid wedi clywed yn unig, eithr yn yr hwn wedi i chwi gredu hefyd, a seliwyd." *Gair y gwirioneddd, efengyl eich iachawdwriaeth*—Fel y mae yn dwyn perthynas â dyn fel creadur deallol, gelwir yr efengyl yn air y gwirionedd—*h. y.*, amlygiad o'r gwirionedd uchaf sydd mewn bod. Nid gair gwirionedd, ond "gair y gwirionedd;" eithr fel y mae yn dwyn perthynas â dynolryw fel pechaduriaid, y mae yn cynnwys newyddion da am iachawdwriaeth. Y mae y cyntaf yn dwyn cyssylltiad â chynnwys yr wythfed adnod, a'r ail yn fwy â chynnwys y seithfed—y naill â doethineb a deall, a'r llall â phrynedigaeth, sef maddeuant pechodau. *Y'ch seliwyd.*—Y drychfeddwl mawr a gynnwysir mewn "selio" ydyw sicrwydd. Mae y gair yn golygu tri o feddyldrychau:—1. Sicrhau gwirionedd: 2. sicrhau hawl: 3. sicrhau diogelwch. Weithiau golyga sicrhau peth fel o'r iawn ryw; bryd arall, sicrhâ fod gan berson hawl i'r peth; a phryd arall, sicrha ddiogelwch y peth i'r person. Fe allai mai y drychfeddwl o sicrhau hawl sydd i'w gyssylltu â'r gair yn y lle hwn. Selio personau y sonir am dano yma, fel rhai â hawl ganddynt i'r etifeddiaeth. Yr oedd priodoldeb mawr yn newisiad y gair hwn gan yr apostol fel y mae yn cael ei gyssylltu â'r Cenhedloedd, er dangos fod ganddynt hwythau yr un hawl, yn gystal a'r Iuddewon, i'r etifeddiaeth.

Trwy Lân Ysbryd yr addewid.—Gelwir yr Ysbryd Glân yn "Lân Ysbryd yr addewid," am fod ei ddyfodiad a'i dywalltiad wedi cymmeryd lle yn rhinwedd yr addewid. Gelwir yr Ysbryd Glân, yn *Act.* i. 4, yn "addewid y Tad." Ni ddywedir "Glân Ysbryd addewid," ond "yr addewid." Yr oedd yr addewid gyntefig, i'n rhieni cyntaf, yn cynnwys yndd ei huuan, nid yn unig y Messiah, ond yr Ysbryd Glân hefyd: er fod yr olaf yn cael ei olygu yn hytrach nag yn cael ei osod allan, etto yr oedd yn gorwedd yn gudd-iedig mewn dirgelwch yn nghôl fewnol a phlygion isaf y geiriau, "Efe a ysiga dy ben di."

14. *Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni.*—Y mae yr Ysbryd, nid yn unig yn sel, ond hefyd yn ernes. Y mae y gair *arhabo* o darddiad Pheniciaidd: arwydda, yn fanwl, rhan-dâl fel gwystl am y llawn-dâl. Defnyddir ef deirgwaith yn y Testament Newydd; sef yn 2 *Cor.* i. 22; v. 5; ac yn y lle hwn. Defnyddir ef weithiau, o bossibl, mewn ystyr cyffredinol am wystl: ond y mae gwahaniaeth gwirioneddol rhwng gwystl ac ernes. Yn gyntaf, y mae yn rhaid i wystl fod o leiaf yn gydwerth, ac yn gyffredin yn fwy o werth na'r hyn y gwystlir am dano. Yn ail, gall gwystl fod yn rhywbeth o rywogaeth gwahanol i'r hyn y gwystlir am dano, megys arian am dir, neu dir am arian, ond y mae ernes o'r un rhywogaeth a'r hyn y mae yn sicrhau y llawn dâl o hono. Ac yn olaf, dychwelir gwystl wedi talu yr hyn y gwystlir am dano: ond ni ddychwelir yr ernes, gan mai rhan-dâl ydyw, i gael ei gwblhau gan y llawn-dâl. "Yr hwn:"—nid yr hyn. Er fod y gair "Ysbryd" yn y canolryw yn yr iaith Roeg yn gyffredin, etto yma y mae yn y rhyw wrywol, i arwyddo yn fwy clir a phennodol bersonoliaeth yr Ysbryd. Nid ei rasau yn unig sydd yn ernes, ond ef ei hunan. Nid y ffrydiau yn unig sydd yn ernes; y mae yn bossibl i ni dybied fod y ffrydiau yn cael eu tori ymaith; ond y mae y ffynnon ei hunan yn preswylio yn y saint. Y mae Ysbryd y gras yn preswylio ynddynt, yn gystal a gras yr Ysbryd; ac fel y cyfryw y mae yn ernes o'r "etifeddiaeth," gan mai Duw ei hun yw etifeddiaeth y saint—"etifeddion i Dduw"—ac y mae yr Ysbryd yn Dduw. Efe hefyd sydd yn "cymmeryd o eiddo Crist, ac yn ei fynegu iddynt hwy." Pa beth yw y gwahaniaeth rhwng y sicrwydd a roddir gan yr Ysbryd fel sel, a'r sicrwydd a roddir ganddo fel ernes? Y mae y cyntaf yr un a sicrwydd deall—yr ail yr un a sicrwydd gobaith yn y galon a'r serchiadau.

15. *O herwydd hyn*:—sef, yr hyn a gynnwysir yn *adn.* 13, 14. *Minnau hefyd.*—Y mae yr ymadrodd "hefyd" yn cael ei roddi i ddangos yr undeb a'r cymmundeb oedd rhwng yr apostol a'r rhai yr ysgrifenai atynt, mewn gweddi a mawl. *Wedi clywed.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei ddyfynu gan y rhai a fynant mai nid at yr Ephesiaid yr ysgrifenwyd y llythyr hwn, gan y gwyddom fod Paul, nid wedi clywed, ond wedi gweled ffydd a chariad yr Ephesiaid. Nid oes dim rhith o rym yn y ddadl, gan ei bod yn hollol gysson â'r ffaith a nodwyd i ni olygu y gallai yr apostol gael testyn adnewyddol i weddio ar eu rhan oddi wrth glywed, yn mhen blynyddoedd ar ol eu gadael, am barhâd a chynnydd eu ffydd a'u cariad: ac heb law hyny, diau, er pan y gwelsai efe hwynt, fod yno lawer o rai wedi eu chwanegu atynt na welsai mohonynt erioed.

16. *Nid wyf yn peidio.*—Gallasai Paul felly, yn gysson, annog ereill, gan ddywedyd, "Gweddïwch yn ddibaid." *Yn fy ngweddïau.*—Groeg, "Ar fy ngweddiau." Yn gyffelyb i hyn dywedwn ninnau yn Gymraeg, "ar weddi."

17. *Tad y gogoniant.*—Gan amryw o'r tadau, cymmerir y gair "gogoniant" fel enw ar yr Arglwydd Iesu, gan gymmeryd yr ymadrodd blaenorol, "Duw ein Harglwydd Iesu Grist," a "Tad y gogoniant," yn gyferbyniol: sef, Duw Iesu Grist fel Cyfryngwr, a'i Dad fel person dwyfol, yr hwn a osodir allan yma dan yr enw "gogoniant." Ereill a ddeallant y gair "Tad" mewn

[d] Luc 21.15; Ioan 14.17, 26. roddi i chwi [d] Ysbryd doethineb a dadguddiad, trwy ei adnabod ef:

18 Wedi goleuo llygaid eich

ystyr trawsenwadol, fel yn arwyddo achos neu darddell—"ffynnon gogoniant." Yn debyg i hyn y tybia Olshausen a Grotius. Ereill a'i cymmerant fel ansoddair, "Y Tad, i'r hwn y perthyn gogoniant." Y mae yn llawn mwy naturiol i ni olygu y ddau ymadrodd fel yn dynodi perthynas Duw y Tad â'r Arglwydd Iesu Grist fel y mae yn Gyfryngwr: y cyntaf yn cyfeirio at ei berson, a'r ail at y cyflawnder o ogoniant ysbrydol sydd yn ei berson i'w gyfranu trwy yr Ysbryd i'r saint. Y mae 'y "gogoniant" hwnw yn awr wedi ei roddi i drigo ynddo gan y Tad; canys "rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef." Y mae ynddo fel Duw-ddyn, ac yn pelydru allan o'i berson trwy ei ddynoliaeth. Efe ydyw y gwir Shecinah. *Roddi i chwi Ysbryd doethineb a dadguddiad.*—Y mae y gair "Ysbryd" yma yn cyfeirio o leiaf at yr Ysbryd Glân, ond yn ei olygu fel y mae yn preswylio ac yn gweithio yn ysbryd y saint, gan gynnyrchu cyddynt, fel ffrwyth, ddoethineb; sef, y gwirioneddau mawrion sydd yn yr Iesu, ac fel y maent yn yr Iesu, ac yn cynnwys y "gogoniant" yn yr adnod o'r blaen; a "dadguddiad;" sef y goleuni hwnw ar y gwirioneddau yn y galon ag sydd yn dyfod â'r pethau yn eu gogoniant i amlygrwydd. Golyga Harless fod y ddau yn wahanol. "Doethineb," medd efe, "ydyw yr ansawdd oddi fewn, cyfaddas i dderbyn y gogoniant, a "dadguddiad" y cyfrwng allanol trwy ba un y mae yn dyfod i fewn i'r meddwl, neu y galon." *Trwy ei adnabod ef.*—Groeg: "Yn yr adnabyddiaeth o hono ef." Yr ystyr ydyw, fod y ddoethineb a'r dadguddiad yn cael eu rhoddi trwy yr Ysbryd yn yr adnabyddiaeth o'r person. Nid adnabod y person trwy ddysgu y pethau; ond i'r gwrthwyneb, cael dadguddiad o'r pethau yn yr adnabyddiaeth o'r person.

18. *Wedi goleuo llygaid eich meddyliau.*—Yn lle "meddyliau," darllenir yn yr ysgrifau a'r cyfeithiadau goreu, "calonau." Hwn yn ddiau yw y gwir ddarlleniad; gan hyny, dylid darllen, "Wedi goleuo llygaid eich calonau." Y mae y gair "calon" yn cael ei ddefnyddio yma, medd Hodge, i arwyddo yr oll o natur ysbrydol dyn. Y mae ereill yn ei gyfyngu at yr enaid (sefyllfa yr hwn, yn ol anianyddiaeth yr Iuddewon a chenhedloedd ereill, sydd yn y galon), yn wrthgyferbyniol i'r ysbryd. Y mae y ffaith fod y tri pheth a enwir fel gwrthddrychau eu gwybodaeth—sef, gobaith ei alwediga eth ef, golud ei etifeddiaeth ef, a mawredd y gallu a'u bywhaodd gyda Christ, y rhai oll ydynt yn cael edrych arnynt yma, dybygid, nid fel y maent ynddynt eu hunain, ond fel y maent yn bethau i'w mwynhau a'u teimlo—yn gadarnhâd tebygol i'r syniad olaf hwn. *Fel y gwypoch beth.*—Y mae y gair "peth" o flaen y tri drychfeddwl sydd yn wrthddrychau y wybodaeth ag y sonir am dani. Arwydda beth o ran natur, mawredd, a gogoniant, gyda golwg ar y naill a'r llall o'r drychfeddyliau y cyfeirir atynt. Y tri drychfeddwl ydynt:—1. Gobaith ei alwediga eth ef; 2. Golud gogoniant ei etifeddiaeth ef; 3. Rhagorol fawredd ei nerth ef. Gyda golwg ar y cyntaf, sef "gobaith ei alwediga eth ef," y mae gwahaniaeth barn. Cymmerir ef gan rai mewn ystyr gwrthddrychol (*objective*), i arwyddo, nid y teimlad o meddyliau; fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwediga eth ef, a pheth [e] *yw* golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint, [e] Rhuf. 8. 24, 25; Gal. 5. 5.

obaith yn yr enaid, ond yn hytrach yr hyn y gobeithir am dano, yn gyffelyb ag y dywed yr apostol mewn lle arall, "Gan ddisgwyl am y gobaith gwynfydedig," &c. Ereill a'i deallant yn yr ystyr mewnol (*subjective*), sef y teimlad o obaith: tra y mae ereill [Goodwin] yn ei gymmeryd i arwyddo seiliau gobaith, fel yn *Rhuf.* iv. 18: "Yr hwn yn erbyn gobaith;" *h. y.*, yn erbyn pob sail neu seiliau i obeithio. Yr ail yw y golygiad mwyaf tebygol; ond gan fod y teimlad o obaith yn golygu seiliau i obeithio, a phethau i obeithio am danynt ar y seiliau hyny, gellir cymmeryd y cyntaf a'r olaf i mewn yn yr ail. Fel nad oes i ffydd fodolaeth ar wahân oddi wrth ei gwrthddrych, sef person Crist, ac oddi wrth ei sail, sef tystiolaeth Duw am ei Fab, felly nid oes i obaith fodolaeth ar wahân oddi wrth ei gwrthddrych a'i sail hithau. Gelwir y "gobaith" yn obaith eu galwediga eth, nid am eu bod wedi eu galw i obaith, er fod hyny yn wirionedd yn ddiau, ond am ei fod yn ffrwyth eu galwediga eth effeithiol drwy yr efengyl. Y mae yr apostol yma yn dangos fod angen am i'r saint wybod ac adnabod bendithion mawrion yr efengyl, nid yn unig fel y maent i'w gweled a'u hamgyffred yn allanol, ond hefyd fel y maent yn derbyn hanfodiad yn fewnol ynddynt hwy eu hunain; ac mai yr Ysbryd Glân ydyw ffynnonell y naill yn gystal a'r llall. Efe, yr hwn sydd yn chwilio dyfnion bethau Duw, fel y maent yn Nghrist, ac yn eu hegluro i ni, sydd hefyd yn alluog i egluro y pethau hyny fel y maent yn cael eu hadlewyrchu yn y galon, i'r galon ei hun. "Pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond ysbryd dyn, yr hwn sydd yndda ef? felly pethau Duw, nid edwyn neb ond Ysbryd Duw." Nis gall ysbryd dyn adnabod pethau Duw fel y maent yn y dyn, mwy nag fel y maent y tu allan iddo, heb fod Ysbryd Duw yn gweithredu ynddo. Yr ail ddrychfeddwl yw, "golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint." Y mae yr ymadrodd hwn yn cynnwys gwrthbarth (*counterpart*) y gobaith sydd ynddynt. Edrychir yma ar yr etifeddiaeth nid fel yr ymddengys yn anuniongyrchol yn y gobaith am dani yn y saint, ond fel y mae yn allanol ynddi ei hun. Y mae nid yn unig yn ogoneddus, ond yn ogoniant ei hun, ac y mae y gogoniant nid yn unig yn oludog, ond yn olud ei hun. Nodwedd mawr yr etifeddiaeth ydyw gogoniant, a nodwedd mawr y gogoniant ydyw golud. Y mae ansawdd yn fwy pwysig na swm, ond yma ni a gawn y ddau yn y man goreu. Gogoniant ydyw yr ansawdd, a golud ei hunan yw y swm. Y mae rhagoriaeth a helaethrwydd yn cydgyfarfod yn yr etifeddiaeth hon yn y modd mwyaf perffaith ag y mae yn bossibl i ni feddwl am dano. *Yn y saint.*—Y mae Goodwin ac ereill yn cyssylltu yr ymadrodd hwn yn uniongyrchol â'r ymadrodd, "ei etifeddiaeth ef," ac felly yn deall mai etifeddiaeth Duw yn y saint a feddylir, yn hytrach nag etifeddiaeth y saint yn Nuw. Yn y cyntaf y mae yn gweddïo, yn ol yr esboniad hwn, am iddynt gael gwybod pa beth oedd eu gobaith hwy am yr hyn yr oeddynt i'w dderbyn fel ffrwyth eu galwediga eth; ac yn yr ail, am iddynt gael gwybod pa beth yr oedd Duw ei hun i'w dderbyn oddi wrth yr hyn a roddir

19 A pheth *yw* rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai y'm yn credu, yn ol

iddynt hwy. Ond y mae yr ymadrodd "yn y saint" yn ddealladwy yn yr ystyr arall. Y mae cyfoeth gogoniant yn etifeddiaeth ag y mae Duw yn ei rhoddi *yn* y saint. Nid etifeddiaeth allanol ydyw, ond un fewnol. Nid yr hyn sydd ganddynt a gynnwysa, ond llawer mwy:—yr hyn sydd yn-ddynt. Y trydydd drychfeddwl ydyw, "Rhagorol fawredd ei nerth ef." Y mae yn amlwg fod esgyneb yn ymadroddion yr apostol yn y lle hwn. Yn y cyntaf o'r ymadroddion mawrion hyn, cyfeirir ni at y gobaith gogoneddus sydd wedi ei ddeffro yn y saint, fel cynnyrch eu galwedigaeth. Yn yr ail, at olud gogoniant yr etifeddiaeth sydd yn wrthddrych y gobaith: ac yn yr olaf, at fawredd aruthrol y nerth ag oedd yn angenrheidiol i'n rhoddi mewn hawl, meddiant, a mwynhâd o'r etifeddiaeth yn y byd hwn, er yn ammherffaith, ac yn berffaith yn y byd a ddaw. I'r nerth hwn priodolir, fel hynodwedd, mawredd, a rhagorol fawredd. Mewn gallu yr ydym yn chwilio yn fwy na dim am fawredd: ac wele yma, ragorol fawredd—mawredd yn rhagori. Gellir gofyn, At ba beth y cyfeiria y gair "rhagorol?" Rhagori ar ba beth y mae y gallu? I hyn yr attebwn, Rhagori mewn mawredd ar bob gallu arall, hyd yn oed o'r eiddo Duw ei hun. Gallu ysbrydol ydyw. Nid gallu y mae yn ei greu y tu allan iddo ei hun, trwy weithrediad y gallu sydd ynddo ef ei hun; ond y gallu sydd ynddo yn cael ei estyn a'i weithredu yn allanol tuag at y saint, fel rhai yn Nghrist, a thrwy Grist ynddo ef ei hun.

19. *Tuag atom ni y rhai y'm yn credu.*—Cwestiwn ag y mae dadl fawr arno gyda golwg ar yr ymadrodd hwn ydyw, pa un ai cyfeirio at nerth ag oedd eisoes wedi ei amlygu tuag at gredinwyr ydoedd yr un y cyfeirir yma ato, ai nerth i gael ei amlygu atynt yn y dyfodol. Y mae geiriau llythyrenol y frawddeg yn pleidio y golygiad cyntaf—"a pheth yw," nid "a pheth a fydd;" tra am y nerth hwn yn cyfodi Crist, dywedir, "yr hon a weithredodd efe yn Nghrist." Drachefn, y mae y golygiad hwn yn cydsefyll yn well â'r hyn a ddywedir yn yr adnod gyntaf o'r ail bennod. Ar ol i'r apostol yn yr adnodau dilynol yn y bennod hon roddi enghraifft o weithrediad y nerth yn cyfodi ac yn dyrchafu Crist, y mae yr apostol yn dangos eu bod hwythau wedi eu bywhau o'u camweddau a'u pechodau trwy yr un nerth. Ar yr un pryd, diau fod yr apostol yn edrych yn mlaen yn gystal ag yn ol: ac yn golygu gweithrediad rhagorol fawredd nerth Duw yn yr hyn oedd i'w gyflawni yn y dyfodol, trwy eu dyrchafu i fod gyda Christ, yn gystal ag yn yr hyn yr oedd wedi ei gyflawni eisoes yn eu bywhâd ysbrydol. *Yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef.*—Cyssylltir yr ymadrodd hwn gan rai â'r un blaenorol, "y rhai ydym yn credu," gan eu cymmeryd fel yn gosod allan darddiad ffydd. Ond gan mai nid egluro tarddiad ffydd ydyw y mater sydd gan yr apostol yn y lle hwn, eithr egluro mawredd nerth Duw yn mhrefn iachawdwriaeth, diau y dylid ei gyssylltu yn hytrach â'r ymadrodd blaenorol—"A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth," yr hwn sydd yn cael ei amlygu "yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef." Yn yr iaith Roeg y mae yn y lle hwn bedwar o eiriau gwahanol, sef *dunamis*, gweithrediad nerth ei gadernid ef; Rhuf. 6. 5-11; 20 Yr hon fa weithredodd efe i Pedr 1. 3.

(nerth), *energeia* (gweithrediad), *cratos* (gallu), ac *ischus* (cadernid). "Rhagorol fawredd ei nerth ef yn ol gweithrediad gallu ei gadernid ef." Y mae yn waith anhawdd egluro y gwir wahaniaeth rhwng ystyr y pedwar. Y mae y gair cyntaf, *dunamis*, yn fwy cyffredinol ei ystyr, ac yn golygu y nerth fel y mae yn dyfod i gyffyrddiad â'r gwrthddrychau; tra y mae y tri arall yn ei olygu yn fwy fel y mae yn dwyn perthynas â Duw fel gweithredydd. Drachefn, y mae yn amlwg fod gwahaniaeth ystyr rhwng y tri olaf. sef gweithrediad, gallu, a chadernid. Y mae cadernid yn golygu nerth goddefol a mewnol, a gallu yn golygu nerth allanol. Nerth cuddiedig ydyw y naill, a nerth dadblygedig, ac wedi ei ddwyn allan i ymarferiad, yw y llall. Mae y gair "gweithrediad," drachefn, yn dynodi y gallu fel y mae yn cynnyrchu yr effaith sydd yn ffrwyth iddo fel achos. "Gallwn olygu," medd Calvin, "cadernid fel y gwreiddyn, gallu fel y pren, a gweithrediad fel y ffrwyth. Tybier am ddyn yn cyfodi corph neu sylwedd marw i fyny oddi wrth y ddaear, y mae y cadernid angenrheidiol i hyn yn gorwedd yn y nerth bywydol a berthyn i'r cyfansoddiad dynol; y mae y gallu gofynol i hyn i'w ganfod yn nygiad allan, a dadblygiad y cadernid bywydol trwy gyfrwng yr ewyllys fel moddion, a'r gewynau corphorol fel offerynau: ac y mae y gweithrediad o'r gallu i'w ganfod yn y ffaith o ddyrchafiad y corph marw, neu y sylwedd yn erbyn deddf at-dyniad oddi wrth y ddaear. Yn gyffelyb, y mae nerth Duw yn golygu ei hollalluogrwydd ysbrydol, fel y mae ynddo ac o hono ei hun. Priodolir iddo y nodwedd o "ragorol fawredd" am ei fod yn rhagori ar bob nerth arall, ac yn tra rhagori ar bob syniad ac amgyffrediad a feddwn ni am dano. Y mae yr ymadrodd nesaf yn dangos pa fodd y mae Duw yn amlygu y nerth hwn, sef yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef, yr hon a weithredodd efe yn Nghrist, &c. Amlygodd ragorol fawredd ei nerth yn Nghrist trwy weithrediad nerth ei gadernid. Trwy ei ewyllys, daeth ei gadernid mewnol yn nerth neu yn allu allanol, a thrwy ddadblygiad pellach o'r un ewyllys, daeth y gallu allanol yn weithrediad effeithiol i'w adgyfodi ef oddi wrth y meirw, a'i ddyrchafu ar y ddeheulaw; ac megys mai trwy weithrediad nerth ei gadernid yr amlygodd ei nerth yn Nghrist, felly hefyd yn ol yr un a'r unrhyw y mae yn ei amlygu yn y saint. Yr un rhagorol fawredd sydd yn cael ei amlygu yn y naill ag yn y llall: ac y mae yn cael ei amlygu yn ol yr un gweithrediad o'r un gallu, ac yn ol gweithrediad gallu yr un cadernid. Golyga yr ymadrodd "yn ol," fod yr un nerth, trwy weithrediad gallu ei gadernid, yn cael ei amlygu yn yr un modd, ond nid yn yr un graddau.

20. *Yr hon a weithredodd efe:*—sef y gweithrediad. Dylasai yn hytrach fod "Yr hwn a weithredodd efe yn Nghrist." Ynddo ef fel pen, a thrwyddo ef, cyrhaedda yr un gweithrediad yn y dadblygiad o hono i'r holl aelodau. Yn y greadigaeth gyntaf, darfu i Dduw wasgaru ei allu trwy ei holl eangder, ond yn y newydd y mae gweithrediad nerth ei gadernid ef yn cael ei weithredu i ddechreu mewn canolbwynt, sef yn Nghrist, ac o hono ef i gael ei wasgaru a'i ddad-

yn Nghrist, pan y cyfododd ef o feirw, ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefoloion *leoedd*,

[e] Col. 2. 10; Heb. 1. 4

21 Goruwch [g] pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a [h] phob enw a enwir, nid

[g] Mat. 28. 19; Dad. 19. 12, 13.

blygu tuag at y saint yn "rhagorol fawredd ei nerth ef." *Pan y cyfododd ef o feirw*:—neu yn fwy llythyrenol, "oddi wrth y meirw;" sef, o gyflwr o farwolaeth. Yn lle "pan," gellir darllen, "yn ei adgyfodiad ef o feirw." Amlygwyd y gweithrediad i ddechreu yn ei adgyfodiad ef. Yr oedd adgyfodiad a dyrchafiad Crist yn amlygiad o allu, a'r amlygiad cryfaf erioed a byth. Nid gallu naturiol ydyw; eithr yn hytrach, gallu ysbrydol. Y mae yr un o ran hanfod a haeddiant Crist. Yr oedd yr haeddiant hwnw yn allu ysbrydol ac anfeidrol. Gweithredwyd ef gan y Mab, ond offrymwyd a rhoddwyd ef i'r Tad, a rhoddwyd ef yn ol drachefn gan y Tad i'r Mab yn allu i'w adgyfodi a'i ddyrchafu. Yr oedd Crist, yn ei angeu, a thrwy haeddiant ei angeu, yn darparu nerth i adgyfodi a dyrchafu. Priodolir adgyfodiad Crist i'r Tad am mai gan y Tad yr oedd awdurdod i roddi i'r Mab y gallu a gynnyrchwyd ganddo trwy ei haeddiant i fod yn achos ei adgyfodiad, yn gymmaint ag y darfu i'r Mab, yn y cynnyrchiad o hono, ei roddi a'i offrymu yn wirfoddol i'r Tad. *Ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw.*—Mae eisteddiad Crist yn golygu ei esgyniad. Mae yr ymadrodd uchod i'w ddeall, nid yn llythyrenol, ar y naill law, nac yn ffugrol ar y llaw arall, ond yn arwyddocaol. Arwydda, 1. Ei esgyniad a'i ddyrchafiad lleol. Y mae yn y nefoedd. o ran lle, ac yn preswylio yn ei man uchaf. Nid oes dim angen ymofyn pa un ai eistedd, ai sefyll, y mae y ddynoliaeth yn llythyrenol. Gwelodd Stephan ef yn sefyll; a dywed Goodwin mai sefyll yw agwedd briodol y ddynoliaeth. Ond yn gyffredin, defnyddir y gair "eistedd" yn arwyddocaol o anrhydedd a thawelwch. 2. Gogoniant a dedwyddwch. 3. Anrhydedd a dyrchafiad. 4. Llywodraeth.

21. *Goruwch pob tywysogaeth, &c.*—Gosodir allan drwy yr ymadroddion hyn raddau ei ddyrchafiad o ran gwrthddrychau, pethau, amser, a lle. Y mae yr ymadroddion "tywysogaeth," &c., yn dynodi ffurfiau amrywiol llywodraeth ac awdurdod, yn mhob man, ac yn arbenig gyda chyfeiriad at y byd ysbrydol. *A phob enw a enwir.*—Y mae, nid yn unig goruwch o ran ffurf ei awdurdod i bob ffurfiau ereill o awdurdod, ond y mae o ran ei berson uwch law pob personau a all fod yn meddu y ffurfiau hyny. Y mae Bengel yn cymmeryd y gair "enw" i ddynodi, nid yn unig bersonau, ond pethau hefyd: "pob peth sydd mewn bod." *Nid yn unig yn y byd hwn, &c.*—Y mae y gair a ddarllenir yma "byd," yn ei ystyr clasurol yn arwyddo yn wastad amser, neu o leiaf, yn cymmeryd y drychfeddwl o amser i mewn. Y mae hyn yn milwrio yn erbyn yr ystyr a fabwysiedir i'r geiriau gan lawer, sef y "ddaear a'r nefoedd," gan olygu fod y nefoedd yn cael ei galw yn "fyd a ddaw" am ei bod felly i ni. Y mae ereill [Goodwin, Ellicott, Olshausen, &c.], yn cymmeryd "y byd a ddaw" yn yr ystyr oruchwyliaethol, ac yn cyfeirio at oruchwyliaeth yr efengyl yn y dyddiau diweddaf, fel adeg ei llwyddiant mawr: ond mwy syml ydyw cymyn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw:

[i] Gen. 3. 15; 1 Cor. 15. 25—27; Heb. 2. 8.

22 Ac a [i] ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef, ac [k] a'i rhoddes ef yn ben uwch law pob peth i'r eglwys,

[k] 1 Cor. 11. 3; Col. 1. 18. [l] Rhuf. 12. 5; 1 Cor 12. 12—27; Col. 1. 24.

23 Yr hon yw [l] ei gorph ef, ei meryd yr ymadroddion mewn ystyr digon eang fel ag i gynnwys y golygiadau uchod; ac etto, i gynnwys mwy, sef eangder dyrchafiad Crist o ran parhâd, pa un bynag ai mewn amser ai yn nhragwyddoldeb, yn y byd hwn ynte yn y byd ysbrydol.

22. *Ac a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef.*—Y mae dyrchafiad Crist yn cynnwys, nid yn unig sefyllfa, ond llywodraeth hefyd—y naill fel y llall yn oruchaf. Cyfeiria yr apostol yn yr ymadrodd uchod at *Salm* viii. Diau mai dyrchafiad dyn ydyw testyn ac amcan mwyaf unionGyrchol a chyffredinol y Salm uchod; ond cyfeiria yn ei hamcan mwy cyfryngol ac arbenig at ddyrchafiad Crist fel canolbwynt ac achos dyrchafiad dyn. Y mae ymresymiad yr apostol pan yn dyfynu yr un geiriau yn ei Epistol at yr Hebreaid, yn profi fod yr ymadrodd yn cymmeryd i fewn, nid yn unig yr hyn sydd wrthwynebol i Grist a'i deyrnas [Olshausen, Stier, &c.]; ond hefyd, fel y dengys Goodwin yn eglur, yr hyn sydd ffafriol a pherthynol iddynt. Cynnwysa o ran ei ystyr (1.) ddarostyngiad i awdurdod; (2.) darostyngiad i allu Crist. *Ac a'i rhoddes ef yn ben, &c.*—Gellir darllen naill ai "ac a'i rhoddes ef, fel pen uwch law pob peth yn ben i'r eglwys," neu "ac a'i rhoddes ef, yr hwn sydd yn ben uwch law pob peth, i'r eglwys." Y meddwl, o leiaf, ydyw fod Duw wedi rhoddi Crist, fel pen uwch law pob peth, i'r eglwys, i fod yn ben iddi hi fel pen uwch law pob peth arall. Yr oedd hyn yn rhodd: nid gosodiad yn unig, ond rhodd. Fel yr oedd ei anfoniad i'r byd yn rhodd i'r byd (*Ioan* iii. 18), felly yr oedd ei ddyrchafiad i fod yn ben i'r eglwys yn rhodd i'r eglwys. Y mae Crist fel pen uwch law pob peth yn wrthbarth i fod pob peth dan ei draed ef; ond fe allai ei fod yn cynnwys rhywbeth yn chwanegol, sef ei fod wedi derbyn awdurdod gan y Tad i wneuthur y defnydd a fynai o'r hyn oll a ddarostyngwyd iddo a thano i wasanaethu dybenion ei deyrnas.

23. *Yr hon yw ei gorph ef.*—Dyma y drychfeddwl uchaf a gogoneddusaf i osod allan wir natur eglwys Crist—"ei gorph ef." Y mae yn ben iddo, nid yn unig yn yr ystyr llywodraethol o'r gair, fel y dengys yr adnod o'r blaen, ond hefyd yn yr ystyr naturiol iddo. Efe yn ben, a hithau yn gorph, a'r Ysbryd Glân yn trigo fel Ysbryd y bywyd yn y corph: yn y pen heb fesur, ac yn yr aelodau wrth fesur. Yn y corph naturiol, y mae y pen yn cyfansoddi rhan o'r corph ei hun, yn gystal a'r aelodau; ond gelwir yr eglwys yn "gorph" yn wrthgyferbyniol i'r pen. Pa fodd y mae i ni gyssoni hyn? Nis gallwn atteb yn well na thrwy olygu fod Crist a'r eglwys, mewn un ystyr, yn ffurfio gyda'u gilydd un corph cyfriniol. Ond os edrychir ar y corph cyfansawdd hwnw yn ei ranau, y mae yn rhaid i ni olygu, er mwyn eglurder, Crist fel pen y corph, a'r eglwys fel y corph, yn wahaniaethol, er nad ar wahân oddi wrth y pen. Yn y pen y mae canolbwynt yr amrywiol synwyrau corphorol: a'r un modd yn Nghrist—fel pen corph yr eglwys, y mae

[m] Ioan i. 16. [m] gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll.

canolbwynt holl fywyd, a gweithrediadau bywyd yr eglwys. Gwel ar *Col.* ii. 19. *Ei gyflawnder ef.*— Y mae dau olygiad a ystyrir yn dra gwahanol i'w gilydd ar ystyr y geiriau hyn. Golyga un dosbarth o esbonwyr fod yr eglwys yn cael ei galw yn "gyflawnder Crist" am ei fod ef, fel pen, yn ei chyflenwi hi, fel ei gorph, â phob bywyd, rhinwedd, a pherffeithrwydd. Ond golyga y dosbarth arall mai yn hytrach am mai yr eglwys sydd yn ei gyflawni ef, y gelwir hi yn gyflawnder iddo, gan nad ydyw ef, fel Cyfryngwr, ddim yn gyflawn heb ei bobl. Yn ol y cyntaf y deallir y gair mewn ystyr goddefol; sef, "Yr hyn a lenwir." Ond yn ol yr ail, mewn ystyr gweithredol; sef, "Yr hyn sydd yn llanw." Y mae y ddau olygiad yn wirioredd fel athrawiaeth; ond y cwestiwn ydyw, Pa un o'r ddau sydd yn wirionedd fel eglurhâd ar yr ymadrodd, "ei gyflawnder ef" yn y lle hwn? Y mae yr anhawsder i benderfynu hyn yn tarddu oddi ar yr ansicrwydd mewn cyssylltiad â gwir ystyr y gair Groeg *pléróma*yn y lle hwn. Ystyr sylwedd-eiriau o'r un dosbarth, sef rhai yn dibenu yn *ma*, ydyw cynnyrch neu effaith yr hyn a osodir allan yn y ferf. Er enghraifft: y mae y sylwedd-air *pragma*, neu weithred, yn arwyddo effaith neu gynnyrch yr hyn a osodir allan yn y gair *prassó* (gweuthur); a'r un modd gallasem ddisgwyl i *pléróma* arwyddocau cynnyrch y weithred a olygir yn *pléró* (llanw). Yn unol â hyn, yr ystyr ydyw, sefyllfa y gwrthddrych ag sydd wedi ei lanw â'r sylwedd, sydd yn ei lenwi: ac o herwydd hyny, priodolir y gair yn fanwl i'r gwrthddrych sydd wedi ei lanw, ac fel wedi ei lanw. Cymmerer, er eglurhâd, y weithred o lanw llestr â dwfr. Cynnyrch neu effaith y weithred o lanw ydyw, sefyllfa y llestr yn ei berthynas â'r dwfr â pha un y mae wedi ei lanw; ac am hyny dywedwn fod y llestr yn llawn, a phriodolir cyflawnder i'r llestr; ond mewn ystyr llai manwl gellir priodoli y cyflawnder i'r dwfr sydd yn llanw yn gystal ag i'r llestr sydd yn cael ei lanw. Gallwn, ar un llaw, ddywedyd fod y llestr yn gyflawn o ddwfr, ac, ar y llaw arall, fod cyflawnder o ddwfr yn y llestr. Y mae y cyflawnder yn cael ei briodoli yn y naill i'r llestr, am ei fod yn cael ei lanw, ac yn y llall i'r dwfr, am ei fod yn llanw. Yn ganlynol, mewn amser, yr oedd yn naturiol i'r gair "cyflawnder" gael ei ddefnyddio hefyd am y weithred o gyflawni. Cyflawnder y llestr yn yr ystyr hwn a fyddai y weithred o'i lanw, yr hon a osodir allan yn fwy manwl yn y gair "cyflawniad," yn hytrach na "chyflawnder." Yn y modd hwn, daeth y gair Groeg *pléróma* (cyflawnder), i arwyddo yr un peth a'r gair *plérósis* (cyflawniad) Yn awr, y cwestiwn ydyw, Yn mha un o'r tri ystyr uchod y mae i ni ddeall y gair yn y lle hwn? *h. y.*, pa un ai (1.) yr hyn sydd wedi ei lenwi; (2.) yr hyn sydd yn llanw; ai (3.) y cyflawniad, neu y weithred o lanw. Ar hyn y mae amrywiaeth mawr. Haerir yn gadarn gan un dosbarth nad ydyw *pléróma* un amser yn cael ei arfer mewn ystyr oddefol, i osod allan yr hyn a lenwir, ond yn weithredol, yr hyn sydd yn llanw. Fel hyn *Storr, Harless, Bahr.* Dyfynir *Marc* ii. 21, a viii. 20; *Ioan* i. 16; a manau ereill. Ar y llaw arall, dadleuir y gellir cymmeryd y gair *pléróma* hyd yn oed yn y manau hyn, yn yr ystyr oddefol. Er enghraifft, gellir golygu y darn newydd o wisg

PENNOD II.

1 *Trwy gyflelybu yr hyn oeddym ni wrth*

yn gyflawnder y wisg; nid am ei fod yn cyflawni y wisg, ond am ei fod yn cynnwys cynnyrch y weithred o lanw i fyny yr hyn oedd yn ddiffygiol yn y wisg. Yn ol yr eglurhâd hwn y mae ystyr y gair yn oddefol. Yn unol â hyn, haerir gan y dosbarth arall, fod y gair yn wastad yn y Testament Newydd i'w ddeall yn yr ystyr goddefol, i arwyddo naill ai yr hyn sydd yn llanwedig, neu ynte yr hyn y mae peth yn cael ei lanw trwyddo neu ganddo. Fel hyn, Fritzche, ac ereill ar ei ol. Ymddengys y rhaid i ni yn deg gymmeryd y gair yn yr ystyr goddefol, hyd yn oed yn y Testament Newydd, ac nad oes dim gwir anhawsder i gael y gwir feddwl trwy ei ddeall felly. Mewn gair, gallwn yn ddiogel ei gymmeryd i arwyddo effaith neu gynnyrch y weithred o lanw, yn y lle hwn ac yn mhob lle arall. Ond y mae anhawsder yn aros etto. Gan fod y gair "Crist" ar ol y gair "cyflawnder" yn y lle hwn, y mae yn bossibl i ni ei gymmeryd i arwyddo y cyflawnder ag y mae Crist wedi ei gynnyrchu, neu ynte y cyflawnder ag y mae yr eglwys yn ei gynnyrchu gyda golwg ar Grist. O ran y gair "cyflawnder" ei hun, yn ol ein barn ni, gellir cymmeryd y naill neu y llall yn ei gyssylltiad â'r gair "Crist:" o ganlyniad, y mae yn rhaid i'r cwestiwn gael ei benderfynu yn hollol yn ol ystyr y cyd-destyn a "chyssondeb y ffydd." Dadleuir gan rai fod y cyddestyn yn bleidiol i'r golygiad mai yr eglwys sydd i'w golygu fel yn cyflawni **Crist** fel pen, ac yn wrthwynebol i'r llall. Ond nid ydym yn canfod grym yn y dadleuon gyda golwg ar yr olaf, sef eu bod yn wrthwynebol i'r golygiad arall. Haerir, er enghraifft, fod y golygiad arall yn annhebygol, gan fod yn annaturiol i ni olygu y pen yn cyflawni y corph: ond gwel ar hyn *Col.* ii. 19. Ymddengys i ni yn llawn mor naturiol go'iygu fod Crist, y pen, yn cyflawni y corph, a bod y corph yn cyflawni y pen, gan fod y naill a'r llall yr un mor angenrheidiol a'u gilydd, ac hefyd i'w gilydd, i ffurfio yr un person cyfriniol a rhyfedd, yr hwn a elwir gan yr apostol yn "Grist" yn ei lythyr at y Corinthiaid. Yr ydym yn tueddu yn gryf i olygu fod yr ymadrodd "ei gyflawnder ef" yn y lle hwn yn golygu y ddau ddrychfeddwl, o'i fod ef yn ei chyflawni hi, a hithau yn ei gyflawni yntau: ac ond i ni ystyried, y mae y ddau, nid yn unig yn gysson â'u gilydd, ond yn un â'u gilydd; o herwydd nis gallwn olygu ei bod hi yn ei gyflawni ef ond yn unig trwy dderbyn o'i gyflawnder ef. Y derbyniad hwn sydd yn ei chyfaddasu i'w gyflawni; ac ar y llaw arall, y mae ef yn ei chyflawni hi mewn trefn iddi hi ei gyflawni ef. Gallwn ddeall y gair yn ei ystyr mwyaf llythyrenol, i gymmeryd i mewn y ddau ddrychfeddwl. Cynnyrch y weithred o lanw, fel y dangoswyd, ydyw gwir a phriodol ystyr y gair *pléróma*. Yn awr, y mae yr eglwys yn gyflawnder Crist am ei bod yn gynnyrch ei weithred ef yn ei llanw yn barhaus; ond gan ei bod hi, fel y mae wedi ei llanw ganddo ef fel hyn, yn gwneuthur i fyny gydag ef un person cyfriniol, y mae hithau yn ei gyflawni ef, ac felly yn gyflawnder, iddo ef ei hunan. Fel y mae yn gyflawnder y mae yn ffrwyth neu yn gynnyrch ei gyflawniad ef: ond fel y mae yn gyflawnder iddo ef, neu "ei gyflawnder ef," yn yr ystyr o gyfansoddi gydag ef un cyfanwaith, y mae hi yn ei gyflawni ef. O ganlyniad, y mae yr ymadrodd yn cynnwys y ddau

3 *naturiaeth, a'r lyn ydym ni* 3 *trwy ras,*
10 *y mae efe yn dangos ddarfod ein creu*
ni i weithredoedd da ; 13 *a chan ein bod*
ni wedi ein hwyn yn agos trwy Grist, na
adylem ni fyw megys 11 *Cenhedloedd, ac*
12 *estroniaid gynt ; ond megys* 19 *cyd-*
adinasyddion a'r saint, a theulu Duw.

ddrychfeddwl, fel y maent yn dwyn perthynas â'u gilydd, ac yn dibynu ar eu gilydd. Am ei fod ef yn ei llanw hi, y mae hithau yn ei gyflawni yntau. Fel y mae yr haul yn wreiddiol gyflawnder goleuni i'r planedau, gan mai o hono ef y maent yn derbyn eu goleuni, y maent hwythau drachefn, drwy ei adlewyrchu o honynt eu hunain, yn ei gyflawni yntau, gan wneuthur i fyny gydag ef gyflawnder y gyfundraeth heulog ; felly hefyd y mae Crist, trwy lanw ei eglwys â goleuni a bywyd, yn gyflawnder iddi ; a hithau drachefn, trwy adlewyrchu ei ogoniant ef, yn ei gyflawni yntau, ac yn cyfansoddi gydag ef yr un sefydliad gogoneddus ag sydd i fod byth yn ganolbwynt gogoniant mynegol Duw, a pherffeithrwydd terfynol dynion. Yma y gwelwn ragoriaeth yr eglwys ar bob rhan arall o weithredoedd Duw. Mae Duw yn y greadigaeth yn cyflawni "oll yn oll," neu âg oll ; ond nid ydyw yr oll yn ei gyflawni ef fel y gwna yr eglwys. Er fod Goodwin yn golygu fod yr eglwys yn gyflawnder Crist, am ei bod hi yn ei lanw ef, etto, dybygid, nad yw yn cau allan y llall, canys dywed fel hyn :—"Pan ddywedir fod yr eglwys yn gyflawnder Crist, onid ydyw ef yn gyflawn hebddi hi? Ydyw; canys y mae yn cyflawni "oll yn oll;" etto y mae yn gyflawnder iddo ef, ac yn gosod allan ei gyflawnder ef, am ei bod yn gwasanaethu fel llestr gwâg iddo ef ei lanw, ac i ddangos ei gyflawnder ynddo." Fel y mae yr eglwys yn gyflawnder Crist yn yr ystyr goddefol, gellir ei chymmharu i lestr yn cael ei lanw. Yr eglwys ydyw y llestr, Crist sydd yn llenwi y llestr, a'r cyflawnder sydd ynddo ydyw yr hyn sydd yn llanw y llestr ; ond fel y mae yr eglwys yn gyflawnder Crist yn yr ystyr weithredol, y mae yn debyg i lestr llawn yn cael ei ddodi mewn derbynfa i lanw y lle ; felly y mae yr eglwys, wedi ei llenwi gan Grist â phob gras, yn ei lanw yntau fel ei derbynfa gogoneddus, i wneyd i fyny ei gorph dirgeledig. Yn y naill a'r llall o'r drychfeddyliau hyn y mae yn gyflawnder ; *h. y.,* yn ffrwyth y weithred o lanw ganddo ef. *Yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll.*—Efe, yr hwn sydd yn llanw yr eglwys, ac yn cael ei lanw ganddi, sydd yn llanw oll, sef pob peth yn oll, neu "â phob peth"—yr oll o wrthddrychau yn yr oll o bethau angenrheidiol i'w llanw.

Pennod II.

1. *A chwithau.*—Y mae y pwyslais wrth ddarllen i'w roddi ar y gair "chwithau," nid ar "bywhaodd," gan nad ydyw yr olaf yn y testyn gwreiddiol, fel y canfyddir wrth y ffaith ei fod mewn llythyrenau Italaidd. Y gwrthgyferbyniad i "chwithau" yn yr adnod hon yw "Crist" yn *pen.* i. 20 :—"Fe'i cyfododd ef"—"a chwithau." *Pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau.*—Amlygodd Duw ei allu yn ei gyfodi ef pan ydoedd farw dros gamweddau a phechodau ei bobl, yn ei ryddhau oddi wrth ofidiau angeu; ond amlygodd ei allu yn y saint trwy eu bywhau pan yn "feirw mewn camweddau a phechodau." Y mae y frawddeg, o ran cyfansoddiad, yn anghyflawn ; ac yn yr anghyflawnder hwnw, yn gwahodd y meddwl a'r myfyrdod i'w chyflawni, nid â rhyw un gair pennodol, ond â'r holl ddrych-

A CHWITHAU *a fywhaodd efe,* pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau ;

2 Yn y rhai y rhodiasoch gynt yn ol helynt y byd hwn, yn ol

feddyliau cynnwysedig yn y rhanau blaenorol a dilynol. Y mae anghyflawnder y ffurf, gan hyny, yn ffrwyth, ac yn tarddu oddi ar gyflawnder mater ac angerddoldeb ysbryd yr apostol dan ddylanwad Ysbrydoliaeth Duw. Yn hytrach na "meirw mewn camweddau a phechodau," darllener, "meirw trwy gamweddau a phechodau" (*dative case*). Y mae y camweddau a'r pechodau i'w golygu yma fel achos offerynol y farwolaeth, tra yn *adn.* 5 y mae y darlleniad yn wahanol, *er, h. y.,* yn "feirw mewn camweddau," lle y mae y camweddau yn cael eu golygu fel yr elfen yn yr hon yr oedd y farwolaeth yn amlygu ac yn dadblygu ei hun, a'r farwolaeth fel achos gweithredol y camweddau. Yn y naill, golygir y camweddau yn dwyn i mewn farwolaeth ; yn y llall, marwolaeth yn dwyn allan gamweddau. Y gwahanieth rhwng camweddau a phechodau ydyw yr un rhwng pechod fel y mae yn dwyn perthynas â'r person, a phechod fel y mae yn dwyn perthynas â'r natur—y naill fel y mae yn dwyn euogrwydd, a'r llall fel y mae yn dwyn halogrwydd. Y mae y cyntaf yn arwyddo cwympiadau, ac yn y rhif unigol defnyddir ef am anufudd-dod a chwymp cyntaf ein tad Adda. Y mae yr olaf yn arwyddo pechod fel trosedd yn gyffredinol. Y mae y cyntaf, medd Ellicott, yn dynodi gweithredoedd neilldiol o bechod, a'r ail i'w ddeall yn fwy cynnwysfawr a chyffredinol. Ereill a gymmerant y cyntaf i arwyddo pechodau yn cael eu cyflawni yn fyrbwyll ; a chamweddau, i ddynodi pechodau bwriadol.

2. *Yn y rhai y rhodiasoch gynt.*—Trwyddynt yr oeddynt yn feirw ; ond ynddynt yr oeddynt, nid yn unig yn fyw ac yn byw, ond hefyd yn rhodio, neu, fel yr arwydda y gair yn llythyrenol, "rhodio o amgylch," i arwyddo gweithgarwch ac ymhyfrydiad. *Yn ol helynt y byd hwn.*—Ystyr manwl y gair Groeg *aión,* yr hwn a gyfeithir yma "helynt," yw "oes :" ond o gael ei ddefnyddio i osod allan drychfeddwl amserol, daeth yn naturiol i gael ei ddefnyddio mewn ystyr foesol. Yn debyg dywedwn ninnau, fod yr oes yn llygredig, neu ynte fel arall, gan olygu, nid yr amser, wrth reswm, ond y genhedlaeth. Sonir hefyd, weithiau, am "fyned gyda'r oes ;" *h. y.,* myned gydag ysbryd neu arferiad yr oes. Yr un modd y mae i ni ddeall y gair "helynt" yn y lle hwn. "Yn ol oes y byd hwn ;" *h. y.,* yn ol ysbrydoliaeth y byd ar y pryd. *Yn ol tywysog llywodraeth yr awyr* :—sef y diafol. Y mae y diafol yn dywysog y byd hwn, ac fel y cyfryw yn ffynnonell ei ysbrydiaeth. Y mae amryw ffyrdd o geisio egluro yr ymadrodd. Gelwir y diafol yn "dywysog llywodraeth." Cymmerir y gair "llywodraeth" gan rai yn *gyfystyr* â llywodraethol : gan ereill, i arwyddo "teyrnas y tywyllwch ;" gan ereill drachefn, i ddynodi "yr ysbrydion drwg ereill ;" ond gwell ydyw i ni ei gymmeryd yn ei ystyr naturiol o "awdurdod," yr hwn awdurdod, mewn rhyw fodd neu gilydd, sydd yn dwyn cysyllltiad â'r awyr. Y diafol yw tywysog, neu ben, yr awdurdod hwn. Drachefn, gelwir y llywodraeth, neu yr awdurdod, yn "llywodraeth (neu awdurdod) yr awyr." Y mae

tywysog llywodraeth yr awyr, yr ysbryd sydd yr awrhon yn gweithio yn mhlant anufuddod.

B. A. 57.

3 Yn mysg y rhai hefyd y bu [a] ein hymarweddiad ni oll gynt, [a]yn chwantau ein cnawd, [b]gan wneuthur ewyllysiau y cnawd, a'r meddyliau; ac yr oeddym ni [c]wrth naturiaeth yn blant digof- aint,

[a] Ioan 8. 44; Rhuf. 13. 14; 2 Pedr 2. 18.
[b] Rhuf. 8. 7, 8.
[c] Gen. 8. 21; Iob 14. 4; Ioan 3. 1–6.

megys ereill.

4 Eithr Duw, [d]yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, [e]o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni,

[d] Salm 5. 1; Dan. 9. 9.
[e] Ioan 3. 14 – 16; Rhuf. 9. 15, 16.

5 Ië, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cydfywhaodd ni gyda Christ ([f]trwy ras yr ydych yn gadwedig),

[f] Rhuf. 11. 5, 6.

6 Ac a'*n* gosododd i gydeistedd yn y nefolion *leoedd* yn Nghrist Iesu:

llawer o olygiadau ar yr hyn a feddylir yma wrth "yr awyr." Yn hytrach nag enwi un o honynt, rhoddwn yr un a olygir genym fel y mwyaf tebyg; sef, mai wrth "yr awyr" yma y mae i ni ddeall yr awyrgylch naturiol, fel y mae yn arwyddlun naturiol o'r hyn sydd uwch ddaearol. Yn y cyffelyb fodd defnyddir y gair "daearol" mewn ystyr foesol: "Eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear." Yn yr un modd geilw yr apostol llywodraeth y diafol yn "llywodraeth yr awyr." *Yr ysbryd sydd yr awrhon yn gweithio yn mhlant anufudd-dod.*—Y mae y diafol, nid yn unig yn "dywysog llywodraeth yr awyr," ond hefyd yn dywysog yr ysbryd mewnol. Y mae yn perthyn i deyrnas y tywyllwch awdurdod oddi allan, ac ysbryd oddi mewn; a'r diafol ydyw arweinydd neu dywysog y naill fel y llall. "Fel y mae gan blant Duw eu pen, felly yr annuwiol; canys y mae pob un yn ffurfio corph gwahaniaethol a gwahanol. Trwy briodoli iddo y llywodraeth ar yr holl fodau annuwiol, y mae annuwioldeb yn cael ei arddangos fel un cyfanswm annboredig." —*Calvin.*

3. *Yn mysg y rhai hefyd y bu ein hymarweddiad ni oll gynt*:—sef yn mysg plant anufudd-dod. *Yn chwantau ein cnawd.*—Chwantau y cnawd oedd cylch eu hymarweddiad a'u rhodiad. *Gan wneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau*:—*h. y.*, fel y dengys y Groeg yn fwy amlwg, "ewyllysiau y cnawd ac ewyllysiau y meddyliau." Wrth ewyllysiau y cnawd ac ewyllysiau y meddyliau y golygir, yr hyn y mae y cnawd a'r meddyliau pechadurus yn tueddu ato yn y weithred oddi allan; sef y gweithredoedd allanol hyny ag sydd yn gyflawniad a dadblygiad o honynt. Wrth y "cnawd" y mae i ni ddeall, llygredigaeth y natur, fel y mae yn dwyn cyssyltiad â'r corph, ac wrth y "meddyliau," yr un llygredigaeth yn ei berthynas â'r ysbryd a'r meddwl. Gelwir y naill gan yr apostol, mewn lle arall, yn "halogrwydd y cnawd," a'r llall yn "halogrwydd yr ysbryd." *Ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint.*—Dyma wreiddyn yr ymarweddiad ansanctaidd. Wrth fod yn "blant digofaint" y mae i ni ddeall, fod y berthynas a fu rhyngddynt â Duw fel Tad wedi ei dileu yn y fath fodd, ac i'r fath raddau, fel nad oedd genym ddim i'w ddisgwyl oddi wrtho ond amlygiad o'i ddigofaint. Mor wahanol ydyw hyn i'r hyn a ddysgir i ni gan Robertson, Maurice, ac ereill, y dyddiau hyn! "Yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint." Nid oes modd rhoddi un ystyr teg i'r ymadrodd hwn, ond yn unig ein bod wedi ein geni i'r byd yn blant digofaint o ran cyflwr. Y mae yr ymadrodd yn dynodi, nid llwgr gwreiddiol y natur, er fod hyny yn cael ei dybied, ond cyflwr cuog a chelledig yr hil ddynol, fel y maent yn cael eu geni o un i un i'r byd. Y mae ereill yn cynmeryd y gair "naturiaeth" yma, yn yr ystyr o natur lygredig—'Yr oeddym o herwydd ein natur lygredig yn blant digofaint;" *h. y.*, yn llawn o ddigofaint at Dduw. Ond y mae y golygiad hwn yn rhoddi i mewn, yn ystyr y gair "naturiaeth," yr hyn ni pherthyn iddo; sef, y drychfeddwl o lygredigaeth. Ystyr priodol y gair ydyw, "yn wreiddiol," neu "yn enedigol," yn wrthgyferbyniol i'r hyn sydd yn ddadblygiadol, chwanegol, a chaffaeliadol. Y mae yr un wrthddadl yn gwrthweithio syniad Meyer; sef, mai y meddwl ydyw, ein bod, o herwydd dadblygiad y natur sydd genym, yn bechaduriaid, ac yn agored i ddigofaint Duw. Gyda golwg ar y mater hwn, gwel yn helaethach ar *Rhuf.* v.

4. *Cyfoethog o drugaredd.*—Yn llythyrenol, "Cyfoethog mewn trugaredd." Ei drugaredd a'i ras ydyw ei gyfoeth. Sylwa Goodwin, fod dynion, yn gyffredin, yn crynhoi eu cyfoeth i ryw un sylwedd yn fwy arbenig: rhai i arian, ereill i dai, ereill i diroedd, &c.; ac mai yr un peth mawr y dywedir fod Duw yn gyfoethog ynddo ydyw ei ddaioni, ei ras, a'i drugaredd. *O herwydd ei fawr gariad.*—"O herwydd" o ran amcan, medd rhai [W. ac Wilkinson]; *h. y.*, er mwyn, trwy ei drugaredd, iddo amlygu ei gariad; "o herwydd," medd ereill, o ran cymmhelliad; *h. y.*, ei gariad a'i cymmhellodd i drugarhau. Nid y trueni oedd ynom ni, ond y cariad oedd ynddo ef ei hunan oedd y cynnhyrfiol a'r gwreiddiol achos o'i drugaredd. Nid oedd ein trueni ni ond achlysur i'w drugaredd. Ei gariad ef ei hunan oedd y gwir a'r gwreiddiol achos.

5. *Ië, pan oeddym feirw, &c.*—Nid ail adroddiad syod yma o'r hyn a ddywedir yn *adn.* 1; ond y mae yma chwanegiad—"Hyd yn oed pan oeddym etto yn feirw" (*Rhuf.* v. 6), ac yn gorwedd mewn cyflwr o farwolaeth. Yn yr adnod gyntaf, y mae yr ymadrodd yn dynodi personau yn fwy, ond yma y mae yn arbenig yn disgrifio cyflwr y personau hyny. Gwel y nodiad ar *adn.* 1.

5, 6. *A'n cydfywhaodd ni gyda Christ.*—Y mae yr ymadroddion hyn a'r rhai canlynol yn ddiau yn cyfeirio at yr hyn oedd eisoes wedi cymmeryd lle yn hanes y rhai yr ysgrifenai yr apostol atynt, ac y mae yr un ymadroddion yn briodol am y rhai sydd wedi eu dwyn i undeb â Christ yn mhob oes. Trwy yr undeb hwnw y maent wedi eu cydfywhau, &c., gyda Christ: nid ynddo ef yn unig, ond gydag ef. Y mae y ddau yn wirioneddol, ac y mae y ddau wirioneddol yn cael eu dysgu yn y rhan yma—gyda Christ yn y nefolion leoedd, ac yn Nghrist. Pa beth ydyw y gwahaniaeth? Y mae yr olaf yn amlwg yn cyfeirio at y berthynas gyfammodol sydd rhwng credinwyr a Christ, a'r cyntaf at y berthynas weithredol. Y mae y bywyd ysbrydol sydd yn Nghrist yn weithredol yn eiddo i bob credadyn yn y byd hwn, ac yn cael ei ddadblygu yn ddoeth yn ysbrydol.

[g] Adn. 4.

7 Fel y gallai [g] ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef, trwy *ei* gymmwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu.

8 Canys [h] trwy ras yr ydych yn [h] Adn. 6. gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw *ydyw:*

Y mae yn cyfranogi ynddo gyda Christ. Y mae yn tarddu o Grist i'r Cristion. Fel y bywhawyd ef, y mae yntau wedi ei fywhau; fel y cyfodwyd ef, y mae yntau wedi ei gyfodi; fel y gogoneddwyd ef, y mae yntau wedi ei ogoneddu; o herwydd y mae gogoniant yn yr eginyn ynddo, hyd yn oed yn y byd hwn. Pa beth bynag a fydd ei ddadblygiad yn y byd a ddaw, y mae y cyfan yn yr eginyn yn y byd hwn. Felly y mae y Cristion, yn ei fywnhâd o fywyd ysbrydol, wedi ei fywhau, ei gyfodi, a'i osod i eistedd yn y nefolion-leoedd gyda Christ, o ran dechreuad neu eginyn y pethau yna; ond o ran eu dadblygiad a'u perffeithiad, y mae yn eu meddu yn Nghrist, sef yn ei undeb cyfammodol âg ef. Y mae yr amrywiol ymadroddion "cydfywhau," "cydgyfodi," a "gosod i gydeistedd," yn cyfeirio at raddau gwahanol, ac agweddau amrywiol, perthynol i'r bywyd goruchel y sonia yr apostol am dano. Y cyntaf at ei natur—bywyd o farwolaeth; yr ail, gweithgarwch y bywyd; a'r olaf, ei ogoniant a'i ddedwyddwch.

7. Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef.—Y mae yr adnod hon yn gosod allan amcan terfynol trefn yr iachawdwriaeth fel trefn gras. Amcan Duw yn cyfranu y bywyd ysbrydol i gredinwyr ydyw, gogoneddu ei ras, ac er mawl gogoniant ei ras. Gwel *pen.* i. 6. Mewn trefn i ennyn mawl i ogoniant ei ras, y mae yn awr yn cyfranu gras, a bydd iddo yn yr oesoedd a ddaw, nid yn unig mewn amser hyd ddiwedd y byd, ond hefyd yn y nefoedd am byth, "ddangos....rhagorol olud ei ras." Y mae yn cyfranu gras yn awr, mewn trefn i'w ddangos byth. Y mae yr ymadrodd "rhagorol olud gras" yn cynnwys, yn gyntaf, mai gras yw y golud—"ei olud, yr hwn ydyw gras;" ac yn ail, helaethrwydd anhysbydd y gras ei hun—nid yn unig golud, ond "rhagorol olud"—golud yn rhedeg drosodd, yn mhell tu draw i anhaeddiant a drwg-haeddiant y gwrthddrychau, ac yn rhagori yn ei gyflawnder ar bob amlygiad arall a wnaeth Duw erioed o un o'i briodoliaethau ereill. *Trwy ei gymmwynasgarwch.* —Groeg: "*yn* ei gymmwynasgarwch." Yn sianel ei gymmwynasgarwch y parodd i'w ras redeg. Gallasai amlygu ei ras yn sianel gwaredigaeth noeth ac unig, heb feddwl am ein cynnysgaeddu â golud ei ras, a dangos ei ras mewn cymmwynasgarwch; ond nid felly y gwnaeth—amlygodd ragorol olud ei ras trwy ei gymmwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu.

8. Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd.—Yr oedd yr apostol wedi rhoddi y gosodiad hwn yn gromfachol o'r blaen: gwel *adn.* 5. Y mae yma yn ei ail adrodd mewn trefn i gadarnhau yr hyn a ddywedasai yn *adn.* 7, sef yr ymadrodd, "rhagorol olud ei ras." Ond y mae y gosodiad yn cynnwys chwanegiad yma yn *adn* 5. Y mae yr apostol yn cyfeirio at freintiau yr iachawdwriaeth fel y maent yn rhoddion ar du Dduw, heb olygu ar y pryd y derbyniad o honynt ar du y dyn. Ond yma, y mae yn cyfeirio at foddion iachawdwriaeth hefyd, gan ddangos fod yr yfan trwy ras. Y mae yr ymadrodd yn rheswm i gadarnhau y gosodiad yn yr adnod o'r blaen, sef mai amcan terfynol Duw yn nhrefn ein iachawdwriaeth ydoedd dangos rhagorol olud ei ras. Grym y rheswm ydyw ei fod eisoes wedi ac yn amlygu ei ras yn y weithred o'n cadw, ac hefyd mai gras sydd yn nodweddu ein cadwedigaeth yn fwy na dim. Gweithrediad gras ydyw y gadwedigaeth fel gweithred. Gras ydyw yr achos gweithredol, yn gystal a'r achos gwreiddiol; a ffydd, ar y llaw arall, ydyw y cyfrwng mewnol ynom ni. Y mae y gair "cadwedig" yma yn dynodi, fel y dengys Goodwin, yn glir a dwfn yr un pryd, yr hyn oll yn ein iachawdwriaeth ag sydd yn cael ei weithredu tuag atom mewn gwrthgyferbyniad i'r hyn sydd yn cael ei weithredu ynom; neu, mewn geiriau ereill, y cyfnewidiad perthynasol y dygir ni iddo yn wrthgyferbyniol i'r cyfnewidiad mewnol a gweithredol, yr hwn a gynnyrchir gan yr Ysbryd Glân. Yn yr ystyr hwn y mae y saint yn hollol, ac nid mewn rhan, yn gadwedig yn y byd hwn. Gosodir hyn allan yn yr amseriad gorphenol sydd yn y geiriau "yr ydych yn gadwedig." *A hyny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw.*—Dadl fawr rhwng esbonwyr gyda golwg ar y frawddeg hon yw, pa un ai at ffydd ai at fod yn gadwedig trwy ffydd y cyfeiria yr ymadrodd "a hyny." O blaid y golygiad cyntaf y mae y rhan fwyaf o'r tadau, ac hefyd Beza, Goodwin, Bengel, a Hodge: gwel hefyd y Parch. O. Thomas yn ei nodiadau chwanegol ar Kitto. Gellir crynhoi y rhesymau o blaid y golygiad hwn i'r rhai canlynol:—1af, Dadleuir ei fod yn cyd-daraw âg amcan yr apostol yn y rhanau hyn, sef mawrygu a gosod allan natur rasol trefn yr iachawdwriaeth. 2il, Fod y golygiad arall yn golygu ailddywediad. Gan fod yr apostol wedi dywedyd mai trwy ras y mae y saint yn gadwedig, nid oedd eisieu dyweyd ar ol hyny eu bod yn gadwedig, nid o honynt eu hunain, gan fod "trwy ras" yn golygu hyny. 3ydd, Fod y golygiad hwn yn cadw mewn golwg y gwrthgyferbyniad rhwng ffydd a gweithredoedd. 4ydd, Ei fod yn rhoddi y grym priodol i'r ymadrodd "a hyny." O blaid y golygiad arall dadleuir fod *kai touto* yn y canolryw, tra, pe buasai yr apostol yn golygu ffydd, y buasai yn hytrach yn dywedyd "a hono" yn lle "a hyny:" ond nid ydym yn canfod grym yn hyn, canys gallwn gymmeryd yr "hyny," neu yn Groeg *touto* fel yn cyfeirio yn feddyliol at weithrediad ffydd. Drachefn, dadleuir fod y golygiad hwn yn cydweddu yn well â'r ymadrodd dilynol, "nid o weithredoedd:" gan nad ydyw yn naturiol i ni ddeall fod yr apostol yn dyweyd "nad ydyw ffydd o weithredoedd." Nid ydym yn canfod fod grym yn y ddadl hon, fel y cawn ddangos etto. Tueddir ni i olygu fod yr ymadrodd "a hyny" yn cyfeirio at yr holl frawddeg—"Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd," a hyny (1.) nid o honom ein hunain, (2) nid o weithredoedd. Y mae (1.) yn cyfeirio yn fwy arbenig at y rhan gyntaf o'r frawddeg, trwy ras yr ydych yn gadwedig, "a hyny, nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw." Gallwn dybied am gadwedigaeth trwy ras mewn rhan, ac etto fod y gras hwnw wedi cael ei gymmhell gan rywbeth yn y gwrthddrychau: ond i gau hyny allan, dywed yr apostol, "a hyny nid o honoch eich hunain." Nid eich trueni, mwy

[i] Rhuf. 3. 27, 28; 2 Tim. 1. 9.
9 Nid o weithredoedd, fel nad
ymffrostiai neb:

[k] 2 Cor. 5. 17; Col. 3. 10.
10 Canys ei waith ef ydym,[k] wedi
ein creu yn Nghrist Iesu i weith-
redoedd da, y rhai a ragddarparodd
[l] Deut. 5. 33; Rhuf. 8. 1;
Duw, fel y rhodiem [l] ni ynddynt.

11 Am hyny cofiwch, a chwi
gynt [m] yn genhedloedd yn y
cnawd, y rhai a elwid yn ddïen-
waedïad, gan yr hyn a elwir en-
waediad o waith llaw yn y
cnawd;

[m] Rhuf. 2. 28.

na'ch rhinwedd a gymmhellodd y gras, ond rhodd Duw ydyw yn yr oll o hono. Drachefn, y mae (2.) yn cyfeirio yn fwy neillduol at y rhan olaf o'r frawddeg, "Trwy ffydd, hyny yw, yr ydych yn gadwedig," "a hyny" "nid o weithredoedd." Gallai un dybied, gan mai trwy ffydd yr oeddynt yn gadwedig, eu bod yn gadwedig o weithredoedd, gan mai gweithred ydyw ffydd, ac yn cynnwys eginyn pob gweithredoedd da o'i mewn: ond i gau allan hyn etto, dywed yr apostol "nid o weithredoedd." Y mae yn y fath fodd trwy ffydd fel nad ydyw "o weithredoedd." Y mae yn y fath fodd o ffydd fel y mae "yn ol gras:" ïe, y mae trwy ffydd fel y byddai yn ol gras, gan mai hanfod ffydd ydyw "peidio gweithio." Y mae y golygiad hwn, yn berffaith unol â'r rhesymau a enwyd, fel yn cael eu rhoddi dros y golygiad cyntaf, sef mai ffydd a feddylir wrth "a hyny;" ac y mae hefyd yn cyd-daraw â'r ystyr naturiol a llythyrenol i'r ymadrodd yn y ffurf y ceir ef yn yr iaith Roeg *kai touto*, yr hwn ydyw y ddadl dros yr ail olygiad. Gellir gosod i lawr y golygiad a gymmeradwyir genym yn y ffurf ganlynol i'w wneuthur yn fwy amlwg:—

Trwy ras, yr ydych yn gadwedig . . . . . . Trwy ffydd,
≡ hyny
nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw. nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb.

Neu ynte,

Trwy ras yr ydych yn gadwedig—Trwy ffydd,
a hyny
nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw. nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb.

10. *Canys ei waith ef ydym.*—Mor bell o fod o weithredoedd y mae ein hiachawdwriaeth ni, yn gyntaf yn waith Duw; ac nid yn unig ein hiachawdwriaeth ni, ond ni ein hunain; ac yn ail, y mae ein hiachawdwriaeth ni, yn lle bod o weithredoedd da, i weithredoedd da. Y mae y gair "gwaith" yma yn arwyddo cynnyrch creadigaeth, gan gyfeirio at waith Duw fel creawdwr. Mae yr un gair yn cael ei gymmhwyso at greadigaeth y bardd, sef ei farddoniaeth (Saes., *poem*). *Wedi ein creu yn Nghrist Iesu.*—Eglurhâd ar yr ymadrodd blaenorol; gwaith creadigol yw y saint, wedi eu creu yn Nghrist Iesu. Dywed yr apostol fod pob peth wedi eu creu yr, a thrwy, ac er mwyn yr Ail Berson fel y cyfryw: *Col.* i. 16. Yn yr iaith Roeg, y mae yr ymadrodd a ddarllenir genym ni yn "trwy" yr un a'r un sydd yma, "ynddo ef y crewyd pob peth," &c. Felly, gwnaethpwyd y greadigaeth gyntaf ynddo ef, ond ynddo ef fel Gair Duw, fel yr Ail Berson: ond y mae y saint wedi eu creu ynddo ef, fel Cyfryngwr—ynddo fel Crist Iesu. *I weithredoedd da:*—neu i weithredoedd prydferth. "I," *h. y.*, nid i fod yn weithredoedd da, ond i wneuthur rhai i ddwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da. Y mae y pren wedi ei greu i ddwyn ffrwyth, felly yn Nghrist Iesu y mae y saint wedi eu creu i weithredoedd da; nid fel achos eu cadwedigaeth, ond fel ffrwyth ac effaith iddo. *Y rhai a ragddarparodd Duw:*—nid "i'r rhai y rhagddarparodd Duw ni" fel y myn rhai, ond "y rhai." Yr oedd y gweithredoedd eu hunain wedi eu rhagddarparu. Fel y mae y Creawdwr yn y byd naturiol wedi rhagddarparu pa ffrwyth y mae y pren i'w ddwyn cyn iddo ei ddwyn (gwel *Gen.* i. 11), felly y darparodd yn mlaen llaw y gweithredoedd da ag oedd i fod yn ffrwyth ein creu yn Nghrist Iesu.

11. *Am hyny:*—gan gyfeirio at gynnwys *adn.* 1—7. *Cofiwch.*—Fel y byddai i adgof o'u cyflwr blaenorol awchu eu calonau i ddiolchgarwch, a chryfhau eu ffydd. *Yn genhedloedd yn y cnawd.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfeirio nid at eu tarddiad naturiol, na chwaith at eu cyflwr llygredig, ond at eu nôd corphorol. "Yr oedd dienwaediad y cnawd yn nôd dyn anghyssegredig."—*Calvin.* Y mae y rhanau canlynol, ynghyd â'r ymadrodd hwn, yn cynnwys darluniad o gyflwr crefyddol neu eglwysig yr Ephesiaid, fel y mae y rhanau blaenorol yn ddisgrifiad o'u cyflwr moesol. Yn foesol, yr oeddynt yn feirw mewn camweddau a pechodau: tra yn eu perthynas grefyddol â Duw a phobl Dduw, yr oeddynt yn wahanedig, dyeithr, a phell. Marwolaeth oedd drychfeddwl y naill, a phellder (pellder cyflwr wrth reswm, nid pellder lle) oedd drychfeddwl y llall. Y mae yr apostol yn dechreu ei ddarluniad o'r pellder hwn trwy enwi y nôd allanol oedd yn ei arwyddo, gan fyned yn mlaen o'r allanol at y mewnol. *Y rhai a elwid yn ddienwaediad:*—gan gyfeirio at yr iaith o ddiystyrwch a dirmyg a arferid gan yr Iuddewon am y Cenhedloedd. Gelwid hwy, nid yn unig yn ddienwaededig, ond yn ddienwaediad ei hun, gan roddi yr arddansoddol am y cyfansoddol. Golygent eu personau nid yn unig yn aflan, ond yn aflendid o ran eu perthynas â Duw, "gan y rhai a elwid yn enwaediad." Fel y galwent y Cenhedloedd mewn dirmyg yn "ddienwaediad," galwent ac ystyrient eu hunain yn "enwaediad," gan olygu eu hunain, o ran eu personau a'u natur, yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd. Ond gofala yr apostol i chwanegu mai proffes ydoedd, heb wirionedd ("yr hyn a elwir"), gan mai enwaediad o waith llaw yn y cnawd, ac nid enwaediad o waith Duw yn y galon ydoedd. Yn ei Epistol at y Philippiaid, dywed am y credinwyr, "Canys yr enwaediad ydym ni y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd." Eisteddle gwir enwaediad —sylwedd yr enwaediad yn y cnawd—ydyw yr ysbryd; a chan mai yr ysbryd yw y dyn, dywed 'Yr enwaediad (nid y rhai enwaededig) ydym ni.' Nid yw yr apostol yma mewn un modd yn

[a] Mat. 5. 17—20. [b] Iago 2. 5. [c] Ier. 17. 13; Col. 1. 5, 27; Heb. 6. 18; 1 Pedr 1. 3.

12 Eich bod chwi y pryd hwnw [b] heb Grist, wedi eich dyeithro oddi wrth wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid oddi wrth ammodau yr addewid, [c] heb obaith gen-

tafiu dim diystyrwch ar y ddefod o enwaedu, gan ei fod mewn lle arall yn galw y ddefod hono "yn insel cyflawnder y ffydd:" ond y mae yn hytrach am ddangos ei anghymmeradwyaeth o fod dynion yn hŏni y teitl iddynt eu hunain, ac ar yr un pryd yn holiol ddyeithr i'w arwyddocâd gwirioneddol a mewnol.

12. *Heb Grist.*—Y mae y gair Groeg *chóris* yn arwyddo "ar wahân oddi wrth." Y mae yn golygu fod Crist yn bod ar y pryd, ac yn llawn cyleh yr eglwys â dylanwad ei bresennoldeb: ond yr oeddynt hwy y tu allan i'r cylch hwnw, ar wahân oddi wrth, ac felly heb Grist. Yr oedd Crist, nid yn unig yn bod fel cyfryngwr cyn ymddangos yn y cnawd, ond yr oedd yn preswylio yn mhlith ei bobl, ac yn ei eglwys. "At yr eiddo ei hun y daeth," &c.; *Ioan* i. 11. Yr oedd yn bresennol gyda'i eglwys fel Crist cyn dyfod i fod fel Iesu; *h. y.*, yn ddyn. Yr oedd yr Iuddewon "heb Iesu" y pryd hwnw, ond nid oeddynt "heb Grist," fel y Cenhedloedd. Yr oedd presennoldeb Crist ganddynt, a'i ymddangosiad yn fynych yn ffurf y ddynoliaeth cyn cymmeryd ei sylwedd, trwy gael ei wneuthur yn gnawd. *Wedi eich dyeithro.*—Yr oedd yr Iuddewon a'r Cenhedloedd ar y cyntaf yn un yn eu gobaith am y Messiah, ar sail yr addewid gyntaf i'w rhieni cyntaf; ond darfu i'r Cenhedloedd wrthgilio oddi wrth Dduw, a'i addewidion, a chafodd yr Iuddewon eu cyfansoddi a'u sefydlu yn wladwriaeth [neillduedig. Am hyny, dywed yr apostol fod yr Ephesiaid wedi eu dyeithro. *Oddi wrth wladwriaeth Israel.*—Gall y gair a ddarllenir yma "gwladwriaeth" arwyddo, naill ai y wladwriaeth ei hun, fel sefydliad, neu ynte braint neu freintiau y wladwriaeth, neu ynte yr ymarferiad a'r breintiau hyny. Y cyntaf sydd gan yr apostol mewn golwg yma yn arbenig. Yr oeddynt heb Grist am eu bod y tu allan i'r wladwriaeth, gan fod Crist yn cyfyngu ei bresennoldeb neilldiol y pryd hwnw i gylch y wladwriaeth hono. *Yn estroniaid oddi wrth ammodau yr addewid:*—neu yn fwy manwl, "cyfammodau yr addewid." Wrth y cyfammodau hyn y mae i ni ddeall, nid yr Hen Destament a'r Newydd, na chwaith y llechau yn yr arch: ond y cyfammodau a wnaeth Duw â'r genedl o bryd i bryd ar sail yr addewid gyntaf, yr hon oedd yn cynnwys pob addewid arall yn ei chôl. Yr oedd Duw wedi rhoddi Crist mewn addewid i'r Cenhedloedd fel yr Iuddewon ar y cyntaf; ond wedi iddynt hwy wrthgilio, yr oedd Crist yn cael ei roddi i'r Iuddewon yn nghyfammodau yr addewid. Dyma drefn i bresennoldeb yn ei eglwys gynt; gan hyny, yr oedd y person mawr yn ganolbwynt y cyfan, a'r cyfan yn dwyn perthynas âg yntau, yr addewid, y cyfammodau, a'r wladwriaeth. Yn y wladwriaeth yr oedd cyfammodau, yn y cyfammodau yr oedd yr addewid, ac yn yr addewid yr oedd y person, yr hwn oedd ar y llaw arall yn treiddio yn ei presennoldeb a'i ddylanwadau grasol, trwy yr addewid, y cyfammodau, a'r wladwriaeth, at y rhai oedd trwy ffydd yn ymbalfalu am dano. Fel yr oedd yr hen baganiaid yn ymbalfalu am Dduw trwy gyfrwng y dadguddiad naturiol o Dduw yn y greadigaeth, ond yn methu a'i gael,

[p] Esa. 44. 6; [q] Gal. 4. 8. Rhuf. 3. 23—30; 1 Cor. 6. 11; 1 Pedr 1. 18, 19.

ych, ac [p] heb Dduw yn y byd: 13 Eithr yr awr hon yn Nghrist Iesu, chwychwi, y rhai oeddych gynt yn mhell, [q] a wnaethpwyd yn agos trwy waed Crist.

felly yr oedd saint yr hen Destament yn ymbalfalu trwy ffydd yn yr had addawedig ar sail yr addewid, ac yn ei gael, gan weled ei ddydd, a llawenychu. *Heb obaith genych.*—Y mae yr ymadroddion blaenorol "heb Grist," &c., yn dynodi eu hamddifadrwydd allanol (*objective*), ond y ddau ymadrodd canlynol "heb obaith, ac heb Dduw," yn gosod eu hamddifadrwydd mewnol (*subjective*). Am eu bod yn amddifad o'r cyfryngau allanol trwy ba rai yr oedd Duw yn Nghrist yn amlygu ei hunan i'r genedl Iuddewig, "yr oeddynt heb obaith, ac heb Dduw." Yr oeddynt heb obaith mewn cyfryngwr i fyned at Dduw trwyddo, ac heb Dduw i fyned ato trwy gyfryngwr. Y mae y cyntaf yn cyfeirio at eu hamddifadrwydd o Dduw ei hun: gan mai mewn cyfryngwr yn unig y mae i bechadur gael gafael ynddo a dyfodfa ato. Yr oedd eu pellder, gan hyny, yn ddwbl pellder allanol o ran breintiau, a phellder mewnol o ran cymmundeb â Duw trwy y breintiau. Y mae y gair *athεoi*, a gyfleithir "heb Dduw," yn arwyddo, nid rhai yn gwadu Duw, ond rhai heb adnabod Duw; nid rhai didduw, ond yn hytrach annuw. Nid oes dim yn hyn yn anghysson â *Rhuf.* i. 19—21. Gwyddent am Dduw trwy ymresymiad ar sail goleuni natur; ond nid oeddynt yn ei adnabod trwy ddadguddiad, yr hyn ydyw gwir sail adnabyddiaeth o hono. *Yn y byd.*—Dyma y rheswm mawr o gyfleu peth yn cael ei roddi yn gadarnhaol. Yn nacaol yr oeddynt yn bell oddi wrth Dduw, am eu bod y tu allan i wladwriaeth Israel. Yn gadarnhaol yr oeddynt heb Dduw, am eu bod o fewn cylch y byd hwn "yn y byd." Y mae yr ymadrodd "heb Dduw," gan hyny, yn cynnwys esgyneb (*climax*). Am eu bod "heb Grist" yr oeddynt heb Dduw. Yr oedd Duw wedi eu gadael, ac wedi eu rhoddi i fyny.

13. *Eithr yr awr hon yn Nghrist Iesu.*—Ar ol darlunio y pellder, y mae yr apostol yma yn disgrifio trefn eu hagoshad:—(1.) sef yn Nghrist Iesu: (2.) a thrwy waed Crist. (1.) "Yn Nghrist Iesu:" nid yn Nghrist, ond yn Nghrist Iesu. O'r blaen yr oeddynt heb Grist; ond yn awr y mae ganddynt, nid Crist yn unig, ond Crist Iesu—Crist wedi ymddangos yn y cnawd, ac wedi dyfod i'r byd trwy ymddangosiad personol, yn ein natur. Yn yr Iesu y mae y drychfeddwl am Grist, neu y Messiah fel eneiniog Duw wedi derbyn ei sylweddoliad uchaf. *A wnaethpwyd yn agos.*—Yn agos at yr eglwys; ac o herwydd hyny, yn agos at yr eglwys, yr hon gynt yr oeddynt mor bell oddi wrthi. Yr oeddynt gynt yn bell oddi wrth Dduw, am eu bod yn mhell oddi wrth yr eglwys yn yr hon yr oedd Duw yn Nghrist yn rhoddi ei bresennoldeb; ond yn awr, am eu bod yn Nghrist Iesu, y maent yn agos at Dduw, gan mai Duw yn y cnawd ydyw o ran ei berson, ac am hyny yr oeddynt yn agos at yr eglwys, ac yn yr eglwys. *Trwy waed Crist.*—Gwnaethpwyd i i yn agos, nid yn y person yn unig, ond yn ei waed fel eneiniog Duw, yn dioddef yn aberth drosom—"gwaed Crist." Trwy waed yr oeddi yr eglwys gynt yn cael dyfodfa at Dduw—trwy waed y cysgod; ond yr awr hon yn Nghrist Iesu, y mae Iuddewon a Chenhedloedd gyda'u gilydd,

[r] Esa. 9.6,7; Micah 5.5; Zech. 6. 13. Esther 3.8

14 Canys efe yw ein [r]tangnefedd ni, yr hwn a wnaeth y ddau yn un, [s] ac a ddattodododd ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni;

yn cael dyfodfa trwy waed y sylwedd. Gwelwn, gan hyny, nad oedd ymgnawdoliad y person heb ei aberth trwy waed yn ddigonol i ddileu y pellder oedd rhyngom ni a Duw. Yr oedd mwy na phellder natur rhyngom ni a Duw. Buasai yr ymgnawdoliad yn abl i ddileu hwnw, ond yr oedd pellder annhraethol fwy rhyngom, sef pellder gelyniaeth, fel y dengys y rhanau nesaf: ac nid oedd ond gwaed, hyny yw, ufudd-dod a dioddefiadau anfeidrol y person mawr, yn ddigon i ddileu yr elyniaeth hono.

14. *Canys efe yw ein tangnefedd ni.*—Y mae y pwyslais i'w roddi ar y gair "efe," neu fel y gellid darllen, "efe ei hun." Y mae yn eglurhâd ac yn helaethiad ar yr ymadrodd "yn Nghrist Iesu," yn *adn.* 13. Ei berson ef ydyw ein tangnefedd ni. Y mae yn fwy na thangnefeddwr. Y mae yn dangnefedd ei hun yn ei berson. Gelwir ef yn "dywysog tangnefedd." *Yr hwn a wnaeth.*—Y mae yn dangnefedd, nid yn ei berson ar wahân oddi wrth yr hyn a wnaeth; ond yn yr hyn a wnaeth. Y mae yr ymadrodd, "efe yw ein tangnefedd ni," yn cyfeirio at yr hyn ydyw Crist, nid i'r Iuddewon [Calvin], na chwaith yn uniongyrchol, fel y dywed ereill, yr hyn ydyw i'r Iuddewon a'r Cenhedloedd yn eu perthynas â'u gilydd, ond yn hytrach yr hyn yw i'r naill a'r llall yn eu perthynas â Duw: ac mewn canlyniad, wrth reswm, i'r naill yn eu perthynas â'r llall. Cadarnheir y golygiad hwn yn *pen.* ii. 13, 17. *Y ddau yn un.*—Y mae yr ymadrodd "y ddau" yn iaith wreiddiol yn y canolryw. Gall, o herwydd hyny, gymmeryd i mewn bethau yn gystal a phersonau, fel yn *pen.* i. 10. Yn *adn.* 12, cawn y pethau ydoedd yn gwneyd y personau yn ddau yn cael eu disgrifio: ond yn Iesu Grist y mae y pethau yn gystal a'r pethau ag oeddynt gynt wedi eu cyfyngu a'u rhanu i un yn gyffredin i'r naill a'r llall. Y mae amrywiaeth mawr yn mhlith esbonwyr yn eu golygiadau ar ystyr yr adnodau hyn. Y cwestiwn mawr ydyw, pa un ai at heddychiad Iuddewon a Chenhedloedd â'u gilydd yn unig [Olshausen], ai at heddychiad y naill a'r llall â Duw [Alford], neu at y ddau heddychiad, fel y barna y rhan fwyaf o'r esbonwyr. Drachefn, os yr olaf sydd yn gywir, gofynir pa un a yw rhan o'r ymadroddion yn cyfeirio at un heddychiad, a rhan arall at y llall [Goodwin]; ai ynte yn hytrach, a ydyw y ddau yn cyd-dreiddio trwy holl ranau yr adnodau hyn [Ellicott]. Yr ydym yn tueddu at yr olaf o'r golygiadau hyn, gyda'r chwanegiad, fod un o'r ddau heddychiad yn cael ei osod allan yn mhob un o'r rhanau, a'r llall yn cael ei dybied; ac felly, fod y ddau, naill ai yn cael eu tybied, neu eu gosod allan yn yr oll. Yr oedd angeu Crist, fel yr oedd yn achos haeddiannol o gymmodi y naill a'r llall â Duw, yn cynnwys defnyddiau eu cymmod, y naill a'r llall; o herwydd yr oedd yn rhoddi terfynau yr oruchwyliaeth, yr hwn, tra yr oedd ar un tu yn gwasanaethu am dymmor i ragddangos a chynnrychioli ei aberth, ydoedd ar y tir arall yn effeithio i beri gelyniaeth rhwng yr Iuddewon a Chenhedloedd: a thrwy roddi terfyn ar yr oruchwyliaeth, rhoddes derfyn ar yr elyniaeth. O ganlyniad, y mae cymmodi y ddau â Duw yn golygu, neu yn

15 Ac a ddirymodd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth, *sef* deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau, fel y creai y ddau

tybied, fel achos a moddion, cymmodi y naill â'r llall. Drachefn, y mae cymmodi y naill â'r llall yn golygu cymmodi â Duw; o herwydd nis gallasai dim wneuthur hyny ond eu cymmodi ynghyd â Duw, gan mai gwreiddyn yr elyniaeth oedd eu gelyniaeth at Dduw. *Ac a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni.*—Ymadrodd ffugrol, i ddynodi yr elyniaeth oedd rhwng yr Iuddewon a'r Cenhedloedd. Dylai y geiriau "yr elyniaeth," ddyfod i mewn ar ol yr ymadrodd uchod, yn ol barn yr esbonwyr goreu. Dylai gael ei ddarllen fel hyn, gan hyny, "ac a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni, sef yr elyniaeth, gan ddirymu yn ei gnawd ei hun ddeddf y gorchymynion mewn ordeiniadau." Dattododd ganolfur y gwahaniaeth, sef yr elyniaeth, trwy ddirymu y gyfraith, yr hon ydoedd yr achos o'r elyniaeth, ac yn sylfaen y canolfur. Wrth yr elyniaeth y mae i ni ddeall, nid yn unig y teimlad gelynol, ond y cyfiwr a'r pellder gelynol ag oedd rhyngddynt o ran breintiau crefyddol. Yr oedd y pellder hwn fel neu yn gwahanaethu rhyngddynt. Trwy chwalu ei sylfaen, sef y ddeddf, fe'i chwalwyd yntau. Ond diau fod canolfur gwahaniaeth rhwng dyn a Duw yn cael ei dybied, a'r elyniaeth oedd yn sail iddo, yr hwn a ddilëid yn angeu Crist: ac yn wir trwy ddattod hwn y dattodwyd y cyntaf. Y mae yn bur bossibl, os nad yn debyg, fod yr apostol, wrth ddefnyddio yr ymadrodd "canolfur y gwahaniaeth" i ddarlunio yr elyniaeth, â'i lygaid ar y mur rhwng cyntedd y Cenhedloedd a chyntedd y deml. I'r cyntedd cyntaf yn unig yr oedd rhyddid i'r Cenedl-ddyn fyned. Dywed Hammond fod terfyn o gareg yn gwahanu rhyngddynt yn yr ail deml; a thrachefn, yn y deml a adeiladodd Herod, yr oedd, medd Josephus, murterfyn o gareg, ar yr hwn yr oedd yn ysgrifenedig, "nad elai neb o genedl arall i mewn." Y mae yn eithaf tebyg fod ll. gaid meddwl yr apostol hefyd ar len y deml, a'i fod yn golygu y cyntaf o'r arwydd-luniau hyn fel yn arwyddocau pellder a gelyniaeth yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn oddi wrth eu gilydd, a'r ail fel yn arwyddocaol o'r pellder sydd rhwng y naill a'r llall a Duw.

15. *Trwy ei gnawd ei hun:—h.y.*, yn ei angeu, yn yr hwn y rhoddes "ei gnawd dros fywyd y byd:" *Ioan* vi. 61. *Deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau.*—Pa ddeddf sydd i ni ddeall fel yn cael ei darlunio yn yr ymadrodd hwn, a pha beth sydd i ni ddeall wrth fod Crist, trwy ei angeu neu "yn ei gnawd," wedi ei dirymu." Y mae yn amlwg mai nid y ddeddf foesol, fel y cyfryw, ydyw; o herwydd nid dirymu hono, ond ei chyfiawni, yr oedd Crist trwy ei farwolaeth. Rhaid, gan hyny, mai y ddeddf seremoniol sydd yn cael ei gosod allan yn yr ymadrodd hwn. Yr oedd hon yn gynnwysedig o orchymynion, y rhai a roddid yn y ffurf o ordeiniadau, neu sefydliadau amrywiol. Yn y Groeg y gair ydyw *dogma*; yr hwn air, mewn oesoedd diweddarach, a ddaeth i gael ei ddefnyddio yn yr ystyr o "athrawiaeth." Yr oedd yn naturiol i'r tadau, gan hyny, yn amser y rhai yr oedd y gair yn cael ei ddefnyddio mor helaeth, ei gymmeryd yn yr ystyr hwn yn y lle yma, gan egluro y frawddeg fel y canlyn:—"ac a ddirymodd ddeddf y gorchymynion

2 Cor. 5.17. ynddo ei hun yn [t]un dyn newydd, gan wneuthur heddwch:

Dan. 9.24. 16 Ac fel y [u]cymmodai y ddau â Duw yn un corph trwy y groes, wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi.

Salm85.10. 17 Ac efe a ddaeth [x]ac a bregethodd dangnefedd i chwi y rhai pell, ac i'r rhai agos.

18 O blegid [y]trwyddo ef y mae [y]Ioan 14. 6. i ni ein dau ddyfodfa [z]mewn un [z]Zech.12.10. Ysbryd at y Tad.

19 Weithian gan hyny nid ydych chwi mwyach yn ddyeithriaid

---

mewn neu trwy athrawiaethau." A daeth âg athrawiaethau i mewn yn lle ac i roddi terfyn ar seremoniau. Y mae yr eglurhâd hwn yn gyfeillornus am nad ydyw yr ystyr hwn i'r gair i'w gael yn y Testament Newydd. Yr ystyr. gan nyny ydyw, fel y dywedwyd uchod, fod Crist, trwy ei angeu, wedi dirymu y ddeddf hono ag oedd yn gynnwysedig o orchymynion yn cael eu rhoddi yn y ffurf o ordeiniadau, neu seremoniau sefydledig. Dirymodd hi trwy ddyfod i hun yn sylwedd yr ordeiniadau hyny, a thrwy sylweddoli gorchymynion deddf uwch, sef y ddeddf foesol, a hyny trwy ddioddefiadau. Felly, er mai y ddeddf seremoniol sydd yn cael ei dosod allan, y mae y ddeddf foesol yn cael ei hybied; ac er mai dileu y naill sydd yn cael ei dosod allan, y mae cyflawni y llall yn cael ei dybied; gan mai trwy gyflawni y naill y dileodd y llall. Trwy lanw y naill â bywyd yn ei ufuddlod hyd angeu, bu yn angeu i'r llall, a dirymodd hi. *Fel y creai y ddau yndde ei hun yn un dyn newydd.*—Gosodir allan yn y geiriau hyn amcan i farwolaeth fel yr oedd yn ddirymiad y ddeddf seremoniol; ac yn nechreu yr adnod nesaf, cawn amcan ei farwolaeth fel yr oedd yn gyflawniad y ddeddf foesol. Fel yr oedd ei angeu yn ddirymiad y ddeddf seremoniol, yr amcan mawr oedd creu yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn yn "un dyn, newydd." Gelwir hwy yma yn "ddau"—Groeg, *duo*, nid *amphotera*, fel yn *adn.* 14. Golygir hwy yma fel personau mewn modd arbenig. Cyn dirymu y gyfraith hono, yr oedd yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn yn ddau ddyn tra gwahanol a gwaaniaethol. Yr oedd yn rhaid cael dau ddeiniad i'w disgrifio. Ni wnaethai yr un disgrifiad o briodoleddau, ansoddau, a chyflwr y tro hwnw gymmhwyso at y naill a'r llall; ond yn Nghrist y mae y ddau wedi eu creu yn un dyn, yn llu dau:—'Nid oes nac Iuddew na Groegwr' awyach, ond dyn; ac un dyn, ac un dyn newydd, yr cyfan yndde ei hun, y dyn Crist Iesu, yr hwn ydd hefyd yn Dduw bendigedig, uwch law pawb n oes oesoedd.' Trwy ddyfod â'r naill a'r llall undeb gweithredol âg ef ei hun, y mae yn eu uno yn weithredol â'u gilydd, fel y gwnaeth yn aeddiannol trwy ei angeu, "gan wneuthur eddwch." Mae y pwyslais i'w roddi ar y gair can, "gwneuthur:" nid gosod ei sail i lawr mewn aeddiant yn unig, ond ei wneuthur ar ol hyny.

16. *Ac fel y cymmodai y ddau â Duw.*—Yn yr madrodd hwn etto darlunir amcan ei angeu fel r oedd yn gyflawniad o'r ddeddf foesol, yr hyn doedd sail ac achos ei ddirymiad o'r un seremoniol. Yr amcan hwnw ydoedd cymmodi yr uddew a'r Cenedl-ddyn â Duw. *Yn un corph.*—n yr ymadrodd "un dyn newydd," golygir yr uddew a'r Cenedl-ddyn dan y drychfeddwl o noliaeth (*identity*): pob un, y naill fel y llall, yn ddyn newydd yn Nghrist:" ac am eu bod felly, id ydynt mwyach i'w gwahaniaethu. Ond yn r ymadrodd hwn, golygir y naill a'r llall wedi lleu pob gwahaniaeth, dan y drychfeddwl o uneb—"yn un corph;" ac am hyny nid ydynt mwyach i'w gwahanu. Y maent yn un â'u gilydd: ac nid yn unig hyny, ond y maent gyda'u gilydd yn un corph i Grist fel ei eglwys. *Wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi.*—Mewn trefn i gymmodi y ddau â Duw, yr oedd yn rhaid lladd yr elyniaeth oedd rhwng y ddau a Duw. Yn *adn.* 14, 15, dangosir i ni fel yr oedd wedi cymmodi yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn, sef drwy ddattod yr elyniaeth rhyngddynt; ac yma, drachefn, yn yr un modd, dengys mai trwy ladd yr elyniaeth rhwng y ddau a Duw y cymmododd y ddau â Duw. Nid oedd eisieu ond dattod y naill mewn trefn i'w dinystrio, ond yr oedd yn rhaid lladd y llall. Nid ein gelyniaeth ni at Dduw [Maurice, Jowett, Robertson], ond gelyniaeth Duw atom ni (gwel *adn.* 3); o herwydd gygir ni fod yr elyniaeth "wedi ei lladd drwy y groes." Ond pe ein gelyniaeth ni at Dduw a fuasai yn ei olwg, nis gallasai ddywedyd hyn; canys nid yw hono, yn ol eu cyfundraeth hwy, yn cael ei dileu ond pan fyddo yr elyniaeth yn cael ei lladd yn y person sydd yn credu yn Nghrist; tra y mae yr apostol yma, ac mewn lleoedd ereill, yn dysgu fod yr elyniaeth, gan nad pa beth ydyw, eisoes wedi ei dinystrio yn angeu Crist ar y groes. Pa beth ydyw y gwahaniaeth rhwng cymmodi â Duw "trwy y groes," a lladd yr elyniaeth "yn y groes," fel y mae y darlleniad yn llythyrenol? Yr olaf ydyw yr achos o'r blaenaf. Trwy ladd yr elyniaeth yn y groes, y mae yn cymmodi trwy y groes. Y mae y naill yn golygu sail y cymmod yn yr iawn, a'r llall y cymmod ei hun yn y cyfiawnhâd.

17. *Ac efe a ddaeth.*—Groeg: "Ac wedi dyfod;" *h. y.*, oddi wrth y meirw:—"ac wedi dyfod, efe a bregethodd;" *h. y.*, trwy ei apostolion. Yn *Actau* i. 1, dysgir ni mai actau Crist oedd actau yr apostolion. *Dangnefedd.*—Cynnwysir swm a sylwedd yr efengyl a'i gweinidogaeth yn yr un gair hwn. Gwel *Ioan* xiv. 27. Trwy farw ar y groes y daeth yn "dangnefedd:" trwy ei fywyd yn y nef y mae yn ei gyhoeddi, yn ngweinidogaeth yr efengyl drwy ei weision. *I chwi y rhai pell.*—Cenhedloedd yn cael eu cyfarch dan yr hen enw. *Ac i'r rhai agos:*—Iuddewon.

18. *O blegid trwyddo ef y mae i ni ein dau.*—Y mae yr adnod hon yn cynnwys y prawf o'r hyn sydd yn yr adnod o'r blaen; sef fod Crist, ar ol gwneuthur heddwch, yn ei gyhoeddi. Y prawf ydyw yr effaith, fel y dengys Calvin. Y mae yn ymresymu oddiwrth yr effaith. Y prawf ei fod yn cyhoeddi y tangnefedd, ac yn ei roddi trwy weinidogaeth yr efengyl, ydyw, ein bod yn ei feddu. Y prawf, drachefn, o'i fod yn cael ei gyhoeddi i Iuddewon a Chenhedloedd ydyw ein bod "ein dau" yn ei feddu. Yr enw a roddir arno yma ydyw "dyfodfa at y Tad." Dyma hanfod mewnol y tangnefedd—cymmundeb â Duw. Trwy Grist y mae y ddyfodfa yn cael ei rhoddi, fel cyfrwng haeddiannol, ac yn yr Ysbryd fel cyfrwng gweithredol.

19. *Weithian gan hyny nid ydych chwi mwyach yn ddyeithriaid a dyfodiaid, ond yn gyd-ddinas-*

[a] Heb. 12. 22—24; Dad. 21. 12—26.
[b] Gal. 6. 10; 1 Ioan 3. 1.
[c] Salm 118. 22; Act. 4. 11, 12.

a dyfodiaid, ond [a] yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn [b] deulu Duw;

20 Wedi eich goruwch-adeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi, [c] ac Iesu Grist ei hun yn ben congl-*faen:*

yddion â'r saint, ac yn deulu Duw.—Y mae Harless yn cymmeryd fod yr ymadroddion hyn yn gwrth-gyferbynu i'w gilydd, yn ol y drychfeddwl o freintiau dinasol ar y naill law, a breintiau teuluol ar y llaw arall.

Teuluol.	Nid yn ddyfodiaid, ond yn deulu Duw.	
Dinasol.	Nid yn ddyeithriaid, ond yn gyd-ddinasyddion â'r saint.	

Yn Nghrist y mae breintiau y ddinas a breintiau y teulu yn cydgyfarfod, ac wedi eu cyfuno â'u gilydd. Y mae yr eglwys yn ddinas, ac yn deulu: yn ddinas deuluol, yn deulu dinasol. Yr oedd y drychfeddwl yn cael ei osod allan yn gysgodol ac ammherffaith yn ngwladwriaeth Israel; ond yn ngoruchwyliaeth y Testament Newydd y mae wedi ei lawn sylweddoli, a hyny heb gau allan y Cenhedloedd; ond drwy eu cynnwys yn hytrach. Wrth y "saint" y mae i ni ddeall yma, nid yr Iuddewon fel cenedl, na chwaith saint yr Hen Destament, ond aelodau eglwys Crist, fel sylwedd gwir a llawn y sefydliad parotoawl a chysgodol gynt.

20. *Wedi eich goruwch-adeiladu.*—Y mae yr ymadrodd "goruwch" yn cyfeirio at y sylfaen, goruwch yr hon y mae yr adeilad yn gorwedd ac yn gorphwys. *Ar sail yr apostolion a'r prophwydi.*—Gellir deall yr ymadrodd hwn fel yn golygu yr apostolion a'r prophwydi eu hunain yn sail; neu ynte yn gosod allan y sail ar yr hon yr oeddynt hwythau wedi eu hadeiladu, sef Iesu Grist; neu yn hytrach y sail ag yr oedd yr apostolion a'r prophwydi wedi ei gosod i lawr. Yr olaf ydyw yr eglurhâd mwyaf tebygol. Nid yr apostolion ydyw sail yr eglwys. Gwir fod *Dad.* xxi. 14 yn darlunio sylfeini y ddinas sanctaidd âg enwau y deuddeg apostol arnynt; ond nid am mai hwy oedd y sylfeini, eithr am mai hwy oedd wedi eu gosod. Y mae yr ail olygiad yn cymmysgu y sylfaen â'r gonglfaen, y rhai a wahaniaethir yn yr adnod. Sail yr apostolion a'r prophwydi ydyw yr athrawiaeth am Grist: y gonglfaen ydyw "Iesu Grist ei hun." Person Crist ydyw conglfaen yr adeilad, yr athrawiaeth am dano, fel y cafodd ei gosod i lawr gan yr apostolion a'r prophwydi ydyw y sail, neu osodiad i lawr y gonglfaen. *Yr apostolion a'r prophwydi.*—Pa un ai prophwydi yr Hen Destament ai prophwydi y Testament Newydd y cyfeirir atynt yma? Yr olaf yn ddiau. Y mae trefn y geiriau yn awgrymu hyn—"yr apostolion a'r prophwydi:" nid "y prophwydi a'r apostolion," fel y buasai yn naturiol iddo ysgrifenu, pe yn cyfeirio at y prophwydi gynt. (2.) Y mae *pen.* iii. 5, a iv. 11, yn cadarnhau y golygiad hwn. (3.) Y mae yr hyn a ddywedir yn cydweddu yn fwy â phrophwydi y Testament Newydd. (4.) Y mae rhanau ereill o'r Testament Newydd yn dangos fod doniau prophwydoliaeth yn yr eglwys yn yr oes apostolaidd. Gwel 1 *Cor.* xii. 16.

21. *Yn yr hwn y mae yr holl adeilad.*—Groeg:

21 Yn yr hwn y mae yr holl adeilad wedi ei chymmhwys gyd-gyssylltu, [d] yn cynnyddu yn deml sanctaidd yn yr Arglwydd:

22 Yn yr hwn y'ch cydadeiladwyd chwithau yn [e] breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd.

[d] 1 Cor. 3. 17; 2 Cor. 6. 16. [e] Ioan 17. 21—23; Rhuf. 8. 9—11; 1 Cor. 3. 16; 6. 19; 1 Pedr 2. 5; 1 Ioan 3. 24.

"Pob adeilad" (*pasa oikodomé*). Ond ceir mewn amryw ysgrifau pwysig *pasa é oikodomé*—"yr holl adeilad." Rhaid addef mai y darlleniad cyntaf sydd â mwyaf o awdurdod drosto. Ond y mae Ellicott yn dangos y gellir deall y darlleniad cyntaf yn yr un ystyr a'r llall, sef "yr holl adeilad." Y mae rhai o'r Annibynwyr yn hoff o gyfeirio at yr adnod hon i gadarnhau eu hathrawiaeth am annibyniaeth pob cynnulleidfa yn eglwys Crist. Ond pe byddai raid i ni ddeall y darlleniad, *pasa oikodomé*, yn yr ystyr o "pob adeilad," y mae genym lawn cymmaint o reswm dros ei gymmeryd i gyfeirio at bob person ag at bob cynnulleidfa. Ac yn wir y mae hyn yn fwy tebyg o fod yn gywir, gan mai am bersonau, ac nid am gynnulleidfaoedd, y mae yr apostol yn llefaru yn *adn.* 20. Y mae pob person yn eglwys Crist yn dŷ, wedi ei adeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen i'r tŷ. A thrachefn, yn Nghrist y mae pob tŷ wedi ei gymmhwys gydgyssylltu, yn cynnyddu yn deml. Y mae tai unigol yn eu cydgyssylltiad â'u gilydd yn cyfansoddi un deml. Y mae pob tŷ yn deml yndd'ei hun, a'r cyfan mewn undeb drachefn â'u gilydd yn un deml fawr. Fel y mae pob gronyn yn y tyn-faen (*magnet*) yn dyn-faen cyflawn ar ei ben ei hun; ac y mae yr holl ronynau gyda'u gilydd, drachefn, yn eu hundeb â'u gilydd, yn cyfansoddi un tyn-faen cyfansawdd; felly y mae pob Cristion ar ei ben ei hun yn dŷ ysbrydol (1 *Pedr* ii. 5); ond yn eu hundeb a'u cyssylltiad â'u gilydd y mae y saint, drachefn, yn cyfansoddi un deml sanctaidd i'r Arglwydd. *Wedi ei chymmhwys gydgyssylltu.*—Groeg: "yn cael ei chymmhwys gydgyssylltu." *Yn cynnyddu.*—Groeg: "tyfu." Y mae cynnydd yr eglwys yn gynnydd bywyd. Y mae priodoliaethau y pren a'r adeilad yn perthyn iddi. Y mae ei chynnydd yn cael ei ddwyn yn mlaen ar un tu drwy ddadblygiad bywyd yn fewnol fel yn y pren, ac o'r tu arall drwy weithrediad allanol fel yn yr adeilad. *Yn deml.*—Groeg: "i fod yn deml." Y mae yr adeilad yn cynnyddu yn deml; ac fel y dengys yr adnod nesaf, y mae y deml yn cael ei hadeiladu yn breswylfod i Dduw yn yr Ysbryd. *Yn yr Arglwydd:*—sef yr Arglwydd Iesu. Gellir cyssylltu yr ymadrodd hwn, naill ai âg "yn cynnyddu," neu âg "yn deml sanctaidd," neu ynte â'r gair "sanctaidd." Y mae y cyntaf yn golygu ailddywediad, a'r olaf yn rhoddi gormod o arbenigrwydd i'r drychfeddwl o santeiddrwydd mewn cyssylltiad â'r deml. Yr ail ydyw y ffordd fwyaf syml a naturiol—yn "deml sanctaidd"—"yn yr Arglwydd."

22 *Yn yr hwn y'ch cydadeiladwyd chwithau.*—Neu, yn fwy llythyrenol, "Yn yr hwn yr ydych chwithau hefyd yn cael eich cydadeiladu." Y mae yr ymadrodd "cyd" hefyd yn cyfeirio at gredinwyr ereill. *Yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd.*—Yn llythyrenol, "yn yr Ysbryd." Y mae yr ymadrodd "yn yr Ysbryd" yn cael ei ddeall gan rai i arwyddo yr un

PENNOD III.

1 *Darfod hyslysu i Paul, trwy ddatguddiad, 5 gudd'edig ddirgelwch 6 cadwediaeth y Cenhedloedd: 8 ac mai iddo ef y rhoisid y gras i'w 9 bregethu ef.* 13 *Y mae efe yn dymuno arnynt na lwfrhaont o blegid ei flinderau ef;* 14 *ac yn gweddio 19 ar iddynt wybod mawr gariad Duw tuag atynt.*

ER mwyn hyn, myfi Paul, carcharor Iesu Grist trosoch
B A. 57. chwi y Cenhedloedd;
[a] Gal. 1. 15. 16. Col. 1. 25-27 2 Tim. 1. 11.
2 Os clywsoch am [a] oruchwyliaeth gras Duw, yr hon a roddwyd i mi tuag atoch chwi:

3 Mai [b] trwy ddadguddiad yr hysbysodd efe i mi y dirgelwch (megys yr ysgrifenais o'r blaen ar ychydig *eiriau*,
[b] Act. 22. 9; 1 Cor. 2. 9, 10; Gal. 1. 12, 16 —19.

4 Wrth yr hyn y gellwch, pan ddarllenoch, wybod fy neall i yn [c] nirgelwch Crist)
[c] Luc 2. 10, 11; 1 Tim. 3. 9, 16.

5 Yr hwn yn oesoedd ereill nid eglurwyd i feibion dynion, [1] fel y mae yr awrhon wedi ei ddadguddio i'w sanctaidd apostolion a'i brophwydi trwy yr Ysbryd;
[d] Luc 11. 49.

peth a "thrwy yr Ysbryd." Felly y mae yn amlwg y deallid ef gan y cyfleithwyr Saesnig a Chymreig, y rhai ydynt yn darllen, "*through the Spirit,*" a "trwy yr Ysbryd.' Ond y mae yn amlwg fod "yn yr Ysbryd," yn niwedd yr adnod, i'w ddeall yn gyferbyniol i "yn yr hwn" yn ei dechreu. Y mae ereill yn deall yr ymadrodd yn gyfystyr âg "yn ysbrydol;" ond y mae yn amlwg fod yn yr adnod hon, fel mewn llawer o leoedd ereill yn yr epistol hwn, gyfeiriad at le a gwaith y Drindod yn nygiad y deml hon yn nglaen. Teml i Dduw y Tad ydyw, yn cael ei hadeiladu yn y Mab, ac yn yr Ysbryd; yn y Mab fel sylfaen, ac yn yr Ysbryd fel gweithredydd offerynol. Yn y Mab y mae y saint yn cael eu hadeiladu i fod yn breswylfod i Dduw, ac yn yr Ysbryd y maent fel preswylfod yn cael eu preswylio gan Dduw.

PENNOD III.

1. *Er mwyn hyn, myfi Paul, carcharor Iesu Grist, &c.*—Y mae gwneuthuriad y frawddeg, fel y gwelir, yn anghyflawn fel y mae yn yr adnod hon. Rhoddir cyfrif am hyn gan rai trwy dybied fod yma enghraifft o fyr-ymadrodd (*brachyology*), sef fod yr apostol yn gadael allan y ferf. Yr ymadrodd yn llawn a fuasai, yn ol y golygiad hwn, "O herwydd hyn, myfi Paul, ydwyf garcharor Iesu Grist." Y mae ereill yn deall yr ymadrodd "carcharor Iesu Grist" yn attoddiadol, fel yn *pen.* iv. 1, gan ddeall y frawddeg yn anghyflawn yn yr adnod hon, ond yn cael ei chyflawni yn *adn.* 14. Y mae golygiad Wieseler, yn ein barn ni, yn fwy naturiol; sef, fod y frawddeg yn cael ei gadael yn anghyflawn gan yr apostol, yr hwn a arweinid gan angerddolder ei feddwl i'r dull yma o lunio ei frawddegau, gan roddi ile i'r darllenydd ddyfalu pa fodd y buasai yn eu cyflawni yn hytrach na gwneuthur hyny ei hunan. Y mae y geiriau, "er mwyn hyn," yn cyfeirio yn arbenig at *pen.* ii. 22, ond yn fwy cyffredinol at holl gynnwys y paragraph ag y mae yr adnod hono yn ddiweddglo iddo. Geilw ei hun yn "garcharor Iesu Grist," medd Olshausen, am mai Iesu Grist a'i achos ydoedd achos ei garchariad.

2. *Os clywsoch am:—h.y.,* "gan i chwi glywed." *Oruchwyliaeth gras Duw tuag atoch chwi.*—Wrth y "gras Duw" y sonia yr apostol am dano yma y mae i ni ddeall, nid y swydd apostolaidd, ond y gras angenrheidiol i fod yn gymmhwys iddi, ac yn gymmhwys i'w chyflawni. Mae yr apostol yn wastad yn edrych ar waith a chymmhwysderau ei swydd fel gras. Gras Duw yn cael ei estyn megys o hono ef atynt hwy, ydoedd hanfod ei swydd a'i waith yn ei olwg ef. Wrth "oruchwyliaeth" y gras hwn y mae i ni ddeall, nid y defnydd a wnaeth yr apostol o hono, ond y gweinyddiad a'r trefniad o'r gras gan Dduw, fel yr eglura yn *adn.* 3.

3. *Mai trwy ddadguddiad yr hysbysodd efe i mi y dirgelwch.*—Trefn neu oruchwyliaeth y gras ydoedd hysbysu dirgelwch yr efengyl iddo yn ol dadguddiad, mewn trefn iddo yntau, trwy ddadguddiad, ei egluro fel yr ydoedd eisoes mewn rhan wedi gwneuthur mewn ysgrifen. Am gynnwys y dirgelwch, gwel *adn.* 6. *Megys yr ysgrifenais o'r blaen:*—sef yn yr epistol hwn: *pen.* i. 9; ii. 13, &c.

4. *Wybod fy neall i yn nirgelwch Crist.*—Yr oeddynt eisoes, fel y dengys *adn.* 2, wedi clywed am oruchwyliaeth y gras; ond os darllenent ei epistol, caent wybod yr oruchwyliaeth fel yr oedd yn cael ei hamlygu yn ei ddeall ef o ddirgelwch Crist. Fe allai fod yr ymadrodd "dirgelwch Crist" yn fwy cyffredinol na'r ymadrodd "dirgelwch" yn yr adnod ddiweddaf, ac yn golygu holl ddirgelwch yr efengyl, canolbwynt yr hwn ydyw Crist: *Col.* i. 28. Y mae hyn, hefyd, yn awgrymu i ni fod y mwyaf yn cynnwys y lleiaf; *h. y.*, fod cymmodi pechaduriaid â Duw yn cynnwys, ynddo ei hun, gymmodi Iuddewon â Chenhedloedd, ac y gellir ymresymu oddi wrth y naill at y llall, fel y ceisiwyd dangos yn *pen.* ii. 14—16. Yr oedd yr apostol, yn y rhanau blaenorol, wedi ymdrin â dirgelwch galwad y Cenhedloedd yn y fath fodd, fel ag i ddangos ei fod, nid yn unig yn deall y dirgelwch hwnw arno ei hun, ond yn ei ddeall fel yr oedd yn rhan o ddirgelwch mwy cyffredinol, ac i gynnwys y naill yn y llall.

5. *Yr hwn yn oesoedd ereill nid eglurwyd i feibion dynion.*—Ystyr manwl y gair a ddarllenir genym ni "oesoedd," ydyw cenedlaethau. Myn Meyer ei gymmeryd felly—"Yr hwn i genedlaethau ereill nid eglurwyd, sef i feibion dynion." Ond ymddengys fod y gair Groeg *genea* weithiau yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr amserol: gwel *Col.* i. 26; *Act.* xiv. 16; xv. 21. Hefyd, amryw leoedd yn yr Hen Destament yn nghyfleithiad y Deg a Thrigain—"i feibion dynion." "Gan osod allan achos eu hanwybodaeth, sef tarddiad naturiol."—*Bengel.* Ond y mae gwaith Bengel yn cyssylltu yr ymadrodd â'r hen brophwydi, y rhai a elwid yn feibion dynion (Ezeciel, "ti fab dyn"), yn annaturiol. *I'w sanctaidd apostolion.*—Dygir yn mlaen y ffaith fod awdwr yr epistol hwn yn galw yr apostolion yn "sanctaidd," yn brawf gan De Wette o fod yr epistol wedi ei ysgrifenu mewn amseroedd diweddarach nag eiddo yr apostolion; ond y mae hyn yn hollol ddirym, gan nad oedd dim yn fwy naturiol nag i'r apostol, pan yn llefaru am apostolion Crist, yn withgyferbyniol i "feibion dyn-

6 Y byddai y Cenhedloedd yn
[a] 1 Cor. 12. 12, 27. [b] Gal. 3. 14. gydetifeddion, ac [a] yn gydgorph, [b] ac yn gydgyfranogion o'i addewid ef yn Nghrist, trwy yr efengyl:

[c] Rhuf. 1. 5; 1 Tim 1. 14, 14, 15. 7 I'r hon y'm gwnaed i yn [c] weinidog, [d] yn ol rhodd gras Duw yr hwn a roddwyd i mi, yn ol grymus weithrediad ei allu ef.

8 I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, [e] y rhoddwyd y gras hwn, i [f] efengylu yn mysg y Cenhedloedd [g] anchwiliadwy olud Crist;

[e] Act. 5. 41; Rhuf. 15. 15–17. [f] Ioan 1. 16; Col. 1. 27. [g] Rhuf. 3. 18.

9 Ac i egluro i bawb beth [h] *yw* [i] oedd [i] guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a [k] greodd bob peth trwy Iesu Grist:

[h] Eph. 1. 9, 10. [i] Col. 1. 26 3. 3. [k] Salm 33. 6; Ioan 1. 1-3; Col 1. 16.

10 Fel y byddai yr awrhon yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r

ion" yn gyffredinol, gyssylltu y gair "sanctaidd" â hwynt. Yr oeddynt felly o ran eu swydd, acyn enwedig fel cyfryngau dadguddiad ysbrydoledig. *Trwy yr Ysbryd.*—Groeg: "Yn yr Ysbryd." Yr oedd y dadguddiad yn cael ei roddi iddynt "yn yr Ysbryd."

6. *Y byddai y Cenhedloedd.*—Neu, yn fwy llythyrenol, "fod y Cenhedloedd." Dyma gynnwys y dirgelwch—fod y Cenhedloedd (1.) yn gydetifeddion; (2.) yn gydgorph; (3.) yn gydgyfranogion o'r addewid, sef yr addewid am fywyd tragwyddol, yn cynnwys holl fendithion yr efengyl ynddi ei hun. Y mae Stier yn barnu fod y tri enwad uchod yn cyfeirio at y Drindod: yn gydetifeddion yn eu perthynas â'r Tad, yn gyd-gorph yn y Mab, ac yn gyd-gyfranogion trwy yr Ysbryd Glân. Y mae y cyntaf yn cyfeirio at eu hawl allanol, ac yn dangos fod ganddynt yr un a chyfartal hawl i'r etifeddiaeth; yr ail yn dangos mai yn eu perthynas â Christ yr oeddynt yn meddu yr hawl, yn yr hwn yr oeddynt yn gydgorph—y naill fel y llall yn aelodau yn ei gorph ef; a'r olaf yn dangos eu bod yn cyd-gyfranogi, neu yn cyd-fwynhau, yr hyn yr oedd ganddynt hawl iddo, sef cynnwys yr addewid. *Yn Nghrist.*—Yn eu hundeb â Christ y gwnaed hwy yn gydetifeddion, yn gydgorph, ac yn gydgyfranogion. *Trwy yr efengyl*, fel moddion eu dygiad i undeb â Christ.

7. *I'r hon y'm gwnaed i yn weinidog, yn ol rhodd gras Duw.*—Cafodd ei wneuthur yn weinidog yn ol y rhodd o ras Duw iddo, yr hon rodd "a roddwyd" iddo. Drachefn, "yn ol grymus weithrediad ei allu ef." Ei alwedigaeth ysbrydol ac effeithiol, yr hon a ddarlunir yn yr un ymadroddion a galwad yr Ephesiaid eu hunain yn *pen.* i. 19, ydoedd sylfaen isaf ei apostolaeth.

8. *I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint.*—Iaith eithaf y gostyngeiddrwydd dyfnaf, yn cael ei gynnhyrfu i lefaru yn yr olwg ar fawredd gras Duw. Yn y flwyddyn 59, dywedai, "Nid wyf deilwng i'm galw yn apostol:"—yn 64, "Y llai na'r lleiaf o'r holl saint:"—yn 65, "O ba rai, y penaf ydwyf fi." *Anchwiliadwy olud Crist.*—Dyma gynnwys mawr yr efengyl a'i gweinidogaeth. Wrth "olud Crist" y mae i ni ddeall yn y lle hwn ei olud fel Cyfryngwr. Gelwir ef, nid golud Mab Duw, ond "golud Crist." Cynnwysa y golud y mae yn ei feddu ac yn ei roddi. Canys mewn trefn i'w roddi, y mae yn ei feddu, ac y darfu iddo hefyd ei feddiannu. Gelwir ef yn "anchwiliadwy," am ei fod yn ddihysbydd yn ei ddirgelwch, ei eangder, a'i ras. Y mae y gair yn llythyrenol yn arwyddo anolrheinadwy.

9. *Ac i egluro i bawb.*—Groeg, "I oleuo pawb." Yn yr adnod o'r blaen, dengys yr apostol ei fod wedi ei alw i efengylu yn allanol; ond yn yr adnod hon chwanega, ei fod hefyd wedi ei neilduo i fod yn gyfrwng i "oleuo" yn fewnol. *Beth yw cymdeithas y dirgelwch.*—Y mae y darlleniad hwn yn anghywir. Dylai fod yn hytrach, "Beth yw goruchwyliaeth y dirgelwch." Yr un gair sydd yma ag yn *adn.* 2—"goruchwyliaeth gras Duw." Nid ydyw y darlleniad, "cymdeithas" i'w gael ond mewn rhai ysgrifau dibwys. Wrth y "dirgelwch" y mae i ni ddeall, dirgelwch y prynedigaeth trwy Grist; ac wrth "oruchwyliaeth y dirgelwch" hwn, ei drefniad a'i ddadblygiad mewn amser. Yn awr, amcan gweinidogaeth fawr yr efengyl ydyw cyhoeddi yn allanol a goleuo yn fewnol, trwy yr Ysbryd, feddyliau dynion, fel y mae yn cael ei weithio allan gan Dduw mewn amser. *Yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn wrthgyferbyniol i'r un blaenorol—"goruchwyliaeth y dirgelwch." Yn awr y mae yn cael ei ddadblygu, ond er dechreuad y byd yr oedd yn guddiedig a phlygedig megys yn Nuw: gwel *Rhuf.* xvi. 25; 1 *Cor.* ii. 7; *Col.* i. 26. Yr oedd yn guddiedig yn Nuw, ond nid i Dduw. *Yr hwn a greodd bob peth.*—Pa ham y dygir y ffaith hon i'n hystyriaeth yn y cyssylltiad hwn? Pa un ai y drychfeddwl o allu ai y drychfeddwl o ddoethineb sydd yn cael ei osod allan yn y ffaith fel y cyfeirir ati yn y lle hwn? Pa un ai y greadigaeth newydd ai yr hen sydd yn cael ei golygu yma? Y gwir attebiad i'r cwestiwn cyntaf, ni dybygwn, ydyw, mai er mwyn cin dwyn i ystyried fod meddyliau cynghor Duw yn bod yn yn guddiedig ynddo ef ei hun cyn iddynt gael hanfodiad allanol mewn amser, ac megys yn disgwyl am iddo ef yn ei allu roddi hanfodiad allanol iddynt trwy ei allu, yr hyn a gynnwys attebiad i'r ail gwestiwn. Y mae yr ymadrodd "pob peth" yn ein cyfreithloni i gymmeryd i mewn y ddwy greadigaeth—nid y newydd yn unig [Calvin], na'r hen yn unig, fel y mŷn ereill. *Trwy Iesu Grist.*—Dylid gadael allan y geiriau hyn, gan nad ydynt i'w cael yn y rhan fwyaf o'r llaw-ysgrifau.

10. *Fel y byddai yr awr hon yn hysbys.*—Y mae y frawddeg hon i'w chyssylltu yn arbenig â dechreu yr adnod o'r blaen, ac hefyd â'r "efengylu" yn *adn.* 8. Nid yr eglwys yn unig oedd yn cael ei goleuo, ond yr angylion trwy yr eglwys. Y mae yr uch-Galviniaid, y rhai a elwir yn Superlapsariaid, am eu bod yn hŏni fod arfaeth Duw yn golygu creadigaeth fel yn cymmeryd lle i wasanaethu i'r prynedigaeth—yn defnyddio y frawddeg hon yn ei chyssylltiad â diwedd yr adnod o'r blaen i geisio profi gwirionedd eu golygiad. Attebir hyn gan Hodge yn gryno. 1. Y mae yn anghysson âg athrawiaeth y Beibl, yr hwn sydd yn golygu yr arfaeth i achub dynion fel yn canlyn, o ran trefn meddwl Duw, yr arfaeth i'w creu. 2. Y mae diwedd yr adnod o'r blaen yn cael ei ddwyn i fewn, nid i osod allan brif ddrychfeddwl yr apostol, ond yn gynnorthwyol iddo. 3. Nid amcan y gyfran hon ydyw darlunio amcan dyben

awdurdodau yn y nefolion *leoedd*,
[a] Rhuf. 11. 33; Dad. 5. 12. trwy yr eglwys, [b] fawr amryw ddoethineb Duw,
[c] Esa. 46. 10, 11; Ier. 51. 29; 2 Tim. 1. 9. 11 Yn ol [c] yr arfaeth dragwyddol, yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni:
[d] Ioan 14. 6. 12 Yn [d] yr hwn y mae i ni hyfdra, a dyfodfa mewn hyder, trwy ei ffydd ef.
13 O herwydd pa ham yr wyf

creadigaeth, ond dyben dadguddiad, diogelwch y prynedigaeth. Y mae y geiriau "yr awr hon" yn cael eu dwyn i mewn yma yn wrthgyferbyniol i'r geiriau o "ddechreuad y byd;" yr hyn sydd yn profi mai gwrthgyferbynu yr hyn oedd guddiedig erioed, a'r hyn sydd yr awr hon wedi ei ddadguddio, ydyw amcan y frawddeg yn *adn.* 10. *I'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau*, &c.:—sef yr angylion. *Trwy yr eglwys*:—fel drych a chyfrwng eu dysgeidiaeth. Y mae yr angylion yn dysgu trefn iachawdwriaeth trwy edrych arni yn ei gwaith, a sylwi arni yn y sylweddoliad o honi trwy yr eglwys. *Fawr amryw.*—Groeg: *polupoikilos.* Gair wedi ei fathu yn bwrpasol gan Ysbryd Duw trwy Paul, medd Olshausen, gan nad ydyw i'w gael yn un lle arall. Y mae y rhan ddiweddaf o hono yn arwyddo "amryliw," a'r rhan gyntaf "aml." Aml-amryliw yw y meddwl yn llythyrenol, gan hyny. Perffeithrwydd doethineb ydyw amrywiaeth, yn cael ei arddangos mewn unoliaeth, ac unoliaeth yn cael ei ddadblygu mewn amrywiaeth.

11. *Yn ol yr arfaeth dragwyddol.*—Cyssyllta yr ymadrodd hwn â'r geiriau "fel y byddai yr awr hon yn hysbys trwy yr eglwys." Nid yr ystyr ydyw yn unig fod y ddysgeidiaeth a gânt yn ffrwyth yr arfaeth, ond yn ol yr arfaeth. Y maent yn cymmharu yr arfaeth â'r cyflawniad, y cynllun â'r gweithiad allan o hono. *Yr hon a wnaeth efe.*—Y mae y gair "gwnaeth" yn cyfeirio, nid at yr arfaethiad ei hun, ond at y cyflawniad o hono mewn amser, fel y dengys y geiriau nesaf, *yn Nghrist Iesu*: nid yn Nghrist, ond "yn Nghrist Iesu," gan gyfeirio ato fel person ymgnawdoledig yn lyw mewn amser.

12. *Yn yr hwn y mae i ni hyfdra.*—Yn yr adnod hon ni gawn ddarluniad etto o gynnwys y dirgelwch yn ei ffrwyth mewnol. Cynnwysa, yn gyntaf, hyfdra, neu ryddid geiriau (Groeg, *parrésia*; ac yn ail, dyfodfa neu ryddid personol, a'r naill a'r llall mewn hyder. Y mae y rhai hyn i'w cael yn Nghrist fel cyfryngwr, a thrwy ffydd ynddo fel moddion.

13. *Yr hyn yw eich gogoniant chwi.*—Pa fodd y mae i ni synied fod dioddefiadau yr apostol yn ogoniant i'r Ephesiaid? "Canys felly y carodd Duw ei bobl, megys ag y rhoddodd ei unigan-edig Fab drostynt, y rhoddes hefyd ei weision i gael eu herlid."—*Chrysostom.* "Canys fel y byddai i'r rhai hyn gael y cyfryw fendithion, cafodd Paul ei garcharu."—*Ellicott.*

14. *O herwydd hyn.*—Yn ol un eglurhâd, gan gyfeirio at yr adnod gyntaf, a chan olygu *adn.* 2—13 fel yn gromfachol: ond yn ol y golygiad a roddasom ni, cyfeiria at ddiwedd yr adnod o'r blaen. *Plygu fy ngliniau.*—I arwyddo difrifoldeb a thaerineb. *At Dad ein Harglwydd Iesu Grist.*—Y mae y geiriau "ein Harglwydd Iesu Grist" yn absennol yn llawysgrifau A. B. a C., yn amryw gyfleithiadau, dwy o'r llawysgrifau

yn dymuno na lwfrhaoch o blegid fy mlinderau i drosoch, yr hyn yw eich gogoniant chwi.
[e] Dan. 6. 10 Act. 7. 60 Eph. 1. 3. 14 O herwydd hyn [e] yr wyf yn plygu fy ngliniau at [f] Dad ein Harglwydd Iesu Grist,
15 O'r hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear,
16 Ar roddi o hono ef i chwi, yn

mân, ac yn cael eu gwrthod gan agos bob un o'r esbonwyr diweddaraf. Y darlleniad a fyddai felly, "at y Tad."

15. *O'r hwn*:—sef "o r Tad." Os gadawn allan y geiriau "ein Harglwydd Iesu Grist," rhaid i ni ddeall y rhagenw yn cyfeirio at y Tad. Y mae ereill, y rhai sydd yn cadw at yr hen ddarlleniad, yn ei gymmeryd yn wahanol, gan ddeall "o'r hwn" fel yn cyfeirio nid at y Tad, ond at Iesu Grist. Felly, yn wir, y cymmerir ef gan Calvin. Ond diau mai y llall ydyw y gwir ystyr, hyd yn oed a chymmeryd y darlleniad sydd genym ni. *Yr holl deulu*:—yn fwy cywir, "pob teulu." Yn yr iaith Roeg y mae y gair a ddefnyddir am deulu (*patria*) wedi deilliaw oddi wrth y gair *patér*, yr hwn a arwydda "tad." Y mae y tebygolrwydd sain rhyngddynt, a tharddiad y naill o'r llall, am hyny, yn adgoffâd i'r meddwl ar unwaith o wir darddiad teulu, sef y tad; yn debyg fel y mae y geiriau Cymraeg, "Creawdwr" a "chreadur." Fel y mae pob creadur yn cael ei eni o'r Creawdwr, felly y mae pob teulu o'r tad. Duw fel tad ydyw gwir a gwreiddiol ffynonell pob teulu. Efe ydyw y gwir Dad, yr hwn nid yw yn cael ei enwi felly oddi wrth neb arall, ond pawb arall yn cael ei enwi felly o hono ef. Nid esgyn a wnaeth y teitl hwn, gan hyny, i fyny oddi wrthym ni ato ef: ond, yn hytrach o lawer, disgyn i lawr atom ni oddi wrtho ef. *Yn y nefoedd ac ar y ddaear.*—Y mae yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio i ddangos fod y gosodiad yn ddieithriad; ac ar yr un pryd, awgryma fod trigolion y nefoedd wedi eu rhanu yn ddosbarthiadau a chymdeithasau, y rhai sydd yn ddarostyngedig i lywodraeth un wedi ei osod mewn awdurdod arnynt.

16. Cynnwysa yr adnod hon yr archiad cyntaf yn ngweddi yr apostol. Mater yr archiad ydyw *fod wedi ymgadarnhau.*—Golyga yr ymadrodd hwn ddadblygiad y bywyd ysbrydol o'u mewn. Gofyna ar eu rhan am fod y dyn newydd yn cael ei gadarnhau a'i ddadblygu yn y dyn oddi mewn. *Mewn nerth.*—Nid yr ystyr ydyw "yn nerthol" [gwel, *Ruckert*], na chwaith "o ran nerth" [*Harless*], ond fel yn ein cyfieithiad ni, "mewn, neu trwy nerth." Gweddîa iddynt gael y dadblygiad neu y cadarnhâd hwnw sydd yn dyfod trwy nerth. Y mae y gair a ddarllenir yma "nerth" yn arwyddo gallu gweithredol: nid gallu goddefol, ond gallu mewn symmudiad a gwaith. Y mae y graig yn gadarn; ond goddefol ydyw ei gallu, nid gweithredol—tra y mae y pren yn gadarn mewn nerth. Tardd eu cadernid o nerth gweithredol y bywyd a berthyn iddynt, ac sydd yn treiddio ac yn gweithio ynddynt. Ffynnonell a thrysor gwreiddiol y nerth hwnw yw "cyfoeth gogoniant y Tad." *Yn ol cyfoeth ei ogoniant.*—Dywedir gan rai naturiaethwyr mai goleuni yr haul ydyw ffynnonell wreiddiol yr holl nerthoedd gallofyddol, ac hyd yn oed bywydol,

[s] Esa. 40. 29—31; Mat. 6. 13; Col. 1. 11. ol cyfoeth ei ogoniant, [s] fod wedi ymgadarnhau mewn nerth, trwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddi mewn;

[t] Esa. 57. 15; Rhuf 8. 9; 1 Ioan 4. 4. 17 Ar fod [t] Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi;

18 Fel y galloch, [u] wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad, amgyffred gyda'r holl saint, beth *yw* y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder;

[u] 1 Cor. 3. 1; Col. 1. 23.

ag sydd i'w canfod ar y ddaear. Hyn a wyddom yn sicr, mai gogoniant y Tad ydyw ffynnonell wreiddiol pob bywyd ysbrydol, a phob dadblygiad o hono yn mhawb, bob amser, ac yn mhob man. Cyfrwng gweithrediad y nerth hwn yn y saint ydyw yr Ysbryd Glân—*trwy ei Ysbryd ef*: ac eisteddle y bywyd ysbrydol, yr hwn hefyd a elwir weithiau yn ddyn newydd, ydyw *y dyn oddi mewn*.—Arwydda yr ymadrodd hwn yr oll o ddyn ag sydd yn anfaterol, sef yr enaid a'r ysbryd, "fel y mae yn eisteddle gwaith gras trwy yr Ysbryd." Y mae yr apostol yn gweddio am i'r nerth gael ei roddi trwy yr Ysbryd i weithio yn y rhan yma: ac yn ol ystyr manwl y geiriau, arwydda, "i mewn" (*eis*) i'r dyn oddi mewn. Mae nerth yr Ysbryd yn treiddio fwyfwy i mewn i ganolbwynt ysbryd dyn, fel ag oddi yno i gael ei weithio allan gan y dyn i'r ymarweddiad gyda mwy o rym ac egni.

17. *Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau*.—Hwn ydyw yr ail archiad yn y weddi. Y mae yr hyn a gynnwysir ynddo i'w olygu, dybygid, fel effaith a ffrwyth cyflawniad yr hyn a ddeisyfir yn yr archiad cyntaf yn y weddi. Lle y mae y credadyn yn ymgadarnhau mewn nerth trwy yr Ysbryd, y mae Crist fel ffrwyth hyny yn trigo trwy ffydd yn y galon. Y mae Crist yn trigo yn uniongyrchol yn mherson y credadyn; ond nid at y trigiad hwnw y cyfeiria yr apostol yma, ond at yr ymwybyddiaeth o honi, a'r cymmundeb sydd yn tarddu o honi trwy ffydd. "Y mae y trigiad hwn yn weithredol," medd Goodwin: "gall person Crist fod ynom, ac y mae ynom, pan nad ydyw ffydd yn gweithredu arnom ac yn gweithio ynom." Gall fod ynom heb drigo yn ymwybyddol ynom. Fel dyn pan mewn llewyg, y mae ei enaid ynddo; a phan y mae y fraich o'i lle, y mae etto mewn undeb â'r corph a'r pen, ond nis gall weithredu. Crist yn trigo ynom trwy ffydd ydyw ein bod yn edrych yn wastadol arno, ac yn gweithredu arno fel gwrthddrych sydd yn feddiannol ar rinwedd i'w gyfranu i ni, ac i ddyfod i'n calonau; a Christ yn trigo trwy ffydd yn ein calonau ydyw gweithrediad ein calonau, o'r hyn y mae ffydd yn offeryn." Mae Crist yn trigo yn sylweddol yn mhersonau y saint yn uniongyrchol fel Duw-ddyn; ond y mae yn trigo yn eu natur, "yn eu calonau," trwy ffydd, ar eu tu hwy; a thrwy yr Ysbryd Glân ar y tu arall, yn gweithredu ac yn dadblygu ffydd, &c., o'u mewn. Gwaith priodol ffydd ydyw dwyn Crist i drigo yn y natur (gwel *Gal.* ii. 20): "Crist sydd yn byw ynof fi;" hyny yw, yn ei berson, yn annibynol ar ffydd. Ond ar ol hyny dywed, "Yr hyn yr wyf yn ei fyw yr awrhon yn y cnawd ei fyw yr ydwyf trwy ffydd."

18. *Fel y galloch, wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad*.—Hwn, o ran sylwedd, er nad o ran ffurf, yw y trydydd archiad. Golyga ffrwyth ac effaith preswyliad Crist yn y galon trwy ffydd. Y mae yr archiad cyntaf yn cyfeirio at drigiad yr Ysbryd, yr ail at drigiad y Mab, a'r olaf at drigiad y Tad. Gofyna Goodwin y cwestiwn, Pa fodd y mae i mi wahaniaethu rhwng y tri? a'r attebiad a rydd efe ei hun iddo ydyw, fod y Tad yn trigo ynom trwy gariad, y Mab trwy ffydd, a'r Ysbryd Glân, nis gwyddom pa fodd, ond yn guddiedig, yn gweithio ynom ffydd a chariad. "Eich gwreiddio a'ch seilio." Nid oes yma ddim cymmysgiad ffugrau, ond yn hytrach cyfuniad drychfeddyliau yn yr ymadrodd hwn. Y drychfeddwl sydd yn gorwedd dan y naill a'r llall yw cadarnhâd; yr hwn a olygir yn y gair cyntaf, fel y mae yn ffrwyth a dadblygiad y bywyd ysbrydol yn a chan y Cristion; ac yn yr ail, fel y mae yn effaith gweithrediad allanol gweithredydd arall, sef yr Ysbryd Glân. *Amgyffred*.—Yn hytrach na darllen fel y mae yn y cyfieithiad Cymraeg, darllener, "Fel, wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad, y galloch amgyffred." Eu cadarnhâd mewn cariad sydd yn cael ei olygu fel gwreiddyn ac achos eu hamgyffrediad. Teimlad yn wreiddyn i amgyffrediad. Pa fodd y gall hyn fod? Nid oes genym ond credu y ffaith, yr hon a gadarnheir gan athroniaeth a chan yr Ysgrythyr. Un o'r darganfyddiadau diweddaraf mewn athroniaeth naturiol ydyw yr hyn a elwir yn gyd-berthynas galluoedd natur (*correlation of forces*). Gall gwres gael ei gyfnewid yn symmudiad, a symmudiad yn wres—gwefr yn oleuni, a goleuni yn wefr. Y mae athroniaeth y meddwl yn profi fod y cyffelyb yn virionedd yn mryd y meddwl, sef fod teimlad yn ffynnon gwybodaeth ddofn. *Gyda'r holl saint*.—Cydamgyffrediad ydyw, yn tarddu oddi ar gydgariad. Nid gwybodaeth, i gael ei chyfyngu i ryw ddosbarth ydyw, ond yn gyffredin i'r holl saint. *Beth yw y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder*.—Gellir darllen "beth ydyw hyd, lled, dyfnder, uchder;" hyny yw, fel y maent wedi eu hamlygu yn nhrefn yr efengyl. Rhanau eangder, neu le, ydyw y pedwar gair uchod. Gellir crynhoi a chynnwys eangder, pa un bynag ai yn y byd materol ai yn y byd meddyliol, dan y pedwar hyn; o ganlyniad, y mae eu hamgyffred hwy yn golygu amgyffred mawredd ac eangder yn ei holl agweddau a'i holl ffurfiau. Yn awr, yn mawredd ac eangder dirgelwch yr efengyl, y mae y meddwl yn amgyffred eu drychfeddwl yn y modd mwyaf perffaith, ac i'r graddau mwyaf helaeth. Os cymmerir y geiriau fel hyn yn eu hystyr arddansoddol, ni bydd angen am ofyn y cwestiwn, Pa beth sydd i'w gyssylltu â'r geiriau, *h.y.*, "lled, hyd, dyfnder, uchder"—pa beth? Y mae y saint, wedi eu gwreiddio a'u seilio mewn cariad, yn gallu amgyffred gyda'u gilydd pa beth ydyw mawredd yn ei holl ffurfiau amrywiol; a chan mai fod "Crist yn trigo trwy ffydd yn eu calonau" ydyw achos gweithredol eu cariad, y mae yn naturiol i ni olygu mai yn mawredd ei berson ef y maent, yn nghadernid eu cariad eu hunain, yn dyfod i amgyffred mawredd; ac o amgyffred mawredd yn ei berson, y maent yn dyfod i wybod hefyd mawredd ei gariad ef atom ni, fel y dengys yr adnod nesaf. Nid oes dim yn y tybiaethau fod yr ymadroddion uchod yn cyfeirio at fesurau teml, na chwaith, fel y golyga Awstin, at ffurf y groes, gan gymmeryd yr uchder i arwyddo gobaith; yr hyd, amynedd; y lled, cariad; a'r dyfnder, gostyngeiddrwydd.

[y] Ioan 1. 16 Col. 2. 9. ; [z] Phil. 2. 8 —12 ; Col. 1. 10 ; [a] Pedr 3. 18 ; [b] 1 Ioan. 4. 9 —14.

19 A [z] gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwch law gwybodaeth, fel y'ch [y] cyflawner â holl gyflawnder Duw. 20 Ond i'r hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, [a] yn hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl, yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynom ni,

19. *A gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwch law gwybodaeth.*—Onid oes yma anghyssondeb? Os gellir ei wybod, pa ham y dywed ei fod uwch law gwybodaeth? Yn ol Calvin, y mae modd ei wybod trwy oleuni a chymmhorth yr Ysbryd Glân, ond y mae uwch law cyrhaeddiad gallu ein cynneddfau ni arnynt eu hunain. "Nis gall un dyn ddynesu at Dduw heb gael ei ddyrchafu uwch law iddo ei hun, ac uwch law y byd."—*Calvin.* "Er ei fod uwch law pob gwybodaeth ddynol, etto gellwch chwi ei wybod, os ydyw Crist yn trigo ynoch."—*Theophylact.* Yn ol yr eglurhâd hwn o eiddo Theophylact, ac ereill, yr ystyr ydyw, ei fod uwch law gwybodaeth athrawiaethol, ond nid uwch law gwybodaeth brofiadol. Y mae ereill yn cyfeithu, "A gwybod fod cariad Crist uwch law gwybodaeth;" ond nis gellir goddef hyn. Darllena Luther: "A gwybod fod cariad Crist (*h. y.*, ein cariad ni at Grist) yn fwy peth na gwybodaeth:" yr hyn etto sydd hollol anghywir. Gan mai yr un gair sydd yn y naill le a'r llall, ond yn unig ei fod yn ferf yn y naill, ac yn sylweddair yn y llall, rhaid i ni ddeall y wybodaeth yr un o ran natur, ond nid o ran graddau. Y mae modd ei wybod o fewn rhyw raddau terfynol, ond ar yr un pryd y mae y cariad yn ei anfeidroldeb yn gorwedd tu draw i'r terfynau hyny, ac felly uwch law (neu yn llythyrenol, tu draw) i wybodaeth; ac er fod cynnydd yn y wybodaeth yn estyn ac yn eangu y terfynau o fewn y rhai y mae yn bossibl ei wybod, etto y mae yn ammhossibl i'r terfynau, trwy unrhyw eangiad, gyrhaedd hyd at y diderfyn; îe, nid ydyw pob eangiad ar y terfynau, o fewn pa rai y gellir ei wybod, ond rhoddi argraph ddyfnach o'i fawredd diderfyn fel cariad uwch law gwybodaeth. Y mae y gwahaniaeth rhwng ystyr y ferf "gwybod" a'r sylweddair "gwybodaeth" yn awgrymu hyn. Y mae sylweddair yn arwyddo gorpheniad y drychfeddwl sydd yn gynnwysedig yn y ferf, tra y mae y ferf ei hun yn arwyddo parhâd neu anorpheniad. Y mae "caru" yn golygu gweithred anorphenol a pharhaus, tra y mae "cariad" yn golygu gweithrediad gorphenol. Yn Nuw y mae y ddau yn un. Y mae gweithred a gweithredu, cariad a charu, yr un; ac am hyny "Duw, cariad yw." Yn awr, y mae cariad Crist yn beth ag y gellir ei wybod yn ddiderfyn, ond nis gellir cyrhaedd y wybodaeth hono ag sydd yn gwbl hâd o'r drychfeddwl o'i wybod i dragwyddoldeb. *Fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw:*—neu, yn fwy manwl, "hyd at holl gyflawnder Duw." Groeg. *eis,* "i mewn i," neu "hyd at," gan ddynodi terfyn neu estyniad y cyflawniad a osodir allan yn yr ymadrodd "fel y'ch cyflawner." Y mae yr ymadrodd "cyflawnder Duw," â'r hwn y mae y saint yn cael eu cyflawni, trwy wybod cariad Crist, yn arwyddo mesur, neu reol eu cyflawniad; *h. y.*, medd Olshausen, "Fel y'ch cyflawner felly, fel y mae Duw wedi ei gyflawni: yn debyg fel y dywed Crist yn *Mat.* v. 48; "Byddwch berffaith, megys y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Lle y mae Crist yn trigo, yno y mae cyflawnder y Duwdod eisoes." "Yr hwn y mae Crist ganddo, sydd ganddo bob peth gwir angenrheidiol i'w wneuthur yn berffaith yn Nuw."—*Calvin.* Mae yr ymadrodd, ar yr un pryd, yn golygu gweithrediad diderfyn—"fel y byddoch yn cael eich cyflawni hyd at gyflawnder Duw." Nid wedi eu cyflawni, ond yn eu cyflawni, a hyny "hyd at," *h. y.*, yn ymgyrhaedd heb byth gyrhaedd y cyflawnder diderfyn ag y maent yn ei osod yn rheol ac yn gynllun iddynt eu hunain. Hanfod perffeithrwydd y creadur, nid yn unig ar y ddaear, ond yn y nefoedd, ydyw ymestyn at yr hyn sydd o'r blaen—ymaflyd heb gael gafael—ymgyrhaedd heb gyrhaedd—ac ymestyn at yr hyn sydd yn gorwedd o'n blaen fel y diderfyn i barhau.

20. *Ond i'r hwn.*—Cynnwysa yr adnod hon, ynghyd â'r nesaf, y fawl-wers â'r hon y mae yr apostol yn terfynu ei weddi. Y mae y gair "ond," yn nechreu yr adnod, yn awgrymu y gwrthgyferbyniad rhwng yr hyn y mae yr apostol yn gweddïo am dano ar ran yr Ephesiaid a'r hyn y mae yn ei ddymuno, fel gweithred o addoliad, i ddyfod yn eiddo i Dduw fel adlewyrchiad oddi wrth gyfoeth ei ogoniant tuag at ei bobl. "I'r eglwys bydded y cyflawnder, ond iddo ef y gogoniant yn yr eglwys," ydyw ystyr yr hyn a gynnwysir yn y fawl-wers. *A ddichon.*—"Pan y dywed y 'dichon' Duw, nid ydyw yn golygu gallu ar wahân, fel y dywedwn, oddi wrth y weithred; ond gallu yn cael ei weithredu, ac yn cael ei deimlo genym ni."—*Calvin. Yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl.*—Neu, yn fwy llythyrenol, "I'r hwn a ddichon wneuthur tu hwnt i bob peth, yn dra rhagorol ar yr hyn yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl." "Tu hwnt i bob peth."—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfeirio at ddeisyfiadau, neu y weddi, neu y pethau y gweddïasai am danynt. Er mor fawrion ydynt, teimlai yr apostol y gall Duw wneuthur tu hwnt iddynt. "Yn dra rhagorol ar yr hyn yr ydym yn eu dymuno."—Gall Duw, nid yn unig wneuthur tu hwnt i'r pethau, ond yn dra rhagorol tu hwnt. Sylwa Ellicott fod gan yr apostol Paul hoffder nodedig at yr arddodiad "tra" yn ei epistolau. Cymmharer *Rhuf.* viii. 37; v. 20; 2 *Cor.* vii. 4; a xi. 5; *Phil.* i. 9; 2 *Thes.* i. 3; 1 *Tim.* i. 14. Dywed hefyd ei fod yn cael ei arfer ganddo deirgwaith—yn fwy aml nag yn y gweddill o'r Testament Newydd. *Yn eu dymuno, neu yn eu meddwl.*—"Y mae ein meddyliau yn fwy eang na'n dymuniadau."—*Bengel.* Yn y weddi ei hun y mae yr apostol yn ein dysgu fod cariad Crist uwch law neu tu hwnt i'n gwybodaeth; ac yn gyfattebol i hyny y mae yn dangos yma fod ffrwyth y cariad hwnw yn y bendithion a gyfrenir i'r saint mewn attebiad i'w gweddïau, y tu hwnt i bob dymuniad a phob meddwl ag y mae yn bossibl iddynt ei goledd neu ei amlygu yn eu gweddïau. *Yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynom ni:*—"yn ol yr hyn yr ydym yn ei deimlo ynom ein hunain."—*Calvin.* Y mae ei allu yn cael ei weithredu, nid tuag atom hebom ni, ond tuag atom ynom ni. Y mae yn dyfod i gyffyrddiad mor agos a mewnol â ni fel yr ydym yn ei deimlo ynom, ac fel yn ei weithredu ein hunain. Hyn ydyw y gwir agoriad i ddeall dirgelwch ymadroddion ag sydd yn ymddangos fel yn anghysson â'u gilydd; "Rhoddaf

[a] Esa. 6. 3; Rhuf. 11. 36.

21 Iddo ef [y] *y byddo* y gogoniant yn yr eglwys trwy Grist Iesu, dros yr holl genhedlaethau, hyd yn oes oesoedd. Amen.

PENNOD IV.

1 *Y mae yn eu hannog hwynt i undeb; 7 ac yn dangos bod Duw yn rhoddi amryw* 11 *ddoniau i ddynion, er mwyn* 13 *adeiladaeth ei eglwys, a'i* 16 *chynnydd yn Nghrist.* 18 *Y mae efe yn eu galw hwynt oddi wrth ammhurdeb y cenhedloedd,* 24 *i wisgo y dyn newydd:* 25 *ac i furuo ymaith geiwydd,* 29 *ac ymadrodd llygredig.*

DEISYF gan hyny arnoch yr wyf fi, y carcharor yn yr Arglwydd, ar [a] rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi, B. A. 62. — [a] Gen. 5. 24; Phil. 1. 27.

2 Gyda phob gostyngeiddrwydd ac addfwynder, ynghyd â hirymaros, [b] gan oddef eich gilydd mewn cariad; [b] Rhuf. 15. 1; Gal. 6. 2.

3 Gan fod yn ddyfal [c] i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd. [c] Rhuf. 14. 17—19; 1 Cor. 1. 10.

i chwi galon newydd;" a "Gwnewch i chwi galon newydd."

21. *Iddo ef.*—Dylid rhoddi y pwyslais ar y rhagenw "ef." *Y gogoniant yn yr eglwys trwy Grist Iesu.*—Yn hytrach darllener fel hyn, "trwy Grist Iesu." Yn yr eglwys y mae cylch allanol y gogoniant sydd i gael ei roddi i Dduw; ac yn Nghrist Iesu y mae y cylch mewnol. O fewn cylch yr eglwys y mae gwir a phur addoliad i gael ei roddi a'i gyfiwyno yn mhob oes. Ynddi hi y mae gogoniant adlewyrchiadol y greadigaeth yn cael ymwybyddiaeth ac iaith. "Dy holl weithredoedd," medd y Salmydd, "a'th glodforant, a'th holl saint a'th fendithiant." Y mae y cyfan yn clodfori, ond y saint sydd yn bendithio. Ar wahân oddi wrth yr eglwys, y mae yr holl ogoniant a adlewyrchir gan weithredoedd Duw fel peroriaeth heb eiriau; ond yn yr eglwys y mae y peroriaeth hwnw yn cael geiriau. "Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw..... Nid oes iaith nac ymadrodd, ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt;" (felly y mae yn y gwreiddiol); ond yn yr eglwys, y mae gweithredoedd Duw mewn natur a gras yn cael iaith ac ymadrodd. *Yn Nghrist Iesu.*—Nid ydyw yr eglwys etto i gyflwyno ei haddoliad yn uniongyrchol i Dduw, ond yn Nghrist Iesu fel Cyfryngwr. Fel mai yn Nghrist y mae yr holl fendithion yn disgyn hyd ati hi, felly ynddo ef y mae i'w gogoniant a'i mawl hi esgyn hyd at Dduw, a hyny *dros yr holl genhedlaethau, hyd yn oes oesoedd.*—Ymadroddion ag sydd yn gosod allan yn iaith a darluniau terfynol y byd hwn feithder diderfyn y byd a ddaw. Y mae y cyntaf yn cyfeirio at barhâd fel y mae yn cael ei ddynodi a'i amlygu yn nilyniad cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth o bersonau; a'r ail, parhâd fel y mae yn cael ei amlygu yn nhreigliad amgylchiadau a digwyddiadau.

Pennod iv.

1. *Deisyf gan hyny.*—Y mae yr ymadrodd "gan hyny" yn cyssylltu y rhan athrawiaethol o'r epistol â'r rhan ymarferol o hono. Y mae y ddyledswyddau yn tarddu oddi wrth yr athrawiaeth, ac yn seiliedig arni. Y mae y geiriau "gan hyny" yn cyfeirio yn fwy pennodol, ar yr un pryd, at yr hyn a gynnwysir yn y rhan olaf o'r drydedd bennod, ond yn fwy cyffredinol at gynnwys y tair pennod. Ar ol bod yn ehedeg fel eryr mawr yn nghanol y nef, a'r efengyl dragwyddol ganddo yn ei hathrawiaeth, y mae yma yn disgyn i'r ddaear, ac at ddyledswyddau perthynol i'r byd hwn. Y mae yn ymdrin â dyledswyddau ymarferol y Cristion gyda manylder arbenig. "Fel y mae yr ehedydd," medd Eadie, "o'i ehedfan uchel yn yr awyr, yn canfod y gwrthddrychau lleiaf ar y llawr; felly y mae yr apostol, o'i uchelfa athrawiaethol, yn canfod gyda llygaid treiddgar fanylion y dyledswyddau sydd yn gorphwys ar greduriwyr i'w cyflawni." *Y carcharor yn yr Arglwydd.*—Yn *pen.* iii. 1, geilw yr apostol ei hun "carcharor Iesu Grist." Y mae gradd o wahaniaeth rhwng y ddau. Y mae "carcharor Iesu Grist" yn dynodi Crist fel awdwr ac achosydd ei garchariad, tra y mae "carcharor yn yr Arglwydd" yn disgrifio ei undeb a'i gymmundeb â'r Arglwydd Iesu yn ei garchariad. Yn yr undeb hwn yr oedd yn teimlo rhwymau i wasanaethu Crist fel Arglwydd, ac yn rhodio yn addas iddo fel carcharor; ac fel y cyfryw un y mae yn deisyf ar y rhai yr ysgrifenai atynt hefyd i rodio yr un modd. *Yn addas i'r alwedigaeth:*—*h. y.*, yn deilwng o alwedigaeth mor uchel, yn cynnwys breintiau mor ragorol a dyrchafedig; sef, cael eu gwneuthur yn deulu Duw, ac yn un corph mewn undeb â'r Arglwydd Iesu fel pen.

2. *Gyda phob gostyngeiddrwydd ac addfwynder, ynghyd â hir-ymaros.*—"Y mae yn awr yn disgyn at y manylion; ac yn gyntaf oll, y mae yn crybwyll gostyngeiddrwydd. Y rheswm yw, ei fod ar fyned i mewn i ymdriniaeth am undeb, i'r hwn y mae gostyngeiddrwydd yn ris cyntaf. Y mae hyn yn cynnyrchu addfwynder, yr hwn sydd yn eu tueddu i ymddwyn yn hynaws at eu brodyr, i gadw i fyny yr undeb hwnw, yr hwn, heb hyny, a fuasai yn cael ei dori ganwaith drosodd mewn diwrnod."—*Calvin.* Y mae y cyntaf o'r rhinweddau uchod yn dwyn cyssylltiad arbenig â'r meddwl, yr ail â'r dymmher, a'r trydydd â'r nwydau. Y mae y cyntaf yn ein dysgu i synied yn isel ac yn iawn am danom ein hunain; y mae yr ail yn ein dysgu oddi ar hyny i oddef gyda thynerwch, ac heb ddymuno ymddial ar wendidau a gwrthwynebiadau ereill; y mae yr olaf yn ein nerthu i attal ac i roddi i lawr gynnhyrfiadau annwydog, ac i ymddwyn yn amyneddgar a hir-ymarhous yn ein gweithredoedd tuag at ein cyd-ddynion. *Gan oddef eich gilydd mewn cariad.*—Y mae y gair "goddef" yn arwyddo, yn y ffurf y ceir ef yma, "ymattal." Trwy ymattal, y mae i ni amlygu yn weithredol y rhinwedd o hir-ymaros; a'r elfen fawr y mae yr ymattaliad hwnw i gael ei weithredu ynddi ydyw cariad. Yn awyr cariad y mae ymattaliad ein nwydau a'n hir-ymaros, sydd yn ffrwyth hyny, i gael ei weithredu; ac fe fydd i gariad, fel awyr, ein cynnal i fyny yn yr ymarferiad o hono. Y mae rhai [*Lachmann*, &c.] yn cyssylltu yr ymadrodd "mewn cariad" â dechreu yr adnod nesaf; ond drwy hyny, fel y dywed Ellicott, yr ydys yn dinystrio cydbwysedd y brawddegau, ac yn rhoddi pwys annaturiol ar yr ymadrodd "mewn cariad," mewn cyssylltiad â'r ymadrodd canlynol.

3. *Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd.*

[d] Rhuf. 12. 4. [e] Mat. 28. 19. [f] Rhuf. 3. 30; 2 Cor. 11. 4; Gal. 5. 6. [g] Mat. 28. 19; Rhuf. 6. 3. [h] Esa. 63. 16; Ioan 20. 17.

4 [d] Un corph *sydd*, [e] ac un Ysbryd, megys ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth;

5 Un Arglwydd, [f] un ffydd, [g] un bedydd,

6 Un [h] Duw a Thad oll, yr hwn

—Wrth "undeb yr Ysbryd" y mae i ni ddeall yn y lle hwn, nid undeb eglwysig [Grotius], na chwaith undeb yn ysbryd y saint yn eu perthynas â'u gilydd [*Calvin*], ond undeb sydd yn cael ei gynnyrchu gan, ac yn tarddu oddi wrth yr Ysbryd Glân, fel awdwr uniongyrchol. Ei breswyliad ef yn yr eglwys fel corph sydd yn ei gwneuthur yn un corph. Fel mai preswyliad yr ysbryd yn y corph dynol ydyw gwreiddyn ac egwyddor ei unoliaeth, felly hefyd trigiad a phreswyliad Ysbryd Crist yn yr eglwys, fel corph Crist, sydd yn ei gwneuthur yn un corph. Y mae yr undeb mewnol sydd yn perthyn i'r eglwys, gan hyny, yn bod ac yn dibynu ar breswyliad yr Ysbryd; ond y mae ar ein llaw ni gadw yr undeb hwn i fyny yn ei berthynas â ni yn bersonol? Y mae y gair "cadw" yn arwyddo "rhoddi sylw i," a "gofalu am:"—"*To keep, by giving heed to.*"—*Llewelyn Davies.* Trwy fyw "yn nghwlwm tangnefedd" â'u gilydd y mae y saint yn cadw undeb neu unoliaeth yr Ysbryd. Y mae y tangnefedd hwn, ar un tu, yn amlygu ger bron y byd undeb yr Ysbryd, ac, felly, mae yn cael ei gadw yn ngolwg a cher bron y byd; ac ar y llaw arall, y mae yn foddion i'r Ysbryd ei hun roddi ei bresennoldeb a'i breswyliad yn yr eglwys; yr hyn, fel y nodwyd o'r blaen, ydyw hanfod yr unoliaeth a berthyn iddi fel corph. *Yn nghwlwm tangnefedd.*—Y cwlwm ydyw tangnefedd. Nid yr ystyr ydyw, yn yr hyn sydd yn gwlwm *i* dangnefedd, sef cariad, fel y golyga rhai [*Origen*]; ond yr hyn sydd yn gwlwm rhwng y saint a'u gilydd, fel ag i'w cymmhwyso i gael eu preswylio gan un Ysbryd; a'r cwlwm hwnw yw tangnefedd.

4. *Un corph sydd, ac un Ysbryd, megys ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth.*—Yn y Groeg, ni cheir yr un ferf mewn cyssylltiad â'r ymadroddion blaenaf. Darllenir fel hyn: "Un corph, ac un Ysbryd." Y mae yn bossibl, gan hyny, eu deall naill ai yn fynegol neu yn orchymynol; ond y cyntaf ydyw y mwyaf tebygol yn unol â'n cyfieithiad ni. Y mae y cyssylltiad rhwng y gosodiadau a gynnwysir yn yr adnodau hyn a'r rhanau blaenorol yn anhawdd i'w ganfod. Ymddengys i ni mai y gwir gyssylltiad ydyw, fod y cynghor a rydd yr apostol yma ar iddynt "gadw undeb yr Ysbryd" wedi arwain ei feddwl yn naturiol i osod allan unoliaeth yr efengyl yn gyffredinol, a hyny fel cymmhelliad iddynt hwy, trwy ei gadw mewn golwg i ymdrechu, drwy undeb â'u gilydd, i'w ddangos yn fwy effeithiol ger bron y byd. Edrycha ar yr unoliaeth hwn fel y mae yn dwyn cyssylltiad â'r Drindod o berson-au—yr Ysbryd, y Mab, ac yn ddiweddaf y Tad. Yn y bedwaredd adnod, golygir ef yn ei berthynas â'r Ysbryd Glân, fel y mae yn llanw ac yn bywhau yr eglwys. "Un corph sydd, ac un Ysbryd." Nid oes ond un Ysbryd yn preswylio yn yr un corph, ac nid oes ond un bywyd yn treiddio drwy y corph hwnw fel y mae yn cael ei fywhau gan yr un Ysbryd, yr hwn fywyd sydd yn y byd hwnw yn cymmeryd y ffurf o obaith arno ei hun—"un gobaith" ydyw y bywyd sydd yn y corph. Y mae yr unoliaeth, gan hyny, nid yn unig yn

sydd goruwch oll, a thrwy oll, [f] ac [i] 2 Cor. 6. 16. ynoch oll.

7 Eithr i bob un o honom y rhoed gras, yn ol mesur dawn Crist.

8 O herwydd pa ham y mae efe

allanol (*objective*) drwy breswyliad yr Ysbryd, ond hefyd yn fewnol (*subjective*), trwy goleddu yr un gobaith, fel ffrwyth y preswyliad hwnw:—"Megys ag y'ch galwyd yn un gobaith," &c.

5. *Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd.*—Yn yr adnod hon y mae yr apostol yn edrych ar unoliaeth yr efengyl yn ei berthynas â'r ail berson yn y Drindod. "Un Arglwydd"—un gwrthddrych mawr sydd genym fel Cyfryngwr i gredu ynddo, a myned at Dduw trwyddo; ac "un ffydd" sydd genym yn y gwrthddrych; ïe, "un bedydd" fel amlygiad o'r un ffydd hono yn y broffes a wnawn o hono ef fel Arglwydd, ac o'n ffydd ninnau ynddo. Pa ham na buasai yr apostol yn chwanegu hefyd "un bara," gan gyfeirio at Swper yr Arglwydd yn gystal ag at fedydd? Y mae yr attebiad a rydd Ellicott, mewn byr eiriau, yn rhagorol, dybygem ni; sef, fod y Swper Sanctaidd, yr hwn yr ydym yn cyfranogi yn fynych o hono, yn arwyddiun mwy priodol o undeb; tra y mae bedydd, yr hwn ni weinyddir ond unwaith, yn fwy priodol yn arwyddocaol o unoliaeth, yr hyn ydyw y drychfeddwl sydd gan yr apostol yn y lle hwn. Yr attebiad a ddyry Harless ydyw, am mai cyfeirio y mae yr apostol at y pethau angenrheidiol i ddyfodi gymmundeb eglwysig yn y dechreu, sef ffydd a bedydd. Ond atteba Olshausen i hyn, fod Swper yr Arglwydd yn canlyn y bedydd yn uniongyrchol yn yr eglwys gyntefig. Ei olygiad ef ei hun ydyw, fod hanfod y Swper Sanctaidd yn gorwedd yn dybiedig yn yr ymadrodd "un ffydd," gan mai trwy ffydd yr ydym yn bwyta ei gorph ef, ac yn yfed ei waed ef, yn y Swper Sanctaidd.

6. *Un Duw a Thad oll.*—Yma, golygir unoliaeth yr efengyl yn ei berthynas â'r person cyntaf yn y Drindod. *Yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll.*—Neu, "yn oll," yn fwy cywir, dybygid. Y mae "chwi" yn ddiffygiol yn A. B. C., ac amryw ysgrifau ereill. Y mae yr ymadroddion "goruwch," "trwy," ac "yn," yn gosod allan y perthynasau amrywiol ag y mae y Tad yn sefyll ynddynt tuag at ei greaduriaid. Y mae "goruwch oll" yn ei berson ei hun, "trwy oll" yn y Mab, ac "yn oll" yn mherson yr Ysbryd Glân.

7. *Eithr i bob un o honom y rhoed gras, yn ol mesur dawn Crist.*—Nid ydyw unoliaeth yr efengyl yn cau allan amrywiaeth, ond yn hytrach yn ei gynnwys. Unoliaeth mewn amrywiaeth sydd yn nodweddu holl weithredoedd Duw yn y greadigaeth, ac felly hefyd yn ngwaith y pryneddigaeth. Un Ysbryd sydd, ac un corph; ond y mae amryw aelodau yn y corph, ac i bob aelod ei le a'i waith ei hun. Nid oll-ddynoliaeth ydyw yr eglwys, gan fod unigoliaeth pob aelod o'i mewn yn cael ei gadw "i bob un o honom." Y mae gras yn cael ei roddi i bob un; neu yn llythyrenol, "*y* gras"—y gras sydd yn briodol i'r un neilldiuol, a hyny, drachefn, yn ol dawn un—un ddawn i un, i arall ddawn arall; ac nid yn unig yn ol dawn, ond yn ol mesur dawn Crist—i un fesur mwy, i arall llai, yn ol mesur dawn Crist.

8. *O herwydd pa ham:—h. y.*, mewn trefn i

yn dywedyd, Pan ddyrchafodd
[k] Barn. 5. 12. i'r uchelder, [k] efe a gaethiwodd
1 Sam. 30. 26. gaethiwed, [l] ac a roddes roddion i ddynion.

9 (Eithr efe a ddyrchafodd, beth yw ond darfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear?

gyfranu y rhoddion yn ol mesur ei ewyllys ei hun, darfu i'r Arglwydd Iesu esgyn goruwch yr holl nefoedd ar ol disgyn i barthau isaf y ddaear. *Y mae efe yn dywedyd* :—sef yn *Salm* lxviii ; a Duw y Tad yn y Salm hon yw y Messiah. Y mae yr adnodau hyn yn mhlith y rhai anhawddaf yn y Testament Newydd, ac y mae yr esbonwyr goreu, ar ol rhoddi eu holl nerth i [geisio symmud ymaith yr anhawsderau sydd ynglŷn â hwy, yn gorfod cyfaddef nad ydynt yn teimlo yn foddhaol ar yr eglurhâd a gynnygiant arni. Un anhawsder ydyw, fod yr apostol yn dyfynu y geiriau hyn, ac yn eu cymmhwyso at y Messiah, allan o Salm a ystyrir yn an-Fessiahaidd. Y mae sylwadau Hodge ar yr anhawsder hwn yn wir ragorol. Er fod y Salm yn ddisgrifiad, yn y lle cyntaf, o fuddugoliaeth Duw, fel brenin y genedl, trwy law Dafydd ar ei elynion, etto dylid cadw mewn golwg fod digwyddiadau o'r fath yn gysgodol, dan yr oruchwyliaeth hono, o ffeithiau mawrion yr efengyl. Eilwaith, y mae yn amlwg mai wrth "Iehofah" y Salm hon y dylid golygu y Messiah, fel yr oedd yn [r]rhoddi ei bresennoldeb cyn ymddangos yn y cnawd yn mhlith y genedl Iuddewig. Ac, yn drydydd, nid oes dim yn fwy sicr na bod geiriau ysbrydoliaeth, er cyfeirio yn uniongyrchol at ddigwyddiadau llai pwysig, yn derbyn eu cyflenwad helaethaf mewn digwyddiadau mwy pwysig, o'r rhai nad ydyw y rhai cyntaf ond cysgodau neu ragflugiadau gweiniaid. Yn bedwerydd, nid oes dim, gan hyny, yn fwy naturiol nag i ni ddisgwyl y byddai i ysbrydoliaeth ddwyfol, wrth gyfarwyddo ei weision i eglluro y cyflawniad helaethach a dyfnach, eu dysgu i helaethu a chyflawni yr ymadroddion a ddefnyddiwyd gynt gyda chyfeiriad arbenig at y digwyddiadau cysgodol. Fel y mae yr afon wrth chwyddo gan y llifogydd, yn helaethu, yn lledu, ac yn dyfnhau ei gwely, felly y mae ymadroddion ysbrydoledig prophwydi yr Hen Destament, wedi eu llanw âg ysbrydoliaeth y Newydd, yn cael eu helaethu a'u cyflawni at fesur y dadguddiad cyflawnach, sydd yn ffrwyth sylweddoliad yr holl gysgodau gynt. Y mae hyn yn ein harwain, gan hyny, at yr ail anhawsder ; sef, y gwahaniaeth sydd rhwng y dyfyniad a wna yr apostol o'r Salm, a'r geiriau fel y canfyddir hwynt yn y Salm ei hun. Yn y Salm darllenir, "Ti a dderbyniaist (neu a ddygaist) roddion i ddynion" (neu mewn dyn) ; ond yma, "Efe a roddes roddion i ddynion." Llawer ydyw yr ymgeisiau i roddi cyfrif am hyn ; megys (1.) Anghof yr apostol o'r geiriau fel y maent yn fanwl ; (2.) Brys diofal ; (3.) Cyfnewidiad bwriadol ; (4.) Cyfaddasiad geiriau a lefarwyd i osod allan beth arall i egluro ei feddwl ei hun ; (5.) Cymmhwysiad o eglurhâd y Rabbiniaid Iuddewig ar y lle ; (6.) Fod y testyn Hebraeg yn anghywir, a dyfyniad yr apostol yn unol â'r testyn Hebraeg gwreiddiol. (7.) Mai nid dyfynu y Salm uchod y mae Paul yma, ond dyfynu hymn a arferid gan yr Ephesiaid ; (8.) Fod y gair Hebraeg "dwyn," neu "dderbyn," yn arwyddo, yn ei ystyr llawn, derbyn, mewn trefn i roddi ar ol derbyn. Gallesid enwi chwaneg, ond gwelir nad oes dim grym mewn un o honynt, oddigerth, fe allai, yr olaf. Cyfeirir y darllenydd at y pedwerydd sylw a wnaed uchod, fel y gwir egwyddor, i gyssoni yr ymddangosiad hwn o anghyssondeb. Yn y darlun cysgodol, dygiad a derbyniad y rhoddion fel ysbail sydd yn cael ei bortreadu : ond cyflawnir y portread gan yr apostol Paul, trwy ddangos pa beth a wnaeth y buddugoliaethwr, a'r hyn a ddygodd yn ysbail, sef, eu rhoddi i ddynion. *Pan ddyrchafodd i'r uchelder* :—neu, yn fwy manwl, "wedi iddo ddyrchafu." *Efe a gaethiwodd gaethiwed.*—Yr arddansoddol am y cyfansoddol—caethiwed am gaethion. Gwelir yr un ffurf o ymadrodd yn *Num.* xxxi. 12 ; *Barn.* v. 12 ; 2 *Cron.* xxviii. 11, 13. Pwy sydd i ni ddeall wrth y caethion hyn ? Holl elynion Crist ; sef, Satan, pechod, a marwolaeth. Dealla rhai y geiriau yn wahanol, gan olygu mai y meddwl ydyw, fod Iesu Grist, yn ei esgyniad, wedi rhyddhau dynion fel caethion y diafol, neu y saint yn Hades fel caethion angeu ; ond, fel y dywed Calvin, nid dwyn allan gaethion i ryddid, eithr gelynion i gaethiwed, ydyw drychfeddwl y geiriau. *Ac a roddes roddion* :—sef rhoddion ysbrydol, fel y dengys yr adnodau canlynol.

9. *Eithr efe a ddyrchafodd, beth yw ond darfod iddo hefyd ddisgyn.*—Grym yr ymresymiad, fel y dengys Meyer ac Olshausen, ydyw, fod dyrchafiad Duw, o angenrheidrwydd, yn golygu disgyniad blaenorol. Rhaid i fod dwyfol ddisgyn cyn y gall esgyn. Y mae yr ymresymiad hwn yn gymmhwysedig at yr esgyniadau o eiddo y person mawr dan yr hen oruchwyliaeth, ond yn arbenig at yr esgyniad uchaf, yn wrthgyferbyniol i'r disgyniad dyfnaf. *I barthau isaf y ddaear.*—Groeg : "I barthau îs y ddaear." Y mae yr ymadrodd yn ammwys. Gellir ei ddeall fel yn arwyddo "parthau îs, sef y ddaear, neu parthau îs na'r ddaear." Y cyntaf ydyw yr ystyr a gymmerwadwyir gan y rhan fwyaf o'r esbonwyr diweddaf. Y mae yr ymadrodd Hebraeg, a ystyrir yn gyfystyr âg ef, yn cael ei ddefnyddio naill ai am y ddaear, neu am y groth, neu am y byd anweledig ; ac o herwydd hyny, nis gallwn benderfynu yr ystyr oddi wrtho arno ei hun. Yn ol yr ail ystyr, golygir fod yr ymadrodd yn dynodi disgyniad Crist i uffern. Y mae yn amlwg fod y bedd, o dan yr hen oruchwyliaeth, yn cael ei ddefnyddio fel math o arwyddlun cysgodol o le cospedigaeth, neu uffern ; ac am [s]hyny yr oedd yr un enw yn cael ei ddefnyddio am y naill a'r llall : ond nis gallwn, ar sail y gair noeth, gasglu fod yr Arglwydd Iesu wedi disgyn, nid yn unig i'r bedd, ond hefyd i'r lle yr oedd y bedd yn gysgod o hono, sef carchar yr ysbryd. Nid oes genym awdurdod, o leiaf, i farnu oddi wrth yr ymadrodd, ddim yn chwaneg na bod disgyniad y Gwaredwr yn golygu ei holl ymddarostyngiad hyd angeu y groes, a'i gladdedigaeth yn medd newydd Ioseph. Trwy gymmeryd yr ymadrodd yn yr ystyr hwn, cynnwysir y golygiad arall, sef ei ymgnawdoliad. Disgynodd i'r ddaear yn ei ymgnawdoliad, a disgynodd yn îs na'r ddaear yn ei angeu a'i gladdedigaeth.

10. *Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd* :—neu, "Yr hwn a ddisgynodd, efe yw yr hwn hefyd a esgynodd." Crist oedd yn disgyn dan yr Hen Destament, ac efe oedd yn esgyn, fel y lleferir yn uniongyrchol am Dduw yn y Salm ;

[n] Eph. 1. 20—22.
[o] Ioan 1. 16.

10 Yr hwn a ddisgynodd, yw yr [o]hwn hefyd a [m]esgynodd goruwch yr holl nefoedd, [n]fel y cyflawnai bob peth)

11 Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn

[p] Rhuf. 14. 19.
[q] Adn. 4.
[r] Adn. 3, 5.

a'r un modd, yr un person yn awr a ddisgynodd yn ystyr cyflawn y gair, ac efe hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd. Yn *adn.* 9, ymresymir yr angenrheidrwydd am ddisgyniad blaenorol i esgyniad person dwyfol, ac yma etto ymresymir yr angenrheidrwydd am esgyniad canlynol i ddisgyniad blaenorol yr un person. Unoliaeth y person ydyw y drychfeddwl a gynnwysir yn yr ymadrodd "yr hwn hefyd." Nid y Mab yn disgyn, a'r Tad yn esgyn, ond y Mab yn disgyn ac yn esgyn. Nid un Messiah mewn cyflwr o ymddarostyngiad, ac un arall mewn cyflwr o ddyrchafiad, ond un Messiah yn y naill a'r llall, ac yn cyrhaedd y naill drwy y llall, a'r naill ynddo yn achos o'r llall. *Goruwch yr holl nefoedd.*—Nid goruwch yr oll o'r nefoedd, ond "goruwch yr holl nefoedd;" *h. y.*, "pob nefoedd." Saesneg, "*far above all heavens.*" Os disgynodd yn îs na'r ddaear yn ei ddarostyngiad, esgynodd yn uwch na'r nefoedd yn ei ddyrchafiad, ac yn uwch na'r oll o honynt. Dywed awdwr yr Epistol at yr Hebreaid iddo fyned "trwy y nefoedd" i eistedd ar ddeheulaw Duw yn uchelder uchelaf yr uchaf o'r holl nefoedd. Ennillodd nerth wrth ddisgyn i esgyn. Trwy ddisgyn i barthau isaf y ddaear, cyrhaeddodd gychwynfa i ddyrchafiad na bydd terfyn iddo byth. *Fel y cyflawnai bob peth.*—Groeg: "Fel y llanwai bob peth." Y mae yr ymadrodd hwn yn un cynnwysfawr, ac ni ddylid ceisio ei gyfyngu. Cynnwysa, nid yn unig y drychfeddwl o bresennoldeb, ond hefyd o gyflenwi â phob bendith a daioni. Yr un modd ni ddylid cyfyngu ystyr yr ymadrodd "pob peth" at yr eglwys; eithr yn hytrach dylai gael ei olygu fel yn cynnwys yr holl greadigaeth, i'r graddau ag y mae Crist, fel Cyfryngwr dyrchafedig, yn ei llanw â'i bresennoldeb ac â'i ddaioni. Nid yw y presennoldeb i'w gau allan, fel y mae yn amlwg oddi wrth y Salm—"fel y preswyliai yr Arglwydd Dduw yn eu plith:" ond nid ydyw yntau chwaith i gau allan, ond yn hytrach i olygu y daioni; canys lle bynag y mae presennoldeb y Gwaredwr dyrchafedig, yno y mae ei gyflawnder a'i ras. Tuag at lanw "pob peth" yn yr ystyr hwn, yr oedd yn rhaid i'r Person mawr waghau ei hun: *Phil.* ii. 7. Yr oedd yn llanw gwagle creadigaeth, fel person dwyfol, heb waghau ei hun. Fel y cyfryw, y mae yn "llanw oll yn oll," heb eisieu gwaghau dim arno ei hun; ond "fel y llanwai bob peth," yr oedd yn rhaid iddo ymwaghau ac ymwadu â'i gyflawnder, i lanw y gwagle ag yr oedd pechod wedi ei gynnyrchu. Y mae ffurf y geiriau yn arwyddo ei fod yn llanw yn barhaus. Fel y mae yn barhaus yn cael ei gyflawni â dyrchafiad a gogoniant gan y Tad, y mae yn cyflawni pob peth. Disgynodd i ymwaghau—esgynodd i gyflawni. Y mae wedi ei ddyrchafu yn ddigon uchel fel ag i fod mewn sefyllfa gyfaddas i gyflawni. Y mae cronfa (*reservoir*) y cyflawnder yn ddigon uchel i gyflenwi nid yn unig y ddaear, ond y nefoedd hefyd, gan ei bod uwch law yr holl nefoedd. Nid oes dim sail yn cael ei roddi yn yr ymadrodd i'r golygiad Lutheraidd—fod corph Crist yn hollbresennol. Nid am y corph y dywedir, ond am y person. Yr holl wirionedd sydd yn y golygiad ydyw, fod y natur ddynol yn gyflawn yn bresennol yn mhob man; nid o honi ei hun, ond yn ei hundeb â'r person.

11. *Ac efe a roddes.*—Efe, yr hwn a ddisgynodd ac a esgynodd, a "roddes." Ar ol nodi y gwaith o "gyflawni pob peth," fel amcan ei ddisgyniad a'i esgyniad, y mae yma yn hysbysu y rhoddiad a enwir fel ffaith. Y mae swyddau eglwysig, ynghyd â'r cymmhwysderau gofynol i'w cyflawni, yn rhoddion y Gwaredwr dyrchafedig. *Rai yn apostolion.*—Nodau hanfodol apostolaeth:—1. Appwyntiad uniongyrchol gan Grist; 2. Bod yn dystion o'i adgyfodiad; 3. Ysbrydoliaeth i lefaru ac ysgrifenu; 4. Gallu arbenig i gyflawni gwyrthiau; 5. Anfoniad i'r holl fyd. *Rhai yn brophwydi.*—Rhai yn llefaru ac yn dysgu dan ddylanwad yr Ysbryd Glân. Gwel 1 *Cor.* xiv. 1—40. *Rhai yn efengylwyr*:—sef, pregethwyr yr efengyl, yn enwedig cenhadau i wledydd ereill, lle yr oedd yr efengyl etto heb gyrhaedd. "Y rhai, gan fyned oddi amgylch, oeddynt yn pregethu."—*Theodoret. A rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon.*—Cynnwysa "bugeiliaid ac athrawon" nid dau ddosbarth, ond un, i'r hwn y perthynai dau ddosbarth o waith. Un swydd yn cynnwys dau waith, sef llywodraethu a dysgu. Ni ddywedir, "rhai yn fugeiliaid, a rhai yn athrawon," ond "rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon."

12. *I berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist.*—Y mae yr ymadroddion hyn i'w cyssylltu â'r adnodau blaenorol, "Ac efe a roddes," &c. Y maent yn dynodi amcanion mawrion rhoddiad y swyddau, ynghyd â'r doniau ysbrydol perthynol iddynt. Y mae y cyntaf yn gosod allan yr amcan terfynol, a'r ddau 'arall yr amcanion mwy uniongyrchol. Perffeithrwydd y saint ydyw yr amcan mawr ac eithaf yn yr hwn y cyrhaeddir y gogoniant mynegol uchaf i Dduw. Er dwyn yn mlaen y perffeithiad hwn, y mae "gwaith y weinidogaeth' yn cael ei gyflawni. Wrth "weinidogaeth," yr ydym i ddeall yma gwasanaeth swyddol yn eglwys Crist. Firwyth cyflawniad gwaith y gwasanaeth swyddol hwnw yw adeiladu yr eglwys fel corph Crist. Y gwaith sydd yn adeiladu, a'r adeiladu sydd yn perffeithio.

13. *Hyd oni ymgyfarfyddom oll.*—Groeg: "Hyd oni chyrhaeddom oll." *Yn undeb ffydd.*"—Groeg: "Hyd at undeb ffydd;" neu yn fwy cywir, "nag undeb unoliaeth." Yn *adn.* 5, dywedasai yr apostol mai "un ffydd" sydd, *h. y.*, yn allanol; ond y mae y saint fel eglwys i ddangos ac amlygu hyny yn ei hanes a'i phrofiad, yr hyn ydyw amcan mawr yr addysg a gyfrenir iddi ac ynddi gan ei swyddogion anfonedig. *A gwybodaeth Mab Duw.*—Y mae yr eglwys i ymestyn at unoliaeth gwybodaeth Mab Duw, yn gystal ag at unoliaeth ffydd. Cymmerir y gair "ac" gan rai [*Calvin*] yn eglurhaol, gan ddarllen yn lle "ac," "sef;" ond y mae hyn yn anghywir. Y mae ffydd a gwybodaeth yn ddau air gwahaniaethol. Y mae ereill yn deall mai yr ystyr ydyw, fod yr eglwys yn ymestyn at yr adeg pryd y bydd ffydd a gwybodaeth wedi peidio a

Mat. 11. 27. oll yn undeb ffydd, a [s] gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith, at [t] Eph. 1. 23. fesur oedran [t] cyflawnder Crist:

14 Fel na byddom mwyach yn blantos yn bwhwman, ac yn ein cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hocced dynion, trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo:

15 [u] Eithr, gan fod yn gywir [v] 2 Cor. 4. 2. mewn cariad, [x] cynnyddu o hon- [x] Hos. 14. —7. om iddo ef yn mhob peth, [y] yr [y] 1 Pedr 2. 2. hwn yw y pen, *sef* Crist: [z] Adn. 22.

16 O'r [z] hwn y mae yr holl [a] Adn. 12. gorph [b] wedi ei gydymgynnull a'i [b] Col. 2. 19. gydgyssylltu, trwy bob cymmal cynnaliaeth, yn ol y nerthol weithrediad yn mesur pob rhan,

---

bod yn ddau beth—pan y bydd ffydd yn wybodaeth; ac felly y bydd undeb rhyngddynt yn yr ystyr o fod y naill wedi llyngcu i fyny y llall. Y mae y golygiad hwn yn hollol annheby gol, ac yn ol ein barn ni yn gyfeiliornus fel athrawiaeth. Y mae y gair a ddarllenir yma "gwybodaeth," yn arwyddo yn fanwl "adnabyddiaeth." Nid *gnósis* ond *epignósis*. *Yn ŵr perffaith.*—Nid "yn ddyn perffaith," ond "yn ŵr perffaith." Y mae gwahaniaeth ystyr yn yr iaith Roeg rhwng *anthrópos* ac *aner*, cyfattebol i'r gwahaniaeth rhwng y geiriau Cymraeg "dyn" a "gŵr." Y mae yr olaf yn cael ei ddefnyddio yn gyssylltiedig â'r drychfeddyliau o gadernid, urddas, a pherffeithrwydd; a'r un modd yn y lle hwn. *At fesur oedran cyflawnder Crist.*—Neu, gellir darllen yr un mor gywir, "At fesur maintioli cyflawnder Crist," gan fod y gair Groeg *helikia* yn ammwys. Gall gyfeirio naill ai at faintioli neu at oedran. Yn y cyfeithiad Saesneg, darllenir *stature; h. y.*, maintioli. Yr ydym yn tueddu i dybied fod y ddau ddrychfeddwl yn ngolwg yr apostol: ac yn wir, y mae perthynas agos rhwng y ddau yn eu hystyr naturiol. Y mae perffeithrwydd oedran a pherffeithrwydd maintioli yn sefyllfa y ddynoliaeth yn gydamserol. "Mesur oedran cyflawnder Crist."—Gellir cymmeryd y ddau air olaf fel yn dynodi yr achos o'r perffeithrwydd a gyssylltir â'r eglwys; *h. y.*, y "mesur oedran," neu y "mesur maintioli," neu yn hytrach y ddau, fel y maent yn effaith y derbyniad gan yr eglwys o gyflawnder Crist fel ei phen. Neu, ynte, gellir ei ddeall yn yr ystyr o fod yn ddisgrifiad o gyffurfiad yr eglwys â'i phen, o ran perffeithrwydd. Fel y mae efe wedi cyrhaedd mewn oedran cyflawnder, felly y mae hithau yn ymestyn at yr un mesur ag ef.

14. *Fel na byddom mwyach yn blantos.*—Y mae y geiriau hyn etto i'w cyssylltu âg *adn.* 11: "Ac efe a roddes," &c. Yr amcan eithaf ydoedd y perffeithrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adnodau blaenorol; ond yr amcan uniongyrchol, yr hwn hefyd sydd i fod yn foddion i gyrhaedd yr amcan eithaf, ydyw yr hyn a osodir allan yn yr adnod hon a'r un ganlynol. Mewn trefn i ymestyn at fod yn ŵr perffaith, rhaid iddo ymdrechu i beidio a bod yn blentyn. *Yn bwhwman.*—Y drychfeddwl ydyw, ansefydlogrwydd plentyn. Y mae y gair Groeg yn arwyddo "yn cael eu lluchio fel tŏn y môr." *Trwy hocced dynion.*—Y mae y gair a gyfleithir yma "hocced," yn arwyddo "dis;". Saesneg, *die.* Y mae yn cyfeirio, fel y mae yn amlwg, at y twyll a arferid wrth chwareu disiau. *Trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo.*—Groeg: "mewn cyfrwysdra (yr hwn sydd yn tueddu) at gyfundraeth o gyfeiliorni." Y meddwl, dybygir, ydyw, na byddai iddynt gymmeryd eu hadsefydlu trwy, neu yn y twyll, a'r cyfrwysdra drygionus hwnw sydd â'i duedd a'i amcan yn y pen draw i sefydlu cyfundrefn o dwyll neu gyfeiliornad. Y mae cyfeiliornad mewn athrawiaeth yn gwreiddio mewn cyfeiliornad yn yr ysbryd.

15. *Eithr gan fod yn gywir mewn cariad.*—Mae y gair Groeg, *aletheuein*, yr hwn a geir yma, yn arwyddo mwy na dywedyd y gwir, fel y mae yn y cyfieithiad Saesneg, "*speaking the truth in love.*" Cynnwysa hefyd fwy na bod "yn gywir," fel y mae yn ein cyfieithiad ni; o leiaf, os cymmerwn ystyr cyffredin y gair "cywir." Y mae y gair yn golygu "sylweddoli y gwirionedd," fel ag i'w droi yn egwyddor oddi fewn o fod yn athrawiaeth oddi allan. Mewn cariad yn unig y mae yn bossibl i ni wneuthur hyny. Trwy "dderbyn cariad y gwirionedd" y mae yn dyfod yn eiddo mewnol i ni ein hunain, ac yn derbyn hanfodiad mewnol ynom; a thrwy hyny gwneir ni yn "gywir" yn ystyr manwl a llythyrenol y gair Cymraeg, yr hwn a arwydda "cyddfurfiad â'r gwirionedd (cy-wir). *Cynnyddu o honom iddo ef.*—Sail cynnydd yr eglwys ydyw dal y gwirioniedd, a'i sylweddoli mewn gair, teimlad, a gweithred; a chynnwys y cynnydd ydyw cymmundeb â Christ fel pen. Y mae y cymmundeb hwn yn cael ei osod allan yn yr ymadrodd "iddo ef;" neu fel yr arwydda yn fwy manwl, "i mewn iddo ef." Fel y mae y *parasite* yn tyfu trwy ymwreiddio yn fwy mewnol i'r pren y mae yn byw ac yn tyfu ynddo, felly y mae yr eglwys yn cynnyddu trwy gymmundeb mewnol â Christ fel ei phen, yn yr hwn gymmundeb y mae yn ymweithio i mewn i'w berson. Yn hyn y mae y gwahaniaeth rhwng undeb â Christ a chymmundeb â Christ i'w ganfod. Nid oes gynnydd yn yr undeb, canys perthynas ydyw; ond y mae cynnydd yn y cymmundeb, gan mai cyfranogiad o'i sancteiddrwydd ef ydyw. Iesu Grist ydyw y canolbwynt mawr, at yr hwn, ac i mewn i'r hwn, y mae yr eglwys, trwy ei chymmundeb ysbrydol âg ef trwy ffydd yn ymestyn, ac yn ymgyrhaedd yn wastad. *Yr hwn yw y pen, sef Crist.*—Y mae cynnydd yr eglwys yn cael ei osod allan gan yr apostol yn y rhanau yma o ran ei darddiad ac o ran ei gyfeiriad terfynol; ac ni a ganfyddwn mai Crist ydyw y naill a'r llall. O Grist y mae yn tarddu, fel y dengys yr adnod nesaf; ac i Grist, fel pen, y mae yn ymestyn fel ei ganolbwynt eithaf, fel y dengys diwedd hon.

16. *O'r hwn y mae yr holl gorph.*—Yn yr ymadrodd hwn, gosodir allan darddiad y cynnydd. *Wedi ei gydymgynnull a'i gydgyssylltu.*—Y mae y gair cyntaf yn arwyddo "cydgyfaddasiad" y naill ran i'r llall, a'r ail cydgyssylltiad y naill â'r llall. *Trwy bob cymmal cynnaliaeth.*—Y mae y gair a ddarllenir yma "cymmal," (Groeg, *aphé*), yn ammwys. Gellir ei gyfleithu "teimlad," neu ynte, fel y gwneir yma, cymmal neu gysswilt. Y mae *Col.* ii. 19, yn cadarnhau yr ail ystyr. Yn hytrach na "chynnaliaeth," dylid darllen "cyflenwad" (*supply*). Yr ystyr felly ydyw "trwy bob cymmal" ag sydd yn derbyn cyflenwad o fywyd a nerth o'r pen. *Yn ol y nerthol weith-*

[b] Phil. 1. 9; 1 Thes. 4. 9, 10; 1 Tim. 1. 5.

[b] yn gwneuthur cynnydd y corph, i'w adeiladu ei hun mewn cariad.

[c] Act. 20. 21; 1 Thes. 4. 6.

17 Hyn gan hyny yr wyf yn ei [c] ddywedyd, ac [c] yn ei dystiolaethu yn yr Arglwydd, na rodioch chwi mwyach fel y mae y Cen-

[d] Act. 14. 15.

[d] hedloedd ereill yn rhodio, [d] yn ol oferedd eu meddwl;

18 Wedi tywyllu *eu* deall, wedi [e] ymddyeithro oddi wrth fuchedd Dduw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddynt, [f] trwy ddall-

[e] Rhuf. 8. 7-8.

[f] Rhuf. 2. 19.

ineb eu calon:

19 Y rhai wedi [g] diddarbodi, a [h] ymroisant i drythyllwch, i wneuthur pob aflendid yn unchwant.

[g] 1 Tim. 4. 2.

[h] Adn. 17.

20 Eithr [i] chwychwi nid felly y dysgasoch Grist;

[i] Luc 24. 47; Ioan 6. 48.

rediad yn mesur pob rhan.—Gellir cyssylltu y frawddeg hon naill ai â'r geiriau "cydymgynnull" a "chydgyssylltu," i ddisgrifio modd a graddau y cyssylltiad; neu ynte, â'r gair "cynaliaeth," i ddisgrifio pa fodd y mae y cyflenwad neu y cynnaliaeth yn cael ei weinyddu; neu ynte, ac yn ol ein barn ni yn gywir, â'r ymadrodd canlynol, "yn gwneuthur cynnydd." Y mae y corph yn cynnyddu yn gyfartal, ac nid yn anghyfartal yn ei ranau, "yn ol y nerthol weithrediad yn mesur pob rhan." Y mae y disgrifiad o'r cynnydd fel hyn yn gyflawn—Crist a'i gyflawnder ydyw ei ddefnydd, "o'r hwn." Undeb yr eglwys fel corph sydd yn cyfansoddi y cyfrwng trwy ba un y mae y cyflenwad i redeg allan o hono ef fel pen iddi hi, fel corph, trwy bob cymmal a berthyn iddi fel y mae yn gydgyssylltiedig a chydymgynnulledig yndda ef; a rheol neu ddeddf y cynnydd ydyw yn ol "gweithrediad yn mesur pob rhan." Y mae pob rhan o'r corph yn gweithredu yn y cynnydd yn ol ei fesur priodol ei hun. Y mae cynnydd yr oll yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy gynnydd y rhanau yn ol mesur en gweithrediad priodol eu hunain. *Yn gwneuthur cynnydd y corph.*—Y mae y geiriau hyn i'w cyssylltu â'r geiriau sydd yn nechreu yr adnod—"Y mae yr holl gorph...yn gwneuthur cynnydd y corph." Y mae dau wirionedd gwrthgyferbyniol yn cael eu dwyn i sylw gan yr apostol i egluro natur y cynnydd. Un ydyw, fod ei ddefnyddiau y tu allan i'r eglwys, ac yn hollol o hono ef, sef Crist, y pen; a'r un gwrthgyferbyniol yw, fod gweithrediad y cynnydd yn yr eglwys ei hun. I ddangos hyn yn fwy arbenig, y mae yr apostol yn arfer y ffurf ymadrodd uchod: "y corph, yn gwneuthur cynnydd, y corph;" nid y pen yn gwneuthur cynnydd y corph, ond y corph ei hun yn ei wneyd trwy sugno defnyddiau o'r pen. Y mae yr egwyddor hon o hunan-ddadblygiad, trwy ymddibyniad ar ddefnyddiau allanol, yn nodweddu cynnydd yn y byd llysieuol ac anifeilaidd, a hyny i'r fath raddau nes y mae rhai naturiaethwyr wedi dadgan eu barn mai yn y cyfeiriad yma y mae i ni chwilio am y deffiniad priodol o fywyd. *I'w adeiladu ei hun mewn cariad.*—Groeg: "er adeiladu." Amcan terfynol y cynnydd mewnol ydyw, i'r eglwys gael ei hadeiladu yn allanol yn deml sanctaidd yn yr Arglwydd "mewn cariad." Cariad yw elfen ddechreuol y cynnydd—"gan fod yn gywir mewn cariad"—a'i elfen derfynol. Cariad yw ei Alpha, a chariad ei Omega.

17. *Hyn gan hyny yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei dystiolaethu.*—Y mae y geiriau "gan hyny," yn cyfeirio at y disgrifiad o'r cynnydd y mae yr eglwys i'w wneuthur mewn sancteiddrwydd trwy gymmundeb â'r pen. Y mae y rhanau canlynol yn egluro y cynnydd yn fwy neilldiol, sef rhoddi heibio yr hen ddyn, a gwisgo y newydd. Y mae yr apostol yn rhoddi i'w annogaethau, nid yn unig y ffurf o fynegiad, ond hefyd o dystiolaeth. Y mae yn tystiolaethu yn yr Arglwydd. Yr oedd ganddo awdurdod fel apostol i Ben mawr yr eglwys, i'w chynghori a'i dysgu pa fodd i ymarweddu fel ag i gyrhaedd y cynnydd a ddisgrifir ganddo yn y rhanau blaenorol. *Yn ol oferedd eu meddwl.*—Y mae y gair "meddwl" yn y lle hwn yn arwyddo y galon yn gystal a'r deall—yr holl feddwl, yn ei holl gynneddfau a'i dueddiadau. Nodwedd meddwl y Cenhedloedd annuwiol ydoedd "oferedd." Nid oedd y meddwl dynol yn cyrhaedd ei amcan gwreiddiol a phriodol o hunan-berffeithiad a chynnydd ar ddelw Duw; ac felly, yn hollol wahanol i'r hyn a ddywedir am yr eglwys yn yr adnodau blaenorol.

18. *Wedi tywyllu eu deall.*—Groeg: "wedi eu tywyllu o ran deall." *Wedi ymddyeithro oddi wrth fuchedd Dduw.*—Groeg: "oddi wrth fywyd Duw:" sef, y bywyd ag sydd yn perthyn i Dduw ei hunan, a'r hwn y mae yn ei gyfranu i'w eglwys. Y mae y cyntaf o'r ymadroddion hyn yn ddisgrifiad o oferedd y deall yn fwy neilldiol, a'r ail o oferedd y galon. *Trwy yr anwybodaeth sydd ynddynt.*—Gyda chyfeiriad neilldiol at oferedd y deall. *Trwy ddallineb eu calon.*—Gyda chyfeiriad neilldiol at oferedd y galon. Yn hytrach na "dallineb eu calon," dylid darllen "caledrwydd eu calon;" Groeg: *pórôsis.* Arwydda y gair i ddechreu y ceryg a elwir *tuff-stones;* ac oddi wrth hyny y chwydd afiachus a ganfyddir ar ranau eithaf esgyrn wedi eu tori: ac mewn ystyr foesol, arwydda, gan hyny, y drychfeddwl o galedrwydd.

19. *Y rhai wedi diddarbodi.*—Saesneg: "*being past feeling*:"—wedi myned tu hwnt i deimlad: caledrwydd y galon wedi cyrhaedd y dideimladrwydd hwnw ag sydd yn dueddol iddo ei gynnyrchu. *Yn unchwant.*—Groeg: "mewn cybydd-dod;" *h. y.*, yn anghymmedrol, tu hwnt i bob terfyn, yn ol rhai esbonwyr. Y mae ereill [*Chrysostom*] yn cymmeryd y gair i arwyddo yn gyffredinol; nid chwant am arian, ond pob chwant. Nodwedd chwant ydyw, fel y gele, gwaeddi am chwaneg, a dyweyd, "Moes, moes:" a chan mai ystyr gwreiddiol y gair Groeg am gybydd-dod, *pleonexia,* ydyw "cael chwaneg," y mae rhai wedi ei gymmeryd yma i ddynodi, nid yr un rhyw hwnw o chwant, sef chwant am arian, ond pob chwant arall. Ond dybygem mai gwell ydyw ei gymmeryd yn ei ystyr arferol, sef cybydd-dod. Yr oeddynt yn cyflawni pob aflendid mewn cybydd-dod neu hunan-les. Mewn rhai amgylchiadau, y mae pechodau y cnawd a chybydd-dod wedi eu rhanu rhwng gwahanol ddosbarthiadau: ond yn y Cenedloedd, yr oedd y naill a'r llall yn cyd-deyrnasu, ac yn gynnorthwy y naill i'r llall. Yr oedd eu cybydd-dod, eu rhaib am y byd, yn lle bod yn attalfa i un gradd i gnawdolrwydd, yn gynnorthwy ofnadwy i bob math o afiendid.

20. *Y dysgasoch Grist.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gymmeryd yn ei ystyr llythyrenol: nid

[k] Mat. 17. 5; Ioan 10. 27. [l] Ioan 14. 6, 17.

21 Os bu i chwi ei [k]glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo, [l]megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu:

22 Dodi o honoch heibio, o ran [m] Rhuf. 6. 6; Col. 3. 9. [n] Diar. 11. 18. yr ymarweddiad cyntaf, [m]yr hen ddyn, yr hwn sydd lygredig yn ol y [n]chwantau twyllodrus;

23 Ac ymadnewyddu yn [o]ysbryd eich meddwl; [o] Rhuf. 8. 6.

24 A gwisgo y [p]dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a [q]grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. [p] Rhuf. 6. 4. [q] Eph. 2. 10. [r] Diar. 12. 19, 22; Esa. 63. 8.

25 O herwydd paham, [r]gan

dysgu o athrawiaeth Crist, na dysgu gan Gristi, ond ei ddysgu ef ei hunan. Mater y ddysgeidiaeth ydyw ei berson, a hanfod y ddysgeidiaeth ydyw cymmeryd i fewn i ni ein hunain ei gymmeriad perffaith ef, a'i wneuthur yn eiddo i ni ein hunain. Dywed athronwyr wrthym, fod dysgu unrhyw gangen o ddysgeidiaeth gan berson byw fel athraw yn llawer mwy effeithiol na'i dysgu o ysgrifen; ond y mae mwy na hyny yn cael ei olygu yma—nid dysgu gan Grist fel person yn unig a gynnwysir yn yr ymadrodd, er fod hyny yn rhan o'r ystyr, ond dysgu Crist.

21. *Os bu i chwi ei glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo.*—Y mae Crist yn cael ei ddysgu trwy glywed; nid clywed am dano, ond ei glywed ef. Y mae pwyslais i fod ar y rhagenw "ef." Er mai Paul oedd wedi bod yn enau dros Grist tuag at yr Ephesiaid, etto Crist oedd yn llefaru yn nerthol yn Paul; ac yr oeddynt hwythau wedi dysgu Crist, yr oeddynt wedi ei glywed yn ngeiriau a phregethau yr apostol. Y mae yr ymadrodd "os dysgwyd chwi ynddo," yn cynnwys mwy na'i glywed. Y mae clywed Crist yn golygu gwrandaw arno ac ufuddhau iddo, fel y mae yn llefaru yn allanol i ni; ond y mae dysgeidiaeth bellach yn canlyn hwnw, sef cael ein dysgu ynddo—bod mewn undeb personol âg ef, ac yn yr undeb hwnw sugno dysgeidiaeth fewnol o hono ef ei hunan. Fel hyn y mae gwahaniaeth rhwng dysgu yn Nghrist, a dysgu Crist, a dysgu gan Grist. Trwy ddysgu ganddo y mae i ni gael ein dysgu ynddo, a thrwy gael ein dysgu ynddo yr ydym yn dyfod i'w ddysgu ef ei hun. *Megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu.*—Groeg: "megys y mae gwirionedd yn yr Iesu." Gosodir allan gynnwys y ddysgeidiaeth ynddo ef yn y geiriau uchod o ran sylwedd a ffurf. Y mae amrywiaeth mawr yn yr eglurhâd a geisir ei roddi gan wahanol esbonwyr ar y frawddeg syml ac eglur, ar ryw gyfrif arall anhawdd, "megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu." Yn hytrach na beichio y darllenydd â gwahanol olygiadau, rhoddwn yn unig yr un a farnwn yn debycaf o fod yn gywir. Dylid cadw mewn golwg mai dysgeidiaeth y saint yn Nghrist sydd gan yr apostol dan sylw yma, "os dysgwyd chwi ynddo;" ac yn yr ymadrodd nesaf dengys fel y mae y ddysgeidiaeth ei hun yn fewnol, fod ei mater felly hefyd, "megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu." Yr oeddynt hwy ynddo ef yn cael eu dysgu yn y gwirionedd, a'r gwirionedd ynddo ef i'w dysgu. Nid y gwirionedd fel y mae yn allanol ydoedd mater eu dysgeidiaeth; ond fel y mae ynddo, ac ynddo fel Iesu, fel dyn—y cynllun ddyn, y perffaith ddyn, i'w dysgu hwythau i wisgo y ddynioliaeth fel y mae ganddo ef yn ddyn newydd.

22. *Dodi o honoch heibio.*—Ar ol egluro y ddysgeidiaeth o ran ei ffurf, y mae yn dyfod at ei sylwedd; yr hyn yw, rhoddi neu ddodi heibio, fel rhoddi gwisg o'r neilldu, yr hen ddyn a gwisgo y dyn newydd. Y mae yr ymadrodd, o ran ei ffurf rammadegol, i'w gyssylltu â'r ferf, "ac os dysgwyd chwi ynddo...ar ddodi o honoch heibio." Y mae dysgeidiaeth fewnol wirioneddol yn tarddu allan, ac yn dwyn y rhai sydd yn ei meddu i ddiwygio, nid yn unig yn fewnol, ond hefyd yn allanol—i ddodi heibio yn allanol yr hen ddyn, ac i wisgo y newydd. *O ran yr ymarweddiad cyntaf*:—neu, "gyda golwg ar yr ymarweddiad blaenorol." *Yr hen ddyn*:—sef, ein holl natur lygredig, yn ei hegwyddorion, ei thueddiadau, a'i gweithrediadau. *Yr hwn sydd lygredig.*—Groeg: "yr hwn sydd yn ymlygru." Ffrwyth priodol a naturiol marwolaeth ydyw llygredigaeth; a chan mai marwolaeth ydyw hanfod yr hen ddyn, dywedir ei fod yn llygru; hyny yw, yn myned yn mlaen mewn llygredigaeth, a hyny heb derfyn. *Yn ol y chwantau twyllodrus.*—Groeg: "yn ol chwantau twyll." Y mae y gair "twyll" yma yn gyfystyr a phechod ("twyll pechod"), a gelwir ei chwantau yn chwantau twyll. Y mae bywiogrwydd y chwantau hyn yn twyllo dynion i feddwl eu bod yn tynu at fywyd, pan mewn gwirionedd mai at farwolaeth a llygredigaeth y maent yn tueddu a thynu.

23. *Ac ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl.*—Cawn yma y ddysgeidiaeth yn ei ffurf gadarnhaol. Y mae yr ymadnewyddiad hwn yn gorwedd yn y canol rhwng y dodi heibio yr hen ddyn a gwisgo y newydd, gan ei fod yn anhebgorol fel moddion i'r naill a'r llall. Rhaid i ni gael ein hadnewyddu trwy ysbryd ein meddwl, cyn y gallwn ar un tu ddodi heibio ein hen ddyn, ac ar y tu arall wisgo y newydd. Wrth ysbryd ein meddwl yr ydym i ddeall yr Ysbryd Glân, fel y mae yn preswylio yn ein hysbryd ni, ac yn cymmeryd meddiant o'n meddwl, yn adnewyddu a'n tueddu ninnau, a'n nerthu i ymadnewyddu.

24. *A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd.*—Wrth y dyn newydd yr ydym i ddeall yr anian sanctaidd a gynnyrchir ynom gan Ysbryd Duw, ynghyd â'i holl egwyddorion, a'i holl weithrediadau. Dywedir fod y dyn newydd wedi ei greu. Cafodd ei greu yn ddechreuol yn Nghrist; ac y mae yn cael ei wisgo neu ei gymmhwyso yn unigol gan bersonau neilldiol trwy gael ei adnewyddu trwy yr Ysbryd. "Yn ol Duw;" *h. y.*, ar ddelw Duw, fel y dywedir ddarfod i Adda gael ei greu. Gwelwn, gan hyny, fod cyssylltiad agos rhwng y greadigaeth gyntaf a'r ail. Yn yr ail, adferir, ar seiliau newydd, gynnwys y gyntaf. *Mewn cyfiawnder a gwir sanctеiddrwydd.*—Groeg: "mewn cyfiawnder a sanctеiddrwydd y gwirionedd." Yn y ddau beth hyn y cynnwysir delw Duw. Y mae "cyfiawnder" a "sanctеiddrwydd" yn crynhoi ynddynt eu hunain holl ragoriaethau moesol y dyn newydd. Y mae "cyfiawnder" yn dynodi pob rhagoriaeth moesol sydd yn dwyn perthynas â dynion, a "sanctеiddrwydd" pob rhagoriaeth o'r un natur sydd yn dwyn perthynas â Duw. Gelwir sanctеiddrwydd yn "sanctеiddrwydd y gwirionedd," am mai trwy y gwirionedd y mae yr Ysbryd Glân yn ei gynnyrchu yn ysbryd dyn.

25. *O herwydd pa ham*:—gan gyfeirio at y gwirioneddau a gynnwysir yn yr adnodau blaen-

[s] Salm 106. 30–33. fwrw ymaith gelwydd, [s] dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog: o blegid aelodau ydym i'n gilydd.

[t] Salm 106. 30–33. 26 [t] Digiwch, ac na phechwch: orol. "Wedi llefaru am yr hen ddyn yn y cyfanswm, y mae yn ei ddarlunio yn y gweddill, yn ei wahanol ranau."—*Chrysostom. Gan fwrw ymaith gelwydd.*—Y mae y gair *pseudos* yn arwyddo yma, nid yn unig "ddywedyd anwireddˆ"yn ystyr arferol yr ymadrodd, ond pob math a gradd o eudeb, yr hwn sydd yn tarddu oddi ar hunanoldeb, yr hyn ydyw hanfod pechod. Y mae ffyniant geudeb a thwyll yn un o nodweddau mwyaf tarawiadol paganiaeth y dyddiau presennol; ac y mae bob amser wedi bod yn nodweddu cymmeriad moesol y dwyreinwyr. Gan fod y pechod hwn mewn modd arbenig yn gwrthweithio ysbryd ac egwyddor Cristionogaeth, yr hwn a nodweddir fel "y gwirionedd," yr ydoedd yn naturiol i'r apostol ddodi y gorchymyn hwn yn gyntaf oll o ran trefn. *Wrth ei gymmydog:*—sef, ei frawd Cristionogol yn fwy arbenig, fel y dengys yr ymadrodd nesaf; ond etto, y mae i'w ddeall yn fwy cyffredinol am ein cyd-ddynion. *O blegid aelodau ydym i'n gilydd.*—Y mae cymmhwysiad deublyg i'r ymadrodd hwn. Yn gyntaf oll, y mae i'w gymmhwyso at yr undeb agos sydd rhwng Cristionogion a'u gilydd fel aelodau yn nghorph Crist, yr hwn undeb a ddylai fod yn gymmhelliad i'r ddyledswydd a argymmhellir. Yn ail, yn gyffredinol, at yr undeb sydd rhyngom a'n gilydd fel dynion, yn aelodau o'r un gymdeithas ddynol. Y mae y pechod gwrthgyferbyniol, gan hyny, yn drosedd yn erbyn undeb Cristionogol; ac hefyd yn erbyn undeb cymdeithas.

26. *Digiwch, ac na phechwch.*—Yn *Salm* iv. 4, darllenir yn ein cyfieithiad ni, "Ofnwch, ac na phechwch." Gellid ei gyfieithu, "Digiwch, ac na phechwch." Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo "crynu;" yr hyn a all fod yn arwyddlun o ofn, neu o ddigofaint, gan fod crynu yn effaith y naill a'r llall o'r nwydau uchod. Y mae y cyd-destyn yn y Salm yn ffafrio y cyfieithiad cyffredin; ond y mae y Deg a Thrigain yn ei gyfieithu yn yr un ymadrodd ag a geir yma, "Digiwch, ac na phechwch;" yr hyn sydd wedi peri i lawer o esbonwyr farnu mai dyfynu *Salm* iv. 4 y mae yr apostol yn y lle hwn. Y mae ereill yn golygu nad ydyw yr apostol yn cyfeirio oll at y Salm; ac ereill, drachefn, yn barnu mai cyfaddasu yr ymadrodd a ddefnyddiasai y Salmydd gyda golwg ar y nwyd o ofn, at y nwyd o ddigofaint, yr hyn nid yw yn annhebygol. Pa fodd y mae i ni ddeall y gorchymyn a gynnwysir yn y geiriau? Y mae rhai yn ei ddeall yn dybiaethol, "os bydd i chwi ddigio." Ereill yn oddefol, "os mynwch ddigio gwnewch hyny heb bechu." Ond y mae ffurf y frawddeg yn dangos yn amlwg y dylid ei deall yn orchymynol. Y mae digofaint yn bod, yr hwn sydd, nid yn unig yn oddefol, ond yn ddyledus ac yn ddyledswydd Gristionogol a chrefyddol. Yr ydym yn darllen am yr Arglwydd Iesu ei hun yn amlygu y digofaint hwn, yr hwn y mae ei ffynnonell mewn sancteiddrwydd pur. Y mae y digofaint hwn yn un o ran ei natur a'r eiddo Duw ei hun. Y mae yn ddigofaint sanctaidd a chyfiawn: ond gan ei fod ynom ni yn dyfod i gyffyrddiad â natur ammherffaith, ac yn

[u] na fachluded yr haul ar eich digo- [u] Deut. 24. 15. faint chwi:

27 Ac na [x] roddwch le i ddiafol. [x] Act. 5. 3; Iago 4. 7.

28 Yr hwn a ladrataodd, [y] na [y] Diar. 23. ladratedmwyach: eithr yn hytrach [13]

ei chynnhyrfu, dylem fod yn wyliadwrus rhag i'r cynnhyrfiad fod o hir barhâd—rhag iddo trwy hyny gael ei ddarostwng i fod yn nwyd naturiol, yn hytrach nag yn deimlad sanctaidd. Mater y digofaint sanctaidd hwn yw pechod yn mhawb o'n hamgylch, ie, ynom ein hunain hefyd. "Y mae tri o feiau trwy ba rai yr ydym yn digio Duw wrth fod yn ddig. Y cyntaf ydyw, pan y mae ein digio yn cyfodi oddi ar achosion dibwys, ac yn aml heb achos oll. Yr ail yw, pan yr ydym yn myned dros y terfynau, ac yn cael ein harwain ymaith i ormodedd anghymmedrol. Y trydydd ydyw, pan y mae ein digofaint, yr hwn a ddylasid ei gyfeirio atom ein hunain, neu at bechod, yn cael ei droi yn erbyn ein brodyr."—*Calvin. Na fachluded yr haul ar eich digofaint chwi.*—Groeg, *paroxysmos*, o'r hwn y tardd y gair Saesneg, *paroxysm, h.y.*, cynnhyrfiad, neu poethgyrch. Gall digofaint sanctaidd, digofaint ag y mae yn ddyledswydd arnom ei amlygu yn erbyn pechod a throseddwyr, trwy anghrediniaeth, a thrwy adael i'r cynnhyrfiad naturiol y mae yn ei gynnyrchu yn nwydau ein natur, ymestyn i barhâd ammhriodol, droi yn benboethni annwydol. Swm a sylwedd y gorchymyn yn yr adnod hon ydyw, digio am bechod heb bechu. Nid oes dim digofaint i gael ei lochesu gan y Cristion, ond yr un ag y dylai ei deimlo, sef digofaint yn erbyn pechod; a dylai, wrth amlygu a theimlo hwnw, ddefnyddio pob gwyliadwriaeth rhag iddo fod yn achlysur iddo ef ei hunan bechu. Y mae Theodoret yn egluro yr ymadrodd hwn trwy sylwi "fod y nos, trwy feddyliau, yn rhoddi tanwydd chwanegol ar y tân, a pheri iddo losgi yn chwaneg." Dywed Hammond, y byddai y Pythagoriaid, os digient wrth eu gilydd, cyn machlud haul yn mynu rhoddi deheulaw cymdeithas y naill i'r llall; a chan fynwesu eu gilydd, yn diffodd ac yn dattod yr elyniaeth a fuasai rhyngddynt.

27. *Ac na roddwch le i ddiafol.*—Groeg: "i'r diafol." Luther ac Erasmus, "Ac na roddwch le i'r enllibiwr." Ond ystyr priodol y gair, yn enwedig pan y mae y fannod yn gyssyllltiedig âg ef, yn y Testament Newydd, ydyw, "y diafol," neu Satan. Satan ydyw ei enw presennol, tra y mae y gair "diafol" yn fwy o enwad nac o enw i ddisgrifio ei natur, neu ei gymmeriad moesol. Wrth roddi lle iddo, y mae i ni ddeall rhoddi cyfleusdra iddo i ddwyn yn mlaen ei waith, ac i arddangos ei natur fel enllibiwr trwy ein temtio ni i achlysuro y digofaint pechadurus hwnw ag sydd yn wreiddyn i enllib o bob rhyw a gradd.

28. *Yr hwn a ladrataodd.*—Groeg: "Yr hwn sydd yn lladrata." Pa fodd y mae i ni olygu fod yr apostol yn galw y rhai oeddynt yn aelodau o'r eglwys yn y modd yma fel rhai yn lladrata? Yr atteb a roddir gan rai ydyw, y dylem gymmeryd yr amser presennol am yr amser gorphenol; ond nid oes dim grym yn hyn. Busasai mor hawdd i'r apostol roddi y ffurf orphenol i'r ferf 'a'r un presennol, pe hyny a fuasai ei feddwl. Ereill a olygant ei fod yn llefaru am danynt dan yr hen enw, am eu bod unwaith wedi bod yn cyfatteb iddo, er eu bod ar y pryd wedi

cymmered boed, gan weithio â'i ddwylaw yr hyn sydd dda; fel y byddo ganddo beth i'w gyfranu i'r hwn y mae angen arno.

[a] Col. 3. 8, 9; Iago 3. 2-8.

29 [z] Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi, ond y cyfryw un ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol, fel y paro ras i'r gwrandawyr.

30 Ac [a] na thristewch Lân Ysbryd Duw, trwy yr hwn y'ch seliwyd hyd [b] ddydd prynedigaeth.

[a] Gen. 6. 3, 6; Salm 78. 40.
[b] Luc 21. 28.

31 [c] Tyner ymaith oddi wrth- [c] Rhuf. 3. 14.
ych bob chwerwedd, [d] a llid, a [d] Adn. 26.
dig, a llefain, a [e] chabledd, [f] gyda [e] Lef. 19. 16.
phob drygioni. [f] Gen. 27. 41.

32 A byddwch gymmwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn

---

diwygio: ond y mae yn anhawdd credu y buasai yr apostol yn cymmeryd dull felly o lefaru. Nid oes genym, gan hyny, ond cymmeryd y geiriau fel y maent, gan olygu y gallai fod yn yr eglwys hono rai ag oeddynt, hyd yn hyn, heb hollol ymryddhau oddi wrth bob gradd o anonestrwydd: ac am hyny yr oedd yr apostol, er mwyn dangos ei anghymmeradwyaeth o'r pechod—er nad oedd ond gweddillion o hono ynddynt, ac er fod ei lywodraeth wedi ei ddinystrio o'u mewn—yn mynu llefaru am danynt dan yr enw a thrwy y'gair ag oedd yn dynodi, nid eu cymmeriad mwyach, ond etto eu gwaith. Ni ddywed ar y naill law, "yr hwn a ladrataodd;" ac ni ddywed chwaith, "yr hwn sydd yn lleidr," ond "yr hwn sydd yn lladrata." Ond yn ein hoes a'n hamgylchiadau ni, dylai yr eglwys fod yn rhydd, nid yn unig oddi wrth "yr hwn sydd leidr," ond hefyd oddi wrth "yr hwn sydd yn lladrata." *Eithr yn hytrach cymmered boen.* — Yn hytrach na lladrata, bydded foddlawn i lafurio am ei fywoliaeth hyd ddioddef poen. *Gan weithio â'i ddwylaw.* Groeg: "â'i ddwylaw ei hun." Yn lle ysbeilio ereill o ffrwyth eu dwylaw, gweithied i ddwyn ffrwyth ei ddwylaw ei hun. *Yr hyn sydd dda.*—Y mae pob llafur gonest yn dda ac yn llesol, yn lle bod yn niweidiol i gymdeithas ddynol. *Fel y byddo ganddo beth i'w gyfranu.* —Yn lle ysbeiliaeth, bydd ganddo beth ar ol hyny i'w roddi i ereill; a thrwy hyny, fel Zacheus, rhydd brawf o wirionedd ei dröedigaeth.

29. *Un ymadrodd llygredig.*—Groeg, *sapros:* drewedig, pydredig, gair wedi marw a llygru, gair yn tarddu oddi ar farwolaeth ac yn esgor drachefn ar farwolaeth. Fel y mae bywyd a marwolaeth ysbrydol yn gyssylltiedig â dynion eu hunain, felly y maent hefyd ynglŷn â'u geiriau. Y mae eu llefaru yn gwasgaru marwolaeth y ffordd y cerddont. Ni ddylai un o'r cyfryw ddyfod allan o enau Cristion: nid yn unig ni ddylai llawer ddyfod, ond ni ddylai un. *Y cyfryw un ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol.* — Groeg: "da i adeiladaeth yn ol yr angen." Y mae y gair "drwy" yn tynu i lawr, yn dattod trwy farwolaeth: ond y mae geiriau "da yn adeiladu" trwy fywyd. Y maent yn foddion i adeiladu y rhai sydd yn eu llefaru, a'r rhai y lleferir hwy wrthynt, yn yr un modd, a hyny yn ol yr angen. Y maent i fod, nid yn unig yn eiriau da, ond yn eiriau doeth, yn gyfaddas i'r adeg, a'r lle, a'r person. *Fel y paro ras.*—Cynnwysa yr ymadrodd fudd a lles ysbrydol: fe, mewn enghreifftiau ereill, achubiaeth enaid rhag angeu: *Iago* v. 19, 20.

30. *Ac na thristewch Lân Ysbryd Duw.*—Gwel *Esa.* lxiii. 10, lle y cawn "Hwy a ofidiasant ei Ysbryd sanctaidd ef." Diau fod yr apostol â'i lygaid ar y lle uchod pan yn llefaru yr ymadrodd hwn. Y mae yr ymadrodd yn gryf yn y testyn gwreiddiol, fel y dengys yr esgob Andrewer, yn ei bregeth ar yr adnod hon. Gellir darllen, "Na thristewch Ysbryd Duw, y Glân Ysbryd." Y mae rhai esbonwyr yn barnu fod y gorchymyn hwn i'w gyssylltu â'r holl orchymynion blaenorol; ond diau fod cyssylltiad arbenigol rhyngddo a'r un a geir yn *adn.* 29. Y mae geiriau llygredig mewn modd neilduol yn tristau Glân Ysbryd Duw. Dywed y gŵr doeth, "Geiriau y glân ynt beraidd;" ac i Lân Ysbryd Duw y mae geiriau aflan a llygredig yn ammheraidd, ac yn ei dristau yn ddirfawr. Y mae geiriau da yn rhoddi gras i'r gwrandawyr, yr hwn ymadrodd a gynnwysa, nid yn unig roddi lles, ond hefyd pleser a mwynhâd: ond i'r gwrthwyneb, y mae geiriau llygredig yn tristau, nid dynion, ond Glân Ysbryd Duw, yr hwn, trwy ei breswyliad yn y saint sydd nid yn unig yn puro eu meddyliau a'u gweithredoedd, ond yn "adferu iddynt wefus bur." *Trwy yr hwn y'ch seliwyd.*—Groeg: "Yn yr hwn y'ch seliwyd." Yn *pen.* i. 13, llefara yr apostol am selio yn y Mab a thrwy yr Ysbryd, ond yma am eu seliad yn yr Ysbryd: o herwydd y mae ein cyfleithiad ni yn ammherffaith. Pa beth, gan hyny, ydyw y gwahaniaeth rhwng fod y saint yn cael eu selio yn yr Ysbryd, a'u bod yn cael eu selio trwy yr Ysbryd? Y gwir attebiad, dybygem, ydyw hyn, y mae yr Ysbryd yn sêl, ac hefyd yn gyfrwng y weithred o selio, yr hon sydd weithred y Tad yn y Mab. Yn awr, fel y mae yr Ysbryd ei hun yn sêl, dywedir fod y saint wedi eu selio trwy yr Ysbryd: ond fel y mae yn gyfrwng eu seliad gan y Tad, y maent yn cael eu selio yn yr Ysbryd.

31. *Tyner ymaith oddi wrthych bob chwerwedd.* —Y mae y gair "chwerwedd" yn y lle hwn yn dynodi yr holl nwydau hyny ag syddŷn gweithredu ar yr ysbryd i'w niweidio a'i wenwyno. Arwydda y gair Groeg, *pikros,* llym fel saeth, a gwenwynig; ac oddi wrth hyny, daeth i arwyddo, yn ei ystyr arferol, yr hyn sydd yn niweidiol. *A llid, a dig.*—Y mae y geiriau hyn yn gosod allan yr amlygiadau gweithredol o'r chwerwedd uchod. Y gwahaniaeth rhwng "llid a dig" ydyw, fod y cyntaf yn arwyddo y cynnhyrfiad nwydol am y foment; a'r ail, yr ansawdd ddigofus ag y mae yn bossibl i'r meddwl fod ynddo am dymmor. *Llefain, a chabledd.*—Trwy y rhai hyn y mae dynion yn amlygu, mewn geiriau, eu llid a'u dig: trwy lefain eu llid, a thrwy gabledd eu dig. *Gyda phob drygioni.*—Y mae y gair "drygioni" yma yn arwyddo drygioni ysbryd, llygredigaeth fel y mae â'i duedd at niweidio ereill mewn gair a gweithred.

32. *A byddwch gymmwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol.*—Y mae y gair a ddarllenir yma "cymmwynasgar" yn arwyddo yn llythyrenol, "buddiol;" ac yna yn dueddol i wneuthur daioni. Cynnwysa yma y drychfeddyliau o garedigrwydd, tynerwch, a chymmwynasgarwch. Y mae y gair a gyfleithir "tosturiol," yn cael ei ddefnyddio gan yr awduron clasurol yn yr ystyr o fod yn wrol, a llawn o galon; ond yma arwydda "an-

maddeu i'ch gilydd, megys y [c] 2 Cor. 2. 10; Col. 3. 12, 13. maddeuodd Duw er [c] mwyn Crist i chwithau.

PENNOD V.

Ar ol cynghorion cyffredinol i garu eu gilydd, 3 ac i ochelyd godineb, 4 a phob afendid, 7 ac i beidio â chyttal â'r annuwiol, 15 ac i rodio yn ddiesgeulus, 18 ac i fod yn llawn o'r Ysbryd; 22 y mae efe yn dysgu at ddyledion gwahanredol: pa fodd y dylai gwraged ufuddhau i'w gwŷr, 25 a gwŷr garu eu gwragedd, 32 megys y mae Crist yn caru ei eglwys.

B. A. 62.

[a] Lef. 11. 45; Mat. 5. 45, 48.

BYDDWCH gan hyny [a] ddilynwyr Duw, fel plant anwyl;
2 A rhodiwch mewn cariad,

[b] megys y carodd Crist ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn [c] aberth i Dduw o [d] arogl peraidd. [b] Mat. 20. 28; 2 Cor. 5. 14, 15. [c] 1 Cor. 5. 7. [d] Lef. 3. 16.

3 Eithr [e] godineb a phob aflendid, neu [f] gybydd-dra, na enwer [e] Deut. 23. 17, 18. [f] Exod. 20. 17. chwaith yn eich plith, megys y gweddai i saint;

4 Na [g] serthedd, nac ymadrodd ffol, na choeg-ddigrifwch, pethau nid ydynt weddus: eithr [h] yn hytrach rhoddi diolch. [g] Diar. 12. 23. [h] Dan. 6. 10

5 Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn, [i] am bob puteiniwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sydd ddelw- [i] Adn. 3.

---

sawdd dosturiol y galon tuag at y rhai sydd yn meddu cyfyngder a thrueni. *Yn maddeu i'ch gilydd.*—Y ffordd ag y mae i ni, mewn modd arbenig, amlygu ein cymmwynasgarwch a'n tosturi ydyw, trwy faddeu y naill i'r llall. Y mae Erasmus yn barnu fod y gair yn cynnwys ystyr helaethach yn y lle hwn, sef, nid yn unig maddeu i'n gilydd, ond anrhegu ein gilydd — rhoddi rhoddion i'n gilydd, gan amlygu, nid yn unig deimlad o faddeugarwch, ond o ffafr a daioni. *Megys y maddeuodd Duw.*—Groeg: "Megys y maddeuodd Duw hefyd." Mae y gair "megys" yn dynodi rheswm, cymmhelliad, a rheol, yn ymddygiad Duw tuag atom ni, i ninnau ymddwyn at ein gilydd. *Er mwyn Crist.*—Groeg: "yn Nghrist."

PENNOD V.

1. *Byddwch gan hyny.*—Y mae yr ymadrodd "gan hyny," yn ol Steir, yn cyfeirio at gynnwys y rhan olaf o'r bennod ddiweddaf, sef y dyn newydd, ynghyd â'i ranau amrywiol; ond yn hytrach, dylem ei olygu fel yn cyfeirio yn bennodol at yr annogaethau a gynnwysir yn *pen.* iv. 32. *Ddilynwyr Duw.* — Groeg: *mimetai* ("efelychwyr)." O'r un gwreiddyn y tardd y gair Saesneg, *mimic. Fel plant anwyl.*—Y mae y gair Groeg, *agapetoi*, yr hwn a gyfleithir yma "anwyl," yn arwyddo yn llythyrenol, nid rhai yn caru, ond rhai yn cael eu caru. Geilw arnynt fel rhai wedi cael eu caru i garu yn ol (*Ioan* iv. 10); ac i ddangos y cariad hwn, trwy ymdrechu ymdebygoli fel plant i'w Tad nefol.

2. *A rhodiwch mewn cariad.*—Tuag at i ni efelychu Duw, yr hwn a'n carodd, y mae yn angenrheidiol i'n holl rodiad fod yn cael ei gymmhell a'i dreiddio gan gariad. Y mae ein hefelychiad o gariad Duw yn ein rhodiad yn derbyn ei rinwedd a'i rym i ymdebygoli iddo fel yr hwn yn gyntaf a'n carodd ni. *Ac a'i rhoddes ei hun drosom.*—Nid mewn teimlad yn unig yr amlygodd Crist ei gariad tuag atom ni, ond mewn gweithred, sef y weithred o roddi ei hun drosom ni yn offrwm ac yn aberth; a thuag at i ninnau rodio mewn cariad, y mae yn rhaid i'n cariad amlygu ei hunan yn weithredol mewn actau o ymaberthiad i'w wasanaeth. *Yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd.*—Pa beth ydyw y gwahaniaeth rhwng offrwm ac aberth? Un attebiad a roddir ydyw, fod offrwm yn dynodi aberth diwaed, ac aberh offrwm gwaedlyd. Attebiad arall ydyw, fod y gair "aberth" yn cyfeirio at y weithred o ladd y creadur a aberthid (Groeg, *theó*, lladd). Y gwir wahaniaeth, dybygid, ydyw, fod y gair "offrwm" yn cyfeirio yn bennodol at yr oll o ufudd-dod ag oedd yn gynnwysedig yn mywyd ac angeu y Gwaredwr, a'r gair "aberth" at yr oll o ddioddef ag ydoedd yn gynnwysedig yn ei ufudd-dod hyd angeu y groes. "I Dduw, o arogl peraidd."—Y mae rhai yn cyssylltu yr ymadrodd hwn â'r ferf "ac a'i rhoddes ei hun" [Meyer]. Ereill a'i cyssylltant â'r geiriau "offrwm ac aberth" [Ellicott]; ac ereill â'r ymadrodd diweddaf yn yr adnod, "o arogl peraidd" [Stier, Hodge]. Y mae yn anhawdd pendderfynu rhwng yr ail a'r trydydd; ond ymddengys i ni mai yr olaf sydd yn fwyaf tebygol. Y mae y frawddeg gyfattebol yn yr Hebraeg, oddi wrth yr hon y mae yr apostol, yn ddiau, wedi cymmeryd y geiriau, yn cynnwys, y gair "Iehofah," neu "Arglwydd" yn gyssylltedig â hi. Gwel, er enghraifft, *Lef.* i. 17, lle y cawn "aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd." Arwydda yr ymadrodd yn ei ffurf Hebreig, "arogl gorphwysdra; hyny yw, arogl ag sydd yn heddychu, yn tawelu, yn boddhau.

3. *Na enwer chwaith.*—Nid yn unig y mae yn ddyledswydd arnom beidio a chyflawni yn weithredol unrhyw aflendid neu gybydd-dod, ond ni ddylem mewn geiriau enwi y pechodau gwarthus hyn. Wrth eu henwi, y mae i ni ddeall ymarfer â'r geiriau hyny ag sydd yn perthyn iddynt, ac yn foddion i gynnhyrfu y chwantau hyny ag sydd yn tueddu atynt. Y mae dylanwad geiriau ar y galon yn beth ag y dylem yn wastad ei gadw mewn cof. Y mae yn wir mai "o helaethrwydd y galon y llefara y genau;" ond y mae mor wir a hyny fod geiriau yn effeithio yn ol ar y galon. Y mae y tafod, medd Iago, "yn halogi yr holl gorph, ac yn gosod troell naturiaeth yn fflam, ac wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern." "Ond halogedig ofersain, gochel," medd Paul, "canys cynnyddu a wnant i fwy o annuwioldeb."

4. *Eithr yn hytrach rhoddi diolch.*—Yn lle ymddarostwng i'r defnydd isaf o'r gallu rhyfedd a roddes Duw i ni o ddefnyddio geiriau, dylem yn wastad fod yn ymestyn at y defnydd uchaf o hono, sef, "rhoddi diolch" i Dduw am ei holl ddoniau i ni, yn ei ragluniaeth a'i ras; a thrwy gael ei dyrchafu fel hyn yn ei phen uchaf, y mae iaith yn cael ei phuro a'i sancteiddio yn holl gyssylltiadau isaf bywyd a chymdeithas.

5. *Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn.*—Groeg: "Canys y mae hyn yn hysbys i chwi; gan wybod nad oes," &c. Y mae y rhan gyntaf o'r frawddeg yn cyfeirio at gynnwys y bedwaredd adnod, a'r ail ran at yr hyn a gynnwysir yn yr adnod hon. *Neu gybydd, yr hwn sydd eilunaddolwr.*—Gwel

addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist, a Duw.

[k] Mat. 24. 4, 24. 6 [k]Na thwylled neb chwi â geiriau ofer: canys o blegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn [l] dyfod ar [m] blant yr anufudd-dod.

[l] Rhuf. 1. 18. [m] Eph. 2. 2, 3. 7 Na fyddwch gan hyny gyfranogion â hwynt.

[n] Esa. 60. 1, 3, 19, 20; Ioan 8. 12. 8 Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, [b] ond yr awr hon goleuni *ydych* yn yr Arglwydd: [o] rhodiwch fel plant y goleuni;

[o] Esa. 2. 5; Luc 16. 8; Ioan 12. 36. [p] Gal. 5. 22, 23. [q] 1 Tim. 6. 11; Heb. 1. 8; [r] Eph. 4. 15, 25. [s] Esa. 58. 5; Heb. 12. 28. [t] Iob 34. 1 —17.

9 (Canys [p] ffrwyth yr Ysbryd *sydd* yn mhob daioni, a [q] chyfiawnder, a [r] gwirionedd)

10 Gan brofi beth sydd [s] gymeradwy gan yr Arglwydd.

11 Ac na fydded i chwi gyd-[s] gyfeillach â [t] gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch, eithr

hefyd *Col.* iii. 5. Y mae y cybydd, yn lle addoli Duw, yn addoli Mammon, ac am hyny y mae yn eilunaddolwr. Pa beth bynag sydd yn dwyn oddi arnom y gwasanaeth, y gwarogaeth, yr ynni ysbryd hwnw ag a ddylai gael ei gyssegru i Dduw, y mae yn cynnwys hanfod eilunaddoliaeth; a chan fod hyny yn wirionedd mewn ffurf mor arbenig, ac i raddau mor helaeth, am y cybydd, y mae y gair "eilunaddolwr" yn medda priodoldeb neillduol i'w ddarlunio. *Yn nheyrnas Crist, a Duw.*—Dygir y frawddeg hon yn mlaen gan wadwyr duwdod Crist, i wrthbrofi yr athrawiaeth. Yr ystyr yw, yn nheyrnas yr hwn sydd yn Grist, ac hefyd yn Dduw. Y mae esbonwyr ereill, y rhai a gredant Dduwdod Crist, yn barnu nas gellir dwyn y frawddeg hon fel prawf uniongyrchol o'r athrawiaeth, ac yn barnu mai yr ystyr ydyw, fod y gair "Crist" yn dynodi y Gwaredwr—yr ail Berson; a'r gair "Duw" yn dynodi, y Tad. Y ddadl fawr o blaid y golygiad cyntaf yw absennoldeb y fannod o flaen y gair "Duw" yn yr iaith wreiddiol.

6. *Na thwylled neb chwi â geiriau ofer.*—Cyfeiria yr apostol yma at y rhai oeddynt yn ceisio lleihau ac esgusodi, trwy eiriau dengar, ond gwâg, bechadurusrwydd mawr y pechodau a enwyd uchod. Y mae pob geiriau ag sydd heb wirionedd ynddynt yn wir wâg (*kenos*) ac ofer, a'r prawf fod geiriau ag sydd yn tueddu at amddiffyn pechod yn eiriau felly ydyw, fod digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod. Y mae Duw, mewn gweithred, yn gwrthddywedyd pob geiriau o'r fath yn y byd hwn mewn rhan, ac yn gyflawn a pherffaith yn y byd a ddaw.

7. *Na fyddwch gan hyny gyfranogion â hwynt.*—Groeg: "Na ddeuwch gan hyny i fod yn gyfranogion â hwynt." Nid *bod*, ond *dyfod* ydyw y ferf a arferir yma. Y mae yr apostol yn rhybuddio yr Ephesiaid rhag iddynt ddyfod yn gyfranogion â hwynt, sef y rhai oedd yn cyflawni y pechodau hyn; nid yn gyfranogion â hwynt yn y gospedigaeth, sef digofaint Duw, ond yn gyfranogion â hwynt yn nghyflawniad y pechodau ag oedd yn dwyn y gospedigaeth i'w canlyn.

8. *Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch,*—Nid yn dywyll, nac chwaith *mewn* tywyllwch, ond *yn* dywyllwch. Nid hwy oedd mewn tywyllwch, ond y tywyllwch oedd ynddynt hwy, ac yn rhan o honynt, yn gyd-dreiddiol â'u holl natur. Y mae grym y rheswm yn y gair "canys" yn gorwedd yn y ffaith eu bod hwy wedi cael newid eu cyflwr, ac yn gyfattebol i hyny yr oedd eu gweithredoedd i fod yn ol y cyfnewidiad, yn sanctaidd ac nid yn bechadurus. *Goleuni yn yr Arglwydd.*—Fel yr oeddynt gynt yn dywyllwch, felly yn awr y mae yn eu galw yn oleuni, ond nid ynddynt eu hunain. Yr oeddynt yn dywyllwch ynddynt ac o honynt eu hunain, ond yn yr Arglwydd, sef yn yr Arglwydd Iesu, y maent yn oleuni. Ynddo ef y maent, nid yn oleu yn unig, nac mewn goleuni, ond *yn* oleuni. Y mae ei berson ef, yr hwn ydyw y gwir oleuni, mewn undeb â hwy, yn treiddio eu holl natur, fel ag i'w gwneuthur ynddo ef yn oleuni fel yntau. Ynddo ef y maent yn oleuni, nid yn unig iddynt eu hunain, ond hefyd i'r byd sydd o'u hamgylch. *Rhodiwch fel plant y goleuni.*—Y mae y saint yn blant y goleuni, am fod y goleuni, yr hwn ydynt, nid wedi ei greu ynddynt o ddim, ond wedi tarddu iddynt o Grist, ac felly yn genhedliad yn hytrach na chreadigaeth.

9. *Canys ffrwyth yr Ysbryd.*—Y mae y beirniaid diweddar oll yn ymwrthod â'r darlleniad cyffredin yn y lle hwn, ac yn mabwysiadu y darlleniad, "Canys ffrwyth y goleuni," yr hwn a gadarnheir gan gyssylltiad y cyd-destyn, ac awdurdod y llawysgrifau mwyaf pwysig. Yr ydych chwi yn blant y goleuni; y mae goleuni wedi ei genhedlu yn eich natur yn fywyd, ffrwyth naturiol yr hwn fywyd ysbrydol ydyw y rhinweddau ysbrydol a ganlyn. *Yn mhob daioni, cyfiawnder, a gwirionedd;*—Sylwa yr esbonwyr yn gyffredin, y gellir crynhoi yr holl rinweddau Cristionogol i'r tri hyn, sef, y da, y cyfiawn, a'r gwir, yn wrthgyferbyniol i'r niweidiol, yr anghyfiawn, a'r twyllodrus. Y mae Chrysostom yn golygu y gall fod yr apostol yn y tri gair yma yn cyfeirio mewn modd gwrthgyferbyniol at y tri dosbarth mawr o bechodau y cyfeiriasai atynt, sef digofaint, cybydd-dod, ac aflendid. Yn lle digofaint, yr hwn sydd â'i duedd i niweidio ereill, y mae ffrwyth y goleuni yn gynnwysedig mewn daioni, yn lle cybydd-dod, yr hwn sydd yn wreiddyn anghyfiawnder. Y mae yn cael ei gynnwys mewn cyfiawnder; ac yn lle aflendid, yr hwn sydd yn bleser gau, y mae yn gynnwysedig mewn gwirionedd.

10. *Gan brofi beth sydd gymmeradwy gan yr Arglwydd.*—Y mae y ferf, *dokimazo*, i'w deall yma yn ei hystyr lythyrenol—rhoddi prawf ar beth. Yn hyn y gorwedd gwir ryddid y saint fel plant y goleuni, sef, eu bod yn profi pob peth, i wybod beth sydd yn gymmeradwy gan yr Arglwydd. Nid ydynt yn cyflawni hyd yn oed yr hyn sydd dda o angenrheidrwydd dallbleidiol, ond fel rhai yn y goleuni, ac fel plant y goleuni, yn chwilio, yn barnu, ac yn profi pa beth sydd yn gymmeradwy gan yr Arglwydd, ffynnonell eu goleuni.

11. *Gyd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch.*—Gelwir ar y saint, nid yn unig i beidio a chyflawni gweithredoedd y tywyllwch, ond hefyd i beidio a chydgyfeillachu â'r rhai sydd yn eu cyflawni, fel y cyfryw. Y mae yr ymadrodd yn un hynod; ni ddywedir "cydgyfeillach â gweithredwyr y tywyllwch," er mai hyny ydyw yr ystyr, ond â "gweithredoedd" y tywyllwch, gan awgrymu, fel y mae y saint eu hunain yn oleuni, felly eu bod hwythau eu hunain yn dywyllwch, a'u gweithredoedd yr un modd yn dywyllwch fel hwy eu hunain, a hyny i'r fath

yn hytrach argyhoeddwch hwynt.
[a]Rhuf. 1. 24—27. 12 Canys [a]brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel.
13 Eithr pob peth, wedi yr arraddau fel nad oedd modd cyfeillachu â hwy eu hunain heb gyfeillachu â'u gweithredoedd. Gelwir y gweithredoedd yn "anffrwythlawn," i ddangos eu natur ddarfodedig a dinystriol. Ni ddywedir "ffrwyth" y tywyllwch, ond "gweithredoedd" y tywyllwch. Gwel hefyd *Rhuf.* vii. a *Gal.* v. 19, 22. "Y mae drygau ac anfoesau yn terfynu ac yn darfod ynddynt eu hunain, ond y mae rhinweddau yn amlhau ac yn lliosogi mewn ffrwythlonrwydd." *Jerome. Eithr yn hytrach argyhoeddwch hwynt.*—Groeg: "Eithr yn hytrach byddoch i chwi hyd yn oed (*kai*) eu hargyhoeddi." Yn hytrach na chyttuno â hwynt, yr oeddynt yn rhwym hyd yn oed i'w hargyhoeddi a'u ceryddu.

12. *Canys brwnt yw adrodd.*—Groeg: "Hyd yn oed adrodd." Y mae hyd yn oed crybwyll neu adrodd y pethau a wneir ganddynt yn ddirgel yn beth nas gellir ei wneuthur heb deimlo cywilydd. Barna rhai esbonwyr fod yma gyfeiriad at y dirgelion paganaidd, y rhai oeddynt yn warthus eu cynnwys; ond gwell yw cymmeryd y geiriau mewn ystyr gyffredinol, i nodi pob pechodau gwarthus eu natur, a dirgel eu cyflawniad. Yr oedd y pechodau hyn yn gyfryw mewn gwarthusrwydd, fel yr oedd yn frwnt eu hadrodd, ac am hyny yr oedd mwy o angen eu hargyhoedi. Er fod cywilydd ynglŷn â'u hadrodd, yr oedd angen am wroldeb moesol a chrefyddol i'w hargyhoeddi a'u dynoethi.

13. *Eithr pob peth, wedi yr argyhoeddder, a'e-lurir gan y goleuni.*—Neu, yn fwy cywir, "Ond y pethau [hyn] i gyd, wedi eu hargyhoeddir a eglurir gan y goleuni." Y mae y fannod yn y gwreiddiol. Y mae y geiriau yn barhâd o'r rheswm pa ham y dylai y saint argyhoeddi y pechodau hyn. Er eu bod yn ddirgel, etto wedi eu hargyhoeddi, y maent yn cael eu hegluro gan y goleuni. Y mae ereill yn cyfeithu yn wahanol: "Ond y pethau hyn i gyd, wedi eu hargyhoeddi gan y goleuni, a eglurir." Y mae y cyfeithiad hwn yn gywir o ran y geiriau; ond y mae yn fwy naturiol i gyssylltu y geiriau "gan y goleuni," â'r ferf "egluro," nag â'r rhan-gymmeriad "a argyhoedder." Y mae yn fwy cydweddol â phriodoldeb iaith ac athrawiaeth, i ni olygu fod y goleuni yn egluro, yn hytrach nac yn argyhoeddi. Geiriau sanctaidd a olygir fel moddion argyhoeddiad, a goleuni yr Ysbryd fel ffynnonel lyr eglurhâd. *Canys beth bynag sydd yn egluro, goleuni yw.*—Y mae y cyfeithiad hwn yn sicr o fod yn anghywir. Gan fod y ferf yn y ffurf oddefol yn y rhan flaenaf o'r adnod, dylai gael ei deall yn yr un ffurf yn y rhan yma. Y gwir ddarlleniad, gan hyny, ydyw, "Canys beth bynag sydd wedi ei egluro, goleuni yw." Y mae cael gafael yn ngrym yr ymresymiad sydd gan yr apostol yn y ddwy adnod hyn yn waith anhawdd, ac y mae ffrwyth meddwl ac ymgais gwahanol awduron yn dangos cryn amrywiaeth. Ymddengys i ni, os cymmerwn y darlleniadau a nodwyd, mai yr ymresymiad, yn fyr, ydyw hyn: —Er fod y pechodau hyn yn warthus, mor warthus fel y maent yn cael eu cyflawni yn ddirgel, ac y byddai yn frwnt hyd yn oed eu hadrodd, etto dylid eu hargyhoeddi; canys pan yr argyhoedder hwynt, y maent yn cael eu hegluro gan y goleuni. Y mae argyhoeddiad a dynoethiad o honynt yn barotoad i weithrediad y goleuni arnynt; ac os bydd y gweithrediad hwnw o ran ei effaith yn gyfryw ag i beri eu bod, nid yn unig yn cael eu hegluro, ond wedi eu hegluro, *h.y.*, y gweithrediad o eiddo y goleuni arnynt wedi cael ei; effaith briodol gyda golwg arnynt, y maent yn cael eu troi o fod yn dywyllwch i fod yn oleuni. Yn ol yr eglurhâd hwn, dylid cadw mewn golwg y gwahaniaeth a'r cyssylltiad sydd rhwng ystyr y ferf "a eglurir" (*phanerortai*), a'r rhan-gymmeriad, "wedi ei egluro," (*phaneromenon*). Y mae y cyntaf yn dynodi gweithrediad parhaus y goleuni arnynt yn allanol, a'r ail yn arwyddo gorpheniad y gweithrediad hwnw yn nhreiddiad mewnol y goleuni i'r gweithredoedd. "A eglurir" ydyw y cyntaf; "wedi ei egluro" ydyw yr ail. Y mae y cyntaf yn cymmeryd lle "gan y goleuni;" Groeg, "O dan y goleuni;" a'r ail yn cynnyrchu goleuni; îe, yn oleuni. Y mae yr ail yn cael ei ddwyn i mewn yma gan yr apostol yn rheswm i brofi y cyntaf. Y mae gweithredoedd drwg, pan y maent, ar ol eu hargyhoeddi, wedi cael eu hegluro, yn troi yn oleuni: o ganlyniad, pan y maent wedi eu hargyhoeddi, y maent cyn bod wedi eu hegluro fel ag i fod yn oleuni, yn cael eu hegluro gan y goleuni. Y mae Meyer, dybygem, wedi crynhoi grym a chnewyllyn yr ymresymiad yn well nag un o'r esbonwyr ereill. "Yr hyn ydyw mewn effaith (goleuni yw), hyny ydyw hefyd o angenrheidrwydd mewn natur (gan y goleuni)." Y cyfan o honom, medd Ellicott, ydyw. Pa beth bynag sydd wedi ei oleuo, y mae yn oleuni. "Y mae yn wirionedd anianyddol, fod yr hyn a ddygir allan i ffrwd o oleuni, yn dyfod ei hunan, trwy adlewyrchiad, yn oleuni. A chyda golwg ar weithrediad moesol neu ysbrydol, y mae perthynas nodedig rhwng goleu agored y dydd a phurdeb neu ddiniweidrwydd. Cyflawnir gweithredoedd tywyll yn y dirgel: llusger hwynt i'r goleuni, ac nis gallant ei sefyll. Fel hyn, pan ddygir enaid wedi ei ddarostwng yn isel gan bechod, i oleu llawn y dydd, os na bydd iddo ruthro allan o hono, y mae yn naturiol yn cael ei buro; y mae yr hyn ydoedd yn dywyllwch yn y tywyllwch, yn dyfod yn oleuni yn y goleuni."—*J. Ll. Davies.*

O herwydd pa ham.—Fel enghraifft ac esiampl i ni wneuthur yr un fath, sef argyhoeddi y rhai sydd yn rhodio mewn pechod. Y mae Duw, fel y darlunir ef yn yr Ysgrythyr, yn argyhoeddi. *Y mae efe yn dywedyd:*—sef Duw. Gwel *pen.* iv. 8; a *Col.* iii. 6.

14. *Deffro di,* &c.—Nis gallwn gael y geiriau hyn yn llythyrenol mewn unrhyw ran o'r Hen Destament; ond cawn eu sylwedd yn *Esaiah* lx. 1, 2. Nid dyfyniad o ysgrifen apocryphaidd; nid cyfeiriad at yr hyn a arferid yn yr Eglwys Gristionogol y pryd hwnw; nid cofrestriad o ddywediad o eiddo ein Hargiwydd, yr hwn a gadwyd drwy draddodiad yw y geiriau, ond dyfyniad rydd o gynnwys argyhoeddiadol prophwydoliaeth yr Hen Destament, gan gadw golwg arbenig ar *Esa.* lx. 1; xxvi. 19; a ix. 2. O dan ddylanwad a chyfarwyddyd ysbrydoliaeth dwyfol y mae yr

[y] Ezra 37. 4—10. [z] Ioan 8. 12. wyt yn cysgu, a [y]chyfod oddi wrth y meirw; [z]a Christ a oleua i ti.

[a] Exod. 23. 3. [b] Iob 2. 10; Mat. 25. 2. 15 Gwelwch gan hyny pa fodd y [a]rhodioch yn ddiesgeulus, [b]nid fel annoethion, ond fel doethion;

16 [c]Gan brynu yr amser, o blegid [d]y dyddiau sydd ddrwg. [c] Preg. 9. 10. [d] Preg. 11. 2.

17 Am hyny [e]na fyddwch annoethion, eithr [f]yn deall beth *yw* ewyllys yr Arglwydd. [e] Adn. 15. [f] Deut. 4. 6; Iob 28. 28.

18 Ac [g]na feddwer chwi gan [g] Gen. 19. 32—35.

apostol yn eu bwrw ynghyd megys mewn mold newydd, ac yn eu cyfliwyno ger bron yn ngoleuni eglurhâd y Testament Newydd, o ran meddyliau ac iaith. *Yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddi wrth y meirw.*—Yn ol prophwydoliaethau yr Hen Destament, cawn yr Arglwydd yn argyhoeddi ei eglwys fel yn cysgu, a'r byd fel yn farw; ac am hyny y mae yr apostol yn gwahaniaethu rhwng y ddau. Disgrifia yr eglwys mewn ystâd o gwsg, yn cael ei hargyhoeddi a'i chynnyrfu i ddeffro; a'r byd annuwiol mewn ystâd o farwolaeth, yn cael ei argyhoeddi a'i alw i gyfodi oddi wrth y meirw. Y mae yn ddyledswydd orphlwysedig ar y saint i argyhoeddi pechod, nid yn unig fel y mae yn llywodraethu yn y byd sydd mewn cyflwr o farwolaeth, ond hefyd fel y mae yn glynu ac yn ymosod ar yr eglwys mewn cyflwr o gysgadrwydd. *A Christ a oleua i ti.*—Yn *Esa.* lx. 1, darllenir "Canys daeth dy oleuni . . Cyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat." Yn lle "yr Arglwydd," rhydd yr apostol, yn ngoleuni y Testament Newydd, yr enw mwy pennodol, "Crist." Yn y brophwydoliaeth, llefarir y geiriau yn yr amser gorphenol, ond yma llefarir hwynt yn yr amser dyfodol. Yn y naill defnyddir hwynt fel rheswm; yn y llall fel addewid. Cyssonir hyn trwy i ni ystyried fod Esay yn golygu y goleuni yn allanol, a Paul yn ei olygu yn fewnol. Y mae Esay yn cynnhyrfu yr eglwys i ddeffroi, trwy roddi yr argymmhelliad iddi, fod ei goleuni wedi cyfodi, gan lefaru yn iaith prophwydoliaeth yn y gorphenol am y dyfodol; tra y mae yr apostol Paul yn darlunio Duw yn cynnhyrfu yr eglwys, ac yn galw y byd i ymddeffro ac ymfywhau yn y mwynhâd o'r goleuni allanol, gan addaw, fel cymmhelliad a moddion, y byddai i Grist fod yn oleuni, bywiogrwydd, ac yn oleuni y bywyd iddynt i wneyd hyny..

15. *Gwelwch gan hyny pa fodd y rhodioch yn ddiesgeulus.*—Y mae yr ymadrodd "gan hyny" yn cyfeirio, medd Ellicott, at yr annogaeth yn *adn.* 11; ond cyssyllta Harless ef yn fwy unionyrchol â'r adnodau blaenorol, yn y rhai y rhoddir annogaeth i'r Ephesiaid i argyhoeddi y rhai oedd yn byw mewn pechodau gwarthus. Tuag at wneuthur hyn yn effeithiol, y mae yn rhaid bod yn ofalus i ymddwyn yn ddoeth. Y mae y geiriau "pa fodd" i'w cyssylltu yn unionyrchol â'r gair "diesgeulus." Nid y meddwl ydyw, pa fodd, *sef* yn ddiesgeulus, ond pa fodd yn ddiesgeulus. Dynoda, nid y graddau y dylent fod yn ddiesgeulus, ond y ffurf a'r modd; nid pa mor ddiesgeulus, ond pa fodd yn ddiesgeulus. Gallwn dybied anesgeulusdra neu ofal, ac etto heb ei reoli a'i gyfeirio yn iawn gan ddoethineb. *Nid fel annoethion, ond fel doethion.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn eglurhâd ar y "pa fodd" yn yr adnod flaenorol.

16. *Gan brynu yr amser.*—Groeg: *ton kairon* ("yr adeg, neu y cyfleusdra"). Amser fel y mae yn adeg, neu yn gyfleusdra i ennill neu gaffael unrhyw beth o werth ydyw y gwir ystyr yn y lle hwn. Y mae "amser," yn yr ystyr hwn, yn werthfawr—mor werthfawr a'r hyn y gellir ei gael ynddo. Prynu yr amser, gan hyny, ydyw iawn ddefnyddio amser fel adeg neu gyfleusdra i ennill gwerth ysbrydol i ni ein hunain, ac i ereill. Trwy hyn yr ydym yn gwneuthur amser yn eiddo i ni ein hunain, ac yn ei wneuthur megys yn rhan o honom ni ein hunain. Llafur ydyw sail wreiddiol meddiant yn mhethau y byd hwn; a llafur ysbrydol yn unig a rydd feddiant i ni ar amser. Gallwn gael amser heb ei feddiannu. Nis gellir ei feddiannu heb ei brynu, ac nis gellir ei brynu ond trwy lafur—nid llafur bydol, ond llafur ysbrydol. Ynddo, ac o hono ei hun, gwagder ydyw amser: ond trwy lafur a gweithgarwch ysbrydol, gallwn ei lanw, a thrwy ei lanw, ei brynu yn eiddo i ni, a'i gario gyda ni i gôl y parhâd diddiwedd ei hun. Y mae y gair a ddarllenir yma yn ei ffurf lythyrenol yn arwyddo "prynu allan," yr hyn a arwydda llwyrbrynu (felly y cyfieithir ef yn *Gal.* iii. 13). Y mae Ellicott yn ei gymmeryd yn fwy llythyrenol i ddynodi yr amgylchiadau amrywiol allan o'r rhai y mae i ni brynu yr adeg, gyda chyfeiriad o leiaf at farsiandwyr call a llygadog, yn troi pob amgylchiad ac ansawdd ar y farchnad yn elw iddynt eu hunain. *O blegid y dyddiau sydd ddrwg.*—Y mae y gair "drwg" yn gyssylltiedig â'r gair "dyddiau," yn y lle hwn, i'w gymmeryd mewn ystyr foesol am uwchafiaeth a ffyniant llygredigaeth foesol; ac o herwydd hyny, yr oedd galwad uwch ar Gristionogion i amlygu doethineb i brynu yr amser. Pan y mae y farchnad yn ansicr, ac mewn cyflwr annaturiol, dylai y marchnatäwr fod yn arbenig o wyliadwrus a gofalus.

17. *Am hyny:*—sef, am fod y "dyddiau yn ddrwg," ac fod yn ofynol i chwi, o'r herwydd, brynu yr amser. *Na fyddwch annoethion, eithr yn deall.*—Nid yr un gair sydd yn y testyn gwreiddiol ag sydd yn *adn.* 15; ond un arall, *aphron*, ystyr yr hwn ydyw "difeddwl;" a chyfeiria at yr ystâd o esgeuluso meddwl, ac o fod heb ddeall. Ar ol eu hannog i brynu yr amser, y mae yn yr adnodau canlynol yn manylu ac yn ymhelaethu ar y modd y maent i wneuthur hyny gyda chyfeiriad, yn gyntaf, at y deall; yn ail, at y teimlad; ac yn drydydd, at yr ymarweddiad allanol. Ô ran y cyntaf, dysg hwynt i beidio a bod yn ddifeddwl; ond i'r gwrthwyneb, trwy feddwl â meddylgarwch, i ddeall pa beth ydyw ewyllys yr Arglwydd iddynt ei wneuthur. Drachefn, o ran teimlad, yr oeddynt i brynu yr amser trwy ochel ei gamddefnyddio i ymyfed er mwyn cynnhyrfiad pechadurus; ond yn hytrach i ymestyn at y mwynhâd goreu, a'r pleser sydd i'w gael trwy fod yn llawn o'r Ysbryd Glân, gan arllwys allan y cyflawnder hwnw yn fanwl yn ol i Dduw, o'r hwn y tarddodd: ac o ran yr ymarweddiad, yr oeddynt i brynu yr amser trwy ymddarostwng i'w gilydd mewn ufudd-dod, cariad, a pharch, yn ol eu hamrywiol sefyllfaoedd, fel y manylir arnynt yn niwedd y bennod hon a dechreu y nesaf. *Ewyllys yr Arglwydd:*—sef yr Arglwydd Iesu.

18. *Yn yr hyn:*—sef, yn y meddwl. Y mae

win, yn yr hwn y mae gormodedd;
[a] Salm 63. 3 [b] eithr llanwer chwi â'r Ysbryd;
—5. 19 Gan lefaru wrth eich gilydd
[b] Adn. 4. Ioan 4. 23, 24. mewn salmau, a hymnau, ac odl-
[c] Ioan 16. 23 —26. au ysbrydol; gan ganu a phyngc-
[d] Gen. 3. 16; Col. 3. 18; 1 Tim. 2 11, 12. io [i] yn eich calon i'r Arglwydd;
20 Gan [k] ddiolch [l] yn wastad
i Dduw a'r Tad am bob peth, [m] yn
enw ein Harglwydd Iesu Grist;

21 Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw.

22 Y gwragedd, [n] ymostyngwch [e] Eph. 4. 15. i'ch gŵr priod, megys i'r Arglwydd.

23 Oblegid y gŵr yw pen y
wraig, [o] megys ag *y mae* Crist yn [o] Act. 20. 28; 1 Thes. 1. 10. ben i'r eglwys, ac efe [p] yw Iach-
awdwr y corph. [p] Gen. 2. 24.

gormodedd.—Groeg: *asotia,* "afradlonedd." Yr un gair a arferir am y mab afradlawn yn *Luc* xv. *Eithr llanwer chwi â'r Ysbryd.*—Groeg: "yn yr Ysbryd." Yn lle cael eich meddwi gan win, cyflawner chwi yn yr Ysbryd. Y mae gwrthgyferbyniad cryf rhwng y meddwi a'r cyflawni. Gwaghau mewn gwirionedd y mae meddwdod, "dwyn y galon ymaith;" ond "yn yr Ysbryd," trwy drigo yn yr Ysbryd, a rhodio yn yr Ysbryd y mae y dyn yn cael ei lanw a'i gyflawni yn ei holl natur.

19. *Gan lefaru wrth eich gilydd.*—Cyfieithiad Saesneg, *to yourselves;* ond diau fod *eautois* yma i'w gymmeryd am *allilois,* fel yn *pen.* iv. 12. Pan fyddo yr eglwys yn offrymu ei mawl i Dduw, y mae yr aelodau yn cyd-ddyrchafu eu geiriau ato mewn addoliad. Y mae eu cymdeithasau â'u gilydd yn cael ei gyssegru i wasanaethu ac addoli Duw. Y mae llais a llef pob un yn cael adlais gan yr oll, ac felly yn cael ei liosogi fel yr echo yn y graig. *Salmau, hymnau, ac odlau ysbrydol.*—1. "Salmau:" caniadau o'r llyfr a elwir y Salmau, ynghyd â rhai wedi eu cyfansoddi ar yr un cynllun. 2. "Hymnau:" caniadau o fawl, yn arbenig, i Dduw a Christ. 3. "Odlau ysbrydol," caniadau amryfal, o fawl, gweddi, ac athrawiaeth, wedi eu selio ar, ac yn benthyca oddi ar ysbrydoliaeth ddwyfol gras Duw. *Gan ganu a phyngcio yn eich calon.*—Definiad o fath arall o ganiadaeth, sef y caniadaeth fewnol, heb eiriau, yn y galon. Nid ydym, gan hyny, i ddeall y geiriau fel annogaeth, neu rybudd i ganu o'r galon, ac nid yn unig mewn geiriau. Ni ddywedir "o'r galon," ond "yn eich calonau." Dynoda yr ymadrodd y beroriaeth fewnol hono ag sydd yn waelod gwastadol i'r un allanol ac achlysurol, ac o'r hwn y mae, ar adegau priodol, yn cyfodi. *I'r Arglwydd:*—sef, yr Arglwydd Iesu.

20. *Gan ddiolch yn wastad.*—Pan yn canu ac yn pyngcio i Grist, dylem yn wastad ddiolch i Dduw a'r Tad. Y mae diolchgarwch i fod yn elfen wastadol yn ein mawl. *Am bob peth.*—Nid yn unig bob amser, ond am bob peth—am hawddfyd ac adfyd, trugareddau a thosturi, cymmwynasau a chystuddiau. *Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist:—h.y.,* ynddo ef, fel cyfryngwr rhyngom ni a'r Tad, y mae i ni ddyrchafu ein mawl, a chyflwyno ein diolchgarwch.

21. *Gan ymddarostwng i'ch gilydd.*—Y mae y gair "ymddarostwng" yma yn golygu, yn ol ei darddiad llythyrenol, "ymddarostwng" yn yr ystyr o restru a gosod eu hunain, yn ol eu graddau a'u perthynasau amrywiol, yn ddarostyngedig y naill i'r llall, a'r naill a'r llall i Grist fel pen yr eglwys. *Yn ofn Duw.*—Yn yr ofn hwn y mae gwir ymddarostyngiad i gael ei amlygu. Yn lle "yn ofn Duw," darllener "yn ofn Crist," o herwydd hwn ydyw y gwir ddarlleniad. Gwrthodir y darlleniad cyffredin gan agos yr oll o'r beirniaid diweddaraf. Yn y rhanau canlynol, y mae yr apostol yn galw ar dri o ddosbarthiadau perthynasol i amlygu yr ymddarostyngiad hwn; sef, 1af, Gwŷr a gwragedd. 2il, Rhieni a phlant. 3ydd, Meistriaid a gweision.

22. *Gwŷr priod.*—Saes., "*your own husbands*" (*h.y.,* gwŷr eich hunain.) Dynoda y gair "priod" yn y lle hwn, medd Ellicott, y drychfeddyliau o gyfreithlondeb, unigolrwydd, ac arbenigrwydd. *Megys i'r Arglwydd:*—sef, "yr Arglwydd Iesu." Y mae y gair "megys" yn cyfeirio ac yn derbyn ei rym oddi wrth y ffaith fod y berthynas briodasol yn arwyddlun o'r berthynas a'r undeb sydd rhwng Crist a'r eglwys. Yn yr yr arwyddlun hwn y mae y gŵr yn cyfatteb, yn ei berthynas â'r wraig, i Grist yn ei berthynas â'r eglwys; ac am hyny, y mae ymddarostyngiad y gŵr i'r wraig yn cael ei wneuthur megys i'r Arglwydd. "Y mae yr apostol yn llefaru am y gŵr a'r wraig yn ystyr ddrychfeddyliol y geiriau. Y mae y wraig Gristionogol i gwblhau ei dyledswydd at ei gŵr fel un yn gweled yr Arglwydd (i lefaru felly) y tu ol iddo. Y mae y gŵr Cristionogol i gwblhau ei ddyledswydd yntau i'r wraig fel un yn gweled yr eglwys y tu ol iddi hi."—*J. Llewelyn Davies.*

O blegid y gŵr yw pen y wraig:—neu yn fwy llythyrenol, "O blegid y mae gŵr yn ben y wraig, megys y mae Crist yn ben yr eglwys." Yn y Groeg, ni roddir y fannod o flaen gŵr. Llefaru y mae yr apostol am y berthynas, ac nid am unrhyw berson unigol. Lle bynag y mae gŵr, yno y mae pen y wraig. Y mae yn ŵr iddi, ac y mae felly iddi fel y mae Crist i'r eglwys. Sylwa Hodge fod uchafiaeth gŵr ar ei wraig yn berffaith gysson â dibyniad yr ystlenau y naill ar y llall, cydraddoldeb y natur ddynol yn y naill a'r llall, ac isafiaeth meibion mewn ansoddau ereill. *Ac efe yw iachawdwr y corph.*—Nid ydyw y gair "ac" yn y gwreiddiol. Byddai y cyfieithiad yn fwy cywir hefyd trwy roddi "y mae" yn lle "yw:"—"Y mae efe yn iachawdwr y corph." Nid y gwrthgyferbyniad ydyw "ef, ac nid arall," ond yn hytrach, "ef yn iachawdwr yn gystal ag yn ben." Y mae pwyslais y frawddeg ar yr "efe" (Groeg, *autos*). I'r cwestiwn, pa ham y mae yr apostol yn rhoddi y frawddeg hon yn gyssylltiedig â'r gosodiad blaenorol, rhoddir gwahanol atebion gan y gwahanol esbonwyr. Un ydyw, mai er mwyn dangos y dylai y gŵr, nid yn unig lywodraethu ar y wraig, ond ei hamddiffyn [*Calvin*]. Atebiad arall ydyw, nad oes dim cyfeiriad yn y frawddeg hon at y berthynas briodasol, ond ei bod yn hollol annibynol [*Hodge*]. Y gwir atebiad, yn hytrach, ydyw, ei bod yn cael ei dwyn i mewn i ddangos nad ydyw y cyferbyniad rhwng yr undeb priodasol a'r undeb personol rhwng Crist a'r eglwys yn cyfatteb i'w gilydd yn mhob peth, yn gymmaint a bod Crist, fel pen yr eglwys, yn iachawdwr. Trwy weithred bersonol o waredigaeth y daeth i undeb â hi. Y mae efe, ac efe ei hun, yn bersonol (*autos*) yn iachawdwr y corph.

24 Ond fel y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, felly hefyd *bydded* y gwragedd i'w gwŷr priod yn mhob peth.

25 Y gwŷr, cerwch eich gwragedd, megys ag y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti;

26 Fel y [q] sancteiddiai efe hi, [q] Ioan 17.17 —19. a'i glanhau â'r olchfa ddwfr, trwy y gair;

27 Fel y gosodai efe hi yn ogon-

---

24. *Ond fel y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist.*—Y mae cryn lawer o anghyttundeb gyda golwg ar wir ym y gair "ond" yn y frawddeg uchod. Yn ol Harless, yr ystyr yw, "ond i ddychwelyd at y mater." Y mae De Wette, yn golygu fod yma wedd arall i'r undeb rhwng Crist a'r eglwys yn cael ei gyfiwyno ger ein bron, sef y darostyngiad sydd yn ganlyniad o hono; am hyny, fod yn naturiol iddo, yn hytrach nag "ac," roddi "ond." Y mae yn fwy tebyg fod yr eglurhâd yn gorwedd yn y ffaith fod yr apostol yn dychwelyd yn ol oddi wrth yr anghyfatebiaeth at y cyfattebiaeth rhwng y ddau undeb. "Ond" (er fod y cyfattebiaeth yn colli yn hyn yna, etto y mae yn dal yn y pethau ereill, ac am hyny) fel y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, &c. *Yn mhob peth*:—gan ddynodi, fel y dengys Hodge, nid graddau eu darostyngiad, ond eangder ei gylch.

25. *Y gwŷr, cerwch eich gwragedd.*—Y ddyledswydd fawr sydd yn cyfodi oddi ar arbenigrwydd perthynas y wraig â'r gŵr ydyw ymddarostyngiad; a'r un sydd yn cyfodi oddi ar berthynas y gŵr â'r wraig ydyw cariad, yr hwn a ddylai fod yn gyfryw yn mhob Cristion a'r cariad â'r hwn y carodd Crist yr eglwys. Y mae delw yr uchel i fod ar yr isel. Dylai gael ei gydffurfio yn ei duedd, a'i amcan, a'i effaith, i'r cariad goruchel hwnw. *Ac a'i rhoddes ei hun drosti*:—gwel ar *adn.* 2.

26. *Fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhau.*—Groeg: "wedi ei glanhau." Y ddau amcan mawr i'w waith yn rhoddi ei hun drosti ydoedd ei sancteiddio wedi ei phuro. Y mae y cyntaf, fel y mae y gair ei hun yn ein harwain, yn cyfeirio at y sancteiddhâd, a'r ail at y cyfiawnhâd. Cymmerir y gair a gyfieithir yma "sancteiddio" gan rai yn yr ystyr o neillduo [*Calvin*]; ond yn gyffredin, defnyddir ef gan Paul i arwyddocau glanhâd oddi wrth halogrwydd pechod; ac y mae yr ystyr hwn yn cyd-daraw yn well, ac yn fwy cyfaddas i gynnwys y cyd-destyn. Y mae yr ail air yn arwyddo glanhau, naill ai yn llythyrenol neu yn ffugrol. Defnyddir ef weithiau i osod allan lanhâd oddi wrth euogrwydd, ac weithiau, lanhâd oddi wrth halogrwydd. Yma, fel y mae yn amlwg oddi wrth y cyd-destyn, a chyssondeb y ffydd, defnyddir ef yn yr ail ystyr, fel ag i gyflawni y disgrifiad o amcanion y prynedigaeth yn sancteiddiad yr eglwys wedi ei phuro yn y cyflawnhâd. *A'r olchfa ddwfr.*—Gellir cymmeryd yr ymadrodd hwn fel portread ffugrol o lanhâd yr eglwys, fel ag i gyfleu y drychfeddwl yn fwy bywiog o flaen y meddwl: ond y mae yn llawer mwy tebyg fod yr apostol yma â'i lygaid ar yr ordinhâd o fedydd, fel y mae yn dwyn perthynas â'r cyflawnhâd ac â maddeuant pechodau. Y cwestiwn mawr ydyw, Pa beth ydyw gwir natur y berthynas hono?—fod perthynas, sydd anwadadwy yn ngwyneb tystiolaethau eglur a phendant y Bsibl: gwel *Act.* ii. 38; xxii. 16; a *Marc* xvi. 16. Gyda golwg ar natur y berthynas, nis gallwn wneuthur yn well na dyfynu yr hyn a gaulyn o Calvin:—"Wedi crybwyll y sancteiddiad mewnol a dirgeledig, y mae yn chwanegu yr arwyddlun allanol drwy yr hyn y mae yn cael ei gadarnhau yn weledig. Pan ddywed Paul ein bod yn cael ein glanhau trwy fedydd, ei feddwl ydyw, fod Duw yn ei ddefnyddio er mynegu i ni ein bod wedi ein glanhau; ac ar yr un pryd, yn cyfiawni yr hyn y mae yn ei osod allan. Pe na buasai y gwirioniedd, neu arddangosiad y gwirionedd yn nglŷn â bedydd, buasai yn ammhriodol dywedyd fod bedydd yn lanhâd yr enaid. Ar yr un pryd, rhaid i ni wylio rhag priodoli i'r arwydd, neu i'r gweinidog, yr hyn a berthyn i Dduw yn unig. Y mae ereill yn tybied fod gormod o bwys yn cael ei roddi i'r arwydd, trwy ddywedyd fod bedydd yn olchiad yr enaid. Ond y maent yn amlwg yn cyfeiliorni; canys, yn y lle cyntaf, nid ydyw yr apostol yn dywedyd fod yr arwydd yn glanhau; ond mynega mai gwaith Duw yn unig yw. Duw sydd yn glanhau; ond nid oes dim yn anghysson mewn dywedyd fod Duw yn arfer moddion allanol—nid fod Duw yn cael ei gyfyngu gan yr arwydd, ond cyfaddasir y cynnorthwy hwn i wendid ein galluoedd ni. Y mae rhai yn tramgwyddo wrth hyn, gan dybied ei fod yn cymmeryd ymaith oddi wrth yr Ysbryd Glân waith ag sydd, mewn modd neilduol, yn eiddo iddo ef; ond y maent yn camgymmeryd; canys y mae Duw yn gweithredu trwy yr arwydd yn y fath fodd fel ag y mae ei effeithiolrwydd yn dibynu ar ei Ysbryd. Llawn mor ddisail ydyw yr ofn a deimlir rhag fod hyn yn cyfyngu ar ryddid Duw. Nid ydyw gras Duw wedi ei gyfyngu i'r arwydd, fel nas gallo, os myn, ei gynnysgaeddu heb gymmhorth yr arweinydd. Heb law hyny, y mae llawer yn derbyn yr arwydd, y rhai nid ydynt yn gyfranogion o'r gras: canys y mae yr arwydd yn gyffredin i bawb—i'r drwg a'r da; ond ni roddir yr Ysbryd oddi eithr i'r etholedigion; ac fel y dywedasom, y mae yr arwydd heb yr Ysbryd yn aneffeithiol." Y mae rhai esbonwyr yn barnu fod cyfeiriad yn yr ymadrodd, "â'r olchfa ddwfr," at ymolchiad y briodasferch, yn ol yr arferiad gynt, yn flaenorol i'r briodas. Y mae Olshausen yn galw yr eglurhâd hwn yn anghoeth i'r eithaf, tra y mae Ellicott a Davies yn tueddu i'w gymmeradwyo. *Trwy y gair.*—Groeg: "yn y gair." Dylid cyssylltu yr ymadrodd hwn, nid â'r ferf "sancteiddiai," nac â'r geiriau "â'r olchfa ddwfr," ond â'r ferf "glanhau." Y mae yr eglwys yn cael ei glanhau "â'r olchfa ddwfr," ond glanheir hi "yn y gair." Dywed yr Arglwydd Iesu, "Sancteiddia hwynt yn dy wirioneedd;" a'r un modd, fel mai yn y gwirionedd y mae yr eglwys yn cael ei sancteiddio, felly yn y gair y mae yn cael ei glanhau. Moddion offerynol pur, y tu allan, ydyw y bedydd; ond y mae y "gair" yn foddion mewnol ac ysbrydol; ac am hyny, y mae y cyssylltiad sydd rhwng y naill â glanhâd yr eglwys yn benarglwyddiaethol, tra y mae y cyssylltiad sydd rhwng y llall âg ef yn angenrheidiol a naturiol.

27. *Fel y gosodai efe hi yn ogoneddus iddo ei hun, yn eglwys,* &c.—Groeg: "fel y cyflwynai efe

eddus iddo ei hun, yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, [2 Cor.11.2.] na dim o'r cyfryw; [r] ond fel y byddai yn sanctaidd ac yn ddifeius.

28 Felly y dylai y gwŷr garu eu gwragedd, megys eu cyrph eu hunain. Yr hwn a garo ei wraig, sydd yn ei garu ei hun.

29 Canys ni chasaodd neb erioed ei gnawd ei hun; eithr ei fagu a'i feithrin y mae, megys ag *y mae* yr Arglwydd am yr eglwys: [s Rhuf.12.6; 1 Cor. 6 15.]

30 O blegid [s] aelodau ydym o'i

---

hi iddo ei hun fel yr eglwys ogoneddus." Yn hytrach na "gosod," dylid darllen "cyflwyno," Saes., *present, introduce.* Yn lle "efe," darllener "efe ei hun" (*autos*). Nid neb arall drosto, ond efe ei hun, a hyny drachefn iddo ei hun. "*Christ permits neither attendants nor paranymph to present the bride: he alone presents, he receives.*"—*Ellicott.* Drachefn, yn lle yr eglwys ogoneddus darllener, "fel yr eglwys ogoneddus:" enghraifft o'r hyn a elwir gan rammadegwyr yn fynegiad trydyddol (*tertiary predicate*). Y mae y cyflwyniad hwn yn cael ei olygu gan yr apostol fel amcan pellach a therfynol gwaith Crist yn caru yr eglwys, ac yn rhoddi ei hun drosti. Cymmer y cyflwyniad hwn le, nid yn y byd hwn, ond yn yr hwn a ddaw. Y mae y rhai sydd yn deall y geiriau "sancteiddiai ac y glanhäai hi," mewn ystyr aberthol, yn golygu y cyflwyniad fel yn cael ei wneuthur yn y byd hwn; ond yr ydym wedi ceisio dangos mai yr ystyr foesol, yn hytrach, sydd i'w roddi yma i'r geiriau. *Na brycheuyn.*—Arwydd o afiechyd yn y gwaed. *Na chrychni.*—Arwydd o henaint yn y cyfansoddiad. Y mae prydferthwch perffaith yn cau allan bob peth o'r fath, ac yn cynnwys anfarwoldeb pur, ac iechyd perffaith. *Na dim o'r cyfryw.*—Dim o natur anffurfiol, neu ddarfodedig. *Sanctaidd a difeius.*—Eglurhâd moesol ar y ffugrau anianyddol uchod—y naill yn gosod allan ragoriaethau cadarnhaol, a'r llall y rhai nacaol.

28. *Felly y dylai y gwŷr garu eu gwragedd, megys eu cyrph eu hunain.*—Y mae un gair wedi ei adael allan gan y cyfieithwyr ag a ddylasai gael ei roddi i mewn, sef "hefyd." Dylasai fod "Felly hefyd;" *h. y.*, fel y darfu i Grist garu yr eglwys. Nid yr ystyr ydyw "felly.....megys eu cyrph eu hunain:" ond felly, sef fel y carodd Crist yr eglwys, y dylai y gwŷr garu eu gwragedd megys eu cyrph eu hunain. Y mae y gwŷr i garu eu gwragedd megys eu cyrph eu hunain. Pa fodd? fel y carodd Crist yr eglwys. Y mae y gŵr wrth garu ei wraig yn caru ei gorph ei hun, gan mai cyflawnder y gŵr yw y wraig. Ynddi hi y mae ei hunaniaeth yn cael ei gwblhau; ac yn yr adnod nesaf, dengys yr apostol fod yr hwn a garo ei wraig, yn caru, nid yn unig ei gorph ei hun, ond ef ei hun; canys y mae corph dyn yn anwahanol oddi wrtho ef ei hun.

29. *Canys ni chasaodd neb erioed ei gnawd ei hun.*—Y mae yr adnod hon yn dyfod i mewn yn rheswm dros yr annogaeth yn y rhan flaenaf o'r adnod flaenorol; ac fel ymhelaethiad ar yr un rheswm, fel y cynnwysir ef yn y rhan olaf o'r un adnod. Dylai y gwŷr garu eu gwragedd megys eu cyrph eu hunain; canys wrth garu eu cyrph eu hunain, y maent yn eu caru eu hunain; ac felly, wrth garu eu gwragedd, y maent yn caru eu hunain; a'r un modd yn nacaol, drachefn, wrth eu casau, y maent yn casau eu hunain, yr hyn sydd wrth-ddwediad; "canys ni chasaodd neb erioed ei gnawd ei hun." Swm a sylwedd y gwirionedd a gynnwysir yn y geiriau ydyw, fod

---

i un garu ei wraig yn ddeddf natur ei hun, ac fod esgeuluso hyny yn drais ar natur, yn wrthddywediad gweithredol, ac yn weithred annaturiol. *Eithr ei fagu a'i feithrin y mae.*—Pan y mae dyn yn gweithredu yn ol deddf ei natur, y mae, yn lle casau, yn magu ac yn meithrin ei gnawd ei hun. Y mae y gair cyntaf, "magu," yn arwyddo gwneuthur pob peth ag sydd yn ffafriol i'w dyfiant a'i ddadblygiad allanol, gyda chyfeiriad arbenigol at ymborth; a'r ail, at yr hyn sydd yn dueddol i'w gadwraeth a'i amddiffyniad, gyda chyfeiriad arbenigol at wisgiad ac ymgeledd o bob rhyw. *Megys ag y mae yr Arglwydd am yr eglwys.*—Groeg: "megys yr Arglwydd, yr eglwys,"—yr hyn a fuasai yn gyfleithiad llawn mwy eglur a syml yn ol ein barn ni.

30. *O blegid aelodau ydym o'i gorph ef.*—Y mae yr Arglwydd yn magu ac yn meithrin ei eglwys fel ei gnawd ei hun; canys y mae y cyfryw berthynas rhwng Crist a'r eglwys. Yr ydym ni yn aelodau o'i gorph ef. Efe ydyw y pen, a ninnau ydym yr aelodau o'i gorph ef. Wrth ei gorph ef y mae i ni ddeall yma, nid ei gorph cyfriniol, cynnwysedig o hono ef, ynghyd â'i bobl; ond ei gorph personol ef—corph ei ogonedd; sef y natur ddynol fel y mae yn gyfrwng ein hundeb, a'n cymmundeb âg ef. *O'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.*—Groeg: "allan o'i gnawd, ac allan o'i esgyrn ef" (*ek*—allan o.) I ddynodi y berthynas briodasol rhyngddo ef ac Efa, sieryd Adda am dani fel ei wraig, "Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i." Yr oedd Efa yn aelod megys o'i gorph ef, gan ei bod wedi dyfod allan o hono—allan o'i gnawd ac o'i esgyrn. Mewn cyffelyb fodd, ond mewn ystyr uwch, yr ydym ninnau yn aelodau o ddynoliaeth ogoneddus Crist, trwy darddiad allan o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef. Dywed Hodge fod yr adnod hon yn un o'r rhai anhawddaf yn yr holl Ysgrythyr; ac am hyny, fel y gallesid disgwyl, y mae amrywiaeth mawr mewn golygiadau ar ei hystyr. Nis gallwn, mewn byr nodiadau fel hyn, ond prin eu henwi. Un golygiad ydyw, mai yr hyn a olyga yr apostol ydyw, fod y saint yn derbyn eu bodolaeth ysbrydol o Grist, fel y darfu i Efa dderbyn ei bodolaeth anianol o Adda, ond heb egluro y modd. Y gwrthwynebiad a deimlir yn y fan i'r golygiad ydyw, ei fod yn rhy ammhennodol—heb roddi cyfrif am, nac eglurhâd o ymadroddion cryfion yr apostol yn y lle hwn, y rhai sydd yn dywedyd ein bod yn aelodau o'i gorph, ac yn tarddu o'i gnawd ef, a'i esgyrn ef. Y mae y fodolaeth, rhyw fodd neu gilydd, felly yn tarddu, nid yn unig o'i berson, ond o'i gnawd a'i esgyrn. Golygiad arall ydyw, fod yr apostol yma yn cyfeirio at ymgnawdoliad Crist; ac mai yr ystyr yw, ein bod yn aelodau o'i gnawd ac o'i esgyrn, am ein bod yn meddu yr un natur ddynol ag ef, yr hwn a gymmerodd i undeb â'i berson ei hun trwy ei ymgnawdoliad. Yr wrthddadl a gyfodir yn erbyn y golygiad hwn ydyw, fod yr ymgnawdoliad yn golygu ei waith ef yn cyfranogi o'u

gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.

cnawd ni a'n hesgyrn ni, yn hytrach nag ein bod ni yn cyfranogi o'i eiddo ef. Sail yr ail ydyw y cyntaf; ond nid y naill ydyw y llall. Heb law hyny, mae yr ymgnawdoliad yn rhwymyn undeb rhwng Crist a'r holl hiliogaeth ddynol, tra nad ydyw yr undeb y llefara yr apostol am dano yma ond rhyngddo ef a'r credinwyr yn unig. Y trydydd golygiad a enwir ydyw, fod yr apostol yn cyfeirio yn yr ymadroddion hyn at angeu Crist; ac mai y meddwl yw, fod yr undeb rhwng Crist a'i bobl yn tarddu allan o'i farwolaeth ef —o'i gnawd ef wedi ei ddryllio, ac o'i waed wedi ei dywallt—ei natur oll wedi ei rhoddi i farwolaeth drostynt. Y mae yr eglurhâd hwn etto yn dra annaturiol. Y mae eguro yr ymadroddion "o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef," fel yn cyfeirio at ei angeu, yn enghraifft deg o'r hyn a eilw y Sacson yn *far-fetched*. Nis gellir mabwysiadu y syniad heb ystumio y geiriau o'u hystyr gyffredin. Y mae y pedwerydd golygiad a enwir yn un o natur athronyddol, yn hytrach na duwinyddol; sef, mai y gwirionedd a ddysgir yn y geiriau ydyw, fod y saint yn cyfranogi o fywyd Crist yn ei holl gyfanrwydd. Yr ydym, trwy genhedliad naturiol, yn cyfranogi o holl fywyd y ddynoliaeth o Adda, y corphorol a'r meddyliol, y rhai yn wir nid ydynt, yn ol y syniad hwn, ond un bywyd mewn dwy sefyllfa neu ansawdd wahanol; ac yn yr un modd y mae y saint yn cyfranogi o holl fywyd Crist fel Duw-ddyn, ei fywyd dwyfol a dynol—ei fywyd dwyfol-ddynol. Fel yn ei berson ef y mae y ddwy natur yn un â'u gilydd, y ddwyfol a'r ddynol, felly hefyd undeb ef y mae bywyd y naill mewn undeb â bywyd y llall, fel nad oes modd eu gwahanu, na chyfranogi o'r naill heb gyfranogi o'r llall. Yn awr, y mae y saint, trwy ffydd, yn cael eu gwneuthur yn gyfranogion o Grist, o'i natur ddwyfol-ddynol, ac hefyd o'i fywyd dwyfol-ddynol; ac o ganlyniad, y maent yn gyfranogion o'i gorph—o'i gnawd, ac o'i esgyrn, yn gystal ag o'i enaid dynol, ac hefyd o'r natur ddwyfol. Fel yr ydym, trwy genhedliad naturiol, yn cyfranogi o holl ddynoliaeth Adda, yr ydym hefyd, trwy genhedliad ysbrydol, yn cyfranogi o holl ddwyfol-ddynoliaeth yr ail Adda; ac nid ydyw yr eglwys, gan hyny, ond dadblygiad naturiol o Grist, fel y mae yr hiliogaeth ddynol o Adda. Yr wrthddadl i'r golygiad hwn yw, ei fod, o ran athrawiaeth, yn gyfeiliornus, gan ei fod i raddau mawr yn myned dan seiliau personoliaeth unigol, a rhyddid yr ewyllys. Y mae yn gymmysgedig âg ef wirioniedd dwfn, yr hwn sydd yn ei wneuthur yn ymddangosiadol a deniadol, a'r hwn y mae yn rhaid ei ddidoli oddi wrth yr hyn sydd gyfeiliornus. Nid yw undeb y saint â Christ yn golygu undeb eu natur ddynol hwy â'i natur ddwyfol-ddynol ef; ond undeb eu personau dynol hwy â'i berson dwyfol-ddynol ef. Yn rhinwedd yr undeb hwn y maent hwy yn dyfod i gyfranogi o'i fywyd ef, heb gyfranogi o'i natur fel Duw-ddyn, trwy dderbyn o hono fel Duw-ddyn, yn eu hundeb â'i berson, fodolaeth a bywyd ysbrydol, fel y cawn ddangos etto yn y rhanau canlynol. Golygiad arall, yr hwn sydd hefyd wedi cael derbyniad helaeth gan ranau helaeth o'r Eglwys Gristionogol (Eglwys Rhufain, y Lutheriaid, Calvin, Beza, ac ereill) ydyw, fod yr apostol yn cyfeirio yma at sacrament Swper yr Arglwydd. Yn yr ordinhâd hon, fel y dengys yr Arglwydd Iesu ei

31 [t]Am hyny y gâd dyn ei dad [t]Gen. 2. 24; Marc 10. 7.

hun, yr ydym i fwyta o'i gnawd ef, ac i yfed ei waed, ac yn gyfranogion, fel y dywed Paul, o gorph a gwaed Crist; a thrwy hyny gwneir ni yn "un cnawd" âg ef. Pa fodd y gwneir hyn, sydd yn bwngc o ddadl. Mŷn eglwys Rhufain fod yr elfenau, trwy wyrth unionygyrchol, yn cael eu troi i sylwedd ei gorph a'i waed; a thrwy fwyta o honynt, fod y cymmunwyr yn cyfranogi o natur ddynol Crist. Y Lutheriaid a honant, yn lle traws-sylweddiad, gyd-sylweddiad: sef, fod natur ddynol Crist yn ymuno â'r elfenau. Drachefn, barnai Calvin fod corph gogoneddus Crist yn y nefoedd trwy ryw oruchwyliaeth wyrthiol, yn cael ei gyfranu i gredinwyr, pan yn ymarfer â'r ordinhâd yn ffyddiog—nid trwy ymuniad ei gorph â'r elfenau, ond trwy weithrediad ei Ysbryd. "Yr ydym," meddai, "yn asgwrn o'i asgwrn, ac yn gnawd o'i gnawd ef: nid am, megys ninnau, fod ganddo natur ddynol, ond am ei fod trwy nerth ei Ysbryd yn ein gwneuthur yn rhan o'i gorph, fel ag yr ydym yn derbyn ein bywyd ysbrydol o hono." Yn erbyn y golygiad uchod yn ei wahanol ffurfiau, dadleuir nad yw y geiriau "o'i gnawd, ac o'i esgyrn ef," yn ein harwain at y sacrament, ond yn hytrach at y berthynas briodasol, fel y darlunir hi yn ei sefydliad yn *Gen.* ii. 22—25, lle y cawn yr un geiriau. Mewn cysylltiad â'r sacrament, y geiriau a arferir ydynt "corph" a "gwaed," neu "gnawd" a "gwaed," yn hytrach na "chnawd, ac esgyrn." Drachefn, y mae yn amlwg mai undeb y saint â Christ sydd yn cael ymdrin âg ef gan Paul yn y lle hwn, a'u dyfodiad i berthynas o undeb â Christ, trwy darddiad "o'i gnawd ac o'i esgyrn ef;" tra yn y Swper Sanctaidd, mai cymmundeb seiliedig ar yr undeb sydd yn cael ei fwynhau. Am eu bod yn yr undeb wedi eu gwneuthur yn aelodau o'i gorph, trwy darddu allan, fel Efa o Adda, "o'i gnawd ac o'i esgyrn," y maent yn y cymmundeb yn mwynhau ac yn cyfranogi o'i gorph a'i waed. Ar ol ymwrthod â'r golygiadau uchod, yr ydym yn barnu gyda Hodge, Ellicott, ac ereill, mai y gwir ystyr yw, fod y saint yn cael eu gwneuthur yn gyfranogion o fywyd ysbrydol; nid yn unig o Grist, ond mewn rhyw fodd dirgeledig, a'r hwn sydd, fel y dywed yr apostol ei hun, yn ddirgelwch mawr, "o'i neu allan o'r natur ddynol;" sef, ei "gnawd a'i esgyrn." Mewn geiriau ereill y maent yn derbyn eu bodolaeth a'u bywyd ysbrydol o'i berson trwy gyfrwng ei natur ddynol, yn ei chyfiwr presennol o ogonedd a dyrchafiad. Y mae y gosodiad cyntaf, "Canys yr ydym yn aelodau o'i gorph ef," yn cael ei egluro yn y geiriau canlynol:—'Pa fodd?' gellid gofyn, 'yr ydym yn aelodau o'i gorph ef;' ac mewn atteb i hyn, dywed yntau, "O'i gnawd ac o'i esgyrn ef," neu yn llythyrenol, "allan o'i gnawd ac o'i esgyrn ef" (Groeg: *ek*). Fel y daeth Efa i fodoliaeth a chyfranogiad o'i dynoliaeth trwy darddiad allan o gnawd ac o esgyrn Adda, felly y mae y saint yn dyfod i gyfranogiad o fodoliaeth a bywyd ysbrydol trwy darddiad allan o'i gnawd ac o'i esgyrn ef; hyny yw, trwy darddiad allan ein bywyd ysbrydol o'i ddynoliaeth ddyrchafedig ef fel cyfrwng. Ei berson ydyw ffynonell y bywyd, ei natur ddynol yw ei sianel a'i gyfrwng. Fel yr oedd Efa yn derbyn ei bywyd a'i hanfodiad dynol trwy darddiad o gorph Adda, felly y mae y saint yn derbyn eu bodolaeth a'u bywyd ysbrydol trwy darddiad o gorph gogoneddus yr

a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd.

[a] Esa. 62. 4, 5; Ioan 3. 29. 32 [a]Y dirgelwch hwn sydd fawr: eithr am Grist ac *am* yr eglwys yr wyf fi yn dywedyd.

33 Ond chwithau hefyd cymain un, felly cared pob un o honoch ei wraig, fel ef ei hunan; a'r wraig *edrycheđ* ar iddi berchi *ei* gŵr.

ail Adda, sef Crist. Y mae pob Cristion yn derbyn y rhai hyn o Grist, fel Efa o Adda. Yn mherthynas Adda âg Efa, y mae priodas a genedigaeth, yn lle bod ar wahân, yn un. Ar ol hyny, gwahanwyd hwynt; ond yn undeb y saint â Christ, y maent fel yn y cysgod, felly yn y sylwedd yn un. Yn eu hundeb â Christ, gan hyny, y mae hanfodiad yr eglwys, fel y dywed yr anfarwol Hooker yn "*true native extract from his own body.*" "Y mae ein hundeb â'r Duwdod yn gorphwys yn hollol yn ein hundeb cyfriniol â dynoliaeth ein Harglwydd; yr hon sydd wedi ei huno yn bersonol â'i natur ddwyfol ef, yr hon etto sydd wedi ei huno, yn hanfodol â Duw y Tad—Pen a ffynnon fawr pob peth."—*Ellicott.*

31. *Am hyny:*—sef, am y rheswm mawr sydd yn waelod i'r undeb priodasol, yn ysbrydol ac yn anianol, yr hwn yn y ddau sydd yn un, sef, tarddiad bodolaeth a bywyd allan o "gnawd ac esgyrn." Am hyn, y mae dyn i barhau yn dadgyssylltu perthynasau llai dwfn i ymglymu mewn un ddyfnach ac agosach. Teimlir anhawsder yn y cyssylltiad rhwng yr adnod hon a'r un flaenorol. Pa ham y mae yr apostol yn cyssylltu gwaith dyn yn gadael ei dad a'i fam, i ymgymeryd â'r berthynas anianol, â'r eglurhâd a ddyry o natur y berthynas ysbrydol? Gan mai at reswm ac achos yr undeb sydd rhwng Crist a'i eglwys y cyfeiria yn yr adnod flaenorol, pa ham na buasai yn sŏn am Grist fel yn gadael tad a mam er mwyn ymuno â'i eglwys? I gyfarfod yr anhawsder yma, cawn fod amryw o'r hen dadau yn barnu fod yr apostol yn cymmhwyso y geiriau a geir yn Genesis, fel darluniad o rym y berthynas anianol at y berthynas rhwng Crist a'i eglwys, ac mai yr ystyr felly ydyw, fod Crist wedi gadael ei dad a'i fam, sef, ei Dad yn y nefoedd, a'i fam, sef yr Ierusalem nefol, "ein mam ni oll;" neu, mewn geiriau ereill, cymmeryd ein natur ni i gyfranogi o honi, fel y byddai i ninnau gyfranogi o hono ef, ynddi a thrwyddi. Y mae ereill yn cyssylltu yr "am hyny" âg *adn.* 28, 29. Y mae y cyssylltiad hwn yn anghysson â'r hyn a ddywedir yn *adn.* 32, "am Grist ac;" ac hefyd yn anghysson â chyssylltiad yr "am hyny," fel y ceir y geiriau yn Genesis, lle y cawn hwynt yn dyfod i mewn yn rheswm dros "Hwn weithian sydd asgwrn," &c. Yr eglurhâd a ddyry Hodge ydyw, fod y dyfyniad, yn ei gymmhwysiad at Grist a'i eglwys, i'w gyfyngu yn unig i'r rhan olaf—"a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd." Fel hyn yr arall-eirir gan Hodge: "Fel y cafodd Efa ei ffurfio o gorph Adda—am hyny y dywedir y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd—felly am ein bod ni yn aelodau o gorph Crist, y mae Crist a'i eglwys "yn un cnawd." Yr ydym yn tueddu yn gryf i farnu, yn hytrach, fod yr "am hyny," fel y dywedwyd o'r blaen, yn cyfeirio at reswm ac achos mawr yr undeb sydd rhwng Crist a'i

PENNOD VI.

1 *Dyledswydd plant tuag at eu rhieni,* 5 *a gweision tuag at eu hargluyddi.* 10 *Mai milwriaeth yw ein bywyd ni,* 12 *nid yn unig yn erbyn cig a gwaed, eithr hefyd yn erbyn gelynion ysbrydol.* 13 *Cyflawn arfogaeth Cristion,* 18 *a'r modd yr arferir.* 21 *Canmawl Tychicus.*

B. A. 62.

Y PLANT, [a]ufuddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd: canys hyn sydd gyfiawn.

[a] Diar. 30. 11, 17; Luc 2. 51.

eglwys; sef, tarddiad allan fywyd a bodolaeth yr eglwys allan o'i gnawd ac o'i esgyrn ef. "Am hyny," am yr un rheswm, er mewn cylch is, ac yn unig fel cysgod o'r un achos mewn cylch uwch, y mae dyn yn gadael, &c. Ni buasai yr is oni buasai yr uwch; ac y mae yr is yn ddyledus am ei fod a'i gynllun i'r uwch. Nid ydyw cariad yr ystlenau, fel y dengys Olshausen, ond adlais ac adlewyrch o gariad tragwyddol mab Duw at ei eglwys. Tarddiad allan Efa o sylwedd Adda ydyw sail oesol a gwastadol holl briodasau y byd.

32. *Y dirgelwch hwn sydd fawr.*—Pa beth yw y dirgelwch hwn? Y geiriau a ddyfynir yn yr adnod flaenorol, fel y mae yn cynnwys ystyr allegol, medd rhai. Ond nid oes enghraifft o fod y gair "dirgelwch" yn cael ei arfer yn yr ystyr hwn. Ereill a olygant mai yr undeb sydd rhwng Crist a'i eglwys ydyw, neu y cyfattebiaeth rhwng yr undeb priodasol a'r undeb hwnw. Yr wrthddadl i'r golygiad hwn yw diwedd yr adnod. Yr eglurhâd goreu ydyw, fod yr apostol yma yn cyfeirio etto at wreiddyn neu sail dyfnaf yr undeb priodasol, a'r undeb rhwng Crist a'i eglwys. Yn y dyfnder y mae dirgelwch yn wastad yn gorwedd—nid ar y wyneb. Y mae dwfn achos a rheswm yr undeb priodasol, yn y sylwedd o hono, ac yn ei gysgod, yn ddirgelwch annhreiddiadwy. *Ond am Grist ac am yr eglwys yr wyf fi yn dywedyd:—h. y.,* Yr ydwyf fi yn ymdrin yn y lle hwn yn arbenig, ac fel fy amcan pennodol, â'r dirgelwch yn ei gyssylltiad â Christ, ac â'i eglwys; ac felly yn edrych ar y dirgelwch yn ei fan dyfnaf—nid yn y cysgod fel y mae yn y gŵr a'r wraig, ond yn y sylwedd, fel y mae yn Nghrist a'i eglwys. Yr ydwyf yn edrych arno yn ei sylweddoliad uchaf, ac yn hwnw yn ei ddirgelwch dyfnaf.

33. *Ond chwithau hefyd.*—Ond er fod cyfeiriad fy ymdriniaeth at y dirgelwch yn ei gyssylltiad â Christ a'i eglwys, mewn modd arbenig, etto, o ran y dyben ymarferol, yr ydwyf yn ei ddwyn yn mlaen fel cymmhelliad, i'ch annog chwi bob un yn bersonol, y gwŷr i garu eu gwragedd fel hwy eu hunain, a'r wraig i barchu ei gŵr. Ystyr y gair Groeg a ddarllenir yma "parchu," ydyw "ofni;" ond golyga bob teimlad o ddarostyngiad, parch, ac ufudd-dod.

Pennod VI.

1. *Yn yr Arglwydd.*—Gwrthodir y geiriau gan Lachmann, gan na'l ydynt yn y llawysgrifau B, D, F, G; ond ar y llaw arall, y maent yn A, D^3, E, K, L, yn y llaw-ysgrifau mân, ac hefyd yn y cyfieithiadau. Felly y mae yr awdurdod o blaid, ac yn erbyn, yn lled gyfartal. Os cedwir hwynt, y maent i'w cyssylltu â'r gair "ufuddhewch." *Canys hyn sydd gyfiawn:*—gwel ar *Col.* iv. 1; iii. 20. Ystyr y gair "cyflawn" yma ydyw, ei fod yn iawn ynddo ei hun; ac yn yr

[b] Exod. 20. 12; Diar. 20. 20; Mat. 15. 4—6.

2 [b] Anrhydedda dy dad a'th fam (yr hwn yw y gorchymyn cyntaf mewn addewid)

3 Fel y byddo yn dda i ti, ac fel y byddech hir-hoedlog ar y ddaear.

[c] Gen. 31. 14, 15; Col. 3. 21. [d] Exod. 13. 14, 15.

4 A [c] chwithau dadau, na yrwch eich plant i ddigio; [d] ond maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.

[e] Mat. 6. 24.

5 *Y* gweision, [e] ufuddhewch i'r *rhai sydd* arglwyddi *i chwi* yn ol y cnawd, gydag ofn a dychryn, yn symlrwydd eich calon, megys i Grist;

6 Nid â golwg-wasanaeth. fel boddlonwyr dynion, ond fel gweision Crist, [f] yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon;

[f] Col. 1. 9.

7 Trwy ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth, megys i'r Arglwydd, ac nid i ddynion:

8 Gan wybod mai pa ddaioni bynag a wnelo pob un, hyny a dderbyn *efe* gan yr Arglwydd, pa un bynag ai caeth ai rhydd *fyddo.*

[g] Luc 6. 31.

9 A chwithau feistriaid, [g] gwnewch yr un pethau tuag atynt hwy, gan roddi bygwth heibio: gan wybod fod eich Arglwydd chwi a hwythau yn y nefoedd; ac nid oes derbyn wyneb gydag ef.

adnod nesaf, dengys ei fod yn fater gorchymyn pennodol yn neddf Duw.

2. *Anrhydedda dy dad a'th fam.*—Y mae llais Duw yn ei ddeddf yn cadarnhau ei ddysgeidiaeth yn nhrefn natur. *Y gorchymyn cyntaf mewn addewid.*—Golygiad Meyer ar y frawddeg hon sydd yn ein taraw ni yn fwyaf argyhoeddiadol sef, fod yr apostol yma yn golygu yr holl ddeddf, —y foesol, y seremoniol, a'r wladol. Fel y cyfryw y mae yn cynnwys gorchymynion o'i dechreu i'w diwedd, fel mai "deddf gorchymynion" y gelwir hi gan yr apostol yn yr epistol hwn (*pen.* ii. 15). Yn awr, yn mhlith y gorchymynion hyn, y cyntaf mewn addewid, *h. y.*, y cyntaf sydd âg addewid ynglŷn âg ef, ac yn gorwedd megys yn mynwes addewid, ydyw y pummed gorchymyn o'r ddeddf foesol, gan nad ydyw yr addewid sydd ynglŷn â'r ail orchymyn yn orchymyn pendant, ond yn hytrach, fel y dengys Calvin, yn addewid gyffredinol, i'w chymmhwyso at ufudd-dod i'r holl orchymynion.

3. *Fel y byddo yn dda i ti, &c.*—Y mae yr addewid hon, yn y wedd gyffredinol a roddir iddi gan yr apostol yn y lle hwn, yn aros mewn grym hyd heddyw. Y mae hanesyddiaeth yn cadarnhau gwirionedd yr addewid. Nid ydym i ddeall yr addewid fel sicrhâd dieithriad a chaeth; eithr yn hytrach fel rheol gyffredinol, yn ngweinyddiad yr hon y mae y Llywodraethwr mawr yn rhydd i weithio allan fwriadau a threfniadau ei ddoethineb ei hun. Y mae digon o sicrwydd ynglŷn â hi, o leiaf, i fod yn gymmhelliad i ufudd-dod. Yn ei ffurf ddeddfol ac luddewig, cyfeiriai yr addewid yn arbenig at Wlad Canaan; ond yn ei ffurf efengylaidd, y mae yn fwy cyffredinol—"ar y ddaear," yn lle "yn y wlad a roddaf i ti."

4. *Na yrwch eich plant i ddigio.*—Dyledswyddau tadau, ar yr ochr nacaol, ydyw peidio cynnhyrfu nwydau digofus eu plant trwy doster, anghyfiawnder, a gormes. Yn gadarnhaol, eu dyledswydd ydyw, yn hytrach, eu maethu; *h.y.*, eu dwyn i fyny, rhoddi pob hyfforddiant crefyddol iddynt. *Yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.*—Y mae y gair cyntaf yn cael ei ddeall gan rai am addysg a dysgyblaeth yn gyffredinol, a'r ail am gangen neilltuol o'r ddysgyblaeth, sef rhybuddio. Ond gwell, dybygem, ydyw cymmeryd y geiriau mewn ystyr mwy manwl; sef, y cyntaf, "*paideia,*" "addysg," am ddysgyblaeth a llywodraeth, yn cyfeirio yn fwy at ymddygiadau nag at eiriau; a'r ail, sef "athrawiaeth," at hyfforddiant mewn geiriau. Cyssylltir y naill a'r llall â'r Arglwydd Iesu, am mai efe ydyw yr un sydd yn gorchymyn, ac, yn yr eithaf, yn gweinyddu y cyfan.

5, 6. *Arglwyddi yn ol y cnawd, &c.*—Gwel ar *Col.* iii. 22.

7. *Trwy ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth.*—Y mae yr ymadrodd "ewyllys da" yn cyfeirio at y teimlad a ddylai fod yn y gwas tuag at ei feistr yn ei waith; ac y mae yr ymadrodd "o'r galon," yn niwedd yr adnod flaenorol, yn cyfeirio at yr ansawdd a ddylai fod arno gyda golwg ar eilwaith i'w feistr.

8. *Hyny a dderbyn efe*:—fel ffrwyth a chynhauaf ei lafur. Yn *Col.* iii. 24, yr ymadrodd yw, "taledigaeth yr etifeddiaeth." Yn yr epistol hwn, dangosir i ni y cyssylltiad naturiol sydd rhwng y gwaith a'r wobr. Derbyn y wobr fydd derbyn y gwaith ei hun mewn ffurf arall, fel y mae yr amaethwr yn derbyn yr hâd yn y ffurf o ffrwyth. *Pa un bynag ai caeth ai rhydd fyddo.*—Nid ei safle cymdeithasol a olygir yn y dydd hwnw, ond ei gymmeriad a'i waith moesol.

9. *Yr un pethau.*—Y mae Calvin, yr hwn oedd astudiwr dwfn yn y gyfraith, yn rhoddi, dybygem, y gwir eglurhâd ar y geiriau hyn mewn byr eiriau:—"Cyflawnwch y ddyledswydd, yr hon, ar eich tu chwi, sydd ddyledus oddi wrthych tuag atynt." Yr hyn a eilw mewn epistol arall, "yr hyn sydd gyflawn ac uniawn," ydyw yn gymmhwys yr hyn a eilw yma "yr un pethau." A pha beth ydyw hyn ond lawnderau cyfattebol (*jus analogum*)? Nid ydyw meistriaid a gweision yn wir ar yr un tir a'u gilydd; ond y mae yr un ddeddf yn eu rhwymo o bob tu y naill i'r llall." *Gan roddi bygwth heibio.*—"Y mae pob amlygiad o ddiystyrwch yn cyfodi oddi ar falchder meistriaid, yn cael ei gynnwys yn yr ymadrodd hwn. Y mae pob bygythion yn gwreiddio yn hyn—fod meistriaid yn edrych ar y gweision fel pe byddent wedi eu geni er eu mwyn hwy yn unig, ac yn ymddwyn atynt fel pe na byddent o fwy o werth nag anifeiliaid."—*Calvin. Gan wybod fod eich Harglwydd chwi a hwythau.*—Y mae darlleniad arall, yr hwn sydd yn gadael allan "chwi;" ond nid ydyw yr awdurdod drosto yn gyfartal i'r un sydd dros y darlleniad uchod Gallesid, yn lle "Arglwydd," ddarllen "meistr," fel yn *Col.* iv. 1. *Yn y nefoedd.*—Yn barod i farnu yn gyfiawn, ac heb dderbyn wyneb. *Ac nid oes derbyn wyneb gydag ef.*—Wrth "wyneb," neu berson, y mae i ni olygu, pob peth o amgylch dyn ag sydd heb fod yn perthyn i'r mater dan ymchwiliad; megys, perthynas naturiol,

10 Heb law hyn, fy mrodyr, [h] ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yn ngbadernid ei allu ef.

11 Gwisgwch [i] holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn [k] cynllwynion diafol.

12 O blegid nid yw ein hymdrech ni [l] yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, [m] yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau'ysbrydol yn y nefolion *leoedd.*

13 Am hyny [n] cymmerwch at-

[a] Deut. 20. 3, 4; Esa. 35. 3, 4.
[i] Rhuf. 13 12.
[k] Marc 13. 22.
[l] Mat. 16. 17.
[m] Ioan 14. 30.
[n] Adn. 11-17.

rhagoriaeth personol, gradd, cyfoeth, cyfeillgarwch, a phethau o'r fath. Nid yw Duw dderbyniwr wyneb, ac ni thelir llai o sylw i achos y lleiaf o ddynion nag i'r eiddo y teyrn uchaf." —*Calvin.*

10—19. Y FILWRIAETH A'R ARFOGAETH YSBRYDOL.

Ar ol egluro bywyd a dyledswyddau'y Cristion mewn ymadroddion llythyrenol, y mae yr apostol yn appelio at y dychymmyg, ac yn eu disgrifio trwy y gymmhariaeth ardderchog o filwriaeth ac arfogaeth. Oddi yma y tarddodd y drychfeddwl am "yr eglwys filwriaethus." Cawn y gymmhariaeth yn anghyflawn yn yr Hen Destament (*Exod.* xv. 4; *Esa.* xi. 5: a lix. 16): ond yma wedi ei gweithio allan yn gyflawn. Cymh. hefyd 2 *Cor.* x. 4; a 1 *Thes.* v. 8. Os cofiwn fod yr apostol, pan yn ysgrifenu y llythyr hwn, yn ngwersyllfa y fyddin Rufeinig, yr hon a elwid y "Prætoriaidd,' lle y canfyddai yn feunyddiol arfogaeth a dysgyblaeth y fyddin ddewisedig hon, gallwn ganfod mor naturiol oedd iddo fenthyca y gymmhariaeth, i osod allan fuchedd y Cristion yn y byd hwn.

10. *Heb law hyn, fy mrodyr.*—Y mae Lachmann, Tichendorf, Olshausen, Alford, ac ereill, yn ymwrthod â'r rhan olaf o'r frawddeg; sef, "fy mrodyr." Y mae eu hawdurdod dros hyn yn gryf. Nid ydyw y geiriau i'w cael yn y prif lawysgrifau, B, D, E; ar y llaw arall, y maent yn A, K, L. Frawf mewnol a ddygir yn mlaen dros eu gwrthod ydyw, y ffaith nad ydyw yr apostol yn cyfarch ei ddarllenwyr wrth yr enw hwn yn un rhan arall o'r epistol. *Ymnerthwch.*—Groeg: "Byddwch wedi eich nerthu." Y mae y nerth i ddyfod oddi wrth yr Arglwydd, ac nid o honom ein hunain. Pa rym, gan hyny, sydd yn y gorchymyn, ar iddynt fod wedi eu nerthu yn yr Arglwydd? Am fod yn disgyn arnynt hwy ymaflyd yn ei nerth ef, yr hyn y gall gwendid ei hunan ei wneuthur. *Yn yr Arglwydd:*—sef, yr Arglwydd Iesu. Dywed Gurnal, fod "nerth y blaenor mewn lluoedd ereill yn gorwedd yn ei fyddinoedd. Y mae efe yn ehedeg, fel y dywedodd un penaeth wrth ei filwyr, ar eu hadenydd hwynt; eithr yn myddin y saint y mae nerth pob sant, le, holl luoedd y saint, yn gorwedd yn Arglwydd y Lluoedd. Medr Duw orchfygu ei elynion heb eu dwylaw hwynt, ond nid allant hwy gymmaint ag amddiffyn eu hunain heb ei fraich ef." *Ac yn nghadernid ei allu ef.*—Gwel ar *pen.*. i. 19. Y mae y saint i ymnerthu'yn mherson yr Arglwydd, ac yn ei allu. Y mae yr ymdeimlad o'r undeb sydd rhyngddynt a'i berson, a'r ymddiried yn ei allu, yn ffynnonell nerth deublyg iddynt. Y peth mawr a hanfodol i filwr yw gwroldeb; sef, nerth ysbryd, yn tarddu oddi ar ymdeimlad o nerth Cristion i darddu oddi ar ymdeimlad o nerth, nid eiddo ei hun, eithr o'r tu allan iddo ei hun.

11. *Cymmerwch atoch.*—Groeg; "Gwisgwch." *Holl arfogaeth Duw.*—Groeg: "*panoplia,*" o'r hwn y tardd y gair Saesneg *panoply.* Y mae y gair yn arwyddo y drychfeddwl o arfogaeth gyflawn mewn rhauau, i gyfatteb i bob rhan o'r corph, ac er amddiffyniad ac ymosodiad. Gelwir hi yn "arfogaeth Duw," am mai Duw sydd yn ei rhoddi. "Efe sydd yn cyfranu i bawb yr arfogaeth frenhinol."—*Theodoret. Fel y galloch sefyll.*—Y mae y gair "sefyll" yn un milwrol; ac arwydda, sefyll yn wrthgyferbyniol i ffoi. *Yn erbyn cynllwynion diafol.*—Groeg: "y diafol." Y mae y gair Groeg *methodeia,* a ddarllenir yma "cynllwynion" yn arwyddo cynllun, trefniad. Y mae yn cyfatteb, dybygid, i ystyr y gair Saesneg *strategy,*yr hwn a gynnwys fwy na'r hyn a osodir allan yn y gair *tactics.* Arwydda ddwfn gynllun y diafol yn y rhyfel ysbrydol gyda golwg ar bob un sydd yn ymdrechu ynddi. Y mae pob Cristion unigol yn wrthddrych cynllun y diafol i'w orchfygu, ac y mae yr holl eglwys filwriaethus yn wrthddrych cynllun mwy cyffredinol drachefn.

12. *O blegid nid yw ein hymdrech ni.*—Cynnwysa yr adnod hon y rheswm mawr pa ham y dylai y saint ymaflyd yn yr Arglwydd a'i nerth, a gwisgo ei arfogaeth ef. Y mae y gair Groeg *palé* yn arwyddo, yn llythyrenol, ymaflyd codwm: ond yma, defnyddir ef mewn ystyr mwy cyffredinol am ymdrech. *Yn erbyn gwaed a chnawd:* —*h. y.*, dynion. Gwel *Gal.* i. *Ond yn erbyn tywysogaethau,* &c.—Onid ydyw y saint yn ymdrechu yn erbyn dynion drwg hefyd? Ydynt, mewn un ystyr, sef fel offerynau; ond y mae yr apostol, fel y dengys Olshausen, yn myned yma at wreiddyn yr elyniaeth. "Yr oedd yr eglwys, dan demtasiwn, i edrych ar ddynion gwrthwynebus fel ei gelynion eithaf; ond tu draw i'r rhai hyn, a chan ddefnyddio offerynau allanol dynol, yr oedd galluoedd drygionus anweledig."—*Llewelyn Davies.* Yn y geiriau, i ddynodi gwahanol raddau y galluoedd drygionus, defnyddir yr un teitlau ag am yr ysbrydion da. Yn y teitlau hyn, dywed Olshausen fod teyrnas Satan yn cael ei dyfynu i'w gwahanol ranau:—1. *Tywysogaethau.* Rhai yn meddu ar radd uchel. 2. *Awdurdodau.* Rhai wedi eu gwisgo âg awdurdod uchel. 3. *Byd-ol-lywiawdwyr.*—Groeg: "byd-lywiawdwr perthynol i dywyllwch y byd hwn;" neu, yn ol y darlleniad goreu, "byd-lywiawdwyr y tywyllwch hwn," gan adael y geiriau "y byd" allan. Golyga yr ymadrodd, o bossibl, y rhai hyny o'r ysbrydion drwg ag sydd yn dwyn perthynas neilltuol â'r byd a'i dywyllwch. 4. *Drygau ysbrydol,* &c.—Neu, yn fwy cywir, "Ysbrydolion drygioni;" *h. y.*, y bodau ysbrydol hyny ag sydd â'u holl fwriad a'u gwaith i ledaenu drygioni yn y gread-igaeth. Ar ol enwi y cadfridogion a'r swyddogion, y mae yn dyfod at y milwyr cyffredin. *Yn y nefolion leoedd.*—Gwel ar *pen.* i. 3.

13. *Cymmerwch atoch.*—Yn *adn.* 11, dywed, "Gwisgwch;" ond mewn trefn i ymwisgo, rhaid cymmeryd yr arfau i fyny. Arwydda y weithred ddechreuol o ymwisgo â'r arfogaeth. *Fel y galloch wrthsefyll.*—Groeg: "Fel y'ch galluoger" Y mae y nerth i wrthsefyll, nid yn yr arfau, er eu

och holl arfogaeth Duw, fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg; ac wedi gorphen pob peth,

Luc 21. 36. [o] sefyll.

[p] Luc 12. 35. 14 Sefwch gan hyny, [p] wedi amgylch-wregysu eich lwynau â

[q] Esa. 59. 17. gwirionedd, a gwisgo [q] dwyfroneg cyfiawnder;

15 A [r] gwisgo am eich traed [r] Deut. 33. 25. esgydiau parotoad efengyl tangnefedd:

16 Uwch law pob dim, wedi [s] Gen. 15. 1. cymmeryd [s] tarian y ffydd, â'r hon [t] 1 Thes. 5. 19. y gellwch [t] ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall.

17 Cymmerwch hefyd [u] helm yr [u] 1 Thes. 5. 8

bod yn arfogaeth Duw, ond yn Nuw ei hun. *Yn y dydd drwg.*—Y mae amser y rhyfel yn cael ei ddynodi "yn ddrwg," am fod yr ymosodiad yn wreiddiol yn cyfodi oddi wrth yr un drwg, ac yn tueddu at ein cael i wneuthur drygioni. *Ac wedi gorphen pob peth, sefyll.*—Wedi gorchfygu pob peth a phawb o'n gelynion, sefyll a gorphwys. Felly yr esbonia rhai yr ymadrodd. Ereill, "Wedi i chwi orphen pob peth perthynol i un ymosodiad pennodol, sefyll heb golli, tra yn barod i fyned yn mlaen i enill buddugoliaeth chwanegol yn ngwyneb ymosodiad pellach." Hyn sydd fwyaf tebygol.

14. *Sefwch gan hyny.*—Yma y mae yn eu hannog i sefyll i'r frwydr, ac i wneuthur hyny yn eu barfogaeth, gan lenwi yr amrywiol ranau perthynol iddi; y rhai, yn ol barn un dosbarth o esbonwyr, sydd wedi eu benthyca oddi wrth filwriaeth Hebreig, ond yn llawer mwy tebygol od di wrth filwriaeth Rufeinig. Ar yr un pryd y mae yn amlwg fod golwg yr apostol yn arbenigol ar Lyfr y prophwyd Esaiah, pan yr ydoedd yn trefnu ystyr arwyddluniol yr arfau hyn. *Wedi amgylch-wregysu eich lwynau.*—Yr arf cyntaf a enwir ydyw y gwregys milwraidd. Cadwai hwn yr arfogaeth yn ei lle, a chynnaliai y cleddyf. Gweinyddai i roddi rhyddid gweithrediad i'r corph, ac ynghyd â hyny nerth a hwylusdod. "Y rhan fwyaf clwyfedig o'r corph, a'r rhan sydd fwyaf diamddiffyn gan natur ei hun, sef y lwynau, a amddiffynid gan y gwregys."—*Olshausen.* *A gwirionedd.*—Groeg: "Mewn gwirionedd." Arwydda y gair "gwirionedd," yn y lle hwn, nid gwirionedd fel y mae yn allanol yn yr athrawiaeth, ond fel y mae yn fewnol yn yr egwyddor. Mae gwironedd yn gryf fel athrawiaeth oddi allan; ond oddi mewn, fel egwyddor, wedi derbyn hanfod yn y meddwl a'r galon, y mae yn nerthol. *A gwisgo dwyfroneg cyfiawnder.*—Y ddwyfroneg ydoedd y rhan hwnw o'r arfogaeth ag ydoedd yn gorchuddio y corph, i lawr o'r gwddf hyd y morddwydydd; un rhan yn cuddio y cefn, a'r llall y ddwyfron. Heb yr arfogaeth hon, gan hyny, buasai y milwr yn hollol ddiamddiffyn ac agored, a'i fywyd mewn perygl mawr bob moment? Yr hyn sydd yn cyfatteb i'r ddwyfroneg yn y filwriaeth ysbrydol yw cyfiawnder: nid y cyfiawnder sydd trwy ffydd, yr hwn a gyfrifir gan Dduw [*Harless, Hodge*, ac ereill], o herwydd trwy hwn yr ydym yn derbyn bywyd—"y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd:" ond y cyfiawnder hwnw fel y mae, nid wedi ei gyfrif i'w berson, ond wedi ei gyfranu yn ei natur yn egwyddor [*Hooker*] ysbrydol. Trwy ddadblygu y cyfiawnder hwn y mae y Cristion yn ei arfogi ei hunan, ac yn cael amddiffyn rhag ymosodiad y diafol ar y bywyd ysbrydol sydd o'i fewn.

15. *Esgidiau parotoad efengyl y tangnefedd.*—Groeg: "Ac wedi rhwymo eich traed yn mharotoad efengyl y tangnefedd;" *h. y.*, Y mae parotoad efengyl y tangnefedd yn cyfatteb i rwymo y traed mewn esgidiau neu sandalau gan

y milwr naturiol. Arwydda y gair "parotoad" y cyflwr o fod yn barod i fyned yn mlaen, ac yn mhellach o hyd, yn y rhyfel ysbrydol. Y mae y milwr sydd wedi rhoddi ei esgidiau am ei draed yn barod i fyned allan yn y rhyfelgyrch; a'r un modd, dylai y Cristion fod yn wastad mewn sefyllfa ac ansawdd o barodrwydd meddwl ac ysbryd i gyfarfod a gwrthwynebu pob ymosodiad a allo ei ddal. Y mae y parotoad ysbryd hwn yn cael ei orchymyn i ni yn yr efengyl, fel efengyl y tangnefedd. Tra y mae yr efengyl yn cyhoeddi tangnefedd â Duw i bawb sydd yn credu, y mae y cyhoeddiad hwnw yn gyhoeddiad rhyfel yn erbyn holl elynion Duw, ac i gael ufuddhau iddo gyda pharodrwydd gwastadol gan ei holl saint. "Pan fyddom yn rhyfela â'r diafol, yr ydym yn gwneuthur heddwch â Duw."—*Chrysostom.*

16. *Uwch law pob dim:*—*h. y.*, yn chwanegol at yr holl ranau ereill o'r arfogaeth. Nid uwch law, o ran sefyllfa leol, na chwaith o ran pwysigrwydd cymmhariaethol. *Wedi cymmeryd.*—Groeg; "Cymmeryd i fyny." *Tarian y ffydd.*—Y darian ysbrydol ydyw ffydd. Arwydda y gair unrhyw beth ag a fyddo yn cyflawni gwasanaeth dôr neu ddrws, sef i gau allan ac amddiffyn: ac felly arwydda tarian, gyda chyfeiriad at yr hen darianau o ffurf hir-grwn, neu hir-scwâr. *Ddiffodd.*—Gorchuddid yr hen darianau gynt â chroen wedi ei leithio, mewn trefn i ddiffodd, yn gystal ag i ladd effaith y picellau tanllyd; sef, picellau, saethau, &c., wedi eu blaen-wisgo á sylweddau hylosg. Arferid y rhai hyn gan yr Hebreaid a'r Rhufeiniaid. *Y fall.*—Groeg: "Yr un drwg;" sef y diafol.

17. *Cymmerwch hefyd helm yr iachawdwriaeth.*—Groeg: "Derbyniwch;" *h. y.*, gan Dduw, yr hwn a biau, ac sydd yn rhoddi, ac yn gwisgo yr arfogaeth am danom. Helm y Cristion ydyw iachawdwriaeth. Yn 1 *Thes.* v. 8, dengys yr apostol fod gobaith iachawdwriaeth yn helm. Yma dysgir ni fod yr iachawdwriaeth ei hun yn helm. Y mae yr helm yn amddiffyn i'r pen, yn yr hwn y mae canolbwynt y bywyd. Y meddiant presennol o gadwedigaeth, neu iachawdwriaeth yr enaid, ydyw amddiffyn, a chanolbwynt amddiffyn y Cristion yn wyneb ei holl elynion. Y mae ei fywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. Y mae crediniaeth a gobaith o'n hiachawdwriaeth yn amddiffyn mawr yn wyneb ymosodiad ein gelynion ysbrydol. *A chleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw:*—sef, y cleddyf a roddir i ni gan yr Ysbryd. Nid y cleddyf, yr hwn yw yr Ysbryd—*Harless.* Y cleddyf hwn yw gair Duw, fel y mae yn ysgrifenedig yn yr Ysgrythyrau, ac fel y mae yn llafaredig yn ngweinidogaeth yr efengyl. Nid y gwirionedd oddi fewn (canys gwregys ydyw felly), ond oddi allan, fel cleddyf i ymosod. Hwn ydyw yr unig arf ymosodol. Gall yr arfau ereill ein hamddiffyn yn ein bywyd a grasau ein bywyd rhag y diafol, ond y mae hwn yn niweidio ac yn clwyfo y diafol

[x] Heb. 4.12; Dad. 1. 16. [y] Mat. 4. 4, 7, 10, 11; Heb. 12. 5, 6. [z] Dan. 6.10; Rhuf. 12. 12. [a] Gen 32. 24—28; Mat. 15. 25—28. [b] Phil. 1. 4.

iachawdwriaeth, a [x]chleddyf yr Ysbryd, [y]yr hwn yw gair Duw:

18 [z]Gan weddïo bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd, a bod yn wyliadwrus at hyn yma, trwy [a]bob dyfalbara, [b]a deisyfiad dros yr holl saint;

19 A throsof finnau, fel y rhodder i mi ymadrodd, trwy agoryd fy ngenau yn hyf, i hysbysu dirgelwch yr efengyl:

20 Dros yr hon [c]yr wyf yn genad mewn cadwen: fel y traethwyf yn hyf am dani, fel y perthyn i mi draethu.

[c] 2 Cor. 5.20.

21 Ond fel y gwypoch chwithau hefyd fy helynt, beth yr wyf yn ei wneuthur, Tychicus, y brawd anwyl, a'r [d]gweinidog ffyddlawn yn yr Arglwydd, a hysbysa i chwi bob peth:

[d] 1 Cor 4.17.

22 Yr hwn a anfonais atoch er mwyn hyn yma; fel y caech wybod

---

ei hun, trwy grediniaeth o hono, myfyrdod arno, cymmhwysiad o hono, ac yn enwedig ei ledaeniad a'i dreiddiad yn a thrwy y byd. A'r cleddyf hwn y clwyfodd y Pen Mawr ei hun y diafol, pan demtiwyd ef ganddo. "Canys ysgrifenwyd," meddai. Y mae gwir ddyfynu Gair Duw i'n meddyliau ein hunain, ac i ereill, yn drywaniad cleddyf i galon ein prif elyn.

18. *Gan weddïo bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd.*—Groeg. "Trwy bob rhyw weddi a deisyfiad, yn gweddïo bob amser yn yr Ysbryd." Y mae y gair "Sefwch gan hyny," yn cael ei gyssylltu, yn dybiedig, â'r ymadrodd, "A thrwy bob rhyw weddi," &c. Y mae "pob rhyw weddi" yn dynodi difrifwch a thaerineb y weddi; "bob amser" yn disgrifio ei pharhâd gwastadol; "yn yr Ysbryd," ei helfen fewnol. Y gwir wahaniaeth rhwng gweddi a deisyfiad ydyw, fod y cyntaf yn golygu yr ymarferiad yn gyffredinol, a deisyfiad y rhanau neilldual o'r weddi. Arwydda yr un peth ag archiad. "Bob amser:" Groeg: "ar bob achlysur;" *h. y.*, yn mhob adeg o angen pennodol. Gwel *Luc* xviii. 1; a 1 *Thes.* v. 17. "Yn yr Ysbryd:" gwel ar *Judas* 20. *A bod yn wyliadwrus at hyn yma:*—sef, at weddïo bob amser â phob rhyw weddi yn yr Ysbryd. Byddai y meddwl yn fwy clir trwy gyfieu y geiriau yn wahanol:—"A chan fod yn wyliadwrus tuag at gyrhaedd hyn, mewn pob dyfal-barhâd a deisyfiad dros yr holl saint." Y mae gwyliadwriaeth effro i ddyfalbarhâd mewn gweddi dros ereill yn gynnorthwyol, fel moddion, i ni gyrhaedd y tir uchel o fod yn "gweddïo bob amser â phob rhyw weddi yn yr Ysbryd Glân."

19. *A throsof finnau.*—Groeg; *uper.* Yn yr adnod ddiweddaf, lle y dywed efe "dros yr holl saint," y gair gwreiddiol ydyw *peri.* Gwahaniaetha Harless rhyngddynt. Arwydda *peri* "ar ran," medd efe; ond arwydda *uper* "dros," "er mwyn:"—y naill yn fwy cyffredinol, a'r llall yn fwy arbenigol ei ystyr. *Fel y rhodder i mi ymadrodd.*—Dibynai yr apostol am ymadrodd ar Dduw, fel y rhoddwr o hono. Er fod y gair wedi ei roddi yn Ysgrythyrau trwy ysbrydoliaeth, rhaid i'w weision ei gael ynddynt fel rhodd i'w egluro a'i gymmhwyso. *Trwy agoryd fy ngenau.*—Groeg: "Yn agoriad fy ngenau;" *h.y.*, pan fyddwyf yn agor fy ngenau. *Yn hyf, i hysbysu dirgelwch yr efengyl.*—Dylid cyssylltu yr ymadrodd "yn hyf" â'r ferf "hysbysu." Y meddwl felly ydyw, "Fel y rhodder i mi ymadrodd, pan agoraf fy ngenau, i hysbysu yn hyf ddirgelwch yr efengyl."

20. *Dros yr hon yr wyf yn genad mewn cadwen.*—Groeg: "Dros yr hon yr wyf yn llys-genadwr mewn cadwynau." Saesneg, "*For the sake of which I am an ambassador in bonds.*" Barna rhai fod yma gyfeiriad at y gadwen â'r hon yr oedd ei fraich ddeheu wedi ei rhwymo wrth fraich aswy y milwr Rhufeinig (*custodia militares*) oedd yn ei warchod. *Fel y traethwyf yn hyf am dani.*—Groeg: "Fel yr hyf draethwyf ynddo;" sef yn y dirgelwch a berthyn i'r efengyl. Gwaelod ei rydd draethiad ydoedd dirgelwch yr yr efengyl. Teimlai, os caffai fynediad i mewn i'w dirgelwch, fod yno ddigon o le i ryddid a helaethrwydd ymadrodd, gyda hyfder mawr.

21. *Chwithau hefyd.*—Y mae y gair "hefyd" yn cyfeirio, medd Hodge, at gyfeillion ereill yr apostol, y rhai oeddynt yn teimlo pryder a gofal yn ei gylch, fel un mewn rhwymau dros yr Arglwydd. Y mae y rhai sydd yn barnu fod yr apostol wedi ysgrifenu ei Epistol at y Colossiaid o fiaen yr epistol hwn, yn barnu ei fod yn cyfeirio at y Colossiaid, yn ei epistol at y rhai y mae yn arfer yr un ymadroddion (*pen.* iv. 7). *Beth yr wyf yn ei wneuthur.*—Ymae y ffurf ymadrodd Groegaidd a arferir yma yn arwyddo yr un peth ag a feddylir genym ni, pan yn defnyddio y geiriau, "Pa fodd yr ydwyf yn dyfod yn mlaen." Nid ei lafur, ond yn hytrach ffrwyth a llwyddiant ei lafur, a olygir yn yr ymadrodd. *Gweinidog ffyddlawn.*—Groeg: "*diaconos.*" Nid ydyw y gair arno ei hun yn ein gorfodi i olyguTychicus fel diacon, neu fel gweinidog yr efengyl, yn ystyr swyddol y gair. Gellir ei gymmeryd yn ei ystyr cyffredinol, am un yn gwasanaethu ar yr apostol Paul, ac yn gwneuthur hyny yn yr Arglwydd. Ar yr un pryd, y mae diwedd yr adnod nesaf yn ffafrio y golygiad arall, sef ei fod yn weinidog swyddol.

22. *Er mwyn hyn yma.*—Groeg: "Yn gymmhwys er mwyn hyny yma:" *h. y.*, er mwyn hyny, yn unig a hollol. *Fel y caech wybod ein helynt ni.*—Nid ail adroddiad sydd yma o'r hyn sydd yn nechreu *adn.* 21; ond yr ystyr ydyw, ei fod wedi anfon Tychicus "fel y gwypent ei helynt," yr hwn a anfonodd er mwyn hyn yma yn gymmhwys; fel y caent, ynghyd â gwybod ei helynt, sef ei amgylchiadau allanol, wybod hefyd ansawdd fewnol a chyflwr ysbrydol y rhai oedd gydag ef, yn gystal a'i eiddo ef ei hun, fel y byddai hyny, drachefn, yn destyn ac yn sail i Tychicus ddyddanu calonau yr Ephesiaid yn ei ddyfodiad atynt. *Tangnefedd i'r brodyr, a chariad.*—Y mae yr apostol yn dechreu ei epistol trwy ddymuno ar eu rhan dangnefedd a gras, ac yn ei ddybenu trwy ddymuno iddynt dangnefedd a chariad. Y mae gras yn disgleirio yn fwy yn ei ddechreu, fel y mae yn cael ei amlygu yn nhrefn Duw i'n cadw; a chariad yn ei ddiwedd, fel ffrwyth y drefn yn nghalonau y saint mewn sancteiddrwydd ac ufudd-dod.

ein helynt ni, ac fel y dyddanai efe eich calonau chwi.

23 Tangnefedd i'r brodyr, a chariad gyda ffydd oddi wrth Dduw Dad, ar Arglwydd Iesu Grist.

24 Gras *fyddo* gyda phawb sydd [d]yn caru ein Harglwydd Iesu [d]1 Cor. 16. 22. Grist mewn purdeb. Amen.

¶ At yr Ephesiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyda Tychicus.

23. *Gyda ffydd.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gyssylltu â'r gair "cariad." Y ddau beth y mae yr apostol yn ei ddymuno ydyw, yn gyntaf, gras; ac yn ail, cariad, gyda ffydd. Lle y mae gwir gariad y mae gyda ffydd. Nid ydyw y naill heb y llall: y mae ffydd yn gweithio trwy gariad.

24. *Mewn purdeb.*—Groeg: "mewn anllygredigaeth." Y mae gwahaniaeth barn nid ychydig gyda golwg ar ystyr yr ymadrodd hwn. Ystyr llythyrenol y gair ydyw anllygredigaeth, neu anfarwoldeb. Cymmerir y gair gan rai yn ei arwyddocâd moesol, i olygu purdeb a diragrithrwydd: felly ein cyfleithwyr ni. Gan ereill, deallir ef yn ei arwyddocâd anianyddol, i olygu yr hyn nid ydyw yn darfod, neu yn diflanu ymaith; neu, mewn geiriau ereill, y drychfeddyliau o barhâd diddiwedd a digyfnewid. Y mae ereill, drachefn, yn golygu fod yr apostol yma yn rhoddi yr arddansoddol am y cyfansoddol: "mewn anllygredigaeth," yn lle "yn mhlith y rhai anllygredig neu anfarwol." Yr ail olygiad sydd yn fwyaf tebygol a naturiol; ac etto nis gellir ei wahanu oddi wrth y cyntaf. Y mae cariad at Iesu Grist yn anllygredig, am ei fod yn bur. Ei burdeb ydyw yr achos o'i fod yn anllygredig a diddarfod. Y mae y cariad hwn mor anfarwol a'i wrthddrych, am ei fod yn bur, megys y mae yntau yn bur. Y mae amrywiaeth golygiadau, drachefn, ynghylch cyssylltiad y geiriau. Y mae rhai yn eu cyssylltu â'r geiriau "ein Harglwydd Iesu Grist." Yr ystyr felly a fyddai, "Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn sydd mewn anllygredigaeth." Ereill a'i cyssylltant â'r gair cyntaf yn yr adnod, sef "gras." Yr ystyr felly a fyddai, "Gras mewn anllygredigaeth a fyddo gyda," &c. Y cyssylltiad goreu o lawer ydyw â'r geiriau, "y rhai sydd yn caru." Yr ystyr yw, yn ol hyn, fod yr apostol yn yr ymadrodd yn disgrifio parhâd digyfnewid gwir a phur gariad at Grist; ac i'r rhai sydd yn ei feddu ac yn ei weithredu, y mae yn dymuno amlygiad tragwyddol o ras neu ffafr Duw. Yn y rhan gyntaf o'r epistol, darlunir gras yn cael ei amlygu at rai heb gariad at Dduw; ie, yn elynion iddo: ond yma, cawn ddarlun o wrthddrychau gras wedi eu dwyn i garu Duw yn Nghrist, yn wrthddrychau o ras, drachefn, fel rhai yn caru mewn anllygredigaeth. Fel hyn y mae yr epistol hwn yn dybenu yn y man y dechreuodd. Gras at rai oedd heb gariad ydyw ei Alpha, a gras at rai yn caru ydyw ei Omega.

YR

EPISTOL AT Y PHILIPIAID.

EI AWDURIAETH.

Y MAE y llythyr hwn wedi cael ei briodoli bob amser, gydag ychydig o eithriadau, i Paul. Ceir esamplau o hyn yn ngweithiau Polycarp, Irenæus, Clement o Alexandria, Eusebius, Tertullian, Origen, a Cyprian. Ac y mae y llythyr ei hun, yn ei gynnwysiad a'i arddull, yn dwyn yn amlwg arno ddelw yr apostol. Noda Paley, yn ei "*Horæ Paulinæ*," amryw bethau yn y llythyr sydd yn cadarnhau ei awduriaeth; megys taith Epaphroditus i Rufain, ei phwrpas, cyfraniad y Philippiaid tuag at ddiwallu angenion yr apostol, afiechyd Epaphroditus, arosiad Timotheus gyda Phaul yn Philippi, y cyfeiriadau sydd yn y llythyr at ei garchariad, ei barodrwydd i farw, ynghyd â'r awgrym a roddir ynddo ddarfod i'r Philippiaid fod yn llygad-dystion o'i ddioddefaint yn achos yr efengyl. Y mae yr amgylchiadau hyn, ynghyd â'r ymadroddion a ddefnyddir mewn cyssylltiad â hwynt, o'u cymmharu â'u gilydd, ac â Llyfr yr Actau, a rhai hefyd o lythyrau ereill Paul, yn dangos yn eglur, dybygid, mai Paul a ysgrifenodd y llythyr hwn.

AT BWY, AC I BA DDYBEN, YR YSGRIFENWYD EF.

Y mae wedi ei gyfeirio at y saint yn Nghrist Iesu, y rhai oeddynt yn Philippi, gyda'r esgobion a'r diaconiaid. Cyfeiriwn y darllenydd at y nodiadau ar Lyfr yr Actau am hysbysrwydd o barth i'r ddinas hon. Sefydlwyd Cristionogaeth yno gyntaf gan Paul, Silas, a Thimotheus, yn ystod ail daith genadol yr apostol (*Act.* xvi. 12), a hyny, fel y mae yn ymddangos, yn y flwyddyn c. c. 51. Nid oedd yr ymweliad hwn o eiddo Paul â Philippi ond byr; a'r unig esamplau a gawn o ddychweliad rhai at Gristionogaeth ydynt, Lydia a'i theulu, a cheidwad y carchar a'i deulu. Er hyny, bu i'r gronyn o had mwstard a daflwyd i'r ddinas, gynnyddu, erbyn amseriad y llythyr hwn, yn bren mawr. Tybir iddo ymweled ddwywaith wedi hyn â'r ddinas:—unwaith, wrth fyned o Ephesus i Macedonia (*Act.* xx. 1), a thrachefn, wrth ddychwelyd o dir Groeg i Asia trwy Macedonia, er mwyn osgoi cynllwyn yr Iuddewon: *Act.* xx. 6.

Yr oedd ymlyniad yr apostol a'r Philippiaid wrth eu gilydd yn un anghyffredin. Dangosir hyny o ochr Paul yn yr ymadroddion gorlawn o serchogrwydd a arferir ganddo wrth eu cyfarch yn ei lythyr—y cyfryw na chyfarfyddwn eu cyffelyb yn un o'i lythyrau ereill; ac o'u hochr hwythau, drachefn, yn y gofal oeddynt wedi ei ddangos am dano ef—gofal ag oedd yn peri eu bod yn rhagori ar bob eglwys arall: *Phil.* iv. 15. Yr oeddynt wedi anfon iddo unwaith ac eilwaith wrth ei angenrhaid; ac ychydig cyn ysgrifenu y llythyr hwn, yr oedd eu gofal am dano yn y ffordd hon wedi adnewyddu y drydedd waith. Ceisiai rhai roddi cyfrif am y serchogrwydd cryf hwn oedd rhyngddynt, oddi wrth y ffaith fod yr elfen Iuddewaidd yn absennol, i fesur helaeth, o'r eglwys yn Philippi. Y mae yn debyg mai ychydig o Iuddewon oedd yn y lle: o blegid nid oedd ganddynt synagog yno, nac, fel yr ymddengys, unrhyw adeilad i addoli ynddi—dim ond man neilluedig ar lan afon, i'r hwn y cynnullent i weddio. Yr oedd absennoldeb y blaid Iuddewig, y mae yn ddiddadl, yn fwy o fantais na dim arall i'r teimlad da a ffynai rhwng yr eglwys a'r apostol, gan y byddent hwy yn fynych yn peri anghydfod ac oerfelgarwch. Ond mwy na hyn: yr oedd cydymdeimlad crefyddol dwfn yn bod rhyngddynt, yn codi oddi ar gydgyfranogiad helaeth o fendithion yr efengyl—cydymdrech egnïol o'i blaid, a chyd-ddioddef yn amyneddus o'i herwydd, o'r hyn bethau y cawn awgrymau yn y llythyr.

Bernir gan rai, oddi wrth rhyw ymadroddion a ddefnyddir yn y llythyr, fod ymbleidio yn yr eglwys yn Philippi ar y pryd. Priodolir hyny, gan y rhai sydd o'r dyb hon, naill ai i ddylanwad gau-athrawon Iuddewig, neu ynte i'r balchder ysbryd a ffynai yn yr eglwys, yr hwn oedd yn eu gwneuthur yn hunangeisiol ac yn ciddigeddus o'u gilydd; neu ynte i'r anghydweledigaeth a fodolai rhwng dwy chwaer grefyddol, Euodia a Syntyche. Y mae yn amlwg, oddi wrth *pen.* iii., fod yr eglwys mewn perygl oddi wrth y gau-athrawon a grybwyllwyd; ond nid oes genym un lle i feddwl yn bod wedi ymwthio i'r eglwys, na chwaith, hyd yn hyn, wedi cario unrhyw ddylanwad niweidiol arni. Nid ydyw y gocheliadau y mae yr apostol yn eu rhoddi rhag hunangais, ac uchelfrydgrwydd meddwl, yn brawf fod y Philippiaid yn euog ynghyneb y pethau hyn; ac nid oes genym un sail i feddwl fod yr anghydweledigaeth oedd rhwng Euodia a Syntyche wedi ymledu trwy yr eglwys. Yn hytrach, y mae yr ymadroddion serchoglawn a ddefnyddia yr apostol gyda golwg

ar yr eglwys, ynghyd â'r syniad uchel a briodola iddi (*Phil.* iv. 1), yn gwarafun i ni goleddu y tybiau a nodwyd. Rhoddi y saint yn y lle ar eu gocheliad y mae efe, yn wyneb y peryglon yr oeddynt yn agored iddynt; ac, yn lle eu ceryddu am eu beiau, y mae yn eu hannog i fyned yn mlaen yn yr yrfa yr oeddynt wedi ei chychwyn.

AMCAN Y LLYTHYR.

Y mae yn briodol gwneyd gwahaniaeth rhwng yr amcan a'r achlysur. Yr achlysur ydoedd gwaith y Philippiaid yn anfon ffrwyth eu haelioni i'r apostol trwy law Epaphroditus. Y mae yntau yn defnyddio y cyfleusdra presennol i ddadgan ei ddiolchgarwch iddynt, a'i gariad tuag atynt. Ond ymddengys mai yr amcan mewn golwg ganddo, i'r hyn y mae holl ranau y llythyr ya ddarostyngedig, ydoedd, cadarnhau yr eglwys yn ffydd yr efengyl, a'i chymmhell i fywyd cysson â'r efengyl, a hyny yn wyneb temtasiwn i'r gwrthwyneb oddi wrth ei ddioddefiadau ef a'u blinderau hwythau o achos yr efengyl, ynghyd âg ymdrech athrawon gau i hau cyfeiliornadau yn eu plith. Y mae y llythyr wedi derbyn ei ffurf oddi wrth yr amgylchiadau neilluol ag yr oedd yr eglwys a'r ysgrifenydd ynddynt ar y pryd; er hyny, cynnwysa wirioneddau a chymmhelliadau i fywyd sanctaidd ag ydynt o bwys a gwerth i eglwys Crist ar y ddaear bob amser, ac yn mhob lle.

O BA LE, A PHA AMSER, YR YSGRIFENWYD EF.

Y farn gyffredin yw, mai o Rufain yr ysgrifenwyd y llythyr hwn, a hyny yn ystod y carchariad y sonir am dano yn *Actau* xxviii. 30, 31. Y mae y cyfeiriad a gawn ni at y llys (Prætorium), yn *pen.* i. 13, ac at deulu Cæsar yn *pen.* iv. 22, yn cadarnhau y golygiad hwn. Y mae yn wir mai yr un galr Groeg, *praitórion*, ac a gyfeithir yma yn "llys," a gyfeithir hefyd, yn *Actau* xxiii. 35, yn "ddadleudy Herod;" a chyn belled ag y mae y gair hwn yn myned, gall gyfeirio, fel y dadleuir gan rai, at garchariad Paul yn Cesarea, yn gystal a'i garchariad yn Rhufain. Ond wrth gymmeryd y gair *praitórion* mewn cyssylltiad â theulu Cesar, arweinir ni ganddo yn naturiol i wersyllfa y gwarchodlu ymherodrol, yr hwn oedd yng'yn â phalas yr ymherawdwr. Heblaw hyny nid yw y sefyllfa gyfyng, a'r petrusdod meddwl ag y disgrifia yr apostol ei hunan ynddynt, (*pen.* i. 21—23), yn cyttuno mor dda â'i garchariad yn Cesarea ag yn Rhufain; o blegid, o'r lle cyntaf yr oedd ganddo drachefn i appelio at Cæsar. Wrth gymmharu y llythyr hwn â'r llythyrau at y Colossiaid, Ephesiaid, a Philemon, y rhai a fernir yn gyffredin eu bod wedi eu hysgrifenu yn ystod yr un carchariad, ac hefyd â'r crybwylliad a geir yn Llyfr yr Actau, ymddengys fod amseriad y llythyr rywbryd tua diwedd y carchariad hwn. Pan oedd yr apostol yn ysgrifenu at yr Ephesiaid, yr oedd ganddo ryddid i bregethu ei hunan (*Eph.* vi. 19, 20). Pan y mae yn ysgrifenu at y Philippiaid, awgrymir ganddo ei fod mewn sefyllfa mwy caeth; ac mai ereill, ac nid efe, oedd yn pregethu, ac yn gwneuthur ei resymau ef yn gyhoeddus (*pen.* i. 13—18). Yr oedd Luc gyda'r apostol pan oedd yn ysgrifenu ei lythyrau at y Colossiaid a Philemon (*Col.* iv. 14; *Phil.* 24): ond y mae yn dra thebygol ei fod wedi ei adael pan yr oedd yn ysgrifenu y llythyr hwn; pe amgen buasai yn cael ei grybwyll fel yn anerch yr eglwys, gan iddo fod yn llafurio yn eu plith. Yn ei Lythyr at Philemon, yr oedd yr apostol yn hyderus am ei ryddhâd, ac yn myned mor bell a dymuno ar Philemon barotoi lletty iddo (*adn.* 22); yr hyn sydd yn cyferbynu yn fawr â sefyllfa ammheus a phryderus ei feddwl pan yn ysgrifenu at y Philippiaid. Rhaid fod cryn ysbaid o'i garchariad wedi myned heibio cyn y buasai ei "rwymau yn Nghrist" yn myned mor adnabyddus, ac yn cynnyrchu effeithiau mor ddaionus ag a grybwyllir ganddo. Cadarnheir hyn yn mhellach gan y pethau canlynol:—Yr oedd y newydd am garchariad yr apostol wedi myned cyn belled a Philippi—yr oeddynt hwythau wedi gwneyd casgliad iddo—wedi ei anfon trwy law Epaphroditus—yntau wedi cyrhaedd gyda'r casgliad i Rufain—wedi bod yn glaf—y newydd o hyny wedi cyrhaedd yr eglwys yn Philippi — teimlad yr eglwys ar yr amgylchiad wedi ei wneyd yn hysbys i Epaphroditus—yntau, erbyn hyn, wedi gwellhau, ac ar ei ffordd i ymweled â hwynt. Heb law hyn oll, y mae y caethiwed y disgrifia yr apostol ei hun ynddo — ei dristwch — ammheusrwydd ei feddwl am ei ryddhâd—ynghyd â'i ddisgwyliad am benderfyniad buan ar ei achos—yn rhoddi lle cryf i gasglu i'r llythyr hwn gael ei ysgrifenu ar ol y ddwy flynedd y dywed Luc yn Llyfr yr Actau i Paul eu treulio yn ei dŷ ardrethol ei hun. Y mae amseryddwyr yn gosod mynediad yr apostol i Rufain yn nechreu y flwyddyn B. A. 61: felly yr oedd dwy flynedd yr Actau yn terfynu yn nechreu 63. O ddeutu diwedd 62, bernir i Burrus, pencapten y llu, i ofal yr hwn y cyflwynwyd Paul, farw. Yn ei le, gosodwyd Tigellinus, anghenfil mewn drygioni. Trwy y cyfnewidiad yma collodd yr apostol, y mae yn debyg, y mesur o ryddid a fwynhäai o'r blaen, a symmudwyd ef o'i dŷ ardrethol i'r Prætorium, neu y llys lle yr oedd y gwarchodlu ymherodrol, i fod o dan gadwraeth fwy manwl a llym. Yn ol yr amseriad hwn, gellid meddwl fod y llythyr wedi ei ysgrifenu yn ngwanwyn, neu ddechreu haf, 63.

Y mae yr arddull yn gyfryw ag a allesid ddisgwyl oddi wrth Paul o dan yr amgylchiadau yr oedd efe yn ysgrifenu y llythyr hwn. Yr oedd efe, y mae yn amlwg, yn ddyn o serchiadau cryfion yn naturiol, a'r serchiadau hyny wedi eu puro a'u cryfhau drwy yr efengyl. Yr oedd rhinweddau yr eglwys yn Philippi, a'u cydymdeimlad dwfn âg ef, a'r gofal mawr yr oeddynt wedi ei ddangos am dano, yn peri fod ei serchogrwydd yn rhedeg mewn modd arbenig arnynt hwy, gan ddangos ei hunan mewn ymadroddion caruaidd fel y canlyn: — "Frodyr"—"Anwylyd"—"Fy mrodyr anwyl a hoff, fy llawenydd a'm coron, felly sefwch yn yr Arglwydd, anwylyd." A'r serchogrwydd angerddol hwn, y mae yn debyg, sydd yn rhoddi cyfrif am ffurf sydyn ac anghyssylltiol y llythyr.

YR EPISTOL AT Y PHILIPPIAID.

PENNOD I.

3 *Y mae efe yn tystiolaethu ei ddiolchgarwch i Dduw, a'i serch tuag atynt hwythau, am ffrwythau eu ffydd hwynt, a'u cymdeithas yn ei ddioddefiadau ef: 9 gan weddio benwyd, ar iddynt gynnyddu mewn gras. 12 Y mae efe yn dangos pa ddaioni a ddaeth i fydd Crist trwy ei flinderau ef yn Rhufain: 21 ac mor barod ydyw efe i ogoneddu Crist, pa un bynag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth; 27 gan eu hannog hwy i undeb, 28 ac i fod yn gryfion mewn erlid.* B. A. 63.

PAUL a Thimotheus, gweision [a] Iesu Grist, at yr holl [a] saint yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn Philippi, gyda'r [b] esgobion [c] a'r diaconiaid: [a] Rhuf. 1. 7; 1 Cor. 1. 2; 2 Thes. 1. 10. [b] Act. 1. 20. [c] Act. 6. 1–7.

PENNOD I.

1, 2.—YR ANERCHIAD.

1. *Paul a Thimotheus.*—Nid yw fod enw Timotheus yn cael ei gyssylltu fel hyn âg enw yr apostol yn golygu fod gan yr olaf un law yn ysgrifeniad y llythyr; o blegid, yn *adn.* 3, y mae yr apostol yn cyfarch y Philippiaid yn ei berson ei hun: a phan y mae Timotheus yn gwneyd ei ymddangosiad yn *pen.* ii. 19, crybwyllir am dano yn y trydydd person. Y cwbl a olygir yma yw fod Timotheus yn ymuno â'r apostol yn ei gofion caruaidd at yr eglwys. Ac yr oedd hyn yn beth cwbl naturiol i Timotheus ei wneyd, yn gymmaint a'i fod gyda'r apostol ar y pryd, yn dra adnabyddus i'r Philippiaid hefyd—wedi bod ar ymweliad â hwy ddwy waith (*Act.* xvi. 1, 12); ac fel y mae yn ymddangos, yn uchel yn eu meddyliau: *Phil.* ii. 19—22. *Gweision Iesu Grist.*—Yn ei lythyrau, yn gyffredin, y mae Paul yn ei alw ei hun yn apostol. Yr unig eithriadau a gawn ni i hyn yw y llythyr hwn, ei lythyrau at y Thessaloniaid, a'i lythyr at Philemon. Barna Grotius mai gwylder meddwl Paul a barodd iddo ddefnyddio y gair "gweision;" neu, ei fod yn cymmeryd i mewn Timotheus yn gystal ag ef ei hun. Ond ni chydsaif y syniad hwn â 2 *Cor.* i. 1, a *Col.* i. 1. Yn y manau hyn, gellw Paul ei hunan yn apostol, a Thimotheus yn frawd. Y cyfrif mwyaf naturiol am waith yr apostol yn gadael allan yr enwad hwn wrth gyfarch eglwysi Philippi a Thessalonica ydyw, yn agosrwydd a'r serchogrwydd neilduol oedd rhyngddo a hwynt, yngbyd â'r gydnabyddiaeth unfrydol oedd yn eu plith o'i awdurdod apostolaidd. Ond pa ham y gellir gwrthddadleu? y mae Paul yn galw ei hun yn apostol, wrth ysgrifenu at Timotheus a Titus—rhai ag oeddynt yn gyfeillion mawr iddo a chanddo, ac yn ei barchu yn ddwfn fel apostol. I hyn gellir atteb, fod yr enwad yn yr amgylchiadau hyn yn angenrheidiol er dangos natur yr ohebiaeth: er mai llythyrau at bersonau unigol oeddynt, eu bod, er hyny, yn swyddol, wedi eu hysgrifenu at y personau hyny yn eu cymmeriadau cyhoeddus fel bugeiliaid eglwysi. Dan yr amgylchiadau yma, yr oedd y ffurf urddasol yn mha un y cyfarchai Paul hwynt trwy ddefnyddio y teitl o apostol, yn dra phriodol i'w cefnogi i weithredu yn yr eglwysi oedd dan eu gofal yn ol y cyfarwyddiadau a roddid iddynt. O'r ochr arall, pan y mae Paul yn ysgrifenu at Philemon, fel cyfaill, ac ar achos preifat, y mae yn gadael allan yr enw apostol. *At yr holl saint*:—neu, at yr holl rai sanctaidd. Y mae Olshausen, yn ei nodiadau ar *Act.* i. 7, yn sylwi nad yw y gair "saint," yn ei ystyr cyffredin yn y Testament Newydd, yn dynodi unrhyw radd o berffeithrwydd moesol; ond ei fod yn golygu neilduad y credinwyr oddi wrth y byd Cenhedlig. Ar yr un pryd, fod y gair yn cynnwys y syniad fod Cristionogion wedi eu gwneyd yn gyfranogion o fywyd ysbrydol. Wrth y saint, yn y lle hwn, golyga yr apostol y cymmundeb eglwysig oedd yn Philippi fel yn neilduedig oddi wrth y paganiaid oedd o'u hamgylch; er hyny, y mae yn cadw ei olwg ar yr elfen foesol sydd yn y gair—yn cyfarch y Philippiaid fel rhai sanctaidd. Yr oedd y cymmeriad yma, mewn gwirionedd, yn gynnwysedig yn eu proffes o Grist. Yr oedd eu proffes grefyddol yn broffes o undeb a chymmundeb â Christ: yr oedd hyny, drachefn, yn cynnwys cyfranogiad o fywyd Crist, yr hyn yw sancteiddrwydd. *Yn Nghrist Iesu.*—Fel hyn yr oeddynt yn saint. Megys y mae y gangen, wrth fod yn y winwydden, yn cyfranogi o fywyd y winwydden, felly hefyd yr oeddynt hwythau, wrth fod yn Nghrist, yn cyfranogi o sancteiddrwydd Crist. Y mae mynychiad y gair "holl" yn *pen.* i. 4, 7, 8, 25, a ii. 17, 26, a iv. 23, yn dangos fod rhyw bwysigrwydd ynglŷn âg ef. Ond nid oes eisieu i ni feddwl, gyda rhai esbonwyr, fod yr apostol, wrth ei ddefnyddio mor fynych, yn cyfeirio at ryw ddosbarth anniddig a gwrthwynebgar oedd yn yr eglwys, na chwaith at ryw rai oedd heb gyfranu at y rhodd a anfonasid iddo. Digon yw dyweyd, fel y sylwa Ellicott, Alford, Meyer, ac ereill, fod y gair yn awgrymu gwresogrwydd ac eangder y cariad hwnw a ddangosir trwy yr holl lythyr, yr hwn oedd yn cofleidio yr holl gymmundeb, heb adael cymmaint ag un allan. *Gyda'r esgobion a'r diaconiaid.*—Yma yr ydym yn cael esampl o un eglwys âg amryw esgobion ynddi, yn lle amryw eglwysi

2 Gras i chwi, a thangnefedd,
oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r
Arglwydd Iesu Grist.
[a] Rhuf. 6. 17. 3 [a] I'm Duw yr ydwyf yn diolch,
yn mhob coffa am danoch,
[b] Phil. 9. 11. 4 Bob amser [b] yn mhob deisyf-

âg un esgob drostynt. Yr oedd esgobion a henuriaid yn eiriau cyfystyr yn yr eglwysi apostolaidd; fel y mae yn amlwg oddi wrth *Act.* xx. 17, o'i chymmharu âg *adn.* 28. Mae yr un personau yno yn cael eu galw yn "henuriaid" ac yn "olygwyr." Y gair Groeg am "olygwyr," yn *adn.* 28, yw *episcopoi.* Pe buasai wedi ei gyfleithu yn esgobion yn y fan hon, megys y gwnaed yn y llythyr at y Philippiaid, buasai yn amlwg ar unwaith i'r Cymro uniaith mai yr un oedd yr esgob a'r henuriad yn yr oes apostolaidd. Gwaith yr esgobion oedd edrych ar yr holl braidd, "fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed." Y mae y gair "henuriad" yn golygu y swydd yn fwyaf neilldiol yn ei hurddas, a'r gair "esgob" yn golygu yr un swydd yn fwyaf neilldiol yn ei dyledswyddau. Geilw Pedr y rhai oeddynt yn y swydd hon yn *presbuteroi,* "henuriaid" (*Pedr* v. 1); ond pan y mae yn cymmheli y rhai hyny i gyflawni gwaith eu swydd, sef bwrw golwg ar y praidd, y gair a arferir ganddo y pryd hyny yw *episcopeó.* Nid oes dim, y mae yn eglur yn y swydd hon, fel yr oedd yn bodoli yn yr eglwys apostolaidd, yn ffafriol i'r drefn esgobyddol sydd yn yr Eglwys Sefydledig. "Diaconiaid." — Yr hanes cyntaf am ddewisiad diaconiaid a welir yn *Act.* vi. 2—6. Dewiswyd hwy i'r dyben o ofalu am dlodion yr eglwys; a pha orchwylion bynag allasent gael eu cliwanegu mewn adeg ddiweddarach at hyn, yr oedd y swydd o hyd yn dwyn delw yr appwyntiad cyntaf o honi, sef gofalu am bethau amgylchiadol yr eglwys; a dyna y priodoldeb, fel y sylwa Neander, i'r apostol, wrth ysgrifenu at Timotheus (1 *Tim.* iii. 8), i nodi yn mhlith rhinweddau angenrheidiol mewn diaconiaid, na byddent yn budr-elwa. Y llythyr hwn at y Philippiaid yw y cyntaf o eiddo yr apostol yn mha un y mae yn gwneyd crybwylliad am yr esgobion a'r diaconiaid, a'r unig un y cyferchir hwynt ar wahân yn yr anerchiad. Beth ydyw yr achos o hyn? Barna Olshausen, ac ereill, mai perygl i ryw bersonau oedd yn yr eglwys i greu ymraniad trwy wrthryfela yn erbyn awdurdod y swyddogion hyn. Barna Chrysostom, Meyer, ac ereill, yn yr hyn y mae Ellicott yn cyttuno, mai y sel oedd yr esgobion a'r diaconiaid wedi ei ddangos mewn gwneyd y casgliad i Paul. Hwyrach mai syniad Alford ydyw y tebycaf o fod yn gywir; sef, mai amseriad diweddar y llythyr a barodd iddo gyfsylltu y swyddogion hyn yn yr anerchiad. Yr adeg hon, ymddengys fod trefn eglwysig yn cynnwys esgobion a diaconiaid, ynghyd â'r aelodau cyffredin i fod o dan eu harweiniad a'u rheoliaeth, wedi dyfod i gryn aeddfedrwydd yn yr eglwys hon; yn unol â hyn ni a gawn fod y llythyrau bugeiliol a anfonwyd yn ganlynol i'r llythyr hwn at Timotheus a Titus, yn cynnwys cyfarwyddiadau pa fodd i ddewis y swyddogion a enwyd. Gan fod y drefn hon yn bodoli yn eglwys Philippi, yr oedd yn naturiol i'r apostol, wrth anerch yr eglwys, anerch y gwahanol ddosbarthiadau oedd ynddi, "yr esgobion a'r diaconiaid," yn gystal a'r aelodau yn gyffredin.

iad o'r eiddof drosoch chwi oll,
gan wneuthur fy neisyfiad gyda
llawenydd,
5 O blegid eich cymdeithas
chwi yn yr efengyl, o'r dydd
cyntaf hyd yr awr hon;

2. *Gras i chwi, a thangnefedd.*—Dull cyffredin Paul o gyfarch y rhai yr ysgrifenai atynt. Y mae y ddwy fendith yma yn dilyn eu gilydd. "Gras" ydyw yr achos, "tangnefedd" ydyw yr effaith. *Oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.*—A pha beth y mae yr "Arglwydd Iesu" i'w gyssylltu? A'r gair "Tad," ynte â'r gair "oddi wrth?" A'r gair "Tad," medd y Sociniaid. "Ein Tad ni, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist." Y mae cystrawen y geiriau yn caniatau y deongliad hwn, y mae yn wir; ond mwy unol â manau ereill, lle yr arferir y ffurf hon heb y rhagenw "ni" (gwel 2 *Tim.* i. 2; *Titus* i. 4), ydyw deall y geiriau fel hyn—"Oddi wrth Dduw ein Tad ni, ac oddi wrth ein Harglwydd Iesu Grist."

3. *Yn mhob coffa am danoch*:—neu, yn fwy llythyrenol, "ar fy holl adgof am danoch." Y mae "coffa" yn golygu dwyn ar gof, gwneyd crybwylliad; eithr nid ydyw y gair Groeg, *mneia,* yn caniatau y cyfleithiad hwn o hono, ond yn unig pan y mae mewn cyssylltiad â'r ferf *poieiothai,* megys y gwelir yn *Rhuf.* i. 9; *Eph.* i. 16; 1 *Thes.* i. 2; *Philemon* 4. Nid meddwl yr apostol yw ei fod yn diolch drostynt bob tro y gwnai goffa am danynt, nac yn wir bob tro yr adgofiai am danynt. Nid y syniad o amser sydd yn cael ei olygu ganddo. Yn hytrach, fod ei holl adgof am danynt—pob peth a gofiai yn eu cylch—yn sail diolchgarwch iddo: fod ei ddiolchgarwch yn sylfaenedig ar ei holl adgof am danynt.

4. *Drosoch chwi oll.*—Gellir cyssylltu y geiriau yma â'r hyn sydd o'u blaen, neu â'r hyn sydd ar eu hol, fel hyn; "yn mhob deisyfiad o'r eiddof drosoch chwi oll," neu, "gan wneuthur fy neisyfiad drosoch chwi oll," &c. Ymddengys mai y dull cyntaf yw y mwyaf naturiol. Yr oedd holl adgof yr apostol am danynt yn peri diolchgarwch iddo. Yr oedd yn dadgan y diolchgarwch hwnw bob tro y gweddïai drostynt; ac fel canlyniad i hyny, yr oedd yn gwneuthur ei ddeisyfiadau ar eu rhan gyda llawenydd.

5. *O blegid eich cymdeithas chwi yn yr efengyl.*—A pha beth y mae y geiriau hyn i'w cyssylltu? Y mae rhai yn eu cyssylltu â diwedd yr adnod o'r blaen; "Gan wneuthur fy neisyfiad gyda llawenydd. O blegid," &c. Y mae ereill, gyda mwy o briodoldeb, gellir meddwl, yn eu cyssylltu â dechreu *adn.* 3; "I'm Duw yr ydwyf yn diolch.....O blegid eich cymdeithas," &c. Yn ol y cyssylltiad cyntaf, ni byddai yr achos o ddiolchgarwch yr apostol yn cael ei nodi. Y mae *adn.* 3 yn dangos pa beth oedd yn cynnysgaeddu yr apostol â thestyn diolchgarwch, sef ei adgof am y Philippiaid: *adn.* 4, yn dangos pa bryd y byddai yn cyflwyno y diolchgarwch hwnw: ac *adn.* 5, yn dangos beth oedd yr achos o'i ddiolchgarwch, sef yw hyny, eu cymdeithas yn yr efengyl; neu, fel y mae y Groeg *eisto* yn arwyddo, eu cymdeithas gyda golwg ar yr efengyl —cymdeithas ag oedd wedi cael ei pharhâd gan yr efengyl trwy gydgyfranogiad o'i bendithion, a thrwy gydymdrech o'i phlaid. Y mae yn ymddangos fod yr apostol wrth ddefnyddio y gair

6 Gan fod yn hyderus yn hyn,
[a] Act. 16. 14. y bydd i'r hwn a [b] ddechreuodd
ynoch waith da, *ei* orphen hyd
[c] 1 Cor. 1. 8. [b] ddydd Iesu Grist:

7 Megys y mae yn iawn i mi
synied hyn am danoch oll, am
eich bod genyf yn fy nghalon, yn
gymmaint a'ch bod chwi oll, yn

"cymdeithas" yn y fan hon, yn golygu rhyw beth eangach na'r undeb a'r cydweithrediad ag oedd yn ffynu rhwng y Philippiaid a'u gilydd; sef yr undeb mawr, cyffredinol, sydd rhwng yr holl saint a'u gilydd, yr hwn y mae yr efengyl yn ganolbwynt iddo. Yr oeddynt hwy wedi profi eu hunain yn aelodau o'r gymdeithas hon. Yr oeddynt yn dwyn ei nodau yn nylanwad yr efengyl arnynt, ac yn eu hymdrech egnïol a chysson o'i phlaid. *O'r dydd cyntaf hyd yr awr hon.*—Dynoda hyn eu cyssonrwydd, o'r dydd cyntaf y derbyniasant yr efengyl, hyd yr awr hon. Hwyrach fod ganddo o flaen ei olwg yn y fan hon y prawf neilltuol a diweddar oeddynt wedi ei roddi o'u bod yn y gymdeithas y sonia am dani, trwy eu haelioni tuag ato ef.

6. *Gan fod yn hyderus yn hyn.*—Yna y mae yn canlyn yr hyn y teimlai yn hyderus yn ei gylch, sef, "y bydd i'r hwn a'ddechreuodd ynoch waith da," &c. Y mae y geiriau "gan fod" yn arwyddo fod y teimlad hwn o hyder yn mynwes yr apostol yn gydamserol â diolchgarwch (*adn.* 3), ac â deisyfiadau (*adn.* 4). Yr oedd yn diolch i Dduw, gan wneuthur ei ddeisyfiad dros y Philippiaid gyda llawenydd, a chan fod yn hyderus y byddai i'r gwaith a ddechreuodd ynddynt gael ei orphen. Ond heb law cydamseriad, y mae y syniad o achosiad yn cael ei gyfleu gan y geiriau. Gellir, heb un trais arnynt, eu troi fel hyn:—"Yn gymmaint a'm bod yn hyderus yn hyn." Yr oedd ei hyder yn rhoddi testyn diolchgarwch i'r apostol, ac yn rhoddi calondid iddo yn ei ddeisyfiadau. Diolchai dros y Philippiaid, nid yn unig yn yr olwg ar yr hyn oeddynt wedi bod hyd yn hyn, ond hefyd yn y rhagolwg ar yr hyn a fyddent rhag llaw; a deisyfai drostynt gyda'r hyder y byddai i'w ddeisyfiadau helaethaf gael eu cyflawni. *Y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da.*—Nid y gwaith da, ond gwaith da. Y mae yn ymddangos fod Ellicott yn cyfyngu yr ystyr yn ormodol yn y fan hon, pan y dywed fod y geiriau yn golygu, nid gweithredoedd da y Philippiaid yn gyffredin, ond y gymdeithas hono yn neu tuag at yr efengyl ag oeddynt wedi ei ddangos yn eu cydweithrediad fel eglwys mewn haelfrydigrwydd. Yn ol y deongliad hwn, pa ystyr a roddir i "orphen y gwaith da?" Byddai dyweyd fel yr awdwr uchod, mai parhau y fendith o haelfrydigrwydd ydyw, yn rhy wan o lawer; ac nid parhau sydd yma, ond gorphen, perffeithio. Mwy naturiol, a mwy unol â rheddiad yr adnodau, yw cymmeryd y geiriau fel yn golygu y gwaith grasol ag oedd Duw, trwy yr efengyl, wedi ei ddechreu yn ysbrydoedd y Philippiaid, yr hwn nad oedd eu haelfrydedd, yn gystal a phob rhinwedd arall o'r eiddynt, ond ffrwyth arno, neu ddadblygiad o hono. Y mae yr apostol, fe welir, yn syifaenu ei hyder, nid ar ddim ynddynt hwy, ond ar gymmeriad Duw. Awgryma yr adnod hon, fod dyweyd i Dduw ddechreu gwaith, yr un peth, mewn effaith, a dyweyd y gwna efe ei orphen. *Ei orphen.*—Ei ddwyn i derfyniad cyflawn a pherffaith. *Hyd ddydd Iesu Grist.*—Dydd dyfodiad Iesu Grist—y dydd y dadguddir ef yn ei ogoniant. Efe a'i piau. Meddianna ef iddo ei hun yn llwyr i farnu y byd mewn cyfiawnder. Nis gellir profi oddi wrth y lle hwn, fel y tybia Meyer, ac ereill, fod Paul yn edrych ar ddyfodiad ein Harglwydd fel peth agos. Nodir dydd Iesu Grist o herwydd mai hwnw fydd y diwrnod i benderfynu achos pob un, ac o herwydd mai yn hwnw y bydd y gwaith da yn cael ei berffeithio. Nid yw y saint hyd hyny, fel y dywed Calvin, yn mwynhau y dedwyddwch a'r gogoniant ag y maent yn gobeithio am dano. Y mae eu gobaith yn cyfeirio at adgyfodiad bendigedig; o blegid y mae gorpheniad y gwaith yn cynnwys perffeithiad y corph yn gystal a pherffeithiad yr enaid. "Hyd ddydd," &c.: nid yn nydd. Y mae y gair hwn yn golygu na bydd y gorpheniad arno y diwrnod hwnw ond gorpheniad ar waith graddol. Nid yn unig Duw sydd yn dechreu y gwaith ac yn ei orphen, ond efe hefyd sydd yn cymmeryd y gofal o'i ddwyn yn mlaen yn y cyfwng rhwng ei ddechreuad a'i orpheniad—ei orphen yn raddol hyd ddydd Iesu Grist. Y mae yr apostol yma, fe welir, yn rhanu hanes y Philippiaid i ddwy ran: o'r dydd cyntaf hyd yr awr hon, ac o'r awr hon hyd ddydd Iesu Grist. Gyda golwg ar y gyntaf, y mae yn dadgan diolchgarwch: gyda golwg ar yr ail, y mae yn dadgan hyder am eu parhâd yn ngras yr efengyl, a'u perffeithiad hefyd.

7. *Megys y mae yn iawn:*—yn gyfiawn, "yn unol â deddf cariad."—*Van Hengel. I mi synied hyn am danoch oll*:—sef, coleddu yr hyder hwn mewn perthynas iddynt. Yna y mae efe yn nodi y rheswm pa ham yr oedd y teimlad hwn o hyder yn deg a phriodol. *Am eich bod genyf yn fy nghalon.*—Ffordd gref o ddangos nerth ei gariad tuag atynt. Yr oeddynt yn ei galon—wedi eu meddiannu. Yr oedd helaethrwydd ei hyder yn codi yn naturiol o ddyfnder ei gariad. Yma y mae yr apostol yn dangos pa ham yr oedd yn caru y Philippiaid. *Yn gymmaint a'ch bod chwi oll.*—Gellir cyssylltu y geiriau, "yn fy amddiffyn â chadarnhâd yr efengyl," heb droseddu dim ar reolau iaith, yn wahanol i'r modd y maent genym ni; sef, fel hyn:—"Am eich bod genyf yn fy nghalon, yn gystal yn fy rhwymau ag yn fy amddiffyn â chadarnhâd yr efengyl." Y meddwl a gyfleir gan y dull yma yw, ei fod yn parhau i'w cofleidio yn ei galon yn ei holl ddioddefiadau o achos, ac yn ei holl ymdrech o blaid yr efengyl. Dyma y cyssylltiad ag y mae Chrysostom, Neander, ac amryw esbonwyr diweddar yn ei gymmeradwyo. Ond mwy naturiol yw y llall. Yr oedd yr apostol yn meddu ei hyder cryf o berthynas iddynt, am ei fod yn eu caru mor ddwfn; yr oedd efe yn eu caru, drachefn, o blegid eu bod wedi dangos, drwy eu cynnorthwy iddo yn ei rwymau, a'u cydymdeimlad âg ef yn ei ymdrechiadau, eu bod yn gyfranogion o'r un gras ag yntau. Ei rwymau oedd ei sefyllfa, a'i amddiffyn a'i gadarnhâd i'r efengyl oedd ei waith yn y sefyllfa hono."—*Alford.* Nid ydyw "amddiffyn" a "chadarnhau" yr efengyl i'w cymmeryd yn gyfystyr. Yr oedd efe yn ei hamddiffyn yn wyneb ymosodiadau gelynion (2 *Tim.* vi. 16; *Phil.* i. 16, 17), ac yn ei chadarnhau trwy ddysgu a phregethu ei gwirioneddau i'w chyfeillion (*Act.* xxviii. 23, 30). Yr oedd y Philippiaid yn dangos, trwy eu cydymdeimlad dwfn âg ef, eu bod yn gyfranogion âg ef o ras. Gras yn yr

[a] Phil. 4. 14. gystal yn fy rhwymau, [b] ag yn fy amddiffyn â chadarnhâd yr efengyl, yn gyfranogion â mi o ras.

[i] Rhuf. 1. 9. 8 Canys [1] Duw sydd dyst i mi, mor hiraethus wyf am danoch oll

[k] Esa. 16. 11. [k] yn ymysgaroedd Iesu Grist.

9 A hyn yr wyf yn ei weddïo, ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy mewn gwybodaeth, a phob synwyr;

10 Fel y profoch y pethau sydd â gwahaniaeth rhynggddynt; fel

ystyr eang yn mha un y defnyddir y gair yn *Eph.* ii. 8, a *Col.* i. 6. Y mae Ellicott yn condemnio y deongliad hwn fel un rhy benagored, ac yn cyfyngu ei hunan at y gras o gyd-ddioddef a chydymdrechu â'r apostol. Ond ymddengys, wedi y cwbl, fod ei ddeongliad ef yn cael ei gynnwys yn y llall. Eu gwaith hwy yn cynnorthwyo yr apostol yn ei rwymau, ac yn cydymdeimlo âg ef yn ei ymdrechiadau o blaid yr efengyl, oedd yn dangos eu bod oll yn cyfranogi o'r un ffynnon fawr o ras.

8. *Canys Duw sydd dyst i mi.*—Cadarnhâd o'r adnod o'r blaen. Yn hono y mae yr apostol yn dyweyd ei fod, nid yn unig yn eu caru, ond hefyd yn eu caru o herwydd eu bod yn gydgyfranogion âg ef o ras. Yn hon, drachefn, y mae efe yn galw Duw yn dyst ei fod yn hiraethu am danynt:—dyna brawf o'i gariad. Nid yn unig hyny, ond yn hiraethu am danynt hefyd yn ymysgaroedd Iesu Grist:—dyna gariad ysbrydol; a chariad o'r un natur a'r eiddo Crist: cariad yn codi o ddi ar ei undeb ef a hwythau â Christ, ac felly, oddi ar eu cydgyfranogiad o'r gras sydd yn Nghrist. *Ymysgaroedd Iesu Grist.*—Y mae y geiriau hyn yngwneyd rhywbeth yn mhellach na dynodi natur y cariad a deimlai yr apostol at y Philippiaid, sef ei fod yn un ysbrydol. Y maent hefyd yn dangos cariad pwy ydoedd, nad oedd yn gyfyngedig i Paul—mai cariad Crist ydoedd, yn ysgogi yn nghalon Paul. Yr oedd person yr apostol wedi myned i'r fath undeb â pherson Crist, fel yr oedd calon Crist yn curo yn mynwes yr apostol. Nid hiraethu am danynt yn ei ymysgaroedd ei hun y dywed yr apostol ei fod, ond yn ymysgaroedd Iesu Grist. Yr un meddwl sydd yma ag yn *Gal.* ii. 20; "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; etto, nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi." Yr oedd iddo ef ddyweyd ei fod yn hiraethu am danynt yn ymysgaroedd Iesu Grist yr un peth a dyweyd fod Iesu Grist yn hiraethu am danynt. Wrth hyn ni a welwn fod hyder yr apostol yn codi, nid yn unig o'i gariad ei hun, ond hefyd o gariad y Cyfryngwr; ac felly, fod ei hyder, nid yn unig yn deimlad naturiol a phriodol iddo, ond hefyd yn un cwbl ddynol, yn gyfryw ag a fyddai yn sicr o gael ei sylweddoli.

9. *A hyn yr wyf yn ei weddïo.*—Yr oedd yr apostol wedi dyweyd, yn *adn.* 4, ei fod yn gweddïo dros y Philippiaid; wele ef yn awr yn dyweyd beth oedd natur ei weddi, yr hyn yr oedd efe yn gweddïo am dano—*ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy.*—Nid yw yn angenrheidiol nac yn briodol, hwyrach, cyfyngu yr ystyr yn y fan hon i gariad at wrthddrychau neilduol, megys cariad at Paul neu at eu gilydd. Gwell yw ei gymmeryd mewn ystyr cyffredinol; sef, y gras o gariad oedd wedi ei gynnyrchu yn eu calonau trwy yr efengyl, yr hwn yr oedd Duw yn Nghrist yn brif wrthddrych iddo, ond etto oedd yn cymmeryd i mewn iddo ei hun bawb ag oedd yn Nghrist, a phob peth a berthynai i'w achos. *Mewn gwybodaeth, a phob synwyr.*—Nid trwy, ond mewn. Nid y meddwl yw, ar fod eu cariad yn cynnyddu trwy offerynoldeb gwybodaeth a phob synwyr, ond yn hytrach fod cynnydd y cariad yn dangos ei hun trwy gynnyddu mewn gwybodaeth a synwyr. "Gwybodaeth;"—dealltwriaeth o wirioneddau yr efengyl. "Synwyr;"—yn ol y Saesneg, "barn." Synwyr moesol i farnu gwir ansawdd y gwahanol wrthddrychau ag y mae bywyd dyn yn ei ddwyn i gyffyrddiad â hwy. Y mae y ddau hyn yn dal perthynas agos â'u gilydd:—y wybodaeth yn cryfhau y synwyr, yn cywiro y farn; a'r synwyr, neu y farn, drachefn, yn cymmhwyso y wybodaeth at amgylchiadau cyffredin bywyd. Yr oedd yr apostol am i'w cariad fod o dan lywodraeth gwybodaeth a synwyr, ac nid yn rhyw deimlad direol ac annysgybledig.

10. *Fel y profoch y pethau sydd â gwahaniaeth rhynggddynt.*—Dyma ddyben y cynnydd y cyfeirir ato yn yr adnod o'r blaen. Y mae y Saesneg yn darllen y geiriau fel hyn:—"*That ye may approve things that are excellent:*"—"Fel y cymmeradwyoch bethau sydd yn rhagorol." Y mae arferiad y Testament Newydd yn caniatau y darlleniad diweddaf. Cyfieithir yr un geiriau ag sydd yn y lle hwn, yn "darbod pethau rhagorol," yn *Rhuf.* ii. 18. Y mae y gair Groeg, *docimasein*, yn arwyddo, ar y cyntaf, profi, rhoddi prawf ar, fel profi meteloedd (1 *Pedr* i. 7). Y mae yr ystyr yma iddo mewn amryw o fanau yn y Testament Newydd. Wedi hyny y mae yn llithro i'r ystyr arall a nodwyd, ar y dybiaeth fod yr hyn y rhoddir prawf arno yn myned drwy y prawf yn llwyddiannus, ac felly yn cael ei gymmeradwyo. Arferir y gair fel hyn yn *Rhuf.* xiv. 22, a 1 *Cor.* xvi. 3, a lleoedd ereill. Ystyr cyntaf y gair *diapherein*, drachefn, ydyw gwahaniaethu: wedi hyny, arferir ef i ddynodi gwahaniaethu trwy ragori. Pa fodd i ddarllen y geiriau yn y lle hwn, pa un ai "fel y profoch y pethau sydd â gwahaniaeth rhynggddynt," ynte "fel y cymmeradwyoch bethau sydd yn rhagorol," ai ynte, "fel y profoch, y dygoch i brawf, bethau sydd yn rhagorol," sydd yn bwngc anhawdd ei benderfynu; o blegid y mae y gwahanol ddarlleniadau, i ryw fesur, yn cyfatteb i'r cyd-destyn, ac y mae esbonwyr enwog iawn yn pleidio pob un. Y mae Ellicott yn tueddu yn gryfach at yr olaf. Dewisa y gair "profoch," am mai dyna yr arwyddocâd cyntaf a mwyaf cyffredin. Dewisa y darlleniad, "pethau sydd yn rhagorol," am ei fod yn cyfatteb yn well i weddi yr apostol; o blegid fod cynnydd cariad yn dangos ei hun yn fwy mewn profi yr hyn sydd ragorol, nag mewn profi y pethau sydd â gwahaniaeth rhynggddynt. Ymddengys, pa fodd bynag, fod y darlleniad Cymraeg yn cyfatteb yn llawn cystal, os nad yn well, i'r ffurf o gynnydd ag a nodir gan Paul; sef, mewn gwybodaeth a phob synwyr. Gwaith priodol y wybodaeth a'r synwyr yma ydoedd, barnu, profi, y pethau ag y mae gwahaniaeth rhynggddynt—tynu llinell o wahaniaeth rhwng y da a'r drwg, y gwych a'r gwael, y gweddus a'r anweddus. Y mae y darlleniad hwn, mewn gwirionedd, yn tybied yr ystyron a gyflëir gan y darlleniadau ereill. *Fel y byddoch bur a didramgwydd hyd ddydd Crist.*—Y mae dau ystyr i'r

[l] 1 Cor. 1. 8. [m] Salm 92. 14, 15; Esa. 60. 21: Mat. 5. 16; Ioan 15. 4, 5, 8; Heb. 13. 15, 16.

y byddoch bur a didramgwydd hyd ddydd Crist;
11 Wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, [m]y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw.
12 A mi a ewyllysiwn i chwi gair "didramgwydd" yn y Testament Newydd. Un ydyw, heb roddi tramgwydd, megys yn 1 *Cor.* x. 32. Dyma yr ystyr a gymmerir gan Chrysostom, Meyer, ac ereill, yn yr adnod dan sylw. Dywed y cyntaf fod "pur" yn golygu cymmeriad y Philippiaid yn ei berthynas â Duw; "didramgwydd," eu cymmeriad yn ei berthynas â dynion. Y mae y meddwl arall i'r gair hwn i'w ganfod yn *Actau* xxiv. 16, yr hwn sydd yn gyfystyr â bod yn ddifeius. Yr ystyr olaf, medd Calvin, Ellicott, Alford, ac ereill, sydd fwyaf cydunol â rheidiad yr adnodau yn y lle hwn, yn gymmaint a bod yr apostol yn edrych ar berffeithiad eu cymmeriad yn ngolwg Duw. Dichon fod yma raddiaith (*climax*) yn cael ei ddefnyddio. Pur, mor bell a bod yn ddifeius; difeius, drachefn, hyd ddydd, neu, yn fwy llythyrenol, gogyfer (*eis*) dydd Iesu Grist. Purdeb wedi cyrhaedd difeiusrwydd, a difeiusrwydd a ddaliai oleu dydd Crist.

11. *Wedi eich cyflawni* (llenwi) *â ffrwythau cyfiawnder.*—Dyma y modd iddynt gyrhaedd y perffeithrwydd mewn cariad ag a nodir yn yr adnod flaenorol. Ystyr mwyaf cyffredin y gair "cyfiawnder," fel y defnyddir ef gan Paul, yw y cyfiawnder hwnw a gyfrifir i bechadur trwy ffydd yn Nghrist. Ond y mae genym esamplau o'r gair hefyd yn cael ei ddefnyddio am yr ansawdd iawn hono ar feddwl a buchedd y credinwyr ag sydd yn rhwym wrth ac yn dilyn cyfiawnhâd eu personau; megys *Eph.* v. 9, ac hwyrach *Rhuf.* vi. 13, ynghyd â manau ereill. Tebygol yw mai yr ystyr diweddaf yw y mwyaf naturiol yn y fan hon, ac felly fod ffrwythau cyfiawnder, neu, yn y llawysgrifau goreu, "ffrwyth cyfiawnder," yn golygu y dadblygiad llawn a gymmerai le ar gymmeriad Cristionogol y Philippiaid, pan y byddai yr ansawdd gyfiawn ag yr oedd eu meddyliau wedi eu dwyn iddi wedi cyrhaedd i'w lawn dwf a'i addfedrwydd. *Y rhai sydd trwy Iesu Grist*—Y mae y ffrwyth hwn trwy Iesu Grist. Trwy ei gyfryngdod a'i angeu ef y daeth yn beth possibl, a thrwy undeb âg ef y mae yn dyfod i feddiant dyn. Cyfranogiad yw gan y Cristion o fywyd Crist. "Olewydd gwyllt (*Rhuf.* xi. 24) a difrwyth ydym hyd oni impier ni yn Nghrist, yr hwn, trwy ei wreiddyn bywiol, sydd yn ein gwneyd yn goed ffrwythlawn, yn unol â'r dywediad yn *Ioan* xv. 1: 'Myfi yw y wir winwydden, chwithau yw y canghenau.'"—*Calvin. Er gogoniant a moliant i Dduw.*—Dyma yr hyn y mae perffeithiad y saint yn terfynu ynddo, a dyma yw yr amcan eithaf. Bydd perffeithiad y saint er "gogoniant i Dduw." Bydd y ffaith ynddi ei hun yn adlewyrchu anrhydedd ar ei enw, a bydd golwg ar y gwaith wedi ei orphen yn peri i foliant ddyrchafu iddo.

12. Y mae y symmudiad sydd yn yr adnod hon yn ymddangos yn hynod o sydyn. Ceisia Alford, yn cael ei flaenori gan Meyer, gyssylltu "gwybod" yn yr adnod hon â "gwybodaeth a phob synwyr;" *adn.* 9. Y mae y cyssylltiad hwn yn un tra annaturiol, a'r ymgais i'w ffurfio yn gwbl

wybod, frodyr, am y pethau *a ddigwyddodd* i mi, ddyfod o honynt yn hytrach er llwyddiant i'r efengyl;
13 Yn gymmaint a bod fy rhwymau i yn Nghrist yn eglur yn yr holl lys, ac yn mhob *lle* arall;

ddiangenrhaid. Nid yw y, sydynrwydd hwn ond nodwedd berthynol i arddull y llythyr; ac er fod y symmudiad yn sydyn, y mae er hyny yn naturiol. Ar ol i'r apostol gyfarch y Philippiaid, a dadgan ei deimladau gyda golwg arnynt, yr oedd yn naturiol iddo droi at ei amgylchiadau ei hunan; o blegid yr oedd hyn yn bwngc ag y teimlai y Philippiaid ddyddordeb mawr ynddo, ac anesmwythdra, y mae yn ddiau, yn ei gylch; felly y mae yr apostol yn prysuro i dawelu eu meddyliau gyda golwg ar hyn yma. Y mae yn gwneyd hyny drwy eu sicrhau fod ei amgylchiadau fel carcharor wedi dyfod o honynt yn hytrach—yn wahanol i'r hyn fuasid yn ei ddisgwyl—er llwyddiant i'r efengyl, Y modd y dygwyd hyny oddi amgylch oedd fel y canlyn:—

13. *Yn gymmaint a bod fy rhwymau i yn Nghrist yn eglur yn yr holl lys.*—Y mae cyfiead y geiriau hyn ychydig yn wahanol yn y Groeg; fel hyn,—"Yn gymmaint a bod fy rhwymau i wedi dyfod yn eglur yn Nghrist yn yr holl lys." Y mae y Cymraeg, fe welir, yn cyssylltu "yn Nghrist" â "rhwymau;" y Groeg yn ei gyssylltu âg "eglur." Ac y mae y ddau ddull o ddarllen yn rhoddi ystyr gwahanol. Dengys y cyntaf y wedd yr oedd yr apostol ei hun yn edrych ar ei rwymau. Dengys yr olaf y wedd yr ymddangosent i ereill. Yr ystyr olaf, y mae yn ddiddadl, oedd yr un a fwriadai yr apostol. Nid fod y ffaith o'i rwymau yn Nghrist—ei garchariad—wedi myned yn gyhoeddus: ond fod ei rwymau wedi myned yn eglur yn Nghrist—wedi myned yn adnabyddus fel rhwymau yn cael eu dioddef yn achos Crist. Yr oedd hyn yn rhoddi cyhoeddusrwydd i enw Crist, a thrwy hyny lwyddiant i'r efengyl. *Yn yr holl lys*:—Groeg, *praitôrion*; Saes., *palace.* O'r holl ystyron a roddir gan eiriaduron i'r gair a gyfieithir yma yn "llys," y rhai sydd wedi cael eu defnyddio gan esbonwyr mewn cyssylltiad â'r adnod hon, ydynt, "palas yr ymherawdwr:" ac hefyd, "gwersyllfa (*barracks*) y gwarchodlu ymherodrol." Y cyntaf sydd yn cael ei awgrymu gan y darlleniadau Cymreig a Saesnig; ond yr olaf yw y mwyaf tebygol. Dadleua Ellicott yn erbyn y cyntaf, o blegid nad oes un prawf fod palas yr ymherawdwr yn Rhufain yn cael ei alw yn "*prætorium.*" Yr oedd yr ymherawdwr yn cael ei alw yn "*prætor*;" felly yr oedd yn naturiol galw ei warchodlu (*body guard*) yn "*prætórians,*" a'r lle yr oeddynt yn aros yn "*prætorium.*" Mwy unol â'r cyd-destyn ydyw cymmeryd yr holl gorph milwraidd hwn i mewn—y rhai oedd allan o'r ddinas, yn gystal a'r rhai oedd ynddi—yn hytrach na chyfyngu y cylch i'r wersyllfa ag oedd yn nglŷn â'r palas ymherodrol. Dywedir, yn *Act.* xviii. 16, fod Paul wedi ei roddi at bencadben y llys milwraidd uchod, ac iddo yntau ei roddi dan ofal milwr cyffredin. Y mae hyn yn rhoddi cyfrif am y cyhoeddusrwydd a roddwyd i garchariad yr apostol o herwydd Crist yn mhlith y milwyr hyn. *Ac yn mhob lle arall.*—Y meddwl yw, fod rhwymau yr apostol wedi myned

14 Ac i lawer o'r brodyr yn yr Arglwydd fyned yn hyderus wrth [a] fy rhwymau i, a bod yn hyfach o lawer i draethu y gair yn ddiofn.

15 Y mae rhai yn wir [a] yn pregethu Crist trwy genfigen ac ymryson; a [b] rhai hefyd o ewyllys da.

16 Y naill sydd yn pregethu

[a] Act. 5. 42; 8. 7, 35: 9. 20; 10. 36; 11. 20; [1] Cor. 1. 23; 2 Cor. 1. 19; 4. 5; 1 Tim. 3. 16. [b] 1 Pedr 5. 2—4.

Crist o gynnen, nid yn bur, gan feddwl dwyn mwy o flinder i'm rhwymau i:

17 A'r lleill o gariad, gan wybod mai er amddiffyn yr efengyl y'm gosodwyd.

18 Beth er hyny? etto yn mhob modd, pa un bynag ai mewn rhith, ai mewn gwirionedd, yr

yn gyhoeddus yn mhlith y gwarchodlu ymherodrol, ac yn mhlith pawb o'r gweddill y tu allan o'r cylch hwn ag ydynt yn gwybod am ei garchariad, fel rhwymau yn achos Crist.

14. *Ac i lawer* (Groeg, "y rhan fwyaf") *o'r brodyr yn yr Arglwydd fyned yn hyderus wrth fy rhwymau i.*—Y mae Winer a Meyer, yn cael eu dilyn gan Wiesinger, ac Ellicott, yn cysylltu "yn yr Arglwydd" â "fyned yn hyderus," yn lle, fel y mae yn y cyfeithiad awdurdodedig, â "brodyr." Y mae yr adnod ganddynt hwy yn rhedeg fel hyn: — "Ac i'r rhan fwyaf o'r brodyr, gan fod yn hyderus yn yr Arglwydd, wrth, neu trwy fy rhwymau i, fyned yn hyfach o lawer i draethu y gair yn ddiofn." Cydsabydda Alford fod y drefn hon ar y geiriau yn rhoddi eithaf synwyr, ond fod cyflead y geiriau yn y darlleniad arall yn fwy naturiol. Ar ba sail y mae yn gallu haeru hyn, sydd yn ymddangos yn dywyll. Y mae esiamplau y Testament Newydd yn myned yn ei erbyn. Cyssylltir "yn yr Arglwydd" â "hyderus" yn *pen.* ii. 24, o'r llythyr hwn (*Gal.* v. 10; 2 *Thes.* iii. 4); ac y mae yr un drefn, gellid meddwl, yn rhoddi ystyr cyflawnach i'r adnod dan sylw.

15. Yn yr adnod hon y mae yr apostol yn nodi eithriad gofidus i'r hyn a ddywedwyd ganddo. Yr oedd yno rai yn pregethu Crist oddi ar deimlad cenfigenllyd ac ymrysongar tuag at yr apostol, ac ereill, o'r ochr arall, yn gwneyd hyny oddi ar deimlad o ewyllys da tuag ato. Yr oedd y dosbarth olaf hwn yn gynnwysedig yn "y brodyr" a nodir uchod; ond y cyntaf yn gorwedd yn gwbl y tu allan iddo.

16, 17. Yn y ddwy adnod yma, y mae y dosbarthiadau uchod yn cael eu dwyn ger bron etto, a'u cyferbynu yn eu dybenion. *Y naill sydd yn pregethu Crist o gynnen, nid yn bur:*—neu yn ŵy naturiol, hwyrach, "y rhai sydd o deimlad cenfigenllyd, pleidiol, a bregethant Grist," &c. Y mae y darlleniad arall yn dyfod âg amleiriaeth i mewn i'r testyn; o blegid y mae pregethu o gynnen yr un peth a phregethu trwy genfigen ac ymryson; a phregethu o gariad yr un peth a gwneyd hyny o ewyllys da. Yn *adn.* 15, edrycha yr apostol ar y ddau ddosbarth hyn gyda golwg ar y teimladau oedd yn eu cynnhyrfu. Gweithredai un oddi ar genfigen, gweithredai y llall oddi ar ewyllys da. Yn *adn.* 16, 17, drachefn, cymmer olwg arnynt yn eu hamcanion; "*Y rhai sydd o genfigen a bregethant Grist* [nid oddi ar amcan cywir], *gan feddwl* [dyna eu hamcan] *dwyn mwy o flinder i'm rhwymau i.*" Nid ammhurdeb yn mater y pregethu a feddylir, ond yn yr amcan. Y mae Alford yn golygu mai blinder i ysbryd yr apostol a feddylir yn y fan hon; ond y mae y geiriau, "mwy o flinder i'm rhwymau i," yn awgrymu mai gwaethygiad ar ei gyflwr fel carcharor a feddylir. Yr oedd ei rwymau yn ddigon blinderus eisoes, ond yr oedd yn eu hamcan hwy ddwyn mwy o flinder iddynt.

Nid oes yma ddim condemniad, fe welir, ar yr hyn a bregethid gan y rhai hyn; felly, nid oeddynt yn meddwl, fel y tybia rhai, flino ysbryd yr apostol trwy ddiystyru ei athrawiaeth. Mewn gwirionedd, yr oeddynt yn pregethu Crist, ond eu bod yn gwneyd hyny oddi ar gymmhelliadau ac i ddybenion drwg, sef boddio eu cenfigen trwy gynnhyrfu gelynion yr apostol yn ŵy yn ei erbyn.

17. *A'r lleill o gariad:*—neu, "y rhai (sydd) o gariad (a bregethant Grist), gan wybod mai er amddiffyn yr efengyl y'm gosodwyd." Nid ei osodiad yn y carchar a feddylir, a'u bod hwy yn ymgalonogi i bregethu Crist oddi ar yr ystyriaeth fod ei garchariad wedi ei ordeinio gan Ddduw i fod er budd i achos yr efengyl:—ystyr rhy bell o lawer. Nid chwaith ei fod ef wedi ei osod i bregethu yr efengyl; ond fod ei garchariad yn attalfa ar amcan yr appwyntiad hwnw, a'u bod hwythau, o herwydd hyny, yn rhedeg yn mlaen i geisio gwneyd i fyny y diffyg:—rhy annaturiol. Mwy annhebygol fyth yw y syniad mai ei helpu yn y gorchwyl difrifol o gyflwyno ei gyfrif i fyny i Ddduw fel gweinidog yr efengyl a feddylir. Yr oeddynt yn gwybod ac yn cydnabod yn yr apostol, er ei fod yn garcharor, ac mewn rhwymau, er hyny, un wedi cael yr appwyntiad goruchel o fod yn amddiffynwr i'r efengyl; ac oddi ar gydymdeimlad â'i amcan mawr, oddi ar gariad ato ar gyfrif ei swydd, ac wedi eu cynnhyrfu gan ei esampl anghymmharol o sêl ac ymroddiad apostolaidd, yr oeddynt yn cydweithredu âg ef yn ei amcan. Hwyrach y dylid sylwi fod y ddwy adnod uchod wedi eu gosod mewn trefn wahanol yn y llawysgrifau goreu, i'r un y maent ynddi yn y cyfeithiad awdurdodedig, sef yr olaf o'r ddwy yn flaenaf.

18. *Beth cr hyny?*—Groeg: "gan hyny." Gan mai fel hyn y mae pethau yn sefyll, pa beth yw y canlyniad? a pha beth yw fy nheimlad innau? Dyma yr atteb:—*Etto yn mhob modd* (pob modd o bregethu) *pa un bynag ai mewn rhith, ai mewn gwirionedd, yr ydys yn pregethu Crist* (y mae Crist yn cael ei bregethu): *ac yn hyn* (yn y ffaith fod Crist yn cael ei bregethu) *yr ydwyf fi yn llawen, ie, a llawen fyddaf.* Ymddengys fod y geiriau "rhith" a "gwirionedd" yn yr adnod hon yn cyfeirio at gymmhelliadau personol y rhai oeddynt yn pregethu, ac nid at gynnwys eu hathrawiaeth. Yr oedd y rhai cyntaf hyn yn pregethu Crist, ac nid efengyl arall, fel y gau athrawon yn Galatia: *Gal.* i. 6—8. Nid yw yn debyg fod un cyfeiliornad dinystriol yn cael ei ddysgu ganddynt; amgen, nis gallasai Paul, a bod yn gysson âg ef ei hun (*pen.* iii. 2), arfer y fath dynerwch tuag atynt. "Nid athrawiaeth" gau oeddynt hwy yn ei phregethu, ond athrawiaeth wir, oddi ar ddybenion gau. Y mae y gair a gyfeithir yma yn "rhith" yn cael ei gyfeithu yn *Ioan* xv. 22 yn "esgus." Yr oedd y rhai hyn yn pregethu Crist; ond esgus ydoedd

ydys yn pregethu Crist: ac yn hyn yr ydwyf fi yn llawen, ïe, a llawen fyddaf.

[p] Rhuf 8 28; Pedr 1. 7 9. 19 Canys [p] mi a wn y digwydd hyn i mi er iachawdwriaeth, trwy eich gweddi chwi, a chynnorthwy

[q] Rhuf. 8. 9; 1Pedr.1 11 [q] Ysbryd Iesu Grist,

20 Yn ol fy awyddfryd a'm go-

---

hyny: niweidio Paul oedd yr amcan. Pregethu Crist oedd y gorchudd o dan ba un yr annelent eu saethau at yr apostol. Pa fath bynag oedd cymmhelliadau a dybenion y rhai a bregethent, yr oedd Paul yn llawenhau ar y pryd: ac yn sicr hefyd mai llawen fyddai, yn y ffaith fod Crist yn cael ei bregethu. Yn yr adnod nesaf y mae yn rhoddi rheswm am y teimlad hwn.

19. *Canys mi a wn y digwydd hyn i mi er iachawdwriaeth.*—Yr un peth a olyga y gair "hyn" yn yr adnod hon ag yn yr un o'r blaen, sef pregethiad helaethach o Grist. Bwriadai ei wrthwynebwyr niwed i'r apostol; ond gwyddai ef y digwyddai hyny, yn groes i'w bwriad hwy, er iachawdwriaeth iddo. Dealla rhai wrth iachawdwriaeth, yn y fan hon, iachawdwriaeth y corph, sef gwaredigaeth i Paul o'i berygl presennol. Ereill, iachawdwriaeth ysbrydol, sef "ei thrwythlonrwydd i Grist, a'i ogoneddiad o hono, pa un bynag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth." —*Alford.* Y mae ereill, drachefn, yn uno y ddau syniad yna ynghyd. Y golygiad mwyaf tebygol yw yr eiddo Ellicott; sef, mai iachawdwriaeth dragwyddol a feddylir; ac nid iachawdwriaeth dragwyddol ereill, fel y sylwa rhai, ond yn fwy unol â'r cyd-destyn, "iachawdwriaeth dragwyddol yr apostol ei hun." *Trwy eich gweddi chwi, a chynnorthwy Ysbryd Iesu Grist.*—Y mae Alford yn darllen y geiriau fel hyn:—"Trwy eich gweddi a'ch cyflenwad i mi (trwy eich gweddi) o Ysbryd Iesu Grist." Y mae y darlleniad yn anystwyth, a'r ystyr a gyfleir ganddo yn swnio rhywbeth yn dyeithriol. "Cynnorthwy," neu gyflenwad, "Ysbryd Iesu Grist." A ydyw yr ymadrodd hwn yn golygu cyflenwad o'r Ysbryd, neu gyflenwad gan yr Ysbryd? Y mae yr ystyr cyntaf yn wir, ac yn cael ei ddefnyddio yn *Gal.* iii. 5. Dichon, er hyny, mai yr olaf sydd yn y lle hwn. Y mae y cyferbyniad, felly, yn gyflawnach yn yr adnod:—Y Philippiaid a'u gweddi —yr Ysbryd a'i gyflenwad. Gelwir ef yn Ysbryd Crist am ei fod yn deilliaw o berson dwyfol y Cyfryngwr, ac am ei fod yn gweithredu yn nhrefn yr iachawdwriaeth ar sail cyfryngdod, a thrwy awdurdod Crist.

20. *Yn ol fy awyddfryd a'm gobaith.*—Yr oedd y sicrwydd a feddai ynghylch y canlyniad deddwydd y sonia am dano yn yr adnod o'r blaen, "yn ol," (Groeg, *cata*)—yn unol â, yn gyfattebol i'w awyddfryd a'i obaith. Y mae y gair *apocaradocian*, a gyfieithir yma yn "awyddfryd,' yn golygu troi y pen i sylwi yn nghyfeiriad yr hyn a ddisgwylir. Yr unig fan arall y gwneir defnydd o hono yn y Testament Newydd ydyw *Rhuf.* viii. 19. Ei feddwl yma, mae yn debyg, ydyw disgwyliad sefydlog, tawel. Mater y disgwyliad a'r gobaith ydoedd, *na'm gwaradwyddir mewn dim, eithr* [yn gwbl groes i hyny] *mewn pob hyder* [yn hytrach, hyfder: *Act.* iv. 13; 1 *Tim.* iii. 13; *Ephes.* vi. 19., a lleoedd ereill], *fel bob amser, felly yr awrhon hefyd* [yn y sefyllfa bresennol] *y mawrygir Crist yn fy nghorph i.* Dyna baith, na'm gwaradwyddir mewn dim, eithr mewn pob hyder, fel bob amser, *felly* yr awr hon hefyd, y mawrygir Crist yn fy nghorph i, pa un bynag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth.

21 Canys byw i mi *yw* Crist, a marw *sydd* elw.

---

y man yr oedd y mawrygiad i gymmeryd lle. *Pa un bynag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth:* —dyna y modd yr oedd i gymmeryd lle. Dywedai yr apostol y mawrygid Crist yn ei gorph, o blegid y gwnelid hyny trwy fywyd neu trwy farwolaeth; ac yr oedd y naill a'r llall yn rhwym o fod yn ei gorph. Y mae y geiriau, "mewn pob hyder," i'w cyssylltu â "y mawrygir Crist;" ac y mae y geiriau hyn gyda'u gilydd yn ffurfio cyferbyniad tarawiadol i "gwaradwyddir mewn dim." Y mae y gair a gyfieithir yma yn "waradwyddir" yn cynnwys dau ystyr; sef, dwyn i waradwydd—i sefyllfa o waradwydd; ac hefyd, beri teimlad gwaradwyddus—teimlad o gywilydd—gwaradwydd allanol a thumewnol. Meddyliai yr apostol, y mae yn debyg, y naill a'r llall. Golygai ef na ddygid ef i sefyllfa o waradwydd trwy fod amcanion uchel ei fywyd yn cael eu rhwystro, na'i ddisgwyliadau pwysig yn cael eu siomi; ac felly, am na byddai achos cywilydd, na theimlai gywilydd. Ar gyfer y ddau ystyr hyn y mae y ddau air "hyfder" a "mawrygir." Yn lle cywilydd, wele hyfder; ac yn lle ei fod yn cael ei ddwyn i waradwydd, wele Grist yn cael ei fawrygu yn ei gorph ef. Yr oedd hyn yn fawrygiad arno ef ei hunan, o blegid yr oedd amcanion a gobeithion ei fywyd yn cael eu sylweddoli, ac felly gwaradwydd yn cael ei gadw oddi wrtho. Yn gyferbyniol hefyd â gwaradwyddir "mewn dim." Y mae yr apostol yn dywedyd mewn "pob hyfder."

21. *Canys.*—Y mae y cyssylltiad hwn yn dwyn i mewn reswm am yr hyn a ddywedir yn yr adnod flaenorol. *Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw.*—Y mae y geiriau "yw" a "sydd" wedi eu dodi i mewn gan y cyfieithydd heb fod dim yn cyfatteb iddynt yn y darlleniad gwreiddiol; ac yno hefyd, y mae "i mi" yn sefyll o flaen "byw," fel hyn—"I mi byw Crist, a marw elw." Y mae rhai yn esbonio y rhan gyntaf o'r adnod hon trwy ddywedyd mai Crist ydoedd bywyd Paul. Golyga ereill drachefn, yn mhlith y rhai y mae Calvin, mai y meddwl yw, fod Crist yn elw iddo mewn bywyd ac angeu. Y mae y golygiadau hyn, heb sôn am anhawsderau ereill sydd yn nglŷn â hwy, yn tori ar undeb yr adnod â'r un flaenorol, trwy eu bod yn gwneyd i ffordd â grym y geiriau fel cadarnhâd o'r haeriad y mawrygid Crist yn nghorph yr apostol, pa un bynag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth. Gadawer geiriau yr adnod fel y maent, heb un llurgyniad, yna rhoddant ystyr amlwg a chraff. "Canys i mi, byw Crist:"—I mi, yn fy amgylchiad i, byw, Crist ydyw. Yr oedd bywyd a Christ ganddo ef, nid yn ei farn yn unig, ond hefyd mewn gweithred a gwirionedd, yn dermau cyfystyr. Yr oedd efe yn gwbl gyssegredig i Grist, ac yr oedd yr ymgyssegriad hwn yn codi oddi ar ei undeb â Christ. Bywyd Crist oedd wedi ymdreiddio trwy ei natur. Nid efe oedd yn byw, ond Crist oedd yn byw ynddo. Gan mai hyn

2 Cor. 10. 3; Gal. 2. 20; Col. 2. 1; 1 Pedr 4. 2. 22 Ac os [z] byw fyddaf yn y cnawd, hyn *yw* ffrwyth fy llafur: a pha beth a ddewisaf, nis gwn.

23 Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeu-*tu;* gan fod genyf Luc 2. 29, [a] chwant i'm dattod, ac i fod 30; Ioan 13. 1; 2 Tim. 4. 6. gyda Christ: canys llawer iawn gwell *ydyw.*

24 Eithr aros yn y cnawd *sydd* fwy angenrheidiol o'ch plegid chwi.

25 A chenyf yr hyder hwn, yr wyf yn gwybod yr arosaf ac y cyd-[b] Luc 22. 32; Ioan 21. 15 —17. Act. 11. 23; 2 Cor. 1. 24; Eph. 4. 11 —13. drigaf gyda chwi oll, [b] er cynnydd i chwi, a llawenydd y ffydd.

26 Fel y byddo eich gorfoledd chwi yn helaethach yn Nghrist Iesu o'm plegid i, trwy fy nyfodiad i drachefn atoch.

27 Yn unig [u] ymddygwch yn [u] Eph. 4. 1; Col. 1. 10; Titus 2. 10; 2 Pedr 1. 4 -9; 3. 11, 14. addas i efengyl Crist; fel pa un bynag *a wnelwyf* ai dyfod a'ch

oedd bywyd i'r apostol, yna byddai gwaredigaeth iddo rhag merthyrdod yn foddion i fawrygu Crist yn ei gorph trwy fywyd. *A marw sydd elw.*—Gan mai eiddo Crist ydoedd bywyd Paul, yna byddai ei ferthyrdod gan ei elynion, yn ddodiad o hono ei fywyd i lawr o'i ochr ef; a byddai yr ystyriaeth fod marw yn elw iddo yn ei alluogi i wneyd yr aberth mawr a diweddaf hwnw i Grist gyda phob hyfder: byddai hyn, drachefn, yn fawrygu Crist yn ei gorph ef trwy farwolaeth. Hawdd, gan hyny, fel y dywed Ellicott, y gallasai yr apostol hôni y fath hyder gyda golwg ar ei iachawdwriaeth dragwyddol, pan yr oedd yn medru coleddu gobaith a disgwyliad mor annhraethol fendigedig.

22. *Ac os byw fyddaf yn y cnawd, hyn yw ffrwyth fy llafur.*—Y mae "os," yn ol y darlleniad hwn, yn dynodi ammheuaeth ynghylch y ffaith a fyddai efe byw yn y cnawd, ai peidio. Glyna Bengel wrth y darlleniad hwn, ac esbonia "ffrwyth fy llafur" yn ffrwyth, sef fy llafur; *h. y.*, y byddai i'r bywyd a arbedid iddo gynyrchu llafur yn ffrwyth arno ei hunan. Ymddengys fod yr adnod fel hyn yn ail adroddiad hollol o'r rhan gyntaf o'r adnod o'r blaen. Golyga lliaws o'r awduron diweddar, o'r ochr arall, fod yr "os" yn y lle hwn i'w gymmeryd mewn ystyr rhesymiadol a chadarnhaol. Darllenant y geiriau fel hyn: "Ond" (y cyssyllt-air gwahaniaethol sydd yn y gwreiddiol, nid "ac"), os byw yn y cnawd, os yw hyn i mi yn ffrwyth fy llafur, pa beth a ddewisaf, nis gwn. Yn yr adnodau o'r blaen, y mae yr apostol yn dangos nad oedd o un gwahaniaeth iddo ef, pa un ai byw ai ynte marw fyddai, yn gymmaint ag y gogoneddid Crist trwy naill a'r llall; îe, yn ei berthynas âg ef ei hun, byddai marw yn elw iddo, ac felly yn beth i'w ddymuno yn hytrach; ond yr oedd ystyriaeth arall yn dyfod i mewn, sef y byddai byw yn y cnawd yn ffrwyth ei lafur; *h. y.*, yn gyfleusdra iddo ddwyn ffrwyth trwy ei lafur; ac ar y cyfrif yma yr oedd yn methu gwybod pa un ai bywyd ynte angeu a ddewisai.

23. *Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeu-tu.* Yn ol y llawysgrifau goreu, dylid darllen "canys" yn "ond" yn y lle hwn, yr hyn sydd yn ffurfio cyferbyniad rhwng y geiriau sydd yn dilyn a'r adnod o'r blaen. "Pa beth a ddewisaf, nid wyf yn gwybod. "Ond [yn lle gwybod, yn lle bod yn benderfynol ar hyn] y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeu-tu." Yr wyf yn cael fy nghyfyngu, neu ddal gafael ynwyf, fel y mae y Groeg, *sunechó,* yn arwyddo, gan y ddau—bywyd ac angeu. *Gan fod genyf chwant i'm dattod:* neu, gan fod fy nymuniad tuag at gael fy rhyddhau. Y mae y gair a gyfleithir yma yn "ddattod," yn cael ei arfer am ryddhau llong, trwy godi yr angor i fyny: hwyrach fod y ffugr hwn yn sefyll o flaen meddwl yr apostol wrth gyfeirio at ei ymadawiad â'r byd. *Ac i fod gyda Christ.*—Yr oedd efe mewn undeb â Christ eisoes, ac yr oedd yr undeb ysbrydol a dirgeledig hwn yn peri fod Crist yn byw ynddo a thrwyddo; ond yr oedd ei ddymuniad ef am gael bod "gyda" Christ—cartrefu gyda'r Arglwydd: 2 *Cor.* v. 8. *Canys llawer iawn gwell ydyw.*—Gwell na byw.

24. *Eithr aros yn y cnawd:*—yn llythyrenol, yn fy nghnawd. *Sydd fwy angenrheidiol o'ch plegid chwi.*—Ymadael, a myned at Grist oedd yr hyn oedd yn well gyda golwg ar Paul ei hun; ond aros yn y cnawd ydoedd yr hyn oedd fwy angenrheidiol gyda golwg ar ei frodyr. Gallasai Paul feddwl, fel y noda Ellicott, fod ei ymadawiad i fyned at Grist yn beth angenrheidiol iddo, yn beth i weddïo am dano, ac i'w brysuro; ond yr oedd parhau am dymmor yn y byd yn fwy angenrheidiol ar gyfrif ereill.

25. *A chenyf yr hyder hwn:*—neu, a chan fy mod yn argyhoeddedig o hyn; sef, fod ei arosiad yn y cnawd yn fwy angenrheidiol o'u plegid hwy. *Yr wyf yn gwybod yr arosaf.*—Aros mewn bywyd. *Ac y cyd-drigaf gyda chwi oll.*—Canlyniad i'w arosiad pellach ar y ddaear fyddai i ryw gymmaint o'r amser hwnw gael ei dreulio mewn cyd-drigo gyda hwy oll. Yr oedd y sicrwydd a feddai yr apostol mai ei arosiad yn y cnawd yn fwy angenrheidiol o'u plegid hefyd yn ei feddwl mai felly y trefnai Duw iddi fod. *Er cynnydd i chwi, a llawenydd y ffydd.*—Y mae Wiesinger, Alford, ac Ellicott, yn cyssylltu "cynnydd" a "llawenydd" â'r gair "ffydd:"—"Er cynnydd a llawenydd eich ffydd." Y mae y darlleniad hwn, fe welir, yn dangos natur y cynnydd, sef cynnydd ffydd, ac hefyd yn fwy unol, medd yr awdwr olaf a enwyd, â threfn gyffredin y Testament Newydd; er fod yr arferiad a wneir o'r gair "cynnydd," yn 1 *Tim.* iv. 15, yn cyfreithloni ei ddefnyddio yma hefyd ar ei ben ei hun. Y fath ysbryd hunanaberthiadol a ddangosir gan yr apostol yma! Bod gyda Christ oedd y mwyaf dymunol ganddo o'i ran ei hun, ond yr oedd efe yn barod i wneyd aberth o ddedwyddwch y nef am ryw ysbaid, er mwyn gwasanaethu ei frodyr ar y ddaear. Yr un meddwl ydoedd hwn ag a nodir ganddo yn y bennod nesaf ydoedd yn Nghrist Iesu:—"Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch a Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun," &c.

26. *Fel y byddo eich gorfoledd.*—Y mae dau air, a arferir yn y Testament Groeg, yn cael eu cyfleithu yn "orfoledd," sef *cauchésis,* a *cauchéma.* Y mae y cyntaf yn golygu gorfoleddiad, neu y weithred o orfoleddu; a'r olaf yn golygu testyn neu fater y gorfoledd. Pe y chwilid y manau hyny yn y Testament Newydd lle y defnyddir y geiriau hyn, ceid gweled, dybygwn,

[z] Salm 123 ; Mat. 1. 25. [1] Cor 1. 10 [2] Cor 13. 11. [y] Diar. 23. 23 ; Act 24. 24 ; Eph. 1 13 ; [1] Tim 1. 11

gweled chwi, ai bod yn absennol, y clywyf oddi wrth eich helynt chwi, [x] eich bod yn sefyll yn un ysbryd, âg un enaid, gan gydymdrech [y] ffydd yr efengyl;

28 Ac heb eich dychrynu mewn un dim gan eich gwrthwynebwyr: yr hyn iddynt hwy yn wir sydd arwydd sicr o golledigaeth, [z] ond [a] Mat. 5. 12 ; Rhuf. 8. 17. i chwi o iachawdwriaeth, a hyny gan Dduw.

29 Canys i chwi y rhoddwyd

y gwahanol ystyron hyn yn perthyn iddynt. Y mae Wiesinger yn dwyn 1 *Cor.* v. 6 yn mlaen fel esampl o'r gair diweddaf a nodwyd, yn cael ei arfer yn yr ystyr a briodolir genym i'r cyntaf; ond nid ydym ni yn gweled fod yr esampl a nodir gaddido, erbyn ei hystyried yn fanwl, mewn un modd yn eithriad i'r rheol. *Cauchéma* yw y gair sydd yn *adn.* 26 o'r llythyr hwn at y Philippiaid; felly, ymddengys nad y meddwl yw gorfoledd o blegid yr apostol, er mai dyma syniad dynion mor fawr a Chalvin a Bengel. Ac yn wir, nid "o'm plegid i" yw y darlleniad llythyrenol o'r Groeg, *en omoi*, eithr yn hytrach *ynof fi.* Tebygol ydyw mai mater y gorfoledd a feddylir yn y lle hwn, yr hwn a ddynodir yn yr adnod o'r blaen trwy gynnydd a llawenydd ffydd. Yr oedd yr helaethiad hwn ar fater eu gorfoledd, neu, yr hyn sydd yr un peth, eu cynnydd mewn crefydd i gymmeryd lle fel hyn, yn helaethach yn "Nghrist Iesu, ynof fi." *Yn Nyhrist Iesu.*—Dyna ansawdd y cynnydd. "Ynof fi:" dyna y man yr oedd i gael ei ddwyn oddi amgylch: yna y mae y geiriau nesaf yn eglurhâd ar yr ystyr a gyssylltai yr apostol â'r ymadrodd diweddaf. Y modd yr oedd yr helaethiad yma ar eu gorfoledd i gael ei ddwyn oddi amgylch yn Paul ydoedd, trwy ei fynediad drachefn atynt i bregethu yr efengyl iddynt, ac i lafurio yn eu plith.

27—30. ANNOGAETH I YMRODDIAD CYSSON A DIFRIFOL I FYWYD CREFYDDOL.

27. *Yn unig.*—"Gwnewch yr un peth hwn yn nôd eich gofal, pa fodd bynag y digwydda gyda'm dyfodiad i atoch. Y mae nid ychydig yn perswadio eu hunain, trwy dybied yr amgylchiad yma neu arall, y byddant o'r diwedd fel y mae yn briodol iddynt fod; ond gwell ydyw bob amser gyflawni dyledswydd bresennol heb ysgoi, dan yr amgylchiadau presennol."—*Bengel. Ymddygwch yn addas i efengyl Crist.*—Mae y Groeg, *politeueesthe*, a gyfieithir yma yn "ymddygwch," yn golygu ymddwyn fel deiliaid o wladwriaeth. Yr un gair sydd yn *pen.* iii. 20; ac hefyd yn *Eph.* ii. 16, lle y sonia am "gyd-ddinasyddion." Trwy yr efengyl yr oedd y Philippiaid wedi eu gwneyd yn ddeiliaid o wladwriaeth nefol. Yr oedd yn perthyn i hon gyfreithiau a dyledswyddau. Annoga yr apostol y Philippiaid i *actio* eu gwladwriaeth yn addas i, ac yn deilwng o'r efengyl. *Fel pa un bynag a wnelwyf ai dyfod a'ch gweled chwi, ai bod yn absennol, y clywyf,* &c.—Y mae rhywrai yn sylwi fod rhyw ychydig o afreoleidd-dra ieithyddol yn nghyfansoddiad y rhan hon o'r adnod, yn gymmaint a bod "y clywyf" yn perthyn i'r oll o'r frawddeg sydd yn myned o'r blaen, tra y mae y synwyr yn ein dysgu, meddant, fod Paul yn golygu "clywed" oddi wrth eu helynt, yn unig ar y dybiaeth y byddai iddo fod yn absennol. Ond, fel y sylwa Meyer, y mae y geiriau yn rhoddi eithaf ystyr fel y maent, heb chwanegu dim atynt. Disgwyliai yr apostol glywed eu hanes, pa un bynag ai yn eu plith, ai ynte yn ei absennoldeb oddi wrthynt, y byddai yr adroddiad yn cael ei roddi iddo, "eu bod yn sefyll yn un ysbryd, âg un enaid, gan gydymdrech gyda," neu yn hytrach, yn mhlaid "ffydd yr efengyl." Y mae y darlleniad Cymraeg yn cyssylltu "un enaid" â "sefyll;" ond yma priodol, dybygid, yw cyssylltu y geiriau hyn â "gan gydymdrech;" fel hyn—"eich bod yn sefyll yn un ysbryd," gan "gydymdrech yn un enaid," &c. Golyga rhai esbonwyr wrth "ysbryd," y rhan uchaf o'n natur, yr hon sydd yn alluog i ddal cymmundeb â'r Ysbryd Tragwyddol; ac wrth "enaid," eisteddle'yr ewyllys a'r serchiadau. Yn ol hyn, y mae "un ysbryd" yn golygu undeb meddwl, yn cael ei gynnyrchu gan gydgyfranogiad o ddylanwadau yr un Ysbryd Tragwyddol; ac "un enaid" yn golygu undeb ewyllys a theimladau yn cyfodi oddi ar hyny, ac yn ffynnonell eu gweithgarwch crefyddol. Ymddengys fod y drychfeddwl o wladlywiaeth yn cael ei ddilyn gan yr apostol yma. Y modd yr oedd y Philippiaid i ymddwyn yn addas i'r efengyl ydoedd, trwy sefyll ac ymdrechu o blaid y deyrnas yr oeddynt yn ddeiliaid o honi, ac yn filwyr drosti.

28. *Ac heb eich dychrynu mewn un dim gan eich gwrthwynebwyr:*—sef, gelynion cyhoeddus Cristionogaeth, y mae yn debyg. Yma hefyd y mae yr apostol yn cario yn mlaen y drychfeddwl o wladwriaeth, ac yn yr adnod hon y mae yn nodi llinell chwanegol yn eu rhodiad addas i'r efengyl fel deiliaid ffyddlawn o deyrnas Crist. Fel y cyfryw, yr oeddynt i sefyll yn ngwyneb gelynion y deyrnas hon heb encilio, a hyny gydag undeb egwyddor ac amcan; ac nid yn unig sefyll, ond hefyd gydymdrechu; ac i'r cydweithrediad hwn o blaid yr efengyl godi oddi ar undeb ewyllys a serch. Yn ddiweddaf oll, yr oeddynt, nid yn unig i sefyll a chydymdrechu, ond hefyd i wneyd hyny yn ddigryn—heb eu dychrynu mewn dim gan eu gwrthwynebwyr. Wele ddiysgogrwydd, gweithgarwch, a gwroldeb wedi eu huno ynghyd yn eu cymmeriad fel dinasyddion. *Yr hyn iddynt hwy yn wir sydd:*—sydd arwydd sicr o golledigaeth. Byddai ymdrech unol, cysson, digryn, y Philippiaid yn mhlaid yr efengyl, yn arwydd sicr i'r gwrthwynebwyr o golledigaeth dragwyddol; o blegid byddai y cymmeriad hwn o'r eiddynt yn nodi allan holl ymdrech eu gwrthwynebwyr yn eu herbyn fel peth cwbl ofer, ac yn gyfryw ag a syrthiai'yn ddinystr ar eu penau hwy eu hunain yn y pen draw. *Ond i chwi o iachawdwriaeth:*—nid yn unig buddugoliaeth yn yr ymdrech, ond hefyd iachawdwriaeth dragwyddol mewn canlyniad i hyny. *A hyny gan Dduw.*—Nid iachawdwriaeth a feddylir, ond yr arwydd y sonia yr apostol am dano. Byddai diysgogrwydd gwrol y Cristionogion yn arwydd o ddinystr eu gelynion a'u hiachawdwriaeth hwythau; a'r arwydd hwnw drachefn, nid yn un dynol, ac felly yn siomedig, ond wedi ei roddi gan Dduw, ac felly yn anffaeledig.

29. *Canys i chwi y rhoddwyd bod i chwi, er Crist.*—Ymddengys yr apostol fel pe buasai yn meddwl chwanegu yn uniongyrchol y gair

bod i chwi, er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond hefyd ddioddef erddo ef;

30 Gan fod ichwi yr un ymdrin ag a welsoch ynof fi, ac yr awr hon a glywch *ei fod* ynof fi.

PENNOD II.

Y mae yn eu hannog hwynt i undeb, ac i bob gostyngeiddrwydd meddwl, trwy esampl ufudd-dod a dyrchafiad Crist; 12 *ac i fyned rhagddynt yn ofalus yn ffordd iachawduriaeth, fel y byddont mwyys yn oleuadau i'r byd annuwioi,* 16 *ac yn ddiddanwch iddo yntau, eu hapos-*

"dioddef," ond y mae yn dodi i mewn cyn hyny, "nid yn unig gredu ynddo ef," er mwyn nodi allan yn fwy pendant yn mha beth yr oedd yr arwydd a grybwyllwyd yn gynnwysedig: yna y mae yn gorphen yr ystyr a feddyliai ar y cyntaf, "ond hefyd ddioddef erddo ef." Yr oedd y ffaith hon yn brawf, a dygir hi yn mlaen yma gan yr apostol yn brawf, fod yr arwydd a nodir ganddo o Dduw. Yr oedd y gallu oedd ganddynt i ddioddef dros Grist, nid yn rhywbeth o fyfiant naturiol a dynol, ond yn ras Duw—yn un o fendithion yr efengyl; a dyma oedd dirgelwch eu diysgogrwydd diddychryn, ac felly yr oedd yn ddangosiad o ansawdd ddwyfol yr arwydd a roddasid iddynt.

30. Yn yr adnod hon y mae yr apostol yn cysuro y Philippiaid yn eu dioddefiadau â'r ystyriaeth nad oeddynt ar eu penau eu hunain yn hyn, ond ei fod ef heiyd yn gydymaith iddynt mewn dioddefaint. Nid oedd yr ymdrin, neu yn hytrach yr ymdrech yr oeddynt hwy yn ei afael, ond yr un ag yr oeddynt wedi ei weled ef ynddo yn Philippi (*Act.* xvi. 16; 1 *Thes.* ii. 2), a'r un ymdrech ag yr oeddynt yn clywed ei fod ynddo yn awr. Hwyrach ei fod hefyd yn bwriadu rhoddi awgrym distaw iddynt i sefydlogrwydd oddi wrth ei esampl ei hunan.

PENNOD II.

1. *Od oes gan hyny.*—Y mae y cyssyllt-air "gan hyny," yn cyfeirio yn ol at yr hyn a ddywedwyd gan yr apostol yn niwedd y bennod o'r blaen, yn enwedig ei waith yn cymmhell y Philippiaid i undeb a chydweithrediad yn mhlaid yr efengyl, fel y ffordd effeithiol i ennill goruchafiaeth ar eu gwrthwynebwyr: *pen.* i. 27, 28. Gan fod yr agwedd hon mor bwysig er llwyddiant crefydd yn y byd, yn gystal ag yn eu plith ac yn nddynt hwy eu hunain, y mae yr apostol yn awr yn eu tynghedu i'w meithrin oddi ar yr ystyriaethau mwyaf difrifol a grymus. *Ddim dyddanwch yn Nghrist.*—Y mae y gair Groeg, *paraclésis*, a gyfieithir yn y fan hon yn "ddyddanwch," yn cael ei arfer mewn amryw o fanau yn y Testament Newydd, ac yn golygu weithiau, annogaeth, darbwylliad (*Rhuf.* xii. 8; 1 *Cor.* xiv. 3); weithiau cysarwyddyd, ac addysg (*Act.* xiii. 15, a xv. 31); bryd arall, ymbil (2 *Cor.* viii. 4); a phryd arall drachefn, cynnorthwy (*Act.* ix. 31). Mewn ystyr ailraddol y mae yn cael ei ddefnyddio am gysur, *Rhuf.* xv. 4, 5; 2 *Cor.* i. 3, 7. Ymddengys mai yr ystyr cyntaf yw y mwyaf unol â'r cyddestyn yn y lle hwn: "Od oes gan hyny ddim annogaeth [neu berswâd] yn Nghrist, od oes dim cysur cariad [sef y cysur ag y mae cariad yn ei gynnyrchu], od oes dim cymdeithas yr Ysbryd."

tol hwynt, yr hwn sydd bellach barod i'w offrymu i Dduw. 19 *Y mae efe yn gobeithio danfon Timotheus atynt, yr hwn y mae efe yn ei ganmawl yn fawr;* 25 *ac felly Epaphroditus, yr hwn y mae efe a'r fedi ei ddanfon atynt yn ddiattreg.*

OD *oes* gan hyny [a]ddim diddanwch yn Nghrist, od oes dim cysur cariad, [b]od oes dim cymdeithas yr Ysbryd, od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau;

2 Cyflawnwch fy llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad genych, yn gyttûn, yn synied yr un peth.

[a] Ioan 17. 13; Rhuf. 15. 12, 13; 1 Cor. 15. 31.
[b] Rhuf. 5. 5; 8. 9–16. 26; 1 Cor. 6. 19 20; Eph. 1. 13 14.

Gall-y geiriau hyn olygu, cymdeithas ysbrydol, cymdeithas rhwng ysbrydoedd y Philippiaid a'u gilydd; neu ynte, y gymdeithas hono ag y mae Ysbryd Duw yn awdwr o honi; neu ynte, yn olaf, ac yn fwyaf tebyg, cymdeithas a chyfranogiad o fendithion a dylanwadau yr Ysbryd Glân: yr hon ystyr sydd i'w gweled hefyd yn 2 *Cor.* xiv. 13. *Od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau.*—Yn *Col.* iii. 12, sonir am ymysgaroedd trugareddau, neu dosturiaethau, heb y cyssyltiad *a* rhwng y geiriau fel yn y fan hon; yr hyn sydd yn awgrymu i ni fod "a thosturiaethau" yn rhywbeth heb law eglurhâd ar "ymysgaroedd." Yr hyn y mae "ymysgaroedd" yn ei ddynodi ydyw cydymdeimlad yn gyffredin. Yn *pen.* i. 8, y mae yn golygu cydymdeimlad yr apostol â'r Philippiaid, yn amlygu ei hun mewn hiraeth am danynt, tra y mae "tosturiaethau" yn dynodi, y ffurf neilltuol hono ar y cydymdeimlad, pan y mae ei wrthddrych mewn sefyllfa anghysurus neu helbulus. Ymddengys fod y bywyd crefyddol yn cael ei osod allan yn yr adnod hon yn ei ffynonell allanol ac yn ei deimladau tufewnol. Crist yw ffynnonell a chynllun rhinweddau mawrion crefydd, cymdeithas â'r Ysbryd yw y ffordd i ddyfod i gymmundeb â Christ, a chysur cariad, ynghyd âg "ymysgaroedd a thosturiaethau," ydynt ganlyniadau y cymmundeb goruchel hwn. Y mae yr apostol yn cydnabod presennoldeb yr elfenau mawrion o grefydd a nodir ganddo yn mhlith y Philippiaid, ac ar gyfrif hyny y mae yn eu cymmhell i'r hyn a ganlyn:—

2. *Cyflawnwch fy llawenydd.*—Awgryma hyn y byddai ei lawenydd o'u plegid yn anghyflawn heb yr undeb hwnw rhyngddynt a'u gilydd ag a grybwyllir ganddo. *Fel y byddoch yn meddwl yr un peth*, &c.—Y mae rhywbeth tebyg i amleiriaeth yn ymddangos yn yr ymadroddion hyn: os yw hyny yn bod, y mae yn hawdd rhoddi cyfrif am dano gyda gwresawgrwydd teimlad yr apostol wrth ysgrifenu at y Philippiaid. Hwyrach hefyd ei fod yn pentyru geiriau ar eu gilydd, er mwyn dangos mor drwyadl yr oedd efe am i'w hundeb â'u gilydd fod. Ar yr un pryd, ymddengys mai nid amleiriaeth sydd yn y rhan hon o'r adnod, ond fod yn perthyn i'r gwahanol ymadroddion eu hystyr bennodol. Y mae yr ymadroddion, *a'r un cariad genych*, &c., neu yn hytrach, gan fod "â'r un cariad genych," yn ymddangos fel eglurhâd ar y geiriau sydd yn eu blaenori. Y ffordd yr oeddynt i feddwl "yr un peth," oedd gan feddu yr un cariad, a chan fod "yn gyttûn," yn synied yr un peth. Y mae y gair Groeg *sumpsuchoi*, yr hwn a gyfieithir "yn gyttûn," yn golygu "â'r un enaid;" ac y mae Ellicott ac ereill yn barnu y dylai, yn lle bod ar ei ben ei

3 Na *wneler* dim trwy gynnen neu wag-ogoniant, eithr mewn gostyngeiddrwydd, gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain.

4 Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo ereill hefyd.

5 Canys bydded ynoch y medd-
wl yma, yr hwn *oedd* hefyd yn
Nghrist Iesu:

6 Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, [c]ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw;

[c] Gen. 32. 24—30; Zech. 13. 7; Ioan 10. 30, 33; 20. 28.

7 Eithr efe a'i dibrisiodd ei

hun, fod wedi ei gyssylltu â'r hyn sydd yn dilyn, "a'r un enaid, yn synied yr un peth." Yr oedd yr undeb a gymmhellid gan yr apostol yn undeb teimlad, barn, ac amcan.

3, 4. Y mae yr adnodau hyn, fel y sylwa Wiesinger, yn nodi allan y rhwystrau oeddynt yn gorwedd yn ffordd yr undeb a gymmhellai. Yr oedd y rhai hyny yn codi oddi ar sefyllfa gymdeithasol yr eglwys yn Philippi. Nid ydym i ddeall oddi wrth awgrymiadau yr apostol fod ymraniadau yn yr eglwys; ac etto, ymddengys fod undeb yr eglwys mewn perygl oddi wrth rai personau uchel-geisiol. Rhagflaenu yr aflwydd hwn ydyw pwrpas adnodau 3 a 4.

3. *Na wneler dim,* &c.—Y mae y gair "wneler" wedi ei ddodi i mewn gan y cyfieithydd; y cyfieithiad llythyrenol yw, "dim trwy," neu yn ffordd, cynnen, neu wâg ogoniant. Parhâd yw yr adnod hon o'r un flaenorol, "â'r un enaid, yn synied yr un peth."—*Dim trwy gynnen neu wâg-ogoniant:* dwy gangen yn tyfu ar yr un boncyff, sef, hunanoldeb. Nid oeddynt i wneuthur dim gydag ysbryd pleidiol neu uchel-geisiol. *Eithr mewn gostyngeiddrwydd.*—Y mae y gair a gyfieithir yn "ostyngeiddrwydd" yn y fan hon yn cael ei ddefnyddio gan yr hen awduron Groegaidd mewn ffordd ddiraddiol, i olygu meddwl isel, slafaidd; ond y mae yr efengyl wedi ei gysegru a'i ddyrchafu fel y mae yn dynodi yn awr nu o rinweddau prydferthaf Cristionogaeth. *Can dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain.*—Y mae Calvin yn sylwi, "Pa fodd, gellid gofyn, y mae yn bossibl i un ag sydd mewn gwirionedd yn mhell uwch law ereill, ystyried y rhai y gŵyr efe sydd islaw iddo, yn uwch law iddo ?" Ei atteb yw—trwy gydnabyddiaeth o'i ragoriaethau fel rhoddion Duw, o'u pwrpas, ac o'i ddiffygion mawr ei hunan. Y mae y gair sydd yma am "ostyngeiddrwydd" yn golygu y teimlad sydd yn codi yn y fynwes oddiar yr ymdeimlad o gwbl ddibyniad ar Dduw. Y mae y dyn gwir ostyngedig yn cydnabod ei ragoriaethau fel rhoddion Duw, a'i fod wedi ei gynnysgaeddu â hwy i'r dyben o wasanaethu Duw a lleshau dynion. Y mae yn gweled mor ddiffygiol ydyw o gyrhaedd y dybenion hyn; a chan ei fod mewn gwell mantais i adnabod ei ammherfeithrwydd ei hun na'r eiddo neb arall, y mae yn naturiol iddo dybied ereill "yn well nag efei hunan."

Yn *adn.* 4, y mae yr apostol yn cymmhell y Philippiaid i hunanymwadiad—i ofalu nid yn unig am eu mwynhâd o'u lles eu hunain, ond am yr eiddo ereill hefyd: ac yn *adn.* 5, y mae yn dwyn yn mlaen esampl Crist fel annogaeth i'r gostyngeiddrwydd a'r hunanymwadiad a gymmhellir ganddo. Wrth wneuthur hyn, y mae yn ymddwyn yn gysson âg ysbrydiaeth (*genius*) Cristionogaeth, o blegid canolbwynt y gyfundraeth ydyw person Crist. Nid rhesymu dynion i'r rhinwedd yma, ac i'r rhinwedd arall, y mae hon; ond eu dwyn ar unwaith i bresennoldeb person Crist. Efe ydyw cynllun a ffynnonell ei holl rinweddau. *Canys bydded ynoch y meddwl:*—y tueddfryd, sefyll gostyngeiddrwydd a'r hunanymwadiad yma. *Yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu.*—Yn yr adnodau nesaf, 6—8, y mae yr apostol yn dangos pa fodd yr amlygodd Crist y tueddfryd a nodwyd.

6. *Yr hwn, ac efe,* &c.—Y mae wedi bod yn destyn dadl yn mysg esbonwyr at ba beth y mae "yr hwn" yn cyfeirio: pa un ai at y Gair cyn ei ymgnawdoliad, neu ynte wedi ei ymgnawdoliad? Y mae enwau awdwyr galluog o bob ochr. Barnes Ellicott, nad ydyw y rhagenw yn gyfyngedig yn unig i'r naill sefyllfa na'r llall, ond ei fod yn perthyn i'r ddwy. Onid mwy priodol fuasai dyweyd ei fod yn cyfeirio at "Grist Iesu" yr adnod o'r blaen; ac y mae yr enw hwn yn enw anniloddd iddo ei hunan trwy ymgnawdoli: er hyny, byddai yn ammhriodol dyweyd, fel y gwna Dr. Wette, ac ereill, fod y disgrifiad sydd yn canlyn yn ddisgrifiad o berson y Cyfrynggwr yn unig yn ei sefyllfa o ddarostyngiad. Y mae "Crist Iesu" yn enw ar yr holl berson, fel y mae yn Dduw ac yn ddyn; ac felly, yn cynnwys ei sefyllfa wreiddiol a thragwyddol, yn gystal a'i sefyllfa y daeth efe iddi wrth ddyfod yn ddyn. Ei sefyllfa fel person dwyfol cyn ei ymgnawdoliad a osodir allan ganddo yn y geiriau hyn, *Yn ffurf Duw.*—Y mae y gair "ffurf," fel yr arferir ef yn y Testament Newydd, yn gystal ag mewn llenyddiaeth gyffredin, yn golygu ymddangosiad, tebygolrwydd; ac yn y fan hon, yn dynodi mawredd allanol person y Mab. Nid ydyw yn golygu natur neu hanfod; o blegid o hyn ni ddarfu iddo, ac nis gallasai chwaith, ei waghau neu ei ddiosg ei hun, megys y dywed yr adnod iddo wneyd. *Ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw.*—Y mae rhai yn cymmeryd yr ymadrodd hwn yn ddisgrifiad chwanegol o fawredd dwyfol Crist; fel hyn, "Yr hwn, ac efe," neu gan ei fod "yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais," yn weithred o drawsfeddianniad yn ddo, hôni ei uwchafiaeth â Duw. Nid ymddengys mai hyn yw ystyr y geiriau: pe felly, collent eu grym fel esampl o'r hyn a gymmhella yr apostol ar y Philippiaid, sef: peidio edrych ar yr eiddynt eu hunain yn unig: ac hefyd, dinystrid y cyferbyniad sydd rhwng y geiriau â'r adnod nesaf, "eithr efe a'i dibrisiodd ei hun." Byddai yn rhaid newid y cyssyllt-air *eithr* i fod yn *er hyny,* yr hyn a fyddai yn gymmeryd gormod o hyfdra ar yr adnodau. Mwy priodol, dybygid, yw cymmeryd, "ni thybiodd yn drais," &c., yn ddechreuad y disgrifiad o ymddarostyngiad Crist. Yna deuai y geiriau fel hyn, "Yr hwn, ac efe," neu er ei fod "yn ffurf Duw," nid ystyriodd, er hyny, fod uwchafiaeth "â Duw" (mewn mawredd allanol) yn beth iddo ddal gafael yn orawyddus ynddo; "eithr," yn lle hyny, "efe a'i dibrisiodd ei hun." Y mae y gair "trais" yn caniatau yr ystyr diweddaf hwn, ac y mae yn ddiddadl ei fod yn gosod allan yr esampl o hunan-ymwadiad yn fwy eglur, ac yn cadw y cyferbyniad rhwng y ddwy adnod heb ei ammharu.

7. *Eithr efe a'i dibrisiodd ei hun.*—A'i gwag-

[d] Esa. 53.11; Mat. 20.28; [e] Ioan 13. 3—14. hun, gan gymmeryd arno [d]agwedd gwas, ac a wnaed [e]mewn cyffelybiaeth dynion:

8 A'i gael mewn dull fel dyn, [f] Ioan 1. 14; Heb. 2. 14—17. [f]efe a'i darostyngodd ei hun, gan [g] Diar. 15. 33; Heb. 5. 5-7. [g] Salm 22. 16; Ioan 14. 31; Heb. 12. 2; 1 Pedr 2. 24. fod yn ufudd hyd angeu, ie, angeu y groes.

9 O herwydd pa ham, [h] Gen. 3. 15; Salm 2. 6—12; 69. 29, 30; 110. 1. 5; Esa. 53. 12; Mat. 28. 18; Ioan 17. 1—3, 5. [i] Salm 89. 27; Eph. 1. 20—23. [h] Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, [i] ac a roddes iddo enw yr hwn *sydd* goruwch pob enw;

10 Fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion *bethau;*

11 Ac y cyffesai pob tafod *fod*

haodd neu a'i diosgodd ei hun o "ffurf Duw"—y mawredd dwyfol, y gogoniant allanol gweledig a berthynai iddo erioed. *Gan gymmeryd arno agwedd gwas:*—neu, ffurf gwas: o blegid yr un gair sydd yn cael ei gyfeithu yma yn "agwedd" ag a gyfeithwyd o'r blaen "yn ffurf." Y mae "agwedd gwas" yn gyferbyniol â "ffurf Duw;" a defnyddir y gair "gwas" i ddynodi y berthynas newydd â Duw yr oedd efe wedi dyfod iddi. Wele yr hwn oedd yn "ffurf Duw," ac yn "ogyfuwch â Duw" mewn mawredd ac awdurdod, wedi dyfod yn was. *Ac a wnaed,* &c.:—neu yn fwy llythyrenol, "gan gael ei wneyd yn nghyffelybiaeth dynion." Y mae y ffurf ran-gymmeriadol (*participial*) sydd ar y gwahanol ymadroddion hyn yn arwyddo eu bod wedi eu bwriadu i eglurhau eu gilydd. Gwaghaodd Crist ei hun trwy "gymmeryd arno agwedd gwas;" a "chymmeryd arno agwedd gwas," drachefn, trwy gael ei wneyd yn "nghyffelybiaeth dynion." Edrychir yma ar ddarostyngiad y Cyfryngwr mewn tri chyssylltiad; yn ei berthynas â'i sefyllfa wreiddiol ei hunan, "Efe a'i dibrisiodd ei hun;" yn ei berthynas â Duw, "cymmerodd arno agwedd gwas;" yn ei berthynas â dynion, "ac a wnaed yn nghyffelybiaeth dynion."

8. *A'i gael mewn dull fel dyn:*—"yn ei wisg, ei ymborth, ei ystum, ei eiriau, a'i weithredoedd." —*Bengel.* Cafwyd ef, dangosodd ei hun, yn gwbl fel dyn yn mhob peth. Nid yw y geiriau "ffurf gwas," "cyffelybiaeth dynion," "dull fel dyn," yn gwanhau dim ar yr ystyr, ond yn hytrach yn ei gryfhau. Defnyddir hwynt i osod allan wir ddynoliaeth, a bod hono hefyd i'w hadnabod wrth arwyddion cyffredin dynoliaeth. Y mae yn debyg hefyd eu bod wedi eu bwriadu i awgrymu ei fod ef, tra yn wir ddyn, etto yn fwy na dyn. *Efe a'i darostyngodd ei hun.*—Y mae yr adnod hon, fe welir, yn cynnwys "ymddarostyngiad y Cyfryngwr wedi iddo ymgnawdoli. Y modd y darostyngodd efe ei hun ydoedd, *gan fod yn ufudd,* &c.—Yr hyn oedd yn nodweddu bywyd Crist ydoedd ufudd-dod. Ufuddhäai i'r ddeddf seremoniol, i'r ddeddf wladol, i'r ddeddf foesol; ac ufuddhäai i'w rieni: ond yn a thrwy y cwbl yr oedd yn ufuddhau i Dduw. *Hyd angeu.*—Barna Wiesinger ac Alford mai graddau, ac nid parhâd, a ddynodir gan y gair "hyd;" ac y mae eu golygiad yn ymddangos yn ddigon naturiol. Angeu oedd pwynt uchaf ei ufudd-dod. Ac nid hyd at angeu yr aeth ei ufudd-dod, ond iddo a thrwyddo, nes ei lenwi â theilyngdod. *Ië, angeu y groes.*—Yr angeu mwyaf poenus a gwaradwyddus. Y mae yma raddiaith, fe welir, yn yr adnod hon:—efe a fu ufudd hyd angeu, "ïe angeu y groes." Gallai ei ddioddefaint olaf ymddangos i lygaid arwynebol yn rhywbeth gorfodol, ac yntau yn ymostwng'yn dawel i'r hyn nas gallasai ei osgoi; ond nid felly yr ydoedd—efe a fu yn ufudd. Yr oedd yr hyn a weinyddwyd ar Grist gan greulondeb ei elynion yn actau o ufudd-dod trwyadl o'i ochr ef ei hunan. Gyda golwg ar ei farwolaeth, y mae yn dywedyd nad oedd neb yn cymmeryd ei einioes oddi arno, ond mai efe oedd yn ei dodi i lawr o hono ei hun. Ac y mae yn dyweyd ei fod yn gwneyd hyny am ei fod wedi derbyn gorchymyn i hyny gan ei Dad. Yr oedd ei farwolaeth yn act o'i eiddo ef ei hunan. "Efe a ogwyddodd ei ben ac a roddodd i fyny yr ysbryd."

9. *O herwydd pa ham.*—Dynoda hyn ddyrchafiad Crist, fel gwobr am ei ddarostyngiad. *Duw a'i tra-dyrchafodd yntau.*—Yr oedd darostyngiad Crist yn weithred o'i eiddo ef ei hun, a'i ddyrchafiad yn weithred o eiddo Duw. Cymmerodd y dyrchafiad hwn le yn esgyniad Crist i'r nefoedd, a'i eisteddiad ar ddeheulaw Duw; ond er fod y gair "tra-dyrchafu" yn cario gydag ef y syniad o le, y mae yn arwyddo hefyd y sefyllfa uchel o anrhydedd a gallu i ba un y codwyd Crist. *Ac a roddes iddo enw.*—Golyga rhai wrth hyn anrhydedd neu urddas. Ond pa angen sydd am adael ystyr cyntaf a symlaf y gair hwn "enw?" Onid mwy priodol yw ei gymmeryd yn golygu yr enw personol *Iesu,* a grybwyllir yn yr adnod nesaf. Dyma farn Wiesinger, Ellicott, ac Alford, er fod Calvin, yn gwbl ddisail, dybygid, hefyd, yn condemnio yr eglurhâd yn ddiarbed. Mae yr enw *Iesu,* yr hwn a roddwyd i'r Cyfryngwr yn ei sefyllfa o ddarostyngiad, wedi dyfod erbyn hyn i ddynodi ei ddyrchafiad a'i ogoniant:—"enw," fel y sylwa Ellicott, y mae priodoliaethau uchaf gras, gallu, llywodraeth, ac arglwyddiaeth wedi eu tragwyddol gyssylltu wrtho.

10. *Fel yn enw Iesu y plygai pob glin.*—Plygiad y glin yw yr arwydd allanol o addoliad a pharch. Yn enw yr Iesu y mae hyny i gymmeryd lle. Enw yr Iesu a bâr i bawb ymostwng yn wirfoddol neu ynte yn orfodol. Pwy yw y rhai a ddynodir gyda'r geiriau—*nefolion, daearolion, a than-ddaearolion bethau?* Barna Ellicott, Alford, ac ereill, mai, "angylion, dynion, a meirwon a feddylir." Y mae yr awdwyr a enwyd, pa fodd bynag, yn golygu mai addoliad a gweddi a feddylir yn y geiriau uchod. Pa fodd y cydsaif eu golygiadau hwy â chyffredinolrwydd yr ymostyngiad a osodir allan yn yr adnod, sydd yn anhawdd ei egluro. Y mae Wiesinger a Chrysostom yn golygu mai y cythreuliaid a feddylir wrth y "tanddaearolion bethau," ac y mae y cyntaf o'r ddau hyn yn cyfeirio at 2 *Pedr* ii. 4, a *Iudas* 6, fel yn gefnogol i'r syniad. Ymddengys i ni mai ymostyngiad neu warogaeth gyffredinol a osodir allan yn yr adnod hon, a'r un ganlynol; ac nid ymostyngiad gwirfoddol trwy addoliad a pharch. Rhoddwyd i Grist "enw, yr hwn sydd goruwch pob enw;" canlyniad hyn yw, fod pob enw—pawb yn ddiwahaniaeth, yn talu gwarogaeth iddo, un ai o'u bodd neu ynte o'u hanfodd; nefolion, daearolion, a thanddaearolion bethau, sef angylion y nef, dynion y ddaear, a chythreuliaid uffern.

11. *Ac y cyffesai pob tafod.*—Y mae plygu y glin yn arwydd mud o ymostyngiad, tra y mae

[a] Salm 110. 1; Ier. 23. 6; Luc 2. 11; Ioan 20. 28. [b] Ioan 14. 13, 23; 16. 14, 15; 17. 1. [c] Ioan 6. 27—29; 1 Cor. 9. 24—27. [d] Esa. 26. 13; Act. 11. 21.

Iesu Grist [k] yn Arglwydd, [l] er gogoniant Duw Dad.

12 Am hyny, fy anwylyd, megys bob amser yr ufuddhasoch, nid fel yn fy ngŵydd yn unig, eithr yr awr hon yn fwy o lawer yn fy absen, [m] gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn.

13 Canys [n] Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da *ef*.

14 Gwnewch bob dim heb rwgnach, ac ymddadleu;

15 Fel y byddoch ddiargyhoedd, a diniwed, yn blant [o] difeius i Dduw, yn nghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfaus, yn mhlith y rhai yr ydych yn disgleirio megys goleuadau yn y byd,

16 Yn cynnal gair y bywyd; [p] er gorfoledd i mi yn nydd Crist, na redais yn ofer, ac na chymerais boen yn ofer.

17 Ië, a phe y'm hoffrymid ar aberth a gwasanaeth eich ffydd, llawenhau yr wyf, a chydlawenhau â chwi oll.

[o] 1 Tim. 5. 14, 20; Dad. 3. 19.

[p] 2 Cor. 1. 14; 1 Thes. 2. 19, 20.

---

cyffesu â'r tafod yn ddadganiad cyhoeddus o hyny. *Fod Iesu Grist yn Arglwydd.*—Yn Arglwydd ar bawb a phob peth, a hyny, nid yn unig fel y mae yn Dduw, ond hefyd, fel y mae yn Dduw-ddyn. *Er gogoniant Duw Dad.*—Y mae Bengel yn darllen, "yn ngogoniant Duw Dad." Y mae y gwreiddiol yn caniatau y darlleniad hwn y mae yn ddiau; ond mwy naturiol ydyw ein cyfeithiad ni. Y mae y cyffes hwn o warogaeth i Grist i fod er gogoniant Duw Dad, yr hyn ydyw amcan uchaf ei gyfryngwriaeth: 1 *Cor.* xv. 24—28.

12. *Am hyny, fy anwylyd* :— sef, o herwydd yr esampl hynod a osodwyd o'n blaen eisoes. Sylfaena yr apostol ei annogaeth i'r Philippiaid i ymroddiad difrifol gyda chrefydd, ar ymddarostygiad dwfn, ufudd-dod trwyadl y Cyfryngwr, a'i ddyrchafiad gogoneddus mewn canlyniad i hyny. *Megys bob amser yr ufuddhasoch.*—Y mae yn anhawdd meddwl nad oedd Paul yma â'i olwg ar ufudd-dod Crist, y sonia am dano yn *adn.* 8. *Nid fel yn fy ngŵydd yn unig, eithr yr awr hon yn fwy o lawer yn fy absen.*—Y mae Wiesinger ac Ellicott yn dyweyd fod grammadeg yn gystal a'r synwyr yn y fan hon yn galw am i'r geiriau uchod gael eu cyssylltu â *gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain*, &c.—Gwnewch hyny, nid fel yn fy ngwydd yn unig. Y mae eich iachawdwriaeth, fel pe buasai yn dywedyd, yn beth personol, ac felly yn galw am ymdrech personol; ac y mae yr ymdrech hwnw i fod yn fwy, yn gymmaint a'm bod i yn absennol o'ch plith, ac felly yn analluog i weinyddu help i chwi. Gweithio allan, yw cario i berffeithrwydd yr hyn oedd wedi ei ddechreu. Ymddengys fod yr iachawdwriaeth hon wedi ei gweithio allan, yn sefyll yn gyferbyniol, fel y sylwa Alford, â dyrchafiad Crist. *Trwy ofn a dychryn.*—Codai yr ofn yn uniongyrchol oddi ar deimlad o fawredd y gwaith, a'r possiblrwydd o fethu: dychryn, oedd y gofal pryderus ag oedd yn naturiol yn nglŷn â hyny.—*Ellicott.*

13. *Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch.*—Dyma gefnogaeth i weithio allan yr iachawdwriaeth. Er gweithio trwy ofn a dychryn, gweithiwch er hyny, "canys Duw," &c.—Hwyrach fod gan yr apostol gyfeiriad yn y fan hon at waith Duw yn dyrchafu Crist; presenoldeb yr un Duw yn gweithio ynddynt hwy, drachefn, a sicrhäai eu perffeithiad hwythau. Fife oedd yn gweithio ynddynt *ewyllysio a gweithredu* :—yn creu y duedd, ac yn gweinyddu y gallu i'w rhoddi mewn gweithrediad. *O'i ewyllys da ef.*—Nid ydyw y geiriau hyn yn awgrymu fod y gweithrediad dwyfol a grybwyllir yn cael ei fesur a'i gymmedroli gan ewyllys Duw, ond yn hytrach, mai ewyllys da Duw oedd yr achos o'i fod yn gweithio ynddynt. Yr oedd ewyllys da Duw yn teimlo dyddordeb yn mherffeithiad iachawdwriaeth y Philippiaid, ac felly nid oedd dim a allasai sefyll ar ffordd yr ewyllys hono i gael ei boddhau.

14, 15.—Yn *adn.* 14, y mae yr apostol drachefn yn cymmhell y Philippiaid i undeb a chydweithrediad, a hyny i'r dyben o fod, yn ol *adn.* 15, *yn ddiargyhoedd a diniwed* :—neu yn hytrach, yn bur. Y mae y gwreiddiol, *aceraioi*, yn golygu digymmysg, ac o'r ystyr yma y mae yn llithro yn naturiol i pur. Gwel *Mat.* x. 16; *Rhif.* xvi. 19. Y mae "diargyhoedd," yn golygu y bywyd oddi allan—purdeb yn golygu ansawdd foesol dumewnol y galon. Fel hyn yr oeddynt i gyrhaedd y nodweddiad anrhydeddus o fod *yn blant difeius i Dduw, yn nghanol cenedlaeth ddrygionus* (neu yn fwy llythyrenol, *gam*) *a throfaus.*—Geiriau yn cael eu defnyddio mewn modd ffugrol i osod allan gymmeriad drygionus y rhai yr oedd y Philippiaid yn byw yn eu plith—cymmeriad yn gŵyro oddi wrth linell uniawn deddf Duw, ac yn cyfeiliorni yn mhell oddi wrth amcanion uchel bywyd. Yn mysg y rhai hyn, yr oedd y Philippiaid yn disgleirio megys goleuadau—yn gwasanaethu pwrpas cyffelyb i oleuadau mawrion y nefoedd.

16. *Yn cynnal gair y bywyd.*—Dyma'r modd yr oeddynt fel goleuadau yn y byd. Megys y mae goleuadau y nefoedd yn dal allan oleuni i'r byd, felly yr oeddynt hwythau yn dal allan Air y bywyd; sef, yn benaf, yma, mae'n debyg, yn eu hymarweddiad cysson â'r gwirionedd. Yr oedd yr apostol am iddynt barhau a chynnyddu yn y disgleirdeb hwn, fel y byddai ganddo *orfoledd yn nydd Iesu Grist* :—neu, yn fwy llythyrenol, erbyn dydd Iesu Grist. Gorfoledd yn nghadw gogyfer a'r diwrnod—gorfoledd yn yr ystyriaeth nad oedd wedi rhedeg yn ofer, na "chymmeryd poen yn ofer." Gesyd yr apostol allan ei weithgarwch gweinidogaethol, fel y sylwa Ellicott, dan y gymmhariaeth o redeg gyrfa, yn y lle cyntaf, ac wedi hyny yn fwy cyffredinol, fel yn arwyddo y llafur a'r dioddefaint yr elai drwyddynt wrth gyflawni ei waith.

17. *Ië, a phe y'm hoffrymid ar aberth a gwasanaeth eich ffydd* :—neu yn hytrach, "Ond pe y'm hoffrymid." Y mae y cyssyllt-air gwahaniaethol hwn yn dwyn i mewn dybiaeth wahanol i'r hyn a gynnwysir yn yr adnod o'r blaen. Beth yw hyny? Golyga rhai [*Alford, Van Hen.*], fod *adn.* 19 yn awgrymu y gallai yr apostol fyw i fod yn dyst o ymddygiad diargyhoedd y Philippiaid

18 O blegid yr un *peth* hefyd byddwch chwithau lawen, a chydlawenhewch â minnau.

[q] Ier. 17. 5; Rhuf. 15. 12; 1 Pedr 1. 21. 19 Ac [q] yr wyf yn gobeithio yn yr Arglwydd Iesu, anfon Timotheus ar fyrder atoch, fel y'm cysurer innau hefyd, wedi i mi wybod eich helynt chwi.

[r] Ioan 10. 13; 1 Cor. 1. 10, 11; 2 Tim. 1. 5. 20 Canys [r] nid oes genyf neb o gyffelyb feddwl, yr hwn a wir ofala am y pethau a berthyn i chwi.

[s] Esa. 56. 11; Act. 13. 13. [t] 2 Cor. 4. 5. 21 Canys [s] pawb sydd yn ceisio yr eiddynt eu hunain, nid [t] yr eiddo Crist Iesu.

22 Eithr y prawf o hono ef chwi a'i gwyddoch, mai fel plentyn gyda thad, y gwasanaethodd efe gyda myfi yn yr efengyl.

23 Hwn gan hyny yr ydwyf yn gobeithio ei ddanfon, cyn gynted ag y gwelwyf yr hyn a fydd i mi.

24 Ac y mae genyf hyder yn yr Arglwydd y deuaf finnau hefyd ar fyrder atoch.

25 Eithr mi a dybiais yn angenrheidiol ddanfon atoch Epaphroditus, fy mrawd, a'm cydweithiwr, [u] a'm cyd-filwr, ond eich

[u] Diar. 25. 13; Ioan 17. 16; Heb. 3. 1.

hyd ddydd Iesu Grist, a'i fod yn *adn.* 17, yn tybied o'r ochr arall y gallai y peryglon yr oedd efe ynddynt ar y pryd fod yn derfyniad ar ei fywyd. Deallia Ellicott, drachefn, fod y llawenydd a broffesa yr apostol yn *adn.* 17, yn y rhagolwg ar ei farwolaeth fuan, yn seiyll yn gyferbyniol â'r disgwyliad a arwydda yn *adn.* 16, o fwynhâd mewn bywyd yn nghynnydd ysbrydol y Philippiaid. Gellir rhoddi eglurhâd arall hefyd. Yn *adn.* 16, y mae yr apostol yn hôni llafur a phryder yn achos y Philippiaid: yn *adn.* 17, drachefn, y mae yn tystio nad oedd efe yn edrych ar hyny yn ormod o aberth er eu mwyn; ond ei fod, yn hytrach, yn llawenhau hyd yn oed ar y dybiaeth y caffai ei offrymu ar aberth a gwasanaeth eu ffydd. Y mae y gair a gyfeithir yn "offrymid" yma yn arwyddo tywallt allan, gan gyfeirio, mae yn debyg, at y diod-offrwm oedd yn nglŷn â'r aberth dan y gyfraith (*Num.* xv. 5; xxviii. 7), ac yn golygu tywalltiad gwaed yr apostol fel merthyr dros Grist. *Ar aberth a gwasanaeth eich ffydd.*—Edrycha yr apostol arno ei hun yma fel offeiriad: yr aberth oedd ganddo ydoedd ffydd y Philippiaid; geilw y cyfiwyniad o hwnw yn wasanaeth (*leitourgia*), gwasanaeth offeiriadol; yr oedd yn *llawenhau* mewn cael tywallt ei waed fel diod-offrwm ar gyfiwyniad y fath aberth i Dduw. *A chydlawenhau â chwi oll.*—Nid oedd y dybiaeth y teriynai ei garchariad mewn marwolaeth yn un rhwystr iddo gydlawenhau â hwynt.

18. Y mae yr apostol yn annog y Philippiaid i lawenhau gydag ef yn ei offrymiad yn achos yr efengyl.

19. *Ac yr wyf yn gobeithio yn yr Arglwydd.*—Y cyssyllt-air "ond" a ddylai fod yn nechreu yr adnod hon hefyd; yr hwn sydd yn arwyddo nad oedd marwolaeth yr apostol ond tybiaeth yn unig, heb un sicrwydd y cymmerai le: yn wahanol i hyny, yr oedd efe yn gobeithio *anfon Timotheus ar fyrder atynt.*—Yr oedd y gobaith yma, "yn yr Arglwydd," yn un o nodwedd grefyddol; a'r cymmhelliadau iddo yn gorwedd yn Nghrist. *Fel y'm cysurer innau hefyd:*—hyny yw, yn gystal a chwithau. Yr oedd efe yn bwriadu "anfon Timotheus atynt" (neu yn hytrach ddynt) i fod at eu gwasanaeth, er mwyn eu cysur hwy a'r eiddo ei hunan hefyd.

20. Cynnwysa yr adnod hon reswm pa ham yr oedd efe yn bwriadu anfon Timotheus, yn hytrach na neb arall. *Canys nid oes genyf neb o gyffelyb feddwl.*—Nid o gyffelyb feddwl i Timotheus, ond i Paul ei hun, a hyny mewn—*gwir ofalu:*—gofalu yn drwyadl, ac nid yn ymddangosiadol, ac i ddybenion hunanol, am danynt.

21. *Canys pawb*, &c.—Cadarnhâd o'r hyn a ddywedir o'r blaen. Pwy oedd y rhai hyn, nis gellir penderfynu: eu cymmeriad, pa fodd bynag, oedd, eu bod yn edrych at eu buddiannau eu hunain, ac nid at ogoniant Crist.

22. *Eithr* (yn gyferbyniol i'r dosbarth a nodwyd) *y prawf o hono ef chwi a'i gwyddoch.*—Ei gymmeriad profedig. Yr un gair sydd yn cael ei gyfeithu "prawf" yma, ag a gyfeithir yn "brofiad" yn *Rhuf.* v. 4; 2 *Cor.* ii. 9; ix. 13. Yr oedd y prawf oedd wedi cael ei wneyd ar gymmeriad Timotheus yn dangos, *mai fel plentyn gyda thad,* (neu yn llythyrenol, i dad), yr oedd efe wedi gwasanaethu gyda Paul. Cymmherir ymroddiad Timotheus i ymroddiad plentyn i'w dad. Nid ymgyssegriad i Paul, er hyny, ydoedd yr eiddo ef, ond gyda Phaul i'r efengyl. *Yn yr efengyl.*—Groeg, *eis to euaggelion*—i'r efengyl. Nid amcan y geiriau hyn yw dangos natur y gwasanaeth, fel un yn athrawiaeth yr efengyl, ac yn nghyflawniad ei dyledswyddau; ond dangos pwrpas y gwasanaeth, sef, un i'r, neu yn achos, yr efengyl.

23. *Hwn gan hyny:*—sef, o herwydd y cymmeriad uchel a briodolir iddo. Yr oedd yr anfoniad i gymmeryd lle wedi i'r apostol weled pa beth a ddeuai o'i achos ef.

24. *Ac y mae genyf hyder yn yr Arglwydd.*—Yn fwy llythyrenol, "ond y mae," &c. Nid yn unig yr oedd yn ei fwriad anfon Timotheus atynt, ond yr oedd ganddo hyder yr elai yntau hefyd atynt. Yr oedd yr ymroddiad "yn yr Arglwydd." Yr ydym wedi cael yr ymadrodd "yn yr Arglwydd" o'r blaen; yn *pen.* i. 14, "yn hyderus yn yr Arglwydd:" yn *pen.* ii. 19, "gobeithio yn yr Arglwydd;" ac ar ol hyn yn *adn.* 29. "Derbyniwch ef gan hyny yn yr Arglwydd." Ymddengys fod yr ymadrodd yn ddynodiadol o nodwedd Gristionogol yr hyder, y gobaith, a'r derbyniad.

28—30. ANFONIAD EPAPHRODITUS, A'I GYMMERADWYAETH.

25. *Eithr mi a dybiais yn angenrheidiol,* &c.—Er fod ymweliad yr apostol ei hun, yn gystal a Thimotheus, â hwynt, yn debygol, ac heb fod yn mhell, etto yr oedd yn tybied yn angenrheidiol ddanfon atynt Epaphroditus, yr hwn ydoedd ei frawd yn y ffydd, sef ei "gyd-weithiwr" mewn pregethu y ffydd hono, a'i "gyd-filwr" mewn dal i fyny ac amddiffyn y ffydd:—*Ellicott. Ond eich cenad chwi.*—Groeg, *apostolon.* Defnyddir y gair yma yn ei ystyr syml cyntefig, sef "cenad:" a'i genadaeth ydoedd gweinyddu i gyfreidiau Paul—dwyn iddo gymmhorth arianol: *pen.* iv. 18. Gwell fyddai darllen fel hyn, hwyrach:—"Ond eich cenad chwi, a'ch gweinidog i'm cyfreidiau

cenad chwi, a gweinidog i'm cyfreidiau innau.

26 Canys yr oedd efe yn hiraethu am danoch oll, ac yn athrist iawn, o blegid i chwi glywed ei fod ef yn glaf.

27 Canys yn wir efe a fu glaf
[a] Iob 5. 19: Act. 9. 39 —41.
[b] 1 Cor. 10. 13: 2 Cor. 2. 7.
yn agos i angeu: [a] ond Duw a drugarhaodd wrtho ef; ac nid wrtho ef yn unig, [b] ond wrthyf finnau hefyd, rhag cael o honof dristwch ar dristwch.

28 Yn fwy diwyd gan hyny yr anfonais i ef, fel gwedi i chwi ei weled ef drachefn, y byddech chwi lawen, ac y byddwn innau yn llai fy nhristwch.

[a] Luc 9 5: Ioan 13. 20. [a] 2 Cor. 10. 18: 1 Thes. 5. 12.
29 [a] Derbyniwch ef gan hyny yn yr Arglwydd gyda phob llawenydd; [a] a'r cyfryw rai gwnewch gyfrif o honynt:

30 Canys o blegid [b] gwaith Crist y bu efe yn agos i angeu, ac y bu diddarbod am ei einioes, fel y cyflawnai efe eich diffyg chwi o'ch gwasanaeth tuag atal fi.

[b] 1 Cor. 15. 58.

PENNOD III.

1 *Y mae efe yn eu rhybuddio hwy i ochelyd gau-athrawon yr enwaediad; ac 4 yn dangos fod iddo ef fwy o achos nag iddynt hwy i hyderu yn nghyfiawnder y ddeddf: 7 yr hyn, er hyny, y mae efe yn ei gyfrif yn dom ac yn golled, er mwyn ennill Crist, a'i gofiawnder ef; 12 can cydnabod ei amherfeitrwydd ei hun yn hyn.* 15 *Y mae efe yn eu hannog hwy i fod o'r meddwl hwn, 17 ac i'w ddywared ef; 18 ac i ochelyd fyrdd Cristionogion cnawdol.*

B. A. 63.

WEITHIAN, fy mrodyr, [a] byddwch lawen yn yr Arglwydd. Ysgrifenu yr un pethau atoch, genyf fi yn wir nid *yw* flin, ac i chwithau *y mae* yn ddiogel.

[a] Deut. 12. 18; 1 Sam. 2. 1; Neh. 8. 10; Salm 5. 11; Esa. 61. 10; 65. 14; Zeph. 3. 14, 17; Zech. 10. 7.

2 Gochelwch gwn, gochelwch

---

ionau." Yn y rhan gyntaf o'r adnod, edrychir ar Epaphroditus yn y berthynas y safai ynddi â Phaul: yn y rhan olaf, yn y berthynas y safai ynddi â'r Philippiaid.

26. *Canys yr oedd efe, &c.*—Dyma y rheswm am yr angenrheidrwydd o anfon Epaphroditus; sef, i dori ei hiraeth, ac i dawelu eu meddyliau pryderus hwy yn ei gylch.

27. *Canys yn wir efe a fu glaf.*—Cadarnhâd o wirionedd yr hyn yr oeddynt wedi ei glywed am dano. *Rhag cael o honof dristwch ar dristwch.*—Tristwch o herwydd marwolaeth Epaphroditus, ar y tristwch oedd wedi ei achosi gan ei afiechyd. —*Chrysostom, Bengel.* Ond ni chydsaif y golygiad hwn â'r adnod nesaf, yn yr hon y rhoddai ar ddeall y byddai ei dristwch yn aros, ond y byddai yn llai, er mynediad Epaphroditus atynt mewn iechyd. Mwy cysson yw deall y geiriau fel y mae Wies., Alford, ac Ellicott yn gwneyd, sef eu bod yn golygu tristwch o herwydd marwolaeth Epaphroditus, yn chwanegol at y tristwch a achosid gan garchariad Paul ei hun.

28. *Yn fwy diwyd gan hyny.*—Yn fwy diwyd nag y buaswn wedi gwneyd, pe na buasech wedi clywed y newydd am ei afiechyd, a thrwy hyny darfu eich meddyliau.—*Ellicott. Ei weled ef drachefn.*—Y mae amryw o'r esbonwyr yn dyweyd y dylai y gair "drachefn," i fod yn gyson âg arferiad yr apostol, gael ei gyssylltu â llawen;" fel hyn, "fel wedi i chwi ei weled ef, y byddech chwi lawen drachefn;" a pharai eu llawenydd hwy i'w dristwch yntau, Paul, fod yn llai. Y fath gydymdeimlad dwfn, a'r fath serchiadau cryfion y mae yr apostol yn eu dangos!

29. Y mae yr apostol yn annog y Philippiaid yma i roddi derbyniad Cristionogol i Epaphroditus, ei dderbyn fel un yn gwasanaethu achos Crist; ac oddi ar gydymdeimlad â'r un achos nawr, ac i ymddwyn tuag at y cyfryw rai gyda pharch.

30. *Canys o blegid gwaith Crist, &c.*—Yr oedd y gwasanaeth yr oedd Epaphroditus yn ei wneyd i Paul yn wasanaeth i Grist. *Y bu efe yn agos i angeu.*—Y mae yr hen esbonwyr, megys Chrysostom a Theodoret, yn golygu mai y peryglon yr oedd efe yn gwneyd ei hun yn agored iddynt oddi wrth yr awdurdodau Rhufeinig a feddylir;

ond y mae yn ymddangos oddi wrth y crybwylliad am ei afiechyd, mai ei ymroddiad llwyr i wasanaethu yr apostol a ammharodd ei natur i'r fath raddau nes ei ddwyn yn agos i angeu. *Ac y bu diddarbod am ei einioes.*—Yr anturiodd hyd yn oed ei fywyd. *Fel y cyflawnai efe eich diffyg chwi o'ch gwasanaeth tuag ataf fi.*—Yr hyn yr oedd y Philippiaid yn ddiffygiol ynddo ydoedd gwasanaethu yn bersonol ar yr apostol; a'r diffyg hwn a lanwyd gan Epaphroditus hyd yr eithaf.

Pennod III

1. *Weithian, fy mrodyr.*—Y mae y gair a gyfeithir yma yn "weithian," yn cael ei gyfeithu yn *pen.* iv. 8 "yn ddiweddaf:" ffurf o ymadrodd a ddefnyddid i ddynodi dynesiad at y diweddglo. Hwyrach fod yr apostol wedi bwriadu terfynu ei lythyr yn gynt nag y mae wedi gwneyd, ond fod ei waith yn myned ar draws y gau-athrawon wedi peri iddo newid ychydig ar ei gwrs. Annoga ei frodyr i fod yn "llawen yn yr Arglwydd." Llawenydd ydoedd hwn ag yr oedd ei ffynnonell a'i ddefnyddiau yn Nghrist. Y mae yn debyg fod gan yr apostol, wrth eu cymmhell i'r llawenydd hwn, olwg ar ymffrost gwâg a chnawdol y gau-athrawon. *Ysgrifenu yr un pethau atoch.*—Gesyd Calvin y pwyslais ar "ysgrifenu," yn gyferbyniol â'r gocheliadau a roddasai Paul iddynt pan yr oedd yn bresennol gyda hwynt. Gesyd ereill drachefn y pwyslais ar "yr un pethau," gan dybied fod yma gyfeiriad at gyfarwyddiadau oedd wedi eu rhoddi mewn llythyr a ysgrifenasid o'r blaen, ond oedd yn awr wedi myned ar goll; neu yn ol Wies., Alford, ac Ellicott, y mae cyfeiriad y geiriau at yr annogaeth sydd yn eu blaenori yn uniongyrchol, "Byddwch lawen yn yr Arglwydd." Hyn, fel y sylwa yr awdwyr olaf a enwyd, ydyw cyweirnod y llythyr; gwel *pen.* i. 18, 25; ii. 17; iv. 4. Y syniad olaf yw y mwyaf naturiol. Nid oedd eu cymmheli drosodd a throsodd i'r llawenydd hwn, a'u cyfarwyddo pa bethau i'w gochel, a pha bethau i'w cyflawni, mewn trefn i'w fwynhau, yn flin i'r apostol ei hun; ac iddynt hwythau yr oedd yn ddiogel.

2. Tuag at fwynhau y llawenydd a grybwyllir

[b] Mat. 7. 22, 23; 2 Cor. 11. 11; Gal. 5. 13; Judas 4. 10—13. [c] Mal. 1. 11; Ioan 4. 23, 24; Eph. 6. 18; Judas 20. [d] Salm 105. 3; 1 Cor. 1. 29—31; Gal. 6. 13, 14. [e] 1 Pedr 1. 23, 25.

[b]ddrwgweithredwyr, gochelwch y cyd-doriad.

3 Canys yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym [c]yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd, ac [d]yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, ac [e]nid yn ymddiried yn y cnawd:

4 *Ac* er bod genyf *achos i* ymddiried, ïe, yn y cnawd. Os yw neb arall yn tybied *y gall* ymddiried yn y cnawd, myfi yn fwy:

5 Wedi enwaedu arnaf yr

---

oedd "enwaediad ar yr wythfed dydd" yn gwahaniaethu yr Iuddew genedigol (*Lef.* 12. 3) oddi wrth y proselyt a'r Ismaeliad; yr olaf o ba rai a enwaedid ar ol y drydedd flwyddyn ar ddeg."—*Ellicott. O genedl Israel.*—Dynoda hyn ei fod yn Iuddew trwyadl; nid yn unig heb fod yn broselyt ei hun, ond hefyd heb fod neb o'i hynafiaid felly chwaith. *O lwyth Beniamin.*—Yr oedd y llwyth hwn, fel yr ymddengys oddi wrth hanesyddiaeth, yn cael ei ystyried yn un tra anrhydeddus yn mhlith yr Iuddewon. *Yn Hebrëwr o'r Hebreaid.*—O waedoliaeth Hebrëaidd pur—ei rieni a'i hynafiaid felly. Yr oedd Paul yn gallu olrhain ei achau yn mheil yn ol, a phrofi ei ddisgyniad Hebreaidd pur; yr hyn oedd yn beth nas gallasai llawer o'r Iuddewon ei wneyd. *Yn ol y ddeddf, yn Pharisead:*—neu, gyda golwg ar y ddeddf, sef deddf Moses. Nid y meddwl yw ei fod yn Pharisead yn ol, neu mewn cydymffurfiad â'r ddeddf. Yn y fan hon, ac yn yr adnod ganlynol, y mae yr apostol yn edrych arno ei hun mewn tri o gyssylltiadau—yn ei gyssylltiad â'r "ddeddf," â "sêl," ac â'r "cyflawnder sydd yn y ddeddf." Gyda golwg ar y ddeddf yr oedd yn Pharisead, yn fanwl yn ei gyflawniadau crefyddol: gyda golwg ar "sêl," yr oedd wedi bod mor selog fel ag i "erlid yr eglwys:" gyda golwg ar y "cyflawnder sydd yn y ddeddf," yr ydoedd yn ddiargyhoedd; hyny yw, cyn belled ag yr oedd barn dynion yn myned. *Y cyflawnder sydd yn y ddeddf.*—Y cyflawnder hwnw ag sydd yn gynnwysedig mewn cydymffurfiad â'r "ddeddf." Hòna yr apostol yma ei fod yn Pharisead, ac yn Pharisead "selog a diargyhoedd."

7. *Eithr y pethau oedd elw i mi.*—Y pethau a nodir ganddo o'r blaen. Nid yn unig ystyriai hwynt yn elw, ond yr oeddynt yn elw iddo yn ol y cnawd, tra yr ydoedd yn ei gyfrif annychweledig. Y pethau hyny a gyfrifai yr apostol yn "golled er mwyn Crist," yr hyn a eglurir yn mhellach yn *adn.* 8, 9.

8. *Ië, yn ddiammheu, yr wyf hefyd yn cyfrif pob peth yn golled:*—neu, "y cwbl yn golled," gan gyfeirio at y pethau sydd wedi eu nodi o'r blaen. Y mae y cyferbyniad sydd rhwng dechreu yr adnod hon a'r un flaenorol yn gorwedd rhwng "yr wyf yn cyfrif, a chyfrifais." Nid yr oedd wedi gwneyd hyn mewn rhyw funyd ammhwyllog, ond yr oedd yn parhau i wneyd yr un peth. *Er mwyn ardderchawgrwydd jwybodaeth.*—Yr hyn oedd yn gosod yr "ardderchawgrwydd" yma ar y "wybodaeth," oedd, "mai Crist Iesu" oedd ei gwrthddrych, yr hwn a eilw yr apostol yn "fy Arglwydd," mewn ffordd o anwyldeb parchus. *Er mwyn yr hwn y'm colledwyd yn mhob peth* (neu yn y cwbl), "*ac yr wyf*"

---

rhoddir y Philippiaid ar eu gocheliad rhag dosbarth o ddynion a'r enwau *cïn, drwg-weithwyr,* a *chyd-doriad.*—Mewn ysgrifeniadau clasurol, y mae y gair "cŵn," wrth ei gymmhwyso at ddynion, yn golygu yn gyffredin rhai hyf ac o duedd cwerylgar ac ymosodol. Ond yn ol arfer yr Iuddewon, golygai yn benaf ddynion o gymmeriad isel, halogedig: *Mat.* xv. 27. Y mae yn debyg mai dyma yr ystyr sydd iddo yn y fan hon. "Drwgweithwyr:" nid drwgweithredwyr. Yr oeddynt yn "weithwyr" wedi ymgymmeryd â gwaith, ond yr oedd eu gwaith yn un drwg, a'i amcan i ddinystrio crefydd Crist. "Cyddoriad."—Rhoddir yr enw hwn ar y gau-athrawon o herwydd eu bod yn gosod y fath bwys ar enwaediad yn y cnawd. Y Groeg am enwaediad yw *peritomé,* ond y gair a ddefnyddir yma yw *catatomé.* Nid oedd y seremoni, yn allanol, ar yr hyn y gosodent hwy gymmaint o bwys, yn deilwng o'r enw enwaediad. Anafiad ar y corph, teriad ymaith y cnawd ydoedd.

3. *Canys yr enwaediad ydym ni.*—Y mae y cyssyllt-air "canys" yn dwyn yn mlaen reswm am yr enwad, "cyd-doriad," a ddefnyddiwyd o'r blaen. Hòna yr apostol mai efe a'i frodyr, pa un bynag a oeddynt wedi eu henwaedu yn y cnawd ai nad oeddynt, oeddynt yr enwaediad yn ol ystyr gwirioneddol ac ysbrydol y gair: gwel *Rhyf.* ii. 29; *Col.* ii. 11. *Y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd:*—neu yn hytrach, "y rhai ydym yn gwasanaethu trwy Ysbryd Duw. Ymddengys mai dyma y darlleniad goreu. *Ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu.*—Yr hyn sydd yn gyfystyr, dybygid, a bod yn llawen yn yr Arglwydd. *Ac nid yn ymddiried yn y cnawd.*—Yr oeddynt mor bell o ymffrostio yn y cnawd fel nad oeddynt wedi myned mor bell ag ymddiried ynddo.—*Ellicott.* Y mae "cnawd," yn y fan hon, yn cynnwys mwy nag enwaediad; yn cymmeryd i mewn y pethau a nodir yn *adn.* 5, 6; ac yn cynnwys ynddo ei hun yr hyn sydd allanol ac ymddangosiadol, yn gyferbyniol i'r hyn sydd dumewnol ac ysbrydol.

4. *Ac er bod genyf achos i ymddiried,* &c.—Y mae "achos" wedi ei ddodi i mewn gan y cyfieithydd. Yn ol y gwreiddiol dylai fod fel hyn, "Ac er fod genyf ymddiried." Yr oedd ymffrost mewn rhagorfreintiau allanol yn feddiant gan yr apostol, yn gystal a'r ymffrostwyr y cyfeiria atynt; ond nid ydoedd yn gwneyd defnydd o hono megys yr oeddynt hwy. Dengys nad ydoedd yn peidio "ymddiried yn y cnawd," am ei fod yn ddiffygiol mewn defnyddiau. Yn *adn.* 5, 6, noda sail ei ymffrost. Cymmhara ei hun â'r gau-athrawon mewn gwaedoliaeth, mewn manylwch crefyddol, ac mewn sêl dros grefydd.

5. *Wedi enwaedu arnaf yr wythfed dydd.*—Yr

[1] Esa. 53.11. [2] Mat. 19. 27 —29. [3] Mat. 13. 44 46; Heb. 3 17; 1 Ioan 1. 3. [4] Gen. 7. 23. [5] 1 Bren. 8. 46; Salm 143. 2. [6] Salm 71. 15, 16.

o herwydd [1] ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Ar- glwydd: [k] er mwyn yr hwn y'm colledwyd yn mhob peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom, fel yr [l] ennillwyf Crist,

9 Ac [m] y'm cair ynddo ef [n] heb *sydd* o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, [o] *sef* y cyf-

iawnder sydd o Dduw trwy ffydd:

10 Fel [p] yr adnabyddwyf ef, [q] a grym ei adgyfodiad ef, [r] a chymdeithas ei ddioddefiadau ef, gan fod wedi fy nghyddffurfio â'i farwolaeth ef;

[p] Adn. 8. [q] Ioan 5. 21 —29. [r] Mat. 20. 22.

11 Os [s] mewn un modd y gall- [t] gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw:

[s] Salm 49. 7. [t] Luc 14. 14.

---

dyma gyferbyniad etto rhwng yr amser gorphenol) *yn eu cyfrif yn dom.*—Nid ail adroddiad sydd yma. Cyfrif yn golled o'r blaen; "cyfrif yn dom" yn awr. Ffordd gryfach fyth o ldangos diystyrwch ar yr hyn a brisid gynmaint gan y gau-athrawon. *Fel yr ennillwyf Grist.*—"Fel yr ennillwyf" ffafr Crist, medd rhai: "fel yr ennillwyf Grist," medd yr adnod. "Crist ei nun," medd Alford, ei ddelw berffaith, ei berfeithrwydd gogoneddus. Pa ham y mae yn gadael allan ei gyfiawnder tybed? O blegid y mae hyny yn cael ei ddwyn i sylw arbenig yn yr adnod nesaf. Ymddengys fod yr apostol yn gosod allan yr ennill yn y fan hon yn ei gyfanswm—Crist; ac yn yr adnodau nesaf yn olrhain ei gynnwysiad cyfoethog.

9. *Ac y'm cair.*—Y mae "fel" yn ddealledig yn y fan yma etto, "Ac fel y'm cair ynddo ef." Dyma un o'r amcanion mewn golwg gan yr apostol wrth gyfrif y cwbl yn golled; sef, bod yn Nghrist. Y mae hyn drachefn, yn ol dull yr apostol o ymadroddi, yn golygu diogelwch cyfwr; tra y mae preswyliad Crist yn y credadyn yn golygu y cyfnewidiad sydd yn cael ei ddwyn i mlaen ynddo trwy sancteiddiad. *Heb fy nghyfiawnder fy hun.*—Dywed yr apostol am iawn hefyd ei fod yn gyfiawnder *o'r gyfraith.* Yr oedd yn gyfiawnder i Paul ei hun, am mai efe ei hun oedd wedi ei wneyd; yn un o'r gyfraith am nai trwy gydymffurfiad â hono yr oedd i'w cyrhaedd. *Ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist.*—Y ffydd y mae Crist yn wrthddrych iddi, Saif geiriau hyn, yn ol Wiesinger, yn gyferbyniol â "yr hwn sydd o'r gyfraith," tra y mae y "cyfiawnder sydd o Dduw" yn gyferbyniol â "fy nghyfiawnder fy hun." *Yr hwn sydd trwy ffydd:*—neu, yn fwy llythyrenol, "ar ffydd." Y mae "trwy ffydd" yn ol Wiesinger, yn golygu ffydd el ammod allanol derbyniad y cyfiawnder, tra y mae "ar ffydd" (*epi tê pistei*) yn golygu ffydd el y sylfaen ar ba un y mae y cyfiawnder hwn n gorwedd, fel meddiant personol i ddyn.

10. *Fel yr adnabyddwyf ef.*—Y mae "fel" yn yssylltu yr adnod hon â'r geiriau, "Ac y'm air ynddo ef," yn yr adnod o'r blaen. Yr oedd Paul wedi cyfrif pob peth yn dom ac yn golled el yr ennillai Grist, ac fel y ceid ef yn Nghrist. Y mae bod yn Nghrist yn golygu undeb personol g ef. Ei amcan drwy yr undeb hwn oedd, yn i el eiriad ef ei hun, "fel yr adnabyddwyf ef, grym ei adgyfodiad ef;" sef, y grym neu y dyanwad sydd yn, ac yn deilliaw o'i adgyfodiad ef. Beth yw yr effeithiolrwydd a briodolir i adgyfodiad Crist yn y fan hon? Y mae ei adgyfodiad yn icrhâd o gyfiawnhâd y rhai a gredant ynddo *Rhuf.* iv. 24, 25), yn cadarnhau eu gobaith am u hadgyfodiad eu hunain (*Rhuf.* viii. 11; 1 *Cor.* v. 22), ac hefyd yn sicrhau eu hymddangosiad newn gogoniant gyda Christ yn ei ail ddyfodiad *Col.* iii. 4). Ond nid ydyw y cyd-destyn yn caniatau y naill na'r llall o'r golygiadau hyn fel eglurhâd ar *rym ei adgyfodiad ef,* yn y fan hon; o blegid y mae yr ystyr cyntaf yn cael ei gymeryd i mewn yn yr adnod flaenorol, a'r ystyron ereill yn disgyn o dan y perffeithiad y mae yn crybwyll am dano etto, a'r hwn oedd yn nôd ganddo i gyfeirio ato trwy feddiannu y pethau y sonir am danynt yn yr adnod hon. Ymddengys mai mwy naturiol yw cymmeryd y geiriau fel yn golygu y dylanwad sydd yn adgyfodiad Crist i gynnyrchu bywyd sanctaidd—bywyd o'r un natur a'r eiddo Crist ei hun wedi ei adgyfodiad, yr hwn sydd yn fywyd i Dduw. Y "grym" yma a berthyn i adgyfodiad Crist sydd yn cael ei osod allan mewn ymadroddion mor gryf ac eglur yn *Rhuf.* vi. 4—11; ac oedd hefyd yn cael ei sylweddoli i fesur helaeth iawn yn yr apostol ei hun: *Gal.* ii. 20. *A chymdeithas ei ddioddefiadau ef.*—Nid cymdeithas *â'i* ddioddefiadau ef a ddywedir, ond *ei.* Nid yr ystyr yw cymdeithas y meddwl mewn myfyrdod â dioddefiadau y Cyfryngwr, ond cymdeithas â Christ trwy gyfranogiad o'i ddioddefiadau. Yr un peth afeddylia yr apostol wrth ysgrifenu at y Corinthiaid (iv. 10): "Gan gylch-arwain yn y corph bob amser farweiddiad (farwolaethiad) yr Arglwydd Iesu," ac wrth hysbysu y Colossiaid ei fod yn cyflawni yn eignawd yr hyn oedd yn ol o gystuddiau Crist: *Col.* i. 24. Ar yr un pryd, y mae yn ymddangos fod caethiwo y geiriau, "cymdeithas ei ddioddefiadau ef," &c., fel y gwna Ellicott, gan ddilyn Estius, i ddioddefiadau allanol dros Grist, yn ormod o gyfyngiad arnynt. *Gan fod wedi fy nghyddffurfio â'i farwolaeth ef:*—neu, trwy fod, &c. Yma y mae yr apostol yn dangos y modd yr oedd efe am gael yr adnabyddiaeth o Grist, ac o rym ei adgyfodiad, ac o gymdeithas ei ddioddefiadau a nodir ganddo: sef, trwy gael ei gyddffurfio â marwolaeth Crist, a hyny yn benaf yn ei hegwyddor fawr, sef hunan-aberthiad. Yr un egwyddor oedd yn rhedeg drwy holl ymddarostyngiad y Cyfryngwr, ac yn rhoddi cyfrif am yr holl ddioddefiadau yr aeth drwyddynt. Trwy gyddffurfiad â'r farwolaeth hon yr oedd yr apostol yn golygu cyrhaedd adnabyddiaeth ddofn o Grist, ac o effeithiolrwydd ei adgyfodiad mewn cynnyrchu sancteiddrwydd calon a buchedd, a hefyd o gymdeithas ei ddioddefiadau; nid yn unig mewn dioddef yn allanol drosto, ond hefyd mewn pob hunanymwadiad tumewnol, yn gystal ag allanol, er ei fwyn. Yr oedd yr adnabyddiaeth hon yn un brofiadol, ac yn sylfaenedig ar debygrwydd o Grist.

11. Y mae yn dangos yr amcan mawr ag yr oedd yr apostol yn llygadu ato—"adgyfodiad y meirw;" sef, fel y mae yn amlwg oddi wrth y cyd-destyn, adgyfodiad y cyfiawnion, y meirw yn Nghrist: yr hyn sydd yn awgrymu drachefn yr ystad o berffeithrwydd y dygir hwynt iddi yn yr adgyfodiad hwnw. Y mae y geiriad yn yr

12 Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes wedi fy mherffeithio; eithr [t]dilyn yr wyf, [u]fel y gallwyf ymafiyd *yn y peth* hwn hefyd [x]yr ymafiwyd ynof gan Grist Iesu.

13 Y brodyr, nid wyf fi yn bwrw ddarfod i mi gael gafael:

[t] 1 Tim. 6. 12.
[x] Salm 110. 2, 3.

adnod hon yn dangos pryder meddwl Paul ynghylch, a'i ymdrech tuag at, gyrhaedd y sefyllfa berffaith hon.

12. Y mae yn rhagflaenu camgasgliad a allasai y Philippiaid wneyd oddi wrth yr hyn a ysgrifenasai o'r blaen. *Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisoes.*—Cyrhaeddyd beth? Nid yr adgyfodiad y mae yn son am dano o'r blaen; o blegid y mae yn disgrifio hwnw fel peth dyfodol. Y mae y geiriau nesaf yn egluro ei feddwl. *Neu fod eisoes wedi fy mherffeithio.*—Perffeithrwydd oedd yr hyn yr oedd efe heb ei gyrhaedd, ac hwyrach ei fod yn ymddangos iddo eisoes dan y gymmhariaeth o nôd a ddygir yn mlaen ganddo ar ol hyn. *Eithr dilyn yr wyf.*—Y ffugr o yrfa sydd yn awr o flaen meddwl yr apostol. Nid wedi cyrhaedd perffeithrwydd yr oedd, "eithr dilyn," erlyn ar ei ol. *Fel y gallwyf ymafiyd yn y peth hwn hefyd* (sef perffeithrwydd) *yr ymafiwyd ynof* (neu, er mwyn yr hyn yr ymafiwyd ynof) *gan Grist Iesu.*—Cyfeiria hyn at droedigaeth Paul. Ymaflodd Crist yn Paul, a gosododd ef i redeg ei yrfa grefyddol, er mwyn iddo ef ymafiyd mewn perffeithrwydd.

13, 14. Yn y geiriau hyn y mae yn cadarnhau yr hyn a ddywedasai o'r blaen. Y mae yn cymeryd trafferth i argyhoeddi y Philippiaid ei fod yn dra phell oddi wrth bob hunan-glôd, a hunanhyder, ac hwyrach ei fod yn gwneyd hyn â'i lygaid ar rywrai yn eu plith oedd o duedd ymffrostgar. Nid oedd yn bwrw ddarfod iddo gael gafael, sef yn y perffeithrwydd y sonia am dano. *Ond un peth.*—Y mae yma rywbeth yn ddealledig ar ol y geiriau hyn. Y mae Ellicott, Alford, ac esbonwyr diweddar ereill, yn dodi "yr wyf yn ei wneuthur," i mewn yma. Yr hyn yr hônai ef ei fod yn ei wneuthur ydoedd *cyrchu at y nôd*, &c. Y modd y gwna efe hyny ydoedd, *gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen.*—"Y pethau o'r tu cefn," ydoedd y rhan o'r yrfa ag yr oedd Paul wedi ei rhedeg. Nis gall fod y geiriau yn cyfeirio at ei fywyd cyn ei dröedigaeth, o blegid yr oedd hwnw yn gorwedd y tu allan i derfynau yr yrfa, ac wedi ei adael cyn, ac mewn trefn i gychwyn y cwrs crefyddol. Wrth "y pethau o'r tu blaen," y meddylia, nid y nôd a'r gamp, ond y rhan o'r yrfa ag yr oedd yn angenrheidiol iddo fyned drwyddi mewn trefn i'w cyrhaedd. Nid oedd yn gosod ei feddwl i aros mewn ymffrost a hunanddigonolrwydd ar y rhan oedd wedi myned heibio o'i fywyd crefyddol. Anghofiai hwnw, ac "ymestynai:" yr hyn sydd yn dynodi ei awydd a'i ymdrech, mewn cyfeiriad at ystum ymdrechgar y rhedegwyr at y pethau o'r tu blaen; sef, at yr holl gynnydd crefyddol hwnw ag oedd yn gorwedd rhyngddo a'r perffeithrwydd y cyfeiriai ato. Yn y modd yma yr ydoedd (*adn.* 14) yn cyrchu at y nôd, *am gamp uchel alwedigaeth Duw.*—Y nôd ydoedd perffeithrwydd, ac yn cyfatteb i ben eithaf yr yrfa yn y rhedegfeydd. Y gamp (*prize*) ydoedd y gogoniant a'r dedwyddwch y

14 Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd, am gamp uchel [s]alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu.

15 Cynnifer gan hyny ag ydym berffaith, syniwn hyn: ac os ydych

[y] Salm 45. 10. Phil. 2. 12.
[s] Rhuf. 9. 23, 24.

ond un peth, [y]gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, [z]ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen,

disgwyliai Paul eu mwynhau, ac yn cyfatteb i'r goron y cyfeiria yr apostol ati yn 1 *Cor.* ix. 25, a gyfiwynid i'r rhedegwr llwyddiannus. Yr oedd y gamp y cyrchai efe ati yn "gamp uchel alwedigaeth Duw," neu gamp galwedigaeth uchod Duw: gwel *Gal.* iv. 26; *Col.* iii. 2. Yr alwedigaeth yw yr efengyl: llais Duw ydyw, yn galw ar ddynion i redeg; oddi uchod y daeth, ac uchod y mae hi am ddwyn y rhai a ufuddhant iddi. Y mae hi hefyd yn alwedigaeth yn Nghrist. Cyfryngdod a marwolaeth Crist a'i gwnaeth yn bossibl.

15. *Cynnifer gan hyny ag ydym berffaith.*—Pwy ydyw y rhai "perffaith" hyn? Nid ydyw yn debygol fod yr apostol yn cyfeirio yma, fel y tybia rhai, mewn dull gwawdlyd at ddosbarth ymhongar yn yr eglwys, ac yn galw ar y rhai hyny i fyw i fyny â'u honiadau; o blegid y mae yn gosod ei hunan yn eu plith: a byddai tybied hyn, geilid meddwl, yn anghysson â'r dôn ddifrifol sydd yn rhedeg drwy yr holl adnodau hyn. Meddylia ereill, drachefn, fod "perffaith" yma yn sefyll yn gyferbyniol â "phlant" (megys yn 1 *Cor.* iv. 20), ac yn golygu rhai yn yr eglwys ag oeddynt wedi cyrhaedd pwynt pell mewn cynnydd crefyddol, mewn cymmhariaeth i ereill yn yr eglwys ag oeddynt yn fwy diffygiol—rhai bach yn Nghrist. Ond ni byddai hyn yn dyfod yn naturiol ar ol y gocheliad y mae yr apostol wedi ei roddi iddynt oll rhag hunandyb, a'r annogaeth y mae wedi ei roddi iddynt i ostyngeiddrwydd—i dybied eu gilydd yn well na hwy eu hunain, ac i anghofio y petha uo'r tu cefn. Nid yw yn debygol fod yr apostol yma yn cyferbynu dosbarth â dosbarth, ond yn hytrach yn cyfarch yr holl Philippiaid. Y mae y gair "perffaith" yn dyfod i mewn yn naturiol ar ol y crybwylliad a wnaethai yr apostol, nad ydoedd wedi ei berffeithio, ond ei fod yn cyrchu at hyny fel ei nôd. Geilw ei hun a'r Philippiaid yn "berffaith," yn gymmaint a'u bod yn proffesu "perffeithrwydd" fel eu nôd uchel i gyfeirio ato. O herwydd y broffes hon o'r eiddynt, y mae yn dwyn yn mlaen ei ymdrech ei hun, a ddisgrifir ganddo yn yr adnodau o'r blaen, fe esampl iddynt hwythau i'w dilyn, megys y mae y cyssylltiad, "gan hyny," yn yr adnod hon yn arwyddo. *Syniwn hyn.*—Yn gymmaint a'u bod am gyrhaedd perffeithrwydd, yr oedd Paul am iddynt ddeall mai yn yr un ffordd yr oeddynt hwy i ymgais am dano ag yr oedd efe ei hun yn gwneyd. Cyfeiria yma yn fwyaf neilldiol, hwyrach, at *adn.* 12—14; ond nid fel ag i gau allan y disgrifiad a rydd o hono ei hunan o *adn.* 7 hyd yn bresennol. *Ac os ydych yn synied dim yn amgenach:*—neu yn wahanol. Nid yn wahanol i'r cyfarwyddyd a roddasai efe iddynt pa fodd i ymgais am berffeithrwydd; o blegid, gyda golwg ar hyny, yr oedd efe am iddynt fod yn unfryd: ond os oeddynt yn synied dim yn wahanol i'w gilydd mewn materion crefyddol. Nid yn egwyddorion sylfaenol crefydd a feddylir, ond mewn rhyw faterion ymarferol a berthynent

yn synied dim yn amgenach,[b] hyn hefyd a ddadguddia Duw i chwi.

16 Er hyny, y peth y daethom ato, cerddwn wrth yr un rheol, syniwn yr un peth.

17 [c] Byddwch ddilynwyr i mi, frodyr, [d] ac edrychwch ar y rhai sydd yn rhodio felly, megys yr ydym ni yn siampl i chwi.

18 (Canys y mae llawer yn rhodio, am y rhai y dywedais i chwi yn fynych, ac yr ydwyf yr awr hon hefyd dan wylo yn dy-

[b] Salm 25. 8, 9.

[c] Phil. 4. 9.

[d] Salm 37. 37.

wedyd, *mai* [e] gelynion croes Crist *ydynt*;

19 Diwedd y rhai *yw* distryw, duw y rhai *yw eu* bol, [f] a'u gogoniant yn eu cywilydd, [g] y rhai sydd yn synied pethau daearol)

20 Canys ein [h] hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist:

21 Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus

[e] Phil. 1. 18

[f] Salm 52. 1.

[g] Salm 4. 2, 7.

[h] Esa. 26. 1 2.

---

ddi, byddai i Dduw ddadguddio hyny iddynt—
ymdorai y gwirionedd ar eu meddyliau fel yr
elent yn mlaen mewn cynnydd crefyddol.

16. *Er hyny, y peth y daethom ato.*—Y mae y cyssylltiad, "er hyny," yn ol Bengel, Wiesinger, ac Ellicott, yn cyfeirio at y dadguddiad o addwid iddynt. Er y rhoddai hwnw oleuni iddynt ar faterion y gallasent fod yn gwahaniaethu yn eu cylch, nid oeddynt, ar y cyfrif hwnw, i ystyred ei fod yn ddiangenrhaid iddynt ymdrechu am fyned yn mlaen mewn cynnydd crefyddol. Y mae Alford, Horsley, ac ereill, yn golygu fod cyfeiriad y cyssylltiad at yr amrywiaeth barnau allasent fod yn eu mysg; er hyny, nad oeddynt gymmeryd hyn yn rhwystr i gydgyrchu at yr un nôd, sef y perffeithrwydd. Ymddengys mai yr olaf ydyw y mwyaf naturiol. Y ffugr o yrfa ydd yn gorwedd o flaen meddwl yr apostol yma etto. Y mae yn edrych ar y Philippiaid, ac ntau ei hun, yn cyfeirio at yr un nôd—yn hedeg yn yr un yrfa. Tybir ganddo fod rhai o laen y lleill yn yr yrfa hon, er eu bod oll yn myned yn yr un llinell. "Er hyny," meddai "y peth y daethom ato"—i ba bwynt bynag yr oedd pob un wedi cyrhaedd yn y llinell ag oedd yn cyffredin i'r oll, y mae yn eu cynghori i fyned n mlaen wrth hyny; sef, i ddilyn yn yr un cyfeiriad. Y mae y geiriau, "rheol," "syniwn yr un peth," yn eisieu yn y llaw-ysgrifau goreu.

17. Yn nechreu yr adnod hon, y mae yr apostol yn annog y Philippiaid i ddilyn ei esampl f, yr hon a osodasai ger eu bron o'r blaen; yna y mae yn chwanegu, *ac edrychwch ar y rhai ydd yn rhodio felly, megys yr*, &c.—Y mae "megys" yn cael ei gymmeryd gan Meyer, yn yr hyn y dilynir ef gan Wiesinger, yn gyfystyr g "yn gymmaint;" ac felly yn dwyn i mewn eswm am yr annogaeth a roddasai Paul iddynt w ddilyn ef. Mwy naturiol, pa fodd bynag, yw drych ar "megys" yn gydberthynasol â'r, ac n eglurhaol o'r gair "felly." Cymmhellid y Philippiaid i edrych ar y rhai a rodient "felly;" ef, "megys," neu fel yr oedd Paul a'i gydweithwyr yn esampl iddynt.

18. Y mae y gair "canys" sydd yn nechreu yr adnod hon yn dangos ei bod yn cael ei dwyn yn blaen fel rheswm am yr annogaeth sydd yn yr adnod flaenorol, i'r Philippiaid i ddilyn esampl Paul a'i frodyr, yn gymmaint a bod llawer yn rhodio yn gwbl wahanol iddynt, am y rhai y bywedasai yr apostol yn fynych wrth y Philippiaid, tra yn aros gyda hwynt, ac yn awr dan wylo a ddywedai, mai gelynion croes Crist oeddynt. Yr oeddynt yn profi eu hunain felly, nid trwy ddysgu cyfeiliornadau gwahanol i athrawsth y groes; ond yn hytrach, fel y mae yr adnod nesaf yn arwyddo, trwy arwain bywyd penrydd ac aflan—gwahanol hollol i'r purdeb hwnw y mae athrawiaeth *y* groes yn ei gefnogi ac yn ei feithrin.

19. Yma darlunir bywyd a diwedd y gelynion hyn i groes Crist. Yr oedd pen draw y llwybr ag yr oeddynt hwy yn ei rodio yn ddistryw. *Duw y rhai yw eu bol.*—Treulient eu bywyd i wasanaethu eu blysiau anifeilaidd. *A'u gogoniant yn eu cywilydd.*—Yr oedd yr hyn a dybient hwy yn ogoniant iddynt yn gorwedd mewn pethau ag oeddynt, mewn gwirionedd, yn gywilydd iddynt. *Yn synied pethau daearol.*—Y mae y gair gwreiddiol, *phronein*, sydd yma am "synied," fel y sylwa Elicott, ar ol Horsley, o ystyr eang iawn, ac yn cynnwys, yn y cyssylltiad hwn, fod y meddwl yn ei fyfyrdod a'i fryd wedi ei grynhoi yn llwyr ar bethau daearol.

20. Yn yr adnod hon, a'r un ganlynol, y mae Paul yn cyferbynu ei hun a'i frodyr â'r rhai a elwir ganddo "yn elynion croes Crist." Yn lle bod y cyferbyniad yn cael ei ragflaenu â'r cyssylltiad "eithr," cawn mai "canys" sydd yma; yr hyn sydd yn dangos fod y cyferbyniad wedi ei fwriadu i gydwasanaethu â'r ddwy adnod o'r blaen, fel rheswm dros i'r Philippiaid ddilyn esampl Paul a'i gydlafurwyr. Cefnoga yr apcstol ei gynghor iddynt trwy osod o'u blaen (*adn.* 18, 19) fywyd ammhur a diwedd truenus gelynion croes Crist; ac yn *adn.* 20, 21, ei fywyd sanctaidd a'i ragolygon dedwydd ef a'i frodyr. *Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd:*—neu yn hytrach, yn ol ystyr mwyaf priodol *politeuma*, ein gwladwriaeth. Y nefoedd oedd eu gwlad, o honi hi yr oeddynt yn ddinasyddion, a chyfansoddiad gwladwriaethol y nefoedd oedd yn gosod ffurf ar eu bywyd. *O'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist.*—Yr oedd y lleill y soniai am danynt "yn synied pethau daearol," ond yr oedd Paul a'i frodyr â'u disgwyliadau yn gyfeiriedig i'w gwlad fry. Duw y lleill oedd eu bol—eu Harglwydd hwy oedd Iesu Grist. Yr oedd diwedd y lleill yn ddistryw, ond yr oeddynt hwy yn disgwyl eu Harglwydd yn y cymmeriad o Iachawdwr.

21. *Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni:*—neu, gorph ein "darostyngiad" ni. Y mae y gair a gyfeithir yma yn "gwael" yn cael ei ddefnyddio hefyd yn *pen.* ii. 8, pan y dywedir fod Crist wedi ei ddarostwng ei hun. Yma, pa fodd bynag, y mae y gair yn ei ffurf sylweddeiriol, ac nid ansodd-eiriol, fel y mae yn y cyfieithiad Cymraeg a Saesneg. *Fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef*:—neu yn fwy llythyrenol, corph ei "ogoniant" ef. Yr oedd yr ystâd yr oeddynt hwy ynddi ar y pryd yn

ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun.

PENNOD IV.

1 *Ar ol rhybuddion neilldiol, 4 y mae efe yn mynedrhagddo at cynghorion cyffredinol:* 10 *ac yn dangos pa fodd y llawenychodd efe wrth eu haeliotri hwy tuag ato ef, pan oedd yn ngharchar; nid yn gymmaint am iddynt borthi ei angenion ef, ag am y gras Duw oedd ynddynt hwy:* 19 *ac felly y mae efe yn diweddu, gan weddio, a'u hanerch hwy.*

B. A. 63.

[a] Salm 27. 14; Ioan 8. 31; 1 Cor. 15. 58.

AM hyny, fy mrodyr anwyl a hoff, fy llawenydd a'm coron, [a] felly sefwch yn yr Arglwydd, anwylyd.

2 Yr ydwyf yn attolwg i Euodias, ac yn attolwg i Syntyche, [b] synied yr un peth yn yr Arglwydd.

[b] Marc 9. 50; Rhuf. 12. 16—18; Eph. 4. 1-3.

3 Ac yr ydwyf yn dymuno arnat tithau, fy ngwir gymmhar, cymmhorth y gwragedd hyny y rhai yn yr efengyl a gydlafuriasant â mi, ynghyd â Chlement hefyd, a'm cydweithwyr ereill, [c] y rhai *y mae* eu henwau yn llyfr y bywyd.

[c] Exod. 32. 32; Esa. 4. 3; Luc 10. 20; Dad. 3. 5.

4 [d] Llawenhewch yn yr Arglwydd yn wastadol: *a* thrachefn meddaf, Llawenhewch.

[d] Phil. 3. 1.

5 Bydded eich arafwch yn

un o ddarostyngiad, mewn cymmhariaeth i'r un ddyfodol. Yr oedd eu corph yn un priodol i'r ystâd hono o ddarostyngiad—yn un anianol a marwol, ac yn cyfranogi yn helaeth o hono mewn blinderau ac erlidiau. Yn hyn yr oedd yr apostol â'i olwg ar y rhai oedd yn gwneyd elw o'u bol—yn gwneyd cyflawni blysiau'y corph yn amcan i'w bywyd. Yr oedd corph darostyngiad y credinwyr i gael ei wneyd yr un ffurf a'r corph sydd gan Grist—cymmhwys i'w ystâd o ogoniant wedi ei ddarostyngiad dwfn. Dywedir hyn, mae yn debyg, yn gyferbyniol i'r distryw dragwyddol oedd i oddiweddyd y rhai oeddynt yn gwneyd duw o'u bol. Yr oedd y cyfnewidiad hwn i gael ei ddwyn oddi amgylch "yn ol," yn deilwng o'r, yn gyfattebol i'r "nerthol weithrediad:" neu yn ŵy llythyrenol, "yn ol gweithrediad." (Groeg, *energeian*; Saesneg, *energy*: Cymraeg, *ymi*). *Y nerthol weithrediad, trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth.*—Y greadigaeth: 1 *Cor.* xxv. 27. *Iddo ei hun.*—Y mae hyn yn sicrhau, fel y sylwa Calvin, y cymmer y cyfnewidiad y cyfeirir ato le

PENNOD IV.

1. *Am hyny*:—sef, o herwydd fod iddynt y fath gartref a'r fath ddisgwyliadau ag a nodir yn y bennod o'r blaen. *Fy mrodyr anwyl a hoff.*—Y mae y gair a gyfieithir yma yn "hoff," yn golygu eu bod yn wrthddrychau ei hiraeth; gwel *Rhuf.* i. 11. *Fy llawenydd a'm coron.*—Y mae yr un geiriau yn cael eu defnyddio yn 1 *Thes.*, ond gyda chyfeiriad at ail ddyfodiad Crist. Nid yw hyny, pa fodd bynag, yn ofynol yn y fan hon. *Felly sefwch.*—"Fel yr ydych yn gwneyd," medd Calvin a Bengel: "fel yr wyf wedi annog a disgrifio o'r blaen," medd Wiesinger, Ellicott, ac Alford. Yr olaf, y mae yn ymddangos, ydyw y meddwl naturiol. *Yn yr Arglwydd, anwylyd*:—sef yn Nghrist. Dynoda hyn nodwedd y sefydlogrwydd a gymmhellid arnynt.

2, 3. ANNOGAETHAU I BERSONAU NEILLDUOL.

4—9. I'R EGLWYS YN GYFFREDINOL.

2. Rhoddir yma yr un annogaeth i'r gwragedd, *Euodias* a *Syntyche*, ag a roddasid o'r blaen i'r eglwys yn gyffredinol yn *pen.* ii. 2. Yr oedd y gwragedd hyn, y mae yn ymddangos, yn rhai o gryn le a dylanwad yn yr eglwys—wedi cydlafurio â Phaul yn yr eglwys; ac felly yr oedd eu hunfrydedd hwy o bwys mawr i'r cymmundeb yn gyffredinol. Y mae fod yr apostol yn

arfer y gair *attolwg* ddwywaith, yn dangos y pwys a roddir ar yr hyn a gymmhellid ganddo, a'i fod yn dymuno gwasgu hyny at y naill berson yn gystal a'r llall.

3. *Ac yr ydwyf yn dymuno arnat tithau, fy ngwir gymmhar.*—Y mae llawer o wahanol dybiau ynghylch pwy oedd y "gwir gymmhar" hwn, a rhai o honynt yn dra phlentynaidd. Y tybiau mwyaf tebygol ydynt, fod y gair gwreiddiol sydd am "gymmhar" yn enw priodol (*proper name*), a bod gwir gymmhar" yn dynodi ei fod yn wirioneddol yr hyn yr oedd ei enw yn ei arwyddo: neu ynte, fod yr apostol yma yn cyfeirio at yr esgob mwyaf dylanwadol yn yr eglwys, a'i fod yn ei alw yn "wir gymmhar," o herwydd ei gydymdeimlad dwfn a'i gydweithgarwch diffuant yn yr efengyl. Y mae un wrthddadl yn erbyn y ddwy dyb; sef, nad oes un esampl o'r gair yn cael ei ddefnyddio fel enw priodol, nac, o'r ochr arall, yn cael ei gymmhwyso gan Paul at neb o'i gydweithwyr. Y dyb olaf a nodwyd, pa fodd bynag, yw yr un a gymmeradwyir yn benaf gan fwyafrif yr esbonwyr diweddar. *Cynmhorth y gwragedd hyny*:—neu yn hytrach, "cymmhorth hwy, yn gymmaint ag iddynt gydlafurio â mi yn yr efengyl." Y mae y darlleniad Cymraeg, yn gystal a'r Saesneg, yn ein harwain at ryw ddosbarth o wragedd nad oeddynt wedi eu crybwyll o'r blaen, pan y mae yr apostol yn cyfeirio at y ddwy wraig a nodasai eisoes, ac yn dymuno ar i'w wir gymmhar eu cynnorthwyo hwy, fel rhai oeddynt wedi cydlafurio âg ef yn yr efengyl, i feithrin unfrydedd Cristionogol. *Ynghyd â Chlement hefyd.*—Nid yw y geiriau hyn i'w cyssylltu â "cymmhorth," &c. Y meddwl yw, eu bod wedi cydlafurio â Phaul, ynghyd â Chlement hefyd, a chydweithwyr ereill yr apostol, y rhai, gan gyfeirio at y cydweithwyr, oedd â'u henwau yn llyfr y bywyd. Er nad oedd Paul yn eu henwi, etto yr oedd eu henwau ar lawr yn llyfr y bywyd. Gwel *Luc* x. 20; *Dad.* xiii. 8, a xvii. 8.

4. Y mae o'r adnod hon hyd ddiwedd *adn.* 9, yn cynnwys cynghorion i'r eglwys yn gyffredinol. Rhagflaenir hwy gyda'r annogaeth i fod yn llawen, yr hyn yw cyweirnod y llythyr: *pen.* i. 27; ii. 17, 18; iii. 1.

5. *Bydded eich arafwch*, &c.—Cyfieithir y gwreiddiol yma am "arafwch," yn *Act.* xxiv. 4, a 2 *Cor.* x. 1, yn "hynawsedd;" yn 1 *Tim.* iii. 3, ac yn *Titus* iii. 2, yn "dirion:" yn *Iago* iii. 17, yn "heddychlawn:" ac yn 1 *Pedr* ii. 18, yn "gymdeithas." Yr oedd y gair hwn yn cael ei

bysbys i bob dyn. [e] *Y mae* yr Ar-
glwydd yn agos.
6 Na ofelwch am ddim: eithr
yn mhob peth [f] mewn gweddi ac
ymbil gyda diolchgarwch, gwnel-
er eich deisyfiadau chwi [g] yn hys-
bys ger bron Duw.
7 A [h] thangnefedd Duw, yr
hwn sydd uwch law pob deall, a
geidw eich calonau a'ch meddyl-
iau yn Nghrist Iesu.
8 Yn ddiweddaf, frodyr, pa
bethau bynag sydd wir, pa beth-
au bynag *sydd* onest, pa bethau
bynag *sydd* gyfiawn, pa bethau
bynag *sydd* bur, pa bethau bynag
sydd hawddgar, pa bethau bynag
sydd ganmoladwy, od *oes* un rhin-
wedd, ac od *oes* dim clod, meddyl-
iwch am y pethau hyn.
9 Y rhai a ddysgasoch ac a
dderbyniasoch, ac a glywsoch, ac
a welsoch ynof fi, y pethau hyn
gwnewch: a [i] Duw yr heddwch
a fydd gyda chwi.
10 [k] Mi a lawenychais hefyd yn
yr Arglwydd yn fawr, o blegid
i'ch gofal chwi am danaf fi yr

[e] Mat. 24. 48, 50; 1 Thes. 5. 2—4: Iago 5. 8, 9. [f] Gen. 32. 7—12; 1 Sam. 1. 15; Salm 34. 5—7; Eph. 6. 18. [g] Mat. 6. 8. [h] Salm 85. 8; Esa. 45. 7; Luc 2. 14; Gal. 5. 22; Col. 3. 15. [i] Rhuf. 16. 20; 2 Cor. 5. 19, 20; 1 Thes. 5. 23; Heb. 13. 20, 21. [k] Phil. 3. 1.

arfer yn mhlith y Groegiaid, fel y sylwa yr arch-esgob Trench, yn ei "*New Testament Synonyms,*" am y duedd i beidio sefyll ar, a chario allan i eithafion, hawliau cyfraith: ond i fod yn dyner a hirymarhous. Y duedd hon a gymmhellir gan yr apostol yn y lle hwn. Yr oedd am iddynt fod yn bwyllog ac yn gymmedrol yn eu gwaith yn barnu ac yn condemnio ereill. Mynai i'r duedd hon gael ei hadnabod ynddynt, trwy eu hymddygiadau, gan bawb y delent i gyffyrddiad â hwynt, ac nid oeddynt i ddangos dim croes iddynt; hyd yn oed tuag at gymmeriadau o'r fath ag a ddisgrifiwyd yn y bennod o'r blaen. *Y mae yr Arglwydd yn agos:*—sef, yr Arglwydd Crist, yn ei ddyfodiad i farnu y byd. Dygir hyn yn mlaen fel rheswm am yr arafwch a gymmhellir ar y Philippiaid tuag at bawb—yn gymmaint a bod yr Arglwydd yn agos, yr hwn a benderfynai achosion pawb. Y mae Alford yn dewis cyssylltu y geiriau diweddaf â'r adnod nesaf, yn gystal ag â'r hyn sydd yn myned o'u blaen.

6. *Na ofelwch am ddim.*—Nid rhagddarbodaeth a waherddir yma, ond pryder—y gofal anghymmedrol hwnw ag sydd yn codi, fel y mae y rhan sydd yn dilyn o'r adnod yn awgrymu, oddi ar ddiffyg cydnabyddiaeth o lywodraeth Duw, ac o ymddiried ynddo. Yn lle pryderu ynghylch dim, annoga yr apostol y Philippiaid i wneyd eu deisyfiadau yn hysbys ger bron Duw. Yr oedd hyn i gael ei wneyd mewn gweddi ac ymbil:—y cyntaf yn dynodi yr ymarferiad cyssegredig yn gyffredinol; a'r olaf ddeisyfiad neillduol a wneir mewn gweddi (gwel *Eph.* vi. 18). *Gyda diolchgarwch:*— am yr hyn a dderbyniasant. Elfen mewn gweddi na ddylai byth fod yn eisieu: 1 *Thes.* v. 18; 1 *Tim.* ii. 2.

7. *A thangnefedd Duw,* &c.—Nodir yma yr hyn a ganlyna weithredu yn ol y cyfarwyddyd a roddir yn yr adnod o'r blaen. Y mae hwn yn dangnefedd Duw, nid yn unig am mai efe yw yr awdwr, ond hefyd y ffynnonell iddo. Y mae yn dangnefedd o'r un natur a'r eiddo Duw. Y mae y gair "tangnefedd" yn golygu tangnefedd rhwng dynion a'u gilydd (*Eph.* ii. 14), a heddwch â Duw (*Rhuf.* v. 1); ond yma y mae yn eglur ei fod yn golygu, fel yn *Ioan* xiv. 27, dangnefedd yn y fynwes, yn gyferbyniol â'r pryder y cyfeiriwyd ato o'r blaen. *A geidw:*—a warchoda, fel y gwna gwarchodlu milwrol. *Eich calonau a'ch meddyliau.*—Dynoda y cyntaf y ffynnonell, a'r olaf y ffrydiau sydd yn rhedeg o honi. Byddai i dangnefedd Duw, yr hwn sydd uwch law pob deall—nad yw i'w amgyffred, ond i'w deimlo—warchod eu calonau, ac hefyd y meddyliau a gyfodent o honynt, a'u diogelu rhag ymosodiadau pryder ac anniddigrwydd; a dygid hyn oddi amgylch yn Nghrist Iesu.

8. Yma y mae yr apostol yn diweddgloi yr annogaethau a fwriadai efe i'r Philippiaid. Nid yw "pa bethau bynag sydd wir" i'w gyfyngu i eiriau. Y mae yn dynodi ansawdd fewnol y cymmeriad, ac yn cymmeryd i mewn yr hyn sydd yn unol âg egwyddorion mawr gwirionedd, mewn meddwl, gair, a gweithred. *Pa bethau bynag sydd onest:*—neu, yn hytrach, anrhydeddus, gyfiawn, teg, unol â deddf bur; nid yn yr ystyr cyfyng o ddiwair, ond yn ei ystyr eangaf, sef hawddgar; nid yw yn dyweyd yn ngolwg pwy, ond yn ei arfer yn ei ystyr mwyaf cyffredinol, heb unrhyw gyfyngiad arno. *Ganmoladwy.*—Nid yn unig sydd yn teilyngu canmoliaeth, ond sydd â chanmoliaeth iddynt—pethau y mae sôn am danynt, fel yr arwydda y gair *euphêmia,* yn swnio yn dda. *Od oes un rhinwedd,* &c.:—neu pa rinwedd bynag, a pha glod bynag sydd. Yma y mae yr apostol fel wedi dyhysbyddu ei hun o eiriau, yn cymmeryd i mewn holl gylch moesoldeb ar unwaith, ac yn annog y Philippiaid i feddwl yn ddifrifol am yr oll ag oedd yn gynnwysedig ynddo. Wedi sôn am rinweddau uchel Cristionogaeth yn gyffredinol, y mae, yn *adn.* 9, yn troi eu llygaid ato ei hun, fel un ag yr oeddynt wedi dysgu a derbyn y rhinweddau hyn yn ei athrawiaeth, ac wedi eu gweled a chlywed am danynt yn ei esampl, gan eu hannog i'w rhoddi mewn gweithrediad. O wneuthur hyn y mae yn sicrhau y byddai "Duw yr heddwch" gyda hwy, neu Dduw y tangnefedd, i gynnyrchu tangnefedd yn eu mynwes; ac hwyrach y golygir yma, gyda hyny, i gadw tangnefedd rhyngddynt a'u gilydd. Y fath foesoldeb eang ac ardderchog y mae yr efengyl yn ei dysgu—y fath na ddysgir gan un grefydd arall, na chan un gyfundrefn o athrawiaeth!

10. Y mae oddi yma hyd ddiwedd *adn.* 19, yn cynnwys cydnabyddiaeth ddiolchgar yr apostol i'r Philippiaid am y cymmhorth a dderbyniasai efe oddi wrthynt, a sicrhâd y byddai i Dduw ei had-dalu yn llawn. Dynoda ei lawenydd yn llawenydd "yn yr Arglwydd."—Yr oedd pob amgylchiad, fel y sylwa Wiesinger, yn ei olwg ef, yn dal perthynas â Christ, ac yn cymmeryd oddi wrth Grist ei ansawdd a'i ffurf. Testyn y llawenydd ydoedd yr hyn a ganlyn:—*O blegid i'ch gofal chwi am danaf fi yr awr hon o'r diwedd adnewyddu.*—Y mae y gair a gyfieithir yn "adnewyddu," yn air ffugrol, ac wedi ei fenthyca, medd Calvin, oddi wrth "goed;" nerth y rhai sydd yn cael ei dynu i mewn, ac yn cael ei

awr hon o'r diwedd adnewyddu; yn yr hyn y buoch ofalus hefyd, ond eisieu amser cyfaddas oedd arnoch.

11 Nid am fy mod yn dywedyd o herwydd eisieu: canys myfi a ddysgais yn mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawn *iddo.*

12 *Ac* mi a fedraf ymostwng, ac a fedraf ymhelaethu: yn mhob lle ac yn mhob peth y'm haddysgwyd, i fod yn llawn ac i fod yn newynog, i fod mewn helaethrwydd ac i fod mewn prinder.

[1] Ioan 15. 4, 7; [2] Cor. 3. 4, 5.

13 [1] Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu i.

14 Er hyny, da y gwnaethoch gydgyfranu â'm gorthrymder i.

15 A chwithau, Philippiaid, hefyd, a wyddoch yn nechreuad yr efengyl, pan aethum i ymaith o Macedonia, na chyfranodd un eglwys â mi o ran rhoddi a derbyn, ond chwychwi yn unig.

16 O blegid yn Thessalonica hefyd yr anfonasoch i mi [m] unwaith ac eilwaith wrth fy angenrhaid.

[m] 1 Thes. 2. 18; Rhuf. 15. 23.

17 Nid o herwydd fy mod i yn ceisio rhodd: eithr yr ydwyf yn ceisio [n] ffrwyth yn amlhau erbyn eich cyfrif chwi.

[a] Ioan 15. 8,

---

gadw yn guddiedig yn ystod y gauaf, ond sydd drachefn yn dechreu ffrwythloni yn y gwanwyn. Tebycach i'r gwreiddiol fyddai hyn—'o blegid i chwi drachefn ffrwythloni yn eich gofal am danaf fi.' Rhag iddynt gamddeall ei eiriau, a thybied ei fod yn awgrymu nad oedd y gofal hwn yn bodoli yn eu mynwesau o'r blaen, y mae yn chwanegu, *yn yr hyn:*—neu, gyda golwg ar yr hyn, sef cynnorthwyo yr apostol *Y buoch ofalus hefyd.*—Yr hyn oedd wedi eu rhwystro i ddangos y gofal hwn mewn gweithred, oedd eisieu amser cyfaddas. Yr oedd gofal am dano ef yn cartrefu yn eu mynwes, fel y bywyd yn y pren yn nhymmor diffrwyth y gauaf. Yn awr, wele y gofal hwnw wedi tori allan mewn ffrwythlonrwydd.

11. Y mae efe yn hysbysu nad oedd y llawenydd a ddadganai o herwydd y prawf presennol o'u cariad tuag ato yn codi oddi ar ei "eisieu" ef wedi ei ddiwallu ganddynt. Yr oedd hyny, y mae yn wir, wedi cymmeryd lle: ond nid hyny oedd achos ei lawenydd ef, o blegid yn mha gyflwr bynag y byddai yr oedd wedi dysgu bod yn foddlawn iddo.

12. *Ac mi a fedraf ymostwng.*—Yn fwy llythyrenol, fel hyn—Yr wyf yn gwybod pa fodd, &c. Gwybodaeth brofiadol yn canlyn y ddysg y dywed, yn yr adnod o'r blaen, ei fod wedi ei chyrhaedd. Gwyddai pa fodd i ymddwyn mewn iselder ac mewn llawnder. Yr oedd ganddo feddwl wedi ei gyfaddasu, trwy addysgiaeth crefydd, i wahanol amgylchiadau llawnder a newyn, helaethrwydd a phrinder.

13. *Yr wyf yn gallu pob peth.*—Yma y mae yn esgyn oddi wrth y neilldiuol at y cyffredinol. Nid pob peth yr oedd efe wedi ei nodi a feddylir ganddo, ond pob peth yn ddiwahaniaeth. Nid yw ei waith yn hŏni yr holl allu mawr yma iddo ei hun yn hunan-ymffrost, o blegid y mae yn chwanegu, *trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu i:*—neu, yn fwy llythyrenol a chywir, 'yn Nghrist.' Meddiannai y gallu hwn yn ei undeb â Christ. Nid ei allu ef ydoedd, ond gallu Crist yn cael ei amlygu ynddo. Yr oedd yr undeb hwn mor drwyadl fel y tystia yr apostol, yn ei lythyr at y Galatiaid, *pen.* ii. 20, mai nid efe oedd yn byw, ond mai Crist oedd yn byw ynddo.

14. *Er hyny,* &c.—Y mae yr apostol yma yn rhagflaenu camgasgliad a allesid ei wneyd oddi wrth yr hyn a ddywedasai. Er ei fod wedi ei amlygu ei hun yn y dull y gwnaeth, yr oedd am iddynt ddeall nâd ydoedd yn diystyru eu cared igrwydd hwy tuag ato. *Da y gwnaethoch gydgyfranu* (neu gydgyfranogi) *â'm gorthrymder i.*—Gwerthfawrogai eu caredigrwydd, nid am ei fod yn diwallu ei eisieu, ond fel yr oedd yn fynegiad o'u cydymdeimlad dwfn âg ef.

15, 16. Y mae coffhâd cynnhes yn cael ei wneyd gan yr apostol am garedigrwydd blaenorol y Philippiaid tuag ato. Y mae hefyd, yn nechreu *adn.* 15, medd Ellicott, yn awgrymu cymmhariaeth rhyngddynt hwy ag ef—Chwi hefyd, yn gystal a minnau. Nodir amseriad y caredigrwydd hwn fel hyn—"yn nechreuad yr efengyl, pan aethum i ymaith o Macedonia."—Golyga rhai esbonwyr fod yr apostol yma yn cyfeirio at y cymmhorth a anfonwyd iddo yn Corinth, am yr hwn y crybwyllir yn 2 *Cor.* xi. 9. Ond y mae y geiriau, "yn nechreuad yr efengyl," fel y sylwa Meyer, yn ein harwain at gyfnod boreuach na hyn—at yr adeg gyntaf y daeth y Philippiaid i gyssylltiad â'r apostol. Gwel *Act.* xvii. 14. *Na chyfranodd un eglwys â mi,*" &c.—Y mae Alford, ar ol Meyer, yn cyfyngu "y rhoddi" i'r Philippiaid, a'r "derbyn" i'r apostol. Ond yr esboniad mwyaf cyffredin sydd yn ymddangos yma hefyd y mwyaf naturiol, sef fod y ddwy ochr yn rhoddi ac yn derbyn: yr apostol yn rhoddi ei lafur gweinidogaethol iddynt hwy, a hwythau yn rhoddi cymmhorth iddo yntau yn ngwyneb ei anghenion tymmorol. Tystia na chyfranodd, neu yn hytrach na chyfranogodd neb âg ef mewn rhoddi yn gystal a derbyn, ond hwy yn unig. Yn *adn.* 16, profir, trwy esampl, y caredigrwydd hwn a briodolir i'r Philippiaid. *O blegid yn Thessalonica hefyd.*—Hyd yn oed yno, cyn i'w ymadawiad gael ei orphen, yr oeddynt wedi gweinyddu unwaith ac eilwaith i angenrhaid yr apostol.

17. *Nid o herwydd fy mod i yn ceisio rhodd.*—Yn yr adnod hon, fel yn *adn.* 11, y mae yn rhagflaenu camddealltwriaeth o du y Philippiaid. Yr ydoedd wedi rhoddi canmoliaeth uchel iddynt am eu caredigrwydd tuag ato ef. Yma y mae yn egluro iddynt pa ham yr oedd yn gwneyd hyny: nid o herwydd eu bod, trwy eu haelioni, yn boddloni awyddfryd ynddo am rodd, ond o herwydd ei fod yn ffrwyth ag yr oedd yr apostol yn edrych am dano ac yn ei geisio ar eu crefydd, yr hwn a fyddai er eu budd hwy eu hunain. *Yn amlhau erbyn eich cyfrif chwi:*—neu i'ch cyfrif chwi. Ffrwyth yn myned

18 Ond y mae genyf bob peth, ac y mae genyf helaethrwydd: mi a gyflawnwyd, wedi i mi dderbyn gan Epaphroditus y pethau *a ddaethant* oddi wrthych chwi; *sef* arogl peraidd, aberth [o] cymeradwy, boddlawn gan Dduw.

19 A'm Duw i a [p] gyflawna eich holl raid chwi yn ol ei [q] olud ef mewn gogoniant, yn Nghrist Iesu.

20 Ond [r] i Dduw a'n Tad ni *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

21 [r] Anerchwch yr holl saint yn Nghrist. [t] Y mae y brodyr sydd gyda mi yn eich anerch.

22 [u] Y mae y saint oll yn eich anerch chwi, [x] ac yn benaf y rhai sydd o deulu Cesar.

23 [y] Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyda chwi oll. Amen.

¶ At y Philippiaid yr ysgrifenwyd o Rufain gydag Epaphroditus.

[n] Rhuf. 12. 1; [o] 2 Cor. 2. 12. [p] Gen. 48 15; Deut. 8. 3, 4; Neh. 9. 15. [q] Rhuf. 8 18; 2 Cor. 4. 17; 1 Thes. 2. 12; [r] 1 Pedr 5. 1, 10. Salm 72. 19; Mat. 6. 9, 13.

[s] Rhuf. 16. 3—16. [t] Rhuf. 16. 21, 22. [u] Rhuf. 16. 15. [x] Phil. 1. 1 [y] Rhuf. 16. 20, 24.

---

i mewn i'w cyfrif—i'w *credit*—erbyn yr adeg y byddai Duw yn eu gwobrwyo.

18. *Ond y mae genyf bob peth.*—Nid oedd yr apostol yn ceisio rhodd, ond yr oedd ganddo er hyny bob peth, a hyny mewn helaethrwydd. Geilw y pethau a anfonasid iddo yn "arogl peraidd, aberth cymmeradwy, boddlawn gan Dduw." Y mae "gan Dduw" yn gyssylltiedig nid yn unig â'r gair "boddlawn," ond hefyd â'r hyn oll a ddywedai yma am gyfraniadau y Philippiaid. Yr oeddynt yn "arogl peraidd" gan Dduw, ac hefyd yn "aberth cymmeradwy a boddlawn ganddo."

19. *A'm Duw i a gyflawna eich holl raid chwi.*—Dyma yr ad-daliad a addawa yr apostol iddynt. Nid dymuniad sydd yma, ond sicrhâd. Tystiai yr apostol, yn yr adnod o'r blaen, fod y Philippiaid wedi "cyflawni" ei eisieu ef; yma y mae yn sicrhau y byddai i'w Dduw "gyflawni" eu rhaid hwythau. Ond nid "yn ol" eu rhaid, eithr "yn ol (yn gyfattebol i, yn deilwng o) ei olud ei hun." *Mewn gogoniant.*—Y modd yn mha un y byddai y cyflawniad hwn ar eu rhaid yn dyfod i'r golwg. *Yn Nghrist Iesu.*—Y llwybr, a'r unig lwybr trwy ba un yr oedd ystyr eang y geiriau hyn i gael eu sylweddoli. *Yn ol ei olud ei hun.*—Dyna eangder y cyflawniad. *Mewn gogoniant.*—Dyna nodwedd y cyflawniad. *Yn Nghrist Iesu.*—Dyna y modd yr oedd hyny i gael ei ddwyn oddi amgylch. Y mae y geiriau cryfion a arferir yma, fe welir, yn gwarafun i ni eu cyfyngu at anghenion tymmorol y Philippiaid.

20. Yn yr ystyriaeth o'u ffrwythlondeb presennol, ac yn y rhagolwg ar eu gwobr ddyfodol, y mae enaid yr apostol yn cael ei lanw â theimlad o fawl, yr hwn a arllwysir allan ganddo yn yr adnod hon.

21—23. Yma cyfeirir anerchiadau at yr eglwys, ac yna terfynir y llythyr gyda bendith yr apostol iddynt. Y darlleniad llythyrenol ar ddechreu *adn.* 21, yw, "Anerchwch bob sant yn Nghrist Iesu." Fel hyn, y mae yr anerchiad yn gyfeiriedig at bob un ar ei ben ei hun, ac nid at yr eglwys fel cyfangorph: yr hyn sydd yn dangos mwy o anwyldeb fyth. Cyflwyna yr apostol anerchiad oddi wrth y brodyr oedd gydag ef—ei gyfeillion agosaf—y rhai oeddynt mewn cymmundeb mwy uniongyrchol âg ef na'r lleill: yns, oddi wrth yr holl saint, ac yn benaf y rhai oeddynt o deulu Cæsar, sef, y mae yn debyg, rhai ag oeddynt yn ngwasanaeth yr ymherawdwr; y rhai a ddychwelasid, hwyrach, trwy gymdeithasu â Phaul yn ystod ei garchariad yn y llys y cyfeirir efe ato yn nechreu y llythyr.

YR

EPISTOL AT Y COLOSSIAID.

DINAS COLOSSÆ.

Colossæ, neu Colassæ, oedd ddinas enwog o Phrygia yn Asia Leiaf, yn sefyll ar y brif ffordd o Ephesus i'r dwyrain. Yr oedd wedi ei chodi ar yr afon Lycus, yr hon oedd ychydig islaw y dref yn ymarllwys i'r Meander. Y crybwylliad cyntaf am Colossæ a wneir gan Herodotus (hanesydd Groegaidd a anwyd 484 cyn Crist), yr hwn a ddywed i Xerxes, pan ar ei daith i Groeg, fyned o Anana i Colossæ, "lle mae yr afon Lycus yn suddo i hollt yn y dref, yn myned o'r golwg dan y ddaear, ac yn dyfod allan eilwaith bum ystâd (ryw hanner milldir) oddi yno, ac yn ymarllwys i'r Meander. Y mae traddodiad i'r dref fod unwaith mewn perygl o gael ei hysgubo ymaith gan lifeiriant creulawn, ond iddi gael ei hachub trwy ddisgyniad Michael, yr archangel, yr hwn a holltodd agen yn y ddaear i'r dyfroedd fyned iddi. Cyfodwyd eglwys o anrhydedd i'r angel wrth enau yr hollt. Dywed Xenophon, fod Cyrus, ar ei daith i'r Euphrates wedi croesi y Meander, a dyfod i Colossæ, "dinas fawr a phoblog." Yr oedd dinasoedd Hierapolis a Laodicea yn ddinasoedd o Phrygia, ac yn gyfagos i Colossæ, a'r ddwy olaf yn enwog am eu gweithfaoedd gwlân, ac am eu medrusrwydd mewn lliwio. Dywedir i'r tair ddioddef yn drwm o blegid daeargryn, yn mhen ychydig amser wedi ysgrifeniad y llythyr hwn. Y farn gyffredin yw, na chododd Colossæ i'w bri cyntefig ar ol y ddaeargryn, er fod yr ysgrifenwyr Byzantaidd, ganrifoedd ar ol hyny, yn ei gosod yn mysg dinasoedd mwyaf cyfoethog y wlad. Nis gellir gwybod pa hyd y bu cyn syrthio yn adfeilion anghyfanneddol; ond felly y bu, nes y cododd ammheuaeth am y lle y safai. Buwyd am oesau o'r farn fod y pentref a adnabyddir wrth yr enw Chonos yn sefyll ar y fan y safai dinas gyntefig Colossæ. Ond y mae y teithiwr enwog Hamilton wedi cloddio i ganol hen adfeilion y ddinas, ac wedi profi mai rhyw dair milltir i'r gogledd o bentref Chonos y safai yr hen dref; ac y mae ei farn ef yn cael derbyniad cyffredinol.

SEFYDLIAD YR EGLWYS YN COLOSSÆ.

Nid oes sicrwydd gan bwy y sefydlwyd eglwys Colossæ. Myn Theodoret, Lardner, Tomline, ac ereill, mai Paul fu yno yn ei sefydlu. Seiliant eu dadl ar y ffaith i Paul dalu ymweliad ddwy waith â Phrygia; a chan fod Colossæ yn ddinas o gryn bwys, nad oedd yn debyg y buasai yn ei hysgoi; fod ymadroddion yn yr epistol ei hun yn cadarnhau y dyb, megys *Col.* i. 21—25; a bod holl dôn y llythyr fel un yn ysgrifenu at rai ydoedd gan yr awdwr adnabyddiaeth bersonol o honynt. Yn *Act.* xvi. 6, cawn hanes ymweliad cyntaf Paul â'r parth hwn i bregethu yr efengyl. Yn *Col.* xviii. 23, cawn hanes ei ail ymweliad i gadarnhau y dysgyblion; ond ni ddywedir yn un lle iddo dalu ymweliad â Colossæ. Yr oedd ei lwybr ef yn y teithiau hyny yn ei gadw yn rhy uche i'r gogledd, gan yr elai o Cilicia a Derbe i Lystra, ac oddi yno trwy Phrygia a Galatia i Mysia, a Throas. Ac yn yr ail daith daeth trwy Galatia a Phrygia i Ephesus a Troas, a thrwy barthau gogleddol Asia Leiaf. Felly nid oes dim yn y braslun o'i deithiau a gawn yn yr Actau yn ffafriol i'r dyb fod Paul wedi ymweled â Colossæ; ac y mae distawrwydd yr hanes ar y pwngc, a thystiolaeth bendant yr apostol ei hun (*Col.* ii. 1), nad oeddynt wedi gweled ei wyneb ef yn y cnawd, yn myned yn mhell i brofi nad Paul, yn uniongyrchol, oedd sylfaenydd yr eglwys.

Barna nifer mawr mai Epaphras a sefydlodd eglwys Colossæ, yr hwn oedd gyda'r apostol Paul pan ysgrifenodd yr epistol hwn; a chan yr hwn, yn ddiau, yr oedd wedi cael yr hysbysrwydd am yr eglwys a fu yn achlysur ysgrifeniad y llythyr. Seilia yr esbonwyr hyn eu barn yn benaf ar *Col.* i. 7: "Megys ag y dysgasoch gan Epaphras ein hanwyl gyd-was, yr hwn sydd drosoch chwi yn ffyddlawn weinidog i Grist." Metha ereill a gweled yr adnod hon yn profi hyny, ond yn hytrach yn awgrymu y gwrthwyneb. Ond er nad yw y geiriau uchod yn brawf terfynol ar bwngc sylfaeniad yr eglwys, y mae yn sicr fod Epaphras yn un o weinidogion cyntaf yr eglwys hon. Ymddengys yn debygol iawn i lawer o bobl o dref Asia Leiaf dalu ymweliad â Phaul yn ystod ei arosiad maith yn Ephesus; ac i'r personau hyny a ddychwelwyd i'r ffydd trwy ei weinidogaeth, fyned ymaith gan bregethu Crist, a chychwyn eglwysi yn eu gwahanol gartrefleoedd: ac y mae lle cryf i gasglu mai felly y bu yn Colossæ. Wrth fabwysiadu y dyb hon, gellid ystyried Paul fel tad ysbrydol yr eglwys yn Colossæ, er nad ymwelodd â'r lle yn bersonol. Gallasai, trwy ymweliadau felly âg ef, ddyfod yn adnabyddus â llawer o honynt, fel y cawn ei fod âg Epaphras, Philemon,

Apphia, Achippus, ac aelodau ereill o eglwys Colossæ, a gwybod eu holl helynt. Bydda' hyn hefyd yn rhoddi cyfrif am y cynnhesrwydd personol mawr a broffesai yr apostol atynt. Yr un modd y gallasent fod wedi ymgydnabyddu â Thimotheus, yr hwn y coffeir ei enw yn nechreu yr epistol, gan y darllenwn fod Timotheus gyda Phaul yn Ephesus. Dywed Alford :—"Ymddengys i Epaphras, un o drigolion Colossæ, daro wrth Paul yn Ephesus, gael ei ddychwelyd drwyddo, a myned yn ei ol fel cenadwr i'w ddinas ei hun. Ymunodd âg ef wedi hyny—oll wedi eu dychwelyd trwy yr apostol Paul yn Ephesus—Philemon, Apphia ei wraig, ac Archippus ei fab (tebygol). Gwasanaethai eu tŷ fel un o leoedd cynnulliad yr eglwys a derbyniwyd hwy eu hunain i wasanaeth cyssegredig y weinidogaeth."

Y LLE A'R AMSER YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Y farn hynaf a mwyaf cyffredinol yw, i'r epistol gael ei ysgrifenu gan Paul o Rufain, pan oedd yn garcharor yno. Ond y mae amryw feirniaid yn Germany yn ddiweddar, heb nemawr sail, dybygid, yn ammheu y dyb hon. Y mae yn amlwg oddi wrth yr epistolau eu hunain fod yr Epistol at yr Ephesiaid, yr Epistol at y Colossiaid, a'r Epistol at Philemon, wedi eu hysgrifenu pan oedd eu hawdwr mewn rhwymau. Gwel *Eph.* iii. 1, iv. 1, a vi. 20; *Col.* iv. 3; *Philem.* ix. 10. Ac y mae agos yn sicr i'r tri gael eu hysgrifenu o'r un lle, a thua'r un amser. Profir hyn am y ddau gyntaf gan debygolrwydd eu cynnwysiad, a chan y ffaith iddynt gael eu cyflwyno trwy law yr un cludydd, Tychicus: a phrofir hyn am y ddau olaf, trwy fod y cyfarchiadau yn y ddau oddi wrth yr un personau, Epaphras, Marcus, Aristarchus, Demas, a Lucas; a choffeir achos Onesimus yn y ddau.

Yn awr, gan fod yn amlwg i'r llythyrau hyn gael eu hysgrifenu pan oedd Paul yn garcharor; a chan nad oes genym hanes ond am ddau garchariad o ddim pwys arno—un yn Cesarea, am agos i ddwy flynedd (*Act.* xxiv. 27), a'r llall yn Rhufain am ddwy flynedd gyfan (*Act.* xxviii. 30), y mae yn rhaid penderfynu i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu o un o'r ddau le uchod. Ac nid ydym yn gweled digon o nerth yn ngwrthddadleuon Schulz, Schott, Böttger, Wiggers, a Meyer, i siglo dim ar yr hen draddodiad, mai o Rufain yr ysgrifenwyd ef. Ac wedi cyttuno ar y lle, nid yw yn anhawdd penderfynu yr amser. Gesyd holl feirniaid ddwy flynedd carchariad Paul yn Rhufain rhwng y blynyddoedd 60 a 65; a chyttuna y rhan fwyaf ar y flwyddyn 62 fel dyddiad ysgrifeniad y llythyr hwn, pan oedd Paul yn aros dan wyliadwriaeth milwr, yn ei dŷ ardrethol ei hun, ac yn cael rhyddid i "bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethau y pethau am yr Arglwydd Jesu Grist, gyda phob hyder yn ddiwahardd;" *Act.* xxviii. 30, 31.

ACHLYSUR A CHYNNWYSIAD YR EPISTOL.

Ymddengys mai achlysur ysgrifeniad yr epistol hwn ydoedd, yr adroddiad a gafodd yr apostol o helynt yr eglwys yn Colossæ, gan Epaphras ac Onesimus, tebygol, y rhai oeddynt breswylwyr y dref hono. Wedi clywed am lawer o rinweddau yr eglwys, "eu ffydd yn Nghrist Iesu, a'r cariad at yr holl saint," deallodd hefyd fod yno ddrwg yn peryglu purdeb a heddwch y dysgyblion. Yr oedd rhywun, neu rywrai, wedi dyfod i mewn atynt gyda "gwag philosophi," a defodau cnawdol, i'w hudo oddi wrth symlrwydd yr efengyl. Er mai eglwys Genhedlig ydoedd, bernir mai Iuddewon oedd y gau-athrawon yma. Dywed Josephus i Alexander Fawr anfon dwy fil o Iuddewon o Mesopotamia a Babilon i warchod trefi Lydia a Phrygia, o blegid anniddigrwydd trigolion y parthau hyn; ac y mae yn debygol mai o'r cyfryw y cododd y gau-athrawon i fiino eglwys Colossæ. Cyfeiria yr apostol at natur y cyfeiliornadau yn *pen.* ii. 8, 16—23, lle y gellir casglu fod ymgais yn cael ei wneyd i arwain yr eglwys ieuangc hon yn ol at ddefodau Iuddewiaeth, a'r defodau hyny wedi eu lliwio neu eu cymmysgu â rhai o hen dybiau cyfriniol Groegaidd y parthau hyny, yr hyn a'u gwnelai yn fwy derbyniol, ac yn fwy peryglus i'r Colossiaid. Yr oedd Phrygia yn hynod am ei hofergoeliaeth, a llawer o dybiau hynod yn ffynu yno y pryd hwn. Ac er mwyn hudo y Cristionogion ieuainge, cymmysgid addoliad angylion, a hen dybiau dychymygol Cenhedlig a hen ddefodau Iuddewig am fwydydd, a diodydd, a dyddiau gŵyl, a newydd-loerau, &c.; a gosodid y pethau hyn i fyny i guddio gogoniant person a chyfryngdod Crist. Cafodd addoliad angylion gymmaint o afael yn Nghristionogaeth y parthau hyn, fel y cawn Gynghorfa Laodicea, yn y 4edd ganrif, dan orfod i gyhoeddi gwaharddiad arno. Deall fod y cyfeiliornadau hyn yn cael eu hau yn eglwysi Phrygia a barodd i'r apostol deimlo mor frwd dros yr athrawiaeth bur, ac ysgrifenu y llythyr hwn i geisio eu rhagflaenu. Ymddengys i'r apostol oedi am beth amser ar ol clywed yr adroddiad cyn ysgrifenu. Cesglir hyn oddi wrth *pen.* i. 9; "Ninnau, er y dydd y clywsom, nid ydym yn peidio a gweddïo drosoch," &c. Tebyg iddo aros hyd nes oedd Tychicus, gyda'r hwn yr anfonodd y llythyr, yn barod i ymadael o Rufain.

Y mae y llythyr hwn, fel y rhan fwyaf o lythyrau Paul, a rhan o hono (yn cynnwys y ddwy bennod gyntaf) yn athrawiaethol, a'r rhan arall (yn cynnwys y ddwy bennod olaf) yn ymarferol; ac y mae y naill a'r llall yn cymmeryd eu ffurf oddi wrth gyflwr yr eglwys yr ysgrifenai ati, yn ei chyssylltiad â'r gau-athrawon. Wedi y cyfarchiad arferol, dychwela yr apostol ei ddiolchgarwch i Dduw am y profion a ddygid iddo gan Epaphras o'u ffydd a'u cariad, ac am y llwyddiant oedd wedi bod ar weinidogaeth ei "anwyl gyd-was" yn eu mysg (*pen.* i. 1—8), a dengys ei fawr bryder a'i weddiau am iddynt gynnyddu yn ngwybodaeth am Dduw, ac yn mhob doethineb a deall ysbrydol, gan ddiolch i'r Tad am eu symmudiad i deyrnas ei anwyl Fab (*pen.* i. 9—13), "Yr hwn yw delw y Duw anweledig, cyntafanedig pob creadur:"—Creawdwr pob peth, Pen yr eglwys, a chymmodwr y byd â Duw trwy ei waed ei hun (*pen.* i. 14—27). "Ardderchog yn wir, yw y modd, yn y frawddeg hir (*pen.* i. 9—20), y gwneir i ddelw ein Harglwydd gogoneddus godi yn araf i olwg llygad y meddwl, yn ei holl gariad a'i fawredd; a gofelir gyda llaw, fod pob dosran yn gwneyd ei waith ei hun, mewn cadarnhau y gwirionedd, a thori i lawr y cyfeiliornad."—*Alford.*

NODIADAU AR YR EPISTOL AT Y COLOSSIAID.

Fel y mae yr apostol, yn ei eglurhâd o ogoniant sefyllfa gwaith Crist, yn *pen.* i. wedi tori dan seiliau y gau-athrawon cyn dyfod yn uniongyrchol atynt yn *pen.* ii. Yn nechreu yr ail bennod, dengys yr apostol ei bryder am ddiogelwch y Colossiaid, ac eglwysi ereill nad oeddynt wedi mwynhau ei weinidogaeth ef yn bersonol, a daw yn fuan at amcan uniongyrchol yr epistol; a chynghora ei ddarllenwyr, y rhai oeddynt wedi derbyn Crist, i rodio ynddo, heb gymmeryd eu hudo oddi wrth symlrwydd efengyl Crist, gan ffug-ddoethineb ddynol ar y naill law, na chymmeryd eu rhwydo dan iau caethiwed hen ddefodau Iuddewig, oddi wrth ba rai yr oedd Crist wedi eu ryddhau, ar y llaw arall. Yr oeddynt, yn Nghrist, wedi eu cyflawni; yr oeddynt wedi derbyn ynddo ef holl drysorau doethineb a gwybodaeth; yr oeddynt yn eu bedydd wedi eu claddu gyda Christ i ddefodau yr hen oruchwyliaeth; wedi cyfodi gydag ef i fywyd newydd uwch (*pen.* ii. 1—iii. 4). Ac yn rhanau olaf y llythyr, cymmhwysa yr apostol y dyledswyddau sydd yn codi yn naturiol oddi wrth y gwirioneddau hyn. Wedi gwisgo y dyn newydd, yr oeddynt i farwhau yr holl rinweddau Cristionogol, tuag at Dduw, a thuag at eu gilydd. Dymuna hefyd am eu gweddiau drosto, am i air yr Argiwydd gael ffordd agored, er ei fod ef ei hun mewn rhwymau, a chyfeiria hwynt at Tychicus am wybodaeth fanylach am ei helynt; a therfyna gada'r cyfarchiadau serchocaf drosto ei hun a'r rhai oedd gydag ef, gan ddymuno i'r llythyr gael ei ddarllen i eglwys Laodicea, a darllen y llythyr yr oedd efe wedi ei anfon i Laodicea yn eglwys Colossæ.

Y mae tebygolrwydd mawr rhwng yr epistolau at y Colossiaid ac at yr Ephesiaid—mwy nag rhwng unrhyw ddau ereill o lythyrau Paul; a byddai darllen y ddau ynghyd yn fantais i ddeall y naill a'r llall. "Y mae yr Epistol at y Colossiaid," meddai Alford, "tra yn cymmeryd safle uchel yn mysg llythyrau Paul am danbeidrwydd mewn cerydd a serchiadau. yn llai llym na'r Epistol at y Galatiaid, ac yn llai serchiadol na'r Epistolau at y Thessaloniaid a'r Philippiaid. Un o'r llythyrau sydd wedi codi oddi ar achlysur ydyw; a thrin hwnw yn benaf y mae. Felly yr Epistol at y Galatiaid; ac y mae yn hynod i bob un o lythyrau achlysurol yr apostol gynnyrchu epistol cyffredinol mwy. Agorodd yr un at y Galatiaid ar yr un at y Rhufeiniaid; a hwn ar yr un at yr Ephesiaid.

YR EPISTOL AT Y COLOSSIAID.

PENNOD I.

1 *Ar ol cyfarch iddynt, y mae Paul yn diolch i Dduw am eu ffydd hwy; 7 ac yn cadarnhau dysgeidiaeth Epaphras; 9 ac yn gweddio yn mheilach ar iddynt gynnyddu mewn gras: 14 yn portreadu y gwir Grist; 21 ac yn eu hannog hwy i dderbyn Iesu Grist; ac yn canmawl ei weinidogaeth ei hun.*

B. A. 62.

PAUL, apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, a Thimotheus *ein* brawd,

2 At y saint a'r ffyddlawn frodyr yn Nghrist y rhai sydd yn Colossa. Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

3 [a] Yr ydym yn diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, [b] gan weddio drosoch chwi yn wastadol;

[a] Rhuf. 1. 8, 9; 1 Thes. 1. 2.

[b] Eph. 3. 14—19.

4 Er pan glywsom am eich [c] ffydd yn Nghrist Iesu, ac am y cariad *sydd genych* tuag at yr holl saint;

[c] Gal. 5. 6.

5 Er mwyn y [d] gobaith a roddwyd i gadw i chwi yn y nefoedd,

[d] Act. 23. 6

PENNOD I.

1. Arfera Paul osod allan ei awdurdod ar ddechreu ei lythyrau. Yr oedd mwy o reswm dros iddo ef wneyd hyn, gan fod ei alwad i'r apostoliaeth yn wahanol ac yn ddiweddarach na'i gydapostolion, a rhai, o'r herwydd, yn ammheu ei awdurdod. Ond cafodd alwediqaeth ddwyfol amlwg, fel yr oedd yn *apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw*, ac nid trwy gymmeryd y swydd arno ei hun: *Act.* ix. Tri chymmhwysder apostolaidd oeddynt—1. Gweled yr Iesu ar ol ei adgyfodiad. 2. Derbyn ei genadwriaeth yn uniongyrchol gan yr Arglwydd. 3. Derbyn mesur helaeth o'r Ysbryd Glân, gyda gallu i wneuthur gwyrthiau. Yr oedd Paul wedi derbyn y cymmhwysderau hyn oll. Ni wyddys beth oedd ei amcau wrth enwi Timotheus a brodyr ereill ar ddechreu ei lythyrau, os nad er mwyn cadarnhau ei eiriau â chwaneg o dystion. Nid yw yn nodi Timotheus fel apostol, ond fel "brawd." Yr oedd yn naturiol iddo gyssylltu enw Timotheus â'r llythyr hwn, gan ei fod yn frodor o Lystra, yn Phrygia, ac yn adnabyddus, y mae yn debygol, i'r Colossiaid.

2. *Colossa*:—dinas yn Phrygia. Y mae yr enw "saint" yn dangos eu hundeb â Duw, wedi eu neilduo trwy ei ras; a'r enw "brodyr," yn dangos eu hundeb â'u gilydd: ac y mae y ddwy berthynas yn galw am ffyddlondeb. Y mae y teitlau uchel hyn, a'r cyfarchiad serchog, â thuedd ynddynt i ennill meddyliau y Colossiaid i wrando cenadwri y llythyr. Y mae y fendith apostolaidd, "Gras i chwi, a thangnefedd," &c., agos yn yr un geiriau yn yr holl epistolau.

3. Am bob testyn gorfoledd y mae yr apostol wedi ei gael yn y Colossiaid, y mae yn diolch i Dduw; cydnebydd wrth hyn mai oddi wrth Dduw yr oedd pob gras yn dyfod. Diolcha, nid am yr hyn y mae efo ei hun yn dderbyn, ond am y bendithion y mae ereill yn eu derbyn. Y mae yn diolch am ffydd a chariad y Colossiaid—bendithion penaf yr efengyl ei hun. *I Dduw a Thad ein Harglwydd*, &c.—"I Dduw, yr hwn yw Tad ein Harglwydd Iesu Grist."—*Alford.* "Nid yw yn gyfreithlawn i ni gydnabod unrhyw Dduw, ond yr hwn a amlygodd ei hun i ni yn ei Fab. Dyma yr unig allwedd i agor y drws i ni, os byddwn am ddyfodfa at y gwir Dduw."—*Calvin.* Y mae yn diolch i Dduw y Tad, gan weddîo drostynt. Er eu bod wedi derbyn llawer, yr oeddynt etto mewn angen parhaus. Dyma y ffordd i ninnau i'w harfer—gyda diolchgarwch i wneuthur ein deisyfiadau yn hysbys ger bron Duw.

4. Y mae yn debyg fod yr apostol wedi oedi peth amser cyn ysgrifenu, wedi derbyn adroddiad Epaphras am sefyllfa yr eglwys (gwel *adn.* 7). Y dd au ras yn yr adnod hon y diolchir am danynt yw, *Ffydd yn Nghrist.*—"Yn Nghrist," o blegid mai Crist yw ei gwrthddrych; *a chariad tuag at yr holl saint*—presennol ac absennol. Nid yw yr ymadrodd hwn yn cynnwys fod cariad yr efengyl yn gyfyngedig at Gristionogion yn unig; nid dangos ei gyfyngder y mae, ond ei eangder. Y mae cariad y Cristion, fel yr eiddo Crist, mor llydan a'r byd; ond y mae o angenrheidrwydd yn gryfach at y "rhai sydd o deulu y ffydd."

5. Tybia llawer fod yr adnod hon i'w chyssylltu â'r "diolch" yn *adn.* 3. "Am y gobaith," y darllena y Saesneg. Felly y dywed Bengel—fod gobaith i'w gymmeryd yma, fel ffydd a chariad, yn destyn diolch am danynt—"ffydd, gobaith, cariad" (yn *adn.* 4. 5), cyfanswm Cristionogaeth. Ond barna Alford ac ereill yn wahanol, a deil at y geiriad fel y mae yn y Gymraeg, "Er mwyn y gobaith," &c. Nid ydyw i'w gyssylltu â'r "diolch" yn *adn.* 3, am fod sail y cyfryw ddiolchgarwch yn wastad yn nghyflwr ysbrydol

[a] Act. 10 36; Rhuf. 10. 8; [e] yn ngair gwirionedd yr efengyl;
[1] Tim. 1. 15; 1 Pedr 2. 2.
[b] Marc 4. 8, 26—29; Ioan 15. 16; Act. 12. 24; Phil. 1. 11.
[c] Salm 110. 3;
[f] ac sydd yn dwyn ffrwyth, megys ag yn eich plith chwithau, er y dydd y clywsoch,
[g] gwybuoch ras Duw mewn gwirionedd:

1 Cor. 15. 10. 11;
2 Cor. 6. 1;
Eph. 4. 23, 24.
2 Thes. 2. 13, 14.

7 Megys ag y dysgasoch gan Epaphras ein hanwyl gyd-was, yr hwn sydd droseh chwi yn ffyddlawn weinidog i Grist;

8 Yr hwn hefyd a amlygodd i ni eich cariad chwi yn yr Ysbryd.

9 O herwydd hyn ninnau hefyd, er y dydd y clywsom, nid ydym yn peidio â gweddïo drosoch, a deisyf eich cyflawni chwi â gwybodaeth ei ewyllys ef yn mhob doethineb a deall ysbrydol;

10 Fel [h] y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth yn mhob gweithred dda, a [i] chynnyddu yn ngwybodaeth am Dduw;

[h] Col. 2. 6; 4. 5.
[i] Col. 2. 19.

y person a gyferchir, a phrin y gellir ystyried hwn yn gyfryw. Y mae y gobaith yma i'w gymmeryd, fel mewn llawer o fanau, am y peth y gobeithir am dano, sef gogoniant a dedwyddwch y nefoedd. Yr oedd hwnw allan o berygl ei golli, wedi ei roddi i gadw yn y nefoedd. "Ni bydd gobaith bywyd tragwyddol ynom byth yn ddiffrwyth, fel ag i beidio cynnyrchu cariad ynom. Y mae myfyrdod ar fywyd y nefoedd yn cyffroi ein serchiadau at addoli Duw, ac at ymarfer cariad. Y gobaith sydd yn ein calon yw y gogoniant yr ydym ni yn ei ddisgwyl yn y nefoedd; etto, pan ddywed fod 'gobaith wedi ei roddi i gadw i ni yn y nefoedd,' ei feddwl yw, y dylai credinwyr deimlo mor sicr gyda golwg ar addewid am ddedwyddwch tragwyddol, a phe byddai ganddynt eisoes drysor wedi ei roddi i'w gadw mewn lle diogel."—*Calvin.* *Am yr hon* (obaith) *y clywsoch o'r blaen,* &c.—Ni chymmerai yr apostol aruo ddysgu dim newydd iddynt yn ei lythyr, ond eu cadarnhau yn yr athrawiaeth yr oeddynt eisoes wedi ei derbyn, ac oedd yn dwyn ffrwyth mor ragorol ynddynt. *Gair gwirionedd yr efengyl:*—neu, gair gwir yr efengyl. Rhoddai ŷr anrhydedd mwyaf ar yr efengyl a bregethasid iddynt trwy ei galw yn "air gwirionedd."

6. Dengys yr apostol yma fod yr efengyl yn profi ei gwirionedd ei hun trwy ddwyn yr un ffrwyth bendigedig yn mhob man—yr un fath "yn yr holl fyd" ag yn y Colossiaid. Er fod yr efengyl eisoes wedi lledaenu yn fawr, nid yw y geiriau yn golygu fod yr holl genhedloedd wedi derbyn yr efengyl y pryd hwnw. Ond yr oedd yr holl fyd yn awr, yn ol gorchymyn Crist (*Marc* xvi. 15), yn faes iddi, a hithau yn gweithio yn nerthol ynddo, ac yn dwyn yr un ffrwyth sanctaidd—yr un bywyd o ffydd a chariad yn mhawb. *Er y dydd y clywsoch,* &c.—Cyfeiria yma at eu parodrwydd i dderbyn yr efengyl pan glywsant hi, a'u ffyddlondeb yn glynu wrthi "er y dydd" hwnw. Dyma ydyw credu, "Gwybod gras Duw mewn gwirionedd," neu, yn wirioneddol.

7. Y mae wedi dangos eisoes mai gair gwirionedd yw yr efengyl, *adn.* 5; a bod eu derbyniad hwythau o honi yn un gwirioneddol, ac nid ymddangosiadol, *adn.* 6; ac yma dengys fod Epaphras, yr hwn fu yn eu dysgu yn yr efengyl, yn wir a ffyddlawn weinidog i Grist. Yr oedd yn amcan gan Paul yn wastad i anrhydeddu gweinidogion ffyddlawn Crist yn ngolwg yr eglwysi, er eu bod yn llenwi lle îs nag ef yn ngwasanaeth ein Harglwydd. Yr oedd wrth hyn, yn darparu ei ffordd i gadarnhau y Colossiaid yn yr athrawiaeth yr oeddynt wedi ei derbyn. *Gweinidog i Grist:*—dros, neu er mwyn yr eglwys.

8. *Cariad chwi yn yr Ysbryd.*—"Cariad," yr hwn yw ffrwyth yr Ysbryd, neu, gariad ysbrydol, yn wrthgyferbyniol i gariad cnawdol. Y mae cariad ysbrydol â'i drem uwch law pethau tymmorol, a'i wraidd yn fewnol yn yr ysbryd; ond y mae cyfeillgarwch cnawdol â'i drem yn îs, ac yn dibynu ar amgylchiadau oddi allan.

9. Yn *adn.* 9—12, y mae yn gweddïo am eu cadarnhâd a'u perffeithiad yn y bywyd ysbrydol. Soniodd o'r blaen (*adn.* 3), ei fod yn gweddïo drostynt: yn awr dywed am ba bethau y gweddïai. *O herwydd hyn:*—eu ffydd a'u cariad, &c. *Eich cyflawni chwi â gwybodaeth ei ewyllys ef.*—Er fod y Colossiaid yn meddu ar ysbryd rhagorol, ac amryw rinweddau Cristionogol ereill, ymddengys eu bod yn brin mewn gwybodaeth; a chawn yr apostol yn gwasgu yr angenrheidrwydd o gynnyddu mewn gwybodaeth atynt yn fynych trwy gorph yr epistol: *adn.* 9, 10, 28; *Col.* ii. 2, 3; iii. 10, 16; iv. 5, 6. Nid yw yn cyfeirio cymmaint at wybodaeth wrth ysgrifenu at y Corinthiaid, am eu bod hwy yn fwy tueddol i ymchwyddo. Gwelwn yma lwybr doeth a chynnil yr apostol i fyned at ddiffygion y Cristionogion hyn; sef, trwy nodi y pethau yr oedd efe yn gweddïo am danynt ar eu rhan—"gwybodaeth ewyllys Duw," ac nid gwybodaeth dyfeisiau a dychymygion dynion. Dyma ffynnonell pob gwir wybodaeth—ewyllys Duw yn ei air. Y mae "deall," neu gallineb, yn fwy cyfyng, yn perthyn i un gynneddf o'r enaid, sef y deall; ond y mae "doethineb" yn fwy eang, ac yn perthyn i holl gynneddfau yr enaid. Gelwir y "ddoethineb" a'r "deall" yn "ysbrydol," am nas gellir eu cyrhaedd ond dan arweiniad yr Ysbryd. Y dyn anianol nis gall wybod y pethau sydd o Dduw: 1 *Cor.* ii. 14.

10. Dyma ffrwyth "gwybodaeth ei ewyllys ef," &c. (*adn.* 9):—*Rhodio yn addas i'r Arglwydd:*—yn deilwng o'r Arglwydd Iesu Grist: *Eph.* iv. 1. *I bob rhyngu bodd:*—i ryngu bodd Duw yn mhob peth. Nis gall bod cymmhelliad uwch na hwn i fywyd. Mae y "dwyn ffrwyth" a'r "cynnyddu," i'w cymmeryd mewn cyssylltiad â'r "cyflawnir" yn *adn.* 9. Gweithredoedd da yw y ffrwyth, "trwy wybodaeth am Dduw" offeryniolaeth y cynnydd. "Os gofyuir, Pa fath fywyd sydd yn deilwng o Dduw? cadwn mewn golwg yn wastad y disgrifiad hwn o eiddo Paul—mai y cyfryw fywyd ydyw ag sydd yn gadael o'r neilldu opiniynau dynion, a phob tueddiadau cnawdol, ac yn cael ei reoli fel ag i fod yn ddarostyngedig i Dduw yn unig. Bydded i'r holl gredinwyr gymmeryd yr hyn a ddywedir yma wrth y Colossiaid, fel yn cael ei ddywedyd wrthynt hwy eu hunain, a thynu oddi wrtho

11 Wedi eich nerthu â phob nerth yn ol ei gadernid gogoneddus ef, i bob dioddefgarwch a hirymaros gyda llawenydd;

[k] Col. 3. 15, 17. [l] Rhuf. 11. 17.

12 [k] Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmhwys i *gael* [l] rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.

13 Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch, ac a'n symmudodd i [m] deyrnas ei anwyl Fab: [m] Salm 2. 6 7.

14 Yn yr hwn y mae i ni bryn-edigaeth trwy ei waed ef, *sef* maddeuant pechodau.

15 Yr hwn yw delw y Duw anweledig, cyntafanedig pob creadur:

---

gasgliad cyffredinol—fod yn rhaid i ni gynnyddu yn athrawiaeth duwioldeb hyd angeu."—*Calvin.*

11. Darllena Alford, "cadernid ei ogoniant." *Dioddefgarwch*:—nid yn unig dan orthrymder, ond i fyw allan y bywyd ysbrydol. *Hir-ymaros*:—nid yn unig tuag at elynion ac erlidwyr, ond hefyd yn yr ymgyrch â chyfeiliornad, yr hyn sydd yn fwy perthynol i amcan yr epistol. Yma gweddïa am nerth i ddal yn wrol a diysgog dan holl brofedigaethau y bywyd newydd. Nid oedd a allai eu cynnal ond nerth Duw. Mor bell y mae dyn o fod yn abl i ymgynnal trwy ddibynu ar ei nerth ei hun, fel y mae gallu Duw yn ymddisgleirio mewn gogoniant wrth gynnal ein gwendid. Rhaid wrth "ddioddefgarwch a hirymaros," gan fod y croesau mor drymion, a'r temtasiynau mor liosog: ac i fyw yn addas i'r Arglwydd (*adn.* 10), y mae yn gweddu i ni ddal danynt "gyda llawenydd;" 2 *Cor.* vii. 4.

12. *Gan ddiolch i'r Tad.*—Myn Alford ac ereill fod y gair hwn yn perthyn i'r Colossiaid, ac i'w gyssylltu âg *adn.* 11. "Wedi eich nerthu â phob nerth, &c., gan ddiolch i'r Tad," &c. Ond tybia Bengel, Calvin, ac ereill, mai yr apostol sydd yn diolch, a bod dechreu yr adnod hon i'w chyssylltu â'r "gweddïo" yn *adn.* 9. "Nid ydym yn peidio a gweddïo drosoch, &c., gan ddiolch." *Yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmhwys.*—Derbynir y cymmhwysder i'r etifeddiaeth yn y mabwysiad a'r adenedigaeth. "Efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion;" *Ioan* i. 12. *I gael rhan*:—i gyfranogi "o etifeddiaeth y saint." Gwel ymadroddion cyffelyb yn *Act.* xx. 32, a xxvi. 18. Y mae cyd-etifeddiaeth gan y saint, ac i bob un o honynt "ran." Cymmherir y geiriau hyn âg *Ioan* xiv. 2. "Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau," gan roddi y "tŷ" yn gyferbyniol i'r "etifeddiaeth," a'r "trigfanau" yn gyferbyniol i'r "rhan." Y mae cyfeiriad, yn ddiau, yma at Wlad Canaan, fel etifeddiaeth ddaearol plant Israel, o'r hon yr oedd i bob Israeliad ran. *Yn y goleuni*:—etifeddiaeth yn y nefoedd. Y mae "goleuni" yn dynodi natur yr etifeddiaeth, fel y mae "tywyllwch," yn *adn.* 13, yn dynodi natur pechod. Goleuni gwybodaeth a llawenydd. Fel plant y goleuni, y maent yn etifeddion teyrnas y goleuni.

13. *Yr hwn*:—sef, y Tad. Gosodir y Tad allan fel awdwr iachawdwriaeth: 2 *Cor.* v. 19. *Gwaredodd ni o feddiant* [gallu] *y tywyllwch.*—Yr oedd "tywyllwch" yn enw gan yr Iuddewon ar y diafol ei hun. Ond bernir nad enw personol yw tywyllwch yma, ond y golyga holl allu pechod ar y dyn annychweledig—holl fyd pechod. Y mae yn gyferbyniol i "goleuni" yn *adn.* 12. Nid yw yr holl fyd, gyda'i wybodaeth, ei ddoethineb, a'i gyfiawnder, ond tywyllwch yn ngolwg Duw (*Eph.* v. 8); ac nid oes neb a all waredu o hono ond Duw ei hun. *Teyrnas ei anwyl Fab.*—Mab ei gariad, ar yr hwn y mae ei gariad yn gorphwys. "Gallu y tywyllwch," ond "teyrnas ei Fab." "Dal caethion y mae gallu, ond meithrin dinasyddion y mae teyrnas."—*Bengel.*

14. Gwel *Eph.* i. 7. Dangosir, yn *adn.* 14—20, awdurdod uchbenaethol a mawredd gogoneddus y Gwaredwr. *Yn yr hwn*:—sef, yn Nghrist. Gosodir y fannod i mewn gan Bengel—"y prynedigaeth." Nid yn unig y mae y prynedigaeth wedi ei ddwyn oddi amgylch gan Grist, ond y mae yn aros yn sylwedd arosol i ni ynddo. Crist ei hun yw ffynnonell ddihysbydd prynedigaeth. Chwanegir "maddeuant pechodau" at "brynedigaeth," er dangos helaethrwydd y waredigaeth trwy waed Crist. Bernir nad yw *trwy ei waed*, yn perthyn i'r adnod hon yn yr hen ysgrifau, ond iddi gael ei chymmeryd o *Eph.* i. 7.

15. Y mae yr apostol bellach wedi ein harwain at berson y Gwaredwr, ac y mae yn ei ddwyn ger bron yn y fath fodd ag i gyfarfod y golygiadau cyfeiliornus yn mysg y Colossiaid. Dangosir ef yn yr adnod hon yn ei berthynas â'r Tad, ac â'r greadigaeth; ac yn *adn.* 18—20, yn ei berthynas â'r eglwys. Y mae y paragraph hwn, ynghyd âg *Eph.* i. 30—23, a *Phil.* ii. 6—11, yn cynnwys y prif ranau, yn y rhai y cawn athrawiaeth epistolau Paul am Grist. Dywed Olshausen fod *adn.* 15—17, yn gosod Crist allan fel person dwyfol, heb un cyfeiriad at yr ymgnawdoliad; a bod *adn.* 18—30, yn ei osod allan gyda'r cyfeiriad hwnw. *Yr hwn yw delw y Duw anweledig.*—Y mae yr adnod hon wedi bod yn faes o ymrysonfeydd lawer rhwng dadleuwyr duwinyddol, a chyfeilio: nadau hollol wrthwyneb i'w gilydd yn cael eu seilio arni. Mynai Sabeliaeth, drwy y geiriau hyn, wneuthur i ffordd â Pherson Crist, a gwneyd y Tad a'r Mab yn ddau enw ar yr un person, er mor wrthun fuasai dyweyd fod un yn "ddelw" o hono ei hun. Mynai yr Ariaid, ar y llaw arall, wneyd i ffordd â natur ddwyfol Crist, a'i ddarostwng i fod yn ddim mwy na chreadur. Nid ydyw Crist yn cael ei alw yn "ddelw Duw" am ei fod wedi ei ffurfio yn ol Duw, fel y dywedir fod dyn yn ei greadigaeth (*Gen.* i. 27), ac yn ei adferiad (*Col.* iii. 10); ond yr hwn sydd yn amlygu ynddo ei hun holl gyfiawnder person a rhiodoliaethau dwyfol, y rhai ydynt guddiedig yn y Tad. "Ni welodd neb Dduw erioed; yr unig anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef:" *Ioan* i. 18. Yn gymmaint fel y dywedai, "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad;" *Ioan* xvi. 9. Y mae Duw yn ei fawrhydi noeth yn anweledig, nid yn unig i lygad y corph, ond i ddeall a rheswm dynol; ac yn Nghrist yn unig y mae wedi ei ddadguddio, fel y gallwn edrych arno megys mewn drych. Y mae Iesu Grist yn ddelw Duw, yn yr hon y mae holl gyfiawnder mawrhydi, natur, a daioni Duw yn ymddangos. *Cyntafanedig pob creadur*:—neu, yn ol yr holl gopïau hynaf, "Cyntafanedig yr holl greadigaeth." Ystyr cyntaf y gair "cyntafanedig" yw yr hynaf o deulu; ac y mae llawer wedi eu

16 Canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynag ai thrônau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grewyd trwyddo ef, ac erddo ef.

17 Ac y mae efe cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.

19 Ac [n] efe yw pen corph yr eglwys: *efe* yr hwn yw y dechreuad, [o] y cyntafanedig oddi wrth y meirw; fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth.

[n] Col. 2. 10—14. [o] Ioan 11. 25, 26; 1 Cor. 15. 20—23.

harwain i ddyryswch gyda'r adnod hon wrth gymeryd yr ystyr cyfyng a llythyrenol yna i'r gair ynddi. Dyma sydd wedi arwain yr Ariaid a'r Sociniaid i feddwl nad ydyw Crist yn ddim ond creadur. Ond y mae holl rediad y cyd-destynau ar unwaith yn gwneyd y cyfryw ystyr yn hollol ddisail. Am fod yr hynaf mewn teulu yn cael ei godi i berchenogaeth helaethach, i fri uwch, ac i arglwyddiaeth dros yr holl deulu a'r eiddo, fe ddaeth y gair "cyntafanedig" i arwyddocau blaenoriaeth, perchenogaeth, ac urddas. Felly y dywed yr Arglwydd am Dafydd: "Minnau a'i gwnaf yntau yn gyntaf [cyntafanedig] goruwch brenhinoedd y ddaear;" *Salm* lxxxix. 27. Hyny ydyw, ei wneyd yn fwy ei urddas, ac yn eangach ei awdurdod. Sonir am gyntafanedig angeu (*Iob* xviii. 13); sef yr hwn yr ydoedd awdurdod neu nerth marwolaeth ganddo. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair am Grist. Y mae yn naturiol casglu fod y gau-ddysgawdwyr yn taenu ammheuaeth yn mysg y Colossiaid am urddas dwyfol yr Arglwydd Iesu; ac am hyny, dengys yr apostol ei fod cyn pob peth, yn berchenog pob peth, ac yn arglwyddiaethu ar bob peth; neu mewn geiriau ereill, digon dealladwy yn iaith yr Ysgrythyrau, yn "gyntafanedig yr holl greadigaeth." "Y mae nerth dadl yr apostol yn gorwedd yn y syniad, ac nid yn y geiriau."—*Olshausen.*

16. Dylid darllen *ynddo ef*, ac nid "trwyddo ef," yn nechreu *adn.* 16. Y mae y gwahaniaeth yn bwysig; ac ni ddylai "yn" y gwreiddiol byth gael ymryd âg ef. Fel y cymmododd Duw y byd âg ef ei hun yn Nghrist, felly y creodd efe bob peth yn Nghrist. Trwy Grist, y mae yn wir, ac y mae hyny yn cael ei hysbysu yn niwedd yr adnod: ond y mae y geiriad "ynddo ef" yn cynnwys llawer mwy.—*Alford.* Y mae yr adnod hon yn eglurhâd ar ddiwedd yr adnod flaenorol, yn dangos pa fodd y mae Crist yn "gyntafanedig pob creadur." Y rheswm am ei oruchlywodraeth ar bob peth yw, am i bob peth gael eu gwneyd ynddo, a thrwyddo, ac erddo. Nid mewn geiriau ammwys y mae Iesu Grist yma yn cael ei osod allan yn Arglwydd creadigaeth. Y mae yn ammhossibl cael iaith gryfach i wrthddywedyd y syniad, fod Crist ei hun yn cael ei gynnwys yn y greadigaeth. Gwel hefyd *Ioan* i. 3; *Eph.* i. 21; *Heb.* i. 3, 10. Y mae yr adnodau hyn yn rhai dyrus i'r rhai a wadant Dduwdod yr Arglwydd Iesu; a'u hunig ffordd i ddyfod allan o'r dyryswch yw trwy haeru nad creadigaeth y byd a feddylir yma, ond adferiad pethau trwy yr efengyl. Yn wir, pe cymmerid yr ystyr hwnw, gellid meddwl fod yr ail greadigaeth yn gofyn person dwyfol i'w chyflawni yn gymmaint a'r cyntaf. Ond os oes rhyw ystyr i ymadroddion, rhaid mai yr un greadigaeth a feddylir yma ag y cawn ei hanes yn *Gen.* i. Un peth i brofi hyny yw, y cyfeirir yma at greadigaeth angylion —"thrônau, arglwyddiaethau," &c. Ac os mai adferiad pob peth ydyw y greadigaeth yma, pa reswm fyddai mewn son am adferiad yr angylion yn y nefoedd? Cyfeirir at ail uniad angylion â dynion, mewn heddwch trwy waed Crist, yn *adn.* 20; a sonir yn *Eph.* i. 10, am beth cyffelyb; ond buasai galw hyny yn greu angylion, yn syniad gwrthun: buasai galw gwaith Crist yn cymmodi y Tad â ni, yn greu y Tad, yr un peth. Rhoddir cymmaint o arbenigrwydd i'r angylion yma, am fod y gau-athrawon yn ceisio hudo y Colossiaid i addoli angylion, a gosod yr angylion i gymmylu gogoniant Crist. Dengys fod Crist o flaen yr angylion, yn uwch na'r angylion, a'u bod hwy oll wedi eu creu drwyddo, erddo, ac yn dibynu arno. Y mae yn rhesymol casglu fod graddau yn mysg angylion, fel yn mysg dynion: ond nid amcan yr apostol wrth ddefnyddio y gwahanol deitlau arnynt a geir yma, ac yn *Rhuf.* viii. 38, ac *Eph.* i. 21, yw rhoddi desgrifiad o'r graddau hyny. Y mae y teitlau wedi eu cymmeryd oddi wrth amrywiol raddau yn mysg dynion. *Thrônau:*—yn golygu y rhai uchaf, yn eistedd ar orseddfeingciau. *Arglwyddiaethau:*—neu bendefigion islaw brenhinoedd. *Tywysogaethau:*—neu lywodraethwyr taleithiau, neu ddinasoedd. *Meddiannau:*—neu awdurdodau; sef rhai yn dwyn gradd is o awdurdod, fel ynadon. Amcan amlwg yr apostol ydyw dangos fod pawb, o'r mwyaf hyd y lleiaf, yn y nefoedd ac ar y ddaear, wedi eu creu yn Nghrist, trwy Grist, ac er mwyn Crist, ac yn cael eu cynnal a'u llywodraethu ynddo. Felly y mae yn gosod Mab Duw ar eisteddle uchaf anrhydedd ac awdurdod yn mysg pob dim a grewyd, pa un bynag ai yn y nefoedd, ai ar y ddaear, yn weledig ac anweledig.

17. *Ac y mae efe*, &c.—Nid "gwnaed ef" cyn pob peth, yr hyn fuasai yn fwyaf cymmhwys pe buasai Crist yn cael ei gynnwys yn y greadigaeth; ac nid "yr oedd efe cyn pob peth;" ond defnyddir yr amser presennol, "Ac y mae efe cyn pob peth." Yr un fath ag yn *Ioan* xiii. 58; "Cyn bod Abraham yr wyf fi." Y mae y cyfryw ymadrodd yn anghymmhwys am unrhyw greadur. *Ac ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll.*—Sylwa Waterland fod yr ymadrodd yma yn gyfystyr â'r un yn *Act.* xvii. 28—"Ynddo ef yn byw, yn symmud, ac yn bod:" yr hyn sydd ddadl nerthol dros hollbresennoldeb Crist, yn gystal a'i allu anfeidrol i gadw a chynnal. Y mae Bengel yn darllen y frawddeg, "A daeth pob peth ynddo ef ynghyd yn un gyfundrefn." Y mae Crist, nid yn unig yn dal yr holl greadigaeth wrth ei gilydd, "yn cynnal pob peth trwy air ei nerth" (*Heb.* i. 3), ond ynddo ef y mae wedi cyrhaedd ei dyben a'i pherffeithiad.

18. Wedi dangos perthynas Crist â'r greadigaeth yn yr adnodau blaenorol, cawn yn yr adnod hon a'r ddwy ganlynol ddisgrifiad o'i berthynas â'i eglwys, y gyfran bwysicaf o'i lywodraeth. *Efe* [yn yr hwn y mae pob peth yn cydsefyll] *yw pen y corph* [sef] *yr eglwys.*—Y mae yr adnod hon etto â'i golwg ar y gau ddysgawdwyr Colossaidd: mynent hwy ddarostwng y Cristionogion

[p] Col. 3. 11.
[q] Lef. 6. 30.

19 O blegid [p]rhyngodd bodd *i'r Tad* drigo o bob cyflawnder ynddo ef;
20 Ac (wedi iddo [q]wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef) trwyddo ef [r]gymmodi pob peth âg ef ei hun, trwyddo ef, *meddaf*, pa un bynag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd.

[r] Cor. 5. 18.
[s] Rhuf. 7. 4.

dan awdurdod yr angylion a Moses (*pen.* ii. 18, 20). Ond gwarafunir yr anrhydedd o fod yn ben yr eglwys yma, nid yn unig i ddyn llygredig megys y Pab, ond i angel glân yn y nefoedd. Fel y mae y pen i'r corph, yn wraidd o'r hwn y mae holl fywyd a nerth yr aelodau yn dyfod, y mae bywyd yr eglwys yn llifo allan o Grist; ond nid at yr ystyr hwn y cyfeiria yr apostol yma, ond yn hytrach at y pen—llywodraethwr y corph. Y mae pob llywodraeth ac awdurdod berthynol i'w eglwys yn llaw Crist ei hun: ei gorph ef yw, ac nis gall neb arall dderbyn na defnyddio yr awdurdod. *Efe, yr hwn yw y dechreuad, y cyntafanedig,* &c.—Y mae Crist yn dal perthynas gyffelyb, ar amrai ystyriaethau, â'r greadigaeth newydd, sef adferiad y byd trwy ei gyfryngdod ei hun, ag ydoedd â'r greadigaeth gyntaf: y mae efe cyn pob peth yn hono hefyd—pawb yn derbyn eu bodolaeth drwyddo, â chanddo arglwyddiaeth hollol arni. Efe yw y dechreuad, o blegid yndo ef y mae yr eglwys yn cael ei dechreuad—o hono ef y mae yn codi. "Cyntafanedig o blith y meirw." 1. Efe a gyfododd gyntaf i fywyd o anllygredigaeth. Cyfodwyd rhai o farw o flaen Crist; ond codi mewn cyrph marwol yr oeddynt, i farw eilwaith. Efe oedd dyn cyntaf y byd newydd—"Cyntafanedig o'r meirw;" *Dad.* i. 5. 2. Trwyddo ef y cyfodir pawb ereill, i fywyd o ogoniant cyffelyb iddo ei hun. "Yn Nghrist y bywheir pawb; eithr pob un yn ei drefn ei hun; y blaenffrwyth yw Crist, wedi hyny y rhai ydynt eiddo Crist yn ei ddyfodiad ef;" 1 *Cor.* xv. 22, 23. Gwelwn mai efe yw Arglwydd y meirw, a chyfrana ragorfraint uchel ei ailenedigaeth ogoneddus i'w holl bobl; "Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef;" *Phil.* iii. 21. *Fel y byddai yn blaenori,* &c:—neu, fel y byddai yn gyntaf yn mhob peth—yn gyntaf o ran amser, ac yn gyntaf o ran urddas.

19. Nid yw *i'r Tad*, yn y copi Groeg, ond mae y gair i'w ddeall. "Y mae uchafiaeth Crist yn mhob ystyr yn cael ei seilio ar berthynas y natur ddwyfol a dynol: trwy ewyllys da Duw, trigodd ynddo ef holl gyflawnder y Duwdod. Nid dyn yn unig gan hyny ydoedd efe, fel y lleill; ond y Duw-ddyn: y natur ddynol ydoedd y trigle, y demi, i'r ddwyfoliaeth oedd yn ei llenwi."—*Olshausen. Drigo o bob cyflawnder ynddo ef:*—*Ioan* i. 14, 16; *Col.* ii. 9. Wedi dangos fod Crist yn dal lle mor anfeidrol bwysig yn ei berthynas â'r greadigaeth, ac â'r eglwys, dangosir yma ffynnonell ei urddas a'i gymmhwysderau, sef o ewyllys a rhagluniad Duw, i holl gyflawnder grasau y ddwy natur gael trigo ynddo; a doethineb a gallu y natur ddwyfol, ynghyd â'i holl briodoliaethau; a sancteiddrwydd a chariad y ddynol, gyda'r holl ddoniau a roddwyd iddi neb fesur. Dyma y pob "cyflawnder" sydd yn trigo yn Nghrist. Y mae y cyfan sydd gan Dduw i'w gyfranu wedi ei drysori yn ei Fab, ac nid yw yn cyfranu i ddynion yr un ffordd arall: ac y mae gosod dyn neu angel yn lle Crist, i ddisgwyl wrtho, yn ddirmyg ar Grist, ac yn taraw yn erbyn ewyllys a threfn Duw

20. Darllena yr adnod yn fwy cywir a synwyrol fel hyn, a hyny mewn cyssylltiad uniongyrchol â'r adnod flaenorol:—"A thrwyddo ef gymmodi pob peth âg ef ei hun, wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef; trwyddo ef, meddaf," &c.—Pob cyflawnder yn trigo ynddo ef ar gyfer gwneuthur cymmod, &c. Y gweithredydd yn yr adnod hon yw Duw y Tad, yr hwn a ddygwyd i mewn yn *adn.* 19: efe sydd yn cymmodi âg ef ei hun trwy Grist, ac yn gwneuthur heddwch trwy waed ei groes ef—marwolaeth y groes. Gwel *Rhuf.* v. 10, 11; 2 *Cor.* v. 19. Yr hyn sydd wedi peri dyryswch mawr i esbonwyr yn yr adnod hon ydyw, fod y pethau ar y ddaear, a'r pethau yn y nefoedd, yn cael eu cymmodi â Duw trwy farwolaeth y groes. Yr angylion a feddylir yn gyffredin yn yr Ysgrythyrau wrth "y pethau yn y nefoedd;" ond y mae yr Ysgrythyr cystal a dywedyd na fwriadwyd aberth Crist i gymmodi angylion syrthiedig; a pha raid wrth gymmod oedd i angylion na phechasant? Cynnygir llawer o ddychymygion cywrain i ddyfod dros yr anhawsder, nad yw yn werth i ni eu cofnodi. Dywed Alford:—"Y mae yn amlwg mai meddwl yr apostol yw, fod heddwch â Duw trwy waed croes Crist wedi pasio ar yr holl greadigaeth, fel cyfanswm, yn cynnwys angylion, yn gystal a dynion, pethau direswm a difywyd, yn gystal a rhesymol." Ac wedi dangos nas gallai cymmod feddwl yr un peth yn ei gyssylltiad âg angylion sanctaidd ag ydyw yn ei gyssylltiad â dynion pechadurus, dywed, "Rhaid i ni beidio meddwl am gymmod (â hwy) cyffelyb i'r eiddom ni, yn ei weithrediad: o blegid ni chymmerodd Crist naturiaeth angylion, ac ni roddodd daledigaeth iawnol drostynt yn eu natur. Ond yn gymmaint a'i fod yn Ben iddynt hwy, fel i ninnau, ac yn gymmaint ag mai yndo ef y maent hwy yn byw, yn symmud, a bod, fel ninnau, nis gallasai yr amgylchiad mawr, trwy ba un y gogoneddwyd ef trwy ddioddefiadau, lai na'u dwyn hwythau yn nes at Dduw, y rhai ydynt, mewn undeb â'r holl greadigaeth, yn cydsefyll ynddo. Gellid meddwl fod ein hapostol yn awgrymu rhyw gynuydd gwynfyd felly yn *Eph.* iii. 10. Y gellid galw y cyfryw gynnydd yn gymmod sydd amlwg. Gwyddom, oddi wrth *Iob* xv. 15, "Nad yw y nefoedd yn lân yn ei olwg ef;" a'i fod "yn gosod ynfydrwydd yn erbyn ei angylion;" *Iob* iv. 18. Yn wir gellid, heb wneyd cam â geiriau, ddisgrifio felly unrhyw ddynesiad agosach ato, yn wyneb yr hwn y mae y sefyllfa flaenorol yn ymddangos yn bellder mawr oddi wrtho; ac yn yr achos hwn yn fwy priodol, fel un o ganlyniadau yr iawn mawr hwnw, effaith gyntaf ac amlycaf yr hwn oedd cymmod â Duw; yn yr ystyr llythyrenol, y pethau ar y ddaear, oeddynt yn llygredig a gelynol mewn canlyniad i bechod dyn. Gellir symio i fyny ein hesboniad fel hyn:—Y mae yr holl greadigaeth yn cydsefyll yn Nghrist; y mae ei daliad iawnol, gan hyny, wedi effeithio ar yr holl greadigaeth: y mae y greadigaeth bechadurus, yn yr ystyr cyfyngaf, wedi ei chymmodi o'i gelyniaeth: y mae creadigaeth ddibechod, yr hon oedd yn wastad

21 A chwithau, y rhai oeddych ddyeithriaid, a gelynion mewn meddwl trwy weithredoedd drwg, yr awrhon hefyd a gymmododd efe,

22 [s] Yn nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac yn ddifeius, ac yn ddiargyhoedd, ger ei fron ef:

23 Os [t] ydych yn parhau yn y ffydd, wedi eich seilio a'ch sicrhau, ac heb eich symmud oddi wrth obaith yr efengyl, yr hon a glywsoch, *ac* a bregethwyd yn mysg pob creadur a'r sydd dan y nef; i'r hwn y'm gwnaethpwyd i Paul yn weinidog:

24 Yr hwn ydwyf yn awr yn llawenychu yn fy nioddefiadau

[s] Salm 22. 13, 14; Zepn. 1. 6. Ioan 8. 39—32; Gal. 4. 11; Heb. 3. 6, 14; 2 Pedr 2. 18 22; 1Ioan2.27.

yn mhell oddi wrth ei burdeb anghyrhaeddadwy ef, wedi eu codi i gyfranogiad agosach, a gogoniant uwch: ac fel hyn wedi eu cymmodi, er nad yn yr ystyr cyfyngaf, etto mewn ystyr ddealladwy a goddefol." Y mae Ellicott yn dyfod i'r un pwynt:—"Gallwn anturio dyweyd cymmaint a hyn yn ddiofn, fod effeithiolrwydd aberth y Tragwyddol Fab yn anfeidrol a diderfyn; a'i fod yn ymestyn at bob peth, ar y ddaear ac yn y nefoedd; ac mai efe yw y cyfrwng bendigedig trwy yr hwn y gwneir heddwch rhwng Duw a'i greaduriaid, pa un bynag ai angylion ai dynion, ai pethau bywydol ai difywyd." Gellir symio syniad Daillé, yn ei sylwadau maith, ond rhagorol, i'r hyn a ganlyn:—Y mae yr ymadroddion hyn yn arwyddo adlonyddiad ac aduniad y creaduriaid, daearol a nefol; nid â Duw, ond yn eu mysg eu hunain, y naill tuag at y llall. Yr un peth ag mewn gwladwriaeth, pan gyfyd rhai o'r deiliaid mewn gwrthryfel yn erbyn y penadur, try y rhai fydd wedi aros yn ffyddlawn yn erbyn y gwrthryfelwyr, ac yn lle dal ymdrafodaeth â hwynt fel o'r blaen, gwnant ryfel yn eu herbyn. Nid cynt y cododd dyn wrthryfel yn erbyn Duw, nag y cododd y nefoedd, a'r oll o lywodraeth Duw oedd wedi aros yn ffyddlawn, yn ei erbyn. Ond rhyngodd bodd i Dduw, trwy farwolaeth y groes, ddwyn y pethau ar y ddaear, Iuddewon a Chenhedloedd, i heddwch â'u gilydd, yn gystal a'r pethau yn y nefoedd, sef yr angylion, i heddwch eilwaith â dyn. Yn lle bod yr angylion, gwir ddinasyddion y nefoedd, yn elynion, yn ysgwyd cleddyf tanllyd i'n herbyn, y maent bellach yn castellu o'n hamgylch, ac yn gwasanaethu arnom.

21. Yn yr adnod hon, a'r ddwy ganlynol, dangosir fod y Colossiaid eu hunain yn cael eu cynnwys yn y cymmod, a beth fyddai canlyniadau y cymmod iddynt, os parhäent yn gadarn yn y ffydd: gwel *Eph.* ii. 11, 12, 13. *Dyeithriaid:*—rhai wedi eu cau allan, ac wedi ymddyeithro oddi wrth Dduw. *Gelynion:*—yn cashau Duw (*Rhuf.* i. 30). Nid gelynion arwynebol, ond "mewn meddw." Y mae y gair a gyfleithir "meddwl" yn air cryf, a chyfleithir ef yn fynych *deall*—prif gynneddf y dyn. Yr hyn a ddysgir yw, fod yr holl feddwl drwyddo wedi myned yn erbyn Duw, a bod yr ymddyeithriad a'r gelyniaeth yma yn profi eu hunain mewn ffrwyth toreithiog; sef, "gweithredoedd drwg." Darllena Alford, "eich gweithredoedd drwg." Appella yr apostol at brofiad y Colossiaid eu hunain am wirionedd y cymmod â Duw trwy waed Crist.

22. Y mae y geiriad, "Corph ei gnawd ef," yn ymddangos yn un hynod; ac nid ydyw i'w gael yn un lle arall, oddigerth yn *Col.* ii. 11. Y mae Bengel ac Olshausen yn barnu mai yr amcan yw gwahaniaethu rhwng ei gorph naturiol a'i gorph ysbrydol, sef yr eglwys. Ond gwrthodir y syniad gan Alford ac Ellicott. Myn rhai fod yr apostol yma yn cyfarfod â dosbarth o hereticiaid a ddywedent nad oedd dynoliaeth Crist ond ymddangosiadol; ond nis gellir profi fod yn yr holl epistol gyfeiriad at neb o'r fath. Y mae Alford yn dilyn Meyer, yn y syniad mai dyweyd yn erbyn y rhai a briodolent y cymmod i gyfryngdod bodau ysbrydol uwch yr oedd yr apostol. "Trwy farwolaeth" yw y meddwl, fel yn *adn.* 20. Y mae "corph" yn golygu yr holl ddynoliaeth (*Rhuf.* vii. 4). Golyga "cnawd" y cymmhwysder i ddioddef, yn gystal a'r dioddef (*Eph.* ii. 15). Yr oedd y corph cnawdol yn beth hanfodol i wneuthur y cymmod â Duw. *I'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd.*—Y mae iachawdwriaeth yn cynnwys dwy ran: maddeuant pechodau, ac adnewyddiad y meddwl. Dyben cyflawnhâd, yn ei berthynas â'r Cristion, yw ei sancteiddiad—"yn sanctaidd tuag at Dduw." *Yn ddifeius:*—gyda golwg arnoch eich hunain. *Ac yn ddiargyhoedd:*—gyda golwg ar eich cymmydogion."—*Bengel. Ger ei fron ef:*—sef, ger bron Duw: *Eph.* i, 4.

23. I gyrhaedd y nôd gogoneddus y cyfeirir ato yn niwedd yr adnod o'r blaen, yr oedd yn rhaid iddynt ddyfal-barhau yn ffydd yr efengyl. Yr oedd tuedd yn ystrywiau y gau-ddysgadwyr i'w dymchwelyd. "Pan y mae y meddwl mewn stâd grediniol yn unig, y mae dyn yn derbyn iddo ei hun alluoedd y byd anweledig, y rhai sydd yn cenhedlu y dyn newydd, difeius—y Crist ynom ni."—*Olshausen.* Y mae y geiriau "seilio," a "sicrhau," yn ol Olshausen, â chyfeiriad ynddynt at y gymmhariaeth o deml, preswyliad Duw (*Eph.* ii. 11), o'r hon y mae pob credadyn yn ffurfio maen bywiol (1 *Pedr* ii. 5), yr hwn a sefydlir yn yr adeilad trwy ffydd (*Gal.* ii. 7). Tybia Bengel fod y gair "selio" yn golygu cyssylltiad â'r adeilad oddi allan, a bod y gair "sicrhau" yn golygu diysgogrwydd yn y meddwl oddi fewn. Y mae prydferthwch neilldiol yn nghyfansoddiad yr adnod. *Gobaith ffydd:*—sef y bendithion a ddygir i ni trwy yr efengyl—y gobaith sydd yn llewyrchu arnom trwy yr efengyl; o blegid lle bynag y mae yr efengyl, y mae yno obaith iachawdwriaeth dragwyddol. I gadw yn ddisigl yn y ffydd a'r gobaith hwn, rhaid glynu wrth Grist. Pob athrawiaeth sydd yn ein harwain oddi wrth Grist, y mae yn taraw yn erbyn ein ffydd. Yr oedd y Colossiaid wedi clywed yr un efengyl fendigedig ag a bregethwyd trwy yr holl fyd, fel y cyfeiriodd eisoes: *adn.* 6. Yr oedd eisoes yn cael ei phregethu yn mysg yr holl genhedloedd yn ddiwahaniaeth. Wrth ddyweyd "yn mysg pob creadur dan y nef," yr oedd yr apostol ysbrydoledig a'i lygad ar orchymyn Crist (*Marc* xvi. 25), a gwelai dueddiad cyffredinol Cristionogaeth eisoes yn cael ei sylweddoli.

24. *Fy nioddefiadau drosoch.*—Nid ydyw yn golygu dioddefiadau haeddiannol yn eu lle, fel yr

[a] 2 Cor. 11: 23—27.
[x] Adn. 18.
[y] Rhuf. 15. 15—18.

drosoch, ac [a] yn cyflawni yr hyn sydd yn ol o gystuddiau Crist yn fy nghnawd i, [x]er mwyn ei gorph ef, yr hwn yw yr eglwys:

25 I'r hon y'm gwnaethpwyf i yn weinidog, [y]yn ol goruchwyliaeth Duw, yr hon a roddwyd i mi tuag atoch chwi, i gyflawni gair Duw;

haera y Pabyddion, ond er eu mwyn—er cadarnhâd eu ffydd—er esampl iddynt (2 *Tim.* ii. 10; 2 *Cor.* i. 4). Darllena Ellicott "cyflawni yr hyn sydd yn ol o gystuddiau Crist" fel hyn:—"*Filling fully up the lacking measures of the afflictions of Christ*," &c. Y mae y geiriau hyn wedi cynnyrchu lliaws mawr o esboniadau gwahanol, er fod y prif feirniaid yn cyttuno yn lled dda, ar y cyfan, am eu hystyr. Yn mysg yr amryw ioi esboniadau, cawn y rhai canlynol:—1. Fod y dioddefiadau yn gyfryw ag a fuasai Crist yn eu dioddef pe buasai yn aros yn hwy ar y ddaear. 2. Fod y dioddefiadau o'r un natur a dioddefiadau Crist. 3. Mai dioddefiadau er mwyn Crist oeddynt. 4. Y mae esbonwyr Pabyddol yn eu gwneyd yn sail i'r gred fod haeddiant yn niodd-efiadau merthyron a saint, ac y gallwn ni gael ei rinwedd er maddeuant pechodau. Y mae Alford yn casglu golygiadau y rhan fwyaf o'r esbonwyr uniawngred i ychydig o frawddegau:—Y mae holl gystuddiau corph Crist yn gystuddiau Crist. Beth bynag sydd gan yr eglwys i'w ddioddef hyd ddiwedd y byd, y mae yn ei ddioddef er perffeithio ei hunan mewn sancteiddrwydd, a gwneyd ei hunan yn gyflawn ynddo ef; ac ni bydd dioddefiadau Crist wedi eu cwblhau hyd nes y bydd y loes olaf drosodd, a'r deigryn olaf wedi ei golli. Y mae pob dioddefiadau, yn mhob un o saint Duw, yn mhob oes a sefyllfa, yn ei le, a'i radd, yn gyflawniad o ddioddefiadau Crist yn ei gnawd, ac er mwyn ei gorph. Nid oes loes na deigryn yn myned yn ofer. Nid oes gyssylitiad yn y cyddestynau, ac nid yw y gair a arferir yma am gystuddiau yn golygu dioddefiadau haeddiannol Crist. Gorphenwyd y rhai hyny yn hollol ar y groes, fel nas gall neb byth chwanegu atynt. "Nid ydym i dybied," medd Brown, "i'n Harglwydd adael dim dioddefiadau i Paul, na neb arall, i'w dioddef yn iawn am bechod, neu er prynedigaeth eneidiau ei bobl. Nid yw y "cyflawni" yma yn golygu chwanegiad at ei ddioddefiadau personol, ond cyflawni y gyfran a bennodwyd i'r apostol fel un o aelodau Crist, fel dioddefiadau, o blegid agosrwydd yr undeb rhwng y pen a'r aelodau, gellid eu galw yn ddioddefiadau Crist. Yr oedd Crist yn byw yn Paul, yn llefaru yn Paul, yn gweithio yn Paul, yn dioddef yn Paul; ac mewn ystyr cyffelyb, y mae dioddefiadau pob Cristion dros Grist yn ddioddefiadau Crist."

25. *I'r hon*, &c.—Sef, yr eglwys. Dengys yma yn mha gymmeriad yr oedd yn dioddef: nid fel un yn gweithio allan iachawdwriaeth, ond fel gwas yn ei chyhoeddi. Geilw ei hun weithiau yn weinidog Duw, a gweinidog Crist; ond yma gweinidog yr eglwys. Y mae yn debygol fod y gau-athrawon yn tafiu ammheuaeth am ei alwad i'w swydd. *Yn ol goruchwyliaeth Duw*:—goruchwyliwr ydoedd, wedi ei appwyntio gan Dduw, ar oruchwyliaeth ysbrydol, yr hon a darddai o Dduw: 1 *Cor.* ix. 17; iv. 1. *Tuag atoch chwi*:—y Cenhedloedd. *I gyflawni gair Duw*:—i

26 *Sef* [z]y dirgelwch oedd guddiedig er oesoedd ac er cenedlaethau, ond [a]yr awr hon a eglurwyd i'w saint ef:

27 I'r [b]rhai yr ewyllysiodd Duw hysbysu beth yw [c]golud gogoniant y dirgelwch hwn yn mhlith y Cenhedloedd; yr hwn yw Crist ynoch chwi, [d]gobaith y gogoniant:

[z] Rhuf. 16 25. [a] Salm 25. 14; Mat. 13. 11; Marc 4. 11. [b] 1 Cor 2. 12—14; Gal. 1. 16. [c] Rhuf. 9. 23; 11. 33. [d] 2 Cor. 4. 17.

gyflawni holl ystyr y gair. Yr oedd Paul yn ymestyn o hyd at y pwynt eithaf (*Rhuf.* xv. 19)—i gyhoeddi gair Duw yn gyflawn, yn ei holl ystyr a'i eangder.

26. *Y dirgelwch oedd guddiedig.*—Gwel *Rhuf.* xvi. 25; *Eph.* iii. 9. Noda Calvin dri rheswm am alw yr efengyl yn ddadguddiad dirgelwch:—1. Am fod Duw, cyn ymddangosiad Crist, yn llywodraethu ei eglwys dan leni tywyll o eiriau a seremoniau; ond y mae drwy athrawiaeth yr efengyl, ar unwaith, wedi llewyrchu allan mewn llawn ddisgleirdeb. 2. Tra nad oedd dim o'r blaen i'w weled ond ffugrau allanol, fod Crist yn awr wedi ymddangos, gan ddwyn gydag ef y gwirionedd cyflawn, yr hwn oedd o'r blaen yn gorwedd yn guddiedig. 3. Fod y Cenhedloedd, neu yr holl fyd, yr hwn oedd o'r blaen wedi ei gau allan oddi wrth Dduw, yn erbyn pob disgwyliad wedi ei alw i obaith yr efengyl, ac i fwynhau holl fendithion iachawdwriaeth dragwyddol. Dyma y dirgelwch "oedd guddiedig er oesoedd a chenedlaethau:" sef, trwy ystod holl ddadguddiad yr Ysgrythyrau.

27. *I'r rhai*:—sef, i'r saint; gan gyfeirio yn mlaenaf ato ei hun a'i gyd-apostolion. Nid eu teilyngdod hwy oedd y rheswm am wneyd y dirgelwch yn hysbys, ond yr oedd y rheswm yn ewyllys Duw: *Eph.* i. 9. Arfer yr apostol ydyw gosod ewyllys Duw yn wrthgyferbyniol i haeddiant dynol, neu unrhyw achosion allanol. Dengys yr apostol yma beth yw y dirgelwch, sef yr efengyl, fel amlygiad o dosturi anfeidrol Duw yn Nghrist. Yr oedd goludoedd gogoniant yr efengyl yn ymddangos yn y modd mwyaf disglaer yn ei weithrediadau yn mysg y Cenhedloedd, am fod cyflwr y Cenhedloedd estronol mor isel a llygredig. Yr oedd Crist yn mhlith y Cenhedloedd y pryd hwnw yn beth dyeithr ac anhygoel. Yn ngeiriau olaf yr adnod, gosodir Crist ei hun allan fel dirgelwch y prynedigaeth; o blegid yn yr efengyl, Crist yw pob peth bywiol. Nid pregethu athrawiaeth *am* Grist ydyw; ond efe ei hun, y Crist byw, personol, tragwyddol Air y Tad—ef ei hun yw yr athrawiaeth a'r dysgawdwr. Yr oedd y Colossiaid wedi ei gydnabod ef eisoes fel y cyfryw. Yr oedd, nid yn unig wedi ei bregethu oddi allan yn eu mysg, ond wedi gwneyd ei drigfa yn eu calonau: *Eph.* iii. 17. Y mae yn ymddangos yn hynod hefyd fod "Crist ynom" yn cael ei osod allan fel "gobaith y gogoniant." Gallesid meddwl, lle byddo Crist yn trigo yn y galon, fod teyrnas Dduw yn ei holl ogoniant yno yn barod. Y mae yno yn yr hedyn yn ddiau. Ond y mae y bywyd dwyfol oddi fewn yn dyheu am sefyllfa allanol hefyd hollol gydnaws; ac felly nis gellir disgwyl am ei oresgyniad buddugoliaethus cyn diwedd y dadblygiad. Gan hyny, Crist ynom yw gobaith bywiol y dyfodol gogoneddus, gan mai efe sydd yn dwyn ynddo ei hun y nerth i'w sylweddoli, a chyda hyny y gwystl o hono.—*Olshausen.*

28 Yr hwn yr ydym ni yn *ei*
[e] Isa. 6. 10; Mat. 3. 7; Act. 20. 20. bregethu, [e] gan rybuddio pob dyn,
a dysgu pob dyn yn mhob doeth-
ineb; fel y cyflwynom bob dyn
1 Cor. 1.30. [f] yn berffaith yn Nghrist Iesu:
29 Am yr hyn yr ydwyf hefyd
[g] Luc 13. 24. yn llafurio, [g] gan ymdrechu yn ol
ei weithrediad ef, yr hwn sydd yn
gweithio ynof fi yn nerthol.

PENNOD II.

1 *Y mae efe eito yn eu hannog hwy i fod yn ddianwadal yn Nghrist; 8 ac i ochelyd philosophyddiaeth, a thraddodiadau ofer,*

18 *ac addoli angylion.* 20 *a seremoniau y gyfraith, y rhai sydd wedi terfynu yn Nghrist.*

B. A. 62. CANYS mi a ewyllysiwn i chwi wybod pa faint o ymdrech sydd arnaf er eich *mwyn* chwi, a'r rhai yn Laodicea, a chynnifer ag ni welsant fy wyneb i yn y cnawd;
2 Fel y cysurid eu calonau hwy,
[a] wedi eu cyd-gyssylltu mewn cariad, ac i bob golud sicrwydd deall, i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ;
[a] Salm 133. 1; Ioan 17. 21.
3 Yn yr hwn y mae [b] holl
[b] Iob 28. 21

28. *Yr hwn:*—sef Crist. *Yr ydym ni:*—Paul a Thimotheus, a phawb gyda hwy o'r unrhyw ysbryd. Bernir fod yn ngwaith yr apostol yn rhoddi cymmaint pwys ar y "pob dyn," gyfeiriad at syniadau pleidiol ac unochrog'y gau-athrawon, y rhai a ddywedent hefyd fod Paul yn ymddwyn yn wahanol at Iuddewon a Groegiaid. Felly dengys yr apostol yma, 1. Beth oedd yn bregethu; sef Crist: ac 2. i bwy yr oedd yn pregethu—i "bob dyn." Nid oedd yn cydnabod gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr: *pen.* iii. 11. Yr oedd "pob dyn" wedi ei roddi iddo gan Dduw yn faes ei lafur, ac yr oedd hyn yn un rheswm am ei fod yn ysgrifenu at y Colossiaid, ac yn teimlo mor selog drostynt, er nad oedd erioed wedi eu gweled. 3. Nodwedd ei bregethu—"rhybuddio" a "dysgu." Dyma ddwy elfen fawr gwir bregethu. *Yn mhob doethineb.*—Gwel 1 *Cor.* ii. 6, 7; *Eph.* i. 8. *Cyflwynom bob dyn yn berffaith:*—yn yr ymddangosiad diweddaf ger bron Duw. Gwel *Eph.* iv. 23.

29. *Llafurio, gan ymdrechu.*—Y mae hwn yn rhywbeth chwanegol at y "pregethu." Golyga ei wasgfa fewnol yn achos achubiaeth y byd. Gwel *pen.* ii. 1, a iv. 12. *Yn gweithio ynof fi yn nerthol.*—Barna rhai fod yma gyfeiriad at y gallu gwyrthiol oedd yn gweithio yn yr apostol; ond gwrthodir hyn gan y prif feirniaid, y rhai a'i dynodant fel y gallu oedd yn cynnyrchu ynddo yr ymdrech meddwl, y pryder didor, a'r gweddïau taerion, &c. Beth bynag, dengys nad ei nerth ef ei hun ydoedd; ond priodola y cyfan i Grist—"yr hwn sydd yn gweithio ynof fi yn nerthol." Gwel *Gal.* v. 6; *Eph.* iii. 20.

PENNOD II.

1. Y mae yr apostol, ar ol rhoddi eglurhâd mor ragorol ar y bywyd Cristionogol yn y bennod gyntaf, a dangos ei awydd didor am ei feithrinïaeth a'i gynnydd, yn y bennod hon yn dangos yr un difrifwch ysbryd mewn rhybuddio y Colossiaid i gadw y bywyd yma yn ddiilwgr oddi wrth ymosodiadau peryglus y gau-athrawon. Yr oedd ei bryder mawr yn eu hachos, a'i weddïau taerion drostynt, yn gwasgu yn drwm arno, er nad oeddynt wedi cael adnabyddiaeth bersonol o'u gilydd. Yr oedd hyn yn rhan o'i ddioddefiadau drostynt: *pen.* i. 24. Y mae adnabyddiaeth uwch a pherffeithiach gan Gristionogion o'u gilydd na'r un a geir trwy wyneb y corph, a'r hon sydd yn fwy effeithiol i gynnyrchu cariad. Yr oedd clywed am ymgais y gau-athrawon i'w temtio yn cynnyddu ei ymdrech yn fwy fyth. Cesglir oddi wrth yr adnod hon fod ymdrech mewnol yr apostol yn fwy dros y rhai "na welsant ei wyneb ef yn y cnawd," na'r rhai y cafodd gyfleusdra ei hunan i'w hyfforddi a'u cadarnhau yn y ffydd; ei fod yn gwneyd i fyny y diffyg o addysgiad personol trwy ofal dwysach, a gweddïau taerach: fel y mae y plant gwanaf yn gofyn am y gofal manylaf. Barn gyffredin y prif esbonwyr yw, fod y Colossiaid yn mysg y rhai na welsant wyneb yr apostol, yn gystal a'r *rhai yn Laodicea.*—Yr oedd dinas gyfoethog (*Dad.* iii. 17) a masnachol Laodicea, yr hon a elwid gynt Diospolis, ac wedi hyny Rhoas, ac yn ganlynol Laodicea, o anrhydedd i Laodice, gwraig Antiochus II, yn sefyll ar yr afon Lycus, o ddeutu 18 milldir Seisnig i'r gorllewin o Colossæ, a rhyw 6 milldir i'r dehau o Hierapolis.

2. Yma dangosir amcan yr apostol yn ei ymdrech drostynt:—*Fel y cysurid,* &c.—Y cysur sydd yn codi o sefydlogrwydd y meddwl; fel y nerthid eu calonau. *Wedi eu cyd-gyssylltu:*—neu eu cyd-wau. *Mewn cariad.*—Cariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd, yw y defnydd i'w cysuro a'u nerthu. Fel hyn y byddent yn ddigon cryf i wrthsefyll pob ymosodiadau oddi allan Etto yr oedd yn ofynol i'r cariad fod wedi ei seilio ar wybodaeth, neu iawn ddeall. Y mae y frawddeg nerthol hon, *Pob golud sicrwydd deall,* yn golygu helaethrwydd deall a gwybodaeth yn nhrefn fawr yr efengyl, a'r deall clir a dwfn hwnw yn dwyn llawn sicrwydd a boddlonrwydd i'r enaid. *I gydnabyddiaeth:—h. y.* i wybodaeth drwyadl. Y mae llawer o wahaniaeth golygiadau am y frawddeg ddiweddaf; sef, *dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ.*—Myn rhai mai y meddwl yw, "Duw, yr hwn yw Crist," gan ddal mai yr ail Berson a feddylir yma wrth yr enw Duw. Darllena Ellicott, "dirgelwch Duw, sef Crist,' gan olygu mai Crist yw dirgelwch Duw. Dywed Alford am y frawddeg hon:—"Dylid gadael allan y geiriau, 'a'r Tad, a Christ,' a darllen, 'dirgelwch Duw' yn unig. Cymmerodd y chwanegiad le yn ddiau oddi wrth arfer gyffredin copïwyr y rysgrifau o nodi ar ymyl y ddalen, pan fyddai enw Duw yn digwydd, pa Berson a feddylid. Gosodai un y 'Tad' i lawr, ac un arall 'Crist;' ac o'r diwedd, rhoddodd rhywun yr hyn oedd ar ymyl y ddalen yn y copi."

3. *Yn yr hwn:*—sef y dirgelwch—"dirgelwch Duw:" gwel yr adnod flaenorol. Myn rhai mai yr efengyl a feddylir wrth y dirgelwch, ac ereill mai Crist. Nid oes fawr o wahaniaeth yn y ddau olygiad; o blegid nid cyfundrefn o athrawiaeth ar wahân oddi wrth ei hawdwr dwyfol yw yr efengyl, ond dadguddiad Duw yn Nghrist; y dirgelwch hwn "yw Crist ynoch chwi;" *pen.* i. 27. Ceisiai y gau-athrawon arwain y Colossiaid oddi wrth Grist ar ol rhith doethineb, pan oedd "holl drysorau doethineb a gwybodaeth" yn

drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig.

4 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, fel na thwyllo neb chwi âg ymadrodd hygoel.

5 Canys er fy mod i yn absennol yn y cnawd, er hyny yr ydwyf gyda chwi yn yr ysbryd, yn llawenychu, ac yn gweled eich trefn chwi, [c] a chadernid eich ffydd yn Nghrist.

[a] 1 Cor. 15. 58; Heb. 3. 14; 2 Pedr 3. 17, 18.

6 Megys gan hyny [d] y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, *felly* rhodiwch ynddo;

[d] 1 Ioan 1 12, 13. 1 Ioan 5. 11.

7 [e] Wedi *eich* gwreiddio a'ch adeiladu ynddo ef, [f] a'ch cadarnhau yn y ffydd, megys y'ch dysgwyd, gan gynnyddu ynddi mewn diolchgarwch.

[e] Esa. 1. 3. [f] 1 Cor. 15. 58; 2 Pedr 3. 17, 18.

8 Edrychwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi, a gwag dwyll, yn ol traddodiad

gorwedd yn Nghrist. Y mae "trysor" yn air eang ei ystyr, yn golygu gwerth a chyflawnder: y mae "trysorau" yn helaethach fyth; ac y mae "holl drysorau" yn ei osod yn y man eithaf.

4. *Yn guddiedig.*—Myn rhai mai ystyr y gair "cuddiedig" yw, yn drysoredig. Barna ereill ei fod yn golygu cuddiedig, yn ol ystyr *Mat.* xi. 27, "Yn guddiedig oddi wrth y doethion a'r deallus, ac yn ddadguddiedig i'r rhai bychain." Darllena Bengel: "Yn yr hwn y mae holl drysorau cuddiedig," &c. Ellicott: "Yn yr hwn y mae, yn guddiedig, holl drysorau," &c Alford: "Yn yr hwn y mae holl drysorau dirgel doethineb a gwybodaeth." Nid wedi eu cuddio yn Nghrist oddi wrth ddynion y maent, ond i ddynion gael cyfranogi o honynt. *Doethineb a gwybodaeth*:—gwel *Eph.* i. 8.

5. *Yn yr ysbryd*:—neu, o ran ei ysbryd ef ei hun. Teimlai ei galon gymmaint o bryder a dyddordeb yn eu hachos hwy a phe buasai yn aros yn eu mysg. Nid oedd pellder lle yn un rhwystr iddo eu gweled â llygad y meddwl. *Yn llawenychu, ac yn gweled*:—neu, am *weled eich trefn chwi, a chadernid eich ffydd yn Nghrist.*—Darllena Ellicott, "Eich trefn, a sylfaen ddiysgog eich ffydd yn Nghrist." Y mae yn debygol fod cyfeiriad milwraidd yn y frawddeg olaf. Dau beth pwysig i ryfelwyr ydynt, 1. Gosod eu hunain mewn "trefn" briodol i ymladd; ac, yn 2. Cael sefyllfa gadarn a manteisiol iddynt eu hunain. Llawenychai yr apostol weled y Colossiaid yn cadw eu hunain mewn iawn 'drefn," trwy wybodaeth a dysgyblaeth yr efengyl, a'u bod â'u gwadnau ar dir mor fanteisiol i gario allan yr ymgyrch yn dda—"Cadernid ffydd yn Nghrist."

6. Y mae eisoes wedi dadgan ei bryder a'i lawenydd yn eu hachos: yn awr cynghora hwynt i ddal eu cychwyniad addawol yn mlaen yn ffyddlawn, fel na byddai ei bryder a'i lawenydd ef yn ofer. *Megys . . y derbyniasoch Grist*, &c.:—gan Epaphras, a'ch dysgawdwyr cyntaf. Nid athrawiaeth Crist yn unig ydym yn ei dderbyn trwy ffydd, ond Crist ei hun. Y mae efe ei hun yn trigo trwy ffydd ynom. Nis gellir gwahanu Crist, yr hwn yw y Gwirionedd tragwyddol, a'i athrawiaeth. *Felly rhodiwch ynddo*:—yn yr un ysbryd, yr un cariad, yr un sêl ag y derbyniasant Grist, neu y cychwynasant eu bywyd Cristionogol. Rhodio ynddo yw dwyn yn mlaen hyd y diwedd fywyd o ffydd ac ymarferiad. Crist yw yr awyrgylch fywiol sydd i gylchynu y bywyd a'i holl egwyddorion a'i ddadblygiadau.

7. *Wedi eich gwreiddio a'ch adeiladu*, &c.—Neu, yn fwy cywir, "Wedi eich gwreiddio, ac yn cael eich adeiladu," &c. Y mae y "gwreiddio" yn yr amser gorphenol, a'r "adeiladu" yn yr amser presennol. Yn yr adnod flaenorol, a hon, arferir tair cymmhariaeth er dangos cysylltiad y Cristion â Christ trwy ffydd, ac er rhoddi grym i gynghor yr apostol:—1. *Rhodio:* yn yr hon y dangosir y Cristion yn Nghrist fel awyrgylch fywiol. Gwel *adn.* 6. 2. *Gwreiddio:* yn yr hon y dangosir Crist fel tir, a'r credadyn fel pren wedi ei blanu ynddo; a'r pren sydd heb wreiddio yn ddwfn, y mae yn agored i gael ei dalu gan bob awel. 3. *Adeiladu:* yr hwn sydd yn dangos perthynas arall etto â Christ. Barna Olshausen nad yw y cyfeiriad yma yn gymmaint at Grist fel y sylfaen ar ba un y mae yr hwn sydd yn credu yn adeiladu, ond at Grist fel yr elfen, neu yr ysbryd sydd yn llenwi yr holl adeilad—yr anadl bywyd. Nid yn unig y mae yr adeilad yn gorwedd ar Grist fel y sylfaen, ond y mae yr oruwch-adeiladaeth yn codi i fyny trwy aros a byw yn Nghrist. Efe yw Awdwr a Pherffeithydd y ffydd: *Heb.* xii. 2. "Y mae yn deilwng o sylw, fel y mae arddull wresog Paul, gan ddiystyru gofynion manwl araethyddiaeth, yn gosod allan y pwngc mewn llaw trwy gymmhariaethau anghydweddol. Y mae "rhodio" yn golygu ysgogiad: ond "gwreiddio," ac "adeiladu" yn golygu gorphwysiad. Y mae y "gwreiddio" yn cyfeirio at y seiliad cyntaf ynddo ef, ac felly yn yr amser gorphenol; y mae yr "adeiladu" yn cyfeirio at gynnydd parhaus ynddo ef, ac felly yn yr amser presennol."—*Alford.* Myn yr apostol i'r Colossiaid hefyd ystyried eu rhwymedigaethau mawrion i Dduw am yr holl fendithion hyn, er ennyn ynddynt ysbryd diolchgar, gan fod yr ysbryd hwnw yn foddion "cadarnhâd" a "chynnydd" yn y ffydd.

8. *Yn eich anrheithio*, &c.—Neu, "Yn eich cymmeryd chwi ymaith yn ysglyfaeth." Nid anrheithio y Colossiaid o ddim oedd ganddynt yw y meddwl, ond eu dwyn hwy eu hunain ymaith yn ysbail. "Gwna eglwys Crist yma yn gorlan, ac athrawiaeth bur yr efengyl yn gauad iddi, a'r gau-athrawon yn ysbeilwyr.... Y mae y ddegfed bennod o Ioan yn esboniad ar yr adnod hon."—*Calvin. Philosophi, a gwag dwyll:*—neu philosophi, nad yw ond gwag dwyll. Nid yw yr apostol yn dyweyd yn erbyn pob philosophi; y mae geiriad yr adnod yn cynnwys fod philosophi o nodwedd wahanol yn bod. "Nodwedd y philosophi a olygir yma, fel y gellir casglu oddi wrth y disgrifiad sydd yn canlyn, ydoedd y cymmysgedd o'r Iuddewig a'r Dwyreiniol a ymledodd wedi hyny i Gnosticiaeth."—*Alford.* Bernir fod hon yn philosophi boblogaidd y dydd yn mysg y Phrygiaid y ganrif gyntaf, y rhai oeddynt mor hoff o syniadau dychymygol ac o ddirgelion. Gwel *Ellicott. Yn ol traddodiad dynion:*—sef, ymarferiadau wedi eu gosod i fyny gan ddynion, yn ffrwyth eu dychymygion eu hunain, heb un sail iddynt yn ngair Duw. *Yn ol egwyddorion y byd*:—sef, seremoniau a gwasanaeth cnawdol cyfraith Moses. Amser

dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid [h] yn ol Crist.

9 O blegid [l] ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol.

10 Ac yr ydych chwi wedi eich [k] cyflawni ynddo ef, yr hwn yw [l] pen pob tywysogaeth ac awdurdod:

11 Yn yr hwn hefyd y'ch enwaedwyd, âg enwaediad nid *o* waith llaw, trwy ddiosg corph pechodau y cnawd, [m] yn enwaediad Crist:

12 [n] Wedi eich cyd-gladdu âg ef yn y bedydd, yn yr hwn hefyd y'ch cyd-gyfodwyd trwy [o] ffydd gweithrediad Duw, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw.

[a] Eph. 4. 20
[b] Ioan 17. 21; 2 Cor. 5. 19; 1 Tim. 3. 16.
[k] Ioan 1. 16; 1 Cor. 1. 30.
[l] Eph. 1. 21—23; Phil. 2. 9—11.
[m] Eph. 2. 10—18.
[n] Rhuf. 5. 4, 5.
[o] Ioan 1. 12, 13; 3. 3—7.

---

plentyndod yr eglwys ydoedd dan [p] oruchwyliaeth Moses—"Pan oeddym fechgyn, yr oeddym gaethion dan wyddorion y byd." Ac eilwaith: "Pa fodd yr ydych [q] yn troi drachefn at yr egwyddorion llesg a thlodion;" *Gal.* iv. 3, 9. Gelwir hwy yn egwyddorion y byd, am eu bod y gwersi cyntaf, iselaf, o eiddo yr eglwys yn adeg ei mabandod: yr elfenau, neu yr A, B, C. Gelwir yr Eglwys [r] Iuddewig "y byd," am fod sefyllfa ei haddoliad yn gnawdol a daearol. *Ac nid yn ol Crist.*—Y mae pob philosóphi a esyd ei hun i fyny yn gyfochrog â dadgudd iad, neu yn erbyn dadguddiad, yn "wâg a thwyllodrus." Rhaid i bob gwir philosophi fod "yn ol Crist"—yn ol, ac yn seiliedig ar, y gwirionedd a ddadguddir yn ddoa a thrwyddo.

9. Y mae gwaith yr apostol, mor gynted ag yr enwodd enw Crist, yn dychwelyd etto at fawredd ei berson, ar ol trin y pwngc mor helaeth yn y bennod o'r blaen, yn brawf fod cyfeiliornadau y gau-athrawon am Berson Crist yn dra pheryglus. Y mae yr adnod hon [s] yn cynnwys y disgrifiad mwyaf cyflawn a gogoneddus o Grist, mewn ychydig eiriau, o fewn yr holl Ysgrythyrau. Dylid edrych ar *gyflawnder y Duwdod* yma yn [t] wrthgyferbyniol i "wagder" a "thwyll" y philosophi nad oedd "yn ol Crist" yn yr adnod o'r blaen. Llefara Paul yma am uniad y ddwy natur, neu Fab Duw wedi ei wneyd yn ddyn yn mherson Iesu o Nazareth. Os oedd arnynt eisieu mwy na Christ, yr oedd arnynt eisieu mwy na Duw. Y mae ynddo ef, ac ynddo ef yn unig y mae, holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio. *Yn preswylio yn gorphorol.*—Y mae llawer o ddadleu am ystyr y gair a gyfieithir "corphorol" (*somaticos*). "Golyga y gair hwn, *somaticos*, yn wirioneddol, yn sylweddol, yn wrthgyferbyniol i gysgodol, neu ffugrol. Yr oedd arwyddlun o'r presennoldeb dwyfol yn y tabernacl Hebreaidd, ac yn y deml Iuddewig; ond yn nghorph Crist preswyliai y Duwdod yn holl gyflawnder ei briodoliaethau yn wirioneddol, yn sylweddol, o blegid dyna ystyr y gair *somaticos*."—*Dr. A. Clarke.* Dywed Olshausen, y gellir cymmeryd y gair hwn i olygu yn gorphorol, yn sylweddol, neu yn hanfodol. Amcan yr apostol wrth lefaru y geiriau yn ddiau ydoedd gwrthwynebu golygiadau y Gnosticiaid; y rhai a ddywedent nad oedd gallu anarferol Crist yn ddim ond dylanwad rhyw ysbryd goruchel arno, yn ymestyn o'i fedydd i'w farwolaeth yn unig. Felly y mae y ferf "preswylio," nid yn yr amser gorphenol, ond y presennol, yn dangos fod y gallu yn arosol, ac nad oedd hwnw yn ddim amgen preswyliad cyflawnder y Duwdod. Y mae y gair "corphorol" neu "sylweddol" yn awgrymu y gwahaniaeth sydd rhwng preswyliad Duw yn Nghrist a'i breswyliad mewn dynion, yr hyn y cyfeirir ato yn yr adnod nesaf. Yn Nghrist y mae Duw yn hanfodol bresennol, ac nid o ran gweithrediad yn unig. Nid dyn dwyfol yw Crist, ond Duw-ddyn. Y mae Duw yn y Cristion, ond nid Duw ydyw. Gwel *Olshausen.*

10. *Ac yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef*:—neu, "Ac yr ydych chwi ynddo ef wedi eich cyflenwi." Nid oes raid i chwi droi at neb îs am ddim chwanegol, fel y mynai eu hathrawon newydd iddynt droi at seremoniau, ac at angylion, &c. Y mae "cyflawnder y Duwdod" yn preswylio ynddo ef, yn adnoddau anfeidrol i wneyd i fyny ein holl raid. Ynîydrwydd yw i ni ddisgwyl wrth îs-awdurdodau, gan mai efe ydyw *pen pob tywysogaeth ac awdurdod*:—a'u bod hwythau oll, fel ninnau, yn derbyn eu cyflenwad o hono. Gwel *Eph.* iii. 19; *Col.* i. 16, 19.

11. *Yn yr hwn hefyd y'ch enwaedwyd*, &c.—Yr oedd y gau-athrawon yn dal yn dŷn dros enwaediad; ond yr oedd Crist yn gwneyd i ffordd â'r angen am hyny trwy gyfranu sylwedd yr arwydd cnawdol, neu mewn enwaediad ysbrydol heb fod o "waith llaw." Ystyr enwaediad Moses ydoedd tori ymaith y pechodau, ac ymgyssegru i fywyd sanctaidd; ac am hyny sonid y pryd hwnw am enwaediad ysbrydol y galon: *Deut.* xxx. 6. Yr oedd yr adnewyddiad bywyd oedd yn cael ei ddangos mewn cysgod yn yr enwaediad yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd trwy undeb â Christ. Wedi cael y mewnol a'r ysbrydol, nid oedd angen yr allanol a'r cnawdol. Yn y gair nesaf, dengys yn mha beth yr oedd yr enwaediad ysbrydol yn gynnwysedig; sef, *trwy ddiosg corph pechodau y cnawd*:—neu, yn ol Bengel, "trwy ddiosg corph pechodau, sef y cnawd." Dywed Calvin:—"Defnyddia y gymmhariaeth o gorph i ddynodi pentwr, yn cael ei wneyd i fyny o bob drygau; o blegid fel yr ydym yn cael ein cylchynu gan ein cyrph, felly ein hamgylchir o bob tu gan gydgasgliad drygau. Ac fel y mae y corph yn cynnwys amryw aelodau, â gweithrediadau a swyddau yn perthyn i bob un, felly oddi wrth gydgasgliad llygredigaeth y mae yr holl bechodau yn codi i fyny fel aelodau o'r cyfangorph." Ceir ymadrodd cyffelyb yn *Rhuf.* vi. 13. "Y cnawd" yma yw natur lygredig. "A chorph pechodau" yw yr "hen ddyn, ynghyd â'i weithredoedd," yr hwn a ddiosgir trwy adnewyddiad Crist. *Yn enwaediad Crist*:—Yr enwaediad y mae Crist yn ei gyfranu, neu sydd yn perthyn i'w grefydd. Enwaediad ag y mae eiddo Moses yn y cnawd yn rhoddi lle iddo.

12. *Wedi eich cyd-gladdu âg ef yn y bedydd.*—Dangosir yma gyssylltiad agosach fyth â pherson yr Arglwydd Iesu. Y mae yr enwaediad yn naturiol wedi arwain meddwl yr apostol at y bedydd. Gan y dadleuai efe fod derbyniad y sylwedd yn ysbrydol yn gwneyd i ffordd âg angen yr arwydd allanol, gallesid, fel y dengys Calvin, godi gwrthddadl yn ei erbyn—nad oedd felly angen enwaediad ar Abraham, gan ei fod yntau wedi derbyn enwaediad y galon cyn enwaediad y cnawd. I gyfarfod yr wrthddadl hon, y mae Crist, meddai, yn cyflawni yr enwaediad ysbrydol

[p] Ioan 5. 21; Rhuf. 4. 17; 1 Tim. 6. 13. [q] Esa. 1. 18; 1 Ioan 1. 7—9. [r] Esa. 43. 25; Act. 3. 19.

13 A chwithau, pan oeddych yn
feirw mewn camweddau, a dien-
waediad eich cnawd, a [p] gydfyw-
haodd efe gydag ef, [q] gan faddeu
i chwi yr holl gamweddau,
14 [r] Gan ddileu ysgrifen-law yr
ordeiniadau, yr hon oedd i'n her-
byn ni, yr hon oedd yn ngwrth-
wyneb i ni, ac a'i cymmerodd hi
oddi ar y ffordd, gan ei hoelio
wrth y groes:
15 [s] Gan ysbeilio *y* tywysog-

[s] Ioan 12. 31; Dad. 12. 9.

---

ynom ni, nid trwy hen ddefod goruchwyliaeth Moses, ond trwy osodiad yr oruchwyliaeth newydd, sef bedydd—arwyddlun cynnefin i Iuddewon a Christionogion. Yn y bedydd, yr oedd y bywyd newydd yn cychwyn, ac yno yr oedd yr hen fywyd blaenorol yn myned i'w fedd. "Cydgladdu â Christ," o blegid mai o farwolaeth Crist y deillia y nerth sancteiddiol a arddangosir yn adnewyddiad y bedydd: *Rhuf.* vi. 4. *Yn yr hwn* (sef y bedydd) *hefyd y'ch cyd-gyfodwyd.*—Yr ydym yn y bedydd yn cael ein claddu a'n cyfodi; yn cael ein diosg a'n gwisgo. Ein hadgyfodiad ysbrydol ni a feddylir, yn seiliedig ar adgyfodiad corphorol Crist, er ei fod yn cynnwys hefyd ein hadgyfodiad corphorol ninnau. Y mae y corphorol yn yr ysbrydol. *Trwy ffydd gweithrediad Duw.*—"Ffydd yw y moddion; y cyfrwng, nid yr achos effeithiol; y llaw sydd yn dal gafael, nid yr astell sydd yn achub."—*Alford.* Nid trwy ffydd yn ngweithrediad Duw, ond trwy y ffydd y mae gweithrediad Duw yn ei galw allan. Yr adnod hon yw un o'r rhai mwyaf eglur a phendant yn y Testament Newydd yn yr hon y priodolir ffydd i weithrediad Duw. Mewn dyn, fel creadur Duw, y mae pob peth da, yn ddieithriad yn waith Duw; dim ond y gwrthdarawiad, ac felly y pechod, sydd yn eiddo y dyn. Nid ydyw ffydd yn beth ag y gall dyn ei gwneyd a'i galw allan wrth ei ewyllys: gwaith Duw ynddo ydyw.—*Olshausen. Yr hwn a'i cyfododd ef o feirw.*—Y mae nerth Duw yn adgyfodiad Crist yn gweithio ynom ninnau adgyfodiad sydd yn dwyn rhyw gyffelybrwydd i'w adgyfodiad ef—adgyfodiad i fywyd sanctaidd ac ysbrydol. Fel y gwnaeth yr Arglwydd roddi o'r neilldu ar y groes, ac yn y bedd, y bywyd naturiol a daearol a arweiniodd yma yn nyddiau ei gnawd, ac y cyfododd o'r bedd mewn bywyd newydd, gogoneddus, ysbrydol, ac anfarwol, trwy nerth yr Ysbryd Tragwyddol; felly y mae ei holl bobl yn rhoddi heibio "yr hen ddyn," yr hwn a ddinystrir ac a ddiddymir trwy nerth ei farwolaeth ef, ac yn "gwisgo y newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd;" *Eph.* iv. 24.

13. *A chwithau.*—Er fod yr apostol yn defnyddio yr ail berson yn y ddwy adnod flaenorol, dangos y mae berson a gwaith Crist yn eu dylanwad cyffredinol; ond yma, y mae yn cymmhwyso y gwirioneddau at y Colossiaid yn neillduol. *Yn feirw mewn camweddau, a dienwaediad eich cnawd*:—gwel *Eph.* ii. 1—5. Yr oedd eu cyflwr dienwaededig gynt yn arwydd o'u pellder oddi wrth Dduw. Y mae y Beibl yn nodi diffyg yr arwydd weithiau er dangos diffyg y sylwedd. Y mae "yn feirw yn nienwaediad eich cnawd" yr un peth ag yn feirw yn llygredigaeth eich cnawd, neu holl gamweddau natur lygredig. *A gydfywhaodd efe gydag ef.*—Myn Ellicott mai Crist a feddylir wrth y rhagenw blaenaf, "efe;" ond y mae agos yr holl esbonwyr diweddaf yn cydweled fod y rhagenw uchod i'w gyssylltu â'r enw "Duw" yn yr adnod flaenorol; fel hyn:—"Trwy ffydd gweithrediad Duw, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw, ... (ac) a gydfywhaodd efe gydag ef," &c., sef gyda Christ. *Gan faddeu i ni* (nid *i chwi*) *yr holl gamweddau.*—Y mae marwolaeth yr adnod hon yn gynnwysedig mewn dau beth: 1. Llygredigaeth y natur; 2. Euogrwydd, neu rwymedigaeth i gosb. Felly y mae adferiad yr efengyl hefyd yn cynnwys dau beth: 1. Cynnyrchu ynom egwyddorion bywyd newydd, neu "ein cydfywhau" gyda Christ; 2. "Maddeu yr holl gamweddau."

14. *Gan ddileu ysgrifen-law,* &c.—Y mae y syniad o faddeuant y soniwyd am dano yn niwedd yr adnod o'r blaen, yn cael ei egluro yn mhellach yma, ond trwy gymmhariaeth mor aneglur fel y mae yr adnod hon a'r un ganlynol wedi rhoddi anhawsder mawr i esbonwyr. Darllena Ellicott y rhan flaenaf o'r adnod fel hyn: "Gan ddileu yr ysgrifen-law oedd mewn grym yn ein herbyn ni trwy ei hordeiniadau."—"*Blotting out the handwriting in force against us by its decrees.*" Y pwngc mawr mewn dadl rhwng Paul a'r gau-athrawon ydoedd, a oedd angen cyflawni y defodau Iuddewig o dan y grefydd Gristionogol? Dadleuai ef fod yr holl ddefodau hyny wedi eu troi heibio gan Grist; ac er mwyn egluro hyn, cymmhara y ddeddf i ysgrifen-law, neu *fill,* drwy yr hwn yr oedd Duw yn ein dal ni yn rhwym iddo. Mŷn rhai mai y ddeddf foesol a olygir wrth yr "ysgrifen-law," yr hon a ysgrifenwyd â bys Duw ar y llechi, a'r hon oedd yn ein herbyn, ac yn ein dal yn euog. Dadleua ereill mai y seremonïol oedd y ddeddf "mewn ordeiniadau." Yn ngweinyddiad Moses y cyrhaeddodd deddf ei dadblygiad helaethaf. Barna Calvin mai yr "ysgrifen-law" oedd "ordeiniadau" y ddeddf seremonïol, fel yr oeddynt yn gydnabyddiaeth o ddyled dyn i'r holl ddeddf. Yr oedd pob defod—y golchi, yr aberthau, &c.,—yn cyfeirio at euogrwydd dyn; neu yn *fill* yn erbyn dyn, yn cyhoeddi ei euogrwydd, ac yn deffro ynddo ymwybyddiaeth o hono. Ond yn marwolaeth y groes, y mae yr euogrwydd yn cael ei ddileu, ac y mae y *bill,* neu y defodau oedd yn ei gydnabod, yn cael ei ddileu. Nid oes gan y ddeddf allu condemniol mwy yn erbyn y credadyn, o blegid y mae cyfiawnder Crist yn gyfiawnder iddo ef. *Gan ei hoelio wrth y groes.*—Dywed rhai fod hoel trwy gyfraith yn ei dirymu. Nid ydyw y Beibl yn cyfeirio at unrhyw ddefod o'r fath. Yr oedd hoelio wrth y groes yr un peth a lladd. Bu y ddeddf, yn ei gallu condemniol, farw gyda Christ. Pan hoeliwyd ef, fe'i hoeliwyd hithau. Neu, a thrawsddodi y syniad, bu y credadyn farw i'r ddeddf yn marwolaeth Crist. Cynnwys yr adnod hon yw, fod Crist ar y groes wedi dioddef melldith y ddeddf, a bod ei gallu rhwymedigaethol a chondemniol am byth wedi eu dileu; a chan hyny oferedd oedd cynnal i fyny y defodau oedd yn cydnabod y gallu hwnw.

15. *Gan ysbeilio y tywysogaethau,* &c.—Y mae Alford yn cyfieithu yr adnod fel hyn:—"Gan ddiosg, neu ddodi ymaith, y tywysogaethau a'r awdurdodau, efe a'u harddangosodd hwynt yn agored," &c. Ellicott fel hyn:—"Gan ddiosg

aethau a'r awdurdodau, efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd, gan ymorfoleddu arnynt arni hi.

16 Am hyny na farned neb
[t] Mat.15.11. arnoch chwi [t]am fwyd neu am

oddi wrtho ei hun dywysogaethau ac awdurdodau, gwnaeth arddangosiad o honynt gyda hyfdra, gan orfoleddu arnynt yndd hi." Yr esboniad cyffredin yw, mai ysbrydion drwg a feddylir wrth y "tywysogaethau a'r awdurdodau," y rhai y dywed y Beibl yn fynych eu bod yn elynion dyn: gwel *Eph.* vi. 12. Dywed y rhai sydd yn dal y golygiad hwn fod Paul yma yn gorphen ei ddisgrifiad rhagorol o berson a gwaith Crist, gyda'r syniad fod y Gwaredwr yn fuddugoliaethwr ar holl alluoedd gelynol y greadigaeth, a'i fod yn eu dwyn hwy oll yn orfoleddus fel eu gorchfygwr ar y groes. Er mai y groes, i olwg y byd, oedd dinystr gwarthus amcan a gwaith Crist, etto arni hi y cafodd efe ei fuddugoliaeth orfoleddus ar ei holl elynion, gweledig ac anweledig. Y mae amlygrwydd, neu gyhoeddusrwydd yr arddangosiad, i'w ystyried yn ysbrydol. Arweiniai Crist hwynt yn orfoleddus yn ngolwg llygaid byd yr ysbrydion, ac nid dynion. Er nad oes dim yn y groes ond melldith, llyngcwyd hi i fyny gan nerth Duw yn gymmaint fel y cymerodd arni, mewn ystyr, natur newydd. Nid oes un frawdle mor fawreddog, un orsedd mor rwysgfawr, un arddangosiad o orfoledd mor ogoneddus, nac un cerbyd mor uchel ac anrhyddeddus a'r groes, ar yr hon y darostyngodd Crist farwolaeth, a'r diafol, tywysog marwolaeth; le, mwy—lle eu llwyr fathroddi dan ei draed. Gwel *Calvin* ac *Olshausen*. Y mae Alford, beth bynag, yn gryf iawn yn gwrthod yr esboniad uchod, ac yn dadleu mai angylion da a feddylir wrth "y tywysogaethau a'r awdurdodau," fel yn *adn.* 10, a *pen.* i. 16. Yr oedd y ddeddf wedi ei rhoddi "trwy drefniad angylion:" *Gal* iii. 19. Hwynthwy oedd cyhoeddwyr "ysgrifen-law yr ordeiniadau." Trwy y cyhoeddiad hwnw, yr oedd Duw wedi gweled yn dda ddadguddio ei hun gynt. Ond gwnaed hwnw yn ddiwerth, a hoeliwyd ef wrth y groes—dirymwyd, a hongiwyd ef yno. Fel hyn, diosgodd Duw—bwriodd ymaith—y tywysogaethau a'r awdurdodau, gan amlygu ei hun o hyny allan heb len yn mherson dyrchafedig yr Iesu. A'r act fuddugoliaethus, trwy yr hon y darostyngodd Duw yn dragwyddol bob gallu ac awdurdod i Grist, ac y gwnaeth efe ef yn unig Ben i'w bobl, yn yr hwn y maent wedi eu cyflawni, ydoedd yr aberth hwnw, drwy yr hwn y cyflawnwyd yr oll o'r gyfraith. Yr oedd y gau-athrawon am roddi ile Crist i'r angylion; ond dengys Paul, pa ran bynag oedd gan alluoedd angylaidd yn yr oruchwyliaeth o'r blaen, fod hyny yn awr wedi darfod, gan fod yr oruchwyliaeth hono wedi cael ei throi o'r neilldu. *A'u harddangosodd:*—a'u darostyngodd yn llwyr i Grist. *Ar gyhoedd:*—neu mewn amlygrwydd, yn marwolaeth y groes, ac yn nghyhoeddiad yr efengyl, fod Crist yn ben uwch law pob peth. *Can ymorfoleddu arnynt arni hi.*—Dywedir yn 2 *Cor.* ii. 14 (fel y darllena Alford yr adnod), ein bod ni yn cael ein dwyn yn gaethion yn muddugoliaeth Crist, gan mai ein gwir fuddugoliaeth ni oedd ein darostyngiad ganddo ef: felly yma, y tywysogaethau a'r awdurdodau sydd nesaf atom uwch law i ni, y maent hwythau wedi eu darostwng iddo, a'u cyflawni ynddo.

ddiod, neu o ran dydd gŵyl, neu [u] Ioan 1. 17; Heb. 8. 5.
newydd-loer, neu sabbathau: [x] Mat.11.28.

17 Y rhai ydynt [u]gysgod peth- 29; Heb. 4. 1
au i ddyfod, ond [x]y corph *sydd* o —11.
Grist.

16. *Am hyny na farned neb arnoch,* &c.—Dychwela yr apostol yma at athrawiaeth y gau-athrawon yn fwy uniongyrchol, ar ol ei gadael yn *adn.* 8, i ddangos mawredd person a gwaith Crist; *adn.* 9—15. Mynai y dysgawdwyr hyn ddarostwng y Cristionogion dan iau drom, a'u rhwymo i gadw hen ddefodau ag yr oedd Crist trwy ei farwolaeth wedi eu diddymu. Peidiwch rhoddi eich hunain dan lyffetheiriau o'r fath, i gael eich canmawl am eu cadw, na'ch condemnio am beidio. "Am fwyta, neu am yfed."—*Alford.* Yr oedd yn nghyfraith Moses amryw ddefodau ynghylch bwyta; ond nid oedd yno un gorchymyn ynghylch yfed, oddigerth yn achos y Nazareaid (*Num.* vi. 3), a'r offeiriaid cyn myned i'r tabernacl: *Lef.* x. 9. Gallai fod yma gyfeiriad at draddodiadau Iuddewig, neu at arferion meudwyaidd a goleddid ganddynt hwy. *Neu o ran dydd gŵyl,* &c.—Gŵyliau (blynyddol), newydd-loer (misol), sabbathol (wythnosol): gwel *Gal.* iv. 10. Bernir nad oes gyfeiriad yma at y Sabbath, yr hwn a gedwid mewn bri mawr gan yr Iuddewon, yn ol gorchymyn Duw; ond at ddyddiau arbenig ereill y gwnelid gwahaniaeth arnynt, fel y gwneir gan Babyddion yn ein dyddiau ni.

17. *Y rhai ydynt gysgod pethau i ddyfod.*—Cyfeirir yma at y bwyta a'r yfed, a'r gŵyliau y sonir am danynt yn yr adnod o'r blaen. "Cysgod y pethau."—*Alford.* Nid oedd y pethau hyny ond cysgodau, a chollasant eu gwerth pan ymddangosodd y sylwedd. *Y corph sydd o Grist:*—hyny yw, y sylwedd. Y mae Crist, yn ei berson, ei waith, a'i eglwys, yn sylweddiad cyflawn o'r holl gysgodau a'r defodau Iuddewig. Gan hyny, ni fynai yr apostol i'r Colossiaid blygu i rwymedigaethau diangenrhaid ac afresymol. "Y mae peidio bwyta cig moch, y mae yn wir," meddai Calvin, "yn ddiniwed ynddo ei hun, ond yr oedd rhwymo dyn i hyny yn niweidiol, am ei fod yn gwneyd gras Crist yn ofer." Barna Alford, ac ereill, fod y Sabbath yn cael ei gynnwys yn y gŵyliau uchod, a'i fod yn cael ei droi o'r neilldu fel rhwymedigaeth ar y Cristion; ond barna ereill yn wahanol. Fel hyn y dywed Olshausen:—"Yn ol *Rhuf.* xiv. 5, 6, ymddengys nad ydoedd unrhyw adeg o ŵyliau arbenig o gwbl yn yr eglwys gyntefig. Yr oedd eu holl fywyd yn rhyw un wledd o laweuydd yn yr Ysbryd Glân. Y mae yn wir, yn gymmaint ag nad oes yn yr eglwys allanol bresennol ond ymgyrhaeddiad at y drychfeddwl o eglwys Crist, y mae rheolau ac ordinhadau yn bethau angenrheidiol; ond y mae cadwraeth Gristionogol o'r Sabbath i'w wahaniaethu yn fawr oddi wrth wasanaeth caethiwus yr hen gyfammod." Dywed Ellicott: "Y mae y ffaith fod y seithfed ran o'r wythnos i gael ei gyssegru i Dduw yn gorphwys ar ystyriaethau can hyned a'r greadigaeth. Mi y dydd cyntaf o'r wythnos ydyw y seithfed ran hono a orphwys ar esampl ac appwyntiad apostolaidd, a dwyfol, fel y gellir, fe allai, dynu y casgliad (fel y mae ymddangosiad yr Arglwydd ar y dydd hwnw yn tueddu i ddangos)."

18. *Na thwylled neb chwi am eich gwobr*:—trwy eich hudo ymaith ar gyfeiliorn, fel ag i

18 Na thwylled neb chwi am eich gwobr, wrth ei ewyllys, mewn gostyngeiddrwydd, ac addoliad angylion, gan ruthro i bethau nis gwelodd, wedi ymchwyddo yn ofer gan ei feddwl cnawdol ei hun;

[y] Eph. 4. 5, 16. 19 Ac heb gyfattal y Pen, o'r hwn y mae [y] yr holl gorph, trwy y cymmalau a'r cyssylltiadau, yn derbyn lluniaeth, ac wedi ei gydgyssylltu, [z] yn cynnyddu gan gynnydd Duw. [z] 1 Cor 3. 6.

20 Am hyny, [a] os ydych wedi meirw gyda Christ oddi wrth egwyddorion y byd, pa ham yr ydych, megys pettych yn byw yn y byd, yn ymroi i ordeiniadau; [a] Gal. 2. 19, 20; 6. 14.

21 ([b] Na chyffwrdd; *ac* na archwaetha; *ac* na theimla; [b] Gen. 3. 3.

golli eich gwobr. Cyfeirir yma at hudo y rhedegwr oddi ar ei redfa, fel ag i golli y dydd—colli ei wobr, a hyny nid gan ei gydredegwr, ond gan un yn cymmeryd arno fod yn farnwr—yn rhoddi cyfarwyddiadau iddo yn ei yrfa. Y cyfryw oedd hudoliaeth y gau-athrawon. *Wrth ei ewyllys, mewn gostyngeiddrwydd,* &c.—Y mae Alford yn darllen, "Na thwylled neb chwi o fwriad, mewn gostyngeiddrwydd ac addoliad yr angylion."—*Bengel.* "Na fydded i neb eich trin yn ol ei fympwy," &c. — *Ellicott.* "Gan ewyllysio ei wneuthur mewn gau-ostyngeiddrwydd ac addoliad yr angylion." Ymhyfrydu mewn gostyngeiddrwydd ymddangosiadol. Addolent yr angylion, gan gymmeryd arnynt eu bod yn rhy wylaidd a gostyngedig i nesau yn uniongyrchol at Dduw a Christ. Nid addoliad a ddysgwyd trwy angylion, fel y tybia rhai; ond cyflwyno addoliad i'r angylion, yr hyn a arferid gan amryw sectau Gnosticaidd, ac i'r dyben hwnw, a enwent eu hunain ar enwau dirgelaidd yr angylion.—*Olshausen. Gan ruthro i bethau nis gwelodd.*—Darllena Alford ac ereill, "i bethau a welodd;" sef i weledigaethau a gymmerai arno fod yn eu gweled, gan ei fod yn un a rodiai wrth olwg, ac nid wrth ffydd. "Y mae y cyfryw, yn wir, yn tori drwy, ac yn ymwthio i bethau dirgel a chuddiedig, y rhai na fynai Duw hyd yma eu dadguddio i ni. Dylai y frawddeg hon gael sylw gofalus, i'r dyben i geryddu byrbwylldra y rhai a fynant chwilio yn mhellach nag y mae yn gyfreithlawn."—*Calvin.* Gwel 1 *Cor.* iv. 6, a *Rhuf.* xii. 3. *Ei feddwl cnawdol ei hun.*—Nid cnawdolrwydd yn y ffurf o ymollwng i foddio nwydau a thueddiadau cnawd a feddylir yma, o blegid yr oeddynt yn arwain bywyd meudwyol llym: gwel *adn.* 23. Gair hynod yw hwn, "meddwl cnawdol." Y mae y ffurf o gyfuniad (y meddwl a'r cnawd), yr hon a ymddengys yn wrthdarawiadol, wedi ei chymmeryd o bwrpas er gosod allan annaturioldeb cyflwr eu meddwl. Y mae y meddwl yn y gau-athrawon hyn, yr hwn a ddylasai lywodraethu y cnawd, ei hunan wedi ei ddarostwng dan allu y cnawd—y meddwl wedi dyfod yn gnawdol. Y mae y term yn dangos tuedd hollol annuwiol y dyn anianol, ïe, pan yn dangos ei hun yn y ffurf mwyaf ysbrydol."—*Olshausen.*

19. *Ac heb gyfattal y Pen.*—Darllena Alford, ac Ellicott, "heb ddal yn dyn y pen" (*not holding fast the head*). Yr oedd y gau-athrawon yn cydnabod Crist, ac yn galw eu hunain yn Gristonogion; ond heb iawn ddeall ei swydd a'i allu, heb roddi ei le iddo fel unig ben corph yr eglwys, heb eu "gwreiddio a'u hadeiladu ynddo;" ac felly yn gosod ereill yn ei le. Wrth addoli yr angylion yr oeddynt yn tori eu cyssylltiad â Christ fel pen. Y pen sydd yn dal undeb "yr oll o'r corph" (fel y darllenir yr adnod hon gan rai), ac yn cyfranu bywyd, nerth, a chynnaliaeth i'r holl aelodau. Ynddo ef y mae pob cyflawnder yn trigo, a thrwy undeb âg ef yn unig y mae yn cynnyddu ar gynnydd Duw, mewn rhinweddau dwyfol. Pa beth bynag ddywed y Pabyddion yn eu hysgrifeniadau, y mae yr anrhydedd a'r addoliad a delir yn ymarferol ganddynt hwy i'r angylion yn rhwystr i gynnyddu ar gynnydd Duw — cynnyddu mewn rhinweddau dwyfol. Gwel sylwadau ar adnod gyffelyb yn *Eph.* iv. 16. Y mae esbonwyr Pabaidd yn arfer pob dyfais i ysgoi cyfeiriad nerthol y geiriau hyn, at eu gwaith hwy yn dilyn arferion heresiol y dysgawdwyr Iuddewig yn y pwnge o addoliad angylion. Dywed un o honynt, Bisping—"Y mae yn amlwg, oddi wrth y geiriau hyn, fel yn wir oddi wrth natur pethau, nad yw yr apostol yn beio pob anrhydeddiad ar angylion, dim ond y cyfryw anrhydedd fydd yn eu codi i le Crist. Y mae pob gwir anrhydedd i angylion a seintiau wedi y cwbl, yn mhob esampl, yn anrhydedd ar Grist eu pen." Ar hyn, gellir sylwi, laf, fod y gair "anrhydeddu" yn ammherthynasol i'r pwngc. nid am anrhydeddu y mae y ddadl, ond am addoli yn yr ystyr cyfyngaf. 2il, Beth bynag a ddywed esboniwr yn ei fyfyrgell, ac a haera Pabyddion pan fyddo yn gyfleus iddynt hwy, y mae yr addoliad a delir yn weithredol ac ymarferol ganddynt i angylion a seintiau, yn llawer mwy na'r hyn a delir ganddynt i Grist eu pen. Trwy holl Ewrop Babaidd, yn mysg corph y bobl ganoradd ac iselradd, y mae addoliad Crist yn brysur ddarfod, ac addoliad ei Fam yn cymmeryd ei le.—*Alford.*

20. *Os ydych wedi meirw, &c.*—yn ol *adn.* 11, 12. Yn *adn.* 14, dangosir fod y ddeddf wedi marw iddynt hwy, ond yma eu bod hwy wedi marw i'r ddeddf. *Egwyddorion y byd.*—Gwersi elfenol—cyflawniad o ddefodau: gwel *adn.* 8. Gwelai yr apostol fod osgo rhai o'r eglwys hon at addysg gyfeiliornus y gau-athrawon; ac felly, er mwyn dangos gwrthuni y fath ymddygiad yn y wedd fwyaf gyffrous, llefara am eu gwrthgiliad fel pe buasai eisoes wedi cymmeryd lle. *Megys pettych yn byw yn y byd.*—Nid byw yn y byd mewn ystyr anianyddol, ond mewn egwyddorion bydol—dan gaethiwed yr "ordeiniadau." Yr oedd Crist wedi eu rhyddhau hwynt o dan gaethiwed yr ordeiniadau a nodir yn *adn.* 21.

21. *Na chyffwrdd, &c.*—(*"Handle not, nor taste, nor touch."—Alford, Ellicott*). Dyma esampl o'r "ordeiniadau" caethiwus y ceisid eu rhwymo hwynt danynt. Bernir fod y tri gair yn cyfeirio at fwydydd, a dangosant mor llym oedd cyfreithiau y gau-athrawon; mor ddefodol oeddynt, ac fel yr oeddynt yn edrych ar y ddeddf yn ol y llythyren yn unig, gan ddisgwyl sancteiddrwydd yn yr allanol, ac nid yn y mewnol. Unwaith yr ymgymmerir â gormesu ar eneidiau dynion, nid oes diwedd ar gyfreithiau newyddion, na'r defodau newyddion diddiwedd sydd yn codi oddi wrth y rhai hyny: "y maent o'r

[c] 2 Cor. 6. 13.

22 Y rhai ydynt oll yn [c] llygredigaeth wrth eu harfer) yn ol gorchymynion ac athrawiaethau dynion?

23 Yr hyn bethau sydd ganddynt rith doethineb mewn ewyllys-grefydd a gostyngeiddrwydd, a bod heb arbed y corph, nid mewn bri i ddigoni y cnawd.

PENNOD III.

B. A. 62. — 1 *Y mae efe yn dangos pa le y dylem ni geisio Crist; 5 ac yn ein hannog i'n marwolaethu ein hunain, 10 i ddiosg yr hen ddyn, ac i wisgo Crist am danom:*

dechreuad yn faglau yn rhwymo, ac yn y diwedd yn tagu."

22. *Y rhai ydynt oll yn llygredigaeth wrth eu harfer.*—Y mae y geiriau hyn yn agored i ddau esboniad: 1af, fel rheswm o eiddo y gau-athrawon; dywedent fod y bwydydd yr oeddynt hwy yn wahardd yn llygru y bwytawyr: 2il, fel geiriau condemniol yr apostol yn erbyn y gorchymynion dynol, y rhai oeddynt â thuedd i lygru, yn bytrach na sancteiddio. Y mae yr apostol yn dadleu yn erbyn yr "ordeiniadau" oddi wrth yr hyn a waherddid, ac oddi wrth y rhai a'u gwaharddent. Dengys yma nad oedd teyrnas Dduw, neu sancteiddrwydd, "mewn bwyd a diod"—mewn bwyta na pheidio bwyta. Y mae pob peth bwytadwy yn llygru, neu yn myned i'w ddiny strr, wrth ei fwyta, ac nis gall crefydd fod yn dibynu ar bethau llygredig felly. Cawn yr un gwirioneddyn cael ei ddysgu gan Paul yn 1 *Cor.* vi. 13: "Y bwydydd i'r bol, a'r bol i'r bwydydd, eithr Duw a ddinystria hwn a hwythau." Cawn y cyffelyb syniad hefyd gan Grist yn *Mat.* xv. 17. Dengys hefyd mai *gorchymynion ac athrawiaethau dynion* (dynol) oeddynt. Yr oedd rhai o'r pethau a ddysgid gan y gau-athrawon wedi eu gorchymyn gan Dduw dan yr hen oruchwyliaeth: ond yr oedd gosodiad y rhai hyn dan oruchwyliaeth yr efengyl yn ddyfeisiau dynol; ac nid all cydwybod fod yn rhwymedig i osodiadau dynol.

23. Y mae darlleniad yr adnod hon yn anhawdd. Fel hyn y darllena Ellicott hi:—"Yr hyn bethau oll sydd â chanddynt enw (*repute*) doethineb mewn addoliad gwirfoddol, a gostyngeiddrwydd, a thriniaeth ddiarbed y corph, nid mewn dim o wir werth, yn gwasanaethu yn unig i ddigoni y cnawd." Y mae yn nodi tri pheth ag oedd yn rhoddi ymddangosiad, neu wedd doethineb ar eu crefydd. 1. *Ewyllys-grefydd* ydoedd; crefydd wirfoddol, nid yn ei gweithiad allan, ond yn ei dyfeisiad—crefydd o'u dewisiad eu hun oedd addoliad angylion, a'r ordeiniadau ynghylch bwydydd, &c., ac nid o roddiad Duw. 2. *Gostyngeiddrwydd.*—Cymmerent arnynt rodio yn isel a gostyngedig iawn, er nad ydoedd y cwbl ond rhith ac ymddangosiad. 3. Triniaeth arw y corph—*heb arbed y corph.* — Ystyrir y frawddeg olaf hon yn un dywyll, ac anhawdd iawn i'w deall. Y mae yn amlwg fod yma gyfeiriad at lymder athrawiaeth a bywyd y gau-athrawon hyn, y rhai a arferent gosbi eu cyrph yn drwm, gan ymgadw oddi wrth lawer o fwynderau cyfreithlawn. Gwnelent hyn mewn rhith gwasanaethu Duw; ond nid yw yn wasanaeth i Dduw i ddarostwng ein cyrph i anfri felly i

12 *yn ein cynghori ni i gariad perffaith a gostyngeiddrwydd, ac amryw o rinweddau ereill.*

[a] Salm 110. 2; Mat 26.64; Marc 16. 19; Luc 22. 69; Act. 7. 35; Heb. 12. 2; 1Pedr3 22.

AM hyny os [a] cydgyfodasoch gyda Christ, ceisiwch y pethau *sydd* uchod, [a] lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw.

[b] 1 Cron. 22. 19; Salm 62. 10; Diar. 25. 5; Mat. 16. 28; 1 Ioan 2.15—17.

2 [b] Rhoddwch eich serch ar bethau *sydd* uchod, [c] nid ar bethau *sydd* ar y ddaear.

[c] Salm 49. 11—17; Mat. 6. 19; Phil. 3. 19. [d] Ioan 3. 16; 14. 19; Rhuf 5. 10, 21; 1 Cor. 15. 45; Heb. 7. 25.

3 Canys meirw ydych, [d] a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw.

foddio dychymmygion cnawdol dynion: gwel *adn.* 18.

Pennod III.

1. *Am hyny os cydgyfodasoch,* &c.—Y mae ail ran yr epistol yn dechreu gyda'r bennod hon; ac y mae yn cynnwys cynghorion i ymroddi i ddyledswyddau y bywyd newydd yn Nghrist. Yn y pedair adnod gyntaf o'r bennod hon, y mae y trawsnewidiad o'r athrawiaethol i'r annogaethol, a dangosir ynddynt mai gwraidd bywyd duwiol ydyw undeb â Christ. "Os cydgyfodasoch," &c., fel y dangosir yn *Col.* ii. 12, 20. Nid yw yn ammheu y ffaith, ond arfera yr "os" er ei roddi ar ffurf ymresymiad. *Pethau sydd uchod.*—Y drefn ar ol adgyfodi yw esgyn. Felly y gwnaeth Crist: "Yr wyf yn dyrchafu," meddai (*Ioan* xx. 17). Ac felly y mae bywyd Crist yn y Cristion: ar ol cyfodi gyda Christ, y mae yn tynu i fyny ar ei ol. "Pethau sydd uchod" yw pethau nefol, ysbrydol: gwel *Gal.* iv. 26, a *Phil.* iii. 20. *Lle y mae Crist yn eistedd,* &c.—Eistedd ar ddeheulaw Duw: efe, ein Harglwydd a'n Hachubwr, sydd yn meddu pob awdurdod yn llywodraethiad y byd; am hyny dylai ein tynfa ni fod ato.

2. *Rhoddwch eich serch,* &c.—"Rhoddwch eich meddwl," y darllenir ef (*Mind the things above.*—*Ellicott*). Dywedir am eu "ceisio" yn yr adnod flaenorol, ac yma am gadw y meddwl, y bryd, ynddynt. *Pethau sydd ar y ddaear.*—Tybia rhai mai cyfeirio at y defodau y mae yr apostol yma, y sonir am danynt yn y bennod o'r blaen. Ond gellir eu cymmeryd am bob peth tymmorol, neu berthynasol i'r bywyd daearol.

3. *Canys meirw ydych:*—neu, "buoch feirw:" *Col.* ii. 20. Rheswm arall yw hwn, er dangos y dylasai eu meddwl gartrefu gyda'r "pethau sydd uchod." Nis gellir cyfodi gyda Christ heb farw gyda Christ; rhaid i farwolaeth ragflaenu adgyfodiad. Marw i'r byd a feddylir. Trwy Grist, "croeshoeliwyd y byd i ni, a minnau i'r byd;" *Gal.* vi. 14. *A'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ,* &c.—Eich gwir fywyd—y bywyd ysbrydol a nefol, ag y mae Crist yn ffynnonell iddo, ac yn esampl o hono, a thrwy yr hwn y cyrhaedda y bywyd ei ddadblygiad helaethaf. Y mae y bywyd hwn yn awr, fel y mae Crist ei hunan, i raddau helaeth, yn guddiedig. Y mae bywyd allanol a mewnol y Cristion yn dra gwahanol; y mae yr allanol mewn tlodi, gwendid, a gwaradwydd; ond y mae y mewnol, y dwyfol, yn llawn o ogoniant a thangnefedd, fel y dangosir gan yr apostol yn 2 *Cor.* vi. 8—10. Yn y bywyd daearol, yr oedd Crist ar y groes y mwyaf dirmygedig o bawb; ond yn yr ysbrydol, yr oedd yr un pryd yn

[e]1Tim 6.14; 2 Tim. 4. 8. [f]Salm 17. 15; Mat. 13. 43; 1 Thes. 4. 17.

4 [e] Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, [f]yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant.

5 Marwhewch gan hyny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilunaddoliaeth:

[g]Eph. 5. 6.

6 O achos [g]yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar

[h]Esa. 57. 4.

[h] blant yr anufudd-dod.

7 Yn y rhai hefyd y rhodiasoch

darostwng tywysogaethau dan ei draed. Ac fel y mae Crist yn disgwyl dydd ei ddadguddiad (1 *Cor.* i. 7), felly y mae hefyd fywyd cuddiedig y Cristion. Ymadrodd cryf yw, *gyda Christ yn Nuw.*—Y mae yr undeb agosaf rhwng bywyd y Cristion a Christ. Mae y Cristion "yn Nghrist, a Christ ynddo ynta;" ac y mae Crist eilwaith "yn mynwes y Tad." Y mae Duw yn lloches y bywyd: nid oes neb ond Duw yn ei adwaen yn berffaith, ac yn Nuw yn unig yr adwaenir ef.

4. *Pan ymddangoso Crist,* &c.—Pan ddaw o'i ymgudd-le presennol, i wneyd ei hun yn amlwg; pan ymddangoso yr ail waith yn ei ogoniant: *Ioan* xvii. 24. "Pan gyfododd Crist, cyfodasom ninnau oll gydag ef; ond nid ydym etto yn gweled y diwedd. Y mae dirgelwch ein hadgyfodiad yn guddiedig ynddo ef."—*Theodoret.* "Nid amlygwyd i ni etto beth a fyddwn," &c.: 1 *Ioan* iii. 2. "Dydd Crist," fydd hefyd yn ddydd "dadguddiad," meibion Duw. "Pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu, yn y dydd hwnw:" 2 *Thes.* i. 10.

5. *Marwhewch gan hyny eich aelodau,* &c.—Y mae "gan hyny" i'w gyssylltu â'r "meirw ydych," neu "buoch feirw," yn *adn.* 3. Gweithiwch allan, sylweddolwch y cyfiwr hwnw o farwolaeth i bethau ar y ddaear. Gan fod eich bywyd chwi wedi ei guddio gyda Christ, ac i gael ei ddadguddio etto mewn gogoniant, actiwch yn ol hwnw, a lleddwch ar unwaith bob peth gelynol iddo. Dywed Alford, "Gyda golwg ar eich aelodau sydd ar y ddaear, sef y traed, y dwylaw, &c., darostyngwch y rhai hyn i farwolaeth, gyda golwg ar eu gweithrediad at ddrygau fel y rhai a nodir yn yr adnod hon, neu gyda golwg ar eu dinasfraint ar y ddaear." Ond sonia yr apostol yma am y natur lygredig dan y gymmhariaeth o "hen ddyn," ac y mae y drygau a nodir yn yr aelodau iddo. "Y maent yn aelodau i ni," meddai Calvin, "yn gymmaint a'u bod, mewn ystyr, yn glynu mor dyn ynom:" gwel nodiadau ar *Gal.* v. 24; *Eph.* iv. 19; v. 3—5. Yn mysg yr aelodau i'w "marwhau," gesyd yr apostol yn mlaenaf oll bechodau y cnawd, yn eu hamrywiol agweddau, y rhai, lle byddont yn ffynu, sydd yn gwenwyno holl dueddiadau y natur ddynol. Nid ydyw yr adnod hon yn golygu fod marweiddiad "yr hen ddyn" i'w gyflawni gan y credadyn yn ei nerth ei hun, ond trwy nerth yr Ysbryd Glân. Gellir arall-eirio y cynghor, fel y gwna Olshausen: "Rhoddwch le ynoch, trwy eich ffyddlondeb i'r Ysbryd, yr hwn sydd yn marweiddio yr hen ddyn."

6. *O achos yr hyn bethau:*—y pechodau a nodir yn yr adnod flaenorol. *Digofaint Duw:*—

chwithau gynt, pan oeddych yn byw ynddynt.

8 Ond yr awr hon rhoddwch chwithau ymaith yr holl bethau hyn; digter, llid, drygioni, cabledd, serthedd, allan o'ch genau.

9 Na ddywedwch gelwydd wrth eich gilydd, [i]gan ddarfod i chwi ddiosg yr hen ddyn ynghyd â'i weithredoedd;

[i] Rhuf. 6. 6.

10 A [k]gwisgo y newydd, yr hwn a [l]adnewyddir mewn gwybodaeth, yn ol delw yr hwn a'i creodd ef.

[k] Iob 29. 14. [l] Salm 51. 10; Heb. 6. 6.

mewn barnau tymmhorol a thragwyddol. Gwel nodiadau ar adnod gyffelyb dan *Eph.* v. 6.

7. *Yn y rhai:*—sef, yn y pechodau a nodir yn *adn.* 5. Y mae "byw" yn golygu y cyflwr, a "rhodio" yn golygu y gweithredoedd. "Y mae byw a rhodio yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd, fel y mae gallu oddi wrth weithrediad. Y mae byw yn rhagflaenu, a rhodio yn canlyn, fel yn *Gal.* v. 25. 'Os byw yr ydym yn yr Ysbryd, rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd.'"—*Calvin* Gwel *Eph.* ii. 2, 3.

8. *Yr awr hon:*—yn cyfeirio at ddiwedd yr adnod flaenorol, "gynt, pan oeddych yn byw ynddynt." *Rhoddwch ymaith.*—Fel gwisg wedi ei difwyno. *Yr holl bethau hyn:*—gan gymmeryd i fewn y drygau a nodir yn *adn.* 5, yn gystal a'r adnod hon. Y mae y pethau a nodir yma yn cyfodi oddi wrth nwydau drwg. Y mae *digter* yn golygu digio, a *llid* yn golygu aros yn y digofaint hwnw. *Drygioni* yma yw malais, neu ysbryd dialgar. Y mae *cabledd* yma i'w ddeall yn ei gyssylltiad â dynion, yn benaf; a *serthedd* am arfer geiriau drwg, neu iaith isel. Y mae y rhoddi *allan o'r genau* i'w ddeall am y "cabledd a'r serthedd," a'r "bwrw ymaith" am y tri gair blaenaf. Gwel y sylwadau ar *Eph.* iv. 31.

9, 10. *Yr hen ddyn.*—Y natur lygredig oedd ganddynt cyn eu dychweliad. Y mae y gair "diosg" yn arwyddo mai yn raddol y mae "yr heu ddyn" yn cael ei fwrw ymaith, ac mai yn raddol y dadblygir "y dyn newydd." Gwel y sylwadau ar y cyffelyb adnodau yn *Eph.* iv. 22—24, a *Rhuf.* vi. 6. "Yr hwn a adnewyddir i wybodaeth berffaith."—*Alford.* Y mae creadigaeth newydd yr Ysbryd, meddai yr un awdwr, i gyflawnder gwybodaeth a gwirionedd—y ffurf uchaf o ba un fyddai gwybodaeth berffaith o Dduw—yn cael ei ystyried gan yr apostol fel yn cyfatteb i greadigaeth gyntaf dyn. Fel y gwnaed ef y pryd hwnw ar ddelw Duw, felly yn awr, ond y pryd hwnw yn naturiol, yn awr yn ysbrydol, mewn perffaith wybodaeth. Fel hyn, rheol a threfn ei adnewyddiad yw, *yn ol delw yr hwn a'i creodd ef.*—Hwnw yw Duw, yr hwn yn wastad ydyw y Creawdwr; ac nid Crist. Byddai deall y geiriau hyn oll fel yn cyfeirio at adferiad delw Duw yn y greadigaeth gyntaf, yn llawer iawn llai na'r gwirionedd gogoneddus a gynnwysant. Nid i adferu yr hen, ond i greu y newydd, y dygwyd prynedigaeth oddi amgylch. Pa beth bynag ydoedd delw Duw, yn mha un y crewyd yr Adda cyntaf, y mae yn sicr y bydd delw Duw, yn mha un y mae Ysbryd Crist yn ein hail greu, yn gymmaint mwy gogoneddus na hono ag y mae yr Ail Ddyn yn fwy gogoneddus na'r cyntaf.—*Alford.*

11 Lle nid oes na Groegwr nac Iuddew, enwaediad na dienwaediad, Barbariad *na* Scythiad, caeth *na* rhydd: [m]ond Crist *sydd* bob peth, ac yn mhob peth.

[m] 1 Cor 1. 29, 30.

12 Am hyny ([n] megys etholedigion Duw, sanctaidd ac anwyl) gwisgwch am danoch ymysgaroedd trugareddau, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros;

[n] Esa. 42. 2.

13 Gan gyd-ddwyn â'ch gilydd, a maddeu i'ch gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb; megys ag y maddeuodd Crist i chwi, felly *gwnewch* chwithau.

14 Ac am ben hyn oll, *gwisgwch* gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd.

[o] Salm 29. 11; Esa. 26. 3; Ioan 14. 27; 2 Cor. 5. 19, 31; Eph. 2. 12—18.

15 A [o] llywodraethed tangnefedd Duw yn eich calonau, i'r hwn hefyd y'ch galwyd yn un corph; a byddwch ddiolchgar.

11. *Lle nid oes na Groegwyr nac Iuddew* :—sef yn myd "y dyn newydd," y sonir am dano yn yr adnod flaenorol. Y mae "Groegwr ac Iuddew" yn cyfeirio at wahaniaeth cenedlaethol; y mae rhagorfreintiau yr Iuddewon, fel had Abraham, wedi diflanu yn Nghrist. Nid gwahaniaeth cenedlaethol a feddylir wrth *enwaediad a dienwaediad*, o blegid y mae hyny wedi ei nodi eisoes; a gallasai Groegwr fod wedi enwaedu arno: ond nad oedd enwaediad, fwy na bod heb enwaediad, yn un fantais, nac anfantais, yn nheyrnas Crist. Yr oedd *Barbariad*, a *Scythiad* [y mwyaf barbaraidd o'r barbariaid], *caeth*, a *rhydd*, yn colli eu holl nodweddion gwahaniaethol yn y dyn newydd. Y maent i'w darllen fel uchod, gydag attalnod ar ol pob un, heb gyssylltiad. "Yr oedd y Groegiaid yn y gorllewin, yr Iuddewon yn y dwyrain, y Barbariaid yn y deheu [term Arabaidd a arferid yn briodol am y Numidianiaid], a'r Scythiaid yn y gogledd." —*Bengel*. Y mae yr apostol yma yn tafiu ei lygad yn ol ar heresiau y gau-athrawon, ac yn dangos fod pob nodweddion gwahaniaethol, zyda golwg ar genhedloedd, cyflawniadau defodol, neu sefyllfaoedd yn y byd, yn colli eu hystyr yn Nghrist. Nid oes yn yr efengyl, a'r deyrnas a sefydlir ganddi, ddim â gwerth ynddo, ond Crist ei hun. Nid yw Barbariad yn Farbariad, ond eiddo Crist; nid yw Scythiad yn Scythiad, ond eiddo Crist—ie, yn wir, Crist ydyw. Crist sydd oll, ac yn oll, sydd yn credu. Y mae y dyn newydd yn Nghrist, a Christ ynddo yntau. Gwel sylwadau ar eiriau cyffelyb yn *Gal.* iii. 28.

12. *Gwisgwch am danoch.*—Wedi son, yn *adn.* 8, am "roddi ymaith oddi wrthynt," dywed yn awr beth i wisgo am danynt. Ac wedi "gwisgo y dyn newydd," yr oedd angen gwisgo ei holl gymmeriad. *Megys etholedigion Duw, sanctaidd ac anwyl.*—Nid ydyw yn seilio y cymmhelliad i fywyd felly ar y ddeddf, yr hon oedd yn hawlio sancteiddrwydd, ond ar ystyriaeth o'r gras oedd wedi ei ddangos tuag atynt. Gan fod Duw wedi eich codi mor uchel, rhodiwch yn deilwng o'ch dyrchafiad. "Y mae trefn y geiriau yn cyfatteb yn rhagorol i drefn y pethau, "etholedigion" o flaen "sanctaidd," a "sanctaidd" o flaen "anwyl;" y mae etholedigaeth dragwyddol o flaen sancteiddiad mewn amser. Y mae "y rhai sanctaidd" yn teimlo cariad Duw, ac mewn canlyniad yn ei efelychu."—*Bengel. Ymysgaroedd trugareddau* : — neu, fel y cyfleitha Alford, "calon o dosturi," neu diriondeb trugareddau: *Luc* i. 78. Gwel ar y geiriau ereill yn *Eph.* iv. 2, 32.

13. Gwel sylwadau ar eiriau cyffelyb yn *Eph.* iv. 32. Y mae y *cyd-ddwyn* â'i olwg ar dramgwydd presennol, a'r *maddeu* ar dramgwyddiadau yn yr amser a basiodd. Gesyd yr apostol arbenigrwydd ar ymarferiad y grasau o "addfwynder, ymaros, cyd-ddwyn, a maddeu," am fod dadleuon ynghylch y gau-athrawon wedi cyffroi peth chwerwder yn mysg y Colossiaid. *Os bydd gan neb gweryl* [neu gŵyn] *yn erbyn neb; megys ag y maddeuodd Crist.*—Y mae Alford ac ereill, yn ol amryw goplau, yn rhoddi Arglwydd yn lle Crist. Gwel *pen.* ii. 13. Yn *Eph.* iv. 32; "Megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist," lle yr olrheinir y maddeuant i'w ffynnonell.

13. *Ac am ben hyn oll*, &c.—"Hyn oll," yw y rhinweddau gwerthfawr a ddynodir yn *adn.* 12, 13. "Ond dros hyn oll."—*Alford.* "O flaen hyn oll."—*Calvin.* Gwisgo cariad, o'r hwn y mae "hyn oll" yn tarddu, neu sydd yn cynnwys hyn oll ynddo ei hunan: *Rhuf.* xiii. 10. Yn ofer yr edrychir am y rhinweddau hyn lle y bydd cariad yn eisieu. Rhydd Alford y fannod i mewn, "y cariad," y gras prydferth, cynnwysfawr, a thragwyddol hwnw, sydd mor amlwg yn nghrefydd Crist. Barnai hefyd fod y meddyldrych o wisg uchaf, neu wregys, o flaen meddwl yr apostol, yr hon sydd yn orpheniad ar y gwisgiad, ac yn cadw y lleill oll ynghyd. Y mae y Pabyddion yn cymmeryd achlysur oddi wrth y gair hwn—"cariad yw rhwymyn perffeithrwydd"—i ddal cyfiawnhâd trwy gariad, sef trwy weithredoedd. Ond nid son y mae yr apostol am yr hyn sydd yn gwneyd dyn yn berffaith ger bron Duw; ond am yr hyn sydd yn gwneyd Cristionogion yn berffaith yn mysg eu gilydd; neu mewn geiriau ereill, y bydd pob peth mewn stâd ddymunol yn ein bywyd pan y bydd cariad yn blaguro fel y dylai. Dyweûir hyn ar y dybiaeth fod cyflawnhâd trwy ffydd eisoes wedi cymmeryd lle. Gwel *pen.* ii. 12, ac *adn.* 12 o'r bennod hon.

15. *Llywodraethed tangnefedd Duw.*—"Crist," ac nid "Duw," sydd yma gan yr awdurdodau goreu. Crist yw awdwr y tangnefedd (*Eph.* iii. 14); a gadawodd ef yn etifeddiaeth i'w bobl: *Ioan* xiv. 27. Bydded y tangnefedd hwnw yn orseddol, yn rheoleiddio, yn teyrnasu, yn eich calonau. Neu, fel y darllena un, "Gwisgwch gariad, ac yna bydd tangnefedd Crist yn llywodraethu," &c. Yn *Eph.* iv. 3, sonir am dangnefedd yn "gwiwm," neu rwymyn. "Y mae yn dra dyddorol sylwi ar yr un gair yn digwydd yn rhediad yr un syniadau yn y ddau epistol, ond yn fynych gyda chymmhwysiad gwahanol."—*Alford. Tr hwn hefyd y'ch galwyd yn un corph.*—Yn gymmaint a'ch bod oll wedi eich uno yn un corph, i gael eich gwneyd yn gyfranog o'i fywyd a'i dangnefedd ef. Y mae yr holl gredinwyr wedi eu galw i fwynhau tangnefedd Crist: *Eph.* ii. 14—17. *A byddwch ddiolchgar.*—Nid ydyw y gair a gyfieithir yma "diolchgar" i'w gael ar ol hyn yn y

[p] Ioan 5. 39, 40; [s] Tim. 3. 15.

16 [p] Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth yn mhob doethineb; gan ddysgu a rhybuddio bawb eich gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol, gan ganu trwy ras yn eich calonau i'r Arglwydd.

17 A pha beth bynag a wneloch, ar air neu *ar* weithred, *gwnewch* bob peth [q] yn enw yr Arglwydd Iesu, gan ddiolch i Dduw a'r Tad trwyddo ef.

[t] Mica 4. 5; Mat. 28. 19; 1 Thes. 4. 1, 2; Eph. 5. 20.

18 *Y* gwragedd, ymostyngwch [r] Act. 5. 29. i'ch gwŷr priod, [r]megys y mae yn weddus yn yr Arglwydd.

19 *Y* gwŷr, cerwch *eich* gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt.

20 *Y* plant, ufuddhêwch i'*ch* rhieni yn mhob peth: canys hyn sydd yn [s] rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda. [s] Phil. 4. 18; Heb. 13. 21.

21 *Y* tadau, na chyffrowch eich plant, fel na ddigalonont.

22 *Y* gweision, ufuddhewch yn mhob peth i'*ch* meistriaid yn ol y cnawd; nid â llygad-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, eithr mewn symlrwydd calon, yn ofni Duw:

23 A pha beth bynag a wneloch, gwnewch o'r galon, [t] megys i'r Arglwydd, ac nid i ddynion; [t] Zech. 7. 5-7.

24 Gan wybod mai gan yr Arglwydd [u]y derbyniwch daledigaeth yr etifeddiaeth: canys yr Arglwydd Crist yr ydych yn ei wasanaethu. [u] Gen. 15. 1; Ruth 2. 12.

Testament Newydd. Dywed Olshausen fod iddo ddau ystyr, sef "diolchgar," ac hefyd, "addfwyn, tyner." Y mae yr olaf yn atteb yn well yma. Deled y tangnefedd sydd o fewn i'r golwg oddi allan, mewn addfwynder a thynerwch ymddygiad. Bydded gafael y tangnefedd hwn mor nerthol ar bob teimlad, fel ag i ddarostwng pob teimlad terfysglyd fel nas gall godi i lywodraethu ar y meddwl.

16. *Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth.*—Cyfeirir yma at breswyliad personol y gair yn y galon, fel defnydd athrawiaeth bur, addysg, rhybudd, a moliant. "Preswylied, fel y mae ein hanneidiau yn preswylio yn ein cyrph, i'w bywhau, a llywodraethu eu holl ysgogiadau; felly bydded y gair dwyfol yn enaid yn eich calonau, yn aros yno ddydd a nos, i lywodraethu a rheoleiddio eich holl fywyd."—*Daille. Yn helaeth:*—yn gyfoethog, yn gyflawn, yn holl eangder ei gynnwysiad, ac yn holl eangder yr enaid—eich deall, eich cof, eich serch, a'ch holl ysbryd. Bernir y dylid cyssylltu "yn mhob doethineb" â "dysgu," ac nid â phreswyliad y gair. Rhydd Alford y rhesymau canlynol dros hyny: 1. Cawn y ddau air yma, *dysgu a rhybuddio*, ynghyd o'r blaen, yn cael eu cyssylltu â "phob doethineb," yn *pen.* i. 29. 2. Y mae gan y ferf hon "preswylio" ei rhagferf briodol eisoes, "yn helaeth," wedi ei gosod yn bennodol yn niwedd y frawddeg. 3. Gwna y ddwy frawddeg ganlynol felly gyfateb, "dysgu yn mhob doethineb," "canu trwy ras." Felly, yn narlleniad yr adnod, rhoddir y gwahan-nôd ar ol "helaeth," fel hyn, "Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth; gan yn mhob doethineb ddysgu," &c. Yn niwedd yr adnod, rhoddir "Duw" yn lle "Arglwydd." Ar ran olaf yr adnod gwel sylwadau ar yr un geiriau yn *Eph.* v. 19. Y mae "preswyliad helaeth y gair" yn cynnyrchu y canlyniadau o ddysgu, rhybuddio, a chanu. Dywed Meyer, nad ydyw Paul yma yn cyfeirio at "wasanaeth cyhoeddus," ond fod y dysgu a'r rhybuddio hyn yn cael eu disgwyl oddi wrth ei ddarllenwyr yn gyffredinol y naill tuag at y llall, ac fel prawf o breswyliad helaeth gair Crist ynddynt; ond am gyfranogiad y bywyd crefyddol yn mysg eu gilydd, yn eu cariad-wleddoedd, a chyfarfodydd ereill, ac yn eu cylchoedd teuluaidd. *Canu trwy ras yn eich calonau i'r Arglwydd.*—Yn *Eph.* v. 19, sonir am lefaru wrth eu gilydd mewn odlau, &c. "Canu trwy ras" yw canu yn nerth, ac yn nhymmer gras. "I Dduw," y mae yn gyfystyr â 1 *Cor.* xiv. 28; "Llefared.....wrth Dduw." Canu â'i feddwl, neu ei galon, i Dduw.

17. *A pha beth bynag a wneloch*, &c.—Y mae "gair a gweithred" yn ddynodiad o'r holl fywyd. Y mae cynghor cyffredinol yr adnod hon yn cynnwys y cwbl a ddywedwyd o'r blaen, neu a adawyd heb ei ddyweyd, ac y mae yn cyfateb o ran ystyr i *Eph.* v. 20. Gwel nodiadau yno. *Yn enw yr Arglwydd Iesu:*—yn ysbryd Crist, i ryngu bodd Crist, er mwyn Crist, gan ymddiried yn gwbl yn Nghrist. "Yn enw yr Arglwydd Iesu" yr ydym yn derbyn yr oll gan Dduw, ac y mae Duw yn derbyn yr oll genym ninnau. Dyma y llwybr y mae gras yn disgyn i lawr atom ni, ac y mae diolchgarwch ac addoliad yn esgyn i fyny at Dduw ein Tad.

18—21. Oddi yma hyd adnod gyntaf y bennod nesaf, cawn gynghorion neilltuol i ddyledswyddau perthynasol—gwŷr a gwragedd, rhieni a phlant, meistriaid a gweision—gan nodi yn mhob cyssylltiad yr un sydd dan awdurdod yn mlaenaf, a'r un sydd mewn awdurdod yn olaf. Gan fod yr adnodau hyn mor debyg i *Eph.* v. 22—vi. 9, nid oes raid ymaelond wrth ychydig o eiriau. Tröed y darllenydd at y nodiadau yno. *Megys y mae yn weddus yn yr Arglwydd.*—Y mae Cristionogaeth, neu y bywyd "yn yr Arglwydd," yn rhwymedigaeth newydd i gyflawniad gweddus o bob dyledswyddau priodasol. *Y plant, ufuddhewch i'ch rhieni yn mhob peth.*—Gosodir y rheol yma i lawr heb nodi eithriadau; ond y mae i'w ddeall yn wastad fod eithriadau mewn pwngc o gydwybod. *Rhyngu bodd i'r Arglwydd.*—Dylid darllen hwn "Rhyngu bodd yn yr Arglwydd," yr un fath ag yn *adn.* 18, "gweddus yn yr Arglwydd." *Na chyffrowch eich plant, fel na ddigalonont.*—Yn *Eph.* vi. 4, "Na yrwch eich plant i ddigio." Eu cyffroi fel ag i achlysuro ceryddon neu gosbedigaethau mynych, ac i hyny wneyd y plentyn yn ddigalon, a diobaith. Fel y dywed Bengel, "Ysbryd wedi ei sathru i lawr ydyw dinystr plentyn."

22—24. Gwel *Eph.* vi. 5—8. *Llygad-wasanaeth.*—"Pan yn ymgadw oddi wrth ddrwg yn y dirgel, pan nad oes neb yn edrych arnom, hyn ydyw ofni Duw; ond os gwnawn yno gyflawni

25 Ond yr hwn sydd yn gwneuthur cam, a dderbyn *am* y cam a wnaeth: ac nid oes derbyn wyneb.

PENNOD IV.

1 *Y mae efe yn eu hannog hwy i fod yn wresog mewn gweddi;* 5 *i rodio yn ddoeth tuag at y rhai ni ddaethant etto i'w hymbodaeth am Grist;* 10 *ac yn eu hannerch hwy; ac yn ewyllysio iddynt bob rhyw lwyddiant.*

B. A. 62. — [a] Preg. 5. 8; Mat. 23. 8, 9.

YMEISTRIAID, gwnewch i'ch gweision yr hyn *sydd* gyfiawn ac uniawn; gan wybod [a] i chwithau Feistr yn y nefoedd.

[b] Parhewch mewn gweddi, gan wylied ynddi gyda diolchgarwch,

3 Gan weddïo hefyd drosom ninnau, [c] ar i Dduw agori i ni ddrws ymadrodd, i adrodd [d] dirgelwch Crist, am yr hwn yr ydwyf hefyd mewn rhwymau:

4 Fel yr eglurhawyf ef, megys y mae yn rhaid i mi *ei* draethu.

5 Rhodiwch mewn doethineb tuag at y rhai sydd allan, gan brynu yr amser.

6 *Bydded* eich ymadrodd bob amser yn rasol, wedi ei dymmheru â halen, fel y gwypoch pa

[b] 1 Sam. 12. 23. [c] 1 Cor. 16. 9; 2 Cor. 2. 12; 2 Thes. 3. 1, 2; Dad. 3. 7, 8. [d] Col. 1. 26; 2. 2, 3.

---

drwg, nid ofni Duw yr ydym, ond ofni dynion." —*Chrysostom. Yn ofni Duw:*—neu, yn fwy priodol, "ofni yr Arglwydd," fel y mae yn yr hen gopïau, yr hwn yw y gwir Feistr. *Gwnewch o'r galon.*—"Gwnewch o'r enaid."—*Ellicott.* "Gweithiwch wrtho yn galonog.—*Alford.* Nid fel rhai yn llafurio o orfod, ond o ddewisiad. *Taledigaeth yr etifeddiaeth.*—Cyfeirir yma at y coethweision. Os nad oedd tâl iddynt am eu llafur gan eu meistriaid, yr oedd taledigaeth yn eu haros gan yr Arglwydd, os gwasanaethent yn iawn. Gelwir ef yn "daledigaeth;" ond rhag i neb dybied mai haeddiant eu gweithredoedd oedd, gelwir ef yn etifeddiaeth. "Taledigaeth, sef yr etifeddiaeth." Nid ennill, ond derbyn etifeddiaeth yr ydys: y cyfryw yw taledigaeth y Cristion. Y mae darlleniad y frawddeg hon, "canys yr Arglwydd Crist yr ydych yn ei wasanaethu," yn fwy cywir fel hyn, "gwasanaethwch yr Arglwydd Crist." Nid "gwasanaethu dau Arglwydd" a geisir yma, ond gwasanaethu y naill yn y llall.

25. Gwel *Eph.* vi. 8. Gadawer yr "am" allan, a darllener, *A dderbyn yn ol y cam a wnaeth.*—Er fod yma egwyddor gyffredinol sydd yn cyrhaedd pawb, y mae cyfeiriad naturiol yn yr adnod at y caethwas yn derbyn cam oddi ar law ei feistr. Cymmhellir y gweision i oddef y cyfryw gam yn dawel, gan ystyried eu hunain yn weision Crist, a gadael eu holl achos yn ei law ef, y Barnwr cyfiawn, yr hwn a uniona bob cam yn ei ddyfodiad. *Heb dderbyn wyneb.*—Gwel *Gal.* ii. 6.

PENNOD IV.

1. Gwel *Eph.* vi. 9. *Cyfiawn ac uniawn:*—neu gyfiawn a theg. Y mae y gair "cyfiawn" yn cyfeirio at yr hyn sydd iawn yn ol y gyfraith, a'r gair a gyfieithir "uniawn" yn cyfeirio at garedigrwydd ac addfwynder Cristionogol. Rheswm da am y cynghor yw, fod y meistr fel y gwas yn rhwymedig i'r "Meistr yn y nefoedd;" *pen.* iii. 24.

2. Gwel *Rhuf.* xii. 12; *Phil.* iv. 6. Y mae yr apostol yn awr yn dychwelyd at gynghorion cyffredinol; ond, fel arfer, heb roddi pwys ar drefn neilldiol. Annogir yma i ddyfal-barhâd mewn gweddi. Y mae "gwylio" yn golygu bywiogrwydd ysbrydol y dyn oddi mewn, heb yr hwn y mae yn ammhossibl dyfal-barhau; a'r "diolchgarwch" yn golygu tymmer neu ansawdd y bywiogrwydd hwnw. "Nis gall gweddi y Cristion, gydag ymwybyddiaeth o'r gras sydd wedi dyfod iddo, fod yn ddim amgen na diolchgarwch."—*Olshausen.*

3. *Gan weddïo hefyd drosom ninnau:*—Paul a Timotheus: *pen.* i. 3. Nid oedd Paul yn meddwl ei hun yn rhy fawr i geisio rhan yn ngweddïau y Colossiaid: y cyfryw oedd ei dyb uchel am ddylanwad gweddi yr eglwys. *Agori i ni ddrws ymadrodd:*—1 *Cor.* xvi. 9; 2 *Cor.* ii. 12; *Eph.* vi. 19. Symmud pob rhwystrau oddi ar eu ffordd i bregethu yr efengyl; y rhwymau oedd am danynt, yn gystal a dyfeisiau y diafol a dynion drwg i'w llesteirio. *Dirgelwch Crist:*—*pen.* ii. 2. Y dirgelwch ag y mae Crist ei hun yn swm a sylwedd iddo. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb: Duw a ymddangosodd yn y cnawd:" 1 *Tim.* iii. 16. *Am yr hwn* [ddirgelwch] *yr ydwyf...mewn rhwymau.*—Nid er ei fwyn ei hun yr ewyllysiai Paul ei ryddid, ond er mwyn Crist a'i efengyl.

4. *Fel yr eglurhawyf ef, fel y dylwn ei draethu.*—Nid gweddïo [am] ryfdra i'w draethu yn ei gadwynau, ond myned yn rhydd o'i gadwynau i'w draethu.

5. *Rhodiwch mewn doethineb,* &c.—Gwel *Eph.* v. 15, 16. Arferwch bob callineb Cristionogol a synwyr da yn eich ymddygiadau a'ch ymddiddanion. *Y rhai sydd allan:*—tu allan i'r frawdoliaeth Gristionogol, neu "deulu y ffydd." Nid oes angen yr un gochelgarwch arnom tuag at aelodau ein teulu ein hunain ag sydd tuag at y rhai oddi allan; o blegid lle y byddo brodyr y mae llawer o oddefgarwch a serchiadau."—*Chrysostom. Gan brynu yr amser.*—"Gan brynu y cyfleusderau."—*Alford.* "Gan brynu i chwi eich hunain yr adegau cymmhwys."—*Ellicott.* Myn rhai fod yr apostol yn golygu yma ddyblu diwydrwydd, er prynu yr amser oeddynt wedi ei golli o'u hoes cyn dechreu byw i bwrpas. Ereill, ei fod am iddynt wneyd aberth o fudd a manteision personol i wylio yr adegau i leshau y rhai oeddynt o'u cwmpas. Ond y syniad mwyaf cydweddol â rhediad y geiriau yw, fod iddynt trwy fywyd doeth a synwyrol tuag at y rhai oddi allan, liniaru llymder eu hadgasrwydd a'u herledigaethau. Yr un fath ag yn yr adnod y cyfeiriwyd ati yn yr epistol arall—"Gan brynu yr amser, o blegid y dyddiau sydd ddrwg." Yr oeddynt yn amseroedd blinderus, ac anhawdd byw ynddynt, ac yr oedd angen am y doethineb hwn i'w prynu, neu i wneyd y goreu o honynt.

6. *Bydded eich ymadrodd* [tuag at y rhai sydd allan etto] *bob amser yn rasol:*—yn addfwyn, enniligar, ac nid o duedd i gyffroi y

fodd y mae yn rhaid i chwi atteb i bob dyn.'

7 Fy holl helynt i a ſynega Tychicus i chwi, y brawd anwyl, a'r gweinidog ffyddlawn, a'r cyd-was yn yr Arglwydd:

8 Yr hwn a ddanfonais atoch er mwyn hyn, fel y gwybyddai eich helynt chwi, [c] ac y diddanai eich calonau chwi;

Col. 2. 2; Eſa. 40. 1; 61. 2; 2 Cor. 1. 4; 2 Thes. 2. 17.

9 Gydag Onesimus, y ffyddlawn a'r anwyl frawd, yr hwn sydd o honoch chwi. Hwy a hysbysant i chwi bob peth *a wneir* yma.

10 Y mae Aristarchus, fy nghyd-garcharor, [f] yn eich anerch; a Marc, nai Barnabas fab ei chwaer

[f] Rhuf. 16. 21—23.

(am yr hwn y derbyniasoch orchymynion: os daw efe atoch, derbyniwch ef)

11 Ac Iesus, yr hwn a elwir Iustus, [g] yrhai ydynt o'r enwaediad. Y rhai hyn yn unig *yw fy* [h] nghydweithwyri deyrnas Dduw, y rhai a fuant yn gysur i mi.

[g] Act. 10. 45, 11. 2; Eph. 2. 11, [h] 1 Cor. 3. 5—9.

12 Y mae Epaphras, yr hwn sydd o honoch, [i] gwas Crist, yn eich anerch; gan ymdrechu yn wastadol drosoch mewn gweddïau, [k] ar i chwi sefyll yn berffaith ac yn gyflawn yn nghwbl o ewyllys Duw.

[i] Ioan 12. 26.

[k] Col. 1. 9, 22, 23.

13 Canys [l] yr ydwyf yn dyst iddo, fod ganddo sêl mawr

[l] Rhuf. 10. 2.

---

gwrthwynebwyr: *Luc* iv. 22. *Wedi ei dymmheru â halen:—Marc* ix. 50. Nid rhybuddio yn erbyn ymadroddion llygredig y mae yr apostol yma, ond yn erbyn bod yn siaradus, ac arfer ymadroddion diflas, dibwynt, a dibwrpas. Dywed Herodotus fod llyn, o ba un y gwnelid halen, yn agos i Colossæ. Y mae tymmheru â halen yn awgrymu yr eneiniad, y newydd-deb, a'r bywiogrwydd blasus sydd yn nodweddu presennoldeb a gwaith yr Ysbryd mewn dyn. Y mae yn golygu peidio siarad ond ar adegau cymmhwys, a pheidio siarad y prydiau hyny ddim sydd â thuedd i gyffroi a thramgwyddo, ond ymadroddion sydd â thuedd at ennill ffafr a chynnyrchu lles ac adeiladaeth eich cymmydogion. *Fel y gwypoch, &c.*: —1 *Pedr* iii. 15. Oddi ar ba ysbryd bynag y goſynid unrhyw gwestiwn—mewn malais neu anwybodaeth, mewn difrifoldeb neu ragrith—yr oedd yn rhaid atteb mewn doethineb ac ysbryd, fel y gweddai i blentyn Duw.

7—9. Gwel ar *Eph.* vi. 21, 22. *Fy holl helynt i*:—amgylchiadau personol Paul. *Tychicus*:—cydymaith ffyddlawn, a chydweithiwr llafurus Paul. Brodor o Asia ydoedd—o Ephesus, y mae yn debyg. Yr hanes cyntaf a gawn am dano ef a Trophimus ei gydwladwr, ydyw gyda yr apostol yn ei ddychweliad o'i drydedd daith genadol (*Act.* xx. 4). Ceir coffa am dano hefyd yn 2 *Tim.* iv. 12, a *Titus* iii. 12. Yr oedd yn awr y: gydweithiwr â'r apostol yn Rhufain, ac efe ac Onesimus oedd dygiedyddion yr epistolau at y Colossiaid, yr Ephesiaid, a Philemon. Y mae y geiriau a arfera yr apostol yma am dano yn llefaru yn uchel am gymmeriad Tychicus, ac mor uchel a hyny am ysbryd rhagorol yr apostol. Yr oedd gan Paul dri amcan wrth ei ddanfon i Colossæ, heb law cludo y llythyr:—1. Mynegu holl helynt yr apostol iddynt: 2. "Fel y gwybyddai eich helynt chwi;" sef dwyn helynt y Colossiaid yn ol i'r apostol: 3. A dyddanu eu calonau. *Gydag Onesimus, y ffyddlawn, &c.*—Caethwas Philemon oedd hwn, wedi ffoi oddi wrth ei feistr, a'i golledu, ac wedi diangc i Rufain. Cafodd ei ddychwelyd i'r ffydd yno wrth wrandaw Paul yn ei gadwynau yn pregethu: *Phil.* 10. Ac er iselder ei sefyllfa, a drygedd ei ymddygiad blaenorol, llefara yr apostol am dano yma yn y geiriau mwyaf anwyl a serchog, gan ei alw "y ffyddlawn a'r anwyl frawd." *Yr hwn sydd o honoch chwi.*—Brodor, y mae yn debygol, o'u dinas. Y mae y ffaith ei fod yn dyweyd hyn am Onesimus, yn awgrym eglur nad oedd Tychicus yn frodor o'r un lle; onid ê dywedasai felly am danynt eill dau. *Hwy a hysbysant i chwi, &c.*—Cyfeiria yma at y cwbl o helyntion pethau yn Rhufain, o blegid yr oedd wedi dyweyd eisoes (*adn.* 7) y gwnai Tychicus hysbysu ei holl helyntion personol ef.

10, 11. *Aristarchus.*—Brodor o Thessalonica (*Act.* xx. 4), a chyd-deithiwr â Phaul yn ei drydedd daith genadol. Cymmerwyd ef i fyny yn y cythrwfl yn Ephesus. Cawn ei fod gyda'r apostol hefyd ar ei daith i Rufain (*Act.* xxvii. 2), ac yn gydgarcharor yno; naill ai fel un yn gweini ar Paul, neu fel un yn cyd-ddioddef am yr unrhyw achos. *Marc*:—sef Ioan Marc, mab Mair (*Act.* xii. 22), yr hwn a gymmerodd Paul a Barnabas gyda hwynt ar eu taith genadol gyntaf; ond a'u gadawodd yn Pamphylia, gan dychwelyd i Ierusalem, a'r hwn wedi hyny a fu yn achlysur yr ymrafael rhwng Paul a Barnabas (*Act.* xiii. 23; xv. 38). Dywed traddodiad, ac nid oes sail i'w wrthbrofi, mai hwn oedd ysgrifenydd yr ail Efengyl. Dywedir mai camsyniad y gair a barodd ei alw yn "nai Barnabas." "Cefnder (*cousin*) Barnabas" y mae Alford ac Ellicott yn ei roddi. Nis gwyddom pa beth oedd y "gorchymynion" a anfonasid am dano, na chyda phwy yr anfonwyd hwynt, ond y mae yn amlwg eu bod yn gymmeradwyol. *Iesus*:—neu Iesu. Nid oes hysbysrwydd pwy oedd hwn, ond ei fod, fel Aristarchus a Marc, yn Iuddew. Gwelir fod yr enw "Iesu" yn parhau i gael ei arfer ar bersonau ereill hefyd; ond ar ol hyny daeth yn rheol yn yr eglwys i beidio ei arfer o barch i'r Gwaredwr. Yr oedd y tri hyn o'r Iuddewon wedi profi yn gydweithwyr ffyddlawn, ac yn gysur mawr i Paul.

12, 13. Yn canlyn cawn gyfarchiadau cynnhes oddi wrth Gristionogion Cenhedlig. *Epaphras*:—gwel *pen.* i. 7. Brodor o Colossæ, a gweinidog ffyddlawn yr eglwys yno, yn gystal a Laodicea a Hierapolis. Er mwyn cadarnhau y Colosiaid yn fwy, y mae yr apostol yn coffa iddynt sêl danllyd a gwastadol eu hen weinidog drostynt. Yr oedd o hyd yn "ymdrechu" ar eu rhan, er bod yn mhell oddi wrthynt. Prif destyn ei weddïau ydoedd ar iddynt *sefyll yn berfaith a chyflawn yn nghwbl o ewyllys Duw*:—neu, fel y darllenir, "Yn berffaith, ac mewn llawn sicrwydd." Bod "yn nghwbl o ewyllys Duw," yw gwneyd y cwbl o ewyllys Dnw, neu yn ol ewyllys Duw. *Laodicea*:—*pen.* ii. 1. Dinas fawr a

[m] Col. 15. 16; 2. 1.
[n] 2 Tim. 4. 10.

trosoch chwi, a'r rhai o [m] Laodicea, a'r rhai o Hïerapolis,

14 [n] Y mae Luc y physygwr anwyl, a Demas, yn eich anerch.

15 Anerchwch y brodyr *sydd* [o] Adn. 13. [p] yn Laodicea, a Nymphas, [q] a'r [r] Rhuf. 16. 5; 1 Cor. 19. 19. [s] eglwys *sydd* yn ei dŷ ef.

[t] 1 Thes. 5. 27. 16 Ac wedi [r] darllen yr epistol *hwn* gyda chwi, perwch ei ddarllen hefyd yn eglwys y Laodiceaid; a darllen o honoch chwithau yr un o Laodicea.

17 A dywedwch wrth [s] Archippus. [t] Edrych at y [u] weinidogaeth a dderbyniaist yn yr Arglwydd, [x] ar i ti ei [x] chyflawni hi.

[s] Philem. 2. [t] Lef. 10. 3. [u] Act. 1. 17. [x] 2 Tim. 4. 5. [y] 1 Cor. 16. 21.

18 Yr anerch [y] â'm llaw i Paul [z] fy hun. [z] Cofiwch fy rhwymau. [a] Gras *fyddo* gyda chwi. Amen.

[z] Rhuf. 16. 20, 24.

¶ At y Colossiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyda Tychicus ac Onesimus.

---

chyfoethog yn Phrygia, ar yr afon Lycus, a elwid gyntaf Diospolis, wedi hyny Rhoas; ond enwyd hi eilwaith ar enw Laodice, brenhines Antiochus II. Ysgrifenwyd un o'r epistolau yn Llyfr y Dadguddiad at angel yr eglwys hon. *Hierapolis.*—Safai y dref hon chwe milldir Rhufeinig i'r gogledd o Laodicea, ac o ddeutu ugain milldir Saesnig o Colossæ. Yr oedd yn enwog am ei ffynnonau mwnaidd: daeth wedi hyn yn enwog yn hanesiaeth hynafol yr eglwys yn ei chyssylltiad âg enwau yr esgobion Papias a Cladius Apollinaris.

14. *Luc.*—Barna Calvin nad Luc yr efengylwr yw hwn, a bod Paul yn cyssylltu "physygwr" âg enw hwn, i'w wahaniaethu oddi wrth hwnw. Barna na buasai raid rhoddi un chwanegiad yn nglŷn âg enw yr efengylwr, am ei fod yn ddigon adnabyddus. Ond y mae sylw Bengel yn hynod gymmhwys yma:—"Wrth ysgrifenu at Timotheus (2 *Tim.* iv. 11), geilw ef Luc yn unig, am ei fod yn ddigon adnabyddus i'r un yr oedd yn ysgrifenu ato; ond geilw ef "Luc y physygwr" yma, am nad oedd yn adnabyddus i'r Colossiaid." *Demas.*—Efe yn unig sydd yn cael ei enwi heb unrhyw air cymmeradwyol iddo. Tybia rhai mai efe a ysgrifenodd yr epistol, ac mai hyny yw y rheswm am hyn. Ond barna ereill nad oedd yr apostol yn cael ei foddhau ynddo ar y pryd; ac yr ydym yn cael i Demas ar ol hyn ei adael, "gan garu y byd presennol:" 2 *Tim.* iv. 10.

15. *Nymphas, a'r eglwys sydd yn ei dŷ ef.*—Person o nôd yn perthyn i Laodicea. Nid ydym i ddeall fod yr oll o Gristionogion Laodicea yn ymgynnull yn ei dŷ. Darllena Ellicott, "Ac yn eu mysg Nymphas." Yr ydym yn darllen am amryw bersonau ag y byddai Cristionogion yn arfer ymgynnull i ddybenion crefyddol yn eu tai (*Rhuf.* xvi. 5; *Philem.* 2). "Pan lefara am yr eglwys oedd yn nhŷ Nymphas, cofiwn fod esampl un teulu yn fath o reol o'r hyn y dylai pob teulu Cristionogol fod; sef, yn gynnifer o eglwysi bychain. Gwybydded pob un, gan hyny, fod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei roddi arno, ei fod i ddwyn ei deulu i fyny yn ofn yr Arglwydd, ei gadw dan ddysgyblaeth sanctaidd, ac, yn wir, ffurfio ynddo ryw fath o eglwys."—*Calvin.*

16. Cyfeirir yma at lythyr *o Laodicea.* Y mae ffurf y frawddeg wedi peri i Calvin ac amryw ereill dybied mai llythyr wedi ei ysgrifenu gan y Laodiceaid at Paul a feddylir; ond y mae y beirniaid goreu oll yn gwrthod y syniad. Y mae rhai yn barnu mai yr Epistol at yr Ephesiaid a feddylir, yr hwn oedd wedi ei fwriadu yn gylchlythyr; yr hwn oedd i'w gael iddynt hwy yn Laodicea, ac i'w ddwyn oddi yno i Colossæ. "Nid heb reswm, yn ddiau, yr enwa Paul y dref o'r hon y ceid yr epistol, yn hytrach na'r rhai yr anfonwyd ef iddynt."—*Bengel.* Y farn fwyaf cymmeradwy yw, i'r apostol ysgrifenu llythyr at y Laodiceaid, a'i fod wedi ei golli. "Gan y gallai ei gynnwys fod mor debyg i'r llythyr hwn, ni welodd Duw yn dda ei gadw."—*Ellicott.* Y mae gorchymyn pendant yr apostol am ddarllen y llythyrau yn yr eglwysi.

17. Bernir, oddi wrth *Philem.* 1, 2, mai mab Philemon ac Apphia ei wraig oedd Archippus, neu berthynas agos iddynt oedd yn aros gyda hwynt, ac oedd wedi ei osod mewn swydd yn eglwys Colossæ. Y mae y gair a gyfleithir yma "gweinidogaeth" yn briodol, am unrhyw swydd yn yr eglwys. "Oddi wrth yr adnodau cyntaf yn *Philemon*, y mae yn debygol mai diacon yn yr eglwys oedd Archippus, tra yr oedd Philemon ei dad yn esgob."—*Olshausen.* Barna ereill, oddi wrth fod Paul yn ei alw yn "gydfilwr," ei fod yn weinidog yn yr eglwys. Nid oes un sail i dybied fod yr apostol yn cyfeirio at unrhyw fai ynddo: ond y mae ffurf y cynghor yma yn eglur, ar y dybiaeth ei fod newydd ymgymmeryd â'r swydd bwysig. Nid "gan yr Arglwydd" a ddywedir, ond "yn yr Arglwydd," fel y cylch yn mha un y derbyniodd ei swydd. Disgwylid i'r cynghor am gyflawni ei swydd, wrth ddyfod trwy yr eglwys, fod yn fwy grymus ac effeithiol.

18. *Yr anerch,* &c.—Gwel 1 *Cor.* xvi. 21. *Cofiwch fy rhwymau.*—Wrth ysgrifenu yr anerchiad â'i law ei hun, gan fod y gadwen am ei law, yr oedd yn naturiol iddo goffa ei rwymau. "Pan yr ydym yn darllen am ei gadwynau, dylem gofio eu bod yn symmud dros y papur wrth ei fod yn ysgrifenu. Yr oedd ei law ddeheu wedi ei chadwyno wrth y milwr oedd yn ei wylio."—*Alford.* Nid ei gofio mewn ystyr arianol, ond cofio fod un oedd yn gofalu cymmaint drostynt yn eu caru mor fawr, ac yn teimlo cymmaint o bryder am eu peryglon oddi wrth athrawiaethau gau, ei fod yn garcharor mewn cadwynau; a dymunai i'r cofio hwnw gynnyrchu y ffrwythau priodol, mewn gweddïau taerion drosto, adgof serchog am ei angenion, a sylw manwl i'w eiriau. Terfyna yr apostol ei lythyr gyda'r fendith arferol.

YR

EPISTOL CYNTAF AT Y THESSALONIAID.

YR EGLWYS YN THESSALONICA.

Wedi i'r Rhufeiniaid orchfygu Macedonia, sefydlwyd ar Thessalonica (yr hen Thermæ a'r Saloniki presennol) i fod yn brifddinas i'r ail ran o'r dalaeth. O blegid ei sefyllfa ranteisiol i fasnach, ar gulfor Thermæ, cyrhaeddodd i enwogrwydd mawr mewn cyfoeth. Ymddengys fod yr Iuddewon yn ffurfio rhan bwysig o'i phoblogaeth liosog. Yr ydym yn cael yn Llyfr yr Actau fod ganddynt synagog yno; i'r hon y perthynai, nid yn unig Iuddewon o genedl, "ond lliaws mawr o Roegwyr crefyddol, ac nid ychydig o wragedd anrhydeddus." Ar ei ail daith genadol, ymwelodd Paul, ynghyd â Silas, â'r ddinas: *Act.* xvii. 1. Dros dri Sabbath bu yn ymresymu â'r Iuddewon yn eu synagog, ac yn pregethu iddynt. Dilynwyd ei wenidogaeth â llwyddiant mawr: 1 *Thes.* i. 5. Credodd rhai Iuddewon, a lliaws mawr o'r proselytiaid Cenhedlig. Tybia Olshausen, a rhai esbonwyr ereill, na pharhaodd arosiad Paul yn Thessalonica yn hwy na'r tri Sabbath dros y rhai y dywedir yn yr Actau ei fod yn y synagog yn ymresymu â'r Iuddewon. Ond gellir casglu yn lled gryf, dybygid, oddi wrth *Phil.* iv. 16, a *Thes.* ii. 9, y rhaid ei fod wedi aros yno gryn lawer yn hwy. Y mae yr ymadrodd yn *Phil.* iv. 15, "Yn nechreuad yr efengyl, pan aethum i ymaith o Macedonia," yn dangos yn eglur nad ydyw yr apostol yn cyfeirio yn yr adnodau uchod at gyfraniadau a wnaed iddo yn ystod ail ymweliad â Thessalonica. Ar ol pregethu, yn ol ei arfer, yn gyntaf i'r Iuddewon, trodd Paul at y Cenhedloedd, a dychwelwyd cynnifer o honynt fel y gellir barnu, oddi wrth 1 *Thes.* i. 9, nad oedd nifer yr Iuddewon a'r proselytiaid yn yr eglwys ond bychan o'i gymmharu â nifer y Cenhedloedd a ddychwelwyd yn uniongyrchol oddi wrth Baganiaeth. O'r diwedd, cyfododdd yr Iuddewon y fath gythrwfl yn erbyn Paul fel y bu gorfod iddo ymadael o'r ddinas. Cyhuddai ei elynion ef o deyrnfradwriaeth i Cesar, "gan ei fod yn dywedyd fod brenin arall, sef Iesu." Gellir, fe allai, gymmeryd y cyhuddiad hwn mewn cyssylltiad â'r awgrymiadau a geir yn y ddau Epistol at y Thessaloniaid, yn ddangosiad (fel y barna De Wette, Olshausen, Davidson, ac ereill) o nodwedd gweinidogaeth Paul yn Thessalonica; sef, i gyfeirio ei wrandawyr at ddyfodiad Crist fel Brenin ar deyrnas Dduw.

Yn ngwyneb y terfysg a gyfododd yn ei erbyn, aeth Paul yn gyntaf i Berea, ac oddi yno i Athen. Hiraethai yn fawr am weled ei ddysgyblion, a gwnaeth ddau ymgais aflwyddiannus i fyned atynt: 1 *Thes.* ii. 18. Gan nad allai fyned ei hunan, anfonodd Timotheus atynt, o Athen fel y mae yn fwyaf tebyg, i wybod eu helynt, "ac i'w cadarnhau a'u dyddanu:" 1 *Thes.* iii. 1, 2. Yn y cyfamser aeth Paul i Corinth (*Act.* xviii. 1), lle y dychwelodd Timotheus ato, gydag adroddiad cysurus am ansawdd yr eglwys yn Thessalonica: 1 *Thes.* iii. 6.

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Gan fod yr Epistol, fel y mae yn amlwg oddi wrth 1 *Thes.* iii. 6—"Eithr yr awr hon, wedi dyfod Timotheus atom oddi wrthych"—wedi ei ysgrifenu yn fuan, os nad yn uniongyrchol, ar ol dychweliad Timotheus at Paul i Corinth, gellir barnu yn lled gryf mai o'r ddinas hono yr ysgrifenwyd ef, a hyny tua diwedd y flwyddyn 52. Seilir dadleuon o blaid amseriad diweddarach ar rai rhanau o'r Epistol (1 *Thes.* i. 8), a ddeallir gan Michaelis ac ereill fel yn awgrymu fod yr apostol Paul wedi bod yn pregethu mewn amryw leoedd ereill ar ol sylfaenu yr eglwys yn Thessalonica, neu ar amgylchiadau y cyfeirir atynt yn yr Epistol (*pen.* iv. 19; v. 12, &c.), a dybir sydd yn gofyn mwy o amser rhwng pregethiad cyntaf yr efengyl yn Thessalonica ac amseriad yr Epistol, nag a ganiateir yn gyffredin. Ond y mae y dadleuon hyn wedi eu hatteb yn foddhaol gan Davidson [*Introd.* cyf. ii. tudal. 435—442], ac nis gellir ystyried fod unrhyw rym ynddynt i newid yr amseriad sydd wedi ei fabwysiadu gan esbonwyr ac amseryddwyr yn gyffredin. Gellir rhestru yr Epistol hwn, a'r ail Epistol, at yr un eglwys, yn mhlith y cyntaf o'r llythyrau a ysgrifenwyd gan yr apostol Paul ag sydd wedi eu trosglwyddo i ni.

AMCAN AC ACHLYSUR YR EPISTOL.

Achlysurwyd yr Epistol trwy ddyfodiad Timotheus at Paul oddi wrth y Thessaloniaid gyda "newyddion da am eu ffydd a'u cariad," a'u bod "yn sefyll yn yr Arglwydd," er yr holl ymosod-

iadau a wneid arnynt. Ond fe ellir casglu oddi wrth yr Epistol fod yn adroddiad Timotheus rai pethau am yr eglwys nad oeddynt yn hollol mor galonogol, ac oeddynt yn gofyn oddiwrth eu tad ysbrydol gyfarwyddiadau, ynghyd âg annogaethau i fod yn ochelgar a gwyliadwrus. Yr oedd rhai yn eu mysg, dybygid, yn lled bell o gyrhaedd amgyffrediad am y purdeb oedd yn ofynol oddi wrth ddilynwyr Crist. Yr oedd ereill, oddi ar ddisgwyliadau camsyniol am ddyfodiad Crist, ac am natur ei deyrnas, wedi syrthio i ddiogi a diofalwch, gan esgeuluso eu gorchwylion bydol, yn gystal a'u dyledswyddau crefyddol. Oddi ar yr un camsyniad yr oedd ereill, y mae yn debyg, yn tristau yn ormodol am eu cyfeillion a'u perthynasau ymadawedig, fel rhai, trwy eu marwolaeth cyn dyfodiad Crist, oeddynt am byth wedi eu hamddifadu o'r gobaith o gael gweled a mwynhau teyrnas Dduw, gan nad oedd neb, yn ol eu tyb hwy, i gael mwynhau y dedwyddwch hwnw ond y rhai byw yn ymddangosiad yr Arglwydd. Y mae yr apostol yn eu cysuro gyda golwg ar hyn, trwy eu sicrhau y byddai i'r meirw yn Nghrist gyfodi yn gyntaf, ac y byddai i'r rhai byw gael eu cymmeryd i fyny gyda hwynt i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Nid oes braidd un o'r Epistolau y mae y profion allanol a mewnol dros eu hawduriaeth gan Paul yn gryfach na'r Epistol hwn. Cyfeirir ato, a gwneir dyfyniadau allan o hono, gan amryw o'r tadau, megys Irenæus, Clement, a Tertullian, ac enwir ef yn y rhestrau boreuaf o'r llyfrau a gydnabyddid yn gyffredinol fel llyfrau yr oedd eu hawduriaeth yn ddiammheuol. Ac y mae y profion tufewnol, oddiwrth arddull neillduol Paul o feddwl ac ysgrifenu, yn fwy lliosog ac yn gryfach fyth.

Yn mhlith profion tufewnol ereill a nodir gan Jowett ac ereill, gellir crybwyll y rhai canlynol :—

1. Ei awydd i weled gwyneb ei ddychweledigion ; *pen.* iii. 6, 10 : a'r oediad o'i fwriad i ymwelcd â hwy ; *pen.* ii. 18. A'r rhai hyn eymmharer *Rhuf.* i. 13 ; xv. 22 ; 1 *Cor.* xvi. 1 ; 2 *Cor.* i. 16 ; xiii. 1 ; *Phil.* i. 8 ; *Philem.* 22.

2. Y cydymdeimlad bywiog â hwy a ddadgenir trwy yr holl Epistol. Ceir engreifftiau o hyn yn *pen.* ii. 8, 17 ; iii. 5—10 : â'r adnodau hyn yn yr Epistol cyntaf at y Thessaloniaid, cymmharer 2 *Cor.* vii. 5, 7 ; *Phil.* ii. 19, 25, 29 : *Col.* i. 7, 8. Dangosir yn yr holl epistolau hyn yr un teimlad cryf a bywiog rhwng yr apostol â'r rhai y mae yn ysgrifenu atynt, yr un llawenydd o blegid yr adroddiadau cysurus a gawsai am danynt, a'r un gofid o herwydd ei fod yn gorfod bod yn absennol oddi wrthynt.

3. Y cyfeiriad mynych ato ei hunan, yr hyn sydd yn nodwedd neilduol yn ysgrifeniadau Paul. Cymmharer 1 *Thes.* ii. 9 ; 2 *Cor.* xi. 9, a xii. 13, 14.

4. Ceir hefyd yn yr epistol hwn, y cyntaf o ysgrifeniadau Paul, yn yr egin, y syniadau a'r cyfarwyddiadau a ddadblygir mewn dull mwy cyflawn mewn epistolau diweddarach. Er engraifft, y mae y cynghorion ymarferol sydd ar ddiwedd yr epistol hwn wedi eu gweithio allan yn fwy manwl ac eang yn *Rhuf.* xii. Y mae y gymmhariaeth oddi wrth yr arfogaeth filwrol yn *adn.* 8 o'r i ennod olaf i'w chael mewn ffurf cyflawn yn yr Epistol at yr Ephesiaid : *pen.* vi. 13—17. Cymmharer y cyfeiriad at gyflwr paganaidd y Thessaloniaid ar y cyntaf, a chyfeiriadau cyffelyb yn 1 *Cor.* xii. 2 ; *Eph.* ii. 11, 12 ; a *Gal.* iv. 8 ; hefyd y crybwylliad a wneir (*pen.* iv. 12) am gysylltiad yr eglwys â'r "rhai sydd oddi allan," â chrybwylliadau i'r un perwyl yn yr epistolau at y Colossiaid (*pen.* iv. 5), ac at y Corinthiaid : 1 *Cor.* vi. 1. Y mae yr un cynnydd i'w ganfod wrth gymmharu yr awgrymiad a wneir yn yr epistol hwn at ddyledswydd eglwysi i gynnal eu hathrawon, â'r ymdriniaeth helaethach o'r un mater yn 1 *Cor.* ix., a 2 *Cor.* xi. Hönir fod yn yr esamplau hyn, ac ereill y gallesid eu nodi, yr un math o wahaniaeth ag y gallasem ddisgwyl ei gael rhwng syniadau a chyfarwyddiadau yn cael eu hysgrifenu mewn ychydig eiriau am y tro cyntaf, a'r un syniadau, pan yn cael eu dadgan gan yr un ysgrifenydd flynyddoedd yn ddiweddarach, ar ol cael cyfleusderau mynych i'w traethu a'u hegluro. Yn chwanegol at y rhesymau hyn dros awduriaeth yr Epistol gan Paul, y mae dysgedigion yn nodi rhai ereill, yn codi oddi wrth neillduolrwydd yr arddull a'r iaith.

RHEDIAD A CHYNNWYSIAD YR EPISTOL.

Y mae yr epistol hwn yn ymranu, fel ereill o lythyrau Paul, i ddwy ran. Cynnwysir y rhan flaenaf yn y tair pennod cyntaf, a'r rhan arall yn y ddwy bennod olaf.

1. *Pen.* i—iii. Gellir dosbarthu y rhan hon, fel y gwneir gan Olshausen a Davidson, i dair o adranau.

2. *Pen.* i. 1—10. Ar ol cyfarchiad arweiniol, dadgana Paul ei ddiolchgarwch i Dduw, o blegid ffydd, cariad, a gobaith y Cristionogion yn Thessalonica. Crybwylla am y derbyniad croesawgar a roddasant i'r efengyl, mewn amgylchiadau o orthrymder mawr, nes bod yn esamplau i gredinwyr yn y gwledydd cymmydogaethol; i'r rhai, fel i bob man hefyd, y seiniasai gair yr Arglwydd oddi wrthynt hwy, ac yr aethai eu ffydd yn Nuw ar led.

2. *Pen.* ii. 1—16. Yn yr ail adran, adgoffa iddynt am ei ddyfodiad cyntaf i'w plith—mor bur ydoedd ei ddybenion, mor dyner, gonest, diduedd, anhunanol, a llwyddiannus oedd ei weinidogaeth ; iddo gynnal ei hun trwy lafur ei ddwylaw tra gyda hwynt, rhag pwyso ar neb. Adgofia hwynt am y cynghorion a roddasai iddynt. Ac eilwaith, diolcha i Dduw am y derbyniad a roddasant i'w air, ac am roddi nerth iddynt i allu dilyn eglwysi Iudea mewn dioddef yn amyneddgar yn achos yr efengyl.

3. *Pen.* ii. 17—iii. 13. Mynega yr apostol yn yr adran hon ei hiraeth am eu gweled—ei fod amryw o weithiau wedi amcanu dychwelyd atynt, ond wedi ei luddias; a'i fod yn y cyfamser wedi anfon Timotheus i'w cysuro a'u cadarnhau yn y ffydd. Yr oedd yr adroddiad cysurus a gawsai am danynt gan Timotheus wedi peri llawenydd mawr iddo yn nghanol ei holl drallodion,

em yr hyn y diolchai i Dduw, gan ddymuno hefyd am iddo chwanegu eu cariad a'u ffydd fwyfwy.

II. *Pen.* iv. v. Yn y rhan hon—

1. *Pen.* iv. 1—12. Cynghora Paul y Thessaloniaid i burdeb ymarweddiad, i gariad brawdol, ac lonyddwch a diwydrwydd gyda'u galwedigaethau bydol.

2. *Pen.* iv. 13—v. 11. Yna ymdrinia am ddyfodiad Crist ac adgyfodiad y meirw. Dengys na bydd i'r rhai a hunasant gael eu hamddifadu o fendithion a rhagorfreintiau teyrnas Crist: ond y caniateir iddynt fwynhau ei bresennoldeb gyda'r rhai a fyddent byw ar ei ymddangosiad. Ond gan y byddai adeg dyfodiad Crist yn ddisymmwth, dylent bob amser fod yn barod ac yn disgwyl am dano, gan rodio megys plant y goleuni, fel y byddai i'r dydd hwnw eu cael, nid yn cysgu, ond yn effro.

3. *Pen.* v. 12—28. At y pethau hyn chwanegir annogaethau a rhybuddion amrywiol gyda golwg ar eu hymddygiad at eu hathrawon ac ereill, a thuag at yr Ysbryd a'i ddoniau. Ac ar ol dymuno am i Dduw eu sancteiddio yn gwbl oll, ysbryd, enaid, a chorph, terfyna yr epistol gyda'r anerchiadau a'r fendith arferol.

YR EPISTOL CYNTAF AT Y THESSALONIAID.

PENNOD I.

B. A. 52. 1 *Paul yn dwyn ar ddeall i'r Thessaloniaid, nid yn unig mor feddylgar oedd efe am danynt hwy bob amser, mewn diolchgarwch a gweddi; 5 eithr hefyd gystal yr oedd efe yn tybied am wirionedd a phurdeb eu ffydd hwynt, a'u dychweliad at Dduw.*

PAUL, a Silfanus, a Thimotheus, at eglwys y [a]Thessaloniaid, [b]yn Nuw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist. [c]Gras i chwi a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

[a] Act. 17. 1—9, 11, 13. [b] Gal 1. 22. [c] Rhuf. 1. 7.

Pennod I.

Cyfarchiad. Diolchgarwch yr apostol, o blegid eu ffydd, eu cariad, a'u gobaith, trwy y rhai yr oeddynt wedi dyfod yn "esamplau" i gredinwyr mewn lleoedd ereill.

1. *Paul.* — Gadewir allan yr enw swyddol "apostol;" nid, fel y tybia rhai, o blegid mai hwn yw yr epistol cyntaf, ac nad oedd Paul etto wedi cymmeryd y teitl arno ei hun; nac o blegid fod enwau ereill yma, fel yn yr Epistol at y Philippiaid, yn cael eu cyssylltu â'r eiddo ef, a'i fod o herwydd hyny yn peidio defnyddio ei deitl swyddol o barch iddynt hwy (cymmharer 1 *Cor.* i. 1, & 2 *Cor.* ii. 1); ond [Bengel, Ellicott, Calvin, &c.] o blegid y teimladau cynnes ac anwyl a goleddid ganddo ef tuag atynt, a'u cydnabyddiaeth serchog hwythau o'i awdurdod a'i swydd (1 *Thes.* ii. 6), fel nad oedd yn angenrheidiol iddo wrth ddyfod ger eu bron, ond galw i'w cof ei fywyd a'i waith yn eu mysg. *A Silfanus.*—Yr un person ag a elwir Silas yn yr Actau. Cymmharer *Act.* xvi. 12—19; 1 *Thes.* ii. 2; âg *Act.* xviii. 5, a 2 *Cor.* i. 19. Yr oedd yn ŵr o gyfrifiad uchel yn yr eglwys yn Ierusalem, yn "brophwyd" (*Act.* xv. 32), ac "yn ŵr rhagorol yn mhlith y brodyr" (*Act.* xv. 22), a phennodwyd ef gan yr apostolion a'r henuriaid i fyned gyda "gwŷr etholedig" ereill, Paul a Barnabas, i Antioch yn achos y dadleuon a gyfodasent ynghylch yr enwaediad. Ar ol cyflawni y genhadaeth hon, bu yn gydymaith i Paul yn ei ail daith genadol trwy Asia Leiaf i Macedonia: *Act.* xv. 40. Tra yno, cydweithredai â Phaul, ac o bossibl â Thimotheus, yn sylfaeniad yr eglwys yn Thessalonica. Ceir y crybwylliad olaf a wneir am dano yn *Act.* xviii. 5, pan y dywedir ei fod, wedi ei arosiad am dymmor yn Berea, ar ol iddynt ymadael â Thessalonica, wedi dyfod at Paul i Corinth, lle yr ymunodd âg ef i bregethu yr efengyl: 2 *Cor.* i. 19. Y mae yn debyg mai yr un Silfanus yw "y brawd ffyddlawn" y crybwylla Pedr am dano: 1 *Pedr* v. 12. Os felly, ar ol ymadael oddi wrth Paul, tebygol ydyw iddo fyned yn gydymaith i Pedr, a'i ganlyn i Babilon. Enwir ef a Timotheus yn y cyfarchiad, nid yn unig am eu bod gyda Paul pan yr ydoedd yn ysgrifenu, ond am eu bod yn gynnorthwywyr iddo yn sylfaeniad yr eglwys yn Thessalonica; ond rhoddir enw Silfanus yn gyntaf yma, fel mewn lleoedd ereill, am mai efe oedd yr hynaf fel dysgybl, yn gystal ag fel cydymaith Paul. *At eglwys y Thessaloniaid.*—Nid ydyw "eglwys" i'w gael ond yn y cyfarchiadau at eglwysi Thessalonica, Galatia, a Corinth; tra y mae yr epistolau diweddarach at y Rhufeiniaid, Ephesiaid, Philippiaid, a'r Colossiaid wedi eu cyfeirio at y "saint." "Y rheswm am hyn," medd Ellicott, "ydyw, fod nifer y Cristionogion ar y dechreu, pan ysgrifenwyd yr epistolau cyntaf, yn fychan mewn cymmhariaeth, a'u bod felly yn gallu ymgynnull yn un eglwys neu gynnulleidfa. *Yn Nuw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist.*—Y mae y geiriau hyn i'w cyssylltu, nid fel y tybia rhai, â'r geiriau sydd yn dilyn, ond [Alford, Winer, De Wette, Ellicott, a'r holl esbonwyr goreu] â'r gair "eglwys." Y mae y ffurf yn mha un y rhoddir y geiriau yn yr iaith wreiddiol yn dynodi fod yn perthyn yn hanfodol i'r drychfeddwl o eglwys ei bod yn Nuw a Christ; nid yn unig mewn cymmundeb â Duw, ond yn meddu ei bodolaeth wirioneddol yn Nuw. "Yr oedd," meddai Chrysostom, "yn Thessalonica lawer o eglwysi (cynnulleidfaoedd) Iuddewig a Groegaidd." Awgryma De Wette fod y geiriau "yn Nuw Dad" yn cael eu defnyddio i wahaniaethu yr eglwys hon oddi wrth y rhai paganaidd, a'r "Arglwydd Iesu Grist," oddi wrth y rhai Iuddewig. *Gras i chwi a thangnefedd.*—Dyma y cyfarchiad Cristionogol—cyfuniad, mewn ffurfiau newyddion, a chydag ystyron uwch, o'r un Groegaidd ac Iuddewig. "Dau bwynt hanfodol Cristionogaeth," medd Thomas Aquinas, "1af, Yn nghalon Duw, ac oddi wrtho ef—*gras.* 2il, Yn nghalon dyn, ac oddi wrtho ef yn yr eglwys—*tangnefedd.* "Gras i chwi a thangnefedd, fel," meddai Anselm, "pan y byddoch wedi eich amddifadu o bob ffafr ddynol a thangnefedd o'r byd, y caffoch ffafr a heddwch yn Nuw." *Oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.*—Nid yw y geiriau hyn i'w cael ond mewn tua hanner y llawysgrifau o awdurdod uchel. Teimla y

[d] Rhuf. 1. 8. 9.

2 [d] Yr ydym yn diolch i Dduw yn wastadol drosoch chwi oll, gan wneuthur coffa am danoch yn ein gweddïau,

[e] 1 Thes. 2 13, 14; Ioan 6. 27—29; Rhuf. 16. 26.

3 Gan gofio yn ddibaid [e] waith eich ffydd chwi, a llafur *eich* cariad, ac ymaros *eich* gobaith yn ein Harglwydd Iesu Grist [f] ger bron Duw a'n Tad;

[f] Preg. 2. 26.

4 Gan wybod, frodyr anwyl, eich etholedigaeth chwi gan Dduw.

5 O blegid ni bu ein hefengyl ni tuag atoch mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr; megys y gwyddoch chwi pa fath rai a fuom ni yn eich plith, er eich mwyn chwi.

beirniaid goreu anhawsder i benderfynu pa un a ysgrifenwyd hwy gan Paul, ai peidio, gan fod mor debyg ar y naill law y gallai yr adysgrifenydd eu gadael allan, o blegid y geiriau yn "Nuw Dad," &c., sydd yn rhagflaenu: neu, ar y llaw arall, y gallai y geiriau hyny ei adgofio o ddull cyffredin Paul o ysgrifenu ei gyfarchiadau, ac felly ei dueddu i'w rhoddi i mewn, fel geiriau wedi eu gadael allan trwy esgeulusdra gan adysgrifenydd blaenorol.

2. *Yr ydym yn diolch i Dduw yn wastadol drosoch chwi oll.*—Yn ol ei ddull a'i eiriau arferol (cymmharer *Phil.* i. 3; *Col.* i. 3; *Philem.* 4; *Rhuf.* i. 8; 2 *Thes.* i. 3; 2 *Tim.* i. 3), y mae yr apostol yn gyntaf yn dadgan ei ddiolchgarwch i Dduw dros y rhai yr ysgrifena atynt. Tybia rhai esbonwyr [Jowett, Conybeare, Chrysostom] ei fod yn defnyddio y rhif liosog am dano ei hunan, fel mewn rhanau ereill o'r epistol hwn: *pen.* ii. 18; a iii. 1]; ond gan fod cyssylltiad mor agos rhwng Silfanus a Timotheus â'r eglwys yn Thessalonica, mwy naturiol ydyw tybied gydag Alford ac Ellicott fod yr apostol yn llefaru drostynt hwythau hefyd. *Gan wneuthur coffa am danoch yn ein gweddïau.*—"Yn amser—yn ystod ein gweddïau."—*Jowett.* "Yn nghyflawniad y dyledswydd hono."—*Ellicott.*

3. *Gan gofio yn ddibaid.*—Cyssylltir y rhagferf hon, "yn ddibaid," gan Luther, Bengel, Alford, Ewald, Webster, Wilkinson, a lliaws ereill, gyda "coffa" yn niwedd yr ail adnod, fel y mae "yn wastadol" yn yr adran flaenaf yn cyfatteb i "yn ddibaid" yn yr adran arall. *Waith eich ffydd.*—Rhoddir ystyron amrywiol iawn i'r geiriau hyn gan esbonwyr: megys, "gwirioneddeich ffydd;" "y ffaith eich bod wedi derbyn yr efengyl;" "gwaith, sef eich ffydd." "gweithrediad eich ffydd;" "ffydd fel gwaith Duw yn yr enaid," &c. Ond yr ystyr mwyaf syml a naturiol ydyw yr un a fabwysiedir gan De Wette, Bengel, Olshausen, Jowett, &c.—"Y gweithgarwch Cristionogol sydd yn tarddu o ffydd." *A llafur eich cariad.*—Y mae y gair a gyfieithir "llafur" yn dynodi llafur poenus, ymgrafferthus, a lluddedig: cariad tuag at achos a phobl yr Arglwydd, yn dangos ei hun mewn hunanymwadiad ac aberthau diarbed ar eu rhan—"llafurus gariad." Cymmharer *Heb.* vi. 10. *Ac ymaros eich gobaith:*—sefydlogrwydd amyneddgar a diflino yn eu holl dralledion, dan eu holl erledigaethau. Cyfoda y seiydllogrwydd hwn oddi ar obaith; o blegid tra yn edrych yn mlaen at y gogoniant sydd yn ei aros, gall y credadyn ddioddef ei helbulon presennol yn dawel: cymmharer *Rhuf.* viii. 18; 2 *Cor.* iv. 17, 18. O blegid hyn ceir amynedd a gobaith yn gyssylltiedig â'u gilydd; "ymaros," rai prydiau, yn codi oddi ar obaith; a gobaith, brydiau ereill, yn cael ei gynnyrchu gan ymaros: *Rhuf.* viii. 25; v. 3. Ceir ffydd, cariad, gobaith, yn yr un dreîn yn 1 *Thes.* v. 8. Ac yn *Dad.* ii. 2, y mae y geiriau sydd yma yn gyssylltiedig â hwy i'w cael hefyd yn yr un dreîn. *Yn ein Harglwydd Iesu Grist.*—Y mae y geiriau i'w cyssylltu, nid â'r tri sylweddair blaenorol, ond â "gobaith" yn unig. Ein Harglwydd Iesu Grist ydoedd gwrthddrych eu gobaith: disgwylient yn hiraethlawn a hyderus am ei ddyfodiad. *Ger bron Duw a'n Tad:*—neu, ger bron ein Duw a'n Tad. Gellir cyssylltu y geiriau hyn naill ai fel y gwneir gan Bengel, Olshausen, De Wette, Alford, &c., â "gan gofio" yn *adn.* 4; sef fod Paul, mor fynych ag y byddai yn agosbau ger bron Duw mewn gweddi, yn "cofio," &c.: neu gellir eu cyssylltu â'r geiriau "ffydd, cariad, gobaith," fel y gwneir gan Jowett, Lange, Wordsworth, Esgob Hall, ac ereill. "Gan nad oedd un dyn," meddai Chrysostom, "yn cannmawl neu yn gwobrwyo yr hyn a wneid ganddynt, am hyny y mae Paul yn chwanegu y geiriau hyn: fel pe dywedai:—'Byddwch gysurus; yr ydych yn dioddef yn mhresennoldeb Duw.' Yn ol golygiad arall, defnyddir y geiriau i ddangos cywirdeb eu rhinweddau Cristionogol, eu bod yn gyfryw ag a ddalient olygon "Chwiliwr y calonau" ei hunan, "ger bron Duw."

4. *Gan wybod, frodyr anwyl, eich etholedigaeth chwi gan Dduw.*—Cyssylltir "gan Dduw" gan yr holl feirniaid goreu âg "anwyl," fel y dylid darllen yr adnod, "Gan wybod, frodyr anwyl [neu a garwyd] gan Dduw, eich etholedigaeth chwi." Dibyna yr adran hon, fel y rhai blaenorol, ar y ferf "Yr ydym yn diolch."

5. *O blegid.*—Y mae y gair hwn yn arweiniad i'r rhesymau a ddygir yn mlaen gan yr apostol yn y geiriau sydd yn dilyn dros ddywedyd ei fod yn gwybod am etholedigaeth y Thessaloniaid: sef, 1. Ei fod ef a'i gyfeillion wedi cael eu galluogi i bregethu yr efengyl iddynt gyda'r fath nerth (*adn.* 5). 2. O blegid eu bod hwythau wedi ei derbyn gyda'r fath lawenydd (*adn.* 6). *Ni bu ein hefengyl ni:*—yr hon a bregethwyd genym ni. *Mewn nerth:*—cyfeiriad, nid at ddoniau gwyrthiol, ond at y dylanwad dwyfol oedd yn cydfynedâ gweinidogaeth Paul, ac ydoedd yn gweithio yn nerthol ar eneidiau dynion. *Ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr.*—Dynoda y geiriau olaf hyn yr hyder llawn, a'r argyhoeddiad trwyadl, gyda pha un yr oedd yn gallu llefaru. Cyfeiria y gair cyntaf, "nerth," yn fwy neilltuol at y dylanwad dwyfol oddi allan; a'r gair olaf, "sicrwydd," at yr effaith tufewnol a gynnyrchid ar feddwl Paul (a'i wrandawyr hefyd, yn ol Jowett); tra y saif "yr Ysbryd Glân" yn y canol rhwng y ddau, fel awdwr y naill a'r llall—y nerth yn gystal a'r ymwybyddiaeth o hono—y llawn sicrwydd. *Megys y gwyddoch.*—Dichon fod rhyw gymmaint o gyferbyniad rhwng "gwyddoch" yma a "gwybod," *adn.* 4. Gwyddom ni am eich cymmeriad chwi fel etholedigion Duw *gwyddoch chwithau pa fath rai a fuom* (y profwyd) *ni yn eich plith.*—Appelia at y Thessaloniaid eu hunain am dystiolaeth i rym ac

[f] 1 Thes. 2. 14.
[h] Mat 16.24.
[i] 1 Thes 2. 13, 14.
[k] Rhuf. 8. 16, 18.
[l] 1 Thes. 4. 10.

6 A [g]chwi a aethoch yn ddilynwyr i ni, [h]ac i'r Arglwydd, wedi [i]derbyn y gair mewn gorthrymder mawr, [k]gyda llawenydd yr Ysbryd Glân:

7 Hyd onid aethoch yn [l]siampl- au i'r rhai oll sydd yn credu yn Macedonia ac *yn* Achaia.

8 Canys oddi wrthych chwi y seiniodd gair yr Arglwydd, nid yn unig yn Macedonia ac *yn* Achaia, ond [m]yn mhob man hefyd eich ffydd chwi ar Dduw a aeth ar led, fel nad rhaid i ni ddywedyd dim.

[m] Rhuf.1.8; 3 Ioan 12.

9 Canys y maent hwy yn mynegu am danom ni, pa ryw ddyfodiad i mewn a gawsom ni atoch chwi, a pha fodd [n]y troisoch at Dduw oddi wrth eilunod, i wasanaethu [o]y bywiol a'r gwir Dduw;

[n] Esa. 2. 17—21; 1 Cor. 12.2
[o] Deut 5.26; Esa. 37. 4, 17; Dan. 6.26; Rhuf. 9. 26; 2 Cor. 6.16, 17.

effeithiolrwydd ei weinidogaeth. Ond yn yr appêl hon nid yw yr apostol yn gwahanu ei bregethu a'i swydd oddi wrtho ei hun. "Nid ydywyn dywedyd, 'Pa fodd y pregethasom,' ond 'Pa fath rai a fuom." Yr oedd yr holl ddyn, yn pregethu."—*Auberlen. Er eich mwyn chwi.*—Rhydd yr apostol yma awgrym o'r hyn yr ymdrinia yn helaethach arno yn yr all bennod—nad oedd yn ei weinidogaeth yn ceisio ei gysur a'i leshâd ei hunan, ond iachawdwriaeth y Thessaloniaid.

6. *A chwi a aethoch yn ddilynwyr*, &c.—Y mae yr adnod hon, fel yr un flaenorol, i'w hystyried yn gyssylltiedig âg "o blegid," yn *adn.* 5; ac yn cynnwys ail reswm yr apostol dros ddadgan fod y Thessaloniaid yn etholedig; sef, trwy y derbyniad a roddasant i'r efengyl. Ond fel nad oedd gweinidogaeth Paul yn un gyffredin, "ond mewn nerth," &c., felly nid derbyniad cyffredin a roddasant hwythau i'r efengyl a bregethid ganddo. *Mewn gorthrymder mawr, gyda llawenydd yr Ysbryd Glân.*—Mae yr amgylchiadau chwanegol hyn o'r ddwy ochr,yn gwneuthur y prawf o'u hetholedigaeth yn fwy sicr. Ac yn hyn yr oeddynt yn "ddilynwyr" (yn llythyrenol, "efelychwyr") i Paul ac i'r Arglwydd: nid mewn derbyn y gair, ond eu bod mewn amgylchiadau o orthrymder mawr "gyda llawenydd yr Ysbryd Glân" wedi cyflwyno eu hunain i'r Arglwydd mewn ffydd, fel yr oedd Paul wedi gwneuthur yn ei weinidogaeth â'r Arglwydd Iesu Grist yn ei ymgyssegriad i'w waith cyfryngol. Eneiniwyd Mab Duw "tu hwnt i'w gyfeillion" â'r un "olew llawenydd" ag y mae efe, trwy ei Ysbryd, yn eneinio ei gyfeillion hefyd. *Gorthrymder mawr.*—Dechreuodd erledigaeth y Thessaloniaid ar gyhoeddiad cyntaf yr efengyl yn y lle (*Act.* xvii. 5—13); a pharhaodd, fel yr ydym yn gweled oddi wrth yr epistol hwn, dros ysbaid arosiad Paul yno, yn gystal ag ar ol ei ymadawiad oddi wrthynt (*yen.* i. 14; iii. 3, 4). *Gorthrymder...llawenydd.*—Pan y mae dyn yn dechreu cael profiad o felusder ac awdurdod y gwirionedd, ymddyrchafa y teimlad hwnw yn raddol, fel y bydd "gorthrymder," gwrthwynebrwydd, ac erledigaeth, o blegid y gair, yn cryfhau i fod yn "llawenydd yr Ysbryd Glân"—a gynnyrchir gan yr Ysbryd Glân. Y mae y ddau allu, "gorthrymder" a "llawenydd,"—nerth y cnawd, a nerth yr Ysbryd—fel yn ymryson am oruchafiaeth, ac y mae y rhai sydd yn "derbyn y gair" yn dadgan y fuddugoliaeth o du yr Ysbryd.

7. *Hyd onid aethoch yn esamplau*, &c.—Dengys hyn gynnydd rhagorol y Thessaloniaid; gan eu bod, nid yn unig yn ymdebygu i'w hathrawon, ond wedi dyfod eu hunain i fod yn esampl, yn gyullun i ereill i'w hefelychu. *Macedonia ac Achaia.*—Yr oedd yr oll o Groeg, dan lywodraeth Rhufain, wedi ei rhanu yn ddwy dalaeth dan yr enwau hyn. Cymmharer *Act.* xix. 21; *Rhuf.* xv. 26; 2 *Cor.* ix. 2.

8. *Canys oddi wrthych chwi y seiniodd gair yr Arglwydd.*—Er mwyn osgoi yr hyn sydd yn ymddangos fel afreoleidd-dra grammadegol yn nghyfansoddiad y frawddeg hon, yn gystal ag er mwyn ei dwyn i gyssylltiad mwy cysson â'r cyd-adnodau, gwna Calvin, Lüneman, Auberlen, ac ereill, ychydig o gyfnewidiadau yn yr attalnodau, gan roddi gwahan-nod (:) ar ol y gair "Arglwydd." Yr oeddynt wedi derbyn yr efengyl gyda'r fath awyddfryd, yr oedd wedi gweithredu mor rymus yn eu mysg, nes yr oedd y sŵn fel sain udgorn nerthol wedi treiddio i bob cyfeiriad. Yr oedd Thessalonica yn enwog am ei masnach, ac yr oedd Paul hefyd yn ysgrifenu o Corinth—lle oedd yn ganolbwynt masnachol i'r gorllewin a'r dwyrain; fel y mae yn hawdd canfod pa fodd yr oedd hysbysrwydd am eu ffydd wedi cyrhaedd "pob man," nid yn unig yn Groeg, ond yn holl Asia, lle yr oedd Cristionogion i'w cael. *Gair yr Arglwydd...eich ffydd ar Dduw.*—Yn yr ymadroddion hyn, gosodir yr efengyl allan dan ddwy agwedd, y ddwyfol a'r ddynol:—"gair" ar yr ochr ddwyfol, ond yn cael ei gynnyg i ddynion; ffydd ar yr ochr ddynol, yn troi i dderbyn y cynnygiad dwyfol. *Ffydd ar* (neu *tuag at*) *Dduw.*—Y mae yn y rhaggddodiad a ddefnyddir gyda'r gair "Duw" awgrymiad at y ffydd oedd ganddynt gynt mewn eilunod. *Fel nad rhaid i ni ddywedyd dim:*—am eich ffydd chwi wrth ereill.

9. *Canys y maent hwy*, &c.—Nid oes un angenrheidrwydd i ni ddywedyd dim yn y ffordd o ganmawl eich ffydd; canys hwynthwy eu hunain (credinwyr yn Macedonia ac Achaia, &c.) ydynt yn mynegu am danom ni. Yn lle ein bod ni yn mynegu am ein llwyddiant, y maent hwy yn gwneuthur hyny drosom. *Pa ryw ddyfodiad i mewn.*—"Gyda pha ryw nerth a chyflawnder o eiddo yr Ysbryd Glân."—*Calvin.* "Gyda pha fath hyder tufewnol a diystyr o bob peryglon allanol y cyhoeddasom i chwi yr efengyl."—*Chrysostom.* Tybia Auberlen ac Ellicott fod y geiriau "pa ryw" yn cyfeirio at yr amgylchiadau a nodwyd yn *adn.* 5, cyssylltiedig â gweinidogaeth Paul; a "pha fodd" yn yr un dull at yr amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt yn *adn.* 6—gorthrymder mawr, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. *A pha fodd y troisoch at Dduw oddi wrth eilunod.*—Dengys y geiriau hyn fod y Cristionogion yn Thessalonica gan mwyaf yn ddychweledigion oddi wrth Baganiaeth, er fod yn eu mysg (*Act.* xvii. 4) lawer o Iuddewon a Groegwyr crefyddol. *I wasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw.*—Dynodir yma un o amcanion mawrion eu tröedigaeth. Y mae "gwasanaethu" yn un o'r geiriau a arferir fyn-

[P] 1 Thes. 4. 16, 17; Gen. 49. 18; Luc 2. 25; Act. 3. 21; 1 Cor. 1. 7.

10 Ac i [P] ddisgwyl am ei Fab ef o'r nefoedd, yr hwn a gyfododd efe o feirw, *sef* Iesu, yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod.

PENNOD II.

1 *Pa fodd y daeth, ac y pregethwyd yr efengyl i'r Thessaloniaid; a pha fodd y derbyniasant hwythau hi.* 18 *Yr achos pa ham y bu Paul cyhyd yn absennol oddi wrthynt hwy; a pha ham yr ydoedd efe mor chwannog i'w gweled hwynt.*

B. A. 52.

CANYS chwi eich hunain a wyddoch, frodyr, ein dyfodiad ni i mewn atoch, nad ofer fu: **2** Eithr wedi i ni ddioddef o'r ngolwg ei ddychweledigion; ac am hyny y mae yn angenrheidiol iddo, er ymddangos yn ymfrostio (fel yn 2 Cor. x. 13), ddadgan y gwirioneddau am dano ei hunan a'i weithrediadau. Yr oedd y Thessaloniaid eisoes wedi dioddef llawer o blegid eu ffydd ar oi ymadawiad Paul oddi wrthynt (*pen.* ii. 14; iii. 1—5); ac nis gallasai eu perthynasau anghrediniol, paganaidd ac Iuddewig, feddwl am ddim yn debyg o fod mor effeithiol i gael ganddynt ei gwadu a thrwy eu cael i feddwl yn isel am ddybenion yr un a fu yn offerynol i'w dychwelyd.

1. *Canys chwi eich hunain a wyddoch.*—Yn y bennod flaenorol cyfeiriai yr apostol at, 1. Y nerth a'r hyder gyda pha raiy pregethai yr efengyl i'r Thessaloniaid. 2. Y parodrwydd gyda pha un y derbyniwyd hi ganddynt. I brofi y ddau beth yma, dygai yn mlaen, yn gyntaf, yr hyn a wyddai ef ei hunan (*pen.* i. 2—7); ac yn nesaf, cyfeiriai at yr hyn a fynegid gan Gristionogion mewn lleoedd ereill (*pen.* i. 8, 9, 10); ac yn y bennod hon (*adn.* 2—26), appelia at wybodaeth y Thessaloniaid eu hunain am y dyfodiad a gafodd efe atynt (*adn.* 2—22); ac am y derbyniad a roddasant hwythau i'r gair a bregethid ganddo (*adn.* 13—16). *Nad ofer fu.*—Nid "ofer" yn yr ystyr o ddiffrwyth, nac, fel y tybia ereill, twyllodrus, a olygir yma; ond gwâg, disylwedd, a dirym, fel y mae yr ymadrodd "nad ofer fu" yn cyfieu mewn dull gwahanol yr un drychfedd wl ag a geir yn *pen.* i. 5; "mewn nerth," &c. Dynoda y ferf a gyfieithir "fu" yn y lle hwn, ymwybyddiaeth sicr o unrhyw ffaith fel peth wedi cymmeryd lle yn orphenol a diammheuol, yr hon y mae ei dylanwad yn parhau hyd yr amser presennol.

2. *Eithr wedi i ni ddioddef o'r blaen,* &c.—Ni buasai siaradwr ofer, heb fod yn hollol o ddifrif gyda'i waith, a chan deimlo nerth a hyder yn ei genadwri (newydd "o'r blaen," ddioddef mewn un lle, yn ymdaflu i beryglon cyffelyb mewn lle arall. Yn *Act.* xvi. 19—40, ceir hanes am yr hyn a ddioddefasai yr apostol yn Philippi "o'r blaen" cyn dyfod i Thessalonica. *Cael ammharch.*—Nis gallai un gyda theimlad bywiog Paul, a'i syniadau am yr hyn oedd briodol a chyfiawn, lai na theimlo yn ddwys y sarhâd a gawsai yn Philippi (*Act.* xvi. 23, 24, 37, &c.) ond dymuna i'r Thessaloniaid alw i gôf—"fel y gwyddoch chwi"—nad oedd hyny wedi peri iddo yn y gradd lleiaf lwfrhau, fel ag i beidio cyhoeddi yr efengyl yn hyf iddynt hwythau. *Ni a fuom hyf.*—"Yr hyder," medd Olshausen, "ydyw y dadganiad allanol o'r sicrwydd;" *adn.* 5. *Yn ein Duw.*—Gofala yr apostol am osod allan sail ffynnonell ei hyder yn ngwyneb yr holl ymosodiadau a wneid arno. Dichon ei fod am ddangos, hefyd, trwy yr ymadrodd hwn, yn gystal a'r un sydd yn dilyn—*efengyl Duw*—bwysigrwydd y genadwri a gyhoeddasid ganddo; nid, fel y mynai rhai o bossibl gael gan y Thessaloniaid gredu, geiriau dyn yn cael eu llefaru yn ei nerth a chyda'i awdurdod ei hunan, ond efengyl Duw. *Trwy fawr*

Gen. 49. 18; Luc 2. 25; Act. 3. 21; 1 Cor. 1. 7. gwaredodd ni oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod.

PENNOD II.

1—16. DWG AR GOF IDDYNT EI DDYFODIAD CYNTAF I'W MYSG, PA FODD Y PREGETHWYD YR EFENGYL GANDDO EF, A PHA FODD Y DERBYNIWYD HI GANDDYNT HWYTHAU.

WRTH ystyried mor helaethlawn y traetha yr apostol am ei weinidogaeth yn mysg y Thessaloniaid, y crybwylliadau manwl a wneir ganddo am dano ei hunan a'i lafur tra gyda hwynt, y cyfeiriadau mynych at wybodaeth ei ddarllenwyr am dano (*adn.* 1, 2, 5, 9, 10, 11, "Chwi a wyddoch," "Côf yw genych," "Tystion ydych chwi"), ac yn enwedig ei appeliadau difrifol am gadarnhâd o'r cyfan at wybodaeth Duw ei hun, (*adn.* 5, 10), "Duw yn dyst," &c., y mae yn anhawdd peidio meddwl nad oedd yn amcanu cyfarfod âg enllibiaul y gwyddai efe oeddynt yn cael eu lleadenu am dano, er drwgliwio ei amcanion a'i weinidogaeth. Nid oedd ei athrodwyr, hyd yn hyn, y mae yn wir, wedi llwyddo, fel y darfu iddynt yn ddiweddarach mewn eglwysi ereill, i ffurfio pleidiau yn yr eglwys; ond ar yr un pryd y mae yn bossibl fod Timotheus wedi rhoddi ar ddeall i Paul fod rhyw rai ar waith yn ceisio ei niweidio ef a'i ddybenion yn

blaen, a chael ammharch, fel y gwyddoch chwi, yn Philippi, ni a
[a] Act. 4. 13; 29.31; 14.3. fuom [a]hyf yn ein Duw i lefaru wrthych chwi efengyl Duw trwy fawr ymdrech.

3 Canys ein cynghor ni nid *oedd* o hudoliaeth, nac o aflendid, nac mewn twyll:

[b] 1 Cor. 7.25. 4 Eithr megys [b]y'n cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru; nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, [c]ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni.

[c] Salm 139. 1, 2; Diar. 17. 3; Ioan 21. 17; Rhuf. 8. 17.

5 O blegid ni fuom ni un amser mewn ymadrodd gwenieithus, fel y gwyddoch chwi, nac mewn rhith cybydd-dod; [d]Duw yn dyst:

[d] Rhuf. 9. 1; Gal. 1. 20.

ymdrech.—Fel yr oedd Paul wedi tystiolaethu am ei ddarllenwyr (*pen.* i. 6), iddynt dderbyn y gair mewn gorthrymder mawr, gyda llawenydd yr Ysbryd Glân; felly tystiolaetha yma am dano ei hunan, ei fod yntau, trwy ymdrech mawr a hyder yn Nuw, wedi ei gyhoeddi iddynt. Yn ol golygiad Chrysostom, Olshausen, Jowett, ac ereill, cyfeiria y gair at ymdrechion tufewnol ac allanol. Ond tybia De Wette, Alford, Ellicott, a'r mwyafrif o esbonwyr, mai at erledigaethau oddi allan yn unig y cyfeiria.

3. *Canys.*—Yn ol golygiad Jowett, dygir y geiriau sydd yn dilyn i mewn fel rheswm pa ham yr oedd yr apostol yn "hyf i lefaru," &c.: o blegid nad oedd ei weinidogaeth o hudoliaeth, &c. Ond yn ol Bengel (yr hwn a ddilynir gan Auberlen, Ellicott, &c.), y mae yr apostol, er mwyn cadarnhau ei dystiolaeth ynghylch ei ddyfodiad i mewn atynt, yn dwyn yn mlaen ddau reswm: yn gyntaf, ei arfer gyffredinol a dieithriad ef a'i gydlafurwyr (*adn.* 3, 4); ac yn nesaf, yr arfer hono fel ei hamlygwyd yn neilldiol yn mysg y Thessaloniaid (*adn.* 5, 6, 7, &c). *Ein cynghor ni* :—yr oll o'r efengyl a bregethwyd genym. Ystyr y gair a gyfeithir "cynghor" yw galwad neu gyfarchiad. Y mae yr ystyr yn newid yn ol fel y byddo y cyfarchiad yn cael ei gyfeirio: os at y diog a'r diofal, cynghor; os at y trallodedig, dyddanwch. "Y mae y ddau ystyr," meddai Jowett, "cynghor a dyddanwch," y rhai ydynt yn ymgolli mor hawdd y naill i'r llall, yn awgrymiadol o sefyllfa allanol yr eglwys foreuol yn galaru yn nghanol drygau ybyd, ac yn gofyn, fel ei gwers gyntaf, am gael ei dyddanu; ac nid yn llai awgrymiadol o wers gyntaf yr efengyl i bob enaid yn bersonol, tangnefedd trwy gredu." *Nid oedd.*—Yn ol y golygiad uchod, dylid darllen "nid ydyw." *O hudoliaeth.*—Arwydda y gair a gyfeithir "hudoliaeth," sefyllfa un yn cyfeiliorni, pa un bynag ai trwy ddylanwad ereill, ai trwy ei benboethni ei hun. Yma defnyddir y gair i ddangos nad oedd pregethiad yr apostol o'r efengyl i ddeilliaw o unrhyw hudoliaeth, trwy ba un yr oedd efe ei hunan yn cael ei gamarwain; tra y mae trwy y geiriau *nac mewn twyll* yn ymddibeuro o unrhyw fwriad neu gynlluniau cyfrwys o'i du ef i gamarwain ereill. *Nac o aflendid.*—Ammhuredd yma, y mae yn debyg, gyda chyfeiriad yn benaf at ddybenion ammhur—ariangarwch, budr-elw, neu unrhyw beth sydd yn boddhau y cnawd, yn hytrach nag yn amcanu at ogoniant Duw: y cyfryw ag oeddynt yn cymmhell gau-athrawon (*Phil.* i. 16; 2 *Pedr* ii. 10.)

4. *Eithr megys y'n cyfrifwyd ni gan Dduw.*—Yr un gair Groeg a gyfeithir yma "cyfrifwyd yn addas," ag a gyfeithir yn niwedd yr adnod, "profi." Ystyr cyntaf y gair ydyw profi; yna cymmeradwyo a dewis mewn canlyniad i'r prawf. Yn y lle hwn, yr olaf yw yr ystyr mwyaf priodol i'r gair—"Megys y'n cymmeradwywyd;" neu yn ol a geir ar ymyl y ddalen weithian, "y'n dewiswyd," &c. "Nid yw Paul trwy hyn yn hòni unrhyw deilyngdod o hono ei hunan; ond ei amcan yn hytrach ydyw dangos fod ei awdurdod a'i swydd wedi eu derbyn oddi wrth Dduw, fel yn y geiriau cyffelyb yn 1 *Tim.* i. 12; "Yr wyf yn diolch i'r hwn a'm neilluodd, sef Crist Iesu ein Harglwydd, am iddo fy nghyfrif yn ffyddlawn, gan fy ngosod yn y weinidogaeth." Mynai roddi ar ddeall i'r Thessaloniaid mai mor bell ydoedd oddi wrth gyhoeddi cyfeiliornadau dynol, a chymmeryd ei arwain ar gyfeiliorn gan unrhyw ddychymygion ofer ("hudoliaeth," *adn.* 3), fel mai Duw ei hunan yn raslawn a'i dewisodd i'r anrhydedd o gael yr ymddiried o gyhoeddi y genadwri nefol i'r byd. *Nid megys yn rhyngu bodd i ddynion.*—Yr ydym yn llefaru, nid gyda bwriad o foddhau dynion, ac felly eu denu trwy "dwyll," *adn.* 3, ond i ryngu bodd Duw, yr hwn sydd yn chwilio ein calonau ni, ac sydd felly yn adnabod ac yn barnu hyd yn oed pob dybenion ammhur ("o aflendid," *adn.* 3; *Gal.* i. 10)—*Auberlen.* Y mae y geiriau "felly yr ydym yn llefaru" yn cyfeirio at "megys y'n cyfrifwyd," &c., sydd yn rhagflaenu, yn gystal ag at "nid megys," &c., sydd yn dilyn. "Amcanai yr apostol," medd Jowett, "ddadgan dau beth: yn gyntaf, ei fod yn llefaru fel un wedi ei brofi gan Dduw, a'i gael yn deilwng i ymddiried yr efengyl iddo; ac, yn ail, gan mai Duw oedd yn ei brofi, mai ger ei fron ef yr ymdrechai fod yn gymmeradwy, ac nid ger bron dynion." Er fod Paul yma yn llefaru am dano ei hun yn benaf, y mae yn dwyn yr un dystiolaeth hefyd dros ei gydlafurwyr, Silfanus a Thimotheus.

5. *O blegid.*—Ar ol, yn y ddwy adnod flaenorol, dwyn ei arfer gyffredin ef a'i gydlafurwyr o bregethu, i gadarnhau y gosodiad a wneir ganddo yn yr adnod gyntaf, "nad ofer fu ei ddyfodiad i mewn atynt," dymuna i'r Thessaloniaid yn awr alw i gôf enghraifft neilluol o hyny oedd o fewn cylch eu profiad hwy eu hunain, o herwydd yr hyn a welsant yn ystod ei arosiad ef yn eu mysg. *Ni fuom ni*:—nid arferasom ni, ni chymmerasom ni un amser ran mewn ymadrodd gweniaith, yn cyfatteb i "ryngu bodd dynion," *adn.* 4. "Pwy bynag," meddai Calvin, "a fynai foddhau dynion, rhaid iddo fod yn ddigon isel i wenieithio iddynt." *Nac mewn rhith cybydd-dod.*—Nid yr un peth a phe dywedasai "cybydd-dod" yn unig, fel y tybia Rosenmüller ac ereill; ac nid ymddangosiad o gybydd-dod, fel y tybia ereill. Ystyr cyntaf y gair a gyfeithir "rhith" ydyw ymddangosiad; wedi hyny esgus, dan yr hwn y mae un yn cuddio ei wir amcan: felly yn y lle hwn. Nid arferasom esgus, ni ddadlaiasom ddim i fyny fel amcan tu hwnt i'r hwn o'r golwg yr oedd cybydd-dod fel y gwir gymmhelliad. Dywed Jowett: — "Ni ddefnyddiasom

6 Nac yn ceisio moliant gan ddynion, na chenych chwi, na chan ereill; lle y gallasem bwyso
[c]1 Cor. 9. 4—6. *arnoch,* [c]fel apostolion Crist.
7 Eithr ni a fuom addfwyn yn eiriau o'r fath ag a ddefnyddia gweniaith, nac esgusodion o'r fath ag y mae cybydd-dod yn eu defnyddio." *Gwyddoch chwi.....Duw yn dyst.*—Appeliai Paul at ei wrandawyr am yr hyn y gallent hwy ei wybod a'i farnu, a dwyn tystiolaeth am dano, a arferasai efe eiriau gweniaith; ond appelia at Dduw am y pethau oeddynt i raddau o angenrheidrwydd yn guddiedig oddi wrthynt hwy, ac oddi wrth bawb ond Chwiliwr y calonau, sef ei wir gymmhelliadau—nid mewn cybydd-dod.

6. *Nac yn ceisio moliant.*—A yr apostol yn mlaen yn yr un dull nacaol i ddangos natur a nodweddion ei weinidogaeth, trwy ymddiheuro oddi wrth unrhyw awydd am ogoniant fel cymmhelliad iddo i lafur gyda'r efengyl—fel nad oedd yn cael ei lywodraethu gan chwant i elw, felly nid oedd yn cael ei gymmhell gan uchel-gais ac awydd am glod. *Gan ddynion, na chenych chwi, na chan ereill.*—Y mae yn briodol sylwi, er nad oes un gwahaniaeth yn y cyfieithiad Cymraeg rhwng y rhagddodiad o flaen "dynion," "chwi," ac "ereill," eu bod yn wahanol yn y Groeg:—*ec* ydyw y cyntaf, *apo* ydyw y ddau arall. Tybia Ellicott nad oes un gwahaniaeth yn yr ystyr yn y lle hwn; ond y mae Olshausen, Alford, Lüneman, ac Auberlen, ar y llaw arall yn golygu fod gwahaniaeth bychan rhyngddynt—gwahaniaeth nas gellir, yn fyr, ei osod allan yn well na thrwy y cyfieithiad canlynol o eiddo Webster a Wilkinson:—"Y mae yn ceisio moliant oddi wrth ddynion, pa un bynag ai yn cael ei gynnyg gensych chwi (ar eich tu chwi), neu gan ereill." *Na chan ereill*:—"sef gan y rhai," medd Bengel, "a fuasent yn ein hedmygu pe buasem wedi ymddwyn yn drahaus tuag atoch chwi." Mwy naturiol yw yr eglurhâd a rydd Auberlen ar y geiriau:—Gan y rhai y gallasem, fe ddichon, geisio anrhydedd i ni ein hunain trwy eich dychweliad chwi. Cymh. *pen.* i. 8, 9. *Lle y gallasem bwyso arnoch.*—Yn llythyrenol, 'Lle y gallasem fod o bwys.' Eglurir y geiriau gan rai fel cyfeiriad at hawl yr apostol i gynnaliaeth oddi ar law ei ddychweledigion. Cymh. *adn.* 9 â geiriau ereill o'r un gwreiddyn, yn cael eu defnyddio i'r un perwyl yn 2 *Thes.* iii. 8; 2 *Cor.* xii. 16; a xi. 9. Y deongliad arall a fabwysiedir yn fwyaf cyffredin a roddir mewn dulliau amrywiol; megys ar ymyl y ddalen weithiau—"cymmeryd awdurdod." Bengel—"Bod mewn anrhydedd." Alford—"Hôni ein hurddas." Nid ydym yn ceisio gogoniant oddi wrth ddynion, er y gallasem, fel apostolion Crist, hôni anrhydedd ac awdurdod. Yn ol Macknight, Jowett, ac ereill, y mae yr apostol yn llefaru am ei hawl i ofyn awdurdod yn gystal a chynnaliaeth. *Fel apostolion Crist.*—Fel cynnrychiolwyr a chenadon appwyntiedig Crist, y Brenin eneiniog, gallasent hawlio anrhydedd. Defnyddir y gair "apostol" yma yn ei ystyr mwyaf eang, fel y mae yn cymmeryd i mewn Timotheus a Silfanus.

7. *Eithr ni a fuom*:—lle y gallasem hôni awdurdod drosoch, yr oeddym i'n cael yn addfwyn. "Y mae hyn," meddai Bengel, "yn wrthgyferbyniol i weniaith (*adn.* 5); o blegid yr addfwyn eich mysg chwi, [f]megys mam-maeth yn maethu ei phlant.
[f] Esa. 49. 22.
8 Felly, [g]gan eich hoffi chwi, [g] Rhuf. v. 1—3. 2 Cor. 6. 1 11—13. ni a welsom yn dda gyfranu â chwi, nid yn unig efengyl Duw, yw yr un sydd yn meddu gwir dynerwch." Yr un gair a gyfeithir "tirion" yn 2 *Tim.* ii. 24; yr unig fan arall yn y Testament Newydd lle y mae i'w gael. Yn lle y gair a gyfeithir "addfwyn," mewn nifer mawr o'r llawysgrifau goreu ceir y gair, heb fod ond ychydig yn wahanol yn y Groeg, yn arwyddo "plant." Dadleuir yn erbyn y darlleniad hwn, o blegid y dyryswch a ddygid ganddo i'r gymmhariaeth, gan y byddai Paul yn galw ei hunan yn "blentyn" yn un rhan o'r adnod, ac yn "fammaeth" yn y rhan arall: ond ar y llaw arall, hônir fod hyny yn ffafriol i'w ddilysedd, gan y buasai adysgrifenwyr yn debyg o wneuthur cyfnewidiad a fuasai yn tueddu i wneuthur i'r rhan gyntaf ymddangos yn fwy cysson â'r rhan olaf. Yn ol y darllenniad hwn, dywed Paul ei fod yn eu canol fel plentyn—fel plant gyda phlant. *Yn eich mysg.*—Yn llythyrenol, "yn eich canol;" yn cael fy amgylchynu genych, fel athraw gan ei ddysgyblion, fel mam gan ei phlant, fel iâr gan ei chywion.—*Bengel.* Tybia Alford ac Ellicott fod yn y geiriau awgrym at yr absennoldeb o bob honiad o awdurdod—"fel un o honoch chwi eich hunain." Auberlen, ac ereill—"Yn eich canol, fel yr ydych oll wedi gweled, a chael profiad o honom." *Megys mammaeth yn maethu ei phlant.*—Dylasid chwanegu, "ei phlant ei hun"—mam a mammaeth. Yn *adn.* 11, cymmhara yr apostol ei hunan i dad; ond yma, dewisir y gymmhariaeth fwy tyner, mam; o blegid fod y fam yn hollol rydd oddi wrth unrhyw amcanion yn tarddu o hunan-gais, o elw, neu glod, yn ei chysylltiad â'i phlentyn sugno.

8. *Felly.*—Dewisa rhai beirniaid [Auberlen yn mysg ereill] roddi gwahan-nod (:) ar ol "eich mysg chwi" yn yr adnod flaenorol, a gwneuthur yr adnod hon yn ddibynol ar yr adran olaf o'r adnod flaenorol. Felly Ellicott mewn rhan, ac Alford—"Megys mammaeth yn maethu, &c., felly ni a welsom yn dda." Ond Bengel—"Gan eich hoffi chwi fel hyn, ni a welsom," &c. Y mae "felly" i'w gyssylltu, nid â "hoffi," ond â "ni a welsom yn dda." *Eich hoffi*:—hoffi yn fawr, hiraethu yn serchog am danoch. *Ni a welsom yn dda.*—Y mae y Groeg yn gryfach. "Yr oedd yn llawen genym—yr oeddym yn dra pharod." *Gyfranu â chwi, nid yn unig.....ond hefyd.*—Pa fodd y mae yr apostol yn ymddangos fel yn ystyried rhoddi ei enaid (ei fywyd) yn uwch na rhoddi yr efengyl? Mewn attebiad i hyn dywed Auberlen: "Yr oedd yn barod, nid yn unig i gyflawni ein gwasanaeth swyddol a roddwyd i ni mewn ymddiried gan Dduw, trwy gyflwyno yr efengyl i chwi, ond yr oedd perthynas bersonol o gariad o'r fath fwyaf cyssegredig hefyd wedi ei ffurfio, mewn canlyniad i'r hon yr oeddym yn barod i aberthu i chwi ein bywydau ein hunain." Tr un perwyl y dywed Olshausen hefyd:—"Yma nid ydyw yr apostol yn cymmeryd yr efengyl yn ei gwerth gwrthddrychol, ond fel rhodd yr ymddiriedwyd iddo ei chyfranu. Yn awr, y mae cyhoeddi yr efengyl yn ddyledswydd ar Paul (1 *Cor.* ix. 16); ond rhoddi i fyny ei fywyd sydd weithred wirfoddol o gariad: am

ond ein heneidiau ein hunain hefyd, am eich bod yn anwyl genym.

hyny gosodir yr olaf yn uwch." Yn ol golygiad rhai esbonwyr, y mae yr apostol yn myned yn mlaen yn yr adnod hon gyda'r gymmhariaeth yn *adn.* 7, oddi wrth y fam gyda'i phlentyn, i'r perwyl a ganlyn :—Fel y mae hi yn barod nid yn unig i gyfranu iddo ei llaeth, ond i roddi ei bywyd drosto os bydd angenrheidrwydd; felly yr oedd yntau a'i gydlafurwyr, nid yn unig yn cyfranu iddynt laeth y Gair (1 *Pedr* ii. 2 : *Heb.* vi 12); ond yn peryglu eu bywydau hefyd er mwyn eu lleshau a'u gwasanaethu. Ond gan fod Paul yn enwi yr efengyl—nid yma "*fy* efengyl i" ond yn arbenig "efengyl Duw, "y mae yn anhawdd meddwl nad ydyw yr eglurhâd braidd yn annaturiol. Y mae yn ddiammheu fod yma gyfeiriad at y gymmhariaeth a ddechreuwyd yn yr adnod flaenorol; ond cyfeiriad ydyw at anhunanolrwydd a phurdeb cariad y fam, yr hyn a ddygid yn fwy i'r amlwg yn yr adran olaf o'r adnod, *am* (y mae y gair Groeg yn gryf a phendant—"o herwydd y rheswm hwn") *eich bod yn anwyl genym;* yr hyn sydd yn gosod allan ei wir gymmhelliad.

9. *Canys.*—Y mae y gair "canys" yn cyssylltu yr adnod hon â'r un flaenorol, fel enghraifft eglurhaol, i ddangos pa mor bell yr oedd Paul a'i gyfeillion yn barod i roddi eu bywyd dros y Thessaloniaid. Er peryglu a niweidio ei iechyd a dinystrio ei fywyd, heb law cyflawni ei weinidogaeth mewn pethau ysbrydol, gweithiai yn galed, nos a dydd, rhag bod yn faich arnynt, fel y mae y fam trwy lafur a hunan-aberthiad mawr yn maethu ei phlentyn bychan. *Ein llafur a'n lludded.*—Ceir hyn gyda'u gilydd, yn yrundrefn ag yn y lle hwn yn 2 *Thes.* iii. 8, a 2 *Cor.* xi. 27. Yn ol Wordsworth, yr hwn a ddyfynir gan Lille, dynoda y gair cyntaf "yni gweithgar," a'r olaf "amynedd" mewn dioddef. Ar y llaw arall, golyga Ellicott fod y cyntaf yn arwyddo llafur gyda chyfeiriad at y boen sydd yn gyssylltiedig âg ef, a'r olaf at lafur gyda chyfeiriad at fawredd yr anhawsderau sydd ganddo i'w gorchfygu. Yr oll a ddywed Olshausen ydyw, fod yr olaf yn gryfach na'r cyntaf; ond barna Alford nas gellir tynu gwahaniaeth rhyngddynt. *Canys gan weithio.*—Cyfeiriad at ei lafur corphorol gyda'i alwedigaeth, fel gwneuthurwyr pebyll: *Act.* xviii. 3. *Nos a dydd.*—Tybia Auberlen ac Alford fod y gair "nos" yn cael ei roddi yn gyntaf er mwyn arbenigrwydd, gan fod gweithio y nos yn fwy anarferol, ac yn fwy blinderus. Ond y mae yn briodol sylwi mai yn yr un drefn y defnyddir y geiriau bob amser gan Paul: a hyny, y mae yn debygol, o herwydd fod yr Iuddewon yn arfer cyfrif fod y diwrnod gwladol yn dechreu gyda'r nos. *Fel na phwysem ar neb o honoch.*—Yr oedd Paul mor bell oddi wrth geisio elw oddi ar y Thessaloniaid fel na cheisiai ganddynt hyd yn oed angenrheidiau cyffredin bywyd er mwyn i'r gyfathrach rhyngddynt fod, o'i ochr ef, yn gyfangwbl yn un o gyfranu. Y mae y geiriau hyn, a chyfeiriadau ereill yn yr epistol hwn, yn ein harwain i feddwl y rhaid fod Paul wedi aros yn Thessalonica yn hwy na "thros y tri Sabbath" y dywedir, yn *Act.* xvii. 2, ei fod yn y synagog yn ymresymu â'r Iuddewon. Cadarnheir hyn hefyd gan yr ystyriaeth ei fod (*Phil.* iv. 16), yn ystod ei arosiad yno, "unwaith ac eilwaith," wedi derbyn rhoddion o Philippi. Yr ydym yn cael yn yr adroddiad yn yr Actau fod rhai o'r Iuddewon wedi credu; ond gwrthodwyd y genadwri gan y mwyafrif o honynt. Trodd Paul, gan hyny, i bregethu i'r Cenhedloedd; ac y mae yn ymddangos iddo fod mor lwyddiannus nes y cyffrowyd yr Iuddewon i gyfodi cythrwfl o'i blegid; a'r canlyniad fu iddo orfod ymadael â'r ddinas. Tybia Jowett, oddi wrth ddull manwl Luc o adrodd yr hanes yn yr Actau, nad oedd arosiad Paul yn Thessalonica ond byr; a bod yr adnodau hyn yn disgrifio y dull o fyw y bwriadai ei ddilyn, ac a ddechreuwyd ganddo; ond yr un y bu raid iddo yn ddiymmwth ei roddi i fyny o blegid yr erledigaeth a gyfodasai.

9 Canys cof yw genych, frodyr,
h ein llafur a'n lludded ni: canys i gan weithio nos a dydd, fel na

h Act. 2. 38.

PA HAM YR OEDD PAUL YN GWEITHIO A'I DDWYLAW EI HUN?

Y mae Paul yn fynych yn hôni hawl gweinidogion yr efengyl i fyw wrth yr efengyl (1 *Cor.* ix. 7, &c.; *Gal.* vi. 6, a 1 *Tim.* v. 17, 18), a byddai efe ei hun yn derbyn cynnaliaeth gan rai eglwysi (2 *Cor.* xi. 8, a *Phil.* iv. 10, &c). Ond yn Corinth (1 *Cor.* ix. 12, a 2 *Cor.* xi. 7, &c), Thessalonica, fel yr ymddengys yma, Ephesus (*Act.* xx. 33—35), ac o bossibl mewn lleoedd ereill (*Phil.* iv. 15), nid oedd yn cymmeryd dim am ei lafur mewn pethau ysbrydol; ond cynnaliai ei hun trwy weithio â'i ddwylaw (*Act.* xviii. 3; xx. 34; 1 *Thes.* ii. 9; 1 *Cor.* iv. 12), neu trwy dderbyn rhoddion gan eglwysi ereill. Gellir casglu nas gallai fod yn y lleoedd hyny ond rhan fechan o'i amser yn cael ei gyssegru i waith cyhoeddus ei swydd ysbrydol. Y mae yn naturiol, gan hyny, gofyn, pa beth a allasai fod yn cymmhell un oedd, nid yn unig wedi ei feddiannu mor lwyr gan amcan mawr ei swydd oruchel, ond un oedd, heb law hyny, o ddygiad i fyny da, wedi derbyn ei addysg wrth draed Gamaliel; ac un oedd hefyd, y mae yn debyg, o gyfansoddiad gwanaidd ac afiach (2 *Cor.* x. 20; xii. 5, &c.); ac heb ymarfer â llafur corphorol—pa beth a'i tueddai i'r fath lafur a lludded "nos a dydd?" "Ai," gofyna Jowett, "am ei fod yn awyddus am ddangos esampl o fywyd Cristionogol, yn gystal ag am gyhoeddi athrawiaethau Cristionogol, er mwyn profi nad oedd un gwrthdarawiad rhwng yr efengyl a threfn gyffredin y byd? Neu, a all fod mai er mwyn uno ei hun mewn sefyllfa âg aelodau tlotaf ei braidd? Neu, ai er mwyn darparu gogyfer â'u hanghenion hwy? Neu ai fel ymarferiad crefyddol, er mwyn "cosbi ei gorph a'i ddwyn yn gaeth?" Neu, i'w wahaniaethu ei hun oddi wrth y dewiniaid crwydrol, a dramwyent dros holl dir Groeg ac Asia i ddywedyd rhyw newydd? Neu, i dynu llinell rhyngddo ei hun a'r athrawon Iuddewaidd? Neu, ai o angenrheidrwydd; neu, fel y dywedwn ni, i gadw ei annibyniaeth." Dywed wrth y Corinthiaid, yn ei lythyr cyntaf atynt, ei fod yn ymattal rhag derbyn dim, rhag rhoddi dim rhwystr i efengyl Crist (*pen.* ix. 22); ac ymddengys, oddi wrth yr ail epistol atynt (2 *Cor.* xi. 22, &c.), mai at y gau-athrawon y cyfeiria yn arbenig, y rhai oeddynt yn ewyllysio cael achlysur: a'r un rheswm a barai iddo beidio cymmeryd cynnaliaeth gan y Thessaloniaid, gyda chyfeiriad mwy uniongyrchol yno, hwyrach, at yr anghredinwyr Iuddewig a Chenedlig, cyd-dueddiadau y rhai a ragwelid ganddo.

[i] 1 Cor. 9. 7, 18. [k] Act. 20. 24; Rhuf. 1. 1. [l] Act. 20. 18, 26, 33, 34; 2 Cor. 4. 2.

[i] phwysem ar neb o honoch, ni [k] a bregethasom i chwi [k] efengyl Duw.

10 [l] Tystion *ydych* chwi, a Duw *hefyd*, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a diargyhoedd, yr ymddygasom yn eich mysg chwi y rhai ydych yn credu:

[m] Act. 20. 2

11 Megys y gwyddoch, [m] y modd *y buom* yn eich cynghori, ac yn eich cysuro, bob un o honoch, [n] fel tad ei blant ei hun,

[n] Diar. 4. 1—12; 1 Cor. 4. 14, 15.

12 Ac yn ymbil, ar [o] rodio o honoch yn deilwng i Dduw, [p] yr hwn a'ch galwodd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant.

[o] Gal. 5. 16; Eph. 4. 1. [p] Rhuf. 8. 30.

os nad oeddynt eisoes yn cael eu traethu. Ceir awgrymiadau yn fynych iawn yn llythyrau ac anerchiadau Paul, sydd yn dangos ei fod yn teimlo pryder rhag i neb dybied ei fod yn ceisio eiddo ei ddychweledigion yn hytrach na hwy eu hunain. Yn 2 *Thes.* iii. 4—8, dangosir fod yr apostol yn awyddus am roddi yn ei berson ei hunan esampl o ffyddlondeb gyda galwedigaeth fydol. Yn ei gyfarchiad i henuriaid eglwys Ephesus (*Act.* xx. 34), y mae yr apostol yn nodi cymmhelliad arall: "Mi a ddangosais mai wrth lafurio felly, y mae yn rhaid cynnorthwyo y gweiniaid." Fel y dywed Matthew Henry, "nis gellir, oddi wrth esampl Paul yn yr achos hwn, dynu rheol gyffredinol ar un llaw—na ddylai gweinidogion un amser weithio â'u dwylaw er cyflawni eu hanghenion allanol, neu ar y llaw arall, y dylent bob amser wneuthur hyny." Tra y mae dyledswydd a rhwymedigaeth yr eglwys i'w gweinidogion yn cael eu gosod allan yn eglur a diammwys, y mae dyledswydd gweinidogion yn dibynu i raddau ar amrywiol amgylchiadau. Ni byddai efelychu Paul yn llythyrenol ac allanol yn hyn, ac mewn pethau ereill, ond dychwelyd oddi wrth yr efengyl at y llythyren: eu hamcan ddylai fod, ceisio deall a chyfranogi o'r ysbryd a lywodraethai yr apostol.—*Jowett, Auberlen.*

10. *Tystion ydych chwi, a Duw hefyd.*—Ar ol dangos, yn yr adnodau blaenorol, mewn ffurf nacaol, effeithiolrwydd ei weinidogaeth, a phurdeb ei gymmhelliadau, y mae yr apostol yn awr yn rhoddi disgrifiad byr, mewn dull cadarnhaol, o'i weinidogaeth yn mysg y Thessaloniaid. Gan fod y crynodeb hwn yn cynnwys rhai pethau nas gallai dynion yn briodol ddwyn tystiolaeth iddynt, y mae yn chwanegu appeliad difrifol at Dduw ei hun am gadarnhâd i'w wirionedd.—*Bengel. Sanctaidd*—mewn pethau dwyfol: *cyfiawn*—tuag at ddynion; *diargyhoedd*—gyda golwg arnynt eu hunain.—*Olshausen.* "Dynoda 'sanctaidd' y berthynas â Duw; 'cyfiawn a diargyhoedd,' y berthynas â dynion: 'cyfiawn' yn yr olwg gadarnhaol, a 'diargyhoedd' yn yr olwg nacaol."—*Ellicott.* Hwyrach mai mwy diogel ydyw dywedyd fod "sanctaidd a chyfiawn" yn ffurfio, ar yr ochr gadarnhaol, ddrychfeddwl cyfansawdd o burdeb sanctaidd a chyfiawnder, pa un bynag ai tuag at Dduw, ai tuag at ddynion; tra y mae "diargyhoedd" yn dangos, ar yr ochr nacaol, absennoldeb cyffredinol o achos beio yn y naill gyssylltiad a'r llall. *Yn eich mysg chwi.*—Baumgarten ac Ellicott: "Er eich mwyn chwi.' Calvin, Bengel, Alford: "Ger eich bron chwi." De Wette, Riggenbach, ac Auberlen: "Tuag atoch chwi." *Y rhai ydych yn credu:*—"Er y gallai nad ydym yn ymddangos felly i anghredinwyr."—*Bengel.* Golyga Jowett nad oes un arbenigrwydd neilldduol i'w roddi ar y geiriau; a'u bod, fe ddichon, wedi eu dwyn i mewn yn unig fel dangosiad o awydd yr apostol i lefaru mewn dull canmoliaethol am ei ddarllenwyr yn gystal ag am dano ei hun. Barna Auberlen, fod ystyr pendant i "gredu" yma. "Dywedid," meddai, "wrth y credinwyr, nad oedd eu ffydd ond hygoeledd ac ofergoeledd—eu bod wedi goddef i gymmeryd eu twyllo a'u camarwain gan ddyn dyeithr, a bod hyn oll yn awr yn cael ei alw yn ffydd." Dull o siarad cyffelyb i'r un a glywir y dyddiau hyn, sydd yn camgymmeryd ffydd am opiniwn, syniad, neu deimlad aneglur a disail. Mewn gwrthwynebiad i hyn, erys Paul gyda phwys neilldduol ar y gair "ffydd" yn ei wir ystyr, a dengys pa fodd nad ydoedd erioed wedi cam arfer eu hymddiried ynddo ef a'i air, trwy ymollwng i ammhuredd o un math; ond yn hytrach, gan barchu eu ffydd yn Nuw, a'i air ef, ei fod yn ei holl ymddygiadau wedi ymgadw yn sanctaidd, a'u hannog i rodio yn deilwng o Dduw." Fel y canlyn y mae trefn y geiriau yn y Groeg; "Chwi [ydych] dystion â Duw, mor sanctaidd, a chyfiawn a diargyhoedd [i, tuag atoch, neu ger eich bron] chwi, y rhai ydych yn credu yr ymddygasom." Cyfyngir "chwi, y rhai ydych yn credu," gan rai i "ddiargyhoedd" yn unig.

11, 12. *Megys y gwyddoch, y modd y buom,* &c.—Y mae yr apostol, ar ol gwneuthur dadganiad cyffredinol yn yr adnod flaenorol, yn cadarnhau hyny trwy appelio at wybodaeth ei ddarllenwyr o amgylchiadau neilldduol. Gesyd bwys neilldduol ar yr awydd a ddangosai i'w cael i *rodio yn deilwng i Dduw:* ond mewn cyssylltiad â hyny, y mae hefyd yn rhoddi arbenigrwydd ar ddau beth. 1. Ei fod wedi cymmeryd poen i gymmhell *pob un* (Groeg: "pob un ar ei ben ei hun, pob un yn bersonol) i'r rhodiad addas hwn." 2. Ei fod, er mwyn cyrhaedd yr amcan, wedi arfer pob dadl a chymmbelliad yr oedd yn bosibl iddo eu defnyddio; ac o blegid hyny, dywed ei fod yn *cynghori, cysuro, ymbil.* Fel y canlyn y mae trefn y geiriau yn y Groeg: "Fel megys y gwyddoch pa fodd y buom gyda golwg ar bob un o honoch, fel tad ei blant ei hun, yn eich cynghori chwi, yn eich cysuro [calonogi] ac yn ymbil [yn eich tynghedu], ar rodio o honoch," &c. *Fel tad ei blant ei hun.*—Yn *adn.* 7, pan yn gosod allan ei dynerwch at y Thessaloniaid, cymmharai yr apostol ei gariad i eiddo y fam; ond yma, pan yn cyfeirio at ei awydd am eu hyfforddi a'u haddysgu, mwy priodol oedd cyffelybu ei gariad i eiddo y tad. *Cynghori, cysuro, ymbil.*—Arwydda y gair cyntaf, fel y cyfeithir ef yma, "cynghori" yn gyffredinol: arwydda y gair a gyfeithir "cysuro," calonogi yn dyner; a'r un a gyfeithir yn "ymbil," erfyn yn daer a difrifol, neu tynghedu.—*Bengel.* Y mae "cynghori" yn peri i ni wneuthur peth yn ewyllysgar; "cysuro," i'w wneuthur gyda llawenydd; "ymbil," i'w wneuthur gydag ofn a pharch. Yn ol golygiad rhai, y mae "ar rodio o honoch" yn dibynu ar "gynghori:" a "cysuro ac ymbil" yn cyfeirio at ddau ddull gwahanol o "gynghori." *Yn deilwng i Dduw.*—Cymmharer

[1] 1 Thes. 1. 2, 3. 13 O blegid hyn [q] yr ydym ninnau hefyd yn diolch i Dduw yn ddibaid, o herwydd i chwi, pan dderbyniasoch air Duw, yr [r] Ier. 23. 28, 29; Rhuf. 10. 17. hwn a glywsoch genym ni, *ei* dderbyn *ef* nid *fel* gair dyn, eithr (fel y mae yn wir) [r] yn air Duw, yr hwn [s] hefyd sydd yn nerthol- [s] Ioan 17. 17, 19; Rhuf. 6. 17, 18. weithio ynoch chwi y rhai sydd yn credu.

14 Canys chwychwi, frodyr, [t] a [t] 1 Thes. 1. 6. [u] 2 Thes. 2. 1. wnaethpwyd yn ddilynwyr i eglwysi Duw, y rhai yn Iudea [u] sydd yn Nghrist Iesu; o blegid chwi-

Col. i. 10; *Eph.* iv. 1; *Phil.* i. 27; *Rhuf.* xvi. 2. *Yr hwn a'ch galwodd chwi.*—"Yr hwn sydd yn eich galw chwi." Yr amser presennol a ddefnyddir, i arwyddo, er fod yr alwad wedi myned allan, ei bod er hyny yn parhau yn ei grym, gan fod y deyrnas a'r gogoniant yn eu llawn fwynhâd etto i ddyfod. Yn Epistolau Paul, y mae y gwaith grasol o "alw" yn cael ei briodoli i'r Tad. *I'w deyrnas a'i ogoniant.*—Nid, fel y tybia rhai, "teyrnas ei ogoniant;" nac fel ereill, "gogoniant ei deyrnas;" nac fel y tybia Baumgarten ac ereill, "ei deyrnas a'i gogoniant" ar y ddaear [yr eglwys] yn y nefoedd: ond [Ellicott, Auberlen, &c.] "y deyrnas" yw teyrnas ei Fab ef, o'r hwn y mae y gwir Gristion, tra ar y ddaear, yn ddeiliad, ond bendithion a rhagorfreintiau llawn yr hon a fwynheir ar olhyn. "Y gogoniant" i ba un y'n gelwir ydyw ei ogoniant tragwyddol ef ei hun, o'r hwn y gwneir holl wir ddeiliaid y deyrnas gyfryngol yn gyfranogion. Rhoddir yma ddau gymmhelliad i rodiad sanctaidd:—1. Rhodio yn deilwng o burdeb y Duw, yr hwn sydd yn eu galw. 2. Yn deilwng o'r sefyllfa oruchel oedd yn eu haros—cyfranogiad â Duw yn ei deyrnas a'i ogoniant.

13—16. Ar ol appelio at y Thessaloniaid eu hunain (*adn.* 1—12) fel tystion i effeithiolrwydd ei weinidogaeth yn eu mysg, y mae yr apostol yn awr (*adn.* 13—16), gyda diolchgarwch i Dduw, yn dwyn ar gof iddynt ddarfod iddynt hwythau roddi derbyniad effeithiol i'r genadwri a gyhoeddwyd ganddo, ei derbyn fel cenadwri oddi wrth Dduw, gan ddangos parodrwydd i ddioddef erlediaeth ac ammharch er ei mwyn.

13. *O blegid hyn*:—"O blegid i chwi gael y fath athrawon." Golyga Ellicott, fod "o blegid hyn" yn cyfeirio at fater cyffredinol yr adnodau blaenorol:—"Gan i ni ddangos y fath sêl a diffrifwch, yr ydym yn diolch i Dduw eich bod chwithau wedi derbyn y genadwri mewn ysbryd sydd yn cydweddu â hyny." Dyna y golygiad a fabwysiedir hefyd gan Webster a Wilkinson. Y mae Olshausen, Auberlen, a Lüneman, yn cyssylltu y geiriau â diwedd yr adnod flaenorol:—"O blegid i Dduw eich galw i'w deyrnas, am hyny yr ydym ninnau hefyd yn diolch," &c. Tybia Jowett fod "o blegid hyn" yn cyfeirio at y geiriau sydd yn dilyn, yn gystal ag at y rhai sydd yn rhagflaenu. Y mae gan yr apostol felly ddau sail i ddiolchgarwch: yn gyntaf, am y nerth a gafodd efe i bregethu iddynt; yn ail, am y derbyniad a roddasid ganddynt hwy i'r gair a bregethid ganddo. *Ninnau hefyd.*—Nid "ninnau yn gystal a phob gwir gredadyn a glywo am eich ymddygiad," yn ol Lüneman; nac fel Alford, gyda chyfeiriad at y rhai y sonir am danynt yn *pen.* i. 7: ond, fel y tybia Lille, Auberlen, ac Ellicott, mewn rhan mewn gwrthgyferbyniad i "chwi a wyddoch," "tystion ydych," "megys y gwyddoch" (*adn.* 1, 10, 11). Fel pe dywedasai, "Chwi ydych ein tystion ni, a ninnau ydym yn awr yn dystion i chwithau." *Yn diolch i Dduw.*—Mor ddofn ydoedd yr argraph a gafodd ffydd y Thessaloniaid ar yr apostol, fel yr oedd yn ddibaid yn cyflwyno diolchgarwch i Dduw drostynt. *Pan dderbyniasoch.....ei dderbyn.*—Yn y Groeg, defnyddir dau air gwahanol, lle y cyfleithir y naill a'r llall i'r Gymraeg â'r gair "derbyn." Dynoda y cyntaf y weithred allanol oedd yn cymmeryd lle yn rhagflaenol i'r derbyniad tufewnol a osodir allan gan yr olaf. Yn y cyntaf, dynodir y derbyn â'r glust; yn yr olaf, y derbyn â'r galon. Gallesid gosod yr olaf allan drwy y gair "croesawu," neu "gofleidio." *Gair Duw.*—Nid y gair am Dduw, na'r gair a berthyn i Dduw, ond y gair sydd yn deilliaw oddi wrth Dduw, i'r hwn y mae Duw yn ffynonell ac awdwr. Gellir darllen y geiriau yn llythyrenol, "Pan dderbyniasoch genym ni air y genadwri oddi wrth Dduw. *Nid fel gair dyn.*—Yn y Groeg y rhif lliosog, "dynion," a ddefnyddir. Dywed Lüneman, fod chwanegu y gair "fel," nid yn unig onddo ei hun yn ddiangenrhaid, ond yma yn gwbl anmhriodol; gan mai amcan yr apostol ydoedd, nid dadgan pa fodd yr edrychai y Thessaloniaid ar y gair a bregethid, ond, fel y dengys yr adnod nesaf yn eglur ("fel y mae yn wir yn air Duw"), pa beth ydoedd mewn gwirionedd. Felly hefyd y golyga Alford ac Ellicott. *Yr hwn.*—Ai at y "gair," ynte at "Dduw," y mae y rhagenw "hwn" yn cyfeirio? Golyga Lüneman, Jowett, Alford, ac Ellicott, mai at y "gair" y cyfeiria. Ar y llaw arall, golyga Luther, Bengel, ac Auberlen, mai "Duw yw yr hwn," &c. Dywed Olshausen fod y gair "hwn" yn cyfeirio at y drychfeddwl deublyg, "gair" a "Duw." Y mae yn amlwg fod yr apostol yn y cyd-adnodau yn rhoddi pwys ar y gweithrediad fel un dwyfol. *Hefyd.*—Tybia Alford y gellid, heb golli dim o'r ystyr, adael allan y cyssyllt-air hwn; ond golyga Ellicott ei fod yn grymuso y ferf "nerthol-weithio," drwy awgrymu nodwedd chwanegol sydd yn perthyn i'r gair dwyfol; ac fe allai, hefyd, wrthgyferbyniad i'w aneffeithiolrwydd, pan y bydd yn cael ei glywed yn unig heb ei gredu. Y mae y gair "hefyd," yn ol golygiad Auberlen, yn dynodi, nid yn unig derbyniad y gair fel gair Duw o du y Thessaloniaid, ond hefyd cadarnhâd effeithiol a pharhaus o hono o du Dduw. *Sydd yn nerthol-weithio ynoch.*—Profir ei fod yn wir yn air Duw trwy ei fod, neu fod Duw trwyddo, yn gweithredu mor rymus ynoch. *Chwi y rhai sydd yn credu.* — Trwy ffydd y mae gweithrediadau dwyfol yn cael eu derbyn a'u teimlo.

14. *Canys chwychwi, frodyr, &c.*—Tybia Olshausen fod y geiriau hyn yn dyfod i mewn fel prawf o'r hyn a ddywedir gan yr apostol yn niwedd yr adnod flaenorol am ffydd y Thessaloniaid—"y rhai sydd yn credu." Fel pe dywedasai, 'Yr ydych yn gredinwyr, o blegid yr ydych wedi dilyn eglwysi Iudea mewn dioddef; yr hyn nis gallasech ei wneuthur ond trwy ffydd.' Ond mwy naturiol ydyw golygiad Bengel, Auberlen, Ellicott, Jowett, &c., yn ol yr hwn y mae y gair "canys," &c., yn dyfod i mewn fel prawf o'r

thau a ddioddefasoch y pethau hyn gan eich cydgenedl, megys hwythau gan yr Iuddewon:

[x] Mat. 23. 31—35; Act. 2. 23. 15 Y rhai a [x] laddasant yr Arglwydd Iesu, a'u prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiasant ninnau ymaith; ac *ydynt* [y] heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn pob dyn; [y] Act. 13. 3; 1 Cor. 10 5.

16 Gan warafun i ni lefaru wrth y Cenhedloedd, fel yr iacheid

"nerthol-weithio." Mae y gweithrediad dwyfol ynoch mor rymus, fel y mae yn gorchfygu pob rhwystrau dynol, ac wedi eich galluogi i ddilyn eglwysi Iudea, &c. "Mewn profedigaethau," meddai Bengel, "y mae gweithrediad dwyfol yn benaf i'w ganfod a'i deimlo." Yn *pen.* i. 6, darlunir y Thessaloniaid fel "dilynwyr" (gwel y nodiad) i Paul, ac i'r Arglwydd Iesu ei hunan, ac yna fel dilynwyr i eglwysi Iudea. Y gweithrediad dwyfol yn y credadyn sydd yn codi gwrthwynebrwydd iddo yn y byd (*Ioan* xv. 18); ond dyna sydd hefyd yn rhoddi nerth iddo i ddal pob gelyniaeth. Y mae yr apostol, trwy eu hadgofio o ddioddefiadau cyffelyb i'r eiddynt hwy, yn amcanu eu calonogi rhag ymollwng a gwrthgilio. Dichon fod y geiriau yn cyfeirio at erlidigaethau a ddioddefasant ar ol ymadawiad Paul (1*Thes.* iii. 3), neu at yr erlidigaeth ar gyhoeddiad cyntaf yr efengyl yno (*Act.* xvii. 5); o blegid er mai yr Iuddewon oedd yn fwyaf blaenllaw yn yr erlidigaeth gyntaf, yr oeddynt yn arfer moddion i gyffroi y boblogaeth Genhedlig hefyd yn erbyn Paul a'i ganlynwyr. *Eglwysi Duw y rhai sydd yn Iudea yn Nghrist Iesu.*—Gwel ar *pen.* i. 1. Nis gall yr ymadroddion cryfion a ddefnyddir gan yr apostol yn yr adnodau uchod, am ei gydgenedl lai nag ymddangos yn rhyfedd, ac ar ryw gyfrifon yn annaturiol. Y maent yn wahanol i'r dull yn mha un y llefara am danynt ar ol hyn (*Rhuf.* x. 1; xi. 14, &c.); ac nid yw yn eglur ar yr olwg gyntaf fod rhyngddynt gyssylltiad neillduol â'r cyd-destynau. Tybia rhai fod rhyw ymgais yn cael ei wneuthur i berswadio y Thessaloniaid mai mater Iuddewig yn unig oedd yr efengyl, ac mai yn erbyn y cyfryw syniad y mae Paul yn ysgrifenu. Ond buasid yn meddwl fod y ffaith mai Iuddewon oedd gelynion cyntaf a phenaf yr efengyl yn Thessalonica yn ei wneyd yn annhebyg iawn y buasai y fath wrthddadl yn cael ei dwyn yn ei herbyn. Barna Olshausen mai yr unig ffordd i roddi cyfrif am yr ymosodiad hwn ar yr Iuddewon, ydyw trwy y dybiaeth fod Paul yn dymuno galw sylw y Thessaloniaid Cristionogol at hen bechod yr Iuddewon, fel yr oedd yn cael ei amlygu yn eu gwrthodiad o Grist, ac yn eu teimladau gelyniaethus ato yntau, a thuag at ei lafur yn mysg y Cenhedloedd, er mwyn dangos mai dynion o gyffelyb ysbryd oedd y Cristionogion Iuddewig, y rhai y rhagwelai fyddent yn fuan yn rhwym o gynnhyrfu yr eglwys yn Thessalonica. Ond prin y gellir meddwl y buasai yr apostol yn defnyddio geiriau mor chwerwon i gyfarfod âg ymosodiad a allai gael ei wneuthur rywbryd arno ef a'i weinidogaeth. Mwy tebygol yw, y gallai fod cydwladwyr y Thessaloniaid Cristionogol yn gofyn iddynt, neu ynte fod y fath ofyniad yn dyfod i'w meddyliau hwy eu hunain—'Os hon ydyw y wir grefydd, pa ham y mae yr Iuddewon mor gyndyn yn ei gwrthwynebu, y rhai ydynt bobl sanctaidd i Dduw?' Pa fodd y gellwch ddilyn y dyeithriddyn hwn, Paul, tra y mae ei bobl ef eu hunain wedi ei fwrw ymaith oddi wrthynt? Yr oedd mwy o rym i'r wrthddadl hon yn ngolwg y Thessaloniaid Cristionogol, o herwydd fod "lliaws mawr," o honynt (*Act.* xvii. 4) yn flaenorol yn broselytiaid, ac yn arfer ymofyn am y gwirioneddau yn mysg yr Iuddewon. I'r wrthddadl hon, gan hyny, y mae yr apostol, dybygid, yn atteb yn *adn.* 15, 16. 'Ydynt,' fel pe y dywedasai, 'y maent wedi fy erlid i, ond dyna arfer y genedl bob amser tuag at y rhai a anfonwyd atynt: oddi ar yr un ysbryd y lladdasant yr Arglwydd Iesu a'u prophwydi eu hunain: y maent yn erbyn Duw, ac yn dangos eu hysbryd cenfigenllyd at ddynion, trwy warafun i ni bregethu i'r Cenhedloedd, &c.' Ond dygir hyn i sylw mewn cyssylltiad â dioddefiadau y Thessaloniaid oddi wrth eu cydgenedl. Yr oedd Paul wedi profi yr un pethau oddi ar law ei gydwladwyr ag a brofasai y Thessaloniaid oddi wrth yr eiddynt hwy. Fel yr oeddynt hwy yn ddilynwyr mewn dioddef i gredinwyr Iudea, felly yr oedd yntau i'r Arglwydd Iesu a'r prophwydi. Gyda'r fath ragflaenwyr, a'r fath unffurfiaeth mewn profiad, yr oedd yn rhaid y byddai i bob achos tramgwydd ddarfod. Y mae yn amlwg, hefyd, fod yr engraifft yn *adn.* 14 wedi ei dewis er mwyn dwyn i mewn y cyfeiriad at yr Iuddewon yn *adn.* 15, 16.

15. *A laddasant yr Arglwydd Iesu:*—yr hwn yr oeddynt dan rwymau i'w wasanaethu. "Ymddengys fod y gair "Arglwydd" yma yn cael ei chwanegu, mewn rhan, i ddynodi teimlad parchedig yr apostol, ac mewn rhan, hefyd, i fwyhau eu heuogrwydd."—*Jowett. Heb ryngu bodd Duw:*—yn cenfigenu. Yr oedd yr Iuddewon yn cenfigenu o blegid fod Paul yn pregethu i'r Cenhedloedd, ac o herwydd fod cynnifer o honynt wedi eu dychwelyd trwy ei weinidogaeth, a thybient fod hyn oll yn codi oddi ar sêl dros Dduw; ond dengys yr apostol yma nad oeddynt yn boddhau Duw, ond fod eu holl ymddygiad yn gyfryw ag oedd yn ei anfoddhau. *Ac yn erbyn pob dyn.*—Y mae esbonwyr yn gyffredin yn sylwi ar y tebygolrwydd sydd rhwng y disgrifiad hwn o'r Iuddewon a'r ymadroddion a ddefnyddiwyd gan awdwyr paganaidd, megys Tacitus a Juvenal, i'w darlunio; ond y mae yn amlwg, dybygid, wrth y geiriau sydd yn dilyn (*adn.* 16), pa gyffelybrwydd bynag sydd rhwng yr ymadroddion, fod gwahaniaeth hollol yn yr ystyr, gan fod Paul a'r awdwyr hyny yn edrych ar wrthwynebrwydd yr Iuddewon o gyfeiriadau gwahanol. Nis gallasai Paul lai nag edrych gyda pharch ar neilduad Israel i fod yn bobl briodol i Dduw, yr hyn oedd yn destyn dirmyg gan y dysgedigion paganaidd, er ei fod, gyda hwythau, yn condemnio yr ysbryd cul, Phariseaidd, hunanol, a rhagfarnllyd oedd, erbyn hyn, yn nodweddu lliaws o'i gydgenedl.

16. *Gan warafun i ni lefaru wrth y Cenhedloedd.*—Y mae y geiriau hyn yn egluro diwedd yr adnod flaenorol, pa fodd yr oeddynt "yn erbyn pob dyn," yn gymmaint a'u bod yn gwarafun i'r apostolion hysbysu ffordd iachawdwriaeth i ereill oeddynt heb fod yn Iuddewon. Syniad yr Iuddew oedd, fod yn rhaid i'r Cenedl-ddyn ddyfod i feddiant o ragorfreintiau teyrnas y Messiah trwy Iuddewiaeth—fod yn rhaid yn gyntaf ei enwaedu. *I gyflawni eu pechodau hwynt.*—Y mae

[a] Gen.15.16; Zech.5.6,8; Mat 23.32. [b] hwy, [z]i gyflawni eu pechodau hwynt yn wastadol: [a]canys digo- [b] Joel 2. 30. ofaint *Duw* a ddaeth arnynt hyd 31; Mal. 4.1,5. yr eithaf.

y geiriau hyn i'w cyssylltu nid â "gan warafun," &c., ond â'r holl ddisgrifiad o ddechreu *adn.* 15. I hyn yr arweiniai ac y tueddai holl wrthnysigrwydd yr Iuddewon. Yn ol golygiad rhai esbonwyr, nid oes dim mwy yn cael ei ddynodi yma nag effaith neu ganlyniad ymddygiad yr Iuddewon; sef, fod eu holl wrthnysigrwydd yn arwain ac yn tueddu i hyn, i gyflawni mesur eu hanwiredd. Ond y mae y gystrawen yn y Groeg yn gosod allan yr amcan oedd mewn golwg yn eu hymddygiad, yr hwn sydd i'w briodoli, fel y golyga De Wette ac Auberlen, i'r Iuddewon, y rhai oeddynt yn gweithredu gyda gwrthnysigrwydd dall ac anymwybyddol i gyrhaedd yr amcan. Ond barna Olshausen, Ellicott, ac ereill, fod yr amcan i'w gymmeryd fel yn cyfeirio, nid at yr Iuddewon, fel y buasai y grammadeg yn unig yn gofyn, ond at fwriad Duw oedd yn cael ei ddadblygu yn eu dallineb gwrthnysig, ac o'r diwedd barnol. "Yn y cenfigen chwerw hwn," medd Olshausen, "sydd yn gwarafun i'r Cenhedloedd, druain, hyd yn oed eu hiachawdwriaeth, y mae Paul yn canfod yn briodol gerydd Duw: yr oedd yn rhaid i'r Iuddewon drwy hyny wneuthur eu pechodau eu hunain, *h. y.*, mesur eu pechodau, yn gyflawn [y mae pechod yn dyfod yn gosbedigaeth pechod], a thrwy hyny dyfod yn aeddfed i farn." Arwydda y gair a gyfeithir yma "cyflawni," llenwi i fyny, parhau i lenwi i fyny yn uwch, nes y mae, fel pe dywedid, y lle gwâg yn y llestr yn myned lai lai. *Yn wastadol:*—bob amser, ar bob adeg yn eu hanes, trwy erlid y prophwydi gynt; yna yr Arglwydd Iesu, ac ar ol hyny ei apostolion—yr oedd eu pechodau yn llenwi i fyny yn barhaus, yn uwch o oes i oes, nes o'r diwedd yr oedd mesur eu hanwiredd wedi ei wneuthur i fyny—eu llestr yn llawn. *Canys.*—Yn ol y Groeg, "ond" a ddefnyddir yn y lle hwn, i ddangos y gwrthgyferbyniad rhwng pechod a'i gosbedigaeth—rhwng eu hymddygiad gwrthnysig a'i derfyniad ofnadwy. *Digofaint Duw.*—Nid ydyw y gair "Duw," er ei fod i'w gymmeryd fel yn ddealledig, i'w gael ond mewn rhai llawysgrifau. Y cyfeithiad llythyrenol ydyw, "canys y digofaint a ddaeth," &c. "Naill ai y digofaint a hir ddisgwyliwyd, neu y digofaint oedd yn canlyn eu pechodau. Cymmharer *Rhuf.* i. 18; v. 9."—*Jowett.* Cymmharer hefyd 1 *Thes.* i. 10. *A ddaeth.*—Y mae rhai yn hŏni y rhaid fod y geiriau hyn yn cyfeirio at ddinystr Ierusalem fel peth wedi cymmeryd lle eisoes, ac y rhaid felly fod yr epistol wedi ei ysgrifenu ar ol yr amgylchiad hwnw. Ond pe buasai felly, gallasem, fel y sylwa Jowett, ddisgwyl am gyfeiriadau ereill yn yr epistol at yr un amgylchiad, yn gystal a chrybwylliadau mwy manwl ac eglur am dano yn y lle hwn. Golyga Ellicott hefyd fod hŏni fod y geiriau yn cyfeirio at rywbeth wedi myned heibio, yn gwbl orphenol, yn hollol anghysson â'r cyd-adnodau. Yn annibynol ar unrhyw ddadganiad uniongyrchol, neu ysbryd prophwydoliaeth, gallasai un o gynneddfau naturiol a duwioldeb Paul, wrth sylwi ar arwyddion yr amserau yn ngoleuni prophwydoliaethau yr Hen Destament (gwel *Dan.* ix. 24—26, a xii. 11), a rhagfynegiadau yr Arglwydd Iesu ei hunan (*Mat.* xxiii. 37, 38; xxiv. 3—41, a

17 A ninnau, frodyr, wedi ein gwneuthur yn amddifad am danoch dros ennyd awr, yn ngolwg, nid yn nghalon, a fuom fwy astud

Luc. xix. 43, 44, &c.), weled fod yr Iuddewon erbyn hyn ynaeddfed i farn; yr oedd y cwpan er's oesoedd wedi bod yn llenwi, ac o'r diwedd, trwy eu gwrthodiad o'r Messiah, ac o'i apostolion, yr oeddynt wedi chwanegu y dyferion a barent iddo lifo drosodd. Er na ddechreuodd y dinystr am bymtheng mlynedd ar ol yr adeg yr ysgrifenwyd y geiriau hyn, yr oedd arwyddion eglur er's amser nad oedd rhyw ddymchweliad arswydus yn mhell. Tua phedair neu bum mlynedd cyn hyn, cyfodwyd terfysg yn Ierusalem ar adeg y Pasc, pan y dywedir fod cynnifer a 30,000 wedi eu lladd. *Hyd yr eithaf.*—Bengel: "Dilynodd digofaint Duw y bobl druenus hyn, ac o'r diwedd llwyr ddinystriodd eu dinas a'u teml." Olshausen: "Yn mlaen 'hyd y diwedd,' fel nad ydyw y cwbl sydd eisoes wedi cymmeryd lle yn ymddangos ond megys dechreuad." "Y mae digofaint Duw wedi dyfod arnynt, a gweithia yn mlaen nes dadguddio ei hun yn hollol." Jowett: "Naill ai yn 'wastadol,' fel na bydd byth yn pallu, neu yn 'hollol,' fel ag i wneuthur diwedd terfynol." Golyga amryw o'r esbonwyr hynaf fod y geiriau yn cyfeirio at barhâd y gosbedigaeth "hyd ddiwedd y byd, hyd byth." Barna ereill, Grotius, De Wette, Ewald, &c., mai "hyd ddinystr llwyr yr Iuddewon" a feddylir. Mwy naturiol ydyw golygiad Lüneman, yr hwn hefyd a fabwysiedir gan Auberlen, Alford, ac Ellicott, "Hyd yr eithaf: hyny ydyw, y mae digofaint Duw wedi dyfod arnynt i'w derfyn eithaf. Fel yr oedd eu pechod hwy yn cynnyddu, yr oedd y digofaint hefyd yn cynnyddu, yr hwn yn awr, pa fodd bynag, sydd wedi cyrhaedd ei bwynt pellaf, ac sydd yn rhwym o ymdywallt arnynt." "Yr oedd," meddai Jowett, "sefyllfa Iudea am y deng mlynedd ar hugain diweddaf cyn dinystr y ddinas yn gyfryw ag i fod yn ddigon i gyfiawnhau yr ymadrodd 'daeth digofaint arnynt hyd yr eithaf.' Ond etto ymddengys iaith yr apostol fel yn dynodi, nid eu bod yn weithredol yn dioddef cosp, ond eu bod wedi cyrhaedd y pwynt eithaf mewn anghymmeradwyaeth, oddi wrth yr hwn nid oes mwyach ffordd i ddychwelyd."

17. *A minnau.*—Y mae yr apostol, ar ol cyfeirio (*adn.* 15, 16) at yr erlidwyr Iuddewig, yn awr yn dychwelyd at y personau a'r mater yr ymdriniai â hwynt yn *adn.* 13. Gellid, a hwyrach y dylid cyfeithu "ond ninnau," gyda gradd o wrthgyferbyniad i ymddygiad yr erlidwyr yr oedd newydd gyfeirio atynt. Yma y mae Paul yn rhagfaenu unrhyw gyhoeddiad o ddiofalwch ynghylch y Thessaloniaid, fel pe buasai, ar ol ymadael oddi wrth y Thessaloniaid, wedi rhoddi i fyny ofalu am danynt.—*Calvin, Auberlen.* Fel yr ydym yn cael yn yr adran gyntaf ddarluniad o weinidogaeth Paul yn Thessalonica, a sylfaeniad yr eglwys yno, felly ceir yn yr adran hon (*pen.* ii. 17—iii. 13) ddarluniad o'r dull yn mha un y mae sylfaenydd yr eglwys er y pryd hwnw wedi bod yn teimlo tuag ati, ac yn gweithredu o'i phlaid. *Wedi ein gwneuthur yn amddifad am danoch:*—neu 'Wedi ein hamddifadu o honoch.' Nid ydym i dybied, fel y myn rhai esbonwyr, fod yr apostol yn cyffelybu ei hunan i blentyn; o blegid defnyddir y gair gan yr awdwyr clasurol am rieni wedi eu hamddifadu o'u plant, yn

i weled eich wyneb chwi mewn awydd mawr.

18 Am hyny yr ewyllysiasom [b]Zech.3.1,2; Rhuf. 15. 22; - Dad. 12. 9 —12. ddyfod atoch (myfi Paul) yn ddiau, unwaith a dwywaith hefyd; eithr [b] Satan a'n lluddiodd ni.

[c] Diar. 4. 9; 1 Pedr 5. 4; Dad. 4. 10; 11. 19 Canys beth *yw* ein gobaith ni, neu ein llawenydd, neu [e] goron *ein* gorfoledd? onid chwychwi, [d] 1 Cor. 4. 5; 15. 23; Phil. 2. 16. ger bron ein Harglwydd Iesu Grist yn ei ddyfodiad ef?

20 Canys chwychwi yw ein gogoniant a'n llawenydd ni.

PENNOD III.

1 *Paul yn tystiolaethu ei fawr gariad tuag at y Thessaloniaid, trwy anfon Timotheus atynt hwy, i'w cadarnhau, ac i'w dyddanu: trwy lawenychu yn eu gweithredoedd da hwy; 10 a thrwy weddio drostynt, a dymuno cael dyfod yn ddiopel atynt.*

A M hyny, gan na allem ymattal yn hwy, ni a welsom yn B. A. 52.

gystal ag am blant wedi eu hamddifadu o'u rhieni; ac yn wir, am unrhyw ysgariad, ynghyd â'r teimlad o unigedd ac anghysur sydd yn gynnwysedig yn hyny. "Fel rhieni," meddai Bengel, "pan y mae eu plant yn absennol." Pa un bynag a oedd y gymmhariaeth o rieni a phlant yn meddwl yr apostol, ai peidio, y mae teimlad o'r un natur i'r un a ddarlunid yn yr adnodau blaenorol yn cael ei ddynodi trwy gymmhariaeth y fam (*adn.* 7, 8), a'r tad (*adn.* 11). *Dros ennyd awr:*—dros ysbaid awr. Ymadrodd yn dangos byrder yr amser; nid, fel y tybia De Wette ac ereill, dros ba un yr oedd ysgariad i barhau, fel pe buasai yn rhagweled y cyflawnid yn fuan y dymuniad a ddadgenir ganddo yn *pen.* iii. 10, ar gael gweled eu hwyneb; nac, fel y golyga Olshausen, o blegid gan fod teyrnas Dduw yn agos y byddent yn rhwym o gydgyfarfod yno mewn amser byr: ond defnyddir y geiriau yn hytrach i ddynodi byrder yr amser oedd yn cyfryngu rhwng ei ysgariad oddi wrthynt, a'i deimlad o hiraeth i ddychwelyd atynt. 'Nid oeddym,' fel pe dywedasai, 'ond prin wedi ymadael oddi wrthych, a hyny yn allanol, ac nid yn dufewnol, nad oeddym drachefn yn hiraethus yn gryf eich gweled.'—*Auberlen, Ellicott, Jowett. Yn ngolwg, nid yn nghalon.*—Wedi ymadael "o ran wyneb," ond nid o "ran calon." *A fuom fwy astud:*—oeddym yn fwy helaeth yn ein sêl. Mwy na pha beth? Tybia Olshausen fod y ganolradd (*comparative degree*) yn cael ei ddefnyddio yma fel ffurf gryfach o'r radd gadarnhaol, heb fod unrhyw gymmhariaeth yn cael ei dynodi; a'i fod yr un ystyr a phe dywedasai "mwy helaeth neu lawn nag arferol." Ond dywed Winer [*Gram. New Test.*, adran 35, t.d. 157], nad ydyw y gair hwn, er ei fod yn fynych yn cael ei ddefnyddio yn y ganolradd gan Paul, byth yn digwydd felly heb fod y drychfeddwl o gymmhariaeth yn gysylltiedig âg ef. Tybia ereill [Jowett, Alford, Lüneman], fod "mwy" yn cyfeirio at "ennyd awr," yn gymmaint ag nad oedd yr absennoldeb oddi wrthynt ond byr—nad oedd yn bossibl iddo fod wedi eu hanghofio, ond fod eu hawyddfryd i'w gweled gymmaint a hyny yn "fwy." Ereill drachefn [De Wette, Auberlen, ac Ellicott] a olygant fod y gair yn cyfeirio at "yn nghalon:" o blegid nad oedd yr apostol wedi ei ysgaru oddi wrthynt o ran calon, er ei fod o ran presennoldeb corphorol (yn ngolwg)—ei fod o gymmaint a hyny yn fwy ymdrechgar i weled eu hwyneb. Eglurhâd Calvin, Winer, Wordsworth, &c., yw, fod "mwy" yn cyfeirio at yr "amddifadiad;" i ddangos fod cariad Paul tuag atynt, nid wedi lleihau drwy ei absennoldeb oddi wrthynt, ond ei fod yn hytrach drwy hyny yn fwy tanbaid. *I weled eich wyneb chwi*—Jowett: "Dymunem eich gweled 'wyneb yn wyneb,' gan mai yn y ffordd hono yn unig yr oeddym wedi ein gwahanu oddi wrthych."

18. *Am hyny:*—o blegid ein hiraeth am eich gweled. *Myfi Paul yn ddiau.* — Dymunai ei gydlafurwyr, yn gystal ag yntau, ddyfod atynt; ond y mae yn galw sylw neilltuol at ei ddymuniad ei hunan. *Unwaith a dwywaith hefyd:*—*h. y.*, nid unwaith yn unig, ond dwywaith. *Eithr Satan a'n lluddiodd ni.*—Y mae Paul yn priodoli yr ammhossiblrwydd iddo ymweled â'r Thessaloniaid i ddylanwad y diafol. Nis gellir penderfynu dim yn mha ddull yr oedd y diafol yn gweithredu i beri y rhwystr hwn: pa un ai, fel y tybia rhai, trwy elynion yr efengyl yn Thessalonica, y rhai a barent fod yn beryglus i Paul fyned yno i bregethu; neu trwy brofedigaethau mewn eglwysi ereill oedd yn gwneyd absennoldeb yr apostol oddi wrthynt yn ammhossibl; ai trwy ryw brofedigaeth oedd wedi cyfarfod yr apostol ei hunan: (cymh. *pen.* iii. 7); neu rywbeth cyffelyb i'r hyn y cyfeirir ato yn 2 *Cor.* xii. 7. Y cyfan sydd yn sicr ydyw, fod y dylanwad yn gyfryw ag na theimlai yr apostol un anhawsder i'w wahaniaethu a'i briodoli i weithrediad yr un drwg.

19. *Canys beth yw ein gobaith ni?*—Pa ryfedd os ydwyf yn ewyllysio gweled eich wyneb, canys chwi yw ein gobaith a'n llawenydd, &c., yn nyfodiad yr Arglwydd. Gan eu bod yn ffrwythau ei weinidogaeth, disgwyliai allu eu cyflwyno i'w Arglwydd yn ei ddyfodiad. Fel y mae yn y geiriau "coron gorfoledd" gyfeiriad at y goron â pha un y gwisgid yr ymgeisydd llwyddiannus yn yr ymdrechfeydd, felly byddai y Thessaloniaid yn goron yn yr hon y gobeithiai yr apostol y gallai yn gyfreithlawn orfoleddu yn nydd yr Arglwydd. *Ger bron ein Harglwydd Iesu Grist yn ei ddyfodiad ef.*—"Meddylir am danynt fel am bawb dynion megys ger bron yr Arglwydd, yn ngwyneb Crist: a thra yn meddwl am Grist, edrychir yn mlaen at ei ymddangosiad fel yn bresennol eisoes."—*Jowett.*

20. *Canys chwychwi yw ein gogoniant*, &c.—Iê, mewn gwirionedd, meddai eilwaith gyda difrifwch, "canys chwychwi yw," &c. "Yn y dydd diweddaf," meddai Calvin, "bydd gweision Crist yn derbyn gogoniant a goruchafiaeth, yn ol fel y byddant wedi lledaenu ei deyrnas. Am hyny nid ydynt yn awr yn llawenychu ac yn gorfoleddu mewn dim ond yn ffrwyth bendigedig eu llafur, mewn canfod gogoniant Crist yn cael ei ddyrchafu trwy eu gwasanaeth."

Pennod III.

1. *Am hyny, gan na allem ymattal yn hwy.*—Gan fod Paul wedi methu myned ei hun i Thessalonica, a chan nas gallai ymgynnal yn hwy o dan y pryder dwfn a deimlai yn eu cylch, a'r

dda ein gadael ni ein hunain yn Athen;

2 Ac a ddanfonasom Timotheus, ein brawd, a gweinidog Duw, a'n cydweithiwr yn efengyl Crist,

[a] Ada. 13; Act. 14. 22, 23; 16. 5.

[a] i'ch cadarnhau chwi, ac i'ch dyddanu ynghylch eich ffydd;

[b] Salm 112. 6; Act. 20. 24; Rhuf. 5. 3.

3 Fel na [b] chynnhyrfid neb yn y gorthrymderau hyn: canys chwychwi eich hunain a wyddoch mai i hyn y'n gosodwyd ni.

[c] Ioan 16. 1—3.

4 Canys yn wir pan oeddym gyda chwi, [c] ni a ragddywedasom

[d] Mat. 4. 3 1 Cor. 7. 5 2 Cor. 11. 3, 13—15.

[d] rhag darfod i'r temtiwr eich temtio chwi, [e] a myned ein llafur ni yn ofer.

[e] Esa. 49. 4; Gal. 2. 2; 4. 11; Phil. 2. 16 [f] 1 Cor. 13. 13; Col. 1. 4.

6 Eithr yr awrhon, wedi dyfod Timotheus atom oddi wrthych, a dywedyd i ni newyddion da am eich [f] ffydd chwi a'ch cariad, a bod genych goffa da am danom ni

"awydd mawr" oedd ynddo am wybod ei hanes, efe a anfonodd Timotheus yno o Athen i'w calonogi a'u cadarnhau yn y ffydd. Yr oedd yr apostol y pryd hwn yn bryderus iawn rhag i'r Thessaloniaid gael eu symmud oddi wrth ffydd yr efengyl trwy resymau twyllodrus y gau-athrawon. *Ni a welsom yn dda ein gadael ni ein hunain yn Athen.*—Yr oedd dymuniad Paul a Silfanus mor gryf am lwyddiant y Thessaloniaid fel y daethant i'r penderfyniad o lafurio eu hunain yn Athen, heb gymmhorth gwerthfawr Timotheus, er mor anhawdd oedd iddynt fod hebddo. Mewn trefn i wneyd daioni iddynt hwy, yr oeddynt yn dewis ymwadu â hwy eu hunain. *Athen.*—Prifddinas gwlad Groeg, a phrif eisteddle dysgeidiaeth a gwareiddiad Groegaidd yn ystod y tymmor pan oedd Groeg yn ei gogoniant uchaf. Ymwelodd Paul â hi yn ei daith o Macedonia, ac ymddengys ei fod wedi aros yno am beth amser; *Act.* xvii. 14. 15, &c.

2. *Ein brawd, a gweinidog Duw, a'n cydweithiwr yn efengyl Crist.*—Amcan yr apostol yn rhoddi y disgrifiad hwn o hono ydyw dangos iddynt fawredd ei ofal am eu llwyddiant; canys pe buasai yn anfon rhyw ddyn cyffredin atynt, nis gallasai roddi fawr o help iddynt; a chan y gallasai Paul wneyd hyny heb achosi un anghyfleusdra iddo ei hun, ni buasai yn rhoddi un prawf neilluol o'i ofal tadol am danynt. Ar y llaw arall, hunanymwadiad mawr ynddo oedd amddifadu ei hun o help brawd a chydweithiwr mor ragorol a Thimotheus, am yr hwn y mae efe ei hun yn tystio, yn *Phil.* ii. 20, nad oedd ganddo un cydlafurwr yn gofalu mor ffyddlawn a diragrith ag ef am lwyddiant y dychweledigion. *I'ch cadarnhau chwi, ac i'ch dyddanu.*—Y mae y gair "cadarnhau" yma yn cynnwys eu hannog i fod yn amyneddgar o dan yr erledigaethau a ddioddefid ganddynt, ac i lynu yn sefydlog wrth eu crefydd, er gwaethaf pob gwrthwynebiad a ddangosid iddynt, fel y dengys yr adnod nesaf: a'r gair "dyddanu" yn cynnwys rhoddi pob help a chyfarwyddyd iddynt i gynnyddu mewn gras. Ceir y ddwy frawddeg ochr yn ochr hefyd yn 2 *Thes.* ii. 17, ond bod y flaenaf wedi ei rhoddi yn olaf.

3. *Fel na chynnhyrfid neb yn y gorthrymderau hyn.*—Nis gallesid llai na disgwyl y byddai i eglwysi ieuainge heb etto eu hollol gadarnhau yn y ffydd, fel yr oedd yr eglwys yn Thessalonica, gael eu siglo gan yr erledigaethau llymion a ddioddefid ganddynt. Gan hyny, yr oedd Paul, yn ddiocd ar ol sylfaenu yr eglwys yno, wedi rhagbysbysu iddynt fod blinderau yn eu haros. Yr oedd yn rhaid i'r Eglwys Gristionogol gael ei herlid, o herwydd fod goleuni a thywyllwch, yr *i chwi* y gorthrymid ni: megys y bu, ac y gwyddoch chwi.

5 O herwydd hyn, minnau, heb allu ymattal yn hwy, a ddanfonais i *gael* gwybod eich ffydd chwi;

ysbryd a'r cnawd, o angenrheidrwydd yn groes i'w gilydd. Y mae y gair gwreiddiol *sainesthai*, a gyfieithir yma "cynnhyrfu," yn arwyddo symmud neu ysgwyd; ac felly y mae yn dynodi mai un o ddybenion Paul yn anfon Timotheus atynt oedd eu hattal rhag cael eu symmud oddi wrth ffydd yr efengyl. Dywed Eustathius, ei fod yn briodol yn cael ei gymmhwyso at gŵn pan yn ymloni trwy ysgwyd eu cynffonau, ac yn gyffelybiaethol at ddynion twyllodrus a pharod i wenleithio; ac y mae yn amlwg mai hyn ydyw y meddwl yma. "Canys mewn trallodion," medd Bengel, "y mae cyfeillion a gelynion, a'r galon ei hun, yn fynych, yn cymmysgu eu gweniaith; ac wedi i'r rhai hyn gael eu gorchfygu, gellir dyweyd fod Cristionogion wedi eu cadarnhau." *Canys chwychwi eich hunain a wyddoch mai i hyn y'n gosodwyd ni.*—Dengys Paul yma na ddylent ddigaloni o herwydd eu bod yn cyfarfod âg erledigaeth, fel pe byddai yn rhywbeth newydd ac anarferol, o blegid hyn ydyw ordeiniad Duw; neu mewn geiriau creill, ar yr ammod yma yr oeddynt wedi derbyn Cristionogaeth. Modd bynag, dywed wrthynt eu bod yn gwybod hyn, am ei bod yn gweddu iddynt lynu yn gryfach wrth eu crefydd, yn gymmaint a'u bod wedi cael eu rhybuddio mewn pryd.

4. *Ni a ragddywedasom i chwi y gorthrymid ni.*—Yr oedd y trallodion aml a ddeuent i'w gyfarfod ef wedi gwneyd Paul yn ddirmygus yn ngolwg pobl anwybodus. O herwydd hyn dywed nad oedd dim wedi digwydd iddo ef ond yr hyn yr oedd efe o'r blaen wedi ei ragddwedyd wrthynt.

5. *Rhag darfod i'r temtiwr eich temtio chwi.*—Gan y gwyddai Paul fod y Cristionogion yn Thessalonica yn dioddef erledigaeth, teimlai awydd cryf i wybod hanes eu crefydd, rhag ofn fod Satan wedi eu temtio hwynt i wrthgilio, a thrwy hyny i'w lafur ef fyned yn ofer. Y mae yma yn eu dysgu hwynt fod temtasiynau bob amser i'w hofni, am mai gwaith pennodol Satan ydyw temtio. Gan ei fod yn cynllwyn yn ddibaid yn ein herbyn ar bob llaw, ac yn gosod maglau i ni yn mhob cyfeiriad, dylem fod yn barhaus ar ein gwyliadwriaeth. Nid ydyw erledigaeth ynddi ei hun yn demtasiwn: trwy allu Satan yn unig y mae yn dyfod yn demtasiwn —pan y llwydda efe i beri i erledigaeth fod yn achlysur i amlygu anghrediniaeth calon dyn. *A myned ein llafur ni yn ofer.*—Pe llwyddasai Satan i'w symmud oddi wrth ffydd yr efengyl, buasai ei lafur yn eu plith yn myned yn ofer; yr hyn a fuasai yn ofid nid bychan iddo.

6. *Yr awrhon.*—Dengys y gair hwn fod Paul wedi ysgrifenu atynt yn ddiocd ar ol dychweliad

yn wastadol, gan hiraethu am ein gweled ni, megys *yr ydym* ninnau *am* eich *gweled* chwithau;

7 Am hyny y cawsom gysur, frodyr, am danoch chwi, yn ein holl orthrymder a'n hangenoctyd, trwy eich ffydd chwi.

8 O blegid yr awrhon byw ydym [f]Ioan 8. 31; ni, [g]os ydych chwi yn sefyll yn Act. 11. 23; 1Cor. 15. 58. yr Arglwydd.

9 Canys pa ddiolch a allwn *ni* ei ad-dalu i Dduw am danoch chwi, am yr holl lawenydd â'r hwn yr ydym ni yn llawen o'ch achos chwi [h]ger bron ein Duw ni,

10 Gan weddïo mwy na mwy, nos a dydd, ar *gael* gweled eich wyneb chwi, a chyflawni diffygion eich ffydd chwi?

11 A [i]Duw ei hun a'n Tad ni, [k]a'n Harglwydd Iesu Grist, a gyfarwyddo ein ffordd ni atoch chwi.

12 [l]A'r Arglwydd a'ch lliosogo,

[h] Deut. 12. 12, 18; Salm 68. 3. [i] Adn. 13; Esa. 63. 16; Mat. 6. 4, 6, 8, 9; Luc 12. 30, 32. [k] Rhuf. 1. 7. [l] 1 Thes. 4. 10, Luc 17. 5; Iago 1. 17.

Timotheus; ac y mae y brys hwn hefyd yn brawf amlwg o fawredd ei serch tuag atynt, a'i ofal am danynt. *Ffydd a chariad.*—Y mae yr apostol yn ei epistolau yn fynych yn defnyddio y ddau air hyn mewn cyssylltiad â'u gilydd, o herwydd eu bod yn cynnwys holl hanfod gwir grefydd yn enaid dyn. *A bod genych goffa da am danom ni yn wastadol.*—Y mae yn ddiammheuol fod yr apostol yma yn cyfeirio at eu gwaith yn cofio gyda pharch am dano ef, fel dysgawdwr wedi dyfod oddi wrth Dduw; a chyda diolchgarwch, fel un oedd wedi rhoddi gwybodaeth iddynt am y gwir Dduw a threfn iachawdwriaeth. Y pethau hyn yw sylfeini goreu coffa parchus a diolchgar; canys fel y sylwa Dr. Chandler, y mae y personau a ddychwelwyd trwy lafur gweinidogion ffyddlawn Crist yn ddyledus iddynt hwy, fel offerynau, am achubiaeth eu heneidiau—yr hon sydd rwymedigaeth nad anghofir.

7. *Am danoch.*—"Ynoch," ydyw y cyfeithiad cywir o'r geiriau gwreiddiol a ddefnyddir yma. *Gorthrymder.*—Erledigaeth. *Angenoctyd.*—Mae y gair gwreiddiol, *anagci*, yn arwyddo angen neu wasgiad o unrhyw fath, ond yn enwedig yr un a achlysurir gan dlodi. Dioddefid yr angen hon gan yr apostol yn awr yn Athen, fel mewn lleoedd ereill, yn neillduol yn Thessalonica, lle y gweithiodd â'i ddwylaw i'w gynnal ei hun a'i gynnorthwywyr: *Act.* xx. 34. *Trwy eich ffydd chwi.*—Trwy y newyddion da a dderbyniasai am eu llwyddiant crefyddol.

8. *Yr awrhon byw ydym ni.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn rhagdybied nad oedd yr apostol yn fyw o'r blaen. Y mae yn amlwg oddi wrth yr ymadrodd "yr ydwyf beunydd yn marw," a ddefnyddir yn 1 *Cor.* xv. 30, ei fod yn ystyried y trallodion a'r peryglon oeddynt yn dyfod yn ddibaid i'w gyfarfod ef fel marwolaeth feunyddiol, i'r hon yr aeth llawenydd o herwydd sefydlogrwydd y Thessaloniaid yn ffydd yr efengyl i mewn fel elfen newydd o fywyd. Gan hyny, ni ddylid cymmysgu y meddyldrych o fywyd yma â'r meddyldrych mwy cyffredinol o lawenydd. Yn y gwreiddiol, *edn stécéte*—y mae y dyfodol yn gystal a'r presennol yn cael ei awgrymu: "Os ydych yn sefyll, ac os parhewch i sefyll."

9. *Canys pa ddiolch a allwn ni ei ad-dalu i Dduw,* &c.:—*h.y.* Nid oes un diolchgarwch y gallwn ni ei roddi yn ddigon o ad-daliad am yr holl lawenydd mawr a fwynhasom trwy glywed am eich ymlyniad diysgog wrth Gristionogaeth yn nghanol yr holl erledigaethau llymion a ddioddefir genych. *Am danoch.*—Trosoch chwi. *Ger bron ein Duw ni.*—Arwydda hyn mai nid llawenydd cnawdol a bydol ydoedd: ond llawenydd ysbrydol, sanctaidd a chymmeradwy ger bron Duw

10. *Gan weddïo mwy na mwy.*—Po mwyaf oedd y llawenydd a fwynhäai Paul, cryfaf ydoedd ei ddymuniad am eu gweled: yn cynnyddu, ac yn ymberffeithio mewn crefydd. *Nos a dydd.*—Arwydda hyn ei fod yn gweddïo drostynt yn ddibaid, neu yn cymmysgu hyn â'i holl weddïau. *Cael gweled eich wyneb chwi.*—Cael dyfod atoch. *A chyflawni diffygion eich ffydd chwi.*—Y mae y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma "cyflawni," weithiau yn arwyddo ail osod cymmal yn ei le; ac wedi ei osod, ei rwymo, a'i gadarnhau. Weithiau, y mae hefyd yn arwyddo gwneuthur peth yn berffaith (*Heb.* xiii. 21); ac ymddengys mai yn yr ystyr olaf y defnyddir ef yn yr adnod hon. Canys yr oedd yr apostol yn ewyllysio cyfranu gwybodaeth helaethach a manylach i'r Thessaloniaid ynghylch athrawiaethau mawrion yr efengyl, mewn trefn i'w cadarnhau yn eu hymlyniad wrth eu proffes o honi.

11. *A'n Harglwydd Iesu Grist.*—Yn yr adnod hon, a'r un ganlynol, cyferchir Crist mewn gweddi; o herwydd, er fod pob bendith yn dyfod oddi wrth Dduw, fel y ffynnon wreiddiol, trosglwyddir hwynt i ni trwy Grist, i'r hwn y mae y Tad wedi rhoddi y gallu iddo fel cyfryngwr—y Duw-ddyn—i gyfranu pob bendith ysbrydol a naturiol. Gan fod addoliad dwyfol yn orchymynedig, ac yn cael ei roddi i'r Arglwydd Iesu, y mae yn brawf diammheuol o ddwyfoldeb ei berson: *Mat.* ii. 2, 8; viii. 2; ix. 8; *Marc* v. 6; *Luc* iv. 7; xxiv. 52; *Ioan* v. 23; ix. 38, a *Heb.* i. 6. *A gyfarwyddo ein ffordd ni atoch chwi.*—Y mae y weddi hon wedi ei sylfaenu ar y dybiaeth fod y digwyddiadau cyffredin, ar y rhai yr oedd taith llwyddiannus yr apostol at y Thessaloniaid yn dibynu, o dan lywodraeth Crist fel Arglwydd. Bernir fod y weddi hon o eiddo yr apostol wedi cael ei gwrando; canys dywedir, yn *Act.* xx. 2, ei fod wedi cynghori y brodyr yn Macedonia "â llawer o ymadrodd;" a chredir na ddarfu iddo basio heibio y Thessaloniaid, y rhai yr oedd efe mor awyddus am eu gweled.

12. *A'r Arglwydd a'ch lliosogo,* &c.—Dymuniad gwresog a serchog ydyw yr adnod hon ar fod i'r Thessaloniaid, yn ystod ei absennoldeb ef, gael yn y cyfamser eu cadarnhau mewn sancteiddrwydd, a'u llenwi â chariad brawdol at eu gilydd, ac â chariad o ewyllys da at holl ddynolryw. *Megys ag yr ydym ninnau i chwi.*—Yr oedd yr apostol yn caru y Thessaloniaid fel y mae tad yn caru ei blant, ac fel mam y baban wrth ei bron: *pen.* ii. 7. Yr oedd y cariad mawr hwn atynt yn ei wneuthur yn bryderus ynghylch eu llwyddiant ysbrydol—mor bryderus fel yr oedd yn foddlawn i gymmeryd ei erlid, ac i ddioddef tlodi ac erledigaeth (*pen.* iii. 7); ïe, i aberthu ei fywyd (*pen.* ii. 8), os byddai hyny yn

ac a'ch chwanego yn mhob cariad i'ch gilydd, ac i bawb, megys ag *yr ydym* ninnau i chwi:

13 I gadarnhau eich calonau chwi yn ddiargyhoedd mewn sancteiddrwydd ger bron Duw a'n [c] Tad, [m]yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist gyda'i holl saint.

[c] 1 Thes. 2. 19; 4. 15; 2 Thes. 2. 1.

PENNOD IV.

1 *Y mae efe yn eu hannog hwynt i fyned rhagddynt mewn pob math o ddluwlolleb:* 6 *i fyw yn sanctaidd, ac yn gyfiawn;* 9 *i garu eu gilydd;* 11 *a thrwy lonyddwch, i wneuthur y pethau a berthyn iddynt eu hunain;* 13 *ac yn ddiweddaf, i drist'au yn gymmedrol dros y meirw.* 15 *A clyda'r cynghor diweddaf hwn, y mae efe yn cysylltu dosbarth byr o'r adgyfodiad, ac o ail ddyfodiad Crist i'r farn.*

B. A. 52.

YN mhellach gan hyny, frodyr, yr ydym yn attolwg i chwi, ac yn deisyf yn yr Arglwydd Iesu, megys y derbyniasoch gen- [a] ym pa fodd y dylech rodio a [a] boddloni Duw, ar i chwi gynnyddu fwy-fwy.

2 Canys chwi a wyddoch [b] pa orchymynion a roddasom i chwi trwy yr Arglwydd Iesu.

3 Canys [c] hyn yw ewyllys Duw, *sef* eich [d] sancteiddiad chwi, ar ymgadw o honoch rhag godineb:

4 [e] Ar fedru o bob un o honoch

[a] Rhuf. 8. 8; Eph. 5. 17; Col. 1. 10.
[b] Mat. 28. 20; 1 Cor. 9. 21.
[c] Salm 40. 8; Rhuf. 12. 2; Eph. 5. 17; 6. 6.
[d] Ioan 17. 17—19; 1 Cor. 1. 30; 6. 11.
[e] Rhuf. 6. 19; 1 Cor. 6. 18—20.

lles ysbrydol iddynt. Mor debyg oedd yr apostol yn hyn i'r meistr a wasanaethid ganddo! Priodol iawn, gan hyny, y gallai gynnyg ei gariad ei hun atynt hwy fel cynllun o'r cariad a ddylai fod ganddynt hwy at eu gilydd, ac at bawb.

13. *I gadarnhau eich calonau chwi.*—Arferir y gair "calonau" yma i arwyddo y dyn oddi mewn—yn cynnwys holl gynneddfau yr enaid. *Yn ddiargyhoedd.*—Un "diargyhoedd" ydyw un nas gellir ei argyhoeddi neu ei gyhuddo o unrhyw fai: *Luc* i. 6; 1 *Tim.* iii. 2, a v. 7. *Mewn sancteiddrwydd.*—Effaith cynnydd mewn cariad ydyw cynnydd mewn "sancteiddrwydd." Nid yr hyn a ystyrir gan ddynion llygredig yn sancteiddrwydd, ond y sancteiddrwydd pur hwnw sydd yn gynnyrch gwaith yr Ysbryd Glân, ac a wna bechadur yn gymmhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. *Yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist gyda'r holl saint.*—Barna Bengel fod y gair gwreiddiol, *agión*, a gyfieithir yma "saint," yn cynnwys angylion sanctaidd a dynion sanctaidd: ond casgla Olshausen, oddi wrth chwanegiad y rhagenw meddiannol *ei*, mai y duwiolion yn unig a feddylir; a'i reswm dros hyny ydyw, nad ydyw yr angylion byth yn cael eu galw yn angylion Crist. Tueddir ni i dybied mai y syniad olaf ydyw y cywiraf; o blegid y mae yn amlwg mai dymuniad yr apostol oedd fod i'r Thessaloniaid gael eu gwneuthur yn gyfranogion o'r sancteiddrwydd pur hwnw a'i cymmhwysai i gael ymddangos gyda Christ mewn gogoniant yn ei ddyfodiad i farnu y byd yn y dydd diweddaf.

Pennod iv.

1. *Yn mhellach gan hyny, frodyr, yr ydym yn attolwg i chwi,* &c.—Wedi gweddïo yn niwedd y bennod o'r blaen ar fod i Dduw, trwy ei Ysbryd, lenwi y Thessaloniaid â chariad, y mae yr apostol yn awr yn troi atynt hwythau hefyd, ac yn galw arnynt i wneyd eu rhan yn y gwaith o sancteiddhâd: ac fe welir yma nad ydyw offeryniaeth ddynol yn cael ei ddiddymu gan offeryniaeth ddwyfol, ond yn hytrach ei chymmhell a'i chalonogi i weithio. Y mae yn dwyn ar gof iddynt ei fod ef, o'i ddyfodiad cyntaf i'w plith, wedi eu hannog hwynt i fyw yn sanctaidd, os oeddynt yn meddwl rhyngu bodd y gwir Dduw, yn yr hwn yr oeddynt wedi credu; a'i fod ef wedi cgluro iddynt natur y sancteiddrwydd hwnw sydd yn gymmeradwy ger bron Duw: ac y mae yn erfyn arnynt, nid yn unig i barhau i fyw felly, ond i gynnyddu fwyfwy.

Rhuf. 6. 21 —23. feddiannu [f] ei lestr ei hun mewn sancteiddrwydd a pharch;

[g] Luc 12 30. 1 Pedr 4.3. 5 Nid mewn gwŷn trachwant, [g] megys y Cenhedloedd y rhai nid adwaenant Dduw:

6 Na byddo *i neb* orthrymu na thwyllo ei frawd mewn dim: canys [h] dialydd *yw* yr Arglwydd ar y rhai hyn oll, megys y dywedasom i chwi o'r blaen, ac y tystiasom.

[i] Deut 32. 35: Eph. 5. 6.

Rhuf. 1. 7: 2 Thes. 2. 13, 14. 7 Canys [i] ni alwodd Duw nyni i aflendid, ond i sancteiddrwydd.

8 Am hyny y neb sydd yn dirmygu, [k] nid dyn y mae yn ei ddirmygu, ond Duw, yr hwn hefyd a roddes ei Ysbryd Glân ynom ni.

[k] Act. 13. 41 Judas 8.

9 Ond am frawdgarwch, [l] nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof atoch: [m] canys yr ydych chwi eich hunain wedi eich dysgu gan Dduw i garu eich gilydd.

[l] Act. 5. 3, 4; 1 Pedr 1. 12. [m] Esa. 54. 13.

10 O blegid yr ydych yn gwneuthur hyn i bawb o'r brodyr y rhai sydd trwy holl Macedonia: ond yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, gynnyddu o honoch fwy-fwy;

---

ammhur: ond yma y mae efe yn rhoddi disgrifiad cadarnhaol o hono fel darostyngiad chwantau y cnawd i ddeddf Duw. Ystyr y gair "llestr" yma ydyw corph; ac y mae yn cael ei osod allan yma, nid fel carchar yr enaid, ond fel ei offeryn sanctaidd; yr hwn, fel yr enaid ei hun, y dylid ei gadw yn bur a dihalog, mewn trefn i'w wneuthur yn deml i'r Ysbryd Glân. *Mewn sancteiddrwydd a pharch.*—Y mae athrawiaeth yr efengyl, fod ein cyrph yn aelodau i Grist, a'u bod i gael eu cyfodi y dydd diweddaf mewn gogoniant ac anrhydedd, yn gosod Cristionogion o dan y rhwymau cryfaf i beidio eu defnyddio ond yn unig at ddybenion sanctaidd. Ac os defnyddia rhywun ei gorph yn amgen, gan ei roddi i fyny i odineb, a'i ddarostwng i ewyllys putain, y mae yn dianrhydeddu ei gorph, ac yn ei anghymmhwyso i gael adgyfodiad gwynfydedig i fywyd tragwyddol; 1 *Cor.* vi. 13—20.

5. *Nid mewn gwŷn trachwant.*—Nid dan lywodraeth chwantau anllad a thrythyll. *Y Cenhedloedd.*—Yn *adn.* 12, gelwir y rhai hyn yn "rhai sydd oddi allan"—oddi allan i'r eglwys Gristionogol; ac yn *adn.* 13, yn "rhai nid oes ganddynt obaith:" *h. y.*, gobaith bywyd tragwyddol, tra y parhaent yn y cyflwr yr oeddynt ynddo y pryd hwnw. Yma, gelwir hwynt yn "rhai nid adwaenant Dduw:" *h. y.*, pobl annuwiol, heb feddu adnabyddiaeth ysbrydol o Dduw, ac yn byw yn dawel yn eu pechodau.

6. *Na byddo i neb orthrymu na thwyllo ei frawd mewn dim.*—Barna Bengel, nad ydyw Paul yma yn siarad am gybydd-dod; yr hwn, modd bynag, sydd yn cael ei gyssylltu â'r pechod o anniweirdeb yn *Eph.* v. 5, a *Col.* iii. 5; a'r hwn, o herwydd ei fod yn drosedd a gospid â marwolaeth, a elwir yn eilunaddoliaeth; ond am dwyll a dichellion godinebw yr *Heb.* xiii. 4); canys y mae yn amlwg oddi wrth yr adnodau blaenorol mai parhâd ydyw o'r un pwngc, a chadarnheir y syniad hefyd gan y ffaith fod yr adnod nesaf, yn yr hon nid ydyw yn crybwyll ond yn unig am "aflendid" a "sancteiddrwydd," wedi ei hysgrifenu gyda'r amcan o gefnogi a grymuso yr annogaeth a roddir yn yr adnod. Arall-eirir yr adnod ganMacknight fel y canlyn:—"Na bo i nebfyned dros derfynau diweirdeb; na thwyllo ei frawd yn y mater hwn, trwy ei halogi ef, neu ei berthynasau, pa un bynag ai gwryw ai benyw; o herwydd cospir pob gweithredoedd gwarthus o'r fath yn llym gan yr Arglwydd Iesu, fel y rhagddywedais i chwi o'r blaen, ac y tystiolaethais yn eglur wrthych, pan bregethais i chwi yn Thessalonica." Ond barna Origen, Grotius, a Rossenmüller, mai rhybudd yn erbyn cybydd-dod ydyw yr adnod, ac yn enwedig yn erbyn gorfaeliaeth mewn masnach. Ond tueddir ni i gredu mai y golygiad cyntaf yw y cywiraf.

7. *Canys ni alwodd Duw nyni i aflendid, ond i sancteiddrwydd.*—Arall-eirir yr adnod hon gan Olshausen fel hyn:—"Canys ni alwodd Duw nyni i aflendid, *h. y.*, fel y gwasanaethem aflendid ond fel y byddem yn ddiwair."

8. *Am hyny, y neb sydd yn dirmygu,* &c.—Yn ol Olshausen, meddwl yr adnod hon ydyw, fod pob un sydd yn dirmygu yr annogaeth hon i ddiweirdeb yn dirmygu Duw ei hun, am ei bod yn deilliaw oddi wrtho ef; nid yn unig am ei bod wedi ei rhoddi ganddo drwy offeryniaeth yr apostol, ond am ei fod hefyd yn rhoddi yr Ysbryd Glân i bob Cristion i'w nerthu i wrthwynebu pob pechod. Mae yr apostol yma yn hòni, yn yr iaith rymusaf, a chyda difrifwch mawr, ei fod yn ysgrifenu atynt o dan ddwyfol ysbrydoliaeth; ac o ganlyniad nas gallent ddirmygu y gorchymynion a roddid ganddo iddynt heb ddirmygu Duw.

9. *Ond am frawdgarwch.* — Gan ei fod o'r blaen wedi rhoddi canmoliaeth uchel i'w cariad, y mae efe yn awr yn siarad mewn ffordd o ragflaeniad, gan ddywedyd, "Nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof atoch;" a'r rheswm a roddir ganddo dros hyn ydyw—o herwydd eu bod hwy wedi eu dysgu gan Dduw. Wrth hyn y meddyliai fod cariad wedi ei gerfio ar eu calonau, fel nad oedd dim eisieu llythyrau wedi eu hysgrifenu ar bapur. Nid ei feddwl ef yma ydyw yn unig yr hyn a ddywed Ioan yn ei Epistol cyntaf, *pen.* ii. 27, "Nid oes arnoch eisieu dysgu o neb chwi, eithr fel y mae yr un eneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth;" ond eu bod eisoes yn enwog am eu brawdgarwch.

10. *O blegid yr ydych yn gwneuthur hyn i bawb o'r brodyr y rhai sydd trwy holl Macedonia.*—Y mae yr apostol yn dwyn y ffaith hon yn mlaen fel prawf o wirioneddd yr hyn a ddywedwyd ganddo yn y rhan olaf o'r adnod o'r blaen. Y mae yma yn ymresymu oddi wrth y mwyaf at y lleiaf; canys gan fod eu cariad yn ymledu trwy holl Macedonia, casgla oddiwrth hyny na ddylid ar un cyfrif ammheu eu brawdgarwch. *Ond yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, gynnyddu o honoch fwy-fwy.*—Er mor enwog oeddynt am eu brawdgarwch, nid oeddynt etto wedi cyrhaedd perffeithrwydd yndd o; ac am hyny y mae yr apostol yma yn eu hannog hwynt i "gynnyddu fwy-fwy mewn cariad at eu gilydd ac at bob dyn." Yr unig ffordd i beidio myned yn ol ydyw ymdrechu yn barhaus i fyned yn mlaen, "gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen."

11 A rhoddi o honoch eich b.yd ar fod yn llonydd, a gwneuthur eich gorchwylion eich hunain, a gweithio â'ch dwylaw eich hunain (megys y gorchymynasom i chwi),

12 Fel y rhodioch yn weddaidd tuag at y rhai sydd oddi allan, ac na byddo arnoch eisieu dim.

13 Ond ni ewyllysiwn, frodyr, i chwi fod heb wybod am y rhai a hunasant, na thristäoch, megys ereill y rhai nid oes ganddynt obaith.

14 Canys [n]os ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi; felly y rhai a [o]hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw hefyd gydag ef.

[n] 1 Cor. 15. 12—23.
[o] 1 Cor. 15. 18; Dad. 14. 13.

11. *A rhoddi o honoch eich bryd,* &c.—Ystyr y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma "rhoddi y bryd" ydyw "ymdrechu yn egniol i gael gafael ar beth;" ac felly y mae yn dangos fod yr apostol yn rhoddi y pwys mwyaf ar y llonyddwch yr annogai efe y Thessaloniaid i'w ddilyn. Cyn y gwelir priodoldeb y cynghor hwn, rhaid cofio fod llawer o gyffro crefyddol yn eu plith y pryd hwn mewn canlyniad i'w gwaith yn rhoddi derbyniad allanol i'r athrawiaeth am ail ddyfodiad Crist; yr hyn oedd yn peri i lawer o honynt esgeuluso eu galwedigaethau bydol arferol. Gan hyny, y meddwl ydyw, 'Byddwch yn dawel a digyffro, a pharhewch i ddilyn eich gorchwylion bydol arferol, a pheidiwch ag ymyryd â materion pobl ereill.' Y mae yr un cynghor yn cael ei roddi gyda mwy o rym yn 2 *Thes.* iii. 6, 7.

12. *Fel y rhodioch yn weddaidd:*—yn anrhydeddus, yn onest, yn deilwng o'r grefydd Gristionogol, ac heb roddi achos cyfiawn o dramgwydd i'r "rhai sydd oddi allan";—y rhai nid ydynt yn proffesu Cristionogaeth. Os ymroddent i segura, i esgeuluso eu galwedigaethau eu hunain, ac i ymyryd â materion pobl ereill, byddent drwy hyny yn rhoddi esampl ddrwg i'r dibroffes, ac yn peri iddynt edrych yn isel ar grefydd, ac yn eu pellhau oddi wrthi. *Ac na byddo arnoch eisieu dim:—h. y.*, fel na byddont o dan yr angenrheidrwydd, o herwydd eu segurdod, i bwyso ar neb arall am eu cynnaliaeth.

13. *Am y rhai a hunasant.*—Yr oedd yr athrawiaeth o ail ddyfodiad Crist wedi dyfod yn bwysig iawn yn mhlith y Thessaloniaid y pryd hwn. Dichon nad oeddynt hwy, fel Cenhedloedd, erioed o'r blaen wedi clywed sôn am dani; ac ymddengys fod ei newydd-deb, ac yn enwedig y camsyniadau a goleddid ganddynt hwy yn ei chylch, wedi creu cryn gyffro yn eu meddyliau. Nid oeddynt yn gwadu yr adgyfodiad, fel y tybia Koppe; ond gellir casglu oddi wrth yr adnodau dilynol eu bod, rywfodd, wedi myned i goleddu y syniad na chai neb ond y duwiolion a fyddent yn fyw ar y ddaear ar adeg ymddangosiad Crist fyned gydag ef i'w deyrnas; ac o ganlyniad, yr amddifedid yr holl rai a hunasant o'r gwynfyd hwnw. Cynnyrchodd y syniad hwn bryder nid bychan yn eu plith yn achos eu brodyr Cristionogol oeddynt newydd feirw; ac amcan yr apostol yma ydyw symmud ymaith yr achos o'r galar anghymmedrol trwy unioni eu syniadau ynghylch yr adgyfodiad. *Na thristaoch, megys ereill, y rhai nid oes ganddynt obaith.*—Nid ydyw yn gwahardd pob gradd o alar; ond yn unig galar anghymmedrol, fel galar y bobl hyny nad oeddynt yn credu athrawiaeth yr adgyfodiad, ond yn edrych ar farwolaeth fel diddymiad tragwyddol ar eu bodolaeth; neu ynte, fel galar ar ol meirw nad oes ganddynt obaith am fywyd tragwyddol. Arferai y paganiaid, ar farwolaeth eu perthynasau, wneuthur arddangosiad o alar gormodol ac afresymol, trwy eillio eu penau a thori eu cnawd (*Lef.* xix. 27, 23), a thrwy wylo a galarnadu yn uchel uwch ben y marw. Byddent hyd yn oed yn cyflogi personau, galwedigaeth pa rai oedd gwneyd y llefau a'r galarnadau hyn. Ond gan fod yr arddangosiad hwn o alar gormodol, yn gystal a'r galar ei hun, yn anghysson â'r wybodaeth hono am sefyllfa y meirw, ac â'r gobaith hwnw am eu hadgyfodiad y mae yr efengyl yn ei roddi i ddynolryw, gwaharddai yr apostol ef, a chysurai y Thessaloniaid, trwy raghysbysu a phrofi y dychwelai Crist i'r ddaear i adgyfodi y meirw, ac i gymmeryd y duwiolion gydag ef i'r nefoedd. Gwelir oddi wrth hyn nad ydyw Cristionogaeth yn gwahardd nac yn chwerwi, ond yn hytrach yn cymmedroli galar am y meirw. Yn ol arferiad cyffredin yr Ysgrythyr, y mae yn siarad am y meirw fel yn "huno"—gair ag sydd yn rhoddi gwedd dyner ar farwolaeth; canys y mae gwahaniaeth mawr rhwng cwsg a diddymdra. Modd bynag, y mae yn cyfeirio, nid at yr ensaid, ond at y corph; canys y mae y corph marw yn gorwedd yn y bedd, fel mewn gwely, hyd nes yr adgyfodir ef. Cyffelybir marwolaeth i gwsg, am ei fod yn rhyddhâd oddi wrth lafur a thrallodion bywyd, ac yn attalfa fer ar deimlad a gweithrediad y corph; ac o herwydd ei fod i gael ei ganlyn gan ddadebriad i fywyd corphorol mwy grymus a gweithgar nag yr ydym ni yn ei fwynhau yn bresennol. Y mae yr ymadrodd, "y rhai a hunasant," a ddefnyddir yn yr adnod hon, a'r ymadrodd "y rhai byw, y rhai a adewir," yn *adn.* 15, 17, yn rhai cyffredinol. Etto, y mae yn amlwg oddi wrth holl rediad yr adnodau mai y duwiolion yn unig a feddylir yn yr ymadroddion hyn. Am hyny, gelwir hwynt, yn *adn.* 14, yn "rhai a hunasant yn yr Iesu;" ac yn *adn.* 16, "y meirw yn Nghrist." Heb law hyny, am danynt hwy yn unig y gellir dyweyd, "y cipir hwynt i fyny yn y cymylau i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr;" ac "y byddant yn wastadol gyda'r Arglwydd;" *adn.* 17. Gellir sylwi yma mai y gair "marw" a gymmhwysir bron bob amser at Grist; ond y gair "huno" at gredinwyr: 1 *Cor.* xv. 3, 6, 18, 20, 51.

14. *Canys os ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi.*—Y mae yr apostol yma, mewn trefn i gysuro y Thessaloniaid, yn dadgan fod marwolaeth ac adgyfodiad Crist yn sicrhau yr adgyfodiad y rhai a hunasant; canys y maent hwythau, fel y rhai byw, yn eiddo ef. Wrth gwrs, nid oes un grym yn yr ymresymiad hwn, ond yn unig gyda golwg ar farwolaeth y saint. Nid oes gan yr hwn a fu farw heb gredu yn Nghrist un hawl na chymmhwysder i'r nefoedd; ond y saint yn unig sydd yn derbyn holl fendithion marwolaeth yn gystal ag adgyfodiad Crist. *Felly.*—Yn yr un modd—fel y cyfododd Iesu ei hun, felly yr ydym ni yn credu yr adgyfodir ninnau. *Y rhai a hunasant yn yr Iesu.*—Y rhai a fuont feirw mewn undeb â Christ, adgyfodir hwynt o feirw

15 Canys hyn yr ydym yn ei [p]1 Bren. 13. 1. ddywedyd wrthych [P]yn ngair yr Arglwydd, na bydd i ni y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunasant.

16 O blegid [q]yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, [q]Esa. 25. 8, 9; Act. 1. 11.

trwy rinwedd yr undeb hwnw. Er mai sicrhau y mae yr apostol yma yr adgyfodir y saint, nid ydyw hyn yn cynnwys na chyfodir yr annuwiolion hefyd. Nid ydyw yma yn cyffwrdd â dim ond yr hyn oedd yn atteb ei amcan presennol; canys nid ei amcan oedd dychrynu y drygionus, ond cysuro y saint. *A ddwg Duw hefyd gydag ef.*—Nid meddwl yr apostol yma ydyw, y dwg Duw y rhai a hunasant yn yr Iesu gydag ef o'r nefoedd i'r ddaear i gael eu barnu. Nis gellid dwyn ond eu heneidiau yn unig felly, hyd yn oed ar y dybiaeth eu bod wedi bod yn y nefoedd o amser eu marwolaeth hyd ddyfodiad Crist; ond siarad am bersonau y saint y mae—eu cyrph, yn gystal a'u heneidiau. Gan hyny, meddwl y frawddeg ydyw, y dwg Duw y duwiolion, nid o'r nefoedd, ond i'r nefoedd, gyda Christ. Hwyrach fod yr ymadrodd "dŵg Duw hefyd gydag ef" yn arwyddo hefyd, dwyn gydag ef allan o'r bedd i'r nefoedd. Canys dywedir fod y saint yn cael eu cyfodi gyda Christ; ettó, gan nad ydyw y gair gwreiddiol, a gyfeithir yma "dwg," neu arwain, yn cael ei gymmhwyso ond yn unig at bersonau byw, yr eglurhâd cyntaf ydyw y tebycaf i fod yn gywir.

15. *Canys hyn yr ydym yn ei ddywedyd wrthych yn ngair yr Arglwydd.*—Y mae yr apostol yn awr yn myned i roddi eglurhâd byr ar y dull y cyfodir y credinwyr o feirw. Gan ei fod yn siarad am beth nas gallasai neb wybod dim am dano ond trwy ddadguddiad dwyfol, y mae yn mlaenaf yn rhoddi ar ddeall iddynt mai nid dyweyd rhywbeth o'i feddwl ei hun y mae, neu rywbeth oedd yn deilliaw oddi wrth ddynion, ond fod yr hyn yr oedd efe ar ei ddyweyd wrthynt wedi ei ddadguddio iddo gan yr Arglwydd Iesu Grist ei hun. Barna Calvin fod "gair yr Arglwydd" yma yn arwyddo yr hyn a gymmerwyd o bregethau Crist; o blegid er fod Paul wedi dysgu holl ddirgelion teyrnas nefoedd trwy ddadguddiad, y mae yn ddiammheuol ei fod yn teimlo nas gallai wneyd dim yn well i gadarnhau y Thessaloniaid yn yr athrawiaeth am yr adgyfodiad, na defnyddio y geiriau a lefarwyd gan Grist ei hun ar y mater. Ond barna Olshausen mai meddwl yr ymadrodd ydyw, fod Paul yn llefaru wrthynt trwy ddadguddiad uniongyrchol, fel y mae yn hôni gyda golwg ar fater arall:—"Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi;" 1 *Cor.* xi. 23; a thueddir ni i dybied mai hwn ydyw y golygiad cywir. *Na bydd i ni y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd.*—Yma cyferbynir "ni y rhai byw" â'r "rhai a hunasant." Ar yr un pryd cynnwysa awgrymiad na bydd nifer y rhai byw ond bychan mewn cymmhariaeth i nifer y meirw; ac hefyd fod y "rhai a hunasant" mewn sefyllfa mor ddedwydd fel yr ewyllysia "y rhai byw" gael eu casglu atynt. Os yw yr ymadrodd hwn, a'r un sydd yn 1 *Cor.* xv. 51, "Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment," yn profi, fel yr haera rhai, fod Paul yn meddwl y byddai ef yn un o'r rhai byw ar adeg dyfodiad Crist i'r farn, rhaid fod yr un grym yn yr ymadrodd a geir yn 2 *Cor.* iv. 14, "Gan wybod y bydd i'r hwn a gyfododd yr Arglwydd Iesu, ein cyfodi ninnau hefyd trwy Iesu, a'n gosod ger bron gyda chwi," i brofi ei fod ef yn meddwl y byddai yn mhlith y meirw, y rhai a gyfodir gan Grist ar ei ddyfodiad. Ond y gwirionedd yw, ni ddylid deall y cyfryw ymadroddion a'r rhai hyn am yr ysgrifenwyr eu hunain. Nid ydynt ond yn unig yn ddull o ymadroddi a ddefnyddir gan yr awduron goreu, i dynu sylw eu darllenwyr, neu i liniaru rhyw syniad garw neu annymunol; ond heb fod un bwriad i roddi ar ddeall eu bod hwy eu hunain o nifer, neu o gymmeriad y personau gyda'r rhai y maent yn eu rhestru eu hunain. Fel hyn, y mae Paul, yn *Gal.* i. 23, mewn trefn i ddangos ei fod ef y mawr yn un o ddysgyblion Crist, yn cyfri ei nun yn mhlith y rhai yr oedd efe gynt we i eu herlid:—"Ond yn unig hwy a glywsant, fod yr hwn oedd gynt yn ein herlid ni, yr awrhon yn pregethu y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai." Y mae Dafydd (*Salm* lxvi. 6) yn siarad fel pe buasai ef hun yn un o'r rhai a aethant drwy y Môr Coch:—"Trodd efe y môr yn sychder: aethant trwy yr afon ar draed: yna y llawenychasom ynddo." Yr un modd y dywed Hosea (*pen.* xii. 4), wrth siarad am Iacob:—"Cafodd ef yn Bethel, ac yno yr ymddiddanodd â ni." Y mae y dull hwn o ymadroddi, yn ngenau dysgyblion Crist, yn meddu priodoldeb neilltuol. Gan nad ydynt oll ond un corph, pen yr hwn yw Crist, a'r hwn sydd yn cael ei uno gan gariad yr holl aelodau at eu gilydd, gall personau neilltuol ystyried pob peth a ddigwyddo i aelodau y corph hwn fel yn digwydd iddynt hwy eu hunain. *Rhagflaenu y rhai a hunasant.*—Y mae y gair gwreiddiol a gyfieithir yma "rhagflaenu," yn arwyddo myned o flaen un arall mewn rhedegfa neu daith. Amcan yr apostol yn dyweyd hyn ydoedd, eu hattal rhag tybied mai y rhai a fyddent byw ar y ddaear ar adeg dyfodiad yr Arglwydd yn unig a aent gydag ef i'w deyrnas; ac na chai y rhai a gymmerasid ymaith cyn hyny trwy farwolaeth gyfranogi o honi. Y mae yn sicrhau iddynt y caiff yr olaf fywnhau yr un manteision a'r cyntaf—y cymmerir y naill ddosbarth i'r nefoedd trwy adgyfodiad, a'r dosbarth arall trwy newidiad eu cyrph mewn dull disymmwth ac annirnadwy Beth fydd natur y newidiad hwn, nis gwyddom; ond gellir casglu y bydd yn gwneuthur cyrph y rhai byw yn hollol gyffelyb i gyrph y meirw a adgyfodir.

16. *Yr Arglwydd ei hun a ddisgyn.*—Nid yw yr ymadrodd hwn yn cynnwys fod yr Arglwydd Iesu i sefydlu ei frawdlys ar y ddaear; ond y bydd iddo ddisgyn fel ag i osod ei orsedd yn yr awyr, yn y fath bellder oddi wrth y ddaear fel y gwel pob llygad ef, ac y clyw pob clust ei lais, pan y bydd yn cyhoeddi y ddeddfryd ofnadwy, yr hon a benderfyna eu tynged am dragwyddoldeb. Cadarnheir y golygiad hwn gan *adn.* 17, lle y dywedir wrthym y "cipir y duwiolion i fyny yn y cymylau, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr." Y mae yr ymadrodd "yr Arglwydd ei hun" yn dynodi mai yr un person mawr a gogoneddus fydd y barnwr ag a welwyd yn rhodio y ddaear; ac y mae yn dra thebygol ei fod yn cyfeirio at y geiriau a lefarwyd gan y ddau angel wrth yr

[s]Iudas 9. [t]Exod. 19. 16; Zech. 9. 14 â llef yr [r]archangel, ac [s]âg udgorn Duw: [t]a'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf:

[t]1 Cor. 15. 23, 51, 52.

apostolion pan oedd Crist newydd esgyn i'r nefoedd:—"Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef;" *Act.* i. 11. Y bydd y disgyniad hwn o eiddo Crist yn weledig, ac yn cael ei flaenori gan arwydd Mab y dyn, a ddangosir yn eglur yn *Math.* xxiv. 30. *O'r nefoedd.*—Y lle a enwir fel preswylfod Crist ar ol ei esgyniad i'r nefoedd ydyw "deheulaw Duw;" yr hyn sydd yn arwyddo ei fod yn eistedd fel brenin ar orseddfaingc Duw. *Gyda bloedd.*—Y mae y gair hwn yn dynodi y floedd a wneir gan filwyr yn eu rhuthr cyntaf ar y gelyn, i galonogi eu gilydd yn yr ymosodiad; neu un a wneir gan rwyfwyr i sirioli eu gilydd yn eu llafur. Gan hyny, defnyddir ef gyda phrio.loldeb neilluol i osod allan y floedd uchel a wneir gan yr holl lu angylaidd, i amlygu eu llawenydd o herwydd dyfodiad Crist i gyfodi y meirw, ac i farnu y byd. *A llef yr archangel.*—Barna Calvin a Macknight mai yr archangel y llefarir am dano yma ydyw blaenor y llu aneirif hyny o angylion, y rhai ydynt i weini ar Grist yn ei ddyfodiad i farnu y byd. O flaen ymddangosiad cyntaf Crist ar y ddaear, anfonwyd Ioan Fedyddiwr i lefain, "Parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef." Yn y cyffelyb fodd, o flaen ei ail ymddangosiad fel barnwr, bydd yr archangel yn cyhoeddi ei ddyfodiad, ac yn gwysio y byw a'r meirw i ymddangos o flaen brawdle Crist. Ond tybia Olshausen, ac ereill, mai yr Arglwydd Iesu Grist a feddylir wrth yr archangel—ei fod yma yn ymddangos fel blaenor y llu nefol—ac mai ei orchymyn ef yw y floedd, ac o ganlyniad y rhaid hefyd mai ei lef ef fydd y llef. Ond yn erbyn y golygiad hwn fe ddygir y ffaith nad ydyw Crist byth yn cael ei alw yn archangel yn y Testament Newydd, a bod pob cyfatebiaeth yn ein harwain i gyssylltu âg ef yr ystyr syml a llythyrenol; sef, y prif angel; gan fod y rhagddod *arch* bob amser yn golygu y penaf o'r dosbarth a gyssylltir âg ef, megys archoffeiriad, archsynagogydd, &c. Nid ydym yn canfod un awdurdod ysgrythyrol dros dybied fod mwy nag un archangel. Nid ydyw y gair yn digwydd ond dwywaith yn yr holl Feibl, a hyny yn y Testament Newydd; sef, ynyr adnod hon ac *Iudas* 9; ac yn y naill a'r llall y mae yn y rhif unigol. Yn y lle olaf, gelwir Michael yn bennodol "yr archangel;" ac nid oes un o'r angylion ereill yn cael eu galw felly. Ystyr yr enw "Michael" ydyw, "Pwy fel Duw?" Ni buasai yr enw hwn yn briodol ar berson dwyfol, gan ei fod yn golygu isafiaeth; tra ar yr un pryd, ac am yr un rheswm, y mae yn enw tra chymmhwys, hyd yn oed ar y creadur mwyaf urddasol, i ddangos fod pellder anfeidrol rhwng y graddau eithaf o ogoniant crëedig a'r Duwdod. Yn *Iudas* 9, dywedir am Michael, "na feiddiodd ddwyn barn gablediad" ar ddiafol. Ni byddai y dull hwn o ymadroddi yn briodol i'w gymmhwyso at neb ond creadur: y mae yn wir y gellir cyfleithu "ni chymmerodd arno" yn "nid ewyllysiai;" ond wedi hyny ymddengys i ni fod yr un meddwl yn cael ei gynnwys:—"Nid oedd neb yn ewyllysio cymmeryd arno ei hun y gorchwyl o ddwyn yn ei erbyn farn, a'i gyhuddo ger bron Duw am ei

17 Yna [u]ninnau y rhai byw, y [u]1Cor.15.22. rhai a adawyd, [x]a gipir i fyny [x]Dad.11.12. gyda hwynt, yn y cymylau, i gyfarfod â'r Arglwydd, yn yr

gabledd (neu o ddwyn yn ei erbyn farn, gan ei gablu); ond y mae yn rhoddi yr achos yn gwbl yn llaw yr Arglwydd—"Cerydded yr Arglwydd dydi." *Ac âg udgorn Duw.*—Crybwyllir am yr amgylchiad hwn hefyd yn 1 *Cor.* xv. 52. Gwel y sylw yno. Yn ol priod-ddull yr Hebraeg, y mae "udgorn Duw" yn arwyddo udgorn mawr. Gan yr arferid rhoddi pob arwydd mewn rhyfel trwy chwythu udgorn, defnyddir llef yr udgorn yma i ddynodi y gweithrediad grymus a dreiddia trwy y greadigaeth ar ddyfodiad Crist i'r farn, a thrwy yr hwn y cyfodir y meirw, ac y newidir y rhai byw: dilynir y gweithrediad hwn, y mae yn ddiammheu, gan ddigwyddiadau naturiol allanol, megys tymmhestloedd arswydus, daeargrynfäau ofnadwy, a phethau ereill cyffelyb; ond dylid ei ystyried yn benaf fel gweithrediad o natur ysbrydol. O barth i'r moddion neu y cyfrwng trwy ba un y cyfodir y meirw, nid ydyw yr ysgrythyrau wedi ymostwng i foddio cywreinrwydd dyn. Dywedir yn *Ioan* v. 28, mai trwy ei leferydd ef y cyfodir hwy: yn 1 *Cor.* xv. 51, 52, mai wrth ganiad yr udgorn ac yma, mai gyda bloedd a llef yr archangel, ac âg udgorn Duw. Ond diau fod yr ymadroddion hyn, mewn rhan o leiaf, yn ffugrol, wedi eu cymmeryd oddi wrth arferion yr oesoedd gynt; ac nad yw y disgrifiadau cynbyrfus hyn i'w deall yn hollol lythyrenol. Y prif feddyldrych yma yw—y daw Crist mewn mawredd, rhwysg, a gogoniant, i godi y meirw oll o'u beddau, drwy nerth ei allu ei hun: *Philiii.* 21. *A'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf:*—*h. y.*, hwy a gyfodant cyn i'r rhai fydd yn fyw gael eu cipio i fyny i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr. Dyfynwyd y frawddeg hon o *Ioan* v. 39, gan rai er profi y cyfyd y saint y dydd diweddaf o flaen yr annuwiolion. Dichon y gwnant; ond nid oes yma sail i'r dybiaeth hon. Amcan yr olaf ydyw profi adgyfodiad cyffredinol—y drwg a'r da; dyben y flaenaf ydyw dangos na bydd i'r saint byw gael eu cyfnewid cyn cyfodi y rhai meirw. Nid ydyw fod y da yn cael eu henwi o flaen y drwg yn un prawf o hyn; neu y mae *Math.* xxv. 46 yn profi y dechreua cosp y rhai anghyflawn o flaen gwobr y cyflawn.

17. *Yna ninnau y rhai byw, y rhai a adawyd, a gipir i fyny gyda hwynt.*—Yn 1 *Cor.* xv. 51, 52, rhoddir ar ddeall y cyfodir y meirw yn Nghrist, ac y newidir y rhai byw ar yr un amser; ac yma y mae yn hysbysu y bydd i'r rhai byw (wedi i'w cyrph gael eu newid i fod o'r un ansawdd ysbrydol a chyrph y meirw yn Nghrist a gyfodir) gael eu cydgipio i fyny, gyda'r saint a gyfodir, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr; ac felly ni chaiff un dosbarth fwynhau dim mwy o fanteision na'r dosbarth arall. O ganlyniad, nid oedd un achos i'r Thessaloniaid deimlo un gradd o bryder ynghylch eu perthynasau a'u cyfeillion oeddynt wedi huno yn yr Iesu. Cipir y duwiolion i fyny i'r awyr, nid yn unig i'w gwahanu oddi wrth yr annuwiolion, y rhai a adewir ar y ddaear tra y byddant yn cael eu barnu, ond hefyd i fod yn gydfarnwyr â Christ, ac i fod mewn sefyllfa fanteisiol i weled yr annuwiolion, yn gystal ag i gael eu gweled gan yr annuwiolion. *Yn y cymylau.*—Dywedir mai mewn cwmwl yr esgynodd y Cyfryngwr i'r nefoedd, ac mai

[f] Salm 16. 11; Ess. 60. 19, 20; Ioan 17. 24; 2 Cor. 5. 8; Dad. 7. 14 —17.

awyr: [g] ac felly y byddwn yn wastadol gyda'r Arglwydd.

18 Am hyny dyddenwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn.

PENNOD V.

1 *Y mae efe yn myned rhagddo, ac yn dangos, fel o'r blaen, ddull dyfodiad Crist i'r farn:* 13 *ac yn rhoddi amryw orchymynion;* 23 *ac felly yn diweddu ei epistol.*

mewn cwmwl y daw efe etto o'r nefoedd i farnu y byd: *Act.* i. 9, 11. Y mae y gair "cymylau" yma yn dynodi y cymylau a ymddangosant fel yn cau y nefoedd, neu yr wybr, allan o'r golwg. *Yn yr awyr*:—yn yr eangder rhwng y nefoedd a'r ddaear; sef, lle yr awyr. Efe a esyd ei orseddfainge yno, i ddangos ei fod wedi ennill buddugoliaeth lwyr ar Satan, yr hwn a elwir yn "dywysog llywodraeth yr awyr." *Ac felly y byddwn*:—y rhai byw, a'r rhai a gyfodir o feirw. *Yn wastadol*:—am byth, heb un ysgariad yn oes oesoedd. *Gyda'r Arglwydd*:—yn y nefoedd gyda Christ, yn mwynhau ei gymdeithas, ac yn cyfranogi o'i ogoniant. Tybia Macknight fod yr apostol yma yn cyfeirio at addewid ein Harglwydd yn *Ioan* xiv. 2, 3:—"Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi: ac os myfi a af, ac a barotoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun: fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd." Gwel hefyd *Ioan* xvii. 24.

18. *Dyddenwch eich gilydd*:—yn eich galar ar ol eich cyfeillion a'ch perthynasau a hunasant yn yr Iesu. *A'r ymadroddion hyn*:—yr athrawiaeth yr oedd yr apostol newydd ei hysbysu iddynt yn mherthynas i ddyfodiad Crist i'r farn, adgyfodiad y meirw, a phreswyliad tragwyddol y saint gyda Christ yn y nefoedd. Er mwyn eu cysuro hwy, yr oedd efe wedi ei hysbysu iddynt; ac yma, y mae yn eu hannog i wneyd defnydd felly o honi. Nid ydyw yr efengyl yn cynnwys dim o duedd i ddigaloni y saint; ond y mae pob athrawiaeth sydd ynddi wedi ei fwriadu i'w cysuro a'u calonogi i ymdrechu am "gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu."

Pennod V.

1. *Eithr am yr amserau a'r prydiau.*—Y mae y gair a gyfeithir "amserau," yn dynodi amser ammhennodol, a'r gair a gyfeithir "prydiau" yn dynodi rhanau neilldiol o amser, neu yr adegau cyfleus pan y dylid gwneuthur unrhyw beth; ac felly y maent yn perthyn i'w gilydd yn y fath fodd fel y gellir dyweyd nad ydyw yr olaf yn ddim ond defiiniad manylach o'r blaenaf fel amser cyfaddas i'r amgylchiadau. Wedi gwneyd sylwadau arbenig yn niwedd y bennod o'r blaen ar "ddyfodiad yr Arglwydd," ac adgyfodiad y meirw, y mae yr apostol yma yn dyfod at y cwestiwn cyffredinol gyda golwg ar yr amser y cymmerai y pethau hyn le. Tybia Olshausen mai yr achos iddo ei drafod yma ydyw, ddarfod i'r Thessaloniaid, yn eu sêl a'u hanesmwythder, anfon gofyniad iddo drwy Timotheus—Pa bryd yr oeddynt i ddisgwyl dyfodiad yr Arglwydd? Mewn attebiad iddo, y mae Paul yn rhoddi ar ddeall iddynt nas gallai neb sicrhau pa bryd y deuai; ac o ganlyniad, mai eu doethineb, yn gystal a'u dyledswydd, oedd bod yn barhaus ar eu gwyliadwriaeth, rhag iddo eu cael yn ammharod. *Nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof*

EITHR am yr amserau a'r prydiau, frodyr, nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof atoch. B. A. 52.

2 O blegid chwi a wyddoch eich hunain yn hysbys, [a] mai felly y daw dydd yr Arglwydd fel lleidr yn y nos. [a] Mat. 24. 42 —44. [b] Exod. 9, 10: Ios. 8. 20 —22; Salm 73. 18 —20; Ess. 30. 13; Act. 13. 41; 2 Thes. 1. 9.

3 Canys pan ddywedant, Tangnefedd a diogelwch; [b] yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar

atoch:—am y rheswm a nodir yn yr adnod nesaf: "O blegid chwi a wyddoch eich hunain yn hysbys," &c. "Nid oes eisieu dyweyd wrth y rhai sydd yn gwylio pa bryd y daw; canys y maent yn barod bob amser."—*Bengel.*

2. *O blegid chwi a wyddoch eich hunain yn hysbys.*—Y mae yr apostol yma yn cyfeirio at y ffaith ei fod ef wedi dysgu iddynt, pan y bu yn llafurio yn eu plith, nad oedd yn "perthyn iddynt wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun;" ac wedi adrodd iddynt orchymyn Crist i wylio—"Am hyny, byddwch chwithau barod; canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn;" *Mat.* xxiv. 44. *Dydd yr Arglwydd*:—dydd dyfodiad yr Arglwydd i farnu y byd. *Fel lleidr yn y nos.*—Y meddwl yma yw—nid y daw dydd yr Arglwydd yn y nos, ond y daw yn annisgwyliadwy, fel y mae lleidr yn dyfod yn y nos, pan y bydd pawb yn dawel a diofal, ac yn hollol ammharod i'w gyfarfod. Drwy y gyffelybiaeth hon yr arferai ein Harglwydd egluro dull annisgwyliadwy ei ddyfodiad: "Gwybyddwch hyn, pe gwybuasai gŵr y tŷ pa wyliadwriaeth y deuai y lleidr, efe a wyliasai, ac ni adawsai gloddio ei dŷ trwodd;" *Mat.* xxiv. 43. Defnyddir hi hefyd gan Pedr, yn 2 *Pedr* iii. 10.

3. *Canys pan ddywedant, Tangnefedd a diogelwch*:—*h.y.*, pan y byddant yn mwynhau eu hunain mewn tawelwch, gan dybied na byddant mewn un perygl; ond nis gall fod "tangnefedd a diogelwch" heb ŵyrnmod a heddwch â Duw. Tybir fod y geiriau, "O achos hudo o honynt fy mhobl, gan ddywedyd, Heddwch; ac nid oedd heddwch" (*Ezec.* xiii. 10), o flaen meddwl Paul pan oedd yn dyweyd yr ymadrodd hwn. *Yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar eu gwarthof.*—"Ar warthaf" y rhai a geir yn cysgu mewn cyflwr ac agwedd ddrwg; ac felly yn hollol ammharod i seifyll o flaen y Barnwr. *Megys gwewyr esgor.*—Mae yr apostol yma yn defnyddio ail gyffelybiaeth, i ddangos mai yn ddisymmwth y daw dydd yr Arglwydd:—fel y mae merch feichiog yn cael ei meddiannu yn hollol annisgwyliadwy gan boenau esgor, felly yn ddisymmwth y daw dydd yr Arglwydd ar warthaf dynolryw. Nis gellir meddwl am ddim mwy grymus i osod allan yr ing a'r dychrynfeydd a feddiannant yr annuwiolion, pan y gwelant eu hunain wedi eu goddiweddyd gan y farn, na'u cyffelybu i boenau esgor. Defnyddir y gyffelybiaeth hefyd yn fynych lawn yn yr Hen Destament, yn enwedig yn *Ier.* vi. 24; xiii. 21; xxii. 23; xlix. 24, a l. 43. *Ac ni ddiangant hwy ddim*:—rhag dinystr tragwyddol. Y mae yr apostol yma yn cymmeryd yr ochr fygythiol a chospawl o ddyfodiad Crist, mewn trefn i gynnhyrfu y Thessaloniaid i wylio rhag myned yn debyg i blant y byd hwn; agwedd eneidiau pa rai a osodir allan drwy y geiriau "tangnefedd a diogelwch."

eu gwarthaf, megys gwewyr esgor ar un a fo beichiog; ac ni ddiangant hwy ddim.

4 Ond chwychwi, frodyr, nid ydych mewn tywyllwch, fel y goddiweddo y dydd hwnw chwi megys lleidr.

5 Chwychwi oll, plant y goleuni ydych, a phlant y dydd: [a] Luc 16. 8; Ioan 12. 36. [b] Diar. 19. 15; Mat. 25. 5; Luc 22. 46. [c] nid ydym ni o'r nos, nac o'r tywyllwch.

6 Am hyny [d] na chysgwn, fel rhai ereill; eithr [c] gwyliwn, a byddwn sobr.

[d] Mat. 24. 42; Marc 13. 34, 35, 37; Luc 22. 46; Act. 20 31; 1 Cor. 16. 13. [e] Esa. 59. 17; Rhuf. 13. 12; Eph. 6. 11, 13—18. [f] Iob 19. 23—27; Salm 42. 5, 11; Rhuf. 11.

7 Canys y rhai a gysgant, y nos y cysgant; a'r rhai a feddwant, y nos y meddwant.

8 Eithr nyni, gan ein bod o'r dydd, byddwn sobr, wedi ymwisgo â [e] dwyfroneg ffydd a chariad, ac â [f] gobaith iachawdwriaeth yn lle helm.

9 Canys nid appwyntiodd Duw nyni i [h] gaffael

[g] 1 Thes. 5. 8. [h] Rhuf. 7, 30.

4—6. *Ond chwychwi, frodyr, nid ydych mewn tywyllwch.*—Y mae yr apostol yma yn cymmharu sefyllfa y Thessaloniaid â sefyllfa y bobl a ddisgrifiwyd ganddo yn yr adnod o'r blaen; y rhai oeddynt yn ddiofal, ar sail gauddiogelwch, am y parodrwydd hwnw sydd yn angenrheidiol er cael cyfarfod dedwydd â'r Barnwr yn nydd y farn: ac y mae yn awgrymu mai eu gau ddiogelwch oedd yr achos o'u dinystr, ac mai yr achos o'u gau ddiogelwch oedd eu tywyllwch yn nghylch "dyfodiad yr Arglwydd." Ond y mae yn dyweyd fod gan y Thessaloniaid (gan dybied y goreu am danynt) bob mantais i ymbarotoi erbyn "y dydd hwnw," nad oeddynt "mewn tywyllwch" yn ei gylch. A chan mai "plant y goleuni" oeddynt, y mae yn eu hannog i ymddwyn yn gysson â'u cymmeriad, trwy beidio "cysgu" mewn diofalwch, fel y paganiaid anwybodus; eithr "gwylio, a bod yn sobr," gan gyflawni eu dyledswyddau crefyddol gyda difrifwch, fel y byddent barod i gyfarfod y Barnwr. A ganlyn yw y sylw a wneir gan Calvin ar hyn: —"Eithr gwyliwn:" hyny yw, edrychwn at yr Arglwydd gyda meddwl ystyriol. "A byddwn sobr:" hyny yw, bwriwn ymaith ragofalon y byd, y rhai sydd yn ein llethu drwy eu pwysau, ac ymwrthodwn â chwantau llygredig, ac esgynwn o ran ein meddyliau i'r nefoedd mewn rhyddid a bywiogrwydd. Canys dyna ydyw sobrwydd ysbrydol—defnyddio y byd hwn mor gynnil a chymmedrol fel na ddyrysir ni gan ei hudoliaethau."

7. *Canys y rhai a gysgant, y nos y cysgant.*—Dywed Bengel, fod y gair a gyfieithir "cysgant" yn y rhan gyntaf o'r frawddeg hon, yn arwyddo y weithred o gysgu; a'r gair a gyfieithir "cysgant," yn y rhan olaf o honi, yn arwyddo y sefyllfa neu yr arferiad o gysgu; neu, mewn geiriau ereill, dynoda un y gallu dechreuol, "syrthio i gwsg," a'r llall barhâd gweithrediad y gallu hwnw. Felly y meddwl yw, fod y rhai a ddechreuant gysgu mewn diofalwch yn debyg o barhau yn yr agwedd hono; ac o ganlyniad, y byddant mewn sefyllfa hollol anghymmhwys i ymladd y frwydr ysbrydol y cyfeirir ati yn yr adnod nesaf. *A'r rhai a feddwant, y nos y meddwant.*—Defnyddir y ddau air a gyfieithir "meddwant" yn hollol yn yr un dull a'r geiriau a gyfieithir "cysgant," yn y frawddeg gyntaf; ac amcan y naill a'r llall ydyw rhoddi rheswm dros yr annogaeth sydd yn yr adnod o'r blaen, trwy ddangos yr anghyssondeb i "blant y goleuni" gyflawni "gweithredoedd y tywyllwch." Fel mai yn y nos naturiol yn gyffredin y cysgir ac y meddwir, felly yn y nos mewn ystyr ysbrydol y teimlir diofalwch ynghylch crefydd: gwel *Rhuf.* xxii. 12, 13. Dywed Polybius fod meddwi yn y dydd yn cael ei gyfrif yn dra anweddus, hyd yn oed gan y paganiaid eu hunain.

8. *Wedi ymwisgo â dwyfroneg ffydd a chariad.*—Amcan yr apostol yn dywedyd hyn ydoedd cynnhyrfu y Thessaloniaid yn fwy effeithiol o'u diofalwch; canys y mae yn galw arnynt i ymarfogi, i ddangos mai nid amser ydoedd i gysgu. Y mae yn wir nad ydyw yn arfer y gair "rhyfel;" ond gan ei fod yn eu hannog i wisgo dwyfroneg a helm, y mae trwy hyny yn rhoddi ar ddeall fod yn rhaid iddynt ymladd. Gan hyny, rhaid i bawb sydd yn ofni i'r gelyn wneyd ymosodiad annisgwyliadwy arnynt, ymgadw yn effro, fel y gallont fod yn barhaus ar eu gwyliadwriaeth. Am hyny, megys y darfu iddo o'r blaen eu hannog hwynt i fod yn wyliadwrus, ar y sail fod athrawiaeth yr efengyl yn debyg i oleuni y dydd, felly y mae efe yn awr yn eu cymmhell i fod yn effro, trwy ddefnyddio rheswm arall—fod yn rhaid iddynt ymladd â'u gelynion ysbrydol. Oddi wrth hyn y mae yn canlyn fod diofalwch yn beth tra pheryglus: o blegid yr ydym yn gweled fod milwyr, er y dichon eu bod mewn sefyllfaoedd ereill yn anghymmedrol, er hyny, pan y bydd y gelyn yn agos, ymattaliant, oddi ar ofn dinystr, rhag glythineb, meddwdod, a phob pleserau cnawdol, a chadwant wyliadwriaeth fanwl ddydd a nos. Am hyny, gan fod Satan yn ein gwylio yn ddibaid, ac yn gwneuthur ymdrech egnïol drwy fil o wahanol ffyrdd, i'n dinystrio, oni ddylem ninnau o leiaf fod mor wyliadwrus a milwyr? Gan fod y fron yn bur agored mewn brwydr, a bod archollion yn y rhan hon yn dra pheryglus, yr hynafiaid a amddiffynent fronau eu milwyr yn ofalus âg arfogaeth a elwid yn "ddwyfroneg," i'r hon y mae yr apostol yma yn cymmharu y grasau Cristionogol o "ffydd a chariad." Meddwl yr apostol ydyw, nad oes dim mor effeithiol i amddiffyn ein serchiadau rhag dylanwad niweidiol gwrthddrychau daearol a chnawdol ag ydyw ffydd yn Nghrist, a chariad at Dduw a dyn. *Ac á gobaith iachawdwriaeth yn lle helm.*—Darn o arfogaeth filwraidd i amddiffyn y pen oedd yr helm. Y mae ergyd ar y pen yn dra pheryglus, ac yn aml yn farwol; am hyny, y mae angen arbenig am arfogaeth ddiffynol iddo. Yr oedd helmau yr hynafiaid yn gorchuddio yr holl ben a'r wyneb, ond yn unig y llygaid. Iachawdwriaeth dragwyddol, a'r gobaith o'i mwynhau, yw helm y saint; yr hon sydd yn eu hamddiffyn ac yn eu gwneuthur yn wrol yn y rhyfel. Gobaith sicr am fuddugoliaeth sydd yn llenwi y milwr â'r calondid a'r gwroldeb mwyaf yn erbyn ei elynion marwol: y mae yn ei gadw rhag ofnau a digalondid, ac yn ei wneuthur yn gryf mewn rhyfel i yru byddinoedd yr estroniaid i ffoi.

9. *Canys nid appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint, &c.*—Ymddengys fod Paul yma fel pe byddai yn glynu wrth "obaith iachawdwriaeth"

iachawdwriaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist,

[i] Mat. 20 28. 10 Yr hwn [i] a fu farw drosom; fel pa un bynag a wnelom ai gwylied ai cysgu, y byddom fyw gydag ef.

[k] Rhuf. 14. 19 11 O herwydd pa ham cynghorwch eich gilydd, [k] ac adeiledwch bob un eich gilydd, megys ag yr ydych yn gwneuthur.

12 Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, [l] ac yn [l] Act. 20 28. eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio; [m] Mat. 10. 40.

13 A gwneuthur [m] cyfrif mawr

mewn trefn i amlygu y meddylddrych nad ydyw Duw wedi appwyntio y ffyddloniaid i ddigofaint, ond i iachawdwriaeth; ac am hyny, ni ddwg dydd yr Arglwydd hwynt i afael dinystr, ond yn hytrach bydd yn ennill mawr iddynt. "Modd bynag, gellir egluro yr adnod mewn dull syml fel hyn—fod yn rhaid i ni ymwisgo â helm iachawdwriaeth, o blegid nid ydyw Duw yn ewyllysio ein damnio, ond yn hytrach ein hachub. A hyn, yn wir, yw meddwl Paul; ond yn fy marn i, y mae ganddo rywbeth pellach mewn golwg. Canys gan ein bod yn naturiol yn edrych ar ddydd y farn gyda dychryn, a chan ei fod yn bwriadu diweddu ei epistol gyda chrybwylliad am dano, dywed ein bod wedi ein happwyntio i iachawdwriaeth. Y mae y gair Groeg *peripoiésis*, yn arwyddo mwynhâd o beth yn gystal a'i fod wedi ei gael. Y mae yn ddiammheu nad ydyw Paul yn meddwl fod Duw wedi ein galw, fel y gwnelem iachawdwriaeth i ni ein hunain, ond fel y caffem hi, fel y mae wedi ei gwneuthur i ni gan Grist. Modd bynag, y mae Paul yn annog y credinwyr i ymladd yn ddewr, gan osod o'u blaen hwynt y sicrwydd cryfaf am fuddugoliaeth; canys y mae y dyn sydd yn ymladd yn ofnus ac yn betrusgar wedi ei hanner orchfygu. Gan hyny, amcanai yn y geiriau hyn symmud ymaith yr ofn sydd yn codi oddi ar anymddiried. Modd bynag, nid oes dim yn rhoddi sicrwydd cryfach am iachawdwriaeth nag arfaeth Duw."—*Calvin.* Y mae y gair "digofaint" a'r gair "iachawdwriaeth," yn cael eu cyferbynu â'u gilydd:—un yn dynodi cospedigaeth dragwyddol y damnedigion, a'r llall waredigaeth dragwyddol y saint oddi wrthi.

'Iachawdwriaeth o'r natur hono a feddylir," medd Bengel, "drwy yr hon y mae y rhai a achubir yn cael eu cymmeryd allan o blith y dorf sydd yn syrthio i'r trueni tragwyddol.'

10. *Yr hwn a fu farw drosom.*—Crybwyllir yma am farwolaeth iawnol Crist fel y moddion trwy ba un y mae iachawdwriaeth i'w chael yn ol appwyntiad Duw. "Yr oedd yr appwyntiad hwnw i iachawdwriaeth yn gynnwysedig yn marwolaeth Crist ei hun."—*Bengel.* Ymddengys y geiriau hyn ar yr olwg gyntaf yn lled ddyeithr, gan fod *adn.* 6 yn rhoddi ar ddeall nad ydyw y saint yn cysgu fel yr annuwiolion. Ond y mae yn amlwg fod y ddau ymadrodd yn cael eu defnyddio yma mewn ystyr hollol wahanol; sef, mewn gwrthgyferbyniad i'r "rhai byw" a'r "rhai a hunasant:" *pen.* iv. 13—15. Y mae Paul etto yn cyssylltu ei annogaeth â'i ymresymiad blaenorol, yn yr hwn yr oedd efe wedi dangos yn eglur nad oedd y "rhai a hunasant yn yr Iesu" yn colli dim o'u gwynfydedigrwydd; a chyda chyfeiriad at hyny dywed yma, y caiff y credinwyr fyw gyda Christ (iv. 17), "pa un bynag ai yn y corph, ai allan o'r corph," y byddant ar adeg ei ymddangosiad. Cymmharer *Rhuf.* xiv. 8. *Y byddom fyw gydag ef.*—Yn y nefoedd.

11. *O herwydd pa ham cynghorwch eich gilydd.*—Casgliad ydyw yr adnod hon oddi wrth y cyfan a fu o dan ei sylw. "O herwydd pa ham:" gan ein bod yn gweled fod y pethau hyn felly. Y mae y gair a gyfieithir yma "cynghorwch" yn cael ei gyfieithu "diddenwch" yn yr adnod olaf o'r bennod o'r blaen; a buasai yn fwy priodol ei gyfieithu felly yma; ac yna yr ystyr fuasai hyn—Gan eich bod wedi eich appwyntio i gael iachawdwriaeth drwy yr Arglwydd Iesu Grist, ac i fyw gydag ef am byth yn y nefoedd, cysurwch eich gilydd â'r gwirionedd hwn, a dysgwch a chadarnhewch eich gilydd ynddo. *Megys.ag yr ydych yn gwneuthur.*—Rhag iddynt dybied ei fod ef yn eu ceryddu am eu diofalwch, a chymmeryd hyny yn achos tramgwydd, dywed wrthynt ar yr un pryd eu bod hwy eisoes yn gwneyd yr hyn yr oedd efe yn eu hannog i'w wneuthur. Ond gan ein bod yn hwyrfrydig i wneyd yr hyn sydd dda, y mae hyd yn oed y rhai goreu yn sefyll mewn angen parhaus am eu cynnhyrfu i fod yn fwy diwyd a chysson yn y cyflawniad o'u dyledswyddau crefyddol.

12. *Ac yr ydym yn attolwg i chwi.*—Barna Alford mai natur y cyssylltiad a ddynodir drwy y gair "ond" [felly y cyfieithir y gwreiddiol am "ac" ganddo ef], yr hwn sydd yn awgrymu cyferbyniad ysgafn â'r adnod o'r blaen, ydyw hyn:—gan ei fod newydd grybwyll am y ddyledswydd o gysuro ac adeiladu eu gilydd, y mae yn awr yn symmud oddi wrth hyny at y swyddogion, y rhai y mae hyn yn waith arbenig iddynt; ac un ffordd i ddwyn y gwaith yn mlaen ydyw i'r eglwys eu cydnabod a'u cefnogi hwynt. *Adnabod:*—hyny yw, eu cydnabod yn barchus ac yn anrhydeddus. Cymmharer 2 *Tim.* ii. 19: hefyd, 1 *Cor.* xvi. 18. Yn gyffredin, dilynir diystyrwch o'r efengyl gan ddiystyrwch o'r gweinidogion. Teimla y rhan fwyaf o honynt o herwydd yr anniolchgarwch hwn, nid yn gymmaint am eu bod yn gweled eu hunain yn cael eu diystyru, ag o herwydd eu bod yn casglu oddi wrth hyn nad oes anrhydedd yn cael ei dalu i'w Harglwydd. Dylid eu parchu er lles yr holl eglwys, yn fwy nag er eu lles personol hwy eu hunain. Ac o herwydd hyn y mae yr apostol yn dangos y fath ofal am danynt—"Y personau a ddynodir drwy 'y rhai sydd yn 'llafurio,' yn 'llywodraethu,' ac yn 'rhybuddio,' ydynt yr un rhai; sef yr henuriaid, neu yr esgobion. Gwel y sylw ar *Act.* xx. 17, 28."—*Alford. Yn yr Arglwydd:*—fel y berthynas yn yr hon, neu y mater gyda golwg ar yr hwn, y maent yn cael y flaenoriaeth. "Mewn pethau dwyfol."—*Alford.*

13. *A gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad.*—"Mwy priodol ydyw cymmeryd y gair 'mawr' yma gyda 'mewn cariad:' nid ydyw yn briodol ei gyssylltu â'r ferf 'gwneuthur cyfrif' (*esteem*) fel y mae y gair hwnw yn cael ei arfer yn y gwreiddiol."—*Alford.* "Cyfieithir ef gan ereill 'trwy gariad;' canys dywed Paul 'mewn cariad,' yr hyn, yn ol priod-ddull yr Hebraeg, sydd yn gyfystyr â 'trwy' neu 'gyda.' Modd bynag, gwell genyf fi ei egluro fel hyn—fel yn

o honynt mewn cariad, er mwyn eu gwaith. Byddwch dangnefeddus yn eich plith eich hunain.

14 Ond yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr, rhybuddiwch y rhai afreolus, dyddanwch y gwan eu meddwl, cynneliwch y gweiniaid, byddwch ymarhous wrth bawb.

15 Gwelwch [n] na thalo neb [o] ddrwg dros ddrwg i neb: eithr [o] yn wastadol dilynwch yr hyn [o] sydd dda, tuag at eich gilydd, a thuag at bawb.

16 Byddwch lawen yn wastadol.

17 [p] Gweddïwch yn ddibaid.

[n] Exod. 23. 4, 5.
[o] 1 Thes. 3. 12.
[p] Luc 18. 1.

arwyddo ei fod ef yn eu hannog hwy, nid yn unig i'w parchu hwynt, ond hefyd i'w caru hwynt."—*Calvin.* *Er mwyn eu gwaith.*—Gall yr ymadrodd hwn arwyddo, "o herwydd natur eu gwaith;" sef, mai gwaith yr Arglwydd yw, er mwyn eich eneidiau chwi: neu o herwydd eu gweithgarwch yn eu swydd, fel ad-daliad am eu gwaith. Y mae y ddau gymmhelliad hyn yn cael eu huno yn *Heb.* xiii."—*Alford.* "Oddi wrth hyn yr ydym yn dysgu fod y parch dyledus oddi wrth Gristionogion i'w gweinidogion wedi ei sylfaenu ar eu diwydrwydd a'u ffyddlondeb yn pregethu y gair, ac yn rhybuddio y rhai sydd yn cyfeiliorni, yn hytrach nag ar urddas eu cymmeriad, fel llywodraethwyr yr eglwys."—*Macknight.* *Byddwch dangnefeddus yn eich plith eich hunain.*—Ymddengys fod yr annogaeth hon wedi ei hawgrymu gan y rhan gyntaf o'r adnod i'r dyben o'u cymmhell i ymostwng yn heddychol a chariadus i'r rhai oedd yn eu llywodraethu hwynt yn yr Arglwydd. Gellir casglu hyn oddi wrth y crybwylliad am "y rhai afreolus," yn yr adnod nesaf. Cyfeithir yr ymadrodd gwreiddiol gan rai fel hyn—"Meithrinwch heddwch gyda hwynt;" *h.y.*, gyda'u llywodraethwyr ysbrydol. Cymmeradwyir y cyfeithiad hwn gan Calvin, yr hwn sydd o'r farn mai amcan neilduol Paul oedd "gwrthwynebu dichellion Satan," yr hwn sydd yn ymdrechu yn ddibaid i gynnhyrfu cwerylon, neu anghyttundeb, neu elyniaeth rhwng y praidd a'r bugeiliaid. O herwydd hyn yr ydym yn gweled yn fynych y modd y mae bugeiliaid yn cael eu casau gan eu heglwysi am ryw achos bychan, neu heb un achos o gwbl—yn unig am nad ydyw y dymuniad hwn o eiddo Paul i feithrin heddwch yn cael ei arfer fel y dylai. Ond gan nad ydyw y frawddeg yn cael ei chyssylltu â'r hyn sydd o'r blaen barna Macknight mai annogaeth annibynol ydyw, i ochelyd anghydfod, yr hwn a all ddinystrio unrhyw gymdeithas.

14. *Ond yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr.*—Tybia rhai, mai at yr henuriaid yn unig y cyfeiriwyd yr holl annogaethau a gynnwysir o ddechreu yr adnod hon hyd ddiwedd yr eilfed adnod ar hugain; ond ymddengys i ni nad oes un rheswm dros y cyfryw dyb. Y mae yn amlwg eu bod wedi eu bwriadu i bawb—i bob un i'w hesbonio yn ol cylch ei ddyledswyddau ei hun. Dengys ei waith yn defnyddio y gair "brodyr" yma, fel yn *adn.* 1 a 12, eu bod wedi eu cyfeirio at yr un personau ag y cyfeiriwyd yr holl adnodau blaenorol atynt. *Y rhai afreolus.*—Awgryma hyn, ynghyd â'r geiriau a geir yn *pen.* iv. 11, a 2 *Thes.* iii. 6, 11, nad oedd yr eglwys yn Thessalonica yn rhydd oddi wrth yr annhrefn hwn. Arferir y gair gwreiddiol mewn modd arbenig am filwyr a giliant o'u rhengoedd, neu a adawant eu lleoedd, fel nas gallant gyflawni eu dyledswyddau fel milwyr, yn enwedig mewn brwydr. Defnyddir ef yn briodol i ddynodi y rhai a esgeulusant ddyledswyddau priodol eu swydd. *Y gwan eu meddwl.*—Y cyfryw, er enghraifft, ag sydd yn sefyll mewn angen am gysur: *pen.* iv. 13, &c. *Cynneliwch.*—Yn llythyrenol, Deliwch eich gafael ynddynt. Wrth y gweiniaid yma y deallir, nid y cleifion yn llythyrenol, ond y gweiniaid yn ysbrydol. *Byddwch ymarhous wrth bawb.*—Y mae yr apostol, modd bynag, yn annog y Thessaloniaid i arfer amynedd tuag at bawb; canys rhaid tymmheru llymder â gradd o dynerwch, hyd yn oed wrth ymwneyd â'r rhai afreolus. Y mae yr amynedd hwn, modd bynag, a siarad yn briodol, yn cael ei gyferbynu â theimlad o flinder; canys nid oes dim ag yr ydym yn fwy tueddol iddo na blino pan yn ceisio diwygio ein brodyr oddi wrth eu beiau.—*Calvin.*

15. *Gwelwch na thalo neb ddrwg dros ddrwg i neb.*—"Gan ei bod yn anhawdd cadw y gorchymyn hwn, o herwydd y duedd gref sydd yn ein natur i ddial, y mae yr apostol, o herwydd hyn, yn ein hannog i fod ar ein gwyliadwriaeth; canys y mae y gair 'gwelwch' yma yn dynodi gofal pryderus. Yn awr, er nad ydyw ond yn unig yn gwahardd i ymryson â'n gilydd mewn ffordd o niweidio eu gilydd, er hyny nid oes un ammheuaeth ar yr un pryd nad oedd efe yn meddwl condemnio pob tuedd i niweidio eu gilydd. Canys os ydyw yn anghyfreithlawn 'talu drwg dros ddrwg,' y mae pob tuedd i niweidio ereill yn bechadurus. Un o athrawiaethau neilduol Cristionogaeth ydyw, na byddo i neb ddial cam, ond ei ddioddef yn amyneddgar. A rhag i'r Thessaloniaid dybied mai ar eu gilydd yn unig y gwaharddid iddynt ddial yn y fan hon, dywed yn bendant nad ydynt i wneyd drwg i neb."—*Calvin.* "Y mae hyn yn rhoddi rhybudd ysgafn rhag i'r arferiad ymlithro i'w plith yn ddiarwybod. Nid ydyw yn cael ei gyfeirio at ran neilduol o'r eglwys, ond at bob dosbarth o honi: at bob un drosto ei hun, ac at yr eglwys dros bob un."—*Alford.* "Gwylied pob un drosto ei hun a thros ei gymmydog. Y mae person a fyddo wedi derbyn niwed, ac mewn nwyd, yn dra thueddol i gam-edrych ar y niwed a dderbyniodd efe: gan hyny dylai ei gymmydogion edrych drosto ef."—*Bengel.* *Eithr yn wastadol dilynwch yr hyn sydd dda.*—"Trwy y frawddeg olaf hon y mae yn dysgu fod yn rhaid i ni nid yn unig ymattal rhag dial, pan y niweidir ni gan rywun, ond y mae yn rhaid i ni ymdrechu gwneuthur da i bawb. Canys er ei fod yn meddwl i hyn gael ei wneyd yn y lle cyntaf yn mhlith credinwyr tuag at eu gilydd, y mae wedi hyny yn ei estyn at bawb, pa mor anhaeddiannol bynag fyddont o hono fel y byddo i ni amcanu "gorchfygu drygioni trwy ddaioni," fel y mae efe ei hun yn dysgu mewn lle arall (*Rhuf.* xii. 21). Y cam cyntaf, gan hyny, yn yr ymarfer o amynedd yw, peidio dial cam; yr ail ydyw, gwneyd daioni hyd yn oed i'n gelynion."—*Calvin.* Y mae yr adnod hon yn cyfatteb, o ran ystyr, i *Math.* v. 44: o ran geiriau, i *Rhuf.* xii. 7; 1 *Pedr* iii. 9.

16. *Byddwch lawen yn wastadol.*—Cyfeiria Chrysostom hyn at *adn.* 15: "Pan y mae y cyfryw

[q]Eph. 5. 20. 18 Yn [q]mhob dim diolchwch:
[r]1Ioan2. 17. [r]canys hyn *yw* ewyllys Duw yn
Nghrist Iesu tuag atoch chwi.
19 Na ddiffoddwch yr Ysbryd.
20 Na ddirmygwch brophwydoliaethau.
21 Profwch bob peth: deliwch
yr hyn sydd dda.

22 [s]Ymgedwch rhag pob rhith drygioni. [s]Exod.23.7; Mat.17.26. 27;
23 A gwir Dduw y tangnefedd [t]a'ch sancteiddio yn gwbl oll: a [u]chadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid, a'ch corph, yn ddiargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Rhuf. 12. 17. [t]1 Thes. 2. 13; 3. 3; Lef. 20. 8, 26. [u]1 Thes. 3. 13.

duedd ynom fel ag i beidio niweidio neb, ond gwneyd daioni i bawb, pa fodd ygall colyn gofid ddyfod i mewn? Canys pa fodd y gall dim boeni yr hwn sydd yn llawenhau yn y fath fodd o herwydd derbyn niwed fel ag i dalu da am ddrwg?" Ond hwyrach fod hyn yn lled annaturiol. Modd bynag, ymddengys fod y cyssylltiad yn cael ei gyfiawnhau fel y mae yn myned yn mlaen:—'A pha fodd,' awgryma yr apostol, 'y mae hyn yn bossibl?' Os ewyllysiwn ni, y mae yn bossibl. Ac yna y mae yn dangos y ffordd: "Gweddïwch yn ddibaid," &c." Ac felly Theophylact:—"Canys y mae yn amlwg fod yr hwn sydd yn arfer cymdeithasu â Duw, a rhoddi diolch iddo ef am bob peth a ddygwydd, fel pethau er lles iddo ef, yn mwynhau llawenydd dibaid." Y mae golygiad Calvin yn lled gyffelyb:—"Yr wyf yn tybied fod hyn yn arwyddo cymmedrolder ysbryd, pan y bydd y meddwl yn ymdawelu mewn adfyd, a pheidio llochesu tristwch. Gan hyny, yr wyf yn cyssylltu y tri pheth hyn â'u gilydd—bod yn 'llawen yn wastadol,' 'gweddïo yn ddibaid,' a 'diolch i Dduw am bob peth.' Canys pan y mae yn ein hannog i 'weddïo yn ddibaid,' y mae yn dangos y ffordd i fod yn 'llawen yn wastadol;' canys trwy hyn yr ydym yn gofyn i'r Arglwydd ein cysuro yn ein holl drallodion. Yn yr un modd, yn *Phil.* iv. 4, 5, wedi dyweyd, 'Llawenhewch yn yr Arglwydd yn wastadol: a thrachefn, meddaf, Llawenhewch. Bydded eich arafwch yn hysbys i bob dyn. Y mae yr Arglwydd yn agos. Na ofelwch am ddim.' Y mae wedi hyny yn dangos pa fodd i wneyd hyn: 'Eithr yn mhob peth mewn gweddi ac ymbil gyda diolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau chwi yn hysbys ger bron Duw.' Yn yr adnodau hyn, fel y gwelwn, y mae yn disgrifio meddwl tawel a phwyllog fel ffynnonell llawenydd—meddwl nad ydyw yn cael ei derfysgu yn ormodol gan niweidiau a thrallodion. Ond rhag i ni ymoliwng o dan ofid, galar, pryder, ac ofn, y mae yn ein cynghori i ymddiried yn rhagluniaeth Duw."

17. *Gweddïwch yn ddibaid.*—Gwel Chrysostom, Theophylact, a Calvin uchod. Nid ysbryd gweddi yn unig, fel y tybia Jowett, a olygir yn yr annogaeth hon; ond, fel yn *Eph.* vi. 13, deisyfiadau uniongyrchol at Ddiw. Gall y rhai hyn fod yn ddibaid yn y galon sydd yn llawn o'i bresennoldeb, ac yn dal cymmundeb gwastadol â ef.—*Alford.*

18. *Yn mhob dim diolchwch*:—yn mhob amgylchiad, ac yn ngwyneb pob dygwyddiad, pa un bynag ai cysurus ai trallodus fyddo (*Eph.* v. 20). "Dylid ystyried yr agwedd ddiolchgar hon ar y meddwl fel amlygiad o ddibyniad mabaidd ar Dduw; yr hwn, yn mhob amgylchiad, hyd yn oed y mwyaf trallodus, sydd yn anrhydeddu ewyllys Duw."—*Olshausen. Canys hyn yw ewyllys Duw:—h.y.*, yn ol Bengel a Chrysostom, ewyllys Duw ydyw i ni ddiolch am bob peth. *Yn Nghrist Iesu*:—trwyddo ef fel Cyfryngwr.

19. *Na ddiffoddwch yr Ysbryd.*—Tybia Chrysostom, ac ereill, mai meddwl hyn yw, fod bywyd neu fuchedd aflan yn diffodd dylanwadau yr Ysbryd oddi mewn i'r galon. Ond barna Alford, Macknight, ac ereill, mai at weithrediadau neu ddoniau goruwchnaturiol yr Ysbryd y cyfeirir yma—llefaru âg amryw dafodau, &c., fel yn 1 *Cor.* xii. 7, &c. Cyffelybir hwy i fflam, yr hon y gellir ei lluddias a'i diffodd. Cyfeiriad at hyn sydd yn yr ymadrodd "gwresog (berwi) yn yr ysbryd," yn *Act.* xviii. 25, a *Rhuf.* xii. 11.

20. Ar *brophwydoliaethau*, gwel y sylw ar 1 *Cor.* xii. 10. Yr oeddynt yn agored i gael eu dirmygu mewn cymmhariaeth i'r ddawn o lefaru ieithoedd dyeithr, yr hon a ystyrid gan lawer yn fwy gwyrthiol na'r ddawn o brophwydo: ac o herwydd hyn, y mae yr apostol yn cymmeryd trafferth yn 1 *Cor.* xiv. 5, &c., i ddangos mai prophwydoliaeth mewn gwirionedd oedd y ddawn fwyaf.

21. Y mae yr adnod yn cyfeirio yn ol at yr adnod flaenorol, "ond profwch" bob "dawn ysbrydol" o'r fath: gwel 1 *Cor.* xii. 10: xiv. 29; *Ioan* iv. 1. *Deliwch yr hyn sydd dda.*—Barna Alford, mai dechreuad brawddeg newydd ydyw y geiriau hyn, a'u bod wedi eu llefaru mewn cyferbyniad i'r frawddeg ddilynol; nid, modd bynag. fel un hollol anghyssylltiedig â hi, ond yn hytrach fel un wedi ei hawgrymu ganddi. Yn hyn, ac yn mhob peth arall, deliwch yr hyn sydd dda.

22. *Ymgedwch rhag pob rhith drygioni.*—Y mae Alford ac Olshausen yn adrodd dau reswm cryf ag sydd yn peri iddynt gredu nad ydyw y cyfeithiad hwn yn trosglwyddo gwir feddwl y gwreiddiol. Yn gyntaf, y ffaith nad ydyw y gair Groeg (*eidos*) byth yn arwyddo "rhith" yn yr ystyr hwn. Yn ail, ni wnai y ddwy ran a gynnwysir yn y frawddeg gyfatteb fel hyn yn naturiol i'w gilydd; ond dygid meddyldrych newydd i mewn i'r ail, yr hyn nid oes un lle iddo yn y cyd-destyn; canys nid yn erbyn cymmeryd eu twyllo gan ymddangosiad rhagrithiol, nac yn erbyn rhoddi achlysur i bechod trwy ymddygiad sydd yn ymddangos yn debyg i ddrwg, y mae efe yn eu rhybuddio hwynt; ond yn unig i wahanlaethu rhwng da a drwg, ac i lynu wrth y da ac i wrthod y drwg. Y mae y gair Groeg yn arwyddo y mathau fel yn ysraddol i'r rhyw:—'Ymgedwch rhag pob math (neu ffurf) o ddrwg.'

23. *A gwir Dduw y tangnefedd* (*ei hun*) *a'ch sancteiddio.*—Wedi rhoddi amrywo annogaethau iddynt yn yr adnodau blaenorol, y mae yr apostol yma megys yn troi at yr Arglwydd, i ddymuno arno ef eu sancteiddio a'u hamddiffyn. Y mae "ei hun" (yr hyn a ddylasai fod i mewn yma) yn cyferbynu gallu a gras Duw â'u holl ymdrechiadau gweiniaid hwy eu hunain. Hwyrach fod y gair "tangnefedd" yma, yn ei ystyr eangaf, yn cynnwys perffeithiad yr holl rasusau Cristionogol hyn, a'r canlyniad o ymgadw rhag pob drwg. "Gelwir Duw yma yn 'wir Dduw y tang-

[z] Deut. 7. 9. [y] Rhuf. 15. 30. Eph. 5. 26, 27. [a] Rhuf. 16. om. 16. [b] 1 Thes. 2. 11 [c] Num. 27. 23.

24 [z] Ffyddlawn *yw* yr hwn a'ch galwodd, yr hwn hefyd a'*i* gwna.
25 O frodyr! [y] gweddïwch drosom.
26 [a] Anerchwch yr holl frodyr [b] â chusan sancteiddiol.
27 [c] Yr ydwyf yn eich tyngnefedd.' Sancteiddrwydd yw yr ammod ar ba un y gellir cael gwir dangnefedd mewnol ac allanol; gan hyny, y mae y Duw sanctaidd yn cynnwys gwir dangnefedd ynddo ei hun, ac efe a'i cyfrana hefyd i ddynion drwy eu sancteiddio."—*Olshausen.* *Yn gwbl oll.*—Gan fod y Thessaloniaid, fel aelodau o'r Eglwys Gristionogol, eisoes yn saint, *h. y.*, wedi eu neilduo oddi wrth y byd pechadurus, ac yn meddu egwyddor sanctaidd, y mae pwyslais neilltuol i'w roddi ar y geiriau hyn. "'Ymddengys fod 'yn gwbl oll' (yn y gwreiddiol 'cyfan'—ansoddair sydd yn cyttuno â 'chwi'), yn cyfeirio at berffeithiad sancteiddhâd, yr hyn yn ebrwydd a hysbysir ganddo yn fanwl. Y mae y cyssylltiad "a" yma yn dwyn i mewn y disgrifiad manwl o effeithiau y cyflawniad o ddymuniad yr apostol."—*Alford.* *Ysbryd, ac enaid, a chorph.*—Yr ysbryd (*pneuma*) ydyw y rhan uchaf a gwahaniaethol o ddyn, yr *enaid* anfarwol a chyfrifol, yn ol ein syniad cyffredin ni. Yr enaid ydyw yr isaf, neu yr un anifeilaidd, yn cynnwys y nwydau a'r dymuniadau yr ydym ni yn eu meddiannu yn gystal a'r "anifeiliaid a ddyfethir," ond y rhai ynom ni sydd yn cael eu coethi a'u dyrchafu gan yr ysbryd. Fod y gwahaniaeth hwn o fiaen meddwl yr apostol sydd eglur oddi wrth y cyfryw leoedd a 1 *Cor.* ii. 14. Y mae yr ysbryd, gan yr hwn y derbynir yr Ysbryd Glân, yn y dyn anianol yn cael ei lethu a'i ddarostwng dan awdurdod yr enaid anifeilaidd (*y psyché*): gan hyny gelwir ef "yn anianol," "heb fod yr Ysbryd ganddo" (*Iudas* 19).—*Alford.* Gwel hefyd y sylw ar yr adnod ganlynol: 1 *Cor.* ii. 14. Y mae golygydd yr argraphiad Saesneg o Bengel yn gwneyd y sylwadau canlynol ar y rhan yma o'r adnod:—"Ar ymyl y ddalen o'r cyfieithiad Germanaidd ceir yr arall-eiriad hwn o'r adnod:—'Bydded i'ch ysbryd, *h. y.*, bydded i chwi eich hunain gael eich llwyr gadw yn eich sefyllfa ysbrydol, yr hon yr ydych wedi ei chyrhaedd gyda golwg ar enaid a chorph.' Gallaf sylwi fod y ffaith yn unol â'r golygiad hwn, mai egwyddor nefol ydyw y *pneuma*—y bywyd oddi uchod—yn ein cyssylltu â gradd uwch o fodau, ac wedi ei chyfranu gan yr 'Ail Adda,' yr hwn, yn 1 *Cor.* xv. 45, a elwir yn 'Ysbryd yn bywhau.' Am hyny, anfynych, os byth, y ceir y gair hwn *pneuma*, mewn cyssylltiad âg anghredinwyr. Ceir adnodau lle yr arferir y gair hwn am ddynion da a drwg fel eu gilydd, 'yn rhoddi i fyny yr ysbryd.' Ond y mae y rhai hyn yn arwyddo 'anadlu eu hanadl olaf,' gan nad ydyw *pneuma* yn cael ei ddefnyddio ond yn unig am yr anadl (*psyché*). Yr enaid, ar y llaw arall, ydyw yr egwyddor israddol, yr hon a berthyn i'r da a'r drwg, ac sydd yn ein cyssylltu â'r Adda cyntaf, yr 'enaid byw;' trwy ein perthynas â'r hwn yr ydym yn cael y corph naturiol—corph yn cael ei fywhau gan yr enaid, mewn cyferbyniad i fywhâd y corph gan yr Ysbryd—y corph ysbrydol a roddir i'r credinwyr yn yr adgyfodiad: 1 *Cor.* xv. 44—47.

[a] Rhuf. 16. [b] Col. 4. 16.

hedu yn yr Arglwydd, [b] ar ddarllen y llythyr hwn i'r holl frodyr sanctaidd.
28 Gras ein Harglwydd Iesu Grist, *fyddo* gyda chwi. Amen.
¶ Y cyntaf at y Thessaloniaid a ysgrifenwyd o Athen.

[c] Rhuf. 1. 7.

Cymmharer *Rhuf.* viii. 11; *Iudas* 19." *Yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist*:—canys yn y dydd hwnw y gwelir y canlyniad—y byddant wedi eu cadw yn ddiargyhoedd.

24. *Ffyddlawn*:—*h. y.*, un yn cadw ei air a'i addewid. *Yr hwn a'ch galwodd*:—i fod yn saint. *Yr hwn hefyd a'i gwna*:—sef, yr hyn a enwyd yn yr adnod flaenorol. Cynnwysa yr adnod fechan hon grynodeb o'r cysur yr amcanai yr apostol ei roddi i'r Thessaloniaid. Awgryma iddynt mai y ffordd i fwynhau eu galwedigaeth oedd llawenhau yn ffyddlondeb yr hwn a'i gwna.

25. *O frodyr! gweddïwch drosom.*—Y mae Paul yn gofyn yr un peth yn yr Ail Epistol at y Thessaloniaid; hefyd yn yr epistolau at y Rhufeiniaid, yr Ephesiaid, y Colossiaid, a Philemon; ac, wrth basio, yn yr Ail Epistol at y Corinthiaid, yn gystal a'r un at y Philippiaid. Nid ydyw yn gwneyd y cais hwn yn yr epistolau at Timotheus a Titus, naill ai o herwydd ei fod yn eu cyfarch hwynt fel meibion, neu ynte o herwydd ei fod yn sicr y gweddïent hwy drosto ef o honynt eu hunain.

26. *Anerchwch yr holl frodyr.*—Ymddengys oddi wrth yr adnod hon, a'r un ganlynol, fod y llythyr hwn wedi ei roddi yn nwylaw yr henuriaid. *A chusan sancteiddiol.*—Un o nodweddau arbenig y grefydd Gristionogol ydyw, ei bod yn dysgu dynion i barchu eu gilydd fel dynion, a meithrin a dwyn allan deimladau tyneraf ein natur; ac yn sefyllfa brofedigaethus yr eglwys yn yr oes apostolaidd, dylanwadai er dwyn yr aelodau i gydnabyddiaeth gyfeillgar â'u gilydd, a'u huno yn yr undeb agosaf. Oddi wrth hyn y tarddodd yr arferiad. Parhaodd y ddefod hyd amserau diweddarach: ac nid ydyw etto wedi llwyr ddiflanu, er fod yr amgylchiadau neilltuol a roddent briodoldeb a phwys i'r cyfryw fynegiad o frawdgarwch Cristionogol wedi darfod. Nid ydyw y cyfarwyddiadau i fod yn dirion a charedig i'w gilydd, lle y mae arferion y gwledydd dwyreiniol yn cael eu crybwyll, i'w cymmeryd a'u cyflawni yn llythyrenol gan rai y mae arferion gwahanol yn ffynu yn eu plith. Digon yw, os ydyw ysbryd y ddyledswydd yn cael ei gadw; megys drwy ysgwyd dwylaw, neu ryw ddull arferedig arall o groesawu ac ymanerch.

27. *Yr ydwyf yn eich tynghedu, &c.*—Meddwl y tynghediad hwn ydyw, fod i gyfarfod o'r holl frodyr gael ei gynnal, a bod i'r epistol gael ei ddarllen yn gyhoeddus ynddo. Barna Alford mai yr achos iddo arfer y fath iaith ddifrifol oedd, ei awydd cryf am i'r epistol gael ei ddarllen iddynt, gan ei fod yn hollol ymwybodol ei fod yn cynnwys dadgudd arbenig o ewyllys yr Arglwydd. Ond barna Jowett, ac ereill, ei fod yn codi oddi ar anymddiried yr apostol yn yr henuriaid. *Yn yr Arglwydd*:—yn enw yr Arglwydd. *I'r holl frodyr*:—*h. y.*, i'r holl frodyr yn Thessalonica a ymgynnullent ynghyd i wrandaw y darlleniad o hono. Gwel ar 2 *Cor.* xiii. 13.

YR

AIL EPISTOL AT Y THESSALONIAID.

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Gellir casglu oddi wrtn y ffaith fod yr un tri pherson—Paul, Siltanus, a Thimotheus—yn cael eu henwi gyda'u gilydd yn anerchiad yr epistol hwn, fel yn y cyntaf, ddarfod iddo gael ei ysgrifenu o Corinth, lle yr ail ymunodd Silas a Thimotheus â Phaul (*Act.* xviii. 5), ac nid ydym yn darllen iddynt fyned gydag ef oddi yno ar ei ymadawiad i Asia (*Act.* xviii. 18). A chan nad oes un ammheuaeth nad o'r ddinas hono yr ysgrifenwyd yr Epistol Cyntaf, y mae yn naturiol iawn i ni dybied, wrth ystyried fod hwn wedi ei anfon yn fuan ar ol yr ail, mai yn Nghorinth yr ysgrifenwyd ef, rywfaint yn ddiweddarach yn yr ymweliad hwn o "flwyddyn a chwe mis" (*Act.* xviii. 11). Ysgrifenwyd y cyntaf, fel y crybwyllasom yn ein rhagarweiniad iddo, tua diwedd y flwyddyn 52: ond yn mhen pa faint o amser ar ol hyny yr ysgrifenwyd hwn, nis gellir penderfynu yn sicr. Nid oes genym ond dau beth i'n cynnorthwyo i ffurfio barn ar hyn; sef, y tebygolrwydd a'r awgrymiadau a geir yn yr epistol ei hun. Ychydig o help a geir gan y cyntaf o'r rhai hyn: canys o'r braidd y mae yn rhesymol i ni dybied fod yr apostol wedi derbyn hysbysrwydd am effeithiau ei Epistol Cyntaf: ac y mae pob lle i gredu mai nid at yr epistol hwnw y cyfeirir yn *pen.* ii. 2, ond at epistolau ffugiol a ledaenid o dan enw yr apostol. Y cwbl y gallwn ei gymmeryd yn ganiataol ydyw, ei fod wedi derbyn chwaneg o hysbysrwydd o Thessalonica; ond pa mor fuan wedi iddo ysgrifenu atynt nis gwyddom. Nid oedd y cyffro oedd yn ffynu yn eu plith gyda golwg ar agosrwydd dyfodiad yr Arglwydd, pan anfonwyd yr epistol cyntaf atynt, wedi lleihau dim; ond yn hytrach, ymddengys ei fod wedi cynnyddu; ac felly rhaid ei fod wedi cynnyddu mewn amser byr iawn. Ac nid ydyw yr awgrymiadau a geir yn yr epistol yn rhoddi rhyw lawer mwy o help i ni. A ganlyn yw y prif rai: —1. Yn *pen.* i. 4, dywed yr apostol ei fod yn "gorfoleddu yn eglwysi Duw, o herwydd amynedd a ffydd" y Thessaloniaid o dan eu herlidigaethau. Ymddengys oddi wrth hyn fod eglwysi Achaia (gwel 1 *Cor.* i. 2; 2 *Cor.* i. 1; *Rhuf.* xvi. 1) erbyn hyn wedi lliosogi a chryfhau. Modd bynag, nid ydyw hyn ond awgrymiad gwan iawn; o blegid gall gyfeirio at unrhyw amser ar ol y chwe mis cyntaf o'i arosiad yn Corinth. 2. Yn *pen.* iii. 2, y mae yn gofyn iddynt weddio "ar ein gwared ni oddi wrth ddynion anhywaeth a drygionus." Cesglir oddi wrth hyn fod terfysg a achlysurodd ei ymadawiad o Corinth wedi digwydd yn fuan ar ol hyny: fod amcanion yr Iuddewon anghrediniol yn tynu i ben; ac o ganlyniad, fod yn rhaid sefydlu yr amser yn union o flaen ei ymadawiad. Ond nid ydyw y casgliad hwn yn un diogel; canys yr ydym yn cael fod yr anghydfod cyhoeddus rhyngddo a'r Iuddewon wedi cymmeryd lle yn fuan ar ol dyfodiad Silas a Thimotheus (*Act.* xviii. 5—7), a bod ei sefyllfa yn ddioed ar ol hyn yn un beryglus iawn; canys yn y weledigaeth a gafodd efe, yr Arglwydd a ddywedodd wrtho, "Ni esyd neb arnat i wneuthur niwed i ti." Felly nid ydym yn cael ond ychydig iawn o help i benderfynu yr amser o un o'r ddwy ffynnonell hyn. Y cwbl a allwn ei ddyweyd ydyw, fod yn rhaid ei sefydlu, yn ol pob tebygolrwydd, rhwng gauaf 52 a gwanwyn 54: a chan gymmeryd y canol, gallwn anturio ei roddi yn rhywle yn y flwyddyn 53.

AMCAN AC ACHLYSUR YR EPISTOL.

Ei brif amcan ydoedd diwygio yr eglwys yn Thessalonica oddi wrth y cyfeiliornadau niweidiol oeddynt wedi ymlithro i'w plith. Ond ei ddarllen yn ystyriol, gwelir fod dau bwngc arbenig yn cael eu trafod yndde. Yn gyntaf, ymddengys fod y disgwyliad pryderus am ddyfodiad yr Arglwydd, yn lle lleihau, wedi cynnyddu ar ol iddo ysgrifenu yr Epistol Cyntaf. Edrychent yn awr ar y digwyddiad mawr hwn fel yn agos; ac am hyny esgeulusent eu galwedigaethau tymmorol. Yr oedd ymadroddion yn yr Epistol Cyntaf, a'u cymmeryd ar eu penau eu hunain, a ymddangosent yn ffafriol i'r golygiad hwn; modd bynag, rhoddid ar ddeall yn dwyllodrus mai y cyfryw oedd athrawiaeth yr apostol. Y mae yn awr yn ysgrifenu i lonyddu yr ysbryd cyffrous hwn, ac i dawelu eu hofnau, drwy ddangos fod yn rhaid i lawer o bethau ddigwydd yn gyntaf, ac nad oedd y diwedd etto—gan gyfeirio at y gwirioneddau a ddysgasai efe iddynt, "pan oedd etto gyda hwynt," er cadarnhau yr adroddiad hwn (*pen.* ii. 1—12; a iii. 6—12). Yn ail, yr oedd gan yr apostol sail i gŵyn bersonol. Ni wedid ei awdurdod gan neb; ond ymyrid â hi, a gwneid defnydd diawdurdod o'i enw. Y mae yn anhawdd sicrhau gwir amgylchiadau yr achos oddi wrth gyfeiriadau achlysurol ac anuniongyrchol; ac yn wir gallwn, hwyrach, gasglu oddi wrth aneglurder iaith yr apostol ei hun nad oedd efe yn meddu un hysbysrwydd sicr. Ond beth bynag, y mae yn rhaid ei fod wedi cael

gwybod digon i greu drwgdybiaeth ynddo. Gallai dynion dichellgar gamddarlunio ei athrawiaeth mewn dwy ffordd: naill ai drwy attal yr hyn a ysgrifenasid, neu a ddywedasid ganddo, neu ynte drwy ffugio llythyrau, a rhoddi ar ddeall mewn dulliau ereill ei fod yn dysgu yr hyn na ddysgasai. Y mae iaith yr apostol mewn amryw fanau yn awgrymu y ddau ddull hwn o gamddisgrifio. Ymddengys ei fod yn coledd drwgdybiaeth am yr anonestrwydd hwn hyd yn oed pan yr ysgrifenodd ei Epistol Cyntaf. Yn niwedd yr epistol hwnw y mae yn rhwymo y Thessaloniaid drwy lw difrifol, yn enw yr Arglwydd, i ofalu fod yr epistol yn cael ei ddarllen "i'r holl frodyr sanctaidd" (*adn.* 27) —gorchymyn anneallad wy ynddo ei hun, ac un nas gellir ei egluro ond yn unig drwy feddwl fod rhyw ddrwgdybiaeth yn meddwl yr apostol. Ymddengys fod ei ddrwgdybiaeth wedi ei gadarnhau cyn iddo ysgrifenu yr Ail Epistol; canys ceir cyfeiriadau mewn dwy adnod at y camddisgrifiadau hyn o'i athrawiaeth. Yn y gyntaf o'r rhai hyn, dywed wrthynt, mewn iaith ammwys, yr hon y gellir ei chyfeirio at y camesboniad a roddwyd ar ei eiriau ef ei hun yn yr Epistol Cyntaf, neu at lythyr chwanegol wedi ei ffugio yn ei enw ef, am beidio cymmeryd eu "cynnhyrfu, na chan ysbryd, na chan air, na chan lythyr, megys oddi wrthym ni, fel pe bae dydd Crist yn gyfagos." Dywed yn mhellach, nad ydynt i gymmeryd eu twyllo gan neb, pa foddion bynag a ddefnyddid ganddynt (*pen.* ii. 2, 3). Yn yr ail adnod, yn niwedd yr epistol, dywed, "Yr anerch â'm llaw i Paul fy hun; yr hyn sydd arwydd yn mhob epistol: fel hyn yr ydwyf yn ysgrifenu" (*pen.* iii. 17): yr hyn sydd yn rhagocheliad amlwg yn erbyn ffugiaeth. A'r ddwy adnod hyn, dylid cyssylltu yr ymadrodd yn *pen.* iii. 14, oddi wrth yr hwn yr ydym yn casglu ei fod ef yn awr yn ofni gwrthwynebiad uniongyrchol:—"Ond od oes neb heb ufuddhau i'n gair trwy y llythyr yma, hysbyswch hwnw;" *h.y.*, nodwch ef allan, "ac na fydded i chwi gymdeithas âg ef, megys y cywilyddio efe."

Gan hyny, gwelir fod yr Ail Epistol yn chwanegiad at, ac yn rhagdybied, y Cyntaf; ac mai ei amcan ydyw symmud y camgasgliad a dynid oddi wrth, neu y camesboniad a roddid ar y cyntaf. Yn mhellach, ceir yn yr Epistol Cyntaf brofion amlwg mai yr ymarllwysiad cyntaf ydyw o'i deimladau serchog tuag at ei ddychweledigion ar ol ei ymadawiad o Thessalonica; tra ar y llaw arall y mae yr epistol hwn yn cynnwys cyfeiriad unionyrchol at y llythyr blaenorol, yr hwn y gellir yn briodol ei gymmhwyso at y cyntaf: "Deliwch y traddodiadau a ddysgasoch, pa un bynag ai trwy ymadrodd ai trwy ein hepistol ni;" *pen.* ii. 15.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Y mae y profion allanol dros awduriaeth yr epistol hwn braidd yn gryfach na'r rhai a ddygwyd yn mlaen dros awduriaeth y cyntaf. Ymddengys fod Polycarp yn cyfeirio ato mewn un lle neu ddau; ac y mae yr iaith yn yr hon y mae Justin Ferthyr yn siarad am "y dyn pechod" mor debyg iddo, fel mai o'r braidd y gall fod yn annibynol ar yr epistol hwn. Ceir yr epistol hwn, fel y cyntaf, yn nghanonau yr hen gyfeithiadau Syriaidd a Lladinaidd; dyfynir ef yn bendant wrth ei enw gan Irenæus, ac ereill, tua diwedd yr ail ganrif, a derbynid ef yn gyffredinol gan yr eglwys. Y mae cymmeriad mewnol yr epistol hwn, fel y cyntaf, yn profi tu hwnt i bob ammheuaeth mai Paul yw ei awdwr; ac mewn gwirionedd, ni ammheuwyd ei ddilysrwydd erioed hyd ddechreu y ganrif bresennol. Codwyd gwrthddadleuon yn gyntaf gan Christ. Schmidt. Dilynwyd ef gan Schrader, a Baur. Condemniai De Wette yr epistol hwn yn y dechreu; ond wedi hyny tynodd ei gondemniad yn ol, a derbyniodd ef yn rhwydd fel un dilys. Haerir gan Kern nad ydyw yr holl adnodau prophwydol sydd yn yr ail bennod yn cyfatteb i'r amser y dywedir i'r epistol gael ei ysgrifenu. Cymmer yn ganiataol mai "y dyn pechod" ydyw Nero, yr hwn oedd drachefn i ddychwelyd (*Dad.* xvii. 10):—"yr hwn sydd yn attal," Vespasian:—"yr ymadawiad," gwrthgiliad yr luddewon a'r Cristionogion fel eu gilydd. Dadleuir fod y golygiad hwn yn gymmhwys i ysgrifenydd yn 68—70, rhwng marwolaeth Nero a dinystr Ierusalem. Ond nid oes un grym yn yr wrthddadl hon. Pa ham nad oes genym cystal hawl i ddyweyd fod yr esboniad yn gyfeiliornus, am nad ydyw yn cyfatteb i amseriad addefedig yr epistol, ag sydd gan neb i ddyweyd i'r gwrthwyneb? Ymddengys i ni fod yr esboniad yn un hollol feius, ac am hyny nad oes un grym yn yr ymresymiad. Haera rhai drachefn, fod *pen.* iii. 17, yn gryf yn erbyn dilysrwydd yr epistol: am nad oedd un angen am wylio yn erbyn ffugiaeth; a chyda golwg ar y geiriau "yn mhob epistol," nid oedd yr apostol wedi ysgrifenu ond un. Am attebiad i hyn, gwel y sylw ar yr adnod, lle y rhoddir y rheswm dros ddodi hyn i mewn, ac y dangosir fod bron ei holl epistolau wedi eu hawdurdodi fel hyn, naill ai yn bendant, neu i'w deall felly.

RHEDIAD A CHYNNWYSIAD YR EPISTOL.

Y mae yr epistol hwn o ran ei fater, yn gystal a'i arddull a'i nodwedd cyffredinol, yn debyg iawn i'r cyntaf; a gellir gyda phriodoldeb gymmhwyso y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed ar yr epistol hwnw at hwn. Y mae y cyfansoddiad hefyd yn lled debyg, gan fod prif gorph yr epistol yn cael ei ranu yn ddwy ran yn yr un modd, a phob rhan yn diweddu gyda gweddi (ii. 16, 17; iii. 16); ac y mae y ddau hefyd yn dechreu yn yr un dull. A ganlyn sydd ddangoseg o'i gynnwysiad:—

Y cyfarchiad agoriadol (i. 1, 2).

1. Amlygiad cyffredinol o ddiolchgarwch yr apostol drostynt, a'r dyddordeb neillduol a gymmerai efe ynddynt, yr hyn sydd yn ei arwain at yr anhawsder ynghylch dyfodiad yr Arglwydd (i. 3—ii. 17).

(1.) Y mae yr apostol yn diolch am eu cynnydd yn y ffydd; ac yn eu hannog hwynt i fod yn amyneddgar yn yr erlidigaethau a ddioddefid ganddynt, gan ddwyn ar gof iddynt y farn a fydd, ac yn gweddio ar iddynt gael eu parotoi i'w chyfarfod (i. 3—12).

(2.) Y mae efe fel hyn yn cael ei arwain i gywiro y meddyliddrych cyfeiliornus fod y farn yn agos, gan ddangos fod yn rhaid i lawer o bethau gymmeryd lle yn gyntaf.

(3.) Y mae yn ail ddadgan ei ddiolchgarwch drostynt, a'i annogaeth iddynt, ac yn diweddu y rhan yma gyda gweddi (ii. 13—17).

2. Annogaeth uniongyrchol (iii. 1—16).

(1.) Y mae yn eu hannog hwynt i weddïo drosto ef, ac yn disgwyl yn hyderus y cynnyddent yn y ffydd (iii. 1—5).

(2.) Y mae yn ceryddu y segur, yr afreolus, a'r anufudd, ac yn gorchymyn i'r ffyddloniaid i gilio oddi wrth y cyfryw (iii. 6—15).

Y mae y rhan yma drachefn yn diweddu gyda gweddi (iii. 16).

Y mae yr epistol yn diweddu gyda chyfarwyddyd arbenig a bendith (iii. 17, 18).

YR AIL EPISTOL AT Y THESSALONIAID.

PENNOD I.

1 *Y mae Paul yn hysbysu iddynt mor dda yr oedd efe yn meddwl am eu ffydd, a'u cariad, a'u hamynedd hwynt: 11 a chyda hyny yn gosod llawer o resymau ar lawr, e'w cysuro hwy mewn erlid; a'r penaf o'r rhai hyn a gymmerir oddi wrth gyflawn farn Duw.*

B. A. 53. PAUL, a Silfanus, a Thimotheus, at eglwys y Thessaloniaid, yn Nuw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

2 Gras [a]i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist. [a] Rhuf. 1. 7; 1 Cor. 1. 3.

3 [b]Diolch a ddylem i Dduw yn wastadol drosoch, frodyr, fel y mae yn addas, o blegid bod [c]eich ffydd chwi yn mawr gynnyddu, a chariad pob un o honoch oll tuag at eich gilydd yn chwanegu: [b] Rhuf. 1. 8; 1 Cor. 1. 4. [c] Diar. 4. 18; Ioan 15. 2; 1 Pedr 1. 22.

4 Hyd onid ydym ni ein hun-

---

1. *Eglwys.*—Dywed Trench fod i'r gair Groeg *ecclésia*, a gyfleithir yma yn "eglwys," dri ystyr gwahanol; sef, yr ystyr paganaidd, Iuddewig, a Christionogol. Gyda golwg ar y cyntaf, *ecclésia* oedd y gynnulleidfa gyfreithlawn mewn dinas rydd yn ngwlad Groeg o'r holl rai oeddynt yn meddu iawnderau dinasyddiaeth, i gyflawni gorchwylion cyhoeddus. Eu bod yn cael eu "galw" a ddangosir yn y rhan olaf o'r gair; sef, *clésia*, yr hwn sydd yn tarddu o'r gair Groeg, *caleo*, "galw:" a'u bod yn cael eu galw allan o'r holl boblogaeth a ddangosir yn y rhan gyntaf o hono, sef *ec*, "allan o." Y mae y "galw" a'r "galw allan" yn rhanau y dylid eu cofio pan y defnyddir y gair mewn ystyr Cristionogol; canys ynddynt hwy y mae y rhan benaf o neillduolrwydd ei gyfaddasder i'w ystyr Gristionogol yn gorwedd. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair yn *Act.* xix. 39;—"Ac os gofynwch ddim am bethau ereill, mewn cynnulleidfa gyfreithlawn y terfynir hyny." Weithiau, defnyddir y gair yn y Testament Newydd i ddynodi holl deulu Duw, megys un corph yn Nghrist Iesu, ac yn cyfansoddi yn ei holl aelodau, o ddechreu amser i'w ddiwedd, un eglwys iddo ei hun. Bryd arall, arferir ef i arwyddo unrhyw nifer o dduwiolion, mewn undeb â'u gilydd, yn cydymgyfammodi i wasanaethu yr Arglwydd yn efengyl ei Fab ef, mewn ymarferiad â'i holl ordinhadau, ac ymgysegredigaeth i'w sancteiddrwydd hi. Yn yr ystyr olaf hwn y deallir y gair pan y sonir am "yr eglwys" yn Ierusalem, yn Antiocha, yn Nghorinth, yn Ephesus, ac yn Thessalonica, a'r cyffelyb. *Yn Nuw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.*—"Dynoda y geiriau hyn, nid yn unig fod un wedi ei chasglu ynghyd o dan faner y ffydd, i'r dyben o addoli un Duw, y Tad, ac ymddiried yn Nghrist, ond y mae yn waith ac yn adeilad y Tad yn gystal a Christ; canys tra y mae Duw yn ein mabwysiadu iddo ei hun, ac yn ein hailenl, o hono ef yr ydym yn dechreu bod yn Nghrist: 1 *Cor.* i. 30."—*Calvin.*

3. *Diolch a ddylem i Dduw yn wastadol drosoch.*—Ar ol y cyfarchiad, yr hwn sydd yn cyttuno yn llythyrenol â'r un yn yr Epistol Cyntaf, y mae Paul, yn union fel yn 1 *Thes.* i. 2, yn dechreu dadgan ei ddiolchgarwch i Dduw o herwydd cynnydd eu ffydd a'u cariad. Yn awr, y mae rhywbeth yn ymddangos yn hynod yn hyn, yn gymmaint ag nad oedd ganddo un rheswm, fel y dengys yr all bennod, i fod mor foddlawn ar sefyllfa yr eglwys y pryd hwnw ag oedd ganddo pan gyfansoddodd efe yr Epistol Cyntaf. Yn yr amser byr oedd wedi pasio rhwng adeg cyfansoddiad y ddau epistol, yr oedd amgylchiadau eisoes wedi newid llawer iawn, ac yr oedd yr ychydig anesmwythder a ffynai yn eu plith yn y dechreu eisoes wedi ei gyflawn ddadblygu. Er hyny gallai yr apostol, er gwaethaf y cyfeiliornadau hyny, yn erbyn y rhai y mae yn siarad mor bendant yn *pen.* iii, gydnabod ffydd a chariad y Thessaloniaid gyda diolchgarwch, gan nad oedd y cyfeiliornadau hyny yn tarddu o gredu rhyfychan, ond yn hytrach o gredu gormod. Pan y dywed "yn wastadol," ei feddwl yw, ei fod yn cael achlysur newydd bob dydd i fod yn ddiolchgar o herwydd eu cynnydd beunyddiol mewn ffydd a chariad. *Fel y mae yn addas.*—Y mae hyn yn cyfeirio at yr holl frawddeg flaenorol. Nid ydyw y gair hwn, "o blegid," yma yn adrodd y rheswm pa ham y dylem ddiolch; ond y mae yn dibynu ar y frawddeg flaenorol—"Y mae yn addas, o blegid," &c. Y mae y gair "dylem" yn gosod allan y ddyledswydd o ddiolch, o un tu, fel peth cydweddol âg argyhoeddiad y gydwybod; ac "fel y mae yn addas," o'r tu arall, yn ei gosod allan fel peth yn cyfatteb i sefyllfa y Thessaloniaid. Ni ddylid casglu oddi wrth y geiriau, *pob un o honoch oll*, nad oedd dim anghydfod wedi digwydd yn eu plith; canys dengys y drydedd bennod y gwrthwyneb. Ond gwelai Paul fod, hyd yn oed yn nghanol camsyniadau a goleddid ganddynt, radd helaeth o ffydd a chariad—cymmaint fel y teimlai ei hun o dan rwymau i ddiolch i Dduw o'u herwydd.

4. *Ni ein hunain:*—*h. y.*, yn gystal a'r rhai a

ain yn gorfoleddu ynoch chwi yn
eglwysi Duw, o herwydd eich
amynedd chwi a'ch ffydd yn eich
holl erlidiau a'r gorthrymderau yr
[d] Salm 33.5; Dan. 4. 37; Rhuf. 2. 5; [e] Act. 13.46; Eph. 4. 1; Col. 1. 13; Dad. 3. 4. [f] Deut. 32.41 —43; Esa. 49. 26; Dad. 18. 20, 24.
ydych yn eu goddef:

5 *Yr hyn sydd* argoel goleu o
[g] gyfiawn farn Duw, fel y'ch [e] cyf-
rifer yn deilwng i deyrnas Dduw,
er mwyn yr hon yr ydych hefyd
[f] yn goddef.

6 Canys [f] cyfiawn *yw* ger bron
Duw, dalu cystudd i'r rhai sydd
yn eich cystuddio chwi;

7 Ac i [g] chwithau, y rhai a gys-
tuddir, esmwythdra gyda ni, [g] yn [c] Mat. 13.39 — 43; 25.31
ymddangosiad yr Arglwydd Iesu
o'r nef, gyda'i angylion nerthol,

8 A thân fflamllyd, gan roddi
dïal i'r sawl [h] nid adwaenant [h] Exod. 5 2.
Dduw, [i] ac nid ydynt yn ufudd- [i] Deut. 4. 30.
hau i efengyl ein Harglwydd Iesu
Grist:

9 Y rhai a ddioddefant yn gosp-
edigaeth, ddinystr tragywyddol
[k] oddi ger bron yr Arglwydd, ac [k] Gen. 3. 8; 4. 16.
oddi wrth ogoniant ei gadernid ef:

hysbysasant i ni, ac ereill a glywsant eich hanes: gwel 1 *Thes.* i. 8. *Yn gorfoleddu ynoch chwi yn eglwysi Duw.*—Ni allai roddi canmoliaeth uwch iddynt na thrwy ddyweyd ei fod yn eu codi fel esampl i eglwysi ereill. Hyn yn ddiau yw ystyr y geiriau; canys nid oedd Paul yn ymffrostio yn eu ffydd oddi ar ysbryd o uchelgais, ond i'r dyben o'u calonogi i lynu wrth eu proffes. "Yn eglwysi Duw;" *h.y.*, yn Nghorinth ac yn Achaia. *Eich amynedd chwi a'ch ffydd.*—Nid oes yr angenrheidrwydd lleiaf am i ni gymmeryd "ffydd" yma mewn ystyr wahanol i'r un yn *adn.* 3. Yr un ffydd ag oedd yn cynnyddu mor fawr, oedd yn dangos ei hun drwy ei ffrwythau yn nghanol erledigaethau a thrallodion. "Nid ydyw yn dyweyd, modd bynag, ei fod yn gorfoleddu yn eu ffydd a'u cariad, ond yn eu hamynedd a'u ffydd. Ffrwyth ffydd, a phrawf o'i bodolaeth, ydyw amynedd. Gan hyny, dylid egluro y geiriau hyn yn y dull hwn:—'Yr ydym yn ymogoneddu yn yr amynedd sydd yn tarddu oddi ar ffydd, ac yr ydym yn tystio ei bod yn ymddisgleirio yn hynod ynoch chwi;' onid ê, ni byddai yn gysson â'r cyddestyn. Ac, yn ddiammheuol, nis gall dim ein cynnal mewn trallodion, fel y mae ffydd yn gwneyd; yr hyn sydd yn eithaf amlwg oddi wrth hyn, ein bod yn suddo mewn digalondid cyn gynted ag y collwn ein golwg ar addewidion Duw."—*Calvin. Yr ydych yn eu goddef.*—Yr oedd yr erledigaethau yn parhau pan ysgrifenwyd yr epistol hwn.

5. Yr hyn sydd argoel goleu o gyfiawn farn Duw.—Y mae yr apostol yn awr yn myned yn mlaen i'w cysuro hwynt o dan y trallodion hyn, drwy eu harwain i ystyried nad oedd y cwbl ond yn unig rhan o'r cynllun dwyfol i weinyddu cyfiawnder tuag atynt hwy a'u herlidwyr. Ceir syniad cyffelyb yn *Phil.* i. 28. "Argoel," neu brawf; yr hwn a amlygwyd yn eich gwaith yn cael eich galw a'ch galluogi i ddioddef dros Grist, ac yn y ffaith fod eich erledigaeth chwi yn llenwi i fyny fesur anwiredd eich gelynion. Y "cyfiawn farn" ydyw y farn gyfiawn hono a gwblheir ar ddyfodiad yr Arglwydd; ond y mae hyd yn oed yn awr yn cael ei pharotoi, gan fod hyn yn ernes ac yn brawf o honi. *Fel y'ch cyfrifer,* &c. —"Y mae y geiriau hyn yn perthyn i'r haeriad tybiedig a gynnwysyir yn yr adran flaenorol—'yr hon farn sydd hyd yn oed yn awr yn dwyn oddi amgylch,' &c. Ni ddywedir hyn†yn unig am y canyniad, na chwaith am ddyben eich goddefgarwch, fel yr eglurir ef gan Estius, i ddwyn i mewn yr athrawiaeth Babaidd o haeddiant dyn: —ond am ddyben goruchwyliaeth 'cyfiawn farn Duw' drwy yr hon y'ch addfedir ac y'ch cymhwysir i'w deyrnas ef."—*Alford.*

6. *Canys.*—Yn ol cyfleithiad Alford—"Os felly y mae." Y mae hyn yn cyfeirio yn ol at y geiriau "cyfiawn farn Duw," a ddefnyddiwyd uchod, ac yn dwyn i mewn brawf o'u gwirionedd drwy appelio at ein syniadau am gyfiawnder manwl. *Cyfiawn yw ger bron Duw:—h. y.*, cyfiawn yw yn nghyfrif Duw (yn ol rheol fanwl addaliad), *dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi:*—trwy eich erlid o herwydd eich crefydd.

7. Ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra:—h. y., cewch waredigaeth dragwyddol yn angeu oddi wrth holl ofidiau a thrallodion y bywyd hwn. *Gyda ni:*—sef, yr ysgrifenwyr, Paul, Silfanus, a Thimotheus, y rhai oeddynt yn cael eu herlid fel hwythau. Nid "gyda ni" (yr holl Gristionogion), fel y mae rhai yn ei egluro: canys nid oedd yr holl Gristionogion yn cael eu cystuddio fel yr oedd y Thessaloniaid; llawer llai "gyda ni," ïuddewon, gan mai Cenhedloedd ydych chwi, fel y barna Bengel, ac ereill. *Gyda'i angylion nerthol.*—Y cyfleithiad cywir ydyw, fel ar ymyl y ddalen, "gydag angylion ei nerth;" canys nid ydyw nerth yr angylion yn un elfen yma, ond ei nerth ef, angylion yr hwn ydynt—yn gwasanaethu ei allu, ac yn cyhoeddi ei nerth.

8. *A thân fflamllyd.*—Yn llythyrenol, "yn y tân fflamllyd." I amlygu ei fawredd, ac i beri parch i'w fawrhydi, ymddangosai yr Arglwydd yn aml gynt mewn tân; megys i Moses yn y berth; i'r Israeliaid ar Sinai; i Ezeciel a Daniel, &c., &c. (*Exod.* iii. 2; xix. 18; *Ezec.* i. 4, a *Dan.* vii. 7); ac yma, dywedir yr ymddengys mewn tân fflamllyd, i ddynodi mawredd cospedigaeth yr annuwiol. Ceir disgrifiad tebyg yn *Dad.* xix. 12, lle y dywedir y bydd Crist yn ei ddyfodiad yn eistedd ar "farch gwyn, a'i lygaid fel fflam dân." *Gan roddi* [neu rau, neu ddosbarthu fel eu cyfran] *dial i'r sawl nid adwaenant Dduw* [y Cenhedloedd], *ac iddynt hwy y rhai* [yn ol y gwreiddiol, yr hyn sydd yn dynodi dosbarth newydd o bersonau] *nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist* [yr Iuddewon anghrediniol, gwel *Rhuf.* x. 3, 16].—Disgrifir cymmeriad y damnedigion yma i roddi rheswm dros eu cospedigaeth, yr hon a enwir yn yr adnod nesaf.

9. *Y rhai a ddioddefant* [yn llythyrenol, *a dalant y gospedigaeth o*] *ddinystr tragwyddol oddi ger bron* [ar wahân oddi wrth] *yr Arglwydd:* —gwel *Mat.* vii. 23. Esboniwyd ef gan rai fel yn dynodi amser—"o amser ymddangosiad," &c.; ond ni oddef y geiriau "oddi ger bron" hyn; o blegid eu hystyr cyffredin ydyw, pan y cyssylltir hwynt â Duw—gwyddfod, neu bresennoldeb yr Arglwydd. *Ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef:—h.y.*, oddi wrth yr amlygiad rhyfeddol o'i

[k] Esa. 43.21. 10 Pan ddêl efe [l] i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu (o herwydd i'n tystiolaeth ni yn eich mysg chwi gael ei chredu) yn y dydd hwnw.

[m] Rhuf 1.9; Eph. 2. 14—21; Phil. 1. 9—11. [n] Salm 48. 14. [o] Adn. 5. 11 Am ba achos [m] yr ydym [n] hefyd yn gweddio yn wastadol drosoch, [n] ar fod i'n Duw ni [o] eich cyfrif chwi yn deilwng o'r alwedigaeth *hon*, a chyflawni holl foddlonrwydd *ei* ddaioni, a gwaith ffydd, yn nerthol:

[p] 1 Pedr 4. 14. 12 Fel y [p] gogonedder enw ein Harglwydd Iesu Grist ynoch chwi, a chwithau ynddo yntau, yn ol [q] gras ein Duw ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

[q] Rhuf 1.7; 1 Cor. 1. 4.

PENNOD II.

1 *Y mae efe yn ewyllysio iddynt barhau yn ddiolygar yn y gwirioneddau a ddeethyngiasant; 3 ac yn dangos y bydd ymadawiad oddi wrth y fydd, 8 ac y dadgeuddir anghrist, cyn dyfod dydd yr Arglwydd: 15 ac yno yn cai adrodd ei gynghor o'r blaen, ac yn gweddio drostynt hwy.*

A C yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, [a] er dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cydgynnulliad ninnau ato ef,

[a] 1 Thes. 4. 14—16.

allu yn ngogoneddiad ei saint: gwel *Esa.* ii. 10, 19, 21. "Y mae yr apostol yma yn dangos trwy wrthgyferbyniad beth yw natur y gospedigaeth y crybwyllodd uchod am dani—dinystr diddiwedd, a marwolaeth dragwyddol. Profir parhâd y farwolaeth oddi wrth yr amgylchiad, fod gogoniant Crist yn cael ei ddal yn gyferbyniol â hi. Yn awr, y mae ei ogoniant ef yn dragwyddol, ac o ganlyniad fe bery y farwolaeth hono yn dragwyddol. Gellir hefyd gasglu oddi wrth hyn y rhaid y bydd y gosbedigaeth yn un fawr iawn, yn gymmaint ag y bydd yn gyfattebol i fawredd gogoniant a mawrhydi Crist." — *Calvin.* "Traethir yma yn arbenig ar wedd ddychrynllyd dyfodiad Crist i'r farn; nid mewn trefn i alluogi y Thessaloniaid i'w boddhau eu hunain wrth feddwl am gospedigaeth ddyfodol eu heriidwyr, ond yn hytrach fel rhybudd i'w hattal hwynt rhag syrthio ymaith oddi wrth eu profiles grefyddol."—*Olshausen.*

10. *Pan ddêl efe i'w ogoneddu yn ei saint.*—Yn ei saint, ac nid yn yr angylion, y gogoneddir ef. Hwy fyddant elfen ei ogoneddiad: gogoneddir ef ynddynt hwy, yn union fel y mae yr haul yn adlewyrchu mewn drych. Fe fydd y saint yn y dydd hwnw nid yn "ymddangos gyda Christ mewn gogoniant," ond yn cyfranogi o'i ogoniant, a thrwy hyny yn gyfryngau drwy ba rai y gogoneddir ef gan y saint eu hunain, a chan yr angylion sanctaidd. *I fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu.*—I gael ei ryfeddu trwy a chan, nid yn unig yr holl rai a gredasant o ddechreu y byd hyd ei ddiwedd, ond hefyd gan yr holl angylion sanctaidd. Rhyfeddir ef o herwydd mawredd y gallu a'r daioni a ddangosir ganddo yn ei saint trwy adgyfodi eu cyrph o'r bedd, eu gwneyd yn debyg i'w gorph gogoneddus ef, a'u sancteiddio mor berffaith fel na bydd arnynt na "brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw." *O herwydd i'n tystiolaeth ni wrthych chwi* [nid *yn eich mysg chwi*, fel yn Gymraeg] *gael ei chredu.*—Dodir y geiriau hyn rhwng cromfachau, i gynnwys y Thessaloniaid yn mhlith "y rhai a gredasant." *Yn y dydd hwnw:*—y diwrnod y gwyddom oll am dano. Y mae y geiriau hyn i'w cyssylltu â'r geiriau o flaen y rhai sydd wedi eu dodi rhwng cromfachau.

11. *Am ba achos.*—Yn ol Alford a Bengel, "gyda'r amcan hwn;" sef, ar fod i Grist gael ei ogoneddu trwyddoch chwi yn ei ddyfodiad. *Yr ydym hefyd yn gweddio.*—Nid yn unig yr ydym yn dymuno, ond yr ydym hefyd yn gweddîo. *Eich cyfrif chwi yn deilwng.*—Nid "eich gwneuthur chwi yn deilwng;" yr hyn nis gall y gair ei arwyddo. *O'r alwedigaeth hon.*—Yr un peth a feddylir yma ag yn yr annogaeth i "rodio yn addas i'r alwedigaeth y'n galwyd iddi;" *Eph.* iv. 1. Cymmerir yr alwedigaeth nid yn unig fel gweithred gyntaf Duw tuag atynt, ond fel y sefyllfa drallodus a gynnyrchwyd gan y weithred hono (gwel yn enwedig 1 *Cor.* vii. 20), terfyniad rheoliaidd yr hon ydyw gogoniant. *A chyflawni.*—Cwblhau—dwyn i berffeithrwydd ynoch chwi. *Holl foddlonrwydd ei ddaioni.*—Y mae llawer o'r hen esbonwyr a'r cyfieithiadau Cymreig yn cyfeirio yr ymadrodd hwn at Dduw; sef, "boddlonrwydd ei ddaioni ef;" ond barna Alford mai at y Thessaloniaid y dylid ei gymmhwyso, fel y cymmhwysir ef at oruchwylwyr dynol yn *Phil.* i. 15, ac y gall arwyddo un ai cymmeradwyaeth o'r hyn sydd dda'—neu amcan da, a theilwng o'r grefydd Gristionogol; ac mai yr olaf ydyw y goreu ganddo ef o ddigon. Tybia Olshausen ei fod yn cyfeirio at sefyllfa y Thessaloniaid; ac felly, mai yr ystyr ydyw, "Llawned Duw chwi â'r holl ddaioni sydd yn rhyngu ei fodd ef: *h.y.*, bydded iddo ef eich llenwi â'r holl ddaioni sydd ynoch yn rhyngu ei fodd ef." *Gwaith ffydd.*—Y meddwl yma ydyw, gweithgarwch ffydd, fel gras yn yr enaid. *Yn nerthol.*—Perthyna hyn i "cyflawni;" ac felly gellir ei ddarllen "a chyflawni yn nerthol," neu yn helaeth ac yn effeithiol.

12. *Fel y gogonedder enw ein Harglwydd Iesu Grist ynoch chwi, &c.*—Wrth ddiweddu, y mae Paul yn cymmhwyso y meddyliddrych a gyhoeddwyd ganddo yn *adn.* 10 am y credinwyr yn gyffredinol at y Thessaloniaid yn neilduol. Yn lle yr Arglwydd, ei "enw" yn unig a grybwyllir yma fel gwrthddrych gogoneddiad; ond y mae y gair yn sefyll am ei berson. Heb law y person neu yr hanfod, y mae y gair "enw" yn cynnwys gogoniant Crist ei hun, fel yn *Phil.* ii. 9, 10. "Nid ydym ni yn rhoddi dim i'r Arglwydd, ond y mae yr Arglwydd yn rhoddi iachawdwriaeth i ni; ac o herwydd hyn, gogoneddir ei enw ef ynom ni, a gogoneddir ninnau ynddo ef."—*Bengel.*

Pennod II.

1. *Ac.*—Yn ol cyfieithiad Alford, *Ond.* Y mae yr apostol yma yn symmud oddi wrth y pethau a ddymunai iddynt at y pethau a ddymunai ganddynt. *Yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr.*—Y mae yn arfer y dull taer a thyner hwn er ennill eu sylw serchog at yr hyn a ddymunai ganddynt. *Er.*—Barna llawer o'r hen esbonwyr fod y gair hwn yn cael ei arfer yma fel arweiniad i ffurf o dyngheddiad. Ond ni cheir yr ystyr hwn yn y Testament Newydd; a buasai

2 Na'ch sigler yn fuan oddi wrth eich meddwl, ac na'ch cynhyrfer, na chan ysbryd, na chan air, na chan lythyr, megys oddi wrthym ni, fel pe bae dydd Crist yn gyfagos.

yn annaturiol iawn i'r apostol eu tynghedu hwy fel hyn drwy yr hyn yr oedd efe ar fedr ei ddysgu iddynt. Gan Macknight a Bengel, cyfieithir ef, "yn mherthynas i," neu "gyda golwg ar." Tybia Alford mai gwell ydyw ei gymeryd fel hyn; neu gyda chyfnewidiad bychan yn yr ystyr, "ar ran;" canys yr oedd y pwngc wedi ei gamddarlunio, ac amcan yr apostol yw cywiro y cyfryw gamddarluniad. *Dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.*—Barna rhai mai wrth y dyfodiad hwn y golygir dyfodiad Crist i ddinystrio Ierusalem; ac o ganlyniad, fod y brophwydoliaeth yn mherthynas i'r "dyn pechod" wedi ei chyflawni yn y digwyddiadau a gymmerasant le cyn dinystr Ierusalem. Ond dinystrir eu hesboniad gan *adn.* 2, yn yr hon y mae yr apostol yn ymwrthod â'r syniad a briodolid iddo ef—ei fod ef yn meddwl fod "dydd Crist yn agos." Canys os "dydd Crist" oedd dydd dinystr Ierusalem, yr oedd yn agos; a chymmerodd le tra yr oedd llawer o'r rhai yr ysgrifenwyd y llythyr hwn atynt yn fyw. Yn mhellach, pan yr ystyriom fod yr apostol yn ei lythyr blaenorol wedi ysgrifenu am ddisgyniad Crist o'r nef, "gyda bloedd a llef yr archangel," i gyfodi y meirw; ac am gipiad y saint byw i fyny i'r cymylau i gyfarfod â'r Arglwydd, ac i fyned gydag ef i'r nefoedd; a'i fod yn yr epistol hwn wedi siarad am "ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef â thân flamllyd," i'r dyben o weinyddu cospedigaeth nid yn unig ar y rhai "nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist," ond hefyd ar y rhai "nid adwaenant Dduw," hyny yw, ar y paganiaid; ac nad oes mewn un o'r ddau epistol gymmaint ag un gair y gellir yn briodol ei gymmhwyso at ddyfodiad Crist i ddinystrio Ierusalem; ac yn enwedig y ffaith eglur fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu gyda'r amcan o gywiro y camsyniad yr oedd y Thessaloniaid wedi syrthio iddo gyda golwg ar ddyfodiad Crist i'r farn, fel y disgrifiwyd ef yn yr Epistol Cyntaf;—pan yr ystyrir, meddwn, yr holl amgylchiadau hyn, fe welir ar unwaith, mai at ddyfodiad Crist i farnu y byd yn y dydd diweddaf, ac nid at ei ddyfodiad i ddinystrio Ierusalem y cyfeirir yma. *A'n cyd-gymnulliad ninnau ato ef: h.y.*, y cydgynnulliad y sonir am dano yn 1 *Thes.* iv. 17.

2. *Na'ch sigler.*—Y syniad ydyw hyn:—'Na'ch sigler, fel y mae y tonau yn cael eu siglo gan dymmestl:' neu, mewn geiriau ereill, Glynwch yn sefydlog wrth yr athrawiaeth a ddysgais i chwi am ddyfodiad Crist. *Yn fuan:—h.y.*, heb un rheswm o bwys. *Oddi wrth eich meddwl:—h.y.*, oddi wrth eich barn ar y pwngc. *Ac na'ch cynhyrfer, na chan ysbryd:*—gan neb sydd yn honi ei fod yn meddu y ddawn ysbrydol o brophwydoliaeth neu y cyffelyb, mewn trefn i geisio profi gwirionedd y syniad fod "dydd Crist yn agos." Gan fod llawer o'r dysgyblion, yn yr oes apostolaidd, yn cael eu cynnysgaeddu â'r ddawn o ysbrydoliaeth ar achlysuron neilldiol, dechreuodd y gau athrawon yn foreu i roddi allan fod eu hathrawiaethau cyfeiliornus wedi eu dadguddio iddynt gan Ysbryd Duw; gan obeithio, drwy y twyll hwnw, y rhoddid derbyniad rhwydd i'w cyfeiliornadau. *Na chan air:*—o'r genau. Y mae y geiriau hyn yn dal perthynas agos â'r ymadrodd "na chan lythyr," fel y gwelir oddi wrth *adn.* 15, lle y maent drachefn yn cael eu cysylltu â'u gilydd. *Na chan lythyr, megys oddi wrthym ni:—h.y.*, megys yn honi neu yn cymmeryd arno ei fod yn dyfod oddi wrthym ni. Fel pe dywedasai yr apostol, 'Na fydded i chwi gymmeryd eich siglo yn y mater hwn gan unrhyw air yr haerir i ni ei ddywedyd, na chan unrhyw epistol yr honir i mi ei ysgrifenu.' Fod y naill a'r llall yn cael ei hôni gan rywrai yn eu plith, a ddangosir yn eglur gan y ffaith fod y brawddegau yn cael eu gosod yn gyfochrog âg "ysbryd" yr hwn yn sicr oedd yn gweithredu yn eu plith. Priodolid dywediadau ac epistol, i'r pwrpas hwn, i'r apostol. Fel hyn y dywed Chrysostom ar y mater:—"Ymddengys i mi ei fod yn awgrymu, fod rhywrai yn myned oddi amgylch gydag epistol ffugiol, gan hôni ei fod yn dyfod oddi wrth Paul; a chan ddangos hwn, haerent fod dydd yr Arglwydd eisoes wedi dyfod, ac y gallent dwyllo llawer." Pa mor annhebygol bynag y gall hyn ymddangos, o'r braidd y goddef y geiriau un eglurhâd arall. Cymmharer hefyd *pen.* iii. 17, a'r sylw a wnaethom yno. Barna rhai, mai cyfeiriad sydd yn y geiriau, "llythyr, megys oddi wrthym ni," at yr Epistol Cyntaf—ei fod wedi ei gamddeall trwy aneglurder amryw o ymadroddion a gynnwysir ynddo. Ond pe felly, y mae yn ddiammheu mai yr hyn a wnaethai yr apostol fuasai amlygu ei feddwl yn fwy eglur: ac ni buasai ar un cyfrif yn llwyr ymwrthod âg ef, ond yn ei egluro. *Fel pe bae dydd Crist yn gyfagos.*—Yn nghyfieithiad Alford, "Yn hysbysu fod dydd Crist wedi dyfod, neu 'yn bresennol' (nid 'yn gyfagos')." Mae y ferf a arferir yma yn digwydd chwe gwaith yn y Testament Newydd heb law yn yr adnod hon, a phob amser yn yr ystyr o 'fod yn bresennol.' Mewn dau o'r lleoedd hyny (*Rhyf.* viii. 38, a 1 *Cor.* iii. 22), y mae yn amlwg fod 'pethau presennol' yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth bethau i ddyfod. "Heb law hyn, gallwn ddyweyd, heb berygl rhyfygu, nas gallasai Paul ysgrifenu felly, ac nas gallasai yr Ysbryd Glân lefaru felly trwyddo ef. Yr hyn a ddysgid gan yr apostolion, a chan yr Ysbryd Glân, yn mhob oes, oedd, fod dydd yr Arglwydd yn agos. Ond tybiai y Thessaloniaid hyn ei fod eisoes wedi dyfod; ac am hyny yr oeddynt yn ymwrthod â'u galwedigaethau bydol, ac yn syrthio i arferion afreolaidd ereill, fel pe buasai dydd gras wedi darfod. Felly y dywed Chrysostom yn eglur:—"Y diafol, gan nas gallai eu perswadio hwynt fod yr hysbysiadau am bethau i ddyfod yn dwyllodrus, a gymmerodd ffordd arall: ac wedi hudo rhai personau terfysglyd i gredu celwydd, a wnaeth ymgais egniol i dwyllo y Thessaloniaid drwy eu perswadio hwynt fod y digwyddiadau mawrion a gogoneddus hyny wedi cymmeryd lle." Ar un adeg dywedent "ddarfod yr adgyfodiad eisoes:" ond yn yr amgylchiad hwn, haerent fod y farn wedi darfod eisoes, a thrwy hyny rhyddhaent y drygionus oddi wrth ofn cosbedigaeth, a diddyment obaith y duwiol am wobr yn y byd a ddaw. A'r hyn oedd yn waeth na'r cwbl, adroddai rhai o honynt ddywediadau i'r pwrpas hwn, gan ddywedyd mai Paul a'u llefarodd; a darllenai ereill epistolau ffugiol fel rhai wedi eu hysgrifenu ganddo ef. Ymddengys fod yr arferiad o ffugio cenadwr-

3 Na thwylled neb chwi mewn un modd: oblegid *ni ddaw y*

iaethau oddi wrth yr apostolion, mewn trefn i dwyllo y brodyr mewn rhanau pellenig i'w credu hwynt, wedi dechreu yn foreu iawn: *Act.* xv. 24. Felly hefyd y darfu i'r arferiad o ffugio daddguddiedigaethau yr Ysbryd: 2 *Pedr* ii. 1, ac 1 *Ioan* iv. 1.

3. *Na thwylled neb chwi mewn un modd.*—Nid yn unig mewn un o'r dulliau blaenorol, ond mewn un dull pa bynag. *O blegid* (*ni ddaw y dydd hwnw*). — Dodwyd y geiriau sydd yma rhwng cromfachau, y rhai sydd mewn llythyrenau Italaidd yn y cyfieithiad Cymraeg, i mewn gan y cyfieithwyr i wneuthur yr ystyr yn fwy eglur. Ymddengys nad ydoedd yr apostol yn coleddu un bwriad i'w dodi i mewn, gan eu bod yn ymgynnyg yn naturiol i feddwl y darllenydd. *Hyd oni ddel ymadawiad yn gyntaf.* —Yr "ymadawiad" yw y digwyddiad cyntaf a gymmer le cyn dyfodiad Crist i'r farn. Y mae bannod o flaen y gair yn y gwreiddiol, ac felly y mae yn dynodi fod hwn i fod yn ymadawiad mawr—"yr ymadawiad," mewn ffordd o hynodrwydd. Yr oedd efe wedi dyweyd wrthynt am dano, "pan oedd efe gyda hwynt:" gwel *adn.* 5. Sylwa Chandler fod y gair gwreiddiol am "ymadawiad" yn arwyddo gwrthryfel deiliaid yn erbyn prif awdurdod y wlad y maent yn byw ynddi; neu, wrthryfel milwyr yn erbyn eu cadfridog; neu, ysgariaeth gelynol un rhan o genedl oddi wrth ran arall. Ond yn yr Ysgrythyr y mae yn gyffredin yn arwyddo gwrthgiliad mawr cyhoeddus yn yr eglwys weledig oddi wrth y wir athrawiaeth, a gwir addoliad Duw (*Act.* xxi. 21, a *Heb.* iii. 12); a dyma ei ystyr yn yr adnod ger ein bron. Am hyny, dywed Paul, yn 1 *Tim.* iv. 1, wrth ragfynegu am yr ymadawiad hwn, "yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd:" ac y mae yn enwi y prif gyfeiliornadau oeddynt i gyfansoddi y gwrthgiliad hwnw; sef, "athrawiaethau cythreuliaid"—yr athrawiaeth yn mherthynas i allu a gweithrediadau angylion a saint ymadawedig mewn achosion dynol fel cyfryngwyr, ac yn mherthynas i'r addoliad sydd yn ddyledus iddynt o herwydd hyny; y gwaharddiad i briodi; y gorchymyn i ymattal rhag bwyta rhyw fathau neilduol o gig: tyngyd âg amryw arferion corphorol coelgrefyddol y rhai a orchymynid fel perfeithrwydd uchaf duwioldeb. Oddi wrth hyn, ymddengys nad oedd y gwrthgiliad a ragfynegir yma i fod yn gynnwysedig mewn llwyr ymwrthodiad â'r grefydd Gristionogol: ond mewn llygriad mawr o honi trwy athrawiaethau cyfeiliornus, eilunaddoliaeth, ac arferion drygionus ereill, tebyg i'r cyfeiliornadau a ddygwyd i mewn i'r Eglwys Iuddewig gan Ieroboam, yr hwn a orfododd y deg llwyth i addoli y gwir Dduw trwy gyfrwng delwau: ac yn debyg i'r llygredigaethau a ddygwyd i mewn gan Ahab a Manasseh, y rhai a gyssylltasant addoliad duwiau paganaidd âg addoliad y gwir Dduw."—*Mauknight.* "Y mae yn debygol fod Paul yma yn cyfeirio at brophwydoliaeth ein Hiachawdwr yn *Mat.* xxiv. 10—12."—*Alford. A dadguddio.*—Megys ag y dadguddiwyd Crist yn ei amser, felly hefyd y dadguddir Anghrist yn ei amser—dygir ef i oleuni: y mae yntau hefyd yn ddirgelwch i'w ddadblygu a'i arddangos: gwel *adn.* 8, 9. *Y dyn pechod.*—Dadguddiad "y dyn pechod," yr hwn yw gwreiddyn yr ymadawiad ydyw yr ail ddigwyddiad a gymmer le cyn dyfodiad Crist. A anlyn ydyw y sylwadau a wneir gan Smith ar y geiriau hynod hyn:—

'Y mae tri pherson hynod yn y darlun—Crist, Anghrist, a'r Attaliwr. Disgrifir Anghrist fel 'y dyn pechod,' 'mab y golledigaeth,' fel 'y gwrthwynebydd,' 'yr hwn sydd yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw,' ac yn ceisio gwneyd ei hun yn Dduw.' Yn mhellach yn mlaen, gelwir ef yn 'ddirgelwch yr anwiredd,' 'yr Anwir;' canys y mae yn amlwg mai at yr un gwrthddrych y cyfeirir. Lleferir am yr Attaliwr mewn un lle yn y rhyw gwrywaidd, fel person; mewn lle arall yn y canolryw, fel gallu neu ddylanwad. 'Y mae dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes.' Yn bresennol attelir ef gan yr Attaliwr; ond symmudir yr attalfa, ac yna fe dyr allan yn ei holl ffyrnigrwydd. Yna fe ymddengys Crist, dyfethir y gelyn âg ysbryd ei enau, a dileir ef gan ddisgleirdeb ei ddyfodiad. Coleddir llawer o wahanol syniadau gyda golwg ar y pethau hyn. Gan un dosbarth o esbonwyr cyfeirir hwynt at amgylchiadau a gymmerasant le o fewn cylch profiad yr apostol ei hun—digwyddiadau ei fywyd ef ei hun, neu y tymmor nesaf ar ol hyny. Ereill drachefn a edrychant arnynt fel rhagfynegiad am y digwyddiadau sydd i ragflaenu diwedd y byd. Y cyntaf o'r rhai hyn a dybiant fod 'y dyn pechod' yn cyfeirio at amryw o gymmeriadau hanesiol; sef, at Caligula, Nero, Titus, Simon Magus, Simon mab Giora, yr archoffeiriad Ananias, &c.: a chwiliant am wrthddrych hanesiol cyferbyniol i'r Attaliwr yn yr un modd. Y mae yr olaf wedi cyhoeddi amryw syniadau gyda golwg ar Anghrist—y gallu drygionus sydd eisoes yn gweithio yn ddirgelaidd. Yn ol barn nifer mawr o Brotestaniaid, y Babaeth a olygir yma: ond yn ol barn Eglwys Groeg, Mahometaniaeth ydyw. Ac yn yr un modd y mae pob cenhedlaeth a phob dosbarth yn yr eglwys wedi edrych arnynt fel prophwydoliaeth am y gallu neilduol hwnw a ymddangosai iddynt hwy, ac yn eu hamser hwy, yn fwyaf perglus i wir grefydd. Yn awr, wrth benderfynu rhwng y ddau ddosbarth hyn o esbonwyr, arweinir ni gan gyfattebiaeth prophwydoliaethau ereill, yn gystal a chan yr iaith a ddefnyddir yn yr adnodau hyn eu hunain, i gymmeryd cwrs canol. Nid oes un o honynt yn hollol gywir; ac etto, y mae y naill a'r llall yn gywir i raddau. Un o brif nodweddau prophwydoliaeth ydyw siarad am y dyfodol pell drwy y presennol a'r cyfagos. Y mae y personau a'r digwyddiadau sydd yn dyfod o dan sylw uniongyrchol y prophwyd ei hun i'w hystyried fel cysgodau a chynrychiolwyr o bersonau a digwyddiadau ereill yn mhell draw, nad oeddid etto yn gallu eu canfod yn eglur. Fel hyn, yr oedd yr hen brophwydi, wrth siarad am y waredigaeth oddi wrth orthrwm tymmorol yr Aipht a Babilon, yn siarad hefyd ar yr un pryd am deyrnas y Messiah. Fel hyn hefyd yr oedd ein Harglwydd ei hun, pan yn rhagfynegu y dynged oedd y pryd hwnw yn crogi uwch ben y ddinas sanctaidd. Cymmerai gipdrem ar y farn a fydd, fel y mae yn cael ei chysgodi a'i disgrifio yn hon; ac y mae y naill a'r llall wedi eu cymmysgu yn y fath fodd fel y mae yn ammhossibl gwahaniaethu rhyngddynt. Gan ddilyn y gyfattebiaeth hon, gallwn gyttuno â'r dosbarth cyntaf o esbonwyr, mai cyfeirio y mae Paul at ddigwyddiadau a gymmerasant le o fewn

dydd kwnw [b] hyd oni ddêl ymadawiad yn gyntaf, [c] a dadguddio y [c] Dan. 7.25; 1 Ioan 2. 18; Dad. 12. 11, &c.

[b] 2 Tim. 3. 1—3.

cylch ei brofiad ef ei hun; canys yn wir dywedir fod yr Attaliwr yn attal yn awr, a bod 'dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes;' tra ar yr un pryd y gallwn dderbyn golygiad y dosbarth olaf—mai disgrifio diwedd y byd y mae yr apostol, ac am hyny nad ydyw y brophwydoliaeth etto wedi derbyn ei chyflawniad mwyaf nodedig a chyflawn. Y mae yn fwy naturiol i ni dybied fod Paul yma, yn ol arfer pob prophwydoliaeth, yn cymmysgu y dadguddiad presennol a rhanol o farnau Duw â'r dadguddiad mawr terfynol a chyffredinol o'i farnau yn niwedd y byd: o herwydd y mae yn ymddangos ei fod yn golygu ei bod yn bossibl, neu hyd yn oed yn debygol, fod diwedd pob peth ger llaw: ac am hyny yr oedd yn naturiol iddo gymmysgu yr amlygiad neilldnol o anghrist yr oedd efe yn ei weled â'i lygaid ei hun â'r anghrist diweddaf, yn yr hwn y bydd i wrthwynebiad i'r efengyl gyrhaedd ei uchder mwyaf. Os ydyw y golygiad hwn yn gywir, y mae yn briodol i ni ymofyn pa wrthwynebydd neilldnol i'r efengyl, a pha ddylanwad attaliol neilldnol oedd gan Paul mewn golwg.....Yr unig ffordd i wybod hyn ydyw, gwneyd ymchwiliad i amgylchiadau bywyd yr apostol yn y tymmor hwn. Yn awr, yr ydym yn caei fod y prif wrthwynebiad i'r efengyl, ac yn enwedig i weinidogaeth Paul y pryd hwn, yn codi oddi wrth yr Iuddewon. Yr oedd yr Iuddewon wedi ffurfio bradwriaeth yn erbyn yr apostol a'i gymdeithion yn Thessalonica; ac mewn trefn i'w achub ei hun, bu raid iddo ddiange oddi yno yn ddirgelaidd. Oddi yno hwy a'i canlynasant ef i Berea; yr hon a adawodd efe yn frysiog yn yr un modd. Yn Corinth, hwy a'i herlidiasant ef yn mhellach fyth, gan godi gwaedd o fradwriaeth yn ei erbyn ef, a'i ddwyn o flaen y rhaglaw Rhufeinig. Y mae y digwyddiadau hyn yn egluro yr ymadroddion cryfion a ddefnyddir ganddo am danynt yn yr epistolau hyn:—'Y rhai a laddasant yr Arglwydd Iesu, a'u prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiasant ninnau ymaith; ac ydynt heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn pob dyn: canys digofaint Duw a ddaeth arnynt hyd yr eithaf;" 1 *Thes.* ii. 15, 16. Wrth ystyried y ffeithiau hyn, y mae yn ymddangos yn debygol, ar y cyfan, fod anghrist yn cael ei gynnrychioli mewn modd arbenig gan Iuddewiaeth. Gyda golwg prophwyd, rhagwelai yr apostol, wrth fyfyrio ar sefyllfa foesol a gwleidyddol y genedl, ddynesiant trychineb mawr a dinystriol. Ac nid ydyw yn annhebygol fod rhagfynegiadau ein Harglwydd am ddinystr Ierusalem o flaen meddwl yr apostol.....Yn gyfattebol i'r golygiad hwn ar anghrist, y mae yn debygol y byddwn yn gywir wrth olygu ymherodraeth Rhufain fel y gallu attaliol; canys felly y cymmerwyd ef gan lawer o'r tadau, er nad oeddynt yn deall ei gyssylltiad yn hollol. At gyfiawnder Rhufain, ac at ynadon Rhufain yr appeliai yr apostol y pryd hwn am amddiffyn rhag gelyniaeth yr Iuddewon. Yn Philippi, gwnaed esgusawd iddo am gamdriniaeth, ar gyfrif ei ddinasyddiaeth Rufeinig. Yn Thessalonica, cyfraith Rhufain a ddiogelodd chwareu teg iddo. Yn Corinth, rhyddhaodd y rhaglaw Rhufeinig ef yn ngwyneb y cyhuddiadau disail a ddygid yn ei erbyn gan yr Iuddewon. Ni ddaeth Rhufain yn wrthwynebydd i Gristionogaeth hyd amser Nero; ac yna, daeth hithau yn gysgod priodol o anghrist, a disgrifir hi gan Ioan fel y cyfryw. Pa un a oedd gwrthwynebiad yr Iuddewon i'r efengyl yn cynnwys yr hyn oll a feddyliai Paul wrth 'ddirgelwch yr anwiredd,' fel yr oedd efe yn ei weled yn 'gweithio eisoes' yn ei amser ef, neu a oedd elfenau ereill yn cael eu cymmysgu gyda hyn i gwblhau y drychfeddwl, y mae yn ammhossibl dyweyd." Ond yn erbyn y dybiaeth mai ymherodraeth Rhufain oedd 'yr hyn sydd yn attal,' dygir yn mlaen y ffaith fod y gallu hwnw wedi diflanu er's cannoedd o flynyddoedd, ac nad ydyw yr Arglwydd Iesu etto wedi ymddangos. Barna llawer mai y gallu Pabaidd ydyw 'y dyn pechod.' Ac nid oes un ammheuaeth nad oes llawer o debygolrwydd rhwng geiriau y brophwydoliaeth a gweithredoedd a phroffes y gallu hwnw. Ond, ar y llaw arall, y mae yn amlwg ei fod yn mhell o gyflawni y brophwydoliaeth mewn amryw o fanylion pwysig. Crybwyllir dwy gan Alford; un yn fewnol, a'r llall yn allanol:—'Nid ydyw y pab, ac ni ddarfu iddo erioed, gyflawni prif nodweddau y brophwydoliaeth sydd yn *adn.* 4. A chaniataw yr holl debygolrwydd nodedig sydd rhyngddo â'r rhan olaf o'r adnod, nis gellir byth ddangos ei fod yn cyflawni y rhan flaenaf. Iê, y mae mor bell oddi wrth wneyd hyny, fel y mae edmygedd o, ac ymostyngiad i 'bob peth,' a elwir yn Dduw, neu a addolir, wedi bod bob amser yn un o'i neilldnolion hynotaf. Y mae yr ail wrthddadl, yr hon sydd o gymmeriad allanol a hanesiol, hyd yn oed yn fwy penderfynol. Os y Babaeth ydyw anghrist, yna y mae wedi ei ddadguddio, ac wedi ei oddef am yn agos i 1,500 o flynyddoedd; ac etto nid yw dydd yr Arglwydd wedi dyfod, yr hwn, yn ol geiriau y brophwydoliaeth, sydd i ddigwydd yn ddioed ar ol y cyfryw ddadguddiad.' Gan hyny teimla Alford ei fod yn cael ei arwain yn anocheladwy i'r syniad canlynol:—'Nid ydyw yr 'anwir hwnw,' yn llawn ystyr y brophwydoliaeth, etto wedi dyfod. Er ein bod yn ddiweddarach o 1,800 o flynyddoedd, yr ydym yn sefyll, gyda golwg arno ef, lle y safai yr apostol. Nid ydyw dydd yr Arglwydd wedi dyfod, nac i ddyfod hyd nes y dadguddir 'y dyn pechod hwn.' Y mae 'dirgelwch yr anwiredd' yn gweithio etto, ac wedi myned yn mhell yn mlaen gyda'i waith: y mae 'yr hyn oedd yn attal' yn attal etto. A bydded i ni ofyn i ni ein hunain. Beth y mae hyn yn ei ddangos i ni? Onid ydyw yn dynodi sefyllfa yn yr hon y mae 'yr anwir hwnw' yn cario ei waith yn mlaen, mewn dull o siarad, o dan y'ddaear, o dan wyneb pethau—gan barhau i ennill, drwy yr holl oesoedd hyn, fwy o nerth, a gallu eangach, ond etto yn guddiedig ac yn wasgaredig? Ac oni allem edrych, yn ngwyneb cynnydd y cyfryw sefyllfa ar bethau, am lawer o gorphoriadau o'r anwiredd hwn—dynion anwir a phenrhydd, a llawer o anghristiau (*1 Ioan* ii. 18) yn ymgodi yma ac acw mewn gwahanol oesoedd a gwledydd—'yr ymadawiad' yn myned yn mlaen ac yn cynnyddu—yn gymmhwys fel yr oedd o Grist ei hun lawer o gysgodau a mân-gorphoriadau, cyn iddo ymddangos yn y cnawd? Fel hyn yr ydym yn gweled y Babaeth, lle y mae cynnifer o nodweddau y brophwydoliaeth wedi cydgyfarfod, fel pe bae hi yn fath o gorphoriad a chysgod sefydlog o'r anghrist diweddaf—yn ngeiriau nodedig Gregory Fawr, yn 'rhagredegwr anghrist.' Nero hefyd,

[d] Ioan 17. 12; Dad. 17 8, 11. [e] Dan. 8. 9—11. dyn pechod, [d] mab y golledigaeth: 4 Yr hwn sydd yn gwrthwynebu, [e] ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir; hyd onid yw efe megys [f] Duw, yn eistedd yn nheml [f] Ezec. 28. 6 Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw.

5 Onid cof genych chwi, [g] pan oeddwn i etto gyda chwi, ddy- [g] Ioan 16. 4; 2 Pedr 1. 15.

---

a phob erlidiwr fel y codai]: a Mahommed, a Napoleon, a llawer o ffurfiau ereill o ddrygioni, oeddynt yn gysgodau ac yn esamplau ereill mwy difiandedig o hono. Gallwn, gan ddilyn y gyffelybiaeth, gyferbynu y Babaeth, fel cysgod o anghrist, yn meddu ei thwylloffeiriadaeth, ei ffugaberthau, a'i 'Harglwydd Dduw' y pab, â'r llywodraeth Iuddewig sefydlog a appwytiwyd gan Dduw, a'i harch-offeiriadaeth, drwy yr hon y rhag-gysgodid ein Harglwydd Iesu Grist.....Gan hyny, yn ol y golygiad hwn, yr ydym etto yn disgwyl am 'y dyn pechod,' yn nghyflawnder ystyr y brophwydoliaeth, i ymddangos, a hyny yn ddioed cyn dyfodiad yr Arglwydd. Yr ydym yn disgwyl am dano ef fel y corphoriad olaf o'r 'anwiredd' hwnw—y gwrthwynebiad hwnw i Dduw, a chyfraith Duw, yr hwn sydd wedi bod am lawer o ganrifoedd yn ymweithio o dan gaenen y gymdeithas ddynol, ac o'r hwn yr ydym eisoes wedi gweled cynnifer o fân ffrwydriadau. Pa un a ydyw i'w ddisgwyl yn bersonol, fel un corphoriad personol o ddrwg, ni fynem gymmeryd arnom benderfynu: etto ni fynem anghofio, fod yr hen esboniadau, a hanes y byd, yn cyfeirio y ffordd yma. Y mae bron pob symmudiad mawr, er da neu er drwg, wedi ei ddwyn i ben gan un gweithredydd pennodol fel arweinydd. Ac nid oes genym un lle i dybied y bydd yn wahanol yn yr oesoedd dyfodol.....Y mae yr amser y cymmer hyn le mor guddiedig oddi wrthym ni ag oedd oddi wrth yr apostolion eu hunain. Gellir cymmeryd hyn, ar un llaw, fel cymmhelliad i wyliadwriaeth a sobrwydd: tra ar y llaw arall, ni ddylem anghofio fod amser yn ein dwyn yn nes yn barhaus at y cyflawniad: a bydded i hyn ein cadw yn effrc ac yn wyliadwrus, fel gweision yn disgwyl dyfodiad eu Harglwydd. Ni ddylem gymmeryd eiu dychrynu gan bob peth; na thybied mai y corphoriad olaf ydyw pob corphoriad o bechod, neu mai 'yr ymadawiad mawr' ydyw pob gwrthgiliad; ond dylem ystyried ac iawn farnu pob peth, yn nerth Crist, gan yr hwn y barnwyd tywysog y byd hwn; fel pa bryd bynag y daw yr Arglwydd y bydd iddo ein cael ni yn barod—yn barod i sefyll o'i blaid ef yn erbyn hyd yn oed y cydgasgliad olaf o'i wrthwynebwyr—yn barod, mewn cymdeithas feunyddiol âg ef, ac ufudd-dod iddo, i longyfarch ei ymddangosiad gyda llawenydd." *Mab y golledigaeth.*—Arferir yr ymadrodd hwn yn *Ioan* xvii. 12, am Iudas. Ymddengys ei fod yn cyfeirio yma at anghrist ei hun, hanfod ac etifeddiaeth yr hwn ydyw "colledigaeth," ac nid at ei ddylanwad ar ereill.

4. *Yr hwn sydd yn gwrthwynebu.*—"Yr hwn" ydyw yr anghrist, a'r hwn a wrthwynebir ganddo ydyw Crist; 1 *Ioan* ii. 18. *Yn ymddyrchafu.*—Mewn ystyr gelynol neu wrthwynebol i Grist. *Pob peth a elwir yn Dduw.*—Cynnwysa yr ymadrodd hwn y gwir Dduw, yn gystal a gau-dduwiau y paganiaid; ond y mae "a elwir" yn chwaneg-iad naturiol, yn codi oddi ar ochelgarwch Cristionogol; gan y buasai y geiriau "pob Duw" yn ddiystyr, ac yn wir gableddus i'w arfer gan Gristion.—*Lanimann.* Cymmharer yr ymadrodd cyffelyb a welir yn 1 *Cor.* viii. 5. *Neu a addolir.*—Cymmharer y geiriau cyffelyb sydd yn *Dan.* xi. 36, 37. Yn ol barn Alford, mis gellir cyflawni y geiriau hyn gan un dyn; yr hwn, fel y pab, sydd yn creu gwrthddrychau addoliad, a thrwy hyny (trwy gasgliad yn unig) yn gwneuthur ei hun yn fwy na'r gwrthddrychau a grëir ganddo. Ond rhaid i'r anghrist osod ei HUN i fyny fel gwrthddrych addoliad, goruwch, ac fel un rhagorach na "phob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir." *Yn eistedd yn nheml Duw.*—Casgla rhai esbonwyr, oddi wrth fanylrwydd yr ymadrodd, "eistedd yn nheml Duw," mai y deml yn Ierusalem a olygir wrth y deml hon. Ond y mae hwn yn gasgliad hollol afresymol. Defnyddir "teml Dduw" yn gyffelybiaethol gan Paul yn 1 *Cor.* iii. 17: ac y mae yn dra thebygol, os nad yn sicr, mai felly yr arferir ef yma. Gwel hefyd i *Cor.* vi. 16, a *Eph.* ii. 21. Y mae yn amlwg oddi wrth yr adnodau hyn fod yr apostol yn gydnabyddus â'r cyfryw ystyr cyffelybiaethol. Ac os felly, nid ydyw yr "eistedd" yn gwneyd un anhawsder. Y mae yn cael ei arfer yn amlach fyth mewn ystyr cyffelybiaethol, i ddynodi un yn meddiannu lle o awdurdod, yn eistedd fel barnwr neu lywiawdwr. Gwel 1 *Cor.* vi. 4; *Mat.* xxiii. 2; at y rhai yn wir y gallem chwanegu y lliaws adnodau lle y dywedir fod ein Harglwydd yn eistedd ar ddeheulaw Duw: er enghraifft, *Heb.* i. 3; viii. 1; x. 12; xii. 2'; a *Dad.* iii. 21. Gellir rhoddi gwahanol ystyron i'r manylion a gynnwysir yn yr adnod hon, yn ol fel y cymmerir yr "anwir" i ddynodi person, neu ddosbarth o bersonau; ond tueddir Alford i'w gymmeryd yn llythyrenol i ddynodi person, yn dywedyd y pethau hyn am dano ei hun, ac yn eistedd fel y disgrifir ef yn nheml Duw, yr hon yma sydd yn arwyddo addoldy Cristionogol—ymgynnullfan y rhai hyny sydd yn disgwyl cyflawniad o'r addewid am bresennoldeb Duw, ac a elwir o herwydd hyny yn deml Dduw. Barna Macknight fod "eisteddiad y dyn pechod" yn nheml Dduw yn arwyddo ei waith yn parhau i gadw meddiant o'i awdurdod drawsfeddiannedig am amser maith; ei fod yn Gristion mewn proffes, ac y bydd yn arfer ei awdurdod drawsfeddiannedig yn yr Eglwys Gristionogol. Sylwa Bochart na ddarfu i'r apostolion, byth ar ol marwolaeth Crist, alw y deml yn Ierusalem yn "deml Duw;" ond bob tro yr arferent yr ymadrodd hwnw, cyfeirient bob amser at yr Eglwys Gristionogol: 1 *Tim.* iii. 15; 1 *Cor.* vii. 19; 2 *Cor.* vi. 16; *Eph.* ii. 19—24. *Ac yn ei ddangos ei hun.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn dynodi, nid yn unig ei fod yn ceisio dangos ei hun, ond mai ei arfer a'i swydd ydyw dangos ei hun fel Duw. *Mai Duw ydyw.*—Nid unrhyw fath o ddiw: ond y mae y gair yn arwyddo ei fod yn hawlio urddas dwyfol arbenig iddo ei hun. Ar y gair "ydyw" y dylid rhoddi y pwyslais—"gan ddangos ei hun mai Duw ydyw." "Haeriad cryf a beiddgar 'yr anwir' am dano ei hun ydyw yr ymadrodd hwn. Nid ydyw yn dyweyd mai efe yw Duw, Creawdwr nefoedd a daear; ond etto, yn Dduw uwch law pob un arall a elwir yn dduw."—*Bengel.*

5. *Onid cof genych chwi,* &c.—Gellir edrych ar

wedyd o honof y pethau hyn i chwi ?

6 Ac yr awrhon chwi a wyddyr adnod hon fel math o gerydd tyner i'r Thessaloniaid. Fel pe dywedasai yr apostol, 'Pe buasech chwi yn cofio ddywedyd o honof y pethau hyn i chwi, pan oeddwn yn llafurio yn eich plith, ni buasech yn cymmeryd eich siglo mor rwydd gan y gau-athrawon.'

6. *Ac yr awrhon.*—Nid yr "awrhon" o ran amser, ond mewn ffordd o ymresymiad, fel yn 1 *Cor.* iii. 13; ac felly y meddwl ydyw, "gan ein bod yn gweled mai fel hyn y mae pethau yn bod." *Chwi a wyddoch yr hyn sydd yn attal.* — "Yr hyn" yma ydyw "y dyn pechod." Barna Alford mai y rhwystr cyffredinol i'r efengyl a olygir yma, a bod "yr hwn" yn yr adnod nesaf yn cyfeirio at y person yn yr hwn y mae y rhwystr hwnw wedi ymgorphori. Y mae efe yn credu fod y Babaeth yn cael ei chynnwys yn y rhwystr hwn, neu yn cyfansoddi rhan arbenig o hono, fel y gwelir oddi wrth y dyfyniad canlynol:—"Fel y cymmerodd y tadau y geiriau am ymherodraeth ac ymherawdwr Rhufain, yn sefyll ac yn llywodraethu yn eu hamser, gan ddarostwng toriad allan pechod a gweithredoedd ysgeler—felly yr ydym wedi cael ein dysgu gan hanesiaeth i eangu y golygiad hwn, ac i ddeall eu bod yn golygu llywodraeth ddynol, a'r rhai sydd yn gweinyddu y llywodraeth hono, drwy yr hyn y cedwir i lawr, ac yr attelir ymdoriad mawr annuwioldeb allan. Dysgwyd, hyn i ni, meddaf, gan hanesiaeth. Yr ydym yn gweled mor aml y mae yr ymdoriadau hyn wedi cymmeryd lle, fod eu cwrs a'u difrodiadau wedi eu hattal gan ail ymffurfiad y gallu tymmorol hwn; fod y gallu hwn, lle bynag y mae hadau drygioni helaethaf, yn allu hollol orfodol, ac mai yn y gwledydd hyny lle y mwynheir goleuni a rhyddid yr efengyl yn unig y ceir ei law attaliol: ac yn enwedig fod y gallu tymmorol hwn wedi bod bob amser yn ymdrechu yn erbyn y Babaeth, gan attal ei honiadau, newid cwrs ei gweithrediadau, ac yn tystio, i raddau mwy neu lai, yn erbyn ei gorthrwm a'i chyfeiliornadau."

7. *Canys.*—Y mae yr apostol yma yn rhoddi rheswm dros yr haeriad a wnaed ganddo yn yr adnod o'r blaen, mai mewn amser dyfodol y cyflawn ddadguddir "yr hyn sydd yn attal." *Dirgelwch yr anwiredd.* — Y mae y "dirgelwch" yma i'w ystyried yn gyferbyniol i "ddadguddiad y dyn pechod;" ac y mae yn arwyddo anwiredd yn gweithredu yn ddirgel; ac etto heb ddyfod i'r amlwg yn gyflawn. "Y mae yr 'anwiredd' wedi bod bob amser yn gweithio, ac yn parhau i weithio, mewn lleoedd dirgel; ac nid ydyw ond yn unig yn disgwyl symmudiad y gallu attaliol i'w alluogi i ymgrynhoi ac i'w amlygu ei hun yn 'yr anwir hwnw,' yr hwn a ragfaena 'amser y diwedd'"—*Alford.* "Os cymmharwn ni 1 *Tim.* ii. 16, gwelir fod Crist yn cael ei alw yno yn 'ddirgelwch duwioldeb,' a hyny hefyd am fod Duw ynddo ef wedi "ymddangos yn y cnawd." Gan hyny, yn unol â'r gyfattebiaeth sydd rhwng Crist a'r anghrist, ni chamgymmerem pe dywedem fod Paul yma yn galw anghrist yn 'ddirgelwch anwiredd,' o herwydd fod y diafol yn gweithredu trwy ddynion. Megys y mae yr Ysgrythyrau sanctaidd yn llefaru am 'ddyfnion bethau Duw' (1 *Cor* ii. 10), felly hefyd y maent yn sôn am 'ddyfnderau Satan' (*Dad.* ii. 24). Ond yn och yr hyn sydd yn attal, fel y [s] 1 Tim. 2. 16; Dad. 17. 5, 7.

7 Canys [s] y mae dirgelwch yr anffodus, y mae y rhai hyn yn guddiedig hyd yn oed i'r dyn annuwiol ei hun: etto yn ymddangosiad Anghrist, dadguddir y 'dyfnderau' hyn o eiddo Satan, fel y dadguddiwyd 'dyfnion bethau Duw' yn Nghrist a'i ymddangosiad. Y mae yr ymofynydd craffus yn canfod, yn holl hanes y byd, amlygiadau diammheuol o weithgarwch Satan, drygioni yr hwn sydd yn awr yn amlygu ei hun yn y ffurf yma, a phryd arall mewn ffurf arall; ond fe ddaw yr amser pan y cydgesglir yr holl ffurfiau hyn, ac yr ymddangosant yn eu heithafoedd mwyaf yn yr anghrist fel corpholiad gwirioneddol o Satan."—*Olshausen.* "Er fod Paul yma yn trosglwyddo y drychfeddwl o ddull dir el o weithio, etto y mae wedi arfer y gair 'dirgelwch' yn hytrach nag un gair arall, gan gyfeirio at ddirgelwch yr iachawdwriaeth, am yr hon y mae yn llefaru mewn lle arall (*Col.* i. 26): canys y prif bwngc sydd ganddo yma mewn llaw ydyw dangos yr ymdrechfa fawr, yr hon oedd eisoes wedi dechreu rhwng Mab Duw a 'mab y golledigaeth.'"—*Calvin. Yn gweithio eisoes.*—Y mae y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma "gweithio," yn arwyddo gweithio oddi mewn, neu yn ddirgel. "Meddwl yr apostol ydyw, fod yr athrawiaethau cyfeiliornus, a'r arferion llygredig, y rhai a gynnyddent yn ddirfawr mewn amser dyfodol drwy offerynoliaeth y personau a enwir ganddo 'y dyn pechod,' eisoes yn gweithio yn ddirgel yn y gau-athrawon, y rhai oeddynt y pryd hwnw yn poeni yr eglwys. Gan hyny, yn ei gyfarchiad i henuriaid Ephesus, yn fuan ar ol ysgrifenu yr epistol hwn, efe a ddywedodd wrthynt, 'Canys myfi a wn hyn, y daw, ar ol fy ymadawiad i, fleiddiau blinion i'ch plith, heb arbed y praidd. Ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwŷr, yn llefaru pethau gŵyrdraws, i dynu dysgyblion ar eu hol;' *Act.* xx. 29, 30. A chyn iddo ysgrifenu ei Epistol at y Colossiaid, yr oedd gau-athrawon wedi ymgodi yn Phrygia, y rhai a daer gymmhellent addoliad angylion, ac ymwrthodiad â phob math o gig-fwyd, a marweiddiad corphorol, yn ol traddodiadau, gorchymynion, ac athrawiaethau dynion. Canys fe ysgrifenodd yr apostol yr epistol hwnw yn bendant i'r dyben o gondemnio yr arferion eilun-addolgar a choelgrefyddol hyn. Yn awr, yr hyn sydd yn dra hynod, fyrarferion eilun-addolgar a choelgrefyddol nyn, ynghyd â'r athrawiaethau ar y rhai yr oeddynt wedi eu sylfaenu, a esgorasant, mewn oesoedd dilynol, ar addoliad seintiau, ympryd-iau, penydiau, mynachaeth, ac anweddogaeth y clerigwyr."—*Macknight.* "Yn yr un ystyr, fe ddywed Ioan, y daw anghrist, ond bod eisoes lawer o anghristiau yn ei amser ef: *Ioan* ii. 18. Canys y mae yn rhybuddio y rhai oeddynt yn byw y pryd hwnw i fod ar eu gwyliadwriaeth yn erbyn yr haint angeuol hwnw, yr hwn oedd y pryd hwnw yn dechreu ymddangos mewn gwahanol ffurfiau Canys yr oedd sectau yn ymgodi, y rhai oedd hadau y chwyn gwenwynig hyny a wnaethant y fath niwed i egiwys Dduw."—*Calvin. Yn unig yr hwn sydd yr awrhon yn attal, a ettyl nes ei dynu ymaith.*—Arferir yr ymadrodd hwn am unrhyw berson neu beth a gymmerir allan o'r ffordd, pa un bynag ai trwy angeu neu ryw symmudiad arall. Meddwl Paul yma, medd Olshausen, ydyw, "Y mae dirgelwch yr anwiredd

[a] Mat. 13. 19, 38; 1 Ioan 2. 13, 14; 5. 18, 19.

anwiredd yn gweithio eisoes: yn unig yr hwn sydd yr awr hon yn attal, *a ettyl* nes ei dynu ymaith.
8 Ac yna [b] y dadguddir yr An-

[b] Dan. 7. 10, 11, 26; Dad. 13. 8, —1; 20. 19.

yn gweithio eisoes—y mae mewn gweithrediad eisoes; nid oes dim yn rhwystro ei ddadguddiad yn awr, ond yn unig yr hwn sydd yn ei attal; nis gall ymddangos yn ei lawn nerth hyd nes y symmudir yr hwn sydd yn ei attal o'r ffordd. Ond pan symmudir ef, yna dadguddir 'yr anwir hwnw' yn ddioed." Barna Macknight mai yr ystyr yw, fod dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes yn ddirgel, ac y pery i weithio felly hyd nes y symmudir yr hwn sydd yn ei attal o'r ffordd; ac yna y daw i weithio yn amlwg a chyhoeddus, a chyda nerth mawr, yn ei liw a'i gymeriad ei hun. Tybia Alford, fel y sylwyd uchod, mai "yr hwn sydd yn attal" ydyw y gallu gwladol, yr hwn sydd yn awr yn attal dynion rhag cyflawni llawer o bechodau ysgeler, y rhai y buasent yn eu cyflawni oni bae rhag ofn cael eu cospi ganddo. Os derbynir y golygiad hwn, rhaid i ni gredu y dinystrir y gallu gwladol i'r fath raddau pan "ddadguddir yr anwir hwnw," nes y bydd aflywodraeth arswydus, troseddau dychrynllyd, a phob math o gyfeiliornadau dinystriol, yn llenwi y byd. Barna ereill, mai gallu Duw yn ei ragluniaeth ydyw, yn attal pechod rhag ymdori allan gyda rhwysg mawr; ac y bydd i'r Arglwydd, pan ddel yr adeg i ddadguddio "y dyn pechod," "dynu ymaith" ddylanwad attaliol ei Ysbryd, a gadael i bechod ymdori allan ac ymledu dros y byd gyda nerth digyffelyb, nes y bydd y ddaear wedi myned yn fath o uffern; ac yna daw y diwedd. Beth bynag yw, y mae yn amlwg ei fod yn rhyw allu daionus, gan ei fod yn attal pechod; ac y mae *adn.* 7 yn rhoddi ar ddeall ei fod wedi dyweyd pa beth oedd efe wrth y Thessaloniaid, pan yn llafurio yn eu mysg: ond ni welodd yn dda ddyweyd hyny yn ei epistol.

8. *Ac yna.*—Wedi i'r hwn sydd yn attal gael ei symmud ymaith. Y mae yn amlwg y dylid rhoddi pwyslais neillduol ar y gair "yna." *Y dadguddir yr anwir hwnw.*—Yr un person ag "ef" yn *adn.* 6; sef, "y dyn pechod." Fel y sylwyd uchod, rhaid fod dadguddiad y dyn pechod, yn arwyddo na byddai iddo rwyach weithio yn ddirgelaidd, ond y dangosai yn gyhoeddus ei fod yn meddu y cymmeriad, a chyflawni y gweithredoedd a briodolir i'r "dyn pechod" yn *adn.* 4. *Yr hwn a ddyfetha.*—Nid ei amddifadu o'i ddylanwad a wneir, fel y tybia Olshausen; ond llwyr ddiddymir ef. *Ag ysbryd ei enau.*—Yn ol y gwreiddiol, "anadl," ac nid "ysbryd," a ddylasai fod yma. Gan mai y genau ydyw yr offeryn trwy yr hwn y ffurfir geiriau, o anadl neu awyr wedi ei chwythu o'r ysgyfaint, y mae "anadl ei enau" yn ymadrodd ffugrol priodol i ddynodi pregethiad y wir athrawiaeth. Tybia Calvin fod Paul yma yn cyfeirio at brophwydoliaeth Esaiah: "Ag anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir" (xi. 4); lle y mae y prophwyd yn cymmeryd "gwialen ei enau" ac "anadl ei wefusau" yn yr un ystyr, ac y mae yn rhoddi ar ddeall fod Crist yn defnyddio yr arfau hyn i ddyfetha ei elynion. *A disgleirdeb ei ddyfodiad.*—Neu, yn ol cyfeithiad diweddaraf Alford, "âg ymddangosiad ei ddyfodiad." "Y mae ymddangosiad ei ddyfodiad yn flaenorol iddo, neu beth bynag yn ymddisgleiriad cyntaf o hono." —*Bengel.* Bydd cysgod ei ddyfodiad yn ddigon i'w ddyfetha.

wir *hwnw*,[1] yr hwn a ddyfetha yr Arglwydd âg ysbryd ei enau, ac a ddiläa â disgleirdeb ei ddyfodiad:
9 *Sef* yr hwn y mae ei ddyfod-

[1] Dan. 7. 10, 11, 26; Dad. 13. 8, —1; 20. 19.

9. *Sef yr hwn.*—Y mae "yr hwn" yma yn cyfeirio at "yr hwn" yn yr adnod o'r blaen, sef "yr anwir hwnw." Y mae yr apostol yn myned yn ol o ran amser i ddisgrifio natur neu nodwedd ei weithrediadau. *Y mae ei ddyfodiad.*—Nid ydyw yr amser presennol yn cael ei arfer yma am y dyfodol, ac nid ydyw yr apostol chwaith yn cymmeryd ei safle yn yr amser y mae yn prophwydo am dano; ond y mae yn disgrifio priodoleddau hanfodol yn mhob oes. Y mae "dadguddiad" y dyn pechod yn cael ei alw yma yn ddyfodiad, mewn cyferbyniad i ddyfodiad Crist. *Yn ol gweithrediad Satan.*—Y cyfryw ag y gallesid ei ddisgwyl oddi wrth, neu yn cyfatteb i, weithrediad Satan; gan mai Satan sydd yn gweithredu yn "yr anwir hwnw." "Y mae yr apostol yma yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd ganddo trwy ymresymiad oddi wrth gyferbyniad. Canys megys nas gall yr Anghrist sefyll ond yn unig trwy dwyll Satan, felly rhaid iddo o angenrheidrwydd ddiflanu y munyd yr ymddengys Crist yn ei ogoniant. Gan mai mewn tywyllwch yn unig y mae yn teyrnasu, y mae gwawriad y dydd yn gwasgaru ac yn dileu tywyllwch dudew ei deyrnasiad. Yr ydym yn awr yn gweled beth oedd amcan Paul; canys ei feddwl oedd na theimlai Crist un anhawsder i ddinystrio gorthrwm Anghrist, yr hwn nid ydyw yn cael ei gynnal ond gan adnoddau Satan yn unig." — *Calvin.* "Megys y rhoddodd y Tad bob awdurdod i Grist y Mab, ac y dyrchafodd ef i eistedd ar ei orseddfaingc (*Dad.* iii. 21), felly hefyd y mae Satan yn ei efelychu trwy roddi ei holl allu i Anghrist, ei anwyl fab."—*Olshausen.* "Megys y mae Crist yn perthyn i Dduw, felly, yn y gwrthwyneb, y mae Anghrist i Satan—yn sefyll rhwng Satan a dynion colledig."—*Bengel. Gyda phob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau.*—Y mae y gair "pob" a "gau" yn perthyn i'r tri sylweddair; ac felly y meddwl yw, amlygir ei weithrediad, neu y mae yn gynnwysedig yn mhob math o gau alluoedd, pob math o gau arwyddion, a phob math o gau ryfeddodau. Twyll ydyw sylfaen, twyll ydyw hanfod, a thwyllo ydyw amcan ei holl weithrediadau. "Y mae yr apostol yma yn enwi yr arwyddion trwy ba rai y gellir adnabod 'yr anwir hwnw.' Canys wedi crybwyll am weithrediad Satan, y mae yn ei nodi allan yn fwy neillduol, pan y dywed 'gyda phob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau.' Ac mewn trefn i hyn fod yn wrthwynebol i deyrnas Crist, rhaid iddo fod yn gynnwysedig mewn rhan mewn gau-athrawiaeth a chyfeiliornadau, ac mewn rhan mewn gau wyrthiau. Canys y mae teyrnas Crist yn gynnwysedig o'r wir athrawiaeth, a gallu yr Ysbryd. Am hyny, y mae Satan, gyda'r amcan o wrthwynebu Crist yn mherson ei ficer, yn ymddangos yn ngwisg Crist, tra y mae efe ar yr un pryd yn dewis arfogaeth â'r hon y gall yn unionyrchol wrthwynebu Crist. Y mae Crist, trwy athrawiaeth yr efengyl, yn goleuo ein meddyliau ynghylch bywyd tragwyddol; y mae Anghrist, wedi ei ddwyn i fyny o dan addysg Satan, yn dinystrio dynion trwy athrawiaethau cyfeiliornus: y mae Crist, trwy nerth ei Ysbryd, yn dwyn dynion i afael âg iachawdwriaeth, ac yn selio ei efengyl â gwyrthiau; y mae y gwrth-

[*] Ioan 8. 41, 44; Act. 8. 9—11; 2 Cor. 4. 4; Eph. 2. 2.

iad [k]yn ol gweithrediad Satan, gyda phob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau,

10 A phob dichell anghyfiawnder yn y rhai colledig; am na dderbyniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig.

[k] Ioan 8. 44.

11 Ac am hyny [l]y denfyn Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn, [m]fel y credont gelwydd:

[l] 1 Bren. 22. 18—22; Ezec. 14. 9. [m] Esa. 44. 20; Ier. 27. 10; Ezec. 21. 29.

12 Fel y barner yr holl rai nid oeddynt yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawnder.

wynebwr, trwy weithrediad Satan, yn ein dyeithro oddi wrth yr Ysbryd Glân, a thrwy ei hudoliaethau yn cadarnhau dynion truenus mewn cyfeiliornadau."—*Calvin.*

10. *A phob dichell anghyfiawnder.*—Y moddion a ddefnyddir gan "y dyn pechod" i gario ei waith yn mlaen ydyw cadw dynion mewn pob anghyfiawnder a drygioni, a'u maethu a'u magu ynddynt. Anwir ydyw efe ei hun; anwiredd yw ei athrawiaeth: cadw a maethu dynion mewn anwiredd ac anghyfiawnder yw ei ddyben. *Yn y rhai colledig.*—Yn ol cyfeithiad Alford, "i'r rhai:" felly y meddwl ydyw, fod ei weithiau dichellgar yn tueddu i ddinystrio y "rhai colledig," neu y rhai sydd ar y ffordd i golledigaeth. "Y mae yr apostol yn cyfyngu gallu Satan, trwy roddi ar ddeall nas gall niweidio y duwiolion, yn union fel y mae Crist befyd yn dywedyd nad ydynt yn agored i'r perygl hwn: *Mat.* xxiv. 24. Ymddengys oddi wrth hyn mai trwy oddefiad yn unig y mae Satan yn arfer ei allu. Yn awr, yr oedd y cysur hwn yn angenrheidiol. Canys oni bae hyn, o angenrheidrwydd gorchfygid yr holl saint gan ofn, wrth weled y fath berygl yn yr holl lwybr ar hyd yr hwn y rhaid iddynt rodio. O herwydd hyn, pa mor wyliadwrus bynag yr ewyllysiai iddynt fod, rhag iddynt trwy ddiofalwch wrthgilio, ïe, hyd yn oed dafiu eu hunain i ddinystr, er hyny, dymunai iddynt goledd gobaith da, yn gymmaint a bod gallu Satan wedi ei ffrwyno yn y fath fodd fel nas gall ddwyn neb ond y drygionus i ddinystr."—*Calvin. Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd.*—Pa ham y demnir y rhai y cyfeirir atynt yma? Nid trwy ordeiniad penarglwyddiaethol Duw, ond fel cospedigaeth arnynt "am na dderbyniasant gariad y gwirionedd," pan gynnygiwyd ef iddynt. Defnyddir y "gwirionedd" yma yn gyferbyniol i'r twyll sydd yn nodweddu holl weithrediadau "y dyn pechod." "Rhag i'r drygionus gwyno eu bod yn dioddef ar gam, a'u bod wedi eu happwyntio i ddinystr, yn hytrach oddi ar greulondeb yn Nuw, nag o herwydd un bai ynddynt hwy, dengys Paul ar ba sail y gweinyddir y fath gospedigaeth lem arnynt—am na dderbyniasant y gwirionedd pan bregethwyd ef iddynt yn y tymmer meddwl y dylasent: îe, mwy, am eu bod yn wirfoddol wedi gwrthod iachawdwriaeth. Ac oddi wrth hyn, ymddengys yr hyn a ddywedais eisoes yn fwy eglur—fod yn rhaid i'r efengyl gael ei phregethu trwy'r byd cyn y rhoddai Duw y fath gariatâd i Satan; canys ni oddefai efe byth i'w deml gael ei halogi mor fawr, oni bae fod ei ddigofaint wedi ei ennyn gan fawredd drygioni dynion. Mewn gair, dywed Paul mai gweinidog cyfiawn dialeddd Duw fydd Anghrist ar y rhai a wrthodant iachawdwriaeth yr efengyl, ar ol cael cynnygiad o honi; ac wedi ymroddi i fyw yn annuwiol, ac i lyngcu pob math o gyfeiliornadau dinystriol. O herwydd hyn, nid oes un grym yn yr wrthddadl a godir gan y Pabyddion, ei bod yn anghysson â thrugaredd Crist i wrthod ei eglwys yn y dull hwn. Canys er fod teyrnasiad Anghrist wedi bod yn greulawn, ni chollir neb ond y rhai a haeddant eu colli—Ie, mwy, a ddewisant farwolaeth yn wirfoddol."—*Calvin. Fel y byddent gadwedig.*—Pe buasent yn derbyn y gwirionedd yn y cariad o hono, buasai yn foddion cadwedigaeth iddynt.

11. *Ac am hyny:—h.y.*, am na dderbyniasant gariad y gwirionedd. *Y denfyn Duw:*—neu yn ol Alford, "y mae Duw yn danfon." Y mae y ferf yn yr amser presennol; o herwydd fod dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes. Barna Macknight mai yr hyn a feddylir yma yw, nid fod yr Arglwydd yn ei anfon yn weithredol, ond yn unig ei fod yn goddef i gyfeiliornadau weithredu yn nerthol yn eu calonau; a'r rheswm a roddir ganddo dros y syniad hwn yw, nad ydyw y berfau Hebraeg sydd yn dynodi gweithrediad, yn cael eu harfer i amlygu y cyflawniad o weithred, ond yn unig y goddefiad o honi. Ond dywed Alford na ddylid am funyd ddeall yr anfoniad hwn am oddefiad yn unig; ond mai Duw ei hun mewn gwirionedd sydd yn ei anfon fel barn gyfiawn arnynt am na dderbyniasant y gwirionedd yn y cariad o hono pan bregethwyd ef iddynt. *Amryfusedd cadarn:—h.y.*, nerthol weithrediad cyfeiliornad. Cyfieithir y gair yn *Eph.* iii. 7, "grymus weithrediad:" yn *Eph.* iv. 16, "nerthol weithrediad:" yn *Col.* i. 29, "yn ol ei weithrediad ef." Arwydda weithrediad ïe y mae nerth a gallu yn cael ei arfer. Yr un ystyr sydd i'r gair yn *adn.* 9 o'r bennod hon, "gweithrediad Satan," at yr hyn y cyfeirir yma. Y meddwl ydyw, mai "gweithrediad twyll" sydd yn peri i'r holl ddylanwadau hudoliaethus hyn weithio yn eu plith hwynt. Y mae y cyfieithiad Cymraeg wedi gwanhau, os nad andwyo y frawddeg, trwy gyfieithu y geiriau hyn yn "amryfusedd cadarn;" hyny yw, y sefyllfa oddefol, fel effaith, yn lle fel yr achos gweithredol o honi. *Fel y credont gelwydd:—h.y.*, y celwydd a weithredir gan "ddirgelwch yr anwiredd" yn eu plith hwy. "Meddwl yr apostol yma ydyw, nid yn unig y bydd i'r rhai drygionus lyngcu pob math o gyfeiliornadau, ond y dallir eu meddyliau i'r fath raddau fel y rhuthrant yn mlaen mewn anystyriaeth i ddinystr."—*Calvin.* "Nid ydyw y gair 'celwydd' yn cyfeirio at un celwydd pennodol; ond yn hytrach yn dynodi elfen y celwydd, yn gyferbyniol i'r gwirionedd."—*Olshausen.*

12. *Fel y barner:*—hyny yw, fel, yn ol bwriad Duw, y condemnier y rhai drygionus; neu fel y derbyniont gyfiawn gospedigaeth am eu hannuwioldeb. "Fel hyn ni bydd gan y colledigion un sail deg i ymddadleu â Duw, gan eu bod wedi cael yr hyn a geisient. Canys rhaid i ni gadw mewn golwg yr hyn a ddywedir yn *Deut.* xiii. 3, fod yr 'Arglwydd yn profi dynion trwy oddef i gyfeiliornadau dinystriol ymgodi yn eu plith, gan nad yw y cyfryw gyfeiliornadau byth yn cael derbyniad ond gan y rhai nad ydynt yn caru Duw â chalon gywir."—*Calvin. Yr holl rai nid oeddynt* [gan edrych yn ol at dymmor eu prawf] *yn credu y gwirionedd.*—Eu hanghredinïaeth o'r gwirionedd fydd yr achos penderfynol o'u damnedigaeth. *Ond yn ymfoddloni mewn*

13 Eithr nyni a ddylem ddiolch yn wastad i Dduw drosoch chwi,
[a] Deut. 33. 12. frodyr [n] caredig gan yr Arglwydd, o blegid i Duw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth,
[o] Luc 1. 75. trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd:
14 I'r hyn y galwodd efe chwi trwy ein hefengyl ni, [p] i feddiannu gogoniant ein Harglwydd Iesu Grist.
[p] Mat. 5.21.

15 Am hyny, frodyr, sefwch, a deliwch y traddodiadau a ddysgasoch, [q] pa un bynag ai trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni.
[s] 2 Thes. 3. 14.

anghyfiawnder.—Y mae y gair gwreiddiol a gyfeithir yma "ymfoddloni," yn arwyddo ymbleseru mewn peth, a'i gymmeradwyo. Gellir casglu oddi wrth hyn mai nid anwybodaeth noeth sydd yn dwyn dynion i afael damnedigaeth; ond anghrediniaeth o'r gwirionedd, yn codi oddi ar eu gwaith yn ymbleseru mewn anwiredd.

13. *Eithr nyni.* — Paul, Silfanus, a Thimotheus. *A ddylem ddiolch yn wastad i Dduw drosoch chwi.*—Wedi diweddu ei brophwydoliaeth, y mae yr apostol yn awr yn dychwelyd at y Thessaloniaid, ac yn dadgan unwaith etto ei fod o dan rwymau i ddiolch i Dduw drostynt hwy, o herwydd iddo eu dewis hwynt yn Nghrist i iachawdwriaeth, a thrwy hyny ei fod wedi eu cadw rhag cyfranogi o ddinystr y rhai a gymmerent eu twyllo gan anghrist: *adn.* 11. "Y mae efe yn awr yn gwahanu y Thessaloniaid mewn dull mwy cyhoeddus oddi wrth yr anghredinwyr, fel na sigler hwynt gan ofn y gwrthgiliad mawr oedd i gymmeryd lle. Ar yr un pryd, yr oedd lles yr oesoedd dyfodol, yn gystal a lles y Thessaloniaid, mewn golwg ganddo. Nid eu cadarnhau hwynt yn unig y mae efe, rhag iddynt syrthio dros yr un dibyn a'r byd; ond trwy gymmharu eu tynged hwy â thynged yr anghredinwyr, y mae efe yn dyrchafu gras Duw yn fwy tuag atynt trwy ddangos iddynt, tra y mae bron yr holl fyd yn cael ei hyrddio ar unwaith i ddinystr megys gan dymmestl fawr, eu bod hwy, trwy ras Duw, wedi cadw mewn sefyllfa dawel a diogel. Fel hyn, rhaid i ni edrych ar farnau Duw yn y fath fodd fel y byddont yn ddrychau i ni i weled ei drugaredd tuag atom ni. Canys rhaid i ni dynu y casgliad hwn, mai gras neilldual Duw ydyw yr unig achos ein bod ni heb drengu yn druenus gyda hwynt."—*Calvin.* Sylwa Lünemann, gan fod y geiriau "i Dduw" yn mlaen, ac yn dilyn, y rhaid mai yr Arglwydd Iesu ydyw "yr Arglwydd" yma: gwel *Rhuf.* xiii. 37; *Gal.* ii. 20; ac *Eph.* v. 2, 25. Ond yn gyffredin arferir y gair am y Tad: *adn.* 16; *Eph.* ii. 4; *Col.* iii. 12, ac *Ioan* iii. 16. *Frodyr caredig gan yr Arglwydd.*—"Geilw hwynt ar yr enw hwn fel y deallent yn well mai yr unig achos pa ham y cedwid hwy rhag dinystr y rhai anwir oedd, fod Duw wedi eu caru hwynt, er nad oedd dim ynddynt hwy yn haeddu cael eu caru ganddo. Fel y dywedodd Moses wrth yr Iuddewon—'Nid am eich bod yn lliosocach na'r holl bobloedd yr hoffodd yr Arglwydd chwi, ac y'ch dewisodd; o herwydd yr oeddych chwi yn anamlaf o'r holl bobloedd: ond o herwydd caru o'r Arglwydd chwi;' *Deut.* vii. 7, 8. Canys pan y clywn fod Duw wedi ein caru, y mae geiriau Ioan yn dyfod i'n meddwl yn ddioed—'nid am i ni ei garu ef;' *Ioan* iv. 19. Yn fyr, y mae Paul yma yn gwneyd dau beth; yn gyntaf, y mae yn cadarnhau ffydd y Thessaloniaid, rhag iddynt gael eu gorchfygu gan ofn; ac yn ail, y mae yn ennyn diolchgarwch ynddynt, mewn trefn i'w dwyn hwy i werthfawrogi trugaredd Duw tuag atynt."—*Calvin.* O'r *dechreuad.*—Dylid cymmeryd yr ymadrodd hwn yn yr ystyr cyffredin; ac nid yn yr ystyr arbenig o "ddechreuad yr efengyl," fel yn *Phil.* iv. 15 Y mae yn cyfatteb i "cyn yr oesoedd," 1 *Cor.* ii. 7; "cyn seiliad y byd," *Eph.* i. 4; "cyn dechreu y byd," 2 *Tim.* i. 9, y rhai ydynt oll yn cael eu harfer am arfaeth Duw. *Eich ethol chwi.*—Hyn ydyw y rheswm pa ham nad oeddynt i gyfranogi o ddinystr yr anghredinwyr—am nad oes gan Satan allu ar y rhai a etholodd Duw, i'w hattal hwy rhag bod yn gadwedig yn y diwedd. *I iachawdwriaeth.*—Arferir y gair hwn yma mewn cyferbyniad i'r gair "colledig" yn *adn.* 10. *Trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd.*—Y rhai hyn yw y moddion trwy ba rai y mae yr etholedigaeth yn dwyn ei gwrthddrychau i afael âg iachawdwriaeth. Y mae "sancteiddiad yr Ysbryd" yma yn golygu, nid "sancteiddiad [eich] ysbryd," ond y sancteiddiad hwnw a weithredir gan yr Ysbryd. Dyma yr ochr ddwyfol i iachawdwriaeth: yr ochr ddynol ydyw, "ffydd i'r gwirionedd," hyny yw, eich gwaith chwi yn derbyn y gwirionedd trwy ffydd.

14. *I'r hyn:*—hyny yw, i gael eich achub trwy "sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd." *Y galwodd efe:*—Duw. *Trwy ein hefengyl ni.*—Trwy yr efengyl a bregethwyd genym ni i chwi. *I feddiannu gogoniant ein Harglwydd Iesu Grist:*—hyny yw, mewn trefn i gyfranogi o'r anrhydedd, yr urddas, a'r dedwyddwch, a fwynheir yn awr gan ein Harglwydd Iesu Grist yn y nefoedd: gwel *Ioan* xvii. 22, a *Rhuf.* viii. 17, 29.

15. *Am hyny.*—Gan eich bod yn gweled mai y cyfryw ydyw bwriad Duw gyda golwg arnoch chwi. "Y mae Mr. Jowett yma yn disgrifio yr apostol fel pe na buasai yn ymwybodol o'r anghyssondeb ymresymiadol o appelio atynt i wneuthur unrhyw beth, ac yntau newydd ddyweyd eu bod wedi eu hethol gan Dduw. Yn hytrach dywedem, ei fod yn bollol ymwybodol, fel bob amser, o'r angenrheidrwydd o dynu yr unig gasgliad ymarferol a all dyn yn rhesymol ei dynu oddi wrth fwriadau grasol Duw tuag ato. Nis gall un rheswm dynol ddyweyd yn mha le y mae y cyssylltiad rhwng y ddau—pen-arglwyddiaeth Duw, a rhyddid ewyllys dyn: y cwbl a wyddom ni am danynt ydyw, fod y naill yn wirionedd mor sicr a'r llall. Gan hyny, rhaid i ni gymmeryd y naill i mewn i'r un graddau ag yr amddiffynwn y llall: felly y byddai Paul yn gwneyd bob amser: gwel *Phil.* ii. 12, 13."—*Alford. Sefwch.*—Y mae y gair hwn i'w ystyried yn gyferbyniol i'r gair "sigler" yn *adn.* 2. *Deliwch.*—Y mae y gair gwreiddiol a gyfeithir yma "deliwch," yn arwyddo dal peth mewn canlyniad i fuddugoliaeth; ac am hyny ei ddal yn gadarn a sicr, trwy roddi yr holl nerth ar waith. Cynnwysa y gair hwn hefyd eu bod i'w dal heb chwanegu dim atynt na thynu dim oddi wrthynt. *Y traddodiadau a ddysgasoch, pa un bynag ai trwy ymadrodd ai trwy ein hepistol ni:*—*h.y.*, yr athrawiaethau yr oedd Paul wedi

[r]Rhuf. i. 7.

16 [r]A'n Harglwydd Iesu Grist ei hun, a Duw a'n Tad, yr hwn a'n carodd ni, ac a roddes *i ni* [s]Rhuf. 5. 2—5; 8. 24, 25. ddyddanwch tragwyddol, a [s]gobaith da trwy ras,

[t]Esa. 57. 15; 61. 1, 2; Rhuf. 15. 13; 2 Cor. 1. 3—6. [u]Iago 1. 21, 22; 1 Ioan 3. 18.

17 [t]A ddyddano eich calonau chwi, ac a'ch sicrhao [u]yn mhob gair a gweithred dda.

PENNOD III.

1 *Y mae efe yn deisyfu eu gweddïau hwy drosto ei hun; 3 yn tystiolaethu pa hyder oedd ganddo arnynt; 5 ac yn gweddïo ar Ddduw drostynt hwy; 6 ac yn rhoddi amryw orchymynion; yn enwedig i ocheyd seguryd, a chymdeithas rhai drwg; 16 ac yn diweddu trwy weddïo, a'u hanerch hwy.*

B. A. 52.

BELLACH, frodyr, [a]gweddïwch drosom ni, [b]ar fod i air yr Arglwydd redeg, a chael gogonedd, megys gyda chwithau;

[a]Eph. 6. 19, 20; Heb. 13, 18, 19. [b]Act. 6. 4; 13. 49; 2 Tim. 2. 9.

2 Ac ar ein gwared ni oddi wrth ddynion anhywaith a drygionus: canys nid *oes* ffydd gan bawb.

[c]1 Cor. 10. 13; 1 Thes. 5. 24.

3 Eithr [c]ffyddlawn yw yr Arglwydd, ond ar i'r Arglwydd weled yn dda fendithio ei lafur i ddychwelyd pechaduriaid at Grist. "Er fod yr Arglwydd yn rhoddi cymmhorth helaeth iddo, ac er ei fod yn weddïwr mawr ei hun, nid yw yn diystyru gweddïau y credinwyr, mewn attebiad i'r rhai y mae yr Arglwydd yn cynnorthwyo ei weision i bregethu yr efengyl. Y mae yn gweddïu i ni, yn ol ei esampl ef, ddymuno y cymmhorth hwn, gan daer annog ein brodyr i weddïo drosom."—*Calvin. Gair yr Arglwydd:*—*h.y.*, yr efengyl. *Redeg.*—Ymledaenu yn gyflym. Cyferbyner ef â "rhwymau:" gwel 2 *Tim.* ii. 9. *A chael gogonedd.*—Y mae gair yr Arglwydd yn cael ei ogoneddu pan y mae yn dyfod yn allu Duw er iachawdwriaeth i'r pechadur: gwel *Rhuf.* i. 16. *Megys gyda chwithau.*—Yr oedd gair yr Arglwydd wedi cael ei ogoneddu ynddynt hwy, trwy eu bod wedi ei dderbyn, "nid fel gair dyn, eithr (fel y mae yn wir) yn air Duw:" a dymunai yr apostol iddynt weddïo ar iddo gael derbyniad cyffelyb gan ereill.

2. *Ac ar ein gwared ni oddi wrth ddynion anhywaith a drygionus.*—Mewn trefn i'r efengyl gael rhydd-rediad, dymunai yr apostol i'r Thessaloniaid weddïo ar iddo gael ei waredu oddi wrth y dynion hyny oeddynt yn rhwystr i'w lleddaeniad. Y mae y gair a gyfieithir "anhywaith" yn cael ei arfer yn briodol am yr hyn nad ydyw yn ei le ei hun. Pan gymmhwysir ef at bersonau, y mae yn dynodi un sydd yn dyweyd neu yn gwneyd yr hyn sydd yn ammhriodol o dan yr amgylchiadau. Ond fel rhai geiriau ereill, y rhai oeddynt yn wreiddiol yn meddu ystyr dynerach, y mae yn cael ei arfer yn awr i ddynodi un sydd yn gosod ei hun yn erbyn cyfreithiau dwyfol neu ddynol. Hwyrach mai y gair "anhywaith" ydyw yr agosaf ato. Yn nghyfeithiad W. Salisbury, gelwir hwynt yn "ddynion anresymol." Pwy ydyw y dynion hyn? Y mae yn amlwg fod yr attebiad i'w gael yn *Act.* xviii, lle y gwelwn mai Iuddewon yn Nghorinth oeddynt, y rhai y pryd hwnw oedd prif wrthwynebwyr yr apostol a'i weinidogaeth. A chadarnheir hyn gan y frawddeg a chwanegwyd ganddo fel rheswm dros eu bod yn "anhywaith a drygionus." *Canys nid oes ffydd gan bawb.*—Y meddwl yma ydyw, nad ydyw pawb sydd yn clywed yr efengyl yn ei derbyn, fel y derbyniodd y Thessaloniaid hi; ac y mae yn amlwg ei fod yma yn cyfeirio at yr Iuddewon anghrediniol ac erlidgar. "Nid ydyw ffydd, yn yr adnod hon, yn arwyddo crediniaeth weithredol o'r efengyl; ond y cyfryw ddymuniad am wybod ac am wneuthur ewyllys Duw ag a duedda un i gredu yr efengyl pan y cynnygir hi yn deg iddo."—*Macknight.*

3. *Eithr ffyddlawn yw yr Arglwydd.*—Fe welir fod yr apostol yn troi yn ddioed yn ol oddi wrth

---

eu traddodi iddynt yn ei bregethau, ac wedi eu hysgrifenu yn ei epistol cyntaf atynt. "Fel hyn y mae efe yn galw ei athrawiaethau yn gyffredinol yn draddodiadau:—'Tynwch ymaith oddi wrth bob brawd a'r sydd yn rhodio yn afreolus, ac nid yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe oddi wrthym ni;' 2 *Thes.* iii. 6. Rhoddodd Paul yr enw hwn i athrawiaethau a gorchymynion yr efengyl, o herwydd dau reswm: yn gyntaf, o herwydd eu bod wedi eu traddodi gan Grist, a chan yr Ysbryd i'r apostolion, fel dadguddiad dwyfol; ac yn ail, o herwydd fod yr apostolion wedi eu traddodi hwynt i'r byd, fel y cyfryw, heb geisio profi eu gwirionedd trwy un rheswm arall." — *Macknight.* Barna Alford fod "ein hepistol" i'w olygu yn gyferbyniol â "llythyr, megys oddi wrthym ni," yn *adn.* 2.

16. *Ei hun.*—"Dodir hyn i mewn yma fel rhagarweiniad mawreddog, yn gyferbyniol â 'ni,' y rhai a weithredent fel offeryniau yn yr adnod olaf, ac fel sicrwydd am effeithiolrwydd y dymuniad, fel pe dywedasid, 'ac yna byddwch yn ddiogel.' Gosodir ein Harglwydd Iesu Grist yn gyntaf, nid yn unig o herwydd mai efe ydyw y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, ond o herwydd fod y frawddeg yn esgyniaith, yn ymgodi at 'Dduw a'n Tad' yn y frawddeg nesaf."—*Alford.* "Pan y mae yn priodoli gwaith hollol ddwyfol i Grist, ac yn ei ddangos ef, yn gystal a'r Tad, fel awdwr ein bendithion gwerthfawrocaf, fel yr ydym yn hyn yn prawf cael eglur o'i ddwyfoldeb, felly dysgir ni nas gallwn gael dim oddi wrth Dduw oddi eithr i ni ofyn am dano trwy Grist."—*Calvin. Yr hwn a'n carodd ni.*—Y mae hyn yn cyfeirio at un ffaith fawr—cariad y Tad fel y mae wedi cael ei amlygu yn ei waith yn anfon ei Fab i farw dros bechaduriaid; neu gariad y Tad a'r Mab yn ein hiachawdwriaeth. *Ac a roddes.*—Trwy y weithred hono o gariad. *Ddyddanwch:*—yn ein holl brofedigaethau a'n trallodion, a hwnw yn "dragwyddol," ac nid yn gyfnewidiol, fel cysuron y byd hwn. Dyddanwch digon cryf i'n cynnal, ac i'n gwneyd yn hapus mewn bywyd, yn angeu, ac am dragwyddoldeb: cymmharer *Rhuf.* viii. 38. Y mae hyn am yr holl amser presennol, ac yna gobaith da am y dyfodol. *Mewn gras.*—Nid "trwy ras," fel yn y cyneithiad Cymraeg. Y mae yn perthyn, nid i'r geiriau "gobaith da," ond i'r ferf "rhoddes," ac y mae yn dynodi y cyfrwng trwy yr hwn, neu yr elfen yn yr hon y cyfranwyd y rhodd.

PENNOD III.

1. *Bellach, frodyr, gweddïwch drosom.*—Wrth ddiweddu, y mae yr apostol yn erfyn ar y Thessaloniaid hefyd i weddïo drosto ef; nid, modd bynag, ar iddo ef (Paul) gael ei gadarnhau a'i

[d] Mat. 6. 13; Ioan 17. 15; 2 Pedr 2. 9.
[e] Rhuf. 15.
2 Cor 8. 22.
[f] Diar. 3. 6; Ier. 10. 23; Iago 1. 16—18.
[g] Rhuf. 5. 5; 8. 28; Gal. 5. 22; 1 Ioan 4. 19.
[h] Rhuf. 8. 25; Heb. 9. 28; 2 Pedr. 3. 12.
[i] 1 Cor. 5. 4; Eph. 4. 17; Col. 3. 17.

glwydd, yr hwn a'ch sicrha chwi, [d] ac a'*ch* ceidw rhag drwg.

4 Ac y mae genym [e] hyder yn yr Arglwydd am danoch, eich bod yn gwneuthur, ac y gwnewch, y pethau yr ydym yn eu gorchymyn i chwi.

5 [f] A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi [g] at gariad Duw, [h] ac i ymaros am Grist.

6 Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi, frodyr, [i] yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, dynu o honoch ymaith oddi wrth bob brawd ar sydd yn rhodio yn afreolus, ac nid yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe genym ni.

7 Canys chwi a wyddoch eich hunain pa fodd y dylech ein dilyn ni: o blegid ni buom afreolus yn eich plith chwi,

efe ei hun yn bersonol at y Thessaloniaid; ac y mae yn cyfeirio eu sylw at ffyddlondeb Duw, rhag iddynt gymmeryd achlysur oddi wrth y crybwylliad a wnaethid ganddo yn yr adnod o'r blaen am y "dynion anhywaith a drygionus" i ddigaloni. Y mae yn gwneyd defnydd cyffelyb o ffyddlondeb Duw yn 2 *Tim.* ii. 13. "Yr Arglwydd," yma, ydyw Crist: gwel *pen.* ii. 16, ac *adn.* 5. *Yr hwn a'ch sicrha chwi* :—yn eich ymlyniad wrth y grefydd Gristionogol, fel nas gall un gelyn eich symmud oddi wrthi. Diau fod yma gyfeiriad at ei ddymuniad yn *pen.* ii. 17. *Ac a'ch ceidw rhag drwg:*—yn ol Bengel, "yr un drwg," sef Satan; fel y mae yn cael ei gyfleithu yn *Mat.* xiii. 19, ac *Eph.* vi. 16. Ond ymddengys fod y geiriau hyn, fel y dywedwyd o'r blaen, yn cyfatteb i'r dymuniad yn *pen.* ii. 17; ac y mae y gair "drwg" yn y gwreiddiol yn yr adnod hon yn y canolryw; ac felly y meddwl yw, y byddai i'r Arglwydd eu cadw hwynt rhag cymmeryd eu hudo gan ddynion drygionus i lyngcu cyfeiliornadau, ac i gyflawni pechodau. Dengys y geiriau hyn fod Paul yn fwy pryderus gyda golwg ar ereill na chyda golwg arno ei hun. Er mai yn ei erbyn y cyfeiriai dynion anhywaith holl bicellau eu drygioni, ac mai yn ei erbyn ef y gwnelent eu holl ymosodiadau, ymddengys fel pe na buasai yn pryderu ynghylch dim ond y Thessaloniaid. Yr hyn oedd yn gwasgu yn drwm ar ei feddwl ef oedd, ofn iddynt hwy gael eu gorchfygu gan demtasiwn.

4. *Ac y mae genym hyder yn yr Arglwydd am danoch.*—Y mae yr adnod hon, a'r adnod nesaf, yn dyfod i mewn fel rhagarweiniad, i barotoi meddyliau y Thessaloniaid i dderbyn yr annogaethau sydd yn dechreu yn *adn.* 6. Canys yr oedd yr ymddiried y dywed ei fod ganddo gyda golwg arnynt yn eu gwneuthur yn llawer mwy parod i ufuddhau na phe buasai yn gofyn ufuddod ganddynt mewn dull ammheus a diymddiried. Ymddengys mai sail yr hyder hwn oedd y sicrwydd a roddasai efe iddynt yn yr adnod o'r blaen y byddai i'r Arglwydd eu "sicrhau, a'u cadw rhag drwg." "Gan hyny disgwyliai ffyddlondeb; nid oddi wrth y Thessaloniaid fel y cyfryw, ond oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gweithio ynddynt."—*Olshausen.* "Y mae 'yn yr Arglwydd,' fel yr elfen yn yr hon y mae ei hyder yn gweithredu, yn dangos ei fod yn cymmeryd yn ganiataol y byddai iddynt ymddwyn yn gysson â'u proffes Gristionogol; ac felly, y mae yn rhoddi gryn annogaeth i'r disgwyliad, ond ar yr un pryd annogaeth obeithiol." —*Alford. Eich bod yn gwneuthur ac y gwnewch:* —*h.y.*, eu bod yn gwneuthur yn awr, ac y parhaent hyd y diwedd i wneuthur y pethau yr oedd efe yn eu gorchymyn iddynt. Y mae yr apostol yma yn dadgan ei farn am y rhan fwyaf o aelodau yr eglwys yn Thessalonica; ond nid am bob un o honynt yn ddieithriad, fel y mae yn amlwg oddi wrth *adn.* 11—14.

5. *A'r Arglwydd.*—Crist. *Cariad Duw.*—Gan ei fod yn dymuno ar fod i'w calonau gael eu "cyfarwyddo" ato, barna Alford a Bengel mai cariad dyn at Dduw a olygir: ond tybia Olshausen mai y meddwl yw, "Rhynged bodd i Dduw gyfarwyddo eich calonau at y ffynnonell o'r hon y mae holl nerth y Cristion yn tarddu; sef, at gariad Duw fel y mae wedi ei amlygu yn nioddefiadau Crist." "Bydded i'r Arglwydd gyfarwyddo eich calonau i efelychu y cariad a ddangosodd Duw at ddynolryw."—*Macknight. Ac i ymaros am Grist.*—Tybir yn gyffredin mai dymuno y mae yr apostol yma i'r Arglwydd roddi cymmhorth iddynt ddisgwyl yn amyneddgar am ail ddyfodiad Crist. Ond ni oddef y gair gwreiddiol yr ystyr hwn. Y mae yn digwydd bedair gwaith ar ddeg ar hugain yn y Testament Newydd, a phob amser yn yr ystyr o oddefgarwch, neu amynedd i ddioddef. Nis gall yr ymadrodd chwaith arwyddo "dioddef er mwyn Crist;" ond rhaid mai y meddwl yw, fel y dywed Chrysostom, "fel y gallom ni ddioddef fel y dioddefodd efe." "Fel hyn y dioddefwch gasineb gelynion drygionus Crist."—*Bengel.* "Megys ag mai 'amynedd Iob' ydyw yr amynedd yr oedd Iob yn esampl mor hynod o hono, felly amynedd Crist ydyw yr amynedd a ddangosodd efe yn ei ddioddefiadau."—*Macknight.*

6. *Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi.*—Y mae yr apostol yma yn cymmeryd i fyny y sicrwydd a gynnwysir yn *adn.* 4, ac megys yn gwneuthur prawf ar ei wirionedd cyffredinol trwy orchymyn pennodol. *Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.* —Trwy awdurdod ein Harglwydd Iesu Grist. Amcan Paul yn dwyn yr ymadrodd hwn i mewn oedd, cryfhau y "gorchymyn." *Dynu o honoch ymaith oddi wrth:*—neu, "gadw eich hunain oddi wrth." Y mae yn amlwg nad oes yma un cyfeiriad at esgymmundod ffurfiol; ond y meddwl yw, eu bod i ochelyd pob ymddiddan a chyfeillach â phob *brawd,* neu aelod proffesedig o'r eglwys, oedd yn euog o'r bai a enwir. Dengys *adn.* 14 yn fwy eglur pa fodd y dymunai Paul i ni ddeall yr ymadrodd hwn. Yr oedd efe wedi rhoddi awgrymiad yn y cyfeiriad hwn o'r blaen, yn yr Epistol Cyntaf (*adn.* 14, 15): y mae efe yn awr yn siarad yn fwy eglur, o herwydd y mae yn ddiammheuol fod eu pryder a'u cyffro yn mherthynas i ddyfodiad Crist wedi peri i lawer chwaneg o honynt esgeuluso eu galwedigaethau bydol. *Traddodiad.*—Y mae y gair hwn yn cyfeirio at yr athrawiaethau a bregethasid gan yr apostol iddynt pan yr oedd efe yn llafurio yn eu plith, ac a gadarnhawyd wedi hyny mewn ysgrifau: 1 *Thes.* iv. 11, 12. *A dderbyniodd efe.*—Pawb sydd yn gynnwysedig yn y "pob brawd."

7. *Pa fodd y dylech ein dilyn ni.*—Dull byr

8 Ac ni fwytasom fara neb yn
[k] Act. 18. 3; 1 Cor. 4. 12. rhad; [k]ond trwy weithio mewn llafur a lludded, nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch chwi:

9 Nid o herwydd nad oes genym awdurdod, ond fel y'n rhoddem ein hunain yn esampl i chwi i'n dilyn.

10 Canys pan oeddym hefyd gyda chwi, hyn a orchymynasom i chwi, [l]Os byddai neb ni fynai weithio, na chai fwyta chwaith.
[l] Diar. 13. 4.

11 Canys yr ydym yn clywed fod rhai yn rhodio yn eich plith chwi yn afreolus, heb weithio dim, ond bod yn rhodresgar.

12 Ond i'r cyfryw gorchymyn yr ydym, [m]a'u hannog trwy ein Harglwydd Iesu Grist, ar *iddynt* weithio trwy lonyddwch, a bwyta eu bara eu hunain.
[m] Adn. 6.

---

ydyw hwn i amlygu "pa fodd y dylech ddilyn ein hesampl ni; neu, rodio megys y rhodiasom ni. *O blegid ni buom afreolus yn eich plith.* —Ni roddasom ni un esampl i chwi o segurdod, ac esgeulusdra o'n galwedigaethau bydol, er fod y gwaith ysbrydol oedd genym i'w gyflawni yn fawr a phwysig.

8. *Bwyta bara*:—sydd ymadrodd Hebreaidd am "gael canmoliaeth." *Yn rhad*:—am ddim, neu heb dalu ein hunain am dano. *Ond trwy weithio.*—Hwn yw y llwybr trwy ba un yr oedd efe yn cael cynnaliaeth. Yr oedd yn gweithio ei grefft fydol, i gael cynnaliaeth i wneuthur ei waith ysbrydol fel gweinidog yr efengyl. *Llafur a lludded, nos a dydd.*—Amcan y geiriau hyn ydyw dangos mawredd ei lafur. Y mae lludded yn fwy na llafur, am hyny rhoddir ef ar ol llafur. *Fel na phwysem ar neb o honoch chwi*:—hyny yw, fel na phwysem ar neb o honoch chwi am ein cynnaliaeth tra yn pregethu yr efengyl i chwi. Hyn ydoedd ei amcan yn gweithio mor ddiwyd.

9. *Nid o herwydd nad oes genym awdurdod*:—i gael ein cynnal genych, neu i bwyso arnoch tra yn pregethu yr efengyl i chwi. Yr oeddynt wedi derbyn yr awdurdod hon gan yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn pan anfonodd efe y deuddeg allan i bregethu, a ddywedodd wrthynt, "Teilwng i'r gweithiwr ei fwyd" (*Mat.* x. 10); ac wrth ddyweyd hyny, rhoddodd awdurdod i'w apostolion i ofyn cynnaliaeth gan y rhai y byddent yn pregethu yr efengyl iddynt. At hyn y cyfeiria Paul, pan y dywed, "Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl;" 1 *Cor.* ix. 14. Ond ni arferodd yr apostol yr awdurdod hon yn mhlith y Thessaloniaid. *Ond fel y'n rhoddem ein hunain yn esampl i chwi i'n dilyn.*—"Megys yr oedd Paul yn ewyllysio trwy weithio â'i ddwylaw roddi esampl i'r Thessaloniaid, fel na byddai i segurwyr yn eu plith, fel gwenyn diog, fwyta bara pobl ereill, felly nid oedd efe yn ewyllysio i hyn wneuthur niwed i weinidogion yr efengyl, trwy gefnogi yr eglwysi i'w hamddifadu hwynt o'u bywoliaeth briodol. Yn hyn yr ydym yn gweled ei gymmedrolder a'i ddyngarwch nodedig, ac mor bell ydoedd efe oddi wrth uchelgais y rhai sydd yn camddefnyddio eu hawdurdod, fel ag i sathru ar iawnderau eu brodyr. Gan fod y Thessaloniaid o'r dechreuad wedi cael pregethiad yr efengyl yn rhad o enau Paul, yr oedd perygl iddynt osod hyny i lawr fel cyfraith sefydlog i holl weinidogion yr efengyl, gan fod dynolryw o duedd mor gybyddlyd. Gan hyny, y mae Paul yn rhagweled y perygl hwn, ac yn dysgu fod ei awdurdod ef yn helaethach nag yr oedd efe wedi ei harfer, ac mai gofal am ereill a barodd iddo beidio ei harfer. Bwriadai drwy hyn daflu mwy o warth ar y rhai sydd heb weithio dim, canys ymresymiad ydyw oddi wrth y mwyaf at y lleiaf." —*Calvin.*

10. *Canys.....hefyd.*—Cariasom hyn yn mhellach: nid yn unig rhoddasom esampl i chwi, ond dysgasom y ddyledswydd o ddiwydrwydd gyda galwedigaethau bydol trwy orchymyn pennodol. *Os byddai neb*, &c.—"Y mae yr apostol yn dyfynu y dywediad hwn o amryw leoedd yn llyfrau y Rabbiniaid Iuddewig—Y mae pob dyn yn bwyta; am hyny bydded i bob dyn weithio. Nid ei feddwl ydyw, y dylai ereill attal ymborth oddi wrtho yn ddioed; ond y mae yn profi oddi wrth yr angenrheidrwydd o fwyta yr angenrheidrwydd o weithio, trwy adrodd y dywediad hwn, 'Dangosed y cyfryw un ei hun fel angel;' hyny yw, bydded fyw heb fwyd, fel y mae yr angylion yn gwneyd."—*Bengel.* "Oddi wrth y gorchymyn hwn o eiddo yr efengyl, yr ydym yn dysgu y dylai pawb yn ddiwahaniaeth ddilyn rhyw alwedig. aeth duddiol neu gilydd; ac nad oes gan un dyn hawl i dreulio ei fywyd yn segur."—*Macknight.*

11. *Canys yr ydym yn clywed fod rhai yn rhodio yn eich plith chwi yn afreolus.*—Ymddengys oddi wrth hyn fod yr apostol, ar ol ysgrifenu yr Epistol Cyntaf, wedi clywed hanes sefyllfa yr eglwys yn Thessalonica. Pa un ai Timotheus, ynte rhywun arall, a ddygodd y newydd iddo, ni wyddys; ond y dybiaeth olaf ydyw y debycaf o fod yn gywir, o blegid ymddengys nad aeth ond ychydig iawn o amser heibio rhwng anfoniad y ddau epistol. Crybwylla yma am yr hyn a glywsai am danynt fel rheswm dros ddwyn y dywediad sydd yn yr adnod flaenorol ar gof iddynt. "Y meddwl yma, yn ol y gwreiddiol, ydyw, nad ydynt yn gwneyd dim buddiol, ond eu bod yn gwneyd llawer gyda phethau cywrain a dilês. Y mae segurwyr, trwy gerdded o dŷ i dŷ, a gwâg siarad, yn poeni eu hunain yn gystal a phobl ereill; canys yr ydym yn gweled fod y rhai nad oes ganddynt ddim i'w wneyd yn blino mwy wrth fod heb wneyd dim, na phe buasent yn treulio eu hamser i wneyd rhyw waith pwysig. Maent yn rhedeg yma ac acw; a lle bynag yr ant, ymddangosant yn lluddedig: casglant bob math o chwedlau, a lledaenant hwynt mewn dull cymmysglyd a niweidiol. Gellir tybied eu bod yn cario pwysau teyrnas ar eu hysgwyddau. "—*Calvin. Bod yn rhodresgar*:—yn brysur ynghylch pethau dibwys; yn brysur yn unig gyda phethau nad ydynt yn perthyn iddynt.

12. *Ond i'r cyfryw*:—y rhai afreolus, segur, a rhodresgar. *Trwy ein Harglwydd Iesu Grist.*—Gwel ar *adn* 6. *Trwy lonyddwch.*—Gellir cymeryd hyn naill ai yn dufewnol—gyda meddwl tawel: neu yn allanol—gyda thawelwch; *h. y.*, heddwch allanol. Y blaenaf ydyw y tebycaf o fod yn gywir. *Eu bara eu hunain*:—y bara a

13 A chwithau, frodyr, na ddiffygiwch yn gwneuthur daioni.

14 Ond od oes neb heb ufuddhau i'n gair trwy y llythyr *yma*, hysbyswch hwnw; ac na fydded i chwi gymdeithas âg ef, megys y cywilyddio efe.

[o] Gal. 6. 1. 15 Er [n] hyny na chymmerwch nillasant hwy eu hunain. "Y mae yr apostol yn diwygio y ddau fai a grybwyllasid ganddo—eu haflonyddwch trystfawr, a'u hymneilduaeth oddi wrth eu galwedigaethau bydol. Am hyny y mae efe yn eu hannog hwynt, yn y lle cyntaf, i feithrin heddwch; sef, i ddilyn eu galwedigaethau eu hunain yn dawel, neu, fel y dywedwn yn gyffredin, heb wneyd trwst: canys y gwirionedd yw hyn—y rhai mwyaf heddychol o bawb ydyw y rhai sydd yn dilyn galwedigaethau cyfreithlawn; tra y mae y rhai nad oes ganddynt ddim i'w wneyd yn eu poeni eu hunain a phobl ereill hefyd. Yn mhellach, y mae yn gorchymyn iddynt weithio, sef i wneyd rhyw waith cyfreithlawn ac anrhydeddus, heb yr hyn y mae bywyd dyn o natur crwydraidd. Oddi wrth hyn, deilliodd y trydydd gorchymyn hwn:—fod iddynt fwyta eu bara eu hunain; wrth yr hyn y meddylir, y dylent fod yn foddlawn ar yr hyn sydd ganddynt, fel na byddont yn orthrymus nac yn afresymol tuag at ereill. 'Yf ddwfr,' medd Solomon, 'o'th bydew dy hun, a ffrydiau allau o'th ffynnon dy hun;' *Diar.* v. 15. Dyma gyfraith gyntaf cyfiawnder—na byddo i un dyn ddefnyddio yr hyn sydd yn perthyn i arall. ond yn unig defnyddio yr hyn y gall efe yn briodol ei alw yn eiddo ei hun. Yr ail ydyw, na byddo i un dyn ddifa ei holl dda; ond cadw cymmaint ag a allo yn rhesymol, er ei alluogi i gyfranu i'w gymmydogion tlodion, fel y byddo i'w helaethrwydd ef ddiwallu eu diffyg hwy. Yn yr un modd, y mae yr apostol yn annog y rhai oeddynt wedi bod gynt yn segur i weithio, nid yn unig fel y gallent ennill iddynt eu hunain fywioliaeth, ond fel y gallent hefyd gynnorthwyo eu brodyr tlodion, fel y mae hefyd yn dysgu mewn lle arall: *Eph.* iv. 23."—*Calvin.*

13. *A chwithau:*—chwithau, sydd yn rhydd oddi wrth y bai hwn. *Na ddiffygiwch:*—na flinwch. Barna Macknight fod y gair gwreiddiol yma yn arwyddo yn briodol, 'Na flinwch trwy segurdod neu lwfrdra.' Nid oeddynt i laesu dwylaw gyda'u dyledswyddau bydol na chrefyddol. *Yn gwneuthur daioni.*—Casgla Alford oddi wrth y cyd-destyn nas gall hyn arwyddo gwneuthur daioni i ereill, ond yn hytrach dilyn bywyd gweithgar a gonest. Ond y mae Ambrose o'r farn fod yr adnod hon wedi ei chwanegu rhag i'r cyfoethogion, mewn ysbryd cybyddlyd, wrthod cynnorthwyo y tlodion, o herwydd iddo eu hannog hwynt i "fwyta eu bara eu hunain." Ac yr ydym yn gweled llawer yn dra awyddus i gael rhyw esgusion dros eu cybydd-dod. Eglurir hi gan Chrysostom fel hyn:—"Pa mor gyfiawn bynag y condemnir personau diog, er hyny rhaid eu cynnorthwyo hwynt pan mewn eisieu. Fy marn i yw, mai amcan yr apostol oedd darparu yn erbyn rhoddi achlysur tramgwydd, yr hwn a allai ymgodi oddi wrth ddiogi ychydig bersonau; canys y mae yn gyffredin yn digwydd fod y rhai sydd, o dan amgylchiadau ereill, yn hynod o barod i fod yn haelionus, yn dyfod yn oeraidd *ef* megys gelyn, eithr [o] cynghorwch *ef* fel brawd.

[o] 1 Cor. 4. 14.

16 Ac [p] Arglwydd y tangnefedd ei hun a roddo i chwi dangnefedd yn wastadol yn mhob modd. Yr Arglwydd *a fyddo* gyda chwi oll.

[p] Esa. 9. 6, 7.

17 Yr anerch [q] â'm llaw i Paul fy hun; yr hyn [r] sydd arwydd yn nwrth weled eu bod wedi taflu eu rhoddion ymaith, trwy eu cyfranu hwynt i bersonau annheilwng. O herwydd hyn, y mae Paul yn ein rhybuddio, er fod llawer yn annheilwng, tra y mae ereill yn camddefnyddio yr hyn a roddir iddynt, y rhaid i ni o herwydd hyn beidio gwrthod cynnorthwyo y rhai sydd mewn angen."—*Calvin.*

[q] Col 4. 1.

[r] Ios. 2. 12.

14. *Hysbyswch hwnw.*—Yn ol cyfeithiad Alford, "marciwch y dyn hwnw," drwy ei nodi allan fel un y dylid ei ochelyd. Rhoddir cyfarwyddyd cyffelyb yn *Rhuf.* xvi. 17; 1 *Cor.* v. 9, 11, 13; *Phil.* iii. 17. *Megys y cywilyddio efe.*—Amcan y cerydd hwn oedd diwygio y troseddwr trwy wir edifeirwch.

15. *Er hyny:*—er i chwi roddi marc arno, a pheidio cymdeithasu âg ef. *Megys gelyn.*—"Nid ydyw y gair 'gelyn,' mewn cyferbyniad i'r gair 'brawd,' yn dynodi gelyn personol, ond gelyn Duw; sef, un wedi llwyr syrthio ymaith oddi wrth y ffydd."—*Olshausen.* "Y mae yr apostol yn ddioed yn chwanegu geiriau o duedd i dyneru llymder ei orchymyn yn yr adnod flaenorol; canys, fel y mae yn gorchymyn mewn lle arall, rhaid i ni ofalu na byddo i'r troseddwr gael ei 'lyngcu gan ormod tristwch' (2 *Cor.* ii. 7); yr hyn a gymmera le pe byddai y llymder yn ormod. Oddi wrth hyn, yr ydym yn gweled y dylid arfer dysgyblaeth eglwysig yn y fath fodd fel y byddo er lles y sawl a gerydder."—*Calvin.*

16. Ar yr *Arglwydd...ei hun*, gwel ar *pen.* ii. 16. *Arglwydd y tangnefedd.*—Gan fod yr apostol yn barhaus yn arfer yr ymadrodd "Duw yr heddwch" (gwel *Rhuf.* xv. 33, a xvi. 20; 2 *Cor.* xiii. 11), rhaid mai yr Arglwydd Iesu Grist a olygir yma. Niddylid deall "tangnefedd" yn unig am heddwch â'u gilydd; canys nid oes un crybwylliad arbenig yn yr epistol hwn am un anghyttundeb rhyngddynt, ond am heddwch yn gyffredinol, yn allanol a mewnol, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw, fel yn *Rhuf.* xiv. 17. Ar *chwi* y dylid rhoddi y pwyslais:—'Arglwydd y tangnefedd a roddo i *chwi* dangnefedd yn wastadol yn mhob modd,' pa un bynag ai allanol ynte mewnol, am amser neu am dragwyddoldeb. *Gyda chwi oll.*—Y mae y gair "gyda" yma, yn cynnwys gyda chwi o ran ei bresennoldeb grasol ac amddiffynol, i'ch galluogi i gynnyddu mewn sancteiddrwydd, ac i'ch cadw rhag pob drwg naturiol a moesol. Gan ei fod yn dymuno iddo fod gyda hwynt oll, rhaid ei fod yn cymmeryd i mewn y rhai a rodient yn afreolus hefyd. O'r braidd y gellir tybied y byddai i'r hwn oedd i gael ei gynghori "fel brawd" gael ei gau allan rhag cyfranogi o fendith ymadawol yr apostol.

17, 18. *Yr anerch â'm llaw i Paul fy hun.*—"Ymddengys oddi wrth hyn na chafodd yr epistol ei ysgrifenu â llaw yr apostol ei hun, ond mai rhywun a'i hysgrifenodd o'i enau. Felly hefyd yr ysgrifenwyd yr epistolau ereill. Gwel *Rhuf.* xvi. 22; 1 *Cor.* xvi. 21: *Col.* iv. 18. Cynnwysir nid yn unig y fendith, ond yr oll o *adn* 17 a 18, yn y gair 'anerch,' fel wedi ei ysgrifenu

mhob epistol: fel hyn yr ydwyf
[a] Rhuf. 16. 20, 24. yn ysgrifenu.
18 [a]Gras ein Harglwydd Iesu Grist gyda chwi oll. Amen.

¶ Yr ail at y Thessaloniaid, a ysgrifenwyd o Athen.

ganddo ef â'i law ei hun. Ni ddylem ni gasglu oddi wrth y geiriau, 'fel hyn yr ydwyf yn ysgrifenu,' fod rhywbeth wedi ei chwanegu, megys ei enw, neu 'Byddwch wych,' neu rywbeth o'r fath: ond y maent yn cael eu lleiaru am yr hyn yr oedd efe yn ei ysgrifenu ar y pryd. Y mae yn amlwg mai ei reswm dros y gochelgarwch hwn oedd y llythyr, megys 'oddi wrthym ni,' y crybwyllir am dano yn *pen.* ii. 2. Ac ni ddylid cyfyngu y geiriau 'yn mhob epistol' i unrhyw epistolau dyfodol, y rhai y gallai efe eu hanfon at y Thessaloniaid: ond dylid eu deall am y rhagocheliad y bwriadai ei gymmeryd rhag llaw gyda'r holl epistolau: neu o leiaf gyda'r cyfryw ag yr oedd amgylchiadau yn galw am y prawf hwn. Y mae pob lle i gredu (ond y mae yn amlwg fod yr Epistol Cyntaf at y Thessaloniaid yn eithriad, gan ei fod wedi ei ysgrifenu cyn i'r rheol gael ei sefydlu) fod yr Epistol at y Galatiaid wedi ei ysgrifenu ganddo â'i law ei hun (gwel *Gal* vi. 11): yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid wedi ei awdurdodi fel un dilys (*pen.* xvi. 21): yr Ail Epistol at y Corinthiaid wedi ei anfon gyda Titus, ac am hyny heb ei eiriau; ond dichon ei fod yn cael ei gynnwys heb ei enwi yn *pen.* xiii. 12, 13. Nid oedd ei eiriau yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, am nad ydyw yn hawlio ei awdurdod personol ynddo (ond yma drachefn dichon fod yr adnodau olaf wedi eu hysgrifenu ganddo ef ei hun.) Y mae yr Epistol at y Colossiaid wedi ei awdurdodi (*pen.* iv. 18). Mae yr Epistol at yr Ephesiaid, fel yr ymddengys, heb ei awdurdodi (ond y mae yn bossibl fod *pen.* vi. 24). Nid oedd yr Epistol at Philemon, o herwydd ei nodwedd a'i ddygiedydd, Epaphroditus, yn galw am hyny ond yma, drachefn, dichon fod *pen.* iv. 23 wedi ei ysgrifenu ganddo â'i law ei hun): ac nid oedd yr epistolau at bersonau neilltuol yn gofyn y cyfryw awdurdodiad, heb grybwyll ei fod yn debygol eu bod oll wedi eu hysgrifenu ganddo â'i law ei hun. Y mae yn sier fod yr Epistol at Philemon wedi ei ysgrifenu felly. Gwel *adn.* 19 yno."—*Alford.*

YR

EPISTOLAU AT TIMOTHEUS A TITUS,

Y RHAI A ELWIR YN GYFFREDIN

YN "EPISTOLAU BUGEILIOL."

BU HAWDURIAETH.

Gelwir y ddau Epistol at Timotheus, ynghyd â'r Epistol at Titus, yn gyffredin yn "Epistolau Bugeiliol," am eu bod yn cynnwys corph cyflawn o reolau a chyfarwyddiadau i weinidogion yr efengyl yn mhob oes i rodio wrthynt. Ni bu erioed yr ammheuaeth leiaf yn yr eglwysi cyntefig ynghylch eu hawdurdod; ac addefir yn gyffredinol mai Paul a'u hysgrifenodd. Cynnwysir hwynt yn y cyfieithiad Syriaidd a wnaed yn yr ail ganrif. Ceir, yn mhlith epistolau Paul, yn y canon o'r Ysgrythyr a olygwyd gyntaf gan Muratori, tua diwedd yr ail ganrif, neu ddechreu y drydedd, "un at Philemon, a dau at Timotheus." Y mae Irenæus yn dechreu ei ragymadrodd i'w waith trwy ddyfynu 1 *Tim.* i. 4, gan chwanegu—"fel y dywed yr apostol." Y mae hefyd yn dyfynu *pen.* i. 9, a vi. 20; hefyd 2 *Tim.* iv. 9—11; a *Titus* iii. 10 ("y rhai y mae Paul, ar ol un ac ail rybudd, yn eu hannog i'w gochelyd"). Dywed hefyd:—"Crybwylla Paul am Linus yn ei epistolau at Timotheus." Dyfynir 1 *Tim.* iv. 1, 20, gan Clement o Alexandria. Dywed:—"Yr ydym yn gwybod pa bethau y mae yr ardderchog Paul yn eu gorchymyn yn mherthynas i ddiaconesau yn yr Ail Epistol at Timotheus." Nid ydyw y rhai hyn ond cychydig allan o lawer o'r dyfyniadau uniongyrchol a geir yn ngwaith Clement. Dyfynir 1 *Tim.* vi. 20; 2 *Tim.* i. 14; *Titus* iii. 10, 11, a lleoedd ereill, fel geiriau Paul, gan Tertullian. Cynnwysa Eusebius y tri epistol yn mhlith y rhai a dderbynir yn gyffredin fel ysgrifeniadau canonaidd. Afreidiol yw dyfynu chwaneg o dystiolaethau; canys ceir cyflawnder o honynt yn mhob man. Ceir hefyd amryw o gyfeiriadau, mwy neu lai eglur, at yr epistolau hyn yn ngweithiau y tadau boreuaf, megys Clement o Rufain, Ignatius, Polycarp, Hegesippus, Athenagoras, Theophilus o Antioch, Justyn Ferthyr, &c., y rhai oeddynt yn oesi yn y ganrif gyntaf a'r ail. Fel hyn, ymddengys fod yr Epistolau Bugeiliol yn hysbys yn yr amserau boreuaf, a'u bod yn cael eu dyfynu yn barhaus yn yr eglwysi. Modd bynag, ni chyfarfyddasant â'r cyfryw dderbyniad cyffredinol yn mhlith yr hereticiaid Gnosticaidd. Clement o Alexandria, ar ol dyfynu 1 *Tim.* vi. 20, &c., a chwanega:—"Gan eu bod yn cael eu condemnio gan y dywediad hwn, y mae yr hereticiaid yn gwrthod yr epistolau at Timotheus." Dywed Tertullian fod Marcion wedi gadael yr epistolau at Timotheus a Titus allan o'r canon. Ac y mae Jerome, yn ei ragarweiniad i'r Epistol at Titus, yn cwyno yn erbyn yr hereticiaid, eu bod, heb law yn darnio yr Ysgrythyrau pan yn groes i'w daliadau, yn gwrthod rhai llyfrau cyfain; yn mhlith y rhai y mae yn enwi yr epistolau at Timotheus, a'r Epistol at Titus. Modd bynag, derbynid yr olaf gan Tatian, un o'u penaethiaid. O'u hamser hwy hyd ddechreu y ganrif bresennol, ni ddarfu i neb ammheu awdurdod yr Epistolau Bugeiliol. Y cyntaf a ymosododd y pryd hwnw ar ddilysrwydd yr Epistol Cyntaf at Timotheus oedd Schmidt, ac wedi hyny Schleiermacher; ond ar y llaw arall, amddiffynwyd ef gan Planck, Wegscheider, a Beckhaus. Modd bynag, dechreuwyd gweled yn fuan, oddi wrth y berthynas sydd rhwng y tri epistol, y gellid cymmhwyso y rhesymau a ddefnyddid gan Schleiermacher yn erbyn un o honynt, yn erbyn y cwbl: felly, y cyntaf a wadodd ddilysrwydd y tri oedd Eichhorn; ac wedi hyny, ond nid yn benderfynol, De Wette. Unai yr olaf, yn ei ragarweiniad, olygiad Schleiermacher, mai casgliad oedd yr Epistol Cyntaf at Timotheus o'r ddau ereill, â golyg ad Eichhorn, nad oedd pob un o'r tri wedi eu hysgrifenu gan Paul; ond ar yr un pryd ildiodd gymmaint i farn yr Eglwys Gristionogol yn mhob oes, fel yr addefodd nad oedd ei olygiad yn effeithio dim ar wirionedd ac awdurdod yr epistolau, ond yn unig ar eu gwreiddyn hanesiol. Teimlid fod y golygiad nacaol hwn yn un hollol anfoddhaol; ac yn fuan gwnaeth Eichhorn ymgais i amddiffyn eu hawdurdod, fel rhai yn cynnwys sylwedd yr hyn a ddysgwyd neu a ysgrifenwyd gan yr apostol, ar y dybiaeth o'u bod wedi eu hanfon allan ar ol ei farwolaeth ef gan ryw ddysgybl gor-selog, yr hwn a ewyllysiai, o dan gysgod ei enw, ymosod ar y cyfeiliornadau oedd yn ffynu yn yr oes hono. Tybia Schott mai Luc oedd yr ysgrifenydd. Haera Baur mai yn y rhan olaf o'r ail ganrif, ar ol marwolaeth Polycarp, yn y fl. 167 B.A., yr ysgrifenwyd hwynt. Ar y dybiaeth hon, yr Ail Epistol at Timotheus a ysgrifenwyd gyntaf, a'r Epistol Cyntaf at Timotheus yn olaf, o'r tri; pob tu, hwyrach, gan ysgrifenydd gwahanol. Gwelir oddi wrth hyn fod y cwestiwn o

awduriaeth yma yn un pwysig iawn. Os nad Paul ydyw awdwr yr Epistolau Bugeiliol, y mae yn amlwg fod yr ysgrifenydd yn bwriadu iddynt basio fel y cyfryw, ac felly ei fod yn euog o dwyll o'r fath waethaf. Byddai yn rhaid iddynt gymmeryd eu lle gyda ffug-homiliau Clement, neu ffug-epistolau Ignatius. Lle yr ydym yn awr yn canfod olion, llawn o fywyd a dyddordeb, o gymmeriad sefydlog, tyner, gwresog, a hawddgar Paul yr henafgwr, ni welwn ond triciau, twyll, a dichell rhyw ddadleuwr anadnabyddus ac anonest. Wedi ystyried y cwestiwn yn fanwl, y penderfyniad yr ydym yn gorfod dyfod iddo ydyw, yn gyntaf, fod y tystiolaethau allanol o blaid dilysrwydd yr Epistolau Bugeiliol mor gedyrn a phenderfynol, fel nad oes un lle i ammheu na roddwyd derbyniad cyffredinol iddynt gan yr eglwysi Cristionogol yn yr oesoedd boreuaf; yn ail, nad ydyw y gwrthddadleuon a ddygwyd hyd yma yn erbyn eu dilysrwydd, ar seiliau allanol, yn ddigon i'w gwrthbrofi, neu hyd yn oed i godi ammheuaeth ar y pwnge mewn meddwl diragfarn. Gan hyny, teimlwn y gallwn yn ddibetrus ddibynu ar broffes yr epistolau eu hunain, a chrediniaeth gyffredinol Cristionogion, eu bod mewn gwirionedd wedi eu hysgrifenu gan Paul.

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD HWYNT.

Nid gorchwyl hawdd ydyw penderfynu yn sicr pa bryd yr ysgrifenwyd yr Epistolau Bugeiliol Fod yr Ail Epistol at Timotheus wedi ei ysgrifenu ychydig cyn diwedd oes yr apostol, pan oedd yn garcharor, ac yn y rhagolwg ar angeu, sydd eglur:—*pen.* ii. 9; a iv. 6—8. Ond y mae cymmaint o debygolrwydd rhwng eu harddull a'u cynnwysiad fel y mae yn ammhossibl gosod y ddau ereill yn rhyw bell iawn oddi wrtho. Gan hyny, y peth tebygol ydyw, fod y tri wedi eu hysgrifenu yn y tymmor olaf o fywyd yr apostol. Yn awr, yr unig gyfeiriad at le, yn 1 *Tim.*, ydyw yr un yn *pen.* i. 3, yn yr hwn y crybwyllir am daith i Macedonia, yn ystod yr hon y gadawyd Timotheus yn Ephesus. Rhaid fod hyn wedi digwydd yn ystod carchariad cyntaf Paul yn Rhufain, os na charcharwyd ef chwaneg nag unwaith. A all hyn fod wedi digwydd rywbryd yn ystod y tymmor o fywyd yr apostol a gynnwysir yn Llyfr yr Actau? Yn *Act.* xviii. 19, yr ydym yn darllen fod Paul wedi ymweled âg Ephesus; ond gan fod yr epistol yn rhoddi ar ddeall fod yr eglwys yno mewn bod er's peth amser; a chan nad aeth Paul ar yr achlysur hwnw i Macedonia, ond i Jerusalem, rhaid mai nid hwn oedd yr achlysur y cyferir ato. Y mae yn amlwg oddi wrth *Act.* xx. 31, ei fod wedi bod yn "aros am dros dair blynedd" yn Ephesus. Ymddengys iddo gychwyn i Macedonia yn niwedd yr amser hwn (*Act.* xx. 1); ond ni ddarfu iddo adael Timotheus ar ei ol yn Ephesus, gan ei fod yn flaenorol wedi ei anfon ef ac Erastus yn mlaen i Macedonia: *Act.* xx. 22. Ac nis gallai Timotheus ddychwelyd i Ephesus cyn ymadawiad Paul, ac aros yno ar ol hyny; canys yr oedd efe gyda'r apostol yn Macedonia pan ysgrifenwyd yr Ail Epistol at y Corinthiaid (*pen.* i. 1): a thrachefn yn Nghorinth pan ysgrifenwyd yr Epistol at y Rhufeiniaid (*pen.* xvi. 21), a dychwelodd gydag ef i Asia (*Act.* xx. 4). Gan hyny, nid oes un sail sicr i'r dybiaeth fod Timotheus wedi aros am dros dair blynedd yn Ephesus yn ystod absennoldeb Paul. Parodd hyn i Mosheim, Schrader, Wieseler, ac amryw feirniaid enwog ereill, ddychymygu ei fod wedi cymmeryd taith i Macedonia, yr hon nid ydyw yn cael ei chofnodi, ond iddi ddigwydd rywbryd yn ystod tair blynedd ei breswyliad yn Ephesus. Ond y mae llawer iawn o anhawsderau ynglŷn â'r dybiaeth hon. Y mae gosod y daith yn gynnar yn y preswyliad hwnw, fel y gwna Mosheim, yn anghysson â sefyllfa uchel yr eglwys a ddisgrifir yn yr epistol. Nid ydyw ei gosod yn ddiweddarach (yn mhen dwy flynedd, fel y gwna Schrader, Wieseler, a Davidson, gan gyfeirio at *Act.* xix. 21) yn ddim amgen na dodi taith faith o ddwy flynedd o leiaf (rhaid fod Paul wedi myned i Macedonia, oddi yno i Corinth, oddi yno i Crete, lle y gadawodd efe Titus, ac oddi yno trwy Nicopolis i Ephesus, o 54 B.A. i 56 B.A.) i mewn yn yr adroddiad heb un awdurdod, neu yn hytrach yn ei erbyn; canys y mae yn sicr na chymerodd y daith fwriadol i Macedonia (*Act.* xix. 21) le hyd ar ol y terfysg (*Act.* xx. 1), ac mai y daith a grybwyllir yn yr adnod olaf oedd yr un y bwriedid ei chymmeryd. At y gwrthddadleuon hyn, rhaid chwanegu, fod cyfarchiad ymadawol Paul (*Act.* xx. 17—35), yr hwn, yn ol y dybiaeth o dan sylw, a draddodwyd *ar ol* i'r epistol gael ei ysgrifenu, yn cyferio at annhrefn a heresiau dyfodol, tra y mae yr epistol yn siarad am annhrefn a heresiau presennol.

Ar y cyfan, y mae yn anhawdd iawn rhoddi un dyddiad, tebyg o fod yn gywir, i'r epistolau cyn diwedd y tymmor o fywyd Paul a gynnwysir yn Llyfr yr Actau. A chadarnheir y casgliad hwn gan natur ac aeddfedrwydd yr heresiau, a sefyllfa yr egiwys, fel y disgrifir hwynt yn yr epistolau hyn. Gan hyny, rhaid mai ar ol hyny yr ysgrifenwyd hwynt; ac am hyny fod yr apostol wedi ei ryddhau o'r carchariad cyntaf yn Rhufain—ffaith a gefnogir gan draddodiad.

Nid oes genym unrhyw awgrymiad na hysbysrwydd i'n galluogi i benderfynu yn fanwl pa bryd a pha le yr ysgrifenwyd yr Epistol Cyntaf. Yn *Phil.* ii. 24, y mae yn dyweyd fod ganddo "hyder yn yr Arglwydd y deuai yntau hefyd ar fyrder atynt." A golygu iddo roddi y bwriad hwn mewn gweithrediad, aeth, ar ol ei ryddhâd, i Macedonia; ac felly rhaid i ni dybied iddo fyned oddi yno i Asia, ac ymweled âg Ephesus (63 B.A.). Dichon ei fod wedi cymmeryd ei daith fwriadol oddi yno i Yspaen (*Rhuf.* xv. 24, 28). Ymddengys mai ar ol hyn, ac o lewn ychydig amser i'w ferthyrdod (67 B.A.), yr ysgrifenwyd yr epistol hwn.

EPISTOL CYNTAF AT TIMOTHEUS.

Yr ydys eisoes wedi trafod awduriaeth yr epistol hwn, a'r lle a'r amser yr ysgrifenwyd ef ynddo, yn ein hymdriniaeth â'r Epistolau Bugeiliol; ac felly nid oes eisieu i ni yma ond yn unig sylwi ar dri pheth; sef, at bwy yr ysgrifenwyd ef, yr achlysur o hono, a'i gynnwysiad.

AT BWY YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Hanodd Timotheus o un o'r priodasau cymmysg hyny, y rhai, er eu bod yn cael eu condemnio gan yr Iuddewon, a gymmerent le yn aml yn y tymmor olaf o hanes y genedl. Ni wyddys beth oedd enw ei dad; ond Groegwr oedd efe o genedl. Os oedd mewn rhyw ystyr yn broselyt, gellir casglu, oddi wrth y ffaith fod eu plentyn heb dderbyn arwydd y cyfammod, ei fod yn perthyn i ddosbarth y dychweledigion hannerog, a elwid "proselytiaid y porth," ac nid i ddosbarth "proselytiaid cyflawnder." Cesglir hefyd, oddi wrth absennoldeb pob cyfeiriad personol at y tad, yn yr Actau a'r Epistolau, y rhaid ei fod ef wedi marw tra yr oedd Timotheus yn faban. Fel hyn disgynodd y ddyledswydd o ofalu am y bachgen ar ei fam Eunice, a'i nain Löis: 2 *Tim.* i. 5. Dygwyd ef i fyny ganddynt hwy yn y grefydd Iuddewig. Dysgodd "wybod yr Ysgrythyr Lân er yn fachgen." Nis gellir penderfynu, oddi wrth iaith yr Actau, pa un ai yn Lystra, ai yn Derbe, yr oedd y teulu yn byw. Casgla rhai, oddi wrth *Act.* xx. 4. ond heb fawr o sail, mai yn yr olaf; a chasgla ereill, oddi wrth *Act.* xvi. 2, mai yn y flaenaf. Dychwelwyd Timotheus a'i fam at Gristionogaeth trwy weinidogaeth Paul a Barnabas: *Act.* xiv. 6. Os yn Lystra, fel y mae yn ymddangos yn debygol oddi wrth 2 *Tim.* iii. 11, dichon ei fod wedi gweled y wyrth a wnaed ar y dyn cloff, wedi gweled y bobl yn cynnyg aberthu iddynt, ac wedi hyny yn llabyddio Paul hyd nes y tybiasant "ei fod ef wedi marw;" *Act.* xiv. 8—19. Ymddengys fod y cynghorion difrifol a roddwyd gan yr apostol, ar ol ei ddychweliad o'i daith fer, wedi parotoi ei feddwl ef i fywyd o ddioddefaint yn achos yr efengyl: *Act.* xiv. 22. O'r amser hwnw rhaid fod ei fywyd a'i addysg wedi bod o dan arolygiaeth uniongyrchol y corph o henuriaid: *Act.* xiv. 23. Yn ystod y cyfwng o saith mlynedd rhwng taith gyntaf ac ail yr apostol, tyfodd y bachgen yn ddyn. Daeth ei sel, ac yn enwedig ei ddull neillduedig a sanctaidd o fyw, yn hysbys yn Lystra ac Iconium. Y mae y ffaith fod y ddwy eglwys yn rhoddi "gair da" iddo (*Act.* xvi. 2), yn ein harwain gredu fod y gwaith a gyflawnid ganddo y pryd hwnw yn rhagarwydd o'r gwaith a gyflawnid ganddo mewn amser diweddarach—ei fod eisoes yn cael ei ddefnyddio i wneyd yr hyn oedd i fod ar ol hyny yn waith mawr ei fywyd, fel "cenad yr eglwysi;" ac mai y prawf a gafwyd o'i gymmhwysder i'r swydd hono a barodd i Paul ei ddewis ef fel cynnorthwywr. Gwelai y dosbarth mwyaf craffus yn yr eglwysi ei fod yn ddyn ieuangc tra addawol, a rhagfynegent y byddai yn ddefnyddiol iawn gyda chrefydd, a chyfeirient yn fynych ato (1 *Tim.* i. 1, 18; iv. 14), megys ag yr oedd ereill o'r blaen wedi cyfeirio at Paul a Barnabas (*Act.* xiii. 2), fel un oedd wedi ei godi a'i gymmhwyso gan yr Arglwydd mewn modd neilltuol i'r gwaith cenhadol. Arwein wyd Paul gan deimlad personol i'r un penderfyniad (*Act.* xvi. 3), a neilltuwyd ef mewn dull difrifol, "gydag arddodiad dwylaw yr henuriaeth," a Phaul ei hun, i wneyd gwaith efengylwr (1 *Tim.* iv. 14; 2 *Tim.* i. 6; iv. 5); ac mewn trefn i symmud pob rhwystr oddi ar ffordd ei ddefnyddioldeb i'r Iuddewon y digwyddai efe fyned i'w plith, "efe a'i cymmerth ac a'i henwaedodd ef;" *Act.* xvi. 3. O hyn allan yr oedd Timotheus yn un o'i gymdeithion mwyaf gwastadol. Ni chafodd efe neb, er pan yr ymadawodd oddi wrth Barnabas, mor ffyddlawn ag ef. Aethant hwy a Silfanus, ac hwyrach Luc hefyd, i Philippi (*Act.* xvi. 12); a daeth yr efengylwr ieuangc yn fuan i enwogrwydd yno ar gyfrif ei weithgarwch a'i ofal diragrith am lwyddiant yr efengyl: *Phil.* ii. 22. Nid ydyw ei enw yn ymddangos yn yr hanes am lafur Paul yn Thessalonica, ac y mae yn bossibl iddo aros am beth amser yn Philippi, ac yna gweithredodd fel cenad gyda'r hwn yr anfonodd aelodau yr eglwys hono yr hyn a allent ei roddi i ddiwallu anghenion yr apostol: *Phil.* iv. 15. Modd bynag, yr ydym yn cael ei fod yn Berea: ac efe a arosodd yno pan y bu raid i Paul a Silas ymadael (*Act.* xvii. 14), gan fyned yn mlaen drachefn i ymuno â'i feistr yn Athen: 1 *Thes.* iii. 2. O Athen, anfonwyd ef yn ol i Thessalonica, fel un oedd yn meddu dawn arbenig i gysuro ac addysgu. Dychwelodd o Thessalonica, nid i Athen, ond i Corinth, ac ymddengys ei enw gyda Phaul yn nechreu y ddau epistol a ysgrifenwyd o'r ddinas hono at y Thessaloniaid. Llafuriodd yn ddiwyd yma hefyd fel efengylwr (2 *Cor.* i. 19), ac y mae yn dra thebygol mai arno ef y disgynai y ddyledswydd o fedyddio y dychweledigion ieuainge: 1 *Cor.* i. 14. Nid oes genym ddim hanes am y pedair blynedd nesaf o'i fywyd, ac nis gallwn gasglu dim, heb law ei fod wedi parhau i lafurio fel cydymaith Paul. Yn nesaf, yr ydym yn gweled ei fod yn cael ei anfon yn mlaen pan oedd yr apostol yn bwriadu myned i'r daith fawr, yr hon oedd i gynnwys Macedonia, Achaia, Ierusalem, a Rhufain: *Act.* xix. 22. Cymmerodd ei daith trwy yr eglwysi, y rhai yr oedd Paul wedi bod yn offerynol i'w sylfaenu; ac wedi cyflawni y gwaith arbenig a roddwyd iddo, efe a ddychwelodd ar hyd yr un llwybr, ac yn ol cyttundeb blaenorol cyfarfu â Phaul (1 *Cor.* xvi. 11):—ac fel hyn, yr oedd gydag ef pan ysgrifenwyd yr Ail Epistol at y Corinthiaid: 2 *Cor.* i. 1. Efe a ddychwelodd gyda'r apostol i'r ddinas hono, ac a

unodd i anfon anerch at y dysgyblion, y rhai yr oedd efe yn eu hadnabod yn bersonol yn Nghorinth, a'r rhai oeddynt ar ol hyny wedi myned i Rufain: *Rhuf.* xvi. 21. Yr oedd efe yn un o'r cyfeillion a gyd-ymdeithiasant â Phaul i Philippi, ac a foriasant eu hunain o'i flaen ef, gan ddisgwyl iddo ddyfod gyda llong arall: *Act.* xx. 3—6. Pa un a aeth efe yn mlaen i Ierusalem, a beth a ddaeth o hono yn ystod y ddwy flynedd y cadwyd Paul yn ngharchar, nis gellir penderfynu yn sicr. Ymddengys, oddi wrth gyfarchiad Paul i henuriaid Ephesus (*Act.* xx. 17—35), na ddarfu iddo ei awdurdodi ef i aros yno y pryd hwnw. Hefyd, y mae absennoldeb ei enw o *Act.* xxvii. yn rhoddi lle i ni gredu nad oedd efe yn un o'r rhai a ymgymmerasant â'r fordaith beryglus i Italy. Modd bynag, rhaid ei fod wedi myned ato yn fuan wedi iddo gyrhaedd i Rufain; ac yr oedd efe gydag ef pan ysgrifenwyd yr epistolau at y Philippiaid, at y Colossiaid, ac at Philemon: *Phil.* i. 1; ii. 19; *Col.* i. 1, a *Phil.* i. Dengys yr anerchiadau arbenig a antonwyd ato ef wedi hyny (2 *Tim.* iv. 21), ei fod yn Rhufain hefyd, fel mewn lleoedd ereill, wedi ennill serch y rhai y bu yn gweinidogaethu iddynt. Yn mhlith y rhai mwyaf awyddus i gael eu cofio fel hyn ato, yr ydym yn cael enwau pendefig Rhufeinig (PUDEUS), esgob dyfodol Rhufain (LINUS), a merch brenin Prydeinig (CLAUDIA).

ACHLYSUR AC AMCAN YR EPISTOL.

Mewn trefn i ddeall achlysur ac amcan yr epistol, y mae yn angenrheidiol gwybod yr amgylchiadau o dan ba rai yr ysgrifenwyd ef. Ymddengys, oddi wrth 1 *Tim.* i. 3, fod Timotheus a Phaul, ar ol rhyddhad yr olaf o'i garchariad, wedi ail ymweled â'r rhanau o Asia oedd o dan lywodraeth Rhufain—fod yr apostol y pryd hwnw wedi myned yn mlaen i Macedonia, tra yr arosodd Timotheus, yn hanner ewyllysgar, gan hyd yn oed wylo o herwydd yr ysgariaeth (2 *Tim.* i. 4), yn Ephesus; i attal, os gellid, cynnydd yr heresiau a'r penrhyddid oedd wedi ymgodi yno. Er fod yr apostol yn gobeithio y deuai yno ato yn fuan, ofnai y cedwid ef yn hwy nag y disgwyliai: 1 *Tim.* iii. 14, 15. Nis gallai y sefyllia y cafodd ei hun ynddi lai na pheri iddo deimlo pryder nid bychan. Yr oedd yn rhaid iddo lywodraethu henuriaid, y rhan fwyaf o ba rai oeddynt yn hynach nag ef ei hun (1 *Tim.* iv. 12) pennodi cyflog pob un yn ol ei waith (1 *Tim.* v. 17)—derbyn a phenderfynu cyhuddiadau a ddygid yn eu herbyn (1 *Tim.* v. 1, 19, 20)—dosbarthu elusenau yr eglwys (1 *Tim.* v. 3—10)—ac ordeinio henuriaid a diaconiaid: 1 *Tim.* i. 1—13. Yr oedd mewn perygl neilldnol oddi wrth ddadleuon, rhagfarnau, cybydd-dod, ac anfoesoldeb dinas fawr; a chan nad oedd ond dyn gwanaidd o gyfansoddiad, yr oedd mewn perygl o niweidio ei iechyd a cholli ei nerth trwy fyw yn rhy galed: 1 *Tim.* iv. 4, a v. 23. Yr oedd arweinyddion sectau gwrthwynebol yno—Hymeneus, Philetus, Alexander—i'w wrthwynebu a'i rwystro ef: 1 *Tim.* i. 20; 2 *Tim.* ii. 17, a iv. 14, 15. Nid oedd enw ei athraw hoffus yn cael ei barchu mwyach fel y bu; yr oedd serch gref y dyddiau gynt wedi diflanu, a Phaul "yr henafgwr" wedi dyfod yn ammhoblogaidd, yn wrthddrych drwgdybiaeth a gelyniaeth: cymmharer *Act.* xx. 37, a *Tim.* i. 15. Yn unig o fewn cylch bychan yr ychydig ffyddloniaid (Aquila, Priscilla, Marc, ac ereill, y rhai oeddynt etto gydag ef) yr oedd efe yn debyg o gael cydymdeimlad a chefnogaeth (2 *Tim.* iv. 19); a theimlai yr apostol bryder ac ofn nid bychan ynghylch ei sefydlogrwydd. Y sefyllfa bwysig yr oedd Timotheus ynddi yn Ephesus, a'r peryglon mawrion yr oedd yn agored iddynt, oedd yr achlysur i Paul ysgrifenu yr epistol hwn ato. Ei brif amcan ydyw calonogi a chyfarwyddo Timotheus i arolygu yr eglwys yn Ephesus, ac i ymgadw yn mhell oddi wrth y peryglon yr oedd yn agored iddynt. Gellir rhanu ei brif amcan yn ddwy ran:—yn gyntaf, ei annog ef i wrthsefyll a darostwng yr heresiau oedd yn ffynu yn mhlith y Cristionogion yn y dyddiau hyny. Y mae yn cyfeirio yn barhaus at y rhai hyn, ac yn crybwyll am danynt drachefn a thrachefn: y mae yn amlwg eu bod yn pwyso yn drwm ar ei feddwl, ac yn peri iddo deimlo pryder dwfn gyda golwg ar Timotheus: yn ail, rhoddi cyfarwyddiadau iddo gyda golwg ar yr eglwys ei hun—dangos iddo pa fodd i appwyntio i swyddau cyssegredig, i ddewis gwragedd gweddwon i dderbyn elusenau yr eglwys, ac i wneyd gwasanaeth i grefydd am danynt, ac i gerydduo troseddwyr. Y mae yn debygol fod yr epistol wedi ei fwriadu i'w ddarllen yn gyhoeddus i'r Ephesiaid, fel y gwyddent ar ba awdurdod yr oedd Timotheus yn gweithredu.

EI GYNNWYSIAD.

1. Wedi dwyn ar gof i Timotheus ei fod wedi ei adael yn Ephesus, i ddiwygio yr hyn oedd feius, y mae yr apostol yn myned yn mlaen i ddisgrifio yr heresiau oeddynt yn ffynu yn mhlith y Cristionogion yn y dyddiau hyny, yn enwedig y ddau arch-heretic, Hymeneus ac Alexander: *pen.* i.

2. Y mae yn rhoddi cyfarwyddiadau pa fodd i ddwyn yn mlaen yr addoliad cyhoeddus, ynghyd â'r modd i ferched ymddwyn ynddo: *pen.* ii.

3. Yna y mae yn rhoddi disgrifiad manwl o'r cymmhwysderau gofynol yn y personau a ddewisir i fod yn esgobion ac yn ddiaconiaid yn yr eglwysi Cristionogol: *pen.* iii.

4. Dengys y perygl o ddewis dynion annuwiol, ac afiach yn y ffydd, i fod yn swyddogion eglwysig, trwy ragfynegu y cymmerai gwrthgiliad le yn yr amseroedd diweddaf, a hyny o herwydd swyddogion annuwiol a chyfeiliornus (*pen.* iv. 1—5); ac yna y mae yn cyfarwyddo Timotheus pa fodd i ymddwyn yn ngwyneb y cyfryw wrthgiliad, ac yn ei gynghori i lynu yn ffyddlawn wrth y wir athrawiaeth: *pen.* iv. 6—16.

5. Y mae yn rhoddi rheolau i'w dilyn wrth geryddu aelodau eglwysig o wahanol sefyllfaoedd a ddigwyddent drosoddo (*pen.* v. 1, 2); ac yna y mae yn trafod y cwestiwn o gynnaliaeth gwragedd gweddwon a gweinidogion yr efengyl gan yr eglwysi: *pen.* v. 3—18.

6. Dengys, o un tu, na ddylai y rhai sydd yn weision gymmeryd mantais ar eu rhyddid Cristionogol i ddiystyru ac anufuddhau i'w meistriaid; ac, o'r tu arall, na ddylai y cyfoethogion gymmeryd mantais ar eu cyfoeth i ddiystyru a gorthrymu y tlodion: *pen.* vi.

Y mae y cyfeiriadau a geir yn yr epistol hwn at addysg foreuol, a neilldnolion cymmeriad personol Timotheus, yn brofion diammheuol o'i ddilysrwydd.

YR EPISTOL CYNTAF AT TIMOTHEUS.

PENNOD I.

1 *Y mae Paul yn dwyn ar gof i Timotheus y siars a roddasai efe iddo, wrth fyned i Macedonia.* 5 *Iawn arfer a diweddd y gyfraith.* 11 *Ynghylch galw Paul i fod yn apostol.* 20 *Am Hymeneus ac Alexander.*

B. A. 66.

[a] Salm 106. 21; Esa. 44.15, 21; 63. 8.

PAUL apostol Iesu Grist, yn ol gorchymyn [a] Duw ein Hiachawdwr, a'r Arglwydd Iesu Grist, ein gobaith;

2 At Timotheus, *fy* mab naturiol yn y ffydd: Gras, trugaredd, *a* thangnefedd oddi wrth Dduw ein Tad, a Christ Iesu ein Harglwydd.

3 Megys y deisyfais arnat aros

PENNOD I.

1. *Yn ol gorchymyn Duw.*—Coleddir dau syniad ynghylch ystyr yr ymadrodd hwn. Un ydyw, fod Paul wedi ei wneyd yn apostol drwy orchymyn pennodol Duw a Christ: a'r llall ydyw, ei fod wedi ysgrifenu yr epistol hwn at Timotheus trwy orchymyn pennodol Duw a Christ. Er y dichon fod y syniad olaf yn wirionedd, credwn mai y cyntaf ydyw y gwir ystyr yma, am ei fod yn hollol gydweddol â'r modd y defnyddir yr ymadrodd mewn lleoedd ereill. *A'r Arglwydd Iesu Grist.*—Ymddengys fod yr apostol yn hoff iawn o'r ail adroddiadau hyn yn ei wersi mwyaf difrifol a ffurfiol; ac y mae holl arddull yr epistolau hyn yn cyfranogi mwy o'r nodwedd yma, fel yr oedd yn naturiol iddo wneyd yn niwedd ei oes. *Ein gobaith.*—Nid hawdd ydyw cael allan wir gyfeiriad y gair hwn yma, ddim pellach nag y gallwn ddyweyd ei fod yn amlygiad o deimlad calon hen ŵr oedd yn hollol ymwybodol fod amser ei ymddattodiad ger llaw. Nid ydyw yn ddim amgen na phroffad aeddfed o "Grist ynom ni, gobaith y gogoniant;" *Col.* i. 27. Gwel hefyd *Titus* i. 2.

2. *Fy mab naturiol yn y ffydd:—h. y.*, mab gwirioneddol, wedi ei genhedlu genyf fi i ffydd Crist. Cymmharer *Act.* xv. 1; 1 *Cor.* iv. 14—17; a gwel y rhagarweiniad i'r epistol hwn. Yn ol Dr. Morgan, "fy anwyl fab;" ac yn ol W. Salisbury, "fy anianol fab." Geilw yr apostol Timotheus a Titus yn feibion yn yr un ystyr ag y mae yn galw Onesimus yn fab, "yr hwn a genhedlodd yn ei rwymau:" *Philem.* 10. Wrth "naturiol," y meddylir cywir, ffyddlawn, ac yn tebygu iddo mewn tueddfryd, ffydd, cariad, ffyddlondeb, a sêl i daenu yr efengyl: nid hannerog ac anffyddlawn, yn gofalu am ei eiddo ei hun, ac nid am yr eiddo Crist Iesu. Dywed Paul am Timotheus, "Nid oes genyf neb o gyffelyb feddwl;" *Phil.* ii. 20. *Gras, trugaredd, a thangnefedd.* — Cyfeithir y gair "gras" yn wahanol mewn gwahanol gyssylltiadau; megys ffafr (*Luc* i. 30); diolch (*Luc* vi. 32—34; a xvii. 9; 1 *Cor.* xv. 57); hawddgarwch (*Act.* vii. 10); cymmwynasgarwch (*Act.* xxiv. 7); a rhodd (1 *Cor.* xvi. 3). Er fod perthynas agos rhwng y gair "gras" a'r gair "trugaredd," y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Prif nodwedd gras ydyw rhadlonrwydd. Y disgrifiad a rydd Aristotle o hono, er mai am ras dynion y mae efe yn llefaru, ydyw, mai rhodd neu ddaioni a gyfrenir ydyw, heb obaith na disgwyliad am ad-daliad—yn tarddu yn gwbl o ewyllys da a haelfrydedd y rhoddwr. Y mae y disgrifiad hwn yn cyttuno yn hollol âg ystyr y gair yn yr Ysgrythyrau. Yn *Rhuf.* xi. 6, y mae Paul yn cyferbynu gras a gweithredoedd, gan ddangos yn yr iaith gadarnaf fod y naill yn cau allan y llall, am fod gras yn golygu, nid yn unig nad ydyw y derbynydd yn haeddu y daioni a gyfrenir iddo, ond ei fod yn haeddu cospedigaeth. Ond tra y mae gras fel hyn yn cyfeirio at bechod dyn, ac yn cael ei amlygu trwy faddeuant rhad o hono, y mae y gair "trugaredd" yn cyfeirio mewn modd arbenig at y trueni sydd wedi dyfod i ran y natur ddynol trwy bechod. Cyfrenir gras Duw i ddynion fel creaduriaid euog—ei drugaredd i ddynion fel creaduriaid truenus. Y mae yr anifail yn wrthddrych trugaredd Duw; ond dyn yn un g sydd yn wrthddrych ei ras; efe yn unig sydd yn seiyll mewn angen am dano, ac efe yn unig sydd yn gymmhwys i'w dderbyn. Yn y meddwl dwyfol, ac yn nhrefn ein hiachawdwriaeth, y mae trugaredd yn blaenori gras. Carodd Duw y byd yn y fath fodd gyda chariad tosturiol (yma y gwelir ei drugaredd) "rel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab" (yma y gwelir ei ras), "fel yr achubid y byd trwyddo ef;" *Ioan* iii. 18; *Eph.* ii. 4; *Luc* i. 78, 79. Y mae y gair "gras" o flaen y gair "trugaredd" yn mhob un o'r cyfarchiadau apostolaidd lle y mae y geiriau hyn yn digwydd. Y mae y gair "tangnefedd" yma yn cynnwys ffrwyth gras a thrugaredd, ac yn golygu pob gradd o lwyddiant a dedwyddwch, tymmorol ac ysbrydol, presennol a thragwyddol. *Duw ein Tad.*—Defnyddir y geiriau hyn gan Paul yn *Gal.* i. 1, 3; *Eph.* vi. 23; *Phil.* ii. 11; *Col.* iii. 17; 1 *Thes.* i. 1: 2 *Thes.* i. 1; 2 *Tim.* i. 2; *Titus* i. 4. Ac felly y mae yn cael ei arfer yn ei holl ysgrifeniadau, ond yn benaf yn y rhai a ysgrifenwyd ganddo yn y rhan olaf o'i fywyd.

3—20. Y mae yr apostol yn symmud oddi wrth yr hyn a ddywedir ganddo am yr amcan i ba un y gadawyd Timotheus yn Ephesus (*adn.* 3, 4), a'r

yn Ephesus, pan aethum i Macedonia, fel y gellit [b] rybuddio rhai na ddysgont ddim amgen,

[a] Gal. 1. 6, 7; Eph. 4. 14.

4 Ac na ddalionť ar chwedlau, disgrifiad a roddir ganddo o gymmeriad y gauathrawon (*adn.* 5—7), at wir ddyben y gyfraith y proffesent ei dysgu (*adn.* 8—10), a'i chyssondeb â'r efengyl a ymddiriedwyd iddo ef (*adn.* 11); ac oddi wrth hyn y mae yn symmud at ei dröedigaeth ei hun, am yr hyn y mae yn diolch mewn teimlad a geiriau gwresog (*adn.* 12—17). Oddi wrth hyn y mae yn dychwelyd at ei annogaethau i Timotheus (*adn.* 18—20). Dygir hyn yn mlaen gan DeiWette fel gwrthddadl yn erbyn dilysrwydd yr epistol hwn, yn gystal a'r Epistolau Bugeiliol ereill. Ond ymddengys i ni ei fod yn brawf pendant i'r gwrthwyneb. Beth a allai fod yn fwy naturiol na hyn, o dan yr amgylchiadau, a thybied mai Paul ydyw eu hawdwr? Onid tuedd naturiol athraw, pan yn ysgrifenu at ei hen ddysgybl, ydyw gwneyd cyfeiriadau fel hyn at wirioneddau yr oeddynt eu dau wedi bod yn ymdrin llawer â hwynt, ac yn eu credu yn ddiysgog? O'r braidd y mae genym un prawf cryfach o ddilysrwydd yr epistolau hyn na'r ffaith ein bod yn cael eu bod yn cyfatteb yn berffaith i'r hyn y gellir ei ddisgwyl oddi wrth Paul yr hynaťgwr tuag at ei feibion yn y ffydd?

3. *Deisyfais arnat.*—Y mae Chrysostom yn rhoddi pwys neilduol ar y gair fel un sydd yn cynnwys tynerwch mawr:—"Gwrandewch ar ei eiriau caredig. Nid ydyw yn defnyddio iaith awdurdodol meistr, ond yn hytrach iaith ostyngedig gwas. Nid yw yn dyweyd 'Megys y perais i ti,' neu 'megys y gorchymynais i ti;' ond 'megys y deisyfais arnat.'" Tybia Beza, fod yr apostol, drwy ddefnyddio yr ymadrodd tyner "megys y deisyfais arnat," wedi gadael esampl o ostyngeiddrwydd i'w efelychu gan uwchafiaid yn eu hymddygiad tuag at eu hisafiaid yn yr eglwys. "Yn gyntaf, y mae yn dwyn ar gof i Timotheus pa ham y deisyfodd arno ef aros yn Ephesus. Gydag anewyllysgarwch mawr, ac o herwydd angenrhaid arbenig, yr ymadawodd efe â chydymaith mor anwyl a ffyddlawn, mewn trefn i wneyd gwaith pwysig—gwaith nad oedd un dyn arall yn gymmhwys i'w wneyd; ac am hyny, rhaid fod Timotheus yn teimlo fod hyn yn gymmhelliad cryf iddo, nid yn unig i beidio gwastraffu ei amser, ond hefyd i ymddwyn yn addas i efengyl Crist yn mhob man."—*Calvin. Rhai:—h.y.*, y gau-athrawon. Y mae y gair hwn yn digwydd yn fynych iawn yn yr epistolau hyn. Gwel *adn.* 6, 19; *pen.* iv. 1; *adn.* 15; *pen.* vi. 10, 21; 2 *Tim.* ii. 18. Weithiau, arferir "rhai sydd yn gwrthddywedyd," neu "llawer," am yr un personau; *Tit.* i. 9, 10. Casgla Huther oddi wrth y gair hwn nad oedd nifer y gau-athrawon y pryd hwn ond bychan: ond o'r braidd y mae y casgliad hwn yn un diogel. "Y mae yn fwy tebygol ei fod yn arfer y rhagenw ammhennodol i ddangos ei fod yn edrych arnynt gyda gradd o ddiystyrwch. Gwel *Iudas* 4; a *Gal.* ii. 12."—*Ellicott. Na ddysgont ddim amgen:—h.y.*, na ddysgont un athrawiaeth wahanol i'r un a ddysgasai Paul iddynt.

4. *Chwedlau.*—Gellir barnu oddi wrth yr adnodau ereill yn yr epistolau hyn, lle y mae y gair yn digwydd, at ba fath chwedlau y cyfeirir yma. Yn *Tit.* i. 14, gelwir hwynt yn "chwedlau Iuddewaidd." Yn 1 *Tim.* iv. 7, gosodir hwynt allan ac achau anorphen, y rhai sydd yn peri cwestiynau yn hytrach nag [c] adeiladaeth dduwiol, yr hon sydd trwy ffydd; *gwna felly.*

[c] Eph. 4. 1—16; Heb. 13. 9.

fel "halogedig, a gwrachïaidd chwedlau." Yn 2 *Tim.* iv. 4, siaredir am danynt mewn modd ammhennodol, fel yn yr adnod hon. Tybia rhai, mai deongliadau cyfriniol y Gnosticiaid o'r Hen Destament a feddylir wrthynt. Ond y mae y tadau yn gyffredinol, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr diweddar, yn dyweyd mai traddodiadau ynfyd yr Iuddewon oeddynt, yn neilduol ynghylch bedydd, a phethau ereill y dylesid ymattal oddi wrthynt fel pethau afian, y rhai a elwir gan ein Hargliwydd yn "orchymynion dynion:" *Mat.* xv 9. Ac os yr un rhai oedd y "chwedlau" a ddisgrifir yn *Titus* a'r rhai hyn, fel y mae pob lle i gredu, y mae yn sicr mai chwedlau Iuddewaidd oeddynt. Ond barna Calvin fod y gair yn cael ei gymmhwyso, nid yn unig at gelwyddau wedi eu dyfeisio, ond at bob peth ynfyd, gwâg, a disylwedd; a'r rheswm a roddir ganddo dros y dyb hon ydyw, ei bod yn bossibl i beth fod yn chwedl heb fod yn gelwydd. *Achau anorphen.*—Gan fod yr "achau," yn *Tit.* iii. 9, yn cael eu cyssyllty âg "ymrysonau ynghylch y ddeddf," y mae yn dra thebygol, os nad yn sicr, mai yr achau Iuddewig a olygir yma. Dywedir eu bod yn "anorphen," —yn ddiddiwedd; i ddynodi meithder y cyfryw achau. Yr oedd achau y genedl Iuddewig o bwys neilduol o dan yr Hen Destament, er profi mai Iesu o Nazareth ydyw y gwir Fessiah, ac wedi ei eni o'r genedl, y llwyth, a'r teulu y rhagfynegwyd am dano; ond wedi dyfodiad Crist yn y cnawd, y mae achau y genedl i raddau helaeth wedi eu colli, ac yn ddiles; ac nid ydyw gwneyd ymchwiliad gorfanwl a dadleugar iddynt yn gwneyd dim ond porthi balchder, magu ymrysonau, a gwastraffu amser y gellir ei dreulio i well dyben. *Y rhai sydd yn peri cwestiynau:—h.y.*, y rhai sydd o duedd i godi a meithrin dadleuon anfuddiol. "Y mae yr apostol yn barnu athrawiaeth wrth ei ffrwyth; canys dylid gwrthod pob peth nad ydyw yn adeiladu, er na byddo un bai arall ynddo; a dylid dwbl gondemnio pob peth nad ydyw yn dda i ddim ond i fagu ymrysonau. A'r cyfryw ydyw pob cwestiynau dyrys y mae dynion uchelgeisiol yn hoffi eu hastudio a'u dadleu. Gan hyny, cofiwn fod pob athrawiaeth i'w phrofi wrth y rheol hon, fel y cymmeradwyer y rhai sydd o duedd i adeiladu, ac y gwrthoder y rhai sydd o duedd i godi dadleuon anfuddiol, fel rhai annheilwng o eglwys Dduw."—*Calvin. Yn hytrach nag.*—Dull tyner o ddyweyd "ac nid." Gwel *Ioan* iii. 19; *Act.* xxvii. 11; 2 *Tim.* iii. 4. *Adeiladaeth dduwiol.*—Yn ol yr holl hen law-ysgrifau, "goruchwyliaeth Duw." Cymmerwyd hyn mewn dwy ffordd:—Yn gyntaf, yn wrthddrychol: goruchwyliaeth Duw (tuag at ddyn, neu er iachawdwriaeth dyn) yr hon sydd (yn gynnwysedig) yn (y) ffydd. Y mae yr ystyr hwn yn cyfatteb i ystyr y gair "goruchwyliaeth," hyd yn oed yn *Eph.* i. 10, a *Col.* i. 25, lle y mae yn arwyddo yr hyn a ymddiriedwyd fel dyledswydd i'r apostol i'w chyflawni; ac nid ei gyflawniad ef o honi. Yn ail, yn dumewnol—cyflawni goruchwyliaeth Duw mewn ffydd. Ond yn erbyn hyn y mae yr wrthddadl bwysig, nad oes genym un esampl o'r gair "goruchwyliaeth" yn cael ei arfer yn yr ystyr o "gyflawni dyledswydd goruchwyliwr." Gan hyny, yr eglurhâd cyntaf ydyw y

[a] Rhuf. 13.8—10; 1 Ioan 4. 7 yw cariad o [e]galon bur, a [f]chydwybod dda, a [g]ffydd ddiragrith.

[a] Salm51.10; Act. 15. 9. [f] Act. 23. 1; 24. 16. [g] Gal. 5. 6; Heb. 11. 5,6.

5 [d]Eithr diwedd y gorchymyn

6 Oddi wrth yr hyn bethau y gŵyrodd rhai, ac y troisant heibio at ofer-siarad;

7 Gan ewyllysio bod yn athr-

tebycaf o fod yn gywir. Coleddir gwahanol farnau hefyd ynghylch ystyr "yr hon sydd trwy ffydd." Ond ymddengys mai y gwir feddwl yw, "yr hon sydd trwy ffydd;" *h.y.*, yn cael ei gweithio, neu ei dadblygu yn mhlith dynion trwy neu mewn ffydd. Fel hyn y mae "trwy ffydd" yn sefyll yn gyferbyniol i "gwestiynau," yn y rhai nid ydyw "goruchwyliaeth Duw" yn gynnwysedig; ac y mae y ffordd yn cael ei pharotoi i'r frawddeg nesaf, yr hon sydd yn siarad am ffydd ddiragrith fel un o'r moddion trwy ba rai y mae yr efengyl yn atteb ei dyben mawr.

5. *Eithr.*—Defnyddir y gair hwn yma mewn trefn i gyferbynu yr athrawiaeth gyfeiliornus a ddysgid gan y gau-athrawon ynghylch y gyfraith. *Diwedd.*—Amcan, neu ddyben. *Y gorchymyn.*—Cyfraith Duw yn yr efengyl (*adn.* 11); ac nid, er y dichon fod cyfeiriad ysgafn yn y gair ato, yr un yr oedd Timotheus i'w orchymyn i'r gau-athrawon yn Ephesus: *adn.* 3. Y mae y gorchymyn hwn yn rhan o'r "oruchwyliaeth" a grybwyllwyd. "Ymffrostiai y dynion drygionus hyny a'r rhai yr oedd Timotheus i ymwneyd fod y ddeddf o'u hochr; ac am hyny, y mae Paul yn dangos, nid yn unig nad oedd y ddeddf yn rhoddi un gefnogaeth iddynt, ond ei bod hyd yn oed yn eu herbyn hwy, ac yn berffaith gysson â'r efengyl a bregethasid ganddo ef."—*Calvin. Yw cariad.*—Cariad at Dduw a dynion. Amcan mawr yr efengyl, yr hon sydd yn tarddu o gariad Duw, ydyw llenwi calonau â'r cariad hwnw sydd yn peri iddynt gydffurfio â'r ddeddf, trwy gilio oddi wrth yr hyn a wahardda, a chyflawni yr hyn a orchymyna. Gwel *Rhuf.* xiii. 10. *O:—h.y.*, yn codi, neu yn tarddu o'r galon fel lle ei enedigaeth, gan mai y galon ydyw ffynnonell bywyd, *Calon bur:*—pur oddi wrth bob syniadau a thueddiadau hunanol. Gwel *Act.* xv. 9. "Calon bur ydyw calon newydd, uniawn, diragrith, a digariad at bechod; yn caru purdeb, ac yn hiraethu am dano; yn caru Duw am ei fod yn bur; yn caru Crist am ei fod yn puro, ynghyd â'i holl orchymynion a'i oruchwyliaethau sancteiddiol."—*Charles. A chydwybod dda.*—Rhaid i ni benderfynu ystyr yr ymadrodd hwn oddi wrth y modd y defnyddir ef, ac ymadroddion ereill cyffelyb, yn yr Epistolau Bugeiliol, lle y maent yn digwydd amryw weithiau. Ymddengys, oddi wrth yr esamplau a geir yn 1 *Tim.* iii. 9; 2 *Tim.* i. 3; 1 *Tim.* iv. 2; *Tit.* i. 15, fod "cydwybod dda," yn iaith yr epistolau hyn, yn cael ei chysylltu âg iachusrwydd yn y ffydd; a "chydwybod ddrwg" âg afiachusrwydd yn y ffydd: ac felly y meddwl ydyw, cydwybod wedi ei rhyddhau oddi wrth euogrwydd drwy effaith y ffydd hono ar y gydwybod. Ac fe welir fod y modd y mae Paul yn defnyddio yr ymadrodd yn *Act.* xxiii. 1, wrth ei gymmharu â 2 *Tim.* i. 3, yn cadarnhau hyn. *A ffydd ddiragrith.*—Y mae y geiriau hyn i'w deall yn gyssylltiedig â'r ymadrodd "yr hon sydd trwy ffydd," yn *adn.* 4: nid esgus o ffydd, nid ffydd ymddangosiadol y rhagrithiwr, ond ffydd wirioneddol, yr hon. fel yn *Act.* xv. 9, sydd yn puro calonau, ac fel yn *Gal.* v. 6, "yn gweithio trwy gariad." Sylwa Wiesinger fod hyn yn dangos mai cymmeriad cyffredinol y gau-athrawon hyn, yn gystal a'r rhai y rhybuddir Titus i'w gochelyd, oedd, nid cyfeiliorni mewn athrawiaeth yn gymmaint, ond arwain dynion ymaith oddi wrth fywyd Cristionogol cariadus at gwestiynau anfuddiol, y rhai nid oeddynt dda i ddim ond i fagu ymrysonau.

6. *Oddi wrth yr hyn bethau:—h. y.*, "calon bur, cydwybod dda, a ffydd ddiragrith"—ffynonellau "cariad," yr hwn y maent wedi ei golli trwy eu colli hwynt. *Y gŵyrodd rhai.*—Sylwa Theophylact fod y gair a gyfeithir yma "gŵyrodd" yn arwyddo methu y nôd at ba un y bydd un yn saethu: ond o'r braidd yr ymddengys hyn yn ddigon manwl. Nid methu cyrhaedd peth ag y mae dyn yn cyrchu ato ydyw yn gymmaint, ond gadael peth heb wneyd un sylw o hono y dylai ymdrechu ei gyrhaedd. *Ac y troisant heibio:*—o'r llwybr sydd yn arwain i'r "diwedd" (*adn.* 5), yn yr hwn y dylasent rodio. *At ofer-siarad.*—Eglurir beth oedd natur yr "ofer-siarad" hwn yn *adn.* 7, yr hon sydd yn cyssylltu yr adnod hon âg *adn.* 4. Y cwestiynau ynfyd sydd yn codi allan o'r gyfraith a ddisgrifir ganddo fel y canlyn;—"Y mae yr 'ofer-siarad' yma yn cyfeirio at y cwestiynau anorphen ac anfuddiol a grybwyllir yn *adn.* 4, ac a elwir yn *pen.* vi. 20, yn 'ofersain;' ac y mae y siarad gwâg ofer hwn yn wrthwyneb i'r cyflawniad o ddyledswyddau ysbrydol."—*Bloomfield.*

7. *Gan ewyllysio bod.*—Gan roddi eu hunain fel, ond heb fod mewn gwirionedd. *Yn athrawon o'r ddeddf.*—Pa ddeddf? ac yn mha ystyr? I'r cwestiwn blaenaf nis gellir rhoddi ond un attebiad. Y "ddeddf" ydyw deddf Moses; y "ddeddf" a adnabyddir felly bob amser. Y mae yr arferiad cyffredin o'r ymadrodd "athrawon o'r ddeddf" yn ein hattal rhag rhoddi i'r gair, yn dyfod fel y mae o enau Iuddew, un ystyr arall. Mai hyn ydyw y meddwl a gadarnheir hefyd gan *Tit.* i. 14, lle y mae yr apostol yn disgrifio y gau-athrawon fel rhai oedd yn dal ar "chwedlau Iuddewaidd." "Y mae y gair a gyfeithir yma 'athrawon o'r ddeddf,' yn briodol yn arwyddo 'doctoriaid o'r ddeddf,' ac o'r un ystyr a'r gair Hebraeg 'Rabbi.'"—*Macknight.* "Nid yw yr apostol yma yn ceryddu y rhai a ymosodent yn gyhoeddus ar addysg y ddeddf, ond y rhai a ymffrostient bod yn athrawon o honi. Haera fod y cyfryw bersonau yn rhai disynwyr, o herwydd eu bod yn treulio eu hamser a'u cynneddfau i wneuthur ymchwiliadau i gwestiynau cywrain ac anfuddiol." — *Calvin.* Gallwn weled yn eglur, oddi wrth yr Epistolau Bugeiliol hyn, fod yr apostol yn ymwneyd ynddynt â dynion a lygrent orchymynion y ddeddf foesol, ac a sylfaenent ar Iuddewiaeth, nid haeriadau am eu rhwymau i ufuddhau iddi, ond chwedlau ynfyd a niweidiol, y rhai oeddynt o duedd i gynnyrchu penrhyddid ac anfoesoldeb. Yn erbyn y camddefnydd hwn o'r ddeddf y mae yn cyfeirio ei resymau. Nid oedd y gau-athrawon hyn yn gwadu rhwymedigaeth y ddeddf; ond yr oeddynt, drwy yr esboniad cyfeiliornus a roddent arni, yn ymosod ar y ddeddf ei hun; ac am hyny, ar y tir hwn y mae yr apostol yn cyfarfod â hwynt. *Heb ddeall na pha bethau y maent yn eu dywedyd.*—Nid oeddynt hwy eu hunain yn deall y syniadau ynfyd a gyhoeddid ganddynt. Nid dynion gonest

awon o'r ddeddf, heb ddeall na pha bethau y maent yn eu dywedyd, nac am ba bethau y maent yn taeru.

[b] Salm 19. 7—10; Rhuf. 12. 2; Gal. 3. 21. 8 Eithr nyni a wyddom mai [b]da *yw* y gyfraith, os arfer dyn hi yn gyfreithlawn;

[i] Rhuf. 4. 13—16. 9 Gan wybod hyn, [i]nad i'r cyfiawn y rhoddwyd y gyfraith, eithr

[k] 2 Thes. 2. 8. [k]i'r *rhai* digyfraith ac anufudd,

[l] i'r *rhai* annuwiol a phechaduriaid, i'r *rhai* disanctaidd a halogedig, i dad-leiddiaid a [m]mamleiddiaid, i leiddiaid dynion,

[l] 1 Pedr 4. 18.

[m] Exod. 20. 13.

[n] 1 Cor. 6. 9, 10; Heb. 13. 4. [o] Gen. 19. 5; Judas 7. [p] Gen. 40. 14 [q] Ioan 8. 44. [r] Exod. 20. 7 Hos. 4. 1, 2. [s] Rhuf. 2. 16.

10 I [n]buteinwyr, i [o]wryw-gydwyr, i [p]ladron dynion, i [q]gelwyddwyr, i [r]anudonwyr; ac os *oes* dim arall yn wrthwyneb i athrawiaeth iachus,

11 [s]Yn ol efengyl gogoniant y

oeddynt, yn llefaru oddi ar argyhoeddiad, ac am hyny yn eglur, ond dynion o feddwl a chydwybod halogedig, y rhai a lefarent bethau oeddynt yn dywyll iddynt hwy eu hunain, i atteb rhyw dybenion hunanol oedd ganddynt hwy eu hunain mewn golwg. *Nac am ba bethau y maent yn taeru.*—Nid oeddynt yn deall y gwirioneddau oeddynt yn gynnwysedig, neu yn gorwedd dan y cwestiynau y taerent fel hyn yn eu cylch.

8. Ar y llaw arall, y mae y ddeddf yn atteb dyben daionus:—nid yr un a briodolent hwy iddi, ond tystiolaethu yn erbyn pechodau gweithredol; rhestr o ba rai a ddygir i mewn yma o herwydd penrhyddid y dynion hyn, y rhai oeddynt mewn perygl o syrthio iddynt. Nid oeddynt yn ei gosod o'r neilldu, ond yn ei gŵyrdroi, ac yn byw yn y pechodau a gondemnid ganddi. *Eithr.*—Dodir y gair hwn i mewn i ddangos fod yr apostol yn cyferbynu yr hyn a ddywedir ganddo â'r hyn a ddywedasai yn yr adnod o'r blaen, gan gymmeryd y mater i fyny ar seiliau cyffredinol. *Nyni a wyddom.*—Dull o ymadroddi, a ddefnyddir yn aml gan Paul; ac y mae yn cynnwys dadganiad pendant fod Paul yn hollol argyhoeddedig fod y ddeddf yn dda. Gwel *Rhuf.* vii. 14. *Mai da yw y gyfraith.*—Nid yn unig y mae yn fuddiol, ond y mae yn dda ynddi ei hun, yn cynnwys egwyddorion mawrion sancteiddrwydd, cyfiawnder, a gwirionedd: *Rhuf.* vii. 12, 14, 16. Gwel hefyd *adn.* 18; *pen.* iv. 4. *Os arfer dyn hi.*—Y mae yn ddiammheu fod y gair "dyn" yma yn cyfeirio yn mlaenaf ac yn benaf at athraw neu ddysgawdwr; ond ni ddylid ei gyfyngu at yr ystyr hwn. Gellir cymmhwyso yr hyn oll a ddywedir yma at y defnydd a wneir gan unrhyw Gristion o'r ddeddf, yn gystal ag at y defnydd a wneir o honi gan yr athrawon eu hunain. *Yn gyfreithlawn:—h. y.*, ei harfer i'r dyben y rhoddwyd hi, sef i fod yn rheol bywyd i bob dyn, ac i fod yn foddion i argyhoeddi ac attal yr annuwiol rhag pechod.

9. *Gan wybod hyn.*—Y mae hyn yn cynnwys "gwybod" yn egwyddorol ac ymarferol. *Nad i'r cyfiawn.*—Rhai yn meddu egwyddor gyfiawn yn eu calonau, yr hon'sydd yn ddeddf oddi mewn iddynt, ac yn meddu digon o nerth i'w tueddu i wneuthur yr hyn sydd gyfiawn tuag at Dduw a dynion heb nerth deddf oddi allan. Pe buasem ni yn gyfiawn, ni buasem yn sefyll mewn angen am ddeddf oddi allan. *Y gyfraith.*—Y ddeddf foesol. *Eithr i'r rhai digyfraith ac anufudd.*—Y mae y ddau ansoddair hyn yn gosod allan wrthwynebiad i'r gyfraith, ac felly y maent yn sefyll yn mlaenaf fel yn dynodi cymmeriad y personau i'r rhai y rhoddwyd hi. *I'r rhai annuwiol a phechaduriaid.*—Gwel yn arbenig 1 *Pedr* iv. 8. Y mae y ddau ansoddair hyn yn gosod allan wrthwynebiad i Dduw, cyfraith yr hwn ydyw. "Annuwiol" ydyw y neb nad ydyw yn ei barchu ef—"pechadur" ydyw yr hwn sydd yn gwrthryfela yn gyhoeddus yn ei erbyn ef. *I'r rhai disanctaidd a halogedig.*—Y mae y ddau ansoddair hyn yn dynodi ysgariaeth ac ymddyeithriad oddi wrth Dduw yn gystal ag oddi wrth ei gyfraith—rhai nad ydynt yn gyfranog o'i sancteiddrwydd ef, ac heb un berthynas rhyngddynt a phethau sanctaidd. "Y mae yr 'annuwiol' yn ddisanctaidd trwy ei amddifadrwydd o barch—y 'disanctaidd' trwy ei amddifadrwydd o burdeb mewnol."—*Ellicott. I dadleiddiaid,a mamleiddiaid.*—Yn ol cyfleithiad Alford, "I dad-darawyr a mam-darawyr." Hyd yma yr oedd y dosbarthiadau yn gyffredinol, ac wedi eu trefnu yn ol eu gwrthwynebiad i'r ddeddf, i Dduw, neu i'r naill a'r llall. Yn awr y mae yn cymmeryd yr ail lech o'r deg gorchymyn, ac yn ymyned trwy ei gorchymynion hyd y nawfed mewn trefn. Tad-darawyr a mam-darawyr ydynt drosedd wyr o'r pummed gorchymyn, a lleiddiaid dynion ydynt droseddwyr o'r chweched.

10. *I buteinwyr, i wryw-gydwyr.*—Pechodau ffiaidd yn erbyn y ddau ryw, y rhai sydd yn drosedd o'r seithfed gorchymyn. *I ladron dynion.*—Y mae yr apostol yma yn enwi y rhai hyn fel y math gwaethaf o droseddwyr yr wythfed gorchymyn. Nid ydyw y pechod o ladrata eiddo dyn yn deilwng o'i gymmharu mewn ysgelerder â lladrata y dyn ei hun, a'i yspeilio ef o'r rhyddid hwnw sydd yn un o brif roddion y Creawdwr i ddynion. *I gelwyddwyr, i anudonwyr.*—Troseddwyr o'r nawfed gorchymyn. Nid oes yma yr un cyfeiriad at drosedd o'r degfed gorchymyn, o herwydd, hwyrach, ei natur ysbrydol, gan mai ei amcan yma oedd nodi allan y pechodau mwyaf gwarthus yn erbyn y ddeddf foesol. Modd bynag, ymddengys oddi wrth y frawddeg nesaf fod hwnw yn ei feddwl, ac o herwydd hyny y mae yn chwanegu disgrifiad terfynol, cyffredinol, a chynnwysfawr. *Ac os oes dim arall.*—Y mae yr apostol yma yn symmud oddi wrth y cyflawnwyr o bechodau at y pechodau eu hunain. *Yn wrthwyneb i athrawiaeth iachus:—h.y.*, yr addysg foesol hono sydd yn iachus mewn ystyr ysbrydol—"yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb;" *pen.* vi. 3, lle y mae yn gyferbyniol i 'iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist.' Y mae y ffurf yn sefyll mewn cyferbyniad eglur ac awgrymiadol âg addysg afiach (*pen.* vi. 4) a dinystriol (2 *Tim.* ii. 17) y Gnosticiaid luddewig.—*Ellicott.*

11. *Yn ol efengyl gogoniant.*—Yr efengyl yw y "newyddion da am ogoniant Duw," megys am ogoniant Crist yn 2 *Cor.* iv. 4, am ei bod yn dadguddio Duw i ni yn ei holl ogoniant, "trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." *Y bendigedig Dduw.*—Bendigedigrwydd Duw ydyw ei ddedwyddwch hanfodol ynddo ac o hono ei hun. Yn mha beth bynag y mae dedwyddwch yn gynnwysedig, y mae yn Nuw yn ei gyflawn berffeithrwydd—cyfoeth, gallu, hyfrydwch, gwybodaeth,

bendigedig Dduw, am yr hon yr ymddiriedwyd i mi.

[t] Ioan 5. 23; [u] Phil. 2. 11.

12 Ac [t]yr ydwyf yn diolch i'r [u]hwn a'm nerthodd i, *sef* Crist Iesu ein Harglwydd, am iddo *fy* [v] Act. 9. 15.

nghyfrif yn ffyddlawn, [v]gan fy ngosod yn y weinidogaeth;

13 Yr hwn oeddwn o'r blaen yn [x] Hos. 2 23; Rhuf. 5. 20, 21. gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn draha[x]us. [y]Eithr mi a gefais drugaredd, am i ddynodi y weithred "o'i osod ef yn y weinidogaeth." *Yn y weinidogaeth.*—Ceir disgrifiad eglur a tharawiadol o natur y weinidogaeth yn *Act.* xx. 24; "Nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw." "Nid oes dim yn deilwng i'w galw yn weinidogaeth yr efengyl ond gweinidogaeth y cymmod; sef, dadguddiad, eglurhâd, a chyhoeddiad o drefn fawr y cymmod: ac nid oes neb yn addas i'w galw yn genhadon dros Grist ond y rhai sydd yn ei wneyd yn orchwyl penaf eu gweinidogaeth i eglurhau a dadguddio y drefn hon."—*Charles.*

doethineb, &c., y maent yn Nuw, heb ddim gwrthwyneb i hyny. Y mae dedwyddwch Duw yn anfeidrol, yn annibynol, ac yn ddiddeilliedig oddi wrth neb arall; ac hefyd yn dragwyddol o ran ei barhâd, nis dichon iddo fethu na darfod—byddai y meddwl am hyny yn peri annedwyddwch; ond nis gall fethu, lleihau, na darfod byth. *Am yr hon yr ymddiriedwyd i mi.*—Iddo ef, ac nid i'r gau-athrawon hyn, yr ymddiriedodd yr Arglwydd y gwaith o bregethu "efengyl gogoniant y bendigedig Dduw." "Ymddengys mai y cyssylltiad â'r hyn a ganlyn ydyw hyn: y mae ei galon yn llawn o ddiolchgarwch am y swydd a ymddiriedwyd fel hyn iddo. Nid yw yn gofidio o herwydd y gofal; ond y mae yn orlawn o ddiolchgarwch wrth gofio am ras Crist iddo ef, yn enwedig wrth gofio hefyd yr hyn a fu unwaith, a pha mor agos y bu efe ei hun (canys ni fynwn gau allan hyd yn oed y meddwl hwnw fel un wedi gwneyd peth i gynnyrchu yr ymadroddion cryfion hyn) at rai o'r cymmeriadau y mae efe newydd eu crybwyll. Y mae efe yn awr yn cilio oddi wrth ei bwngc uniongyrchol, hyd yn oed yn fwy llwyr a disymmwth na'i arfer yn ei ysgrifeniadau ereill, fel y mae yn gwneyd drachefn a thrachefn yn yr epistolau bugeiliol hyn; gan ddangos trwy hyny, yr wyf yn credu, arwyddion o henaint, ac o'r ymlyniad cryf hwnw wrth y dull hwnw o feddwl a siarad ag sydd yn nodweddu diwedd oes."—*Alford.*

12. *Ac yr ydwyf yn diolch.*—Nid ydyw yr ymadrodd neilltuol hwn yn cael ei arfer gan yr apostol ond yn unig yma, ac yn 2 *Tim.* i. 3. "Mawr ydyw urddas yr apostoliaeth a hawliai Paul iddo ei hun; ac nis gallesid, wrth edrych ar ei fywyd blaenorol, mewn un modd, ei ystyried yn deilwng o anrhydedd mor uchel. Ô ganlyniad, rhag iddo gael ei gyhuddo o ryfyg, y mae o angenrheidrwydd yn crybwyll am ei berson ei hun, ac ar unwaith yn cyfaddef yn rhwydd ei annheilyngdod ei hun: ond er hyny, ei fod, trwy ras Duw, yn apostol. Ond y mae yn myned yn mhellach, ac yn troi yr hyn a ymddangosai fel yn lleihau ei awdurdod i'w fantais ei hun, gan ddadgan fod gras Duw yn ymddisgleirio o gymmaint a hyny yn ddisgleiriach ynddo ef."—*Calvin. I'r hwn a'm nerthodd i*:—*h.y.*, a roddodd nerth ynddo i wneyd ei waith. Y mae yr apostol yma yn trafod y goleuni a'r nerth a dderbyniodd efe i gyflawni gwaith y weinidogaeth: cymmharer *Act.* ix. 22, lle y mae yr un gair yn digwydd yn y Groeg; "Saul a gynnyddodd fwy fwy o nerth"—cyd-darawiad na ddylid ei anghofio. *Sef, Crist Iesu ein Harglwydd, am iddo fy nghyfrif yn ffyddlawn.*—Cymmharer yr ymadrodd cyffelyb a geir yn 1 *Cor.* vii. 25; "Barn yr ydwyf yn ei roi, fel un a gafodd drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlawn." Yr oedd yn gwybod y byddwn i, trwy ei drugaredd, yn ffyddlawn i'r ymddiriedaeth bwysig a roddwyd i mi. *Gan fy ngosod.*—Cymmharer 1 *Thes.* v. 9. Y mae yr ymadrodd yn cael ei arfer yno am yr appwyntiad hwnw gan Dduw yn ei benarglwyddiaeth, trwy yr hwn y mae cwrs ein bywyd yn y byd hwn yn cael ei ragarfaethu i gyrhaedd amcan neilltuol: a dyna yw ei ystyr yma—ac nid

13. *Yr hwn oeddwn o'r blaen.*—Mae yn teimlo fod ei rwymau ef i fod yn ddiolchgar yn fwy wrth ystyried yr hyn oedd efe o'r blaen—ei fod wedi bod unwaith yn wrthwynebwr penderfynol i'r efengyl. "Y mae yr ymadroddion cryfion a gynnwysir yn yr adnod hon wedi eu bwriadu i roddi grym i'r cyferbyniad â'r ymadrodd blaenorol—'fy ngosod yn y weinidogaeth.'"—*Wiesinger.* Yn ol cyfleithiad Alford, "er fy mod o'r blaen," yr hyn sydd yn awgrymu yn ysgafn ei fod yr hyn oedd o'r blaen trwy oddefiad Duw. *Yn gablwr.*—Gwel *Act.* xxvi. 9, 11. Cabledd sydd drosedd uniongyrchol yn erbyn Duw, naill ai trwy gyfrif iddo rywbeth nad yw yn gweddu i berffeithrwydd a dwyfolder ei natur; neu, cyfrif i Dduw, ei air, a'i ordinhadau, yr hyn sydd bechadurus, ac yn hollol ammhriodol iddynt; neu trwy fychanu ei briodoliaethau, a chyfrif i greadur yr hyn a berthyn yn unig i'r Creawdwr: 2 *Sam.* xii. 4; *Mat.* xxvi. 65; *Titus* ii. 5, a *Dad.* xiii. 6. *Ac yn erlidiwr.*—"Yn erlidiwr dynion sanctaidd, rhag i ereill droi at Gristionogaeth."—*Bengel.* Yr oedd y pechod dirfawr o erlid eglwys Dduw yn gorwedd yn drwm ar feddwl Paul tra y bu byw yn y byd: "Yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw;" 1 *Cor.* xv. 9. Taraw ei bobl ydyw taraw Duw yn y man mwyaf tyner, sef ar ganwyll ei lygad: *Deut.* xxxii. 10, a *Zech.* ii. 8. *Ac yn drahaus.*—Yn un oedd yn chwanegu dirmyg at erledigaeth. Yr oedd y ffeithiau oedd yn cyfiawnhau gwaith Paul yn arfer y cyfryw enwau am dano ei hun yn hysbys i'w gydwybod ef ei hun: gallwn gasglu oddi wrth ei gyfaddefiad yn *Act.* xxii. 4, 19, a xxvi. 9—12, beth oeddynt. Y mae yn disgrifio ei hun fel un wedi ynfydu yn eu herbyn hwynt. *Eithr*:—yn ol cyfleithiad Alford, "etto," neu "er hyny." "Y mae trugaredd Duw ac angen Paul am dani yn cael eu cyferbynu â'u gilydd."—*Ellicott. Mi a gefais drugaredd, am i mi yn ddiarwybod ei wneuthur trwy anghrediniaeth.*—Felly y dywedir yn *Rhuf.* x. 2, am yr Iuddewon: "Y mae ganddynt sêl Duw, eithr nid ar ol gwybodaeth." Hefyd, cymmharer gweddi ein Harglwydd dros ei lofruddion, fel ymadrodd pwysig cyffelyb: *Luc* xxiii. 34. Y mae yr apostol yn cydnabod ei hun yn euog iawn, o herwydd iddo erlid yr eglwys, er iddo wneuthur hyny o "gydwybod," yn "ddiarwybod." Y pechodau a gyflawnodd efe y pryd hwnw a barasant iddo, wedi dyfod yn apostol, ei alw ei hun y penaf o bechaduriaid.

edd, am i mi yn ddiarwybod *ei*
wneuthur trwy anghrediniaeth:
[y] Act. 15. 11; 2 Cor. 8. 9. 14 A [y] gras ein Harglwydd ni
a dra-amlhaodd gyda ffydd a

Nid ydyw anwybodaeth yn esgusodi neb â moddion gwybodaeth ganddynt. "Nid ydyw y geiriau hyn wedi eu bwriadu i leihau drwg ei bechod, ond yn unig i ddangos fod y peth hwnw ynddo ef ag y gallai trugaredd ymaflyd ynddo, a'i bod yn bossibl i drugaredd gael ei dangos iddo. Sylwa Mack, fod "geiriau Crist yn *Mat.* xii. 31, wedi eu cadarnhau yn yr apostol—y gellir maddeu pob pechod, hyd yn oed pechod yn erbyn y Mab, tra na bydd pechadur yn euog o bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân.' 'Mi a gefais drugaredd."—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfeirio at y ffaith a ddynodir trwy 'am yr hon yr ymddiriedwyd i mi' (*adn.* 11), 'am iddo fy nghyfrif yn ffyddlawn, gan fy ngosod,' &c.: *adn.* 12. Trwy hyn teimlai yr apostol yn sicr ei fod wedi cael trugaredd. Y mae yr ymadrodd, 'mi a gefais drugaredd,' yn cyfeirio at sefyllfa a ddisgrifir yn *adn.* 13, o'r hon y gwaredasid ef trwy rasol drugaredd Duw. Pan y mae yr apostol yn dyweyd, 'mi a gefais drugaredd, am i mi yn ddiarwybod ei wneuthur trwy [mewn] anghrediniaeth,' nid ydyw yn meddwl fod ganddo hawl i'r cyfryw drugaredd, fel pe byddai y gair 'am' yn rhoddi rheswm pa ham y dangoswyd trugaredd iddo: nid ydyw ond yn unig yn egluro pa fodd yr oedd yn bossibl i'r cyfryw gael trugaredd: *Act.* iii. 17. Yr unig achos i drugaredd gael ei dangos iddo oedd trugaredd benarglwyddiaethol Duw: *Titus* iii. 5. Yr achos o'i 'anwybodaeth' oedd 'anghrediniaeth,' yr hyn sydd yn dangos fod yr anwybodaeth hon yn bechod. Ond er hyny, y mae gwahaniaeth mawr rhwng yr ymddygiad a ddisgrifir gan yr apostol yma, i'r hyn yr arweiniwyd ef gan sêl onest dros y ddeddf, a'r un y darllenwn am dano yn *Luc* xi. 52, a *Mat.* xii. 32; lle y mae yr ymddygiad a ddisgrifir yn tarddu o elyniaeth gref yn erbyn pob peth sydd o Dduw, ac yn ymdrech gwirfoddol yn erbyn Ysbryd Duw." —*Wiesinger.* "'Anghrediniaeth' oedd ei sefyllfa, o'r hon yr oedd ei 'anwybodaeth' am natur yr hyn a wnaethai yn ganlyniad."—*Alford.*

14. Yn ol cyfleithiad Alford, *ond*, ac nid *a* a ddylai fod yn nechreu yr adnod hon. Y mae yr apostol yma etto yn cyferbynu yr hyn ydoedd yn awr â'r hyn ydoedd cyn ei dröedigaeth, mewn trefn i roddi eglurhâd mor oleu a nerthol ag y gallai ar y ffaith fawr o'i fod wedi cael trugaredd. *Gras ein Harglwydd.*—Nid ei ras ef, i'w nerthu i wneuthur ei waith, gan ei gynnysgaeddu â doniau ysbrydol, &c., fel y tybia Chrysostom ac ereill; canys y 'drugaredd' a ddangoswyd iddo yw y prif ddrychfeddwl drwy y cwbl; ac y mae yn cyfeirio ati drachefn yn *adn.* 16, gan nad ymddengys ei fod o gwbl wedi codi uwch law hyny at ras yn cyfranu doniau uwch. *A dra-amlhaodd gyda* [yn cael ei chanlyn gan] *ffydd a chariad.*—Y mae yr apostol yma yn cyferbynu y sefyllfa a ddisgrifiwyd ganddo, yn *adn.* 13, â'r sefyllfa newydd o ras, yr hon oedd yn ymddadblygu yn ei fywyd duwiol a'i lafur mawr gydag achos Crist, a'r hon oedd wedi addurno y naill a'r llall â ffydd a chariad yn Nghrist Iesu; hyny yw, cariad sydd â'i wreiddyn ynddo ef, neu yn preswylio ynddo, fel ei gartref. Disgrifir ffydd a chariad fel ffrwyth gras: pan roddir gras i ddyn, canlynir ef bob amser gan ffydd a chariad, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu.

15 Gwir *yw* y gair, ac yn [z] Mat. 1. 23; Luc 5. 32. haeddu pob derbyniad, [z] ddyfod

a chariad. Sylwa Olshausen, gayda golwg ar y "cariad, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu," mai nid cariad Crist at Paul ydyw, ond cariad Paul at Grist; neu, mewn geiriau ereill, y cariad a gyfrenir gan Grist. Y mae y ffaith o'i fod yn cael ei gyssylltu â "ffydd,' yn galw am i ni ei egluro fel hyn.

15. *Gwir.*—Yn ol cyfleithiad Alford, "ffyddlawn," ac o ganlyniad yn haeddu ei gredu. Ceir ymadrodd cyffelyb yn *Dad.* xxi. 5; "Y mae y geiriau hyn yn gywir ac yn ffyddlon;" ac un arall cyffelyb yn *Dad.* xxii. 6. Y mae "ffyddlawn yw y gair," yn ffurf neilluol yn yr Epistolau Bugeiliol, ac yn profi eu bod wedi eu hysgrifenu tua diwedd oes yr apostol, pan yr oedd dywediadau neilluol wedi cymmeryd eu lle fel arwirebau Cristionogol, ac yn cael eu dynodi fel hyn. *Yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad:—h.y.*, derbyniad gwresog gan bob dyn; neu, mewn geiriau ereill, yn haeddu cael ei gredu gan bob dyn fel gwirionedd pwysig a diammheuol. Y mae y gair "derbyniad" o'r un ystyr a'r gair "credant" yn *adn.* 16. "Fel y mae y gair yn wir ac yn ffyddlawn o du yr Arglwydd, yr hwn a'i llefarodd ac a'i tystiolaethodd, y mae yn haeddu derbyniad cyfattebol i'r amlygrwydd a'r sicrwydd o hono; sef, pob derbyniad cyflawn, dilys, sicr, diolchgar, gorfoleddus a fedr dyn ei roddi iddo." —*Charles.* Defnyddir y gair "derbyn," mewn ystyr cyffelyb yn *Act.* ii. 41; "Y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar a fedyddiwyd;" yr hyn sydd yn gyfystyr â'r geiriau "Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig;" *Marc* xvi. 16. *Ddyfod Crist Iesu.*—Y mae y gair "dyfod" yn rhagdybied fod Crist mewn bod fel Person Dwyfol cyn ei ddyfodiad i'r byd hwn. Nid ydyw yn arwyddo symmudiad, o ran ei Ddiwdod, o un lle i'r llall; y mae hyny yn hollol ammhossibl i'r hwn sydd yn llenwi pob man ar unwaith; ond defnyddir ef yma i arwyddo ymgnawdoliaeth Mab Duw. *I'r byd.*—Yr oedd eisieu iddo ddyfod i'r byd hwn, nid yn unig mewn trefn i ddioddef cospedigaeth pechod yn y natur a bechodd, ond hefyd yn y byd lle y pechodd y natur hono. Yr oedd eisieu i'r ddeddf gael ei hanrhydeddu yn y byd lle yr oedd wedi ei throseddu. Ni wnaethai mo'r tro iddo fyned i wneyd iawn i un byd ond yn unig i'r byd hwn. *I gadw pechaduriaid.*—Ni ddylid cyfynglu y geiriau hyn mewn un modd; ond dylid eu cymmeryd yn yr ystyr mwyaf cyffredinol. Nid i gadw rhai y daeth Crist Iesu i'r byd, ond i gadw pawb a gredant ynddo, ac y mae pawb yn cael eu galw gyda'r taerni a'r diragrithrwydd mwyaf i gredu ynddo. Cyhoeddi y gwirionedd hwn i'r byd oedd swm a sylwedd y weinidogaeth a ymddiriedwyd i Paul. *O ba rai.* —Pechaduriaid. Yr oedd dyben a helaethrwydd trugaredd yr Arglwydd yn dyfnhau y teimlad o'i annheilyngdod arbenig ef ei hun. *Penaf* [yn llythyrenol, blaenaf] *ydwyf* [nid, oeddwn] *fi:* —ond nid ydyw yr ymadrodd yn cyfeirio at amser, yr hyn ni byddai yn wirionedd [gwel isod]. Y mae yr ymadrodd uchod yn arddangos y teimlad dyfnaf o ostyngeiddrwydd: y mae yn myned hyd yn oed dros derfyn hunan-ffieiddiad, medd Theodoret; ac yn sicr, felly y mae Cymmharer *Phil.* iii. 6; 1 *Cor.* xv. 9; *Act.* xxiii.

Crist Iesu i'r byd i gadw pechad-
[a] 1 Cor. 15 9. uriaid; [a]o ba rai penaf ydwyf fi.
[b] Esa. 1. 18; Eph. 1. 6, 12. 16 Eithr [b]o achos hyn y ccfais drugaredd, fel y dangosai Iesu
[c] Exod. 34. 6; Rhuf. 2. 4, 5; 2 Pedr 3. 9, 15. Grist ynof fi yn gyntaf [c] bob hir-oddef, [d] er esampl i'r rhai a gred-
[d] Esa. 55. 7. ant rhag llaw ynddo ef i fywyd tragwyddol.
[e] Salm 45. 1, 6; Dan. 2. 44; Micah 5. 2; Mat. 6. 13. Rhuf. 16. 27. 17 Ac i'r [e] Brenin tragwyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth, [g] *y byddo* anrhydedd a go-
[g] Neh. 9 5. goniant yn oes oesoedd. [h] Amen.
[h] Mat. 28. 20. 18 Y gorchymyn hwn yr ydwyf

1, a xxiv. 16. 'Y mae gwir ostyngeiddrwydd bob amser yn gwneuthur hyn; nid ydyw ond ffurf arall o'r ymadrodd, "O Dduw! bydd drugarog wrthyf bechadur;" *Luc* xviii. 13. Ymddengys mai ei bechodau ef ei hun ydyw y penaf, a'r unig rai sydd yn ngolwg pechadur argyhoeddedig; a bod pechodau ereill yn myned yn ddim yn ei olwg mewn cymmhariaeth i'w bechodau ef ei hun. Y mae yr apostol yn siarad mewn lleoedd ereill am ei fywyd blaenorol yn yr un dull: cymmharer *Eph.* iii. 8, a 1 *Cor.* xv. 8, 9, lle y dywed, fel rheswm dros ei ymostyngiad, "am i mi erlid eglwys Dduw." Felly yma, lle y mae yr apostol yn galw ei hun yn "benaf," yr ydym i gyssylltu hyn â'r hyn a ddywedir ganddo yn *adn.* 13; ac ni ddylem gymmeryd ein hattal rhag gwneuthur hyn gan y geiriau, "mi a gefais drugaredd, am i mi yn ddiarwybod ei wneuthur," &c. Y mae 'y gair "penaf" yma yn cyfatteb hefyd i'r hyn a ddywedodd efe am dano ei hun yn *adn.* 16.

16. *Eithr.*—Y mae yr apostol yma yn cyferbynu ei farn ef ei hun am dano ei hun â'r drugaredd yr oedd Duw wedi gweled yn dda ei dangos iddo ef. *Fel y dangosai Iesu Grist ynof fi.*—Ynddo ef, fel "esampl" neu "gynllun" o'r drugaredd a ddangosid i bechaduriaid mawrion ereill a gredent rhag llaw yn Nghrist. *Yn gyntaf.*—Nid oes ammheuaeth nad ydyw yr ystyr o "benaf" a "chyntaf" yn cael eu huno yn y gair hwn. Er nad efe oedd y cyntaf o bechaduriaid o ran amser, etto efe oedd yr esampl gyntaf, yn gystal a'r hynotaf, o'r cyfryw hir-oddef, a godwyd i fyny er calondid i'r eglwys. *Bob hir-oddef.*—Y goddefgarwch a'r amynedd mwyaf, o'r hyn yr oedd Paul yn esampl. Goddefodd Crist iddo ei erlid ef a'i bobl, heb ei ddamnio, er ei fod yn cyfiawn haeddu hyny, ac am hyny yr oedd yn "hir-oddefgarwch"—yn oddefgarwch mawr ac anghyffredinol. *Er esampl:—h.y.*, fel y byddai y prawf hwn o'i hir-oddefgarwch yn gynllun o'r hyn a wnai gras Duw i ereill a gredent rhag llaw yn Nghrist. A rhaid cyfaddef nas gallai un esampl fod yn fwy priodol i galonogi y pechaduriaid mwyaf yn mhob oes i edifarhau, na'r maddeuant a roddodd Crist i un ag oedd wedi erlid ei eglwys mewn dull mor ffyrnig. *A gredant rhag llaw* [hyd ddiwedd y byd] *ynddo ef i fywyd tragwyddol.*—Amcan neu ddiwedd y credu yn Nghrist oedd cael bywyd tragwyddol trwy Grist.

17. O dan deimlad dwfn a bywiog o'i rwymedigaeth i Dduw am y drugaredd fawr a ddangosid tuag ato, nid yn unig yn nychweliad pechadur mawr fel efe, ond hefyd yn ei alwedigaeth i fod yn apostol, y mae Paul yma yn tori allan yn ddisymmwth i foliannu yr Arglwydd. Cymmharer y fawl-wers gyffelyb a geir yn *Rhuf.* xvi. 25. *I'r Brenin tragwyddol.*—Nid ydyw yr enw hwn yn cael ei gymmhwyso at Dduw yn y Testament Newydd ond yn unig yn *Mat.* v. 35, a *pen.* vi. 15. Yn ol cyfieithiad Alford, "Brenin yr oesoedd;" hyny yw, "Brenin tragwyddoldeb." Yn *Salm* cxlv. 13, yr ydym yn cael [gwel ymyl y ddalen i'r

---

Beibl Cymraeg], "Dy frenhiniaeth di sydd frenhiniaeth yr oesoedd i gyd." Yn *Tobit* xiii. 6, 10, gelwir Duw yn y gwreiddiol yn "Frenin yr oesoedd," ac yn y cyfieithiad Cymraeg yn "Frenin y tragwyddoldeb;" ac yn *Preg.* xxxvi. 17, yn y gwreiddiol yn "Dduw yr oesoedd." Wrth gymmharu y rhai hyn â'r ymadrodd cyffredin, "yn oes oesoedd" [gwel isod], a'r cyffelyb, y mae yn llawer mwy tebygol fod yr "oesoedd," yma yn arwyddo tragwyddoldeb; ac nid oesoedd y byd hwn, fel y mae llawer wedi ei ddeall. Rhoddir y mawl i'r Tad, ac nid i'r Drindod, ac nid i'r Mab. *Anfarwol.*—Y mae dau air Groeg yn cael eu cyfieithu 'anfarwol,' ac 'anfarwoldeb:' sef, *aphthartos* ac *athanasia: pen.* vi. 15, 16, a 1 *Cor.* xv. 52. Y cyntaf a arwydda anllygredig, ac y mae yn cael ei gyfieithu felly yn *Rhuf.* i. 23; 1 *Cor.* xv. 52; a 1 *Pedr* i. 4, 23. Arwydda fwy nag *athanasia*, 'anfarwol.' Llygredigaeth sydd yn dwyn marwolaeth; lle nad oes llygredigaeth, nid oes yno ddim yn tueddu at farwolaeth. "Yr Arglwydd yn unig sydd ganddo anfarwoldeb;" *pen.* vi. 16. Y mae efe yn anllygredig ac yn anfarwol. Y mae efe felly yn hanfodol ynddo ac'o hono ei hun. Bod pur, digymmysg, ac anfarwol ydyw. Nid oes iddo na "dechreu na diwedd, na chysgod tröedigaeth;" *Iago* i. 17. *Anweledig.*—Gwel *pen.* vi. 16; *Ioan* i. 18. Trwy yr hwn y gwahaniaethir y gwir Dduw oddi wrth y duwiau paganaidd, y rhai oeddynt oll wedi eu gwneyd o sylweddau daearol, ac felly yn weledig i lygad o gnawd. Tybia Bengel fod yr enw hwn wedi ei roddi i Dduw, i ddangos ynfydrwydd y bobl a wadent fodolaeth Duw am nad ydyw yn wrthddrych gweledig. *I'r Duw unig ddoeth.*—Y mae llawer o greaduriaid yn ddoeth, ond nid neb fel Duw; y mae ei ddoethineb ef yn bur, perffaith, diderfyn, anchwiliadwy, a thragwyddol, fel efe ei hun. Y mae efe yn ddoeth o angenrheidrwydd hanfod, yn anffaeledig, ac yn wastadol. Gelwir ef yma yr "unig ddoeth," am nad oes neb i'w gymmharu iddo—am mai efe yn unig sydd ddoeth ynddo ac o hono ei hun—am fod pawb yn cael ei ddoethineb oddi wrtho ef—ac am mai efe yn unig sydd yn wastad, yn annherfynol, ac yn berffaith ddoeth. *Y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd:*—y tymmorau y rhai sydd yn cael eu gwneyd i fyny o oesoedd, fel y mae oesoedd yn cael eu gwneyd i fyny o flynyddoedd, a blynyddoedd o ddyddiau. Gwel y sylw ar *Eph.* iii. 21. Y meddwl yma ydyw, fod yr apostol yn dymuno fod i'r Duw oedd wedi bod mor dda wrtho gael anrhydedd a gogoniant am dragwyddoldeb.

18. Y mae yr apostol yn awr yn ail ddychwelyd at y pwngc y ciliodd efe oddi wrtho yn *adn.* 3: nid mor ffurfiol, y mae yn wir, fel ag i gyflenwi terfyniad y frawddeg a esgeuluswyd ganddo yno: ond mewn effaith; canys nid yr un y cyfeiriwyd ato yno yw "y gorchymyn;" canys nid un oedd hwnw a roddwyd i Timotheus, ond un i'w roddi ganddo ef. Ac nid yr un a grybwyllir yn *adn.* 5 ydyw: canys y mae hwnw yn cael ei ddwyn i mewn gyda golwg ar fater hollol wahanol i'r un

yn ei roddi i ti, *fy* mab Timotheus, yn ol y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am danat, ar filwrio o honot ynddynt filwriaeth dda,

[4] Titus 1. 9; Heb. 3. 14.

19 [1]Gan fod genyt ffydd, a chydwybod dda; yr hon a wrthododd rhai, ac a [2]wnaethant [a] Mat.28.20. longddrylliad am y ffydd:

20 O ba rai y mae Hymeneus [1] Mat.18.17; ac Alexander; y rhai a roddais i Satan, fel y dysgent na chablent. [1] 1 Cor.5,4,5

presennol; sef, cyfeiliornadau y gau-athrawon, y rhai nid ydynt yn ymddangos yma hyd nes i annogaeth Timotheus fyned drosodd. Beth yw y gorchymyn hwn, sydd eglur oddi wrth yr hyn a ganlyn. *Y gorchymyn hwn yr ydwyf yn ei roddi.*—Fel trysor, i'w wylio a'i gadw yn ffyddlawn. *I ti, fy mab Timotheus.*—Gwel ar *adn.* 2. *Yn ol:*—mewn canlyniad i. *Y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am danat.*—Cyfarwyddiadau neu brophwydoliaethau yr Ysbryd Glân, a elwir yn briodol felly, y rhai a lefarwyd yn mherthynas i Timotheus ar ei ddychweliad cyntaf, neu ar ei dderbyniad (cymmharer *pen.* iv. 14) i'r weinidogaeth, gan y 'prophwydi' yn yr eglwys. Ceir enghreifftiau o'r cyfryw awgrymiadau prophwydoliaethol yn *Act.* xiii. 1, 2, a xi. 29, a xxi. 10, 11. Dichon mai trwy y cyfryw awgrymiadau—y rhai, fe allai, a lefarwyd gan Silas, yr hwn oedd gydag ef, a'r hwn oedd 'brophwyd' (*Act.* xv. 32)—y tueddwyd Paul gyntaf i gymmeryd Timotheus gydag ef fel cydymaith: *Act.* xvi. 3. *Ar filwrio o honot.*—Hyn oedd amcan ac ystyr y gorchymyn. Y mae y gair "milwrio" yn dynodi holl waith milwr mewn rhyfel, ac nid "ymladd" yn unig. *Ynddynt.*—Wedi ymwisgo ynddynt, fel arfogaeth i'w amddiffyn a'i gadarnhau. *Filwriaeth dda.*—Am yr holl ryfelgyrch, ac nid am yr ymladd yn unig, y lleferir yma. "Gelwir llwyddiant yn dysgu yr eglwys yn Ephesus yn "filwriaeth," am fod gan Timotheus lawer o elynion i ryfela yn eu herbyn; ac yn yr ymdrechfa yr oedd i ddioddef ymdrech, gwyliadwriaeth, a pheryglon parhaus. O herwydd hyn gelwir Timotheus yn "filwr da i Iesu Grist;" 2 *Tim.* ii. 3.—*Macknight.*

19. *Gan fod genyt.*—Yn ol cyfeithiad Alford, "Gan ddal (yn gadarn)" yr hyn sydd yn fwy na "chenyt." *Ffydd, a chydwybod dda.*—Cymmharer *adn.* 5. *Yr hon.*—Cydwybod dda; nid y ddau. *A wrthododd rhai.*—Y mae rhywbeth yn y gair yn rhoddi ar ddeall fod y weithred wedi ei chyflawni yn erbyn gwrthwynebiad cryf ar ran y gydwybod. *Ac a wnaethant longddrylliad.*—"Y mae y gyffelybiaeth hon yn dra phriodol; canys y mae yn awgrymu i ni, os ewyllysiwn gyrhaedd yn ddiogel i'r porthladd, fod yn rhaid i ni gymmeryd ein harwain ar y fordaith gan gydwybod dda; neu bydd yn debyg o fyned yn 'llongddrylliad' arnom: hyny ydyw, y mae perygl i ffydd gael ei suddo gan gydwybod ddrwg, megys gan drobwll mewn môr ystormus."—*Calvin. Am y ffydd.*—Y peth a gredent. "Wedi ymroddi i fywyd penrhydd, gwrthodasant wir athrawiaeth y ffydd. Ni ddichon bywyd ammhur ac athrawiaeth yr efengyl gydforio; ond tuedda y bywyd penrhydd i ryw gyfeiliornadau dinystriol, a dryllir y wir athrawiaeth yn erbyn y creigiau hyn, a chollir yr holl elw oedd i'w ddisgwyl oddi wrth y fordaith gyda'r athrawiaeth."—*Charles.*

20. *O ba rai y mae Hymeneus.*—Y mae enw y person hwn yn digwydd ddwywaith yn yr ohebiaeth rhwng Paul a Timotheus. Y tro cyntaf, rhestrir ef gydag Alexander; a chydag ef traddodwyd ef i Satan, fel y dysgai na chablai; a'r ail waith rhestrir ef gyda Philetus, a chydag ef cyhuddir ef o gyfeiliorni o ran y gwirionedd, gan ddyweyd "ddarfod yr adgyfodiad eisoes," a thrwy hyny ddadymchwelyd ffydd rhai: 2 *Tim.* ii. 17, 18. Y mae yr ymadroddion olaf hyn, mewn cyssylltiad â'r "llongddrylliad am y ffydd" a briodolir i Hymeneus yn yr adnod flaenorol, yn rhoddi pob lle i ni gredu mai yr un person a olygir yn y naill a'r llall, er gwaethaf y cyfwng rhwng amser anfoniad y ddau. Pan ysgrifenwyd y cyntaf, yr oedd efe eisoes wedi gwneyd un proselyt: cyn i'r ail gael ei ysgrifenu, yr oedd efe wedi hudo un arall. Nid ydyw y ffaith o'i fod yma yn cael ei "draddodi i Satan," ac yn cael ei grybwyll yno fel yn "dymchwelyd ffydd llawer," mewn un modd yn anghysson â'r dybiaeth mai yr un person a olygir. Y mae yn dra thebygol y byddai iddo barhau i ddysgu ei gyfeiliornad er gwaethaf dedfryd yr apostol; yr hon, wrth gwrs, a ddiystyrid gan bawb ond y rhai oeddynt yn iach yn y ffydd. *Alexander.*—Yn ol pob tebygolrwydd, yr un person oedd hwn ag "Alexander y gôf copr;" 2 *Tim.* iv. 14. Nid oes dim yn erbyn y syniad hwn yn yr hyn a ddywedir yno am dano ef. Ymddengys mai gwrthwynebydd ydoedd i'r apostol, yr hwn oedd wedi ei wrthsefyll a'i niweidio yn ei ymweliad diweddar âg Ephesus; ond nid oes un rheswm pa ham nad allai efe fod o dan y ddedfryd hon y pryd hwnw. Yr oedd y cyfeiliornad a ddysgid ganddynt wedi deilliaw mewn rhan oddi wrth ereill, ac adgyfodwyd ef lawer gwaith ar ol hyny gyda chwanegiadau. Yr hyn oedd egwyddorion cyntaf i'r Pythagoreaid, doethineb i'r Stoiciaid, gwyddoriaeth i ganlynwyr Plato, myfyrdod i'r Peripateticiaid, hyny oedd gwybodaeth i'r Gnosticiaid. Fel yr oedd llawer yn mhlith y Groegiaid yn y dyddiau hyny yn edrych yn mlaen at lwyr adferiad pob peth, felly hefyd yr oedd adenedigaeth (*Titus* iii. 5; *Mat.* xix. 28), creadigaeth newydd (2 *Cor.* v. 17; *Dad.* xxi. 1), teyrnas nefoedd, a theyrnas Crist (*Mat.* xiii.; *Dad.* viii.), yn cael eu cyhoeddi a'u hegluro gan Grist a'i apostolion. Ac â hyn yr oedd syniad cyffredin yr Iuddewon yn cyttuno; ond yma gyda'r gwahaniaeth nodedig hwn, sef, ei bod i fesur mawr yn bresennol, yn gystal ag yn ddyfodol—yr un peth o ran egwyddor ag oedd i'w gael yn berffaith yn y diweddâ. "Teyrnas Dduw," meddai ein Hiachawdwr, "o'ch mewn chwi y mae;" *Luc* xvii. 21. "Yr hwn sydd ysbrydol," ebai Paul, "sydd yn barnu pob peth;" 1 *Cor.* ii. 15. "Pob un a aned o Dduw," meddai Ioan, "nid yw yn pechu;" 1 *Ioan* iii. 9. Sonir hefyd yn y Testament Newydd am ddwy farwolaeth, a dau adgyfodiad: y cyntaf o bob math yw marwolaeth yr enaid i, a'i adgyfodiad oddi wrth, bechod (*Ioan* iii. 3—8); yn awr (*Ioan* v. 24, 25) yr ail ydyw marwolaeth y corph i, a'i adgyfodiad oddi wrth, lygredigaeth (1 *Cor.* xv. 36—44; *Ioan* v. 28, 29). Gan y teimlid hyd yn oed yn yr amserau boreuol hyny fod llawer iawn o anhawsderau ynglŷn â'r athrawiaeth o adgyfodiad y corph (*Act.* xvii. 32; 1 *Cor.* xv. 35), tra, ar y llaw arall, yr oedd tuedd gref yn yr athroniaeth a ddysgid

PENNOD II.

1 *Bod yn iawn gweddïo a thalu diolch dros bob dyn.* 9 *Pa fodd y dylai gwragedd ymddrwsio;* 12 *nad ydys yn caniatau iddynt na dysgu, na bod yn ben:* 15 *y byddant huy gadwedig, er bod ynddynt arwydd o ddigofaint Duw, wrth ddwyn*

plant i'r byd, os hwy a arosant yn y ffydd. B. A. 66.

CYNGHORI yr ydwyf am hyny, yn mlaen pob peth, fod [a] gweddïau, gweddïau, deisyfiadau, [b] a thalu diolch, dros bob dyn; [a] Mat. 6. 9. [b] Rhuf. 6. 17; Phil. 1. 3. Titus. 2. 10, 14.

y pryd hwnw i fawrygu yr enaid ar draul darostwng y corph, yr oedd yn hawddach ac yn fwy attyniadol i'r gau-athrawon sefyll ar, a dadleu oddi wrth yr adnodau hyny sydd yn traethu ar ogoniant y bywyd ysbrydol y mae y saint yn ei gael yn awr drwy Grist, a myned heibio neu roddi eglurhâd allegawl ar bob peth sydd yn cyfeirio at sefyllfa ddyfodol mewn cyssylltiad âg adgyfodiad y corph. Yn y dull hwn y dechreuodd cyfeiliornadau y Gnosticiaid, o'r rhai yr oedd Hymeneus yn un o'r rhai cyntaf. *Y rhai a roddais i Satan.*—Tybia rhai esbonwyr fod y traddodiad hwn i Satan yn gyfystyr âg esgymmundod eglwysig. Ond gwrthodir y dyb hon gan y rhan fwyaf. Yr oedd yr apostolion yn meddu llawer o ragorfreintiau, y rhai ni ddarfu i neb ar eu hol gymmeryd arnynt eu bod yn eu meddu. Y mae hyd yn oed y teitl a roddwyd iddynt wedi trengu i'w canlyn. Nid ydyw ysgwyd y llwch oddi wrth eu traed yn erbyn dinas a wrthodai eu derbyn hwynt (*Mat.* x. 14), hyd yn oed er fod yr un gorchymyn wedi ei roddi drachefn i'r deg a thrigain (*Luc* x. 11), a'r hwn a gyflawnwyd ddwywaith gan Paul yn ystod ei weinidogaeth (*Act.* xiii. 27 ; a xviii. 6), byth wedi bod yn arferiad ar ol hyny gyda gweinidogion yr efengyl. "Y mae anathema," medd Bingham, "yn air sydd yn digwydd yn fynych yn yr hen ganonau ; ond y mae y ffurf, 'Anathema Maranatha,' yn un na ddarfu i neb erioed ond Paul feiddio ei harfer :" 1 *Cor.* xvi. 22. Fel yr oedd yr apostolion yn iachau pob math o afiechyd corphorol, felly ymddengys eu bod yn meddu ac yn arfer yr un gallu i roddi afiechyd ar ddynion—gallu llawer rhy beryglus i'w barhau yn yr Eglwys Gristionogol, wedi i angenion neilldiol yr oes apostolaidd fyned heibio. Syrthiodd Ananias a Sapphira ill dau i lawr yn feirwon pan geryddwyd hwynt gan Pedr (*Act.* v. 5, 19) ; dau air o'r un genau, "Tabitha, cyfod," oedd yn ddigon i godi Dorcas o feirw i fywyd (*Act.* ix. 40). Y weithred gyntaf a gyflawnwyd gan Paul ar ol dechreu ar ei weinidogaeth oedd taro Elymas y Swynwr â dallineb, ac yr oedd ei olwg ef ei hun wedi ei adferu ddim trwy offeryniaeth dysgybl (*Act.* ix. 17 ; a xiii. 11) ; tra yn fuan ar ol hyny yr ydym yn darllen am dano yn iachau y cloff efrydd yn Lystra : *Act.* xiv. 8. Hyd yn oed ar wahân oddi wrth gyfryngiad gweithredol yr apostolion, crybwyllir am ymweliadau corphorol yn amgylchiad y rhai a nesaent yn annheilwng at fwrdd yr Arglwydd, pan nad oedd etto un ddysgyblaeth wedi ei sefydlu. "O blegid hyn y mae llawer yn weiniaid ac yn llesg yn eich mysg, a llawer yn huno ;" 1 *Cor.* xi. 30. Ar y llaw arall, ystyrid mai Satan oedd offeryn neu weinyddwr yr holl ymweliadau hyn. Y cyfryw yw y cymmeriad a briodolir iddo ef yn Llyfr Iob, *pen.* i. 6—12 ; a ii. 1—7. Yn *Salm* lxxviii. 49, priodolir plâau yr Aipht i ddylanwad y diafol. Darfu i hyd yn oed ein Iachawdwr ymostwng i ddioddef ymosodiad oddi wrtho fwy nag unwaith (*Mat.* iv. 1—10). Dywedir yn *Luc* iv. 13, "Efe a ymadawcdd âg ef dros amser;" ac anfonwyd "cenad Satan i gernodio" yr apostol ei hun. Ar yr un pryd rhoddwyd awdurdod helaeth gan ein Iachawdwr i'w ganlynwyr—sef i'r deuddeg (*Luc* ix. 1) ; ac i'r deg a thrigain, fel yr oedd eu gweithredoedd yn dangos (*Luc* x. 17—20). Gellir casglu y pethau canlynol oddi wrth eiriau yr apostol yn 1 *Cor.* v. y modd yr arferid y gallu hwn :—1. Mai nid gweddi noeth ydoedd ; ond dedfryd awdurdodol, yn cael ei chyhoeddi yn enw ac awdurdod Iesu Grist ; 1 *Cor.* v. 3—5. 2. Nad arferwyd hi gan neb o'r tu allan i'r eglwys. Dywed mewn geiriau pendant, "Y rhai sydd oddi allan, Duw sydd yn eu barnu ;" 1 *Cor.* v. 13. 3. Mai rhywbeth ydoedd er "dinystr y cnawd ;" *h.y.*, rhyw ymweliad corphorol. 4. Mai ei amcan oedd diwygio y troseddwr :—"Fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu ;" 1 *Cor.* v. 5 ; ac fel y "dysgo na chablo" tra ar y ddaear (1 *Tim.* i. 20.) 5. Y gallai yr apostol mewn rhai amgylchiadau basio y cyfryw ddedfryd yn ei absennoldeb (1 *Cor.* v. 3, 4). Fel hyn, tra y dichon fod y "traddodiad hwn i Satan" yn debyg mewn rhai ystyriaethau i esgymmundod eglwysig, y mae hefyd yn meddu ei nodweddau neilldiol ei hun ; y rhai a ddangosant yn eglur nad yw y naill i'w gymmysgu, neu i'w osod ar yr un tir â'r llall. *Fel y dysgent.*—Yn ol y Groeg, "Fel y dysgybler hwynt:" sef, trwy y cerydd a'r dioddefaint corphorol. Y mae y frawddeg yn rhoddi ar ddeall fod y ddedfryd hyd yma heb ei symmud ymaith. Barna Alford iddi gael ei chyhoeddi y tro olaf y bu yr apostol yn Ephesus ; tra y tybia Faussett iddi gael ei chyhoeddi ganddo yn Rhufain, ond ei gweinyddu yn Ephesus. *Cablent* :—enw Duw a Christ, trwy weithredoedd ac addysg annheilwng o'u proffes Gristionogol (*Rhuf.* ii. 23, 24 ; *Iago* ii. 7). Prif bechod Hymeneus oedd dyweyd fod yr "adgyfodiad eisoes wedi cymmeryd lle" (2 *Tim.* ii. 18) ; ac y mae yn debygol mai prif bechod Alexander oedd sefyll yn erbyn yr apostol yn Ephesus (2 *Tim.* iv. 14, 15).

PENNOD II.

1. *Cynghori yr ydwyf am hyny.*—Y mae yr apostol yma yn ail gymmeryd i fyny bwngc cyffredinol yr epistol (2 *Tim.* ii. 1)—'Am hyny yr hyn sydd genyf i'w ddyweyd wrthyt, mewn ffordd o orchymyn (*pen.* i. 3, 18), ydyw,' &c. *Yn mlaen pob peth, fod.*—Yn ol cyfieithiad Alford, "Cynghori yr ydwyf yn gyntaf oll, fod i ymbiliau, &c., gael eu gwneyd." Y mae yn ddiammheu fod "yn gyntaf oll" i'w gyssylltu â "cynghori yr ydwyf." Yr hyn yr ydwyf yn dechreu arno (o herwydd rhesymau arbenig), ydyw, &c. Fel yr oedd dinystr Ierusalem yn nesau, meddiannwyd yr Iuddewon (yn cynnwys yr Iuddewon oedd yn Ephesus) â'r breuddwyd o ryddid oddi wrth bob iau ; ac felly mewn effaith "cablent" (cym. i. 20) enw Duw drwy siarad yn ddirwg am "urddas" (*pen.* xi. 1 ; 2 *Pedr* ii. 10 ; *Iudas* 8). O herwydd hyn y mae Paul, i'r gwrthwyneb, yn rhoddi arbenigrwydd i'r gorchymyn i weddïo dros bob dyn, yn enwedig dros ynadon a brenhinoedd (*Titus* iii. 1—3). Edrychai rhai Cristion-

2 Dros frenhinoedd, a phawb sydd mewn goruchafiaeth; fel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn heddychol mewn [c] pob duwioldeb
[d] Phil.1. 11; Heb.13. 16. ac onestrwydd.
3 Canys [d] hyn *sydd* dda a chymeradwy ger bron Duw ein ceidwad;
4 Yr hwn [e] sydd yn ewyllysio, bod pob dyn yn gadwedig, [f] a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd.
5 Canys [g] un Duw *sydd*, [h] ac un
[e] Esa. 45.22; Ioan 3. 16; [f] 2 Cor. 5. 17. Mat. 28.19. [g] Deut. 6. 4; Ioan 17. 3. [h] Iob 9. 33; Heb. 7. 25.

ogion proffesedig i lawr ar bawb oedd heb fod yn Gristionogion fel wedi eu tynghedu i ddinystr; ond dywed Paul y dylid gweddïo dros "bob dyn," gan fod Crist wedi marw dros bawb (*adn.* 4—6). *Ymbiliau.*—Gair yn dangos teimlad dwfn y gweddïwr o'i angen, ac o'i annigonolrwydd ei hun. *Gweddïau:*—yn dynodi crefyddolder neu ddefosiwn. *Deisyfiadau:*—yn briodol, nesau at Dduw gydag ymdeimlad mabaidd, yn gyffredinol ar ran un arall. Y mae y gwahanol eiriau a ddefnyddir yma yn dynodi gweddi yn mhob ffurf a gwedd, yn ol yr holl berthynasau a berthynant iddi. Tybia Alford fod y ddau air blaenaf i'w gwahaniaethu, fel yn *Eph.* vi. 18, drwy gymmeryd y cyntaf am weddi yn gyffredinol; yr ail, am erfyniad neu ddeiseb—cymmhwysiad arbenig unrhyw weddi neilldiol; a'r trydydd, am weddi neu erfyniad ar ran un arall. *Dros bob dyn.*—Y mae hyn yn rhoddi nodwedd eiriolaeth i'r holl ffurfiau blaenorol o weddïau. Ar helaethrwydd yr haelfrydedd Cristionogol a ddysgir yma, gwel yr ymresymiad isod, a *Titus* iii. 2.

2. *Dros.*—"Yn enwedig dros," gan nad oes un dosbarth arall yn cael ei enwi ond y dosbarth neilldiol hwn. *Brenhinoedd.*—Gwel *Titus* iii. 1; *Rhuf.* xiii. 1, &c.; 1 *Pedr* ii. 13. Yr oedd o bwys neilldiol i'r Cristionogion gynnwys y galluoedd daearol yn eu gweddïau cyhoeddus, ar gyfrif yr amcan a gyrhaeddid drwy y gyfryw weddi (gwel yr adran nesaf), ac fel attebiad effeithiol i'r gwrthwynebwyr hyny a'u cyhuddent hwynt o fod yn annheyrngarol. Ac yr oedd hyn yn arferiad wastadol yn yr eglwysi boreuol. *A phawb sydd mewn goruchafiaeth.*—Ar ymyl y ddalen, "mewn awdurdod;" *h.y.*, mewn swyddi neu sefyllfaoedd uchel. Yr oedd "heddwch" Cristionogion yn fynych yn dibynu mwy ar y llywodraethwyr nag ar y brenhinoedd eu hunain. Dylid gweddïo dros "bawb" sydd, mewn awdurdod. *Fel.*—Amcan y weddi ydyw, nid, fel y tybia rhai, fod i feddyliau Cristionogion drwy y gyfryw weddi gael eu tawelu i ufuddhau, ond fel y caffom y fendith a grybwyllwyd trwy ddylanwad dwyfol ar galonau ein llywodraethwyr. *Fel y gallom ni fyw:—h.y.*, fel y bendithier ni â'r fath lywodraeth dda fel ag i fyw, &c.; neu, yn hytrach, fel y Groeg, "i dreulio bywyd." Y mae yr Arglwydd, mewn attebiad i weddïau Cristionogion dros yr awdurdodau, yn cadw heddwch a threfn mewn gwlad. *Llonydd.*—Heb gael eu haflonyddu gan ddim oddi allan. *Heddychol.*—"Tawel," heb gael eu haflonyddu gan ddim oddi mewn. Y mae yr hwn nid ydyw yn gwneyd un terfysg yn "heddychol;" y mae yr hwn sydd yn rhydd ei hun oddi wrth derfysg yn "dawel." Pan y bydd y llywodraethwyr, drwy eu hawdurdod, yn sicrhau heddwch, yr ydym ninnau hefyd yn cael ei fwynhau, ac yn cyflawni ein dyledswyddau crefyddol mewn tawelwch. *Mewn pob duwioldeb:—h.y.*, fel y gallom ni fyw mor dduwiol ag y mae yn bossibl. *Gonestrwydd.*—Groeg: sobrwydd (*Titus* ii. 2, 7), neu weddeidd-dra ymddygiad. Fel y mae "duwioldeb" yn dynodi ymddygiad dyn at Dduw, felly y mae "sobrwydd" yn dynodi ymddygiad gweddaidd tuag at ddynion. Yn yr Hen Destament, gorchymynid i'r Iuddewon weddïo dros eu llywodraethwyr paganaidd (*Ezra* vi. 10; *Ier.* xxix. 7). Yr Iuddewon, trwy orchymyn Augustus, a offrymient oen bob dydd dros ymherawdwr Rhufain, hyd o fewn ychydig amser i ddinystr Ierusalem. Yr Iuddewon penboeth, trwy gymmhelliad Eleazar, a roddasant derfyn ar y ddefod hon: yr hyn, medd Josephus, oedd yr achos o'r rhyfel.

3. *Hyn:*—gweddïo dros bob dyn. *Ger bron Duw.*—Nid yn unig "ger bron dynion," fel pe byddem yn ceisio eu ffafr hwy (2 *Cor.* viii. 21). *Ein ceidwad.*—Teitl hynod o briodol i'r mater mewn llaw. Y mae y Person anfeidrol sydd yn "geidwad" i ni "yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig;" *adn.* 4; *Rhuf.* v. 18. Gan hyny, dylem gyfarfod âg ewyllys Duw ar ran ereill, trwy weddïo dros iachawdwriaeth pob dyn. Pe gweddïem ni fwy, dychwelid mwy. Y mae efe wedi ein hachub ni, y rhai ydym yn credu, gan mai efe ydyw "ein ceidwad;" y mae efe "yn ewyllysio bod pawb yn gadwedig," hyd yn oed y rhai nad ydynt hyd yma yn credu, os credant. Cymmharer *pen.* iv. 10; *Titus* ii. 11.

4. *Yr hwn sydd yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig.*—Rhoddir yr eglurhâd rhagorol canlynol ar hyn gan Chrysostom:—"Efelychwch Dduw. Os ydyw efe yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig, dylem weddïo dros bob dyn. Os ydyw efe yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig, bydded i tithau ewyllysio yr un peth; ac os wyt ti yn ewyllysio hyny, gweddïa am i hyny gymmeryd lle; canys amlygiad o'i ewyllys ydyw gweddi." Sylwer; nid "y mae Duw yn ewyllysio achub pob dyn," a ddywedir; canys felly buasai pawb yn sicr o gael eu hachub yn weithredol; ond mae "ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig" yn cynnwys y posibilrwydd i ddyn ei derbyn trwy gymmhorth Duw, neu ei gwrthod trwy ei gyndynrwydd ei hun. Dylai ein gweddïau gynnwys pawb, gan fod gras yn cynnwys pawb. *Dyfod:*—yn ewyllysgar, ac nid trwy orfodaeth. *I wybodaeth.*—Groeg: "llawn gwybodaeth," neu "gydnabyddiaeth" (gwel y sylw ar 1 *Cor.* xiii. 12; *Phil.* i. 9). *Y gwirionedd:*—y gwirionedd achubol fel y mae yn yr Iesu, ac yn cael ei hysbysu gan yr Iesu (*Ioan* xvii. 17). Y mae "dyfod i wybodaeth y gwirionedd" yma yn gyfystyr â dyfod i feddiant o'r iachawdwriaeth dragwyddol a ddadguddir yn yr efengyl.

5. *Canys.*—Y mae yr apostol yma yn dwyn undod y Duwdod yn mlaen fel sail derbyniad gweddi dros "bob dyn." Ond y mae yr adnod hon yn cael ei chyssylltu gan y "canys" yn uniongyrchol â'r adnod flaenorol, ac nid â'r adnod gyntaf. Y mae Chrysostom yn rhoddi yr ystyr yn gywir:—"Gan ddangos ei fod yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig." *Un Duw sydd.*—Y mae undeb Duw, o ran ei hanfod a'i fwriad, yn brawf o'i fod yn cynnwys holl ddynolryw fel eu gilydd yn ei gynnygiad o ras (cymmharer yr un ymresymiad oddi wrth ei undod yn *Rhuf.* iii. 30;

cyfryngwr hefyd rhwng Duw a [i]Ioan 1. 14; Heb. 2. 6—13; [i]dynion, [i]y dyn Crist Iesu;
6 Yr hwn [k]a'i rhoddes ei hun- [i]Dad. 1. 13.
[k]Mat. 20.28; Ioan 10. 15: 1 Ioan 2. 1, 2; Dad. 5. 9.

Gal. iii.20); am hyny dylid gweddio dros bob dyn. Y mae *adn.* 4 yn cael ei phrofi oddi wrth *adn.* 5, ac *adn.* 1 oddi wrth *adn.* 4. Y mae yr un Duw yn Dduw i bawb: *Esai.* xlv. 22; *Act* xvii. 26. Y mae yr *un Cyfryngwr* yn gyfryngwr rhwng Duw a phob dyn a ewyllysia ei ddefnyddio fel y cyfryw: *Rhuf.* iii. 29; *Eph.* iv. 5, 6; *Heb.* viii. 6; a ix. 15; a xii. 24. Y rhai nid ydynt yn meddu yr un Duw hwn trwy un Cyfryngwr, y maent heb yr un; yn llythyrenol, "un yn myned rhwng." Nid trefn y Groeg ydyw "*ac* yn Gyfryngwr," ond "un Cyfryngwr hefyd rhyngddynt," &c. "Tra y mae Duw yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig trwy adnabod Duw a'r Cyfryngwr, y mae yr ewyllys hono yn cael ei chario allan mewn trefn reolaidd a sanctaidd, trwy yr hon y dylai dynion ei derbyn. Nid yw holl ddynolryw ond fel un dyn ger bron Duw."—*Bengel. Y dyn.*—Yn hytrach "dyn," yn meddu natur ddynol, yn ngwir a phriodol ystyr y gair. Nid yn unig yr oedd efe yn meddu natur ddynol, ond yr oedd yn Ail Ben y ddynoliaeth—yn cynnrychioli ac yn corphori ynddo ei hun yr holl hil a'r natur ddynol. Nid oes un "y" yn y Groeg. Fel hyn yr enw hwn ydyw y prawf cryfaf a allasai yr apostol ei gael dros ei bwngc; sef, fod Crist yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, gan nad oes ond yr un Cyfryngwr hwnw mewn bod, wedi ei fwriadu fel dyn cynnrychioliadol i bawb fel eu gilydd (*Rhuf.* v. 15; 1 *Cor.* viii. 6; 2 *Cor.* v. 19; *Col.* ii.14). Yr oedd yn angenrheidiol iddo fod yn ddyn i fod yn Gyfryngwr, mewn trefn i'w alluogi ef i gydymdeimlo â ni trwy wybodaeth brofiadol am ein natur: *Esa.* l. 4; *Heb.* ii. 14; a iv. 15. Hyd yn oed mewn natur, y mae bron bob bendith yn cael ei throsglwyddo i ni oddi wrth Dduw, nid yn uniongyrchol, ond trwy gyfryngiad amrywiol oruchwylwyr. Y mae eiriolaeth effeithiol Moses dros Israel (*Num.* xiv., a *Deut.* ix.); Abraham dros Abimelech (*Gen.* xx. 7); ac Iob dros ei gyfeillion (*Iob* xlii. 10); oll yn rhag-gysgodi cyfryngwriaeth yr un Cyfryngwr. Ar y llaw arall, yr oedd, yn *pen.* iii. 16, yn dangos ei fod ef hefyd yn *Dduw.*

6. *Rhoddes ei hun:*—*Titus* ii. 14. Nid yn unig rhoddodd y Tad ef drosom ni (*Ioan* iii. 16), ond rhoddodd y Mab ei hun drosom: *Phil.* ii. 5—8. "Efe yw yr iawn:" nid yr hyn a wnaeth yn unig; ond efe ei hun; ac am hyny, nid 'efe oedd yr iawn' a ddywedir, ond 'efe yw yr iawn.' Yr oedd yn rhaid i dragwyddoldeb ac amser gyfarfod er mwyn cael trefn i achub dyn; yr oedd yn rhaid cael person tragwyddol o fewn terfyn gweithred amserol i fod yn iawn. Nid oedd un weithred yn ddigon mawr i'w gynnwys ond y weithred anfeidrol ryfedd a gymmerodd le yn Ierusalem, pan fu yr hwn oedd yn ffurf Duw yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu'r groes. A chan fod person tragwyddol Mab Duw yn y weithred hono, y mae yr iawn yn cael ei dragwyddoli yn ei berson. .....Dyma yr iawn;—nid y dioddefiadau, ac nid yr angeu, ond person Mab Duw yn y dioddefiadau ac yn yr angeu. 'Efe yw yr iawn.' 'Nid efe a wnaeth yr iawn,' neu, 'efe a dalodd iawn,' a ddywedir. Nid wyf yn collfarnu yr ymadroddion hyn; ond y mae y Beibl yn myned yn mhell iawn tu hwnt iddynt. 'Efe yw yr iawn.' Efe an yn bridwerth dros bawb, i'w dystiolaethu yn yr amseroedd priod.

7 I'r hyn y'm gosodwyd i yn

a wnaeth yr haul; ond ni byddai yn addas dywedyd mai efe yw yr haul, neu mai efe ydyw yr holl greadigaeth. Y mae yn amlwg, gan hyny, fod rhyw berthynas rhyngddo a gwaith yr iawn, yr hwn nad oes cyffelyb iddo yn y berthynas sydd rhyngddo fel Creawdwr a'r oll a greodd. 'Efe yw yr iawn'—nid efe, heb y weithred; ond efe yn y weithred. Nis gallasai, yn holl fawredd ei berson, fod yn iawn, heb roddi ei hun drosom mewn gweithred o anfeidrol werth; o blegid nid pwngc o ewyllys yw iawn, ond pwngc o gyfiawnder: ac yr oedd cyfiawnder dwyfol mor agos at feddwl y Mab, fel nas gallai byth ewyllysio achub dyn syrthiedig trwy ddyweyd 'Bydded,' fel y dygodd yr holl fydoedd aneirif i fod. Yr oedd yn rhaid iddo, er ei fod yn Fab, ddyfod i sefyllfa gwas, ac ennill maddeuant a bywyd tragwyddol i ni; ac i'r dyben hwn yr oedd yn angenrheidiol iddo ddyfod er ein mwyn ni yn dlawd."—*Dr. Edwards. Pridwerth.*—Y gwerth a delir dros gaethwas neu garcharor mewn trefn i'w ryddhau. Yr oedd dyn yn gaethwas i Satan wedi ymwerthu dan bechod. Yr oedd yn hollol analluog i'w brynu ei hun, o herwydd yr oedd efe o dan rwymau i dalu ufudd-dod perffaith i Dduw; ac am hyny nis gallasai wneuthur iawn am y trosedd lleiaf. Yr oedd cyfraith Moses yn caniatau i un o'i frodyr brynu un a werthasid yn gaethwas: *Lef.* xxv. 48. Gan hyny, daeth Mab Duw yn ddyn, fel y byddai iddo, trwy gael ei wneyd yn mhob peth, ond pechod, yn gyffelyb i ni, fel ein brawd hynaf, ein prynu ni: *Mat.* xx. 28: *Eph.* i. 7; a 1 *Pedr* i. 18, 19. Y mae y Groeg yn arwyddo, nid yn unig "pridwerth, neu bris gollyngdod," ond "pridwerth" yn lle, neu bridwerth cyfwerth â'r sawl a ryddheir. Ond wrth gwrs, nid ydyw yn golygu yma fod iawn Crist yn gydbwys â beiau y rhai y dioddefodd efe drostynt, o blegid y "pridwerth" hwn oedd efe ei hunan. "Y mae y Calviniaid yn gyffredin wedi cyfyngu eu sylw yn ormodol at y weithred yn unig; ac y mae rhai o honynt, o'r achos hwn, wedi myned mor gul a gŵyrgam eu syniadau fel y siaradant am ryw fath o 'iawn cyd-bwys.' Os y weithred yw yr iawn, gellir ei fesur a'i bwyso; ond os y person yn y weithred ydyw yr iawn, nid oes mesurau na phwysau yn perthyn iddo, mewn maint nac amser. Os y weithred yn unig yw yr iawn, yna y mae yn rhaid mai gweithredoedd yn unig oedd yn cael eu gofyn oddi wrth ddynion; a chan fod un weithred o eiddo y meichnïydd yn cyd-bwyso, neu yn gwobrwyo eu holl weithredoedd hwy, y mae holl ofynion cyfiawnder yn darfod ar unwaith o angenrheidrwydd; megys nas gellir gofyn y ddyled oddi wrth y dyledwr ar ol ei thalu drosto gan y Meichnïydd. Yn ol y golygiad hwn ar yr iawn, nis gall neb fod yn rhwymedig yn ngwyneb y ddeddf i ddioddef cospedigaeth yn ei berson ei hun, os yw Crist wedi dioddef drosto; ac felly, y mae yn ddieuog cyn ei gyfiawnhau. Ond nid gwerth masnachol yw yr iawn, yr hwn y gellir ei drosglwyddo fel hyn o'r naill i'r llall, a'r hwn sydd yn darfod â bod yn eiddo i'r naill pan drosglwyddir ef i'r llall; ond haeddiant personol yr Arglwydd Iesu Grist yn ei fywyd a'i farwolaeth."—*Dr. Edwards. Dros pawb.*—Groeg: "ar ran

[l] Rhuf. 9. 1. bregethwr ac yn apostol (ỳ gwir yr *wyf* yn ei ddywedyd yn Nghrist, nid wyf yn dywedyd celwydd) yn athraw y Cenhedloedd mewn ffydd a gwirionedd.

8 Am hyny yr wyf yn ewyllysio i'r gwŷr [m] weddïo yn mhob man, gan ddyrchafu dwylaw sanctaidd, heb na digter na dadl. [m] Luc 23. 42, 43.

9 Yr un modd hefyd, bod i'r gwragedd eu trefnu eu hunain mewn dillad gweddus, gyda

pawb;" nid yn unig dros rhyw ddosbarth neilldruol o bobl, ond dros holl ddynolryw (cymmharer *adn.* 1): dygir helaethrwydd yr iawn yma fel rheswm dros weddïo dros "bob dyn." *I'w dystiolaethu.*—Groeg: "y dystiolaeth"—yr hyn yr oeddid i dystiolaethu am dano: 1 *Ioan* v. 8—11. *Yn yr amseroedd priod:*—*h.y.*, yr amseroedd a appwyntiwyd gan Dduw i dystiolaethu am dano: *pen.* vi. 15; *Titus* i. 3. Undod y Cyfryngwr, yn cynnwys iawn digonol dros bob dyn (yr hwn, modd bynag, nis gall neb dderbyn budd oddi wrtho heb ffydd ynddo) oedd terfyn mawr y dystiolaeth: 1 *Cor.* i. 6; ii. 1, a 2 *Thes.* i. 10.

7. *I'r hyn.*—I dystiolaethu y gwirionedd a gynnwysir yn yr adnodau blaenorol. *Y'm gosodwyd:*—gan Grist, a chan ei eglwys. Yr alwad gan y blaenaf yw sail yr alwad gan yr olaf; ac y mae y ddwy gyda'u gilydd yn angenrheidiol fel awdurdodiad i weinyddu y swydd. *Yn bregethwr:*—yn llythyrenol, "yn hysbysydd;" 1 *Cor.* i. 21; ix. 27; xv. 11; 2 *Tim.* i. 11, a *Titus* i. 3. Y mae yn cyfeirio ato ei hun, fel y gosododd ei hun allan yn *pen.* i. 16, fel cynllun byw neu hysbysydd o'r efengyl, felly yma dywed ei fod wedi ei osod yn "bregethwr ac yn athraw o honi i'r Cenhedloedd;" *Gal.* ii. 9; *Eph.* iii. 1—12, a *Col.* i. 23. Amcan mawr ei appwyntiad fel apostol a phregethwr oedd cyhoeddi cyffredinolrwydd yr iachawdwriaeth, yr hon a gynnygir yn yr efengyl yn rhad i bawb. Ei ddyben yn cyfeirio at gyffredinolrwydd ei awdurdodiad yma ydyw, profi y ddyledswydd o weddïo dros bob dyn. *Y gwir yr wyf yn ei ddywedyd.....nid wyf yn dywedyd celwydd.*—Ymhoniad cryf ydyw y geiriau hyn o gyffredinolrwydd ei awdurdod swyddol, yr hyn oedd yn nodweddiadol o wresawgrwydd yr apostol, yr hwn oedd yn fynych yn agored i wrthwynebiadau oddi wrth ei elynion: *Rhuf.* xi. 1; 2 *Cor.* xi. 31. *Yn athraw y Cenhedloedd.*—Defnyddiai y ffaith hon i gyfiawnhau ei haeriad o bath i gyffredinolrwydd yr efengyl. *Mewn ffydd a gwirionedd:*—yn hytrach, "yn y ffydd ac yn y gwirionedd." "Y cylch yn yr hwn yr appwyntiwyd iddo gyflawni ei weinidogaeth cedd 'y ffydd a'r gwirionedd' (*adn.* 4); *h.y.*, gwirionedd yr efengyl, pwngc 'y ffydd.'"—*Wiesinger.*

8. *Fr gwŷr:*—yn hytrach, fel y Groeg, "i'r dynion," i'w gwahaniaethu oddi wrth "y merched;" wrth y rhai y mae ganddo rywbeth gwahanol i'w ddyweyd i'r hyn a ddywedasai wrth y dynion; *adn.* 9—12; 1 *Cor.* xi. 14, 15; xiv. 34, 35. Modd bynag, nid ar hyn, ond ar y gorchymyn i weddïo, a ail gymmerir i fyny yn *adn.* 1, y dylid rhoi pwyslais. *Yn mhob man.*—Yn mhob teulu, yn gystal ag yn mhob lle o addoliad cyhoeddus, yn ol prophwydoliaeth *Mal.* i. 11. "Yn mhob man...o gyfodiad haul hyd ei fachludiad...arogldarth a offrymir i'm henw." Gwel hefyd eiriau Crist yn *Mat.* xviii. 20. *Gan ddyrchafu dwylaw sanctaidd.*—Y Cristionogion boreuol a dröent gledr eu dwylaw i fyny tua'r nefoedd fel y gwna rhai yn erfyn am gymmhorth. Yn yr agwedd hon hefyd y gweddïai Solomon; 1 *Bren.* viii. 22, a *Salm* cxli. 2. Golchai yr Iuddewon eu dwylaw cyn gweddïo; *Salm* xxvi. 6. Y mae yn amlwg fod Paul yma yn cyfeirio at y ddefod hon; cymmharer *Iob* xvii. 9; *Iago* iv. 8, ac *Esa.* i. 15, 16. Y mae y gair Groeg a ddefnyddir yma am "sanctaidd," yn arwyddo dwylaw heb eu halogi gan un drygioni, ond a gyflawnasant bob dyledswydd grefyddol. Y mae hyn [neu o leiaf, dymuniad cywir i fod felly], yn gymmhwysder angenrheidiol i weddïo yn effeithiol: *Salm* xxiv. 3, 4. *Heb na digter:*—"gan ei roddi ymaith;" *Mat.* v. 23, 24; vi. 16, a *Col.* iii. 8. *Na dadl.*—Yn y Saesneg, "heb ammheu." Y mae y ddau gyfieithiad yn cyfleu gwir feddwl y gair. Gall dyn fod yn ammheu gwirioneddol yr efengyl, addewidion Duw, a'i barodrwydd i wrandaw gweddi; neu gall fod mewn ysbryd ymrafaelgar yn ymryson âg ereill. Y mae y naill a'r llall o'r agweddau hyn ar feddwl dyn yn ei anaddasu ef i weddïo: *Luc* ix. 46; *Rhuf.* xiv. 1, a 1 *Pedr* iii. 7.

9. Ymddengys oddi wrth y cyd-destyn fod y cyfarwyddiadau a gynnwysir yn yr adnod hon, a'r un ganlynol, yn cyfeirio mewn modd arbenig at ymddygiad merched mewn addoliad cyhoeddus, er eu bod yn briodol i achlysuron ereill hefyd. *Dillad gweddus.*—"Dillad hardd, prydferth, diwair, gostyngedig: y cyfryw ag a weddai i bechaduriaid euog a gafodd drugaredd, yn chwenych byw yn dduwiol, ac yn ewyllysio marweiddio y cnawd, ynghyd â'i wŷniau a'i chwantau."—*Charles.* Yr ymadrodd a ddefnyddir yn *Titus* ii. 3, ydyw, "ymddygiad fel y gweddai i sancteiddrwydd." Y mae merched yn dra thueddol i hoffi dillad gwychion; ac yn Ephesus tueddid rhai gan eu cyfoeth; *pen.* vi. 17. *Gyda gwylder.*—Y mae y gair hwn yn arwyddo gorchwyledd, sobrwydd, lledneisrwydd. Y gair gwreiddiol a gyfieithir yma "gwylder" yw *aidós*, am yr hwn y dywed Trench, yn ei *Greek synonyms*, fod amser wedi bod pan nad oedd gan yr iaith Roeg ond y gair hwn am "gywilydd." Yr oedd yn meddu yr ystyr dyblyg sydd i'r gair "cywilydd;" sef, y cywilydd sydd yn attal un rhag cyflawni gweithred isel a gwarthus, a'r cywilydd neu y gwarth sydd yn dilyn y cyflawniad o'r cyfryw weithred. Yn fwy diweddar yn hanes yr iaith Roeg, arferir *aidós* i ddynodi y cyntaf, ac *aischuné* i ddynodi yr olaf. Etto, nid yw hyn yn gosod allan yr holl wahaniaeth sydd rhwng y ddau air; *aidós* ydyw y gair mwyaf ardderchog, yr hwn sydd yn gosod allan y cymmhelliad uchaf. Y mae yn arwyddo fod gan yr hwn sydd yn ei feddu wrthdarawiad cynhenid a dwfn i'r hyn sydd isel a dianrhydeddus; ond nid ydyw y gwrthdarawiad moesol hwn yn cael ei ddynodi gan y gair *aischuné.* Sicrhaer i'r dyn sydd heb fod dan lyw-odraeth dim uwch na'r cywilydd a osodir allan gan y gair olaf, na ddaw y gwarth allanol sydd yn perthyn i ryw weithred ddrwg i'w wyneb, bydd wedi hyny yn barod i'w gyflawni. Ofn gwaradwydd oddi wrth ddynion ydyw *aischuné:* gwrthdarawiad moesol i'r drwg ydyw *aidós.* Ac am hyny, y mae yr olaf yn cael ei gyssylltu â "pharchedig ofn;" *Heb.* xii. 28. Y mae *aidós* bob amser yn attal dyn da rhag cyflawni gweith-

gwylder a sobrwydd; nid â gwallt plethedig, neu aur, neu emau, neu ddillad gwerthfawr,

10 Ond (yr hyn sydd yn gweddu [a]1 Pedr 3. 3 i [n]wragedd a fo yn proffesu duw- —5. [o]Eph. 2. 10. ioldeb) [o]â gweithredoedd da.

11 Dysged gwraig mewn distawrwydd gyda phob gostyngeiddrwydd.

12 Ond nid wyf yn cenhadu i wraig athrawiaethu, nac ymawdurdodi ar y gŵr, eithr bod mewn distawrwydd.

13 Canys [p]Adda a luniwyd yn [p]Gen. 1. 27. gyntaf, yna Efa.

14 Ac nid Adda a dwyllwyd; [q]eithr y wraig, wedi ei thwyllo, [q]Gen. 3. 6, oedd yn y camwedd. 12.

15 Etto [r]cadwedig fydd wrth [r]Gen. 3. 15; ddwyn plant, os arosant hwy Esa. 9. 6.

---

red annheilwng; y mae *aischuné* weithiau yn attal dyn drwg rhag ei chyflawni. *Sobrwydd*:—"ymattaliad."—*Alford.* "Yr arferiad o hunanlywodraeth dumewnol." Ond y goreu ydyw cyfieithiad Ellicott, "sobrwydd meddwl;" neu y pwyll hwnw sydd yn cyfodi oddi ar yr arferiad wastadol o ymattaliad oddi wrth bob peth pechadurus. Y mae yn groes i fod yn anystyriol, yn ffol, ac yn anweddaidd: *Titus* ii. 12. *A*:—Groeg: "mewn." *Gwallt plethedig.*—Wedi ei blethu âg aur a pherlau: 1 *Pedr* iii. 3. Ystyrid y cyfryw wallt yn arwydd o falchder ac anlladrwydd; ac yn gyffredin, gan ferched anllad a phuteinllyd yr arferid ef; ac am hyny yr oedd yn waharddedig, fel yn anweddus i rai yn proffesu duwioldeb, ac yn anghyttun â gwylder a sobrwydd: *Dad.* xvii. 4.

10. *Yn proffesu.* — Groeg: "yn addaw;" yn ymrwymo i ddilyn. *A gweithredoedd da.*—Nid yr un arddodiad a arferir yma yn y Groeg ag yn *adn.* 9: "trwy" sydd yma, ac felly y cyfieithiad cywir ydyw, "trwy weithredoedd da." Nid addurno eu cyrph â "gwallt cyrliog a dillad gwerthfawr" a ddylent, ond addurno eu cymeriadau "trwy weithredoedd da"—gweithred gymmeradwy gan Dduw, a buddiol i ddynion. Crybwyllir yn fynych yn yr Epistolau Bugeiliol am weithredoedd mewn trefn i wrthwynebu bywyd ac athroniaeth penrhydd y gau-athrawon. Y mae y cyflawniad ffyddlawn o bob dyledswydd yn cael ei anrhydeddu â'r enw "gweithredoedd da."

11. *Dysged*:—*h. y.*, cymmered eu dysgu (*adn.* 12; 1 *Cor.* xiv. 34). Ni ddylai hi hyd yn oed ofyn cwestiynau yn y gynnulleidfa gyhoeddus (1 *Cor.* xiv. 35). *Gyda phob gostyngeiddrwydd.*—Yn ol y Saesneg, "Gyda phob ymostyngiad"—ac nid "ymawdurdodi" (*adn.* 12). Y mae ganddi hawl i ddysgu crefydd i ereill, ond nid yn gyhoeddus. Pan welodd Acwila a Phriscila nad oedd Apolos wedi cael ei ddysgu yn gyflawn yn "ffordd yr Arglwydd," "hwy a'i cymmerasant ef atynt, ac a agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach:" *Act.* xviii. 26. Y mae yn debygol i'r apostol ysgrifenu yr epistol hwn o Corinth, lle yr oedd y gorchymyn (1 *Cor.* xiv. 34) mewn grym.

12. *Ymawdurdodi*:—"arglwyddiaethu ar y dyn;" yn llythyrenol, "bod yn ben."

13. *Canys.*—Y rheswm dros y gorchymyn yw trefn wreiddiol y greadigaeth. *Adda.....yn gyntaf.*—O flaen Efa, yr hon a grewyd iddo ef (1 *Cor.* xi. 8, 9).

14. *Nid Adda a dwyllwyd*:—gan mai Efa a "dwyllwyd" gan y sarph; ond "perswadiwyd" ef gan ei wraig (*Gen.* iii. 17). "Am wrandaw o honot ar lais dy wraig." Ond yn *Gen.* iii. 13, dywed Efa, "Y sarph a'm twyllodd." Gan ei bod yn hawddach i'w thwyllo, yr oedd yn hawddach iddi dwyllo (2 *Cor.* xi. 3). Er mai yn olaf y crewyd hi, hi oedd y gyntaf a bechodd—yn wir hi yn unig a dwyllwyd. Gwyddai Satan mai hi oedd y "llestr gwanaf," ac am hyny efe a'i temtiodd hi, ac nid efe. Ildiodd hi i dwyll Satan; efe i gariad priodasol. O herwydd hyn, yn nhrefn dedfryd farnol Duw arnynt, y sarph, y prif drosedd wr, sydd yn sefyll yn mlaenaf; y wraig, yr hon a dwyllwyd, yn nesaf; a'r dyn, yr hwn a berswadiwyd gan y wraig, yn olaf (*Gen.* iii. 14—19). Yn *Rhuf.* v. 12, disgrifir Adda fel y troseddwr cyntaf; ond nid oes yno un cyfeiriad yn cael ei wneyd at Efa, ac edrychir ar Adda fel pen ei hiliogaeth bechadurus. O herwydd hyn, gosodir darostyngiad y wraig allan, yn *adn.* 11, ac yn *Gen.* iii. 16, fel y canlyniad o waith Satan yn ei thwyllo. *Y wraig.*—Nid Efa yn awr, ond y rhyw, fel y dengys y frawddeg nesaf: canys nid at Efa y cyfeirir yn yr adnod nesaf, ond at ferched Efa. *Wedi ei thwyllo.*—Y mae y llaw-ysgrifau hynaf yn darllen y ferf Roeg gyfansawdd am y syml—"wedi ei hudo drwy dwyll;" yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall mor llwyr y llwyddodd Satan i'w thwyllo hi. *Oedd yn y camwedd.*—Groeg: "A ddaeth i fod yn y camwedd;" *h. y.*, y mae y sefyllfa bechadurus bresennol yn yr hon y mae y wraig ynddi (a'r gŵr hefyd; ond ni thraethir ar hyny yma), wedi dyfod i fod ar y dechreu trwy iddi hi gymmeryd ei thwyllo. Ystyr llythyrenol y gair "camwedd" yma yw, "myned tuhwnt i orchymyn," a chymmhwysir ef bron bob amser at drosedd o orchymyn pendant. Cymmharer *Rhuf.* iv. 15.

15. *Etto.*—Er ei phechod gwreiddiol mawr. *Cadwedig fydd wrth ddwyn plant.* — Groeg: "wrth (yn llythyrenol, "trwy") iddi roddi genedigaeth i blentyn." Y mae "trwy" yn cael ei ddefnyddio felly yn fynych i amlygu, nid moddion ei hiachawdwriaeth, ond yr amgylchiadau yn nghanol y rhai y mae wedi cymmeryd lle. Fel hyn y dywedir yn 1 *Cor.* iii. 15, "Efe ei hun a fydd cadwedig; etto felly, megys trwy dân." Er gwaethaf y prawf tanllyd y rhaid iddo o angenrheidrwydd fyned trwyddo, efe a fydd cadwedig. Felly yma: "Er gwaethaf y prawf o ddwyn plant y mae hi yn myned 'trwyddo' (fel ei chyfran o'r felldith yn *Gen.* iii. 16, 'mewn poen y dygi blant') cadwedig fydd." Yn mhellach, tybia rhai fod yr ymadrodd yn rhoddi ar ddeall yn anuniongyrchol y caiff hyd yn oed y felldith ei throi yn fantais i'w hiachawdwriaeth, os cyflawna hi ei rhan yn ffyddlawn mewn gwneyd a dioddef yr hyn a appwyntiodd Duw iddi; sef, dwyn plant, a chyflawni ei dyledswydd yn ei theulu—ei chylch priodol. Gwahaniaethir hyn oddi wrth addysg gyhoeddus; yr hon sydd i'w chyfranu, nid ganddi hi, ond gan ddyn (*adn.* 11, 12). Yn y cylch teuluaidd hwn, ac nid mewn cylch o wasanaeth cyhoeddus i grefydd, yr hyn sydd yn groes i'r sefyllfa a bennodwyd iddi gan Dduw, achubir hi ar yr un ammod a phawb ereill; sef, trwy ffydd. Bernir fod yma gyfeiriad at

mewn ffydd, a chariad, a sanct-eiddrwydd, ynghyd â sobrwydd.

PENNOD III.

2 *Cymheddfau esgobion, a diaconiaid, a'u gwragedd; 14 a pha ham y mae yr apostol yn ysgrifenu y pethau hyn at Timotheus. 15 Ynghylch yr eglwys, a'r gwirionedd a ddysgir ynddi.*

GWIR *yw* y gair, Od yw neb yn chwennych [a]swydd esgob, [b]gwaith da y mae yn ei chwennych. B. A. 66. — [a] Act. 1. 20; Titus i. 7.

yr ymgnawdoliad, "trwy enedigaeth *y* plentyn" (Groeg) Iesu: ac mai y meddwl yw, fod yr apostol, ar ol dyweyd mai y wraig, wedi ei thwyllo, oedd yn y camwedd, etto yn cysuro gwragedd duwiol trwy gyfeirio at yr addewid yn Eden, ac yn dadgan eu cadwedigaeth ysbrydol a thrageiddrwydd trwy enedigaeth Had y wraig, sef Iesu Grist. Dichon fod gan yr Ysbryd Glân olwg ar hyn yn yr adnod hon; ond y gwir feddwl ydyw yr un a roddwyd uchod. "Cadwedig fydd, er iddi ddwyn plant;" *h.y.*, er iddi ddioddef ei rhan o'r felldith gyntaf trwy ddwyn plant; yn union fel yr achubir dyn, er iddo ddioddef ei ran yntau o honi, sef chwys ei wyneb. *Os arosant.*—Y mae yr esbonwyr diweddar yn gyffredin yn barnu fod yr ymadrodd hwn yn cyfeirio at y gwragedd, ac nid at y plant. "Cadwedig fyddant, os arosant mewn ffydd, a chariad, a sanct-eiddrwydd, ynghyd â sobrwydd." Y mae yn wir fod "cadwedig fydd" yn y rhif unigol, ac "arosant" yn y rhif lïosog: er hyny, nid ydyw yn ammhossibl eu bod yn perthyn i'r un personau. Y mae enghreifftiau cyffelyb i'w cael, er nad yn fynych. Felly y meddwl ydyw, Os erys "y gwragedd" (lliosog, wedi eu cymmeryd allan o'r "wraig," *adn.* 14, y rhai a roddir am yr holl ryw); neu, yn fwy llythyrenol, "Os ceir (yn y farn) eu bod wedi parhau." *Ffydd, a chariad.*—Y ffordd hanfodol i iachawdwriaeth (*pen.* i. 1). Y mae "ffydd" yn dal perthynas â Duw, "cariad" â'n cyd-ddynion; "sancteiddrwydd, ynghyd â sobrwydd," â'r dyn ei hun: ac y mae y pedwar yn cael eu cyferbynu yma â'r ymddygiadau anweddaidd mewn merched a gondemniwyd yn yr adnodau blaenorol.

PENNOD III.

1. *Gwir yw y gair.*—Yn ol y Groeg, "Ffyddlawn yw y gair." Rhagymadrodd angenrheidiol i'r hyn sydd yn canlyn: canys nid oedd y swydd o esgob neu arolygwr yn amser Paul, yn cael ei dilyn fel yr oedd gan galedi, ac yn fynych gan erledigaeth, yn ymddangos i'r byd yn gyffredinol yn "waith da" a dymunol. *Chwennych.*—Yn llythyrenol, "ymestyn yn mlaen i geisio ymaflyd:" "ymgeisio ato;" berf Roeg wahanol i'r un am "chwennych." Y mae yr hyn a wna dyn yn wirfoddol yn cael ei werthfawrogi yn fwy na'r hyn a wna pan ofynir iddo (1 *Cor.* xvi. 15). Y mae hyn yn hollol wahanol i chwennychiad uchelgeisiol am swydd yn yr eglwys (*Iago* iii. 1). *Esgob.*—Ystyr y gair gwreiddiol a gyfeithir yma "esgob," ydyw golygwr, arolygwr, edrychwr dros, goruchwyliwr. Ceir y gair, yn y rhif unigol neu liosog, yn y Testament Newydd mewn pump o fanau: sef, *Act.* xx. 28, lle y cyfeithir ef yn y Beibl Cymraeg yn "olygwyr." [W. S., ar ymyl y ddalen, "esgobion."] Yn y pedwar man canlynol, cyfeithir ef yn y Beibl Cymraeg yn esgob, neu esgobion:—1. *Phil.* i. 1; *Titus* i. 7; 1 *Pedr* ii. 25; ac yn yr adnod ger ein bron. Yn y Deg a Thrigain, o ba le yr ymddengys i ysgrifenwyr y Testament Newydd gymmeryd y gair, defnyddir ef, yn 1. I ddynodi arolygwr y fyddin: *Num.* xxxi. 14; *Barn.* ix. 28; 2 *Bren.* xi. 15—lle y cyfeithir ef yn y Beibl Cymraeg yn swyddog, neu swyddogion. 2. Yn Arolygwr gweithwyr: 2 *Cron.* xxxiv. 12, 17—lle y cyfeithir ef yn y Beibl Cymraeg "golygwyr." 3. Arolygwr tŷ yr Arglwydd: 2 *Bren.* xi. 18—lle y cyfeithir ef yn y Beibl Cymraeg "goruchwylwyr." 4. I ddynodi swyddog gwladol neu grefyddol: *Neh.* xi. 9, 14, 22. Yn y ddwy adnod olaf, lleferir am arolygwr yr offeiriaid a'r Lefiaid. 5. Gelwir Eleazar mab Aaron yn "esgob" yn y Deg a Thrigain (*Num.* iv. 16), am ei fod yn arolygu y tabernacl a'i ddodrefn. Y gair Cymraeg yma yw swydd"—"swydd Eleazar." Y mae yn amlwg mai unig ystyr y gair "esgob" yn y Testament Newydd ydyw, golygwr ysbrydol yn eglwys Dduw; gwaith yr hwn oedd gwylied dros, bwrw golwg ar, a phorthi praidd Duw. Y mae yn amlwg fod yr apostolion, ar sefydliad yr eglwysi Cristionogol, yn gosod rhyw bersonau neilltuol (y dychweledigion cyntaf at Gristionogaeth, fel y gellir casglu, os byddai eu cymmhwysderau ereill yn gymmesur) i arolygu achosion ysbrydol; ac ar achlysuron, achosion tymmorol yr eglwysi (*Act.* xiv. 23.) Yr enw a roddir yn gyffredin i'r rhai hyn yn y Testament Newydd ydyw "henuriaid" (*presbuteroi*), o blegid eu hoedran. Ymddengys yn amlwg oddi wrth yr Ysgrythyrau canlynol mai yr un personau ydyw esgobion a henuriaid, ac mai yr un ydyw eu swyddau:—"Ac o Miletus efe (Paul) a anfonodd i Ephesus, ac a alwodd ato henuriaid (*presbuterous*) yr eglwys; a phan ddaethant ato, efe a ddywedodd wrthynt, Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr" (*episcopous*)—esgobion; *Act.* xx. 17, 28. Beth, gan hyny, a all fod yn amlycach na bod henuriaid ac esgobion yn enwau cyfystyr yma am yr un personau? Etto:—"Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid (*presbuterous*) yn mhob dinas, megys yr ordeiniais i ti. Os yw neb yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlawn, heb gael y gair o fod yn afradlawn, neu yn anufudd: canys rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd, fel goruchwyliwr Duw;" *Titus* i. 5—7. Yn awr, pa fodd y gallai yr apostol ddwyn yn mlaen y rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd fel rheswm dros ethol henuriaid diargyhoedd, pe buasai swydd y ddau yn wahanol? Y gwir ydyw, fod yr holl henuriaid oedd yn eglwys Ephesus, yn ol tystiolaeth yr apostol Paul, wedi eu 'gosod (Groeg, *etheto*—wedi eu gwneuthur, neu wedi eu hapwyntio) yn esgobion (arolygwyr) gan yr Ysbryd Glân.' "Yr henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriad.....Porthwch braidd Duw....gan fwrw golwg arnynt (*episcopountes*—gan eu hesgobaethu, gan eu harolygu)." Yr oedd yr holl henuriaid oedd yn yr eglwysi yn cael eu cynghori gan yr apostol i weinyddu "swydd esgob" yn yr eglwysi. Rhaid, gan hyny, fod yr holl "henuriaid" yr ysgrifenai Pedr atynt yn "esgobion,"

2 Rhaid gan hyny i esgob fod
[a] Phil. 2. 15. yn [c]ddiargyhoedd, yn ŵr un
wraig, yn wyliadwrus, yn sobr,
cyn y buasai yn rhesymol iddo attolygu arnynt
gyflawni dyledswyddau swydd esgob. Henur-
iaid neu esgobion, a diaconiaid, neu wasanaeth-
wyr, ydyw yr unig ddau ddosbarth o swyddogion
a sefydlodd yr apostolion i fod yn barhaus yn yr
eglwys Gristionogol hyd ddiwedd amser. *Gwaith
da*:—yn llythyrenol, "gwaith anrhydeddus."
Nid yr anrhydedd sydd yn gyssylltiedig âg ef;
ond y meddwl yma ydyw, fod y gwaith ynddo ei
hun yn anrhydeddus: *Act.* xv. 33; *Phil.* ii. 10;
cymmharer 2 *Tim.* iv. 5. Rhaid i'r hwn sydd yn
ymgeisio am y swydd gofio y cymmhwysderau
uchel sydd yn angenrheidiol er iawn gyflawni ei
dyledswyddau pwysig.

2. *Rhaid gan hyny*:—gan fod y "gwaith yn
dda," rhaid cael "dynion da" i'w wneyd. *Yn
ddiargyhoedd.*—Sylwa Theodoret, mai y meddwl
yma yw, nid bod yn rhaid iddynt beidio bod yn
wrthddrychau enllib, ond bod yn rhaid iddynt
beidio rhoddi achos cyfiawn i neb i'w beio. "O
fuchedd didramgwydd neu ddiniwed," medd yr
esgob Hall. *Anepilēpton*, ydyw y gair Groeg—
person nas gellir profi dim drwg yn ei erbyn; un
nas gellir ei archolli mewn un man. Troell-ym-
adrodd ydyw y gair, wedi ei gymmeryd oddi wrth
ddyrnodiwr medrus a chywrain, yr hwn a am-
ddiffyna bob rhan o'i gorph yn y fath fodd fel y
bydd yn ammhossibl i'w wrthwynebydd ei daraw.
"Rhaid i esgob neu arolygwr deadell Crist,"
medd Doddridge, "fod yn ddifeus yn mhob peth
o ran ei ymarweddiad moesol, gan y gallai un-
rhyw beth diffygiol ynddo ef ddwyn gwarth ar ei
swydd, a bod yn rhwystr mawr ar ffordd ei ddefn-
yddioldeb." *Yn ŵr un wraig.*—Coleddir tri
syniad gwahanol o barth i ystyr yr ymadrodd
hwn. Y cyntaf ydyw, mai gwaharddiad ydyw i
esgob feddu mwy nag un wraig ar unwaith.
Dyma yr esboniad cyffredin. Er fod yr Iudd-
ewon yn arfer amlwreiciaeth, etto, gan ei fod yn
ysgrifenu at eglwys Genhedlig, a chan na oddef-
wyd amlwreiciaeth erioed hyd yn oed yn mhlith
llĕygwyr yn yr eglwys, rhaid fod y syniad hwn
yn un anghywir. Yr ail ydyw, mai gwaharddiad
ydyw i ail briodi, ar ol marwolaeth y wraig
gyntaf. "Er ei bod yn gyfreithlawn i llĕygwyr
ail briodi, gwell oedd i ymgeiswyr am y swydd
esgobol beidio priodi mwy nag unwaith. Fel y
mae "gwraig i un gŵr," yn *pen.*v. 9, yn cynnwys
merch heb briodi ond unwaith; felly rhaid fod
"gŵr un wraig" yma yn golygu yr un peth.
Credir fod y teimlad a ffynai yn mhlith y Cen-
hedloedd, yn gystal a'r Iuddewon (cymmharer
Luc ii. 36, 37), yn erbyn ail briodas yn ddigon,
mewn mater dibwys, ac heb sathru ar un egwydd-
or, i roddi cyfrif am y gwaharddiad a roddir gan
Paul yma yn achos un oedd yn llenwi swydd
mor bwysig ag esgob neu ddiacon. O herwydd
hyn y rhoddir y fath bwys mawr yn y cyd-des-
tyn ar y cymmeriad a roddir i ymgeisydd am y
swydd esgobol gan y rhai y mae efe i lafurio yn
eu plith: *Titus* i. 16. Yr oedd cynghor Laodi-
cea a'r canonau apostolaidd yn anghymmerad-
wyo ail briodasau, yn enwedig mewn ymgeisydd
am ordeiniad. Wrth gwrs, gan fod ail briodas
yn gyfreithlawn, nid ydyw yn annymunol ond
yn unig o dan amgylchiadau arbenig. Awgrymir
yma hefyd, fod yr hwn sydd yn meddu gwraig a
theulu rhinweddol i'w ddewis o flaen un heb
yn weddaidd, yn llettygar, yn
athrawaidd,
3 Nid yn win-gar, nid yn dar-
briodi; gan fod yr hwn sydd ei hun yn rhwym i
gyflawni y dyledswyddau teuluaidd a grybwyllir
yma yn debyg o fod yn fwy attyniadol i'r rhai
sydd o dan rwymau cyffelyb; canys y mae efe yn
eu dysgu hwynt, nid yn unig trwy orchymyn,
ond hefyd trwy esampl: *adn.* 4, 5. "Dysga yr
Iuddewon na ddylai offeiriad fod yn ddibriod,
nac yn ddiblant, rhag iddo fod yn annhrugarog."
—*Bengel.* Felly yn y synagog, "ni chaiff neb
weddïo yn gyhoeddus, oddi eithr ei fod wedi
priodi."—*Faussett.* Gan hyny, y golygiad y
rhaid i ni ei fabwysiadu, yn enwedig yn ngwyneb
*pen.*v. 9, ydyw, fod Paul yn gwahardd ail briodas
i ymgeiswyr am y swydd esgobol. Y mae yn
gofyn oddi wrthynt ddiweirdeb uchel, ac ymattal-
iad oddi wrth ryddid a ganiateir i Gristionogion
ereill. Pa mor bell y mae y cyfryw waharddiad
i'w ystyried yn rhwymedig arnom ni, wedi i
fywyd Cristionogol fyned i sefyllfa hollol wahan-
ol, sydd wrth gwrs yn gwestiwn agored i'r eglwys
Gristionogol bresennol i ymwneyd âg ef. Modd
bynag, dylid cofio fod rheolau gyda golwg ar
bethau sydd ynddynt eu hunain yn gyfreithlawn,
yn dibynu, hyd yn oed pan wneir hwy gan apostol,
ar amgylchiadau: ac y mae ymlyniad ofergoelus
wrth y llythyren yn y cyfryw achosion yn fynych
yn niweidiol iawn i'r bobl ac i achos Crist.
Y trydydd syniad yw, fod yr apostol yn meddwl
y peth a ddywedodd yn llythyrenol—y "rhaid i
esgob fod yn ŵr un wraig." Haerir, os na "raid
i esgob fod yn ŵr un wraig," fod amryw o'r
cymmhwysderau a ofyna yr apostol mewn esgob
yn ei Epistolau at Timotheus a Titus (yr unig
fanau yn y Testament Newydd yr ymdrinir â'r
cymmhwysderau hyn yn rheolaidd a ffurfiol) yn
ofer ac afreidiol. Fe allai fod yr apostol yn trin
y pwngc yma—y "rhaid i esgob fod yn ŵr un
wraig"—mor helaeth a phendant, am ei fod yn
gweled "dirgelwch yr anwireddi yn gweithio eis-
oes" (2 *Thes.* ii. 7); sef "dirgelwch Babilon fawr,
mam puteiniaid a ffieidd-dra y ddaear" (*Dad.*
xvii. 5), sef eglwys Rhufain, yr hon sydd "yn
gwahardd priodi, ac yn erchi ymattal oddi wrth
fwydydd," &c.: 1 *Tim.* iv. 3. Ni ddangosir mewn
un man y "rhaid" i genadwr neu "efengylwr"
"fod yn ŵr un wraig, a chanddo blant a thŷ,"
&c., fel y "rhaid" fod gan esgob neu henadur.
Ymddengys fod y cenhadon, neu yr efengylwyr,
at eu dewisiad yn hyn o beth, sydd mor bwysig
gyda golwg ar esgob. Nid oes brawf sicr fod
Apolos, na Thimotheus, na Thitus, na'r apostol
Paul ei hun, yn ŵr priod, er fod Phylip (*Act.*
xxi. 8, 9), Cephas (Pedr), a'r apostolion ereill:
1 *Cor.* ix. 5. Ond nid esgobion neu henuriaid
eglwysi neilldu oedd yr apostolion (y cenhad-
on) a'r efengylwyr. O'r tri golygiad a enwyd,
yr ydym yn gwrthod y cyntaf yn bendant; ond
yr ydym braidd yn petruso gyda golwg ar y ddau
ereill; etto yr ydym yn gogwyddo yn fwy at yr
olaf. *Yn wyliadwrus*:—yn llythyrenol, "nid
yn feddw;" bod ar ei wyliadwriaeth bob amser.
Ac nis gall neb fod felly ond dynion sobr yn
unig; yn hollol effro, fel ag i ragweled beth a
ddylid ei wneyd: 1 *Thes.* v. 6—8. "Rhaid iddo
fod yn effro," medd Clarke, "canys y mae yr
hwn sydd yn yfed yn dueddol i gysgu; ond y
mae yr hwn a ymattalio rhag yfed yn debygcach
i ofalu am ei orchwyl, a'r hyn a fyddo dan ei

awydd, nid yn budr-elwa; eithr yn dirion, yn anymladdgar, yn ddiarïan-gar,

4 Yn llywodraethu ei dŷ ei ofal." "Y mae yn angenrheidiol iddo fod yn ddyfal," medd Doddridge, "ac nid yn un o dymmer ddiog a segur, yn un a gysgai uwch ben ei swydd uchel a chyssegredig." Nid ydyw y cymmhwysder hwn yn cael ei enwi yn yr Epistol at Titus. *Yn sobr.*—Yn ol W. S., 'pwyllog;' *Sophrona* yw y gair gwreiddiol; ac arwydda doeth, pwyllog, difrifol; un yn meddu meddwl gwir reolaidd: un yn gallu llywodraethu ei nwydau, medd Macknight. *Yn weddaidd.* — "Cymmhwys," medd W. S. Yn ol y gwreiddiol, "yn drefnus, yn wylaidd;" "yn ffodus," ar ymyl y ddalen; "yn rheolaidd a threfnus," medd Doddridge, "gan wylio rhag pob math o anweddus der, hyd yn oed pan na byddo dim tra drygionus yn eu hymddygiad." Y mae "sobr" yn cyfeirio at y meddwl tumewnol; "gweddaidd" at yr ymddygiad allanol, tôn y llais, edrychiad y llygaid, ymddangosiad yr wynebpryd, dull y cerddediad, y dillad, geiriau, a gweithredoedd. Nid ydyw hyn yn cael ei enwi yn yr Epistol at Titus. *Yn llettygar.*—Yn ol y gwreiddiol, "cyfaill dyeithriaid." gwel *Heb.* xiii. 2. Yr oedd y ddyledswydd hon yn nyddiau boreuol yr Eglwys Gristionogol yn un bwysig iawn. Ni roddid derbyniad i Gristionogion yn eu teithiau i dai paganaidd; a dirmygid hwynt yn y llettyau cyhoeddus. Dylai esgob flaenori yn hyn, fel yn mhob rhinweddau arall; nid yw yn addas i'r swydd heb hyny, mwy na'r meddw neu yr ymladdgar. *Yn athrawaidd.*—Nid yn unig, rhaid ei fod yn ymroddgar i gyflawni gwaith esgob, ond rhaid iddo hefyd fod yn meddu gallu a medr i ddysgu ereill.

3. Y mae yr apostol yn awr yn rhoddi disgrifiad o'r cymmhwysderau nacaol a ofynir mewn esgob neu henuriad: y mae y cymmhwysderau cadarnhaol a enwir rhag llaw yn codi allan o, ac yn egluro y rhai nacaol. *Nid yn wingar.*—Yn ol y gwreiddiol, "gweithredu, neu siarad yn anweddaidd mewn sefyllfa o feddwdod, neu roddi tramgwydd trwy feddwdod." "Nid yn gorhoffi gwin," medd W. Salisbury yn Titus. "Nid yn llymeitiwr gwin," medd Clarke. Dywed Kype, ei fod yn arwyddo "tra-arglwyddiaethol, sarhaus, trahaus-falch." "Nid un a eistedd yn hir uwch ben y gwin, nac un math arall o ddiod gref."—*Doddridge. Nid yn darawydd:*—gyda'r llaw na'r tafod. Nid fel rhai gau-athrawon, yn rhoddi lle i'w nwydau drwg, gan gymmeryd arnynt eu bod yn cael eu llywodraethu gan sêl sanctaidd (1 *Cor.* xi. 10): ac y mae y gair yn cyfatteb i "gecryn," neu "ymladdwr" (cymmharer 1 *Bren.* xxii. 14; *Neh.* xiii. 15; *Esa.* lviii. 1; *Act.* xxii. 1, a 1 *Tim.* ii. 14, 15). Ar ymyl y ddalen, "nid yn barod i ymladd a chynnyg cam, fel un mewn gwin." Er mai "nid tarawydd" ydyw y cyfleithiad llythyrenol, y mae yn arwyddo hefyd "nid cablwr;" ac yn ol Chrysostom, ac ereill, arwydda hefyd, "nid un yn archolli cydwybod ei frodyr trwy iaith waradwyddus ac edliwgar." Y mae Theophylact yn cyssylltu y ddau ystyr, ac yn dywedyd, "nid yn taraw â'r ddwylaw, nac yn anamserol â geiriau chwerwon ac anhynaws." Cymmer Wâhl yr ystyr blaenaf, gan sylwi fod y gair yn cael ei gyssylltu â "gwingar;" o blegid fod meddwdod a dyrnodiau yn cydfyned â'u hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod, ynghyd â phob onestrwydd;

5 (O blegid [d] oni fedr un lyw- [d] 1 Sam. 3 13. gilydd yn fynych. Y mae Doddridge hefyd yn eu cyssylltu fel hyn:—"Nid yn eistedd yn hir uwch ben y gwin, nac unrhyw ddiod gref arall, nac yn meddu cyn lleied o lywodraeth arno ei hun, fel ag i fod yn barod i daraw y rhai a'i hanfoddlonant." "Nid yn erlidiwr y rhai a ddichon wahaniaethu oddi wrtho ef."—*Cobbin. Nid yn budr elwa.*—Yn ol y gwreiddiol, "nid yn ariangarwr, pa un bynag ai ychydig ai llawer fydd ganddo;" *Titus* i. 7. "Nid yn chwannog neu awchus am elw 'gwael neu fudr; nid yn defnyddio moddion isel neu anghyfiawn i chwanegu cyfoeth. "Nid yn ymlynu wrth unrhyw ddull gwael a dianrhydeddus er mwyn elw."—*Doddr.* Y mae yn deilwng o sylw nad ydyw yr ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio un amser yn y Testament Newydd ond i ddynodi budr-elw swyddogion eglwysig—esgobion neu henuriaid, a diaconiaid; sef yn y manau canlynol yn unig:—yn *adn.* 3 ac 8 o'r bennod hon; *Titus* i. 7, a 1 *Pedr* v. 1. *Eithr.*—Y mae yr apostol yma yn enwi y rhinweddau cyferbyniol i'r ddau bechod a enwyd ganddo. *Yn dirion.*—Yn ol cyfieithiad William Salisbury, "yn rhywiog." Yn ol y gwreiddiol, "ymroddgar, tyner, hynaws, amyneddgar." "Yn gymmedrol yn ei holl ddymuniadau a'i nwydau."—*Doddridge. Yn anymladdgar.* — Nacaol ydyw y gwreiddiol—sef *amachon*=nid yn ymladdgar, nid yn gynhenus, nid yn ymrysongar. "Yn rhesymol a thirion."—*Alford. Yn ddiariangar.*—"Nid cybydd."—*W. S.* Nacaol ydyw y gair gwreiddiol yma hefyd—*aphilarguron*=nid yn garwr arian. "Nid yn ymhyfrydu mewn tyru arian, er eu bod yn eiddo cyfreithlawn a phriodol iddo ef ei hun."—*Doddridge.* Byddai yn enbyd i esgob neu henadur o'r fath duedd gybyddlyd gael ei demtio, fel Judas, i "ddwyn yr hyn a fwrid yn y gôd;" *Ioan* xii. 6.

4. *Yn llywodraethu.* — Yn ol y gwreiddiol, "Un yn llywyddu ar neu dros. *Ei dŷ ei hun:*—ei blant, a'i weinidogion, mewn cyferbyniad i "eglwys (tŷ) Dduw (*adn.* 5, 15), yr hon y dichon iddo ef gael ei alw i'w llywodraethu." *Yn dal ei blant.*—Yn ol y gwreiddiol, "a chanddo blant (y rhai) sydd mewn ufudd-dod;" *Titus* i. 6. "Yn cadw ei blant mewn ufudd-dod gyda phob difrifwch" (*semnotétos*=sobrwydd, gweddusder). —*Doddridge.* Yn *Titus* i. 6, "a chanddo blant ffyddlawn (*pista*= cyfiawn, cyfreithlawn; yn credu), heb gael y gair o fod yn afradlawn (*asótias* =anfoesol, gwastraffus), neu yn anufudd." "A chanddo blant crediniol, heb gael eu cyhuddo o anlladrwydd, neu aflywodraeth."—*Doddridge.* Yr oedd yn anhebgorol angenrheidiol fod esgob neu henuriad "yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlawn," &c., fel y gallai yr eglwys gael prawf diammheuol oddi wrth ei fedr ymarferol, "yn llywyddu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod, a gonestrwydd (difrifwch)"—ei fod yn gymmhwys, o ran ei fedr llywyddol, i "gymmeryd gofal dros eglwys Dduw;" "canys os na fedr un lywyddu ei dŷ ei hun, pa fodd y cymmer efe ofal dros eglwys Dduw?" Yr oedd yn rhaid fod gan esgob "ei dŷ ei hun;" nid yn unig er mwyn ei wraig a'i blant, ond hefyd er rhoddi prawf i'r eglwys ei fod yn llettygar," &c.

5. *Eglwys:*—cynnulleidfa o ddysgyblion pro-

odraethu ei dŷ ei hun, pa fodd y
[e] Eph. 1. 22; 5. 24. cymmer efe ofal dros [e] eglwys
Dduw?)

6 Nid yn newyddian *yn y ffydd*,
[f] rhag iddo ymchwyddo, a syrthio
i ddamnedigaeth diafol.
[f] Deut. 8. 14.

7 Ac y mae yn rhaid iddo ef
hefyd gael [g] tystiolaeth dda gan y
[g] Act. 6. 3; 3 Ioan 12. rhai oddi allan; rhag iddo syrth-
io i waradwydd, ac i [h] fagl diafol.
[h] 2 Tim. 2. 26.

8 *Rhaid* [i] i'r diaconiaid yr un
[i] Act. 6. 3 —6. ffunud *fod* yn onest; nid yn
ddau-eiriog, nid yn ymroi i win
lawer, nid yn budr-elwa;

ffesedig i Grist. Pa fodd y gall yr hwn nis gall gyflawni swydd lai gyflawni swydd fwy ac anhawddach?

6. *Nid yn newyddian yn y ffydd.*—Un newydd ei ddychwelyd. Y mae hyn yn profi fod eglwys Ephesus yn awr wedi ei sefydlu er's peth amser. Y mae absennoldeb y rheol hon o'r Epistol at Titus, yn cyttuno â sefydliad diweddar yr eglwys yn Creta. Groeg: *Neophuton*—yn llythyrenol, planhigyn ieuangc, gwyrddlas a thyfadwy: *Rhuf.* vi. 5; xi. 17; a 1 *Cor.* iii. 3. "Un newydd ei hyfforddi," meddai Chrysostom; hyny yw, yn y grefydd Gristionogol. "Un wedi ei ddychwelyd yn ddiweddar oddi wrth luddewiaeth neu baganiaeth at Gristionogaeth, a newydd ei blanu yn yr eglwys." — *Parkhurst.* "Nid ysgolhaig ieuangc," medd W. S. "Ni ddylai esgob fod yn un newydd ei ddychwelyd at Gristionogaeth."—*Doddridge.* "Y mae yr enw 'henadur' yn profi fod oedran, profiad, a gair da, yn gymmhwysderau anhebgorol angenrheidiol mewn esgob yn amser yr apostolion. Yr oeddynt i fod yn wŷr priod, a chanddynt deulu (1 *Tim.* iii. 4), a phlant dychweledig (*Titus* i. 6).—*Kitto.* "Nid ydyw y dysgybl ieuangc etto wedi ei ddysgyblu a'i addfedu trwy gystuddiau a themtasiynau." Cymmharer *Act.* xxi. 16; "hen ddysgybl."—*Faussett. Rhag iddo ymchwyddo.* Groeg: yn llythyrenol, "wedi ei amgylchynu gan fwg," fel, wedi ymchwyddo trwy hunan, a meddyliau mawr am ei bwysigrwydd ei hun, nas gall weled ei hun, nac ereill, mewn goleuni gwirioneddol: *pen.* vi. 4, a 2 *Tim.* iii. 4. "Rhag iddo, ac yntau heb fod yn ddigon adnabyddus o egwyddorion Cristionogaeth, ac heb ei sefydlu yn y dyleddswyddau a ddysgir ganddi, gael ei ddyrchafu gan falchder, mewn canlyniad i'w sefyllfa noddedig, a chymmeryd iddo ei hun awdurdod a llywodraeth na fwriadodd Duw erioed iddo eu cael: ac yn wyneb hyny, iddo syrthio yn rhwydd i farnedigaeth diafol; yr hwn, wedi meddwi gan hunandyb, a gyfodod ryfel gwallgof yn erbyn Duw, er mwyn cael y dyrchafiad mawr hwnw y tybiai efe fod ei anrhydedd ei hun yn ei hawlio."—*Doddridge. Damnedigaeth diafol.*—Ir un ddamnedigaeth ag y syrthiodd y diafol iddi: *adn.* 7, a 2 *Tim.* ii. 26. Balchder oedd yr achos o ddamnedigaeth diafol: *Iob* xxxviii. 15; *Esa.* xiv. 12—15; *Ioan* xii. 31; xvi. 11; 2 *Pedr* ii. 4, a *Iudas* 6. Nis gall fod yr ymadrodd yn arwyddo condemniad neu gyhuddiad ar ran y diafol. Gall y diafol ddwyn gwaradwydd ar ddynion (*adn.* 7), ond nis gall eu dwyn hwy i "ddamnedigaeth;" canys nid barnwr, ond un wedi ei farnu ydyw.

7. *Tystiolaeth dda.*—Fe fu y "gair da" a roddwyd i Timotheus gan y brodyr oedd yn Lystra ac yn Iconium, yn gymmhelliad cryf i Paul ei ddewis ef fel cydymaith: *Act.* xvi. 2. *Gan y rhai oddi allan:*—gan y rhai oeddynt hyd yn hyn yn Genhedloedd annychweledig o'i amgylch (1 *Cor.* v. 12; *Col.* iv. 5, a 1 *Thes.* iv. 12), fel yr enniller hwynt yn fwy rhwydd at yr efengyl (1 *Pedr* ii. 12), ac y gogonedder enw Crist. Ni ddylai hyd yn oed bywyd blaenorol esgob fod yn gyfryw ag i roddi lle i bobl ei waradwyddo ef, ac i edrych yn isel ar y swydd. *Rhag iddo syrthio i waradwydd, ac i fagl diafol:*—rhag i "waradwydd" dynion fod yn achlysur iddo i syrthio i "fagl diafol;" *pen.* vi. 9; *Mat.* xxii. 15; a 2 *Tim.* ii. 26. Gallai y gwaradwydd a deflid yn barhaus arno ef gan "y rhai oddi allan," o herwydd ei bechodau blaenorol, ei arwain ef i'r fagl o ddyfod mor ddrwg a'r cymmeriad a roddir iddo. Gallai anobaith o adferu ei gymmeriad, mewn munyd gwan, ei demtio ef i ddilyn bywyd penrhydd: *Ier.* xviii. 12. Y rheswm pa ham nad oes dim ond rhinweddau moesol, o natur gyffredinol, yn cael eu henwi ydyw—fod yr apostol yn rhagdybied fod ymgeiswyr am swydd esgob yn meddu gwir grefydd; yr hon y dymuna efe iddynt ddangos trwy fuchedd sanctaidd eu bod yn eu meddu; hefyd, y mae cymmhwysderau i fod mewn esgob nad ydynt mor anhebgorol angenrheidiol mewn ereill. "Rhag iddo gael ei demtio gan Satan," medd Whitby, "i ymchwel at ei bechodau blaenorol; neu iddo, trwy gael ei gerddu gan y rhai y byddo wedi ei osod yn esgob arnynt, o blegid ei ddrwg-fuchedd blaenorol, gael ei demtio gan ddiafol i wrthgilio."

8. *Diaconiaid.*—Cymreigiad ydyw y gair "diacon" o'r gair Groeg *diaconos*; a'r ystyr llythyrenol cyntefig ydyw "gwas:"—yn ol Wright, "un yn gwasanaethu yn y llwch." Ceir y gair Groeg, *diaconos*, yn unigol, neu yn lliosog, yn y Testament Newydd ddeg ar hugain o weithiau; a chyfeithir ef, yn unigol neu liosog, fel y digwyddo, weithiau "gwas," weithiau "diacon," ond y rhan amlaf "gweinidog," yn ol syniad y cyfeithwyr am ei ystyr yn ei wahanol gyssylltiadau. Ymddengys mai gair cyffredinol ydyw, yn dynodi rhai yn cyflawni rhyw fath o wasanaeth; ac y mae yn amlwg mai "gwas" ydyw y syniad penaf a drosglwydda yn mhob man. Credir yn gyffredin fod dechreuad y swydd i'w ganfod yn yr amgylchiadau a fynegir yn *Act.* vi. 7—6. Yr oedd yr apostolion eu hunain hyd y pryd hwn wedi gweinyddu elusenau yr eglwys i'r rhai a fyddent mewn angen. Ond yn awr, yr oedd nifer mor fawr wedi eu chwanegu at yr eglwys, fel yr oedd y gwasanaeth yma o gyfraunu yr elusenau yn rhwystro yr apostolion i roddi cymmaint o amser ag a ddymunent ei roddi at "weddi a gweinidogaeth y gair;" am hyny, dymunasant ar yr eglwys i ethol saith o wŷr cymmhwys i'w gosod ar hyn o orchwyl. Eu gwaith pennodol hwy oedd cyfranu elusenau yr eglwys i'r holl aelodau oedd mewn angen. Y mae yn anhawdd pennodi terfynau manwl swydd diacon; ond gellir casglu, oddi wrth hanes neilldual y saith yn yr Actau, mai prif waith y swydd ar y dechreu oedd gofalu am bethau bydol a thymmorol yr eglwys—"gwasanaethu byrddau." Pa fodd bynag, y mae yr hanes Ysgrythyrol a geir am rai o'r saith hyn—yr unig rai y ceir eu hanes—yn profi tu hwnt i ammheuaeth nad oedd eu neilldual i'r ddiaconiaeth yn eu rhwystro i

*2 Ioan 9. 10.
[1]Act. 8. 1,

9 [k]Yn dala dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur.

10 A phrofer y rhai hyny hefyd yn gyntaf; [l]yna gwasanaethant

gymmeryd rhan bwysig yn ngwaith ysbrydol yr eglwys: canys yn niwedd hyd yn oed *Act.* vi., ceir fod y cyntaf ar y rhestr, sef Stephan, yn dadleu yn gyhoeddus â "rhai o'r synagog a elwir ciddo y Libertiniaid, a'r Cyreniaid, a'r Alexandriaid, a'r rhai o Cilicia, ac o Asia:" rhai "ni allent wrthwynebu y doethineb a'r ysbryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru." Yn *Act.* vii., ceir y bregeth ardderchog i'r erlidwyr crybwylledig, ac i'r tyrfaoedd creulawn a gynnhyrfwyd ganddynt, ac i'r "holl rai a eisteddent yn y cynghor," trwy annogaeth y rhai y llabyddiwyd Stephan, "ac efe yn galw ar Dduw," ac yn gweddïo dros ei lofruddion. Ac yn *Act.* viii. 5—8, 12, 26—40, ceir un arall o'r saith diacon hyn, sef Phylip, yn pregethu yr Iesu yn Samaria, ac i'r "eunuch galluog" o Ethiopia, yr hwn hefyd a fedyddiwyd ganddo; ac ar ol hyn, ceir fod Phylip y diacon yn cael ei alw "Phylip yr efengylwr;" *Act.* xxi. 8. Ymddengys, oddi wrth *Act.* vi. 3, 5, fod y diaconiaid i gael eu dewis trwy bleidlais gyffredinol holl aelodau yr eglwys. "Dywed Cyprian (*Eph.* ii. 5), na byddai esgobion da byth yn esgeuluso dilyn yr hen ddefod dda o ymgynghori â'r bobl. Y mae y diaconiaid yn cyfatteb i weinidogion (*Luc* iv. 20) y synagog;—gweinidogion gweinyddol, neu, gynnorthwywyr i'r henuriaid (fel yr oedd Timotheus ei hun i Paul: *pen.* iv. 6; *Philem.* 13, ac Ioan, a Marc: *Act* xiii. 5). Eu dyledswydd oedd darllen yr Ysgrythyrau yn yr eglwys, dysgu yr holwyddorydd yn athrawiaethau y grefydd Gristionogol, cynnorthwyo yr henuriaid i weinyddu y sacramentau, derbyn rhoddion, a phregethu ac addysgu."—*Faussett. Yn onest.*—Gan mai hwy yn benaf oedd yn trafod achosion arianol yr eglwysi, yr oedd o'r pwys mwyaf iddynt fod yn ddynion gwir onest. *Nid yn ddau eiriog:—h.y.*, yn dyweyd un peth wrth hwn, a pheth arall wrth y llall, a'r ddau yn hollol groes i'w gilydd. Dichon fod yr apostol yn golygu y byddai ymdrafodaeth bersonol helaeth y diaconiaid âg aelodau yr eglwys yn demtasiwn iddynt i'r cyfryw fai. Tybia rhai mai yr ystyr ydyw, "nid yn dyweyd un peth, ac yn meddwl peth arall:" *Diar.* xx. 19, a *Gal.* ii. 13. Ond gwell genym ni y blaenaf, am ei fod yn fwy naturiol a chysson. *Nid yn ymroi i win lawer.*—Gwel y sylw ar *adn.* 3. *Nid yn budr-elwa.*—"Elw wedi ei ennill mewn ffordd fudr; elw y mae chwant ato yn achos cymmhelliadol at waith sanctaidd sydd fudr iawn, ac yn arwydd o ysbryd anaddas mewn gweinidog yr efengyl."—*Charles.* Yr oedd y ffaith fod y diaconiaid wrth eu swydd yn casglu ac yn dosbarthu elusenau yr eglwys yn gwneyd hyn yn gymmhwysder hollol angenrheidiol.

9. *Yn dala dirgelwch y ffydd:—h.y.*, y gwirionedd mawr nad ydyw dyn o hono ei hun yn ei wybod, ond yr hwn a ddadguddir gan yr Ysbryd Glân i'r ffyddloniaid: cymmharer *Rhuf.* xvi. 25, â 1 *Cor.* ii. 7—10. "Arwydda y gair 'dirgelwch,' yn gyffredinol, pethau dirgeledig nes eu dadguddio, ac a fuasent yn parhau yn guddiedig byth, heb ddadguddiad dwyfol o honynt. Nid ydyw y gair yn cael ei ddefnyddio i osod allan anamgyffrediad y pethau, er fod llawer o honynt yn anamgyffredadwy; ond yn hytrach eu dirgelwch a'u hanhysbysrwydd, nes eu hegluro: 'Y

[m]os byddant [m]Titus 1. 6, 7.
ddiargyhoedd.

11 *Y mae yn rhaid i'w* gwraged yr un modd *fod* yn onest, nid

swydd diaconiaid,

dirgelwch oedd guddiedig er's oesoedd a chenhedlaethau, ond yr awr hon a eglurwyd i'w saint ef:' *Col.* i. 26. Felly y mae i ni olygu ystyr y gair yn y manau lle y cyfarfyddom âg ef: nid cymmaint yn gosod allan natur y pethau, ac anwybodaeth pawb o honynt nes eu dadguddio." —*Charles. Mewn cydwybod:—h.y.*, dal y gwirionedd[l]yn onest a chydwybodol yn ei burdeb, heb gymmysgu un twyll na chyfeiliornad âg ef.

10. Yn ol cyfieithiad Alford, dylai yr adnod hon ddechreu fel hyn:—*Ac yn mhellach*, yr hyn sydd yn rhagarweiniad i'r gocheliad a ddodir i mewn yma mewn ffordd o chwanegiad at y cymmhwysderau a enwyd ganddo yn yr adnodau blaenorol. *Profer*:—nid trwy dymmor o brawf, ond trwy i ymchwiliad manwl gael ei wneyd gan Timotheus (*pen.* v. 22) i'w cymmeriad, i edrych a oeddynt yn "ddiargyhoedd;" ac os ceid eu bod felly, yr oeddynt i gael eu hawdurdodi, trwy ddewisiad yr eglwys, "i weithredu fel diaconiaid." *Y rhai hyny.*—Yr ymgeiswyr am y swydd esgobol.

11. *I w gwragedd.*—Coleddir pedwar o wahanol syniadau ynghylch y cwestiwn, pwy ydyw y gwragedd hyn. Y cyntaf ydyw, mai merched oedd i wasanaethu fel diaconiaid oeddynt—diaconesau; yr ail, mai gwragedd diaconiaid oeddynt; y trydydd, mai gwragedd diaconiaid ac esgobion oeddynt; a'r pedwerydd, eu bod yn cynnwys merched yn gyffredinol. Gallwn fwrw yr olaf ymaith ar unwaith ar sail y rheswm a roddir gan Chrysostom: "Pa reswm yw meddwl i'r apostol, pan ar ganol ysgrifenu ar fater arall, ddodi dim i mewn gyda golwg ar ferched?" Gellir dyweyd fod y trydydd golygiad, yr hwn a amddiffynir gan Calvin ac eraill, o herwydd yr un rheswm, yn dra annhebyg o fod yn gywir. Cefnogir yr ail olygiad gan lawer o esbonwyr diweddar enwog; ac ymddengys ei fod yn gydweddol â'r cyfieithiadau awdurdodedig Cymraeg a Saesneg. Ond yn ei erbyn dygir yn mlaen y ffeithiau canlynol, gan Alford:—nad oes yn yr iaith wreiddiol un cyfeiriad pendant at y diaconiaid—ei fod yn amlwg fod yr ymadrodd "yr un ffunud," trwy yr hwn y mae y diaconiaid eu hunain yn cael dwyn i mewn yn *adn.* 8, yn enwi dosbarth newydd o swyddogion eglwysig—fod y gorchymyn o barth i'r diaconiaid yn *adn.* 12, yn cael ei ddwyn i mewn fel un hollol newydd; yr hyn ni wnaethid, pe buasai eu gwragedd wedi cael eu crybwyll o'r blaen—fod y crybwylliad am Phebe fel "diacones"[l]yr eglwys yn Cenchrea, yn *Rhuf.* xvi. 1, yn profi fod merched yn cael eu galw i weithredu fel diaconesau; ac os nad ydyw y rhai y cyfeirir atynt yma yn ddiaconesau, yna ni byddai yn mhlith y cyfarwyddiadau arbenig hyn un crybwylliad am ddosbarth pwysig o bersonau a ddefnyddid fel swyddogion yn yr eglwys. Felly, y golygiad cyntaf—sef, mai "diaconesau" ydyw y gwragedd hyn, neu, fel y gelwir hwynt gan Pliny yn ei lythyr at Trajan, "gweinidogesau"—yw y tebycaf o fod yn gywir. A'r golygiad hwn cyttuna yr hynafiaid yn unfrydol; a delir ef gan rai o'r gwyr galluocaf yn mhlith beirniaid diweddar. Dygir dau reswm yn ei erbyn: yn gyntaf, y byddai ei waith yn dychwelyd fel hyn at y diaconiaid (*adn.* 12), yn

yn enllibaidd, yn sobr, yn ffyddlawn yn mhob peth.

[p]Adn. 2,4,5. 12 Bydded y diaconiaid [p]yn wŷr un wraig, yn llywodraethu eu plant a'u tai eu hunain yn dda.

13 Canys [o]y rhai a wasanaethant swydd diaconiaid yn dda, ydynt yn ennill iddynt eu hunain radd dda, a [p]hyfder mawr yn y ffydd *sydd* yn Nghrist Iesu.

[o]Mat. 25. 21.

[p]Act. 7. 1, &c.

ymddangos yn angharedig: neu, fel y dywed Conybeare, "Yn ol y golygiad yma, mae yr adnod wedi ei dodi i mewn yn dwyllodrus ac yn annaturiol yn nghanol yr ymdriniaeth âg achos y diaconiaid." Ond ceir attebiad parod i hyn yn ngolygiad Chrysostom ar *adn.* 12, fod yr apostol o dan y gair "diaconiaid," a'u dyledswyddau teuluaidd, yn cynnwys y ddau ryw o dan un; yn ail, nad oes un sicrwydd hollol, ar ol y cwbl, fod merched yn ddiaconesau yn yr eglwysi Cristionogol yn yr oes apostolaidd. I hyn yr attebir, hyd yn oed pe na byddai un crybwylliad am danynt fel y cyfryw mewn un lle arall, fod yr adnod hon ei hun yn ddigon i brofi y pwngc; ac os ydyw yn ymddangos oddi wrth y cyd-destyn fod y cyfryw bersonau yn cael eu dynodi yma, gallwn gasglu y ffaith o'u bodolaeth oddi wrth hyn. Gan hyny, y penderfyniad y mae Alford, Faussett, ac amryw o feirniaid enwog ereill, yn dyfod iddo ydyw, mai y golygiad cyntaf sydd gywir; sef, mai "diaconesau" ydyw y merched hyn. "Fod diaconesau yn yr eglwysi gynt, sydd yn gymmaint o ffaith a bod ynddynt ddiaconiaid: ac os nad ydym yn camgymmeryd yn fawr, yr oedd cymmaint o bwys yn cael ei roddi ar swydd y naill ag a roddid ar swydd y llall. Enwa Paul Phebe yn bendant yn y llythyr at y Rhufeiniaid, gan ei galw yn ddiacones. Yn union wedi hyn, y mae yn anfon ei anerchion at "Tryphena a Thryphosa, y rhai a gymmerasant boen yn yr Arglwydd;" ac i'r anwyl Persis, yr hon a gymmerodd lawer o boen yn yr Arglwydd." Nid oes un ammheuaeth nad diaconesau oedd y rhai hyn yn yr eglwys yn Rhufain. Yn 1 *Tim.* iii., lle y mae yr apostol yn traethu am gymmhwysderau esgobion a diaconiaid, y mae wedi cofio am gymmhwysderau y diaconesau hefyd; canys dywed fod yn rhaid i'r "gwragedd yr un modd fod yn onest, nid yn enllibaidd, yn sobr, yn ffyddlawn yn mhob peth." Tybiodd ein cyfeithiwyr ni mai gwragedd y diaconiaid a feddylir yma, canys dywedant, "Y mae yn rhaid i'w gwragedd yr un modd." Ond cyttuna yr esbonwyr, goreu, mewn amseroedd hen a diweddar, fod y chwanegiad hwn yn anghywir, ac mai y gwragedd a ddewisid yn ddiaconesau a olygir. Ar y dybiaeth mai gwragedd y diaconiaid oedd gan yr apostol mewn golwg, gellid gofyn, a hyny yn dra phriodol, pa ham na buasai yn dywedyd rhywbeth am wragedd yr esgobion hefyd? Ond nis gall fod ammheuaeth nad am ddiaconesau y mae yn son. Am waith priodol y "diaconesau," coleddir gwahanol syniadau. Myn rhai eu bod hwy yn gweini yn eu swydd tuag at eu hystlen eu hunain yn unig, fel yr oedd y diaconiaid tuag at yr eiddynt hwythau. Nid ydyw mewn un modd yn annhebyg nad y gwragedd, y merched ieuainge, a'r plant, oedd yn cael y rhan fwyaf o'u gwasanaeth; ond yr ydym yn dra sicr nad iddynt hwy yn unig yr oeddynt yn gweini. Dywed Paul am Phebe, ei bod yn ei swydd fel diacones wedi bod yn gymmhorth i lawer; "ac," eb efe, "i minnau fy hun hefyd." Yn *Act.* xviii. 26, etto, yr ydym yn darllen am Priscila, gyda'i gŵr Acwila, yn cymmeryd i mewn i'w tŷ, ac yn agor iddo "ffordd Duw yn fanylach."

Cyttunir, pa fodd bynag, nad oedd a fynai diaconesau â phregethu.—*Apeles. Yn onest.*—Wedi enwi y cymmhwysderau gofynol mewn diaconiaid, y mae yr apostol yn myned rhagddo, fel yr oedd yn naturiol iddo, i ddangos y cymmhwysderau yr oedd yn rhaid eu cael mewn diaconesau. Y mae bod "yn onest" yn angenrheidiol yn y naill, yn gystal ag yn y llall. *Nid yn enllibaidd.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfatteb i "nid yn ddau-eiriog" yn y diaconiaid. *Yn sobr.*—Y mae y gair hwn yma yn cyfatteb i "nid yn ymroi i win lawer" yn achos y diaconiaid: *adn.* 8. Fel hyn, ymddengys ei fod yn gofyn yr un cymmhwysderau yn y diaconesau ag yn y diaconiaid, yn unig gyda'r cyfryw gyfnewidiadau ag a ofynid gan y gwahaniaeth rhwng eu rhyw. *Yn ffyddlawn yn mhob peth:*—*h. y.*, yn mhob peth perthynol i'r byd hwn, yn gystal a chrefydd. "Yn ffyddlawn" yn y cyflawniad o holl ddyledswyddau eu swydd, ac yn enwedig gyda golwg ar ddosbarthiad teg a diduedd o'r elusenau a ymddiriedid iddynt—yn cyfatteb i "nid yn budr-elwa" (*adn.* 8), yn achos y diaconiaid.

12. *Yn wŷr un wraig.*—Gwel y sylw ar *adn.* 2. *Yn llywodraethu eu plant.*—Rhoddir ar ddeall yn y gwreiddiol fod yr apostol yn golygu fod meddu plant yn gymmhwysder angenrheidiol (*adn.* 4; *Titus* 1. 6.). *Eu tai eu hunain:*—i'w gwahaniaethu oddi wrth "eglwys Dduw." Gwel y sylw ar *adn.* 5. Yn achos y diaconiaid, yn gystal ag yn achos yr esgobion, y mae yr apostol yn crybwyll yr ammodau cyntaf ar y rhai y gellid dewis personau i'r swydd, ac nid y cymmhwysderau arbenig oedd yn angenrheidiol i'w gweinyddu yn iawn. Yr ochr ymarferol i Gristionogaeth ydyw yr un y sefir mwyaf arni yn yr Epistolau Bugeiliol, am fod yr apostol yn teimlo fod hyny, ar hyn o bryd, yn anhebgorol angenrheidiol mewn trefn i wrthweithio y syniadau cyfeiliornus a ledaenid gan y gau athrawon. Yn mhellach, gan fod y doniau gwyrthiol yn dechreu colli o'r eglwysi, ystyriai mai y prawf diogelaf o effeithiolrwydd fyddai cymmeriad moesol blaenorol yr ymgeisydd; gan fod y duedd a'r dalent i'r swydd yn cael eu rhagdybied. Y rheol hon a ddilynwyd wrth ddewis y diaconiaid cyntaf. "Edrychwch yn eich plith am seithwyr da eu gair;" *Act.* vii. 3. Rhoddir llai o bwys ar urddas personol yn achos y diacon nag yn achos yr esgob. Cymmharer *adn.* 2, 3, a'r nodiadau arnynt.

13. *Canys y rhai a wasanaethant.*—Cyfleithir y ferf yma, gan Alford, yn yr amser a aeth heibio, "a wasanaethasant," am mai safle gyntaf y frawddeg ydyw y dydd mawr, pan y byddant wedi rhoddi eu diaconiaeth i fyny. *Ydynt yn ennill:*—yn llythyrenol, "yn cyrhaedd." Gan fod yr apostol wedi dechreu, trwy osod ei hun megys yn nydd mawr y farn, ac o ganlyniad wedi arfer yr amser a aeth heibio, y mae yn awr, mewn dull o lefaru, yn symmud yr olygfa, ac yn ymwneyd â'u hymddygiad presennol. Fel pe buasai yn dyweyd, "Y rhai a geir y pryd hwnw wedi gwasanaethu yn dda, &c., ...ydynt yn awr." *Iddynt eu hunain.*—Heb law y gwasanaeth y maent yn ei wneyd i'r eglwys. *Radd dda.*

14 Y pethau hyn yr ydwyf yn
eu hysgrifenu atat, gan obeithio
dyfod atat ar fyrder.
15 Ond os tariaf yn hir, fel y
gwypech pa fodd y mae yn rhaid
i ti ymddwyn yn [q]nhŷ Dduw, yr [r]Eph. 2. 22; Heb. 3. 2
hwn yw [r]eglwys [s]y Duw byw, —6;
[t]colofn a sylfaen y gwirionedd. 1 Pedr 2. 5.
[t] Adn. 5.
[s] Dan. 6. 26; Ioan 6. 69; Heb. 3. 12.
[q] Mat 16. 18, 19; Gal. 2. 9.

—Yn ol Alford, "safle dda;" *h.y.*, yn nydd mawr y farn. Cymmharer *pen.* vi. 19, a *Dan.* xii. 13, lle, fodd bynag, y mae y gyffelybiaeth yn wahanol. Rhoddir amrywiol esboniadau ar y gair hwn, yr hwn, yn llythyrenol, sydd yn arwyddo "gris," neu le i sefyll arno. Deallir ef gan lawer fel "gris uwch," *h.y.*, dyrchafiad i'r swydd uwch o henadur. Ond nid ydyw yn debyg y buasai yr apostol yn dwyn dim o'r natur yma yn mlaen fel cymmhelliad i ffyddlondeb. Heb law hyny, buasai yn rhaid arfer y gradd cymmharol, "safle uwch," i'w osod allan. Hefyd, y mae y ffaith mai yr amser gorphenol a ddefnyddir yn y gwreiddiol, "a wasanaethasant swydd diaconiaid yn dda," yn cynnwys mai y canlyniad ydyw y ferf bresennol "ydynt yn cyrhaedd iddynt eu hunain hyfder" o'r weithred o gyflawni swydd diacon yn dda. Nid ydyw yn debygol, chwaith, y buasai yr apostol yn dal allan i bob diacon y rhagolwg o ddyrchafiad i'r henaduriaeth fel gwobr am ei wasanaeth. Nid oedd y drychfeddwl o ymddyrchafu mewn swyddau eglwysig yn hysbys. Cymmharer *Rhuf.* xii. 7, &c., a 1 *Cor.* xii. 4—11. Yn mhellach, ymddengys nad oes ond ychydig iawn o gyssyltiad rhwng gradd eglwysig uwch a'r geiriau "hyfder mawr." Gan hyny, yr hyn y mae "y rhai a wasanaethasant swydd diaconiaid yn dda" yn ei ennill iddynt eu hunain ydyw "safle dda" (gobaith ar sail dda am iachawdwriaeth) erbyn dydd y farn (*pen.* vi. 19; 1 *Cor.* iii. 13, 14. Ystyr ffugyrol "gradd," neu "ris" yw y gradd o deilyngdod y mae un wedi ei ennill yn ngolwg Duw; a "hyfder" (gan orphwys ar y "safle" hono) yn gystaf hefyd i bregethu yr efengyl, a rhybuddio ereill yn awr (*Eph.* vi. 19), ac yn enwedig yn eu holl ymdrafodaeth ysbrydol â Duw: *Act.* xxiv. 16; 1 *Ioan* ii. 28; iv. 17; iii. 21; a *Heb.* iv. 16. *Yn y ffydd:*—yn hytrach fel y Groeg, "mewn ffydd;" *h.y.*, "hyfder" yn codi oddi ar eu ffydd. *Sydd yn Nghrist Iesu:*—yn gorphwys yn Nghrist Iesu.

14. *Yr ydwyf yn eu hysgrifenu.....gan obeithio:—h.y.*, "er fy mod yn gobeithio dyfod atat ar fyrder;" *pen.* iv. 13. Gan nad oedd ei obaith ond gwan (*adn.* 15), y mae yn darparu ar gyfer absennoldeb maith, drwy roddi iddo reolau eglur i'w arwain ef. Y mae efe yn awr yn myned yn mlaen i roddi cyfarwyddiadau mwy cyffredinol iddo ef fel efengylwr, gan fod "dawn" arbenig wedi ei roddi iddo ef i wneyd gwaith efengylwr (*pen.* iv. 14). *Ar fyrder.*—Groeg: "yn gynt," sef yn gynt nag y rhagdybiwyd yn y cyfarwyddiadau blaenorol a roddwyd iddo ef. Yn mha le bynag yr oedd yr apostol pan yn ysgrifenu yr epistol hwn, nis gwyddai pa hyd yr attelid ef rhag dyfod at Timotheus. Y mae yr adnod hon yn ffafriol i'r dybiaeth mai nid ar ol ymweliad ac ymadawiad Paul o Ephesus (*Act.* xix. a xx) pan y penderfynodd efe anafu yn Nghorinth, wedi treulio yr haf yn Macedonia (1 *Cor.* xvi. 6), yr ysgrifenwyd yr epistol cyntaf hwn; ond ar ol ei garchariad cyntaf yn Rhufain (*Act.* xxvii.), yn Nghorinth, y mae yn debygol, o'r lle y bwriadai fyned yn mlaen, thwyrach, i Epirus cyn dychwelyd i Ephesus.

15. *Ond os tariaf yn hir:*—cyn dyfod atat ti.

Fel:—h. y., yr wyf yn ysgrifenu (*adn.* 14) "fel y gwypech," &c. *Ymddwyn:*—wrth gyfarwyddo a llywodraethu yr eglwys yn Ephesus (*pen.* iv. 11). *Yn nhŷ Dduw:*—yr eglwys (*Heb.* iii. 2, 5, 6; x. 21; 1 *Pedr* iv. 17; 1 *Cor.* iii. 16); "teml Dduw;" *Eph.* ii. 22. *Yr hwn yw:—h. y.*, yn gymmaint a'i bod. *Eglwys:*—"y gynnulleidfa." Y ffaith mai cylch dy swyddogaeth ydyw "cynnulleidfa y Duw byw," yr hwn yw meistr y tŷ (2 *Tim.* ii. 19, 20, 21), ydyw y cymmhelliad cryfaf i ffyddlondeb, fel arolygwr dros adran o'r "tŷ." Defnyddir y geiriau, "Duw byw," i'w gyferbynu â'r eilun difywyd, Diana yr Ephesiaid (1 *Thes.* i. 9). Efe ydyw ffynnonell "gwirionedd," a sylfaen ein hymddiried (*pen.* iv. 10). Y mae llafur mewn un eglwys neilluol yn wasanaeth i dŷ mawr Duw, o'r hwn y mae pob eglwys neilluol yn rhan, a phob Cristion yn "faen bywiol;" 1 *Pedr* ii. 5. *Colofn a sylfaen y gwirionedd.*—Cymmhwysir y geiriau hyn gan rai esbonwyr at Timotheus ei hun; fel pe dywedasai yr apostol, 'Fel y gwypech pa fodd y mae yn rhaid i ti ymddwyn yn nhŷ Dduw, &c., fel colofn a sylfaen y gwirionedd.' Y mae Suicer, yn ei sylwadau ar y frawddeg, yn dyfynu llawer o'r tadau, y rhai, i raddau mwy neu lai, ydynt yn bleidgar i'r golygiad hwn. Ac y mae lliaws o'r beirniaid diweddar yn ei fabwysiadu. Y prif resymau diweddar dros fyntumio y golygiad hwn, medd Alford, ydyw, am ei fod yn milwrio yn gryfach na'r golygiad cyffredin yn erbyn yr athrawiaeth Babaidd am anffaeledigrwydd eu heglwys; neu am fod y golygiad yn fwy unol âg arwyddluniau yr Ysgrythyrau, yn gymmaint a bod dynion (*Gal.* ii. 9; *Dad.* iii. 12) yn cael eu cyffelybu i golofnau. Ond y mae yn ddiammheu mai yr hen olygiad, yr hwn sydd yn rhoddi "colofn a sylfaen y gwirionedd" yn enw disgrifiadol ar swydd "eglwys y Duw byw," ydyw y cywiraf. Dyma y golygiad mwyaf naturiol ar yr adnod hon. "Ac y mae yn cael ei galw felly am fod parhâd y gwirionedd, ei hanfodiad hanesyddol fel gwirionedd Cristionogol, yn gorphwys ar yr eglwys. Yr eglwys sydd yn cynnal ac yn cadw gair y gwirionedd. Heb yr eglwys, ni byddai gwirionedd Cristionogol ar y ddaear; ynddi bi y mae y gwirionedd i'w gael; oddi allan iddi nid oes ond cyfeiliornad a chelwydd; ac y mae yr hwn sydd yn ymroddedig i'r gwirionedd Cristionogol, yr hwn sydd yn ei garu, yn perthyn drwy hyny i'r eglwys; a'r hwn sydd yn ei wrthod, drwy hyny yn cau ei hunan allan o honi. Y mae rhai wedi cymmeryd eu dyrysu gan y syniad hwn, trwy ei gymmharu â rhanau ereill, yn y rhai y mae yr un apostol yn gosod Crist allan fel unig sylfaen y gwirionedd, megys yn 1 *Cor* iii. 11, &c., lle yr addangosir yr eglwys, nid fel yn cynnal y gwirionedd, ond yn hytrach yn cael ei chynnal ganddi; a'r gwirionedd heb fod mewn angen am yr eglwys mewn trefn i barhau ei hanfodiad; ond i'r gwrthwyneb, yr eglwys mewn angen am y gwirionedd i'r dyben o'i chynnal hi mewn bod. Y mae y dyryswch hwn yn cyfodi, fel y sylwa Baumgarten, oddi ar gamgymmeryd y gwirionedd fel y mae yn cael ei addef yn y byd. Yn yr ystyr cyntaf, nid oes arno eisieu colofn, ond gall

16 Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb;[a] Duw a ymddangosodd yn y cnawd,[x] a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd i'r Cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymmerwyd i fyny mewn gogoniant.

[a] Esa. 9. 6; Mat. 1. 23; Gal. 4. 14; Phil. 2. 6–8.
[x] Esa. 1. 5–7.

gynnal ei hunan ; yn yr ystyr olaf, y mae yn sicr yn sefyll mewn angen am yr eglwys fel colofn i'w gynnal fel ei gyhoeddydd a'i amddiffynydd. Y mae yr eglwys yn gynnalydd[1] y gwirionedd i'r byd, am ei bod hi ei hun yn cael ei chynnal gan y gwirionedd, sydd yn gorphwys arno ei hun, ac yn ei nerth ei hun yn berffaith sicr a diysgog. Y mae pwysigrwydd swydd Timotheus yn cael ei osod allan trwy ddwyn ar gof iddo ardderchogrwydd "y tŷ" yr oedd efe yn gwasanaethu ynddo ; ac y mae yn dangos yr ardderchogrwydd hwn iddo i'r dyben o'i gyferbynu â'r heresiau y rhai y mae Paul, oddi ar ragweledigaeth o honynt, yn ddioed ar ol hyny yn ei rybuddio ef i'w gochelyd : *pen.* iv. 1. Yr eglwys sydd i'r tŷ yn drigfa i'r gwirionedd, ac i'w gadw i'r byd, ac i fod yn offeryn, yn llaw Duw, i ddiogelu ei barhâd ar y ddaear, yn erbyn ymosodiadau yr heresiau hyny (*Mat.* xvi. 18 ; a xxviii. 20)."—*Wiesinger*. Nid ydyw y ffaith fod yr apostol, wedi iddo o'r blaen alw yr eglwys yn "dŷ Dduw," yn awr yn ei galw yn "golofn," yn milwrio yn erbyn golygiad Wiesinger, yr hwn hefyd a goleddir gan y prif feirniaid, hen a diweddar ; canys y mae y gair "eglwys" o flaen y cyffelybiaethau newyddion; fel y mae yr "eglwys," neu gynnulleidfa o gredinwyr, yr hon a edrychid arni o'r blaen fel "preswylfod Duw," yn awr yn cael edrych arni, o safle wahanol—fel "colofn" yn cynnal y gwirionedd. Gwneir y sylw canlynol gan Macknight ar y cyfeiriad a allasai fod yn meddwl yr apostol ; —"Y mae 'eglwys y Duw byw,' fel 'colofn a sylfaen y gwirionedd,' yn cael ei gwrthgyferbynu yma â themi delw diffywyd Diana yr Ephesiaid, yr hon oedd gynnalydd a cholofn celwydd, eilunaddoliaeth, a drygioni. Yn ol barn rhai, gelwir yr eglwys yn 'golofn a sylfaen y gwirionedd,' mewn cyfeiriad at y ddwy golofn a osodwyd gan Solomon yn mhorth y deml ; ar y rhai, meddir, yr hoeliai y prophwydi eu rhagfynegiadau mewn ysgrifen, fel y gallai y rhai a elent i mewn i'r deml i addoli eu darllen. Meddylia ereill, fod yma, yn hytrach, gyfeiriad at y colofnau yn y temlau paganaidd, ar y rhai y crogid byrddau, yn cynnwys cyfreithiau, a phethau ereill pwysig, y bwriedid rhoddi cyhoeddusrwydd iddynt. Ond nid yw hyn o nemawr bwys ; o blegid at ba arferiad bynag y cyfeiria yr apostol (os ydyw yn cyfeirio at ryw un mwy na'i gilydd), y mae yr ystyr yr un."

16. *Ac.*—Y mae y gair hwn yn cael ei ddodi i mewn yma i gyssylltu yr hyn a ddywedwyd gan yr apostol yn yr adnod o'r blaen am yr eglwys â'r hyn a ddywedir ganddo yn mhellach yn yr adnod hon ar yr un pwngc. Colofn y gwirionedd ydyw yr eglwys, yn yr hon yr wyt ti i weinidogaethu ; "AC [fel y gwypech mor ogoneddus ydyw y "gwirionedd" hwnw, yr hwn y mae yr eglwys yn ei gynnal felly] fel yr addefir [felly y mae y Groeg am "yn ddiddadl"] mawr yw dirgelwch duwioldeb : [sef] EFE, YR HWN [felly y mae y llaw-ysgrifau a'r cyfieithiadau hynaf yn darllen am "Duw"] a ymddangosodd yn y cnawd, [efe, yr hwn] a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd," &c. Gosodir ger ein bron yma holl urddas, mawredd, a gogoniant person Crist. Os nad oedd efe o ran ei hanfod yn Fod Dwyfol (*Titus* ii. 13), pa fodd y gallasai yr apostol ddywedyd yn bendant ei fod wedi "ymddangos yn y cnawd?" *Ioan* i. 14 ; *Phil.* ii. 7 ; 1 *Ioan* i. 2 ; a iv. 2. Y mae Crist ei hun, yn ei holl hanes, yn "ddirgelwch duwioldeb." Efe, yr hwn oedd o'r blaen yn guddiedig "gyda Duw," a "ymddangosodd ;" *Ioan* i. 1,14 ; *Rhuf.* xvi. 25, 26 ; *Col.* i. 26 ; 2 *Tim.* i. 10 ; *Titus* ii. 11 ; a iii. 4 ; 1 *Ioan* iii. 5, 8. "Fel yr addefir," *h. y.*, drwy gyfaddefiad cyffredinol aelodau "yr eglwys," yr hon sydd yn yr ystyr yma yn "golofn" neu gynnalydd "y gwirionedd." *Dirgelwch.* — Y cynllun dwyfol (corphoredig yn Nghrist (*Col.* i. 27), yr hwn oedd unwaith yn guddiedig oddi wrth, ond sydd yn awr wedi ei ddadguddio i ni, y rhai'ydym yn credu. *Duwioldeb.*—Defnyddir y gair hwn i gyferbynu natur a dylanwad y dirgelwch â'r annuwioldeb oedd yn anwahanol gyssylltiedig â chyfeiliornad ("ymadawiad oddi wrth y ffydd," "athrawiaethau cythreuliaid," "gwrachïaidd chwedlau," yn *pen.* iv. 1, 7). Cymh. *pen.* vi. 3. I'r rhai a lyngcent y cyfryw gyfeiliornadau, y mae "dirgelwch duwioldeb," (*h.y.*, Crist ei hun), yn aros yn ddirgelwch heb ei ddadguddio (*pen.* iv. 2). "Duwioldeb" yn unig a all gael dyfodfa ato (*adn.* 9). Gelwir ef yn "ddirgelwch" yn ei berthynas â'r duwiol, er ei fod wedi ei ddadguddio (1 *Cor.* ii. 7—14), i ddynodi ardderchogrwydd nodedig y person yr hwn ydyw ei wrthddrych hanfodol, a'r hwn sydd ei hun yn cael ei alw yn "rhyfeddol" (*Esa.* ix. 6), ac "uwch law gwybodaeth" (*Eph.* iii. 18, 19 : cymmh. v. 32). Y mae yr apostol yn awr yn myned yn mlaen i ddadblygu y dirgelwch mawr addefedig hwn yn ei fanylion. Nid ydyw yn annhebygol nad oedd rhyw ffurf o gyffes neu hymn yn yr eglwys, ac yn cael derbyniad cyffredinol, at yr hyn y cyfeiria Paul yn y geiriau, "Fel yr addefir, mawr yw dirgelwch," &c., sef, "efe yr hwn a ymddangosodd," &c. Defnyddid y cyfryw hymnau y pryd hwnw (cymmhar. *Eph.* v. 19 ; *Col.* iii. 16). Dywed Pliny :—"Y maent yn arfer ymgyfarfod cyn toriad y wawr ar ddiwrnod pennodol, ac yn canu hymn i Grist, megys i Dduw." *A gyfiawnhawyd :—h.y.*, profwyd neu dangoswyd ei fod yn gyfiawn. Ymddangosai Crist, tra "yn y cnawd," yn hollol yr un fath a dynion yn y cnawd; ac mewn gwirionedd, "dygodd eu pechodau yn ei gorph ar y pren ;" ond gan iddo "farw unwaith i bechod" (*Rhuf.* vi. 10), ac adgyfodi drachefn, efe a ennillodd iddo ei hun ac i'w bobl "gyfiawnder cyfiawnhaol" (*Esa.* l. 8 ; *Ioan* xvi. 10 ; *Act.* xxii. 14 ; *Rhuf.* iv. 25 ; a vi. 7, 10 ; *Heb.* ix. 28 : 1 *Pedr* iii. 18 ; a iv. 1 ; 1 *Ioan* ii. 1) ; neu, yn hytrach, fel y mae y cyferbyniad i "ymddangosodd yn y cnawd" yn gofyn, efe "a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd" ar yr un pryd ag yr ymddangosodd yn y cnawd ; sef, amddiffynwyd ef fel un dwyfol "yn ei Ysbryd," *h. y.*, yn ei natur uchaf, mewn cyferbyniad i "yn y cnawd," ei natur ddynol weledig. Y mae y gwrthgyferbyniad hwn yn gofyn i "yn yr Ysbryd" gael ei eglurо fel hyn : nid 'gan yr Ysbryd,' fel yr eglurir ef gan rai esbonwyr. Ceir yr un syniad yn *Rhuf.* i. 3, 4 ; "Yr hwn a wnaed o had Dafydd o ran y cnawd, ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyf-

PENNOD IV.

1 *Y mae efe yn prophwydo ymadawiad oddi wrth y ffydd yn yr amseroedd diweddaf*; 6 *ac er mwyn na byddai i Timotheus ballu yn ei swydd, y mae efe yn rhoi iddo amryw gynghorion ynghylch hyny.*

A [a]y mae yr Ysbryd yn eglur yn dywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd, gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethau cythreuliaid; B. A. 66. [a] Ioan16.13; Act. 13. 2.

odiad oddi wrth y meirw." Felly y mae "cyfiawnhawyd" yma yn cael ei ddefnyddio i arwyddo ei fod wedi dangos neu amddiffyn ei wir gymmeriad: *Mat.* xi. 19; *Luc* vii. 35; *Rhuf.* iii. 4. Yr oedd ei ymddangosiad ef "yn y cnawd" yn ei osod yn agored i gael ei gamddeall, fel pe na buasai ond dyn yn unig (*Ioan* vi. 41; vii). "Cyfiawnhawyd," neu amddiffynwyd ef, gyda golwg ar ei Ysbryd, neu ei Ddiwdod, gan BOB PETH a amlygodd ei Ddiwdod, ei eiriau (*Mat.* vii. 29; *Ioan* vii. 46), ei weithredoedd (*Ioan* ii. 11; a iii. 2), gan dystiolaeth ei Dad ar ei fedydd (*Mat.* iii. 17) ac ar y gweddnewidiad (*Mat.* xvii. 5), ac yn enwedig gan ei adgyfodiad (*Act.* xiii. 33; *Rhuf.* i. 4). Dengys y dyfyniad canlynol mai dyma hefyd ydyw syniad Calvin ar hyn:—"Megys y darfu i Fab Duw ei 'waghau ei hun' (*Phil.* ii. 7), trwy 'ymddangos yn y cnawd,' felly yr ymddangosodd yndo ef allu ysbrydol, yr hwn a brofodd ei fod yn Dduw. Y mae y gair 'cyfiawnhawyd' yma yn dynodi cydnabyddiaeth o allu dwyfol, fel yn *Salm* xix. 9; lle y dywedir (yn y cyfeithiad Saesneg) fod 'barnau Duw yn cael eu cyfiawnhau,' *h. y.*, yn berffaith; ac yn *Salm* li. 5, fod 'Duw yn cael ei gyfiawnhau,' yn arwyddo fod uniondeb ei gyfiawnder yn cael ei ddangos mewn modd amlwg. Felly hefyd (*Mat.* xi. 19, a *Luc* vii. 35), pan y dywed Crist, 'Doethineb a gyfiawnhawyd gan bawb o'i phlant;' ei feddwl yw, eu bod wedi rhoddi anrhydedd iddi: a phan y dywed Luc (*pen.* vii. 29) fod y publicanod 'wedi cyfiawnhau Duw,' y meddwl ydyw, eu bod wedi cydnabod, gyda dyledus barch a diolchgarwch, gras Duw, yr hwn a welent yn Nghrist. Gan hyny, yr un ystyr sydd i'r hyn a ddarlleuwn am dano yma a phe dywedasai Paul fod yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd ar yr un pryd wedi ei amlygu yn Fab Duw, fel na ddarfu i wendid y cnawd leihau dim ar ei ogoniant. O dan y gair *Ysbryd*, cynnwysai bob peth yn Nghrist oedd yn ddwyfol ac uwch law dyn; ac y mae yn gwneuthur hyny am ddau reswm. Yn gyntaf, o herwydd ei fod wedi ei ddarostwng 'yn y cnawd,' y mae yr apostol yn awr, trwy ddangos ei ogoniant, yn cyferbynu 'yr Ysbryd' â'r 'cnawd.' Yn ail, nad oedd gogoniant uniganedig Fab Duw, yr hwn y dywed Ioan eu bod wedi ei weled yn Nghrist (*pen.* i. 14), yn gynnwysedig mewn arddangosiad allanol, neu mewn gwychder daearol, ond ei fod bron yn gwbl ysbrydol. Defnyddir yr un ffurf-ymadrodd ganddo ef ei hun (*Rhuf.* i. 3, 4), 'Yr hwn a aned o had Dafydd o ran y cnawd, ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol ysbryd sancteiddiad trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw;' ond gyda'r gwahaniaeth hwn, ei fod yn yr adnod hono yn crybwyll am un math o amlygiad, sef, yr adgyfodiad oddi wrth y meirw."—*Calvin. A welwyd gan angylion.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfatteb i "a bregethwyd i'r Cenhedloedd," (neu, yn hytrach, "yn mhlith y Cenhedloedd;" yn cynnwys yr Iuddewon); ar y llaw arall, "fe welodd yr angylion Fab Duw gyda ni, ond nid oeddynt wedi ei weled ef o'r blaen."—*Chrysostom.* "Nid oeddynt hwy wedi gweled ei natur ddwyfol, yr hon nid yw yn weledig i un creadur; ond gwelsant ef wedi ymgnawdoli."—*Theodoret. Eph.* iii. 8, 10; 1 *Pedr* i. 12. Cymmh. *Col.* i. 16, 20. Yr hyn a gafodd yr angylion ei wybod drwy "weled," y cafodd y Cenhedloedd ei wybod drwy bregethu. Y mae efe yn genadwr newydd at y naill ddosbarth yn gystal a'r llall Yn yr undeb rhyfeddol yn ei berson ef o'r pethau pellaf oddi wrth eu gilydd, sef, nefoedd a daear, y mae y "dirgelwch" yn gorwedd. Os derbynir y cyfeithiad Cymraeg, sef "Cenhedloedd," y gwrthddrychau a gyferbynir â'u gilydd ydyw yr "angylion," y rhai sydd mor agos i Fab Duw, Arglwydd yr angylion, a'r "cenhedloedd," y rhai oeddynt mor "bell" (*Eph.* iii. 17). *A gredwyd iddo yn y byd*:—fel y canlyniad o gael ei bregethu i'r byd: 2 *Thes.* i. 10; 1 *Ioan* iv. 16. Wrth y "byd" y golygir, mewn cyferbyniad i'r "gogoniant" yn y frawddeg nesaf, y byd annuwiol, y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni (1 *Ioan* ii. 15). Fel hyn, efe a gafodd dderbyniad yn y byd; efe a gafodd, mewn dull o lefaru, le yndo. *A gymmerwyd i fyny mewn gogoniant*:—*h. y.*, derbyniwyd ef, ar ei esgyniad oddi ar y ddaear, i'r nefoedd, lle y mae efe yn awr yn eistedd ar ddeheulaw Duw.

PENNOD IV.

1. Y mae "dirgelwch yr anwiredd," y cyfeirir ato yma, ac sydd yn "gweithio eisoes" (2 *Thes.* ii. 7), yn sefyll yn gyferbyniol i "ddirgelwch duwioldeb," a grybwyllwyd yn yr adnod olaf o'r bennod o'r blaen. *Ac.*—Groeg: 'eithr,' mewn cyferbyniad i "ddirgelwch duwioldeb." *Yr Ysbryd*:—gan lefaru drwy y prophwydi oeddynt y pryd hwnw yn yr eglwysi—prophwydoliaethau y rhai a ddibynent ar brophwydoliaethau yr Hen Destament (*Dan.* vii. 25; a viii. 23, &c.; a xi. 30), ac hefyd ar brophwydoliaethau Crist yn y Testament Newydd (*Mat.* xxiv. 11—24); ac hefyd lleferau trwy Paul ei hun (2 *Thes.* ii. 3): â'r rhai y mae 2 *Pedr* ii. 3; 1 *Ioan* ii. 18, &c., yn cyttuno. *Yn eglur*:—mewn geiriau plaen. Dengys hyn ei fod yn cyfeirio at brophwydoliaethau yr Ysbryd, y rhai oeddynt y pryd hwnw ger ei fron. *Yn yr amseroedd diweddaf*:—yn yr amserau dilynol i'r amserau yn y rhai yr oedd efe ar y pryd yn ysgrifenu. Nid rhyw amser dyfodol pell, ond amserau a ddilynent yn ddioed, gan fod dechreuad y gwrthgiliad i'w ganfod eisoes (*Act.* xx. 29). Y rhai hyn yw rhagredegwyr y "dyddiau diweddaf" (2 *Tim.* iii. 1). *Yr ymedy rhai oddi wrth y ffydd.*—Yr oedd y gwrthgiliad i fod oddi mewn i'r eglwys. Yn 2 *Thes.* ii. 3, yr hwn a ysgrifenwyd yn gynt, gwrthgiliad yr Iuddewon oddi wrth Dduw (gan ymuno â'r paganiaid yn erbyn Cristionogaeth) yw sail y brophwydoliaeth; tra yma, yn yr Epistolau Bugeiliol, y mae y brophwydoliaeth wedi ei chyssylltu â chyfeiliornadau y Gnosticiaid, hadau y rhai oeddynt eisoes wedi eu hau yn yr eglwysi (2 *Tim.* ii. 18). Daeth Apollonius Tyanæus, heretic, i Ephesus, yn oes Timotheus. Y mae y gair "rhai" yma yn cyfeirio,

2 Yn dywedyd 'celwydd mewn
[b] Rhuf. 1. 28; Eph. 4. 19. rhagrith, [b] a'u cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth;
3 Yn gwahardd priodi, *ac yn erchi* ymattal oddi wrth fwydydd,

nid 'at y gau-athrawon, ond at y personau a hudid drwy eu haddysg gyfeiliornus. Barna Alford fod yr ymadawiad hwn yn cynnwys, nid gwrthgiliad ffurfiol, ond adfeiliad neu ddirywiad yn eu syniadau a'u bucheddau oddi wrth y wir athrawiaeth. *Gan roddi coel.*—Cynnwysa yr ymadrodd hwn y rheswm, a'r modd y dygwyd yr adfeiliad oddi amgylch; "o herwydd iddynt roddi coel" (*pen.* i. 4; *Titus* i. 14). *Ysbrydion cyfeiliornus*:—yn gweithio yn y gau-athrawon. Yn 1 *Ioan* iv. 2, 3, 6, gelwir hwy yn "ysbryd y cyfeiliorni," mewn cyferbyniad i "ysbryd y gwirionedd;" sef, yr ysbryd sydd yn "llefaru" yn y gwir brophwydi yn eu herbyn hwynt. *Athrawiaethau cythreuliaid*:—*h. y.*, athrawiaethau oeddynt wedi eu cynnyrchu drwy ddylanwad cythreuliaid ar feddyliau dynion. Yn *Iago* iii. 15, gelwir hwynt yn "ddoethineb cythreulig." Yn 2 *Cor.* xi. 15, gelwir yr offerynau a ddefnyddir gan Satan i ddysgu yr athrawiaethau hyn yn "weinidogion Satan."

2. *Yn dywedyd celwydd mewn rhagrith.*—Yn ol cyfeithiad Alford, "yn y rhagrith a arferir gan lefarwyr celwyddau." Mae yr ymadrodd hwn yn dynodi y moddion drwy ba rai yr arweinid "rhai i ymadael oddi wrth y ffydd;" sef, ffug-sancteiddrwydd y gau-athrawon. Cymmh. "twyllwyr," yn *Titus* i. 10. *A'u cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth*:—*h. y.*, nid yn unig yn "dywedyd celwydd" wrth ereill, ond hefyd â'u cydwybodau hwy eu hunain wedi eu serio â haiarn poeth. Proffesent arwain ereill i sancteiddrwydd, a'u cydwybodau hwy eu hunain 'ar hyd yr amser yn halogedig. Y mae cydwybodau dwg bob amser yn arfer rhagrith. Fel y mae "ffydd a chydwybod dda" yn gyssylltiedig â'u gilydd (*pen.* i 5) felly hefyd y mae "rhagrith," (*h.y.*, anghrediniaeth; *Mat* xxiv. 5, 51: cymmh. *Luc* xii. 46) a "chydwybod ddrwg" yma. Yn ol Theodoret, y mae yn arwyddo eu bod mor ddideimlad a'r cnawd a losgwyd â haiarn poeth. Modd bynag, ystyr cyntefig y Groeg ydyw, "wedi eu serio" â'r ymwybodolrwydd o droseddau wedi eu cyflawni yn erbyn gwybodaeth a chydwybod, fel cynnifer o greithiau wedi eu llosgi i mewn gan haiarn poeth. Cymmh. *Titus* i. 15; a iii. 11. Y maent yn ymwybodol o'r graith oddi mewn, ac etto gydag ymddangosiad rhagrithiol o sancteiddrwydd ymdrechant i hudo ereill. Fel y mae sêl yn cael ei harfer mewn ystyr dda (2 *Tit.* ii. 19), felly y mae "serio" mewn ystyr ddrwg. Y mae y gyffelybiaeth wedi ei chymmeryd oddi wrth yr arferiad o serio troseddwyr.

3 *Yn gwahardd priodi, ac yn erchi ymattal oddi wrth fwydydd.*—Hŏnai y gau-athrawon mai y ffordd i gyrhaedd perffeithrwydd moesol oedd ymneilldio oddi wrth y byd, ac ymwrthod â phethau allanol. Yr oedd *Mat* xiv. 10—12; (cymmh. 1 *Cor.* vii 8, 26, 38) yn rhoddi cefnogaeth ymddangosiadol i'w gwaith yn "gwahardd priodi" (cymmh. *pen.* v. 14); ac yr oedd y gwahaniaeth a wneid o dan yr Hen Destament rhwng "y glân a'r aflan" yn rhoddi esgus iddynt i ddysgu pobl i "ymattal oddi wrth fwydydd." Cymmh. *Col.* ii 26, 17, 20—23. Fel yr
[c] y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd.
4 O blegid *y mae* pob peth a
[*] Gen. 1. 29, 30; 9. 3; 1 Cor. 6. 13.

oedd y Gnosticiaid Iuddewaidd hyn yn cyssylltu y buttain, neu eglwys wrthgiliedig yr Hen Destament, â'r bwystfil (*Dad.* xvii 31), neu ysbrydolrwydd Gnosticaidd gwrth-Gristionogol, felly yn y diwedd unir doethineb fydol â gwrth-Gristionogaeth y gau-brophwydi, neu y bwystfil (*pen.* vi. 20, 21; *Col.* ii. 8; 1 *Ioan* iv. 1—3; *Dad.* xiii. 12—15). Cyfrifid hwynt yn bobl sanctaidd oddi allan, tra yn pregethu athrawiaethau cyfeiliornus (*Col.* ii. 23). Y mae Eusebius yn dyfynu adroddiad o Irenæus, fod Saturninus, Marcion, a'r Encratiaid, yn annog y bobl i beidio priodi, ac i ymattal oddi wrth gigfwyd. Y mae Paul yma yn rhoddi rhybudd prophwydol yn erbyn y cyfryw syniadau, hadau y rhai oeddynt eisoes yn cael eu hau (*pen.* vi. 20; 2 *Tim.* ii. 17, 18). *Y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd.*—Yn ol cyfeithiad Alford, "Y rhai a greodd Duw i'w bwyta gyda diolchgarwch gan y rhai sydd yn credu ac yn meddu gwybodaeth gyflawn o'r gwirionedd." Er fod pawb hyd yn oed yr anghredinwyr (*Salm* civ. 14; *Mat.* v. 45), yn gyfranogion o'r bwydydd hyn, y rhai a greodd Duw, "y rhai sydd yn credu" yn unig sydd yn cyflawni amcan Duw mewn creadigaeth, drwy gyfranogi o honynt gyda diolchgarwch; yn gyferbyniol i'r rhai sydd yn "ymattal" oddi wrthynt, neu y rhai nad ydynt, wrth gyfranogi o honynt, yn gwneyd hyny gyda diolchgarwch. Nid ydyw yr anghredinwyr yn cyfranogi o'r cyfryw fwydydd i'r amcan uchaf i ba un y bwriadwyd hwynt, o herwydd fod eu cydwybodau yn halogedig (*Titus* i. 15). Plant Duw yn unig sydd yn "etifeddu y ddaear;" canys ufudd-dod ydyw y cymmhwysder angenrheidiol (megys yr oedd yn y rhodd wreiddiol o'r ddaear i Adda), yr hwn nad oes neb ond hwy yn unig yn ei feddiannu. Y mae yr apostol yn defnyddio yr ymadrodd, "ac yn meddu gwybodaeth gyflawn o'r gwirionedd," i egluro a dangos pwy ydyw "y rhai sydd yn credu." Gwel y sylw ar *Phil.* i. 9. Fel hyn y mae yn gwrthwynebu yr ymhoniad o wybodaeth ragorach, a pherffeithrwydd moesol uwch, a wneid gan yr hereticiaid, ar sail eu hymattaliad oddi wrth briodas a bwydydd. Saif "y gwirionedd" yma yn gyferbyniol i'w "celwyddau" hwy (*adn.* 2).

4. *O blegid.*—Y mae yr apostol yma yn rhoddi rheswm dros yr haeriad uchod, wedi ei seilio ar ffaith amlwg. *Y mae pob peth a greodd Duw yn dda.*—Y mae yn eglur fod yma gyfeiriad at *Gen.* i. 31. Gwel hefyd *Rhuf.* xiv. 14, 20. *Ac nid oes dim* (a greodd Duw) *i'w wrthod.*—Y mae yr apostol yma yn gwrthwynebu cyfeiliornad y Gnosticiaid, y rhai a annogent y bobl i ymattal rhag bwyta pethau a greasid gan yr Arglwydd o bwrpas i gynnal dyn, hadau y rhai oeddynt yn awr yn llechu yn ddirgelaidd yn yr eglwysi. Camsyniad am natur ac amcan Iuddewiaeth (*Act.* x. 11—16; *Cor.* x. 25, 26) oedd gwreiddyn y cyfeiliornad gyda golwg ar fwydydd; chwangegodd gwybodaeth ddwyreiniol elfenau newyddion ato. Y mae yr hen heresi Gnosticaidd yn awr bron wedi darfod; ond y mae gweddillion o

greodd Duw yn dda, ac nid *oes* dim i'w wrthod, os cymmerir trwy dalu diolch:

[d] Luc 11. 41; 1 Cor. 7. 14; Titus 1. 15. [e] Ier. 15. 16; 2 Tim. 3. 14—17.

5 Canys y [d]mae wedi ei sancteiddio trwy air Duw a gweddi.

6 Os gosodi y pethau hyn o flaen y brodyr, ti a fyddi weinidog da i Iesu Grist, [e]wedi dy fagu yn ngeiriau y ffydd, ac [f]athrawiaeth dda, yr hon a ddilynaist.

[f] Ioan 7. 16, 17; 2 Tim. 4. 3.

7 Eithr gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau, ac [g]ymarfer dy hun i dduwioldeb.

[g] Act. 24. 16.

8 Canys i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol: eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob

honi yn aros yn ngwyryfdod offeiriaid Rhufain, ac yn eu hymattaliad oddi wrth gigfwyd, yr hyn a orchymynir o dan boen dwyn arnynt eu hunain euogrwydd pechod marwol. *Os cymmerir trwy dalu diolch.*—Y mae bwydydd, er eu bod yn bur ynddynt eu hunain, yn myned yn ammhur drwy gael eu derbyn â chalonau anniolchgar: *Rhuf.* xiv. 6; *Titus* i. 15.

5. *Wedi ei sancteiddio:—h.y.*, wedi ei "neillduo" fel peth sanctaidd at wasanaeth crediniwyr—wedi ei neilldu oddi wrth "y creadur," yr hwn sydd dan "gaethiwed llygredigaeth" (*Rhuf* viii. 29, &c.) Yn gymmhwys fel yn Swper yr Arglwydd, y mae y weddi o ddiolchgarwch yn sancteiddio yr elfenau, neu yn eu neilldio hwynt o'u sefyllfa neu eu perthynas â'r byd naturiol, ac yn eu symmud hwynt i'w gwir berthynas â'r bywyd newydd. Felly hefyd yn mhob defnydd a wneler o'r creadur, y mae gweddi o ddiolchgarwch yn meddu yr un effaith, a dylai gael ei harfer bob amser (1 *Cor.* x. 30, 32). *Gan air Duw a gweddi:—h.y.*, trwy weddi "eiriolus" (felly y mae y Groeg); *h.y.*, gweddi "gyssegrol" am fendith yr Arglwydd ar ymborth; a dylai y weddi hono fod yn gyfansoddedig yn benaf o air Duw. Rhydd yr *Apostolic Constitutions*, 7. 49, yr hen ffurf ganlynol o ras bwyd, yr hon sydd yn gyfansoddedig bron o syniadau ysgrythyrol:—"Bendigedig fyddech di, O Arglwydd! yr hwn a'n porthaist ni o'n mebyd hyd yr awr hon, a'r hwn ydwyt yn rhoddi bwyd i bob cnawd. Llanw ein calonau â llawenydd a hyfrydwch, fel y gallom ni, y rhai ydym yn meddu pob llawnder, ymhelaethu i bob gwaith da yn Nghrist Iesu ein Harglwydd, trwy yr hwn bydded gogoniant, anrhydedd, a gallu i ti yn oes oesoedd. Amen." Yn amgylchiad dynion ysbrydoledig, cyfeiria "gair Duw" at eu gweddïau ysbrydoledig (1 *Bren.* xvii. 1); ond gan fod Paul yn llefaru yn gyffredinol, ac yn cymmeryd i mewn ddiolchgarwch dynion anysbrydoledig am eu prydau bwyd, y mae yn fwy tebygol fod "gair Duw" yn cyfeirio at y geiriau ysgrythyrol a arferid mewn gweddïau o ddiolchgarwch.

6. *Os gosodi:*—yn hytrach fel y Groeg: "Os awgrymi (os dygi dan sylw) i'r brodyr," &c. *Y pethau hyn:*—sef, y gwirioneddau a adroddwyd yn *adn.* 4, 5, i wrthwynebu y cyfeiliornadau y rhaqddywedwyd am danynt yn *adn.* 1—3. *Gweinidog.*—"Gwas." *Wedi dy fagu.*—Y mae y Groeg yn yr amser presennol, nid yn yr amser gorphenol:—'yn cael dy feithrin yn barhaus yn;' 2 *Tim.* i. 5; a iii. 14, 15. *Ngeiriau y ffydd.*—Cymmharer *adn.* 22. *Athrawiaeth dda:*—'yr addysg dda;' *h. y.*, addysg yn rhoddi eglurhâd ar "y ffydd," mewn cyferbyniad i "addysg cythreuliaid" (yn ol y cyfeithiad Cymraeg, "athrawiaethau cythreuliaid;" *adn.* 1), y rhai yr oedd Timotheus i'w gwrthwynebu. Cymmh. "athrawiaeth iachus" (*pen.* i. 10; a vi. 3; *Titus* i. 9; a ii. 1). *Yr hon a ddilynaist.*—Cwrs yr hon a ddilynaist; yr hon a ddilynaist yn mlaen trwy olrhain ei chwrs, a'i dilyn.—*Alford.* "Yr ydwyt wedi dechreu dilyn i fyny."—*Bengel.* Y mae yr un gair yn y Groeg yn digwydd yn 2 *Tim.* iii. 10; "Ti a lwyr adwaenost:" ac hefyd yn *Luc* i. 3; "Wedi i ni ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad." Gan Paul, a chan ei gydymaith Luc yn unig, yr arferir y ferf Roeg; yr hyn sydd yn gyd-darawiad hynod, ond hollol anfwriadol.

7. *Halogedig.*—Gâd heibio; gochel; na fydded dim a wnelych â hwynt: 2 *Tim.* ii. 23; *Titus* iii. 10. *Gwrachïaidd chwedlau:*—teilwng yn unig i hen wrach eu hadrodd (*pen.* i. 4, 9; *Titus* i. 14). Y maent yn "halogedig" o herwydd eu bod yn arwain ymaith oddi wrth wir "dduwioldeb:" *pen.* i 4—7: a vi. 20; 2 *Tim.* ii. 16: *Titus* i. 1, 2. *Ymarfer dy hun i dduwioldeb:—h. y.*, ymarfer yn ddiwyd a chysson â dyledswyddau crefydd, sef, gweddïo, darllen, myfyrio, &c., nes y byddo duwioldeb wedi dyfod megys yn ail natur i ti. Arwydda y gair gwreiddiol y cyfryw ymarfer ag y byddai gorchestwyr yn myned drwyddo, i addasu eu hunain i ryw orchestwaith i ennill y gamp. Ymgadwent yn fanwl rhag bwyta nac yfed i ormodedd, dysgent pa fodd i ddefnyddio eu haelodau yn fwyaf manteisiol yn yr ymdrech, ac ymladdent eu hymladdfeydd yn aml cyn cyfarfod â'r gwrthymdrechwr. Felly "ymarfer dithau dy hun i dduwioldeb," fel un yn myned dan ddysgyblaeth erbyn gorchest. Na fydded dy hunan-ddysgyblaeth mewn ymarferiadau meudwyol, fel y gau-athrawon (*adn.* 3, 8); cymmh 2 *Tim.* ii, 22, 23; *Heb.* v. 14; a xii. 11); ond mewn ymarferiad â dyledswyddau crefyddol, gyda'r amcan o gynnyddu mewn duwioldeb (*pen.* vi. 11, 12).

8. *I ychydig.*—Groeg: Nid ydyw yn fuddiol ond i raddau bychain. Nid yw Paul yn gwadu nad allai fod ymprydau ac ymattaliad dros amser oddi wrth briodas, gyda'r amcan o gyrhaedd y dyn oddi mewn trwy y dyn oddi allan, yn gwneyd ychydig o les (*Act.* xiii. 3; 1 *Cor.* vii. 5, 7; a ix. 26, 27), er nad ydyw meudwyaeth, yn ei ffurf ddirywiedig, gan ei bod yn sefyll yn gwbl ar yr hyn sydd yn allanol (*adn.* 3), nid yn unig yn fuddiol, ond y mae yn niweidiol. Ymddengys fod Timotheus yn gogwyddo at y cyfryw hunan-ddysgyblaeth allanol. Cymmharer *pen.* v. 23. Gan hyny, y mae Paul, tra nad ydyw yn anghymmeradwyo gradd resymol o hyn yn ei le ei hun, yn dangos tra ragoriaeth duwioldeb fel peth buddiol, nid yn unig i "raddau bychain," ond i "bob peth;" canys, gan fod ei heisteddle oddi mewn, y mae yn ymestyn oddi yno at holl fywyd allanol dyn. Nid at un rhan yn unig o'i fodolaeth, ond at bob rhan o hono, corphorol ac ysbrydol, tymmorol a thragwyddol. Nid yw yr hwn sydd yn meddu "duwioldeb" (yr hon "sydd fuddiol i bob peth"), yn amddifad o ddim sydd yn angenrheidiol tuag at ei wneyd ef yn ddedwydd, er ei fod hyd yn oed heb y cynnorthwyon hyny, y rhai, i "raddau bychain," a geir trwy "ymarfer corphorol." "Duwioldeb," yr hyn yw

[a] Salm 37. 3, 4, 16—19, 29; Diar. 3. 16—18; Esa. 65. 13, 14.
[b] 1 Tim. 1. 15.

peth, [b]a chanddi addewid o'r bywyd *y sydd* yr awrhon, ac o'r hwn a fydd.

9 [i]Gwir *yw* y gair, ac yn haeddu pob derbyniad.

10 Canys er mwyn hyn yr ydym yn poeni, ac yn cael ein gwaradwyddo; o herwydd i ni obeithio yn [k]y Duw byw, yr hwn yw Achubydd pob dyn, yn enwedig y ffyddloniaid.

[k] Ioan 1. 29.

11 Y pethau hyn gorchymyn a dysg.

12 Na ddiystyred neb dy ieuengctid di; eithr [l]bydd yn esampl i'r ffyddloniaid, [m]mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb.

[l] 1 Cor. 11. 1; Titus 2. 7. [m] 2 Cor. 6. 4—17; 2 Tim. 2. 22.

13 Hyd oni ddelwyf, glŷn wrth ddarllen, wrth gynghori, wrth athrawiaethu.

---

y dyben i gyrhaedd pa un yr ydwyt i "ymarfer dy hun" (*adn.* 7), ydyw y peth hanfodol. Nid ydyw y moddion ond pethau ailraddol. *A chanddi addewid*, &c.—Yn ol y Groeg: 'A chanddi addewid o fywyd, yr hwn sydd yr awrhon, a'r hwn sydd i ddyfod.' "Bywyd" yn ei ystyr uchaf a goreu yn y byd sydd yr awrhon, ac yn y byd a ddaw: 2 *Tim.* i. 1. Bywyd mor hir yn y byd hwn ag a fydd er gwir les y credadyn; bywyd yn ei fwynhâd uchaf a'i waith puraf yr awr hon, a bywyd gwynfydedig a thragwyddol yn y byd a ddaw: *Mat.* vi. 33; *Marc* x. 29, 30. "Yn awr y pryd hwn" (*Salm* lxxiv. 11; a cxii.; *Rhuf.* viii. 28; 1 *Cor.* iii. 21, 22), "pob peth sydd eiddoch chwi.....y byd, bywyd....pethau presennol, a phethau i ddyfod." Er ei bod yn ymddangos fel pe na byddai Cristionogaeth yn amcanu ond yn unig i ddwyn dynion i ddedwyddwch yn y byd a ddaw, y mae hi mewn gwirionedd yn eu gwneyd yn ddedwydd yn y byd hwn, yn gystal ag yn y byd a ddaw: *pen.* vi. 6; 2 *Pedr* i. 3. Cymmharer gweddi Solomon, a'r attebiad: 1 *Bren.* iii. 7—13.

9. (*pen.* i. 15.) Y mae yr adnod hon (Groeg: 'Ffyddlawn yw y gair,' &c.) yn cadarnhau yr haeriad gyda golwg ar yr "addewid" gyssylltiedig â "duwioldeb" (*adn.* 8), ac yn ffurfio math o ragarweiniad i *adn.* 10, yr hon sydd yn cael ei chyssylltu âg *adn.* 9 gan "canys." Felly 2 *Tim.* ii. 11. Ymddengys fel pe bae duwioldeb, mewn rhai ystyriaethau, yn peri colled i ddynion yn y byd hwn; ond y mae Paul yma yn gwrthwynebu y syniad hwn. Y mae Duw yn "Achubydd pob dyn, yn enwedig y ffyddloniaid" (*adn.* 10), gyda golwg ar y "bywyd sydd yr awrhon," ac hefyd gyda golwg ar "yr hwn a fydd;" *adn.* 8.

10. *Canys.*—Y mae y gair hwn yma yn cyfeirio at yr hyn sydd yn canlyn, ac nid at yr adnod o'r blaen. *Er mwyn hyn.*—Y rheswm pa ham "yr ydym ni ein dau (y mae 'dau' wedi ei adael allan o'r hen law-ysgrifau) yn poeni (yn dioddef caledi), ac yn cael ein gwaradwyddo (y mae rhai o'r hen law-ysgrifau hynaf yn darllen 'ymdrechu') yw, o herwydd ein bod wedi gobeithio, ac yn gobeithio yn y Duw byw." *Achubydd*:—hyd yn oed yn y byd hwn: *adn.* 8. *Yn enwedig y ffyddloniaid.*—Nid ydyw eu poen a'u gwaradwydd yn anghysson â'r ffaith eu bod yn cael gan y Duw byw, eu Hachubydd, hyd yn oed yn y bywyd presennol (*Marc* x 30), "y cân cymmaint yr awrhon y pryd hwn....ynghyd âg erlidiau," llawer llai â'r ffaith eu bod yn cael bywyd tragwyddol ganddo. Os ydyw Duw mewn un ystyr yn "Achubydd" anghredinwyr (*pen.* ii. 4); *h. y.*, yn barod i fod yn Achubydd tragwyddol iddynt, ac yn awr yn Achubydd ac yn Gymmwynaswr tymmorol iddynt, pa faint mwy i'r credinwyr? Cynnygir iachawdwriaeth dragwyddol i bob dyn; ond y credinwyr yn unig sydd yn cael meddiant gweithredol o honi.

11. *Y pethau hyn*:—y gwirioneddau hyn, gan gau allan yr athrawiaethau difudd a niweidiol y crybwyllwyd am danynt yn *adn.* 1—8. *Gorchymyn a dysg*:—dysg hwynt yn awdurdodol a phenderfynol fel gwirioneddau dwyfol, gan wahardd i neb o'r aelodau eglwysig goledd a lledaenu y cyfeiliornadau a enwyd uchod.

12. *Na ddiystyred neb dy ieuengctid di.*—Ymddyga yn y fath fodd fel ag i deilyngu parch er gwaethaf dy ieuengctid; 1 *Cor.* xvi. 11; *Titus* ii 15. Cymmh. "ieuengctid" gyda golwg ar Timotheus, yn 2 *Tim.* ii. 22. Nid oedd efe ond bachgen ieuangc pan ymunodd â Phaul; *Act.* xvi, 1—3. Yr oedd un mlynedd ar ddeg wedi myned heibio o'r pryd hwnw i'r amser dilynol i garchariad cyntaf Paul. Gan hyny nid oedd efe etto ond ieuangc: yn enwedig mewn cymmhariaeth i Paul, lle yr hwn a lenwid ganddo: hefyd, gyda golwg ar yr henuriaid y rhai yr oedd efe i'w cynghori "megys tad" (*pen.* v. 1); ac yn gyffredinol gyda golwg ar y dyledswyddau o geryddu, cynghori, ac ordeinio (*pen.* iii. 1), y rhai a weddeent oreu i ddyn mewn oed; *pen.* v. 19. *Bydd yn esampl.*—Groeg: 'Bydd yn gynllun:' *Titus* ii. 7. Dyma y ffordd oreu i beri i ddynion beidio diystyru dy ieuengctid di. *Mewn gair*:—yn mhob peth a ddywedi yn ddirgel ac yn gyhoeddus. Y mae "mewn gair" yn cael ei gyferbynu weithiau, fel yn *Col.* iii. 17, âg "mewn gweithred." *Mewn ymarweddiad*:—*h. y.*, mewn ymddygiad. "Mewn gweithred," fel yn *Col.* iii. 17, ond yn cynnwys mwy—yn dy arferion beunyddiol. Y mae ymarweddiad sanctaidd yn brawf o "anian dduwiol" yn y galon. *Mewn cariad... ffydd.*—Dwy egwyddor fawr a hanfodol Cristion, o'r rhai y mae ymarweddiad sanctaidd yn tarddu: *Gal.* v. 6. *Mewn ysbryd.*—Yn ol Calvin, gwresowgrwydd, sêl dros Dduw; ond y mae yn debygcach ei fod yn cynnwys hynawsedd, mwyneidd-dra, amynedd, a thiriondeb tuag at ddynion. *Mewn purdeb*:—mewn egwyddor bur wrth ymwneyd â phawb a phob peth: *pen.* v. 22; 2 *Cor.* vi. 6; *Iago* iii. 17; a iv. 8; 1 *Pedr* i. 22.

13. *Hyd oni ddelwyf*:—pan y cymmerid Ile Timotheus am ennyd gan yr apostol ei hun: *pen.* i. 3; a iii. 13. *Darllen*:—yn enwedig yn y gynnulleidfa gyhoeddus. Trosglwyddwyd yr arferiad o ddarllen yr Ysgrythyrau o'r synagog Iuddewig i'r Eglwys Gristionogol: *Luc* iv. 16—20; *Act.* xiii. 15; a xv. 21; 2 *Cor.* iii. 14. Gan fod efengyl ac epistolau y Testament Newydd yn cael eu cydnabod fel yn ysbrydoledig gan y rhai oeddynt yn meddu y ddawn o adnabod ysbrydion, yr oeddynt o'r dechreu, yn cael eu darllen, yn ol fel yr ysgrifenid hwynt, gyda'r Hen Destament yn yr eglwysi: 1 *Thes.* v. 21, 27; *Col.* iv.

14 Nac esgeulusa y dawn sydd ynot, yr hwn a rodded i ti trwy [a]Act. 6. 6; 13. 3; 2 Tim. 1. 6. brophwydoliaeth, [b]gydag arddod iad dwylaw yr henuriaeth.

15 Myfyria ar y pethau hyn, *ac* yn y pethau hyn aros; [c]fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb. [c]Mat. 5.16; Phil. 2. 15, 16.

16 Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt:

16. Tra mai y prif feddwl yma, hwyrach, ydyw darllen yn gyhoeddus, yr oedd yr Ysbryd yn bwriadu dysgu hefyd mai darllen yr Ysgrythyr yn bersonol oedd i fod yn ffynnonell pob doethineb, o'r hon y dylai y bugeiliaid dynu pob peth a ddygant o flaen y praidd. *Wrth gynghori.*—Cyflwynir cynghorion at y teimladau ar ewyllys gyda'r amcan o reoli yr ymddygiad. *Wrth athrawiaeth.*—Groeg: 'addysg' (weinidogaeth-ol), wedi ei chyfeirio at y deall, fel ag i gyfranu gwybodaeth: *pen.* vi. 2; *Rhuf.* xii. 7, 8. Pa un bynag ai yn gyhoeddus ai yn gyfrinachol, dylai pob cynghor ac addysg fod yn sylfaenedig ar yr Ysgrythyrau. Y mae darllen yr Ysgrythyrau yn gymmhorth mawr i gynghori ac athrawiaethu; heb hyny, ni bydd y cynghor a'r athrawiaeth ond tlawd a dirym.

14. *Nac esgeulusa y dawn sydd ynot*:—trwy adael iddo orwedd heb ei ddefnyddio. Yn 2 *Tim.* i. 6, gosodir y dawn allan fel pe byddai gwreichionen o'r Ysbryd yn cartrefu ynddo, ond yn sicr o ddiffodd trwy esgeulusdra; ac y mae ei "ennyn," neu ei gadw mewn gweithrediad bywiog, yn dibynu ar ewyllys yr hwn sydd wedi ei dderbyn: *Mat.* xxv. 18, 25, 27, 28. "Y mae y bobl hyny," medd Bengel, "yn esgeuluso eu doniau, y rhai nid ydynt yn eu harfer hwynt, ac yn dychymygu na chollant hwynt." Y ddawn y cyfeirir ati yma ydyw dawn yr Ysbryd, yr hon oedd yn ei gymmhwyso ef i wneyd "gwaith efengylwr" (*Eph.* iv. 11; 2 *Tim.* iv. 5); neu, hwyrach, y ddawn o adnabod ysbrydion, yr hon oedd yn dra angenrheidiol iddo fel arolygwr i ordeinio personau i waith y weinidogaeth. *A rodded i ti*:—gan Dduw; 1 *Cor.* xii. 4, 6. *Trwy brophwydoliaeth.*—Cyfeirir yn *pen.* i. 18, at yr un ffaith, sef, ddarfod i'r Ysbryd Glân, un ai ar drôedigaeth cyntaf Timotheus, neu ar ei ordeiniad i'w weinidogaeth (ac yn sicr ymddengys mai at yr olaf y cyfeiria yma), amlygu trwy brophwyd neu brophwydi ei ewyllys i'w ddoniо i'r gwaith; ac fel hyn dywedir yma fod y ddawn wedi ei rhoddi iddo gan yr Ysbryd Glân, trwy neu yn ol prophwydoliaeth. "Fe ddarfu i'r Ysbryd Glân nodi Timotheus allan trwy ddadguddiad fel un oedd i fod yn weinidog i Grist; canys yr oedd efe nid yn unig wedi ei ddewis gan ddynion, yn y dull arferol, ond yr oedd wedi ei enwi yn flaenorol gan yr Ysbryd Glân."—*Calvin.* "Fe roddwyd y ddawn ysbrydol i Timotheus trwy arddodiad dwylaw yr apostol. Felly y dywed yr apostol ei hun: 2 *Tim.* i. 6. Yma dywed wrtho ef ei fod wedi ei roddi iddo 'trwy, neu yn ol prophwydoliaeth;' hyny yw, trwy ysbrydoliaeth neilldiol yn ei gynnhyrfu ef i wneyd hyny. Canys, wrth gyfranu doniau ysbrydol, yn gystal ag wrth wneyd gwyrthiau, ni byddai yr apostolion yn cael eu gadael i'w doethineb eu hunain; ond cyfarwyddid hwynt gan ysbrydoliaeth neilldiol, a enwir yn yr adnod hon yn brophwydoliaeth. Gwel 1 *Cor.* xii. 10. Trwy yr un math o ysbrydoliaeth, nodid personau neilldiol allan gan y prophwydi fel rhai cymmhwys i swyddi cyssegredig. Fel hyn, rhoddwyd bugeiliaeth yr eglwys yn Ephesus i Timotheus gan Paul (1 *Tim.* i. 18), 'yn ol prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am dano.'"—*Macknight.* *Gydag arddodiad dwylaw.*—Arferid arddodiad dwylaw wrth sefydlu dynion, a'u gosod mewn swyddau, yn arwydd o gyfraniad doniau addas i'r swyddau, ac nid i'w gosod yn y swydd: *Num.* xxvii. 18: *Deut.* xxxiv. 9. Arferid arddodiad dwylaw, nid i roddi mewn swydd, ond i gyfranu dawn trwy hyny. Gwelir hyn yn ngwaith Moses yn rhoddi ei ddwylaw ar Iosuah:—"Ac Iosuah mab Nun oedd gyflawn o ysbryd doethineb; o herwydd Moses a roddasai ei ddwylaw arno:" *Deut.* xxxiv. 9: "A dod o'th ogoniant di arno ef;" *Num.* xxviii. 18. Y mae y "gydag," yn yr ymadrodd ger ein bron, yn rhoddi ar ddeall yn eglur nad oedd "arddodiad dwylaw yr henuriaeth" ond gweithred arwyddol oedd yn gyssylltiedig â chyfraniad o'r ddawn. Cyfranogiad, gan hyny, ac nid gosodiad mewn swydd, y mae arddodiad dwylaw yn ei arwyddo: ac am nad oes genym ddim i'w gyfranu, peth ofer ydyw rhoddi dwylaw gweigion ar neb. *Henuriaeth.*—Yn 2 *Tim.* i. 6, nid ydyw yr apostol yn crybwyll ddarfod i neb ond efe ei hun yn unig osod ei ddwylaw arno. Ond ei amcan arbenig ef yno ydyw dwyn ar gôf i Timotheus y rhan a gymmerodd efe yn nghyfraniad y ddawn iddo ef. Yma y mae yn crybwyll y ffaith, yr hon sydd yn hollol gysson â'r llall, fod yr henuriaid cymmydogaethol wedi cymmeryd rhan yn yr ordeiniad; efe, fodd bynag, a gymmerodd y rhan flaenaf ynddo.

15. *Myfyria.* — Groeg: 'Myfyria yn ofalus ar;' *Salm* i. 2; a cxix. 15. Cymmh. "Isaac," *Gen.* xxiv. 63. *Y pethau hyn*:—*adn.* 12—14. "Y mae myfyrdod ar bethau ysbrydol yn debyg i waith y cylla yn treulio ymborth, ac yn ei addasu i fod yn fagwraeth ac yn gynnaliaeth i'r meddwl. Ni wna bwyta ddim lleshâd heb dreuliad y cylla hefyd; felly gwrandaw a darllen, heb aml a dwys fyfyrdod, ydynt yn debyg o fod yn ddiffrwyth ac yn aflesol i'r enaid."—*Charles.* *Ac yn y pethau hyn aros.* — Yn llythyrenol, 'Bydd yn y pethau hyn;' bydded iddynt lyngcu dy holl feddwl; cartrefed dy fyfyrdod gyda hwynt; astudia hwynt, a chwilia i mewn iddynt yn barhaus. *Dy gynnydd* —Y mae yn ddiammheu fod y cynnydd hwn yn cynnwys cynnydd mewn gras a duwioldeb; ond y meddwl mwyaf uniongyrchol yw, cynnyddu mewn cymmhwysderau i gyflawni dyledswyddau ei swydd fel gweinidog yr efengyl; ac y mae yn dra thebygol fod yma gyfeiriad arbenig at y gocheliad a roddwyd yn *adn.* 12, na byddo i neb ddiystyru ei ieuengctid ef. *Yn eglur i bawb*:—o'r bobl yr oedd efe yn llafurio yn eu plith. Amcan yr apostol yn ei annog i gynnyddu oedd, nid er mwyn ennill clod iddo ei hun, ond er mwyn chwanegu at ei ddefnyddioldeb i ereill.

16. *Gwylia arnat dy hun*:—*h.y.*, ar agwedd dy galon yn dufewnol, a'th ymddygiad yn allanol. Gellir ystyried yr ymadrodd fel crynodeb o *adn.* 12. *Ac ar yr athrawiaeth*:—*h. y.*, gwylia rhag cymmeryd dy hudo i gredu na chyhoeddi dim yn groes i athrawiaeth iachus; ac na byddo neb.

[p] Ezra 3. 19—21; 1 Cor. 9. 27. Esa. 55. 11; 2 Tim. 2. 10; Philem. 19.

canys os gwnai hyn, [p]ti a'th gedwi|dy hun a'r [q]rhai a wrandawant arnat.

PENNOD V.

1 *Rheolau ŵ'w dilyn wrth gerydду.* 3 *Yn nghylch gwraggedd gweddwon,* 17 *a henuriaid.* 23 *Cynghor ynghylch iechyd Timotheus.* 24 *Bod pechodau rhai yn myned o'r blaen i farn, a'r eiddo ereill yn canlyn.*

NA cherydda [a]hynafgwr, eithr [b]cynghora *ef* megys tad; *a'r* rhai ieuainge, megys brodyr;

2 Yr [c]hen wragedd, megys mamau; y rhai ieuainge, megys chwiorydd, gyda phob purdeb.

3 Anrhydedda y gwraggedd gweddwon y rhai sydd wir weddwon.

[a] Act. 14. 23; Titus 1. 5, 6. [b] Rhuf 12. 7; Gal. 6. 1. [c] Mat. 12. 50.

chwaith, o aelodau na swyddogion yr eglwys yn cael eu goddef i wneyd hyny. Gellir edrych ar yr ymadrodd hwn fel crynodeb o *adn.* 13. "Dylai bugail da ofalu mewn modd arbenig am ddau beth:—dysgu pobl ei ofal yn ddifrifol, a chadw ei hun yn bur. Ac nid digon ydyw iddo fyw yn onest yn mhob peth, a pheidio rhoddi esampl ddrwg i neb, heb iddo hefyd gyssylltu â'i fywyd sanctaidd sêl mewn addysg: ac ni bydd ei athrawiaeth o fawr o les, oddi eithr i'w onestrwydd a'i fywyd sanctaidd gŷfatteb iddi."—*Calvin. Aros ynddynt:*—y pethau hyn; *adn.* 15. Gwel 2 *Tim.* iii. 14. *Canys os gwnai hyn.*—Yn ol cyfieithiad Alford, "wrth wneyd hyn," ac nid "trwy wneyd hyn," fel y Saesneg, fel pe gallasai ei achub ei hun trwy weithredoedd. *Ti a'th gedwi dy hun a'r rhai a wrandawant arnat.* —Coleddir dau syniad yn mherthynas i ystyr y geiriau hyn. Un ydyw, y byddai i Timotheus, os cyflawnai efe ei ddyledswydd yn onest a ffyddlawn fel gweinidog yr efengyl, gadw ei hun a'i wrandawyr rhag y cyfeiliornadau y cyfeiriwyd atynt yn *adn.* 1—3. Y llall yw, y byddai iddo, wrth wneyd hyny, gael ei gadw ei hun i fywyd tragwyddol, a bod yn offeryn yn llaw Duw i gadw ei wrandawyr hefyd. Y golygiad olaf hwn a dderbynir gan y prif esbonwyr. Wrth gyflawni ei ddyledswydd yn ffyddlawn at ereill, y mae y gweinidog yn gwasanaethu ei iachawdwriaeth ei hun. Yn wir nis gall ddysgu ereill yn iawn heb iddo ar yr un pryd "wylio arno ei hun." "Nid cymmhelliad dibwys i weinidogion yr efengyl i fod yn ffyddlawn ydyw yr ystyriaeth, fod eu hiachawdwriaeth hwy eu hunain, yn gystal ag iachawdwriaeth eu gwrandawyr, yn dibynu ar eu hafur a'u ffyddlondeb hwy yn eu swydd.....Dywedir fod gweinidog yn 'cadw ei hun,' pan yn cyflawni ei swydd yn ffyddlawn, nid yn unig o herwydd ei fod yn gochelyd y dialedd dychrynllyd a fygythir gan yr Arglwydd trwy Eseciel ('Ar dy law di y gofynaf ei waed ef;' *Ezec.* xxxiii. 8), ond o herwydd yr arferir siarad am gredinwyr fel rhai yn 'gweithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain' pan yn ymarfer yn ddiwyd â moddion gras: *Phil.* ii. 12."—*Calvin.*

PENNOD V.

1. *Na cherydda:*—yn llythyrenol, 'Na tharo yn galed ar:' na cherydda yn llym. *Hynafgwr:*—un mewn oed: nid henuriad yn y weinidogaeth. Nid ydyw y rhai olaf hyn yn cael eu crybwyll hyd *adn.* 17; "yr henuriaid sydd yn llywodraethu." Cymmharer *Act.* ii. 17; "a'ch hynafgŵyr:" yn llythyrenol, 'henuriaid.' Cyferbynir y gair â "rhai ieuainge." Ammheuwyd fod y gair yn cyfeirio at swydd mor foreu ag amser Chrysostom, yr hwn a ddywed: "A ydyw efe yn golygu y swydd? Nid wyf yn tybied: ond y mae yn siarad am bob hen ŵr." Cadarnheir hyn hefyd gan y crybwylliad a geir yn yr adnodau hyn am hynafgwŷr—hen wragedd; gwŷr ieuainge—merched ieuainge. Megys y cynghorwyd Timotheus i ymddwyn yn y fath fodd fel ag i beidio rhoddi un achlysur i neb ddiystyru ei ieuengctid ef (*pen.* iv. 12); felly cynghorir ef yma i gadw ei ieuengctid mewn côf, ac i ymddwyn at y rhai oedd hynach nag ef gyda'r gwyldder oedd yn gweddu i ddyn ieuange. *Cynghora ef:*—annog ef. *Megys tad:*—fel un teilwng o barch ar gyfrif ei oedran. *Fel brodyr:*—ac am hyny yn gydradd; "nid yn tra-arglwyddiaethu arnynt:" i *Pedr* v. 1—3.

2. *Gyda phob purdeb:*—*h.y.*, mewn dull sobr, sanctaidd, diwair, a theilwng o weinidogaeth yr efengyl. Y mae ymddygiad parchus at fenywod yn tueddu at feithrin purdeb.

3. *Anrhydedda.*—Trwy eu gosod ar lyfr yr eglwys, fel gwrthddrychau cymmhwys o gynnaliaeth elusengar: *adn.* 9, 17, 18, ac *Act.* vi. 1. Felly arferir y gair "anrhydeddu" am gynnal un gydag angenrheidiau bywyd: *Mat.* xv. 4, 6, ac *Act.* xxxiii. 10. *Gwir weddwon* (*adn.* 16). Rhai gwir amddifaid: nid fel y rhai (*adn.* 4) sydd yn meddu plant neu berthynasau galluog i'w cynnal, ac nid fel y rhai (*adn.* 6) sydd "drythyll;" ond y rhai tebycaf, o herwydd eu hamddifadrwydd o gyfeillion daearol, o ymddiried yn gwbl yn Nuw, parhau mewn gweddïau dibaid, a chyflawni y dyledswyddau crefyddol a roddid i wragedd gweddwon yr eglwys:" *adn.* 5. Yr oedd gwragedd gweddwon, mewn rhan, i ddibynu ar ewyllys da eu perthynasau, yn enwedig y mab hynaf—genedigaeth-fraint yr hwn, neu ei gyfran chwanegol o'r eiddo, oedd yn ei rwymo i raddau i gyflawni y cyfryw ddyledswydd; ac mewn rhan ar y breintiau a estynid i ddosbarthiadau anghenus ereill, megys cael cyfranogi o'r degwm tair blwyddol (*Deut.* xiv. 28, 29; xxvi. 12), o'r lloffion (*Deut.* xxiv. 19—21), ac o'r gŵyliau crefyddol (*Deut.* xvi. 11, 14). Yn unol âg ysbryd y rheolau hyn, rhoddid iddynt ran o'r ysbail a gymmerid mewn rhyfel. Gwaherddid cymmeryd gwisgoedd y weddw ar wystloriaeth (*Deut.* xxiv. 17); ac yr oedd y ddeddf hon yn cael ei rhoddi mewn grym gyda golwg ar bethau anghenrheidiol ereill yn ei meddiant: *Iob* xxiv. 3. Yn chwanegol at y rheolau pennodol hyn, cyflwynid y weddw i ofal y wladwriaeth (*Exod.* xxii. 22; *Deut.* xxvii. 19; *Esa.* i. 17; *Ier.* vii. 6; xxii. 3, a *Zech.* vii. 10), ac fe gondemnid pob esgeulusdra o honi, a gormes tuag ati, yn y modd mwyaf llym a phenderfynol: *Iob* xxii. 9, 10; xxiv. 21; *Salm* xciv. 6, a *Esa.* x. 2. Yn yr eglwys apostolaidd, cynnelid y gwragedd gweddwon tlodion, ac amddifaid o berthynasau a chyfeillion Cristionogol galluog i'w cynnal, o dan arolygiaeth swyddogion wedi eu pennodi i'r dyben neilduol hwn; ac yma rhoddir cyfarwyddiadau arbenig gan Paul gyda golwg ar y dosbarth o bersonau oedd yn teilyngu y cynnorthwy hwn.

4 Eithr o bydd un weddw âg iddi blant neu wŷrion, dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb gartref, a thalu y pwyth i'w rhieni: canys [d] hyny sydd [d] dda a chymmeradwy ger bron Duw.

[d] 1 Tim. 2. 3.

5 Eithr yr hon sydd wir weddw [e] ac unig, [e] sydd yn gobeithio yn [f] Esa. 12. 2; 1 Cor. 7. 32.

Nuw, ac [f] yn parhau mewn ymbiliau, a gweddïau, nos a dydd. [f] Luc 2. 37; Eph. 6. 18.

6 Ond yr hon sydd drythyll, a [g] fu farw, er ei bod yn fyw. [g] Luc 15. 24, 32.

7 A gorchymyn y pethau hyn, fel y byddont ddiargyhoedd.

8 Ac od oes neb heb ddarbod dros yr eiddo, [h] ac yn enwedig ei [h] Gen. 30. 30; Esa. 58. 7; Luc 11. 11—13.

4. *O bydd un weddw*:—nid "gwir-weddw," gan ei bod yn meddu plant, y rhai a ddylent ei chynnal. *Wyrion.*—Cyfieithir y gair gwreiddiol yn "hiliogaeth," yn gystal ag yn "ŵyrion." *Dysgant*:—y plant a'r ŵyrion. *Yn gyntaf*:—cyn appelio at yr eglwys am gynnaliaeth; o blegid nid tlodi a bod yn amddifad o gyfeillion yn unig oedd yn cyfansoddi cymmhwysder i dderbyn cynnorthwy yr eglwys; ond yr oedd cymmeriad da yn rhan arbenig o hono. *Arfer duwioldeb gartref*:—duwioldeb mabaidd tuag at eu mam weddw, trwy ei chynnal. Yn llythyrenol, "tuag at eu teulu eu hunain." Cymmhwysir y gair "duwioldeb" yma at y cyflawniad ffyddlawn o ddyledswyddau plant at eu rhieni; gan fod y berthynas sydd rhwng plant a'u tad naturiol yn cynnrychioli y berthynas sydd rhyngom a'n Tad nefol. Y mae "eu hunain" yn sefyll yn y cyssylltiad hwn mewn cyferbyniad i'r eglwys, mewn cymmhariaeth i'r hon nid ydyw y weddw ond dyeithr. Y mae ganddi hawl ar ei phlant ei hun cyn bod ganddi un hawl ar yr eglwys; bydded iddynt gyflawni yr hawl flaenaf hon, trwy ei chynnal hi, a pheidio gadael iddi fod yn faich ar yr eglwys. *A thalu y pwyth*:—*h.y.*, "ad-dalu i'w rhieni yn eu henaint, pan fyddo natur yn adfeilio, a gwendidau a llesgrwydd yn amlhau, y caredigrwydd a'r tirfondeb a gawsant ganddynt pan oeddynt hwythau yn eu babandod, yn weiniaid, yn llesg, ac yn anniddig. Y mae deddf natur yn galw yn uchel am hyn, fel peth eithaf cyfiawn, ac yn cyhoeddi y gwrthwyneb yn anghyfiawnder creulawn."—*Charles. Rhieni.*—Groeg: eu 'hynafiaid byw;' *h.y.*, eu mam neu eu nain, fel y digwyddo fod. Y mae y gair "dysgant" yn rhoddi ar ddeall fod drwgarferion o'r natur yma wedi ymlusgo i mewn i'r eglwys, gwragedd gweddwon yn hawlio cynnaliaeth gan yr eglwys, er fod ganddynt blant neu ŵyrion yn alluog i'w cynnal hwynt. *Dda a chymmeradwy.*—Yn "dda;" yn rhesymol, cyfiawn, a daionus yndo ei hun, ac, o ganlyniad yn gymmeradwy gan yr Arglwydd. Cymmharer *Col.* iii. 20.

5. *Gwir weddw ac unig*:—mewn cyferbyniad i'r hon y mae ganddi blant neu ŵyrion i'w chynnal: *adn.* 4. *Sydd yn gobeithio yn Nuw*:—Groeg: 'sydd wedi gobeithio, ac yn gobeithio yn Nuw.' Y mae yr adnod hon yn chwanegu cymmhwysder arall mewn gwraig weddw i gael ei chynnal gan yr eglwys, heb law ei bod yn "unig," neu heb blant i'w chynnal. Ni ddylai fod yn un "drythyll" (*adn.* 6), ond yn un a fyddo yn ymddiried yn Nuw, ac yn parhau mewn gweddïau nos a dydd. Byddai bod heb blant a pherthynasau daearol yn ei gwneuthur yn fwy rhydd i gyssegru gweddill ei hoes i Dduw a'i eglwys: 1 *Cor.* vii. 33, 34. Cymmharer hefyd "Anna, gwraig gweddw," yr hon a arosodd heb briodi ar ol marwolaeth ei gŵr, ac "nid âi allan o'r deml, ond gwasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddïau nos a dydd;" *Luc* ii. 36, 37. Y cyfryw un, yn ol barn Paul, fyddai y gwrthddrych cymmhwysaf i gael ei chynnorthwyo gan yr eglwys (*adn* 3); canys y mae y cyfryw un yn cefnogi achos eglwys Crist trwy ei gweddïau drosti. Y mae gwresogrwydd mewn gweddïau yn cyfodi oddi ar ymddiried hyderus yn Nuw. *Mewn ymbiliau, a gweddïau.*—Groeg: 'yn ei hymbiliau a'i gweddïau.' Y mae y blaenaf yn arwyddo gofyn oddi ar deimlad o angen, ac mewn dull gostyngedig, serchog, a thebycaf o effeithio ar serchiadau tyner arall; y fath ag ydoedd agwedd Ioseph pan "ymbiliodd" â'i frodyr am ei fywyd: *Gen.* xlii. 21. Y mae yr olaf yn arwyddo gweddi, neu dywalltiad o ddeisyfiad y galon ger bron Duw. *Nos a dydd.*—Cyd-daraw-iad arall â Luc (xviii. 7, "llefain ddydd a nos); ac â chyhuddiadau Satan "ddydd a nos;" *Dad.* xii. 10.

6. *Trythyll*:—anllad, nwyfus. Cynnwysa y gair "trythyllwch" bob peth fyddo yn tueddu i ennyn ac i gyflawni chwantau cnawdol. Y mae y Groeg yn golygu gwastraff, afradlonedd, a gormodedd. Y mae gwreiddyn y gair yn dynodi gwau gyda chyflymdra mawr; ac oddi wrth hyn, daeth i arwyddo gormodedd neu afradlonedd: *Iago* v. 5. Y mae yr apostol yma yn cyferbynu y weddw hon â'r un a ddisgrifiwyd ganddo yn *adn.* 5, gyda'r amcan o ddangos ei bod hi yn wrthddrych hollol anhaeddiannol o elusen yr eglwys. *A fu farw, er ei bod yn fyw*:—marw yn ysbrydol, er ei bod yn fyw yn naturiol; *Mat.* viii. 22, a *Eph.* v. 14.

7. *Y pethau hyn*:—y pethau y llefarwyd am danynt yn *adn.* 5, 6. *Fel y byddont ddiargyhoedd*:—sef, y gwragedd gweddwon a gynnelid gan yr eglwys.

8. Yn ol cyfieithiad Alford, dylai yr adnod hon ddechreu gydag "ond," ïddangos fod yr apostol yn troi yn ol at *adn.* 4. *Od oes neb* [gosodiad cyffredinol, am hyny yn cynnwys yn ei gymmhwysiad blant neu ŵyrion y weddw] *heb ddarbod dros yr eiddo* [ei berthynasau yn gyffredinol], *ac yn enwedig ei deulu* [yn neilduol], *efe a wadodd* [yn ymarferol] *y ffydd.*—"Ffydd heb weithredoedd marw yw." Canys pwngc ffydd ydyw, nid opiniwn noeth, ond gras a gwirioneddau Duw; i'r rhai y mae yr hwn sydd yn credu yn rhoddi i fyny ei ysbryd, megys ag y mae yr hwn sydd yn caru yn rhoddi i fyny ei galon. Os dylem ddangos caredigrwydd at rywun, yn sicr dylem ei ddangos at ein perthynasau ein hunain: y mae esgeuluso dyledswydd mor resymol yn brawf eglur o ddiffyg cariad, ac am hyny o ddiffyg ffydd. "Nid yw ffydd yn gosod dyledswyddau naturiol o'r neilldu, ond yn eu cryfhau hwynt."—*Bengel. Gwaeth yw na'r di-ffydd*:—o herwydd fod hyd yn oed anffyddiwr neu anghredadyn yn cael ei ddysgu gan natur i ddarbod dros ei berthynasau ei hun, ac yn gyffredinol yn cydnabod y ddyledswydd. Y mae y Cristion nad ydyw yn gwneyd hyny yn waeth: *Mat.* v. 46, 47. Gan ei fod yn meddu mwy o oleuni, nid oes ganddo gymmaint o esgus

[1] Mat. 18.17. deulu, efe a wadodd y ffydd, [1] a gwaeth yw na'r di-ffydd.

9 Na ddewiser yn weddw *un* a [k] 1 Cor. 7.10, 11, 39, 40. fo dan drigain mlwydd oed, [k] yr hon fu wraig i un gŵr;

[l] Mat. 5. 16; Act. 9. 36. 10 Yn dda ei gair am [l] weithgweithredoedd anrhydeddus (rhagorol);' y cylch neu yr elfen yn yr hon yr oedd y "gair da" a roddid iddi yn cael lle: *Titus* ii. 7. Y mae hyn yn cyfatteb i *pen.* iii. 7, gyda golwg ar yr esgob neu yr henuriad: "Y mae yn rhaid iddo ef gael tystiolaeth dda gan y rhai sydd oddi allan." "Nid oes un ammheuaeth nad oedd urdd y gweddwon yn anrhydeddus a pharchus iawn; ac am hyny nid ydyw Paul yn ewyllysio i neb gael eu derbyn iddo, ond y rhai yr oedd tystiolaeth dda am eu holl fywyd blaenorol. Heb law hyny, ni appwyntid hwynt mewn trefn i fwynhau eu hunain mewn diogi a segurdod; ond i weinyddu i'r tlodion a'r cleifion, hyd nes y caniateid iddynt, wedi iddynt lwyr ymdreulio allan, ymneillduo yn anrhydeddus. Gan hyny, fel y byddent yn fwy cymmhwys i gyflawni dyledswyddau eu swydd, ewyllysiai eu cael yn rhai a fyddont wedi cael ymarferiad a phrofiad maith o'r holl ddyledswyddau perthynol iddi: megys, llafur a diwyddrwydd mewn dwyn plant i fyny, llettygarwch, haelioni i'r tlodion, a gweithredoedd elusengar ereill."—*Calvin.* *Os:*—os, yn chwanegol at gael "gair da." *Dygodd hi blant i fyny:*—un ai ei phlant ei hun (*pen.* iii. 4, 12), neu blant pobl ereill, yr hyn sydd yn un o'r "gweithredoedd da" y cyfeirir atynt—cymmhwysderau sydd yn ei chyfaddasu hi i weinyddu i blant amddifaid, a mamau teuluoedd. *Ös bu lettygar.*—Yr oedd y cymmhwysder hwn yn ofynol mewn esgob: *pen.* iii. 2, a *Titus* i. 8. *O golchodd hi draed y saint:*—yn ol esampl Crist (*Ioan* xiii. 14); enghraifft o'r duedd gyffredinol oedd yn y Cristionogion boreuol i "wasanaethu eu gilydd mewn cariad, neu dichon ei fod yn arwyddo cyflawni y swydd ddistadlaf." *O chynnorthwyodd hi y rhai cystuddiol:*—pa un bynag ai trwy roddi arian iddynt, neu mewn dull arall. *O dilynodd hi bob gorchwyl da:*—1 *Thes.* v. 15; cym. enghreifftiau yn *Mat.* xxv. 35, 36. Ar y frawddeg hon dywed Chrysostom, "Pa beth ydyw dilyn pob gorchwyl da? Er enghraifft, myned i'r carchar ydyw, ac ymweled â'r carcharorion, ymweled â'r cleifion, ddiddanus y trallodedig, cysuro y rhai sydd mewn poenau, cyfranu yn mhob modd gymmaint ag sydd yn bossibl, a pheidio esgeuluso dim ag sydd o duedd i chwanegu at lwyddiant a chysur ein brodyr."

11. *Gwrthod:*—eu rhoddi ar restr yr henuriaid benywaidd. *Gweddwon ieuainge:*—dan drigain mlwydd oed: *adn.* 9. *Ymdrythyllu:*—Groeg: 'myned yn foethus, ac yn aflywodraethus.' Cyfieithir yr un gair, heb y rhagddod *cata*, yn "moethus" a "moethau," yn *Dad.* xviii. 3, 7, 9. "Yn foethus, ant yn drythyll, ac yn aflywodraethus, ac yn anaddas i swydd a gwaith sanctaidd yn yr eglwys."—*Charles.* Syiwa Erasmus fod y gair gwreiddiol yn tarddu o *sterein*, "tynu ymaith," ac *inia*, "awenau;" a bod y gyffelybiaeth wedi ei chymmeryd oddi wrth anifail llawn o ysbryd, yr hwn, wedi tynu ymaith yr awenau, a red o amgylch wrth ei ewyllys. Y mae Glassius a Le Clerc yn cyfieithu yr adran, "y rhai nid ydynt yn ufuddhau i'r awenau."

ag sydd gan yr anffyddiwr sydd yn troseddu deddfau natur.

9. Yn ol cyfieithiad Fausset "Fel gweddw (hyny yw, o'r urdd eglwysig o weddwdod; math o henuriaid benywaidd), na restrer neb (yn y llyfr) a fo dan drigain mlwydd oed." Nid diaconesau oedd y rhai hyn—y rhai a ddewisid yn ieuengach (deugain oedd yr oedran a bennodwyd yn nghynghor Chalcedon), ac yn mhlith y rhai yr oedd gwyryfon (a elwid mewn oes ddiweddarach yn "weddwon") yn gystal a gweddwon—ond dosbarth o weddwon wedi eu neilldio, er nad etto yn ffurfiol a hollol, at wasanaeth Duw a'r eglwys. Ymddengys olion y cyfryw ddosbarth yn *Act.* ix. 41. Yr oedd Dorcas ei hun yn un o honynt. Gan y bernid yn briodol (gwel y sylwadau ar *pen.* iii. 2, a *Titus* i. 6) i henuriad neu esgob fod yn "ŵr un wraig," felly hefyd yr oedd hithau i fod yn "wraig i un gŵr;" *h.y.*, heb briodi fwy nag unwaith. Fe welir fod yr apostol yma yn symmud at bwngc newydd. Nis gall fod yma gyfeiriad, fel yn *adn.* 3, at ddarbod cynnaliaeth eglwysig iddynt. Canys pe felly, byddai y cyfyngiad i wragedd gweddwon heb fod dan drigain mlwydd oed yn afreidiol ac yn galed, gan y dichon y byddai llawer o weddwon anghenus mewn oedran llawer ieuangach; felly hefyd y byddai y rheol fod yn rhaid i'r weddw beidio priodi fwy nag unwaith, yn enwedig gan ei fod ef ei hun isod, yn gorchymyn i'r gweddwon ieuainge ail briodi; felly hefyd y byddai y rheol fod yn rhaid ei bod wedi dwyn plant i fyny. Yn mhellach, y mae *adn.* 10 yn rhagdybied fod ganddi ddigon o fodd i fyw, o leiaf mewn amser a aeth heibio; ac felly cauid gwragedd gweddwon allan—yr unig ddosbarth oedd yn gofyn elusen. Hefyd, byddai *adn.* 11 yn ddisynwyr; canys pe felly, byddai eu gwaith yn ail briodi yn fantais ac nid yn niwed i'r eglwys, am y rhyddheid hi oddi wrth y baich o'u cynnal. Crybwylla Tertullian, Hemas, a Chrysostom am y cyfryw urdd o weddwon eglwysig—pob un heb fod dan drigain mlwydd oed, ac yn dcbyg i'r henuriaid mewn rhai o'r dyledswyddau a gyflawnid ganddynt, ac o ran y parch a delid iddynt. Gweinyddent ar weddwon ereill, a phlant amddifaid—gwaith yr oedd eu profiad hwy o deimladau a helbulon yr amddifaid yn eu gwneuthur yn gyfaddas i'w gyflawni; a hwy oedd arolygwyr cyffredinol eu rhyw. Y mae yn ddiammheu fod oedran yn gymmhwysder angenrheidiol mewn henuriaid, fel y dywedir yma ei fod mewn henuriadesau, mewn trefn i chwanegu at eu dylanwad ar y dosbarth ieuangaf o'u rhyw. Cynnelid hwy gan yr eglwys; ond nid hwy oedd yr unig weddwon a gynnelid felly: *adn.* 3, 4. *Yr hon fu wraig i un gŵr:*—mewn trefn i beidio rhoddi tramgwydd i'r Iuddewon a'r paganiaid, y rhai oeddynt yn anghymmeradwyo ail briodas. Gwel y sylw ar *pen.* iii. 2, a *Titus* i. 6. Prif ystyr y gair "diargyhoedd," fel y mae yn cael ei arfer yn yr epistolau hyn, ydyw peidio rhoddi tramgwydd i neb, hyd yn oed mewn pethau dibwys.

10. *Am weithredoedd da:*—Groeg: 'mewn

[m] Luc 7. 38, 44. [n] Act. 9. 39.

ieuainge: canys pan ddechreuont
* Deut. 32. 15; Act. 20. 29. °ymdrythyllu yn erbyn Crist, priodi a fynant;

12 Gan gael barnedigaeth, am iddynt ddirmygu y ffydd gyntaf.

13 A hefyd y maent yn dysgu *bod* yn segur, gan rodio o amgylch o dŷ i dŷ; ac nid yn segur yn unig, ond hefyd yn wâg-siaradus, ac [p] yn rhodresgar, [q] gan adrodd pethau nid ynt gymmhwys.

14 [r] Yr wyf yn ewyllysio gan hyny [s] i'r rhai ieuainge briodi, planta, gwarchod y tŷ, [t] heb roi dim achlysur i'w gwrthwynebwr i ddifenwi.

15 Canys [u] y mae rhai eisoes wedi gwyro ar ol Satan.

16 Od oes gan ŵr neu wraig

[p] 2 Thes. 3. 11; [q] Act. 20. 30; Titus 1. 11; Iago 3. 10. [r] 1 Tim. 2 8. [s] 1 Cor. 7. 8, 9; Heb. 13. 4. [t] Dan. 6. 4. Rhuf. 1 13. [u] 1 Pedr 4. 14, 15. [v] Phil. 3. 21, 2 Tim. 1. 15.

Ond beth bynag yw gwreiddyn y gair, y mae yn amlwg mai meddwl yr apostol yw, y byddai i'r gweddwon ieuainge, os derbynid hwy i'r swydd, gan nas gallent ymattal rhag priodi, ymwrthod â'r gwasanaeth y cyflwynent eu hunain iddo. *Yn erbyn Crist*:—gan wrthryfela yn erbyn Crist, eu priodol briod. *A fynant*:—Groeg, a ewyllysiont—eu dymuniad ydyw ail briodi.

12. *Gan gael*:—gan ddwyn arnynt eu hunain, ac felly orfod dwyn fel baich (*Gal.* v. 10), farn oddi wrth Dduw (cymmharer *pen.* iii. 6), yn pwyso fel llwyth arnynt. *Am iddynt ddirmygu y ffydd gyntaf*:—sef, eu hymrwymiad i Grist, a gwasanaeth yr eglwys. Nis gallai fod un caledi i un drigain mlwydd oed, neu uchod, beidio ail briodi (*adn.* 9), er mwyn bod mewn sefyllfa fwy manteisiol i wasanaethu achos Crist, fel henuriadesau; er nad ydoedd un rhwystr ar ffordd gweddwon cyffredin i ail briodi: 1 *Cor.* vii. 39. Y mae hyn yn hollol wahanol i waith y Pabyddion yn rhwymo merched ieuainge mewn oedran priodi âg addunedau o wyryfdod. Yn mhellach, yr oedd gweddwon henadurol yn ymrwymo i aros heb briodi, nid am fod bywyd sengl yn sancteiddiach na bywyd priodasol (yn ol addysg Rhufain), ond am fod lles achos Crist yn ei wneyd yn ddymunol. Gwel ar *pen.* iii. 2. Yr oeddynt wedi gwystlo eu "ffydd gyntaf" i Grist fel gweddwon henadurol; ond ewyllysient yn awr drosgl wyddo eu ffydd i ŵr. Cymmharer 1 *Cor.* vii. 32, 34.

13. *A hefyd*:—"ar yr un pryd, yn mhellach." *Dysgu*:—yn gyffredin mewn ystyr dda. Ond segurdod, gwag-siarad, a rhodres ydyw dysgeidiaeth y merched hyn. *O dŷ i dŷ*.—O'r naill i'r llall o dai aelodau yr eglwys: 2 *Tim.* iii. 6. Y maent yn cario hanes y tŷ hwn i'r llall, a hanes y llall i hwn: adroddant hanes pawb wrth bawb. *Yn wag-siaradus*.—Yn llawn berw a dadwrdd, ac yn berwi drosodd gan siarad gwag, anadeiladol. *Yn rhodresgar*.—Groeg: yn brysur i ymyryd â materion pobl ereill, y rhai nid ydynt yn perthyn dim iddynt: 2 *Thes.* iii. 11. Cyfieithir y gair yn *Act.* xix. 19, yn "rhodreswaith," neu "gywreinwaith gwag a diles." "Y mae cywreinrwydd yn fynych yn codi oddi ar segurdod; yr hyn yn gyffredin sydd yn esgor ar, neu yn arwain i wagsiarad."—*Calvin. Pethau nid ydynt gymmhwys.* —Pethau ysgeifn, gwâg, a dilês—pethau anghydweddol â sancteiddrwydd, sobrwydd, a symlrwydd yr efengyl.

14. *Rhai ieuainge*:—*h. y.*, y gweddwon ieuainge yn gyffredinol, i'w gwahaniaethu oddi wrth y gweddwon hynaf, y rhai a ddodwyd ar restr yr henuriadesau: *adn.* 9. Y mae *gan hyny* yn arwyddo, 'gan ein bod yn gweled fod gweddwon ieuainge yn agored i'r cyfryw demtasiynau, yr wyf yn ewyllysio, neu yn dymuno,' &c. Nid ydyw y gorchymyn hwn iddynt ail briodi yn anghysson â 1 *Cor.* vii. 40; canys yr oedd amgylchiadau y ddau achos yn wahanol: cymmharer 1 *Cor.* vii. 26. Yma annogir ail briodas fel meddyginiaeth i nwyd, segurdod, a'r drygau ereill a nodwyd yn *adn.* 11—13. Wrth gwrs, lle nad oedd un duedd at y drygau hyn, ni byddai cymmaint o angen am ail briodas: y mae Paul yn llefaru am yr hyn sydd yn gyffredinol yn ddymunol, ac oddi ar y dybiaeth eu bod mewn perygl oddi wrth y cyfryw ddrygau, fel y mae pob lle i gredu eu bod. "Nid gosod cyfraith y mae, ond dangos meddyginiaeth i weddwon ieuainge."—*Chrysostom. Planta* (*pen.* ii. 15):—ac fel hyn ennill un o'r cymmhwysderau (*adn.* 10) angenrheidiol er cael eu dewis mewn amser dyfodol yn weddwon henadurol, os felly y trefnai Rhaglunïaeth. *Gwarchod y tŷ*.—Groeg: 'llywodraethu y tŷ,' yn ol fel y dylai gwraig wneyd, ac nid "ymawdurdodi ar y gŵr;" *pen.* ii. 12. *Heb roi dim achlysur*:—yn llythyrenol, "cychwynfa:" lle neu esgus i ddifenwi, o herwydd ymddygiad penrhydd Cristionogion mewn enw. *Gwrthwynebwr*.—un yn erbyn Cristionogaeth, pa un bynag ai Iuddew ai Cenedl-ddyn fyddo: *Phil.* i. 28, "Efe, yr hwn sydd i'r gwrthwyneb." Nid Satan, yr hwn sydd yn cael ei ddwyn i mewn yn yr adnod nesaf mewn perthynas wahanol. *I ddifenwi*:—yn llythyrenol: 'er mwyn gwaradwyddo;' *pen.* iii. 7; vi. 1, a *Titus* ii. 5, 10. Os rhoddid "achlysur," defnyddiai y gelyn ef i waradwyddo Cristionogaeth. Y mae y gwrthwynebwr yn awyddus i fwyhau pechodau yr ychydig, ac i osod y bai o honynt ar yr holl eglwys a'i hathrawiaethau.

15. *Canys*.—Canys yn achos rhai y mae y canlyniad hwn eisoes wedi digwydd: 'Y mae rhai gweddwon eisoes wedi troi ar ol Satan,' yr hudwr, (nid trwy syrthio ymaith oddi wrth y ffydd yn gyffredinol, ond) trwy y pechodau a gondemnir yn *adn.* 11—13, sef chwant y cnawd, segurdod, &c., ac felly wedi rhoddi achlysur i'r gwrthwynebwr i waradwyddo crefydd: *adn.* 14. Y mae Satan yn gyffredin yn chwilio am rhyw ddrwg i'r segur i'w wneyd.

16. *Od oes gan ŵr.....wragedd gweddwon*:—yn ei deulu, pa mor bell bynag y maent yn perthyn iddo. Y mae y rhan fwyaf o'r llaw-ysgrifau a'r cyfieithiadau hynaf yn gadael allan "ŵr neu," ac yn darllen, "Od oes gan unrhyw wraig sydd yn credu." Ond y mae y testyn cyffredin yn ymddangos yn fwy naturiol. Modd bynag, yr ystyr, yn ol yr awdurdodau uchaf, ydyw, 'Os oes gan rhyw weddw ieuangc sydd yn credu wragedd gweddwon yn perthyn iddi yn sefyll mewn angen am gynnorthwy, cynnalied hi hwynt, gan drwy hyny ryddhau yr eglwys oddi wrth y baich:' *adn.* 3, 4. Yno, y plant a'r ŵyrion y cyfeirir atynt: yma, y weddw ieuangc, yr hon, mewn trefn i ochelyd y drygau o ddiogi a gwastraff, ffrwyth diogi, sydd i fod yn ddiwyd mewn gweithredoedd da, megys cynnorthwyo y rhai

ffyddlawn, *wragedd* gweddwon, cynnorthwyant hwynt, ac na phwyser ar yr eglwys; fel y gallo hi ddiwallu y gwir weddwon.

[z] Adn. 1. [7] Mat. 24. 45. [z] 17 Cyfrifer yr henuriaid sydd yn [7] llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dauddyblyg; yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y

[z] 2 Tim. 4. 2. [z] gair a'r athrawiaeth.

cystuddiol (*adn.* 10), a thrwy hyny gymmhwyso ei hun i gael derbyniad mewn amser dyfodol i urdd y gweddwon henadurol. *Cynnorthwyant hwynt*:—yn hytrach fel y Groeg: 'cynnorthwyed ef,' neu 'hi;' cynnorthwyed y cyfryw un,' &c., *adn.* 10: yn llythyrenol, 'beichier ef neu hi â'r baich o'u cynnal.' *Gwir weddwon*:—rhai hollol dlawd ac amddifaid o gyfeillion a pherthynasau galluog i'w cynnal: *adn.* 3, 4.

17. *Henuriaid.*—Y mae y symmudiad oddi wrth y gweddwon henadurol (*adn.* 9), at yr henuriaid yma, yn un hollol naturiol. *Llywodraethu yn dda*:—yn llythyrenol: 'llywyddu yn dda,' gyda doethineb, gallu, a ffyddlondeb, y praidd a roddwyd dan eu gofal. *Yn deilwng o barch dau ddyblyg*:—*h. y.*, yr anrhydedd a ddangosir trwy gyfraniadau (*adn.* 3, 18), ac mewn gwahanol ddulliau ereill. Os ydyw henuriad fel y cyfryw, yn rhinwedd ei swydd, eisoes yn deilwng o anrhydedd, y mae yr hwn sydd yn "llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dau-ddyblyg:" gwel 1 *Cor.* ix. 14; *Gal.* vi. 6, a 1 *Thes.* v. 12. Nid y meddwl ydyw y dylai henadur sydd yn "llywodraethu yn dda" gael cymmaint arall o gyflog ag un nad ydyw yn "llywodraethu yn dda," neu â'r weddw henadurol, neu â'r diaconiaid. Y mae "dauddyblyg" yn cael ei arfer am 'fawr' yn gyffredinol: *Dad.* xviii. 6. *Yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth.*—Groeg: 'addysg;' yn pregethu y gair, ac yn addysgu, trwy egwyddori, neu mewn rhyw ddull arall. Y mae hyn yn rhoddi ar ddeall i ni fod dau fath o henuriaid llywodraethol; sef, y rhai oeddynt yn llafurio yn y gair a'r addysg, a'r rhai nad oeddynt yn llafurio felly. Yr oedd amryw o henuriaid, cystal ag amryw ddiaconiaid, yn mhob eglwys yn yr oes apostolaidd. Profir hyn tu hwnt i bob ammheuaeth yn y Testament Newydd, am nad ydyw byth yn crybwyll gymmaint ag un waith am henuriaid, neu esgobion, mewn cyssyltiad âg eglwys neu eglwysi, ond yn y rhif liosog: *Act.* xiv. 23; xx. 17, 28; *Titus* i. 5, ac *Iago* v. 14. Yn *pen.* iii., ceir disgrifiad o'u cymmhwysderau, ac yma cydnabyddir eu hawl i gael cyflog am eu gwasanaeth.

18. *Yr Ysgrythyr*:—*Deut.* xxv. 4, a ddyfynwyd o'r blaen yn 1 *Cor.* ix. 9. *Yr ŷch sydd yn dyrnu.*—Groeg: 'Ych tra yn sathru,' &c. Y mae yr hen ddull o ddyrnu, fel y disgrifir ef yn yr Ysgrythyr, mewn arferiad hyd heddyw yn Palestina. Yn yr oesoedd gynt, cludid yr ysgubau o'r maes i'r llawrdyrnu mewn menni; ond yn awr, yn gyffredin, ar gefnau camelod ac asynod. Darn o dir gwastad, wedi ei galedu trwy ei guro, o ffurf crwn, tua hanner can troedfedd o dryfesur yn gyffredin, yn yr awyr agored, ydoedd y llawrdyrnu: *Gen.* l. 10; *Barn.* vi. 37, a 2 *Sam.* xxiv. 16, 24. Weithiau, bydd amryw o'r lloriau hyn yn gyssylltiedig â'u gilydd. Chwelir yr ysgubau ar hyd-ddynt, a methrir hwynt, nes rhyddhau y grawn, gan ychain, gwartheg, ac

18 Canys y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd, [a] Na chau safn yr ŷch sydd yn dyrnu yr ŷd: ac, [b] *Y mae* y gweithiwr yn haeddu ei gyflog.

[a] 1 Cor. 11. 9, 10. [b] Deut. 24. 14, 15.

19 Yn erbyn henuriad [c] na dderbyn achwyn, oddi eithr dan [d] ddau neu dri o dystion.

[c] Ioan 18. 29. [d] Heb. 10. 28.

20 Y rhai sydd yn pechu, cer-

ysgrubliaid ieuaingc, wedi eu trefnu yn bumpau cyfochrog. Dyma oedd y dull cyffredin yn oesoedd y Beibl; ac fe orchymynodd Moses i'r Israeliaid beidio "cau safn yr ŷch tra y byddai yn dyrnu," fel y gallai gael tamaid yn awr ac eilwaith o'r grawn: *Deut.* xxv. 4, ac *Esa.* xxviii. 28. At y ddefod hon y cyfeirir yn y frawddeg ger ein bron. *Y mae y gweithiwr yn haeddu ei gyflog.*—Y mae yr ymadrodd hwn wedi ei ddyfynu o *Luc* x. 7, tra y mae *Mat.* x. 10 yn arfer y gair "bwyd." Os oedd yr apostol yn meddwl estyn y geiriau, "y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd," at yr ail frawddeg hon, yn gystal ag at y gyntaf, y mae trwy hyn, mewn dull anfwriadol, yn cydnabod Efengyl Luc fel Ysgrythyr ysbrydoledig. Credwn mai y golygiad hwn sydd gywir. Y mae yn debygol fod yr Efengyl yn ol Luc y pryd hwnw wedi ei lledaenu er's wyth neu naw mlynedd. Modd bynag, y mae yn bossibl nad ydyw "y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd" yn cael ei gymmhwyso ond yn unig at y frawddeg a ddyfynid o *Deut.* xxv. 4; ac felly nid ydyw y dyfyniad ond diareb gyffredin, a ddyfynwyd hefyd gan ein Hiachawdwr, ac a gymmeradwyir gan bawb fel peth perffaith gyfiawn a rhesymol.

19. *Yn erbyn henuriad*:—un o henuriaid yr eglwys. *Na dderbyn*:—"na chroesawa." *Oddi eithr dan ddau neu dri o dystion.*—Ni oddefid i neb gael ei ddedfrydu gan farnwyr o dan gyfraith Moses (*Deut.* xvii. 6; xix. 15), oddi eithr ar dystiolaeth dau neu dri o dystion: cymmharer *Mat.* xviii. 16; *Ioan* viii. 17. Ond buasai gwaith Timotheus yn derbyn achwyn yn erbyn rhyw un yn achos gwahanol, gan mai yr amcan oedd, nid cospi yn gyfreithiol, ond cynghori yn frawdol. Yn yr achos hwn, gallai ei dderbyn heb ddau neu dri o dystion; ond nid yn achos henuriad, gan ei fod ef, o herwydd cyflawni ei ddyledswydd o "argyhoeddi y rhai oedd yn gwrthddywedyd" (*Titus* i. 9), yn fwy agored na neb arall i gael ei boeni â chamgyhuddiadau. Mor bwysig, ynte, ydoedd i Timotheus beidio derbyn achwyn, heb dystiolaeth gref, yn erbyn henuriaid, y rhai a ddylent, mewn trefn i fod yn effeithiol, fod yn "ddiargyhoedd:" *pen.* iii. 2, a *Titus* i. 6. Y mae adnodau 21 a 24 yn rhoddi ar ddeall fod Timotheus yn meddu awdurdod i farnu yn yr eglwys. Gallwn fod yn sicr na byddai iddo gondemnio neb, oddi eithr ar dystiolaeth dau neu dri o dystion; ond mewn achosion cyffredin, byddai iddo eu galw hwynt ger ei fron, fel y caniateid hefyd gan gyfraith Moses, er na byddai dim ond un tyst. Ond yn achos henuriaid, yr oedd yn rhaid iddo gael dau neu dri o dystion, hyd yn oed cyn eu galw hwynt ger ei fron; canys nid yn unig yr oedd eu cymmeriad hwy yn sefyll yn uwch, ond yr oeddynt hefyd yn fwy agored nag ereill i genfigen ac enllib. Barna Alford nad ydyw y gair "derbyn" yma yn cynnwys gwysiad a dedfrydiad, ond yn unig y blaenaf.

20. *Y rhai sydd yn pechu*:—pa un bynag

ydda yn ngŵydd pawb, fel y byddo ofn ar y lleill.

*2Tim.2.14; 4.1. 21 *Gorchymyn yr ydwyf ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion, gadw o honot y pethau hyn heb ragfarn, heb wneuthur dim o gyd-bartïaeth.

22 Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb, ac na fydd gyfranog o bechodau rhai ereill: cadw dy hun yn bur.

23 Nac ŷf ddwfr yn hwy; eithr arfer ychydig win, er mwyn dy gylla, a'th fynych wendid.

ai henuriaid ynte aelodau cyffredin. *Cerydda yn ngŵydd pawb:*—yn gyhoeddus, ger bron yr holl eglwys: *Mat.* xviii. 15—17; 1 *Cor.* v. 9—13, ac *Eph.* v. 11. Nid oedd y troseddwr i gael ei esgymuno hyd nes y byddai wedi diystyru y cerydd hwn. *Fel y byddo ofn ar y lleill:*—*h.y.*, fel y byddo i aelodau ereill yr eglwys ofni pechu wrth weled y gwarth cyhoeddus sydd yn dilyn pechod: *Deut.* xiii. 11, ac *Act.* v. 11.

21. *Gorchymyn yr ydwyf:*—yn hytrach fel y Groeg: 'Yr ydwyf yn dy dynghedu di:' felly y dylid ei gyfeithu: 2 *Tim.* iv. 1. *Ger bron:*—'yn mhresennoldeb Duw.' Y mae y gair "Arglwydd" wedi ei adael allan yn yr hen lawysgrifau. Bydd i Dduw y Tad, a Christ y Mab, dystiolaethu yn dy erbyn di, os diystyrir fy ngorchymyn. "Y mae efe mewn dull bywiog, yn gosod dydd y farn ger bron Timotheus, yn yr hwn y dadguddir Duw, ac y gwelir Crist wyneb yn wyneb gyda'r angylion."—*Bengel. Etholedig angylion:*—enw o barch. Y gwrthddrychau a etholwyd gan Dduw, o'i gariad atynt, i gael eu cadw yn eu cyflwr creadigol. Y maent nid yn unig yn "etholedig" (yn ol tragwyddol fwriad Duw) mewn cyferbyniad i'r angylion syrthiedig (2*Pedr* ii. 4); ond hefyd dangosir yma ragoriaeth yr angylion yn gyffredinol (fel gweinidogion etholedig Duw, "angylion sanctaidd," "angylion y goleuni"), ac felly rhoddir mwy o ddifrifwch i'w tystiolaeth fel tystion o dynghediad Paul. Y mae yr angylion nid yn unig yn cydymdeimlo â helyntion y ddaear, ond yn cymmeryd rhan weithredol ynddynt. *Y pethau hyn:*—y gorchymynion a gynnwysir yn *adn.* 19, 20. *Heb ragfarn:*—"barnu cyn" gwrandaw holl ffeithiau yr achos. Dylid barnu, ond nid rhagfarnu. Cymmharer "yn ebrwydd," *adn.* 22; hefyd *adn.* 24. *Cydbartïaeth:*—yn ffafr dyn, fel y mae "rhagfarn" yn tueddu yn erbyn dyn. "Y mae 'cyd-bartïaeth' yn ffiaidd yn mhawb, ond yn ffieiddiach mewn swyddogion eglwysig na neb arall. Y mae yn amlwg fod yr apostol yn cyfeirio at y gyfraith yn *Ecsod.* xxiii. 2: 'Nac atteb mewn ymrafael, gan bwyso yn ol llaweroedd, i wyro barn.' Dylai pob barnwr gymmeryd pwyll, ac nid rhoddi barn ehud; yr hyn a eilw yr apostol yma 'rhagfarn:' hefyd, yn ddibleidiog, ond dal clorianau cywir, fel yr ymddangoso yr achos yn gywir fel y byddo. Ymddengys oddi wrth ddull syml Paul yn cynghori Timotheus i wylied yn ei erbyn, ei fod yn golygu fod y drwg a'r perygl mwyaf yn y cyfryw ymddygiad yn yr eglwys. Y mae yn anghyfiawnder ynddo ei hun, ac yn cenhedlu cynhenau, pleidiau, ac ymraniadau yn yr eglwys."—*Charles.*

22. *Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb.*—Coleddir tri syniad o barth i ystyr yr ymadrodd hwn: y cyntaf, a'r mwyaf cyffredin yn mhlith y beirniaid goreu ydyw, ei fod yn cynnwys annogaeth i Timotheus i ochelyd rhag ordeinio neb yn fyrbwyll i waith y weinidogaeth: *pen.* iv. 14; 2 *Tim.* i. 6, a *Titus* i. 5. Y mae yn dyfod i mewn yn gyssylltiedig âg *adn.* 19. Y ffordd i wylio yn erbyn henuriaid a waradwyddent grefydd ydyw, bod yn ochelgar gyda golwg ar gymmeriad yr ymgeisydd cyn ei ordeinio. Gellir cymmhwyso hyn at swyddogion eglwysig ereill a ordeinir felly, yn gystal ag at henuriaid. Fel hyn y mae y frawddeg hon yn cyfeirio at *adn.* 19, fel y mae y frawddeg nesaf, "Na fydd gyfranog o bechodau rhai ereill," yn cyfeirio at *adn.* 20. Yr ail syniad, a'r hwn a goleddir gan Ellicott, Weisenger, &c., ydyw, ei fod yn cyfeirio at dderbyn yn ol i gymdeithas eglwysig, neu ail dderbyniad trwy osod dwylaw ar y rhai a geryddasid (*adn.* 20), ac a esgymmunwyd wedi hyny (*Mat.* xviii. 17). Y mae *adn.* 20 yn ffafriol i hyn. Ond gan fod arddodiad dwylaw yn cael ei ddefnyddio am ordeiniad yn *pen.* iv. 14; *Act.* vi. 6; xiii. 3; 2 *Tim.* i. 6, mwy priodol ydyw ei gymmeryd felly yma. Y trydydd golygiad ydyw, mai gwahardd y mae yr apostol iddo "ddodi dwylaw yn ebrwydd ar neb" dan achwyniad, er ei geryddu. Ystyrir fod y cyd-destyn yn ffafriol i'r golygiad hwn:—"Yn erbyn henuriad na dderbyn achwyn, oddi eithr dan ddau neu dri o dystion. Y rhai sydd yn pechu, cerydda," &c. 'Cadw y pethau hyn (gyda golwg ar achwyniadau a cheryddon) heb ragfarn, heb wneuthur dim o gyd-bartïaeth. Na ddod dwylaw yn ebrwydd ar neb, mwy na henuriad, fel un euog, teilwng o gerydd, heb brawf digonol ei fod yn euog.' Ond ymddengys i ni mai y cyntaf o'r tri golygiad yw y tebycaf o fod yn gywir. *Ac na fydd gyfranog o bechodau rhai ereill:*—trwy esgeulusdra yn ordeinio ymgeiswyr annuwiol, ac felly dyfod mewn rhyw radd yn gyfrifol am eu pechodau. Neu, fe ddichon ei fod yn cyfeirio at henuriaid yn gyffredinol a ddigwyddent bechu, fel yn *adn.* 19, 20:—"Na fydd gyfrannog o bechodau rhai ereill, trwy esgeuluso 'ceryddu y rhai sydd yn pechu yn ngŵydd pawb,' yn gystal a'r rhai sydd yn ymgeiswyr am yr henuriaeth, ac hefyd pawb sydd yn pechu.' Yn ol pleidwyr y trydydd golygiad ar y frawddeg flaenorol, meddwl y frawddeg hon ydyw, 'Na fydd gyfranog o bechodau y rhai sydd yn derbyn achwyniad yn erbyn henuriaid, heb ddigon o dystiolaeth, ac yn 'dodi eu dwylaw yn ebrwydd' ar bersonau fel rhai euog, cyn eu profi yn euog, gan eu ceryddu mewn 'rhagfarn a chyd-bartïaeth;' 'ac na fydd gyfranog o bechodau y rhai sydd yn pechu,' trwy beidio eu ceryddu ar ol cael digon o dystion eu bod yn euog. Bydd yn bwyllog a diragfarn ar y naill ochr a'r llall.' *Cadw dy hun yn bur.*—Dylid rhoddi pwyslais neilldiol ar "dy hun:"—'Cadw dy hun yn glir oddi wrth gyfranogi o bechodau rhai ereill, trwy fod yn ofalus i geryddu y rhai sydd yn pechu;' *adn.* 20. Fel hyn y mae y symmudiad yn esmwyth at *adn.* 23, yr hon sydd yn dal perthynas â Timotheus yn bersonol: cymmharer hefyd *adn.* 24.

23. *Nac ŷf ddwfr yn hwy:*—fel arferiad. Nid ydyw y gorchymyn hwn i yfed gwin yn achlysurol yn ddim amgen na dull arall o adrodd y syniad a gynnwysir yn y frawddeg flaenorol: "Cadw

[f] Act. 1. 16—20; 5. 1—11; Gal. 5. 19—21; 2 Tim. 4. 10.

24 [f] Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen, yn rhagflaenu i farn; eithr rhai sydd yn eu canlyn hefyd.

25 Yr un ffunud hefyd y mae gweithredoedd da yn amlwg o'r blaen; a'r rhai sydd amgenach, nis gellir eu cuddio.

PENNOD VI.

1 *Dyled gweision i'w meistriaid.* 3 *Am ochelyd athrawon newydd.* 6 *Duwioldeb sydd elw mawr:* 10 *a chwant arian ydyw gwreiddyn pob drwg.* 11 *Beth a ddylai Timotheus ei ochelyd, a'i ddilyn:* 17 *am ba beth yr oedd iddo rybuddio y cyfoethogion.* 20 *Am gadw yr athrawiaeth iawn, a pha beth yr oedd iddo ei ochelyd.*

CYNNIFER ag sydd wasanaethwyr dan yr iau, tybient B. A. 66.

dy hun yn bur." Gorchymynwyd i'r esgob a'r diacon beidio "ymroi i win lawer:" *pen.* iii. 3, 8. Ymddengys fod Timotheus yn dueddol i orfanylrwydd meudwyol ar y pen yma. Cymmh. y sylw ar *pen.* iv. 8; hefyd, yr adduned Nazareaidd, *Num.* iv. 1—4; Ioan Fedyddiwr, *Luc* i. 15; *Rhuf.* xiv. Gan hyny, y mae Paul yn newid y geiriau blaenorol, "cadw dy hun yn bur," gan ddyweyd mewn effaith, 'Nid fy mod yn meddwl gorchymyn y math hwnw o burdeb sydd yn gynnwysedig mewn meudwyaeth: ond yn hytrach, "Nac ŷf ddwfr yn hwy:" *h.y.*, Nac ŷf ddwfr yn unig yn hwy; eithr arfer ychydig win, cymmaint ag sydd yn eisieu er lles dy iechyd, a dim mwy. Fel yna yr esbonir ef gan Ellicott a Wiesinger. Fel hyn gan Alford:—Yr oedd Timotheus yn ddyn ieuangc o gyfansoddiad gwanaidd (gwel y sylw ar 1 *Cor.* xvi. 10, 11), ac yn dueddol i lwfrdra yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau fel arolygwr, lle yr oedd eisieu gweithrediad grymus; o herwydd hyn y mae Paul yn ei annog ef i arfer pob moddion priodol cymmhwys i godi ei sefyllfa gorphorol uwch law y gwendidau hyn. Yr egwyddor a dysgir yma ydyw, mai dyledswydd dyn ydyw arfer pob moddion sydd o fewn ei gyrhaedd i gryfhau a chadw ei iechyd. Os gwna gwin, neu ryw ddiodydd meddwol ereill, les i iechyd dyn, y mae yn gyfreithlawn iddo arfer ychydig o honynt fel meddyginiaeth; ond y maent yn niweidiol a pheryglus i ddyn iach eu harfer fel diodydd cyffredin.

24. Cyfeithir yr adnod hon gan Alford fel hyn:—"Pechodau rhai sydd hysbys i bawb yn myned o'u blaen hwynt i farn; a rhai drachefn sydd yn canlyn ar ol dynion." Cyfeirir yma at ddau fath o bechodau: sef, pechodau 'hysbys i bawb' (felly y dylid cyfeithu y Groeg am "amlwg o'r blaen;" cyfeithir ef, yn *Heb.* vii. 14, yn "hysbys;" yn llythyrenol, 'o flaen y llygaid;' hyny yw, yn hysbys i bawb), y rhai a eglurir yn mhellach fel "yn myned o'u blaen hwynt i farn;" a'r pechodau sydd yn canlyn ar ol dynion, sef, heb fyned o'u blaen hwynt, gan eu cyhuddo yn gyhoeddus, ond yn guddiedig hyd nes y deuant i'r farn. Felly dangosir yn *adn.* 25 fod dau fath o "weithredoedd da;" gweithredoedd hysbys i bawb, "a'r rhai sydd amgenach;" hyny yw, heb fod yn hysbys i bawb. "Nis gellir cuddio" y naill na'r llall; y mae y math cyntaf, yn achos y duwiol a'r annuwiol, yn hysbys eisoes: nid ydyw y math olaf, yn achos y naill na'r llall, yn hysbys yn awr, ond gwneir hwynt yn hysbys yn nydd y farn. *Yn amlwg o'r blaen, yn rhagflaenu i farn*:—fel rhagredegwyr: pechodau gwaeddfawr, y rhai sydd yn cyhuddo y personau a'u cyflawnasant. Ymddengys mai y cyssylltiad ydyw hyn:—Yr oedd efe wedi gorchymyn i Timotheus, *adn.* 20, "Y rhai sydd yn pechu, cerydda yn ngŵydd pawb:" ac yn *adn.* 22, "Na fydd gyfranog o bechodau rhai ereill," trwy ordeinio dynion annuwiol: wedi iddo y pryd hwnw trwy gilio oddi wrth ei bwngc yn y frawddeg, "cadw dy hun yn bur," rybuddio Timotheus i beidio coleddu y syniad cyfeiliornus fod purdeb yn gynnwysedig mewn meudwyaeth; ac wedi ei annog i yfed "ychydig win" er ei gryfhau yn ei waith, y mae yn dychwelyd at bwngc ei swydd fel arolygwr, gan ei annog ef i'w chyflawni yn wrol a ffyddlawn, trwy geryddu pechod, pa un bynag ai yn yr henuriaid, ynte yn y bobl, a gwylio rhag bod yn gyfranog o bechodau pobl ereill, trwy ordeinio ymgeiswyr annuwiol. Efe a ddywed, gan hyny, fod dau fath o "bechodau," fel y mae dau fath o "weithredoedd da;" sef, "rhai hysbys i bawb, a rhai heb fod felly." Y blaenaf ydyw y rhai y dylit ti weithredu yn benderfynol ar unwaith pan elwir arnat, pa un bynag ai i geryddu yn gyffredinol, neu i ordeinio gweinidogion yn neilluol. Gyda golwg ar achos yr olaf, y farn ddiweddaf yn unig a all ei benderfynu; pa mor guddiedig bynag ydynt yn awr, "nis gellir eu cuddio" y pryd hwnw. Nis gellir dyweyd hyn ond yn unig am y farn (1 *Cor.* iv. 5); gan hyny, rhaid fod tyb Alford, mai at farn Timotheus yn dewis henuriaid, y cyfeirir yn yr adnod hon, yn gyfeiliornus, o blegid y mae pob barn cyn y pryd hwnw yn ffaeledig. Fel hyn y mae yn rhoddi ar ddeall na byddai Timotheus yn gyfrifol ond yn unig am y pechodau amlwg neu hysbys a oddefid ganddo; nid am y diangai "y rhai sydd amgenach" rhag barn Duw yn y diwedd: yn union fel yn achos gweithredoedd da, nis gallai efe fod yn gyfrifol ond yn unig am gymmeryd i ystyriaeth yn ei ddedfrydiadau y gweithredoedd da sydd yn hysbys i bawb, ac nid gweithredoedd da dirgelaidd, y rhai, er hyny, ni byddant yn guddiedig yn y farn olaf.

Pennod VI.

1. *Gwasanaethwyr*:—y rhai oeddynt dan iau fel caethweision: *Titus* ii. 9. Yr oedd angen neilluol am annogaeth o'r natur yma ar y pryd, gan fod perygl i gaethweision Cristionogol goledd dirgel syniad eu bod uwch law i'w meistriaid paganaidd; ac o dan ddylanwad y syniad hwnw fyned i'w diystyru, a thrwy hyny roddi achos i'r gelynion i gablu crefydd. *Eu meistriaid eu hun.*—Defnyddir "eu hun" yma fel cymmhelliad i ymostyngiad; nid 'dyeithriaid,' ond "eu meistriaid eu hun" y gofynir iddynt eu parchu. *Pob anrhydedd*:—pob anrhydedd ag sydd yn bossibl ac yn deilwng: nid ymostyngiad allanol yn unig, ond yr anrhydedd tufewnol hwnw, o'r hwn y mae ymddygiad allanol iawn yn tarddu yn naturiol. Gwel y sylw ar *Eph.* v. 22. *Fel na chabler enw Duw*:—*h.y.*, fel na ddiystyrer cymeriad y Duw a addolid ganddynt, o herwydd eu hymddygiad diystyrllyd hwy at eu meistriaid. Tueddid meistriaid paganaidd i ddyweyd, 'Pa fath Dduw y rhaid fod Duw y Cristionogion, pan y mae ei addoliad yn cynnyrchu y fath ffrwythau!' *Rhuf.* ii. 24; *Titus* ii. 5, 10. Ar hyn sylwa Chrysostom:—"Os gwel yr anghredadyn fod ei gaethweision yn ymddwyn yn sarhaus o herwydd

eu meistriaid eu hun yn deilwng
[a] Neh. 9. 5; Esa. 52. 5; Ezec. 36. 20. o bob anrhydedd; [a] fel na chabler enw Duw, a'i athrawiaeth *ef*.
[b] Col. 4. 1. 2 A'r rhai sydd â [b] meistriaid ganddynt yn credu, na ddiystyrant *hwynt*, o herwydd eu bod yn frodyr; eithr yn hytrach gwasanaethant *hwynt*, [c] am eu bod yn credu, ac yn anwyl, yn gyfranogion o'r lleshâd. [d] Y pethau hyn dysg, a chynghora.
[c] Eph. 1. 1, 15.
[d] Titus 2. 1, 15; 3. 8.
3 Od oes neb yn dysgu yn amgenach, ac heb gyttuno âg iachus [e] eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, [f] ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb;
[e] Mat. 22 21. [f] Titus 1. 1; 2 Pedr i. 3—7.
4 Chwyddo y mae, heb wybod dim, eithr ammhwyllo ynghylch cwestiynau, ac ymryson ynghylch geiriau; [g] o'r rhai y mae cenfigen, ymryson, cableddau, drwg-dybiau, yn dyfod.
[g] Act. 15. 2; 1 Cor. 3. 3; Gal. 5. 15, 20, 21, 25.
5 Cyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwir-

eu bod yn Gristionogion, tueddir ef i gablu athrawiaeth yr efengyl fel un sydd yn cynnyrchu anufudd-dod; ond os gwel efe hwy yn ymddwyn yn ostyngedig ac yn ufudd, bydd yn hawddach i'w berswadio, ac fe dâl fwy o sylw i'r hyn a ddywedir gan y rhai a bregethant Grist." Y mae yn amlwg nad ydyw yr adnod hon i'w chymmhwyso ond yn unig at gaethweision oedd yn meddu meistriaid anghrediniol. Cadarnheir hyn, nid gan unrhyw gyferbyniad ffurfiol mewn geiriau, ond gan y rheswm a roddir yma, a chan y cyferbyniad yn yr adnod nesaf. Y rheswm dros absennoldeb y cyfryw gyferbyniad ydyw, fod yr adnod hon yn cynnwys annogaeth gyffredinol, gan mai yr amgylchiad mwyaf cyffredin o lawer oedd caethweision Cristionogol dan feistriaid anghrediniol. Traethir ar yr eithriad yn yr adnod nesaf.

2. *A.*—Yn hytrach, 'ond.' Gwneir cyferbyniad yma rhwng caethweision Cristionogol o dan feistriaid paganaidd, "a'r rhai sydd â meistriaid ganddynt yn credu." Nid ydyw yn arfer yr ymadrodd "dan yr iau" yn yr amgylchiad olaf; canys nid "iau" ydyw gwasanaeth o dan grediniwyr. Cyssyllter y geiriau canlynol fel hyn: —"Na ddiystyrant [y caethweision] hwynt [y meistriaid], o herwydd eu bod [y meistriaid] yn frodyr" [ac felly yn gydradd, gan fod y meistriaid a'r caethweision fel eu gilydd yn Gristionogion]. *Eithr yn hytrach*, &c. —Ond yn fwy fyth [o gymmaint a hyny yn fwy; gyda mwy o ewyllys da] gwasanaethant hwynt. "O herwydd," yn ol cyfieithiad Alford, "y rhai [y meistriaid] a dderbyniant [yn y cyflawniad o'u dyledswyddau at eu gilydd fel meistriaid a gweision] y lleshâd." Y mae y frawddeg olaf hon yn gyferbyniol i "o herwydd eu bod yn frodyr;" yr hyn sydd yn profi fod "y rhai" yn cyfeirio at y meistriaid, ac nid at y gweision, fel y mae Tittmann yn ei gymmeryd, gan egluro y ferf yn yr ystyr cyffredin (*Luc* i. 54; *Act.* xx. 35) —'Y rhai a lafuriant yn ddiwyd er lleshâd eu meistriaid.' Y mae y gair "lleshâd" yn cynnwys awgrymiad cynnil fod y gwasanaeth wedi ei gyflawni oddi ar egwyddor dda, "ewyllys da" Cristionogol: *Eph.* vi. 7. Os cymmerir ystyr cyffredin y ferf Roeg, rhaid mai y meddwl yw, 'O herwydd eu bod hwy (y meistriaid) yn ffyddlawn ac yn anwyl, y rhai sydd yn ymdrechu yn ddiwyd i wneyd lles i'w gweision.' Ond y mae Porphyry yn cymmeradwyo yr ystyr a roddwyd uchod i'r ferf Roeg, yr hwn sydd hefyd yn cyttuno yn well â'r cyd-destyn; canys fel arall, ni byddid dim yn y geiriau blaenorol i egluro y fannod, "y lleshâd," tra, yn ol yr eglurhâd a roddwyd uchod, y lleshâd yw lleshâ'l gwasanaeth y gweision. *Y pethau hyn*:—y pethau a enwyd yn yr adnod gyntaf gyda golwg ar gaethweision.

3. *Dysgu yn amgenach*:—nag yr wyf fi yn dymuno i ti "ddysgu;" *adn.* 2. Y mae y Groeg yn rhoddi ar ddeall nad crybwyll am achos tybiedig yn unig y mae yr apostol, ond achos oedd mewn bod yn weithredol y pryd hwnw (*pen.* i. 3), "Pob un sydd yn dysgu yn amgenach;" *h.y.*, yn dysgu unrhyw gyfeiliornad. *Iachus* (*pen.* i. 10):—mewn cyferbyniad i'r athrawiaeth gyfeiliornus a niweidiol a ddysgid gan y gau-athrawon. *Geiriau ein Harglwydd Iesu Grist.*—Y mae geiriau ysbrydoledig Paul nid yn unig yn eiriau iddo ef, ond hefyd yn eiriau Crist.

4. *Chwyddo y mae.*—Yn llythyrenol, 'wedi ei orchuddio â mwg;' wedi ei lenwi gan hunanolrwydd (*pen.* iii. 6), tra "heb wybod dim;" sef, am yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb (*adn.* 3), er eu bod yn hôni eu bod yn meddu gwybodaeth eang: *pen.* i. 7. *Ammhwyllo ynghylch.*—Yn llythyrenol, 'yn afiach ynghylch;' y gwrthwyneb i "iachus;" *adn.* 3. "Y maent yn glaf o ammhwyll neu ynfydrwydd ysbrydol; y mae yr afiechyd yn ymddangos yn eu gwaith yn ymbleseru mewn ymddadleu ynghylch pethau dibwys, yn lle ymborthi ar sylwedd yr efengyl. Math o orphwylliad ysbrydol ydyw, yn tarddu oddi wrth ymchwydd y meddwl." — *Charles.* Nid gwirionedd ydyw y canolbwynt o amgylch yr hwn y mae eu hymchwiliadau yn troi, ond ymrysonau noeth ynghylch geiriau. *Cwestiynau*:—o ddadl. *Ymryson ynghylch geiriau*:—yn hytrach nag ynghylch sylweddau: 2 *Tim.* ii. 14. Y pethau niweidiol hyn oedd eu hymborth, yn lle "duwioldeb" a "geiriau iachus;" *adn.* 3; *pen.* i. 4; *Titus* iii. 9. *Drwg-dybiau*:—ynghylch y rhai sydd yn perthyn i blaid wahanol iddynt hwy.

5. *Cyndyn ddadleu.* — Dadleuon difudd. Y mae y llaw-ysgrifau hynaf yn darlien, "dadleuon parhaus"—[*Wiesinger*]: "Gwrthdarawiadau dibaid."—*Alford. Llygredig eu meddwl.*—Groeg: 'dynion o feddwl llygredig.' Ffynonell wreiddiol y drwg ydyw llygredigaeth y meddwl: *adn.* 4; 2 *Tim.* iii. 8; *Titus* i. 15. *Heb fod y gwirionedd ganddynt* (*Titus* i. 14).—Yr cedd y gwirionedd ganddynt; ond o herwydd diffyg cywirdeb moesol, a chariad at y gwirionedd, camarweinid hwynt gan y wybodaeth ddyfnach a'r sancteiddrwydd meudwyol uwch a hônid ganddynt, o'r hyn y gwnaent fasnach. *Yn tybied*, &c.:—*h.y.*, yn tybied mai moddion ydyw duwioldeb i chwanegu elw bydol dyn. Edrychent arni fel 'galwedigaeth ennillgar;' ac am hyny, nid oeddynt yn dysgu boddlonrwydd, ac ymostyngiad i ragluniaeth Duw, fel yn *adn.* 6; ond yn ymdrechu i wneuthur dynion yn anfoddlawn, ac yn eu perswadio hwynt i ddefnyddio crefydd fel moddion i wellhau eu hamgylchiadau bydol.

ionedd ganddynt; yn tybied mai elw yw duwioldeb: cilia oddi
[a] Rhuf. 5. 3—5; 2 Cor. 4. 17, 18; Phil. 1. 21.
[b] wrth y cyfryw.
6 Ond [b] elw mawr yw duwioldeb gyda boddlonrwydd.
[1] Preg. 5. 15, 16.
7 Canys [1] ni ddygasom ni ddim i'r byd, *ac* [k] eglur *yw* na allwn
[k] Salm 49. 17; Luc 16. 22, 23.
ddwyn dim allan chwaith.
8 Ac o bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny.
9 Ond y rhai *sydd* yn ewyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth.
10 Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch: yr hon, a rhai [l] yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, [l] ac
[l] Gen. 19.14, 26, 31, &c.; 2 Bren. 5. 27.
dillad. "Pan y mae yn crybwyll 'ymborth a dillad,' y mae yn cau allan foethau a gorddigonedd; canys y mae natur yn foddlawn ar ychydig, ac y mae pob peth sydd dros ben diwallu angen natur yn afreidiol."—*Calvin. Ymfoddlonwn ar hyny.*—Yn llythyrenol, 'bydd genym ddigon.'

9. *Ond.*—Y mae yr apostol yma yn cyferbynu personau o gymmeriad gwrthwyneb i'r hyn a gynnwysir yn yr adnod o'r blaen. *Ewyllysio.*—Nid yn unig yn caru ymgyfoethogi, ond hefyd yn teimlo awydd mor gryf am gyfoeth, nes y maent yn benderfynol o fynu ei gael trwy bob rhwystrau: *Diar.* xxviii. 20, 22. Yr "ewyllysio," yma (nid y cyfoeth ei hun) sydd yn ddinystr i "foddlonrwydd:" *adn.* 6. Ni orchymynir i'r cyfoethogion dafiu eu cyfoeth ymaith, ond peidio "ymddiried" ynddo, a "gwneuthur daioni:" *adn.* 17. 18; *Salm.* lxii. 10. "Nid y rhai sydd yn gyfoethog yn unig a ddywedir, ond y rhai sydd yn 'ewyllysio ymgyfoethogi;' canys gall dyn feddu cyfoeth, a gwneuthur iawn ddefnydd o hono, ac ymgodi yn mhell uwch law iddo," —*Chrysostom. Ymgyfoethogi:*—cael mwy nag ymborth a dillad. *Sydd yn syrthio i brofedigaeth.* — Nid yn unig "y maent yn agored i brofedigaeth," ond "yn syrthio" yn weithredol iddi. Rhag "syrthio" iddi y dylem weddio. "Nac arwain ni i brofedigaeth;" *Iago* i. 14. Y mae y cyfryw un eisoes mewn sefyllfa bechadurus, hyd yn oed cyn cyflawni un weithred bechadurus amlwg. Y mae yr ymadrodd "syrthio i" yn golygu eu bod, trwy yr "ewyllysio," eisoes wedi rhoddi eu hunain yn ngafael, neu dan awdurdod, y demtasiwn. *Magl.*—Cam pellach tuag i lawr: *pen.* iii. 7. Y mae yn syrthio i "fagl diafol." Wedi ei faglu gan y demtasiwn o ymgyfoethogi, megys gan rwyd.: *Chwantau.*—Gyda'r un chwant drwg hwn, yr "ewyllysio ymgyfoethogi," y mae llawer ereill yn nglŷn: yr un chwant hwn yw "gwreiddyn pob drwg;" *adn.* 10. *Boddi.*—Dyma y canlyniad arswydus o "syrthio i;" hwn ydyw y cam olaf yn y disgyniad arswydus: *Iago* i. 15. Yn *Luc* v. 7, cyfieithir ef yn "soddi." *Ynfyd*:—afresymol. *Niweidiol*:—i'r rhai a syrthiant i'r fagl. Cymmharer *Eph.* iv. 22. "Chwantau twyllodrus," y rhai sydd, drwy eu twyll, yn gwneuthur niwed annhraethol i'r rhai sydd dan eu llywodraeth. *Dinystr.....colledigaeth.*—"Dinystr" yn gyffredinol, tymmorol neu dragwyddol; a "colledigaeth" yn neilldiol, sef colledigaeth corph ac enaid yn uffern.

10. *Ariangarwch.*—Nid yr arian eu hunain, ond cariad at arian—yr "ewyllysio ymgyfoethogi" (*adn.* 9)—"sydd yn wreiddyn (nid fel yn y Gymraeg, "yw gwreiddyn") pob drygau. Felly y mae y lliosog yn y Groeg. Nid "ariangarwch" ydyw unig wreiddyn drygau, ond y mae yn un o brif "wreiddiau chwerwedd" (*Heb.* xii. 15); canys y mae yn dinystrio ffydd, gwreiddyn pob

Ymddengys nad oedd gan y gau-athrawon byn un amcan uwch yn eu haddysg, na thynu arian oddi wrth eu dysgyblion; a gwarient yr arian a dderbynient i gyflawni eu chwantau cnawdol. O herwydd hyn, dywed Paul mai eu bol oedd eu duw: *Phil.* iii. 19.

6. *Ond.*—Er eu bod yn cyfeiliorni yn hyn, y mae ystyr yn yr 'hwn y mae duwioldeb nid yn unig yn "elw," ond yn foddion i ennill "elw mawr." Nid yr elw y ceisient hwy ei ennill, a'r hwn sydd yn gwneyd dynion yn anfoddlawn i'w sefyllfa bresennol, ac yn peri iddynt ddefnyddio crefydd fel "cochl cybydd-dod" (1 *Thes.* ii. 5), a moddion i chwanegu eu helw daearol; ond elw presennol a thragwyddol, mewn cyssylltiad â'r hwn y mae boddlonrwydd, y mae duwioldeb yn ei ddiogelu i'r enaid. Sylwa Wiesinger, fod Paul yn canfod tuedd yn Timotheus i ddiogi, ac i gilio o'r ymdrechfa; ac am hyny teimlai fod eisieu ei rybuddio ef yn erbyn y cyfryw demtasiwn. Cymmharer hefyd yr Ail Epistol. Nid yn unig y mae "boddlonrwydd" yn elw mawr (syniad sydd gan Cicero, "y cyfoeth mwyaf a sicraf"), ond "duwioldeb gyda boddlonrwydd:" canys nid yn unig nid ydyw duwioldeb yn teimlo angen am yr hyn nid oes ganddi, ond hefyd y mae ganddi yr hyn sydd yn ei dyrchafu uwch law yr hyn nid oes ganddi. Cyfieithir y gair Groeg am "foddlonrwydd" yn "ddigonoldeb;" 2 *Cor.* ix. 8; ond cyfieithir yr ansoddair (*Phil.* iv. 11), "boddlawn," — "a chanddo ddigonoldeb ynddo ei hun," yn annibynol ar ereill. "Y mae yr Arglwydd bob amser yn rhoddi i'w bobl yr hyn fydd yn eisieu arnynt. Y mae gwir ddedwyddwch yn gynnwysedig mewn duwioldeb; ond y mae y 'digonoldeb' hwn (a roddir gan Ddduw, ac â'r hwn y mae ei bobl yn 'foddlawn') yn cael ei dafiu i'r glorian fel peth dros ben pwysau.'—*Calvin.* 1 *Bren.* xvii. 1—16; *Salm* xxxvii. 19; *Esa* xxxiii. 16; *Ier.* xxxvii. 21.

7. *Canys.*—Defnyddir y gair hwn yma i ddangos rhesymoldeb "boddlonrwydd." *Ac eglur yw.*—Cefnogir y darlleniad hwn gan y *Vulgate*, a hen gyfieithiadau ereill. Modd bynag, nid ydyw "ac eglur yw" yn y llaw-ysgrifau hynaf: yna y cyfieithiad fydd, "Ni ddygasom ni ddim i'r byd, (i'n dysgu i gofio) na allwn ddwyn dim allan chwaith;" *Iob* i. 21; *Preg.* v. 15. Gan hyny, ni ddylem fod yn or-awyddus am gyfoeth daearol, yr hyn ydyw gwreiddyn anfoddlonrwydd: *Mat.* vi. 25.

8. *Ac.*—Groeg: 'ond.' Mewn cyferbyniad i'r rhai oedd yn awyddus: *adn.* 5. *O bydd genym*:—tra y bydd genym ymborth. Yn ol y Groeg: 'digon o ymborth i ddiwallu ein hanghenion beunyddiol.' Rhoddir ar ddeall fod y credinwyr yn sicr o gael hyn: *Esa.* xxxiii. 16. *Dillad.*—Groeg: 'gorchudd;' yn ol rhai, mae yn cynnwys tô uwch ein pen; *h.y*, tŷ, yn gystal a

a'u gwanasant eu hunain â llawer o ofidiau.

[a] Deut. 33. 1.
[b] 1 Cor. 6 18; 10. 14;
[c] 2 Tim 2. 22.
[d] Titus 2. 11, 12.

11 Eithr tydi, [m]gŵr Duw, [n]gochel y pethau hyn; a dilyn [o]gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwyndra.

[m] 1 Cor. 9. 25; Eph. 6. 10.
[n] Salm 63. 8; Diar. 3. 18.
[o] Rhuf. 8. 28; 2 Tim. 1. 9.

12 [p]Ymdrecha hardd deg ymdrech y ffydd; [q]cymmer afael ar y bywyd tragwyddol; [r]i'r hwn hefyd y'th alwyd ac [s]y proffesaist broffes dda ger bron llawer o dystion.

[p] 1 Cor. 9. 25; Eph. 6. 10.
[q] Salm 63. 8; Diar. 3. 18.
[r] Rhuf. 8. 28; 2 Tim. 1. 9.
[s] Esa. 44. 5; Luc 12. 8, 9; Rhuf. 10.

peth sydd dda; ei ganghenau ydyw "profedigaeth, magl, chwantau, dinystr, colledigaeth." Y mae Paul, yn ei lythyr at yr Hebreaid, *pen.* xiii. 5, yn gosod ariangarwch allan fel anfoddlonrwydd dyn i'r sefyllfa y byddo rhagluniaeth wedi ei osod ef ynddi; ac y mae, oddi wrth hyny, yn eu hannog i beidio dymuno yr hyn nad yw Duw wedi ei roddi iddynt, a pheidio chwennych dim a roddodd i arall, gan mai hyny ydyw gwir ysbryd anonestrwydd. Y mae yn cynnwys gofal rhy bryderus ynghylch pethau y bywyd hwn, ymdrech anghymmedrol er eu cyrhaedd, arferiad o foddion annhêg ac annheilwng er eu meddiannu, ynghyd â gafael rhy awchus ynddynt wedi eu cael, a chyndynrwydd gormodol rhag ymadael â hwy wedi unwaith eu trysori ynghyd. Y mae y neb y delo ei galon dan lywodraeth y pechod hwn yn sicr o ddyfod yn gaethwas iddo. Y mae efe, drwy hudoliaeth golud, yn twyllo ei galon ei hun. Y mae yn ymddangos iddo ef yn ngwisg rhinwedd; ac o blegid prydferthwch yr olwg sydd arno, y mae yn ei amddiffyn, ac felly yn cau allan bob argyhoeddiad. Nid ydyw yn gallu edrych arno yn ei wir agwedd ddrygionus ei hun, fel y mae yn anghyfiawn, yn anghariad, yn greulawn, yn anniolchgar, ac yn annefnyddiol a dilês. *Chwannog iddi:—h.y.*, yn dra thueddol i "ariangarwch." A beirniadu yn fanwl, y mae y dull hwn o lefaru yn anghywir; canys y mae "ariangarwch" yndd o ei hun yn chwant nas gellir yn briodol ddyweyd fod dynion yn chwannog iddo, ond i'w wrthddrych, sef arian. Modd bynag, ceir anghywirdeb o'r fath yn fynych mewn iaith, ac y mae genym esampl o hono yn ngeiriau Paul mewn lleoedd ereill. Er enghraifft: "Y gobaith a welir;" *Rhuf.* viii. 24. Gwel hefyd *Act.* xxiv. 15. *A gyfeiliornasant oddi wrth.*—Yn llythyrenol, 'A ddenwyd i gyfeilliorni oddi wrth y ffydd;' *pen.* i. 19. *A'u gwanasant.*—Defnyddir y gair "gwanu" i osod allan y niath llymaf o ddioddefiadau. Yr oedd "gwanu" yn rhan o ddioddefiadau Crist: "Edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant;" *Luc* ii. 35; *Zech.* xii. 10; *Dad.* i. 7. *A llawer o ofidiau:*—"poenau;" "drain" y ddammeg (*Mat.* xiii. 22), y rhai sydd yn tagu gair y "ffydd." "Llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha;" *Diar.* i. 32. Barna Bengel a Wiesinger mai wrth y "gofidiau" hyn y meddylir cnofeydd cydwybod yn cynnyrchu gofid o achos cyfoeth a gafwyd yn anonest:—rhagredegwyr colledigaeth dragwyddol: *adn.* 9. Esmwythder a hawddfyd y mae dynion yn eu golygu wrth geisio golud; ond twyll cyfoeth yw hyn. Y mae y rhai sydd yn chwannog iddi yn sicr o gael eu siomi; ac yn lle esmwythder, cânt lawer o ofidiau.

11. *Eithr tydi:*—mewn cyferbyniad i'r "rhai" yn *adn.* 10. *Gŵr Duw:*—yr hwn wyt yn meddu Duw fel dy wir gyfoeth: *Gen.* xv. 1; *Salm* xvi. 5; *Galar.* iii. 24. Cymmhwysir yr enw yn gyntaf at Timotheus fel gweinidog (cymmh. 2 *Pedr* i. 21), yn union fel y defnyddid yr enw am Moses (*Deut.* xxxiii. 1); Samuel (i *Sam.* ix. 6); Elias ac Eliseus. Ond gan fod yr annogaeth yn dal perthynas â dyledswyddau sydd yn orphwysedig hefyd ar bob Cristion, gellir cymmhwyso yr enw mewn ystyr ailraddol ato ef (felly y gwneir yn 2 *Tim.* iii. 17) fel dyn duwiol, wedi ei "eni o Dduw" (*Iago* i. 18: 1 *Ioan* v. 1)—heb fod mwyach yn ddyn bydol, eithr wedi ei godi uwch law pethau daearol; ac am hyny, yn eiddo Duw, nid ei eiddo ei hun, wedi ei brynu â gwerth, ac felly wedi rhoddi i fyny bob hawl ynddo ei hun. Gwaith Crist sydd i fod yn waith mawr gandde; y mae i fod yn gynnrychiolydd byw i Grist. *Gochel y pethau hyn:*—sef, "ariangarwch," yn nghyd â'i holl ffrwythau drwg: *adn.* 9, 10. *Dilyn gyfiawnder:*—tuag at dy gyd-ddynion: 2 *Tim.* ii. 22. *Duwioldeb:*—tuag at Dduw; *h.y.*, cyflawnaa dy holl ddyledswyddau at Dduw yn fanwl. *Ffydd:*—yr hon yw gwreiddyn y naill a'r llall. Gwel y sylw ar *Titus* ii. 12. *Cariad:*—trwy yr hwn y mae "ffydd yn gweithio;" *Gal.* v. 6. *Amynedd.*—Arfera yr ysgrifenwyr sanctaidd ddau air i osod allan y dymmher neu yr agweddiad meddwl grasol hwn, sef *macrothumia*—"hirfrydedd," yr hwn a gyfeithir weithiau yn "amynedd," fel yn *Heb.* xii. 1; ac weithiau yn "hirymaros," fel yn *Rhuf.* ii. 4; ix. 22; 2 *Cor.* vi. 6. Y gair arall, a'r hwn a arferir fynychaf am amynedd, ydyw *upomoni*—goddef dan, ymaros yn dawel, yn ddirwgnach, dan amgylchiadau profedigaethus a gofidus, heb gythruddo, anfoddloni, achwyn, ac ymwylltio. Y mae felly yn arwyddo hunan-feddiant, hunan-lywodraeth; y meddwl, a'i dymmher yn mhob amgylchiad. "Yn eich amynedd meddiennwch eich eneidiau;" *Luc* xxi. 19. *Addfwyndra:*—tuag at wrthwynebwyr yr efengyl. Y mae bron o'r un ystyr ag amynedd; y gwahaniaeth rhyngddynt, fe ddichon, yw hyn: —dynoda "amynedd" dymmher y dioddefydd gyda golwg ar ei gystudd, ond "addfwyndra" ei dymmher gyda golwg ar y rhai a'i cystuddia.

12. *Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd.*—Tybir fod yma gyfeiriad at y campau cenhedlaethol yn Ngwlad Groeg, y rhai a gynnelid ar amserau pennodol; ac mai y rheswm dros y cyfeiriad hwn atynt ydyw, fod yr epistol wedi ei ysgrifenu o Corinth: 2 *Tim.* iv. 7; 1 *Cor.* ix. 24; *Phil.* iii. 12. Cyferbynier yr "ymryson ynghylch geiriau;" *adn.* 4. Cymmh. *pen.* i. 18; 2 *Tim.* iv. 7. Y mae y "broffes dda" yn gyfystyllteidig â "hardd-deg ymdrech y ffydd:" *Salm* lx. 4. "Priodolir y gair 'ymdrech' yn aml i lafur, dioddefiadau, a gorchestwaith yr apostolion a'r Cristionogion, yn mhlaid y ffydd, i daenu yr efengyl, a'i chadw yn bur; yn erbyn gelynion allanol, cryflon, ac erledigaethus; ac yn erbyn gau-athrawon tufewnol, cynnhenus, ac ymrysongar."—*Charles* *Cymmer afael yn y bywyd tragwyddol:*—y goron, neu wobr y fuddugoliaeth, yr ymeflid ynddi gan yr ennillwr yn yr "hardddeg ymdrech:" 2 *Tim.* iv. 7, 8; *Phil.* iii, 1:—14. "Ymdrecha" mor egniol a difrifol fel az i gymmeryd gafael ar y wobr, "bywyd tragwyddol." *Hefyd.*—Nid ydyw y gair hwn yn y llaw-ysgrifau hynaf. *Proffesaist broffes dda.*—Groeg: 'proffesaist *y* broffes dda;" sef, y broffes Gristionogol

[a] 1 Tim. 5. 24. [b] Deut. 32. 29.

13 [c] Yr ydwyf yn gorchymyn i ti ger bron Duw, [d] yr hwn sydd yn bywhau pob peth, a *cher bron* Crist Iesu, yr hwn dan Pontius Pilat a dystiodd broffes dda;

14 Gadw o honot y gorchymyn *hwn* yn ddifeius, yn ddiargy- [e] 1 Cor. 1. 8. hoedd, [f] hyd ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist:

[g] 1 Tim. 1. 11, 17. 15 Yr hwn yn ei amserau priod a ddengys [h] y bendigedig a'r unig Benaeth, [i] Brenin y brenhinoedd, [k] Diar. 8. 15. ac Arglwydd yr arglwyddi;

16 Yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb, [l] *sydd* yn trigo [m] Salm 104. 2. yn y goleuni ni ellir dyfod ato, yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled: i'r hwn *y byddo* anrhydedd a gallu tragwyddol. Amen.

17 Gorchymyn i'r rhai sydd oludog yn y byd yma, na byddont

(gan mai yr un gair Groeg a arferir yn yr adnod hon ag a arferir am "broffes" yn *adn.* 13, y mae yn debygol mai y broffes yma ydyw y gyffes mai teyrnas Crist ydyw teyrnas y gwirionedd: *Ioan* xviii. 36, 37)—pan y neilluwyd di i'r swydd weinidogaethol, pa un bynag ai yn gyffredinol, ynte fel arolygwr yn Ephesus. Yr un achlysur yw hwn ag y cyfeirir ato yn *pen.* i. 18; a iv. 14; 2 *Tim.* i. 4. *Ger bron llawer o dystion*:—y rhai a dystient yn dy erbyn di pe y syrthiet ymaith.

13. *Bywhau pob peth.*—Ond y mae y llawysgrifau hynaf yn darllen, 'Cadw pob peth yn fyw;' fel y mae yr un gair Groeg yn arwyddo yn *Act.* vii. 19. Cym. *Neh.* ix. 6. Y mae yr apostol yma yn defnyddio yr amlygiad presennol o allu Duw yn cynnal pob peth fel cymmhelliad i Timotheus i fod yn ffyddlawn, fel y mae yn *adn.* 14 yn defnyddio yr amlygiad dyfodol o'i allu yn ymddangosiad Crist. Y mae y sicrwydd yr ennillir "bywyd tragwyddol" trwy "hardd-deg ymdrech" yn gorphwys ar allu yr hwn sydd yn awdwr pob bywyd, presennol a dyfodol. *A dystiodd.*—Gwaith Crist oedd "tystio," a gwaith Timotheus oedd "proffesu y broffes dda:" *adn.* 12. Y broffes oedd ei dystiolaeth ei fod ef yn Frenin, ac mai teyrnas y gwirionedd oedd ei deyrnas ef: *adn.* 15. Gwel y sylw ar *adn.* 12; *Mat.* xxvii. 11. Yr oedd Crist, wrth dystio y gwirionedd hwn, yn tystio gwirionedd Cristionogaeth oll. Gan hyny, cynnwysai "proffes" Timotheus yr holl wirionedd Cristionogol.

14. *Y gorchymyn hwn.*—Nid oes yma un cyfeiriad at unrhyw orchymyn pennodol a roddwyd uchod; ond y mae yn cynnwys crynodeb cyffredinol o holl reolau yr efengyl, â'r rhai y dylem ni gydffurfio yn dufewnol ac yn allanol—mewn meddwl ac ymddygiad. Arferir y gair yn yr un ystyr yn *pen.* i. 5. Gwel hefyd *Ioan* xiii. 34; 2 *Pedr* ii. 21; a iii 2. *Yn ddifeius, yn ddiargyhoedd*:—yn cyttuno â Timotheus, ac nid â'r "gorchymyn," fel y tybia Alford. Cadw "y gorchymyn," ac felly byddi yn "ddifeius ac yn ddiargyhoedd." Ar "difeius," gwel y sylwadau ar *pen.* v. 22; *Eph.* v. 27; *Iago* i. 27; 2 *Pedr* iii. 14. *Hyd ymddangosiad.....Crist.*—Ei ddyfodiad yn bersonol: 2 *Thes.* ii. 8; *Titus* ii. 13. Arferai credinwyr y pryd hwnw osod ger bron eu hunain ddydd yr Arglwydd fel ger llaw; yn debyg fel yr ydym ni yn gosod angeu. Yr oedd Cristionogion yn mhob oes yn credu y byddai i'r Arglwydd Iesu ymddangos; ond yr oedd amser ei ymddangosiad mor ansicr i Paul ag ydyw i ni: o herwydd hyn, dywed yn *adn.* 15, "Yn yr amseroedd priod;" *Act.* i. 7. Y mae y lliosog yn cynnwys graddau olynol yn yr amlygiad o deyrnas Dduw—pob un yn meddu ei amser priodol ei hun, am yr hwn nis gŵyr neb ond y Tad: *pen.* ii. 6; 2 *Tim.* i. 9; *Titus* i. 3; *Heb.* i. 1.

15. *A ddengys.*—Ymadrodd hynod o briodol i ddynodi ei "ymddangosiad," gan ei fod yn gryfach na "dyfodiad," ac yn cynnwys ei fod yn cael ei wneyd yn weledig. Cymmh. *pen.* iii. 20. Yr hwn a'i dengys yw y Tad: *adn.* 16. *Bendigedig*:—yndde ei hun, ac a fydd yn ffynnonell bendith i'w bobl yn ymddangosiad Crist: o'r hyn y mae eu "gobaith gwynfydedig" yn tarddu: *pen.* i. 11; *Titus* ii. 13. *Unig*:—*Ioan* xvii. 3; *Rhuf.* xvi. 27; *Dad.* xv. 4. *Brenin y brenhinoedd.*—Cymmhwysir yr enw mewn lleoedd ereill hefyd at yr Iesu: *Dad.* i. 5; a xvii. 14: a xix. 16.

16. *Yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb*:—yn ei natur ei hun, ac nid yn unig wrth ewyllys un arall, fel pob bodau anfarwol ereill. Megys ag y mae ganddo anfarwoldeb, felly efe a'i rhydd i'r credinwyr. Y mae enaid dyn yn anfarwol, nid ynddo ac o hono ei hun, ond trwy drefniad Duw: "Canys megys y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun:" *Ioan* v. 26. Y gair a arferir yn y Testament Newydd am "anfarwol" ydyw "anllygredig," yn 1 *Cor.* xv. 53, 54. *Trigo yn y goleuni, ni ellir dyfod ato.*—Ar ol "bywyd," crybwyllir am "oleuni," fel yn *Ioan* i. 4. Nis gall un creadur ddyfod at y goleuni hwnw, ond yn unig mor bell ag y caniateir iddynt ganddo ef. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at y gogoniant a'r disgleirdeb yn y sancteiddiolaf, lle yr oedd Iehofah yn trigo yn y cwmwl oddi ar y drugareddfa; ac nid oedd neb ond yr archoffeiriad, ac yntau ond unwaith yn y flwyddyn, i neshau ato: *Lef.* xvi. 2. Ni ellir nesau at y goleuni hwn, o herwydd mawredd ei ddisgleirdeb. Os nad all un syllu yn graff ar yr haul, yr hwn nid ydyw ond rhan fechan o'r greadigaeth, o herwydd mawredd ei wres a'i oleuni, pa faint llai y gall dyn marwol syllu ar ogoniant annhraethadwy Duw? *Salm* civ. 2 1 *Ioan* i. 5. *Yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled*:—*Ecsod.* xxxiii. 20; *Ioan* i. 18; *Col.* i. 15; *Heb.* xi. 27; 1 *Ioan* iv. 12. Hwyrach na chaiff un creadur, hyd yn oed mewn sefyllfa berffaith, weled Duw yn gyflawn; ac etto y mae yn amlwg y caiff y saint, mewn rhyw ystyr, y gwynfydedigrwydd o weled gogoniant Duw yn ymddisgleirio byth yn mherson y Cyfryngwr: *Mat.* v. 8; 1 *Cor.* xiii. 21; 1 *Ioan* iii. 2; *Dad.* xxii. 4. "Chwanegir yr ymadrodd hwn er mwyn rhoddi chwaneg o eglurhâd, fel y dysgo dynion edrych trwy ffydd ato ef, yr hwn nis gallant ei weled â'r llygaid corphorol, nac hyd yn oed gyda gallu oedd eu deall; canys yr wyf yn barnu fod yma gyfeiriad, nid yn unig at y llygaid corphorol, ond hefyd at gynneddfau yr enaid."—*Calvin.*

17. Nid math o attodiad i'r epistol, fel y tybia rhai, ydyw *adn.* 17—19. Nid ydyw fod mawl-

uchel feddwl, ac na obeithiont
[b] Ier. 17.7,8. [c] Mat. 6. 32. mewn golud anwadal, [b] ond yn y Duw byw, [c] yr hwn sydd yn helaeth yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhau :

18 Ar iddynt wneuthur daioni, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, fod yn hawdd ganddynt roddi *a* chyfranu ;

wers wedi ei dodi i mewn yma yn ddigon o sail i dybied fod yr apostol yn meddwl diweddu gyda hi. Cymmharer *pen.* i. 17. Yn hytrach, ail fyned yn mlaen y mae efe yma gyda'r mater y traethir arno yn *adn.* 5—10. Y mae yn cyferbynu anfarwoldeb Duw, yr hwn yn unig sydd yn gyfoethog o ogoniant, ac anfarwoldeb ei bobl, âg ariangarwch. Cymmharer *adn.* 14—16. Oddi wrth siarad am yr awydd i ymgyfoethogi, y mae yma yn pasio at y rhai sydd yn gyfoethog, gan ddangos yn 1. Beth a ddylai fod eu tueddfryd ; 2. Pa ddefnydd a ddylent ei wneyd o'u cyfoeth ; ac, yn 3. Y canlyniadau o'i ddefnyddio felly. *Goludog yn y byd yma* :—mewn cyferbyniad i'r cyfoeth a feddiennir ac a fwynheir gan y saint yn "ymddangosiad Crist ;" *adn.* 14. *Uchel feddwl.* —Y mae y gair gwreiddiol yma yn arwyddo un yn coleddu meddwl uchel am dano ei hun, nes diystyru ereill a fyddont mewn sefyllfa îs nag ef. Gwel *Rhuf.* xii. 16. Gan fod llawer o'r Cristiongion yn dlodion, y mae yn dra thebygol eu bod yn cael eu diystyru (fel y digwydd yn fynych) gan y cyfoethogion ; ac yn enwedig dichon fod hyn yn beth pur gyffredin yn Ephesus, yr hon oedd yn ddinas gyfoethog ; canys y mae balchder, y rhan amlaf, yn ffynu yn helaethach yn y cyfryw ddinasoedd. "Oddi wrth hyn gallwn gasglu mor beryglus ydyw cyfoeth mawr."—*Calvin. Na obeithiont.*—Groeg : 'Na fydded iddynt ymddiried yn.' *Golud anwadal.*—Yn hytrach fel y Groeg : 'Ansicrwydd cyfoeth.' Y mae y rhai a ymddiriedant yn eu cyfoeth yn ymddiried mewn "ansicrwydd" ei hun : *Diar.* xxiii. 5. "Yn awr y mae yn perthyn i un dyn, bryd arall i'r llall ; ac nid ydyw yr hwn sydd yn meddu llawer o feistriaid yn eiddo hollol i un o honynt."—*Theodoret. Duw byw.*—Y mae y llaw ysgrifau a'r cyfeithiadau goreu yn gadael allan "byw." "Y mae yr hwn sydd yn ymddiried mewn cyfoeth yn trosglwyddo iddo y ddyledswydd sydd yn ddyledus oddi wrtho i Dduw."—*Calvin. Yr hwn sydd yn helaeth yn rhoddi i ni bob peth* :—tymmorol ac ysbrydol—i'r corph ac i'r enaid. Amcan y frawddeg hon ydyw dangos cymmhwysder Duw fel gwrthddrych ymddiried. Nid yn unig ni bydd yr hwn a ymddiriedo ynddo ef, yn lle mewn cyfoeth daearol, yn golledwr drwy hyny, ond bydd yn ennillwr ; o blegid y mae efe yn rhoddi pob peth sydd yn eisieu arnom i'n gwneyd yn gysurus yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. *I'w mwynhau* :—*h.y.*, i'r dyben o'u defnyddio yn ol gosodiad Duw, i ddiwallu ein hanghenion ein hunain, ac i wneyd daioni i ereill ; ac y mae eu defnyddio yn y dull hwn yn wir fwynhâd.

18. *Ar iddynt wneuthur daioni* :—fel Duw ei hun (*Salm* cxix. 68 ; *Act.* xiv. 17), a Christ : *Act.* x. 38. Yn ol Conybeare, "arfer haelioni ;" ond yn ol cyfeithiad Tittmann, "ymddwyn yn dda ;" gan fod y gair Groeg am "fod yn haelionus" yn wahanol, sef *agathopoiein. Ymgyfoethogi mewn*

19 [d] Yn trysori iddynt eu hun- [d] Luc 12 33.
ain sail dda erbyn *yr amser* sydd ar ddyfod, fel y caffont [e] afael ar [e] 1 Pedr 1. 4. y bywyd tragwyddol.

20 O Timotheus ! [f] cadw yr hyn [f] Rhuf 3. 2. a roddwyd i'w gadw atat, gan droi oddi wrth halogedig ofersain, a gwrthwyneb gwybodaeth, a gamenwir *felly :*

gweithredoedd da : — fel "cyfoethogion mewn ffydd," yr hon sydd yn cynnyrchu gweithredoedd da : *Iago* ii. 5. Arferir yr ymadrodd yn gyferbyniol a "goludog yn y byd yma ;" *adn.* 17. Y cyfeithiad llythyrenol ydyw, 'cyfoethog mewn gweithredoedd anrhydeddus.' Arwydda y Groeg *calois, ergois*, gweithredoedd da, neu iawn ynddynt eu hunain ; *agathois*, da i ereill. *Fod yn hawdd ganddynt roddi* :—rhoddwyr ewyllysgar a rhwydd ; y galon heb fod yn ymlynu wrth feddiannau, ond yn barod i roddi peth o honynt i ereill. *Yn hawdd ganddynt gyfranu* :—cyfranwyr parod [*Alford*] : yn haelfrydig mewn caniatau i ereill gyfranogi o'u heiddo gyda hwy eu hunain : *Gal.* vi. 6 ; *Heb.* xiii. 16.

19. *Yn trysori iddynt eu hunain* : — trwy wneuthur daioni, a chyfranu o'u heiddo i ereill, ennillant iddynt eu hunain drysor gwell nag a allant ei gael ar y ddaear : *Mat.* vi. 19, 20. "Gan drysori, nid trysor ansicr i'r bywyd yma, ond gwysti sylweddol o'r bywyd gwirioneddol a thragwyddol yn y byd a ddaw."—*Alford.* Gwel y sylw ar *pen.* iii. 13 ; *Luc* vi. 48 ; 1 *Cor.* iii. 11. Gwasgaru ein cyfoeth daearol trwy ffydd ydyw y ffordd i gynnyddu ein cyfoeth nefol. Yr ydym yn y dull hwn yn casglu trwy wasgaru : *Diar.* xi. 24 ; a xiii. 7 : *Luc* xvi. 9. *Bywyd tragwyddol.*—Y mae y llaw-ysgrifau a'r cyfieithiadau hynaf yn darllen fel hyn, 'yr hyn sydd fywyd gwirioneddol :' gan fod ei fywnhâd a'i lawenydd yn sylweddol a pharhaus : *Salm* xvi. 11. Nis gellir galw y bywyd sydd yr awrhon felly, gan mai gwagedd, mewn cymmhariaeth, ydyw pob peth o dan haul : *Iago* iv. 14.

20. Y mae yr apostol yn yr adnod hon, a'r un ddilynol, yn rhoddi crynodeb terfynol o brif amcan yr holl epistol. *O Timotheus !*—Appeliad personol, yn dynodi ei serch at Timotheus, a'i ragwybodaeth o'r heresiau a ymgodent "yn yr amseroedd diweddaf." *Cadw* :—rhag lladron ysbrydol, a rhag gelynion ; y rhai, tra y bydd dynion yn dysgu, a hauant eirau yn mhlith yr had da a hauwyd gan Fab y dyn. *Yr hyn a roddwyd i'w gadw atat* :—*pen.* i. 18 ; 2 *Tim.* i. 12, 14 ; a ii. 2. "Yr hyn" yma ydyw yr athrawiaeth iachus, fel y mae yn wrthwyneb i'r hyn a gamenwir yn "wybodaeth," yr hon sydd yn arwain i gyfeiliornad yn mherthynas i'r ffydd : *adn.* 21. "Nid dy eiddot ti ; eiddo un arall a ymddiriedwyd i ti ; na wna ef yn ddim llai."—*Chrysostom.* "Yr hyn a ymddiriedwyd i ti, nid a gafwyd genyt ti ; yr hyn a dderbyniaist, nid a ddyfeisiaist ; mater, nid o athrylith, ond o addysg ; nid o drawsfeddianniad personol, ond o draddodiad cyhoeddus ; mater a ddygwyd i ti, nid a roddwyd allan genyt ti, yn yr hwn y dylit ti fod, nid yn eangwr, ond yn warcheidwad ; nid yn wreiddyn, ond yn ddysgybl ; nid yn arwain, ond yn dilyn. 'Cadw,' meddai efe, 'yr hyn a roddwyd i'w gadw atat ;' cadw yn gyfan a dihalog y dalent o ffydd uniongred. Yr hyn a ymddiriedwyd i ti, arosed

21 Yr hon tra yw rhai yn ei phroffesu, hwy a gyfeiliornasant o ran y ffydd. Gras *fyddo* gyda thi. Amen.

¶ Y cyntaf at Timotheus a ysgrifenwyd o Laodicea, yr hon yw prifddinas Phrygia Pacatiana.

yr unrhyw gyda thi; bydded i'r unrhyw gael ei drosglwyddo i lawr genyt ti. Aur a dderbyniaist: tâl aur yn ol. Byddai yn ddrwg genyf i ti roddi rhywbeth arall yn ei le. Byddai yn ddrwg genyf i ti ryfygu rhoddi plwm neu bres, yn lle aur, trwy dwyll. Nid oes arnaf eisieu ymddangosiad au yn unig, ond aur gwirioneddol. Nid am nad oes un cynnydd i fod mewn crefydd yn eglwys Crist. Bydded fod cynnydd ar bob cyfrif, a'r cynnydd mwyaf; ond bydded yn gynnydd gwirioneddol, ac nid cyfnewid ffydd. Bydded i wybodaeth yr holl eglwys, a phob aelod o honi, ddirfawr gynnyddu; ond yn unig iddo fod yn ei ryw ei hun, heb un cyfnewidiad yn yr athrawiaeth. Bydded crefydd yr enaid yn debyg i dyfiant y corph; yr hwn, er ei fod mewn amser yn dadblygu ei wahanol ranau, etto y mae yn aros yr un o ran ei hanfod."—*Vincentius Lirinensis*, B. A. 434. *Gan droi oddi wrth.*—Cymmh. 2 *Tim.* iii. 4. Tro oddi wrthynt, fel y troisant hwythau ymaith oddi wrth y gwirionedd: *pen.* i. 6; a vi. 15; 2 *Tim.* iv. 4. *Halogedig:—pen.* iv. 7; 2 *Tim.* ii. 16. *Ofer.*—Groeg: 'gwâg;' "ymryson difudd ynghylch geiriau" (*adn* 4), heb wneyd un lles i neb. *Gwrthwyneb:*—"cyferbyniadau ymresymiadol y gau-athrawon."—*Alford.* "Gwrthwynebiadau i'r wir athrawiaeth."—*Wiesinger.* Y mae yn dra thebygol fod hadau yr heresi a elwir Deuoliaeth; sef, yr athrawiaeth fod dwy egwyddor wahanol ac annibynol mewn dyn, yr hon a ddadblygwyd wedi hyny mewn Gnosticiaeth, eisoes mewn bod. Cymmh. cyferbyniad cywir Paul yn *pen.* iii. 16; a vi. 5; 2 *Tim.* ii 15—23. *Gwybodaeth, a gamenwir felly.*—"Lle nad oes ffydd, nid oes wybodaeth."—*Chrysostom.* Yr oedd gwir wybodaeth (*gnosis*) yn yr eglwys y pryd hwnw—dawn neilldiol yr Ysbryd—yr hon a gamddefnyddid gan rai: 1 *Cor.* viii. 1; a xii. 8; a xiv. 6. Ffugiwyd y ddawn hon yn fuan gan y gau-athrawon, y rhai a honent eu bod yn meddu graddau helaeth o honi: *Col.* ii. 8, 18, 23. Oddi yma cododd credöau yr eglwys a elwir 'arwyddluniau;' *h. y.*, yn y Groeg, 'arwyddeiriau,' neu brawf, trwy yr hwn y gallai y Cristionogion uniongred wahaniaethu eu gilydd oddi wrth yr hereticiaid. Hwyrach fod yn yr adnod hon, ac yn 2 *Tim* i. 13, 14, gyfeiriad at ryw ffurf fer o'r fath o athrawiaeth oedd y pryd hwnw yn yr eglwys.

21. *Yr hon tra yw rhai yn ei phroffesu:*—sef, yn proffesu "gwrthwyneb gwybodaeth a gamenwir felly" *A gyfeiliornasant*—Gwel y sylwadau ar *pen.* i 6; a ii. 18. Yn llythyrenol, 'methu y nôd;' 2 *Tim.* iii. 7, 8. *Ffydd*—Ystyr y gair "ffydd" yma ydyw athrawiaeth yr efengyl, yr hon a gredir, ac sydd yn sail i ffydd: *Act.* xxiv 24; *Galat.* i. 23. *Gras.*—Groeg: '*y* gras,' sef gras Duw, am yr hwn y mae y Cristionogion yn edrych, ac yn yr hwn y maent yn sefyll. *Gyda thi.*—"Y mae yn cyfyngu y cyfarchiad at Timotheus, gan nad oedd yr epistol i gael ei ddarllen yn gyhoeddus."—*Bengel* Ond y mae y llaw-ysgrifau hynaf yn darllen, "fyddo gyda chwi;" a dichon mai cyfnewidiad a wnaed gan ryw adysgrifenydd ydyw "thi," i'w gyssoni â 2 *Tim.* iv. 22; *Titus* iii. 15. *Amen.*—Nid yw y gair hwn yn y llaw-ysgrifau hynaf. Yn y cyfieithiad Cymraeg a Saesneg ceir tanysgrifiad, "Y cyntaf at Timotheus a ysgrifenwyd o Laodicea, yr hon yw prifddinas Phrygia Pacatiana." Ceir crybwylliad byrach "O Laodicea," yn llaw-ysgrif Alexandria. Y mae yn debygol mai gwreiddyn y rhai hyn oedd y syniad mai hwn oedd yr epistol o Laodicea a grybwyllir yn *Col.* iv. 16. Y mae y chwanegiad pellach yn y cyfieithiadau a enwyd yn bradychu dyddiad ar ol y bedwaredd ganrif, pan ffurfiwyd talaeth Phrygia Pacatiana gyntaf.

YR

AIL EPISTOL AT TIMOTHEUS.

Y LLE YR YSGRIFENWYD EF.

WEDI i Paul, yn y cyfwng rhwng ei garchariad cyntaf a'r ail, ysgrifenu yr Epistol Cyntaf at Timotheus o Macedonia neu Corinth (os mabwysiadwn ni y syniad fod yr Epistol Cyntaf wedi ei ysgrifenu ar ol ei garchariad cyntaf), efe a ddychwelodd i Ephesus, yn ol ei fwriad, trwy Troas, lle y gadawodd efe y llyfrau, &c. (a grybwyllir yn *pen.* iv. 13) gyda Carpus. O Ephesus efe a aeth i Creta am ymweliad byr, a dychwelodd; ac yna efe a ysgrifenodd at Titus. Yn nesaf, efe a aeth trwy Miletum i Corinth (*pen* iv. 20), ac oddi yno i Nicopolis (*Tit* iii. 12), o ba le yr aeth efe yn mlaen i Rufain. O'i garchar yno, efe a ysgrifenodd yr Ail Epistol at Timotheus, ychydig cyn ei ferthyrdod. Nid ydyw yn sicr yn mha le yr oedd Timotheus ar y pryd. Y mae rhai o'r profion tumewnol yn ffafriol i'r golygiad ei fod ef y pryd hwnw yn Ephesus; ac yn mhlith y profion hyn y mae yr anerchiad at Priscilla ac Acqwila, y rhai yn gyffredinol a breswylient yno (*pen.* iv. 19); hefyd, yr anerchiad at deulu Onesiphorus, yr hwn y dywedir iddo, yn *pen.* i. 16—18, weini ar Paul yn Ephesus, amgylchiad sydd yn rhoddi ar ddeall ei fod yn preswylio yno. Ymddengys mai yr un ydyw Hymeneus yn *pen.* ii. 17, a'r Hymeneus yn Ephesus (1 *Tim.* i. 20); ac y mae yn dybygol mai yr un ydyw "Alexander y gôf copr" (*pen.* iv. 14), a'r Alexander a ymunodd â Hymeneus (1 *Tim.* i. 20), ac y mae yn bossibl yr un a'r Alexander a ddygwyd yn mlaen gan yr Iuddewon i'w hamddiffyn hwynt yn ngwyneb y cyhuddiad o gefnogi Paul yn y terfysg yn Ephesus: *Act.* xix. 33, 34. Yr anhawsder ar y dybiaeth hon ydyw pa fodd i roddi cyfrif am *pen.* iv. 12, 20. Os oedd Timotheus yn Ephesus, pa ham yr oedd eisieu dyweyd wrtho fod Paul wedi anfon Tychicus i Ephesus? neu fod Paul wedi gadael Trophimus, yr hwn oedd ei hun yn Ephesiad (*Act.* xxi. 29), yn glaf yn Miletum, yr hon nid oedd ond deng milldir ar hugain o Ephesus? Gweler y sylwadau ar *pen.* iv. 12, 20. Gorweddai Troas ar y ffordd i Rhufain, un ai o Ephesus neu o Pontus, fel ag y mae *pen.* iv. 13, yn gysson â'r dybiaeth fod Timotheus yn ymdeithio ar y pryd un ai yn Ephesus neu mewn unrhyw le arall yn y parth gogledd-orllewinol o Asia Leiaf. Y mae yn debygol mai efe oedd arolygwr cyffredinol yr eglwysi a blanesid gan Paul yn Asia Leiaf; a'i fod yn cyssylltu yn ei genhadaeth y swydd o efengylwr, neu genhadwr teithiol, â'r swydd o arolygwr llywyddol. Y mae yn debygol hefyd mai Ephesus oedd ei brif orsaf.

YR AMSER YR YSGRIFENWYD EF.

1. Yr oedd carchariad cyntaf Paul, yr hwn a ddisgrifir yn *Act.* xxviii., yn llawer tynerach na'r un yr oedd efe ynddo pan yn ysgrifenu yr Ail Epistol hwn. Yn y cyntaf, yr oedd yn cael rhyddid i "aros yn ei dŷ ardrethol ei hun," ac i "ddderbyn pawb a'r oedd yn dyfod i mewn ato," heb ond "un milwr yn ei gadw ef;" ond yn yr olaf, cedwid ef mor gaeth fel mai gydag anhawsder y cafodd Onesiphorus ei weled. Yr oedd wedi ei gadwyno, ei gyfeillion wedi ei adael, ac o'r braidd yr oedd wedi diange rhag dedfryd o ddienyddiad oddi wrth ymherawdwr Rhufain. Yn ol chwedlau y canol-oesoedd, carchar Mamertine, neu Tullianum, oedd y man lle y carcharwyd ef, gyda Phedr. Ond y mae hyn yn anghysson â'r ffaith fod Onesiphorus, Linus, Pudens, &c., yn cael dyfodfa ato. Y mae yn debygol ei fod o dan ofal milwyr, fel yn ei garchariad cyntaf, er ei fod o natur lymach: *pen.* i. 16—18; ii. 9; iv. 6—8. 16, 17. 2. O'r braidd y gall mai yr ymweliad â Throas, a grybwyllir yn *pen.* iv. 13, ydyw yr un a grybwyllir yn *Act.* xx. 5—7. yr olaf cyn ei garchariad cyntaf; canys pe felly, byddai saith neu wyth mlynedd o amser rhwng yr ymweliad hwnw a'r carchariad cyntaf—tymmor pur annhebyg iddo ei adael i fyned heibio heb anfon am ei "gochl, ei lyfrau, a'i femrwn," pan y gallent fod o wasanaeth iddo yn y cyfamser. 3. Nis gall mai ar yr achlysur a grybwyllir yn *Act.* xx. 15, y gadawodd Paul Trophimus yn glaf yn Miletum (*pen.* iv. 20); canys yr ydym yn cael fod Trophimus ar ol hyny gyda Phaul yn Ierusalem: *Act.* xxi. 29. 4. Y mae y geiriau (*pen.* iv. 20), "Erastus a arosodd yn Corinth," yn rhoddi ar ddeall fod Paul newydd fod yn Nghorinth, lle y gadawodd Erastus. Ond nid oedd Paul wedi bod yn Nghorinth er's amryw flynyddoedd cyn ei garchariad cyntaf; ac yn y cyfamser yr oedd Timotheus wedi bod gydag ef, fel nad oedd eisieu dyweyd dim wrth Timotheus ar adeg ddiweddarach ynghylch yr ymweliad hwnw: *Act.* xx. 2, 4. Nis gallwn lai na dyfod i'r penderfyniad oddi wrth y rhesymau hyn oll mai y carchariad, yn ystod yr hwn yr ysgrifenodd efe yr Ail Epistol

hwn oedd ei ail garchariad. Yn mhellach, y mae *Heb.* xiii. 23, 24, yn rhoddi ar ddeall i ni fod yr ysgrifenydd (Paul yn ol pob tebygolrwydd), *yn Italy*, ac *yn rhydd*. Felly dywed Clement o Rufain, dysgybl Paul, yn bendant: "Yn y dwyrain a'r gorllewin, Paul, fel pregethwr, a ddysgodd yr holl fyd (*h.y.*, ymherodraeth Rhufain) mewn cyfiawnder, ac wedi myned i gwr eithaf y gorllewin, ac wedi dwyn tystiolaeth o flaen llywodraethwyr Rhufain, symmudwyd ef felly o'r byd." Y mae yn amlwg fod hyn yn cynnwys ei fod wedi cyflawni ei fwriad (*Rhuf.* xv. 24—28) o fyned ar daith genhadol i Yspaen. Y mae Canon y Testament Newydd, a gasglwyd o ddeutu y flwyddyn B. A. 170 (a elwir Canon Maratori), hefyd yn crybwyll am "daith Paul o Rufain i Yspaen."

Dywedir yn gyffredinol i'w ferthyrdod gymmeryd lle yn nheyrnasiad Nero. Fel hyn ymddengys i bum mlynedd fyned heibio rhwng y carchariad cyntaf, B. A. 63 (*Act.* xxviii), a'i ferthyrdod, Mehefin, B. A. 68—y flwyddyn olaf o deyrnasiad Nero. Y mae yn debygol i'r ynadon ei ddal yn Nicopolis (*Titus* iii. 12), yn Epirus, yn y gauaf, ar ddau gyhuddiad: yn gyntaf, o fod yn un o'r Cristionogion oeddynt wedi ffurfio bradwriaeth, fel yr haerid gan bleidwyr Nero, i roddi Rhufain ar dân, B. A. 64; yn ail, o ddwyn crefydd newydd ac anghyfreithlawn i mewn. Gadawodd ei holl gyfeillion ef, oddi eithr Luc:—Demas o "garaad at y byd presennol;" y lleill o herwydd amrywiol achosion: *pen.* iv. 10. Ymddengys iddynt fethu ei gael ef yn euog yn ngwyneb y cyhuddiad cyntaf. Cymmerodd ei ryddhâd o'i garchariad cyntaf le yn B. A. 63—y flwyddyn o flaen y tân mawr yn Rhufain, yr hwn a gymmerodd Nero yn esgus i erlid y Cristionogion. Arferwyd pob creulondeb tuag atynt y gallasai y diafol ei ddyfeisio:—croeshoeliwyd llawer o honynt; gwisgwyd rhai mewn crwyn bwystfilod gwyllt'on, ac ymlidiwyd hwynt i farwolaeth gan gŵn; gwisgwyd ereill mewn dillad wedi eu gorchuddio â phŷg, a rhoddwyd hwynt ar dân yn y nos i oleuo chwareufa y Vatican a gerddi Nero, tra yr ymgymmysgodd yr anghenfil hwnw â'r edrychwyr mewn dillad cerbydwr. Ond yn awr (B. A. 67 neu 68), yr oedd rhai blynyddoedd wedi myned heibio ar ol y cyffro cyntaf a ddilynodd y tân. Gan fod Paul yn ddiniwaid Rhufeinig, ymddygwyd tuag ato ar ei brawf gyda mwy o barch i ffurfiau y gyfraith; ac o herwydd hyn rhyddhawyd ef (*pen.* iv. 17) ar y cyhuddiad cyntaf o annog y Cristionogion i roddi y ddinas ar dân cyn ei ymadawiad diweddaf o Rufain. Ymddengys fod "Alexander y gôf copr" yn dyst yn ei erbyn: *pen.* iv. 4. Pe buasai wedi ei gondemnio ar y cyhuddiad cyntaf, y mae yn dra thebygol y buasai yn cael ei losgi yn fyw, fel y llosgwyd y merthyron blaenorol ar y cyhuddiad o roddi tai ar dân. Ei farnwr oedd rhaglaw y ddinas. Dywed Clemens Romanus mai nid o flaen yr ymherawdwyr, ond "o flaen y llywodraethwyr," y profwyd ef. Ni feiddiodd un dadleuwr amddiffyn ei achos, ac nid ymddangosodd un noddwr drosto—y cyfryw ag a allasai o dan amgylchiadau cyffredin ei gynnorthwyo. Y mae yn debygol iddo gael ei brofi yn un o'r ystafelloedd mawrion yn y Forum: dwy o ba rai a alwyd yn "Ystafelloedd Paul," oddi wrth L. Æmilius Paulus, yr hwn oedd wedi adgyweirio y llall. Anfonwyd ef yn ol i garchar i aros ei brawf ar yr ail gyhuddiad. Nid oedd yn disgwyl y cymmerai hyny le hyd y "gauaf" canlynol (*pen.* iv. 21), ond fe gymmerodd le tua chanol yr haf—os yn nheyrnasiad Nero, nid yn ddiweddarach na Mehefin. Yn y cyfamser, Luc oedd ei unig gydymaith gwastadol; ond yr oedd un cyfaill o Asia, Onesiphorus, wedi ei "geisio yn ddiwyd iawn," ac wedi ymweled âg ef yn ngharchar, er ei fod drwy hyny yn peryglu ei fywyd. Yr oedd Linus hefyd, esgob dyfodol Rhufain, a Phudens, mab i un o'r seneddwyr, a Claudia, ei wraig (merch, fel y bernir, i frenin Prydain; gwel y sylw ar *pen.* iv. 21), yn mhlith ei ymwelwyr; a Tychicus, cyn iddo gael ei anfon gan Paul i Ephesus (*pen.* iv. 21); gan ddwyn yr epistol hwn, hwyrach, gydag ef.

AMCAN YR EPISTOL.

Yr oedd Paul yn "mawr-ewyllysio" gweled ei hen ddysgybl Timotheus cyn ei farwolaeth, ac yn ewyllysio hefyd ei weled yn dwyn Marc gydag ef: *pen.* i. 4; iv. 9, 11, 21. Ond gan ei fod yn ofni nas gallai Timotheus gyrhaedd yno mewn pryd, teimlai ei bod yn angenrheidiol iddo roddi y rhybudd olaf iddo trwy lythyr ynghylch yr heresiau, hadau y rhai oeddynt y pryd hwnw yn cael eu gwasgaru yn yr eglwysi. O herwydd hyn, efe a ysgrifenodd gyfres o annogaethau i ffyddlondeb, a sêl dros y wir athrawiaeth, ac amynedd yn nghanol profedigaethau: rhybudd ag yr oedd Timotheus, fel yr ymddengys, yn sefyll mewn angen neilltuol am dano, os ydym i farnu oddi wrth ddifrifwch yr apostol yn ei annog i fod yn wrol yn achos Crist, fod Paul yn gweled ynddo arwyddion o lwfrdra neu ofn: *pen.* ii. 2—8; iv. 1—5, a 1 *Tim.* v. 22, 23.

MARWOLAETH PAUL.

Dionysius, esgob Corinth (a ddyfynir yn "Hanes yr Eglwys," gan Eusebius) o ddeutu y flwyddyn B. A. 170, ydyw yr awdurdod boreuaf dros y traddodiad fod Pedr wedi dioddef merthyrdod yn Rhufain "o ddeutu yr un amser a Phaul," wedi llafurio yno am beth amser. Y mae yn galw Pedr a Phaul yn "sylfaenwyr eglwysi Corinth a Rhufain." Crybwylla yr henadur Rhufeinig, (o ddeutu B. A. 200), am y traddodiad fod Pedr wedi dioddef merthyrdod yn y Vatican. Ond (1.) yn mhlith yr Iuddewon (*Gal.* ii. 9) yr oedd Pedr yn llafurio, tra mai eglwys Genhedlig oedd yr eglwys yn Rhufain: *Rhuf.* i. 13. Yn mhellach (2.), y mae Epistol Cyntaf Pedr (i. 1; v. 13), yn rhoddi ar ddeall mai yn Babilon, yn Mesopotamia, yr oedd efe yn llafurio. (3.) Y mae distawrwydd yr epistolau a ysgrifenwyd gan Paul yn Rhufain yn gwrthbrofi y traddodiad ei fod ef wedi sylfaenu eglwys, neu wedi llafurio am amser maith, yn Rhufain; er ei bod yn bossibl iddo ddioddef merthyrdod yno. Y mae yn ddiammheu na chafodd ei ferthyru, fel y dywed Jerome, "ar yr un diwrnod" ag y merthyrwyd Paul; pe amgen, buasai Paul yn sicr o grybwyll, yn *pen.* iv. 11, fod Pedr yn Rhufain. Dywed y chwedl ddarfod i Pedr, oddi ar ofn, ffoi o Rufain gyda thoriad y wawr trwy ffordd Appia, ac iddo gyfarfod â'n Hiachawdwr ar y ffordd, a chan syrthio wrth ei draed, gofynodd, "Arglwydd, i ba le yr ei di?" I'r hyn yr attebodd yr Arglwydd, "Yr wyf yn myned i gael fy ail groeshoelio." Y dysgybl, mewn edifeirwch a chywilydd, a ddychwelodd, ac a ferthyrwyd. Y mae eglwys *Domine quo vadis* ar ffordd Appia wedi ei hadeiladu er coffadwriaeth

am y ffaith dybiedig. Yn ol Caius (a ddyfynir yn "Hanes yr Eglwys" gan Eusebius), dioddefodd Paul ferthyrdod ar ffordd fawr Ostia. Felly y dywed Jerome, yr hwn a rydd y dyddiad yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Nero. Arferid anfon carcharorion, marwolaeth y rhai a allent dynu gormod o sylw yn Rhufain, i ryw le lled bell oddi wrth y ddinas, o dan nawdd milwyr, i'w dïenyddio; a chesglir oddi wrth hyn mai cleddyf y milwr, ac nid bwyell y dïenyddwr oedd yr offeryn â pha un y torwyd ei ben. Ymddengys, oddi wrth *Phil.* i., fod gan Paul gyfeillion hyd yn oed yn y palas; ac y mae yn ddiammheu eu bod wedi arfer y cyfryw ddylanwad ag a gynnhyrfai gydymdeimlad o'i blaid—i ochelyd yr hyn y gorchymynwyd iddo gael ei ddïenyddio o'r tu allan i'r ddinas. Y mae Basilica St. Paul, a adeiladwyd gyntaf gan Cystenyn, yn awr yn sefyll o'r tu allan i ddinas Rhufain ar y ffordd i Ostia. Cyn y Diwygiad yr oedd o dan amddiffyniad brenhinoedd Lloegr, ac y mae arwydd Urdd y Gardas i'w weled etto yn mhlith ei addurniadau. Y man lle y merthyrwyd ef, medd traddodiad, ydyw y *Tre Fontane*, heb fod yn mhell oddi wrth y Basilica.

CYNNWYSIAD YR EPISTOL.

1. Y mae Paul yn dadgan ei gariad at Timotheus, a'i awydd cryf am ei weled, ac yn ei annog i gyflawni ei swydd yn wrol, a ffyddlawn, yn ol ei esampl ef ei hun, er gwaethaf eredigaeth o un tu, ac anffyddlondeb brodyr crefyddol o'r tu arall: *pen.* i.

2. Y mae yn ei annog i ffyddlondeb fel milwr i Iesu Grist, gan lynu yn sefydlog wrth y gwirionedd, gochelyd pob math o gyfeiliornadau, ac ymddwyn tuag at bawb yn yr ysbryd hwnw ag sydd yn gweddu i was yr Arglwydd: *pen.* ii.

3. Y mae yn ei rybuddio fod amseroedd blinion yn dyfod, yn dangos pa fath ydyw gelynion y gwirionedd, ac yn ei osod ei hun yn esampl iddo: *pen.* iii.

4. Y mae yn ei annog i fod yn ofalus ac yn ddiwyd i gwblhau ei swydd, o herwydd fod cyfeiliornadau i godi eu penau, ac amser ei ymddattodiad ef ei hun ger llaw; ac erfynia arno ddyfod ato i Rufain, a dwyn Marc gydag ef, am mai Luc yn unig oedd gydag ef, gan fod y lleill oll wedi ei adael: hefyd i ddwyn ei gochl a'i femrwn. Y mae yn ei rybuddio hefyd i ochelyd Alexander y gôf copr; ac yn dyweyd wrtho yr hyn a ddigwyddodd iddo ar ei brawf cyntaf: *pen.* iv.

YR AIL EPISTOL AT TIMOTHEUS.

PENNOD I.

1 *Serch Paul tuag at Timotheus, 5 a'r ffydd ddiffuant oedd yn Timotheus, ac yn ei fam, a'i nain: 6 ei annog ef i gyffroi rhoddiad Duw oedd ynddo ef; 8 i fod yn ddiamwadal, ac yn ddioddefgar mewn erlid: 13 ac i barhau yn y wir athrawiaeth a ddysgasai ganddo ef. 15 Yaphylch Phygelus a Hermogenes, a chlod Onesiphorus.*

B. A. 58.

1 PAUL, apostol Iesu Grist, trwy
[a] Ioan 5. 24, 39, 40; Rhuf. 5. 21; Eph. 3. 6. ewyllys Duw, yn ol [a] addewid y bywyd, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu,

2 At Timotheus, *fy* mab anwyl: Gras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, a Christ Iesu ein Harglwydd.

3 [b] Y mae genyf ddiolch i Dduw, [c] yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu o'*m* rhieni â chydwybod bur, [d] mor ddibaid y mae genyf goffa am danat ti yn fy ngweddïau nos a dydd:

[b] Rhuf. 1. 8; Eph. 1. 16.
[c] Act. 22. 3; 24. 14.
[d] Rhuf. 1. 9; 1 Thes. 3. 10.

4 Gan fawr-ewyllysio dy weled, gan gofio dy ddagrau, fel y'm llanwer o lawenydd:

PENNOD I.

1. *Yn ol addewid y bywyd....yn Nghrist.*—Y mae hyn oll i'w gymmeryd mewn cyssylltiad â'r gair "apostol," ac nid âg "ewyllys Duw." "Y mae yr arddodiad *cata*, yn yr adnod hon, fel yn *Titus* i. 1, yn dynodi yr amcan i ba un y gwnaed Paul yn apostol, sef, i gyhoeddi i Iuddewon a Chenhedloedd yr addewid o fywyd tragwyddol, yr hwn sydd i'w gael trwy Iesu Grist."—*Macknight.* "Fel y cyhoeddwyf i ddynion y bywyd tragwyddol, yr hwn a addawyd."—*Theodoret.* "Y mae Chrysostom yn gweled yn y cry bwylliad hwn am yr addewid o fywyd yn Nghrist gysur i Timotheus o dan ei drallodion presennol. Ac ymddengys fod y drychfeddwl hwn yn cael ei gario allan gan rediad y rhan ddilynol o'r epistol."—*Alford.* "Yr oedd eisieu yr addewid hon o fywyd yn Nghrist (cymh. *adn.* 10: *pen.* ii. 8) i nerthu Timotheus i ymwroli yn nghanol ei brofedigaethau, ac i'w galonogi i ymgymmeryd â'r daith beryglus i Rufain."—*Faussett.*

2. *Fy nab anwyl.*—Yn 1 *Tim.* i. 2, a *Titus* i. 4, y rhai a ysgrifenwyd o flaen yr epistol hwn, yr ymadrodd a ddefnyddir ydyw, "Fy mab naturiol." Y mae Alford yn gweled yn newidiad yr ymadrodd awgrymiad o gyfnewidiad yn nhôn yr apostol gyda golwg ar Timotheus, mwy o gariad ato, a llai o ymddiried ynddo; fel pe buasai yn gweled ynddo ddiffyg o sefydlogrwydd, oddi wrth yr hyn y cododd yr angen am ailennyn ffydd a gras ynddo: *adn.* 6. Ond ymddengys nad ydyw hyn yn cael ei gyfiawnhau gan y gair Groeg *agapetes*, yr hwn sydd yn cynnwys ymlyniad rheswm a dewisiad, seiliedig ar deilyngdod yn yr un "anwyl," ac nid cariad greddfol yn unig tuag ato.

3. *Y mae genyf ddiolch.*—Groeg: 'Yr wyf yn teimlo diolchgarwch i Dduw.' *Yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu o'm rhieni*:—"yr hwn yr ydwvf yn ei wasanaethu (*Rhuf.* i. 9) fel y gwnaeth fy rhieni." Ni ddylem gasgluoddi wrth hyn ei fod yn meddwl rhoddi y gwasanaeth dwyfol Iuddewig a Christionogol ar yr un tir; ond yn unig yn haeru ei fod ef ei hun wedi gwasanaethu Duw yn gydwybodol, yn ol yr addysg a dderbyniasai gan ei rieni. Yr oedd coffadwriaeth y duwiolion ymadawedig, at y rhai yr oedd efe ar gael ei gasglu yn awr, ar fin marwolaeth, yn hyfryd ganddo; o herwydd hyn hefyd, yr oedd efe yn galw i'w gôf ffydd mam a nain Timotheus. Fel yr oedd efe (Paul) yn glynu wrth grefydd ei dadau (*Act.* xxiii. 1; a xxiv. 14; a xxvi. 6, 7; a xxviii. 20), felly y dylasai Timotheus lynu wrth grefydd ei fam a'i nain. Nid yn unig yr oedd Paul, ond yr oedd yr Iuddewon, y rhai a wrthodent Grist, yn gwrthod crefydd eu tadau, y rhai oeddynt yn disgwyl Crist: â phan dderbyniant ef, ni bydd calonau y plant yn troi ond yn unig at grefydd y tadau: *Mal.* iv. 6; *Luc* i. 17; *Rhuf.* xi. 23, 24, 28. Y mae yn debygol fod Paul, yn ei amddiffyniad diweddar, wedi sefyll ar y testyn hwn; sef, nad oedd efe, trwy fod yn Gristion, ond yn unig yn dilyn crefydd ei dadau. *Mor ddibaid y mae genyf goffa am danat.*—"Mor ddibaid yr wyf yn crybwyll am danat." Cymmh. *Philem* 4. Yr achos fod Paul yn teimlo yn ddiolchgar ydoedd, nid am ei fod ef yn cofio Timotheus yn ddibaid yn ei weddïau, ond am yr hyn oedd Timotheus o ran ei grefydd. Cymmh. *Rhuf.* i. 8, 9; o'r lle y gwnelir y frawddeg ddiffygiol i fyny fel hyn:—'Yr ydwyf yn diolch i Dduw [drosot ti, canys tyst i mi yw Duw], yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu, &c., mor ddibaid (neu 'fy mod yn ddibaid'), y mae genyf goffa (neu 'yr wyf yn crybwyll') am danat ti,' &c. *Nos a dydd.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* v. 5. Sylwa Benson fod hwyr a boreu wedi eu nodi allan gan natur fel adegau manteisiol i nesau at yr Arglwydd mewn gweddi.

4. *Gan fawr-ewyllysio.*—Groeg: 'Gyda hiraeth dwys fel am un y teimlir colled fawr ar ei ol.' *Gan gofio dy ddagrau.*—Nid yn unig ar ein

5 Gan alw i'm côf y ffydd ddiffuant sydd ynot ti, yr hon a drigodd yn gyntaf yn dy nain Löis, ac yn dy fam Eunice; a diammheu genyf *ei bod* ynot tithau hefyd.

6 O herwydd pa achos yr ydwyf yn dy goffâu, i ail ennyn hymadawiad â'n gilydd (*Act.* xx. 37), ond hefyd yn fynych pan o dan deimladau crefyddol. *Fel y'm llanwer o lawenydd:*—i'w gyssylltu â "gan fawr-ewyllysio dy weled;" *Rhuf.* i. 11, 12; a xv. 32.

5. *Gan alw i'm côf*, &c.—Yr oedd hyn yn cynnyddu ei awydd i weled Timotheus. Yn y llawysgrifau hynaf, darllenir fel hyn: "Pan elwais i'm côf;" yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall fod rhyw ddigwyddiad (dlifwfrdra Demas ragrithiol, hwyrach, yr hwn a'i gadawodd ef) wedi dwyn ar gôf iddo ddiffuantrwydd ffydd Timotheus. *Y ffydd ddiffuant syddynot ti.*—Yn ol cyfieithiad Alford: "oedd ynot ti." Y mae yn cofio ffydd Timotheus yn yr amser a aeth heibio fel ffaith. *Yr hon.*—Groeg: 'y cyfryw ag.' Yr un ffydd o ran ei natur ag oedd yn ei fam a'i nain. *A drigodd:*—"a wnaeth ei thrigfa," neu ei phreswylfod: *Ioan* xiv. 23. Y mae yr amser gorphenol yn cynnwys eu bod yn awr wedi marw. *Yn gyntaf:*—cyn iddi drigo ynot ti. Hi oedd y bellaf yn ol o henafiaid Timotheus a adwaenid gan Paul. *Dy fam Eunice:*—Iuddewes grediniol; ond Groegwr, *h.y.*, pagan, oedd ei dad: *Act.* xvi. 1. Yr oedd ffydd un o'r rhieni yn sancteiddio y plentyn: *pen* iii. 15: 1 *Cor.* vii 14. Y mae yn debygol iddi gael ei dychwelyd ar ymweliad cyntaf Paul â Lystra: *Act.* xiv. 6. Cyd-darawiad anfwriadol, ac felly y mae yn brawf o wirionedd yr hanes, nad ydyw *Act.* xvi. yn crybwyll ond am ffydd y fam yn unig, yn yr un modd yn union ag y canmolir ffydd y fam yma, tra na chymmerir un sylw o'r tad. *Ac.*—Groeg: 'ond:' *h. y.*, er gwaethaf arwyddion o duedd anffafriol. *Diammheu ei bod:*—*h.y.*, yr wyf yn credu ei bod "yn trigo ynot tithau hefyd." Y mae y crybwylliad am ffydd ei *fam* a'i nain wedi ei fwriadu i all ennyn ei ffydd ef

6. *O herwydd pa achos:*—sef, o herwydd fy mod yn credu dy fod yn meddu y cyfryw ffydd ddiffuant. *Ail ennyn:*—all gynneu, adfywio gwreichionen—dawn: y cyferbyniol i "ddifoddi;" 1 *Thes.* v. 19. Nid ydyw Paul yn ammheu nad oedd gwir ffydd yn Timotheus, ond dymuna iddi gael ei rhoddi ar lawn waith. Ymddengys fod Timotheus wedi ymollwng mewn digalondid, a llaesu yn ei lafur trwy fod mor hir heb Paul: *pen* ii. 22. *Dawn Duw:*—y gras ysl rydol a dderbyniodd, i'w gymmhwyso i gyflawni gwaith y weinidogaeth, un ai ar ei ordeiniad cyntaf, neu ar ei ordeiniad i'r swydd o arolygu yr eglwys yn Ephesus (gwel y sylw ar 1 *Tim.* iv 14) gan ei gynnysgaeddu â gwroldeb, gallu, cariad, a meddwl cryf: *adn* 7. *Trwy arddodiad fy nwylaw i*—Yn 1 *Tim* iv. 14, "gydag" (nid "trwy") arddodiad dwylaw yr henuriaeth" Yr apostol oedd y penaf yn yr ordeiniad, ac ato ef y cymmhwysir "trwy." Ei gynnorthwywyr ef oedd yr henuriaid; felly am danynt hwy, y rhai nid oeddynt ond yn unig yn gydweithwyr âg ef, y dywedir "gydag." Paul oedd yr offeryn yn ordeiniad Timotheus, ac yn nghyfraniad y gras a dderbyndawn Duw, yr hwn sydd ynot trwy arddodiad fy nwylaw i.

7 Canys ni roddes Duw i ni ysbryd ofn; ond *ysbryd* nerth, a chariad, a phwyll.

8 Am hyny na fydded arnat gywilydd o dystiolaeth ein Har glwydd, nac o honof finnau ei

Exod. 35. 26; 1 Thes. 5. 19.

Luc 10. 19.

Rhuf 5. 5; Gal. 5. 22.

Salm 19. 7; Eph. 3. 13; 1 Tim. 2. 6.

iodd efe y pryd hwnw. Cydgyfranogwyr yn y weithred o ordeiniad oeddynt hwy: felly y mae y Groeg *dia a meta* yn arwyddo.

7. *Canys*, &c—Rhoddir ar ddeall yma fod Timotheus yn sefyll mewn angen am yr annogaeth, i "ail ennyn dawn Duw ynddo," gan ei fod o gyfansoddiad yn ofnus:—"Canys ni roddes Duw i ni [sef, ar ein hordeiniad neu ein hurddiad] ysbryd ofn" Nid ysbryd ofn (yn llythyrenol, 'llwfrdra,' yr hyn sydd yn wendid), ond "ysbryd nerth" a arddangoswyd yn eu gwaith yn dwyn "tystiolaeth" ddiofn dros Grist: *adn.* 8. Y mae "nerth" bob amser yn dilyn dawn yr Ysbryd Glân: *Luc* xxiv 49; *Act* i. 8. Cymmh. *Act.* vi. 5, "llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân," âg *adn.* 8, "llawn o ffydd a nerth." Y mae ofn oddi fewn yn chwanegu at nerth yr achosion o ofn oddi allan. "Ysbryd nerth" ydyw Ysbryd Duw yn trigo yn ysbryd dyn, yn cyfranu nerth iddo. Y mae y nerth hwn yn "bwrw allan ofn" o honom ni ein hunain, ac yn ein cynnhyrfu i geisio ei fwrw allan o ereill: 1 *Ioan* iv. 18. *Cariad:*—yr hwn sydd yn cynnhyrfu y credadyn tra yn "llefaru y gwirionedd" gyda "nerth," pan yn rhoddi ei dystiolaeth dros Grist (*adn.* 8), ac i wneyd hyny ar yr un pryd "mewn cariad;" *Eph.* iv. 14. *A phwyll.*—Y Groeg yn hytrach ydyw, 'dwyndynion i'w pwyll.' Cyfieitha Bengel fel y cyfieithiad Cymraeg, "pwyll," neu "sobrwydd meddwl;" dyiedswyddyr oedd angen neilluol am gyn mhell dyn ieuange fel Timotheus i'w chyflawni: *pen.* i. 22; 1 *Tim.* iv. 12; *Titus* ii. 4, 6. Felly y mae Paul yn ei annog ef, yn *pen.* ii. 4, i beidio "ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn," y rhai sydd fel "drain" (*Luc* viii. 14) yn tagu y gair. Y mae y tair dawn yma yn llawer gwell nag unrhyw ddoniau gwyrthiol.

8. *Am hyny:*—wrth weled fod Duw wedi rhoddi y fath ysbryd i ni, ac nid "ysbryd ofn." *Na fydded arnat gywilydd.*—Yr ydym yn cyttuno âg Ellicott, yn erbyn Alford, fod y Groeg yma yn cynnwys gweithred wedi ei gorphen ar unwaith, ac nid gweithred barhaol: yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall nad oedd Timotheus etto wedi amlygu y cyfryw deimlad o gywilydd—er ein bod yn meddwl fod Paul yn ngwyneb gwrthgiliad ereill, y rhai unwaith a ymddangosent yn obeithiol, ac oddi ar ei wybodaeth o'r duedd ofnus oedd yn naturiol yn Timotheus (gwel y sylw ar *adn.* 7), yn teimlo fod eisieu ei annog i ochelyd llwfrdra yn ei broffes o Grist, a'r cyflawniad o'i ddyledswyddau fel gweinidog yr efengyl. "Cywilydd (*adn.* 8) yw cydymaith ofn (*adn.* 7); os gorchfygir ofn, y mae cywilydd yn cilio."—*Bengel.* Yr oedd Paul ei hun (*adn.* 12), ac Onesiphorus (*adn.* 16), yn enghreifftiau o broffes ddiofn yn symmud cywilydd diachos. Y mae yn crybwyll am enghreifftiau galarus i'r gwrthwyneb o ofn a chywilydd: *adn.* 15. *O dystiolaeth ein Harglwydd:*—o'r dystiolaeth yr hon yr ydwyt ti yn rhwym o'i rhoddi yn achos ein Harglwydd. Y mae yr apostol yn dywedyd

garcharor ef: eithr cyd-oddef di gystudd â'r efengyl, [i]yn ol nerth Duw:

9 Yr hwn [k]a'n hachubodd ni, ac [l]a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond [m]yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, [n]yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu, cyn dechreu y byd,

10 Eithr a [o]eglurwyd yr awrhon trwy ymddangosiad [p]ein Hiachawdwr Iesu Grist, [q]yr hwn a ddiddymodd angeu, [r]ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl:

[i] Rhuf. 16. 25; Phil. 4. 13.
[k] Act. 2. 47; Titus 3. 5.
[l] Rhuf. 8. 30; 9. 24; Heb. 3. 1; 1 Pedr 1. 15, 16.
[m] Mat. 11. 25, 26.
[n] Ioan 6. 37; 1 Cor. 3. 21.
[o] Esa. 25. 7; Rhuf. 16. 26; Titus 1. 3; 1 Pedr 1. 20, 21.
[p] Esa. 43. 3; Act. 13. 23; 1 Ioan 4. 14.
[q] Esa. 25. 8; Hos. 13. 14; Ioan 11. 25, 26; Dad. 20. 14.
[r] Ioan 14. 6; 1 Cor. 15. 53; Dad. 22. 1, 2.

"ein" mewn trefn i uno Timotheus âg ef ei hun yn y dystiolaeth y dylent eill dau ei rhoddi dros eu Harglwydd cyffredin. Y mae y dystiolaeth a roddodd Crist o flaen Pilat (1 *Tim.* vi. 12, 13), yn gymmhelliad cryf i'r credadyn i "dystio proffes dda," yn ol esampl ei Arglwydd. *Nac o honof finnau, ei garcharor ef.*—Y mae achos gweision Duw yn achos i Dduw ei hun: *Eph* iv. 1. Gellid yn hawdd demtio Timotheus i gywilyddio o un yn ngharchar, yn enwedig gan fod nid yn unig cywilydd bydol, ond perygl mawr, yn gyssylltiedig âg unrhyw gydnabyddiaeth o Paul y carcharor. *Cyd-oddef di*:—gyda mi. *A'r efengyl.*—Yn hytrach fel y Groeg, 'dros yr efengyl;' *h. y.*, 'cyd-ddioddef dros yr efengyl;' *pen.* ii. 3—6; *Philem.* 13. *Yn ol nerth Duw*:—a arddangoswyd yn ein galwedigaeth a'n cadwedigaeth: *adn* 9. Y mae Duw, yr hwn a gyflawnodd y weithred fwyaf o allu (*h. y.*, a'n hachubodd ni) yn sicr o wneyd y weithred lai (ein cario yn ddiogel drwy ddioddefiadau yn achos yr efengyl). "Na feddylia fod eisieu i ti ddioddef y trallodion hyn trwy dy nerth dy hun, ond cei allu Duw i dy gynnorthwyo. Y mae perswadio y byd i dderbyn iachawdwriaeth yn brawf mwy o'i allu na chreu y nefoedd."—*Chrysystom.*

9. *Yr hwn.....a'n galwodd*:—sef, Duw Dad: *Gal.* i. 6. Y mae "a'n hachubodd ni" yn ol ei arfaeth dragwyddol ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu cyn dechreu y byd," yn blaenori ei waith yn ein galw ni mewn amser priodol â galwedigaeth wedi ei gwneyd yn effeithiol i ni gan yr Ysbryd Glân; am hyny y mae "a'n hachubodd ni" yn dyfod o flaen "a'n galwodd ni;" *Rhuf.* viii. 28—30. *Galwedigaeth sanctaidd*:—yr alwedigaeth weithredol i fywyd o sancteiddrwydd: *Heb.* iii. 1. "Galwedigaeth nefol;" pan oeddym ni mewn gwirionedd yn bechaduriaid ac yn elynion: *Eph.* i. 18: a iv. 1. Y mae yr alwedigaeth yn dyfod yn gwbl oddi wrth, ac yn ein hawlio ni yn gwbl i Dduw. Y mae "sanctaidd" yn cynnwys neilluaeth cred inwyr i Dduw oddi wrth y gweddill o'r byd. *Nid yn ol*:—heb edrych ar ein gweithredoedd yn ei etholedigaeth a'i alwedigaeth rasol: *Rhuf.* ix. 11; *Eph.* ii. 8, 9. *Ei arfaeth ei hun.*—Gwreiddyn yr iachawdwriaeth ydyw "ei arfaeth ei hun," yr hon sydd yn tarddu o'i ddaioni ef ei hun: nid am weithredoedd a gyflawnir yn gyntaf genym ni, ond yn gwbl o'i gariad grasol a phenarglwyddiaethol ef ei hun. "Ni buasai un Ceidwad i achub, oni buasai i Dduw drefnu Ceidwad addas a gogoneddus yn yr arfaeth. Ni buasai un enaid cadwedig, nac un pechod yn cael ei faddeu, oni buasai fod Duw wedi arfaethu achub a maddeu. Nid oes dim daioni, graslonrwydd, na thirionedd, mewn un modd, yn cael ei amlygu a'i weithredu tuag at bechaduriaid, mewn amser, nad oedd yn yr arfaeth er tragwyddoldeb; ac am ei fod yn yr arfaeth, y mae yn cael ei amlygu mewn amser. Y mae yn arfaeth dda. Os yw achub yn waith da, yr oedd arfaethu achub yn arfaeth dda. Os ydyw yr efengyl yn cyhoeddi newyddion da, y mae yr arfaeth yn arfaeth dda, yn yr hon y trefnwyd y cwbl a gyhoeddir yn yr efengyl. Ymryson âg arfaeth Duw ydyw ymryson â Duw ei hun, yn gweithredu yn ei benarglwyddiaeth, fel y mae yn addas iddo; yn trefnu pob peth gydag anfeidrol ddoethineb, daioni, ac uniondeb, yn y modd goreu, er ei ogoniant ei hun a daioni tragwyddol ei bobl."—*Charles. A'i ras...a roddwyd i ni*:—yn ei arfaeth dragwyddol, yr hon sydd i'w hystyried yr un yn nhragwyddoldeb diddechreu a phan y cyflawnir hi yn weithredol mewn amser. *Yn Nghrist.*—Edrychir ar y credinwyr gan Dduw fel ynddo ef, â'r hwn y gwnaeth y Tad y cyfammod gras: *Eph.* i. 4; a iii. 11. *Cyn dechreu y byd.*—Groeg: 'cyn amser (tymmorau) yr oesoedd;' *h. y.*, am yr oesoedd tragwyddol: 1 *Cor.* ii. 7; *Eph.* iii. 11.

10. *Eithr a eglurwyd yr awrhon.*—Mewn cyferbyniad i'r ffaith ei bod yn guddiedig hyd yma yn arfaeth dragwyddol Duw, "cyn dechreu y byd;" *adn.* 9; *Col.* i. 26; *Tit.* i. 2, 3. *Ymddangosiad.*—Yr ymddangosiad gweledig yn y cnawd. *A ddiddymodd angeu.*—Groeg: 'a gymmerodd ymaith y gallu oddi ar angeu.' Y mae y fannod Groeg o flaen "gallu" yn cynnwys fod Crist wedi "diddymu angeu," nid yn unig mewn rhyw un enghraifft neilluol, ond hyd yn oed yn ei natur, ei fodolaeth, a'r syniad o hono, yn gystal ag yn ei holl sgweddau a'i ganlyniadau: *Ioan* xi. 26; *Rhuf.* viii. 2, 38; 1 *Cor.* xv. 26, 55; *Heb.* ii. 14. Yn yr agdyfodiad y llwyr ddiddymir angeu: *Dad.* xx. 14. Nid ydyw marwolaeth y corph yn y cyfamseri fod ond dros amser, ac nid ydyw Crist a'i apostolion yn gwneuthur un cyfrif o hono. *A ddug ... i oleuni*:—gan ddadguddio trwy yr efengyl yr hyn oedd o'r blaen yn guddiedig yn arfaeth Duw. *Bywyd*:—yr Ysbryd, yn gweithredu yn gyntaf ar yr enaid yma, ac i weithredu hefyd yn yr adgyfodiad *Anllygredigaeth*:—anfarwoldeb y bywyd newydd cyn ac ar ol yr adgyfodiad: *Rhuf* viii. 11. *Trwy*:—trwy gyfrwng yr efengyl, yr hon sydd yn dwyn i oleuni y bywyd a'r anllygredigaeth a fwriadwyd gan Dduw er tragwyddoldeb, ond a amlygwyd yn awr gyntaf i ddyn gan Grist; yr hwn, yn ei adgyfodiad ei hun, a roddodd wystl o fuddugoliaeth ddiweddaf ei bobl ar angeu trwyddo ef. Cyn i'r efengyl gael ei dadguddio, nid oedd gan ddyn, trwy oleuni natur, o dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol, ond drychfeddwl gwanaidd ynghylch y possiblrwydd o fodolaeth ddyfodol yr enaid, ond nid y drychfeddwl lleiaf am adgyfodiad y corph: *Act.* xvii. 18, 33 Pe na buasai Crist yn "fywyd," nis gallasai y meirw byth fyw; pe na buasai ei yn adgyfodiad, nis gallent byth gyfodi; oni bae ei fod yn meddu agoriadau uffern a marwolaeth (*Dad.* i. 18). nis gallem byth dori trwy fariau marwolaeth na phyrth uffern.

11 I'r hon y'm gosodwyd i yn bregethwr, ac yn apostol, ac yn athraw y Cenhedloedd.

12 Am ba achos yr ydwyf hefyd yn dioddef y pethau hyn: ond [a]Phil. 3. 8, 10. nid oes arnaf gywilydd: [a]canys mi a wn i bwy y credais; ac y mae yn ddiammheu genyf ei fod [b]Salm 31. 5; Act. 7. 59; 1Pedr 4. 19. ef yn abl i gadw yr hyn [b]a roddais ato erbyn y dydd hwnw.

13 Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus, y rhai a glywaist genyf fi, [c]yn y ffydd a'r cariad *sydd* yn Nghrist Iesu. [c]1 Tim. 1. 14.

14 Y peth da a rodded i'w gadw atat, cadw [x]trwy yr Ysbryd Glân, [y]yr hwn sydd yn preswylio ynom. [x]Rhuf. 8. 13; [y]1Pedr 1. 22; 1oan 14. 17; Rhuf. 8. 11.

15 Ti a wyddost hyn, ddarfod i'r rhai oll sydd yn Asia droi oddi wrthyf fi; o'r sawl y mae Phygelus a Hermongenes.

16 [z]Rhodded yr Arglwydd drugaredd i [a]dŷ Onesiphorus; canys efe a'm llonodd i yn fynych, ac [z]Heb. 6. 10. [a]1Tim. 4. 19.

rhai a glywaist genyf fi, mewn ffydd a chariad.' Y mae "cadw" yn cydweddu â'r cyfeiriad at "roddi peth i'w gadw" yn y cyd-destyn. Y mae y Groeg am "ffurf" yn cael ei gyfieithu "esampl" yn 1 *Tim* i. 16, yr unig adnod arall lle y mae yn digwydd. 'Bydded y cyfryw gynllun ffurfiedig o fy ymadroddion iachus i, mewn cyferbyniad i'r athrawiaethau afiachus a ledaenid mor gyffredinol yn Ephesus y pryd hwnw, wedi ei argraphu yn ddwfn ar dy feddwl. *Yn y ffydd a'r cariad:* —yr elfen yn yr hon y cafodd fy ngeiriau le, ac ar yr hon yr ydwyt i gael argraph ddofn o honynt fel dy gynllun tumewnol, gan ffurfio dy broffes allanol yn ei ol, neu yn gyfattebol iddo. Yn ol y cynllun yr oedd efe i athrawiaethu, i ddysgyblu, ac i fucheddu. Yn lled debyg i hyn y mae Bengel yn egluro 1 *Tim.* i. 16.

14. *Y peth da:*—sef, "yr ymadroddion iachus y rhai a roddais i'w cadw atat;" *adn.* 13; *pen.* ii. 2. *Ynom:*—yn mhob credadyn, ac nid yn unig ynot ti a mi. Y mae preswyliad yr Ysbryd ynom yn ein galluogi i gadw ei air ef, yr hwn a roddwyd i ni gan Dduw i'w gadw.

15. *Rhai oll sydd yn Asia:* — rhaglawiaeth Asia. Y rhai oll sydd yno yn awr, pan oeddynt hwy yn Rhufain, a droisant oddi wrthyf fi y pryd hwnw. Yr oedd yn "gywilydd ganddynt fy nghadwyn i," mewn cyferbyniad i Onesiphorus; ni arosasant gyda mi, ond gadawsant fi: *pen.* iv. 16. Y mae yn bossibl mai yr achlysur iddynt droi oddi wrtho ef oedd iddo gael ei gymmeryd i fyny yn Nicopolis, i ba le yr oeddynt wedi ei hebrwng ef ar ei daith i Rufain; ond oddi yno troisant yn ol i Asia. Awgrymiad oedd hyn i Timotheus, yr hwn oedd yn awr yn Asia, i beidio bod yn debyg iddynt, ond yn hytrach i ddilyn esampl Onesiphorus, ac i ddyfod ato ef; *pen.* iv. 21. *Phygelus a Hermogenes:*—a enwir, hwyrach, fel personau y gallesid disgwyl pethau gwell oddi wrthynt: neu, hwyrach, fel rhai hollol adnabyddus i Timotheus, ac y bu efe a Paul yn ymddiddan yn eu cylch, pan oedd yr olaf yn Asia Leiaf.

16. *Rhoddea yr Arglwydd drugaredd:*—hyd yn oed fel ag yr oedd Onesiphorus wedi ymhelaethu mewn gweithredoedd o drugaredd. *I dŷ Onesiphorus.*—Nid oedd efe ei hun yn bresennol yn Ephesus y pryd hwnw; yr hyn sydd yn rhoddi cyfrif am y dull o ymadroddi: *pen.* iv. 19. O'r braidd y buasai y teulu yn cadw ei enw ar ol marwolaeth y meistr, fel y tybia Bengel ei fod. Nid ydym yn cael mewn un lle fod Paul yn gweddïo dros y meirw: yr hyn sydd yn ddinystriol i'r dybiaeth a gefnogir gan Alford hefyd, ei fod ef wedi marw. Y mae Duw yn bendithio, nid yn unig y dyn duwiol ei hun, ond ei holl deulu. *Fy nghadwyn i.*—Yr oedd Paul yn yr ail garchariad, fel yn ei garchariad cyntaf, yn

11. *Yr hon.* — I gyhoeddi yr hon efengyl. *Pregethwr.* — Groeg: 'cyhoeddwr.' Defnyddir dau air yn y Testament Newydd am "bregethu:" un yn arwyddo cyhoeddi hysbysiad swyddol o ewyllys neu drefniadau y llywodraeth. Person o urddas yn unig a osodid yn y swydd hon. Anfonid ef hefyd fel rhagredegwr "o flaen wyneb" brenhinoedd a thywysogion pan ar ymweled âg unrhyw ran o'r deyrnas, i gyhoeddi eu dyfodiad, er mwyn i bob parotoadau angenrheidiol gael eu gwneyd ar y ffyrdd ac yn y trefydd, i roddi groesawiad teilwng iddynt. Yr oedd hyn yn *two* angenrheidiol, am fod y ffyrdd dwyreiniol yn gyffredin yn ddrwg iawn. Arwydda y gair arall, "dwyn cenadwri dda" yn swyddol. Dengys y cyntaf urddas y gwaith; yr olaf ei natur. Cyfieithir y cyntaf yn gyffredin yn "bregethu," a'r llall yn "efengylu." *Athraw y Cenhedloedd:* —(1 *Tim.* ii. 7.) Y mae yn dwyn ei esampl ei hun yn mlaen yn yr adnod hon, ac yn *adn.* 12, fel cynllun i Timotheus fel "pregethwr" cyhoeddwyd, "apostol," neu genhadwr o le i le, ac "athraw," i ddysgu ei braidd yn, breifat gyda diwydrwydd.

12. *Am ba achos:*—am achos yr efengyl, yr hon y'm gosodwyd i'w phregethu: *adn.* 10, 11. *Yr ydwyf hefyd yn dioddef:*—heb law fy llafur fel cenhadwr. Yn ol cyfieithiad Ellicott, 'Yr ydwyf yn dioddef hyd yn oed y pethau hyn;' y dioddefiadau cyssylltiedig â fy ngharchariad: *adn.* 8, 16. *Nid oes arnaf gywilydd:*—ac na fydded arnat tithau gywilydd: *adn.* 8. *Canys.*—"Y mae ymddiried gyda golwg ar y dyfodol yn gyru cywilydd ymaith"—*Bengel. Mi a wn:*—er nad ydyw y byd yn ei adnabod ef: *Ioan* x. 14; a xvii 25. *I bwy.*—Yr wyf yn gwybod y fath Dduw ffyddlawn i'w addewid ydyw efe: *pen* ii. 13. Nid dyweyd y mae, 'Mi a wn pa fodd y credais,' ond, "mi a wn i bwy y credais." Gall ffydd wan ymaflyd mewn Gwaredwr cryf. *Credais.*—Yn hytrach, 'ymddiriedais;' gan gario allan y gyfelybiaeth o ddyn yn rhoddi ei drysor i'w gadw i berson ag y mae ganddo bob ymddiried ynddo. *Y mae yn ddiammheu genyf:*—*Rhuf.* viii 38 *Ei fod ef yn abl:*—er gwaethaf yr holl elynion lliosog sydd o'm hamgylch. *I gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw.*—Groeg: 'yr hyn a roddais iddo i'w gadw;' y corph, yr enaid, a'r ysbryd, y rhai a roddais i Dduw i'w cadw: 1 *Thes.* v. 23; 1 *Pedr* iv. 19. Felly y dywedodd Crist ei hun wrth farw, "O Dad! i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd;" *Luc* xxiii. 46. "Y mae Duw yn rhoddi ei air i'w gadw;i ni; yr ydym ninnau yn rhoddi ein hysbryd i'w gadw iddo yntau."—*Grotius.* "Y dydd hwnw:"—dydd ei ymddangosiad: *adn.* 18; *pen.* iv. 8.

13. *Bydded genyt ffurf.*—Yn hytrach, fel y Groeg, 'cadw gynllun o'r ymadroddion iachus, y

nid oedd gywilydd ganddo fy nghadwyn i.

17 Eithr pan oedd yn Rhufain, *efe* a'm ceisiodd yn ddiwyd iawn, ac a'*m* cafodd.

18 Rhodded yr Arglwydd iddo [a] gael [b] trugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw: a maint a wnaeth efe o wasanaeth yn Ephesus, goreu y gwyddost ti.

[a] Salm 130. 3, 4; Eph. 2. 3.

PENNOD II.

1 *Ei annog i ddianwadalwch, ac i barhau; ac i wneuthur rhan gweinidog ffyddlawn yr Arglwydd, gan gyfranu gair Duw yn iawn, a gochelyd siaradach ofer* 17 *Am Hymeneus a Philetus.* 19 *Sod sylfaen yr Arglwydd yn sior,* 22 *Y mae yn dysgu iddo beth sydd i'w ochelyd ac i'w ddilyn; a pha fodd y gweddai i weinidog yr Arglwydd ymddwyn.*

TYDI gan hyny, fy mab, [a] ymnertha yn y gras sydd yn Nghrist Iesu.

[a] Heb. 2. 4; 2 Cor. 12. 9, 10; Eph. 6. 10.

2 A'r pethau a glywaist genyf trwy lawer o dystion, [b] traddoda y rhai hyny i ddynion ffyddlawn, y rhai a fyddant gymmhwys i ddysgu ereill hefyd.

[b] 1 Tim. 1. 18; 5. 22.

3 Tydi gan hyny [c] goddef gystudd, megys [d] milwr da i Iesu Grist.

[c] 1 Cor 13. 7; Iago 1. 12 [d] 2 Cor. 10. 3—5; Eph. 6. 11—18; Luc 8. 14; 1 Tim. 6. 9—12.

4 Nid yw neb a'r sydd yn milwrio, [e] yn ymrwystro â negeseuau y bywyd *hwn;* fel y rhyngo fodd i'r hwn a'i dewisodd yn filwr.

[e] Luc 8. 14;

5 Ac od ymdrech neb hefyd, ni choronir ef onid ymdrech yn gyfreithlawn.

cael ei rwymo gyda chadwyn wrth y milwr oedd yn ei wylio.

17. *Efe a'm cafodd* :—yn y brifddinas, liosog ei thrigolion. Felly caffed yntau, yn ei dreial, "drugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw," pan y bydd holl fodau rhesymol y greadigaeth wedi eu casglu ynghyd.

18. *Rhodded yr Arglwydd iddo* :—yn gystal ag i'w "deulu;" *adn.* 16. "Yr Arglwydd :"—yr hwn sydd yn gwobrwyo caredigrwydd a wneir i'w ddysgyblion, fel pe y gwnaethid iddo ef ei hun: *Mat.* xxv. 45. *Gan yr Arglwydd.*—Y mae "yr Arglwydd" yn cael ei roddi yma yn lle "ganddo ef ei hun," a chwanega at ddifrifwch a phwyslais yr ymadrodd: 2 *Thes.* iii. 5. *A maint a wnaeth efe o wasanaeth:* — 'pa gynnifer o weithredoedd gwasanaethgar a wnaeth efe.' Dichon fod hyn yn cynnwys y gwasanaeth a wnaeth efe i ereill, yn gystal ag i Paul. *Goreu y gwyddost ti.*—Yn hytrach fel y Groeg: 'Ti a wyddost yn well' nag y gallaf fi ddyweyd wrthyt, gan dy fod di yn drigiannydd mwy rheolaidd yn Ephesus na mi.

PENNOD II.

1. *Tydi gan hyny* :—gan ddilyn fy esampl (*pen.* i. 8, 12), ac esampl Onesiphorus (*pen.* i. 16—18), a gochelyd esampl y rhai a'm gadawsant i: *pen.* i. 15. *Fy mab.*—Defnyddir yr enw hwn ganddo i ddangos ei deimlad serchog tuag at Timotheus, ac i ddylanwadu arno i ufuddhau i'w gynghorion. Fel mab, disgwylid iddo efelychu ei dad. *Ymnertha:* — yn llythyrenol, 'Gwisger di â nerth.' Bydded genyt nerth, a dangos dy fod yn ei feddu; yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall ei fod yn dymuno iddo fyned yn mlaen gan barhau i ennill nerth. *Yn y gras* :—yr elfen yn yr hon y mae nerth y credadyn yn cael ei fodoloaeth. Cym. *pen.* i. 7: "Duw a roddes i ni ysbryd nerth."

2. *Trwy lawer o dystion* :—yn mhresennoldeb llawer o dystion; sef, yr henuriaid, ac ereill, oedd yn bresennol ar ei ordeiniad: 1 *Tim.* iv. 14; vi. 12. *Traddoda*:—mewn ymddiried, fel pethau i'w cadw: *pen.* i. 14. *Ffyddlawn.*—Y cymmhwysder mwyaf angenrheidiol i fod mewn personau yr ymddiriedir rhywbeth gwerthfawr iddynt i'w gadw. *Y rhai* :—Groeg: 'personau,' y cyfryw ag a fyddant gymmhwys i'w dysgu hwynt i ereill hefyd. Fel hyn y mae yn parotoi y ffordd i gymmhell y ddyledswydd o oddefgarwch ffyddlawn: *adn.* 3—13. Dylit ystyried y ffaith dy fod nid yn unig i "gadw yr hyn a roddwyd atat" i ti dy hun, ond hefyd i'w drosglwyddo yn ddiffwg i ereill; y rhai yn eu tro a gyflawnant yr un swydd, fel cymmhelliad cryf i oddefgarwch. Y mae hyn mor bell oddi wrth gefnogi traddodiadau yn awr, fel y mae yn hytrach yn ein dysgu mor ansicr oedd y cyfryw ddull i gadw gwirioneddau dadguddiedig—yn dibynu, fel yr oedd, ar ofal pob person yn nghadwyn yr olyniaeth; ac mor ddiolchgar y dylem fod am fod Duw ei hun wedi rhoddi y Gair ysgrifenedig i ni, yr hwn sydd yn rhydd oddi wrth y cyfryw berygl.

3. *Tydi gan hyny goddef gystudd.*—Nid ydyw "Tydi gan hyny" yn y llaw-ysgrifau hynaf; a darllenant, 'Goddef gystudd gyda' (mi). "Cymmer dy ran mewn dioddef."—*Conybeare a Howson.*

4. Yn ol cyfieithiad Alford, "Nid oes un dyn tra yn gwasanaethu fel milwr." *Negeseuau, &c.* —Gorchwylion masnachol, neu unrhyw orchwylion ereill heb law gwasanaeth milwraidd. *I'r hwn a'i dewisodd* :—y cadfridog, yr hwn a'i rhestrodd ef gyntaf yn filwr. Gwneuthurwr pebyll oedd Paul wrth ei gelfyddyd: *Act.* xviii. 3. Gan hyny, yr hyn a waherddir yma ydyw, nid pob math o orchwylion oddi eithr gorchwylion crefyddol, ond 'ymrwystro' gyda hwynt. "Nid oedd yn oddefol i'r milwyr Rhufeinaidd i ddilyn un alwedigaeth; megys masnachaeth, amaethyddiaeth, llaw-gelfyddyd, &c., i'w rhwystro yn eu mil iaeth. Y mae yr apostol yn cymmhwyso y gyfraith Rufeinaidd ynghylch y milwyr at weinidogion yr efengyl, ac yn gwarafun iddynt ddilyn y cyfryw negeseuau bydol, ag sydd yn rhwystr iddynt ymroddi yn holloli'r gwaith tra phwysfawr. Y mae gwaith y weinidogaeth o'r canlyniad mwyaf, ac yn gofyn y llafur a'r ymdrech mwyaf ymroddgar, dyfal, a gorchestol."—*Charles.*

5. *Ac.*—"Yn mhellach." *Od ymdrech neb.*—Yn ol cyfieithiad Alford, "Od ymdrech neb yn y campau;" sef, campau mawrion cenhedlaethol Groeg. *Ni choronir ef* :—hyd yn oed er iddo ennill y fuddugoliaeth. *Onid ymdrech yn gyfreithlawn* :—gan gyflawni holl ammodau yr ymdrechfa yn fanwl (gan ymgadw o fewn terfynau yr yrfa, ac wedi ymddiosg o'i dillad), a'r paroto adan ar ei chyfer; sef, gyda golwg ar gymmedroldeb mewn bwyta ac yfed, eneiniad, ymarferion corphorol, diweirdeb, a gweddeidd-dra, &c.

6 Y llafurwr sydd yn llafurio, sydd raid iddo yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.

7 Ystyria yr hyn yr ydwyf yn
[f]Gen. 41.38, 39; Salm 119. 73, 125.144; Esa. 28. 26; Luc 21. 15; Act. 7. 10.
ci ddywedyd; [f]a'r Arglwydd a roddo i ti ddeall yn mhob peth.

8 Cofia gyfodi Iesu Grist o had Dafydd, o feirw, yn ol fy efengyl i:

9 Yn yr hon yr ydwyf yn goddef cystudd hyd rwymau, fel
[g]Act. 28 31.
drwg-weithredwr; [g]eithr gair Duw nis rhwymir.

10 Am hyny yr ydwyf yn goddef pob peth er mwyn yr etholedigion, fel y gallent hwythau gael yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist Iesu, gyda gogoniant tragwyddol.

11 Gwir *yw* y gair: [h]Canys os buom feirw gydag ef, [i]byw fyddwn hefyd gydag *ef:*
[h]Rhuf. 6. 5, 8. [i]Ioan14.19.

12 Os [k]dioddefwn, [l]ni a deyrnaswn gydag *ef:* os gwadwn *ef*, yntau hefyd a'n gwâd ninnau:
[k]Mat.19.28, 29. [l]Diar. 30. 9; Mat. 10.33

13 Os ŷm ni heb gredu, [m]*etto* y
[m]Esa. 25 1; Mat.24.35.

6. *Sydd raid iddo yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.*—I'r hwn "sydd yn llafurio" y perthyna yr hawl o gyfranogi "yn gyntaf o'r ffrwythau:" gan hyny, os dymuni gyfranogi yn gyntaf o'r wobr, na fydded i ti laesu yn dy lafur. Esboniad Conybeare ar "yn gyntaf" yw, "o flaen y dyn diog."

7. *Ystyria yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd.*—Ystyria rym yr eglurhâd a roddais oddi wrth y milwr, yr ymdrechwr yn y campau, a'r amaethwr, fel y mae yn gymmhwysiadol atat ti yn dy weinidogaeth. *A'r Arglwydd a roddo i ti, &c.*—Yn y llaw-ysgrifau hyuaf, darllenir "canys yr Arglwydd a rydd i ti ddeall." 'Gelli ddeall fy meddwl fel ag i'w gymmhwyso atat ti dy hun yn bersonol; canys yr Arglwydd a rydd ddeall i ti 'yn mhob peth' pan y gofynir ganddo ef.' Nid dirnadaeth ddeallawl, ond cymmhwysiad o'r gwirioneddau a amlygwyd trwy gyffelybiaeth ato ef ei hun yn bersonol, oedd yr hyn yr oedd arno eisieu i'r Arglwydd ei roddi iddo.

8, Yn hytrach fel y Groeg: 'Cofia i Iesu Grist gyfodi o feirw.' 'Cofia i Grist adgyfodi, fel ag i'w ddilyn ef. Megys ag y cyfodwyd ef o feirw, felly os ewyllysi gyfranogi o'i "fywyd" ef ar ol ei adgyfodiad, rhaid i ti yn awr gyfranogi o'i farwolaeth ef, *adn.* 11. Y mae y ferf yn y Groeg yn cynnwys y cymmeriad sefydlog a ennillwyd gan yr Iesu fel Gwaredwr wedi cyfodi o feirw, a'n hymddiried sefydlog ninnau ynddo ef am fywyd tragwyddol fel y cyfryw. Y mae adgyfodiad Crist yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn modd arbenig fel y gwirionedd yr ymosodid arno yn awr (*adn.* 18), a'r un cymmhwysaf i gymmhell Timotheus i sefydlogrwydd mewn cyd-ddioddef â Paul yn achos yr efengyl. Gwel y sylw ar *adn.* 3. *Had Dafydd.*—Yr unig achrestr (mewn cyferbyniad i'r "achau anorphen" (1 *Tim.* i. 4), sydd yn werth meddwl am dani; canys y mae yn profi mai yr Iesu ydyw y gwir Fessiah. Y mae absennoldeb y fannod yn y Groeg, a'r ffurf hon "o hâd Dafydd" (cymmharer *Rhuf.* i. 3), yn cynuwys fod y geiriau, yn ol pob tebygolrwydd, yn rhan o gredo fer anysgrifenedig oedd mewn arferiad yn mhlith Cristionogion y pryd hwnw. Trwy ei farwolaeth, rhoddodd sicrwydd i ni ei fod yn wir ddyn, a thrwy ei adgyfodiad rhoddodd sicrwydd i ni ei fod yn wir Dduw. Mai nid am ei bechod ei hun y croeshoeliwyd ef, a ymddengys oddi wrth ei adgyfodiad: dengys y ffaith ei fod wedi ei groeshoelio ei fod hefyd wedi diddef dros bechod, er nad oedd pechod ynddo; a phe buasai pechod ynddo, nis gallasai wneyd iawn drosto. *Fy efengyl i:*—yr hon a bregethais bob amser.

9. *Yn yr hon.*—Wrth gyhoeddi "yr hon" efengyl. *Yr ydwyf yn goddef cystudd:*—yn llythyrenol, "drwg." Yr ydwyf yn dioddef 'drwg' fel pe byddwn yn "ddrwgweithredwr." *Rhwymau.*—Gwel y sylw ar *pen.* i. 16. *Eithr gair Duw nis rhwymir.*—Er fod fy mherson yn rhwym, nid ydyw fy nhafod a fy ysgrif-bin yn rhwym: *pen.* iv. 17; *Act.* xxviii. 31. Neu y mae yn cyfeirio, nid yn unig at ei waith ef ei hun yn cyhoeddi yr efengyl, er ei fod mewn "rhwymau," ond at y rhyddid a fwynheid gan ereill i'w lledaenu, hyd yn oed er fod ei allu ef i'w lledaenu yn awr wedi ei gyfyngu: *Phil.* i. 18. Y mae hefyd yn awgrymu i Timothens, gan ei fod yn rhydd, y dylai efe gyflawni ei weinidogaeth gyda mwy o egni a ffyddlondeb.

10. *Am hyny.*—O herwydd yr awydd cryf yr wyf yn ei deimlo am i'r efengyl gael ei lledaenu. Ceir prawf o'r awydd hwn yn *adn.* 9. *Yn goddef.*—Nid yn unig yr ydwyf wedi dioddef llawer hyd yma yn ewyllysgar, ond yr ydwyf yn barod i ddioddef llawer etto yn ewyllysgar, os bydd eisieu. *Yr etholedigion:*—er mwyn yr eglwys; holl aelodau corph ysbrydol Crist: *Col.* i. 24. *Hwythau:*—yn gystal a mi fy hun. Etholedigion Duw, y rhai sydd etto heb eu dychwelyd a'r rhai sydd eisoes wedi eu dychwelyd. *Iachawdwriaeth.....gogoniant.*—Nid yn unig gwaredigaeth oddi wrth ddigofaint, ond gogoniant mewn teyrnasu gydag ef am dragwyddoldeb: *adn.* 12. Gogoniant ydyw cyflawn ddadblygiad o'r iachawdwriaeth: *Act.* ii. 47; *Rhuf.* viii. 21—24, 30; a *Heb.* ix. 28. Felly "gras a gogoniant"—dadblygiad yw yr olaf o'r cyntaf: *Salm* lxxxiv. 12.

11. *Gwir yw y gair:*—Groeg: 'ffyddlawn yw y gair.' *Canys.*—Canys y mae yn wirionedd, "os buom feirw gydag ef," y cawn "fyw hefyd gydag ef;" neu, mewn geiriau ereill, os ydyw marwolaeth Crist dros bechod wedi bod yn effeithiol i'n dwyn ni i farw i bechod yn y byd hwn, yr ydym yn sicr o gael byw gydag ef mewn gogoniant yn y nefoedd. Gwel y sylwadau ar *Rhuf.* vi. 5—11.

12. *Dioddefwn:*—yn hytrach, gan mai yr un gair Groeg a ddefnyddir yma ag *adn.* 10, "Os goddefwn (gydag ef)," &c.: *Rhuf.* viii. 17. *Ni a deyrnaswn gydag ef.*—Braint neilltuol yr eglwys etholedig, sydd yn awr yn goddef gyda Christ, ydyw cael teyrnasu gydag ef yn y nefoedd. Gwel y sylw ar 1 *Cor.* vi. 2. Y mae "teyrnasu" yn rhywbeth mwy nag "iachawdwriaeth" neeth: *Rhuf.* v. 17; *Dad.* iii. 21; v. 10; xx. 5. *Gwadwn:*—â geiriau ef y mae "credu â'r galon" yn dilyn *adn.* 12. Cymmhaler y cyferbyniad, "cyffesu â'th enau" a "chredu yn dy galon;" *Rhuf.* x. 9, 10. *Yntau hefyd a'n gwâd ninnau.*—*Mat.* x. 33.

13. *Os ŷm ni heb gredu.*—"Os ydym ni yn

mae efe yn aros yn ffyddlawn: nis gall efe ei wadu ei hun:

13 Dwg y pethau hyn ar gôf, gan orchymyn ger bron yr Arglwydd, na byddo iddynt ymryson ynghylch geiriau, *yr hyn* nid yw fuddiol i ddim, *ond* i ddadymchwelyd y gwrandawyr.

15 Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn "brofedig gan Dduw, yn weithiwr difeil, yn iawn-gyfranu gair y gwirionedd.

[a] Act. 2. 22. Rhuf. 14. 18.

16 Ond halogedig ofer-sain, gochel: canys cynnyddu a wnant i fwy o annuwioldeb.

17 A'u hymadrodd hwy a ysa fel cancr: ac o'r cyfryw rai y mae Hymeneus a Philetus;

---

anghredinwyr (yn llythyrenol, yn 'anffyddlawn'), y mae efe yn aros yn ffyddlawn;" *Deut.* vii. 9, 10. Yn y llaw-ysgrifau hynaf darllenir, 'Canys nis gall efe (y mae yn ammhossibl iddo wneyd) wadu ei hun.' Nis gall efe fod yn anffyddlawn i'w air y bydd iddo yntau wadu y rhai sydd yn ei wadu ef, ac arddel yn nydd y farn y rhai a'i harddelant ef yn y byd hwn: *Rhuf.* iii. 3. Y mae tri pheth yn ammhossibl i Dduw—marw, dyweyd celwydd, a chael ei dwyllo. Nid gwendid ydyw yr ammhossibilrwydd hwn, ond gallu a mawrhydi anfeidrol. Hefyd, awgrymir, mewn dull anuniongyrchol, fod y gwirionedd ei fod ef yn ffyddlawn i'w addewidion iddynt hwy yn ddefnydd cysur cryf i'r credinwyr; ac ar yr un pryd na ddylent dybied, o herwydd fod dynion yn newid ac yn gwrthgilio oddi wrth achos Crist, y gall yntau newid yn gyffelyb. Ymddengys fod y geiriau hyn wedi eu bwriadu fel rhybudd i Timotheus i fod yn sefydlog yn y ffydd.

14 *Y pethau hyn*:—y pethau a grybwyllwyd ganddo yn *adn.* 8—13. *Gan orchymyn*:—Groeg: 'gan dystiolaethu yn wastadol;'—gan eu tyngheu hwynt. *Ger bron yr Arglwydd.*—1 *Tim.* v. 21. *Na byddo iddynt ymryson ynghylch geiriau*:—yn hytrach, 'ymryson gyda geiriau;' 'na byddo iddynt gario rhyfel geiriau yn mlaen' (*adn.* 23, 24, a 1 *Tim.* vi 4), pan y bydd pyngciau hanfodol crefydd o dan sylw: *adn.* 17, 18, ac *Act.* xviii. 15. *'Yr hyn nid yw fuddiol i ddim*: —*h.y.*, nid yw yn atteb un dyben daionus. *Ond i ddadymchwelyd y gwrandawyr*:—*h.y.*, i wneyd drwg i'r gwrandawyr trwy eu dyrysu a siglo eu ffydd yn y gwirionedd: nid yn unig nid ydyw yn adeiladu, ond y mae yn tynu i lawr. Gwel y sylw ar 2 *Cor.* xiii. 10.

15. *Bydd ddyfal*:—Groeg: 'bydd o ddifrif;' neu 'yn ddiwyd.' *I'th osod*:—Groeg: 'cyfliwyno,' neu 'roddi,' fel yn *Rhuf.* xii. 1. *Dy hun*:—fel person gwahanol i'r rhai y cyfeiriwyd atynt yn yr adnod o'r blaen. *Profedig.*—Y mae y gair hwn yma yn arwyddo yr un peth a chymmeradwy: un wedi ei brofi ac wedi sefyll y prawf. Gan hyny, yr un peth yw "profedig gan Dduw" a chymmeradwy gan Dduw. Defnyddir ef yma mewn ystyr gyferbyniol i'r gair "anghymmeradwy" yn *Titus* i. 16. *Yn weithiwr.*—Gair cyffredinol am unrhyw fath o lafurwr, a ddefnyddir am athrawon, hwyrach, oddi wrth y ddammeg yn *Mat.* xx. *Difeil*:—digywilydd, di-warth: yr ystyr yw, gweithiwr nad oes arno gywilydd o'i waith yn pregethu yr efengyl; neu yn weithiwr nad oes achos iddo gywilyddio o blegid ei waith. "Gweithiwr difeil," sef diwarth i achos Duw, ac athrawiaeth yr efengyl, o ran ei athrawiaeth, ei iawn-gyfraniad o honi, a'i holl ddull a'i agwedd wrth athrawiaethu; â'i holl rodiad a'i fucheddiad sanctaidd, duwiol, yn addas i'r efengyl."—*Charles.* "Yn weithiwr na bydd dy gydwybod di dy hun yn peri cywilydd i ti."—*Bengel.* Cyferbynir ef â "gweithiwyr twyllodrus;" 2 *Cor.* x. 13.

Iawn-gyfranu: —'iawn-drin' [*Vulg.*]; 'iawn-weinyddu' [*Alford*]; yn llythyrenol: 'tori yn union' (fel ffordd, &c.) Y mae y gyffelybiaeth wedi ei chymmeryd oddi wrth waith tad neu oruchwyliwr (1 *Cor.* iv. 1) yn tori ac yn cyfranu bara i'w blant: *Luc* xiii. 42. Defnyddir ef gan y Deg a thrigain, yn *Diar.* iii. 6, a xi. 5, am "uniawnu ffordd;" felly tybia Bengel fod Paul yma yn dymuno i Timotheus barotoi ffordd uniawn i "'air y gwirionedd," a rhodio yn bur ar hyd y ffordd hono, heb droi o honi ar dde nac aswy, trwy ymgadw rhag "dysgu dim amgen;" 1 *Tim.* i. 3. Ymddengys yr un gyffelybiaeth o "ffordd" yn y Groeg am "gynnyddu." Gwel y sylw ar *adn.* 16. Y cyferbyniol i "iawn-drin," neu "iawn-weinyddu," ydyw "trin gair Duw yn dwyllodrus;" 2 *Cor.* iv. 2. *Gwirionedd*:—yr efengyl; a elwir felly o blegid mai tystiolaeth wir am Grist ydyw, yr hwn yw "y gwirionedd" y tystiolaethir am dano.

16. *Ofer*:—y gwrthwyneb i'r "gwirionedd;" *adn.* 15. *Sain*:—llais uchel: *Tit.* iii. 9. *Gochel*:—yn llythyrenol: 'sef uwch law,' ar wahân, a chan ragori ar y rhai oeddynt yn mynychu ynghylch geiriau. *Cynnyddu*:—Groeg: 'gan fyned' yn mlaen. Yn llythyrenol: 'tori yn mlaen.' Cyffelybiaeth oddi wrth gloddwyr yn 'tori' ymaith bob rhwystr o flaen dyddin ar ei thaith yn erbyn y gelyn. Cymmerasant arnynt eu bod yn "cynnyddu;" ond yr unig gynnydd a wnant ydyw "cynnyddu i fwy o annuwioldeb."

17. *Ysa*:—yn llythyrenol: 'a gaiff borfa,' fel yn *Ioan* x. 9. Y gyffelybiaeth ydyw cynnydd difaol madredd y cnawd. Cymmerant arnynt roddi "porfa" ysbrydol cyfoethog i'w dysgyblion; ond yr unig "borfa" a roddant iddynt yw cancr ysbrydol, yr hwn sydd yn dira eu rhanau bywydol. *Cancr.*—Cyffelybir cyfeiliornadau a heresiau i gancr, am eu bod yn ymledu, yn llygru, ac yn dinystrio eneidiau dynion. *Hymeneus.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* i. 20. Ymddengys iddo, ar ol ei esgymundod, gael ei ail dderbyn i'r eglwys, a'i fod drachefn wedi ei phoeni. *Philetus.*—Y mae yn debygol mai dysgybl oedd Philetus i Hymeneus, â'r hwn y cyssylltir ef yma, a'r hwn a enwir hebddo ef mewn epistol boreuach 1 *Tim.* i. 20. "Ymddengys mai personau oedd yn a gredent Ysgrythyrau yr Hen Destament ond a'u camddeonglent hwynt, gan esbonio ym aith athrawiaeth yr adgyfodiad, a haeru nad yw yn ddim ond math o gyffelybiaeth. Ffurf o es gymmundod oedd y traddodiad i Satan, yn yr ho y cyhoeddid fod y person wedi ei ddarostwng sefyllfa pagan; ac yn yr oes apostolaidd canlynic ef gan effeithiau goruwchnaturiol neu wyrthio ar gyrph y personau a draddodid felly."—*Waterland.* Y mae Walchius o'r farn eu bod wreiddyn Iuddewig: cyssyllta Hammond hwyn â'r Gnosticiaid: Vitringa (gyda llai o debygol rwydd) â'r Saduceaid. Deallent yr adgyfodiad

[o]1 Cor. 15. 12: [c]Col. 3. 1. [p]Diar. 10. 25: Mat. 7. 25; Eph. 2. 20. [q]Num. 16 5; [r]Luc 13. 27. [s]Mat. 23. 19; Act. 9. 14 [t]Iob 28. 23; Rhuf. 12. 9; Eph 4. 17—32.

18 Y rhai o ran y gwirionedd a gyfeiliornasant, gan ddywedyd ddarfod yr [o]adgyfodiad eisoes; ac y maent yn dadymchwelyd ffydd rhai.

19 Eithr [p]y mae cadarn sail Duw yn sefyll, a chanddo y sêl hon; [q]Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef. A, [r]Phob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddi wrth [s]anghyfiawnder.

20 Eithr mewn tŷ mawr nid oes yn unig lestri o aur ac o arian, ond hefyd o bren ac o bridd; [t]a rhai i barch, a rhai i [t]Rhuf. 9. 21 —23. ammharch.

21 Pwy bynag gan hyny a'i glanhao ei hun oddi wrth y pethau hyn, efe a fydd yn llestr i barch, wedi ei sancteiddio ac yn gymmhwys i'r Arglwydd, [u]wedi [u]1Tim. 3. 17; Titus 3. 1, 8. ei ddarparu i bob gweithred dda.

fel yn arwyddo gwybodaeth a phroffes o'r grefydd Gristionogol, neu adeniadigaeth a dychweliad.

18. *A gyfeiliornasant*:—Groeg, 'a fethasant y nod.' Gwel y sylw ar 1 *Tim.* vi. 21. *Ddarfod yr adgyfodiad eisoes*:—wedi cymmeryd lle eisoes. Yr oedd yr heresi Gnosticaidd eisoes wedi dechreu, ac yn dangos ei hun mewn gwahanol ffurfiau. Yr oeddynt yn "gŵyrdroi" (2 *Pedr* iii. 16) geiriau Paul ei hun (*Rhuf.* vi. 4; *Eph.* ii. 6; *Col.* ii. 12) "i'w dinystr eu hunain," fel pe na buasai yr adgyfodiad yn ddim ond adgyfodiad ysbrydol eneidiau o farwolaeth pechod. Cymmharer 1 *Cor.* xv. 12, lle y mae yn dangos fod ein holl obeithion am ogoniant dyfodol yn gorphwys ar wirionedd llythyrenol yr adgyfodiad. Nid ydyw credu ei fod eisoes wedi cymmeryd lle (fel yr oedd y Seleuciaid neu yr Hermiaid yn credu, yn ol Awstin) yn ddim amgen na'i wadu yn ei wir ystyr. *Yn dadymchwelyd*:—gan geisio "dymchwelyd" "y sail" ar yr hon yn unig y gall ffydd orphwys yn ddiogel: *adn.* 19; cym. *Titus* i. 11.

19. *Eithr*.—Er hyd yn oed i'w "ffydd" gael ei ddymchwelyd, "y mae cadarn sail Duw yn sefyll" yn ddisigl. Felly y dylid cyfeithu y Groeg. Y *sail* yma yw "yr eglwys" [*Alford*] "colofn a sylfaen y gwirionedd" (1 *Tim.* iii. 15) Crist ei hun yw 'sylfaen' yr eglwys: 1 *Cor.* iii. 11. Ar sefydlogrwydd "yr eglwys" y mae sefydlogrwydd yr athrawiaeth o dan sylw yn dibynu: *adn* 18. Fel hyn y mae y "tŷ" (*adn.* 20) yn atteb i'r "sail:" y mae yn cael ei wneyd i fyny o'r rhoddeligion, y rhai a "adwaenir" a (gydnabyddir, a addefir: *Salm* i. 6; *Mat.* vii. 23; *Ioan* x. 14; 1 *Cor.* viii. 3) gan yr Arglwydd fel yr "eiddo ef:" a'r rhai a barhânt hyd y diwedd, er i ereill gyfeiliorni oddi wrth y ffydd;" *Mat.* xxiv. 24; *Ioan* x. 28: *Rhuf.* x. 38, 39, a 1 *Ioan* ii. 19. Tystia Bengel mai wrth y "sail" y golygir ffyddlondeb d gyfnewid Duw i'w addewidion i'w etholedigion. Y mae y golygiad hwn yn gyferbyniad rhagorol â'r ymadawiad oddi wrth y gwirionedd y cyfeirir ato yn *adn.* 18. Er iddynt hwy wadu y ffydd, nid ydyw ffyddlondeb Duw yn ddim llai: cymmharer *adn.* 13. *A chanddo*:—"wrth weled ei fod yn ei feddu."—*Ellicott. Sêl*;—arysgrifen. "Cerfid arysgrifeniadau yn fynych ar 'gareg sylfaen;' *Dad.* xxi. 14."—*Alford.* Cyttuna hyn â'r golygiad mai yr eglwys yw y "sail;" *Eph.* ii. 20. Os cymmerir ei fod yn golygu "ffyddlondeb digyfnewid Duw," ystyrir y sêl fel yn gyssylltiedig âg addewid ei gyfammod, gyda'r arysgrif, ar un ochr o'i harwyneb crwn. "Yr Arglwydd a edwyn ('adwaenir' ydyw yn y Deg a Thrigain yn *Num.* xvi. 5, at yr hyn y cyfeiria Paul yma, gan ei newid at ei bwrpas trwy yr Ysbryd) y rhai sydd iddo ef." Ar yr ochr arall, "A phob un sydd yn enwi Crist —fel ei Arglwydd (*Salm* xx. 7), neu yn pregethu yn ei enw: *Ier.* xx. 9. *Ymadawed*:—Groeg: 'safed draw.' *Oddi wrth anghyfiawnder.—Esa.* lii. 11. Dichon fod cyfeiriad yn y ddau ymadroddd at *Num.* xvi. 5, 26, yn y Deg a Thrigain. Y mae gwaith Duw a gw ith dyn yn cael eu nodi allan. Y mae Duw yn dewis ac yn adwaen ei etholedigion; ein gwaith ni yw credu, a thrwy gymmhorth yr Ysbryd ymadael oddi wrth bob anwiredd, yr hyn sydd brawf eglur ein bod yn eiddo yr Arglwydd: cymmharer *Deut.* xxix. 29; *Luc* xiii. 23—27. Pan ofynwyd i Lucian gan ei erlidwyr, "Un o ba wlad ydwyt ti?" efe a attebodd, "Cristion ydwyf fi." "Beth yw dy alwedigaeth?" "Cristion ydwyf fi." "O ba deulu?" "Cristion ydwyf fi." Nid ydyw y dyn hwnw yn haeddu cael ei alw yn Gristion, yr hwn sydd, trwy ei "anghyfiawnder," yn dianrhyddeddu Crist, awdwr yr enw. "Ymgysurai Blandina yn nghanol ei phoenau trwy ddywedyd, "Cristion ydwyf fi, a chyda ni, Gristionogion, nid oes un drwg yn cael ei wneyd." "—*Eusebius.* Y mae cyfeiliornad oddi wrth y ffydd yn sicr o gael ei ddilyn yn fuan, gan ymroddiad i gyflawni pechodau gwarthus. Felly y bu gyda'r gau-athrawon: *pen.* iii. 2—8, 13.

20. *Tŷ mawr*:—*h. y.*, yr Eglwys Gristionogol weledig: 1 *Tim.* iii. 15. "Y mae Paul yn llefaru, nid am y rhai oddi allan, ond am deulu gweledig Duw."—*Calvin.* Felly dammeg y rhwyd a fwriwyd i'r môr, yn casglu pob rhyw beth, da a drwg; megys ni ellir didoli y rhai da o blith y rhai drwg tra y byddont o dan y tonau, ond yn unig wedi eu dwyn i'r lan, felly y mae credinwyr ac anghredinwyr yn parhau yn yr un eglwys, hyd nes yr ysgarir hwynt oddi wrth eu gilydd am dragwyddoldeb yn nydd y farn. Y mae arch Noah yn gysgod o'r eglwys: megys ag yr oedd yn y flaenaf, y llewpard a'r myn, y blaidd a'r oen yn trigo ynghyd; felly yn yr olaf, y mae y cyflawn a'r drygionus, a llestri o aur ac o arian gyda llestri o bres ac o bridd."—*Jerome.* Cymmharer *Mat.* xx. 16. *Llestri o aur ac o arian*:—gwerthfawr a chymmhwys i ddal tân. *O bren ac o bridd*:—diwerth, gwan, a hawdd eu llosgi: 1 *Cor.* iii. 12—15; xv. 47. *Rhai...rhai*:—y blaenaf—yr olaf. *I ammharch.*—*Diar.* xvi. 4; *Rhuf.* ix. 17—23.

21. *Pwy bynag.....a'i glanhao ei hun oddi wrth y pethau hyn.*—Yn ol y Groeg: 'Os bydd i unrhyw un (tydi, Timotheus) lanhau ei hun (fel ag i ymneilltuo) oddi wrth y rhai hyn ("llestri" i ammharch). *Wedi ei sancteiddio.*—Wedi ei neilltuo fel un hollol gysegredig i'r Arglwydd. *Ac yn gymmhwys.*—Y mae rhai o'r llaw-ysgrifau hynaf yn gadael yr "ac" allan. *I'r Arglwydd*:—sef, meistr "y tŷ," yr Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd Paul ei hun yn llestr felly: bu unwaith yn mhlith y llestri pridd, ond wedi hyny daeth trwy ras yn llestr o aur. *Wedi ei ddarparu i*

22 Ond chwantau ieuengctid, ffo *oddi wrthynt:* a dilyn gyfiawnder, ffydd, cariad, tangnefedd, gyda'r rhai sydd yn [x] galw ar yr Arglwydd o galon bur.

[x] Salm 66. 16, 19; 1 Tim. 2. 8.

23 Eithr gochel ynfyd ac annysgedig gwestiynau, gan wybod eu bod yn magu ymrysonau.

[y] Dan. 6. 20; 1 Tim. 6. 11.

24 Ac [y] ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson; ond bod yn dirion wrth bawb, yn athrawus, yn ddioddefgar,

25 Mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus; *i edrych* a roddo Duw iddynt hwy ryw amser [z] edifeirwch i gydnabod y gwirionedd;

[z] 1 Tim 3. 7; Mat 21. 32.

26 A bod iddynt ddyfod i'r iawn [a] allan o fagl diafol, y rhai a ddelid ganddo wrth ei ewyllys ef.

[a] Esa. 8. 15; Act. 26. 18.

PENNOD III.

1 *Y mae yn ei rybuddio ef am amseroedd blinion: 6 yn dangos pa fath ydyw gelynion y gwirionedd; 10 yn ei osod ei hun yn esampl iddo; 16 ac yn canmawl yr Ysgrythyr Lan.*

GWYBYDD hyn hefyd, y daw amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf. B. A. 68.

bob gweithred dda:— *pen.* iii. 17; *Titus* iii. 1. Cyferbynier *Titus* i. 6.

22. *Ond:*—mewn cyferbyniad â "phob gweithred dda;" *adn.* 21. *Ieuengctid.*—Dyn ieuange oedd Timotheus y pryd hwn: 1 *Tim.* iv. 12. *Ffo.*—Y mae llawer o chwantau, a "ffoi" oddiwrth y rhai yw ein diogelwch mwyaf: *Gen.* xxxix. 12. Dylid gochelyd yr holl achlysuron i bechod. Oddi wrth gymmeriad ymattaliol Timotheus (1 *Tim.* v. 23), y mae yn debygol mai nid chwantau cnawdol; ond uchelfryd, balchder, tra-arglwyddiaeth, byrbwyldra, ymryson, a gwagogoniant, y rhai y gellir, gyda phriodoldeb, eu cyfrif yn mhlith chwantau ieuengctid (*Ioan* ii. 14—16), yw y pet au y rhybuddir yma yn eu herbyn; er eu bod yn debygol fod yr Ysbryd yn bwriadu i'r rhybudd gynnwys y naill a'r llall yn gymmhwysiad at yr eglwys yn gyffredinol. *Cyfiawnder.*—Y cyferbyniol i "anghyfiawnder:" *adn.* 19: cymmharer 1 *Tim.* vi. 6. *Tangnefedd gyda:*—yn hytrach na arferer y rhagwahaniad: "tangnefedd gyda'r rhai sydd yn galw ar yr Arglwydd o galon bur;" 1 *Tim.* i. 5; *Eph.* vi. 5: a *Col.* iii. 22. "Yr ydym i 'garu' pawb; ond nid ydyw yn bossibl i ni fod mewn heddwch gyda phob dyn, canys y mae hyn yn gofyn undeb amcan a barn. Y rhai sydd yn galw ar yr Arglwydd o galon bur (mewn cyferbyniad i'r gau-athrawon y rhai nid oeddynt yn meddu ond yn unig rhith duwioldeb: *pen.* iii. 5, 8; *Titus* i. 15, 16) yn unig sydd yn meddu yr undeb hwn."—*Theodoret.* Cymmharer *Rhuf.* xii 18.

23. *Annysgedig:*—Groeg: 'annysgyhlediq;" heb fod o duedd i feithrin dysgyblaeth Gristionogol a moesau sanctaidd: *Diar.* v. 23. "Annysgiedig gwestiynau" yw cwestiynau ffol, anorphen; pethau nad ydynt fuddiol, na: yn tueddu at adeiladaeth sylweddol. *Gan wybod:*—gan dy fod yn gwybod eu bod yn magu ymrysonau, y mae hyny yn chwanegu at dy rwymedigaeth i'w gochelyd.

24. *Ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson.*—"Rhaid i was yr Arglwydd efelychu ei feistr mewn gochelyd ymrysonau ceerus, er y dylai ymdrechu yn wrol a phenderfynol o blaid y ffydd: *Iudas* 3; *Mat.* xii. 9. *Yn dirion:*—yn fwyn, hynaws, caruaidd, hawddgar. *Yn ddioddefgar.*—Groeg: 'yn amyneddgar mewn dioddef cam, tuag at wrthwynebwyr.' Y mae i fod yn "dirion," fel na byddo iddo achlysuro un drwg; yn "amyneddgar," fel y gallo ddioddef drwg. *Yn athrawus.*—Yn awyddus a diwyd i ddysgu gwirioneddau yr efengyl i ereill.

25. *Yn dysgu:*—Groeg: 'gan ddysgyblu,' gan ddysgu trwy gerydd; yr hyn y mae y rhai sydd yn trafod cwestiynau diles yn sefyll mewn angen am dano. Gwel y sylw ar *adn.* 23, a 1 *Tim.* i. 20. *Rhai gwrthwynebus:*—rhai o farn wahanol. *Edifeirwch:*—yr hyn yr oeddynt yn sefyll mewn angen am dano mewn trefn i gael "adnabyddiaeth gyflawn (fel y mae y Groeg am 'gydnabyddiaeth') o'r gwirionedd (1 *Tim.* ii. 4), gan fod eu meddyliau yn llygredig (*pen.* iii. 8), a'u buchedd eu hunain yn anfoesol. Y mae yr achos o'r anwybodaeth sydd yn codi y cyfryw 'gwestiynau' yn foesol, gan fod ei eisteddle yn yr ewyllys, ac nid yn y deall: *Ioan* vii 17. Gan hyny, y peth blaenaf y maent yn sefyll mewn angen am dano ydyw edifeirwch. Nid dyn, ond Duw yn unig a all roddi hwnw: *Act.* v. 21.

26. *A bod iddynt ddyfod i'r iawn:*—Groeg: 'deffro i sobrwydd;' sef, o'r meddwdod ysbrydol trwy yr hwn y syrthiasant i fagl diafol. *Magl.*—*Eph.* vi. 11; "cynllwy ion diafol;" 1 *Tim.* iii. 7; vi. 9. *Y rhai a ddelid ganddo wrth ei ewyllys ef:*—fel ag i ddilyn ewyllys y gelyn 'hwnw.' Y mae v Groeg yn nodi Satan yn bennodol fel hyn. Modd bynag, y mae rhesymau gwahanol yn sefyll am dano "ef" ac "er;" ac y mae y Groeg am "a ddelid" (yn ol Alford, "wedi ei gymmeryd yn gaeth") yn arwyddo, nid "wedi eu cymmeryd yn gaeth i'w dinystrio," ond i'w "cadw yn fyw," fel yn *Luc* v. 10; "Ti a ddeli ddynion i'w cadw hwynt i fywyd." Gan hyny, y cyfiei hiad goreu ydyw, 'Fel y deffroant allan o fagl diafol, wedi eu cymmeryd fel caethion cadwedig (ac ewyllysgar) ganddo ef gwas yr Arglwydd: *adn.* 24), fel ag i ddilyn ei ewyllys ef (yr 'Arglwydd;' *adn.* 24, neu 'Duw;' *adn.* 25). Y mae yma ddau ddrwg: 'y fagl' a'r 'cwsg,' oddi wrth y rhai y maent yn cael eu gwaredu: a dau dda, at y rhai y symmudir hwynt, 'dihuniad,' a 'gwaredigaeth.' Yn lle caethiwed Satan, cânt fwynhau y caethiwed rhydd ac ewyllysgar o ufudd-dod i Grist: 2 *Cor.* x. 5. Duw sydd yn gweithio yn gyntaf gan 'roddi edifeirwch' (*adn.* 25); yna y mae gwaith ei was yo canlyn, ac yn sicr o gael ei goroni â llwyddiant, gan arwain y dychweledigion o hyny allan i "fyw i ewyllys Duw;" *Act.* xx. 14; 1 *Pedr* iv. 2.

Pennod III.

1. Yn y Groeg, dechreuir yr adnod hon gydag 'ond;' yr hwn a ddefnyddir ganddo i gyferbynu y brophwydoliaeth bruddaidd a gynnwysir yn y bennod, â'r gobaith a amlygwyd ganddo yn niweddi y bennod o'r blaen. Y *daw.*—Groeg: 'a

2 Canys bydd dynion â'u serch arnynt eu hunain, yn ariangar, yn ymffrostwyr, yn feilchion, yn gablwyr, yn anufuddion i rieni, yn anniolchgar, yn annuwiol,

3 Yn angharedig, yn tori cyfammod, yn enllibaidd, yn anghymmesur, yn anfwyn, yn ddiserch i'r rhai da,

4 Yn fradwyr, yn waedwyllt, yn chwyddedig, yn caru melus-chwant [a] yn fwy nag yn caru Duw;

5 [b] A chanddynt rith duwioldeb,

[a] 1 Ioan 2. 15, 16.
[b] Ezec. 33. 3, —32; Mat. 23. 7, 8.

ddeuant yn fuan;' a 'ddeuant yn annisgwyliadwy.' *Amseroedd enbyd.*—Yn llythyrenol, 'amseroedd anhawdd,' yn y rhai y mae yn anhawdd gwybod beth i'w wneyd: 'amseroedd gofidus.' *Dyddiau diweddaf.*—"Ymddengys oddi wrth holl gyfatteb iaeth y Testament Newydd (cymmh. 2 *Pedr* iii. 3; *Iudas* 8), mai y tymmhor y cyfeirir ato yma ydyw yr un dioed o flaen ail ddyfodiad Crist. Gan fod y dydd hwnw, a'r awr, yn guddiedig oddi wrth bob dyn, ac hyd yn oed oddi wrth y Mab ei hun (*Marc* xiii. 32), ni ddarfu ysbryd prophwydoliaeth, yr hwn yw Ysbryd y Mab, ddadguddio i'r apostolion ei le yn oesoedd amser. Cadwyd hwy, fel cenedlaethau dyfodol yr eglwys, i ddisgwyl am dano; a'r rhan amlaf, ysgrifenent a siaradent am dano fel digwyddiad oedd i gymmeryd lle yn fuan; nid, modd bynag, heb i'r Ysbryd roddi llawer o awgrymiadau digonol am gyfwng, a hwnw heb fod yn un byr, i gymmeryd lle yn gyntaf. Yn yr adnod hon, gosodir y dyddiau diweddaf hyn o flaen Timotheus fel rhai ar eu taith, ac yn wir fel rhai yr oedd eu harwyddion eisoes yn dechreu ymddangos."—*Alford.* Y mae yr "amseroedd diweddaf" (1 *Tim.* iv. 1) yn cyfeirio at dymmhor heb fod mor bell a'r "dyddiau diweddaf;" sef, dyddiau meithion ffyniant egwyddorion ac athrawiaethau cyfeiliornus eglwysi Rhufain a Groeg.

2. *Canys.*—Dengys y gair hwn fod yr apostol yma yn myned i roddi rheswm dros ei waith yn arfer yr ymadrodd "amseroedd enbyd." *Dynion:*—yn yr eglwys weledig. Cymmharer y rhestr yn *Rhuf.* i. 29, &c., lle y priodolir llawer o'r un pechodau i'r paganiaid; mewn effaith, ni bydd ddim yn amgen na gwrthgiliad at baganiaeth, ynghyd â'i holl dueddiadau bwystfilaidd; o herwydd hyn y defnyddir y gair "bwystfil" yn ddisgrifiadol o hono: *Dat.* xiii. 1, 11, &c.; a xvii. 3, 8, 11. *A'u serch arnynt eu hunain.*—Hunanoldeb ydyw gwreiddyn pob drwg. *Yn ariangar:*—yn caru arian yn fwy nag y maent yn caru Duw; ac yn gwneyd casglu cyfoeth daearol yn amcan pen af eu bywyd. Er fod perthynas agos rhwng cybydd-dod ac ariangarwch, y mae gwahaniaeth rhwng ddynt. Y cyntaf, medd Trench, ydyw y pechod mwyaf gweithredol; a'r diweddaf y mwyaf goddefol. Y mae y cyntaf yn ceisio ymgyrhaedd at yr hyn nid yw ganddo, ac yn y ffordd hon i gael chwaneg; y mae y llall am ei gadw, ac felly chwanegu yr hyn sydd ganddo eisoes. Y mae y naill, yn ei ddull o feddiannu, yn hyf ac ymosodol yn fynych; a gall fod mor rydd mewn gwasgaru a chyfranu ag oedd o awyddus ac anghyfiawn i feddiannu. Nid ydyw y cybydd yn rhwym o gadw yn ei feddiant yr hyn fydd ganddo. Disgrifir Catilina gan Cicero fel hyn:—"Pwy mor grintachlyd mewn trawsfeddiant? pwy mor rydd a llaw-agored mewn haelfrydedd?" Yn unol â hyn, yr ydym yn cael (yn 1 *Cor.* v. 10) y cybyddion yn gyssylltiedig â "chribddeilwyr;" a "chybydd-dod" (*Marc* vii. 22) yn gyssylltiedig â "lladradau." Ond tra y mae cybydd-dod yn gyssylltiedig yn fynych âg anwiredd, twyll, lladrad, a thrais, y mae ariangarwch yn fynych yn ofnus a gofalus, a gall lechu o dan yr ymddangosiad o gyfiawnder ac uniondeb. Fel hyn, yr oedd y Phariseaid yn ariangar (*Luc* xvi. 14). Nid oedd y cymmeriad hwn yn anhawdd ei gymmodi â phroffes allanol o sancteiddrwydd; ond buasai y pechod arall (cybydd-dod) yn gwbl anghymmodol â phroffes felly. Gallai cymmeriad ariangar orwedd dan ymddangosiad Phariseaidd: ond buasai yn ammhossibl cyssoni proffes grefyddol gyda'r cymmeriad a ddynodir gan y gair "cybydd." *Yn ymffrostwyr:*—gwâg-ymffrostwyr; yn ymffrostio eu bod yn meddu yr hyn nad oedd ganddynt. *Yn feilchion.*—Yn llythyrenol, 'yn ymddangos fel pe byddent,' yn rhyw fodau uwch law eu cyddynion.' *Yn gablwyr.*—Yn hytrach, 'athrodwyr,' neu yn dyweyd yn ddrwg yn erbyn eu cyddynion. *Yn anufuddion i rieni.*—Gellir ffurfio barn am nodwedd yr amseroedd hyd yn oed oddi wrth ymddygiad plant at eu rhieni. *Yn anniolchgar.*—Y mae ein rhwymedigaeth i fod yn ddiolchgar am bob daioni a dderbyniwn gan Dduw a dynion yn nesaf at rwymedigaeth plant i fod yn ufudd i'w rhieni. *Yn annuwiol:*—yn anghrefyddol, yn ddiystyr o ddyledswyddau crefydd.

3. *Yn angharedig.*—Yn ol y Groeg, 'yn amddifad o serch naturiol.' *Yn tori cyfammod:*—yn hollol ddiystyr o'r rhwymedigaethau mwyaf cyssegredig. Neu, yn hytrach, fel y mae y Groeg yn cael ei gyfeithu, yn *Rhuf.* i. 31, yn 'anghymmodlawn.' *Yn enllibaidd.*—Enllib ydyw y sarhâd hwnw a roddir mewn gair neu ymddygiad, trwy yr hwn y niweidir enw neu gymmeriad dyn arall. Y gair a ddefnyddir yma gan Dr. Morgan yw 'gau-gyhuddwyr;' neu un yn dweyd yn ddrwg am arall heb achos: 1 *Tim.* iii. 11; *Tit.* ii 3. *Yn anghymmesur, yn anfwyn* (ffyrnig):—yn feddal ac yn galed ar unwaith: yn foethus tuag atynt eu hunain, ac yn annynol tuag at ereill. *Yn ddiserch i'r rhai da.*—Y cyferbyniol i "garu daioni;" *Titus* i. 8.

4. *Yn fradwyr.*—Brâd ydyw dichellwaith, neu ystyrw gelyn i niweidio dan rith cyfeillgarwch. *Yn waedwyllt:*—yn fyrbwyll yn eu gweithredoedd, neu yn eu tymmherau; yr hyn sydd yn cyrhaedd i'r un peth. "Arwydda y gair bod yn gryf, yn ddi-bwyll, yn ddibarch o feddyliau ereill, ac anystyriol o ganlyniadau yr hyn a wneiont iddynt hwy eu hunain, ac i ereill. Ffrwyth balchder, hunan-dyb, a diffyg o ofn duwiol."—*Charles.* *Yn chwyddedig.*—Yn llythyrenol, 'wedi ymlenwi i fyny' gan falchder, fel mwg yn eu dallu hwynt. *Yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw.*—Y mae cariad at bleser yn dinystrio cariad at Dduw.

5. *Rhith:*—tebygrwydd allanol. *Wedi gwadu.*—wedi ymwrthod. *Ei grym hi:*—ei dylanwad bywiol, adgenhedlol, a sancteiddiol *Gochel:*—yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall fod rhai o'r cyfryw gymmeriadau eisoes yn yr eglwys.

eithr wedi gwadu ei grym hi: a'r rhai hyn gochel di.

6 Canys o'r rhai hyn y mae y rhai *sydd* yn ymlusgo i deiau, ac yn dwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau, wedi eu harwain gan amryw chwantau,

7 Yn dysgu bob amser, ac heb [c] allu dyfod un amser i [c] wybodaeth y gwirionedd.

8 Eithr megys y safodd Iannes ac Iambres yn erbyn Moses, felly y mae y rhai hyn hefyd yn [d] sefyll yn erbyn y gwirionedd; dynion o feddwl llygredig, yn anghymmeradwy o ran y ffydd.

9 Eithr nid ânt rhagddynt yn mhellach: canys eu hynfydrwydd fydd amlwg i bawb, megys y bu yr eiddynt hwythau.

10 Eithr ti a lwyr-adwaenost fy nysgeidiaeth, fy muchedd, fy arfaeth, ffydd, hirymaros, cariad, amynedd,

[c] 1 Tim. 2 25.

[d] Act. 13. 8—11.

6. *O'r rhai hyn:*—o'r rhai a ddisgrifiwyd yn *adn.* 5. *Yn ymlusgo:*—yn lladradaidd. *Llwythog o bechodau.*—Y mae hyn i'w gymmhwyso at y "gwragedd," cydwybodau y rhai oedd yn llwythog o bechodau, ac felly yn ysglyfaeth barod i'r gau-athrawon, y rhai a addawent esmwythder i'w cydwybodau pe byddai iddynt eu canlyn hwy. Y mae cydwybod ddrwg yn arwain yn rhwydd i "long-ddrylliad am y ffydd;" 1 *Tim.* i. 19. *Amryw chwantau.*—Nid yn unig chwantau cnawdol, ond hefyd nwyd ynfyd am gyfnewidiad mewn athrawiaeth a dull o ddysgu; rhedeg ar ol dynion a phyngciau newyddion, y rhai sydd yn eu tynu hwynt yn y cyfeiriadau mwyaf gwrthwynebol ac anghysson.

7. *Yn dysgu bob amser:*—rhyw bwngc newydd, yn unig er mwyn cywreinrwydd, er ei fod yn hollol groes i'r hyn y proffesent o'r blaen ei gredu. *Gwybodaeth.*—Groeg: 'y wybodaeth berffaith;' yr unig ddiogelwch yn erbyn pyngciau newyddion cyfeiliornus. Yr oedd Gnosticiaeth yn ymafiyd mewn modd neilduol yn y rhyw fenywaidd; felly hefyd y mae Pabyddiaeth yn gwneyd yn yr oesoedd hyn.

8. *Eithr.*—Yn ol cyfieithiad Alford, 'yn awr.' Nid ydyw yn rhyfedd fod yn awr y fath wrthwynebwyr i'r gwirionedd, canys yr oedd eu rhagysgogdau mewn bod yn yr hen oesoedd. *Iannes ac Iambres.*—Enwau traddodiadol swynwyr yr Aipht, y crybwyllir am danynt yn *Ecsod.* vii. 11, 22. Dywed Origen: "Nid ydyw yr hyn a ddarllenwn yn St. Paul, 'Safodd Iannes ac Iambres yn erbyn Moses,' i'w gael yn yr Ysgrythyrau cyffredin, ond mewn llyfr neilduol a elwir 'Iannes ac Iambres:'" ond y mae yr hanes a roddir gan Theodoret yn debygcach o fod yn gywir, fod Paul wedi cael gwybod eu henwau, nid allan o'r Ysgrythyrau sanctaidd, ond trwy draddodiadau yr Iuddewon, yn enwedig gan fod yr enwau i'w cael yn *Nhargum Jonathan* ar *Ecsod.* vii. 11; a xxii. 22. Yr hanes traddodiadol am Iannes ac Iambres, wedi ei gasglu allan o'r llyfrau Rabbinaidd, sydd fel y canlyn:—"Meibion Balaam oeddynt. Rhagfynegasant i Pharaoh am enedigaeth Moses, mewn canlyniad i'r hyn y rhoddodd efe y gorchymyn am ladd plant yr Hebreaid: ac o hyny allan ymddangosasant fel cynghorwyr i lawer o'r drwg a ddigwyddodd i Israel yn yr Aipht, yn yr anialwch, ac ar ol eu mynediad allan o'r Aipht. Dywed un, adroddiad feul bod wedi boddi yn y Môr Coch, ac adroddiad arall eu bod wedi eu lladd yn y terfysg a gymmerodd le ar ol gwneyd y llo aur, yr hwn a wnaed yn ol eu cynghor hwy." Eusebius, gan ddyfynu o Numenius, a ddywed:—"Iannes ac Iambres oeddynt yn ysgrifenyddion cyssegredig (sef urdd isel o offeiriaid yn yr Aipht) medrus mewn swynyddiaeth." Deongla Hiller "Iannes" o iaith Abyssinia, yn 'hudgastiwr,' ac "Iambres" yn 'swynwr:' *Act.* xiii. 8. *Yn sefyll yn erbyn.*—Hwy a wnaethant felly trwy geisio ymgystadlu â Moses. Felly y dengys y gau-athrawon ryfeddodau twyllodrus yn y dyddiau diweddaf: *Mat.* xxiv. 24; 2 *Thes.* ii. 9; *Dad.* xiii. 14, 15. *Anghymmeradwy:*—"anghymmhwys i brofi y gwirionedd:" *Rhuf.* i. 28."—*Bengel.* Cymmer Alford ef yn oddefol, "heb ddal y prawf;" wedi ei wrthod pan brofwyd ef: *Ier.* vi. 30.

9. *Nid ant rhagddynt yn mhellach.* Er y goddefir iddynt fyned rhagddynt, neu 'gynnyddu' (*pen.* ii. 16) am dymmhor "i fwy o annuwioldeb;" etto y mae y terfyn olaf yn bod, tu hwnt i'r hwn nis gallant fyned "rhagddynt yn mhellach:" *Iob* xxviii. 11; *Dad.* xi. 7, 11. Hwy a "ânt rhagddynt waeth-waeth" (*adn.* 13); ond o'r diwedd attelir hwy am byth rhag hudo ereill. "Pan nas gall malais ymledu, y mae yn fynych yn myned yn ddyfnach i lawr."—*Bengel.* *Eu hynfydrwydd.*—Yn llythyrenol, eu 'gwalligofrwydd;' er eu bod hwy yn tybied eu hunain yn ddoethion. *Fydd amlwg.*—Groeg: 'a ddygir allan o dywyllwch i oleuni dydd.'—*Bengel.* *Megys y bu yr eiddynt:*—megys y bu yr eiddo y swynwyr, pan nid yn unig nas gallent yn hwy geisio ymgystadlu â Moses mewn anfon y cornwyd; ond disgynodd y cornwyd arnynt hwy eu hunain; felly y bu gyda golwg ar y llau: *Ecsod.* viii. 18; a ix. 11.

10. *Llwyr-adwaenost.*—Yn llyth., 'a lwyr-ganlynaist i fyny,' ac a olrheiniaist; sef, gyda'r amcan o fy nilyn i fel dy gynlluu, mor bell ag yr wyf fi yn dilyn Crist. Yr un geiriau sydd yn y Groeg ag yn *Luc* i. 3; "Wedi i mi ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad." Diau i'w fam Löis, a'i nain Eunice, ei gynghori ef i ddilyn esampl Paul yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau fel gweinidog yr efengyl. Nid oedd efe etto wedi bod yn gydymaith i Paul yn amser yr erledigaethau a ddioddefodd yr apostol yn Antiochia, Iconium, a Lystra (*Act.* xiii. 56; a xiv. 5, 19), ond yn *Act.* xvi. 1—3 y crybwyllir gyntaf am dano ef fel y cyfryw. Modd bynag, yr oedd efe eisoes yn "ddysgybl," pan gyflwynwyd ef i'n sylw (yn *Act.* xvi. 1—3); a chan fod Paul yn ei alw ef "fy mab naturiol yn y ffydd," rhaid ei fod wedi ei ddychwelyd trwy offerynoliaeth yr apostol cyn hyny—hwyrach yn ei ymweliad â'r manau hyny dair blynedd yn flaenorol. Trwy hyn y cafodd Timotheus wybodaeth am erledigaethau Paul, y rhai oeddynt yn destyn siarad cyffredinol yr eglwysi yn y parthau hyny o ddeutu amser ei drôedigaeth. Y mae y cyfeiriad digwyddiadol atynt yma yn ffurfio cyd-darawiad rhwng yr hanes a'r epistol, yr hwn sydd yn myned yn mhell i brofi

11 *Yr* erlidiau, *y* dioddefiadau, y rhai a ddigwyddasant i mi yn Antiochia, yn Iconium, yn Lystra; pa erlidiau a ddioddefais: [a] Gen. 48.16; Salm34.19; [b] eithr oddi wrthynt oll y'm Jer. 1. 19; Dan 6. 27. gwaredodd yr Arglwydd.

12 [c] Iē, a phawb ar sydd yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu, [d] a erlidir. [c] 2 Cor. 1.12 [d] Salm37.12

13 Eithr drwg-ddynion a thwyllwyr a ânt rhagddynt waeth-waeth, gan dwyllo, a chael eu twyllo. —15; Mat. 5. 10 —12.

dilysrwydd y naill a'r llall. Ni buasai ffugiwr yr epistolau o'r Actau byth yn cyfeirio at wybodaeth Timotheus am erlidigaethau, pan nad ydyw y wybodaeth hono yn cael ei chrybwyll yn bendant yn yr hanes, ond yn unig i'w chael trwy gasgliad anuniongyrchol. Hefyd, y mae gadael Derbe allan yma yn yr epistol yn hollol gysson â'r ffaith nad ydyw yr hanes yn crybwyll iddo ddioddef un erlidigaeth yn Derbe, er fod Derbe a Lystra yn gyffredin yn cael eu henwi gyda'u gilydd. Y rheswm pa ham y mae yn crybwyll am yr erlidigaethau a ddioddefwyd ganddo cyn i Timotheus ddyfod yn gydymaith iddo, ac nid y rhai a ddioddefwyd ganddo ar ol hyny, oedd, fod Timotheus yn gydnabyddus â'r olaf fel "llygad-dyst," ac nad oedd un angen am i Paul eu dwyn ar gôf iddo: ond yr oedd Timotheus wedi olrhain y blaenaf drwy geisio gwybodaeth gan ereill, yn enwedig gan mai ar yr un mater ac yn yr un lle ag y cymmerasant hwy le, y dychwelwyd ef ei hun at yr Arglwydd. *Fy nysgeidiaeth:—h.y.*, fy athrawiaeth. *Fy muchedd:*—fy null o fyw. *Fy arfaeth.*—Defnyddir y gair hwn yn gyffredin i ddynodi bwriadau tragwyddol Duw. Ond yma, fel yn *Act.* xi. 23, defnyddir ef i osod allan benderfyniad calon Paul i lynu wrth yr Arglwydd. Fy nôd, neu fy mhenderfyniad diysgog yn fy swydd fel apostol, ac yn mhob peth a wnelwyf, ydyw, nid hunan-les, ond gogoniant Duw yn Nghrist. *Hirymaros:*—tuag at fy ngwrthwynebwyr a'r gau-athrawon; tuag at y brodyr, trwy gyd-ddwyn â'u gwendidau; tuag at yr annychweledig a'r cwympiedig pan yn ediffeiriol: *pen.* iv. 2; 2 *Cor.* vi. 6; *Gal.* v. 22; *Eph.* iv. 2; *Col.* iii. 12. *Cariad:*—at bob dyn. *Amynedd:*— goddefgarwch: parhau i wneuthur da yn ngwyneb trallodion: *adn.* 11; *Rhuf.* ii. 7.

11. *Y rhai:*—y cyfryw ag. *Antiochia:*—yn Pisidia: *Act.* xiii. 14; a xiv. 19, 21. Yr oedd yr achlysur o ymweliad cyntaf Paul â'r ddinas hon (*Act.* xiii. 14) yn dra phwysig a dyddorol. Dychwelwyd nifer mawr o'r Cenhedloedd drwy ei bregethau yn y synagog. Cynnhyrfodd hyn yr Iuddewon i godi erlidigaeth, a gyrasant ef o Antiochia i Iconium, ac wedi hyny erlidiasant ef hyd Lystra: *Act.* xiv. 19. Ar ei ddychweliad o Lystra, efe a ail ymwelodd âg Antiochia, i'r dyben o "gadarnhau eneidiau y dysgyblion, a'u cynghori i aros yn y ffydd;" *Act.* xiv. 21, 22. Fe gymmerodd y digwyddiadau hyn le pan oedd efe ar ei daith genhadol gyntaf, pan oedd Silas gydag ef, a Thimotheus, yr hwn oedd yn frodor o'r gymmydogaeth hon, newydd ei ddychwelyd at Gristionogaeth. Dengys y cyfeiriad yn yr adnod hon fod Timotheus yn gydnabyddus iawn â'r trallodion a ddioddefwyd gan yr apostol yn ystod ei ymweliad cyntaf âg Antiochia yn Pisidia. *Iconium.*—Saif y ddinas hon yn y rhan orllewinol o wastadedd eang ar fynydd-dir canolbarth Asia Leiaf, ac heb fod yn mhell i'r gogledd o res mynyddoedd y Taurus. Yn yr hen oesoedd, gelwid y dosbarth gwastad hwn yn Lycaonia. Dywed Xenophon mai tref yn Phrygia oedd Iconium; ond y mae yr holl ysgrifenwyr ereill yn siarad am dani fel yn Lycaonia, o'r hon yr oedd, mewn effaith, yn briddinas; *Act.* xiv. 1—5. *Lystra.*—Gorweddai y ddinas hon yn y rhan ddwyreiniol o wastadedd mawr Lycaonia; ac y mae pob lle i gredu mai yr un ydyw a'r lle a elwir yn bresennol yn *Bin-bir-kilisseh*, wrth droed mynydd pigfain a elwir *Karadagh*. Y mae yma weddillion llawer o eglwysydd; a cheir enwau esgobion Lystra yn nghofnodau y cynghorau boreuol. Yma yr enwaedwyd ar Timotheus, "o achos yr Iuddewon" oedd yn y llecoedd hyny (*Act.* xvi. 3); ac o'r fan yma y dechreuodd ei gyssylltiad â theithiau yr apostol Paul. Ni ddywedir yn bendant fod Paul wedi bod yn Lystra ar ol y tro hwn; ond y mae yn ymddangos braidd yn sicr, oddi wrth y disgrifiad cyffredinol o lwybr y drydedd daith genhadol (*Act.* xviii. 23), ei fod wedi bod yno. *Pa erlidiau:*—erlidiau mor ofidus. *Eithr oddi wrthynt oll y'm gwaredodd yr Arglwydd:*—(*pen.* iv. 17; 2 *Cor.* i. 10). Amcan yr apostol yn dyweyd hyn ydyw calonogi Timotheus i ddioddef erlidigaeth.

12. *Iē, a.*—Ystyriaeth chwanegol i Timotheus. Os "ewyllysia neb fyw yn dduwiol yn Nghrist," rhaid iddo wneyd ei feddwl i fyny i ddioddef erlidigaeth. Mor bell y dylai erlidigaeth fod oddi wrth beri tramgwydd i Timotheus, fel y dylai edrych arno fel un o nodau y duwiolion. Defnyddir yr un gair Groeg yn yr un ystyr yn *Luc* xiv. 28, 33; "A'i fryd ar [Groeg: 'yn ewyllysio'] adeiladu tŵ.....a bwrw y draul." *Byw yn dduwiol yn Nghrist:*—(*Gal.* ii. 20; *Phil.* i. 21). Nid oes dim duwioldeb allan o Grist. "Y mae y byd yn ymfoddloni yn rhwydd ar rith o grefydd, yr hon sydd yn dibynu arni ei hun; ond y mae y grefydd sydd yn derbyn ei grym yn uniongyrchol oddi wrth Grist mor gâs gan lawer o Gristionogion proffesedig yn y dyddiau hyn ag oedd hi gan yr Iuddewon gynt."—*Bengel. A erlidir:*—nis gall ysgoi erlidigaeth: *Gal.* v. 11. Y mae yr esgob Pearson yn profi dwyfol darddiad Cristionogaeth oddi wrth y ffaith fod o'i llwyddiant yn anesboniadwy ar y dybiaeth o'i bod o wreiddyn dynol. Nid oedd natur ei hathrawiaeth mewn un modd yn debyg o fod yn fantais i'w llwyddiant:—1. Yr oedd yn condemnio pob crefydd arall, ac yn eu plith rai oedd yn sefydledig er's oesoedd. 2. Y mae yn cynnwys gorchymynion hollol groes i gig a gwaed; megys, gorchymynion i farwhau chwantau y cnawd, i garu ein gelynion, ac i ddwyn y groes. 3. Y mae yn cyfnerthu y gorchymynion hyn, y rhai a ymddangosant yn afresymol, trwy addewidion a ymddangosant yn anghredadwy. Nid pethau o'r fath ag a roddant foddhâd i'n synwyrau; ond y cyfryw ag nas gellir eu cael hyd ar ol y bywyd hwn, oedd yn rhagdybied yr hyn a ymddangosai y pryd hwnw yn ammhossibl; sef, yr adgyfodiad. 4. Y mae yn rhagfynegu i'w chanlynwyr yr hyn a ymddangosai yn sicr o gadw y rhan fwyaf o'r byd rhag ei chofleidio; sef, "erlidigaeth."

13. Y mae yr adnod hon yn dyfod i mewn fel rheswm pa ham y dylid disgwyl erlidigaeth, ac

[h] 1 Tim. 4. 16. [i] 1 Thes. 2. 13. [k] Dan. 10. 21; Act. 17. 2. [l] Salm 19. 7; Ioan 5. 39, 40; [m] 1 Ioan 5. 11, 12.

14 Eithr [h] aros di yn y pethau a ddysgaist, ac a ymddiriedwyd i ti am danynt, [i] gan wybod gan bwy y dysgaist;

15 Ac i ti er yn fachgen wybod [k] yr Ysgrythyr Lân, [l] yr hon sydd abl i'th wneuthur di yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu.

[n] 2 Sam. 23. 2; Ioan 10. 35. [o] Salm 19. 7—11; Act. 20. 20, 27; 1 Cor. 12. 7.

16 [m] Yr holl Ysgrythyr *sydd* wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, [n] ac *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder:

y bydd i erledigaeth gynnyddu fwy-fwy fel y nesa y diwedd. "Bydd yr anghyttundeb rhwng goleuni a thywyllwch mor bell oddi wrth gael ei leihau, fel y gwaethyga."—*Alford.* *Drwgddynion:*—mewn cyferbyniad i'r "duwiol;" *adn* 12. *A thwyllwyr:*—yn llythyrenol, 'consurwyr.' Yr oedd consuriaeth yn ffynu yn Ephesus (*Act.* xix. 19), ac yr oedd yr holl Ephesiaid a dderbyniasant Gristionogaeth wedi ymwrthod â hi; ond yn awr, pan oedd Paul yn ysgrifenu i Ephesus, yr oedd arwyddion o ddychweliad at driciau "twyllodrus" i'w canfod. Y mae yn debygol y bydd dewiniaeth yn nodweddu y gwrthgiliad mawr diweddaf: *Dad.* xiii. 15; xviii. 23; xxii. 15. *A ant rhagddynt waeth-waeth:*—yn llythyrenol: 'a gynnyddant mewn drygioni.' Gwel y sylw ar *adn.* 9. Nid oes dim yn yr ymadrodd hwn yn wrthwyneb i'r adnod hono:—"yno, am ledaeniad y drwg y lleferir; yma, am ei fawredd."—*Alford.* *Gan dwyllo, a chael eu twyllo.*—"Y mae yn fwy anhawdd i'r hwn sydd unwaith wedi dechreu twyllo ereill, ymadferu oddi wrth gyfeiliornad, ac yn hawddach ganddo gofleidio cyfeiliornadau pobl ereill."—*Bengel.*

14. *Eithr aros di:*—beth bynag a wnant hwy. Y mae efe yma yn ail gymmeryd i fyny yr hyn y dechreuodd efe ei ddyweyd yn *adn.* 10. *A ddysgaist:*—genyf fi, dy fam, a'th nain: *pen.* i. 5; ii. 2. *Ac a ymddiriedwyd i ti:*—Yn ol cyfeithiad Alford, "A sicrhawyd i ti"—o'r Ysgrythyr: *adn.* 15. Ond casgla Macknight, oddi wrth *Gal.* ii. 7, fod y cyfeithiad cyffredin yn gywir. Pan welsant ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, a 1 *Tim.* i. 11; "Yn ol efengyl gogoneiant y bendigedig Dduw, am yr hon yr ymddiriedwyd i mi." *Gan bwy:*—rhif liosog, ac nid y rhif unigol: yn y llaw-ysgrifau hynaf, "gan pwy athrawon." Nid yn unig genyf fi, ond gan Löis ac Eunice.

15. *Er yn fachgen:*—yn llythyrenol: 'er yn faban.' Dylid dechreu dysgu plant mor foreu ag y byddont yn alluog i ddeall rhyw ychydig o natur yr addysg neu y wybodaeth a gyfrenir iddynt; ac y mae yr argraphiadau a dderbyniasant pan yn ieuainge yn debyg o lynu wrthynt tra y byddont byw. *Ysgrythyr Lân.*—Yr Hen Destament, yr hwn a ddysgid iddo gan ei fam Iuddewig. Fe welir fod yma gyd-darawiad anfwriadol â *pen.* i. 5; *Act.* xvi. 1—3. *Abl:*—ynddi ei hun fel dadguddiad perffaith o ewyllys Duw: er ei bod yn fynych, o herwydd pechodau dynion eu hunain, yn aneffeithiol i ddwyn dynion yn weithredol i afael âg iachawdwriaeth. *Ddoeth i iachawdwriaeth:*—*h.y.*, yn ddoeth i gaffael neu i ymafiyd yn yr iachawdwriaeth. Defnyddir y gair "doeth" yma mewn cyferbyniad i'r gair "ynfydrwydd" yn *adn.* 9. Yn "ddoeth" hefyd, i'w hestyn i ereill. *Trwy y ffydd:*—fel offeryn y ddoethineb hon. Nid oes gan yr hwn sydd heb ffydd na doethineb nac iachawdwriaeth. *Sydd yn:*—*h.y.*, yn ymorphwys ar Grist Iesu.

16. *Yr holl Ysgrythyr:*—Groeg: 'pob Ysgrythyr,' *h.y.*, pob rhan o'r Ysgrythyr. Nid yw y gair Groeg byth yn cael ei ddefnyddio am ysgrifeniadau yn gyffredinol, ond yn unig am yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Yr oedd y rhan fwyaf o lyfrau y Testament Newydd wedi eu hysgrifenu pan ysgrifenodd Paul ei epistol olaf hwn: felly y mae yn cynnwys, yn yr ymadrodd, "Yr holl Ysgrythyr sydd wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw," nid yn unig yr Hen Destament, yn yr hwn yn unig y dysgid Timotheus pan yn blentyn (*adn.* 15), ond hefyd llyfrau y Testament Newydd, fel y cydnabyddid hwynt gan yr eglwysi yn y rhai yr oedd dynion yn meddu dawn i wahaniaethu ysbrydion, ac felly yn alluog i wahaniaethu rhwng personau, geiriau, ac ysgrifeniadau gwir ysbrydoledig a rhai ffugiol. Meddwl Paul ydyw, 'Y mae yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac am hyny yn fuddiol. Nid ydyw ein bod ni heb weled un buddioldeb mewn unrhyw eiriau neu ranau o honi, yn profi nad ydym yn ysbrydoledig. Y mae yn "fuddiol," o herwydd ei bod "wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw;" ac "nid wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw;" o herwydd ei bod yn "fuddiol." A ganlyn ydyw y darnodiad rhagorol a roddir gan Knapp o ysbrydoliaeth. "Gweithrediad dwyfol anghyffredin ar athrawon crefydd tra yn cyfranu addysg, pa un bynag ai mewn geiriau ynte mewn ysgrifen, trwy yr hyn y dysgwyd hwynt pa beth, a pha fodd y llefarent, neu yr ysgrifenent. Cymmh. 2 *Sam.* xxiii. 1 · *Act.* iv. 25; 2 *Pedr* i. 21. Y mae yr 'ysbrydoliaeth' yn rhoddi awdurdod ddwyfol i holl eiriau yr Ysgrythyr, er i'r geiriau hyny fod wedi eu llefaru gan yr ysgrifenydd ei hun, ac heb eu dadguddio yn uniongyrchol gan Dduw, ond yn unig mewn amgylchiadau arbenig: 1 *Cor.* ii. 13. Priodolir 'ysbrydoliaeth' yma i'r ysgrifeniadau, 'yr holl Ysgrythyr,' ac nid i'r personau. Y cwestiwn ydyw, nid pa fodd y rhoddwyd ysbrydoliaeth: o blegid y geiriau, ac nid y dynion a'u hysgrifenasant, a ysbrydolwyd. Yr hyn y dylem ei gredu yw, ei fod ef wedi ei roddi, a bod pob rhan o'r ysgrifeniadau sanctaidd yn ysbrydoledig, er nad ydynt oll fel eu gilydd yn fater o ddadguddiad arbenig; a bod hyd yn oed y geiriau yn ysbrydoledig, gan fod Crist yn eu defnyddio hwynt (er enghraifft, gan Satan, ac yn *Ioan* x. 34, 35) i benderfynu cwestiynau o athrawiaeth ac ymarferiad. Y mae graddau o ddadguddiad yn yr Ysgrythyr, ond nid o ysbrydoliaeth. Nid oedd hyd yn oed yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain bob amser yn deall llawn ystyr y geiriau a leferid ganddynt trwy ddwyfol ysbrydoliaeth: 1 *Pedr* i. 10, 11, 12. Nid ydyw ysbrydoliaeth y geiriau yn arwyddo hyfforddiad mud-gelfyddydol, ond "y mae yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw," yn y fath fodd fel y mae pob peth ynddi—ei hadroddiadau, ei phrophwydoliaethau, ei dyfyniadau, a'r cwbl—y drychfeddyliau, y brawddegau, a'r geiriau, yn gyfryw ag y gwelodd efe yn oreu eu dodi yno. Drachefn, dichon ysbrydoliaeth gae. ei ganlyn gan ddadguddiad, neu beidio; ond y mae cymmaint o'i

[a]1Tim.6.11. [b]Act. 9. 36; Heb. 10.24. 17 Fel [c]y byddo dyn Duw y [p]berffaith, wedi ei [p]berffeithio bob gweithred dda.

PENNOD IV.

1 *Y mae yn ei annog ef i fod yn ofalus ac yn ddiwyd i gwblhau ei swydd: 6 yn ei rybuddio nesed oedd ei farwolaeth ef: 9 yn ewyllysio iddo ddyfod ato ef ar fyrder; 14 ac yn ei rybuddio ef i ochelyd Alexander y gôf.* 16 *Yn danpos iddo beth a ddigwyddasai iddo wrth ei atteb cyntaf: 19 ac ar ol hyny y mae efe yn dyweyd.*

B. A. 68.

[a]1Tim.5 21; 6. 13. YR [n]ydwyf fi gan hyny yn gorchymyn ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, [b]yr hwn a farna y byw a'r meirw [c]yn ei ymddangosiad a'i deyrnas; [b]Salm 1. 6; Mat.25.31, &c. [c]1 Thes. 4. 15, 16; Titus 2. 13.

2 [d]Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyda phob hir-ymaros ac athrawiaeth. [d]Salm 40.9; Ionah 3. 2.

3 Canys daw yr amser pryd na ddioddefont athrawiaeth iachus; eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrant iddynt eu hunain athrawon, gan fod eu clustiau yn merwino;

---

eisieu i ysgrifenu athrawiaethau hysbys neu ffeithiau awdurdodedig, ag i hysbysu gwirioneddau newyddion. *I athrawiaethu:*—Groeg: 'i ddysgu,' *h.y.*, i ddysgu i'r anwybodus wirioneddau mawrion a hanfodol Cristionogaeth—gwirioneddau na buasent yn eu gwybod heb hyny. Gwel y sylw ar *Rhuf.* i. 17. *I argyhoeddi:*—'i wrthbrofi.' Y mae y gair gwreiddiol a ddefnyddir yma yn dynodi fod y cerydd yn cael ei weinyddu gyda'r fath awdurdod ac effeithiolrwydd fel ag i ddwyn y troseddwr i argyhoeddiad o'i fai, fel y mae mewn ystyr cyfreithiol yn gosod allan: nid yn unig atteb, ond gwrthbrofi—cau genau gwrthwynebydd. *I hyfforddi:*—Groeg: 'i ddysgyblu' fel y mae tad yn dysgyblu ei blentyn. Gwel y sylwadau ar *pen.* ii. 15; *Eph.* vi. 4; *Heb.* xii. 5, 11: neu "ddysgyblu" trwy addysg, rhybudd, esampl, caredigrwydd, addewidion, a cheryddon. Cymmhar. esampl 1 *Cor.* v. 23. *Mewn:*—Groeg: 'addysg,' yr hon sydd yn gynnwysedig mewn cyfiawnder,' yn gyferbyniol i'r addysg mewn egwyddorion bydol: *Col.* ii. 20, 22.

17. *Dyn Duw.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* vi. 6. *Perffaith:*—*h.y.*, yn gyflawn, wedi ei gymmhwyso i barotoi ac i gyflawni pob 'gweithred dda,' pa un bynag ai Cristion anghyhoedd, ai gweinidog yr efengyl fyddo.

Pennod iv

1. *Yn gorchymyn:*—Groeg: 'yn tynghedu;' neu yn llythyrenol, 'yr ydwyf yn ddifrifol yn galw arnat i dystiolaethu.' *Gan hyny.*—Wedi ei adael allan o'r llaw-ysgrifau hynaf. *Yr Arglwydd Iesu Grist.*—Yn y llaw-ysgrifau hynaf, darllenir yn syml "Crist Iesu." *A farna.*—Crybwyllir am ei ordeiniad gan Dduw yn *Act.* x. 42; am ei barodrwydd neu ei benderfyniad i wneyd hyny yn 1 *Pedr* iv. 5; ac am y gweinyddiad o'i swydd yma. *Yn ei ymddangosiad:*—Yn y llaw-ysgrifau hynaf, darllenir "a" am "yn." Felly y cyfeirir at ei ymddangosiad yn ei natur, y drwg o hono, a'r canlyniadau peryglus o lynu wrtho, gyda'r amcan o'i gael oddi wrtho. *Gyda:*—Groeg: 'yn' (yr ysbryd yn yr hwn y dylid rhoddi yr annogaeth). *Phob hir-ymaros* (*pen.* ii. 24, 25, a iii. 10) *ac athrawiaeth.* Cymmharer *pen.* ii. 24; "yn athrawus." "Y Groeg am 'athrawiaeth' yma yw *didache*, ond yn *pen.* iii. 16, *didascalia. Didascalia* ydyw yr hyn a ddefnyddir yn: *didache* ydyw yr hyn a gyfrenir."—*Tittmann.*

3. *Canys daw yr amser pryd na ddioddefont athrawiaeth iachus:*—*h.y.*, fe ddaw yr amser pryd yr â hyd yn oed Cristionogion proffesedig mor adfeiliedig fel na ddioddefant addysg bur yr efengyl. "Arwydda hyn nid yn unig na theimlant un hoffder o 'athrawiaeth iachus,' ond y rhesymiadol, ymddyddanol, a dadleuol (gwel *Act.* xvii. 2, 18; xviii. 4, 19), at ddarlithoedd a roddwyd yn yr Eglwys Gristionogol. A ganlyn ydyw y disgrifiad a rydd Justyn Ferthyr o drefn yr addoliad cyhoeddus:—"Ar y Sabbath, ymgyferfydd pawb, a darllenir ysgrifeniadau yr apostolion a'r prophwydi; yna y traddoda y llywydd ddarlith: ar ei ol cyfyd pawb i fyny, a gweddïant; yna, cyfranogir o fara, a gwin, a dwfr; y llywydd hefyd a weddïa ac a rydd ddiolch, a chydsynia y bobl mewn modd difrifol, gan ddyweyd, Amen." Dyledswydd arbenig yr esgobion oedd pregethu; ond weithiau galwent ar y diaconiaid, ac hyd yn oed y lleygwyr, i bregethu. Yn hyn, dilynai yr eglwys arferiad y synagog: *Luc* iv. 17, 22; *Act.* xiii. 15, 16. *Bydd daer:*—*h.y.*, yn ymdrechgar, yn ddiwyd, ac yn ddifrifol yn holl waith y weinidogaeth. *Mewn amser, allan o amser:*—*h.y.*, bob amser; pa un bynag a edrychir ar dy waith yn pregethu yn amserol neu yn anamserol. "Yn union fel y mae y ffynnonau, er na bydd neb yn tynu dwfr o honynt, etto yn rhedeg; felly rhaid i ninnau wneyd pob ymdrech i bregethu, er i bawb ein diystyru." — *Chrysostom.* Y mae yn dra thebygol y cynnwysir yma hefyd y drychfeddwl o amserau, pa un bynag a fyddent ai amserol ai anamserol i Timotheus ei hun:—nid yn unig pan yn gyfleus, ond pan yn anghyfleus i ti —y nos yn gystal a'r dydd (*Act.* xx. 31), mewn perygl yn gystal ag mewn diogelwch, yn nghar-char a phan wedi dy ddedfrydu i farw yn gystal a phan yn rhydd, nid yn unig yn yr eglwys ond yn mhob man, ac ar bob achlysur, pa bryd bynag a lle bynag y bydd gwaith yr Arglwydd yn galw am hyny. *Argyhoedda:* — gwrthbrofa, 'dangos yn eglur,' neu 'dwg i'r goleuni trwy esbonio ac egluro.' "Nid yw yn dyfod i'r goleuni fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef;" *Ioan* iii. 20. *Cerydda.*—Gweinydda ddysgyblaeth yn ffyddlawn ar bob un a droseddo air yr Arglwydd, gan ei rybuddio, a dangos y bai, yn ei natur, y drwg o hono, a'r canlyniadau peryglus o lynu wrtho, gyda'r amcan o'i gael oddi wrtho. *Gyda:*—Groeg: 'yn' (yr ysbryd yn yr hwn y dylid rhoddi yr annogaeth). *Phob hir-ymaros* (*pen.* ii. 24, 25, a iii. 10) *ac athrawiaeth.* Cymmharer *pen.* ii. 24; "yn athrawus." "Y Groeg am 'athrawiaeth' yma yw *didache*, ond yn *pen.* iii. 16, *didascalia. Didascalia* ydyw yr hyn a ddefnyddir yn: *didache* ydyw yr hyn a gyfrenir."—*Tittmann.*

[*] Diar. 1.32; Heb. 12.25.

4 Ac [*] oddi wrth y gwirionedd y troant ymaith *eu* clustiau, ac at chwedlau y troant.

[f] Esa. 56. 9, 10; Ier. 6. 17. [g] 2 Tim. 3. 10—12.

5 Eithr [f] gwylia di yn mhob peth, [g] dioddef adfyd, gwna waith efengylwr, cyflawna dy weinidogaeth.

[h] Phil. 2. 17. [i] Gen. 1. 24.

6 Canys [h] myfi yr awrhon a aberthir, [i] ac amser fy ymddatodiad i a nesaodd.

7 Mi [k] a ymdrechais ymdrech deg, [l] mi a orphenais fy ngyrfa, [m] mi a gedwais y ffydd.

[k] 1 Tim 6.12. [l] Ioan 4 34. [m] 2 Tim 3. 14.

8 O hyn allan [n] rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, [o] y Barnwr cyfiawn, i mi [p] yn y dydd hwnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef.

[n] Salm 31. 19 [o] Gen. 18. 5. [p] 2 Tim. 1. 12, 18.

bydd iddynt ei chasau, ei diystyru, a'i gwrthod." —*Calvin. Yn ol eu chwantau eu hunain.*—Yn lle ufuddhau i ewyllys Duw, gwrthodent gymmeryd eu hattal rhag cyflawni eu chwantau gan y gwir athrawon. *Pentyrant*:—y naill ar y llall yn bentwr cymmysg o gau-athrawon. "Y mae y rhai sydd yn diystyru athrawiaeth iachus yn cilio oddi wrth y gwir athrawon: ceisiant athrawon tebyg iddynt hwy eu hunain."—*Bengel.* Llygredigaeth y bobl, yn y lle cyntaf, sydd yn creu twyll offeiriadaeth: *Ecsod.* xxxii. 1. *Iddynt eu hunain*:—y cyfryw ag a gydweddant â'u chwaeth lygredig hwy eu hunain. "Y bobl a ewyllysiant gael eu twyllo, felly twyller hwynt." "Yr un fath bobl ac offeiriad;" 1 *Bren.* xii. 31; *Hos.* iv. 9. *Merwino.*—"Y gair Hebraeg am 'ferwino' a arwydda y sain, neu y teimlad sydd yn aros yn y glust ar ol i ryw swn mawr ei daraw, megys swn taranau mawrion. Y mae rhywbeth tebyg i syndod ar ei ol, a'r glust yn tincian. Ond priodol ystyr y gair Groeg a ddefnyddir yn yr adnod hon ydyw cosi, gogleisio; ac felly 'clustiau yn merwino' ydyw clustiau yn caru cael eu gogleisio â sain hyfryd yr areithwyr, yn hytrach nag âg athrawiaeth iachus yr efengyl—dawn yr areithiwr, ac nid iachusrwydd ei athrawiaeth, sydd yn eu boddhau. Y maent yn caru yr athrawiaeth yn ol eu chwantau, ac nid yn eu dysgu yn effeithiol i ymwadu â'u chwantau."—*Charles.* "Hoffent wrandaw athrawon na roddent ddim ond pleser iddynt (*Act.* xvii. 19—21), ac a ochelent ddyweyd dim o duedd i'w tramgwyddo."—*Faussett.* "Y maent yn goglais ysgafnder y bobl â phleser" [*Cicero*], y "rhai a ddeuant megys i chwarendy i wrandaw yr hyn a foddha eu clustiau, ac nid i ddysgu yr hyn a wna les iddynt."—*Seneca.* "Y mae ysfa neu ferwindra yn y glust mor ddrwg ag mewn unrhyw ran arall o'r corph, ac hwyrach yn waeth."—*South.*

4. *Ac oddi wrth y gwirionedd y troant ymaith eu clustiau.*—Yn gyffredin nis gall y glust oddef yr hyn sydd yn wrthwynebol i chwantau dyn. Pan dry dynion "ymaith oddi wrth y gwirionedd," y mae Duw yn goddef iddynt, mewn ffordd o ad-daliad cyfiawn, droi "at chwedlau;" *Ier.* ii. 19. *Chwedlau.*—1 *Tim.* i. 4.

5. Y mae yr apostol yma yn cymmhell ar Timotheus yr angenrheidrwydd o gyflawni dyledswyddau ei swydd bwysig yn ffyddlawn, gan ystyried fod amser ei ymddattodiad ef (Paul) ger llaw. Rhoddir amryw resymau gan esbonwyr dros ddwyn hyn i mewn; ond a ganlyn ydyw eu sylwedd:—'Ni byddaf fi yma ond ychydig iawn etto i wrthsefyll y gau-athrawon hyn: bydd di yn olynydd teilwng o honof, heb ddibynu yn hwy arnaf fi am gynghor; ond bydd yn feistr arnat dy hun. Gwylia rhag cyfnewid er gwaeth ar ol fy ymadawiad i; a gofala am gyflawni dy waith yn ffyddlawn, yn ol fy esampl i.' *Gwylia di*:—yn llythyrenol, 'gyda gwyliadwriaeth dyn sobr.' *Yn mhob peth*:—ar bob achlysur, ac o dan bob amgylchiad: *Titus* ii. 7 *Dioddef adfyd*:—dioddef caledi. *Efengylwr.*—Gweinidog, neu bregethwr cenhadol. *Cyflawna dy weinidogaeth.*—Cyflawna ei holl ddyledswyddau, heb adael dim heb ei wneyd: *Act.* xii. 25; *Rhuf.* xv. 19, a *Col.* iv. 17.

6. *Canys myfi yr awrhon a aberthir*:—Groeg: 'Canys yr wyf eisoes yn cael fy aberthu;' yn llythyrenol, fel 'diod-offrwm.' Gair priodol i dywalltiad ei waed. Dechreua pob aberth gyda thywalltiad o ddiod-offrwm ar ben yr aberth. Gwel y sylw ar *Phil.* ii. 17. "Crybwyllir yma am ymadawiad a gwynfydedigrwydd Paul fel cymmheiliad i gynnhyrfu Timotheus i fod yn ddiwyd ac yn ffyddlawn gyda'i waith: y diwedd sydd yn coroni y gwaith."—*Bengel.* Megys ag yr hysbyswyd amser ei ymadawiad i Pedr, felly hefyd y gwnaed i Paul: 2 *Pedr* i. 14. *Fy ymddattodiad*:—yn llythyrenol, 'rhyddhau yr angor.' Gwel y sylw ar *Phil.* i. 23.

7. *Mi a ymdrechais ymdrech deg.*—Nid ydyw y Groeg yn cael ei gyfyngu i 'frwydr;' ond y mae yn cynnwys unrhyw ymdrechfa ymgystadleuol, megys, er enghraifft, "rhedeg gyrfa:" 1 *Tim.* vi. 12; 1 *Cor.* ix. 24, &c., a *Heb.* xii. 1, 2. *Mi a gedwais y ffydd*:—y ffydd Gristionogol, a ymddiriedwyd i mi fel credadyn ac apostol. Cymmharer *pen.* i. 14; *Dad.* ii. 10; iii 10.

8. *O hyn allan.*—Y mae y geiriau hyn yn dynodi munyd ei ymddattodiad. Y mae yn edrych ar ei sefyllfa mewn tri golygiad:—1. Yr amser gorphenol: "Mi a ymdrechais." 2. Yr amser presennol: "O hyn allan rhoddwyd.....i'w chadw i mi." 3. Yr amser dyfodol, "A rydd yr Arglwydd ...yn y dydd hwnw." *Coron*:—yn hytrach "y goron." Yn y campau Groegaidd arferid rhoddi coron ar ben yr ymgeisydd llwyddiannus mewn rhedeg gyrfa, ymaflyd codwm, &c. Cymmharer 1 *Pedr* v. 4; *Dad.* ii. 10. *Cyfiawnder.*—Gelwir hi yn "goron cyfiawnder," am mai cyfrifiad o gyfiawnder Crist sydd yn rhoddi hawl iddi. Yr cyfiawnion y parotowyd y goron hon: ond y mae y goron ei hun yn gynnwysedig mewn cyfiawnder. Cyfiawnder fydd ei gwobr hi ei hun: *Dad.* xxii. 11. Cymmh. *Ecsod.* xxxix. 30. Nid oes un anghyssondeb rhwng hyn, fel y sylwodd Calvin, ag athrawiaethau gras; "canys nid ydyw cyfiawnhâd o ras yn milwrio yn erbyn gwobr gweithredoedd da; ond yn hytrach y mae y ddau yn berffaith gysson â'u gilydd, fel y mae dyn yn cael ei gyfiawnhau yn rhad trwy haeddiant Crist, ac etto yn derbyn gwobr ei weithredoedd. Canys cyn gynted ag y mae yr Arglwydd yn ein derbyn i'w ffafr, y mae ein gweithredoedd yn rhyngu ei fodd ef, fel y mae yn ein cyfrif yn deilwng o wobr, er eu bod yn anhaeddiannol."—*Calvin.* "Mor fawr ydyw daioni Duw tuag at ddynion, fel y mae yn ewyllysio i'w gweithred-

9 Bydd ddyfal i ddyfod ataf
yn ebrwydd:
10 Canys Demas a'm gadawodd,
gan garu y byd presennol, ac a
aeth ymaith i Thessalonica; Cres-
cens i Galatia, Titus i Dalmatia.
11 Luc yn unig sydd gyda mi.
Cymmer Marc, a dwg gyda thi:
canys buddiol yw efe i mi i'r
weinidogaeth.
12 Tychicus hefyd a ddanfon-
ais i Ephesus.
13 Y cochl a adewais i yn Troas
gyda Carpus, pan ddelych, dwg
gyda thi, a'r llyfrau, yn enwedig
y memrwn.
14 Alexander y gôf copr a
wnaeth i mi ddrygau lawer: [q]tal- [s]Ier. 18. 19
ed yr Arglwydd iddo yn ol ei —23;
weithredoedd. 2 Thes. 1. 6.

oedd fod yn haeddiant, er nad ydynt ond yn unig ei roddion ef ei hun."—*Celestinus. A rydd*:—Groeg: 'a ddyfarna,' mewn ffordd o ad-daliad cyflawn fel "Barnwr;" *Act.* xvii. 31; 2 *Cor.* v. 10; 2 *Thes.* i. 6, 7. *Yn y dydd hwnw*:—dydd ei ymddangosiad: *pen.* i. 12. *A garant*:—Groeg: 'a'i carasant, ac sydd yn ei garu.' Cariad gwastadol, a dymuniad am ymddangosiad Crist; yr hyn sydd yn rhagdybied ffydd. Cymmharer *Heb.* ix. 28. Cymmharer y cyferbyniad gofidus, yn *adn.* 10; "gan garu y byd presennol."

9. (*adn.* 12; *pen.* i. 4, 8). Gofynir i Timotheus ddyfod, i fod yn gysur i Paul, ac hefyd i gael ei galonogi gan Paul, er cario gwaith yr efengyl yn mlaen ar ol ymadawiad Paul.

10. *Demas*:—yr hwn a fu unwaith yn "gydweithiwr" â Phaul, ynghyd â Marc a Luc: *Col.* iv. 14; *Philem.* 14. Ymddengys mai yr achos iddo adael Paul ydoedd cariad at esmwythder bydol, diogelwch, a chysuron cartref, ac annhueddiad i wynebu peryglon gyda Phaul: *Mat.* xii. 20, 21, 22. Barna Chrysostom mai Thessalonica oedd ei gartref. *Crescens.*—Ni chrybwyllir am yr enw hwn mewn lle arall yn y Testament Newydd. Ni ddywedir ar ba neges yr aeth efe i Galatia, ïnac, yn wir, ei fod yn bregethwr; ond y mae yn rhesymol casglu hyny oddi wrth gyssylltiad ei enw âg enwau Demas a Titus, y rhai y gwyddys eu bod yn gydweithwyr â Phaul yn yr efengyl, ac fel un mor adnabyddus i Timotheus ag oeddynt hwythau. Dywedir hefyd yn yr "*Apostolical Constitutions*," a chan dadau yr eglwys, iddo bregethu yr efengyl yn Galatia. Meddylia Eusebius, ac ereill, ei fod wedi bod yn pregethu yr efengyl yn nhir Gâl, neu Ffraingc bresennol, a'i chyffiniau, ac iddo sylfaenu eglwys Dauphiny. *Galatia.*—Y mae un o'r llaw-ysgrifau hynaf yn cefnogi y darlleniad, 'Gaul;' ond y mae y rhan fwyaf o'r llawysgrifau hynaf yn bleidiol i'r darlleniad 'Galatia.' Gwlad oedd Galatia yn nghanolbarth Asia Leiaf, yn yr hon yr ymsefydlodd y Gauliaid, y rhai a ymosodasant ar y wlad yn y drydedd ganrif cyn Crist. Daeth yn dalaeth Rufeinig yn y flwyddyn 25 c. c. *Titus.*—Gan hyny, rhaid ei fod wedi gadael Creta ar ol "iawn drefnu" achosion yr eglwysi yno: *Titus* i. 5. *Dalmatia*:—rhan o dalaeth Rufeinig Illyricum, ar lenydd y Môr Adriaidd. Yr oedd Paul wedi ysgrifenu ato ef (*Titus* iii. 12), i erfyn arno i ddyfod ato i Nicopolis (yn Epirus) yn y gauaf, gan fwriadu pregethu yr efengyl yn y gwanwyn yn nhalaeth gyfagos Dalmatia. Ymddengys fod Titus wedi myned yno i gario allan fwriad yr apostol; ond yr attaliwyd ef i'w gyflawni gan ei garchariad. Pa un ai myned yno o hono ei hun, fel y mae yn debygol, ai Paul a'i hanfonodd ef yno (yr hyn sydd braidd yn anghysson â'r ymadrodd "a aeth ymaith") nis gellir penderfynu yn sicr. Yr oll a ddywedir yma gan Paul ydyw, fod ei gymdeithion personol wedi ei adael ef. Yr oedd ganddo etto gyfeillion yn mhlith y Cristionogion yn Rhufain, y rhai a ymwelent âg ef (*pen.* iv. 21), er eu bod wedi ofni sefyll gydag ef ar ei brawf: *adn.* 16.

11. *Cymmer.*—Groeg: 'cymmer i fyny' ar dy daith: *Act.* xx. 13, 14. Y mae yn debygol fod Ioan Marc yn, neu yn agos i Colossa, fel yn yr Epistol at y Colossiaid (*Col.* iv. 10), a ysgrifenwyd ddwy flynedd cyn hyn, y crybwyllir ei fod fel ar fedr ymweled â hwynt. Nid oedd Timotheus yn awr yn bresennol yn Ephesus, ond yr oedd yn rhywle yn nghanolbarth Asia Leiaf; am hyny, byddai yn sicr o gyfarfod â Marc ar ei daith. *Buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth.*—Yr oedd Marc wedi bod o dan gwmmwl am adael Paul ar adeg beryglus yn ei daith genhadol gyda Barnabas: *Act.* xv. 37—40; xiii. 5, 13. Bu Timotheus wedi hyny yn llenwi yr un swydd yn ei berthynas â Phaul ag a ddelid unwaith gan Marc. O herwydd hyn, y mae Paul yma gyda phriodoldeb yn symmud ymaith y gwaradwydd blaenorol trwy roddi canmoliaeth uchel i Marc, ac yn rhybuddio Timotheus rhag gwneyd cymmhariaeth hunan-foddhaol rhyngddo efe ei hun a Marc, fel pe buasai yn rhagori ar yr olaf. Cymmharer *Philem.* 24. Y mae Demas yn gwrthgilio, ond Marc yn dychwelyd i'r iawn ffordd; ac nid yw mwyach yn anfuddiol, ond yn fuddiol i weinidogaeth yr efengyl: *Philem.* 11.

12. Dechreuir yr adnod hon yn y Groeg gydag 'Ond.'—'Yr wyt ti i ddyfod ataf fi; ond Tychicus a ddanfonais i Ephesus i lywyddu ar yr eglwys yno yn dy absennoldeb (os ewyllysi di hyny).' Cymmharer *Titus* iii. 12. Y mae yn bossibl mai Tychicus oedd dygiedydd yr epistol hwn, er fod y ffaith fod y geiriau *atat ti* wedi eu gadael allan braidd yn erbyn y golygiad hwn.

13. *Cochl.* — Coleddir gwahanol dybiau yn mherthynas i ystyr y gair hwn. Barna rhai, mai mantell ddilewys ydoedd, âg iddi benguwch (*hood*) i attal oerni a gwlaw, yr hon a wisgid wrth deithio, ac yn y fyddin. Ereill a dybiant mai llyfr-god a arferid wrth deithio ydoedd. Dywed ereill, mai cochl neu fantell a wisgid gan ddinaswyr Rhufeinig ydoedd, fel arwydd o'u bod wedi eu breinio. Ond y golygiad cyntaf yw y tebycaf o fod yn gywir. *A adewais.*—Y mae yn debygol iddo orfod ei gadael yno yn ei ymadawiad brysiog o Troas. *Carpus*:—cyfaill ffyddlawn, i'r hwn yr oedd efe wedi ymddiried nwyddau mor werthfawr i'w cadw. *Llyfrau.*—Yr oedd yn bryderus ynghylch y rhai hyn, fel y gallai eu trosglwyddo hwynt i'r ffyddloniaid, fel y gallent gael addysg oddi wrth ei ysgrifeniadau ar ol ei ymadawiad. *Yn enwedig y memrwn*:—yn cynnwys, hwyrach, rai o'i epistolau ysbrydoledig.

14. *Alexander y gôf copr*:—neu "y gôf," yn gyffredinol. Yr un gŵr, hwyrach, a'r Alexander oedd yn Ephesus. Gwel y sylw ar 2 *Tim* 20.

15 Yr hwn hefyd gochel di-
[r] 2 Tim. 3. 8. [s] Salm 31. 11 —13; Ioan 16. 32.
thau; [r] canys efe a safodd yn [s] ddirfawr yn erbyn ein hymadroddion ni.
[t] Act. 7. 60. [u] Salm 37. 39, 40; 100. 31; Ier. 15. 20, 22; Act. 18. 9; 23. 11. [x] Esa. 41. 10, 14; 2 Cor. 12. 9, 10.
16 Yn fy atteb cyntaf [s] ni safodd neb gyda mi, eithr pawb a'm gadawsant: [t] *mi a archaf ar Dduw* nas cyfrifer iddynt.
17 Eithr [u] yr Arglwydd a safodd gyda mi, ac [x] a'm nerthodd; fel trwof fi y byddai y pregethiad yn llawn hysbys, ac y clywai

[r] Salm 22. 2; Diar. 28. 15; Dan. 6. 22, 27; Heb. 11. 33; 1 Pedr 5. 8. [s] Salm 121. 7. Mat. 6. 13. [t] 2 Tim. 1. 12. [u] Rhuf. 16. 27.

yr holl Genhedloedd: [y] ac mi a waredwyd o enau y llew.
18 A r Arglwydd [z] a'm gwared i rhag pob gweithredd drwg, [a] ac *a'm* ceidw i'w deyrnas nefol: [b] i'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. Amen.
19 Anerch Prisca ac Acwila, a theulu Onesiphorus.
20 Erastus a arosodd yn Corinth: ond Trophimus a adewais yn Miletum yn glaf.

[y] Salm 22. 21. [z] Salm 121. 7. Mat. 6. 13. [a] 2 Tim. 1. 12. [b] Rhuf. 16. 27.

Esgymmunwyd ef y pryd hwnw, ond ymddengys iddo gael ei adferu ar ol hyny; ac yn awr dialai ar Paul, o herwydd iddo ei esgymmuno trwy ei gyhuddo ef o flaen y barnwyr Rhufeinig, un ai o roddi y ddinas ar dân, neu o ddwyn crefydd newydd i mewn. Gwel y rhagarweiniad i'r epistol hwn. Dichon mai efe oedd yr Alexander a ddygwyd yn mlaen gan yr Iuddewon yn y terfysg yn Ephesus: *Act.* xix. 33, 34. *Taled.*—Y mae y llaw-ysgrifau hynaf yn darllen "a dâl." Y mae yn sicr nad oedd yr apostol yn cael ei lywodraethu yn y gradd lleiaf gan ddialeddpersonol (*adn.* 16, yn y rhan olaf), ond gan sêl dros achos yr efengyl.

15. *Ein hymadroddion ni*:—ein rhesymau ni, Gristionogion, dros ein ffydd gyffredinol.

16. *Yn fy atteb cyntaf*:—*h.y.*, yn fy "amddiffyniad" yn y llys, y tro cyntaf yr holwyd fi yn gyhoeddus. Y mae yn amlwg nad oedd Timotheus yn gwybod dim ynghylch hyn, hyd nes yr hysbysyd iddo gan Paul. Ond yr oedd Timotheus gydag ef yn ystod ei garchariad blaenorol yn Rhufain: *Phil.* i. 1, 7. Ganhyny, rhaid mai ail garchariad oedd hwn. Rhaid ei fod wedi ei ryddhau cyn yr erlidigaeth yn B. A. 64, pan gyhuddid y Cristionogion o roddi Rhufain ar dân; canys, pe buasai efe yn garcharor y pryd hwnw, y mae yn sicr na buasai yn cael ei arbed. Y mae y traddodiad, ddarfod iddo yn y diwedd gael tori ei ben, yn cyttuno â'r ffaith na chafodd ei roddi i farwolaeth yn yr erlidigaeth, B. A. 64, pan ddienyddid Cristionogion trwy eu llosgi i farwolaeth; ond ar ol hyny. Ymddengys iddo gael ei brofi y tro cyntaf yn ei ail garchariad ar y cyhuddiad o fod yn gyfranog o'r weithred o roddi y ddinas ar dân. Dichon mai ei absennoldeb o Rufain oedd sail ei ryddhâd ar y cyhuddiad hwnw. Y mae yn debyg mai ar sail y cyhuddiad o ddwyn crefydd newydd ac anghyfreithlawn i mewn i Rufain y condemniwyd ef yn y diwedd. *Ni safodd neb gyda mi*:—Groeg: 'ni ddaeth neb yn mlaen gyda mi,' fel cyfaill ac amddiffynwr. *Mi a archaf ar Dduw nas cyfrifer iddynt.*—Y mae sefyllfa y rhagenw meddiannol Groeg, a gyfeithir yma 'iddynt,' yn gyfryw ag y dylid rhoddi pwyslais neilltuol arno:—'Na chyfrifer iddynt;' canys digalonwyd hwynt trwy eu dychrynu: hwy a aethant ymaith oddi wrthyf fi, nid oddi ar duedd ddrwg yn gymmaint ag oddi ar ofn: y mae hyn yn sicr o gael ei roddi yn erbyn y rhai a'u dychrynasant hwynt. Er hyny, y mae yn ddiammheu y buasai Paul, fel Stephan, yn offrymu yr un weddi hyd yn oed dros ei erlidwyr: *Act.* vii. 60.

17. *Yr Arglwydd*:—yn fwy o herwydd fod dynion wedi fy ngadael. *A safodd gyda mi*:—ymadrodd cryfach nag 'ni ddaethant yn mlaen gyda mi,' Groeg, *adn.* 16. *A'm nerthodd*:—Groeg: a 'roddodd nerth ynof fi.' Trwof fi—fel offeryn. *Y pregethiad*:—y cyhoeddiad o'r efengyl. *Y clywai yr holl Genhedloedd*:—oeddynt yn bresennol yn fy mhrawf, yr efengyl yn cael ei chyhoeddi y pryd hwnw. Rhufain oedd prif ddinas y Genhedlig, fel yr oedd y cyhoeddiad o'r gwirionedd i'r Rhufeiniaid yn debyg o fyned allan at y gweddill o'r byd Cenhedlig. *Ac mi a waredwyd o enau y llew*:—sef, Satan, y llew rhuadwy a dinystriol: *Luc* xxii. 31; 1 *Pedr* v. 8. Cadwyd fi rhag syrthio i'w fagl: *pen.* ii. 26; *Salm* xxii. 21; 2 *Pedr* ii. 9. Y mae *adn.* 18 yn cyttuno â'r esboniad hwn, "A'r Arglwydd a'm gwared i rhag pob gweithred ddrwg;" sef, rhag drwg, a rhag yr un drwg, fel y mae y Groeg o Weddi yr Arglwydd yn ei amlygu. Nid mewn gwaredigaeth oddi wrth Nero (yr hwn a elwid y llew) y llawenychai; canys nid oedd yn ofni angeu (*adn.* 6—8), ond mewn gwaredigaeth oddi wrth demtasiwn, trwy ofn, i wadu ei Arglwydd.

18. *A'r Arglwydd.*—Y mae gobaith yn casglu oddi wrth ymddygiad yr Arglwydd at ei bobl yn yr amser gorphenol pa fodd yr ymddyga atynt yn y dyfodol. *A'm gwared*:—yn llythyrenol, 'a'm hachub i' (*Salm* xxii. 21); 'a'm dwg yn ddiogel i.' Iesu yw yr Arglwydd a'r Gwaredwr: *Phil.* iii. 20; 1 *Thes.* i. 10. *I w deyrnas nefol*:—Groeg: 'ei deyrnas, yr hon sydd yn un nefol.' *I'r hwn*, &c.—Groeg: 'I'r hwn y byddo y gogoniant i oesoedd yr oesoedd.' Y mae hyd yn oed y gobaith am deyrnas nefol yn cynnyrchu mawl: pa faint mwy fydd y mawl pan dry y gobaith yn fwynhâd!

19. *Prisca ac Acwila.*—Gwel y sylwadau ar *Act.* xviii. 2, 3; *Rhuf.* xvi. 3, 4; 1 *Cor.* xvi. 19. Gan fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu i Ephesus, rhaid fod Prisca ac Acwila yn y pryd hwnw. *Onesiphorus.*—Pe buasai efe wedi marw ar y pryd, ni buasai y "teulu" yn cael eu galw yn "deulu Onesiphorus." Y mae yn debygol ei fod yn absennol. Gwel y sylw ar *pen.* i. 16.

20. Mewn trefn i ddisgrifio ymadawiad ei gynorthwywyr oddi wrtho, y mae yn hysbys i Timotheus fod Erastus, un o'i gymdeithion arferol (*Act.* xix. 22—yr un Erastus, y mae yn bossibl sg yn *Rhuf.* xvi. 23, er nad yw yn eglur pa fodd y gallai ef adael ei ddyledswyddau swyddol i ymgymmeryd â theithiau cenhadol), wedi aros yn Corinth, ei le genedigol, neu ei breswylfa arferol; i'r hon ddinas yr oedd efe yn "orchwyliwr" a thrysorydd (*Rhuf.* xxiii. 23). A Throphimus a adawodd efe yn Meletum yn glaf. Gwel ar ei hanes blaenorol, *Act.* xx. 4; xxi. 29. Y mae yr adnod hon yn anghysson â'r dybiaeth mai o'i garchariad cyntaf yr ysgrifenodd efe yr epistol hwn; canys nid aeth yr apostol trwy Corinth na

21 Bydd ddyfal i ddyfod cyn y gauaf. Y mae Eubulus yn dy anerch, a Pudens, a Linus, a
[a] Rhuf. 16. 21—23; 1 Cor. 16. 20. Claudia, [c] a'r brodyr oll.
22 [d] Yr Arglwydd Iesu Grist
[d] Mat. 28. 20. *fyddo* gyda'th ysbryd di. [e] Gras
[e] Rhuf. i. 7. *fyddo* gyda chwi. Amen.

¶ Yr ail *epistol* at Timotheus, yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys yr Ephesiaid, a ysgrifenwyd o Rufain, pan ddygwyd Paul yr ail waith ger bron Cesar Nero.

Miletum ar ei daith i Rufain, pan yr oedd ar gael ei garcharu y tro cyntaf. Gan fod Miletum yn agos i Ephesus, cesglir nad oedd Timotheus yn Ephesus pan oedd Paul yn ysgrifenu; neu na buasai eisieu iddo hysbysu Timotheus fod Trophimus yn gorwedd yn glaf mewn cymmydogaeth gyfagos iddo. Modd bynag, dichon nad oedd Trophimus etto yn Rhufain pan oedd Paul yn ysgrifenu, er ei fod ef wedi ei adael yno ar ei daith i Rufain. Y mae yn dra thebygol fod Prisca ac Acwila yn Ephesus (*adn.* 19), ac y mae yn dymuno ar Timotheus eu "hanerch hwynt;" felly hefyd teulu Onesiphorus: *pen.* i. 18. Nid oedd Paul yn meddu gallu i iachau wrth ei ewyllys (*Act.* xix. 12), ond fel y caniatäai yr Arglwydd iddo.

21. *Cyn y gauaf:*—pan y byddai mordaith, yn ol hen arferion morwriaeth, yn ammhossibl. Hefyd, yr oedd ar Paul eisieu ei "gochl" erbyn y gauaf: *adn.* 13. *Pudens.....Claudia.*—Wedi hyny gŵr a gwraig—ete yn farchog Rhufeinig, a hithau yn foneddiges o Ynys Prydain, a gyfenwid *Rufina.* Crybwylla Tacitus fod tiriogaethau yn y parth de-ddwyreiniol i Ynys Prydain wedi eu rhoddi i frenin Prydeinig, o'r enw Cogidunus, fel gwobr am ei ffyddlondeb i Rufain, B. A. 52, pan oedd Claudius yn Ymherawdwr. Yn 1772, cloddiwyd maen marmor i fyny yn Chichester, ar yr hwn yr oedd "Cogidunus," gyda'r cyfenw "Claudius," wedi ei chwanegu oddi wrth enw ei noddwr, yr ymherawdwr; a "Pudens" mewn cyssyltiad â "Cogidunus," ei dad-yn-nghyfraith. Ei ferch ef oedd Claudia: yr hon, fel yr ymddengys, a anfonwyd i Rufain i gael addysg, fel gwystl o ffyddlondeb y tad. Yno yr oedd hi o dan amddiffyniad Pomponia, gwraig Aulus Plautius, gorchfygwr Prydain. Cyhuddid Pomponia o "ofergoeledd estronol," B. A. 57; wrth yr hyn, y mae yn debyg, y meddylir "Cristionogaeth." Bernir mai hi a fu yn offeryn i ddychwelyd Claudia; yr hon a gymmerodd yr enw "Rufina" oddi wrthi hi, gan mai hwnw oedd cyfenw teulu Pomponia. Cymmharer *Rhuf.* xvi. 13. Gosodir Pudens allan yn y cerf-ysgrifau milwraidd Rhufeinig, ac yn y cerf-ysgrifau a ddarganfyddwyd yn Chichester fel "pagan;" ond fe allai ei fod ef, neu ei gyfeillion, wedi celu ei dröedigaeth at Gristionogaeth rhag ofn erledigaeth. Dywed traddodiad fod Timotheus, un o feibion Pudens, wedi cymmeryd rhan yn y gwaith o ddychwelyd y Prydeiniaid. *Linus.*—Gan ei fod yn cael ei enwi yn drydydd, rhaid nad oedd efe yn esgob yr adeg hon; ond gwnaed of yn esgob Rhufain ar ol hyny. Y mae y ffaith fod ei enw wedi ei ddodi i mewn yma rhwng Pudens a Claudia, yn rhoddi ar ddeall nad oedd y ddau etto wedi priodi. Barna rhai mai yr un oedd "Eubulus" ac Aristobulus; yr hwn, gyda'i ddychweledigion oeddynt yn mhlith efengylwyr cyntaf Ynys Prydain. "Fe ymwelodd Paul ei hun," medd Clement, "â chwr eithaf y gorllewin (Prydain, fe allai; ond yn sicr Yspaen), a merthyrwyd ef o dan y llywodraethwyr yn Rhufain," y rhai oeddynt raglawiaid Nero, yn ystod ei absennoldeb o'r ddinas.

22. *Gras fyddo gyda chwi:*—*h.y.*, gyda thi ac aelodau eglwysi Ephesus, a'r cymmydogaethau cyfagos.

YR

EPISTOL AT TITUS.

AT BWY YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Ffaith hynod ydyw na chrybwyllir gymmaint ag unwaith am enw Titus yn Llyfr yr Actau. Ymddengys hyn yn fwy hynod pan y cofiwn ei fod yn un o gymdeithion ffyddlonaf Paul. Ni roddwyd erioed un rheswm boddhaol dros hyn. Yn *Gal.* ii. 1, 3, yr ydym yn cael y crybwylliad cyntaf am dano. Yno, gwelwn mai Groegwr ydoedd, ac am hyny yn Genedl-ddyn, a dychwelwyd ef at Grist trwy weinidogaeth Paul: *Titus* i. 4. Efe a aeth gyda Phaul a Barnabas o Antiochia i Ierusalem i'r gynnadledd oedd i benderfynu y cwestiwn o'r angenrheidrwydd o enwaedu y dychweledigion Cenhedlig (*Act.* xv. 2); ac yn unol â phenderfyniad y gynnadledd yno, ni enwaedwyd arno ef. Yn 2 *Cor.* yr ydym yn cael y crybwylliad nesaf am dano; lle yr ymddengys (*pen.* xii. 18) ddarfod iddo, ynghyd â dau frawd arall, enwau y rhai ni chrybwyllir, gael eu hanfon gan Paul o Ephesus, yn ystod ei ymweliad maith yno, i Corinth, i gychwyn casgliad (*pen.* viii. 6) i'r saint tlodion yn Ierusalem, ac hefyd i sicrhau pa effaith yr oedd yr Epistol Cyntaf wedi ei gael ar y Corinthiaid. Paul, ar ei ymadawiad o Ephesus, a arosodd yn Troas, lle yr oedd cyfleusderau llawer o ddefnyddioldeb yn ymagor o'i flaen (*pen.* ii. 12): ond mor awyddus oedd efe am ddychweliad Titus ("Titus fy mrawd,") fel y darfu iddo "ganu yn iach iddynt," a "myned ymaith i Macedonia" (*pen.* ii. 13). Yno cyfarfyddodd â Thitus, yr hwn a ddygodd iddo newydd boddhaol am yr effaith yr oedd yr Epistol Cyntaf wedi ei gael ar y Corinthiaid (*pen.* vii. 6—15): ac ymddengys oddi wrth yr hyn a ddywed Paul yno am dano ef, ei fod yn weithiwr selog a difrifol gyda gwaith yr Arglwydd. Defnyddiwyd ef y pryd hwnw gan yr apostol i orpheu y casgliad i'r saint tlodion yn Iudea, a daeth yn ddygiedydd yr Ail Epistol at y Corinthiaid: 2 *Cor.* viii. 16, 17, 23. Geilw Paul ef yno "fy nghydymaith, a'y nghydweithiwr tuag atoch chwi." Gadawyd ef yn Creta gan Paul (*Titus* i. 5) ar ol ei garchariad cyntaf, ac ychydig cyn yr ail—o ddeutu B. A. 67, deng mlynedd ar ol y crybwylliad olaf am dano yn yr Ail Epistol at y Corinthiaid, B. A. 57. Y mae yn debygol iddo gyfarfod Paul, yn ol dymuniad yr apostol, yn Nicopolis; canys byddai yn debycach iddo gymmeryd ei daith ddyfodol i Dalmatia, oddi yno (neu o Rufain, i'r lle yr aeth efe, fe allai, gyda Paul) nag o Creta bell (fe ysgrifenwyd 2 *Tim.* iv. 10 ar ol yr Epistol at Titus). Nid oedd Titus i aros ond am ychydig amser yn Creta, i gyflawni gwaith arbenig; sef, "iawn-drefnu y pethau oedd yn ol," gan fod ar Paul eisieu ei bresennoldeb gydag ef ei hun, pa bryd bynag y cyrhaeddai Artemas neu Tychicus i Creta i'w ryddhau oddi wrth ei ddyledswyddau yno.

Hysbysa Butler i ni fod Titus yn cael ei anrhydeddu yn Dalmatia fel ei phrif apostol:—ei fod drachefn wedi dychwelyd o Dalmatia i Creta; ac wedi diweddu bywyd llafurus a sanctaidd trwy farwolaeth ddedwydd yn Creta, mewn oedran teg, yn 94ain mlwydd oed.

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Ymddengys i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu o Corinth, ar ol ei garchariad cyntaf, pan oedd Paul ar ei daith i Nicopolis (*pen.* iii. 12) yn Epirus, lle y bwriadai dreulio y gauaf, ychydig cyn ei ferthyrdod, B.A. 67. Barna Birks, oddi wrth debygolrwydd yr Epistol at Titus a'r Epistol Cyntaf at Timotheus i'w gilydd, fod y ddau wedi eu hysgrifenu o'r un lle, set Corinth; ac ar an serau bebfod yn mhell oddi wrth eu gilydd:—yr Epistol Cyntaf at Timotheus yn fuan wedi iddo ddyfod i Corinth, cyn iddo benderfynu cymmeryd taith i Epirus; a'r Epistol at Titus ar ol hyny. Byddai y daith i Creta ac Ephesus i gludwyr ei lythyrau yn hawdd o Corinth, a gallai efe ei hun fyned yn hawdd oddi yno i Epirus. Yr oedd efe ychydig yn ol wedi ymweled â Creta, lle yr oedd eglwys, er ei bod heb drefn briodol—sylfaen gyntaf yr hon a osodwyd ganddo mewn rhan, fe allai, yn ei ymweliad blaenorol (*Act.* xxxii. 7, &c.), pan ar ei daith i'w garchariad cyntaf yn Rhufain. Ei fod wedi dychwelyd i'r dwyrain ar ol ei garchariad cyntaf, a ymddengys yn dra thebygol oddi wrth *Phil.* ii. 24, a *Philem.* 22. Modd bynag, dichon fod hadau Cristionogaeth wedi eu hau yn Creta, hyd yn oed cyn ei ymweltad cyntaf, gan y Cretiaid a glywsant Pedr yn pregethu ar ddydd y Pentecost: *Act.* ii. 11.

YR ACHLYSUR O YSGRIFENU YR EPISTOL.

Ymddangosodd elfenau llygredig yn fuan yn eglwysi Creta, tebyg i'r rhai a ffynent yn eglwys

Ephesus, sef, Iuddewiaeth, ymhoniad twyllodrus o ragoriaeth mewn gwybodaeth, ac annuwioldeb ymarferol, ar y rhai y sylwyd yn yr epistolau at Timotheus. Yr oedd Paul, yn ei ymweliad diweddar, wedi gadael Titus yn Creta i sefydlu trefn eglwysig, ac i "osod henuriaid yn mhob dinas." Ni chrybwyllir am ddiaconiaid. Yr oedd Titus wedi cael ei anfon amryw weithiau gan Paul fel cenhadwr at eglwysi Corinth, ac y mae yn debygol ddarfod iddo fyned oddi yno i Creta, yr hon nid oedd yn mhell iawn o Corinth. Oddi wrth hyn fe welir priodoldeb y dewisiad o hono gan yr apostol i arolygu eglwysi Creta. Y mae Paul yn awr yn chwanegu cyfarwyddiadau trwy lythyr at y rhai a roddasai efe eisoes i Titus yn bersonol ar gymmhwysderau henuriaid, a'r grasau a'r rhinweddau oeddynt yn gweddu i'r hynaf-gwyr, yr hynaf-wragedd, y gwŷr ieuainge, y gwragedd ieuainge, a gweision; ac y mae yn ei rybuddio ef i ochelyd y cwestiynau ffol, y cynhenau, a'r ymrysonau a ffynent i raddau mor helaeth yn Creta. Yr oedd cymmeriad cenhedlaethol y Cretiaid yn isel iawn, fel y dangosir yn y dyfyniad o eiriau y bardd Epimenides, a welir yn pen. i. 12:—"Y Cretiaid sydd bob amser yn gelwyddog, drwg-fwystfilod, boliau gorddïog." Gyda golwg ar eu cybydd-dod, y mae genym dystiolaeth Livy:—"Yr oedd y Cretiaid wedi dilyn Paulus Æmilius, gan obeithio cael arian ganddo: ac wrth weled fod mwy o ddrwg nag o dda yn debyg o gael ei gynnyrchu gan yr ymraniad, gosodwyd deg talent a deugain ar lan y Strymon i gael eu hysbeilio ganddynt." Dywed Polybius:—"Y mae bywyd o ymdrech am fudr-elw a chybydd-dod mor gyffredin yn eu gwlad, fel nad oes neb yn mhlith y Cretiaid yn ei ystyried yn un gwaradwydd." O barth i'w creulondeb a'u twyll, dywed Polybius:—"Y Cretiaid, y rhai sydd yn byw yn barhaus yn nghanol ymrafaelion gwladol ac ymrysonau personol a chyhoeddus, ydyw y dosbarth gwaethaf o ddynolryw." Dywed hefyd eu bod yn arfer cyflawni ysbeiliadau a lladradau ar fôr a thir, gau ymosod ar bersonau ddydd a nos, ac arfer pob twyll a dichell i chwanegu at eu helw bydol; ac ar yr un pryd tystia mai dynion llwfr a digalon oeddynt mewn brwydr gyhoeddus ar y maes. Gyda golwg ar eu celwyddau, y mae yn sicrhau mai hwy oedd y celwyddwyr a'r twyllwyr mwyaf yn y byd; ac nad oedd "Cretaneiddio" yn ddim ond enw arall am "ddyweyd celwydd;" a symid eu llygredigaeth cyffredinol i fyny yn y ddiareb ganlynol:—"Y mae tair C yn felldigedig: Cappadocia, Creta, a Cilicia."

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Nid oes unrhyw neillduolion yn yr epistol hwn ag sydd yn gofyn ymdriniae h faith, ar wahân i Epistolau Bugeiliol ereill Paul. Gwel y Rhagarweiniad i'r Epistolau at Timotheus. Os nad ydyw y ddau hyny yn ddilys, y mae yn anhawdd amddiffyn dilysrwydd hwn. Ar y llaw arall, os derbynir yr Epistolau at Timotheus fel rhai dilys, nid oes y rheswm lleiaf dros ammheu awduriaeth yr Epistol at Titus. Derbynid ef fel un ysbrydoledig gan y Cristionogion i oreuol yn gyffredinol. Dyfynir ef gan Clement o Rufain: cyfeirir ato hefyd fel epistol Paul gan Irenæus; a dyfynir ef fel Ysgrythyr gan Theophilus.

CYNNWYSIAD YR EPISTOL.

1. Dyben Paul yn gadael Titus yn Creta; y cymmhwysderau a ddylent fod mewn henuriaid; y dylid ceryddu y gau-athrawon sydd yn gwrthddywedyd; a chymmeriad y Cretiaid: *pen.* i. *adn.* 1—16.

2. Cyfarwyddiadau i Titus; pa fodd i gynghori amrywiol ddosbarthiadau o gredinwyr; mai gras Duw yn Nghrist ydyw ein cymmhelliad mawr i fyw yn dduwiol: *adn.* 1—15.

3. Pa bethau y mae Titus i'w dysgu yn mherthynas i ymddygiad Cristionogion at y byd: pa fodd y mae efe i drin hereticiaid: pa bryd ac yn mha le y mae efe i gyfarfod Paul. Y cyfarchiad.

YR EPISTOL AT TITUS.

PENNOD I.

5 *I ba beth y gadawodd Paul Titus yn*
Creta. 6 *Pa gymmeddfau a ddylai fod*
B. A. 67. *mewn crefyddwyr.* 11 *Rhaid yn gau safnau y rhai a ddysgant y pethau na ddylent:* 12 *a pha fath wŷr ydynt.*

[a] 1 Cron. 6. 49.
[b] Ioan 10. 26, 27; Act. 13. 48.
[c] Ioan 5. 39; Rhuf. 5. 2—4; 1 Pedr 1. 3, 4; Iudas 21.

PAUL, [a] gwas Duw, [b] ac apostol Iesu Grist, yn ol ffydd etholedigion Duw, ac adnabyddiaeth y gwirionedd, yr hon *sydd* yn ol duwioldeb;

2 I [c] obaith bywyd tragwyddol,

[d] 2 Tim. 1. 1, 9; Dad. 17. 8.

3 Eithr mewn amseroedd priodol efe a [e] eglurhaodd ei air trwy bregethu, am yr hyn yr ymddiriedwyd i mi, yn ol gorchymyn [f] Duw ein Hiachawdwr;

[e] Marc 16. 15.
[f] Esa. 12. 2.

4 At Titus, *fy* mab naturiol yn ol y ffydd gyffredinol: Gras, trugaredd, *a* thangnefedd oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist ein Hiachawdwr ni.

PENNOD I.

1. *Gwas Duw.*—Ni cheir yr ymadrodd hwn mewn un lle arall yn yr un cyssyltiad. Yr enw a roddir ganddo arno ei hun yn *Rhuf.* i. 1, ydyw, "gwasanaethwr Iesu Grist." Gwel y sylwadau ar *Gal.* i. 10, a *Phil.* i. 1. *Yn ol ffydd.*—Yn ol cyfeithiad Alford, "er ffydd;" *h.y.*, er cenhedlu, meithrin, a chryfhau ffydd. Hyn oedd amcan ei apostoliaeth: cymmh. *adn.* 4, 9; *Rhuf.* i. 5. *Etholedigion Duw:*—er mwyn y rhai y dylem "ddioddef pob peth;" 2 *Tim.* ii. 10. Y mae sail yr etholedigaeth hon, nid mewn dim perthynol i'r rhai a wahaniaethir fel hyn, ond yn mwriad ac ewyllys Duw er tragwyddoldeb: 2 *Tim* i. 9; *Rhuf.* viii. 30—33; cymmh. *Luc* xviii. 7; *Eph.* i. 4; *Col.* iii. 12. Dengys *Act.* xiii. 48, fod ffydd yr etholedigion yn gorphwys ar ragordeiniad Duw. Nid ydynt yn dyfod yn etholedigion trwy eu ffydd; ond yn derbyn ffydd, ac felly yn dyfod yn gredinwyr, o herwydd eu bod yn etholedigion. *Ac adnabyddiaeth y gwirionedd:*—"ac er cefnogi llawn wybodaeth o r gwirionedd;" *h. y.*, y gwirionedd Cristionogol: *Eph.* i 13. *Yn ol duwioldeb:*—*h.y.*, yr hon sydd yn perthyn i "dduwioldeb," mewn cyferbyniad i'r wybodaeth hono, gwrthddrych yr hon ydyw, nid y gwirionedd, ond cyfeiliornad, athrawiaethol ac ymarferol (*adn.* 11, 16; 1 *Tim.* vi. 3); neu hyd yn oed mewn cyferbyniad i wybodaeth fydol: "canys," fel y dywed Chrysostom, "y mae gwirionedd ynghylch pethau heb fod 'yn ol duwioldeb,' megys, er enghraifft, gwybodaeth o amaethyddiaeth, neu o'r celfyddydau, yn wybodaeth o'r gwirionedd; ond y mae hon yn wybodaeth yn ol duwioldeb." Y mae "duwioldeb" yn air neilltuol i'r Epistolau Bugeiliol: ffaith a eglurir gan yr amgylchiad fod yr apostol o dan yr angenrheidrwydd o ymdrechu ynddynt yn erbyn athrawiaeth oedd yn tueddu i gynnyrchu a meithrin "annuwioldeb:" 2 *Tim.* ii. 16; cymmh. *pen.* ii. 11, 12.

2. *I obaith bywyd tragwyddol.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn gyssylltiedig â'r adnod flaenorol, yr hon a [d] addawodd y digelwyddog Dduw cyn dechreu y byd;

gan ddechreu o "yn ol ffydd," i lawr i "dduwioldeb." Y sail ar ba un y mae fy amcan fel apostol i "gynnyrchu a meithrin ffydd a gwybodaeth gyflawn yr etholedigion o'r gwirionedd yw "gobaith bywyd tragwyddol;" *pen.* ii. 13; a iii. 7; *Act.* xxiii. 6; a xxiv. 15; a xxviii. 20. *A addawodd... cyn dechreu y byd.*—Ymadrodd talfyredig ann 'a fwriadodd cyn dechreu y byd (yn llythyrenol, cyn oesoedd amser), ac a addawodd yn weithredol mewn amser,' gan fod yr addewid yn tarddu o'r bwriad tragwyddol. Fel yn 1 *Tim.* i. 9, yr oedd y gras a roddwyd yn ffrwyth y bwriad "cyn dechreu y byd." *Digelwyddog.*—"Ei ewyllys da oedd addaw: ond wedi addaw, y mae yn amhossibl iddo fod yn anffyddlawn i'w air. Y mae addewid Duw yn dibynu ar berffeithrwydd ac anghyfnewidioldeb ei hanfod: dyma sail gadarn ffydd." Gwel y sylwadau ar *Rhuf.* iii. 4; a xi. 29; *Heb.* vi. 18.

3. *Eithr.*—Defnyddir y gair yma i wneyd cyferbyniad â'r bwriad tragwyddol a chuddiedig, ac â'r addewid a grybwyllwyd yn awr. *Mewn amseroedd priodol:*—yr amseroedd a bennodwyd gan yr Arglwydd: *Act.* i. 7. *Eglurhaodd.*—Cynnwysa y gair hwn fod yr "addewid" (*adn.* 2), wedi gorwedd yn guddiedig o'r blaen yn ei arfaeth dragwyddol ef. Cymmh. *Col.* i. 26; 1 *Tim.* i. 9, 10. *Ei air.*—Y mae y "gair" yn y lle hwn yn gyfystyr â "bywyd tragwyddol;" *adn.* 2; *Ioan* v. 14; a vi. 63; a xvii. 3, 17. *Trwy bregethu.*—Groeg: 'mewn pregethu;' neu yn hytrach fel Alford (gwel y sylw ar 2 *Tim.* iv. 17), 'yn y cyhoeddiad o'r efengyl (y peth a bregethid, sef yr efengyl) a ymddiriedwyd i mi.' *Yn ol:*—yn unol â, neu mewn canlyniad i. Cymmharer 1 *Tim.* i. 1.

4. *Titus, fy mab naturiol:*—*h.y.*, a ddychwelwyd drwy fy offeryniaeth i: 1 *Cor.* iv. 17; 1 *Tim.* i. 2; *Philem.* 10. *Yn ol y ffydd gyffredinol.*—Mab naturiol gyda golwg ar, neu yn rhinwedd y ffydd sydd yn gyffredin i holl bobl Dduw, yn cynnwys yr Iuddewon yn gystal a'r Cenhedl-

5 Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y
[a] Act. 14. 23; 2 Tim. 2. 2. [a] pethau sydd yn ol, [a] ac y gosodit henuriaid yn mhob dinas, megys yr ordeiniais i ti.

6 Os yw neb yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlawn, heb gael y gair o fod yn afradlawn, neu yn anufudd:

7 Canys [b] rhaid i esgob fod yn [b] Phil. 1. 1; 1 Tim. 3. 1. ddiargyhoedd, fel goruchwyliwr Duw; nid yn gyndyn, nid yn ddigllawn, nid yn win-gar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa;

---

oedd: am hyny yn cynnwys Titus, yr hwn oedd yn Genedl-ddyn: 2 *Pedr* i. 1; *Iudas* iii. *Gras, trugaredd, a thangnefedd.*—Y mae y gair "trugaredd" wedi ei adael allan mewn rhai o'r llawysgrifau hynaf. Ond cefnogir ef gan un o'r llawysgrifau goreu a hynaf. Gwel y sylwadau ar 1 *Tim.* ii; 2 *Tim.* i. 2. Cynnwysa yr Epistolau Bugeiliol lawer o frawddegau tebyg i'w gilydd. *Ein Hiachawdwr.*—Nid ydyw y gair "Iachawdwr" yn cael ei chwanegu fel hyn at "Grist," ond yn unig yn yr Epistolau Bugeiliol, ac yn 1 *Pedr* i. 1, 11; a ii. 20; a iii. 18.

5. *Y'th adewais*:—'Y'th adewais di ar ol' pan ymadewais o'r ynys. Nid ydyw hyn yn cynnwys fod Paul wedi ei bennodi ef i fod yno yn barhaus: cymmh. 1 *Tim.* i 3. *Yn Creta*:—yn awr Candia—ynys yn Môr y Canoldir, o ddeutu yr un pellder o Ewrop, Asia, ac Affrica. Ei hyd ydyw o ddeutu 180 o filldiroedd, a'i lled o 20 i 30 o filldiroedd. Gelwir hi Candia oddi wrth enw ei phrifddinas. Tybir iddi gael ei phoblogi ar y cyntaf o Palestina. Barna Bochart fod hyny yn debygol, o herwydd fod y parth hwnw o Palestina sydd yn gorwedd ar Fôr y Canoldir yn cael ei alw gan yr Arabiaid yn *Keritha*, a chan y Syriaid, *Creth;* ac am fod yr Hebreaid yn galw y trigolion yn *Crethi*, neu *Crethim*, yr hwn a gyfeithir gan y Deg a Thrigain yn *Cretiaid: Ezec.* xxv. 16: *Zeph.* ii. 5. Y mae yn amlwg nad ydyw y prophwydi hyn yn llefaru am ynys Creta oddi wrth eu gwaith yn cyssylltu y Philistiaid â'r Cretiaid fel yr un bobl. Gan hyny, meddylir mai rhai o'r Philistiaid oedd y Cretiaid. Gelwir *Creta* yn "wlad y Philistiaid" yn 1 *Sam.* xxx. 14, 16. Dywed Bochart, yn mhellach, fod Cretiaid Palestina yn saethyddion enwog, a bod rhai o honynt yn ngosgorddlu y brenin Dafydd: 1 *Sam.* viii. 18; a xv. 18; a xx. 28; 1 *Bren.* i. 38; 1 *Cron.* xviii. 17. Yn y lleoedd hyn, gelwir hwynt yn y cyfieithiad Cymraeg yn Cerethiaid; ond y gair gwreiddiol ydyw *Creti*. Bernir eu bod wedi cael yr enw oddi wrth air Hebraeg sydd yn arwyddo dinystrio, am eu bod yn gwneuthur dinystr mawr â'u saethau. Am eu cymmeriad moesol, gwel y Rhagarweiniad i'r epistol hwn. *Fel yr iawn drefnit.*—Yn hytrach fel y Groeg: 'fel y cwblhëit y gwaith a ddechreuwyd genyf fi, gan iawn drefnu y pethau sydd yn ddiffygiol, y rhai nis gallaswn i eu gorphen, o herwydd byrder fy arosiad yn Creta.' Y mae yn ddiammheu fod Cristionogaeth yn bod yno er's llawer o amser. Yr oedd rhai Cretiaid yn mhlith y gynnulleidfa oedd yn gwrandaw ar Pedr yn pregethu ar ddydd y Pentecost: *Act.* ii. 11. Yr oedd nifer mawr o Iuddewon yn Creta (*adn.* 10), ac y mae yn debygol i rai o'r personau a wasgarwyd yn erledigaeth Stephan bregethu iddynt (*Act.* xi. 19), fel y gwnaethant i Iuddewon Cyprus, &c. Ymwelodd Paul â'r ynys hon ar ei fordaith i Rufain: *Act.* xxvii. 7—12. Trwy yr holl offerynau hyn yr oedd yr efengyl yn sicr o gyrhaedd Creta. Ond hyd ymwellad diweddarach Paul, ar ol ei garcharlad cyntaf yn Rhufain, nid oedd un drefn eglwysig wedi ei sefydlu yn mhlith y Cristionogion yno. Dechreuodd Paul wneyd hyn, ac yr oedd wedi gorchymyn i Titus (cyn ymadael o Creta) i gario y gwaith yn mlaen, ac y mae yn awr yn dwyn y gorchymyn hwnw ar gôf iddo, *Ac y gosodit.*—Yn hytrach, 'ac yr appwyntid. *Yn mhob dinas*:—'o ddinas i ddinas.' *Megys yr ordeiniais i ti*:—*h. y.*, megys y cyfarwyddais di, gan ddisgriflo y weithred o osod henuriaid, yn gystal a'r dull o'u gosod, a'r cymmhwysderau angenrheidiol mewn "henuriaid," y rhai yn *adn.* 7 a elwir yn "esgobion." *Henuriad.*—Enw o urddas ydyw. Dynoda y gair "esgob" ddyledswyddau ei swydd gyda golwg ar y praidd.

6. Gwel y sylwadau ar 1 *Tim.* iii. 2—4. Yr hyn a enwir yma fel yn angenrheidiol mewn esgob ydyw, cael gair da gan y rhai y mae i lafurio yn eu plith. Yr oedd anfoesoldeb proffeswyr Creta yn gwneyd hyn yn gymmhwysder hollol angenrheidiol mewn un oedd i fod yn geryddwr; ac yr oedd eu hafiachusrwydd mewn athrawiaeth hefyd yn gofyn am sefydlogrwydd mawr yn y ffydd: *adn.* 9, 13. *A chanddo blant ffyddlawn*:—*h. y.*, plant crediniol. "Yr hwn nis gall ddwyn ei blant ei hun i gredu, pa fodd y gall efe ddwyn ereill."—*Bengel. Heb gael y gair.*—Nid yn unig heb fod, yn afradlawn, ond heb (hyd yn oed) gael "y gair" o fod "yn afradlawn," neu fyw yn benrhydd a gwastraffus. *Yn anufudd*:—yn afreolus, yn ddilywodraeth. Y gwrthwyneb i "mewn ufudd-dod;" 1 *Tim.* iii. 4.

7. *Canys rhaid.*—Dylid rhoddi pwyslais neilldual ar y gair "rhaid." Y rheswm pa ham y dywedir "diargyhoedd" ydyw, fod hyd yn oed y drychfeddwl o "esgob" yn cynnwys yr angenrheidrwydd am y cyfryw gymmeriad difrycheulyd, mewn trefn i'w alluogi i gael dylanwad arei braidd. Yn lle "henuriaid," y mae yr apostol yma yn defnyddio y gair sydd yn dynodi ei ddyledswyddau. *Goruchwyliwr Duw.* — *Oiconomos* ydyw y gair Groeg a ddefnyddir; yr hwn sydd yn cael ei ffurfio o ddau air; sef *oïcos*, τŷ; a *nemo*, gwasanaethu. Ystyr y gair yma ydyw—nid un yn arglwyddiaethu ar dŷ Dduw; ond un yn gwasanaethu ynddo. "Po mwyaf fyddo y meistr, mwyaf yn y byd o rinweddau a ofynir yn ei was."—*Bengel. Nid yn gyndyn.*—Yn llythyrenol, 'nid yn un awyddus i'w foddhau ei hun;' neu 'yn awyddus am gael ei ffordd ei hun gyda rhcb peth:' byddai y cyfryw ysbryd traarglwyddiaethus yn anghymmhwysder mawr i arwain y praidd. *Nid yn ddigllawn*:—nid yn un hawdd ennyn ei ddigofaint. *Nid yn win-gar.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* iii. 3, 8. *Nid yn darawydd.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* iii. 8. *Nid yn budr-elwa*:—nid yn gwneyd yr efengyl yn foddion i ennill elw bydol: 1 *Tim.* iii. 8. Mewn cyferbyniad i'r rhai oeddynt yn "athrawiaethu pethau ni ddylid, er mwyn budr-elw;" *adn.* 11; 1 *Tim.* vi. 5; 1 *Pedr* v. 2. Amcan y rhai sydd yn gwneyd masnach o'r swydd ydyw, nid porthi y praidd, ond porthi eu hunain. Y cyfryw a eilw y prophwyd yn "gwn gwancus;" *Esa.* lvi. 10.

8 Eithr yn llettygar, yn caru daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymmherus ;

9 [i] Yn dal yn lew y gair ffyddlawn, yn ol yr addysg, fel y gallo [k] gynghori yn yr athrawiaeth iachus, ac [l] argyhoeddi y rhai sydd yn gwrthddywedyd.

10 Canys y mae llawer yn anufudd, yn ofer-siaradus, ac yn dwyllwyr meddyliau, yn enwedig y rhai o'r enwaediad :

11 Y rhai y mae yn rhaid cau eu safnau, y rhai sydd yn dymchwelyd tai cyfan, gan athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn budr-elw.

12 Un o honynt hwy eu hunain, un o'u prophwydi hwy eu hunain, a ddywedodd, Y Cretiaid *sydd* bob amser yn gelwyddog, drwg-fwystfilod, boliau gorddiog.

13 Y dystiolaeth hon sydd wir. Am ba achos [m] argyhoedda hwy yn llym, [n] fel y byddont iach yn y ffydd ;

14 Heb ddal ar chwedlau Iuddewaidd, a gorchymynion dynion, yn troi oddi wrth y gwirionedd.

[i] 2 Thes. 2. 15 ; 2 Tim. 1. 13; Iudas 3 ; Dad. 3. 3, 11.
[k] 1 Tim. 1. 10; 2 Tim. 4. 3.
[l] 2 Tim. 2. 25.
[m] 1 Tim. 5. 20; 2 Tim. 4. 2.
[n] 1 Tim. 4. 6.

8. *Eithr yn llettygar.*—Yr oedd angen arbenig am lettygarwch yn y dyddiau hyny : gwel y sylwadau ar *Rhuf.* xii. 13 ; 1 *Tim.* iii. 2 ; *Heb.* xiii. 2 ; 1 *Pedr* iv. 9 ; 3 *Ioan* 5. Derbynid Cristionogion a deithient o'r naill le i'r llall, ac anfonid hwynt yn mlaen gan y brodyr. *Yn caru daioni* :—'yn caru pob peth sydd dda'—dynion da yn gystal a phethau da : *Phil.* iv. 8, 9. *Yn sobr* :—tuag ato ei hun 'yn ddoeth ;' yn ei 'lywodraethu ei hun.'—*Alford.* Yn ei berthynas â'r corph, defnyddir y gair "sobrwydd" i arwyddo cymmedroldeb o ran yfed, mewn cyferbyniad i feddwdod : 1 *Thes.* v. 6, 8 ; 1 *Pedr* v. 8. Ac yn ei berthynas â'r meddwl, i arwyddo agwedd wyliadwrus, feddylgar, gofalus ; doethineb mewn un yn gweini ei swydd, mewn cyferbyniad i fod yn anystyriol, yn ffol, ac yn anweddaidd : *pen.* ii. 12. Gwel y sylw ar 1 *Tim.* ii. 9. *Yn gyfiawn* :—tuag at ddynion. *Yn sanctaidd* :—tuag at Dduw. Gwel y sylw ar 2 *Thes.* ii. 10. *Yn dymmherus.*—Yn ol cyfieithiad Dr. Morgan, "yn ddianllad." Arwyddia y gair Groeg, 'un yn medru attal a llywodraethu ei hun ; attal a llywodraethu chwantau a thueddiadau ei natur. Cynnwysa hefyd ddiweirdeb a sobrwydd, mewn cyferbyniad i anlladrwydd a meddwdod.

9. *Yn dal yn lew* :—yn glynu yn gadarn a sefydlog. *Y gair ffyddlawn, yn ol yr addysg.*—Yn llythyrenol, 'y gair ffyddlawn hwn sydd yn ol yr addysg' a dderbyniodd. Cymmh. 1 *Tim.* iv. 6 ; 2 *Tim.* iii. 14. *Yn yr athrawiaeth iachus.*—Dyma oedd i fod yn ddefnydd ac yn rheol ei holl gynghorion. Ar "iachus" (gair neilduol i'r Epistolau Bugeiliol), gwel 1 *Tim.* i. 10 ; a vi. 3. *Argyhoeddi* :—yn hytrach, 'ceryddu ;' *adn.* 13.

10. Y mae yr apostol yn awr yn myned yn mlaen i ddisgrifio y gwrthwynebwyr, at y rhai y cyfeiriodd yn *adn.* 10, yn enwedig y rhai oedd yn preswylio yn Creta. *Yn anufudd* :—'yn aflwyddraethus.' Y mae yr ansoddair, "anufudd," yn perthyn i'r "ofer-siaradwyr," a'r "twyllwyr meddyliau ;" ac felly gellir ei darllen fel hyn, yn ol Alford :—"Canys y mae llawer o ofer-siaradwyr a thwyllwyr meddyliau aflwyddraethus." Yn "ofer-siaradus," mewn cyferbyniad i "ddal yn lew y gair ffyddlawn ;" *adn.* 9. "Ofer-siarad" (1 *Tim.* i. 6) "cwestiynau ffol, anfuddiol, ac ofer ;" *pen.* iii. 9. Gwreiddyn y drwg oedd Iuddewiaeth lygredig : *adn.* 14. Yn ol Josephus, yr oedd llawer o Iuddewon yn byw y pryd hwnw yn Creta ; felly yr oedd y lefen Iuddewaidd yn aros mewn rhai o honynt ar ol eu tröedigaeth. *Twyllwyr meddyliau* —Yn llythyrenol, 'twyllwyr meddyliau pobl ereill ;' *Gal.* vi. 3.

11. *Cau eu safnau.* — Yn llythyrenol, 'eu ffrwyno fel bwystfil aflywodraethus.' Cymmh. *Salm.* xxxii. 9. *Dymchwelyd tai* :—'dadymchwelyd' eu ffydd ;" 2 *Tim.* ii. 18. *Er mwyn budr-elw.*—Gwel y sylwadau ar 1 *Tim.* iii. 3, 8 ; a vi. 5.

12. *Un.*—Epimenides o Phæstus, neu Gnossus, yn Creta, o ddeutu 600 c.c. Anfonwyd am dano i buro Athen oddi wrth y llygredigaeth a achoswyd gan Cylon. Edrychid arno fel dewin a phrophwyd. Y mae yn debygol fod y geiriau a ddefnyddir yma wedi eu cymmeryd o'i draethawd ar "Oraclau." Y mae Paul yn dyfynu hefyd o waith awdwyr paganaidd ereill, Aratus (*Act.* xvii. 28) a Menander (1 *Cor.* xv. 33) ; ond nid ydyw yn eu hanrhydeddu hwynt cyn belled hyd yn oed a chrybwyll eu henwau. *O honynt hwy eu hunain* :—yr hyn sydd yn chwanegu at ei awdurdod fel tyst. Defnyddir y gair *Cretaneiddio* fel diareb am ddywedyd celwydd ; fel y defnyddid *Corinthianeiddio* am fod yn benrhydd. *Bob amser yn gelwyddog.* — Nid yn unig weithiau, fel y mae pob dyn wrth natur, Cyferbynier *adn.* 2, "y digelwyddog Dduw." Y maent yn caru "chwedlau ;" *adn.* 14. Chwarddai hyd yn oed y beirdd paganaidd am ben eu haeriad celwyddog, fod bedd Jupiter yn eu gwlad hwy. *Drwg fwystfilod* :—ffyrnig, creulawn, cyfrwys, a rheibus. Nid oedd bwystfilod gwylltion yn Creta. Gwawdiaith Epimenides oedd, fod ei phreswylwyr dynol yn cymmeryd lle bwystfilod gwylltion. *Boliau gorddiog* : — yn ddïog trwy orbesgi eu boliau. Gelwir hwy eu hunain yn "foliau," canys er mwyn eu boliau yr oeddynt yn byw : *Rhuf.* xvi. 18 ; *Phil.* iii. 9.

13. *Y dystiolaeth hon.*—"Y dystiolaeth hon [er yn dyfod oddi wrth un o'r Cretiaid] sydd wir." *Yn llym.*—Ni buasai tynerwch yn ddigon effeithiol i adferu troseddwyr mor ystyfnig. *Fel y byddont iach yn y ffydd* :—fel y dyger y rhai a hudwyd gan y gau-athrawon yn ol i gredu y wir athrawiaeth. Eu hafiechyd ydoedd "ymrysonau ynghylch geiriau a chwestiynau ffol ;" *pen.* iii. 9 ; 1 *Tim.* vi. 4.

14. *Chwedlau Iuddewaidd.*—Gwel y sylwadau ar 1 *Tim.* i. 4, a iv. 7 ; 2 *Tim.* iv. 4. *Gorchymynion dynion* :—ynghylch ymattaliad oddi wrth gig a phethau ereill a grewyd gan Dduw at wasanaeth dyn : *adn.* 15 ; *Marc* vii. 7—9 ; *Col.* ii. 16, 20—23 ; 1 *Tim.* iv. 3. Gelwid hwy yn "orchymynion dynion," am mai dynion, ac nid Duw, oedd yn eu gorchymyn. *Yn troi oddi wrth y gwirionedd* :—cymmeriad y rhai ydyw bod yn "troi oddi wrth y gwirionedd."

[c] 1Cor. 6. 12, 23; 1 Tim. 4. 3, 4.
[d] Hag. 2. 13; Rhuf. 14. 20, 23; 1 Cor. 11. 27–29.
[e] 1 Cor. 8. 7; Heb. 9. 14; 10. 22.
[f] Ezec. 33. 31; Rhuf. 2. 18–24; Judas 4.
[g] Dad. 21. 8, 27.

15 [c] Pur yn ddiau *yw* pob peth i'r rhai pur: [d] eithr i'r rhai halogedig a'r di-ffydd, nid pur dim; eithr [e] halogedig yw hyd yn oed eu meddwl a'u cydwybod hwy.

16 [f] Y maent yn proffesu yr adwaenant Dduw; eithr ar weithredoedd *ei* wadu y maent, [g] gan fod yn ffiaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymeradwy.

PENNOD II.

1 *Y mae efe yn hyfforddi Titus yn ei athrawiaeth, ac yn ei fuchedd.* 9 *Rhan gweision, a phob math ar Gristionogion.*

B. A. 67. — [a] Diar. 16. 21.

EITHR llefara di y pethau a weddo i athrawiaeth iachus:
2 [a] Bod o'r hynaf-gwyr yn sobr, yn onest, yn gymmesur, [b] yn iach yn y ffydd, yn nghariad, mewn amynedd:

[b] Titus 1. 13.

3 *Bod* o'r hynaf-wragedd yr un ffunud mewn ymddygiad [c] fel y gweddai i sancteiddrwydd; nid yn enllibaidd, nid wedi ymroi i win lawer, yn rhoi athrawiaeth o ddaioni:

[c] Eph. 5. 3; 1 Tim. 2. 9, 10.

4 Fel y gallont wneuthur y gwragedd ieuainge yn bwyllog, i garu eu gwŷr, i garu eu plant,

5 Yn sobr, yn bur, yn gwarched gartref, yn dda, yn ddarostyngedig i'w gwŷr priod, [d] fel na chabler gair Duw.

[d] 1 Tim. 5. 14; 6. 1.

6 [e] Y gwŷr ieuainge yr un ffunud cynghora i fod yn sobr;

[e] 1 Pedr 5. 5.

7 [f] Gan dy ddangos dy hun yn

[f] Act. 20. 33 35.

15. *Pob peth*:—allanol, sydd "bur" ynddynt eu hunain. Nid yn y pethau y mae y gwahaniaeth o bur ac ammhur, ond yn nhuedd yr hwn sydd yn eu defnyddio hwynt. Gelwir hwy yma yn "bur" mewn cyferbyniad i "orchymynion dynion" (*adn.* 14), y rhai a waharddent amryw bethau fel pe buasent yn ammhur ynddynt eu hunain. "I'r rhai pur" yn dufewnol; *h. y.*, i'r rhai y mae eu calonau wedi eu puro trwy ffydd (*Act.* xv. 9), y mae pob peth allanol yn bur: y mae pawb at eu rhyddid i'w defnyddio. Pechod yn unig sydd yn halogi yr enaid: *Mat.* xxiii. 26; *Luc* xi. 41. *Nid pur dim*:—oddi mewn nac oddi allan: *Rhuf.* xiv. 23. *Meddwl*:—eu synwyr deallawl a'u gwybodaeth. *Cydwybod*:—eu hymwybodolrwydd moesol o'r cydffurfiad neu o'r anghydffurfiad rhwng eu hegwyddorion a'u gweithredoedd ar un llaw, a chyfraith Duw ar y llaw arall. Gosodir meddwl a chydwybod halogedig allan yma fel ffynonell y cyfeiliornadau a wrthwynebir yn yr Epistolau Bugeiliol: 1 *Tim.* i. 19; a iii. 9; a vi. 5.

16. *Y maent yn proffesu*:—*h. y.*, y maent hwy trwy eu proffes yn cydnabod Duw. Nid ydyw yn gwadu eu gwybodaeth egwyddorol o Dduw, ond eu gwybodaeth ymarferol. *Ei wadu y maent.*—Y cyferbyniol i'r broffes flaenorol o hono ef: 1 *Tim.* v. 8; 2 *Tim.* ii. 12; a iii. 5. *Yn ffiaidd*:—eu hunain, er eu bod yn gosod cymmaint o bwys ar y perygl o ymhalogi â phethau allanol. Cymmh. *Lef.* xi. 10–13; *Rhuf.* ii. 22. *Yn anufudd.*—i Dduw: *pen.* iii. 3; *Eph.* ii. 2; a v. 6. *Yn anghymmeradwy*:—yn wrthodedig fel pethau diwerth ar ol eu profi. Gwel y sylw. adau ar *Rhuf.* i. 28; 1 *Cor.* ix. 27; 1 *Tim.* iii. 8.

Pennod II.

1. *Eithr....di*:—mewn cyferbyniad i'r hudwyr anghymmeradwy a warthnodir yn *pen.* i. 11, 15, 16. *Llefara*:—yn ddiattal. Cyferbynier hyn â "cau eu safnau," yn *pen.* i. 11. *Athrawiaeth iachus*:—yr egwyddorion neilldiol a ddadguddir ac a ddysgir yn yr efengyl.

2. *Sobr.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* iii. 2. *Yn onest.*—Yn ol y Saesneg, 'yn ddifrifol,' yn 'urddasol,' yn ymddwyn at bawb gyda pharch priodol. *Yn gymmhesur*:—"Yn weddus, cymmhwys, a rhesymol, neu yn medru llywodraethu ei nwydau, ei dafod, ei ddwylaw, a'i lygaid."—*Chrysostom.*

Cynnwysa y gair hwn hefyd symledd a diweirdeb. *Ffydd.....cariad.....amynedd.*—Gwel y sylwadau ar 1 *Tim.* vi. 11.

3. *Fel y gweddai i sancteiddrwydd.*—"Fel y gweddai i wragedd wedi ymgyssegru i Dduw."—*Wahl.* Gwel y sylwadau ar *Eph.* v. 3; 1 *Tim.* ii. 10. *Nid yn enllibaidd.*—Pechod pur barod i amgylchu rhai hen wragedd. Gwel y sylw ar 1 *Tim.* iii. 3. *Nid wedi ymroi i win lawer.*—Hwn oedd y pechod parod i amgylchu y Cretiaid: *pen.* i. 12. Yn llythyrenol, 'wedi eu caethiwo i win lawer.' Y mae ymroddiad i win yn gaethiwed: *Rhuf.* vi. 16; 2 *Pedr* ii. 19. *Yn rhoi athrawiaeth o ddaioni*:—*h.y.*, 'yn dysgu pethau da,' nid yn gyhoeddus, ond yn breifat (1 *Cor.* xiv. 34; 1 *Tim.* ii. 11, 12); gan ddylanwadu yn ddaionus ar y gwragedd ieuainge trwy gynghor ac esampl.

4. *Yn bwyllog.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* i 7. Cyfieithir yr adnod hon fel hyn gan Alford:—'Fel y gallont ddysgu y gwragedd ieuainge i fod yn sobr, i garu eu gwŷr, i garu eu plant.' Y mae y tri rhinwedd a enwir yma yn hanfodol angenrheidiol er cyfansoddi dedwyddwch teuluaidd. Doethineb yn Titus, yr hwn oedd yn ddyn ieuange, oedd cynghori y gwragedd ieuainge, nid yn uniongyrchol, ond trwy yr hynafwragedd

5. *Yn gwarched gartref*:—fel 'gwarcheidwaid y tŷ,' yn ol y Groeg. Darllena y llawysgrif hynaf, "Yn weithwyr gartref;" yn weithgar yn y cyflawniad o'u dyledswyddau teuluaidd: *Diar.* vii. 11; 1 *Tim.* v. 13. *Yn dda*:—yn garedig, yn haelionus: *Mat.* xx. 15; *Rhuf.* v. 7; 1 *Pedr* ii. 18. Nid yn galed, yn annhrugarog, ac yn gybyddlyd, tra yn ddoeth a chynnil fel teuluyddesau yn eu tai. *Yn ddarostymgedig.*—Gwel y sylwadau ar *Eph.* v. 21, 22, 24. *Fel na chabler*:—'fel na lefarer yn ddrwg am;' fel na thafler un gwaradwydd ar yr efengyl, trwy anghyssondeb ei phroffeswyr: *adn.* 8, 10; *Rhuf.* ii. 24; 1 *Tim.* v. 14; a vi. 1.

6. *Y gwŷr ieuainge*:—Groeg: 'Y gwŷr ieuangaf.' *Yn sobr*:—yn medru llywodraethu eu nwydau. "Nid oes dim mor anhawdd yn yr oed yma ag ydyw gorchfygu y duedd at bleserau a gwagedd."—*Chrysostom.*

7. *Yn*:—gyda golwg ar bob peth. *Dy hun... yn esampl*:—er nad ydwyt ond dyn ieuange dy hun. Ni bydd holl addysg dyn ond ofer, oddi

mhob peth yn esampl i weithredoedd da: *a dangos* mewn athrawiaeth, anllygredigaeth, gweddeidd-dra, purdeb;

8 Ymadrodd iachus yr hwn ni aller beio arno; fel y byddo i'r hwn *sydd* yn y gwrthwyneb gywilyddio, heb ganddo ddim drwg i'w ddywedyd am danoch chwi.

9 *Cynghorâ* weision i fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid eu hun, *ac* i ryngu bodd *iddynt* yn

[a] Eph. 6. 5—8.
[b] Eph. 5. 24.
[1] 1 Tim. 6. 1, 2.

eithr fod ei esampl yn cadarnhau ei air. *Mewn athrawiaeth*:—yn dy addysg weinidogaethol, gan ddangos anllygredigaeth, *h. y.*, purdeb dilwgr egwyddor ar dy ran di (cymmharer 2 *Cor.* xi. 3), fel ag i fod yn esampl i bawb. Fel y mae "gweddeidd-dra," &c., yn cyfeirio at Titus ei hun, felly y mae "anllygredigaeth;" er y mae yn ddiammheuol fod anllygredigaeth mewn "athrawiaeth" yn sier o ddilyn fel canlyniad o fod y gweinidog ei hun yn ddyn o egwyddor bur a syml. *Gweddeidd-dra*:—difrifwch urddasol wrth osod allan y gwirionedd. *Purdeb*:—mewn egwyddor ac amcan.

8. *Ymadrodd*:—araeth, darlith, neu bregeth. *Yr hwn sydd yn y gwrthwyneb*:—y gwrthwynebwr (*pen.* i. 9; 2 *Tim.* ii. 25), pa un bynag ai pagan ai Iuddew fyddo. *Gywilyddio*:—ei ddyrysu gan nerth gwirionedd a diniweidrwydd. Cymmharer *pen.* v. 10; 1 *Tim.* v. 14; vi. 1. *Ddim drwg*:—yn ein genau a'n gweithredoedd.

9. *Gweision*:—"caethweision." *I ryngu bodd iddynt*:—"i roddi boddlonrwydd iddynt."—*Alford.* Ymddwyn tuag atynt yn addfwyn a hynaws, gan ymdrechu cyflawni eu holl ddyledswyddau fel gweision yn ffyddlawn a gonest.

10. *Nid yn darn-guddio.*—Y mae y gair Groeg *nosphisomai*, a gyfeithir yma "darn-guddio," yn arwyddo lladrad dirgelaidd, neu gadw un rhan ariwahân oddi wrth y lleill, i'r dyben i'w feddiannu yn dwyllodrus. Gwel y sylw ar *Act.* v. 2, 8. *Yn dangos*:—mewn gweithredoedd. *Pob*:—pob ffyddlondeb ag sydd yn bossibl. *Da*:—gwir dda; nid mewn ymddangosiad yn unig: *Eph.* vi. 5, 6; *Col.* iii. 22—24. "Nid ydyw y paganiaid yn barnu athrawiaethau y Cristion oddi wrth ei athrawiaeth, ond oddi wrth ei weithredoedd a'i fywyd ef."—*Chrysostom. Duw ein Hiachawdwr*.—Wrth "Dduw" yma y meddylir, nid Crist, ond y Tad—awdwr gwreiddiol ein hiachawdwriaeth. Gwel y sylw ar 1 *Tim.* i. 1; lle y mae gwahaniaeth amlwg yn cael ei wneyd. Ar yr "harddu" hwn y sylwa Calvin, "Y mae yn deilwng o sylw, fod Duw yn gweled yn dda adael i'w athrawiaeth ef gael ei harddu hyd yn oed gan gaethweision, y rhai oeddynt mewn sefyllfa mor isel a diystyr fel nad oeddynt yn gyffredin yn cael eu cyfrif o gwbl yn mhlith dynion. Canys nid gweision fel y rhai a ddefnyddir genym ni yn awr a olygir; ond caethweision, y rhai a brynid yn y farchnad fel ychain a cheffylau. Ac os oedd eu bywyd hwy yn addurn i'r enw Cristion, pa faint mwy bywyd y rhai sydd mewn sefyllfa uchel." Ei waith yn ein caru nes dyfod yn Iachawdwr i ni ydyw y cymmhelliad cryfaf i ni i wneyd ymdrech i harddu ei athrawiaeth trwy ein bywydau. Dyma sydd yn rhoddi grym i'r gair "canys" yn *adn.* 11.

mhob peth; nid yn gwrthddywedyd:

10 Nid yn darn-guddio, ond yn dangos pob ffyddlondeb da; fel yr [i] harddont athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth.

11 Canys [k] ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd [l] yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn;

12 Gan ein dysgu ni i [m] wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a [n] byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn ddduwiol, yn y byd sydd yr awrhon;

[i] 1 Pedr 2. 12, 15.
[k] Ioan 1. 14, 16, 17; 2 Cor. 6. 1. Esa. 45 22; Mat 28. 19.
[l] Esa 55 6, 7.
[m] Eph. 4. 22—25.
[n] Ezec. 36. 27; Act. 24. 25.

11. *Ymddangosodd*.—Groeg: 'a wnaed i ymddangos,' neu i 'ymddisgleirio allan' (*Esa.* ix. 2; *Luc* i. 19): "a wnaed yn amlwg" (*pen.* iii. 4), ar ol bod yn guddiedig yn nghynghor grasol a thragwyddol Duw: *Col.* i. 26; 2 *Tim.* i. 9, 10. Y mae gras Duw yn awr wedi ei drysori yn Nghrist, "disgleirdeb gogoniant y Tad" wedi ymddangos fel "haul cyfiawnder." O herwydd hyn gelwir goruchwyliaeth yr efengyl "y dydd;" 1 *Thes.* v. 5, 8. *Gras Duw*:—ffafr rad Duw yn nhrefn iachawdwriaeth dyn. *I bob dyn*:—i gyrhaedd pob dyn, hyd yn oed yr isaf a'r gwaethaf: y caethweision, yn gystal a'u meistriaid.

12. *Dysgu*:—Groeg: 'gan ein dysgyblu ni.' Y mae gras yn arfer dysgyblaeth, ac yn cael ei gyfranu mewn cyssylltiad â cheryddon dysgyblaethol: 1 *Cor.* xi. 32; *Heb.* xii. 6, 7. Y mae yr addysg a dderbynia y Cristion gan "ras Duw" yn ddysgyblaeth sydd yn fynych yn galed iawn i gig a gwaed; yn union fel y mae plant yn sefyll mewn angen am ddysgyblaeth. Y mae y ddysgyblaeth a arferir ganddo yn ein dysgu i "wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn ddduwiol, yn y byd sydd yr awr hon" (Groeg: 'yn yr oes,' neu 'yn sefyllfa pethau,') lle y mae angen am y cyfryw hunan-ddysgyblaeth, gan fod ysbryd y byd yn wrthwyneb i Dduw: (*pen.* i. 12, 16; 1 *Cor.* i. 20; iii. 18, 19). Yn y byd a ddaw gallwn foddhau pob dymuniad heb unrhyw hunan-ddysgyblaeth; o herwydd bydd pob dymuniad yno yn gyddfurfiol âg ewyllys Duw. Dyben y ddysgyblaeth yw ein dysgu i "fyw yn sobr," &c. *I wadu.... chwantau*—(*Luc* ix. 23). Cynnwysa y Groeg 'wadu unwaith am byth.' Yr ydym yn eu gwadu hwynt, yn ymwrthod â'r pleserau a gynnygir ganddynt i ni, yn cilio oddi wrth y temtasiynau a osodir ganddynt o'n blaen, ac yn arfer pob moddion gosodedig o ras er eu marweiddio. *Chwantau bydol*.—Cynnwysa y bannod Groeg: 'chwantau y byd,' 'pob chwantau bydol:' *Gal.* v. 16; *Eph.* ii. 3; 1 *Ioan* ii. 15—17; v. 19. Ni bydd diwedd ar y byd (*cosmos*) pan ddiwedda yr oes (*æon*) hon, neu drefn presennol pethau. *Byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn ddduwiol*.—Ochr gadarnhaol y cymeriad Cristionogol; megys ag yr oedd "gwadu annuwioldeb a chwantau bydol" yn cynnwys yr ochr nacaol. "Yn sobr," tuag atom ein hunain, *h.y.*, yn llywodraethu ein hunain. "Yn gyfiawn," tuag at ein cymmydogion. "Yn dduwiol," tuag at Dduw. Nid yn unig yn hynaws a chyfiawn, ond yn rhywbeth uwch, —"yn dduwiol," gyda chariad a pharch tuag at Dduw. Cynnwysa y tri hyn ein "dysgyblaeth" mewn "ffydd" a "chariad;" oddi wrth y rhai y mae yr apostol yn symmud yn mlaen at "obaith" yn yr adnod nesaf.

13 Gan ddisgwyl am y gobaith
[o] Iob 19. 2 —27; b. 9. 28. gwynfydedig, [o] ac ymddangosiad
gogoniant y Duw mawr, a'n Hiach-
awdwr Iesu Grist:
[p] Ioan 6. 51; Gal. 1. 4; Heb. 9. 14. 14 Yr hwn [p] a'i rhoddes ei hun
[q] Rhuf. 11. 16, 27. drosom, [q] i'n prynu ni oddi wrth
[r] Act. 15. 9. bob anwiredd, ac [r] i'n puro ni
iddo ei hun yn bobl briodol, aw-
yddus i weithredoedd da.
15 Y pethau hyn llefara a
chynghora, ac argyhoedda gyda
phob awdurdod. Na ddiystyred
neb di.

PENNOD III.

Y mae Paul yn hyfforddi Titus pa bethau a ddysg, a pha bethau ni ddysg efe iddynt. 10 *Am ochelyd heretic cyndyn.* 12 *Y mae yn danpos iddo i ba fan, a pha bryd, y deuai ato ef; ac felly y mae yn dybenu.*

DWG ar gof iddynt fod yn ddarostyngedig i'r tywysogaethau a'r awdurdodau, fod yn B. A. 67.

13. *Gan ddisgwyl am* :—Groeg : 'gan ddisgwyl yn barhaus,' a chyda llawenydd : *Rhuf.* xiii. 19. Fe fydd hyn yn feddyginiaeth i "chwantau bydol," ac yn gymmhelliad i "fyw yn y byd sydd yr awr hon" yn gysson â'r disgwyliad hwn." *Gobaith* : —*h.y.*, gwrthddrych gobaith : *Rhuf.* viii. 24 ; *Gal.* v. 4 ; *Col.* i. 5. *Gwynfydedig* :—yn dwyn gwynfydedigrwydd : *Rhuf.*, iv. 7, 8. *Ymddangosiad gogoniant.*—Nid oes ond un bannod yn y Groeg i "gobaith" ac i "ymddangosiad ;" yr hyn sydd yn dangos fod cyssyllt iad agos rhynggdynt :—yn "ymddangosiad" Crist yn unig y cyflawnir y "gobaith." Cyfeithir y gair Groeg am "ymddangosiad" yn "ddisgleirdeb" yn 2 *Thes.* ii. 8. Megys y mae ei "ddyfodiad" yn amlygu y ffaith, felly y mae "disgleirdeb" ac "ymddangosiad" yn dangos y bydd yn weledig yn personol pan ddaw. *Y Duw mawr a'n Hiachawdwr Iesu Grist.*—Nid oes ond un bannod yn y Groeg i "Dduw" a'n "Hiachawdwr ;" yr hyn a ddengys mai yr un person a feddylir wrth y naill a'r llall. Hefyd, nid ydyw "ymddangosiad" byth yn cael ei briodoli gan Paul i Dduw Dad (*Ioan* i. 18 ; 1 *Tim.* vi. 16), nac hyd yn oed i'w "ogoniant" (fel yr eglurir gan Alford); ond cymmhwysir ef bob amser at ddyfodiad Crist, at yr hyn (ar ei ddyfodiad cyntaf ; cymmharer 2 *Tim.* i. 10) y mae y ferf "ymddangosodd" (*epephanee*), *adn.* 11, yn cyfeirio : 1 *Tim.* vi. 14 ; 2 *Tim.* iv. 1, 8. Hefyd, nid oes un cyfeiriad at y Tad yn y cyd-destyn (*adn.* 14), ond at Grist yn unig ; ac nid oes dim yn y cyddestyn yma yn galw am gyfeiriad at y Tad. Hefyd, y mae yr ymadrodd "y Duw mawr," fel y cymmhwysir ef at Grist, yn gysson â'r cyddestyn, yr hwn sydd yn cyfeirio at "ogoniant ei ymddangosiad ;" neu yn ol ystyr y cyfeithiad Cymraeg, "ymddangosiad ei ogoniant"—yn union fel y gelwir Crist yn 1 *Ioan* v. 20, yn "wir Dduw." Nid ydyw yr ymadrodd yn digwydd mewn un lle arall yn y Testament Newydd, ond y mae yn digwydd yn fynych yn yr Hen Destament. Yn *Deut.* vii. 21, a x. 17, priodolir ef i'r Iehofah, wrth yr hwn yn ddiau y meddylir Mab Duw, yr ail Berson yn y Drindod ; yr hwn, fel eu Hargl wydd, a arweiniodd yr Israeliaid trwy yr anialwch. Y mae credinwyr yn awr yn disgwyl am ymddangosiad ei ogoniant ef, o herwydd eu bod yn credu, ar sail geiriau Crist ei hun (*Ioan* xvii. 22), y caent gyfranogi o hono.

14. *Rhoddes ei hun* (*Ioan* x. 17, 18 ; *Gal.* i. 4 ; ii. 20 ; *Eph.* v. 2, 25).—Gwel y sylw ar 2 *Tim.* ii. 6. *Drosom* :—Groeg : 'yn ein lle.' *I'n prynu* :—i'n gwaredu o gaethiwed, trwy dalu pridwerth ei werthfawr waed am ein rhyddhâd : *Mat.* xx. 28 ; 1 *Tim.* ii. 6 ; 1 *Pedr* i. 18, 19. Geiriau hynod o briodol i'w harfer wrth anerch caethweision : *adn.* 9, 10. *Oddi wrth bob anwiredd* :—hanfod pechod ; sef, "trosedd o'r gyfraith" (1 *Ioan* iii. 4): mewn caethiwed, yn yr hwn yr oedd y saint hyd nes y gwaredwyd hwynt o hono : *Rhuf.* vi. 16, 20. Amcan y prynedigaeth ydyw, nid yn unig ein gwaredu oddi wrth y gospedigaeth, ond oddi wrth arglwyddiaeth, halogrwydd, a bodolaeth "pob anwiredd ;" *Mat.* i. 21. Fel hyn y mae yn troi yn ol at yr "addysg" mewn cyflawnder, neu effaith "ddysgyblaethol" gras Duw, "yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn :" *adn.* 11, 12. *I'n puro* :—*2 Cor.* vii. 1 ; *Eph.* v. 26 ; *Heb.* ix. 14. *Briodol* :—yn eiddo priodol iddo ei hun, megys ag yr oedd Israel gynt. Cymmharer "trysor priodol ;" *Ecsod.* xix. 5 ; *Deut.* vii. 6 ; xiv. 2 ; *Eph.* i. 18 ; 1 *Pedr* ii. 9. *Awyddus* :—i wneyd a chefnogi "gweithredoedd da."

15. *Y pethau hyn.....gyda phob awdurdod.*—Nid yn llwfr, petrusgar, a digalon ; ond fel un yn gwybod ac yn teimlo ei fod yn meddu awdurdod ddwyfol i bregethu yr efengyl, ac i weinyddu dysgyblaeth eglwysig. Cymmharer "yn llym," *pen.* i. 13. *Na ddiystyred neb di.*—Llefara gyda'r fath nerth nes ennill parch. Rhybuddia hwynt gyda'r fath awdurdod fel na thybia un dyn ei fod uwch law bod mewn angen am gynghor a rhybudd. "Cynghora gyda'r fath ddifrifwch, a'r fath gyssondeb, a'r fath ammhleidgarwch, fel y byddo pob gair o'th eiddo yn cario dylanwad, ac fel na allo neb dy ddiystyru o herwydd unrhyw ddiffyg yn y pethau hyn."—*Alford.*

Pennod III.

1. *Dwg ar góf iddynt* :—gan eu bod mewn perygl o anghofio eu dyledswydd, er eu bod yn ei gwybod. Gallai gwrthwynebiad Cristionogaeth i baganiaeth, a thuedd naturiol yr Iuddewon o dan ymherodraeth Rhufain (o ba rai yr oedd llawer yn byw yn Creta) i wrthryfela yn erbyn y llywodraeth wladol, beri i lawer anghofio yn ymarferol yr hyn oedd yn egwyddor addefedig yn mhlith yr holl Gristionogion ; sef, ymostyngiad i'r "awdurdodau y sydd :" *Rhuf.* xiii. 1, &c. ; 1 *Tim.* ii. 1, &c. ; 1 *Pedr* ii. 13—17. Crybwylla Diodorus am duedd y Cretiaid i anufuddhau i'r awdurdodau cyfreithlawn, ac i godi terfysgoedd. *Tywysogaethau* :—Groeg : 'yr hedd-ynadon." *Awdurdodau* :—y swyddogion gwladol, y rhai a elwir ar yr enw hwn, fel y maent wedi derbyn pennodiad i weinyddu y deddfau : *Luc* xii. 11 ; *Rhuf.* xiii. 1, 2, 3. Yn *Col.* i. 16, cyfeithir ef "meddiannau" yn yr ystyr yma. *Fod yn ddarostyngedig* :—"yn ewyllysgar." Felly y Groeg. *Fod yn ufudd* :—i orchymynion yr "heddynadon." Nid yw hyn o angenrheidrwydd yn cynnwys ufudd-dod ewyllysgar. Cynnwysa yr ymadrodd, "bod yn barod i bob gweithred dda," ufudd-dod ewyllysgar. Cymmharer *Rhuf.* xiii. 3, lle y dangosir fod ufudd-dod i'r ynadon yn tueddu at "weithrod-

ufudd, fod yn barod i bob gweithred dda.

2 Bod heb gablu neb, yn anymladdgar, yn dirion, gan ddangos pob addfwynder tuag at bob dyn.

[g] Rhuf. 3. 9—20; 1 Cor. 6. 9—11. [h] Ioan 8. 33; Rhuf. 6. 17, 22.

3 Canys [h] yr oeddym ninnau hefyd gynt yn annoethion, yn anufudd, yn cyfeiliorni, [h] yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd, gan fyw mewn

oedd da," gan mai amcan yr ynadon yn gyffredinol ydyw cefnogi y da a chospi y drwg.

2. *Bod heb gablu neb.*—Yn ol cyfieithiad Alford, "bod heb ddweyd dim drwg am neb"—yn enwedig yr ynadon a'r awdurdodau: 2 *Pedr* ii. 10; *Iudas* 8. *Yn anymladdgar:*—'heb fod yn ymrafaelgar;' 'heb ymosod ar ereill:' 1 *Tim.* iii. 3. *Yn dirion:*—tuag at y rhai a ymosodant arnynt. Dylent fod yn ymostyngar, yn bwyllog, ac nid sefyll yn rhy dŷn dros eu hawliau, ond bod yn ymarhous a charedig tuag at bawb: *Phil.* iv. 5. Yr oedd yr ysbryd hwn yn bur wahanol i'r ysbryd crintachlyd, sarhaus, ac ymosodol tuag at ereill oedd yn nodweddu y Cretiaid. *Gan ddangos:*—mewn gweithredoedd. *Addfwynder.*—Gwel y sylw ar 2 *Cor.* x. 1—y gwrthwyneb i lymder digofus. *Tuag at bob dyn.*—Y ddyledswydd o ymddwyn fel y nodir gan yr apostol yn codi oddi ar y ffaith fod "gras Duw yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn;" yr hyn a osodir allan mor fynych yn yr epistolau bugeiliol.

3. *Canys.*—Dylai yr adgof am ein pechodau blaenorol ni ein hunain ein gwneyd yn dyner tuag at ereill a syrthiant i bechod. 'Na ddiystyra neb, canys y cyfryw oeddit tithau hefyd:' fel y dywedodd y lleidr edifeiriol wrth ei gydleidr, "Onid wyt ti yn ofni Duw, gan dy fod dan yr un ddamnedigaeth?" *Luc* xxiii. 40. *Oeddym.*—Cyferbyner *adn.* 4; "Eithr pan," &c., *h.y.*, yn awr. Cyferbyniad hoff yn ysgrifeniadau Paul ydyw yr un rhwng ein sefyllfa flaenorol wrth natur, a'n sefyllfa bresennol o waredigaeth o honi trwy ras: *Rhuf.* xi. 30: *Eph.* ii. 2, 11, 13; v. 8; *Col.* i. 21; iii. 7, 8. Megys yr ymddygodd Duw tuag atom ni, felly y dylem ninnau ymddwyn at ein cymmydogion. *Ninnau.*—Gristionogion. *Gynt.*—Unwaith. *Yn annoethion.*—Yn byw mewn ffolineb ac ynfydrwydd pechadurus, gan wneyd niwed i ni ein hunain, ac i ereill. Cymmharer *Rhuf.* i. 21; *Eph.* iv. 18. *Yn anufudd:*—i Dduw: *Eph.* ii. 2; *Col.* iii. 6. *Yn cyfeiliorni:*—'yn cael ein harwain ar gyfeiliorn:' *Eph.* iv. 14. *Yn gwasanaethu chwantau:*—Groeg: 'dan gaethiwed i chwantau:' yn gwasanaethu fel caethweision i chwantau: *Rhuf.* vi. 6, 12—20. *Amryw feluswedd.*—Ymbleseru mewn amryw bethau, ac mewn amryw ffyrdd. Cyfieithir yr un gair yn "felus-chwant" yn *Iago* iv. 1; ac yn "hyfrydwch" yn 2 *Pedr* ii. 13. Arwydda y mwyniant a fwynheir gan ddyn cnawdol yn y cyflawniad o'i chwantau pechadurus. *Cenfigen.*—Y mae yn y Testament Groeg ddau air yn cael eu cyfieithu yn y Testament Cymraeg yn "genfigen;" sef *zêlos* a *phthonos*. Y cyntaf ydyw y gair a ddefnyddir yn *Iago* iii. 14; "Od oes genych genfigen;" ac yn *Rhuf.* xiii. 13; "Nid mewn cynhen a chenfigen:" a'r olaf mewn lle- oedd ereill, ac yn fwyaf cyffredin. Cyssylltir hwynt â'u gilydd yn fynych: *Gal.* v. 20, 21. Ond

drygioni a chenfigen, yn ddigasog, yn casau ein gilydd.

4 Eithr [c] pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Hachubwr tuag at ddyn,

[c] Rhuf. 5. 20, 21; Eph. 2. 4—10.

5 Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr [d] yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy [e] olchiad yr adenedigaeth, ac [f] adnewyddiad yr Ysbryd Glân;

[d] Salm 130. 7; Luc 1. 50, 54, 72, 78. [e] Ioan 3. 3-5. [f] Rhuf. 12. 2; Eph. 4. 23.

y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Weithiau arferir *zêlos* mewn ystyr da (*Ioan* ii. 17; *Rhuf.* x. 2; 2 *Cor.* ix. 2); ond y rhan amlaf yn yr Ysgrythyrau mewn ystyr drwg (*Act.* v. 17; *Rhuf.* xiii. 13; *Gal.* v. 20). Ond nid ydyw *phthonos* un amser yn cael ei arfer ond mewn ystyr drwg. Pan arferir *zêlos* mewn ystyr da, arwydda gydymgais anrhydeddus, heb ddim cenfigen ynddo. Yn yr ystyr hwn yn unig yr arferir ef gan Aristotle. Arwydda y cydymgais hwnw sydd yn ymofidio, nid o herwydd fod arall yn meddu y daioni a ddymunir ganddo, ond am ei fod ef ei hun heb ei feddu; ond ni orphwysa ar hyn, eithr ceisia feddiannu yr hyn nid oes ganddo—ac yn hyn y mae yn wrthwyneb i genfigen. Y mae yn hawdd i'r *zêlos*—y cydymgais anrhydeddus hwn—gael ei lygru a'i ddarostwng i nwydau is; a gall y llygriadau hyn, medd Trench, gymmeryd dwy ffurf: naill ai ymosod ar y da a wêl mewn arall, a cheisio ei leihau—am hyny y mae *zêlos* ac *eris*, "cenfigen a chynnen," yn cael eu cysylltu yn fynych; neu pan nad oes gan y dyn ddigon o nerth i geisio lleihau y da a feddiennir gan arall, y mae ynddo o leiaf awydd am hyny. Os na cheisia wneyd drwg iddo, ewyllysia hyny; a dyna y cyssylltiad sydd rhwng *zêlos* a *phthonos*. Nid yw y diweddaf yn cael ei roddi yn y rhestr yn *Marc* vii. 21, 22; ond cynnwysir ef yn y gair "drwg-lygad." *Yn ddigasog, yn casau ein gilydd:*—*h.y.*, yn gwneyd eu hunain yn gâs gan ereill drwy eu cymmeriad drygionus, a'u hymddygiadau ffiaidd; ac o'r tu arall, y maent hwythau yn casau ereill.

4. Amcan yr apostol yn yr adnod hon ydyw dangos leied o achos oedd gan Gristionogion Creta i ymfalchïo, ac i ddiystyru ereill nad oeddynt yn Gristionogion. Gwel y sylw ar *adn.* 2, 3. I "ddaioni a chariad Duw," ac nid i'w haeddiant eu hunain, y maent yn ddyledus am eu hiachawdwriaeth. *Daioni*:—'haelioni, drwy yr hwn y mae ei ras yn cael ei amlygu: *Rhuf.* xi. 22; *Eph.* ii. 7. *Cariad.....tuag at ddyn*:—gan ein dysgu ni i feddu y cyfryw "gariad (haelioni;) tuag at ddyn" (Groeg: 'dyngarwch'), "gan ddangos pob addfwynder tuag at bob dyn" (*adn.* 2), hyd yn oed megys ag y dangosodd Duw gariad tuag at bob dyn: *pen.* ii. 11. Y gwrthwyneb i "yn ddigasog, yn casau ein gilydd"—nodweddau dynion diailenedig—trueni y rhai a gynnhyrfodd gariad haelfrydig Duw: *Rhuf.* v. 8. *Duw ein Hachubwr*:—sef, y Tad (*pen.* i. 3), yr hwn a'n "hachubodd ni" (*adn.* 5) "trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr" (*adn.* 6).

5. *Nid o.*—Groeg: 'nid allan o:' nid fel ffrwyth yn tarddu o weithredoedd, &c. *Cyfiawnder.*—Groeg: 'mewn cyfiawnder;' *h. y.*, wedi eu gwneuthur mewn sefyllfa gyfiawn; fel gweithredoedd wedi eu gwneuthur yn Nuw: *Ioan* iii. 21. Cymmharer *Deut.* ix. 5; *Eph.* ii. 8, 9.

6 Yr hwn a dywalltodd efe arnom ni yn helaeth, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr:

[e] Rhuf. 4 4, 16: 11. 6. [h] Rhuf. 8. 17, 29, 24; Iago 2. 5. 7 Fel, [e] gwedi ein cyfiawnhau trwy ei râs ef, y'n gwneid [h] yn etifeddion yn ol gobaith bywyd tragwyddol.

[i] Rhuf. 4. 5; 1 Ioan 5. 10—13. 8 Gwir *yw* y gair, ac am y pethau hyn yr ewyllysiwn i ti fod yn daer, fel y byddo i'r sawl [i] a gredasant i Dduw [k] ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da. Y pethau hyn sydd dda a buddiol i ddynion. [k] Titus 2. 14.

9 Eithr gochel gwestiynau ffol, ac achau, a chynnenau, ac ymrysonau ynghylch y ddeddf: canys anfuddiol ydynt ac ofer.

10 Gochel y dyn a fyddo heretic, wedi un ac ail rybudd:

Yr oeddym ni yn hollol amddifad o'r elfen hon ("cyfiawnder"), yn yr hon yn unig y gellid gwneyd gweithredoedd cyfiawn, ac felly o angenrheidrwydd yr oeddym yn hollol amddifad o'r gweithredoedd: *Gal.* ii. 16; *Phil.* iii. 9. "Ni ddarfu i ni erioed wneyd gweithredoedd cyfiawnder, ac nid trwyddynt hwy yr achubwyd ni; ond ei ddaioni ef a wnaeth y cwbl."—*Theophyl. Ni:*—mewn cyferbyniad arbenig i "ei." *Drugaredd:*—yr achos cynnhyrfiol o iachawdwriaeth pob un o honom. "Mewn canlyniad i'w drugaredd." *Trwy olchiad yr adenedigaeth.*—Barn gyffredinol yr esbonwyr ydyw, fod yma gyfeiriad at fedydd, yr hwn a elwir yma yn "olchiad yr adenedigaeth;" nid o herwydd fod unrhyw gyfnewidiad yn natur y person a fedyddir, ond o herwydd ei fod yn arwydd o rinwedd trefn Duw i'w lanhau oddi wrth bechod. O herwydd hyn, dywedodd Ananias, mewn cyfeiriad at ystyr arwyddol bedydd, wrth Saul, "Cyfod, bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau."—'Bedyddier di fel arwydd o dy benderfyniad i ymwrthod â dy bechodau, ac i ymgyssegru i fod yn ddysgybl i Grist.' Y mae y gair "adenedigaeth," pan y cyssyllt ir â bedydd, yn cyfeirio at ymadrodd a ddefnyddid gan y doctoriaid Iuddewig; y rhai, pan dderbynient broselyt i'w heglwys trwy fedydd, a lefarent am dano ef bob amser fel "un wedi ei aileni." Er hyny nid ydyw y cyfnewidiad yn egwyddor dyn, yr hwn sydd yn rhoddi hawl iddo i gael ei alw yn blentyn Duw, yn cael ei wneyd gan fedydd, ond gan "adnewyddiad yr Ysbryd Glân." Cyfeithir y frawddeg ger ein bron gan rai fel hyn:—"Golchiad yr adenedigaeth; sef, adnewyddiad yr Ysbryd Glân:" ac felly nid ydyw y rhan olaf o'r frawddeg ond eglurhâd, yn dangos yr hyn a feddylid wrth y rhan gyntaf o honi.

6. *Yr hwn*:—yr Ysbryd Glân. *A dywalltodd*:—nid yn unig ar yr eglwys yn gyffredinol ddydd y Pentecost, ond hefyd arnom ni yn bersonol. *Trwy Iesu Grist*:—fel Cyfryngwr. Ar sail iawn Crist, ac mewn attebiad i eiriolaeth Crist, y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi; ac am hyny, dywedir ei fod yn cael ei roddi "trwyddo" ef.

7. *Fel, &c.*—Yr amcan oedd ganddo mewn golwg yn ein hachub oedd, ein gwneyd yn "etifeddion:" *Gal.* iii. 29; *Eph.* i. 11. *Trwy ei ras ef.*—Groeg: 'gras y blaenaf;' *h.y.*, Duw: *adn.* 4; *Rhuf.* v. 15. *Yn ol gobaith bywyd tragwyddol*: yn gysson â gobaith bywyd tragwyddol; yr etifeddiaeth dragwyddol a lwyr gyflawna y gobaith.

8. *Gwir yw y gair.*—Groeg: "ffyddlawn yw y gair:"—ffurf ymadrodd sydd yn neilltuol i'r Epistolau Bugeiliol: 1 *Tim.* i. 15; a iv. 9. Yma, "y gair" ydyw yr adroddiad o barth i radlonrwydd iachawdwriaeth Duw; yn cyfatteb i'r "Amen:" *Rhuf.* i. 25; 2 *Cor.* i. 20; *Gal.* i. 5 *Y pethau hyn, &c.*—Groeg: 'yn mherthynas i'r pethau hyn:—y gwirioneddau y traethwyd arnynt yn *adn.* 4—7; ac nid yr hyn sydd yn canlyn. *Ewyllysiwn i ti fod yn daer.*—Y mae y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma "bod yn daer," yn arwyddo haeru neu hôni unrhyw beth yn gryf ac yn ddiysgog. "Gorchymynir i Titus yma i beidio talu sylw i bethau dibwys, ac i ddysgu pethau sicr a diammheuol—i'w gwasgu hwynt at ystyriaethau y gwrandawyr—i sefyll arnynt—tra y bydd ereill yn ofer-siarad ynghylch pethau dibwys. 'Dysg y pethau hyn,' medd efe, 'o herwydd eu bod yn wir ac yn deilwng o ymddiried.'"—*Calvin. Fel y byddo i'r sawl a gredasant'i Dduw*:—*h. y.*, fel y byddo i'r sawl a ddygwyd i goelio yr hyn a ddywed Duw. *Ofalu ar flaenori*:—ar y rhai nid ydynt yn credu, mewn trefn i ddangos rhagoriaeth y grefydd a broffesid ganddynt. Ewyllysiai Paul i Titus wneuthur ymdrech egnïol i ddarbwyllo y Cretiaid i beidio treulio eu hamser mwy i ofer-siarad ac i ddadleu ynghylch cwestiynau ffol; ond i fod yn ddiwyd i wneyd "gweithredoedd da"—gweithredoedd o duedd i wneyd daioni iddynt hwy eu hunain, ac i ereill. *Y pethau hyn*:—y ffrwythau hyn o athrawiaeth ("gweithredoedd da") sydd dda a buddiol i ddynion:" ond nid oes unrhyw ffrwythau ymarferol yn tarddu oddi ar "gwestiynau ffol." Fel yna yr eglurir hi gan Grotius a Wiesinger. Ond wrth "y pethau hyn," yn ol Alford, y meddylir "y gwirioneddau hyn;" *adn.* 4—7.

9. *Cwestiynau ffol*:—cwestiynau nad oedd eu trafod a'u dadleu yn gwneyd lles yn y byd i neb. *Achau.*—Gwel y sylw ar 1 *Tim.* i. 4. *Cynnenau.*—Y mae y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma "cynnenau," yn arwyddo bod yn boethlyd o ddigofaint: *Rhuf.* i. 29; a xiii. 13. Y mae cynnhenu, yn gyffredin, os nad bob amser, yn cydfyned â chenfigen. *Ymrysonau ynghylch y ddeddf*:—ynghylch awdurdod "gorchymynion dynion," y rhai y ceisient hwy eu cadarnhau trwy y gyfraith (*pen.* i. 14: gwel y sylw ar *pen.* i. 7), ac ynghylch ystyr cyfriniol amryw ranau o'r gyfraith mewn cyssylltiad â'r "achau."

10. *Gochel.*—Gwel y sylw ar 2 *Tim.* ii. 16. Nid ydyw y gair "gochel" yn cynnwys esgymundod ffurfiol; ond 'Na fydded dim a wnelych âg ef mwyach,' trwy rybudd nac ymddiddan. *Heretic.*—Groeg: 'heresi.' Y mae y gair 'heresi' yn tarddu o'r gair Groeg *airesis*—ystyr priodol yr hwn ydyw dewisiad o unrhyw beth, pa un bynag fyddo ai da ai drwg. Arferid ef ar y cyntaf yn benaf i ddynodi dewisiad o un dyb neu farn, yn hytrach na rhyw dyb neu farn arall; ac wedi hyny defnyddiwyd ef i arwyddo hyd yn oed y dyb hono ei hun. Ei ystyr cyffredin yn yr ysgolion athronyddol boreuol yn yr ymherodraeth Rufeinig ydoedd sect neu blaid. Nid yw y gair hwn ynddo ei hun, yn cyfeirio at unrhyw gyfeiliornad mewn barn, ond yn unig at sect neu blaid o bobl; ond yr ydym ni yn awr yn gyffredin yn cyssylltu â'r gair y drychfeddwl o gyfeiliornad

11 Gan wybod fod y cyfryw un
wedi ei ŵyrdroi, ac yn pechu,
Mat. 25. 26 [l] gan fod yn ei ddamnio ei hunan.
—28, 12 Pan ddanfonwyf Artemas
= Act. 20. 4; atat, neu [m] Tychicus, [n] bydd ddy-
2Tim.4.12. fal i ddyfod ataf i Nicopolis:
[o] 2 Tim. 4. 6, 21. [o] canys yno yr arfaethais anafu.
[p] 1 Cor. 16. 8, 9. 13 Hebrwng Zenas y cyfreith-
iwr, ac Apolos, yn ddiwyd; fel
na byddo arnynt eisieu dim.
4dn. 8. 14 A [p] dysged yr eiddom nin-
nau flaenori mewn gweithredoedd

da i angenrheidiau, [q] fel na bydd- [q] Esa 61. 2.
ont yn ddiffrwyth,

15 Y mae yr holl rai [r] sydd [r] Rhuf. 16. 21—24.
gyda mi yn dy anerch. [s] Anerch [s] Rhuf. 16. 1—20.
y rhai sydd yn ein [t] caru ni yn y [t] Gal 5. 8. 1 Cor. 16. 22.
ffydd. [u] Gras *fyddo* gyda chwi
oll. Amen.

¶ At Titus, yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys y Cretiaid, yr ysgrifenwyd o Nicopolis yn Macedonia.

gyda gelwg ar bynguiau hanfodol crefydd. Defnyddir ef yn y Testament Newydd i osod allan dri pheth; sef, sect o bobl, ymraniad eglwysig, a chyfeiliornad mewn barn. Yn! *Act.* v. 17, a xxvi. 5, cymmhwysir ef at y pleidiau Iuddewig; ac yn *Act.* xxiv. 14., a xxviii. 22, cymmhwysir ef at y Cristionogion, fel enw o waradwydd gan eu gelynion. Defnyddir ef i osodj allan ymraniad yn yr eglwys yn 1 *Cor.* xi. 19: "Canys rhaid yw bod hefyd heresiau yn eich mysg, fel y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi." Y mae yn amlwg oddi wrth y cyd-destyn mai ystyr y gair "heresiau" yma ydyw sismau neu ymraniadau. Cynnwysa y gair 'heresi' hefyd, yn ol ei ystyr gwreiddiol, ymraniad oddi ar hunanewyllys; y dyn yn gwneyd ac yn dysgu yr hyn a ddewisai efe ei hun, yn annibynol ar addysg ac ymarferiad yr eglwys: 1 *Cor.* xi. 19; *Gal.* v. 20. Yn mhen amser, daeth i arwyddo yn bendant 'heresi,' yn yr ystyr diweddar o gyfeiliornad dinystriol mewn athrawiaeth; ac yn yr ystyr hwn yr arferir ef yn yr adnod ger ein bron, ac hefyd yn 2 *Pedr* ii. 1, 2. Yr oedd hereticiaid Creta, pan oedd Titus yno, o ran eu hathrawiaeth, yn dilyn eu "cwestiynau ffol" eu hunain, y rhai a gondemnir yn *adn.* 9. *Wedi un ac ail rybudd.*—Nid oedd Titus i wrthod heretic hyd nes iddo yn gyntaf wneuthur ymdrech deg i'w ddwyn ef i edifeirwch, ac wedi cael ei lwyr argyhoeddi ei fod yn un anniwygiadwy.

11. *Wedi ei wyrdroi*:—oddi wrth athrawiaeth iachus. Dywedir fod y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma "gŵyrdroi," yn cael ei arfer am adeiladau wedi eu dymchwelyd o'u sylfaen: ac felly y mae yn un heb obaith am ei feddyginiaethu: am hyny y mae i'w ochelyd: *Luc* xxiii. 2: 2 *Pedr* iii. 16. *Yn pechu*:—yn wirfoddol yn erbyn gwybodaeth; *Rhuf.* xiv. 22, 23; 1 *Tim.* iv. 2. *Gan fod yn ei ddamnio ei hunan.*—Yn ol cyfieithiad W. Salisbury: "Wedi ei farnu ganddo ei hunan." Y mae yr heretic, yn ol ystyr y gair gwreiddiol, yn hunan-gondemniedig. Y mae efe yn dodi arno ei hunan yr un farnedigaeth, neu gospedigaeth, ag a arferir ei rhoddi gan yr eglwys ar ddrwgweithredwyr; sef, ei dori ei hun allan o'r eglwys, yr hon yr oedd efe yn aelod o honi. Barna Macknight fod yr heretic hunangondemniol i'w ddeall am ddyn a fyddo yn dysgu athrawiaeth gyfeiliornus, ac yntau yn gwybod ei bod hi yn gyfeiliornus.

12. *Pan ddanfonwyf Artemas atat, neu Tychicus*:—i gymmeryd dy le yn Creta. Yr oedd Artemas yn gyfaill mynwesol i Paul, a barna rhai ei fod yn un o'i ysgrifenyddion. Pa fodd bynag, y mae yn rhaid ei fod yn dra chymmeradwy ganddo, pan y bwriadai ei anfon i Creta, yn lle Titus. Dywedir iddo fod ar ol hyny yn esgob Lystra. Anfonwyd Tychicus ddwywaith gan Paul o Asia Leiaf yn ei garchariad cyntaf: *Col.* iv. 7 (yr hyn a ddengys mor gymmhwys oedd efe i fod yn olynydd i Titus yn Creta): *Eph.* vi. 21:—ac yn ei ail garchariad: 2 *Tim.* iv. 12. Bu ar ol hyny, medd traddodiad, yn esgob Chalcedon, yn Bithynia. *Nicopolis.*—'Dinas buddugoliaeth!' gelwir hi felly oddi wrth frwydr Actium, yn Epirus. Y mae yn debygol i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu o Corinth yn yr hydref. Bwriadai Paul gymmeryd taith trwy Œtolia ac Acarnania i Epirus, a gauafu yno.

13. *Hebrwng.*—Galluoga hwynt i fyned, drwy eu cyflenwi â phob peth angenrheidiol i'w taith: 3 *Ioan* 6. *Zenas*:—y ffurf dalfyredig o Zenodorus. *Cyfreithiwr*:—ysgrifenydd Iuddewig; yr hwn, ar ol ei dröedigaeth, a barhaodd i gadw y teitl oddi wrth ei alwedigaeth flaenorol: *Mat.* xxii. 35. Barna Wiesinger mai cyfreithiwr gwladol ydoedd. *Apolos*:—gyda Zenas. Y mae yn debygol mai hwy ill dau a gariasant yr epistol hwn i Titus. Yn 1 *Cor.* xvi. 12, crybwyllir fod Apolos yn bwriadu ymweled â Chorinth. Y mae y syniad ei fod yn awr yn Nghorinth (ar y dybiaeth mai o Corinth yr ysgrifenodd Paul yr epistol hwn) yn berffaith gysson â'r bwriad hwn. Byddai Creta ar ei ffordd un ai i Palestina neu i'w ddinas enedigol Alexandria. Fel hyn ymddengys Paul ac Apolos mewn undeb prydferth hyd yn oed yn y ddinas hono lle y bu eu henwau unwaith yn arwyddair o ymbleidiaeth anghristionogol: 1 *Cor.* i. a iii. Mewn trefn i ochelyd yr ymbleidiaeth hon, teimlai Apolos gynt wrthwynebrwydd i ymweled â Chorinth, er fod Paul yn dymuno arno fyned yno.

14. *A.*—Groeg: 'ond.....hefyd.' Nid yn unig dysg di, ond dysged ereill hefyd o'u cydgredinwyr (neu "y rhai a ddychwelwyd trwy ein hoff-erynoliaeth yn Creta"—*Bengel*) gyda thi. *I angenrheidiau*:—i ddiwallu angenion cenhadon a brodyr Cristionogol, yn ol fel y byddo eisieu arnynt yn eu teithiau gydag achos yr Arglwydd. Cymmharer *pen.* i. 8, "yn llettygar:" *Phil.* iv. 16. *Yn ddiffrwyth*:—yn amddifad o weithredoedd da, caredig, a haelionus: 2 *Pedr* i. 8.

15. *Anerch y rhai sydd yn ein caru ni yn y ffydd.*—Nid oedd pawb yn Creta yn meddu y "cariad" hwn "yn y ffydd," yr hwn yw gwreiddyn gwir gyfeillgarwch. Y mae yr anerchiad hwn yn neilltuol i'r epistol hwn, ac yn gyfryw ag na buasai un ffugiwr yn ei arfer. *Gras.*—Groeg: 'y gras;' sef, gras Duw. *Gyda chwi oll.*—Nid ydym i gasglu oddi wrth yr ymadrodd yma fod yr epistol hwn wedi ei gyfeirio at yr holl Gristionogion oedd yn Creta, ond y mae yn naturiol i ni dybied y byddai i Titus ei ddarllen i'w braidd ya ddioed ar ol iddo ddyfod i'w law.

YR

EPISTOL AT PHILEMON.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Profir mai Paul ydyw awdwr yr epistol hwn gan lawer o dystiolaethau o awdurdod diammheuol. Dyfynir ef gan Origen fel Llythyr Paul at Philemon yn mherthynas i Onesimus. Tertullian, wrth roddi rhestr o epistolau Paul ag yr oedd Marcion wedi ymyryd â hwy, a ddywed "Byrder yr epistol hwn ydyw yr unig achos iddo ddiange rhag dwylaw twyllodrus Marcion." Crybwyllir ef gan Eusebius yn mhlith yr epistolau y cydnabyddid eu hawdurdod ganonaidd yn gyffredinol." Dadleua Jerome drosto, yn erbyn y rhai a wrthwynebent ei ganoniaeth ar y sail fod ei destyn yn rhy isel i apostol ysgrifenu arno. Ymddengys fod Ignatius yn cyfeirio at *Philem.* 20. Cymharer yr epistol at Polycarp. Ei fyrder ydyw yr achos nad ydyw yn cael ei ddyfynu yn fynych gan "y tadau."

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL

Y mae yr epistol hwn yn dal perthynas agos â'r Epistol at y Colossiaid. Cariwyd y ddau gan yr un person, Onesimus - â'r hwn, modd bynag, y cyssylltir Tychicus yn yr Epistol at y Colossiaid : *Col.* iv. 9. Yr un yw y personau sydd yn anfon anerchiadau, oddi eithr un, "Jesus, yr hwn a elwir Justus ;" *Col.* iv. 11. Anerchir Archippus yn y ddau fel eu gilydd : *adn.* 2 ; *Col.* iv. 17. Ceir enwau Paul a Thimotheus yn nechreu y naill a'r llall. Ac y mae Paul yn y ddau yn ymddangos fel carcharor ; *adn.* 9 ; *Col.* iv. 18. O herwydd hyn y mae yn caniyn ei fod wedi ei ysgrifenu ar yr un amser ac yn yr un lle a'r Epistol at y Colossiaid, yr hwn a ysgrifenwyd tua'r un amser a'r Epistol at yr Ephesiaid; sef, yn Rhufain, yn ystod carchariad cyntaf Paul—B. A. 61, neu 62. Cynnwysa yr epistol, oleiaf, bum cyfeiriad at ei garchariad : *adn.* 1, 9, 10, 13, 23. Ymddengys ei fod yn awr yn disgwyl dedfryd yr ymherawdwr Nero. Yr oedd efe wedi appelio at Cæsar, gan hôni ei hawl fel dinesydd Rhufeinig ; ac at Cæsar yr anfonwyd ef. Yn Rhufain, bu raid iddo ddioddef arteithiau "oediad y gyfraith." Y mae yn debygol fod y papyrau swyddol cyssylltiedig â'i achos wedi eu colli yn y llongddrylliad ger Melita : nis gellid cael copïau o honynt am gryn amser. Yr oedd yn rhaid dwyn yr erlynwyr a'r tystion o Syria i Italy—taith flinderus a pheryglus. Yr oedd Nero yn greadur hynod o fympwyol, ac mor wrthwynebol i waith fel mai anfynych iawn y ceid ganddo wrandaw unrhyw gynghaws, a rhoddi ei ddedfryd arno. O herwydd y rhesymau hyn, a'u cyffelyb, gohiriwyd prawf Paul am ddwy flynedd. Yn ystod yr amser yma, trwy garedigrwydd "pen-cadben y llu," cenhadwyd i Paul, fel y dywed Luc wrthym (*Act.* xxviii. 30), i "aros yn ei dŷ ardrethol ei hun." Ond ni ddylem adael i ymadrodd a ddefnyddir gan Luc gamarwain ein meddyliau. Nid oedd y "tŷ ardrethol" hwn yn lle mor gysurus ag y tybir yn gyffredin ei fod. Amgylchynid palas marmoraidd yr ymherawdwr, fel palasau y pendefigion yn gyffredinol yn Rhufain, gan fwthynod a chabanau o goed, y rhai a breswylid gan lu o gaethweision, a gwŷr rhyddion, a dewisolion a gedwid at wasanaeth y palas a'i breswylwyr. Ac mewn un o'r ffeuau truenus hyn y "cenhadwyd" i'r apostol aros, yn lle cael ei daflu i'r daear-gelloedd dychrynllyd o dan lawr y palas. Yn mhellach, cadwynid ef nos a dydd wrth filwr ar ol milwr o'r gwarchodlu ymherodrol—ni oddefid iddo gael un munyd ar ei ben ei hun ; ac y mae yn ddiammheu yr ymddygid tuag ato yn fynych gyda dirmyg, os nad gyda chreulondeb, gan y milwyr anwar. Gyda'i arddwrn ddeheu wedi ei chadwyno wrth arddwrn aswy y milwr, efe a eisteddodd am "ddwy flynedd gyfan" yn ei fwthyn coed, gan ddysgu pawb a ddeuent ato ef, ac ennill rhai o'i warcheidwaid, ïe, hyd yn oed rhai o'r llyswyr—canys y mae yn crybwyll am ei lwyddiant yn "y llys"—at grefydd Crist. Yr oedd "y gofal dros yr holl eglwysi" arno ef ; yr oedd negeswyr yn myned ac yn dyfod yn barhaus gyda chenadwriaethau, rhoddion, neu lythyrau : ac yn y cyfwng rhwng gweinyddiad yr addoliad a'r addysg, y darfu i'r apostol, yn ei gadwynau, draethu yr epistolau nas gallai mwyach eu hysgrifenu, gan chwanegu ychydig eiriau (fel yn *Philem.* 19) â'i law ei hun—llaw oedd wedi ei chrebychu a'i dolurio gan y gadwen oedd yn crogi wrthi, fel yr oedd pi eiriau o angenrheidrwydd yn ychydig, a'r llythyrenau a ysgrifenid gyda hi o angenrheidrwydd yn "freision." Adroddai Paul frawddeg ar ol brawddeg i Luc, y meddyg dysgedig, yr hwn a gariai ei ysgrif-bin, a'r inc-gorn wrth ei wregys. Cafodd ar ei feddwl ysgrifenu llythyr at ei gyfaill Philemon ynghylch caethwas oedd wedi ffoi oddi wrtho, gan ddadleu dros y truan, ac

addaw, os oedd y caethwas wedi gwneyd rhyw gam âg ef, neu os oedd yn ei ddyled, y byddai efe yn gyfrifol am dano. Tarawyd ef gan y meddwl y byddai mwy o rym yn yr addewid pe yr ysgrifenai hi â'i law ei hun; ac y mae yn ymddangos fel pe yr ymattaliasai ar ganol llefaru, gan ddywedyd, 'Aros, Luc: dyro yr ysgrif-bin i mi!' a chyda llaw anystwyth ysgrifenodd y geiriau hyn, "Myfi, Paul, a'i hysgrifenais â'm llaw fy hun, myfi a'i talaf."

AT BWY YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Y mae yn debygol mai brodor o Colossa oedd Philemon, at yr hwn yr ysgrifenodd Paul yr epistol hwn, neu o leiaf yr oedd yn preswylio yn y ddinas hono y pryd hwnw. Nid ydym yn gwybod dim am dano, heb law yr hyn a ddysgwn oddi wrth yr awgrymiadau a geir yn yr epistol hwn, fel yr eglurir hwynt gan arferion a defodau yr oes hono. Oddi wrth y rhai hyn yr ydym yn casglu ei fod yn ŵr o gyfoeth a dylanwad, yn llettygar, yn haelionus i'r tlodion, a bod ganddo "eglwys" yn ei dŷ; *h.y.*, ei fod yn casglu ei frodyr a'i chwiorydd yn Nghrist ynghyd i addoli, ac i gyfranogi o'r "gwleddoedd" oedd y pryd hwnw yn dilyn addoliad. Y mae yn debygol mai gwraig Philemon oedd yr "Apphia ein hanwylyd" a grybwyllir yn *adn.* 2, fel y dywed yr esbonwyr Groegaidd boreuol. Gweinidog yr efengyl yn Colossa oedd "Archippus ein cyd-filwr;" canys yn ei Epistol at y Colossiaid, dywed Paul, "Dywedwch wrth Archippus, Edrych at y weinidogaeth a dderbyniaist yn yr Arglwydd, ar i ti ei chyflawni hi." Y mae yn debygol hefyd ei fod yn fab i Philemon ac Apphia, ac yn weinidog i'r eglwys oedd yn ymgyfarfod yn eu tŷ. Cadarnheir y tybiau a'r traddodiadau hyn gan lythyr Paul, o leiaf cyn belled a hyn—nad ydyw mewn un modd yn debyg y byddai i'r apostol, wrth ysgrifenu ar fater mor hollol gyfrinachol a thröedigaeth a dychweliad caethwas ffoedig, anfon anerch arbenig at neb ond Philemon ac aelodau ei deulu. Yr oedd Philemon wedi derbyn yr efengyl o enau Paul ei hun; canys y mae Paul yn dwyn ar gof iddo (*adn.* 19) ei fod yn ei ddyled ef hyd yn oed "am dano ei hun"—ei enaid ei hun: hyny yw, yr oedd efe wedi ei ddychwelyd o dan weinidogaeth yr apostol. Fe syrthiodd yr hâd i dir da; canys llanwyd calon Philemon â'r "ffydd sydd yn gweithio trwy gariad" (*adn.* 4); a "llonwyd" ymysgaroedd llawer o'r saint trwy ei weithredoedd da a'i gymmhorth caredig (*adn.* 7). Yr oedd efe, nid yn unig yn llettygar ac yn haelionus, ond hefyd yn ddyn mor hynaws fel nad oedd eisieu ond rhoddi awgrym iddo ynghylch unrhyw ddyledswydd, i beri iddo wneuthur mwy nag a geisid ganddo. "Gan wybod," medd Paul, "y gwnai, ïe, fwy nag yr ydwyf yn ei ddywedyd" (*adn.* 21). Gan hyny, gallwn edrych ar Philemon fel un o'r arglwyddi Asiaidd hyny, at y rhai y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn cyfeirio yn fynych yn ei ddammegion—fel un yn perchen llawer o gaethweision, i'r rhai yr ymddiriedai ei dda, yn ol gallu pob un i'w ddefnyddio; fel penteulu Cristionogol, yn meddu gwraig grefyddol, a mab yn y weinidogaeth, ac eglwys Gristionogol yn ei dŷ.

AMCAN AC ACHLYSUR YR EPISTOL.

Yn mhlith caethweision Philemon, yr oedd un o'r enw Onesimus—Phrygiad o genedl, a Cholossiad o enedigaeth. Mewn teulu Cristionogol, fel teulu Philemon, gallwn fod yn lled sicr fod caethwasiaeth yn cymmeryd y ffurf esmwythaf—fod rheolau gŵr y tŷ yn dyner a dyngarol—yr ymddygid yn garedig at Onisemus a'i gyd-gaethion, a'u bod yn cael cyfleusderau mynych i glywed "y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu." Modd bynag, ni ddychwelwyd Onesimus ar y pryd at grefydd ei feistr. Ei fod yn ddyn o alluoedd naturiol da, ac o dymmer hynaws, sydd amlwg oddi wrth y ganmoliaeth uchel a roddir iddo gan Paul; canys yr oedd gan Paul allu anghyffredin i ddeall y natur ddynol. Yr oedd yn caru Onesimus megys ei "ymysgaroedd ei hun" (*adn.* 12); yr oedd wedi cael ei gyfeillach yn fuddiol iawn (*adn.* 11); a buasai yn hoffi ei gadw ef fel cyfaill a gweinidog (*adn.* 13). Ond ar y llaw arall, nid carcharor rhyfel oedd Onesimus; am hyny, nid oedd yn un o'r dynion truenus hyny, y rhai, er eu bod yn llawer mwy coethedig na'u meistriaid, a orfodid i ddioddef pa ddiraddiad neu sarhâd bynag y gwelent yn dda eu gweinyddu arnynt. Brodor o Colossa, yn ngwasanaeth un o ddinasyddion Colossa, oedd efe. Gan hyny, y mae yn debygol mai caethwas wedi ei eni yn y teulu ydoedd, ac mai caethwas oedd ei dad, neu ddyn o sefyllfa neu arferion isel, yr hwn a'i gwerthasai ei hun i gaethiwed fel y gallai gael rhyw fath o gynnaliaeth. Bernir hefyd fod Onesimus yn lleidr. Canys, er y gellir tybied nad oedd efe wedi gwneuthur un niwed i'w feistr heb law diangc o'i wasanaeth, etto ymddengys fod y cyfeiriad yn y llythyr hwn at y ffaith fod Onesimus wedi bod gynt yn "anfuddiol" i'w feistr (*adn.* 11); yr erfyniad, "os gwnaeth efe ddim cam â thi, neu os yw yn dy ddyled, cyfrif hyny arnaf fi" (*adn.* 18); a'r addewid, "Myfi a'i talaf" (*adn.* 19)—oll yn cyfeirio at ladrad. Y maent yn rhoddi ar ddeall fod Onesimus wedi ffoi gydag arian neu eiddo a ymddiriedasai ei feistr iddo. Ar ol llawer o grwydriadau, a pheryglon, cyrhaeddodd i Rufain—gan mai y brifddinas orboblog hono, y pryd hwnw, fel yn awr, oedd y brif gyrchfa i ba un y ffoai troseddwyr i chwilio am noddfa. Gallwn ddychymygu gyda pha fath wehilion o droseddwyr, dyhirod, lladron, ysbeilwyr, a thwyllwyr yr oedd Onesimus yn ymgymmysgu yn llochesau diffaith y ddinas ymherodrol, ac mor fuan y gwastraffai ei ladrad yn eu mysg hwynt, neu yr ysbeilid ef o hono. Ond o'r diwedd dygodd Rhagluniaeth rasol ef i fwthyn Paul. Yn mhlith y "dyrfa oedd yn gwasgu" yr apostol "beunydd," un diwrnod safai y caethwas Phrygiaidd. Wrth wrandaw, deffrowyd ei gydwybod, edifarhaodd, ac achubwyd ef. Ef e a adroddodd ei hanes wrth yr apostol: cyfaddefodd ei bechod, a derbyniodd gysur na wyddai ddim am dano erioed o'r blaen. Cyflwynodd ei hun i wasanaeth y pregethwr, gan yr hwn y dys gasai efe ffordd gwirionedd a heddwch. Hoffodd Paul ef. Meddyliodd y byddai yn dda i Onesimus dychwelyd at ei feistr i wneyd iawn am ei bechod; ac efe a'i hanfonodd ef yn ol gyda Tychicus, yr hwn a gariodd yr epistol at Eglwys Colossa, tra y dygai Onesimus lythyr at Philemon—llythyr, y mae yn debyg, y tybiodd Paul na ddarllenid ef byth gan neb ond gan ei gyfaill Philemon, Apphia ei chwaer, a'i gydymaith Archippus, ond yr hwn y mae yr Ysbryd Glân yn rasol wedi ei roddi yn ein dwylaw.

NODIADAU AR YR EPISTOL AT PHILEMON.

Dywedir yn y "Canonau Apostolaidd," fod Onesimus wedi ei ryddhau gan ei feistr; a dywed y "Gosodiadau Apostolaidd" ei fod wedi ei ordeinio gan Paul ei hun yn esgob Berea, yn Macedonia, ac wedi dioddef merthyrdod yn Rhufain. Y mae Ignatius yn llefaru am dano fel esgob yr Ephesiaid. Y dyddiad olaf y gellir ei roddi i ferthyrdod Ignatius ydyw B. A. 107; hyny yw, pymtheng mlynedd ar hugain ar ol amseriad yr epistol hwn. A thybied fod Onesimus yn ddeg ar hugain yr amser yma, ni buasai y pryd hwnw ond 65ain mlwydd oed. Ac hyd yn oed a gosod marwolaeth Ignatius yn yr amseriad diweddaf, B. A. 116, byddem etto yn mhell o fewn terfynau possiblrwydd.

NODWEDD AC ARDDULL YR EPISTOL.

Gelwir yr epistol hwn, o herwydd ei ysbryd tyner, ei serchogrwydd neilldnol, a'i foneddigeiddrwydd nodedig, yn "epistol moesgar." Etto nid ydyw yn cynnwys dim o'r moesgyfarchiadau a'r canmoliaethau gwenieithus a rhagrithiol a gamenwir gan y byd yn foesgarwch. Y mae yn ddewr ac yn blaen, heb un ffaith yn cael ei chamddisgrifio na'i chelu; ac ar yr un pryd y mae yn hynod o swynol a deniadol. Fel cyfansoddiad, y mae yn orchestwaith o'i ryw, nas gellir cael dim i'w gystadlu âg ef hyd yn oed yn epistolau Pliny a Tully, prif ysgrifenwyr y Rhufeiniaid; ac y mae yn amlygu llawer o ysbryd rhagorol Paul fel dyn, fel Cristion, ac fel gweinidog yr efengyl. A ganlyn yw y disgrifiad hyawdl a roddir gan Luther o hono:—"Dengys yr epistol hwn esampl nodedig o hawddgarwch cariad Cristionogol. Yma yr ydym yn gweled y modd y mae Paul yn rhoddi ei hun yn lle Onesimus druan, ac yn arfer ei holl ddawn i ddadleu ei achos gyda'i feistr; ac felly yn gosod ei hun fel pe efe fuasai Onesimus, ac fel pe buasai efe ei hun wedi gwneyd cam â Philemon. Etto nid ydyw yn gwneyd hyn gydag awdurdod neu drais, megys pe buasai ganddo hawl i'w wneyd; ond y mae yn ymddiosg o'i hawl, a thrwy hyny y mae megys yn gorfodi Philemon hefyd i ymwrthod â'i hawl. Megys y gwnaeth Crist drosom ni gyda Duw Dad, felly hefyd y mae Paul yn gwneyd dros Onesimus gyda Philemon; canys fe ymddiosgodd Crist hefyd o'i ogoniant, a thrwy gariad a gostyngeiddrwydd rhoddodd y Tad ei ddigofaint a'i allu o'r neilldu, a chymerodd ni i heddwch er mwyn Crist, yr hwn sydd yn garedig yn dadleu ein hachos, ac â'i holl galon wedi rhoddi ei hun yn ein lle ni. Yn ol fy meddwl i, ei 'Onesimiaid' ef ydym oll."

YR EPISTOL AT PHILEMON.

4 *Y mae yn wych ganddo ef glywed am ffydd a chariad Philemon; 9 ac yn dymuno arno faddeu i'w was Onesimus, 14 a'i gymmeryd ef adref yn garedig drachefn.*

B. A. 62.

PAUL carcharor Crist Iesu, a'r brawd Timotheus, at Philemon ein hanwylyd, a'n cydweithiwr,

2 Ac at Apphia *ein* hanwylyd, [a] Col. 4. 17. [b] Phil. 2. 25. [c] Rhuf. 16. 5; Col. 4. 5. [d] 2 Cor. 13. 14. ac at [a] Archippus [b] ein cydfilwr, ac at yr [c] eglwys sydd yn dy dŷ di.

3 [d] Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

4 [e] Yr wyf yn diolch i'm Duw, gan wneuthur coffa am danat yn wastadol yn fy ngweddïau, [e] Phil. 1. 3; Col. 1. 3; 1 Thes. 1. 2

5 Wrth glywed dy gariad, a'r ffydd sydd genyt [f] tuag at yr Arglwydd Iesu, a thuag at yr holl saint; [f] Adn. 7; Act. 9. 41; 1 Ioan 3. 23.

6 Fel y gwneler cyfraniad dy ffydd di yn nerthol, trwy adnabod pob peth daionus, a'r sydd [g] ynoch chwi yn Nghrist Iesu. [g] 2 Pedr 1. 8.

---

1. *Carcharor Crist Iesu:*—un wedi ei draddodi i garchar o herwydd achos Iesu Grist. Nid yw yn galw ei hun, fel mewn epistolau ereill, "Paul apostol," am ei fod yn ysgrifenu yn y cymmeriad o gyfaill yn erfyn am ffafr, yn hytrach nag fel apostol yn gorchymyn yr hyn oedd uniawn: *adn.* 8, 9. *A'n cydweithiwr.*—Nis gellir penderfynu yn sicr yn mha le na pha bryd y bu Philemon yn cydlafurio â Phaul; ond cesglir mai yn Colossa, tra yr oedd yr apostol yn Ephesus. Gwel y rhagarweiniad i'r Epistol at y Colossiaid. *Timotheus.*—Gan fod Timotheus wedi cydweithio â Phaul yn Colossa, ac o ganlyniad yn adnabyddus i Philemon, yr oedd yn briodol iawn iddo ymuno â Phaul yn anfoniad y llythyr hwn, i ddangos ei fod yn ymuno âg ef yn y cais hwn, yn gystal ag yn ei dystiolaeth gyda golwg ar dueddfryd da Onesimus.

2. *Apphia.*—Ffurf Roeg o'r enw Lladin *Appia.* Ymddengys mai gwraig Philemon ydoedd: yn sicr rhaid ei bod hi, yn gystal ag Archippus, yn perthyn i'w deulu; neu o'r braidd y buasent hwy yn cael eu cyfarch yn arbenig fel hyn mewn llythyr cyfrinachol ar fater teuluaidd. *Archippus:*—gweinidog eglwys Colossa, a thybir ei fod yn fab i Philemon. *Cydfilwr:*—2 *Tim.* ii. 3. *Yr eglwys sydd yn dy dŷ di.* — O herwydd diffyg addoldy rheolaidd, yn yr hwn y gallai yr aelodau eglwysig ymgyfarfod, defnyddid tai saint neilltuol i'r pwrpas hwnw: *Col.* iv. 15. Ceir yma enghraifft o gallineb, yn cyssylltu â Philemon y rhai oeddynt gyssylltiedig drwy berthynas neu frawdoliaeth Gristionogol â'i deulu ei hun, a pheidio myned tu allan iddo.

3. *Gras,* &c.—Gwel y sylw ar y geiriau a welir yn 1 *Tim.* i. 2.

4. *Yn wastadol.*—Barna Alford fod y geiriau hyn yn perthyn i "yr wyf yn diolch i'm Duw" (*Eph.* vi. 16), nid fel yn y cyfleithiad Cymraeg, â "gwneuthur coffa." Cymmharer 1 *Cor.* i. 14; *Rhuf.* i. 8.

5. *Wrth glywed,* &c.—Yma y mae yn dangos pa beth oedd sail neu destyn ei ddiolchgarwch: *adn.* 4. Gellir ystyried ei waith yn dyweyd "ei fod yn diolch i Dduw," wrth glywed (*Rhuf.* i. 8; *Eph.* i. 15; *Col.* i. 3, 4), am gariad a ffydd eglwys a phersonau, y rhai nid oedd efe wedi eu gweled, nac hyd yn oed wedi ymweled â hwynt y pryd hwnw, fel arwydd o ddilysrwydd. Cymmharer 1 *Cor.* i. 4; *Phil.* i. 3, "yn mhob coffa am danoch;" 1 *Thes.* i. 2, 3; 2 *Thes.* i. 3. Nid oedd efe hyd y pryd hwn erioed wedi gweled Colossa—lle preswylfod Philemon: *Col.* ii. 1. Etto y mae *adn.* 19 yn cynnwys mai trwy ei offerynoliaeth ef y dychwelwyd Philemon. Y mae yn ddiau mai yn Ephesus y dychwelwyd ef, neu mewn rhyw fan arall, lle y cyfarfu â Phaul. *Cariad:*—tuag at y saint. *Ffydd:*—tuag at yr Arglwydd Iesu. Y drefn ddiweddaf ydyw ffydd yn gyntaf; yna cariad, ffrwyth ffydd: *Gal.* v. 6. Ond y mae efe yn fwriadol yn rhoddi cariad Philemon yn gyntaf, gan mai i weithred o gariad y mae efe yn ei annog. *Tuag at...a thuag at.*—Defnyddir dau air gwahanol yn y Groeg: 'tuag at.....i.' Nid ydyw "tuag at" yn cynnwys dim ond cyfeiriad syml; "i," er mantais neu er budd yr holl saint.

6. *Fel,* &c. — Amcan fy niolchgarwch a fy ngweddïau drosot ti ydyw, *fel y gwneler,* &c. *Cyfraniad dy ffydd:*—y cyfraniad o honi hi a'i ffrwythau; sef, gweithredoedd o gariad a haelioni; fel yn *Heb.* xiii. 6. "Cyfranu;" *h. y.,* rhoddi cyfran i ereill; neu haelioni i ereill yn codi oddi ar ei ffydd (felly y cyfieithir y Groeg: 'haelioni eich cyfraniadau;' 2 *Cor.* ix. 13). *Yn nerthol, trwy.*—Groeg: 'yn effeithiol yn;' fel yr elfen yn yr hon yr oedd ei haelioni yn gweithio; *h.y.,* fel y profer ei haelioni mewn gweithred-

7 Canys y mae genym lawer o lawenydd a dyddanwch yn dy [a] gariad di. o herwydd [b] bod ymysgarodedd y saint wedi eu lloni trwot ti, frawd.

[a] Adn 20; [b] 2 Tim. 1. 16.

8 O herwydd pa ham, er bod genyf [1] hyfdra lawer yn Nghrist, i orchymyn i ti y peth sydd weddus;

[1] 2 Cor. 3. 12; 1 Thes. 2. 1, 6.

9 Etto, o ran cariad, yr ydwyf yn hytrach yn attolwg, er fy mod yn gyfryw un a Phaul yr hynafgwr, ac yr awrhon hefyd [k] yn garcharor Iesu Grist.

[k] Adn. 1; Eph. 3. 1.

10 Yr ydwyf yn attolwg i ti dros fy mab Onesimus, [l] yr hwn a genhedlais i yn fy rhwymau :

[l] 1 Cor. 4. 15; Gal. 4. 19.

oedd yn, &c. *Adnabod.*—Groeg : gwybodaeth drwyadl ;' *h. y.*, adnabyddiaeth brofiadol neu ymarferol. *Pob peth daionus, a'r sydd ynoch chwi.*—Darllena y llaw-ysgrifau hynaf, ' yr hwn sydd ynom ni ;' *h.y.*, adnabyddiaeth ymarferol o bob gras ynom ni, Gristionogion, cyn belled ag yr ydym yn sylweddoli y cymmeriad Cristionogol. Yn fyr, ' fel y profer trwy weithredoedd fod dy ffydd yn ffydd sydd yn gweithio trwy gariad :' *Gal.* v. 6. *Yn Nghrist Iesu.*—Yn hytrach fel y Groeg, 'i Grist Iesu ;' *h.y.*, er gogoniant Crist Iesu. Y mae dau o'r llaw-ysgrifau hynaf yn gadael allan "Iesu." Y mae yr adnod hon yn cyfatteb i *adn.* 5: "Dy gariad, a'r ffydd sydd genyt tuag at.....yr holl saint." Nid ydyw Paul byth yn peidio cofio am dano ef yn ei weddïau, fel yr amlygo ei ffydd fwy fyth o'i gallu yn ei pherthynas âg ereill, trwy ddangos pob gras sydd mewn Cristionogion er gogoniant Crist. Fel hyn y mae yn parotoi y ffordd i'r cais ar ran Onesimus : *adn.* 9.

7. *Canys.*—Rheswm dros y weddi yn *adn.* 4—6. *Y mae genym.*—Groeg : 'cawsom.' *Llawenydd a diddanwch.*—Cyssylltir y ddau air yn 2 *Cor.* vii. 4. *O herwydd bod ymysgaroedd y saint wedi eu lloni trwot ti.*—Yr oedd ei dŷ yn agored i'r saint: *adn.* 2. *Frawd.*—Rhoddir y gair hwn yn olaf, i'r dyben o'i ddenu i dalu sylw ffafriol i'r cais sydd yn canlyn.

8. *O herwydd pa ham.*—O herwydd fy ngharfiad atat ti (*adn.* 9), mae'n well genyf ' erfyn,' yn hytrach na 'gorchymyn ' yn awdurdodol. *Er bod genyf....i orchymyn :*—yn rhinwedd y rhwymedigaeth i ufudd-dod (*adn.* 19, 21) ag yr oedd Philemon yn gorwedd o dano i Paul, fel un oedd wedi ei ddychwelyd trwy ei offeryniaeth. *Yn Nghrist :*—fel un sydd wedi ei alw gan Grist i fod yn apostol, ac fel y cyfryw yn meddu awdurdod i orchymyn i ti i wneyd " y peth sydd weddus ;" *h.y.*, i wneyd yr hyn sydd dda a rhinweddol.

9. *Etto, o ran cariad :—h.y.*, o ran yr hyn yw fy ngharfiad i atat, a'r hyn y dylai dy gariad di fod at Onesimus. Neu, y cariad Cristionogol hwnw o'r hwn y dangosaist ti esampl mor ragorol. *Er fy mod yn gyfryw un :—h.y.*, er fy mod yn gyfryw un ag y gwyddost fy mod ; sef, Paul (sylfaenydd cynnifer o eglwysi, ac apostol Iesu Grist, a'th dad yn yr efengyl). *Yr hynafgwr*—(amgylchiad o duedd i ennill ei sylw parchus i unrhyw beth a dŵgeisiai ganddo). *ac yr awrhon hefyd yn garcharor Iesu Grist : — Eph.* iv. 1 ; *Col.* iv. 18 : yr hawl gryfaf a feddai ar ei barch. 'Os nad am un rheswm arall, o leiaf oddi ar yr ystyriaeth o hyn, boddha fi o dosturi tuag atat.'

10. *Yr ydwyf yn attolwg i ti.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei ail adrodd yma o *adn.* 9, mewn trefn i chwanegu at y pwyslais. Yn y Groeg, y mae yr enw "Onesimus," gyda medrusrwydd neilduol, yn cael ei roddi yn olaf. Y mae yn gyntaf yn rhoddi disgrifiad ffafriol o hono ef cyn iddo grybwyll yr enw oedd wedi syrthio mor isel yn ngolwg Philemon. "Yr ydwyf yn attolwg i ti dros fy mab Onesimus, yr hwn a genhedlais i yn fy rhwymau." Nid ydyw yr Ysgrythyr u yn cefnogi caethwasiaeth ; ond ar yr un pryd nid ydynt yn cychwyn rhyfelgyrch politicaidd yn ei erbyn. Gosodir allan egwyddor o gariad ganddynt at ein cyd-ddynion, yr hon sydd yn sicr mewn amser o fyned o dan ei gwraidd a'i dymchwelyd, heb gynnhyrfu y caethweision i ymgodi mewn gwrthryfel yn erbyn eu meistriaid. Er enghraifft, yr ydym yn gweled yr egwyddor hon ar waith yn eglwysi Ephesus a Colossa, ac yn cyflym gynnyrchu chwyldroad cymdeithasol dyfnach a helaethach nag a gyflawnwyd erioed yw ddeddf neu awdurdod cyfraith ; îe, yn Llythyr Paul at Philemon, ceir eglurhâd bywiog ar weithrediad yr egwyddor hon. Yn yr ymdrafodaeth sydd ynddo ar gaethwasiaeth y mae prif ddyddordeb y llythyr hwn yn gynnwysedig. Yma yr ydym yn gweled yr egwyddor gyffredinol nid yn unig yn cael ei hadrodd, ond ei chymmhwyso ; ac wrth astudio y cymmhwysiad o honi y ceir y syniad cywiraf am yr egwyddor ei hun. Beth, gan hyny, oedd sefyllfa y caethwas yn yr amseroedd clasurol ? a ïpha fodd yr oedd yr efengyl yn cymmhwyso ei hun at y sefyllfa hono ? Yr oedd sefyllfa caethion y cyfnod hwnw yn fwy truenus na dim y gallwn ni yn y dyddiau hyn ddychymygu am dano. Yr oedd eu meistriaid yn meddu awdurdod hollol arnynt. Nis gallent briodi, na pherchenogi un math o eiddo. Eu meistriaid oedd bïau eu hamser, eu galluoedd meddyliol a chorphorol, ac hyd yn oed eu personau. Ni chaniateid iddynt sefyll fel tystion mewn un llys gwladol. Curid a ffiangellid hwynt gyda chreulondeb arswydus. Er enghraifft, torwyd coes Epictetus, yr athronydd Stoicaidd (yr hwn, fel Onesimus, oedd gaethwas Phrygiaidd ; ac fel yntau, oedd yn awr yn nghymmydogaeth palas Nero), gan ei feistr, yr hwn, er mwyn difyrwch hollol, a ddechreuodd ei ddirdroi ef y ffordd yma a'r ffordd arall. Mynych y gorfodid hwynt i ymladd â bwystfilod gwyllion yn y chwareufa, neu llofruddid hwynt gan y camp-ymladdwyr, i wneuthur dydd gŵyl Rhufeinig. Os lliosogent yn rhy gyflym, lleiheid eu nifer trwy eu lladd hwynt. Tröid caethion a fyddent i weidi myned yn rhy hen, neu yn rhy weiniaid i wneyd unrhyw waith, allan i'r heolydd i farw, neu gadewid iddynt feirw o newyn o dan gronglwyd eu meistriaid. Dygid Paul, wrth deithio o ddinas i ddinas, i gyffyrddiad parhaus â'r creaduriaid annedwydd hyn ; ac wrth gwrs, gofidiai yn ddwys o herwydd eu sefyllfa druenus. Yr oedd efe wedi dysgu Crist yn y fath fodd fel ag i edrych ar bob dyn fel brawd : a chredaf fod bywyd o ogoniant a dedwyddwch tragwyddol yn nghyrhaedd pob enaid dyn. Pa fodd, ynte, y gallai efe edrych ar neb ag yr oedd Crist wedi cyfranogi o'u natur, ac i brynu y rhai yr oedd Crist wedi marw, yn cael eu cadw mewn sefyllfa îs, a mwy truenus ac anobeithiol na bwystfilod y goedwig ? Uwch law y cwbl, pa fodd y gallai efe

[m] Job 30.1,2; Mat. 25.30; [n] Luc 17. 10. [o] Luc 15. 24, 32; 2Tim. 4. 11.

11 Yr hwn gynt *a fu* i ti yn anfuddiol, ond yr awrhon yn fuddiol i ti ac i minnau hefyd;
12 Yr hwn a ddanfonais drachefn; a derbyn dithau ef, yr hwn yw fy ymysgaroedd i.
13 Yr hwn yr oeddwn i yn

[j] 1 Cor. 16. 17; Phil. 2. 30. [k] Adn. 1; Eph. 3. 1; 4. 1. [l] Philem. 8, 9; 2 Cor. 1. 24.

ewyllysio ei ddal gyda mi, fel [c] drosot ti y gwasanaethai efe fi yn [p] rhwymau yr efengyl.
14 Eithr [q] heb dy feddwl di ni ewyllysiais wneuthur dim; fel na byddai dy ddaioni di megys o angenrhaid, ond o fodd.

oddef i bersonau oeddynt o'r un grefydd ag ef ei hun—y rhai a gredent fel yntau fod pob creddadyn, pa un bynag ai caeth ai rhydd fyddo, yn frawd i'r Iesu, ac yn blentyn i Dduw—i fod yn euog o'r fath bechod ysgeler a chadw eu brodyr mewn caethiwed? Nis gallent hwy wneyd hyn heb wadu gwirioneddau sylfaenol y grefydd Gristionogol. Ymddengys fod y teimlad a'r argyhoeddiad hwn yn meddwl Paul wedi cryfhau yn fawr yn ystod y ddwy flynedd y bu yn aros yn Rhufain. Yn yr epistolau a ysgrifenwyd ganddo yn y tymmor hwn—yr epistolau at yr Ephesiaid a'r Colossiaid, yn gystal a'r un at Philemon—y mae yn rhoddi arbenigrwydd neilltuol i'r cwestiwn o gaethwasiaeth; a thrwy ei orchymynion i'r caethion a'u meistriaid y mae o leiaf yn ymdrechu lliniaru llymder caethwasiaeth. Yr oedd mwy nag un rheswm pa ham yr oedd y pwngc hwn yn cael lle mawr ar ei feddwl ef ar y pryd. Un oedd hwn:—Yr ydym yn deall oddi wrth Tacitus fod digwyddiad wedi cymeryd lle yn y flwyddyn y cyrhaeddodd Paul i Rufain ag oedd yn rhoddi eglurhâd dychrynllyd ar y driniaeth anghyfiawn a arferid at y caethion yn mhrifddinas y byd. Lladdwyd Pedanius Secundus, llywodraethwr y ddinas, gan un o'i gaethion; ac yn unol â chyfraith ddrygionus yr oes hono, poenydiwyd yr holl gorph o honynt yn gyhoeddus i farwolaeth—yn cynnwys torf fawr o wŷr, gwragedd, a phlant, er eu bod yn ddieuog, ac er yr addefid eu bod yn ddieuog o unrhyw gyfranogaeth o'r trosedd am ba un y dioddefent. Nis gallai cyflafan fel hon lai na gadael argraph ddofn a phoenus ar feddwl yr apostol. A phan y darfu i Onesimus, yn fuan ar ol hyny, adrodd ei hanes, y mae yn ddiammheu fod yr argraph hono wedi ei dyfnhau. Cyflwynodd Onesimus ei hun i wasanaeth yr apostol, a darfu i'w alluoedd naturiol cryfion, a'i ymddygiad gweddus, ennill ei galon. Hoffodd ef fel ei fab ei hun. Etto yr oedd y dyn galluog a rhagorol hwn yn gaethwas; ac yr oedd wedi ei ddarostwng i'r fath raddau gan ei sefyllfa isel fel y darfu iddo, mewn munyd o demtasiwn, ladrata eiddo ei feistr, er fod y meistr hwnw wedi bod mor garedig tuag ato ag y gallai caethfeistr fod. Nis gallai dyn o ddeall cryf Paul lai na gweled yn y fan fod rhyw ddrwg mawr yn y berthynas gymdeithasol hon. Gan hyny, yn ei epistolau cyhoeddus, y mae yn dysgu egwyddor ag oedd yn sicr o ddymchwelyd caethwasiaeth; sef, yr egwyddor o gydraddoldeb dynol, a chydfrawdoliaeth Gristionogol; ac i'r graddau y mae yr egwyddor hon yn gwreiddio ac yn ymledu yn y byd, y mae caethwasiaeth yn darfod.

11. *Yr hwn gynt a fu i ti yn anfuddiol.*—Ystyr y gair "Onesimus" yw, 'buddiol' neu 'defnyddiol;' o herwydd ystyr y gair, yr oedd yn enw cyffredin yn mhlith caethion yr oesoedd gynt; ac o ganlyniad yr oedd wedi ymddwyn yn groes i'w enw. Nid yn unig yr oedd efe yn "anfuddiol," ond yn niweidiol, gan ei fod wedi "gwneuthur cam â'i feistr;" *adn.* 18. *Ond yr awrhon yn fuddiol.*—Heb ddim ioldeb nis gall dyn fod yn wir fuddiol mewn unrhyw sefyllfa. "Y mae y gair "buddiol" yma yn cynnwys budd iol mewn pethau ysbrydol yn gystal a thymmorol. Y mae yn amlwg fod Paul yma, gyda'i ddoethineb arferol, yn defnyddio gair tyner. Teimlai fod yn rhaid iddo gyfeirio at bechod Onesimus, fel y gallai ofyn am faddeuant o hono. Ond pa fodd y cyfeiriai ato fel ag i beidio briwio teimlad y caethwas edifeiriol, ac ar yr un pryd i gymmodi ei feistr tramgwyddedig? Ofnai yr ennynid digofaint Philemon, pan ail ddygid trosedd Onesimus i'w gof. Os gallai yr apostol grybwyll am y trosedd hwnw mewn dull a barai i Philemon wenu, ennillid llawer. O'r braidd y gallai Philemon beidio gwenu wrth ddarllen fod "BUDDIOL" wedi bod yn "anfuddiol;" ac fel hyn cyrhaeddai yr apostol ei amcan gydag ef. Cyrhaeddai hefyd ei amcan gydag Onesimus: canys pa fodd y gellid cyffwrdd yn ysgafnach â'i glwyf? Pa fodd, os oedd yn rhaid cyfeirio at ei drosedd, y gellid cyfeirio ato yn fwy ysgafn a thyner? Ond o dan yr holl dynerwch a'r appeliadau personol, taer, a serchog a arferir ganddo, y mae y ddadl fawr hon yn gorwedd—a hi yw prif ddadl yr epistol—fod cymdeithas neu gyfundeb Cristionogol, o'r hon y mae Paul, a Philemon, ac Onesimus, oll yn aelodau, ac o ganlyniad yn frodyr i'w gilydd—fod y berthynas newydd Gristionogol hon yn goruwchreoli pob perthynas arall:—nad oes yn Nghrist Iesu nac Iuddew na Groegwr, na Barbariad na Scythiad, na chaeth na rhydd; ond pawb yn frodyr, o herwydd ei fod ef yn frawd i bawb. Y ddadl hon, yr hon nid yw yn dyfod i'r golwg ond yn unig yn awr ac eilwaith, sydd yn gwneyd appeliad yr apostol mor anwrthwynebol.

12. *Fy ymysgaroedd:*—mor anwyl genyf a fy nghalon fy hun. Cymmharer *adn.* 17; "fel myfi." Gwrthddrych fy serch cryfaf, fel serch tad at ei blentyn: *Ier.* xxxi. 20. "Nis gallai dim fod yn fwy effeithiol i liniaru digofaint Philemon; canys pe buasai yn gwrthod maddeu i'w gaethwas, buasai felly yn arfer creulondeb tuag at ymysgaroedd Paul. Caredigrwydd noddedig a ddangoswyd gan Paul oedd hwn: na ddarfu iddo betruso derbyn caethwas dirmygedig, lleidr, a ffoadur, megys i'w "ymysgaroedd," fel ag i'w amddiffyn rhag digofaint ei feistr."—*Calvin.*

13. *I.*—Dodir y rhagenw i mewn yma i chwanegu y pwyslais:—'Gan fod genyf fi y fath ymddiried ynddo fel ag i ddymuno ei gadw gyda mi, er mwyn cael ei wasanaeth gwerthfawr, ti elli dithau roddi pob ymddiried ynddo.' *Yn ewyllysio ei ddal gyda mi.*—"Rheswm arall yw hwn, i'r dyben o gymmodi Philemon â bod Paul yn anfon caethwas yn ol iddo ag yr oedd efe ei hun yn sefyll mewn angen mawr am ei wasanaeth. Dywed hefyd mewn dull uniongyrchol, y byddai yn dda ganddo ef pe yr anfonid Onesimus yn ol, yn hytrach nag iddo gael triniaeth galed gartref."—*Calvin.* *Drosot ti:*—fel y gallai gyflawni yn dy le yr holl wasanaeth i mi ag y buasit ti, pe buasit yma, yn ei wneyd yn rhin-

15 Canys ysgatfydd er mwyn hyn yr ymadawodd dros amser, fel y derbynit ef yn dragywydd;

16 Nid fel gwas bellach, eithr uwch law gwas, yn frawd anwyl, yn enwedig i mi; eithr pa faint [f]mwy i ti, [g]yn y cnawd, ac yn yr [h]Arglwydd hefyd?

17 Os wyt ti gan hyny yn fy nghymmeryd i yn gydymaith, derbyn ef fel myfi.

18 Ac os gwnaeth efe ddim [i]cam â thi, neu *os* yw yn [k]ddyled, [l]cyfrif hyny arnaf fi;

19 [m]Myfi Paul a'i hysgrifenais â'm llaw fy hun, myfi a'i talaf: fel na ddywedwyf wrthyt, [n]dy fod yn fy nyled i yn mhellach am danat dy hun hefyd.

20 Ië, frawd, gâd i mi dy fwynhau di yn yr Arglwydd: [o]llôna fy ymysgaroedd i yn yr Arglwydd.

eu cymdeithas fod yn ddiragrith, o leiaf ar y mater hwn, oddi eithr i Philemon feddwl a theimlo yr un fath ag ef. Ymddangosai i Paul y byddai ei waith ef (Paul) yn edrych ar Onesimus fel brawd anwyl, tra yr edrychai Philemon arno fel caethwas ffoedig anonest, yn ddigon i attal pob cymmundeb rhyngddynt.

18. *Ac os gwnaeth efe ddim cam â thi:*—h. y., 'Os nad ydwyt ti yn barod i'w 'dderbyn ef' o herwydd iddo wneuthur cam â thi:'—ymadrodd tynerach nag o herwydd iddo dy ysbeilio.' Ymddengys fod Onesimus wedi cyfaddef wrth Paul ei fod yn euog o ryw weithred anonest. *Neu os yw yn dy ddyled.*—Barna Calvin fod "y frawddeg hon wedi ei chwanegu i'r dyben o liniaru ychydig ar y teimlad drwg a gynnyrchid gan yr ystyriaeth o ddrygedd y weithred. Nid yn unig yr oedd cyttundeb rhyngddynt a gydnabyddid gan y gyfraith wladol, ond yr oedd Onesimus wedi dyfod yn ddyledwr i'w feistr trwy y cam a wnaethai âg ef. Yr oedd caredigrwydd Paul, yr hwn oedd yn barod hyd yn oed i roddi boddlonrwydd am drosedd, o gymmaint a hyny yn fwy." —*Calvin. Cyfrif hyny arnaf fi.*—Yr ydwyf yn barod i wneuthur y golled i fyny i ti, os bydd eisieu. Y mae y rhanau olaf o *adn.* 19 a 21, yn rhoddi ar ddeall ei fod yn credu nad oedd yn debygol y byddai i Philemon ei ofyn.

19. *A'm llaw fy hun.*—Tybia rhai esbonwyr fod yr ymadrodd hwn yn golygu fod Paul wedi ysgrifenu yr epistol hwn oll â'i law ei hun: ereill a farnant mai Luc a'i hysgrifenodd o'i enau ef ei hun, ond fod Paul wedi ysgrifenu yr adnod hon â'i law ei hun, mewn trefn i roddi y sicrwydd mwyaf a allasai i Philemon y byddai iddo wneyd ei golled i fyny. Cymmharer *Col.* iv. 18, lle y gwelir nad ysgrifenwyd dim â llaw Paul ei hun ond yr "anerch" yn niwedd yr Epistol at y Colossiaid, yr hwn a ysgrifenwyd o Rufain ar yr un amser ag yr ysgrifenwyd yr epistol hwn, ac a anfonwyd gyda Tychicus ac Onesimus. Gwel y rhagarweiniad i'r epistol hwn. *Dy fod yn fy nyled.....am danat dy hun hefyd.*—Nid yn unig dy feddiannau. Canys i fy offeryniolaeth i yr wyt yn ddyledus am dy iachawdwriaeth. Felly, y mae y ddyled sydd arno ef i ti (*adn.* 18), gan ei fod wedi ei rhoddi arnaf fi (trwy i mi wneyd fy hun yn gyfrifol am dani), wedi ei dileu.

20. *Ië, frawd, gâd i mi.*—"Gâd i mi gael budd (felly y mae y Groeg am 'fwynhau,' gan gyfeirio at yr enw Onesimus, '[buddiol]') oddi wrthyt ti, fel y dylesit ti gael Onesimus;' canys 'yr ydwyt yn fy nyled am danat dy hun.' *Yn yr Arglwydd:* nid yn dy lwyddiant bydol, ond yn dy gynnydd mewn gras. *Fy ymysgaroedd i:*—fy nghalon. Boddhâ fy nheimladau trwy ganiatau y cais hwn. *Yn yr Arglwydd.*—Darllena y llaw-ysgrifau hynaf 'yn Nghrist,' fel gwreiddyn y weithred hon o gariad Cristionogol.

[f] Eph. 6. 5, 7; Col. 3. 22.

[g] Esa. 53. 4—7.

[h] 1 Cor. 16. 21, 22; Gal. 5. 2; 6. 15.

[i] 1 Cor. 4. 15, 9. 1, 2; 2 Cor. 3. 2; 1 Tim. 1. 2; Iago 5. 19, 20.

[k] Philem. 7, 12; Phil. 1. 8; 1 Ioan 3. 17.

wedd dy gariad atat: *adn.* 19. *Rhwymau yr efengyl:*—y rhwymau yr wyf fi yn eu dioddef er mwyn yr efengyl: *adn.* 9.

14. *Heb dy feddwl di:*—*h. y.*, heb dy gydsyniad di. *Fel na byddai...megys:*—fel nad ymddangosai fel mater o angenrheidrwydd, ond o ewyllys rydd. Pe buasai Paul wedi cadw Onesimus, pa mor awyddus bynag i foddhau Paul y gallai Philemon fod, ni chawsai un cyfleusdra i ddangos ei fod felly heb ofyn ei genad.

15. *Ysgatfydd:*—a siarad mewn dull dynol; etto, fel un yn credu fod rhagluniaeth Duw wedi goruwchlywodraethu y drwg a gyflawnwyd ganddo yn yr amser a aeth heibio i fod er daioni mwy iddo yn y diwedd. Yr oedd y meddwl hwn yn tueddu i liniaru digofaint Philemon o herwydd trosedd blaenorol Onesimus. Gwnaeth yr apostol yma esgusawd o'r un natur dros Onesimus ag a wnaeth Ioseph dros ei frodyr:—"Weithian gan hyny na thristewch, ac na ddigiwch wrthych eich hunain, am werthu o honoch fyfi yma; o blegid i achub einioes yr hebryngodd Duw fyfi o'ch blaen chwi;" *Gen.* xlv. 5. Y mae rhagluniaeth Duw yn fynych yn dwyn da allan o ddrwg. Etto ni ddylem o herwydd hyny wneyd drwg fel y dêl daioni. *Ymadawodd:*—yn llythyrenol, 'a ysgarwyd oddi wrthyt ti:'—ymadrodd tyner am 'ffoi ymaith,' i liniaru digofaint Philemon. *Fel y derbynit ef:*—Groeg: 'fel y ceit gyflawn feddiant o hono.' Gwel y sylw ar *Phil.* iv. 18. Yr un gair a arferir yma yn y Groeg ag yn *Mat.* vi. 2. *Yn dragywydd:*—yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Cymmharer *Exod.* xxi. 6. Nid oedd tymmor absennoldeb Onesimus, modd bynag, ond awr fer (felly y mae y Groeg) mewn cymmhariaeth i'r serch tragwyddol oedd o hyny allan i'w rwymo wrth ei feistr.

16. *Nid fel gwas bellach* [er ei fod felly etto], *eithr uwch law gwas:*—'Fel y derbynit oddi wrtho nid yn unig wasanaeth caethwas, ond manteision uwch: er mai gwas ydyw 'yn y cnawd,' y mae yn frawd 'yn yr Arglwydd.'' *Anwyl, yn enwedig i mi:*—'yr hwn ydwyf yn dad ysbrydol iddo, a'r hwn y cefais brofion eglur o'i ofal a'i ffyddlondeb.' Rhag i Philemon deimlo gwrthwynebrwydd i alw Onesimus yn "frawd," y mae Paul yn gyntaf yn ei gydnabod fel brawd, gan ei fod yn fab ysbrydol i'r un Duw. *Eithr pa faint mwy i ti:*—â'r hwn y mae yn dal perthynas gymmaint nes a mwy parhaus. *Yn y cnawd:*—o'r un genedl a Philemon. *Yn yr Arglwydd:*—o'r un grefydd ag ef.

17. *Cydymaith:*—yn y gymdeithas Gristionogol o ffydd, gobaith, a chariad. Cymmhar. *Phil.* i. 7; ii. 1; *Dad.* i. 9. *Derbyn ef fel myfi.*—Y mae yma yn ail ddyweyd, "Derbyn dithau ef, yr hwn yw fy ymysgaroedd i;" *adn.* 12. Y mae yma yn rhoddi ar ddeall mai o'r braidd y gallai

21 Gan hyderu ar dy ufuddodd, yr ysgrifenais atat, gan wybod y gwnai, ïe, fwy nag yr wyf yn ei ddywedyd.

22 Heb law hyn hefyd, parotoa i mi letty: canys yr ydwyf yn [y] gobeithio [z] trwy eich gweddïau chwi y rhoddir fi i chwi.

23 Y mae yn dy anerch, [a] Epaphras, [a] fy nghydgarcharor yn Nghrist Iesu;

24 [b] Marc, Aristarchus, Demas, Luc, fy nghydweithwyr.

25 Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyda'ch ysbryd chwi. Amen.

¶ At Philemon yr ysgrifenwyd o Rufain, gyda'r gwas Onesimus.

[y] Rhuf. 15. 30—32; Iago 5. 16. [z] Col. 1. 7; 4. 12. [a] Rhuf. 16. 7; Col. 4. 10. [b] Act. 12. 12, 25; 13. 13. 15. 37—39.

21. *Gan hyderu ar dy ufudd-dod*:—I fy awdurdod apostolaidd, pe yr arferwn hi (*adn* 8), yr hyn nid wyf yn gwneyd, gan fod yn well genyf erfyn arnat ei ganiatau fel ffafr: *adn.* 9. *Gan wybod y gwnai, ïe, fwy*:—i Onesimus. Cynnwysa yr ymadrodd hwn awgrymiad cynnil, ei bod yn debygol, nid yn unig y derbynid ef yn garedig gan Philemon, ond hefyd y byddai iddo ei ryddhau ef.

22. *Parotoa i mi letty.*—Byddai tebygolrwydd i Paul ymweled yn fuan â Colossa yn foddion i sicrhau derbyniad caredig i Onesimus, gan y cai Paul ei hun wybod pa fodd yr ymddygasid tuag ato. *Trwy eich gweddïau chwi.*—Gan gyfeirio at Philemon, Apphia, Archippus, a'r eglwys yn nhŷ Philemon: *adn.* 1, 2, 23. Amlygir yr un disgwyliad ganddo ef yn *Phil.* ii. 23, 24; yr hyn a ysgrifenwyd yn ystod yr un carchariad.

23. Y mae yr un personau yn anfon anerchiadau yn yr epistol a anfonwyd gyda hwn (*Col.* iv. 10, 12, 14), gyda'r eithriad nad ydyw Iesus, neu Iustus, yn cael ei grybwyll yma: *Col.* iv. 11. *Epaphras fy nghydgarcharor.*—Yr oedd efe wedi ei anfon gan eglwys Colossa i wneyd ymchwiliad ynghylch, ac i weinyddu ar Paul, ac y mae yn bossibl ei fod wedi ei fwrw i garchar gan awdurdodau Rhufain ar sail drwgdybiaeth. Modd bynag, nid yw yn cael ei grybwyll fel carcharor yn *Col.* iv. 12; ac felly, dichon nad ydyw "cydgarcharor" yma yn arwyddo ond yn unig un oedd yn gydymaith ffyddlawn i Paul yn ei garchariad, a thrwy hyny wedi rhoddi ei hun yn sefyllfa carcharor. Dichon hefyd mai yr un peth a feddylir wrth "Aristarchus, fy nghydgarcharor;" *Col.* iv. 10. Tybia Benson mai y meddwl ydyw, fod y ddau hyn wedi bod ar ryw achlysur blaenorol yn "gydgarcharorion" â Phaul, ond nad oeddynt felly y pryd hwnw.

25. *Gyda'ch ysbryd chwi.*—Gwel y sylw ar *Gal.* vi. 18, a 2 *Tim.* iv. 22.

YR

EPISTOL AT YR HEBREAID.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

GELLIR dyweyd fod y mater hwn yn llenyddiaeth ar ei ben ei hun. Ond er y cyfan sydd wedi ei ysgrifenu arno, ac er yr holl ymchwiliad sydd wedi ei wneuthur arno, nis gellir golygu fod y cwestiwn wedi ei benderfynu etto. Ar ol darllen ffrwyth ymchwiliad y beirniaid goreu a mwyaf diweddar, megys Bleek, ac ereill, yr ydym yn teimlo ein hunain yn yr un ansicrwydd ac ammheuaeth arno ag oeddym cyn darllen; ac yn barod iawn i syrthio i'r un farn ag Origen, yr hwn a ddywed:—"Ond gyda golwg ar wir awdwr yr epistol, Duw yn unig a ŵyr y gwirionedd." Dywed Delitzsch, ei fod yn yr ansicrwydd hwn yn debyg i Melchisedec, am yr hwn y dywedir yn *pen.* vii., ei fod "heb achau".....ac y gellir cymmhwyso at y cynnyrch hwn o eiddo ysbrydoliaeth ddwyfol yr hyn a ddywed ein Harglwydd am yr Ysbryd ei hun; sef, "na wyddom o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned." Ni wyddom pwy a'i hysgrifenodd, nac at bwy yr ysgrifenwyd ef, i ddim tebyg i sicrwydd a manylrwydd. Nis gallwn mewn byr ragymadrodd o fath y nodiadau canlynol fyned i mewn i'r cwestiwn yn fanwl a chyflawn; ond hyderwn y bydd y crynodeb byr a ganlyn o ansawdd y cwestiwn, yn ddigonol i argyhoeddi y darllenydd o'r ansicrwydd sydd yn aros hyd yma, ac i ddangos mai y ffordd ddiogelaf i gyfeirio at, ac i lefaru am y llythyr hwn ydyw, fel "yr Epistol at yr Hebreaid."

Y mae y ddadl ynghylch awduriaeth yr epistol yn ymffurfio yn naturiol i'r wedd ganlynol:—Ai yr apostol Paul, ynte rhyw ddysgawdwr apostolaidd arall—ai ynte, drachefn, rhyw un dan gyfarwyddyd yr apostol Paul—a ysgrifenodd y llythyr neu y traethawd hwn?

Y mae y profion a ddygir yn mlaen yn rhanedig i ddau ddosbarth; sef, yn gyntaf, y profion seiliedig ar dystiolaeth allanol; ac yn ail, y rhai sydd yn deilliaw o ymchwiliad manwl i gynnwys yr epistol ei hun. Cynnwysa y cyntaf yr hyn a wyddom am draddodiad neu farn yr EGLWYS YN GYFFREDINOL YN Y DDWY GANRIF GYNTAF. Nid yw barn awduron y canrifoedd canlynol o fawr chwaneg o bwys nag eiddo beirniaid diweddar. Ymdrechwn, gan hyny, i roddi y tystiolaethau sydd genym ar y mater i lawr at y drydedd ganrif.

1. Dechreuwn gyda Clement o Rufain, yr hwn a ysgrifenodd epistol at y Corinthiaid cyn diwedd y ganrif gyntaf. Yn yr epistol hwnw, dyfyna a chyfeiria at ranau o amryw o epistolau Paul; ond dyfyna yn helaethach ac yn amlach o'r Epistol at yr Hebreaid nag o un epistol arall. Yr holl rym sydd yn y dyfyniadau hyn ydyw, profi fod yr Epistol at yr Hebreaid wedi ei ysgrifenu y pryd hwnw (B. A. 87—96), a'i fod yn caei ei ystyried gan Clement fel yn adnabyddus a thra gwerthfawr.

2. Yr "*Apostolicon,*" neu gasgliad o epistolau Apostolaidd, gan yr heretic Marcion. Gadewir allan yr epistol hwn, ynghyd âg epistolau Paul at Timotheus, Titus, a Philemon; ond nid oes fawr o bwys i'w roddi ar hyn, gan y gwyddom mai ychydig o onestrwydd a arferir gan y cyfeiliornwyr hyn, yn enwedig pan y tybient fod y llyfr yn cynnwys ymadroddion o duedd i ddadymchwelyd eu syniadau neilduol hwy.

3. Ni chrybwyllir yr epistol hwn yn y "*Fragmentum de Canone Sacrarum Scriptorum;*" yr hwn a gyfansoddwyd, yn ol pob tebyg, tua diwedd yr ail ganrif, a'r hwn a elwir yn gyffredin yn "Ganon Muratori."

4. Nid oedd yn adnabyddus i Cyprian a Victorinus, ac ni chrybwyllir ef yn ysgrifeniadau Novatian.

5. Y mae Photius yn dyfynu rhan o waith y tridduwiad Gobar, yr hwn ydoedd yn byw yn y chweched ganrif, lle y dywed fod Hippolytus ac Irenæus yn gwadu awduriaeth yr epistol gan Paul.

6. Dywed Caius, gweinidog doniol o Rufain, yr hwn oedd yn byw yn amser Zephyrinus, mai tri ar ddeg o epistolau a ysgrifenwyd gan Paul, ac nad ydyw yr Epistol at yr Hebreaid i'w gyfrif yn eu plith.—(*Eusebius,* HE. vi. 20.)

7. Priodolir y llythyr hwn gan Tertullian i Barnabas De Pudicitiâ, c. 20.

8. Yn ysgrifeniadau Irenæus, gwneir cyfeiriadau mynych, a dyfynir liawer o epistolau Paul. Dyfyna o ddeuddeg o honynt; ond nid ydyw nac yn cyfeirio at nac yn dyfynu yr epistol hwn er y buasai aml ran o hono yn gwasanaethu yn fawr i'r amcan o wrthwynebu y Gnosticiaid.

Deuwn yn bresennol at dystiolaeth yr Eglwys Ddwyreiniol.

9. Y mae Clement o Alexandria yn dyfynu y llythyr hwn yn fynych, ac yn gwneuthur hyny heb unrhyw betrusder am ei awduriaeth gan yr apostol Paul; ond y mae yn ammheus, wedi y cyfan, pa un ai ei olygiad ei hun, seiliedig ar ei ymchwiliad ei hun, neu yr eiddo ei ragflaenydd Pantænus, ai ynte barn yr eglwys yn Alexandria, seiliedig ar draddodiad yn yr eglwys hono, y mae yn ei roddi. Dywed yn ei "*Hyp.*" i Paul ei ysgrifenu yn Hebraeg, ac i Luc ei gyfieithu i'r Groeg.

10. Y mae Origen, yn ei ysgrifeniadau, yn dyfynu o'r epistol hwn fel gwaith yr apostol Paul, gan ddefnyddio, fel Clement o Alexandria, yr ymadroddion "yr apostol," neu ynte "Paul;" ond mewn dau neu dri o leoedd, cyfeiria at yr ansicrwydd cyssylltiedig â'i awduriaeth. Yn ngweithiau Eusebius, dyfynir rhanau o'i Homiliau ar yr epistol hwn, yn y rhai y ceir yr ymadroddion canlynol:—"Pe bawn i yn rhoddi fy marn, dywedwn, tra y mae y meddyliau yn perthyn i'r apostol, y mae y geiriad yn perthyn i ryw un yn ysgrifenu ar ei ol, fel ysgrifenydd yn cymmeryd nodiadau o'r hyn a ddywedwyd gan ddysgawdwr. Os oes rhyw eglwys, gan hyny, yn dal mai yr eiddo Paul ydyw y llythyr hwn, meddylier yn dda am dano ar y cyfrif hwnw. Canys nid heb reswm y darfu i'r hynafiaid ei drosglwyddo i lawr fel yr eiddo Paul. Ond pwy yn wirioneddol a ysgrifenodd yr epistol, Duw yn unig a ŵyr y gwirionedd." "Yr hysbysrwydd a'n cyrhaeddodd ni ydyw, fod rhai yn dywedyd mai Clement o Rufain a'i hysgrifenodd, ac ereill mai Luc." Mŷn rhai mai yr unig ammheuaeth yn meddwl Origen ydoedd, pwy oedd wedi ei ysgrifenu â'i law. Ond y mae hyn yn dra annhebyg ar amryw gyfrifon.

Ar ol yr all ganrif, cawn y farn mai Paul ydoedd yr awdwr yn graddol gynnyddu. Gan nad oes ond ychydig o bwys ar dystiolaeth awduron y canrifoedd dilynol, oddigerth i ddangos gogwyddiad cydredol yr awduron eglwysig y pryd hyny, ymfoddlonwn i roddi yr enwau heb ddyfynu:—Dionysius (o Alexandria), Hilary (o'r Aipht), Alexander, Antonius (y mynach), Athanasius, Theophilus, Cyril, Methodius, Ephrem Syrus, Eusebius, Cyril (o Ierusalem), Basil, Gregory (y ddau), Chrysostom, Theodoret, a Theodore. Yn y gorllewin, yr oedd yn mheli yn y drydedd ganrif cyn i'r epistol ddyfod i gael ei briodoli yn gyffredinol i'r apostol Paul.

Ni ddyfynir ef gan Novatian, Cyprian, na Victorinus.

Tua chanol y bedwaredd ganrif, dechreuodd yr Eglwys Orllewinol ei ddyfynu fel yr eiddo Paul. Hilary o Poictiers oedd y cyntaf i wneuthur hyn.

Y mae Ambrose yn ei ddyfynu fel epistol Paul. Yr un modd Jerome yn gyffredin; ond addefa ei ammheuaeth ar y mater yn fynych. Gellir dyweyd yr un peth am Awstin. Dywed Davidson ei fod yn fwriadol a gofalus yn gochelyd ei alw yn epistol Paul. Nid oes angen am i ni fyned yn mhellach. Peidiodd yr ymddadleu ynghylch awduriaeth yr epistol yn y bedwaredd ganrif, ac ennillodd y farn mai Paul oedd ei awdwr dderbyniad cyffredinol yr eglwys o hyny allan. Yr ydym yn teimlo yn lled hyderus mai yr argraph a ddyry ystyriaeth bwyllog o dystiolaethau awduron y ddwy ganrif gyntaf ydyw, nad oes seiliau digonol yn nhraddodiad yr eglwys gyntefig o blaid y golygiad mai Paul a'i hysgrifenodd, er nad oes dim, ar y llaw arall, o ddim cryfder i'r gwrthwyneb; ac am hyny yr ydym yn gorfod teimlo, cyn belled ag y mae y profion allanol yn myned, fod yn dra ansicr ac ammheus pa un ai Paul, ynte rhyw un arall, a'i hysgrifenodd.

Terfynwn ein sylwadau ar y profion allanol, gyda nodi barn rhai o'r prif esbonwyr o amser y Diwygiad i lawr at yr esbonwyr diweddaraf-

Yn erbyn ei awduriaeth gan Paul:—Ludovicus Vives, Erasmus, Luther, Calvin, Beza, Semler, Michaelis, Schulz, Bohme, De Wette, a Bleek. O blaid:—Owen, Mill, Sykes, Bengel, Craner, Ebrard, Delitzsch, Macknight, Stuart, Davidson, a Wordsworth.

Y profion mewnol.

Y mae y rhan yma o'r cwestiwn wedi ei ddadleu a'i chwilio yn fedrus a dyfal ar bob ochr. Ar un llaw, yr ydys wedi hŏni a cheisio profi fod yr annhebygrwydd mewnol, mewn geiriau, ymadroddion, arddull, y dull o ddyfynu, a phethau ereill, yn gyfryw ag i argyhoeddi pob meddwl gonest nas gall fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu gan yr apostol Paul; ond ar y llaw arall, drachefn, hŏnir mor gryf fod y tebygolrwydd mewnol yn gyfryw fel nas gellir llai na chredu mai yr apostol Paul a'i hysgrifenodd. Y mae y gwahaniaeth golygiadau ar hyn rhwng dynion dysgedig a meddylgar yn rhwym o roddi argraph ar y meddwl, naill ai o annigonolrwydd y dull o seilio dadl ar gasgliadau ammherffaith ynghylch iaith a phriod-ddull yr ysgrifenwyr sanctaidd, neu ynte fod rhyw faint o wirionedd yn y ddwy ochr;—hyny yw, fod tebygolrwydd, ac hefyd fod annhebygolrwydd, yn nghyfansoddiad yr epistol i iaith a dullwedd ysgrifenu yr apostol Paul. Ond pa fodd i roddi cyfrif am hyny, sydd gwestiwn anhawdd ei benderfynu—ac yn ein barn ni, ammhossibl, i ddim sicrwydd. Mŷn rhai roddi cyfrif am dano trwy dybied mai Paul ydoedd yr awdwr mewn rhan, a'r ysgrifenydd (Clement, neu Luc, neu ryw un arall) mewn rhan, yn enwedig yn nhrefniad a chorphoriad y drychfeddyliau. Myn ereill, drachefn, mai rhywun arall oedd y gwir awdwr; ond fod y rhywun hwnw wedi cymdeithasu cymmaint â'r apostol Paul, fel y mae ol y gymdeithas hono i'w ganfod yn cyd-dreiddio trwy ei iaith a'i arddull ef ei hun. Barnai Luther mai Apolos ydoedd; felly hefyd Le Clerc, ac felly hefyd Alford. Myn ereill, drachefn, y gellir rhoddi cyfrif am yr holl wahaniaeth, trwy dybied gwahaniaeth amgylchiadau ac amrywiaeth gallu perthynol i'r un ysgrifenydd; sef, yr apostol Paul.

Nid ydym yn chwennych blino ein darllenwyr yn y rhagymadrodd byr hwn âg enghreifftiau o'r gwahaniaethau y cyfeiriwyd atynt—y mae llawer o honynt yn gyfryw nas gellir eu gwneuthur yn ddealladwy a theimladwy i ddarllenydd Cymreig. Yr ydym hefyd yn credu, gyda Delitzsch, fod rheolau esboniadaeth yn gofyn ar i'r gwahaniaethau mewnol hyn gael sylw, nid yn y rhagymadroddi'r epistol, ond yn y sylwadau a gynnwys yr epistol ei hun; ond gallwn yma, etto, ddadgan ein barn ein hunain, fod y profion mewnol o gynnwys y llythyr yn gyfryw ag i sefydlu y meddwl, nid mewn argyhoeddiad o awduriaeth yr epistol gan unrhyw ysgrifenydd neilluol, ond yn

hytrach i'w gadarnhau mewn ansicrwydd tawel, ac mewn ymostyngiad esmwyth i amcan rhag luniaethol, yn cuddio oddi wrthym darddiad awdurol dynol y llythyr gogoneddus hwn.

AT BWY YR YSGRIFENWYD EF.

Yn yr holl law-ysgrifau, teitlir ef yn epistol "at yr Hebreaid." Y mae un eithriad i hyn, fe allai; sef, y Codex Arabicus Tischendorf, yn yr hwn y rhoddir y teitl, "Epistol yr Hebread." Ond y mae y gair yn ammwys. Gall arwyddo un o darddiad Hebreaidd, er ei fod wedi ei eni a'i ddwyn i fyny mewn gwledydd pellenig; fel, er enghraifft, yr apostol Paul, yr hwn a anwyd yn Tarsus, yn Cilicia, yr hwn, er hyny, ydoedd yn "Hebrëwr o'r Hebreaid." Neu ynte, gall ddynodi un wedi ei eni yn Palestina yn llefaru yr iaith Hebraeg, ac yn addoli yn ol y defodau cenedlaethol yn ei wlad enedigol. Yn yr ystyr hwn, y mae yn cael ei ddefnyddio yn wrthgyferbyniol i'r gair "Hellenistai," yr hwn enw a ddefnyddir pan yn llefaru yn fanwl a gwahaniaethol, i ddynodi y dosbarth cyntaf a enwyd. Gwyddom fod yr eglwys yn Ierusalem yn cael ei galw yn y ganrif gyntaf yn "Eglwys yr Hebreaid" [*Clement "Ep. ad Iacob,"* xi. 35]. Cadarnheir y golygiad hwn gan draddodiad eglwysig—yn cychwyn i lawr o amser yr henuriaid o flaen Clement o Alexandria, Clement ei hun, ac yn mlaen drwy yr oesoedd ar ei ol. Dracheſn, y mae yr epistol ei hun yn rhoddi yr argraph ar y meddwl fod y rhai yr ysgrifenai atynt yn byw yn nghymmydogaeth ac yn gyfarwydd â defodau gwasanaeth yr Hen Destament yn y deml. Dengys Delitzsch mai nid yr eglwys a'r synagog a wrthgyferbynir yma, ond y deml a'r synagog Gristionogol (*episynagoge*). Y mae golygiadau amrywiol ereill ar hyn, ac amddiffynir hwynt yn selog gan eu coleddwyr; ond yn ein barn ni, y mae y rhesymau a ddygir o'u plaid, ac yn erbyn yr un uchod, yn annigonol ac anfoddhaol. Ni wnawn, pa fodd bynag, ond eu henwi yn bresennol. Barna Alford, iddo gael ei ysgrifenu at Eglwys Rhufain. Hõna Wieseler mai at yr eglwys yn Alexandria, yn yr Aipht, y cyfeiriwyd ef. Dywed awdwr yr erthygl ar yr Epistol at yr Hebreaid yn "*Smith's Dictionary of the Bible,*" nad oes oddi un o'r dinasoedd ag y bu yr apostol Paul yn llafurio ynddynt, nad oes rhyw ysgrifenydd neu gilydd wedi ceisio profi mai at yr eglwys hono y cafodd y llythyr hwn ei ysgrifenu. Nid ydym yn teimlo fod rhesymau Ebrard dros ei olygiad yn cario argyhoeddiad: sef, mai at gylch neilldiol o'r eglwys yn Ierusalem yr anfonwyd yr epistol, sef Cristionogion newydd ddychwelyd oddi wrth Iuddewiaeth; na chwaith dros olygiad amryw esbonwyr, mai at yr Iuddewon yn gyffredinol y cyfeiriwyd ef. Pa fodd, ar y dybiaeth hon, yr eglurir *Heb.* xiii. 23? Pa fodd yr oedd yn bossibl i Timotheus fyned ar fyrder at holl Iuddewon y byd?

EI AWDURDOD CANONAIDD.

Wrth ddarllen hanesiaeth yr eglwys yn y canrifoedd cyntaf, cawn fod ammheuon wedi eu coleddu am gryn amser ynghylch awduriaeth ac awdurdod canonaidd yr epistol hwn. Cafodd, o herwydd yr ammheuaeth hwn, a darddodd yn ddiau o herwydd ei fod wedi ei gyhoeddi yn ddienw, ei roddi ar brawf llym a manwl, ond daliodd y prawf hwnw yn amlwg a chadarn; ac fel y mae y pren, ar ol cael ei ysgwyd a'i brofi gan yr ystorm, yn gadarnach nag o'r blaen, y mae yr epistol hwn yn rhoddi argraph mwy cryf a boddhaol ar y meddwl o'i awdurdod canonaidd o herwydd y prawf a roddwyd arno. Y cwestiwn i'w benderfynu ydyw, i ddechreu, A gafodd yr epistol hwn ei dderbyn a'i drosglwyddo i lawr gan olynwyr yr apostolion fel llyfr ysbrydoledig? Y tyst cyntaf, a mwyaf pwysig, yw Clement o Rufain; yr hwn, fel y dywedwyd uchod, sydd yn dyfynu o hono yn fwy helaeth nag o'r un o epistolau ereill. Dywed Westcott, yn ei waith rhagorol ar y Canon, ei fod wedi ei doddi i mewn i'w holl feddwl. Cawn, yn chwanegol at hyn, dystiolaeth Justin Ferthyr, rhagflaenwyr Clement o Alexandria, ynghyd â Chlement ei hun, ac Origen, ac hefyd y rhai a gasglasant y cyfieithiad Syriaeg o'r Testament Newydd, yr hwn a elwir y "Peschito." Yn y ddwy ganrif ganlynol, cawn ammheuaeth yn cael ei goleddu am ei awduriaeth a'i awdurdod canonaidd yn eglwysi y gorllewin, yn enwedig Rhufain a Carthage. Nid ydyw yn hawdd rhoddi cyfrif am yr ammheuaeth hwn, os nad ellir gwneyd hyny trwy gyfuniad dau achos; sef, yn gyntaf, ffurf ddienw yr epistol; ac yn ail, fod eglwysi y gorllewin wedi colli, o herwydd pellder ffordd, y traddodiad geneuol hwnw ag oedd yn rhoddi i'r epistol hwn ei le fel llyfr ysbrydoledig, yr hwn draddodiad a gadwyd yn fwy gofalus ac yn fwy hawdd yn eglwysi y dwyrain. Pa fodd bynag, ar ol ymchwiliad gofalus, cawn fod ei awdurdod canonaidd yn dechreu ymadnewyddu eilwaith; ac ar ol i'r tadau enwog, Jerome ac Awstin, roddi eu tystiolaethau o'i blaid, cawn fod yr eglwysi Lladinaidd yn ymuno â'r rhai dwyreiniol i'w dderbyn. Yn nhrydydd cynghor Carthage, B. A. 397, rhoddwyd ef o fewn rhestr y llyfrau canonaidd.

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD EF.

Am y lle yr ysgrifenwyd ef o hono, y mae ansicrwydd mawr. Y mae traddodiadau y bedwaredd ganrif yn cyfeirio at yr Eidal a Rhufain, neu Athen. Ar y dybiaeth mai Paul a'i hysgrifenodd, y mae Rhufain, fe allai, yn fwy tebyg; gan y gwyddom fod Paul a Timotheus wedi bod gyda'u gilydd yno am amser, a Luc hefyd gyda hwy. Gyda golwg ar yr amser, y mae genym ychydig yn chwaneg o oleuni. Cyttunir fod yn rhaid ei fod wedi ei ysgrifenu cyn dinystr Ierusalem. Y mae cynnwys yr epistol ei hun yn ein harwain i hyn: o herwydd amcenir ynddo ddangos a phrofi natur darfodedig a thymmorol yr offeiriadaeth Iuddewig, ynghyd â'r gwasanaeth a berthynai iddi. Ni buasai angen am hyn ar ol i hanesiaeth ei hun roddi prawf gweithredol o hyny. Y mae yr amser presennol yn cael ei ddefnyddio gan yr apostol yn *pen.* viii., ix., a xiii.; yr hyn sydd yn dangos ei fod wedi ei ysgrifenu pan yr oedd y deml, a gwasanaeth y deml, etto yn aros. Mwy na hyn nis gellir, gyda dim sicrwydd, ei wneyd allan gyda golwg ar ei amseriad. Os Paul a'i hysgrifenodd, y dyddiad sydd yn cyttuno oreu â thraddodiad ydyw B.A. 63; sef, tua diwedd ei garcharíad yn Rhufain.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

PENNOD I.

1 *Duw yn y dyddiau diweddaf a lefarodd wrthym ni trwy ei Fab ei hun: 4 yr hwn, o ran ei berson a'i swydd, sydd yn rhagori ar yr angylion. 14 Swydd yr angylion.*

B. A. 63.

DUW, wedi iddo lefaru lawer gwaith, a llawer modd,

PENNOD I.

1. *Duw, wedi iddo lefaru.*—Y mae yr adnod hon yn grynodeb o gynnwys yr holl epistol. Dengys yn y modd mwyaf cynnwysfawr yr unoliaeth sydd rhwng y ddwy oruchwyliaeth ar y naill law, a rhagoriaeth y newydd ar yr hen ar y llaw arall. Y mae y pethau y maent yn cyttuno ynddynt yn cael eu gosod ger ein bron mewn gwedd ganiataol, a'r pethau y gwahaniaethant ynddynt mewn gwedd mwy gosodiadol.

I. *Cynnwysir y cyfelybrwydd yn y pethau canlynol:*—

1. Duw (sef y Tad) ydyw awdwr a ffynnonell wreiddiol a grasol y naill a'r llall.

2. Duw yn y Mab, neu yn Nghrist fel Cyfryngwr. Gwel *Gal.* iii. 17.

3. Yr un ydyw hanfod dadguddiad dan y naill a'r llall. Duw yn llefaru sydd yn y naill a'r llall.

II. *Cynnwysa yr anghyffelybrwydd a'r rhagoriaeth yr hyn a ganlyn:*—

YR HEN.	Y NEWYDD.
1. Yn y prophwydi, fel cyfryngau.	Yn y Mab fel Cyfryngwr.
2. Llawer gwaith: Groeg, llawer o ranau.	Yn y Mab mewn un cyfanwaith.
3. Mewn llawer modd.	Yn y Mab mewn un ffurf berffaith.

Amcan pennodol yr adnod hon ydyw dangos rhagoriaeth y dadguddiad sydd genym o Dduw yn mherson Iesu Grist, fel Duw wedi ymddangos yn y cnawd, ar yr hwn a roddwyd gan yr un Duw dan yr Hen Destament, trwy yr un person, fel Cyfryngwr y dadguddiad cyn iddo ymddangos yn y cnawd. Cynnwysir y rhagoriaeth hwn yn y ffaith fod y dadguddiad cyntaf yn cael ei roddi, nid yn unig trwy Gyfryngwr, ond trwy gyfryngau y tu allan i'r Cyfryngwr; tra y mae y dadguddiad olaf yn cael ei roddi trwy gyfryngau yn ddigyfrwng. Y mae y Cyfryngwr ei hun yn gyfrwng hefyd. Y cyfrwng ydyw y Cyfryngwr yn bresennol. Yr oedd natur anghyflawn ac ammherffaith y dadguddiad dan yr Hen Destament yn cyfodi oddi ar ammherffeithrwydd y cyfryngau, y rhai nid oeddynt ond offerynau; tra y mae y cyfrwng dan y Newydd yn weithredydd dadguddiad. Yr oedd yn rhaid i'r dadguddiad cael ei roddi trwyddynt mewn llawer o ranau, o herwydd dyna ystyr priodol yr ymadrodd a gyfgynt wrth [a] y tadau trwy y prophwydi, yn y [b] dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab:

2 Yr hwn a [c] wnaeth efe yn

[a] Luc 1. 55, 72; Act. 12. 32.
[b] Deut. 4. 30; Eph. 1. 10; Dan. 2. 28; Act. 2. 17; Gal. 4. 4; 2 Pedr 3. 3; Judas 18.
[c] Salm 2. 6—9; Esa. 10—12; Ioan 16. 15; Rhuf. 8. 17.

ieithir *lawer gwaith.* Rhoddwyd rhan o'r dadguddiad i un prophwyd, a rhan i un arall; ac nid oedd y rhanau gyda'u gilydd yn ffurfio ond rhannau yn y diwedd. Nid oeddynt yn gwneuthur i fyny unoliaeth cyfan. Cyfleithir yr ymadrodd gan rai 'mewn llawer o aelodau' (*member-wise*). —*Delitzsch.* Yr oeddynt yn analluog hyd yn oed gyda'u gilydd i ddwyn allan gorph cyflawn y gwirionedd. Y mae ereill yn meddwl fod cyfeiriad yn y geiriau "llawer o ranau, a llawer modd," at y gelfyddyd o gerddoriaeth, yn yr hon y mae y dôn yn gyfansoddedig o ranau neu nodau amrywiol, a'r rhai hyny yn cael eu defnyddio mewn amrywiol foddau a throadau. Tebyg i hyn yr oedd cân dadguddiad dan yr hen oruchwyliaeth; ond yn y Mab, cawn gynghanedd y dadganiad dwyfol mewn unoliaeth di-ranau, ac mewn symledd pur a digymmysg. Y mae yr ymadrodd cyntaf, "llawer gwaith," neu yn hytrach 'rhanau,' yn cyfeirio at y gwirioneddau eu hunain, cynnwysedig yn y dadguddiad; a'r ail, "llawer modd," at y ffurf yn yr hwn y cyflwynir y gwirionedd, yr hwn sydd yn ddyledus i'r cyfrwng o'i drosglwyddo. Fel y mae dwfr yn cymmeryd ffurf y llestr y dodir ef ynddo, felly hefyd yr oedd y gwirionedd yn cymmeryd ffurf ammherffaith meddwl y prophwydi oedd yn ei lefaru; ond yn y Mab, y mae y ffurf yn berffaith o herwydd perffeithrwydd y ddynoliaeth sydd mewn undeb â'i berson—yn sianel a chyfrwng trosglwyddiad y gwirionedd. *Yn ei Fab:*—Groeg: 'mewn mab,' *en vió; h.y.*, mewn un sydd yn Fab Duw. Gadewir y fannod allan er rhoddi arbenigrwydd a neillduolrwydd ar ei berson, yn wrthgyferbyniol i'r prophwydi. Dynoda fwy o agosrwydd rhwng Duw y Tad fel awdwr dadguddiad a chyfrwng y dadguddiad, nag oedd rhwng Duw a'r prophwydi —agosrwydd mor fawr fel nas gellir eu gwahanu, gan fod yr un hanfod yn perthyn i'r naill a'r llall. Hanfod y rhagoriaeth a berthyn i'r dadguddiad hwn dan y Testament Newydd ydyw ei fod yn un personol yn gystal a geiriol. Yn y dadblygiad rhyfedd a gymmerodd le ar berson tragwyddol Fab Duw, fel y darlunir ef yn yr adnodau dilynol, rhoddwyd y dadguddiad uchaf o Dduw. Yma, fe lefarodd Duw, nid yn unig trwy eiriau, ond mewn person, a hwnw yn neb llai na'i briodol ac uniganedig Fab. Yr oedd holl raddau ei

[d] Diar. 8. 22—31; Esa. 44. 24; [1] Cor. 8. 6. etifedd pob peth, [d] trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd: 3 Yr hwn, *ac* efe yn ddisgleirdeb *ei* ogoniant *ef*, ac yn wir lun ei berson ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, wedi puro

ymddarostyngiad, ac y mae holl raddau ei ddyrchafiad ar ol hyny, yn fynegiad a dadguddiad o hanfod meddwl ac ewyllys Duw. Y mae y person mawr hwn yn awr ar "ddeheulaw y mawredd" yn, ac mewn undeb â'r natur ddynol, yn gyfrwng y golygiadau uchaf ar Dduw ag sydd yn bossibl i greadur eu meddu byth. *Gynt.....yn y dyddiau diweddaf hyn.*—Y mae yr ymadrodd cyntaf yn gyffredin yn cael ei olygu fel yn cymeryd i fewn holl gyfnod yr Hen Destament hyd Malachi, pryd y cauwyd i fyny Ganon yr Hen Destament, gan adael felly wagle o bedwar cant o flynyddoedd heb unrhyw ddadguddiad. Dywed Bengel i'r gwagle hwn gael ei ordeinio yn bwrpasol, fel y byddai y disgwyliad am y Prophwyd mawr o hyny yn fwy bywiog ac angerddol. Y mae y golygiad hwn yn well na'r un sydd am gyfyngu yr ymadrodd i oesoedd pellach yn ol; sef, amser sefydliad yr hen oruchwyliaeth trwy Moses. Dylid cyfieithu yr ymadrodd arall, "yn niwedd y dyddiau hyn," gan olygu "y dyddiau hyn" fel yn perthyn i, ac yn rhan o'r "diwedd;" *h.y.*, yn y diwedd, sef y dyddiau hyn. Y mae yr ymadrodd Hebraeg cyfystyr yn dynodi yn wastad y cyfnod hwnw ag sydd i fod yn orpheniad i hanes y byd, ac yn derfynglych eithaf prophwydoliaeth. Deallir ef yn wahanol gan ereill. Dywedir fod yr Iuddewon yn arfer rhanu holl amser i ddau gyfnod mawr; sef, "y byd hwn" a'r "byd a ddaw;" a bod amser ymddangosiad y Messiah yn fath o ddolen gyssylltiol rhwng y ddau—yn ddiwedd y cyntaf, ac yn arweiniad yr ail, ac yn rhedeg i mewn iddo. *Wrth y tadau .....trwy y prophwydi.*—Y mae yr ymadrodd cyntaf, sef "y tadau," yn golygu yr holl genedl; a chynnwysa y gair diweddaf, sef y "prophwydi," yr holl rai a ddewiswyd i fod yn gyfryngau y dadguddiad llafaredig, yn gystal a'r dadguddiad ysgrifenedig.

2. *Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth.*—Y mae y gair a gyfieithir yma yn "wneyd" yn arwyddo yn llythyrenol 'gosod.' Gall ddynodi naill ai gosodiad arfaethol, neu osodiad gweithredol mewn amser. Cymmerir ef yn yr ystyr olaf gan Delitzsch, Ebrard, ac ereill. Deallir yr ymadrodd gan Alford fel yn gosod allan ganlyniad y tragwyddol genhedliad, yn rhinwedd yr hwn y mae yn etifedd pob peth y Duwdod, ac mewn perthynas agos â hyny bob peth creadigol—yr olaf i'w llawn sylweddoli trwy ei waith cyfryngol. Yr ydym yn tueddu yn gryf i'w ddeall yn yr ystyr arfaethol. Yr hwn a appwyntiodd efe yn etifedd pob peth. Gofyna Ebrard pa amcan ymarferol a allasai fod i ddyweyd hyn? Atteb wn fod yn eithaf naturiol a phriodol i'r awdwr, wrth olrhain y dadguddiad a roddwyd i ni yn mherson y Mab, ddechreu gyda'r gosodiad tragwyddol a fu ar y Mab i fod yn etifedd pob peth, mewn trefn i ddangos pa fodd y cafodd y gosodiad hwnw ei sylweddoli yn hanesyddol a gweithredol yn eisteddiad y Cyfryngwr ar ddeheulaw Duw. *Etifedd pob peth.*—Nid oes dim tebygolrwydd yn y golygiad a goleddir gan rai, fod yr ymadrodd hwn yn cyfeirio at yr etifeddiaeth sydd yn ffrwyth priodol ac anuniongyrchol y tragwyddol genhedliad; o herwydd golygir y Mab yn yr adnod gyntaf fel cyfrwng dadguddiad—ac nid yn symledd ei bersonoliaeth ddwyfol. Cyfeiria yr ymadrodd, gan hyny, at ryw beth ag sydd yn dyfod i'w feddiant fel y cyfryw; *h. y.*, fel Cyfryngwr. "Ynddo ef," medd Delitzsch, "y cyrhaedda yr addewid, y byddai hâd Abraham yn etifedd y byd, ei huchafnod eithaf." Y mae etifeddiad y Mab, fel y cyfryw, o bob peth yn angenrheidiol—heb angen unrhyw osodiad, neu wneuthuriad; ond yn ei etifeddiaeth fel Cyfryngwr, cafodd ei osod yn arfaethol a gweithredol—y cyntaf yn nhragwyddoldeb, a'r ail yn ei adgyfodiad. Y mae y Mab fel Cyfryngwr yn etifedd pob peth, fel y mae yn amcan terfynol y cyfan (*Col.* i.). Y mae y cyfan yn dwyn y cyssylltiad agosaf fel amcan a dyben â'i berson cyfryngol ef, ac am hyny y mae yn etifedd y cyfan. Arwydda y gair "etifedd" yn yr iaith Lladin un sydd yn glynu; hyny yw, wrth feddiant. Y mae athrawiaeth ddyfnaf etifeddiaeth yn gorwedd yn nghôl y gair; a chawn y cymmhwysiad uchaf o'r drychfeddwl yn mherson yr Arglwydd Iesu. *Trwy yr hwn hefyd y gwnaeth.*—Dylid rhoddi y pwyslais ar y ferf "gwnaeth." Nid cael yr etifeddiaeth wedi ei gwneyd a ddarfu iddo; ond efe a'i gwnaeth ei hunan; neu yn hytrach, cafodd ei gwneuthur trwyddo ef. *Y bydoedd:*—Groeg: *aionas: h.y.*, yr oesoedd. Cynnwysa y drychfeddyliau o amser a lle, ynghyd â'u gwrthddrychau; felly golyga "y bydoedd," fel y mae yn ein cyfieithiad ni. Y gris cyntaf yn y dadguddiad, ac hefyd yn y llwybr trwy yr hwn y daeth i fod yn etifedd pob peth, ydoedd, y rhan a gymmerodd yn nghreadigaeth y bydoedd.

3. *Yr hwn, ac efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant.*—Yn yr adnod hon cawn yr ail ris yn y dadguddiad; sef, y gwaith o buro pechod. Er mwyn egluro y gwaith mawr hwn yn fwy cyflawn, dengys fawredd a gogoniant y person yn yr hyn oedd er tragwyddoldeb yn ei berthynas â'r Tad, a'r hyn oedd er dechreu amser yn ei berthynas â'r greadigaeth. Y mae pwyslais mawr rhan gyntaf yr adnod hon i fod yn amlwg ar y rhangymmeriad yn Groeg *ón*, Saesneg, *being*. Grym y pwyslais ydyw (1.) "gan barhau i fod;" ac hefyd (2.) "am ei fod." Pan burodd ein pechodau, ni pheidiodd a bod yr hyn oedd o'r blaen; sef, "yn ddisgleirdeb ei ogoniant," &c.; a mwy na hyny, yr oedd ei le fel disgleirdeb gogoniant y Tad, &c., yn ei gyfaddasu i fod yn gyfrwng dadguddiad o Dduw y tu allan iddo ei hun. Am ei fod yn dadguddio Duw i Dduw fel Dduw o Dduw, yr oedd yn gyfaddas un i ddadguddio Duw i ddynion. Y mae yr ymadrodd "disgleirdeb" yn gosod allan nodwedd mawr yr Ail Berson yn ei berthynas â'r Tad o ran rhagoriaethau digyffelyb y natur ddwyfol, y rhai a symir i fyny mewn un gair; sef, "gogoniant;" a'r gair "gwir lun," neu argraph (Groeg, *charaeter*, o'r hwn y tardd y gair Saesneg *character*) a'i gosoda allan o ran sylwedd y natur ddwyfol, gan awgrymu hefyd y drychfeddwl o debygolrwydd perffaith. Arwydda y gair Groeg, *charaeter*, yn briodol yr argraph a wneir gan sêl ar y sylwedd; ac oddi wrth hyn daeth i arwyddo gwedd-linellau gwrthddrych, yn naturiol a moesol, trwy y rhai yr adnabyddir ef, ac y gwahanlaethir ef oddi wrth ereill. Yn lle "person" yn yr adnod hon, dylid yn ddiau ddarllen "syl-

ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd;

4 Wedi *ei* wneuthur o hyny yn wedd," neu natur. Byddai yn anfuddiol i ni, er mwyn y darllenydd Cymreig, olrhain ystyr y gair yn ei amrywiol gyssylltiadau. Digon ydyw dyweyd, mai mewn oesoedd diweddarach y daeth i feddu yr ystyr o berson, yn ol y syniad duwinyddol a roddir yn bresennol i'r gair. Yn y bummed ganrif y cawn y gair yn yr ystyr hwn wedi ei sefydlu yn llawn. Caiff y darllenwyr mwy dysgedig eglurhâd rhagorol ar hyn yn Bleek's "Der Hebraerbrief." *Ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth.*—Dynoda yr ymadrodd hwn ei berthynas â'r greadigaeth, fel y gwna yr un blaenorol ei berthynas â'r Tad. Y mae yn gwestiwn naturiol i'w ofyn, ond anhawdd i'w atteb yn foddhaol, Pa ham y crybwyllir am gynnaliaeth y bydoedd yn y lle a'r cyssylltiad hwn? Y mae rhywbeth yn gywrain a deniadol yn ngolygiad Dr. Owen; sef, i ddangos y buasai y greadigaeth, o herwydd pechod, wedi ymollwng oni buasai i'r Ail Berson neidio i'r adwy yn ei gymmeriad fel Cyfryngwr. Y mae y golygiad hwn, dybygem, yn fwy tarawiadol nag argyhoeddiadol. Yr ydym yn tueddu i feddwl fod yr apostol, yn yr adnod hon, yn olrhain dadblygiad person Crist fel cyfrwng dadblygiad o Dduw. Yn yr ymadrodd, "disgleirdeb ei ogoniant ef," dynodir ef fel cyfrwng dadguddiad yn ei berthynas â'r Tad; ac yn yr ymadrodd hwn, fel cyfrwng dadguddiad yn ei berthynas â'r greadigaeth: ac yna, yn yr ymadrodd canlynol, dengys mai yr un person, heb beidio a bod yr hyn oedd yn y cyssylltiadau uchod, a roddes y dadguddiad mawr sydd yn yr efengyl, trwy yr hyn a wnaeth wedi ymddangos yn y cnawd; sef, "puro ein pechodau trwyddo ef ei hun." Y mae ei ymgnawdoliad yn cael ei dybied, er nad ydyw yn cael ei nodi, yn y ffaith fawr o'i aberth, trwy yr hwn y darfu iddo buro ein pechodau. "Gair ei nerth," a arwydda yr un peth a "gorchymyn ei nerth." *Wedi iddo buro ein pechodau.*—Y mae y gair a gyfieithir yma yn arwyddo, nid unrhyw lanhâd mewnol, ond glanhâd allanol ac iawnol trwy aberth, fel y cawn weled yn y rhanau dilynol o'r epistol. *Trwyddo ef ei hun.*—Y mae dilysrwydd yr ymadrodd hwn yn ansicr. Gwrthodir ef gan Lachmann a Tischendorf. Ni cheir ef yn y llaw-ysgrifau A., B., nac yn y cyfieithiadau Armenaidd, y *Vulgate*, na chwaith yn nyfyniadau y tadau Groegaidd a Lladinaidd. Os glynwn wrtho, arwydda fod Iesu Grist wedi puro ein pechodau, nid fel yroffeiriad Iuddewig, trwy gyfrwng aberth y tu allan iddo ei hun, ond trwy ei aberthu ei hun. Gall hefyd gynnwys mwy na hyn; sef, ei fod, yn ngwaith y prynedigaeth, nid yn unig yn weithredydd (*agent*) cyfryngol, ond digyfrwng. Fe wnaethpwyd y bydoedd trwyddo ef. Y Tad oedd yn eu creu trwy y Mab; ond yma y Mab oedd yn gwneuthur cymmod trwyddo ef ei hun. *A eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd.*—Am yr ymadrodd "eistedd," gwel *Eph.* i. 20; *Rhuf.* viii. 34; *Col.* iii. 1. *Yn y goruwchleoedd*:—sef, yn y nefoedd. Y mae yr eisteddiad hwn i'w ddeall, medd Delitzsch, yn lleol yn ei berthynas â dyoliaeth y Cyfryngwr, ond yn anlleol yn ei berthynas â'i Dduwdod. O ran ei Dduwdod, y mae yn cyfiwyno ei hun ger bron y Tad yn anweledig yn y nefoedd ddigrëedig uwch law amser a lle; ac o ran ei ddyndod yn y nefwell na'r angylion, o gymmaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt-hwy.

5 Canys wrth bwy o'r angylion oedd grëedig, y mae yn cyfiwyno ei hun iddo yn weledig i'r rhai sydd yno gydag ef.

4. Wedi ei wneuthur, &c.—Y mae yr ymadrodd hwn yn gosod allan yr hyn y daeth Mab Duw i fod, yn wrthgyferbyniol i'r hyn oedd, fel y darlunir ef yn *adn.* 3. Yr oedd, fel person dwyfol, erioed yn uwch na'r angylion. Fel y cyfryw nid oedd modd, ac nid oedd eisieu iddo ddyfod yn well na hwy: ond yn ei undeb â'r natur ddynol yr oedd yn bossibl iddo ddyfod yn well na'r angylion; a thrwy buro ein pechodau fe ddaeth i fod yn uwch na'r angylion. Fe ddaeth i fod yn ac mewn undeb â'r natur ddynol, yr hyn oedd erioed hebddi. Tuag at i hyn gymmeryd lle, yr oedd yn ofynol iddo ddyfod yn is na'r angylion Yr oedd yn rhaid i'r hwn oedd yn uwch na hwy ddyfod yn is na hwy mewn trefn i fyned yn uwch na hwy. Trwy ymddarostwng i fod yn is fe ennillodd le i esgyn yn uwch. Trwy ymddarostwng i ufuddhau dan awdurdod, fe esgynodd yn y natur ddynol i'r llywodraeth, a'r awdurdod, a'r gogoniant a berthynent erioed i'r person dwyfol hebddi. Nid ydym i ddeall y dyrchafiad hwn, ar yr un pryd, fel dyrchafiad y natur ddynol yn unig, fel y gwna rhai o'r tadau, megys Theodoret ac ereill; ond yn hytrach fel dyrchafiad y person dwyfol yn ac mewn undeb â'r natur ddynol. Ar y llaw arall nid amlygiad chwaith a olygir yma o'r hyn ydoedd o ran ei Berson Dwyfol, fel y golyga Chrysostom ac ereill; ond dyrchafiad gwirioneddol i sefyllfa o ogoniant ac awdurdod nad oedd o'r blaen yn feddiannol arno. Fel yr oedd ei ymddarostyngiad ef yn golygu chwaneg na chuddiad; sef, gwaghâd gwirioneddol ac annhraethadwy (*Phil.* ii. 8): felly yr oedd ei ddyrchafiad yn fwy nag amlygiad; sef, yn ddyrchafiad gwirioneddol ar y Person Dwyfol. Trwy ddyfod yn y natur ddynol, yr hyn nad oedd yn unigolrwydd ei berson dwyfol, fe ddaeth i fod yn yr un a'r unrhyw natur wedi ei ddyrchafu; yr hyn oedd ar wahân oddi wrthi er tragwyddoldeb, a hyny mewn modd mor wirioneddol fel ag y mae pa bethau bynag y gellid eu priodoli i'r Person Dwyfol cyn iddo gymmeryd y natur ddynol, yn briodoledig iddo o hyn allan yn y natur hono, fel y mae yn awr yn ddyrchafedig yn y Person Dwyfol ar ddeheulaw Duw. Amcan y rhanau canlynol o'r bennod ydyw dangos a phrofi hyn, a hyny o'r Hen Destament, trwy egluro fel y mae, (1.) maboliaeth, (2.) Duwdod, (3.) priodoliaethau creadigol, (4.) a llywodraeth ddwyfol yn cael eu priodoli iddo fel Messiah neu Dduw-ddyn; y rhai oeddynt yn perthyn iddo erioed fel Mab Duw. Cadwed y darllenydd hyn mewn golwg, ac ni bydd angen ymhelaethu ond ychydig ar y rhanau hyny. *O gymmaint ag yr etifeddodd efe enw.*—Wrth yr "enw" hwn y mae i ni ddeall—nid fel y mŷn rhai, anrhydedd; ond y berthynas oruchel hono a ddynodir yn y teitl neu yr enw, "Mab Duw." Y mae Delitzsch yn ei gymmeryd fel i ddynodi mwy nag a gynnwysir yn y teitl "Mab," ac yn golygu nad ydyw y teitlau Mab, Arglwydd, &c., ond amrywiol ranau neu belydrau o'r gogoneiant a berthyn iddo. Y mae yr "enw" hwn, medd efe, yn gyfryw nas clywodd clust, nas mynegodd tafod, ac nas dychymygodd calon dyn ei gynnwys y tu yma i dragwyddoldeb; sef, yr

y dywedodd efe un amser, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais di? A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab?

6 A thrachefn, pan yw yn

"enw" nad edwyn neb mo hono ond efe ei hun (*Dad.* xix. 12). Y mae ei ogoniant a'i gynnwys uwch law i ammherffeithrwydd iaith a dychymyg. Wrth etifeddu yr enw "Mab Duw," y mae i ni ddeall yma—nid y tragwyddol genhedliad, fel y deallir yr ymadrodd gan rai, o herwydd y mae yr etifeddiaeth hon yn un ag y daeth efe i'w meddiant, fel y mae yn amlwg oddi wrth ddechreu yr adnod. Y mae yn wir y gellir deall yr ymadrodd "o gymmaint" fel yn arwyddo 'yn gydweddol â'i fod erioed yn Fab Duw;' ond y mae yn llawer mwy naturiol i ni ei ddeall fel yn dynodi graddau ei ddyrchafiad uwch law yr angylion. O hyny yn well na'r angylion y daeth; sef, o gymmaint ag yr etifeddodd efe yn y ddynolaeth, ac mewn undeb â hi, y faboliaeth a berthynai iddo er tragwyddoldeb hebddi.

5. *Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe.*—Yn yr Hen Destament, gelwir yr angylion yn "feibion Duw" (*Iob* i. 6; *Dan.* iii. 25). Y mae yr angylion, gan hyny, yn feibion i Dduw. Y maent felly yn a thrwy eu creadigaeth. Yr oeddynt er y pryd y crewyd hwynt yn feibion yn yr ystyr y maent; ond ni ddaethant erioed yn feibion trwy unrhyw weithred o'u heiddo eu hunain. Nid ydynt erioed wedi ymddyrchafu i ennill y teitl hwn, fel ag i Dduw eu cyfarch fel y cyfryw; ond y mae Mab Duw, fel Cyfryngwr a Messiah, wedi ei etifeddu trwy ei ennill yn y natur ddynol. Yr hyn *oedd* erioed, fe *ddaeth i fod* mewn amser, trwy buro ein pechodau trwyddo ef ei hun. Yr hwn yr oedd y Tad yn ei gyfarch fel ei dragwyddol Fab yn y tragwyddol genhedliad, y mae wedi ei gyfarch mewn amser yn ei undeb â'r natur ddynol yn ei adgyfodiad. *Fy Mab ydwyt ti.*—Gallai ddyweyd wrth un o'r angylion, 'Yr wyt ti yn fab i mi;' ond wrth un o honynt hwy ni ddywedodd, ac nis gall ddyweyd, "Fy Mab ydwyt ti." Y mae y neb a gyferchir fel hyn yn unig a phriodol fab. Y mae maboliaeth berffaith yn unigol: tra, ar y llaw arall, y mae lliosogrwydd, fel y mae yn mhlith dynion, yn arwyddo ammherffeithrwydd. Y mae gwir faboliaeth ddwyfol yn golygu unigolrwydd, gan ei fod yn cynnwys cyfraniad o'r holl natur ddwyfol mewn un cenhedliad tragwyddol; o herwydd nis gellir cyfranu y natur ddwyfol yn ei chyflawnder heb fod y cenhedliad yn dragwyddol. *Myfi heddyw a'th genhedlais di*—Y mae yr ymadrodd "heddyw," yn *Salm* ii., yn cael ei egluro, ar sail awdurdod apostolaidd, fel yn cyfeirio at adgyfodiad Crist: *Act.* xiii. 33. Nid ydyw yn cyfeirio at yr ymgnawdoliad, fel y golyga rhai; o herwydd yn "fab dyn" y cenhedlwyd ef y pryd hwnw. "Mab Duw" yn cael ei genhedlu trwy yr Ysbryd Glân yn "fab dyn" yw ystyr yr amgylchiad mawr hwnw; ac o herwydd hyny yr oedd yn briodol ei alw yn y ddynoliaeth, hyd yn oed yn ei enedigaeth, yn Fab Duw:—"Am hyny y peth sanctaidd a enir o honot ti a elwir yn Fab Duw." Nid ydyw chwaith yn dynodi ei dragwyddol genhedliad (fel y golygir gan Bleek ac ereill, ar ol y tadau Groegaidd—Origen, Athanasius, &c.), o herwydd y rheswm uchod; ond dynoda y cenhedliad a fu arno yn yr adgyfodiad. Yr oedd yn Fab Duw erioed yn ei berson dwyfol; a phan y daeth i undeb â dynoliaeth yn ei enedigaeth, yr oedd yn eithaf priodol ei alw, yn rhinwedd yr undeb hwnw, yn Fab Duw, gan fod "Mab y dyn," neu "y dyn Crist Iesu," yn hanfodi yn bersonol yn unig yn unig-anedig Fab Duw. Ond yn ei adgyfodiad gan y Tad, fel gwobr ei ddarostyngiad, fe roddwyd cydnabyddiaeth weithredo hono fel yn Fab Duw yn y ddynoliaeth; yr hyn oedd yn rhinweddol genhedliad arno. Nid ydym i ddeall fod y tragwyddol genhedliad yn cael ei weithredu eilwaith yn yr adgyfodiad, ond ei fod yn cael ei gyfrif i'r dyn Crist Iesu yn ei undeb â'r tragwyddol Fab. Ni chymmerodd y cyfrifiad hwn le tra yr ydoedd y person dwyfol a'r natur ddynol ynddo mewn cyflwr o ymddarostyngiad; canys yn yr adeg hono efe a'i gwaghaodd ei hun; ond wedi iddo ei waghau ei hun i eithaf marw angeu y groes, fe'i gwnaed ef yn y ddynoliaeth yn annhraethol uwch na'r angylion, trwy dderbyn y cyfrifiad hwn o faboliaeth dragwyddol iddo ei hun, fel y mae yn ei gwisgo ar ddeheulaw Duw. Prin y mae eisieu dyweyd dim am y geiriau fel y maent yn ddyfynion o *Salm* ii. Digon yw dyweyd fod y Salm hono yn un Fessianaidd. Cafodd ei hymadroddion eu cyflawni mewn rhan yn nygwyddiadau yr oes yn yr hon y cafodd ei hysgrifenu; ond cyflawnwyd hwy, yn eu hystyr mwyaf priodol a gwirioneddol, yn y Messiah. Perthyna egluro y cyflawniad cysgodol a rhanol i esboniad ar Lyfr y Salmau. Cymmerwn yn ganiatаol am yr holl ddyfynion a geir yn y bennod hon eu bod yn cyfeirio, fel y cymmhwysir hwynt gan yr awdwr, at y Messiah, ac ato fel Duw-ddyn—nid fel yr Áil Berson heb y ddynoliaeth; ond yn hytrach yn y ddynoliaeth. *A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad.*—Y mae y geiriau hyn yn ddyfyniad o brophwydoliaeth Nathan wrth Dafydd. Cyfeiriant yn gysgodol at Solomon, ond yn sylweddol at y Messiah, o'r hwn yr oedd Solomon yn hyn yn gysgod. Golygir mai at hon y cyfeiria y Salmydd yn yr ail Salm: "Dywedodd yr Arglwydd wrthyf." Dyfynir y geiriau yma gan yr apostol i ddangos yn mhellach fod prophwydoliaeth yn rhagfynegi y byddai i'r Messiah dyrchafedig gael cyfrif iddo yn ei ddynoliaeth faboliaeth ddwyfol, a hyny nid am ennyd, ond i dragwyddoldeb. Dywedir, nid yn unig, "Ti yw fy Mab," ond hefyd yn y dyfodol, "Myfi a fyddaf." Fe bery yn Fab Duw yn y natur ddynol hyd byth.

6. *A thrachefn, pan yw yn dwyn y Cyntaf-anedig i'r byd.*—Mae dau ddarlleniad yn bossibl. Un ydyw yr un uchod, a'r llall ydyw yr un a ganlyn:—'A phan y dwg drachefn y Cyntaf-anedig i'r byd.' Yr ydym yn tueddu at yr olaf. Cyfeiria yr ymadrodd, nid at unrhyw ddyfodiad o'i eiddo i'r byd cyn ei ymgnawdoliad [*Bleek*], na chwaith at ei ddyfodiad i'r byd yn ei ymgnawdoliad; canys y pryd hwn gwnaed ef ychydig is na'r angylion—fel yr *unig*-anedig y daeth efe i'r byd y pryd hwnw (*Ioan* iii. 16)—na chwaith at ei ddyfodiad i'r byd trwy ei adgyfodiad. Canys er iddo ddyfod i'r byd y pryd hwnw fel y *Cyntaf*-anedig, etto nid oedd yn ddyfodiad cyhoeddus ac amlwg—ond dirgel. Ni welodd neb mo hono yn dyfod. Yr oedd yr angylion o amgylch y fan yn gweini arno; ond yn ei ddyfodiad drachefn yn gyhoeddus yn niwedd y byd, fel y Cyntaf-anedig gyda'i frodyr lawer, i fyned gyda hwy i'r etifeddiaeth a ennilloid iddynt, gelwir

dwyn y Cyntafanedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef.

7 Ac am yr angylion y mae yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angylion yn ysbrydion, a'i weinidogion yn fflam dân.

[c]Salm 45. 6. 8 Ond wrth y Mab, [c]Dy orseddfaingc di, O Dduw, *sydd* yn oes oesoedd: [f]teyrnwialen uniondeb *yw* teyrnwialen dy deyrnas di.

[f]2Sam.23.3; Salm 99. 4, Esa. 9. 7.

9 Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd: am hyny [g]y'th eneiniodd Duw, *sef* dy Dduw di, [g]Ioan 3. 34. âg olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion.

10 Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, [h]a sylfaenaist y ddaear: [i]a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. [k]Diar. 8.29; Zech. 12. 1. [i]Deut. 4.19; Esa. 64. 8.

11 Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond [k]tydi sydd yn parhau: a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant; [k]Dad.1. 11, 17, 18.

12 Ac megys gwisg y plygi di hwynt, a hwy a newidir: [l]ond tydi yr un ydwyt, [m]a'th flynyddoedd ni phallant. [l]Exod.3.14; Ioan 7. 58; Iago 1. 17. [m]Salm 90.4.

13 Ond wrth ba un o'r angylion

---

ar yr angylion i'w addoli ef. *Ac addoled holl angylion Duw ef.*—O ba le y dyfyna yr apostol y geiriau hyn? Ceir hwynt yn union fel y dyfynir hwy yn nghyflethiad y Deg a Thrigain yn *Deut.* xxxii. 43.—*Cod. Vat.* Ond nid ydynt i'w cael yn yr Hebraeg. Y golygiad mwyaf tebyg ar hyn ydyw, fod y Deg a Thrigain wedi cael y geiriau yn y copi Hebraeg yr oeddynt hwy yn cyfieithu o hono. Yn y bennod yn Deuteronomium, y mae Moses yn rhagfynegu gwaredigaeth i'r genedl o'u trueni trwy y Messiah, ac yn cloi y rhagfynegiad i fyny yn y geiriau uchod. Amcan a grym y dyfyniad ydyw dangos fod maboliaeth ddwyfol yn cael ei chyfrif i'r Messiah, yn ei ddynoliaeth, mewn modd mor oruchel a phriodol fel y gelwir ar yr angylion i'w addoli yn yr amlygiad cyhoeddus a roddir o hono yn ei ail ddyfodiad yn niwedd y byd. Ceir ymadrodd cyffelyb yn *Salm* xcvi. 7; ond nid yn hollol fel y maent yma. Y mae yn bur debyg fod y geiriau yn y Salm wedi eu hawgrymu gan y rhai sydd yn *Deut.* xxxii. 43.

7. *Ac am yr angylion y mae yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur,* &c.—Dyfynir y geiriau hyn o *Salm* civ. Hönir gan rai dysgedigion mai y gwir gyfieithiad o'r Hebraeg ydyw, nid yn ol y Deg a Thrigain, ac fel y maent uchod, ond yn hytrach, 'Yr hwn sydd yn gwneuthur ei wyntoedd yn angylion, a'r fflam dân yn weinidogion.' Os ydyw y cyfieithiad hwn yn gywir, pa rym sydd yn y dyfyniad fel y rhoddir ef o gyfieithiad y Deg a Thrigain. Ond caniataer mai y cyfieithiad olaf a roddwyd sydd gywir, gallem ei ddeall fel yn cyfeirio at yr angylion yn dybiedig o leiaf. Y mae yn gwneuthur ei wyntoedd yn angylion neu genhadon, trwy eu rhoddi yn llaw angylion i gyflawni ei fwriadau; ond hönir gan ereill fod y cyfeirir at yr angylion yn ein testyn ni yn fwy cywir o'r Hebraeg ei hun.

8. *Ond wrth y Mab.*—Am yr angylion wrth y Mab. Cyfeirir at yr angylion, fel y dywed Bengel, mewn iaith anuniongyrchol—at y Mab mewn iaith uniongyrchol. Amcan a grym y dyfyniad dilynol ydyw dangos fel y cyfrifir i'r Duw-ddyn; ac fel y cyfryw, nid yn unig fabolaeth ddwyfol, ond Duwdod. Fel Mab Duw yn y natur ddynol, y mae yn Dduw, ac yn meddu holl berffeithiau a hawliau y natur ddwyfol. Cyferchir ef fel Duw, a phriodolir iddo frenhiniaeth ddwyfol—ei gorsedd a'i theyrnwialen. Y mae y dyfyniad wedi ei gymmeryd o *Salm* xlv, yr hon a gyfansoddwyd i ddechreu ar yr achlysur o briodas rhyw frenin (Solomon, yn ol y farn gyffredin, â merch Pharoah), fel cysgod i ddangos a phortreadu priodas ysbrydol y Messiah â'r eglwys; ac yn hyn y tebyga yn fawr i Lyfr Caniad Solomon. *Dy orseddfaingc di, O Dduw.* Nid "dy orsodd ddwyfol," fel y mynai yr hen Sosiniaid. Addefa Sosiniaid diweddarach y cyfieithiad cyffredin; ond ymdrechant wanhau yr ystyr, gan briodoli i'r Messiah ddwyfoldeb, ond nid Duwdod; ond dengys yr ymadroddion canlynol fod gwir Dduwdod yn perthyn iddo. Am yr ymadroddion ereill gwel ar yr Hen Destament.

9. *Olew gorfoledd:*—nid olew gosodiad i swydd, ond olew gwledd fuddugoliaethol. *Tu hwnt i'th gyfeillion:*—sef yr angylion â'r rhai y cymmherir ac y gwrthgyferbynir ef yn yr holl bennod. Yn y Salm, cynnwysa yr ymadrodd gyfeiriad at frenhinoedd ereill—ond yn yr epistol, cyfeirio y mae at y Messiah—nid at frenhinoedd ereill, nac offeiriaid neu brophwydi, na chwaith at y saint, o leiaf yn unig, ond yn arbenig yr angylion, ac fe allai heb gau allan ei frodyr lawer; sef, y saint, fel y barna Dr. Owen. *Sef dy Dduw di.*—Darllenir gan rai 'Am hyny, O Dduw, y'th eneiniodd dy Dduw di.' Felly Awstin, 'O! tydi Dduw, eneiniodd dy Dduw di, dydi. Duw yn cael ei eneinio gan Dduw.' Y mae y gair "eneinio" yma yn cyfeirio at yr enw "Crist," sef eneiniog.

10. *Ac, Tydi yn y dechreuad,* &c.—Ar ol y cyssyllt-air "ac," dylid llanw i fyny yn dybiedig, "y mae yn dywedyd wrth y Mab." Dyfyniad ydyw y geiriau canlynol o *Salm* cii. Y mae yn ddiau fod y Salm hono yn un Fessianaidd. Lleferir ynddi am ddyfodiad yr Iehofah, yr hyn ar unwaith sydd yn ei hargraphu fel un yn cyfeirio at y Messiah. Grym y dyfyniad, gan hyny, ydyw, fod gallu creadigol yn cael ei gyfrif i'r Messiah fel y mae yn Dduw-ddyn. Y mae yr hyn a wnaeth fel yr Ail Berson yn cael ei gyfrif iddo fel dyn mewn undeb â'r Duwdod.

13. *Ond wrth ba un o'r angylion y dywedodd efe un amser, Eistedd ar fy neheulaw?*—Dyfyniad ydyw y geiriau hyn o *Salm* cx., yr hon allan o bob dadl sydd yn Salm Fessianaidd; nid yn unig yn ystyr gysgodol y gair, ond yn ei ystyr uniongyrchol a phrophwydoliaethol. Dyfynir hi yn y Testament Newydd ddeg o weithiau. Yn y dyfyniad hwn, dengys yr apostol yn chwanegol at fod maboliaeth dwyfol, Duwdod, a pherffeithiau dwyfol yn cael eu priodoli i'r Messiah fel Duw-ddyn dyrchafedig, fod llywodraeth hefyd yn cael ei chyfrif iddo—ei fod yn ei ddynoliaeth wedi ei wahodd i eistedd ar ddeheulaw Duw, i weinyddu y llywodraeth hono ag a weinyddid ganddo yn ei berson dwyfol unigol erioed. Nid

[a]Salm 110. 1; [b]Mat. 22 44. [c]1 Cor. 15. 25, 26; Dad. 19. 11—21.

y dywedodd efe un amser, [a]Eistedd ar fy neheulaw, [c]hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainge i'th draed?

14 Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?

PENNOD II.

1 Y dylem ni fod yn ufudd i Grist Iesu: 5 pan fod yn wiw ganddo ef ei ẁn gymmeryd ein naturiaeth ni arno, 14 fel yr oedd yn angenrhaid.

oedd angen, gan hyny, am iddo ddyweyd, "Eistedd ar fy neheulaw" wrtho fel person dwyfol unigol; ond yn ei ddyrchafiad yn y natur ddynol fe'i gwahoddwyd i eistedd arno:—

"Y Tad yn siriol a'i gwahoddai
I eistedd ar ei ddeheu law." A. Griffiths.

Am ystyr yr amrywiol eiriau yn y dyfyniad, gwel ar leoedd ereill lle y dyfynir hwynt; megys *Mat.* xxii. 41—46; 1 *Cor.* xv. 25, &c.

14. *Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll.*—Yn yr adnod hon y mae yn gosod yr angylion yn eu lle priodol, o'u cymmharu âg ef. Ysbrydion ydynt, "gwasanaethgar:" Groeg: *leitourgica*, yr hwn air a arwydda "perthynol i wasanaeth y cyssegr." O'r gair hwn y tardd y gair Saesneg *liturgy*. Defnyddir ef am bethau y cyssegr—y gwisgoedd, y gwahanol offerynau, yr offrymau, a'r llestri gwasanaeth. Gelwir yr angylion yn yr ysgrifeniadau Iuddewig yn fynych yn "angylion y gwasanaeth." Y maent oll yn cyfatteb i'r ymadrodd hwn. Y mae y pwyslais i fod ar y gair "oll." Er fod graddau a dosbarthiadau lawer yn eu plith, etto nid oes un o honynt yn uwch na hyn. Greddf yr angel ydyw gwasanaethu. *Wedi eu danfon:*—Groeg: 'yn cael eu hanfon;' *h.y.* yn barhaus. Dyma eu gwaith gwastadol, a'u hyfrydwch parhaus. *I wasanaethu er mwyn*, &c.—Duw y maent yn ei wasanaethu, a Christ hefyd; ond gwasanaethant er mwyn yr eglwys, trwy beri i bob peth gydweithio er daioni iddynt. Y mae y Mab yn eistedd—y mae yr angylion yn sefyll. Y mae y Mab yn gorchymyn—y maent hwy yn ufuddhau. Y mae y Mab yn teyrnasu—y maent hwy yn gwasanaethu. Y mae dyrchafiad dyn uwch law angylion yn cael ei awgrymu yn yr ymadrodd uchod. Y mae y saint yn gwasanaethu er mwyn yr etifeddion; ond nid ydynt hwy yn etifeddion eu hunain. Dechreua y bennod trwy ddangos y Mab fel etifedd pob peth; a dybena trwy ddangos y saint fel etifeddion iachawdwriaeth.

Pennod II.

1. *Am hyny:*—sef, am fod y dadguddiad sydd genym yn bresennol, wedi ei roddi i ni trwy gyfrwng y Person mawr a wnaethpwyd yn uwch na'r angylion, yn helaethach na'r dadguddiad trwy y prophwydi. *Y mae yn rhaid i ni ddal yn well.*—Y mae y gair Groeg, *prosechein*, a gyfieithir yma "dal," yn arwyddo 'ymroddiad y meddwl at beth.' "Yn well:—Groeg: 'helaethach.' Dylai helaethrwydd y dadguddiad fod yn gymmhelliad i ymroddiad helaethach i'w astudio. Y mae y gwirioneddau mwy a chwanegol, cynnwysedig

B. A. 63.

AM hyny y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni *eu* gollwng *hwy* i golli.

2 Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angylion, ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth;

3 Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint, yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant *ef:*

yn y dadguddiad hwn, yn gofyn, o angenrheidrwydd, ymroddiad chwanegol i'w credu a'u gwybod. *Rhag un amser i ni eu gollwng hwy i golli.*—Ystyr llythyrenol y ferf *parareo* ydyw 'llifo heibio.' Defnyddir y gair yn gyffredin am afon yn llifo heibio ar ei rhedfa. Yn y ffurf y ceir y ferf yn y lle hwn, arwydda 'rhag un amser i ni gael ein cludo neu lifo heibio iddynt.' Y mae ein cyfieithiad ni, ynghyd â'r un ar ymyl y ddalen, "eu gollwng fel llestri candryll," yn anghywir.

2. *Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angylion.*—Wrth "y gair a lefarwyd trwy angylion" y mae i ni ddeall y gyfraith a lefarwyd ar Sinai. Gwel *Act.* vii. 53; *Gal.* iii. 19. Y mae yn wir nad ydym yn darllen, yn *Ecsod.* xix., am gyfryngiad gwasanaeth angylion; ond yn *Deut.* xxxiii. 2, a *Salm* lxviii. 18, cawn gyfeiriadau at hyn, fel y dengys Bleek, yn gystal ag yn y rhanau uchod. Gwel hefyd Josephus, *Hyn.* xv. 5. Y lle a briodolir i'r angylion yn y gyfraith oedd trefnu—"trwy drefniad angylion." Y prophwydi, ac yn enwedig Moses, ydoedd cyfryngau y dadguddiad o ran mater. O'u geneuau hwy y deuai y gwirionedd i ddynion. Ond yr oedd yr angylion yn trefnu amgylchiadau y dadguddiad gynt. Wrth fod y "gair yn gadarn" y mae i ni ddeall ei fod wedi ei gyssylltu â bygythion cryfion o gospedigaeth a thaledigaeth gyfiawn am anufudd-dod; a dynoda yr ymadrodd canlynol gyflawniad manwl y bygythion hyny. *Trosedd ac anufudd-dod.* — Esgyneb wrth-ol. Cyfeiria y cyntaf at bob gweithrediad croes i orchymynion y gyfraith, a'r ail at bob esgeulusdra ac anghof o honynt. *Gyfiawn daledigaeth.*—Cyfeiria yr ymadrodd hwn, nid yn unig at yr amrywiol farnau a cheryddon a ddisgynodd ar y genedl yn yr anialwch [*Bleek*]; na chwaith yn unig at yr addaliad personol i'r rhai a droseddent y gorchymynion; ond hefyd, at y gosb ofnadwy oedd y tu draw i'r ceryddon a'r barnau hyny. Yr oedd yr efengyl y pryd hwnw yn guddiedig yn nghôl y ddeddf. Gwel *Heb.* iv. 2. Yr oedd anufudd-dod iddi hi yn arwydd ac yn brawf o anufudd-dod i'r efengyl oedd yn blygedig ynddi; ac felly yn dwyn cosp ysbrydol a thragwyddol. Y mae yn deilwng o'n sylw fod yr apostol yn yr adnod hon yn defnyddio yr un teitl, sef, "y gair," i ddynodi y gyfraith ag a ddefnyddir am yr efengyl dan y Testament Newydd; ac hefyd am yr Ail Berson fel ffynnonell a chyfrwng y dadguddiad o honi.

3. *Pa fodd y diangwn ni.*—Grym yr appeliad ydyw, os na allasant hwy ochel canlyniadau cyfiawn dadguddiad llai eglur, pa fodd y gallwn ni ochel canlyniad cyfiawn esgeulusdra o ddadgudd-

4 *A* Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu, trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glân, yn ol ei ewyllys ei hun?

5 Canys nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw, am yr hwn yr ydym yn llefaru.

6 Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd,

---

iad helaethiach. *Os esgeuluswn.*—Y mae y gair hwn yn cyfatteb i'r ail o'r ddau air yn *adn.* 2, sef anufudd-dod. Nid oes eisieu sôn am drosedd yma. Y mae anufudd-dod ac esgeulusdra yn unig yn ddigonol achos cospedigaeth ofnadwy yn awr. *Iachawdwriaeth gymmaint.*—Yr un iachawdwriaeth, a'r un ei maint, a esgeuluswyd ganddynt hwy, trwy eu trosedd a'u hanufudd-dod i'r dadguddiad gynt; ond y mae y dadleniad o'r iachawdwriaeth hon i ni yn chwanegu ein cyfrifoldeb, ac yn rhwym o drymhau ein cosp os ei hesgeuluso a wnawn. *Wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd.*—Dylai y pwyslais fod yn y geiriau olaf "trwy yr Arglwydd;" hyny yw, yn wrthgyferbyniol i'r angylion. Llefarwyd y gyfraith trwy angylion fel cyfryngau offeryn ol; ond yr efengyl yn uniongyrchol, trwy yr Arglwydd Iesu ei hun. Y mae y gair "dechreu" i'w ddeall yn wrthgyferbyniol, nid i barhâd ei llefariad, ond i lefariad anuniongyrchol y gyfraith. Trwy yr angylion yn uniongyrchol, a thrwy yr Arglwydd yn anuniongyrchol, y llefarwyd y gyfraith; ond y mae yr efengyl yn cymmeryd dechreuad ei llefariad o enau yr Arglwydd ei hun, yn ddigyfrwng. *A sicrhawyd i ni*:—sef yr iachawdwriaeth yn y cyhoeddiad o honi: nid, fel y myn Ebrard, y ffaith mai gan yr Arglwydd y cyhoeddwyd hi yn gyntaf neu i ddechreu. *Gan y rhai a'i clywsant ef.*—A allasai Paul ysgrifenu fel hyn? Hôna Luther a Calvin nas gallasai. Barnwn gyda Hoffmann y gallasai yr awdwr lefaru yn yr ymadroddion hyn, i ddangos nad oedd efe ei hunan yn un o'r rhai a fu yn canlyn yr Iesu, ac yn gwrandaw arno yn pregethu yr efengyl yn bersonol. Ac felly geilir eu deall fel wedi eu hysgrifenu gan Paul, neu ynte ryw un arall oedd yn yr un berthynas ag ef yn hyn. Yr ydym, gan hyny, yn barnu nad oes dim yn y geiriau hyn yn ddadl o'r naill du na'r llall gyda golwg ar awduraeth yr epistol.

4. *A Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu.*—Y mae ffurf y ferf a gyfieithir yma "cyd-dystiolaethu" yn dra chryf. Y mae dau flaenddodiad, sef *sun* ac *epi*, wedi eu cyssylltu â'r ffurf syml, i arwyddo y drychfeddyliau o dystiolaethu ar a chyda. *Trwy arwyddion*, &c.—Y mae y tri gair "arwydd," "rhyfeddod," a "nerth," yn gosod allan amrywiol agweddau gweithred oruwchnaturiol. Golyga y cyntaf yr elfen hono mewn gwyrth ag sydd yn arwyddocaol o wirionedd ac awdurdod yr hwn sydd yn ei chyflawni; yr ail, yr elfen o oruwchnaturioldeb ei hun, fel y mae yn cynnhyrfu y teimlad o synedigaeth yn mynwes yr edrychydd; a'r olaf, yr elfen hono mewn gwyrth ag sydd yn arddangos goruwch-lywodraeth bod goruwchnaturiol fel ei gweithredydd a'i hachos. *A doniau yr Ysbryd Glân:*—Groeg: 'rhaniadau yr Ysbryd Glân;' *h.y.*, nid rhaniadau o eiddo yr Ysbryd Glân, ond rhaniadau o'r Ysbryd Glân. Nid y meddwl ydyw, mai yr Ysbryd sydd yn gwneuthur y rhaniadau, ond yn hytrach Duw y Tad yn gwneuthur rhaniadau, neu gyfraniadau, o'r Ysbryd Glân. Nid ydym chwaith i ddeall, wrth reswm, rhaniadau o'i berson—yr hyn sydd ammhossibl—ond cyfraniadau o'i weithrediadau a'i ddylanwadau wrth fesur. *Yn ol ei ewyllys ei hun*:—sef y Tad. Dylid cyssylltu yr ymadrodd â'r gair "doniau," neu "raniadau."

Dyrchafiad dyn uwch law yr angylion yn y Mab fel ernes a blaenffrwyth brodyr lawer.

5. *Canys nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw.*—Yr oedd yr apostol yn y rhanau blaenorol wedi dangos fod yr iachawdwriaeth wedi ei chyhoeddi fel dadguddiad i ddechreu yn uniongyrchol trwy y Mab, yr hwn, yn ei undeb â'r natur ddynol, oedd wedi ymddyrchafu yn uwch na'r angylion; ac ar ol hyny, trwy ei apostolion, y rhai oeddynt ddynion yn unig. Gallasai rhywun dybied fod hyn yn ddiraddiad ar ogoniant yr efengyl; ond dengys yr apostol mai i'r gwrthwyneb y mae, yn gymmaint a bod y natur ddynol wedi ei dyrchafu, nid yn unig yn mherson y Mab, ond trwyddo ef yn y rhai oll sydd mewn undeb personol âg ef. Trwy ddyrchafu y natur ddynol, fe ddyrchafodd ddyn yn bersonol—pob dyn sydd wedi dyfod i undeb âg ef trwy dderbyn yr iachawdwriaeth sydd ynddo. Y mae yr adnod hon ynkdyfod i mewn yn rheswm eglurhaol o'r hyn a gynnwysir yn niwedd yr adnod flaenorol; sef, fod apostolion Crist wedi eu hanfon a'u hawdurdodi i drefnu y dadguddiad helaethach sydd yn yr efengyl trwy y Mab. Gwnant hyny trwy amrywiol ddoniau yr Ysbryd Glân. Nid trwy drefniad angylion y sefydlwyd y dadguddiad hwn, ond trwy drefniad dynion yn llaw Ysbryd Duw fel Ysbryd Crist. "Canys," medd fel rheswm am hyny, "nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw." Fe ddarostyngwyd y dadguddiad blaenorol o ran ei drefniad allanol er ei gadarnhau iddynt hwy; ond i ddyn y rhoddwyd trefniad y dadguddiad hwn—i Fab y dyn yn wreiddiol, yr hwn sydd hefyd yn Fab Duw, cyfrwng ac awdwr y dadguddiad, ac i ddynion ereill awdurdodedig ganddo i gadarnhau y traethiad a roddwyd ganddo ef. Rhoddwyd hyn i ddyn fel cyflawniad rhanol o'r dyrchafiad addawedig iddo yn *Salm* viii. Wrth y "byd a ddaw" y mae i ni ddeall yma y byd a berthyn i'r bywyd a'r gogoniant newydd a dygwyd i oleuni trwy yr efengyl. Gelwir ef yn "fyd a ddaw" oddi ar safle yr Hen Destament yn arbenigol; ond y mae felly hefyd o ran perffeithrwydd ei ffurf allanol oddi ar safle y Testament Newydd. Yn yr ystyr cynnwysfawr hwn, cymmer i fewn drefn allanol a chyfansoddiad ffurfiol y goleuni a'r bywyd ysbrydol a ddygwyd i mewn trwy Grist fel Messiah, yn dechreu o'i ymddangosiad yn y cnawd, ac yn rhedeg yn mlaen hyd ei ail ymddangosiad, ynghyd â'r perffeithiad allan ol a roddir i'w ffurf yn yr ymddangosiad diweddaf hwnw. Nid i'r angylion y rhoddwyd yr anrhydedd cyssylltiedig â threfnu y ffurf hono yn y naill amgylchiad na'r llall, ond i ddyn. Golygiadau ereill llai tebygol ydynt, fod yr ymadrodd yn cyfeirio at *pen.* i. 6; neu yn ol ereill, gelwir ef felly am fod y nefoedd i ni yn "fyd a ddaw," er ei bod yn "fyd hwn" i'r rhai sydd eisoes ynddi.

6. *Eithr un mewn rhyw fan.*—Rhydd Bleek engreifftiau lliosog o Philo o'r dull yma o ddyfynu rhanau adnabyddus o'r Ysgrythyrau a llyfrau ereill. Gwel hefyd *pen.* iv. 4. *Pa beth yw*

[a] Iob 7. 17, 18; Salm 8. 4—8.
[b] Iob 25. 6.
[c] Gen. 50. 24.

[a] Pa beth yw dyn, i ti i feddwl am dano? neu [b] fab dyn, i ti i [c] ymweled âg ef?

7 Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angylion; â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw:

[d] Salm 2. 6; Mat. 23. 13.
[e] Iob 39. 1—12;

8 Ti [d] a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. [e] Ond yr awrhon nid ydym ni etto yn gweled pob peth wedi ei ddarostwng iddo.

9 Eithr yr ydym ni yn gweled

dyn.—Amcan a chynnwys *Salm* viii. ydyw darlunio y dyrchafiad y mae yr Iehofah wedi ei roddi ar ddyn. Cyflawnwyd yr ymadroddion sydd yn portreadu y dyrchafiad hwn i ddechreu ac mewn rhan yn ei greadigaeth, ond anurddwyd y ddelw ddyrchafedig trwy bechod; ond yn y prynedigaeth trwy Grist, cyflawnir yr ymadroddion mewn ystyr ac i raddau annhraethol uwch, trwy ei ddyrchafu o drueni pechod i deyrnasu mewn bywyd. Cyfodir ef o ddyfnder îs i uchder uwch nag yn ei greadigaeth gyntaf. Dyrchafiad o gwymp, ac ar ol iddo syrthio, ydyw hwn—nid i'r man y syrthiodd o hono yn unig, ond i uchder annhraethol uwch. Trefn y dyrchafiad ydyw trwy i Fab Duw ddisgyn i'r ddynoliaeth heb syrthio i'r dyfnder yr oedd dyn ynddo, ac esgyn mewn dyrchafiad i'r man y mae wedi bwriadu yn rasiawn i ddyrchafu dyn iddo. Y mae hyn oll yn gorwedd yn nghôl yr wythfed Salm, fel y mae wedi ei ddadblygu gan yr apostol. Dyrchafiad dyn ydyw mater mawr y Salm; yr hwn ddyrchafiad sydd eisoes wedi ei gwblhau yn rhanol yn ei greadigaeth, ond ar ol hyny a ddinystriwyd trwy bechod, ond a adnewyddwyd ar raddfa mwy gogoneddus yn y prynedigaeth. Y mae y dyrchafiad hwn etto eisoes wedi ei gyflawni yn rhanol, hyny yw, mewn un dyn; sef, y Pen—yr hwn sydd ernes a blaenffrwyth y rhai oll a unir âg ef. *Pa leth yw.*—Nid pa mor fawr, fel y myn Kuinöel. Yn erbyn hyn y mae y ffaith fod y gair sydd yn dynodi dyn yn ei waeledd a'i wendid, sef, *enosh*, yn cael ei arfer yma. *I ti i feddwl am dano:—h. y.*, i'w wneuthur yn wrthddrych dy ofal arbenig. *I ymweled âg ef.*—Yn yr Hebraeg, gall y gair arwyddo ymweled yn geryddol, yn gystal ag ymweled er daioni; ond yn y Groeg, defnyddir ef, gan mwyaf, mewn ystyr ffafriol. Y mae y cyntaf o'r ymadroddion hyn yn dynodi ffafr Duw mewn bwriad, a'r llall mewn gweithred.

7. *Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angylion*, &c.—Cynnwysir y dyrchafiad a roddes Duw ar ddyn mewn tri o actau mawrion; sef, yn 1af, ei wneuthur; 2il, ei goroni; ac yn 3ydd, ei osod. Cyfeiria y cyntaf at ei natur; yr ail at ei berson; a'r olaf at ei swydd. O ran ei natur, gwnaed ef ychydig yn is na'r angylion; o ran ei berson, coronwyd ef â gogoniant ac anrhydedd; ac o ran ei swydd, gosodwyd ef ar weithredoedd dwylaw Duw, a darostyngwyd pob peth dan ei draed ef. "Ychydig is na'r angylion."—Hebraeg: 'Ti, sef Iehofah, a wnaethost iddo eisieu ychydig i fod yn 'Dduw; sef, Elohim. Y mae y gair *Iehofah* yn dynodi Duw fel bod personol, a'r gair *Elohim* ei briodoliaethau, fel y maent yn amgyffredadwy, i fesur. i'w greaduriaid, ac yn gyfranogadwy ganddynt. Yn awr, fe wnaed yr angylion yn Elohim yn yr ystyr hwn; hyny yw, fe'u gwnaed yn gyfranog o briodoliaethau yr Iehofah yn yr ystyr uchaf ag y gall creaduriaid eu meddu; o ganlyniad, y mae fod dyn wedi ei wneuthur ychydig yn llai na Duw yr un peth yn yr ystyr hwn a phe dywedasai 'ychydig llai na'r angylion.' Am hyny cyfleithir ef felly gan y Deg a thrigain, yr hwn gyfleithiad sydd yn y goleu uchod yn gywir. Mŷn rhai gyfleithu yr Hebraeg a'r Groeg 'am ychydig;' ond y mae yn dra anhebyg. *Ti a'i coronaist â gogoniant ac anrhydedd.*—Dyma yr ail ran o'i ddyrchafiad. Fel person, y mae wedi ei ddyrchafu trwy gael ei goroni â gogoniant ac anrhydedd. Dyrchafiad sefyllfa ac awdurdod a olygir yma. Cafodd ei goroni yn frenin yn ei greadigaeth ar raddfa lai, ond yn yr ystyr uchaf yn nhrefn y prynedigaeth trwy Grist. Sylweddolwyd hyn yn gyntaf yn ei fynediad ef yn y natur ddynol i'w frenhiniaeth yn y nefoedd, a sylweddolir ef yn y credinwyr pan y gwneir hwynt yn "frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef." *Ac a'i gosodaist ef.*—Dyma y drydedd ran o'i ddyrchafiad. O ran swydd, y mae wedi ei osod, nid yn unig mewn awdurdod, ond hefyd mewn llwodraeth weithredol trwy allu ar bob peth. Gwnaed hyn, etto, ar raddfa îs ac yn ammherffaith yn ei greadigaeth, ond yn ystyr uchaf yr ymadrodd yn a thrwy y prynedigaeth. Y mae eisoes wedi ei gyflawni yn y pen, ac i gael ei gwblhau yn yr aelodau.

8. *Canys wrth ddarostwng pob peth iddo.*—Grym yr ymresymiad, yn ol Hoffmann, ydyw hyn: fod ymadrodd y Salmydd yn cael ei gadarnhau a'i wirio yn y ffaith a gofnodir yn *Gen.* i. 28. Y mae Bleek, ac ereill, drachefn, yn cymmeryd y gair "canys," nid yn gwlwm ymresymiad newydd, ond yn hytrach yn barhâd ac ail adroddiad o'r "canys" yn *adn.* 5, mewn trefn i'w brofi:—"Canys nid i'r angylion," &c. Pa beth ydyw y prawf? Hyn: sef, ddarfod i Dduw ar ddechreu amser osod dyn mewn sefyllfa o ddyrchafiad ar bob peth, yr hwn ymadrodd sydd yn cynnwys ynddo ei hun yr helaethder mwyaf, ac yn ddieithriad. Yr ydym yn tueddu i feddwl fod yr agoriad i ddeall gwir rym yr ymresymiad yn gorwedd yn y gwahaniaeth rhwng *panta* a *ta panta*. Ystyr y cyntaf ydyw 'pob peth;' ystyr yr ail ydyw 'y greadigaeth,' weledig a naturiol. Yn yr adnod flaenorol, dywedir, o'r Salm, fod Duw wedi darostwng pob peth iddo. Pa brawf sydd genym o hyny? 'Canys,' medd yr apostol, 'wrth ddarostwng y greadigaeth iddo, ni adawodd efe ddim heb ei ddarostwng iddo:' hyny ydyw, ni wnaeth ddim yn eithriad. Ffurf nacaol yw hwn, a elwir yn *litotes*, i osod allan y cadarnhaol gwrthgyferbyniol yn gryfach; a'r gwrthgyferbyniad ydyw, ddarfod iddo osod, nid yn unig y greadigaeth weledig uchod dan ei draed, ond hefyd bob peth—y greadigaeth ysbrydol, o'r hon nid oedd y llall ond cysgod, ac i'r hon yr oedd yn gwasanaethu fel sylfaen barhaol. *Ond yr awr hon nid ydym ni etto yn gweled pob peth.*—Hyd yma y mae dyn heb gael sylweddoli iddo y darostyngiad hwn, hyd yn oed yn ei ystyr isaf. Nid ydyw y greadigaeth, neu bob peth naturiol, etto wedi eu rhoddi dano—llawer llai pob peth, yn ei ystyr eangaf; sef, y byd a ddaw.

9. *Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu.*—Y cyt-

Iesu, yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion, o herwydd [f] dioddef marwolaeth, [f] wedi ei goron- —5; oni â gogoniant ac anrhydedd ;

[f] Salm 21. 3 Act. 2. 33.

leithiad mwyaf llythyrenol o'r adnod hon fyddai, 'Ond yr hwn a wnaed yn ychydig is na'r angylion, Iesu a edrychwn arno, o herwydd dioddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd ; fel trwy ras Duw y profai farwolaeth dros yr oll.' Er nad ydym yn gweled dyn, yr hwn yn wir y gellir ei olygu eisoes yn cyfatteb i'r ymadrodd, "wedi ei wneuthur ychydig yn is na'r angylion ;" sef, y rhan gyntaf o'i ddyrchafiad, hyd yma wedi cyrhaedd y gradd uchaf ; sef, darostwng pob peth dan ei draed ef ; etto yr ydym yn canfod un dyn, sef, Iesu, wedi cyrhaedd o leiaf yr ail radd ; sef "wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd"—yn wystl ac yn ernes y cyrhaedda ereill ar ei ol yr un gogoniant, ac y cyrhaedda yntau ei hun ac ereill y drydedd radd ; sef, darostwng pob peth iddo ; canys y mae "o hyn allan yn disgwyl" am hyny. Gelwir yr Iesu'yma "yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion," nid i ddynodi ei ddarostyngiad, ond yn syml i osod allan ei ddyndod. Fel y mae yn ddyn, y mae wedi ei ddyrchafu i fod ychydig yn is na'r angylion yn ystyr y Salm o'r ymadrodd. Yr oedd felly yn ystyr isaf y gair yn ei ymgnawdoliad cyntaf, ac yn yr ystyr uwch yn ei adgyfodiad. Felly gesyd yr ymadrodd allan ei ddyrchafiad, yn hytrach na'i ddarostyngiad. *O herwydd dioddef marwolaeth.*—Y mae yr ymadrodd hwn f'w gyssyltu â'r nesaf, ac nid â'r un blaenorol, fel y gwna rhai : er enghraifft, Chrysostom :—"Yr hwn a wnaed yn is na'r angylion am ei fod wedi dioddef marwolaeth." Ac ar y llaw arall, Awstin :—"Yr hwn a wnaed yn is na'r angylion mewn trefn i ddioddef marwolaeth." Y gwir ystyr ydyw, 'O herwydd dioddef marwolaeth, wedi ei goroni,' &c. Gwobr ei ddioddefiadau ydyw ei goroniad. Fe gyrhaeddodd y goron trwy y groes. Y mae hyn yn cydsefyll yn well â'r ymadrodd yn *adn.* 10, "perffeithio trwy ddioddefiadau," ac yn cyfatteb i *Phil.* ii. 8, 9. *Fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth.*—Dealla Hoffmann yr ymadrodd blaenorol fel yn dynodi y rhoddion a'r cymmwysderau gogoneddus a dderbyniodd y dyn Crist Iesu yn nyddiau ei ymgnawdoliad, i'w bartoi i farw : ond y mae hyn yn dra annhebyg. Yn iaith yr Ysgrythyrau—"fel, trwy ras Duw." Darlleniad arall ydyw, "fel ar wahân oddi wrth Dduw" (*choris Theou*, yn lle *chariti Theou*). Y darlleniad hwn, medd Origen, oedd yr un cyffredin yn ei amser ef, gan nad oedd ein darlleniad ni i'w gael ond mewn rhai llaw-ysgrifau. Hwn hefyd ydyw y darlleniad a gymmeradwyir gan Ambrose, Fulgentius, Vigilius, Jerome, a Theodore o Mopsuestia. Ceir y darlleniad hwn yn y darnau llaw-ysgrifau, y rhai a elwir yn Uffenbach MSS., ac a deitlir yn MSS. 67[1] a 67[2]. Bernir iddynt gael eu hysgrifenu yn y nawfed a'r ddegfed ganrif. Pleidiai y Nestoriaid y darlleniad hwn yn gryf; a honir gan rai mai hwy a ddyfeisiasant y darlleniad, gan lygru y testyn gwreiddiol i atteb dyben plaid, ac i gefnogi eu golygiad athrawiaethol ar berson Crist ; sef, ei fod yn berson dynol, ac yn berson dwyfol hefyd ; *h. y.*, yn ddau berson. A golygent fod y darlleniad hwn yn profi eu syniad ; sef, fod y dyn Iesu wedi profi marwolaeth "ar wahân oddi wrth Dduw ;" *h.y.*, oddi wrth y person dwyfol. Ond nid oes fel trwy ras Duw [g] y profai efe farwolaeth dros bob dyn.

[g] Mat.16.28; Ioan 8. 52

10 Canys gweddus oedd iddo ef, [h] o herwydd yr hwn *y mae*

[h] Diar. 16.4; Esa. 43 21; Rhuf. 11. 33;

dim sail i'r cyhuddiad hwn yn erbyn y Nestoriaid, yn gymmaint a bod y darlleniad yn llawer hŷn na golygiad y Nestoriaid. Ond diau iddynt hwy ei gymmeryd i fyny, a'i bleidio. Yn y cyfieithiad Syriaeg cyffredin, sef y *Peschito*, ceir y darlleniad sydd genym ni. Y mae yn anhawdd iawn penderfynu pa un o'r ddau ddarlleniad yw yr un gwreiddiol a chywir. Nid oes genym ond ei adael mewn ansicrwydd. Ar y dybiaeth fod y darlleniad "ar wahân oddi wrth Dduw" yn gywir, y mae cryn wahaniaeth yn y ffordd o'i egluro. Gan Origen eglurir ef :—"Fel y profai farwolaeth dros bawb ar wahan i (*h.y.*, oddi eithr) Duw." Gan y Nestoriaid, Ambrose, ac ereill :—"Fel ar wahân oddi wrth Dduw ; (*h. y.*, wedi rhoddi ei Dduwdod o'r neilldu) y profai farwolaeth dros yr oll." Gan Baumgarten :—"Fel ar wahân oddi wrth Dduw (*h.y.*, wedi ei adael gan Dduw, sef ar y groes) y profai farwolaeth." Hoffmann (ar y cyntaf) :—"Fel ar wahân oddi wrth Dduw (*h.y.*, wedi cymmeryd bywyd ar wahân oddi wrth Dduw, yn gymmaint a'i fod yn fywyd â dechreuad iddo) a ddioddefodd farwolaeth, &c." Gwelir ar unwaith fod yr eglurhadau uchod yn dra annaturiol. Y cyntaf yn hollol ammherthynasol ; yr ail yn gyfeiliornus ; y trydydd yn bell-gyrhaeddol ; a'r olaf yn dwyn yr un ddelw. Y mae yr anhawsder hwn i roddi unrhyw eglurhâd naturiol yn ddadl yn erbyn cywirdeb y darlleniad. Cymmerwn, gan hyny, y darlleniad cyffredin, i edrych pa ystyr a ddylid ei roddi iddo. Y mae yn amlwg oddi wrth y rhanau blaenorol fod yr ymadrodd yn cyfeirio at rywbeth dilynol i'w angeu ar y groes, a chydfynedol â'i sefyllfa o ddyrchafiad yn y nefoedd. Y mae, ar ol dioddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd, fel y byddai, wedi profi marwolaeth, er budd i bawb ; *h.y.*, fel y byddai iddo roddi effeithiolrwydd gweithredol i'w angeu ar y groes. Wedi iddo farw ar y groes yn lle ei frodyr, y mae efe etto yn byw ei angeu yn y nefoedd, i'w lleshâd a'u dyrchafiad gweithredol, a hyny "trwy ras Duw." Yr un gras ag a fu yn achos gwreiddiol iddo ddioddef marwolaeth pan oedd ar y ddaear, sydd hefyd yn achos gwreiddiol ei fod yn dadblygu y farwolaeth hono yn y nefoedd yn y ffurf o fywyd a dyrchafiad i'w bobl. Wedi dioddef marwolaeth, pan ar y ddaear, y mae yn ei phrofi mewn gogoniant yn y nefoedd, i ddwyn allan ei ffrwyth, a gweithio allan ei dybenion goruchel. Barna Bleek fod y gair "profi," a ddefnyddir yma, yn arwyddo chwerwder angeu y groes. Nid ydym am gau y golygiad hwn allan, gan y barnwn fod y gair yn ddau-ochrog. Fel y mae yn rhagolygu ei angeu fel dioddefaint ar y ddaear, cynnwysa y drychfeddwl o chwerwder ; ond fel y dynoda ei angeu wedi troi yn fywyd yn y nefoedd, cynnwysa y drychfeddwl gwrthgyferbyniol, sef o felusdra a mwynhâd. Y mae ei angeu wedi esgor ar fywyd, a chwerwder y naill ar felusder y llall.

10. *Canys gweddus oedd iddo ef* :—sef y Tad. *O herwydd yr hwn y mae pob peth*, &c.—Gwel *Rhuf.* ii. 36 : a 1 *Cor.* viii. 6. I ogoniant mynegol y Tad fel amcan eithaf, a thrwy weithrediad gweiddiol y Tad, y mae pob peth creadigaeth ac iachawdwriaeth yn cael eu dwyn yn mlaen.

pob peth, a thrwy yr hwn *y mae* pob peth, wedi *iddo* ddwyn [1] meibion lawer i ogoniant, [k] berffeithio trwy ddioddefiadau.

Ioan 11.52; Rhuf. 9. 25, 26; 2 Cor. 6.18; Gal. 3. 26. [k] Heb. 12. 2.

11 Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, o'r un *y maent* oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr;

[1] Salm 22. 22, 25. [m] Salm 40. 10; Ioan 18.20. 2 Sam. 22. 3; Salm 36.7; Esa. 50.7-9; Mat. 27.43.

12 Gan ddywedyd, [l] Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr; [m] yn nghanol yr eglwys y'th folaf di.

13 A thrachefn, [n] Myfi a fyddaf

Wedi iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant.—Y mae cryn amrywiaeth barn gyda golwg ar y modd priodol i gyssylltu a deall yr ymadrodd hwn. Y mae Hoffmann yn ymlynu wrth y darlleniad sydd genym ni, ac yn ei gyssylltu â'r Tad, gan ddeall fod y Tad wedi dwyn Moses i ogoniant prophwydol, Aaron i ogoniant offeiriadol, a Dafydd i ogoniant brenhinol. Cyssylltir ef gan ereill â'r ymadrodd yn niwedd yr adnod; sef, "Tywysog eu hiachawdwriaeth;" gan ddeall yr "ef," hefyd, yn nechreu yr adnod, yn lle am y Tad, am y Mab. Ond dysgeidiaeth gyffredin y Beibl ydyw, fod y saint yn feibion y Tad, ac yn frodyr i'r Mab. Barna Winer ei fod yn cyfeirio at waith Crist, yn nyddiau ei gnawd, yn dwyn meibion lawer i ogoniant drwy ei weinidogaeth bersonol. Y mae ereill yn cymmeryd y rhangymmeriadau mewn ystyr ddyfodol:—'Ar fedr dwyn meibion lawer i ogoniant.' Addefa Bleek y gellir gwneyd hyn. Yr ydym yn cryf-dueddu i feddwl mai mewn ystyr arfaethol a chynlluniol y dylid deall yr ymadrodd yn y ffurf orphenol. Cadarnheir hyn, am fod y Tad yn cael ei ddisgrifio yma wrth yr ymadroddion, "o herwydd yr hwn y mae pob peth," &c. Fel y cyfryw, fel un yn rhagolygu ac yn arolygu y cyfan, fe ddygodd yn ei gynllun tragwyddol feibion lawer i ogoniant. *Berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddioddefiadau.*—Dyma yr hyn yr oedd yn weddus i'r Tad ei wneuthur, fel un wedi penderfynu dwyn meibion lawer i ogoniant. Wrth "berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth," y mae i ni olygu, ei gyfaddasu, yn unol â gweddeidd-dra cyfiawnder natur Duw ei hun, i ddwyn i mewn iachawdwriaeth gyda gogoniant i'w bobl. Gwnaed hyny trwy iddo gael ei ogoneddu, a chafodd ei ogoneddu trwy ddioddefiadau. :—"Onid oedd raid i Grist dioddef, a myned i mewn i'w ogoniant?' Nid y meddwl ydyw, ei gyssegru i fod yn archoffeiriad, fel y dywed Calvin, ac ereill; o herwydd ni ddefnyddir y gair yn y Deg a Thrigain i arwyddo hyny. Y mae cyssylltiad y gosodiad a geir yn yr adnod hon â chynnwys yr adnod flaenorol yn lled anhawdd ei benderfynu. Y mae golygiad Ebrard yn llawer rhy anystwyth; sef, fod y pwys i'w roddi ar yr ymadrodd "dwyn meibion lawer i ogoniant;" ac mai y meddwl ydyw, fod yn weddus i'r Tad berffeithio y Mab trwy ddioddefiadau fel Rhagflaenydd ei bobl; fel y byddai iddo ddwyn, nid yn unig yr Iesu, ond meibion lawer ar ei ol i ogoniant. Barnwn, yn hytrach, fod y gosodiad yn rheswm dros yr hyn sydd yn *adn.* 9, lle y dywedir fod yr Iesu wedi ei goroni o herwydd dioddef marwolaeth; canys yr oedd yn weddus i'r Tad beri iddo gael ei goroni felly; sef, trwy ddioddef a marw. Y ffaith a gofnodir yn *adn.* 9—y rheswm dros y ffaith a ddygir yn mlaen yn *adn.* 10. Tynu ymaith dramgwydd y groes o feddwl yr Hebreaid y mae yr apostol, trwy ddangos fod dioddefiadau y groes yn seiliedig ar briodoldeb moesol, yn gorwedd yn natur Duw ei hun. Ystyr y gair "Tywysog" yn y lle hwn ydyw Achubydd. Defnyddir ef yn aml yn yr ystyr o wreiddyn hiliogaeth, ac weithiau yn yr ystyr o ragflaenydd neu dywysydd. Yma y mae yr ystyr yn fwy moesol (*ethical*), ac yn gosod allan achosiad a dechreuad.

11. *Canys yr hwn sydd yn sancteiddio* :—sef, Crist. Arwydda y gair yn y lle hwn holl ymgeledd iachawdwriaeth yr efengyl, fel y mae yn tynu ac yn tueddu at y gogoneddiad y sonir am dano yn yr adnod flaenorol. Cynnwysa, gan hyny, fwy nag a olygir yn ystyr cyfyng y gair. Golyga y cyfiawnhâd yn gystal a'r sancteiddhâd. Priodolir yr ymgeledd hwn i'r Mab yn y lle hwn, yn gymmaint ag mai am dano ef y lleferir yn arbenig fel "Tywysog iachawdwriaeth." *O'r un y maent oll* :—*h. y.*, o'r un Duw fel Tad: nid o'r un natur [*Calvin*], nac o'r un cymmeriad [*Cameron*], nac o'r un gwreiddyn dynol Adda [*Hoffmann*], nac o'r un cyff cenedlaethol, Abraham [*Bengel*]. Y mae perthynas nes nag yr ydym wedi ei feddwl erioed rhwng cenhedlaeth y Tragwyddol Fab a mabwysiad y saint yn nhragwyddoldeb. Trwy yr un weithred fawr a rhyfedd ag y cenhedlwyd ef, fe'u dewiswyd hwythau ynddo ef mewn mabwysiad grasol; ac am hyny y maent o'r un Duw fel Tad. Yn ei genhedliad tragwyddol gwnaeth ei hachos hwy yn achos iddo ei hun. Daeth i berthynas, nid naturiol, ond ysbrydol, â hwy, yr hwn sydd yn eu gwneuthur, ef a hwy, mewn modd dirgeledig, yn un; a'r hwn, hefyd, ydyw gwaelod a sail holl weithredoedd ei ddarostyngiad ar eu rhan. Y mae yr adnod hon, gan hyny, yn egluro ac yn rhoddi rheswm dyfnach am y rheswm sydd yn yr adnod flaenorol. Pa ham yr oedd yn weddus i'r Tad berffeithio y Mab fel Tywysog iachawdwriaeth trwy ddioddefiadau? Yr atteb ydyw:—"Canys o'r un y maent oll." Yr oedd er tragwyddoldeb wedi dyfod i undeb mor agos â hwy ag oedd yn ei gwneyd yn angenrheidiol iddo ddioddef drostynt, ac er eu hiachawdwriaeth. *Am ba achos* :—*sef, am eu bod o'r un. Nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.*—Yr oedd yn eu harddel fel brodyr dan yr Hen Destament, pan yr oedd etto heb ymddangos yn y cnawd. Yr oedd y pryd hwnw, fel Crist, yn bresennol gyda ac yn mhlith y credinwyr trwy y cysgodau a'r prophwydoliaethau. Nid oedd yr Iuddewon, fel y Cenhedloedd, "heb Grist." Yr oedd yn bresennol fel Crist cyn ymddangos fel y dyn Iesu. Llefarai wrthynt trwy brophwydoliaethau a chysgodau; ac yn ei waith yn gwneuthur hyny ni chywilyddiodd, yn nghanol llawer o bechod a thrueni, "eu galw yn frodyr."

12. Dygir yr adnod hon, ynghyd â'r rhai canlynol, i brofi y gosodiad yn *adn.* 11. Yn *Salm* xxii. 22, y mae y Messiah, trwy gyfrwng prophwydoliaeth, yn dadgan ei hyder y bydd iddo, ar ol ei holl ddioddefiadau, gael ei ddyrchafu o honynt, ac uwch law iddynt, i fynegu enw Duw i'w frodyr.

13. *Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo.*—Dyfyniad o *Esa.* viii. 17. Y mae cyfleithiad y Deg

yn ymddiried ynddo. A thra-
[o] Esa. 8. 18; 53. 10. chefn," Wele, fi, a'r plant a roddes Duw i mi.

14 O blegid hyny, gan fod y
[p] Esa. 7. 14; Ioan 1. 14 plant yn gyfranogion o gig a gwaed, [p] yntau hefyd yr un modd

a thrigain o'r rhan uchod yn hynod o efengylaidd a Messianaidd o ran ffurf. Dyry Delitzsch ef fel y canlyn:—"Ac efe (y Messiah) a ddywed, Yn Nuw yr ymddiriedaf," &c. Yn y gwreiddiol, perthyna *adn.* 17, 18, i'r prophwyd. Efe a ddarlunir yn llefaru ynddynt; ond barnwn, gyda Hoffmann, am ba bethau bynag a lefarai y prophwydi, yn enwedig yn gyssylltiedig âg amgylchiadau pwysig, fod Crist yn llefaru yr un pethau ynddynt am dano ei hun, fel y cyflawniad uchaf o honynt. Felly yma. Yr oedd Crist, yn a thrwy Esaiah, yn dadgan ei ymddiried yn Nuw, ac felly gosodai ei hunan ar yr un esgynlawr a'i bobl. Fel yr oeddynt hwy yn ymddiried, yr oedd yntau hefyd; ac o ganlyniad yr oedd drwy hyny yn rhinweddol a gwirioneddol yn eu galw yn frodyr. *A thrachefn* (yn mhellach yn mlaen yn yr un brophwydoliaeth, dywed), *Wele, fi, a'r plant a roddes Duw i mi.*—Yr oedd Esaiah yn dywedyd hyn am dano ei hun, a Shear-iasub a Maher-shalal-hasbaz fel arwyddion; ond yn yr arwyddion hyn yr oedd Crist hefyd yn llefaru am dano ei hun a'i bobl, y rhai ydynt yn blant a roddodd Duw iddo ef. Nid ei blant ef, ond plant Duw, wedi eu rhoddi iddo ef: *Ioan* xvii. 6. Y mae yr ymadrodd "a thrachefn" yn cael ei ddodi o flaen "Wele, fi," &c.—nid am ei fod yn ddyfyniad arall, ond am ei fod yn cynnwys drychfeddwl newydd. Yn y dyfyniad cyntaf, y mae y Messiah yn eu harddel fel brodyr, trwy fynegu enw Duw iddynt; yn yr ail, drwy ymddarostwng gyda hwynt i ymddiried yn Nuw fel ei ddyrchafydd; ac yn y trydydd, trwy gydnabod yn uniongyrchol y berthynas ysbrydol agos rhyngddo ef a hwynt.

14. *O blegid hyny:—h.y.*, o herwydd y berthynas ysbrydol hon rhyngddo ef a hwynt, yn rhinwedd yr hon y maent yn frodyr iddo ef, ac yn blant i Dduw. *Gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed.*—Groeg: 'o waed a chnawd.' Dodir gwaed o flaen cnawd, am mai dyma yr elfen fwyaf mewnol a hanfodol i fywyd, a chyda chyfeiriad amlwg hefyd at yr amcan unionsyrchol oedd mewn golwg yn ei ymgnawdoliad; sef, tywallt ei waed yn aberth dros bechod. Y mae y ddau air gyda'u gilydd yn dynodi cyfanrwydd y natur ddynol, yr hon a gymmerodd i undeb â'i berson dwyfol. *Yntau hefyd yr un modd.*—Y mae y gair *paraplesiós* yn arwyddo 'mewn modd cyfattebol, neu gyffelyb.' Dynoda, nid unffurfiaeth hollol, ond unoliaeth hanfodol. Y mae y gair yn cynnwys attebiad boddhaol; a dygwyd ef yn mlaen ganwaith drosodd gan y tadau yn erbyn y golygiad Docetaidd, sydd yn gwadu gwirionedd dynoliaeth Crist. *A fu gyfranog o'r un pethau:*—sef, o waed a chnawd; *h.y.*, y natur ddynol, yn wirioneddol a chyflawn. *Fel trwy farwolaeth,* &c.—Yr amcan mawr oedd ganddo mewn golwg yn cymmeryd ein natur oedd, fel y byddai iddo farw ynddi, a thrwy farwolaeth ddinystrio y diafol. Y mae y gair "trwy" (Groeg, *dia*), yn dynodi marwolaeth fel offeryn dinystr y diafol. Cafodd ei ddinystrio o i arf ei hun, fel y torodd Dafydd ben Goliah â'i

[q] Esa 53. 12; Ioan 12. 24. 31—33. [r] Mat. 25. 41; 1 Ioan 3. 8—10. [s] Salm 88. 19.

a fu gyfranog o'r un *pethau;* fel [q] trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, [r] diafol;

15 Ac [s] y gwaredai hwynt y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt

gleddyf ei hun. *Y dinystriai efe yr hwn, &c.*—Y mae y gair a gyfleithir yma "dinystrio," yn arwyddo gwneyd yn ddiffrwyth, neu yn ddim—diddymu. Gwel *Luc* xiii. 7. *Nerth marwolaeth.*—Wrth "nerth marwolaeth" yma y mae i ni ddeall, nid pechod, fel y golyga rhai, ond y lle a'r awdurdod sydd gan y diafol ar farwolaeth, yn ystyr eangaf y gair—ysbrydol, tymmhorol, a thragwyddol. Y mae dau derfyn mawr i'r awdurdod hwn:—1af, Ei sail ydyw pechod; 2il, Ei ffynonell ydyw awdurdod Duw, fel awdwr gwreiddiol barn a chosp. Trwy dynu ymaith y cyntaf, dinystrir hi ar unwaith; ac felly, yn gymmaint a bod marwolaeth Crist yn cynnwys dileu pechod, sylfaen yr awdurdod, yr oedd yn myned dan sail yr awdurdod ei hun, ac felly yn dinystrio y diafol fel gweithredydd offeryngol yr awdurdod. Dylid cofio yn wastad fod yr awdurdod hwn, a roddwyd i'r diafol, yn gyfiawn, er fod ei ewyllys ef yn y meddiant o hono, fel y dywed Gregory, yn anghyfiawn.

15. *Ac y gwaredai hwynt:*—Groeg: 'y rhyddhäai hwynt.' *Y rhai trwy ofn marwolaeth.*—Yn lle "rhai," darllenir yn y gwreiddiol 'cynnifer ag' (*osoi*), i ddynodi y berthynas bersonol ac agos sydd rhwng ei farwolaeth a'r gwrthddrychau. Y mae ofn marwolaeth yma yn golygu mwy nag arswyd ymddattodiad naturiol; sef, y braw a'r dychryn hwnw sydd yn gyssylltiedig âg euogrwydd fel teimlad, yr hwn sydd fel blaenbrawf yn y byd hwn o'r farwolaeth ofnadwy dan lid Duw yn y byd a ddaw. Yr oedd ofn marwolaeth yn nodweddu hyd yn oed fywyd y saint dan yr Hen Destament, a chyn i Grist farw. Gwelir hyn yn nhôn bruddgiwyfaidd hyd yn oed eu hemynau a'u salmau; ac o bossibl nas gellir dywedyd ar y llaw arall fod hyd yn oed anghredinwyr yn bresennol yn llai darostyngedig iddo tra yn y byd hwn, ac yn aml dros eu holl fywyd; ond dylai hyny beri iddynt ofni yn fwy, rhag iddo fod yn achlysur o ddideimladrwydd a chaledrwydd a fydd yn achos o'u dinystr, a pheri iddynt fyned i afael y farwolaeth ei hun heb brofi yr ofn yn flaenorol. *Troseu holl fywyd.*—Groeg: 'trwy eu holl fywyd.' Yr oedd yr ofn yn rhedeg fel edafedd trwy weu bywyd, ac yn ei wneyd yn fath o farwolaeth ei hun. *Dan gaethiwed.*—Groeg: 'yn euog o gaethiwed;' *h. y.*, yn ddarostyngedig a rhwymedig i gaethiwed. Yr oedd ofn marwolaeth yn cenhedlu caethiwed ynddynt. Yr oeddynt trwyddo yn garcharorion yn y byd hwn, ac yn methu a chyrhaedd y rhyddid hwnw t'w fwynhau ag sydd yn awr wedi ei ddwyn i fewn i'r saint trwy yr efengyl. Un drychfeddwl a gynnwysir yn nghosp pechod ydyw caethiwed. Yr oeddynt hwythau y pryd hwnw, trwy ofn, yn meddu rhagbrawf o'r teimlad o gaethiwed sydd yn deilliaw o'r amlygiad o ddigofaint Duw. Yn yr adnodau hyn, dangosir i ni fod amcan deublyg i ymgnawdoliad Crist; un yn dwyn perthynas â'r byd hwn, a'r llall â'r byd a ddaw—ein gwaredu oddi wrth farwolaeth yn y naill, ac oddi wrth ofn marwolaeth yn y llall.

dros eu holl fywyd dan gaethiwed.

16 Canys ni chymmerodd efe *naturiaeth* angylion; eithr had Abraham a gymmerodd efe.

17 Am ba achos y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr; fel y byddai drugarog ac Archoffeiriad ffyddlawn, mewn pethau *yn perthyn* i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl. [Lef. 6. 30; Dan. 9. 24.]

16. *Canys ni chymmerodd efe, &c.*—Groeg: 'Canys yn wir nid ydyw yn cynnorthwyo angylion; eithr hâd Abraham y mae yn ei gynnorthwyo.' Y mae y ferf *epilambano* a ddefnyddir yma yn arwyddocau yn wreiddiol, cymmeryd gafael mewn un; ac mewn ystyr foesol, cynnorthwyo. Defnyddir hi hefyd yn yr amser presennol nid yn y gorphenol, fel yn ein cyfieithiad ni; yr hwn sydd yn gyfeiliornus, am ei fod yn gyfuniad o esboniad a chyfieithiad. Ni ddylasai y gair "naturiaeth" gael ei ddodi i mewn chwaith, gan ei fod fel eglurhâd ar yr adnod yn gyfeiliornus. Nid ydyw yr apostol yn yr adnod hon yn cyfeirio oll at ymgnawdoliad Crist, o herwydd gwna hyn yn *adn.* 14, eithr at yr achos mawr o'r ymgnawdoliad; sef, ei waith yn cymmeryd achos dynolryw arno ei hun i'w cynnorthwyo a'u dyrchafu; ac yn arbenig at y gweithrediad o'r achos hwnw ganddo yn awr yn y nefoedd. Yno y mae yn cynnorthwyo, nid angylion, end dynion, y rhai a elwir yma yn "hâd Abraham;" yr hwn a ddynoda, nid y genedl Iuddewig, na'r eglwys Iuddewig, ond yr holl eglwys, fel "hâd Abraham" trwy ffydd. Y mae yr adnod yn y goleuni hwn yn dyfod i mewn yn rheswm chwanegol pa ham y darfu iddo ymgyfranogi o gig a gwaed. Fe wnaeth hyny mewn trefn, trwy ei angeu, i'n gwaredu, a thrwy ei fywyd yn y nefoedd i'n cynnorthwyo yn weithredol. Aeth i'r nefoedd i gynnorthwyo, nid trigolion gwreiddiol y nefoedd, y rhai nid oes arnynt angen am gynnorthwy, ond "hâd Abraham." Y cyntaf i ddymchwelyd a chanfod anghywirdeb yr hen esboniad ar yr adnod hon oedd Castalio. Erbyn hyn, y mae yr esboniad arall yn gyffredinol; er iddo ar y dechreu, ac am amser maith, gael ei wrthod gyda dirmyg. Arweiniwyd y tadau i'r esboniad a roddent hwy trwy gamddeall cyssylltiad yr adnodau cylchynol; ac hefyd gan y ffaith o ddefnyddiad y ferf a arferir yma gan yr eglwys yn y canrifoedd boreuol i osod allan yr ymgnawdoliad.

17. *Am ba achos y dylai:*—sef, am ei fod yn cynnorthwyo hâd Abraham, sef yr eglwys. *Fod yn gyffelyb i'w frodyr:*—nid yn unig yr oedd hyn yr angenrheidiol, o herwydd yr hyn a gynnwysir yn *adn.* 14, 15; ond yr oedd yn briodol a dyledus iddo yn ei berthynas uniongyrchol â hwy pan yn trafod eu hachos fel archoffeiriad ar eu rhan ger bron Duw. Golyga y cyffelybrwydd y cyfeirir ato yma rywbeth chwanegol at yr hyn sydd yn *adn.* 14; sef, cyffelybrwydd profiad ac amgylchiadau. *Fel y byddai drugarog ac Archoffeiriad ffyddlawn.*—Gellir darllen y frawddeg hon "fel y byddai"—neu yn fwy llythyrenol, 'fel y deuai i fod yn archoffeiriad trugarog a ffyddlawn.' Felly Hoffmann, Delitzsch, ac Ebrard. Y meddwl yw, fod yn briodol iddo gael ei wneuthur yn gyffelyb i'w frodyr yn mhob peth, fel y sylwyd o'r blaen, fel y byddai iddo ddyfod yn archoffeiriad trugarog a ffyddlawn. Nid dyfod i feddu yr ansoddau uchod fel teimladau a feddylir; ond dyfod i'w meddu yn y dadblygiad llawn o honynt, i'w hamlygu yn ngweinyddiad ei swydd fel archoffeiriad. Yn yr adnod hon y gelwir Crist yn archoffeiriad yn yr epistol hwn y waith gyntaf, er fod y swydd, ynghyd â'r gwaith perthynol iddi, yn cael eu rhagdybied mewn rhanau blaenorol o hono: *pen.* i. 3; ii. 11; ii. 10; ii. 9. Y mae y gair "trugarog" yn dynodi yr hyn ydyw yn ei berthynas â dynion, a'r gair "ffyddlawn" yr hyn ydyw yn ei berthynas â Duw—yn fwyaf arbenig yn ngweinyddiad ei swydd archoffeiriadol. *I wneuthur cymmod dros bechodau:*—Groeg: 'i gymmodi pechodau.' Y mae y gair a gyfieithir yma "cymmodi," yn arwyddo, yn llythyrenol, 'gwneuthur un yn gymmodlawn.' Felly, y mae yn briodol i gael ei gyssylltu â pherson, yn hytrach nag â pheth. Ac felly y defnyddir y gair, fel yr arferid ef mewn cyssylltiad â chrefydd y paganiaid. Cymmodi y duwiau oedd yr ymadrodd arferol ganddynt hwy. Ond y mae yn ffaith bwysig nad ydyw y gair yn cael ei ddefnyddio yn gyssylltiedig â Duw yn yr Ysgrythyrau. Ni ddywedir fod Duw yn cael ei gymmodi, neu fod Crist wedi cymmodi Duw; ond cyssylltir ef â phechod. Dywedir i'r archoffeiriad gymmodi pechod neu bechodau pobl. Rhoddir cyfrif am hyn, gan rai, am fod y gair Hebraeg, o'r hwn y mae *ilascesthai*, yn gyfieithiad, yn arwyddo yn briodol cuddio, neu ddileu; ac am na byddai yn briodol dywedyd fod Duw yn cael ei guddio, neu ei ddileu, eithr yn hytrach fod pechod yn cael ei ddileu neu ei guddio o olwg Duw, fod y gair Groeg cyfystyr wedi cael ei ddefnyddio mewn modd cyfattebol, ac wedi ei gyfaddasu i'r dullwedd Hebreig. Diau fod gwirionedd yn y golygiad hwn; ond y mae y cwestiwn yn aros wedi y cyfan—Pa ham y defnyddir y gair "cuddio," neu "ddileu," yn yr Hen Destament, yn hytrach na gair a fuasai yn cyssylltu yr aberthau yn eu heffeithiolrwydd yn fwy uniongyrchol â Duw nag â phechod? ac yn all, Pa bam, wrth gyfeirio at aberth Crist, y dewiswyd gair sydd yn gyffredin yn gosod allan effeithiolrwydd aberth yn ei berthynas â Duw, i'w ddefnyddio mewn modd gwahanol i fel yr arferir ef yn gyffredin; sef, yn gyssylltiedig â phechod? Yr atteb a rydd Delitzsch i'r cyntaf ydyw, mai i ragflaenu y dybiaeth baganaidd, fod gweithred dyn yn abl i newid meddwl a theimlad Duw; ac i'r all, mai rhagflaenu y syniad fod aberth Crist wedi achosi cariad yn Nuw at bechaduriaid, yn hytrach na'i fod yn effaith ac yn ffrwyth cariad. Y mae ereill yn tybied fod yr ymadrodd "cymmodi pechod," yn cynnwys coll ymadrodd; ac mai yr ystyr yn gyflawn ydyw, "cymmodi Duw o herwydd pechod." Yr ydym yn hytrach yn barnu fod ffurf yr ymadrodd i'w briodoli i drosglwyddiad y drychfeddwl o un gwrthddrych i un arall, yr hyn a wneir yn fynych gan y meddwl, a'r hwn sydd yn dangos ei hun mewn iaith. Nid oes dim yn annaturiol—end i'r gwrthwyneb, yr oedd yn eithaf naturiol i'r drychfeddwl o gymmodi Duw, o herwydd pechod, gael ei drosglwyddo i gyssylltiad â phechod yn uniongyrchol, yn gymmaint ag mai pechod oedd wedi achosi yr angenrheidrwydd am gymmod yn Nuw—nid â phechod.

[s] Mat. 27. 37—39. [x] Ioan 10. 29.

18 Canys yn gymmaint a [u] dioddef o hono ef, gan gael ei demtio, [x] efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.

PENNOD III.

1 *Bod Crist yn rhagori ar Moses: 7 am hyny oni chredwn ni iddo ef, yr ydym ni yn haeddu chwaneg gospedigaeth na'r Israeliaid gwrthnysig.*

B. A. 63

OHERWYDD pa ham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r galwedigaeth nefol, [a] ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu; [a] Rhuf. 8. 28—30; 9. 24; 2 Thes. 2. 14; 1 Tim. 6. 12; 2 Pedr 1. 10; Dad. 17. 14.

2 Yr hwn sydd [b] ffyddlawn i'r [b] Ioan 6. 38.

ond â phechadur. Y mae yr ymadrodd yn y lle hwn yn cyfeirio, nid at y cymmodiad haeddiannol ac aberthol a wnaeth pan ar y ddaear, ond at y cymmhadiad effeithiol a chyflwyniadol y mae yn ei wneuthur yn y nefoedd, er fod y cyntaf yn cael ei ragdybied.

18. *Canys yn gymmaint a dioddef o hono ef.*—Dygir yr adnod hon i mewn fel prawf casgliadol, i ddangos, gan fod yr ammodau a ragdybir yn yr adnod flaenorol yn cael eu cyflawni yn Nghrist fel archoffeiriad, y gall gynnorthwyo i gymmodi a dyrchafu y rhai sydd yn ymddiried ynddo. Y mae amryw ddarlleniadau yn bossibl ar yr adnod hon. Yn hollol lythyrenol y cyfieithiad a fyddai 'Canys (yn yr hyn y dioddefodd) gan fod wedi ei demtio, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai sydd yn cael eu temtio.' Y mae yn bossibl egluro y darlleniad uchod mewn amryw ffyrdd yn ol y geiriau y rhodder pwyslais arnynt. Pa un ai y dyrchfeddwl o ddioddef, ynte o demtio, yw y prif ddrychfeddwl yn y rhan gyntaf o'r adnod? Y mae y cyssylltiad, ynghyd â natur yr ymresymiad, yn eglur ddangos mai y cyntaf. Y mae yr ymadrodd "yn yr hyn y dioddefodd," yn cynnwys eglurhâd cryno o wir natur ei demtiad. Yn y ffaith o'i fod wedi dioddef, heb fod wedi pechu, y mae efe wedi ei demtio; ac am hyny gall gydymdeimlo â'r rhai a demtir, heb gydymdeimlo â'u pechod. Y mae dynion yn aml yn cael eu temtio yn yr hyn y maent yn pechu, ond efe yn yr hyn a ddioddefodd yn unig. Holl rym y demtasiwn oedd peri iddo ddioddef, heb bechu. Y mae yn rhaid i demtasiwn gynnyrchu un o'r ddau effaith. Weithiau, y mae yn cynnyrchu y ddau; ond yndo ef, dioddef yn unig a effeithiodd; ac am hyny, y mae yn fwy cymmhwys a galluog i gydymdeimlo â'r rhai sydd yn dioddef ac yn pechu hefyd. Yn y gair "dichon," gosodir allan, nid gallu dwyfol y Gwaredwr, na chwaith ei allu cyfryngol fel un wedi ei ddyrchafu ar ddeheulaw y Tad, ond gallu cydymdeimla'i fel ffrwyth ei demtiad a'i ddioddefiadau; yr hwn allu sydd ar yr un pryd yn cael ei wasanaethu gan ei hollalluawgrwydd dwyfol, ynghyd â'i awdurdod a'i allu cyfryngol i effeithioli yr hyn y mae yn ei deimlo a'i ddymuno yn angerdd ei gydymdeimlad dynol.

PENNOD III.

1. *O herwydd pa ham.*—Cyfeiria yr ymadrodd, nid at *pen.* i. 1 [*De Wette*], na chwaith at yr ymadrodd "ffyddlawn a thrugarog" yn *pen.* ii. [*Tholuck*]; ond at gynnwys y bennod o'r blaen, ac yn arbenig at y ffaith fod yr Iesu, fel Archoffeiriad brenhinol-brophwydol, mewn sefyllfa gyfaddas, ac wedi cyrhaedd y sefyllfa ddyrchafedig hono trwy ddioddef a chael ei demtio, yn yr hon y gall gynnorthwyo y rhai a demtir. Gan ei fod ef yn gyfryw, y mae y cymmhelliad yn cyfodi yn naturiol i'w ystyried. *Frodyr sanctaidd.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn edrych yn ol at *pen.* ii. Gwel yno. *Cyfranogion o'r galwedigaeth nefol.*—Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at alwedigaeth yr efengyl fel y mae yn gyssylltiedig â Christ. Y mae y dadguddiad sydd wedi ei roddi i ni "yn ei Fab" (*pen.* i. 1), yn cael ei olygu yma yn ei wedd ymarferol, ac fel y mae yn gosod rhwymedigaeth arnom i'w ystyried a'i gredu. Gelwir yr alwedigaeth yn "nefol" am ei bod yn tarddu o'r nefoedd, ac yn gwahodd i'r nefoedd. *Ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad.*—Gan mai yn y Mab y mae y dadguddiad wedi ei roddi, a hyny mewn modd mor wirioneddol fel mai y Mab ei hun ydyw y dadguddiad yn y dadblygiad mawr a fu arno, fel y darluniwyd gan yr apostol yn y pennodau blaenorol, y modd y mae i ni ystyried y dadguddiad ydyw, trwy ystyried y person ei hunan, yr hwn a elwir yma yn Apostol ac Archoffeiriad. Cynnwysir y tair swydd yn y ddau deitl uchod. Fel prophwyd, gelwir ef dan yr enw "Apostol." Y mae y gair, fel y defnyddir ef yma, i'w ddeall, nid yn yr ystyr o gyfryngwr [*Tholuck*], ond yn ei ystyr mwyaf eang a chyffredinol—un wedi ei anfon a'i awdurdodi gan Dduw i fod yn genad drosto. Cyfeiria, gan hyny, yn uniongyrchol at yr ei swydd brophwydol, fel ffynnon a chyfrwng dadguddiad, yn rhagori ar yr angylion; y rhai oeddynt genhadau anfonedig, nid i gyflwyno y dadguddiad o Dduw, hyd yn oed dan yr Hen Destament, ond yr oeddynt wedi eu hanfon i'w drefnu yn hytrach. Y mae y gair "Archoffeiriad" yn cael ei ddwyn i mewn yn gyssylltiedig âg ef i ddangos y berthynas agos sydd rhwng y ddwy swydd. Trwy yr hyn a wnaeth yn ei swydd offeiriadol y darfu iddo roddi y dadguddiad hwnw ag sydd wedi dyfod i ni trwyddo. Yn a thrwy y dadblygiadau mawrion o'i berson mewn undeb â'r natur ddynol y cynnwysir mater y dadguddiad o Dduw, fel y mae y ddwy swydd hyn fel yr offeiriadaeth wedi eu cyd-gordeddu â'u gilydd, fel nas gellir eu gwahanu hyd yn oed wrth eu gwahaniaethu. *Ein cyffes ni.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gyssylltu â'r ddau deitl blaenorol a roddir i'r person. Wrth "gyffes" y mae i ni ddeall yma, nid proffes, fel y meddylia rhai, ond fel y dynoda y gair ei hun, cydsyniad y meddwl â'r gwirioneddau mawrion perthynol i berson, swydd, a gwaith Crist. Dywed Delitzsch fod y gair "Apostol" i'w gyssylltu yn arbenigol â'r ymadrodd "cyfranogion o'r galwedigaeth nefol a'r teiti "Archoffeiriad" â'r ymadrodd "frodyr sanctaidd."

2. *Yr hwn sydd ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef.*—Groeg: 'i'r hwn a'i gwnaeth,' neu 'i'r hwn a'i creodd'—y gair cyffredin am "greu." Yn yr ystyr llythyrenol ac uniongyrchol hon y deallir y gair gan rai, gan ei gymmeryd i arwyddo gwaith Duw y Tad yn ei greu yn ddyn, mewn trefn iddo ddyfod yn Archoffeiriad ac Apostol. Y mae ereill yn ei ddeall fel yn gosod allan ei dragwyddol genhedliad; yr hyn sydd dra annhebygol, gan fod y ddau ddrychfeddwl o greu a chenhedlu yn dra gwahanol, ac yn ormod felly i ni dybied y buasai y gair a ddefnyddir i osod allan y naill, yn cael ei ddefnyddio i osod allan y llall.

hwn a'i hordeiniodd ef, megys ag *y bu* Moses yn ei holl dŷ ef.

[c] Col. 1. 18. [d] Zech. 6.12, 13; Mat. 16.18; 1 Pedr 2. 5—7.

3 Canys [c] fe a gyfrifwyd hwn yn [d] haeddu mwy gogoniant na Moses, o gymmaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch na'r tŷ.

4 Canys pob tŷ a adeiledir gan

[e] Eph. 2. 10; 3, 9.

odd bob peth *yw* Duw.

5 A Moses yn wir *a fu* ffyddlawn yn ei holl dŷ megys gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru;

[f] Salm2.6,7; Esa. 9.6, 7; Ioan 3. 35, 36; Dad. 2. 18.

6 Eithr Crist, Megys Mab ar ei dŷ ei hun: tŷ yr hwn ydym ni, os

---

Y mae yr Ariaid yn hŏni fod y gair yn ffafrio eu golygiad hwy; sef, fod Iesu Grist yn greadur: ond nid oes dim yn hyn, gan nad oes neb yn gwadu fod ei ddynoliaeth yn grëedig; ac nid oes dim yn annaturiol mewn defnyddio yr ymadrodd yn ei gyssylltiad â'r ddynoliaeth mewn modd arbenigol pan yn cyfeirio ato fel archoffeiriad, yr hwn oedd i gyflawni gwaith mawr y swydd yn y natur ddynol, a thrwy gyfrwng y natur ddynol. Y golygiad mwyaf tebyg ydyw, mai ei wneuthur yn archoffeiriad a feddylir, yr hyn hefyd sydd yn cynnwys, fel ammod angenrheidiol, ei wneuthur yn ddyn. *Meygs ag y bu Moses yn ei holl dŷ ef*:—sef, yn holl dŷ Dduw. Gwel. fel prawf o hyn, *Num.* xii. 7. Deallir yr "ef" gan Bleek fel yn cyfeirio at Grist yn yr adnod hon, ac yn *adn.* 6; ond y mae hyn yn anghysson â'r adnod yn *Numeri*, oddi gerth i ni allu profi mai yr Ail Berson sydd i'w olygu yn llefaru yno.

3. *Canys fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses.*—Yn ol yr eglurhâd a amddiffynir gan Bleek, y mae y "canys" yn nechreu yr adnod yn dyfod i mewn fel prawf o wirionedd y dywediad yn niwedd yr adnod ddiweddaf—mai tŷ Crist yr oedd Moses wedi bod yn ffyddlawn ynddo. Y prawf ydyw fod Crist wedi cael gogoniant mwy nag a gafodd Moses. Y cyssylltiad goreu ydyw â'r ferf "ystyriwch" yn yr adnod gyntaf. Rheswm cryf pa ham y dylem ei ystyried, ydyw ei fod wedi derbyn gogoniant mwy nag a gafodd Moses yn ngweinyddiad ei swydd. Y mae yr ymadrodd "cyfrif—haeddu" yma yn dynodi mwy na haeddiant; sef, meddiannu yn weithredol yr hyn y cyfrifir ei fod wedi ei haeddu. Cafodd ei ogoneddu yn annhraethol uwch na Moses, pan y coronwyd ef yn ei ddyrchafiad â gogoniant ac anrhydedd. *O gymmaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y tŷ yn haeddu mwy o barch na'r tŷ.*—Deallir y gair a ddarllenir yma "adeiladu" gan rai yn yr ystyr o ddodrefnu, neu drefnu. Ymddengys yn dra amlwg ei fod yn cael ei arfer gan awduron i osod allan y ddau ddrychfeddwl; sef, gwneuthur a threfnu. Gellir yn ddiogel ei gymmeryd yn yr ystyr deublyg hwn yn y fan hon, ac fel yn gosod allan y drychfeddwl o sylfaenu eglwys Dduw fel sefydliad, ynghyd â threfnu personau a phethau i wasanaethu ynddo. Yr hwn a adeiladodd y tŷ yw Crist, er mai tŷ Dduw y gelwir ef. Dylem grybwyll eglurhâd arall, a dim ond hyny—yr eiddo Wetstein, ac ereill; sef, mai Duw y Tad ydyw yr hwn a adeiladodd y tŷ, ac fod Crist fel Mab yn haeddu yr un gogoniant a'r Tad fel cyd-adeiladydd âg ef. Y mae yr esboniad hwn yn un cywrain, ond yn rhy ddirdynedig. *Ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw*:—neu, yn hytrach, 'Duw ydyw yr hwn a adeiladodd bob peth.' Nid yr ystyr ydyw, fod yr hwn a adeiladodd bob peth yn Dduw, ac felly fod Crist yn Dduw, fel un wedi adeiladu y tŷ; ond fod Duw wedi adeiladu pob peth. Amcan yr adnod hon, dybygem, ydyw dangos, er fod Crist wedi derbyn

y gogoniant a berthyn i'r hwn sydd yn adeiladu y tŷ, yn wrthgyferbyniol i'r hwn sydd yn rhan o'r tŷ, etto, fod ystyr yn bod yn yr hwn y mae Duw y Tad yn adeiladydd mwy gwreiddiol iddo nag hyd yn oed y Mab. I egluro hyn, cymmer gymmhariaeth oddi wrth yr hyn sydd naturiol; canys "pob tŷ a adeiledir gan ryw un." Y mae rhyw adeiladydd uniongyrchol i bob tŷ: ond o ba le y cafodd hwnw y defnyddiau? Yr oedd y rhai hyny yn bod at ei law wedi eu creu yn flaenorol gan Dduw, yr hwn ydyw adeiladydd gwreiddiol pob peth. Yr un modd Crist, er ei fod ef yn berson dwyfol, ac felly yn Greawdwr, etto, fel Cyfryngwr y mae yn ddarostyngedig i'r Tad. Darfu iddo adeiladu y tŷ, sef yr eglwys; ond yr adeiladydd gwreiddiol ydyw Duw y Tad. Yn awr, gellir gofyn os oedd Crist yn ddarostyngedig i'r Tad yn ei berthynas â'r tŷ, pa fodd y mae i ni ddeall ei fod yn rhagori ar Moses, yr hwn oedd hefyd yn ddarostyngedig? Y gwahaniaeth mawr rhyngddynt oedd, fod Moses yn ddarostyngedig a ffyddlawn yn nhŷ Dduw fel gwas: ond Crist yn ddarostyngedig a ffyddlawn megys Mab, fel un a allasai, oni buasai wedi darostwng ei hun, ymffrostio ei fod fel y Tad, yn Greawdwr gwreiddiol y tŷ, yn gymmaint ag mai trwyddo ef y gwnaethpwyd y bydoedd.

5, 6. Y mae y sylwadau uchod yn cynnwys yr eglurhâd a dybiwn yn gywir ar yr adnodau hyn. *Er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru*:—sef, y pethau oedd i'w llefaru, nid gan Moses, fel y dywed rhai, ond y pethau oedd i'w llefaru gan Grist. "Am danaf fi," medd Crist, "y llefarodd efe." Wrth lefaru am Grist, yr oedd yn llefaru am y pethau oedd i'w llefaru gan Grist; canys fe lefarodd Duw wrthym "yn ei Fab." Fel y mae Ioan yn cael ei alw yn llef y Messiah, y mae Moses a'i wasanaeth yn cael eu galw yn dystiolaeth y Messiah, a'r pethau oedd i'w llefaru ganddo. Yn lle *ar ei dŷ ei hun*, darllener, fel yn y manau ereill, "ar ei dŷ ef;" sef, Duw y Tad. *Tŷ yr hwn ydym ni.*—Tŷ Crist, yn ol Dr. Owen, Bleek, De Wette, ac Ebrard: ond mwy tebyg, yn ol yr eglurhâd a roddwyd uchod, mai tŷ Dduw:—felly Chrysostom, Theodoret, Calvin, Alford, ac ereill. *Os nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith.*—Y mae y gair cyntaf yn dynodi yr hyn sydd fewnol yn y saint, sef, "hyder sicr;" a'r ail air, yr hyn sydd allanol, yn sail i'r hyder mewnol; sef, mater eu hyder, yr hwn sydd hefyd yn fater gorfoledd i'w gobaith. Y mae *cauchéma* yn arwyddo mater neu destyn gorfoledd, ac nid y gorfoledd ei hun. Y mae y ferf yn arwyddo mwy na chadw, yn ystyr cyffredin y gair; sef, dal gafael yn, ymaflyd mewn peth fel ag i'w ddal a'i gadw. Y saint ydyw y tŷ, ond nid eu personau noeth; eithr fel y maent, yn adeiladu eu hunain ar eu sanctteiddiaf ffydd, yn dyfod i gyffyrddiad â gwirioneddau mawrion yr efengyl, ac yn eu troi yn egwyddorion mewnol ynddynt eu hunain, ac felly yn rhan o honynt hwy eu hunain.

[f] Esa. 55. 3; Mat. 17. 5; Ioan 5. 25; 10. 3, 16, 27; Dad. 3. 20.
[h] Neh. 9. 16; Diar 28. 14; Zech. 7. 11; Rhuf. 52, 6.
[i] Num. 14. 11, 22, 23; Salm 78. 56; [k] Deut. 6. 16; Salm 78. 18; 1 Cor. 10 9.
[l] Exod. 20. 22; Deut. 4 3; Luc 7. 22.

nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.

7 Am hyny, megys y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd, Heddyw, os [g] gwrandewch ar ei leferydd ef,

8 [h] Na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch:

9 Lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi, [l] ac y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd.

10 Am hyny y digiais wrth y genhedlaeth hono, ac y dywedais, Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn *eu* calonau ; ac [m] ni adnabuant fy ffyrdd i:

11 Fel [n] y tyngais yn fy llid, na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa.

12 Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth, [p] gan ymado oddi wrth Dduw byw.

13 Eithr cynghorwch eich gil-

[m] Salm 95. 10; Rhuf. 3. 17.
[n] Num. 32. 10—13; Deut. 1. 34, 35.
[o] Heb. 4. 9.
[p] Heb. 12. 25.

---

7. *Am hyny* :—sef, am ein bod yn dŷ Dduw, os nyni a geidw ein hyder, &c. Beth sydd am hyny? Cawn yr atteb yn *adn.* 12 : "Edrychwch frodyr," &c., gan gymmeryd y cyfan sydd rhwng y ddau ymadrodd yn gromfachol. Hwn, dybygem, yw y cyssylltiad goreu o lawer. *Megys y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd.*—Yn *Salm* xcv.

7. *Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef.*—Yn yr Hebraeg yn y Salm, y mae y frawddeg, yn lle bod yn dybiaethol, yn y modd dymuniadol : "Heddyw, O ! na wrandawech ar ei leferydd ef... na chaledwch eich calonau," &c. Gellir deall cyfieithiad y Deg a Thrigain yn yr un modd trwy ddarllen *ean*, yn lle "os," yn "O ! na," fel y gwna y Deg a Thrigain yn fynych. Ac yn wir, gallwn olygu y naill a'r llall fel yn un yn y gwreiddyn. Y mae y dymuniad am iddynt wrandaw ar ei leferydd ef yn golygu fod yr hwn sydd yn dymuno hyny yn edrych ar wrandaw ar leferydd Duw fel ammod angenrheidiol i beidio a chaledu y galon.

8. *Na chaledwch eich calonau.*—Sylwa Bleek mai dyma yr unig le y priodolir caledu y galon i ddyn ei hunan. Yn mhob lle arall, priodolir ef i Dduw. Sonir am Dduw yn caledu y galon, a dyn yn caledu, nid ei galon, ond ei wddf, a'i war, neu ei gefn. Trwy fynych a pharhaus galedueu gwarau mewn anufudd-dod ac anystyriaeth o eiriau Duw, yr oeddynt wedi cyrhaedd y tir hwnw ag oedd yn galw ar i Dduw yn fanwl galedu eu calonau, ac yn gwneuthur hyny gyda'r fath ewyllysgarwch cyndyn fel y maent yn cael eu golygu yn cydweithredu yn y farn â Duw, yn gwneuthur iddynt eu hunain yr hyn yn gyffredin a briodolir i Dduw, yn troi yn weinyddwyr barn iddynt ac arnynt eu hunain. *Megys yn y cyffroad.*—Yn yr Hebraeg yn y Salm, darllenir "yn Meribah." Y mae y Deg a Thrigain, yn lle rhoddi yr enwau fel enwau priodol, yn cyfieithu eu hystyr. Felly, yn lle fel y mae yn yr Hebraeg "yn nydd Massah," darllena y Deg a Thrigain "yn nydd profedigaeth." Ystyr cyffredin y gair "Meribah," yw gwrthddywedyd, neu murmur gwrthwynebus. Ystyr y gair "Massah" yw temtio neu brofi, am mai yn y lle hwn y darfu i'r Israeliaid demtio yr Arglwydd i ddigofaint tuag atynt, i'w cau allan o wlad yr addewid. Y mae y ddau enw yn cyfeirio at ddau le gwahanol a dau amgylchiad gwahanol—un o'r rhai a gofnodir yn *Exod.* xvii. 1—7, a'r llall yn *Num.* xx. 1—13. Yn y naill, darfu i'r genedl wrthddywedyd yr Arglwydd ; yn yr ail ei brofi fel ag i beri iddo eu cau allan o'r wlad yr oeddynt yn ymofyn am dani.

9. *Lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi.*—Y mae y llawysgrifau prif-lythyrenol, y rhai a elwir yn *Uncials*, yn rhoddi darlleniad gwahanol ; sef, yr un a ganlyn, "lle y temtiodd eich tadau fi, gan fy mhrofi." Derbynir y darlleniad hwn gan Lachmann, Tischendorf, De Wette, Tholück, Alford, Bleek, &c. *Ac y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd:*—sef, ei weithredoedd barnol a cheryddol : nid ei weithredoedd gwyrthiol, y rhai a gyflawnwyd ar ddechreu y deugain mlynedd yn benaf. Yn y Salm yn yr Hebraeg, ac yn y cyfieithiad Cymraeg, cyssylltir y "deugain mlynedd" â'r ferf "ymrysonais." Ond yma cyssylltir hwy â 'gweled y gweithredoedd.' Nid oes dim anghyssondeb yn hyn, gan fod gweithredoedd barnol Duw a'i ddigofaint tuag atynt yn cyfatteb i'w gilydd mewn amser fel mewn graddau. Yn *adn.* 17, y mae yr apostol hefyd yn cyssylltu y deugain mlynedd â'r digofaint; yr hyn sydd yn dangos fod y naill gyssylltiad a'r llall yn ei feddwl ef yn un.

11. *Na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa i.*—Groeg : 'os ant i mewn,' &c. Ffurf ddynoi o dyngu yn cael ei phriodoli i Dduw. "Os (fel ar fel)...fel hyn y gwnelo Duw i mi," oedd y ffurf arferol yn mhlith dynion. Y mae Duw yn cymmeryd y ffurf hon iddo ei hun er mwyn cryfder, ond gan adael y rhan ddiweddaf, gan mai efe yw yr un a'r unig Dduw. Er i'r genedl yn yr ail genhedlaeth fyned i Ganaan, etto ni chawsant orphwysfa gyflawn yn y wlad hono, ac am hyny yr oedd cynnwys y bygythiad vn aros, ac yn parhau i oesoedd canlynol.

12. *Calon ddrwg anghrediniaeth :—h.y.*, calon ddrwg yn tarddu o anghrediniaeth. *Gan ymadaw oddi wrth Dduw byw.*—Yn yr ymadawiad hwn y mae gweithrediad y galon ddrwg yn cael ei amlygu. Y mae anghrediniaeth yn egwyddor o farwolaeth ysbrydol, yr hon a ddadblygir yn yr ymadawiad hwn oddi wrth Dduw byw. Megys mai "ymadawiad yr enaid" o'r corph ydyw cynnwys marwolaeth naturiol, felly ymadawiad gwirfoddol ac ymwybyddol yr ysbryd oddi wrth Dduw fel ffynnonell bywyd ysbrydol ydyw cynnwys y farwolaeth sydd â'i hanfod mewn anghrediniaeth.

13. *Eithr cynghorwch eich gilydd.*—Groeg : 'eich hunain.' Geilw arnynt i gynghori eu gilydd yn y fath fodd fel ag i fod eu hunain hefyd ar eu gwyliadwriaeth, yn unol â'r hyn sydd yn yr adnod flaenorol. *Tra y gelwir hi Heddyw.*—Groeg : 'tra y mae heddyw yn cael ei alw.' Y mae De Wette yn deall yr ymadrodd fel yn cyfeirio at y dyfyniad uchod o *Salm* xcv.; ac mai yr ystyr ydyw, tra y mae y frawddeg "Heddyw, os gwrandewch," &c., yn cael ei alw a'i gyhoeddi ar ein cyfer. Yr eglurhâd mwyaf naturiol ydyw, fod y gair "heddyw" yma yn cael ei ddefnyddio

ydd bobdydd tra y gelwir hi Heddyw; fel na chaleder neb o
[q]Diar. 28. 26. honoch trwy [q]dwyll pechod.
[r]Heb.12.10. 14 Canys [r]fe a'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist, os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.
[s]Heb.10.38, 15 Tra y dywedir, [s]Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad.

16 Canys rhai, wedi gwrandaw, a'i digiasant *ef:* ond nid pawb ar a ddaethant o'r Aipht trwy Moses.

17 Ond wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd? onid yn fenthyciol o'r lle uchod yn *Salm* xcv., i arwyddo yr amser presennol fel amser cymeradwy a dydd iachawdwriaeth. *Fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod.*—Wrth "bechod" yn y frawddeg hon y golygir gan rai, y 'pechod o anghrediniaeth;' gan ereill, y 'pechod o wrthgiliad;' a chan ereill, unrhyw bechod ag y gallo un fod yn fwy tueddol iddo nag ereill. Y mae pechod yn twyllo yr hwn sydd yn ddarostyngedig iddo trwy guddio ei hanfod; sef, ei ddrwg, a'r pleser gau y mae yn ei ddal fel llen o flaen y meddwl. Golyga Bleek fod yr apostol yn personoli pechod yn y lle hwn: ond gwell genym, gyda Calvin, feddwl ei fod yn awgrymu at weithrediad Satan yn defnyddio llygredigaeth y galon fel moddion i dwyllo dynion, trwy guddio drwg eu pechod, ac felly eu caledu i wneuthur chwaneg o ddrwg.

14. *Canys fe a'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist.*—Gellir deall yr ymadrodd "cyfranogion o Grist" mewn un o ddau ffordd; sef, naill ai i arwyddo bod yn gyd-gwmni â Christ, neu bod yn gyfranogion o hono; *h.y.*, cael rhan ynddo, neu dderbyn o hono. Yn yr ystyr cyntaf y deallir ef gan Michaelis, Storr, De Wette, ac ereill. Dyfynnant "tu hwnt i'th gyfeillion," yn *pen.* i., fel enghraifft o'r un ystyr. Ond dengys Bleek fod ysgrifenydd yr epistol hwn yn wastad yn defnyddio y ffurf yma o ymadrodd i ddynodi cyfranogiad o, ac nid cyfranog â:—er enghraifft, *pen.* vi. 4: "yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân." Ac am yr ymadrodd yn *pen.* i. 9, dylid cofio mai dyfyniad o le arall, ac nid geiriau yr apostol ei hun, ydyw. *Os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.*—Y gair a arferir am berson, sef *hypostasis,* ydyw yr un a ddefnyddir yma. Mewn Groeg Hellenistaidd, arferir ef yn fynych i arwyddo "hyder." Y mae parhâd y saint hyd y diwedd yn cael ei ddal o'u blaen, yn brawf o wirioneedd eu crefydd, yr hyn sydd yn golygu, o angenrheidrwydd, fod gwirioneedd yn sicrhau parhâd. Nid, fe'n gwneir; "ond fe a'n gwnaed," os daliwn.

15. *Tra y dywedir.*—Groeg: 'yn y dywedlad;' *h.y.,* yn ystod y dywediad; ac felly "tra y dywedir." Y mae cyssylltiad yr adnod hon yn anhawdd i'w wneuthur allan. Rhoddwn i lawr amryw o'r ymgeisiadau gan wahanol awduron. 1. Cyssylltir "tra y dywedir," gan rai, â'r adnod flaenorol, "os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd;" ac fel eglurhâd o'r ymadrodd "hyd y diwedd," chwanegir yn yr adnod hon "tra y dywedir," &c. 2. Ereill a'i cyssylltant â'r holl frawddeg ddiweddaf yn yr adnod flaenorol, "os daliwn," &c., yn unol â'r dywediad "Heddyw," &c. 3. Ereill a farnant fod yr apostol yn yr adnod hon yn dechreu brawddeg newydd, anghyssylltiol â'r hyn sydd o'r blaen. 'Yn y dywediad;' *h.y.,* yn gymmaint ag y dywedir "heddyw, &c...ofnwn, gan hyny," &c.: *pen.* iv. 1. Yn ol yr eglurhâd hwn, y mae *adn.* 16—19, i fod yn gromfachol. 4. Ereill, gan gymmeryd etto yr ymadrodd yn ddechreuad brawddeg newydd, a ddeallant—"Yn gymmaint ag y dywedir, Heddyw, &c., na chaledwch eich calonau." Yn ol hwn, y mae yr apostol yn mabwysiadu "na chaledwch eich calonau," fel ei eiriau ei hun. 5. Bleek, ac ereill, a gymmerant yr ymadrodd yn ddechreu brawddeg newydd, a deallant *adn.* 16 yn ofyniadol yn y dywediad, "Heddyw, &c....Pwy wedi gwrandaw a'i digiasant?" Tueddwn ar y cyfan at y diweddaf, fel y mwyaf naturiol a thebygol.

16. *Canys rhai, wedi gwrandaw.*—Cam gyfeithiad. Dylid darllen yn ofyniadol yn y rhan au a ganlyn. Barnwn mai y gwir gyfeithiad a fyddai fel y canlyn:—"Canys pwy wedi gwrandaw a'i digiasant ef? Yn hytrach, onid pawb ar a ddaethant o'r Aipht trwy Moses? Ac wrth bwy y digodd efe ddeugain mlynedd? Onid wrth y rhai a bechasant, y rhai y syrthiodd eu cyrph yn y diffaethwch? Ac wrth bwy y tyngodd efe na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? Onid wrth y rhai nid ufuddhasant?" Amcan yr apostol yn yr holl gwestiynau uchod yw dangos mai diffyg parhâd mewn ufudd-dod i Dduw a barodd i'r genedl Iuddewig gynt, a hyny yn gyfan ac nid mewn rhan, fyned yn ol, a cholli bod yn gyfranog o wlad yr addewid—y cysgod a'r sylwedd fel eu gilydd; ac mai yr unig ffordd i ochel yr un dynged a hwy, ac i fod yn gyfranogion o Grist, ydyw trwy ddal dechreuad ein hyder hyd y diwedd. Yn *adn.* 16, dengys fod y genedl, er iddi wrandaw am dymmor, wedi cyfeiliorni; yn *adn.* 17, dengys ei bod wedi digio Duw trwy bechu yn barhaus yn ei herbyn; ac yn *adn.* 18, ei bod wedi cynhyrfu Duw i dyngu iddo ei hun na chaent fyned i mewn, trwy eu hanufudd-dod.

18 Ac wrth bwy y tyngodd efe, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? onid wrth y rhai ni chredasant?

19 Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth.

PENNOD IV.

1 *Trwy ffydd y mae cael gorphwysfa y Cristionogion.* 12 *Gallu gair Duw.* 14 *Trwy ein Harchoffeiriad Iesu, Mab Duw, yr hwn oedd heb bechod, ond nid heb ei wendid,* 16 *y mae i ni gyrchu yn hyf at orseddfaingc y gras.*

19. *Ac yr ydym ni yn gweled.*—Yr ydym yn gweled mewn ffordd o gasgliad. *Na allent.*—Groeg: "nas gallasent; er iddynt, ar ol hyny, ewyllysio myned i mewn."—*Bengel.*

B. A. 63.

OFNWN gan hyny, gan fod [a] addewid wedi ei adael *i ni* i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol.

2 Canys [b] i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau: eithr y gair a glybuwyd [c] ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei [d] gyd-dymmheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant.

3 Canys [e] yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, megys y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy llid, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i: er bod [f] y gweithredoedd wedi eu gwneuthur [g] er seiliad y byd.

[a] Num. 14. 34; Rhuf. 3. 3, 4.
[b] Act. 3. 26; Gal. 3. 8.
[c] Rhuf. 2. 25.
[d] 1 Thes. 1. 5.
[e] Mat. 11. 28, 29.
[f] Gen. 1. 31.
[g] Mat. 13. 32.

PENNOD IV.

1. *Ofnwn gan hyny, gan fod addewid wedi ei adael i ni.*—Y mae yr ymadrodd "gan hyny," yn cyfeirio yn ol at y ffaith, a gofnodir yn y bennod o'r blaen, a'r hon hefyd y mae yr awdwr yn rhoddi cyfrif am dani; sef, ddarfod i gorph cyfan y genedl, trwy ac o herwydd eu hanghredíniaeth, syrthio yn ol, a syrthio yn fyr o'r orphwysfa gysgodol a sylweddol oedd yn cael ei chynnyg iddynt gan Dduw trwy addewid. Y mae yr ymadrodd dilynol, "gan fod addewid," &c., ar y llaw arall, yn cyfeirio yn mlaen at seflyllfa gyffelyb yr Hebreaid yr ysgrifena atynt, o ran manteision, ynghyd â'r perygl iddynt hwythau yr un modd syrthio yn ol o gynnwys yr addewid. Y mae y ferf "gadael" yn arwyddo fod yr un addewid ag a roddwyd iddynt hwy yn cael ei hestyn a'i threiglo i lawr i ninnau. Er eu bod hwy wedi colli yr addewid, ac wedi meirw heb dderbyn ei chynnwys, y mae wedi ei gadael ar ol fel Testament cyfoethog i ni. Y mae rhai esbonwyr yn egluro y ferf yn yr ystyr o esgeuluso; gadael, mewn ffordd o wrthod a diystyru. Gan fod addewid wedi ei gwrthod, a'i gadael ganddynt hwy, 'ofnwn gan hyny, rhag i ninnau," &c. Yn y modd yma y deallir y ferf gan Erasmus, Luther, Calvin, De Wette, ac ereill. Y mae yr ystyr hwn yn bossibl yndde ei hun: ond y mae yn anghysson âg amcan ac arddull yr apostol yn y rhanau hyn. Cawn yr un ferf gyda rhagddodiad arall yn *adn.* 9 yn yr ystyr arall; "Y mae gan hyny orphwysfa etto yn ol." Yr un meddwl yn gymmhwys sydd yn yr adnod hon; yn unig ei fod yn cael ei roddi i lawr yn *adn.* 1, fel gosodiad i'w brofi, ac yn *adn.* 9, fel casgliad wedi ei brofi. *I fyned i mewn i'w orphwysfa ef:*—sef, gorphwysfa Duw, nid yr orphwysfa y mae yn ei haddaw, ond yr orphwysfa y mae efe ei hun yn ei mwynhau yn wreiddiol ynddo ac iddo ei hun; ond yr hwn y mae hefyd yn ei haddaw i ninnau, trwy "fyned i mewn" iddi. *Rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol.*—Y mae darlleniad arall yn bossibl; sef, "rhag i neb o honoch dybied ei bod yn rhy ddiweddar." Felly Ebrard, yn dra phenderfynol. Ystyr y geiriau, yn ol y darlleniad hwn ydyw, rhag i neb gyfeilíorni mewn barn, trwy dybied ei bod yn rhy ddiweddar i geisio myned i mewn, gan feddwl fod yr addewid wedi ei chau i fyny a'i chyflawni er ystalm, tra mewn gwirionedd y mae etto yn aros yn ei hamseriad, wedi ei gadael; ond y mae y darlleniad cyffredin yn rhagori. Y mae amcan yr apostol yma yn ymarferol; nid rhoddi eu barn ar ei gocheliad y mae, ond eu calonau a'u hymddygiadau, fel y mae yn amlwg yn y gair cyntaf o'r adnod, "Ofnwn gan hyny;" ac y mae ein perygl ni, fel yr Israeliaid gynt, yn tarddu yn fwy oddi wrth "galon ddrwg anghredíniaeth" nag oddi wrth unrhyw gyfeiliornad mewn barn. Y mae y pwyslais i'w roddi ar y gair "tebyg." Y mae y ferf yn yr amser gorphenol perffaith—"rhag i neb o honoch debygu i fod wedi bod yn ol," neu "ar ol;" *h. y.*, rhag i neb o honoch ddwyn arwyddion arnynt eu hunain yn awr, y byddant yn y diwedd yn rhai a fydd wedi colli y cyfleusdra.

2. *Canys i ninnau 'y pregethwyd yr efengyl megys ag iddynt hwythau.*—Mae y gair "canys" yn cyssylltu yr ymadrodd hwn â'r ymadrodd yn yr adnod flaenorol, "gan fod addewid wedi ei adael i ni," &c. Y prawf fod yr addewid yn cael ei gadael; sef, ei hestyn, o ran ei chynnwys a'i chyfoeth i ni, ydyw ei bod wedi ei hefengylu i ni; *h. y.*, ei chyhoeddi a'i chynnyg i ni fel ag iddynt hwythau gynt. *Eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy,* &c.—Er i'r addewid gael ei hefengylu iddynt hwy, ni bu fuddiol, o herwydd eu hanghredíniaeth hwy. Ynddynt hwy, ac nid yn y dull o'i chyhoeddi, yr oedd achos mawr eu colled hwy am ei chynnwys. Yn hollol groes i fel y myn Ebrard, yr hwn a hôna yn gryf a phenderfynol mai meddwl yr apostol yn yr adnod hon ydyw, fod diffyg yn y gair y pryd hwnw; neu, mewn geiriau ereill, ammherffeithrwydd yn y dadguddiad. Nid oedd yn cyfranu nerth i'r gwrandawyr i gredu; ond yn eu gadael yn eu hanghredíniaeth. Y mae hyn yn sicr o fod yn gyfeiliornus; canys y mae gair Duw, i'r graddau ag y mae wedi ei ddadguddio, yr un o ran ei natur a phan y mae y dadguddiad yn helaethach; sef, yn fywiol ac yn llymach nag un cleddyf, &c. Gwel *adn.* 12, 13. *Am nad oedd wedi ei gyd-dymmheru â ffydd,* &c.—Darlleniad arall mewn llaw-ysgrifau pwysig ydyw, "Am nad oeddynt wedi eu cyd-gymmysgu" trwy ffydd â'r rhai a'i gwrandawsant. Yr ystyr yn ol y darlleniad hwn ydyw, nad oedd y genedl gynt (*h. y.*, y nifer fwyaf o honynt), wedi cymmysgu neu restru eu hunain â'r rhai (sef, y lleiafrif) a wrandawsant y gair, ac a ufuddhasant iddo, sef, Caleb ac Iosuah. Ond yn ol ereill, dywedir y dylid darllen yr ymadrodd, "y rhai a'i gwrandawsant," nid yn hanesyddol, ond yn ddisgrifiadol neu ddrychfeddyliol: ni ddarfu iddynt gyd-restru eu hunain trwy ffydd â'r dosbarth sydd yn gwrandaw gair Duw. Rhaid addef fod awdurdod uchel i'r darlleniad hwn, gan mai hwn a gawn yn y llaw-ysgrifau prif-lythyrenol A, B, C, D, E, ac amryw o gyfieithiadau pwysig. Ond os mynwn lynu wrth y darlleniad cyffredin, y mae yr ystyr yn amlwg; sef, nad oedd gair Duw wedi ei gyd-sylweddu â ffydd yn y gwrandawyr, fel ag i gael hanfodiad ynddynt, ac i fod yn egwyddor o fywyd ysbrydol iddynt.

3. *Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn.*—Y mae yr adnod hon yn dyfod i mewn yn rheswm i broft y gosodiad yn yr adnod flaenorol; sef, eu bod hwy wedi eu cau allan, nid o herwydd nad oes ganddynt addewid a chyhoeddiad o'r addewid, ond o herwydd eu bod yn anghredinwyr. Y mae yn bossibl i ni fod yn ol, er efengylu i ni, os anghredu a wnawn, o her-

4 Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed *dydd* fel hyn;

wydd y mae yr un manteision genym ar y naill law, ac y mae genym esampl neu rybudd yn eu hanghrediniaeth hwy, fod yn bossibl i ninnau fethu. Gallasai rhyw un gyfodi yr wrthddadl oddi wrth hyn—fod cyffredinolrwydd anghrediniaeth y genedl, ynghyd â'u methiant i gyrhaedd yr orphwysfa, yn ddadl dros i ni, nid yn unig ofni rhag bod yn ol, ond credu mai yn ú y rhaid i ni fod. I ragflaenu hyn, ac i ddangos fod yn bossibl sylweddoli cynnwys yr addewid, ond i ni gredu, y mae efe yn dyfod â'r ffaith hon yn mlaen—fod y rhai a gredasant "yn myned i mewn." Felly y mae genym ddau gymmhelliad dros ofni rhag bod yn debyg i fod yn ol; sef, fod y genedl gynt wedi methu trwy anghrediniaeth; ac yn ail, fod credinwyr yn awr yn myned i mewn, ac yn myned i mewn yn ol addewid Duw, fel y mae hi yn aros, ac wedi ei gadael drosodd i ni o'r oesoedd gynt, i'w sylweddoli trwy ei chredu. *Megys y dywedodd efe.*—Yr ydym ni yn myned i mewn *yn ol yr hen* addewid sydd wedi ei gadael; nid yn ol ac ar sail addewid *newydd*—yr hon addewid a roddes Duw yn amser Dafydd, er fod yr orphwysfa ei hun, a'r gweithredoedd oedd yn sail iddi wedi eu gorphen er dechreuad y byd. *Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd.*—Darlleniad arall a gymmeradwyir gan rai ydyw: "sef (hyny yw, gorphwysfa), oddi wrth weithredoedd wedi eu gorphen er dechreuad y byd." Ond ystyr cyffredin *caitoi* ydyw *er;* ac felly y dylid yn ddiau ei ddarllen yn y lle hwn—"er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd." Y mae ystyr a chyssylltiad ymresymiadol y geiriau hyn yn dra anhawdd, fel y profir oddi wrth yr amrywiaeth golygiadau sydd ar y naill a'r llall. Cyssylltir yr ymadrodd gan Luther â'r adnod nesaf; ond yn erbyn hyn y mae yr ymadrodd "canys," yn nechreu yr adnod. Ereill a ddeallant *caitoi* yn yr ystyr eglurhaol; *h.y.*, i arwyddo, "sef, y gweithredoedd ag sydd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd." Ond y mae yn rhaid i ni ymwrthod â'r golygiad hwn, yn gymmaint ag mai ystyr arferol y gair ydyw "er," fel y darllenir yn ein cyfieithiad ni. Ond pa ystyr a allwn ei roddi i'r ymadrodd yn ol y darlleniad hwn. Y mae rhai esbonwyr yn hôni fod yn y bennod hon gyfeiriad at ddwy; ereill, at dair gorphwysfa. Ond y mae holl rediad y bennod yn cyfeirio yn unig at un; sef, yr orphwysfa i'r hon yr aeth Duw i mewn, ac i'r hon hefyd yr addawodd efe ddwyn ei bobl i mewn gydag ef. Dylem grybwyll golygiad Ebrard; sef, fod y gweithredoedd y sonir am danynt yma, yn cyfeirio, nid at weithredoedd Duw, ond at *weithredoedd* dynion, sef yr holl lafur blin y mae meibion dynion yn ymguro ynddo, yn wrthgyferbyniol i *ffydd*, yr hon sydd yn cynnwys egwyddor o ymwrthod â hunanweithgarwch, ac ymorphwys yn Nuw. Y mae y golygiad hwn ar unwaith ac yn gyffredinol yn argraphu ar bob meddwl dwys a myfyrgar argyhoeddiad o'i fod yn arddangos mwy o gywreinrwydd nag o wirionedd. Nid gwrthgyferbynu ffydd a gweithredoedd, ond gwrth-osod ffydd ac anghrediniaeth y mae yr awdwr yn y rhanau hyn, fel y dywed Alford. Y mae golygiad arall, yr hwn sydd yn perthyn i'r un dosbarth a'r eiddo Ebrard, wedi ei gynnyg gan y Parch. William Rees, yn ei esboniad ar yr *Epistol at yr Hebreaid.* Dealla yr awdwr y gair "gweithredoedd" mewn ystyr cyfreithiol. Pe buasai yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu yn wreiddiol yn yr iaith Gymraeg, gallesid rhoddi sylw i'r golygiad; ond nid ydyw y gair Groeg, *ergón,* yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn. Y gair arferol i osod allan weithred gyfreithiol ydyw *gramma* neu *grammateion.* Y mae yn ddiammheuol fod y gair "gweithredoedd," yn y lle hwn, i'w ddeall yn ei ystyr ariodol, ac yn wrthgyferbyniol i'r drychfeddwl o orphwysfa. Y mae yn amlwg mai amcan yr awdwr yn yr adnod hon ydyw profi fod credinwyr yn myned i mewn i'r orphwysfa. Y prawf y mae yn ei ddwyn i mewn ydyw bygythiad Duw uwch ben anghredinwyr—"megys y dywedodd efe, Os ant i mewn," &c. Y mae y bygythiad hwn yn erbyn anghredinwyr, yr hwn sydd yn cau allan y rhai ni chredasant, am eu hanghrediniaeth, o'r orphwysfa, yn rhagdybied o angenrheidrwydd *addewid* i'r rhai sydd yn credu. Ac y mae fod anghredinwyr yn cael eu cau allan o orphwysfa ag oedd eisoes yn barod iddynt yn ngweithredoedd Duw er seiliad y byd, yn rhag-dybied fod gorphwysfa Duw yn parhau yn agored i'r rhai a gredant. Fe ddywedodd Duw wrth neu am anghredinwyr, "Os ant i mewn i'm gorphwysfa i;" *h.y.,* fe'u cauodd allan, er fod yr orphwysfa yn barod iddynt, ac yn eu haros, yn y gweithredoedd ag yr oedd Duw wedi eu gwneuthur yn sail iddi. Yn awr, os cawsant hwy eu cau allan, *er* fod yr orphwysfa yn barod, am eu hanghrediniaeth, y mae yr un bygythiad ag sydd yn eu cau hwy allan, er fod yr orphwysfa yn barod iddynt er's talm, yn rhag-dybied addewid i'r rhai sydd yn credu am fyned i mewn, *ac* fod yr orphwysfa hono iddynt hwy yn sefyll drosodd mewn addewid. Mewn gair, profi y mae yr apostol fod credinwyr yn myned i mewn trwy brofi fod addewid wedi ei gadael iddynt i fyned i mewn; ac y mae yn profi fod addewid trwy y ffaith fod bygythiad Duw yn cau allan anghredinwyr, er fod yr addewid a'r orphwysfa wedi ei pharotoi er's talm iddynt: yr hyn sydd yn profi ac yn rhag-dybied fod credinwyr i gael eu derbyn i mewn i'r orphwysfa hono; ac felly, fod yr orphwysfa hono etto yn aros yn agored, ac nid wedi ei chau i fyny am fod anghredinwyr wedi eu cau allan o honi. Cawsant hwy eu cau allan, er fod yr orphwysfa yn barod iddynt er's cannoedd o flynyddoedd; ond nid ydyw eu hanghrediniaeth hwy, a'u cauodd allan o'r orphwysfa, wedi gwneuthur yr orphwysfa yn ofer. Y mae yr orphwysfa yn aros, ac yn aros "etto yn ol i bobl Dduw;" *h.y.,* i credinwyr. Yn lle dyweyd yn uniongyrchol, 'Er fod yr orphwysfa wedi ei sefydlu er dechreuad y byd," dywed yr awdwr, "Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur," &c. Canys y "gweithredoedd" ydyw sail yr "orphwysfa." Ac ni buasai yn wir dywedyd fod yr orphwysfa wedi ei gwneuthur er seiliad y byd, ond yn unig yn ei pherthynas â Duw, fel y dangosir yn yr adnod ganlynol. Yn awr, pa beth ydyw y gweithredoedd a'r orphwysfa y sonir am danynt yma? Gweithredoedd Duw y Tad mewn creadigaeth, ac hefyd yn nhrefn y prynedigaeth. Fe wnaethpwyd y cyfan, o ran eu dechreuad creadigol, er seiliad y byd; ac yn eu dadblygiad, fe'u gwneir hwy o seiliad y byd yn mlaen hyd yn hyn. "Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn." *Oddi wrth* y gweithredoedd hyn, fel y maent yn golygu dechreuad, y mae y Tad wedi

[a] Gen. 2. 1, 2; Exod. 31. 17.

[b] A [b] gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddi wrth ei holl weithredoedd.

Heb. 3. 11.

5 Ac yma drachefn, [i] Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.

6 Gan hyny gan fod hyn wedi ei adael, fod rhai yn myned i mewn iddi, ac nad aeth y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt

[k] Heb. 3. 18 19.

[k] i mewn, o herwydd anghrediniaeth;

7 Trachefn, y mae efe yn pennu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, ar ol cymaint o amser; megys y dywedir, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau.

8 Canys pe dygasai Iesus hwynt

[l] Deut. 12. 9; Salm 78 55.

[l] i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hyny am ddiwrnod arall.

9 [m] Y mae gan hyny orphwysfa *etto* yn ol i bobl Dduw.

[m] Esa. 60. 19, 20; Dad. 7. 14—17.

10 Canys yr hwn a aeth i mewn

[n] Ioan 19. 30; 1 Pedr 4. 1, 2.

[n] i'w orphwysfa ef, hwnw hefyd [n] a orphwysodd oddi wrth ei weithredoedd ei hun, megys *y gwnaeth* Duw oddi wrth yr eiddo yntau.

---

gorphwys; ac *ynddynt*, fel y maent yn cynnwys dadblygiad, y mae yn parhau i orphwys Sail ei orphwysiad ydyw ei weithrediad. Y mae wedi addaw i'w bobl gael myned i mewn i'w orphwysfa ef. Sail ein gorphwysfa ni ydyw, nid ein gweithredoedd ni, ond gweithredoedd Duw. Yr orphwysfa hon ydyw eithaf dedwyddwch penaf dyn a phob creadur.

4. *Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed dydd, &c.*—Prawf ydyw yr adnod hon fod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd; ac hefyd yn chwanegol, fod Duw ei hun wedi gorphwys oddi wrth ei holl weithredoedd y pryd hwnw; yr hyn a ddengys fod yr orphwysfa y cauwyd hwynt allan o honi yn bod, ac yn barod, nid mewn addewid yn unig, ond mewn gweithred yn y gweithredoedd. Yr oedd yn bod yn yr addewid am ei bod yn y weithred, a thrwy barhâd yr un addewid y mae yn cael ei hestyn allan etto i ninnau.

5. *Ac yma drachefn, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.*—Prawf arall fod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur, ac fod Duw wedi myned trwyddynt i mewn i'w orphwysfa.

6. *Gan hyny gan fod hyn wedi ei adael, fod rhai yn myned i mewn:—h. y.*, gan fod y ffaith fod Duw yn cau allan rai, o herwydd anghrediniaeth, yn golygu ac yn rhagdybied fod rhyw rai ereill i fyned i mewn trwy gredu.

7. *Trachefn, y mae efe yn pennu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw.*—Gwell fyddai darllen, 'Y mae efe drachefn yn pennu diwrnod pennodol, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw.' Y mae y Groeg, *orizo*, yn arwyddo gosod terfyn; ac arwydda yn y lle hwn penderfynu, nodi, pennu. Yn lle "rhyw ddiwrnod," darllener 'diwrnod pennodol,' yr hwn a elwir yn "Heddyw" yn Dafydd. *Ar ol cymmaint o amser.*—Cyssyllter yr ymadrodd hwn â'r ymadrodd "pennu diwrnod." Yr amser y cyfeirir ato ydyw y cyfwng rhwng Iosuah a Dafydd. *Megys y dywedir.*—Groeg: 'megys y dywedwyd o'r blaen;' *h. y.* yn *pen.* iii. 7, 15. Y mae yn pennu diwrnod neilltuol, gan ei alw yn "Heddyw" yn ysgrifeniadau Dafydd, megys y dyfynwyd o'r blaen, "Heddyw, os gwrandewch."

8. *Canys pe dygasai Iesus hwynt i orphwysfa.*—Ffurf Roegaidd yr enw Hebraeg Iosuah ydyw Iesus. Y mae y ffaith fod Duw yn dal allan orphwysdra i fyned i mewn iddi i'r genedl yn amser Dafydd, yn profi nad ydoedd hi wedi myned i orphwysfa Duw yn ei mynediad i Ganaan trwy Iosuah. Yn y bennod flaenorol, dangosai iddynt fethu am dymmor a myned i mewn, hyd yn oed i'r cysgod; ond yma fe ddengys, er iddynt trwy Iosuah fyned i mewn i'r cysgod, fod gwir orphwysfa Duw yn aros yn agored etto. Pe buasai Iosuah wedi gallu arwain y genedl i mewn i orphwysfa Duw, ni buasai Duw ei hun yn sôn am ddiwrnod arall—nid am orphwysfa arall—ond am ddiwrnod arall, i fyned i mewn i'r orphwysfa. Y mae hefyd yn ffaith na ddarfu i'r genedl, er myned i Ganaan, ddim gorphwys ynddi.

9. *Y mae gan hyny orphwysfa etto yn ol i bobl Dduw.*—Neu, yn ŵy llythyrenol, 'Y mae yn aros gan hyny gadw Sabbath i bobl Dduw.' Y mae y ferf *apoleitai* yn arwyddo, 'y mae yn addawedig oddi wrth y pethau hyn.' Arwydda a gesyd allan y cassliad oddi wrth yr holl ymresymiad blaenorol. Y mae cadw Sabbath, gan hyny, yn cael ei adael fel peth i'w sylweddoli yn y dyfodol i bobl Dduw. Gellir deall y dyfodol naill ai yn y byd hwn, yn wrthgyferbyniol i'r amser gynt, neu ynte yn wrthgyferbyniol i'r presennol, yn y nefoedd. Crynhoir y ddau yn un gair gan rai esbonwyr. Y mae y gair a ddarllenir yn ein cyfleithiad ni yn "orphwysfa," yn y Groeg yn air gwahanol i'r un a ddefnyddir yn y rhanau ereill; sef, *Sabbatismos*—hyny ydyw, cadw Sabbath. Nid oes yndd o ddim cyfeiriad pennodol at yr orphwysfa ag y mae y saint yn ei chael ar y dydd cyntaf o'r wythnos fel y cyfryw, ond at orphwysfa yr efengyl, pa bryd bynag a pha le bynag y caffai ei mwynhau. Y drychfeddwl o orphwys ar unrhyw adeg, ac nid dydd pennodol i orphwys, sydd yn cael ei osod allan yn y gair.

10. *Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef.*—Pwy ydyw "yr hwn" y cyfeirir ato yma? Un atteb ydyw, fod yr ymadrodd i'w ddeall yn ddisgrifiadol a chyffredinol, ac nid yn ddangosiadol a neilltuol. Atteb arall ydyw, ei fod yn cyfeirio yn bennodol naill ai (*a*) at y credadyn, neu (*b*) at Iesu Grist. Y mae rhesymau Alford dros yr olaf fel y canlyn:—1. Y mae ffurf y dywediad yn cadarnhau hyn—"yr hwn" yn wrthgyferbyniol â'r Iesu arall (sef Iosuah), yr hwn nis gallai roddi gorphwysdra i'r genedl. 2. Y mae yr ymadrodd "hwnw hefyd" yn dyrchafu y neb y cyfeirir ato yn ei berthynas â Duw mewn modd na buasai yn cael ei wneuthur yn gyssyllteidig â dyn. 3. Cyfattebiaeth ysgrythyrol: *Esaiah* xi. 10; *Ioan* ix. 4. 4. Y mae "yr orphwysfa hono," yn *adn.* 11, yn ymadrodd anystwyth ar y dybiaeth arall. 5. Yr holl gyddestyn; gwel *pen.* iii. 1. Y mae Dr. Owen yn cymmeryd yr un golygiad ag Alford, ond dyry resymau gwahanol drosto. Mae'n ymddangos i ni fod y defnydd a wna yr apostol o'r amser

11 Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hono, fel na syrthio neb, yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.

[o] Esa. 55. 11; 2 Cor. 10. 4, 5. 12 Canys [p] bywiol *yw* gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mêr; [q] ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.

[p] 1 Cor. 14. 24, 25; Eph. 5. 13.

13 Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef: eithr pob peth *sydd* yn [q] noeth ac yn agored yn [r] ei lygaid ef am yr hwn yr ydym yn sôn.

[q] Iob 26. 6; 34. 21.

gorphenol yn ddadl gref dros y golygiad hwn, ynghyd â'r ffaith ei fod yn cyfleu y rhif unigol; tra yn y rhanau ereill o'r bennod, wrth sôn am gredinwyr, defnyddia y rhif liosog: "Canys yr ydym ni y rhai a gredasom," &c. *I'w orphwysfa ef:*—sef, gorphwysfa Duw; nid fel y mŷn Alford a Dr. Owen, "ei orphwysfa ei hun." Gorphwysfa Duw, sef y Tad, sydd gan yr apostol trwy y bennod. Aeth Crist i mewn i orphwysfa Duw trwy weithredoedd. Trwy weithredoedd yr aeth Duw ei hun i mewn i'w orphwysfa—canys sail gorphwysfa ydyw gweithredoedd—a thrwy weithredoedd y mae i ninnau fyned i mewn i orphwysfa Duw; ond gan i ni fethu trwy bechod, yr oedd yn rhaid cael rhyw un i gyflawni y gweithredoedd drosom. Yr un hwnw ydyw Iesu Grist; yr hwn, trwy ei weithredoedd mawrion yn ein prynedigaeth ni, a aeth i mewn i orphwysfa Duw, fel ag i roddi mynediad hefyd i ninnau ar ei ol—nid trwy weithredoedd, ond trwy ffydd heb weithredoedd.

11. *Byddwn ddyfal gan hyny.*—Y mae y gair a ddarllenir yma, "bod yn ddyfal," yn cyfeirio at ddyfalwch, diwydrwydd, a phrysurdeb dynion yn eu galwedigaethau bydol, er myned i mewn i feddiant o sylwedd a gorphwysdra trwy gyfoeth y byd hwn. *Fel na syrthio neb, yn ol yr un siampl.*—Gellir darllen y geirfau hyn un o ddwy ffordd; naill ai 'fel na syrthio neb i'r un siampl;' neu, 'fel na syrthio neb, yn ol yr un siampl.' Yr olaf ydyw y cywiraf, fe allai.

12. *Canys bywiol yw gair Duw.*—Y mae genym bob mantais allanol i weithredu ein dyfalwch arno. Y mae gair Duw yn fywiol a nerthol, &c. Ar y llaw arall, os na byddwn yn ddyfal fe dry ein mantais yn anfantais. Y mae yr un gair ag sydd yn foddion bywyd, hefyd i'r rhai sydd yn ei esgeuluso a'i anghredu, yn foddion condemniad a marwolaeth. Y mae yn gweithredu ddwy ffordd—fel cleddyf dau-finiog. Gan y rhan fwyaf o'r tadau Groegaidd, deallid yr ymadrodd "gair Duw," fel yn cyfeirio at yr Ail Berson. Mŷn Alford mai gair llefaredig Duw a feddylir, gan gyfeirio at lefariad y gair a ddygodd y greadigaeth i fod. Y mae Ebrard yn golygu ei fod yn cyfeirio at yr efengyl. Y golygiad cyffredin ydyw yr un uchod; sef, gair ysgrifenedig Duw, neu y dadguddiad mawr a roddodd o hono ei hun yn yr Ysgrythyrau, yr hwn ydyw y cyfrwng mawr trwy ba un y mae yr Ysbryd Glân yn argyhoeddi pechaduriaid, fel ag i'w dwyn i deimlo eu cyflwr colledig, a'u hangen am Gyfryngwr ac Archoffeiriad mawr. Cadarnheir y golygiad hwn yn fawr gan *adn.* 14:—"Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr," &c., fel y cawn ddangos etto. *Bywiol.*—Yn meddu ar allu bywydol ysbrydol. *Nerthol.*—Gweithgarwch a ddynodir yn y gair hwn. Nid bywyd yn gorwedd yn ddiwaith, fel yr eginyn yn yr had, ydyw; ond y mae yn nerthol weithio. *Llymach.*—Groeg: 'yn tori mwy.' Y mae nid yn unig yn gweithredu, ond y mae yn gweithio i mewn i'r gydwybod a'r galon. *Nag un cleddyf dau-finiog.*—Gwel uchod. *Ac yn cyrhaeddyd trwodd.*—Y mae nid yn unig yn gweithio, neu yn tori i mewn, ond y mae yn "cyrhaedd trwodd." Y mae yn gweithio ei ffordd i'r holl natur, nes ei threiddio oll. *Hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau, a'r mêr.*—Y mae lliaws mawr o ymgeisiau i egluro yr ymadroddion dyrus hyn. 1. Hyd wahaniad yr enaid oddi wrth yr ysbryd, a'r cymmalau oddi wrth y mêr.—*Bengel*, &c. Y mae yr esboniad hwn yn dra annaturiol ac aneglur. 2. Hyd at y lle y gwahenir yr enaid oddi wrth yr ysbryd, a'r cymmalau oddi wrth y mêr—gan gymmeryd y gair "gwahaniad" fel yn arwyddo, nid y weithred ei hun o wahanu, ond y lle y mae y gwahaniad yn cael ei wneuthur.—*Ebrard*, ac ereill. Y mae hwn etto yn llawn mor annaturiol. 3. Hyd at wahaniad yr enaid, a gwahaniad yr ysbryd, y cymmalau, a'r mêr—gan ddal y ddau olaf yn ffugrol, yn gyssyltiedig â, ac yn perthyn i'r enaid a'r ysbryd. Dyma olygiad Alford. Yr un wrthddadl fawr yn erbyn y golygiad hwn ydyw, ei fod yn deall y ddau gyntaf yn llythyrenol, a'r ddau olaf yn ffugrol. 4. Hyd at wahaniad yr enaid, a gwahaniad yr ysbryd, a gwahaniad y cymmalau a'r mêr; hyny yw, gwahaniad yr holl ddyn, yr hwn sydd yn gyfansoddedig o enaid, ysbryd, a chorph. Y mae cleddyf yr ysbryd yn tori i mewn i, ac yn gwahanu yr holl natur. Hwn, dybygem, ydyw y golygiad goreu. *Ac yn barnu.*—Groeg: *criticos*—'ac yn farnydd.' Y mae nid yn unig yn cyrhaeddyd i wahanu, ond y mae yn farnydd. *Meddyliau a bwriadau y galon.*—Groeg; 'meddyliau a drychfeddyliau y galon.' Y mae y cyntaf yn fwy cyffredinol, ac yn dynodi holl weithrediadau y meddwl fel meddwl neu fyfyrdod, a'r olaf yn dynodi y drychfeddyliau hyny sydd yn y meddwl yn gyfryngau y gweithrediadau hyny. Wrth y "galon" y mae i ni ddeall, yn ol y dullwedd Hebreaidd o lefaru, yr oll o'r dyn oddi mewn.

13. *Ac nid oes greadur anamlwg.*—Yma y mae yr awdwr yn dyfod i lefaru am Dduw ei hun, yn gyferbyniol â'i air. Nid yn unig y mae gair Duw yn ein chwilio, ond y mae Duw ei hun, trwy ei air, yn ein hadnabod ac yn ein chwilio. *Yn ei olwg ef.*—Groeg: 'yn ei ŵydd ef.' *Eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored yn ei lygaid ef.*—Y mae pob peth yn noeth i'w lygaid ef. Nid oes un wisg am ddim nad yw efe yn gweled trwyddi. Ac y mae pob peth hefyd yn agored i'w lygaid. Er i ddyn geisio cuddio ei gywilydd, y mae Duw yn ei ddadguddio, ac yn ei wneuthur yn amlwg. Y mae y gair Groeg *trachelizo* yn arwyddo, gafael mewn un yn ei wâr; gan gyfeirio at yr arferiad o ddynoethi a phlygu yn ol warau drwgweithredwyr, i'w dangos pan y byddent hwy yn ceisio plygu i guddio eu hwynebau o herwydd cywilydd. Y mae eglurhadau ereill, megys cyfeiriad at agor yr aberthau; neu gyfeiriad, medd ereill, at ymdrechwyr yn y campau yn gatael yn ngwarau eu gilydd, i dafiu eu gilydd

[r] Heb. 5. 5, 6. 14 Gan fod wrth hyny i ni [r] Arch-
offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r
Heb. 3. 6, 14. nefoedd, Iesu Mab Duw, [s] glynwn
yn *ein* proffes.

[t] Esa. 53. 4, 5; Mat. 8. 16, 17. [u] Luc 4. 2. 15 Canys [t] nid oes i ni Arch-
offeiriad heb fedru cyd-ddioddef
gyda'n gwendid ni; ond [u] wedi ei
demtio yn mhob peth yr un ffunud
[x] Esa 53 9; Ioan 8. 46; 1 Ioan 3. 5. a ninnau, [x] *etto* heb bechod.

16 Am hyny awn yn hyderus at
orseddfaingc y gras, fel y derbyn-
iom drugaredd, ac y caffom ras yn
gymmorth cyfamserol.

PENNOD V.

1 *Awdurdod a braint offeiriadaeth ein Hachubwr.* 11 *Y mae efe yn beio arnynt am eu bod mor esgeulus ac mor ddiwy-bod yn y pethau hyny.*

B A. 63.

CANYS pob archoffeiriad, wedi ei gymmeryd o blith dyn-
ion, a osodir dros ddynion yn y
pethau *sydd* tuag at Dduw, fel yr
offrymo roddion ac aberthau dros
bechodau:

[a] Heb. 2. 18. 2 [a] Yr hwn a ddichon dosturio
wrth y rhai sydd mewn anwybod-
aeth ac amryfusedd; am ei fod
yntau befyd wedi ei amgylchu â
gwendid;

3 Ac o achos hyn y dylai, megys
dros y bobl, felly hefyd drosto ei
hun, offrymu dros bechodau.

---

ar lawr; ond y cyntaf ydyw y tebycaf o lawer. *Am yr hwn yr ydym yn sôn.*—Cyfleithiad tra ammherffaith. Y mae y darlleniad Saesneg yn tra rhagori yn y lle hwn:—"*With whom we have to do*"—"â'r hwn y mae a wnelom;" neu yn fwy cywir, 'i'r hwn yr ydym yn gyfrifol.' Gellir deall yr ymadrodd *ò logos*, a ddefnyddir yma fel yn cyfeirio at air Duw, "am yr hwn y mae y gair yn llefaru." Y meddwl a fyddai felly—nid yn unig y mae y gair yn ein chwilio ac yn ein barnu, ond Duw hefyd, am yr hwn y mae y gair yn llefaru wrthym.

14. *Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr.*—Y mae yr ymadrodd "wrth hyny" yn cyfeirio at ranau blaenorol yr epistol, yn y rhai y mae yr apostol wedi cyffwrdd â'r swydd hon yn ei chyssylltiad â'r Arglwydd Iesu. Pan fyddom wedi ein chwilio a'n dadguddio gan air Duw, nes cael ein hunain yn euog ger ei fron, gwerthfawr y pryd hwnw fydd cael Archoffeiriad i gydymdeimlo â ni, ac i gyfryngu rhyngom a Duw er ein heddychu âg ef; a chan fod genym y cyfryw yn yr Iesu, glynwn yn ein proffes. Y mae y gair "mawr" yn dynodi mawredd ei berson, a sylweddolrwydd ei swydd. *Yr hwn a aeth i'r nefoedd.*—Groeg: 'yr hwn a aeth *trwy* y nefoedd;' fel y byddai yr archoffeiriad gynt yn myned trwy y cyssegr sanctaidd i mewn i'r sancteiddiolaf. Aeth yr Iesu i mewn trwy y nefoedd, ac i eistedd ar orseddfaingc Duw, o herwydd yr oedd efe yn Fab Duw. *Iesu Mab Duw, glynwn.*—Groeg: 'gafaelwn;'—'*let us hold fast:*' Saes. *Yn ein proffes:*—yn hytrach, 'ein cyffes;' *h. y.*, cyffes ein ffydd Gristionogol.

15. *Canys nid oes i ni Archoffeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n wendid ni.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei ddwyn i mewn yn rheswm pa ham y dylem ymafael yn ein cyffes. Y mae nid yn unig yn un mawr ac urddasol, ond y mae yn abl i gyd-ddioddef; *h.y.*, i gydymdeimlo, yn ystyr dyfnaf y gair. Arwydda y gair "gwendid" yr hyn sydd yn naturiol a moesol ynom yn cyfatteb i'r gair. *Ond wedi ei demtio*, &c.—Nid yn unig nid oes dim ynddo yn ei analluogi i gydymdeimlo â ni, ond y mae ynddo yr hyn sydd yn ei addasu yn y modd mwyaf perffaith i hyn; a hyny ydyw: laf, Ei fod wedi ei demtio; 2il, Ei demtio yn gyffelyb i ninnau: 3ydd, Ei demtio heb bechu ei hun. Gwel ar *pen.* ii. 28.

16. *Am hyny awn yn hyderus.*—Groeg: 'nesawn.' *At orseddfaingc y gras:*—sef, gorseddfaingc Duw, ar yr hon y mae yr Archoffeiriad ei hun yn eistedd yn awr. *Yn gymmhorth cyfamserol:*—*h.y.*, yn gymmhorth prydlawn.

PENNOD V.

1. *Wedi ei gymmeryd o blith dynion.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gyssylltu, nid â'r gair "archoffeiriad," fel y golyga rhai esbonwyr; ond yn hytrach, fel y barna yr awduron goreu, â'r ferf "a osodir." Y mae pob archoffeiriad a osodir dros ddynion yn un a gymmerir o blith dynion. Y mae y cyfleithiad Cymraeg yn arwain y darllenydd i'r golygiad arall. Gallesid gochel trwy ddarllen fel y canlyn:—'Canys pob archoffeiriad, yn gymmaint a'i fod yn ddewisedig o blith dynion, a osodir dros ddynion,' &c. *Rhoddion ac aberthau.*—Dynoda y cyntaf, yn ol ystyr priodol y gair, unrhyw offrymau: ond yn arbenigol y poeth-offrymau hyny a ddygid o wirfodd, yn wrthgyferbyniol i'r aberthau gofynedig gan y gyfraith.

2. *Yr hwn a ddichon dosturio.*—Y mae y gair Groeg a gyfleithir yma tosturio (sef, *metriopatheia*, yn arwyddo yn briodol, iawn gymmedroli y nwydau a'r tymmherau, yn enwedig y nwyd o ddigofaint. Hônai y Stoiciaid mai marweiddio a gwrthweithio y teimladau yw priodol hunanlywodraethiad; tra, ar y llaw arall, mynai Aristotle a'i ganlynwyr, mai cymmedroliad y teimladau ydyw hanfod gwir hunan-lywodraethiad. Y gair ag oedd yn fynegiad o syniadau y blaid gyntaf a enwyd oedd *apatheia* (dideimladrwydd), o'r hwn y tardda y gair Saesneg, *apathy:* a'r gair yr hwn oedd yn fynegiad o syniadau y blaid arall oedd yr un a geir yn y lle hwn, *metriopatheia* (canol-deimladrwydd). Arwydda yn yr adnod hon y tynerwch hwnw at bechaduriaid ag sydd yn ganol-ffordd rhwng llymder anghymmesur a meddalwch gor-dyner at y troseddwr. *Y rhai sydd mewn anwybodaeth ac amryfusedd.*—Nid oedd aberth dan y gyfraith i bechodau ag oeddynt wedi eu cyflawni â llaw uchel; hyny yw, yn erbyn gwybodaeth a rhybudd. Gwel *pen.* vi. 6; x. 28. *A gwendid.*—Wrth y gwendid hwn y mae i ni olygu halogrwydd gwreiddiol ein natur, fel y mae yn attalfa ar ffordd ei ddadblygiad moesol. Yn yr ystyr hwn y mae pechod yn aflechyd ac yn wendid yn nghyfansoddiad moesol dyn, ac yn cael ei alw felly mewn lliaws mawr o fanau yn yr Ysgrythyrau.

3. *Ac o achos hyn:*—*h. y.*, y gwendid y sonir am dano yn yr adnod flaenorol. *Y dylai.*—Y mae y gair hwn yn cyfeirio yn y gwreiddyn at yr hyn sydd yn ddyledus, yn ol natur a phriodoldeb

4 Ac nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megys Aaron:

Ioan y. 18. 5 Felly [b]Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn Archoffeiriad; ond yr hwn a ddywedodd wrtho, [c]Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genhedlais di.

[a] Salm 2. 7; Ioan 8. 16.

6 Megys y mae yn dywedyd mewn *lle* arall, [d]Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

[d] Heb. 3. 15, 17. [e] Salm 110. 4. Ioan l. 14; Rhuf. 8. 3; Gal. 4. 4.

7 [e]Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, [f]gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, [g]offrwm gweddïau ac erfyniau [h]at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth,

[f] Salm 69. 1. Mat. 26. 38—44. [g] Mat. 27. 45, 50. [h] Mat 26. 52, 53.

pethau; a chyfeiria hefyd yn fwy uniongyrchol at yr hyn sydd ddyledus arno, yn ol gosodiad y ddeddf yr oedd yr archoffeiriad tani. *Megys dros y bobl.*—Gwel *pen.* vii. 27.

4. *Ac nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun.*—Y mae yr ymadrodd "iddo ei hun" yn cynnwys y meddyldrych o gymmeryd y swydd anrhydeddus hon i weini er mantais neu fudd personol un ei hunan. Nid felly yr oedd neb i wneuthur. Barna Bleek y gall fod yma gyfeiriad at y ffaith fod yr archoffeiriaid Iuddewig, ag oedd yn y swydd pan yr ysgrifenwyd y llythyr hwn, yn rhai wedi eu gosod ynddi —nid gan Dduw, ond gan ddynion. Er amser Herod fawr yr oedd yr appwyntiad yn llaw y llywodraethau Rhufeinig; ac yn fynych yn y dyddiau hyny, ymddringai aml un i'r swydd trwy ei drais a'i draha ei hun. Am appwyntiad Aaron a'i deulu i'r swydd gan Dduw, a hyny hyd byth, gwel *Exod.* xxviii. 1; xxix. 4; *Lef.* viii. 1; *Num.* iii. 10.

5. *Felly Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn archoffeiriad.*—Y mae yr ymadrodd "gogoneddu ei hun," a ddefnyddir yma, yn un lled arbenig. Dynoda, yn ol rhai, yr un drychfeddwl ag a gynnwysir yn y gair "anrhydedd" yn yr adnod flaenorol: ac yn ol hyny, yr ystyr yw, na ddarfu i Grist anrhydeddu ei hun, neu ogoneddu ei hun trwy gymmeryd y swydd hon arno ei hun heb ei alw iddi gan Dduw. Ond y mae yr eglurhâd hwn yn pallu rhoddi cyfrif priodol am y gair "gogoneddu," yr hwn yn ddiau sydd yn gosod allan rhyw ogoneddiad gweithredol a roddwyd arno, yn angenrheidiol iddo ei feddu i fod yn y swydd. Pa ogoneddiad ydyw hwnw? Yr atteb a roddir gan rai ydyw, mai ei ogoneddiad yn y natur ddynol, yr hwn a ddilynodd ei ddioddefiadau a'i angeu; ond yr anhawsder sydd ynglŷn â'r golygiad hwn ydyw, ei fod yn cynnwys tybiaeth nad oedd Crist yn archoffeiriad cyn ei ogoneddu yn y nefoedd ar ol ei adgyfodiad, yr hyn sydd groes i ddysgeidiaeth y Beibl. Y golygiad arall ydyw, mai y gogoneddiad a dderbyniodd gan ei Dad yn nhragwyddoldeb pan yr ymgymmerodd â'r swydd, a'r hwn y cyfeiria Crist ei hun ato yn *Ioan* xvii. 5. Yr oedd yr ymgymmeriad hwnw yn dwyn perthynas agos â'i genhedlaid tragwyddol, fel y dengys diwedd yr adnod mewn cyssylltiad â'r adnod nesaf. Y mae hefyd yn cymmeryd i mewn ei ogoneddiad yn y natur ddynol, yn enwedig mewn cyssylltiad âg *adn.* 6; yn yr hon, ar ol dangos yn *adn.* 5 nas gogoneddodd ei hun i fod yn archoffeiriad, y mae yn dangos nas gogoneddodd ei hun chwaith i fod yn offeiriad. Y mae y cyntaf yn cyfeirio yn arbenigol at y rhan hono o'r offeiriadaeth yr oedd efe yn ei chyflawni ar y ddaear; sef, ei aberthu ei hun—o'r hyn yr oedd Aaron a'i feibion yn gysgodau neilldiol. Yn awr, nis gogoneddodd Crist ei hun i'r rhan hon, ond y Tad, yr hwn a'i cenhedlodd er tragwyddoldeb; ac mewn cyssylltiad agos â'r cenhedliad hwnw, a'i gogoneddodd yn yr ymrwymiad a gymmerodd i fyned i'r swydd; a thrachefn, nis gogoneddodd ei hun i fod yn *offeiriad*, i weinyddu yn y nefoedd fel offeiriad brenhinol, o'r hyn yr oedd Melchisedec yn gysgod arbenig, mewn ystad o ogoneddiad a dyrchafiad; ond y Tad a'i gogoneddodd yn y natur ddynol hefyd, gan ddywedyd wrtho ei fod yn archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec.

6. *Yn ol urdd Melchisedec.*—Ystyr y gair "urdd" yn y lle hwn yw trefn. Cyfeiria at drefn filwraidd yn neilldiol. O'r gair hwn y cafodd y Saeson eu gair *tactics*. Yr eglurhâd goreu am ei ystyr, fel y defnyddir ef yn yr epistol hwn, yw *pen.* vii. 15, lle y cawn y gair "cyffelybrwydd" fel eglurhâd o hono.

7. *Yr hwn yn nyddiau ei gwnawd.*—Gellir deall yr ymadrodd hwn naill ai yn wrthgyferbyniol â'r hyn ydoedd cyn ei ymgnawdoliad, neu yn wrthgyferbyniol i'r hyn ydyw yn awr yn ei sefyllfa o ogoneddiad yn y nefoedd; neu ynte â'r ddau. Os yw y golygiad a gynnygiwyd uchod yn gywir, yr olaf sydd yn fwyaf tebygol. *Gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau.*—Y mae yr ymadrodd hwn, ynghyd â'r rhai dilynol, yn cynnwys disgrifiad bywiog a theimladol o'r darostyngiad a'r dioddefiadau yr oedd yn rhaid i'r Person Mawr fyned danynt a thrwyddynt, cyn yr oedd yn bossibl iddo gael ei gyfenwi yn archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec. Er ei fod wedi ei ogoneddu yn nhragwyddoldeb i'r swydd, yn yr appwyntiad a fu arno mewn cyfammod â'i Dad, cyn yr oedd yn bossibl iddo gael ei *gyfarch* a'i *gyfenwi* yn *weithredol* fel Brenin-offeiriad ar ei orsedd, yr oedd yn rhaid iddo ddysgu ufudd-dod trwy yr hyn a ddioddefodd. *Trwy lefain cryf a dagrau.*—Ni sonir yn yr Efengylau am ddagrau mewn cyssylltiad â dioddefiadau yr Iesu, er y gallwn gasglu oddi wrth rai ymadroddion ei fod yn teimlo y pangfeydd hyny ag a fuasent yn naturiol yn gwasgu allan ddagrau. Gwel *Mat.* xxvi. 37; *Marc* xiv. 33; a *Luc* xxii. 44. Y mae prophwydoliaeth hefyd yn cadarnhau hyn: *Salm* xxii., a lxix. 10; "Pan wylais." Cawn grybwylliad o "lefain cryf" deirgwaith yn yr ardd, ac unwaith ar y groes. *Offrwm gweddïau ac erfyniau.*—Y mae rhai esbonwyr yn pwyso ar y gair "offrwm" yn y lle hwn, i brofi fod yr hyn a ddioddefodd ar y ddaear yn cyfranogi o natur aberth neu offrwm; ond gan fod genym enghreifftiau clasurol o'r un ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr cyffredinol o wneuthur erfyniad, ni ddylid rhoddi pwys gormodol ar ddefnyddiad y gair fel ag i geisio gwasgu allan o hono yr hyn nas gallwn ar seiliau da ei sefydlu. *Abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth.*—Nid y meddwl ydyw, ei achub ef o afael marwolaeth ar ol myned i'w gafael, fel yr haera amryw esbonwyr. Rhydd Bleek enghreifftiau digonol i brofi fod yr ymadrodd, fel y mae yma, yn cael ei ddefnyddio yn wastad i osod allan y drychfeddwl arall; sef,

[i] Salm22.21, 24, 40.1–3; 69.13—16; Esa. 49. 8
[k] Heb. 2. 6.
[l] Mat. 3. 15; Ioan 4. 34.
[m] Salm68.18—20; Esa. 45. 22;

a chael ei wrandaw, [i] yn yr hyn a ofnodd;

8 Er [k] ei fod yn Fab, [l] a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd:

9 Ac wedi ei berffeithio, [m] efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo;

10 Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec.

11 Am yr hwn y mae i ni lawer i'w dywedyd, ac anhawdd eu

achub rhag marwolaeth; hyny yw, rhag myned i afael marwolaeth. Y mae ymadrodd yr Iesu ei hunan, fel y cofnodir ef gan yr efengylwyr, yn cadarnhau hyn: "Aed y cwpan hwn oddi wrthyf." Ni ddywed, 'Aed y cwpan hwn drosodd;' ond "Aed oddi wrthyf." *A chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd.*—Y mae tri o wahanol ddarllenladau yn cael eu cynnyg. Un yw yr uchod. Un arall yw, 'A chael ei wrandaw gan (wrthddrych) ei ofn.' Y trydydd ydyw, 'A chael ei wrandaw o herwydd ei ofn;' *h. y.*, ei dduwioldeb. Yr olaf, fel y dengys Bleek yn gryf iawn trwy enghreifftiau eglur, ydyw yr un mwyaf cywir. Y mae y gair *eulabeia* yn arwyddo yn fanwl yr ofn hwnw ag sydd yn cyfranogi o natur gwyliadwriaeth, gofal, a gochelgarwch. Yn ol ei darddiad cyntefig, arwydda cymmeryd gafael mewn peth, megys llestr, neu unrhyw wrthddrych arall, yn ofalus rhag ei dori, neu ei niweidio: ac oddi wrth hyny, daeth i arwyddo gochelgarwch, gwyliadwriaeth; ac ar ol hyny, mewn ystyr foesol a chrefyddol, ofn duwiol, neu dduwioldeb. Gan ein bod yn credu yn gryf mai yn yr ystyr hwn y mae i ni ddeall y gair yn y lle yma, ac mai y trydydd darlleniad ydyw yr un cywir, nid oes angen am unrhyw ymhelaethiad ar y lleill. Amlygodd Crist ei dduwiol ofn yn ei waith yn dawel a chyflawn ymostwng i ewyllys ei Dad, fel y dengys ei eiriau, "Dy ewyllys di a wneler." Cafodd ei wrandaw o herwydd yr ymostyngiad hwn; nid trwy gael ei achub rhag marwolaeth, ond trwy gael ei nerthu i wneuthur ewyllys Duw, yr hyn oedd natur ei weddi. Er ei fod yn cyfarch ei Dad fel un ag oedd yn abl o ran gallu pur ynddo ei hun i'w achub, etto ni ddarfu iddo ofyn hyny, ond yn unig ar yr ammod fod hyny yn bossibl; *h.y.*, yn bossibl, yn unol â'chyfiawnder Duw, ac amcan ei ddyfodiad ef ei hunan i'r cnawd ac i'r byd: a chan iddo weled fod hyny yn ammhossibl, ymostyngodd yn dduwiolfrydig i ewyllys ei Dad, am yr hyn y cafodd ei wrandaw, trwy ei nerthu i wneuthur yr ewyllys hono yn ei ddioddefiadau a'i angeu.

8. *Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod.*—Cyssylltir yr ymadrodd "er ei fod yn Fab," gan rai, â'r ymadrodd blaenorol: "A chael ei wrandaw o herwydd ei ofn, er ei fod yn Fab;" *h.y.* Cafodd ei wrandaw, nid am ei fod yn Fab, ond am ei dduwiol ofn. Ond diau mai â'r ymadrodd dilynol y dylid ei gyssylltu, fel y mae uchod. Y mae dau ystyr gwahanol yn bossibl i'r geiriau o'u cyssylltu fel hyn. Un ydyw, fod Crist, fel Mab, yn ufudd i'w Dad; ond nid trwy ddioddef. Yr oedd hyny yn beth i'w ddysgu ganddo—ufuddhau trwy ddioddef. Ystyr arall ydyw, fel Mab, yr oedd uwch law ufuddhau. Y mae mabolaeth dur a pherffaith yn sefyllfa o gydraddoldeb â'r Tad. Yn mhlith dynion, ni cheir y berthynas hon yn ei pherffeithrwydd uchaf; canys y mae y mab yn was, yn gystal ag yn fab. Y mae dan y ddeddf i'w dad. Hyn nid ydoedd Mab Duw yn wreiddiol; ond daeth i fod yn was, i ddysgu ufudd-dod. Yr oedd ufuddhau yn beth iddo ef

ei ddysgu, a dysgodd ufudd-dod, nid yn unig trwy wneuthur, ond yn arbenigol trwy ddioddef.

9. *Ac wedi ei berffeithio.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfeirio, nid at ufudd-dod Crist, ond at ei ddioddefiadau; o herwydd yn ei ufudd-dod yr oedd efe yn weithredydd, tra yn ei ddioddefiadau, fel y cyfryw, yr oedd yn oddefydd. Y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio yn y ffurf oddefol, "wedi ei berffeithio;" ac nid yn weithredol, 'wedi iddo ymberffeithio'—yr hyn sydd yn dangos mai at ei ddioddefiadau y cyfeirir. Dynoda yr ymadrodd y mesur hwnw o ddioddefiadau yr aeth Crist danynt a thrwyddynt mewn trefn i gyrhaedd y perffeithrwydd gorphenol hwnw ag oedd yn ofynol yn ei ufudd-dod. Cadarnheir y golygiad hwn yn yr un ymadrodd fel y cawn ef yn *pen.* ii. 10: "Perffeithio tywysog ei hiachawdwriaeth hwy trwy ddioddefiadau." *Efe a wnaethpwyd:*—neu yn fwy llythyrenol, 'efe a ddaeth i fod.' *Yn Awdwr iachawdwriaeth.*—Groeg: 'Achos iachawdwriaeth.' Trwy fod yn oddefydd a dioddefydd, daeth i fod yn weithredydd, neu yn achosydd iachawdwriaeth. Trwy gymmeryd arno ei hun effaith neu gosp ein camweddau ni, fe ddaeth yn achos ein hiachawdwriaeth dragwyddol ni. *I'r rhai oll a ufuddhânt iddo.*—Megys mai trwy ufuddhau mewn dioddefiadau y daeth ef yn awdwr iachawdwriaeth i ni, felly trwy ufuddhau iddo ef y mae i ninnau ddyfod i feddiant gweithredol o'r iachawdwriaeth hono. Y mae efe wedi ufuddhau drosom, a dioddef yn ein lle—ufuddhau trwy ddioddef, a dioddef yn ei ufudd-dod—fel nad oes eisieu i ni ufuddhau na dioddef ar ein rhan ein hunain, ond yn unig derbyn ei ufudd-dod a'i ddioddefiadau ef; yr hwn dderbyniad sydd ei hunan yn "ufudd-dod ffydd" iddo ef fel ein meichnïydd.

10. *Wedi ei gyfenwi:*—neu yn fwy manwl, 'wedi ei gyfarch.' Yr oedd wedi ei appwyntio a'i osod o ran hawl yn archoffeiriad er tragwyddoldeb; ond cafodd ei gyfarch yn weithredol a ffurfiol gan Dduw yn archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec pan y gwnaethpwyd ef yn achosydd iachawdwriaeth, yn ei ddyrchafiad a'i dderbyniad i eistedd ar y ddeheulaw fel Brenhinol-offeiriad yn ol urdd Melchisedec. Y mae y ddau deitl o archoffeiriad—yr hwn a ddelid gan Aaron fel cysgod o hono, a hyny yn benaf, er nad yn unig, gyda chyfeiriad at ei aberth, yr hwn a offrymodd ar y ddaear; ac hefyd y teitl o fod yn offeiriad yn ol urdd Melchisedec, yr hwn deitl a ddynodai y rhan hono o'r offeiriadaeth y mae efe yn awr yn ei chyflawni yn y nefoedd mewn sefyllfa o awdurdod a dyrchafiad—yn cael eu cyfuno yn yr adnod hon.

11. *Am yr hwn:*—sef, am Melchisedec: nid am Grist, ac nid, fel y dealla rhai, "am yr hyn." Y mae yr holl epistol yn llefaru am Grist: ond yr oedd ganddo lawer o bethau i'w dywedyd am Melchisedec fel cysgod arbenig o hono, pe buasent hwy yn gyfaddas o ran ansawdd eu gwybodaeth i'w derbyn. *Ac anhawdd eu traethu.*—Groeg: 'anhawdd eu hesbonio;' *h. y.*, gan yr

traethu, o achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau.

12 Canys lle dylech fod yn athrawon o ran amser, y mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth *ydyw* [n] egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw; ac yr ydych yn rhaid *i chwi* wrth laeth, ac nid bwyd cryf.

[n] Heb. 6. 1.

13 Canys pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth, *sydd* anghynnefin â gair cyfiawnder: canys maban yw.

14 Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da.

awdwr. Yr oedd yr anhawsder hwn yn cael ei chwanegu o herwydd y rheswm a ddygir yn mlaen yn yr ymadrodd canlynol. *O achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau.*—Yn lle "eich bod," darllener, 'eich bod wedi myned' yn hwyrdrwm. Yr oeddynt, trwy ddiffyg llafur, wedi myned i'r tir hwnw, yr hwn gynt nid oeddynt ynddo. Yr oeddynt wedi anghymmhwyso eu hunain i ddysgeidiaeth bellach yn lle eu cyfaddasu eu hunain iddo. Y mae y gair Groeg, *nothros*, neu yn ol ei ffurf gynnarach *nothes*, yn arwyddo 'anhawdd ei wthio.' Gwreiddyn y gair ydyw y ferf *other*. Cymraeg: gwthir. Yr oeddynt wedi myned i dir sefydlog o ran eu gwybodaeth; yn lle ymwthio yn mlaen, yr oeddynt am aros yn yr unman, heb gynnyddu, ond yn hytrach myned yn ol. *Eich clustiau*:—neu eich clyw. Defnyddir y glust yn hytrach na'r llygaid i arwyddo cyfrwng gwybodaeth, am mai trwy glywed, yn hytrach na thrwy ddarllen, yr oeddynt hwy y pryd hwnw yn ymgyrhaedd am eu perffeithio eu hunain.

12. *O ran amser.*—Cyfeiria yr ymadrodd hwn at hyd yr amser er pan yr oeddynt wedi credu. Nid ydyw yn cymmeryd i fewn yr amser y buont yn dysgu dan y gyfraith, fel y golyga rhai. Y mae ereill yn cyfieithu yr ymadrodd, 'o herwydd yr amser;' *h.y.*, o herwydd ansawdd yr amser presennol. Felly Dr. Owen. *Y mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth ydyw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw.*—Gellir darllen yn wahanol; sef, fel y canlyn:—"Y mae arnoch eisieu dysgu o ryw un i chwi egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw." Gellir cyfieithu *tina*, naill ai yn 'rhywun,' neu ynte 'pa beth.' Wrth egwyddorion, y mae i ni ddeall elfenau gwreiddiol. Chwanega y gair "dechreuad" i ddangos lle yr egwyddorion; sef, i roddi cychwyniad neu ddechreuad i'w gwybodaeth. "Ymadroddion Duw:"—Groeg: 'oraclau Duw.' *Ac yr ydych yn rhaid i chwi wrth laeth.*—Groeg: 'ac yr ydych wedi dyfod i fod yn rhaid i chwi wrth laeth.' Nid yr oeddynt felly; ond yr oeddynt wedi *dyfod* i'r tir hwnw trwy esgeulusdra. Fel y mae dyn yn naturiol yn gwanhau ei gyfansoddiad trwy ddiffyg gwaith ac ymarferiad priodol fel nas gall o'r diwedd gymmeryd y maeth y bu unwaith yn gallu ei gymmeryd, a'r hwn y dylai ei gymmeryd mewn trefn i ddadblygu yn gyflawn ei gyfansoddiad corphorol; felly yr oedd yr Hebreaid hyn wedi gwneuthur mewn ystyr ysbrydol. Yr oeddynt wedi anghyfaddasu eu hunain i dderbyn addysg mwy perffeithiedig, a darostwng eu hunain i gyflwr o angen am hyfforddiant llaifelly.

13. *Canys pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth, sydd anghynnefin â gair cyfiawnder; canys maban yw.*—Cynnwysir yn yr ymadrodd hwn y prawf neu y rheswm pa ham yr oeddynt mewn angen am laeth. Y prawf neu y rheswm ydyw, eu bod yn anghynnefin, neu, fel yr arwydda y gair yn fwy manwl, yn 'anfedrus' yn "ngair cyfiawnder." Fel y mae anfedrusrwydd y baban i ymdrin â phethau dyn cyflawn oed, yn profi fod arno eisieu llaeth, ac nid bwyd cryf, felly yr oedd eu diffyg cydnabyddiaeth hwy â dyfnder gwybodaeth yr efengyl yn profi fod arnynt eisieu addysg yn ei helfenau cyntaf. Y mae yr ymadrodd "gair cyfiawnder" yn un lled ddyrus ac anhawdd ei egluro. Barna rhai, ei fod i'w gymmeryd yn ei ystyr cyffredinol am rinwedd neu sancteiddrwydd. Ereill a'i deallant fel yn cyfeirio at athrawiaeth y cyfiawnhâd: ac ereill y sancteiddhâd. Ereill drachefn a gyfunant y ddau olygiad diweddaf. Ereill a ddeallant y gair "cyfiawnder" yn gyfystyr â "gwirionedd," fel y mae *tredec* yn yr Hebraeg. Y mae Alford, ar ol Lunemann, yn ei gymmeryd i arwyddo yr efengyl fel y mae hi yn dadguddio "y cyfiawnder sydd o Dduw," fel ei chanolbwynt mawr. Y mae Bleek yn barnu fod llygaid meddwl yr apostol yn newisiad yr ymadrodd at enw a theitl Melchisedec; sef, brenin cyfiawnder, fel cysgod o Grist, yr hwn hefyd a elwir "Yr Arglwydd ein cyfiawnder," yn yr hwn y mae y trysor mawr o gyfiawnder i'w roddi trwy yr efengyl i bechaduriaid.

14. *Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith.*—Mwy cywir fuasai y cyfiead canlynol:—"Eithr i'r rhai perffaith y perthyn bwyd cryf." Wrth y "rhai perffaith" y mae i ni ddeall yma, rhai wedi cynnyddu mewn gwybodaeth ysbrydol. Yn naturiol, arwydda rhai mewn oed, yn wrthgyferbyniol i fabanod a phlant. *O herwydd cynnefindra*:—*h. y.*, arferiad. Saesneg: *habit. Y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer*:—neu yn fwy cywir, 'y mae ganddynt eu synwyrau wedi eu hymarfer i wahaniaethu rhwng da a drwg.' Y mae y gair a ddarllenir yn ein cyfieithiad ni yn "synwyr," yn arwyddo yn briodol offerynau synwyr, ac yn y rhif liosog.

PENNOD VI.

1 *Y mae efe yn eu cynghori hwy na chilient oddi wrth y ffydd;* 11 *ond bod yn ddiwmwadal,* 12 *yn ddiwyd, ac yn ddioddefgar, i ddisgwyl wrth Ddaw,* 13 *am fod Duw yn sicr yn ei addewid.*

AM hyny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist, [a] awn rhagom at berffeithrwydd; [b] heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon; ac [c] ffydd tuag at Dduw,

B. A. 63.

[a] Diar. 4. 18; Mat. 5. 48.
[b] Luc 6. 48; 2 Tim. 2. 19.
[c] Ioan 12. 44; 1 Ioan 5. 10—13.

[d] Marc 7. 4, 8. [e] Act. 8. 17, 19.

a ddyfynir gan lawer o'r esbonwyr, yn wir werthfawr a theilwng o'u cofnodi. "Gorchymyna i'r elfenau hyn gael eu rhoddi heibio—nid am y dylai credinwyr eu hanghofio un amser, ond am na ddylent ymlynu ynddynt yn unig. Y mae hyn yn fwy amlwg oddi wrth y gymmhariaeth ddilynol, yr hon sydd wedi ei chymmeryd oddi wrth sylfaen adeilad; o herwydd, wrth adeiladu tŷ, fe ddylid gofalu am y sylfaen: ar yr un pryd, ynfydrwydd a fyddai bod mewn llafur parhaus i'w gosod i lawr." Ar ymyl y ddalen darllenir, "ymadrodd dechreuad Crist;" *h.y.*, ymadrodd Crist, a hwnw yr ymadrodd dechreuol neu elfenol perthynol iddo. Y mae y plentyn yn yr ysgol yn gadael, neu yn rhoddi heibio, y wyddor —nid i beidio gwneuthur defnydd o honi; ond yn gadael ei dysgu, mewn trefn, ar ol hyny, ac wedi gorphen hyny, i'w defnyddio yn mhellach, ac mewn modd uwch. Felly dylem ninnau adael heibio ymadrodd dechreuol Crist, i fyned yn mlaen i wybodaeth uwch a dyfnach o hono. *Awn rhagom at berffeithrwydd.*—Deallir yr ymadrodd hwn gan rai yn fynegiadol, ac yn yr amser dyfodol—'Ni a awn rhagom at berffeithrwydd' (*poiesómen*). Ond gan ereill, fe'i deallir yn annogaethol—'Bydded i ni fyned rhagom at berffeithrwydd' (*poiesómen*). Yr olaf ydyw y darlleniad a'r eglurhâd mwyaf cywir. Nid ydym i ddeall yr ymadrodd hwn, ynghyd â'r rhai canlynol, fel yn cyfeirio at fynediad yn mlaen a chynnydd yr awdwr yn ei addysgiad, fel y dealla rhai; ond yn hytrach fel annogaeth yr awdwr iddynt hwy i fyned yn mlaen, o'r tir sefydlog yr oeddynt ynddo, i dir mwy cynnyddol. Y mae y golygiad cyntaf yn anghysson â'r cyddestyn blaenorol, lle y mae yr apostol yn dannod i'r Hebreaid eu diffyg gwybodaeth, ynghyd â'r angen oedd arnynt "am laeth, ac nid bwyd cryf." Buasai, gan hyny, yn annaturiol iddo sôn am godi yn ngwyneb yr ansawdd hwn ar eu meddyliau i roddi bwyd cryf iddynt; ac ar y llaw arall, yr oedd yn hollol naturiol iddo eu hannog hwynt i ymestyn ac i ymgyrhaedd at safle uwch mewn gwybodaeth. Y mae yn amlwg hefyd fod y gair "perffeithrwydd," yn yr adnod hon, yn cyfeirio yn ol at yr ymadrodd, "y rhai perffaith," yn yr adnod flaenorol; a chan fod yr ymadrodd hwnw yn gosod allan gynnydd yr ysgolheigion, ac nid cynnydd eu dysgawdwyr mewn addysg, dylid deall y gair "perffeithrwydd" yn gyffelyb yn y lle hwn. *Heb osod i lawr drachefn sail.*—Ammherffeithrwydd yr Hebreaid oedd eu bod drachefn a thrachefn yn gosod sylfaen eu gwybodaeth i lawr, ac heb allu adeiladu ar y sylfaen. Y mae golygiad Ebrard ar yr ymadrodd hwn yn un tra chwithig. Dadleua mai ystyr *cataballo* yma ydyw distrywio, ac mai meddwl yr ymadrodd ydyw "heb ddymchwelyd drachefn sail," &c. Yr un modd y deallir ef gan yr hen gyfieithiad Lladin, "heb ddymchwelyd drachefn y sylfaen." Nid oes angen gwrthbrofi y golygiad hwn, gan mor annaturiol ydyw. Rhydd Bleek esamplau rhagorol o'r un ymadrodd yn cael ei defnyddio yn yr ystyr arall sef, gosod sylfaen i lawr. *I edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon, ac i ffydd tuag at Dduw.*—Y mae yr ymadrodd uchod, ynghyd â'r rhai dilynol, yn cynnwys rhestr o'r pethau mad oedd yr Hebreaid i osod i lawr eu seiliau drachefn, ond yr oeddynt

[d] 2 I athrawiaeth bedyddiadau, ac [e] arddodiad dwylaw, ac adgyfodiad [f] y meirw, a'r [g] farn dragwyddol.

[f] Esa. 26. 19. [g] Mat. 25. 31—46;

i adeiladu ar y sylfaen. Y maent yn cael eu cyfiwyno ger ein bron yn barau; sef,

1. Edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon, *a* ffydd tuag at Dduw.
2. Athrawiaeth bedyddiadau, *ac* arddodiad dwylaw.
3. Adgyfodiad y meirw, *a'r* farn dragwyddol.

Barna rhai, fod y pethau uchod yn gynllun y catecism, neu y cyffes ffydd yr oeddynt yn cael eu dysgu ynddo. Gellir, pa fodd bynag, grynhoi athrawiaethau a dysgeidiaeth yr efengyl o fewn y naill neu y llall. Cawn, yn y gyntaf, y grasau mewnol yn ddywededig neu dybiedig. Yn yr ail, cynnrychiolir yr ordinhadau a'r cyfryngau allanol: ac yn y drydedd, yr amgylchiadau mawr y mae credinwyr yn edrych yn mlaen mewn gobaith ac ofn tuag at yr unt. Wrth weithredoedd meirwon yn (1.), y mae i ni ddeall y gweithredoedd hyny ag sydd yn tarddu oddi ar egwyddor o farwolaeth, ac yn tarddu i farwolaeth fel ystâd derfynol. Gall fod cyfeiriad yn yr ymadrodd ar yr un pryd at y portread a roddid o'r cyfryw weithredoedd yn yr halogrwydd seremoniol a gyfodai oddi ar gyffyrddiad â chyrph meirw. Y mae yr ymadrodd "ffydd tuag at Dduw," yn golygu yr egwyddor ysbrydol o ffydd fel y mae yn gweithredu ac yn ymorphwys yn y pen draw ar Dduw fel bod personol, ac yn cynnwys ynddi ei hun yr actau hyny o ffydd ag sydd yn golygu y Personau Dwyfol, y naill a'r llall o honynt. Gallesid darllen yn fwy manwl 'ffydd ar Dduw;' Groeg: *epi*. Y mae y geiriau "athrawiaeth bedyddiadau" yn lled anhawdd i'w hegluro yn fodd dhaol. Fe allai mai gwell fyddai darllen "athrawiaeth golchiadau;" o herwydd *baptismoi*, ac nid *baptismata*, sydd yn cael ei arfer yma. Yn *pen.* ix. 10, ceir yr un gair, a chyfieithir ef yno yn "olchiadau." Mae rhai yn dewis darllen bedyddiadau athrawiaeth;" *h.y.*, bedyddiadau sydd yn cael eu cyssylltu â athrawiaeth, ac nid y seremoniau pur fel y golchiadau Iuddewig. Yr oedd bedydd Ioan, ac y mae y bedydd Cristionogol yn fedyddiadau athrawiaeth. Fel hyn Bengel. Ond ar y cyfan, barnwn mai y darlleniad arferol yw y goreu. Cyfeiria yr apostol at athrawiaeth yr amryw olchiadau dan y gyfraith, y rhai oeddynt yn dwyn hefyd rhyw gyffelybrwydd i'r bedydd dan y cyfammod newydd. Yr oedd eguro amcan ac ystyr cysgodol y defodau uchod yn ffurfio rhan bwysig o ddysgeidiaeth gyntaf y dychweledigion Iuddewig. Y mae "arddodiad dwylaw" yn cael ei gyssylltu â'r golchiadau seremoniol. Fel y mae y golchiadau yn cyfeirio at y seremoniau golchiadol Iuddewig, ac etto yn cymmeryd i mewn ymarferiadau allanol cyffelyb perthynol i'r oruchwyliaeth Gristionogol, felly hefyd y mae "arddodiad dwylaw" yn cyfeirio at yr arddodiad dwylaw seremoniol ar yr aberthau gynt, megys y bwch diangol; ac etto yn cymmeryd i mewn yr un ddefod allanol fel yr oedd yn cael ei harfer yn yr oes apostolaidd, yn gyssylltiedig âg iachâd y cleifion, bendithio plant bychain, neillduo i swyddau, a chyfranu donian goruwchnaturiol. *Adgyfodiad y meirw*, a gynnwysa yr adgyfodiad cyffredinol: nid yr eiddo y cyfiawn yn unig, fel y golyga rhai [*Storr, Michaelis*, &c]. *A'r farn dragwyddol.*—Cyssylltir y gair "tragwyddol" â'r "farn" olaf, i ddynodi parhâd diddiwedd ei heffeithiau. Fe fydd holl ddeiliaid y farn y.

3 A hyn a wnawn, os caniata
[a] Act. 8 20; Duw.
Rhuf. 1. 11; 1 Cor. 13. 1, 2.
4 Canys ammhossibl *yw* i'r rhai
a oleuwyd unwaith, [b] ac a brofas-
dwyn rheswm a dedfryd y farn yn eu mynwesau yn ddiddiwedd.

3 *A hyn a wnawn:*—sef, myned yn mlaen at berffeithrwydd. *Os caniatâ Duw.*—Duw ydyw awdwr gwreiddiol ac effeithiol ein holl gynnydd mewn gwybodaeth a gras: *Phil.* ii. 13.

4. *Canys ammhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn dyfod i mewn yn rheswm pa ham y mae yn ofynol i ni fyned yn mlaen. Grym y rheswm ydyw, os na byddwn yn cynnyddu, fod perygl i ni syrthio yn ol; ac os gwnawn hyny, nad oes obaith i ni ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Y mae gwahaniaeth barn ynghylch ystyr yr adnodau hyn—pa un a ydynt yn golygu, ai nid ydynt, y possiblrwydd i ni syrthio ymaith o gyflwr o ras a bywyd ysbrydol. Golyga rhai [*Barnes*], mai tybiaeth o'r hyn sydd ammhossibl a gynnwysir yma, gan ddangos pa beth a fyddai y canlyniad pe byddai i'r fath beth gymmeryd lle a syrthio ymaith oddi wrth ras; sef, nas gallai y cyfryw un ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Y mae y golygiad hwn yn rhag-dybied diffyg difrifoldeb yn meddwl yr awdwr. Os nad oes un perygl i Gristionogion syrthio ymaith yn weithredol, gan nad pa beth a feddylir wrth hyny, y mae yn ymddangos yn beth di-raid i'w hysbysu pa beth a fyddai y canlyniad a ddilynai yr hyn nis gall byth gymmeryd lle. Y mae ereill yn barnu y gall dynion feddiannu bywyd ysbrydol am ennyd, heb fod yn etholedigion Duw er tragwyddoldeb: ac o ganlyniad, y gallai y rhai hyny syrthio ymaith—ac mai canlyniad y cwymp hwnw ydyw anallu ac ammhossiblrwydd i gael adferiad. Y mae y golygiad hwn yn tybied tri dosbarth o ddynolryw—sef, y rhai etholedig; y rhai a gawsant ras, ond heb eu hethol i iachawdwriaeth; a'r rhai ni chawsant yr un o'r ddau. Nid ydym yn canfod unrhyw gadarnhâd i'r golygiad hwn mewn un lle arall yn ngair Duw. Y golygiad Arminaidd pur ydyw, fod yr ymadroddion canlynol yn ddisgrifiad o wir grefydd, ac o'r possiblrwydd o'i cholli yn llwyr, ynghyd â'r anhawsder mawr iddynt gael yn ol yr hyn a gollasant unwaith. Y golygiad a goleddir gan Galfiniaid yw, fod yr ymadroddion hyn yn gosod allan oruchwyliaethau mawrion a phwysig o eiddo yr Ysbryd Glân ar ac yn nghydwybodau dynion; ond heb fod yn gyfryw ag sydd, o ran eu natur a'u graddau, ag sydd yn dynodi gwir gredinwyr, a chyfranogion o wir a chadwedigol ras. Nis gallwn wneuthur yn well i ddangos a phrofi hyn na thrwy roddi i lawr y rhesymau a ddygir gan Dr. Owen. 1af, Nid oes yn y disgrifiad cyflawn a helaeth a roddir o honynt ddim crybwylliad am gredu, na dim sydd yn gyfystyr â chredu. 2il, Nid oes dim yn cael ei briodoli iddynt ag sydd yn eu gosod allan fel yn dwyn perthynas neilltuol â Duw, ac yn feddiannol ar bethau ag sydd yn gosod gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt a dynion ereill, megys eu bod wedi eu cyflawnhau, eu sancteiddio, eu geni o Dduw, a'u huno â Christ, &c. 3ydd, Cymmherir hwy yn y rhanau canlynol i ddaear wedi yfed y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni, ond heb ddwyn y ffrwyth cyfaddas, eithr drain a mieri—yr hyn sydd yn anghywir i'w ddywedyd am rai sydd yn

ant y rhodd nefol, ac a wnaeth-
pwyd yn [i] gyfranogion o'r Ysbryd Glân,
[i] Act. 15. 8; Gal. 3. 2, 5.
5 Ac a [k] brofasant ddaionus air
[k] Luc 8. 13.

gyfranogion o wir ras. 4ydd, Y mae yr apostol yn y rhanau canlynol yn ymdrin am wir grediniwyr fel rhai gwahanol a gwahaniaethol oddi wrth y rhai hyn, a hyny gyda golwg ar dri pheth; sef, (1.) Eu bod hwy yn meddu "pethau sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth" (2.) Eu bod yn feddiannol ar "gariad" a "gwaith" fel ffrwythau cyfaddas. (3.) Eu bod yn ddiogel rhag syrthio, o herwydd cyflawnder a ffyddlondeb Duw, ac o herwydd cadernid ei gynghor a'i lŵ. Gellir chwanegu hefyd, nad oes dim yn yr ymadroddion hyn nas gellir ei briodoli i ddynion sydd heb brofi gras cadwedigol. Y maent yn ymadroddion cryfion iawn, y mae yn wir; ac y maent yn dynodi pethau a goruchwyliaethau cryfion a nerthol, pethau sydd yn ymylu ar bethau cadwedigol, ond yn fyr o gyrhaedd hyny; ac yn y ffaith hon y cynnwysir y perygl a'r ammhossiblrwydd i'r rhai a'u profasant ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. "A oleuwyd unwaith." Defnyddid y gair "goleuo," yn oesoedd boreuol yr eglwys, yn gyssylltiedig â, ac yn wir yn gyfystyr â bedydd. Ac felly yr eglurir yr ymadrodd hwn yn y cyfieithiad Syriaeg. Ond diau y dylid ei ddeall yma mewn ystyr gwahanol; sef ystyr arferol y gair. Dynoda y goleuni ysbrydol y mae Ysbryd Duw yn ei roddi yn meddyliau dynion ar wirioneddau yr efengyl, gyda'r amcan o'u dwyn i gofleidio trefn yr efengyl, ac i gredu yn Nghrist i gadwedigaeth yr enaid. *Ac a brofasant y rhodd nefol.*—Y mae yr amrywiol olygiadau ar yr hyn sydd i'w ddeall wrth y "rhodd nefol" yn yr ymadrodd hwn yn dra lliosog. Maddeuant pechodau [*Chrysostom*]: heddwch cydwybod [*Grotius*]: tangnefedd a llawenydd gan gredu [*Justinian*]: swper yr Arglwydd [*Michaelis*]: yr Ysbryd Glân a'i ddoniau [*Dr. Owen*]: Crist [*Bengel*]: ffydd [*Parasus*]: ailenedigaeth [*Klee*]: cyflawnhâd a maddeuant [*Delitzsch*]: y goleuni y cyfeirir ato yn yr ymadrodd blaenorol [*Bleek*]. Y mae yr amrywiaeth mawr hwn yn peri i ni deimlo arafwch i gynnyg dim yn wahanol, a'r anhawsder i benderfynu rhwng y rhai a enwir uchod. Yr ydym, pa fodd bynag, yn tueddu i feddwl mai at alwad yr efengyl y mae yr ysgrifenydd yn cyfeirio, yr hon a elwir ganddo, yn *pen.* iii. 1, "yn alwedigaeth nefol" (*epomanios;* sef, yr un gair ag sydd yma); a geilw yr Hebreaid yn *gyfranogion* o'r alwedigaeth nefol, gan ei golygu yn *rhodd.* Ond nid ydyw yma yn dywedyd am y rhai hyn eu bod yn gyfranogion o honi; eithr wedi ei phrofi, neu yn fwy manwl, profi o honi—(*genitive case*, yn dynodi profiad rhanol). Yr oeddynt wedi cael rhyw flas ar alwedigaeth nefol yr efengyl yn y golau ag yr oedd Ysbryd Duw wedi ei roddi iddynt arni. *Ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân.*—Yr oeddynt wedi derbyn yr Ysbryd Glân yn ei ddylanwadau argyhoeddiadol a chymmhelliadol.

5. *Ac a brofasant ddaionus air Duw.*—Y mae gair Duw" yn yr efengyl, ac yn y llyfrau ysbrydoledig mewn ysgrifen, yn cael ei olygu yma fel amborth sydd yn rhoddi maeth a llawenydd i'r galon. Yr oedd y rhai hyn wedi cael profiad o air Duw i'r fath raddau nes cael mwynhâd trwyddo, a rhyw nerth o leiaf i ymgadw rhag pechodau ag y buasent o'r blaen yn ddarostyngedig iddynt.

[1]Heb. 2. 5. [2]Salm 51. 10; 2Tim. 2. 25. [3]Zech. 12. 10; Mat. 23. 31, 32.

Duw, a [1]nerthoedd y byd a ddaw,

6 Ac a syrthiant ymaith, [m]ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; gan [n]eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn *ei* osod yn watwar.

7 Canys y ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni, ac yn dwyn llysiau

A nerthoedd y byd a ddaw.—Yr oedd nerthoedd mawrion, gwyrthiol a chyffredinol, yn canlyn y cyhoeddiad o air Duw yn yr amser hwn; ac yr oedd y rhai hyn wedi profi y nerthoedd hyny. Y mae yn dra theilwng o'n sylw ni, mai pethau goddefol ydyw y pethau uchod i gyd. Mewn geiriau ereill, pethau a roddwyd iddynt—pethau a gawsant hwy gan Dduw ydynt. Ond ni ddywedir eu bod hwy yn weithredol wedi gwneuthur dim i gyfatteb iddynt. Ac yn hyn yr oedd y diffyg. Yr oeddynt, fel y ddaear, wedi *derbyn* y gwlaw, ond heb *roddi* y ffrwyth cyfattebol i'r doniau—dim ond drain a mieri; hyny yw, ffrwythau naturiol eu calonau llygredig eu hunain, ac nid ffrwyth yr had sanctaidd a hauwyd ynddynt; sef, gair Duw.

6. *Ac a syrthiant ymaith:—h.y.*, oddi wrth eu proffes o'r efengyl, gan golli hefyd yr holl ddoniau a'r goruchwyliaethau a gawsant unwaith o roddiad yr Ysbryd Glân ei hun, ac yna dychwelyd at yr hen gyfundrefn gysgodol a seremoniol, yr hon oedd yn awr wedi ac yn parhaus ddiflanu. *Ymadnewyddu drachefn i edifeirwch.*—Y mae y gair "drachefn" yn cyfeirio, nid at y drychfeddwl o ymadnewyddu, ond at y drychfeddwl cynnwysedig yn yr ymadrodd blaenorol; sef, syrthio ymaith. Wedi i rai yn yr amgylchiadau a enwyd, ac wedi derbyn y pethau a grybwyllwyd, syrthio ymaith, y mae yn ammhossibl iddynt drachefn, hyny yw, ar ol syrthio, ymadnewyddu i edifeirwch. Pe y buasent hwy yn iawn ddefnyddio y doniau a'r goruchwyliaethau, y canlyniad a fuasai iddynt gael eu dyrchafu i dir uwch, a'u galluogi, trwy ras Duw, i ymadnewyddu i edifeirwch; ond fel yr oedd, gan iddynt syrthio ymaith, y mae hyny yn ammhossibl. *Gan eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw.*—Y mae rhai o'r heñ esbonwyr yn deall yr ymadrodd hwn fel eglurhâd ar yr ymadrodd diweddaf; ac felly yn darllen, "gan y byddent" (trwy hyny, sef ymadnewyddu drachefn, &c.) "yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw." Yn ol y darlleniad hwn, cymmerir yr ymadrodd "ymadnewyddu drachefn" i arwyddo cymmeryd proffes newydd, a bedydd newydd; ac ystyr yr ymadrodd felly ydyw, y byddai i'r cyfryw ail broffesu, a chymmeryd eu bedyddio eilwaith, yr un a phe y croeshoelient eilwaith Fab Duw. Ond diau mai y gwir feddwl ydyw, fod ymddygiad y rhai a syrthiant ymaith, ar ol profi y pethau cryfion a nodwyd, yn rhinweddol ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw; ac am hyny nas gallant ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Y mae yr ymddygiad hwn o ail groeshoelio yn cael ei olygu a'i ddwyn i mewn fel y rheswm pa ham nas gallant ymadnewyddu. Yn awr, pa beth sydd i ni ddeall wrth yr ymadrodd "ail groeshoelio?"—Groeg: (*anastaurod.*) Gellir ei gyfieithu, a hyny yn gywir, yn 'groeshoelio i fyny;' neu ynte, 'ail groeshoelio.' Ond dengys Bleek fod yr olaf o'r ddau yn fwy tebygol a chysson â'r cyd-destyn; ac felly hefyd y deallir ef gan yr esbonwyr Groegaidd, y rhai yn ddiau a ddeallent fanylion o'r fath yn well nag ysgrifenwyr mewn ieithoedd ereill. Y drychfeddwl yn y gair yn ddiau ydyw gwrthod Mab Duw, fel y gwnaeth yr Iuddewon pan y rhoddasant ef i fyny i Pilat i gael ei groeshoelio. Gelwir eu hymddygiad yn ail groeshoelio, yn wrthgyferbyniol i'r croeshoeliad cyntaf gan yr Iuddewon; ac yn wir y mae ystyr yn bod yn yr hwn y gellir golygu yr holl genedl, ïe, yr holl fyd, yn gyfranog yn y gwrthodiad hwnw, a'r croeshoeliad dilynol iddo. Y mae yr un elyniaeth at Dduw, a fu yn achos o'i wrthodiad a'i groeshoeliad gan yr Iuddewon a Philat, yn llechu wrth natur yn mynwes dynolryw yn gyffredinol; ac yn yr undeb agos a dirgeledig sydd rhwng dynion a'u gilydd, fel cydgyfranogion o'r un natur lygredig, gellir dywedyd fod y byd wedi croeshoelio Arglwydd y gogoniant. Ond yma, darllenwn am rai, ar ol unwaith eu goleuo am dano, a phrofi dylanwadau ei Ysbryd o'r nefoedd, yn fwriadol ac ymwybyddol yn ei wrthod eilwaith—yn ei groeshoelio eilwaith: ac am hyny nis gallant etto ymadnewyddu drachefn i edifeirwch, gan eu bod wedi ei wrthod dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol [yr oedd modd eu rhoddi ynddynt i'w dderbyn, ac i gredu ynddo. *Iddynt eu hunain.*—Nid o'u rhan eu hunain [*Schulz*], na chwaith i'w dinystr eu hunain [*Vatablus* yn *Alford*]; ond gyda golwg arnynt eu hunain, neu o ran eu lleshâd eu hunain. *Gan ei osod yn watwar.*—Fel yr oedd y croeshoeliad cyntaf yn cynnwys dioddefiadau a gwarth, felly y mae hwn. Y mae y rhai sydd yn gwrthod Crist, ar ol derbyn unwaith ddylanwadau ei Ysbryd, a phroffesu ei enw, yn rhinweddol groeshoelio a gwarthruddo Mab Duw eilwaith. Nid am ei fod yn dioddef mwy, nac yn teimlo gwaradwydd mwy; ond y mae ymddygiadau y cyfryw tuag ato, o'u rhan hwy, yr un yn ei olwg ef a phe buasai yn cael ei boeni a'i warthruddo eilwaith, a hyny yn y nefoedd.

7. *Canys y ddaear.*—Dygir yr adnod hon i mewn fel eglurhâd o'r rheswm a roddwyd yn yr adnod flaenorol, am yr ammhossibilrwydd i'r rhai a ddarluniwyd uchod ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Pe buasai y rhai hyn, ar ol derbyn cynnifer a chymmaint doniau, gweithrediadau, a goruchwyliaethau, wedi eu defnyddio fel ag i ymadnewyddu i edifeirwch, a gweithredoedd addas i edifeirwch, buasent yn cael eu gwneyd yn wrthddrychau bendith achubol Duw, fel y ddaear yr hon sydd yn yfed y gwlaw, *ac yn dwyn llysiau cymmhwys i'r rhai y llafurir hŵ ganddynt, yr hon sydd yn derbyn bendith gan Dduw.* Ond am eu bod, ar ol derbyn a mwynhau y dylanwadau nefol, wedi pallu a nacau dwyn ffrwyth cyfattebol mewn edifeirwch a ffydd, yr oeddynt fel y ddaear, yr hon ar ol yfed y gwlaw, nid ydyw yn defnyddio yr hyn a ddarbyniodd ond i ddwyn yr hyn a dyf o hono ei hun o honi; sef, drain a mieri: ac am hyny y maent yn *anghymmeradwy, ac yn agos i felldith, diwedd yr hon yw ei llosgi.*—Y mae y gair cyntaf yn arwyddo, yn llythyrenol, yr hyn sydd wedi ei brofi, ac wedi methu yn y prawf hwnw, ac felly yn wrthodedig. "Agos i felldith," a ddynoda y canlyniad o fod yn wrthodedig ac anghymmeradwy. Y mae wedi ei rhoddi i fyny i ddinystr yn barod; ac megys o'r neilldu, i aros

cymmhwys i'r rhai y llafurir hi
[a] Gen. 27.27. ganddynt, [b] sydd yn derbyn bendith gan Dduw:

8 Eithr yr hon sydd yn dwyn drain a mieri, *sydd* anghymmeradwy, ac agos i felldith; diweddyr hon *yw*, ei llosgi.

9 Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, beth-
[b] Heb. 5. 9. au gwell, a [b] *phethau* ynglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.

[c] Deut. 32.4. 10 Canys [d] nid *yw* Duw yn angh[c] 1 Cor. 13. 4—7. hyfiawn, fel yr anghofio eich [c] gwaith, a'r llafurus gariad, yr

y felldith a ddaw arni. Cyfeirir yn ddiau at *Gen.* iii. 17, 18.

8. *Diwedd yr hon*:—sef y felldith, medd rhai: y ddaear, medd ereill—yr hyn sydd yn fwy cydweddol â rhanau ereill o'r Ysgrythyr, y rhai sydd yn sŏn am losgiad y ddaear fel ei diwedd. *Ei llosgi.* — Groeg: 'er llosgiad.' Dynoda y llosgiad hwn oruchwyliaeth o ddinystr, ac nid ei phurhâd. Gwel *pen.* x. 26, 27.

9. *Eithr yr ydym ni yn coelio.*—Arwydda y gair a ddarllenir yma "coelio," bod yn argyhoeddedig oddi ar brofion. *Bethau gwell.*—Groeg: 'y pethau gwell.' Nid y pethau am y ddaear sydd yn dwyn drain, ond am y ddaear sydd yn dwyn llysiau cymmhwys. Nid y pethau am "y rhai a syrthiant ymaith," ond am y rhai sydd "yn myned rhagddynt at berffeithrwydd." *Ynglŷn wrth iachawdwriaeth.*—Nid oedd y pethau a nodir yn *adn.* 4, 5, yn rhai sydd "ynglŷn wrth iachawdwriaeth," onid ê ni buasai y rhai a'u meddent yn syrthio ymaith oddi wrth y pethau, ac oddi wrth yr iachawdwriaeth ynglŷn â hwynt. *Er ein bod yn dywedyd fel hyn.*—Neu, yn hytrach na "dywedyd," darllener 'llefaru.' Er ein bod yn llefaru yn y dull rhybuddiol hwn am ryw rai, yr ydym yn argyhoeddedig am danoch chwi eich bod yn ddosbarth gwahanol. Dylid sylwi fod yr apostol, pan yn cyfeirio at yr Hebreaid eu hunain, naill ai yn rhoddi ei hunan gyda hwynt, ac yn llefaru yn y person cyntaf—"awn rhagom"—neu yn yr ail berson, "yr ydym yn coelio am danoch chwi." Ond pan yn cyfeirio, yn *adn.* 4, 5, at y rhai yr oedd yn ammhossibl iddynt ymadnewyddu, llefara yn y trydydd person, "y rhai."

10. *Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, &c.*—Y prawf fod y pethau hyn ynglŷn wrth iachawdwriaeth, ac y daw iachawdwriaeth dragwyddol i'w dilyn, ydyw yr hyn a ddywedir yn yr adnod hon; sef, nad ydyw Duw yn anghyfiawn fel i anghofio eu gweithredoedd da. Y mae Duw wedi cyssylltu ei ras gwobrwyol a chadwedigol mor agos â'i ras cyfiawnhaol a sancteiddiol fel nas gall beidio rhoddi y cyntaf i ddilyn yr olaf heb fod yn anghyfiawn; a hyny am ei fod wedi ei addaw, ac nid am ein bod ni wedi ei haeddu. *A'r llafurus gariad.*—Dylid gadael allan y gair "llafurus," a darllen, "fel yr anghofio eich gwaith a'ch cariad." Felly y mae y llaw-ysgrifau goreu.

11. *Ddangos yr un' diwydrwydd, er mwyn llawn sicrwydd gobaith.* — Nid dangos yr un diwydrwydd ag yr oedd ereill wedi ei ddangos, na dangos yr un diwydrwydd i barhau ag yr oeddynt hwy eu hunain wedi ei ddangos eisoes; ond

hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini.

11 Ac yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd, [e] er mwyn llawn [e] Col. 2. 2. sicrwydd gobaith hyd y diwedd:

12 Fel na byddoch fusgrell, [f] eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy [f] Rhuf. 4.12. ffydd ac amynedd [g] sydd yn eti- [g] Mat. 22.32. feddu yr addewidion.

13 Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, o blegid na allai dyngu i neb *oedd* fwy, [a] dyngodd iddo ei hun,

dangos yr un diwydrwydd gyda golwg ar gyrhaedd llawn sicrwydd gobaith ag yr oeddynt wedi ei ddangos gyda golwg ar gynnorthwyo y saint tlodion. Gellir deall y gair a ddarllenir uchod yn "llawn sicrwydd," naill ai i arwyddo cyflawnder neu helaethrwydd, neu ynte, fel y gwneir yn ein cyfieithiad ni, i arwyddo sicrwydd. Yn ol yr olaf, y meddwl ydyw llawnder neu sicrwydd yn y meddwl am fwynhau yr hyn y gobeithir am dano. Yn ol y cyntaf, cyflawnder a helaethder y gobaith ei hun, fel teimlad yn yr enaid. Yr olaf sydd fwyaf cydweddol âg ystyr cyffredin y gair yn y Testament Newydd.

12. *Fel na byddoch fusgrell.*—Groeg: 'fel na ddeloch i fod yn fusgrell.' *Eithr yn ganlynwyr.* —Groeg: 'yn efelychwyr.' *Sydd yn etifeddu yr addewidion.*—Pa fodd y cyssonir yr ymadrodd hwn â *pen.* ii. 13, 39, lle y dywedir na ddarfu i'r saint dan yr Hen Destament dderbyn yr addewidion? Trwy olygu yr ymadrodd fel disgrifiad o'r saint gynt yn etifeddion mewn hawl, medd Alford: ond diau fod y geiriau yn golygu rhagor; sef, derbyniad a mwynhâd mewn rhan, er nad i'r perffeithrwydd y cânt eu mwynhau yn yr adgyfodiad, am yr hwn y lleferir yn niwedd *pen.* xi.

13. *Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham.*—Deallir y gair "canys" yn y lle hwn gan lawer, nid yn ymresymiadol, ond yn eglurhaol, neu mewn ffordd o roddi enghraifft o'r hyn a ddywedir yn niwedd yr adnod flaenorol; sef, fod saint yr Hen Destament trwy ffydd ac amynedd wedi etifeddu yr addewidion. Yr enghraifft a ddyry yr awdwr ydyw Abraham. Ond diau fod mwy na hyn yn y cyssylltiad sydd rhwng y ddwy adnod; sef, prawf o'r ffaith uchod, yn gystal ag enghraifft, a phrawf mewn enghraifft. Cynnwysa y prawf hwn, fel y dengys Ebrard, y ddau beth canlynol:—1. Fod Duw wedi cadarnhau ei addewid â'i lŵ, yr hyn ni buasai yn angenrheidiol pe buasai cynnwys yr addewid i gael ei roddi yn fuan. 2. Yr oedd cynnwys yr addewid—sef amlhau ei had—yn beth nas gallesid ei ddisgwyl ond yn mhen amser maith i ddyfod. Fel hyn yr oedd yn rhaid i Abraham wrth ffydd ac amynedd tuag at Dduw yn ei addewidion. *O blegid na allai dyngu i neb oedd fwy.*—Nis gallai, am nad oedd neb mwy nag ef. Y mae brawddeg pur debyg i hon i'w chael yn Philo. —"Gwel nas gall Duw dyngu i neb arall—canys nid oes neb mwy nag ef—ond iddo ei hun, yr hwn ydyw y goreu o bawb." *A dyngodd iddo ei hun.* —Groeg: 'a dyngodd i mewn iddo ei hun.' Pa fodd y mae i ni ddeall fod Duw yn tyngu? Cyn-

14 Gan ddywedyd, Yn ddiau gan fendithio y'th fendithiaf, a [z] Gen. 17. 2. [z] chan amlhau y'th amlhaf.

15 Ac felly, wedi iddo hir-ymaros, efe a gafodd yr addewid.

16 Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy : a llŵ er sicrwydd, *sydd* derfyn iddynt ar bob ymryson.

17 Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i [y] etifeddion yr addewid [z] ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lŵ : [y] Rhuf.8.17. [z] Esa. 14.24; Iago 1. 17.

18 Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai *yr oedd* yn [a] amhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, [a] Num. 23. 19; Rhuf.3.4; Titus 1. 2.

---

nwysa hyn fwy nag addewid, a mwy nag ail addewid cadarnhaol i'w addewid. Y mae llŵ Duw yn golygu mwy na gair; sef, gweithred ddwyfol. Y mae yn weithred wirioneddol o eiddo yr Anfeidrol tuag ato ei hun, yn yr hon y mae yn ei wystlo ei hun, yn yr hyn oll ag ydyw ac a all, i gyflawni yr hyn a addawodd. Trwy y weithred hon y mae wedi cynnyrchu ynddo ei hun achos, yr hwn, pe gallai ballu cyflawni ei air, a ddygai i fod yr effaith aruthrol o'i ddifodiant hollol; canys y mae yn gwystlo ei hunan anfeidrol yn ei lŵ. Nid dull o ymadrodd yw, er dangos neu argraffu sicrwydd yn ein meddyliau ni; ond *peth* gwirioneddol a dianwadal, fel y dywed yr apostol yn mhellach yn mlaen, yr hwn *beth* a roddes fod i'r *ymadrodd*, ac o'r hwn nid ydyw yr ymadrodd ond arwydd ammherffaith. Y mae dynion yn tyngu i'r hyn sydd y tu allan ac uwch law iddynt eu hunain; ond Duw, i mewn iddo ei hun. Am y llŵ hwn, a'r ymadrodd "I mi fy hun y tyngais," &c., gwel yn *Gen.* xxii. 16—18. Darfu iddo dyngu pan addawodd, ac mewn cyssylltiad â'r addewid y cyfeirir ati; sef, yr addewid a roddes Duw i Abraham ar iynydd Moriah, pan yr offrymodd ei fab Isaac.

15. *Ac felly, wedi iddo hir-ymaros, efe a yafodd yr addewid.*—Wrth yr "hir-ymaros" y cyfeirir ato yn y lle hwn y dealla Bleek, gwaith Abraham yn hir-ymaros yn offrymiad Isaac; ac wrth yr addewid a gafodd y dealla, yr addewid a roddwyd iddo ar ol iddo offrymu Isaac, yr hon a ddyfynir yn *Gen.* xxii. Y mae yn rhaid i bawb ystyriol addef fod y golygiad hwn yn dra annaturiol. Y gwir feddwl, yn hytrach, ydyw, fod yr "hir-ymaros" hwn yn beth a weithredwyd ar ol rhoddiad yr addewid uchod, ac yn dwyn perthynas â'i chynnwys fel ei wrthddrych; ac wrth gael yr addewid y mae yn rhaid i ni ddeall cael ei chyflawniad. Yn awr, pa bryd y cafodd Abraham hi yn y cyflawniad? Cafodd weled eginyn cyntaf ei chyflawniad yn ngenedigaeth Ésau ac Iacob, ac Ismael; ond ei chyflawniad mwy cyflawn yn ymddangosiad Crist yn y cnawd, a thywalltiad yr Ysbryd Glân, a galwad y Cenedloedd i fod yn had ysbrydol. Fel y dywedir i Abraham yn y nefoedd weled dydd Crist a llawenychu, felly yn y nefoedd y gwelodd ei ddydd ei hunan; sef, dydd amlhau ei had ysbrydol a naturiol. Ac fel y mae y credinwyr yn amlhau, y mae yn cael yr addewid fwy-fwy. Ar ol hir-ymaros ar y ddaear, y mae yn cael y cyflawniad yn y nefoedd. Y mae y gair, felly, i'w gyssylltu, yn ol rhai esbonwyr, â'r gair "hir-ymaros"—"Ac wedi iddo hir-ymaros felly."

16 *Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy.*—Dylai y pwyslais fod ar y gair "dynion:" nid ar yr ymadrodd, "i un a fo mwy." Amcan yr adnod ydyw dangos fod gwaith Duw yn tyngu wedi tarddu o'r un achos ag y mae gwaith dynion, pan yn gwneyd hyny, yn cyfodi oddi arno; sef, eu hanymddiried yn eu gilydd; a hyny, drachefn, yn seiliedig ar eu hanffyddlondeb i'w gilydd. Fel y mae dynion yn gweled angenrheidrwydd am lŵ, yn appelio at un uwch yn cyfodi oddi ar yr achosion uchod, felly ymddarostyngodd Duw i dyngu iddo ei hun, am nad oedd neb yn fwy nag ef, er mwyn sicrhau gwen did eu ffydd, ac ammherffeithrwydd eu gobaith a'u hymaros. *A llŵ er sicrwydd:*—neu gadarnhâd. *Sydd derfyn iddynt ar bob ymryson:*—neu ar bob gwrthddywediad (*antilogos*). *Yn yr hyn:*—*h.y.*, yn gymmaint a bod yr effeithiolrwydd a nodwyd yn yr adnod flaenorol yn perthyn i lŵ, hyd yn oed dynion.

17. *Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos.*—Y mae y gair "helaethach" i'w gyssylltu, nid â'r ferf "ewyllysio," ond â'r ferf "dangos." *Ddianwadalwch ei gynghor.*—Dyma yr hyn a ewyllysiai ei ddangos yn helaethach; *h. y.*, yn helaethach nag y gallasai ei ddangos heb ddim ond addewid noeth. Buasai yr addewid yn dangos dianwadalwch ei gynghor; ond dengys y llŵ y dianwadalwch hwnw yn helaethach, trwy gynnyrchu cadarnach sicrwydd yn meddyliau ei bobl. *A gyfryngodd trwy lŵ.*—Nid efe a roddes lŵ; ond a "gyfryngodd." Fe aeth yn gyfryngwr rhyngddo ei hun a'i addewid, trwy lŵ. Y mae y gair "dianwadalwch" yn arwyddo yn llythyrenol anallu i symmud peth; *h.y.*, anghyfnewidioldeb.

18. *Fel trwy ddau beth dianwadal:*—sef, yr addewid a'r llŵ. Y mae y ddau beth sydd yn dangos dianwadalwch y cynghor, eu hunain yn ddianwadal fel y cynghor. *Yn y rhai yr oedd yn ammhossibl i Dduw fod yn gelwyddog.*—Onid oedd yn ammhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, hyd yn oed pe buasai heb roddi ei addewid na'i lŵ? Oedd yn ddiau; ond ammhossiblrwydd naturiol ydoedd hwnw. Nid oedd yn golygu nnrhyw rwymau ag oedd yn gorphwys arno fel bod personol, ond angenrheidrwydd ei natur ei hun; ond trwy ei air y mae wedi gosod rhwymau personol arno ei hun. Heb ei air na'i lŵ, gallasai achub neu beidio achub, a bod ei wirionedd yn ddilychwin; ond yn awr, nis gall beidio ag achub y rhai sydd yn credu heb fod yn gelwyddog. *Y gallem ni gael cysur cryf.*—Arwydda y gair *paraclesis* naill ai cynghor, calonogiad, neu gysur. Hôna Delitzsch mai y cyntaf ydyw yr ystyr yn y lle hwn; ond y mae yr ail, neu y trydydd, neu y naill a'r llall, yn llawer mwy tebygol, gan eu bod yn cydweddu yn fwy âg amcan cyffredin llŵ ac addewid. Y mae addewid a llŵ Duw yn abl i weini, nid yn unig galondid a chadarnhâd fel y meddwl, ond hefyd i roddi cysur yn y calon, a hwnw yn un cryf. *Y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei ddwyn i mewn fel dynodiant o'r rhai ag y mae addewid a llŵ Duw yn gweini yn effeithiol gysur cryf iddynt. Y rhai hyny ag sydd wedi gollwng eu gafael o bob cynnorthwyon dynol a

[a] Gen. 19.22; Salm 46. 1; [c] Mat. 3. 7; Zech. 9. 12. [d] 2 Bren. 2. 23; Esa. 27. 5; 1 Tim. 6. 12. [e] Act. 27. 29, 40. [f] Lef. 16. 2, 14; Mat. 27. 51. [g] Ioan 14. 2, 3.

[a] y rhai a ffoisom i gymmeryd [c] gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen:

19 Yr hwn sydd genym ni me- [d] gys angor yr enaid, yn ddiogel [e] ac yn sicr, ac [f] yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen,

20 I'r man [g] yr aeth y rhag- flaenor drosom ni, *sef* Iesu, yr

[b] Heb. 7. 1-21 [c] Heb. 7. 1-21

hwn a wnaethpwyd [g] yn Archoffeiriad yn dragwyddol yn ol urdd Melchisedec.

PENNOD VII.

1 *Crist Iesu sydd Offeiriad yn ol urdd Melchisedec;* 11 *ac felly yn rhagori llawer ar yr offeiriaid oedd yn ol urdd Aaron.*

CANYS y Melchisedec hwn, brenin Salem, offeiriad y

B. A. 63.

daearol, ac wedi ffoi rhagddynt, o dan ystyriaeth o'r perygl sydd ynglŷn âg ymddiried ynddynt, i gymmeryd gafael yn addewid a llŵ Duw fel y maent yn seiliau gobaith am fywyd tragwyddol, ydyw y rhai sydd yn cael y cysur cryf y sonir am dano yma. Y mae y gair "ffoi" yn cyfeirio, o bossibl, at y llofrudd yn ffoi i'r ddinas noddfa, neu at gyrn yr allor; a'r ymadrodd, "cymmeryd gafael," at waith y ffoadur yn gafael yn nghyrn yr allor. Y mae yn bossibl, hefyd, fod yr ymadrodd, "y gobaith a osodwyd o'n blaen," wedi ei gynnyrchu, trwy fod meddwl yr apostol wedi rhedeg at ffugr arall; sef y wobr a ddelid o flaen y rhedegydd yn y campau Groegaidd; o herwydd y gair a ddefnyddir yma ydyw yr un arferol am hyny; sef, *proceisthai.* Y mae y gair "gobaith" i'w ddeall yn y lle hwn, yn ol rhai, yn wrthddrychol, ac yn gosod allan wrthddrychau ein gobaith; sef, bywyd tragwyddol. Y mae ereill yn haeru y dylem ddeall y gair yn ei ystyr mewnol (*subjective*) arferol. Hwn ydyw y gorev, pe gallem gael synwyr trwy ei gymmeryd. Gellir ei gymmeryd yn yr ystyr hwn mewn modd eithaf dealladwy ond i ni gymmeryd i ystyriaeth a golygu y gras, neu y teimlad o obaith, fel y mae yn cael ei fodolaeth oddi wrth a chan ei wrthddrych. Gwrthddrych gobaith sydd yn rhoddi bod i obaith. Ar wahân oddi wrth ei wrthddrych mawr, nid ydyw yn hanfodi. Yn unol â hyn, gelwir yr Arglwydd Iesu "ein gobaith;" ac yn yr un modd gellir galw bywyd tragwyddol yn a thrwy Grist yn obaith hefyd, a'i olygu fel yn cael ei osod o'n blaen yn y byd hwn i gyrchu ato fel ein gwobr rasol yn y nefoedd.

19. *Yr hwn sydd genym*:—sef, yr hwn obaith. Nid yr hwn gysur, fel y dywed Grotius, ac ereill. *Megys angor yr enaid.*—Ffugr arferol a mynych mewn awduron clasurol i osod allan obaith. Yn yr Hen Destament, ni chrybwyllir ef. Nid oes gair Semitaidd, medd Delitzsch, am angor, nac yn yr Hebraeg diweddar (sef, ar ol ysgrifeniad yr Hen Destament), na chwaith yn y cangen-ieithoedd Aramaeg. *Yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn.*—Y mae y tri hyn yn cyfatteb i'r rhagoriaethau perthynol i angor. Dylai angor fod o ddefnyddiau cyfaddas fel i fod yn *ddiogel*—dylai gael ei dafiu dros y bwrdd, a'i *sicrhau*—a dylai *fyned i mewn* i gymmeryd gafael yn nghadernid y ddaear, yr hwn gadernid yn unig a all ddal a chynnal y llestr: o herwydd nid ydyw yr angor ond cyfrwng i gymmeryd gafael yn y cadernid hwnw. I gyfatteb i hyn, dylai ac y mae gobaith y Cristion yn ddiogel o ran ei ddefnyddiau, o herwydd gobaith da trwy ras ydyw. Y mae hefyd yn sicr, o herwydd gobaith sydd mewn gweithrediad ydyw. Nid gallu cuddiedig a llonydd ydyw, ond gallu gweithgar; ac yn ei weithgarwch y mae yn cael ei sicrhau. Y mae hefyd yn "myned i mewn;" *h.y.*, yn cymmeryd gafael yn nghadernid ei wrthddrych mawr. *At yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen.*—Y mae y naill ffugr fel pe baent yn ymdrechu â'u gilydd yn meddwl a dychymmyg ffrwythlawn yr apostol, am gael eu defnyddio i osod allan y gwirioneddau gogoneddus a lanwent ei feddwl. Yn yr ymadrodd hwn, y mae yr angor fel yn lled ddiflanu o'r golwg, a llen y deml yn ymwthio i'r golwg, i osod allan y drychfeddwl nesaf. Y mae gobaith yn myned i mewn i'r nefoedd, ac yn ymwneyd â phethau y nefoedd, fel y byddai yr archoffeiriad gynt yn myned tu hwnt i'r wahanlen i'r cyssegr sancteiddiolaf. Y mae gobaith gan hyny yn myned, nid yn unig i'r nefoedd, ond i'w chanolbwynt pellaf.

20. *I'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni.*—Yr *oedd* yno erioed; ond yn awr, fe *aeth* yno. Mewn trefn i fyned yno yr oedd yn ofynol iddo ddyfod o'r nefoedd. Mewn trefn i esgyn, rhaid oedd iddo ddisgyn yn gyntaf. Fe aeth, nid yn unig i'r nefoedd, ond fe aeth trwy a hwnt i'r wahanlen; ac wrth fyned trwyddi, fe'i rhwygodd i olwg ei bobl, ac fe ddaeth â golygfeydd i oleuni na welwyd mo honynt gan greadur erioed o'r blaen. Fe aeth yno fel rhagflaenor, neu ragredegydd. Y mae y gair hwn fel pe byddai yn cynnwys mwy nag un ffugr ynddo ei hun. Gellid meddwl fod cymmhariaeth yr angor heb oliwng ei gafael o ddychymmyg yr apostol. Dywedir wrthym yr arferid yn yr hen longau yn yr amser gynt appwyntio un o'r dwylaw i ofalu am yr angor, ac am hyny gelwid ef yn *anchorarius*, sef angorwr, gan y Rhufeiniaid. Ond gan y Groegiaid, gelwid ef *prodromos*—y gair a arferir yma; sef, rhagflaenor, neu ragredegydd, am y byddai yn arferol, pan ddeuai y llestr i'r hafan, ond yn analluog i fyned i mewn ar unwaith, o ddiffyg llanw, i'r porthladd, i gario yr angor mewn cwch, ac yna ei ddwyn ar ei ysgwydd, a'i ddodi yn y porthle. Yn gyffelyb darfu i'r Iesu fyned i'r nefoedd o'n blaen ni, gan gludo gydag ef angor ein gobaith. Oud ar y llaw arall, cynnwysa ffugr newydd; sef, yr un sydd yn cyfeirio at yr archoffeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf ar ddydd y cymmod, fel rhagflaenor y genedl. Yn ol drychfeddwl yr offeiriadaeth, yr oedd yr archoffeiriad i fyned i'r cyssegr, nid yn unig *yn lle* y bobl, ond *o'u blaen* fel rhagflaenydd; eithr nis gallodd yr archoffeiriad luddewig sylweddoli ond y cyntaf yn unig. Nid oedd yn gallu llanw drychfeddwl ei swydd ei hun. Ond gwnaeth y sylwedd mawr hyny. Aeth yno, nid yn unig "drosom ni," ond yn "rhagflaenor drosom ni." *Yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragwyddol yn ol urdd Melchisedec:*—neu yn fwy dealladwy a chywir, 'yr hwn yn ol urdd Melchisedec a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragywydd.' Fe aeth yno yn ei swydd, i aros yno, yn ol urdd Melchisedec, yn ei swydd yn dragywydd.

Duw Goruchaf, yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, ac a'i ben-
[a] Gen 28.22; Num. 18. 21; 1 Sam. 8. 15, 17. dithiodd ef;

2 I'r hwn hefyd y cyfranodd Abraham [a]ddegwm o bob peth: yr hwn yn gyntaf, o'i gyfieithu, *yw,* Brenin cyfiawnder, ac wedi hyny hefyd, Brenin Salem, yr hyn yw, Brenin heddwch;

3 Heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes; eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i

Pennod vii.

1. *Canys y Melchisedec hwn.....sydd yn aros... yn dragywydd.*—Y mae yr ymadrodd yn dyfod i mewn yn eglurhâd ymresymiadol ar yr ymadrodd diweddaf yn niwedd y bennod flaenorol. Y mae y geiriau "sydd yn aros yn dragywydd," yn niwedd *adn.* 3, i'w cyssylltu, nid â Christ, ond â Melchisedec—nid â'r gwrth-gysgod, ond â'r cysgod. Y mae yr un ymadrodd wedi ei ddywedyd am y gwrth-gysgod yn niwedd y bennod flaenorol, lle y chwanegwyd ei fod ef yn aros yn dragywydd "yn ol urdd Melchisedec;" ac yna, yn yr adnod hon, dengys fod Melchisedec mewn rhyw ystyr neu gilydd, i'r hwn y mae yn rhaid i ni etto ymchwilio, yn aros yn dragywydd. Melchisedec, gan hyny, ydyw yr hwn y lleferir am dano (*the subject*); a'r hyn a ddywedir am y gwrthddrych (*predicate*) ydyw, ei fod yn aros yn dragywydd. Y mae y cyfan sydd rhwng y ddau i'w olygu yn gromfachol, fel disgrifiad o'r gwrthddrych Melchisedec. *Brenin Salem.*—Wrth y Salem hwn y mae i ni ddeall—nid Salumnias, yn yr hwn le, medd Jerome, y dangosid gynt adfeiliad palas Melchisedec. Yr oedd y lle hwnw yn Samaria, i'r deheu o Scythopolis. Barnai Jerome ei fod yr un a Salim, lle y bedyddiai Ioan. Ond y mae y prif awdurdodau [*Josephus* a'r *Targumau*] sydd genym o blaid y golygiad cyffredin, mai Ierusalem a feddylir. Rhoddir y rhesymau canlynol gan Delitzsch:—laf, Y mae yr enw Melchisedec wedi ei ffurfio yn ol cyfattebiaeth brenhinoedd ereill a fu gynt yn Ierusalem, megys Adonibezec, neu zedec. 2il, Cawn Salem am Ierusalem yn *Salm* lxxvi. 3. 3ydd, Mae sefyllfa Ierusalem yn cydweddu yn hollol â'r hyn a ddywedir yn *Genesis.* Dywedir fod Abraham wedi cael ei gyfarfod gan frenin Sodom, cyn i Melchisedec ei gyfarfod. Yr oedd Abraham, gan hyny, yn agos i'w gartref, yr hwn oedd Mamre, neu Hebron, yn agosach i Ierusalem o lawer nag i Scythopolis, nac i Salumnias. 4ydd, Y mae *Salm* xxiv., a *Salm* cx., yn gosod eu sêl ar Ierusalem fel yr un a Salem. Cyfansoddwyd yr olaf ar yr achlysur o symmudiad yr arch o fynydd Seion yn Ierusalem. *Offeiriad y Duw Goruchaf.*—Yr oedd yn frenin ac yn offeiriad—yn frenin-offeiriad ac yn offeiriad-frenin. Cyfunai y ddwy swydd yn ei berson; ac yn hyn yr oedd yn gysgod arbenig o Iesu Grist. Gelwir Duw yn Oruchaf, am ei fod yn anfeidrol uwch law yr uchaf o'i greaduriaid —nid mewn ffordd o gymmhariaeth a duwiau ereill, fel y myn'rhai. *Yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd:—h.y.*, cyfarfu âg ef yn ei amser goreu, a phan yr oedd yn anterth ei sefyllfa—yn orchfygwr pedwar, ac yn ddiffynydd pump o frenhinoedd; ac etto yn ei ddyrchafiad uchaf, cydnabyddodd ei isafiaeth i Melchisedec. *Ac a'i bendithiodd ef:—h.y.*, "Cyhoeddodd yn ngeiriau y fendith offeiriadol ddiolchgarwch am y fuddugoliaeth a ennillasai Abraham ar y brenhinoedd."—*Delitzsch.*

2. *I'r hwn hefyd y cyfranodd Abraham ddegwm o bob peth.*—Trwy hyn cydnabyddai uchafiaeth swyddol Melchisedec arno ei hun. *Yr hwn yw gyntaf, o'i gyfieithu, yw, Brenin cyfiawnder.*—Ystyr y gair "Melchisedec" ydyw, 'Brenin cyfiawnder.' Fel hyn, yn ystyr ei enw personol, yr oedd yn gysgod o Grist, yr hwn a elwir "Yr Arglwydd ein cyfiawnder." *Ac wedi hyny hefyd, Brenin Salem, yr hyn yw, Brenin heddwch.*—Ystyr y gair "Salem" etto yw heddwch. Felly yr oedd yn ei enw swyddol etto yn gysgod neillduol o'r un person, yr hwn a elwir yn "Dywysog tangnefedd." "Cyfiawnder" a "heddwch" yw y ddau air sydd yn crynhoi ynddynt eu hunain, ac a ddefnyddir mor fynych yn yr Hen Destament i osod allan y bendithion amrywiol a chyfoethog ag oeddynt i ddyfod trwy y Messiah. Diau hefyd fod pwys ar yr ymadroddion, "yr hwn yn gyntaf...ac wedi hyny." Yr oedd Melchisedec yn Felchisedec; hyny yw, yn "frenin cyfiawnder," *cyn* bod yn swyddogol "yn frenin Salem;" *h.y.*, yn frenin heddwch. Felly Crist: yr oedd yn rhaid iddo fod yn awdwr neu yn frenin cyfiawnder, cyn yr oedd modd iddo fod yn frenin heddwch—cyn y gallasai fod yn Dywysog tangnefedd i ddwyn tangnefedd i mewn.

3. *Heb dad, heb fam.*—Y mae yr attebion y ceisir eu rhoddi i'r cwestiwn, 'Pwy oedd Melchisedec, yn lleng? fel yn wir y gallesid disgwyl. Ymddengys i ni fod yn rhaid i bob ymgais a wneler i olrhain achyddiaeth, ac hyd yn oed bersonoliaeth dynol Melchisedec, yn rhwym o fod yn afiwyddiannus a dyfeisiol, gan fod yn amcan arbenig gan Ysbryd Duw ei guddio rhagom, i atteb dyben pwysig ei offeiriadaeth, fel yr oedd yn cysgodi offeiriadaeth Mab Duw. Nis gellir, gan hyny, ond disgwyl i bob ymdrech ag sydd yn gwrth-daro yr amcan hwn ond troi allan yn fethiantus ac afiwyddiannus. Er mwyn dangos hyn, digon ydyw nodi rhyw ychydig, allan o lawer—le, o liaws mawr—o wahanol ddyfaliadau a wnaed ar y mater hwn. Un dosbarth a edrychant arno fel person goruwch-naturiol; a dosbarth arall a'i golygant fel person dynol, fel dynion yn gyffredin. Yn y dosbarth cyntaf, cawn rai yn ei olygu fel bod neu berson dynol goruwch-naturiol; ereill, ei fod yr un a'r Ysbryd Glân; ereill, angel o'r nefoedd; ereill, Mab Duw ei hun yn rhith neu ffurf dyn. Yn yr ail ddosbarth, barna rhai mai Sem; ereill, mai Ham; ereill, mai Iapheth; ereill, mai Enoch wedi ail ymddangos, &c., &c. Y golygiad mwyaf symi ydyw yr un sydd wedi cael derbyniad cyffredinol gan eglwys Crist yn mhob oes; sef, mai dyn duwiol, a brenin enwog, ac offeiriad sanctaidd oedd, wedi ei godi a'i gyfaddasu mewn modd neilduol i osod allan fel cysgod yr Arglwydd Iesu Grist fel y mae yn Frenin-offeiriad yn y nefoedd ar ddeheulaw y Tad. Y mae y golygiad hwn yn gyfryw ag nad ydyw yn golygu, nac yn tybied dim, ond a ddywedir yn yr Ysgrythyrau, ac yn cydnabod absennoldeb pob gwybodaeth am ei achyddiaeth, ac amgylchiadau, ei enedigaeth a'i farwolaeth. Ymddangosodd mewn rhyw fodd dyeithr a dirgeledig yn Ierusalem, a chafodd ei gydnabod tra

[a]Heb. 23. 28. Fab Duw, sydd yn aros [b]yn Offeiriad yn dragywydd.

4 Edrychwch faint *oedd* hwn, [c]Act. 2. 29; 7, 8, 9. i'r hwn hefyd y rhoddodd [c]Abraham y patriarch ddegwm o'r anrhaith.

5 A'r rhai yn wir *sydd* o feibion Lefi yn derbyn swydd yr offeiriadaeth, y mae ganddynt orchymyn [d]Lef. 27. 30 –33; Num. 18. 26 –32; Neh. 13. 10. [d] i gymmeryd degwm gan y bobl yn ol y gyfraith; sef gan eu brodyr, er eu bod wedi [e]dyfod o lwynau Abraham: [e]Gen. 35. 11; 1 Bren. 8. 19.

6 Eithr yr hwn, nid oedd ei

y bu yno yn offeiriad ac yn frenin. Ni wyddai neb, ac ni chafodd neb wybod pwy oedd ei dad, na phwy oedd ei fam, na pha fath oedd ei achan —pa bryd y ganed ef, na pha bryd y bu farw. Ymddangosodd ar faes hanesiaeth, a difianodd mewn modd dyeithriol ac anarferol. Yr ydym yn darllen mewn hanesiaeth am rywbeth cyffelyb mewn cyssyltiad â rhai dynion a fuont yn enwog eu bywyd yn y byd. Nid y meddwl yw yn unig, nad ydyw yr Ysgrythyr yn *cofrestru* ei achau, a'i amgylchiadau; ond nad oeddynt yn wybyddus a hysbys ond iddo ei hun pan yr oedd yn Ierusalem. Nid yr ystyr chwaith ydyw nad oedd o darddiad offeiriadol, fel yr offeiriaid Iuddewig, nac wedi dechreu ar ei swydd, a dybenu ei swydd mewn rhyw oed neilldnol, fel y barna ereill. Nid chwaith, fel y golygai y tadau, "heb dad," i gysgodi Crist yn ei ddynoliaeth: ac "heb fam," i'w gysgodi yn ei Dduwdod. *Heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes.*—Y mae yr ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio y cysgod wedi eu dewis a'u ffurfio yn y fath fodd fel ag i feddu cyfaddasrwydd a benig i osod allan y gwrth-gysgod, yr hwn oedd yn bod cyn dechreu amser, ac a barhâ i fyw mewn einioes ddiddiwedd er iddo farw, ac mewn "nerth bywyd annherfynol" a darddodd allan o'i farwolaeth iawnol ac offeiriadol ar y ddaear. *Wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw.*—Nid fel offeiriad, ond fel person, a hyny yn y pethau uchod. Yn y ffaith ddarfod iddo ymddangos ar faes hanesiaeth mewn modd dirgeledig, fel na wyddai y rhai yr oedd yn frenin arnynt, ac yn offeiriad iddynt, ei darddiad, ei achau, nac amgylchiadau ei enedigaeth a'i farwolaeth, yr oedd wedi ei appwyntio i osod allan a rhagddarlunio y Messiah fel y mae yn briodol Fab Duw, yr hwn sydd yn dragwyddol ddiddechreuad a thragwyddol ddiddiwedd. Nid rhagddarlunio Mab Duw fel y mae i'w olygu cyn ei ymddangosiad yn y cnawd, a chyn amser, yr oedd, fel y golyga Bengel, yr hwn sydd yn egluro yr ymadrodd "wedi ei wneuthur yn gyffelyb" yn y fath fodd ag i olygu "Mab Duw" fel gwrth-gysgod rhag-hanfodol; o herwydd fod yn anhawdd i ni synied am Melchisedec fel wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw fel yr oedd wedi ymddangos yn y cnawd. Y mae yr anhawsder hwn yn diflanu, ond i ni gofio mai yn gynlluniol y mae i ni edrych ar y gwrth-gysgod yn ei berthynas â'r cysgod, nid yn unig yn y lle hwn, ond yn wastad.

4. Edrychwch faint oedd hwn.—Y mae y gair a gyfieithir "edrychwch;" sef, *theoreite*, yn un cryf, ac yn arwyddo edrych ar olygfa. Arwydda edrych gydag ystyriaeth a sylw manwl. Y mae ei fawredd yn dyfod i'r golwg ond i ni ystyried yn gyntaf fod un mor fawr ag Abraham wedi rhoddi, o hono ei hun, ddegwm o'r anrhaith iddo. I ddangos hyn, chwanegir y dynodiant anrhyddeddus, "y patriarch." Hefyd, rhoddes ddegwm o'r anrhaith. Y mae y gair *acrothinia*, a ddarllenir yma "anrhaith," yn arwyddo yn briodol y rhan uchaf o dŵr gwenith: yna daeth i arwyddocau y rhan oreu o'r gwenith, ac oddi wrth hyny drachefn daeth i gael ei ddefnyddio i osod allan y goreu o'r ysbail mewn rhyfel, y rhai a gyflwynid i'r duwiau. Nid yw y gair i'w gael yn y Deg a Thrigain, ond ceir ef yn aml yn y gweithiau clasurol. Yn awr, darfu i Abraham gymmeryd y degwm o'r cyfan, o'r rhan oreu o'r ysbail—nid degymu y rhan oreu yn unig, ond degymu y cyfan o'r gyfran oreu hon. Y mae yma, gan hyny, dri pheth sydd yn gosod allan fawredd Melchisedec yn ngwaith Abraham yn degymu. 1af, Y patriarch oedd. 2il, Yr oedd yn rhoddi heb ofyn ganddo. 3ydd, O'r goreu o'r anrhaith.

5. A'r rhai yn wir sydd o feibion Lefi yn derbyn swydd yr offeiriadaeth.—Gwel *Lef.* xxvii., a *Num.* xviii. Yn y lleoedd hyn y cawn ar ddeall mai nid yr offeiriaid yn unig, ond y Lefiaid, oedd yn meddu awdurdod i gymmeryd degymau gan y bobl yn ol y gyfraith. Yr oedd y bobl i dalu i'r Lefiaid eu *therumah*, neu eu hoffrwm dyrchafael, yr hwn oedd i gael ei gyflwyno i'r Arglwydd—cynnwysedig o'r degfed ran o gynnyrch y tir, yn hâd neu ffrwyth. O'r degwm hwn, drachefn, yr oedd y Lefiaid i roddi y degfed yn *therumah*, neu offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, i law yr offeiriad. Gelwid y cyntaf "y degwm cyntaf;" a'r ail, "y degwm o'r degwm." Ac at hwn yn ddiau y cyfeiriai yr apostol yn y lle hwn. Ond pa fodd y dywed fod gan yr *offeiriad* awdurdod i ofyn degwm gan y bobl? Y gwir atteb yw, mai yn anuniongyrchol, am eu bod yn cymmeryd o ddegwm y Lefiaid, y rhai a gymmerent ddegwm gan y bobl yn uniongyrchol. Ereill a attebant, fod y Lefiaid, gan y rhai y derbyniai yr offeiriaid eu degwm hwy, i'w hystyried fel yn cyfansoddi "y bobl." Y mae Bleek yn tybied fod y gosodiad dwyfol wedi ei newid yn yr amseroedd diweddaf gan y genedl, ac mai yr offeiriaid yn unig y pryd hwnw oedd yn gofyn degwm gan y bobl; ond nid yw yn gallu profi hyny ar seiliau cedyrn. Dywed yr apostol mai ffynnonell offeiriadaeth teulu Aaron oedd—nid eu teilyngdod personol, ond eu hachyddiaeth a'u disgyniad gwaedol o Lefi. Yn hyn yr oeddynt yn wahanol i Melchisedec, yr hwn yr oedd ei offeiriadaeth wedi ei gwreiddio yn ei deilyngdod personol ef ei hun; ac felly yr holl awdurdod a berthynai iddi, ac yn mhlith pethau ereill, ei hawl i gymmeryd degwm. Yr oedd hawl yr offeiriaid Lefiaidd i gymmeryd degwm yn seiliedig ar orchymyn yn ol y gyfraith. Yn rhinwedd y gorchymyn hwn, a'r gyfraith y perthynai iddi, ac nid yn rhinwedd eu teilyngdod personol, yr oeddynt hwy yn abl i gymmeryd degwm gan eu brodyr eu hunain, er eu bod fel hwythau wedi dyfod allan o lwynau Abraham. Yr oeddynt wedi eu dyrchafu a'u neilldŭo oddi wrth eu brodyr ar sail achyddiaeth. Yr oedd eu hawdurdod i gymmeryd degwm yn gorwedd ar orchymyn perthynol i'r gyfraith; a'r gorchymyn hwn drachefn yn gorwedd ar ordeiniad pen-arglwyddiaethol Duw i neilldŭo llwyth Lefi a theulu Aaron.

achau o honynt hwy, a gymmerodd ddegwm gan Abraham, ac a
[f]Gen. 12. 2, 13; Act. 3. 25; Gal. 3. 16. fendithiodd yr hwn [f]yr oedd yr addewidion iddo.

7 Ac yn ddiddadl, yr hwn *sydd* leiaf a fendithir gan ei well.

[g]Heb. 9. 27. 8 Ac yma [g]y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymeryd degymau: eithr yno *yr* hwn y
[h]Ioan 11. 25, 26. tystiolaethwyd am dano ei [h]fod ef yn fyw.

9 Ac (fel y dywedwyf felly)
[i]Gen. 14. 20. [i]yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm, yr hwn oedd yn cymeryd degymau.

10 O blegid yr ydoedd efe etto yn lwynau ei dad, pan gyfarfu Melchisedec âg ef.

11 Os ydoedd gan hyny berffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi (o blegid dan hono y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl) [k]pa raid *oedd* mwyach [l]godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron?
[k]Adn. 26-28. [l]Heb. 6. 20.

12 Canys wedi newidio yr offeiriadaeth, angenrhaid yw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd.

13 O blegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, efe a berthyn

---

6. *Eithr yr hwn, nid oedd ei achau o honynt hwy:*—sef, Melchisedec. Dyma un, heb orchymyn, na chyfraith, nac achau neilldiol, fel yr eiddynt hwy, yn rhinwedd ei fawredd personol a'i deilyngdod mewnol, yn cymmeryd degwm gan wreiddyn naturiol y bobl oedd yn rhoddi, a'r offeiriaid oedd yn derbyn degymau. *Ac a fendithiodd.*—Prawf a mynegiad arall o'i uchafiaeth ydyw, ddarfod iddo fendithio Abraham, yr hwn oedd ei hun yn wrthddrych addewidion Duw iddo, yn cynnwys ynddynt gyflawnder bendithion tymmhorol ac ysbrydol.

7. *Yr hwn sydd leiaf.*—Groeg: 'lai.' *A fendithir gan ei well.*—Gall y llai fendithio y mwy mewn rhai amgylchiadau; *h. y.*, yn yr ystyr o fendigo, fel y mae dyn yn bendithio yr Arglwydd: and yn yr ystyr o gyfranu, fel cyfrwng y fendith. i'r neb sydd yn ei derbyn y mae yr hwn sydd yn bendithio o angenrheidrwydd yn uwch ac yn fwy na'r hwn sydd yn derbyn. Fel hyn yr oedd Melchisedec, nid yn unig fel cysgod o Grist, yn uwch na'r gyfraith, ond yn uwch na'r addewid ei hun, yr hon a gynnwysai y fendith.

8. *Eithr yno, yr hwn y tystiolaethwyd am dano ei fod ef yn fyw.*—Nid adnabyddir Melchisedec ar faes hanesiaeth yn nhystiolaeth y Beibl, ond fel yn fyw, neu yn fwy eywir yn byw (*oti ze*). Yr oedd amgylchiadau ei farwolaeth yn ddirgeledig i'w gyfoeswyr, ac y mae yn guddiedig mewn hanes a chofrestriad i ninnau; ac yn hyn gwasanaethai i fod yn gysgod addas o anfarwoldeb a pharhâd tragwyddol Mab Duw.

9. *Ac (fel y dywedwyf felly).*—Arferir yr ymadrodd hwn, "fel y dywedwyf felly," i larieiddio a thyneru y dywediad canlynol, yr hwn sydd i syniadau cyffredin yn groesdybiol (*paradoxical*), *Yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm.*—Ar ol dangos uchafiaeth Melchisedec ar Abraham, yr hwn oedd wreiddyn yr offeiriadaeth Lefiaidd, y mae yn dyfod i ddangos ei uchafiaeth ar Lefi ei hun, ynghyd â'r offeiriadaeth yn uniongyrchol. Ac megys mai y prawf o uchafiaeth Melchisedec ar Abraham ydoedd ei fod wedi cymmeryd degwm ganddo, felly y mae yn dangos fod ystyr yn bod yn yr hwn y darfu i Lefi hefyd dalu degwm i Melchisedec; sef, yn Abraham: ac yna dengys pa fodd, trwy yr ymadrodd nesaf.

10. *O blegid yr ydoedd efe etto yn lwynau ei dad,* &c.—Dynoda yr ymadrodd, nid yn unig y cyssylltiad naturiol a bywydol sydd rhwng aelodau perthynol i'r un disgyniad teuluol; eithr gesyd allan y berthynas gyfammodol a chysgodol a sefydlwyd rhwng Abraham a'i had, yn enwedig yn eu perthynas â'r addewidion am y Messiah.

11. *Os ydoedd gan hyny berffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi.*—Ar ol profi uchafiaeth Melchisedec a'i offeiriadaeth ar offeiriadaeth Lefi, y mae yr awdwr yn myned rhagddo i brofi annigonolrwydd yr offeiriadaeth hono, oddi wrth y ffaith fod offeiriad arall yn cyfodi, yr hwn oedd i gael ei alw "yn offeiriad yn ol urdd Melchisedec," ac nid yn ol urdd Aaron. Yn awr, os oedd hyd yn oed y cysgod yn rhagori ar offeiriadaeth Aaron, pa faint mwy y rhaid fod y sylwedd yn rhagori arni? Wrth "berffeithrwydd," y mae i ni ddeall, yn yr adnod hon, yr hyn oll y mae y swydd offeiriadol wedi ei bwriadu a'i chyfaddasu i'w gyrhaedd. Y mae y gair yn cael ei ddefnyddio am sylweddoli, i'w orpheniad llwyraf, y cynllun neu yr *idea* a fyddo yn perthyn i beth. Yr ymresymiad gan hyny yw, Os oedd offeiriadaeth Lefi wedi llwyddo i gyrhaedd sylweddoliad cyflawn o ddrychfeddwl y swydd, pa angen oedd am yr un arall, gan fod gorpheniad yn cau allan chwanegiad? Dalier sylw, mai perffeithrwydd trwy yr offeiriadaeth a gynnwysir yn y geiriau, ac nid perffeithrwydd yr offeiriadaeth; ond y mae absennoldeb y cyntaf yn profi diffyg yr olaf. (*O blegid dan hono y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl*).—I ba ddyben y mae yr awdwr yn rhoddi yr ymadrodd hwn i fewn yn nghanol ei ymresymiad? Cyn ceisio atteb y cwestiwn hwn, dylem nodi fod y darlleniad yn ammherffaith. Yn lle "dan" dylid darllen 'ar'—'o blegid arni y rhoddwyd y bobl dan gyfraith.' Y meddwl, yn ddiau, ydyw, mai ar yr offeiriadaeth, fel sylfaen, y gosodwyd y bobl dan gyfraith. Yr oedd yr holl ddeddfwriaeth berthynol iddynt yn sylfaenedig ar ac yn gwasanaethu i amcanion mawrion yr offeiriadaeth; ac yr oedd cyssylltiad mor agos rhyngddynt a'u gilydd fel yr oedd newidiad ar y naill yn rhwym o ddwyn i mewn newidiad yn y llall. Dyben yr apostol gan hyny yn nodi y ffaith hon ydoedd, parotoi y darllenydd at y casgliad sydd yn *adn.* 12, ac awgrymu ar yr un pryd y ffaith fod y bobl wedi cael eu rhoddi dan gyfraith mewn cyssylltiad â ac yn orphwysedig ar yr offeiriadaeth, yn ddangosiad arno ei hun o ammherffeithrwydd. *Offeiriad arall.*—Groeg: *heteron*—yr hwn a arwydda, nid arall o ran nifer, ond arall o ran urdd.

12. *Canys wedi newidio yr offeiriadaeth, angenrhaid yw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd.*—Gan fod y gyfraith yn gorwedd ar yr offeiriadaeth, fel adeilad ar sylfaen, y mae symmudiad y sylfaen yn peri angenrhaid symmud yr adeilad hefyd. Y mae tynged y naill yn glymedig wrth dynged y llall.

i lwyth arall, o'r hwn nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor.

[m] Gen. 46. 12; Ruth 4. 18—22; Mat. 1. 3—16; Luc 3. 23—33; Rhuf. 1. 3.

14 Canys hysbys *yw* mai [m]o Iudah y cododd ein Harglwydd ni; am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tuag at offeiriadaeth.

15 Ac y mae yn eglurach o lawer etto; od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec Offeiriad arall yn codi,

16 Yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.

17 Canys tystiolaethu y mae, Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

18 Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i afles.

19 O blegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim, namyn dwyn

18. *O blegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn:*—sef, am Iesu Grist; am yr hwn y dywedir ei fod yn offeiriad yn ol urdd Melchisedec. Cynnwysir yma y prawf o fod yr offeiriadaeth wedi newid, ac felly y rhaid fod y gyfraith wedi ei newid gyda hi. *Efe a berthyn i lwyth arall.*—Hwn 'ydyw y prawf fod yr offeiriadaeth wedi newid. Y mae yr offeiriad hwn, yr hwn sydd wedi cyfodi ar ol Aaron a'i deulu, ac yn offeiriad yn ol urdd uwch na'r eiddo Aaron, yn perthyn i lwyth arall. Yn lle "perthyn," y darlleniad llythyrenol a fyddai, 'efe a gyfranogodd o lwyth arall.' Yn nghymmeriad y ddynoliaeth, gofalodd am gyfranogi o lwyth gwahanol, i ddangos ei fod yntau yn offeiriad arall neu gwahanol.

14. *Canys hysbys yw mai o Iudah y cododd ein Harglwydd ni.*—Cynnwysir yma y prawf-reswm dros yr ymadrodd "efe a berthyn i lwyth arall." Y prawf ydyw y ffaith hanesyddol mai o lwyth Iudah yr hanodd Crist. Y mae y ffaith hon yn hysbys. Arwydda y gair *prodêlon*, yr hyn sydd eglur o flaen y llygaid. Yr oedd hyn yn eglur, ac wedi ei drefnu felly gan Ragluniaeth ddwyfol trwy y trethiad a wnaed gan Augustus Cesar. Dywedir yma i'n Harglwydd ni gyfodi. Y mae y ferf a geir yma yn arwyddo yn fynych gyfodiad y cyrph nefol, yn enwedig yr haul. Barna rhai fod yr ysgrifenydd yn ei ddefnyddio gyda chyfeiriad at y prophwydoliaethau hyny sydd yn llefaru am ddyfodiad y Messiah trwy y ffugr hwn, megys Balaam, yn *Num.* xxiv. 17; *Esa.* lx. 1; *Mal.* iv. 2. Y mae yr un gair hefyd yn cael ei ddefnyddio am gyfodiad planhigion o'r ddaear; a chan y lleferir am y Messiah dan y gymmhariaeth o "Flaguryn" yn cyfodi, barna ereill mai hyn oedd yn meddwl yr ysgrifenydd. Nid oes dim yn anghysson i ni olygu fod y ddau fel yn ei feddwl pan yn defnyddio y gair. *Am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tuag at offeiriadaeth:*—neu, yn fwy llythyrenol, 'tuag at offeiriad.' Y mae y gosodiad yn y ffurf nacaol, i osod allan yn gryfach y gwaharddiad i neb o lwyth arall ymafiyd yn y swydd; yr hyn sydd yn dangos fod yn rhaid fod ein Harglwydd yn perthyn i offeiriadaeth arall.

15. *Ac y mae yn eglurach o lawer etto.*—Groeg: 'ac y mae yn helaethach eglur etto.' Arwydda y gair *catadêlon*, yr hyn sydd eglur—nid fel ffaith hanesyddol o flaen ein llygaid (*prodêlon*); ond yr hyn sydd eglur fel casgliad rhesymiadol oddi wrth, neu yn ol (*cata*) peth arall. *Od oes, yn ol cyffelybrwydd Melchisedec Offeiriad arall yn codi.*—Yr oedd y peth yn eglur o'r blaen; sef, newidiad yr offeiriadaeth a'r gyfraith, oddi wrth y rhan ddiweddaf o'r frawddeg; sef, "fod offeiriad arall yn codi." Yn awr, y mae yn eglurach o lawer etto, oddi wrth fod yr offeiriad hwnw yn un "yn ol cyffelybrwydd Melchisedec;" canys nid oedd cyfraith yn gyssylltiedig â'r offeiriadaeth hono. Offeiriadaeth bywyd, ac nid offeiriadaeth cyfraith ydoedd, fel y dangosa yn yr ymadrodd canlynol.

16. *Yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.*—Wrth "gyfraith gorchymyn cnawdol," y golyga rhai, yn ol trefn, neu reol, gorchymyn ag sydd yn seiliedig ar gnawd marwol; *h. y.*, y gorchymyn ag oedd yn trefnu i'r naill arch-offeiriad ddilyn y llall, fel yr oedd y naill a'r llall yn newid yn olynol. Ereill a ddeallant y gair "cyfraith" fel yn cyfeirio at y gyfraith, yn yr un ystyr ag y defnyddir y gair yn *adn.* 11, 12. Gelwid hi yn "gyfraith gorchymyn cnawdol," am y perthynai "y gorchymyn cnawdol," ar yr hwn yr oedd yr offeiriadaeth yn seiliedig, iddi hi fel cyfundraeth. Y mae yn amlwg fod yr apostol yma yn cyferbynu ac yn gwrthgyferbynu tri gair ar gyfer tri arall—

Cyfraith, Gorchymyn, Cnawdol,
Nerth, Bywyd, Annherfynol.

Gorchymyn allanol (*entoles*) oedd gwreiddyn offeiriadaeth Aaron, yr hwn orchymyn ydoedd yn "gnawdol;" *h.y.*, yr oedd yn dwyn perthynas â chnawd, yr hwn sydd farwol, ac am hyny yr oedd marwoldeb y cnawd yn glynu wrtho; ac o ganlyniad nis gallai fod yn annherfynol—yr hyn a barai hefyd fod yr offeiriadaeth yn derfynol. Ond bywyd oedd gwreiddyn offeiriadaeth Crist yn ol cyffelybrwydd un Melchisedec, a hwnw yn fywyd annherfynol, am nad oedd yn fywyd cnawdol. Bywyd Person dwyfol ydoedd; yr hwn, er ei fod mewn undeb â chnawd, oedd ar yr un pryd yn cadw yn ei feddiant ei fywyd priodol ei hun. Gelwir ef yn annattodol (*acatalutos*) am nad yw yn gnawdol. Gellir dattod y cnawdol, am ei fod yn gyfansawdd: nis gellir dattod yr ysbrydol a'r dwyfol, am ei fod yn anghyfansawdd. Drachefn, yr oedd y gorchymyn cnawdol ar yr hwn yr oedd offeiriadaeth Aaron yn seiliedig yn cael ei ddadblygu yn a thrwy y ffurf o gyfraith neu ddeddf allanol; ond y mae offeiriadaeth Crist—sef, y bywyd annherfynol—yn cael ei weithio allan mewn nerth (*dunamis*) mewnol yn y bywyd ei hun.

17. *Canys tystiolaethu y mae:*—neu, yn fwy cywir, 'tystiolaethir am dano.' *Offeiriad wyt ti yn dragywydd.*—Hwn ydyw y prawf ei fod yn offeiriad "yn ol nerth bywyd annherfynol." Y mae yr "annherfynol" yn gorwedd yn yr ymadrodd "yn dragywydd:" y mae y "bywyd" yn gorwedd yn yr enw "Melchisedec," yr hwn y tystiolaethwyd am dano ei fod yn fyw: ac y mae y "nerth" yn gorwedd yn y gair "urdd," neu drefn. Trefn dadblygiad y bywyd ydyw nerth mewnol, ac nid cyfraith allanol.

18, 19. *Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen.*—Yn yr ymadrodd, "Ti wyt Offeiriad yn dragywydd yn ol

gobaith gwell i mewn *a berffeithiodd;* trwy yr hwn [a]yr ydym yn nesau at Dduw.

[a] Salm 73. 28; Ioan 14. 6.

20 Ac yn gymmaint nad heb lŵ *y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad:*

21 (Canys y rhai hyny yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lŵ: ond hwn trwy lŵ, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Ti *sydd* Offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec)

22 Ar destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu [o]yn Fachnïydd.

[o] Gen. 43. 9; Diar. 6. 1.

23 A'r rhai hyny yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid, o herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau:

urdd Melchisedec," cynnwysir dirymiad i'r gyfraith ar y naill law, ac arweiniad i mewn obaith gwell ar y llaw arall. Y mae'ystyr mewnol yr ymadrodd yn golygu fod un offeiriadaeth yn cael ei symmud o'i lle, ac offeiriadaeth arall yn dyfod i mewn yn lle hono; sef, offeiriadaeth Melchisedec, yn lle offeiriadaeth Aaron. A chan fod yr awdwr wedi profi fod newidiad yr offeiriadaeth yn peri angenrheidrwydd cyfnewid y gyfraith hefyd, y mae yr ymadrodd hwn yn rhinweddol yn golygu dirymiad y gyfraith ar un llaw, a dyfodiad gobaith gwell i mewn ar y llaw arall. Y mae ein cyfleithiad ni o *adn.* 18, 19 yn dra anystwyth, ac yn colli golwg hollol ar y gwrthgyferbyniad amlwg sydd rhwng dirymiad y gyfraith ar un tu, ac arweiniad y gobaith gwell i mewn ar y llall. Dylai y geiriau, *O blegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim,* fod yn gromfachol:—fel hyn: 'Canys ar un llaw, y mae yma ddirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i afles (o blegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim); ond ar y llaw arall, y mae yma arweiniad i mewn 'obaith gwell, trwy yr hwn yr ydym yn nesau at Dduw." Wrth y gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, y mae i ni ddeall yr un a'r hwn y cyfeirir ato yn *adn.* 16. Am ei fod yn orchymyn cnawdol, y mae yn wan, ac yn ei wendid yn aflesol. Y prawf o hyn ydyw, na "pherffeithiodd y gyfraith ddim;" yr hwn brawf a ddodir mewn cromfachau, am ei fod yn dyfod i mewn fel rheswm cynnorthwyol. "Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim;" sef, cyfraith Moses. Ni ddarfu iddo sylweddoli un o'r drychfeddyliau mawrion perthynol iddi. Eu portreadu, yn hytrach na'u sylweddoli, a ddarfu iddi; yr hyn sydd yn brawf o wendid ac afles y gorchymyn allanol, ar yr hwn yr oedd yr offeiriadaeth yn sylfaenedig, i'r hwn y priodolir y drychfeddwl o "ddeddf" yn *adn.* 16; neu, fel y cyfleithir ef yno "cyfraith." Wrth y "gobaith gwell," yr hwn a ddygir i mewn, y mae i ni ddeall, offeiriadaeth Crist yn ei ffrwyth a'i heffeithiolrwydd; sef, rhoddi gobaith nesâd at Dduw i'r rhai oll a gredant ynddo. Trwy ei offeiriadaeth ef, fe arweiniwyd i mewn y gobaith hwn i fynwes credinwyr, yr hwn dan y gyfraith, yn offeiriadaeth Aaron, nid oedd ond yn cael ei bortreadu yn wanaidd. Ac yn wir, mewn un golwg, yr oedd mynediad yr archoffeiriad gynt i'r cyssegr yn cau allan obaith y genedl eu hunain, gan ei fod ef yn myned yno drostynt, fel ag i'w hattal hwy rhag myned; ond fe aeth Crist, ein Harchoffeiriad ni, i mewn drosom, fel ag i'n rhagflaenu, ac agor y ffordd i ninnau fyned yno hefyd. Y mae yr ymadrodd *nesau at Dduw* yn cynnwys y ffurf arferol i ddynodi mynediad yr archoffeiriad i'r cyssegr. Gwelir fod y geiriau *a berffeithiodd,* yn *adn.* 19, mewn llythyrenau Italaidd; ac felly nid ydynt yn y gwreiddiol. Esboniad y cyfleithwyr ydynt. Ond y mae llawer o ddarllenwyr Cymreig yn camddeall yr esboniad hwn. Nid meddwl yr esboniad hwn ydyw fod y gyfraith wedi perffeithio dwyn gobaith gwell i mewn; ond fod dwyn y gobaith gwell i mewn wedi perffeithio. Yr un modd a'n cyfeiithiad ni y deallir yr ymadrodd gan Dr. Owen. Y mae ereill yn darllen, 'ond dwyn gobaith gwell i mewn ydoedd y gyfraith.' Ond y mae y beirniaid mwyaf dysgedig yn cyttuno i dderbyn yr un a roddasom yn gyntaf.

20. *Ac yn gymmaint nad heb lŵ y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad.*—Dylid darllen yr ymadrodd "yn gymmaint," yn *adn.* 20, mewn gwrthgyferbyniad pwysleisiol â'r ymadrodd "o hyny," yn *adn.* 22. Amcan *adn.* 20—22, ydyw dangos rhagoriaeth chwanegol yn offeiriadaeth Crist; sef, ei fod ef wedi ei wneuthur yn offeiriad trwy lŵ. Ar ol dangos ei fod ef o ran ei berson yn rhagori fel offeiriad, a'i fod wedi ei wneuthur yn y swydd, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, ond yn ol nerth bywyd annherfynol, y mae yn myned rhagddo i ddangos fod natur a nodwedd ei osodiad gan Dduw, yn gystal a rheswm ei osodiad, yn dangos ei ragoriaeth. Nid gosodiad gorchymyn ydyw, ond gosodiad llŵ; yr hyn sydd yn profi ei fod wedi ei wneuthur yn Fachnïydd cyfammod gwell.

22. *Ar destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd:*—neu, yn fwy llythyrenol, 'o hyny fe wnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd cyfammod gwell.' Y mae ei fod wedi ei osod yn ei swydd offeiriadol trwy lŵ, yn profi ei fod o hyny yn Fachnïydd cyfammod gwell na'r cyfammod hwnw ag yr oedd Aaron a'i feibion yn fachnïon o hono. Hon ydyw yr unig enghraifft o fod Iesu Grist yn cael ei alw wrth yr enw "Machnïydd," er fod y peth a osodir allan yn yr enw yn cael ei gyfrif iddo yn fynych iawn yn yr Ysgrythyrau. Fel Machnïydd, y mae yn perthyn i gyfammod. Gelwir ef yn Fachnïydd y cyfammod gwell, fel y gelwir ef hefyd, yn *pen.* ix. 15, yn Gyfryngwr y cyfammod newydd. Fel Machnïydd y cyfammod gwell, y mae yn sefyll dros ei bobl, ac yn machnïo drostynt. Nid Machnïydd i ni dros Dduw, ond Machnïydd drosom ni at Dduw ydyw. Mae yr hwn y machnïir drosto yn cael ei dybied fel yn ffaeledig i gyflawni yr hyn a ddisgwylid oddi wrtho; yr hyn nis gellir ei briodoli i Dduw. Ar y llaw arall, yr ydym ni yn ffaeledig ac yn analluog i ddyfod i fyny â gofynion Duw arnom. Ac am hyny y mae Crist fel archoffeiriad y cyfammod gwell yn Fachnïydd drosom. Yr oedd felly yn ei angeu yn haeddiannol pan ar y ddaear, ac y mae felly yn weithredol yn y nefoedd.

23. *Llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid.*—Dyma ragoriaeth arall yn offeiriadaeth Crist. Dan y gyfraith, yr oedd yn rhaid cael llawer; hyny yw, olyniad parhaus. *O herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau:—h. y.,*

[p] Esa. 9. 6,7; Ioan 12. 34; Rhuf. 6. 9.
[q] Esa. 63. 1; Ioan 6. 37—40;
[r] Eph. 3. 20; Iudas 24.
[s] Esa 53. 12; Dan. 9. 24; Ioan 14. 13, 16; Rhuf 8. 34.
[t] Heb. 9. 23—26.
[u] Esa. 53. 9; Luc 1. 35;

24 Ond hwn, am [p]ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd âg [q]offeiriadaeth dragwyddol ganddo.
25 Am hyny [q]efe a ddichon [r]hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at [s]Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser [t]i eiriol drostynt hwy.
26 Canys [u]y cyfryw Archoffeiriad [t]sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid,

Ioan 3. 35; Ioan 8. 29; Act. 3. 14; 1 Pedr 1. 19.

yn y swydd. Y mae yn rhaid i'r swydd offeiriadol gael bywyd i drigo ynddo; ond yr oedd y bywyd hwnw yn gnawdol a marwol, ac am hyny yr oedd yr offeiriadaeth yn cyfnewid o ran ei gwrthddrychau.

24. *Ond hwn*:—sef, Crist. *Am ei fod yn aros yn dragywydd*:—gan gyfeirio at yr ymadrodd, "Ti wyt Offeiriad yn dragywydd." *Sydd âg offeiriadaeth dragwyddol ganddo.*—Ymyl y ddalen, "anllithredig." Groeg: *aparabaton.* Oddi wrth yr esamplau yn Bleek, ystyr cyffredin y gair, dybygid, ydyw 'anghyfnewidiol.'

25. *Am hyny*:—sef, am fod ganddo offeiriadaeth sefydlog a digyfnewid. *Efe a ddichon yn gwbl iachau*:—neu, "achub hyd yr eithaf;" neu achub yn gwbl, neu yn gyflawn. Nid parhâd, ond cyflawnder a ddynodir yn y geiriau *eis to panteles*, fel y dengys Bleek yn dra eglur a boddhaol. *Gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.*—Ei fywyd gogoneddus o eiriolaeth yn y nefoedd ydyw achos a grym ei allu i achub yn weithredol, fel mai ei angeu ydyw achos haeddiannol ein iachawdwriaeth. Ni ddywedir "am ei fod yn fyw," ond am ei fod yn byw. Y mae gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall. Pan ddywedir fod un yn fyw, yr hyn a olygir ydyw ei fod yn feddiannol ar yr egwyddor o fywyd; ond pan ddywedir fod un yn byw, golyga chwaneg; sef, ei fod yn dadblygu ac yn gweithio allan y bywyd i gyflawni ei amcanion priodol ac eithaf.

26. *Canys y cyfryw Archoffeiriad*:—*h.y.*, ag a ddisgrifiwyd uchod. Y mae y gair "cyfryw" i'w ddeall yn adolygiadol, ac nid yn rhagolygiadol. Hyd yr adnod hon y mae yr awdwr yn y bennod hon wedi bod yn cyferbynu Crist â Melchisedec fel offeiriad; ond yn awr â yn mlaen i'w wrthgyferbynu âg Aaron fel archoffeiriad. Nid ydyw yn defnyddio y gair "archoffeiriad" yn y rhanau blaenorol o'r bennod, ond offeiriad. Yr oedd Melchisedec yn gysgod o Grist fel offeiriad brenhinol, yn ei ddyrchafiad a'i awdurdod; ond yr oedd Aaron yn gysgod arbenig o hono fel offeiriad yn aberthu ei hun ar y ddaear, yn gystal ag yn cyflwyno ei aberth yn y sancteiddiolaf yn y nefoedd. Yn y rhanau blaenorol o'r bennod, dangosir rhagoriaeth Crist fel offeiriad ar Aaron, yn gymmaint a'i fod o urdd uwch; sef, yn ol urdd Melchisedec. Fel y cyfryw y mae yn offeiriad-brenhinol, ac yn dadblygu ei swydd a'r gwaith perthynol iddi yn ol nerth bywyd annherfynol, gan fyw bob amser i eiriol dros ei bobl. Yn y rhan olaf yma o'r bennod, y mae yn dangos ei ragoriaeth ar Aaron yn yr hyn yr oedd Aaron a'i offeiriadaeth yn gysgod mewn modd arbenig o hono; sef, yn y gwaith o aberthu. Yn nechreu yr adnod hon, dengys fod yr offeiriad yn archoffeiriad, ac mai y cyfryw un ag oedd wedi ei ddarlunio o'r blaen fel offeiriad oedd yn weddus un ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni;

27 Yr hwn nid yw raid iddo [u]beunydd, megys i'r offeiriaid hyny, offrymu aberthau [x]yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, [y]ac [z]hyna dros yr eiddo y bobl: canys offrymodd efe ef ei hun.
28 Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt yn archoffeiriaid; eithr

[x] Exod. 29. 36—42; Num. 20. 2—10.
[y] Lef. 4. 3, &c.
[z] Lef. 4. 13—16; 9. 15.
[a] Esa 53. 10—12; Rhuf. 6. 10; Eph. 5. 2, 25; Titus 2. 14.

i fod yn archoffeiriad i roddi ei hun yn aberth drosom. *Sanctaidd.*—Dynoda y gair hwn, yn ol ei ystyr mwyaf manwl, iawn deimlad ac ymddygiad un at Dduw. *Diddrwg.*—Arwydda absenoldeb tuedd at ac ymarferiad â phob pechod, fel y mae yn niwed i un ei hun, ac i ereill. *Dihalog.*—Rhydd oddi wrth bob drygioni trwy ddylanwad a chyffyrddiad âg ereill. *Didoledig oddi urth bechaduriaid*:—neu gwahanedig; *h.y.*, wedi ei wahanu oddi wrth, a'i ddyrchafu uwch law pob cyffyrddiad a chymdeithas â phechaduriaid trwy ogoneddiad ei natur ddynol yn nyrchafiad ei berson i eistedd ar ddeheulaw Duw. Fel hyn, Grotius, Bengel, Tholuck, Bleek, De Wette, Delitzsch. *Ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd.*—Yr ochr gadarnhaol i'w ddyrchafiad, i gyfatteb i'r ochr nacaol yn yr ymadrodd blaenorol. Dywedir iddo gael ei "wneuthur," neu ddyfod, "yn uwch na'r nefoedd." Fel Person Dwyfol, yr oedd yn uwch na hwynt erioed; fel archoffeiriad, daeth, neu gwnaethpwyd ef yn uwch na hwynt trwy ei aberthu ei hun.

27. *Yr hwn nid yw raid iddo beunydd.*—Cyfeirir yma, nid at ddydd y cymmod yn fwyaf arbenig, ond at yr offrymau beunyddiol a wnaethid gan yr offeiriaid (gwel *Exod.* xxix. 38—42, a *Num.* xxvii. 3—8), y rhai y lleferir am danynt fel yn cael eu hoffrymu gan yr archoffeiriaid, er nad oeddynt hwy yn cymmeryd rhan ynddynt, oddi gerth ar ddyddiau gŵyl; ond cyssylltir yr archoffeiriaid â hwy, am eu bod yn cynnrychioli yr holl offeiriadaeth. *Offrymu aberthau yn gyntaf dros ei bechodau ei hun.*—Gwel ar *pen.* ix. 7. *Canys hyny a wnaeth efe.*—Pa beth a wnaeth? A ydym i ddeall ei fod ef wedi offrymu aberth dros ei bechodau ei hun? Nac ydym wrth reswm: ond gwnaeth yn sylweddol yr hyn oll a wnai yr offeiriaid gynt yn gysgodol. Fe wnaeth yr hyn oedd yn cyfatteb i'r cyfan, fel yr oedd yn ei ragddangos ef ei hun.

28. *Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt yn archoffeiriaid.*—Cynnwysir yma y rheswm pa ham yr oedd yn rhaid iddynt hwy offrymu lawer gwaith, a pha ham nad oedd raid iddo ef offrymu ei hun ond un waith. Y mae yr aneffeithiolrwydd ar un llaw, a'r effeithiolrwydd ar y llaw arall, i'w briodoli i'r gwahaniaeth rhwng yr offeiriaid, ac i'r gwahaniaeth sydd yn eu gosodiad. Yn gyntaf, "dynion â gwendid ganddynt" yw yr offeiriaid yn y naill; ond Mab Duw, heb ddim gwendid nac ammheffeithrwydd yn bossibl iddo, a Mab Duw wedi ei berffeithio yn dragywydd hefyd trwy ddioddefiadau, ydyw yr offeiriad ar y tu arall. Yn ail, y gyfraith, trwy orchymyn allanol, a osododd y naill; ond "gair y llŵ, yr hwn a fu wedi y gyfraith," a osododd y llall. Dywedir fod gair y llŵ "wedi y gyfraith," i ddangos mai hwn ydyw

gair y llŵ, yr hwn a fu wedi y
[a] Heb. 4. 14; 5. 5, 8; [b] Adn. 21. 24. gyfraith, [a] *sydd yn gwneuthur* y Mab, [b] yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

PENNOD VIII.

1 *Offeiriadaeth Aaron a ddiflanodd, pan ddaeth Crist yr Offeiriad tragwyddol: 7 a'r ammod a wnaed â'r tadau dros amser a roddes le i gyfammod tragywyddol yr efengyl.*

B. A. 63. — [a] Heb. 7. 26 —28, A PHEN ar y pethau a ddywedwyd *yw hyn:* [a] Y mae genym y fath Archoffeiriad, yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw

y gosodiad diweddaf; a chan fod diweddaf Duw yn wastad yn rhagori ar ei gyntaf, gan nad oes ammherffeithrwydd ynddo ef, fel mewn dynion, y mae yn profi rhagoriaeth y gosodiad, fel y cyfryw, ar osodiad yr offeiriaid gynt.

Pennod viii.

1. *A phen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn.*—Gellir cyfieithu y gair a ddarllenir uchod yn "pen" (Groeg: *cephalaion*), naill ai 'y prif beth,' neu ynte 'swm.' Y mae y ferf, neu yn hytrach fel y mae yn y gwreiddiol, y rhan-gymeriad, yn yr amser presennol, "a ddywedir," neu "sydd yn cael eu dywedyd." Gall felly gyfeirio naill ai at yr hyn sydd eisoes wedi, neu at yr hyn sydd yn fwyaf tebygol, at y naill a'r llall: ac os felly, y mae yn naturiol i ni ddarllen, yn hytrach na 'prif beth,' 'swm;' neu fel y mae yn ein cyfieithiad ni, "a phen," gan olygu y gwirionedd mawr ag sydd yn cael ei osod i lawr yn y rhan ddiweddaf o'r adnod, fel maen-clo yr holl epistol. Fel y mae y maen-clo yn cael ei osod ar ben y bŵa i gynnal y naill ochr a'r llall, felly hefyd y mae yr ysgrifenydd yn cyfleu y gwirionedd mawr hwn yn nghanol ei epistol, i arwyddo mai hwn ydyw y gwirionedd sydd yn cyssylltu ac yn cynnal ei holl wirioneddau â'u gilydd. *Y mae genym y fath Archoffeiriad.*—Pwyslais ar "y fath." Yn y rhanau dilynol, eglurir pa fath—(1.) *Yr hwn a eisteddodd* (2.) *ar ddeheulaw gorseddfaingc y Mawredd* (3.) *yn y nefoedd.*—Yn y pethau hyn oll, y mae yn fath uwch a rhagorach na'r archoffeiriaid Iuddewig gynt. Ni ddarfu iddynt hwy eistedd yn y cyssegr sancteiddiolaf. Buasai hyny yn achos angeu iddo ef; ond darfu i'r Arglwydd Iesu eistedd. Gwel *pen.* x. 11, 12. Drachefn, nid oeddynt hwy ond yn sefyll o flaen yr orseddfaingc, i wasanaethu; ond dyma un a eisteddodd ar y ddeheulaw, fel Brenin ar ei orsedd briodol ei hun: a thrachefn, eisteddodd "yn y nefoedd;" nid yn y cysgod o'r nefoedd oedd yn y tabernacl a wnaeth Moses, ond yn y sylwedd ei hun.

2. *Yn Weinidog y gyssegrfa, a'r gwir dabernacl.*—Y mae y gair *leitourgos*, a gyfieithir yma "gweinidog," yn arwyddo yn briodol un yn gwasanaethu mewn pethau sanctaidd; a chyfeiria yn arbenig at wasanaeth offeiriadol. Cawn ef eto yn *adn.* 6. Y mae Iesu Grist yn y nefoedd, nid yn unig yn y swydd, ond y mae yn parhau i gyflawni gwaith a gwasanaeth y swydd. Y mae y ddau air, "cyssegrfa," a'r "gwir dabernacl," yn cyfeirio at y ddau gyssegr yn y tabernacl gynt:—y cyntaf at y sancteiddiolaf, a'r ail at y sanctaidd; ac er nad ydyw y gair "gwir" yn cael ei gyssylltu yn ffurfiol ond â'r ail, y mae yn ddiau ei fod yn meddwl yr ysgrifenydd. Fe allai mai y rheswm pa ham y cyssylltir ef yn fwy ffurfiol â'r gair "tabernacl" ydyw, i ddangos mewn modd mwy arbenig o hyny fod yn perthyn i Iesu Grist fel archoffeiriad mawr ein cyffes ni, gyssegr sanctaidd, yn gystal a sancteiddiolaf, a'i fod wedi myned trwy hwnw i'r sancteiddiolaf, ac nad aeth yn uniongyrchol i'r cyssegr sancteiddiolaf. Ystyr y gair "gwir," yn yr adnod hon, ydyw yr hyn sydd yn cyfatteb i'w ddrychfeddwl. Buasai y gair "gwirioneddol" yn fwy cyfaddas i'w ddefnyddio. Y gwrthgyferbyniol i'r gau ydyw y gwir; ond y gwrthgyferbyniol i'r cysgodol ydyw y gwirioneddol. Am ystyr athrawiaethol yr ymadroddion hyn, gwel ar *pen.* ix. 10—12.

3. *Canys pob archoffeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau.*—Cynnwysa yr adnod hon y rheswm a'r prawf fod Iesu Grist, fel archoffeiriad yn y nefoedd, yn gwasanaethu fel y cyfryw yno. Y mae y prawf wedi ei gymmeryd oddi wrth y cysgod. Ymresymiad oddi wrth y cysgod at y sylwedd, oddi wrth y darlun neu y portread at y gwrthddrych, ydyw. Gan fod yr archoffeiriad cysgodol, yn ol gosodiad dwyfol, yn offrymu yn y cyssegr sancteiddiolaf, y mae hyny arno ei hun yn profi fod y sylwedd yn gwneuthur yr un modd yn y nefoedd. Gwelir mai nid at y weithred o aberthu y cyfeirir yma, yr hon weithred a gyflawnid y tu allan i'r cyssegr; ond at offrymiad neu gyflwyniad gwaed yr aberth ar ol hyny yn y cyssegr sancteiddiolaf. *O herwydd pa ham rhaid oedd bod gan hwn hefyd.*—Megys yr oedd yn rhaid bod gan yr archoffeiriaid gynt yr hyn a offryment; sef, gwaed yr aberth eisoes wedi ei ladd y tu allan i'r cyssegr, i'w daenellu ar ac o flaen y drugareddfa yn y cyssegr, felly rhaid oedd bod gan hwn hefyd.

4. *Canys yn wir pe bae efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith.*—Y mae yr adnod hon etto yn rheswm i brofi pa ham yr oedd yn rhaid iddo offrymu yr hyn yr oedd yn rhaid ei fod ganddo i'w offrymu, nid ar y ddaear ond yn y nefoedd. Canys pe bae efe ar y ddaear ni byddai yn offeiriad chwaith. Nid oes eisieu neb i gyflwyno gwaed yr aberth ar y ddaear. Y mae rhai ag sydd yn gwneuthur hyny i'r graddau eithaf ag y mae angen am ei wneuthur ar y ddaear; hyny yw, yn gysgodol yn unig. Y maent yn llanw lle eu hoffeiriadaeth eu hunain, ac am hyny nis gall neb arall lanw eu lle hwynt. Y mae Bleek yn

5 Y rhai sydd yn gwasanaethu i siampl a chysgod y pethau nefol, megys y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell. Canys, [b] Gwel (medd efe) ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portread [a] ddangoswyd i ti yn y mynydd.

[b] Exod. 25. 40; Num. 8. 4; Act. 7. 44. [c] 2 Cor. 3. 6—11.

6 Ond yn awr efe [c] a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymmaint ag y mae [d] yn Gyfrynghwr cyfammod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.

[d] Gal. 3, 19 20.

7 O blegid yn wir pe buasai y cyntaf hwnw yn ddifeius, ni cheisiasid lle i'r ail.

8 Canys yn beio arnynt hwy y dywed *efe*, Wele, y mae y dyddiau barnu fod gwrthgyferbyniad rhwng offeiriad ac archoffeiriad yn cael ei olygu yma. Nid yn unig ni byddai yn archoffeiriad, ond ni byddai hyd yn oed yn offeiriad chwaith. Hon ydyw adnod fawr y Sosiniaid i amddiffyn eu golygiad, nad oedd Crist yn archoffeiriad pan yr oedd yn y byd yn ystod ei ddarostyngiad, ac mai yn y nefoedd, yn ystod ei ddyrchafiad, y dechreuodd ar waith ei swydd offeiriadol; ond yr ydym wedi dangos mai mater yr apostol yn y rhanau hyn ydyw y rhan hwnw o waith yr archoffeiriad, yr hwn a gyflawnai yn y cyssegr, a'i amcan ydyw profi fod Crist yn archoffeiriad, ac yn cyflawni gwaith y swydd yn y nefoedd, ac nad oedd wedi peidio a'i gyflawni ar ol gadael y ddaear; ac yn wir mai ar y ddaear y cafodd "yr hyn a offrymai" yn y nefoedd: *adn.* 3. Gellir gwrthddadleu, gan fod Crist wedi rhoddi ei hun yn aberth ar y ddaear fel archoffeiriad, a hyny er a phan yr ydoedd yr offeiriaid gynt yn aberthu yn gysgodol ar y ddaear hefyd, pa rym sydd yn yr ymresymiad? Yr atteb ydyw, fod yr aberth yn cael ei ladd y tu allan i'r cyssegr. Yn y cyssegr yr oedd y gwaedlyn cael ei offrymu a'i gyflwyno. Nid oedd dim pwysigrwydd lleol gyda golwg ar yr aberth; *h.y.*, nid oedd raid iddo fod yn, eithr y tu allan i'r cyssegr; ond yr oedd cyflwyniad y gwaed i gael ei wneuthur yn y cyssegr. Yr oedd yn rhaid i'r archoffeiriad fyned trwy y sanctaidd i'r sancteiddiolaf i'w daenellu ar ac o flaen y drugareddfa.

5. *Siampl a chysgod.*—Y mae y gair cyntaf, a gyfleithir yma yn "siampl," yn arwyddo ardddangosiad awgrymiadol. Arwydda y ferf dangos un peth o dan beth arall. Cyfeiria, yn ei ystyr yn y lle hwn, at yr awgrymiadau oedd yn ngwasanaeth y cyssegr gynt at wirioneddau yr efengyl, tra y mae y gair "cysgod" yn fwy cyfaddas i ddynodi y dirgelwch cuddiedig oedd ynddynt. Fel y mae darluniau naturiol yn gyfansoddedig o oleuni a chysgod (*lights and shadows*), felly yr oedd y portreadau seremonïol hyn yn dangos ac yn cuddio, yn goleuo ac yn cysgodi ar yr un pryd wirioneddau mawr yr efengyl. *Y pethau nefol.*—Y pethau sylweddol sydd yn awr yn cael eu dwyn yn mlaen gan y gwir archoffeiriad yn y gwir gyssegr. *Megys y rhybuddiwyd Moses.*—Y maent yn gwasanaethu i siampl a chysgod y pethau nefol, megys, neu yn unol âg ystyr ac amcan yr ordeiniad oraclaidd a roddes Duw i Moses. *Yn ol y portread.*—Hwn ydyw y gair sydd yn profi mai i "siampl a chysgod y pethau nefol" yr oeddynt hwy yn gwasanaethu. Yr oedd Moses yn cael gorchymyn i wneuthur y tabernacl gynt i gyfatteb, neu i fod "yn ol" portread a gafodd yn y mynydd. Y mae esbonwyr yn amrywio ynghylch ystyr yr ymadrodd. Barna rhai mai y meddwl ydyw, fod Moses wedi cael gynt yr hyn a gafodd Stephan ar ol hyny; sef, gweled "y nef yn agored" [felly *Delitzsch*]; ond sylwedd, ac nid portread, fuasai hyny. Ereill a farnant iddo gael gweled y nef, nid mewn ystâd effro, ond yn ddarluniadol, mewn gweledigaeth. Ereill a farnant drachefn mai cynllun (*model*) wedi ei wneuthur trwy drefniad angylion oedd. Ac os felly, nid ydoedd y tabernacl gynt, fel y sylwa Bleek, ond copi o gopi.

6. *Ond yn awr.*—Dynoda "yn awr," nid amser yn y lle hwn, ond ymresymiad. *Efe:*— sef, Crist. *A gafodd weinidogaeth mwy rhagorol:*—*h.y.*, na'r offeiriaid gynt. Arwydda y gair gwasanaeth fel offeiriad. *O gymmaint ag y mae yn Gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.*—Cawn yma ddisgrifiad cryf o raddau y rhagoriaeth. Y mae yma bedwar gair i osod allan yr hyn a berthynai i, ac oedd yn gyssylltiedig â'r swydd offeiriadol; sef, (1.) "Gweinidogaeth" neu wasanaeth uniongyrchol ac allanol y swydd. (2.) "Cyfryngdod." Yr oedd yr archoffeiriad yn gyfryngwr rhwng Duw a'r genedl. (3.) "Cyfammod." Yr oedd cyfryngdod yr offeiriad yn seiliedig ar gyfammod a wnaethai Duw â'r genedl. (4.) "Addewidion," ar y rhai yr oedd y cyfammod wedi ei seilio. Cawn felly weinidogaeth yn seiliedig ar gyfryngdod, cyfryngdod ar gyfammod, a chyfammod ar addewidion. Gwirioneedd yr adnod hon ydyw, fod Crist yn rhagori yn y pethau hyn i gyd. Y mae ganddo weinidogaeth fwy rhagorol, a hyny am ei fod, "yn gyfryngwr cyfammodlgwell, wedi ei osod ar addewidion gwell."

7. *O blegid yn wir pe buasai y cyntaf hwnw yn ddifeius, ni cheisiasid lle i'r ail.*—Wrth y "cyntaf hwnw," y mae i ni olygu y cyfammod a wnaeth Duw â'r genedl Iuddewig. Nid ydym i olygu yr awdwr fel yn priodoli beiusrwydd moesol i'r cyfammod hwnw, ond beiusrwydd goruchwyliaeth. Aneffeithiolrwydd y cyfammod hwnw i ddyrchafu y genedl yn foesol ac ysbrydol ydoedd ei fai goruchwyliaethol. Y prawf a ddygir yn mlaen o'r beiusrwydd hwn ydyw y ffaith fod Duw yn "ceisio lle i'r ail." Pe buasai y cyfammod cyntaf hwnw yn atteb y dyben o ddyrchafu ac achub y genedl, ni buasai Duw yn ceisio lle i un arall, gan na buasai angen am un arall. Ond y mae ei fod yn ceisio lle i un arall yn profi fod y cyntaf yn aneffeithiol, ond yn unig i atteb ei ddybenion priodol ei hun, fel parotoad a rhagarweiniad i'r ail. Y mae Bleek yn barnu mai "lle" i ysgrifenu y gyfraith yn y galon a feddylir yma.

8. *Canys yn beio arnynt hwy y dywed efe.*—Gellir darllen yn wahanol; sef, "canys gan feio" (sef ar y cyfammod), "efe a ddywed wrthynt hwy." Fel hyn y gwna Grotius, Bleek, De Wette, Lunemann, ac ereill. Y mae yr ymadrodd ynlcynnwys y prawf fod Duw yn ceisio lle i'r ail. Y mae y dyfyniad yn profi hyn yn amlwg, pa un bynag a olygwn ni, ai fod Duw yn beio ar y genedl, ai ynte ar y cyfammod. Ac yn wir, y mae y ddau hyn yn agos gyssylltiedig â'u gilydd. Os golygwn ei fod yn beio ar y genedl, y mae

[a] Mat. 26. 28; Marc. 14. 24.
[b] Exod. 24. 3 11; Deut. 5. 2, 3; Gal. 3. 15—19.
[c] Ezec. 32. 8; Deut. 29. 25; 2 Bren. 17. 15—18; Ier. 31. 32.
[d] Barn. 10. 13, 14.
[e] Exod. 24. 4, 7; Deut. 30. 6; Ier. 31. 33; 2 Cor. 3. 3, 7, 8.
[f] Gen. 17. 7, 8; Ier. 24. 7; Ezec. 37. 23; Zech. 13. 9; Mat. 22. 32.

yn dyfod (medd yr Arglwydd) ac mi a wnaf [a] â thŷ Israel ac â thŷ Iudah gyfammod newydd:

9 Nid fel y cyfammod a wnaethum â'u tadau hwynt, [f] yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aipht: o bleg- id [g] ni thrigasant hwy yn fy nghyf- ammod i, minnau [h] a'u hesgeulus- ais hwythau, medd yr Arglwydd.

10 Ó blegid hwn *yw* y cyfam- mod a ammodaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Ar- glwydd; [i] Myfi a ddodaf fy nghyf- reithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenaf hwynt: a [k] mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a [l] hwythau a fyddant i minnau yn bobl.

[g] Exod. 19. 5, 6; Rhuf. 9. 25, 26.

11 Ac ni ddysgant bob un ei gymmydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnebydd yr Ar- glwydd: [m] o blegid hwynthwy oll a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt.

12 Canys [n] trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pech- odau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach.

13 Wrth ddywedyd, *Cyfam- mod* newydd, efe a farnodd y cyntaf yn hen. Eithr yr hwn a aeth yn hen ac yn oedranus, *sydd* agos i ddiflanu.

[m] Ezec. 34. 30; Hab. 2. 14;
[n] Salm 25. 7; Esa. 43. 25; Act. 13. 38, 39; Rhuf. 11. 27.

PENNOD IX.

1 *Y mae yn dangos dull seremoniau ac aberthau gwaedlyd y gyfraith;* 11 *a'u bod yn llai eu teilyngdod a'u perfeithrwydd nag aberth Crist a'i waed.*

hyny yn brawf ei fod yn beio ar y cyfammod; o herwydd pe buasai y cyfammod yn abl i atteb y dyben eithaf, ni buasai Duw yn cael lle i feio arnynt hwy. A thrachefn, os golygwn ei fod yn beio ar y cyfammod, y mae hyny yn profi eu bod hwythau yn gyfryw ag y gellir eu beio; o herwydd, os ydyw y cyfammod yn aneffeithiol, y mae yn rhaid fod y genedl yn awr yn eu pechod- au. *Wele y mae y dyddiau yn dyfod.*—Y ffurf ymadrodd arferol gan Ieremiah i ddynodi yr oruchwyliaeth efengylaidd. *Ac mi a wnaf.*—Groeg: 'mi a berffeithiaf.'

9. *Nid fel y cyfammod.*—Groeg: 'nid yn ol y cyfammod;' nid yn ol yr un cynllun, na'r un ansawdd, na'r un ysbryd. *O blegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfammod i.*—Y mae yr ymadrodd yn golygu fod bai ar y cyfammod ac ar y genedl —bai goruchwyliaethol ar y cyfammod, a bai moesol yn y genedl. Yr oedd y cyfammod yn aneffeithiol, a'r prawf o hyny ydyw ei fod wedi ffaelu eu cadw ynddo ei hun; ac yr oeddynt hwythau i'w beio am beidio a gwneuthur yr hyn a ddylasent tuag at y cyfammod, a thuag at Dduw yn ei berthynas âg ef. *Minnau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd.*—Yn yr Hebraeg, yn *Ier.* xxxi. 22, darllenir, "er fy mod i yn briod iddynt." Y mae amryw ffyrdd o geis- io cyssoni y ddau ddarlleniad. Nid ydym wedi canfod dim gwell, dybygem, na'r hyn a gynnygir gan Dr. Owen; yr hwn a olyga fod yr Ysbryd Glân wedi cyfarwyddo yr awdwr wrth gyfieithu yr Hebraeg i helaethu arno. Er fod Duw yn briod i'r genedl, etto, o herwydd eu bod hwy wedi gwrthod trigo yn ei gyfammod, yr oedd yntau, fel priod y genedl, ac er ei fod yn briod, wedi eu hesgeuluso hwythau, trwy eu rhoddi i fyny i farnau a cheryddon. Y mae rhai yn deall "o blegid" fel rhagflaeniad ar yr ymadrodd, "minnau," &c., fel canlyniad; ond gwell yw gol- ygu y cyfan o'r hanner olaf o'r adnod fel rheswm i broffi aneffeithiolrwydd yr hen gyfammod.

10. *O blegid hwn yw y cyfammod.*—Y mae yn newydd, "o blegid" mai hwn ydyw; *h. y.*, o blegid mai un o'r disgrifiad canlynol ydyw. *Ar ol y dyddiau hyny:*—nid dyddiau yr ecsodus, fel y myn rhai [*Œcumenius*], ond dyddiau yr hen oruchwyliaeth. *Myfi a ddodaf.*—Groeg: 'gan roddi.' *Yn eu meddwl:*—*h.y.*, o'u mewn. *Ac yn eu calonau.*—Y mae y ddau air gyda'u gilydd yn gosod allan yr holl natur. Addawa roddi lle a hanfodiad i'r gyfraith, neu y dadgudd'ad a wnaeth o hono ei hun, yn yr holl natur—yn y meddwl a'r galon, yn y deall a'r serchiadau, yn y rheswm a'r ewyllys. Hon ydyw y gyntaf o'r addewidion gwell. Gwel ar *pen.* x. 16. *A mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw.*—Adferiad a sylweddoliad uchaf y berthynas gyfammodol a wnaethai â hwynt o'r blaen.

11. *Ac ni ddysgant.*—Yr ail o'r addewidion gwell, yn cynnwys rhagddywediad am anfoniad yr Ysbryd Glân fel ysbryd y gwirionedd i ddysgu ei bobl yn y gwirionedd. Yn yr hen gyfammod, dynion oedd yn dysgu dynion am Dduw; ond yma, "A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw." Nid nad ydyw dynion etto i addysgu (*Eph.* iv. 10); ond y mae Duw yn addaw ei ys- bryd i fendithio a llwyddo yr addysg.

12. *Canys trugarog fyddaf.*—Y drydedd o'r addewidion gwell.

13. *Wrth ddywedyd.*—Groeg: 'yn y dywedyd.' Yn y dywediad gan Dduw o'r addewidion hyn; neu mewn ymadrodd mwy rhydd, 'pan yn dy- wedyd.' *Efe a farnodd y cyntaf yn hen:*—neu yn fwy llythyrenol a chywir, 'efe a wnaeth y cyntaf yn hen.' Yr oedd grym yn addewid a gair Duw pan y cawsant eu llefaru i wneuthur i'r cyntaf ddechreu heneiddio. Fe ddechreuodd heneiddio yn y fan, fel y crinodd y ffigysbren ar air Crist. *Eithr yr hwn:*—neu yn fwy cywir, 'yr hyn.' *A aeth yn hen ac oedranus.*—Groeg: 'a wnaethpwyd yn hen,' gyda chyfeiriad at y fraw- ddeg flaenorol. Y mae yr ymadrodd nesaf yn gryfach, ac yn dynodi y weithred a osodir allan yn y ferf *palaio*, neu "wneuthur yn hen." Mewn canlyniad, y mae y cyfammod yn myned yn oedranus, ac o ganlyniad yn gwanhau. *Sydd agos i ddiflanu.*—Darluniad ydyw hwn etto, nid o sefyllfa y cyfammod yn amser yr awdwr, ond o'i sefyllfa mewn canlyniad i'r hyn a grybwyllir yn nechreu yr adnod; sef, ei wneuthur yn hen gan addewid Duw.

Pennod ix.

1. *Am hyny yn wir yr ydoedd hefyd.*—Y mae cyssylltiad yr adnod hon yn dra anhawdd i'w wneuthur allan. Y golygiad mwyaf tebygol yw,

B. A. 63.

AM hyny yn wir yr ydoedd hefyd i'r tabernacl cyntaf ddefodau gwasanaeth Duw, a chyssegr bydol.

2 Canys yr oedd tabernacl wedi ei wneuthur; y cyntaf, yn yr hwn *yr oedd* y canhwyllbren, a'r bwrdd, a'r bara gosod; yr hwn *dabernacl* a elwid, Y cyssegr sancteiddiolaf;

3 Ac yn ol yr ail len, *yr oedd* y babell, yr hon a elwid, Y cyssegr sancteiddiolaf;

mai âg *adn.* 5, yn *pen.* viii, y mae i ni ei chyssyllitu yn briodol, lle y mae yr awdwr yn nodi am yr offeiriaid gynt eu bod yn gwasanaethu i siampl a chysgod y pethau nefol, a hyny yn unol â chyfarwyddyd a gawsai Moses gan Dduw o adeiladu tabernacl pwrpasol iddynt i wasanaethu ynddo:—"Am hyny yn wir yr ydoedd hefyd i'r cyfammod cyntaf ddefodau," &c. Ond cyn dyfod i ymhelaethu ar drefniad y cyssegr, arweiniwyd meddwl yr apostol ymaith at ragoriaeth gwasanaeth Crist fel Archoffeiriad, seiliedig ar ragoriaeth y cyfammod yr oedd ei wasanaeth a'i swydd yn perthyn iddo; ac yna, ar ol sefydlu hyny yn gadarn, dychwela yn y bennod hon at yr hyn a fuasai yn naturiol yn dyfod i mewn oni buasai am y rheswm uchod, yn *adn.* 5 o *pen.* viii. *Tabernacl cyntaf.*—Yn lle "tabernacl," diau mai "cyfammod" a ddylai gael ei ddarllen. Yn ol y llaw-ysgrifau goreu, ni cheir dim ond "y cyntaf," heb na thabernacl na chyfammod. Yn awr, y cwestiwn ydyw, Pa beth sydd i'w roddi i lanw i fyny? Y darlleniad yn y gwreiddiol ydyw:—"Am hyny yn wir yr oedd hefyd i'r cyntaf ddefodau," &c. Y mae yn annaturiol i ni ddodi "tabernacl" i mewn; o herwydd dywedir am wneuthuriad tabernacl yn *adn.* 2. Cawsem felly ail ddywediad o'r un peth. Drachefn, y mae yn hollol naturiol i ni ddodi y gair 'cyfammod' i mewn, gan mai am y cyfammod hwnw yr oedd yr awdwr wedi bod yn ysgrifenu yn niwedd y bennod o'r blaen. *Defodau.*—Groeg: *dicaiômata.* Arwydda y ferf *dicaió* gosod peth yn ddeddf, neu gyhoeddi fel deddf, ac yna dynoda seremoniau y gyfraith fel yr oeddynt o awdurdodiad dwyfol, ac yn ffrwyth deddfwriaeth Duw ei hun fel Brenin y genedl; ac am hyny, nid oedd y gwasanaeth ynglŷn â hwynt yn ddefodaeth bechadurus, ond yn ddefod-wasanaeth cyfreithlawn. Yr oedd yma ddefodau heb ddefodaeth. *Gwasanaeth Duw.*—Nid addoliad. Y mae gwahaniaeth rhwng gwasanaeth ac addoliad Duw. Y mae addoliad Duw yn ysbrydol bob amser; ond gallwn ei wasanaethu trwy ddefodau ac ymarferiadau allanol, os bydd y cyfryw o'i osodiad a'i awdurdodiad ef ei hun. *A chyssegr bydol.*—Gelwir ef yn "fydol," nid am ei brydferthwch [*Homberg*], nac am ei fod yn arwyddlun o'r byd neu y greadigaeth [*Grotius, Hammond*], nac am fod ei glod trwy y byd [*Kypke*], nac chwaith am ei fod yn agored i'r byd; canys nid ydoedd felly, gan mai y cyntedd yn unig oedd yn rhydd i'r Cenhedloedd: ond yn wrthgyferbyniol i'r cyssegr nefol yr aeth Crist i mewn iddo.

2. *Canys yr oedd tabernacl wedi ei wneuthur.*—Dengys sefyllfa y gair "tabernacl" yn y frawddeg, mai arno y mae y pwyslais i orphwys, ac nid ar y ferf "gwneuthur;" yr hyn a ddengys mai nid tabernacl sydd i'w ddarllen yn yr adnod gyntaf. Yn y bennod flaenorol, cyfeiria yr awdwr at orchymyn Duw i Moses i wneuthur y tabernacl; ac yma, cyfeiria at y ffaith fod y gorchymyn hwnw wedi ei gwblhau. *Y cyntaf.*—Nid y cyntaf o ran amser, yn wrthgyferbyniol i'r tabernacl mwy a pherffeithiach y cyfeirir ato yn *adn.* 11; ond y cyntaf o ran lle; *h. y.*, yr ystafell gyntaf yr âi yr archoffeiriad i mewn iddi ar ei ffordd i'r sancteiddiolaf. *Yn yr hwn yr oedd y canwyllbren*—Gwel *Exod.* xxv. 31—39; a xxxvii. 17—24. Yr oedd deg o honynt yn nheml Solomon, ond un drachefn yn yr ail deml. Ei sefyllfa ydoedd y tu deheuol, gyferbyn â bwrdd y bara gosod, ac ychydig yn nes yn mlaen na'r bwrdd at y llen o flaen y sancteiddiolaf. Ei defnydd ydoedd aur pur; ei phwys, talent. Ni roddir ei huchder, na chyfartaledd ei rhanau. Goleuid ei lampau âg olew pur, yn unig yn y nos dybygid. Gwel *Exod.* xxvii. 21; a xxx. 7, 8; 1 *Sam.* iii. 3. Gosodai allan yr eglwys fel y mae i oleuo y byd, a'r hon y mae ei goleuni i ddyfod iddi oddi wrth Ysbryd Duw, yr hwn a gymmherir yn yr Ysgrythyrau yn aml i olew: *Zech.* iv. *A'r bwrdd, a'r bara gosod.*—Groeg: 'gosoddiad y bara.' Ei ddefnydd ydoedd coed Sittim (*acacia*), wedi ei wisgo âg aur. Yr oedd o'r un uchder a'r arch, ond yn gulach yn ei led o hanner cufydd. Un oedd yn nhabernacl Moses, deg yn nheml Solomon, ac un drachefn yn yr ail deml. Yr oedd yn gyssylltiedig âg ef ddysglau, neu blatiau mawrion, i gludo y bara yn ol ac yn mlaen arnynt; llwyau, neu yn ol y Deg a Thrigain, thuserau i ddwyn y thus ynddynt, fe allai; cauadau a phiolau, y rhai oedd yn ol pob tebyg yn llestri addas i'r gwin a ddodid yno gyda'r bara: *Num.* iv. 7—lle y dylid darllen 'i dywallt arno' ac nid "i gan," fel y mae yn ein cyfieithiad ni. Dodid ar y bwrdd frethyn glas, a'r bara ar hyny; sef, deuddeg torth yn ddwy res, chwech a chwech. Yr oedd y rhif deuddeg yn cyfeirio yn amlwg at ddeuddeg llwyth Israel. Nid oedd y bwrdd i fod heb y bara un amser, ac yr oedd i gael ei adnewyddu bob Sabbath. Gelwid 'ef yn "fara dangos," am ei fod yn cael ei roddi ger bron yr Arglwydd yn ei gyssegr: *Exod.* xxv. 30. Ar ol ei ddangos, ac yna ei symmud ymaith, ymborthid arno gan yr offeiriaid, fel cynnrychiolwyr yr Iehofah. Gelwid ef "yn offrwm plant Israel:" yr oedd, gan hyny, yn fath o aberth gan yr holl lwythau i'r Arglwydd. Dodid thus pur ar bob rhes, fel y byddai "yn goffadwriaeth ac yn aberth tanllyd i'r Arglwydd." Yn chwanegol at hyn, gellir casglu o leiaf yr arferid offrymu un neu ddwy gwpanaid o win. Arwyddluniau oedd y cyfan o'r ffrwythau cyfiawnder y dylai pobl Dduw eu rhoddi iddo yn ei dŷ, ac yn gyssylltiedig â'i wasanaeth. Dyma yr hyn sydd yn boddloni purdeb ei natur sanctaidd ef fel ymborth; yr hwn y mae yn ddyled arnom yn wastad ei offrymu iddo, megys ar aden gweddi ac addoliad, fel y dodid y thus pur ar y bara fel arwyddlun o weddi ac addoliad. *Yr hwn dabernacl a elwid y cyssegr.*—Y gair a arferir yn y Groeg yw *agia; h.y.*, 'y sanctaidd.'

3. *Ac yn ol yr ail len:—h.y.*, y tu ol i'r llen a elwir yma "yr ail;" sef, yr un oedd yn gwahanu y sancteiddiolaf oddi wrth y sanctaidd. Y gyntaf oedd yr un o flaen drws y babell, yr hon, yn *Exod.* xxvi. 36, a elwir yn "gaead-len."

4 Yr hwn yr oedd y thuser aur ynddo, ac arch y cyfammod wedi ei goreuro o amgylch; yn yr hon *yr oedd* y crochan aur a'r manna ynddo, a gwialen Aaron, yr hon a flagurasai, a llechau y cyfammod;

5 Ac uwch ei phen cherubiaid y gogoniant, yn cysgodi y drugareddfa: am y rhai ni ellir yn awr ddywedyd bob yn rhan.

6 A'r pethau hyn wedi eu [a] trefnu felly, [a] Exod 27. i'r tabernacl cyntaf 21.

4. *Yr hwn yr oedd y thuser aur ynddo.*—'Groeg: 'arogldarth-offeryn aur.' Pa offeryn ydoedd hwnw?—pa un ai yr allor aur ar yr hwn y dodid y thus, ai y thuser aur, yr hon a ddefnyddid i gludo yr arogldarth o'r allor i fyned i'r sancteiddiolaf? Ar hyn y mae gwahaniaeth barn a dadl gref rhwng dwy blaid o esbonwyr, ac y mae yn anhawdd penderfynu i sicrwydd rhyngddynt. Y mae anhawsderau ynglŷn â'r ddau olygiad. Os yr allor aur a feddylir, pa ham y rhoddir hi fel rhan o ddodrefn y sancteiddiolaf? Drachefn, os y thuser aur a feddylir, y mae yr anhawsder canlynol yn cyfodi; sef, nad oes yma ddim cyfeiriad at yr allor aur yn y rhanau yma, tra y mae cyfeiriad at offeryn llai, a llai pwysig. Hefyd, yr enw cyffredin ar y thuser gan y Deg a Thrigain ydoedd *pureion*, neu tân-offeryn, ac nid arogldarth-offeryn. A thrachefn, nid yw y gair Hebraeg, yn *Lef.* xvi. 12, yn arwyddo thuser; ond llestr bâs yn yr hwn y dodai yr archoffeiriad yr arogldarth oddi ar yr allor ar ddydd y cymmod i'w gludo i'r sancteiddiolaf. Ni ddywedir ei fod yn aur, ac ni ddywedir ei fod yn cael ei gadw yn y sancteiddiolaf. Nid oes dim cynnorthwy i'w gael i benderfynu y mater yn ystyr a defnyddiad y gair. Weithiau, defnyddir ef i arwyddo thuser, ac weithiau allor. Mewn hanesiaeth drachefn nid oes genym ddim ag sydd yn sicr. Y peth mwyaf sydd genym yw tystiolaeth y "*Mischna,*" yr arferid thuser aur ar ddydd y cymmod. Tueddir ni ar y cyfan i gymmeradwyo y golygiad mai at yr allor aur y cyfeiria yr awdwr yma. Y mae yn anhawdd meddwl y buasai yn gadael yr allor hon heb ei chrybwyll. Gyda golwg ar yr anhawsder sydd ynglŷn â'r hyn a ddywedir yma am dani; sef, ei bod yn y sancteiddiolaf, gallwn sylwi (1.), mai yr hyn a ddywedir yn llythyrenol ydyw, ei bod yn perthyn i'r sancteiddiolaf. Y mae yn deilwng o'n sylw mai nid yr un ffurf ymadrodd a geir yma ag yn *adn.* 2, am y sanctaidd; sef, "yn yr hwn," ond "a chanddo;" Groeg, *echousa;* Saesneg, *which had.* Yn awr, os trown i 1 *Bren.* vi. 22, ni a ganfyddwn fod yr allor aur yno yn cael ei chyssylltu mewn modd arbenig â'r gafell, neu y sancteiddiolaf; a dywedir am dani ei bod "wrth y gafell;" neu yn fwy cywir, yn ol yr Hebraeg, yn perthyn i'r gafell. Fel hyn, er ei bod o ran ei lleoliad yn y sanctaidd, yr oedd o rau ei gwaith yn perthyn i'r sancteiddiolaf; ac hyd yn oed yn ei lle yr oedd ar y terfyn, ac yn agosach na dim arall i'r sancteiddiolaf. Gall fod yr ysgrifenydd yn cyfeirio at y thuserau neu y ddysgl aur a grybwyllir yn *Lef.* xvi. 12, fel offeryn cynnorthwyol i'r allor; ac am hyny defnyddia y gair "aur," er nad oedd yr allor ond fel yr arch, wedi ei goreuro. Yr oedd yr allor aur, o ran ei ffurf a'i gwneuthuriad, yn fath o gist ysgwâr, ar ei phen yn gufydd bob ffordd, ac yn ddau gufydd o uchder, wedi ei gwneuthur o goed Sittim wedi eu goreuro. Yr oedd ei chornelau yn tafiu allan yn gyrn, ac o'i hamgylch ymyl-waith neu goron o aur. Gelwid hi yn allor, nid am yr aberthid arni; ond o herwydd ei chyssylltiad agos âg allor y poethoffrwm, oddi ar yr hon y cymmerid marworyn byw i gynnyrchu mwg yr arogldarth, fel ag yr oedd y naill megys yn attodiad i'r llall, ac yn dynodi gradd pellach o gymmundeb â Duw, wedi ei ddechreu y tu allan i'r cyssegr wrth allor y poethoffrwm. Hi oedd yr unig ddodrefnyn yn y sanctaidd a gaffai ei daenellu â gwaed yr aberth ar ddydd y cymmod; yr hyn a ddangosai hefyd y cyssylltiad agos rhyngddi a'r arch a'r drugareddfa. Dynodai yr arogldarth a gyfodai oddi arni addoliad pobl Dduw. Gwel *Salm* cxli. 2; *Esa.* vi. 3, 4, a *Dad.* v. 8; viii. 3, 4. *Ac arch y cyfammod.*—Cist fechan i ddal llechau y gyfraith. Ei defnydd oedd byrddau o goed Sittim wedi eu gwisgo âg aur. Yr oedd yn mesur dau gufudd a hanner o hyd, wrth un a hanner o led; a'r un mesur o uchder. Gwel yn helaethach yn *Exod.* xxv. 10—17. Yr oedd yn y sancteiddiolaf yn nhabernacl Moses, ac yn nheml Solomon. Diflanodd pan y gwarchauwyd ar y ddinas gan y Caldeaid. Nid ydoedd yn yr ail deml; ond yn ei lle, yr ydoedd careg o dri bys o uchder, yr hon a elwid "careg sylfaen." *Yn yr hon yr oedd y crochan aur, &c.*—Yn 1 *Bren.* viii. 8, a 2 *Cron.* v. 10, dywedir nad oedd dim yn yr arch ond y llechau; ond y cwbl a ddywedir yn y lleoedd uchod ydyw, nad oedd dim arall ynddi y pryd hwnw. Yn y cyfieithiad Groegaidd yn unig y dywedir fod y crochan yn aur. Crochan yn unig a ddywedir yn yr Hen Destament. Yn y crochan yr oedd omer o fanna wedi ei ddodi, dogn un person am ddiwrnod, i fod yn goffadwriaeth. *A gwialen Aaron, yr hon a flagurasai.*—Gwel *Num.* xvii. 1—11. Fel coffadwriaeth o'r unig offeiriadaeth gyfreithlawn, a osodasai Duw yn mhlith y genedl. *A llechau y cyfammod.*—Gwel *Exod.* xxv. 16; xxxi. 18, a *Deut.* x. 1—5. Yn chwanegol at y pethau hyn, yr oedd llyfr y gyfraith, dybygid, yn yr un man. Gwel *Deut.* xxxi. 26.

5. *Ac uwch ei phen cherubiaid y gogoniant.*—Dau mewn nifer, un ar bob pen i'r drugareddfa, wedi eu gwneuthur o aur pur, a'u hadenydd yn lledu allan i dafiu bŵa dros y drugareddfa, gydag ymddangosiad o ryfeddod ac addoliad. Gelwir hwy yn "gerubiaid y gogoniant" gyda chyfeiriad at y Shecinah, neu y cwmmwl disglaer o ogoniant yn yr hwn yr ymddangosai yr Iehofah rhwng y cerubiaid. Arwyddluniau oedd y cerubiaid hyn o'r amrywiaeth bywyd sydd yn y byd isod hwn—yn cael eu cynnrychioli gan ddyn. Y llew, yr ych, a'r eryr, i ddynodi y gwirionedd mawr fod trefn fawr y prynedigaeth trwy aberth Crist â'i golwg ar adferu ac adnewyddu yr holl niwed ag y mae pechod wedi ei ddwyn i mewn, nid yn unig i ddyn ei hunan, ond hefyd i'r creadur: *Rhuf.* viii. 19—22. Yr oedd gwaith Duw yn eistedd rhwng y cerubiaid ar y drugareddfa yn dynodi Duw yn amlygu ei hun ar orsedd ei ras fel Duw y cariad, i faddeu a thosturio, i adferu ac i ryddhau ei bobl a'i eglwys, a thrwyddynt hwy i adnewyddu a rhyddhau "y creadur yntau hefyd." *Yn cysgodi y drugareddfa:*—*h.y.,* yn tafiu eu cysgodau. Y drugareddfa oedd un cyfanwaith o aur yn union o'r un mesur a'r

yn ddiau yr ai bob amser yr offeiriaid, y rhai oedd yn cyflawni gwasanaeth *Duw:*

[a]Exod. 30. 10. 7 Ac [b]i'r ail unwaith bob blwyddyn *yr äi* yr archoffeiriad
Heb. 7. 27. yn unig; [c]nid heb waed, yr hwn a offrymai efe drosto ei hun, a
[d]Lef. 5. 18. *thros* [d]anwybodaeth y bobl.
[e]Esa. 3. 12. [e]Esa. 63. 11; [f]Gal. 3. 8. [f]Ioan 10. 7, 9; 14. 6; Eph. 2. 18. 8 A'r [c]Ysbryd Glân yn hysbysu hyn, [f]nad oedd y ffordd i'r cysegr sancteiddiolaf yn agored etto, tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll:

arch, ac i gael ei dodi arni fel ag i fyned i mewn i'w hymyl-waith, neu ei choron, fel y gelwir hi. Ystyr y gair *capporeth* ydyw gorchudd; ond nid yn fanwl yn yr ystyr o gauad yr arch. Yr oedd yn ddodrefnyn ar ei ben ei hun, canys crybwyllir ef felly yn wastad. Y mae weithiau yn cael ei osod allan bron yn fwy pwysig na'r arch; canys gelwir y sancteiddiolaf, yn 1 *Cron.* xxviii. 11, "yn dŷ y drugareddfa." Gelwid "y drugareddfa" yn orchudd, am ei fod i gael ei ystyried fel iawn neu ddyhuddiant, yn ystyr ysbrydol y gair. Yr oedd yn orchudd iawnol. I ddangos y drychfeddwl hwn, cyfleithir y gair gan y Deg a Thrigain yn *ilastérion; h. y.*, cymmod-beth, neu beth i gymmodi rhwng Duw a'r genedl fel troseddwyr o'r gyfraith. Yr oedd cyfraith Duw ar y llechau yn tystio yn eu herbyn fel troseddwyr o honi; ond yr oedd y drugareddfa fel gorchudd yn portreadu yr angen, ac yn cysgodi y gorchudd cymmodol sydd yn rhaid ei gael rhwng Duw Hollwybodol a throseddau dynion.

6. *I'r tabernacl cyntaf:*—sef y sanctaidd. *Yr äi bob amser:*—i'r cyssegr i dreſnu y bara gosod bob Sabbath, i arogldarthu bob dydd, ac i oleuo a thacluso y canwyllbren yn feunyddiol.

7. *Unwaith bob blwyddyn:*—sef, ar y degfed dydd o'r 7fed mis—dydd y cymmod. Elai yno ddwy waith o leiaf; ac oddi wrth *Lef.* xvi. 12—15, gellid meddwl fod yn rhaid iddo fyned deirgwaith. Dywed y "*Mischna*" bedair gwaith. Dywedir "unwaith" mewn dull rhydd; *h.y.*, ar un achlysur mawr, ar un diwrnod yn y flwyddyn. *Nid heb waed.*—Ffurf gref o ymadrodd i ddangos yr angenrheidrwydd anhebgorol iddo fyned yno â gwaed. *Yr hwn a offrymai efe drosto ei hun:*—sef, gwaed y bustach. *A throsanwybodaeth y bobl:*—sef, gwaed bwch y pech-aberth. Y mae y gair "anwybodaeth" yma yn dynodi pechod fel yr oedd yn bossibl cael aberth drosto. Yr oedd pechodau o anwybod yn rhai ag y gellid aberthu drostynt, ond nid felly pechodau a gyflawnid â llaw uchel.

8. *A'r Ysbryd Glân yn hysbysu hyn.*—Nid yn mhrophwydoliaeth Ieremiah, yr hwn y cyfeirir ati yn *pen.* viii. [*Semler*], na chwaith yn sefydliad cysgodau y cyssegr [*Alford*]; ond ynglŷn a thrwy y cyflawniad ffyddiog o'r defodau hyny. *Nad oedd y ffordd i'r cyssegr sancteiddiolaf yn agored etto, tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll.*—Wrth "y ffordd i'r cyssegr," y mae i ni ddeall ffordd i'r Archoffeiriad mawr fyned i'r gwir gyssegr sancteiddiolaf, ac i ninnau fyned yno trwyddo ef, fel yn *pen.* x. 20. Yn lle "agored," darllener "wedi ei hamlygu." "Tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll;" sef, yr un ag y cyfeirir ato dan yr un ymadrodd yn *adn.* 2—nid y cyntaf

9 Yr hwn *ydoedd* gyffelybiaeth dros yr amser presennol, yn yr hwn yr offrymid rhoddion ac aberthau, [g]y rhai ni allent o ran cydwybod berffeithio yr addolydd, [g]Gal. 3. 21

10 *Y rhai oedd yn sefyll* yn unig ar fwydydd, a diodydd, ac amryw olchiadau, [h]a defodau cnawdol, wedi eu gosod *arnynt* [i]hyd amser y diwygiad. [h]Eph. 2. 15. [i]Eph. 1. 10. [k]Gen. 49. 10; Mal. 3. 1; Mat. 2. 6. [l]Heb. 4. 15; 5. 5, 6.

11 Eithr [k]Crist, wedi dyfod [l]yn Archoffeiriad y daionus bethau a

o ran amser, ond o ran lle. "Y cyssegr sancteiddiol:"—tra yr oedd hwnw yn sefyll, nis gallai ond yr archoffeiriad fyned i mewn i'r sancteiddiolaf. Nid oedd ffordd wedi ei hagor i'r genedl fyned i mewn. Yr oedd ei fynediad ef yn eu cau hwy allan, ac yr oedd yn rhaid i hyny fod tra y parhäai gwasanaeth y tabernacl cyntaf; sef, offrymu rhoddion ac aberthau yn ol y ddeddf. Nid oedd yr archoffeiriad Iuddewig yn abl i lawn sylweddoli dyrchfeddwl y swydd; sef, gwneuthur ffordd i'r sancteiddiolaf. Myned yno ei hunan yn unig yr oedd dros y genedl. Yn hyn yr oedd yn arwyddlun nad oedd yr archoffeiriad gwirioneddol etto wedi ymddangos, i agor y ffordd, trwy fyned ei hun, i ereill hefyd fyned i'r cyssegr trwyddo ef.

9. *Yr hwn ydoedd gyffelybiaeth.*—Groeg: 'dammeg' (*parabole*). *Dros yr amser presennol:*—Groeg: 'hyd yr amser presennol' (*eis*), neu ynte 'gyda golwg ar yr amser presennol.' Amser yr Hen Destament, medd rhai: amser y Newydd, medd ereill. *Yn yr hwn yr offrymid:*—neu 'yn ol yr hwn;' sef, cyffelybiaeth. Nid yr hwn amser; o herwydd yn y Groeg y mae yn y rhyw fenywaidd, fel "cyffelybiaeth;" tra y mae "amser" yn y rhyw gwrywaidd. *Y rhai ni allent o ran cydwybod.*—Gwel *pen.* x. 1, 2. Cawn yma y prawf nad oedd y sancteiddiolaf ddim wedi ei amlygu etto, na'r ffordd iddo wedi ei hagor.

10. *Yn unig ar fwydydd,* &c.—Y mae yn anhawdd gwneyd allan gyssylltiad yr ymadrodd hwn. Y mae ein cyfleithwyr ni wedi dodi i mewn y chwanegiad—"y rhai oedd yn sefyll." Y meddwl yn ol hyn ydyw, fod yr aberthau yn sefyll, neu yn sylfaenedig fel ammodau ar "fwydydd a diodydd," &c. Y mae y gair (*epi*), a gyfleithir uchod yn "ar," yn arwyddo yma, dybygid, y drychfeddwl o chwanegiad neu gyssylltiad. Yr oedd y rhoddion a'r aberthau yn cael eu hoffrymu yn unig *ar*, neu yn gyssylltiedig â "bwydydd a diodydd, ac amryw olchiadau." Fel yr oedd yr aberthau yn gysgodol, felly yr oedd ymarferiadau y gwasanaeth cyssylltiedig â hwy yn gnawdol, fel y dywedir yn yr ymadrodd canlynol, "defodau cnawdol:"—pethau cnawdol oedd y pethau, ac am hyny nis gallai fod y defodau yn uwch na'r pethau Yn ol y darlleniad goreu dylid gadael allan y cyssyllt-air "â" o flaen defodau. *Wedi eu gosod arnynt hyd amser y diwygiad.*—Ystyr manwl y gair *diorthósis* ydyw jawn-drefniad, neu adgyflead—rhoddi y sylwedd yn lle y cysgod, y gras yn lle y ddefod. Nid oes prin angen dywedyd mai amser ymddangosiad Crist i'w aberthu ei hun a feddylir, fel y dengys yr adnod nesaf.

11. *Eithr Crist wedi dyfod:*—neu yn well

[m] Ioan 1.14. fyddent, [m] trwy dabernacl mwy a
[n] Col. 2. 11. pherffeithiach, [n] nid o waith llaw,
hyny yw, nid o'r adeiladaeth
yma,

"wedi ymddangos," neu wedi "dyfod yn mlaen." *Yn archoffeiriad y daionus bethau a fyddent:*—neu yn hytrach, "a fyddant." Y maent yn eu cyflawnder llawnaf yn ddyfodol, ac i'w disgwyl i ninnau heddyw. Yr oedd yr archoffeiriaid gynt yn eu portreadu, ond nid oeddynt yn abl i'w cynnyrchu a'u rhoddi; ac am hyny ni buasai yn briodol i gyssylltu yr ymadrodd â hwy. Gallesid eu galw 'yn archoffeiriaid portread y daionus bethau i ddyfod;' ond nid fel Iesu Grist yn archoffeiriad y pethau eu hunain. *Trwy dabernacl mwy a pherffeithiach.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gyssylltu, nid â'r gair "archoffeiriad" sydd yn nechreu yr adnod [*Hoffmann*], ond â'r ferf "a aeth" yn yr adnod nesaf. Yn lle dywedyd "a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr trwy dabernacl mwy a pherffeithiach," dywed yn hytrach, "trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, &c., a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr." Y mae y pwyslais ar y modd yr aeth i mewn, yn wrthgyferbyniol i'r modd yr ai yr archoffeiriaid Iuddewig. Aent hwy i mewn i'r sancteiddiolaf, mae'n wir, trwy y tabernacl neu y cyssegr sanctaidd; ond trwy dabernacl mwy a pherffeithiach yr aeth Crist i mewn i'r gwir gyssegr. Cwestiwn pwysig, ac un y mae amrywiaeth barn mawr arno rhwng gwahanol esbonwyr yw, Pa beth sydd i ni i'w olygu wrth y tabernacl yr aeth Crist i mewn trwyddo i'r sancteiddiolaf, neu y gwir gyssegr? Gyda golwg ar y cyssegr sancteiddiolaf yr aeth Crist i mewn iddo, yr ydys yn cyd-uno mai "y nef ei hun," "y gwir gyssegr," sylwedd y santeiddiolaf yn nhabernacl Moses, ydoedd. Mewn geiriau ereill, golyga y fan y mae Duw yn trigo, ac yn rhoddi yr amlygiad gweledig penaf o hono ei hunan i'w greaduriaid sanctaidd a dedwydd. Ond pa beth a feddylir wrth y tabernacl yr aeth Crist trwyddo mewn trefn i fyned i mewn i'r cyssegr, yr hwn sydd yn sylwedd y tabernacl gynt, neu yr ystafell a elwid y cyssegr sanctaidd. Fe allai y gellir crynhoi yr amrywiol brif olygiadau i dri dosbarth; sef, 1af, Y rhai sydd yn golygu y tabernacl hwn fel lle. 2il, Y rhai sydd yn ei olygu fel sylwedd. 3ydd, Y rhai sydd yn ei gymmeryd fel yn gyfansoddedig o bersonau, neu sefydliad o bersonau. O blaid y golygiad cyntaf, y mae yr ystyriaeth, gan fod y sancteiddiolaf yr aeth i mewn iddo yn lle, fod yn naturiol i ni olygu y sanctaidd yr aeth trwyddo hefyd yn lle; ac felly hefyd y byddai cyfattebiaeth cyflawn rhwng y cysgod a'r sylwedd. Ond pe gallem fod yn sicr mai lle a feddylir wrth y tabernacl hwn, y mae y cwestiwn yn naturiol drachefn i'w ofyn, Pa le a feddylir? I hyn atteba rhai, mai y greadigaeth weledig: ereill, y nefoedd ogoneddus, drwy yr hon yr aeth Crist i mewn, ac yn mlaen at y rhan hwnw lle y mae Duw yn ei amlygu ei hun yn weledig, disglaer, a gogoneddus i'w greaduriaid sanctaidd a gwynfydedig: ereill, y nefoedd ogoneddus a gweledig i gyd, drwy yr hon yr aeth Crist i mewn i'r nef anweledig, ysbrydol, an-leol, yn yr hon y mae y Duwdod yn trigo, yr hwn nid ydyw yn preswylio mewn lle, ond sydd yn lle iddo ei hun. O blaid yr ail olygiad, sef, mai sylwedd a olygir wrth "y tabernacl hwn," y mae yr ystyriaeth fod y gair yn ei gyssylltiad â dynion, yn cael ei ddefnyddio am eu cyrph. Geilw Pedr ei gorph, yn ei ail epistol, "fy nhabernacl hwn." Drachefn, yn ei gyssylltiad â Christ, cawn y gair "a dabernacloddd" yn *Ioan* i. 14, am ei drigiad ar y ddaear pan yn y cnawd. Ac yn yr epistol hwn y mae ei gnawd yn cael ei alw yn llen—trwy y llen; sef, ei gnawd ef, gan gyfeirio at y llen oedd rhwng y ddau gyssegr. Y mae efe ei hun hefyd yn galw ei gorph yn deml: *Ioan* ii. 19, 21. Yn gyfattebol i hyn, golygai y tadau—ac y mae llawer o'r esbonwyr goreu yn cydolygu â hwy—mai y tabernacl yr aeth Crist trwyddo i'r gwir sancteiddiolaf ydoedd ei gorph neu ei natur ddynol ef ei hun. Ond amrywiant etto gyda golwg ar y cwestiwn, pa un ai ei natur ddynol, neu ei gorph cnawdol, neu fel y geilw yr apostol ef, "corph ei gnawd," ai ynte ei gorph gogoneddedig, neu fel y geilw Paul ef "corph ei ogonedd," a feddylir, ai ynte y naill a'r llall? O blaid y trydydd golygiad drachefn, sef, mai personau a olygir wrth y 'tabernacl mwy a pherffeithiach,' y mae yr ystyriaeth, gan mai Duw, fel bod personol, ydyw hanfod y cyssegr sancteiddiolaf yr aeth Crist i mewn iddo, fod yn naturiol i ni olygu, er mwyn cyfattebiaeth, y tabernacl yr aeth efe i mewn trwyddo: hefyd, fel yn golygu y personau yr aeth Crist heibio iddynt, a thu draw iddynt, fel ei dabernacl i fyned at y Duw mawr ei hun, i ymddangos ger ei fron dros ei bobl. Y personau hyn, yn ol rhai, ydyw ei eglwys ar y ddaear [*Calorius, Wolf*, ac ereill], neu ynte ei eglwys ogoneddedig yn y nefoedd [*Alford*]. Y mae Ebrard yn barnu mai sancteiddrwydd bywyd Crist ydyw y tabernacl hwn, trwy yr hwn yr aeth i mewn i'w sefyllfa o ogoniant yn y nefoedd. Y mae yn bur bossibl fod rhyw gymmaint o wirionedd yn y cyfan. Ein tuedd ni, fe allai yn ormodol, ydyw dewis a dethol yn lle ceisio uno amrywiol olygiadau, neu chwilio am un ag sydd yn eu cynnwys oll ynddo ei hun. Y gwirionedd mawr sydd yn yr adnod, dybygid, ydyw, fod Crist fel archoffeiriad wedi myned at Dduw trosom ni; nid yn ddigyfrwng, ond trwy rhyw gyfrwng, yr hwn a elwir yma yn dabernacl, a'r hwn a gysgodid gan y cyssegr sanctaidd gynt. Nis gallasai Crist fyned at Dduw yn ddigyfrwng, o herwydd fel Person Dwyfol yr oedd yn y dechreuad "gyda Duw;" ac am hyny, cyn yr oedd modd iddo fyned at y Tad, yr oedd yn rhaid iddo 'ddyfod oddi wrth y Tad,' yr hyn nis gallasai ei wneyd ond trwy gyfrwng: sef, trwy gymmeryd y natur ddynol i undeb â'i Berson dwyfol. Yn awr, trwy gyfrwng y natur hono, fe aeth Crist i'r nef ei hun at y Tad lle yr oedd erioed; ac am hyny y mae yn iawn i ni ei golygu fel ei dabernacl ef. Ond drachefn, gan mai natur greadigol a chorphorol ydyw, y mae yn dwyn perthynas â lle; ac felly yr oedd yn rhaid i'r person mawr ynddi, mewn trefn i fyned at y Tad, symmud o ran lle, o'r man yr oedd wedi dioddef a marw, i'r lle gogoneddus hwnw ag y mae yr amlygiad arbenig a phenaf gweledig o'r presennoldeb dwyfol. Tuag at hyn yr oedd yn ofynol iddo ddyrchafu i'r nefoedd, a myned trwy y nefoedd (*pen.* iv. 14); yr hyn hefyd a gynnwysai, myned heibio a thrwy rengoedd dirifedi o bersonau, angylion, a saint, ac uwch law ei eglwys ar y ddaear. Nis gallasai ddyrchafu fel hyn nes iddo gyflawni ar y ddaear ei ufudd-dod sanctaidd a pherffaith, trwy wneyd a dioddef. Yn y goleu uchod, gellir cymmeryd y naill a'r llall o'r golygiadau a enwyd o fewn

12 Nid chwaith trwy waed geifr [a] Act. 20. 28; Col. 1. 14; Dad 5. 9. a lloi, eithr [c] trwy ei waed ei hun, [b] Zech. 3. 9. [d] Dan. 9. 24; Marc 3. 29. a aeth [b] unwaith i mewn i'r cysegr, [d] gan gael *i ni* dragwyddol ryddhâd.

13 O blegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi

rhyw derfynau. Gelwir y tabernacl yr aeth Crist trwyddo yn "fwy;" *h.y.*, nid mewn maint, ond mewn urddas a gwerth, ac yn "berffeithiach;" *h.y.*, yn llanw ei ddrychfeddwl yn well nag y gwnai y cyssegr sanctaidd gynt. *Nid o waith llaw:—h.y.*, nid o waith llaw dynion, fel yr oedd y tabernacl gynt. *Hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma.*—Eglurhâd a helaethiad ar yr ymadrodd blaenorol. Gellir ei ddarllen, 'nid o'r greadigaeth yma.' Nid gwaith llaw dyn, ac nid defnydd o'r unrhyw ag a geir yn y greadigaeth weledig yma.

12. *Nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun.*—Elai yr archoffeiriad i'r cyssegr sancteiddiolaf gynt (1.), trwy y cyssegr sanctaidd fel cyfrwng lleol; (2.), trwy waed yr aberth fel cyfrwng ammodol. Ond aeth Crist fel archoffeiriad i mewn i'r gwir sancteiddiolaf (1af), trwy dabernacl mwy a pherffeithiach fel cyfrwng sylweddol; (2il), trwy ei waed ei hun fel cyfrwng ammodol a haeddiannol, ac nid fel yr archoffeiriad gynt trwy waed geifr a lloi. *A aeth unwaith i mewn i'r cyssegr:*—sef, i'r nef ei hun fel y sylwedd. Aeth yno unwaith, nid fel yr archoffeiriaid gynt, y rhai a aent yno unwaith bob blwyddyn. Yr oedd mynychiad eu mynediad yn profi ei annigonolrwydd a'i aneffeithiolrwydd. Pe buasai eu mynediad yn un gwirioneddol ac effeithiol, ni buasai angen iddynt ei fynychu; ond gan yr elent yno yn fynych, yr oeddynt trwy hyny yn arddangos nad oedd perffeithrwydd yn eu swydd, a'r gwaith a berthynai iddi. *Gan gael i ni dragwyddol ryddhâd.*—Yn a thrwy ei fynediad i mewn, fe gafodd "i ni dragwyddol ryddhâd," neu brynedigaeth. Fe dalwyd pris y pryniad ar y ddaear yn ei waith yn ei aberthu ei hun; ond yn ei fynediad i'r cyssegr, fe'i cafodd yn weithredol. Fe aeth i mewn yno i ryddhau yr hyn a brynodd â'i waed; a chan fod y pris a dalodd, nid y tu allan iddo, ond yr un ag efe ei hun, fe gariodd y pris yno gydag ef —fe aeth yno trwy ei waed. Gelwir y rhyddhâd yn dragwyddol yn wrthgyferbyniol i'r rhyddhâd cysgodol, ammherffaith, seremoniol, a roddid i'r genedl yn flynyddol trwy fynediad blynyddol yr archoffeiriad i'r cyssegr.

13. *O blegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd.*—Cynnwysa yr adnod hon, ynghyd â'r un ddilynol, y prawf a'r rheswm mawr o fod y rhyddhâd yn un tragwyddol, ac fod Crist wedi cael i ni dragwyddol ryddhâd. Y rheswm ydyw, yn gyntaf, y cyfattebiaeth sydd yn ofynol yn y sylwedd i'r cysgod; ac yn ail, y rhagoriaeth sydd yn perthyn i'r sylwedd ar y cysgod, yr hwn ragoriaeth a gynnwysir mewn amryw bethau. "Gwaed teirw a geifr," a offrymid ar ddydd y cymmod. Gwel *Lef.* xvi. Am yr "anner goch," a'r ddefod berthynol iddi, gwel *Num.* xix. 1—22. *Yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd.*—Groeg: 'i burdeb y cnawd.' Effaith allanol offrymiad gwaed teirw a geifr ar ddydd y cymmod, oedd puro y genedl yn seremoniol o ran yr ewogrwydd ag yr oedd

ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i [f] bureiddiad y cnawd; [f] Act. 15. 9; 1 Pedr 1. 22. [g] Deut. 31. 27; Luc 12. 24, 28.

14 [g] Pa faint mwy y bydd i [h] waed Crist, [i] yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol [k] a'i hoffrymodd [l] yn [h] 1 Ioan 1. 7 [i] Esa. 61. 1; Ioan 3. 34. 1 Pedr 3. 18. [k] Mat. 20. 28; Eph. 5. 2.

pechod wedi ei ddwyn arnynt; ac effaith taenelliad y lludw ydoedd, puro personau unigol oddi wrth yr halogrwydd ag yr oeddynt wedi ei ddwyn arnynt eu hunain trwy gyffyrddiad â marwolaeth. Yr oedd yr effeithiolrwydd hwn yn perthyn iddynt yn rhinwedd eu happwyntiad gan Dduw i'r diben. Pob purhâd chwanegol, yr oedd yn ddyledus yn unig ac yn hollol i rinwedd y sylwedd mawr ag oedd yn unig yn cael ei bortreadu ganddynt hwy.

14. *Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw.*—Pa faint mwy o rym sydd yn y sylwedd, fel achos, i gynnyrchu ei effaith annhraethol uwch nag sydd yn y cysgod i gynnyrchu ei effaith priodol ef. Wrth yr "Ysbryd tragwyddol" y mae i ni ddeall, yn ol rhai, yr Ysbryd Glân [*Bleek*]; yn ol ereill, ei natur ddwyfol, yr hon sydd ysbryd tragwyddol. Yr ydym yn tueddu at yr olaf. Offrymid yr aberthau dan y gyfraith, nid trwy ewyllys neu ysbryd o'r eiddynt eu hunain; yr hyn ni feddent. Yr oedd yr aberth a'r ysbryd ar wahân. Yr oedd yr offrymydd i roddi ei ysbryd, ond yr oedd efe a'r aberth ar wahân; ond yma, yr aberth oedd yr offrymydd, a'r offrymydd yr aberth, ac am hyny yr oedd yn offrymu "ei hun trwy yr ysbryd," yr hwn oedd ynddo, yr hwn hefyd oedd dragwyddol; ac am hyny rhoddai dragwyddol neu anfeidrol rym yn ei aberth. Gwahaniaethir ysbryd y Gwaredwr oddi wrth ei gnawd yn y rhanau canlynol:—*Rhuf.* i. 3, 4; 1 *Tim.* iii. 16; 1 *Pedr* iii. 13. Gwel hefyd 1 *Cor.* xv. 45, a 2 *Cor.* iii. 7. Pa bryd, a pha le, yr offrymodd Crist ei hun, fel y sonir uchod? Myn y Sociniaid, a hyny am reswm gwybyddus, mai yn y nefoedd, wedi ei fyned yno ar ol ei adgyfodiad. Y mae ereill yn cydsynio â hwy yn hyn, nid am eu bod yn gwadu ddarfod i Grist ei offrymu ei hun ar y groes yn aberth, ond mai nid at hyny y cyfeirir yma. Ond y mae yn amlwg mai at yr offrymiad ar y ddaear, ar y groes, y mae yr apostol yn cyfeirio yma yn benaf. Pa bryd bynag y lleferir am Grist yn wrthgyferbyniol i'r aberthau gynt, ac y mae yn amlwg mai yn y wedd hon y lleferir am dano yma, oddi wrth y gair "difai," yr hwn a ddefnyddid i osod allan yr aberth, y mae yr hyn a ddywedir yn cyfeirio at yr hyn a wnaeth ar y groes. Ond yn yr ymadrodd, "pa faint mwy y bydd i waed Crist ...buro," cyfeirir at y cyflwyniad parhaus o'r aberth a offrymodd er effeithioli yr hyn oedd mewn golwg; sef, puro ein cydwybod. Dywedir ddarfod iddo ei offrymu "ei hun," sef, ei natur ddynol; a gwnai hyny trwy gyfrwng ei natur ddwyfol, a hyny i Dduw, sef i'r Tad: nid i'r diafol fel y syniai rhai o'r tadau. *Eich cydwybod chwi.*—Groeg: 'ymwybyddiaeth.' Cynnwysa holl ymwybyddiaeth ein natur yn ein perthynas â Duw. Golyga y purhâd hwn yr un sydd yn dwyn perthynas âg ewogrwydd. *Oddi wrth weithredoedd meirwon.* — Golyga yr ymadrodd hwn buriad chwanegol; sef, yr un oddi wrth halogrwydd. Fel y purai yr anner goch y rhai a halogid trwy

[z] Lef. 22. 20; Deut. 15. 21; Esa. 53. 9; 1 Pedr 1. 19.
[a] Adn. 10. 2. 22.
[b] Rhuf. 6. 13, 22.

ei hun [y] yn ddifai i Dduw, [z] buro eich cydwybod chwi oddi wrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?

15 [a] Ac am hyny y mae efe [b] yn Gyfryngwr y cyfammod newydd,

[b] 1 Tim. 2. 5.

[c] Rhuf. 3. 24.
[d] Iago 1. 12. —29.

megys trwy fod marwolaeth [c] yn ymwared oddi wrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr [d] etifeddiaeth dragwyddol.

16 O blegid lle *byddo* testa-

gyffyrddiad â marwolaeth, felly y mae gwaed Crist yn abl, nid yn unig i buro y gydwybod oddi wrth euogrwydd, ond hefyd oddi wrth halogrwydd gweithredoedd meirwon. *I wasanaethu y Duw byw:*—i wasanaethu, nid â gweithredoedd meirwon, ond â ffydd fyw'iol, yr hwn sydd yn cael ei alw yma mewn modd mor gyfaddas yn "Dduw byw." Y mae effeithiolrwydd gwaed Crist i gynnyrchu yr effeithiau hyn yn llawer mwy nag oedd effeithiolrwydd gwaed yr aberthau gynt i gynnyrchu pureiddiad seremoniol. Gosodiad Duw oedd unig reswm yr effeithiolrwydd a berthynai iddynt hwy: ond yma ni gawn chwaneg o lawer; sef, cyfaddasder a rhinwedd cynhenid.

15. *Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfammod newydd.*—Darllenir *dia touto* gan rai "am hyn" [*Bleek*], fel yn cyfeirio at yr hyn sydd yn mlaen yn yr adnod; ond diau mai yn ol at yr hyn a gynnwysir yn yr adnod flaenorol y mae yn cyfeirio yn ol. Gwell ei ddarllen felly, fel y mae yn ein cyfieithiad ni, "am hyny;" sef, am fod Crist fel archoffeiriad wedi ei offrymu ei hun yn aberth difai i Dduw trwy ei waed, i'n puro o ran ein cydwybodau trwy ei gymmhwyso atom. Y mae ei fod wedi offrymu ei hun i Dduw yn profi ei fod yn Gyfryngwr rhyngom a Duw; a chan fod ei aberth yn cyfatteb fel sylwedd i'r aberthau gynt, ac yn gymmaint a bod yr aberthau hyn yn dwyn perthynas â chyfammod rhwng Duw a'r genedl, yn yr hwn gyfammod yr oedd Duw yn rhoddi addewid am etifeddiaeth dymmorol iddynt, yna y mae yn rhaid ei fod yn Gyfryngwr cyfammod newydd (nid ydyw y fannod yn y gwreiddiol). *Megys.*—Yn lle "megys," darllener 'fel.' *Trwy fod marwolaeth.*—Darllener fel hyn: 'gan fod marwolaeth wedi cymmeryd lle.' *Yn ymwared.* — Darllener 'er ymwared,' &c.; ac felly y darlleniad yn gyflawn a fyddai, 'fel trwy fod marwolaeth wedi cymmeryd lle, er ymwared oddi wrth y troseddau dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth.' Y mae y gair 'fel' i'w gyssylltu yn agos â'r ferf "y cai," a'r hyn sydd rhyngddynt yn sail ac yn rheswm pa ham yr oedd yn bossibl iddynt gael addewid yr etifeddiaeth. Am fod Crist wedi offrymu ei hun yn aberth, y mae yn awr yn Gyfryngwr yn y nefoedd—nid yn unig i buro ei bobl, ond i ddiogelu iddynt addewid yr etifeddiaeth sydd wedi ei darparu ar eu cyfer, a'i phrynu iddynt. Nid derbyn yr addewid fel y cyfryw, ond derbyn ei chynnwys a feddylir. Nid oedd modd iddynt dderbyn cynnwys yr addewid heb dderbyn yn gyntaf y prynedigaeth. Yr oedd yn rhaid cael "tragwyddol ryddhâd" cyn yr oedd modd iddynt dderbyn "tragwyddol etifeddiaeth." Ar ol dangos fod y cyntaf wedi ei gael yn angeu Crist, yn *adn.* 12—14, y mae yn myned yn mlaen yn awr i ddangos fod y ffordd yn rhydd iddynt gael yr etifeddiaeth dragwyddol trwy ei waith cyfryngol yn y nefoedd ar sail ei aberth ar y ddaear. Nis gallasai wneuthur hyn heb farw fel aberth; ond trwy "fod marwolaeth wedi cymmeryd lle," gall gyfryngu i roddi iddynt yr addewid;

sef, yr etifeddiaeth dragwyddol. Cymmerodd y farwolaeth hono le er ymwared, neu er rhyddhâd, neu brynedigaeth. Yr oedd yn rhaid cael rhyddhâd neu brynedigaeth cyn yr oedd yn bossibl cael etifeddiaeth, ac yr oedd yn rhaid cael marwolaeth cyn yr oedd modd cael prynedigaeth. Ond pa ham yr enwir y troseddau "dan y cyfammod cyntaf" yn arbenigol, ac na sonir am drosseddau dynolryw yn gyffredinol? Yn un peth, at rai o'r genedl hono ag oedd dan y cyfammod hwnw y mae y llythyr hwn wedi ei ysgrifenu, ac felly yr oedd yn ddigonol cyfeirio yn unig at droseddau y genedl hono; a thrachefn, yr oedd Israel y pryd hwnw yn crynhoi ac yn cynnrychioli dynolryw yn gyffredinol ynddynt eu hunain.

16. *O blegid lle byddo testament.*—Yr un gair ag a gyfieithir, yn *adn.* 15, yn "gyfammod" a gyfieithir yma yn "destament," yr hyn sydd annaturiol. Y cwestiwn mawr gyda golwg ar yr adnodau hyn yw, Pa un ai testament, ai cyfammod, ai trefniad, ydyw y drychfeddwl sydd yn y gair *diathécé*, yr hwn a arferir yn y gyfran hon o'r bennod; sef, *adn.* 15—20. Y mae i'r naill a'r llall o'r drychfeddyliau uchod eu pleidwyr. Ymddengys fod engreifftiau boddhaol i'w cael o'r tri ystyr, sef, testament, cyfammod, a threfniad. Ond rhaid cyfaddef mai yr ystyr sydd yn ffynu fwyaf yn y Deg a Thrigain ydyw yr olaf—trefniad, neu ordeiniad. Ond y cwestiwn ydyw, Pa un o'r tri sydd i'w ddeall yma? Yr anhawsder mawr sydd ynglŷn â'r golygiad sydd yn hòni mai "cyfammod" ydyw ystyr y gair yn yr adnodau hyn, yw y ddau osodiad sydd yn niwedd *adn.* 16, ac yn nechreu *adn.* 17; sef, fod yn "rhaid digwyddo marwolaeth y cyfammodwr," ac mai "wedi marw dynion y mae cyfammod mewn grym." Y mae yn bossibl, y mae yn wir, trwy dybied mai at gyfammod trwy aberth y mae yr apostol yn cyfeirio yma, gael rhyw fath o synwyr allan o'r gosodiadau uchod. Fel hyn y gwna Ebrard, er engraifft:—"Y mae yn rhaid," medd efe, "i'r hwn sydd yn cyfammodi â Duw, gan ei fod yn bechadur, farw, naill ai yn ei berson ei hun, neu ynte trwy ac yn rhyw un arall a saif yn ei le, ac mewn cyfammod â Duw trwy aberth: *Salm* l. 5. Golygid yr aberth fel cyfrwng rhwng Duw a dyn." Ond yn erbyn y golygiad hwn y mae yr ystyriaeth fod y gosodiad yn un hollol gyffredinol. Nid oes yma ddim awgrym ei fod yn cyfeirio at ryw fath neilluol o gyfammod; ond lleferir mewn iaith gyffredinol holiol am yr hyn oedd yn adnabyddus a dealladwy yn mhlith dynion yn gyffredinol. Ar y llaw arall, rhaid addef fod anhawsderau mawrion ynglŷn â'r golygiad mai "testament" yw drychfeddwl y rhanau hyn. Un anhawsder mawr ydyw, fod yn rhaid i ni yn deg ddeall *adn.* 18 yn yr un ystyr—"y cyntaf;" *h.y.*, y testament cyntaf, ac felly olygu y cyfammod cyntaf yn destament, pryd y gwyddom mai cyfammod y golygir ef yn wastad yn *pen.* viii. 6, &c.; ac hefyd y mae yn wybyddus fod testamentau yn ystyr priodol y gair yn hollol

ment, rhaid *yw* digwyddo marwolaeth y testamentwr.

ddieithr i'r Hebreaid. Anhawsder arall ydyw yr ymadrodd "Cyfryngwr testament newydd;" o blegid nid oes eisieu cyfryngwr i destament, tra y mae cyfryngwr perthynol i gyfammod yn eithaf priodol. Hŏnir hefyd nad ydyw y gosodiadau yn *adn.* 16, 17, yn wir am destamentau. Dywed Maine yn ei *Ancient Law*, nad oedd hyn yn elfen angenrheidiol mewn testamentau hyd oesoedd diweddarach; ac y gallasai un yn ei fywyd, nid yn unig wneuthur ei destament, ond fod yn bossibl iddo gael ei roddi mewn grym yn ystod gweddill bywyd y testamentwr. Ond gellir dadleu yn atteb i hyn fod y person, fel y cyfryw, wedi marw, er i'r dyn fod yn fyw. Nid ydym yn gallu, ar ol darllen cryn lawer o'r hyn a ddywedir ar y naill ochr a'r llall, gweled fod dim gwell i'w gael fel eglurhâd ar y rhanau dyrus hyn nag a geir yn esboniad rhagorol Dr. Owen, yr hwn sydd yn ymdrechu cyfuno y ddau olygiad: a gwna hyny, dybygem ni, yn lled foddhaol. Yr ydym yn barnu fod y gair i'w ddeall mewn ystyr eang—y cyfryw ag a gymmer i fewn dano y ddau ddrychfeddwl o gyfammod a thestament. Arwydda, fel cyfieithiad o'r gair Hebraeg *berith*, trefniad a gosodiad ar bethau yn ol ammodau pennodol, naill ai ar un tu, neu o'r ddeutu rhwng gwahanol bleidiau. Arferid ef, gan hyny, yn eithaf naturiol i ddynodi trefniad rhoddion o feddiannau ac etifeddiaethau mewn ffordd o addewid. Defnyddir ef yn unol â hyn mewn cyssylltiad â'r addewid a roddes Duw i genedl Israel am Wlad Canaan trwy etifeddiaeth, ac i osod allan y trefniad a'r ammodau trwy gyflawni pa rai yr oedd yr etifeddiaeth hono i gael ei diogelu a'i rhoddi mewn meddiant. Un o'r ammodau hyny oedd, fod aberth i gael ei roddi, a gwaed i gael ei dywallt er cymmod rhwng Duw a'r genedl. Yr oedd yr offeiriad fel un yn offrymu yr aberth felly yn gyfryngwr y cyfammod. Yn awr, y mae yn amlwg fod y trefniad hwn yn rhagdybied y gwirionedd fod marwolaeth trwy aberth yn angenrheidiol i ddiogelu cynnwys addewid Duw am etifeddiaeth i'r genedl; a phan, mewn amseroedd diweddarach, y dygwyd yr arferiad dynol o wneuthur testamentau i fod—y rhai a osodid allan trwy gyfrwng yr un gair *diathécé* ag a ddefnyddid am gyfammod neu drefniad ammodol—fe ganfyddwyd fod yr un drychfeddwl mawr yn gorwedd dan yr arferiad dynol hwn ag oedd yn gorwedd dan y gosodiad dwyfol uchod; sef, marwolaeth yn ammod, neu yn drefniad ammodol, cwblhâd gweithredol y rhodd. O herwydd y berthynas agos hon rhwng cyfammod a thestament, y mae yr olaf fel arferiad dynol yn addas, ac wedi ei gyfaddasu gan Raglunaeth ddwyfol i'egluro y gwirionedd mawr sydd yn gorwedd yn y gosodiad dwyfol a chysgodol o drefnu meddiant trwy aberth neu waed. Mewn geiriau ereill, y mae cyfammod trwy destament wedi ei gyfaddasu i egluro cyfammod trwy aberth; ac nid yn unig i egluro, ond hefyd i helaethu arno trwy ddwyn agwedd newydd a phellach o'r gwirionedd mawr sydd yn gyffredin i'r ddau i'r golwg. Meddiant gweithredol o gynnwys addewid yn dyfod i mewn trwy farwolaeth ydyw y gwirionedd sydd yn gyffredin ynddynt: ond mewn testament, y mae agwedd newydd a gwahanol yn dyfod i'r golwg i'r hwn sydd yn y drychfeddwl o gyfammod trwy aberth. Mewn

17 Canys wedi marw dynion, *y mae* testament mewn grym: o

cyfammod trwy aberth, yr oedd y farwolaeth, neu waed yr aberth, yn portreadu fel cysgod yr angen am ddioddefiadau iawnol y Cyfryngwr i roddi hawl i'r etifeddiaeth; ond mewn cyfammod trwy destament, cawn arwyddlun a phortread o'r gwirionedd, fod yn rhaid, gyda dioddefiadau a marwolaeth, gael ewyllys bersonol; yr hyn nid oedd yn cael ei ddangos yn yr aberthau gynt. Hanfod testament, neu gyfammod trwy destament, yw, fod person, trwy weithrediad difrifol o'i ewyllys, yn rhoddi i fyny ei bersonoliaeth yn ystyr cyfreithiol y gair, sef y cyfuniad o'i freintiau a'i hawliau, yn ffafr rhyw un arall, naill ai cyn neu ar ol iddo farw fel dyn. Y mae yr arferiad dynol hwn yn amgau o'i fewn yr egwyddor bwysig o fod un person yn rhoddi i fyny ei bersonoliaeth cyfreithiol, ynghyd â'i hawliau oll, fel ag i'w diogelu i un arall a fyddo byw ar ei ol. Yn gyffredin, y mae dynion yn gwneuthur hyny mewn cyssylltiad â'u marwolaeth eu hunain, ac yn ngwyneb yr angenrheidrwydd sydd arnynt am adael y byd, a gadael eu hetifeddiaethau a'u meddiannau ar ol; ac am hyny, yn fwyaf cyffredin, nid ydyw y testament mewn grym hyd nes y byddo y testamentwr marw. Nid ydym i ddeall mai marwolaeth y testamentwr sydd yn rhoddi yr hawl wreiddiol i'r etifeddiaeth, er fod y farwolaeth yn gyffredin yn un o ammodau y testament; ond yn hytrach, ewyllys y testamentwr. Ac am hyny gelwir y testament yn ewyllys y testamentwr. Rhoddir enw hanfod y peth am y cyfrwng, neu yr offeryn, trwy draws-newidiad naturiol. Dewisir, gan hyny, mai ewyllys Crist yn ei ddioddefiadau a'i angeu a eglurir yn arbenig yn yr arferiad dynol o wneyd cyfammod trwy destament; ond gan fod marwolaeth, yn ol trefniad cyffredin ewyllysiau dynol, yn un o ammodau eu cwblhâd, y mae yr awdwr yn gallu egluro ar dir cadarn yr angenrheidrwydd am angeu Crist, yn gystal a dangos mai yr elfen fawr ynddi sydd yn rhoddi hawl i gredinwyr i'r etifeddiaeth dragwyddol a brynodd trwyddi ydyw ei ewyllys gyfryngol ar ran ei bobl fel Duw-ddyn. Yn unol â'r sylwadau hyn, credwn fod yr awdwr yn defnyddio yr un gair *diathécé* yn yr un ystyr eang trwy yr holl ranau hyny; sef, cyfammod, neu drefniad ammodol. Ond er fod yr un ystyr cyffredinol iddo, y mae yr ystyr hwnw yn wahanol yn ei gymmhwysiad yn ei berthynas â'r hen oruchwyliaeth ragor yr hyn ydyw yn ei gyssylltiad âg angeu Crist. Yn *adn.* 15—17, arwydda cyfammod neu drefniad cyfammodol trwy farwolaeth person: ond yn 18—20, arwydda cyfammod trwy waed (yr aberthau). Y mae yn defnyddio yr un gair i osod allan y ddau ddrychfeddwl, er dangos eu bod yn un yn eu hanfod; sef, etifeddiaeth mewn addewid yn dyfodi rym trwy angeu, ond i ddangos y gwahaniaeth sydd rhyngddynt, defnyddia ymadroddion sydd yn ein harwain at amrywiaeth agwedd yn ystyr y gair. Pan yn ei ddefnyddio yn yr ystyr o gyfammod testamentaidd, sonia am farwolaeth—nid gwaed—a marwolaeth person yn meddu ar ewyllys: ond pan yn ei ddefnyddio yn yr ystyr neilduol o gyfammod aberthol, llefara am waed; ond nid gwaed dynion, ond gwaed "lloi a geifr." Yn *adn* 14, sonir ar un llaw am "waed Crist," ac ar y llaw arall am Grist "yn ei offrymu ei hun." Yn y cyntaf, cawn yr hyn

blegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw.

18 O ba achos ni chyssegrwyd y cyntaf heb waed.

19 Canys wedi i Moses adrodd yr holl orchymyn yn ol y gyfraith wrth yr holl bobl, efe a gymmerodd waed lloi a geifr, gyda dwfr, a gwlân porphor, ac isop, ac a'i taenellodd ar y llyfr a'r bobl oll,

* Mat 26 28. 20 Gan ddywedyd, °Hwn yw gwaed y testament a orchymynodd Duw i chwi.

21 Y tabernacl hefyd a holl lestri y gwasanaeth a daenellodd efe â gwaed yr un modd.

22 A chan mwyaf trwy waed y purir pob peth wrth y gyfraith; [f]ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant. [f] Lef. 4. 20, 26, 35; 17.

23 Rhaid *oedd* gan hyny i bortreadau y pethau sydd yn y nef-

---

oedd yn wrthgysgodol i gyfammod trwy waed; yn yr ail, yr hyn oedd yn cyfatteb i'r hyn sydd yn cyfansoddi hanfod testament, sef ewyllys bersonol yn rhoddi i fyny hawliau i un arall. Nis gallwn beidio rhoddi y sylwadau canlynol o eiddo Dr. Owen, i ddangos yr anghyffelybrwydd rhwng cyfammod testamentaidd Crist a'r eiddo dynion. (1.) Y mae y testamentwr dynol yn peidio a meddu hawl yn, a meddiant o'r hyn y mae yn ei adael pan unwaith y mae y testament mewn grym. Ond nid felly Crist: o herwydd, 1af, Y gwahaniaeth yn y personau. Y mae dynion wrth farw yn marw yn hollol i'r byd hwn; ond (1.) Crist ni bu farw yn ei holl berson. (2.) Yn y natur, yn yr hon y bu farw, bu fyw drachefn; ac am hyny, y mae ei eiddo yn ei feddiant drachefn. 2il, Y gwahaniaeth sydd yn y pethau. (1.) Y mae eiddo dynion yn gyfryw ag nas gall llawer gael meddiant o'r un pethau; ond y mae pethau ysbrydol yn gyfryw ag y gallant fod yn meddiant y testamentwr, a'r rhai oll y gwneir yr ewyllys iddynt. (2.) Mewn testamentau dynol, y mae yr hyn a adewir yn cynnwys naill ai yr hyn a ddaeth i lawr i'r testamentwr fel etifeddiaeth, neu yn ffrwyth ei lafur personol ef ei hun. Nid marwolaeth sydd yn rhoddi y teitl; ond pwrcasodd Crist, fel testamentwr, yr etifeddiaeth trwy ei waed ei hun. (3.) Mewn ewyllysiau dynol, nid oes ond un yn meddiannu yr holl etifeddiaeth; ond yn Nghrist, y mae pob un yn cael meddiant o'r oll. (4.) Nid ydyw testamentau dynol yn gyfammodau chwaith; ond y mae testament Crist yn gyfammod, gan iddo roddi ei fywyd fel aberth.

19. *Wedi i Moses adrodd yr holl orchymyn.*—Groeg: 'pob gorchymyn.' *Yn ol y gyfraith*:—Cyssyllter hwn â'r ferf "adrodd." *Waed lloi a geifr.*—Gwaed lloi yn unig a grybwyllir yn *Exodus.* Gwaed y poethoffrymau oedd yr olaf, yn ol pob tebyg. *Gyda dwfr.*—Gwel *Num.* xix. 6, 17, a *Lef.* xiv. 50. *Gwlân porphor, ac isop.*—Rhwymid y gwlan porphor ar y gangen o isop, i beri iddo sugno y gwaed. Tyfai yr isop ar y pared: yr oedd ei ddail yn wlanog, tua modfedd o hyd, a'i flodau yn wynion, neu yn fwyaf cyffredin yn leision. *Ar y llyfr.*—Nid ydyw hyn yn cael ei nodi yn yr Hen Destament. *A'r bobl oll.*—Nid 'pob un,' ond y dyrfa fel y cyfryw.

20. *Hwn yw gwaed y testament*: neu y cyfammod, yn fwy cywir. Gwel uchod.

21. *Y tabernacl hefyd a holl lestri y gwasanaeth ...yr un modd.*—Cyfeirir yma, nid at yr amgylchiad a gofnodir yn yr adnod flaenorol, yr hwn a gymmerodd le cyn gorphen y tabernacl; ond at yr hanes yn *Exod.* xl. 9, 10, am gyssegriad y tabernacl trwy eneiniad âg olew: ni sonir yno am y taenelliad â gwaed. Y mae yr awdwr yn ddiau yn seilio yr hyn a ddywedir yma ar draddodiad. Cawn yr un traddodiad yn Josephus yn mron yn yr un geiriau. Yn *Lef.* viii. 30, sonir am daenellu y gwaed oddi ar yr allor ar yr offeiriaid ac ar eu gwisgoedd, ond nid y tabernacl a'r llestri.

22. *A chan mwyaf trwy waed.*—Groeg: 'mewn gwaed.' Yr eithriadau i'r rheol gyffredinol ydynt yn *Exod.* xix. 10; *Lef.* xv. 5; xvi. 26, 28; xxii. 6; *Num.* xxxi. 22—24. *Ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.*—Y mae y gair "purir" yn y rhan gyntaf yn cyfeirio yn arbenigol at halogrwydd, a "maddeuant" yn y rhan hon at euogrwydd. Y mae y gair *aimatecchusia*, a ddarllenir yma "gollwng gwaed," yn un anghyffredin iawn; ac ymddengys iddo gael ei fathu o bwrpas gan yr awdwr. Arwydda, yn ol ei dreigliad, gollyngiad allan waed; y mae y gollyngiad hwn yn cyfeirio, medd rhai, at daenelliad y gwaed ar ol ei ollwng yn lladdiad yr aberth; gan mai y taenelliad hwnw oedd hanfod yr aberth (*Lef.* xvii. 11); ond yr oedd gollyngiad gwaed yn angenrheidiol, fel ammod blaenorol i'r taenelliad hwnw. Nid ydyw yn debyg fod yr awdwr yn gwahaniaethu y naill yn ei feddwl oddi wrth y llall, gan fod y ddau yn angenrheidiol.

23. *Rhaid oedd gan hyny i bortreadau y pethau sydd yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn.*—Y mae yn profi yr angenrheidrwydd am y puredigaeth oddi wrth eu gosodiad gan Dduw fel cysgodau. Hyn ydyw grym priodol yr ymadrodd "gan hyny." Arwydda y gair a gyfleithir yma "portreadau" arddangosiadau awgrymiadol. Gwel ar *pen.* viii. 5, lle y cawn yr un gair. *A'r pethau nefol eu hunain:*—sef, y gwrthgysgodau o'r pethau hyny. Ond pa bethau yw y rhai hyny? Nis gallwn atteb yn well na thrwy ddywedyd—pob peth ag y mae ein pechod ni wedi ei halogi. Y mae yn wir, ar un ystyr, y gellir dywedyd mai y dyn ei hun yn unig y mae pechod yn ei halogi: ond mewn rhyw ystyr hefyd y mae pechod nid yn unig yn halogi yn fewnol yr hwn sydd yn ei gyflawni, ond hefyd yn allanol, yr hyn y mae yn dwyn perthynas foesol âg ef. Felly y dywedwn am halogi enw Duw trwy ei gymmeryd yn ofer, a halogi ei ddydd trwy lafurio i ni ein hunain arno. Yn yr ystyr allanol hwn, gellir dyweyd fod y nefoedd wedi ei halogi genym, trwy bechu o honom yn erbyn y Duw sydd ynddi; ïe, gellir dywedyd hefyd ein bod wedi halogi ei natur sanctaidd ef ei hun. Gyda chyfeiriad at yr ystyr allanol hwn i'r gair, gellir dywedyd hefyd fod yn rhaid puro y nefoedd a'i phethau âg aberth, yn gystal a'n puro ni ein hunain yn fewnol. A thybygid, wrth sylwi ar y cyssylltiad, mai puriad allanol oddi wrth halogrwydd allanol neu wrthddrychol sydd mewn golwg gan yr awdwr yn y lle hwn. Yr oedd y tabernacl oll, a llestri y gwasanaeth, yn cael eu golygu yn aflan—nid yn fewnol neu briodol, yn ddynt ac o honynt eu hunain; ond yn allanol a chyfrifol o herwydd aflendid y genedl. Yn yr

oedd gael eu puro â'r pethau hyn; a'r pethau nefol eu hunain âg aberthau gwell na'r rhai hyn.

[e] Adn. 11. 24 Canys nid [g] i'r cyssegr o
[h] Heb. 8. 2; Salm66.18; [i] Ioan 1. 29.
waith llaw, [h] portread y gwir *gyssegr*, yr aeth Crist i mewn; [i] ond i'r nef ei hun, [k] i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni:
[k] Exod. 28. 29, 30. Adn. 7, 14.
25 Nac fel yr [l] offrymai efe ei hun yn fynych, megys y mae yr archoffeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr bob blwyddyn, â gwaed arall:
[m] Dan. 10. 14; [n] Gal. 4. 4. Lef. 16. 21, 22; 1 Pedr 2. 24; 3. 18.
26 (O blegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef er dechreuad y byd) eithr yr awr hon unwaith [m] yn niwedd y byd yr [n] ymddangosodd efe, i ddileu pechod trwy [o] ei aberthu ei hun.
[o] Eph. 5. 2; Titus 2. 14.
[p] Gen. 3. 19; Iob 14. 5.
27 Ac [p] megys y gosodwyd i

un modd yr ydym ninnau wedi halogi yn allanol trwy ein halogrwydd mewnol yr holl wrthddrychau sanctaidd ag yr ydym mewn perthynas foesol â hwynt. Ac fel yr oedd yn rhaid puro y cyssegr, rhaid hefyd oedd puro y pethau nefol eu hunain âg aberthau gwell. Y mae yr halogrwydd mewnol a sylweddol sydd ynom ni yn taflu ei gysgodion duon tywyll y tu allan i ni ar y nefoedd a'i phethau; ac am hyny yr oedd yn rhaid cael aberth, nid yn unig i buro y sylwedd mewnol, ond hefyd i beri trwy hyny i'r cysgodau tywyll yn y nefoedd ddiflanu fel canlyniad i ddiléad y sylwedd ar y ddaear. *Ag aberthau gwell.*—Pa ham y dywedir "aberthau" yn y rhif liosog, yn lle aberth, gan mai un aberth a roddes efe? Nid yn unig er mwyn cyddfurfiad ymadrodd, am mai aberthau yn y rhif liosog sydd yn nechreu yr adnod hon, [*Calvin*, &c.], ond hefyd i awgrymu fod un aberth Crist yn fwy na chydwerth a chyfattebiaeth i'r holl aberthau hyn.

24. *Canys nid i'r cyssegr o waith llaw, portread y gwir gyssegr.*—Y rheswm sydd yn profi fod yn rhaid puro y pethau nefol, ydyw fod Crist wedi myned i'r cyssegr nefol, i ymddangos ger bron Duw drosom ni; yr hyn sydd yn cyfatteb i waith yr Archoffeiriad gynt yn myned i'r sancteiddiolaf—nid heb waed, ond trwy waed yr aberth yr hwn a daenellai ar ac o flaen y drugareddfa i buro y sancteiddiolaf; ac am hyny, gan fod y sylwedd yn cyfatteb i'r cysgod, yr oedd yn rhaid iddo yntau buro y gwir sancteiddiolaf trwy ei ymddangosiad fel aberth ger bron Duw trosom ni. Gelwid y cyssegr gynt yn bortread. Y gair [f] roeg ydyw *antitupa;* yr hwn a arwydda weithiau copi oddi wrth gynllun gwreiddiol; a phrydiau ereill, y sylwedd ei hun yn wrthosodol i'r cysgod. Yma defnyddir ef yn yr ystyr blaenaf. *Ir nef ei hun.*—Nid i'r nefoedd, ond i'r nef. Aeth trwy y nefoedd i'r nef—i'r man y mae Duw ei hun yn trigo, a'i ogoniant yn disgleirio. *I ymddangos yn awr ger bron Duw.*—Y mae y gair a gyfieithir "ymddangos" yn un o ystyr arbenig. Arwydda y cymmundeb mawr a dirgeledig sydd rhwng y Tad a'r Mab, yr hwn nis gall neb ei feddu ond y Mab. Y mae yn y ffurf oddefol, 'i fod yn amlygedig.' Y mae y Tad yn awr yn gweled ac yn adnabod y Mab, fel y mae yn sefyll ger ei fron yn ein natur ni fel Cyfryngwr, a'r Mab yn adnabod y Tad ar y llaw arall yn yr un modd. *Ger bron Duw:*—Gr. 'i wyneb Duw.' Nid i gysgod ei bresennoldeb a'i ogoniant, ond i wyneb Duw ei hun. Fel yr oedd er tragwyddoldeb, yn ei berson a'i natur ddwyfol, ger bron ei Dad, felly hefyd y mae yn awr yn a thrwy ein natur ni. *Yn awr:—h. y.*, yn wastadol; nid ar adegau, fel yr archoffeiriad gynt. *Trosom ni.*—Efe ei hunan, yn ei ymddangosiad fel aberth ac offeiriad, sydd yn gweinyddu trosom gyda Duw. Y mae nid yn unig yn ymddangos, ond y mae yn gwasanaethu—yn gwasanaethu trwy ymddangos, ac yn ymddangos i wasanaethu.

25. *Nac fel yr offrymai efe ei hun yn fynych.*—Cyfeiria y gair "offrymu," yn yr adnod hon, nid at yr hyn a wnaeth ar y ddaear, ond at yr hyn a wna yn awr yn y nefoedd; sef, yr un peth ag a olygir yn y gair "ymddangos" yn yr adnod flaenorol. Ar ol dangos ei fod yn awr neu yn wastad yno yn ymddangos drosom ni, chwanega ddangos unoliaeth ei ymddangosiad. Nid mynychu, ond parhau ei ymddangosiad y mae efe: tra yr oedd yr archoffeiriad gynt yn mynychu ei ymddangosiad ger bron Duw, a hyny am nas gallai ei barhau. A rheswm pa ham nas gallai barhau, ond mynychu, ei fyneiiad oedd, ei fod yn myned yno, fel y dywed yr awdwr, "â gwaed arall."

26. (*O blegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef.*—Pwysleisier ar y gair "dioddef," ac nid ar y geiriau "yn fynych." Pe buasai Crist i'w offrymu ei hun yn fynych yn y cyssegr sancteiddiolaf yn y nefoedd, buasai raid iddo ddioddef yn fynych ar y ddaear. Felly yr oedd yn amgylchiad yr archoffeiriad gynt: am ei fod yn fynych yn offrymu, yr oedd yn fynych yn aberthu. *Er dechreuad y byd.*—Pe buasai ei offrymiad yn rhanedig a chyfyngedig i ranau neilltuol o amser, ac yn taflu ei rinwedd dros ranau o amser, buasai raid iddo ei offrymu a'i aberthu ei hun er dechreuad y byd i gyfatteb i'r rhanau hyny, ac felly yn fynych. Ni buasai yn gwneuthur y tro iddo ddyfod i'r byd i aberthu ei hun yn mhen miloedd o flynyddoedd, gan y buasai rhinwedd ei aberth am yr adeg a aethai heibio yn ddirym. *Eithr yr awr hon unwaith yn niwedd y byd.*—Gan fod ei aberth yn unigol aberth a digonol aberth, y mae ei rinwedd yn cerdded yn ol ac yn mlaen, ac yn ymestyn dros holl oesoedd amser, y naill fel y llall; ac fel y mae ei aberth, yr hwn a roddes efe ar y ddaear, felly y mae ei ymddangosiad yn y nefoedd. *Y* mae hwnw hefyd yn ei rinwedd yn parhau ac yn ymestyn yn ol ac yn mlaen. *Yr ymddangosodd efe:*—sef, yn y cnawd—yn ein natur ni. *I ddileu pechod:*—Groeg: 'i symmud ymaith bechod.' *Trwy ei aberthu ei hun.*—Groeg: 'trwy ei aberth ei hun;' neu, trwy yr aberth (a wnaeth) o hono ei hun. Pa ham y gelwir yr adeg yr ymddangosodd Crist i'w aberthu ei hun yn "ddiwedd y byd?" Am ei fod, medd Ebrard, yn amser cyflawniad neu ddiwedd, ac nid yn amser disgwyliad neu brophwydoliaeth. Gwel ar pen. i. 1.

27, 28. *Ac megys y gosodwyd...felly Crist hefyd.*—Yn yr adnodau blaenorol, dangosai yr apostol nad ydyw Crist, ac nad oedd angen arno ei 'offrymu ei hun' yn fynych yn y nefoedd; ac yna dengys yn y ddwy adnod olaf o'r bennod nad oedd angen arno am 'gael ei offrymu' ar y ddaear yn fynych. Yn niwedd yr adnod nesaf, dywed y ffaith, mai unwaith yr ymddangosodd i ddileu pechod; ond yma, dyry y rheswm am y ffaith fel y mae yn cael ei egluro a'i engreifftio yn

[1] Iob 19. 23; Mat. 25. 31, &c.; Ioan 5. 26—29. [2] Adn. 25. [3] Phil. 3. 20; 2 Tim. 4. 8; Titus 2. 13; 2 Pedr 3. 12. [4] Ioan 14. 3; Act. 1. 11; 1 Thes. 4. 14—16.

ddynion farw unwaith, [9] ac wedi hyny *bod* barn:

28 Felly Crist [r] hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, [s] a ddengys yr ail waith, heb bechod, [t] i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl, er iachawdwriaeth.

PENNOD X.

1 *Gwendid aberthau y gyfraith.* 10 *Aberth corph Crist a offrymwyd unwaith.* 14 *sydd byth yn tynu ymaith bechodau.* 19 *Cynghor i lynu yn lew yn y ffydd trwy amynedd a diolch.*

OBLEGID y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, *ac* nid gwir ddelw y pethau, nis gall trwy yr aberthau hyny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu hoffrymu yn wastadol, byth berffeithio y rhai a ddêl ati. B. A. 63.

2 O blegid yna hwy a beidiasant â'u hoffrymu, am na buasai gydwybod pechod mwy gan y rhai a addolasent, wedi eu glanhau unwaith.

hanes dynion, ac fel y mae yn cael ei sylweddoli yn gyfattebol yn hanes Crist fel archoffeiriad. Y rheswm hwnw ydyw unoliaeth y gospedigaeth am bechod—sef marwolaeth—fel dechreuad a barn uffern, fel parhâd a pherffeithiad. Gan fod y gosp yn un a pharhaol, yr oedd yn ofynol i'r aberth, yr hwn oedd i symmud ymaith weinyddiad y gosp, fod yn cyfatteb i hyny—yn un, ac nid yn fynych yn ei offrymiad, ac yn barhaus yn ei rin a'i effeithiolrwydd. *Wedi ei offrymu.*—Nid wedi ei offrymu ei hun. Cawn yr ymadrodd hwnw i ddynodi ei gyflwyniad o hono ei hun fel aberth yn y nefoedd yn *adn.* 25; ac felly, rhoddir yr ymadrodd yn oddefol yn yr adnod hon i osod allan yr hyn a ddioddefodd ar y ddaear, yn gyferbyniol â'r ymadrodd yn *adn.* 27. *Unwaith, i ddwyn ymaith.*—Gwel *Esa.* liii. 12; "Efe a ddug bechodau llaweroedd." Arwydda y gair, eu dwyn arno ei hun yn eu canlyniadau fel cosp; a thrwy hyny eu dileu, neu eu bwrw ymaith. *A. ymddengys yr ail waith:*—Gr.: 'a welir.' Y gair a arferir yn gyffredin am ei ymddangosiad ar ol yr adgyfodiad. Yn lle ymddangos yr ail waith i ddwyn ymaith bechod drwy ei offrymu ei hun, fe ymddengys *heb bechod.* Fe brawf effeithiolrwydd ei offrymiad ger bron Duw, a'u bod wedi eu dileu yn weithredol ar ol eu dileu yn haeddiannol, trwy ymddangos neu gael ei weled yr ail waith heb bechod; *h. y.*, heb fod pechod mwy yn bod iddo, i'w ddwyn ymaith trwy gael ei offrymu ar y ddaear, nac i gael ei ddwyn ymaith chwaith trwy iddo ei offrymu ei un ger bron y Tad yn y nefoedd, gan y bydd wedi ei gwbl symmud yn ei holl bobl. Eglurhadau ereill ydynt heb bechod i'w gospi [*Klee*]—heb bechod i'w gyfarfod [*Bleek*]—heb bechod i ofalu dim yn ei gylch [*Ebrard*]—heb bechod i ddyfod i gyffyrddiad âg ef [*De Wette*].

PENNOD X.

1. *O blegid y gyfraith...nis gall...byth berffeithio.*—Y mae y cyssylltiad rhwng yr adnod hon a'r un ddiweddaf yn y bennod flaenorol, trwy y cyssyllt-air "oblegid," yn amlwg; ac nid ydyw yn anhawdd ei osod allan. Yr oedd yr awdwr, yn niwedd y bennod flaenorol, wedi dangos aneffeithioldeb ymddangosiad yr archoffeiriaid yn y cyssegr sancteiddiolaf, oddi wrth fynychiad y cyfryw; a pherffeithrwydd ac effeithiolrwydd ymddangosiad Crist yn y gwir gyssegr, trwy y ffaith fawr ddarfod iddo fyned i mewn unwaith i ymddangos ger bron Duw, gan brofi hyny drachefn oddi wrth unigolrwydd ei aberth. "Megis y gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn," neu gosp—felly Crist, fel archoffeiriad, yn ei aberthu ei hun drosom, a wnaeth hyny unwaith am byth, ac yn y fath fodd nad oes angen am iddo wneuthur hyny mwyach. Canys, medd yn nechreu y bennod hon, nis gall y gyfraith byth berffeithio y rhai a ddêl ati. Y mae yn dyfod âg ammherffeithrwydd aberthau y gyfraith i brofi perffeithrwydd aberth Crist, gan egluro yr elfenau hyny ag oeddynt yn cyfansoddi ammherffeithrwydd aberthau y gyfraith â'r elfenau hyny, ar y llaw arall, ag sydd yn cyfansoddi perffeithrwydd aberth Crist, fel ag i egluro pa ham nas gallai y naill fod yn effeithiol, er eu hoffrymu yn fynych, a phaham yr oedd y llall yn effeithiol, er nas offrymwyd ond unwaith. Un elfen o ammherffeithrwydd yn aberthau y gyfraith ydoedd eu bod yn gysgodol. Nid oedd gan y gyfraith ond cysgod y daionus bethau i ddyfod. Yr oeddynt fel cysgodau yn arddangos y sylwedd, er yn ammherffaith; ond fel y mae cysgodau naturiol, felly hefyd yr oedd y cysgodau defodol hyn yn hanfodi ar wahân oddi wrth y sylweddau yr oeddynt yn eu harddangos. Nid oeddynt yn "wir ddelw," neu ffurf y pethau. Y mae ffurf y sylwedd yn cyd-hanfodi â'r sylwedd. Nis gellir gwahanu, er y gellir gwahaniaethu, y sylwedd oddi wrth y ffurf, fel y gellir y sylwedd oddi wrth y cysgod. Yn yr efengyl, y mae genym ni ffurf y pethau, neu eu "gwir ddelw;" neu fel y gellir darllen yr ymadrodd, 'y ddelw ei hun.' Elfen arall o ammherffeithrwydd oedd, eu mynych offrymiad. Arddangosir hyn mewn ymadroddion cryfion:—(1af), "yr aberthau hyny," neu yn ol cyfieithiad cywirach, 'yr un aberthau.' Nid oeddynt yn gwella dim yn eu natur a'u gwerth ar ol eu hoffrymu am oesoedd: (2il), bob blwyddyn; (3.), yn wastadol. Yr oedd cylch eu hoffrymiad yn dychwelyd o flwyddyn i flwyddyn, ond yn gadael y genedl yn yr un man o hyd. Wrth *berffeithio y rhai a ddêl ati*, y mae i ni ddeall, fel yr eglurir yn yr adnod nesaf, dwyn y genedl i gyflwr, perthynas, ac ansawdd foesol gyda golwg ar Dduw ag oedd yn angenrheidiol arnynt fel pechaduriaid. Gwel *pen.* ii. 10.

2. *Oblegid yna hwy a beidiasant â'u hoffrymu.*—Gwell o lawer ydyw y darlleniad gofyniadol, 'O blegid oni pheidiasant hwy.....&c?' Rheswm sydd yn yr adnod hon yn cael ei roddi yn y modd gofynol i brofi aneffeithiolrwydd y gyfraith i berffeithio y rhai a ddêl ati. Y rheswm hwnw ydyw, y buasent ar bob cyfrif yn peidio a'u hoffrymu, am y rheswm drachefn na buasai ganddynt gydwybod pechod, wedi eu glanhau unwaith. Yr oedd tystiolaeth i aneffeithiolrwydd ac annigonolrwydd yr aberthau hyn yn nheimlad cydwybod y genedl. Ac yn union yn y teimlad hwn yr oedd gwir ddefnydd yr aberthau hyny fel cysgodau. Yr oeddynt yn wasanaethgar trwy

3 Eithr yn *yr aberthau* hyny *y mae* adgoffa pechodau bob blwyddyn.

4 Canys ammhossibl *yw* i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau.

5 O herwydd paham y mae efe, [a]Salm 40. 6 —8.
wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd, [b]Gen. 3. 15 Esa 7. 14. [c]Lef. 1. 4, 5; 6. 1—7; [d]Mal. 1. 10; Mat. 3. 17; Eph. 5. 2; Phil. 4. 18
[a]Aberth ac offrwm nis mynaist, [b]eithr corph a gymmhwysaist i mi.

6 [c]Offrymau poeth, a thros bechod, [d]ni buost foddlawn iddynt.

7 Yna y dywedais, [e]Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. [e]Diar. 8. 31; Ioan 4. 34; 6. 38.

8 Wedi iddo ddywedyd uchod, Aberth ac offrwm, ac offrymau poeth, a thros bechod, nis mynaist, ac nid ymfoddlonaist *yn-ddynt* (y rhai yn ol y gyfraith a offrymir)

9 Yna y dywedodd, Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. [f]Y mae yn tynu ymaith y cyntaf, fel y gosodai yr ail. [f]Heb. 8. 7 —13; 12. 27, 28.

hyn i gadw yn fyw y teimlad o angen am faddeuant a glanhâd, ac hefyd i arwain eu meddyliau i edrych allan am sylweddoliad mwy cyflawn o'r drychfeddwl o aberth dros bechod yn y dyfodol, ac i bwyso mewn ymddiried am burdeb ar yr aberth gwell oedd i gael ei roddi yn niwedd y byd.

3. *Eithr yn yr aberthau hyny*:—*h. y.*, yn yr ymarferiad â hwynt. *Y mae adgoffa pechodau.*—Barna rhai fod yn yr ymadrodd hwn gyfeiriad at waith yr archoffeiriaid yn cyffesu pechodau y genedl (*Lef.* xvi. 20); ond diau mai prawf ydyw yr ymadrodd nad oedd yn yr aberthau hyny lanhau cydwybod pechod; ond i'r gwrthwyneb, adgoffa pechodau. Gwasanaethent, yn ac o herwydd eu hammherffeithrwydd i lanhau, er adgoffa pechod, a thrwy hyny i beri i ddynion edrych y tu hwnt iddynt at aberth gwell.

4. *Canys ammhossibl yw i waed teirw*, &c.—Cynnwysa hwn y rheswm mawr, fel yr oedd yn pelydru yn barhaus yn meddyliau a chydwybodau y genedl, pa ham yr oeddynt, er eu holl aberthu a'u holl aberthau, heb eu glanhau trwyddynt. Nid oedd urddas a gwerth priodol a digonol ynddynt. Gwerth bywyd anifeilaidd yn unig oedd ynddynt—nid oedd gwerth dynol nac urddas dwyfol yn perthyn iddynt. Yr ydoedd yn ammhossibl fod gwerth moesol yn perthyn i ddioddefiadau creaduriaid oedd islaw moesoldeb yn eu creadigaeth. Nis gallent, gan hyny, *dynu ymaith bechodau.* Nis gellir dileu y moesol trwy gyflawni hyd yn oed anfeidroldeb o'r hyn sydd islaw iddo. Yr oedd eisieu, i fod yn aberth dros bechod, i ewyllys Duw gael ei chwblhau, fel y mae yn gofyn yn unol â chyflawnder ei natur am i ddioddefiadau gael eu hoffrymu ar allor ewyllys sanctaidd. Nis gallai creadûriaid ag oedd heb ewyllys byth wneuthur hyn er dioddef am filiynau o flynyddoedd y naill ar ol y llall. Yr oedd yn rhaid cael ewyllys ar gyfer ewyllys—ewyllys y dioddefydd i ddioddef yn ewyllysgar, ac i ufuddhau trwy ddioddef, fel iawn yn gystal ac aberth i ewyllys Duw. Yr oedd yn ofynol cael dioddefiadau o'r un natur a dioddefiadau y rhai yr oeddynt yn cael eu hoffrymu drostynt. Nid oedd yr aberthau gynt yn cyfatteb i hyn; a thrachefn, yr oedd yn angenrheidiol i'r dioddefydd allu dyhysbyddu, fel ag i fyned y tu draw iddynt gan fyned trwyddynt fel ag i'w alluogi i fod yn awdwr iachawdwriaeth trwy ddyfod â'r rhai y dioddefodd drostynt i undeb âg ef ei hun, fel ag i gyfranogi o ffrwyth ei ddioddefiadau ar eu rhan.

5. *O herwydd pa ham y mae efe*:—sef, y Messiah mewn prophwydoliaeth, yn mherson Dafydd fel cysgod o hono ei hun; yr hwn, fel cysgod ammherffaith a ddywedodd y geiriau hyn mewn perthynas âg ef ei hun yn; wrthgyferbyniol i Saul, yr hwn a roddai bwys ar aberthau fel y cyfryw, gan esgeuluso yr egwyddor o ufudd-dod i orchymyn Duw; ac am hyny a wrthodwyd gan Dduw, a daeth Dafydd yn ei le fel cysgod o'r Messiah mawr. *Wrth ddyfod i'r byd.*—Hyn oedd iaith ac ystyr ei ymgymmeriad i ddyfod i'r byd ar ein rhan. *Aberth ac offrwm nis mynaist.*—Gwel *pen.* ii. 14. *Eithr corph a gymmhwysaist i mi.*—Hebraeg: 'agoraist fy nghlustiau,' neu, 'cloddiaist fy nghlustiau.' Yr olaf ydyw yr Hebraeg cywir. Ystyr yr ymadrodd yw cloddio y glust i ufuddhau i Dduw. Y mae priodoldeb prydferth yn y gair yn ei berthynas â'r glust. Dywed anianyddwyr wrthym fod y glust fewnol yn y corph yn llawn o gafnau amrywiol, wedi eu cyfaddasu oll, trwy eu llanw, rhai âg awyr, ac ereill â dwfr, i gludo swn i mewn i'r gewyn clyw. 'Cloddiaist fy nghlustiau' felly yw, 'Rhoddaist offeryn cyfaddas i mi glywed a gwrandaw ar dy leferydd.' Y mae yr ymadrodd yn amlwg yn ffugrol a barddonol, i osod allan y drychfeddwl o roddi cyfrwng neu offeryn priodol i glywed a gwrandaw. Yn awr, i gymmhwyso yr ymadrodd at Iesu Grist, Pa beth ydyw y cyfrwng hwnw, ond ei natur ddynol? ac felly, y mae y cyfieithwyr, sef, y Deg a Thrigain, wedi dodi ymadrodd mwy llythyrenol a llai barddonol; sef, "corph a gymmhwysaist i mi." Rhoddwyd y natur ddynol iddo i fod yn gyfrwng neu offeryn i glywed a gwrandaw ewyllys Duw. Nid oes yma ddim cyfeiriad, dybygem, fel y dywed rhai esbonwyr, at yr arferiad o dyllu clust y caethwas: *Exod.* xxi. 6; a *Deut.* xv. 17.

7. *Yna y dywedais.*—Yn ngwyneb annigonolrwydd yr aberthau uchod. *Y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf.*—Y gair *cephalis*, a gyfieithir yma "dechreu," a arwydda yr un peth a rhol neu gyfrol. Defnyddid ef yn wreiddiol i arwyddo y dyrnau ar ben y rhol-bren, o amgylch yr hwn y rholid llawysgrifau. Ac oddi wrth hyny daeth i arwyddo y rhol neu y gyfrol ei hun, ac weithiau dechreuad y llyfr. Nid yw y dyfyniad a geir yn yr adnod hon yn hollol a manwl gydredol â'r Hebraeg, na chwaith â'r cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament. Gwel *Salm* xl. 7, 8, lle y canfyddir fod yr ymadrodd yn wahanol; yr hyn sydd yn profi mai rhydd-ddyfyniad a geir yma.

8. *Wedi iddo ddywedyd uchod.*—Groeg: 'pan yn dywedyd uchod.'

9. *Yna y dywedodd*:—pan ddywedodd am aneffeithiolrwydd y naill, yna fe ddywedodd, *Wele fi.*—Yn yr olwg ar aneffeithiolrwydd y naill, y mae yn cynnyg ei hun fel aberth mwy effeithiol.

[g] Zech. 13. 1; Ioan 17. 19; 19. 34; 1 Cor. 1. 30.
[h] Heb. 9. 26, 28.

10 Trwy yr hwn ewyllys [g] yr ydym ni wedi ein sancteiddio, trwy [h] offrymiad corph Iesu Grist unwaith.

11 Ac y mae pob offeiriad yn sefyll beunydd yn gwasanaethu, ac yn offrymu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant fyth ddileu pechodau:

12 Eithr hwn, wedi offrymu un aberth dros bechodau, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw;

[i] Salm 110. 1; Dan. 2. 44; Mat. 22. 44.
[k] Heb. 7. 19, 25; 9. 10, 14.

13 O [i] hyn allan yn disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef yn droedfaingc i'w draed ef.

14 Canys âg un offrwm [k] y perffeithiodd efe yn dragwyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.

15 *Ac* y mae yr Ysbryd Glân hefyd yn tystiolaethu i ni: canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen,

16 Dyma y cyfammod yr hwn a ammodaf fi â hwynt ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonau, ac a'u hysgrifenaf yn eu meddyliau;

17 A'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf mwyach.

18 A lle *y mae* maddeuant am y rhai hyn, nid *oes* mwyach offrwm dros bechod.

19 Am hyny, frodyr, gan fod i

Cyhoedda y naill yn annigonol mewn trefn i osod i lawr y llall. Yr oedd Crist, fel yr oedd yn bresennol ar hyd yr oesoedd yn mhlith y genedl Iuddewig, yn cyhoeddi aneffeithiolrwydd yr aberthau gynt. Gwnai hyny yn arbenigol trwy law y prophwydi; a hyny i'r dyben o barotoi lle yn nghydwybod y genedl i'w aberth gwell ef, yr hwn yr oedd i'w roddi yn weithredol ar ol ymddangos yn y cnawd.

10. *Trwy yr hwn ewyllys:—h. y.*, trwy gyflawni "yr hwn ewyllys." Golygir yma ewyllys y Tad, gyda golwg ar yr hyn oedd yn ddyledus iddo yn wreiddiol oddi arnom ni yn bersonol; ond yn weithredol, yr hyn a ofynai gan y Mab fel un yn sefyll drosom, o ran gwncuthur a dioddef. *Wedi ein sancteiddio.*—Y mae eginyn ein perffaith sancteiddiad y tu allan i ni—yn yr hyn a wnaeth Crist fel aberth drosom. Y mae defnydd yr hyn oll a wneir ynom er ein sancteiddio wedi ei gynnyrchu yn yr un aberth mawr a roddes drosom. *Trwy offrymiad corph Iesu Grist unwaith.*—Dengys yr ymadrodd hwn yn mha fodd y mae i ni olygu ein bod eisoes "wedi ein sancteiddio," trwy fod Crist wedi cyflawni ewyllys y Tad; ac hefyd pa fodd y darfu i Grist gyflawni yr ewyllys hono; sef, trwy offrymu ei ddynoliaeth yn aberth dros bechod.

11. *Ac y mae pob offeiriad yn sefyll beunydd yn gwasanaethu.*—Yn y rhanau blaenorol, dangosir i ni ragoriaeth aberth Crist ar yr aberthau cysgodol yn ac o ran ei natur; ac yn yr adnod hon, ynghyd â'r un ddilynol, dengys ei ragoriaeth o ran ei gweithrediad. Offrymid y naill yn fynych, ond y llall unwaith yn unig. Bernir mai y darlleniad mwyaf awdurdodedig ydyw, yn lle 'offeiriad,' 'archoffeiriad.' Felly y darllena Lachmann, Tischendorf; hefyd, A, C, a'r cyf, Syriaeg, &c. Hefyd, yn lle 'yr un aberthau,' darllener 'yr aberthau hyny.' Am ystyr y gair "beunydd" yn gyssylltiedig â'r aberthau, gwel ar *pen.* vii. 27. *Y rhai ni allant byth ddileu pechodau.*—Arwydda y gair *periairein* ('dileu'), dynoethi, tynu ymaith beth fel gwisg o amgylch. Defnyddir ef am dynu modrwy oddi ar fys un.

12. *Yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.*—Diau fod yma wrthgyferbyniad rhwng sefyll yr offeiriaid gynt i wasanaethu, ac eisteddiad Crist i deyrnasu. Nid oedd rhyddid i'r offeiriaid eistedd yn nghyntedd mewnol y deml. Y brenin yn unig a oddefid i wneuthur hyny. Ond aeth Crist trwy ei offeiriadaeth i mewn yn weithredol i'w frenhiniaeth, am ei fod ef yn frenhinol offeiriad. Cyssyllta rhai y gair "tragywydd" â'r ferf offrymu; ond diau mai gwell yw ei gyssylltu â'r ferf "eistedd," fel y mae uchod.

13. *O hyn allan yn disgwyl.*—Yn lle aberthu ei hun eilwaith, y mae o hyn allan, fel Breninoffeiriad, yn disgwyl am ddarostyngiad ei elynion, a gwneuthur y rhai oll a gredant ynddo yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw ei Dad ef. *Hyd oni osoder.*—Gwel 1 *Cor.* xv. 25. *Canys âg un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywydd y rhai sydd wedi eu sancteiddio.*—Yn lle "wedi," dylid darllen yma, "y rhai sydd yn cael eu santeiddio.' Golygir hwynt yma, nid fel wedi eu sancteiddio o ran gorpheniad defnydd eu sancteiddiad yn aberth Crist, ond fel yn weithrediadol yn cael eu sancteiddio. Cawsant eu perffeithio yn haeddiannol mewn modd allanol (*objective*) yn aberth Crist, ac y maent yn cael eu perffeithio yn fewnol a gweithred; hyny yw, eu sancteiddio ar sail yr aberth hwnw, trwy oruchwyliaethau yr Ysbryd Glân, fel y dangosir yn yr addewidion canlynol.

15. *Ac y mae yr Ysbryd Glân hefyd yn tystiolaethu i ni.*—Dygir yn mlaen y brophwydoliaeth ganlynol unwaith etto i gadarnhau y gwirionedd am effeithiolrwydd aberth Crist.—Yn yr addewid fawr a roddodd Duw, y byddai iddo osod ei gyfraith yn nghalonau ei bobl, y mae yn gyssylltiedig â hyn yn addaw anghofio eu pechodau. Wedi iddo ddywedyd yn gyntaf, neu o'r blaen, pa beth a wnai ynddynt i'w hadnewyddu, y mae ar ol hyny yn amlygu y sail ar yr hon y gwnai hyny; sef, maddeu yn dragywydd eu holl anwireddau. Ond, fel yr ymresyma yn yr adnod nesaf, lle y mae maddeuant am y rhai hyn wedi cymmeryd lle, nid oes mwyach eisieu offrwm dros bechod, gan fod yn rhaid fod rhyw offrwm eisoes wedi ei roddi fel ag i wneuthur yn bossibl ac yn gyfiawn i faddeu oll; ac nid oedd modd i ddim offrwm wneuthur hyny ond un perffaith—y cyfryw nad oedd eisieu ei wneuthur mwy, nac angen chwaith am un arall ar ei ol. *Canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen.*—Yr hyn a ddywedodd "o'r blaen" ydyw cynnwys yr unfed adnod ar bymtheg; ac yn yr ail ar bymtheg, cawn yr hyn a ddywedodd *ar ol* hyny, a'r hyn y mae yr apostol yn rhoddi pwys ei ymresymiad arno yn *adn.* 18; sef, addewid am lwyr a thragwyddol faddeuant o'u pechodau. Am gynnwys yr addewid, gwel *pen.* viii. 8, 11.

18. *A lle y mae maddeuant.*—Buasai 'ond,' yn lle "a," yn well yma, gan mai ymresymiad casgl

[1] Rhuí. 5. 2; Eph. 2. 18; 1 Ioan 3. 1, 2. [m] Ioan 10. 7, 9; 14. 6.

ni ryddid[1] i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu,
20 Ar hyd [m]ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i

iadol ydyw yr adnod oddi wrth y gosodiadau yn y rhanau blaenorol.

ADN. 19, &c.—DECHREUIR YMA Y DRYDEDD RAN O'R EPISTOL, YN YR HWN Y MAE YR AWDWR YN CYMMHWYSO YR ATHRAWIAETH AT YMARFERIAD A BUCHEDD YR HEBREAID.

19. *Am hyny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn...trwy waed Iesu.*—Y mae yr ymadrodd "gan hyny," yn cyfeirio yn ol at holl gynnwys athrawiaethol yr epistol sydd yn dangos ac yn profi rhagoriaeth Crist fel offeiriad ac aberth. "Gan fod i ni ryddid."—Arwydda y gair (*parrèsia*) yma, nid hawl allanol i fyned i mewn, ond hyder mewnol, wrth ac yn ein mynediad i'r cyssegr. "I fyned i mewn."—Gr.: 'gyda golwg ar y fynedfa i mewn.' "Trwy waed Iesu."—Y mai rhai [*Alford*] yn cyssylltu yr ymadrodd hwn â'r gair "rhyddid," neu 'hyder,' ac felly yn deall yr ystyr yr un a phe dywedai 'hyder yn ngwaed Iesu.' Ond gwell ydyw ei gyssylltu â'r gair 'mynedfa,' neu fel y mae yn ein cyfieithiad ni, "myned i fewn." Megys mai trwy ei waed ei hun yr aeth Crist i mewn, felly trwy waed Iesu y mae i ninnau fyned i mewn at Dduw trwyddo fel Cyfryngwr. Gwrthddadleua Alford fod gwaed Crist eisoes yn y nefoedd; ac am hyny, gofyna, Pa fodd y gallwn ni fyned i mewn, yn neu trwy waed Iesu? Nid oes neb, wrth reswm, yn meddwl dywedyd ein bod ni yn myned i mewn i'r cyssegr i gludo gwaed Iesu gyda ni. Ond er fod gwaed Iesu yn y cyssegr, a'i fod yntau yn cyflwyno ei aberth yn ei eiriolaeth yn ddadl ar ein rhan, y mae genym ni hyder i fyned i mewn i'r cyssegr ar sail haeddiant ei aberth; a hyny a feddylir wrth y fynedfa trwy waed Iesu. Megys mai ar sail ei aberth gwaedlyd yr aeth yr Archoffeiriad mawr ei hun i mewn i eiriol drosom ni, felly hefyd ar sail yr un a'r unrhyw un y mae i ninnau fyned i mewn i gymmeryd gafael yn ei eiriolaeth trwy ein gweddïau. Yr oedd yn rhaid i'r genedl Iuddewig weddïo y tu allan i'r cyssegr. Nid oedd ganddynt hawl allanol, heb sôn am hyder mewnol, i fyned eu hunain i'r cyssegr: ond aeth Iesu Grist i mewn fel aberth, ac fel Archoffeiriad a Rhagflaenor, i agor y ffordd i ninnau i fyned i mewn. Y mae yn agored yn awr i'n gweddïau, ac i ninnau ein hunain trwy ein gweddïau, ac yn y diwedd ni gawn fyned i mewn ato yn bersonol, i "fod yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef."

20. *Ar hyd ffordd newydd a bywiol.*—Cyfieithiad mwy llythyrenol a fyddai fel y canlyn—'Yr hon (fynedfa) a gyssegrodd efe i ni yn ffordd newydd a bywiol trwy y llen; hyny yw, ei gnawd ef.' Y mae yr awdwr, yn yr adnodau 19—21, yn dangos fod i gredinwyr dair rhagorfraint fawr ar sail cyfryngdod ac aberth Crist; sef, yn gyntaf (*adn.* 19), mynediad i mewn i'r cyssegr mewn rhyddid, neu hyder, trwy waed neu aberth yr Iesu: yn ail (*adn.* 20), ffordd newydd a bywiol trwy y llen, sef ei gnawd ef: ac yn drydydd, Offeiriad mawr ar dŷ Dduw. Mewn geiriau ereill, y mae genym yn yr un person mawr, aberth, cyssegr, ac offeiriad. Y mae genym aberth i'w ddadleu yn ei waed, ffordd yn ei gnawd, ac offeiriad yn ei berson. Ar ol dangos yn y lle cyntaf fod i ni fynedfa yn ei waed, sef ei aberth,

ni, [n]trwy y llen,[o] sef ei gnawd ef; [n] Exod. 26. 31, &c., 36. 35, &c.; Lef. 16. 2, 15.
21 A *bod i ni* [p] Offeiriad mawr ar dŷ Dduw; [o] Ioan 6. 51—56; Eph. 2. 15; 1 Tim. 3. 16. [p] Heb. 6. 20.

dengys ei fod wedi cyssegru yr aberth hwnw, neu y fynedfa trwy ei aberth, yn ffordd newydd a bywiol; *h.y.*, yn gyssegr; a gwnaeth hyny "trwy y llen, sef ei gnawd ef." Er i ni gael hawl i fyned mewn, yn a thrwy ei aberth, nis gallasem fyned i mewn yn weithredol heb ffordd, ac am hyny fe gyssegrodd y fynedfa i mewn i fod yn ffordd i fyned i mewn; *h. y.*, fe neilduodd ei aberth i fod yn gyfrwng ein mynedfa. Dioddefiadau a haeddiant yr aberth ydyw y fynedfa i mewn; a'r natur ddynol, yn yr hon v cymmerodd y dioddefiadau le, a thrwy gyfrwng yr hon y cynnyrchwyd yr haeddiant, ydyw y ffordd i'r fynedfa hono. Fel mai trwy ei gnawd ei hun yr aeth Crist i mewn i'r cyssegr, felly hefyd trwy ei gnawd ef y mae i ninnau fyned i mewn. Fel yr oedd yn rhaid i'w natur ddynol ef ddioddef a marw, mewn trefn iddo fyned i mewn trwyddo i'r cyssegr, felly trwy gyfrwng yr un natur, fel un wedi dioddef a marw, y mae i ninnau fyned i mewn. Fel yr oedd yn rhaid iddo ef gael rhwygo y llen, sef ei gnawd ef, cyn y gallasem fyned i mewn, felly rhaid i ninnau etto fyned i mewn drwy y llen hono, fel y cafodd ei rhwygo. Gelwir y ffordd hon yn 'newydd a bywiol.' Ystyr llythyrenol y gair a gyfieithir yma "newydd" yw, 'wedi ei ladd o'r blaen,' ac yna 'newydd ladd;' ac ar ol hyny, 'newydd' yn gyffredinol. Y mae y ffordd hon yn cael ei galw yn "newydd" am nad oedd wedi ei hagor cyn i Iesu Grist aberthu ei hun. Gelwir hi yn "fywiol," medd *Bleek*, am ei bod yn anfarwol, neu yn parhau byth: y mae nid yn unig yn newydd, ond yn parhau yn newydd. Ereill a ddeallant y gair yn yr ystyr o 'fywhaol;' *h. y.*, yn rhoddi bywyd. Ond mwy naturiol ydyw cymmeryd y gair yn ei ystyr arferol, i ddynodi fod y ffordd i'r cyssegr yn llawn o fywyd. Yr oedd y cyssegr sanctaidd, y ffordd i'r sancteiddiolaf gynt, yn hen ac yn heneiddio, ac nid oedd bywyd ynddi oll. Ond y mae ein cyssegr sanctaidd ni, fel ffordd i'r sancteiddiolaf, yn ffordd newydd, y cyfryw nas gwelwyd o'r blaen; ac yn ffordd â bywyd ynddi—o herwydd natur ddynol Crist ydyw ein cyssegr sanctaidd ni, a thrwyddi hi fel cyssegr yr ydym yn myned i mewn, a'r llen rwygedig a berthyn i'r cyssegr sanctaidd hwn ydyw dioddefiadau y natur hono, trwy y rhai yr aeth efe ei hun, ac yr ydym ninnau hefyd yn myned i mewn. Pa fodd, gan hyny, os ei natur ddynol, yn ei dioddefiadau a'i angeu, ydyw y ffordd hon, y mae i ni ddeall ei bod yn fywiol? Am ei bod yn fyw ar ol marw, a'i bod yn dwyn rhiniwedd a grym ei dioddefiadau a'i marwolaeth yn ei bywyd presennol. Yn yr ystyr ddyfnach hwn y mae priodoldeb pellach yn yr ymadroddion "newydd a bywiol." Y mae ei natur ddynol yn awr, fel y mae yn ffordd ein mynedfa, yn newydd mewn cyflwr ac ansawdd—yn fyw ar ol marw, ac yn cario rhinwedd ei hangeu yn ei bywyd presennol. Y mae, yn ol ystyr wreiddiol y gair *prosphatos*, yn parhau, megys newydd ladd; ac ar y llaw arall, y mae yn fyw neu yn fywiol.

21. *A bod i ni Offeiriad mawr ar dŷ Dduw.*—Y mae genym, nid yn unig fynediad mewn hyder i'r cyssegr, a ffordd newydd a bywiol i fyned i mewn; ond ar ol myned i mewn, y

22 Nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau oddi wrth [q] gydwybod ddrwg, a [r] golchi ein corph â dwfr glân.

23 Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl (canys *yw* yr hwn a addawodd)

24 A chyd-ystyriwn bawb ein gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da:

25 Heb [s] esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain, megys *y mae* arfer rhai; [t]ond annog *bawb ein gilydd:* a hyny yn fwy, o gymmaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesau.

26 Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, [u]nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach;

27 Eithr [x] rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, [y] yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.

28 Yr un a ddirmygai gyfraith Moses, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dystion:

29 Pa faint mwy cospedigaeth

[q] Ioan 8. 9; 1 Tim. 4. 2; 1 Ioan 3. 20.
[r] Exod. 29. 4; Lef. 8. 6; Zech. 13. 1; Mat. 3. 11; Ioan 3. 5; Dad. 1. 5.
[s] Mat. 18. 20; Ioan 20. 19
[t] Act. 16. 16; 1 Cor. 5. 4; 14. 23.
[u] Rhuf. 12. 8; 1 Cor. 14. 3.
[x] Esa. 33. 14; Hos. 10. 8; Dad. 6. 15—17.
[y] Deut. 32. 43; 1 Thes. 2. 15, 16.
[a] Adn. 3-10.

mae genym Offeiriad mawr i ddadleu ein hachos, ac i eiriol ar ein rhan am attebiad i'n gweddïau. Yr oedd yn rhaid i'r Israeliaid gynt sefyll allan i weddïo. Nid oedd ryddid iddynt fod yn yr un man a'u harchoffeiriad; ond y mae i ni fynedfa a ffordd i'r cyssegr at ein Harchoffeiriad. "Ar dŷ Dduw,"—sef, y nefoedd fel ei gyssegr priodol ef.

22. *Nesâwn:*—*h. y.*, at Dduw, trwy yr Archoffeiriad. *A chalon gywir:*—*h. y.*, heb ragrith ar un llaw, na ffurfioldeb ar y llaw arall. *Mewn llawn hyder ffydd.*—Groeg: 'mewn llawn sicrwydd ffydd.' *Wedi glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg.*—Groeg: 'wedi ein taenellu o ran ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg, a'n golchi o ran ein cyrph â dwfr glân.' Cyfeiria yr holl frawddeg at buredigaeth yr offeiriad trwy ddwfr a gwaed. Rhaid i ninnau, mewn trefn i nesau at Dduw, gael ein taenellu â gwaed Grist, i'n puro oddi wrth euogrwydd, a'n golchi â dwfr glân oddi wrth halogrwydd. Defnyddia yr awdwr yr ymadroddion hyny a arferid gynt am foddion puredigaeth.

23. *Daliwn gyffes ein gobaith.*—Groeg: 'ymaflwn.' *Canys ffyddlawn yw yr hwn a addawodd.*—Cynnwys yr addewid ydyw mater ein gobaith, a ffyddlondeb yr addäwr ydyw sail a nerth ein gobaith.

24. *A chyd-ystyriwn bawb ein gilydd.*—Yr un gair ag a ddefnyddir yn *pen.* iii. 1, "ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu." *I ymannog.*—Groeg: '*paroxysmos.*' Arwydda y gair yn fwyaf cyffredin 'cyffroi' mewn ystyr ddrwg; ond yma arwydda gyffroi neu gynnhyrfu mewn ystyr dda. Yn y cyfeithiad Saesneg, darllenir ef yn '*provoke.*' *I gariad.*—Cawn yn y rhanau hyn gyfeiriad at y tri gras—ffydd, gobaith, a chariad. Yn *adn.* 22, y mae ffydd yn cael ei hargymmhell; yn *adn.* 23, gobaith; ac yn *adn.* 24, cariad, ynghyd â'i ffrwyth; sef, gweithredoedd da.

25. *Heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn cyfeirio, nid at wrthgiliad hollol oddi wrth yr eglwys, neu ymwahaniad â Christionogaeth, ond yn hytrach at yr hyn sydd yn arwain i hyny, ac yn peryglu i hyny gymmeryd lle; canys dywedir fod hyn, pa beth bynag ydyw, yn "arfer rhai." Nid mor briodol ydyw sôn am wrthgiliad, fel arfer, ag ydyw sôn am esgeulusdra. Cadarnheir hyn hefyd trwy ystyried y gair a arferir *episynagoge,* yr hwn air sydd yr un a'r gair synagog, ond fod y rhagddodiad *epi* wedi ei gyssylltu âg ef. Arwydda yma y cynnulliad eglwysig fel y cyfryw, yn hytrach na'r eglwys ei hun fel yn gynnulledig.

26. *Canys os o'n gwirfodd y pechwn.*—Dynodir yma wrthgiliad hollol oddi wrth yr eglwys, i'r hwn y mae yr esgeulusdra y cyfeiriwyd ato yn arwain yn anffaeledig, os parheir ynddo. Am ystyr y gwrthgiliad hwn, gwel *pen.* vi. 6. *Nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach.*—Cyfeirir yn yr ymadrodd hwn at y ffaith mai dros bechodau o anwybod yn unig yr oedd yr aberthau gynt yn cael eu hoffrymu. Nid oedd un i gyfarfod â phechodau a gyflawnid "â llaw uchel." Yr oeddynt wedi gwrthod yn wirfoddol, mewn gwybodaeth, ac mewn goleuni felly yr unig aberth gwirioneddol dros bechod.

27. *Eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy.*—Yn lle 'disgwyl,' cyfeitha Alford 'dderbyniad.' Ymddengys i ni nad oes rhyw lawer o wahaniaeth; o herwydd, os darllenir "disgwyl," arwydda hyny fod yr hyn a ddisgwylir, fel y mae yn cael ei ragbortreadu, yn bod yn y disgwyliad fel rhag-brawf. *Ac angerdd tân.*—Gwel. *pen.* xii. 29. *Yr hwn a ddifa.*—Groeg: *esthiei*—'yr hwn a ysa,' neu 'a fwyta.' *Y gwrthwynebwyr:*—*h. y.*, y gelynion.

28. *Yr un a ddirmygai gyfraith Moses.*—Arwydda y gair *athetésé*—gwrthod neu ymwrthod â. Cyfeiria at fwrthgiliad hollol, fel y darlunir ef, ac y cyssylltir y gosp ddyledus am dano âg ef yn *Deut.* xvii. 2—7. *A fyddai farw heb drugaredd:*—*h. y.*, heb arbediad. Ni byddai trugaredd a thosturi neb tuag ato yn ddim tuag at ei arbed. Y darlleniad llythyrenol hollol a fyddai, 'ar wahân oddi wrth drugaredd.'

29. *Pa faint mwy cospedigaeth:*—Groeg: "pa faint gwaeth cospedigaeth." Ymresymiad oddi wrth y llai at y mwy. *Dybygwch chwi.*—Appeliad at dystiolaeth eu rheswm yn y gydwybod. *A fathrodd Fab Duw.*—A wrthododd mewn diystyrwch y person. *Ac a farnodd yn oflan waed y cyfammod.*—A wrthododd yn ddirmygus yr hyn a wnaeth ac a ddiodefodd y person. *Trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef:*—Groeg: 'yn yr hwn.' Y mae yma wrthgyferbyniad angerddol rhwng y ddau air, "barnu yn oflan" a "sancteiddio." Yr oedd y gwaed wedi ei dywallt er ei sancteiddiad ef; ond yn lle cymmeryd ei daenellu âg ef er ei sancteiddio, yr oedd wedi ei farnu yn oflan. Nid sancteiddiad gweithredol a olygir yma, ond sancteiddiad cynlluniol neu ddrychfeddyliol: o herwydd gwrthgyferbyniad sydd yma rhwng yr hyn a farnai y dyn am y gwaed—sef, ei fod yn oflan neu gyffredin—âg amcan tywalltiad y gwaed dros ddynion; sef, eu sancteiddiad. *Ac a ddifenwodd Ysbryd y gras.*—Diystyrwch at berson yr Ysbryd Glân fel un sydd yn nhrefn y prynedigaeth wedi ymgymmeryd â chymmhwyso yr hyn

(dybygwch chwi) y bernir haeddu
[z]2 Bren. 9. 33. o'r hwn a [z]fathrodd Fab Duw,
[a] Heb. 13. 20. ac a farnodd yn afian [a]waed y cyf-
[b] Ioan 10. 36; 1 Cor. 11. 27, 29. ammod, [b]trwy yr hwn y sanct-
eiddiwyd ef, ac a ddifenwodd
[c] Salm 118. 30; Zech. 12. 10. [c]Ysbryd y gras?
[d] Deut. 32. 35. 30 Canys nyni a adwaenom y
neb a ddywedodd, [d]Myfi *biau*
dial, myfi a dalaf, medd yr Ar-
[e] Deut. 32. 36: Salm 50. 4. glwydd. A thrachefn, [e]Yr Ar-
glwydd a farna ei bobl.
[f] Luc 21. 11. 31 [f]Peth ofnadwy *yw* syrthio
yn nwylaw y Duw byw.
32 Ond gelwch i'ch cof y dydd-
iau o'r blaen, yn y rhai, wedi eich
[g] 2 Tim. 2. 3, &c. goleuo, [g]y dioddefasoch ymdrech
mawr o helbulon:
33 Wedi eich gwneuthur weith-
iau yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau; ac weithiau
yn bod yn gyfranogion â'r rhai a
drinid felly.
34 Canys chwi a gyd-ddioddef-
asoch â'm rhwymau i hefyd, [h]ac
[h] Mat. 5. 11, 12; Iago 1. 2. a gymmerasoch eich ysbeilio am
y pethau oedd genych yn llawen;
[i] Luc 10. 42. gan wybod [i]fod genych i chwi
eich hunain olud gwell yn y nef-
oedd, ac un parhaus.
35 Am hyny na fwriwch ymaith
eich hyder, yr hwn sydd iddo
fawr wobr.
36 Canys rhaid i chwi wrth
amynedd; fel, [k]wedi i chwi
[k] Ioan 7. 17. wneuthur ewyllys Duw,[l] y der-
bynioch yr addewid.
37 O blegid ychydig bachigyn
etto, a'r hwn sydd yn dyfod a
[l] 1 Pedr 1. 9. [m] Rhuf. 1. 17; Gal. 3. 11. ddaw, ac nid oeda.
38 [m]A'r cyfiawn a fydd byw

a wnaeth yr ail berson drosom, trwy gyfranu pob gras ag y mae arnom angen o hono. Gelwir ef yn Ysbryd y gras, am mai efe sydd yn cyfranu gras; ac nid fel y dywed rhai, am ei fod ei hun yn rhodd gras Duw y Tad.

30. *Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd.*—Y mae mawredd ofnadwy y gosp, er ei bod ran ei haeddiant yn gwreiddio yn echryslonrwydd pechaduras y rhai a gospir, etto yn tarddu o ran gweithred o'r Hollalluawgrwydd sydd yn ei gweinyddu; sef, Duw ei hun. Nid neb drosto, ond efe ei hun. Nid efe chwaith trwy offerynau, ond â'i ddwylaw ei hun, fel y dengys yr adnod nesaf. Am y dyfyniad, gwel ar *Rhuf.* xii. 19.

31. *Yn nwylaw y Duw byw.*—Yn ei ddwylaw; *h. y.*, dan ei farn uniongyrchol yn y byd a ddaw. Gelwir ef yn Dduw byw, i ddangos parhâd y gosp. Ni bydd marw y gosp tra y bydd byw y gweinyddwr o honi.

32. *Ond gelwch i'ch cof y dyddiau o'r blaen.*—Arwydda y gair *anamimnesco* yn fanwl, galw i gof bob yn un ac un. Ar ol cyfeirio meddyliau yr Hebreaid at y cwmmwl du a bygythiol ydoedd o'u blaen, yn barod i dori mewn llid tanllyd arnynt, os ceid hwy yn euog o wrthgilio, y mae, fel yn y chweched bennod, yn eu harwain i edrych yn ol i'r dyddiau a aethant heibio, yn y rhai yr oeddynt wedi amlygu ymdrech o ddioddefiadau dros eu crefydd, fel cymmhelliad iddynt, yn hytrach na gwrthgilio, i barhau, ac i beidio bwrw ymaith eu hyder. *Wedi eich goleuo.*—Gwel ar *pen.* vi. 4. *Ymdrech mawr o helbulon*:—sef, ymdrech mawr, cynnwysedig mewn helbulon, neu yn fwy cywir 'o ddioddefiadau.' Groeg: *pathemata.*

33. *Wedi eich gwneuthur weithiau yn wawd*:—neu yn fwy llythyrenol, 'ar un llaw, wedi eich gwneuthur yn wawd trwy waradwyddiadau a chystuddiau; ac ar y llaw arall, yn gyfranogion â'r rhai a drinid felly.' Y gair a gyfieithir yma "gwneuthur yn wawd" (*theatrizo*), a arwydda gwneuthur un yn olygfa mewn chwareudy, gyda chyfeiriad at y ffaith mai yn y chwareudai yr arferai y Rhufeiniaid weinyddu eu cospau cyhoeddus er mwyn amlygrwydd.

34. *A gyd-ddioddefasoch â'm rhwymau i*:—neu, os cymmerir y darlleniad yn y llawysgrifau goreu, 'a gyd-ddioddefasoch â'r carcharorion.'

35. *Am hyny na fwriwch ymaith eich hyder:*—sef, am eich 'bod yn credu ac yn gwybod fod i chwi olud gwell i chwi eich hunain yn y nefoedd.'

36. *Canys rhaid i chwi wrth amynedd.*—Rheswm chwanegol dros iddynt beidio bwrw ymaith eu hyder yn ngwyneb nad oeddynt yn cael ei sylweddoli mor fuan ag yr oeddynt yn ei ddymuno. Yr achos pa ham yr oedd yn cael ei oedi iddynt, ydoedd i ddadblygu ynddynt y gras a'r rhinwedd o amynedd, yn cael ei amlygu yn a thrwy ddyfal-barhâd hyd y diwedd trwy bob blinderau ac erledigaethau. *Fel wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.*—Y mae y gair a gyfieithir yma "derbynioch" yn arwyddo derbyn ffrwyth; a defnyddir ef am gasglu cynnyrch ffrwyth y ddaear. Ond cyn y gallent gasglu cynhauaf cynnwys yr addewid i mewn, yr oedd yn rhaid iddynt lafurio mewn amynedd, fel y gwna yr amaethwr naturiol, i wneuthur ewyllys Duw yn mhob peth yr oedd yn cael ei hamlygu iddynt, pa un bynag ai gwneuthur ai dioddef.

37. *O blegid ychydig bachigyn etto.*—Y mae yr ymadrodd yn dra chryf, i arwyddo bychander y tymmhor yr oedd yn rhaid iddynt barhau i ddioddef, cyn y deuai "yr hwn sydd yn dyfod," sef Crist, yn ninystr Ierusalem, fel cysgod a phortread o'i ddyfodiad personol yn y dydd diweddaf. Y mae yr ymadrodd hwn yn gyfaddasiad o ymadrodd y prophwyd Habacuc gyda golwg ar y weledigaeth at ddyfodiad Crist, a hyny am fod perthynas mor agos rhwng ei ddyfodiad mawr ef a chyflawniad holl weledigaethau prophwydoliaethol yr Ysgrythyrau.

38. *A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.* Gwel ar *Rhuf.* i. 17, ac hefyd ar *Gal.* iii. 2. *Eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.*—Yn *Habacuc* ii. 4, darllenir, "Yr hwn a ymchwydda, nid yw uniawn ei enaid ynddo." Y mae y cyfaddasiad a'r helaethiad a wna yr awdwr yn dra naturiol. Ffrwyth balchder y galon yw ymadael â Duw bob amser, a thynu yn ol oddi wrth bob peth y mae yn ei orchymyn i ni; a lle y mae enaid dyn heb fod yn union ynddo, nis gall Duw ymfoddloni ynddo, gan mai uniondeb sydd yn rhyngu ei fodd ef. Nid yw y gair "neb" yn y gwreiddiol, a chymmerir yr ystyr gan rai fel hyn—"o thyn y cyfiawn yn ol."

[c] Salm 85.8. [d] Salm 5. 4. trwy ffydd: [d] eithr o thyn *neb* yn ol,[c] nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.

39 Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth; [f] Marc 16. 16. [f] namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.

PENNOD XI.

1 *Beth ydyw ffydd.* 6 *Heb ffydd ni allwn ni ryngu bodd Duw:* 7 *ei ffrwythau rhagorol hi yn yr hen dadau gynt.*

B. A. 63. FFYDD yn wir [a] yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, [b] a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.

[a] Salm 27. 13; 42. 11. [b] Rhuf. 8. 24, 25.

39. *Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol.*—Groeg: 'nid ydym ni o'r tynu yn ol—i golledigaeth, ond o ffydd—i waredigaeth yr enaid.' Y mae yr adnod hon yn cyfatteb, o ran ei chynnwys a'i pherthynas â'r rhanau blaenorol, i'r nawfed adnod yn y chweched bennod yn ei pherthynas â'r rhanau blaenorol i'r adnod hono. Gwel *pen.* vi. 9.

PENNOD XI.

1. *Ffydd yn wir yw sail.*—"Pwy bynag a wnaeth ddechreuad y bennod hon yn y fan hon, y mae wedi dadgymmalu y cyssylltiad mewn modd annoeth."—*Calvin.* Diau fod yr apostol yma yn dwyn yn mlaen ei ymresymiad. Yn y rhanau blaenorol, yr oedd wedi eu hargymmhell i ymlynïad wrth eu crefydd, gan ddangos fod i'w hyder fawr wobr; ond yr oedd yn rhaid iddynt wrth amynedd i ddisgwyl am y wobr, a chyn y gallent weithredu amynedd yn eu gobaith, yr oedd yn ofynol iddynt fyw trwy ffydd. "Ond ffydd," medd efe yn nechreu y bennod hon, ydyw "sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio," Y mae y gair *hypostasis*, a gyfeithir yma "sail," yn cael ei gyfieithu "hyder" yn *pen.* iii. 14; a "person," neu yn fwy cywir, "sylwedd," yn *pen.* i. 3. Wrth fod ffydd yn sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, y mae i ni ddeall ei bod yn y gweithrediad o honi yn rhoddi sylfaen hanfodiad iddynt yn y meddwl, fel ag i'w alluogi i weithredu tuag atynt fel pe buasent eisoes yn hanfodi ar sail golwg uniongyrchol arnynt, a mwynhâd cyflawn o honynt. *A sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.*—Y mae ffydd, yn y gweithrediad o honi, hefyd yn cynnyrchu y sicrwydd mewnol hwnw yn y meddwl am fodolaeth pethau anweledig ag a fuasai yn cael ei gynnyrchu gan yr olwg arnynt. Y mae yr ymadrodd "sail," neu 'hanfodiad, yn golygu yr hyn ydyw ffydd, fel y mae yn dwyn perthynas â'i gwrthddrychau; a'r gair "sicrwydd" yn golygu yr hyn ydyw yn ei pherthynas â'i gweithredydd neu ei pherchen.

2. *O blegid trwyddi hi:*—Groeg: 'yn hon.' Prawf ydyw yr adnod hon fod ffydd yn rhoddi hanfodiad i bethau anweledig. Y prawf ydyw, mai yn ngweithrediad yr elfen hon o sylweddoli yr anweledig y cafodd yr henuriaid oll dystiolaeth gan Dduw o'u cymmeradwyaeth. *Air da.*—Groeg: 'y tystiolaethwyd.'

Amcan mawr y bennod ydyw rhoddi esamplau o'r ddau osodiad; sef, fod ffydd yn sylweddoli pethau anweledig, ac fod yr henuriaid trwyddi wedi derbyn tystiolaeth gan Dduw. Rhydd yn gyntaf, nid esampl neilldiol, ond enghraifft gyffredinol.

2 O blegid trwyddi hi y cafodd yr henuriaid air da.

3 Wrth [c] ffydd yr ydym yn deall mai wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.

[c] Gen. 4. 3—5, 15, 25.

4 Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain; trwy yr hon [d] y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn, gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef: [e] a thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto.

[d] Lef. 9. 24; 1 Bren. 18. 38.

[e] Heb. 12. 1. 24.

3. *Wrth ffydd yr ydym yn deall.*—Y mae y gair "deall" yn dynodi gweithrediad rheswm, ond rhaid i reswm gael cymmhorth ffydd mewn trefn i ddeall creadigaeth o ddim. Rhaid i ni gredu yn gyntaf allu Duw. *Yn gymmaint nad o bethau gweledig.*—Groeg: 'fel y gwnaethpwyd y pethau gweledig nid o bethau sydd yn ymddangos.' Daethant i fod trwy allu Duw o ddim: nid dyfod a wnaethant allan yn weledig, trwy oruchwyliaeth o ymddangos o ystâd guddiedig flaenorol. Nid dadguddiad na dadblygiad ydynt, ond creadigaeth bur o ddim.

4. *Aberth rhagorach.*—Groeg: 'aberth mwy.' Yr oedd yn fwy yn ei werth. Fel y mae y penadur yn fwy o arian na'r swllt, er nad ydyw yn fwy mewn swm, felly yr oedd aberth Abel yn fwy o aberth, yn llanw y drychfeddwl yn fwy na'r eiddo Cain, am ei fod yn ei offrymu trwy ffydd. Gellir golygu ffydd, naill ai fel yn achos cynnyrchiol o'r aberth, neu fel yn gydfynedol â'r aberth, neu yn hytrach y ddau. Trwy ffydd yr arweiniwyd ef i ddewis aberth i'w offrymu ag oedd yn gyddfurf âg ewyllys a gorchymyn Duw; sef, aberth gwaedlyd—cysgod o aberth Crist: a thrachefn, trwy ffydd yr offrymodd yr aberth hwnw. Yr oedd ei ffydd fel hyn yn dwyn perthynas â'r aberth, ac hefyd â'r offrymiad. Ni ddywedir, 'trwy ffydd yr aberthodd yn unig,' na chwaith, 'trwy ffydd yr offrymodd,' ond "trwy ffydd yr offrymodd aberth." Yr oedd ei waith yn offrymu aberth o'r fath a offrymodd, sef, un gwaedlyd, yn ddangosiad o'i fod yn sylweddoli trwy ffydd yr anweledig, a'r anweledig hwnw oedd aberth Crist. *Trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn.*—Wrth "dystiolaeth" yma, deallir yr un peth a "gair da," yn *adn.* 2. Dyma yr esampl gyntaf o'r gosodiad ddarfod i'r henuriaid gael tystiolaeth, neu air da, gan Dduw trwy ffydd. Cafodd Abel hyny ar y pryd, neu yn gyssylltiedig â'i aberth, trwy dân o'r nefoedd, a chafodd dystiolaeth drachefn trwy gofnodiad o'r amgylchiad yn ngair Duw. Rhoddes Iesu Grist y dystiolaeth iddo fel "Abel gyfiawn;" *Mat.* xxiii. 35. *Gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef.*—Trwy dystiolaethu ei gymmeradwyaeth i'w roddion trwy dân, dygodd dystiolaeth i'w berson. Lle y mae Duw yn cymmeradwyo ein gweithredoedd, gallwn fod yn sicr ei fod yn cymmeradwyo ein personau. *A thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto:*—sef, trwy ffydd y mae efe wedi marw yn llefaru etto Yr oedd ffydd Abel yn llefaru fel tystiolaeth dros Dduw yn y byd, ac y mae llef y dystiolaeth hono yn parhau yn awyr hanesiaeth y byd etto,

f 2 Bren. 2. 11. 5 Trwy ffydd y f symmudwyd Enoch, fel na welai farwolaeth;
g 2 Bren. 2. 16, 17. ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symmud ef: canys cyn ei symmud, efe a gawsai dystiolaeth,
h Gen. 5. 22. h ddarfod iddo ryngu bodd Duw.

6 Eithr heb ffydd ammhossibl *yw* rhyngu *ei* fodd *ef*.
i Rauf. 10. 14. i O blegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn
k Gen. 15. 1; Ruth 2. 12. k obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.

7 Trwy ffydd, Nöe, wedi ei
l Gen. 6. 13; Diar 22. 3. l rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid etto, gyda pharchedig ofn, m a ddarparodd arch i
m Gen. 6. 18; Ezec. 14. 14, 20. achub ei dŷ: trwy yr hon y condemniodd *efe* y byd, ac a wnaeth-

pwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.

8 Trwy ffydd, n Abraham, pan
n Gen. 11. 31; Neh. 9. 7, 8; Esa. 51. 2. ei galwyd, a ufuddhaodd, gan fyned i'r man o yr oedd efe i'w
o Gen. 12. 7; 13. 15—17; Deut. 9. 5. derbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.

9 Trwy ffydd p yr ymdeithiodd
p Gen. 17. 8. efe yn nhir yr addewid, megys *mewn* tir dyeithr, gan drigo mewn lluesttai gydag Isaac ac Iacob, cydetifeddion o'r un addewid.

10 Canys q disgwyl yr ydoedd
q Ioan 14. 2. r Esa. 14. 32. am ddinas âg iddi sylfeini, r saer ac adeiladydd yr hon *yw* Duw.

11 Trwy ffydd Sarah hithau yn ammhlantadwy, a dderbyniodd

er ei fod ef, yr hwn a'i llefarodd yn ei fywyd ffyddiog, wedi marw. Ie, y mae efe yn ei llefaru etto. Y mae sêl ei ysbryd anfarwol ynglŷn â hi; o herwydd, er ei fod o ran ei gorph wedi ei ddadgyssylltu â'r dystiolaeth, y mae o ran ei ysbryd yn fyw, ac yn byw yn y dystiolaeth.

5. *Trwy ffydd y symmudwyd Enoch.*—Pa fodd trwy ffydd? Trwy gredu yn Nuw fel bod anweledig, fe ddarfu iddo yntau, mewn oes o annuwiaeth, sylweddoli a rhoddi hanfod i'r Duw anweledig yn ei feddwl, a chymdeithasu âg ef i'r fath raddau o agosrwydd fel y darfu i Dduw ei symmud o'r byd heb weled marwolaeth. *Ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symmud ef.*—Er chwilio am dano, pa un ai gan gyfeillion ai gan elynion, ni chaed ef, am y rheswm ddarfod i Dduw ei symmud ef. Lle y mae Duw yn cuddio nis gall dynion ddarganfod. *Canys cyn ei symmud, efe a gawsai dystiolaeth.*—Cynnwysir yn yr ymadrodd hwn y prawf fod Duw yn bwrpasol wedi ei symmud,; neu, fel yr arwydda y gair, ei draws-symmud ato ei hun. Y prawf ydyw, ei fod wedi rhoddi tystiolaeth amlwg iddo cyn ei symmud ddarfod iddo ryngu bodd Duw; ac y mae y dystiolaeth hono yn aros etto ar ddalenau yr Ysgrythyr. Awgrymir hyn yn ffurf ac amser y ferf:—"y mae wedi cael tystiolaeth," ydyw y darlleniad llythyrenol.

6. *Eithr heb ffydd ammhossibl yw rhyngu ei fodd ef.*—Yr hyn a wnaeth y dyn mwyaf duwiolfrydig trwy ffydd, rhaid i bawb gael ffydd i'w wneuthur. Heb ffydd, y mae y peth yn ammhossibl hyd yn oed i'r graddau lleiaf. *O blegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef*, &c.—Prawf o'r gosodiad uchod. Nis gallwn ryngu bodd Duw heb ddyfod at Dduw, *h.y.*, cymdeithasu âg ef; ac nis gellir cael hyny ond fel ffrwyth a chanlyniad y sylweddoliad o'i fodolaeth trwy ffydd. *A'i fod yn obrwywr.*—Groeg: 'ac ei fod yn troi allan yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio."

7. *Am y peihau nis gwelsid etto.*—Yn Nöe drachefn, yr oedd ffydd yn sylweddoli yr anweledig; sef, y diluw a ragfynegodd Duw iddo am dano. *Gyda pharchedig ofn.*—Groeg: 'yn wyliadwrus,' neu 'mewn gwyliadwriaeth.' *Trwy yr hon.*—Nid yr iachawdwriaeth, ac nid yr arch; ond y ffydd a weithredodd. *Y condemniodd efe y byd.*—Yr oedd trwy gredu yn cyfiawnhau Duw yn ei air, ac yn condemnio y byd yn ei anghrediniaeth a'i anufudd-dod. *Ac a wnaethpwyd yn*

etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.—Groeg: 'yn ol ffydd.' Cafodd Nöe etto dystiolaeth dda. Efe ydyw y cyntaf y tystiolaethir am dano yn yr Ysgrythyr fel yn dwyn y teitl o "gyfiawn." Cafodd dystiolaeth o hyny iddo ei hunan gan Dduw yn ei oes hefyd: *Gen.* vii. 1.

8. *Heb wybod i ba le yr oedd yn myned.*—Yn hyn, gosodir allan etto fod ffydd Abraham, fel yr eiddo y lleill, wedi sylweddoli yr anweledig, sef, Gwlad Canaan—neu "y wlad," fel y galwai Duw hi, "a ddangoswyf i ti."

9. *Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid.*—Wedi cyrhaedd y Ganaan ddaearol, cafodd ar ddeall fod yn rhaid iddo fod yn ymdeithydd yn unig yn ddi, gan fod yno feddiannwyr eisoes, y rhai nid oeddynt wedi cyflawni mesur eu hanwiredd; ac am hyny, nis gallai yn ei oes ef gael meddiant o honi: ond trwy ffydd, fe sylweddolodd yn ei feddwl wlad arall well, ac uwch, sef y Ganaan nefol; ac am hyny, ymfoddlonodd i fod yn ymdeithydd yn unig yn y ddaearol; ac ar ran ei hiliogaeth, fe sylweddolodd trwy ffydd yr amser y caent hwy feddiant o'r addewid, a'r wlad dymmhorol fel cysgod ac ernes o'r un ysbrydol.

10. *Canys disgwyl yr ydoedd am ddinas âg iddi sylfeini.*—Y rheswm pa ham y darfu iddo trwy ffydd ymfoddloni ar ymdeithio yn unig yn y wlad hono, ac etto edrych ar addewid Duw tuag ato fel yn cael ei chyflawni. Y rheswm ydyw, ei fod trwy ffydd yn edrych trwy y wlad dymmhorol a daearol, fel trwy ffenestr, at un nefol a thragwyddol. Wrth y "ddinas," y mae i ni ddeall yr Ierusalem nefol, dinas y Duw byw (*pen.* xii. 22) —y ddinas, yr hon yr ydym yn ei disgwyl (*pen.* xiii. 14). Gwrthgyferbynir hi â'r lluestai, yn y rhai yr ymdeithient. Yn lle "sylfeini," dylid darllen 'y sylfeini.' Yn *Dad.* xxi. 14, sonir am "ddeuddeg sylfaen" ei ddinas sanctaidd. *Saer ac adeiladydd.*—Efe a'i lluniodd, ac a'i gwnaeth: "tŷ nid o waith llaw," sef dwylaw dynion. Duw ei hun a'i gwnaeth yn gwbl.

11. *A dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd.*—Deallir yr ymadrodd hwn gan Alford fel yn gosod allan y drychfeddwl, ddarfod i Sarah dderbyn nerth i ffrwythloni hâd, gan gymmeryd y gair yn ei ystyr mwyaf llythyrenol. Ond er y dywed efe mai yr un golygiad a gymmeradwyir gan y tadau Groegaidd a'r cyfeithiadau hynafol, etto, yr ydym yn barnu mai yr ystyr arall sydd yn fwyaf tebygol. Arwydda y gair *catabole* 'dechreuad,

[a] Rhuf. 4. 20, 21. nerth i ymddwyn hâd; ac wedi amser oedran, a esgorodd; [b] oblegid ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai.

12 O herwydd pa ham hefyd y cenhedlwyd o un, a hwnw yn gystal a marw, *cynnifer* a sêr y nef mewn lliaws, ac megys y tywod ar lan y môr, *y sydd* yn aneirif.

[c] Gen. 25. 8; 27. 2—4; 49. 18, 28, 33; 50. 24. [d] Adn. 39. [e] Gen. 49. 10; Num. 24. 17; Iob 19. 25. 13 Mewn [c] ffydd y bu farw y rhai hyn oll, [d] heb dderbyn yr addewidion, [e] eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.

[f] Rhuf 8. 23 —25. 14 Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, yn dangos yn eglur [f] eu bod yn ceisio gwlad.

15 Ac yn wir, pe buasent yn meddwl am *y wlad* hono, o'r hon y daethent allan, hwy a allasent gael amser i ddychwelyd:

16 Eithr yn awr *gwlad* well y maent hwy yn ei chwennych, hyny ydyw, *un* nefol. O achos pa ham nid cywilydd gan Dduw [g] ei alw yn Dduw iddynt hwy: [h] oblegid efe a barotodd ddinas iddynt.

[g] Gen. 17. 7, 8; Exod. 3. 6, 15; Esa. 41. 8—10. [h] Mat. 25. 34.

17 Trwy [b] ffydd yr [c] offrymodd Abraham Isaac, pan ei profwyd: [d] a'i uniganedig *fab* [e] a offrymodd *efe*, yr hwn a [f] dderbyniasai yr addewidion:

[a] Gen. 22. 1—12; Iago 2. —24. [b] Deut 8. 2; Iob 2. 3—6; Diar. 17. 3; Mal. 3. 2, 3. [d] Heb. 7. 6. [e] 2 Cor. 8. 12. [f] Gen. 22. 2, 16.

18 Wrth yr hwn y dywedasid, [g] Yn Isaac y gelwir i ti had:

[g] Gen. 17. 19. [h] Gen. 22. 5.

19 Gan gyfrif bod [h] Duw yn

---

megys yn yr ymadrodd 'dechreuad y byd,' *catabole tou cosmou;* ac yn yr un ystyr, dybygem, y dylid ei fabwysiadu yma, 'nerth dechreuad hâd, neu hiliogaeth; mewn geiriau ereill, nerth i fod fel mam, yn ddechreuad i hiliogaeth liosog. Y mae yn wir i Sarah ammheu yn y dechreu, ond ar ol ammheu hi a gredodd. Purwyd ei ffydd o'i hammherffeithrwydd trwy ras maddeuol Duw iddi.

12. *A hwnw yn gystal a marw*:—sef, Abraham, fel y tad. Gwel *Rhuf.* iv. 19. *Tywod ar lan y môr.*—Groeg: 'ar wefus y môr."

13. *Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn.*—Groeg: 'yn ol ffydd.' Nid 'trwy ffydd,' ond 'yn ol ffydd.' Yr oedd eu bywyd yn ffrwyth ffydd, ond nid felly eu marwolaeth; eithr yn eu marwolaeth, cawsant nerth i ddioddef yn ol y ffydd trwy yr hon y buasent fyw. *Heb dderbyn yr addewidion*:—*h. y.*, y cyflawniad o honynt. Derbyniasant'ly ffurf, ond nid y sylwedd. Fel dyn yn derbyn *bank note*, ond heb dderbyn yr arian bathol y mae yn eu cynnrychioli. *Eithr o bell eu gweled hwynt.*—Yr oedd yr addewidion yn eu ffurf yn fath o ffenestr, neu yn fath o syll-ddrych i weled drwyddi yr addewidion yn eu cynnwys a'u cyfoeth. *A chyfarch.*—Gwel *Gen.* xlix. 48, lle y cawn Iacob fel yn cyfarch yr iachawdwriaeth addawedig. *A chyfaddef mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.*—Gwel y cyfeiriadau fel engreifftiau o'r cyfeithiad hwn.

14. *Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau.*—Prawf mai 'mewn' neu 'yn ol' ffydd y buont feirw. Y prawf ydyw, eu bod yn marw yn ol fel yr oeddynt wedi byw; sef, gan ystyried a galw eu hunain yn ddyeithriaid a phererinion ar y ddaear. A lle y cawn ni hyny, y mae y rhai sydd yn llefaru felly am danynt eu hunain *yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad*—neu gartref. Arwydda y gair yn llythyrenol 'gwlad ein tadau' *(patris)*. Yr oedd eu bod yn gwrthod ystyried Canaan fel eu cartref yn eglur ddangos eu bod yn meddwl am ryw gartref arall; ac yr oedd eu bod yn edrych arnynt eu hunain fel pererinion ar y ddaear hyd y diwedd yn profi eu bod yn edrych am gartref yn y byd arall.

15. *Ac yn wir, pe buasent ym meddwl am y wlad hono.*—Gallasai rhywun wrthddadleu mai hiraethu yr oeddynt am eu hen wlad, Mesopotamia, o'r hon yr oeddynt wedi dyfod allan; ac i atteb i hyn y dywed yr awdwr y gallasent gael amser lawer gwaith i ddychwelyd i hono—yr hyn a brawf nad oeddynt yn sychedu am hono chwaith.

16. *Eithr yn awr gwlad well, &c.*—Dyma gasgliad yr ymresymiad, ac y mae yn un teg a chywir. Y mae yn rhaid, gan hyny, eu bod hwy yn edrych y tu hwnt i'r Ganaan ddaearol at Ganaan nefol, ac yn yr olwg arni trwy ffydd yn ei chwennychu yn eu calon. *O achos pa ham*:—sef, o achos eu bod fel hyn trwy ffydd yn ymaflyd yn Nuw ei hun, ac yn sylweddoli iddynt eu hunain ryw ddarpariaeth o gartref, a gwlad well na dim a allasai y ddaear hon ei dangos iddynt. *Nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy.*—Y mae y cyfeithiad hwn yn ddiffygiol. Gwell ydyw yr un a ganlyn, 'Nid cywilydd gan Dduw hwynt, i gael ei alw yn Dduw iddynt.' Nid oes arno gywilydd, yn gyntaf, o honynt hwy eu hunain; ac yn ail, nid oes arno gywilydd galw ei hun yn Dduw iddynt hwy. Ffurf nacaol o osod allan yn gryfach ei fod yn ymfalchïo ac yn ymffrostio ynddynt, ac mewn galw ei hun yn Dduw iddynt. *O blegid efe a barotodd ddinas iddynt.*—Prawf o'r gosodiad uchod. Yn atteb i'w dyhead trwy ffydd am wlad well, fe barotodd ddinas iddynt. Fe barotodd trwy ei ragluniaeth yr amgylchiadau hyny oedd i ddwyn i ben y gwaith mawr yr oedd yn rhaid ei wneuthur cyn yr oedd modd cael cartref iddynt yn y nefoedd.

17. *Trwy ffydd yr offrymodd Abraham.*—Groeg: 'y mae Abraham wedi offrymu.' Y mae y weithred yn parhau yn ei ffrwyth a'i heffeithiau hyd heddyw. *A'i uniganedig fab.*—Pwyslais ar y geiriau hyn. *A offrymodd efe.*—Groeg: 'yr oedd efe yn ei offrymu.' *Yr hwn a dderbyniasai yr addewidion.*—Eglurhâd ar y rhagenw "efe," yr hwn a offrymodd. Er ei fod wedi derbyn yr addewidion, megys un coflaid yn ei fynwes trwy ffydd, etto trwy ffydd hefyd fe ymadawodd â'r cyfan yn y weithred o offrymu Isaac, yn yr hon yr oeddynt megys wedi eu trysori. Darllener yn fwy manwl 'a'i uniganedig fab, yr oedd yr hwn a dderbyniasai yr addewidion yn ei offrymu.'

18. *Wrth yr hwn*:—sef, Abraham; nid 'am yr hwn,' fel y mae ar ymyl y ddalen. *Yn Isaac y gelwir i ti had.*—Gwel *Gen.* xxi. 12. Yr oedd, ac y mae hiliogaeth Ismael yn had Abraham; ond yn Isaac y gelwir i Abraham had, yn ystyr priodol, neilltuol, ac ysbrydol y gair. Disgynyddion

[i] Gen. 22. 4, 13; Rhuf. 5. 14. abl i'*w* gyfodi *ef* o feirw; [i] o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth.

20 Trwy ffydd y bendithiodd Isaac Iacob ac Esau am bethau a fyddent.

21 Trwy ffydd, Iacob, wrth farw, a fendithiodd bob un o feibion Ioseph; [k] ac a addolodd *d'i bwys* ar ben ei ffon.

[k] Gen. 47. 31.

22 Trwy ffydd, Ioseph, wrth farw, a goffaodd am ymadawiad plant Israel; ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.

23 Trwy ffydd, Moses, pan anwyd, a guddiwyd dri mis gan ei rieni, o achos eu bod yn *ei* weled yn fachgen tlws: ac nid ofnasant [l] orchymyn y brenin.

[l] Exod. 1. 16, 22.

[m] Exod. 2. 10, 11; Act. 7. 21–24. 24 Trwy ffydd, Moses, [m] wedi myned yn fawr, a wrthodod ei alw yn fab merch Pharaoh;

25 [n] Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser;

[n] Iob 36. 21 Mat. 5. 10–12; 2 Cor. 4. 17; Col. 1. 24.

26 Gan farnu [o] yn fwy golud ddirmyg Crist, na thrysorau yr Aipht: canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy.

[o] Salm 69. 7, 20; Esa. 51. 7; Act. 5. 41; 2 Cor. 12. 10; 1 Pedr 1. 11.

27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aipht, heb ofni llid y brenin: canys efe a ymwrolodd [p] fel *un* yn gweled yr anweledig.

[p] Act. 2. 25; 2 Cor. 4. 18.

28 Trwy ffydd [q] y gwnaeth efe y pasc, a gollyngiad y gwaed, rhag i'r hwn ydoedd yn dinystrio y rhai cyntafanedig gyffwrdd â hwynt.

[q] Exod. 12. 3–14, 21–30.

29 Trwy ffydd [r] yr aethant trwy y môr coch, megys ar hyd *tir* sych: yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.

[r] Exod. 14. 13–31.

[s] Ios. 6. 3–20; 2 Cor. 10. 4, 5.

30 Trwy ffydd [s] y syrthiodd

Abraham trwy Isaac a elwid yn had Abraham. Y mae grym yr ymadrodd yn y ferf *galw*, yr hon a arwydda, galw yn yr ystyr o gyfrif; *h. y.*, gan Dduw, a chan ei eglwys, ac yn y diwedd gan y byd.

19. *Gan gyfrif bod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw.*—Groeg: 'yn abl i gyfodi o feirw.' Yr hyn a gredodd ydoedd yn gyffredinol gallu Duw i gyfodi o feirw; a chan iddo gredu y gallu hwn yn ei wedd gyffredinol, fe dderbyniodd sylweddoliad neilltuol mewn cyffelybiaeth o hono yn nerbyniad Isaac drachefn yn fyw, pan yr oedd yn y weithred o'i roddi i farwolaeth. *O ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth*:—neu, fel y cyfieithir yr ymadrodd gan lawer, 'o herwydd pa ham efe a'i derbyniodd ef mewn cyffelybiaeth.' Y mae gwahaniaeth barn mawr rhwng esbonwyr ar ystyr y geiriau "mewn cyffelybiaeth." Dealla rhai y gair *parabole*, fel yn arwyddo 'rhoddi i fyny;' ac felly y meddwl a fyddai, 'o herwydd pa ham derbyniodd ef trwy ei roddi i fyny.' Ond nid oes awdurdod i'r ystyr hwn i'r gair. Yn hytrach nag enwi yr amrywiol olygiadau ereill, ymfoddlonwn yn unig ar nodi y golygiad a farnwn yn fwyaf tebygol; "o ba le" a ddynoda, oddi wrth y meirw. Yn lle "y cawsai," dylid darllen 'y cafodd' ef mewn cyffelybiaeth; *h. y.*, mewn cysgod. Yr oedd yr holl amgylchiad yn un cysgodol, yn fath o ddammeg gysgodol (*parabole*) o amgylchiadau mwy pwysig. Yr oedd yn yr amgylchiad hwn farwolaeth a bywyd yn dilyn marwolaeth yn cael eu harddangos: Isaac a fwriadwyd i farw, ond cyn i'r weithred gael ei chwblhau, cafwyd hwrdd i'w gynnrychioli, a'r hwrdd a laddwyd yn weithredol. Etto, er mai yr hwrdd a laddwyd, nid yr hwrdd a ddaeth yn lyw, ond Isaac, fel yn cynnrychioli yr hwrdd. Yr oedd y naill gysgod yn llanw diffyg y llall, a'r naill a'r llall gyda'u gilydd yn gysgodau o aberth ac adgyfodiad Crist fel gwystl adgyfodiad a gogoneddiad ei bobl.

20. *Am bethau a fyddent.*—Groeg: 'hefyd am bethau i ddyfod.' Nid yn unig am bethau tymhorol, ond hefyd am bethau ysbrydol, y rhai oedd i ddyfod.

21. *A fendithiodd bob un o feibion Ioseph.*—Gwnaeth hyny trwy ffydd, yr hyn a amlygwyd yn ei waith yn croesi ei ddwylaw fel arddangosiad o'i ffydd yn y dadguddiad a roddes Duw iddo o'i hyn a fyddai iddynt. *Ac a addolodd.*—Cymmercdd hyn le cyn y bendithio uchod: gwel *Gen.* xlvii. 31, lle y darllenir, "Yna Israel a ymgrymodd ar ben ei wely." Gall y gair Hebraeg arwyddo y naill neu y llall, ac o bossibl fod y ddau yn wirionedd; sef, ei fod wedi addoli, gan ymgrymu ar ben ei ffon, yr hon ydoedd ganddo ar ben ei wely.

24. *A wrthodod ei alw.*—Nid oes genym hanes pendant am hyn yn yr Hen Destament, ond cawn dystiolaethau i'r perwyl yn y traddodiadau Iuddewig.

26. *Ddirmyg Crist.*—Gelwir ef fel hyn am fod Crist yn dioddef yn ol, yn gystal ag yn mlaen yn ei bobl fel aelodau o'i gorph dirgeledig.

27. *Y gadawodd efe yr Aipht.*—Pa bryd? Pa un ai wedi lladd yr Aiphtwr, ynte pan yr ymadawodd gyda'r Israeliaid? Cawn hanes y mynediad gyda'r genedl yn *adn.* 29. Yr oedd hwnw hefyd gyda chydsyniad y brenin. *Heb ofni llid y brenin.*—Dywedir, yn *Exodus* ii. 14, fod Moses wedi ofni, a dywedyd, "Diau y gwyddir y peth hyn." Darfu iddo ofni canlyniad ei weithred: ond fe ymadawodd, nid am ei fod yn ofni llid y brenin, nid i ochel cosp uniawn am ei drosedd, ond am ei fod yn credu fod Duw y tu cefn iddo yn y weithred, a'i fod yn galw arno i ymadael â'r Aipht i atteb dyben pwysig a neilltuol. Fel hyn, er iddo ar y foment gyntaf yn naturiol ofni, etto, ar ol ystyriaeth, ac hefyd yn ngoleuni ac yn ngweithrediad ffydd, nid ofnodd llid y brenin, ond yn wrol efe a ymadawodd â'i wlad ar amnaid gorchymyn Duw iddo. *Canys efe a ymwrolodd:*—neu 'a oddefodd.' Rheswm pa ham y gadawodd yr Aipht ydyw hwn. Fe oddefodd bob caledi oedd yn gynnwysedig yn yr ymadawiad hwnw. *Fel un yn gweled yr anweledig.*—Yn lle edrych mewn ofn ar wyneb gweledig a llidiog Pharaoh, fe ymwrolodd i adael yr Aipht yn ol gorchymyn Duw, fel un yn gweled wyneb yr anweledig yn amneidio arno i fyned; ac fe dderbyniodd o belydriad ei wyneb arno nerth i ddioddef a dal pob peth oedd o'i flaen.

caerau Iericho, wedi eu hamgylchu dros saith niwrnod.

31 Trwy ffydd ni ddyfethwyd Rahab y butain gyda'r rhai ni chredent, pan dderbyniodd hi yr ysbïwyr yn heddychol.

32 A pheth mwy a ddywedaf? canys yr amser a ballai i mi i fynegu am Gedeon, *am* Barac, ac *am* Samson, ac *am* Iephthae; *am* Dafydd hefyd, a Samuel, a'r prophwydi:

[t] Ios. 6. 13; 2 Sam 5. 4 25.

33 Y rhai [t] trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod,

34 A ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cleddyf, [u]a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.

[u] Barn. 7. 19—25.

[x] 1 Bren. 17. 22—24; Luc 7. 12—15; Act. 9. 41. [y] Mat 22. 30; Ioan 5. 29; Phil. 3. 11.

35 [x]Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad: ac ereill a ddirdynwyd, heb dderbyn ymwared; [y]fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.

36 Ac ereill a gawsant brofedigaeth trwy watwar, a ffiangellau, ïe, trwy rwymau hefyd a charchar:

37 Hwynthwy a labyddiwyd, a dorwyd â llif, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf: a grwydrasant mewn crwyn defaid, a chrwyn geifr; [z]yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr;

[z] Zech. 13. 9; Mat. 8. 20.

38 [a](Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt) yn crwydro mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau ac ogofeydd y ddaear.

[a] 1 Bren. 14. 12, 13; Esa. 57. 1.

39 A'r rhai hyn oll, [b]wedi cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid:

[b] Luc 10. 23 24; 1 Pedr 1. 12.

40 Gan fod Duw yn rhagweled [c]rhyw *beth* gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau.

[c] Heb. 7. 19, 22; 8. 6.

PENNOD XII.

1 *Cynghor i ffydd dianwadal, amynedd, a dwiwioldeb.* 22 *Canmol y testament newydd rhagor yr hen.*

O BLEGID hyny ninnau hefyd, gan fod cymmaint [a]cwmmwl o dystion wedi ei osod o'n

B. A. 63.

[a] Esa. 60. 8.

29. *Yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid*:—*h. y.*, yr hyn, pan y gwnaeth yr Aiphtiaid brawf arno. *Boddi a wnaethant*:—'hwy a lyngcwyd i fyny.'

31. *Gyda'r rhai ni chredent.*—Groeg: 'nid ufuddhaent;' *h. y.*, i ewyllys Duw, fel yr oedd yn cael ei hamlygu trwy yr arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaethid yn Israel yn galw arnynt i ymostwng ac edifarhau, a dychwelyd oddi wrth eu heilunaddoliaeth a'u ffieidd-dra oll.

32. Cyfleïr yr enwau, nid yn ol eu hamseriad, ond yn ol eu trefn o ran hynodrwydd yn meddwl yr ysgrifenydd—Gedeon o flaen Barac, Samson o flaen Iephthae, a Dafydd o flaen Samuel.

33. *A oresgynasant deyrnasoedd*:—Megys y gwnaeth Gedeon, Barac, Samson, ac Iephthae. *A wnaethant gyfiawnder*:—megys Samuel, Dafydd, &c. *A gawsant addewidion*:—megys Dafydd, Solomon, &c. *A gauasant safnau llewod*:—megys, Daniel.

34. *A ddiffoddasant angerdd y tân*:—megys Shadrach, Meshach, ac Abednego. *A ddiangasant rhag min y cleddyf*:—amryw o esamplau. Gwel y cyfeiriadau. *A nerthwyd o wendid.*—Samson, ar ol i'w wallt dyfu. *A wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel*, &c.—Cyfeiriad arbenig at y Maccabeaid, o bossibl.

35. *Gwragedd a dderbyniodd*, &c:—sef, y wraig weddw o Sareptha, a'r Sunamees. Gwel y cyfeiriadau. *Ac ereill a ddirdynwyd.*—Arwydda *tumpanizo* dirdynu un ar fath o dabwrdd, neu dympan crwn; ac ar ol hyny ffiangellid ef i farwolaeth. Gwel 2 *Maccab.* vi. 19, 28, 30, a 2 *Macc.* vii. *Heb dderbyn ymwared*:—*h. y.*, gan wrthod ymwared. *Adgyfodiad gwell*:—nag a gafodd plant y gwragedd gweddwon uchod, medd Chrysostom. Adgyfodiad i farwolaeth oedd y naill, ond adgyfodiad i fywyd, nad oedd marwolaeth i'w ddilyn, oedd y llall.

36. *Ac ereill a gawsant brofedigaeth trwy watwar, a ffiangellau.*—Gellir darllen,' a wnaethant brawf o watwar a ffiangellau,' *h.y.*, trwy eu dioddef. *Trwy rwymau hefyd a charchar.*—Hananïah, Micah, ac Ieremiah.

37. *Hwynthwy a labyddiwyd.* — Zechariah, mab Iehoiada. *A dorwyd a llif.*—Esaiah y prophwyd, yn ol traddodiad, a ddioddefodd hyn gan y brenin Manasseh. *A demtiwyd.*—Anhawdd iawn egluro priodoldeb y gair yn y lle hwn. Y mae yn bossibl fod yr apostol yn chwareu ar ystyr llythyrenol y gair, yr hwn a arwydda tyllu; ac felly defnyddia ef i arwyddo tyllu neu drywanu, ac etto heb adael allan y meddyldrych o demtio i wadu y ffydd. *A laddwyd yn feirw â'r cleddyf.*—Groeg: 'a laddwyd yn llofruddiaeth y cleddyf;' i awgrymu fod eu merthyrdod yn ngolwg Duw yn llofruddiaeth. *Yn ddiddym*:—*h. y.*, yn amddifad o bob cysur bydol.

38. *A thyllau ac ogofeydd*:—o'r rhai y mae Gwlad Canaan yn llawn, o herwydd ei ffurfiad daearegol; sef, calchfaen.

39. *A'r rhai hyn oll*:—yn gystal a'r rhai a enwyd, yn enwedig yn y rhan flaenaf o'r bennod. *Ni dderbyniasant yr addewid.*—Cawsant dystiolaeth eu bod wedi rhyngu bodd Duw, ond ni chawsant gynnwys yr addewidion a roddwyd iddynt, ac yn y rhai y darfu iddynt weithredu ffydd ar Dduw.

40. *Rhyw beth gwell*:—sef, cyflawniad yr addewid ar du Dduw yn anfoniad ei Fab, a derbyniad ei chynnwys trwy Grist ar ein tu ninnau. *Fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau.*—Groeg: (*choris*) 'ar wahân.' Yr oeddynt hwy yn ammherffaith hyd yn oed yn y byd ysbrydol cyn i Grist farw, ond yn awr y maent wedi eu perffeithio trwy waed Crist, fel ninnau. Gwel *pen.* xii. 23.

PENNOD XII.

1. *O blegid hyny.*—O blegid fod ereill; sef, y

[b] Rhuf. 13. 11—14; Eph. 4. 22—24. [c] Salm 18. 23. [d] Rhuf. 8. 24, 25; Dad. 1. 9. Zech. 12. 10; Titus 2. 13. Luc 17. 5; Dad. 2. 8. [e] Mat. 27. 31—50; [f] Pen-tywysog a Pherffeithydd *ein* ffydd *ni;* [g] a ddioddefodd y groes, [h] gan ddisgyru gwaradwydd, [i] ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw.

hamgylch, [b] gan roi heibio bob pwys, [c] a'r pechod sydd barod *i'n* hamgylchu, [d] trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni; 2 [e] Gan edrych ar Iesu, [f] Pen-tywysog a Pherffeithydd *ein* ffydd *ni;* yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, [g] a ddioddefodd y groes, [h] gan ddisgyru gwaradwydd, [i] ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw.

[e] Salm 110. 1. [f] Heb. 2. 16. [g] Luc 23. 35—39.

3 Ystyriwch am hyny yr hwn a ddioddefodd gyfryw [k] ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid; fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau.

[k] Luc 19. 39, 40; Ioan 5. 16.

4 [l] Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.

[l] Mat. 24. 9. Dad. 18. 24.

rhai y cyfeiriwyd atynt yn y bennod flaenorol, wedi gweithredu amynedd neu ddyfal-barhâd trwy ffydd. Gwel *pen.* x. 36. *Cwmmwl o dystion.* — Y drychfeddwl a gynnwysir yn y gair "cwmmwl" yn y lle hwn ydyw lliosogrwydd y gronynau dwfr mewn cwmmwl. *Wedi ei osod o'n hamgylch.*—Cyfeiria yr ymadrodd hwn mewn cyssylltiad â'r ymadrodd blaenorol at yr arferiad o gydymgynnull i edrych ar yr ymdrechfeydd, yn y rhai y byddai yr ystyriaeth fod y fath nifer afrifed o'u cyd-ddynion yn edrych arnynt yn cydymgais â'u gilydd yn rhoddi aiddgarwch chwanegol yn y rhai a ymdrechent i geisio y fuddugoliaeth, ac i ennill y wobr. Darlunir saint yr Hen Destament yn yr ymadrodd hwn fel edrychwyr—ac nid edrychwyr na buont eu hunain yn yr ymdrech; ond rhai wedi ennill y gamp, a chyrhaedd y wobr, ac yn awr yn edrych ar ereill yn yr ymdrech; a disgwylir i'r rhai sydd yn awr yn ymdrechu sylweddoli y dyddordeb a deimlant hwy ynddynt, ac i hyny weithredu fel symbyliad iddynt i ymroddiad chwanegol yn yr ymdrech. *Gan roi heibio bob pwys.*—Cyfeiriad at waith y rhai a fwriadent redeg yn y rhedegfeydd, yn arfer pob moddion i ddarostwng pob swm diangenrhaid o gnawd, fel ag i'w galluogi i fyned yn mlaen yn fwy cyflym o hyny. *A'r pechod sydd barod i'n hamgylchu.*—Deallir yr ymadrodd hwn gan rai fel yr ymadrodd blaenorol. Y mae ereill yn barnu fod y gair "pwys" yn yr ymadrodd blaenorol yn arwyddlun o bob peth ag sydd yn gyfreithlawn ynddo ei hun, ac etto mewn amgylchiadau pennodol yn rhwystr ac yn attalfa ar ein ffordd i ddadblygu ein sanctteiddrwydd a'n defnyddioldeb. Y mae anhawsder mawr i roddi eglurhâd sicr ar y gair *euperistatos,* yn gymmaint ag nad ydyw y gair hwn i'w gael yn un lle arall o fewn cylch llenyddiaeth Roegaidd. Y mae amryw gyfleithiadau yn cael eu cynnyg, ond fe allai nad oes un wedi y cyfan yn rhagori ar yr un sydd yn y darlleniad cyffredin; sef, "parod i amgylchu." Cymmerir ef gan rai yn ei ystyr mwyaf llythyrenol, ac yn oddefol i arwyddo 'yn cael ei amgylchu yn hawdd,' ac i osod allan y drychfeddwl o fod pechod yn swyno ac yn atdynu y lliaws; neu, mewn geiriau ereill, yn boblogaidd a dengar. Y mae gwahaniaeth barn drachefn ynghylch y ffugr sydd yn gorwedd dan y gair. [g] Rhai a olygant mai gelyn yn amgylchu un i ymosod arno: ereill, mai sylwedd yn attal ac yn rhwystro o amgylch un: ereill, mai gwisg yn rhwystr i un redeg mewn gyrfa. Yr olaf, yn ddiau, ydyw y mwyaf tebygol a chysson â'r cydymadroddion. Arferai y rhedegwyr, nid yn unig roddi heibio bob pwys diangenrhaid, ond rhoddent ymaith hefyd bob gwisg berthynol iddynt, gan redeg, fel y gwnaent yn gyffredin, yn noeth: gwel *Eph.* iv. 22; a *Col.* iii. 9—lle y gorchymynir i ni ddodi heibio yr hen ddyn, fel dodi heibio gwisg. Defnyddir y fannod, nid i osod allan y meddyldrych o bechod neilldnol yn amgylchu un, ond i roddi arbenigrwydd i bechod fel rhwystr ac attalfa i'n hymdrech grefyddol. Y mae pethau ereill sydd yn gweithredu fel rhwystrau, "ond y pechod (yma), yr hwn sydd barod i'n hamgylchu," sydd mewn modd arbenig yn ein hattal a'n rhwystro ar ein gyrfa grefyddol. *Trwy amynedd:*—neu ddyfal-barhâd—rhedeg nes cyrhaedd yr ael, heb sefyll na throi yn ol.

2. *Gan edrych ar Iesu.*—Y mae y gair a ddarllenir yma "edrych" yn arwyddo 'edrych oddi wrth;' *h. y.,* oddi wrth bob peth arall, fel ag i grynhoi ein golwg i syllu ar y gwrthddrych y byddom yn edrych arno. *Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni.*—Groeg: 'y ffydd.' Gelwir ef yn Ben-tywysog, neu arweinydd y ffydd, fel y mae wedi myned o'n blaen yn esampl i'w efelychu, a theitlir ef yn "Berffeithydd ein ffydd," am ei fod yn ei esampl wedi rhoddi engraifft o berffeithrwydd yn y gallu hwn. *Yr hwn yn lle y llawenydd a osodwyd iddo:*—neu yn weli, 'yr hwn am y llawenydd a osodwyd o'i flaen.' Defnyddir y gair Groeg, *anti,* yn fynych yn yr ystyr fasnachol o roddi un peth yn lle peth arall, fel trwy hyny i'w feddiannu; ac oddi wrth hyny daeth i gael ei ddefnyddio mewn dull mwy eang i arwyddo 'er mwyn,' neu 'am,' a diau mai hyny ydyw yr ystyr yn y lle hwn. Gosodwyd llawenydd o'i flaen fel gwobr, a dioddef y groes fel ymdrech trwy yr hwn yr oedd i gyrhaedd y llawenydd hwnw; ac am, neu er mwyn y llawenydd hwnw darfu iddo ddioddef y groes a diystyru gwaradwydd. *A ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd.*— Ymgymmerodd â phoen y groes, ac hefyd â'i gwarth. Dioddefodd y naill, a diystyrodd y llall. *Ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw.*—Dyma y llawenydd a osodwyd o'i flaen. Trwy sefyll yn hongiedig mewn gwarth ar y groes, cyrhaeddodd i eistedd mewn gogoniant ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw.

3. *Ystyriwch gan hyny.*—Groeg: 'Cyferbyniwch.' Y gair a arferir yma ydyw yr un y tardd y gair Saesneg *analogy* o hono. Arwydda yma ystyried, mewn cyferbyniad neu gymmhariaeth, *h. y.,* mewn cymmhariaeth â hwynt eu hunain. *Yr hwn a ddioddefodd gyfryw,* &c.:—sef, Crist. Groeg: 'yr hwn sydd wedi dioddef y cyfryw bethau.' *Fel na flinoch, ac nad ymollyngoch.*—Groeg: 'fel na flinoch, gan ymollwng.'

4. *Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed.*—Dywedir hyn i ddangos, nid yn unig nad oeddynt wedi dioddef dim i'w gymmharu â Christ, ond nad oeddynt wedi dioddef ond ychydig yn eu hymdrech yn erbyn pechod. Cyfeirir yma at yr ymdrechfeydd corphorol yn y campau Roegaidd, yn y rhai y byddai yr ymdrechwyr yn tynu gwaed o'u gilydd, ac yn peryglu bywyd y naill a'r llall. Barna ereill, mai dioddef hyd angeu o ferthyrdod ydyw y meddwl.

5 A chwi a ollyngasoch dros gôf y cynghor, yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megys wrth
[m] 1 Cor. 11. 32. blant, Fy mab, [m]na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo.

[n] Iago 1. 12 6 Canys [n]y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei
[o] Heb. 7. 8. geryddu; [o]ac yn ffiangellu pob mab a dderbynio.

7 Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion: canys pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?

8 Eithr os heb gerydd yr ydych, o'r hwn y mae pawb yn gyfrannog; yna bastardiaid ydych, ac nid meibion.

9 Heb law hyny, ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac
[p] Mal. 1. 6; 1 Pedr 5. 6. *a'u* parchasom *hwy:* [p]onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw?

10 Canys hwynthwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'*n* ceryddent fel y gwelent hwy yn dda;
[q] Adn. 5, 6. [q]eithr hwn er llesâd i ni, fel y byddem [r]gyfranogion o'i sanct-
[r] Ezec. 36. 25—27; Eph. 5. 26, 27; Col. 1. 22; Titus 2. 14; 1 Pedr 2. 5, 9; 2 Pedr 1. 4. eiddrwydd ef.

11 Etto ni welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd: ond gwedi hyny y mae yn rhoi [s]heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynnefino âg ef.
[s] Esa. 32. 17; Rhuf. 5. 3—5; Gal. 5. 22, 23; Iago 2. 17, 18.

12 O herwydd pa ham cyfodwch i fyny y dwylaw a laesasant, a'r gliniau a ymollyngasant.

13 A gwnewch lwybrau uniawn i'ch traed; fel na thröer y cloff allan o'r ffordd, ond yr iachäer efe yn hytrach.
[t] Gen. 13. 7—9; Esa. 11. 6-9; Mat. 5. 9.

14 [t]Dilynwch heddwch â phawb
[u] Adn. 10. [u]a sancteiddrwydd, heb yr hwn
[x] Iob 19. 26; Mat. 5. 8. [x]ni chaiff neb weled yr Arglwydd:

15 Gan edrych yn ddyfal na *bo*
[y] 1 Cor. 13. 8. [y]neb yn pallu oddi wrth ras Duw;
[z] Mat. 7. 16—18. rhag bod [z]un gwreiddyn chwerw-

---

5. *A chwi a ollyngasoch dros gôf.*—Darllenir y geiriau yn ofyniadol gan lawer o'r esbonwyr, 'A ddarfu i chwi ollwng dros gof, &c?' Nid yn unig yr oeddynt heb ddioddef ond ychydig yn eu hymdrech yn erbyn pechod, ond cyfrifent yn ddyeithr fod yn rhaid iddynt ddioddef yr hyn a ddioddefent; ac felly yr oeddynt yn profi eu bod wedi gollwng dros gôf y cynghor a ddyfynir ganddo.

7. *Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion.*—Y mae darlleniad arall gwahanol, yr hwn a geir yn y llaw-ysgrifau prif lythyrenol, yn y cyfieithiadau, ac yn y tadau, y rhai sydd yn dyfynu y geiriau; ac hefyd mewn mwy na 30ain o'r llaw-ysgrifau llaw fân:—"Er cerydd yr ydych yn dioddef. Y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion."

9. *I Dad yr ysbrydoedd, a byw?*—Gelwir Duw yma yn Dad yr ysbrydoedd am ei fod yn awdwr bywyd ysbrydol i'w bobl. Golygir yr ysbryd yma fel eisteddle a derbynfa bywyd ysbrydol, a Duw fel rhoddwr y bywyd hwnw. Dylid bod yn ofalus rhag deall y gair "byw" fel ansoddair cyssylltiedig â'r gair "Tad;" o herwydd berf ydyw yn yr amser dyfodol, yr hwn a arwyddocâ y canlyniad o ymddarostwng i Dduw fel Tad. Gallesid darllen, 'ac ni a fyddwn byw.'

10. *Canys hwynthwy yn wir dros ychydig ddyddiau:*—sef, yr amser byr y buom dan eu nawdd a'u llywodraeth. *Fel y gwelent hwy yn dda.*—Nid oedd eu llywodraeth, o angenrheidrwydd, yn berffaith, ond yn fynych yn ammherffaith, o herwydd ammherffeithrwydd eu gwybodaeth a'u hadnabyddiaeth o honom; ac yn aml gweinyddent eu ceryddon, fel ag i fod yn niwed, ac nid yn lles. *Eithr hwn er llesâd i ni.*—Y mae ei adnabyddiaeth o honom ac o'n hangenion yn berffaith, ac felly gŵyr efe pa beth ydyw yr hyn sydd oreu er ein llesâd. Y mae ein llesâd ni, a'r hyn y mae yntau yn ei weled yn dda, yn wastad yn cyfatteb i'w gilydd, er mor groes yr ymddangosant i ni.

11. *Yn hyfryd, eithr yn anhyfryd.*—Groeg: 'yn fater o lawenydd, eithr yn fater o alar.' *Heddychol ffrwyth cyfiawnder.*—Cyfiawnder ydyw ei ffrwyth, *h. y.*, cymmeriad sanctaidd; yr un peth ag a olygir yn yr ymadrodd bod "yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef." Gelwir ef'yn "heddychol" yn wrthgyferbyniol i'r ymdrech sydd yn angenrheidiol i'w gyrhaedd. *Fr rhai sydd wedi eu cynnefino ag ef.*—Groeg: 'i'r rhai sydd wedi eu hymarfer trwyddo ef.'

12. *Y dwylaw a laesasant.*—Groeg: 'a laciasant.'

13. *A gwnewch lwybrau uniawn.*—Arwydda y gair a gyfieithir yma yn llythyrenol 'ôl olwyn' ar ffordd. *Fel na thröer y cloff allan o'r ffordd.*—Y cloff, ydyw y rhai oedd yn ysgwyd rhwng Iuddewiaeth a Christionogaeth. Cyffelyb ydyw mewn ystyr i'r ymadrodd "cloffi rhwng dau feddwl" yn Llyfr y Brenhinoedd." Arwydda, yn ei gymmhwysiad presennol, y rhai sydd yn cloffi rhwng dau feddwl gyda golwg ar wneuthur proffes gyhoeddus o'r efengyl. *Ond yr iachäer efe yn hytrach.*—Nid yn unig peidio ei droi allan o'r ffordd, ond hefyd iachau ei gloffni.

14. *Dilynwch heddwch â phawb, a sancteiddrwydd.*—Dyma y modd i wneuthur llwybrau uniawn i'n traed; sef, trwy ddilyn tangnefedd at ddynion, a sancteiddrwydd at Dduw. *Heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd:*—sef, yr Arglwydd Iesu. Gwel 1 *Ioan* iii. 2.

15. *Yn pallu oddi wrth ras Duw.*—Groeg: 'syrthio yn fyr,' neu 'fod ar ol o ras Duw. *Rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny.*—Lle y byddo gras Duw yn absennol, ac heb ddwyn ffrwyth, y mae chwyn pechod yn rhwym o darddu a dwyn ei ffrwyth ei hun. Gelwir pechod yma yn chwerwedd, am ei fod o ran ei natur yn chwerwder yn nghyfrif Duw, ac hefyd am ei fod yn niweidiol i'r rhai sydd dan ei lywodraeth; a lle y mae y gwreiddyn hwn yn tarddu allan, hyd yn oed mewn un yn gyssylltiedig â chymdeithas o ddynion, y mae yn llygru llawer trwy yr heintusrwydd a berthyn iddo.

edd yn tyfu i fyny, *ac* yn peri [a]Exod. 32. 21; Gal. 2. 13. blinder, [a]a thrwy hwnw llygru llawer;

16 Na *bo* un putteiniwr, neu halogedig, megys Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

17 Canys chwi a wyddoch ddar- [b]Gen. 27. 31—41. [c]Luc 13. 24—27. [d]Heb. 6. 4-6. fod wedi hyny hefyd [b]ei wrthod ef, [c]pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: [d]o blegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer geisio hi.

18 Canys ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân, a chwmmwl, a thywyllwch, a thymmestl,

19 A [e]sain udgorn, a llef geiriau; yr hon [f]pwy bynag a'i clywsant, a ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt. [e]Exod. 19. 16, 19; 1Cor. 15. 52. [f]Exod. 20. 19; Deut. 5. 24—27.

20 (O blegid ni allent hwy oddef yr hyn a orchymynasid; Ac os bwystfil a gyffyrddai â'r mynydd, efe a labyddir, neu a wenir â phicell.

21 Ac mor ofnadwy oedd y golwg, *ag* y dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu)

16. *Na bo un puteiniwr, neu halogedig, megys Esau.*—A ydym i ddeall fod Esau yn buteiniwr, yn gystal a halogedig? Gellir rhoddi attalnod ar ol "puteiniwr," ac felly gochel rhoi hyny ar ddeall. Mae y gair "halogedig" yma yn arwyddo un amddifad o barch i addoliad a theimlad cyssegredig o unrhyw fath—Saes.: *profane.*

17. *Canys chwi a wyddoch:—h. y.*, oddi wrth hanesiaeth yr Hen Destament. Y mae y gair "canys" yn dyfod i mewn fel rheswm dros y gocheliad. *Ei wrthod ef:—h. y.*, gan ei dad, fel yr oedd yn sefyll dros Dduw, ac yn gyfrwng amlygiad ei ewyllys. *Ni chafodd efe le i edifeirwch:—h. y.*, lle i ddodi ei edifeirwch i lawr. Er i ni edifarhau, etto, os na bydd Duw wedi rhoddi lle neu sylfaen fel gwaelod i'n hedifeirwch, nid oes genym i'w ddisgwyl ond cael ein gwrthod ganddo. Felly y bu gydag Esau. Nid oedd ganddo un sail mewn gair nac addewid oddi wrth Dduw i ddyfod ym mlaen i gynnyg edifeirwch, ac i erfyn maddeuant. *Er iddo trwy ddagrau ei thaer geisio hi.*—Groeg: 'ceisio allan,' *h. y.*, ceisio i derfynau eithaf ymgais. Pa beth a geisiodd efe? Y fendith, medd rhai [*Bleek*]; ond gwell genym ni yr attebiad arall; sef, mai edifeirwch a olygir. Fe daer geisiodd Esau le i edifeirwch trwy geisio addewid am y fendith, er iddo ei gwerthu; ac wrth geisio yr addewid, yr oedd yn rhinweddol, neu mewn effaith, yn ceisio lle i edifeirwch.

18. *Canys ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy.*—Y mae y rhanau hyn yn dyfod i mewn fel rheswm (canys) dros yr annogaeth yn *adn.* 15, ar iddynt edrych yn ddyfal na byddai neb yn syrthio yn ol o feddiannu gras Duw; ac fel rheswm pa ham nad oes raid i neb fod yn ol o hwnw, dwg i mewn yr ystyriaeth fod yr oruchwyliaeth efengylaidd yn llawer mwy manteisiol a rhagorol na goruchwyliaeth y ddeddf. Ond ar gyfer hyny, dengys hefyd fod y perygl sydd yn nglŷn â'i gwrthod a'i diystyru o gymmaint a hyny yn fwy o lawer. Y mae y gair a ddarllenir yn ein cyfieithiad ni "ni ddaethoch," yn arwyddo yn briodol 'ni nesasoch;' *h. y.*, ni nesasoch at Dduw dan yr amgylchiadau ofnadwy yn nglŷn â'r rhai y nesaodd y genedl gynt ato wrth Sinai, yn ol pa rai hefyd y nesäai y genedl byth ar ol hyny at Dduw, fel un ofnadwy, ac i'w arswydo yn ei holl amgylchoedd. Nid ydyw y gair "mynydd" yn y prif law-ysgrifau; ond diau mai wrth "teimladwy" y mae i ni ddeall "y mynydd teimladwy;" sef, mynydd Sinai. Gelwir ef yn "deimladwy" am ei fod yn wrthddrych canfyddedig gan y synwyrau gweledig i'r llygaid, a theimladwy i'r cyffyrddiad neu y teimlad. Mynydd materol, daearol, anianol—nid ysbrydol—ydoedd; ac felly yr oedd yn cyfatteb i natur yr oruchwyliaeth a sefydlwyd arno. Cymmhwysir y gair a arferir yma yn neilltuol at deimlo neu balfalu am beth mewn tywyllwch, fel y gwna y deillion. "Yr oedd pob peth y pryd hyny yn ganfyddadwy i'r synwyrau, yn wrthddrychau gweledig ac yn lleisiau, ond yn awr yn mynydd Seion, y mae pob peth yn ddrychfeddyliol ac anweledig."—*Chrysostom. Sydd yn llosgi gan dân.*—Cyfieithir yr ymadrodd gan rai 'a thân yn llosgi:' ond gwel *Deut.* iv. 11; v. 23; ix. 15, o blaid y cyfieithiad cyffredin ac awdurdoddedig. Yn y gwreiddiol, y mae y ferf "yn llosgi" yn yr amser gorphenol, 'wedi llosgi'—i ddangos fod y llosgiad llythyrenol a gymmerodd le ar sefydliad yr oruchwyliaeth yn cael ei barhau fel drychfeddwl yn holl ysbryd yr oruchwyliaeth, yr hon oedd yn un lem a thanllyd, yn hytrach nag yn dyner a mwynaidd. *A chwmmwl, a thywyllwch, a thymmestl.*—Y mae y geiriau hyn i'w cyssylltu, nid â'r gair "tân" sydd yn union o'n blaen, ond â'r ferf "ni ddaethoch;" a dylasai fod, yn lle "a," yn 'ac at.' Yr ystyr yw, 'Ni ddaethoch at y mynydd teimladwy...ac at gwmmwl, a thywyllwch, a thymmestl.' Wrth. y "cwmmwl," y mae i ni ddeall y cwmmwl du a dudew a orchuddiai y mynydd nes ei wneuthur yn dywyll o amgylch. Dynoda y gair felly yr achos o'r hyn a osodir allan yn y gair nesaf; sef, "tywyllwch." Y mae y gair "tymmestl" yn cyfeirio at y taranau a'r mellt a gymmerasant le ar yr adeg hono.

19. *A sain udgorn, a llef geiriau.*—Groeg: 'ac at sain udgorn,' &c. *Yr hon, pwy bynag a'i clywsant:*—sef, geiriau Duw yn llefaru yn unionyrchol. Eglura Calvin yr ymadrodd trwy ddywedyd mai nid gwrandaw ar eiriau Duw yr oedd y bobl yn gwrthod ei wneuthur, nac yn dymuno cael eu hesgusodi o hono; ond gwrandaw arno yn llefaru wrthynt yn ddigyfrwng. "Llefared Moses wrthym, ac nid Duw," ydoedd teimlad eu calon ac iaith eu genau.

20. *Ac os bwystfil a gyffyrddai â'r mynydd,* &c.—Crynodeb o'r trefniadau yn *Exod.* xix. 12, 13. *Neu a wenir â phicell.*—Chwanegiad at y testyn yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain. Nid ydyw yn y llawysgrifau goreu o'r Testament Newydd, A, C, D, K, L, M, &c.

21. *Ac mor ofnadwy oedd y golwg:*—neu, 'yr hyn a ddadguddid.' *Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu.*—Dynoda y gair cyntaf yr effaith yn ei feddwl, a'r ail yr effaith allanol ar ei gorph.

[g] Salm 2. 6; Rhuf. 11. 26.
[h] Dad. 5. 11, byw, yr Ierusalem nefol, ac at[h] 12.
[i] Act. 20. 28; Eph. 1. 22.

22 Eithr [g] chwi a ddaethoch i fynydd Seion, ac i ddinas y Duw [i] byw, yr Ierusalem nefol, ac at[h] fyrddiwn o angylion,
23 I [i] gymmanfa a chynnull-

[k] Exod. 32 32; Luc 10. 20; Dad. 13. 8.
[l] Mat. 25. 31.
[m] 1 Cor. 13. 12.

eidfa y rhai cyntafanedig, [k] y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at [l] Dduw, Barnwr pawb, ac at[m] ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd,

Nid oes genym hanes yn yr Hen Destament am y dywediad hwn o eiddo Moses ar y pryd. Yr ydym yn darllen yn wir am y bobl, eu bod hwy yn dychrynu; a gellir casglu fod Moses yn cael ei feddiannu gan yr un teimlad, a bod y bobl yn ofni yn fwy wrth ei weled ef yn ofni, a chlywed ei ddadganiad o'i ofn. Cawn amgylchiad cyffelyb yn hanes Iesu Grist a'i ddysgyblion, yn *Marc* x. 32. Y mae yn bur bossibl i'r dadganiad hwn o eiddo Moses gael ei gadw yn draddodiadol, ac iddo gael ei gofrestru trwy gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân gan awdwr y llythyr hwn. Yn *Deut.* ix. 19, dywed Moses am dano ei hun ar achlysur arall, sef, pan aethai at Dduw eilwaith i'r mynydd, "Canys ofnais," &c.; a barna rhai o'r esbonwyr mai at y gair hwnw y cyfeiria yr awdwr yn y lle hwn, gan gyfuno yn ei feddwl holl amgylchiadau rhoddiad y gyfraith, ac nid y weledigaeth gyntaf yn unig.

22, 23. *Eithr chwi a ddaethoch.*—Groeg: 'a nesasoch. Ar ol dangos yr hyn nid oeddynt wedi nesau ato, y mae yn egluro yr hyn yr oeddynt wedi nesau ato. Nid oeddynt wedi dyfod at Dduw dan yr amgylchiadau yn mha rai yr oedd wedi amlygu ei hun dan y gyfraith. Yno yr oedd yn amlygu ei hun dan len o dywyllwch ofnadwy. Yr oedd wedi gorchuddio ei drugaredd faddeuol â chwmmwl ac â thân, ac yr oedd yn rhaid i'r genedl nesau ato trwy y tân a'r tywyllwch, a threiddio trwy y tân a thrwy y tywyllwch cyn y gallasent ei weled, a chymdeithasu âg ef fel Duw trugarog a graslawn mewn aberth. Yr oedd yr efengyl y pryd hwnw yn gorwedd dan blygion y gyfraith, ac yr oedd yn ofynol i'r Israeliaid dori trwy yr haenau o dywyllwch a thân oedd o'i hamgylch cyn dyfod ati; ond dan y cyfammod newydd, yr oedd yr Hebreaid hyn wedi cael dyfodfa at Dduw yn uniongyrchol, heb fyned trwy y cyfryngau hyn, y rhai oedd yn blygion o'u hamgylch. *I fynydd Seion.*—Yn wrthgyferbyniol i fynydd Sinai. Cafodd y genedl Iuddewig gynt ddyfodfa at Dduw "i fynydd Seion;" ond yr oedd yn rhaid iddynt fyned at fynydd Seion trwy basio heibio i fynydd Sinai; ac yn y diwedd nid oedd ond cysgod a phortread o le presennoldeb Duw; eithr cawsant hwy nesau i fynydd Seion yn uniongyrchol, a hwnw, nid y cysgod ar y ddaear, ond y sylwedd yn y nefoedd. *I ddinas y Duw byw, yr Ierusalem nefol.*—Cafodd y genedl gynt fyned i mewn heibio i Sinai i fynydd Seion, ac i ddinas Duw, yr Ierusalem ddaearol: ond cawsant hwy ddyfodfa neu nesâd i'r wir ddinas; sef, "yr Ierusalem nefol." Y mae yr ymadroddion hyn yn dynodi, nid yr eglwys ar y ddaear, ond y nefoedd fel cartref a thrigfa Duw, a Christ, a'i eglwys; ac i'r hon y mae credinwyr, hyd yn oed pan y maent etto o ran eu natur ddynol ar y ddaear o ran eu personau, wedi dyfod neu nesau, yn eu hundeb â pherson Iesu Grist fel eu harchoffeiriad a'u cynnrychiolydd yno, gan iddo yn ei fynediad ei hun ddwyn hefyd eu henwau hwythau yno; *h.y.*, eu personau yno gydag ef: *Eph.* ii. 6. Ac ar sail hyn y maent drachefn yn cael mynych ddyfodfa iddi o ran eu myfyrdodau a'u serchiadau mewn gweddi, mawl, ac addoliad. *Ac at fyrddiwn o angylion, i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd.*—Cyttunir gan yr esbonwyr goreu i gyfleu yr ymadroddion yn wahanol; sef, fel y canlyn:—'ac at fyrddiynau—at gymmanfa o angylion, a chynnulliad y cyntafanedigion, ysgrifenedig yn y nefoedd.' Cawsant ddyfodfa nid yn unig i le rhagorol, ond i gwmni ardderchog: sef, at fyrddiynau (o ran lliosogrwydd), ac o ran cymmeriad at gymmanfa o angylion a chynnulleidfa o gyntafanedigion. Dynoda y cyntaf un gyfran o'r eglwys, a'r ail y gyfran arall—y gwasanaethwyr yn y teulu, a'r teulu eu hunain, y rhai a elwir yma yn gyntafanedigion. Y mae y gair *paneguris*, a gyfieithir yma "cymmanfa," yn arwyddo, medd Stuart, cynnulliad personau ar achlysur o wledd a llawenydd. Yr oedd cynnulliad o angylion yn Sinai pan gyhoeddwyd y gyfraith (*Salm* lxviii. 17; *Deut.* xxiii. 2) yno; ond nid oedd yno wledd neu gymmanfa o lawenydd. Ond yn mynydd Seion y mae angylion yn cadw uchel-wyl gyfarfod, yn gwasanaethu, nid fel yr oeddynt ar Sinai mewn toster a dwysder, ond mewn hyfrydwch a llawenydd. Wrth 'y cynnulliad o gyntafanedigion ysgrifenedig yn y nefoedd,' y mae i ni ddeall, y saint, yn wrthgyferbyniol i'r angylion, y rhai dynol wasanaethwyr (*pen.* i. 14), ac nid cyntafanedigion. Nid y saint yn y nefoedd, ond y rhai sydd o ran eu natur ar y ddaear, eithr ydynt yn awr o ran eu personau yn eu hundeb â'r Pen mawr yn y nefoedd; neu fel y dywedir ymha, wedi eu hysgrifenu yn y nefoedd. Yn eu hundeb â'r Archoffeiriad mawr, y mae eu henwau yn ysgrifenedig yno yn awr ar ei ddwyfron, a hyny yn wystl y cânt fynediad yno o ran eu hysbrydoedd; îe, a'u cyrph yn y diwedd. Cadarnheir hyn yn y defnydd a wneir o'r gair "eglwys" (*ecclesia*), yr hwn a ddefnyddir yma, a'r hwn air a ddefnyddir yn wastad i ddynodi yr eglwys ar y ddaear; ac hefyd yn y teitl "cyntafanedigion," yr hwn yn ddiau sydd yn edrych yn ol at y rhanau blaenorol o'r bennod, sef *adn.* 16, lle y sonir am enedigaeth-fraint Esau, yr hwn a berthynai i'r cyntafanedig; a chofier hefyd fod y genedl Iuddewig gynt, fel cysgod o'i wir eglwys, yn cael ei galw yn gyntafanedig Duw. Gwel nodiadau rhagorol Alford ar y rhan yma o'r adnod hon. Barna ereill, mai rhyw ddosbarth o'r saint yn y nefoedd—patriarchiaid, prophwydi, merthyron, &c.—a feddylir: ond nid oes dim sail i syniad o'r fath. *Ac at Dduw, Barnwr pawb.*—Darlleniad possibl arall ydyw 'ac at (y) Barnwr, Duw pawb;' a'r darlleniad hwn a gymmeradwyir gan liaws mawr o esbonwyr, megys Erasmus, Bengel, De Wette, Bleek, Delitzsch. Y mae yn ffaith o gryn bwys ar yr un pryd, fod yr ben esbonwyr Groegaidd yn deall yr ymadrodd fel y cyfieithir ef yn gyffredin. *Ac at ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd:*—sef, yr holl dduwiolion i lawr o Abel gyfiawn, y rhai sydd wedi myned i orphwys oddi wrth eu llafur wedi eu perffeithio yn yr ysbryd, ac yn disgwyl am brynedigaeth eu cyrph yn yr adgyfodiad. Yr oedd priodoldeb i'r awdwr ddyfod â'r rhai hyn i mewn ar ol enwi yr eglwys ar y ddaear, ac ar ol crybwyll hefyd am Dduw fel barnwr; o herwydd y mae Duw fel barnydd

[a] 1Tim 2.5. [b] 1 Pedr 1. 2. 24 Ac at [a] Iesu, Cyfryngwr y testament newydd, a [b] gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r *eiddo* Abel.

[f] Diar. 8.33; Mat. 17. 5. 25 Edrychwch [f] na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru. O blegid oni ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, mwy o lawer *nis diangwn* ni, y rhai ydym yn [g] troi ymaith oddi wrth yr hwn *sydd yn llefaru* [g] Deut. 30. 17; 2 Tim. 4. 4. o'r nef:

[r] Exod. 19. 18; Salm 114. 6, 7. [s] Hag. 2. 6, 7, 22. 26 [r] Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear: ac yn awr [s] a addawodd, gan ddywedyd, Etto unwaith yr wyf yn cynnhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.

27 A'r Etto unwaith hyny, sydd yn hysbysu symmudiad y pethau a ysgydwir, megys pethau

yr holl ddaear yn cymmeryd plaid y ddwy gyfran o'r eglwys, i amddiffyn ei eglwys ar y ddaear yn ngwyneb holl ymosodiadau ei gelynion, ac hefyd i wneuthur barn gyda golwg ar y rhan hwnw o honi sydd yn disgwyl dydd barn fel dydd dial ar eu gelynion, a dydd prynedigaeth a dadguddiad iddynt eu hunain.

24. *Ac at Iesu, Cyfryngwr y testament newydd:*—neu yn fwy cywir, 'y cyfammod newydd.' Nid yr un gair a gyfieithir yma 'newydd' a'r un sydd yn *pen.* ix. 15. Arwydda y gair sydd yma (*neos*), newydd, yn wrthgyferbyniol i hen, fel ansawdd; ac felly dynoda bywiog, hoenus. *A gwaed y taenelliad.*—Groeg: 'ac at waed y taenelliad.' Y mae Bengel, ac ereill ar ei ol, yn dadleu yn gryf fod gwaed Crist yn y nefoedd ar wahân oddi wrth ei gorph. Dadleuir fod gwaed Crist wedi ei dywallt allan yn gwbl o'i gorph; a chan ei fod yn anllygredig (1 *Pedr* i. 18, 19), ac nad ydym yn darllen iddo gael ei sugno i fewn i'w gorph, a chan, i gyfatteb i'r cysgod, fod yn ofynol iddo ddwyn ei waed i'r cyssegr, a chan hefyd y gwahaniaethir ei gorph oddi wrth ei waed mor fynych, rhesymol, meddir, yw golygu eu bod yn y nefoedd ar wahân, gan y sonir yma am ddyfodfa "at Iesu, ac at waed y taenelliad." Yn gydunol â hyn, meddir, coffeir am ei gorph ac am ei waed yn y Swper sanctaidd. Nid ydyw ei gorph gogoneddus yn gofyn ymborth; ac am hyny nid oes arno angen am gylchrediad gwaed. Rhaid i ni addef nas gallwn ddygymmod â'r meddyliddrych o fod gwaed Crist yn hanfodi yn y nefoedd ar wahân oddi wrth y rhan arall o'i natur. Dywed yr awdwr iddo fyned i'r cyssegr trwy ei waed ei hun—nid gydag ef, ond trwyddo. Dywedir, yn *pen.* xiii. 20, i'r Tad ddwyn i fyny oddi wrth y meirw Fugail mawr y defaid trwy waed; neu yn ol y gwreiddiol, 'yn ngwaed' y cyfammod tragwyddol: felly nis gallasai y gwaed fod y tu allan iddo, gan ei fod ynddo. Y mae y gair, fel y defnyddir ef yma, yn cyfeirio, nid at y sylwedd naturiol, ond at ei aberth iawnol. Rhoddir i gredinwyr ddyfodfa at y person mawr, ac hefyd at ei aberth, fel y mae ei aberth yn aros yn ei rinwedd a'i werth tragwyddol yn ei berson. Gelwir ef yn "waed y taenelliad," am ei fod yn cael ei daenellu, fel gwaed yr ebyrth gynt, ar ol ei dywallt, er puro a glanhau y rhai y taenellir ef arnynt. *Pethau gwell na'r eiddo Abel.*—Gr.: 'nag Abel.' Llefarai Abel trwy ei waed am ddial; ond llefarai Crist trwy ei waed am faddeuant a glanhâd.

25. *Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru.*—Yn yr adnod flaenorol, sonir am "waed y taenelliad" yn llefaru, ac yma gelwir arnom i beidio gwrthod yr hwn sydd yn llefaru trwy ei waed. Cyfeirir yn yr ymadrodd yn ddiau at y genedl luddewig, yr hon a wrthododd yr hwn a lefarai wrthi yn y dyddiau gynt; a thrwy y dialedd a ddisgynodd arni o'r herwydd, oedd wedi ei gwneuthur yn rhybudd i ereill. *O blegid oni ddiangodd.*—Y rheswm pa ham y dylent edrych neu wylio rhag gwrthod yr hwn oedd yn llefaru. Y mae grym y rheswm yn gorwedd yn yr ystyriaeth o'r gwahaniaeth rhwng amlygrwydd a helaethrwydd y dadguddiad, fel y gosodir hyny allan yn yr ymadrodd ffugrol, "llefaru o'r nef," yn wrthgyferbyniol i "lefaru ar y ddaear." Nid oedd gwahaniaeth yn y llefarwr; o herwydd Duw a lefarodd ar y ddaear, a Duw sydd yn llefaru o'r nef. Ar y ddaear, llefarodd trwy angylion; o'r nefoedd, llefara yn ei Fab. Y mae yn llefaru yn yr efengyl yn ei Fab; a chan fod y Mab wedi myned i'r nefoedd, ac wedi eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd, y mae yn rhaid i ni olygu ei fod yn llefaru o'r nef.

26. *Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear:*—sef, y pryd y cyhoeddodd y gyfraith ar Sinai. Gwel *Exod.* xix. 8; *Barn.* v. 4; *Salm* cxiii. 7. *Ac yn awr.*—Groeg: 'ond yn awr,' yn wrthgyferbyniol i'r ymadrodd 'y pryd hwnw.' *Etto unwaith yr wyf yn cynnhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.*—Gwel *Hag.* ii. 6; neu yn ol y darlleniad goreu, 'myfi a gynnhyrfaf.' Wrth "gynnhyrfu y nef a'r ddaear," y dealla rhai dirymu a distrywio y sefydliadau perthynol i'r gyfraith, yn rhagbarotoawl i sefydliad goruchwyliaeth yr efengyl fel un ag sydd i barhau heb ei symmud na'i siglo hyd ddiwedd y byd. Ond diau fod yr ymadroddion yn gofyn ystyr mwy eang o lawer; sef, y dymchweliad mawr a gymmer le ar y pethau gweledig a darfodedig perthynol i'r nefoedd a'r ddaear sydd yr awr hon, fel rhagbarotoad i'r nefoedd newydd a'r ddaear newydd a ddisgwylir yn ail ddyfodiad y Messiah: 2 *Pedr* iii. 11—13. Cyssylltir y cyfnewidiadau hyn â'r ail deml gan y prophwyd, am ei fod yn gweled ar ddarlun-len prophwydoliaeth y naill yn gorwedd megys y tu cefn i'r llall. Yn ystod safiad yr ail deml y cymmerodd yr amgylchiadau mawrion hyny le, sydd i arwain yn eu cyflawniad eithaf i'r cyfnewidiadau a ddarlunir yma.

27. *A'r Etto unwaith hyny, sydd yn hysbysu symmudiad y pethau a ysgydwir.*—Y mae yr ymadrodd "Etto unwaith" arno ei hun yn tybied y drychfeddwl o 'symmudiad yn cymmeryd lle ar y pethau sydd yn ysgwyd.' Y mae yr un a phe y dywedasai Duw 'dim ond unwaith, unwaith heb eilwaith mwy.' Y mae y pethau hyn yn ysgwyd eisoes; *h. y.*, y maent yn tynu ac yn tueddu at ymollyngiad; ac ni raid i fraich Duw ond yn unig eu cynnhyrfu unwaith i beri iddynt lwyr ymollwng. *Megys pethau wedi eu gwneuthur.*—Am mai "pethau wedi eu gwneuthur" ydynt—wedi eu cyfansoddi—y mae yn bossibl eu dadgyfansoddi a'u chwalu; ac yn unol â hyny, fe'u chwelir, fe'u cynnhyrfir i ymollyngiad llwyr, a gwneir hyny fel yr arhoso "y pethau nid

wedi eu gwneuthur, fel yr aroso y pethau nid ysgydwir.

28 O herwydd pa ham, gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras, trwy yr hwn [t]y gwasanaethom Dduw wrth ei [t] Eph. 1. 6; 1 Pedr 2. 5, 20. fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn.

29 O blegid [u]ein Duw ni *sydd* [u] Exod. 34. 17. dân ysol.

PENNOD XIII.

1 *Amryw gynghorion: megys i garu ein gilydd:* 4 *i fyw yn onest:* 5 *i ochelyd cybyddra:* 7 *i berchi pregethwyr Duw:* 9 *i achel athrawon dyeithr:* 10 *i gyfaddef Crist:* 16 *i roi elusen:* 17 *i ufuddhau i swyddogion:* 18 *i weddio dros yr apostol.* 20 *Y diwedd.*

PARHAED brawdgarwch.

2 [a]Nac anghofiwch letty- [a] Deut. 10. 18, 19: Mat. 25. 35, 43: Rhuf. 12. 13. [b] Gen. 18. 2 —10; 19. 1 —3; Mat. 25. 40.

garwch: canys wrth hyny [b]y llettyodd rhai angylion yn ddiarwybod.

3 Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, fel pettech yn rhwym gyda hwynt; y rhai cystuddiol, megys yn bod eich hunain hefyd yn y corph.

4 Anrhydeddus *yw* priodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig: eithr puteinwyr a godinebwyr [c]a farna Duw.

5 *Bydded eich* [d]ymarweddiad yn ddiariangar; [e]gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych. Canys efe a ddywedodd, [f]Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith.

6 Fel y gallom ddywedyd yn hŷf, Yr Arglwydd *sydd* gym- [c] Salm 50. 16 —22; 1 Cor. 5. 13. [d] Exod. 20. 17; Ios. 7. 21; Rhuf. 1. 29. [e] Exod. 2. 21; Luc 3. 14. [f] Gen. 28. 15; Ios. 1. 5; Esa. 41. 10, 17.

---

ysgydwir". Gweinydda ymollyngiad yr hen nefoedd a'r ddaear i sefydliad arosol y rhai newydd. Gellir cyssyllty y ferf hon, "gwneuthur," yn uniongyrchol a'r frawddeg, "fel yr aroso y pethau nid ysgydwir." Mewn geiriau ereill, ni buasai y pethau hyn wedi eu gwneuthur ond fel y maent yn gwasanaethu fel ysgaffaldiau nes gorphen "y pethau nid ysgydwir."

28. *O herwydd pa ham.*—O herwydd fod yn rhaid fel hyn ysgwyd y nef a'r ddaear, a chan ein bod yn derbyn, yn lle y pethau darfodedig hyn, deyrnas ddisigl. Y mae y ferf yn y presennol, "yn derbyn." *Bydded genym ras.*—Gr.: *charis; h.y.*, fel y gellir darllen,' bydded genym ddiolchgarwch.' Felly Chrysostom, Theophylact, Bengel, De Wette, Ebrard, Stuart, Alford, Bleek, Delitzsch. *Trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd:*—sef, trwy ein diolchgarwch am ddarparu i ni deyrnas ddisigl, a dadguddio y drefn i ni ei chael; sef, trwy yn unig ei derbyn. *Gyda gwylder a pharchedig ofn.*—Yn ol y llawysgrifau pwysig, A, C, D, y darlleniad yw 'gyda duwiol wyliadwriaeth, neu ymddarostyngiad, ac ofn.'

29. *O blegid ein Duw ni sydd dân ysol.*—Yn y testyn y mae *cai*, "hefyd," neu "ac." Darllenir gan rai, 'Canys ein Duw ni hefyd sydd dân ysol;' *h.y.*, y mae Duw, yn ei berthynas â ni hefyd, fel yr oedd gynt, yn ei berthynas â'r genedl Iuddewig, yn dân ysol: *Deut.* iv. 24. Ereill a ddarllenant, 'Canys hefyd y mae ein Duw ni yn dân ysol;' *h. y.*, canys yn chwanegol at fod Duw yn un llawn daioni, ac wedi rhoddi i ni deyrnas yn ei ddaioni, am yr hyn y dylem ei wasanaethu wrth ei fodd, y mae hefyd yn dân ysol i'w elynion a thuag at bechod; ac am hyny, dylem ei wasanaethu gyda gwyliadwriaeth ac ofn.

Pennod xiii.

1. *Parhaed brawdgarwch.*—Arwydda "brawdgarwch" yma gariad brodyr Cristionogol at eu gilydd. Gwel ar 2 *Pedr* i. 7. Yr oedd y rhinwedd hwn yn flodeuog yn nyddiau boreuaf Cristionogaeth; pan yr oedd gwaed Crist, fel y dywed Jerome, etto yn gynnhes yn ngwythïenau Cristionogion: ond fel y dywed Calvin, nid oes dim a lifa allan yn haws na chariad; ac am hyny, tra phriodol ydyw yr annogaeth i barhau ynddo.

2. *Nac anghofiwch lettygarwch.*—Yr oedd y Cristionogion cyntefig yn hynod yn y rhinwedd hwn hefyd. Cyfaddefir hyny gan eu gelynion, fel y mae genym engreifftiau yn eu hysgrifeniadau: ond tuedd dynion, fel y cynnyddo gwareiddiad a masnach ydyw, yn nghanol prysurdeb a phryder bydol, i anghofio y rhinwedd hwn, a pheri, fel y dywed Calvin, i westai gymmeryd lle y lletty caredig. Diau fod cyfeiriad arbenig yn y cynghor i sefyllfa Cristionogion dan erledigaeth. *Canys wrth hyny.*—Groeg: 'trwy hyny' (*dia tautes*). *Y llettyodd rhai angylion yn ddiarwybod:*—megys Abraham (*Gen.* xviii.), a Lot (*Gen.* xix.). Os dywed rhyw un mai anaml y bu hyn, attebir ein bod yn derbyn, nid angylion yn unig, ond Crist ei hun pan fyddom yn derbyn y tlodion yn ei enw.

3. *Cofiwch y rhai sydd yn rhwym:—h.y.*, yn garcharorion o herwydd eu crefydd. *Y rhai cystuddiol.*—Dyma ddosbarth arall ag sydd yn gofyn ein cydymdeimlad a'n cymmhorth. Gelwir arnom i ddadgan ein cariad a'n cydymdeimlad tuag at y rhai a erlidir, y rhai sydd yn rhyddion; a thuag at y carcharorion, a'r cleifion. *Megys yn bod eich hunain hefyd yn y corph:—h.y.*, mewn corph cystuddiol ac afiach. Mewn afiechyd yr ydym yn dyfod i deimlo fod genym gyrph. Y mae yr enaid yn gorfod meddwl am dano, a chydymdeimlo â'i boenau.

4. *Anrhydeddus yw priodas yn mhawb.*—Darllenir yr adnod hon gan rai yn orchymynol; ac yn wir, felly y gwneir gan y rhan fwyaf o'r esbonwyr mwyaf diweddar. Bydded 'priodas yn anrhydeddus yn mhawb,' neu fel y deallir *en pasin* gan y rhan fwyaf 'yn mhob peth,' 'a bydded y gwely yn ddihalogedig.'

5. *Bydded eich ymarweddiad yn ddiariangar.*—Gwel ar 1 *Cor.* v. 10, 11, &c. Arwydda y gair *tropos* 'dull o fyw.' Ar ol eu dysgu pa fodd i iawn ac anrhydeddus ymarweddu yn eu priodas, y mae yn eu cyfarwyddo gyda golwg ar eu bywioliaeth fydol, gan eu hannog i beidio a gadael i arian feddiannu eu serch, ac iddynt golli eu teimlad o ymddibyniad ar Dduw fel eu Tad yn gofalu am danynt, ac yn rhoddi pob peth iddynt. *Gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych.*—Nid ydyw hyn yn cynnwys attaliad ar ffordd parhau mewn gweithgarwch, fel os llwydda Rhaglunaeth ni, y cynnydda golud; ond yn erbyn anfoddlonrwydd a thuchan yn ngwyneb yr hyn sydd genym yn bresennol fel doniau Rhaglunaeth Duw. *Canys efe a ddywedodd:*—sef Duw.

[h] Mat. 10. 28. mhorth i mi, [h] ac nid ofnaf beth a wnêl dyn i mi.

7 Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i [i] Luc 8. 11. chwi [i] air Duw: ffydd y rhai di- [k] Act. 7. 55 —60. lynwch, [k] gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.

8 Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

9 Na'ch arweinier oddi amgylch âg athrawiaethau amryw â dyeithr: canys da *yw* bod y galon wedi ei chryfhau â gras, nid â bwydydd, yn y rhai ni chafodd y sawl a rodiasant ynddynt, fudd.

10 Y mae genym *ni* allor, o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai

Yn mha le? Nid oes genym y cyfryw eiriau yn fanwl fel y maent yma yn yr Hen Destament. Ond y mae yn ffaith hynod fod y geiriau yn holloi fel y maent yma i'w cael yn ysgrifeniadau Philo. Tybia rhai mai dyfyniad ydynt o Philo: ereill a farnant fod yr awdwr a Philo yn dyfynu o'r un man—fe allai o ranau o'r gwasanaeth a arferid yn y synagog Iuddewig, y rhai oeddynt wedi eu seilio ar, a'u cymmeryd oddi wrth, y geiriau cyffelyb yn 1 *Cron.* xxviii. 20.

6. *Fel y gallwn ddywedyd yn hyf.* — Groeg: 'fel mewn hyder y gallwn ddywedyd;' hyny yw, mewn hyder seiliedig ar addewid Duw i ofalu am danom. *Yr Arglwydd sydd gymmhorth i mi, ac nid ofnaf beth a wnêl dyn i mi?* Felly y mae y darlleniad yn y Salm, ac felly y dylai fod yma. Gwel *Salm* cxviii. 6.

7. *Meddyliwch am eich blaenoriaid*;—neu yn fwy cywir, 'llywodraethwyr,' neu 'arweinwyr.' Megys y mae yn y rhanau blaenorol yn annog yr Hebreaid i ddangos eu cydymdeimlad a'u cariad at y rhai oedd o'u brodyr yn aros yn yr un byd a hwy, y mae yma yn eu dangos pa fodd etto yr oedd modd iddynt ddal cymmundeb âg ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berfeithiwyd; sef, trwy feddwl am danynt, ac am yr athrawiaeth a ddysgasant iddynt. Trwy hyny, mewn modd effeithiol, cedwid hwy mewn cymdeithas â byd tu draw i hwn, fel ag i gymmedroli eu cariad at ei bethau, ac i'w cadw rhag myned yn ormodol i'w ysbryd. *Gan ystyried diwedd eu hymarweddiad.*—Y mae y gair a gyfieithir yma "ystyried" yn arwyddo edrych ar beth yn fanwl o'r naill ben i'r llall, o'r gwaelod i fyny—edrych arno yn ei holl ranau nes caffael argraph gyflawn o hono. Y mae y gair a ddarllenir "diwedd" yn arwyddo o ran ei dreigliad, mynediad allan *(ecbasis)*. 'Gan ystyried yn fanwl ddiwedd eu hymarweddiad,' geilw arnynt i ddilyn, neu fel yr arwydda y gair, i 'efelychu' eu ffydd, yr hwn ydoedd yn wreiddyn ac achos prydferthwch a phurdeb yr ymarweddiad hwnw.

8. *Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.*—Saif yr adnod hon allan megys ar ei phen ei hun, fel y peiramid yn yr anialwch; ac etto, y mae yn cyssylltu holl ranau yr epistol â'u gilydd, ac â'r gwirionedd a osodir ynddi a thrwyddi. Y mae y cymmhwysiad y gellir ei wneuthur o'r gwirionedd hwn yn amrywiol, ac am hyny gadawn i'r meddwl myfyrgar wneuthur hyny ei hun. Gellir ei gymmhwyso mewn modd mwy pendant, mewn cyssylltiad â'r adnodau blaenorol, at anghyfnewidioldeb Crist yn ei ofal am ei bobl yn mhob oes—"ddoe," pan ddywedai y Salmydd (yn *Salm* cxviii. 6) "Yr Arglwydd sydd gymmhorth i mi: "heddyw," yn ein dyddiau ni, yn cynnal ei genhadon i lefaru gair Duw, trwy glod ac anghlod, ac yn coroni eu merthyrdod â choron o fywyd ac anllygredigaeth: "ac yn dragywydd," yn yr amser sydd etto i ddyfod, i gynnal ei bobl hyd ddiwedd y byd, ac ar ol hyny i dragwyddoldeb. Gellir hefyd eu cymmeryd fel crynodeb o'r holl lythyr, ac yn dwyn perthynas â'r cynghorion canlynol gyda golwg ar yr athrawiaethau amryw a dyeithr. Darfu i'r llywodraethwyr ymadawedig draethu i chwi air Duw, yr hwn a lefarai am Grist, ond y maent hwy wedi myned: eithr os ydynt hwy wedi myned, y mae gwrthddrych eu pregeth yn aros yr un. Efe ydoedd gwrthddrych mawr prophwydoliaeth yn "noe" yr hen gyfammod. Efe ydyw yn "heddyw" y newydd; ac efe a fydd felly yn dragywydd yn y dyfodol. A chan fod gwrthddrych yr athrawiaeth trwy bob goruchwyliaeth yr un, y mae yr athrawiaeth o ran ei hanfod yr un hefyd.

9. *Athrawiaethau amryw a dyeithr.*—Y mae unoliaeth digyfnewid y gwrthddrych, a'r athrawiaeth am y gwrthddrych, yn cau allan amrywiaeth neu liosogrwydd ar un llaw, a dyeithrwch neu newydd-deb ar y llaw arall. Y mae yn hawdd gan ddynion gymmeryd eu swyno a'u cario ymaith gan yr amrywiol a'r dyeithrol. Y maent yn dallu y llygaid, ac yn rhoddi gau argraph o brydferthwch a gwirionedd. *Canys da yw bod y galon.*—Groeg (*calon*): prydferth. Y gwir brydferth ydyw yr hyn sydd yn cryfhau y galon; a'r hyn a wna hyny ydyw gras, a thrwy y gwirionedd y mae gras yn dyfod. Nid yr amryw a'r dyeithr gau, ond y gwirionedd syml a digyfnewid sydd yn dwyn gras, a'r gwirionedd a'r gras a ddaeth trwy Iesu Grist. *Nid â bwydydd.*—Cryfheir y galon, "nid â bwydydd," ond â gras. Bwydydd i'r bol, medd yr apostol Paul, ond rhaid i'r galon, i'r dyn oddi mewn, neu y rhan ysbrydol o honom gael gras. Nis gall y materol ddigoni yr ysbrydol. Hyn oedd diffyg mawr y bwydydd a'r diodydd o dan yr hen gyfammod. Nid oeddynt yn gweinyddu ymgeledd ond yn unig i'r corph, fel portreadau cysgodol yn unig o'r ymgeledd sydd i'w gael i'r galon trwy gymdeithas â Duw ar sail aberth Crist; a diau fod y diffyg hwn wedi bod yn achlysur i lawer ymfoddloni ar y budd corphorol, heb edrych y tu draw iddynt trwy ffydd at y sylwedd: a hyn ydoedd perygl yr Hebreaid—sychedu am yr hen bethau, o ddiffyg ymdrech am gael y budd a allasent ei gael trwy iawn ymarfer â phethau y cyfammod newydd.

10. *Y mae genym ni allor.*—Nid ydyw y rhagenw "ni" yn y gwreiddiol. Dylai fod "Y mae genym allor." Er fod yr apostol yn gwahardd bwydydd yr aberthau Iuddewig iddynt, nid yw am eu cau allan rhag ymborthi ar aberth. Y mae genym allor, ac aberth arni, ar yr hwn i ymborthi yn ysbrydol. Y mae yr allor yma yn sefyll trwy draws-newidiad am aberth Crist, ond diau fod y gair yn cyfeirio yn ei ffurf at y groes ar yr hon y bu Crist farw, ond yn ei sylwedd at yr angeu a gymmerodd le ar y groes. *O'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta*;—*h.y.*, nid oes awdurdod i'r offeiriaid Iuddewig fel y cyfryw, yn eu swydd, ac

sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta.

11 Canys cyrph yr anifeiliaid hyny, y rhai y dygir eu gwaed gan yr archoffeiriad i'r cyssegr dros bechod, a losgir y tu allan i'r gwersyll.

12 O herwydd pa ham Iesu hefyd, [l]fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, [m]a ddioddefodd y tu allan i'r porth.

13 Am hyny awn ato ef o'r tu allan i'r gwersyll, gan ddwyn ei waradwydd ef.

14 Canys [n]nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ŷm ni yn ei disgwyl.

15 Trwyddo ef gan hyny offrymwn [o]aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth *ein* gwefusau, yn cyffesu i'w enw ef.

16 Ond [p]gwneuthur daioni, a [q]chyfranu, nac anghofiwch: canys â [r]chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.

17 [s]Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: o blegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megys

[l] Ioan 17 19. [m] Lef. 24. 23; Marc 15. 20—24; Ioan 19. 17, 18.

[n] 1 Pedr 4. 7.

[o] Eph. 5. 19, 20; Dad. 4. 8—11.

[p] Salm 37. 3; Gal. 6. 10.

[q] Luc 18. 22; Rhuf. 12. 13.

[r] Phil. 4. 18.

[s] 1 Sam. 8. 19; 15. 19, 20.

---

yn ol drychfeddwl eu swydd, awdurdod i fwyta o aberth yr allor hon. Yr oedd perffaith ryddid a chroesaw iddynt fwyta o honi fel pechaduriaid, ond yr oeddynt yn gwrthod hyny; ond nid oedd ganddynt awdurdod i fwyta yn ol yr un drychfeddwl ag yr oedd ganddynt hawl i fwyta o'r aberthau dan y gyfraith. Y mae eglurhâd arall yn cael ei roddi gan rai; sef, mai Cristionogion a feddylir yma wrth "y rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl," ac mai meddwl y geiriau ydyw, fod aberth Crist, fel ac yn gymmaint a'i fod yn boeth-offrwm, yn gyfryw ag nad oes gan hyd yn oed Cristionogion, fel offeiriaid y cyfammod newydd, ddim awdurdod i fwyta o hono. Y mae yr aberth hwn yn aberth llosg; nid oes dim o hono, fel y mae yn gyfryw, i gael ei fwyta. Nid oes neb i fod yn gyfranog o hono fel y mae yn boeth-offrwm. Crist ei hun ydyw yr holl aberth, ac nid oes ran na chyfran i ni yn ei offrymiad. Yr oedd bwyta o'r aberthau gynt yn arwyddocau cydgyfranogiad y rhai a fwytaent yn offrymiad yr aberth; ond nid oes ran i ni yn yr ystyr hwn yn aberth Crist. Rhaid addef fod rhywbeth yn gywrain yn yr eglurhâd hwn, yr hwn a amddiffynir yn gryf gan Hoffmann; ond ymddengys i ni fod yr eglurhâd arall yn fwy cywir a chydsafol â'r cyssylltiad rhwng yr adnodau. Yn hytrach na hysbysu yr Hebreaid nad oes ganddynt allor o'r hon y gallent fwyta, y mae yn amlwg mai dwyn ar gof iddynt y mae fod ganddynt allor i fwyta o honi. Y mae y pwyslais ar y ferf "y mae genym." Er ei fod yn gwahardd pob math o fwydydd aberthol iddynt, y mae yn eu calonogi fod "genym" aberth gwell i ymborthi arno mewn modd ysbrydol.

11. *Canys cyrph yr anifeiliaid hyny, y rhai y dygir eu gwaed gan yr archoffeiriad i'r cyssegr dros bechod, a losgir y tu allan i'r gwersyll.*—Yn ol yr esboniad cywrain y cyfeirlwyd ato uchod, amcan yr adnod ydyw profi yr hyn a ddywedwyd yn yr adnod o'r blaen; sef, nad oes gan Gristionogion hawl i fwyta o'r allor hon; a'r prawf hwnw ydyw y ffaith nad oedd gan yr offeiriad gynt hawl i fwyta o'r poeth-offrwm: a chan fod y cysgod yn cyfatteb i'r sylwedd, nad oedd ganddynt hwythau hawl i gyfranogi yn offrymiad aberth Crist. Yn ol yr esboniad a gymmeradwyir genym ni, yr amcan ydyw profi nad oes gan yr offeiriaid Iuddewig hawl i fwyta, fel y cyfryw, o'r allor hon; am y rheswm nad oedd ganddynt hawl chwaith i fwyta hyd yn oed o'r aberthau cysgodol ag oedd yn cyfatteb i, ac yn rhag-ddangos aberth Crist yn ei offrymiad drosom i Dduw ar ein rhan; a'r prawf a ddygir o hyny ydyw, fod cyrph yr ebyrth dros bechod yn wastad yn cael eu llosgi, ac nid eu bwyta. Nid oedd ganddynt hwy awdurdod i fwyta o'r aberthau cysgodol, ond y mae genym ni awdurdod i fwyta o'r aberth sylweddol.

12. *O herwydd ŷa ham:—h.y.,* fel y byddai i'r sylwedd gyfatteb i'r cysgod. *Fel y sancteiddiai y bobl.*—Gwel ar *pen.* ii. 11, a x. 10. Cyfeiria at ei waith presennol yn y nefoedd. *A ddioddefodd y tu allan i'r porth:*—sef, porth Ierusalem; yn cyfatteb yn y sylwedd i'r "tu allan i'r gwersyll" yn y cysgod. Dioddefodd Crist y tu allan i gylch a safle yr oruchwyliaeth gysgodol, fel y dangosai nad oedd yn perthyn iddi.

13. *Am hyny awn ato ef o'r tu allan i'r gwersyll.*—Gan iddo ddioddef y tu allan i'r porth, yr oedd yn dangos ei fod yn dioddef ac yn marw y "tu allan i'r gwersyll;" *h.y.,* y tu allan i gylch y gyfraith gysgodol; ac am hyny "awn ato ef;" neu yn fwy cywir, 'Awn allan ato ef' (*ecserchometha*); *h.y.,* Awn allan o gylch a therfynau y gyfraith, i fewn i gylch a therfynau y cyfammod newydd. *Gan ddwyn ei wdradwydd ef*—Fel y darfu iddo ef, trwy ddioddef y tu allan i'r porth, gymmeryd ein gwaradwydd arno ei hun, dygwn ninnau ei waradwydd ef trwy ei arddel ef fel Crist croeshoeliedig, serch i ni, o herwydd hyny gael ein gwaradwyddo fel yntau, a'n bwrw ymaith o bob safle o anrhydedd perthynol i'r byd hwn.

14. *Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus:*—hyny yw, ar y ddaear hon. *Eithr un i ddyfod yr ym yn ei disgwyl:*—hyny ydyw, yn y nefoedd. Gall fod yma gyfeiriad at ddinystr dinas Ierusalem, ynghyd â'r holl wasanaeth defodol perthynol iddi, yr hwn ddinystr oedd yn awr wrth y drws, a'r hwn ydoedd bortread o ddarfyddiad pob peth daearol ac anianol.

15. *Trwyddo ef.*—Dylai y rhagenw "ef" gael y pwyslais. "Trwyddo ef:" nid trwy ddefodau Iuddewig. *Aberth moliant.*—Gwel *Salm* xlix. 23. *Yn wastadol:*—nid ar adegau pennodol, fel dan y gyfraith. *Yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau.*—Gwel *Hos.* xiv. 2.

16. *Ond gwneuthur daioni, a chyfranu, nac anghofiwch.*—Y mae aberth diolch i gynnwys, nid yn unig ffrwyth y gwefusau, ond ffrwyth y dwylaw mewn ffordd o gyfranu a gwneuthur daioni.

17. *Ufuddhewch i'ch blaenoriaid.*—Megys y mae uchod yn eu dysgu i feddwl am y blaenoriaid oedd wedi eu gadael, y mae yma yn eu dysgu i ufuddhau a pharchu y rhai etto oedd yn aros. *Ac ymddarostngwch.*—Pan y bydd eich barn a'ch ewyllys yn methu cydsynio, ymddarostyngwch i'w barn a'u cynghor hwynt, trwy hunanymwad-

rhai a fydd rhaid iddynt roddi cyfrif: fel y gallont wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist: canys difudd i chwi *yw* hyny.

18 Gweddïwch drosom ni: can- [d]Act. 24.16; 2 Cor. 1. 12. [e]Rhuf. 12. 17. ys yr ydym yn credu [e]fod genym gydwybod dda, [u]gan ewyllysio byw yn onest yn mhob peth.

19 Ond yr ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, [x]i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.

[x]Rhuf. 1. 12; 15. 31, 32.

20 A [y]Duw yr heddwch, yr hwn [z]ddug drachefn oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, [a]Bugail mawr y defaid, trwy [b]waed y cyfammod tragwyddol,

[y]Rhuf. 15. 33. [z]Act. 2 24; 32; 10. 40, 41. [a]Salm 23. 1; Esa. 40 11. [b]Mat. 26. 28; Luc 22 20.

21 [c]A'ch perffeithio yn mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef; gan weithio ynoch yr hyn sydd [d]gymmeradwy yn ei olwg ef, [e]trwy Iesu Grist: [f]i'r hwn *y byddo* y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[c]1Pedr 5. 10. [d]Rhuf. 12 1 Phil. 4. 18. [e]Ioan 16. 23, 24; Eph. 2. 18. [f]Salm 72. 18, 19.

22 Ac yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, goddefwch air y cynghor: o blegid ar fyr eiriau yr ysgrifenais atoch.

23 Gwybyddwch ollwng *ein* brawd Timotheus yn rhydd; gyd â'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf â chwi.

24 Anerchwch eich holl flaenoriaid, a'r holl saint. Y mae y rhai o'r Ital yn eich anerch.

25 Gras *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

¶ At yr Hebreaid yr ysgrifenwyd o'r Ital, gyda Thimotheus.

iad. *Fel y gallont wneuthur hyny:*—sef, gwylio dros eu heneidiau. *Canys difudd i chwi yw hyny:*—hyny yw, eu bod yn tristau o'ch herwydd. Bydd eu tristwch yn anfantais iddynt i ymdrech chwanegol, mewn gweddi, a chynghor, ar eich rhan.

18. *Gweddïwch drosom ni.*—Geilw arnynt i weddïo drostynt, yn gystal ag i ufuddhau ac i ymddarostwng iddynt. Trwy hyn, dengys fod eu holl awdurdod fel eu blaenoriaid yn gyfryw ag yr oedd ganddynt bob sail, nid i orthrymu neb, nac i ymfalchïo, ond i deimlo eu dibyniad ar y Pen Mawr am gymmhorth digonol i'w weinyddu er adeilad ac nid er dinystr. *Canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda.*—Yr ydym yn credu fod genym waelod da i ddefnyddioldeb cang mewn duwioldeb dwfn, ac felly gellwch yn ddiogel weddïo am ein llwyddiant. *Byw yn onest.*—Groeg: *calos*, anrhydeddus; byw i fyny i brydferthwch neu anrhydedd crefydd yn mhob peth.

19. *Gwneuthur o honoch hyn:*—sef, gweddïo drosto am lwyddiant. *I gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.*—Groeg: 'adferu.' Yr oedd buandra ei ddyfodiad atynt yn troi ar raddau a chynnarwch ei lwyddiant yn y lle yr oedd ar y pryd. Nid oedd am adael y maes nes gorphen ei hau.

20. *A Duw yr heddwch:*—neu 'y tangnefedd.' *Yr hwn a ddug drachefn oddi wrth y meirw.*—Yr unig fan y cawn grybwylliad yn y llythyr am adgyfodiad Crist. Yn mhob lle arall ynddo y mae yn llamu dros yr adgyfodiad at ei esgyniad, ei eisteddiad, a'i ymddangosiad ger bron Duw yn y nefoedd fel y gwir gyssegr. Yn lle "dug drachefn," mwy cywir fyddai darllen 'dwyn i fyny'—'yr hwn a ddug i fyny.' Barna rhai esbonwyr fod yma gyfeiriad at ddarlleniad y Deg a Thrigain o *Esa.* lxiii. 11; "Yr hwn a ddug i fyny o'r môr fugail y defaid," *h. y.*, Moses, yr hwn a gyferbynir yn yr epistol hwn â Christ, o'r hwn yr oedd Moses yn gysgod. *Trwy waed y cyfammod tragwyddol.*—Groeg: 'yn ngwaed.' Cyssyllter yr ymadrodd â'r ferf "a ddug;" nid â'r sylweddair "bugail." Yn ei waed y cafodd ei ddwyn i fyny. Aeth i'r cyssegr trwy ei waed ei hun. Gelwir y cyfammod newydd yn "dragwyddol" am nad oes un arall i'w ddilyn. Y mae y diweddaf, ac heb ddiwedd i'w fendithion.

21. *I wneuthur ei ewyllys ef.*—Groeg: 'er gwneuthur ei ewyllys ef.' Trwy gyflawni pob gweithred dda, y mae i ni wneuthur ei ewyllys ef. *Gan weithio ynoch.*—Gwel ar *Phil.* ii. 13, ac *Eph.* ii. 10. *Trwy Iesu Grist.*—Yr Arglwydd Iesu y gelwir ef, fel y sonir am dano yn cael ei ddyrchafu oddi wrth y meirw; ond yma, Iesu Grist, pan y cyfeirir ato fel yr Eneiniog, yn rhoddi ei Ysbryd i weithio pob daioni yn ei bobl. *I'r hwn:*—i Dduw y tangnefedd, neu yr heddwch, am yr hwn y llefara yn yr holl frawddeg.

22. *Air y cynghor:*—yn yr holl epistol, yr hwn y mae ei holl athrawiaethau, yn gystal a'i ranau ymarferol, yn cyfansoddi un cynghor mawr i'r Hebreaid lynu yn eu proffes. *Ar fyr eiriau:*—o'u cymmharu â'r hyn a allesid ei ysgrifenu ar y fath fater.—*Alford.*

24. *Y rhai o'r Ital.*—Y rhai oedd wedi dyfod o'r Ital i'r lle yr oedd yr ysgrifenydd ar y pryd: neu, os golygwn i'r epistol gael ei ysgrifenu yn Rhufain, arwydda y rhai o Rufain, yn gystal ag o'r wlad amgylchynol. Nid ydym yn gwybod pa un sydd yn gywir.

EPISTOL CYFFREDINOL IAGO.

SYLWADAU CYFFREDINOL.

Iago ydyw y cyntaf o'r epistolau cyffredinol. Y mae saith o epistolau yn cael eu galw felly; sef, Iago; Cyntaf ac Ail Pedr; Cyntaf, Ail, a Thrydydd Ioan; ac hefyd Epistol Iudas. Nid ydyw yn gwbl eglur pa ham y cafodd y rhai hyn eu galw yn rhai "cyffredinol." Dywed rhai, mai amfod y gwirioneddau a gynnwysant yn gyffredinol, neu yn gyfaddas i'r holl eglwysi. Dywed ereill, mai am na chawsant eu cyfeirio at unrhyw eglwys neu berson neilldiol; ond nid ydyw hyn yn gywir gyda golwg ar Ail a Thrydydd Ioan. Ond y rheswm sydd yn ymddangos yn fwyaf tebygol ydyw hwn; sef, ddarfod i'r eglwysi boreuol yn gyffredinol eu cydnabod yn epistolau awdurdodedig, neu ganonaidd. Cafodd Epistol Cyntaf Pedr, a Chyntaf Ioan, eu cydnabod felly o'r dechreu; ac am hyny, galwyd hwynt yn rhai "cyffredinol," i'w gwahaniaethu oddi wrth y pump ereill, am ba rai y bu peth ammheuaeth. Ond pan gyttunodd yr eglwysi am y rhai hyn hefyd, galwyd hwythau, fel y lleill, yn "epistolau cyffredinol."

AWDWR YR EPISTOL.

Yn y rhestr a gawn o'r apostolion, fe nodir dau Iago: *Mat.* x. 2; *Marc* iii. 17; *Luc* i. 14, 15; *Act.* i. 13. Un o honynt ydoedd Iago mab Zebedeus a brawd Ioan, a'r llall ydoedd Iago mab Alpheus. Ond yr ydym yn cael hanes ddarfod i'r cyntaf gael ei ladd yn gynnar gan Herod: *Act.* xii. 1, 2.

Y mae yr un arall yn cael ei alw yn "apostol," ac yn "frawd yr Arglwydd:" *Gal.* i. 19. Gwelir pa berthynas oedd efe i'r Arglwydd Iesu Grist wrth gymmharu yr Ysgrythyrau canlynol: *Marc* xv. 40, âg *Ioan* xix. 25. Yn yr adnodau hyn gwelir fod ei fam ef yn chwaer i Mair mam yr Iesu. Dywedir hefyd fod Mair mam Iago yn wraig i Cleophas.

Dyna oedd enw tad Iago yn ol yr Hebraeg, ond Alpheus oedd ei enw yn ol y Groeg. Yn ol y disgrifiad uchod, cefnder ydoedd Iago i'r Iesu; etto, peth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon oedd fod perthynasau agos yn cael eu galw yn frodyr: *Gen.* xxix. 12, 15.

Efe oedd yr esgob neu y gweinidog cyntaf yn Ierusalem, ac y mae yn amlwg ei fod mewn parch mawr gan y frawdoliaeth: *Act* xxi. 18.

Gelwid ef Iago Fychan, y mae yn debygol, am ei fod yn fychan o gorpholaeth: *Marc* xv. 40. Ond o herwydd uniondeb nodedig ei gymmeriad, y mae mewn hanesiaeth yn cael ei alw yn Iago Gyfiawn.

YR AMSER YR YSGRIFENWYD YR EPISTOL.

Tybir yn gyffredin iddo gael ei ysgrifenu tua'r flwyddyn B. A. 62. Nid oedd Ierusalem etto wedi ei dinystrio; er hyny, awgryma yr apostol fod rhyw drychineb mawr ar oddiweddyd yr Iuddewon: *pen.* v. 1, 8.

Ac y mae efe yn nodi allan yn lled eglur rai o'r pethau a fuont yn brif achosion o hono; sef, "rhyfeloedd ac ymladdau" yn eu plith eu hunain: *pen.* iv. 1.

Dywed Eusebius mai yr Iuddewon a fu yn achos o farwolaeth Iago, trwy ei daflu i lawr mewn cythrwfl oddi ar binacl o'r deml. Dywed yn mhellach, mai yr achlysur o'r ymosodiad hwn oedd eu bod wedi eu symi yn eu hamcan o rwydo a dal Paul, pan wnaeth efe appeliad at Cæsar, ac am hyny iddynt droi eu cynddaredd yn erbyn Iago. Cyfeirir, yn yr Epistol at yr Hebreaid, at y "blaenoriaid" oedd yn ddiweddar wedi eu gadael trwy angeu, a thybir fod yr apostol â'i olwg yn neillduol ar Iago, eu hesgob, yr hwn oedd newydd eu gadael yn y modd a nodwyd. A bernir i Iago ysgrifenu ei epistol ychydig cyn ei ymadawiad; sef, tua'r flwyddyn a nodir uchod.

NEILLDUOLION YR EPISTOL.

Y mae o ran ei duedd a'i amcan yn ymarferol. Gwelir ynddo fod yr apostol yn ceisio gwrthweithio y pen-rhyddid a'r llygredigaeth oedd yn cael eu hachlysuro gan rai o brif gyfeiliornadau yr oes.

Dengys yr apostol mewn modd tra eglur mai ofer ydyw i neb dybied ei fod mewn cyflwr o gymmeradwyaeth ger bron Duw, oddi eithr fod uniondeb yn ei ymddygiadau tuag at ddynion; neu mewn geiriau ereill, nad oes gan neb sail i gredu ei fod yn meddu y cyfiawnder sydd o ffydd, oddi eithr ei fod hefyd yn amlygu cyfiawnder ymarferol mewn gweithredoedd da.

Y mae arddull yr epistol yn symi, bywiog, a tharawiadol. Y mae difrifwch mawr, a theimladau dyfnion, trwy yr epistol yn cael eu hamlygu.

EPISTOL CYFFREDINOL IAGO.

PENNOD I.

2 *Cynghor i lawenychu mewn blinder:* 5 *i ofyn doethineb gan Dduw:* 13 *na furier y bai arno ef o ran ein pwendid na'n pechodau ni:* 22 *i wrandaw ac i fufyrio ar air Duw; ac i wneuthur ar ei ol:* 26 *os amgen, fe all rhai ymddangos yn grefyddol oddi allan, ond ni allant fod felly mewn gwirionedd.*

B. A. 62.

[a] Mat. 10. 3; 13. 55; Act. 1. 13.

IAGO,[a] gwasanaethwr Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, at y deuddeg llwyth sydd ar wasgar, anerch.

2 Cyfrifwch yn bob llawenydd, fy mrodyr, pan syrthioch mewn amryw brofedigaethau;

[b] Rhuf. 8. 28; 2 Cor. 4. 17.

3 Gan wybod, [b] fod profiad eich ffydd chwi yn gweithredu amynedd.

[c] Salm 37. 7; Gal. 6. 9.

4 Ond [c] caffed amynedd *ei* pherffaith waith; fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim.

[d] Exod. 31. 3, 6; 1 Bren. 3. 7—9; Diar. 3. 5—7.

5 [d] O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, [e] gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn

[e] Diar. 2. 3—6; Esa. 55. 6, 7; Luc 11. 9—13; Ioan 4. 10.

Pennod I.

yr anerchiad.

1. *Iago, gwasanaethwr.....Iesu Grist.*—Nid ydyw fod Iago yma yn peidio galw ei hun yn apostol yn un rheswm yn erbyn ei apostoliaeth. Y mae Paul hefyd yn dechreu rhai o'i epistolau mewn modd cyffelyb, gan alw ei hun yn was neu yn wasanaethwr Iesu Grist. Cawn esamplau o hyn yn nechreu yr Epistol at y Philippiaid, ac hefyd yn yr Epistolau at y Thessaloniaid. *At y deuddeg llwyth sydd ar wasgar.*—Yr oedd lliaws mawr o Iuddewon yn wasgaredig y pryd hwn, er nad oedd Ierusalem etto wedi ei dinystrio. Yr ydoedd y blinderau yr oedd y Cristionogion yn Ngwlad Canaan yn ddarostyngedig iddynt yn peri fod eu sefyllfa yn hynod o ansicr ac ansefydlog. Tebygol, o blegid hyn, fod Iago yn eu golygu hwy yn rhai "gwasgaredig," yn gystal a'r rhai oedd mewn gwledydd estronol. Bu gwasgariad mawr ar yr Iuddewon gan frenhinoedd Assyria, y rhai a oresgynasant y wlad; ac y mae'n debyg mai ychydig, mewn cymmhariaeth, a ddychwelodd o'r rhai hyny, pan roddwyd cenad iddynt gan Cyrus, fel y gwelir yn *Ezra* i. 1—4. Prawf o hyn ydyw yr hyn a ddywedir rhyw nifer o flynyddoedd ar ol hyny: "Y mae rhyw bobl wasgaredig a gwahanedig yn mhlith y bobloedd trwy holl daleithiau dy frenhiniaeth;" *Esther* iii. 8. Ac fe ddywedir fod yn Ierusalem, ar ŵyl y Pentecost, "Iuddewon, gwŷr bucheddol o bob cenedl dan y nef;" *Act.* ii. 5. Y mae yn amlwg fod y deuddeg llwyth yn bodoli, er fod y bobl fel hyn yn wasgaredig. Dywedodd Paul o flaen Agrippa, "Y mae ein deuddeg llwyth ni heb dor yn gwasanaethu Dduw nos a dydd;" *Act.* xxvi. 7. *Anerch.*—Cyfarchiad ydyw hwn: ac y mae y gair a gyfieithir fel hyn yn arwyddo galwad neu ddymuniad am iddynt lawenhau. Y mae yr un ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn *Act.* xv. 23. Gellir darllen yr adnod hon gan hyny fel hyn:—'Y mae Iago, gwasanaethwr Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, yn dymuno llawenydd i'r deuddeg llwyth sydd ar wasgar.'

cynghorion gyda golwg ar eu profedigaethau.

2, 3.—*Cyfrifwch yn bob llawenydd.*—Wrth y profedigaethau yma yr ydym i olygu y blinderau a'r trallodau oedd y Cristionogion ynddynt o herwydd eu crefydd. Yr oedd y pethau hyn yn dwyn eu ffydd i'r prawf, neu yr oeddynt yn brofiad o'u ffydd. Yn yr ystyr yma yr oeddynt i'w gyfrif yn bob llawenydd pan syrthient iddynt. Er fod y profedigaethau ynddynt eu hunain yn ddefnydd tristwch (1 *Pedr* i. 6), etto yr oeddynt i lawenhau o'u plegid, am eu bod yn achlysur i brofi diledrithrwydd eu ffydd, ac yn enwedig i ddwyn y gras o amynedd i weithrediad. Y mae blinderau a phleserau yn brofedigaethau, ac yr ydym i wylied a gweddio na byddont yn demtasiynau hudol i bechod; ond pan fyddant yn achlysur i ddwyn rhyw ras neilluol i ymarferiad, y maent yn bethau i lawenhau o'u plegid.

4. *Ond caffed amynedd.*—Sylwa Wardlaw fod perffaith waith amynedd yn golygu dau beth; sef, meddu amynedd i'r fath raddau fel na byddo dim croes i hyny yn ysbryd dyn; ac hefyd, parhâd mewn amynedd er cyhyd bynag y parhao adeg y gorthrymder a'r blinderau. *Perffaith.*—Fel dyn wedi dyfod i'w gyflawn faintioli. *A chyfan:*—sef, heb fod un rhan yn ddiffygiol.

5. *O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb.*—Tebygol mai doethineb ymarferol a feddylir yn y fan hon, i iawn ymddwyn yn eu hamgylchiadau profedigaethus. Etto, digon priodol ydyw cymmeryd y gair yn ei ystyr eangaf, gan gynnwys y ddoethineb ysbrydol, drwy yr hon y mae dynion yn cael eu gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth. Gan fod y Cristionogion yn cael eu hannog i arfer perffaith amynedd, gallasent deimlo eu diffyg a'u hanfedrusrwydd mawr tuag at hyny. Yn ngwyneb hyn, y cysur a roddir iddynt ydyw, fod ganddynt Dduw i droi ato i ofyn

haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef.

[f] Marc 11. 22—24; Heb. 11. 6.

6 Eithr [f] gofyned mewn ffydd, heb ammheu dim: canys yr hwn sydd yn ammheu, sydd gyffelyb i don y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt.

7 Canys na feddylied y dyn hwnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd.

8 Gŵr dau-ddyblyg ei feddwl *sydd* anwastad yn ei holl ffyrdd.

9 Y brawd o radd isel llawenyched yn ei oruchafiaeth:

10 A'r cyfoethog, yn ei ddarostyngiad: canys [g] megys blodeuyn y glaswelltyn y diflana efe.

[g] Esa. 40. 6; Mat. 6. 30; 1 Cor. 7. 31.

11 Canys cyfododd yr haul gyda gwres, a gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a gwympodd, a thegwch ei bryd ef a gollodd: felly hefyd y diflana y cyfoethog yn ei ffyrdd.

12 Gwyn ei fyd [h] y gŵr sydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, efe a dderbyn [i] goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef.

[h] Iob 5. 17; Diar. 3. 11, 12; Dad. 3. 19. [i] Luc 22. 28—30; 1 Cor. 9. 25; Dad. 2. 10.

13 [k] Na ddyweded neb pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir. Canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb.

[k] Gen. 3. 12; Rhuf. 9. 19, 20.

iddo am wneyd eu diffyg i fyny. *Yr hwn [sydd yn rhoi yn haelionus.*—Y mae y gair a gyfieithir "haelionus" yn arwyddo weithiau 'syml.' Ac fe roddir yr ystyr canlynol gan Alford; sef, ei fod yn rhoddi heb chwanegu dim sydd yn lleihau graslonrwydd y rhodd. *Ac heb ddannod.*—Nid yn unig ni wna adgoffa y rhoddion blaenorol, ond hefyd, ni wna ddwrdio y rhai y mae yn rhoddi iddynt, er maint eu hannheilyngdod.

6. *Eithr gofyned mewn ffydd:*—sef, gan gredu addewid Duw, a chan ymorphwys ar ei allu a'i ras am gyflawniad o honi. *Heb ammheu dim.*—Y mae y gair a gyfieithir "ammheu" yn arwyddo ansawdd meddwl sydd yn gwneyd dyn yn ansicr ac yn ammhenderfynol, fel dyn yn gweled dwy ffordd o'i flaen, ond heb wybod pa un o honynt i'w chymmeryd. Y mae ammheu yn deilliaw o anghrediniaeth, ac y mae ammheuwr yn petruso rhwng dau feddwl. Rhydd un y disgrifiad canlynol:—Y mae ffydd yn dyweyd 'Iê,' ac anghrediniaeth yn dyweyd 'Nage;' ond yn gogwyddo yn benaf at y diweddaf. Dywed Calvin, y dichon i Gristion, o herwydd ei wendid a'i brofedigaethau, fod yn ddarostyngedig i ansicrwydd ac ofn, er fod yr egwyddor o ffydd yn sefydlog yn ei galon; ac ei fod yn hyn yn gyffelyb i bren, yr hwn y mae ei ganghenau yn cael eu hysgwyd gan y gwynt weithiau, er fod ei wreiddiau yn sefydlog yn y ddaear. *A chwelir ac a deflir gan y gwynt.*—Fel tòn yn cael ei chodi gan y gwynta'i chwalu yn grychion. Cymmhariaeth darawiadol, yn gosod allan ansawdd ansefydlog meddwl yr ammheuwr. Y mae fel tòn—weithiau yn ymgodi mewn gobaith a hyder, a phryd arall yn ymollwng mewn prudd-der a thristwch.

7. *Na feddylied y dyn hwnw y derbyn efe ddim.*—Y mae yn derbyn llawer o roddion cyffredinol oddi ar law Duw, ond na feddylied y derbyn efe ddim o'r pethau y mae efe yn eu gofyn.—*Alford.*

8. *Gŵr dau-ddyblyg ei feddwl.*—Dyma achos yr ammheu yn yr adnod flaenorol; sef, bod y meddwl yn ddau-ddyblyg, neu ei fod yn ddyn o ddau feddwl. A'r hwn sydd felly, y mae anwadalwch yn ei ymddygiadau. Y mae weithiau yn gweddïo, ac weithiau yn peidio yn hollol. Y mae weithiau yn wresog yn ffyrdd crefydd, a phryd arall yn cydymffurfio â'r byd.

9. *Y brawd o radd isel.*—Y brawd sydd mewn sefyllfa o dlodi ac adfyd, llawenyched yn ei oruchafiaeth, neu yn y dyrchafiad y mae yn ei gael drwy yr efengyl. Y mae yn cael dyrchafiad i'w gymmeriad ac i'r rhagorfreintiau mwyaf goruchel.

10. *A'r cyfoethog, yn ei ddarostyngiad.*—Llawenyched y brawd cyfoethog, yn gymmaint a'i fod trwy yr efengyl wedi ei wneyd yn isel o ysbryd, a gostyngedig o galon, fel ag i fod ar ffordd iachawdwriaeth. Ac y mae yr adnod ddilynol yn gymmhelliad cryf i feithrin yr agwedd hon, gan y dangosir ansicrwydd cyfoeth neu feddiannau bydol ynddi.—*Bloomfield.*

11. *Cyfodododd yr haul gyda gwres.*—Y mae yn debyg fod gwynt crasboeth yn y dwyrain yn cydfyned â chynnydd gwres yr haul, a thybia Alford fod y gair a gyfieithir "gwres" yn y fan hon yn cyfeirio ato. *Felly hefyd y diflana y cyfoethog yn ei ffyrdd.*—Megys y mae y blodeuyn yn gwywo o flaen y gwynt crasboeth, a than belydrau tanbaid yr haul, felly y diflana y cyfoethog o ran ei gynllunian a'i ddyfeisiau trwy wres cystuddiau, profedigaethau, ac angeu. "Y dydd hwnw y derfydd am ei holl amcanion ef;" *Salm* cxiv. 4.

12. *Gwyn ei fyd y gŵr sydd yn goddef profedigaeth.*—Y mae yr apostol yma yn troi yn ol at y mater a grybwyllodd yn *adn.* 2, ac y mae efe yn rhoddi eglurhâd pellach o'i dystiolaeth yn y fan hono. Achos tristwch ydyw os bydd neb, yn ngwyneb cyfarfod â phrofedigaeth, yn metlau dal ei dir, ond yn cael ei orchfygu; sef, yn cael ei orchfygu gan ofn, os bydd y profedigaeth o natur ddychrynllyd, neu gan bleser, os bydd o natur ddeniadol. Ond pwy bynag sydd yn dal yn ddïŵyrni yn ngwyneb y prawf, gwyn ei fyd hwnw. *Canys pan fyddo profedig.*—Rhydd Alford yr ystyr canlynol i'r ymadrodd, "Pan fyddo wedi ei brofi, a dyfod allan yn llwyddiannus o'r profedigaeth fel ag i gael ei gymmeradwyo, efe a dderbyn goron y bywyd." Nid ydym i olygu fod y goron yn cael ei rhoddi fel gwobr i rai sydd wedi ei theilyngu, ond yn hytrach fel y dywed Calvin: "Gan fod Duw yn rhoddi y goron yn rhad, ni wna ein hymdrech ni ddim ond ein cyfaddasu i'w derbyn."

NATUR A PHERYGL TEMTASIWN.

13. *Na ddyweded neb pan demtier ef.*—Byddai y brofedigaeth yn achlysur i rai i weithredu y gras cyfattebol, ac felly i ddyfod allan o honi yn ddiogel; ond byddai yr un brofedigaeth yn achlysur i ddwyn i'r golwg y drwg oedd yn guddiedig yn nghalon rhyw un arall, ac felly byddai yn cael ei orchfygu. Ond yma y mae yr apostol yn rhoddi gwaharddiad i'r cyfryw un i

14 Canys yna y temtir pob un, pan y tyner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun.

15 Yna [l]chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechod: pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth.

16 [m]Fy mrodyr anwyl, na chyfeiliornwch.

17 Pob [n]rhoddiad daionus, a ddyweyd nac i dybied fod y gogwyddiad neu y llithriad hwnw at ddrwg yn ei galon yn beth oddi wrth Dduw: 'Na ddyweded neb, Gan Dduw y'm temtir.' *Canys Duw nis gellir ei demtio à drygau.*—Nid yw Duw yn ddarostyngedig mewn un gradd i gael ei hudo gan yr hyn sydd ddrwg, ac amhyny nid yw efe yn temtio nac yn hudo neb arall. Dywed Alford, "Duw sydd yn ordeinio y demtasiwn, ac yn ei goruwchreoli; ond nid ydyw efe yn temtio. Nid oddi wrtho ef y mae yr hud-ddeniad i bechod."

[l] Gen. 3. 6; 4. 5—8; Mat 26. 48—50.

[m] Mat. 22. 29.

[n] Diar. 2. 6; Esa 28. 26; Ioan 3. 27.

14. *Canys yna y temtir pob un.*—Gellir darllen y rhan flaenaf o'r adnod fel hyn: 'Ond temtir pob un,' &c. Nid oddi wrth Dduw, ond oddi wrtho ei hun y mae y drwg yn deilliaw. *Pan y tyner ef.*—Pan y tyner ef o'r iawn ffordd; yn gyffelyb fel y mae hudoles yn tynu un â'i deniadau. *Ac y llithier gan ei chwant ei hun.*—Ac y dalier ef, megys â bach wedi ei orchuddio âg abwyd. Y mae dyn ar y cyntaf yn cael ei dynu allan o ffordd dyledswydd, ac yna ei ddal gan rywbeth sydd yn ymddangos iddo yn foddhaol a dymunol.

15. *Yna chwant, wedi ymddwyn.*—Nid ydyw y gair "chwant" yma i gael ei gyfyngu at flysiau anianol a thueddiadau nwyfus yn unig; ond y mae i'w gymmeryd mewn ystyr mwy eang, gan olygu gorawydd am unrhyw wrthddrych, megys cyfoeth, dylanwad, ac anrhydedd.—*Bloomfield.* Y mae chwant yn ymddwyn pan y bydd yn cael cydsyniad yr ewyllys; a'r canlyniad o hyn ydyw pechod gweithredol. *Pechod hefyd, pan orphener:*—neu, Pechod, pan fyddo wedi ei berffeithio. Y mae dynion yn cyrhaedd math o berffeithrwydd yn yr hyn sydd ddrwg. Y mae pechod wedi ei orphen neu ei berffeithio pan y mae dyn wedi myned yn hollol dan ei lywodraeth, a phob ymgais am ryddhâd oddi wrtho wedi llwyr ddarfod. Y mae y canlyniad ofnadwy y pryd hwn yn anocheladwy—*a esgor ar farwolaeth.*

16. *Na chyfeiliornwch.*—Gellir edrych ar hyn fel galwad pellach arnynt i gilio yn mhell oddi wrth y cyfeiliornad gwrthun y mae efe wedi ei nodi allan, yr hwn a osodir allan yn y geiriau, "gan Dduw y'm temtir." Y mae dull yr apostol yma yn dangos mawr bwysigrwydd y peth, ac hefyd y gofal oedd yn ei galon am ddiogelwch y Cristionogion.

DUW YN FFYNNONELL DAIONI.

17. *Pob rhoddiad daionus.*—Dangosir yma, nid yn unig nad oes dim drwg yn deilliaw oddi wrth Dduw, ond hefyd mai efe yw awdwr pob daioni. Dywed Calvin, wrth sylwi ar y fan hon, fod ambell un yn mysg dynion ar ol ymddwyn yn deilwng o hono ei hun ar hyd ei oes, yn methu tua'r diwedd. Ond nid oes anwadalwch o'r fath yn perthyn i Dduw, gan ei fod yn anghyfnewidiol. Gwneyd daioni gan hyny y mae efe yn barhaus. Gyda golwg ar y gwahaniaeth rhwng "rhoddiad daionus," a "rhodd berffaith," y mae Lange yn

18 O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd, fel y byddem [p]ryw flaenffrwyth o'i greaduriaid ef.

19 O achos hyn, fy mrodyr phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni, gyda'r hwn [o]nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth.

[o] Num. 23. 19; Esa. 46.10.

18 O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd, fel y byddem [p]ryw flaenffrwyth o'i greaduriaid ef.

19 O achos hyn, fy mrodyr

[p] Lef. 23.10; Heb.12 23; Dad. 14. 4.

ffafriol i'r golygiad fod "rhoddiad daionus" yn golygu y bendithion sydd o ddefnydd presennol, pa un bynag ai tymmhorol ai ysbrydol, tra y byddom ar ein taith tua'r orphwysfa nefol; a bod "rhodd berffaith" yn golygu y bendithion digymmysg sydd wedi eu trysori ar ein cyfer yn nhragwyddoldeb. Sylwa hefyd fod Crist mewn modd arbenig yn rhodd berffaith, a bod y gwahanol bethau oedd yn barotoadau ar gyfer ei ddyfodiad i'w hystyried yn rhoddion daionus. *Oddi wrth Dad y goleuni.*—Efe yw Crëwr y goleuadau yn yr wybren, ac efe yw awdwr goleuni rhesymol ac ysbrydol yn nghalonau dynion. Ond y mae rhagoroldeb yn perthyn i'w natur ef, nad ydyw yn perthyn i wrthddrychau naturiol. Tra y mae yr haul yn codi ac yn machludo, ac yn tafiu cysgod weithiau i un cyfeiriad ac weithiau i gyfeiriad arall, *gydag ef nid oes gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth.*

18. *O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni.*—Wele esampl nodedig o ddaioni Duw, yn ol tystiolaeth yr adnod flaenorol; sef, adgenedliad neu adnewyddiad ysbrydol. Gellir darllen y rhan flaenorol o'r adnod fel hyn: 'Wedi iddo ewyllysio, neu gan iddo ewyllysio, efe a'n hennillodd ni.' Yr amcan ydyw dangos fod y weithred rasol hon o eiddo Duw tuag at ddynion yn effaith ei ewyllys rydd a phenarglwyddiaethol ef. Dyma waith sydd yn rhoddiad daionus yn ei ddechreuad, ac yn rhodd berffaith yn ei orpheniad. *Trwy air y gwirionedd.*—Nid ydyw y cyfnewidiad yn cael ei ddwyn oddi amgylch mewn modd digyfrwng; ond trwy air y gwirionedd, yn enwedig yr efengyl, yr hon a elwir 'Gair y gwirionedd ac efengyl ein hiachawdwriaeth." *Fel y byddem ryw flaenffrwyth.*—Tybia rhai, mai wrth "blaenffrwyth" yr ydym i olygu nifer y dychweledigion yn oes gyntaf Cristionogaeth, gan fod y rhai hyny yn ernes o gynhauaf mawr yn yr oesau dilynol. Y mae Calvin yn golygu fod y gair i'w gymmeryd mewn ystyr mwy eang; sef, am Gristionogion yn gyffredinol, a'u bod hwy yn flaenffrwyth o herwydd y rhagoriaeth perthynol iddynt. Dywed Alford, fod y gair yn arwyddo cyssegriad i Dduw; yn gyffelyb fel y byddai, yn ol y gyfraith Iuddewig, y cyntafanedig o ddyn ac anifail, a blaenffrwyth y prenau, yn cael eu cyflwyno i'r Arglwydd. A dywed efe fod y gair *creaduriaid* yn y fan hon i'w gymmeryd mewn ystyr eangach na chreaduriaid newydd, neu Gristionogion; a'i fod yn cynnwys yr holl greadigaeth, yn gymmaint a bod y "creadur" i fod yn gyfrannog o "ryddid gogoniant plant Duw;" *Rhuf.* viii. 20, 21.

CYMMHWYSIAD YMARFEROL.

19. *O achos hyn, fy mrodyr anwyl.*—Gan fod y Cristionogion yn flaenffrwyth creaduriaid Duw, yr oedd yn angenrheidiol iddynt fod yn ofalus am ddangos yr urddas priodol i'w cymmeriad. Tuag at iddynt fod yn ddoeth fel y cawsent eu

anwyl, bydded pob dyn esgud i
[q] Diar. 14. 29; Mat. 5. 22.
wrandaw, diog i lefaru, [q] diog i
[r] 2 Tim. 2. 24, 25.
ddigofaint.
[s] Salm 25. 9; Nat. 5. 5; Act. 10. 33.
20 Canys [r] digofaint gŵr nid
yw yn cyflawni cyfiawnder Duw.
[t] Act. 13. 26; Rhuf. 1. 16; Eph. 1. 13; Heb. 2. 3.
21 O herwydd pa ham rhodd-
wch heibio bob budreddi, a hel-
aethrwydd malais; [s] a thrwy add-
fwynder derbyniwch yr impiedig
[u] Mat. 7. 21–25; Ioan 13. 17; 1 Ioan 2. 3.
air, [t] yr hwn a ddichon gadw
eich eneidiau.
[x] Esa. 44. 20; Gal. 6. 3, 7.
22 [u] A byddwch wneuthurwyr
y gair, ac nid grwandawyr yn unig, [x] gan eich twyllo eich hunain.

23 O blegid os yw neb [y] yn
[y] Ezec. 33. 31, 32; Luc 6. 49.
wrandäwr y gair, ac heb fod yn
wneuthurwr, y mae hwn yn debyg
i ŵr yn edrych ei wynebpryd
naturiol mewn drych:
24 Canys efe a'i hedrychodd ei
hun, ac a aeth ymaith, ac yn y man
efe a anghofiodd pa fath ydoedd.
25 Eithr yr hwn a edrych ar
[z] berffaith gyfraith rhyddid, ac a
[z] Salm 119. 96–105. [a] Adn. 23, 24. [b] Salm 19. 11; Ioan 13 17; 1 Cor. 15. 58.
barhao *ynddi*, hwn, heb fod yn
[a] wrandäwr anghofus, ond gwneu-
thurwr y weithred, [b] *efe* a fydd
dedwydd yn ei weithred.

---

cyfarwyddo, gweddus iddynt oedd bod yn esgud neu yn awyddus i wrandaw: a thuag at beidio cyfeiliorni, dylasent fod yn ddiog i lefaru, gan mai hawdd iawn i ddynion gamsynied pan fyddant yn llefaru mewn modd brysiog a byrbwyll: a thuag at i amynedd gael ei pherffaith waith, rhaid iddynt fod yn ddiog i ddigofaint. Sylwa Macknight y byddai Pythagoras yn dysgu i'w ddysgyblion fod yn ddistaw dros bum mlynedd cyn dechreu siarad ar un pwngc mewn gwyddoniaeth. Sylwa hefyd fod sêl benboeth yn achlysur o nwydau cynnhyrfus ac o ddigofaint at y rhai sydd yn gwahaniaethu yn eu golygiadau, a bod yr Iuddewon yn yr amser yr ysgrifenai yr apostol yn nodedig o feius yn y pethau hyn.

20. *Canys digofaint gŵr.*—Nid yw digofaint o fath hwn yn rhan o'r ymarweddiad Cristionogol sydd yn gymmeradwy yn ngolwg Duw. Nid yw y digofaint hwn chwaith yn hyrwyddo amcanion teyrnas Dduw ar y ddaear mewn sefydlu trefn, uniondeb, a chyflawnder yn mysg dynion. Llawer amcan a chynllun daionus a ddarfu erthylu o herwydd diffyg arafwch ac addfwynder yn y rhai a'u dygent yn mlaen.

21. *Rhoddwch heibio bob budreddi.*—Er mwyn i'r gwirioneddgael pob chwareu teg, bydded i'r pethau croes i'w natur gael eu symmud ymaith. "Budreddi:" sef, blysiau a chwantau cnawdol. Y mae y gair a gyfeithir budreddi yn un cryf iawn, ac yn cael ei ddefnyddio am yr arogl atgas sydd yn cyfodi oddi wrth hen chwys neu gornwyd braenllyd.—*Lee's Critica Sacra. Helaethrwydd malais.*—Y mae malais yn arwyddo drygnaws a dygasedd sydd yn effaith y digofaint yn yr adnod flaenorol. Ac y mae yn beth sydd yn hollol anghymmhwyso dynion i dderbyn budd neu leshâd oddi wrth y gwirionedd. Rhydd rhai yr ystyr canlynol i'r ymadrodd: 'Rhoddwch heibio falais, yr hwn y mae ei duedd i fyned dros ben bob terfynau. Os caiff malais ei goleddu bydd helaethrwydd o bethau niweidiol ynglŷn âg ef.' Sylwa ereill, fod y gair a gyfeithir "helaethrwydd" yn arwyddo yn fynych gweddill. Ac felly rhoir yr ystyr hwn: 'Rhoddwch heibio weddill malais. Y mae y drwg wedi ei ddarostwng yn eich calonau chwi, ond gofelwch am roddi heibio y gweddill o hono.' *Trwy addfwynder.*—Dyma ansawdd meddwl cyferbyniol i falais. *Derbyniwch yr impiedig air.*—Byddai y cyfeithiad yn fwy llythyrenol pe defnyddid y gair 'planedig' yn lle "impiedig." Rhydd Calvin yr ystyr ‌ynol: "Derbyniwch y gair fel y bydd iddo fod ‌ddol yn blanedig." Ond yn ol Bloom- ‌ystyr: Derbyniwch y gair, yr hwn ‌lanedig tuag at i ddynion fod yn gyfranog o'i egwyddorion, gan nad ydyw y rhai hyn yn naturiol yn eu calonau.

22. *A byddwch wneuthurwyr y gair.* — Y gwneuthurwr, yn y fan hon, yw yr hwn sydd o galon yn derbyn y gair, gan brofi yn ei fywyd ei fod yn ei gredu yn wirioneddol yn ol tystiolaeth Crist,—"Gwyn fyd y rhai sydd yn gwrandaw gair Duw, ac yn ei gadw;" *Luc.* xi. 28. Cyffelyb ydyw golygiad Lange; sef, bod gwneuthur y gair yn y fan hon yn arwyddo dadblygiad cyflawn o'u bywyd ysbrydol fel Cristionogion. *Gan eich twyllo eich hunain.*—Y mae y gair a gyfeithir "twyllo" yma yn arwyddo camgyfrif, neu dwyll-resymeg. Y mae rhai yn twyllo eu hunain trwy ymorphwys ar wrandaw yn unig fel peth sydd yn meddu rhinwedd achubol, tra y maent yn gwbl esgeulus o'u buchedd neu eu hymarweddiad.

23. *Mae hwn yn debyg.*—Wele gymmhariaeth darawiadol i osod allan y gwrandäwr anfuddiol. *Ei wynebpryd naturiol.*—'Wynebpryd ei enedigaeth, fyddai y cyfeithiad hollol lythyrenol, ac arwydda y gwynebpryd y mae yn ei feddu yn ol cwrs naturiaeth.

24. *Efe a'i hedrychodd ei hun.*—Sylwir gan amryw esbonwyr fod y geiriau "edrychodd" ac "anghofiodd" yn eu dull gwreiddiol yn arwyddo gweithrediadau ebrwydd-fynedol, neu rai sydd yn myned drosodd yn fuan, a bod dull y gair a gyfeithir "*ac a aeth ymaith*" yn arwyddo ymadawiad parhaus, ac felly yn dynodi dyeithrwch cysson a sefydlog i'r pethau a fu yn foddion i aflonyddu i ryw fesur y gydwybod yn flaenorol.

25. *Eithr yr hwn a edrych.*—Sylwir gan Lange fod y geiriau a ddefnyddir yma yn cynnwys cyferbyniad tarawiadol i'r geiriau a ddefnyddir am y gwrandäwr anfuddiol. Y mae yr edrych hwnw yn arwyddo cymmeryd cipolwg brysiog. Ond y mae yr edrych hwn yn arwyddo edrych gydag astudrwydd, fel ar y peth mwyaf teilwng o sylw. Darfu i'r edrychydd hwnw fyned ymaith, ond y mae hwn yn parhau. Darfu i hwnw anghofio, ond y mae hwn "heb fod yn wrandäwr anghofus." *Perffaith gyfraith rhyddid.*—Y mae sylwi ar y cyssylltiadau yn rhoddi mantais i weled beth oedd yr apostol yn ei olygu yn y fan hon wrth "gyfraith rhyddid." Geilw hi "y gair" yn *adn.* 22, a'r "impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau," yn *adn.* 21. Ac y mae yn amlwg mai yr efengyl a feddylir yn yr ymadroddion hyn; sef, yr efengyl mewn ystyr eang: nid yn unig fel dadguddiad o drefn Duw i achub dynion, ond hefyd fel amlygiad o ewyllys Duw mewn rheolau a gorchymynion er eu cyfarwyddo yn eu hymarweddiad. Priodol ei galw yn "gyfraith" am fod awdurdod ddwyfol y tu cefn iddi; a phriodol ei

26 Os yw neb yn eich mysg yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod, ond twyllo ei galon ei hun, ofer *yw* crefydd hwn.

27 Crefydd bur, a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad, yw hyn; Ymweled â'r amddifad a'r gwraggedd gweddwon yn eu hadfyd, *a*'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.

PENNOD II.

1 *Nad gweddol i Gristionogion ddiystyru*

galw yn "gyfraith rhyddid," am ei bod yn ddadguddiad o drefn i ryddhau dynion, ac am ei bod yn gyfrwng i ryddhau dynion oddi wrth euogrwydd pechod—"Chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi;" *Ioan* viii. 32—ac hefyd oddi wrth lywodraeth pechod ar y galon. "Deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu am rhyddhaodd i oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth;" *Rhuf.* viii. 2. *A fydd dedwydd yn ei weithred.*—Y mae yr ymarferiad o wir grefydd neu dduwioldeb ynddo ei hun yn cynnyrchu hapusrwydd. Trwy hyn y mae dyn yn dyfod i feddu cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion, yn cael graddau o drefn ar weithrediadau ei enaid, ac yn cyrhaedd mesur o sicrwydd am ei ddiogelwch tragwyddol.

26. *Os yw neb yn eich mysg.*—Dyma gymmeriad cyferbyniol i'r hwn sydd yn gwneuthur y gair, ac yn ddedwydd yn ei weithred. Y mae hwn yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, neu y mae yn dychymygu ac yn ymhôni mewn modd hunandybus ei fod felly. Y mae "crefyddol" yn y fan hon yn arwyddo bod yn ymroddgar i ranau allanol gwasanaeth neu addoliad Duw. *Heb attal ei dafod.*—Peth cyffredin yw fod rhai rhith-grefyddol yn nodedig am enllib ac athrod, gan ymddwyn at ereill fel pe baent hwy yn meddu hawl i'w barnu a'u condemnio. *Ond twyllo ei galon ei hun.*—Y mae yn debyg fod y gair a gyfieithir "twyllo" yn y fan hon yn llawer cryfach na'r gair ar ddiwedd *adn.* 22. Yn ol Lange, y mae y dyn hwn, dan ddylanwad cynnhyrfiadau gan ei galon, yn cael ei arwain at ganlyniadau tra niweidiol. *Ofer yw crefydd hwn.*—Nid yw ei ddefosiwn arwynebol a'i sêl ddallbleidiol yn sicrhau lleshâd iddo ei hun, nac i ereill.

27. *Crefydd bur, a dihalogedig.*—Yr oedd y gŵr yn yr adnod flaenorol yn gwneyd crefydd yn unig o'i ddefosiynau allanol, gan fod yn esgeulus o ansawdd ei ysbryd ac o'i ymddygiadau at ei gyd-ddynion. Ond mewn cyferbyniad i hyny, dywed yr apostol, 'Dyma y grefydd ddidwyll a dilwgr yn ngolwg Duw—ymweled â'r amddifad,' &c. Nid dangos pa beth yw crefydd o ran ei hegwyddorion, neu beth ydyw yn ystyr eang y gair, ydyw amcan yr apostol yn y fan hon; ond dangos beth raid i'r rhai hyny fod sydd yn meddu crefydd, neu sydd yn wir grefyddol. *Ger bron Duw, a'r Tad.*—Ger bron Duw, yr hwn yw y Tad. Y mae y grefydd Gristionogol yn rhoddi i ddynion ysbryd i ymwneyd â Duw fel eu Tad. Nid ydym i edrych gymmaint ar yr hyn sydd mewn bri yn ngolwg dynion, ond ar yr hyn sydd yn gymmeradwy yn ngolwg Duw. *Ymweled â'r amddifad,* —Trugaredd a thosturi sydd yma yn cael eu hargymmhell, ac fe nodir y gweddwon a'r amddifad

eu brodyr tlodion: 13 *ond bod yn gariadus, ac yn drugarogion.* 14 *Na dd'wlid ymffrostio o ffydd île ni bydde gweithredoedd da:* 17 *nad yw y ffydd hono ond ffydd farw,* 19 *a ffydd y cythreuliaid;* 21 *ac nid ffydd Abraham,* 25 *a Rahab.*

B. A. 62.

FY mrodyr, na ffydded genych [a] ffydd ein Harglwydd ni Iesu Grist, [b] *sef Arglwydd* y gogoniant, gyda derbyn wyneb.

[a] Act. 20.21; Col. 1. 4.
[b] Salm 24. 7—10; 1 Cor. 2. 8.

2 O blegid os daw i mewn i'ch cynnulleidfa chwi ŵr â modrwy aur, mewn dillad gwychion, a dyfod hefyd *un* tlawd mewn dillad gwael;

fel gwrthddrychau sydd mewn modd arbenig yn deilwng. *A'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.*—Tebygol fod "byd," yn y fan hon, yn arwyddo pob peth croes i deyrnas Crist. Y mae yn cynnwys dynion annuwiol a'u harferion, gyda'r pethau da sydd trwy gamddefnydd yn achosion llygredigaeth. Dywed Alford fod "byd" yn arwyddo yr holl greadigaeth ddaearol fel y mae ar wahân oddi wrth Dduw, ac yn gorwedd mewn drygioni.

Pennod II.

Camymddygiadau trwy ysbryd partiol, ynghyd a rhesymau yn eu herbyn.

1—13. Darfu i'r apostol yn y bennod o'r blaen roddi cynghor mewn modd cyffredinol:—"Byddwch wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawyr yn unig." Ac y mae yn y bennod hon yn nodi allan rai pethau oedd yn feius yn eu hymddygiad. Y mae yn cyfeirio yn arbenig at eu diystyrwch o'r tlawd, yr hyn yr oeddynt yn ei ddangos ddwy ffordd; sef, mewn dibrisdod o hono yn eu cynnulliadau, ac mewn esgeulusdod o'i angenrheidiau cyffredin. Ac y mae efe yn dangos yn eglur eu bod, trwy yr ymddygiadau hyn, yn lle bod yn wneuthurwyr y gair, yn droseddwyr yn wyneb cyfraith Duw.

1. *Ein Harglwydd ni Iesu Grist.*—Sylwa rhai, nad yw Iago ddim yn son am Iesu Grist wrth ei enw ond yn y fan hon, ac wrth ddechreu ei epistol. Awgrymir fel rheswm dros hyn, ei fod yn fwriadol yn peidio ei grybwyll ond anaml, am ei fod yn naturiol yn perthyn mor agos iddo; rhag iddo ymddangos yn uchelfrydig ac ymhongar, o herwydd y rhagorfraint oedd yn perthyn iddo. *Sef Arglwydd y gogoniant.*—Awgryma yr apostol yma mai peth annheilwng mewn rhai sydd yn proffesu ffydd yn "Arglwydd y gogoniant" yw bod dan lywodraeth teimladau isel a gwael, gan barchu rhai o herwydd eu cyfoeth, a diystyru ereill o herwydd eu tlodi. *Gyda derbyn wyneb.* —Y mae y gair a gyfieithir "derbyn wyneb" yn arwyddo parch i ddynion, o herwydd eu cyfoeth, neu ryw amgylchiadau allanol.—*Macknight.*

2. *Os daw i mewn i'ch cynnulleidfa.*—Cynnulleidfa wedi ymgynnull i addoli, ydyw yr ystyr cyffredin yn mha un y cymmerir y gair yn y fan hon. Ond y mae rhai yn tybied mai cynnulliad mewn synagog a feddylir, i drin achosion cyfreithiol. Byddai yr luddewon yn arfer trin achosion felly yn eu synagogau; ac fe dybir ddarfod i'r Cristionogion cyntefig ddilyn eu hesampl yn hyn yma, trwy ddefnyddio weithiau eu lle o addoliad fel llys barn, ac mai cyfeiriad at hwnw sydd gan Iago yn y fan hon yn y gair "synagog," neu "gynnulleidfa." Ond y mae ereill yn rhoddi

3 Ac edrych o honoch ar yr hwn sydd yn gwisgo y dillad gwychion, a dywedyd wrtho, Eistedd di yma mewn lle da; a dywedyd wrth y tlawd, Saf di yna, neu eistedd yma ìs law fy ystôl-droed i:

4 Onid ydych chwi dueddol ynoch eich hunain? ac *onid* aethoch yn farnwyr meddyliau drwg?

5 Gwrandewch, fy mrodyr anwyl; [c] Oni ddewisodd Duw dlodion y byd hwn [d] yn gyfoethogion mewn ffydd, ac [e] yn etifeddion y deyrnas yr hon a addawodd efe i'r rhai sydd yn ei garu ef?

6 Eithr chwithau a ammharchasoch y tlawd. [f] Onid yw y cyfoethogion yn eich gorthrymu chwi, [g] ac yn eich tynu ger bron brawdleoedd?

7 Onid ydynt hwy [h] yn cablu yr enw rhagorol, yr hwn a elwir arnoch chwi?

8 Os cyflawni yr ydych y gyfraith frenhinol yn ol yr ysgrythyr, [i] Câr dy gymmydog fel ti dy hun; da yr ydych yn gwneuthur:

9 Eithr [k] os derbyn wyneb yr ydych, yr ydych yn gwneuthur pechod, ac [l] yn cael eich argyhoeddi gan y gyfraith megys troseddwyr.

10 Canys [m] pwy bynag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un *pwngc*, y mae efe yn euog o'r cwbl.

[a] Esa. 14. 32; Mat. 11. 5; Ioan 7. 48.
[b] Diar. 8. 17 21; Luc 12. 21.
[c] Mat. 25. 34; Rhuf. 8. 17.
[d] Iac 2. 5.
[e] Iob 20. 19; Salm 10. 2; 8. 10, 14.
[f] 1 Bren. 21. 11—13; Act. 4. 1—3, 26—28.
[g] Salm 73. 7—9; Dad. 13. 5, 6.
[h] Lef. 19. 18, 34; Luc 10. 27—37.
[i] Lef. 19. 15.
[k] Ioan 16. 8; Iudas 15.
[l] Deut. 27. 26; Mat. 5. 18, 19.

ar ddeall nad oes digon o sail i'r golygiad hwn, ac mai y tebycaf o fod yn gywir yw y golygiad cyffredin. *Modrwy aur.*—Tybia Lange mai proffeswr o'r grefydd Iuddewig oedd yr un a wisgai y fodrwy aur, a'i fod yn |gwneyd hyn oddi ar ysbryd uchelfrydig, fel arwydd o'i ragorfreintiau cyfammodol.

3. *Ac edrych o honoch.*—Edrych gyda ffafr a pharchedigaeth, fel y mae y gair yn arwyddo.

4. *Onid ydych chwi dueddol ynoch eich hunain?*—Y mae llawer o esboniadau yn cael eu rhoddi o'r ymadrodd hwn; ond y mae yn ymddangos mai yr ystyr mwyaf naturiol ydyw hwn: 'Onid ydych yn gwneyd gwahaniaeth pleidiol ynoch eich hunain?' Y mae hyn yn golygu eu bod yn dueddol i wneyd gwahaniaeth mewn peth ac mewn modd na ddylasent. Ac y mae yr hyn a ddywedir yn nesaf yn gydweddol â hyn. *Onid aethoch yn farnwyr meddyliau drwg?*—Tebygol mai yr ystyr yw, 'Onid aethoch yn gyfryw farnwyr ag y mae eu meddyliau yn ddrwg.' Y mae hyn yn golygu fod y meddyliau drwg ynddynt eu hunain; sef, meddyliau pleidiol a rhagfarnllyd: a chan eu bod yn barnu dan ddylanwad y fath feddyliau, fod eu barn yn ŵyrog a chamsyniol.

5. *Oni ddewisodd Duw dlodion y byd hwn?*—Yma y mae yr apostol yn dechreu dwyn yn mlaen ei resymau yn erbyn eu camfarn a'u cam ymddygiadau. Y rheswm cyntaf yw hwn: sef, bod y tlodion wedi cael sylw neilduol gan Dduw yn y dewisiad grasol a wnaeth o honynt. *Yn gyfoethogion mewn ffydd.*—Nid cyfoethogion trwy feddu llawer o ffydd a feddylir; ond yn hytrach eu bod, trwy gael eu gwneyd yn gyfranog o ffydd, yn cael eu gwneyd yn gyfoethog. Y mae ffydd ei hunan yn "werthfawrusach na'r aur colladwy." *Etifeddion y deyrnas.*—Y deyrnas nefol; sef, y nefoedd, a'i hapusrwydd, a feddylir. *Yr hon a addawodd efe.*—Nid ydyw yr addewid yn ymddibynu ar gariad dynion at Dduw; ond y mae yr apostol yn ein dysgu mai cariad at Dduw yw y dyben neu yr amcan mewn golwg ganddo ef wrth alw dynion i obaith hywyd tragwyddol.—*Calvin.*

6. *Onid yw y cyfoethogion yn eich gorthrymu chwi?*—Dyma reswm arall yn dangos ammhriodoldeb eu hymddygiad wrth dalu cymmaint o sylw pleidgar i'r rhai cyfoethog. Y mae dull Iago yn y fan hon yn ymddangos yn llym a gerwin yn erbyn y dosbarth hwn. Priodol y sylwa Macknight fod y rhai cyfoethog yn mhlith yr Iuddewon yn fwy gwrthwynebol i'r efengyl nag oedd y dosbarth hwnw yn mhlith y Cenhedloedd; ac am hyny, fod mwy o esamplau o rai wedi eu dychwelyd, mewn sefyllfaoedd uchel, yn mhlith y Cenhedloedd nag yn mhlith yr Iuddewon.

7. *Onid ydynt hwy yn cablu yr enw rhagorol.*—Yr oeddynt yn eiddo Crist (1 *Cor.* iii. 23); wed eu beddyddio i Grist (*Gal.* iii. 27); ac yr oedd enw Crist yn cael ei alw arnynt: *Act.* xi. 26. Ond yr oedd y bobl hyn yn eu cablu trwy arfer geiriau oedd yn arwyddo dirmyg o honynt hwy a'r enw oedd yn cael ei alw arnynt.

8. *Os cyflawni yr ydych y gyfraith frenhinol.*—Gelwir cyfraith Duw felly mewn ffordd o ragoriaeth, am ei bod o flaen pob cyfraith, ac yn meddu awdurdod tu hwnt i bob cyfraith arall. A dyma un o'r gorchymynion mawrion, "Câr dy gymmydog," &c.

9. *Eithr os derbyn wyneb yr ydych.*—Y mae gwahanol esboniadau yn cael eu rhoddi o ymadroddion yr apostol yn yr adnod hon, a'r un flaenorol. Ond heb fanylu arnynt, gellir meddwl fod y syniadau canlynol yn cael eu cynnwys gan yr apostol yn y fan hon:—'Tueddir chwi, fe allai, i ymhòni eich bod yn yr ymddygiad hwn yn amcanu at gyflawni y gorchymyn mawr, 'Câr dy gymmydog fel ti dy hun.' Os felly, da yr ydych yn gwneuthur. Ond os ydych dan ddylanwad ysbryd pleidgar, yn derbyn wyneb—ac yr ydwyf fi eisoes wedi profi eich bod felly—yr ydych, yn lle cyflawni y gyfraith, yn ei throseddu.'

10. *Ac a ballo mewn un pwngc.*—Y mae yr apostol yn flaenorol wedi profi eu bod yn droseddwyr; ac yma y mae yn myned rhagddo i brofi eu bod yn droseddwyr o'r holl gyfraith. Y mae yr hyn y mae efe yn ei ddyweyd yn y fan hon yn gwbl groes i'r hyn a fyddai yn cael ei ddysgu gan yr Iuddewon. Dywed Macknight y byddai eu doctoriaid yn dysgu, os byddai i ddyn gadw yn fanwl unrhyw un o'r gorchymynion, y byddai iddo trwy hyny sicrhau ffafr Duw, er iddo fod yn esgeulus o'r gorchymynion ereill. Ond, meddai Iago, "Pwy bynag a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl." Y mae trosedd gwirfoddol o un gorchymyn yn ddiystyrwch o'r awdurdod ddwyfol sydd tu cefn i'r holl orchymynion. Ac y mae sail i dybied hefyd am y dyn sydd wedi syrthio i'r arferiad o droseddu un gorchymyn, na byddai y rhwystrau yn fawr ar ei ffordd i dori pob gorchymyn, pe byddai mewn cyfleusdra, a phe cyfarfyddai â themtasiynau. *Y mae efe yn*

[n] Exod 20. 13, 14; Deut. 5.17, 18; Mat. 5. 21—28.
[o] Lef. 4. 2; 13. 22; Salm130.3.
[p] Iago 1. 25.
[q] Barn. 1. 7; Diar. 21. 13; Esa. 27. 11.
[r] Ezec. 33. 11; Micah 7. 18.
[s] 1Cor.15.2; Eph. 2. 8, 10.

11 Canys y neb a ddywedodd, [n] Na odineba; a ddywedodd hefyd, Na ladd. [o] Ac os ti ni odinebi, etto a leddi, yr wyt ti yn troseddu y gyfraith.

12 Felly dywedwch, ac felly gwnewch, megys rhai a fernir wrth [p] gyfraith rhyddid.

13 Canys [q] barn ddidrugaredd fydd i'r hwn ni wnaeth drugaredd; [r] ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn.

14 Pa fudd *yw*, fy mrodyr, o dywed neb fod ganddo ffydd, ac heb fod ganddo weithredoedd? [s] a ddichon ffydd ei gadw ef?

15 Eithr os bydd brawd neu chwaer yn noeth, ac mewn eisieu beunyddiol ymborth;

16 A dywedyd o un o honoch wrthynt, Ewch mewn heddwch, ymdwymnwch, ac ymddigonwch; etto heb roddi iddynt angenrheidiau y corph; pa les *fydd?*

17 Felly ffydd hefyd, oni bydd ganddi weithredoedd, marw ydyw, *a hi* yn unig.

18 Eithr rhyw un a ddywed, Tydi ffydd sydd genyt, minnau gweithredoedd sydd genyf: dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd, [t] a minnau wrth fy ngweithredoedd i a ddangosaf i ti fy ffydd innau.

19 [u] Credu yr wyt ti mai un Duw sydd; [x] da yr wyt ti yn gwneuthur. [y] Y mae y cythreuliaid hefyd yn credu, ac yn crynu.

[t] Rhuf. 8. 1; 1 Tim. 1.5.
[u] Deut. 6. 4; Esa. 43. 10; Ioan 17.31; Rhuf.3.30; Eph. 4.5,6; Iudas 4.
[x] Ionah 4. 4, 9; Marc 7. 9.
[y] Luc 4. 34.

euog o'r cwbl.—Y mae y gair a gyfeithir "euog" yn arwyddo un mewn gafael, neu un yn cael ei ddal megys â rhwymau.

11. *Canys y neb a ddywedodd.*—Y mae yr hyn a ddywedir yma yn cael ei ddwyn i mewn fel eglurhâd o'r ymadroddion blaenorol. Dengys yma fod yr un awdurdod yn perthyn i'r gwahanol orchymynion. Ac y mae yn ymddangos ei fod, o blegid hyn, yn golygu fod diystyrwch o'r awdurdod hono yn drosedd o honynt oll. Sylwa Wardlaw fod mân gyfreithiau yn cael eu gwneyd weithiau gan fwrdd neu gynghor perthynol i dref, neu ddinas; ond na byddai tori un o'r rhai hyn ddim yn gymmaint peth a throseddu cyfraith sydd wedi derbyn y sêl frenhinol; ond y mae pob un o orchymynion Duw yn ogyfuwch a'r lleill mewn awdurdod.

12. *Megys rhai a fernir wrth gyfraith rhyddid.*—Yr un peth a feddylir yn y fan hon wrth "gyfraith rhyddid" ag a feddylir wrth yr ymadrodd yn *pen.* i. 25; sef, yr efengyl, nid yn unig fel dadguddiad o ras Duw i ddynion, ond hefyd fel crynodeb o reolau cyfaddas i'w hymarweddiad. Rhydd Bloomfield yr ystyr canlynol i'r ymadroddion yn y fan hon: "Na fyddwch y fath siaradwyr am eich cyfraith rhyddid, fel pe byddai genych hawl i ymddwyn fel y mynoch; ond yn hytrach cofiwch y cewch eich barnu wrth gyfraith rhyddid."

13. *Barn ddidrugaredd fydd.*—Dyma reol y farn ddiweddaf. Y rhai nad ydynt yn cario allan egwyddorion mawrion yr efengyl trwy fod yn drugarog wrth ereill, nid oes sail ganddynt i ddisgwyl trugaredd iddynt eu hunain. Y mae hyn yn cael ei ddysgu yn rhai o ddammegion ein Harglwydd Iesu Grist. *Ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn.*—Yr ystyr ydyw hyn:—Gyda golwg ar y trugarog, bydd i drugaredd Duw attal neu wrthweithio y farn, neu y ddedfryd, yr hon a fyddai yn ddigon i lethu pob un o honom, ac felly bydd trugaredd o ran ei heffeithiau yn cael yr oruchafiaeth.

14—26. Y MAE FFYDD WIRIONEDDOL YN EI DANGOS EI HUN MEWN GWEITHREDOEDD DA.

Y mae yn amlwg oddi wrth ymdriniaeth yr apostol yn y fan hon, ei fod yn golygu fod gweithredoedd rhinweddol yn nodwedd arbenig o ffydd gadwedigol. Ac y mae hefyd yn profi fod gwir ffydd, heb y cyfryw weithredoedd, yn beth nas gall fod, pa mor uchel bynag y dichon i ambell un fod yn ei honiadau.

14. *O dywed neb fod ganddo ffydd.*—Gall un ddyweyd neu ymhôni fod ganddo ffydd, er na byddo ganddo weithredoedd: etto, y mae yn amlwg nad oes y fath beth yn bod mewn gwirionedd; a'r hwn sydd yn galw peth o'r fath yma yn ffydd, y mae yn eglur mai mewn enw y mae yn ymgysuro, heb fod ganddo y sylwedd. *A ddichon ffydd ei gadw ef?*—Yr ystyr y mae y rhan fwyaf o esbonwyr yn ei roddi i'r ymadrodd yw byn, 'A ddichon y ffydd hon, neu y fath ffydd a hon, ei gadw ef?' Os yw yr ymhonwr dan sylw yn dewis galw peth o'r fath hyn wrth yr enw ffydd, etto, ni bydd yn ddim gwell o honi: nid ydyw ar un cyfrif yn sicrhau ei gadwedigaeth.

15—17. *Eithr os bydd brawd neu chwaer yn noeth.*—Y mae yr adnodau hyn yn cynnwys cymmhariaeth er egluro y mater dan sylw. Megys nad ydyw dymuniadau da yn unig o ddim llesâd i'r dyn sydd mewn dwfn dlodi, felly peth cwbl anfuddiol i'r dyn ei hun ydyw y ffydd y mae yn ymhôni ynddi, os ydyw yn amddifad o weithredoedd. *Marw ydyw.*—Y mae yn beth hollol ofer a dilês. Y mae mor bell o amlygu nodweddiadau gwir ffydd ag ydyw corph marw i gyflawni gwahanol ddyledswyddau bywyd.

18. *Eithr rhyw un a ddywed.*—Yma dangosir yn mhellach, ond mewn dull gwahanol, anghysondeb y dyn sydd yn hôni fod ganddo ffydd heb weithredoedd. Tybir yma fod yr ymhonydd yn cyfarfod â gwrthwynebydd sydd yn meddu syniadau mwy cywir am natur gwir ffydd. Nid yw y gwrthwynebydd hwn yn foddlawn i dderbyn tybiau neu haeriadau. *Dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd.*—Nis gellir: nid oes y fath beth yn bod; am hyny, y mae ei dangos yn beth ammhossibl. Ond y mae yn debyg mai 'wrth' yw yr arddodiad mewn llawer o'r copïau gwreiddiol: etto nid yw hyn yn newid fawr ar y synwyr. 'Dangos i mi dy ffydd di wrth dy weithredoedd. Nid ydym yn foddlawn i dderbyn ymhoniadau: disgwylir i ti brofi mewn ymddygiadau dy fod yn meddu ffydd wirioneddol.' Y mae y cyferbyniad yn fwy tarawiadol yn ol y darlleniad cyffredin:—'Dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd, a minnau wrth fy ngweithredoedd i a ddangosaf i ti fy ffydd innau.'

19. *Credu yr wyt ti mai un Duw sydd.*—Yn ol

20 Eithr a fyni di wybod, O ddyn ofer! am ffydd heb weithredoedd, mai marw yw?

21 Abraham ein tad ni, onid o weithredoedd y cyfiawnhawyd ef, pan offrymodd efe Isaac ei fab ar yr allor?

22 Ti a weli fod ffydd yn cydweithio â'i weithredoedd ef, a thrwy weithredoedd fod ffydd wedi ei pherffeithio.

23 A chyflawnwyd yr ysgrythyr yr hon sydd yn dywedyd, [z] Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder: [a] a Chyfaill Duw y galwyd ef. [z] Gen. 15. 6. [a] Exod. 33. 11.

24 Chwi a welwch gan hyny mai o weithredoedd y cyfiawnheir dyn, ac nid o ffydd yn unig.

25 Yr un ffunyd hefyd, Rahab y butain, onid o weithredoedd y cyfiawnhawyd hi, pan dderbyn-

---

rhediad naturiol yr ymadrodd, y mae y siaradwr tybiedig yn *adn.* 18, yn parhau yma yn ei ymresymiad. Y mae yn nodi allan un o erthyglau credo yr ymhonwr y mae yn ymddadleu âg ef; sef, ei fod yn credu mai un Duw sydd. Ond er cystal ydyw y pwngc y mae yr ymhonwr yn ei ddyweyd ei fod yn ei gredu, os nad yw yn dylanwadu arno er ei wneyd yn ddyn rhinweddol, y mae yr ymresymydd yn myned yn mlaen i ddangos nad ydyw ffydd o'r fath yma yn ddim gwell na'r hon y mae y cythreuliaid yn feddu. Y mae yn ymddangos mai yr amcan yn y fan hon yw dangos, er i ddyn mewn rhyw ystyr gredu a chrynu, etto, os nad ydyw yn ufuddhau i Dduw, ac yn cyflawni gweithredoedd da, nid oes ganddo brawf ei fod yn meddu gwir ffydd. Y ffydd sydd yn dwyn dyn i ufuddhau, sydd yn achub; ac nid yr hon sydd yn unig yn peri iddo grynu.

20. *Eithr a fyni di wybod.*—Y mae y gair a gyfieithir "myni," meddai Alford, yn arwyddo fod y peth sydd i'w wybod am y pwngc dan sylw yn eglur a hawdd, a bod gwrthwynebrwydd iddo yn codi yn unig oddi ar wrthnysigrwydd. *Mai marw yw.*—Megys mewn pethau cyffredin y mae y tybiau, y rhai na ddygir byth i ymarferiad, yn bethau hollol ddiîes, felly y mae yr hyn sydd yn cael ei alw yn ffydd gan rai, os bydd heb weithredoedd, yn beth mor anfuddiol a gwrthun ag ydyw celain farw.

21. *Abraham ein tad ni.*—Yma y mae ffydd Abraham yn cael ei dwyn yn mlaen fel esampl i brofi y mater dan sylw. Yr oedd ei ffydd ef yn gyfryw ag oedd yn ei dueddu i roddi ufudd-dod i Dduw, hyd yn oed pan dderbyniodd orchymyn oedd yn gwbl groes i'w deimladau naturiol; ac yr oedd yr ufudd-dod hwn yn brawf fod ei ffydd ef yn ffydd fywiol ac achubol, mewn cyferbyniad i'r ffydd farw ac ofer y sonid am dani yn flaenorol. *Onid o weithredoedd y cyfiawnhawyd ef?*—Yr oedd efe wedi cael ei gyfiawnhau lawer o amser cyn cyflawni y weithred hon; sef, offrymu ei fab. Yr oedd wedi ei gyfiawnhau trwy gredu tystiolaeth Duw iddo. Ond yr oedd ufudd-dod yn natur y ffydd hono trwy yr hon y credodd; a phan ddaeth ei ffydd i'r golwg mewn modd neilldiol yn y weithred ryfedd hon, sef offrymu ei fab, dyma y peth oedd wedi cymmeryd lle yn flaenorol yn cael ei egluro neu ei gyhoeddi; sef, fod Abraham wedi ei gyfiawnhau. Felly, er mai y weithred hon fu yn achlysur i ddangos ei gyfiawnhâd, etto ei ffydd neu ei grediniaeth o dystiolaeth Duw oedd y cyfrwng, a gras Duw trwy y Cyfryngwr oedd y gwir achos.

22. *Ti a weli fod ffydd yn cydweithio.*—Rhydd Beza y darlleniad canlynol:—"Ti a weli mai ffydd oedd y cynnorthwyydd yn ei weithredoedd." A'r hyn a ganlyn yw aralleiriad Schleusner:—"Ti a weli fod Abraham yn cael ei gynnorthwyo gan ei ffydd i gyflawni ei weithredoedd rhyfeddol." Ac y mae yn amlwg mai yr hyn a'i galluogodd i roddi ufudd-dod i'r fath orchymyn ydoedd ei grediniaeth yn ngallu a ffyddlondeb Duw. "Trwy ffydd yr offrymodd Abraham Isaac pan ei profwyd.....gan gyfrif bod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw;" *Heb.* xi. 17, 19. *A thrwy weithredoedd fod ffydd wedi ei pherffeithio.*—Trwy weithredoedd yr oedd ei ffydd yn cael ei dadblygu; yr oedd yn cael ei hegluro fel crediniaeth calon o dystiolaeth Duw, ac yr oedd yn dyfod i'r golwg fel egwyddor fywiol, nerthol, yn cynnyrchu ufudd-dod iddo.

23. *A chyflawnwyd yr Ysgrythyr.*—Fel yr awgrymwyd o'r blaen, yr oedd y dystiolaeth hon am Abraham wedi ei chyhoeddi lawer o flynyddoedd cyn y weithred hon o'i eiddo yn offrymu ei fab; ond ar yr achlysur hwn, fe gafwyd y peth oedd wedi cymmeryd lle yn flaenorol i eglurhâd adnewyddol. Nid cyflawni, gan hyny, yn yr ystyr o gael ei ddwyn i ben am y tro cyntaf, a feddylir; ond cyflawni, yn yr ystyr o fod y peth yn cael eglurhâd a chadarnhâd chwanegol. Cafwyd prawf pellach fod Abraham wedi credu tystiolaeth Duw o galon—ei fod yn meddu ffydd wirioneddol, ac am hyny ei fod mewn sefyllfa o gymmeradwyaeth ger bron Duw.

24. *Chwi a welwch gan hyny mai o weithredoedd y cyfiawnheir dyn, ac nid o ffydd yn unig:*—nid o ffydd, yr hon sydd yn unig neu ar wahân oddi wrth weithredoedd. Gofynwyd gan yr apostol, yn *adn.* 14, "Pa fudd yw, fy mrodyr, o dywed neb fod ganddo ffydd, ac heb fod ganddo weithredoedd?" Ac y mae efe yn yr adnodau dilynol yn profi na ddichon y fath ffydd a hon gadw neb. Ac y mae efe yn dangos yn mhellach mai y peth neilldiol sydd yn gwahaniaethu ffydd wirioneddol oddi wrth y ffydd dybiol hon ydyw, fod yn perthyn iddi weithredoedd. Ac y mae efe yn egluro hyn trwy esampl nodedig yn hanes Abraham. Ac fel casgliad, neu benderfyniad oddi wrth y cwbl, y mae yn dwyn i mewn y dystiolaeth a gawn yn yr adnod hon. Dywed Alford: "Nid yw Iago un amser yn dyweyd nad yw dyn yn cael ei gyfiawnhau trwy ffydd, os bydd y ffydd hono yn cynnwys ynddi weithredoedd; ond trwy ffydd yn unig, yr hon sydd heb weithredoedd, nid oes neb yn cael ei gyfiawnhau." Y mae yn amlwg, gan hyny, fod perffaith gyssoniedd rhwng tystiolaethau Iago a Phaul. "Trwy ffydd y cyflawnheir dyn," meddai Paul, "heb weithredoedd y ddeddf;" sef, heb y gweithredoedd nad ydynt yn deilliaw o ffydd. "O weithredoedd y cyflawnheir dyn," meddai Iago, "ac nid o ffydd yn unig;" sef, nid o'r fath ffydd ag y mae rhai yn ymffrostio ynddi, sef yr hon sydd heb weithredoedd.

25. *Yr un ffunyd hefyd, Rahab, y butain.*—Yr un o ran ei natur ydoedd ffydd Rahab ag oedd ffydd Abraham, ac yr oedd gweithredoedd y naill

iodd hi y cenhadau, a'u danfon
ymaith ffordd arall?
[b] Esa. 2. 22; 26 Canys [b] megys y mae y corph
Luc 23. 46. heb yr ysbryd yn farw, [c] felly
[c] Adn. 14, 17, hefyd ffydd heb weithredoedd,
20. marw yw.

PENNOD III.

1 *Na ddylem ni fod yn brysur i feio ar ereill; 5 ond yn hytrach ffrwyno y tafod; yr hwn, er nad ydyw ond aelod bychan, etto y mae efe yn achos llawer o ddaioni, ac o ddrygioni. 13 Y rhai sydd wir synwyrol, y maent yn fwynion, yn heddychlawn, heb genfigenu, ac heb ymryson.*

B. A. 62.
[a] Lef. 10. 3; NA fyddwch feistriaid lawer,
Luc 12, 47, fy mrodyr; [a] gan wybod y
48; derbyniwn ni farnedigaeth fwy.
Act. 20. 26, 2 Canys mewn llawer o bethau
27. yr ydym ni bawb yn llithro. Od
oes neb heb lithro ar air, gŵr
perffaith *yw* hwnw, yn gallu
ffrwyno yr holl gorph hefyd.
3 Wele, yr ydym ni yn rhoddi
ffrwynau yn mhenau y meirch,
i'w gwneuthur yn ufudd i ni: ac
yr ydym yn troi eu holl gorph
hwy oddi amgylch.
4 Wele, y llongau hefyd, er eu
maint, ac er eu gyru gan wyntoedd
creulawn, a dröir oddi amgylch
â llyw bychan, lle y myno
y llywydd. [b] Barn. 12.
5 Felly hefyd y tafod, aelod 4—6;
bychan yw, ac yn ffrostio pethau Diar. 15. 1; Esa. 30 27.
mawrion. Wele, faint o ddefnydd [c] Gen. 3. 4–6;
y mae ychydig dân yn ei ennyn! 1 Sam. 22. 9—17;
6 [b] A'r tafod tân *ydyw*, [c] byd o Diar. 1. 10
anghyfiawnder. Felly y mae y —14;
tafod wedi ei osod yn mhlith ein Mat. 12. 24, 32—36.

a'r llall yn deilliaw o'r un egwyddor, er eu bod yn gwahaniaethu o ran sylwedd ac amgylchiadau. Tybir fod gan yr apostol amcan mewn golwg wrth ddwyn i mewn esampl o'r rhyw fenywaidd yn gystal a'r rhyw wrywaidd. Heb law hyn, gallasai esampl mor odidog o ffydd ac ufudd-dod ag a geir yn hanes Abraham, dueddu i ddigaloni credinwyr cyffredin; ac am hyny dygir i mewn esampl arall o ffydd yn gweithredu mewn pethau mwy cynnefin ac agos atom; sef, mewn caredigrwydd a lletygarwch.

26. *Canys megys y mae corph heb yr ysbryd yn farw.*—Yn ol esboniad Alford, y mae yn ymddangos mai syniad yr apostol yw hwn:—Ffydd yw y corph, swm a sylwedd y bywyd Cristionogol; gweithredoedd, neu ufudd-dod, sydd yn rhoddi bywyd ac ysgogiad i'r corph hwnw, yn debyg fel y mae yr ysbryd yn egwyddor fywydol a symmudol i'r corph naturiol. Gan hyny, megys y mae y corph heb yr ysbryd yn farw, felly y mae ffydd heb weithredoedd yn farw hefyd.

PENNOD III.

1—12. RHYBUDDION A CHYNGHORION GYDA GOLWG AR DDEFNYDDIO Y TAFOD.

1. *Na fyddwch feistriaid lawer, fy mrodyr.*—Eithaf priodol a fyddai defnyddio y gair 'athrawon' yn y fan hon, yn lle "meistriaid." Ac y mae y cynghor, gan hyny, yn gyfystyr â hyn yma:—'Na fydded yn eich plith lawer o athrawon neu ddysgawdwyr.' Gallasai rhai gael eu tueddu i ymgymmeryd â'r swydd o ddysgu oddi ar ysbryd uchelfrydig, neu sêl ddallbleidiol, neu er mwyn rhyw fanteision allanol. *Gan wybod y derbyniwn ni farnedigaeth fwy.*—Y mae y rhai a ymgymmerant â'r swydd o ddysgu yn gosod eu hunain yn nôd i sylwadau beirniadol a rhagfarnllyd eu cyd-ddynion. Y mae eu troseddau hwy yn tynu mwy o euogrwydd ar eu cydwybodau eu hunain na phe y byddent mewn sefyllfa gyffredin; ac nid anfynych y mae goruchwyliaethau Rhagluniaeth yn llymach atynt hwy nag at bobl ereill, yn wyneb eu bod yn gŵyro mewn barn neu ymarweddiad oddi wrth y gwirionedd.

2. *Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro.*—Y mae pawb yn ddarostyngedig i lithro mewn llawer o bethau, neu mewn llawer o ffyrdd; a chan fod yr athraw i wneyd cymmaint o ddefnydd o'r tafod, y mae efe mewn perygl neillduol i lithro mewn gair neu ymadrodd. *Gŵr perffaith yw hwnw.*—Y mae yn amlwg mai nid "perffaith" yn ystyr manwl y gair a feddylir; ond "perffaith" mewn ystyr gymmharol; sef, un wedi cyrhaedd gradd uchel o ragoroldeb. Mewn geiriau ereill, y mae yn arwyddo un wedi cyrhaedd y safle hono mewn rhinwedd y gellir yn rhesymol ddisgwyl i un gyrhaedd yn y sefyllfa gymmysglyd bresennol. *Yn gallu ffrwyno yr holl gorph hefyd.*—Y mae fod un yn gallu rheoli ei dafod yn arwydd ffafriol arno ei fod yn gallu llywodraethu holl flysiau a nwydau ei natur.

3, 4. Cawn yma ddwy gymmhariaeth er dangos y buddioldeb o allu rheoli y tafod:—ffrwynau, trwy ba rai y mae y meirch yn cael eu gwneyd yn ufudd; a llyw, trwy yr hwn y mae y llong yn cael ei llywodraethu. Y cymmhwysiad oddi wrth hyn ydyw, fod dyn, trwy reoli yr aelod bychan, y tafod, yn gallu llywodraethu y gwahanol nwydau perthynol i'w enaid.

5. *Aelod bychan yw, ac yn ffrostio pethau mawrion.*—Dywed Calvin mai y meddwl ydyw, fod y tafod wedi ei gynnysgaeddu â gallu neu ddylanwad mawr, a bod dynion trwyddo yn gallu cwblhau neu effeithio pethau mawrion. Dywed hefyd nad yw "ffrostio" ddim yn gydweddol â'r ddwy gymmhariaeth a ddefnyddir yn flaenorol; gan mai amcan y rhai hyny ydyw dangos y gallu neu y dylanwad sydd yn perthyn i'r tafod. *Wele, faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei ennyn.*—Dangosir yma y mawr niwed sydd yn dilyn pan y mae y tafod yn cael ei esgeuluso. Pan y mae dan ddysgyblaeth briodol, y mae fel ffrwyn, yn cadw trefn ar fywyd dyn; ond pan y mae yn cael ei ddefnyddio mewn modd pigog a thrahaus, y mae fel tân, yn difa pethau o'i flaen.—*Calvin.*

6. *Byd o anghyfiawnder.*—Y madrodd sydd yn dangos yr eithafion o ddrygioni sydd yn deilliaw trwy gamddefnyddio y tafod; yn gyffelyb fel y dywedwn weithiau, 'Môr o drueni!' am gydgyfarfyddiad o lawer o bethau blin ac alaethus. *Y mae yn halogi yr holl gorph.*—Y mae hyn yn dangos y priodoldeb o'i alw wrth yr enw, "byd o anghyfiawnder." *Yn gosod troell naturiaeth yn fflam.*—Y mae llawer o wahanol esboniadau o'r ymadrodd hwn yn cael eu rhoddi. Dywed rhai, ei fod yn arwyddo holl gwrs bywyd dyn yn y byd. Tra y mae rhai beiau yn cael eu diwygio trwy addfedrwydd barn a chynnydd mewn profiad, y mae pechodau y tafod yn dueddol o lynu wrth ddyn, i fesur mwy neu lai, ar hyd ei oes. Dywed

haelodau ni, fel y mae yn halogi yr holl gorph, ac yn gosod troell
[d] Luc 16. 24; Act. 5. 3. naturiaeth yn fflam; ac [d] wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern.

7 Canys holl natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, a ddofir ac a ddofwyd gan natur ddynol:

[e] Salm 55. 21. [f] Deut. 32. 33; Rhuf. 3. 13. [g] 1 Cron. 29. 10, 20; Eph. 1. 3. [h] Barn. 9. 27; Mat. 5. 44. [i] Gen. 1. 26, 27. [k] Salm 50. 16—20; Rhuf. 12. 14.

8 Eithr y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi, [e] drwg anllywodraethus *ydyw*, [f] yn llawn gwenwyn marwol.

9 Ag ef [g] yr ydym yn bendithio Duw a'r Tad; [h] âg ef hefyd yr ydym yn melldithio dynion, [i] a wnaethpwyd ar lun Duw.

10 [k] O'r un genau y mae yn dyfod allan fendith a melldith. Fy

mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly.

11 A ydyw ffynnon o'r un llygad yn rhoi *dwfr* melus a chwerw?

12 A ddichon y pren ffigys, fy mrodyr, ddwyn olifaid? neu winwydden, ffigys? felly ni *ddichon* un ffynnon roddi dwfr hallt a chroyw.

13 Pwy *sydd* ŵr doeth, a deallus yn eich plith? dangosed, trwy ymarweddiad da, ei weithredoedd mewn mwyneidd-dra doethineb.

14 Eithr od oes genych genfigen chwerw ac ymryson yn eich calon, na fyddwch ffrostwyr [l] a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd. [l] Ioan 16. 2; Act. 26. 9.

15 [m] Nid yw y doethineb hwn [m] Ioan 3. 27.

---

ereill, ei fod yn arwyddo holl gylch natur. Yn fynych y mae ychydig eiriau yn achlysur o ryfeloedd dychrynllyd, yn mha rai y mae elfenau ofnadwy natur yn cael eu defnyddio fel cyfryngau difrod a dinystr. Dywed ereill, fod yr ymadrodd yn arwyddo y cyfansoddiad dynol, a chan fod y tafod yn achlysur o gynnyrchu y nwydau mwyaf cynnhyrfus, ei fod yn yr ystyr yma yn gosod troell naturiaeth, neu y peiriannwaith dynol, yn fflam. Y mae y naill a'r llall o'r golygiadau uchod yn wirionedd. *Ac wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern.*—Y mae hon yn ystyriaeth tra difrifol. Y diafol, meddai Alford, ydyw y temtiwr a'r symbylydd i bechodau y tafod.

7, 8. *Canys holl natur gwylltfilod.*—Y mae hyn yn cael ei ddwyn i mewn fel rheswm dros y dystiolaeth flaenorol am y dylanwad sydd gan uffern neu y diafol yn mhechodau y tafod. Gan fod gwrthnysigrwydd y tafod yn fwy anhawdd i'w wrthweithio nag ydyw dofi gwylltineb a ffyrnigrwydd y creaduriaid mwyaf aflywodraethus, rhaid fod fflam uffern yn ei osod i weithredu. *Eithr y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi.*—Yn ol Macknight, yr ystyr ydyw, na ddichon neb ddofi tafod dynion, neu dafod pobl ereill; ac y mae ffurf y frawddeg yn rhoddi yr ystyr yma, yn gwbl naturiol. Sylwa yn mhellach, nad ydyw ddim yn hollol gywir i ddyweyd nas gall dyn reoli ei dafod ei hun; ond gyda golwg ar dafod pobl ereill, yr ydys yn gweled yn fynych nas gall neb ei ddofi. *Drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol.*—Dywed Bloomfield fod dwy gymmhariaeth yn ngolwg yr apostol yn y fan hon, a bod y rhai hyny yn cael eu cymmhlethu â'u gilydd—un wedi ei chymmeryd oddi wrth glefyd adwythig, yr hwn sydd yn aflywodraethus, am nas gellir ei attal; un arall oddi wrth bigiad gwenwynig neidr, yr hwn nis gellir ei iachau. Y mae athrawiaeth gyffredinol yn cael ei dysgu yn y fan hon, meddai Calvin; sef, os ewyllysiwn arwain bywyd uniawn, fod yn rhaid i ni gymmeryd gofal i lywodraethu y tafod, am nad oes un rhan o ddyn yn achos o gymmaint o niwed.

9—12. Dangosir yma anghyssondeb pechodau y tafod mewn pedair o gymmhariaethau; un oddi wrth ffynnonau, y ddwy arall oddi wrth goed ffrwythau, a'r llall oddi wrth y môr; yr hwn, gan ei fod o ran ei natur yn hallt, ni ddichon roddi dwfr croyw. *Felly ni ddichon un ffynnon roddi dwfr hallt a chroyw.*—Y mae y darlleniad a'r ystyr a roddir gan Alford ychydig yn wahanol: 'Ni ddichon dwfr hallt gynnyrchu dwfr croyw.' *A wnaethpwyd ar lun Duw.*—Er fod dyn wedi colli delw Duw, o ran cyfiawnder a sancteiddrwydd, etto y mae gweddillion o honi yn aros mewn galluoedd a doniau naturiol, trwy ba rai y mae dyn yn tra rhagori ar greaduriaid ereill y ddaear. Y mae yr hwn, gan hyny, sydd yn gwir addoli Duw yn ofni siarad yn ddirmygus am ddyn.

13—18. NODWEDDIADAU GWIR DDOETHINEB.

13. *Pwy sydd ŵr doeth, a deallus yn eich plith.*—Gan fod athrod, un o bechodau y tafod, yn effaith ysbryd uchelfrydig a hunan-dybus rhai sydd yn cymmeryd arnynt fod yn ddoeth, a mae yr apostol yn myned yn mlaen yma i ddangos pa beth ydyw gwir ddoethineb; ac y mae yn ffaenorol yn dangos mai oddi wrth y diafol y mae y ddoethineb y mae dynion balch ac enllibgar yn dueddol i ymffrostio ynddi.—*Calvin.* Mewn perthynas i'r gwahaniaeth rhwng y geiriau "doeth" a "deallus," rhydd Alford y syniad fod y cyntaf yn air cyffredinol, ac yn dynodi ansawdd cysson y meddwl gyda golwg ar ddealltwriaeth; a'r llall yn golygu craffder ymarferol, fel effaith cynnefindra â gwahanol ffeithiau. Y "doeth," medd efe, yw y dyn galluog; y "deallus," yw y dyn gwybodus. Er hyny, awgryma nad oes sicrwydd am natur y gwahaniaeth rhwng y ddau air. *Dangosed, trwy ymarweddiad da.*—Dangosed ddoethineb mewn gweithredoedd, yn hytrach na gwneyd trwst mewn geiriau; a dangosed hyny gyda y mwyneidd-dra sydd yn effaith gwir ddoethineb, fel ag i beri fod prydferthwch yn ei holl ymarweddiad.

14. *Eithr os oes genych genfigen chwerw ac ymryson.*—Y mae y gair a gyfieithir "cenfigen" yn y fan hon yn arwyddo hefyd sêl; a gallasai y bobl athrodgar yma ymhôni eu bod, yn y defnydd yr oeddynt yn ei wneyd o'u tafod, yn cael eu cymmhell gan sêl dros y gwirionedd. *Yn eich calon.*—Er mai peth allanol mewn geiriau ydyw ymryson, etto y mae yr egwyddor o hono yn y galon. *Na fyddwch ffrostwyr.*—Peidiwch ymhôni eich bod yn meddu doethineb, os mai y fath a nodwyd yw eich cymmeriad; a pheidiwch a rhoddi achlysur i ereill ddyweyd pethau celwyddog am y gwirionedd trwy eich camymddygiadau chwi.

15. *Dacarol, anianol, cythreulig yw.*—Pe mynai rhai alw yr hyn y maent yn ei dybied y maent yn ei feddu wrth yr enw "doethineb," etto, nid y

yn disgyn oddi uchod; ond daearol, anianol, cythreulig *yw*.

[a] Act. 19.29; 1Cor.14.33. 16 Canys lle *mae* cenfigen ac ymryson, [a]yno *y mae* terfysg, a phob gweithred ddrwg.

[b] Gen.43.38, 39; Diar. 2. 6; Esa. 11.2,3. [p] Ieru 1 14; Rhuf. 15. 14; 2 Cor. 9. 10. 17 Eithr [b]y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychlawn, bonedd-[p]gaidd, hawdd ei thrin, [p]llawn trugaredd a ffrwythau da, didu-edd, a diragrith.

[c] Diar. 11. 28, 30. 18 A [c]ffrwyth cyfiawnder a heuir mewn heddwch i'r rhai sydd yn gwneuthur heddwch.

PENNOD IV.

1 *Rhaid i ni ymryson yn erbyn trachwant,* 4 *ac anghymmedrolder,* 5 *a balchder,* 11 *ac enllib, a barnu ar ereill;* 13 *ac na roddom ormod hyder ar lwyddiant bydol, nac ar einioes dyn; ond rhoi y cwbl ar Dduw.*

B. A. 62.

OBA le *y mae* rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi? onid oddi wrth hyn, *sef* eich melus chwantau, y rhai sydd yn rhyfela yn eich aelodau?

2 Chwennychu yr ydych, ac nid ydych yn cael: cenfigenu yr ydych ac eiddigeddu, ac nid ydych

ddoethineb oddi uchod ydyw; ond y mae yn gwbl groes iddi o ran ei helfenau. "Daearol:"—yr un yw o ran ei natur a'r cyfrwysdra a arferir i ddybenion bydol. "Anianol:"—nid ydyw yn effaith dysgeidiaeth, adnewyddiad, a sancteiddiad Ysbryd Duw; ond y mae yn rhywbeth sydd o fewn cyrhaedd dynion syrthiedig, trwy arfer eu galluoedd naturiol, a thrwy gael addysg a diwylliant. "Y rhai hyn," meddai Iudas, "yw y rhai sydd yn eu didoli eu hunain, yn anianol, heb fod yr Ysbryd ganddynt." "Cythreulig yw."—Y mae yr ysbrydion syrthiedig yn meddu galluoedd cryfion, a gwybodaeth helaeth; ond gan eu bod yn arfer y cwbl mewn modd maleisus a gelynol yn erbyn Duw a'i bobl, y maent yn achlysur o ddrygioni anfad yn y byd, ac o felldith annhraethol iddynt eu hunain. Yr un o ran ei natur ydyw doethineb y rhai sydd dan lywodraeth cenfigen atgas, gan ddefnyddio eu tafodau i gynnyrchu a meithrin ymrysonau blinion.

16. *Canys lle mae cenfigen ac ymryson.*—Fel esampl o'r hyn a osodir allan yn yr adnod hon, dywed Macknight y byddai rhai o'r Iuddewon yn argymmhell defodau Moses ar y bobl mewn modd mor angerddol ag oedd yn ymylu ar wallgofrwydd, ac yn eu harwain hwythau i gyflawni y troseddau mwyaf echryslawn.

17. *Eithr y ddoethineb sydd oddi uchod.*—Oddi uchod o ran ei tharddiad, fel un o'r rhoddion gwerthfawr sydd mewn modd arbenig yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni. Oddi uchod, am ei bod yn ysbrydol, mewn cyferbyniad i'r llall y soniwyd am dani, yr hon sydd yn ddaearol. *Yn gyntaf pur ydyw.*—Yn ol natur ei hawdwr; ac y mae purdeb calon mor angenrheidiol tuag at fod yn wir ddoeth ag ydyw fod y llygad yn glir tuag at weled yn gywir. *Wedi hyny heddychlawn.*—Annogwyd yn flaenorol i fod yn "ddiog i ddigofaint" (*pen.* i. 19); ac felly y mae dynion yn cael eu tueddu i fod trwy wir ddoethineb. *Bonedd-gaidd.*—Y mae y sylweddair o ba un y mae yr ansodd-air hwn yn deilliaw yn cael ei gyfieithu weithiau "arafwch" (*Phil.* iv. 5); bryd arall "hynawsedd" (*Act.* xxiv. 4); ac y mae yr ansodd-air yn cael ei gyfieithu "tirion" (1 *Tim.* iii. 3). Y mae yn debyg ei fod yn arwyddo ansawdd hynaws ar feddwl dyn, fel ag i'w dueddu i amlygu tiriondeb, yn hytrach na sefyll yn orlym dros y pethau y gellid eu galw yn lawnderau. *Hawdd ei thrin:*—neu hawdd i'w pherswadio. Y mae hyn yn arwyddo fod y dyn gwir ddoeth yn barod i wrandaw ar reswm, ac yn dueddol i ganiatau yr hyn sydd deg a gweddaidd; yn hytrach na dal unrhyw beth yn mlaen oddi ar ysbryd cyndyn a gwrthnysig. *Llawn trugaredd a ffrwythau da:*—sef, yn barod

i faddeu i'r rhai sydd wedi bod mewn camwedd, ac i weini ymgeledd i rai sydd mewn angen. *Didduedd.*—Ammhleidiol a didderbyn-wyneb. Y mae y gair yn ddiammheu hefyd yn arwyddo tuedd i beidio bod yn orfanwl mewn sylwi ar fân wahaniaethau, yr hyn sydd yn achlysur yn fynych o gynnyrchu ymrysonau. *A diragrith.*—Nid yw y gwir ddoeth yn ceisio peri i neb dybied ei fod yn fwy sanctaidd nag ydyw; ac nid yw yn hoff o'r gweniaith hwnw, yr hwn yn fynych sydd yn gwneyd cymdeithas dynion â'u gilydd yn beth mor arwynebol a diymddiried.

18. *A ffrwyth cyfiawnder a heuir mewn heddwch.*—Y mae y rhai sydd yn wir ddoeth yn hynaws a thrugarog; ac o herwydd hyn, pan y maent yn gweithredu cyfiawnder, mewn ceryddu a chospi ereill, y maent yn gwneyd hyny mewn ysbryd tirion a heddychol; a thrwy hyn y maent yn hau yn bresennol yr hyn a gânt eu mwynhau fel ffrwythau yn ol llaw; sef, tangnefedd a hapusrwydd. Y mae y golygiad hwn yn cael ei gynnwys yn sylwadau Calvin ar yr adnod hon.

Pennod iv.

1—4. Beiau a throseddau haerllug yn cael eu nodi allan.

1. *O ba le y mae rhyfeloedd?*—Tybia rhai, fod yr ymadrodd hwn yn cyfeirio at y brwydrau a'r terfysgoedd oedd yn mhlith yr Iuddewon dros rai blynyddoedd cyn dinystr Ierusalem. Felly y golyga Macknight. Tybia ereill, ei fod yn golygu pob math o gwerylon mewn perthynas i'w heiddo bydol neu eu hawliau tymmhorol. Y mae Alford yn ffafriol i'r syniad hwn. Ac y mae yr hyn a ddywedir yn y ddwy adnod nesaf yn rhoi ar ddeall fod hyn mewn golwg o leiaf gan yr apostol. *Eich melus-chwantau.*—Ystyr lythyrenol y gair a gyfieithir fel hyn yn y fan hon yw 'pleserau.' Y syniad ydyw, fod y pethau drwg hyn yn deillio oddi wrth eu chwant neu eu hawydd cryf am bleserau. *Yn eich aelodau.*—Y mae efe yma, meddai Calvin, yn galw ein galluoedd yn "aelodau." Y mae efe yn golygu aelodau y corph, a galluoedd y meddwl, meddai Wardlaw.

2. *Chwennychu yr ydych.*—Ni ddywedir yma ba beth oeddynt yn chwennychu; ond ymddengys mai elw neu lwyddiant bydol oedd yn cael ei olygu. Nid yw y chwennychiad hwn ynddo ei hun yn bechadurus, ond y mae felly pan y bydd y dybenion yn anghywir. *Cenfigenu yr ydych.*—Y mae y gair Groeg yn y fan hon yn arwyddo "lladd." Ac wrth gymmeryd y gair yn yr ystyr hwn y mae anhawsder yn ymddangos, os oedd y rhai sydd yma yn cael eu cyfarch yn proffesu Cristionogaeth: o blegid pa fodd y gellir credu fod neb o'r cyfryw rai yn euog o'r fath drosedd

yn gallu cyrhaeddyd: ymladd a rhyfela yr ydych, ond nid ydych yn cael, am nad ydych yn gofyn.

[a] Iob 27. 8—10; Esa. 1. 15, 16. [b] Luc 15. 13, 30.

3 [a] Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel [b] y galloch eu treulio ar eich meluschwantau.

4 Chwi odinebwyr, a godinebwragedd, oni wyddoch chwi fod [c] cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw? [d] pwy bynag gan hyny a ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, y mae yn elyn i Dduw.

[c] Ioan 15. 19; 17. 14. [d] Gal. 1. 10.

5 A ydych chwi yn tybied fod yr ysgrythyr yn dywedyd yn ofer, [e] At genfigen y mae chwant yr ysprydagartrefa ynom ni?

[e] Gen. 4. 5, 6; Esa. 11. 13; Titus 3. 3. [f] Exod. 10. 3, 4; Mat. 23. 12; 1 Pedr 5. 5. [g] 2 Cron. 32. 26. Diar. 15. 33

6 Eithr rhoddi gras mwy y mae: o herwydd pa ham y mae yn dywedyd, [f] Y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ond [g] yn rhoddi gras i'r *rhai* gostyngedig.

[h] 1 Sam. 3. 18. Iob 1. 21; Dan. 4. 25, 32. 34—37; Rhuf. 10. 3 Eph. 5. 21.

7 [h] Ymddarostyngwch gan hyny i Dduw. [i] Gwrthwynebwch ddiafol, ac efe a ffy oddi wrthych.

[i] Mat. 4. 3; —11; Heb. 7. 19.

8 [k] Nesewch at Dduw, ac efe a

[k] Gen. 18. 23; Esa. 55. 6, 7; Dad. 12. 9—11.

---

ysgeler? O herwydd hyn, tybia rhai fod y gair i'w gymmeryd mewn ystyr mwy tyner, gan arwyddo casineb neu ddygasedd yn eu hysbryd. Ond tybia ereill, fod y gair i'w gymmeryd mewn ystyr llythyrenol, a'i fod yn ddigon credadwy y gallasai esamplau o lofruddiaeth fod wedi cymmeryd lle gan rai oedd yn Gristionogion mewn enw yn unig, yn enwedig gan fod y cyfnod hwnw yn hynod am derfysg ac afreoleidd-dra. Cyfeirir at hanes Dafydd, er dangos nad yw y peth ddim yn hollol ammhossibl hyd yn oed yn mysg Cristionogion. Ond cymmhwysa rhai yr ymadrodd at yr Iuddewon anghristionogol, y rhai oedd yn euog o'r ysgelerderau mwyaf yn eu sêl orphwyllog dros Iuddewiaeth. *Ac eiddigeddu.* — Tebygol fod y gair hwn yn arwyddo yr awydd angerddol oedd ynddynt am gyrhaedd neu feddu y pethau yr oeddynt yn eu dymuno. *Ymladd a rhyfela yr ydych.*—Yr oeddynt mewn cwerylon diddiwedd â'u gilydd; a dichon fod y rhai hyny yn achlysuron o ymladdfeydd a brwydrau gwaedlyd. *Am nad ydych yn gofyn.*—Sylwa rhai, yr awgrymir yn yr ymadrodd fod rhai o'r pethau yr oeddynt yn eu ceisio yn ddigon cyfreithlawn ynddynt eu hunain, ond eu bod hwy, wrth ymgais am danynt, dan ddylanwad di-dduwiaeth; ac felly nad oeddynt yn cydnabod eu hymddibyniad ar Dduw, nac yn gofyn am ei arweiniad a'i fendith arnynt yn eu hymdrechion.

3. *Gofyn yr ydych.*—Yr oedd rhai o honynt mor ddi-dduw fel nad oeddynt yn gofyn o gwbl: yr oedd ereill o honynt yn gofyn, ond yn gwneyd hyny oddi ar ddybenion annheilwng. Rhydd Alford yr ystyr canlynol:—"Pe buasech yn gweddïo yn gywir, ni buasai yr awydd angerddol hwn am chwaneg o bethau bydol yn parhau. Buasai eich anghenion gwirioneddol yn cael eu diwallu, ac ni buasai y chwantau sydd yn cynnyrchu rhyfeloedd ac ymladdau yn bodoli. Buasech yn gofyn, ac yn gofyn yn gywir, ac mewn canlyniad yn derbyn."

4. *Chwi odinebwyr.*—Tybir ei fod yn eu galw felly am fod eu serchiadau yn fydol a chnawdol; ac am eu bod mewn canlyniad wedi myned yn anffyddlawn tuag at Dduw, eu priod mewn ystyr ysbrydol a chyfammodol. Ond tybia rhai, fod ganddo gyfeiriad at rai oedd mewn ystyr llythyrenol yn cyfatteb i'r cymmeriad hwn. *Oni wyddoch chwi fod cyfeillach y byd.*—Y mae y rhan yma o'r adnod yn rhoddi ar ddeall mai fel rhai mewn gormod o gyfeillach â'r byd yr oedd efe yn eu golygu yn odinebwyr yn y rhan flaenorol. Wrth y "byd" y mae i ni olygu, gwrthddrychau daearol, fel y maent ar wahân oddi wrth Dduw. Os bydd dyn gan hyny yn rhoddi ei galon i greaduriaid, a helyntion a phleserau y bywyd presennol, y mae efe yn gyfaill i'r byd, ac am hyny yn elyn i Dduw.

5. *A ydych chwi yn tybied fod yr ysgrythyr yn dywedyd yn ofer?*—Nid yw yn gwbl eglur at ba ran neillduol o'r Ysgrythyr y mae yr apostol yma yn cyfeirio. Am nad yw y geiriau sydd ar lawr yma i'w cael mewn un man yn yr Hen Destament, tybir gan rai ei fod yn cyfeirio at adnod neu adnodau yn y Testament Newydd. Dywedir, yn *Gal.* v. 17, "Canys y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd." Wrth *yr ysbryd a gartrefa ynom ni*, y mae i ni ddeall tueddfryd llygredig dyn. Nïs gellir golygu yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn preswylio yn nghalon pob dyn duwiol; gan fod ei weithrediadau ef yn erbyn pob tueddfryd pechadurus, ac felly yn erbyn cenfigen: a chan nad dyma ydyw tuedd gweithrediadau yr Ysbryd, y mae yn amlwg fod y rhai sydd dan lywodraeth cenfigen yn rhai nad ydyw yr Ysbryd yn cartrefu ynddynt.

6. *Eithr rhoddi gras mwy y mae.*—Dyma y modd y mae yr Ysbryd yn gwrthweithio y pethau drwg yn nghalonau dynion. Y mae efe yn rhoddi gras mwy; sef, mwy na'r gradd o hono a roddodd yn nechreu ei waith grasol yn nghalon pechadur, a mwy mewn nerth na'r pethau drwg y rhai y mae wedi ei fwriadu i'w gwrthweithio. *Y mae yn dywedyd:*—sef, y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd mewn rhan arall o'r Ysgrythyr: *Diar.* iii. 34. *Y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion.*—Y mae "beilchion" yma yn arwyddo rhai hunan-dybus, ymhongar; ac am hyny rhai tueddol i ddiystyru ac athrodi ereill, a rhai na phetrusant lawer pa ystrywiau a arferant tuag at ddyrchafu eu hunain. Y mae Duw yn gwrthwynebu y rhai hyn: y maent yn wrthddrychau ei ddygasedd, a y mae mewn amrywiol ffyrdd yn eu darostwng.

7. *Ymddarostyngwch gan hyny i Dduw.*—Mae y cymmhwysiad hwn yn dyfod yn hollol naturiol oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol. Y mae yr ymddarostyngiad hwn yn cynnwys cydnabyddiaeth o'i awdurdod, ac hefyd boddlonrwydd i'w drefniadau yn ei ragluniaeth. *Gwrthwynebwch ddiafol.*—Mae y diafol yn gweithredu yn y nwydau atgas a nodwyd yn flaenorol; ac am hyny yr ydys, wrth geisio attal neu ddofi y rhai hyn, yn gwrthwynebu y diafol. "Yr hwn," medd ai Pedr, "gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffydd;" 1 *Pedr* v. 9. Y mae hyn yn dangos y modd yr ydys i'w wrthwynebu; sef, trwy ffydd yn ngallu a gras Duw.

8. *Nesewch at Dduw.*—Dywedwyd yn flaenorol gan yr apostol fod Duw yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig; ac y mae yr adnod hon yn dysgu

[1] Esa. 1. 15, 16; 1 Pedr 3. 21.
[m] Salm 51. 6, 7, 10; Mat. 12. 33; Act. 15. 9.
[n] Adn. 6, 7.
[o] 1 Sam. 2. 9; Iob 22. 29.

nesâ atoch chwi. [1] Glanhewch *eich* dwylaw, chwi bechaduriaid; a [m] phurwch *eich* calonau, chwi â'r meddwl dau-ddyblyg.

9 Ymofidiwch, a galerwch, ac wylwch: tröer eich chwerthin chwi yn alar, a'*ch* llawenydd yn dristwch.

10 [n] Ymddarostyngwch ger bron yr Arglwydd, ac [o] efe a'ch dyrchafa chwi.

11 Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd, frodyr. Y neb sydd yn dywedyd yn erbyn *ei* frawd, ac yn barnu *ei* frawd, y mae efe yn dywedyd yn erbyn y gyfraith, ac yn barnu y gyfraith: ac od wyt ti yn barnu y gyfraith, nid wyt ti wneuthurwr y gyfraith, eithr barnwr.

12 Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli. Pwy wyt ti yr hwn wyt yn barnu arall?

13 Iddo yn awr, y rhai ydych yn dywedyd, Heddyw neu yfory ni a awn i gyfryw ddinas, ac a aroswn yno flwyddyn, ac a farchnatäwn, ac a ennillwn:

pa fodd y mae y gras hwnw i'w gael; sef, trwy nesau at Dduw. Os nesawn at Dduw mewn ffydd, bydd iddo yntau nesau atom ni yn ei fendith; os nesawn ato mewn edifeirwch, bydd iddo yntau nesau atom ninnau mewn maddeuant. Dywed Calvin mai ystyr yr ymadrodd yn y fan hon yw, nad ydyw Duw byth yn attal ei gymmhorth oddi wrthym ni, oddi eithr ein bod ni yn ymddyeithrio oddi wrtho ef. *Glanhewch eich dwylaw.*—Dangosir yma ac yn yr adnod ddilynol y parotoad angenrheidiol tuag at nesau at Dduw. Y mae glanhau y dwylaw yn arwyddo diwygiad mewn ymddygiadau allanol, am mai y dwylaw ydynt y prif offerynau mewn gweithredoedd pechadurus. *Chwi bechaduriaid.*—Diammheu ei fod yn golygu yma y rhai oedd mewn modd nodedig yn bechaduriaid trwy y gweithredoedd erchyll a nodwyd o'r blaen. *Purwch eich calonau.*—Effaith aflendid calon ydoedd, fod rhai yn eu plith yn odinebwyr a godineb-wrageddi (*adn.* 4); a thuag at fod yn lân oddi wrth y drwg, yr oedd yn gwbl angenrheidiol eu bod yn ymgais am buredd calon. *Chwi â'r meddwl dau-ddyblyg.*—Y mae yr ymadrodd hwn yn rhoi ar ddeall eu bod yn ceisio gwasanaethu Duw a mammon; ac am hyny fod eu calon yn rhanedig, neu eu meddwl yn ddau-ddyblyg.

9. *Ymofidiwch, a galerwch.*—Dyma edifeirwch fel y mae yn gweithredu yn ddirgelaidd yn y galon; sef, mewn gofid, galar, ac wylofain. *Tröer eich chwerthin chwi yn alar.*—Sylwa Bloomfield fod y gair a gyfleithir "galar" yn arwyddo cyffro yn y teimlad, wedi ei achosi gan ryw symbyliad neilduol; ac felly ei fod yn dra chyfaddas i fod yn gyferbyniol i'r gair "chwerthin," a bod y gair a gyfleithir "tristwch" yn arwyddo ansawdd cysson y galon, ac yn cynnwys cywilydd ac ymostyngiad; ac am hyny yn gosod allan agwedd meddwl hollol gyferbyniol i lawenydd afresymol y troseddwr.

10. *Ymddarostyngwch ger bron yr Arglwydd.*—Ceir ymadrodd cyffelyb yn 1 *Pedr* v. 6; "Dan alluog law Duw," a ddywedir yno. "Ger bron yr Arglwydd," a ddywedir yma. A dywed Alford fod yr ymadrodd hwn, "ger bron," yn cynnwys fod presennoldeb Duw yn cael ei sylweddoli gan yr enaid, fod ei ragluniaeth yn cael ei gydnabod, ac ynglŷn â hyny fod ymostyngiad i'w ewyllys yn cael ei ymarfer.

11, 12. CYNGHORION YN ERBYN ATHROD.

11. *Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd.*—Y mae yr apostol yma fel pe bae yn troi yn ol at y mater y bu yn ei drin mewn rhan, yn y drydedd bennod; sef, pechodau y tafod. Y mae llawer ffordd yn mysg dynion o ddywedyd yn erbyn eu gilydd: weithiau trwy gamgyhuddiadau, weithiau trwy fwyhau beiau neu ffaeleddau, a thrwy eu hadrodd pan na byddo galwad am hyny, a phryd arall trwy sibrwd rhywbeth sydd etto yn gudd-iedig gyda llawer o deimlad ymddangosiadol, a rhybuddion i gadw y cwbl yn ddistaw—yr hyn yw gwir gymmeriad yr hustyngwr. *Y neb sydd yn dywedyd yn erbyn ei frawd, ac yn barnu ei frawd, y mae efe yn dywedyd yn erbyn y gyfraith.*—Gan ei bod hi yn gwarafun ac yn condemnio athrod ac enllib, y mae yr hwn sydd yn ymhoffi mewn camgyhuddo ac adrodd ffaeleddau ei frawd yn ei ymddygiad yn dyweyd yn erbyn y gyfraith. Os yw efe hefyd yn condemnio ei frawd am bethau y mae y gyfraith yn ddistaw yn eu cylch, y mae efe drwy hyn yn barnu y gyfraith; sef, yn barnu nad yw yn ddigon manwl fel rheol i ymddygiadau dynion. *Nid wyt ti wneuthurwr y gyfraith.*—Yn lle ceisio byw yn ol y gyfraith ei hunan, y mae y dyn hwn, oddi ar falchder calon a hunandybiaeth, yn cymmeryd arno farnu y gyfraith, a barnu ei gyd-ddynion.

12. *Un gosodwr cyfraith sydd.*—Y mae rhai yn dewis darllen y rhan yma fel hyn:—'Y gosodwr cyfraith a'r barnwr sydd un;' ac fe ddywedir fod amryw o'r hen gopïau yn ffafriol i'r darllen-iad hwn. Amcan yr apostol yw dangos afresymoldeb ymddygiad y dyn sydd yn ei ddull yn hòni bod yn farnwr ar ereill. Llywodraeth ysbrydol Duw ar gydwybodau dynion a feddylir yn y fan hon, meddai Calvin, yn yr hon y dylai gair yr Arglwydd yn unig gael y rheolaeth. Un Duw sydd, medd efe, ac i'w gyfreithiau ef y dylai cydwybodau dynion fod yn ddarostyngedig, gan mai efe yn unig sydd â'r gallu yn ei law i gadw a cholli.

13—17. RHESYMAU YN ERBYN DIDDUWIAETH GYDA GOLWG AR GYNLLUNIAU PERTHYNOL I'R BYWYD HWN.

13. *Iddo yn awr.*—Dull bywiog yw hwn o alw sylw. Y mae yn gyfystyr a phe dywedid, 'Deuwch ac ymresymwn.' *Y rhai ydych yn dywedyd.*—Y mae dynion yn fynych yn dyweyd rhywbeth yn eu calonau na byddont yn ei ddweyd mewn geiriau. Ond y mae yn ddigon tebyg fod ymadroddion fel hyn yn cael eu defnyddio gan y rhai sydd yma yn cael eu cyfarch. *Ni a awn i gyfryw ddinas.*—Peth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon y pryd hwn oedd, eu bod er mwyn llwyddiant masnachol yn gwneyd teithiau mawrion i Tyrus, Alexandria, Antiochia, Ephesus, Corinth, a Rhufain.—*Bloomfield. Ac a farchnatäwn, ac a ennillwn.*—Yr oeddynt yn yr ymadrodd hwn yn dangos gormod o hunan-ymddibyniaeth a gorhyder am lwyddiant,

14 Y rhai ni wyddoch beth *a fydd* yfory. Canys beth *ydyw*
[p] Salm 90. 5—7; 1 Pedr 1.24; 1 Ioan 2.17. eich einioes chwi? Canys [p] tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn diflanu.

[q] Rhuf. 1.10; 1 Cor. 4.19. 15 Lle *y dylech* ddywedyd, [q] Os yr Arglwydd a'i myn, *ac os* byddwn byw, ni a wnawn hyn, neu hyny.

16 Eithr yn awr gorfoleddu yr ydych yn eich ymffrost. Pob cyfryw orfoledd, drwg ydyw.

17 Am hyny i'r neb a fedr wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod ydyw iddo.

PENNOD V.

1 *Rhaid i wŷr cyfoethogion drygionus ofni dialedd Duw.* 7 *Ni a ddylem fod yn ddioddefgar mewn adfyd, yn ol esampl y prophwydi, ac Iob;* 12 *a gochelyd tyngu;* 13 *a gweddïo mewn adfyd, a chanu mewn hawddfyd;* 16 *a chyfaddef ein beiau i'n gilydd, a gweddïo dros ein gilydd;* 19 *a dwyn i'r iawn y brawd a fyddo yn myned ar gyfeiliorn.*

IDDO yn awr, chwi gyfoethogion, [a] wylwch ac udwch am eich trueni sydd yn dyfod arnoch. B. A. 62. [a] Esa. 13. 6; Luc 23. 28, 29.

2 [b] Eich cyfoeth a brydodd, [c] a'ch gwisgoedd a fwytawyd gan bryfed. [b] Mat. 6. 19, 20; 1 Pedr 1. 4. [c] Iob 13. 28; Hos. 5. 12,

3 Eich aur a'ch arian a rydodd; a'u rhwd hwynt a fydd yn dystiolaeth yn eich erbyn chwi, [d] ac a fwyty eich cnawd chwi fel tân. [d] Dad. 17. 16.

[e] Chwi a gasglasoch drysor yn y dyddiau diweddaf. [e] Deut. 32. 33, 34.

4 Wele, [f] y mae cyflog y gweithwyr, a fedasant eich meusydd chwi, yr hwn a gam-attaliwyd genych, yn llefain: a [g] llefain y gyn arnynt. Ond tybia ereill nad oes dim angen am dybied fod yr apostol yma yn troi at ddosbarth gwahanol i'r rhai y mae efe yn eu cyfarch trwy yr epistol; a'i fod yn ddigon credadwy fod rhai yn cyfatteb i'r disgrifiad erchyll hwn, er eu bod yn Gristionogion proffesedig. [f] Esa. 5. 7; Mal. 3. 5. [g] Gen. 4. 10; Exod. 2. 23, 24.

1. *Am eich trueni sydd yn dyfod arnoch.*—Cyfeiria yr apostol yma at y trueni oedd eisoes wedi dechreu trwy y terfysgoedd yn mhlith yr Iuddewon eu hunain, a thrwy ryfeloedd yn erbyn y Rhufeiniaid, ac hefyd y trychineb alaethus oedd i gymmeryd lle trwy hollol ddinystr Ierusalem.

2. *Eich cyfoeth a bydrodd, &c.*—Y mae rhai yn edrych ar y pethau a ddywedir yma fel arwyddion a phrofion fod barn Duw wedi dechreu mewn modd dirgelaidd arnynt eisoes, mewn pydredd, a malldod, a rhwd; ond dichon mai mwy naturiol ydyw y golygiad arall a roddir ar yr ymadroddion hyn; sef, eu bod yn gosod allan esamplau o ymddygiadau annuwiol y cyfoethogion, gan eu bod, yn lle iawn ddefnyddio eu meddiannau, yn gadael i'r ŷd yn yr ystordai bydru, y gwisgoedd yn y coffrau i gael eu bwyta gan bryfed, a'r arian a'r aur i rydu. Dywed Bloomfield fod llawer o awgrymiadau yn yr hen awduron am arian ac aur yn rhydu, ac mai y rheswm tebygol oedd, nad oeddynt yn puro y metteloedd hyn gystal ag y mae dynion yn gwneyd yn yr oesau diweddaf.

3. *A'u rhwd hwynt a fydd yn dystiolaeth yn eich erbyn:*—yn dystiolaeth i'w condemnio ger bron Duw, fel ag i beri iddo gyflymu ei farnau. *Ac a fwyty eich cnawd chwi fel tân.*—Y mae yma gyfeiriad, mae'n debyg, at effeithiau arteithiol rhwd ar gnawd digroen. *Chwi a gasglasoch drysor yn y dyddiau diweddaf.*—Yn y dyddiau diweddaf hyn cyn dyfodiad ein Harglwydd, pan y dylasech edifarhau, a sicrhau iachawdwriaeth eich eneidiau, yr ydych chwi wedi bod yn casglu trysor, neu yn pentyru cyfoeth na ettyb i chwi unrhyw ddyben. —*Alford.* Yr ydych wedi bod yn trysori melldith a digofaint Duw ar gyfer y dydd diweddaf. —*Calvin.* Yr ydych wedi trysori trueni i chwi eich hunain yn nyddiau diweddaf eich gwladwriaeth.

4. *Wele, y mae cyflog y gweithwyr...yn llefain.*—Mae y pechodau hyny yn llefain mewn modd neillduol yn nghlustiau Duw; sef, y rhai y mae cyfreithiau dynol yn ddistaw mewn perthynas

14. *Y rhai ni wyddoch beth a fydd yfory.*—Yma y mae rhesymau yn cael eu defnyddio yn erbyn eu hysbryd beiddgar a di-ddiw; sef, hollol anwybodaeth dynion am y dyfodol, a'r ansicrwydd mawr sydd yn perthyn i'w bywyd ac i'w holl anturiaethau.

15. *Lle y dylech ddywedyd, Os yr Arglwydd a'i myn.*—Nid oes dim yn ŵy rhesymol ynddo ei hun na chydnabod ein hollol ymddibyniad ar Dduw am barhâd ein bywyd, ac am lwyddiant i'n hymdrechion. Ac y mae hyn yn gynnwysedig yn yr hyn y mae yr apostol wedi annog ato yn flaenorol: "Ymddarostyngwch ger bron yr Arglwydd."

16. *Eithr yn awr gorfoleddu yr ydych yn eich ymffrost.*—Y mae hyn yn cynnwys eu bod yn addaw pethau gwych iddynt eu hunainidrwy eu llwyddiant disgwyliedig, a'u bod yn siarad am dano fel pe na buasai ansicrwydd neu ammheuaeth yn ei gylch. *Pob cyfryw orfoledd, drwg ydyw.*—Y mae yn ddrwg, am ei fod yn dangos anghof o Dduw, a thuedd i geisio y mwynhâd penaf mewn pethau daearol.

17. *Am hyny i'r neb a fedr wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod ydyw iddo.*—Gallasai y rhai yr oedd Iago yn eu cyfarch ddyweyd mewn attebiad, eu bod yn gwybod y pethau hyn yn ddigon da; sef, ansicrwydd eu bywyd, a'u hollol ymddibyniad ar Dduw am bob peth. Y mae yntau yn cyfarfod â hyn trwy ddangos eu bod felly yn pechu mewn modd neilldiol, gan eu bod yn pechu yn erbyn goleuni, neu yn erbyn gwybodaeth.

Pennod v.

1—6. tystiolaethau yn erbyn y cyfoethogion.

Tybia rhai mai nid Cristionogion proffesedig, y rhai y mae efe yn eu hanerch drwy yr epistol, y mae yn cyfarch yn y fan hon, ond mai Iuddewon anghrefyddol, anffyddol, a rhwysgfawr mewn annuwioldeb, sydd yn ei olwg; a bod y rhai hyn trwy drais ac anghyfiawnder wedi ennill llawer o gyfoeth y byd hwn. Soniodd o'r blaen am y dosbarth hwn yn *pen.* ii. *adn.* 6, 7, a gosodir hwy allan yno fel rhai yn erlid a gorthrymu y ffyddloniaid. Yma y mae yn dangos annuwioldeb eu hymddygiadau, a'r barnau ofnadwy oedd ar ddis-

rhai a fedasant a ddaeth i mewn
[h] Rhuf. 8. 29; Esa. 1. 9. i glustiau [h] Arglwydd y lluoedd.

5 Moethus fuoch ar y ddaear, a thrythyll; meithrin eich calonau a wnaethoch, [i] megys mewn
[i] Esa. 22. 13; Dad. 19. 17, 18. dydd lladdedigaeth.

6 Condemniasoch a lladdasoch y cyfiawn; *ac* yntau heb sefyll i'ch erbyn.

7 Byddwch gan hyny yn ymar-
[k] Luc 18. 8; 1 Cor. 1. 7. hous, frodyr, [k] hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Wele, y mae y llafurwr yn disgwyl am werthfawr
[l] Ier. 5. 24; Zeph. 1. 6. ffrwyth y ddaear, yn dda ei amynedd am dano, [l] nes iddo

dderbyn y gwlaw cynnar a diweddar.

8 Byddwch chwithau hefyd dda eich amynedd; [m] cadarnhewch eich calonau: [n] o blegid dyfodiad yr Arglwydd a nesaodd.
[m] Salm 27. 14. [n] 1 Pedr 4. 7.

9 [o] Na rwgnechwch yn erbyn eich gilydd, frodyr, fel na'ch condemnier: wele, [p] y mae y Barnwr yn sefyll wrth y drws.
[o] Lef. 19. 18; Iago 4. 11. [p] Gen. 4. 7.

10 Cymmerwch, fy mrodyr, y prophwydi, [q] y rhai a lefarasant yn enw yr Arglwydd, yn esampl o ddioddef blinder, ac o hirymaros.
[q] Act. 3. 21.

iddynt. Y rhai hyn ydynt loddest anniweirdeb, a gwahanol fathau o anghyfiawnder. *A llefain y rhai...a ddaeth i mewn i glustiau Arglwydd y lluoedd.*—Y mae yr ymadrodd yn arwyddo y byddai Duw yn sicr o dalu sylw i'w hachos, neu y peth y maent yn llefain o'i blegid.

5 *Moethus fuoch ar y ddaear, a thrythyll.*—Yr oedd yr adnodau o'r blaen yn dangos eu bod yn nodedig am eu trachwant; ac y mae yr ymadroddion hyn yn dangos eu bod yn llawn mor hynod am eu cnawdolrwydd. Yr oedd eu cyfoeth anghyfiawn yn eu galluogi i sicrhau cyfiawnder o ddanteithion, drwy yr hyn yr oeddynt wedi myned yn foethus. Yr oedd drachefn y moethau beunyddiol hyn yn cynnhyrfu eu gwŷniau llygredig, trwy yr hyn yr oeddynt wedi myned yn drythyll. *Megys mewn dydd lladdedigaeth.*—Golyga rhai mai yr ystyr yw, eu bod, trwy eu dull moethus o fyw, wedi pesgi eu hunain fel creaduriaid ar gyfer lladdedigaeth. Ac felly eu bod, trwy eu harferion nwyfus, yn darparu eu hunain ar gyfer dinystr. Tybia ereill mai y synlad yw, eu bod yn barhaus yn ymbleseru yn nghanol llawnder; yn gyffelyb fel y mae dynion ar ddydd gwledd, yr hwn y mae llawer o greaduriaid wedi eu lladd ar ei gyfer.

6. *Condemniasoch a lladdasoch y cyfiawn.*—Tybir gan rai fod yr apostol yn cyfeirio yma at eu hymddygiad rhyfygus yn condemnio a lladd Crist, yr hwn mewn modd arbenig a elwir "Y Cyfiawn." Tybir hefyd fod yr ymadrodd *heb sefyll i'ch erbyn*, yn cyfeirio at ddioddefgarwch ac addfwynder Iesu Grist o dan eu triniaethau creulawn. Ond fel gwrthddadl yn erbyn y golygiad hwn, dywedir mai y cyfoethogion a gyferchir yma ac mai yr henuriaid a'r archoffeiriaid a ddarfu gondemnio Iesu Grist. Tybia ereill mai y Cristionogion a feddylir yma wrth "y cyfiawn," ac mai peth digon cyffredin ydyw defnyddio ymadrodd sydd yn arwyddo person unigol, er fod llawer yn cael eu golygu. Yn ol y golygiad hwn y mae yr ymadrodd, "Ac yntau heb sefyll i'ch erbyn," yn arwyddo sefyllfa ddigymmhorth y Cristionogion, a'u hysbryd dioddefgar o dan eu herlidiau.

7—11. CYNGHORION I ARFER AMYNEDD A DIODDEFGARWCH.

7. *Byddwch...ymarhous.*—Yr ystyr yw, Byddwch amyneddgar yn wyneb y cam a'r blinder yr ydych yn eu dioddef oddi wrth y cyfoethogion erlidgar. *Hyd ddyfodiad yr Arglwydd.*—Y mae dyfodiad yr Arglwydd yn arwyddo weithiau, ei ddyfodiad yn angeu i gymmeryd ei bobl ato ei hun; ac weithiau, ei ddyfodiad fel Barnwr yn y dydd diweddaf. Dichon fod y naill olygiad a'r llall yn cael eu cynnwys yn y fan hon. Dyben yr apostol ydoedd cysuro y Cristionogion, trwy awgrymu, faint bynag oedd yr annhrefn yr oeddynt yn weled, a pha faint bynag y blinder yr oeddynt yn ei ddioddef, y byddai i'r cwbl gael ei egluro a'i unioni yn nyfodiad eu Harglwydd. *Y gwlaw cynnar a diweddar.*—Darfu i Dduw addaw y gwlawogydd hyn yn ei amser i Israel: *Deut.* ii. 14. Dywed Macknight y byddai y gwlaw cynnar yn disgyn tua dechreu mis Tachwedd, ar ol i'r had gael ei hau; ac y byddai y diweddar-wlaw yn disgyn tua diwedd mis Ebrill, pan fyddai y twysenau yn llawn.

8. *Cadarnhewch eich calonau.*—Sefydlwch eich calonau trwy ffydd ac amynedd. Y moddion mwyaf effeithiol tuag at hyn ydyw ein bod yn sylweddoli i ni ein hunain fod dyfodiad yr Arglwydd yn agoshau.

9. *Na rwgnechwch yn erbyn eich gilydd.*—Gellir darllen yr ymadrodd hwn, 'Na ocheneidiwch yn erbyn eich gilydd.' Annogwyd hwynt yn flaenorol i arfer amynedd o dan driniaethau gormesol eu herlidwyr; ac yma cyfarwyddir hwynt i ochel tymmer anniddig a grwgnachlyd yn ngwyneb y beiau a'r ffaeleddau oeddynt yn weled y naill yn y llall. Gallasent o herwydd y pethau hyn gael eu tueddu i ocheneidio yn erbyn eu gilydd mewn ffordd o gyhuddiadau ger bron Duw ac i ddangos ysbryd anfoddog a chwerylgar yn eu hymddiddanion cyffredin; ond awgrymir yma fod yr ymddygiad hwn yn hollol ammhriodol. *Fel na'ch condemnier.*—Gan fod grwgnach yn erbyn eu gilydd ynddo ei hun yn bechadurus, buasent drwy yr arferiad yn gwneyd eu hunain yn agored i gael eu condemnio gan y Barnwr mawr. Hefyd, gan fod beiau yn perthyn i bob un yn ei ymddygiadau tuag at ereill, gallasai y rhai hyny ei gondemnio yntau trwy ocheneidio yn ei erbyn ger bron Duw. *Wele, y mae y Barnwr yn sefyll wrth y drws.*—Mae hyn yn rheswm cryf dros fod dynion yn peidio barnu a chondemnio eu gilydd; sef, fod y Barnwr ei hun wrth y drws, yr hwn sydd yn gwybod hanes pob un yn berffaith, a'r hwn y mae ei farn bob amser yn ol gwirionedd.

10. *Cymmerwch, fy mrodyr, y prophwydi...yn esampl.*—Os na bu eu swydd uchel hwynt yn gysgod iddynt rhag dioddefaint, ac os darfu iddynt hwy ddioddef y fath bethau, digon rhesymol yw i chwithau ddioddef.—*Bloomfield.* Dywed Calvin, y byddai yn achos o dristwch dirfawr i ni, pe byddai rhywbeth yn digwydd i ni na chafodd plant Duw erioed brofiad o hono. O'r ochr

11 Wele, dedwydd yr ydym yn gadael y rhai sydd ddioddefus. Chwi a glywsoch am amynedd [r] Iob 42. 10—17. Iob, [r] ac a welsoch ddiwedd yr Ar- [s] Exod. 34. 6; Esa. 55. 6, 7; Rhuf. 2. 4; Eph. 1. 6. glwydd: o blegid [s] tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.

12 Eithr o flaen pob peth, fy mrodyr, na thyngwch, nac i'r nef, nac i'r ddaear, nac un llŵ arall: eithr bydded eich ïe chwi yn ïe, a'*ch* nagê yn nagê; fel na syrthioch i farnedigaeth.

13 A oes neb yn eich plith mewn adfyd? gweddïed. A oes neb yn esmwyth arno? [t] canedl [t] 1 Cron. 16. 5. Salmau.

14 A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed ato henuriaid yr eglwys; a [u] gweddïant hwy dros- [u] 2 Bren. 4. 33. to, [x] gan ei eneinio ef âg olew yn enw yr Arglwydd: [x] Marc 6. 13.

15 A [y] gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny; ac os bydd wedi gwneuthur pechodau, hwy a faddeuir iddo. [y] Mat 17. 20.

16 [z] Cyffeswch *eich* camweddau [z] Luc 17. 3, 4.

arall, y mae yn ddefnydd diddanwch, os byddwn yn deall ein bod yn gydgyfranogion â hwynt o'r un dioddefaint. Ac y mae Iago yma yn nodi dosbarth o bobl, y rhai y mae yn ddymunol cael bod yn gymdeithion iddynt.

11. *Wele, dedwydd yr ydym yn gadael y rhai sydd ddioddefus:*—sef, y rhai sydd yn dioddef yn amyneddgar y profedigaethau y mae Duw wedi eu trefnu ar eu cyfer. *Ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd.*—Yr ystyr mwyaf naturiol yw hyn; Ac a welsoch y diwedd dedwydd a barodd yr Arglwydd i'r profedigaethau. Cyfeirir, mae yn dra thebyg, at yr hyn a ddywedir yn *Iob* xliv. 12: "Felly yr Arglwydd a fendithiodd ddiwedd Iob yn fwy na'i ddechreuad."

RHYBUDD I OCHELYD LLWON DIANGENRHAID.

12. *Eithr o flaen pob peth, fy mrodyr, na thyngwch.*—Y mae yr ymadrodd a ddefnyddia yr apostol yn y fan hon yn gosod allan fawr bwysigrwydd y peth y mae efe yn ddwyn dan sylw. Y mae fel pe bae yn dyweyd, Beth bynag a anghofiwch, peidiwch anghofio y cynghor hwn yr wyf yn ei roddi i chwi. Y mae yn amlwg nad ydyw yr apostol yma ddim yn golygu y llŵon sydd yn cael eu harfer ar achlysuron cyfreithiol mewn llysoedd barn; na chwaith y llŵon a ddefnyddir mewn modd parchus i ddybenion crefyddol: o blegid byddai gwahardd y rhai hyny yn beth croes i'r hyn y mae Duw ei hun yn ei gefnogi mewn gwahanol fanau: *Deut.* x. 20; *Esa.* lxv. 16. Ond mae yn debygol y tybiai yr Iuddewon nad oedd yn bechadurus arfer rhyw fath o lŵon yn eu hymddiddanion cyffredin, os na byddai enw Duw yn cael ei ddefnyddio ynddynt. Ac y mae yn ymddangos mai at y llŵon hyny y cyfeiria ein Harglwydd Iesu yn *Mat.* v. 34—37. Ac y mae ymadroddion Iago yn y fan hon yn dra chyffelyb i'r rhai hyny. Tybia rhai, mai prif amcan yr apostol yn y fan hon ydyw rhoddi gocheliad i'r Cristionogion, rhag iddynt, dan ddylanwad ofn, gael eu temtio i gymmeryd llŵon mewn llysoedd gwladol, eu bod yn ymwrthod â'u crefydd. Yr oedd yn angenrheidiol sefyll yn gryf yn erbyn y drwg hwn, yn enwedig gan y tybient, fel yr awgrymwyd eisoes, y gallent arfer rhai o'r llŵon hyn heb glwyfo eu cydwybodau. *Fel na syrthioch i farnedigaeth.*—Pe buasent, drwy y llŵon a nodwyd eisoes, yn llwyddo i ddiange rhag cael eu condemnio gan ddynion, etto buasent mewn perygl o syrthio i ganlyniadau annhraethol mwy ofnadwy; sef, cael eu condemnio gan Dduw, yr hwn y mae ei farn yn anocheladwy.

13—18. CYFARWYDDIADAU AC ANNOGAETHAU GYDA GOLWG AR WEDDI.

13. *A oes neb yn eich plith mewn adfyd?*—Priodol y sylwa Calvin mai megys y mae dynion mewn hawddfyd yn dueddol i anghofio Duw, felly y maent mewn adfyd yn barod i ddigaloni ac i ymollwng i anobaith; ond er hyny, y dylai adfyd fod yn symbyliad i ni i weddïo, a bod hawddfyd yn rhoddi i ni achlysuron i fendithio yr Arglwydd.

14. *A oes neb yn eich plith yn glaf?*—Yr oedd rhai y pryd hyny yn meddu dawn i iachau cleifdau, ac y mae yma gyfarwyddiadau yn cael eu rhoddi i'r rhai a fyddent yn sefyll mewn angen am gael eu hiachau. *Galwed ato henuriaid yr eglwys.*—Byddai y rhai a elwid yn henuriaid weithiau yn cael eu galw yn esgobion, ac weithiau yn olygwyr, ac y mae yn ymddangos y byddai rhai o honynt yn llafurio yn benaf mewn trefnu a rheoli. *A gweddïant hwy drosto.*—Neu, gweddïant uwch ei ben; ac fe allai eu bod yn gosod eu llaw arno. Yr oedd eu bod fel hyn yn dyfod i gyssylltiad mor agos â'r claf yn tueddu i gyffroi eu hysbrydoedd, fel ag i beri eu bod yn fwy taer a difrifol yn eu gweddïau. *Gan ei eneinio ef âg olew.*—Ymddengys fod eneinio âg olew yn fath o arwydd oedd yn cael ei ddefnyddio ynglŷn âg ymarferiad o'r ddawn wyrthiol i iachau. Y mae y Pabyddion yn appelio at yr adnod hon fel rheswm dros eu harferiad o eneinio dyn claf pan fyddo ar farw; ond y mae yn amlwg eu bod trwy hyn yn gŵyrdroi yr Ysgrythyr i ddybenion annheilwng. Maent hwy yn eneinio dyn pan fyddo ar drangc; ond yn ol cyfarwyddyd yr apostol yr oedd hyn i gael ei arfer fel moddion tuag at ei adferiad. Ond gan fod doniau gwyrthiol wedi diflanu, nid yw yr arwydd allanol beliach yn ateb un dyben.

15. *A gweddi y ffydd a iachâ y claf.*—Tebygol y byddai rhyw argraph yn cael ei gynnyrchu ar feddwl yr hwn a fyddai yn gweddïo fod Duw yn foddlawn i wyrth gael ei chyflawni, a byddai hyn yn cynnyrchu ynddo fwy o daerineb a gwresogrwydd wrth weddïo, a hyder cryf y byddai iachâd yn cael ei effeithio mewn modd goruwchnaturiol. *Ac os bydd wedi gwneuthur pechodau.*—Nid oes ammheuaeth nad oedd y claf dan sylw yn bechadur, a bod yn perthyn iddo lawer o bechodau, fel pawb ereill: mae y dybiaeth gan hyny a ddefnyddir yn nechreu yr adnod yn arwyddo fod yr apostol yn golygu rhyw bechodau neilliduol, pa rai a fuont yn achos o'r clefyd, fel cerydd neu gospedigaeth oddi wrth Dduw. Ond yr ydoedd gweddi y ffydd yn foddion i sicrhau maddeuant o honynt, yn gystal ag adferiad o'r clefyd.

16. *Cyffeswch eich camweddau.*—Y camweddau hyny, y mae yn ymddangos, a feddylir; sef, y rhai y buont yn euog o honynt, y naill yn erbyn y llall. Nid oes dim oll yma sydd yn cefnogi cyffesiad, fel y mae yn cael ei arfer gan y Pabyddion: o blegid gan mai cyffesu rhwng brodyr a'u gilydd sydd yn cael ei ddynodi yma, byddai mor

[a]Col. 1. 9. bawb i'ch gilydd, a [a]gweddïwch dros eich gilydd, fel y'ch iachäer. Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.

[b]Rhuf. 11. 2. 17 Elias oedd ddyn yn rhaid iddo ddioddef fel ninnau, [b]ac mewn gweddi efe a weddïodd na

[c]Luc 4. 25. byddai wlaw: [c]ac ni bu gwlaw ar y ddaear dair blynedd a chwe mis.

18 Ac efe a weddïodd drachefn; a'r nef a roddes wlaw, a'r ddaear a ddug ei ffrwyth.

19 *Fy* mrodyr, od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd, a throi o ryw un ef;

20 Gwybydded, y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddi wrth gyfeiliorni ei ffordd, [d]gadw enaid rhag angeu, a [e]chuddio lliaws o bechodau.

[d]Rhuf. 11, 14; [1]Tim. 4. 16 [e]Diar. 10. 12; [1]Pedr 4. 8

resymol fod yr offeiriad yn cyffesu i'r bobl ag ydyw fod y bobl yn cyffesu iddo ef. *A gweddïwch dros eich gilydd.*—Tybir gan rai fod yr amgylchiad y cyfeirir ato yma yn wahanol i'r un a nodir yn yr adnod flaenorol. Awgrymir mai pechodau yn erbyn Duw a nodir yno, ond mai pechodau yn benaf yn erbyn eu gilydd a olygir yma: yno, yr oedd henuriaid yr eglwys i gael eu galw i weddïo, ond yma, byddai unrhyw un cyfiawn, neu Gristion cyffredin, yn gweddïo. Etto: y mae y dystiolaeth nesaf yn gosod allan effeithioldeb gweddi i'r dybenion oedd mewn golwg yn y naill amgylchiad fel y llall. *Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.*—Nid ydyw yn hawdd trosglwyddo yr ystyr a gynnwysir yn y gair a gyfeithir "taer." Y mae yn arwyddo 'mewn-ffurfiedig;' sef, gweddi wedi ei ffurfio yn y galon, ac felly yn cynnwys teimladau dyfnaf yr enaid.

17. *Elias oedd ddyn yn rhaid iddo ddioddef fel ninnau.*—Ystyr yr ymadrodd ydyw, fod Elias, o ran ei brofiad fel dyn, yn gyffelyb i ninnau; sef, ei fod yn ddarostyngedig i'r un teimladau, gwendidau, a phrofedigaethau. Y mae y gair a gyfeithir yma, "rhaid iddo ddioddef," yn cael ei gyfeithu mewn modd cyffelyb mewn rhan arall; sef, yn *Actau* xiv. 15; 'Dynion hefyd ydym ninnau, yn gorfod dioddef fel chwithau.' Amcan yr apostol ydyw rhoddi cefnogaeth i ni i fod yn daer mewn gweddi. Dangosir iddo ef lwyddo yn rhyfedd gyda Duw, ond er hyny mai dyn oedd efe fel ninnau; ac am hyny, fod cystal sail genym ninnau i ddisgwyl am i'n gweddi fod yn llwyddiannus ag oedd ganddo ef, os byddwn yn gweddïo yn daer a ffyddlog. *Efe a weddïodd na byddai wlaw.*—Nid oes genym hanes pennodol am dano yn gweddïo am hyn; ond yr ydym yn darllen yn 1 *Bren.* xvii. 1, ei fod yn dyweyd, "Fel mai byw Arglwydd Dduw Israel, ni bydd y blynyddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i." A dysgir ni yma gan Iago, ei fod hefyd yn gweddïo am y peth y darfu iddo ei rag-hysbysu. Yr oedd efe dan gyfarwyddyd neilluol yr Ysbryd Glân yn gofyn am beth oedd yn ol ewyllys Duw i'w gyflawni yn yr amgylchiad anghyffredin hwnw; er hyny, nid yn y peth y gweddïodd am dano yr oedd yn esampl i ni, ond yn hytrach yn ei ffydd a'i daerineb. *Ac ni bu gwlaw dair blynedd a chwe mis.*—Dywedir yn 1 *Bren.* xviii. 1, fod yr Arglwydd yn y drydedd flwyddyn yn addaw gwlaw ar wyneb y ddaear, ond y mae yn debyg mai y drydedd flwyddyn o'r pryd yr aeth Elias i Sarephta a feddylir yno (1 *Bren.* xvii. 9): etto, gan fod y newyn wedi dechreu beth amser cyn hyny, mae tystiolaeth Iago yma yn lled eglur; sef, fod yr ysbaid oll yn dair blynedd a chwe mis.

18. *Ac efe a weddïodd drachefn.*—Y mae yn lled amlwg mai dyna y pryd y darfu iddo weddïo; sef, pan "aeth i fyny i ben Carmel, ac a ymostyngodd ar y ddaear, ac a osododd ei wyneb rhwng ei liniau;" 1 *Bren.* xviii. 42.

19, 20. CYMMHELLIADAU I YMGAIS AM IACHAWDWRIAETH EIN CYD-DDYNION.

Awgrymir gan rai mai un dyben mewn golwg gan yr apostol wrth ddwyn y dystiolaeth hon i mewn ydoedd ei gyfiawnhau ei hun am arfer graddau o lymder a gerwindeb yn ei ymadroddion blaenorol. Gallasai rhai o honynt deimlo yn anfoddlawn am ei fod wedi siarad mor eglur a chyhuddol wrthynt; etto dangosir yma nad oedd ganddynt un achos mewn un modd i ddigio, gan mai yr amcan ydoedd argyhoeddi y neb ydoedd wedi myned ar gyfeiliorn, ac felly ei achub rhag marwolaeth dragwyddol.

19. *Od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd.*—Y mae yr efengyl, fel y mae yn cynnwys athrawiaethau i'w credu, a rheolau i'w dilyn, yn cael ei galw "y gwirionedd;" *Eph.* i. 13. Priodol ydyw ei galw felly am ei bod yn cynnwys y gwirionedd mwyaf pwysig a mwyaf rhagorol. Y mae dynion yn myned ar gyfeiliorn trwy anghredu rhai o athrawiaethau yr efengyl, neu ŵyro mewn ymddygiad oddi wrth ei rheolau. *A throi o ryw un ef.*—Y mae yn amlwg oddi wrth hyn y dylai pob Cristion amcanu at ddychweliad y rhai y mae yn dyfod i gyfarfyddiad â hwynt. Nid ydyw i adael hyn i rywrai sydd mewn swydd neu swyddau neilluol, gan y dichon i "ryw un" fod yn offeryn i ddwyn y peth oddi amgylch.

20. *Gwybydded, y bydd i'r hwn a drodd bechadur.*—Bydded hyn yn hysbys iddo, pe byddai yn foddion i droi rhywun o gyfeiliorni ei ffordd, y byddai iddo hefyd sicrhau bendith mor fawr i'r cyfryw un fel ag i gadw ei "enaid rhag angeu." Dichon fod yr ymadrodd yn golygu hefyd, pe byddai rhywun yn foddion i droi un arall, y dylai gael gwybod hyny, os bydd yn bossibl, er mwyn ei gefnogi i fyned yn mlaen gyda gwaith mor dda. Caffed wybod er calondid a llawenydd iddo. *A chuddio lliaws o bechodau.*—Y mae pechodau y dyn sydd yn cael ei ddychwelyd yn cael eu cuddio, gan ei fod yn cael maddeuant o honynt oll. Tybia rhai mai yr ystyr ydyw, fod lliaws o bechodau yn cael eu hattal, y rhai a fuasent yn dyfod i'r golwg mewn gweithredoedd oni buasai fod y pechadur wedi cael ei ddychwelyd.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL PEDR.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Er credu fod holl eiriau y gyfrol sanctaidd o awdurdod ddwyfol, nid ydym i fod yn ddifater o'r cyfrwng dynol drwy ba un y rhoddwyd hi i ni. Nid er mwyn cyrhaedd boddlonrwydd pellach am eu tarddiad dwyfol yn unig yr ydym i wneyd ymchwiliad am yr awduriaeth ddynol; ond y mae y wybodaeth gydfynedol a feddwn am yr awdwr yn gynnorthwy i weled prydferthwch a phriodoldeb llawer o sylwadau yn y cyfansoddiad, yn gystal a bod yr arddull ac amgylchiadau ereill yn brofion mewnol cedyrn yn aml pwy ydyw yr awdwr. Fel y mae yn rhaid i'r dwfr, pan y coder o'r afon neu y môr, gymmeryd ffurf y llestr sydd yn ei ddal, felly hefyd y mae y dadguddiad dwyfol wedi dyfod i ni drwy eiriau ac arddull y gwahanol bersonau a ysbrydolwyd i'w gyfleu. Byddai yn arwydd o ddiffyg chwaeth, yn gystal a cholled wirioneddol, i ni fod yn ddiystyr o'r llestri pridd sydd wedi trosglwyddo i ni drysor mor ammhrisiadwy. Meddyliau Duw ydyw y meddyliau; ond drwy eiriau ac ynglŷn â chymmeriadau dynol y maent yn ein cyrhaedd ni, a diau eu bod yn fwy effeithiol i gyrhaedd y galon pan yn dyfod o galon yn curo o dan amgylchiadau cyffelyb i'r eiddom ninnau. Yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth, yr oedd cyfrif mawr yn cael ei wneyd o'r awdwr, yn gystal ag o'i eiriau. Fel hyn y dyfynid yn aml y pryd hwnw, "Clywch beth a ddywed y dysgybl anwyl—yr hwn a bwysai ar fynwes yr Iesu, gan gasglu gwirionedd." "Gwrandewch ar Paul—geiriau yr hwn sydd yn ymddangos i ni, nid fel geiriau, ond fel ymdoriadau taranau." "Oni wrandewch chwi ar Pedr, wrth yr hwn y dywedodd y Bugail mawr, 'Portha fy nefaid.'"

Am yr epistol cyntaf hwn, a briodolir i Pedr, nid oes eisieu profion cadarnach nag a feddir o blaid ei awduriaeth. Dyfynir o hono, neu cyfeirir ato fel ei eiddo mewn llinell ddidor gan y tadau—Polycarp, dysgybl Ioan, Papias, Irenæus, Clemeus o Alexandria, Tertullian, ac Origen. Y mae Eusebius yn crynhoi golygiadau y rhai a aethant o'i flaen, ac yn dywedyd, "Derbynir un epistol i Pedr, yr hwn a elwir ei gyntaf, yn gyffredinol. Y mae henuriaid y dyddiau o'r blaen yn eu hysgrifeniadau wedi defnyddio yr epistol hwn fel yn ddiammheuol." Y mae y profion mewnol yr un mor gedyrn. Nid oes ond dau feirniad diweddar, o unrhyw nôd, wedi meiddio gwadu ei awduriaeth; ond am un, Schwegler, dywedir mai efe yw y mwyaf diofal; ac am y llall, De Wette, y mwyaf cyfnewidiol o'i holl frodyr.

Pwy sydd heb ddymuno clywed gair drwy enau yr apostol Pedr, pan y cofiom y fath le pwysig a lanwai yn mhlith yr apostolion? Efe oedd y penaf o honynt cyn cyfodiad Paul; ac am dano yntau hefyd, efe a agorodd y drws i'w winllan bennodol. Ni lefarodd, y mae yn wir, gymmaint wrthym a Paul drwy lythyrau; ond y mae amrywiaeth ei lais ef yn taraw yn hyfryd ar ein clustiau, yn enwedig pan feddyliom mor nodweddiadol o hono yw ei holl eiriau. Credir gan liaws o ddduwinyddion dysgedig ac ammhleidgar yn mysg y Protestaniaid mai efe ydoedd "y graig," ar yr hon y dywedai yr Iesu wrtho yr adeiladai ei eglwys, ac y rhoddwyd iddo ef yn weithredol agoriadau teyrnas nefoedd. Y mae hanes yr eglwys ar ol esgyniad y Pen Mawr yn cadarnhau y syniad. Efe yw y prif offeryn gyda'r weinidogaeth—yn pregethu, yn derbyn i mewn Iuddewon a Chenhedloedd i'r eglwys, ac yn gosod i lawr delerau cymmundeb y saint. Ar ddydd y Pentecost, y mae yn adeiladu tair mil o eneidiau ar sancteiddiaf ffydd yr efengyl (*Act.* ii. 14—41); ac yn bur fuan ar ol hyny, rai miloedd yn chwaneg (*Act.* iv. 41).

Megys ag yr ydoedd wedi cymmeryd y flaenoriaeth yn yr eglwys ar etholiad olynydd Iudas, felly y parhaodd, nes y cyfarwyddwyd ef gan weledigaeth o'r nef, i dderbyn y Cenhedloedd hefyd i fwynhau rhagorfreintiau yr efengyl, pan y bedyddiwyd Cornelius a'r eiddo: *Act.* x. Bellach y mae y gweithgarwch mawr a ddangosid gan Pedr fel apostol yr enwaediad, ac fel y cyntaf hefyd i efengylu i'r dienwaediad, yn cael ei gysgodi gan weithgarwch mwy Paul. Dwywaith y sonir am dano ar ol hyn, heb law y casgliadau a wneir oddi wrth ei epistolau. Unwaith, yn y cynghor yn Ierusalem (*Act.* xv.), cawn ef yn dal i fyny gyssondeb ei genadwri at Cornelius yn Cesarea, yn derbyn y Cenhedloedd i'r eglwys, drwy benderfynu yn gadarn ac yn oleu nad ydoedd y Cenhedloedd i gadw cyfraith Moses. Yn ddiweddarach na hyn, fel y dysgir ni yn *Gal.* ii. 11, pan yn Antioch pallodd ei wroldeb a'i gyssondeb yn ei addysg flaenorol. Er iddo am amser yno fwyta gyda'r Cenhedloedd, etto pan y daeth rhai oddi wrth Iago i'r ddinas hono, a chamddarlunio addysg yr apostol hwnw, efe a giliodd oddi wrthynt, gan ofni y rhai o'r enwaediad, ac felly rhoddi ar ddeall nad oedd yr eglwys yn un—fod rhyw uwchafiaeth yn perthyn i'r rhai a gadwent i fyny drefniadau yr hen oruchwyliaeth. Am hyn y gwrthwynebodd Paul ef yn ei wyneb, am fod ei 'ymddygiadau eisoes wedi ei gondemnio, ganddo ef ei hun, a chan yr holl gynghor. Dyma ystyr *Gal.* ii. 11. Yn yr enghraifft hon ymddengys i Pedr ddychwelyd at ei hen arferion blaenorol. Cafodd amddiffyn

neillduol drosto tra yn cyflawni y gwaith neillduol a ymddiriedwyd iddo gan yr Arglwydd, ac fe allai fod ei lwyddiant blaenorol wedi ei arwain i ormod o hunan-hyder a diofalwch.

Pa mor uchel bynag ydoedd safle Pedr yn mysg ei frodyr, ac o herwydd hyny ei eiriau yn ein meddyliau ninnau, nid ydym i feddwl ei fod yn amgen na *primus inter pares*—cyntaf yn mhlith ei debyg. Nid oedd ganddo un swydd ar wahân oddi wrth ei frodyr, ac nid ydoedd yn hawlio unrhyw allu uwchlaw iddynt. Nid oes un sail oddi wrth ei safle dros ddadiadau y Babaeth—ei fod yn gynrychiolydd Crist, nid yn bersonol, ond o herwydd swydd sydd yn hanfodol i barhâd yr eglwys. Yn Ierusalem, hyd yn oed yn ystod arosiad Pedr yno, gydag Iago y trigai y prif awdurdod; ac nid oes un awgrymiad fod Pedr, pa safle bynag a feddai yn ei fywyd, wedi trosglwyddo dim urddas neillduol i neb fel olynydd. Wedi y crybwylliad am yr helynt gyda Paul yn Antioch, nid oes dim o'i hanes hyd nes y mae yn anfon y llythyr cyntaf hwn.

AT BWY YR YSGRIFENWYD EF.

I'r ymofyniad hwn y mae y llythyr ei hun yn rhoddi attebiad, "At y dyeithriaid sydd ar wasgar," &c.; yn fwy llythyrenol, 'dyeithriaid etholedig gwasgariad Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia.' Nid oes hanes fod Pedr wedi bod yn pregethu yn y taleithiau hyn. Gwyddys yn sicr eu bod yn faes y llafuriodd Paul lawer ynddo. Gan y dywedir yn *pen.* v. 12 o'r epistol, mai gyda Silfanus (Hebraeg, *Silas*) yr anfonwyd ef at y rhai y cyfeirid ef atynt, a bod Silas wedi bod yn gydymaith â Phaul am flynyddoedd, fe dybir fod Silas, tra yr oedd Paul yn garcharor yn Rhufain, wedi cael ei anfon ar ymweliad â'r eglwysi yn y taleithiau, a bod hanes ei ymweliad wrth Pedr wedi cynnhyrfu y diweddaf i anfon epistol atynt. Y mae absennoldeb cyfarchiadau personol ynddo yn awgrymu nad oedd yr awdwr wedi ymweled â'r eglwysi ei hunan; ond y mae yn gwbl amlwg ei fod yn berffaith hyddysg o'u hamgylchiadau allanol, a'u hagwedd ysbrydol. Nid ydyw Pedr yn enwi Silfanus fel ei gydlafurwr, ond "brawd ffyddlawn i chwi (fel yr wyf yn tybied.") Tebyg mai Silfanus ddygodd gydag ef lythyrau Paul y mae cyfeiriadau mor amlwg atynt yn yr epistol hwn. Gan ei bod yn dra sicr y byddai Pedr yn defnyddio cyfieithydd, am nad oedd yn gallu arfer yr iaith Roeg yn rhwydd, nid ydyw yn annhebygol nad ydoedd Silfanus, fel y bu Marc gyda'r Efengyl a briodolir o ran awduriaeth i Pedr, yn darllen epistolau Paul gydag ef, a bod Pedr wedi defnyddio ei gynnorthwy hefyd i roddi mynegiad i'r meddyliau a awgrymid iddo gan yr Ysbryd Glân. Y mae llawer o gyfeiriadau yn y llythyr at amgylchiadau neillduol oedd yn wybyddus i'r awdwr. Fel yr eglwys yn Ephesus, y galwodd Paul am ei henuriaid ato i Meletus (*Act.* xx.), felly yn yr epistol hwn annogir yr henuriaid i borthi praidd Duw. Cyfeirir yma hefyd at erledigaeth o ryw fath. Gwel iii. 17; iv. 12—19; a iv. 4—8. Nid ydoedd yr eglwysi chwaith yn rhydd oddi wrth dueddiadau i'w beio, am yr hyn y rhoddir rhybuddion. Gwel ii. 11, 12, 16; v. 2, 3; ii. 1; iii. 8—12; iv. 9.

Y mae gwahaniaeth barn yn mhlith esbonwyr o barth i ba genedl y perthynai y "dyeithriaid" a gyferchir yn yr epistol. Tybia yr hynafiaid yn unfryd mai dychweledigion Iuddewig yn unig a olygid. Reuss, ar ei ben ei hun yn eu plith, a ddaliai mai cyfarch Cenhedloedd dychweledig y mae yr apostol, a golyga efe wrth *parepidêmoi*, dyeithriaid ysbrydol—Israeliaid yn wir, ac nid y rhai naturiol: gwel hefyd *pen.* ii. 11. Barn yr esbonwyr galluocaf yn awr yw, mai at Gristionogion Hebreig yn benaf, ond nid yn gwbl, y cyfeirir y llythyr. Dwy ystyriaeth sydd o blaid cymmeryd y Cenhedloedd hefyd i mewn:—Yn gyntaf, Cenhedloedd oedd yr eglwysi gan mwyaf yn y taleithiau hyny; ac ni buasai Pedr, y pregethwr cyntaf at y Cenhedloedd, yn eu hesgeuluso yn ei lythyr. Yn ail, y mae cyfeiriadau yn y llythyr nas gellir eu cymmhwyso oud at Genhedloedd. Pen i. 14, a ddywed eu bod yn rhodio yn eu trachwantau mewn anwybodaeth. Pen ii. 9, 10, a sonia am alw "o dywyllwch," "a'r rhai gynt nid oeddych bobl;" a dyma gyflwr Cenhedloedd yn unig. Yn *pen.* iv. 3, priodolir i'r darllenwyr rodio mewn "ffiaidd eilun-addoliad."

AMSER A LLE EI YSGRIFENIAD.

Nid oes nemawr ddadleu ynghylch yr amser, am nad oes neb yn gallu ei sefydlu yn benderfynol. Sonir am erledigaeth ynddo, ond nid ar raddfa eang. Nid oedd y tân etto wedi dechreu ffaglu; dim ond rhyw fygiad bygythiol, ac ambell wreichionen yn gwneuthur ei hymddangosiad. Nid oedd y farn wedi dechreu etto o dŷ Dduw. Y cyfnod y mae hanesiaeth yn ei ddisgrifio fel y tebycaf i amgylchiadau y llythyr ydyw cyn dechreu yr erledigaeth greulawn o dan Nero, o 63—67 o. c. Y mae hyny o gyfeiriadau personol sydd yn y llythyr yn cydweddu yn hollol â'r terfynau hyn. Dywedir fod Marc gyda Pedr (*pen.* v. 13), pan yn ei ysgrifenu; ond yn *Col.* iv. 10, yr oedd gyda Phaul yn Rhufain, *h.y.*, rhwng 61—63 o. c. Etto: yn 2 *Tim.* iv. 11, crybwyllir am dano yn Asia Leiaf, ac yn dyfod gyda Timotheus i Rufain, o ddeutu 67 neu 68 o. c.; ac os cydsynir mai yn Babilon lythyrenol yr ysgrifenwyd y llythyr hwn, y mae hanes Marc yn cyttuno yn hollol â'r terfynau 63—67. Ond y mae hyn yn ein harwain at ddadl lle ysgrifeniad yr epistol. Yr unig gymmhorth i benderfynu hyn yw y cyfeiriad yn *pen.* v. 13: "Y mae yr eglwys sydd yn Babilon yn gydetholedig â chwi yn eich anerch;" neu fel y dylid cyfieithu, 'Y mae yr hon sydd gyd-etholedig â chwi yn Babilon yn eich anerch;" *h.y.*, gwraig Pedr. Gwahaniaethir yn ddirfawr gyda golwg ar yr hyn a olygir wrth Babilon yma. Y mae rhai yn golygu y ddinas hono ar lan yr Euphrates, ereill le o'r enw yn yr Aipht, ereill Ierusalem, neu Rhufain yn allegawl neu ffigyrol. Ond y ddau ddosbarth mwyaf yw y rhai sydd yn sefyll dros Babilon yn Caldea, a Rhufain yn ffigyrol. Barn y rhan fwyaf o'r hen esbonwyr oedd mai Rhufain a olygid; ac yn ddiweddarach, mabwysiedir yr un golygiad gan Schaff, Neander, Steiger, De Wette, a Wieseler, ac y mae rhai beirniaid craff yn Lloegr yn awr yn fyw o'r un farn hefyd. Pe crybwyllem Alford, ysgrifenydd yr erthygl ar Pedr i "*Smith's Dictionary of the Bible*," a'r proffeswr Plumptre, fe allai y caem enghraifft o gyfartaledd a phwysigrwydd y rhai a goleddant y naill syniad a'r llall. Fel hyn y dywed yr erthygl o "*Smith's*:"—"Yr oedd llawer o gymmhellion i Pedr ddewis Babilon, prif ddinas y dwyrain, fel ei gartref. Yr oedd y teuluoedd Iuddewig yn ffurfio yno gyfundeb ar wahân; yr oeddynt yn gyfoethog, llwyddiannus,

ac wedi sefydlu trefedigaethau mewn amryw ranau o Asia Leiaf. Yr oedd eu hiaith, cymmysgedd ond odid o'r Hebraeg a'r Nabataeaidd, yn debygolrwydd mawr i'r eiddo y Galileaid. Nid yw yn dybiaeth afresymol fod sefydliad Cristionogaeth yn y rhanau hyny wedi ei gyssylltu yn neilldoul âg arosiad Pedr yn Babilon." Fel hyn y dywed Alford etto; "Ai Babilon ar yr Euphrates yw hon, yn *pen.* v. 13? Attebwn, Pa ham nad ê? Dyfynir hen syniad gan Eusebius a Jerome fod yr enw yma yn golygu Rhufain, a bod yr apostol yn defnyddio enw ffigyrol am dani. Ond byddai y fath ystyr yn sicr yn anghysson â phob rheol o eglurhadaeth deg. Ac felly, y mae yr ystyr sydd yr gofyn fod 'i'r hon sydd gyd-etholedig â chwi,' olygu yr eglwys yn Rhufain. Gallwn ddyweyd yn deg, os ydym i fyned gymmaint ar led i chwilio am eglurhadau, fod Silvanus a Marc hefyd yn allegau cyfriniol. Nid oes genyf fi un ammheuaeth nad yw y fath ystyron dwfn am iaith syml mewn llythyr plaen, yn hollol heibio i'r nôd. Y mae ystyr amlwg Babilon yn boddloni pob gofynion, fel y mae hefyd y cyfeiriad yn y frawddeg uchod i'r chwaer-wraig, yr hon a arweiniai Pedr gydag ef, yn ol 1 *Cor.* ix. 5, i'w deithiau cenhadol. Cyfeirir yr epistol nid at eglwysi, ond at unigolion; naturiol, gan hyny, i'r hon sydd yn gyd-etholedig â hwy fod nid yn eglwys, ond yn berson. Crybwyllir lle eu preswylfod hwy yn y cyfarchiad—pa ham nad yr eiddo yntau? Yn rhestr y taleithiau yn y dechreu, rhoddir hwy i lawr yn y drefn y lleolid hwy gan un yn ysgrifenu o'r dwyrain; ac y mae ysgrifenydd yn y chweched ganrif yn dwyn yr epistol hwn yn mlaen i brofi fod yr efengyl wedi myned y tu hwnt i derfynau yr ymherodraeth Rufeinig yn yr oes apostolaidd". I ddangos fel y mae dysgedigion yr oes hon hefyd yn amrywio yn eu barn, dodwn yma olygiad Plumptre mewn erthygl ar "*The old age of St. Peter*:"—O'r tri golygiad a gymmerwyd o'r adnod hon (*pen.* v. 13), hwnw sydd yn gorphwys ar y tir cadarnaf o lawer âg sydd yn canfod yn 'Babilon,' nid yr hen ddinas hanner anghyfanedd ar yr Euphrates, na'r dref o'r enw yn yr Aipht, ond enw cyfriniol am Rufain.... Dysgai i gredinwyr y gwasgariad (*h. y.*, dychweledigion Iuddewig yn benaf) edrych yn mlaen am farn ar ddinas y Cesariaid mor effeithiol a gorchfygol a'r un oedd wedi tori i fyny unbenaeth eang y Caldeaid. Yn yr achos hwn y mae y crybwylliad, nid am yr eglwys, ond y wraig oedd gyd-etholedig â'r rhai yr anfonai anerch atynt, yn chwanegu dolen gydiol arall. Gallasai hi, cydymaith ei phriod yn ei deithiau, yn dra phriodol anfon anerch at y rhai a adnabuasai; gwragedd a merched pa rai, yn dra thebygol, a ddysgasai i ymgais at fywyd uwch a phurach, ac i ba rai yr oedd wedi dangos cynllun o wraig hyd yma newydd a dyeithr iddynt hwy." Gan fod dysgedigion hen a diweddar yn amrywio mor bell yn eu barn ar y mater hwn, nid oes genym ond gadael i'r darllenydd ddewis y golygiad sydd yn ymddangos iddo ef wedi ei gadarnhau â'r rhesymau cryfaf. Naturiol ydoedd i'r esbonwyr Pabaidd gymmeryd Babilon i olygu Rhufain, o blegid drwy hyny yn unig y gallant gael y cyfeiriad lleiaf o'r Testament Newydd iddo fod yno. Ddarfod iddo ymweled â Rhufain, a dioddef merthyrdod drwy gael ei groeshoelio â'i ben i waered, yn ol y traddodiad, nid oes dim yn yr Ysgrythyr yn erbyn hyny; ond ddarfod iddo blanu yr eglwys gyda Phaul, neu ddyrchafu yr esgobaeth hono uwch law pob un arall, sydd haeriad cwbl anghysson â'r Beibl, am nad oedd swydd gyffelyb i hono a welir yn awr yn yr oes apostolaidd.

AMCAN A CHYNNWYS Y LLYTHYR.

Dywed yr Archesgob Leighton, yr hwn a ysgrifenodd esboniad helaeth a chanmoladwy arno:—"Cynnwysa yr epistol rhagorol hwn, fel y mae yn llawn o athrawiaeth efengylaidd, ac awdurdod apostolaidd, y cysuron a'r cyfarwyddiadau sydd yn angenrheidiol i'r Cristion ar ei daith i'r nef. Y mae yn dyrchafu ei feddyliau a'i ddymuniadau am y dedwyddwch hwnw, ac yn ei gadarnhau gyferbyn a phob gwrthwynebiad ar ei ffordd, pa un bynag a ydyw yn codi oddi wrth lygredd oddi fewn, ai ynte oddi wrth demtasiynau a phrofedigaethau oddi allan." Manylir ar hyn yn mheliach gan un arall, mai ei amcan yw "1. Cysuro a chadarnhau y Cristionogion mewn adeg o brofiad tanllyd. 2. Cymmhell y dyledswyddau ymarferol ac ysprydol oedd yn tarddu o'u galwedigaeth. 3. Eu rhybuddio am y temtasiynau arbenig a berthynent i'w hamgylchiadau. 4 Symmud pob ammheuaeth mewn perthynas i gywirdeb a pherffeithrwydd y gyfundrefn o grefydd oeddynt eisoes wedi ei derbyn." Ac i Gristionogion Hebreaidd yr oedd pwys mawr ar dystiolaeth Pedr uwchlaw yr apostolion hynaf, ac yn arbenig uwchlaw Paul. At hyn y mae'r awdwr yn cyfeirio yn niwedd y llythyr: "Ysgrifenais ar ychydig eiriau, gan gynghori a thystiolaethu mai gwir ras Duw yw yr hwn yr ydych yn sefyll ynddo."

Ni thybiwn yn ddymunol roddi yma grynodeb o faterion y llythyr, gan y gwneir hyny yn fwy priodol o flaen pob pennod. Ymchwiliad tra dyddorol ydyw edrych i mewn pa mor bell y mae ei athrawiaeth a'i faterion yn cydweddu â'r hyn a wyddom drwy y Testament Newydd o hanes a chymmeriad Pedr. Yma cawn y cyssondeb mwyaf llwyr Rhydd le arbenig i ras Duw fel ffynonell fawr trefn yn iachawdwriaeth, yr hyn sydd yn ei arwain yn naturiol at gyfryngdod Crist, o ddeutu yr hwn y mae ei holl sylwadau yn troi. Y mae yn hoffi edrych arno nid fel yr hwn a'i darostyngodd ei hun, ond fel Eneiniog wedi gorphen ei waith, a'i ogoneddu. Gwel ii. 21; iii. 18; iv. 1, 13. Yn nglŷn â hyn, daw nodwedd arbenig arall yn ei gymmeriad i'r golwg; sef yw hyny, fel y mae ei feddwl yn llawn o un syniad—sylweddoliad gobeithion y Messiah. Sefydla ei lygad yn ddiysgog ar ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu, ar gyflawniad y prophwydoliaethau, a llawn ddadguddiad y deyrnas addawedig. Rhoddir i Pedr gan rai y teitl o "Apostol gobaith." O'r tri gras a berthyn i'r Cristion, gobaith yw ei bwngc mawr ef.

Peth arall sydd yn ei nodweddu, yr hyn a fuasem hefyd yn ei ddisgwyl yn yr hwn a ddysgwyd drwy weledigaeth mor arbenig i beidio galw dim mwyach yn gyffredin neu aflan, ydyw yr eangder a'r cwblhâd mawr a ddengys fel yn nodweddu goruchwyliaeth yr efengyl. Nid oes neb yn fwy hyddysg yn nghysgodau ac yn enwedig prophwydoliaethau yr Hen Destament; ond nid ydyw yn cyfeirio at un o honynt i fawrhau y gyfraith, ond yn hytrach i ddangos fel y maent yn derbyn eu hystyr uchaf oddi wrth eu cwblhâd yn ngoruchwyliaeth yr efengyl. Y mae ei holl gymmhelliadau ymarferol wedi eu seilio ar orchymynion, esampl, bywyd, marwolaeth, adgyfodiad, ac ail ddyfodiad Crist. Dengys hyn mor lwyr yr ydoedd wedi diangc uwchlaw ysbryd ei oes, ac wedi yfed yn

neiaeth o ysbryd Crist. Sylwir fod cryn lawer o debygolrwydd rhwng addysg Pedr a'i Arglwydd—athrawiaethau yn cyfeirio yn uniongyrchol at ddyledswyddau ymarferol. Rhoddir i ni gyfeiriadau lliosog hefyd at y cyssondeb rhwng yr athrawiaeth yn ei epistol a'i bregethau yn Llyfr yr Actau. Gwasanaethed y rhai hyn fel engraifft: 1 *Pedr* ii. 7; ac *Actau* iv. 11; i. 12; v. 32, &c. Y mae llawer o debygolrwydd rhwng addysg Pedr a'r eiddo Paul, o ran mater, fel y gallesid disgwyl; ond y mae neilldnolion y ddau yn gwbl wahaniaethol. Erbyn cael ei gyfarwyddo i ysgrifenu y llythyr hwn gan yr Ysbryd Glân, yr oedd cymmeriad Pedr i raddau pell iawn "wedi ei berffeithio, ei gadarnhau, ei gryfhau, a'i sefydlu," fel mai tra phriodol y gallai yn y wedd hon fyned a chadarnhau ei frodyr. Fel y sylwa un, "Yr oedd y dyn naturiol, y Simon Barionah, wedi myned heibio; ac y mae y gwir Bedr, o'r diwedd, teilwng o'i enw, yn anfon allan yr epistolau mawrion cylchredol, y rhai oeddynt y pryd hwnw yn gaerau, ac yn rhagfur i'r eglwys yn erbyn lluoedd o gyfeiliornadau tywyll a pheryglus, a'r rhai hefyd sydd yn parhau i roddi goleuni i'r holl ymgeiswyr am wirionedd, a chysur i'r edifeiriol a'r galarus."

ARDDULL A NODWEDD Y LLYTHYR.

Er fod llawer o wirioneddau cyffredin yn Epistol Pedr i lythyrau Paul, etto, y mae dull y ddau o ymdrin â'u materion yn gwbl wahanol. Y mae y diweddaf yn olrhain ei egwyddorion i'w dechreuad, ac yn dilyn eu canlyniadau gyda grym, barn ysbrydol, cymmhlethiad o ymresymiad, a pherffeithrwydd cyfundraethol; ond y blaenaf yn ymfoddloni ar ychydig o ffeithiau, ac egwyddorion yn sylfaen i ffydd, ac yn gymmhelliad i ymarfer y gwahanol rasau Cristionogol. Yn unol â bywiogrwydd ei ysbryd, y mae yn cyffwrdd âg amrywiaeth mawr o byngciau: nid i'w trin yn ymresymiadol, ond yn codi yn fwy drwy ddeddf cymdeithasiad meddyliddrychau. Y mae y gair diweddaf mewn un frawddeg yn dyfod yn brif destyn brawddeg ddilynol; ac nid yn anaml y ceir yr un meddwl yn cael ei grybwyll drachefn, agos yn yr un geiriau.

Gwneir sylw cymmeradwyol iawn o'r llythyr gan bawb—gwnant ef yn destyn eu myfyrdod. Bengel a ddywed: "Rhyfeddol ydyw pwysigrwydd a bywiogrwydd traethawd Pedr, yn hyfryd yn cadw sylw y darllenydd." Grotius etto: "Y mae i'r llythyr hwn rymusder cydnaws â thueddfryd y penaf o'r apostolion." Erasmus yn mhellach: "Epistol hollol deilwng o'r penaf o'r apostolion, yn llawn o awdurdod ac urddas apostolaidd—prin mewn geiriau, ond ffrwythlawn mewn meddyliau." Nis gallwn derfynu yn well nag yn ngeiriau Alford: "Nid oes un epistol yn y canon sanctaidd, ag y mae ei iaith a'i ysbryd yn dyfod yn fwy uniongyrchol adref at dreialon personol, ac angen a gwendidau y bywyd Cristionogol. Y mae meddwl ein Tad tuag atom, gwedd ein Harglwydd bendigedig fel y cyflwynir ef i ni, a'r parotoad drwy ddioddefaint i'r etifeddiaeth nefol, oll yn cael eu darlunio yma, ac oll yn hynod hoffus a chalonogol. Ac y mae cymmhellion i burdeb sanctaidd yn codi yn uniongyrchol o gydnabyddiaeth syml a phlentynaidd o ewyllys ein Tad nefol i'n dwyn ni i'w dragwyddol ogoniant."

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL PEDR.

PENNOD I.

1 *Y mae efe yn bendithio Duw am ei amryw rad ysbrydol:* 12 *gan ddangos nad ydyw yr iachawdwriaeth yn Nghrist beth newydd, eithr peth a brophwydwyd am dano er ys talm.* 13 *Cynghor i fyw yn ddiwiol, can eu bod hwy wedi eu geni o newydd trwy air Duw.*

PEDR, apostol Iesu Grist, at y dyeithriaid sydd ar wasgar ar hyd Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia, B. A. 63. [a] Esa. 65. 2, 22.

2 [a] Etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad, trwy [b] sanctbodaeth" yma bron yn gyfystyr a 'chynghor ac arfaeth.' Nid rhagwelediad ydyw yn unig, gan y sonir am dano fel yr achos symmudol yn yr etholedigaeth. "Ofer ydyw dychymmygu am ragweledïad o ffydd mewn dynion, ac fod yr olwg o'r ffydd hono fel ammod yr etholedigaeth wedi eu dewis."—*Leighton.* "Cynnwysa rhagwybodaeth ewyllysio a charu."—*Bengel.* "Y gwahaniaeth rhwng rhagwybod a rhagderfynu yw hyn—yn y drychfeddwl cyntaf, y mae gwybodaeth yn cael ei grybwyll yn arbenig, gan ddeall fod holl drefniadau Duw yn seiliedig ar ei hollwybodaeth."—*Alford.* Sylw pwysig o eiddo Awstin, medd Alford, yw hwnw; "Gwneyd dynion i fod yn etholedig y mae Duw, nid eu darganfod." Yn y brawddegau hyn, cymmerir i mewn yr holl Drindod sanctaidd yn dwyn perthynas â gwaith y prynedigaeth, a cheir yn mlaen yn y llythyr gyfeiriadau neilldiol atynt:—"Y Tad" yn y bennod hon, *adn.* 3, 15, 17; "Yr Ysbryd," *adn.* 11, 12, 22; "Crist," *adn.* 3, 7, 11, 13, &c. *Drwy sancteiddiad yr Ysbryd.*—Groeg: 'yn sancteiddiad,' &c. Y mae ychydig o anhawsder ynglŷn â pherthynas y brawddegau hyn â'u gilydd, ond eglura Alford fod goleuni yn tarddu oddi wrth yr arddodiaid sydd yn eu dwyn i mewn—"'Yn ol' (*cata*), rhagwybodaeth," &c.; "yn (*en*) sancteiddiad, 'i' (*eis*), ufudd-dod,"' &c. Y mae *cata* yn golygu y fynnonell, y cynllun parhaus yn ol pa un, '*en* yr elfen ammodol a pharhaol yn mha un, ac *eis* y canlyniad gyda golwg ar ba un. Yr etholedigaeth ydyw y cychwyniad cyffredinol, a hwnw yn y lle cyntaf yn ol rhagwybodaeth, wed'yn yn sancteiddiad yr Ysbryd. Yr Ysbryd fel gweithredydd y sancteiddiad. *I ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist.*—Nid ydyw yr "ufudd-dod" i gael ei gyssylltu âg "Iesu Grist;" dim ond y "gwaed," gan mai i'r etholedigion y mae yr ufudd-dod yn perthyn. Ufudd-dod ffydd a feddylir yma, ffrwyth eu hundeb â'r Arglwydd Iesu. Trwy daenelliad gwaed Iesu Grist yr oeddynt yn dyfod yn weithredol i'r cyfammod, fel ag y darllenir am Israel yn dyfod i mewn i gyfammod Sinai drwy daenelliad y gwaed arnynt, Gwel *Exod.* xxiv. 8. Nid moddion y dyfodiad i mewn a olygir yma yn unig, ond hefyd cymmwysiad pureiddiol o'r gwaed at y galon, yn ol y frawddeg o'r blaen, "yn sancteiddiad yr Ysbryd." Wedi i'r apostol ddechreu gydag "etho[l]

[a] Esa. 65. 2, 22.
[b] Act. 20. 32; 1 Cor. 1. 30; 2 Thes. 2. 13.

Pennod I.

Cynnwysiad. — Cyfarchiad, a disgrifiad cyffredinol o Gristionogion fel etholedigion Duw yn Drindod o bersonau (1, 2): gwerth trugaredd Duw yn eu dwyn i feddiant o ragorfreintiau presennol, ac edrych am etifeddiaeth ddyfodol (3—5), yn gysson hyd yn oed â phrofedigaethau tymmorol (6—9): cyfeiriad at brophwydoliaethau am ddioddefaint Crist, ac iachawdwriaeth ei bobl (10—12): cymmhellion i sobrwydd, gobaith, ufudd-dod, a sancteiddrwydd, wedi eu seilio ar ymwybyddiaeth o brynedigaeth, a chymmod drwy waed Crist, a'i adgyfodiad, ac fel profion hefyd o adgenhedliad ysbrydol drwy air Duw.

1. *Pedr, apostol Iesu Grist.*—Rhoddwyd yr enw hwn iddo gan yr Iesu yn gyntaf yn ei ffurf Hebraeg, *Cephas* (*Ioan* i. 42), ac wedi hyny yn y ffurf Roegaidd (*Mat.* xvi. 18); a'r ystyr yn y naill a'r llall, yw craig neu gareg. *At y dyeithriaid sydd ar wasgar.*—Yn llythyrenol, 'At ddyeithriaid etholedig gwasgariad Pontus,' &c. Wrth y "dyeithriaid" yma y golygir yr Iuddewon yn benaf, er fod y Cenhedloedd hefyd yn cael eu cynnwys; a chymmerir y gair *parepidēmoi* felly yn ei ystyr ysbrydol, fel yn *Heb.* xi. 13, a *pen.* ii. 11. Yr oedd yr Iuddewon a'r Cenhedloedd yn ddyeithriaid ar y ddaear, er mai'r cyntaf yn unig a berthynent i'r gwasgariad—ond yn awr fe edrychir arnynt fel un deiliaid cyffredin cyfammod Duw. *Ar hyd Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia.*—Perthynai y taleithiau hyn i'r wlad a adnabyddid ar ol hyny o dan yr enw Asia Leiaf. Y mae Asia Leiaf yn eangach na'r Asia a grybwyllir yn y rhestr uchod; ond y naill a'r llall yn llawer cyfyngach na'r cyfandir mawr a elwir felly. Yma enw ydoedd ar raniad Rhufeinaidd o'r wlad, yr hwn a lywodraethid gan swyddog a elwid *pro-consul.* Cynnwysai y taleithiau canlynol:—Mysia, Lydia, Caria, Phrygia, Pisidia, a Lycaonia. Tynir casgliad oddi wrth eu trefniad (Pontus, Galatia, &c.), yn yr adnod hon, mai o Babilon yr ysgrifenwyd yr epistol hwn, gan mai yn y drefn hon yr ymddangosent i un yn aros yn Babilon. Yn mhob un o honynt, oddi gerth Bithynia, sonir am amryw eglwysi, y rhai y darfu i Paul gan mwyaf eu sefydlu.

2. *Etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad.*—Wedi eu hethol gan Dduw i'w deulu mabwysiedig yn Nghrist. Sylwa Alford fod "rhagwy-

[a] Heb. 10. 22. [d] 2 Cor. 1. 3; Eph. 1. 3, 17. [e] Exod. 34. 6; Rhuf. 5. 15—21; Eph. 1. 7; 2. 7—10. [f] Ioan 1. 13; 3. 3—8.

eiddiad yr Ysbryd, i ufudd-dod a [c] thaenelliad gwaed Iesu Grist. Gras i chwi a heddwch a amlhäer.

3 [d] Bendigedig *fyddo* Duw a Thad yr Arglwydd Iesu Grist, [e] yr hwn yn ol ei fawr drugaredd [f] a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,

4 I [g] etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd i chwi,

5 Y rhai [h] trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd i iachawd-

[g] 1 Pedr 3. 9. [h] 1 Sam. 2. 9.

yn ol rhagwybodaeth," nid yw, fel Paul yn *Rhuf.* vii. 30, yn dyfod yn gyntaf at y "galw:" ond y dilyniad megys o'r dechreu (*a priori*) sydd ganddo—sancteiddhâd, ystâd arosol y credadyn; ac yn ddiweddaf at y weithred yndd o, "ufudd-dod," a moddion cymmhwysiadol ei gadwedigaeth—"taenelliad gwaed Iesu Grist." Yn y nodau hyn dengys i'r dyeithriaid oedd ar wasgar, a phawb, pa fodd y mae iddynt ddeall eu perthynas â bwriadau tragwyddol Duw. Y prawf goreu o undeb y gangen â'r winwydden ydyw fod y dail weithiau yn dyner, a'r ffrwyth weithiau yn addfed. *Gras i chwi a heddwch a amlhaer.*—Gwahaniaethir "gras" oddi wrth "heddwch" gan un, fel y gwahaniaethir y ffrwyth neu yr effaith oddi wrth yr achos o hono. "Gras," yr achos; "heddwch," yr effaith—"a amlhäer:" a liosoger.

3. *Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.*—Pan y mae Duw yn ein bendithio ni, gwna hyny yn weithredol; yr ydym ni yn ei fendithio ef drwy gyhoeddi ei ddoniau i ni. Duw, sef Tad ein Harglwydd Iesu Grist, fel yn yr Ephesiaid: drwy ein perthynas â'r Arglwydd Iesu Grist y gallwn yn unig ddyfod yn feibion i Dduw. Sylwn fel y mae Pedr a Phaul yn tori allan mewn mawl yn yr olwg ar y bendithion mawr a ddygir i bechadur euog! *Yr hwn yn ol ei fawr drugaredd.—Eph.*, 'Cyfoethog o drugaredd.' Groeg: 'llawer o drugaredd.' "Y mae pechodau mawr a thrueni mawr yn gofyn trugaredd fawr; a llawer o bechodau a thrueni yn gofyn llawer o drugaredd."—*Bernard. A'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol:*—nid trwy yr enedigaeth naturiol y maent yn derbyn hawl i'r etifeddiaeth, ond drwy weithrediad yr Ysbryd Glân, yn cyfnewid o gyflwr natur i gyflwr gras. Un nôd uniongyrchol o'r adenedigaeth ydyw meddu gobaith bywiol. Nid y meddwl yn benaf, fel y sylwa Leighton, ydyw, fod gobaith y cyflawn yn byw pan y mae'r eiddo y rhagrithiwr yn marw—gall efe ddyweyd, 'Tra yr anadlaf y gobeithiaf,' ond gall y cyflawn ddyweyd, 'Wedi i mi fethu anadlu, gobeithiaf;' ond fod gobaith y Cristion, hyny yw, y gras o obaith, y teimlad mewnol, yn obaith sydd ganddo fywyd ynddo ei hun, sydd yn rhoi bywyd, ac sydd yn edrych am fywyd fel ei wrthddrych. *Trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.*—Dywed Bengel fod y gair "bywiol" yn cyfeirio at yr "adgyfodiad;" ond Alford, mai at yr adgenhedlu y cyfeiria, fel yr achos offeryngol o hono, ac mai cyfyngiad pellach ar yr adgenhedlu ydyw y gobaith bywiol. "Adgyfodiad Crist, yn dwyn bywyd a dawn yr Ysbryd, rhoddydd bywyd, ydyw yr hyn sydd yn galluogi yr enedigaeth newydd i obaith bywiol." "Priodolir adgyfodiad Crist yn bennodol fel achos ein bywyd newydd, a gelwir yr enedigaeth newydd yn adgyfodiad fel y mae ei adgyfodiad yntau yn cael ei alw yn enedigaeth 'y cyntafanedig oddi wrth y meirw.'"—*Leighton.*

4. *I etifeddiaeth.*—Y mae y plant, y rhai sydd wedi eu hadgenhedlu, yn etifeddion; a dyna yw eu hetifeddiaeth—holl gyflawnder y bendithion anweledig, am y rhai y mae y Cristion fel plentyn Duw yn diagwyl. Gelwir yr "etifeddiaeth" wrth wahanol enwau yn y llythyr hwn:—"iachawdwriaeth," "gras," "gras y bywyd," "tragwyddol ogoniant," ac "anniflanedig goron y gogoniant." Sylwa un yn dra phrydferth, "tra yr ydym yn ymdaith, y mae genym obaith bywiol: wedi i'r ymdaith ddarfod, y mae y gobaith bywiol yn troi yn etifeddu yr addewid." *Anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig.*—Sylwa Bengel fod Pedr yn dra hoff o bentyrru geiriau cyfystyr, ac etto nid ydyw y geiriau hyn yn gwbl felly. Golyga "anllygredig" yr hyn nad ydyw yn agored i adfeilio: y mae pob peth daearol yn darfod, a ninnau wrth eu mwynhau yn myned heibio. Golyga "dihalogedig," nad oes ddiffygion na ffaeleddau ynddynt, nac ynglŷn â hwynt. "Y mae," fel y dywed Leighton, "pob meddiannau daearol wedi eu llychwino gan bechod, yn eu caffaeliad, neu yn eu defnyddiad—y mammon anghyfiawn." Golyga "diddiflanedig" yr hyn nad ydyw yn edwino; fel y sonir am fath o ddail neu flodeu nad ydynt yn gwywo. Symia Alford y gwahaniaeth i fyny:—"Y mae yr etifeddiaeth o ran sylwedd yn anllygredig; o ran purdeb, yn ddihalogedig; ac o ran prydferthwch, yn ddiddiflanedig." *Ac yn nghadw yn y nefoedd i chwi.*—Y mae yn nghadw o'r dechreuad; a chan mai yn y nefoedd, yna yn sicr allan o berygl. Fel holl bethau y nefoedd, y mae yn anllygredig, &c., ac yn nghadw i chwi, y rhai sydd yn byw yn nherfynau yr oesoedd fel hyn.

5. *Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd.*—Y mae yr "etifeddiaeth yn nghadw," fel y dywed yr adnod ddiweddaf, a'r saint hefyd yn gadwedig yn ol hon. Nid yr un gair Groeg sydd am y ddau gadw. Yn yr adnod hon, gair milwrol ydyw "cael eich cadw mewn gwarchodaeth." Fel y sylwa Calvin, "Pa leshâd fod iachawdwriaeth yn nghadw i ni yn y nefoedd, tra yr ydym ni yn cael ein lluchio yn y byd fel ar fôr cynnhyrfus? Pa leshâd fod ein diogelwch wedi ei drefnu i fod mewn porthladd tawel, tra yr ydym ni yn nofio yn nghanol mil o longddryllfadau? Y mae yr apostol yn cyfarfod y gwrthddadleuon," &c. Ac fel y sylwa Bengel yn gryno, "Y mae yr etifeddiaeth yn cael ei chadw, a'r etifeddion eu gwarchod; ni bydd hono yn eisieu iddynt hwy, na hwythau iddi hi. Diogelwch ardderchog!" Y mae mil miloedd yn eu gwarchod. Ond pa fodd y maent yn gadwedig drwy allu Duw, a thrwy ffydd? Gallu Duw yw yr achos effeithiol, a ffydd ydyw yr hyn sydd yn cymmeryd gafael yn ngallu Duw; ac y mae gallu Duw yn cryfhau ffydd. *Iachawdwriaeth, parod i'w dadguddio yn yr amser diweddaf.*—Yr "iachawdwriaeth" yma yw gogoniant cyflawn y saint. Nid, fel y sylwa Alford, am fod y dadguddiad yn agos y dywedir ei bod yn barod i'w dadguddio, ond y mae y pwys ar y "parod:" y mae wedi ei gorphen, ac nid oes eisieu ond aros yr adeg na bydd yn cael ei dadguddio. Bydd hyny yn cymmeryd lle yn y dydd diweddaf. Tybia Bengel yr edrychir

[1] 1 Tim. 6. 14, 15. wriaeth, [i]parod i'w dadguddio yn yr amser diweddaf.

6 Yn yr hyn yr ydych yn mawr lawenhau, er eich bod ychydig [k] Iob 9. 27, 28: Esa. 61. 3; Heb. 12. 11. ychydig yr awrhon (os rhaid yw) [k]mewn tristwch, trwy amryw brofedigaethau:

[l] Iob 23. 10; Rhuf. 5. 3, 4; Iago 1. 3, 4. 7 Fel y [l]caffer profiad eich ffydd chwi, yr hwn sydd werthfawrusach na'r aur colladwy, cyd profer ef trwy dân, er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, yn ymddangosiad Iesu Grist: [m] Heb. 11. 1—27.

8 Yr hwn, [m]er nas gwelsoch, [n] Can. 1. 7; Ioan 21. 15—17. [n]yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn *ei* weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau â llawenydd [o] 2 Cor. 12. 4. anhraethadwy a gogoneddus:

9 [p] Gan dderbyn diwedd eich ffydd, *sef* iachawdwriaeth *eich* eneidiau. [p] Rhuf. 6. 22. Heb 11. 13.

---

ar yr holl gyfnod, o ddyfodiad Crist hyd ei ail ddyfodiad, fel un cyfnod, ac edrychir arno yn fyr o'i gymmharu â pharhâd yr Hen Destament: ac yn yr ystyr yna fod y dadguddiad yn agos, yn barod at y cyfnod hwn. Ond tybia Alford nad oes yma gyferbyniad; ond mai y dydd diweddaf ynddo ei hun a feddylir.

6. *Yn yr hyn yr ydych yn mawr lawenhau.*—Cyfeiria "yn yr hyn" yn nechreu yr adnod hon, yn ol rhai, at yr amser diweddaf, yn niwedd yr adnod flaenorol. Yn yr olwg ar yr amser diweddaf yr ydych yn llawenhau. Eithr Calvin a'i cyfeiria at yr holl syniad cyfansawdd hwnw, am obaith iachawdwriaeth, yr hon sydd wedi ei chadw yn y nefoedd. Y mae gwahaniaeth yn mysg amryw am amser y ferf "yr ydych yn mawr lawenhau." Golyga un dosbarth mai amser presennol, ond yn rhagdybied y dyfodol, a feddylir—tafiu yr olwg yn mlaen at amser y mawr lawenhau. Y rheswm am hyn yw, yn un peth, y byddai "yr awrhon" felly yn ddiangenrhaid; ac ni chydsaif y presennol, fel y ceir y gair hefyd yn *adn.* 8, a bod y llawenydd yn ogoneddus. Ond y mae y syniad arall a fabwysiedir gan liaws mawr, mai presennol syml ydyw y gair, yn gwbl gysson â rhanau ereill o'r Ysgrythyrau, y gall y credadyn orfoleddu hyd yn oed mewn gorthrymderau. Y mae "yr awrhon" yn wrthgyferbyniol, nid â'r dyfodol pan y bydd y llawenydd yn gyflawn, ond â'r dyfodol pan na bydd un elfen o dristwch ynddo. Am yr ystyr, gwel *adn.* 8. Y mae y gair *agaliao* yn gryfach o lawer na *chairo*, y gair cyffredin am lawenhau. Golyga y cyntaf arwyddion allanol, megys neidio o lawenydd. *Er eich bod ychydig yr awrhon (os rhaid yw) mewn tristwch.*—"Ychydig," neu dros ychydig amser: yr un fath yn *pen.* v. 10. "Os rhaid yw:"—tybia Bengel mai ystyr gadarnhaol sydd i "os" yn y fan hon:—Alford, o'r ochr arall, mai tybiaethol. Wrth fod am ychydig mewn tristwch, golygir yr eglwys yn ei chyfanswm, o blegid nid rhaid i'r holl saint gael eu trallodi. *Trwy amryw brofedigaethau:*—neu demtasiynau; ac yma cyfeirir yn arbenig at yr erledigaethau yr oeddynt danynt. Sylwa Calvin: "Y mae efe yn dwyn, nid un brofedigaeth, ond llawer; ac nid un math, ond amryw fathau."

7. *Fel y caffer profiad eich ffydd chwi.*—Amcan y profedigaethau ydyw cryfhau eich ffydd, a'i gwneyd yn amlwg, fel un gywir yn y dydd mawr. Fel y caffer, neu y darganfydder eich ffydd yn y dydd hwnw, wedi dal y prawf. Hyn yw ystyr y ferf *eurethe*. *Yr hwn sydd werthfawrusach na'r aur colladwy.*—Neu, 'yr hon:' *h. y.*, ffydd sydd werthfawrusach; nid y profiad o'r ffydd, ond y ffydd ei hun. *Cyd profer ef trwy dân.*—Neu, er ei fod ef yn cael ei brofi trwy dân. Mae yn angen rheidiol i'r aur colladwy, aur sydd yn ddarfodedig yn ei natur, gael eibrofi trwy dân; pa faint mwy ffydd, sydd i'w phrofi erbyn tragwyddoldeb, drwy brofiad tanllyd. "Cymmherir ffydd i aur; nid am ei fod yn ddarfodedig, ond am y profir ei trwy dân. Nid ydyw ffydd yn amlwg, yn aml yn awr; ond eglurir hi, pan y bydd pethau ereill yn myned heibio."—*Bengel. Er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant.*—"Mawl," mewn geiriau; "anrhydedd," mewn pethau; "gogoniant," mewn barn.—*Bengel.* "Mawl," y ganmoliaeth yn dyfod oddi wrth y Barnwr—"Da, was da, a ffyddlawn." "Gogoniant," derbyniad i mewn i'w ogoniant (*pen.* v. 1, 10'. "Anrhydedd," yr urddas a'r safle bersonol yn tarddu o hyny, *pen.* ii. 7. —*Alford. Yn ymddangosiad Iesu Grist.*—Neu Groeg, 'yn nadguddiad,' &c. Yn awr y mae efe o'r golwg, y nef wedi ei dderbyn; ond yn ei ail ddyfodiad, eglurir ef i lygaid pawb mewn gogoniant, a'r pryd hwnw perthyna priodoli y tri pheth uchod i'r saint. "Pan ymddangoso Crist, ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant."

8. *Yr hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu.*—Dyma enghraifft darawiadol o arddull yr apostol yn y llythyr hwn—gwneyd y gair diweddaf yn yr adnod flaenorol yn destyn sylw pellach yn y nesaf. Peth hollol anghyffredin yn yr arferiad naturiol ydyw caru heb weled y gwrthddrych; ond yma, heb erioed ei weled o ran ei wynebpryd naturiol. Yr oedd yr apostolion wedi ei weled; ond nid ydyw yn dyweyd fod eu cariad na'u ffydd hwy yn fwy yn yr Iesu na'r dyeithriaid hyn. *Yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled, ond yn credu.*—Y gystrawen fwyaf naturiol yma yw, cyssylltu "yn yr hwn" â'r "credu" yn y diwedd; er fod rhai yn cyssylltu "llawenhau" â'r "hwn;" ereill, "credu a llawenhau" ynghyd. Yn erbyn: dywedir nad arferir "llawenhau" gydag "yn." *Yr ydych yn mawr lawenhau â llawenydd anhraethadwy a gogoneddus.*—Yr un gair am lawenhau ag yn *adn.* 6. "Annhraethadwy."—Nis gellir ei ddadgan gan ei natur a'i faint, ac nis gellir ei ddirnad gan y dyn anianol. "Gogoneddus:"—Groeg: 'wedi ei ogoneddu. Ar y gair hwn y seilia Alford yr ystyr ddyfodol i "mawr lawenhau," a thybia fod yr apostol yn edrych yn mlaen at yr adeg pan y bydd gobaith wedi troi yn fwynhâd, a llawenydd wedi ei goroni â gogoniant. Ereill, wrth ddadleu am yr ystyr presennol i'r holl bethau, drwy yr hyn hefyd y rhoddir y grym mawr a briodola'r Beibl yn mhob man i ffydd, a ddywedant fod llawenydd y saint yn awr wedi ei ogoneddu, am ei fod, fel y dywed Bengel, wedi ei ogoneddu ynddo ei hun, a chan y tystion am dano.

9. *Gan dderbyn diwedd eich ffydd.*—Dywed Leighton y golygir yma sicrwydd gobaith. Gan fod y saint wedi eu sicrhau, mai bod yn absennol o'r corph fydd bod yn bresennol gyda'r Arglwydd, y mae hyn yn cynnyrchu gobaith cadarn ag sydd yn dwyn yr enw meddiant. Y mae ffydd

10 Am yr hon iachawdwriaeth
yr ymofynodd, ac y manwl chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras *a ddeuai* i chwi:

11 Gan chwilio pa bryd, neu pa
[s] Rhuf. 8. 9. ryw amser, [q] yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhagdyst-

yn sylweddoli gwirionedd presennol yr addewidion dwyfol fel ag i wneyd pethau dyfodol yn bresennol; *sef, iachawdwriaeth eich eneidiau.*—Perffeithiaid cadwedigaeth. "Yr enaid yn benaf a iacheir, cyfranoga y corph o'r sdgyfodiad."—*Bengel.*

10. *Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd ac y manwl chwiliodd y prophwydi.*—Y cyfeithiad llythyrenol ydyw gadael allan y fannod—'y manwl chwiliodd prophwydi.' Dyna un dosbarth pwysig yn talu sylw i'r iach. Daw dosbarth uwch etto yn niwedd *adn.* 12, angelion; nid *yr* angelion yno chwaith. Y mae y ddau air a grybwyllir yma am y prophwydi yn bwysig: "ymofyn yn ddifrifol," a "chwilio yn ddifrifol:" *eczēteín*, 'ceisio trwy ymofyn:' *exereunán*, 'ceisio trwy chwilio.'—*Bengel. Y rhai a brophwydasant am y gras a ddeuai i chwi.*—Yma nodweddir "prophwydi," yn y frawddeg flaenorol, a disgrifiad pwy o honynt. Sylwa yr esboniwr a ddyfynwyd uchod, fod gadael allan y fannod mewn llawer iaith yn chwanegu at rym y dywediad, yn galw sylw y gwrandäwr oddi wrth yr ystyriaeth am yr unigolion at y dosbarth ynddo ei hun. "Gras:" bendithion yr efengyl wedi eu bwriadu i'r amser diweddaf—'y gras a'r gwirionedd;' *Ioan* i. 17.

11. *Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser.*—"Chwilio:" y gair syml, heb yr ystyr mwyhaol yn yr adnod o'r blaen. Y gwahaniaeth rhwng "pa bryd" a "pha ryw amser," ydyw, fod y cyntaf yn golygu y tymmhor yn weithredol—y flwyddyn, meddylier, o oes y byd; a'r llall y math o amser o ran digwyddiadau y pryd hwnw. "Nid yn unig pa bryd, ond hefyd pa fath—pa un ynte mewn amser o heddwch ai rhyfel, o gaethiwed ai rhyddid; ac yn ddiweddaf, yn 'mha agwedd ar y deyrnas.'"—*Justiniani; yn Alford. Yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt yn eu hysbysu.*—"Ysbryd Crist:" yr un ag Ysbryd Duw. Gelwir ef wrth yr enw cyntaf am mai efe sydd yn dadguddio pob peth a berthyn i Grist a bwriadau y Tad. "Yr oedd y prophwydi," fel y sylwa un, "yn cael eu dawn oddi wrth Grist, ac yn mynegi am dano ef." *Pan oedd efe yn rhagdystiolaethu dioddefaint Crist.*—Yn llythyrenol, 'y dioddefaint a fwriadwyd i Grist.' Sylwa Alford, fod dadl yn mhlith esbonwyr, pa un ai Crist yn bersonol a feddylir yma, ai ynte yn gyfriniol, yn cymmeryd i mewn ei eglwys. Ei atteb ef ydyw, y gall dioddefaint, yn cael eu cyssylltu â Christ, heb y dynodiad personol Iesu, olygu yr Arglwydd fel y mae yn parhau ei waith swyddol a chyfryngol; ond yma, gan nad ydyw y cyd-destynau yn gofyn cymmeryd i mewn yr eglwys, gwell ganddo ei gyfyngu at Grist yn bersonol. Trwy ddioddefaint Crist y dygwyd "iachawdwriaeth" a "gras" i ni. *A'r gogoniant ar ol hyny.*—Yn llythyrenol, 'gogoniantau.' "Gogoniant yr adgyfodiad, gogoniant yr esgyniad, a gogoniant dydd y farn, a'r deyrnas nefol."—*Bengel.*

12. *I'r rhai y dadguddiwyd:*—sef, i'r prophwydi. Nid oes son i ddim ond un, sef Daniel, iolaethu [r] dioddefaint Crist, [s] a'r gogoniant ar ol hyny.

[r] Esa. 53. 1—10; Luc 24. 26, 27, 46.
[s] Esa. 53. 11, 12; Ioan 12. 41. [t] Ioan 16. 7—15; Act. 4. 8, 31. [u] Esa. 11. 2-6; Ioan 15. 26. [x] Exod. 25. 20

12 I'r rhai y dadguddiwyd, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini *yn* y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, gan y rhai a efengylasant i chwi [t] trwy yr Ysbryd Glân, [u] yr hwn a ddanfonwyd o'r nef; [x] ar yr hyn bethau ddeall yr amser yn fanwl yr ydoedd y Messiah i ddioddef. Beth gan hyny a ddadguddiwyd iddynt? Nid yr hyn yr ymofynent am dano yn hollol, ond yr hyn a ddywedir yn y frawddeg nesaf. Y meddwl am y manwl chwilio ywe, mai nid mewn atteb i hyny y cawsant y dadguddiad y sonir yma; ond oddi wrth y dadguddiad wedi ei gael yr oeddynt yn chwilio yn fanylach am y pryd a'r pa fath amser. *Nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini yn y pethau a fynegwyd yn awr i chwi.*—Pan y mae Pedr yn cyfeirio at y prophwydi yn Llyfr yr Actau, sylwa yn arbenig mai nid am danynt eu hunain, na'u hamser eu hunain, y sonient, ond am y dyddiau diweddaf. Yr oeddynt yn gweini i ni drwy ragfynegi. Gwir ei fod yn hyfrydwch iddynt hwy gael deall fod y pethau mawr hyn i fod; ond i ni y mae yr hyfrydwch yn llawer uwch—cael y pethau eu hunain, a boddlonrwydd am eu dwyfoldeb, yn y ffaith eu bod wedi cael rhagfynegi am danynt gan gynnifer, ac er's cymmaint o amser. Y mae y pethau a ragfynegwyd yn dywyll ac aneglur ganddynt hwy, wedi eu mynegi a'u cyhoeddi yn awr i ni. *Gan y rhai a efengylasant i chwi trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef.*—Efengylwyr wedi pregethu, y rhai oeddynt dystion o'r holl bethau rhyfedd a berthynent i'r dioddefaint. Gwnaethant hyny drwy gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef—y tywalltiad cyntaf a neilduol hwnw o hono ar ddydd y Pentecost. Gwahaniaetha Alford rhwng prophwydi ac efengylwyr oddi wrth yr adnodau hyn. "Prophwydi, cyfrwng ysbryd Crist ynddynt; efengylwyr, rhai yn pregethu drwy yr Ysbryd Glân, wedi ei ddanfon o'r nef." Mawr oedd braint y dyeithriaid hyn—yn wrthddrychau gweinyddiad iachawdwriaeth gan brophwydi ac efengylwyr. *Ar yr hyn bethau.*—Holl gyssylltiadau trefn iachawdwriaeth pechadur. *Y mae yr angylion yn chwennychu edrych.*—Yn llythyrenol "angylion," heb "yr." Y mae yma raddeb yn amlwg. "Fel y dywed yr Iesu, y chwennychodd prophwydi, a rhai cyflawn, a brenhinoedd, weled a chlywed geiriau a gweithredoedd Crist, yma dywedir yn mhellach, fod angylion yn chwennychu edrych ar yr hyn a ddysg y Diddanydd am Grist. Y mae chwilfrydedd cymmedrol yn rhinwedd nid yn unig mewn prophwydi ond mewn angylion."—*Bengel.* "Edrych:" plygu i lawr, a dyfal edrych. Y mae yn ammheus a oes yma gyfeiriad at y cerubiaid ar y drugareddfa, fel y sylwodd llawer esboniwr: nid ydyw y gair ynddo ei hun yn awgrymu hyny. Fel addysg oddi wrth yr adnodau gwerthfawr hyn, dywed Leighton, "Nid yw yn syndod fod angylion yn rhyfeddu at y pethau hyn: y mae yn rhyfedd na byddem ni. Ni pherthyna iddynt hwy deimlo dyddordeb yn y dirgelwch mawr hwn, fel ni: nid ydynt hwy ond edrychwyr yn unig, o'u cymmharu â ni; ie, colledwyr mewn rhyw ffordd, yn gymmaint a bod ein natur ni, ynddi ei hun, islaw yr eiddynt hwy, mewn undeb âg Iesu Grist

y mae yr angylion yn chwennychu edrych.

13 O herwydd pa ham, gan wregysu lwynau eich meddwl, *a* bod yn sobr, gobeithiwch yn berffaith am y gras [y] a ddygir i chwi yn nadguddiad Iesu Grist;

[y] Luc 17. 30.

14 Fel plant ufudd-dod, heb gyd-ymagweddu â'r trachwantau o'r blaen yn eich anwybodaeth:

15 Eithr [z] megys y mae y neb [a] ch galwodd chwi yn sanctaidd, [b] byddwch chwithau hefyd sanctaidd yn mhob ymarweddiad:

[z] Rhuf. 3. 23. 30. [a] Mat. 5. 48.

16 O blegid y mae yn ysgrifenwedi ei dyrchafu uwch law yr eiddynt hwy. Mae genym gwmni ardderchog: nid yn unig y dynion goreu a fu, yn gyd-efrydwyr, ond gallwn astudio yr un gwersi a'r angylion, a chael yr un meddyliau a hwy. Hyn y mae yr enaid yn ei wneyd ag sydd yn cael mwyniant mewn mawrhâd hyfryd o'r Arglwydd Iesu, a'r prynedigaeth a wnaeth efe i ni."

13. *O herwydd pa ham.*—Cyssylltir yr annogaethau a gynnwysir yn yr adnod hon â'r ystyriaethau a grybwyllwyd yn yr adnod ddiweddaf. Gan fod prophwydi ac apostolion wedi bod yn gweini arnynt, a gweini arnynt hefyd mewn pethau sydd yn destyn myfyrdod a syndod angylion, galwai hyn yn uchel arnynt i ymddwyn yn addas i'r fath fri. *Gan wregysu lwynau eich meddwl.*—Ymadrodd ffugyrol yw hwn oddi wrth waith dwyreinwyr, gan y gwisgent ddillad llaes, yn eu casglu o dan eu gwregys ar eu lwynau pan yn parotoi i deithio, neu i weithio. Y cymmhwysiad, yn ol Leighton, ydyw dyrchafu y serch oddi ar y ddaear at bethau nefol, fel ag i beidio cael eu rhwystro yn yr yrfa ysbrydol. Sonia yr Arglwydd Iesu am fod y lwynau wedi eu hymwregysu (*Luc* xii. 35), i fod yn barod i ufuddhau i alwad yr Arglwydd pan y deuai. Gan y sonir yma am ei ddyfodiad, y cymmhwysiad mwyaf naturiol yw, fod y meddwl wedi ei ryddhau oddi wrth ofalon a phryderon, ac ymroddiadau daearol, a bod yn barod i ymroddi i lafur a disgwyliad ysbrydol yn ol y cymmhellion uchel ôl a blaen i hyny. Dywed Bengel mai cyfeirio at gasglu nerth i'r daith y mae. Wrth y "meddwl," (*dianoia*) y golyga Alford y wedd hono ar fod ysbrydol dyn ag sydd wedi ei droi at y byd allanol: ei feddwl at drafodaeth, a llesion allanol, yn ei arwain mewn gweithgarwch. *A bod yn sobr.*—Sobrwydd meddwl. Dywed Calvin, "Y mae yn argymmhell nid yn unig gymmedroldeb mewn bwyta ac yfed, ond hefyd yn hytrach, sobrwydd ysbrydol, gan fod yn angenrheidiol llywodraethu ein holl deimladau rhag iddynt feddwi ar bethau anghyfreithlawn y byd hwn." *Gobeithiwch yn berffaith.*—"Bydded genych y gobaith hwnw ag sydd yn cadw mewn golwg y diwedd gosodedig." —*Bengel.* Felly y mae yn cyfeithu yr ymadrodd, "hyd y diwedd." Ond cyttuna y mwyafrif mai graddau, ac nid amser, a olygir yma. Gobeithio "heb ammheuaeth, na llwfrdra, ond gyda llawn ymroad enaid." Gobeithio fel na byddo dim yn ol. *Am y gras a ddygir i chwi.* —Groeg: 'sydd yn cael ei ddwyn.' Y gras cyflawn yn ngorpheniad eich iachawdwriaeth, pan y bydd pob rhan wedi ei gwblhau, ac at yr hyn yr ydych yn prysuro, ac felly y mae y terfyn yn cael ei ddwyn yn nes atoch yn barhaus. *Yn nadguddiad Iesu Grist.*—Yn yr adran hon, fel yn *adn.* 5, y mae Bengel yn golygu wrth ddadguddiad Iesu Grist, holl weinyddiad ei ras yn ngoruchwyliaeth yr efengyl, gan gynnwys ei ddau ddyfodiad; ond os cwblhâd iachawdwriaeth i'r credadyn yw meddwl y rhan o'r blaen, yna golyga "dadguddiad Iesu Grist" y dydd diweddaf, fel y sylwyd ar *adn.* 7.

14. *Fel plant ufudd-dod.*—Yn yr adnod hon a'r rhai dilynol, y mae yn annog i ufudd-dod a sancteiddrwydd. Tardd y cymmhellion i hyny, fel yr adnod ddiweddaf, oddi wrth y bri uchel roddwyd arnynt, ond trwy y diweddaf hefyd. Os gobeithient yn berffaith am gwblhâd eu hiachawdwriaeth, ar eu rhan hwy rhaid i hyny gynnwys ufudd-dod a sancteiddrwydd. Sylwa Alford ar yr ymadrodd "plant ufudd-dod," mai esboniad gwirionffol a bâs yw ei egluro fel duliwedd Hebreig am "blant ufudd." Fel yr holl ymadroddion tebyg "plant digofaint," "plant y goleuni," "plant yr anufudd-dod," "plant y felldith." Priodola Winer ef i'r "dull mwy bywiog o ddisgrifio pethau sydd yn perthyn i'r dwyreinwyr yn gyffredinol, ag sydd yn edrych ar gyssylltiad agos o darddiad neu ddibyniaeth hyd yn oed mewn pethau ysbrydol, fel perthynas plentyn neu fab. Plant anufudd-dod yw y rhai hyny sydd yn perthyn i anufudd-dod fel plentyn i'w fam, i ba rai y mae anufudd-dod wedi dyfod yn natur, yn dueddfryd lywodraethol." *Heb gydymagweddu â'r trachwantau o'r blaen yn eich anwybodaeth.* —Groeg: 'heb wneuthur eich hunain i ffurf, yn ol y tra, &c.' 'Yn eich anwybodaeth.'—"Y cyflwr cyntefig cyn yr alwad hyd yn oed i'r Iuddewon."—*Bengel.* Ond o'r ymadrodd hwn ynghyd â rhai ereill, ceir dadl gan ereill fod y Cenhedloedd yn cael eu cyfarch yn y llythyr hwn, am nas gellir dyweyd fod yr Iuddewon yn anwybodus o gyfraith Duw un amser. Cyfeiria Paul yn arbenig yn y llythyr at y Rhufeiniaid, fel ag yr oedd pob anweddeidd-dra yn cael ei arfer yn ymddygiad y Cenhedloedd pan nad oedd "gymmeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth;" *Rhuf.* i. 24, &c. "Y mae yr anwybodaeth hwn nid yn unig yn dynodi y cyfnod, ond sail ac elfen y trachwantau yn dylanwadu yn ffurfiad eu hymarweddiad."—*Alford.*

15. *Eithr megys y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd.*—Er mwyn gallu cyssylltu y ddwy adnod hyn yn rammadegol â'u gilydd, tybir yn gyffredinol fod "cydymagweddu" yn cario ei ddylanwad hyd yma—nid yn ol eich trachwantau, ond yn ol cynllun yr un sanctaidd hwnw a'ch galwodd. Sylwa Bengel fod y galw yn cael lle pwysig gan yr apostol: *pen.* ii. 9, 21; iii. 9; v. 10; 2 *Pedr* i. 3, 10. *Byddwch chwithau hefyd sanctaidd yn mhob ymarweddiad.*—Dywed Calvin "Nid oes yr un rhan o fywyd nas gall wasgaru yr arogl gwerthfawr hwn o sancteiddrwydd."

16. *O blegid y mae yn ysgrifenedig* (*Lef.* xi. 44) *Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi.*—Nid yn unig y mae yn eu hannog i ymwrthod â thrachwantau, ond y mae hefyd yn dysgu pa beth sydd i gymmeryd eu lle yn y galon—addurniadau yr Ysbryd. Dywed un "fod hanfod crefydd yn gynnwysedig mewn ymdebygoli i'r hwn yr ydym yn ei addoli." "Y mae plentyn yn wirioneddol debyg i'w dad, nid yn unig pan y mae ei wyneb-

edig, Byddwch sanctaidd; canys sanctaidd ydwyf fi.

[b] Eph. 1. 17; 3. 14. [c] Deut. 10. 17; Iob 34. 19. [d] Gen. 47. 9; Salm39.12. [e] Salm 49. 7, 8.

17 Ac os ydych [b] yn galw ar y Tad, [c] yr hwn sydd heb dderbyn wyneb yn barnu yn ol gweithred pob un, [d] ymddygwch mewn ofn dros amser eich ymdeithiad:

18 Gan wybod [e] nad â phethau llygredig, *megys* arian neu aur, y'ch prynwyd oddi wrth eich ofer

pryd yn dwyn ei ddelw, ond yn fwy pan felly o ran ei feddwl a'i dueddfryd mewnol; fel hyn hefyd y mae gwir blant Duw yn debyg i'w Tad nefol yn eu geiriau a'u gweithredoedd, ond yn fwyaf oll yn eu calon."—*Leighton.*

17. *Ac os ydych yn galw ar y Tad.*—Nid ydyw "y" yn y gwreiddiol, na'r cyfeithiad hwn yn llythyrenol; yn hytrach, 'Os ydych yn galw, fel eich Tad, ar hwnw sydd heb dderbyn wyneb,' &c. Nid ammheuaeth yn gwbl a gyflëir gan "os" yn y frawddeg hon, ond cadarnhâd mewn ffurf o dybiaeth. Cyfarchiad cyffredinol i holl blant Duw ydyw "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd." *Yr hwn sydd heb dderbyn wyneb yn barnu yn ol gweithred pob un.*—Nid yw bod yn Iuddew, neu Roegwr, yn gwneyd dim gwahaniaeth ger ei fron ef. Barnu y mae yn ol gweithred pob un. Dywed yr Iesu, yn *Ioan* v. 22, nad ydyw y Tad yn barnu neb; ond yma dywedir fod y Tad yn barnu. Pa fodd y maent i'w cyssoni? Attebir gan yr Iesu ei hun—rhoi pob barn i'r Mab ddarfu; ac fel y dywed un, efe ydyw ffynnon barn, ac hyd yn oed pan y mae y Mab yn barnu, y mae meddwl y Tad hefyd yn cydredeg. Sylwa Bengel ar "weithred pob un;"—Groeg: 'gwaith.' "Un yw gwaith pob dyn, pa un bynag ai da ai drwg." *Ymddygwch mewn ofn.*—Rhoddir pwyslais, yn ol y Groeg, ar "mewn ofn," oddi wrth eiriau dechreuol y frawddeg. Pa fodd y cyssonir y cymmhelliad i ofn, pan y dywed yr apostol Ioan, fod poenedigaeth yn perthyn iddo, ac felly mai ymgais pob un ddylai fod i gynnyddu mewn cariad? Dywed Bengel, "Cyssylltir ofn â gobaith—y maent eill dau yn tarddu o'r un ffynnonell. Y mae ofn yn gwahardd fel na byddo i ni golli ein gobaith." Yr ofn a argymmhellir yma yn ddiau ydyw hunanammheuaeth sanctaidd, ac ofn digio Duw; yr hwn nid yn unig sydd yn gysson â sicrwydd gobaith am iachawdwriaeth, ac â ffydd, a chariad, a llawenydd ysbrydol, ond hefyd yn ganlynydd anwahanol iddynt. Po mwyaf y mae y Cristion yn credu, yn caru, a llawenhau yn Nuw, mwyaf anfoddlawn ydyw i wneyd dim i'w ddigio. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng ofn slafaidd ac ofn mabaidd; ond nid ydyw ofn mwyaf pur plant Duw, y rhai sydd yn ei alw yn Dad, yn cau allan yr ystyriaeth o'i gyflawnder, a chospedigaeth pechod a roddir gan ei gyflawnder."—*Leighton. Dros amser eich ymdeithiad.*—Ymdaith ydyw bywyd y Cristion trwy y byd hwn i dŷ ei Dad. Amgylchynir ef gan elynion a pheryglon; am hyny, y mae ofn gwyliadwrus yn gweddu iddo, nes iddo gyrhaedd y diogelwch a'r gorphwysdra sydd yn nghadw iddo yn ei gartref.

18. *Gan wybod nad â phethau llygredig, megys arian neu aur.*—Dygir yn awr reswm pellach dros sancteiddrwydd, ac ofn duwiol i bechu; sef, ystyried y pridwerth drud a phur a roddwyd am danynt. Y mae ffurf y geiriau "arian ac aur" yn y gwreiddiol, yn golygu, nid y fetel yn y swm, ymarweddiad, *yr hwn a gawsoch* trwy draddodiad y tadau;

[f] Zech. 13. 7; Mat. 20. 28. [g] Esa. 53. 7; Ioan 1. 29, 36. [h] Act. 3. 26.

19 Eithr [f] â gwerthfawr waed Crist, [g] megys oen difeius a di-frycheulyd:

20 Yr hwn yn wir â ragordeiniwyd cyn sylfaenu y byd, [h] eithr a eglurwyd yn yr amseroedd diweddaf er eich mwyn chwi;

[i] Ioan 5. 24.

21 Y rhai ydych [i] trwyddo ef

ond arian bathol at fasnach. *Y'ch prynwyd oddi wrth eich ofer ymarweddiad.*—Prynu drwy roddi pridwerth am danynt. Dau air a arferir yn y Testament Newydd am brynu dynion, *agorazo*, a *lutroô*. Y mae y cyntaf yn cyfeirio at brynu yn y farchnadfa, caethweision yn benaf; a'r diweddaf, prynu o gaethiwed yn gyffredinol, trwy dalu pridwerth. Yr olaf a ddefnyddir yma; ac y mae yn dra thebyg, oddi wrth yr holl gyfeiriadau yn yr adnodau hyn, fod gwaredigaeth Israel o'r Aipht mewn golwg yn ffugyrol gan yr apostol. *Ofer ymarweddiad.* — Ymarweddiad gwag, difudd. "Ofer yw cyfrif y bywyd hwnw, wedi i'r amser fyned heibio, sydd heb adael dim ffrwyth yn weddill."—*Bengel. Yr hwn a gawsoch trwy draddodiad y tadau.* — Tŷn Alford gasgliad oddi wrth yr ymadrodd hwn etto, fod y Cenhedloedd mewn golwg gan yr apostol; onid ê ni buasai yn dyweyd "traddodiad y tadau," heb un eglurhâd na chyfyngiad. Ond sylw Bengel yw, "Un Tad sydd i'w ddilyn; y mae dynion gyda chrefydd yn glynu gormod wrth gamrau y tadau, a'r Iuddewon yn arbenig felly."

19. *Eithr â gwerthfawr waed Crist.*—"Gwerthfawr waed," yn wrthgyferbyniol i'r pethau llygredig sydd yn prynu dynion yn naturiol. *Megys oen difeius a difrycheulyd.*—"Nid oes gan yr Arglwydd Iesu unrhyw ddiffyg ynddo ei hun, ac ni lychwinwyd ef âg unrhyw frycheuyn oddi allan."—*Bengel.* Er nad ydyw Alford yn golygu mai at oen y Pasc y cyfeirir yn *Ioan* i. 29, wrth sôn am yr Iesu, etto cydsynia âg awdurdodau ereill mai dyna'r cyfeiriad yma: a dyfyna Hoffman:—"Fel yr oedd prynedigaeth Israel o'r Aipht yn gofyn gwaed oen y Pasc, felly y mae prynedigaeth y rhai a waredir o baganiaeth yn gofyn gwaed Crist—rhagordeiniad yr hwn er trawyddoldeb a gymmherir i gymmeriad yr oen i fyny ar y degfed dydd o'r mis."

20. *Yr hwn yn wir a ragordeiniwyd cyn sylfaenu y byd.*—Yr un ystyr sydd i'r geiriau hyn a'r hyn a geir gan Pedr ar ddydd y Pentecost: "Wedi ei roddi drwy derfynedig gynghor, a rhagwybodaeth Duw." *Eithr a eglurwyd yn yr amseroedd diweddaf er eich mwyn chwi.*—Tra yr oedd ymddangosiad yr Arglwydd Iesu yn aros yn rhagordeiniad Duw yn unig, yr oedd dan gudd oddi wrth wybodaeth y byd; ond erbyn hyn, yr oedd y llen wedi ei chodi, a'r bwriadau wedi dyfod yn ffeithiau, drwy yr ymgnawdoliad, yn yr oruchwyliaeth ddiweddaf hon. Gan mai er eu mwyn hwy y bu hyn, dyma alwad i sancteiddrwydd.

21. *Y rhai ydych trwyddo ef yn credu yn Nuw.*—Moddion a chyfrwng holl ymwneyd y Cristion â Duw ydyw yr Arglwydd Iesu. *Yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw.*—I arddangos fod yr ymrwymiad yr aeth Crist dano wedi ei gwblhau yn foddhaol, fe'i cyfododd Duw ef o feirw; ac felly y mae sail ddigonol ac effeithiol i holl rasusau y Cristion. *Ac a roddodd iddo ef ogoniant.*

[k] Act. 2. 24, 32. yn credu yn Nuw, [k] yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw, ac a roddodd iddo ef ogoniant,

[l] Salm 42. 5. fel [l] y byddai eich ffydd chwi a'ch gobaith yn Nuw.

[m] Ioan 15. 3. 22 Gwedi [m] puro eich eneidiau,

[n] 1 Pedr 4. 17. [n] gan ufuddhau i'r gwirionedd trwy yr Ysbryd, i frawdgarwch

[o] Phil. 1. 9. diragrith: [o] cerwch eich gilydd o galon bur yn helaeth:

[p] Adn. 3. 23 Wedi eich [p] ail eni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig,

[q] trwy air Duw, *yr hwn sydd* yn byw ac yn parhau yn dragywydd.

[r] Ier. 23. 28, 29.

24 Canys pob cnawd fel glaswelltyn *yw*, a holl ogoniant dyn fel blodeuyn y glaswelltyn. Gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a syrthiodd:

[r] Adn. 23. 25 Eithr [r] gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd. A hwn yw y gair a bregethwyd i chwi.

—Yr holl urddas, mawredd, a llywodraeth, a ddilynodd ddioddefaint yr Iesu—yr adgyfodiad yn rhan o'r gogoniant. Yn *adn.* 11, ceir y rhif liosog 'gogoniantau' am danynt. *Fel y byddai eich ffydd chwi a'ch gobaith yn Nuw.*—"Nid fel y gallai fod, nac y dylai fod:—ond traethu ffaith yn syml a wneir."—*Alford.* Seilir ffydd ar adgyfodiad, a gobaith ar ogoneddiad yr Iesu. Y mae efe yn angor gobaith y Cristion yn Nuw wedi ei dderbyniad o'r tu fewn i'r llen; ac heb Grist, yn ddiau ni buasai Duw i ni ond tân ysol.

22. *Gwedi puro eich eneidiau.*—Y mae yma annogaeth a dadganiad o ffaith. Cynnwysa yr enaid y rhan anweledig o'r dyn, ond yr hwn sydd yn llywodraethu pob rhan; ac y mae puredigaeth yr efengyl yn dechreu yn fewnol, gan gymmeryd i mewn yr holl ddyn. *Gan ufuddhau i'r gwirionedd trwy yr Ysbryd.*—Ufudd-dod yn tarddu o ffydd ydyw hwn, fel ei gelwir mewn man arall (*Rhuf.* i. 5) yn ufudd-dod ffydd. Nid ydyw i'w wahaniaethu oddi wrth gariad—cariad yn gweithredu yn ufudd-dod. Groeg: 'ufudd-dod y gwirionedd;' nid ufudd-dod yn cael ei gynnyrchu gan y gwirionedd, ond yn hytrach fel y mae yma, 'i'r' gwirionedd fel y mae yn ddadguddiedig yn yr Iesu. Cyssyllta Pedr, yn *Act.* xv. 9, "buro yr eneidiau trwy ffydd." Un radd yn mhellach sydd yma: ufudd-dod yn tarddu o ffydd, yn dwyn delw y gwirionedd i mewn ar yr enaid, a'r cyfan trwy ddylanwad Ysbryd Pur neu Lân. *I frawdgarwch diragrith.*—Dylai cyfeiriad y puredigaeth a ddygir yn mlaen yn yr enaid fod at frawdgarwch; a chan mai y gwirionedd ydyw y rheol, dylai fod yn ddiragrith. *Cerwch eich gilydd o galon bur yn helaeth.*—Y galon yw eisteddle serch, a dylai cariad brawdol darddu o'r galon a hono yn un bur, ac felly yn ffynnonell i gyflawnder o hono. Y mae y gair a gyfleithir "helaeth" yn golygu, bod y gallu oedd ar gyflawn waith, a'u bod oll yn gweithredu mewn cariad brawdol.

23. *Wedi eich ail eni.*—A dyma sail y brawdgarwch diragrith a gymmhellir uchod. *Nid o hâd llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw.*—Dywed Bengel mai y "gair" yw yr "hâd anllygredig," a seilia ei reswm yn benaf ar yr arddodiad "trwy;" ond y mae Alford, gyda mwy o briodoldeb, yn gwahaniaethu rhwng "nid o hâd llygredig," a "*thrwy* air Duw." Nid gair Duw yw yr egwyddor genhedlol ei hun, ond yn unig yr hyn y mae yr egwyddor yn gweithredu drwyddo: megys pe mai y gair yw y grawn, yr hwn yw gorchudd a chludydd y gallu bywhaol dirgelaidd. Nid ydym yn cael ein hadgenhedlu *o*, ond *trwy* y gair. Ond ar y llaw arall, nid yw y "gair" ei hun yn gludydd darfodedig; nid arwyddlun sacramentaidd yn darfod yn ei ddefnyddiad, yw; ond y mae yn byw trwy a chyda'r egwyddor ddwyfol o fywyd y mae yn ei gludo a'i ddadblygu, ac yn aros yn dragywydd. Y mae *ec*, (o) y tarddiad, yn aros yn Nuw ei hunan, y Tad, yr hwn o'i wir ewyllys a'u cenhedlodd; y mae y *dia*, (trwy) offerynol, yn symmud yn mlaen, ac yn aros byth. *Yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd.*—Y mae amryw o awdwyr galluog yn cyssylltu y dynodiad hwn â Duw; ond y mae yn ymddangos braidd yn ddiangenrhaid dyweyd hyn am Dduw; ac am hyny, mwy rhesymol, fel yn wir y gwna y rhan fwyaf, yw ei gyssylltu â'r "gair." "Y mae y gair yn byw, am hyny yn llawn rhinwedd; yn parhau yn dragywydd, ac felly yn parhau yn rhydd oddi wrth bob llygredigaeth." —*Bengel.*

24. *Canys pob cnawd fel glaswelltyn yw.*—Yma dygir prawf o'r Hen Destament (*Esaiah* xl. 6—8) am barhâd y gair. Neu, fel y dywed Calvin, yn dra phriodol, "Y mae yn dyfynu yr adran o Esaiah i brofi dau beth; mor gyfnewidiol a thruenus yw genedigaeth cyntaf dyn, ac mor fawr yw gras yr all enedigaeth." "Pob cnawd:"—cyfeiria at ddyn fel y mae yn farwol. Nid yw "fel" yn yr Hebraeg: mae yn fwy unol âg ieithwedd ddwyreiniol hebddo. *"A holl ogoniant dyn fel blodeuyn y glaswelltyn."*—Dyn yw y glaswelltyn, a'i ogoniant yw y blodeuyn. Wrth y "gogoniant" y golygir yma gryfder, prydferthwch, cyfoeth, doethineb, urddas—unrhyw beth a rydd hynodrwydd ar ddyn yn ei fywyd daearol, fel y mae y blodeuyn yn tarddu o'r glaswelltyn. *Gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a syrthiodd.* —Yn aml, y mae gogoniant dyn yn cilio oddi wrtho cyn iddo ef ei hun ddisgyn i'w lwch cyntefig; ond dyna fydd ei ran ef, a'i ogoniant, yn dra ebrwydd.

25. *Eithr gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd.*—'Gair Duw,' yn nghyfleithiad y Deg a Thrigain; "Arglwydd" yma, yn cyfeirio at ddechreuad traethu yr efengyl gan yr Arglwydd Iesu. Nid yr un yw yr ymadrodd am y "gair" yn yr adnod hon ag yn *adn.* 23. Yno, *logos* ydyw y gair a arferir; ond, nid felly yma, ond *rhéma. Rhéma* ydyw y gair llafaredig; *logos*, y gair anllafaredig, neu heb ei lefaru—unigol neu amrywiol, dansoddol neu sylweddol."—*Alford. Rhema* yn yr adnod hon, gan gyfeirio at ei bregethiad. *A hwn yw y gair a bregethwyd i chwi:* —neu, a efengylwyd i chwi. Nid yn eich plith chwi; ond golyga gyrhaeddiad effeithiol atynt hwy. "Trwy hyn y mae anfarwoldeb wedi ei blanu ynddynt."—*Bengel.* Y casgliad, fel y dywed un arall, oddi wrth hyn yw, "Gan fod y gair a bregethwyd i chwi yn anllygredig a thragwyddol, y mae yn gofyn oddi wrthych chwithau ddwyn allan y bywyd newydd, yr hwn a blanwyd ynoch drwyddo ef."

PENNOD II.

1 Y mae efe yn eu cynghori na wnelont ddim yn erbyn cariad. 4 ac yn dangos mai Crist yw y sylfaen yr adeiledir hwynt arno. 11 ac yn dymuno arnynt ymgadw rhag chwantau cnawdol: 13 a bod yn ufudd i'w llywodraethwyr: 18 Ac y mae yn dysgu i weision ufuddhau i'w meistriaid, 20 ac i fod yn ddioddefgar, wrth esampl Crist, er eu bod yn cael cam.

B. A. 63.

WEDI [a]rhoi heibio gan hyny
bob drygioni, a phob twyll,
a rhagrith, a chenfigen, a phob
gogan-air,
2 Fel rhai bychain newydd-eni,
chwennychwch [b]ddidwyll laeth y
gair, fel y cynnyddoch trwyddo
ef:
3 Os [c]profasoch *fod* yr Arglwydd
yn dirion.
4 At yr hwn *yr ydych* yn dyfod,
megys at [d]faen bywiol, a wrthod-
wyd gan ddynion, eithr etholedig
gan Dduw, *a* gwerthfawr.
5 A chwithau, megys meini
bywiol, ydych wedi eich adeiladu

[a] Esa. 2. 20.
[b] Salm. 19 7—10
[c] Zech. 2.17; Heb. 6. 5,6.
[d] Ioan 6 57; 14. 6, 19. Rhuf.12.1.

PENNOD II.

CYNNWYSIAD.—Dangosir fod cynnydd ysbrydol yn dibynu ar y maeth a roddir gan y gair—offeryn yr adgenhedliad (2, 3). Newidir y ffugr am un yn dangos y Cristionogion fel tŷ ysbrydol a brenhinol offeiriadaeth, ond yn dangos Crist fel maen tramgwydd i'r anufudd-dod (4—10). Y mae y rhan hon yn hynod gyfoethog o feddyliau; dangosir cyflawniad Iuddewiaeth yn yr efengyl. Oddi wrth y ffaith mai dyeithriaid a phererinion ydynt, dwg ger bron restr o ddyledswyddau ymarferol: sef, hunan-lywodraeth, parch i'w henw da er mwyn y Cenhedloedd, ufudd-dod i'r awdurdodau gosodedig, rhwymedigaethau caethweision:—a'r cwbl wedi eu seilio ar esampl Crist, a'i farwolaeth iawnol (11—25).

1. *Wedi rhoi heibio gan hyny.*—Y mae y rheswm am y canlyniadau a ddisgrifir yma i'w gael yn niwedd y bennod flaenorol. Yr oedd cael eu hail-eni o hâd anllygredig yn cynnwys eu bod wedi rhoddi heibio unwaith am byth (fel y mae amseriad y ferf yn dangos un *act*) bob peth croes i'r bywyd newydd, ac ymestyniad at y maeth priodol at ei gynnydd. *Pob drygioni, a phob twyll, a rhagrith, a chenfigen, a phob gogan-air.*—"Drygioni."—Saes., *malice*: y mae y Cymraeg yn fwy llythyrenol: "Drwg y meddwl, yn wrthwyneb i rinwedd."—*Bengel.* "Twyll:" yn wrthgyferbyniol i "didwyll," yn *adn.* 2. "Rhagrith."—Groeg, "rhagrithiadau," yn y lliosog. Gwahaniaethir am hyny rhyngddynt a thwyll, fel y mae hwn yn golygu tueddfryd arosol, ond rhagrithiadau yr arddangosiadau neillduol o ffugiaeth a rhith. Y mae "cenfigen" hefyd yn y lliosog yn y gwreiddiol. Ystyr y gair a gyfieithir yn "ogan" yma ydyw dywedyd yn erbyn, neu yn nghefn—enllib. Gwahaniaethir yr holl eiriau fel hyn: "Boddheir 'drygioni,' neu falais, gan wallau arall; 'cenfigen' a boenir gan ddaioni arall; y mae 'twyll' yn meddu calon ddyblyg; 'rhagrith' (gweniaith) yn meddu tafod dyblyg; 'gogan-air' a anafa enw da."—*Awstin.* "Y mae 'twyll' yn niweidio, 'rhagrith' yn twyllo, 'cenfigen' yn ymosod ar gymmydog; a'r oll yn clwyfo y 'cariad' a grybwyllir yn *pen.* i. 22."—*Bengel.*

2. *Fel rhai bychain newydd-eni.*—Dyma gyfeiriad etto at ddiwedd y bennod o'r blaen. Y mae babanod yn ddidwyll a llawn o chwennychiad. *Chwennychwch ddidwyll laeth y gair.*—Cyfieitha Alford yr ymadrodd hwn, 'y llaeth didwyll ysbrydol;' ereill, 'y rhesymol a'r didwyll laeth.' Y mae ef yn dal yn gryf (er fod *logicon* yn tarddu o *logos*, gair) nad ydyw yn golygu "llaeth y gair." Ei amcan yma ydyw gwahaniaethu y llaeth hwn oddi wrth y llaeth naturiol—mai yn ffugrol ac ysbrydol y sonir am y llaeth hwn. Ond a chaniatau grym y sylwadau, pa beth wedi y cwbl ydyw y llaeth ond y gair? Yr un cyfrwng ag a fu yn foddion offerynol yr adgenhedliad sydd hefyd yn maethu y bywyd newydd: y mae y "gair" yn ddidwyll, fel llaeth pur y fron. Wrth yr Hebreaid a'r Corinthiaid, sonia yr apostol am laeth yn wrthgyferbyniol i fwyd cryf: nid dyma'r ystyr yma, ond yr holl air fel llaeth—pethau anhawdd y gyfraith, yn gystal ag egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw. *Fel y cynnyddoch trwyddo ef.*—Chwanegir 'i iachawdwriaeth' yn y prif ysgrif-lyfrau. Y mae yn rhyfedd iddo gael ei adael allan o'r cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg. Amcan yr holl weithrediadau ar y Cristion ydyw "er iachawdwriaeth." Nid chwennychu gwrandaw y gair yn unig y mae efe, ond hefyd myfyrio arno er mwyn cynnydd ysbrydol.

3. *Os profasoch fod yr Arglwydd yn dirion.*—Profi â'r archwaeth: nid prawf ymresymiadol. "Yn dirion:"—gwell, 'yn dda:' felly y mae yn *Salm* xxxiv. 8, a ddyfynir yma gan Pedr. Y mae "da" yn cyfeirio yn gyntaf at fwydydd. Dyma y profiad cyntaf i'r Cristion fod yr Arglwydd yn dda. "Trwy dyllau ei archollion gallwn dynu a phrofi fod yr Arglwydd yn raslawn."—*Awstin.* Wedi unwaith brofi, y mae fel baban yn chwennych: nid fel y rhai a sonir wrth yr Hebreaid, yn "profi daionus air Duw" am dro, a boddloni ar hyny—na: dychwelyd. "At bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol."

4. *At yr hwn yr ydych yn dyfod:*—sef, at yr Arglwydd: *adn.* 3. Ar wahân oddi wrth Grist, nid oeddynt bobl. "Yr ydych chwi o hono ef." "Yn dyfod:"—amser presennol. Y mae bywyd ysbrydol dyn ar y cyntaf yn dibynu ar ddyfod trwy ffydd at Grist, a'i undeb ag ef, a'i barhad ar ddyfodiad beunyddiol drwy gymmundeb. *Megys at faen bywiol.*—Gwell fuasai heb "megys at:" ond fel y Groeg, 'at yr hwn, maen bywiol, yr ydych yn dyfod.' Yr oedd yr Iesu yn faen bywiol fel yn bod o'r dechreuad, ac y mae hefyd drwy ei adgyfodiad oddi wrth y meirw. Sylwa un: "Y mae Pedr yn ymhyfrydu yn y gymmhariaeth o faen—wedi ei alw felly ei hunan, oddi wrth faen, gan Grist; ac yn ol ei esampl ei hun, dysg y dylai pawb fod yn feini; *h.y.*, yn geryg byw wedi eu hadeiladu ar Grist drwy ffydd." *A wrthodwyd gan ddynion.*—Yn enwedig yn ei farwolaeth. Dyfynir yma *Salm* cxviii. 22, ac *Esa.* xxviii. 16. *Eithr etholedig gan Dduw, a gwerthfawr.*—Nid yr hyn a werthfawrogir gan ddynion sydd felly gyda Duw. Nid edrych Duw fel yr edrych dyn. Yr oedd wedi ei ddewis i'r swydd gan Dduw er tragwyddoldeb. "Gwerthfawr:"—mewn anrhydedd, pa faint bynag a ddirmygid arno gan ddynion.

5. *A chwithau, megys meini bywiol.*—Hwy sydd yn cyfansoddi yr adeilad. Y mae yr un enwau yn y lliosog yn perthyn i'r saint ag a roddir ar yr Iesu yn unigol. Ei enw ef a elwir

yn dŷ ysbrydol, yn offeiriadaeth
[e] Ioan 4. 22 —24; Rhuf. 12. 1. sanctaidd, i offrymu [e] aberthau ys- brydol, [f] cymmeradwy gan Dduw
[f] Phil. 1. 11; trwy Iesu Grist.
Col. 3. 17.

[g] Rhuf. 9. 33; Eph. 2. 20. 6 O herwydd pa ham y cyn- [g] Wele, nwysir yn yr Ysgrythyr, yr wyf yn gosod yn Seion ben- conglfaen, etholedig, a gwerth-

arnynt hwy. Meibion i Dduw mewn amser drwy adgenhediad, fel y mae efe yn Fab hanfodol er tragwyddoldeb. Felly hefyd, brenhinoedd, ac offeiriaid, a meini bywiol. Y mae y meini hyn nid yn unig yn gorphwys ar Grist, ond mewn undeb â'u gilydd yn ddoeth ef. *Ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysbrydol.*—Gyda llawer o'i blaid, a llawer yn ei erbyn, y golyga Alford mai gorchymynol, ac nid mynegol, ydyw y ferf yn y fan hon: 'Byddwch chwithau wedi eich adeiladu.' Y mae hyn, efe a ddywed, yn fwy unol â dullwedd yr apostol yn *pen.* i. 13, 14, 22, a *pen.* ii. 1; ac yn dwyn *adn.* 7 gyda mwy o rym i mewn. Y mae y "meini bywiol" yn gwneyd "tŷ ysbrydol"—tŷ yma, yn gyfystyr a theml: 1 *Cor.* iii. 16, ac *Eph.* ii. 21. Coilir yr olwg yn aml mai "tŷ ysbrydol" ydyw eglwys Dduw. Undeb ysbrydol sydd rhwng ei haelodau a'r Pen, ac â'u gilydd; ac oddi ar hyn rhoddir mwy o bwys ar amgylchiadau enwadol nag ar y prawf mawr o berthynas—y bywiol a'r ysbrydol. *Yn offeiriadaeth sanctaidd.*—Oddi wrth dŷ neu deml, hawdd oedd esgyn at yr offeiriadaeth. Cynnwysa hyn lawer o offeiriaid. Nid enw ar ddosbarth neilluol o swyddogion yn yr eglwys ydyw hyn, megys y bu o dan yr Hen Destament. Byddai meddwl fod dosbarth neilluol yn awr yn awgrym nad oedd gwaith yr Archoffeiriad mawr yn ddigonol, a bod ganddynt hwy ryw aberth sylweddol i'w roddi—yr hyn sydd anfri ar y Person anfeidrol. Y mae yr holl saint heddyw yn offeiriadaeth sanctaidd. "Y mae holl blant Duw wedi eu heneinio, eu puro, a'u gwisgo â sancteiddrwydd." *I offrymu aberthau ysbrydol, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.*—"Aberthau ysbrydol:" yn wrthgyferbyniol i'r aberthau o dan y gyfraith. Y mae yr aberthau hyn yn llawer rhatach a hawddach yn eu natur, ond anhawddach i natur lygredig dyn. Yr aberthau hyn heddyw ydynt diolchgarwch, mawl, gweddi, bywyd addas—ac yn enwedig y dyn ei hun. Offrymodd Crist ei hun oll drosom ni, a dyna y mae yn ei ofyn oddi wrthym ninnau. Gan fod amseriad y ferf "offrymu" yma yn golygu un weithred; tybir mai ymaberthiad y corph a olygir yma, yn ol *Rhuf.* xii. 2. Cyssyllta Alford, ac amryw ereill, "trwy Iesu Grist" âg "offrymu"—nid â "cymmeradwy." A dyma ei ddadl:—"Nid ydyw cyssylltu 'trwy Iesu Grist' â 'cymmeradwy' yn boddloni nodwedd bwysig y geiriau; mwy, ymddangosent yn eu camleoli; o blegid nid y ffaith o'u bod yn gymmeradwy yn unig, ond y mae hyd yn oed bodolaeth a'r possiblrwydd o offrymu yr aberthau hyny, yn dibynu ar gyfryngdod yr Archoffeiriad mawr."

6. *O herwydd pa ham y cynnwysir yn yr Ysgrythyr.*—Yn *pen.* i. 24, cyfeiria am brawf ysgrythyrol o'r athrawiaeth a ddysgwyd: felly hefyd yn yr adnod hon. Dyfynir yr Ysgrythyr gyda thipyn o amrywiaeth, ond y cyfan yn cael ei gynnwys yn *Esa.* xxviii. 16. Yma ceir engraifft neilluol o barch Pedr i brophwydoliaethau yr Hen Destament, a'i hoffder at ddangos cyflawnfawr: a'r hwn a gred ynddo, nis gwaradwyddir.

7 I [h] chwi gan hyny, y rhai ydych yn credu, *y mae* yn urddas: eithr i'r anufuddion, [i] y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwnw a wnaed [k] yn ben y gongl,

[h] Hag. 2. 7; Ioan 6. 68, 69; Phil. 3. 7—10.
[i] Luc 20. 17; Act. 4. 11, 12.
[k] Zech. 4. 7; Col. 2. 10.

8 Ac yn faen tramgwydd, ac

iad y cyfan yn Nghrist. *Wele yr wyf yn gosod yn Seion ben-conglfaen, etholedig, a gwerthfawr.*—Duw y Tad a osododd y Mab yn ei swydd. Yn Seion, ac i Seion, y gosodwyd ef. Yn llinach yr eglwys y daeth i wisgo cnawd. "Gwerthfawr:"—Groeg: 'mewn anrhydedd.' Fel "pen-congl faen," tybia Œcumenius, medd Alford, y golyga Paul, wrth yr Ephesiaid, waith yr Iesu yn uno y ddau fur, Iuddewon a Chenhedloedd yn yr adeiladaeth ysbrydol; ond yma prin y cyfeirir at y meddyliddrych hwnw. *A'r hwn a gred ynddo, nis gwaradwyddir.*—Esaiah: "Ni frysia yr hwn a gredo." "Y rhai a siomir neu a gywilyddir yn eu gobeithion a redant yma a thraw i geisio rhyw gymmhorth newydd: ond nid rhaid i'r rhai a ddeuant at Grist wrth hyny."—*Leighton.*

7. *I chwi gan hyny, y rhai ydych yn credu, y mae yn urddas.*—Gan fod y maen ei hun yn werthfawr, neu mewn anrhydedd, yn ol yr adnod o'r blaen, cesglir yma fod yr un anrhydedd yn perthyn i'r credinwyr; yr hyn a ddywedir hefyd gan y prophwyd, "Yr hwn a gredo ynddo nis gwaradwyddir." Nid gwerthfawr genych yn unig ydyw; ond fel canlyniad i hyny, drwy eich ffydd, y mae yn urddas neu anrhydedd i chwi ac arnoch. *Eithr i'r anufuddion:*—neu, yr anghredinwyr, yn wrthgyferbyniol i'r credinwyr o'r blaen. Yr un gair gwreiddiol a gyfeithir weithiau "anufudd-dod," ac weithiau "anghredinfaeth." Yr anufudd-dod mawr ydyw anghredinfaeth, a dyma achos a ffynnonell pob anufuddod. *Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwnw a wnaed yn ben y gongl.*—Yr achos pa ham yr ymddengys afreoleidd-dra yn nghystrawen y brawddegau hyn yw, mai dyfynu y mae yr apostol o wahanol ranau o'r Hen Destament yn gymmysg. Rhwng *adn.* 7, 8, y mae yn cyfeirio at *Salm* cxviii. 22; *Esa.* viii. 14. Y mae yn dangos gwahaniaeth perthynas Crist â'r credinioli a'r anghredinioli; ac wedi enwi yma y rhai diweddaf, dwg y dyfyniad yn mlaen; ac y mae yn wir fod y ffaith fod "Crist yn ben y gongl," fel y dywedir yn yr adnod nesaf, yn cael ei deimlo gan anghredinwyr. "Y mae Crist yn ben y gongl yn yr ystyr pennodol, yn ei berthynas â'r credinwyr, y rhai a oruwch-adeiledir arno. Y mae anghredinwyr yn teimlo oddi wrth hyn mewn ffurf arall."—*Bengel.* Fe wrthododd yr adeiladwyr, arweinwyr a dysgawdwyr y genedl, Grist; ond er ei wrthod, a thrwy ei wrthod, felly yr aeth efe yn ben y gongl.

8. *Ac yn faen tramgwydd, ac yn graig rhwystr.*—Yma yn uniongyrchol yr eglurir perthynas Crist âg anghredinwyr. Sylwa Alford yn dra phriodol nad tramgwydd meddyliol yw y rhwystr hwn, a gymmerir oddi wrth bregethiad y groes; ond y "taro'r traed wrth y mynyddoedd tywyll" yn *Ier.* xiii. 16 (gwel *Diar.* iv. 19; *Dan.* xi. 19)—y gwarth a'r dinystr tragwyddol a gyferbynir â'r urddas o'r blaen. Gwel *Mat.* xxi. 44. *I'r rhai sydd yn tramgwyddo wrth y gair, gan fod yn anufudd*—Er bod Erasmus a Luther yn golygu, fel yn y cyfieithiadau Cymreig, Saesnig, a'r *Vulgate*,

yn graig rhwystr, *i'r rhai* sydd yn tramgwyddo wrth y gair, gan fod yn anufudd; i'r hwn beth yr ordeiniwyd hwynt hefyd.

mai â "thramgwyddo" y dylid cyssylltu "y gair," y mae Bengel, Alford, ac ereill, yn gweled rhesymau cryfion dros gyssylltu "y gair" âg "anufudd"—fel hyn, 'I'r rhai sydd yn tramgwyddo, gan anufuddhau i'r gair.' Dywed yr olaf o'r ddau a nodwyd, yn erbyn y cyfleithiad Cymraeg, (1.) "Ei fod yn gwneyd 'fod yn anufudd' yn yr adnod hon, yn ail adroddiad diystyr o 'anufuddion' yn *adn.* 7. (2.) Nid ydyw yn rhoddi lle digon pwysig i'r 'gair;' tra y mae y cyfleithiad arall yn rhoddi y lle dyladwy iddo, fel moddion cynnydd i'r credadyn, ond yn cael ei wrthod gan yr anghredadyn. (3.) Cyfynga ystyr tramgwyddo i'r mewnol (*subjective*) yn unig. (4.) Y mae yn groes i'r cyfattebiaeth yn *pen.* iii. 1; ii. 17. "Y rhai sydd yn tramgwyddo (cwympo) gwnant hyny yn erbyn y congl-faen hwnw, trwy beidio credu i'r gair, yn yr hyn y dangosir y tramgwydd ei hunan, a'r achos o hono."—*Wolf. I'r hwn beth yr ordeiniwyd hwynt hefyd.*—Y mae amrywiol farnau ar y frawddeg fer hon. Rhydd Bengel ystyr esmwythaol iddi: "Y mae 'yr hwn beth' yn cyfeirio at tramgwyddo. Y rhai na chredant a dramgwyddant, a'r rhai a dramgwyddant i dramgwydd yr ordeinir hwy." Eithr y mae yntau mewn trafferth i gyssoni amseriad gorphenol y ferf â hyn. Yr ystyr a ddyry yw, ei bod yn dangos fel y mae anghredinwyr, drwy farn ddwyfol fwyaf cyflawn, yn tramgwyddo fwy fwy. Sylwa yn mhellach mai y ffurf weithredol sydd i'r gair yn *adn.* 6, "yn gosod maen;" yma goddefol, "a osodwyd," neu "ordeiniwyd." Dywed Alford fel ei farn ei hun, ac i wrthwynebu Bengel ac ereill, fod pwys ar y cyssyltiad *cai* (hefyd). Heb law eu bod yn cyrhaedd eu hanufudd-dod a'r tramgwydd, y mae ystyriaeth arall—wedi eu hordeinio gan yr hwn a ordeiniodd y pen conglfaen. "Beth yw casgliad Bengel ?" meddai. "A wna efe hwy eu hunain yn weithredyddion? [fel *Œc., Did.*] 'i beidio credu, y maent wedi eu gosod ganddynt hwy eu hunain,' fel hyn yn myned heibio, *cai* (hefyd), a gwneyd y frawddeg yn ail adroddiad ofer? Neu, a ddywedai, efe gydag Arctius, 'Nid Duw yn ddiau, ond Satan, a'i gosododd (ordeiniodd) yn gyfryw:' fel hyn yn nhrefniad moesol y byd, efe a wna Satan yn allu cyfochrog gyda Duw?" Yn ngwyneb geiriau pendant fel hyn, nis gallwn wneyd yn well na mabwysiadu geiriau Leighton: "Hyn y mae yr apostol yn ei chwanegu i roddi boddlonrwydd pellach i gredinwyr ar y mater hwn, pa fodd y mae cynnifer yn gwrthod Crist, ac yn tramgwyddo wrtho, gan ddyweyd wrthynt yn eglur fod bwriadau dirgel Duw yn cael eu cyflawni yn hyn. Yr oedd efe wedi penderfynu gogoneddu ei gyfiawnder ar bechaduriaid anedfeiriol, yn gystal a dangos ei gyfoethog drugaredd yn y rhai a gredant. Yma, byddai yn hawddach eich arwain i ddyfnder, na'ch arwain allan o hono. Yn hytrach, safaf ar ei lan—yn fwy i'w ryfeddu nag i fyned iddo. Hyn sydd sicr, nad ydyw meddyliau Duw yn llai cyflawn ynddynt eu hunain nag ydynt ddwfn ac ammhlymiadwy i ni. Ymddengys ei gyflawnder yn y ffaith fod dinystr dyn bob amser yn ffrwyth ei bechod ei hun. Ond i briodoli achosion i fwriadau Duw y tu allan iddo ei hun nid yw yn gysson â bodolaeth gyntefig natur

9 Eithr chwychwi *ydych* [l]ryw- [l] Deut. 10. ogaeth etholedig, brenhinol [m] off- 15; Esa. 41. 8. eiriadaeth, [n]cenedl sanctaidd, [m] Exod. 19. 6; Esa. 66. 21; Dad. 1. 6. [n] Ioan 17. 19; 1 Cor. 3. 17.

Duw, nac âg athrawiaeth yr Ysgrythyrau. Hyn sydd sicr—nad ydyw Duw yn rhwym o roddi i ni gyfrif pellach am y pethau hyn, ac nad ydym ninnau yn rhwym o ofyn am dano. Bydded i'r ddau air, fel y dywed Awstin, atteb y cwbl—"Beth wyt ti, O ddyn?" ac "O ddyfnder!" *Rhuf.* ix. 20; xi. 33.

9. *Eithr chwychwi ydych rywogaeth etholedig.* —Wedi disgrifio tynged yr annuwiol, y mae yn cyferbynu â hyny swydd, a rhagorfraint, a dyledswydd pobl yr Arglwydd. Y mae yr iaith yn fywiog, a'r meddyliau yn dilyn eu gilydd yn ddigwmpas yn yr adnod hon. "Rhywogaeth:" gwell: cyfleithiad na'r Saesneg, *generation* — cenhedlaeth. Golyga *genos* eu bod o'r un cyff, o ran gwreiddyn, ac mewn undeb hefyd o ran eu hetholedigaeth. "Etholedig:"—cyfeiriad o bossibl at *Esa.* xliii. 20, 21; "I'm pobl, fy newisedig." Gwel hefyd *pen.* i. 2; ii. 6. *Brenhinol offeiriadaeth.*—Syniad cyffelyb i'r hyn a geir yn *adn.* 10, a *Dad.* i. 6; ond yn y cyntaf, "offeiriadaeth sanctaidd," ac yn yr ail, "brenhinoedd ac offeiriaid." Dywed Alford, "Yn eglwys y Testament Newydd, fe unir y ddwy elfen, y frenhiniaeth a'r offeiriadaeth, yn mhob credadyn unigol fel yn cin Pen Mawr Iesu Grist, yr hwn yn unig sydd yn eu huno. Yn eglwys yr Hen Destament, mae'r ddwy yn cydhanfodi, ond heb erioed gael eu huno yn yr un person, oddi eithr yn ei gyn-gysgod Melchisedec." "Duw yw y brenin, ei saint ydyw ei offeiriaid."—*Bengel.* Fel brenhinoedd, y mae y saint yn fwy na chongcwerwyr drwy yr hwn a'u carodd: *Rhuf.* viii. 37. *Cenedl sanctaidd.*—O'i gyferbynu â "rhywogaeth etholedig" yn yr adnod hon, cyfeiria y cyntaf at eu neilluad oddi wrth yr annuwiol, a hwn at eu cymmeriad ynddynt eu hunain. Nid ydyw y gwahaniaeth yn gymmaint rhwng rhywogaeth a chenedl. *Pobl briodol i Dduw.*—Y mae cyfeiriad amiwg yr y tair brawddeg hyn, ac fe allai yn y gyntaf hefyd, at *Exod.* xix. 5, 6. "Pobl briodol:"—Groeg, 'pobl i'w meddiannu.' Ystyr *peripoiésis* ydyw cadw; cynnilo yr hyn sydd dros ben; yna meddiannu; ac yn olaf prynu. Tybia Œcumanius mai y syniad olaf yw y penaf yma: "Y mae yn ein galw yn feddiant, am fod Duw wedi ein prynu." Felly yn *Act.* xx. 28; "Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed." "Fel y mae yn *Exodus*, nid ydyw Pedr yn dyweyd 'o flaen yr holl bobloedd,' am ei fod hefyd yn addurno y Cenhedloedd â'r enw hwn yn *adn.* 10."—*Bengel. Fel y mynegoch rinweddau.* — Yn Esaiah, "fy moliant a fynegant." "Yn yr adnod hon ei ogoniant ardderchog, yn y nesaf ei drugaredd, ac yn y dryddedd ei diriondeb (daioni)."—*Bengel. Yr hwn a'ch galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.*—Sylwa Alford am y gair "rhyfeddol" yn y fan hon, nad ydyw y gymmhariaeth am y pen-conglfaen wedi cwbl ymadael o feddwl Pedr; o blegid ynglŷn â hyny yn y Salm dywedir, "Hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni." Y mae llawer o'r byd yn gorwedd mewn drygioni: dyledswydd y saint yw eu hysbysu am Dduw—yr "hwn," sef, y Tad. Y mae tywyllwch a goleuni yn ffugrau aml iawn yn y Beibl; un i ddynodi sefyllfa annuwiol; a'r llall, gyfiwr dychweledig y Cristion. "Tywyllwch:" — meddai un, "Anwybodaeth.

[n] Deut 4 20 [o] pobl briodol *i Dduw;* fel y [p] mynegoch rinweddau yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef:

[p] Esa. 60.1-3; Mat. 5. 16.

Rhuf 9.25. 10 Y rhai gynt [q] nid *oeddych* bobl, ond yn awr *ydych* bobl i Dduw: y rhai ni chawsech drugaredd, ond yr awrhon a gawsoch drugaredd.

11 Anwylyd, yr wyf yn attolwg *i chwi,* megys dyeithriaid a [r] phererinion, ymgedwch oddi wrth chwantau cnawdol, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid;

[r] Act. 13. 20, 29.

12 Gan fod [s] â'ch ymarweddiad yn onest yn mysg y Cenhedloedd: fel, lle y maent yn eich goganu megys drwg-weithredwyr, [t] y gallont, o herwydd *eich* gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn [u] nydd yr ymweliad.

[s] Salm37 14.

[t] Titus 2.7,8.

[u] Luc 1. 68.

13 Ymddarostyngwch o blegid

---

cyfeillornadau, pechodau, trueni, ac yn wir holl deyrnas y diafol." Wrth oleuni yn y fan hyn, dywed Alford, "Prin y gellir golygu goleuni y bywyd crediniol yn unig, ond goleuni presennol-deb a bodolaeth Duw, yn ol yr hyn y mae ein rhodiad ni yn y goleuni i gael ei ffurfio; ac wrth "alw i'w," ni olygir fod hyny yn cael ei gyrhaedd rhag blaen; ond dyma amcan y galw, cyrhaedd y goleuni hwnw, a bod yn gyfranogion o hono."

10. *Y rhai gynt nid oeddych bobl, ond yn awr ydych bobl i Dduw.*—Cyfaddasiad o *Hos.* ii. 25 at yr amgylchiadau presennol gan Pedr ydyw y geiriau hyn. Er mai am yr Iuddewon y llefarwyd hwynt gyntaf, amlwg yw, oddi wrth y cymhwysiad a wnelr o'r geiriau at y Cenhedloedd gan Paul (*Rhuf.* ix. 25), eu bod hwythau yn cael eu cynnwys yn meddwl y prophwyd. Er i'r Iuddewon gael eu breintio yn uchel fel cenedl, nid oeddynt deilwng o'r enw pobl, ond y rhai o honynt sydd o dan bob goruchwyliaeth yn dduwiol. *Y rhai ni chawsech drugaredd, ond yr awrhon a gawsoch drugaredd.* Tybia Bengel, er fod Iuddewon a Chenhedloedd yn cael eu cynnwys yn yr adnod hon, fod y Cenhedloedd yn fwy pennodol yn cael cyfeirio atynt yn yr adran gyntaf, a'r Iuddewon yn y ddiweddaf. Trwy gael eu galw gan Grist, yr oeddynt wedi cael trugaredd.

11. *Anwylyd, yr wyf yn attolwg i chwi, megys dyeithriaid a phererinion.* — Nid dyma y tro cyntaf iddo gyfeirio dyledswyddau ymarferol at y Cristionogion hyn; ond dyma y waith gyntaf iddo eu troi i feddwl am eu hymddygiadau, o'u cymmharu â'r annychweledigion o'u cwmpas, ac nid o'u cymmharu â'r hyn oeddynt hwy eu hunain gynt. Y mae y gair "anwylyd" yn rhoddi pwysigrwydd chwanegol yn yr annogaeth. Unwaith eto (*pen.* iv 12) y ceir ef yn y llythyr hwn. "Dyeithriaid a phererinion":—credinwyr o blith Iuddewon a Chenhedloedd. Fel yr awgrymwyd yn *pen* i. 1, 17, yr ystyr ysbrydol yw y penaf yma, er nad ydyw y naturiol o'r golwg. Y mae "dyeithriaid a phererinion" yn cael eu cysylltu yn bur aml yn y Beibl Gwel *Lef.* xxv. 23; *Salm* xxxix. 13; *Heb.* xi. 13. Nid oes gymmaint o wahaniaeth ystyr rhwng y ddau air gwreiddiol. Cyfeiria y cyntaf at ddyeithrwch, i'r wlad, a'r ail i'r trigolion. Cydolyga y rhan fwyaf mai â'r cynghor y dylid cyssylltu y ddau air. *Ymgedwch oddi wrth chwantau cnawdol.*—O herwydd mai dyeithriaid a phererinion, yn un peth, "ymgedwch." Cyfeirir gan yr apostol at y chwantau hyn etto: 2 *Pedr* ii. 10, 18. Rhoddir rhestr o honynt yn *Gal.* v. 19—21. *Y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid.*—"Nid yn unig yn rhwystro yr enaid, ond yn rhyfela yn ei erbyn."—*Bengel.* Drygir yr enaid gan chwantau cnawdol: er mai drwy y cnawd y maent yn dangos eu hunain, yn yr enaid y mae ffynonell eu gweithrediad. O'r galon y tardd y rhestr faith a grybwyllir gan yr Iesu yn *Mat.* xv. 19.

12. *Gan fod eich ymarweddiad yn onest yn mysg y Cenhedloedd.*—"Gonest:"—Saesneg, 'gweddaidd;' Groeg, 'hardd, neu dda.' Y mae hyn yn wrthgyferbyniol i ofer ymarweddiad y Cenhedloedd. *Fel, lle y maent yn eich goganu megys drwg-weithredwyr.*—Groeg: 'yn yr hyn.' Yn yr achlysuron neilldiol, er ei fod yn cynnwys fod holl fywyd y Cristionogion o dan sylw beirniadol yr annuwiol. "Byddai raid i Gristionogion yn aml beidio dilyn yr arferion paganaidd, ac felly beryglu cael eu cyfrif yn ddrwgweithredwyr."—*Alford.* Ond "megys" drwgweithredwyr fyddent; a "goganu" (enllibio) y byddai y gelynion. *Y gallont, o herwydd eich gweithredoedd da a welant.*—Y mae y gair "gwelant" yn golygu llygad-dystion, fel 2 *Pedr* i. 16. "Edrychir yn fanwl gan y rhai oddi allan ar weithredoedd y duwiolion."—*Bengel. Ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad.*—Oddi wrth y plant, fel y sylwa yr Iesu, gallant ogoneddu eu Tad, i'r hwn y maent yn debyg. Rhoddir i ni dri o wahanol olygiadau am ystyr "dydd yr ymweliad." Tybia Bengel, ac ereill, mai ger bron y llysoedd gwladol y bydd Duw yn dadguddio diniweidrwydd ei bobl nes ennill eu gelynion i'w plaid. Tybia Bede, ac ereill, mai dydd y farn a olygir; ond y mae y rhan fwyaf o esbonwyr hen a diweddar yn golygu, ac â hyn y cydolygwn ninnau, mai ymweliad Duw yn ei ras a'i drugaredd yw y meddwl. Yr un ystyr a 'dydd ymweliad Ierusalem' yn amser ein Hiachawdwr. "Tra yr oedd y dydd hwnw yn dyfod, yr oedd yn rhaid iddynt wrth amynedd."—*Bengel.*

13. *Ymddarostyngwch o blegid hyn i bob dynol ordinhâd.*—Nid yw "o blegid hyn" yn yr ysgrifiyfrau goreu. "Ordinhâd:"—Groeg, 'creadur;' ond ordinhâd neu drefniant a olygir. "Yr hyn y mae dyn yn ei greu neu ei ffurfio."—*Luther.* "Gelwir yr ordinhadau yn ddynol, am eu bod yn rheoli amgylchiadau dynol, yn ol dull dynol; ac y mae hyn yn dangos syniad nefol yr apostol, wedi ei godi goruwch pob peth dynol."—*Bengel.* "Nid i'r brenin fel dyn, ond i'r brenin fel ordinhâd ddynol, yr ydym i fod yn ddarostyngedig."—*Alford. O herwydd yr Arglwydd.*—"Dyma reswm Paul dros fod yn ddarostyngedig i'r awdurdodau—am eu bod wedi eu gosod gan yr Arglwydd: ond nid dyma syniad Pedr yn yr adnod hon—fel y maent yn drefniadau dynol, i ddybenion dynol, a dynion yn llywodraethu, y maent i'w parchu. Ystyr y frawddeg "o herwydd yr Arglwydd," yn unol â'r golygiad hwn ydyw, fod yr Iesu ei hun unwaith wedi bod yn ddarostyngedig ar y ddaear, ac i fod etto felly yn ei bobl, er ei fod ef â phob peth wedi eu darostwng iddo. *Pa un bynag ai i'r brenin, megys goruchaf.*—Yma

hyn i bob dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynag ai i'r brenin, megys goruchaf;

14 Ai i'r llywiawdwyr, megys [x] trwyddo ef wedi eu danfon, [x] er dïal ar y drwg-weithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da.

[x] Rhuf. 13. 34.

[y] Eph 6.6,7.

15 Canys [y] felly y mae ewyllys Duw, fod i chwi trwy wneuthur daioni ostegu anwybodaeth dynion ffolion:

16 Megys yn rhyddion, ac nid â rhyddid genych megys cochl malais, [z] eithr fel gwasanaethwyr Duw.

[z] Eph. 6. 6.

17 Perchwch bawb. Cerwch y brawdoliaeth. [a] Ofnwch Dduw.

[a] Gen.20.11; 22. 12.

Anrhydeddwch y brenin.

18 *Y* gweision, *byddwch* ddarostyngedig gyda phob ofn *i'ch* meistriaid; nid yn unig i'r *rhai* da a chyweithas, eithr i'r *rhai* anghyweithas hefyd.

---

manylir ar y gwahanol fathau o ordinhadau dynol, a'r benaf yn gyntaf—"i'r brenin." Cyfeirir, y mae yn ddiau, at ymherawdwr Rhufain, o dan lywodraeth yr hwn yr oedd llawer o'r dyeithriaid hyn, yn enwedig yn rhandir Asia. Gwel *pen.* i. 1. "Goruchaf:"—yr hwn a lywodraetha yn y fath fodd, nad ydyw o gwbl yn cael ei lywodraethu gan arall.

14. *Ai i'r llywiawdwyr.*—Enw cyffredinol ar swyddogion blaenaf y taleithiau, y rhai a anfonid allan gan Cesar. *Megys trwyddo ef wedi eu danfon.*—Tybia rhai mai yr Arglwydd a feddylir wrth "trwyddo ef." Dyma syniad Calvin: "Pwy bynag sydd yn cyfeirio y rhagenw at y brenin y mae yn camsynio yn fawr:" ond er hyny, hwn sydd yn ymddangos yn fwyaf cysson. O blegid pa ham y dywedir mai y llywodraethwyr sydd yn unig wedi eu hanfon drwy yr Arglwydd. Nid oes son am y brenin ei hun felly—yr hyn fyddai lawn mor resymol. *Er dial ar y drwg-weithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da.*—Cyfeirio y mae hyn at ddyledswyddau cyffredinol y llywodraethwyr—nid fel y tybia un hen esboniwr, mai i'r math yma o swyddogion yr oedd Cristionogion yn unig i ymostwng. "Gweithredwyr da."—"Gair o ddefnyddiad mynych yn yr epistol hwn."—*Bengel.*

15. *Canys felly y mae ewyllys Duw.*—Dyma y rheswm am ymddarostwng (*adn.* 13). "Felly:"—yn y wedd a ddynodir yn mhellach, y mae darostwng anwybodaeth. *Fod i chwi trwy wneuthur daioni ostegu anwybodaeth dynion ffolion.*—Ystyr llythyrenol "gostegu" yw rhoddi *muzzle* am y genau. Y gair hwn a arferir am waith yr Iesu yn gostegu y gwynt a'r tonau: *Marc* iv. 39. Y mae "gostegu anwybodaeth" yn ffurf ymadrodd anghyffredin; ond y syniad ydyw, peri na byddo ganddynt ddim achos i oganu. Oddi wrth y syniad am y *muzzle*, dywed un y cyfeirir at yr anwybodaeth hwnw sydd yn meddu y genau yn fwy agored na'r llygad.

16. *Megys yn rhyddion.*—Fe geir cryn lawer o amrywiaeth barn ynghylch cyssylltiad yr adnod hon. Myna Bengel, Gerh, De Wette, ac ereill, mai âg "ymddarostyngwch," yn *adn.* 13, y mae ei chyssyltu: Calvin, Bede, Luther, ac ereill, mai â "trwy wneuthur daioni," yn *adn.* 15: Wiesinger ac Alford, mai ymhelaethiad ydyw ar *adn.* 15, yn egluro yr amgylchiadau o dan ba rai yr ydym i ostegu trwy wneuthur daioni. Y mae yn debyg nad oes nemawr wahaniaeth rhwng y ddau ddosbarth diweddaf hyn; a chan fod ystyr i'r geiriau heb fyned mor bell yn ol ag *adn.* 13, gwell ei dderbyn. Wrth "ryddid" y saint y golygir, y mae yn ddiau, eu rhyddid ysbrydol fel deiliaid o'r deyrnas nad ydyw o'r byd hwn. Nid oedd hyny yn un rheswm iddynt ddiystyru pob trefniant daearol. *Ac nid â rhyddid genych megys cochl malais.* "Cochl:"—Saes., 'gorchudd:' peth i guddio gwir amcan; dyweyd mai oherwydd eu bod yn rhydd y peidiant ymddwyn yn y fath fodd ag i ostegu, &c., pan mai amcan i falais neu ddrygioni (*adn.* 1) sydd ganddynt. *Eithr fel gwasanaethwyr Duw.*—Rhan o wasanaeth Duw ydyw defnyddio pob achlysur i hyrwyddo ei ogoniant. Dylent yn mhob peth wneyd ymgais i fynegu ei rinweddau (*adn.* 9).

17. *Perchwch bawb:—h. y.*, pawb ar sydd yn haeddu parch: *Rhuf.* xiii. 7. Yma rhoddir y cyfanswm yn y dechreu. Agorir ei gynnwys yn ngweddill yr adnod, a manylir yn mhellach yn yr adnodau dilynol. Sylwa Alford, mai nid yr un amser sydd i'r ferf gyntaf hon a'r berfau canlynol, a thyn y casgliad, "fod y gorphenol yma yn dynodi cyfeiriad cyffredinol, ac eang ei ystyr·tra y mae yr amser presennol sydd yn dilyn yn fwy perthynasol i'r tair cangen o'r cyfeiriad." *Cerwch y brawdoliaeth.*—O herwydd natur y berthynas, y maent i'w caru. "Brawdoliaeth:" dansoddol am yr holl frodyr. Y mae Pedr yn hoff o'r ffurf hon: gwel *adn.* 9. *Ofnwch Dduw.*—*Diar.* xxiv. 21; *pen.* i. 17. Y mae amser presennol y berfau hyn yn golygu arferiad parhaus. *Anrhydeddwch y brenin.*—Yr un gair ag uchod, "perchwch bawb." "Y mae y brenin i gael ei anrhydeddu yn y fath fodd fel na byddo cariad at y brodyr ac ofn Duw i gael ei niweidio."—*Bengel.*

18. *Y gweision, byddwch ddarostyngedig gyda phob ofn i'ch meistriaid.*—Yn yr adnod hon y mae yn dechreu cyfeirio ei gynghorion at wahanol ddosbarthiadau o gymdeithas, fel y cawn etto (yn *pen.* iii. i), y gwragedd; (*adn.* 7), y gŵr; (*pen.* v. 1), a'r henuriaid. Gweision teuluaidd a olygir yma: nid *doulοi* (caethweision). Tybia Steiger y gallai *oicetai* gymmeryd i mewn rai wedi eu rhyddhau o gaethwasanaeth, ond etto yn hoffi aros gyda'u meistriaid. Wel, nid oedd y rhyddid hwn chwaith i fod yn gochl malais, mwy na'r uchod: *adn.* 16. "Gyda phob ofn." "Nid yn unig gyda pharch isafiad, ond yr ofn sydd yn perthyn i ymostyngiad."—*Alford. Nid yn unig i'r rhai da a chyweithas.*—"Mae tegwch yn cael ufudd-dod yn hawddach na gerwinder."—*Bengel.* Y gair Groeg am "gyweithas" a olyga mwyn, tyner, amyneddgar; a dyna ystyr "cyweithas" hefyd. Gellir gwahaniaethu rhwng y "da" a'r "cyweithas"—fod y cyntaf yn dangos un pell o osod dim drwg; a'r ail, un yn mâddeu camgymmeriadau. *Eithr i'r rhai anghyweithas hefyd.*—Nid oes un cyferbyniad llythyrenol yn y Groeg rhwng "cyweithas" ac "anghyweithas;" *h. y.*, nid ydynt o'r un gwreiddyn. Ystyr *scolios*, a gyfleithir "anghyweithas," ydyw cam, cymmhlethedig; yna, gŵyro oddi wrth uniondeb a chyfiawnder. Dywed un am danynt, meistradoedd "creulawn ac anhydrin, caled, ac anfoddog."

19 Canys hyn *sydd* rasol, os [b] Mat. 5. 10—12; Ioan 15. 21. yw neb o [b] herwydd cydwybod i Dduw yn dwyn tristwch, gan ddioddef ar gam.

20 O blegid pa glod *yw*, os, pan bechoch, a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd? eithr os, a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich amynedd; [c] hyn *sydd* rasol ger bron Duw. [c] Rhuf. 12. 1, 2.

21 Canys i hyn y'ch galwyd hefyd: [d] o blegid Crist yntau a ddioddefodd drosom ni, [e] gan adael i [d] Luc 24. 26. [e] Rhuf. 8 9. ni esampl, fel y canlynech ei ol ef:

22 Yr hwn [f] ni wnaeth bechod, ac ni [g] chaed twyll yn ei enau: [f] Esa. 53. 9; Luc 23. 41, 47. [g] Ioan 1 47.

23 Yr hwn, [h] pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddioddefodd, ni fygythiodd; [i] eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn: [h] Salm 38. 12—14: [i] Esa. 53. 7. Luc 23. 46.

19. *Canys hyn sydd rasol.*—Neu, hyn sydd yn haeddu diolch, neu yn ganmoladwy; fel yn *Luc.* vi. 32, "Pa ddiolch fydd i chwi?" Nid ei fod yn arwydd o ras dwyfol. Y mae Calvin yn ymddangos fel wedi llwyddo i ganfod y cyssyltiad: "Yr un ydyw ystyr gras a mawl (canmoliaeth); o blegid nis gall fod yn unrhyw ras na mawl i ni gael ein heddychu ger bron Duw, wedi i ni ddioddef y gosp a haeddasom o herwydd ein pechodau; ond y mae yr hwn sydd yn dwyn niweidiau yn amyneddgar yn haeddu cymmeradwyaeth, ac yn gwneyd gwaith derbyniol gan Dduw." *Os yw neb o herwydd cydwybod i Dduw yn dwyn tristwch.*—Y meddwl yma yw, gwneyd aberth oddi ar argyhoeddiad mai yr ymddygiad a arferir sydd ddeboyniol gan Dduw. Duw wedi gofyn, a'r dyn oddi ar ymwybyddiaeth o hyny, yn cadw at y gorchymyn, er cyfarfod âg anhawsderau yn ei ffordd. "Hyn sydd yn cael ei wneyd o herwydd cydwybod i Dduw, pan y mae un yn cyflawni ei ddyledswydd, nid gyda golwg ar ddynion, ond ar Dduw."—*Bengel. Gan ddioddef ar gam*;—yn anghyfiawn. "Yn dwyn y pethau hyny a osodir yn anghyfiawn."—*Bengel.*

20. *O blegid pa glod yw, os, pan bechoch, a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd?*—Yma ymhelaethir ar y syniad uchod, mai dioddef ar gam sydd yn hawlio clod. Dygir yr amgylchiadau cyferbyniol ger bron i gadarnhau yr uchod. Am "glod," dywed Bengel mai "canmoliaeth yw; nid oddi wrth y lliaws, ond yr ychydig, yn enwedig Duw." Ond o'r ochr arall, y mae Alford yn cymmeryd yr ystyr yn gwbl gyffredinol. "Cernodio?"—ystyr y Groeg yw curo â'r llaw neu y dwrn; y mae y Gymraeg yma yn dangos yn hytrach y rhan a gyffyrddir. Dywed Bengel, fod hyn yn ddull o geryddu caethion, ac y gwneid ef yn hollol ddirybudd; yr hyn a drethai fwy ar amynedd. Ond nid oedd clod am amynedd, os y derbynid y math hwn o gerydd, wedi pechu. *Eithr os, a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich amynedd; hyn sydd rasol ger bron Duw.*—"Y mae Pedr yn dilyn dull o ymadroddi, pan yn ddysgybl lled ieuangc, a glywsai gan yr Arglwydd?"—*Bengel.*

21. *Canys i hyn y'ch galwyd hefyd.*—Y mae y "galw" yn air mynych yn y llythyr hwn; ond nid yr un ystyr a olygir ganddo yn mhob man. Weithiau, rhoddir dyben uchaf y galw i ni:—"Wedi galw i dragwyddol ogoniant," *pen.* v. 10. Dro arall fel yma, galw i'r hyn sydd yn arwain i'r sefyllfa berffaith—galw i ddioddef ar gam. "Dyma alwad nefol, yr hon a'ch cafodd chwi mewn cyflwr o gaethiwed."—*Bengel. O blegid Crist yntau a ddioddefodd drosom ni.*—Y mae yma ddigon o reswm dros i holl weision Crist ddioddef ar gam, wrth feddwl yr hyn a wnaeth yr athraw ei hun pan yma mewn agwedd gwas. Gan mai cyfarch gweision yn yr ystyr naturiol y mae yr apostol yma, priodol iawn ydyw y cyfeiriad at Grist yn ei agwedd o ddarostyngiad. *Gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ol ef.*—Nid ydyw y darlleniad i'w deimlo yn gysson yn y newidiad personau a gawn yma; ac felly, y mae rhai ysgrif-lyfrau yn rhoddi yr ail berson trwodd—gan roddi i 'chwi,' &c. "Gan adael:"—amser presennol, yn cyfeirio at adeg ei ymadawiad at y Tad, medd Bengel; se felly y mae hanes ei ddioddefaint i feddu effaith barhaol ar ei bobl. Ystyr y gair "esampl" ydyw cynllun ar ben y ddalen i ysgrifenu wrtho, neu y *model* i dynu ei ddarlun. Cyfaddasir y cynllun i'r dysgyblion sydd yn ymarfer mewn darlunio; felly yn amlwg y mae Pedr yma yn darlunio esampl Crist i weision o flaen eu llygaid, gan roddi arbenigrwydd i'r nodweddau hyny sydd fwyaf perthynasol a phriodol i weision."—*Bengel.* Yn niwedd y frawddeg hon, y mae y ffugr yn cael ei newid—yn lle codi delweddau y cynllun, yma dilyn rhodiad yr athraw mawr mewn goddefgarwch a diniweidrwydd. "Ei ol," neu ei gamrau; gwel *Rhuf.* iv. 12.

22. *Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau.*—Dyfyniad ydyw y geiriau hyn o *Esa.* liii. 9. Y mae yn yr ymadroddion byr yma ddisgrifiad o gymmeriad moesol perffaith. Nid yw yr apostol yn petruso ei godi i fyny fel esampl, er ei fod yn berffaith, ac y gallai ddigaloni rhai ammherffaith: am ei fod yn berffaith y mae yn gymmhwys, o blegid ni thâl cynllun ond felly. "Pechod"..."twyll:"—cyfeiria y cyntaf o bossibl at droseddau allanol, a'r llall at ddiffyg cywirdeb mewnol; neu, un mewn gweithred, a'r llall mewn gair. "Twyll yn ei enau."—"Cynnwysa y geiriau hyn y cynghorion mwyaf cyfaddas i weision, y rhai sydd yn bur hawdd iddynt gwympo i bechodau, a thwyll, yn enwedig gwaradwyddiadau ar eu cydweision, a bygythion yn tarddu o ddigofaint yn ngwyneb diffyg gallu."—*Bengel.*

23. *Yr hwn, pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn.*—Yn y geiriau hyn hefyd, y mae cyfeiriad at *Esa.* liii. 7. *Pan ddioddefodd, ni fygythiodd.*—Y mae esgyniad yn y geiriau, o gael ei ddifenwi, i ddioddef; o ddifenwi drachefn, i fygwth. Pan ger bron yr archoffeiriad fe ddarfu ragfynegi ei ail ddyfodiad (*Mat.* xxvi. 64); ond gwnaeth hyd yn oed hyny heb son am fygwth pan ddioddefodd. "Os yw hyn yn wir am dano ef, ac efe yn Arglwydd, pa faint mwy y dylai gweision fod yn ddioddefgar."—*Bengel. Eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn.*—"Rhoddodd," neu traddododd, pa beth? Ar hyn y mae gwahanol olygiadau. Tybia rhai, ei hun; ereill, ei achos; ereill, ei waradwyddiadau a'i ddioddefiadau; ac ereill, y rhai a'u poenydiasant. Yr hwn sydd yn barnu yn gyfiawn ydyw Duw, yn ol *pen.* i. 17. Os y bobl a'u croeshoeliasant a roddodd yr Iesu i'r hwn sydd yn barnu

[k] Exod. 28. 38; Salm 38. 4; Mat 8. 17. [l] Deut. 21. 22, 23. [m] Esa. 53. 5; Mat. 27. 26.

24 Yr hwn [k] ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar [l] y pren; fel, gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder: [m] trwy gleisiau yr hwn yr iachawyd chwi.

25 Canys yr oeddych megys defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau.

yn gyflawn, nid ydyw hyny yn golygu mai i farn y rhoddodd hwynt. O blegid gweddïodd drostynt ar y groes; a diau i lawer o honynt gael trugaredd. Sylwa Calvin yn dra phriodol, medd Alford—"Y rhai sydd yn ymhyfrydu mewn disgwyl dialedd, nid ydynt yn rhoddi y gwaith o farnu i Dduw: ond dymunant rhyw ffordd iddo fod yn ddïenyddwr drostynt hwy." O'r ochr arall, gallwn ninnau gyferbynu sylw Bengel, "Y mae cyfiawnder Duw wedi bod i'r trallodedig yn sylfaen tawelwch."

24. *Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren.*—Y mae priodoldeb esampl Crist i ni yn dyfod yn fwy fwy i'r golwg yn yr adnodau hyn. Nid yn unig efe a ymgymmerodd â'r gwaith ei hun, heb geisio neb arall i'w gynnorthwyo; ond yr oedd natur y gwaith yn gyfryw ag i ennill ein diolchgarwch dyfnaf ni. Dioddefodd drosom ni: îe, cospedigaeth ein heddwch yn llwyr ac effeithiol. "Dug ein pechodau:" y mae y gair fel y sylwa Alford, yn meddu ystyr arbenig (*technical*) "dwyn i aberthu;" "dygodd ac offrymodd i fyny." Cyfeirir at hyn yn *Esa.* liii. 12. Yr ystyr yn llawn ydyw, efe a ddug ein pechodau yn ei gorph i'r pren, ac a'u hoffrymodd i fyny arno. Mae sylw Vitringa yn werth ei gyfleu yma, "Prin y gellir gosod allan mewn un gair holl ystyr yr ymadrodd *anapherein* (dwyn). Yn y lle cyntaf, myn Pedr grybwyll fod Crist wedi dwyn ein pechodau, yn gymmaint ag iddynt gael eu gosod arno; yn yr ail le, ei fod wedi dwyn ein pechodau yn y fath fodd ag i'w offrymu gydag ef ei hun ar yr allor. Y mae ganddo gyfeiriad at yr anifeiliaid, ar y rhai yr oedd y pechodau yn cael eu gosod, a'r rhai wedi hyny a offrymid gyda'r pechodau, yn faich arnynt. Ond ar ba allor? "Ar y pren," meddai Pedr; *h. y.*, y groes. Ar y groes, yn y cyssylltiad yma, sylwa Bengel, "Gyda'r pren, y groes, neu y fforch am y gwddf, arferid cospi caethion." *Fel, gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder.*—Myn rhai esbonwyr roddi ystyr llai grymus na marw: megys myned heibio, symmud i bellder; ond fel y sylwa Alford, golyga y gair Groeg yma 'farw yn llythyrenol.' Athrawiaeth yr Epistol at y Rhufeiniaid a geir yma—gwel *Rhuf.* vi. 11, 18: "Marw i bechod" gyda Christ; rhyddhau oddi wrth ei wasanaeth, fel ag yr oedd yn hawlio meddiant arnom, drwy farwolaeth Crist, ac adgyfodi i wasanaethu cyfiawnder yn adgyfodiad Crist. *Trwy gleisiau yr hwn yr iachawyd chwi.*—Etto, *Esa.* liii. 5; "cleisiau"—gwell na'r Saesneg, *stripes;* yr ystyr yw, ol y fflangell. Sylwa Bengel, "Gwrthddywediad apostolaidd—iacheir chwi drwy gleisiau. Yr oedd cleisiau yn aml yn nghorph caethwas."

25. *Canys yr oeddych megys defaid yn myned ar gyfeiliorn.*—Etto, *Esa.* liii; "crwydrasom fel defaid." *Eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau.*—Rhoes y Bugail ei fywyd yn eich lle: bellach, fe hawlia ymlyniad

PENNOD III.

1 *Y mae yn dysgu i wŷr a gwraegedd eu dyled i'w gilydd: 8 yn annog pawb i undeb a chariad; 14 ac i ddioddef eriîd; 19 ac yn adrodd daioni Duw i'r hen fyd gynt.*

YR un ffunud, *bydded* y gwraged ostyngedig i'w gwŷr priod; fel, od oes rhai heb gredu i'r gair, y galler trwy ymarweddiad y gwragedd, eu hennill hwy heb y gair, B. A. 63.

wrtho, ac wrth ei esampl. "Esgob:" enw swyddogion yr eglwys yn cael ei roddi ar y pen. Gwel *pen.* v. 2. "gan fwrw golwg," yr hyn ydyw ystyr y gair 'esgob.'

Pennod III.

Cynnwysiad.—Yn unol â diwedd y bennod o'r blaen, ymhelaethir yn hon hefyd ar ddyledswyddau neilltuol. Dyledswyddau gwragedd (1—6), gwŷr (7); yna y rhai sydd yn perthyn i'r holl frawdoliaeth Gristionogol, yn enwedig rhai a berthynant i amser o erledigaeth, megys addfwynder, tynerwch, caredigrwydd, a hyny tuag at elynion (8—17). Yma etto y mae'yn rhoddi grym i'w gynghorion oddi wrth esampl fawr yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn hefyd drwy ei adgyfodiad a'i ddyrchafiad sydd yn ein hachub ni trwy fedydd (18—22).

1. *Yr un ffunud, bydded y gwragedd ostyngedig i'w gwŷr priod.*—Cyfeiria yr ymadrodd "yr un ffunud" at yr ymostyngiad a gymmhellir ar weision yn *pen.* ii. 18, a cheir parhâd hefyd o'r rhestr yn *adn.* 7 o'r bennod hon. Gwelir trefn yn y dilyniad gan yr apostol:—gweision yn gyntaf, a rhai israddol; yna y mae yn esgyn at y gwragedd, a hwythau hefyd i ymostwng; ac yn nesaf at y gwŷr, gan ddysgu eu gwers briodol iddynt hwy. Nid ydyw y ffurf orchymynol ar y gair "darostyngedig" yn y Groeg, ond tybir yn gyffredin mai yn y cyflwr cyfarchiadol (*vocative case*) y mae "gweision," "gwragedd," a "gwŷr," ac felly mai gorchymyn y mae yr apostol yn yr holl enghreifftiau hyn. Er y gellid cyfeithu y Groeg am "wragedd" yn 'ferched,' gwelir fod y Gymraeg yn gywir, am y crybwyllir etto "gwŷr priod," hyny yw, eu gwŷr eu hunain. *Fel, od oes rhai heb gredu i'r gair:*—neu, fel hyd yn oed, 'os oes rhai,' &c. Gallai rhai gwragedd feddwl nad oedd yn rhesymol iddynt fod yn ddarostyngedig i'r math o wŷr a ddisgrifir yma; ond hyd yn oed yn yr achos hwn nid oeddynt rydd, ac ni wyddent pa effaith daionus a ddilynai eu hymarweddiad da. *Y galler trwy ymarweddiad y gwragedd, eu hennill hwy heb y gair.*—Groeg: 'heb air.' Nid yr un ystyr sydd i "gair" yn y ddwy frawddeg yn yr adnod hon. Y mae yma ffugr ymadrodd, a elwir *antanaclasis*; hyny yw, yr un ymadrodd yn cael ei arfer mewn dau wahanol ystyr. "Heb gredu i'r gair:" heb gredu i'r efengyl, fel y mae yn cael ei phregethu. "Ennill hwy heb y gair;" hyny ydyw, heb i'r gwragedd bregethu iddynt, na'u cynghori; ennill drwy eu hymarweddiad: ond nid oedd hyn "heb y gair" i'r gwragedd, canys felly yr ennillwyd hwy i'r ymarweddiad hwn. "Y mae eu hymarweddiad ynddi ei hunan yn anadlu grym yr athrawiaeth."—*Bengel.* Dywed un, "Peidiwch a dysgu o gwbl, neu ynte bydded i'ch bywyd ddysgu hefyd." Y mae i'r gair "ennill" y syniad o wneyd elw, ac ar hyn y sylwa Leighton fel hyn—"Y mae enaid

2 Wrth edrych ar eich ymarweddiad diwair chwi ynghyd âg ofn.

[a] Mat. 23. 26; Luc 11. 40; Rhuf. 2 20. [b] 1 Pedr 1 23. [c] Salm 25. 9; Mat. 21. 5; 2 Cor. 10. 1; Eph. 4. 2. [d] 1 Sam. 16. 7; Luc 16. 15.

3 Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan, o blethiad gwallt, ac amgylch-osodiad aur, neu wisgad dillad;

4 Eithr *bydded* [a] cuddiedig ddyn y galon, [b] mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, [d] yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr.

5 Canys felly gynt yr oedd y gwragedd sanctaidd hefyd, [c] y rhai oedd yn gobeithio yn Nuw, yn ymdrwsio, gan fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr priod;

[c] 1 Sam. 2. 1; Luc 2. 37.

6 Megys yr ufuddhaodd Sarah i Abraham, gan ei alw ef yn arglwydd: merched yr hon ydych am y "nard gwlyb." "Gan Dduw: yr hwn sydd yn edrych ar y mewnol, ac nid yr allanol."—*Bengel.* Am wisgoedd ac addurniadau, dywed Leighton, "Ni bydd i Gristionogion cydwybodol fyned tu hwnt i derfynau yn hyn; mor bell ag yr arferant addurniadau cyfreithlawn, a gweddeidd-dra, gwnant hyny heb roddi llawer o ddiwydrwydd na hyfrydwch yn y gwaith.'

dychweledig yn ennill iddo ei hun, ac yn ennill i'r gweinidog, neu y cyfaill, neu y wraig, neu y gŵr a'i ceisiodd; ac wedi ei ennill i Iesu Grist, y mae wedi ei ennill i'w drysor ef, yr hwn ni dybiodd ei werthfawr waed ei hun yn rhy ddrud i'w osod allan er mwyn yr ennill hwn."

2. *Wrth edrych ar eich ymarweddiad diwair chwi ynghyd âg ofn.*—Y mae amrywiaeth barn o berthynas â pha air i gyssylltu "gydag ofn" âg ef. Tybia Bengel, Leighton, a Luther, mai "diwair" gydag "ofn" yw y cyssylltiad; Alford, ac ereill, mai "ymddygiad gydag ofn;" yn ol *Eph.* v. 33—"a'r wraig, edrycheda ar iddi berchi;" Groeg: 'ofni ei gŵr.' "Y mae ofn yn beth cyffredinol, yn cael ei argymmhell gan yr apostol ar bob Cristion, ond yn arbenig felly ar wragedd, fel y byddo eu hymarweddiad yn ddiwair."—*Bengel.* "Y mae diweirdeb yn ras tyner, ofnus, yn gwylio rhag yr anadliad lleiaf, neu gysgod o unrhyw beth ag sydd ganddo ond tebygolrwydd i'w niweidio mewn ymddygiad, neu ymadrodd, neu wisg, fel y canlyn yn *adn.* 3 a 4."—*Leighton.*

3. *Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan:*—neu, addurniad y rhai. Y mae y cyferbyniad i'r addurniad oddi allan i'w gael yn yr adnod nesaf, "cuddiedig ddyn y galon." *O blethiad gwallt, ac amgylch-osodiad aur neu wisgiad dillad* —Y mae y rhai hyn yn rhestr o'r gwahanol addurniadau allanol yr ydoedd, ac y mae gwragedd etto mewn rhan, yn chwannog o'u harfer. "Amgylch-osodiad aur:"—rhoddi am y pen gorchau, neu am y breichiau freichledau, neu am y goes addurn y ffêr, neu am y bysedd fodrwyau; neu yn gyffredinol unrhyw amgylch-osodiad."—*Alford.* "Y mae 'plethiad,' 'amgylch-osodiad,' a 'gwisgiad,' yn awgrymu gwaith addurno, ag sydd yn ysu cryn lawer o amser."—*Bengel.*

4. *Eithr bydded cuddiedig ddyn y galon.*—Tybia Alford yma mai nid yr hyn a feddylir wrth "guddiedig ddyn y galon" yw y dyn mewnol, fel ei gwahaniaethir oddi wrth y dyn allanol; y mae hyny gan yr annuwiol—ond yn hytrach y bywyd newydd yn ei loywder a'i brydferthwch. Ei brif reswm dros hyn yw, na ddywedir fod y dyn cuddiedig hwn i gael ei addurno; ond efe yw yr addurn. Chwanegir "y galon," am y cyfeirir at y galon wedi ei chyfnewid, ac yn hawddgar gan serchiadau a grasau Cristionogol. *Mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd.*—Groeg: 'yr addfwyn;' anllygredig o ysbryd addfwyn, &c. "Dylai addfwynder a llonyddwch fod yn anllygredig: y llygredig o honynt yw, beiddgarwch, a chyffro; yr 'addfwyn' yw yr hwn nad ydyw yn cynnhyrfu; y 'llonydd,' yr hwn sydd yn dwyn cynnhyrfiadau ereill yn dawel. Y mae un yn cyfeirio at ddiwedd *adn.* 5, a'r llall at ddiwedd *adn.* 6."—*Bengel. Yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr.*—"Yr hwn:" yr anllygredig.—*Bengel.* Yr ysbryd.—*Alford.* "Gwerthfawr:"—yr un gair ag a arferir yn *Marc* xiv. 3,

5. *Canys felly gynt yr oedd y gwragedd sanctaidd hefyd.*—Rhydd yr apostol rym i'r cynghorion uchod trwy ddwyn yn mlaen esampl. "Y gwragedd sanctaidd:" y gwragedd o enwogrwydd yn yr hanes sanctaidd, ac am hyny yn deilwng o bob efelychiad: a gallent hwythau fod yn debyg iddynt. *Y rhai oedd yn gobeithio yn Nuw.*—Arddangosiad neilluol o sancteiddrwydd ydyw "gobeithio yn Nuw." *Yn ymdrwsio, gan fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr priod:*—*h.y.*, dyma oedd eu haddurniadau hwy, y mewnol—bod yn ddarostyngedig, ac yn meddu "ysbryd addfwyn a llonydd." "Y mae y rhan fwyaf o bethau sydd yn ein poeni yn gwneyd hyny, nid o herwydd eu natur hwy eu hunain, ond o herwydd ansawdd ein meddwl ni. 'Y mae llawer o bethau yn dramgwydd, nad ydynt yn niweidio.' Mor ddymunol yw meddwl tawel a chadarn, nad ysgogir yn ebrwydd iawn."—*Leighton.*

6. *Megys yr ufuddhaodd Sarah i Abraham, gan ei alw ef yn Arglwydd.*—O'r holl wragedd sanctaidd y cyfeirir atynt yn yr adnod flaenorol, neilluir Sarah fel un nodedig yn y gras hwn. Ac fel y mae Abraham yn cael ei alw yn dad y ffyddloniaid, o herwydd mawredd ei ffydd ef, felly hefyd y mae Sarah yn fam i'r gwragedd ufudd ac ymostyngol, gan mor uchel ei chymmeriad hithau fel gwraig. Nid at yr amgylchiad pan y galwodd hi Abraham yn arglwydd y mae yr ufuddhau yma yn cyfeirio, ond at holl ystod ei bywyd. Galwodd ef yn arglwydd yn *Gen.* xviii. 12, ac y mae ei hymostyngiad yn fwy, fel y sylwa Bengel, wrth feddwl ei fod o'r un tad a hithau: *Gen.* xx. 12. *Merched yr hon ydych chwi.*—Groeg, 'plant yr hon y'ch gwnaed chwi.' Yn cyfeirio at y Cenhedloedd. Nid oeddynt hwy blant i Sarah o ran disgyniad naturiol, ond yr oeddynt wedi dyfod trwy waith yr Ysbryd arnynt. Dengys y gair nesaf beth yw yr ammod iddynt fod yn blant i Sarah. *Tra fyddoch yn gwneuthur yn dda, ac heb ofni dim dychryn.*—Y mae llawer o wahanol farnau am gyssylltiad y ddwy ran o'r frawddeg hon â'u gilydd—gwneuthur yn dda, ac heb ofni dim dychryn. Cyttuna pawb mai achos o ddychryn oddi allan a feddylir, fel y sonir yn *Diar.* iii. 25; "Nac ofna rhag braw disymmwth." Gyda golwg ar y cyssylltiad, tybia un "y gorchymyna i'r gwragedd wneyd eu dyledswydd, hyd yn oed pan na orfodir hwy gan unrhyw ofn; hyny yw, yn barod, ac o'u bodd." Tybia un arall mai "wrth wneuthur yn dda" y golygir gweithredoedd o elusen, ac heb ofni rhoddi

chwi, tra fyddoch yn gwneuthur yn dda, ac heb ofni dim dychryn.

7 Y gwŷr, yr un ffunud, cydgyfanneddwch â hwynt yn ol gwybodaeth, gan roddi parch i'r wraig megys i'r llestr gwanaf, fel rhai sydd gyd-etifeddion gras y bywyd; rhag rhwystro eich gweddïau.

8 Am ben hyn, *byddwch* oll yn unfryd, yn cydoddef â'ch gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn fwynaidd:

9 Nid [f]yn talu drwg am ddrwg, neu sèn am sèn: eithr, yn ngwrthwyneb, yn bendithio; gan wybod mai i hyn y'ch galwyd, [g]fel yr etifeddoch fendith.

[f] Diar. 20. 22; Luc 6. 27–29.

[g] Mat. 19. 29. Luc 18. 18;

cyfrif am hyny i'w gwŷr anghrediniol. Ond y farn fwyaf cyffredin yw, fod iddynt wneuthur yr hyn sydd dda, ynglŷn â'r hyn nis gall fod achos o ddychryn gwirioneddol iddynt. Yr oeddynt i wneyd da, pa faint bynag o ddychryn allanol a fygythid arnynt. Byddai ganddynt gydwybod dawel yn y fynwes, yr hyn a leddfa pob dychryn. Gyda golwg ar y gofyniad sydd yn cymmheli ei hun i feddwl pob gwraig ystyriol, a ydyw pob addurn mewn gwisg yn cael ei wahardd yma, ai ynte gofalu nad addurniadau mewn gwisg fyddo eu hunig addurn, sylwa Alford, "y gellir gadael hyn i ddoethineb gwragedd crediniol, i beidio a bod yn annoeth, ond i ddeall beth ydyw ewyllys Duw yn hyn, fel mewn llawer o bethau cyffelyb. O fewn terfynau priodoldeb a gweddeidd-dra, yr arfer gyffredin ydyw y rheol. Y mae pechod mewn hynodrwydd, fel y mae yn gweini i falchder ynom ein hunain, ac yn rhoddi tramgwydd i ereill, ac yn tynu anfri ar ein crefydd sanctaidd."

7. *Y gwŷr, yr un ffunud.*—Gwel *adn.* 1, lle y cyfeirir at *pen.* ii. 18. *Cyd-gyfanneddwch â hwynt yn ol gwybodaeth.*—Cydolyga y mwyafrif o esbonwyr fod cyfeiriad yma at holl barhâd y bywyd priodasol; ac mai gwybodaeth yn y gŵr, hyny yw, ystyriaeth resymol o holl amgylchiadau eu hundeb, a wna eu bywyd yn llwyddiannus a dedwydd. Meddylia Bengel fod gwybodaeth yma yn arbenig yn gofyn cymmedroldeb. *Gan roddi parch i'r wraig megys i'r llestr gwanaf.*—Nid yn ol y Gymraeg y mae y beirniaid goreu yn deall y Groeg—yn hytrach fel hyn: 'Y gwŷr yr un ffunud cyd-gyfanneddwch yn ol gwybodaeth â'r llestr benywaidd fel y gwanaf, gan roddi parch (neu anrhydedd) fel cyd-etifeddion,' &c. Sylwa Bengel mai y llestr gwanaf sydd yn gofyn gwybodaeth neu gymmedroldeb, ac mai y cyd-etifedd sydd yn hawlio anrhydedd. Y mae y gŵr hefyd yn llestr; ac yn gymmhariaethol y mae y wraig yn wanaf, gan ei fod yntau yn meddu gwendid. *Fel rhai sydd gyd-etifeddion gras y bywyd:*—hyny yw, gan roddi anrhydedd iddynt fel cyd-etifeddion. Cyssyllter er hyny cyd-gyfanneddu â chyd-etifeddion. Tybia Bengel mai cyd-etifeddion yw y gwŷr, nid â'r gwragedd, ond â'r holl dduwiolion; ac y mae yn mabwysiadau y dybiaeth hon, er mwyn cymmeryd i mewn yn nghynghor yr apostol wragedd heb gredu i'r gair: ond y mae yn dra amlwg oddi wrth yr holl gyfeiriadau yma fod y gwragedd yn grediniol, a'r gwŷr hefyd yn yr enghraifft ddiweddaf hon; onid ê, pa fodd y gellir dyweyd eu bod yn gweddïo? *Rhag rhwystro eich gweddïau.*—Tybia un mai yr hyn a feddylir wrth "rwystrc" y gweddïau ydyw colli yr hyder yn y naill a'r llall sydd yn angenrheidiol i gyd-weddïo. Tybia Weisenger a Bengel mai gweddïau y gŵr yn unig a feddylir. Fel hyn y dywed y diweddaf: "Meddwl yr apostol yw, na byddo i weddïau y gwŷr gael eu rhwystro neu eu haflonyddu, o blegid y maent yn cael eu haflonyddu drwy anghymmedroldeb a digofaint." Ond y meddwl mwyaf cysson â holl rediad yr Ysgrythyr ydyw, y golled fydd o ddiffyg cydweithrediad yn eu gweddïau drwy i'r gŵr beidio rhoddi anrhydedd i'r wraig fel cyd-etifedd yr un bywyd tragwyddol, yr hwn a roddir i bawb o ras. "Mae pall yn y cariad priodasol, anghydfod ac ymrysonau rhwng gŵr a gwraig, yn ddiammheu, yn lefeinio ac yn chwerwi eu hysbrydoedd yn y fath fodd fel y maent yn hynod anghymmhwys i weddïo.....Y maent yn colli ystyr *Mat.* xviii. 14; "Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear." Ac y mae yn wir, yn y cymmhwysiad cyffredinol, fod pob rhodiad diofal mewn Cristionogion yn gwneyd cam â'u cymmundeb â'r nefoedd, ac yn tafiu oerfelgarwch dros eu gweddïau fel ag i anhwyluso eu hadenydd. Y mae y ddau hyn yn cydgynnorthwyo eu gilydd—gweddi, ac ymarweddiad sanctaidd. Po mwyaf cywir y rhodiom, mwyaf cymmhwys ydym i weddïo; a pho mwyaf weddïom, mwyaf y'n galluogir i rodio yn addas. Gan hyny, fel y galloch weddïo llawer, byddwch fyw yn sanctaidd; ac fel y byddo i chwi fyw yn sanctaidd, byddwch lawer mewn gweddi. Yn sicr dyma etifeddion gogoniant, a dyma y ffordd i mewn iddo."—*Leighton.*

8. *Am ben hyn.*—Groeg: 'yn ddiweddaf.' Nid diwedd yr epistol: ond yn hytrach na manylu ar berthynasau neilduol bywyd, y mae yn dwyn y dull hwn o gynghori i derfyn trwy ddyweyd y nodweddion sydd yn deilwng i bawb. *Byddwch oll yn unfryd:*—neu, o'r un meddwl—elfen gyntaf cydfod a brawdgarwch. *Yn cydoddef â'ch gilydd.*—Y meddwl ydyw, nid cyddwyn â'ch gilydd, ond cydymdeimlo â'ch gilydd mewn adfyd a llwyddiant. *Yn caru fel brodyr.*—Yn hytrach, 'caru y brodyr;' yn llawn o gariad brawdol—lle y rhagdybir fod sancteiddrwydd yn nodweddu y frawdoliaeth, *Yn drugarogion:*—lle y golygir cymmwynasgarwch tuag at y trallodedig. Ystyr llythyrenol y gair yw, 'o ymysgaroedd cryfion:' gwel *Phil.* ii. 1; "Od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau." *Yn fwynaidd.*—Llythyrenol, 'o feddwl isel, gostyngedig;' yr hyn sydd yn barotoad i gyflawni yr hyn a argymmhellir yn mhellach yn yr adnod nesaf.

9. *Nid yn talu drwg am ddrwg, neu sèn am sèn.*—Y gwahaniaeth rhwng "drwg" a "sèn" yn yr adnod yw, fod y cyntaf yn cyfeirio at weithredoedd, a'r diweddaf at eiriau. Fel y dywed un, "Nid drwg am ddrwg mewn gweithredoedd niweidiol, na sen neu felldith am felldith, mewn geiriau ymrysongar." *Eithr yn ngwrthwyneb, yn bendithio.*—Y mae yn debyg yn ngwrthwyneb i ymddygiad y gelyn yn gwneyd drwg, neu yn rhoddi sèn. "Bendithiwch y rhai a'ch melldithiant," &c.: *Mat.* v 44. *Gan wybod mai i hyn y'ch galwyd, fel yr etifeddoch fendith.*—Dylech fendithio am eich bod yn etifeddion y fendith fwyaf; sef, bywyd yn dragwyddol. Y mae Duw yn eich bendithio chwi, a dylech chwithau fen-

10 Canys y neb a ewyllysio hoffi bywyd, a gweled dyddiau
[b] 1 Pedr 3. 1 da, [h]attalied ei dafod oddi wrth —10.
[i] Ioan 1. 47; Dad. 14. 5. ddrwg, a'i wefusau rhag [i]adrodd twyll.

11 Gocheled y drwg, a gwnaed y da; ceisied heddwch, a dilyned
[k] Deut. 11. 12. ef.
Diar. 15. 3; Zech. 4. 10. 12 Canys [k]*y mae* llygaid yr
[l] Ioan 9. 31; Iago 5. 16. Arglwydd ar y rhai cyfiawn, [l]a'i glustiau ef tuag at eu gweddi

hwynt: [m]eithr *y mae* wyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai sydd yn gwneuthur drwg.
[m] Lef. 17. 10; Salm 80. 16; Ezec. 15. 7

13 A phwy a'ch dryga chwi, os byddwch yn dilyn yr hyn sydd dda?

14 Eithr [n]o bydd i chwi hefyd ddioddef o herwydd cyfiawnder, dedwydd *ydych:* ond nac ofnwch rhag eu hofn hwynt, ac na'ch cynnhyrfer;
[n] Ier. 15. 15; Mat. 9. 29; Act. 9. 16.

---

dithio ereill. Dywed Gerhard yn Alford, "Y mae y rhai sydd ganddynt ryw amser i etifeddu teyrnas nefoedd wedi eu bendithio ac yn blant y fendith, nid yn unig yn oddefol, ond yn weithredol—wedi derbyn bendith ysbrydol gan Dduw drwy ffydd; ac o'r ochr arall, yn bendithio ereill o gariad." Nid bendithio fel y derbyniom y fendith: nis gall pechadur sydd heb feddu ac heb haeddu dim wneyd hyny; ond yn hytrach megys y derbyniodd fendith, felly y mae i roi yn ol. "Yn maddeu, megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau;" *Eph.* iv. 32.

10. *Canys y neb a ewyllysio hoffi bywyd, a gweled dyddiau da.*—I gadarnhau y cynghorion uchod, y mae yr apostol yn dyfynu o'r Hen Destament: *Salm* xxxiv. 12—17. Yno y mae tipyn o wahaniaeth rhwng yr adnod gyntaf yma yn y dyfyniad, "Pwy yw y gŵr a chwennych fywyd, ac a gâr hir ddyddiau i weled daioni?" Yma y mae 'caru' wedi ei symmud o'r ail ran i'r rhan gyntaf, a dim ond "gweled" yn unig yn yr ail. "Canys y neb a ewyllysio (a chwennych) hoffi ('caru' yn y Salm) bywyd." Beth yw y rheswm am y cyfnewidiad hwn, y mae yn bur anhawdd dyweyd. Tybia y rhan fwyaf fod Pedr yn cyfleu syniad pellach nag a gynnwysa'r Salm. "Yr hwn sydd yn ewyllysio dangos fod ganddo hoffder yn ei fywyd."—*De Wette.* "Yr hwn sydd yn ewyllysio byw yn y fath fodd na byddo einioes yn ffinder iddo."—*Bengel.* Ond y mae Alford yn meddwl nad oes yma un ymgais yn yr amrywiaeth ond cyfleu syniad y Salm, ac mai y meddwl syml yw, 'Yr hwn sydd yn caru bywyd, ac yn ewyllysio parhau i wneuthur felly.' Gan fod yr holl adnodau dilynol yn cadw at ystyr y Salm, mwy naturiol yw cymmeryd yr adnod hon hefyd yr un modd: a phwy a fedr ddangos nad ydyw yr ystyr a geir yma yn gynnwysedig hefyd yn y Salm? Onid ydyw chwennych bywyd yn cynnwys "hoffi bywyd?" Ond i sicrhau y tawelwch hwn mewn bywyd, dyma'r ammodau:—*Attalied ei dafod oddi wrth ddrwg, a'i wefusau rhag adrodd twyll.*—Sylwa Calvin ar y geiriau hyn, a'r rhai dilynol, "Yn y lle cyntaf, y mae yn sylwi pa ddrygau o eiddo y tafod sydd i'w gochel: a dyna ydynt, na byddom sarhaus, a llym; yn nesaf, na byddom dwyllodrus, a dau-eiriog: oddi wrth y pethau hyn y mae yn disgyn at weithredoedd, na byddo i ni niweidio neb, nac achosi colled i neb." Wrth "dwyll" yn yr adnod y golygir anghywirdeb mewn geiriau—dyweyd un peth, a meddwl peth arall.

11. *Gocheled y drwg, a gwnaed y da; ceisied heddwch, a dilyned ef.*—Gwel sylw diweddaf Calvin ar hyn. Am "heddwch," yn y fan hon, arddangosir ef fel peth anhawdd i'w gael, a'i sicrhau; felly y mae ystyr cryf ac anghyffredin i "ceisio" a "dilyn," yn enwedig i'r diweddaf. Erlyn ar ei ol, a gwnethur ymdrech mawr i'w oddiweddyd. Fel y sylwa un, "Y mae i geisio heddwch fel peth cuddiedig, ac i erlyn ar ei ol fel peth yn ffoi." Ceir y syniad o anhawsder ynglŷn â "heddwch" yn yr epistolau at y Rhufeiniaid a'r Hebreaid: "Os yw bossibl, hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlawn â phob dyn;" *Rhuf.* xii. 18. "Dilynwch heddwch â phawb:" *Heb.* xii. 14. Yr un ystyr o ddilyn drwy eriyn.

12. *Canys y mae llygaid yr Arglwydd ar y rhai cyfiawn.*—Etto, parhâd o'r Salm. Cymmhwysir "cyfiawn" yn yr adnod hon yn fwyaf pennodol at y disgrifiad uchod o attal y tafod, &c.: a "llygaid" yr Arglwydd at "y bywyd" sydd i'w hoffi, a'r "dyddiau da." *A'i glustiau ef tuag at eu gweddi hwynt.*—Y mae ei lygaid yn canfod eu hymddygiad, ac y mae hyny yn peri iddo ogwyddo ei glust tuag at eu gwaedd. *Eithr y mae wyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai sydd yn gwneuthur drwg.*—'Ei wyneb mewn digofaint;' cymmharer 2 *Sam.* xxii. 28. Y mae digofaint yn cynnhyrfu yr holl wyneb dynol, a chariad yn lleithio y llygaid.—*Bengel.*

13. *A phwy a'ch dryga chwi, os byddwch yn dilyn yr hyn sydd dda?*—Dyma etto gymmhelliad i ddilyn y bywyd didramgwydd a grybwyllwyd uchod. Nid y meddwl yw, na bydd i'r byd ddrygu y rhai sydd yn gwneyd da: rhai felly lawer gwaith a ddrygodd fwyaf—'y Cyfiawn hwnw' ei hunan, fel enghraifft. Ar yr un pryd, fel rheol gyffredin, dyna'r dull i sicrhau daioni a thawelwch hyd yn oed oddi wrth y byd. Ond hyd yn oed, a dyma dybygid yr ystyr yma, pan y mae y byd yn ymosod, nis gall ddrygu mewn gwirionedd. 'Os byddwch yn dilyn yr hyn sydd dda:" —Groeg, 'os ydych yn rhai selog o blaid y da.' Felly hefyd yn 3 *Ioan* 11; "Na ddilyn yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda."

14. *Eithr o bydd i chwi hefyd ddioddef o herwydd cyfiawnder.*—Chwi ellwch ddioddef, ond nis gall neb eich drygu. "Gair llawer esmwythach na drygu."—*Bengel.* "Dioddef o herwydd cyfiawnder" sydd yn gwneyd un yn ferthyr; fel y sylwa Awstin—"Nid y boen, ond yr achos, sydd yn gwneyd merthyr." *Dedwydd ydych:*—neu gwyn eich byd. O blegid, fel y dywed Bengel, "ni wna hyn (y dioddef) ddwyn oddi arnoch y bywyd dedwydd; yn hytrach, bydd iddo ei chwanegu." *Ond nac ofnwch rhag eu hofn hwynt, ac na'ch cynnhyrfer.*—Dyfyniad o *Esa.* viii. 12, 13. Yno, "Nac ofnwch chwaith eu hofn hwynt, ac na arswydwch." Y mae eich dedwyddwch yn gynnwysedig yn awr ar i chwi feddiannu eich hunain yn ddiofn. Na fydded i chwi gymmeryd ofn oddi wrth yr hyn y maent hwy yn bwriadu i fod felly i chwi. Duw yn unig sydd i'w ofni, yr hwn sydd yn meddu gallu i ddistrywio corph ac enaid yn uffern.

[o] Num. 20. 12: Esa. 5. 16.

15 Eithr [o] sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonau: a *byddwch* barod bob amser i atteb [p] 1 Sam. 12. 7: Esa. 1. 18. [q] Phil. 1. 5, 28, 29: Titus 1. 2. [r] Rhuf. 9. 1; Heb. 9. 14; 13. 18.

i bob un a ofyno i chwi [p] reswm am [q] y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn:

16 [r] A chenych gydwybod dda; fel yn yr hyn y maent yn eich goganu megys drwg-weithredwyr, y cywilyddio y rhai sydd

15. *Eithr sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonau.*—Y syniad diweddaf o *adn.* 14 a geir yn y prophwyd, "Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwch: a bydded efe yn ofn i chwi: a bydded efe yn arswyd i chwi." Dywed Bengel fod Duw yn cael ei sancteiddio drwy ofn duwiol, ac yn cael ei anrhydeddu drwy ymdeimlad y duwiolion â hollalluogrwydd Duw. Dyfynir o Wiesinger yn Alford, "y gwneir y chwangegiad 'yn eich calonau' i ddwyn allan y syniad, fodd yn rhaid i'r sancteiddio—gael ei berffeithio yn rhanau mewnol dyn, ac felly gael ei gadw oddi wrth bob ofn gau. Fel pe dywedasai, Gofelwch yn unig am hyn, ar fod eich calon yn deml i Grist, yn yr hon y byddo anrhydedd deilwng yn cael ei roddi iddo fel Arglwydd; yna ni bydd i ddim yn mhellach eich aflonyddu: y mae genych ynddo ef yr hyn oll a ellwch fod mewn angen am dano." *A byddwch barod bob amser i atteb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch.*—Yma y mae yr apostol yn mynegu pa fodd y maent i ddefnyddio y tafod—nid i roddi sên am sên (*adn.* 9), ond i roddi atteb am eu gobaith. Nid oedd athrawiaethau yr efengyl yn hysbys yn y byd paganaidd, a gallai rhai hyd yn oed o honynt hwy ewyllysio gwybod rhyweth am y ffydd yn Nghrist. Gallai rhai, oddi wrth fuchedd ac ymarweddiad y Cristionogion—eu hamynedd mewn erledigaeth, eu dioddefgarwch mewn cystudd, a'u tawelwch yn angeu ei hunan—gael eu tueddu i holi ynghylch y grefydd oedd yn dwyn y fath effeithiau. Yr oeddynt i fod yn barod bob amser i roddi atteb i bawb, yr eglurhâd manylaf; nid yn unig yn y llys wrth eu holi, ond i ddynion unigol mewn ymddiddan personol. *Gydag addfwynder ac ofn.*—"Nid ofn Duw yn gwbl ydyw hwn, nac ofn dyn chwaith, ond agweddiad y meddwl mewn perthynas i bob un: parch priodol i ddyn, a gwylder parchedig ger bron Duw. Cyfeiria yn benaf at yr atteb i rai mewn awdurdod."—*Alford.* Fel hyn y cyfarwydda Luther ni i ymddwyn dan y fath amgylchiadau ag yr oedd efe danynt yn Worms; "Yna na fydded i chwi atteb gyda geiriau balch, a dwyn allan y pwngc gyda herfeiddiad, a chyffro, fel pe byddech am ddiwreiddio coedwigoedd, ond gyda'r fath ofn a phwysigrwydd a phe buasech yn sefyll o flaen gorsedd Duw....Felly, y mae yn rhaid i ti sefyll mewn ofn, a pheidio a dibynu ar dy nerth dy hun, ond ar air ac addewid Crist: *Mat.* x. 19."

16. *A chenych gydwybod dda.*— "Y mae yn rhaid i chwi wrth addfwynder gyda golwg arnoch eich hun, wrth ofn gyda golwg ar ereill, a chydwybod dda gyda golwg ar Dduw."—*Bengel.* Mae perthynas agos rhwng "cydwybod dda" ac addfwynder ac ofn: y neb sydd yn meddu y gyntaf, nis ceir yn gyffredin yn ddiffygiol yn y pethau diweddaf. "Am fod yr atteb yn meddu rhy fychan o awdurdod ar wahân oddi wrth y bywyd,

[s] 1 Pedr 1. 2.

yn beio ar eich [s] ymarweddiad da yn Nghrist.

17 Canys gwell *ydyw*, [t] os ewyllys Duw a'i myn, i chwi dioddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni.

[t] Mat. 26. 39, 42: Act. 22. 14.

18 O blegid [u] Crist hefyd unwaith a ddioddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, [x] (fel y dygai ni at Dduw) [y] wedi

[u] Esa. 53. 4—6; 2 Cor. 5. 21. [x] Eph. 2. 1—18. [y] Dan. 9. 26 Col. 1. 22.

am yr un rheswm y mae yn cyssylltu cydwybod dda â chyffes o ffydd."—*Calvin. Fel yn yr hyn y maent yn eich goganu megys drwg-weithredwyr.*—Gwel *pen.* ii. 12. *Y cywilyddio y rhai sydd yn beio ar eich ymarweddiad da chwi yn Nghrist.*—Wrth glywed eich atteb, ac yn enwedig y dull o'i roddi, gydag addfwynder ac ofn, a'r argraph ddirgelaidd y mae meddiant o gydwybod dda yn ei wneyd ar y rhai y mae a fynom ni â hwy.

17. *Canys gwell ydyw, os ewyllys Duw a'i myn.*—Yma dilynir y sôn am gydwybod â chyffelyb sylwadau i'r hyn a gaed yn 1 *Pedr* ii. 19, 20. "Gwell ydyw."—"Dedwyddwch, mewn modd annhraethol."—*Bengel.* "Y mae y cysur dirgel hwn yn haws ei ddirnad trwy fyfyrdod na thrwy amgylchiad maith o eiriau."—*Calvin.* Ymddengys yr ymadrodd, "os ewyllys Duw a'i myn," neu a'i ewyllysia. Ail adroddiad diangenrhaid—ewyllys yn ewyllysio; ond y mae yma wahaniaeth pwysig. Y gyntaf yw yr ewyllys ddwyfol ei hun; hyny yw, Duw ei hunan: a'r ail ydyw gweithrediad yr ewyllys hono. Braint y Cristion ydyw colli ei ewyllys ei hun yn ewyllys Duw. *I chwi ddioddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni.*—Nid ydyw "gwneuthur daioni" yn diogelu dyn rhag dioddef yn y byd hwn. Y mae Duw weithiau yn ewyllysio i'r dyn duwiol ddioddef; ond ni bydd hyny yn golled iddo. Pe yn dioddef o herwydd drygioni, ni buasai cysur yn y byd o hyny; o blegid, heb law y boen gorphorol, byddai euogrwydd cydwybod i'w dwyn hefyd ar yr ysbryd; ond pan yn dioddef o herwydd daioni, y mae y fynwes yn dawel, a gellir troi at Dduw am gymmhorth, a disgwyl hefyd am ei fendith i adferu yr enaid yn fwy ar ei ddelw ef. Dywed Luther yn dra phriodol, "Dos yn mlaen mewn ffydd a chariad. Os daw y groes, derbyn hi; os na ddaw, na ddos i'w cheisio."

18. *O blegid Crist hefyd unwaith a ddioddefodd dros bechodau.*—Y mae yn amlwg mai fel calondid i'r Cristionogion ddioddef yn gwneyd daioni y dygir esampl neilldiol Crist yn mlaen, fel yn *pen.* ii. 21. Tuag at weled gwerth y gymmhariaeth, y mae yn rhaid i ni edrych yn mha bethau y mae y tebygolrwydd. "Dioddefodd Crist dros bechodau."—Yma y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddo ef yn dioddef fel iawn dros bechodau, er yn ddibechod ei hunan, ond wedi derbyn ein pechodau yn gyfrifedig arno, a ni yn dioddef wrth wneuthur daioni. Etto y mae yma debygolrwydd; ac at hyny yn ddiau y cyfeiria Pedr yma, i gynnal i fyny feddyliau y rhai a gyfarchai. Yr oedd efe yn ddibechod, yr oeddynt hwythau yn dioddef fel pechaduriaid, pa faint bynag oedd eu rhinweddau. Unwaith y dioddefodd Crist: nid yn yr ystyr y defnyddir y gair yn *Heb.* x. 1, 2 (yn wrthgyferbyniol i'r mynych offrymiad o'r aberthau dan y gyfraith) y golygir y gair yma: ond am ei oes yn y byd hwn—

[1] Rhuf.8.11. ei farwolaethu yn y cnawd, [2] eithr ei fywhau yn yr Ysbryd:

[1] Dad.19.10. 19 Trwy [3] yr hwn yr aeth efe yr unwaith hyny ag sydd wedi myned heibio am byth bellach; felly hwythau, "dros brydnawn yr arosai wylofain, erbyn y boreu y byddai gorfoledd." "Gwell i ninnau ddioddef am unwaith gyda Christ, nag am byth heb Grist."—*Bengel. Y cyfiawn dros yr anghyfiawn.*—Groeg: 'un cyfiawn dros rai anghyfiawn.' Tybia Alford fod yma hefyd ychydig o debygolrwydd amgylchiadau. "Dioddefodd efe, yr uniawn—y cyfiawn dros yr anghyfiawn. Yr oedd efe yn cynnrychioli; offrymwyd ef dros yr anghyfiawn; felly yr ydym ninnau yn ein tro, er mewn ystyr llawer llai dwfn a phriodol, pan, er yn cyfiawn (*adn.* 12), yn dioddef fel rhai anghyfiawn, er nad mewn unrhyw ystyr iawnol dros yr anghyfiawn." *Fel y dygai ni at Dduw.*—Dyma amcan uchel a theilwng ei ddioddefaint ef. "Fel y gallai ein dwyn ni (y rhai oeddym wedi ymwahanu) drwy iddo ei hun ymadael at y Tad, a'n gwneyd yn un ag ef, wedi ein cyfiawnhau i'r nefoedd (*adn.* 22), a'n harwain drwy yr un camrau ag a gerddodd ei hun; *h.y.*, marwolaeth a dyrchafiad. O'r gair hwn hyd *pen.* iv. 6, y mae Pedr yn cyssylltu yn fewnol daith neu yrfa Crist â'r credinwyr (yn yr hyn y darfu iddo ef ei hun hefyd ddilyn Crist yn ol ei ragfynegiad: *Ioan* xiii. 36); ac yn cyssylltu â hyny anghrediniaeth a chospedigaeth llaweroedd."—*Bengel. Wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhau yn yr Ysbryd.*—"Wedi ei roddi i farwolaeth:" yn cyferio at ddynion fel offerynau yn ei angeu. Yr un pryd yr oedd ei gydsyniad ei hunan yn angenrheidiol; nid oedd neb yn cymmeryd ei einioes oddi arno, ond efe oedd yn ei dodi i lawr o hono ei hun. Yr anhawsder mwyaf ynglŷn â'r frawddeg hon ydyw gwahaniaethu rhwng y cnawd a'r Ysbryd. Nis gall y cyntaf olygu, fel y tybia rhai, natur ddynol yr Arglwydd Iesu, a'r ail y natur ddwyfol; o blegid ni byddai son am y naill yn cael ei farwolaethu, a'r llall ei fywhau, yn gysson â'r Ysgrythyrau, ac â pherson yr Arglwydd Iesu. Yn hytrach yn fyr, ystyr y "marwolaethu yn y cnawd" yw, mai terfyn y bywyd o ddarostyngiad a dreuliodd yma ar y ddaear ydoedd marwolaeth; ac am ei fywyd ar ol hyny, bywyd ysbrydol yr adgyfodiad ydoedd, wedi ymadael am byth â'r ammodau oedd danynt pan yma yn gwisgo agwedd gwas. I ymhelaethu ar hyn, sylwa Luther: "Hyn ydyw yr ystyr, fod Crist drwy ei ddioddefiadau wedi ei symmud oddi wrth y bywyd sydd yn gig a gwaed—fel dyn ar y ddaear, yn byw, yn rhodio, ac yn sefyll mewn cig a gwaed;...ac y mae yn awr wedi ei osod mewn bywyd arall, ac wedi ei fywhau yn ol yr Ysbryd, wedi myned drwodd i fywyd ysbrydol a goruwchnaturiol, yr hwn sydd yn cynnwys ynddo ei hun yr holl fywyd ag y mae Crist yn ei feddu yn awr mewn enaid a chorph, fel nad oes ganddo mwyach gorph anianol, ond ysbrydol." Y mae Hoffmann, fel ei dyfynir gan Alford, yn llefaru yn helaethach a manylach etto: "Yr un ydyw yr hwn sydd yn marw, a'r hwn a fywheir drachefn yn y ddau amgylchiad—yr holl ddyn Iesu, mewn corph ac enaid. Y mae yn peidio byw, ac yn syrthio i angeu mor bell ag y mae yr hyn oedd i'w bersonoliaeth yn gyfrwng gweithrediad; ac y mae yn dechreu byw drachefn, fel y mae yn derbyn yn ol yr un cyfrwng i'w weithrediad etto. hefyd ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar;

20 Y rhai a fu gynt anufudd,

Y bywyd a syrthiodd o dan awdurdod angeu, bywyd anianol oedd; hyny yw, y cyfryw fywyd ag oedd wedi ei drefnu i gyfiwr presennol natur dyn, i bethau allanol ei gyssylltiad â'r byd hwn. Y bywyd a ennillwyd yn ol, bywyd ysbrydol yw; hyny yw, bywyd y penderfynir ei derfynau gan yr Ysbryd, yn yr hwn y cynnwysir ein cyssylltiad mewnol ni â Duw."

19. *Trwy yr hwn yr aeth efe hefyd, ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar.*—Y mae amrywiaeth mawr yn marnau y prif esbonwyr ar ystyr y geiriau hyn. Nis gallwn wneyd yn well na dodi ger bron y darllenydd y prif olygiadau; ac yn ddiweddaf, yr un yr ydym ni yn tueddu fwyaf i'w fabwysiadu. Y prif gwestiynau i'w penderfynu ydynt, Pwy oedd yr ysbrydion hyn y pregethodd Crist iddynt? Pa bryd, a pha fodd yr aeth efe atynt i bregethu? A pha beth a olygir yma wrth y "carchar" yr oeddynt ynddo? Am yr "ysbrydion," dywedir yn yr adnod nesaf mai y rhai fu anufudd yn nyddiau Nöe oeddynt: ac felly y prif gwestiwn yw, Pa bryd, a pha fodd yr aeth Crist ac y pregethodd iddynt? Tybia rhai mai yr ysbrydion yn aros dydd y farn oeddynt: ac i'r Iesu, yn y cyfnod rhwng ei farwolaeth a'i adgyfodiad, fyned i gyhoeddi, nid cadwedigaeth, ond damnedigaeth iddynt. Yn erbyn y syniad hwn, o bossibl y mwyaf annhebygol o'r cwbl, mae defnyddiad cyffredin y gair *cérrussein*. Er mai ystyr syml y gair ydyw cyhoeddi, mynegu; etto, y mae pawb yn cydsynio, pan ei cyssylltir â Christ a'i apostolion, y golyga, cyhoeddi newyddion da yr iachawdwriaeth, bron yn gyfystyr âg *euaggelizo*—efengylu; cyhoeddi newyddion da. A pha angenrhaid oedd cyhoeddi eu colledigaeth i rai eisoes yn y carchar? Tybia amryw o'r tadau, ac yn ddiweddaraf Calvin, mai cyhoeddi yr iachawdwriaeth i ysbrydoedd y cyfiawn y bu yr Iesu, yn enwedig i saint yr Hen Destament. Dywed Calvin mai wrth y carchar (*phulacé*) y golygir "tŵr, neu y weithred o wylio ei hunan," ac mai yr ysbrydion ydyw y rhai sydd yn disgwyl am iachawdwriaeth Crist—"eneidiau duwiol yn edrych mewn gobaith am yr iachawdwriaeth addawedig, yr hon a ymddangosai iddynt megys yn y pellder." Ond nid ydyw efe yn golygu mai yr un rhai y bu Crist yn pregethu iddynt a'r rhai a grybwyllir yn yr adnod nesaf, fuont anufudd. Yn erbyn y golygiad hwn, digon yw dyweyd nad oes dim yn nghystrawen yr iaith i'w gyfiawnhau. Y mae Luther a Bengel, ac amryw ereill, etto yn golygu wrth yr "ysbrydion," nid yr holl anghredinwyr yn amser Noah, ond rhyw rai a edifarhasant pan oedd y diluw yn dyfod, ond yn rhy ddiweddar i fyned i'r arch. Fel hyn y dywed y diweddaf; "Y mae yn debygol fod llawer, o dyrfa mor fawr, pan welsant y gwlaw, wedi dyfod i'w pwyll; ac er na chredasant pan oedd Duw yn aros, etto, wedi i'r arch gael ei gorphen, a'r gosp yn ymdywallt, dechreuasant gredu: i'r rhai y darfu i Grist ar ol hyny, ac i ereill tebyg iddynt, gyfiwyno ei hun yn bregethwr o ras." Yn yr ymdeimlad o ddyeithrwch yr athrawiaeth hon, a bod y Beibl yn gwbl ddistaw am dani yn mhob man arall, y mae Bengel yn ymresymu nad oes ond un crybwylliad yn Swper yr Arglwydd, am "hwn yw fy nghorph;" ac na sonir ond unwaith gan yr apostol am newidiad y byw ar ol cyfodiad

[b] Esa. 60.18; 2Pedr 3.15. pan unwaith yr oedd [b] hir amynedd Duw yn aros yn nyddiau Noë, tra y darperid yr arch, yn yr hon ychydig, sef wyth enaid, a achubwyd trwy ddwfr.

21 Cyffelybiaeth cyfattebol i'r

y cyfiawnion. A'r farn hon, oddi eithr rhai manylion, y cydsynia Alford. Am y cyfnod, golyga mai cyn ei adgyfodiad yr aeth, pan y gellir dyweyd yn arbenig ei fod yn y sefyllfa ysbrydol, heb y corph. Ac am y gwrthddrychau, cymmerodd i mewn yr holl rai anufudd yn nyddiau Noah. Dyma ei eiriau: "Yr wyf yn deall y geiriau hyn yn dweyd ddarfod i'n Harglwydd, tra yn y cyflwr heb y corph, fyned i'r lle y cedwid ysbrydoedd ymadawedig, ac yno gyhoeddi gwaith ei brynedigaeth—mewn gwirionedd bregethu iachawdwriaeth—i ysbrydion digorph y rhai hyny a wrthodasant ufuddhau i alwad Duw pan oedd barn y diluw yn crogi uwch eu pen. Pa ham y crybwyllir y rhai hyn, mwy nag ereill—pa un ai fel enghraifft o'r cyffelyb waith grasol ar ereill, ai o herwydd rhyw reswm pennodol nas gallwn ddychymygu am dano, nis gallwn ddyweyd. Ein lle ni ydyw ymwneyd â geiriau eglur yr Ysgrythyrau, a derbyn eu dadguddiedigaethau mor bell ag y rhoddir hwy i ni. Ac y maent yn goddef i ni fyned i derfynau eithaf casgliad cyfreithlawn oddi wrth ffeithiau dadguddiedig. Bydd i'r casgliad hwnw gael ei dynu gan bob darllenydd deallus oddi wrth y ffaith a ddywedir yma: nid purdan ydyw; nid adferiad cyffredinol; ond y mae yn un ag sydd yn taflu goleuni dedwydd ar un o gyfrinion tywyllaf cyfiawnder dwyfol; yr achosion hyny lle y mae y farn derfynol yn ymddangos yn anfeidrol allan o gyfartaledd i'r coll a'i haeddodd. A chan nad allwn ddyweyd y gall fod y pregethiad hwn wedi ei gymmhwyso felly byddai yn rhyfyg ynom i gyfyngu ei diriogaeth na'i effeithioldeb. Y rheswm dros grybwyll y pechaduriaid hyn yma, yn fwy na phechaduriaid ereill, ydyw, yn ol pob ymddangosiad, eu cysylltiad á'r cyffelybiaeth cyfattebol, y bedydd ag sydd yn dilyn. Os felly, pwy all ddyweyd y cyfyngwyd y weithred feudigedig iddynt hwy." Y mae yn wir y dylem roddi parch uchel i syniadau cynnifer o esbonwyr galluog—oll yn cyttuno i'r Iesu fyned i bregethu i'r ysbrydion ar ryw adeg o ddeutu ei adgyfodiad: ond nis gallwn lai na synu at yr amrywiaeth yn y cyfan. Golyga rhai iddo bregethu i'r colledigion eu damnedigaeth; ereill, mai i'r cyfiawnion yn unig y pregethodd orpheniad gwaith y prynedigaeth—rhai yn tybio mai y dosbarth goreu o anufuddion y diluw gafodd adeg o ras drachefn; arall, mai pawb o honynt; ond fel Alford, mai cyn ei adgyfodi y bu. Dywed ef mai ystyr "ei fywhau yn yr ysbryd" (*adn.* 18) yw ei fywyd ar ol ei adgyfodiad; ond pan yn esbonio "trwy yr hwn" (*entro*), yn yr adnod hon, cyfynga ef at y cyfnod cyn hyny, at yr hwn nid oes gyfeiriad yn *adn.* 18. Amlwg yw fod anhawsderau ynglŷn á'r athrawiaeth a ddysgir gan yr esbonwyr hyn. Gallasem ddisgwyl i fater mor bwysig gael ei grybwyll yn fwy eglur. Nid yw cyfeiriad enghreifftiau Bengel at ddim mor bwysig a'r athrawiaeth hon. Oddi yma y cafodd y Pabyddion y syniad am y purdan; ac os mabwysiedir yr esboniad hwn, y mae yn anhawdd gwybod pa fodd i'w osgoi. Pa ham y dewiswyd yr ysbrydion hyn, mwy nag ereill, i bregethu iddynt? Nid ydyw y son am y bedydd, a ddaw ettó, yn ddigon o reswm. Wrth symio y cwbl i fyny, nid oes digon o resymau i wrthod yr esboniad cyffredin, yr hwn ddyg yr un athrawiaeth newydd i mewn, am bregethiad Crist trwy ei Ysbryd, a Noah fel offeryn, i'r ysbrydion oeddynt yn ngharchar yn nyddiau Pedr. Dyma olygiad Awstin, Bede, Thomas Aquinas, Beza, Schleiger, Leighton, Gerhard, ac yn ddiweddarach, Hoffmann. Yn unol á'r golygiad diweddaf hwn, dylem edrych pa mor bell y mae yn gysson á phob rhan o'r adnodau, a pha mor bell hefyd y gellir ei amddiffyn yn ngwyneb yr hyn a ddygir yn ei erbyn gan ei wrthwynebwyr. *Trwy yr hwn yr aeth efe hefyd*:—hyny yw, trwy yr Ysbryd. Yn fwy llythyrenol, 'yn yr hwn;' sef, yn y sefyllfa yr oedd yr Iesu ynddi wedi ei fywhau yn yr ysbryd; *adn.* 18. Yna cymmherir sefyllfa yr Iesu ar ol ei adgyfodiad á'r eiddo cyn ei ymgnawdoliad, am ei bod, y mae yn debyg, yn rhydd oddi wrth ammodau marwoldeb, ac yn y sefyllfa hono yr aethai i bregethu drwy Noah i'r cynddiluwiaid. *Ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar.*—Eglurhâd Awstin ar y "carchar" yw, mai yn y cnawd, ac yn nhywyllwch anwybodaeth, yr oeddynt wedi eu cau fel mewn carchar, ac ddarfod i Grist bregethu iddynt yn yr ysbryd; hyny yw, yn ol ei ddwyfoldeb. Ond ychydig o'r rhai sydd yn dal i fyny yr esboniad hwn—yn erbyn ei fynediad i *Hades*, i sefyllfa y meirw—sydd yn cydsynio âg Awstin; ond cyttunant â Beza, yr hwn a ddywed ddarfod i Grist bregethu i'r ysbrydion hyny, y rhai oeddynt yn awr yn ngharchar—yn dwyn eu cospedigaeth deilwng, fel rhai wedi anufuddhau i Nöe pan yn eu rhybuddio am yr hyn oedd iawn. Dywed Alford, yn erbyn y golygiad hwn, nad oes air yn cael ei grybwyll gan Pedr am y cyfeiriad pellenig at y ffaith fod ysbryd Crist yn pregethu yn Nöe—dim gair am y ffaith fod Noah ei hun yn pregethu i'w gyd-oeswyr. Ond gellir atteb nad ydyw y syniad yn ddyeithr i Pedr, fod ysbryd Crist yn ymwneyd â'r ddaear cyn ei ymgnawdoliad; o blegid yn *pen.* i. 11, cawn ef yn dywedyd fod ysbryd Crist yn llefaru yn y prophwydi; ac am Nöe yn pregethu i'w gyd-oeswyr, efe sydd yn crybwyll y ffaith yn ei ail epistol (*pen.* ii. 5), gan ei alw "pregethwr cyfiawnder." Yr anhawsder mwyaf ynglŷn á'r esboniad hwn ydyw y rhan-gymmeriad (*participle*) *poreutheis*, 'wedi myned, ofe a bregethodd,' &c.; yr hyn sydd yn golygu gweithred bennodol, fel yn *adn.* 22, wedi myned i'r nef: ac hefyd y gair am ysbrydion (*pneumasin*), yr hyn a olyga yn unig yr enaid, heb y corph yn wisg am dano. Ond a golygu na oddefa y geiriau hyn gyfeiriad at bregethu drwy Noah, yr hyn nid yw yn hollol amlwg, nid ydyw yr anhawsderau hyn yn fwy, os cymmaint, a'r rhai sydd ynglŷn á'r dybiaeth i'r Iesu bregethu i ysbrydion yn aros barn y dydd mawr.

20. *Y rhai a fu gynt anufudd.*—Dyma yr ymddygiad yn adeg eu bywyd, yr hyn a'u dyg i garchar wedi eu cymmeryd oddi ar y ddaear trwy y diluw. *Pan unwaith yr oedd hir-amynedd Duw yn aros yn nyddiau Nöe.*—Dangosid amynedd mawr yn ngwyneb annuwioldeb mawr. Parhaodd yr amynedd dros holl ddyddiau Noah, nes dyfod y diluw. "Yr oedd yn aros (disgwyl) cyhyd ag yr oedd rhyw ddyben disgwyl."—*Bengel. Tra y darperid yr arch.*—Er mwyn teulu Nöe. Parhaodd y parotoad am amser maith: rhoddir awgrymiad yn Genesis y bu am chwech ugain

[e] Mat. 28. 19; 1 Cor. 12. 13.

hwn [e] sydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, *sef* bedydd (nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tuag at Dduw) trwy adgyfodiad Iesu Grist:

22 Yr hwn sydd ar ddeheulaw Duw, wedi myned i'r nef; *a'r* angylion, a'r awdurdodau, a'r gallu yn ddarostyngedig iddo.

mlynedd, yr hyn sydd yn hollol debygol; a gallai yn wir i rai a fuont yn cynnorthwyo i wneyd yr arch foddi wedi hyny yn y rhyferthwy. *Yn yr hon ychydig, sef wyth enaid.*—Y mae y rhan gyntaf yma yn ymadrodd talfyredig am' trwy fod wedi myned i mewn i'r hon.' Sylwa yr apostol yma ar "ychydig," i ddangos i'r Cristionogion, er mai ychydig oeddynt yn nghanol y byd annuwiol, eu bod yn gwbl ddiogel, fel ag yr oedd llai o dduwiolion yn nyddiau Noë, yn gwbl ddiogel yn nghanol mwy o annuwiolion. Sylwa Alford mai "enaid" a arferir yma—nid ysbryd —i olygu eu bod oll yn y cnawd. *A achubwyd trwy ddwyr.*—Y dwfr fu yn foddion eu gwaredigaeth, drwy nofio a chludo yr arch a'u daliai i ben ei thaith. "*Dia,* 'trwy;' gair tra chymmwys, yn dangos cludiad, heb unrhyw ystyriaeth o'r perygl a fygythiai arnynt oddi wrth y dwfr, nac am y waredigaeth a ddiogelid iddynt drwy eu cludo."—*Bengel.*

21. *Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awr hon yn ein hachub ninnau, sef bedydd.*—Groeg: 'yr hwn wrthgysgod (hwnw) sydd yn awr yn ein hachub ninnau hefyd, sef bedydd.' Yma edrycha Pedr ar y diluw fel cysgod o'r bedydd Cristionogol, a bedydd felly yn wrthgysgod (*antitupon*) i'r diluw. Yr oedd Crist, y gwrthgysgod, yn fwy na'r holl gysgodau; felly y mae y bedydd yn fwy ac yn uwch na'r diluw. "Ychydig, sef wyth enaid," o fyd annuwiol achubwyd y pryd hwn. Yr ydym ni yn chwaneg na hyny yn cael ein gwaredu oddi wrth yr annuwiolion. "Dwfr," drwy gludo yr arch, a fu yn foddion gwaredigaeth iddynt hwy; dwfr, yn y bedydd, gyda'r eglurhâd yn y frawddeg nesaf, sydd yn ein hachub ninnau. Collwyd llawer yn y dwfr hwnw fu yn foddion gwaredigaeth i'r wyth enaid; felly gall yr Iesu fod yn faen tramgwydd, ac yn graig rwystr i'r rhai sydd yn anufudd i'r gair: *pen.* ii. 8. Sylwa Bengel: "Y mae Pedr yn dangos, megys mai gwahanol oedd y rhai gynt a gollwyd drwy anghrediniaeth, a'r rhai a gadwyd drwy ffydd, felly etto, o dan y Testament Newydd, gwahanol yw y rhai a gedwir a'r rhai a gollir—fod y naill a'r llall, mewn gwahanol ddulliau, wedi profi gallu Crist, ac fod hyn yn gymmhelliad cryf i'r duwiolion ymneillduo oddi wrth yr annuwiol, a chael eu cadarnhau mewn amynedd." *Nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd.*—Yma nodweddir y bedydd dwfr sydd yn achub o dan y Testament Newydd. Yr oedd yn perthyn i'r Iuddewon amryw olchiadau neu fedyddiadau, ond i'r cnawd y bwriadwyd y rhai hyny, a chyda'r cnawd yr oeddynt yn terfynu: yn y bedydd hefyd fe olchir y cnawd, ond yn arwyddluniol y mae hyny; y bedydd hwnw sydd yn nglŷn â'r gras ysbrydol o gyfiawnhâd a sancteiddiad yn unig sydd yn achub. *Eithr ymatteb cydwybod dda tuag at Dduw.*—Tra gwahanol yw yr ystyr a roddir i'r geiriau hyn. Yn y lle cyntaf, cydsynia pawb mai ystyr cyntaf y gair a gyfleithir genym ni, ac yn y Saesneg, yn "atteb," ydyw ymholiad, neu ymofyn. Pa fodd y daeth i gael ei gyfleithu yn "atteb," nis gellir yn hawdd weled, oddi eithr er mwyn ei wneuthur yn fwy dealladwy. Tybia Alford mai yr ystyr ydyw, yr ymholiad ar ol Duw ag y mae cydwybod dda yn ei wneyd; a hyn ydyw amcan a dyben bywyd Cristionogol bedyddiedig. Tybia ereill fod yma gyfeiriad at yr holi a'r atteb a ddefnyddid yn y bedydd, ac mai yr holiad a'r atteb iawn (fe allai mai oddi yma y daeth y cyfleithiad "atteb") oedd meddu cydwybod dda tuag at Dduw. Gwell na'r cyfan genym yw esboniad Bengel, lle y cedwir yr ystyr llythyrenol, 'ymholiad:—fod yr hyn a arwyddir yn y bedydd gwirioneddol yn rhoddi maddeuant pechodau, ac yn diogelu felly gydwybod dda, fel y gall y Cristion agoshau at Dduw gyda chydwybod glir. Dyma y syniad yn *Heb.* x. 22; "Nesawn â chalon gywir...wedi glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân." Dyma eiriau Bengel: "Gan hyny, ymholiad cydwybod dda sydd yn ein cadw; hyny yw, yr ymholiad trwy yr hwn yr ydym yn cyfarch Duw gyda chydwybod dda, gan fod ein pechodau wedi eu maddau a'u bwrw ymaith: *adn.* 16, ac *Heb.* x. 22. Y mae yr ymholiad hwn yn cael ei roddi i bawb yn y bedydd, ac yn cael ei gynnyddu drwy ffydd, gweddïau, a holi weithrediadau y bywyd duwiol." *Trwy adgyfodiad Iesu Grist.*—Hyn ydyw yr achos haeddiannol i ni allu agoshau at Dduw gyda chydwybod dda. Adgyfodiad yr Iesu ydoedd y prawf fod gwaith y prynedigaeth wedi ei orphen, ac wedi ei gymmeradwyo gan y Tad. Yn ol y syniad pellach yn yr adnod nesaf, nid ydyw yn anhebygol na chynnwysir yma hefyd undeb y credadyn â Christ, yn ol athrawiaeth Paul; ac y mae hyny yn diogelu cydwybod dda, a chyfranogiad o ddyrchafiad yr Iesu, a grybwyllir etto. "Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd i farwolaeth; fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd;" *Rhuf.* vi. 4.

22. *Yr hwn sydd ar ddeheulaw Duw, wedi myned i'r nef.*—Y mae y syniad sydd yn niwedd *adn.* 18, yn cael ei barhau i'r adnod hon, ond fod yma hefyd y syniad am undeb y saint â Christ, a awgrymwyd yn *adn.* 21. Y wedd sydd yn awr ar fywyd yr Iesu, fel wedi ei fywhau yn yr ysbryd, ydyw ei fod wedi myned i'r nef, i eistedd ar ddeheulaw Duw. *A'r angylion, a'r awdurdodau, a'r gallu oedd wedi eu darostwng iddo.*—Uwch law yr angylion, y mae efe yn eistedd ar y ddeheulaw. Nid yn unig angylion da sydd wedi eu darostwng iddo, ond y rhai drwg hefyd. Am y gwahanol raddau yn mhlith y trigolion nefol, gwel *Eph.* i. 21, a *Col.* ii. 10, 15. Pan yr ystyriom o sefyllfa mor isel y dyrchafwyd Crist, y mae yn chwanegu at yr anrhydedd uchel a gyrhaeddodd: ac yn wir y mae dyfnder y naill, yn gystal ag uchder y llall, y tu hwnt i'n hamgyffredion. Yr oedd yn gyfnerthiad mawr i'r saint hyn, yn nghanol eu hadfyd a'u blinderau, i ddwyn y cyfan wrth feddwl fod eu hundeb â Christ yn diogelu anrhydedd iddynt hwythau. Fel y dywed Awstin, "Lle y mae fy mhen yn teyrnasu, yno yr ydwyf yn credu fy mod innau yn teyrnasu." Ac yr oedd meddwl am eu rhagflaenor wedi dioddef ar y ffordd i'w orsedd yn gynnorthwy iddynt hwythau ddioddef mewn cyssylltiad â'i achos. Ac at hyn y cyfeiria yr apostol hwynt yn y bennod nesaf.

angylion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd, wedi eu darostwng iddo.

PENNOD IV.

Y mae yn eu hannog hwy i beidio â phechu, trwy esampl Crist, a thrwy ystyried fod diwedd pob peth yn pwyso yn agos. 12 Y mae yn eu cysuro yn erbyn erlid.

B A. 63.

[a] Adn. 3, 18. [b] Rhuf 13. 12 -14. [c] Rhuf. 6. 2,

A M hyny [a]gan ddioddef o Grist drosom ni yn y cnawd, [b]chwithau hefyd byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl: [c]o blegid yr hwn a ddioddefodd yn y cnawd, a beidiodd â phechod;

[d] Rhuf. 7. 4; Eph. 4. 17; Col. 3. 7, 8; Titus 3 3-8. [e] Salm 143. 10; Mat. 7 21; 21 31. [f] Deut. 12. 30, 31; Titus 3. 3.

2 [d]Fel na byddo mwyach fyw i chwantau dynion, ond i [e]ewyllys Duw, dros yr amser sydd yn ol yn y cnawd.

3 Canys digon i ni yr amser a aeth heibio o'r einioes [f]i weithredu ewyllys y Cenhedloedd, gan rodio mewn trythyllwch, trachwantau, meddwdod, cyfeddach, diotta, a ffiaidd eilun-addoliad:

Pennod iv.

Cynnwysiad. — Gwneir cyferbyniad rhwng marwolaeth Crist a marweiddiad pechod yn y galon (1, 2). Annogir i beidio cyfranogi o bechodau y Cenhedloedd yn ngwyneb yr ystyriaeth y dygir hwynt ger bron y farn; ac y mae hyn yn gymmhelliad pellach iddynt i amynedd mewn erlidigaeth, ac i ymarfer sobrwydd, gwyliadwriaeth, cariad, ac adeiladu eu gilydd, gan amcanu at ogoniant Duw trwy Iesu Grist (3—11). Yn niwedd yr adnod hon y mae math o derfyn i'r llythyr, ond ymhelaethir am ychydig ar bwngc gwir angenrheidiol dan yr amgylchiadau; sef, ymostyngiad i'r profiad tanllyd yr oeddynt ynddo fel prawf iddynt eu bod yn gyfranogion o Grist, ac felly o'i ogoniant. Rhaid yn gyntaf puro tŷ Dduw, ac yna fe ddisgyn y farn ar yr annuwiolion. Eu lle ydoedd ymarfer ffydd a gobaith yn Nuw, a chaent ef yn ffyddlawn i'w holl addewidion (11—19).

1. *Am hyny gan ddioddef o Grist drosom ni yn y cnawd.*—Yma ceir cymmhelliad etto oddi wrth esampl Crist i ymdrechu yn erbyn pechod. Nid ydyw "drosom ni" yn yr ysgrifyfrau goreu, er mai dyna y ffaith: ac yn yr adnod hon, gan mai gosodiadau cyffredinol sydd ganddo fel cymhelliadau i ddioddef, mwy cysson fyddai gadael y geiriau allan. *Chwithau hefyd, byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl:*—sef, yr un meddwl i ddioddef ag oedd yn Nghrist Iesu. Y mae y gair "arfogi" yn golygu fod gelynion i ymosod arnynt; yr oedd yr arfau i fod yn ymosodol, yn gystal ag amddiffynol; i wrthsefyll temtasiynau, yn gystal ag i ddirymu llygredd. "Byddwch wedi eich arfogi:"—yr arfogaeth wedi ei gwisgo unwaith am byth, ac nid i'w thoddi heibio nes ennill yr holl amcan. *O blegid yr hwn a ddioddefodd yn y cnawd, a beidiodd â phechod.*—Y mae hwn yn osodiad cyffredinol yn wir am Iesu Grist yn gystal a'i bobl. Dioddefodd yntau yn y cnawd; *pen.* iii. 18: ond trwy hyny rhyddhawyd ef yn gwbl oddi wrth bechod, yn ei ofynion arno. Yr oedd ei bobl yn un âg ef yn ei farwolaeth; ond nid dyna'r syniad penaf yma, er ei fod yn cael ei gynnwys. Yn hytrach, golyga cnawd yr anian lygredig, yr hen ddyn; ac i'r un graddau ag yr oeddynt wedi dioddef yn nghroesholiad yr hen ddyn yn weithredol, yr oeddynt wedi peidio â phechod, neu wedi cael rhyddhâd oddi wrtho. Perthynai hyn i'r disgyblion fel ag i'r athraw. Fel hyn y maent yn dwyn croes Crist, ac yn cyflawni yr hyn sydd yn ol o gystuddiau Crist yn eu cnawd, i gael ymwared oddi wrth bechod.

2. *Fel na byddo mwyach fyw i chwantau dynion.*—Cyssylltir hyn âg "arfogi â'r un meddwl," yn yr adnod o'r blaen. Hyn yw dyben yr arfogi —y wedd y mae un wedi ei arfogi i ymagweddu. "Chwantau dynion" yw y rhai a grybwyllir etto yn yr adnod nesaf. Cyferbynir "dynion" yma âg "ewyllys Duw" yn y frawddeg nesaf. Y mae y chwantau yn amryw, ond un yw ewyllys Duw. Golyga y gair "byw" yma syniad gwahanol i fodolaeth a berthyn i greadur symmudol. Nid yr un gair yw ag a geir yn *Act.* xvii. 28, "byw, symmud, a bod;" ond arwydda ymarweddu, fel y sylwa Bengel—"gair priodol, na lefarir am greaduriaid direswm." Arferir y gair "dynion" yma yn y rhif liosog i gymmeryd i mewn yr holl chwantau, gan fod rhai gwahanol yn llywodraethu gwahanol ddynion. *Ond i ewyllys Duw.*—Un berffaith, y rheol y mae efe wedi ei bwriadu i ni fyw yn ei hol. Cyferbynir "chwantau dynion" âg "ewyllys Duw" hefyd yn 1 *Ioan* ii. 17; "A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw sydd yn aros yn dragywydd." *Dros yr amser sydd yn ol yn y cnawd.*—Golyga "yn y cnawd," ein dull o fyw yn y fuchedd hon fel creaduriaid. Y mae gwahaniaeth yn y Groeg rhwng 'yn y cnawd' yn *adn.* 1, ag 'yn y cnawd' yn yr adnod hon. Yno yn wrthgyferbyniol i'r anian newydd (*sarci*); yma yn wrthgyferbyniol i amgylchiadau bodolaeth yn y byd a ddaw (*en sarci*).

3. *Canys digon i ni yr amser a aeth heibio o'r einioes.*—Nid yw "o'r einioes" yn yr ysgrifyfrau goreu, ac amlwg yw nad ydyw yn angenrheidiol i'r ystyr. Sylwa Bengel mai ffurf ymadrodd yn golygu llai na'r ystyr yw y geiriau hyn. Yr hyn a fwriedir ei ddyweyd yw, na ddylesid treulio "yr amser a aeth heibio" o gwbl i bechod. Yn mhlith y rhai a adferir i'w hiawn bwyll yn ysbrydol y mae awydd i ffieiddio pechod. *I weithredu ewyllys y Cenhedloedd.*—Nid yr un gair sydd yma am "ewyllys y Cenhedloedd" ag "ewyllys Duw;" *adn.* 2. Sylwa Alford fod (*thelêma*) ewyllys Duw yn dwyn gydag ef fwy o awdurdod (*boulêma*); ond ewyllys y Cenhedloedd yn dangos mwy o gymmhell, a dymuno. "Ewyllys y Cenhedloedd," *h.y.*, y paganiaid, yn wrthgyferbyniol i Gristionogion; yr hyn a fuasent hwy yn ddymuno i'r diweddaf ei gyflawni. *Gan rodio mewn trythyllwch, trachwantau.*—Y "rhodio" hwn ydoedd y prawf o'u bod wedi gweithredu ewyllys y Cenhedloedd. Yr un gair yw "chwantau" yn *adn.* 2, a'r "trachwantau" yn yr adnod hon. "Trythyllwch:"—agwedd gyffredin y meddwl at bethau anghymmeradwy. Trachwantau:—yn neilduol affiendid. *Meddwdod, cyfeddach, diotta, a ffiaidd eilun-addoliad.*—"Y pechodau o'r blaen yn perthyn i ddyn yn unigol: ond y rhai hyn y pechodau a gyflawna dynion gyda'u gilydd." — *Bengel.* "Meddwdod:"—Groeg, 'awydd am, a'r defnyddiad anghymmedrol o win.' "Cyfeddach:"—gwleddoedd mewn anrhydedd i Bacchus, ac yn arbenig yr arferiad o ddiod gadarn. "Diotta:" —gwleddoedd yn unig i gyd-yfed. "Ffiaidd

4 Yn yr hyn y maent yn ddy- [g] Act. 18. 6; 2 Pedr 2. 12; Judas 10.
hwn [i] sydd barod i farnu y byw [i] Salm 1. 6; Ezec. 18. 30.
a'r meirw.

6 Canys er mwyn hyny yr ef- [k] Ioan 5. 25.
engylwyd [k] i'r meirw hefyd; [l] fel [l] Rhuf. 8. 9; 1 Cor. 11, 31; 32.
y bernid hwy yn ol dynion yn y

[g] eithr yn *eich* cablu *chwi*, am nad ydych yn cydredeg gyda hwynt [h] Mal. 3. 13—15; Luc 16. 2. i'r unrhyw ormod rhysedd:

5 Y rhai [h] a roddant gyfrif i'r eilunaddoliad."—Sylwa Bengel am hyn, "fod cyfraith sancteiddiaf Duw drwyddynt yn cael ei throseddu:" *Rhuf.* i. 23. A chasgla Alford fod yma brawf chwanegol y cyferchid y Cenhedloedd hefyd gan Pedr fel aelodau yn yr eglwysi, am na bu yr Iuddewon erioed yn euog o'r fath ffiaidd bethau Cenhedlig ag i gyflawnhau y gosodiad hwn am danynt.

4. *Yn yr hyn y maent yn ddyeithr yn eich cablu chwi.*—Yma y mae yr apostol yn defnyddio ymadroddion i annog y Cristionogion i beidio a chymmeryd eu dychrynu gan eiriau yr annuwiolion, ac yn enwedig i beidio a chymmeryd eu troi i ymarfer â'u pechodau o'r blaen. "Y maent yn ddyeithr, &c." Cyfleitha Alford, "y maent yn rhyfeddu nad ydych yn cydredeg â hwy i'r unrhyw laid o afradlonedd, gan eich cablu." Y maent yn "cablu," gan gymmeryd arnynt ryfeddu at y cyfnewidiad. Yr un cabledd a ddywedid am y duwiolion hyn ag a ddywedwyd yn mhob oes o'r byd am ddilynwyr yr Iesu. "Y maent yn eich gwarthruddo, fel rhai balch, hynodol, a rhai euog o annuwioldeb dirgel."—*Bengel. Am nad ydych yn cydredeg gyda hwynt i'r unrhyw ormod rhysedd.*—"Cydredeg yn llu, yn llawn awydd."—*Bengel.* "I'r unrhyw ormod rhysedd."—Nid yw hwn yn gyfleithiad llythyrenol. Ystyr y gair a gyfleithir "rhysedd" yw afradlonedd bywyd; hollol groes i ddiogelwch corph nac enaid. Mae yma felly syniad o redeg yn ddall a hyf i'r un pwll aflan o afradlonedd; ac o herwydd hyny, y maent yn cael eu goganu. Ac yn y cabledd yma dylasent gael y cymmhelliad uchaf i ymgadw oddi wrth eu harferion. Ond y mae grym arall yn cael ei roddi iddo yn yr adnod nesaf.

5. *Y rhai a roddant gyfrif i'r hwn sydd barod i farnu y byw a'r meirw.*—Nis gall fod unrhyw anghydweleddiad, yn ol y geiriad yma, pwy yn arbenig "a roddant gyfrif," am y dywedir "y rhai:" sef y rhai sydd yn cablu y Cristionogion. Cyfrif i Grist fel Barnwr a roddant: ond pwy a feddylir wrth "y byw a'r meirw" a fernir gan Grist, "yr hwn sydd barod," hyny yw, wedi cael pob barn iddo ei hun, fel y gall ddwyn hyn oddi amgylch? Tybia Alford, fel y cawn sylwi yn helaethach ar yr adnod nesaf, mai wrth y meirw y golygir yr holl annuwiolion oeddynt wedi ymadael â'r fuchedd hon; ac wrth y byw, y rhai oedd yn cydoesi â Pedr pan yn ysgrifenu y llythyr hwn. Cyfynga Bengel "y byw" at y rhai oeddynt yn cablu yn nyddiau Pedr; a chan fod yr apostolion yn edrych ar ddydd y farn fel yn ymyl, nid oedd y ffaith fod y rhai hyn yn fyw, ac y gallent fod felly pan y gwawriai dydd y farn, yn un rhwystr iddynt gael eu barnu, mwy na'r rhai oeddynt eisoes wedi marw. Yr oedd yr Iesu yn barod i farnu y byw yn gystal a'r meirw.

6. *Canys er mwyn hyny yr efengylwyd i'r meirw hefyd.*—Y mae Alford yn mron ar ei ben ei hun yn ei esboniad ar yr adnod hon. Y mae yn rhoddi pwys mawr ar fod yr un ystyr yn hollol yn cael ei roddi i "meirw" yn yr adnod hon, a "meirw" yn yr adnod o'r blaen; o herwydd hyn y mae yn tybied fod yn rhaid iddo egluro yr "efengylu i'r meirw" (yr un fath a *pen.* iii. 9) am fynediad yr Iesu i Hades, i bregethu yr efengyl i'r ysbrydion yn ngharchar. Ond yma, yn ol ei feddwl ef, nid y rhai a fu anufudd yn nyddiau Noë a olygir; ond yr holl feirw—pawb oedd yn eu beddau. "Y mae yr Iesu," meddai, "yn barod i farnu y meirw; ac nid heb reswm, o blegid ni buont hwythau heb gyfleusdra i dderbyn ei efengyl, fel y mae yr esampl a ddygwyd yn mlaen yn *pen.* iii. 19, yn dangos. Ond rywfodd nid oes un o'r rhai syddlyn cydsynio ag ef am fynediad Iesu i Hades (*pen.* iii. 19) yn cymmeryd yr un olwg ag ef am "efengylu i'r meirw." Syniad Hoffmann ydyw, mai y cablwyr a fuasent feirw a feddylir, ac nad oedd y ffaith o'u bod wedi meirw yn un attalfa iddynt gael eu barnu, o blegid yr efengylwyd iddynt cyn iddynt farw. Gwrthwynebiad Alford i hyn ydyw, nad y rhai oedd yn farw yn awr, yn amser Pedr, a feddylir, fel yr arwydda yr ymadrodd; ond rhywrai, cyn iddynt farw, yr efengylwyd iddynt. Heb law hyn y mae yn dadleu nad oedd neb, hyd yn oed o'r cablwyr, os nad efengylwyd iddynt cyn iddynt farw, yn gyfiawn i gael ei farnu yn ol yr adnod hon. Syniad Calvin yw, mai wrth y meirw y golygir Cristionogion erlidiedig, y rhai oeddynt feirw, a phawb o honynt hefyd a fyddant feirw cyn dyfodiad yr Iesu:—'Nid ydych chwi, y rhai sydd yn fyw, yn agored i fwy o galedi na'ch brodyr sydd wedi marw; canys efengylwyd iddynt hwythau, a dygodd eu cyssylltiad â Christionogaeth hwynt i'r un anghyfleusdra a chwithau. Fe'u barnwyd yn ol dynion yn y cnawd —barnwyd a chondemniwyd hwy gan erlidwyr mor bell ag yr oedd a fynont â'r cnawd; er hyny yr oeddynt yn cael eu galw drwy hyny i fyw am byth gyda Duw o ran yr ysbryd.' Y mae Bengel yn cymmeryd i mewn yr erlidwyr a'r Cristionogion yn ei olygiad ef. Dywed efe yr efengylwyd i'r byw yn gystal a'r meirw; ond crybwyllir y meirw yn arbenig yma, am mai gyda golwg ar y meirw yn arbenig y sonir am y farn:—"Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn." Oddi wrth yr hyn y gellir gweled yn arbenig fod yr efengyl wedi ei phregethu cyn iddynt farw—ac nid ar ol. "Wedi i'r corph," meddai, "gael ei ddiosg yn angeu, y mae yr enaid yn amlwg yn cael ei sefydlu mewn cysur neu mewn gwae: ni phregethir yr efengyl i neb wedi iddynt farw. Er i Grist ei hunan bregethu unwaith i'r rhai a fuasent fyw (*pen.* iii. 19), etto o dan y Testament Newydd, fe bregethir cyflawnder i'r rhai sydd yn fyw. Am y rhai nad ydyw yr efengyl yn dyfod atynt, gofala yr Arglwydd gyda golwg ar hyny." Yn ol syniad Bengel, wrth roi y pwys mwyaf ar y Cristionogion a fuasent feirw, aethant hwythau drwy farw cyn iddynt allu byw yn ol Duw yn yr ysbryd. Ac am yr erlidwyr a fuasent feirw, a'r rhai byw, y mae barn etto yn eu haros; ond dim "byw yn ol Duw yn yr ysbryd." Yr unig wrthwynebiad sydd gan Alford i esboniad Calvin, fel yr eglurwyd eisoes, am y Cristionogion yn goddef barn, y rhai a fuasent feirw, yn gystal a'r byw, yw y dybiaeth sydd ganddo ef, fod Pedr yn golygu, wrth "efengylu i'r

[m]Rhuf. 8 2; Gal. 2. 19. cnawd, [m]ac y byddent fyw yn ol Duw yn yr ysbryd.

7 Eithr diwedd pob peth a meirw" yn golygu yr holl rai sydd yn farw yn awr, ac nid y Cristionogion sydd yn awr wedi marw, ond a efengylwyd iddynt cyn hyny. Yn fyr, myn Alford fod yma gyfeiriad at fod y meirw yn y byd arall yn cael efengylu iddynt; yr hyn nid ydyw y Beibl yn ei ganiatau o gwbl. Ond myn Calvin mai efengylu yn unig i'r meirw tra y maent yn fyw a wneir, yr hyn yw athrawiaeth hollol amlwg y Beibl. Ac ar yr ystyriaeth hon yn unig, tueddir ni, fel gyda *pen.* iii. 19, i fabwysiadu yr esboniad cyffredin. *Fel y bernid hwy yn ol dynion yn y cnawd, ac y byddent fyw yn ol Duw yn yr ysbryd.*—Y mae yn anhawdd deall i eglurder pa ystyr a ddyry Alford i'r geiriau hyn. Amlwg yw y golyga fod yr efengyl yn cael ei chyhoeddi i rai wedi meirw, gyda'r amcan "iddynt fod mewn cyflwr o farn derfynedig ar bechod, yr hyn yw marwolaeth yn ol y cnawd; ond iddynt fyw bywyd gyda Duw, ac un dwyfol, yn yr ysbryd." Meddwl hyn, dybygid, yw, fod "i'r meirw," wedi cael pregethu yr efengyl iddynt, ddwyn condemniad pechod i weithrediad yn y rhan anianol o honynt, ond byw i Dduw o ran yr ysbryd. Dyry bwys mawr ar fod "y meirw" yr un ystyr yn *adn.* 5 ag yn *adn.* 6; sef, rhai wedi gadael y fuchedd hon yn barod. Ond yn sicr ni ddylai un sydd wedi cydnabod tuedd Pedr i arfer y ffigiwr o ymadrodd, *antanaclasis, h. y.,* defnyddio gair yn fwriadol mewn dau ystyr gwahanol yn yr un frawddeg, wrthod y dybiaeth y gallai fod yma hefyd *antanaclasis.* Ond y mae eglurhâd Calvin, fel y crybwyllwyd eisoes, ar y geiriau hyn yn hollol gysson, ac yn rhoddi hefyd yr un ystyr i "meirw" yn y ddwy adnod; sef, y Cristionogion erlidiedig a fyddent feirw cyn dyfodiad Crist i'r farn. Gwell etto, dybygem, yw eglurhâd Bengel. Fel hyn y dywed efe: "Fel."—Dyben ac effeithioldeb yr efengyl yw gwneuthur dynion yn debyg i Grist, mewn marwolaeth a bywyd: *pen.* iii. 18. Mae ffordd iachawdwriaeth drwy Grist yn rhydd ac amlwg i bawb: y rhai a gredant a gedwir, ac y maent i'w hefelychu gan ereill, nid eu cablu; y rhai ni chredant, ond ydynt yn cablu, a gospir â barn. 'Fel y bernid... ac y byddent fyw.'—Y rhai a dderbyniant yr efengyl a wneir yn debyg i Grist yn ei farwolaeth, ac ar ol hyny drwy bob croesau hyd farwolaeth y corph. Y mae y farwolaeth hono yn cael ei galw yn farn gyda golwg ar yr hen ddyn; ac i'r farn hono, fel y mae yn gwahanu y da oddi wrth y drwg, y mae y credinwyr yn cydsynio yn dawel; ond ni ddeuant o dan y farn gyffredinol ofnadwy: *adn.* 5, a 17; 1 *Cor.* xi. 32. Y maent hefyd yn byw gyda Christ. 'Byw' a ddywedir: nid cael eu bywhau, o blegid y mae eu bywhâd wedi cymmeryd lle gyda'r Iesu: *pen.* iii. 18; *Eph.* ii. [n]5. Am y 'farn' a'r 'bywyd hwn,' gwel *adn.* 1, 2, 3; o blegid y mae y credinwyr, tra yn byw yn y cnawd, wedi dechreu ar y pethau hyn."

7. Eithr diwedd pob peth a nesaodd.—Yma dechreuir ar gyfres o gynghorion, y rhai a barheir hyd ddiwedd y llythyr, ar wahanol ddyledswyddau Cristionogol; ac un cymmhelliad mawr i'w cyflawni ydyw, fod diwedd pob peth wedi nesau. Nid diwedd pob dyn a ddywedir, na'r diwedd, fel y golyga rhai—am yr oruchwyliaeth ddiweddaf, yr oedd hono wedi dyfod—ond diwedd y byd a feddylir yn ddiau, a dyfodiad Crist i'r farn, yn nesaodd: [n]am hyny byddwch sobr, [o]a gwyliadwrus i weddïau.

[p]1 Thes. 5. 6. [o]Marc 13. 33—37. [p]1 Cor. 13. 13

8 Eithr, o flaen pob peth, [p]bydded ol *adn.* 5. Dyma syniad cyffredin yr oes apostolaidd—fod y Barnwr wrth y drws: gwel *Actau* i. 7; 1 *Thes.* iv. 15. Gan fod "diwedd pob peth wedi nesau," sylwa Bengel fod hyny yn cynnwys "gorthrwm yr annuwiol yn gystal a dioddefaint y duwiol." *Am hyny byddwch sobr, a gwyliadwrus i weddïau.*—Tybia Bengel, fod o'r adnod hon hyd yr 11, gyfeiriad at yr ymarferiadau Cristionogol sydd yn wrthgyferbyniol i'r pechodau yn *adn.* 3. Y mae bod yn "sobr," a "gwylio," yma ar gyfer "trythyllwch;" yn y nesaf, "cariad" ar gyfer "trachwantau:" "llettygarwch" ar gyfer "meddwdod, cyfeddach, a diotta;" ac ar gyfer "ffiaidd eilun-addoliad," y gweinyddiad cyfreithlawn o'r grasau nefol, er gogoniant y gwir Dduw. Diau fod cyssylltiad agos rhwng bod yn "sobr," a bod yn effro neu "wyliadwrus i weddïau." Y mae glythineb a meddwdod yn peri i'r galon drymhau, ac y mae prinder o ysbryd gweddi yn agwedd lled beryglus i ddydd yr Arglwydd wawrio arnom. Y mae diwedd pob dyn yr un peth iddo ef a phe deuai y diwedd cyffredinol, ac am hyny y mae yr holl gynghorion hyn yn eu hadeg bob amser.

8. Eithr o flaen pob peth bydded genych gariad helaeth tuag at eich gilydd.—Nid cariad, ond "cariad helaeth." "Cymmerir yn ganiataol fod ganddynt gariad, ond annogir iddo fod yn gryf."—*Bengel.* Wrth ddywedyd y dylai fod "o flaen pob peth," y meddwl ydyw, y dylai fod yn sylfaen pob dyledswydd gymdeithasol, o blegid nis gellir cyd-fyw, nac ymarfer llettygarwch, na chyfranu o'r doniau, heb i gariad gymmhell y cwbl. *Canys cariad a guddia liaws o bechodau.*—Y mae ychydig ddadl mewn perthynas i'r rhan hon, pa un ai dywediad cyffredin ydyw, ai ynte a oes yma gyfeiriad at y Diarhebion, lle y ceir ymadroddion cyffelyb. Yn *Diar.* x. 12, dywedir, "Cariad a guddia bob camwedd;" a *Diar.* xvii. 9, "Y neb a guddia bechod sydd yn ceisio cariad." A defnyddir geiriau tebyg i'r rhai hyn, heblaw gan Pedr, gan Iago hefyd: *pen.* v. 20. Y mwyaf tebygol yw fod tarddiad cyffredin i'r holl gyfeiriadau dilynol oddi wrth *Diar.* x. 12. Ond cariad pwy sydd yn cuddio lliaws o bechodau? Yn ol y cyfaddasiad yma, amlwg ydyw mai cariad helaeth at eu gilydd. Dywed rhai, nas gall cariad un dyn guddio pechodau ei gyddyn, gan mai Duw yn unig a all faddeu pechod. Ond fe ddywed yr Iesu, yn *Matt.* xviii. 15, "Os pecha dy frawd i'th erbyn:" os gall brawd bechu yn erbyn brawd, gall y diweddaf trwy gariad guddio y pechod hwnw. Meiddia rhai feddwl fod yma ddysgu fod cariad dyn at ereill yn achos haeddiannol o faddeuant ei bechodau ei hun; ond nid oes sail yma, nac yn un rhan arall o'r Ysgrythyr, i'r fath athrawiaeth. Y mae cariad dyn, trwy gyd-ddwyn a madden i'w frawd, yn cuddio ei bechodau. Nid yr un cyssylltiad yn ddiau sydd i'r geiriau yn Iago ag yma. Yno, cyfeirio yr ydys at waith brawd yn adfer yr un aeth ar gyfeiliorn, ac felly ei ddwyn i gyrhaedd maddeuant Duw. "Nid ydwyf yn gweled pa ham na ddylem gymmeryd y geiriau yn y cyfeiriad eangaf, gan eu deall yn gyntaf am faddeuant, ac yna am ragfaeniad pechod trwy air a gweithred hynaws, ac hefyd am yr eiriolaeth hono dros bechod sydd yn ffrwyth parhaus cariad gwresog. Y

genych gariad helaeth tuag at eich gilydd: canys cariad a guddia liaws o bechodau.

9 Byddwch lettygar y naill i'r llall, heb rwgnach.

10 Pob un, megys y derbyniodd [q] rodd, [q] cyfrenwch â'ch gilydd, fel [r] daionus oruchwylwyr amryw ras Duw.

11 Os llefaru a wna neb, *llefared* [s] megys geiriau Duw; os gweini mae neb, *gwnaed* megys [t] o'r gallu y mae Duw yn ei roddi: [u] fel yn mhob peth y gogonedder Duw [x] trwy Iesu Grist; i'r hwn y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

12 Anwylyd, na fydded ddyeithr genych am y profiad tanllyd sydd ynoch, yr hwn a wneir er profedigaeth i chwi, fel pe bae beth dyeithr yn digwydd i chwi:

[q] Mat. 20. 28; Luc 2. 3.
[r] Luc 12. 42; Titus 1. 7.
[s] Rhuf. 3. 2; Heb. 5. 12.
[t] huf. 12. 6–8.
[u] 1 Cor. 6. 20; Eph. 3. 20, 21.
[x] Phil. 2. 11.

mae yn wirionedd, oddi wrth yr hwn nid oes angen i ni gilio, fod pob pechod y mae cariad yn ei guddio oddi wrth lygad dyn wedi ei guddio yn ngolwg Duw hefyd. Nid oes ond un achos effeithiol i guddiad pechod: ond y mae cariad cydgyfranogol yn cymmhwyso yr achos hwnw: yn tynu y gorchudd cyffredinol dros bechod pennodol."—*Alford.* "Dedwydd yw y dyn ag y mae diwedd pob peth yn ei gael heb ond pechodau wedi eu cuddio."—*Bengel.*

9. *Byddwch lettygar y naill i'r llall, heb rwgnach.*—Y mae Paul yn annog i lettygarwch yn *Rhuf.* xii. 13, a *Heb.* xiii. 2. Sylwa Gerhard yn Alford ar hyn:—"Nid son y mae am y llettygarwch rhwysgfawr, fel yn *Luc* xiv. 12, ond y llettygarwch Cristionogol a sanctaidd â'r hwn y mae Cristionogion yn derbyn mewn cariad didwyll a pharod deithwyr anghenus i'w tai—yn benaf oll o herwydd eu proffes o wir grefydd. Y maent i'w cofleidio yn raslawn ac anwyl, fel pe byddent yn noddi aelodau Crist, a chyd-aelodau o'r un eglwys." Heb rwgnach am eich bod yn gwneyd mwy i ereill nag yr ydych yn ei gael gan ereill. "Yr hwn sydd yn cyfranu, gwnaed mewn symlrwydd."

10. *Pob un, megys y derbyniodd rodd, cyfrenwch d'ch gilydd.*—Nid cymmwynasgar i'w gilydd o ddoniau naturiol yn unig ydynt i fod, ond yma esgynir at ddoniau ysbrydol. "Megys y derbyniodd:"—y math o rodd a dderbyniodd, cyfraned. Gan mai derbyn a ddarfu, y mae ereill i dderbyn oddi wrtho ef. Yn rhad y derbyniodd, yn rhad y mae i roddi. *Fel daionus oruchwylwyr amryw ras Duw.*—"Goruchwylwyr" wedi eu gosod gan y Meistr, ac i roddi cyfrif etto o'u hymddygiad. "Daionus:"—yn cyfeirio o bossibl at ddammeg y talentau, i gael eu cyfarch yn y diwedd â'r "Da, was da a ffyddlawn." "Amryw ras Duw."—Nid yr holl ddoniau gan bob un, er fod rhai wedi cael ymddiried iddynt fwy nag i ereill. Cyfeirir at yr amrywiaeth etto—o'r llefaru hyd y gweini.

11. *Os llefaru a wna neb, llefared megys geiriau Duw.*—Am y gwahanol ddoniau sydd yn yr eglwys, ceir crynodeb o honynt yn 1 *Cor.* xii. Dau fath arbenig o lefaru a geir yno, y prophwyd a'r dysgawdwr. Yr oedd y blaenaf yn cynnwys yr olaf, ond nid yr olaf y blaenaf. Yr oeddynt i deimlo fod Duw yn eu dysgu ar y pryd, ac i ofalu na byddai eu hymddygiad mewn dim yn gyfryw fel nas gallent ddisgwyl i Dduw roddi cyfarwyddyd iddynt. Yn hyn, fel y dywed un, yr oeddynt i fod yn hael—nid ar eu heiddo eu hunain, ond eiddo Duw, a hwythau yn oruchwylwyr drosto. *Os gweini y mae neb, gwnaed megys o'r gallu y mae Duw yn ei roddi.*—Yr oedd gwahanol fath o "weini," neu o ffyrdd i wneyd rhan diacon, canys o'r enw hwn y tardd y ferf a arferir yma am weini. Gwel *Rhuf.* xii. 8, a 1 *Cor.* xii. 28. Megys y mae Duw yn rhoddi gallu, y mae yntau i fod yn weithgar ac ymdrechgar yn gweini. Arwydda y gair "rhoddi" a ddefnyddir yma, yn y lle cyntaf, gyflenwi yr hyn oedd angenrheidiol at wasanaeth dosbarth o cantorieu chwareuwyr yn y chwareufwrdd Groegaidd; ac o hyny daeth i gael ei arfer am bob cyflenwi. Duw sydd yn rhoddi y cyflenwad i'w weinidogion—y rhoddion a dderbyniodd yr Iesu i'w cyfranu i ddynion, fel y preswyliai Duw yn eu plith. *Fel yn mhob peth y gogonedder Duw trwy Iesu Grist.*—"Yn mhob peth; o blegid y mae pawb a phob peth o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef."—*Bengel.* "Dylai yr eglwys yn gyffredinol, a phob aelod ynddi, fod â'i nôd i ogoneddu Duw. Trwy Iesu Grist yr ydym i geisio gogoneddu Duw. Fel mai oddi wrth Dduw, trwy Iesu Grist, y mae pob daioni yn disgyn i ni, felly hefyd trwy Grist y dylai pob peth gael eu cyflwyno yn ogoniant i Dduw."—*Gerhard* yn *Alford. I'r hwn y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.*—Tybia rhai mai i Iesu Grist y golyga yr apostol fod y "gogoniant" i'w gyflwyno; ond y rhan liosocaf i Dduw, fel y prif destyn yn yr ymadrodd diweddaf, a thrwy Iesu Grist fel meddyldrych dibynol. Heb law hyny, Duw a ddywedir sydd i gael ei ogoneddu yn y rhan uchod. Priodolir gallu i Dduw fel yr hwn sydd yn rhoddi gallu i'w holl bobl, ac hefyd i'w weision, fel y sylwyd eisoes yn yr adnod hon. "Yn oes oesoedd:"—Groeg: 'i oesoedd.' "Amen:"—Nid arwydd terfyniad, fel y golyga rhai, ydyw hyn; ond arddangosiad o deimlad cryf y galon, fel y tybia Alford. Ceir yr un moliant ar y canol yn *Dat.* i. 6; a dyma'r ffurf hoff gan Pedr, a chyda hi y mae efe yn terfynu yn weithredol *pen.* v. 11.

12. *Anwylyd, na fydded ddyeithr genych am y profiad tanllyd sydd ynoch.*—Oddi yma hyd ddiwedd y bennod, rhoddir calondid a chysur i blant Duw yn ngwyneb dioddefiadau, yn enwedig dioddef er mwyn Duw. Y mae yr ystyriaethau yn amrywiol: gan eu bod yn cyfranogi o ddioddefaint Crist yn awr, y mae hyny yn cynnwys rhagolwg am gyfranogiad o'i ogoniant. Yn mhellach gyda y dioddef er mwyn Crist, y mae gogoniant Crist wedi dechreu gorphwys arnynt. Ac heb law hyn hefyd, y dioddefaint hwn ydyw dechreuad y farn sydd yn myned allan yn gyntaf o dŷ Dduw, ond nid i orphwys arnynt hwy—yn hytrach i'w puro hwy, ond i aros ar randir yr annuwiol. Yn *pen.* ii. 11, pan y cyfarchodd yr apostol yr eglwysi fel "anwylyd," dechreuai gyda chyfres o gynghorion, a rhai o honynt yn cyfeirio at ddioddef. Yno dysgai iddynt ddwyn croesau, wrth feddwl pa effaith a gaffai eu goddefgarwch ar eu herlidwyr: yma, cyfeiria at eu hamcan sancteiddiol gyda golwg arnynt hwy eu hunain. O herwydd hyn gellw hwynt yn "brofiad tanllyd:" Groeg,

13 Eithr llawenhewch, yn gymmaint [y] a'ch bod yn gyfranogion o ddioddefiadau Crist; fel, [z] pan ddadguddier ei ogoniant ef, y byddoch yn llawen ac yn gorfoleddu.

[y] Col. 1. 24; Dad. 1. 9. [z] Luc 17. 30.

14 Os difenwir chwi er mwyn enw Crist, gwyn *eich* byd: [a] o blegid y mae Ysbryd y gogoniant, ac *Ysbryd* Duw yn gorphwys arnoch. Ar eu rhan hwynt yn wir efe a geblir, ond ar eich rhan chwi efe a ogoneddir.

[a] Num. 11. 25, 26.

15 Eithr na ddioddefed neb o

'y llosgiad,' neu y mynediad trwy y tân. Cyfeiria at waith y purwr gyda'r aur a'r arian, yn eu profi trwy dân: yr un syniad ag yn *pen.* i. 7. *Yr hwn a wneir er profedigaeth i chwi, fel pe bae beth dyeithr yn digwydd i chwi.*—Amcan tân yr erledigaeth, neu y dioddefaint, ydoedd profi neu ddwyn allan ffydd, amynedd, goddefgarwch, a marweiddiad y Cristion i'r byd, ac i'w holl lygredigaethau ei hunan. Ymddengys rhywbeth yn debyg i fynychiad yr un syniad i ddywedyd, "Na fydded ddyeithr—fel pe bae beth dyeithr yn digwydd i chwi;" ond y meddwl yma ydyw, am y cyntaf, Peidiwch chwi a rhyfeddu os daw dioddefaint i'ch rhan; yn hytrach, disgwyliwch amgylchiadau felly, a theimlwch eich hun yn gartrefol yn eu plith. Nid am eu bod i'w hoffi ynddynt eu hunain, ond am eu bod yn anwahanol gyssylltiedig â'ch bywyd presennol, ac yn atteb dyben da i brofi eich grasau, fel y prawf y tân yr aur a'r arian. Am yr ail, "fel pe bae beth dyeithr yn digwydd i chwi," Peidiwch a meddwl mai rhywbeth damweiniol ydyw eich helyntion ar y ddaear: nid ydych ddyeithr yn nghynghorau eich meistr. Na: y mae pob peth wedi ei ragdrefnu, a phob peth wedi ei fwriadu i gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.

13. *Eithr llawenhewch, yn gymmaint a'ch bod yn gyfranogion o ddioddefiadau Crist.*—Sail y llawenydd ydyw, bod yn gyfranogion o'i ddioddefiadau yn awr, fel ernes o gyfranogiad o'i ogoniant yn nydd y dadguddiad hwnw. Sylwa Alford am "fod yn gyfranogion o ddioddefaint Crist," —cael rhan yn eich personau eich hunain o'r dioddefiadau a ddygodd efe yn bersonol. Cymmharer 2 *Cor.* iv. 10; *Phil.* iii. 10; *Heb.* xiii. 13, &c. Nid dioddefiadau Crist yn gyfriniol (*mystical*) yn ei gorph, sef yr eglwys (*Col.* i. 24), a feddylir. Yn y rhai hyn, gallai y darllenwyr gymmeryd rhan, ond prin y gallent gyfranogi (*coinóneite*). Barna Leighton yn wahanol, a gallem feddwl ei fod yn gysson â'r holl Ysgrythyrau ar y mater hwn, fod dioddefiadau y saint, fel aelodau o'i gorph dirgeledig ef, yn gyfranogiad o'i ddioddefiadau ef ei hun. "Nid rhaid i mi ddyweyd wrthych," meddai, "nad ydyw y cyfranogiad o ddioddefiadau Crist yn cyfeirio at ddyhuddiad, neu foddlonrwydd i gyflawnder dwyfol. Dyna oedd dyben neilluol dioddefiadau Crist yn bersonol; ond nid dioddefiadau Crist yn ei eglwys ddirgeledig. "Dug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren," ac wrth eu dwyn, a'u cymmerodd ymaith: yr ydym ni yn dwyn ei ddioddefiadau ef, fel ei gorph, wedi ein huno âg ef drwy ei Ysbryd. Y dioddefiadau hyny oeddynt ei faich personol ef, yr ydym ni yn cyfranogi o'u ffrwythau melus: cyfrifir hwynt yn eiddom ni, a rhyddheir ni drwyddynt. Ond yr oedd eu dioddef yn waith uchel ac anghyfranogol iddo ef, yn yr hyn nid oedd neb gydag ef. Ein cymmundeb â'r rhai hyn, fel wedi eu cwblhau ganddo ef yn ei gorph naturiol, ydyw sail ein cysur a'n llawenydd yn y dioddefiadau hyny ag sydd yn cael eu cwblhau yn ei gorph dirgeledig, yr eglwys....Fel ag yr oedd ei gorph naturiol ef yn cyfranogi â'i ben yn y dioddefiadau, felly y dylai ei gorph dirgeledig gyfranogi o'r hyn sydd yn ol o gystuddiau y pen. Dywedai un, "Dim coron o aur i mi, lle y bu Crist Iesu yn cael ei goroni â drain." *Fel, pan ddadguddier ei ogoniant ef, y byddoch yn llawen ac yn gorfoleddu.*—Yr un modd ag y dywedir am "Na fydded ddyeithr genych, &c." yn yr adnod o'r blaen; felly yma, "Llawenhewch...fel y byddoch yn llawen," &c. Cyfeiria y cyntaf at lawenhau yn y byd yma yn nghanol y gorthrymderau, fel yn cyfranogi o ddioddefiadau Crist; ac o hyny y tardda y gallu yn nadguddiad ei ogoniant i fod yn llawen ac yn gorfoleddu. Y mae amseriad y ferf "llawenhau" yn y crybwylliad cyntaf yn golygu mynychiad y teimlad; a'r amseriad yn yr ail, yn golygu un weithred, pan y daw Crist ar gymmylau y nef. "Gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef:"—llawenydd a gorfoledd sydd i fod wedi eu huno â'u gilydd y dydd hwnw, "o herwydd fod y cyntaf wedi ei gymmysgu â gofid a thristwch, ond yr ail wedi ei uno â gorfoledd."—*Calvin.* Golyga y "gorfoledd" yma neidio gan lawenydd—yr un gair a "mawr lawenhau" yn *pen.* i. 6.

14. *Os difenwir chwi er mwyn enw Crist, gwyn eich byd.*—Traethwyd y syniad hwn o'r blaen gan yr Arglwydd Iesu yn ei bregeth ar y mynydd (*Matt.* v. 11); ond y mae y cyfaddasiad hwn at amgylchiadau y saint hyn yn dra phriodol. Un ffordd arbenig oedd gan y byd i flino y saint oedd drwy ddifenwi a gwarthruddo; fel y sylwa Bengel: "Tybia y cenhedloedd ei fod yn ddifriad ar y neb a elwir wrth yr enw Cristion." Golyga "er mwyn Crist," o herwydd eu cyffes o Grist mewn gair a gweithred. Dyma y rheswm am eu gwynfydedigrwydd. *O blegid y mae Ysbryd y gogoniant, ac Ysbryd Duw yn gorphwys arnoch.*—Cyttunir mai nid dau ysbryd gwahanol ydyw y rhai hyn: ond yr un yw "Ysbryd y gogoniant," ac "Ysbryd Duw." Y mae Ysbryd Duw arnynt yn awr fel Ysbryd y gogoniant, yn eu gwneyd yn ogoneddus, ac yn ernes hefyd o'u dygiad i'r tragwyddol ogoniant. Wrth gyferbynu y dioddefiadau â gorphwysiad Ysbryd y gogoniant ac Ysbryd Duw arnynt, dywed Leighton, "Y maent hwy (y dioddefiadau) yn llawn cywilydd, ac yn anenwog, ond y mae efe yn Ysbryd y gogoniant: dynol ydyw y gwarthrudd, ond y mae efe yn ysbryd dwyfol—'Ysbryd y gogoniant ac Ysbryd Duw;' hyny ydyw, Ysbryd gogoneddus Duw." Y mae yr ymadrodd "gorphwys" yn cyfeirio at yr hyn a ddywedir am orphwysiad yr Ysbryd ar Grist: *Luc.* iv. 18. *Ar eu rhan hwynt yn wir efe a geblir, ond ar eich rhan chwi efe a ogoneddir.*—Y mae Alford yn tueddu i adael allan y geiriau hyn, am nad ydynt i'w cael yn yr ysgrifLyfrau hynaf. Os ydynt yn eiriau yr ysbryd drwy Pedr, y mae yr ystyr yn eglur. Ceblir Crist yn nifenwad y gelynion, ond gogoneddir ef yn ymddygiad teilwng y Cristionogion yn nghanol eu gwarthrudd.

15. *Eithr na ddioddefed neb o honoch fel llofrudd:*—Na fydded neb yn euog o'r troseddau

honoch fel llofrudd, neu leidr, neu ddrwgweithredwr, neu fel un yn ymyraeth â materion rhai ereill:

[b] Act. 5. 41; Rhuf. 5. 2—5. 16 Eithr os fel Cristion, na fydded gywilydd ganddo; [b] ond gogonedded Dduw yn hyn o ran.

17 Canys *daeth* yr amser i [c] ddechreu o'r farn o dŷ Dduw: ac os *dechreu hi* yn gyntaf arnom ni, beth *fydd* diwedd y rhai nid ydynt yn credu i efengyl Duw?

[c] Esa. 10. 12; Ezec. 9. 6; Mal. 3. 5.

18 Ac os braidd y mae y cyfiawn yn [d] gadwedig, [e] pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?

[d] Mat 24. 22—24.

19 Am hyny y rhai hefyd sydd [e] Rhuf. 1. 18.

---

hyn fel ag i orfod[i] dioddef o'u herwydd gan y llywodraethwyr gwladol. *Neu leidr, neu ddrwgweithredwr, neu fel un yn ymyraeth â materion rhai ereill.*—Y mae y drwgweithredwr yn wrthgyferbyniol i "wneuthur daioni" (*pen.* iii. 17); ac er nad yw yr "ymyrwr â materion rhai ereill" yn ddrwg weithredwr, fel y golyga yr enwau blaenorol, etto y mae yn ymddygiad nad ydyw yn gysson â phroffes o Gristionogaeth. Y mae yn anhawdd penderfynu at ba beth yn neilduol y mae yr ymyriad yn cyfeirio. Meddylia un mai at gyfryngiad annoeth o eiddo Cristionogion yn achos gweithredoedd eu cymmydogion annuwiol o'u cwmpas: arall, mai cymmeryd rhan mewn helyntion cyhoeddus neu bersonol, crefyddol neu wladol, nad oedd iddynt ran yn y cyfryw achosion. Wele gynghor ac ystyr Leighton i'r ymadrodd, yr hwn sydd yn werth dal arno bob amser:—"Bydd lawer iawn gartref, yn gosod pethau yn iawn tu fewn i'th fynwes dy hun, lle y mae cymmaint o waith, a'r fath achos am ddiwydrwydd dyddiol; ac yna ni bydd i ti gael hamdden i ymyraeth yn ddiangenrhaid â ffyrdd ac amgylchiadau dynion ereill."

16. *Eithr os fel Cristion, na fydded gywilydd ganddo.*—Pa warth neu ddirmyg bynag yr oedd actio allan y cymmeriad Cristionogol ger bron y byd yn ei demtio oddi wrth yr annuwiol, nid oedd y Cristion i ochel hyny. *Ond gogonedded Dduw yn hyn o ran.*—"Gallai Pedr, yn rhinwedd y gwrthgyferbyniad, ddywedyd, Bydded iddo ei ystyried yn anrhydedd iddo ei hun: ond y mae yn dysgu fod pob anrhydedd i gael ei gyfiwyno i Dduw. Bydded iddo ogoneddu Duw, yr hwn sydd yn ystyried dyn yn deilwng o anrhydedd dioddefiadau; a'r hwn sydd ar yr un pryd yn rhoddi iddo wobr fawr, a gwaredigaeth rhag dioddefiadau yr annuwiolion, y rhai sydd yn sicr o'u goddiweddyd. Y mae cyferbyniad cyffelyb yn *Salm* lxxix. 12. 13."—*Bengel.* "Yn hyn o ran." —Y fraint a'r ddyledswydd o gael dioddef ychydig er mwyn enw yr Arglwydd Iesu.

17. *Canys daeth yr amser i ddechreu o'r farn o dŷ Dduw.*—Y mae yn yr adnodau hyn, hyd y diwedd, gysur i'r Cristionogion o dan eu profedigaethau; a dyna ydyw, iddynt edrych ar y dioddefiadau a ddeuent i'w rhan fel profion o'u perthynas â theulu Duw; ac fel plant yn unig y byddai iddynt ddioddef, tra yr oedd ymweliadau tra gwahanol i ddyfod i ran yr annuwiol, eu poenydwyr, yn y byd a ddaw. "Tŷ Dduw" yma ydyw ei eglwys. Nid barn mewn gwirionedd ydyw dioddefiadau y Cristionogion yma, ond ceryddon tadol; etto, fel ynglŷn â phechod, ac i gadw i fyny y syniad am gospedigaeth yr annuwiol, sonia yma am geryddon y plant fel barn—cerydd ag sydd i chwyddo yn mlaen yn farn ddialw yn ol ar ben yr annuwiol. Yr oedd llawer o gyfeiriadau yn yr Hen Destament at ymweliad Duw i buro ei dŷ, ond ychydig oedd gerwindeb y gwyntylliad hwnw, o'i gyferbynu â'r llosgi a'r tân anniffoddadwy: gwel *Ier.* xxv. 15, 29, a xlix. 12; *Ezec.* ix. 6; *Amos* iii. 2. Sylwa Calvin, "Y mae Pedr yn cymmeryd yr athrawiaeth hon oddi wrth addysg barhaus a mynych yr Ysgrythyrau; yr hyn sydd yn fwy tebygol na'i fod, fel y tybia ereill, yn cyfeirio at adnod bennodol." *Ac os dechreu hi yn gyntaf arnom ni, beth fydd diwedd y rhai nid ydynt yn credu i efengyl Duw?*—Bydd cospedigaeth yr annuwiol yn rhwym o fod yn ofnadwy. Efengyl Duw fydd yn barnu, wedi cael ei gwrthod; a'i blant hefyd, wedi cael eu herlid; a'i enw, wedi ei gablu. Dywed Bengel yn briodol, "Bydd y farn, er ei bod ar y cyntaf yn oddefol, yn dwyshau yn raddol. Gall y saint, wedi dwyn eu rhan eu hunain, edrych o ddiogelwch ar drueni yr annuwiolion. Y mae yr annuwiolion wrth flino y duwiolion yn cyflawni mesur eu pechodau, ac yn dysgu beth fydd eu rhan ddyfodol hwy; ond y mae y duwiol yn gwybod hyny yn well, ac am hyny yn amyneddgar."

18. *Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig.*—Fel yn yr adnod ddiweddaf, cyferbynir yma etto y duwiol â'r annuwiol. Gellir edrych ar hon fel eglurhâd ar y ddiweddaf. Y mae y farn yn dechreu o dŷ Dduw; ac o herwydd hyny, o'r braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig. I deimlad y credadyn ei hun, a'r mynych golliadau y mae yn agored iddynt, y mae anhawsder ei gadwedigaeth i'w briodoli yn benaf. O herwydd maint yr erledigaeth a'r profedigaethau, a'i wendid yntau, gallai ei ddiogelwch ymddangos yn dra ammheus iddo ef, ac i ereill hefyd; ond gyda Duw y mae pob peth yn ddiogel. Wedi unwaith ddyfod i undeb ffydd â'r Arglwydd Iesu, nis gall dim ei wahanu mwyach oddi wrth gariad Duw yn Nghrist Iesu: y mae amcanion cariad yn sicr o gael eu cyflawni ynddo. *Pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?*—Dyfynu y mae yr apostol yma, dybygid, o *Diar.* xi. 31; "Wele, telir i'r cyfiawn ar y ddaear; pa faint mwy i'r drygionus a'r pechadur?" Yr un a feddylir yma sydd yn dwyn y ddau gymmeriad, "annuwiol, a pechadur." Yr annuwiol yw y dyn nad ydyw yn nirgeloedd ei galon yn gofalu am Dduw, nac yn troi ato."—*Alford.* "Y mae dyn yn gyflawn gyda golwg ar ei gymmydogion o'i gwmpas; yn annuwiol gyda golwg ar Dduw; yn bechadur gyda golwg arno ei hun."—*Bengel.* Dywed y diweddaf yn mhellach y cymmedrolir "os braidd," yn 2 *Pedr* i. 11, gan y mynediad helaeth i'r deyrnas.

19. *Am hyny y rhai hefyd sydd yn dioddef yn ol ewyllys Duw.*—Yn yr adnod hon y mae efe yn casglu ynghyd ymresymiad yr adnodau diweddaf i un cynghor ymarferol. Gwahaniaetha y rhai sydd yn dioddef megys 'llofrudd neu leidr.' Y mae y rhai hyny hefyd yn dioddef yn ol ewyllys Duw, fel y mae wedi trefnu i ddrwgweithredwyr ddioddef; ond yma y golygiad ydyw, ewyllys Duw iddynt ddioddef, fel dysgyblaeth arnynt, i'w perffeithio i ogoniant. *Gorchymynant eu heneidiau iddo ef:*—hyd yn oed pan y mae eu cyrph yn ymddangos yn myned i ddinystr."—*Bengel. Megys i Greawdwr ffyddlawn.*—Wrth i'r

yn dioddef yn ol ewyllys Duw, gorchymynaut eu heneidiau *iddo*
[f] Col. 1. 18—20; Heb. 1. 2, 3. *ef*, megys i [f] Greawdwr ffyddlawn, gan wneuthur yn dda.

PENNOD V.

1 *Y mae yn annog yr henuriaid i borthi defaid Crist; 5 a'r ieuainc i ufuddhau: 8 a phwyb i wylied, ac i fod yn sobr, ac yn ddiarwadol yn y ffydd; 9 ac i wrthwynebu y cythraul, y gwrthwynebwr creulawn.*

YR [a] henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriaid, [b] a thyst o ddioddefiadau Crist, yr hwn hefyd *wyf* gyfranog, o'r gogoniant a ddadguddir:
[a] Act. 20. 17, 28. [b] Act. 10. 39—41.

2 Porthwch [c] braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, [d] gan fwrw golwg *arnynt;* nid trwy gymmhell, eithr yn ewyllysgar;
[c] Luc 12. 32. [d] Heb. 12. 15.

saint gael eu cyfarwyddo i gyflwyno eu hunain i ofal Duw, pa ham yr arferir y geiriau hyn "Creawdwr ffyddlawn?" I hyn atteba Leighton, "Os oedd yn alluog i roddi iddynt fodolaeth, yn sicr y mae yn abl i'w cadw rhag cyfrgolli. Y mae y berthynas hon o Greawdwr yn awgrymu tueddfryd tirion, ac ewyllys da tuag at waith ei ddwylaw. Os rhoddodd efe hwynt i ni unwaith, pan nad oeddynt yn cael en ffurfio allan o ddim, ai ni rydd efe hwynt i ni etto, wedi cael eu rhoddi yn ei ddwylaw er mwyn diogelwch." Ni ddylid, meddai Alford, ddeall fod y gair "Creawdwr" yn cyfeirio at yr ail greadigaeth yn yr ail enediguaeth; ac ni ddylid darllen "meddiannydd ffyddlawn" chwaith. *Gan wneuthur yn dda.*—Gofal y credadyn ydyw am "wneuthur yn dda," a dioddef er mwyn yr hyn sydd dda; yna gallu hydern ar Dduw heb ofni. Sylwa un "nad ydyw ymgyflwyniad i ofal yr Arglwydd i gael ei ddilyn gan ddiogi diofal, ond gan yr arferiad gweithgar o wneuthur yn dda." Nid oes gan ddyn le i obeithio amddiffyn Duw drosto, na'i ofal am dano, ond pan yn cyflawni ei ddyledswydd, ac yn arbenig pan yn rhodio yn ei ddeddfau.

Pennod V.

Cynnwysiad.—Cynghora yr apostol henuriaid yr eglwysi i wylio rhag esgeulusdra, cybydd-dod, a chariad at awdurdod (1—4); yr ieuengctyd i fod yn ddarostyngedig, a phawb yn ostyngedig (5, 6): annoga yn mhellach i ymddiried yn Nuw, i fod yn wyliadwrus, a gwrthwynebu eu gelyn ysbrydol (7—9). Terfyna y rhan hon â gweddi ddifrifol am eu perffeithiad (9, 11). Cyfeiria yn mhellach at ddygiedydd ac amcan y llythyr; a therfyna yr holl lythyr gyda chyfarchiadau, a'r fendith ymadawol (12—14).

1. *Yr henuriaid sydd yn eich plith.*—Enw ar swyddogion yn yr eglwys, er fod y gair yn golygu rhai mewn oed; a chyferbynir â hwy "yr ieuainc," yn *adn.* 5. Y mae yn ymddangos mai yr un rhai oedd yr "henuriaid" a'r "esgobion;" a sonir am y rhai hyn yn "bwrw golwg" ar y praidd yn *adn.* 2. Groeg: *episcopein*—y ferf y mae y gair esgob yn perthyn iddi o ran ei wreiddiau: *epi*, dros neu ar, a *scopein*, edrych, golygu. Y swydd hon a'r ddiaconiaeth a berthynent yn unig i'r eglwys gyntefig, fel y profir oddi wrth lythyrau Paul at Timotheus a Titus. Am yr "efengylu," gallai diacon gyflawni y gwaith hwnw, fel y gwelir yn *Act.* xxi. 8; a chyfeiria at gyhoeddi yr efengyl i'r rhai na chlywsant hi, yn fwy nag at "wasanaethu byrddau" mewn lle pennodol, yr hyn oedd swydd diacon, ac na golygu praidd mewn eglwys bennodol, yr hyn oedd gwaith arbenig yr henuriad, neu yr esgob. *Attolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriad.*—"Yn mhlith cydswyddogion a chydradd y mae cymmhellion o bob ochr yn dylanwadu yn fawr. Fel hyn, yn briodol a gwylaidd, y mae y blaenaf o'r apostolion yn siarad am dano ei hun."—*Bengel. A thyst o ddioddefiadau Crist.*—Y mae gwahanol farnau ynghylch yr hyn y cyfeiria yr apostol ato yma. Tybia rhai mai cyfeirio at waith apostol yn tystio mewn gair am ddioddefiadau Crist y mae, yn ol *Act.* i. 8, 22; ii. 32; x. 39. Ereill, mai fel tyst yn dwyn oddi amgylch yn ei gorph farweiddiad yr Arglwydd Iesu, yn ol *Heb.* xii. 1: *Act.* xxii. 20; *Dat.* ii. 13. Unir y ddau gan Bengel, "Yr oedd Pedr wedi gweled yr Arglwydd ei hun yn dioddef, ac yr oedd yn awr hefyd yn dwyn ei ddioddefiadau." Ond y meddwl mwyaf boddhaol ydyw, i Pedr fod yn llygad-dyst o ddioddefiadau Crist pan yma yn nyddiau ei gnawd, ac felly fod ganddo hawl fel apostol i annog ei gyd-henuriaid a'r holl Gristionogion i ddioddef fel eu Pen Mawr ei hunan. *Yr hwn hefyd wyf gyfranog o'r gogoniant a ddadguddir.*—Dywedasai o'r blaen, yn *pen.* iv. 13, fod cyfranogi o ddioddefiadau Crist yn ernes iddynt y cyfranogent o lawenydd a gorfoledd pan ddadguddid ei ogoniant. Yma y mae yn edrych arno ei hun yn meddu y gobaith hwn. Nid ydoedd etto yn ei feddu—"gogoniant a ddadguddir" ydoedd; ond yr oedd yn gyfryw ag yr oedd yn werth dwyn yr holl ddioddefiadau er mwyn cyfranogi o hono.

2. *Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith.*—Enw cyffredin ar eglwys Dduw ydyw praidd, a defaid; ac o herwydd hyny disgrifir gwaith yr henuriad, yr esgob, neu y gweinidog, yn fugeilio: gwel *Ioan* xxi. 16; *Ier.* iii. 15; xxiii. 1—4; *Ezec.* xxxiv. 2; *Ioan* x. 11. "Porthi, trwy ddysgyblaeth ac athrawiaeth."—*Bengel.* "I'r unrhyw ofal am borthi y praidd ag y gwyddai Pedr y gorchymynwyd ef gan Grist—i gyflawni hwnw y mae yn galw yr henuriaid."—*Gerhard.* Y mae y gair hwn "porthi" (Groeg, 'bugeilio') yn cymmeryd i mewn wahanol ddyledswyddau—arwain, porthi, gofalu. Portha â'r meddwl, â'r genau, â'r gweithredoedd; portha drwy ymadrodd y meddwl, drwy annogaeth y geiriau, trwy arddangosiad yr esampl.—*Alford* a *Bernard.* Cyfleitha rhai yr ymadrodd "yr hwn sydd yn eich plith," yn 'gymmaint ag a alloch;' ond nid hawdd y goddefa'r testyn gwreiddiol y meddwl hwn, heb law ei fod yn ddyeithrol i ysbryd yr adnodau. Dywed un, "Gwyddai Pedr nad felly y dywedasai Crist wrtho ef, 'Portha fy mhraidd gymmaint ag sydd yn dy allu;' ond yn gyffredinol a syml 'Portha.'" *Gan fwrw golwg arnynt.*—Gadewir yr ymadrodd hwn allan o rai ysgrifllyfrau, a hyny, fel y sicrhâ Alford, oddi ar ystyriaethau eglwysyddol—rhag i neb feddwl mai yr un oedd yr henuriad a'r esgob; "ond," meddai, "yr un oeddynt yn sicr." *Nid trwy gymmhell, eithr yn ewyllysgar.*—Dywed Bede, "Mae hwnw yn porthi praidd Duw trwy 'gymmhell,' os, o ddiffyg meddiannau bydol—heb feddu yr hyn y gallai fyw wrtho—y pregetha yr efangyl fel y gall

[c] Ier. 6. 13. [d] nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl;

1 Cor. 3. 5—9. 3 Nid [e] fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth *Duw*, ond gan fod yn esamplau i'r praidd.

4 A phan [f] ymddangoso y Pen [g] Ioan I 0. 11; Heb. 13. 20. bugail, chwi a gewch dderbyn [h] 2 Tim. 4. 8. [h] anniflanedig goron y gogoniant.

5 Yr un ffunud yr ieuainge, byddwch ostyngedig i'r henuriaid. [i] A byddwch *bawb* yn ostyngedig [i] Rhuf. 12. 10. i'ch gilydd, ac ymdrwisiwch oddi fewn â gostyngeiddrwydd. [k] O [k] Iob 22. 29. blegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.

fyw wrth yr efengyl." A Chalvin hefyd ar yr un pwngc: "Tra yr ydym yn gweithredu oddi ar gymmhell, araf ac oeraidd yr awn yn mlaen gyda'r gwaith." Dywed Paul fod angenrhaid yn cael ei osod arno, a gwae fyddai iddo os na phregethai; ond y mae hyny yn cyfeirio at ei alwad cyntaf. Y mae yn hawdd gweled drwy ei holl hanes fod ganddo gariad at y gwaith, at y praidd, ac yn arbenig at y Pen Bugail ei hun. *Nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl.*—Yn y cymmhelliad diweddaf, sonir am orfod oddi allan—angenrheidiau bywyd yn cymmhell dyn i bregethu ac i fugeilio; yma cyfeirir at gymmhelliadau ammhriodol yn y dyn ei hun—bod awydd am elw bydol yn ei lywodraethu. "Parodrwydd meddwl:"—difrifoldeb meddwl, awydd gwneyd daioni i'r praidd wrth feddwl am yr holl ystyriaethau a grybwyllir yn 2 *Cor.* v. i bregethu yr efengyl. "Nid yw y cyflog yn cael ei wahardd (1 *Cor.* ix. 14), ond dylai ymddygiad gwael fod yn absennol, a pharodrwydd didwyll a mawreddig fod yn bresennol."—*Bengel.*

3. *Nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw.*—Groeg: 'Nid yn tra-arglwyddiaethu ar y rhanau trwy goelbren.' Y meddwl yw, fod y saint yn rhan i'r Arglwydd, ond wedi eu hymddiried i ofal y swyddogion a bennododd efe—fel y sylwa Calvin, "Gan fod holl gorph yr eglwys yn etifeddiaeth i'r Arglwydd, y maent oll fel meddiannau wedi eu hymddiried i ofal henuriaid unigol i'w llafurio." Dylai yr henuriaid arfer awdurdod a phenderfyniad yn ngweinyddiad dysgyblaeth, ond nid ydynt i arglwyddiaethu gyda llymder, nac i orthrymu. *Gan fod yn esamplau i'r praidd.*—"Praidd" yma — etifeddiaeth neu randiroedd Duw, o'r blaen. Yr un a feddylir, ond fe allai fod "praidd" yma ychydig yn eangach. Y mae esampl yn dylanwadu ar yr holl braidd, os clywant am dani; ond am y tra-arglwyddiaeth, perthynai yn benaf i'r rhandir pennodol yn ngofal yr henuriad. Cynghor Hajan, un o'r henuriaid, ydoedd, "Un ai peidiwch a dysgu, neu dysgwch drwy fyw:" gwel 1 *Tim.* iv. 12. Prydferth, ond grymus, y dywed Bernard:—"Gwrthun ydyw y radd uchaf, gyda y meddwl iselaf; yr eisteddle flaenaf, gyda y bywyd gwaelaf; tafod doniol, gyda bywyd segur; geiriau aml, ond heb ddim ffrwyth."

4. *A phan ymddangoso y Pen bugail*:—neu, 'Pan ddadguddir y Pen bugail;' yn ei ail ddyfodiad, yn ddiau. Nes y daw, y mae eisieu actio ffydd, a gwrthod pob temtasiwn i fod yn anffyddlawn i'r ymddiriedaeth. *Chwi a gewch dderbyn anniflanedig goron y gogoniant.*—Nid oes eisieu aros yn hir am dani; a byddai ei derbyn yn annhraethol well na mwynhau budr elw, neu dra-arglwyddiaeth, neu safle anrhydeddus ngolwg y byd. "Coron y gogoniant," yn cyfranogi o ogoniant Crist: "coron anniflanedig," yn debyg i'r blodeuyn *amarantos*, yr hwn y dywedir na byddai yn gwywo. Gofyna Leighton, "A fu rhyw frenin yn drist wrth feddwl fod dydd ei goroniad yn agosau? Y pryd hwnw, ni bydd cenfigen nac eiddigedd: bydd pawb yn frenhinoedd—pob un gyda choron, pob un yn llawenychu yn ngogoniant y llall, a phawb yn yr eiddo ef, y hwn yn y dydd hwnw a fydd oll yn oll."

5. *Yr un ffunud yr ieuainge, byddwch ostyngedig i'r henuriaid.*—Pan yn dechreu trafod dyledswyddau gwahanol sefyllfaoedd a pherthynasau yn yr eglwysi, cawn fod yr apostol yn dueddol i arfer y geiriau "yr un ffunud." Gwel *pen.* iii. 1, 7. Gwahaniaetha esbonwyr gryn lawer yn eu golygiadau ar ystyr "ieuainge" ac "henuriaid" yn yr adnod hon. Myn rhai fod "henuriaid" yn enw swyddol yma, fel yn *adn.* 1; ac i gadw y cyferbyniad, fod yn rhaid i "ieuainge" olygu, yn ol Wiesinger, ddynion ieuainge, y rhai oeddynt yn gweini i'r henuriaid yn eu gwasanaeth cyffredin yn yr eglwys. Tybia efe fod iswyddogion felly yn perthyn i'r eglwysi, ac mai at y cyfryw y cyfeirir yn *Act.* v. 6, 10. Alford, ac ereill, a dybiant, er mwyn hefyd cadw i fyny yr ystyr swyddol i "henuriaid," mai yr holl eglwys ydyw "yr ieuainge" yma, yn wrthgyferbyniol i'r swyddogion—arolygwyr yr eglwysi. Ond nid yw yn debygol y gelwid yr holl eglwys yn "ieuainge." Am hyny, mwy dewisol genym fabwysiadu golygiad Luther, Calvin, ac ereill—mai aelodau ieuangaf yr eglwysi ydyw yr "ieuainge" yma, ac estyn ystyr "yr henuriaid," heb law y swyddogion, at bawb ag yr oedd amlder dyddiau ynddynt yn hawlio parch ac ymostyngiad. Y mae hyn yn fwy cysson âg addysg gyffredin y Beibl, nag i alw holl aelodau yr eglwys o bob oed, nad ydynt swyddogion, yn "rhai ieuainge." Am fod yn ostyngedig, sylwa Bengel mai "Sail yr annogaeth flaenorol a dilynol ydyw gostyngeiddrwydd." *A byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyngeiddrwydd.*—Y mae y frawddeg hon yn llawer berach yn y prif ysgrifyfrau nag yma. Unir y ddwy ran; ac nid ydyw y gair "gostyngedig" cyntaf i mewn ynddynt. Yna, fel hyn y darllenir, "Ie, gwregyswch ostyngeiddrwydd am danoch y naill i'r llall." Ystyr y gair a gyfleithir yn yr adnod hon, "Ymdrwsiwch oddi fewn" ydyw, 'byddwch wedi rhwymo am danoch megys arffedog.' Y cyfeiriad dywedir ydyw, at weision, a rhai o safleoedd isel yn y teulu, yn gwisgo y dilledyn hwnw; ac felly yr oedd holl aelodau yr eglwys i dybio ereill yn well na hwy eu hunain. Nid ydyw yn annhebygol nad oedd yn meddwl Pedr adgof am yr Arglwydd yn ymwregysu â'r tywel i olchi traed ei ddisgyblion. Sylwa Bengel fod ystyr grymus iawn i'r gair, "gwisgwch eich hunain:"—ie, amgylchwch, fel nad ellir trwy unrhyw drais ddiosg y wisg o ostyngeiddrwydd oddi am danoch. *O blegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w gael yn gwbl yn yr un eiriau yn *Iago* iv. 6; ond nid oes un adnod yn yr Hen

6 Ymddarostyngwch gan hyny dan [l]alluog law Duw, [m]fel y'ch dyrchafo mewn amser cyfaddas:
7 [n]Gan fwrw eich holl ofal arno ef; [o]canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi.
8 Byddwch sobr, gwyliwch: o blegid y mae eich gwrthwynebwr [p]diafol, megys llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu.
9 Yr hwn [q]gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffydd; gan wybod fod yn cyflawni yr un blinderau yn eich brodyr y rhai sydd yn y byd.
10 A [r]Duw pob gras, [s]yr hwn a'ch galwodd chwi i'w dragwyddol ogoniant trwy Grist Iesu, wedi drwy obaith, drwy gariad a gweithredoedd." *Y mae eich gwrthwynebwr diafol, megys llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu.*—Dyma y rheswm mawr dros wylio, megys ag y ceir yn yr adnod flaenorol ddigon o reswm dros beidio gor-ofalu. Ni ddylassai y cysur fod Duw yn gofalu eu gwneyd yn ddiofal am faglau y diafol. Gwrthwynebwr mewn cyfraith ydyw ystyr llythyrenol *antidicos*, a ddefnyddir yma am "ddiafol:" a'r prif-air 'diafol' hefyd—cyhuddwr, enllibiwr. "Fel y gallent wybod drwy y gyfraith hon i broffesu ffydd yn Nghrist, ac i fod mewn rhyfel gwastadol â'r diafol; o blegid nid ydyw yn arbed yr aelodau gan iddo ymladd â'r pen."—*Calvin.* Y mae fel "llew," yn fedrus i ddal ei ysglyfaeth; fel "llew rhuadwy," yn dangos ei fod yn newynog, ac felly yn llawn cynddaredd; yn "rhodio oddi amgylch," i ddangos ei fod yn ddiwyd gyda'i waith yn twyllo a rhwydo; "gan geisio y neb a allo ei lyngcu," yn enwedig ceisio y duwiolion: *Iob* i. 8. Ac nid oes unrhyw ysglyfaeth a'i diwalla, gan ei fod wedi ysglyfaetha er dechreu y byd, ac y mae i wneyd hefyd hyd nes y "dygir ef i farn y dydd mawr." Ei ddull o lyngcu ydyw uno dynion âg ef ei hun mewn pechod marwol.
9. *Yr hwn gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffydd.*—Tuag at fod yn "gadarn," y mae eisieu bod yn sobr. Sonir am "ffydd" gan Paul fel art amddiffynol—tarian, i ddiffodd picellau tanllyd y fall (*Eph.* vi. 16): yma, fel arf ymosodol i wrthwynebu y diafol. Yn ol cadernid y ffydd y bydd cadernid y gwrthwynebiad. *Gan wybod fod yn cyflawni yr un blinderau yn eich brodyr y rhai sydd yn y byd:*—neu, fel y gellid cyfieithu 'gan wybod fod yr un blinderau yn cael eu cyflawni yn eich brawdoliaeth sydd yn y byd.' Yr oedd terfyn hefyd i fod ar y dioddefiadau neu y blinderau—yn cael eu cyflawni y maent: byddai y mesur i fyny cyn hir, a Duw yn ei amser da ei hun yn eu rhyddhau am byth oddi wrthynt. Yr oedd yr holl frawdoliaeth, tra yn y byd, lle y mae y diafol yn cynniwair, pa un bynag ai Iuddewon ai Cenhedloedd, yn agored i'r un dull o fyw; ac ni ddiangent yn llwyr oddi wrthynt nes eu cymmeryd allan o'r byd, i'r etifeddiaeth oedd yn nghadw iddynt yn y nef, uwch law blinder ac ymyriad y diafol.
10. *A Duw pob gras, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w dragwyddol ogoniant, trwy Grist Iesu.*—Y "galw" ydoedd dechreuad y gwaith da: y "tragwyddol ogoniant" fydd y diwedd. "Yr hwn a ddechreuodd ras gyda golwg ar ogoniant ni thyr ei ras ymaith nes iddo gael ei berffeithio mewn gogoniant."—*Alford.* "Pob gras."—Digon i gychwyn, digon ar hyd y daith, a digon ar ben y daith i wneyd i fyny y dedwyddwch digymmysg. "Gwnewch chwi yn unig wylio, a gwrthwynebu y gelyn: fe gyflawna Duw yr holl weddill."—*Bengel.* "Trwy," neu yn Nghrist Iesu, yr oeddynt wedi cael eu galw. Dywed Alford mai "efe

[l] 1 Cor. 10. 22. [m] Iago 1. 9, 10. [n] Mat. 6 25, 34. [o] Luc 12. 30 –32. [p] Eph. 6 11. [q] Luc 4. 3—12. [r] Exod. 34. 6, 7. [s] 1 Tim. 6. 12.

Destament yn cwbl gyttuno âg ef. Rhwng *Salm* cxxxviii. 6, a *Diar.* iii. 34, ceir y syniad; ac fe allai fod y ddwy adnod hyn yn mryd y ddau apostol. Y mae gan Gerhard yn Alford sylw tra phriodol ar falchder. "Y mae pechodau ereill yn ffoi oddi wrth Dduw: balchder yn unig sydd yn gosod ei hun yn wrthwyneb i Ddiw. Y mae pechodau ereill yn darostwng y dyn: balchder yn unig sydd yn ei osod i fyny yn erbyn Duw. O herwydd hyn y mae Duw o'i du yntau yn gosod ei hun yn wrthwyneb i'r beilchion." "Gostyngeiddrwydd ydyw y llestr sydd yn dal y grasau."—*Awstin.*

6. *Ymddarostyngwch gan hyny dan alluog law Duw.*—Tardda y cynghor hwn oddi wrth y ffaith a grybwyllwyd yn niwedd yr adnod ddiweddaf—"fod Duw yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig." Fe allai fod yma gyfeiriad arbenig at y rhai yr oedd galluog law Duw arnynt mewn profedigaethau, dioddefaint, ac erledigaeth; ond yr un llaw ag sydd alluog i ddarostwng, sydd hefyd yn alluog i godi i fyny. Y mae yn bossibl i un fod wedi ymweled âg ef gan alluog law Duw, ac etto heb ymddarostwng o ran ei galon ger bron Duw. Nid ydyw hwn i ddisgwyl yr addewid sydd yn niwedd yr adnod. *Fel y'ch dyrchafo mewn amser cyfaddas.*—Cyfeirir yn aml yn yr Hen Destament a'r Newydd at Dduw yn dyrchafu y gostyngedig. Gwel *Salm* xviii. 27; *Diar.* xxix. 23; *Mat.* xxiii. 13; *Luc* xiv. 11, a xviii. 14. Wrth "amser cyfaddas," fe dybia Bengel y golyga yr apostol y dydd olaf; ond y mae yn fwy tebyg mai amser da Duw yn yr ystyr cyffredinol ydyw y gwir feddwl. Cymmhella amynedd i beidio rhedeg megys i gyfarfod yr amser gyda gormod o frys.

7. *Gan fwrw eich holl ofal arno ef.*—Y mae rhyddid oddi wrth ofalon yn gysson â gostyngeiddrwydd, yn gymmaint ag mai fel hyn y mae dyn yn disgwyl wrth yr Arglwydd. Yn *Salm* lv. 22, lle y tybir y ceir y syniad gwreiddiol, dywedir, "Bwrw dy faich ar yr Arglwydd ac efe a'th gynnal di." Gofynir i'r credadyn fwrw ei ofal ar yr Arglwydd, er iddo fod o dan orthrwm y byd, ac yn meddu ond ychydig o'i olud. Ystyr y gair a gyfieithir yma "gofal," ydyw rhanu y meddwl. Fel hyn yr eglura Alford y cyssylltiad â gofal neu bryder:—"Y mae yr ysbryd yn cael ei ranu, rhan i Ddiw, a rhan i anghrediniaeth; yr hyn mewn gwirionedd sydd yn ymgodiad yn ei erbyn ef." *Canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi.*—Gan fod Duw yn rhagddarbod, pa angen sydd i'r Cristion gael ei ddryllio megys gan ofalon?

8. *Byddwch sobr, gwyliwch.*—Er nad oeddynt i ofalu, yr oeddynt i fod yn "sobr" a "gwylio." Gwel y cyssylltiad rhwng bod yn "sobr" a "gwylio" yn *pen.* iv. 7. "Byddwch sobr o ran yr enaid; gwyliwch o ran y corph."—*Bengel.* Ond cymmhwysa Awstin y ddau air at y meddwl—"Byddwch wyliadwrus o'r galon, drwy ffydd,

i chwi ddioddef ychydig, a'ch perffeithio chwi, a'*ch* cadarnhao, a'*ch* cryfhao, a'*ch* sefydlo.

[t] Dad. 1. 69. 11 Iddo [t] ef *y byddo y* gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

[u] Col. 4. 7, 9. 12 Gyda Silfanus, [u] brawd ffyddlawn i chwi (fel yr wyf yn

yw yr elfen yn yr hon y cymmerodd yr alwad le." *Wedi i chwi ddioddef ychydig.* — Galwyd hwy i ddioddef yn gystal ag y galwyd hwy i ogoniant. Y mae y dioddef yn anhebgorol gyda golwg ar y gogoniant, i sicrhau ynddynt yr hyn a ddywedir yn mlaen fel cymmhwysder i fwynhau y tragwyddol ogoniant. Ond am ychydig yr oedd y dioddef i barhau, ac felly dylesid cyfeithu y geiriau; nid ychydig o ran graddau, ond am ychydig amser. Gwir mai bychan yw hefyd o'i gymmharu â thragwyddol bwys gogoniant. *A'ch perffeithio chwi, a'ch cadarnhao, a'ch cryfhao, a'ch sefydlo.* — Cyfieithir y geiriau hyn gan y rhan fwyaf yn y modd mynegol—nid fel yma, yn eiddunol; ac y mae pwys yn y Groeg ar bwy sydd yn gwneyd—"Efe ei hun a'ch perffeithio," &c.: fe wna hyny yn sicr. "Y mae yn dangos," medd un, "mai o'r un ffynnonell o ras y tardda yr alwad gyntaf i ogoniant a pherffeithiad olaf y daioni hwnw." "A'ch perffeithio," fel na bydd i unrhyw ddiffyg aros ynoch."—*Bengel.* Gellir, ac fe allai y dylid cyssylltu yr holl eiriau hyn â'r gogoniant oedd yn aros. Y mae yr eglwys i gael ei gosod gan yr Iesu iddo ei hun yn berffaith, "heb arni na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw. "A'ch cadarnhao:"—fel y bydd och gadarn yn y ffydd i wrthwynebu y diafol, ac na byddo i chwi lithro pun ol: ond hyn hefyd gyda golwg ar y gogoniant y dygid hwy iddo. "A'ch cryfhao."—"Fel y gorchfygech holl allu y gelyn. Gair teilwng o Pedr."—*Bengel.* O blegid cynghor yr Iesu iddo ydoedd (*Luc* xxii. 32); "Tithau pan y'th dröer, cadarnha dy frodyr." Ond y mae eisieu cryfder hefyd, yn y cyfwng rhwng byd y blinderau a gwlad y gogoniant. "Paid â mi fel y cryfhawyf cyn fy myned ac na byddwyf mwy:" ac y mae eisieu cryfder i ddal y "tragwyddol bwys gogoniant." "A'ch sefydlo." —Cyfeirir yma at adeilad; fel yn 2 *Tim.* ii. 19, "y mae cadarn sail Duw yn sefyll:" a'r meddwl ydyw, dybygid, sefydliad y credadyn yn ddiysgog o ran ei deimlad ei hun yn gystal ag yn nghyfammod Duw, ac Iesu Grist fel syfaen a phen congl-faen. A bydd hyn yn sicr o gael ei gyflawni yn y "tragwyddol ogoniant."

11. *Iddo ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.*—Nid iddynt hwy yr oedd dim o'r clod am y doniau uchod. Fe allai fod y "gallu" yn cyfeirio at y geiriau yn yr adnod o'r blaen sydd yn effaith y gallu—y perffeithiad, y cadarnhâd, y cryfhâd, a'r sefydliad. "Yn oes oesoedd:"—i oesoedd yr oesoedd, Amen.

12. *Gyda Silfanus, brawd ffyddlawn i chwi (fel yr wyf yn tybied) yr ysgrifenais ar ychydig eiriau.*—Silfanus neu Silas, cydymaith Paul, oedd hwn. Cyfeirir ato yn 1 *Thes.* i. 1; 2 *Thes.* i. 1, a 2 *Cor.* i. 19. Tybir iddo gael ei anfon oddi wrth Paul at Pedr, ac mai oddi wrth yr amgylchiad hwn y daeth Pedr yn gydnabyddus âg epistolau Paul, at y rhai y cyfeirir yn aml yn y llythyr hwn, ac yn enwedig yn 2 *Pedr* iii. 16. Golyga Bengel fod yr ymadrodd "fel yr wyf yn tybied," yn arwyddo nad oedd Silfanus wedi bod yn adnabyddus i Pedr er's llawer o amser; a

tybied) yr ysgrifenais ar ychydig eiriau, [x] gan gynghori a [y] thystiolaethu, mai gwir ras Duw yw yr hwn [a] yr ydych yn sefyll ynddo.

[x] Heb. 13. 22. [y] 1 Ioan 1. 24. [a] Act. 20. 34. Rhuf. 5. 2.

13 Y mae yr *eglwys sydd* [b] yn Babilon, [c] yn gyd-etholedig *â chwi*, yn eich anerch; a [d] Marc, fy mab i.

[b] Salm 87. [c] 2 Ioan 1. 13. [d] Act. 12. 12, 25.

mai nid trwy ddadguddiad yr oedd wedi deall ei fod yn frawd ffyddlawn, ond syniodd felly trwy farn cariad; gan hyny yr ydoedd wedi ymddiried yr epistol iddo. Yn gwbl wahanol, dywed Alford fod geiriau Pedr yn gadarnhâd i silfanus yn ei genhadaeth at yr eglwysi, y rhai yr oedd yn myned atynt, a'i fod yn crybwyll hyn am dano uwch law adnabyddiaeth bersonol aelodau yr eglwysi âg ef. Dewisa ddarllen hefyd "i chwi" yn "atoch chwi," a'i gyssylltu âg "ysgrifenais," ac nid, fel yn y testyn, â'r geiriau "brawd ffyddlawn." Ond ychydig sydd yn ei ddilyn yn y golygiad hwn, ac y mae lle y gair yn y frawddeg yn ddadl gref yn ei erbyn. Yr un ystyr sydd "i'r ychydig eiriau" yma ag yn *Heb.* xiii. 22; ychydig ar bob mater a drafodwyd ynddo; neu fe allai yn wrthgyferbyniol i ryw addysgiadau mwy cyflawn, y rhai yr oedd Silfanus i'w traddodi iddynt ar air; neu i wasanaethu er sefydlu eu sylw yn fwy arbenig ar y pethau a ddywedasid yn y llythyr yn fwy cryno."—*Alford. Gan gynghori a thystiolaethu, mai gwir ras Duw yw yr hwn yr ydych yn sefyll ynddo.*—Hyn oedd amcan yr holl lythyr. Meddylia Bengel mai hyn oedd y prif achos o'i fod yn llythyr byr, am nad ydyw cynghor yn gofyn cymmaint o eiriau ag athrawiaeth. Cyfeitha Alford y geiriau fel hyn—"a thystiolaethu mai hwn ydyw gwir ras Duw, yn yr hwn sefwch." Y mae yn bossibl fod Pedr yn cyfeirio at ei waith yn cadarnhau yr hyn a glywsent o'r blaen gan Paul a Silas, ac mai yr un oedd y gras hwn a dderbyniasent ag oedd wedi ei roddi i bobl yr Arglwydd o dan bob goruchwyliaeth, wedi ei ragfynegu gan y prophwydi, ac wedi ei gyhoeddi gan yr apostolion. Yn ffafr y cyfeithiad, "yn yr hwn sefwch," ceir mai fel hyn y mae yn y ddau ysgrifiyfr hynaf; ac y mae yn cydweddu âg amcan y llythyr i gasglu yr holl annogaethau blaenorol i'r un annogaeth derfynol hon.

13. *Y mae yr eglwys sydd yn Babilon, yn gyd-etholedig â chwi, yn eich anerch.*—Fel y gwelir yn y sylwadau rhagarweiniol i'r nodiadau hyn, mae nifer mawr yn gwahaniaethu am ystyr y geiriau hyn. Nis gall fod ond un ystyr i'r adnod, fel y cyfleithir hi yma; ond nid ydyw "eglwys" yn y gwreiddiol, dim ond "yr hon sydd yn Babilon," &c. Tueddir ni i fabwysiadu y golygiad mai gwraig Pedr ydyw "yr hon sydd yn Babilon, yn gyd-etholedig." Gellir dwyn yn mlaen amryw resymau dros y golygiad. Nid at eglwys y cyfeiriwyd y llythyr, ond at aelodau unigol. Y mae yn gwbl hysbys y byddai Pedr yn cylcharwain ei wraig gydag ef yn ei deithiau; felly y mae cyd-etholedig yn cyttuno â'i bod yn chwaer (1 *Cor.* ix. 5); a sonia am y gwragedd yn y llythyr hwn (iii. 7) "fel cyd-etifeddion yr un gras y bywyd." Yr unig anhawsder yma yw dyweyd ei bod "yn Babilon;" ond nid ydyw hyn yn anhawddach na gwneyd y fannod fenywol i olygu yr eglwys. *A Marc fy mab i.*—Y mae gwahaniaeth barn hefyd am y Marc a grybwyllir yma. Pa un ai mab naturiol ai mab ysbrydol ydoedd? Os yr eglwys yn Babilon a olygir, yna y mae yn

[e]1 Thes. 5. 26.
[f]Ioan 14. 27.

14 Anerchwch eich gilydd [e]â chusan cariad. [f]Tangnefedd i chwi oll y rhai ydych yn Nghrist Iesu. Amen.

debygol mai mab ysbrydol oedd hwn; os, o'r ochr arall, ei wraig a olygir uchod, yna eu mab naturiol ydoedd. Os mab ysbrydol a olygir, yna y mae yn debygol, yn ol barn lliaws, mai Marc yr efengylwr ydoedd, a sonir am Pedr fel yn gyfeillgar â'r teulu: *Act.* xii. 2. Am "Babilon," gwel Rhagarweiniad.

14. *Anerchwch eich gilydd â chusan cariad.*—Mewn manau ereill, a chan Paul, "cusan sanctaidd" a ddywedir: *Rhuf.* xvi. 16; 1 *Cor.* xvi. 20, &c. "Yn yr Eglwys Gristionogol yr oedd cusan cariad yn cael ei arfer, nid yn unig fel cyfarchiad cyfeillgar, ond fel gweithred arwyddluniol o gariad a brawdoliaeth Gristionogol. Corphorwyd hyn yn y dyledswyddau crefyddol boreuol, a pharhawyd hyn hefyd mewn rhai sydd yn awr mewn arferiad—*Smith's Dictionary. Tangnefedd i chwi oll y rhai ydych yn Nghrist Iesu. Amen.*—Dyma gyfarchiad cyffredin yr Arglwydd Iesu wedi iddo gyfodi o feirw, am yr hyn yr oedd Pedr yn cofio yn dda. "Y rhai sydd yn Nghrist ydynt unig blant ac etifeddion gwir dangnefedd. Gall ereill freuddwydio am dano, a meddu heddwch gau am dymmor, a gall dynion drygionus ei ddymuno iddynt eu hunain, ac i ereill; ond gobaith gwag ydyw, ac mewn gwagedd y terfyna. Ond y mae sail dda i'w ddymuno i'r rhai sydd yn Nghrist; o blegid y mae pob tangnefedd sylweddol wedi ei seilio arno ef, ac yn rhedeg oddi wrtho ef."—*Leighton.*

AIL EPISTOL CYFFREDINOL PEDR.

Y Mae yr epistol hwn yn un o'r ychydig epistolau hyny yn y Testament Newydd ag y mae ammheuaeth wedi, ac yn bod gan rai ettc, am eu didwylledd a'u dilysrwydd. Y ddau air diweddaf hyn ydynt y geiriau Cymraeg a dybiwn ni sydd yn cyfatteb oreu i'r geiriau Saesneg, *genuineness*, ac *authenticity*. Y mae y ddau air hyn yn rhai hynod bwysig yn mhob ymchwiliad am brofion o wirionedd Cristionogaeth, ac am hyny nid ammhriodol ydyw sylwi ychydig ar eu hystyr a'u cymmhwysiad. Wrth ddidwylledd (*genuineness*) y golygir, mai y neb y priodolir y llythyr iddo ydyw ei wir awdwr, a bod yr oll o gynnwys y llythyr hefyd yn gynnyrch meddwl yr awdwr hwnw. Wrth ddilysrwydd (*authenticity*) y golygir etto, fod y ffeithiau a gynnwysa y llyfr yn wirionedd. O dan amgylchiadau pennodol, gallwn feddwl am y ddau nodwedd hyn yn gwbl ar wahân. Gall llyfr gynnwys gwirionedd, ac etto bod camgymmeriad ynghylch ei awdwr, ac yn wir er i awdwr ffugio enw un arall; ac yn mhellach, gall llythyr neu lyfr fod yn gwbl gywir o ran ei berthynas â'i awdwr, ac etto heb gynnwys ffeithiau neu athrawiaethau dilys. Ond am y llyfrau ysbrydoledig, y mae yn hawdd i ni weled fod y nodweddau hyn yn anwahanol gyssylltiedig â'u gilydd. Nis gall awdwr ysbrydoledig hòni awduriaeth llyfr heb i hyny ar unwaith ddiogelu ei ddilysrwydd; ac nis gall llyfr fod yn ysbrydoledig ag y mae ynddo honiadau anghywir ynghylch person neillduol fel ei awdwr. Y mae yn wir, mewn enghraifft gyffelyb i'r Epistol at yr Hebreaid, lle nad oes unrhyw gyfeiriadau mewnol at yr awdwr, y gall ei holl gynnwys fod yn ysbrydoledig, ac etto anghydwelediad yn mysg beirniaid am ei awduriaeth. Ond am yr epistol hwn, "y mae yn rhaid un ai ei dafiu o'r neilldu fel ffugiaeth fwriadol, neu ynte ei dderbyn fel cynnyrch diweddaf y blaenaf yn mhlith apostolion Crist." Sylwa awdwr y dyfyniad uchod yn yr erthygl ar Pedr yn *Smith's Dictionary* yn mhellach—fod "yr eglwys, yr hon am fwy na phedair canrif ar ddeg sydd wedi ei dderbyn, un ai wedi cael ei thwyllo gan yr hyn y rhaid i ni ei hystyried yn yr achos hwn fel dyfais ddieflig, neu wedi derbyn oddi wrtho addysg ysbrydol o'r pwysigrwydd uchaf. Os derbynir ef, y mae yn dwyn cyfnerthiad i rai o'r ffeithiau mwyaf pwysig yn hanes ein Hargiwydd; teifl oleuni ar deimladau yr apostolion yn eu perthynas â'r fam eglwys, ac â'u gilydd; a thra yn attegu llawer o'r athrawiaethau a ddysgid yn gyffredinol, efe yw y prif, os nad yr unig awdurdod, dros olygiadau terfynol (*eschatological*) am ddiwystr rhanau allanol y greadigaeth, pa rai sydd wedi bod yn gyffredin yn yr eglwys o'r cyfnod boreuaf." Oddi wrth yr ystyriaethau hyn, gwelwn fod yn bwysig, nid yn unig o ran yr epistol hwn ei hun, ond o ran y dadguddiad dwyfol yn gyffredinol, i ni feddu golygiadau clir am

EI AWDURIAETH A'I DDILYSRWYDD.

Yn bresennol, nyni a ddodwn ger bron yn olynol y gwahanol wrthddadleuon a ddygir yn erbyn awdurdod yr epistol yn ei berthynas â'i awduriaeth a'i ddilysrwydd; ac ynglŷn â phob un, yr attebion sydd yn dangos ei hawl o le yn y canon :—

1. Cyfyd yr ammheuaeth penaf am dano oddi wrth y ffaith nad oes un crybwylliad am dano yn ysgrifeniadau boreuaf yr eglwys. Lle y tybir fod cyfeiriadau ato mewn rhai o honynt, nis gellir dyweyd am danynt ond eu bod yn hynod o ammwys; a lle y ceir syniadau cyffelyb mewn cyffelyb eiriau ynddynt i'r llythyr hwn, rhaid dyweyd y gallasai hyny gymmeryd lle heb fod unrhyw gydnabyddiaeth gan yr awdwyr â'r llythyr hwn. Y cyntaf a dybir sydd yn cyfeirio ato yw Eusebius, esgob Cesarea, yr hwn a flodeuai rhwng B. A. 315 a 320. Ac fel hyn y dywed efe am Clement o Alexandria yn ei esboniad: "Nid aeth heibio hyd yn oed i'r llyfrau ammheus, megys Epistol Iudas, a'r gweddill o'r rhai cyffredinol, a'r eiddo Barnabas, a'r hwn a elwir Dadguddiad Pedr." Sylwer na enwir Epistol Pedr yn y dyfyniad uchod; ac os cyfeirir ato yn mysg "y rhai cyffredinol," fe'i rhestrir gyda dau lyfr arall sydd wedi eu gwrthod yn gwbl. Crybwylla Eusebius yn mhellach ddywediad o eiddo Origen, yr hwn a fu farw B. A. 254: "Y mae Pedr, ar yr hwn y mae eglwys Crist wedi ei hadeiladu, a'r hon nis gall pyrth uffern ei gorchfygu, wedi gadael un epistol, a gydnabyddir; fe allai hefyd un arall, ond ammheuir yn ei gylch" Dywed Firmilian, dysgybl Origen (bu farw yn 270), fod yr apostolion "Pedr a Phaul yn eu hepistolau yn melldithio hereticiaid." Yn ei ail epistol yn unig y gwna Pedr hyn; gan hyny, at hwn y mae efe yn cyfeirio. Dywed Jerome, yr hwn a flodeuai rhwng 378 a 420, fod Pedr wedi ysgrifenu dau epistol, y rhai a elwir yn "gyffredinol:" ond y gwedir gan y rhan fwyaf fod yr ail yn eiddo ef. A ffaith arall y rhoddir pwys arni gan y gwrthddadleuwyr ydyw hon, na chynnwysir y llythyr o gwbl yn hen gyfleithiad Syria.

Mewn attebiad i'r holl dystiolaethau hyn, dywedir nad ydyw yn debygol y dyfynid of yn aml

gan yr eglwys gyntefig. Cyfeiriwyd ef at gyfran o'r eglwys nad oedd llawer o gyfathrach rhyngddi a'r gweddill o wledydd cred. Y mae rhy ychydig o lenyddiaeth gan y Cristionogion cyntaf i roddi pwys mawr ar y ffaith nad oes gyfeiriad ato. Fel y gwelwyd uchod, y mae cyfeiriadau lled foreu ato. Pa fodd y derbyniwyd ef i'r cylch ysbrydoledig wedi codi yr ammheuaeth? Nid heb ymchwiliad manwl. Nis gallwn feddwl am un cymmhelliad dros dwyllo; gan nad oes ynddo un ymgais i gadarnhau unrhyw honiadau swyddol, na pherthynas rhyngddo â dadleuon yr oesoedd diweddarach. Symia Alford ei atteb i'r dosbarth hwn o wrthddadleuon yn y geiriau a ganlyn:—"Cyfrifir am ddistawrwydd y tadau boreuaf am dano trwy ddiweddarwch ei ymddangosiad; ond ni chyfyngir y dygwyddiad hwn iddo ef yn unig, ond perthyna i amryw ereill o ysgrifeniadau diweddaf y Testament Newydd. Rheswm cryf arall yn ei ffafr ydyw y gagendor fawr o wahaniaeth arddull sydd rhyngddo ef a'r boreuaf o gynnyrchion yr oesoedd ar ol yr oes apostolaidd."

2. Yr wrthddadl nesaf a godir ydyw y gwahaniaeth arddull rhyngddo a'r Epistol Cyntaf; a dadleuir, y derbynir hwow yn ddiammheuol, ond nas gellir derbyn hwn fel eiddo Pedr. Yn atteb i hyn, dywedir y gellir rhoddi cyfrif boddhaol am y gwahaniaeth yn yr arddull. Meddylia rhai fod gan Pedr wahanol gyfleithwyr a llaw-ysgrifwyr gyda'r ddau. Dyna farn Jerome. Fe allai fod amryw flynyddoedd wedi cyfryngu rhwng y ddau—fod amgylchiadau yr eglwysi a gyferchid wedi newid llawer—fod Pedr yn ysgrifenu hwn mewn mwy o frys; a chan ei fod yn ddyn o dymmer fywiog, gynnhyrfus, fod yr holl neilluolion hyn yn ddigon i roddi cyfrif am yr yni mwy sydd i'w ganfod mewn rhanau o hwn nag yn y llythyr cyntaf. Sylwir gan Olshausen, fel y prif wahaniaeth rhwng y ddau, ar y gwahanol enwau a geir yma am y Gwaredwr, ac am yr absennoldeb cymmhariaethol sydd yma o gyfeiriadau at yr Hen Destament. Gyda golwg ar yr enwau a geir ynddo ar y Gwaredwr, y mae amcan gwahanol y llythyr hwn yn ddigon i roddi cyfrif am yr enwau gwahanol. Gobaith ydyw testyn mawr yr epistol cyntaf: gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist ydyw canolbwngc mawr hwn. Y rheswm dros roddi cymmaint o bwys ar wybodaeth y gwirioneedd, a gochel cilio oddi wrtho, oedd y ffaith fod gau-athrawon wedi codi, yn gwadu arglwyddiaeth yr Iesu (2 *Pedr* ii. 1), ac yn ceisio hudo llawer i'w hamryfusedd. Gan mai cysuro yr eglwysi yn ngwyneb erledigaethau, ac y caent drwy ddioddef gyda Christ gyfranogi hefyd o'i ogoniant, ydyw cynnwys mawr y cyntaf: a thra yn yr ail, y gosodir allan ei uchafiaeth yn nôd amlwg, naturiol i ni ddisgwyl am enwau swyddol y Gwaredwr yn y cyntaf, tra y disgwyliwn am deitlau o uchafiaeth yn yr ail:—ac felly y ceir. Cymmharer y cyntaf: *pen.* i. 11, 19; ii. 21; i. 1, 2, 3, 7, 13; ii. 5; iii. 21; iv. 11; v. 10—lle y ceir "Crist," neu "Iesu Crist," neu "Grist Iesu." Yn yr ail—*pen.* i. 1, 11; ii. 20; iii. 18; i 8, 14, 16; i. 2—ni a gawn ein "Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist," neu "Iesu ein Harglwydd;" un waith "Crist," &c., yn syml. Am absennoldeb cyfeiriadau at yr Hen Destament, gallwn ddywedyd fod syniad y ddau am brophwydoliaethau yr Hen Destament yn gwbl gysson â'u gilydd. Gwel 2 *Pedr* i. 19—21; iii. 2; 1 *Pedr* i. 10—12. Am gyd-darawiadau ereill rhwng y ddau epistol, nodir y rhai a ganlyn:—Ceir yr enedigaeth newydd trwy y gair yn 1 *Pedr* i. 22; ii. 2:—etto, yn 2 *Pedr* i. 4. Ceir y gair neilduol "rhinwedd," fel ei cymmhwysir at Ddduw, yn y ddau lythyr: 1 *Pedr* ii. 9; 2 *Pedr* i. 3. Fel ag y mae yr ymadrodd "diffeius a difrycheulyd" yn 1 *Pedr* i. 19, felly hefyd y ceir "difrycheulyd a diargyhoedd" yn 2 *Pedr* iii. 14; a geiriau cyfystyr yn *pen.* ii. 13.

3. Y brif wrthddadl seiliedig ar arddull yw y cyfattebiaeth amlwg a ganfyddir rhwng 2 *Pedr* ii. 1—19, ac *Iudas* 3—19. Nid oes neb yn meiddio ammheu nad ydyw y ddau apostol wedi derbyn y geiriau hyn o ryw ffynnonell gyffredin, ar lafar neu yn ysgrifenedig; neu ynte, fod un o honynt wedi gweyd defnydd o gyfansoddiad y llall. Y dybiaeth ddiweddaf a goleddir gan y mwyafrif, o herwydd fod rhyw anhawsderau ynglŷn â'r flaenaf. Ond y cwestiynau sydd yn codi yn naturiol oddi wrth hyn ydynt; Pa un yw y cyfansoddiad gwreiddiol? A pha fodd y cydsaif y defnyddiad o'r un geiriau a syniadau bron âg ysbrydoliaeth? Am y cyntaf y mae amryw farnau. Tybia Dr. Wordsworth mai yr epistol hwn a ysgrifenwyd gyntaf; a'i reswm am hyny ydyw, fod Pedr yn rhagfynegu ansawdd pethau ag y mae Iudas yn eu disgrifio fel yn weithredol yn bod; ac os felly y mae genym y dystiolaeth uchaf i'w ddilysrwydd. O'r ochr arall, barna y rhan fwyaf, ac yn eu plith Alford yn benderfynol iawn, mai Iudas oedd y gwreiddiol, a bod Pedr yn arfer rhai o'i ymadroddion i atteb yr amcan gwahanol oedd ganddo ef mewn golwg. Nid ydyw awdwr yr erthygl yn "*Smith's Dictionary*" yn gweled un anhawsder yn hyn. Dywed "yr ymddengys yn hollol anghredadwy y buasai i dwyllwr, yn personoli y penaf yn mhlith yr apostolion, ddewis y lleiaf pwysig o'r holl ysgrifeniadau apostolaidd i'w efelychu, tra y mae yn hollol debygol i Pedr ddewis rhoddi grym ei awdurdod personol i gyfansoddiad yn ymdrin mor nerthol â'r cyfeiliornadau ymarferol ac athrawiaethol yn yr eglwysi a gyfarchai. Ac ystyried neilluolion ein apostol, ei ostyngeiddrwydd, ac mor hawdd gan ei feddwl dderbyn argraph, mor agored yr oedd i ddylanwadau personol, a'i anghof hollol o hono ei hun wrth gyflawni gwaith ei feistr, ni ddylem synu canfod y rhan hwnw o'r epistol ag sydd yn trafod yr un testynau wedi ei liwio âg arddull Iudas. Fel hyn, yn yr epistol cyntaf, yr ydym yn canfod drwyddo, yn enwedig lle yr ymdrina â materion cyffelyb, olion amlwg o ddylanwad Paul. Y mae y dybiaeth hon yn chwanegol yn meddu y fantais o gyfrif am y rhai mwyaf pwysig, os nad yr holl anghysonderau mewn arddull sydd rhwng y ddau epistol.

Y mae Alford, gan ddilyn Brückner, Davidson, a Huther, yn erbyn Dietlein, Schmid, Michaelis, Storr, Hengstenberg, Thiersch, Hoffman, a Stier, yn dangos, wrth dybied mai Iudas oedd y cyntaf, pa fodd y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau yn gwbl gysson â'r amcanion gwahanol oedd ganddynt wrth ysgrifenu. Dywed Iudas a Phedr beth oedd eu hamcanion pennodol. Yn Iudas, *adn.* 2, cawn mai disgrifio "annuwiolion yn troi gras ein Duw ni yn drythyllwch, ac yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Iesu Grist," y mae efe. Yn 2 Pedr ii. 1, cawn mai â gau-athrawon yn yr eglwysi, megys y bu gau-brophwydi yn mhlith y bobl o dan yr Hen Destament, y mae a fyno yntau. Yn fyr, aelodau yn cyfeiliorni sydd dan sylw gan Iudas. Yr aelodau hyny wedi ymddyrchafu yn athrawon gau sydd dan sylw gan Pedr. Yn y defnyddiad o gynghorion, a

beirnïadaeth arnynt, defnyddia pob un y geiriau mwyaf cyfaddas at y gwrthddrychau; ac yn ngwyneb y ffaith fod Pedr yn fyrach nag Iudas, ac yn wir yn talfyru oddi wrtho, ceir dadl gref dros benderfynu mai Iudas oedd y cyntaf. Dodwn yma ychydig enghreifftiau o'r feirniadaeth ar berthynas y naill â'r llall. Yn *Iudas* 5, crybwylla ef yn llawn, yn rhybudd i'r aelodau oedd yn cyfeiliorni, ddarfod "i'r Arglwydd, wedi iddo waredu y bobl o dir yr Aipht, ddistrywio eilwaith y rhai ni chredasant." Nid oes gan Pedr ond y crybwylliad am gau-brophwydi yn mhlith y bobl hyny, yn gyffelyb i'r gau-athrawon, ac yn wrthgyferbyniol i'r gwir brophwydi fu dan sylw yn *pen.* i. 19—21. Yn *Iudas* 6, sonir yn llawn am "yr angylion ni chadwasant eu dechreuad:" yn Pedr *pen.* ii. 4, ni ddywedir ond iddynt bechu, fel rhybudd nad ydyw y creadur uchaf yn ddiogel rhag gwrthryfela. Yma gwelir fod geiriau helaethach Iudas wedi eu talfyru i "pechasant" yn Pedr. Etto yn Pedr (*pen.* ii. 5) yn unig y sonir am y diluw; a hyny, fel y golygir, er mwyn y fantais iddo ef godi mab y gwir brophwyd, pregethwr cyfiawnder, i sylw fel esampl i'r gau athrawon. Pe buasai Pedr yn ysgrifenu gyntaf, ni buasai Iudas yn esgeuluso defnyddio ymadroddion mor briodol i rybuddio aelodau annuwiol ag a geir yn *pen.* ii. 5: dywedir, "pan ddug efe ddiluw ar fyd y rhai anwir." Crybwylla Iudas, *adn.* 9, yn llawn yr hanes am Michael yr archangel yn ymresymu â'r diafol ynghylch corph Moses: nid oes gan Pedr, yn *pen.* ii. 11, ond cyfeiriad tywyll at yr amgylchiad, a buasai yn gwbl annealladwy, ond fel yr oedd yr awdwr yn teimlo fod Epistol Iudas yn ddigon o gynnorthwy i bawb ddeall ei feddwl. Buasai yn ymarferiad buddiol i ddosbarth Beiblaidd, a'r dosbarthiadau uchaf yn yr Ysgolion Sabbothol, gymmharu adnodau ereill, er mwyn boddlonrwydd pellach ynghylch y ddamcaniaeth fod Pedr, trwy gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, yn defnyddio rhai o ymadroddion Iudas i ddisgrifio gwrthddrychau oeddynt o angenrheidrwydd yn meddu cynnifer o nodweddion cyffelyb.

4. Yn y dosbarthiad hwn, sylwn ar rai o'r anhawsderau sydd yn weddill o barth i awduriaeth y llythyr gan Pedr, ac hefyd ar gyfeiriadau mewnol cadarnhaol, ac ychydig ar hanes cyfodiad y ddadl am ddiddwylledd a dilysrwydd y llythyr. Gwrthwynebir, am fod Pedr wedi dyweyd mor bendant mai efe yw yr awdwr (*pen.* i. 1), ei fod yn bradychu, meddant hwy, nad yr apostol hwnw ydyw. Ond nid ydynt yn erbyn i Paul ddadgan ei awdurdod dwyfol wrth y Galatiaid pan yn rhybuddio yn erbyn gau athrawon. Gwnaeth Pedr yr un peth hefyd yn yr epistol cyntaf: *pen.* v. 1. Ond dywed yr un rhai fod Pedr, yn *pen.* iii. 2 (yn ol eu hesboniad hwy, gwel y darlleniad a'r nodiadau), yn gwahaniaethu ei hun oddi wrth yr apostolion: ac felly nad Pedr ydyw yr awdwr. Ond y mae yn hawdd gweled fel y mae y ddau wrthwynebiad hyn yn dinystrio eu gilydd. Pa ham na buasai Pedr yn dywedyd yn y cyntaf mai efe oedd yr awdwr, ac yn dyweyd yn yr olaf nad ydoedd yn apostol? Nid felly y disgwyliasid i hwnw wneyd.

Gwrthddadl arall a godir oddi wrth gyfeiriad yr awdwr at Paul, yn *pen.* iii. 15, 16—yn benaf ar "Megys yn ei holl epistolau hefyd." Dadleuant nad oedd holl epistolau Paul wedi eu casglu ynghyd yn amser Pedr, ac nad oedd corph y Testament Newydd wedi ei gwblhau a'i roddi at yr Hen Destament, "megys yr ysgrythyrau ereill." Ond yn atteb i hyn dywedir, nad ydyw yr ymadrodd yn golygu holl epistolau Paul—dim ond y rhai a welodd efe; ac y mae yn gwbl hysbys fod llawer o honynt yn cael eu darllen yn yr eglwysi, a'u hystyried o gyfartal awdurdod i lyfrau yr Hen Destament.

Y cyfeiriadau mewnol ag sydd yn cadarnhau awduriaeth y llythyr ydynt y rhai sydd ynglŷn â'r crybwylliad am y gweddnewidiad: *pen.* i. 17, 18, a 13, 14. Yr oedd Pedr yn bresennol ar fynydd y gweddnewidiad, a dywed hyny yma. Nid ydyw yn debyg y buasai ffug-ŵr yn gwneuthur hyn, rhag ei ddrwgdybio: ond yma daw y ffaith i mewn yn gwbl naturiol, ac ynglŷn â disgrifiad o weithrediadau yr apostol ag sydd yn ei wneyd yn dra anhawdd meddwl am dwyll. Ychydig cyn hyn, sonia am roddi "tabernacl" ei gorph heibio—yr un gair ag a arferodd efe ei hun ar ben y mynydd wrth yr Iesu, "Gwnawn yma dair pabell (tabernacl)." Geilw yr amgylchiad hefyd, yn *adn.* 15, yn ymadawiad (*exodus*): a dyma y gair a glywsai gan Moses ac Elias ar ben y mynydd am farwolaeth yr Iesu, fel y dywedir yn *Luc* ix. 31: "Ac a ddywedasant am ei ymadawiad (*exodus*) ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Ierusalem." Heb law hyn, y mae geiriau ereill tra anghyffredin yn y llythyr hwn, na cheir mo honynt, heb law gan Paul, ond yn yr epistol cyntaf, neu yn ei anerchiadau yn yr Actau; er enghraifft, "duwioldeb;" 2 *Pedr* i. 3, 6, 7; *Act.* iii. 12: "duwiol;" 2 *Pedr* ii. 9; *Act.* x. 2, 7: "dydd yr Arglwydd;" 2 *Pedr* iii. 10; *Act.* ii. 20.

Yn Alexandria y gwreiddiodd yr ammheuaeth am ddiddwylledd yr epistol; ond derbyniwyd ef yno hefyd yn bur foreu fel yn ysbrydoledig. Y mae y ffaith iddo gael ei daenu mor helaeth, a hyny mor fuan ar ol ei ysgrifenu, yn profi yn eglur fod ganddo hawliau allanol cryfion i dderbyniad. O'r dechreu, megys ar ol hyny, y gwahaniaeth arddull oedd yn achosi yr anhawsder. Wrth gymmharu barnau esbonwyr diweddar, yr ydym yn cael tri dosbarth:—rhai yn ei ddyfarnu fel yn hollol dwyllodrus, wedi ei fwriadu i wrthweithio athrawiaethau y Gnosticiaid yn yr ail ganrif, o ba rai yr oedd amryw ganghenau; sef, y Dociliaid yn gwadu gwir ddynoliaeth yr Iesu; y Corinthiaid, yn gwadu ei fod yn berson dwyfol; a thuedd gyffredin y cyfan i osod rheswm dynol yn farnydd ar wirioneddau crefyddol. A dibynu ar wybodaeth (*gnosis*), fel y golyga y gair, yn ŵy nag ar ymarferiadau crefyddol. Y mae ereill, megys Bunsen, Ullman, a Lange, yn derbyn yr epistol, ond yn gwrthod yr ail bennod fel wedi ei himpio arno trwy ddwylaw anawdurdodedig. Ond y mae y lliaws mawr, a holl ysgrifenwyr Germany sydd yn Wrth-resymolwyr, yn ei dderbyn oll. Fel enwau adnabyddus a beirniaid craff, gallwn enwi Nitzche, Olshausen, Thiersch, Stier, a Dietlein. Wedi gweled fel y mae y cwestiwn dyrys hwn (canys y mae yn rhaid i ni addef mai ynglŷn âg awduriaeth y llythyr hwn y mae yr anhawsder mwyaf) wedi ei chwilio a'i ymresymu gan feirniaid galluog a diduedd, fe deimla holl ddarllenwyr meddylgar yr Ysgrythyrau yn ein gwlad fod y llythyr hwn yn neilldiol yn dwyn teithi meddwl ei awdwr—"yn syml, difrifol, addolgar, yn arbenig ymarferol, ac yn llawn o rasau neilldiol yr apostol, yr hwn a wnaeth gymmunrodd o'r prawf diweddaf hwn o ffydd a gobaith i'r eglwys." Priodol terfynu yr adolygiad hwn yn ngeiriau Alford:—"Y mae yr epistol yn un o'r ffrwythau diweddaf hyny o dywalltiad mawr yr Ysbryd ar yr apostolion; y rhai, gan nad ymddiriedwyd hwy i gadwraeth un eglwys neu

berson neillduol, a ofynent gryn lawer o amser i ddyfod yn hysbys yn gyffredinol; y rhai, pan y daethant yn wybyddus, a ddrwgdybid, gan eu bod yn dwyn o angenrheidrwydd olion o darddiad diweddar, a nodiadau o ymresymiadau dadleuol; ond am y rhai, fel ysgrifeniadau apostolaidd ac ysbrydoledig, ni bu, pan unwaith y daethant yn wybyddus, unrhyw ammheuaeth cyffredinol; a'r rhai wedi i'r canon sanctaidd gael ei sefydlu, a ennidasant, ac er hyny sydd wedi cadw i fyny eu lle teilwng a rhagluniaethol, yn mhlith llyfrau y Testament Newydd."

Wedi y crynodeb uchod, nid oes ond ychydig i'w chwanegu ar faterion ereill ynglŷn â'r llythyr.

AT BWY YR YSGRIFENWYD EF.

Nis gellir atteb yr ymofyniad hwn gyda dim manylder. Oddi wrth *pen.* iii. 1, yr ydym yn gweled mai yr un mewn rhan, o'r hyn lleiaf, ydyw darllenwyr hwn a'r cyntaf; a dyna hefyd a awgrymir yn *pen.* i. 12, 15. Nid oes yma grybwylliad, fel yn y cyntaf, am daleithiau neillduol; ac y mae y geiriau yn fwy eang eu hystyr—"at y rhai a gawsant gyffelyb werthfawr ffydd a ninnau." Nid oes yma gyfeiriad at erledigaethau, fel yn y cyntaf. Y mae yn debygol fod y ffurf neillduol o gyfeiliornad y bwriadwyd y llythyr i'w wrthweithio wedi ymledu yn dra chyffredinol, a bod crediniaeth yr apostolion eu hunain wedi achlysuro hyny i raddau. Credent hwy, ac y mae yr athrawiaeth yn cael ei dysgu yn arbenig yn y llythyr cyntaf, fod "dydd yr Arglwydd" i wawrio yn ebrwydd; ac fe allai fod y gau-athrawon wedi defnyddio gohiriad addewid ei ddyfodiad yn ddadl uniongyrchol i hudo yr eglwysi oddi wrth holl wirioneddau yr efengyl. Gwel 2 *Pedr* iii. 3, 4. Am hyny, bwriadwyd i'r llythyr gael lledaeniad mor gyffredinol a'r drwg, yr hwn yr oedd i'w wrthweithio.

AMSER A LLE EI YSGRIFENIAD.

Os credir ei fod wedi ei ysgrifenu ar ol Llythyr Iudas, dadleuir, gan nad oes gyfeiriad yn hwnw at ddinystr Ierusalem, ac y buasai yn naturiol i un yn ysgrifenu at yr Iuddewon grybwyll am farn mor ofnadwy, ac oedd mor wasanaethgar i'w fater, y rhaid ei fod wedi ei ysgrifenu cyn hyny; felly nid annhebygol i hwn gael ei ysgrifenu ar ei ol, sef o ddeutu y flwyddyn 70. Y mae tôn gyffredinol yr epistol yn dangos fod Pedr yn ei hen ddyddiau; ac os yn Rhufain y dioddefodd ferthyrdod, nid ydyw yn annaturiol i feddwl iddo gael ei ysgrifenu yn y ddinas hono, neu ynte yn rhywle ar ei daith o'r dwyrain tuag yno.

AIL EPISTOL CYFFREDINOL PEDR.

PENNOD I.

1 Y mae efe yn eu cadarnhau mewn gobaith o gynnydd gras Duw; 5 ac yn eu hannog i wneuthur eu galwedigaeth yn sicr trwy fydd a gweithredoedd. 12 Y mae yn ofalus i ddwyn hyny ar gôf iddynt, gan wybod fod ei furwolaeth ef ei hun yn agos. 16 Y mae yn eu rhybuddio hwy i fod yn ddiannwadiad yn ffydd Crist, gwir Fab Duw, trwy dystiolaeth yr apostolion a weisant ei ogoniant ef, a thrwy dystiolaeth y Tad, a'r prophwydi.

SIMON PEDR, gwasanaethwr B. A. ac apostol Iesu Grist, at y rhai a gawsant gyffelyb werthfawr ffydd a ninnau, trwy gyfiawnder ein Duw ni, a'n Hachubwr Iesu Grist.

2 [a] Gras i chwi a thangnefedd a amlhaer, trwy [b] adnabod Duw, ac Iesu ein Harglwydd ni,

[a] Num. 6. 24—26. 1 Pedr 1. 2.
[b] Esa. 53 11; Ioan 17. 3.

Pennod I.

Cynnwysiad.—Y cyfarchiad (1, 2). Annogaeth i gynnyddu yn ngrasau y bywyd ysbrydol (3—11): cadarnhâd i'r annogaethau hyn oddi wrth ystyried sicrwydd gallu dyfodiad Crist, ac fel yr oedd y dyfodiad ei hunan wedi ei fynegu trwy dystiolaeth yr apostolion, a chan brophwydoliaethau yr Hen Destament (12—21).

1. *Simon Pedr, gwasanaethwr ac apostol Iesu Grist.*—Mewn rhai ysgrifiyfrau, "Simeon" Pedr ydyw; ond ceir y ffurf hon ar ei enw yn *Actau* xv. 14. Hwn ydoedd ei enw cyntaf, a'i unig enw nes iddo gael y cyfenw gan yr Arglwydd Iesu Grist. Yn ei lythyr diweddaf hwn, drwy y ddau enw, fe allai ei fod yn cyfeirio at ei sefyllfa cyn derbyn gras yr efengyl, a'r cyfiwr presennol yr oedd ynddo fel un wedi credu. Yn y llythyr hwn yn unig y ceir y cyfarchiad "gwasanaethwr ac apostol." Geilw Paul ei hun wrth y Rhufeiniaid (*Rhuf.* i. 1) yn "wasanaethwr Iesu Grist," ac wrth y Philippiaid (*Phil.* i. 1) efe a Timotheus yn "weision Iesu Grist." Yn y llythyr cyntaf gan Pedr nid oes ond "apostol;" ac mor bell ag y mae hyn yn myned, dengys annibyniaeth ar y cyntaf, yr hyn nis gallesid ei ddisgwyl gan hônwr, yn neilduol yn y cyfarchiad. *At y rhai a gawsant gyffelyb werthfawr ffydd a ninnau.*—Drwy hyn y dynodir y rhai y bwriadwyd y llythyr hwn iddynt; y maent yn ddosbarth eangach na darllenwyr y cyntaf. Cymmer i mewn Genhedloedd ac Iuddewon; ond y mae y cyferbyniad yn yr ymadrodd "cyffelyb a ninnau," gellid meddwl, rhwng yr apostolion a'r Iuddewon a fuont mewn cyffyrddiad uniongyrchol â'r Iesu, a'r rhai oeddynt wedi credu, ond heb ei weled. Wedi cael y ffydd yr ydoedd pawb; yn llythyrenol, wedi ei derbyn drwy goelbren—yn dangos, fel y dywed Bengel, "nad oeddynt wedi ei darparu iddynt eu hunain." Dywed Huss hefyd fel hyn:—"Fel nad yw coelbren yn parchu wyneb, felly hefyd nid ydyw etholedigaeth ddwyfol yn dderbynydd wynebau." Gelwir ffydd yma yn "werthfawr," ac yn gyfartal werthfawr i bawb; nid am fod yma un lle i'r syniad am wahaniaeth yn ngwerth y ffydd i'r naill mwy na'r llall, ond "gwerthfawr ffydd" ydyw i bawb sydd yn ei derbyn yn ol y syniad yn 1 *Pedr* ii. 7. *Trwy gyfiawnder ein Duw ni, a'n Hachubwr Iesu Grist.*—Neu, 'yn nghyfiawnder,' &c. Nid cyfiawnder yn cael ei roddi gan Dduw yn y cyfiawnhâd yw hwn, yn ddiau: o blegid dywedir mai o hwn y mae ffydd yn dyfod i ddechreu, tra mai canlyn ffydd y mae y cyfiawnhâd. Amryw iol ydynt yr ystyron a roddir i geisio osgoi yr hyn y mae geiriau yn dangos yn amlwg, ond nid heb wneyd cam eglur â rhyw air neu eiriau yn yr ymadrodd. Athrawiaeth y Beibl yw, fod ffydd hefyd yn rhodd Duw; ac yn ei waith yn ei rhoddi, dangosir yma mai mewn cyfiawnder y mae yn gweithredu. Gwelwyd eisoes yn yr adnod hon nad ydyw yr etholedigaeth yn derbyn wyneb; yr un modd etto Cenhedloedd ac Iuddewon, derbyniant y ffydd nid yn unig heb gymmylu cyfiawnder Duw, ond hefyd yn ol penderfyniad y cyfiawnder hwnw. Er fod yr Arglwydd Iesu yn Dduw, ac y goddefai y geiriau gyfleu y syniad hwnw, fod yr Iesu ein Hachubwr yn Dduw, etto nid hyn yw yr ystyr yma, yn ol cyfeiriadau ereill. Y Tad sydd yn gweinyddu y bendithion dechreuol yn gyfiawn; ond y mae yma olwg ar Iesu Grist fel achubwr, yr hwn a roes foddlonrwydd tuag at i holl fwriadau Duw gael eu cwblhau yn gyfiawn. Y mae holl fwriadau a bendithion y prynedigaeth wedi cymmeryd lle yn Nghrist: *Eph.* i. 4.

2. *Gras i chwi, a thangnefedd a amlhaer.*—Y mae y dymuniad hwn yr un ag yn y llythyr cyntaf. "Gras:"—rhodd yw y tangnefedd; a'r meddwl yw pob gras, ac yn enwedig "tangnefedd" yn y gydwybod, trwy gymmod â Christ, fel i beidio a brysio mewn profedigaethau. *Trwy adnabod Duw, ac Iesu ein Harglwydd ni:*—neu, yn yr adnabyddiaeth o Dduw: aros yn yr adnabyddiaeth ydyw y moddion i amlhau gras a thangnefedd. Fel y sylwyd yn y rhagarweiniad, adnabyddiaeth neu wybodaeth o Dduw ac Iesu ein Harglwydd ydyw y pwngc mawr a argymmhellir yn y llythyr hwn, yn wrthgyferbyniol i'r cyfeiliornadau oeddynt yn cael eu taenu gan y gau-athrawon. Ceir y gair etto yn *adn.* 3, 8, a *pen.* ii. 20,

[b] Salm110.3; Ioan 17. 2. 3 Megys y rhoddes [b] ei dduwiol allu ef i ni bob peth *a berthyn* i fywyd a duwioldeb, trwy ei adnabod ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd:

[d] Exod. 33. 25—27. [e] Ioan 1. 12, 13. 4 Trwy yr hyn [d] y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr; fel trwy y rhai hyn [e] y ac yn niwedd yr epistol, *pen.* iii. 18. Ymadrodd anghyffredin "yw Iesu ein Harglwydd:" nis ceir ond yn *Rhuf.* iv. 24. Gan y gwahaniaethir yma rhwng y Tad a'r Iesu, y mae yn gadarnhâd i'r esboniad a roddwyd eisoes ar ddiwedd *adn.* 1.

3. Megys y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb.—Cyssylltir yr adnod â'r cyfarchiad blaenorol i gyd. Ystyr y ffurfymadrodd a gyfleithir yma "megys," &c. ydyw, gan gymmeryd yn ganiataol rodd ei dduwiol," &c. Y mae pwys ar safle y "pob peth" yn y Groeg yn nechreu yr adnod, i ddangos fod yr hyn a roddir yn deilwng o dduwiol neu ddwyfol allu; ac y mae pob peth yn gyssylltiedig â'r fendith benaf—pob peth a berthyn, neu sydd angenrheidiol i "fywyd a duwioldeb." Y mae amryw olygiadau, er y gwahaniaethir rhwng "bywyd a duwioldeb." Golyga rhai wrth "fywyd" yr hyn a berthyn i'r ddaear; y bywyd sydd yr awrhon: ac wrth "dduwioldeb," bywyd oddi wrth a thuag at Dduw, ag sydd i'w ddadblygu yn llawn yn y byd tragwyddol. Ond nid yn aml y cyssylltir gallu Duw â rhoddiad bendithion; ac felly wrth fywyd yma, nwy cysson yw golygu crefydd yn ei natur a'i hanfod—bywyd Duw yn yr enaid; ac wrth dduwioldeb, y bywyd hwnw yn ei amlygiadau, ei weithgarwch, a'i gyflawniadau. "Y pethau a berthynant i fywyd oddi wrth Dduw, ac ymestyniad tuag at Dduw."—*Bengel.* Y mae y ddau air yn wrthgyferbyniol i ddau a gawn yn niwedd yr adnod nesaf—"llygredigaeth" a "thrachwant." Bywyd sydd ar gyfer llygredigaeth. Llygredigaeth sydd yn y byd, ond bywyd sydd gan y credadyn. Llygredd yn ei amlygu ei hun mewn trachwant ydyw; ond yr hyn sydd yn gorchfygu y trachwant yw duwioldeb—bywyd Duw yn yr enaid yn ymgryfhau trwy ymarferiadau. Trwy adnabyddiaeth o Dduw, y mae ei ddwyfol allu yn cynnyrchu ac yn cynnal yn y credadyn fywyd a duwioldeb. "Adnabyddiaeth o Dduw," medd Calvin, "ydyw dechreuad bywyd (*Ioan* xviii. 3) a'r cam cyntaf mewn duwioldeb." *Yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd.*—Duw sydd yn galw. Y darlleniad cywiraf, fel ar ymyl y ddalen, yw "trwy ei ogoniant ei hun a'i rinwedd." Yma ymhelaethir yn mhellach ar yr ymadrodd "dwyfol allu." "Cyfeirir priodoliaethau naturiol Duw at y gogoniant, a'r rhai a elwir yn foesol at y rhinwedd; ond y mae y ddau ddosbarth yn yr undeb agosaf â'u gilydd." —*Bengel.*

4. Trwy yr hyn y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr.—Trwy y gogoniant a'r rhinwedd y rhoddwyd yr addewidion. "Yr addewidion" i ddechreu—a'u cyflawniad i ddilyn. Yr oedd eisieu y gogoniant a'r rhinwedd i roddi yr addewidion, o blegid yr un peth oedd hyny i'r Duw digelwyddog a'u cyflawni. "Y mae'r gogoniant yn peri i'r addewidion fod yn fawr iawn, neu y mwyaf: a'r rhinwedd yn peri iddynt fod yn werthfawr."—*Bengel. Fel trwy y rhai hyn y byddech gyfranogion o'r duwiol anian.*—Trwy y rhai hyn, yr "addewidion;" nid mwyach byddech gyfranogion o'r duwiol anian, [f] wedi diange oddi wrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant. [f] Gal. 6. 8; Iago 4. 1—3.

5 A hyn yma hefyd, [g] gan roddi cwbl ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; [g] Salm119.4; Zech. 6. 15.

yn eu rhoddiad, ond yn eu cyflawniad. Tybia rhai mai "ei ogoniant, a'i rinwedd" ydyw y rhai hyn yma etto; ond nis gallwn weled y priodoldeb o fyned yn ol mor bell i chwilio am gyn-enw (*antecedent*) i'r rhagenw. Amcan cynnwys yr addewidion ydyw gwneyd y saint yn gyfranogion perffaith yn y diwedd o'r "duwiol anian." Nid o'r hanfod ddwyfol a feddylir, er y dadleua rhai mai rhan o Dduw yw pobpeth: ond amlwg yw yma mai rhywbeth a'w gaei, ac nid a feddir, sydd dan sylw. Ni ddysgir yma chwaith mai perffeithrwydd dyn fydd yn cael ei gymmeryd i mewn i'r hanfod ddwyfol, a cholli ei unoliaeth ei hun. Nis gall hyny byth gymmeryd lle, gan y bydd gwahaniaeth yn dragwyddol rhwng y crëedig a'r digrëedig, rhwng y meidrol a'r anfeidrol. Pe byddai dynion i gael eu huno â'r hanfod ddwyfol, awgrymai hyny ei fod yn awr yn ammherffaith heb y chwanegiad yna. Bod yn "gyfranogion o'r anian ddwyfol" ydyw bod yn debyg i natur foesol Duw—"meddu y sancteiddrwydd, y gwirionedd, a'r cariad sydd yn Nuw, ac ynoch chwithau, drwy fod Duw yn preswylio ynoch."—*Alford. Wedi diange oddi wrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant.*—Y mae y credadyn yn dechreu cyfranogi o'r duwiol anian yn yr adenedigaeth; ond wedi gorchfygu ei holl drachwantau, a diange oddi wrth llygredigaeth y byd, y bydd yr anian wedi ei pherffeithio. Groeg, 'mewn trachwant:' ac ar hyn sylwa Calvin, "Y mae yn dangos fod y llygredigaeth hwn, nid yn yr elfenau sydd yn ein hamgylchynu, ond yn ein calon ni, am mai yno y mae nwydau drygionus a chyfeiliornus yn tevrnasu; a dynodir eu ffynnonell, neu eu gwreiddyn, gan y gair 'trachwant.' Am hyny, y mae yn gosod y llygredigaeth hwn yn y byd fel y gwybyddom fod y byd ynom ni."

5. A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl ddiwydrwydd.—Neu yn hytrach, 'o herwydd' y peth hwn hefyd;' sef, am fod ei ddwyfol allu wedi rhoddi i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb; ac am mai trwy "ddiange oddi wrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant" y deuir yn gyflawn gyfranog o'r duwiol anian: am hyny annogir i "roddi cwbl ddiwydrwydd." Y mae yn y gair a gyfleithir yma, "gan roddi," y syniad o ddwyn at ochr peth arall. A deallir felly fod yma gyfeiriad at Dduw yn rhoddi y pethau mawr, sef yr addewidion, &c., a'r saint i roddi pob diwydrwydd ar eu tu hwythau i gyfarfod â hwythau. *Chwanegwch at eich ffydd, rinwedd.*—Nid y syniad o gyfiead wrth beth arall yw y golygiad iawn yma. Nid "*at* eich ffydd," na'r un o'r grasau ereill, yw y cyfleithiad cywir; yn hytrach, "*yn* eich ffydd," &c. "Y mae *yn* bob tro yn cael ei ddefnyddio am yr hyn y cymmerir yn ganiataol sydd ganddynt hwy; a'r cynghor ydyw, iddynt gymmeryd gofal ar fod yn yr ymarferiad o hwnw y cam nesaf yn cael ei ddadblygu."—*Alford.* "Y mae pob cam presennol yn cynnyrchu ac yn gwneyd yn hawdd yr un dilynol: a'r un dilynol yn cymmedroli ac

[h] Act. 24.25. [i] Salm 37. 7; [k] Gen. 5. 24. [l] Ioan 13.34. [m] 1 Cor. 13. 4–8. [n] Ioan 15. 7, 8.

6 Ac at wybodaeth, [h] gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amyn[i]edd[k]; ac at amynedd, [k]dduwioldeb;

7 Ac at dduwioldeb, [l]garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, [m]gariad.

8 Canys os yw y pethau hyn [n]genych, ac yn aml hwynt, [n]y maent yn peri na *byddoch* na segur,

yn perffeithio yr un a aeth o'r blaen."—*Bengel.* Ar y gair "at" neu "yn eich ffydd," dywed yn mhellach, "ffydd, rhodd Duw ydyw. Nid ydym am hyny yn cael ein gorchymyn i chwanegu ffydd, ond mewn ffydd y ffrwythau hyny o ba rai yr enwir saith: ffydd sydd yn arwain y fintai, cariad yn ei diweddu." "Rhinwedd" a gyssyltir gyntaf wrth ffydd; gan gyfeirio, o bossibl, at rinwedd yn niwedd *adn.* 3. Cyttunir y golyga agwedd weithgar a bywiog ar yr enaid yn tarddu o ffydd gref. *Ac at rinwedd, wybodaeth.*—Gwybodaeth ymarferol a feddylir: gan fod y rhinwedd yn weithgar, y mae eisieu iddo fod yn ol gwybodaeth cyn y bydd yn effeithiol.

6. *Ac at wybodaeth, gymmedrolder.* — Yn y wedd hon etto y mae gwybodaeth yn gweithredu, "yn dangos pa fodd i neilluo y drwg oddi wrth y da, ac yn dysgu i ffoi oddi wrth ddrwg." —*Bengel.* Nid "cymmedrolder" mewn bwydydd a diodydd yn unig a feddylir, ond pob math o hunan-lywodraethiad. *Ac at gymmedrolder, amynedd.*—"Trwy yr hwn y mae y ffyddloniaid yn edrych at Dduw uwch law pob peth."—*Bengel. Ac at amynedd, dduwioldeb.*—Teimlad addolgar a dibynol ar Dduw, ac ynglŷn â hyny ofal a chymmwynasgarwch tuag at bawb sydd yn dibynu arnynt: 1 *Tim.* v. 4.

7. *Ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol.*—Teimlad o'r berthynas uchaf â'r saint, ac felly o gariad atynt. *Ac at garedigrwydd brawdol, gariad.*—Y mae hyn yn eangach etto, 'ewyllys da i bawb:' gwel *Matt.* v. 46, 47, a 1 *Thess.* iii. 12.

8. *Canys os yw y pethau hyn genych, ac yn aml hwynt.*—Y pethau hyn; "rhinwedd," "gwybodaeth," &c., yn ol *adn.* 5, 6, 7. "Ac yn aml:"—yn hytrach, yn amlhau, yn lliosogi: o blegid y mae yr holl rasau hyn i fyned ar gynnydd. *Y maent yn peri na byddoch na segur, na diffrwyth.*—Effaith uniongyrchol meddu y grasau uchod mewn cyflwr cynnyddol ydyw arddangos eu hunain mewn gweithgarwch a ffrwythlondeb. Y mae meddiant o honynt, fe allai, yn cyfeirio at beidio a bod yn segur; a'u hamlder at beidio a bod yn ddiffrwyth. Nid mewn gweithgarwch yn unig y mae ffrwythlondeb, ac nid ydyw pob gweithgarwch yn rhwym o fod yn ffrwythlawn. "Y mae y rhai hyny hefyd yn gwasanaethu—y rhai sydd yn sefyll, ac yn disgwyl hefyd mewn amynedd." *Yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.*—Megys y cyfeiriwyd eisoes (*adn.* 2, 3), yma etto cawn grybwylliad am brif fater y llythyr. Nid "yn ngwybodaeth" yw y cyfleithiad priodol; 'tuag at wybodaeth:' *h. y.*, y wybodaeth berffaith. Nid ydyw y saint wedi cyrhaedd hono etto, ond y mae yr ymarferiadau a grybwyllwyd uchod yn arwain ati. "Yn yr Arglwydd Iesu Grist y mae yn guddiedig holl drysorau doethineb a gwybodaeth, yn foesol yn gystal ag yn athrawiaethol. Gwybodaeth o hono ef ydyw ymdebygoliad iddo; o blegid fel ag y

na diffrwyth yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

9 O blegid yr hwn nid yw y rhai hyn ganddo, dall ydyw, heb weled yn mhell, wedi gollwng dros gôf ei lanhau oddi wrth ei bechodau gynt.

10 O herwydd pa ham yn hytrach, frodyr, byddwch ddiwyd [o] i wneuthur eich galwedigaeth a'ch

[o] 2Tim.2.19; Heb. 6. 11, 19.

mae yn wir, y bydd i'n gweledigaeth o hono ef, megys ag y mae, ddiogelu ein bod yn berffaith fel efe, felly hefyd y mae yn wir, tra yr ydym yma, mai yr unig ffordd i ni mewn unrhyw radd yn gynnyddol ei weled ef megys ag y mae, ydyw i ni ddyfod yn gynnyddol debyg iddo. Hwnw yn unig a all gyhoeddi Crist ag sydd yn ei adlewyrchu."—*Alford.*

9. *O blegid yr hwn nid yw y rhai hyn ganddo.*—"Y rhai hyn" etto; yr un ag yn *adn.* 8. Yma y cyferbynir diffyg o honynt â'r meddiant yn yr adnod o'r blaen. *Dall ydyw, heb weled yn mhell, wedi gollwng dros gof ei lanhau oddi wrth ei bechodau gynt.*—Tebygol mai cyfyngiad ar yr ymadrodd cyntaf yw yr all yma—"heb weled yn mhell." Dall yn y wedd arbenig yma—heb allu gweled yn mhell, yn fyr ei olwg; yr hyn ydyw y cyfeiriad yn ddiau yn y gair. Tybia Bengel fod colliadau y dyn a ddisgrifir yma yn fawr iawn. Y mae yn ddiffygiol gyda golwg ar y gorphenol, y presennol, a'r dyfodol. Am y gorphenol, y mae "wedi gollwng dros gof ei lanhau," &c. Am y presennol, nid yw yn dirnad daioni yr awr hon (*adn.* 12): ac am y dyfodol, nid ydyw ei fryd yn sylweddoli ei bwysigrwydd: *adn.* 12. Yn y wedd yma y mae ei wrthgiliad a'i ddirywiad yn arddangos eu hunain. Beth bynag am y cyfeiriadau, y mae yn dra phriodol sylwi ei fod yn "ddall," gyda golwg ar ei ddirnadaeth am ei gyflwr ei hun, fel aelod o deyrnas Dduw, ac etifedd yr un nefol; ac y mae "heb weled yn mhell," fel 'y mae ei sylw wedi ei gyfyngu at bethau y ddaear sydd yn agos ato, gan anghofio y pethau nefol. Oddi wrth yr annogaeth sydd yn yr adnodau dilynol, gallai fod yr apostol yn yr adnod hon yn ammheu cyflwr y dyn hwn. Os heb ffrwythau yr Ysbryd, y mae lle i feddwl ei fod yn "ddall" mewn cyflwr anynchweledig; neu a chaniatau ei dröedigaeth, os prin yn y grasau, y mae'r bywyd yn wan ac yn ammheus—y mae "heb weled yn mhell;" ac y mae wedi gollwng dros gof y pechodau y bu unwaith yn euog o honynt, ac am ba rai yr edifarhaodd, gan dystio nad ymollyngai iddynt drachefn.

10. *O herwydd pa ham yn hytrach, frodyr, byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr.*—Grym y rheswm yn y fan hon ydyw hyn; gan fod lliosogiad y grasau (*adn.* 5, 6, a 7) yn tueddu i gynnyddu y wir wybodaeth (*adn.* 8), a diffyg o honynt yn brawf o ddirywiad, y mae hyny yn galw, "yn hytrach" na diogi a difrawder, am ddiwydrwydd. Ac yma, yn mhellach, gwelir fod bwriadau Duw yn cael eu cyssyltu âg ymdrech ar y ddaear. Dywed Bengel "na ddefnyddiodd Pedr yr ymadrodd 'brodyr' unwaith yn y llythyr cyntaf, a dim ond unwaith yn yr ail; oddi wrth yr hyn y gwelir y pwysigrwydd o'r ystyriaethau hyn." Wrth "wneuthur eich galwedigaeth," &c., y golygir—nid gwneyd y peth oddi allan, nac ymdrechu cael

etholedigaeth yn sicr: canys, tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth:

[p] Mat. 25. 34; 2 Cor. 5. 1.

11 Canys felly [p]yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.

12 O herwydd pa ham, nid esgeulusaf eich coffau bob amser am y pethau hyn, er eich bod yn eu gwybod, [q]ac wedi eich sicrhau yn y gwirionedd presennol.

[q] Act. 16. 5; Heb. 13. 9.

13 Eithr yr ydwyf yn tybied *fod* yn iawn, tra fyddwyf yn y tabernacl hwn, eich cyffroi chwi, trwy ddwyn ar gof *i chwi;*

14 Gan wybod y bydd i mi ar frys roddi fy nhabernacl *hwn* heibio, [r]megys ag yr hysbysodd ein Harglwydd Iesu Grist i mi.

[r] Ioan 21. 18, 19.

profiad personol chwaith o'r sicrwydd, ond gwneyd yr hyn a berthyn i'r dyn ei hun, y mae'r penderfyniad uchaf yn aros gyda Duw. Nis gall dyn ei alw na'i ethol ei hun. Ond galw i sancteiddrwydd ac ethol i iachawdwriaeth y mae Duw; ac y mae y dyn i fod yn ddiwyd am gael y ffrwythau hyn ynddo ei hun, a dyna'r sicrwydd mwyaf a all gael yma fod y gwreiddyn yn ddiogel fry. "Yn sicr."—Y mae'r alwedigaeth a'r etholedigaeth," mor bell ag yr ydym yn edrych arnynt oddi isod, heb fod yn alluog i dreiddio i gynghorau Duw, yn ansicr, onid ydynt yn cael eu cadarnhau drwy sancteiddrwydd ymarweddiad. Yn ei ragwybodaeth a'i fwriadau ef, nid oes un anniogelwch nac ansicrwydd; ond yn ein gweledigaeth a'n dirnadaeth o honynt, fel y maent yn bod ynom ac erom ni, y mae llawer, nes iddynt gael eu gwneyd yn sicr yn y ffordd a ddangosir yma." —*Alford.* Rhoddir "galwedigaeth" yma o flaen "etholedigaeth," yn unol â chyssylltiad dynol y materion. Y cyntaf sydd yn dyfod i gyffyrddiad gyntaf â'r dyn, ac oddi wrth hyn yr arweinir ef at yr ail. *Canys, tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth.*—Po anamlaf fo llithriadau y Cristion, mwyaf sicr iddo fydd ei etholedigaeth. Wrth fod yn ddiwyd yn gwneuthur da y byddwn ddiogelaf rhag gwneyd drwg. "Ni roddwn wellt yn am y sicrwydd hwnw, na wna pechod ei wanychu."—*John Newton.*

11. *Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi.*—Neu, 'canys felly yn gyfoethog y rhoddir i chwi.' Yr un gair sydd yma am "roddi" ag sydd yn *adn.* 5 am "roddi cwbl-ddiwydrwydd;" a dïau fod yma gyfattebiaeth y naill i'r llall. O roddi cwbl-ddiwydrwydd i lenwi eich bywyd â'r grasau a grybwyllwyd yno, y rhoddir i chwithau, mewn gradd gyfoethog a gogoneddus, *fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.*—Yr ymadawiad ar y ddaear a olygir yma. Pa bryd bynag y daw, os bydd yr agwedd uchod ar yr ysbryd, o bossibl nad prin i brofiad y Cristion ei hun, nac yn sicr mewn gwirionedd, fydd ei fynediad i mewn i'r nefoedd. "Gyda throed didramgwydd, nid megys o longddrylliad, na thrwy dân, ond fel pe bae mewn goruchafiaeth, y byddwch alluog i fynedi mewn: a bydd i'r gorphenol, y presennol, a'r dyfodol eich boddhau chwi."—*Bengel.*

12. *O herwydd, pa ham, nid esgeulusaf eich coffau bob amser am y pethau hyn.* — Gan fod hyder o gyssylltiad cadwedigol a threfn yr efengyl, a derbyniad helaeth i gyfranogi o ogoniant y deyrnas yn tarddu o'r diwydrwydd a annogwyd yn y rhan flaenorol o'r bennod, dywed yr apostol y bydd yn nôd ganddo gymmhell y diwydrwydd hwnw arnynt hyd ei ddiwedd. "Nid esgeulusaf eich coffau."—Groeg: 'bydd yn wrthddrych fy ngofal eich coffau bob amser.' Yn y ddau air diweddaf hyn, cawn un rheswm paham y tybiodd Pedr yn angenrheidiol gyfeirio yr all lythyr hwn at yr eglwysi mor fuan ar ol y cyntaf. *Er eich bod yn eu gwybod.*—Un peth ydyw gwybod athrawiaeth neu wirionedd, peth arall ydyw ei fod yn bresennol yn yr ymwybyddiaeth; ac fel hyn yn unig y dylanwada ar yr ymarweddiad. *Ac wedi eich sicrhau yn y gwirionedd presennol.*—Yn hytrach "y gwirionedd sydd yn bresennol gyda chwi;" o blegid nid y rhan o'r gwirionedd a fu dan sylw yn bresennol a feddylir, ond athrawiaeth y Testament Newydd yn gyffredinol. "Yr ydych chwi yn dal, yr wyf yn gwybod," meddai, "yn ddilwgr holl wirionedd yr efengyl, ac nid ydwyf finnau yn eich cadarnhau fel rhai yn siglo; ond mewn mater mor bwysig nid ydyw rhybuddion byth yn ofer, ac am hyny ni ddylent byth fod yn flin. A chyffelyb esgusawd y mae Paul yn cyfarch y Rhufeiniaid yn *pen.* xv. 14."—*Calvin.*

13. *Eithr yr ydwyf yn tybied fod yn iawn.*—Er eu bod yn gwybod, dywedodd ei fod wedi penderfynu eu coffau, (*adn.* 12), ac yma y mae yn dechreu rhoddi ei resymau dros hyny. Yn un peth, y mae yn bwngc o iawnder, ac am hyny yn beth a ddylai gael ei wneyd bob amser. *Tra fyddwyf yn y tabernacl hwn.*—Cyhyd âg y byddwyf yn y babell hon: 2 *Cor.* v. 1. "Y mae yn awgrymu anfarwoldeb yr enaid, a'i arosiad byr yn y corph marwol, ynghyd âg esmwythder yr ymadawiad i ffydd."—*Bengel. Eich cyffroi chwi, trwy ddwyn ar gof i chwi.*—Groeg: 'yn eich coffau.' Nid moddion neu offeryn i gyffroi fydd y dygiad ar gof. Ni bydd genyf fi ond dwyn ar gof: bydd i hyny yn ganlynol fod fel cyfrwng i'ch cyffroi. Yn *pen.* iii. 1, defnyddia yr un ymadrodd am gyffroi a choffau.

14. *Gan wybod y bydd i mi ar frys roddi fy nhabernacl hwn heibio.*—Neu, 'mai cyflym fydd rhoddiad fy nhabernacl heibio.' Nid cyfeirio y mae at farwolaeth ebrwydd yn y dyfodol; ond yn hytrach pan y deuai i farw, na byddai iddo barhau i wanychu yn hir. Mewn rhoddi heibio y tabernacl, y mae y syniad am ddiosg dilledyn wedi ei ddwyn i mewn, yn gystal a chodi y babell oddi ar lawr. Cymmysgir y ffugyrau hefyd yn 2 *Cor.* v. 1. "Y mae y rhai sydd yn gwaelu am hir amser yn alluog i borthi ereill yr un pryd. Ni chaniatäai y groes hyny i Pedr; am hyny pa beth bynag oedd ganddo i'w wneyd, rhaid oedd iddo ei gyflawni cyn hyny."—*Bengel. Megys ag yr hysbysodd ein Harglwydd Iesu Grist i mi.*—"Cyfeirir at *Ioan* xxi. 18, lle y mynegir am farwolaeth boenus a chyflym i Pedr gan yr Arglwydd wedi ei adgyfodiad.....Tra yn anghofio y ffaith hon, y mae rhai wedi dychymygu fod rhyw ddadguddiad arbenig arall wedi ei roddi iddo. Ac hyd yn oed a thybio fod *tachiné* yn golygu 'yn fuan,' 'heb fod yn mhell,' nid oes eisieu tybio am ddadguddiad arall. Ô blegid hawdd y gallai y teimlad o'i fod yn myned yn hen arwain yr

15 Ac mi a wnaf fy ngoreu hefyd ar allu o honoch bob amser, ar ol fy ymadawiad i, wneuthur coffa ain y pethau hyn.

16 Canys nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys, yr hysbysasom i chwi [a] nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, eithr [b] wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid.

17 Canys efe a dderbyniodd gan [c] Dduw Dad, barch a gogoniant, pan ddaeth y cyfryw lef ato oddi wrth y mawr-ragorol Ogoniant, [d] Hwn yw fy anwyl Fab i, [e] yn yr hwn y'm boddlonwyd.

18 A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddym gydag ef yn y mynydd sanctaidd.

[a] Mat. 28. 18; Ioan 17. 2. [b] Mat. 17. 1—4.

[c] Mat. 28. 19; Luc 10. 22. [d] Mat. 3. 17; Luc 3. 22. [e] Esa. 42. 1; 53. 10; Mat. 12. 18.

---

apostol i'r casgliad nad ydoedd y diwedd a ragfynegwyd iddo, 'pan elych yn hen,' etto yn mhell oddi wrtho."—*Alford.*

15. *Ac mi a wnaf fy ngoreu hefyd ar allu o honoch.....ar ol fy ymadawiad i.*—Am y casgliad a wneir oddi wrth fod yr awdwr yma yn defnyddio y geiriau "pabell" ac "ymadawiad" ynglŷn â'r cyfeiriad at y gweddnewidiad yn yr adnod nesaf, gw. y rhagarweiniad i'r llythyr. *Wneuthur coffa am y pethau hyn.*—Neu i ymarfer coffadwriaeth am y pethau hyn. Un ffordd i wneuthur hyny ydoedd gadael y llythyr hwn iddynt i droi ato, er cyffroi eu meddwl puraidd. Y mae rhai o'r Pabyddion yn egluro yr adnod hon yn y fath fodd ag i roddi sail dros eu harfer hwynt o weddïo ar seintiau. Haerant mai y meddwl yw, y gwnai Pedr ei oreu ar ol ei ymadawiad i'w cadw hwy yn ei gof; ac meddai un "Oddi wrth hyn fe welir yn amlwg fod Sant Pedr a'r saint, wedi iddynt adael y fuchedd hon, yn gofalu am achosion marwolion, ac am hyny yn wrthddrychau i weddïo arnynt." Ond y mae mor amlwg hefyd mai trwy ddirdynu y testyn gwreiddiol yn unig y gallant gael yr ystyr hwn. Ond yma, fel yn eu holl gyfeiliornadau, fe ddechreuodd mewn tybiaeth o eiddo rhywun; a chyn bo hir, cafodd ei gyhoeddi fel gwirionedd safadwy.

16. *Canys nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys, yr hysbysasom i chwi nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.*—Y mae y "canys" yma yn cynnwys pa ham yr oedd yn tybio yn werth eu hannog mor wresog a diball. Yr oedd ganddo destyn teilwng i lafurio yn ei gylch. Diau fod cyfeiriad yn yr ymadrodd "chwedlau cyfrwys" at lenyddiaeth grefyddol y Cenhedloedd a'r Iuddewon, ac o bossibl y gau athrawon hefyd. Y mae y chwedlau hyn yn amrywiol a llawn iawn yn llenyddiaeth Groeg a Rhufain, ac oll yn dwyn perthynas â'u duwiau a'u harwyr. Naturiol gan hyny oedd i Pedr gyferbynu ei hanes syml ef, ac o'r hyn yr oedd yn llygad dyst, â ffrwyth dychymyg gwag ac ofer y cyfansoddiadau hyny. Sylwa Alford fod De Wette yn cymmharu yr ymadrodd "yr hysbysasom i chwi" yn yr adnod hon, â'r syniad sydd yn 1 *Pedr* i. 12; oddi wrth yr hyn y mae yn casglu fod awdwr y llythyr hwn yn rhoddi ei hun mewn cyssylltiad nes â'i ddarllenwyr na hwnw, ac oddi wrth yr hyn y ceir dadl nad Pedr yw awdwr y diweddaf. Ond yr atteb a ddyry Alford iddo yw hyn: "Oni all yr un apostol mewn un lle olygu y pregethwyr gweithredol, y rhai a draddodasant yr efengyl iddynt; ac yn y llall, yr apostolion, y rhai oeddynt ei thystion cyntaf? Neu etto: pa ham y dylid golygu fel yn hollol ammhossibl, fod rhai o'r efengylau a feddwn yn awr wedi eu cyhoeddi, ac yn cael cyfeirio atynt yn y geiriau hyn?" "Nerth a dyfodiad."—Y gwahaniaeth rhwng y ddau ymadrodd yw, fod un yn cyfeirio at yr awdurdod a dderbyniodd yr Iesu ar orpheniad ei waith prynedigol, a'r llall, y diweddaf, yn golygu ei ymddangosiad yr ail waith yn ngogoniant ei Dad gyda'r angylion sanctaidd. Nis gellir ammheu mai yr ail ddyfodiad a olygir yma, a bod Pedr yn seilio yr hyder am yr hyn oedd i ddyfod oddi wrth yr hyn a welodd efe fel llygad-dyst am a fu. "Yr oedd y gweddnewidiad yn y dydd diweddaf, ac y mae holl dystiolaeth yr apostolion yn edrych at y dadguddiad hwn: *Act.* x. 42."—*Bengel. Eithr wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid.*—Groeg: 'wedi cael caniatâd i fod yn llygad-dystion.' Dywedir fod yma gyfeiriad at y rhai a dderbynid i mewn i fod yn hyddysg yn y cyfrinion uchaf a berthynent i ryw ddefodau crefyddol yn ngwlad Groeg. Gelwid y rhai hyny *epoptai;* a hwn yw y gair a ddefnyddia Pedr am dano ei hun, ac Iago, ac Ioan, fel edrychwyr ar weledigaeth fawr y gweddnewidiad. Nid dyma yr unig enghraifft a weiodd y disgyblion o fawredd yr Iesu, ond dyma'r benaf, a hon a gynnyrchodd yr argraph ddyfnaf ar eu meddwl. Cyfeiriodd yr Iesu ei hun hwynt at ei ail ddyfodiad oddi wrth enghreifftiau ereill o'i fawredd: gwel *Ioan* v. 25—28, a xi. 40—44.

17. *Canys efe a dderbyniodd gan Dduw Dad, barch a gogoniant.*—Wedi cael eu derbyn fel llygaid-dystion o'r dirgelwch, y mae yma yn dyweyd beth a welsant. Derbyniodd "barch a gogoniant" oddi wrth Dduw Dad. "Parch, neu anrhydedd, yn y llef a siaradodd wrtho; gogoniant yn y goleuni a lewyrchodd oddi wrtho ef."—*Alford. Pan ddaeth y cyfryw lef ato.*—Neu 'pan y dygwyd llef o'r fath natur ato.' *Oddi wrth y mawr-ragorol Ogoniant.*—Neu, 'gan y gogoniant aruchel.' Tybia rhai y golygir, wrth y "mawr-ragorol Ogoniant," y cwmmwl goleu a orchuddiodd y cwmni; ereill, mai y nefoedd a feddylir: ond gan mai unig ystyr yr arddodiad a gyfleithir yma "oddi wrth" ydyw 'gan,' sicrha Alford, a chydolyga Bengel, mai amgylch-eiriad am Dduw ei hun ydyw. *Hwn yw fy anwyl Fab i, yn yr hwn y'm boddlonwyd.*—Ceir y geiriau hyn yn Matthew a Luc, ond yma gydag ychydig o wahaniaeth, ac ystyr mwyhaol. Dywed Alford fod "yn yr hwn" yma yn cynnwys 'ar yr hwn y mae fy hyfrydwch wedi disgyn, ac yn aros;' a "boddlonwyd" yn y gorphenol, yn cynnwys 'fy hyfrydwch a orphwysodd o dragwyddoldeb.'

18. *A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni.*—Amlwg yw fod y cyfeithiad hwn yn ammherffaith, gan nad ydyw yn cyfieu y meddwl yn y wedd briodol: "a'r llef yma a glywsom ni yn cael ei dwyn o'r nef;" *h. y.,* gallasem farnu oddi wrth ei dyfodiad mai o'r nef yr oedd yn tarddu. Cynnwysa "ni" y tri dysgybl, o ba rai yr oedd Pedr ac Ioan yn fyw y pryd hwn. *Pan oeddym gyd ag ef yn y mynydd sanctaidd.*—Nid ydoedd yn cael ei alw yn "sanctaidd" cyn yr amgylchiad hwn; ac nid ydyw yn hysbys pa un ai cyfeirio y mae'r apostol at ei fod yn sanctaidd yn ei berthynas â'r ymweliad nefol ar y pryd, ai ynte y gelwid ef yn sanctaidd gan yr eglwys byth ar ol hyny. Nid annhebygol mai yr

19 Ac y mae genym air sicrach y prophwydi; yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonau chwi:

20 Gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddeongliad priod.

21 Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion sanctaidd Duw a

[a] Deut. 33. 1; 1 Bren. 13. 1.
[a] Num. 16. 16; 1 Pedr 1. 11; Dad. 19. 10.

olaf sydd fwyaf cywir. Dyma gyfeiriad chwanegol fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu ar ol rhai o'r Efengylau.

19. *Ac y mae genym air sicrach y prophwydi.*—Y mae yr anhawsder ynglŷn âg ystyr y frawddeg hon yn cael ei gynnwys yn y ddau ofyniad, Pa un ai gair y prophwydi, yn sicrach na rhyw eiriau ereill?—eiddo yr apostolion, er engraifft: ai ynte, gair y prophwydi yn nyddiau Pedr yn sicrach nag oeddynt ryw amser arall, a feddylir? Y mae ychydig yn meddwl mai y cyntaf o'r ddau yw yr ystyr—fod geiriau y prophwydi yn sicrach na'r dystiolaeth am ogoniant Crist ar fynydd y gweddnewidiad. Pa fodd y mae "yn sicrach?" Dywedir fod geiriau y prophwydi o eangach cynwysiad na'r un llef hono. Fel y dywedasai Pedr o'r blaen (1 *Pedr* i. 11), yr oeddynt yn rhagdystiolaethu dioddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny. Ac yn nghellach, nid ydoedd tystiolaeth y gweddnewidiad end yn dangos gogoniant Crist yn nyddiau ei gnawd, ond y prophwydi yn cyfeirio at ei ogoniant dyfodol hefyd. Am y rhai sydd yn cymmeryd yr ail olwg ynghylch ystyr y geiriau, ceir ychydig o amrywiaeth yn eu plith, ond nid yw yn ammhossibl i'r holl ystyron fod yn gynnwysedig yn y geiriau. Dywed Bede y gallai rhai ddyweyd mai yn ddirgel y gwelodd y tri dysgybl ogoniant y Gwaredwr ac y clywsant lef y Tad, ac nad ydoedd am hyny mor gredadwy; ond cyfeiria yr apostol fod geiriau y prophwydi ganddynt oll, ac yn cael eu derbyn fel geiriau Duw. Awstin etto ychydig yn wahanol: "Os na chlywsoch y llef eich hunain yn cael ei dwyn o'r nef, y mae geiriau y prophwydi genych yn sicrach," am eich bod mewn cyffyrddiad â hwy, yr un a ninnau. Yr wrthddadl gref yn erbyn hyn yw, nad "genych" a ddywed yr apostol, ond "genym; ac felly fod geiriau y prophwydi yn fwy sicr i'r apostolion hefyd. Yn ngwyneb hyn, rhaid i ni syrthio ar y farn sydd yn gwneyd fod geiriau y prophwydi yn deilwng o sicrach hyder am ddyfodiad yr Arglwydd Iesu, âm eu bod wedi dechreu cael eu cyflawni yn eu golwg. Nid sicrach ynddynt eu hunain a feddylir, ond yn hawlio yn awr grediniaeth fwy diysgog ynddynt. Dyma farn Œcum., Grotius, Bengel, De Wette, Alford. *Yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll.*—Dadguddiad anmherffaith er hyny yw y prophwydoliaethau, a thystiolaeth mynydd y gweddnewidiad, o'u cymmharu â gweled wyneb yn wyneb: tebyg i oleuni canwyll o'i gymmharu â goleuni y dydd. "Lle tywyll."—"Y fath le yw ein calon ni."—*Bengel. Hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonau chwi.*—Y mae y "seren ddydd" am dymmor o'r flwyddyn yn codi o flaen yr haul, ac felly yn cael ei galw y seren foreu; am dymmhor arall, y mae yn machludo ar ol yr haul, ac yn cael ei galw yn seren hwyrol. Yma seren foreu ydyw, yn dwyn y dydd i mewn: ond beth a feddylir wrth godiad y seren ddydd, a gwawriad y dydd yn y galon? Yma etto y mae gwahanol olygiadau. Tybia rhai, mai goleuni yr Ysbryd o dan y Testament Newydd, o'i gymmharu â phrophwydoliaethau yr Hen. Ereill a olygant fod yma gyfeiriad at dywyllwch y Cristionogion cyn eu dychweliad, o'i gymmharu a'r hyn oedd wedi iddynt dderbyn yr efengyl. Ond amlwg ydyw mai dyfodol iddynt hwythau yw y gwawriad hwn. Ereill etto: mai dydd dadguddiad yr Arglwydd Iesu Grist ydyw. "Yr ydwyf fi," medd Calvin, "yn cymmhwyso y tywyllwch hwn at holl yrfa bywyd, ac yn esbonio y bydd y dydd yn llewyrchu pan y gwelwn ef wyneb yn wyneb, yr hyn a welwn drwy'r drych a'r ddammeg." Yr anhawsder i ddderbyn yr eglurhâd hwn yw, mai yn y galon y mae y seren ddydd yn codi, ac o herwydd hyny rhaid i ni feddwl am egluro yr Iesu yn y byd hwn a'r hwn a ddaw. Priodol yn wir ydyw meddwl fod dadguddiad o'r Iesu yn y galon yn y byd yma yn rhagori ar y prophwydoliaethau, fel y mae codiad y seren ddydd a thoriad y wawr yn rhagori ar y galon. Nid ffydd yn y profion allanol, ond cymmundeb ysbryd âg ysbryd: ond nid yw hyny drachefn, o'i gyffelybu â goleuni y fuchedd dragwyddol, ond y wawr wanaidd o'i chyferbynu â'r canolddydd goleu.

20. *Gan wybod hyn yn gyntaf.*—Yma rhoddir cyfrif am dywyllwch y prophwydoliaethau; ac at hyn gyntaf oll y mae yn galw eu sylw. *Nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddeongliad priod.*—Nad oes wedi ei roddi i un dyn allu arbenig i ddeongli prophwydoliaethau. Nid oedd gan y prophwydi eu hunain y gallu hwn, mwy na dynion ereill. Y mae yn amlwg mai at ddeongliad y prophwydi eu hunain, ac nid y rhai a ddarllenent eu geiriau ar eu hol, y cyfeirir, oddi wrth y sylwadau pellach a wneir am danynt yn yr adnod nesaf. Dyry Alford, gan ddilyn Huther, i ni ystyr gywrain i'r geiriau hyn: pa beth bynag am ei gywirdeb, y mae yn bur gysson â'r hyn a chwanegir etto. "Nid ydyw prophwydoliaeth yn tarddu o ddeongliad dynol; *h. y.*, nid o ragddywediadau yn cael eu cyhoeddi gan ddyn. Pe buasai y prophwydi yn llunio rhyw ddywediadau tywyll, ac yn gwybod eu hystyr wrth eu rhoddi wrth eu gilydd, gallasent eu deongli yn gwbl gysson; ond nid oeddynt yn meddu gallu i wneyd hyny, ac y mae hyny yn tarddu o'r hyn a ddywedir etto: ac os oedd eu geiriau yn dywyll iddynt hwy, gallem ddisgwyl eu bod felly i bawb ar eu hol, ond un ai trwy gyflawniad, neu trwy oleuni yr Ysbryd a'u llefarodd.

21. *Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth.*—"Y mae dyn yn aml yn ffurfio y peth a fyno mewn chwedlau, neu yn cuddio mewn cyfeiliornadau."—*Bengel.* Ond nid felly y daeth y gair dwyfol. Nid "trwy ewyllys dyn;" *h. y.*, ewyllys dyn yn unig; ond trwy ewyllys Duw yn gweithio drwy ewyllys dyn. *Eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant megys y cynnhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.*—Dynion sanctaidd a ddewiswyd gan yr Ysbryd sanctaidd i lefaru drwyddynt. Gwir iddo lefaru drwy rai ansanctaidd, megys Balaam; ond eithriad oedd hyny. Yn yr ymadrodd "llefarasant," y mae Bengel yn gweled yr hawsder oedd iddynt hwy draddodi y

lefarasant *megys* y cynnhyrfwyd *hwy* gan yr Ysbryd Glân.

PENNOD II.

1 *Y mae efe yn prophwydo am athrawon feilsion; ac yn dangos eu hanwiredd a'u dialedd hwy, a'u dilynwyr: 7 oddi wrth y rhai y gwaredir y rhai duwiol, fel y gwaredwyd Lot o Sodom. 10 Y mae efe yn dangos yn helaethach gynneddfau y geiriau a gaent, a'r amseriad gorphen ol yn dangos mai am brophwydoliaethau yr Hen Destament y sonia, o ba rai yr oedd wedi dyfynu yn helaeth. Ystyr y gair "cynnhyrfu" ydyw cael eu dwyn, eu cludo, fel llong gan yr awel: felly yr oedd awelon ysbrydoliaethau yn cludo y prophwydi. "Dywed eu bod yn cael eu cludo; nid eu bod ar wahân oddi wrth eu meddyliau eu hunain (fel y ffugiai'r Cenhedloedd rhyw gynnhyrfiad yn eu prophwydoliaethau), ond nad oeddynt yn meiddio gwneyd dim o honynt eu hunain, ond yn unig ddilyn yn ufudd yr Ysbryd fel arweinydd."—Calvin.*

Pennod II.

Cynnwysiad.—Disgrifiad o'r gau-athrawon a gyfodent (1—4); dadl oddi wrth dri phrawf hanesiol, y derbyniai y dynion hyn gosp sicr (4—11); disgrifiad pellach o'u gweithredoedd annuwiol ynghyd â dedfryd chwanegol arnynt, a chyhoeddiad eu dinystr llwyr. Y mae arddull yr apostol drwy y bennod i gyd yn fywiog, grymus, a phenderfynol, yn dra gweddus i'r amgylchiadau y cyfeirir atynt, ac yn tueddu i greu dychryn yn mysg yr eglwysi, ac yn mysg y troseddwyr uniongyrchol. Ceir yma lawer o gyd-darawiadau âg Epistol Iudas, a bydd yn rhaid i'n sylwadau gyfeirio yn lled aml atynt.

1. *Eithr bu gau brophwydi hefyd yn mhlith y bobl.*—Soniodd am y gwir brophwydi yn *pen.* i. 19; ac fel arweiniad at y gau athrawon etto, cyferbynia â hwy y "gau brophwydi" a fu yn mysg y bobl gynt. Yn mysg pobl Israel a feddylir; ac y mae y sylw hwn yn dangos yn eglur mai prophwydi yr Hen Destament a olygir yn *pen.* i. 19. Cawn ddisgrifiad o'r prophwydi o ran eu honiadau anwireddus eu bod yn brophwydi, ac hefyd o ran y twyll a gyhoeddid ganddynt fel rhagfynegiad, yn *Ier.* xiv. 14. *Megys ag y bydd gau athrawon yn eich plith chwithau.*—Nid yn unig hónai y rhai hyn eu bod yn athrawon heb eu bod yn athrawon gwirioneddol, ac felly nid oeddynt yn ddim amgen na "gau athrawon;" ond hefyd, gau, twyllodrus, a dinystriol, oedd yr athrawiaethau a gyhoeddent. Er fod y gau athrawon hyn yn nyddiau Pedr, etto yr amser dyfodol syml sydd yma—"bydd;" yn cyfeirio, o bossibl, at eu cynnydd mwy rhagllaw: ac, yn unol â'r apostolion ereill, yn rhagfynegi yr hyn y cyfeirir ato yn *pen.* iii. 2, ac *Iudas* 4, 14. *Y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol.*—Nid yw y syniad o "ddirgel" ddwyn i mewn yn amlwg iawn yn y gwreiddiol, er ei fod yn cael ei awgrymu. Yn hytrach, yr ystyr yw hyn—'y rhai a ddygant i mewn yn gyfochrog â'r addysg a dderbyniasoch.' Y dull yn mha un y mae cyfeiliornad bob amser yn ennill tir ydyw, trwy ei gymmysgu â rhyw gymmaint o'r gwirionedd, er mwyn tafiu rhai diniweid oddi ar eu gwyliadwriaeth. Ond "heresiau" fyddai eu hathrawiaethau. Ystyr y gair hwn (Groeg, *haireseis*) yw dewisiad, neilldуad; ac yn y cyssyltiad *twyllwyr hyny, fel y galler eu hadnabod hwy yn hawsa, a'u gochelyd.*

EITHR bu gau brophwydi he- B. A. 70.
fyd yn mhlith y bobl, megys
ag y bydd gau athrawon yn eich
plith chwithau; y rhai yn ddirgel
a ddygant i mewn heresiau din- [a] Mat. 10. 33; Act. 3. 13, 14; Iudas 4.
ystriol, [a] a chan wadu yr Arglwydd,
yr hwn a'u prynodd hwynt, ydynt
y defnyddir ef yma, golyga athrawiaethau newyddion, hunan-ddewisedig, croes i'r gwirionedd; ac yn ddiweddarach, daeth i olygu sectau neu blaid o bobl yn dal y cyfryw athrawiaethau. Y mae "heresiau dinystriol" yn gwbl gysson â'r ystyr, er nad yn gyfleithiad llythyrenol, yr hyn yw 'heresiau dinystr;' dinystr yn rhwym o fod ynglŷn â hwynt: *Phil.* iii. 19. *A chan wadu yr Arglwydd, yr hwn a'u prynodd hwynt.*—Y mae y geiriau cydredol, yn *Iudas* 4, "ac yn gwadu yr unig deyrn, a'n Harglwydd ni, Iesu Grist," yn dangos tu hwnt i ddadl mai yr Iesu a olygir yma wrth yr Arglwydd (*despotén*, meistr, teyrn) "yr hwn a'u prynodd." Tybia rhai mai'r Tad a feddylir, am mai iddo ef yn gyffredin y priodolir y gwaith o brynu; ond nid ydyw yr ymadrodd yn ammhriodol am yr Iesu, yr hwn a roddodd y gwerth, ei briod waed, i brynu, ac yn wir a grybwyllir mewn manau ereill fel yn prynu ei hunan: gwel *Act.* xx. 28; *Dat.* v. 9. Myn Alford fod yr ymadrodd "yr hwn a'u prynodd hwynt," fel yn cyfeirio at y gau athrawon, yn cynnwys cadarnhâd anwrthwynebol i athrawiaeth o bryn-edigaeth gyffredinol. A sylwa yn mhellach, fod Calvin yn myned heibio yr adnod heb yngan gair. Nid am nad allai amddiffyn ei gredo, gallwn fod yn dra sicr, yr aeth heibio iddi; o blegid os sylwodd ar adnodau cyffelyb, (2 *Cor.* v. 14, a *Heb.* ii. 9), gallasai ail adrodd yr un syniadau yma; ac felly mwy rhesymol meddwl iddo dewi yma am ddarfod iddo lefaru yn ddigon eglur o'r blaen. Ac os nad ydyw Calvin yn cyssoni yr ymadrodd hwn â phrynedigaeth neilldуol, ni raid i ni o herwydd hyny dybio fod hyny yn ammhosibl. Cynmerwn eiriau Scott, y rhai sydd yn dra phriodol:—"Yn ddiammheuol bwriadai Crist brynu y rhai hyny, a'r rhai hyny yn unig, y rhagwelai efe a wnaent mewn amser gredu ynddo i fywyd; er hyny yr oedd y prynedigaeth yn anfeidrol ddigonol, ac y mae dynion yn wastad yn cael eu cyfarch yn unol â'u proffes." Proffesai y rhai hyn ddarfod i'r Arglwydd eu prynu, yn eu cyssyltiad â'i bobl. Cyn derbyn esboniadau ar bwngc neilldуol, dylem wybod pa fodd y maent yn cadw i fyny gyssondeb y ffydd ar bob pwngc. Pa gyssondeb sydd i feddwl fod y rhai a brynodd yr Arglwydd yn myned etto i ddinystr, yn ol yr hyn a ddywedir yma am y gau athrawon? A phwy yw y defaid y dywedir fod y bugail da yn rhoddi ei einioes drostynt? Tybia Bengel fod cyfeiriad yn yr ymadrodd hwn at gyfeiliornad pennodol y gau athrawon. "Yr oeddynt ar air ac mewn gweithred yn gwadu iddo ddyfod mewn gwirionedd i'r cnawd, ac fel hyny yn diddymu holl ddirgelwch y prynedigaeth: 1 *Ioan* iv. 2," &c. *Ydynt yn tynu arnynt eu hunain ddinystr buan.*—Duw, mae'n wir, sydd yn cospi; ond eu hymddygiad hwy sydd yn galw am iddo wneyd hyny. Y mae yn "ddinystr buan," am y daw yn gwbl annisgwyliadwy iddynt hwy. Nid ydyw yn golygu y disgyn barn anamserol arnynt; ond cyfeiria at yr hyn a ddysgir yn y ddau lythyr, fod

yn tynu arnynt eu hunain ddinystr buan.

[b] Mat. 21. 10–13; Dad. 13. 9. [c] Act. 14. 2; Iud. 10, 15. 2 A [b]llawer a ganlynant eu distryw hwynt, o herwydd y rhai [c]y ceblir ffordd y gwirionedd.

[d] Deut. 24. 17; Ioan 2. 16. 3 Ac mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, y gwnant [d]farsiandïaeth o honoch: barnedigaeth y rhai er ys talm nid yw segur, a'u colledigaeth hwy nid yw yn hepian.

dyfodiad yr Arglwydd Iesu yn ymyl, yr hwn a ddygai ddinystr anocheladwy iddynt hwy.

2. *A llawer a ganlynant eu distryw hwynt.*—Ar ymyl y ddalen, ac yn uniongyrchol o'r Groeg, eu 'trythyllwch' hwynt. "A llawer a ganlynant."—"Yr oedd cyssylltiad ymddygiad moesol isel âg athrawiaeth gyfeiliornus bron yn gyffredinol yn oesoedd boreuol yr eglwys: gwel yr epistolau bugeiliol yma a thraw, ac yma, *adn.* 18, 19. Yn Iudas crybwyllir y ddau ynghyd, 'yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch.'"—*Alford. O herwydd y rhai y ceblir ffordd y gwirionedd.*—Nid o herwydd y gau athrawon, ond y rhai a'u canlynant. Gellid meddwl am y gau-athrawon eu hunain, wedi iddynt gyrhaedd i gyflawn ddigwylydd-dra, nad oeddynt gymmaint tramgwydd i'r byd; ond fel llawer ereill, y rhai oedd ganddynt barch i'r gwirionedd, ac etto yn dilyn y gau athrawon mewn llawer o bethau, oeddynt y rhan amlaf yn troi y cloff allan o'r ffordd. Gelwir "ffordd y gwirionedd," yn *adn.* 15, yn "ffordd uniawn," ac yn *adn.* 21 yn "ffordd cyfiawnder." Sylwa Bengel am y cabledd hwn, "gau y rhai oddi allan yn analluog i wahaniaethu rhwng y Cristionogion gau o'r rhai gwir."

3. *Ac mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, y gwnant farsiandïaeth o honoch.*—Dengys yr ymadrodd cyntaf, "mewn cybydd-dod," ansawdd meddwl parhaus y gau athrawon, yr hyn yn benaf a'u hysgogai yn eu haddysg. Dengys yr ail ymadrodd, foddion offerynol eu gwaith, "drwy chwedlau gwneuthur"—ymadroddion yn tarddu o'u dychymyg hwynt yn unig. Yr amcan mewn golwg oedd gwneuthur elw'; yn debyg i fasnachwyr. "Rhoddant eiriau—derbyniant arian."—*Bengel. Barnedigaeth y rhai er ys talm nid yw segur.*—Nid ydyw y ddedfryd sydd wedi pasio yn meddwl y Barnwr ar yr annuwiol yn llythyren farw. Yn hytrach, y mae yn gweithio allan i gospedigaeth drwy holl droion rhagluniaeth Duw i gyd. Dichon fod yr ymadrodd "er ys talm nid yw segur," yn cyfeirio at y gwahanol achlysuron o anfoddlonrwydd Duw yn erbyn yr annuwiolion er pan y cwympodd yr angylion, a'r cwbl yn dangos fod cosp y rhai presennol yn dyfod yn brysur. Os ymddangosai fel wedi ei hoedi am dymmor, cam esboniad oedd golygu ei bod wedi ei gosod o'r neilldu yn hollol. *A'u colledigaeth hwy nid yw yn hepian.*—Y cyssylltiad rhwng, "colledigaeth" a "barnedigaeth" yw, mai terfyn yr olaf yw y cyntaf. Y mae yn amlwg y personolir y ddau yn y geiriau. Wedi i'r farnedigaeth gyhoeddi ei dedfryd, a threfnu fod i bob peth gynnorthwyo iddi gael ei chario allan; dygir y golledigaeth ger bron fel yn effro a bywiog i lyngcu y twyllwyr i'w chrombil yn yr amser cyfaddas.

4. *Canys onid arbedodd Duw yr angylion a bechasent.*—Rhoddir ger ein bron yn yr adnod

4 Canys [e] onid arbedodd Duw yr angelion a bechasent, [f] eithr *eu* taflu *hwynt* i uffern, a'*u* rhoddi i gadwynau tywyllwch, [g] i'w cadw i farnedigaeth;

[e] Deut. 29. 20; Rhuf. 8. 32; 11. 21. [f] Esa. 14. 12; Mat. 8. 29. [g] Iob 21. 30; Iudas 13.

5 Ac [h] onid arbedodd efe yr hen fyd, eithr Noë, pregethwr cyfiawnder, a gadwodd efe ar ei wythfed, [i] pan ddug efe y diluw ar fyd y rhai anwir;

[h] Gen. 6. 8; Heb. 11. 7. [i] 2 Pedr 3. 6.

6 A [k] chan droi dinasoedd

[k] Gen. 19. 24, 25, 28. Esa. 13. 19; Iudas 7.

hon, a'r rhai dilynol, amryw engreifftiau parotoawl, fel megys i dynu casgliad cyffredinol oddi wrthynt—y diluw, dinystr dinasoedd y gwastadedd: etto ni chawn y casgliad yn ffurfiol, er ei fod yn cael ei gynnwys yn *adn.* 7—9; ac yno y mae yn ddyblyg—gwaredigaeth y cyfiawn, a dinystr yr annuwiol. Nid *yr* angylion ydyw y Groeg, ond angylion: er mor uchel oeddynt, nid arbedwyd hwynt pan bechasant. Yn *Iudas* 6, ceir chwaneg o fanylion eu cyfeiliornad. *Eithr eu taflu hwynt i uffern.*—Un gair, a hwnw i'w gael yn unig yn y fan hon, sydd am yr holl ymadrodd hwn. Tardda y ferf hon o'r sylweddair *tartarus*, a golygai gan y beirdd paganaidd y lle isaf mewn natur, yr hwn sydd yn oïnadwy o herwydd ei dywyllwch a'i oerni. Felly rhaid iddo olygu yma y carchar a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion. *A'u rhoddi i gadwynau tywyllwch.*—Neu eu cyfiwyno fel barnwr i law y swyddogion i'w cospi. Yn lle "cadwynau tywyllwch," dewisa Alford air arall pur debyg i hwn yn y gwreiddiol, yn golygu ogofâau tywyllwch, a thybia mai'r ysgrifwyr a newidiasant y gair i gyttuno yn well â *Iudas 6;* "cadwynau tragwyddol dan dywyllwch:" y tywyllwch yn ddiau yw y cadwynau. Nid ydyw hyn yn golygu, fel y sylwa Bengel, eu bod wedi eu cyfyngu yn holiol i uffern. "Yr oedd yn bossibl iddynt, er eu bod yn meddiant *tartarus*, gael tramwy i'r ddaear (*Luc* viii. 31; *Eph.* ii. 2; *Dat.* ix. 11, 14," &c.) fel y gall caethwas rhyfel gael caniatâd i rodio tu allan i fangre ei gaethiwed. *I'w cadw i farnedigaeth.*—Y mae Iudas yn fwy manwl, "i farn y dydd mawr." A yw hyny mewn golwg gan Pedr yma, nis gellir ei benderfynu.

5. *Ac onid arbedodd efe yr hen fyd.*—Nid yw yr enghraifft hon gan Iudas. Am y rheswm dros y gwahaniaeth, ynghyd â neillduoliou ereill am y ddau apostol, gwel y sylwadau rhagarweiniol. "Yr hen fyd:"—cyn y diluw. *Eithr Noë, pregethwr cyfiawnder, a gadwodd efe ar ei wythfed.*—Yr oedd athrawon ffyddlawn yn nghanol anianoldeb mawr yr hen fyd. Yr oedd Noah felly yn arbenig, ac nid anghofiodd yr Arglwydd ei waith a'i lafurus gariad; felly hefyd cynnwysir yn yr enghraifft hon, er na chrybwyllir, y bydd y rhai a giliant oddi wrth ffyrdd y gau athrawon yn ddiogel rhag y farn a ddisgyn arnynt. "Ar ei wythfed:" efe, gyda saith ereill, ei deulu—ffurfymadrodd tra chyffredin yn yr iaith Roeg. Heb law bod yn gyfiawn ei hun, annogai y byd o'i gwmpas i ymarfer cyfiawnder, er mwyn diangc rhag barn Duw. Fe'i cadwyd ef, a'i deulu, rai o honynt, yn ddiau, yn ei gysgod ef. *Pan ddug efe y diluw ar fyd y rhai anwir:*—neu ddiluw ar fyd o rai anwir. Nid ydoedd yn rhy dda ddistadl i ennill ei sylw yn nghanol annuwioldeb mor gyffredinol. Dengys hyn i'r annuwiol, er i'r duwiol gael eu cadw, nad ydynt hwy i obeithio bob amser cael diangc yn eu cysgod

Sodom a Gomorrah yn lludw, a'u damniodd *hwy* â dymchweliad, gan *eu* gosod yn esampl i'r rhai a fyddent yn annuwiol;

[1]Gen. 19. 16—22; 1Cor. 10. 13. 7 Ac a [1]waredodd Lot gyfiawn, yr hwn oedd mewn gofid trwy anniwair ymarweddiad yr anwiriaid:

8 (Canys y cyfiawn hwnw yn trigo yn eu mysg hwynt, yn gweled ac yn clywed, ydoedd yn poeni ei enaid cyfiawn o ddydd i ddydd trwy *eu* hanghyfreithlawn weithredoedd *hwynt*)

9 Yr Arglwydd [m]a fedr wared [m]1 Cor. 10. 13.
y rhai duwiol rhag profedigaeth, [n]a chadw y rhai anghyfiawn i [n]Iob 21. 30. Diar. 16. 4.
ddydd y farn i'w poeni:

10 Ac yn benaf y rhai sydd yn rhodio ar ol y cnawd mewn chwant aflendid, ac yn diystyru llywodraeth. Rhyfygus *ydynt*, cyndyn; nid ydynt yn arswydo cablu urddas:

11 Lle nid yw yr angylion, y rhai sydd fwy mewn gallu a nerth, yn rhoddi cablaidd farn yn eu

---

6. *A chan droi dinasoedd Sodom a Gomorrah yn lludw.*—Y ddwy hyn oeddynt y dinasoedd penaf yn y gwastadedd. Cymmerid i mewn y rhai ereill oeddynt yn euog o'r un pechodau o dan yr un farn. Y mae y disgrifiad hwn o waith yr Arglwydd yn eu troi yn lludw yn cyfatteb yn hollol â *Gen.* xix. 24, 25, 29, lle y dywedir iddo wlawio brwmstan a thân allan o'r nefoedd. *A'u damniodd hwy â dymchweliad.*—Neu, a'u condemniodd â dymchweliad. Yn ei waith yn eu troi yn lludw, gweithredodd yn unol â barn ystyriol; ac fe allai fod y dymchweliad pellach yma yn cyfeirio at drylwyrder y dinystr, eu gorchuddiad gan y Môr Marw. *Gan eu gosod yn esampl i'r rhai a fyddent yn annuwiol.*—"Yr oeddynt yn gofadail arosol o Dduw, ac o farn ddwyfol." —*Bengel.*

7. *Ac a waredodd Lot gyfiawn.*—Nid yw Iudas yn sylwi ar waredigaethau yr Arglwydd, ac am hyny gadawodd hyn allan. Y mae Pedr drwy y llythyr oll yn cyssylltu rhybudd âg annogaeth. Ceir crybwylliadau am ymddygiadau cyfiawn Lot a'i bregethiad o gyfiawnder yn *Gen.* xix. 2 a 7. *Yr hwn oedd mewn gofid trwy anniwair ymarweddiad yr anwiriaid.*—Y mae y gair am "fod mewn gofid," yn un cryf. Golyga yn gyntaf gwisgo i lawr, neu flino allan gan lafur; wedi hyny, gorthrymu; ac yn mhellach, blino un yn annioddefol. Felly yr oedd Lot, "trwy ymarweddiad y rhai diddeddf, mewn trythyllwch." Cyfeiria hyn at eu gwaith yn pechu yn erbyn naturiaeth.

8. *Canys y cyfiawn hwnw yn trigo yn eu mysg hwynt.*—Eglurir yn yr adnod hon yr achos o ofid Lot gyfiawn, a pha fodd yr oedd annuwioldeb y Sodomiaid yn dylanwadu arno. Yn hyn hefyd yr oedd ei gyfiawnder yn disgleirio, ac yn rhoddi cyfrif i raddau am waredigaeth yr Arglwydd iddo. Awgrymir hefyd mai trwy gyffelyb ymddygiad etto y gellir disgwyl ffafr a nawdd y Goruchaf. *Yn gweled ac yn clywed, ydoedd yn poeni ei enaid cyfiawn o ddydd i ddydd trwy eu hanghyfreithlawn weithredoedd hwynt.*—Yr oedd annuwioldeb y dinasoedd yn fawr iawn, yn amlwg i olwg, ac yn ferwindod i glustiau Lot gyfiawn tra y bu yn trigo yn eu mysg. Dywedir yma mai efe ei hun oedd yn poeni yn weithredol ei enaid cyfiawn. Nid oes fodd i ni gamgymeryd yr ystyr. Yr argraph oddi allan ar ei feddwl oedd yn cynnyrchu y gofid fel yr achos cyntaf. Ond ni buasai yr argraph yn effeithio yr un fath ar bawb. Elfen hanfodol arall i beri iddo ofidio ydoedd ansawdd dduwiol ei galon—"Lot gyfiawn" ydoedd. Ac nid am ychydig amser y doluriwyd ei ysbryd yn y wedd hon; ond dywedir yma "o ddydd i ddydd," i ddangos cyfnod o ryw barhâd maith.

9. *Yr Arglwydd a fedr wared y rhai duwiol rhag profedigaeth.*—Yn yr adnod hon y ceir y casgliad llawn oddi wrth y tair enghraifft hanesiol a ddygwyd ger bron yn yr adnodau blaenorol. Yn y ddwy ddiweddaf, soniwyd am waredu Noah a Lot, yn gystal ag am ddinystr yr annuwiol; ac wrth hyn y gwelwn ystyr y casgliad dyblyg yn yr adnod hon. "Yr Arglwydd a feôr."—Groeg: 'Yr Arglwydd a ŵyr' pa fodd. Nid yn unig y mae ganddo ewyllys i wneyd, ond gallu a moddion, y tu hwnt i amgyffred dyn yn fynych. Y mae yn eu gwaredu "rhag profedigaethau;" *h.y.*, pob math o dreialon a dioddefaint daearol, yn ei amser da ei hun, ac yn rhoddi nerth iddynt i'w dwyn hefyd cyn eu gwaredu, fel y gwnaeth gyda Noah a Lot. *A chadw y rhai anghyfiawn i ddydd y farn i'w poeni.*—Nid "i'w poeni" yw y cyfieithiad goreu, ond 'gan eu poeni'—yr amser presennol. Cyn dyfodiad dydd y farn y maent yn ngafael y gosp, fel y sonir am yr angylion yn *adn.* 4; ond y pryd hwnw bydd y farn yn cael ei chyhoeddi yn derfynol, ac o herwydd uniad y corph â'r enaid nid ydyw yn annhebygol na bydd y boenedigaeth yn fwy.

10. *Ac yn benaf y rhai sydd yn rhodio ar ol y cnawd mewn chwant aflendid.*—Dyma y rhai a dderbyniant y farnedigaeth fwyaf. Wrth rodio ar ol y cnawd y golygir, bod â'r holl fryd i borthi y chwantau cnawdol yn gyffredinol; ac yn yr ymadrodd nesaf "mewn chwant aflendid," cyfyngir hyny at ddosbarth neilldual o bechodau y cnawd. *Ac yn diystyru llywodraeth:*—neu arglwyddiaeth. Yr un ymadrodd sydd yn *Iudas* 8. *Rhyfygus ydynt, cyndyn; nid ydynt yn arswydo cablu urddas.*—Heb law pechodau y cnawd a ddisgrifiwyd uchod, ceir yma etto bechodau y meddwl. "Rhyfygus ydynt:" meiddiant wneyd unrhyw beth; "cyndyn" hefyd, yn ufuddhau yn unig i'w hewyllys eu hunain. Arddangosant eu beiddgarwch hunanol drwy fod yn ddigon hyf i gablu urddas. "Ac yn cablu y rhai sydd mewn awdurdod;" *Iudas* 8. Y mae amryw farnau am ystyr "urddas" yma, ac yn Iudas: yr un ydyw y gair gwreiddol yn y ddau lythyr. Tybia Calvin, Beza, &c., mai brenhinoedd ac ymherawdwyr y ddaear a olygir; Œcumanius, Hammond, ac ereill, mai llywodraethwyr eglwysig ac apostolion. Ond wrth ystyried y cymmhwysiad a wneir yma yn yr adnod nesaf, ac yn *Iudas* 9, 10, y mae yn rhaid y golygant urddas nefol ac angylaidd, fel y ceir sylwi etto.

11. *Lle nid yw yr angylion, y rhai sydd fwy mewn gallu a nerth.*—"Lle:" *h.y.*, mewn achosion y gallent wneyd hyny. Mwy na phwy mewn gallu a nerth yw yr angylion? Mwy na'r annuwiolion hyn y cyfeiria Pedr yma atynt. Dyry un eglurhâd rhy arthrechol ar y geiriau, pan y

herbyn hwynt ger bron yr Arglwydd.

12 Eithr y rhai hyn, megys anifeiliaid anrhesymol anianol, y rhai a wnaed i'w dal ac i'w dyfetha, a gablant y pethau ni wyddant oddi wrthynt, ac a [o]ddyfethir yn eu llygredigaeth eu hunain;

[Diar. 14. 22: Ioan 8. 21; Gal. 6. 8.]

13 Ac a dderbyniant [p]gyflog anghyfiawnder, a hwy yn cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch. Brychau a meflau *ydynt*, yn ymddigrifo yn eu twyll eu hunain, gan wledda gyda chwi;

[p] Esa. 3. 11; Rhuf 2. 8, 9. Phil. 3. 19; Heb. 2. 2, 3; Dad. 18. 6.

14 A llygaid ganddynt yn llawn godineb, ac [q]heb fedru peidio â phechod; yn llithio eneidiau

[q] Esa. 1. 16; Mat. 12. 34; Ioan 5. 44.

dywed "angylion, y rhai sydd fwy mewn gallu a nerth na'r angylion ereill," gan gyfeirio at yr archangel Michael, yn ol Iudas. Ond nid rhaid wrth yr esboniad hwn, gan y cynnwysir yr archangel yn yr angylion, a'r cyfan yn fwy na dynion. *Yn rhoddi cablaidd farn yn eu herbyn hwynt ger bron yr Arglwydd.*—Diau mai yr enghraifft am y ddadl rhwng Michael a'r diafol yngbylch corph Moses sydd gan Pedr mewn golwg yma. Nid yw yn eu nodi, am eu bod eisoes o bossibl yn hysbys i'w ddarllenwyr. Yn erbyn pwy ni roddodd yr angylion gablaidd farn? Yn erbyn urddas yn ddiau. Nis gall olygu yn erbyn yr annuwiolion, yn ol y rhagenw gwreiddiol, nac yn eu herbyn eu hunain; o blegid byddai hyny yn ddiystyr heb rhyw gyfeithiad arall. Felly y gwna rhai o'r Pabyddion: "Nid yw yr angylion, er yn fwy mewn gallu a nerth, yn gallu dwyn (*h. y.*, dioddef) y farn ofnadwy yn eu herbyn eu hunain:" pa faint llai, meddant, yr hereticiaid —Luther, Calvin, Bucer, &c.? Ond y meddwl, fel y cadarnheir ef hefyd gan Iudas, ydyw, nad yw yr angylion yn rhoi barn o gabledd yn erbyn y rhai sydd mewn urddas, megys na wnaeth Michael gyda'r diafol, pan yn sefyll ger bron yr Arglwydd. Ond yr ymofyniad rhesymol yma etto ydyw, Yn mha ystyr y gellir dywedyd fod y diafol mewn urddas? Tybia Alford mai cyfeiriad sydd yma at yr angylion drwg wedi cwympo o'u sefyllfa nefol, ond yn cael eu cyfrif yn ol eu cyfiwr hanfodol fel meibion gogoniant—fel y disgrifia Milton Satan; "â'i orddigonedd o ogoniant wedi ei dywyllu." Tybia Bengel mai at yr angylion drwg fel creaduriaid urddasol y cyfeirir. "Y mae gan yr angylion," meddai, "a bechasent, fel creaduriaid Duw, rhyw ddaioni, fel y dywed Gerhard ar yr adnod hon; ac yn eu natur ardderchog, yr hon a dderbyniasant gan Dduw, y maent yn cadw nodweddau annileadwy o fawredd: cymmharer *Luc* x. 18, 19; *Mat.* xii. 26, 29; *Ioan* xiv. 30; 2 *Cor.* iv. 4. Os mawr yw urddas yr angylion, beth fydd eiddo y saint, i'r rhai y rhoddwyd gallu i farnu angylion? 1 *Cor.* vi. 3, &c." "Nid ydynt yn arswydo cablu urddas," y rhai o'u cymmharu â'r angylion o ran gallu a nerth, ydynt wan ac eiddil. Nid ydyw yr angylion sanctaidd yn cablu angylion drwg ger bron yr Arglwydd. Maent yn ymattal rhag barnu, gan faint eu parch i'r Arglwydd, eu Barnwr, a'i bresennoldeb."—*Bengel.* "Cerydded yr Arglwydd dydi," meddai Michael wrth y diafol ger bron yr Arglwydd.

12. *Eithr, y rhai hyn megys anifeiliaid anrhesymol anianol.*—Cyferbynir yr annuwiolion yma â'r angylion:—ac O! y fath wahaniaeth sydd rhyngddynt! "Megys anifeiliaid," ydyw y gair cryf a arferir. Hwy sydd wedi eu darostwng eu hunain. *Y rhai a wnaed i'w dal ac i'w dyfetha.* —Disgrifiad yn gyntaf o'r anifeiliaid. Cyfeitha Alford yr adnod hyd yma, "Ond y rhai hyn, fel anifeiliaid afresymol, ydynt wedi eu geni wrth eu natur i'w dal ac i'w dyfetha." Felly y mae yr annuwiol yn cael eu dal gan chwantau yn gaeth i'r ddaear, yn dra gwahanol i rai yn ceisio rhyddid a gogoniant y nefoedd, ac yn cael eu dyfetha hefyd yn y pen draw yn eu llygredigaeth eu hunain. *A gablant y pethau ni wyddant oddi wrthynt.*—Yn hyn hefyd y maent fel "anifeiliaid anrhesymol," ond fod eu hanwybodaeth yn fwriadol. *Ac a ddyfethir yn eu llygredigaeth eu hunain.*—Golyga hyn mewn rhan fod eu bywydau llygredig ar y ddaear yn eu dinystrio; ond rhagddywedir hefyd y bydd iddynt barhau yn eu gyrfa o bechod nes cyrhaedd cyflawn ddinystr yn y farwolaeth dragywyddol. Llygredigaeth fydd cosbedigaeth llygredigaeth, a hyn fydd dinystr y rhai annuwiol. Dylasai dechreu yr adnod nesaf fod i mewn yma.

13. *Ac a dderbyniant gyflog anghyfiawnder.*—'Cyflog am anghyfiawnder.' "Dinystr llawn o drueni yw cyflog cyfiawn y dinystr a achosir gan anwiredd."—*Bengel. A hwy yn cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch.*—Cyttunir yn gyffredin nad ydyw y cyfieithiad hwn yn gywir: yn lle "beunydd," dylasai fod 'moethau tros ddiwrnod.' Ond er cyttuno ar y cyfieithiad, y mae amrywiaeth barn am yr ystyr gyda golwg am y diwrnod neu'r dydd. Tybia rhai mai cyfrif y "moethau" hyny, y rhai y maent yn ddigon digywilydd i'w hymarfer liw dydd, y maent "yn hyfrydwch." Bede a gyssyllta "dydd," â "hyfrydwch." "A hwy yn cyfrif moethau yn hyfrydwch, neu bleserau y dydd;" *h. y.*, y gwir bleserau, o'u gwahaniaethu oddi wrth bleserau y nos; sef, arferion pechadurus. Ond mwy naturiol nag un o'r eglurhadau hyn ydyw ystyr y cyfieithiad diwygiedig:—y maent yn cyfrif moethau tros ddiwrnod, neu funyd awr, fel eu hyfrydwch penaf, ac yn troi y sefydliadau mwyaf cyssegredig i borthi eu hunain â'r rhai hyny. *Brychau a meflau ydynt.*—"Brychau ynddynt eu hunain; meflau (anurddiadau), yn cynnhyrfu ereill i warthruddo yr eglwys ei hun: fel y mae brychau yn anurddo y peth mwyaf pryfderth, felly y maent hwythau eich cariad-wleddoedd."—*Bengel. Yn ymddigrifo yn eu twyll eu hunain:*—nen yn llawn glythineb yn eu twyll eu hunain. Gan y dywed Iudas, *adn.* 12, "Y rhai hyn sydd fyrchau yn eich cariad-wleddoedd chwi, yn cydwledda â chwi," a bod y gair am "twyll" (*apatais*), yn iled debyg i'r gair am "gariad-wleddoedd (*agapais*), fe dybir fod llwgr yn y darlleniad yma yn Pedr, ac y dylasai fod "yn ymddigrifio neu lythinebu yn eu cariad-wleddoedd." Y maent yn defnyddio y cariad-wleddoedd yn achlysuron i ymarfer glythineb a difyru eu hunain â phieserau munyd awr. *Gan wledda gyda chwi.* —Felly Iudas. Y maent yn gwneyd sefydliad sanctaidd yn wledd bechadurus.

14. *A llygaid ganddynt yn llawn godineb.*—Groeg, fel ymyl y ddalen, o'r 'odineb-wraig.' Gymmaint oedd eu trythyllwch, fel yr oeddynt

anwadal: a chanddynt galon wedi ymgynnefino â chybydd-dra; plant *y* felldith:

[r] 1 Sam. 12. 23; 1 Bren. 18. 18; 19. 10; Diar. 28. 4; Act. 13. 10.

15 Wedi [r]gadael y ffordd uniawn, *hwy* a aethant ar gyfeiliorn, gan ganlyn ffordd Balaam *mab* Bosor, yr hwn a garodd [s]wobr

[s] Act. 1. 18.

anghyfiawnder;

[t] Num. 22. 22-28.

16 Ond efe a gafodd gerydd am ei gamwedd. [t]Asen fud arferol â'r iau, gan ddywedyd â llef

[u] Preg. 7. 25; Luc 6. 11.

ddynol, a waharddodd [u]ynfydrwydd *y* prophwyd.

[x] Iob 6. 17; Hos. 6. 4; Jud. 12, 13. Eph. 4. 14. Mat. 25. 30; Iudas 6, 13.

17 Y rhai hyn [x]ydynt ffynnonau diddwfr, [y]cymmylau a yrid gan dymmhestl; i'r rhai y mae [z]niwl tywyllwch yn nghadw yn dragywydd.

18 Canys gan ddywedyd chwyddedig *eiriau* gorwagedd, y maent hwy, trwy chwantau y cnawd, *a* thrythyllwch, yn llithio y rhai [a]a ddiangasai yn gwbl oddi wrth y rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn.

[a] Act. 2. 40.

19 Gan addaw rhyddid iddynt, [b]a hwythau eu hunain yn wasan-

[b] Ioan 8. 34; Titus 3. 3.

megys yn dychymygu gwrthddrychau i gyflawni eu trachwantau bob amser ger bron eu llygaid. Rhaid eu bod, yn ol yr holl ddisgrifiadau hyn, wedi myned i eithafion pell iawn yn eu drygioni. *Ac heb fedru peidio â phechod.*—Nid heb allu naturiol, ond heb fynu peidio: ac felly yr oedd eu mynych ymroddiad wedi gwanychu eu gallu naturiol hefyd. Gallai fod yma gyferbyniad â 1 *Pedr* iv. 1; "Yr hwn a ddioddefodd yn y cnawd a beidiodd â phechod." *Yn llithio eneidiau anwadal:*—neu, yn gosod maglau ar gyfer rhai y gwyddent nad oeddynt wedi en cadarnhau yn y ffydd, ac mewn awydd am ddiweddeb. Fe allai fod yma gyfeiriad at y "llygaid" a grybwyllwyd uchod, fel rhai o offerynau y temtiad. *A chanddynt galon wedi ymgynnefino á chybydd-dra.*—Nid yn unig yr oedd eu llygaid yn ddrwg, ond yr oedd y galon yn llygredig; ac o hon y tarddai yr holl ddrwg feddyliau a drwg arferion. Dangoswyd, yn *adn.* 3, gyssylltiad cybydd-dod â holl weithrediadau y gau athrawon hyn. *Plant y felldith.*—Melldith oedd yn eu haros: ac fel y dywed Bengel, "Y mae melldithio yn arbenig yn dilyn cybydd-dod.".

15. *Wedi gadael y ffordd uniawn, hwy a aethant ar gyfeiliorn.*—Ffordd gonestrwydd ac uniondeb. Gwir grefydd ydyw y ffordd uniawn, a phechod yw y cyfeiliornad o honi. *Gan ganlyn ffordd Balaam, mab Bosor.*—Tybia Alford fod yma gyfeiriad yn yr ymadrodd at waith Balaam yn cymmeryd taith oedd yn anfoddhaol i Dduw. Mab Beor y gelwir Balaam yn *Num.* xxii. 5; a thybir mai llygriad o Beor ydyw Bosor. Trwy fod y llythyren s wedi ei rhoddi i mewn, yr hyn oedd yn gyffredin gyda'r Caldeaid, tyn un esboniwr y casgliad mai o Babilon yr ysgrifenwyd y llythyr hwn. *Yr hwn a garodd wobr anghyfiawnder.*—Mewn llawer o bethau yr oedd y gau athrawon hyn yn debyg i Balaam; megys mewn hôni bod yn weision i Dduw, mewn llithio ereill i bechod, yn enwedig i odineb, ond yn benaf yma, mewn gwneyd y cwbl oddi ar gybydd-dod —cael "gwobr anghyfiawn" am wneuthur yr hyn oedd ddrwg.

16. *Ond efe a gafodd gerydd am ei gamwedd.*—Yn llythyrenol, 'am ei gamwedd ei hun.' Mewn dull gwyrthiol y cafodd ef; ac felly byddai y rhai hyn yn sicr o gosp. *Asen fud arferol â'r iau, gan ddywedyd â llef ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y prophwyd.*—Yn llythyrenol 'un' (*h. y.*, anifail), "mud arferol â'r iau;" ond daeth hyn yn gyfystyr âg asen, am mai ar y creaduriaid hyn y marchogid yn Ngwlad Canaan. Nid yr asen a geryddodd Balaam, ond yr angel; etto y mae yr adnod hon yn gwbl gysson, gan fod gwaith yr asen yn llefaru yn ddigon o gerydd yn ngwyneb ynfydrwydd y prophwyd, a dylasai ddefnyddio yr awgrym i droi yn ol, cyn dyfod i gyffyrddiad âg angel Duw. Yr oedd y gau athrawon yn cael digon o rybuddion, ond er hyny myned yn mlaen yr oeddynt, nes yn y diwedd ddyfod i gyffyrddiad â Duw ei hun. Dywedir "mud" am yr asen yn wrthgyferbyniol i "ddyweyd â llef ddynol."

17. *Y rhai hyn ydynt ffynnonau diddwfr.*—Yn Iudas, *adn.* 12, "cymmylau diddwfr;" ond yr un ystyr sydd yma i "ffynnonau diddwfr:" y rhai a ddyleut roddi dwfr (y tarddle), ac etto yn siomedig heb roddi: *adn.* 18. *Cymmylau a yrid gan dymmestl.*—Etto, yn ddiddwfr, ac yn cael eu gyru yn rhy chwyrn gan y corwynt i gael hamdden i arliwys y gwlaw: cyfeiriad o bossibl at eu hamcan a'u hymddygiad i gludo pob peth o'u blaen. *I'r rhai y mae niwl tywyllwch yn nghadw yn dragywydd.*—Yn *Iudas* 2, "sêr gwibiog sydd yn nghadw," &c. Y mae y disgrifiad yn briodol am y naill a'r llall: sêr wedi tywyllu yno, cymmylau tywyll yma—yn tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth, ac am hyny y gosp briodol yw "niwl tywyllwch," &c. Wrth hyn y golygir yn ddiau y carchar a ddarparwyd i ddiafol ac i'w angylion, a dynion drygionus yn cario allan ei amcanion.

18. *Canys gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd.*—Fel hyn y maent yn ffynnonau diddwfr, yn ymffrostio mewn geiriau chwyddedig, ond heb sylwedd ynddynt: gwagedd, ofereedd, yw y cyfan. *Y maent hwy, trwy chwantau y cnawd, a thrythyllwch.*—Yn hytrach, "y maent mewn chwantau" (dyma yr elfen y maent megys yn byw ynddi) "trwy drythyllwch y cnawd" (a dyma y moddion sydd ganddynt i gyrhaedd eu hamcan). *Yn llithio y rhai a ddiangasai yn gwbl oddi wrth y rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn.*—Nid "yn gwbl" ydyw y gair yn yr ysgrifiyfrau goreu, ond 'o'r braidd.' Y mae y ddau air gwreiddiol mor debyg i'w gilydd fel y gallesid yn hawdd eu camgymmeryd gan yr ysgrifwyr. Y rhai oedd o'r braidd wedi newid eu buchedd, a diange oddi wrth ddylanwad y rhai oedd yn byw ar gyfeiliorn, a syrthient yn ysglyfaeth i'r twyllwyr hyn. Golyga Bengel mai y gau athrawon hyn, neu rai ereill, a olygir wrth y "rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn;" ond mwy naturiol meddwl mai y rhai y cyd-drigent â hwynt a olygir—y paganiaid.

19. *Gan addaw rhyddid iddynt.*—Mewn rhyw ffordd wahanol i addysg yr efengyl. Yn y wedd hon yr oeddynt yn ffynnonau diddwfr, ac yn llefaru geiriau gwagedd. *A hwythau eu hunain yn wasanaethwyr llygredigaeth.* — Afresymol hollol oedd i gaethion addaw rhyddid i gaethion, neu i'r dall dywys y dall. Soniasai Paul, yn *Rhuf.* viii. 21, am "gaethiwed llygredigaeth,"

aethwyr llygredigaeth: canys gan bwy bynag y gorchfygwyd neb, i hwnw hefyd yr aeth efe yn gaeth.

20 Canys os, wedi iddynt ddiangc oddi wrth halogedigaeth y
[a]2 Pedr 1. 2. byd, [c]trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, y rhwystrir hwy drachefn â'r
Num. 24. 20; 1 Phil 3. 19. pethau hyn, a'u gorchfygu; [d]aeth diwedd y rhai hyny yn waeth na'u dechreuad.

21 Canys gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag, wedi *ei* hadnabod, troi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd yr hwn a draddodwyd iddynt.

[b]Diar. 26. 11. 22 Eithr digwyddodd iddynt yn ol y wir ddiareb, [b]Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun;

ac am "ryddid plant Duw." Perthynai y cyntaf i'r gau athrawon hyn, am hyny nis gallent ddiogelu yr olaf i'w dysgyblion. "Wrth lygredigaeth, y golygir pechod, fel dirywiad moesol, ac yn atwain i ddinystr."—*Alford.* *Canys gan bwy bynag y gorchfygwyd neb, i hwnw hefyd yr aeth efe yn gaeth.*—Hyn oedd arfer gorchfygwyr mewn rhyfel, gwneyd y gorchfygedig yn gaethion. Y mae ymresymiad y frawddeg hon yn cael ei olygu gan Paul yn *Rhuf.* vi. 16, ac yn *Ioan* viii. 34. Yr oedd y rhai hyn yn gaeth i lygredigaeth, neu bechod; am hyny, wedi eu gorchfygu ganddo (o blegid nid ydyw neb yn caru bod yn gaeth, ond caethion o orfod ydynt) nis gallent ymryddhau oddi wrth ei awdurdod arnynt, nac felly oddi wrth ei ganlyniadau.

20. *Canys os, wedi iddynt ddiangc oddi wrth halogedigaeth y byd.*—Pwy a olygir yma, ai y gau athrawon, ynte y rhai a dwyllwyd ganddynt? Tybia Bengel mai yr olaf, fel yn niwedd *adn.* 18. Ond gan mai y gau athrawon a ddisgrifiwyd ddiweddaf, a'u bod hwy unwaith wedi bod yn mhellach yn ffordd cyfiawnder, fel dysgawdwyr, gwell genym gyssylltu y geiriau hyn â hwy. *Trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist.*—A yw hyn yn golygu gwir adnabyddiaeth, fel ag i ddysgu cwymp oddi wrth ras yn hanes y gau athrawon hyn? Y mae *adn.* 22 yn dysgu i ni nad oedd yma wir ddychweliad; etto rhyw gymmaint o adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu, fel ag i achosi diwygiad yn eu buchedd am ychydig amser. Cawn ddisgrifiad, yn *Heb.* vi. 4—6, o rai wedi cael dylanwadu arnynt yn mhell gan addysg yr efengyl, ac etto heb fod yn gadwedigol. Felly yr oedd y rhai hyn wedi diangc am ychydig amser oddi wrth halogedigaeth y byd. *Y rhwystrir hwy drachefn d'r pethau hyn, a'u gorchfygu:*—neu, rhwydir hwy yn y pethau hyn, sef y llygredigaethau a orchfygir ganddynt hwy, yn lle eu bod hwy yn orchfygwyr drwy yr Achubwr Iesu Grist. *Aeth diwedd y rhai hyny yn waeth na'u dechreuad.*—Y maent yn myned yn mhellach mewn annuwioldeb, ac yn fwy anobeithiol am eu hadferiad nag o'r blaen. Hyn oedd addysg yr Iesu ei hunan (*Mat.* viii. 45), a'r hyn a gyfeiriwyd ato eisoes yn yr Hebreaid.

21. *Canys gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder.*—"Gwell," am na buasai iddynt ddiwedd gwell. Wedi dianrhydeddu "ffordd cyfiawnder" (hyny yw, gwir grefydd), a a'r hwch wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom.

PENNOD III.

Y mae efe yn eu sicrhau hwy am ddyfodiad Crist i'r farn, yn erbyn y gwatwarwyr a ymresymai yn y gwrthwyneb; 8 gan ryboddio y rhai duwiol i brysuro eu hedifeirwch, o ran hir-amyned Duw: 10 ac y mae yn dangos pa fodd y dinystrir y byd: 11 ac yn eu hannog hwy i sancteiddrwydd buchedd, trwy ddisgwyl hyny: 15 a hefyd i feddwl, mai er mwyn eu hiachawdwriaeth hwynt y mae Duw yn oddefgar, megys yr ysgrifenodd Paul a'yn'.

YR ail epistol hwn, anwylyd, yr ydwyf yn awr yn ei ysgrifenu atoch; yn yr hwn [a]yr ydwyf yn cyffroi eich meddwl puraidd, trwy ddwyn ar gof *i chwi:* B. A. 70. [a]2 Tim. 1. 6.

rhedeg yn mhellach mewn rhysedd, mae yn rhaid y teilyngent farnedigaeth fwy. *Nag, wedi ei hadnabod, troi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd yr hwn a draddodwyd iddynt.*—"Wedi adnabod ffordd cyfiawnder:" wedi cael eu haddysgu yn nhrefn yr iachawdwriaeth. Yma, dynodir hi fel "gorchymyn sanctaidd," am mai dyben eithaf ei haddysg ydyw "fel y byddem sanctaidd." Y mae hyn yn dra gwahanol i'r llygredigaeth a ddysgent ac yr ymarferent âg ef: yr hyn oedd yn hollol groes i'r hyn a draddodwyd iddynt gan yr apostolion.

22. *Eithr digwyddodd iddynt yn ol y wir ddiareb.*—Dyfynir dwy ddiareb yma, ond yr un yw eu hystyr. Gan nad yw yr ail, am yr hwch, i'w chael yn yr Hen Destament, nid ydyw yn hawdd penderfynu a ydyw y gyntaf chwaith wedi ei dyfynu o lyfr y Diarhebion (*pen.* xxvi. 11), ai ynte coffau dywediadau cyffredin oedd yn y wlad y mae. Wrth ystyried fod Pedr yn ei lythyr cyntaf wedi cyfeirio gynnifer o weithiau at lyfr y Diarhebion (*pen.* i. 7; ii. 17; iv. 8. 18), tybia Bengel fod yma gyfeiriad at ddiareb sydd yno; ac yn hyn gwel un ddadl arall dros awduriaeth yr epistol hwn gan Pedr, fel y cyntaf. Gan iddynt ddychwelyd at eu hen arferion, dengys na newidiwyd eu hamcan, mwy nag eiddo y ci a'r hwch, er pob glanhâd allanol.

Pennod III.

Cynnwysiad.—Amcan yr epistol yw cadarnhau am ddyfodiad Crist yn ngwyneb y gwatwarwyr a wawdient hyn (1—5). Gwrthbrofiad o'u haeriadau, oddi wrth hanes y Beibl am greadigaeth y byd (5—7). Ail wrthwynebiad oddi wrth uchder meddyliau Duw (8—10). Sicrwydd, sydynrwydd, ac effeithiau dydd yr Arglwydd, ynghyd âg annogaethau gyda golwg arno (10—18).

1. *Yr ail epistol hwn, anwylyd, yr ydwyf yn awr yn ei ysgrifenu atoch.*—Y mae safle y geiriau "ail," ac "yn awr, yn y frawddeg yn dangos eu bod yn bwysig. Golygant fod yr awdwr yn caniatau i'r ail lythyr hwn gael ei anfon yn fuan ar ol y cyntaf; ond y mae ei amgylchiadau ef a hwythau yn ddigon o reswm am hyny. Yr oedd yn tynu tuag adeg gosodiad ei dabernacl o gnawd heibio, ac fel y dywed Bengel—"Ysgrifenwyd y saith Epistol Cyffredinol gan yr apostolion ychydig cyn eu marwolaeth. Tra yr oeddynt

2 Fel y byddo cofus genych y geiriau a rag-ddywedwyd gan y [b] Eph. 2. 20. prophwydi sanctaidd, [b] a'n gorchymyn ninnau, apostolion yr [c] 2 Cer. 4. 2; Jud. 16, 18. Arglwydd a'r Iachawdwr:
[d] Gen. 19. 14; Esa. 5. 18, 19; Ier. 5. 13; 17. 15; Mal. 2. 17; Luc 12. 45. 3 Gan wybod hyn yn gyntaf, y daw yn y dyddiau diweddaf [d] watwarwyr, [c] yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain,
4 Ac yn dywedyd, [d] Pa le y mae

byw, nid oedd gymmaint o angen am lythyrau." *Yn yr hwn yr ydwyf yn cyffroi eich meddwl purddaidd trwy ddwyn ar gof i chwi.*—Yn llythyrenol, 'yn y rhai;' hyny yw, yn mhob un o'r ddau, ond yn ddiau yma yn benaf. Dywedwyd yr un syniad o'r blaen: *pen.* i. 13. Nid oedd eisieu eu hysbysu o'r newydd, fel y rhoddir ar ddeall yn *adn.* 3; dim ond ei ddwyn ar gof iddynt: a chan fod ganddynt feddwl puraidd, gwyddai y byddai ei ddwyn ar gof iddynt, heb unrhyw ymresymiad pellach, yn foddion i'w cyffroi i wyliadwriaeth a gweithgarwch. "Meddwl puraidd:" —sef, yr ewyllys a'r serchiadau wedi eu troi at Ddduw, ac heb eu halogi gan unrhyw ddybenion cnawdol a hunanol, nac âg unrhyw gyfeiliornad.

2. *Fel y byddo cofus genych y geiriau a ragddywedwyd gan y prophwydi sanctaidd.*—Prophwydi yr Hen Destament, at y rhai y cyfeiriodd o'r blaen: *pen.* i. 19. *A'n gorchymyn ninnau, apostolion yr Arglwydd a'r Iachawdwr.* — Os "ninnau" ydyw y gair yma i fod, defnyddir ef mewn ffordd o wrthwynebiad i'r prophwydi:—hwy wedi marw, ond yr apostolion yn fyw. Yn y rhan fwyaf o'r ysgrifly'rau hynaf a goreu, "chwi" neu "chwithau" ydyw. Ac fel hyn y dewisa Alford gyfeithu y geiriau: "A gorchymyn yr Arglwydd a'r Iachawdwr, wedi ei roddi gan eich apostolion chwi." Wedi ei roddi yn wreiddiol gan yr Arglwydd, a'i ail adrodd gan yr apostolion. Nid ydyw Pedr yn eithrio ei hun oddi wrth yr apostolion wrth ddywedyd 'eich' apostolion; ond cyfeiria at y rhai hyny o honynt a bregethasant yn uniongyrchol i'r dyeithriaid ar wasgar. Geilw Paul ei hun yn "apostol y Cenhedloedd;" *Rhuf.* xi. 13.

3. *Gan wybod hyn yn gyntaf.*—Geiriau prophwydoliaethol oedd yr hyn y dywedir yma eu bod yn eu gwybod. Yr oeddynt yn eu gwybod drwy bregethau yr apostolion. Felly y mae Iudas yn egluro *adn.* 17, 18. *Y daw yn y dyddiau diweddaf watwarwyr.*—Yn ol *Heb.* i. 1, ac fel yr eglurwyd o eiriau Pedr ei hun yn ei epistol cyntaf (*pen* i. 20), golyga hyn ddiwedd yr oruchwyliaeth bresennol, gan fod y rhif liosog "dyddiau" yn cael ei arfer yma. Golyga gyfnod pennodol, tua diwedd yr oruchwyliaeth. Er fod y "gwatwarwyr" i'w cael yn nyddiau Pedr, os yw yr esboniad uchod yn gywir, gellir disgwyl chwaneg o honynt cyn diwedd y byd. Ystyr lythyrenol y gair a gyfeithir yma "gwatwarwyr" yw 'chwareuwyr;' rhai yn trin pethau pwysig dan gellwair, fel y chwareuwyr yn eu harddangosiadau. Mewn rhai ysgrifly'rau, ceir yr ymadrodd yn ddyblyg, "gwatwarwyr mewn gwatwaredd." *Yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain.*—Y mae hyn yn esboniad boddhaol am eu gwatwar. Mynai llawer anffyddiwr etto alltudio y Goruchaf oddi ar orseddfainge y greadigaeth er mwyn iddynt hwy gael "rhodio yn ol eu chwantau eu hunain" yn ddigerydd.

addewid ei ddyfodiad ef? canys er pan hunodd y tadau, y mae pob peth yn parhau fel *yr oeddynt* o ddechreuad y creadigaeth.

5 Canys y mae hyn yn ddiarwybod iddynt o'u gwirfodd, mai [e] trwy air Duw yr oedd y nefoedd [e] Gen. 1. 6, 9; Salm 24. 2; Heb. 11. 3. er ys talm, a'r ddaear yn cydsefyll o'r dwfr, a thrwy y dwfr.
6 O herwydd pa ham y byd a

4. *Ac yn dywedyd, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?*—Am nad ydoedd wedi ei chyflawni, nac yn ol eu bryd hwy i'w chyflawni, meiddient hôni nad ydoedd yn werth sylw. Yr oeddynt hwy yn gwybod am yr addewid, er nad ofalent am dani ond i'w chondemnio; a'u meddwl oedd addewid i'r duwiolion. Nid oedd berygl i neb gamgymmeryd mai yr Iesu a olygir yma oedd y person oedd wedi ei addaw i ddyfod. "Tybient yn ddianrhydedd arnynt ei enwi." — *Bengel. Canys er pan hunodd y tadau.*—Y "tadau" yma oedd y rhai a gawsent yr addewidion: ni ddylid ei gyfyngu i dduwiolion yr Hen Destament, ond hefyd i'r rhai a gawsant addewidion o dan y Testament Newydd, a'r rhai yn briodol a elwid yn "dadau," o'u cymmharu âg amser ac oedran y gwatwarwyr. *Y mae pob peth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y creadigaeth.*—Yn hytrach 'fel hyn o ddechreuad,' &c. Yr anhawsder ynglŷn â grammadeg yr adnod hon yw gweled pa ran o honi sydd yn cyfeirio at huniad y tadau, a pha ran at "o ddechreuad y creadigaeth." Fe allai na cheir dim mwy boddhaol nag eglurhâd Alford: "Er marwolaeth y rhai y rhoddwyd yr addewidion iddynt, y mae pob peth (nefoedd, dwfr, a daear), wedi parhau, fel yr ydym ni yn awr yn gweled (ac megys y maent wedi parhau hyd yn oed o flaen y tadau hyny), o ddechreuad y creadigaeth. Yn addefiad y gwatwarwyr hyn, rhoddant ddigon o reswm nad oedd yn ammhosibl i'r addewid gael ei chyflawni yn ninystr yr holl greadigaeth. O blegid os bu dechreuad iddi, pa rwystr hefyd fyddai rhoddi terfyn arni."

5. *Canys y mae hyn yn ddiarwybod iddynt o'u gwirfodd.*—Nid eu haddefiad yn unig oedd yn gwrthbrofi eu rhyfyg, ond yr oedd hanes y byd, o'r hyn nad oeddynt anhysbys, yn ei wrthbrofi hefyd; ond yr oeddynt hwy yn wirfoddol yn ei guddio. *Mai trwy air Duw yr oedd y nefoedd er ys talm.*—Ar air Duw y rhoddir y pwys mwyaf yma. Hwn oedd yr achos o barhâd y nefoedd o'r dechreuad hyd y diluw—yn aros megys yr oeddynt. Dyma ystyr "y nefoedd er ys talm," y nefoedd cyn y diluw. *A'r ddaear yn cydsefyll o'r dwfr, a thrwy y dwfr.*—Neu, y mae y ddaear wedi ei ffurfio "o'r dwfr, a thrwy y dwfr." Trwy air Duw yr oedd hithau yn parhau ar ol ei ffurfio hyd y diluw. Am ffurfiad y ddaear o'r dwfr, y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn cyttuno. Casglwyd y dyfroedd i'r un lle, ac ymddangosodd y sychdir: fel hyn, ffurfiwyd y ddaear o'r dwfr. Wedi hyny cynnaliwyd y ddaear trwy y dwfr fel moddion, sef y dwfr hwnw oedd oddi ar y ffurfafen, yr hwn a ireiddia y ddaear â gwlaw a gwlybaniaeth. Trwy air Duw y bu hyn oll. Nid yn ol deddfau natur yr oedd y dwfr yn cael ei gasglu i'r un lle: pe felly, nid y ffurf a welir arnynt heddyw a fuasai. Ni chawsid yr amrywiaeth o gyfandiroedd a moroedd; ond un môr mawr, ac un cyfandir mawr. Gair Duw a drefn-

oedd y pryd hwnw, wedi ei orchuddio â dwfr, a ddyfethwyd.

7 Eithr y nefoedd a'r ddaear *sydd* yr awrhon, ydynt trwy yr un gair wedi eu rhoddi i gadw i dân, [f]erbyn dydd y farn, a distryw yr anwir ddynion. [f] Mat. 10. 15; Ioan 4. 17.

8 Eithr yr un peth hwn na fydded yn ddiarwybod i chwi, anwylyd, [g]*fod* un dydd gyda'r [g] Salm 90. 4.

odd y dosbarthiad hyfryd a manteisiol. Yn awr ymresymiad yr apostol wrth y gwatwarwyr yw, fod yr un mor bossibl i ddiluw tân ddyfod etto ag oedd i ddiluw dwfr ddyfod y pryd hwnw. Nid oedd tebygolrwydd cyn ei ddyfod y gorchuddid y byd â dwfr, a gallasai yr annuwiolion ymresymu na ddaethai; ac fe allai eu bod yn gwneyd wrth Noë, fel yr oedd y rhai hyn wrth y duwiolion. Ond megys y profodd y rhyferthwy hwnw wagder eu haeriadau hwy, felly y gwna dyfodiad Mab y dyn ddirymu ymresymiad y rhai hyn.

6. *O herwydd pa ham y byd a oedd y pryd hwnw.*—Y cyfeithiad priodol yw, 'Trwy ba rai y byd,' &c. Y mae llawer iawn o amrywiaeth barn pa beth a olygir wrth "y rhai." Esbonia Bede, Beza, Wolf, a De Wette ef, fel hyn:—trwy ba rai (am fod ei ranau yn darfod), dyfethwyd y byd, yr hwn a wneid i fyny o nefoedd a daear. Golyga Calvin wrth "trwy ba rai" y dyfroedd, a dyry gyfrif am y rhif liosog am fod dwfr yn cael ei gymmeryd mewn dwy ystyr, dwfr fel defnydd, a dwfr fel cyfrwng, yn ol yr esboniad a roddwyd uchod (*adn.* 5), am "o'r dwfr" fel defnydd, a "thrwy ddwfr" fel cyfrwng. Cyfeitha Luther yr ymadrodd yn fwy cyfeiliornus na'r cyfeithiad Cymraeg na'r Saesneg—"er hyny." Cydolyga ereill â'r cyfeithiad cyffredin, a rhoddant yr ystyr—o herwydd mai dwfr oedd wyneb y ddaear cyn yr ail drefniad yn Genesis, ac o herwydd fod gair Duw yn dwyn dinystr. Y mae esboniad Bengel ac Alford yn rhoddi cyfrif mwy boddhaol na'r cyfan am y rhif liosog, "trwy ba rai," ac yn gwneyd defnydd prydferth hefyd o'r hyn a ddarllenwn am y dilyw yn *Gen.* vii. 11. Trwy y ddau ddwfr y bu dinystr y dyfroedd oddi ar, o'r dyfroedd oddi tan y ffurfafen. Agorwyd ffenestri y nefoedd, a rhwygwyd ffynnonau y dyfnder. Nid ydyw hyn yn cau allan air Duw fel yr achos gwreiddiol, ond y dull a'r modd hyn i weithredu. Golyga Bengel wrth y byd a oedd y pryd hwnw, drigolion y byd: ond gan y cyferbynir "y nefoedd a'r ddaear sydd yr awr hon" (*adn.* 7) a'r "nefoedd newydd a'r ddaear newydd" (*adn.* 13), mwy rhesymol ei gyfyngu i'r ddaear a'r nefoedd faterol. "Fel ag y darfu i Nöe gamu allan o'r arch ar fyd newydd—gwyneb y nefoedd yn glir, a gwyneb y ddaear wedi ei hadnewyddu—felly yr ydym ninnau yn edrych am nefoedd newydd a daear (*adn.* 13), etto, fel y rhai ereill hyn, wedi eu ffurfio o ddefnyddiau yr hen."—*Alford. Wedi ei orchuddio â dwfr a ddyfethwyd:—h. y.*, trwy 'ei orchuddio â dwfr y dyfethwyd" ef. Nid dyfetha ei sylwedd, ond dyfetha ei ffurf, fel byd, fel trefniad. Yr un modd y dyfethir y byd yn y dydd diweddaf.

7. *Eithr y nefoedd a'r ddaear sydd yr awrhon.*—Yn wrthgyferbyniol i'r trefniant oedd arnynt cyn y dilyw. Bu cyfnewidiad mor fawr arnynt, fel y mae byth er hyny wedi rhanu oes y byd i ddau gyfnod pwysig. Ond yr un byd ydoedd cyn ac ar ol myned o dan y cyfnewidiad, er fod y gwatwarwyr wrth baeru na bu cyfnewidiad, yn haeru hefyd nad oedd byd yn bod cyn y dilyw. *Ydynt trwy yr un gair.*—Y mae ychydig ddadl ynghylch y cyfeithiad yma—pa un ai "yr un gair," ynte "ei air ef," a ddylai fod. Os "ei air ef," golyga y rhagfynegiadau cyffredinol am ddiwedd y byd; neu, os "yr un gair," cyfeiria at y rhagfynegiadau hyny, yr un o ran awdurdod a'r rhagfynegiad am y diluw trwy Noë, ac fe allai gyfryngau ereill, megys Enoch, y seithfed o Adda. *Wedi eu rhoddi i gadw i dân.*—Yn llythyrenol, 'ydynt wedi eu trysori, gan gael eu cadw i dân.' Y mae yn y gair "trysori" ddrychieddwl o barhâd, a chydag amcan pennodol at y llosgi; ac yn yr ymadrodd 'gan gael eu cadw' gyfeiriad at Ragluniaeth Duw yn wyliadwrus yn barhaus, ac yn cadw ynghyd y wedd bresennol ar bethau hyd ei amser ef i'w gorphen.—*Alford.* Fel yr oedd y dwfr wedi aflonyddu parhâd digyfnewid pethau, yn groes i haeriad y gwatwarwyr yn amgylchiad y diluw, felly hefyd y bydd i'r tân wneyd yn yr adeg a ddynodir yma. *Erbyn dydd y farn a distryw yr anwir ddynion.*—Ni ddywedir pa un ai cyn y farn, ai ynte ar ei hol, y bydd y tân yn gwneyd ei waith ar y nefoedd a'r ddaear sydd yr awr hon; ond y mae yn amlwg yma, fel mewn adnodau ereill, y bydd yn dal cyssylltiad agos â dydd y farn, a distryw yr anwir ddynion.

8. *Yr un peth hwn na fydded yn ddiarwybod i chwi, anwylyd.*—Neu, na ddianged eich ystyriaeth—fel yr oedd y diluw wedi gwneyd i'r gwatwarwyr: *adn.* 5. Crybwyllir "yr un peth hwn" yn y geiriau nesaf. Un ystyriaeth bwysig ydyw, ag sydd yn ddigon i gyfarfod eu holl anhawsderau hwynt, a holl wrthddadleuon eu gelynion. Cyfeiria yn benaf at y gwahaniaeth anfeidrol rhwng Duw a dyn, ac am hyny nad ydyw dyn yn abl i farnu cynlluniau a gweithredoedd yr Anfeidrol. *Fod un dydd gyda'r Arglwydd megys mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megys un dydd.*—Tebyg yw fod yma gyfeiriad at *Salm* xc. 4, a bod yr apostol yma yn ymhelaethu ar y syniad a geir yno. Yr ystyriaeth fod mil o flynyddoedd megys un dydd, neu fel doe, yn unig sydd yn y salm; yma, chwanegir fod un dydd megys mil o flynyddoedd. Gellir rhoddi llawer o ystyron i'r ddau ymadrodd hyn, a'r cyfan yn dwyn perthynas â meithder yr amser y mae Duw yn cyflawni ei addewidion. Am yr adran gyntaf, "fod un dydd gyda'r Arglwydd megys mil o flynyddoedd," golyga y gall yr Arglwydd aros yn hir heb ddechreu ei waith o gospi yr annuwiol, neu o lwyddo ei waith; o blegid gall wneuthur gwaith mawr mewn byr amser pan y daw allan—gwaith mil o flynyddoedd mewn un dydd. Y mae mor ddedwydd hefyd mewn un diwrnod ag ydyw mewn mil o flynyddoedd. Nid oes arno ef angen prysuro treigliad yr oesoedd er mwyn chwanegu ei ddedwyddwch. Trachefn, y mae mil o flynyddoedd iddo ef, megys y crybwyllir yn yr ail adran, "fel un dydd:" hyny ydyw, gall fforddio i adael i fil o flynyddoedd dreiglo heb ddirwyn amgylchiadau y byd i ben, fel pe na buasai ond un diwrnod. Nid ydyw ond yr un peth bron i ddyn cyfoethog iawn golli mil o bunnau a cholli ceiniog; hyny yw, po mwyaf cyfoethog fydd, lleiaf fydd ei golled. Felly y mae gyda'r Duw anfeidrol: gall fforddio gadael i annuwiolion watwar am oes faith ar y ddaear, bydd ganddo ef dragwyddoldeb ar ei hyd wedi hyny i gael hawliau cyflawnder allan o honynt. "Ni symio y

Arglwydd megys mil o flynydd oedd, a mil o flynyddoedd megys un dydd.

9 [h]Nid ydyw yr Arglwydd yn oedi ei addewid (fel y mae rhai yn cyfrif oed) [i]ond hir-ymarhous yw efe tuag atom ni, [k]heb ewyllysio bod neb yn golledig, [l]ond dyfod o bawb i edifeirwch.

[h] Esa. 30.18. [i] Exod.34.6; Salm86.15. [k] Ezec. 18. 23, 32. [l] Rhuf. 2. 4; 1 Tim. 2. 4; Dad. 2. 21.

cwbl ynghyd," medd Bengel, "y mae oes-gyfrifydd Duw (o blegid fel hyn y dylid ei alw) yn gwahaniaethu oddi wrth ein hawr-gyfrifydd ni. Y mae mynag-fysedd hwnw yn arddangos pob awr yn gystal yn y gweithgarwch mwyaf ag yn y tawelwch mwyaf. I Dduw, nid ydyw amser yn treiglo yn gyflymach neu yn arafach nag sydd angen heidiol iddo ef, a'i oruchwyliaethau. Nid oes unrhyw achos pa ham y byddai yn angenrheidiol iddo ef gyflymu neu arafu terfyn pob peth. Pwy a all amgyffred hyn? Pe y gallem ni ei amgyffred, diangenrhaid fuasai i Moses a Phedr chwanegu "gyda'r Arglwydd."

9. *Nid ydyw yr Arglwydd yn oedi ei addewid.* —Ystyr y gair "oedi" yma yw, peri i'r addewid fod yn ddiweddarach nag y dylai. Sylwa un fod gwahaniaeth rhwng oedi a gohirio: hwnw sydd yn oedi sydd yn gohirio tu hwnt i'r adeg y dylesid fod wedi cyflawni. *Fel y mae rhai yn cyfrif oed.*—Nid yw yn oedi o herwydd anallu i gyflawni, nac o herwydd anffyddlondeb i'w addewid. Oediad o herwydd rhesymau fel hyn oedd y gwatwarwyr yn briodoli iddo. Yr oedd yntau yn araf: ond yn y geiriau nesaf y ceir yr unig gyfrif iawn am hyny. *Ond hir-ymarhous yw efe tuag atom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch.*—'Tuag atoch chwi' (*h.y.*, darllenwyr yr epistol) ydyw yn y prif ysgrifyfrau hynaf. Ystyr gyfyngol y geiriau hyn yw fod yr Arglwydd yn gohirio nes dyfod o bawb o'r rhai yr ysgrifenai yr apostol atynt, oeddynt wedi eu hethol i fywyd, i afael âg ef. Nid oedd yn ewyllysio fod neb o honynt yn golledig; ond eu dyfod oll i edifeirwch, fel unig ffordd eu hiachawdwriaeth. Ac heb ganiatau amser iddynt edifarhau, nid oedd bossibl iddynt ddychwelyd. Pa un a ellir cymmhwyso y geiriau hyn at yr holl annuwiolion sydd anhawdd penderfynu. Y mae anhawsderau mawrion ynglŷn â'r esboniad hwnw. Pa fodd y cyssonwn ni y dywediad, nad ydyw yn "ewyllysio fod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch," â'r ffaith fod llawer yn golledig, ac nad ydyw pawb yn dyfod i edifeirwch? A dywedir mewn ysgrythyrau ereill, ei fod yn gwneyd ei holl ewyllys, ac y bydd i'w holl gynghor ef sefyll. Y cyssondeb a gynnygir yw hwn:—mai ei ewyllys ddadguddiedig a ddynodir yma fel y gwahoddir ac y rhoddir cyfleusdra i bawb edifarhau; ac nad oes yma gyfeiriad o gwbl at yr ewyllys ddirgeledig, yr hon raid fod yn unol â'r ffaith a grybwyllwyd. Ereill a ddywedant mai ewyllys da y Bod anfeidrol fel teimlad a feddylir yma, heb awgrymu o gwbl ei fod yn dwyn yr ewyllys hono i weithrediad. Fel y gallem feddwl am y barnwr daearol, heb ewyllysio i'r carcharorion fod yn golledig o ran ei deimlad ei hun; ac etto yn ngwyneb euogrwydd yn rhwym o gyhoeddi y ddedfryd. Yn debyg i'r adnodau yn *Ezec.* xviii. 23, 32; xxxiii. 11; "Nid ymhoffaf yn marwolaeth yr annuwiol; ond troi o'r annuwiol oddi wrth ei ffordd, a byw." Pa fodd bynag y cyssonwn ewyllys Duw, fel ei gelwir

10 Eithr [m]dydd yr Arglwydd a ddaw megys lleidr y nos; [n]yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio [o]gyda thwrf, a'r defnyddiau [o]gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith *a fyddo* ynddi a losgir.

11 A chan fod yn rhaid i hyn i gyd [p]ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn

[m] Esa. 2. 12; Joel 3. 14. Mal. 4. 5. [o] Salm 102. 26; Esa. 51. 6; Mat 24.35; Heb 1. 11, 12. [p] Salm 46. 6. Salm 75. 3; Esa. 14. 31; 24.19; 34.4.

yma, â'r hyn sydd yn cymmeryd lle fel ffaith, gallwn fod yn dra sicr nad yw yn ewyllysio bod neb yn golledig, o ran y peth yndo ei hun. Y mae cospedigaeth yr annuwiol yn cyfodi o gyfiawnder a sancteiddrwydd ei natur. Ac am ewyllysio i bawb fod yn gadwedig, dysg y geiriau hyn yn arbenig, nad oes modd i hyny gael ei ddwyn oddi amgylch ond yn unol â chyflawnder trwy ddyfod o bawb i edifeirwch. Yn ol yr esboniad a roddir ar *adn.* 12, 15, cyttuna yn well â'r syniad, mai cyfeirio at wneyd i fyny nifer ei etholedigion y mae yma. Diesgus ydyw dyn yn ngwyneb y galwadau sydd arno, a'r manteision y mae yn eu mwynhau.

10. *Eithr dydd yr Arglwydd a ddaw megys lleidr yn y nos.*—Ni bydd meithder y cyfnod o arbediad yn un rhwystr iddo ddyfod, yn ol eu barn hwynt am dano; ac ni bydd eu disgwyliad yn fwy am dano nag y dylai fod, yn ol fel y mae yn nesau. Yn hytrach, fe'i goddiwedda fel lleidr yn y nos (1 *Thes.* v. 2). "Dydd yr Arglwydd" yw "dydd Duw" yn *adn.* 12. *Yn yr hwn y nefoedd a ant heibio gyda thwrf.*—Y mae y gair *rhoisédon* a gyfeithir yma "gyda thwrf," yn golygu, fel yr arwyddir hefyd yn ei sain, rhuthriad yr aderyn neu y saeth drwy yr awyr. Cymmhwysir ef gan rai yma at swn y fflamau yn llosgi y nefoedd. Wrth "fyned heibio" y golygir, myned o dan ba gyfnewidiad bynag a ddaw i'w rhan yn y dydd olaf. Bydd y dinystr yn un cynnhyrfus iawn fel y disgrifir yma. Gwel *Mat.* xxiv. 35; *Dad.* xx. 11, xxi. 1. *A'r defnyddiau gan wir wres a doddant.* —Ceir llawer o amrywiaeth barnau am y defnyddiau hyn. Cyfeitha Alford y gair *stoicheia*, yn gyrph nefol: ac â hyn y cyttuna y rhan fwyaf. Nid defnyddiau y ddaear, y pridd, y dwfr, yr awyr, a'r tân, o blegid nis gall tân doddi tân; ond yr haul, y lleuad, a'r sêr. Y mae y cyssyllt-air a ddefnyddir i'w cyssyltu â nefoedd yn y frawddeg flaenorol, yn dangos yn amlwg mai defnyddiau yn y nefoedd ydynt: *de*, sydd yma, a defnyddir y cyssyllt-air mwy pwysig *cai* i ddwyn y ddaear fel dosbarth gwahanol o bethau i mewn yn y nesaf. Addysg y Beibl mewn manau ereill yw, y bydd y cyrph nefol yn cael effeithio arnynt yn niwedd y byd: *Mat.* xxiv. 29; *Esa.* xiii. 9, 10; xxiv. 23; a xxxiv. 4. Nid ammhriodol, medd Bengel, yw son am y sêr yn y nefoedd fel llythyren ar ddalen. Ystyr gyntaf *stoicheia*, a gyfeithir yma "defnyddiau," ydyw llythyrenau y wyddor. Bydd y gwres yn ddigon i doddi y sêr; yn hytrach, yn ol yr adnod nesaf, a'r un gair sydd yma ag yno, "ymollwng." *A'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir.*—Nis gall dim daearol, mwy na'r ddaear ei hun, ddiangc rhag dinystr y dydd mawr. Wrth "y gwaith a fyddo ynddi," cydolyga Alford a Bengel mai gwaith natur a chelfyddyd, gwaith y Creawdwr a dynion, a feddylir.

11. *A chan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng.* —"Hyn i gyd:"—y nef a'r ddaear, a grybwyllwyd eisoes. Nid rhyw un cwr o'r nefoedd, yn agos i'r ddaear, fel y sylwa Bengel: eithr y mae y

[s] Salm 37. 14; 1. 23; 2 Cor. 1. 12; Heb. 13. 5; Iago 3. 1. [r] Adn. 10. [s] Adn. 10. [t] Micah 1. 4.

[q] sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb,

12 Yn disgwyl ac yn brysio at [r] ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn [s] y nefoedd gan losgi a ymollyngant, a'r defnyddiau [t] gan wir wres a doddant?

13 Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym *ni*, yn ol ei addewid ef, yn eu disgwyl, yn

gair yn y rhif liosog, yn golygu eangder mawr. Er i'r cread gymmeryd lle ar wahanol ddyddiau neu adegau, dysgir ni yn y fan hon mai mewn un dydd yr effeithir y dinystr. Yn bresennol try yr apostol i gynghori yn fuddiol oddi wrth yr ystyriaethau am ddiwedd pob peth gweledig. *Pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb.*—Nid ymholiad, yn gwbl nac yn benaf; ond ystyriaeth o syndod yn tarddu oddi wrth briodoldeb yr ystyriaeth ynglŷn â hyny. Lliosog yw "ymarweddiad" a "duwioldeb" yn y Groeg, yn golygu pob amrywiaeth a ellir gynnwys yn y geiriau. "Ymarweddiadau gyda golwg ar bethau dynol, duwioldebau mewn perthynas i bethau dwyfol."—*Bengel.*

12. *Yn disgwyl ac yn brysio at ddyfodiad dydd Duw.*—Yn ol y cyfeithiad hwn, y meddwl yw, y dylent ymgeisio cyrhaedd yr agwedd meddwl priodol, mewn trefn i fod yn barod erbyn yr amser y goddiweddid hwynt gan "ddydd Duw." Ond nid ydyw y cyfieithiad hwn yn llythyrenol; yn lle "brysio at ddydd Duw" "prysuro dydd Duw" ydyw. Tybiwn fod De Wette ac Alford yn rhoddi ystyr dra phriodol i'r geiriau yn y wedd hon. Dywed y diweddaf, "Yr wyf yn cydsynio â De Wette i ddeall, fel y gwna efe, eu bod yn ei brysuro drwy berffeithio gwaith yr efengyl mewn edifeirwch a sancteiddrwydd, ac fel hyn yn lleihau yr angen am yr hir-ymaros" (*adn.* 9), i'r hyn y mae oediad y dydd hwnw yn ddyledus. Gwir nad ydyw oediad neu brysuriad y dydd hwnw yn eiddo dyn, ond eiddo Duw; ond nid yw yn anghyffredin yn yr Ysgrythyrau priodoli i ni y gweithredoedd dwyfol hyny, neu yr ymataliad rhag gweithredu, y rhai ydynt mewn gwirionedd yn waith Duw. Fel hyn darllenwn, "Nis gallai wneuthur yno lawer o weithredoedd nerthol o herwydd eu hanghrediniaeth;" *Mat.* xiii. 5, 8, o'i gymmharu â *Marc* vi. 5, 6. Fel hyn, defnyddir ef lawer gwaith am waith dyn yn ymryson â, rhwystro, neu yn "diffoddi Glân Ysbryd Duw." "Dydd Duw."—"Y mae Duw wedi rhoddi myrddiynau o ddyddiau i ddynion: un, yr olaf, ydyw dydd mawr Duw ei hunan."—*Bengel. Yn yr hwn y nefoedd gan losgi a ymollyngant.*—Yn hytrach, o herwydd neu er mwyn yr hwn, sef dydd Duw. Yma, nid gan wir wres, fel yn *adn.* 10, ond yn llythyrenol, gan dân. Ac o hwn y tardd y gwir wres, fel y cawn yn yr ymadrodd nesaf. *A'r defnyddiau gan wir wres a doddant.*—Yr un geirian ag a arferwyd o'r blaen yn *adn.* 10, ac yn ol yr ymresymiad yno y cyrph wybrenol a feddylir. Sylwer yn wir, mai nid ymoliwng sydd yn y Groeg yma, fel yn *adn.* 10, ond 'toddi.' "Y mae De Wette yn tybio nad ydyw yr ystyr i gael ei gymmeryd yn llythyrenol, fel pe byddai y *stoicheia* (defnyddiau cyrph wybrenol) yn sylwedd caled, yr hwn yn weithredol a doddai; ond pa ham nad hyny? Y mae yr un toddiad wedi cymmeryd lle yn weithredol yn haen allanol y ddaear, pa le bynag y mae y tânau canolog wedi

y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu.

14 O herwydd pa ham, anwyl-yd, gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn, [u] gwnewch eich goreu [v] ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddifrycheulyd, ac yn ddiargyhoedd.

15 A [x] chyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd, yn iachawdwr-

[u] 1 Ioan 3. 3 [x] Adn. 9.

gweithredu arni. Y mae ein holl greigiau tanawl wedi bod mewn sefyllfa hyllfol; pa ham na bydd i'r dydd hwnw, yn ei weithrediad puredigol, gynnyrchu effaith gyffelyb ar y ddaear etto, ac ar blanedau cyffelyb iddi, os ydynt i gael eu cynnwys o dan yr un ymweliad?"—*Alford.* Wrth gymmharu yr adnod hon âg *adn.* 10, ni sonir am y ddaear fel yno; ond y rheswm, y mae yn debyg yw, os cyfeiriwyd at y mwyaf y cynnwysa hyny y lleiaf.

13. *Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ol ei addewid ef, yn eu disgwyl.*—Awgryma hyn nad yw yr hen nefoedd a'r ddaear i gael eu difodi; ac y mae y cyfattebiaeth a wneir rhwng yr hyn a fydd, a'r hyn a wnaed yn y diluw, yn awgrymu yr un peth. Ni wyddom ni yn awr pa gyfnewidiadau a wneir arnynt, na pha fodd y gwneir hwynt. Y mae yr addewid mewn grym gyda'r duwiolion, faint bynag o anfri a dafliwyd arni gan y gwatwarwyr: *adn.* 4. Yr addewid y cyfeirir ati yma ydyw *Esa.* xxxii. 16, ynghyd â lxv. 17; lxvi. 22. *Yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu.*—Erbyn hyny bydd y drwg a'r da wedi eugwahanu am byth oddi wrth eu gilydd. Yn y gair "cartrefu," ceir y syniad am barhâd, heb angen am unrhyw ddymchweliad mwy. Allegawl yw yr ymadrodd oll, yn ddiau, am noddwedd trigolion y byd newydd; a'r felldith hefyd wedi ei symmud o hono yntau hefyd, yn cyfattebi'w cyfiawnder hwynt.

14. *O herwydd pa ham, anwylyd, gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn.*—Yn *adn.* 11, tynoid yr apostol addysg oddi wrth y ffaith fod diwedd i gymmeryd lle o gwbl, ac yn y dull mawreddog a ddisgrifiwyd; yma, y mae yr addysg yn cael ei seilio ar eu crediniaeth o'r athrawiaeth am y diwedd. Yn y naill a'r llall, y mae yr addysg yn dra chyffelyb. *Gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddifrycheulyd, ac yn ddiargyhoedd.*—Yn yr agweddau a ddynodir yma, dywed Alford fod y ddau olaf "difrycheulyd" a "diargyhoedd," yn cyfeirio at eu cymmeriad yn ngolwg Duw, a chyfleitha, yn lle "ganddo ef," 'yn ei olwg ef.' Arferwyd y geiriau hyn, neu eu gwreidd-eiriau, gan Pedr o'r blaen, yn 1 *Pedr* i. 19, a 2 *Pedr* iii. 13. "Nid annhebygol," meddai, "nad oedd dammeg y wisg briodas yn ei feddwl yma, ac yn *pen.* ii. 13, gan fod yn y diweddaf gyfeiriad uniongyrchol at wledd." Am y "tangnefedd" a grybwyllir yma, golyga yn benaf deimlad y Cristion ei hun:—'mewn heddwch yn eich plith eich hunain, mewn heddwch gyda chwi eich hunain, ac mewn heddwch er eich mwyn eich hunain gyda Duw.'

15. *A chyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth.*—Pa beth bynag yw barn y gwatwarwyr am yr oediad, dyma yr olwg y dylech chwi ei gymmeryd, a gweithredu yn ei ol. Y mae yn debyg mai yr Arglwydd Iesu Grist, megys ag y dywedir yn *adn.* 18, a feddylir yma. Ac os felly, fel y dywed Alford, "trwy yr holl bennod y mae

iaeth; megys ag yr ysgrifenodd ein hanwyl frawd Paul atoch chwi, yn ol y doethineb a rodded iddo ef;

16 Megys yn *ei* holl epistolau hefyd, yn llefaru ynddynt am y pethau hyn: yn y rhai y mae rhyw
[y] 1 Bren. 10. 1. bethau [y] anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi, megys yr
[z] Iudas 4. ysgrythyrau ereill, [z] i'w dinystr eu hunain.

17 Chwychwi gan hyny, anwyl-yd, a chwi yn gwybod *y pethau hyn* o'r blaen, ymgedwch rhag eich [a] arwain ymaith trwy amry-fusedd yr annuwiol, a chwympo o honoch [b] oddi wrth eich sicr-wydd eich hun.

[a] Mat. 24. 24.
[b] 2 Pedr 1. 10, 11.

18 Eithr [c] cynnyddwch mewn gras a [d] gwybodaeth ein Har-glwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Iddo ef *y byddo* gogoniant yr awrhon ac yn dragwyddol. Amen.

[c] Salm 92. 12.
[d] Ioan 17. 3.

---

yr Arglwydd Iesu yn cael ei wisgo â phriodoleddau dwyfol. Efe sydd yn aros, ac yn hir-ymarhous; hyny yw, efe mewn undeb ac *yn* gyd-ogyfuwch â'r Tad, yr hwn sydd yn llywodraethu pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun." *Megys ag yr ysgrifenodd ein hanwyl frawd Paul atoch chwi, yn ol y doethineb a rodded iddo ef.*—Ceir prawf amlwg yma fod Paul a Phedr yn gyfeillgar iawn â'u gilydd. Nid arfer geiriau moesgarwch yn unig y mae, ac heb ystyr iddynt. Sylwa Bengel yn bur gryno, "Nid oedd Paul wedi canmawl Pedr: y mae Pedr yn canmawl Paul, yn yr hyn y mae yn dangos nad oedd wedi tramgwyddo wrtho, er iddo ar un adeg gael ei geryddu ganddo, a chael ei flaenu ganddo yn ngwaith yr Arglwydd. Am gariad Paul tuag at Pedr, nis gallai fod unrhyw ammheuaeth." Wrth y "ddoethineb a rodded iddo ef," y golyga Pedr yn ddiau, ei fod wedi cael ei ddonio uwch law ei frodyr i gyflawni dyfnion bethau Duw i'r byd.

16. *Megys yn ei holl epistolau hefyd, yn llefaru ynddynt am y pethau hyn.*—Wrth ymholi pa beth a feddylir wrth fod Paul wedi ysgrifenu at ddarllenwyr y llythyr hwn am amgylchiadau diwedd y byd, tueddir Alford i gredu mai cyfeirio y mae at 1 *Thes.* iv. 13—v. 11; a chan y dywedir yma ei fod yn cyfeirio at yr un gwirioneddau yn "ei holl epistolau," dysgir i ni fod rhyw gasgliad wedi ei wneyd arnynt, a'u bod felly yn feddiant y saint yn gyffredinol, heb law yr eglwysi neilluol y cyfeiriwyd hwynt atynt ar y cyntaf. Yn y modd yma y gellir dyweyd fod y Llythyr at y Thessaloniaid wedi ei ysgrifenu at y darllenwyr hyn. Er fod Alford yn golygu mai yr adnodau yn Thessaloniaid yw y rhai neilluol y cyfeiriwyd atynt yn yr adnod o'r blaen, y mae amrywiaeth barn yn mhlith esbonwyr pa rai ydynt. Enwir *Heb.* ix. 26; x. 25, 37; 1 *Cor.* i. 7—9, a 1 *Cor.* ii. 1, &c.; Galatiaid, Ephesiaid, a Colossiaid. Nid ydyw y geiriau "holl epistolau" yma yn golygu fod Paul wedi gorphen ysgrifenu; ond cynnifer ag oedd, ac wedi eu casglu ynghyd (gwel rhagarweiniad). Yn y rhai hyn oll llefara gyda'r ddoethineb neilluol a rodded iddo am ddyfodiad yr Arglwydd, am ddiwedd y byd, ac am berthynas ei hir-amynedd â'r cwbl. *Yn y rhai y mae rhyw bethau anhawdd eu deall.*—Yn y rhanau neilluol hyny sydd yn cyfeirio at ddyfodiad yr Arglwydd. Nid ammhossibl eu deall, ond "anhawdd," a ddywedir. Pa ddywediadau arbenig a feddylir, nis gellir penderfynu. *Y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad.*—"Annysgedig" yn mhethau Duw; heb y diwydrwydd i chwilio yr Ysgrythyrau, na'r duwioldeb i ddibynu ar oleuni yr Ysbryd. "Anwastad," neu, ansefydlog:—rhai yn gwrandaw ar bob athrawiaeth eithafol, a phob eglurhâd mympwyol, ac felly yn cael eu cylcharwain gan bob awel dysgeidiaeth. Yn hytrach na disgwyl am oleuni oddi uchod, mabwysiadent unrhyw ystyr: ac yr oeddynt *yn eu gŵyrdroi, megys yr ysgrythyrau ereill, i'w dinystr eu hunain.*—I ddangos mor bell y byddent yn myned oddi wrth y gwir ystyr. Y mae y gair "gŵyrdroi" yn un cryf iawn; sef, dirdroi gyda'r peiriant nerthol sydd gan y morwyr yn codi yr angor. Pa rai oeddynt yr ysgrythyrau ereill a ddirdynid ganddynt o'u gwir ystyr? Barna rhai mai yr Hen Destament, ac nid heb lawer o sail; canys y mae ynddynt hwythau hefyd lawer o son "am y pethau hyn." Ereill, mai rhanau o'r Testament Newydd oeddynt hysbys i'r holl eglwysi, megys y tair Efengyl Cyntaf a'r Actau; ond pa ran bynag a feddylir, amlwg yw y rhestrid llythyrau Paul yn mysg yr Ysgrythyrau. Gan fod y gŵyrdroad yn ddiniwed ystyriol iddynt, dengys eu bod yn cyfeilliorni yn dra phell, a dengys hefyd y pwys i ninnau fod yn ymchwilgar, a gweddïo hefyd am gymmhorth, i iawn ddeongli gair Duw.

17. *Chwychwi gan hyny, anwylyd, a chwi yn gwybod y pethau hyn o'r blaen.*—Trwy ddarllen cynnwys y bennod hon am y perygl o gamsynied ynghylch dyfodiad yr Arglwydd, neu trwy ddarllen epistolau Paul, a gwrando yr efengyl. *Ymgedwch rhag eich arwain ymaith.*—Byddwch ar eich gwyliadwriaeth. Yr un ffurf ymadrodd yw "cael eich arwain ymaith," a'r hwn a ddëfnyddia Paul am Barnabas, yn *Gal.* ii. 13:—lle hefyd y dywed iddo geryddu Pedr. Nid ydyw yn annhebygol felly ei fod wedi gweled geiriau Paul am dano, ac er hyny sonia yn garuaidd am Paul: *adn.* 16. *Trwy amryfusedd yr annuwiol:*—neu gyfeiliornad yr annuwiol. Groeg: 'y rhai didddeddf.' *A chwympo o honoch oddi wrth eich sicrwydd eich hun.*—Hyn fyddai effaith arweiniad ymaith gan amryfusedd yr annuwiol.

18. *Eithr cynnyddwch mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist.*—Nid yn unig fel pren yn gallu yn brin ddal y tymmhestloedd, ond yr oeddynt i dyfu a ffrwytho drwyddynt oll. "Dyma unig ammod parhâd mewn gras—os ydym yn myned yn mlaen yn ddiwyd."—*Calvin.* Y gwahaniaeth rhwng "gras" a "gwybodaeth" ydyw, fod y cyntaf yn dangos peth oddi wrth Iesu Grist i ni; a'r llall, peth oddi wrthym ni, a'i wrthddrych yn Iesu Grist. Y mae pob gras oddi wrth Dduw, ac yn gyffredin yn arwain at Dduw. Gras a gwybodaeth yr Arglwydd Iesu Grist ydyw maeth pob cynnydd ysbrydol. *Iddo ef y byddo gogoniant yr awrhon ac yn dragwyddol. Amen.*—Groeg: ac i ddydd tragwyddoldeb—y dydd hwnw y soniwyd cymmaint am dano yn y bennod hon. Y mae dymuno y gogoniant i'r Arglwydd Iesu Grist yr awr hon, ac i ddydd tragwyddoldeb, yn cynnwys, "ac yn dragwyddol," gan mai un dydd dïgyfnewid fydd hwnw.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL IOAN.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Er nad oes yr un enw wedi ei ragddodi wrth y llyfr hwn, y mae ei ddilysrwydd fel gwîr waith yr apostol Ioan yn ddiammheuol. Derbynid ef braidd yn mhob man fel ei gyfansoddiad ef yn yr eglwysi dwyreiniol a gorllewinol, ac ymddengys ei fod yn cael cyfeirio ato gan Hermas. Dyfynir ef mewn modd pendant gan Polycarp, ac yn epistol eglwysi Vienne a Lyons, a thystiolaethir i'w ddilysrwydd gan Papias, Irenæus, Clement o Alexandria, Tertullian, Origen, Cyprian, Eusebius, Athanasius, a'r holl ysgrifenwyr eglwysig dilynol. Tystiolaeth fwy penderfynol fyth yw y ffaith ei fod i'w gael yn y cyfleithiad Syriaidd o'r Testament Newydd, yr hwn sydd yn gadael allan rai o'r llyfrau ag yr ydoedd ammheuaeth o barth i'w dilysrwydd.

Heb law y prawf allanol hwn, y mae genym y prawf tufewnol cryfaf fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu gan yr apostol Ioan, yn y tebygolrwydd mawr sydd rhyngddo ag Efengyl Ioan, o ran y meddyliau a'r ymadroddion. Y mae hefyd neillduolrwydd hynod yn arddull yr apostol hwn; ac y mae hwnw yn dyfod i'r golwg yn gryf yn yr epistol hwn. Y mae ei frawddegau, o'u hystyried ar wahân, yn nodedig o glir a dealladwy; ond pan y chwiliwn am eu cyssylltiad, yr ydym yn cyfarfod â mwy o anhawsderau yn fynych nag hyd yn oed yn epistolau Paul. Symledd naturiol a serchogrwydd didwyll, yn gyssylltiedig â lledneisrwydd a gonestrwydd nodedig, ynghyd âg arddunedd rhyfeddol yn y meddyliau, ydynt nodweddion yr epistol hwn; ac y mae yr un nodweddion i fesur mawr yn hynodi yr Efengyl. Ymddengys Ioan yn yr Epistol fel pe buasai yn ysgrifenu ei syniadau fel yr oeddynt yn cyfodi yn ei feddwl; ac yn y ffurf o arwirebau byrion, cynnwysfawr, fel y byddai iddynt gynnyrchu effaith gryfach. Yn ei Efengyl, nid ydyw Ioan yn foddlawn ar hôni neu wadu peth yn unig, ond y mae yn gwadu y gwrthwyneb, i gryfhau ei honiad; a'r un modd, er mwyn cadarnhau ei wadiad o beth, y mae yn hôni y gwrthwyneb. Gwel *Ioan* i. 20; iii. 36; v. 24; vi. 22. Mae yr un dull o ysgrifenu yn dyfod i'r golwg yn gryf yn yr epistol hwn. Gwel *pen.* ii. 4, 27, a iv. 2, 3. Y mae Ioan yn ei Efengyl yn defnyddio yn fynych y rhagenwau "hwn," "hon," "hyn," i'r dyben o osod peth allan yn gryf: *pen.* i. 19; iii. 19; vi. 29, 40, 50; xvii. 3. Ceir yr un dull pwysleisiol o lefaru yn yr epistol. Cymmharer *pen.* i. 5; ii. 25; iii. 23; v. 3, 4, 6, 14. Dygir yn mlaen y cyfattebiad hwn rhwng yr Epistol a'r Efengyl yn y fan yma yn unig fel y mae yn cadarnhau awduriaeth yr epistol.

AMSER A LLE EI GYFANSODDIAD.

Y mae llawer o amrywiaeth barn o berthynas i amseriad yr epistol hwn. Y mae y doctoriaid Benson, Hales, ac ereill, yn ei osod yn y flwyddyn 68; yr esgob Tomline yn y flwyddyn 69; Lampe, ar ol y rhyfel Iuddewig cyntaf, a chyn alltudiaeth yr apostol i Patmos; Dr. Lardner, yn y flwyddyn 80, neu yn ddiweddarach; Mill, a Le Clerc, yn y flwyddyn 91, neu 92; Beausobre, L'Enfant, a Du Pin, yn niwedd y ganrif gyntaf; a Grotius, Hammond, Whitby, Michaelis, a Macknight, a'i gesyd cyn dinystr Ierusalem, ond heb bennodi y flwyddyn yn fanwl.

Ymddengys i ni mai y rhesymau cryfaf ydyw yr eiddo Ebrard, y rhai a ddygir yn mlaen dros roddi amseriad diweddar i'r Epistol; sef, tua'r flwyddyn 90, neu ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach. Cadarnheir yr amseriad hwn yn fawr gan dystiolaeth dufewnol y llythyr—yn yr olwg a ddyry ar ansawdd crefydd a materion eglwysig ar y pryd. Dengys yr Epistol fod yr ymdrechfa yn erbyn Iuddewiaeth a deddfoldeb, yr hon a ffynai yn amser Paul, wedi myned heibio: yr oedd y pwngc o berthynas ffydd a gweithredoedd yn y cyflawnhâd wedi ei benderfynu: felly yr oedd yr holl gwestiwn gyda golwg ar berthynas yr Eglwys Gristionogol â phobl Israel wedi ei gau i fyny. O hyn allan, yr oedd yr Iuddewon, fel y cyfryw, yn cael eu hystyried fel gelynion, yn sefyll mewn gwrthwynebiad i'r cyfundeb Cristionogol; ac ni cheir yma olion yr un gobaith, na rhwymedigaeth, i ennill Israel, fel cenedl, at yr efengyl. Ar y llaw arall, y mae yr Eglwys Gristionogol eisoes yn teimlo yn ddwfn oddi wrth ymosodiad bygythiol Gnosticiaeth, o'r hon nid oedd ond y parotoadau a'r rhagredegwyr yn ymddangos yn amser yr apostol Paul, a'r hon a barhaodd i ymledu ac ymagor yn ystod yr ail ganrif. Y mae yr ystyriaethau hyn, dybygem, yn ein gorfodi i osod amseriad yr Epistol (fel yr Efengyl) yn y deng mlynedd olaf o'r ganrif gyntaf. Rhaid rhoddi yr alltudiaeth yn Patmos yn mlynyddau olaf Domitian, tua'r flwyddyn B. A. 94—97. Y mae yn dra thebyg fod Epistol Cyntaf Ioan, a'i Efengyl yr un modd, wedi eu cyfansoddi yn nechreu yr alltudiaeth, ac o flaen Llyfr y Dadguddiad yn ddiau; pan y buasai yr angen yn cael ei deimlo yn fwyaf bywiog gan yr apostol a'r eglwys am addysg ysgrifenedig, i wneyd i fyny y diffyg am addysg lefaredig a gofal bugeiliol.

Dadleua rhai fod yr ymadrodd "yr awr ddiweddaf ydyw" (ii. 18), yn golygu terfyn y wladwr- laeth Iuddewig, ac felly fod yr Epistol wedi ei ysgrifenu cyn dinystr Ierusalem. Ond ymddengys nad yw yr ymadrodd hwn ond cyfystyr â'r "dyddiau diweddaf" y sonia yr apostolion Paul, Pedr, Iago, ac Iudas am danynt, y rhai a nodweddid gan ymledaeniad anwiredd. "Megys y clywsoch y daw anghrist (yn llawn ddadblygiad o ddrygioni yr amseroedd diweddaf), felly yr awr hon hefyd y mae anghristiau lawer (llawer sydd mewn rhan yn dwyn nodwedd yr hwn a ddistrywir fel hyn gan yr Arglwydd), trwy yr hyn y gwyddom mai yr amser diweddaf ydyw" (ii. 18). Nid yw hyn ond yn dangos fod "dirgelwch yr anwiredd" (fel y mae Paul yn dysgu) yn gweithio eisoes.

Ymadrodd arall o'r Epistol a ddefnyddiwyd i geisio profi amseriad boreuol iddo, ydyw "adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad" (ii. 13, 14). Ceisia Macknight, ac ereill, esbonio yr ymadrodd hwn fel yn golygu "chwi a adwaenech Grist yn ystod ei weinidogaeth ar y ddaear," ac felly fod lliaws o gyfoeswyr y Gwaredwr y pryd hwn yn fyw. Heb law fod y frawddeg fel hyn yn cael ei gŵyrdroi o'i hystyr naturiol, y mae y golygiad yn hollol anghysson â'r ystyr a roddir iddi yn yr adnod gyntaf o'r Epistol. Ystyr syml, lythyrenol, ac amlwg y geiriau ydyw, "Chwi a'i hadwaenoch ef, yr hwn oedd o'r dechreuad." Yr un modd, nid ydym yn gallu gweled grym yn yr un o'r rhesymau ereill dros roddi dyddiad boreuach i'r epistol na'r un a nodwyd; sef, yn ystod y deng mlynedd olaf o'r ganrif gyntaf.

Gwelir fod y golygiad a amddiffynir uchod o barth i amseriad yr Epistol yn penderfynu hefyd le ei gyfansoddiad; sef, yn Ynys Patmos. Cadarnheir y golygiad hwn gan dystiolaeth allanol gref. Y mae Dorotheus o Tyrus, ac ereill, yn dal fod Ioan wedi ysgrifenu ei Efengyl yn Patmos, ac yna wedi ei chyhoeddi yn Ephesus, trwy offerynoliaeth "yr anwyl Gaius," y diacon Y mae lliaws o dystiolaethau ereill, yn cynnwys nifer mawr o gyf-ysgrifau, yn enwi Patmos fel lle cyfansoddiad yr Efengyl. Y mae tystiolaeth dufewnol hefyd dros y golygiad hwn; o blegid gwahaniad Ioan oddi wrth ei braidd sydd yn rhoddi cyfrif am yr angenrheidrwydd o gyfansoddiad ysgrifenedig—i wneyd i fyny y diffyg o'i weinidogaeth bersonol. Ar y dybiaeth hon—fod yr Efengyl wedi ei hysgrifenu yn Patmos, ac wedi ei hanfon gyda ei gyfaill mynwesol i eglwys Ephesus, y mae yn hawdd gweled nad oedd yr apostol yn barnu yn angenrheidiol rhoddi ei enw yn nechreu yr Epistol, yr hwn y mae yn dra thebyg a gyfansoddwyd ac a anfonwyd ganddo fel llythyr cydfynedol (*companion document*) â'r Efengyl. Ceir chwaneg ar hyn dan y pen—"*Perthynas yr Epistol â'r Efengyl.*"

AT BWY YR YSGRIFENWYD EF.

Y mae ar hyn etto lawer o amrywiaeth barn. Y mae Awstin, ac ychydig ereill, yn ei alw yn Epistol Ioan at y Parthiaid, am y dywedai rhai fod yr apostol wedi bod yn pregethu yr efengyl i'r bobl hyny; ond nid yw tystiolaeth henafol mewn un modd yn cadarnhau y dyb hon. Barnai Dr. Benson ei fod wedi ei gyfeirio yn benaf at y Cristionogion Iuddewig yn Palestina. Gesyd Lightfoot gylch ei ddarlienwyr yn Corinth. Y mae Œcumenius, Lampe, Dupin, Lardner, Michaelis, Macknight, yr esgob Tomline, ac ereill, yn barnu ei fod wedi ei ysgrifenu at wasanaeth Cristionogion o bob gwlad a dosbarth yn ddiwahaniaeth. Dygir y rhesymau canlynol dros y farn hon:—1af, Gelwir ef bob amser yn Epistol Catholig, neu gyffredinol. 2il, Nid yw yn cynnwys unrhyw ymadroddion a fuasent yn ei gyfyngu i unrhyw bobl neilldiol. 3ydd, Buasai y gochelliad yn *pen.* ii. 15, "Na cherwch y byd," &c." yn afreidiol i gredinwyr yn Iudea (B. A. 68), wedi i'r rhyfel â'r Rhufeiniaid dori allan. Y mae yn hytrach yn gyfaddas i bobl mewn amgylchiadau esmwyth, y rhai oeddynt mewn perygl o gael eu maglu gan hudoliaethau llwyddiant. 4. Yr oedd yr annogaeth derfynol i gredinwyr "ymgadw oddi wrth eilunod" yn anghyfaddas i gredinwyr yn Iudea, ond yn fwy tebyg o gael ei gyfeirio at Gristionogion yn byw mewn parthau ereill o'r byd, lle yr oedd eilun-addoliaeth yn ffynu.

Gallem feddwl fod grym yn y rhesymau uchod i wrthbrofi y golygiad ei fod wedi ei fwriadu yn neilldiol i Gristionogion Gwlad Iudea, a'u bod yn profi fod ei gynnwysiad o gyfaddasder cyffredinol. Ar yr un pryd, fel pwngc o hanes, yr ydym yn barnu (yn unol â'r golygiad a roddwyd o dan adran ii.) fod yr apostol wedi ei ysgrifenu yn bennodol ar gyfer Cristionogion Ephesus, a'r wlad oddi amgylch, i wneyd i fyny am ei wahaniad oddi wrthynt yn ei alltudiaeth i Patmos. Y mae hyn yn hollol gysson â chyfaddasder cyffredinol ei gynnwysiad i Gristionogion pob gwlad ac oes. Dywed Ebrard y gellir edrych ar y golygiad hwn bellach fel penderfyniad cadarn a sicr ymchwiliad beirniadol.

ACHLYSUR, AMCAN, AC ARDDULL YR EPISTOL.

Gellir dyweyd mewn ffordd gyffredinol, mai amcan y llythyr hwn ydoedd adeiladu credinwyr yn egwyddorion a dyledswyddau Cristionogaeth. Ond y mae cynnwys y llythyr ei hun, yn gystal a thystiolaeth Hanesiaeth Eglwysig, yn dangos fod yr amcan cyffredinol hwn, i ryw fesur, yn cymmeryd y ffurf o ymosodiad ar gyfeiliornadau neilldiol oedd yn ffynu yn yr oes hono. Y mae peth gwahaniaeth barn ar y cwestiwn pwy oedd y cyfeiliornwyr oedd mewn golwg yn benaf gan yr apostol. Tybia rhai mai Iuddewon oeddynt; ereill, mai Cristionogion Iuddewaidd, ac yn neilldiol Ebionaiid, neu Gristionogion wedi gwrthgilio oddi wrth yr efengyl; ac ereill, mai y Gnosticiaid, ac yn bennodol sect y Docetiaid. Y mae yn wir nad yw yn bossibl i ni yn awr benderfynu i fanylrwydd at bwy, ac at ba olygiadau, y cyfeiriai yr ysgrifenydd; tuag at hyny buasai raid fod genym wybodaeth fanylach am y gwahanol ffurfiau o heresi a ffynent yn yr amserau hyny. Ond y mae yr hanes sydd genym am yr oes hono, ynghyd â thystiolaeth dufewnol yr Epistol ei hunan, yn profi, dybygid, y tu hwnt i ddadl, fod prif ymosodiad y llythyr neu y traethawd ar egwyddorion y Gnosticiaid, ac yn fwyaf pennodol ar ddaliadau y Docetiaid, y rhai oeddynt yn ffurfio plaid neilldiol, wedi tarddu o deulu mawr y Gnosticiaid. Nis gellir penderfynu i sicrwydd fe allai, a oedd y Docetæ wedi ymffurfio yn sect reolaidd y pryd hwn; ond os nad oeddynt, y mae yn amlwg fod y rhai y cyfeiria yr apostol atynt yn dal ac yn lledaenu y golygiadau a goleddid gan

y blaid hon ar ol hyny. Prif neillduolrwydd y blaid hon oedd, eu bod yn gwadu gwir ddynoliaeth yr Arglwydd Iesu. Credent fod Mab Duw wedi ymddangos i ddynion i atteb dybenion pwysig; ond mai mewn ymddangosiad yn unig yr oedd efe yn ymddiddan ac yn bwyta gyda'i ddisgyblion, yn dioddef, ac yn marw—mewn gair, nad ydoedd yn ddyn ond mewn rhith yn unig, ac nad oedd ei holl hanes daearol ond ymddangosiad, yn gweithredu ar synwyrau corphorol dynion.

Y mae yn hysbys fod y daliadau hyn wedi dechreu cael eu lledaenu yn y rhan ddiweddaf o'r ganrif gyntaf; ac y mae yn ddiammheuol fod awdwr y traethawd hwn yn cadw ei olwg arnynt, a'i fod yn ei ystyried o'r pwys mwyaf i arfogi meddyliau Cristionogion yn eu herbyn. O blegid hyn, y mae yn rhoddi pwys neillduol ar y gwirionedd fod Mab Duw wedi dyfod yn y cnawd, ei fod yn wir a phriodol ddyn, a'i fod wedi byw a marw ar y ddaear mewn gwirionedd, ac nid yn unig mewn ymddangosiad. Y mae yr amcan hwn yn dyfod i'r golwg yn amlwg yn yr ymadroddion canlynol:—"Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am Air y bywyd.....yr hyn a welsom ac a glywsom, yr ydym yn ei fynegu i chwi:" *pen.* i. 1—3. "Y mae gau brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd. Wrth hyn adnabyddwch Ysbryd Duw: Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae. A phob ysbryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, nid yw o Dduw: eithr hwn yw ysbryd anghrist, yr hwn y clywsoch ei fod yn dyfod, a'r awrhon y mae efe yn y byd eisoes:" *pen.* iv. 1—3. Cymmharer *pen.* iv. 9, 14, 15; â *pen.* v. 1. 6, 10—12. Crynhoa yr awdwr brif amcan ei epistol yn *pen.* v. 13: "Y pethau hyn a ysgrifenais atoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw; fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragwyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw:" *h. y.*, 'fel y byddai i chwi gael golygiadau cywir am ei berson, mewn trefn i weithredu ffydd oleuedig a sicr ynddo.'

Dylid cadw mewn cof fod amcan yr Epistol yn cynnwys amddiffyniad i'r gwirionedd mawr am wir Ddiwdod yr Arglwydd Iesu, yn gystal a'i wir ddyndod. Yr oedd hyn yn angenrheidiol er mwyn cyfarfod â heresi Cerinthus, yr hwn a olygir gan rai fel tad yr athrawiaethau Gnosticaidd, a'r hwn a wadai wir a phriodol Ddiwdod yr Iesu. Yn hyn y mae amcan yr epistol yn cyd-daraw âg amcan Efengyl Ioan. [Ceir chwaneg ar hyn dan y pen—"*Perthynas yr Epistol a'r Efengyl.*"]

Ond byddai yn olwg rhy gyfyng ar amcan yr Epistol hwn i'w gyfyngu i eglurhâd ac amddiffyniad o'r wir athrawiaeth am berson Crist, er fod hyn yn rhan bwysig o'r amcan. Y mae yr amcan yn eang, ac yn cynnwys eglurhâd nodedig o oleu (a dwfn yr un pryd) ar Grefydd Crist, yn gystal a'i Berson. Mewn gair, y mae yr Epistol yn draethawd cynnwysfawr ar Gristionogaeth, yn ei hathrawiaeth a'i hymarferiad—yn ei bywyd tufewnol a'i hamlygiad allanol. Felly, dau fater yr Epistol ydyw, Person Crist, a Chrefydd Crist, yn eu dwy egwyddor fawr o gariad a sancteiddrwydd. Gellir crynhoi y cwbl o dan dri phen, fel hyn:—

1. *Person Crist*, sef, ei wir Ddiwdod, a'i briodol ddyndod: yn erbyn y blaid hono o Gnosticiaid (ar un llaw) a wadent ei Ddiwdod yn ystyr priodol y gair; ac ar y llaw arall, yn erbyn y blaid a wadent wirionedd ei ddynoliaeth, ynghyd â sylweddolrwydd ac effeithioldeb ei ddioddefaint a'i angeu, fel aberth iawnol dros bechod. Dechreuodd y cyfeiliornadau hyn ymddangos yn eglwys Crist hyd yn oed yn yr oes apostolaidd, a daethant i fwy o rym ar ol hyny gan y Cerinthiaid, a hereticiaid ereill a gyfodasant tua diwedd y ganrif gyntaf, ac yn yr ail ganrif o'r cyfnod Cristionogol: *pen.* i. 1—3; ii. 18—24; iv. 1—3; v. 1, 5, 19—21.

2. *Cariad*, fel egwyddor hanfodol Cristionogaeth, ac fel gweithrediad uchaf y bywyd ysbrydol, yn uno dynion â Duw fel Tad, ac â'u gilydd fel brodyr (trwy Grist, y brawd hynaf). Olrheinir cariad yn mhellach fel gogoniant y natur ddwyfol ei hunan, a gwreiddyn holl iachawdwriaeth pechadur: *pen.* iv. 7—21, &c.

3. *Sancteiddrwydd* calon a buchedd, yn ei amlygu ei hun mewn ymneillduad oddi wrth y byd ac ufudd-dod i holl orchymynion Duw yn yr efengyl, yn angenrheidiol i brofi gwirionedd cariad, a didwylledd y broffes Gristionogol. Y mae Ioan yn rhoddi pwys dirfawr ar oferedd proffes allanol o grefydd, heb ei bod yn cael ei hattegu gan fywyd o ufudd-dod sanctaidd. Cyfodir hyn i sylw i gyfarfod âg amddiffynwyr penrhyddid; y rhai a honent, gan fod credinwyr yn cael eu cadw trwy ras, nad oeddynt yn rhwymedig i ufuddhau i orchymynion Duw. Dangosir fod bywyd o ufudd-dod sanctaidd yn hanfodol er profi i grediniwyr eu hunain, yn gystal ag i'r byd, wirionedd eu crefydd; fod hyn yn angenrheidiol tuag at fwynhau cysuron yr efengyl, ac nad oes cymdeithas â Duw ac â Christ, a chymmhwysiad beunyddiol o rinweddau gwaed Crist er maddeuant a glanhâd, ond trwy "rodio yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni:" *pen.* i. 4—10; ii. 1—6. iii. 3, 5—10, &c.

O berthynas i *arddull* yr epistol hwn, y mae yn syml, yn glir, ac yn hylithr. Y mae ysbryd serchog—gorlawn o gariad—yn treiddio trwy y cwbl, oddi eithr yn y rhanau hyny lle y mae yr apostol yn dynoethi ac yn ceryddu rhagrithwyr a gau athrawon. Y mae yn argyhoeddi daliadau ac ymarferiadau peryglus y dynion hyn mewn dull mor ffyddlawn, llym, ac awdurdodol fel ag i ddangos priodoldeb yr enw a roddasai ein Hiachawdwr arno ef a'i frawd Iago—*Boanerges*, meibion y daran: *Marc* iii. 17.

Y mae arddull pob ysgrifenydd yn rhwym o ddwyn delw ei feddwl. Gwelir hyn yn amlwg yn yr Epistol hwn; y mae yr arddull yn cyfatteb yn hollol i nodweddion meddwl ysgrifenydd yr efengyl. Natur fyfyrgar oedd yr eiddo Ioan, ac nid ymresymiadol. O blegid hyn, nid yw yn trefnu ac yn gweithio allan syniadau pennodol, gan dynu casgliadau oddi wrthynt mewn ffurf resymegyddol: ond y mae yn cymmeryd rhyw brif syniad fel gwrthddrych myfyrdod tufewnol; ac y mae yn cyssylltu âg ef, er heb unrhyw gyfrwng rhesymegyddol, y canlyniadau sydd yn deilliaw o hono i brofiad y credadyn. Y mae yn fynych yn profi gosodiad yn y modd mwyaf syml, nid trwy resymau, ond trwy gyfeirio at wirionedd sydd yn ei amlygu ei hun yn ymwybyddiaeth y Cristion. Ymddengys yn aml fel pe byddai yn ail adrodd yr un syniad; ond y mae ymchwiliad manylach yn dangos fod pob tro newydd a roddir ar y drychfeddwl yn dwyn rhyw elfen newydd o'i ystyr i oleuni; gwna i'r gosodiadau neu y gwirioneddau unigol, wedi eu llanw â bywyd, ddisgleirio yn y goleuni fel perlau gwerthfawr, fel y gallo y llygad dreiddio i'w hystyr cuddiedig. Y mae ymadr-

oddion yr apostol Ioan mor syml ag y mae yn bossibl iddynt fod; ond y maent mor ddwfn ag ydynt o syml. Y mae ei eiriau neillduol, y rhai ydynt yn nodweddiadol o'i ysgrifeniadau, yn swnio yn syml i'r glust; megys, bywyd, goleuni, gwirionedd, cariad, cyfiawnder, aros yn Nuw, &c.; ond pwy a all blymio i ddyfnder eu hystyr? Pwy bynag a anturia geisio eu helfenu â'r deall dadansoddol ac â dysgeidiaeth ieithyddol yn unig, a genfydd eu bod yn aros yn arwyddluniau annealladwy. Nid yw eu hanfod tufewnol yn cael ei ddadguddio i ni, ond i'r graddau ag y mae ein heneidiau ni ein hunain yn profi y pethau y maent yn llefaru am danynt. Fel hyn y mae yr Epistol yn adlewyrchiad o feddwl wedi ei dreiddio trwyddo gan oleuni Ysbryd Duw. Pa un bynag ai agor gwirioneddau dwyfol ynddynt eu hunain y mae yr apostol, ai eu cymmhwyso mewn ffordd o annogaeth a rhybudd at ei ddarllenwyr, y mae ei iaith bob amser yn cadw yr un tawelwch a manylrwydd gwastad: nid ydyw byth yn amlygu teimlad wedi ei gynnhyrfu i nwyd; adlewyrchir yn mhob man lonyddwch calon yn gorphwys mewn tangnefedd sanctaidd; ysgrifena fel un yn teimlo fod dadganiad syml o'r gwirionedd yn ddigon i sicrhau derbyniad i'w eiriau i feddyliau ei ddarllenwyr. Ar yr un pryd, y mae tôn o nerth a gwroldeb yn rhedeg drwy yr Epistol, perffaith wrthwyneb i bob gordeimlad egwan a mursenaidd. Y mae yn beth i sylwi arno hefyd, fod yr apostol ar un llaw yn cyfarch ei ddarllenwyr fel tad yn llefaru wrth ei blant; ond ei fod, ar y llaw arall, yn cofio bob amser mai nid babanod ydynt bellach, a phob peth yn newydd iddynt; ond eu bod ar yr un tir ag ef ei hunan, yn feddiannol megys yntau ar yr holl wirionedd sydd ganddo i'w gyhoeddi, ac o'r bywyd ysbrydol nad yw yn perthyn iddo ef ei greu ynddynt, ond yn unig ymdrechu ei gynnal a'i ddwyn ar gynnydd.

Llafur cariad sanctaidd ydyw yr Epistol hwn. Y mae y darllenydd symlaf, sydd wedi profi iachawdwriaeth yr efengyl, yn teimlo ei fod yn ei ddeall yn y fan; tra ar yr un pryd y mae yn anolrheinadwy i'r meddyliwr Cristionogol dyfnaf. I'r ddau, y mae yr un mor anwyl a chynnhyrfiol. Ac fel hyn y mae pwy bynag a ymgymmera âg esbonio yr Epistol hwn, a'r darllenwyr yr un modd, yn ciywed y llef ar ei drothwy:—"Diosg dy esgidiau oddi am dy draed, o herwydd y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd ddaear sanctaidd."—*Horne & Tregelles, Ebrard, Huther*, a *Düsterdieck* (dyfynedig gan Ebrard).

EI FFURF.

Gelwir y llyfr hwn "Epistol Cyntaf Cyffredinol Ioan yr apostol." Ond wrth edrych i mewn i'w gyfansoddiad, nid oes yma ddim i'w gael o'r ffurf epistolaidd. Nid oes cyfeiriad na chyfarchiad yn ei ddechreu, nac ychwaith anerchiadau na bendith yn ei ddiwedd. O blegid yr absennoldeb hwn o nodau arferol llythyr, y mae rhai esbonwyr, megys Heidegger, Bengel, Horsley, ac ereill, wedi dyfod i'r penderfyniad na ddylid ei ystyried yn Epistol o gwbl, ond yn hytrach yn draethawd, yn cynnwys crynodeb byr o egwyddorion y grefydd Gristionogol, ynghyd â chyfarwyddiadau priodol i ystâd gyffredinol yr Eglwys Gristionogol ar y pryd; a'i fod wedi ennill y teitl o epistol yn unig am ei fod, yn ffurfiad cyntaf canon y Testament Newydd, wedi ei gyfleu gydag ysgrifeniadau traethodol yr apostolion, y rhai ydynt oll, oddi eithr hwn, yn y ffurf epistolaidd. Addefir fod yr ysgrifenydd yn llefaru yn fynych ynddo yn y person cyntaf, ond heb ei enwi ei hun—a'i fod yn cyfarch y darllenydd, ond heb ei enwi yntau, yn yr ail berson. Ond dadleuir nad yw fod y darllenwyr yn cael eu cyfarch yn personol yn ddigon i gyfansoddi epistol, gan fod ewdwyr yn fynych mewn ffordd gyfeillgar yn personoli y darllenydd.

Ond y mae mwyafrif yr esbonwyr a'r beirniaid erbyn hyn yn ymwrthod â'r golygiad uchod, ac yn dal allan fod Epistol Cyntaf Ioan yn epistol neu lythyr gwirioneddol o ran sylwedd, er nad yw felly o ran ffurf. Dodwn yma yn fyr y rhesymau dros y golygiad hwn:—

1. Y mae trefniad y mater, a nodwedd gyffredinol yr arddull, yn gyfryw ag sydd yn cyfatteb yn fwy i epistol nag i draethawd. Er fod yma drefn glir yn yr ymdriniaeth â'r gwirionedd, nid trefn traethawd ydyw; o blegid gyda'i holl reoleidd-dra, y mae gwedd o naturioldeb esmwyth yn amlwg ar y cwbl, a'r symledd rhydd hwnw o gyfansoddiad ag sydd yn cyttuno oreu â'r dyddordeb uniongyrchol ymarferol, ac â'r duedd ddiddanol sydd yn nodweddu epistol.

2. Y mae Epistol Cyntaf Ioan, yn ddiammheu, yn gyfansoddiad wedi ei fwriadu ar y cyntaf i ddosbarth neilldnol o ddarllenwyr. Gesyd yr awdwr ei hun mewn perthynas personol bendant â'i ddarllenwyr (*pen.* i. 1, &c.; ii. 27; v. 13); ac y mae yn amlwg fod ganddo ddosbarth pennodol o ddarllenwyr mewn golwg, â ffydd y rhai y mae efe yn gydnabyddus (*pen.* ii. 20, &c.; iv. 4); y mae yn cyfarch un gynnulleidfa neu chwaneg, yr hon y mae ei hanes yn uniongyrchol o flaen ei feddwl (*pen.* ii. 19), a'r hon y mae yn teimlo yn angenrheidiol ei rhybuddio rhag peryglon neillduol (*pen.* ii. 18, 26; iv. 1, &c.; v. 16, 21).

Y mae yr ystyriaethau hyn yn ein harwain i'r casgliad fod y cyfansoddiad hwn o eiddo Ioan yn epistol gwirioneddol o ran sylwedd, ond heb fod felly o ran ffurf. Ond dylid cael eglurhâd ar absennoldeb y ffurf epistolaidd. Gan ei fod yn llythyr o ran ei gynnwys, pa fodd y mae rhoddi cyfrif am na buasai yn dwyn delw llythyr o ran ei ffurf, fel yr epistolau ereill?

Rhaid addef y gall y fath beth fod a llythyr priodol heb gyfarchiad na bendithiad. Diwedda Iago ei Epistol â brawddeg, yr hon nid ydyw yn fendithiad (*benediction*) ffurfiol, ond yn cynnwys addewid o fendithion (*Iago* v. 19, 20): y mae Epistol Iudas hefyd yn diweddu gyda mawl-wers. Terfyna yr Epistol hwn gydag annogaeth ddifrifol, sydd megys yn crynhoi sylwedd y cwbl a ddywedasid o'r blaen i un pwynt (*pen.* v. 21). Ond y mae yn fwy rhyfedd fod y ffurf epistolaidd yn hollol ar ol yn y dechreu. Nid yw yr awdwr yn ei hysbysu ei hun, nac yn nodi ei ddarllenwyr, nac yn eu hanerch â'r cyfarchiad arferol. Nid oes genym ond un esampl gyffelyb; sef, yr Epistol at yr Hebreaid. Ond y mae cynnwysiad a ffurf y cyfansoddiad hwnw yn dangos yn amlwg mai traethawd ydyw, wedi ei fwriadu i gael ei astudio yn fanwl; ac nid epistol, yn ystyr cyffredin y gair. Y mae peth arall hefyd yn rhoddi cyfrif i fesur am yr absennoldeb o arysgrif a chyfeiriad personol yn yr Epistol at yr Hebreaid; sef, nad oedd yn cael ei ysgrifenu, fel y barna rhai, gan yr apostol yn uniongyrchol yn ei law-ysgrif ei hun, ond gan un arall o dan ei awdurdod a'i gyfarwyddyd. Ond nid oes un o'r pethau hyn i'w cymmhwyso at Epistol Ioan. Nid ydyw hwn yn

gyfansoddiad o natur traethawd, ond yn ymdywalltiad rhydd a thrwyadl epistolaidd o feddwl a theimlad. Ysgrifenwyd ef hefyd yn ddiau gan yr apostol ei hunan. Y mae hyn yn gwneuthur yr absennoldeb o anerchiad yn y dechreu yn fwy rhyfedd; ac y mae yr absennoldeb o bob anerchiad yn y ffurf o fendith yn y diwedd yr un mor ryfedd. Ceir fod hyd yn oed yr Epistol at yr Hebreaid, yr hwn sydd mor hollol yn draethawd, etto yn cynnwys bendithiad ac anerchiad mewn ffordd o ddiweddglo: *Heb* xiii. 20, 21, 24, a 25. Ond yma nid oes dim o'r fath beth.

Y mae Ebrard, yr hwn sydd wedi ysgrifenu arweiniad manwl a chyflawn i'r epistol hwn yn gyssylltiedig â'i esbonia i arno, yn cynnyg yr eglurhâd a ganlyn:—Rhaid golygu fod yn bossibl i apostol anfon epistol at eglwys, neu gylch o eglwysi, heb roddi ei enw wrtho fel awdwr. Yn yr amseroedd hyn, nid oedd unrhyw dreiniant cyhoeddus i drosglwyddo llythyrau; anfonid hwynt gyda chenhadau neilldiol. Buasai y cwestiwn pa un a roddai yr apostol ei enw wrth y llythyr, ai peidio, yn cael ei benderfynu felly i fesur mawr gan gymmeriad a sefyllfa y genad, ac adnabyddiaeth yr eglwys o hono. Tybia rhai fod yr apostol Ioan wedi ysgrifenu ei epistol cyntaf yn Patmos ar adeg pan yr oedd nifer o henuriaid Ephesus, a'r eiddo eglwysi ereill yn Asia Leiaf gyda hwynt o bossibl, wedi dyfod ato; a'i fod wedi cyflwyno ei epistol i ofal nifer fel hyn o wŷr cyfrifol. Os felly, y mae yn hawdd gweled y gallasai ystyried mai peth afreidiol oedd dodi ei enw yn arysgrif y llythyr.

Ond nid yw hyn yn egluro yr absennoldeb o'r ffurf arferol o gyfarch a bendithio yn nechreu a diwedd y llythyr. Dyry Ebrard gyfrif am hyn trwy dybied nad yw yr Epistol hwn i'w ystyried fel cyfansoddiad annibynol yn sefyll wrtho ei hun, ond fel rhagymadrodd, neu lythyr o gyflwyniad, yn cael ei anfon gyda llyfr neu draethawd arall gwahanol. Buasai hyn yn rhoddi cyfrif am ei fod yn epistol o ran sylwedd—yr apostol yn cyfarch darllenwyr pennodol ynddo, ac yn dal cymmundeb personol â hwynt; ac ar yr un pryd, dengys, pa ham y mae yn amddifad o ffurf epistol —yn gymmaint a'i fod yn cael ei ddarllen gyda chyfansoddiad arall, â'r hwn yr oedd yn gyssylltiedig, ac at yr hwn yr oedd yn cyfeirio. Ceir chwaneg ar hyn dan y pen nesaf.

PERTHYNAS YR EPISTOL A'R EFENGYL.

Wrth gymmharu Epistol Cyntaf Ioan ac Efengyl Ioan â'u gilydd, ceir fod tebygolrwydd mawr rhyngddynt—y cyfryw ag sydd yn myned yn mhell i brofi fod y ddau gyfansoddiad wedi eu hysgrifenu gan yr un awdwr. Canfyddir ynddynt nodau yr un meddwl, o ran ffurf a sylwedd; yr un neilldуolrwydd athrawiaethol; yr un ysbryd a chymmeriad; mewn gair yr un nodweddion neilldуol a phersonol o awduriaeth. Ond heb law y tebygolrwydd cyffredinol hwn, gellir olrhain perthynas nes eto rhwng y ddau gyfansoddiad; sef, gyda golwg ar yr amgylchiadau cyffelyb a fu yn achlysur o honynt, a'r amcan cyffelyb y bwriedid iddynt ei atteb. Yn yr ystyriaethau hyn, y maent yn perthyn yn nes i'w gilydd nag i Lyfr y Dadguddiad; yr hwn a ysgrifenwyd gan yr un awdwr, ond a achlysurwyd gan amgylchiadau hollol wahanol. Y mae yr Epistol hefyd yn dyfod yn llawer nes at yr Efengyl o ran arddull nag y mae un o'r ddau at Lyfr y Dadguddiad.

Yr ydym yn cael fod yr achlysur o gyfansoddi Efengyl Ioan wedi tarddu o angenrheidrwydd hanesyddol ac ymarferol yn yr eglwys. Yr angenrhaid hwnw oedd—gwrthweithio y gyfundrefn o gyfeiliornadau a adnabyddid wrth yr enw *Gnosticiaeth*. Tad y gyfundrefn hon oedd Cerinthus. Y mae Irenæus yn sicrhau, oddi ar awdurdod Polycarp, yr hwn ydoedd ddysgybl uniongyrchol i Ioan, a chan yr hwn y derbyniasai Irenæus yr hysbysrwydd, fod Cerinthus yn byw yn Ephesus yr un amser ag Ioan, a bod Ioan yn ei ystyried ac yn ei ochel fel "gelyn y gwirionedd."

Nodwedd fwyaf cyffredinol Gnosticiaeth, fel y mae yr enw yn awgrymu, oedd—ei bod yn edrych ar Gristionogaeth, nid fel trefn o iachawdwriaeth, ond fel cyfundrefn o wybodaeth, neu ddoethineb bynguiol. Cymmerai i mewn iddi ei hunan rai elfenau o'r athrawiaeth Gristionogol; ond ysgarai hwynt o'u cyssylltiad bywiol â chanolbwynt yr Efengyl, gan eu gweithio i'w damcaniaethau a'i chwestiynau cywrain ei hunan. Ceir fod y gyfundrefn hon yn ymweithio i wahanol ffurfiau mewn gwahanol amserau; a chymmerai ffurfiau gwahanol weithiau ar yr un adeg yn nwylaw gwahanol ddysgawdwyr.

Y mae yn amlwg fod yr apostol Ioan yn gwneuthur ymosodiad penderfynol ar y gyfundraeth hon o gelwyddau, yn ei Efengyl a'i Epistol. Yr oedd chwilfrydedd am wybodaeth (*gnōsis*) wedi ei gynnhyrfu, ysbryd o ymchwiliad a damcaniaeth wedi ei ddeffroi, ond mewn cyfeiriad anghristionogol. Ymgymmerai Ioan â boddhau yr awydd hwn, ond yn yr iawn ffordd; dangosai fod gwir "wybodaeth," nid yn gywreinrwydd gwag ac ymbalfaliad athronyddol ar wahân oddi wrth ffydd yn y Gwaredwr, ond yn gwreiddio yn y ffydd hono, ac ynddi hi yn unig. Yr oedd holl gymmeriad meddyliol Ioan, ynghyd â'r parotoad a gawsai yn nghymdeithas yr Arglwydd, yn ei gymmhwyso yn anad neb i ddysgu y gwirioneddau mawr fod y wybodaeth uchaf i'w chyrhaeddyd trwy y galon, ac yn gwreiddio mewn cariad. Efe, yn fwy na neb o'r dysgyblion, ydoedd wedi ei gymmhwyso i ddirnad ac i drysori yn ei feddwl, ac felly i ddangos i'r byd, rhyw arweddion pennodol yn natur ac athrawiaeth yr Arglwydd Iesu Grist, ac yn arbenig y ddau wirionedd yma:—Yn gyntaf, mynegiadau ein Harglwydd o berthynas i'w dragwyddol berthynas a'i undeb â'r Tad; ac yn ail, dysgeidiaeth ein Hiachawdwr gyda golwg ar y berthynas ddofn a dirgeledig o undeb a chymmundeb bywyd sydd yn banfodi rhyngddo ef a'i ddysgyblion trwy yr Ysbryd Glân. Y mae Ioan yn rhoddi arbenigrwydd neilldуol i'r gwirioneddau pwysig hyn yn ei Efengyl, er mwyn cyfarfod â'r ffurf hono ar Gnosticiaeth oedd yn gwadu gwir a phriodol Dduwdod Crist, ac yn gosod gwybodaeth farw yn lle ffydd a bywyd ysbrydol. Y mae efe yn crynhoi amcan ei Efengyl mewn un adnod yn ei diwedd: "Y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef;" *pen.* xx. 31.

Erbyn troi i'r Epistol, yr ydym yn cael fod yr apostol yma drachefn yn dwyn yn mlaen ymdrechfa yn erbyn yr un gelyn mawr i Gristionogaeth, ac yn erbyn yr un gyfundraeth gelwyddog. Ond y mae gwahaniaeth amlwg yr un pryd, fel y gallesid yn rhesymol ddisgwyl, rhwng yr Epistol a'r Efengyl. Tra y mae yr Epistol yn cynnwys, ac yn sylfaenedig ar, y gwirionedd mawr a amddi-

ffynasid yn yr Efengyl, y mae yn rhoddi arbenigrwydd i ffurf arall ar Gnosticiaeth, yr hon a wadai wir a phriodol ddyndod ein Hiachawdwr, a gwirioneddolrwydd ei ymddangosiad yn y cnawd, a'i waith prynedigol. Y mae yr apostol, dybygid, yn edrych ar yr heresi hon yn ei gwahanol agweddion yn cael ei chynnrychioli yn mherson a dylanwad Cerinthus, yr hwn, fel y dywedwyd, oedd yn tyw yn Ephesus ar yr un amser ag Ioan, ac yn ymroddi i geisio dadymchwelyd Cristionogaeth. Rhybuddia Ioan ei ddarllenwyr yn amlwg a phendant rhag "y celwyddog, yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist," a'r hwn trwy hyny "sydd yn gwadu y Tad a'r Mab" (*pen.* ii. 22). Mewn cyssylltiad â hyn, cyfeiria at ymadawiad o eiddo rhywrai oedd wedi cymmeryd lle eisoes: "Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddynt o honom ni: canys pe buasent o honom ni, hwy a arosasent gyda ni: eithr hyn a fu, fel yr eglurid nad ydynt hwy oll o honom ni;" *pen.* ii. 19. Ac nid yw y rhybudd a'r annogaeth hon yn sefyll yn unig. Ceir ymadroddion cyffelyb yn wasgaredig drwy yr Epistol: *pen.* iv. 1—3, 15: v. 1, 5, 10, 20. Dengys y rhai hyn oll mai cnewyllyn a hanfod y gwirionedd yw yr athrawiaeth "ddyfod Iesu Grist yn y cnawd;" mai "Iesu yw y Crist;" mai "Iesu yw Mab Duw;" mai "Hwn yw y gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol." Ond heb law yr ymadroddion hyn sydd wedi eu gwasgaru drwy y llyfr, y mae yr holl Epistol, o'i ddechreu i'w ddiwedd, wedi ei gyfansoddi ar yr egwyddor hon—i ddangos y cyferbyniad sydd rhwng y gwirionedd Cristionogol a'r gwadiad Gnosticaidd mai Iesu yw y Crist: ac yn mhellach, y berthynas fywiol sydd rhwng y cyferbyniad athrawiaethol yna a'r cyferbyniad crefyddol a moesol rhwng gwirionedd a chelwydd, cyflawnder a phechod, cariad a châs, teyrnas Dduw a'r byd, a rhwng Duw a diafol.

Fel hyn, gan fod yr Epistol wedi cael ei achlysuro gan yr un amgylchiadau a'r Efengyl, y mae cymmaint a hyn, dybygid, yn ddiammheuol—fod yr Epistol yn perthyn i'r un cyfnod o amser a'r Efengyl. Y mae sylw manylach yn ein cario yn mlaen i'r penderfyniad fod y ddau gyfansoddiad yn hollol gydamserol â'u gilydd. Ac os felly, rhaid edrych ar yr Epistol fel math o lythyr cyflwyniad i'r Efengyl, neu gyd-ysgrif yn cael ei hanfon gyda hi, ac yn gwasanaethu i ddybenion rhagymadrodd ac attodiad.

Nodwn yn fyr rai rhesymau dros y golygiad hwn. 1. Y mae syniadau neu linellau pennodol o feddwl yn yr Efengyl yn cael eu hail adrodd yn yr Epistol, wedi eu crynhoi a'u symio i fyny mewn ychydig eiriau. Y mae yn wir nad ydym yn cael cyfeiriadau ffurfiol o'r natur yma mewn cynnifer o eiriau; nid yw yr apostol yn dyweyd—'Megys y dangosais eisoes yn fy Efengyl;' ond y mae yr Epistol o ran ei sylwedd yn gorphwys ar yr Efengyl. 2. Heb law hyny, y mae yr Epistol, hyd yn oed o ran ei ffurf, yn seiliedig ar yr Efengyl. Y mae yr absennoldeb o'r ffurf epistolaidd (sef cyfeiriad, cyfarchiad, a diolchgarwch) a dadganiad o fendith fel diwedd-glo) i'w esbonio yn unig ar y dybiaeth nad oedd i'r cyfansoddiad amcan annibynol fel Epistol (sef yr hyn sydd yn cyflawni y diffyg o ymadrodd llafaredig) ond ei fod yn gorphwys ar rywbeth arall. Ar y golygiad ei fod yn gyd-ysgrif â'r Efengyl, neu yn fath o gyflwyniad i'w chanlyn, y mae y ffurf hon sydd arno yn dyfod yn hollol ddealladwy. 3. Ceir cyfeiriadau mynych yn yr Epistol at yr Efengyl. Y mae rhagymadrodd yr Epistol, a gynnwysir yn y pedair adnod cyntaf, yn gyfeiriad amlwg at yr Efengyl. Nid yn unig y mae tebygolrwydd rhyngddo â rhanau o'r Efengyl (megys âg *Ioan* i. 14), yr hyn a allesid ei egluro ar y tir mai yr un yw awdwr y ddau lyfr, ond y mae yn amlwg yn cyfeirio at gynnwys yr Efengyl. Dywed Ioan yn yr adnodau hyn ei fod wedi mynegu iddynt "yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am air y Bywyd." Nid yr athrawiaeth am Fab Duw fel person dwyfol a olygir yma, ond hanes y Crist personol—Mab Duw wedi ymgnawdoli (ac fel y cyfryw), y Gair wedi ei wneuthur yn gnawd: nid syniadau arddangoddol, nid athrawiaeth, ond hanes y Gair ymgnawdoledig fel un wedi ei weled gan Ioan: "Yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno," &c.; *pen.* i. 1. Yn awr, nis gallasai hyn olygu cynnwys yr Epistol, o blegid nid yw hyn yn yr Epistol o gwbl; y mae yma ddadblygiad o'r athrawiaeth mai Iesu yw Mab Duw, a'i ddyfod yn y cnawd—y mae egwyddorion Cristionogaeth yn cael eu dysgu yma, ond dim o hanes Crist yn y cnawd. Ond yr hanes hwnw yw Efengyl Ioan—ac at yr Efengyl o ganlyniad yn ddiau y mae hyn yn cyfeirio.

Yn *adn.* 4, dywedir, "A'r pethau hyn yr ydym yn eu hysgrifenu atoch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn." Nid yw "y pethau hyn" yn edrych yn ol at y tair adnod cyntaf, y rhai ydynt yn golygu y trosglwyddiad o Efengyl Ioan i'w dwylaw, ond yn mlaen at gynnwys yr Epistol. Y mae "pethau hyn" yr Epistol yn cael eu hysgrifenu yn chwanegol at yr hyn a fynegasai Ioan iddynt yn ei Efengyl am Air y bywyd, fel ag i ddwyn ei ddarllenwyr yn mlaen i lawenydd cyflawn yr Efengyl. "Yr hyn oedd o'r dechreuad, &c....yr ydym yn ei fynegu i chwi" (yn yr Efengyl); "A hyn [y cyfansoddiad hwn sydd yn canlyn yr Efengyl], yr ydym yn ei ysgrifenu atoch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn:" *pen.* i. 1—4. Nid oedd angen am ddisgrifiad manylach o'r Efengyl, gan ei bod yn dyfod i'w dwylaw ar unwaith a'r Epistol. Ac y mae y geiriau "a'r pethau hyn yr ydym yn eu hysgrifenu atoch"—y rhai o angenrheidrwydd a ddeallid am yr Epistol—o honynt eu hunain yn arwain i'r casgliad fod "yr hyn oedd o'r dechreuad," &c., yn cyfeirio at yr Efengyl oedd yn dyfod atynt gyda'r Epistol.

Yr ydym yn gweled cyfeiriad arall hynod o darawiadol at yr Efengyl yn y newidiad o'r amser presennol i'r gorphenol, yn y geiriau "ysgrifenu yr wyf," ac "ysgrifenais:" *pen.* ii. 12, 13, 14, 21, 26. Nid ydym yn gweled y gellir rhoddi unrhyw gyfrif rhesymol am y newidiad amser yn yr adnodau hyn, ond trwy olygu "ysgrifenu yr wyf" yn cyfeirio at yr Epistol ei hunan, ac "ysgrifenais" yn cyfeirio at yr Efengyl, oedd yn dyfod i'w dwylaw yr un amser.

Y mae yr holl ystyriaethau hyn, ac ereill a ellid eu nodi, yn dangos, dybygem, fod yn rhaid edrych ar yr Epistol fel cyd-ysgrif (*companion-document*) i'r Efengyl.

ELFENIAD O'R EPISTOL.

Gellir dosbarthu yr Epistol hwn i chwe dosran, heb law y diwedd-glo—yr hwn sydd yn adgrynhoad o'r cyfan.

NODIADAU AR EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL IOAN.

Dos. 1, a hôna wir Dduwdod a dyndod Crist, mewn gwrthwynebiad i'r gau athrawon; ac a argymmhella y cyfuniad o ffydd a bywyd sanctaidd fel yn anhebgorol angenrheidiol i alluogi Cristionogion i fwynhau cymdeithas â Duw:—i. 1—7.

Dos. 2, a ddengys fod pawb wedi pechu, ac a eglura athrawiaeth Iawn Crist:—i. 8—10; ii. 1, 2. Oddi wrth hyn, cymmer yr apostol achlysur i ddangos nodau gwir ffydd: sef, ufudd-dod i orchymyn Crist, a gwir gariad at y brodyr. Dangosir fod cariad at y byd yn anghysson â chariad at Dduw:—ii. 3—17.

Dos. 3, a hôna fod Iesu yr un person a Christ—mai "Iesu yw y Crist"—mewn gwrthwynebiad i'r gau athrawon oedd yn ei wadu:—ii. 18—29.

Dos. 4, ar freintiau gwir gredinwyr, a'r dedwyddwch a'r dyledswyddau sydd yn cyfodi o hyny, ynghyd â'r nodau wrth y rhai y gwybyddir eu bod yn "feibion i Dduw:"—iii.

Dos. 5, a gynnwysa faen-brofion, wrth y rhai y gellir gwahaniaethu Anghrist a gau Gristionogion, ynghyd âg annogaeth i gariad brawdol:—iv.

§ i. Nôd i adnabod un math o Anghrist—bod heb gyffesu ddyfod Crist Iesu yn y cnawd: iv. 1—3.

§ ii. Arwyddion i wahaniaethu gau Gristionogion; sef,
(1). Cariad at y byd:—4—6.
(2). Diffyg cariad brawdol:—7—12.
(3). Gwadu fod Crist yn wir Fab Duw:—13—15.

§ iii. Argymmhelliad i gariad brawdol, oddi ar yr ystyriaeth o gariad Duw yn rhoddi ei Fab dros bechaduriaid:—16—21.

Dos. 6, a ddengys y cyssylltiad rhwng ffydd yn Nghrist, ail enedigaeth, cariad at Dduw a'i blant, ufudd-dod i'w orchymynion, â goruchafiaeth ar y byd; a bod Iesu Grist yn wir yn Fab Duw, yn alluog i'n hachub, ac i wrandaw y gweddïau a offrymwn drosom ein hunain, a thros ereill:—v. 1—16.

Y DIWEDDGLO, yr hwn sydd yn grynodeb o'r traethawd blaenorol, a ddengys fod bywyd pechadurus yn anghysson â gwir Gristionogaeth; a hôna Dduwdod Crist, ac a rybuddia gredinwyr rhag eilunaddoliaeth:—v. 17—24.

LLENYDDIAETH YR EPISTOL.

Yn mysg esboniadau y tadau ar yr Epistol hwn, y mae yr eiddo Diodorus a Chrysostom wedi eu colli yn gyfangwbl: ac nid yw yr eiddo Clemens Alexandria, a Didymus, ar gael ond mewn rhan. Y mae *Catenæ* Œcumenius a Theophylact, *Expositio* Augustin, a'r eiddo Bede, yn aros hyd yn awr, ac wedi eu defnyddio yn helaeth gan esbonwyr diweddarach.

O esboniadau cyfnod y Diwygiad, gellir crybwyll, heb law *Adnotationes* Erasmus, ddau esboniad Luther, a'r eiddo Zuingle. Mwy pwysig na'r rhai yna i ddybenion eglurhaol ydynt yr eiddo Bullinger, Gignæus, Calvin, a Beza.

Yn y cyfwng rhwng y Diwygiad a chyfodiad Rhesymoliaeth yn yr Almaen, ysgrifenwyd llawer ar yr Epistol hwn. Grotius yr Arminiad a wrthwynebid gan y Lutheriad Calovius. Gellir nodi y rhai canlynol, y rhai a ysgrifenasant ar yr oll o'r Testament Newydd, fel rhai teilwng o sylw ar 1 *Ioan*:— Piscator, Hammond, Bengel, Whitby, Rosenmüller, Beausobre, a Benson. Yn mysg y rhai a ysgrifenasant ar yr Epistolau Cyffredinol, gellir enwi Aretius, Alsted, Hornegas, Carpzov. Ysgrifenodd Whiston esboniad pennodol ar dri Epistol Ioan; ac hefyd Weber, a Schirmer. Ar Epistol Cyntaf Ioan yn unig, y mae genym esboniadau Socinus, Episcopius, Spener, Hunnius, a S. Schmidt.

Yn nhymmor Rhesymoliaeth, gellir nodi Oertel, Morus, Lange, Paulus, a Semler. Yn yr adeg ddilynol, y mae Augusti, Lachmann, a Lücke. Yn ddiweddarach, y mae Neander, Wolf, Sander, Düsterdieck, Huther, Ebrard, Alford, a Candlish, &c.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL IOAN.

PENNOD I.

1 *Y mae efe yn gosod allan berson Crist, yn yr hwn y mae i ni fywyd tragwyddol, trwy gymdeithas â Duw.* 5 *Rhaid i ni ymroi i sancteiddrwydd buchedd, i dystiolaethu gwirionedd y gymdeithas hono, a'n ffydd; a hefyd i'n sicrhau ein hunain o faddeuant pechodau, trwy farwolaeth Crist.*

YR [a]hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a [a] Diar. 3. 22 —31; Esa. 41. 4; Micah 5. 2; Ioan 1. 1, 2; 8. 58. B. A. 95.

Pennod i. 1—4.

Y Rhagymadrodd i'r Epistol.

1. *Yr hyn oedd o'r dechreuad.*—Y mae gradd o anhawsder yn nghystrawiad neu yn ffurf ramadegol yr adnod hon. Y prif gwestiwn i'w benderfynu ydyw—ar ba ferf y mae y pethau a nodir yn yr adnod hon yn dibynu? I ba ferf y mae "yr hyn oedd o'r dechreuad," &c., yn enwedigydd neu yn wrthddrych? Mewn geiriau ereill, beth ydyw yr hyn sydd yn cael ei hôni neu ei ddadgan o berthynas i "yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywsom," &c.? Heb drafferthu y darllenydd â'r gwahanol olygiadau ar hyn, goddefer i ni ddyweyd mai yr unig gystrawiad a ymddengys i ni yn rhesymol, ac hyd yn oed yn bossibl, ydyw yr un ag y mae y mwyafrif mawr o'r esbonwyr yn cyttuno arno. Dyna ydyw y cystrawiad hwnw:—cyssyllta y gwahanol bethau a enwir yn yr adnod gyntaf, ac yn nechreu *adn.* 3, â'r ferf "mynegu" (*adn.* 3)—tra y mae yr oll o *adn* 2. yn dyfod i mewn yn y canol rhwng cromfachau. Y mae "yr hyn a welsom ac a glywsom," yn *adn.* 3, yn grynhoad o'r gwahanol frawddegau yn *adn.* 1—ar ol tori ar gyssylltiad yr ymadroddion gan yr ail adnod. Felly saif y cystrawiad yn hollol syml ac eglur fel hyn:—"Yr hyn oedd o'r dechreuad," &c.—"yr ydym yn ei fynegu i chwi." Y mae tri golygiad ar y cwestiwn—at bwy neu ba beth y cyfeiriai Ioan yn yr ymadrodd hwn—"yr hyn oedd o'r dechreuad?" Barna rhai, megys Theophylact, Œcumanius, a Socinus, mai pwngc o wirionedd a olygir, neu yr athrawiaeth fod Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Ereill, megys De Wette, Huther, &c., mai grym y bywyd newydd a blanwyd yn y ddynoliaeth gan Grist a feddylir. Barna ereill [Calvin, Beza, Luther, Bengel, Lücke, Ebrard, &c.] mai Crist ei hun, neu y Gair personol, a feddylir. Dyma y golygiad mwyaf cywir, dybygem, am y rhesymau canlynol:—1. Y mae yn amlwg fod "yr hyn oedd o'r dechreuad" a'r hyn oedd Ioan yn ei "fynegu," yn rhywbeth ag yr oedd efe, nid yn unig wedi ei weled a'i glywed, ond hefyd wedi ei "deimlo â'i ddwylaw." Nid oedd athrawiaeth Crist, na'r bywyd newydd a ddygwyd ganddo i'r ddynoliaeth, yn bethau i'w teimlo â'r dwylaw: Crist ei hun, fel wedi ymddangos yn y cnawd, oedd felly yn unig. Yr oedd y dysgyblion yn ei deimlo ef â'u dwylaw: *Luc* xxiv. 39; *Ioan* xx. 27. 2. Y mae "yr hyn oedd o'r dechreuad" yn cyfeirio yn amlwg at yr ymadroddion yn yr adnodau cyntaf o Efengyl Ioan:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair," &c. Yno dywedir fod y Gair yn bod yn y dechreuad, ei fod gyda Duw, ei fod ei hunan yn Dduw, mai trwyddo ef y creodd Duw bob peth; a bod y Gair hwn wedi ei wneuthur yn gnawd, ac wedi ymddangos yn weledig ar y ddaear. Y mae yr hyn a nodwyd allan yn helaeth fel hyn yn yr Efengyl, yn cael ei grynhoi yma i ychydig o eiriau byrion. Y mae y gwrthddrych mawr ag yr oedd Ioan yn ei fynegu yr un yn y naill a'r llall—yr hwn oedd yn bod o'r dechreuad, a'r hwn oedd wedi cael ei weled a'i deimlo. Y mae yn ddiau fod Ioan yn cyfeirio fel hyn yn nechreu ei Epistol at yr hyn oedd yn ffurfio mater sylfaenol ei Efengyl: sef, fod y Gair tragwyddol yr un a'r Iesu gweledig. Hyn, yn gyferbyniol i heresi Cerinthus, oedd yn ffurfio cnewyllyn a chalon gwirionedd yr Efengyl. Nid ymddangosiad ffugiol oedd yr eiddo Iesu o Nazareth, ond person gwirioneddol yn y cnawd—y Duw-ddyn—yn cael ei weled a'i deimlo gan Ioan, ac yn yr hwn y gwelodd Ioan y gogoniant tragwyddol yn tywynu: "gogoniant megys yr uniganedig oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd," yn tabernaclu yn ein plith ni. Y mae "y dechreuad" yma, gan hyny, yn arwyddo—nid dechreuad hanes personol y Gwaredwr ar y ddaear, ac nid pwynt dechreuol hanesyddiaeth y byd na'r greadigaeth (fel yn *Mat.* xix. 4, 8: neu *Ioan* i. 1), ond y tragwyddol ddechreuad—yr hanfodiad cyntefig hwnw, yn yr hwn y dywedir yn Efengyl Ioan fod y Gair yn bod gyda Duw (*Ioan* i. 1, 2), cyn dyweyd dim etto (*adn.* 3) am greadigaeth y byd trwyddo ef (cymmharer *Ioan* xvii. 5). Nid oes dim gwahaniaeth sylweddol gan hyny rhwng yr ymadrodd "o'r dechreuad" yn y lle hwn a'r ymadrodd "yn y dechreuad" yn *Ioan* i. 1. Yn ol Ebrard, y mae Ioan yma yn dyweyd "*o'r* dechreuad," am ei fod yn edrych arno ei hun fel wedi gweled a theimlo eisoes y Gwaredwr ymgnawdoledig: y mae yn gosod ei hun i sefyll megys ar bwynt tufewnol (*subjective*) ei brofiad ei hunan, ac o'r pwynt hwnw y mae am fynegu fod yr Hwn yr oedd efe wedi ei weled yn bod eisoes o'r dechreuad. Y mae Ioan ar y llaw arall, yn yr Efengyl, yn dechreu yn allanol (*objectively*) ddadlygu hanfodiad tragwyddol y Gair; ac felly y mae yn ysgrifenu—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair." O ganlyniad, y gwrthddrych yr oedd

[b] Luc 24.39; Ioan 20.27. [c] Ioan 1. 14. edrychasom arno, [b]ac a deimlodd ein dwylaw am [c]Air y bywyd;

Ioan yn ei fynegu oedd Crist. Ond y mae yn naturiol gofyn yma, os person Crist ydoedd gwrthddrych y mynegiad, pa ham y dywedir "yr hyn," ac nid "yr hwn oedd o'r dechreuad." Yr atteb cywir i hyn, dybygem, ydyw yr eiddo Ebrard, ac ereill; sef, mai nid person Crist ynddo ei hunan (yn yr *abstract*) a olygir, ond y person yn yr amlygiad hanesyddol o hono—person Crist yn ei holl hanes a'i waith ar y ddaear. Nid rhoddi i lawr nodau y mae Ioan yma i hysbysu y darllenydd am bwy yr oedd efe yn llefaru, ond ei hysbysu pa beth yr oedd efe yn ei fynegi o berthynas i'r person hwnw: felly y mae yn defnyddio y canolryw (*neuter*) '*ho*,' ac nid '*hos*'—"yr hyn," ac nid "yr hwn." *Yr hyn a glywsom.* —Pregethau ac ymddiddanion yr Iesu; yr hyn oll a ddisgynodd dros ei wefusau yn ei gymdeithas â'i ddisgyblion, yn ystod ei weinidogaeth ar y ddaear. Fel y sylwyd yn yr arweiniad, nid hysbysu cynnwysiad yr Epistol y mae Ioan yn yr adnodau hyn, ond hysbysu cynnwysiad ei Efengyl, i'r hwn yr oedd yr epistol yn ffurfio math o gyd-ysgrif, neu attodiad. Ceir mwy o eiriau Crist yn Efengyl Ioan nag yn un o'r Efengylau ereill. "Yr hyn a welsom â'n llygaid." Awgrymir yma yr holl wyrthiau a'r gweithredoedd rhyfeddol ag yr oedd yr apostolion wedi bod yn llygad-dystion o honynt. *Yr hyn a edrychasom.* —Y mae yr ymadrodd hwn yn cynnwys mwy na "gweled â'r llygaid." Golyga weithred ddyfnach o eiddo y meddwl a'r galon—syllu sefydlog mewn myfyrdod a boddhâd. Y mae yn cynnwys, nid yn unig yr hyn sydd yn taraw y synwyrau allanol, ond canfyddiad o'r "gogoniant" ysbrydol a dywynai trwy hyny. *Ac a deimlodd ein dwylaw.* —Sylwa Düsterdieck fod "pob cyfyrddiad o eiddo y dwylaw yn teimlo yr hwn oedd yn wirioneddol wedi dyfod yn gnawd." Cyfeiria yr ymadrodd hwn ein meddwl ar unwaith at gorph adgyfodedig ein Harglwydd; gorchymynai y Gwaredwr i'r dysgyblion ei deimlo wedi iddo adgyfodi, er eu hargyhoeddi mai efe ei hun oedd, ac nid drychiolaeth (*Luc* xxiv. 39); a gwahoddai Thomas i ddodi ei ddwylaw yn ei ystlys, a'i fys yn ol yr hoelion: *Ioan* xx. 27. *Am Air y bywyd.* —O berthynas i "Air y bywyd." Gellir deall "Gair y bywyd" mewn un o dair ffordd:—1. Y gair neu yr athrawiaeth am fywyd, fel "gair y cymmod" (2 *Cor.* v. 19). 2. Y gair bywiol—yr efengyl fel yn meddu ac yn rhoddi bywyd. Neu, 3. Y Gair personol, yr hwn sydd yn meddu bywyd ynddo ei hunan, ac yn cyfranu bywyd i'r greadigaeth. Dyma yr ystyr, yn ol yr esbonwyr goreu, fel yn *Ioan* i. 1. Nid am yr athrawiaeth neu yr efengyl yr oedd Ioan yn mynegu, ond yr athrawiaeth ei hunan; ond wrth olygu "gair y bywyd" yn gyfystyr â pherson y Gair, y mae yn briodol defnyddio "am" (*peri*)—ynghylch, o berthynas i Grist—Gair y bywyd. Y mae y gwahanol ymadroddion yn yr adnod hon yn ffurfio brawddeg gyfosodol reolaidd, gynnwysedig o bedair braich. Y testyn yw—"yr hyn oedd o'r dechreuad." Eglurir ef trwy y pedwar ymadrodd:—

Yr hyn a glywsom;
Yr hyn a welsom â'n llygaid:
Yr hyn a edrychasom arno;
Yr hyn a deimlodd ein dwylaw.

Y mae y fraich gyntaf a'r drydedd yn cyfatteb i'w gilydd o ran ffurf, a'r un modd yr ail a'r

2 (Canys y bywyd a eglurhawyd, ac ni a welsom, ac ydym yn

bedwaredd. Y maent hefyd yn ffurfio esgyneb. Y gris isaf ydyw clywed. Y mae yr ail yn ffurf uwch o gymmundeb—"gweled â'r llygaid." Y mae y drydedd yn radd bellach etto, am fod y cymmundeb yn fwy tufewnol ac ysbrydol—"edrych ar." Y mae yr olaf y ffurf berffeithiaf o gymmundeb allanol, a'r bellaf yn mlaen hefyd o ran ei lle hanesyddol—cyffwrdd, "teimlo â'r dwylaw," gyda chyfeiriad neilldiol at gorph ein Hiachawdwr wedi ei adgyfodiad. Fel hyn, yr ydym yn cael—clywed y geiriau, gweled â'r llygad y gwyrthiau, edrych ar y gogoniant, a theimlo â'r dwylaw y corph adgyfodedig. Yr hyn a fynegir gan hyny ydyw—y person, ynghyd â gweithredoedd a bywyd y person hwnw yn ei amlygiad hanesyddol.

2. *Canys y bywyd a eglurhawyd.*—Y mae y gair "canys," trwy gyssylltu yr adnod hon a'r un flaenorol, yn dangos mai yr un person ydyw yr hwn a elwir yma "y bywyd" ag a elwir yn yr adnod gyntaf yn "Air y bywyd." Yma y mae y gwrthddrych hwnw yn "fywyd" personol, fel y mae, yn *adn.* 1, yn "Air" personol. Dyma y dadganiad sydd yn sylfaen yr efengyl, neu bob cyhoeddiad o iachawdwriaeth—fod y bywyd hwn wedi ei eglurhau. Y mae yr apostol yn yr adnod hon, a ddygir i mewn rhwng cromfachau, yn gosod allan mewn modd pendant a ffurfiol yr hyn sydd yn cael ei dybied neu ei gynnwys yn *adn.* 1; sef, gwirionedd sylfaenol yr ymgnawdoliad—yr un gwirionedd ag a gyhoeddir yn *Ioan* i. 14; "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd." Pan y dywedir fod "y bywyd wedi ei eglurhau," nid bywyd ynddo ei hunan a feddylir, nid nerthoedd ysbrydol neu naturiol o fywyd, a'r rhai hyny yn cael eu hamlygu mewn cadwen o ddadgudd iedigaethau, fel y mae nerthoedd anianyddol natur yn cael eu dadblygu trwy gyfres o gynnyrchion gwahanol yn y byd llysieuol ac anifeilaidd. Nid dyna ystyr "bywyd" yma; ond y bywyd personol, tragwyddol, sef y Gair—"Gair y bywyd" (*adn.* 1). Er dangos hyn yn amlwg, chwanegir *ac ni a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegu i chwi.*—Y mae Fritzsche, De Wette, Düsterdieck (â'r rhai y mae Alford yn cyttuno) yn cyssylltu y "gweled" â'r "tystiolaethu," â'r "bywyd" yn y rhan flaenaf o'r adnod fel eu gwrthddrych; ac yn cyssylltu y "mynegu" yn unig â'r "bywyd tragwyddol" yn niwedd yr adnod: fel hyn, "ac ni a'i gwelsom ef, ac ydym yn tystiolaethu am dano ef, ac yn mynegi i chwi y bywyd tragwyddol," &c. Er nad ydyw hyn yn gwneuthur dim gwahaniaeth o bwys yn y meddwl, gwell genym ni o lawer, gyda Lücke ac Ebrard, uno y tair berf â'r "bywyd tragwyddol" fel eu gwrthddrych, fel y maent yn sefyll yn ein cyfieithiad ni. Y mae rheswm Ebrard dros y cystrawiad hwn, i'n tyb ni, yn un tra boddhaol; sef, ei fod yn cadw yr *objective* a'r *subjective*—yr allanol a'r mewnol—ar wahân, tra y mae y cystrawiad arall yn eu cymysgu. Yn ol hwnw, buasai trefn y meddyliau fel hyn:—

1. Y bywyd a eglurhawyd, ac ni a'i gwelsom ef, ac ydym yn tystiolaethu am dano.
2. Ac yr ydym yn mynegu i chwi y bywyd tragwyddol, &c.

Ond yn ol y cystrawiad yr ydym yn dadleu drosto, y maent yn sefyll fel hyn:—

1. Y bywyd a eglurhawyd.

tystiolaethu, ac yn mynegi i chwi
d Ioan 17. 3. d y bywyd tragwyddol, yr hwn
oedd gyda'r Tad, ac a eglurhawyd
i ni)

3 Yr hyn a welsom ac a glyw-
som, yr ydym yn ei fynegi i chwi,
fel y caffoch chwithau hefyd gym-
deithas gyda ni: a'n cymdeithas

2. Ac ni a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegu i chwi y bywyd tragwyddol, &c.

Yn ol y trefniad hwn, y mae yr amlygiad allanol yn sefyll arno ei hunan, yn ei fawredd annibynol:—"Y bywyd a eglurhawyd." Wedi hyny, y mae y meddwl arall isaddol yn cael ei ddwyn ger bron yn eglur ac ar wahân, sef, yr elfen fewnol, neu ein perthynas ni â'r bywyd hwnw: "Ac ni a welsom," &c. O ran y gwahaniaeth sydd rhwng y tri gair, y mae "gweled" yn dynodi y cwbl sydd yn gynnwysedig mewn bod yn llygaddystion, ac mewn profiad personol unigol union-gyrchol. Y mae y "tystiolaethu" a'r "mynegu" yn cynnwys cyhoeddiad gweithredol. Golyga y "tystiolaethu" wirionedd neu sicrwydd hollol yr hyn a ddywedir, tra y mae y "mynegu" yn golygu y cyhoeddiad o'r peth fel chwanegiad at wybodaeth y gwrandawyr neu y darllenwyr. 'Yr ydym wedi gweled Crist a'i weithredoedd, ac yn dyfod yn mlaen fel tystion o honynt, ac yn eu cyhoeddi i chwi.' Nid yw y "mynegu" yma yn golygu yr Epistol hwn, ond y cyhoeddiad cyffredinol o'r efengyl am Grist, mewn gair ac ysgrifen, gyda chyfeiriad neilltuol yr un pryd, fe allai, at gynnwys Efengyl Ioan, i'r hon yr oedd yr epistol hwn yn gwasanaethu fel cyflwyniad. *Y bywyd tragwyddol:*—neu, yn ol Alford, 'y bywyd, yr hwn sydd dragwyddol.' Nid y bywyd tragwyddol ynddo ei hunan, nac fel y mae yn dyfod i ran credinwyr; ond y bywyd yr hwn oedd er tragwyddoldeb, wedi ei gorphori yn mherson Crist. Y mae y "tragwyddol" yma yn cyfatteb i "o'r dechreuad" yn *adn.* 1. Y gwahaniaeth ydyw, fod y syniad yn dyfod allan mewn ffurf hollol allanol neu wrthddrychol (*objective*) yn y gair "tragwyddol;" tra yn yr ymadrodd arall—"yr hyn oedd o'r dechreuad"—y lleferir am dano o safle bersonol yr edrychydd. *Yr hwn oedd gyda'r Tad.*—Y rhagenw "yr hwn" yma ydyw *hétis*, ac nid y ffurf syml *hé*. Y mae esbonwyr wedi gwneyd llawer iawn o'r gwahaniaeth hwn. Gallem feddwl fod ystyr y ffurf hon ar y rhagenw yn cael ei egluro yn gywir yn y lle hwn yn ngolygiad Düsterdieck, Ebrard, ac Alford—ei fod yn dynodi, nid y gwrthddrych yn unig, ond y math, y rhywogaeth; ac mai ei rym yma, heb law cryfhau y gair, ydyw cyfeirio yn ol at "yr hyn oedd o'r dechreuad,"—"yr hwn fywyd, yn wir (megys y dywedwyd eisoes yn *adn.* 1.) oedd gyda'r Tad." Y mae yr ymadrodd hwn etto yn cyfatteb i *Ioan* i. 1; "a'r Gair oedd gyda Duw." Dynoda yr arddodiad "gyda" (*pros*) nid cyfagosrwydd yn unig, ond perthynas. Prin hwyrach y mae arno ei hunan yn cynnwys cariad, fel y dywed rhai ar y lle hwn; ond gesyd allan yn amlwg wahaniaethiad y personau yn y Duwdod.—*Alford.* Rhydd Ebrard feddwl dyfnach i'r gair—yn y cyfeiriad tuag at y Tad. "Megys y dywedir yn *Ioan* i. 1, am y Gair, ei fod erioed wedi bod yn y cyfeiriad tuag at y Tad; hyny yw, nid yn weithred o eiddo Duw tuag allan, tuag at y creadur, ond yn Air yn yr hwn yr oedd y Tad yn llefaru wrtho ei hunan, yn traethu ei hanfodiad ei hun ger ei fron ei hunan, yn Air o eiddo Duw i Dduw:—felly dywedir yma am y "bywyd," ei fod tuag at y Tad. Fel hyn, yn ol ei fod, a'i natur dragwyddol, nid bywyd ydoedd, yn llifo allan oddi wrth Dduw a thuag at y creadur, i'r dyben o alw y creadur hwnw i fod, neu i'w lenwi â galluoedd o ddadblygiad; ond bywyd ag oedd yn wir yn llifo allan o fynwes y Tad, ond oedd ar unwaith yn dychwelyd yn ol i fynwes y Tad, yn ffrydlif ddidor hanfod fwyaf tumewnol Duw."—*Ebrard.* Yr ydym yn barnu, gyda Huther ac Ebrard, fod yma ddadl gref dros dragwyddol fabolaeth Crist. Y mae Duw yn cael llefaru am dano yma dan yr enw "Tad," mewn cyfeiriad at Grist fel yr oedd efe yn "fywyd tragwyddol," ac yn bod gyda'r Tad er tragwyddoldeb. Felly y mae y "Gair" yn Fab, nid yn unig o adeg ei ymgnawdoliad, ac o blegid ei ymgnawdoliad, ond erioed, ac ar gyfrif dirgelwch ei hanfodiad tragwyddol yn y Drindod Sanctaidd. *Ac a eglurhawyd i ni.*—Yr un ystyr a'r "eglurhawyd" yn nechreu yr adnod.

3. *Yr hyn a welsom ac a glywsom.*—Y mae y frawddeg a ddechreuwyd yn *adn.* 1, yn awr yn cael ei dilyn yn mlaen, ar ol ei thori gan *adn.* 2, yr hon sydd yn dyfod i mewn yn y canol rhwng cromfachau. Ond gan fod *adn.* 1 yn awr mor bell yn ol, y mae y gwahanol bethau a nodir ynddi—y "clywed," &c.—yn cael eu symio i fyny yma i "yr hyn a welsom ac a glywsom," er mwyn ei chydio yn fwy eglur â'r ferf sydd yn canlyn. *Yr ydym yn ei fynegi i chwi.*—Ar yr aelod yma o'r frawddeg y mae yr oll o'r adnod gyntaf yn dibynu; i'r ferf "mynegu" y mae yr oll o *adn.* 1 yn wrthddrych. Neu, 'i chwithau:'—y mae *cai* yn yr ysgrifau hynaf. 'Yr ydym ni, yr apostolion, y rhai a welsom, &c., yn mynegi y pethau hyn, fel y byddo i chwithau hefyd, y rhai nid oeddych yn llygad-dystion o honynt, eu gwybod.' *Fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyda ni.*—Dyma ddyben Ioan yn ysgrifenu ei Efengyl—yr hanes am Grist; fel y byddai i'r holl gredinwyr gael dyfod i mewn i gymdeithas â'r apostolion yn eu gwybodaeth am Grist. *A'n cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef Iesu Grist.*—Dyma y gymdeithas uchaf. Y mae "ac yn wir" yn cyssylltu ac yn cyferbynu y ddwy gymdeithas. Y gyntaf ydyw cymdeithas y credinwyr â'r apostolion, i'r hon y dygir hwynt drwy yr hanes am eiriau a gweithredoedd rhyfeddol y Gwaredwr. Ond nid yw y gymdeithas hon ond mynedfa i gymdeithas arall annhraethol uwch: yr oedd yr apostolion yn amcanu arwain a chyfodi eu darllenwyr gyda hwynt trwy y naill i'r llall; sef, i'r gymdeithas o fywyd a chymmundeb ysbrydol, yn yr hon y mae pob credadyn yn bersonol yn sefyll gyda'r Tad a'r Mab. Sylwa Zuinglius a Calvin fod y ddwy frawddeg yn rhedeg yn gyfochrog o ran eu hystyr â'r ddwy fraich yn ngweddi archoffeiriadol ein Hiachawdwr: *Ioan* xvii. 21;—

(*a*) "Fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyda ni."	(*a*) "Fel y byddont oll yn nn (megys yr wyt ti y Tad ynof fi, a minnau ynot ti)."
(*b*) "A'n cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef Iesu Grist."	(*b*) "Fel y byddont hwythau un ynom ni."

Y mae yr ail adroddiad o'r "gyda" yn gwahaniaethu y personau dwyfol, tra y mae y gymdeithas

ni yn wir *sydd* gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef Iesu Grist.

4 A'r pethau hyn yr ydym yn

â'r naill a'r llall yn uno y ddau yn y Duwdod. Y mae yr enw personol a'r un Messïaidd ar y Gwaredwr wedi eu huno yma, fel yn *Ioan* i. 17. Gofynir weithiau, pa ham na buasai y trydydd person yn cael ei enwi: 'a chyda'r Ysbryd Glân?' Y mae Lücke yn atteb hyn trwy ddyweyd, nad oedd personoliaeth ddwyfol yr Ysbryd Glân i'w gael yn y dull apostolaidd o feddwl. Y mae ysgrifeniadau yr apostolion, feddyliem, yn gwrthbrofi y syniad yna yn amlwg. Nis gwyddom am well attebiad i'r cwestiwn hwn na'r un a ddyry Alford:—"Dyna ydyw yr Ysbryd bendigedig, Duw yn preswylio mewn dyn; ac am hyny, er y gellir dyweyd fod 'cymdeithas yr Ysbryd Glân,' (2 *Cor.* xiii. 13) genym ni, prin y gellid dyweyd fod i ni gymdeithas gyda yr Ysbryd Glân."

4. *A'r pethau hyn.*—Yr holl Epistol hwn. Cyfeiria yr adnodau blaenorol at ddyben Ioan yn ysgrifenu ei Efengyl; ond yma dengys amcan yr Epistol fel chwanegiad at yr Efengyl. *Yr ydym yn eu hysgrifenu atoch.*—Defnyddia yr apostol y rhif lïosog wrth lefaru am dano ei hun yma fel yn y tair adnod flaenorol, medd Bengel ac ereill, am ei fod yn siarad yn ei enw ei hun a'i gyd-apostolion. Dealla Ebrard ef am y rhif lïosog o "lawn urddas ac awdurdod," fel yn *pen.* iv. 14. *Fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.*—Y mae rhai o'r beirniaid goreu yn dadleu dros y darlleniad "ein" (*hémón*), ac y mae llawer o awdurdod ysgrifau drosto. Gellir deall y rhagenw 'ein' mewn un o ddwy ffordd: 'eich llawenydd chwi a minnau; eich llawenydd chwi trwy rodio yn ngoleuni a diddanwch yr efengyl, a'n llawenydd ninnau yn eich ffydd, a'r ddau yn cyfarfod mewn llawenydd yn Nuw.' Neu: 'ein llawenydd ni,' sef yr apostol, yn llefaru am dano ei hun yn y rhif lïosog fel yn yr adnodau blaenorol, ac hefyd fe allai fel yn cynnrychioli yr apostolion. 'Ein llawenydd yn nghyfraeddiad yr amcan, o'ch dwyn i gymdeithas gyda ni yn nghyflawnder gwirionedd yr efengyl, a thrwom ni i gymdeithas â'r Tad, ac â'i Fab ef Iesu Grist.' Yn ol Düsterdieck, Alford, &c., y mae y "llawenydd" hwn yn golygu yr oll o'r bywyd Cristionogol yma, ac ar ol hyn; heddwch cydwybod, ysbryd mabwysiad, cynnydd mewn gras, gobaith gogoniant—elfenau bywyd tragwyddol: mewn gair, y profiad dedwydd o iachawdwriaeth yn tarddu o gymdeithas â Duw. Dadleua Ebrard fod y golygiad yna yn dinystrio y cyferbyniad a awgrymir yn gynnil rhwng *adn.* 3 a 4—fod y "llawenydd" yma o ystyr mwy pendant, ac yn golygu llawenydd buddugoliaeth am 'orchfygu y byd;' mai buddugoliaeth ydyw syniad uchaf yr holl epistol, ac felly fod y geiriau hyn yn cyfatteb i ran o weddi archoffeiriaidd ein Hiachawdwr etto (sef, *Ioan* xvii. 13), "fel y caffont fy llawenydd i yn gyflawn ynddynt eu hunain," fel y dangoswyd fod *adn.* 3 yn cyfatteb i ran arall o'r weddi hono (*Ioan* xvii. 21). Rhaid addef fod llawer o gyfattebiad rhwng tôn y weddi hono â'r epistol hwn. Un o brif faterion y weddi ydyw, y berthynas sydd rhwng y saint a'r byd; y "llawenydd" yn y weddi ydyw y llawenydd sydd yn sylfaenedig ar y sicrwydd fod plant Duw, er yn y byd, heb fod o'r byd, ac nas gall y byd ennill goruchafiaeth arnynt, yn dufewnol trwy demtasiwn, eu hysgrifenu atoch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

5 A hon yw y genadwri a glyw-

nac yn allanol trwy erledigaeth. Ceir yr un syniad yn rhedeg trwy yr epistol hwn—y gwrthwynebrwydd rhwng y saint a'r byd, a'u goruchafiaeth arno. Arfogi credinwyr i'r rhyfel hwn ydyw amcan yr epistol. Ysgrifenodd Ioan ei Efengyl, yn yr hon yr oedd defnyddiau i orchfygu ymosodiadau y Gnosticiaid — cyfeiliornadau mewn barn: ysgrifena yr Epistol i ddysgu y Cristionogion i ddefnyddio y gwirioneddau hyny i ddybenion ymarferol, i'w cynnorthwyo yn yr ymdrech yn erbyn yr holl ddrygau ysbrydol oddi fewn ac oddi allan. Chwanega ei Epistol hwn at ei Efengyl, fel y byddai i lawenydd y credinwyr, yr hwn oedd yn tarddu o'u cymdeithas â Duw a Christ, ac â'u gilydd, gael ei berffeithio yn eu llawn fuddugoliaeth ar eu holl elynion ysbrydol. Ysgrifenodd Ioan ei Efengyl (medd Ebrard)—yr hysbysiad am y Gair tragwyddol yn yr amlygiad hanesyddol o hono ar y ddaear—er mwyn i arch y weddi archoffeiriadol (yn *adn.* 21 o *Ioan* xvii.) gael ei hatteb; sef, mewn trefn i gorphori y darllenwyr i gymdeithas corph Crist trwy undeb bywyd â'r pen. Ond y mae Ioan yn chwanegu at ei Efengyl yr Epistol hwn, yr hwn a gynnwys gymmhwysiad ymarferol o'r athrawiaeth—y gwahaniaeth rhwng goleuni a thywyllwch, y berthynas yn yr hon y mae Cristionogion yn sefyll â'r byd, nodau anghrist yn ei wahanol ffurfiau, a rhybudd difrifol rhagddo; ac yn olaf, buddugoliaeth hollol y saint ar y byd. Ysgrifena y pethau hyn, fel y byddo i'r arch arall yn y weddi gael ei hatteb (*Ioan* xvii. 13) trwy i'w ddarllenwyr gyrhaedd i lawenydd cyflawn rhyfel a buddugoliaeth—camp nas gellir ei chyrhaedd, ond pan y mae y Cristion, er yn y byd, yn ymgadw ar wahân oddi wrth y byd.

ADN 5—II. 28.—Y RHAN GYNTAF O'R EPISTOL.

Y GENADWRI: OS MYNWN GYMDEITHAS AG EF, YR HWN YW Y GOLEUNI, Y MAE YN RHAID I NI RODIO YN Y GOLEUNI, GAN GADW EI ORCHYMYNION EF.

5. *A hon yw y genadwri a glywsom ganddo ef.*—Y mae y cyssyllt-air "a" yn cael ei roddi yma, nid i gyssylltu yr adnod hon â'r un flaenorol, o blegid y mae yma adran newydd yn dechreu; ond am fod "y genadwri a glywsom" yn cyfeirio yn ol o ran ei ystyr at "yr hyn a glywsom yr ydym yn ei fynegu" yn *adn.* 3; *anggelia* (cenadwri) ydyw y darlleniad cywir yn ddiau, ac nid *epanggelia* (addewid), fel y mŷn rhai. "Ganddo ef;" sef, gan Grist. *Ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi.*—Y mae y gair "cenadwri" yn awgrym o awdurdod, ac "adrodd" yn cynnwys sefyllfa israddol i'r un sydd yn rhoddi. Crist, yr awdurdod uchaf, oedd yn "rhoddi" y "genadwri," yna yr apostolion yn ail roddi, yn ei lledaenu yn mysg ereill. Fel y sylwa Bengel, "Yr hyn oedd yn ngenau Crist yn 'genadwri' (*anggelia*), hyny yr oedd yr apostolion yn ei 'adrodd' (*ananggelousi*)." *Mai goleuni yw Duw.*—Dywediad dwfn, yr hwn yn ei gyflawn ystyr a gynnwysa ganolbwynt neu gnewyllyn yr holl ddadguddiad o Dduw a wnaed yn a chan Grist. Nid "fod Duw yn oleuni" (un yn mhlith llawer)—"*a light,*" fel y mae Luther yn cyfieithu; ond "goleuni yw Duw" yn ei natur neu ei hanfod, fel y dywedir, yn *pen.* iv. 8, mai "Duw cariad yw." Y mae yn wir fod hyn o wahaniaeth rhwng y ddau osodiad;

som ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi; Mai goleuri yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.

6 Os dywedwn fod i ni gymdeithas âg ef, a rhodio yn y tywyllwch, celwyddog ydym, ac nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd:

7 Eithr os rhodiwn yn y gol-

y mae cariad yn air o ystyr hollol foesol neu ysbrydol, ac felly i'w gymmhwyso yn llythyrenol at Dduw, yr hwn sydd yn Ysbryd. Ond sylwedd materol ydyw goleuni, ac felly rhaid iddo gario rhyw gymmaint o ystyr ffugyrol. Ond o bob gwrthddrych materol, goleuni ydyw yr un sydd yn symmud hawddaf o'r materol i'r ysbrydol—yn gymmaint felly, fel nad yw y meddwl bron yn ymwybodol o symmudiad o gwbl pan yn ei wneuthur. Y mae goleuni, yn fwy nag un gwrthddrych sylweddol arall, yn uno ynddo ei hunan burdeb a chlirder, a phrydferthwch, a gogoniant; y mae mor bur fel y mae yn sefyll megys ar derfyn eithaf tiriogaeth mater, ac yn ei chyssylltu â thiriogaeth ysbryd; y mae yn ammod pob bywyd a chynnydd a llawenydd mewn anian. Ac wrth gymmhwyso y gair hwn at Dduw, nid oes angen cymmeryd y symmudiad o'r materol i'r ysbrydol, o blegid efe yw ffynnonell pob goleuni—y mae yn uno y cwbl ynddo ei hun. Goleuni oedd cynnyrch cyntaf y gallu creadigol, yn ei weithrediad ar y tryblith. Ac nid gwneyd y tryblith hwnw yn weledig yn unig yr oedd, ond ei drefnu a'i fywhau; dyma ffynnonell gwahaniad, cyfansoddiad, a dadblygiad yr elfenau; dyma egwyddor bywyd a threfn y greadigaeth. Y mae goleuni yn cynnwys ysgogiad, ac felly yn weithrediad bywyd. Y mae goleuni yn cynnwys y syniad o wirionedd, o blegid y mae y corph goleu yn amlygu ei natur ei hun. Y mae y corph goleu yn hefyd yn rhoddi goleuni ar ac i bob peth o'i amgylch; hanfod goleuni ydyw bod er mwyn ereill—felly y mae cariad. Y mae corph tywyll wedi ei gau i fewn ynddo ei hun. Yr ydym yn cael awgrymiad yn hyn i'n harwain i'r gosodiad—fod pob goleuni, materol, deallol, ac ysbrydol, yn cyfarfod yn un yn eu hegwyddor hanfodol. Y mae mwy na chymmhariaeth rhynggdynt—y mae cyfattebiaeth; ac y mae mwy na chyfattebiaeth, sef perthynas yn gwreiddio mewn undeb. Y mae goleuni anianyddol, neu y syniad o hono, yn gorwedd wrth wraidd holl weithrediadau y meddwl. Nis gallwn feddwl heb wahaniaethu; ac nis gallwn wahaniaethu heb gyfleu y naill beth yn y meddwl ar gyfer y llall. Y drychfeddwl hwn o gyferbyniad ydyw gwreiddyn gweithrediadau meddyliol y creadur. Ond y mae y syniad o gyferbyniad, neu y drychfeddwl o osodiad y naill beth ar gyfer y llall, yn cynnwys y drychfeddwl o le; ond nis gellir meddwl am le yn y ffurf o linell, na phwynt, nac unrhyw ffurf arall, heb synio am dano fel yn bod mewn goleuni. Gwahaniaethiad ydyw goleuni yn ei natur; ac y mae mwy na chymmhariaeth yn y dywediad fod gwirionedd yn cael ei ddwyn i oleuni, pan y mae yn cael ei eguro. Y mae y berthynas yn dal wrth ei chario yn mlaen i'r ysbrydol. Y mae pechod yn dywyllwch yn ei natur; y mae yn troi oddi wrth ordeiniadau y Creawdwr mewn natur, y rhai a ffurfiwyd trwy greadigaeth goleuni anianyddol; y mae yn gyfeiliornad mewn barn, yn cynnwys amryfusedd meddyliol; a thrwy guddio ei hunan, ac ymgau ynddo ei hunan heb leshau ereill, y mae yn groes i wirionedd, ac yn groes i gariad. Nid rhyfedd fod pechod yn ceisio tywyllwch y nos, gan fod cydnawsedd a pherthynas rhwng pob tywyllwch a'u gilydd. Yr un modd, y mae sancteiddrwydd, fel gwirionedd, purdeb, cariad, a llawenydd, yn gydnaws â goleuni y dydd. Y mae yn rhaid fod y Creawdwr, gan hyny, yr hwn a wnaeth oleuni fel hyn yn egwyddor pob dosbarthiad yn ei greadigaeth—anianyddol, rhesymol, a moesol—y mae yn rhaid ei fod ef ei hunan yn ei natur yn oleuni. Y mae efe nid yn unig yn Greawdwr, ond yn "Dad y goleuni;" *Iago* i. 17. Y mae yr holl rywogaethau o oleuni ag ydynt yn amlygu eu hunain yn y creadur yn eu ffurfiau amrywiol, ac ar wahân, yn bod ynddo er tragwyddoldeb yn eu hundod cyntefig.—*Ebrard.* Ond pa bryd y cyhoeddodd Crist y "genadwri" hon? Dywed yr esbonwyr Groegaidd, mai pan y tystiolaethodd am dano ei hun, "Myfi yw goleuni y byd." Mwy cywir, feddyliem, ydyw y golygiad fod hyn yn hytrach yn grynodeb o'r holl ddadgudd o Dduw a wnaed gan yr uniganedig Fab, yr hwn oedd yn "ddisgleirdeb ei ogoniant, ac yn wir lun ei berson ef." Trwy ei berson, ei athrawiaeth, a'i weithredoedd, eglurodd ei natur ei hunan, a'r eiddo ei Dad, ac felly natur y Duwdod—y Tri yn un, fel goleuni. *Ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.*—Y mae yn unol âg arddull Ioan i gryfhau haeriad cadarnhaol o wirionedd, trwy wadiad pendant o'r gosodiad gwrthwynebol: *adn.* 8; *pen.* ii. 4, 10, 27, &c. Y mae y gwadiad yn gryf a phwysleisiol; "dim" (*oudemia*)—'dim mewn un modd;' 'dim, hyd yn oed un brycheuyn.'—*Alford.* Nid hollwybodaeth Duw yn unig a osodir allan yma; nid yr hyn a ddywedir ydyw, nad oes dim tywyllwch iddo, neu ger ei fron, ond nad oes dim tywyllwch ynddo—yn hanfod dufewnol y natur ddwyfol ei hunan nid oes dim tywyllwch. Dim math o dywyllwch; nid tywyllwch pechod yn unig a wedir yma yn ei berthynas â Duw, ond pob tywyllwch—anwybodaeth, cyfeiliornad, pechod, a marwolaeth. Fel y sylwa Sander, "ni ddarganfyddodd unrhyw athroniaeth erioed un Duw yn oleuni heb ynddo ddim tywyllwch." Crist a'r efengyl sydd yn dadguddio, ac yn ein dysgu i adnabod yr unig wir Dduw. Y mae yr adnod hon yn myned o dan wraidd Gnosticiaeth, fel y dysgid hi gan Cerinthus—yr hwn a haerai fod y byd o ran ei sylwedd wedi ei greu mewn pechod, mai "tywyllwch" wedi ymffurfio yn fater ydoedd, a bod y tywyllwch a'r pechod sydd yn y byd i'w dadogi i ryw fod a alwai yn dduw cyntaf (*primus deus*). Yn lle hyny, dysgir ni gan y Beibl a'r efengyl, fod y byd wedi ei greu o oleuni, mewn goleuni, ac i oleuni; ac wedi ei fwriadu i adnabod y goleuni tragwyddol, ac i rodio ynddo. Fel hyn, er mor syml yr ymddengys ar yr olwg gyntaf y gosodiad "goleuni yw Duw," y mae (fel y sylwa Ebrard) yn cynnwys hedyn holl athrawiaeth a dadguddiad yr efengyl; ac felly, edrycha Ioan arno fel "y genadwri"—fel crynodeb o sylwedd Cristionogaeth.

6. Dyma y casgliad ymarferol cyntaf oddi wrth y gwirionedd "mai goleuni yw Duw"—fod rhodiad sanctaidd yn y goleuni yn angenrheidiol i brofi gwirionedd ein cymdeithas âg ef. *Os dywedwn.*—Nid awgryma yma eu bod hwy yn

[a] 1 Ioan 2. 1, 2; 5. 6, 8; Ioan 1 29. cuni, megys y mae efe yn y gol- cuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd, [a]a gwaed Iesu Grist, ei

dywedyd fel hyn; ond tybiaeth bur ydyw, hollol gyffredinol: "Pwy bynag a ddywedo, ac yn mha le bynag." Y mae y person cyntaf yn y rhif liosog, "dywedwn," yn rhoddi ffurf cyffredinol ddieithriad i'r hyn a ddywedir, ac y mae yr apostol wrth roddi ei hun i mewn, yn dyfod i lawr i'r un tir a'i ddarllenwyr, ac felly yn ennill eu teimlad, ac yn grymusо y casgliad ar unwaith. *Fod i ni gymdeithas âg ef.*—Gwel ar *adn.* 3. "Cymdeithas â Duw ydyw hanfod mwyaf tumewnol pob gwir fywyd Cristionogol."—*Huther. A rhodio yn y tywyllwch.*—Defnyddir yr ymadrodd hwn yn y Testament Newydd yn fynych am yr oll o symmud, a bod, a throi yn y byd; ar ba law bynag y try y dyn, y mae wedi ei amgylchynu â thywyllwch. Y mae yr ymadroddion "yn y goleuni," ac "yn y tywyllwch," yn nodi allan yn fwy pendant nag y gallesid gwneyd heb y fannod y ddwy driogaeth o fodolaeth ysbrydol fel yn bod ar wahân oddi wrth eu gilydd—un gyda Duw, a'r llall heb Dduw. *Celwyddog ydym.*—Y mae yr haeriad yn un gau. Pan y mae bywyd ac ymarweddiad dyn yn rhedeg o fewn cylch y natur hunanol, annuwiol, ddaearol, gnawdol, nis gall natur dufewnol y dyn hwnw fod yn sefyll yn y berthynas hon o gymdeithas â Duw. Oddi wrth y cylch y mae dyn yn ei ddewis i arddangos ei natur dufewnol, gallwn dynu casgliad sicr am nodweddiad y natur dufewnol hono ei hunan. A'r dyn hwnw sydd yn gwasanaethu y tywyllwch o ran gogwydd ei fywyd, fel y mae yn weledig o flaen llygaid dynion, ac etto a fynai haeru ei fod yn byw mewn cymdeithas â Duw o ran ei natur ddirgel dufewnol, celwyddog ydyw. Nid ydyw yn bossibl i'r cyfryw anghyssondeb fod rhwng y dyn oddi mewn a'r dyn oddi allan. Nis gall cymdeithas dufewnol o fywyd gyda Duw lai na dadguddio ei hun yn allanol i ddynion yn ffrwythau sancteiddhâd: rhaid i'r goleuni sydd yn tywynu oddi fewn wasgaru ei lewyrch o gyssegriad sanctaidd dros yr holl fywyd, yn y fath fodd fel y gall llygaid dynion ei weled. Yr hwn sydd yn byw mewn cymdeithas â Duw, ac wedi ei eni o'r goleuni, nis gall yn ei fywyd a'i ymddygiad gelu ei darddiad uchel.—*Ebrard. Ac nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd.*—Y mae y fannod yn rhoddi ystyr wrthddrychol i'r "gwirionedd"—gwirionedd Duw. Y mae yr hyn a ddysgir yma am y "goleuni" a'r "gwirionedd" yn cyfatteb i *Eph.* iv. 5.—*Alford.* Y mae y dyn a wnelo hyn yn gelwyddog, nid mewn gair yn unig, ond mewn gweithred hefyd; y mae yn dywedyd celwydd, ac yn gwneuthur celwydd—nid ydyw ei fuchedd ond celwydd byw. Yn ei waith yn dywedyd fod iddo gymdeithas â Duw, nid ydyw yn llefaru y gwirionedd: yn ei waith yn rhodio yn y tywyllwch, ni i yw yn gwneuthur y gwirionedd.

7. Yma y mae yr ail gasliad ymarferol (oddi wrth *adn.* 5) yn cael ei dynu. Cynnwysa yr ochr gadarnhaol, yn gyferbyniol i'r nacâd yn *adn.* 6; ac heb law hyny ddadblygiad pellach o'r mater. *Eithr os rhodiwn yn y goleuni.*—Y mae yr ymadrodd hwn i'w esbonio fel un cyferbyniol i'r un yn *adn.* 6. Y dyn yn amlygu ei natur dufewnol trwy y cylch yn yr hwn y mae yn troi, yn symmud, ac yn bod yn ngwŷdd dynion—y cylch hwnw o amcanion a gweithrediadau syddyn cyfatteb i natur Duw, neu i'r goleuni—cariad, purdeb, Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddi wrth bob pechod.

8 Os dywedwn nad oes ynom

gwirionedd, egwyddorion, ac ymddygiadau nefol a sanctaidd. Ceir manylion y rhodiad hwn yn *Eph.* v. 8. *Megys y mae efe yn y goleuni.*—Y mae hyn yn egluro y "rhodio yn y goleuni." Y mae y ddau ymadrodd yn cynnwys cyfattebiad a chyferbyniad. Y cyfattebiad ydyw yr hyn a arwyddir yn y gair "megys." Golyga hyn fwy nag efelychiad o Dduw; cynnwysa fod elfen hanfodol ein rhodiad beunyddiol ni yr un ag elfen hanfodol bodolaeth dragwyddol Duw: nid dynwarediad, ond cyd-darawiad ac undod awyrgylch bywyd ei hunan. Y mae yma gyferbyniad hefyd rhwng "rhodio" a "bod." "Megys y mae efe" a ddywedir am Dduw, i arwyddo tragwyddoldeb a sefydlogrwydd ei hanfodiad yn y goleuni: ond "rhodio" a ddywedir am danom ni, fel deiliaid amser, ac yn symmud yn mlaen. "Goleuni" yw yr elfen yn yr hon y mae Duw yn trigo: 1 *Tim.* vi. 16. Nid efelychiad o Dduw yn unig yw y rhodio hwn yn "y goleuni megys y mae efe yn y goleuni;" ond cynnwysa fod elfen hanfodol ein rhodiad beunyddiol ni yr un ag elfen hanfodol bodolaeth dragwyddol Duw—nid dynwaredriad, ond cyd-darawiad ac undod yn awyrgylch bywyd ei hunan.—*Alford. Y mae i ni gymdeithas â'n gilydd.*—Cymdeithas credinwyr â Duw sydd yn *adn.* 6; ac am hyny yr un peth a fuasem yn ei ddisgwyl yn yr adnod hon i wneyd i fyny gyferbyniad. Felly dyna y darlleniad a geir mewn rhai ysgrifau (*met'autou*—âg ef); ond nid oes awdurdod digonol drosto, ac y mae yn fwy agored i ammheuaeth am fod yn debyg ei fod wedi gwreiddio mewn ymgais i wneyd *adn.* 7 i gyfatteb o ran ffurf allanol i *adn.* 6. Cyttuna yr esbonwyr goreu, oddi eithr ychydig iawn o eithriadau, mai cymdeithas credinwyr â'u gilydd a olygir. Y mae y gymdeithas â Duw yn cael ei thybied yn y "rhodio yn y goleuni megys y mae efe yn y goleuni." Golyga y geiriau fod credinwyr yn mwynhau cymmundeb â'u gilydd trwy eu bod oll yn ymsymmud yn yr un elfen gyffredin o fywyd; sef, "goleuni yr Arglwydd:" *Esa.* ii. 5. Sylwa Ebrard fod cymmundeb â Duw yn yr ad nod hon wedi ei agor megys i'r ddwy elfen fawr sydd yn ei gyfansoddi: laf, cymdeithas o gariad â'r brodyr, neu rodio yn y cylch bywiol o bersonau a phethau sanctaidd; 2il, Cyd-gyfranogiad mewn gallu dwyfol o fywyd—gallu pureiddiol. *A gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddi wrth bob pechod.*—Tuag at ddeall y frawddeg bwysig hon, y mae yn angenrheidiol cadw golwg ar dri neu bedwar o bethau. 1. Y mae yr "a" (*cai*) yn cyssylltu y frawddeg gyda'r un flaenorol, fel all effaith y "rhodio yn y goleuni," ac nid fel sail y gymdeithas â'u gilydd: hyny yw, nid y meddwl ydyw, 'Os rhodiwn yn y goleuni, &c., y mae i ni gymdeithas â'n gilydd am fod gwaed Iesu Grist yn ein glanhau ni;' ond 'Os rhodiwn yn y goleuni, y mae dau ganlyniad bendigedig yn deilliaw o hyny; yn laf, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd: ac yn 2il, y mae gwaed Iesu Grist yn ein glanhau ni.' Defnyddir *cai* yma yn ei ystyr cyffredin—ac nid yn yr ystyr o *gar*, sef canys. 2. "Gwaed Iesu Grist ei Fab ef," a olyga gwir waed Iesu, y Gwaredwr personol (y mae llawer o awdurdod beirniadol dros y darlleniad 'Iesu' yn y lle hwn, ac nid 'Iesu Grist.' Buasai yn ddigon naturiol

bechod, yr ydym yn ein twyllo ein [f] hunain, [f] a'r gwirionedd nid yw ynom.

[f] 1 Tim. 6. 5; 3 Ioan 3.

hefyd i dybied mai dyma yr enw a ddefnyddiasai Ioan wrth son am waed Crist—enw ei ddyndod a'i ddarostyngiad yn unig):—gwaed gwirioneddol yr Iesu, yr hwn a dywalltwyd ar y groes, a'r gwaed hwnw fel yn dywalltedig; hyny yw, marwolaeth iawnol Crist ar y groes. Nid ffydd yn y gwaed a olygir yma, ac nid cymmhwysiad tufewnol o hono trwy ffydd. Pa mor agos a phwysig bynag ydyw cyssylltiad y pethau hyn â'r gwirionedd hwn, nid am y pethau hyn y sonir yma; ond am "waed Crist" wedi ei dywallt ar y groes yn aberth iawnol dros bechod y byd, fel yr achos allanol, gweithredol, o'n cymmod a'n sancteiddiad. Drychfeddwl allanol (*objective*) sydd i'r ymadrodd, ac nid tufewnol (*subjective*). Am yr un gwaed y sonir yn *Col.* i. 20, felcyfrwng mawr heddwch rhwng Duw a dyn; ac *Eph.* i. 7, fel cyfrwng ein prynedigaeth; hefyd *Heb.* ix. 14, fel moddion pureiddiad, neu lanhâd (megys yma, *catharizein*) ein cydwybodau oddi wrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw. 8. Dylid cadw yn ofalus at ystyr priodol y "glanhau" yma; sancteiddhâd sydd yma ar bob cyfrif, ac nid cyfiawnhâd. Pa faint bynag y mae cyfiawnhâd a maddeuant yn cael eu rhagdybied, yr hyn a osodir allan yma ydyw rhinwedd pureiddiol gwaed Crist. Cadarnheir hyn gan *adn.* 9, lle y mae "glanhau oddi wrth bob anghyfiawnder" yn cael ei nodi fel bendith wahanol a chwanegol at y "maddeu i ni ein pechodau." 4 Cadarnheir y golygiad hwn gan amseriad y ferf. Rhoddir hi yn yr amser presennol—"yn ein glanhau ni." Er i'r saint fod yn rhodio yn y goleuni, y mae pechod ynddynt yn barhaus (*adn.* 8); o ganlyniad, serch iddynt fod wedi eu cyfiawnhau, y maent mewn angen am bureiddiad gwastadol. Ac y mae y gwaed yn puro; o blegid condemniwyd pechod, a dadgudd-iwyd sancteiddrwydd a chariad Duw yn angeu Crist; o ganlyniad, y mae gwaed Crist, trwy ffydd fywiol ynddo, yn meddu dylanwad glanhaol neu sancteiddiol, hyd nes y bydd y galon wedi ei glanhau oddi wrth bob pechod. Y mae Alford yn symio i fyny athrawiaeth yr adnod hon fel y canlyn:—Y mae ein rhodiad hwn yn y goleuni, yr hwn sydd ei hunan o angenrheidrwydd wedi ei seilio mewn cymdeithas â'r Tad ac â'r Mab, yn dwyn oddi amgylch y canlyniad hwn—pa bechodau bynag y byddwn etto yn cael ein bradychu iddynt gan wendid ein natur, a malais y diafol, oddi wrthynt oll y mae gwaed Iesu yn ein puro o ddydd i ddydd. Nid y cymmhwysiad o'r gwaed hwnw a ddywedir yma; o blegid am ystâd o ffydd a sancteiddrwydd yr ydym yn son, yn yr hon y mae y gwaed hwnw yn cael ei gymmhwyso yn wastadol. Y "rhodio yn y goleuni" yn wir yw y cymmhwysiad; dyma, fel elfen ammodol dufewnol, sydd yn gwneyd gwaed ei groes ef yn foddion puredigaeth oddi wrth bob pechod.

ADN. 8—PEN. II. 2. DADBLYGIAD Y SYNIAD O BRYNEDIGAETH ODDI WRTH BECHOD TRWY WAED CRIST, MEWN CYSSYLLTIAD A'N RHODIAD YN Y GOLEUNI.

8. Un o effeithiau sicraf rhodio yn y goleuni ydyw cydnabod y tywyllwch sydd etto yn aros ynom, mewn cyfaddefiad o'n pechodau. Y mae y goleuni sydd ynom yn condemnio y tywyllwch; a thra nad ydym mwyach yn caru nac yn chwe-

9 [g] Os cyfaddefwn ein pechod- [g] Lef. 26. 40—42; Iob 33. 27, 28; Salm 32. 5. [h] Deut. 7. 9; 1 Cor. 1. 9; Heb. 10. 22.

au, [h] ffyddlawn yw efe a chyfiawn, ychu pechod, y mae i ni, trwy waed iawnol a sancteiddiol Crist, faddeuant llawn, a glanhâd sicr oddi wrth ein holl bechodau. Ond y gwir brawf o'r ystâd hon o gymmundeb â Duw ac adnabyddiaeth o hono, ydyw cadw ei orchymynion ef (ii. 3—6), "rhodio megys ag y rhodiodd efe;" ac y mae y prawf hwn yn cael ei grynhoi a'i symio i fyny mewn un prif beth, sef cyfraith cariad (ii. 7—11).—*Alford. Os dywedwn nad oes ynom bechod.*—Ysgrifena yr apostol at rai ag yr oedd eu pechodau wedi eu maddeu iddynt; ac felly nis gall yr amser presennol, "nad oes ynom," fod yn cyfeirio at fywyd pechadurus cyn yr argyhoeddiad, fel y mae ysgrifenwyr Socinaidd yn esbonio; ond at eu cyflwr presennol, a'r pechodau yr oeddynt yn agored iddynt yn y cyflwr hwnw. Dywedwyd yn *adn.* 7, fod gwaed Crist yn meddu dylanwad parhaus i sancteiddio; yn awr dywedir fod y saint oll mewn angen parhaus am y glanhâd hwn, am fod pechod yn bresennol ynddynt; ac mai cydnabod a chyfaddef hyn ydyw y peth cyntaf sydd yn hanfodol tuag at rodio yn y goleuni.—*Alford.* "Os dywedwn:" dyma ddywediad etto (fel yn *adn.* 6), heb un ffaith allanol yn cyfatteb. Dyna oedd yn *adn.* 6, proffesu cymdeithas â Duw, ac etto rhodio yn y tywyllwch; dyna sydd yma, proffesu bod heb bechod, ac etto pechod yn bresennol. Yr hyn a ofynir i'r Cristion yn *adn.* 6, ydyw ar iddo rodio yn y goleuni; yma, ar iddo gyfaddef fod pechod ynddo. Deilgys y ddwy adnod yma ar gyfer eu gilydd, fod meddu pechod yn rhywbeth sydd o angenrheidrwydd yn hollol wahanol i rodio yn y tywyllwch. Dangosir fod yr olaf yn ystâd na all un Cristion fod ynddi, a bod y flaenaf yn ystâd ag y mae yn rhaid i bob Cristion gydnabod ei fod ynddi. Yn y naill, y mae bywyd cysson ac amlwg y dyn o fewn cylch "y tywyllwch;" yn y llall, fod ynom bechod:—nid y dyn sydd mewn pechod, ond y pechod sydd yn y dyn. Y mae yn wir fod pob math o bechod yn perthyn i diriogaeth y tywyllwch, ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng "y tywyllwch" (gyda'r fannod) a "phechod" (heb y fannod). Golyga y blaenaf holl deyrnas y tywyllwch yn gyffredinol, a'r cwbl a gynnwysa, fel y mae yn wrthwyneb i Dduw a theyrnas y goleuni; golyga yr olaf rhyw agweddi neu ymddygiad neilluol o natur bechadurus, fel y mae yn syrthiad ymaith oddi wrth wir natur adgenedledig y dyn. Nid yw y Cristion mwyach yn "y tywyllwch:"—y cylch y mae ei fywyd ef yn troi ynddo ydyw teyrnas Iesu Grist. Ond er nad yw efe yn byw mewn pechod, y mae pechod etto yn fyw ynddo ef.—*Ebrard. Yr ydym yn ein twyllo ein hunain.*—Golyga y gair *plané* gyfeiliornad; ond nid cyfeiliornad athrawiaethol yw yma, ond un ymarferol—ffordd gyfeiliornus, camarwain ein hunain ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd. *A'r gwirionedd nid yw ynom.*—Y mae "y gwirionedd" yma, fel yn *adn.* 6, yn golygu, nid y dueddfryd dufewnol, ond y gwirionedd allanol—gwirionedd Duw: nid yw y goleuni hwn, sef natur Duw, yn anian o'u mewn. Y gwirionedd am sancteiddrwydd Duw a'n pechadurusrwydd ni yw y wreichionen gyntaf o oleuni yn yr enaid: nid yw hwn ynom o gwbl, os ydym yn gwadu ein pechod.

9. *Os cyfaddefwn ein pechodau.*—Dyma yr ochr

fel y maddeuo i ni ein pechodau, [1]Salm 19. 12; [1]ac y'n glanhao oddi wrth bob
[1] Eph. 5. 26; Titus 2. 14. anghyfiawnder.

gyferbyniol i *adn.* 8. Ond y mae y gwahaniaeth yn deilwng o sylw. Yr hyn a dybir yn cael ei ddywedyd yn *adn.* 8, ydyw "nad oes ynom bechod:" ond nid yr hyn a ddywedir yma sydd i'w gyfaddef ydyw "fod ynom bechod;" rhaid i ni "gyfaddef ein pechodau." Ni wna y tro i ni gyfaddef ein cyfiwr pechadurus, mewn ffordd gyffredinol; rhaid i ni gyfaddef ein pechodau neilldiol. Heb hyn, nid ydyw cyfaddefiad o bechod yn sylwedd ymarferol ac effeithiol. Gwnai cyfaddefiad noeth fod genym bechod—hyny yw, ein bod yn greaduriaid pechadurus—golli ei nerth a'i gywirdeb, a dirywio i ffurf o eiriau, heb adnabyddiaeth a chyfaddefiad o'n pechodau neilldiol a phendant. Y mae yn llawer haws cwyno yn wyneb-drist am ein gwaeledd, na gweled ein pechadurusrwydd, ei gyfaddef a galaru o'i blegid, yn yr enghreifftiau neilldiol yn mha rai yr ydym wedi pechu.—*Ebrard.* Nid cyfaddef mewn geiriau yn unig sydd yma, ac nid ymwybyddiaeth dumewnol o bechod yn unig ar y llaw arall: ond y ddau yn un—cyfaddefiad allanol, yn tarddu oddi ar wir edifeirwch tufewnol. Cyfaddef o flaen Duw a olygir yma yn benaf. Nid oes yma ddim sail i gyffes ddirgel i'r offeiriad, fel y mŷn esbonwyr Pabaidd: dengys y gweddill o'r adnod mai rhwng y Cristion a Duw y mae y drafodaeth; efe sydd yn maddeu ar ein cyfaddefiad cywir, ac nid yr offeiriad. Eto, nid yw cyfaddef ger bron dynion yn cael ei gau allan. Megys ag y mae y "dywedyd" a'r "twyllo ein hunain" yn *adn.* 8, yn cyfeirio yn gyntaf oll, gellid meddwl, at ymwenieithiad y dyn iddo ei hunan, felly y mae y "cyfaddef" yn golygu yn gyntaf gyfaddefiad tufewnol yr enaid iddo ei hun, a cher bron Duw. Ond megys ag y mae y "dywedyd" yn *adn.* 8, yn cynnwys o bossibl leferydd yr ymddygiad o flaen dynion, os nad y geiriau hefyd, felly y gall y "cyfaddef" yma gynnwys, a diau ei fod yn cynnwys pob ymagweddiad o flaen dynion, fel y byddo yr amgylchiadau yn gofyn, a fyddo yn cyfattebi gyfaddefiad dirgel yr enaid o'i bechadurusrwydd iddo ei hunan a cher bron Duw. *Ffyddlawn yw efe a chyfiawn.*—Nid yw ei ffyddlondeb a'i gyfawnder ef yn ymddibynu ar ein cyfaddefiad ni o'n pechodau:—nid dyna, wrth gwrs, ydyw ystyr yr "os;" y mae y priodoliaethau hyn yn ei natur ef erioed, a hwy a fyddant byth. Ond trwy gyfaddef ein pechodau yr ydym ni yn ymdaflu ar ei ffyddlondeb a'i gyfiawnder, yn eu rhoddi i brawf drosom ein hunain, ac ni a'u cawn yn ein hachos ein hunain yn effeithiol er ein maddeuant a'n glanhâd. Y mae bron yr holl esbonwyr yn cyttuno ar ystyr y cyntaf o'r ddau ansoddair—"ffyddlawn;" cywir i'w air a'i addewid. Y mae Ebrard, pa fodd bynag, yn dal ystyr pellach; sef, ffyddlondeb i'w natur ei hunan fel gwirionedd a goleuni, yr hon natur sydd yn llywodraethu ynom ni mor bell ag y cyfaddefwn ni ein pechodau. Y mae mwy o wahaniaethu o barth i ystyr y gair "cyfiawn" yn y lle hwn. Ymddengys yn rhyfedd ar un olwg fod cyfiawnder Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen fel rheswm dros ei waith yn maddeu ac yn glanhau; o blegid hyny, y mae rhai esbonwyr yn chwilio am ffordd rwydd i ddyfod o'r anhawsder, trwy geisio rhoddi i'r gair "cyfiawn" yr ystyr o ddaionus, trugarog, &c. Ond nid yw

10 Os dywedwn na phechasom, [k]Iob 24. 25.
[k]yr ydym yn ei gwneuthur ef yn [l]1 Ioan 2. 4; 4. 4;
gelwyddog, [l]a'i air ef nid yw ynom. 2 Ioan 2.

yr enghreifftiau o'r Hen Destament yn profi hyn: cyfiawnder, uniondeb, ydyw y meddwl sylfaenol yn yr holl esamplau hyny, ond fod y cyd-destyn yn rhoddi iddo yr ystyr o gyfiawnder mewn rhyw gyfeiriad pennodol. Y mae dau olygiad gwerth eu crybwyll wedi eu cynnyg i egluro ystyr y gair "cyfiawn" yn y lle hwn. Un ydyw—fod Duw, wrth faddeu i'r pechadur crediniol, yn cyflawni gweithred o gyfiawnder tuag at Grist, yr hwn a dalodd ein dyled, ac felly a ennillodd hawl i ofyn maddeuant i'r rhai oll a gredant. Mewn gair, fod yr hyn sydd yn ras tuag at y dyledwr yn gyfiawnder tuag at y Meichiau. Y mae hyn yn wirioneedd mor bell ag y mae yn cyrhaedd, ond yr ydym yn credu mai nid dyna wirioneedd yr adnod hon; o leiaf fod y meddwl sydd yma, tra yn tybied ac yn cynnwys y llall, etto yn cyrhaedd yn mhellach ac yn llawer mwy eang. Y golygiad yr ydym yn cyfeirio ato ydyw yr eiddo Ebrard. Yn ol y syniad hwn, y mae ystyr uwch i "gyfiawnder Duw," na chyfiawnder cospawl neu daledigaethol, yr hwn sydd yn "rhoddi i bob un yn ol ei weithred." Y wedd uchaf ac eangaf ar gyfiawnder Duw ydyw yr un a geir yn *Rhuf.* i. 17, ac yn enwedig yn *Rhuf.* iii. 25, 26. Yn yr olwg hon, y mae y cyfiawnder dwyfol yn berffeithrwydd sydd nid yn unig yn peri fod Duw yn casau ac yn cospi pechod, ond yn peri ei fod hefyd yn maddeu i'r rhai sydd yn cyfaddef eu pechodau. Nid yn yr ystyr Babaidd—am fod teilyngdod yn y cyfaddefiad sydd yn rhwymo y Goruchaf i'w wobrwyo trwy faddeuant pechodau. Nid cyfiawnder barnol neu daledigaethol ydyw yr un sydd yn maddeu: cospi y mae hwn, er fod yr iawn yn gwneyd maddeuant yn gysson hyd yn oed â hwn, ac yn cael ei ofyn ganddo yn ei berthynas â Christ a chyfammod y prynedigaeth, fel y crybwyllwyd o'r blaen. Ond yn y wedd uchaf o gwbl ar gyfiawnder Duw—y mae efe yn caru cyfiawnder mor fawr, fel ag y mae nid yn unig yn gyfiawn ei hunan yn ei natur a'i holl weithredoedd, ond y mae hefyd yn cyfiawnhau yr annuwiol. Yn yr iawn y dangoswyd cyfiawnder Duw yn y gogoniant uchaf hwn sydd yn perthyn iddo—cyfiawnder trwy faddeuant, "fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Dyma yr amlygiad penaf o gyfiawnder—nid bod yn gyfiawn, ac ymddwyn yn gyfiawn, ond gwneyd yr anghyfiawn yn gyfiawn. Y mae Duw, yn nhrefn ei ras i faddeu a glanhau, yn dangos ei hun yn ffyddlon i'w natur ei hunan fel goleuni; o blegid y mae efe yma yn gwneyd i'r goleuni orchfygu y tywyllwch. Y mae y rhai oedd gynt yn dywyllwch yn ·cael eu gwneuthur yn "oleuni yn yr Arglwydd." Yn ngeiriau Ebrard—"cyfiawnder Duw," yn yr ystyr uchaf hon, "ydyw y ffynonell o ba un y tardd ei ymwneyd â dyn i'w brynu, i faddeu ei bechodau, ac i ddinystrio ei bechod. Y cyfiawnder hwnw ydyw, yn yr hwn y mae Duw, fel y Goleuni, nid yn unig yn condemnio y tywyllwch, ond yn rhoddi i oleuni fuddugoliaeth wirioneddol ar y tywyllwch." *Fel y maddeuo i ni ein pechodau.*—"Fel"—mewn trefn i faddeu. Yr hyn yn neilldiol y cyfeirir ato yma, medd Alford, ydyw y maddeuant parhaus hwnw, yr hwn yw addewid neilldiol a gweithred gyfiawn Duw o dan gyfammod yr ef-

PENNOD II.

1 *Y mae efe yn eu cysuro hwy yn erbyn pechodau o wendid.* 3 *Adnabod Duw yn iawn, yw cadw ei orchymynion ef;* 9 *a charu ein brodyr;* 15 *ac na roddom ein serch ar y byd.* 18 *Rhaid i ni ochelyd twyllwyr;* 20 *y rhai y mae y duwiol yn ddioed oddi wrth eu twyll: trwy barhau yn y ffydd, ac mewn sancteiddrwydd buchedd.*

FY mhlant bychain, y pethau B. A. 95.
hyn yr wyf yn eu hysgrifenu —
atoch, fel na phechoch. 1 Ioan 1. 8
—10.
2 Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr

engyl: *Heb.* x. 14, 18. *Ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder.*—"Anghyfiawnder" yn gyferbyniol i gyfiawnder natur Duw, fel y "tywyllwch" ynom ni yn wrthwyneb i'w "oleuni" ef. Gallai fod "pechod" yma yn dynodi yr elfen o euogrwydd, i'r hyn y mae "maddeu" yn cyfatteb; ac "anghyfiawnder" yr elfen o halogrwydd, i'r hyn y mae y "glanhau" yn cyfatteb. "Oddi wrth yr hyn oll yn ein heneidiau ni sydd heb fod yn cyfatteb i natur dufewnol Duw, sef ei "gyfiawnder" hanfodol, efe a'n glanhâ ac a'n pura; ac felly a'n gwna yn gyfiawn yn mhob ystyr. 1. Trwy ein cyfiawnhau, a'n rhyddhau oddi wrth euogrwydd ("maddeu i ni ein pechodau"); ac yn 2il, trwy ein rhyddhau oddi wrth bechod ("glanhau oddi wrth bob anghyfiawnder"), fel yn mhob cyssylltiad y bydd y goleuni yn cario y fuddugoliaeth ar y tywyllwch."—*Ebrard.* Gellir crybwyll fel cywreinbeth mewn esboniadaeth, fod rhai o'r duwinyddion Pabaidd wedi ceisio dwyn i mewn yn lladradaidd i'r testyn eiriau yn y rhan olaf o'r adnod yn cyfieu y syniad nad yw y "glanhau" yn cael ei orphen ond yn yr ystâd ar ol angeu, er mwyn cefnogi athrawiaeth y purdan.

10. *Os dywedwn na phechasom.*—Os gwadwn ein bod yn cyflawni pechodau gweithredol, hyd yn oed yn awr, yn ein hystâd ddychweledig. Y mae yr iaith, a threfn y meddyliau, yn erbyn y golygiad mai pechodau cyn dychweliad a feddylir. Y berthynas a'r gwahaniaeth rhwng yr adnod hon ac *adn.* 8 yw—y mae *adn.* 8 yn golygu ystâd bechadurus gyffredinol, a'r adnod hon yn golygu pechodau neilduol yn cael eu cyflawni, y rhai ydynt yn ffrwyth ac yn brawf o'r ystâd hono. *Yr ydym yn ei wneuthur ef yn gelwyddog.*—"Ef," sef Duw. Dyma fan uchaf yr esgyneb (*climax*). 1. "Celwyddog ydym," *adn.* 6. 2. "Yr ydym yn ein twyllo ein hunain," *adn.* 8. 3. "Yr ydym yn ei wneuthur ef yn gelwyddog." Y mae hyn nid yn unig yn "gelwydd," ac yn wrthwyneb i wir ystâd yr achos fel ffaith allanol, ac y mae nid yn unig yn hunan-dwyll pechadurus —yn gam â'r enaid ei hun yn dumewnol—ond y mae yn annuwiolbeb tuag at Dduw; oblegid y mae efe yn ei Air yn tystio fod pawb wedi pechu, ac yn bechaduriaid, yr ydym ninnau trwy hyn yn gwrthddyweyd ei Air hyd y mae ynom ni. *A'i air ef nid yw ynom.*—Yr holl ddadguddiad o Dduw, yr hwn y mae ei natur yn oleuni, nid yn y gair ysgrifenedig yn unig, ond hefyd fel y mae ei ganolbwynt yn mherson y Gair. Y mae y dadguddiad hwn o Dduw yn y cyfanswm o hono yn argyhoeddi dyn o bechod; felly nid ydyw yn trigo nac yn llywodraethu fel nerth bywyd yn enaid yr hwn sydd yn gwadu ei fod wedi pechu.

PENNOD II.

1—6. Y mae yr apostol yn yr adnodau hyn yn rhagflaenu dau gamddefnydd a allesid eu gwneyd o'r adnodau olaf yn y bennod flaenorol. Nid ydyw yr hyn a ddywedwyd am bechadurusrwydd natur a phechodau gweithredol y saint i gael ei droi yn achles i ryfyg, ac yn gefnogaeth i fyw mewn pechod; yr amcan i'r hyn a ysgrifenwyd ydyw, "fel na phechoch." Nid ydyw yr ystyriaeth o'n hammherffeithrwydd chwaith i gynnyrchu anobaith: "O phecha neb, y mae i ni eiriolwr," &c. Heb law attal camgasgliadau, y mae yma hefyd symmudiad yn mlaen yn y dadblygiad o fater y rhan hwn o'r epistol, a osodwyd i lawr yn *pen.* i. 5. Y cam cyntaf i'r rhai oedd yn rhodio yn ngoleuni yr Arglwydd, oedd cyfaddef eu pechodau; y cam nesaf ydyw eu gadael, a chadw ei orchymynion ef yn unol â'r anian newydd. Yr olwg a ddyry Ebrard ar gyssylltiad y ddwy bennod ydyw, fod yr apostol yma yn dyfod â gwirioneddau yn mlaen i gymmodi yr anghyssondeb ymddangosiadol rhwng y ddau wirionedd a eglurwyd yn niwedd y bennod gyntaf; sef, nad yw y saint i rodio yn y tywyllwch o gwbl; ac etto, fod yn rhaid iddynt gyfaddef fod pechod ynddynt, a'u bod yn pechu. Ni cheisia yr apostol eu cyssoni trwy ymresymiad, ond trwy wirioneddau neu gasgliadau ymarferol, hunanbrofedig i gydwybod y Cristion.

1. *Fy mhlant bychain.*—Y mae yr ymadrodd bychanol yn gosod allan serch tyner; defnyddir ef hefyd o bossibl mewn cyfeiriad at oedran yr apostol, a'i hir safle fel tad yn Nghrist. Dealla rhai ef hefyd fel arwydd fod yr apostol yn troi oddi wrth wirioneddau pyngciol oddi allan, at gydwybodau ei ddarllenwyr, a'u perthynas ysbrydol a phersonol âg ef ei hun. *Y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu atoch.*—Dywed Bengel fod "y pethau hyn" yn cyfeirio at yr hyn sydd yn canlyn; Grotius ac ereill, at yr hyn sydd o'r blaen ac yn ol; ond y rhan fwyaf o'r esbonwyr at yr adnodau blaenorol yn unig. *Fel na phechoch.*—Y mae yr amseriad sydd i'r ferf yma yn golygu nid yn unig yr arferiad, ond actau unigol o bechod. Nid yw presennoldeb pechod yn y saint i beri iddynt edrych arno fel peth anocheladwy, ac felly rhoddi eu hunain i fyny iddo. Y mae yr hyn a ddywedwyd yn *pen.* i. 6, 7, am rodio yn y goleuni fel ammod anhebgorol cymdeithas â Duw, yn arwain i'r casgliad ymarferol hwn. Yr un amcan sydd i'r hysbysiad o drefn Duw i faddeu ac i lanhau oddi wrth "bob pechod" (*pen.* i. 7), ac oddi wrth "bob anghyfiawnder" (*pen.* i. 9). *Ac o phecha neb.*—Cyflawni gweithred o bechod—gan gyfeirio o hyd at y brychau hyny o bechod, y rhai sydd trwy wendid y cnawd yn glynu wrth hyd yn oed y rhai sydd yn rhodio yn y goleuni. Nid ydyw yr "o" yn cyfieu ammheuaeth, ond tybiaeth gadarnhaol. *Y mae i ni Eiriolwr.*—Y mae fod yr apostol yn y fan yn defnyddio y person cyntaf, sef "ni," yn dangos ei fod yn ei restru ei hun ar yr un tir a'i holl frodyr yn mhlith y rhai oedd yn "pechu." Sylwa Awstin nad yw efe yn gosod ei hun, nac un o'r saint, na'r apostolion, fel eiriolwr: ond yn gosod Crist fel yr unig Eiriolwr, yr hwn sydd yn dwyn yr un berthynas â phawb, ac am yr hwn y mae pawb yn yr un angen a'u gilydd. Yr un gair a gyfieithir yma "Eiriolwr" ag a gyfieithir yn *Ioan* xiv. 16, 25, a xv. 26, a xvi. 7, yn "Ddiddanydd" (*paracletos*). Yr Ysbryd Glân ydyw y "Ddiddanydd," neu yr "Eiriolwr," yno; ond yma, Crist: Nid oes yma ddim anghyssondeb. Gelwir yr Ysbryd yn Efengyl Ioan yn "Ddiddanydd arall,"

[a] Rhuf. 8. 34. [b] gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn: [1] 1 Tim. 2. 5; Heb. 7. 24. [c] Rhuf. 3. 25. 2 Ac [c] efe yw yr iawn dros ein pechodau ni: ac nid dros yr yn gyfochrog â Christ ei hun fel y Diddanydd cyntaf, ac yn cadw ei le ef yn ei absennoldeb. Ond dylid sylwi, er mai yr un gair a ddefnyddir yno ac yma, fod gradd o wahaniaeth yn y meddwl. "Diddanydd" ydyw y cyfeithiad goreu o'r gair yn yr Efengyl: cymmhwysir ef yno at Grist a'r Ysbryd, ac at y ddau yn eu perthynas â'r dysgyblion. Yma, defnyddir ef yn unig am Grist, a hyny yn ei berthynas â'r Tad; ac felly "Eiriolwr:"—Dadleuwr ydyw yr ystyr yma. Y mae i'r gair y ddau ystyr: ceir ef yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain yn yr ystyr o "gysurwr," yn *Iob* xvi. 2; a defnyddid ef yn y Groeg clasurol am gyfreithiwr, neu un yn gweithredu dros arall mewn llys barn. Yr ystyr cyntaf sydd yn Efengyl Ioan, a'r ail ystyr yma. *Gyda'r Tad.*—Y mae yr eiriolaeth hon yn rhan o waith Crist fel archoffeiriad, yn ymwneyd â Duw dros ddynion: *Rhuf.* viii. 26; *Heb.* v. 15; vii. 25. *Iesu Grist y cyfiawn.*—Y mae yr ansoddair "cyfiawn" heb y fannod yn y gwreiddiol, ac felly yn cario yr ystyr o reswm am yr eiriolaeth:—'yn gymmaint a'i fod,' neu, 'am ei fod yn gyfiawn,' mewn cyferbyniad i "o phecha neb." Ond y mae yr un ystyr yn cael ei gyfleu yn y Gymraeg a'r Saesneg, trwy roddi y fannod i fewn, ag a gyflëir yn y Groeg trwy ei gadael allan. Nid ydyw Crist yn cael ei alw yn "gyfiawn" yma (fel y mae Grotius a Calovius yn dal) yn yr ystyr o 'drugarog,' neu 'dyner;' canys nid dyna ystyr y gair. Y mae y rhan fwyaf yn esbonio y gair fel yn golygu fod yr Arglwydd Iesu ei hunan yn ddibechod, ac felly yn un cymmhwys i ddadleu dros bechadur. Y mae yn ddiau fod hyn yn wirionedd; ac yn cael ei gynnwys, y mae yn dra thebyg, yn ngwirionedd yr adnod. Nid ydyw ei eiriolaeth yn cyfodi oddi ar gydymdeimlad â phechod. Y mae cymmeriad uchel yr Eiriolwr ei hunan yn elfen fawr o rym yn ei eiriolaeth dros y troseddwr. Ond yr ydym yn credu gydag Ebrard fod yr ystyr yn cynnwys llawer mwy na hyn, a bod yr un 'cyfiawnder' uchel yn cael ei briodoli yma i'r Mab, ag a briodolir, yn *pen.* i. 9, i'r Tad. Cyfiawnder yn ei wedd uchaf ydyw, nid yr hyn sydd gyfiawn yn unig, ond yr hyn sydd yn gwneyd yn gyfiawn; *h. y.*, yn gwneyd ereill yn gyfiawn. Am fod Crist, yn y lle cyntaf, ei hunan yn ddibechod; ac am ei fod, yn ail, yn cyfranogi o'r cyfiawnder hwnw o eiddo y Tad, yr hwn, tra nad yw yn sefyll yn wrthwyneb i gyfiawn daledigaeth, sydd etto yn cyfodi yn mhell uwchlaw iddo, a'r hwn a wna, mewn modd cyfiawn, gyfiawnhau yr anghyfiawn, am ei fod yntau, y Mab hefyd, yn "gyfiawn" yn yr ystyr gynnwysfawr hon—am hyny, y mae yn gyfaddas ac yn ewyllysgar i fod yn "Eiriolwr gyda'r Tad." Y mae Bede cyn belled a hyn yn gywir, pan y mae yn canfod yn yr enw, "y cyfiawn," sicrwydd na wna Crist fel Eiriolwr cyfiawn, ddim ymgymeryd âg unrhyw achos anghyfiawn, fel y mae dadleuwyr y ddaear weithiau yn gwneyd mewn llysoedd barn. O blegid nid ydyw cyfiawnhâd y pechadur sydd yn credu trwy ei eiriolaeth ef ddim mewn gwirionedd yn achos anghyfiawn, ond yn un sydd yn gysson â chyfiawnder uchaf Duw, ac yn un yn wir sydd â'i hreiddyn yn y cyfiawnder goruchaf hwnw o eiddo Duw a ddarlunir yn *Rhuf.* i. 17, a iii. 26. Dywed Luther ar eiddom ni yn unig, eithr [d] dros *bechodau* yr holl fyd. [d] Ioan 1. 29; 2 Cor. 5. 18. [e] Ioan 17. 3; 2 Cor. 4. 6.

3 Ac wrth hyn [e] y gwyddom yr y gair hwn: "Y mae cyfiawnder Crist yn sefyll o'n tu, canys y mae cyfiawnder Duw yn Iesu Grist yn eiddo i ni."

2. *Ac efe yw yr iawn dros ein pechodau ni.*—Y mae y cyssylltair "ac" yma yn cario y meddwl o 'canys.' Nid chwanegu ail wirionedd at y cyntaf yn unig a wneir, heb ddim perthynas rhyngddynt â'u gilydd; ond y mae y naill yn sail y llall. Yr hyn ydyw ac a wnaeth Crist fel iawn yw sylfaen ei eiriolaeth. "Iawn" (*hilasmos*)—cymmod. Efe a wnaeth Dduw yn gymmodlawn tuag at ddynion, trwy iddo offrymu ei hun i gyflawnder dwyfol yn aberth dros bechod. Ond dywedir yma mai Crist ei hunan ydyw yr iawn, am fod yr iawn yn hanfodi yn wirionedd ol yn ei berson. Nid gweithred oedd yr iawn, ar wahân oddi wrtho ef; ond efe, yn ei holl fod a'i fywyd, oedd yr iawn personol a phresennol. "Efe yw yr iawn,"—y mae y weithred o aberthu ei hun yn bod yn sylweddol etto, ac am byth yn parhau ei heffaith yn ei berson ef. *Ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd.*—Y mae dau gwestiwn yn cyfodi yma: pa beth y mae yr apostol yn ei ddyweyd yn y geiriau hyn? a pha ham y mae yn ei ddyweyd? Dywed Ebrard fod yn haws atteb y cyntaf na'r olaf. Gyda golwg ar y cyntaf, yr ymofyniad yw—Pa beth ydyw y cyferbyniad sydd yn cael ei wneyd rhwng "ni" a'r "holl fyd?" Nid Iuddewon a Chenhedloedd a olygir, fel y mae rhai wedi bod yn dal; o blegid at y Cristionogion yn Ephesus, yn ol pob tebyg, yr oedd Ioan yn ysgrifenu. Myn ereill mai credinwyr ac anghredinwyr a feddylir; sef, y rhai sydd yn dal prynedigaeth gyffredinol. Yn ol Ebrard, nid oedd gan yr apostol un olwg yn y fan yma ar helaethrwydd yr iawn—ond yn hytrach ar unigolrwydd yr iawn. Ei amcan yw, nid deffinio terfynau digonolrwydd nac effeithiolrwydd yr iawn—ond cyhoeddi nad oes un ffordd i un dyn trwy yr holl fyd i gael ei gymmodi â Duw, ond trwy iawn Crist:—yn gyfystyr â'r geiriau hyny o eiddo Crist ei hunan: "Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Dyma yr unig ffordd appwyntiedig i'r "holl fyd" i ddyfod i heddwch Duw; sef, trwy iawn Crist, neu trwy Grist fel y mae yn iawn. Y mae yr un esboniwr yn barnu nad ydyw y rheswm am ddwyn hyn i mewn yma ddim i'w gael yn nghyssylltiad uniongyrchol y geiriau â'r adnodau ar eu hol; ond fod y rheswm am danynt i'w weled yn mhellach yn mlaen, pan y mae yr apostol yn myned i draethu am y berthynas rhwng Cristionogion a'r byd.

3.—11. Y mae y cymmundeb hwn â Duw yn gynnwysedig, yn ail, mewn cadw ei orchymynion ef, ac yn enwedig y gorchymyn i garu ein gilydd. Y mae y prawf mawr o gymdeithas â Duw, sef rhodio yn y goleuni, yn gofyn yn gyntaf ar fod i ni gyfaddef ein pechodau; ac yn ail, ar fod i ni gadw ei orchymynion ef.

3. *Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef.*—"Wrth hyn," neu "yn hyn," dyma yr elfen ammodol. Yn hyn y mae, ar hyn yr ymddibyna ein gwybodaeth. "Y gwyddom," yn yr amser presennol—o bryd i bryd, o ddydd i ddydd. "Yr adwaenom ef:" y mae y ferf hon yn yr amser gorphenol (*perfect*) 'ein bod wedi ei adnabod ef, ac yn cadw yr adnabyddiaeth.' Nid adnabyddiaeth

[1]Ioan 14. 21. adwaenom ef, [f]os cadwn ni ei orchymynion ef.

ddeallol yn unig, ond yr adnabyddiaeth fewnol a bywiol sydd yn tarddu o gariad. *Os cadwn ni ei orchymynion ef.*—Y mae "cadw" yn yr amser presennol, ac yn golygu arferiad sefydlog; y "gorchymynion" i'w cymmhwyso yn barhaus at yr amgylchiadau fel y maent yn cyfodi. Nid yw Ioan yn defnyddio y gair 'cyfraith' un amser am reol ufudd-dod Cristionogol: cyfyngir yr enw hwn at gyfraith Moses: *Ioan* i. 17, 45. Ceir ef o gwbl yn yr ystyr hwn bymtheng waith yn yr Efengyl. Y gair a ddefnyddia braidd bob amser ydyw "gorchymynion"—weithiau "gair Duw," neu "gair Crist;" *Ioan* viii. 62; xiv. 23; xvii 6; ac *adn.* 5 yn y bennod hon. Y ferf a ddefnyddia hefyd braidd bob amser ydyw yr un sydd yma, "cadw" (*tèrein*)—yn cario yr ystyr neilduol o wylio; megys gwylio trysor gwerthfawr, bod yn ddyfal i gadw. Gellir gofyn, pwy ydyw yr "ef" yma? Pa un ai at Grist, ai at y Tad, y cyfeirir? Arweiniwyd amryw o'r hen esbonwyr, ac ereill, i'w gyfeirio at Grist, o blegid mai am dano ef y sonir yn *adn.* 2. Ond y mae cyfiead yr holl gyddestyn yn dangos mai Duw a feddylir wrth yr "ef:"—yn unol â golygiad Calvin, Beza, Lücke, De Wette, Dusterdieck. Nid ydyw *adn.* 3 yn cydio yn uniongyrchol â'r all adnod—yr hon sydd yn sefyll i raddau fel pe byddai rhwng cromfachau; ond y mae *adn.* 3 yn sefyll yn gyfochrog â'r laf. Y mae yn ddiau fod yr "ef," yn *adn.* 4, yr hon sydd yn cyfatteb i *pen.* i. 6, 8, yn cyfeirio at y Tad. Y mae y syniad o "orchymynion" yma yn cyfeirio yn naturiol at orchymynion o eiddo y Tad, ac nid y Mab: canys gwaith y Mab yma yw—nid rhoddi gorchymynion, ond gwneuthur iawn am droseddu y gorchymynion. Heblaw hyny, y mae Ioan yn defnyddio y rhag-enw *autos* yn yr adnodau hyn wrth son am y Tad; ond pan y mae, yn *adn.* 6, yn troi i son am y Mab, y mae yn defnyddio rhagenw arall (*teceinos*) er mwyn gwahaniaethu. Y mae Ebrard yn gwneuthur y sylwadau canlynol i ddangos cyssylltiad yr adnod hon âg *adn.* 1, ac â'r llinell o feddwl yn y bennod flaenorol. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae yn y bennod gyntaf (*adn.* 6, 7 yn gyferbyniol i *adn.* 8—10) ddau osodiad sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn gwrthddyweyd eu gilydd. Un ydyw, nad oes un Cristion yn rhodio yn y tywyllwch; y llall ydyw, nad oes un Cristion nad oes ynddo bechod, ac nad yw yn pechu. Y mae yr ystyriaeth gyntaf i gymmodi y ddau osodiad yma yn cael ei dwyn yn mlaen yn *adn.* 1 o'r bennod hon. Yno, y mae y ddau wirionedd yn cael eu gosod allan yn eu cyssondeb perffaith, fel yr hyn y mae cydwybod y Cristion yn ei orchymyn ar un llaw, ac fel cenadwri gysurlawn i'r gydwybod ar y llaw arall. Y mae cydwybod y dyn all-anedig wedi ei goleuo a'i rhyddhau oddi wrth euogrwydd, yn gwahardd pechod, ac felly yn barnu ac yn condemnio y pechod sydd yn bresennol, tra ar yr un pryd y mae yn adnabod yr Eiriolwr, yr hwn yw yr iawn. Yn awr, yn *adn* 3, y mae all ystyriaeth yn cael ei dwyn yn mlaen i gymmodi y ddau osodiad a nodwyd. Yr unig brawf o hanfodiad y dyn newydd ac o wirionedd cyflwr o ras, ydyw presennoldeb y grymusder hwn yn y gydwybod, ar unwaith yn gorchymyn ac yn condemnio. Ond y mae y grymusder hwnw yn cael ei ddisgrifio wrth ei ffrwythau gweledig: "Os

4 Yr hwn sydd yn dywedyd, Mi a'i hadwaen ef, ac heb gadw

cadwn ni ei orchymynion ef." Nid yw yr ymadrodd hwn i'w ystyried yn hollol gyfystyr â "rhodio yn y goleuni." Y mae yr olaf yn ddyfnach, yn lletach, ac yn fwy cynnwysfawr; y mae "cadw y gorchymynion" yn fwy cyfyngedig, ond y mae o blegid hyny yn fwy cymmhwys i fod yn nôd gwahaniaethol. Y mae hyd yn oed y credadyn, sydd o ddifrif gyda gwaith ei sancteiddhâd, er fod enaid ei ymdrech a'i amcan yn ymsymmud o fewn cylch yr hyn sydd yn unol â natur Duw, ac felly yn "oleuni," y mae efe, er hyny, yn cael llawer, nid yn unig yn ei weithredoedd, ond yn benaf yn ei feddyliau a'i amcanion, nad yw yn perthyn i'r cylch hwnw o oleuni. O ganlyniad, gallai yn hawdd, ar adegau o ymdrechfeydd tufewnol, syrthio i ammheuaeth pa un a ydyw efe mewn ystâd o ras, a pha un a ydyw y gydwybod mewn gwirionedd yn cyflawni ei gwaith o'i fewn? Am hyny, y mae yr apostol yma, yn gymmaint ag mai y pwngc ydyw nodau ystâd o ras, yn nodi arwydd a ellir ei adnabod gyda mwy o sicrwydd a hyder. Y ffrwyth sicr yn mhob Cristion o'r gweithrediad dyblyg o eiddo y gydwybod a ddisgrifir yn *adn.* 1—cydwybod wedi ei deffro, ac hefyd ei heddychu yn Nghrist; hyny yw, cydwybodolrwydd llym, a hyder mabaidd: ffrwyth sicr hyny fydd, y bydd y Cristion, oddi ar yr angenrhaid dyblyg yna, yn cadw y gorchymynion. Yn ngorchymynion Duw, y mae ganddo safon allanol a sicr i'w ysbryd a'i ymarweddiad, ac felly brawf sicr o'i wir gyflwr crefyddol. Pe yr ymholai yn unig am ansawdd a thôn ei deimladau tufewnol, gallai yn hawdd gamgymmeryd a chael ei dwyllo. Ond os gofynir, pa un a ydyw yn cadw gorchymynion Duw yn ei fywyd allanol, ac os yw yn cael ei fod yn y fan yn adnabod ac yn condemnio yr hyn oll sydd ynddo yn bechadurus yn ngwyneb cyfraith Duw, tra ar yr un pryd y mae yn cael ynddo ei hunan ymdrech egniol am fyw yn ol gorchymynion Duw rhagllaw (o blegid y mae hyn oll yn gorwedd yn y gair a gyfieithir yma "cadw" (*tèrein*), yna y mae ei waith yn barnu ei hun fel hyn yn ngwyneb maen-prawf allanol y gorchymynion, yn gadarnhâd sicr o'i fod wedi "adnabod Duw."

4. Y mae yr adnod hon yn cyfatteb i *pen.* i. 8 ac yn dangos yr oferedd o broffesu adnabyddiaeth o Dduw, tra nad yw y prawf hwn yn cael ei gyflawni. *Yr hwn sydd yn dywedyd.*—Yn cyfatteb i "os dywedwn," yn *pen.* i. 8. *Mi a'i hadwaen ef, ac heb gadw ei orchymynion ef, celwydd og yw.*—Yn cyfatteb i "dwyllo ein hunain," *pen.* i. 8. *A'r gwirioneâd nid yw ynddo.*—Gwel a *pen.* i. 8, lle y mae y geiriau yr un. Y mae y apostol, yn *adn.* 4—6, yn dychwelyd at yr un syniad ag sydd yn y bennod flaenorol; ac yn yr adnodau hyn y mae yn terfynu yr adran ag oedd yn *pen.* i. 6, 7, yn ffurfio cychwyniad y mater hwn; sef, fod pwy bynag sydd yn proffesu adnabyddiaeth o Dduw, a chymdeithas âg ef, ac he gadw ei orchymynion, yn gelwyddog. Yn awr wedi i'r *adn.* 1 a 3 roddi y cyssoniad tumewnol rhwng y syniad yna a chenadwri gysurlawn y Efengyl am yr "iawn," y mae yr apostol yn awr yn dychwelyd at y syniad hwnw, ac yn ei ddadgan unwaith etto, wedi ei egluro a'i sefydlu fe hyn, mewn ffurf pendant a difrifol. Dywed Ebrard fod gwaith yr apostol yn diweddu yr adran hon gyda'r syniad hwn yn profi fod rhedia-

[f]1 Ioan 1. 6, 8. ei orchymynion ef, [g] celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo.
Ioan 3.4. 5 Eithr [h] yr hwn a gadwo ei air

arferol yr holl adran yn tueddu i'r casgliad hwn. Pe na buasai gan Ioan mewn golwg ond amcan addysgawl neu athrawiaethol, buasai y ddau ddrychfeddwl, yn *adn.* 1 a 3, eu hunain yn ffurfio y diweddiad naturiol. Ond gan nad fel hyn y mae, profir yn amlwg fod yr apostol yn ysgrifenu gydag amcan ymarferol—ac yn ddadleuol hefyd. Y mae efe yma yn rhybuddio y Cristionogion rhag gwenwyn marwol y Gnosticiaid. Yr oedd y sect hon yn ymffrostio yn yr adnabyddiaeth ddyfnaf o Dduw ["gwybod" oedd crefydd yn eu cyfundraeth hwy], tra yr oeddynt yr un pryd yn feiddgar yn gwrthryfela yn erbyn, neu yn gosod eu hunain uwchlaw, ei "orchymynion ef." Gan hyny, y mae efe, yn mlaenaf dim, am ddysgu ei ddarllenwyr oddi wrth yr efengyl a anfonasid iddynt, ac oddi wrth ei phwynt canolog, mai "goleuni yw Duw" (*pen.* i. 5)—fod yr hwn sydd yn gosod ei hun uwchlaw gorchymynion Duw yn amddifad o wir adnabyddiaeth o Dduw.

5. *Eithr yr hwn a gadwo ei air ef.*—Fel yn *pen.* i. 7, y mae yr ochr gadarnhaol yn dilyn, ac yn cwblhau yr ochr nacaol—felly yma. Yn gyferbyniol i natur gelwyddog y Gnosticiaid, dwg yr apostol fuchedd y Cristionogion, yr hon sydd yn gywir ac yn anrhydeddu y gwirionedd. Y mae "cadw ei air ef" yn gyfystyr o ran sylwedd a "chadw ei orchymynion ef;" *adn.* 3, 4. Y mae y cyferbyniad rhwng *adn. 4, 5,* a osodir allan trwy y gair "eithr," yn profi hyny. Ond etto, y mae yma gysgod o wahaniaeth. Y mae "ei air ef" yn golygu holl ewyllys Duw fel y cyflwynir hi i'r Cristion mewn un dadguddiad mawr. Nid y "gorchymynion," fel gosodiadau celyd ar wahân i'w gilydd, ond fel un dadguddiad o ewyllys rasol yr hwn a garodd y byd, ac a lefarodd wrtho yn ei Fab, a'r hwn sydd yn rhoddi i'w bobl y duedd a'r gallu i gadw yr oll o honynt. *Yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith.*—Y mae dau gwestiwn yn cyfodi yma. Un ydyw, Pa ham y gwneir y symmudiad sydyn yma o adnabyddiaeth o Dduw (*adn.* 3, 4), at "gariad Duw?" Dywed Grotius fod "cariad yn rhagdybied adnabyddiaeth." Y mae cariad yn gam pellach yn mlaen yn y "gymdeithas" â Duw y soniwyd am dani—nid ein bod yn darfod âg adnabod; ond y mae gwir adnabyddiaeth a chariad yn cynnyddu ynghyd, a'r naill yn fesur o'r llall, fel y mae cadw gorchymynion Duw yn brawf ac yn fesur o wir adnabyddiaeth o hono. Ac felly yn y drychfeddwl perffaith a therfynol, y mae y ddau yn un—perffaith gadwraeth o'i orchymynion ydyw perffeithrwydd cariad ato. Yr ail gwestiwn yw, Pa beth a feddylir yma wrth "gariad Duw?" Y mae tri golygiad ar hyn, teilwng o'u crybwyll. Y cyntaf ydyw, cariad Duw tuag atom ni. Yr ail, yr un a ddelir gan Luther, Calvin, Beza, De Wette, Lücke, &c.—ein cariad ni tuag at Dduw. Y trydydd yw yr un a amddiffynir gan Bengel, Olshausen, ac ereill—y cydgariad sydd yn hanfodi rhwng Duw a'r Cristion: cariad Duw tuag atom ni wedi dyfod yn allu o gariad o'n mewn ni tuag at Dduw. Y mae Ebrard yn dal fod y gair "yn wir" yn milwrio yn erbyn y golygiad cyntaf a enwyd. Y mae "yn wir" (*alêthós*), yn ysgrifeniadau Ioan, bob amser yn cynnwys mwy na chadarnhâd o wirionedd yr hyn a haerir: y mae yn deffinio ansawdd yr hyn y sonir am dano

ef, [i] yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith. Wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef.
[i] Iago 2 22

—yn cynnwys fod hwnw yn cyd-daraw â'r gwirionedd. Er esampl, y mae y gair yn y lle hwn yn amlwg yn gyferbyniol i'r ymadroddion, "celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo." Ond nis gellid dywedyd am ddim ei fod "yn wir" yn yr ystyr hwn, ond rhywbeth y buasai yn bossibl iddo fod yn wahanol i hyny. O ganlyniad, ni ellir defnyddio yr ymadrodd hwn am gariad Duw tuag atom ni. Drachefn, y mae y gair "yn berffaith" yn myned yn erbyn yr ail olygiad. Y mae y gair yn golygu, nid priodoledd, ond gweithred orphenedig; a'r cyfeithiad cywiraf fuasai (fel y mae gan Alford) "yn hwn y mae cariad Duw wedi ei berffeithio." Ond nis gellir dywedyd am y Cristion sydd yn cadw gair Duw, fod cariad Duw eisoes wedi ei berffeithio ynddo ef. Yr ydym yn cael ymwared o'r naill a'r llall o'r anhawsderau hyn wrth fabwysiadu y trydydd golygiad, sef y berthynas o gariad, o bob tu, rhwng Duw a'r Cristion. Rhaid cadw mewn côf y cyferbyniad rhwng *adn.* 5 a 4, a'r cyfeiriad ynddynt at athrawiaeth y Gnosticiaid. Pa beth oedd y Gnosticiaid yn ei broffesu, er eu bod heb gadw gorchymynion Duw? Eu bod yn adnabod Duw. Y mae Ioan yn gwadu hyn gyda golwg arnynt yn *adn.* 4—"celwyddog yw," &c. Pa beth ynte a briodola efe i'r rhai sydd yn cadw gair Duw? Hyn, y mae yn amlwg; sef, fod y weithred o fod wedi adnabod Duw, yr hon sydd ar yr un pryd yn dangos ein bod wedi ein hadnabod gan Dduw—fod yr undeb gweithredol hwn â Duw ynddynt hwy wedi ei ddwyn oddi amgylch. Y mae y berthynas o gariad, neu gymdeithas cariad, rhwng credadyn a Duw yn cael ei gorphen a'i pherffeithio y funyd y mae yr enaid yn gwneyd trosglwyddiad crediniol o hono ei hunan i'r Arglwydd Iesu: ond y mae yr egwyddor o gariad ynom ni yn ammherffaith o hyd, ac yn alluog o gynnydd parhaus. Y mae y golygiad hwn yn cadw grym priodol y ddau air:—"yn wir," ac "wedi ei berffeithio." *Wrth hyn.*—Nid wrth ein cynnydd graddol at yr ystâd o berffeithrwydd y cyfeiriwyd ati (fel y dywed Alford); o blegid nid cyflwr yw y perffeithrwydd hwnw, fel y dangoswyd, ond gweithred wedi ei chwblhau—perthynas wedi ei ffurfio. Yr "hyn" ydyw, "cadw ei air ef." *Y gwyddom ein bod ynddo ef.*—Dyma y ffurf uchaf o fynegiad i'r berthynas â Duw—"bod ynddo ef." Y mae adnabod Duw, caru Duw, a bod yn Nuw, fel grisiau esgyneb. Y mae adnabod Duw, a chael ein hadnabod gan Dduw, yn cael ei ddeffinio yn fwy dwfn gan Ioan—yn cael ein caru gan Dduw, a charu Duw; ac y mae hyn yn awr yn cael ei ddeffinio yn fwy dwfn etto fel yn bod yn Nuw—cyflawniad gweithredol o'r gair a lefarodd ein Hiachawdwr yn *Ioan* xiv. 20, lle hefyd, yn *adn.* 21, y chwanegodd efe gadw y gorchymynion fel rhod neu arwydd. Gan fod Crist trwy ei Ysbryd yn preswylio ynddynt, y mae Duw yn preswylio ynddynt; o ganlyniad, y maent âwythau yn Nuw o'u tu hwythau—wedi eu derbyn trwy ei breswyliad ef ynddynt, i mewn i gylch ei bresennoldeb a'i hubol a neilltuol, yr hwn sydd i'w wahaniaethu oddi wrth ei holl bresennoldeb creadigol. Y mae Alford yn sylwi fod "bod yn Nuw" yn gosod allan y bywyd Cristionogol yn nyfnder ei ganolbwynt o "gymdeithas" â Duw, ac â'u gilydd; a'i fod yn ffurfio y gwirionedd

[k] Ioan 15. 4—6.

6 Yr hwn a ddywed [k] ei fod yn aros ynddo ef, a ddylai yntau felly [l] rodio, megys ag y rhod-

Ioan13.15; 1 Cor. 11.1.

iodd ef.

7 Y brodyr, nid gorchymyn newydd yr wyf yn ei ysgrifenu atoch, eithr gorchymyn hen yr hwn oedd genych o'r dechreuad.

ysbrydol sydd yn cyfatteb i'r gwirionedd naturol a fynegir gan yr apostol Paul, pan y dywed mai "ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod;" *Act.* xvii. 28.

6. *Yr hwn a ddywed ei fod yn aros ynddo ef.* —Y mae yr ystâd o fod yn Nuw yn cael ei chario yn mlaen yn awr gam yn mhellach etto, trwy yr ymadrodd "aros ynddo ef." Sonia ein Hargiwydd lawer am hyn yn ei ymddiddanion diweddaf â'i ddysgyblion. *A ddylai yntau felly rodio.*—Sylwa Huther, fod y ddyledswydd yma wedi ei seilio ar y "dyweyd," sef y broffes, oddi ar yr egwyddor o gyssondeb; ac nid ar yr "aros" —am fod y cyfryw rodiad yn ganlyniad sicr a naturiol yr "aros ynddo ef." Neu, yn ol ereill, nis gellir dychymmygu am yr arosiad hwn yn Nuw, heb edrych arno yn cynnwys y rhwymedigaeth o rodio megys Crist. Y mae yr hwn a ddywed ei fod yn aros ynddo ef, yn rhwym o rodio megys ag y rhodiodd Crist. Dyma y pwynt yn yr hwn y terfyna yr holl ddadganiad ymarferol a wnaed yn yr adran hon yn erbyn y celwydd Gnosticaidd-Antinomaidd. *Megys ag y rhodiodd ef:*—sef Crist. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae y rhagenw yma yn cael ei newid (*eceinos*) i wahaniaethu oddi wrth yr *autos* (ef) a ddefnyddiwyd yn yr holl baragraph am Dduw; er fod rhai copïau yn rhoddi yr un rhagenw yma. Dyma eglurhâd gweledig yn ein hymyl o rodio yn y goleuni, ac o gadw y gorchymynion—rhodio megys ag y rhodiodd ef. O blegid yn Nghrist daeth y goleuni tragwyddol ei hunan yn gnawd; ynddo ef daeth ewyllys dragwyddol Duw ei hunan yn berson. Crist ei hunan ydyw y goleuni (*Ioan* i. 5, 9); rhodiodd efe yn y goleuni—nid fel mewn cylch, y tu allan iddo ei hunan, ond megys yn ei natur ei hun. Crist ydyw cyfraith y Tad wedi ei chyflawni yn ymgnawdoledig; yr ydym yn gweled yn berffaith yn ei berson, ac yn ei rodiad ef, pa beth ydyw ewyllys Duw. Y mae yr hwn gan hyny ag sydd yn cymmeryd arno fod ac aros yn Nuw, yn ymgymmeryd â'r rhwymedigaeth i rodio megys y rhodiodd Crist. Dalier sylw—*y rhwymedigaeth.* Pan y mae Ioan yn sôn am nodau cyfiwr o ras, nid yw yn crybwyll am rodio megys y rhodiodd Crist. Canys nis gallai un Cristion ddyweyd hyny am dano ei hunan (*pen.* i. 8, 9)—fod ei rodiad, fel yr eiddo Crist, yn ddibechod! Ond rhaid i bob Cristion gadw yn wastad o flaen ei lygad y rhwymedigaeth i efelychu esampl Crist, mewn ymdrech ffyddlawn a diflino yn erbyn yr hen ddyn. Yr hwn na wnel hyn, nid oes ganddo hawl i alw ei hunan yn Gristion. Nid unrhyw ran neilldiol o rodiad Crist ar y ddaear a feddylir yma; ond yr oll o'i fywyd o burdeb a chariad. Y cariad, fe allai, yn benaf sydd mewn golwg, fel yn cynnwys pob peth arall. Felly, pan y mae yr apostol Paul, yn *Eph.* v. 1, 2, yn ein hannog i fod yn ddilynwyr Duw, y mae yn chwanegu, "A rhodiwch mewn cariad, megys y carodd Crist ninnau." Y mae Luther yn gwneyd y sylw ffraethbert, ond hollol gywir, mai nid gwaith Crist yn rhodio ar y môr, ond ei rodiad cyffredin, y gelwir arnom yma i'w efelychu.

7—11. GORCHYMYN CARIAD.

Edrychir ar yr adnodau hyn fel attodiad i r adran flaenorol: *adn.* 1—6. Yno, gorchymynir i ni rodio megys y rhodiodd Crist: yma, edrychir ar y rhodiad hwnw fel yn cael ei gynnrychioli mewn cariad brawdol. Ond mwy cywir yw y golygiad mai canolbwynt yr holl adran, yn mlaen i *adn.* 25, yw y rhan olaf o *adn.* 8—"y tywyllwch a aeth heibio, a'r gwir oleuni sydd yr awrhon yn tywynu." Dyma feddwl sylfaenol y paragraph hwn [yn ol Ebrard] i ddiwedd y bennod (ond fod *adn.* 28 a 29 yn ffurfio y symmudiad i adran arall)—fod y goleuni mewn ystyr hanesyddol wedi dyfod i'r byd. Nid y pwngc mwyach ydyw goleuni, fel natur dragwyddol Duw; ond y goleuni yn y cyssyltiad hwn—fod cymmundeb wedi ei ffurfio ar y ddaear (sef yr eglwys) trwy Grist o'r rhai sydd wedi eu gwaredu o'r tywyllwch, ac wedi myned i mewn i gymdeithas â Duw—y Goleuni Tragwyddol.

7. *Y brodyr.*—Y mae y copïau goreu yn darllen "anwylyd." Y mae yn perthyn i ddull Ioan i ddechreu adranau newydd trwy gyfarchiad fel hyn, er cyffroi ei ddarllenwyr i sylw adnewyddol: *pen.* ii. 1; iii. 2, 7, 18, 21; iv. 1, 7, 11. *Nid gorchymyn newydd yr wyf yn ei ysgrifenu atoch, eithr gorchymyn hen yr hwn oedd genych o'r dechreuad. Yr hen orchymyn yw y gair a glywsoch o'r dechreuad.*—Y mae anhawsderau yr adnod hon a'r un ganlynol wedi rhanu esbonwyr yn fawr. Y prif gwestiwn ydyw, Pa "orchymyn" a feddylir yma? Ai yr un ydyw yr "hen orchymyn" yn yr adnod hon, a'r "gorchymyn newydd" yn *adn.* 8? Os felly, yn mha ystyr y mae yn "hen," ac yn mha ystyr yn "newydd?" Os dau wahanol ydynt, Pa un yw yr hen, a pha un yw y newydd? 1. Y mae tri golygiad ar y cwestiwn pa un ydyw y gorchymyn yn mhlith y rhai sydd yn dal mai am yr un gorchymyn y sonir yn y ddwy adnod. (1.) Y mae Awstin, Bede, y rhan fwyaf o'r tadau Groegaidd, Luther, Calvin, Grotius, Bengel, De Wette, Neander, ac ereill, yn golygu mai y "gorchymyn" ydyw yr hyn y mae yr apostol yn myned i'w ddyweyd yn mlaen, sef yn *adn.* 9; "Yr hwn a ddywed ei fod yn y goleuni, ac a gasao ei frawd, yn y tywyllwch y mae hyd y pryd hwn." Rhaid cofio fod Ioan yn defnyddio y gair "gorchymyn" mewn ystyr eang—yn golygu dadganiad o wirionedd pwysig, yn cael ei weithio allan i'w ganlyniadau ymarferol. Yn ol y golygiad hwn, y gorchymyn ydyw cariad brawdol. Y mae amryw resymau cryfion yn erbyn yr eglurhâd hwn. 1. Y mae yn anhawdd meddwl y buasai yr apostol yn disgwyl i'w ddarllenwyr ddeall mai at gariad brawdol yr oedd yn cyfeirio yn yr ymadroddion a ddefnyddia yn *adn.* 7, 8. Ni ddywedir un gair am gariad brawdol hyd *adn.* 9. 2. Pe cariad brawdol fuasai y gorchymyn, buasai yn naturiol i ni ddisgwyl iddo gael ei ddadgan mewn ffurf uniongyrchol ac annibynol. Ond nid yn y ffurf hono y mae *adn.* 9: y mae y synïad sydd yno yn cael ei roddi yn y ffurf o ganlyniad, yn deilliaw o, ac yn ymddibynu ar rywbeth a ddywedasid yn *adn.* 8. Y mae y dibyniad hwn o eiddo *adn.* 9 ar y rhan olaf o *adn.* 8 yn ei wneyd yn ammhossibl credu mai *adn.* 9 ydyw y prif ddrychfeddwl, ac *adn.* 8 yn un israddol, neu ymddibynol arno. (3.) Y mae yn

Yr hen orchymyn yw y gair a
Ioan 13. 34; 15. 2. glywsoch o'r dechreuad.
8 Trachefn, [m]gorchymyn new-

anhawdd, yn ol y golygiad hwn, ddeall yn mha ystyr y defnyddir y geiriau "hen" a "newydd;" ac felly y mae gwahaniaeth mawr ar hyn yn mhlith y rhai sydd yn dal y golygiad hwn. 2. Golygiad arall ydyw, fod y "gorchymyn" nid yn edrych yn mlaen at *adn.* 9, ond yn ol at *adn.* 6, ac mai "rhodio megys y rhodiodd ef" ydyw. Felly, y mae yr apostol yn *adn.* 7 yn darbwyllo ei ddarllenwyr nad gorchymyn newydd oedd hwn; fel pe dywedasai, 'Pan yr wyf yn eich cymmhell i fywyd o burdeb, ac yn gosod ger eich bron esampl sanctaidd Mab Duw, nid wyf yn dadgan dim newydd, ond yn unig yr hyn a gawsoch o ddechreuad crefydd, trwy y gyfraith a'r prophwydi.' Ond yn erbyn hyn gellir sylwi na fuasai yr un Iuddew yn gwrthddadleu fod yr annogaeth i burdeb bywyd yn un newydd; ac ni fuasai yr un Cristion yn dadleu fod rhodio megys y rhodiodd Crist yn orchymyn newydd. (3.) Y mae ereill, megys Düsterdieck, Huther, Alford, &c., yn cyfuno y ddau olygiad a enwyd; sef, yn dal fod y "gorchymyn," yn cynnwys esampl Crist yn *adn.* 6, yn cael ei gweithio allan i gariad brawdol yn *adn.* 9. Gallem feddwl fod y rhan fwyaf o'r gwrthddadleuon yn erbyn y ddau olygiad arall yn ymuno yn erbyn hwn. 2. Y mae ereill yn dal mai am ddau orchymyn gwahanol y sonir yma. Wrth y "gorchymyn hen, yr hwn oedd genych o'r dechreuad. Yr hen orchymyn yw y gair a glywsoch" (cydnabyddir yn gyffredinol mai chwanegiad diawdurdod ydyw y geiriau "o'r dechreuad" yn niwedd yr adnod), yr ydym i ddeall y "genadwri a glywsom ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi" (*pen.* i. 5)—y dadguddiad sydd yn cael ei symio i fyny yn y mynegiad mai "Goleuni yw Duw," ac yn cael ei dynu allan i'w ganlyniadau: *pen.* i. 6—ii. 6; a'r hwn a wnelsid yn hysbys i Gristionogion o'r dechreuad. Yr oedd y rhai hyn yn wirioneddau ag yr oedd y darllenwyr wedi eu gwybod "o'r dechreuad;" hyny yw, o adeg eu dychweliad at Gristionogaeth. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae y gwirioneddau hyn yn cael eu symio i fyny yma o dan yr enw "gorchymyn," neu "air," — mynegiad awdurdodol o wirionedd pwysig, a'i ganlyniadau ymarferol.

8. *Trachefn, gorchymyn newydd yr wyf yn ei ysgrifenu atoch.*—Y mae gwahanol olygiadau ar ystyr y "newydd" a'r "hen" yn mhlith y rhai sydd yn deall y ddau am yr un gorchymyn. Ystyria rhai nad yw y geiriau yn gosod allan amser; ond eu bod o ystyr ffugrol, yn golygu yr hen dywyllwch Iuddewig neu baganaidd, a goleuni newydd Crist. Ond nis gellir dal hyn yn wyneb y geiriau sydd mor eglur yn dynodi amser; sef, "o'r dechreuad," "yr hwn sydd genych," "yr hwn a glywsoch." Y mae y rhai sydd yn dal fod y gorchymyn yn cyfeirio yn mlaen (*adn.* 9) at gariad brawdol, yn deall yr "hen" fel yn golygu dadguddiad yr Hen Destament, a'r "newydd" ddadguddiad y Testament Newydd; a thybia rhai fod "o'r dechreuad" i'w ddeall am y gorchymyn tywyll ac anmherffaith i garu ein gilydd sydd yn yr Hen Destament, yr hwn oedd yn ddiffygiol yn y nodwedd Gristionogol o garu ein gelynion. Golyga rhai, gan fod y geiriau yn cyfeirio at Gristionogion Cenhedlig yn gystal ag Iuddewaidd, fod yr ymadroddion "hen," "o'r dechreuad," ac "a glywsoch," i'w deall am dystiolaeth cydwybod i gyfraith cariad yn mysg y Cenhedloedd. Ceisia Wolf wahaniaethu trwy gymmhwyso "yr hwn oedd genych" at yr Iuddewon, ac "a glywsoch" at y Cenhedloedd. Drachefn, y mae y rhai sydd yn golygu fod y "gorchymyn" yn meddwl esampl Crist (*adn.* 6) yn deall yr "hen" a'r "newydd" fel yn gosod allan y gwahanol agweddau ar esampl Crist a gymmerid o fewn terfynau y Testament Newydd, er yr adeg yr oedd y darllenwyr wedi cychwyn ar eu bywyd Cristionogol. Y mae y lleill, sydd yn barnu fod y "gorchymyn" yn cynnwys y ddau yn un; sef, esampl Crist wedi ei symio i fyny yn nghyfraith cariad, yn deall y geiriau "o'r dechreuad" fel yn golygu cychwyniad y bywyd Cristionogol, o'r amser y "clywsant y gair." Golygir fod gorchymyn cariad yn "hen," am ei fod yn ffurfio rhan o'r "gair a glywsent"—le, canolbwynt y "gair" hwnw; ond etto ei fod yn "newydd" am ei fod yn ymwisgo mewn newydd-deb parhaus fel y mae y bywyd Cristionogol yn ymddadblygu, fel y mae yr hen dywyllwch yn cilio, a'r gwir oleuni yn tywynu fwyfwy. Ond fel y dangoswyd o'r blaen, yr ydym yn barnu mai y gwir olygiad yw yr un sydd yn gwneyd yr hen a'r newydd yn ddau orchymyn gwahanol. Yr "hen orchymyn," fel y dywedwyd, ydyw y dadguddiad a symir i fyny yn y mynegiad mai "goleuni yw Duw:" *pen.* i. 5. Yr oedd hwn yn "hen orchymyn," am ei fod wedi ei ddadguddio i'r darllenwyr o ddechreuad eu gyrfa Gristionogol. Wrth y "gorchymyn newydd" yn ol y golygiad hwn, yr ydym i ddeall y rhan olaf o'r adnod hon, "y tywyllwch a aeth heibio, a'r gwir oleuni sydd yr awrhon yn tywynu." Y meddwl ydyw, fod cyfnod o oleuni wedi dechreu ar y ddaear yn sefydliad yr eglwys Gristionogol. Gwel yn mlaen ar ddiwedd yr adnod. Y mae yr apostol yn gwasgu y gwirioneddau hwn at y Cristionogion fel un "newydd," heb fod etto wedi ei ddwyn adref atynt yn ei ofynion ymarferol. Nid ydoedd yn newydd hollol fel gosodiad athrawiaethol, ond yn y canlyniadau ymarferol oedd yn deilliaw o hono—un o'r rhai mwyaf pwysig o ba rai oedd, rhwymedigaeth y Cristionogion i garu eu gilydd. Y mae y gair "trachefn" i'w gyssylltu âg "ysgrifenu," ac nid â "newydd." *Yr hyn sydd wir ynddo ef, ac ynoch chwithau.*—Y mae Huther yn golygu wrth "yr hyn," newydd-deb y gorchymyn. 'Y mae fod y gorchymyn yn un newydd yn wirionedd gyda golwg ar Grist, ac hefyd gyda golwg arnoch chwithau. Nid oedd y gorchymyn pa un bynag ai *adn.* 6, 'esampl Crist;' neu *adn.* 9, cariad brawdol yn bod yn flaenorol i Grist. Efe a'i gosododd i lawr yn gyntaf trwy ei air a'i esampl. Y mae yn newydd hefyd gyda golwg arnoch chwithau, grediwyr, yn gymmaint ag nad oedd yn eich meddiant yn flaenorol; ond derbyniasoch ef yn gyntaf yn a chyda eich ffydd.' Y mae dau reswm yn erbyn y golygiad hwn. Yn un peth, nid dyma ystyr y gair "gwir" yn ysgrifeniadau Ioan—nid gwirionedd mynegiad, ond sylweddoliad o'r peth ei hunan. Heb law hyny, nis gellir dyweyd nad oedd yr annogaeth i garu y brodyr, (neu yn ol rhai i "gadw gorchymynion Duw") yn bod cyn Crist. Golygiad arall a amddiffynir gan Œcumenius, Luther, Zwingle, ac

[a] Esa. 60. 1-3; Act. 17. 30; 1 Thes. 5. 5–8.

[o] Mal. 4. 2; 2 Tim. 1. 10. tywyllwch a aeth heibio, [o] a'r gwir oleuni sydd yr awrhon yn tywynu.

9 Yr hwn a ddywed ei fod yn y goleuni, ac a gasao ei frawd, [p] yn y tywyllwch y mae hyd y pryd hwn.

[p] 2 Pedr 1. 9.

10 [q] Yr hwn sydd yn caru ei frawd, sydd yn aros yn y goleuni, ac nid oes rhwystr ynddo.

[q] Ioan 8. 21; 2 Pedr 1. 10.

creill yn mysg esbonwyr diweddar, ydyw yr un sydd yn cyfeirio "yr hyn" at gynnwys y "gorchymyn newydd. Y mae gwir fater y gorchymyn yn cael ei sylweddoli yn Nghrist ac hefyd yn y darllenwyr. Ond yr ydym yn credu mai y gwir olygiad ydyw yr un a grybwyllwyd yn fyr o'r blaen, sef yr eiddo Ebrard—mai "yr hyn sydd wir ynddo ef, ac ynoch chwithau," ydyw mater y gorchymyn newydd; sef, fod y tywyllwch wedi myned heibio, a'r gwir oleuni yr awrhon yn tywynu. Yr "hen orchymyn" oedd "y gair a glywsoch," sef y "genadwri," mai "goleuni yw Duw;" felly y "gorchymyn newydd" yw, fod y goleuni wedi tywynu yn y byd. Y mae hyn yn cael ei wirio yn wrthddrychol yn Nghrist, ac yn dufewnol yn y credinwyr. Felly, mater yr adnodau hyn ydyw, fod y goleuni wedi dyfod (yn hanesyddol) i'r byd. Nid y pwngc mwyach yw y goleuni fel tragwyddol natur Duw, ond y goleuni yn yr amlygiad hanesyddol o hono mewn amser; sef, fod cymmundeb wedi ei sylfaenu ar y ddaear trwy yr Arglwydd Iesu Grist, yn cael ei wneyd i fyny o'r rhai a waredwyd o feddiant y tywyllwch, ac ydynt wedi dyfod i mewn i gymdeithas â Duw, y goleuni tragwyddol. Y cyfeiriad at oleuni fel natur dragwyddol Duw oedd yr "hen orchymyn;" a'r cyfeiriad at ryfel buddugoliaethus o eiddo y goleuni yn erbyn y tywyllwch, wedi dechreu mewn amser ac ar y ddaear, ydyw "y gorchymyn newydd," yr hwn y mae Ioan yn awr yn myned i'w agor i'w ddarllenwyr yn ei ganlyniadau ymarferol. Y mae amseriad y ferf yn golygu fod "y tywyllwch yn myned heibio," yn y weithred o ddiflanu, am fod "y gwir oleuni yr awr hon yn tywynu." Fel yr awgrymwyd o'r blaen, y mae hyn "yn wir," neu wedi ei gyflawni yn laf, yn Nghrist. Efe oedd y "codiad haul o'r uchelder" a dywynodd ar dywyllwch y byd. Yn Mab Duw wedi ymgnawdoli y dechreuodd y goleuni yn hanesyddol ymddangos ar y ddaear. Ond, yn 2il, y mae hyn "yn wir ynoch chwithau;" sef, yn Nghristionogion Ephesus, ac hefyd yn yr holl wir Gristionogion y pryd hwnw, ac yn mlaen i ddiwedd amser; o blegid gyda golwg ar bob un sydd wedi credu yn yr Arglwydd Iesu, y mae y nos (yn dufewnol) wedi myned heibio, a'r gwir oleuni yn tywynu ynddynt a thrwyddynt.

9—11. CARIAD BRAWDOL FEL UN O GANLYNIADAU YMARFEROL Y GORCHYMYN NEWYDD.

9. *Yr hwn a ddyweda ei fod yn y goleuni, ac a gasao ei frawd, yn y tywyllwch y mae hyd y pryd hwn.*—Y mae yr adnod hon yn dal yr un berthynas â'r adnod flaenorol ag y mae *adn.* 6, yn *pen.* 1, yn ei ddal âg *adn.* 5. Yno, ar ol dyweyd mai "Goleuni yw Duw," fe chwanegir y canlyniad ymarferol—fod proffes o gymmundeb â Duw yn anghysson â rhodio yn y tywyllwch. Felly yma: wedi dywedyd fod cymmundeb o oleuni wedi ei ffurfio ar y ddaear, chwanegir y canlyniad ymarferol, fod yn rhaid i bob un sydd yn proffesu bod yn y cymmundeb hwn brofi hyny trwy gariad at y rhai sydd, fel efe ei hun, wedi dyfod i'r goleuni. Y mae Alford yn gofyn pa fodd y mae i ni ddeall y gair "ei frawd" yn yr adnod hon; o blegid nid yw y dyn y siaredir am dano yn Gristion o gwbl. Dywed efe nad yw yn ymddangos fod yr anhawsder hwn wedi ymgynnyg i feddwl yr un o'r esbonwyr. O'n rhan ni, nid ydym yn synu at hyny; yn gymmaint ag nad yw yr hyn a grybwyllwyd yn anhawsder o gwbl. Beth all fod yn fwy eglur na bod Ioan yn siarad yn unol â phroffes y dyn? Y mae efe yn casau yr hwn ag y mae yn proffesu bod yn "frawd" iddo, a thrwy hyny y mae yn profi geudeb ei broffes. Y mae y dyn hwn yn proffesu bod "yn y goleuni," sef yn y cymmundeb a sylfaenwyd gan Grist, ac etto y mae yn casau y rhai ydynt yn aelodau o'r cymmundeb hwn, ac felly yn "frodyr" (yn ol ei broffes ef), ac yn hawlio ei gariad. Nid yw yn wir ei fod ef "yn y goleuni." Yn "y tywyllwch y mae hyd y pryd hwn;" hyd yn oed i fyau i'r foment bresennol, perthyn i'r cylch gwrthwynebol y mae, er pob cyfnewidiad ymddangosiadol a gymmerodd le arno, yn ei waith yn ymuno â rhengau Cristionogion proffesedig.—*Alford.*

10. *Yr hwn sydd yn caru ei frawd, sydd yn aros yn y goleuni.*—Y mae yr adnod hon yn cyfatteb i *adn.* 7, yn *pen.* 1: y mae yr apostol yno, ac yma, yn chwanegu ochr gadarnhaol y drychfeddwl at yr un nacaol. "Aros yn y goleuni."—Gwelir yma y neilldnolrwydd prydferth sydd i'w gael yn fynych yn ysgrifeniadau Ioan. Nid yw yn boddloni ar osod i lawr haeriad cadarnhaol, yn cyfatteb yn fanwl i'r gosodiad nacaol a wnaethai efe o'r blaen: ond y mae y mynegiad cadarnhaol yn myned y tu hwnt i'r meddwl a gynnwysid yn y negyddiad blaenorol. Felly yn *pen.* i. 7; ac yma yr un modd:—yr hwn sydd yn casau ei frawd, nid yw hyd yma yn perthyn i'r goleuni o gwbl: ond am yr hwn sydd yn caru ei frawd, y mae efe, nid yn unig yn profi trwy hyny fod y tywyllwch ynddo ef wedi myned heibio, a'i fod eisoes yn y goleuni, ond, yr hyn sydd fwy, y mae hefyd yn aros yn y goleuni. Y mae yr ymarferiad o gariad brawdol ynddo ei hunan yn foddion i gadarnhau y bywyd newydd; y mae y dyn newydd yn derbyn adnewyddiad a bywhâd i'w ffydd oddi wrth gymmundeb cariad brawdol; y mae y llinynau trwy ba rai y mae ei grefydd yn ymwreiddio yn fwy-fwy cadarn yn nghymdeithas ei frodyr yn meithrin hefyd gynnydd y dyn newydd yn Nuw. Fel hyn y mae yr adnod hon yn cyfatteb yn brydferth i *pen.* i. 7, fel ei rhan gyferbyniol. Dywedwyd yno, os rhodiwn yn y goleuni, fod i ni gymdeithas â phlant Duw: dywedir yma, fod ymarferiad y gymdeithas yma o gariad â'r brodyr yn ein cadw yn nghymdeithas y goleuni; hyny yw, yn nghymdeithas Duw. *Ac nid oes rhwystr ynddo:*—neu, yn ol y cyfleithiad Saesneg, "Nid oes achlysur rhwystr ynddo" (*occasion of stumbling*). Y mae dwy ffordd o ddeall y geiriau. Rhaid addef fod lliaws o'r esbonwyr galluocaf—megys Calvin, Luther, Bengel, Lücke, Neander, De Wette, Olshausen, Dusterdieck, Huther, ac Alford—yn rhoddi i'r geiriau yr ystyr, nad oes yn yr hwn sydd yn caru ei frawd ddim a fyddai yn achlysur iddo ef ei hunan ymrwystro neu dramgwyddo. Ond dengys y defnydd grammadegol o'r gair *scandalon* ynglŷn â'r arddodiad *en* ("yn") mai yr ystyr

[r]Adn. 9.
[s]Ioan12.35.

11 Eithr [r]yr hwn sydd yn casau ei frawd, yn y tywyllwch y mae, [s]ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio; ac ni wyr i ba le y mae yma ydyw, fel y dadleua Ebrard, "nid oes ynddo ddim achlysur tramgwydd i ereill." Y mae y rhan gyntaf o'r adnod hon yn cyfatteb, fel y dangoswyd, i'r rhan gyntaf o *pen.* i. 7; ac y mae y rhan olaf o'r naill yn cyfatteb i'r rhan olaf o'r llall. Yn *pen.* i. 7, dywedir fod "gwaed Iesu Grist ei Fab ef yn glanhau" y rhai sydd yn rhodio yn y goleuni, "oddi wrth bob pechod." Yma, dywedir am yr hwn sydd yn aros yn y goleuni nad oes "achlysur rhwystr ynddo:" y mae dylanwad sancteiddiol gwaed Crist yn cael ei arddangos trwyddo, fel y mae yn dyfod yn fendith ac yn gynnorthwywr i ereill, ac nid yn faen tramgwydd iddynt.

11. *Eithr yr hwn sydd yn casau ei frawd, yn y tywyllwch y mae, ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio.*—Y mae syniad *adn.* 9 yn cael ei adrodd mewn dull cryfach yn yr adnod hon, fel y mae y meddwl sydd yn *pen.* i. 8 yn cael ei adrodd mewn ffurf cryfach yn *pen.* i. 10. "Yr hwn sydd yn casau ei frawd."—Yn gyntaf, "yn y tywyllwch y mae:"—ail adroddiad o'r hyn a ddywedir yn *adn.* 9. Y mae efe etto yn perthyn o ran ei anian dufewnol i gylch y rhai nad oes iddynt hyd yma yr un gyfran yn y goleuni sydd trwy Grist wedi cyfodi ar y byd; y mae efe etto yn sefyll y tu allan i gynnulleidfa plant y goleuni. Ond yn ail, y mae efe hefyd "yn rhodio yn y tywyllwch:" (*pen.* i. 6). Nid yw o ran ei berson yn nheyrnas y goleuni; ac y mae ei ymarweddiad, fel y mae yn amlygu ei hunan mewn casau ei frawd, yn dwyn delw y rhai sydd yn wrthwyneb i natur Duw. *Ac ni wyr i ba le y mae yn myned.*—Dyma y trydydd nodwedd. Er ei fod yn dywedyd ei fod yn y goleuni, ni wyr gymmaint a'r ffordd i'r goleuni: y mae yn ymbalfalu yn y tywyllwch. Nid yw yn gweled cymmaint a bod ei angharhiad yn bechadurus. *O blegid y mae y tywyllwch wedi dallu ei lygaid ef.*—Dyma y pedwerydd nôd. Golyga y tywyllwch yma yr ystyr lawnaf a dyfnaf sydd i'r gair yn ysgrifeniadau Ioan—y tywyllwch, fel y mae yn wrthwyneb i natur Duw—y tywyllwch, yr hwn yw hunan a marwolaeth, fel y mae y goleuni yn gariad a bywyd. Y mae y tywyllwch hwn wedi dallu ei lygaid i'r fath raddau, fel nas gall adnabod ei bechod fel pechod. O blegid effaith cyntaf y goleuni ynom ac arnom ydyw ein dwyn i adnabod y tywyllwch sydd ynom fel tywyllwch—y pechod, yr hunan, yr angharhiad, y "casâu" Duw a'r brodyr—ein dwyn i weled mai tywyllwch a phechod ydyw hyn. Ar y llaw arall, y mae yn natur tywyllwch ysbrydol i "ddallu y llygaid," fel y bydd y tywyllwch yn ymddangos yn oleuni. Felly y mae yr hwn sydd yn dychymygu y gellir cymmodi ei waith yn "casau ei frawd" â bod yn y goleuni, yn dangos fod y tywyllwch yn llywodraethu ei enaid, ac yn ei wneyd yn anwybodus ac yn ddyryslyd am gyflwr ei enaid, ac am nodwedd ei weithredoedd.

12—14. CYFARCHIAD TRIPHLYG I'R DARLLENWYR, GYDA RHESWM TRIPHLYG AM YSGRIFENU ATYNT: YNA, Y CYFAN YN CAEL EI AIL ADRODD GYDA PHETH AMRYWIAD A CHWANEGIAD.

12. Cyn dyfod at fanylion yr adnodau hyn, yn myned, [t]o blegid y mae y tywyllwch wedi dallu ei lygaid ef.

[t-2 Cor. 4. 4. Dad. 3. 17.]

12 Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, blant bychain, o blegid bydd yn fantais i edrych ar yr anhawsderau sydd ynglŷn â chynllun cyffredinol y tair adnod. Gellid rhestru y rhai hyn, fe allai, dan bedwar cwestiwn. 1. Beth yw ystyr y rhaniad yma ar y darllenwyr i dri dosbarth, y rhai a ddynodir y tro cyntaf wrth yr enwau—*plant bychain, tadau, a gwŷr ieuainge;* a'r ail waith, *rhai bychain, tadau, a gwŷr ieuainge?* 2. Pa ham y cyferchir y tri dosbarth y waith gyntaf gyda'r amser presennol, "Ysgrifenu yr wyf," a'r ail waith gyda'r gorphenol, "Ysgrifenais?" 3. Tra y cyferchir "tadau" a'r "gwŷr ieuainge" yn yr un ymadroddion y ddau dro (ond gyda chwanegiad yr ail waith i'r "gwŷr ieuainge,") pa ham y mae y cyfarchiad yn wahanol i'r "plant bychain" a'r "rhai bychain." 4. Pa fodd y mae deall yr hyn a gyfeirir at bob dosbarth—pa un ai fel mater yr ysgrifen, ai fel y rheswm am ysgrifenu? 1af. Mewn attebiad i'r gofyniad cyntaf, y mae yn dra thebygol fod y "plant bychain" yn golygu yr holl ddarllenwyr. Yr oedd y gair hwn (*tecnia*) yn un a ddefnyddid yn yr ystyr hwn weithiau gan ein Harglwydd wrth gyfarch ei ddysgyblion (*Ioan* xiii. 33), a chan Ioan chwe gwaith yn yr epistol hwn—a phob tro yn golygu yn amlwg ei holl ddarllenwyr: *pen.* ii. 1, 28: iii. 7, 18; iv. 4; v. 21. Cyttunir yn gyffredin fod y "tadau" a'r "gwŷr ieuainge" yn golygu yr hen a'r ieuainge o ran oedran, ac nid o ran safle ysbrydol; ar y dybiaeth fod y cyrhaeddiadau ysbrydol yn cyfatteb i'r oedran—yr hyn ydyw y ffaith fel rheol, er nad yn ddieithriad. Ond yn yr ail gyfarchiad, y mae y gair am y dosbarth cyntaf wedi ei newid o "blant bychain" (*tecnia*) i "rai bychain" (*paidia*). Y mae yr olaf, feddyliem, yn ddiau yn golygu y plant o ran oedran yn yr eglwysi. 2il, Yr attebiad cywiraf, feddyliem, i'r ail gwestiwn ydyw—fod yr amser presennol, "ysgrifenu yr wyf," yn golygu cynnwys cyffredinol yr epistol hwn; a bod yr amser gorphenol, "ysgrifenais," yn cyfeirio at gynnwys Efengyl Ioan; i'r hon (fel y dangoswyd yn yr arweiniad) yr oedd yr Epistol yn fath o lythyr cyflwyniad, neu gyd-ysgrif, yn cael ei anfon gyda hi. 3ydd, Mewn attebiad i'r trydydd gofyniad, y mae y genadwri i'r "plant bychain" a'r "rhai bychain" yn wahanol y ddau dro, am ei bod yn cael ei chyfeirio at ddosbarth gwahanol—y cyntaf at yr holl ddarllenwyr, yr ail at y plant. Y mae yn amlwg fod ystyr y "tadau" a'r "gwŷr ieuainge" yn sefyll yr un fath yn y ddau gyfarchiad, felly y mae y genadwri yr un, neu yn hytrach y rheswm a ddyry yr apostol am ei waith yn ysgrifenu. 4. O berthynas i'r pedwerydd ymofyniad, y mae y tadau Groegaidd, Socinus, Schott, Paulus, Neander, ac ereill, yn esbonio yr *hoti* ("am") fel yn golygu mater yr ysgrifen, neu yr hyn yr oedd yr apostol yn ei ysgrifenu atynt. Ond gyda llawer mwy o reswm, feddyliem, y mae Calvin, Dusterdieck, Lücke, ac Ebrard, &c., yn deall yr "am" yn ei ystyr syml yn y tair adnod, fel "o blegid" (fel y mae yn y cyfeithiad Cymraeg yn *adn.* 12); ac felly yn rhoddi y rheswm yn mhob un o'r cyfarchiadau am waith yr apostol yn ysgrifenu. Yn unol â'r golygiadau hyn, y mae y tair adnod yn syrthio i ffurf cwpl o driodedd, fel y canlyn:—

[s] Salm 32. 1, 2; [t] Act. 4. 12. [u] maddeu i chwi eich pechodau [x] er mwyn ei enw ef.

[x] Ier. 14. 7. 13 Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, dadau, am adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad. Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, wŷr ieuainge, am orchfygu o honoch yr un drwg. Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, rai bychain, am [y] chwi adnabod y Tad.

[y] Ioan 8. 54, 55; 2 Cor. 4. 6.

Y TRI CHYNTAF.	YR AIL DRI.
"Ysgrifenu yr wyf."	"Ysgrifenais."
1. Plant bychain (*tecnia*)—yr holl ddarllenwyr.	1. Rhai bychain (*paidia*)—o ran oedran.
2. Tadau.	2. Tadau.
3. Gwŷr ieuainge.	3. Gwŷr ieuainge.

12. *Ysgrifenu yr wyf atoch chwi* :—sef, cynnwys yr Epistol hwn. *Blant bychain.*— Dull serchog o gyfarch yr holl ddarllenwyr, yn unol â'r esamplau a nodwyd uchod. *O blegid.*—Y rheswm am ysgrifenu. *Maddeu i chwi eich pechodau er mwyn ei enw ef.*—'Fod eich pechodau wedi eu maddeu:'—yr amser gorphenol (perffaith). Er mwyn enw Crist; sef, trwy ei haeddiant ef dros bechaduriaid. Ond pa fodd y mae hyn yn dyfod yn rheswm am ysgrifenu atynt? Pan y mae yr apostol yn dyweyd "ysgrifenu yr wyf," er fod y gair yn golygu yr holl Epistol, mewn ffordd gyffredinol, gallai ei fod (fel y mae Ebrard yn dal) yn golygu yn uniongyrchol yr adnodau o'r blaen. Y mae yr apostol felly yn ysgrifenu atynt fod "y tywyllwch wedi, neu yn myned heibio," gyda golwg arnynt hwy, a bod "y gwir oleuni yr awrhon yn tywynu ynddynt" —ac felly, yn eu hadgofio o'u rhwymedigaethau i garu y brodyr, sef y rhai a ddygwyd fel hwythau i gymmundeb mawr y goleuni. Mae yn ysgrifenu y pethau hyn atynt, am fod ei ddarllenwyr wedi derbyn maddeuant pechodau, ac mewn cyflwr o ras. Ni fuasai yr hyn sydd yn yr adnodau blaenorol yn gymmhwys i'w ddywedyd wrth neb ond rhai wedi eu dwyn i gyflwr o ras a maddeuant. Felly y mae yr holl Epistol yn golygu ei ddarllenwyr fel plant y goleuni. Y mae rhai esbonwyr wedi awgrymu y gall ystyr arall fod yn gynnwysedig yn y meddwl uchod:—mai bod wedi derbyn maddeuant ein hunain a'n gwna yn faddeugar tuag at ereill, ac felly i garu ein brodyr, yn ol *adn.* 9—11.

13. *Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, dadau.*—Y rhai oedd yn yr eglwysi wedi cyrhaedd aeddfedrwydd mewn oedran naturiol ac ysbrydol. *Am adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad.*—"Yr hwn oedd o'r dechreuad" oedd bob amser gan Ioan, yr Arglwydd Iesu Grist (*pen.* i. 1, 2; ac *Ef. Ioan* i. 1, 2, &c.), yr hwn oedd gyda'r Tad, ac a ymddangosodd yn nghyflawnder yr amser ar y ddaear. Dyma y ffurf neilldiol a ddisgwylid ar grefydd y rhai hynaf mewn oedran—aeddfedrwydd adnabyddiaeth o Grist. Y mae yn naturiol edrych am aeddfedrwydd gwybodaeth yn yr hen—ac yn yr hen dduwiolion, aeddfedrwydd yn y wybodaeth uchaf. Y mae yn y cyfarchiad cyntaf yn edrych ar ei ddarllenwyr yn gyffredinol fel rhai wedi eu dwyn i ystâd o faddeuant a gras. Yr un peth a olygir yma o ran sylwedd, ond ei fod yma yn nodi y ffurf hono ar dduwioldeb a ddisgwylid ei gweled yn fwyaf amlwg yn y rhai oedranus. Gallai fod yma awgrym distaw o'r priodoldeb i'r hen adnabod 'yr Hen Ddihenydd"—y Tragwyddol ei hunan, "yr hwn oedd o'r dechreuad," gan fod yr hen yn byw llawer yn y gorphenol—ac yn ymffrostio mewn côf yn cyrhaedd yn mhell yn ol. *Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, wŷr ieuainge, am orchfygu o honoch yr un drwg.*—Dyma y ffurf naturiol i grefydd y gwŷr ieuainge. Nerth ydyw rhagoriaeth y gwŷr ieuainge; a'u rhan briodol hwy yw dwyn yn mlaen waith trymaf bywyd. Os milwyr, hwy sydd i ymladd. Gwaith priodol yr hen yw myfyrio, a chyrhaedd gwybodaeth gywir ac aeddfed.—*Alford.* "Yr un drwg" ydyw y diafol: cymmharer *Mat.* xiii. 9, 38, &c.; 1 *Ioan* iii. 12; v. 18, &c.; *Eph.* vi. 16. Ceisia y diafol, trwy awgrymiadau oddi fewn, a hudoliaethau oddi allan, gadw dynion yn rhwym yn nghaethiwed pechod a thywyllwch, neu eu dwyn yn ol iddo os diangasant. Y mae yn angenrhaid naturiol fod gan yr ieuangc i ddioddef, ac i ymladd â'u temtasiynau tanllyd priodol eu hunain, pa un bynag ai y cnawd a'i chwantau, ai ynte cyfeiliornad a thwyll. Rhaid i'r ieuengctyd fod mewn ymdrechfeydd gwastadol—pyngciol, ac ymarferol. I'r cyfryw wŷr ieuainge ag oeddynt wedi bod yn yr ymdrech, ac wedi gorchfygu, ac felly oeddynt wedi ymladd eu ffordd i sicrwydd ffydd ac i lawn ymgyssegriad y galon i Grist—i'r cyfryw, ac i'r cyfryw yn unig, yr oedd efe yn ysgrifenu ei Epistol.—*Ebrard. Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, rai bychain.*—Dyma ddechreu yr ail driad. Yr oedd pob un yn y tri cyntaf yn yr amser presennol—"ysgrifenu." Y mae yr ail a'r trydydd yn y triad hwn yn y gorphenol; ac felly y buasai yn naturiol i ni ddisgwyl y cyntaf—fel ag i'r tri cyntaf fod oll yn y presennol, a'r ail dri oll yn y gorphenol. Ac fel hyn yn ddiau y dylasai fod yn y cyfeithiad Cymraeg, gan fod bron yr oll o awdurdod feirniadol o blaid "ysgrifenais" yn y frawddeg gyntaf hon o'r ail dri, fel yn y ddwy ganlynol. Ond pa ham y mae yr apostol yn newid yr amser (*tense*) fel hyn? Yn ol De Wette, Brückner, a Huther, y mae yr "ysgrifenu" yn cyfeirio at y weithred uniongyrchol o ysgrifenu yn myned yn mlaen ar y pryd hwnw; a'r "ysgrifenais" at y gyfran o'r Epistol oedd wedi ei hysgrifenu yn flaenorol. Y mae Beza a Düsterdieck yn cymmhwyso y ddau air at yr holl Epistol:—"ysgrifenu" yn golygu gweithred uniongyrchol yr apostol o ysgrifenu, ac "ysgrifenais" yn golygu gweithred y darllenwyr o ddarllen pan y byddai y llythyr wedi ei gwblhau. Ond gwell genym ni o lawer olygiad Ebrard ac ereill—fod yr "ysgrifenu" yn cyfeirio at yr Epistol, a'r "ysgrifenais" at yr Efengyl; i'r hon, fel y dangoswyd yn barod, yr oedd yr Epistol yn fath o gydysgrif, neu attodiad. Wedi cyfarch o'r blaen, mewn cyfeiriad at yr Epistol, y "plant bychain" (sef y darllenwyr yn gyffredinol), y "tadau," a'r "gwŷr ieuainge," y mae yn awr yn cyfarch yr un dosbarthiadau, gyda chyfeiriad at yr Efengyl orphenedig oedd ar y pryd yn gorwedd o flaen ei lygaid. Ond gyda hyn o wahaniaeth—yn lle y darllenwyr yn gyffredinol dan yr enw "plant bychain," yn y frawddeg gyntaf o'r triad cyntaf, y mae yn awr yn y frawddeg gyfattebol o'r ail driad yn troi at y "plant bychain" yn llythyrenol; ac er mwyn dangos y gwahaniaeth hwn, y mae yn defnyddio gair gwahanol am danynt. Yn lle y *tecnia* cyffredinol ("plant bychain") defnyddia yn awr y *paidia* neilldiol—"rhai bychain." *Am i chwi adnabod y Tad.*—Un o'r

14 Ysgrifenais atoch chwi, dadau, am adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad. Ysgrifenais atoch chwi, wŷr ieuainge, am eich bod yn gryfion, a bod ᶻgair Duw yn aros ynoch, a gorchfygu o honoch yr un drwg. ᶻSalm 119. 11; Ioan 15. 7; Col. 3. 16; Heb. 8. 10.

15 Na cherwch y byd, na'r pethau sydd ym y byd. Os câr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo. 16 Canys yr holl bethau sydd ym y byd, chwant y cnawd, a chwant y llygaid, a balchder bywyd, nid ydynt o'r Tad, eithr o'r byd. 17 A'r byd a'i chwant sydd yn darfod: ond yr hwn sydd yn gwneuthur yn ôl ewyllys Duw, sydd yn aros yn dragywydd.

18 Blant bychain, yr awr olaf yw hi: a chan i chwi glywed fod yr Antichrist yn dyfod, yn awr hefyd y mae llawer Antichrist wedi dyfod; o'r hyn yr adwaenom mai yr awr olaf yw hi. 19 Aethant allan oddi wrthym ni, ond nid oeddynt o honom ni: canys pe buasent o honom ni, diau y buasent yn aros gyda ni: ond aethant allan, fel yr amlygid nad oeddynt oll o honom ni. 20 Ond chwithau y mae gennych eneiniad oddi wrth y Sanct, a chwi oll a wyddoch. 21 Nid ysgrifenais atoch, am nad adwaenoch y gwirionedd, ond am eich bod yn ei adnabod, ac am nad oes celwydd o'r tu allan i'r gwirionedd. 22 Pwy yw celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu mai Iesu yw'r Crist? Hwn yw'r Antichrist, yr hwn sydd yn gwadu'r Tad a'r Mab. 23 Pob un sydd yn gwadu'r Mab, nid oes ganddo yntau y Tad: yr hwn sydd yn cyfaddef y Mab, sydd ganddo hefyd y Tad. 24 Chwithau, yr hyn a glywsoch oddi wrth y dechreuad, arhoed yn eich calonau. Os arhoa yn eich calonau yr hyn a glywsoch oddi wrth y dechreuad, chwithau hefyd a arhowch yn y Mab, ac yn y Tad. 25 A dyma'r addewid a addawodd efe i ni, sef bywyd tragwyddol. 26 Ysgrifenais y pethau hyn atoch am y rhai sydd yn eich hudo chwi. 27 Ond yr eneiniad a dderbyniasoch ganddo ef, sydd yn aros ynoch chwi, ac nid oes arnoch eisiau i neb eich dysgu chwi: ond fel y mae ei eneiniad ef yn eich dysgu chwi am bob peth, ac yn wir, ac nid celwydd, ac fel y dysgodd efe chwi, arhowch ynddo ef. 28 Ac yn awr, blant bychain, arhowch ynddo ef; fel, pan ymddangoso efe, y bo gennym hyder, ac na'n gwrthodo ni oddi wrtho ef yn ei ddyfodiad. 29 Os gwyddoch ei fod ef yn gyfiawn, gwybyddwch fod pob un sydd yn gwneuthur cyfiawnder, wedi ei eni ohono ef.

3 Gwelwch pa gariad a roddes y Tad i ni, fel y'n gelwid ni yn blant Duw: am hynny nid yw'r byd yn ein hadnabod ni, am nad yw yn ei adnabod ef. 2 Anwyliaid, yr awr hon yr ydym ni yn blant Duw, ac nid yw eto yn amlwg beth a fyddwn: ond gwyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn debyg iddo; canys ni welwn ef fel y mae. 3 A phob un sydd a'r gobaith hwn ganddo ynddo ef, sydd yn ei lanhau ei hun, fel y mae efe yn lân. 4 Pob un sydd yn gwneuthur pechod, sydd yn gwneuthur anwiredd hefyd: canys pechod yw anwiredd. 5 A chwi a wyddoch mai efe a ymddangosodd i ddwyn ymaith bechodau; ac ynddo ef nid oes pechod. 6 Pob un sydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu: pob un sydd yn pechu, nid yw wedi ei weled ef, ac nid yw wedi ei adnabod ef. 7 Blant bychain, na thwylled neb chwi: yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn, megis yntau yw efe gyfiawn. 8 Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, sydd o'r diafol; canys y diafol a bechodd o'r dechreuad. Er hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dinistrio efe weithredoedd y diafol. 9 Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; canys ei had ef sydd yn aros ynddo: ac ni all efe bechu, am ei eni o Dduw. 10 Trwy hyn yr amlygir plant Duw a phlant y diafol: pob un nid yw yn gwneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.

11 Canys dyma'r neges a glywsoch oddi wrth y dechreuad, fel y carem ein gilydd. 12 Nid megis Cain, yr hwn oedd o'r drygionus, ac a laddodd ei frawd. A phaham y lladdodd efe ef? Am fod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a rhai ei frawd yn gyfiawn. 13 Na ryfeddwch, frodyr, os yw'r byd yn eich casáu chwi. 14 Nyni a wyddom ein bod ni wedi ein symud oddi wrth farwolaeth i fywyd, am ein bod yn caru'r brodyr. Yr hwn nid yw yn caru, sydd yn aros mewn marwolaeth. 15 Pob un sydd yn casáu ei frawd, sydd lofrudd dynion: a chwi a wyddoch nad oes gan un llofrudd dynion fywyd tragwyddol yn aros ynddo. 16 Wrth hyn yr adwaenom gariad, am iddo ef roddi ei einioes drosom ni: a dylem ninnau roddi ein heinioes dros y brodyr. 17 Ond pwy bynnag sydd a chanddo ganddo ef dda'r byd hwn, ac a wel ei frawd mewn eisiau, ac a gau ei dosturi oddi wrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo? 18 Blant bychain, na charwn mewn gair, nac mewn tafod, ond mewn gweithred a gwirionedd. 19 Wrth hyn yr adwaenom ni mai o'r gwirionedd yr ydym, ac y perswadiwn ein calonau ger bron efe. 20 Canys os yw ein calon yn ein condemnio, mwy yw Duw na'n calon, ac efe a edwyn bob peth. 21 Anwyliaid, os nid yw ein calon yn ein condemnio, y mae gennym hyder at Dduw. 22 A pha beth bynnag a ofynnom, ni a'i derbyniwn ganddo ef, am ein bod yn cadw ei orchymynion, ac yn gwneuthur y pethau sydd gerbron ei fodd ef. 23 A hyn yw ei orchymyn ef, ar inni gredu enw ei Fab Iesu Grist, a charu ein gilydd, fel y rhoddes efe orchymyn i ni. 24 A'r hwn sydd yn cadw ei orchymynion, sydd yn aros ynddo ef, ac efe ynddo yntau. Ac wrth hyn yr adwaenom mai efe sydd yn aros ynom ni, wrth yr Ysbryd a roddes efe i ni.

4 Anwyliaid, na chredwch bob ysbryd, ond profwch yr ysbrydoedd, pa rai ydynt o Dduw: am fod llawer o ragrithwyr wedi myned allan i'r byd. 2 Wrth hyn yr adwaenir Ysbryd Duw: pob ysbryd sydd yn cyffesu fod Iesu Grist wedi dyfod yn y cnawd, sydd o Dduw: 3 A phob ysbryd nid yw yn cyffesu Iesu Grist wedi dyfod yn y cnawd, nid yw o Dduw: a hwn yw ysbryd yr Antichrist, yr hwn a glywsoch ei fod yn dyfod, ac yn awr hefyd y mae yn y byd eisoes. 4 Chwi, blant, ydych o Dduw, ac a'u gorchfygasoch hwynt: am fwy yw'r hwn sydd ynoch chwi, na'r hwn sydd yn y byd. 5 Hwy ydynt o'r byd: am hynny o'r byd y llefarant, a'r byd a wrendy arnynt. 6 Nyni ydym o Dduw: yr hwn sydd yn adnabod Duw, a wrendy arnom ni; yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn gwrando arnom ni. Wrth hyn yr adwaenom ysbryd y gwirionedd, ac ysbryd camwedd.

7 Anwyliaid, carwn ein gilydd: canys cariad sydd o Dduw; a phob un sydd yn caru, a aned o Dduw, ac a edwyn Dduw. 8 Yr hwn nid yw yn caru, nid yw yn adnabod Duw; canys Duw sydd gariad. 9 Trwy hyn yr amlygwyd cariad Duw tuag atom ni, am i Dduw anfon ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem ni byw trwyddo ef. 10 Yn hyn y mae cariad, nid ein bod ni wedi caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab yn iawn dros ein pechodau. 11 Anwyliaid, os felly y carodd Duw ni, rhaid i ninnau garu ein gilydd. 12 Nid oes neb wedi gweled Duw erioed: os carwn ein gilydd, Duw sydd yn aros ynom ni, a'i gariad ef a berffeithiwyd ynom ni. 13 Wrth hyn yr adwaenom ni ein bod ni yn aros ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am iddo roddi i ni o'i Ysbryd ef. 14 Ac ni a welsom, ac a dystiolaethwn, mai'r Tad a anfonodd y Mab yn Waredwr i'r byd. 15 Pwy bynnag a gyffesa fod Iesu yn Fab Duw, Duw sydd yn aros ynddo ef, ac efe yn Nuw. 16 Ac ni a adwaenom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw ynom ni. Duw sydd gariad; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw yntau ynddo ef. 17 Yn hyn y perffeithiwyd cariad gyda ni, fel y bo gennym hyder yn nydd y farn: canys megis ydyw efe, felly ydym ninnau yn y byd hwn. 18 Nid oes ofn mewn cariad; ond cariad perffaith a fwrw allan ofn: canys ofn sydd ganddo boen; a'r hwn sydd yn ofni, nid yw perffaith mewn cariad. 19 Nyni a garwn ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. 20 Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, ac a gasao ei frawd, celwyddog yw: canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn ni welodd? 21 A hyn sydd orchymyn ganddo ef inni, Yr hwn sydd yn caru Duw, caru ei frawd hefyd.

5 Pob un sydd yn credu mai Iesu yw'r Crist, a aned o Dduw: a phob un sydd yn caru'r hwn a genhedlodd, sydd yn caru'r hwn a aned ohono yntau. 2 Wrth hyn yr adwaenom ni ein bod ni yn caru plant Duw, pan garom Dduw, a chadw ei orchymynion ef. 3 Canys hyn yw cariad Duw, ar inni gadw ei orchymynion ef: ac nid yw ei orchymynion ef yn drymion. 4 Canys pob peth a aned o Dduw, sydd yn gorchfygu'r byd: a hyn yw'r fuddugoliaeth sydd yn gorchfygu'r byd, ein ffydd ni. 5 Pwy yw'r hwn sydd yn gorchfygu'r byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw? 6 Hwn yw'r hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, sef Iesu Grist; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed. A'r Ysbryd yw'r hwn sydd yn tystiolaethu, am mai'r Ysbryd yw'r gwirionedd. 7 Canys tri sydd yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn sydd un. 8 A thri sydd yn tystiolaethu ar y ddaear, yr Ysbryd, a'r dŵr, a'r gwaed: a'r tri hyn sydd yn cytuno yn un. 9 Os derbyniwn dystiolaeth dynion, tystiolaeth Duw sydd fwy: canys hon yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab. 10 Yr hwn sydd yn credu yn Fab Duw, sydd ganddo dystiolaeth Duw ynddo ef: yr hwn nid yw yn credu Duw, a wnaeth efe yn gelwyddog; am nad yw yn credu'r dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab. 11 A hon yw'r dystiolaeth, i Dduw roddi i ni fywyd tragwyddol, a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef. 12 Yr hwn sydd a'r Mab ganddo, sydd a'r bywyd ganddo: a'r hwn nid oes ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd.

13 Ysgrifenais y pethau hyn atoch chwi sydd yn credu yn enw Mab Duw; fel y gwypoch fod gennych fywyd tragwyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw. 14 A hyn yw'r hyder sydd gennym ni ger bron efe, os gofynnom dim yn ôl ei ewyllys ef, efe a'n gwrendy ni: 15 Ac os gwyddom ei fod ef yn gwrando arnom ni, pa bethau bynnag a ofynnom, ni a wyddom fod gennym y deisyfiadau a ofynnasom ganddo. 16 Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid tuag at farwolaeth, gofyned, ac efe a rydd iddo fywyd i'r rhai sydd yn pechu nid tuag at farwolaeth. Y mae pechod tuag at farwolaeth: nid wyf yn dywedyd am hwnnw y gofyn neb. 17 Pob anwiredd sydd bechod: ac y mae pechod nid tuag at farwolaeth.

18 Gwyddom nad yw neb a aned o Dduw yn pechu; ond yr hwn a aned o Dduw, efe a'i ceidw ei hun, ac ni chaiff yr un drwg gyffwrdd ag ef. 19 Gwyddom ein bod ni o Dduw, a'r holl fyd sydd yn gorwedd yn yr un drwg. 20 Gwyddom hefyd fod Mab Duw wedi dyfod, ac a roddes i ni ddeall, fel yr adwaenom yr hwn sydd wir: ac yr ydym ni yn yr hwn sydd wir, sef yn ei Fab Iesu Grist. Hwn yw'r gwir Dduw, a'r bywyd tragwyddol. 21 Blant bychain, cedwch eich hunain oddi wrth eilunod. Amen.

Y DATGUDDIAD.

1 Datguddiad Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo, i ddangos i'w weision y pethau sydd raid eu bod ar fyrder; ac a'u hanfonodd trwy ei angel at ei was Ioan: 2 Yr hwn a dystiolaethodd air Duw, a thystiolaeth Iesu Grist, a'r holl bethau a welodd efe. 3 Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn darllen, a'r rhai sydd yn gwrando geiriau'r proffwydoliaeth hon, ac yn cadw'r pethau sydd ysgrifenedig ynddi: canys yr amser sydd yn agos.

4 Ioan at y saith eglwys sydd yn Asia: Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod; ac oddi wrth y saith ysbryd sydd gerbron ei orsedd-faingc ef; 5 Ac oddi wrth Iesu Grist, y tyst ffyddlon, a'r cyntaf-anedig o feirw, a thywysog brenhinoedd y ddaear. I'r hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun, 6 Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef; iddo ef y bo gogoniant a gallu yn oes oesoedd. Amen.

7 Wele, y mae efe yn dyfod gyda'r cymylau; a phob llygad a'i gwel, a'r rhai a'i trywanasant ef: a holl lwythau'r ddaear a alarant o'i herwydd ef. Felly, Amen.

8 Myfi yw'r Alpha a'r Omega, medd yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Hollalluog.

9 Myfi Ioan, eich brawd, a'ch cydgyfrannog mewn gorthrymder, a theyrnas, ac amynedd Iesu Grist, oeddwn yn yr ynys a elwir Patmos, am air Duw, ac am dystiolaeth Iesu Grist. 10 Mi a fum yn yr Ysbryd ar y dydd yr Arglwydd, ac a glywais o'm hôl lef uchel, megis lef utgorn, 11 Yn dywedyd, Myfi yw'r Alpha a'r Omega, y cyntaf a'r diwethaf: a'r hyn a welych, ysgrifenna mewn llyfr, ac anfon at y saith eglwys sydd yn Asia; i Effesus, ac i Smyrna, ac i Pergamus, ac i Thyatira, ac i Sardis, ac i Philadelphia, ac i Laodicea. 12 Ac mi a droais i weled y llef a lefarai wrthyf. Ac wedi i mi droi, mi a welais saith ganhwyllbren aur; 13 Ac yng nghanol y saith ganhwyllbren un megis Mab dyn, wedi ei wisgo hyd at y traed, ac wedi ymwregysu hyd at ei fronnau â gwregys aur. 14 Ei ben a'i wallt oedd wynion megis gwlân gwyn, megis eira; a'i lygaid megis fflam dân; 15 A'i draed yn debyg i bres gloyw, megis wedi eu puro mewn ffwrnais; a'i lef megis sŵn llawer o ddyfroedd. 16 Ac yr oedd ganddo yn ei law ddeau saith seren: ac o'i enau yr oedd cleddyf llym daufiniog yn dyfod allan: a'i wyneb megis yr haul yn disgleirio yn ei nerth. 17 A phan welais ef, mi a syrthiais wrth ei draed fel un marw. Ac efe a osododd ei law ddeau arnaf, gan ddywedyd wrthyf, Nac ofna; myfi yw'r cyntaf a'r diwethaf: 18 A'r byw, a bum farw; ac wele, byw ydwyf byth bythoedd, Amen; ac y mae gennyf agoriadau uffern a marwolaeth. 19 Ysgrifenna'r pethau a welaist, a'r pethau ydynt, a'r pethau a fyddant ar ôl hyn; 20 Dirgelwch y saith seren a welaist ar fy neheulaw i, a'r saith ganhwyllbren aur. Y saith seren yw angylion saith eglwys: a'r saith ganhwyllbren a welaist, yw saith eglwys.

2 I angel eglwys Effesus ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed yr hwn sydd yn dal y saith seren yn ei ddeheulaw, yr hwn sydd yn rhodio yng nghanol y saith ganhwyllbren aur; 2 Mi a wn dy weithredoedd, a'th lafur, a'th amynedd, a pha fodd na elli ddwyn y rhai drwg: a phrofaist y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn apostolion, ac nid ydynt, a chefaist hwynt yn gelwyddog: 3 A dygaist amynedd, a bu arnat oherwydd fy enw i, ac ni flinaist. 4 Ond y mae gennyf hyn yn dy erbyn, am i ti adael dy gariad cyntaf. 5 Cofia gan hynny o ba le y syrthiaist, ac edifarha, a gwna'r gweithredoedd cyntaf; neu fel arall mi a ddeuaf atat ar frys, ac a symudaf dy ganhwyllbren o'i le, oni edifarhei. 6 Ond hyn sydd gennyt, dy fod yn casáu gweithredoedd y Nicolaitiaid, y rhai minnau a gasâf. 7 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi; I'r hwn a orchfygo, mi a roddaf iddo fwyta o bren y bywyd, yr hwn sydd yng nghanol paradwys Duw.

8 I angel eglwys Smyrna ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed y cyntaf a'r diwethaf, yr hwn a fu farw, ac a aeth yn fyw drachefn; 9 Mi a wn dy weithredoedd, a'th gystudd, a'th dlodi, (eithr cyfoethog wyt) a chablu'r rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iddewon, ac nid ydynt, eithr synagog Satan. 10 Nac ofna ddim o'r pethau a ddioddefi di: wele, y diafol a fwrw rai ohonoch chwi i garchar, fel y'ch profer; a chwi a gewch gystudd ddeng niwrnod: bydd ffyddlon hyd angau, a mi a roddaf i ti goron y bywyd. 11 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi; Yr hwn a orchfygo, ni wna niwed iddo gan farwolaeth eilwaith.

12 I angel eglwys Pergamus ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed yr hwn sydd a'r cleddyf llym daufiniog ganddo; 13 Mi a wn dy weithredoedd, a pha le yr wyt yn trigo, sef lle mae gorsedd-faingc Satan: a thi a ddelynaist fy enw i, ac ni wedaist dy ffydd i mi, ie, yn nyddiau Antipas, fy nhyst ffyddlon i, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi, lle mae Satan yn trigo. 14 Eithr y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn, am fod gennyt yno rai sydd yn dal athrawiaeth Balaam, yr hwn a ddysgodd i Balac fwrw rhwystr gerbron meibion Israel, i fwyta pethau aberthedig i eilunod, ac i odinebu. 15 Felly y mae gennyt tithau rai sydd yn dal athrawiaeth y Nicolaitiaid yn gyffelyb. 16 Edifarha gan hynny; neu fel arall mi a ddeuaf atat ar frys, ac a ymladdaf yn eu herbyn hwynt â chleddyf fy ngenau. 17 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi; I'r hwn a orchfygo, mi a roddaf iddo fanna cuddiedig, ac a roddaf iddo garreg wen, ac ar y garreg enw newydd yn ysgrifenedig, yr hwn nid edwyn neb ond yr hwn a'i derbynio.

18 I angel eglwys Thyatira ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed Mab Duw, yr hwn sydd a'i lygaid megis fflam dân, a'i draed yn debyg i bres gloyw; 19 Mi a wn dy weithredoedd, a'th gariad, a'th wasanaeth, a'th ffydd, a'th amynedd, a'th weithredoedd; a'r rhai diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf. 20 Eithr y mae gennyf hyn yn dy erbyn, am i ti oddef i'r wraig honno Jesebel, yr hon sydd yn dywedyd ei bod yn broffwydes, ddysgu a thwyllo fy ngweision i, i odinebu, ac i fwyta pethau aberthedig i eilunod. 21 A mi a roddais iddi amser i edifarhau o'i godineb; ac ni edifarhaodd. 22 Wele, mi a'i bwriaf hi i wely, a'r rhai sydd yn godinebu gyda hi i gystudd mawr, oni edifarhânt o weithredoedd ei chrefydd. 23 A'i phlant hi a leddaf â marwolaeth; a'r holl eglwysi a gânt wybod mai myfi yw'r hwn sydd yn chwilio'r arennau a'r calonnau: a mi a roddaf i bob un o honoch chwi yn ôl eich gweithredoedd. 24 Eithr wrthych chwi y dywedaf, ac wrth y lleill yn Thyatira, cynifer ag nid oes ganddynt y ddysgeidiaeth hon, a'r rhai ni wybuant ddyfnderau Satan, megis y dywedant; ni fwriaf arnoch chwi un pwys arall. 25 Eithr yr hyn sydd gennych, daliwch ef hyd oni ddelwyf. 26 Yr hwn a orchfygo, ac a gadwo fy ngweithredoedd i hyd y diwedd, mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedloedd: 27 A bugeilia hwynt â gwialen haearn, megis llestri pridd y drylliant hwynt: megis y derbyniais innau gan fy Nhad. 28 A mi a roddaf iddo seren foreu. 29 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi.

3 I angel eglwys Sardis ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed yr hwn sydd a saith ysbryd Duw, a'r saith seren ganddo; Mi a wn dy weithredoedd, fod enw gennyt dy fod yn byw, a thi yn farw. 2 Bydd wylaidd, a nertha'r pethau eraill sydd ar fedr marw: canys ni chefais dy weithredoedd di yn berffaith gerbron fy Nuw. 3 Cofia gan hynny pa fodd y derbyniaist, ac y clywaist, a chadw, ac edifarha. Os ni wylli di, mi a ddeuaf arnat fel lleidr, ac ni wyddost pa awr y deuaf arnat. 4 Eithr y mae gennyt ychydig enwau yn Sardis, y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy a rodiant gyda mi mewn gwyn: canys teilwng ydynt. 5 Yr hwn a orchfygo, hwnnw a wisgir felly mewn dillad gwynion; ac ni ddileaf ei enw ef o lyfr y bywyd, ac mi a gyffesaf ei enw ef gerbron fy Nhad, a gerbron ei angylion. 6 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi.

7 I angel eglwys Philadelphia ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed yr hwn sydd sanctaidd, yr hwn sydd gywir, yr hwn sydd a chanddo agoriad Dafydd, yr hwn sydd yn agoryd, ac ni chau neb; ac yn cau, ac ni agor neb; 8 Mi a wn dy weithredoedd: wele, mi a roddais o'th flaen ddrws agored, ac ni all neb ei gau: canys ychydig nerth sydd gennyt, a chedwaist fy ngair i, ac ni wedaist fy enw i. 9 Wele, mi a roddaf o synagog Satan, y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iddewon, ac nid ydynt, eithr celwyddog; wele, mi a wnaf iddynt ddyfod a addoli gerbron dy draed di, ac a wybyddant mai myfi a'th garais di. 10 Am i ti gadw gair fy amynedd i, minnau a'th gadwaf di rhag awr y prawf, yr hon sydd ar fedr dyfod ar yr holl fyd, i brofi'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear. 11 Wele, yr wyf yn dyfod ar frys: cadw'r hyn sydd gennyt, fel na chymero neb dy goron di. 12 Yr hwn a orchfygo, mi a'i gwnaf ef yn biler yn nheml fy Nuw i, ac ni eil allan mwyach: ac mi a ysgrifennaf arno enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, yr hon yw'r Jerusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i, ac fy enw newydd i. 13 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi.

14 I angel eglwys Laodicea ysgrifenna: Y pethau hyn a ddywed Amen, y tyst ffyddlon a gwir, dechreuad creadigaeth Duw; 15 Mi a wn dy weithredoedd, nad oer wyt ac nad poeth: mi a fynnwn pe oeret neu pe poethet. 16 Felly am i ti fod yn gynnes, ac nid poeth nac oer, mi a'th chwydaf di allan o'm genau. 17 Canys dywedi, Cyfoethog ydwyf, ac wedi fy nghyfoethogi, ac nid oes arnaf eisiau dim; ac ni wyddost dy fod yn druan, ac yn drugarog, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth: 18 Fy nghynghori yr wyf i ti brynu gennyf aur wedi ei buro yn y tân, fel y'th gyfoethogier; a dillad gwynion, fel y'th wisger, ac na ddangoser gwarth dy noethni; ac eli i'th lygaid, fel y gwelych. 19 Cynifer ag yr wyf fi yn eu caru, mi a'u ceryddaf ac a'u cosbaf: bydd gan hynny eiddgar, a nertha. 20 Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo: os clyw neb fy llef i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato, ac a giniawaf gydag ef, ac yntau gyda mi. 21 I'r hwn a orchfygo, mi a roddaf iddo eistedd gyda mi ar fy ngorsedd-faingc, megis y gorchfygais innau, ac yr eisteddais gyda fy Nhad ar ei orsedd-faingc ef. 22 Yr hwn sydd a chlust ganddo, gwrandawed beth a ddywed yr Ysbryd wrth yr eglwysi.

4 Wedi'r pethau hyn mi a edrychais, ac wele, drws agored yn y nef: a'r llais cyntaf a glywais, megis utgorn yn ymddiddan â mi, oedd yn dywedyd, Tyred i fyny yma, a mi a ddangosaf i ti'r pethau sydd raid eu bod ar ôl hyn. 2 Ac ar unwaith yr oeddwn yn yr Ysbryd: ac wele, gorsedd-faingc a osodwyd yn y nef, ac ar yr orsedd-faingc un yn eistedd. 3 A'r hwn oedd yn eistedd, oedd debyg yr olwg arno i faen iaspis a sardis: ac yr oedd enfys o amgylch yr orsedd-faingc, yn debyg yr olwg arni i emrallt. 4 Ac o amgylch yr orsedd-faingc yr oedd pedair gorsedd-faingc ar hugain: ac ar y gorseddfeingc y gwelais bedwar henuriad ar hugain yn eistedd, wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion; ac yr oedd ganddynt ar eu pennau goronau aur. 5 Ac o'r orsedd-faingc yr oedd yn dyfod allan fellt a lleisiau a tharanau: ac yr oedd saith lamp o dân yn llosgi gerbron yr orsedd-faingc, sef saith ysbryd Duw. 6 Ac o flaen yr orsedd-faingc yr oedd megis môr gwydr, yn debyg i grisial: ac yng nghanol yr orsedd-faingc, ac o amgylch yr orsedd-faingc, pedwar anifail yn llawn llygaid o'r tu blaen ac o'r tu ôl. 7 A'r anifail cyntaf oedd debyg i lew, a'r ail anifail yn debyg i lo, a'r trydydd anifail a chanddo wyneb megis dyn, a'r pedwerydd anifail yn debyg i eryr hedegog. 8 A'r pedwar anifail, pob un ohonynt a chwech o adenydd iddo; yr oeddynt yn llawn llygaid o amgylch ac oddi mewn: a dydd a nos ni pheidiant â dywedyd, Sanct, sanct, sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod. 9 A phan roddo'r anifeiliaid hynny ogoniant, ac anrhydedd, a diolch, i'r hwn a eisteddai ar yr orsedd-faingc, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, 10 Y pedair gorsedd-faingc ar hugain a syrthiant gerbron yr hwn a eisteddai ar yr orsedd-faingc, ac a addolant yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, ac a fwriant eu coronau gerbron yr orsedd-faingc, gan ddywedyd, 11 Teilwng wyt, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu: canys tydi a greaist bob peth, ac o'th ewyllys di yr oeddynt, ac y crewyd hwynt.

5 Ac mi a welais yn neheulaw yr hwn a eisteddai ar yr orsedd-faingc, lyfr wedi ei ysgrifennu oddi mewn ac oddi allan, wedi ei selio â saith sel. 2 Ac mi a welais angel cryf yn pregethu â llef uchel, Pwy sydd deilwng i agoryd y llyfr, ac i dorri ei seliau? 3 Ac ni allai neb yn y nef, na than y ddaear, na thu hwnt i'r ddaear, agoryd y llyfr, na darllen arno. 4 Ac mi a wylais yn fawr, am na chaed neb teilwng i agoryd a darllen y llyfr, na chwaith edrych arno. 5 Ac un o'r henuriaid a ddywedodd wrthyf, Nac wyla: wele, llew o lwyth Jwda, gwreiddyn Dafydd, a orchfygodd i agoryd y llyfr, ac i dorri ei saith sel. 6 Ac mi a welais, ac wele, yng nghanol yr orsedd-faingc, ac o amgylch yr anifeiliaid, ac yng nghanol yr henuriaid, oen yn sefyll megis wedi ei ladd, a chanddo saith gorn, a saith lygad, sef saith ysbryd Duw, wedi eu danfon allan i'r holl ddaear. 7 Ac efe a ddaeth, ac a gymerodd y llyfr o ddeheulaw yr hwn a eisteddai ar yr orsedd-faingc. 8 Ac wedi iddo gymryd y llyfr, y pedwar anifail a'r pedair gorsedd-faingc ar hugain a syrthiasant gerbron yr Oen, a phob un ohonynt a chanddo delyn, a ffiolau aur yn llawn arogl-darth, sef gweddïau'r saint. 9 Ac yr oeddynt yn canu cân newydd, gan ddywedyd, Teilwng wyt i gymryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau: canys lladdwyd ti, a phrynaist i Dduw trwy dy waed rai o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl; 10 Ac a'u gwnaethost hwynt yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i'n Duw ni: a hwy a deyrnasant ar y ddaear. 11 Ac mi a welais, ac a glywais lais llawer o angylion o amgylch yr orsedd-faingc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid: a'u rhif hwynt oedd fyrddiwn fyrddiynau, a miloedd miloedd; 12 Yn dywedyd â llef uchel, Teilwng yw'r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, a golud, a doethineb, a nerth, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith. 13 A phob creadur a glywais i yn y nef, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r rhai sydd ar y môr, a'r rhai oll sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, Bendith, ac anrhydedd, a gogoniant, a gallu, i'r hwn a eisteddai ar yr orsedd-faingc, ac i'r Oen, yn oes oesoedd. 14 A'r pedwar anifail a ddywedasant, Amen. A'r pedair gorsedd-faingc ar hugain a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a addolasant yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

6 Ac mi a welais pan agorodd yr Oen un o'r seliau, ac mi a glywais un o'r pedwar anifail yn dywedyd, megis llef taran, Tyred, a gwel. 2 Ac mi a welais, ac wele, farch gwyn: a'r hwn a eisteddai arno a chanddo fwa; a rhoddwyd iddo goron: ac efe a aeth allan yn gorchfygu, ac i orchfygu. 3 Ac wedi iddo agoryd yr ail sel, mi a glywais yr ail anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel. 4 Ac aeth allan farch arall, coch: ac i'r hwn a eisteddai arno y rhoddwyd gallu i gymryd heddwch oddi ar y ddaear, ac i wneuthur i'w gilydd ladd ei gilydd: a rhoddwyd iddo gleddyf mawr. 5 Ac wedi iddo agoryd y drydedd sel, mi a glywais y trydydd anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel. Ac mi a welais, ac wele, farch du; a'r hwn a eisteddai arno a chanddo fantol yn ei law. 6 Ac mi a glywais megis llef yng nghanol y pedwar anifail yn dywedyd, Mesur o wenith am geiniog, a thri mesur o haidd am geiniog; ac na ddifwyna ar yr olew a'r gwin. 7 Ac wedi iddo agoryd y bedwaredd sel, mi a glywais lais y pedwerydd anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel. 8 Ac mi a welais, ac wele, farch gwelw: a'r hwn a eisteddai arno, ei enw oedd Angau, ac Uffern a'i canlynai ef. A rhoddwyd iddynt awdurdod ar bedwaredd ran y ddaear, i ladd â chleddyf, ac â newyn, ac â haint, ac â bwystfilod y ddaear. 9 Ac wedi iddo agoryd y bumed sel, mi a welais dan yr allor eneidiau'r rhai a laddasid am air Duw, ac am y dystiolaeth a oedd ganddynt: 10 Ac a lefasant â llef uchel, gan ddywedyd, Pa hyd, O Arglwydd sanct a gwir, nid barni di, ac nid dialedd ein gwaed ni ar rai sydd yn trigo ar y ddaear? 11 A rhoddwyd i bob un ohonynt wisg wen; a dywedwyd wrthynt am orffwyso eto ennyd o amser, hyd oni chyflawnid eu cyd-weision hefyd, a'u brodyr, y rhai a fyddai farw megis hwythau. 12 Ac mi a welais pan agorodd efe y chweched sel, ac wele, bu daeargryn mawr; a'r haul a aeth yn ddu fel sachliain blewog, a'r lleuad oll a aeth yn debyg i waed; 13 A sêr y nef a syrthiasant ar y ddaear, megis y bwrw ffigysbren ei ffigys anaeddfed pan ysgydwer gan wynt mawr. 14 A'r nef a aeth ymaith megis llyfr yn ymrolio; a phob mynydd ac ynys a symudwyd o'u lleoedd. 15 A brenhinoedd y ddaear, a'r penaethiaid, a'r milwri

[a] Rhuf 12 2; Gal. 1. 10; Eph. 2. 2. [a]pethau sydd yn y byd. O chârneb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.

16 Canys pob peth a'r sydd yn

tyngedig i ddyn? Cymmeradwyir y goiygiad olaf, yr hwn sydd yn rhoddi i'r ystyr personol y lle blaenaf yn y synïad. Yn ol y golygiad hwn, cyfansoddwyd y byd—y *cosmos*—ar y cyntaf yn Adda, yn gymmeradwy gan Dduw ac yn ufudd iddo. Byd dyn ydoedd, ac mewn dyn y mae yn cael ei symio i fyny; ac yn y dyn y syrthiodd o oleuni Duw i dywyllwch ymgeisiadau hunanol a "chwantau bydol," yn a thrwy y rhai y mae dyn, yr hwn a ddylasai ymddyrchafu trwy ei natur ddaearol gorphorol at Dduw, wedi cael ei ddaearoli yn ei ysbryd, a'i lusgo i lawr fel ag i fod yn fydol ac yn gnawdol, ac yn debyg i'r hwn a'i harweiniodd ar gyfeiliorn; a'r hwn yn awr, ar ol darostwng natur dyn fel hyn drwy y demtasiwn, sydd wedi dyfod yn dduw y byd hwn. Felly, y "byd" yma ydyw, "dyn, a byd y dyn," yn ei gwymp ef ac yntau oddi wrth Dduw. Dyma y byd ag y darfu i Dduw ei garu, yn ei elyniaeth tuag ato ef, â chariad sanctaidd prynedigaeth: dyma y byd yr ydym ni i beidio ei garu, yn ei ymddyeithriad oddi wrtho ef, â chariad hunangar cyfranogiad. Lleferir am y "byd" hwn weithiau fel yn bersonol, ac weithiau fel yn faterol, yn ol y cyd-destyn lle y mae yn digwydd. Y mae y ddau ystyr yn blethedig â'u gilydd yn yr adnodau hyn.—*Alford. Na'r pethau sydd yn y byd.*—Gallai rhai ymwrthod â'r cyhuddiad o fydolrwydd, o garu y "byd" yn ei gyfanrwydd, ac etto bod yn ymroddi i'r naill neu y llall o'r pethau ag y mae y byd yn rhedeg ar eu hol: felly, y mae eisieu chwanegu, "na'r pethau sydd yn y byd." Golyga hyn y gwrthddrychau ag y mae "chwant" y byd annuwiol yn ymgyrhaedd atynt, ac ar y rhai y mae ei "falchder" wedi ei sylfaenu. Neu, yn ol ereill, nid y gwrthddrychau ynddynt eu hunain a feddylir, megys cyfoeth, anrhydedd, &c.; ond y gwahanol fathau o ymddygiad, amcan, ac ymgais pechadurus, megys cybydd-dod, uchelgais, mwyniant cnawdol, &c. "Na cherwch y byd, na'r nwydau sydd yn cynnhyrfu y byd, na'r amcanion ag y mae y byd yn ymlid ar eu hol." Y mae "y pethau sydd yn y byd" i'w cael, nid yn unig yn y byd diadgenedledig ei hunan, ond o fewn cylch Cristionogion; am fod ganddynt hwy etto rywbeth o'r byd yn aros ynddynt. Cynnwysa "y pethau sydd yn y byd," bob peth ag sydd yn ei natur yn cyfatteb i natur ac amcanion y byd, yn mha le bynag y ceir ef. *O chârneb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.*—Y mae mwy o awdurdod beirniadol dros y darlleniad "cariad Duw." Mae Düsterdieck yn amddiffyn darlleniad y testyn cyffredin, am fod *adn.* 16 yn ei wneyd yn hollol angenrheidiol. Ond, fel y sylwa Ebrard yn dra phriodol, nid yw hyny ond yn egluro pa fodd y darfu i'r coplwyr newid "Duw," a rhoddi "Tad" yn ei le. Y mae yn llawer mwy tebyg y teimlid yn angenrheidiol rhoddi "y Tad" yn *adn.* 15, er mwyn cydgordiad âg *adn.* 16, nag y buasid yn rhoddi "Duw" i mewn, am ei fod yn yr adnod bellach, sef yn *adn.* 17, yn lle y gair gwreiddiol "Tad." Wrth "gariad y Tad" yma, y dealla rhai, cariad y Tad at ddyn:—nid yw y cariad hwnw wedi dyfod i fewn i'w galon. Ond y mae y rhan fwyaf o lawer o esbonwyr yn cymmeryd yr ystyr arall—ein cariad ni tuag at y Tad; sef, ffrwyth profiad

y byd, *megys* chwant y cnawd, a chwant y llygaid, a balchder y bywyd, [b]nid yw o'r Tad, eithr [b] Iago 3. 15. o'r byd y mae.

o'i gariad ef atom ni. Y mae "caru y byd," a "charu Duw," yn hollol anghydweddol â'u gilydd: pwy bynag a ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, y mae yn elyn i Dduw;" *Iago* iv. 4. Y byd yw y byd pechadurus o ddynolryw, mor bell ag y mae heb ei oleuo gan Grist; felly y mae yn dywyllwch ac yn wrthwyneb i natur Duw: *pen.* i. 5. O ganlyniad, y mae yr hwn sydd yn caru y byd hwn a'i anian wrthwyneb i Dduw, yn profi nad ydyw "cariad Duw" yn aros ynddo ef.

16. Rheswm dros y gwaharddiad blaenorol. Dangosir yma yn fwy manwl pa fodd y mae natur y byd yn wrthwynebol i natur Duw; felly y mae yr adnod hon yn rheswm dros y rhan olaf o *adn.* 15, ac yn ddadblygiad pellach o honi. *Canys pob peth a'r sydd yn y byd.*—Ail adroddiad cryfach o'r "pethau sydd yn y byd;" *adn.* 15. Fel y dangoswyd o'r blaen, nid ydyw hyn yn golygu y gwrthddrychau sydd yn y byd, fel y maent ynddynt eu hunain, ac yn greaduriaid Duw; ond y mae "y pethau sydd yn y byd" yn golygu yr hyn oll sydd â'u lle, o ran eu hansawdd foesol, yn y byd; hyny yw, yn y byd o ddynolryw fel y mae yn aros heb ei oleuo gan oleuni Crist, ac yn crwydro yn ddiattalfa ar ol amcanion pechadurus. Nid oes i hyn le yn mysg Cristionogion. Nid "pethau" yn eu hystyr briodol a feddylir, ond mathau o ymddygiad, a meddwl, ymgais, a gweithrediad. Dyma a olygir yma, ond yn unig fod yr apostol yma yn rhoddi pwys ar hyn—fod pob peth ag sydd yn yr ystyr hon â'n lle yn y byd—pob peth heb eithriad—yn wrthwyneb i Dduw. O blegid y mae efe yn awr yn myned i nodi y rhywogaethau neilldiol i ba rai y gellir dosbarthu y synïad cyffredinol—"y pethau sydd yn y byd." *Megys.*—Gair a chwanegwyd gan y cyfleithwyr; ond y mae yn amlwg ei fod yn cael ei gynnwys o ran ystyr yn y gwreiddiol—'sef,' neu, 'er esampl.' *Chwant y cnawd, a chwant y llygaid, a balchder y bywyd.*—Dylem, yn y lle cyntaf, ymholi i ystyr pob un o'r rhai hyn ar wahân, ac yna i'w perthynas â'u gilydd fel dosbarthiad ar ffurfiau pechod, neu tydolrwydd. Wrth "chwant y cnawd" yma y golygir, dybygem, y math hwnw o chwant, neu ddymuniad, sydd yn hanfodi yn nhriogaeth y cnawd. Nid "cnawd" yn ei ystyr eang, fel yn golygu dynoliaeth lygredig, ond [yn ei ystyr mwyaf cyfyng—y corph yn gyferbyniol i'r ysbryd neu yr enaid, fel yn 1 *Pedr* iii. 18, 21; iv. i. Felly, golyga y math o ddymuniad pechadurus sydd yn bennodol yn gyfeiriedig at fwynhâd cnawdol; hyny yw, ystlenol (*sexual*). Ond beth y mae "chwant y llygaid" yn ei olygu, yn wahaniaethol i'r llall? Dywed Ebrard y buasai yr ymadrodd hwn yn anhawdd ei ddeall (yn gymmaint a'i fod mewn un ystyr yn cael ei gynnwys yn y llall), oni buasai ei fod yn amlwg yn dwyn arno ddelw y defnydd a wneir yn yr Hen Destament o'r gair. Felly y mae Luther, Grotius, Bengel, ac ereill, yn cyfeirio at *Diar.* xxiii. 5; xxvii. 20; *Preg.* iv. 8; v. 10; a *Luc* xiv. 18, 19, i egluro "chwant y llygaid" fel yn golygu cybydd-dod, neu drachwant i feddiannu. Ond y mae hyn yn rhy gyfyng o bossibl. Wrth gyfeirio at adnodau ereill (megys *Salm* xvii. 11; liv. 9; xci. 8; xcii. 12; *Diar.* vi. 17), ceir eangiad ar yr

[e] Salm 73. 18; 1 Cor. 7. 31. 17 [c] A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd: ond yr [d] hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw, sydd yn aros yn dragywydd. [d] Salm 143. 10; Ioan 7. 17.

ystyr. Y mae llygad y dyn anianol yn edrych ar feddiannau dynion ereill gyda thrachwant; ac nid hyny yn unig, ond yn gweled ei ddedwyddwch ei hun yn anffawd ei elyn. Felly gellir dyweyd fod yr holl gylch o ddymuniadau hunangar—cenfigen, a thrachwant, casineb, a dial—yn cael ei gynnwys gan "chwant y llygaid." Cyttuna yr esbonwyr goreu fod "balchder y bywyd" yn golygu rhwysg a gorwychder yn y dull o fyw—y gwâg-ogoniant hwnw sydd yn ei amlygu ei hun mewn, ac yn cael ei borthi gan foethusrwydd, a rhysedd, ac ymdrech i fyned heibio i ereill mewn gwychder gwisgoedd, tai, dodrefn, a'r holl ddull o fyw. Y mae yr ysbryd hwn yn nodweddsyllaenol o gwrs anghristionogol y byd. Y cwestiwn nesaf ydyw, Ar ba egwyddor yr oedd yr apostol yn nodi y tri hyn?—a'i enghreifftiau ydynt o fydolrwydd, wedi eu cymmeryd ar antur, heb gyssylltiad â'u gilydd; ai yntê, a ydynt yn cymmeryd i mewn y prif arweddion yn y rhai y mae ysbryd y byd yn ei amlygu ei hunan, a'r dosbarthiad yn cael ei wneyd ar egwyddor eang i gynnwys y cwbl? Yr olaf, yn ddiau, yw y mwyaf tebygol. Yn ol Ebrard, y mae egwyddor y dosbarthiad hwn yn cynnwys holl gylch helynt y byd hwn, ac yn cynnwys y tair arwedd ganlynol: —"Chwant y cnawd," dyn yn ei gyssylltiad â'i natur gorphorol ei hunan, a bywyd y synwyrau. "Chwant y llygaid," dyn yn ei gyferbyniad personol i'w gyd-ddynion: a "balchder y bywyd," dyn yn ei berthynas â'i gyd-ddynion, ac yn ei ymdrafodaeth â hwynt. Dyma dair gwedd anianoldeb. Nid oes un flurf o fydolrwydd, neu helynt anghristionogol y byd hwn, nad ydyw yn dyfod o dan un o'r tri phen uchod. Darluniad ydyw o ysbryd y byd yn ei dueddiadau sylfaenol. *Nid yw o'r Tad, eithr o'r byd y mae.*—Y mae "o'r" yma yn golygu, nid yn unig tebygolrwydd, ond tarddiad. Ceir yma sylfaen y gosodiad yn *adn.* 15. Nid yw y ffurflau a nodwyd ar ysbryd y byd—ei chwantau, ei amcanion, a'i gwrs pechadurus—nid ydynt yn dyfod oddi wrth Dduw fel Creawdwr a Thad pob beth (o blegid hyn, dybygid, y gelwir ef yma wrth yr enw "y Tad," ac nid mewn cyfeiriad at y "plant bychain," a'r "rhai bychain," yn yr adnodau blaenorol), ond wedi gwreiddio yn ewyllys bechadurus y creadur; sef yn "y byd"—fel y mae yn wrthwyneb i Dduw. Mae cariad at y byd a chariad at Dduw, gan hyny, yn cau allan y naill y llall. Sylwa Dusterdieck fod Ioan yma yn myned i lawr i sylfeini y bywyd moesol, ac yn amlygu cnewyllyn mwyaf tumewnol y mater, pan y mae yn dangos fel hyn y gwahaniaeth hanfodol rhwng cariad at y byd a chariad Duw yn eu tarddiad.

17. *A'r byd sydd yn myned heibio.*—Megys ag y mae *adn.* 16 yn rhoddi i lawr sail y rhan olaf o *adn.* 15, felly yr ydym yn cael yma gymmhelliad chwanegol i'r annogaeth yn y rhan flaenaf o *adn.* 15. Y rheswm cyntaf dros beidio caru y byd oedd—nas gellir cymmodi caru y byd â charu Duw. Dyma yr ail reswm:—y mae y byd a'i chwant yn myned heibio. Ond nid yw yr ail reswm hwn yn cael ei gyfleu yn allanol wrth ochr y cyntaf, ond yn tyfu yn fewnol a bywydol o hono. Y mae y geiriau hyn yn mynegu mater o ffaith, ac hefyd briodoleddd sydd o angenrheidrwydd yn perthyn i'r byd—ei fod yn ei natur yn ddiflanedig. Dywedir, yn *adn.* 8, "y tywyllwch a aeth heibio;" yn fwy cywir, "y tywyllwch sydd yn myned heibio:" ac yma dywedir, "a'r byd sydd yn myned heibio." Y mae yr hyn a ddywedir yma am y "byd" yn ganlyniad i'r hyn a ddywedir yno am y "tywyllwch." Yr un "myned heibio" yw y ddau. Y mae y tywyllwch yn awr yn yr act o fyned heibio:—y mae y "gwir oleuni" eisoes yn tywynu; y mae yr argyfwng mawr, gan hyny, neu y farn rhwng y goleuni a'r tywyllwch, wedi dechreu ar y ddaear, ac nis gall fod ond un diwedd iddi; sef, buddugoliaeth y goleuni. O ganlyniad, y mae yn amlwg, am y rhai sydd yn yr ymdrechfa hon yn ymrestru ar ochr y "tywyllwch," y mae y cylch y maent ynddo, sef "y byd," dan rwymau ryw ddiwrnod o ddiflanu, myned heibio, peidio a bod. Y mae ychydig o wahaniaeth, ar yr un pryd, rhwng y "myned heibio" yma ag yn *adn.* 8. Yno, dywedir fod y tywyllwch "yr awr hon"—y pryd hwnw yn amser Ioan—yn y weithred o fyned heibio: yma, dywedir am y "byd," ei fod o dan angenrheidrwydd natur o "fyned heibio." Felly, nid gweithrediad presennol sydd yma yn benaf, ond ansawdd nodweddiadol. Y mae y byd yn meddu y briodoledd o fod o dan angenrheidrwydd o fyned heibio ryw bryd: ni fedd barhâd tragwyddol. *A'i chwant hefyd.*—Y chwant am dano, neu ynte y dymuniad o ran ei fater. Gan fod y byd i ddarfod, y mae ei 'helynt' i ddarfod. Y mae y gwahanol ffurflau o fydolrwydd a nodir yn *adn.* 16 yn cael eu symio i fyny yma mewn un gair. *Ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw.*—Teulu y goleuni. Y mae helynt y byd yn hollol groes i ewyllys Duw; felly y gwrthwyneb uniongyrchol i garu y byd yn ei bleser, ei gyfoeth, a'i fawredd, ydyw caru Duw, yr hyn a amlygir mewn gwneuthur ei ewyllys ef. *Sydd yn aros yn dragywydd.*—Gan fod y rhan olaf o'r adnod yn cynnwys cyfeiriad personol, y mae yn debyg fod y rhan gyntaf hefyd. 'Y mae "y byd" felly yn cynnwys dynion y byd, y rhai yn eu dymuniadau a'u hamcanion ydynt o'r byd. Y mae y rhai hyn a'u chwantau yn perthyn i, yn rhan o, yn ymddibynu ar, fyd sydd yn myned heibio. Ond pa beth a feddylir, pan y dywedir fod y lleill (y rhai "sydd yn gwneuthur ewyllys Duw") yn "aros yn dragywydd?" Dywed Alford fod "tragwyddol sefydlogrwydd a pharhâd yn perthyn yn unig i'r gyfundrefn hono o bethau, ac i'r dynion hyny ag ydynt mewn cydweddiad hollol âg ewyllys Duw. Megys y mae Duw ei hun yn dragwyddol, felly y mae pawb sydd mewn cymmundeb âg ef; a'r rhai hyn ydynt y rhai sydd yn credu ynddo, yn ei garu ac yn gwneuthur ei ewyllys." Ond beth y mae "aros yn dragywydd" yn ei olygu? Os parhâd diddiwedd yn unig, y mae yr annuwiol yr un modd i "aros yn dragywydd." I hyn y mae Ebrard yn atteb—nad parhâd diddiwedd sydd yn y gair *aiôn* fel y cyfryw, ond cyfnod mawr a phendant yn hanes y byd; a'i fod yma yn golygu y cyfryw gyfnod—dyfodol, ond etto yn agos; sef, y cyfnod hwnw a ddechreua yn sefydliad teyrnas Crist mewn gogoniant ar y ddaear. Bydd y "byd" sydd yn gosod ei hunan mewn gwrthwynebiad i eglwys Crist ryw ddiwrnod wedi myned heibio, a'i holl chwantau a'i amcanion wedi darfod; felly bydd dynion y byd yn gweled darostyngiad eu plaid a'i holl ogoniant; ond ar y llaw arall, bydd yr

18 O blant bychain! yr awr ddiweddaf ydyw: ac megys y clywsoch y °daw anghrist, yr °2 Ioan 7. awrhon hefyd y mae anghristiau

hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw yn aros hyd sefydliad teyrnas Crist, a chaiff weled buddugoliaeth y deyrnas hono. Ond y mae yr esboniwr galluog hwn yn ei egluro ei hunan yma, mewn nodiad ar waelod y ddalen, trwy sylwi nad yw y geiriau wrth gwrs yn cynnwys y bydd efe yn aros yn fyw ar y ddaear hyd sefydliad teyrnas Crist. Nid yw hyn yn cael ei gynnwys yn y gair "aros" (*menei*). Ond mai hyn a olygir, y bydd efe yn dyst o'r fuddugoliaeth, ac y caiff estyn ei hanfodiad yn mlaen i'r deyrnas fuddugoliaethus hono. Pa fodd?—dangosir i ni yn 1 *Thes.* iv. 14—17, a *Dad.* xx. 4, 5. Ond ni raid i ni wrth y golygiad Milflwyddol i ddeall ystyr yr ymadrodd—"aros yn dragywydd." Y mae y gair (fel ei gyfystyr yn fynych yn Llyfr y Salmau) yn cynnwys mwy na pharhâd. Bydd yr annuwiol yn parhau o ran hanfodiad: ond ni bydd yn "aros." Myned ymaith y bydd am byth—un diflaniad tragwyddol fydd ei hanfodiad; canys nid parhâd bywyd fydd ei hanfodiad, ond parhad marwolaeth. Ond am y duwiol, bydd ei barhâd ef yn fywyd, a'r bywyd yn ogoniant; bydd ei arosiad ef mewn bod yn gyfranogiad o fywyd tragwyddol a gogoneddus y Duwdod ei hun—ewyllys yr hwn y mae yn ei gwneuthur, ac â'r hwn y mae wedi ymgyssylltu.

18—28. RHYBUDD RHAG ANGHRISTIAU A GAU ATHRAWON (18—23): AC ANNOGAETH I AROS YN NGHRIST (23—28).

Yn y paragraph o'r blaen, rhoddwyd annogaeth i ochel ymroddi i helynt y byd hwn, gan edrych ar y byd fel ar wahân oddi wrth Dduw, ac heb gael dylanwadu arno gan Gristionogaeth; ond yn awr, edrychir ar y byd fel y mae yn erbyn Duw. Edrychid o'r blaen ar y tywyllwch fel y mae heb gael ei gyffwrdd gan y goleuni, ond edrychir arno yma yn ei wrthdarawiad uniongyrchol i'r goleuni. Fel y sylwa Alford, y mae yr apostol yn yr adnodau o'r blaen yn rhybuddio rhag cariad at y byd fel y mae yn cau allan gariad at Dduw: yn awr, y mae yn myned yn mlaen i rybuddio rhag y rhai hyny yn y byd ag oeddynt am eu hysbeilio o'r person hwnw, trwy yr hwn yn unig yr oedd rhodio yn ngoleuni Duw wedi dyfod yn beth possibl i ni.

18. *O blant bychain!*—Dywed rhai fod y cyfarchiad hwn yn golygu yr holl gyfundeb, fel yn *adn.* 12. Ond nid yr un gair sydd yma ag yno: *tecnia* ydyw y gair yn *adn.* 12, ond newidir ef yn *adn.* 13 am *paidia*, yr hwn hefyd yw y gair sydd yma. Felly y mae Bengel, Ebrard, ac ereill, yn dal fod y gair yn golygu (fel yn *adn.* 13) y plant a'r genedl ieuangc oedd yn cyfodi yn yr eglwys. Er fod yr elfen anghristaidd wedi ymddangos eisoes yn ei dechreuad, edrychai Ioan ar ei llawn ddadblygiad fel yn y dyfodol, ac mewn adeg pryd na byddai efe mwyach yn abl fel bugail ffyddlawn i amddiffyn yr eglwys: y mae felly yn naturiol i'w ragweledïad gofalus gymmeryd i mewn y plant a'r ieuengctyd yn neilduol. O blegid hyn, y mae yn ceisio galw sylw y rhai bychain a gwan ysbrydol mewn modd pennodol at y perygl oedd yn dyfod; a thrwy air o rybudd tadol, i'w harfogi yn ei erbyn. Llefara yma mewn dull cyfaddas i'r rhai bychain: pan y mae yn mhellach yn mlaen yn cyfarch yr holl eglwys o berthynas i anghrist, y mae yn siarad mewn dull tra gwahanol. *Yr awr ddiweddaf ydyw.*—Y mae golygiadau tra gwahanol gan esbonwyr ar ystyr yr "awr ddiweddaf" yma. Tybia rhai (ac y mae yn syn fod Bengel yn mhlith y rhai hyn) mai diwedd ei oes ei hunan a feddyliai yr apostol: ereill, mai diwedd yr oes apostolaidd: ereill, mai yr amser o flaen dinystr Ierusalem: ac ereill, yr oruchwyliaeth efengylaidd. Ond y mae yn amlwg mai nid diwedd oes yr apostol a feddylir, canys y nôd a ddyry efe yn niwedd yr adnod i adnabod "yr awr ddiweddaf" ydoedd, fod "anghristiau lawer" yn cyfodi. Nid ydyw diwedd yr oes apostolaidd, fel y cyfryw, un amser yn cael ei osod allan yn y Testament Newydd trwy y fath ymadroddion a'r "awr ddiweddaf," &c. Nid yr adeg o flaen dinystr Ierusalem chwaith a feddylir; o blegid, yn laf, yr oedd y gau gristiau hyn wedi myned allan o'r eglwys Gristionogol (*adn.* 19); nid felly y rhai oeddynt yn cyfodi yn mhlith yr Iuddewon o flaen dinystr Ierusalem. Yn 2il, ni buasai gan ddinystr Ierusalem, fel digwyddiad Iuddewig, un berthynas â mater na darllenwyr yr Epistol hwn. Ond yn 3ydd, yr hyn sydd yn penderfynu y pwngc yn hollol ydyw amseriad yr Epistol. Y mae bron yn sicr (os nad yn gwbl felly) fod yr amgylchiad hwnw wedi myned heibio er's llawer o flynyddoedd (ugain mlynedd neu chwaneg), cyn i Ioan ysgrifenu yr Epistol hwn. Nid goruchwyliaeth yr efengyl yn y cyfanswm o honi chwaith a feddylir; o blegid nodwedd yr awr ddiweddaf yma ydyw, nid ymgnawdoliad Crist, ond ymddangosiad anghristiau. Yr oedd ein Hiachawdwr wedi rhagfynegu cyfodiad "anghristiau lawer," nid fel nodwedd gyffredinol yr holl oruchwyliaeth ddiweddaf, ond fel nodwedd cyfran bennodol o'r oruchwyliaeth hono; sef, y tymmor uniongyrchol o flaen dïwedd y byd ac ail-ddyfodiad Crist. Dyma a feddylir gan Ioan, dybygem, yn yr adnod hon. Fe allai y gwrthddadleuir fod yn rhaid, yn yr eglurhâd hwn, fod Ioan, wrth ysgrifenu, yn tybied fod dydd y farn yn agos. Gellir atteb hyn mewn dwy ffordd foddhaol:—1. Nid oes un ddadl nad oedd Ioan, fel yr apostolion ereill, yn edrych at ail ddyfodiad Crist fel amgylchiad oedd i gymeryd lle yn fuan. Nid oes eisieu unrhyw esgusawd dros hyn. Nid oedd dim pendant wedi ei ddadguddio i'r apostolion am amser ail ddyfodiad ein Harglwydd. Yr oedd y gair a ddywedasai efe ei hunan wrth neu am Ioan (*Ioan* xxi. 22), ynghyd âg ymddangosiad disymmwth yr amlygiad mawr hwnw yn nghalon y byd Cristionogol, a elwid wrth yr enw *Gnosticiaeth*, yn ei wneyd yn dra naturiol i'r apostolion ddisgwyl dydd yr Arglwydd yn fuan, hyd nes y cafodd Ioan oleuni pellach ar y mater yn ngweledigaethau Llyfr y Datguddiad. Dangosai y llyfr hwnw yn amlwg fod cyfnod maith i gyfryngu rhwng ymherodraeth gyffredinol Rhufain, yr hon oedd yn ei grym y pryd hwnw, ac ail ddyfodiad Crist; ac mai yn y cyfwng yna y cyfodai Pabyddiaeth i'w rhwysg; sef, ymherodraeth yr anghrist personol. Ond yr oedd Efengyl ac Epistol Ioan wedi eu hysgrifenu cyn Llyfr y Datguddiad; felly nid oedd yn erbyn trefn a phriodoldeb i Ioan, fel yr apostolion ereill, ddisgwyl dyfodiad Crist i farn fel yn agos: mwy nag yr ydoedd yn annaturiol i brophwydi yr Hen Destament edrych ar ymgnawdoliad Crist a'i ail ddyfodiad i farn, gyda'u gilydd, mewn un dyfodol gogoneddus. 2. Yr oedd yr apostol yn llefaru, megys ag y

lawer; wrth yr hyn y gwyddom mai yr awr ddiweddaf ydyw.

19 [f]Oddi wrthym ni yr aethant [f]Luc 8. 13; hwy allan, eithr nid oeddynt o Ioan 15. 2.

gallasai unrhyw un mewn oes ddilynol, ac megys y gallem ninnau yn awr, am ei amser ei hun fel yr amser ddiweddaf, o blegid ei fod yn gweled arwyddion yr amser diweddaf yn lliosog ynddo. Pa hyd y rhynga bodd i Dduw estyn yr "awr ddiweddaf" hon, ac i ganiatau i'r arwyddion barhau ag sydd yn rhoddi y nodwedd hon i bob oes o'r eglwys, ni roddwyd iddo efi nac i ninnau atteb. *Ac megys y clywsoch*:—'yn ein pregethiad ni, pan dderbyniasoch yr efengyl.' *Y daw anghrist.*—Yr amser presennol sydd yma; ond y cyfryw bresennol ag sydd yn cario ynddo y syniad o'r dyfodol—presennol o ordeiniad sicr (*erchetai*) — 'fod anghrist i ddyfod,' neu 'yn dyfod'—'i ymddangos ryw ddiwrnod; felly yr awr hon (fel pwynt o ffaith) y mae anghristiau lawer wedi dyfod, wrth yr hyn y gwyddom mai yr awr ddiweddaf ydyw.' Ond pwy, neu pa beth yw anghrist? Y mae dau olygiad ar ystyr y gair:—(1.) Un yn sefyll yn erbyn Crist. (2.) Un yn sefyll yn lle Crist. Am yr ystyr olaf, gellir crybwyll nad yw "anghrist," neu y "dyn pechod," un amser yn cael ei ragddarlunio fel un yn gosod ei hunan allan yn "Grist," yn eneiniog Duw—y Crist addawedig yn yr Hen Destament. A phe buasai Ioan am gyfleu y syniad hwnw, nid "anghrist" fuasai y gair a ddefnyddiasai; ond "gau-Grist." Dyma yr enw a roddid gan ein Hiachawdwr ei hunan ar y rhai a gyfodent i hôni mai hwynthwy oedd Crist: *Mat.* xxiv. 5, 24. Y mae yn wir y rhagfynegir am anghrist y bydd iddo osod ei hunan yn lle Duw; ond y meddwl yno yw, y bydd iddo, er nad yw ond dyn, hawlio y fath anrhydedd a hôni y fath uchafiaeth nad yw yn briodol i neb ond Duw. Felly, yr ystyr blaenaf sydd i'r gair, feddyliem—'un yn erbyn' Crist, yn elyn i Grist a'i grefydd. Y cwestiwn nesaf yw, Beth yw y gelyn hwn?—pa un ai cyfundraeth, ai person? Yr atteb goreu i hyn yn ein tyb ni ydyw, mai cyfundraeth, ond y gyfundraeth hono wedi ei chorphori mewn person. Y mae gwahanol farnau ar y cwestiwn—pa un ydyw y gyfundraeth, neu pwy ydyw y person. Ni chymmerwn arnom benderfynu hyn, ond yn unig crybwyll y ddau olygiad mwyaf tebygol. Y farn fwyaf cyffredin ydyw, (mai yn y grefydd Babaidd, fel y mae yn cael ei chorphori yn y pab, y mae mwyaf o nodau anghrist yn cyd-gyfarfod. Ac y mae yn anwadadwy fod amryw o'r nodau a briodolir gan brophwydoliaeth i'r "dyn pechod," yn cyfarfod mewn modd hynod o darawiadol yn honiadau a gweithredoedd y pabau trwy yr oesoedd. Y mae Alford, pa fodd bynag, yn dal fod amryw o nodau anghrist ar ol yn y Babaeth—dau yn enwedig:—1. Nad yw y pabau yn cyfatteb i'r nod o "ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir;" ond mor bell o hyny, fel mai un o'u nodau mwyaf amlwg ydyw, ymddarostyngiad isel i frenhiniaeth. O'n rhan ni, nis gallwn weled grym y rheswm hwn; o blegid nid yw y cyfryw ymddarostyngiad ond ffrwyth gorfodaeth amgylchiadau. Nis gellir gwadu nad athrawiaeth y grefydd Babaidd ydyw—uchafiaeth hollol y pab ar "bob peth a elwir yn Dduw," yn wladol yn gystal ag yn eglwysig; a pha bryd bynag yr oedd amgylchiadau yn caniatau i'r uchafiaeth hwnw gael ei roddi mewn gweithrediad, yr oedd yn sicr o gael ei ymarfer. 2. Fod y Babaeth wedi ei "dadguddio" er's tua phymtheg cant o flynyddoedd—ond fod dydd yr Arglwydd etto heb ddyfod; tra y mae y brophwydoliaeth yn mynegu y bydd ymddangosiad anghrist yn un o'r arwyddion a fydd yn unionglyrchol yn rhagflaenu dyfodiad Crist i farn. Yn unol â hyn, y mae Alford yn dal nad yw y Babaeth ond cysgod o'r gwir anghrist, rhagredegydd y "dyn pechod." Ei olygiad ef ydyw, fod yr "anwiredd" yn gweithio drwy yr oesoedd, yn ddirgel, o dan arwyneb cymdeithas, ac yn ennill drwy y canrifoedd nerth chwanegol—ei fod yn achlysurol yn tori allan i'r golwg, ac yn cael ei gorphori ar raddeg fechan yn y gwahanol oesoedd a'r gwleydd mewn "anghristiau lawer," ac yn arbenig yn y pab o Rufain, yr hwn y mae Gregory Fawr yn ei alw yn "ragredegydd anghrist"—ond fod anghrist ei hunan i ymddangos yn unionglyrchol o flaen dyfodiad yr Arglwydd i farn, yn niwedd oes y byd; i ymddangos fel y corphoriad olaf a phenaf o'r "anwiredd"—y gwrthwynebiad i Dduw a'i gyfraith, sydd wedi bod yn ymweithio yn nghrombil y gymdeithas ddynol trwy y canrifoedd. A'r tebygolrwydd ydyw, y bydd y cynnrychioliad hwn o anwiredd yn cymmeryd lle mewn person. Felly y mae esboniadaeth y tadau ar y mater hwn, a hanes y byd, yn amlwg yn cyfeirio. Y mae ysgogiadau mawr, er da ac er drwg, bob amser yn dyfod i aeddfedrwydd mewn un canolbwynt o weithrediad personol.—[*Alford's Prolegomena to Vol. iii. Greek Testament: on 2 Thes.* ii. 1—12]. *Yr awr hon hefyd y mae anghristiau lawer.*—Gellir gofyn yma, A ydyw yr apostol yn edrych ar yr anghristiau hyn yn rhag-gysgodi ac yn rhag-hysbysu yr "anghrist," gan arwyddo fod ei ddyfodiad yn agos? ai ynte yr anghristiau hyn gyda'u gilydd ydyw "anghrist" ei hunan? A ydyw anghrist yn bersonol neu gynnulliadol (*collective*), yn un neu yn llawer? Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf oddi wrth y nodau a roddir yma mai yr olaf. Ond y mae ymchwiliad manylach yn cadarnhau y golygiad a roddwyd o'r blaen—mai un ydyw "anghrist," ond yn cael ei ragflaenu a'i gysgodi gan yr "anghristiau lawer:"—(1.) Y mae Crist ac anghrist yn gyferbyniol: gan fod y naill yn bersonol, y mae yn fwy cysson i olygu fod y llall felly hefyd. (2.) Lleferir am ddyfodiad yr anghrist fel yn ddyfodol, tra y mae y lleill eisoes wedi dyfod. (3.) Dangosir ei nodwedd bersonol yn *pen.* iv. 3. Gwelir mai nid "ysbryd anghrist" sydd yno yn y gwreiddiol, ond "yr anghrist" (*to tou antichristou*). Felly, rhaid i ni edrych ar yr "anghristiau lawer" fel rhagredegwyr "anghrist," wedi eu gwisgo â'i briodoliaethau, ac yn meddu ei ysbryd (yn yr un ystyr ag y dywedir yn 2 *Thes.* ii. 7, fod "dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes"). Fel yr eglurwyd o'r blaen, yr oedd yr egwyddor anghristaidd y pryd hwnw, y mae yn awr, a bydd yn mhob oes, yn gweithio yn sylweddoli, ac yn cyd-grynhoi ei hunan mewn dynion drwg, athrawiaethau drwg, a dyddiau drwg: ond yn aros ei ymberffeithiad a'i ddadblygiad olaf yn "yr anghrist," yr hwn a ymddengys yn bersonol cyn dyfodiad yr Arglwydd. Yr oedd yr "anghristiau lawer" yn ymddangos yn amser Ioan yn y gau-athrawon boreuol hyny ag yr oedd eu hathrawiaeth a'u buchedd gyfeiliornus yn dechreu trallodi a llygru yr eglwys. Y mae yn ddiau fod Ioan â'i olwg yn bennodol ar

[g]Iob 17. 9; Mat. 24. 24; Ioan 10. 28—30; 2Thm. 21. 9. [h]Rhuf. 9. 6; Heb. 10. 39.

honom ni: [g]canys pe buasent o honom ni, hwy a arosasent gyda ni: eithr *hyn a fu,* fel [h]yr eglurid nad ydynt hwy oll o honom ni.

Gnosticiaeth fel yn amlygu yr arwyddion gwrthgristaidd hyn. *Wrth yr hyn y gwyddom mai yr awr ddiweddaf ydyw.*—Dyma ddadganiad ffurfiol o'r cyssylltiad rhwng y rhan gyntaf a'r rhan olaf o'r frawddeg flaenorol. Yr oedd arwyddion yr amseroedd yn dangos mai yr awr ddiweddaf ydoedd yn nechreuadau ymweithiad ysbryd anghrist, fel yr oedd yn cael ei amlygu mewn Gnosticiaeth. Sylwa Ebrard nad oedd ette wedi ei ddadguddio i Ioan y byddai yr ysbryd hwn yn cael ei attal o ran ei ddadblygiad cyfiawn am yn agos i ddwy fil o flynyddoedd; ond fod hyn wedi ei ddadguddio iddo wedi hyny yn ngweledigaethau Llyfr y Datguddiad.

19. *Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan.*—Yr oedd yr anghristiau hyn wedi bod mewn undeb allanol â'r eglwys Gristionogol. *Eithr nid oeddynt o honom ni.*—Nid oeddynt erioed wedi bod yn wir aelodau o'r eglwys. Ni bu ganddynt erioed gymdeithas â'r Tad ac â'r Mab, yn yr hon y mae cymmundeb Cristionogion â'u gilydd yn gynnwysedig, o blegid yr oeddynt yn gwadu y Tad a'r Mab. Undeb allanol proffes oedd yma yn unig, ac nid undeb ysbrydol a bywiol. *Canys pe buasent o honom ni, hwy a arosasent gyda ni.*—Pe buasent yn wir Gristionogion, buasent wedi parhau: ni buasent wedi myned yn anghristiau. Y mae eu bod wedi myned felly ynddo ei hunan yn profi geudeb eu proffes Gristionogol. Y mae Calvin, Beza, a lliaws o dduwinyddion, yn gweled yn yr adnod hon, nid yn unig ddarluniad o bersonau neilluol, ond egwyddor gyffredinol; sef, yr athrawiaeth o barhâd mewn gras, neu yr amhossiblrwydd i wir gredinwyr syrthio ymaith yn hollol a thragwyddol. *Eithr hyn a fu, fel yr eglurid nad ydynt hwy oll o honom ni.*—Y mae y gair "oll" fel yn awgrymu, ar yr olwg gyntaf, fod rhai hyd yn oed o'r sawl a aethent allan yn wir Gristionogion, neu "o honom ni." Parodd yr anhawsder hwn i rai o'r tadau, a'r cyfeithwyr Syriaidd, i adael allan yr "oll." Ond nid oes un sail i ammheu cywirdeb y darlleniad. Y mae y frawddeg yn cynnwys dau syniad:—1. Yr oedd ymadawiad y cyfeiliornwyr hyn yn brawf nad oeddynt hwy eu hunain "o honom ni," neu yn wir Gristionogion. 2. Yr oedd eu hymadawiad yn brawf ac yn enghraifft o'r gwirionedd cyffredinol, nad yw yr oll sydd mewn undeb allanol â'r eglwys yn wir aelodau o honi. Y mae y ddau feddwl yna megys wedi eu cydblethu â'u gilydd yn y geiriau "hwy oll."

20. *Eithr y mae genych chwi eneiniad.*—"Ac" (*cai*) sydd yn y gwreiddiol, yn ei ystyr syml fel cyssyllt-air (medd Huther, Ebrard, &c.); a bod y cyferbyniad yn ystyr y geiriau, ac nid yn eu ffurf—dau feddwl cyferbyniol yn cael eu gosod ar gyfer eu gilydd, ond heb roddi arbenigrwydd i'r cyferbyniad trwy eiriau fel "eithr," neu "ond"—yr hyn sydd yn un o neilluolion yr arddull Hebrëig. Y mae ereill, megys Beza, Wolf, a De Wette, yn dal y dylid cyfleithu y *cai* yn "eithr" (fel y mae yn y Gymraeg), a'i fod yma yn sefyll yn lle *de.* "Eneiniad" yma ydyw yr olew â pha un yr eneinid, ac nid y weithred o eneinio: felly, y mae y fannod wedi ei gadael allan. Yr enaint hwn ydyw dylanwadau yr Ysbryd Glân: *Salm* xlv. 8: *Heb.* i. 9; *Mat.* xxv. 3. *Oddi wrth y Sanctaidd hwnw.*—Crist yn ddiau a olygir yma. Nid yr Ysbryd Glân, canys yr Ysbryd ydyw yr enaint neu yr "eneiniad" ei hunan: ac nid y Tad chwaith. Y mae hyn yn amlwg oddi wrth y cyferbyniad rhwng y ddau air—"eneiniad" ac "anghrist." Nid yw y cyferbyniad hwn mor amlwg yn y Gymraeg, am fod un o'r ddau yn anghyfieithedig; ond yn y Groeg y mae i'w weled ar wyneb y geiriau—*chrisma* (eneiniad), ac *antichristos* (gwrthwynebwr yr Eneiniog). Y mae yr hwn sydd wedi derbyn yr "eneiniad oddi wrth y Sanctaidd," ei hun yn berson eneiniedig, ac mewn perthynas urioneddol â'r Eneiniog (*Act.* x. 38; *Ioan* i. 33; iii. 34). Nis gall y cyfryw un gael ei hudo i fyned drosodd i wersyll y rhai ydynt yn elynion yr Eneiniog. Y "Sanctaidd hwnw" ydyw y "Cyfiawn" yn *pen.* ii. 1; y "pur" yn *pen.* iii. 3; y "Sanct a'r Cyfiawn" yn *Act.* iii. 14. Oddi wrth y person hwn y mae yr Ysbryd Glân yn dyfod i ni: iddo ef y rhoddwyd yr Ysbryd heb fesur (*Ioan* iii. 34): arno ef y disgynodd yr Ysbryd (*Ioan* i. 33): efe yw yr hwn a eneiniodd Duw â'r Ysbryd Glân (*Act.* x. 38): y mae efe yn bedyddio â'r Ysbryd Glân (*Ioan* i. 33): ac y mae efe yn anfon yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn cymmeryd o'i eiddo ef ac yn ei fynegi i gredinwyr: *Ioan* xv. 26. *A chwi a wyddoch bob peth.*—Y mae rhai yn gweled cyfeiriad at y swydd brophwydol yn y "gwybod pob peth," am y byddai brenhinoedd, offeiriaid, a phrophwydi yn cael eu heneinio i'w swyddi. Dadleua Ebrard nad oes yma gyfeiriad at yr un o swyddau Crist yn neilluol; ond cyferbyniad yn unig rhwng y rhai sydd wedi eu heneinio oddi wrth Grist, ac fel Crist, â'r rhai sydd yn elynion yr Eneiniog. Cyfarcha yr apostol y "plant bychain" yma fel rhai yn "gwybod pob peth:" nid yn rhinwedd dawn neilluol o brophwydoliaeth, ond fel canlyniad o'u heneiniad Cristionogol â'r Ysbryd Glân. 'Gras' sydd yma, ac nid 'dawn.' Y mae yr enaint yn goleuo y llygaid; cynghora Grist eglwys Laodicea i "iro ei llygaid âg eli llygaid, fel y gwelai;" *Dad.* iii. 18. Y mae gwahaniaeth barn am ystyr y "pob peth" yn yr adnod hon. Dywed rhai [Bullinger, Luther, &c.] mai pob peth angenrheidiol er iachawdwriaeth a feddylir: Calvin, Beza, Grotius, &c., mai yr hyn sydd yn angenrheidiol i wahaniaethu rhwng y gwirionedd a'r celwydd anghristaidd: cymmer Wolf, Bengel, a Neander y ddau olygiad i mewn. Dywed Alford mai yr *ideal*—yr ystâd o berffeithrwydd Cristionogol—a feddylir yma; sef, gwybodaeth gyflawn a pherffaith o'r gwirionedd; ac nad oedd yr apostol yn meddwl dyweyd eu bod etto wedi cyrhaedd y perffeithrwydd hwnw, ond eu bod ar y ffordd ato ac yn ei feddu eisoes o ran yr egwyddor. Y mae golygiad Ebrard yn ymddangos i ni mor foddhaol a'r un:—Yn ol *adn.* 21, yr oeddynt yn gwybod "y gwirionedd:" dengys *adn.* 22 mai "y gwirionedd" neilluol hwnw oedd, gwybod mai Iesu yw y Crist. Yn awr, y mae yr hwn sydd yn gwybod hyn yn gwybod pob peth: nid oes un uchder na dyfnder pellaf o wirionedd nad yw yn gynnwysedig yn y gosodiad syml yma i feddyliau "plant bychain."

[i]Salm 23. 5, Luc 4. 18. [k]Rhuf. 15. 14, 15; 2Pedr 1. 12

20 Eithr [i]y mae genych chwi eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth.

21 Ni ysgrifenais atoch [k]o

blegid na wyddech y gwirionedd, eithr o blegid eich bod yn ei wybod, ac nad oes un celwydd o'r gwirionedd.

[l] 1 Cor. 12. 2, 3; 2 Ioan 7; Iudas 4. [m] Adn. 18.

22 Pwy yw y celwyddog, ond [l]yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist? [m]Efe yw yr anghrist, yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab.

[n] Luc 10. 22; Ioan 15. 23, 24.

23 Pob un [n]a'r sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith: *[ond] yr hwn sydd yn cyffesu y Mab, y mae y Tad ganddo hefyd.*

21. *Ni ysgrifenais atoch o blegid na wyddech y gwirionedd, eithr o blegid eich bod yn ei wybod.*—Y mae yr "ysgrifenais" yn cyfeirio, medd rhai, at yr hyn sydd yn uniongyrchol o flaen yr adnod hon: ereill, yr holl epistol: yn ol ereill, cyfeiria Ioan yma at ei Efengyl, fel yn *adn.* 13, 14. Dywed yno ei fod wedi ysgrifenu ei Efengyl i'r "rhai bychain" hefyd; ac y mae y rhybudd hwn rhag y celwyddwyr oedd yn gwadu mai Iesu yw y Crist yn dwyn i'w feddwl drachefn ei Efengyl a'i hamcan, nes y mae yn ail adrodd mewn dull ychydig yn wahanol (i'w gyfaddasu i'r cyd-destyn) yr hyn a ddywedasai o'r blaen yn *adn.* 13. Y mae y plant, wedi derbyn yr eneiniad, ac yn hwnw hanfod pob gwirionedd, yn gallu i adnabod celwydd yn gelwydd. Fel hyn, nid oedd wedi ysgrifenu atynt ar y dybiaeth nad oeddynt yn gwybod y gwirionedd, ond ar y dybiaeth eu bod yn ei wybod. *Ac nad oes un celwydd o'r gwirionedd.*—Cyssyllta rhai y frawddeg hon â'i gair "gwybod." "O blegid eich bod yn gwybod y gwirionedd, ac yn gwybod nad oes un celwydd o'r gwirionedd." Yr oedd yr apostol, wrth ysgrifenu ei Efengyl atynt (neu yr Epistol hwn, yn ol ereill), yn ymwneyd â hwynt fel rhai yn gwybod y ddau beth yma:—1. Yr oeddynt yn gwybod y gwirionedd—y cnewyllyn oedd yn cynnwys pob gwirionedd ynddo ei hunan. 2. Yr oeddynt yn gwybod y gosodiad (yr hyn sydd yn hunan-eglur i bob plentyn) am yr hyn oll sydd yn gelwydd, nas gall hwnw fod wedi tarddu o'r gwirionedd. Y mae y celwydd neilduol oedd mewn golwg yn cael ei nodi yn yr adnod nesaf. Y mae ereill yn deall y cystrawiad yn wahanol—yn cyssylltu y "gwybod" yn unig â'r cyntaf, ac yn cymmeryd yr ail fel gosodiad annibynol o eiddo yr apostol. Yr oedd wedi ysgrifenu atynt am eu bod yn 'gwybod y gwirionedd;' ac hefyd, am nad oes yr un celwydd yn deilliaw o'r gwirionedd; hyny yw, medd Alford, y mae yn ysgrifenu atynt (yr holl Epistol hwn) i gyflenwi y ddolen oedd yn eisieu rhwng y ddau osodiad uchod; sef, i nodi allan iddynt y celwydd a'r celwyddog, er mwyn iddynt ar unwaith weithredu ar eu gwybodaeth o'r gwirionedd, a pheidio gwrandaw ar y rhai oedd yn eu twyllo. Y mae yn myned yn mlaen i wneyd hyn yn yr adnod nesaf.

22. *Pwy yw y celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist?*—Mae cnewyllyn yr holl wirionedd yn gorwedd yn y gosodiad hwn—"mai yr Iesu yw Crist." Amcan Ioan yn ei Efengyl oedd goleuo a chadarnhau ei ddarllenwyr yn y gwirionedd hwn, ac â'r gwirionedd mawr hwn y mae yn diweddgloi ei Efengyl. Y mae y gwirionedd sylfaenol yma o flaen ei feddwl etto wrth ysgrifenu ei Epistol. Edrycha arno fel y gwrthgiawdd mawr oedd i wrthsefyll y celwydd Gnosticaidd—canolbwynt yr hwn oedd "mai nid yr Iesu oedd y Crist." Yn ol Ebrard, y mae y rhan gyntaf o'r Epistol yn cyrhaedd ei brif nod mewn gwrthwynebiad ymarferol i Gnosticiaeth (*pen.* i. 10; ii. 6): felly y mae yr ail ran yn cyrhaedd ei nod mewn gwrthwynebiad athrawiaethol i'r un heresi: *pen* ii. 7—29. Trwy anfoesoldeb eu hegwyddor, a'u gosodiadau sylfaenol, yr oedd y Gnosticiaid yn pechu yn erbyn natur dragwyddol Duw, yr hwn sydd yn oleuni (yr hyn ydoedd testyn y rhan gyntaf; *pen.* i. 5); ond trwy eu gwadiad athrawiaethol o'r gwirionedd mai yr Iesu oedd y Crist, yr oeddynt yn euog o gabledd yn erbyn ffaith fawr yr ymgnawdoliad—y ffaith fod y goleuni wedi tywynu ar y ddaear (yr hyn yw pwngc yr ail ran, *pen.* ii. 8). Y mae Ioan yn gallu dadymchwelyd yr heresi hon yn fuddugoliaethus—nid yn y ffurf o eglurhâd traethodol i rai mewn oedran, ond yn y ffurf o gatecism i blant. Yr oedd y celwydd yn un mor anfad fel y gellid ei ddynoethi mewn ychydig eiriau, hyd yn oed i bob plentyn. Meddwl y cwestiwn ydyw, "Ar ba ochr y mae y celwydd? Ar ochr pwy y mae y gwirionedd? Onid efe yw y 'celwyddog,' yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist?" Gosodir hyn i lawr fel y maen prawf wrth ba un yr ydym i farnu beth yw gwirionedd. Y mae Ebrard yn sylwi, megys ag y mae y gosodiad syml mai Iesu yw y Crist yn cynnwys ynddo ei hun yn rhinweddol bob gwirionedd, felly fod y gosodiad cyferbyniol, mai "nid Iesu yw y Crist," yn cynnwys ynddo yr un modd bob cyfeiliornad gyda golwg ar Gristionogaeth. Y mae holl dueddiadau cyfeiliornus anghredinaeth, y rhai ydynt wedi amlygu eu hunain yn y byd o oes i oes, naill ai yn dal allan Iesu, yr hwn nad oedd yn Grist (prophwyd, dysgawdwr, cynllun o rinwedd, etto yn ddim ond dyn), neu ynte Grist yr hwn nad oedd yn Iesu (y drychfeddwl o Grist, yr hwn nad oedd yn cael ei sylweddoli yn llawn yn yr Iesu personol, ond yn cael ei ddadblygu yn y ddynoliaeth gyffredinol). Gwyddai Cerinthus, tad Gnosticiaeth, pa fodd i gyfuno yn fedrus y ddwy ochr i'r celwydd. *Efe yw yr anghrist, yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab.*—Nid yr amcan yma ydyw nodi allan pwy ydyw yr un person yn yr hwn y byddai y cymmeriad o "anghrist" yn cael ei sylweddoli yn gyflawn a therfynol; ond dangos fod y cyfeiliornwr y cyfeirid ato yr un ag anghrist o ran cymmeriad, ac yn gyfrannog o'r un egwyddor anghristaidd. Megys ag y gofynwyd o'r blaen, Pwy yw y "celwyddog?" a Phwy yw y "gwir?"—felly, y cwestiwn yma ydyw, Pwy yw yr "anghrist?"—gelyn Crist: a Phwy y Cristion? Y mae yma chwaneg iad at y meddwl a gynnwysid yn y rhan flaenaf o'r adnod: heblaw ei fod yn gwadu Crist, y mae yn gwadu y Tad, yn gystal a'r Mab. Agorir y syniad hwn yn yr adnod ganlynol.

23. *Pob un a'r sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith.*—Gelwir Crist yn "Fab" yma ac yn niwedd *adn.* 22, o blegid fod yr apostol am roddi ar ddeall fod gwadu Crist yn wadu y Tad; ac felly defnyddia yr enw sydd yn gosod allan y berthynas sydd rhwng Crist a'r Tad, sef yr enw "Mab." Gwadai yr anghristiau mai Iesu—y person pennodol yr hwn a welsai, a glywsai, ac a deimlasai yr apostolion—oedd y Crist. Yr oedd y gwadiad hwn o'r Mab yn

24 Arhosed gan hyny ynoch chwi yr hyn a glywsoch o'r dechreuad. Od erys ynoch yr hyn
[o] Ioan 14. 23; 17. 21–24. a glywsoch o'r dechreuad, [o] chwithau hefyd a gewch aros yn y Mab ac yn y Tad.

25 A hon yw yr addewid a addawodd efe i ni, *sef* bywyd tragwyddol.

26 Y pethau hyn a ysgrifenais atoch ynghylch y rhai sydd yn eich hudo.

27 Ond [p] y mae yr eneiniad a [p] Adn. 20. dderbyniasoch ganddo ef, yn aros ynoch chwi, [q] ac nid oes arnoch eisieu dysgu o neb chwi: eithr fel y mae yr un eneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth, a gwir [q] Ier. 31. 33, 34; Ioan 16. 13.

---

cynnwys gwadiad o'r Tad hefyd, gan nad yw yn bossibl i'r Tad gael ei adnabod ond trwy y Mab. Yr oeddynt fel hyn, wrth wadu Crist, yn gwadu y Mab; ac wrth wadu y Mab yn gwadu y Tad. Gwelid enghraifft nodedig o hyn yn Cerinthus a'r Gnosticiaid—fel yr oedd gwadu Crist yn arwain i'r syniadau mwyaf cyfeiliornus am Dduw, yn ei gyssylltiad â'r byd ac â phechod. Ond y mae yma chwaneg na "gwadu:"—"nid oes ganddo y Tad." Y mae y "gwadu" yn *adn.* 22, yn cynnwys, yn ol yr adnod hon, golli—bod heb wir gymdeithas â'r Tad, a chyfranogiad o hono. *Ond yr hwn sydd yn cyffesu y Mab, y mae y Tad ganddo hefyd.*—Y mae y gosodiad hwn yn amlwg yn ngoleuni y gwirionedd cyferbyniol. Y mae y "cyffesu" yn gyferbyniol i'r "gwadu," ac yn cynnwys yn ddiau wir ffydd fel ei wreiddyn. Y mae y frawddeg hon wedi ei gadael allan o'r testyn derbyniedig (o'r hwn y gwnaed ein cyfieithiad ni), fel y gwelir trwy fod yr holl frawddeg mewn llythyrenau Italaidd. Ond y mae yr ysgrifau hynaf yn cadarnhau ei dilysrwydd.

24—27. Yn yr adnodau hyn, y mae yr apostol ar sail yr hyn a ddywedasai, yn rhoddi annogaeth i aros yn yr athrawiaeth yr hon a glywsent o'r dechreuad.

24. *Arhosed gan hyny ynoch chwi yr hyn a glywsoch o'r dechreuad.*—Y mae "chwi," o ran ei sefyllfa yn y frawddeg yn y gwreiddiol, yn bwysleisiol: "Chwychwi, bydded i'r hyn a glywsoch o'r dechreuad aros ynoch." Dyry hyn fwy o rym i'r cyferbyniad rhyngddynt a'r gau-athrawon. "Yr hyn a glywsoch o'r dechreuad," oedd yr addysg apostolaidd yn y gwirionedd am y Tad a'r Mab, yn gyferbyniol i heresi yr anghristiau. Nid aros gyda hwynt yn unig fel gwybodaeth byngciol; ond aros ynddynt fel hâd, fel gallu bywiol. *Od erys ynoch yr hyn a glywsoch o'r dechreuad, chwithau hefyd a gewch aros yn y Mab ac yn y Tad.*—Y mae y genadwri am fywyd yn Nghrist, wedi iddi gael derbyniad i'r galon, yn gwneuthur ei pherchen yn greadur newydd, yn ol deiw yr hwn y mae ei had yn aros ynddo; a'r elfen, yn yr hon a thrwy yr hon y mae efe bellach yn byw, ydyw y person trwy yr hwn y mae y bywyd newydd hwn wedi dyfod iddo; sef, Crist, Mab Duw. Ond y mae yr hwn sydd yn byw yn y Mab yn byw yn y Tad hefyd; o blegid Crist ydyw deiw Duw, a disgleiriad allan ei ogoniant; ac y mae efe ei hunan yn aros byth yn y Tad, fel y mae ei bobl yn aros ynddo ef.

25. *A hon yw yr addewid a addawodd efe i ni, sef bywyd tragwyddol.*—Y mae gwahanol ffyrdd i egluro y cyssylltiad rhwng yr adnod hon a'r rhai blaenorol. Golygiad Dusterdieck ydyw, fod meddu bywyd yn Nuw yn rhywbeth presennol, ac ar yr un pryd yn wrthddrych gobaith. Rhydd rhai gynnwys yr adnod hon fel un o ddau gymhelliad i ddal gafael yn yr athrawiaeth ag yr oeddynt wedi eu derbyn. Y cymmhelliad cyntaf ydyw, fod yr athrawiaeth hon yn arwain i gymdeithas â Duw (*adn.* 24): yr ail, y gogoniant a addawyd i'r rhai ffyddlawn. Neu ynte, gellir cymmeryd (gydag ereill) mai canlyniad yr arosiad hwn a fydd, cyflawniad o addewid Crist, nid yn unig mewn meddiant presennol mewn rhan, ond mewn cyflawniad perffaith dyfodol. Y mae y cyssylltiad sydd rhwng yr adnod hon a'r un flaenorol yn gyssylltiad tufewnol yn y meddwl, yn hytrach nag yn un wedi ei amlygu yn ngeiriad y brawddegau. "Efe," yw Crist ei hun: ceir ei addewid mewn amryw fanau yn Efengyl Ioan; *pen.* iii. 15; iv. 14; vi. 40, 47, 57; xi. 25, 26; xvii. 2, 3. Y mae yr addewid yn rhedeg hefyd trwy yr holl Efengyl.

26. *Y pethau hyn a ysgrifenais atoch ynghylch y rhai sydd yn eich hudo*:—sef, "yr anghristiau lawer:" *adn.* 18. Dyma eu gwaith a'u hamcau—"eich hudo." Y mae yr adnod hon yn diweddu yr annogaeth i'r "plant bychain."

27. Ond nis gall yr apostol ddiweddu y rhybudd hwn heb symio i fyny mewn diweddglo sylwedd *adn.* 20—25. *Ond y mae yr eneiniad a dderbyniasoch ganddo ef* ("gan Grist;" *adn.* 20, 25).—"Ond chwychwi," fel yn *adn.* 24. *Yn aros ynoch chwi.*—Y mae y modd mynegol hwn yn fath o orchudd tyner dros annogaeth neu orchymyn: "arhosed ynoch chwi." *Ac nid oes arnoch eisieu dysgu o neb chwi.*—Yn ol *adn.* 20, dyma fydd y canlyniad o arosiad cyflawn yr eneiniad. *Eithr fel y mae yr un eneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth.*—Yr "un eneiniad" ag a dderbynasent ar y dechreu oedd o hyd yn aros ynddynt, a hwn oedd yn eu dysgu am bob peth. *A gwir yw, ac nid yw gelwydd.*—Beth sydd yn wir, ac heb fod yn gelwydd? Yr eneiniad ei hunan, ai yr hyn y mae yn ei ddysgu am bob peth? Y blaenaf feddyliem: "fel y mae yn dysgu, ac fel y mae yn wir," &c. Y mae hyn yn gysson â'r hyn a ddywedir am yr Ysbryd, yr hwn yw yr eneiniad, mai "Ysbryd y gwirionedd" ydyw. Fel y sylwa Dusterdieck:—"Y mae yr eneiniad sydd yn aros yn y credinwyr ac yn eu dysgu, yn hanfodol wir; nid yw yn gelwydd, ac felly nis gall dim sydd yn gelwydd ddyfod o hono." *Ac megys y'ch dysgodd chwi, yr aroswch ynddo.*—Y darlleniad goreu yma, feddyliem, ydyw y modd gorchymynol, ac nid y mynegol (gadael allan y gair "yr")—"aroswch ynddo." Y mae cystrawiad yr adnod hon yn lled anhawdd. Y mae cryn wahaniaeth barn am berthynas ac ymddibyniad y brawddegau ar eu gilydd. Gellir eu cymmeryd mewn un o ddwy ffordd:—1. Gosod yr "aroswch," yn niwedd yr adnod, i ymddibynu ar y "fel" a'r "megys;" ac ystyried y frawddeg, "a gwir yw," &c., yn dyfod i mewn yn y canol rhwng cromfachau, fel eglurhâd ar y "dysgu am bob peth:" "Eithr fel y mae yr un eneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth (a gwir yw, ac nid yw gelwydd); ac megys y'ch dysgodd chwi, arhoswch ynddo." Neu ynte, yn 2. Rhanu y pedair brawddeg yn ddwy ran:—yr ail frawddeg yn ymddibynu ar y gyntaf, i wneyd

yw, ac nid yw gelwydd; ac megys y'ch dysgodd chwi, yr arhoswch ynddo.

28 Ac yr awrhon, blant bychain, arhoswch ynddo; fel, pan ymddangoso efe, y byddo hyder genym, ac na chywilyddiom ger ei fron ef yn ei ddyfodiad.

[1] 1 Tim. 6. 14; Titus 2. 13; Heb. 9. 28.

29 Os gwyddoch ei fod ef yn gyfiawn, chwi a wyddoch fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder, wedi ei eni o hono ef.

un ran: a'r bedwaredd ar y drydedd yn y rhan arall:—"Fel y mae yr un eneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth, gwir yw, ac nid yw gelwydd" (yr "a" o flaen "gwir" i'w gadael allan). "Ac megys y'ch dysgodd chwi, arhoswch ynddo" ('yr' i'w adael allan o flaen "arhoswch"). Y blaenaf, fe allai, yw y goreu.

28. Diwedd y rhan hon o'r Epistol, ac hefyd y ddolen sydd yn ei chyssylltu â'r rhan nesaf. *Ac yr awr hon.*—Nid amser a olygir yma: ond y mae yr ymadrodd yn ddolen sydd yn cydio yr ystyriaethau blaenorol wrth yr annogaethau sydd yn canlyn. Arweinia i lwybr newydd o feddwl. *Blant bychain.*—All adroddiad serchog, yn cyf eirio yn ol at *adn.* 18, ac at yr "aros" yn *adn.* 17. Ond y mae Ebrard yn dal fod yr enw "plant bychain" yma o ystyr eang, yn golygu yr holl eglwys—fod y paragraph blaenorol (*adn.* 18—27), yn amlwg yn gyfeiriedig at blant o ran oedran yn yr eglwys; ond fod yr apostol yma yn cyfodi yn uwch, at ystyriaethau tebyg o gymmeryd gafael yn fwy mewn rhai o oedran aeddfed. *Arosoch yndd.*—Yn Nghrist. *Fel pan ymddangoso efe.*—Y mae yr ysgrifau hynaf yn darllen, 'os' yn lle "pan." Yr ystyr ydyw. 'Os bydd i'r fath beth gymmeryd lle ag iddo ymddangos,' hyny yw, 'yn fuan,' neu 'yn ein hamser ni,' yn unol â'r disgwyliad y pryd hwnw. Y mae *ean* ('os') yn gwahaniaethu oddi wrth *hotan* ('pan'), trwy ei fod yn nodi gwiredd, a'r olaf amser. *Y byddo hyder genym.*—Sicrwydd gorfoleddus o'n perthynas âg ef. *Ac na chywilyddiom ger ei fron ef yn ei ddyfodiad.*—Yr un syniad o "hyder," ond mewn ffurf nacaol. Cilio mewn braw a chywilydd oddi wrtho—ceisio ffoi o'i wydd, pan ymddengys yn ei ogoniant i farnu y byd.

II. 29.—v. 5. YR AIL BRIF RAN O'R EPISTOL: GWNEUTHUR CYFIAWNDER YN NOD YR ENEDIGAETH NEWYDD O DDUW; Y GWRTHWYNEB YN NOD Y RHAI NAD YDYNT O DDUW.

Y mae y prif bwngc hwn, a osodir i lawr yn *adn.* 29, yn cael ei gario yn mlaen trwy y rhan yma, yn fwyaf neilduol gyda chyfeiriad at gariad brawdol, yr hyn yw yr esampl fawr ac amlwg o debygolrwydd i Dduw; a'r absennoldeb o hono y prawf mwyaf penderfynol o ymddieithriad oddi wrtho. Nodir yr amrywiol adranau etto wrth fyned yn mlaen. II. 29.—III. 3. Yn nglŷn â'r egwyddor a roddir i lawr yn *pen.* ii. 29, y mae ei chymmhwysiad eglur atom ein hunain, fel plant Duw. Gan ein bod yn gobeithio bod yn debyg i Grist yn ei ddyfodiad, y mae pob un o honom, yn yr ymestyniad am y gobaith hwn, hyd yn oed yn awr, yn nesau at y tebygolrwydd perffaith hwnw trwy buro ein hunain, megys y mae yntau yn bur.

29. *Os gwyddoch.*—Yn yr ystyr o 'gan eich bod yn gwybod.' Appeliad at eu hadnabyddiaeth hwynt o'r cymmeriad dwyfol fel yr hyn y disgrifir ef gan yr apostol. *Ei fod ef yn gyfiawn.*—Pwy yw yr "ef" yma? Os Crist, y mae anhawsder yn ein cyfarfod yn niwedd yr adnod; canys ni ddywedir un amser ein bod yn cael ein geni o Grist, ond o Dduw (trwy Grist): *pen* iii. 1, 9; iv. 7; v. 1, 4, 18, &c. Os dywedir drachefn mai Duw a feddylir, y mae yn rhyfedd ei fod yn cael ei ddwyn i mewn megys o newydd yn *pen.* iii. 1, dan yr enw "y Tad." I ysgoi yr anhawsderau hyn, y mae rhai, megys Storr, Lücke, &c., yn deall Crist wrth yr "ef" cyntaf—"ei fod ef yn gyfiawn;" a Duw wrth yr ail "ef"—"wedi ei eni o hono ef." Ond nid yw yn hawdd gweled pa fodd y mae y casgliad yn canlyn, os na chyfeirir y ddau at Grist, fel y gwna Bengel, &c.; neu y ddau at Dduw, fel y gwna Zwingle, Bullinger, Luther, Calvin, &c. Dywed Alford y gellir deall y ddau am Grist (yr un "ef" ag yn *adn.* 28), am fod Ioan yn edrych cymmaint ar yr undeb rhwng y personau dwyfol, fel y gellid dyweyd fod yr hwn sydd yn cael ei eni o'r Tad yn cael ei eni o'r Mab hefyd. Dadleua Ebrard dros yr esboniad arall, am nad ydyw yr ymadrodd "geni o Grist" byth yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac am fod cyfiawnder yn cael ei briodoli mor arbenig i'r Tad yn *pen.* i. 9. *Chwi a wyddoch.*—Y mae y cyfieithiad Lladin (y *Vulgate*), a lliaws o esbonwyr, yn cymmeryd y gair hwn yn y modd gorchymynol—"gwybyddwch." Pa un bynag, yr un ydyw yr ystyr: y mae y naill wybodaeth yn deilliaw o'r llall. *Fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder.*—"Y cyfiawnder" (*tén dicaiosunén*)—y cyfiawnder hwnw a dybir yn y gair "cyfiawn" yn nechreu yr adnod. "Pob un" (medd Bengel)—yn cynnwys 'pob un, ac nid neb arall' (*omnis, et solus*). Mae cyfiawnder yn beth i'w "wneuthur;" y mae pob cyfiawnder yn fywiol a gweithgar, yn tarddu o sancteiddrwydd, gwirionedd, a chariad. Edrychir yma ar "gyfiawnder" fel natur dufewnol a thragwyddol Duw; "gwneuthur" y cyfiawnder hwn ydyw rhodio mewn sancteiddrwydd, a cheisio iachawdwriaeth ereill—yn unol â'r golygiad a roddwyd ar "gyfiawnder" Duw yn y nodiad ar *pen.* i. 9. *Wedi ei eni o hono ef.*—Y mae yr amser gorphenol (*perfect*) sydd i'r ferf hon yn dangos mai nid yr achos o'n genedigaeth o Dduw, ond effaith ac arwydd yr enedigaeth hono, ydyw "gwneuthur cyfiawnder." Yn groes i hyn, y mae yr esbonwyr Socinaidd a Phelagiaidd yn rhoddi gwneuthur cyfiawnder fel yr ammod o'n tu ni o gael ein gwneyd yn blant i Dduw. Duw ydyw ffynnonell cyfiawnder, y mae pechadur yn hollol amddifad o gyfiawnder; o ganlyniad, y mae gweled y cyfryw un yn gwneuthur cyfiawnder yn brawf ei fod wedi dyfod i feddiant o gyfiawnder, trwy gael ei eni o Dduw, nad oedd ganddo wrth natur.

PENNOD III.

1 *Y mae efe yn dangos rhagorol gariad Duw tuag atom ni, yn ein gwneuthur ni yn blant iddo ei hun; 3 ac am hyny y byddai raid i ninnau fod yn ufudd i gadw ei orchymynion; 11 a charu bawb ein gilydd, fel brodyr.*

PENNOD III.

1—10. GWIR NODAU GWAHANIAETHOL PLANT DUW A PHLANT DIAFOL.

1—3. Sail a ffynnonell pob cyfiawnder ynom ni,

B. A. 95.

[a]Salm 31. 19; Ioan 3. 16; Eph. 3. 18, 19.
[b]Ier. 3. 19; Ioan 1. 12; Rhuf. 9. 25, 26.

GWELWCH [a]pa fath gariad a roes y Tad arnom, [b]fel y'n gelwid yn feibion i Dduw: o blegid hyn nid edwyn y byd chwi, o blegid nad adnabu efe ef.

2 Anwyliyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; [c]o blegid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae.

[c]Iob 19. 26; Mat. 5. 8; Ioan 17. 21.

3 Ac y mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, yn

ydyw cyflawnder hanfodol Duw. Nid ydyw ein holl "wneuthur cyflawnder" ni ond prawf ei fod ef wedi ein hadgenhedlu—ein bod yn blant iddo ef. A pha fawrion bethau a gynnwysir yn yr enw hwn—y fath drysorau gwerthfawr o ffydd, gobaith, a chariad! I'r syniad hwn y mae yr apostol yn awr yn mynod i mewn. Y mae yn gosod holl ogoniant plant Duw o flaen ei ddarllenwyr. Bod yn gyflawn, megys y mae efe yn gyflawn, ydyw arwydd yr enedigaeth newydd hono, a mesur y bywyd a ddechreuodd gyda hi: y mae ymestyn am berffeithio ac addfedu yr arwydd hwn, llenwi i fyny y mesur hwn, yn brawf chwanegol fod un wedi ei eni o Dduw.

1. *Gwelwch.*—Fel yn *Ioan* i. 29, a xix. 5, nid yn dadgan syndod yr ysgrifenydd ei hun, ond yn galw sylw y darllenwyr. Ond y mae y rhif liosog "arnom" sydd yn y fan yn canlyn, yn dangos fod yr apostol yn cymmeryd ei hun i mewn yn mysg y rhai a gyferchir ganddo. *Pa fath gariad.*—Y mae tarddiad y gair a gyfieithir yma "pa fath" *potapos*) yn arwyddo 'o ba le,' neu 'o ba wlad.' Cariad ei hun a olygir yma, ac nid ffrwyth cariad: y mae y prawf o hono yn cael ei nodi yn mhellach. *A roes y Tad arnom.*—Y "Tad," yr hwn sydd yn ein mabwysiadu trwy y Mab. *Fel y'n gelwid yn feibion i Dduw.*—Y mae y "meibion" yma yn cyfatteb i'r "Tad" yn y frawddeg flaenorol, ac i'r "geni o hono ef," yn *pen.* ii. 29. Dyma y prawf mawr o'r cariad. Yr ydym wedi derbyn teitl, lle, a hawliau meibion. Ond y mae yma eiriau wedi eu gadael allan o'n testyn ni, a gydnabyddir gan y beirniaid goreu a ddylasent fod i mewn:—"ac yr ydym (felly)" (*cai esmen*). Nid yn unig gelwir ni wrth y teitl o blant; ond yr ydym yn blant o ran anian hefyd—wedi "ein geni o hono ef." Y mae y teitl yn un gwirioneddol, er na chydnabyddir mo hono gan y byd anghrediniol. *O blegid hyn nid edwyn y byd chwi, o blegid nad adnabu efe ef.*—Wrth yr "ef" yma y mae yn rhaid i ni olygu Duw. Y mae y natur newydd sydd yn mhlant Duw yn ddirgelwch i'r byd, o blegid nad ydynt yn adnabod Duw; canys y "ddwyfol natur" sydd yn y plant. Nid yw y byd yn adnabod "yr hwn a genhedlodd," ac felly nis gallant adnabod y rhai a genhedlwyd o hono. Nid yw yr anianol yn alluog i ddirnad yr ysbrydol yn Nuw, yn Nghrist, yn ngair Duw, nac yn mhlant Duw.

2. *Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym.*—Y mae ein mabolaeth yn wirioneddol, er nad yw y byd yn ei gydnabod. Nid yw yn llai gwirioneddol, am nad yw dyfodol y berthynas wedi ei ddadguddio yn gyflawn. Y mae "yr awrhon" yn gyferbyniol i'r dyfodol, neu yn ei awgrymu yn y frawddeg ddilynol. *Ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn.*—Y mae grym amseriad y ferf hon yn cynnwys yr ystyr—"nid amlygwyd erioed etto" ar unrhyw achlysur. Nid amlygu i'n gwybodaeth, a feddylir; o blegid y mae wedi ei amlygu felly, yn ol y frawddeg nesaf: ond amlygu yn weithredol mewn ffaith. "Beth a fyddwn:"

yn rhinwedd ein hystâd fel plant Duw; yn y dyfodol y mae dadblygiad gogoneddus y cyflwr yr ydym ynddo yn awr. Yr ydym yn awr yn feibion i Dduw mor wirioneddol ag y byddwn byth: ond yn awr meibion ydym yn disgwyl am etifeddiaeth anadnabyddus—yno, ni a fyddwn yn feibion mewn llawn fwynhâd o'r etifeddiaeth. *Eithr ni a wyddom.*—Dyfodol ydyw yr etifeddiaeth; ond ni a wyddom yn awr yn mha beth y bydd yn gynnwysedig. *Pan ymddangoso efe.*—Y mae rhai yn tybied mai Crist a feddylir yma, fel yn *adn.* 28. Ond y mae ereill yn rhoddi ystyr wahanol i'r frawddeg, am y rheswm (yn un peth) mai nid am Grist y lleferir yn yr adnod hon, a'r un flaenorol, ond am Dduw y Tad. Ac heblaw hyny, nad yw y gwreiddiol yn cynnwys yr "efe" yma, o angenrheidrwydd; ond y gellir ei ddeall am beth, yn gystal ag am berson; ac mai felly y mae i'w ddeall, yn gymmaint a bod yr "ymddangoso" yn cyfeirio at yr "amlygwyd" (yr un gair sydd yn y testyn gwreiddiol yn y ddau le). Felly, yr hyn sydd i "ymddangos" yw "beth a fyddwn." Gellid rhoddi yr ystyr fel hyn:—'Nid amlygwyd etto beth a fyddwn; eithr ni a wyddom, pe byddai i hyny gael ei amlygu (neu pan y bydd i hyn gael ei amlygu), &c. *Y byddwn gyffelyb iddo.*—Sef i Dduw, yn ol y rhan fwyaf o esbonwyr: ereill, Crist. Yn ol yr eglurhâd uchod, yr ystyr ydyw, 'Ni a wyddom, pan amlygir i ni beth a fyddwn, y byddwn (eisoes) yn gyffelyb iddo:'—nid amlygir i ni eyn yr adeg hono. *O blegid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae.*—Y mae dau olygiad ar berthynas y geiriau hyn â'r frawddeg flaenorol. Un ydyw yr eiddo Calvin, Rickli, Huther, &c.; sef, mai canlyniad bod yn gyffelyb iddo fydd ei weled ef megys ag y mae:—'Ni a wyddom y byddwn gyffelyb iddo; a'r prawf o hyny ydyw y cawn ei weled ef megys ag y mae: heb fod yn gyffelyb iddo, nis gallem ei weled.' Yr un modd y dangosir yn *Mat.* v. 8, fod purdeb calon yn gymmhwysder angenrheidiol i weled Duw. Y golygiad arall ydyw, 'Ni a wyddom y byddwn gyffelyb iddo; canys fe'n gwneir yn gyffelyb iddo trwy gael ei weled ef megys ag y mae.' Ei weled ef yn berffaith a'n newidia ninnau yn berffaith i'r unrhyw ddelw: 2 *Cor.* iii. 18. Y gwahaniaeth rhwng y ddau esboniad ydyw, fod yr achos a'r effaith yn cael eu newid yn y naill a'r llall. Yn ol y golygiad cyntaf, "bod yn gyffelyb iddo" yw yr achos, a'i weled fel y mae" yw yr effaith. Yn ol yr ail olygiad, ei weled "megys ag y mae" yw yr achos, a bod yn "gyffelyb iddo" yw yr effaith. Dywed Ebrard mai y syniad olaf yw y mwyaf dwfn, a'r mwyaf cydweddol â dull Ioan o feddwl. "Megys ag y mae."—Bydd yr olwg yno yn berffaith yn mhob ystyr—mewn natur a graddau; bydd yn gywir o ran natur, ac yn gyflawn o ran graddau.

3. *Ac y mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn.*—Y gobaith o fod yn gyffelyb i Dduw yn y byd a ddaw. *Ynddo ef.*—Yn Nuw: yn gorphwys ynddo, ac yn seiliedig ar ei addewidion. *Yn ei buro ei hun.*—Nid yn yr ystyr Pelagiaidd y mae

ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur.

d 2 Cor. 12. 21; Iago 5. 15. 4 Pob un [d]a'r sydd yn gwneuthur pechod, sydd hefyd yn

hyn i'w ddeall, fel pe byddai gan ddyn allu i'w buro ei hunan yn ei nerth ei hunan, ond fel ffrwyth cyfiwr ac anian rasol. Gan mai bod yn gyffelyb i Dduw ydyw nôd uchaf ei obaith, y mae yn naturiol iddo osod ei holl allu oedd mewn ymdrech gwastadol i gyrchu at y nôd hwnw, trwy ymlanhau oddi wrth bob halogrwydd. Y mae yr ewyllysio a'r gweithredu i hyn yn cael eu gweithio ynddo gan Dduw, ond nid yw Duw yn gweithio hebddo ef, eithr trwyddo. Y mae efe yn gweithio allan yr hyn y mae Duw yn ei weithio ynddo. Y mae y gair a gyfieithir yma "puro" (*agnizein*) yn cario ynddo ddrychfeddwl yr Hen Destament o buredigaeth Lefiticaidd: defnyddir ef yn y Testament Newydd am sancteiddrwydd yn gyffredinol, ac weithiau am ddiweirdeb yn neilldiol (1 *Tim.* v. 22; *Titus* ii. 5; 2 *Cor.* xi. 2, a vi. 6. Y mae yn cynnwys ystyr pellach nag *agiazein*, yr hwn a arwydda neilldio oddi wrth wasanaeth cyffredin i wasanaeth Duw. *Megys y mae yntau yn bur.*—Gwahaniaetha yr esbonwyr goreu ar y cwestiwn, at bwy y mae yr "yntau" yn cyfeirio. Barna Düsterdieck ac Ebrard mai at Grist y cyfeirir. Mae hyn yn ymddangos yn debyg, gan fod y rhagenw, *eceinos*, yn cael ei arfer yma i wahaniaethu oddi wrth yr *autos* blaenorol, fel yn *pen.* ii. 6. Ond dadleua Alford nad yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu newidiad person; a dyna ei resymau dros ddeall y Tad wrth yr "yntau." Ïaf, Am y Tad y dywedir: "Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi" (neu, 'fel yr ydwyf fi yn sanctaidd'), ac mewn lleoedd ereill: 1 *Pedr* i. 15, 16; *Lef.* xi. 44, a xix. 2; *Mat.* v. 48. Byddai braidd yn anghysson â'r dull ysgrythyrol uchod o lefaru, i ddeall y Mab yma. Ïil, Y mae y cyd-destyn yn ffafrio y syniad mai y Tad a feddylir: yr ystâd o fod yn feibion Duw, a thebygolrwydd i Dduw, yw y pethau a gyssylltir â'u gilydd, ac y mae gobeithion y berthynas yn dyfod yn gymmhelliadau i'r ddyledswydd o ymlanhau. Ȝydd, Pe y dywedid mai Crist ydyw ein cynllun a'n hesampl ni, yn yr hwn y mae purdeb y Tad yn cael ei ddangos, gellir atteb, y buasai grym yn hyn pe y cyfeiriad fuasai at ryw amlygiad hanesyddol yn mywyd ein Hiachawdwr, fel yn *pen.* ii. 6. Ond nid at ddim sydd wedi myned heibio y cyfeirir. Y mae y gair yn yr amser presennol, ac felly yn golygu y briodoledd ddwyfol hanfodol o burdeb, yr hon sydd yn ffynnoni yn y Tad. Am y rhesymau hyn y mae Alford yn dal mai y Tad a olygir, yn yr hwn y mae y perffeithrwydd o burdeb yn aros yn hanfodol; a bod ei blant, oddi ar y gobaith o gael bod yn berffaith debyg iddo, yn ymestyn yn wastadol am gynnydd yn y tebygolrwydd hwn. Golyga y "megys," naill ai natur y purdeb, neu gymmhelliad i ymestyn am dano. Rhwymedigaeth ymarferol sydd yn yr adnod hon, yn canlyn rhagolygon plant Duw a ddesgrifiwyd yn *adn.* 2; ond y mae y rhwymedigaeth yn cael ei gosod i lawr (yn unol â dullwedd gyffredin Ioan), nid fel gorchymyn deddfol, ond fel effaith naturiol, ac yn tarddu o angenrheidrwydd o'r gobaith.

4—10. PECHOD YN ANGHYMMODADWY A GWAITH Y PRYNEDIGAETH, A CHYMDEITHAS A CHRIST, AC A BOD WEDI EIN GENI O DDUW.

Dangoswyd o'r blaen yr ochr gadarnhaol i'r

gwneuthur anghyfraith: o blegid anghyfraith yw pechod.

5 A chwi a wyddoch ymddangos o hono ef, fel y dilëai ein pech-

gwirionedd sydd yn *pen.* ii. 29—bod yn debyg i Dduw, yn anwahanol oddi wrth fod wedi ein geni o Dduw. Yn awr, y mae yr apostol yn dangos yr ochr nacaol i'r un gwirionedd; sef, nas gellir cyssoni byw mewn pechod â bod wedi ein geni o Dduw.

4. *Pob un a'r sydd yn gwneuthur pechod, sydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith: o blegid anghyfraith yw pechod.*—Y mae esbonwyr wedi teimlo anhawsder neilldiol i benderfynu beth yw ystyr ac amcan pennodol y darnodiad yma o bechod, a pha beth yw cyssylltiad yr adnod hon â'r un flaenorol. I'n tyb ni, golygiad Ebrard yw y mwyaf boddhaol. Y mae efe yn edrych ar yr adnod hon yn gyferbyniol i *adn.* 3, ac mewn cyssylltiad âg *adn.* 5. Yn gyferbyniol i'r hwn sydd yn ei buro ei hun, y mae "pob un a'r sydd yn gwneuthur pechod." Yn gyferbyniol i obeithio am fod yn debyg i Dduw, y mae agwedd calon y dyn sydd yn gwrthwynebu ewyllys Duw trwy bechu; sef, trwy droseddu ei gyfraith. Yn gyferbyniol i'r gobaith am fod yn debyg i Grist, "megys y mae yntau yn bur," y mae yr hwn sydd yn gwrthweithio amcan dyriodiad Crist i'r cnawd (*adn.* 5). Fel hyn, megys y mae yn *adn.* 3 gyfeiriad at Dduw, ac at Grist, felly y mae y ddau gyfeiriad yna yn cael eu dadblygu yn yr hyn sydd yn wrthgyferbyniol iddynt yn *adn.* 4 a 5. Dangosir pechod yn *adn.* 4, fel yr hyn sydd yn taraw yn erbyn y ddeddf; ac yn *adn.* 5, fel yr hyn sydd yn taraw yn erbyn yr efengyl. Yn *adn.* 4, y mae pechod yn wrthwyneb i ewyllys dragwyddol Duw, fel yr amlygir hi mewn cyfraith: yn *adn.* 5, y mae yn wrthwyneb i ewyllys brynedigol ddadguddiedig Duw fel yr amlygwyd hi mewn gweithred yn Nghrist. Yn *adn.* 4, rhybuddir ni rhag pechod, fel y mae yn gwrthdaro cyfraith Duw; ac yn *adn.* 5, fel y mae yn gwrthweithio amcan ymgnawdoliad Crist. Ymddengys fod ystyr arbenig i "wneuthur pechod" yn yr adnod hon. Y mae yr hwn sydd yn ei buro ei hun yn pechu tra yn yfuchedd hon; ond y mae "gwneuthur pechod" yn gyferbyniol i "buro ei hun," ac yn golygu, nid pechodau cyffredin o wendid a diffyg, ond yr hyn sydd yn bechod yn ei wir natur, ac yn erbyn goleuni a chydwybod; y cyfryw ymddygiad ag sydd yn tarddu o gariad at bechod, ac yn profi na fyn y dyn ymwrthod â phechod. Yn y goleu yma, y mae "gwneuthur pechod" yn hollol wrthgyferbyniol i ymdrech gwastadol y Cristion i'w buro ei hun oddi wrtho.

5. Dangosir yma fod yr efengyl, yn gystal a'r ddeddf—nid yn unig natur y Tad, ond natur y Mab ymgnawdoledig—yn cydbrofi yr angen am sancteiddrwydd. *A chwi a wyddoch.*—Cymmer yr apostol yn ganiataol fod hyn yn wybyddus i'r rhai yr oedd ganddynt yr "eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw," trwy yr hwn yr oeddynt yn gwybod rhob peth: *pen.* ii. 20. *Ymddangos o hono ef*:—sef, yn y cnawd, a thrwy yr hyn oll a wnaeth ac a ddysgodd efe ar y ddaear. *Fel y dilëai ein pechodau ni.*—Y mae dau olygiad ar ystyr y gair "dileu" yn y lle hwn. Un ydyw, dwyn euogrwydd pechod arno ei hunan trwy ei aberth iawnol—"tynu ymaith," yn ystyr *Ioan* i. 29. Y llall ydyw, tynu ymaith, dinystrio pechod

[c] Luc 23. 41, 47; Ioan 8. 46. odau ni: [c]ac ynddo ef nid oes pechod.

[f] Ioan 15. 4—7. [g] 2 Cor. 5. 18. 6 Pob un [f]a'r sydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu: [g]pob un a'r sydd yn pechu, nis gwelodd ef, ac nis adnabu ef.

7 *O* blant bychain! na thwylled ei hunan, fel amcan eithaf y prynedigaeth: "dibenu camwedd." Dyma y golygiad sydd yn cydweddu oreu â'r cyssylltiad. Yn y goleu hwn y gwelir fod yr hwn sydd yn gwneuthur pechod yn gwrthweithio amcan yr hwn a ddaeth i'r byd o bwrpas i wneyd pen tragwyddol ar bechod yn llywodraeth Duw. *Ac ynddo ef nid oes pechod.*—Nis gallasai ddileu pechod heb fod ei hunan yn ddibechod. Dyma Fab Duw yn ymddangos yn erbyn pechod mewn dau ystyr: yn gyntaf, yn ei berson, fel un ag yr oedd ei natur yn oleuni perffaith, ac yn dragwyddol anghymmodlawn â phechod; ac yn ail, yn ei waith, fel y profodd ei hun yn orchfygwr ar bechod, ac wedi dyfod i'r byd i wneuthur terfyn llwyr arno. Dychwela yr apostol yma at y syniad sydd yn niwedd *adn.* 3.

6. *Pob un a'r sydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu.*—Y mae "aros" yn Nghrist yn cynnwys mwy na chredu ynddo, a'i garu, er fod y pethau hyn o angenrheidrwydd yn gynnwysedig yn yr "aros." Golyga berthynas a chymmundeb personol—cyfranogiad gwastadol o fywyd Crist; byw am ei fod ef yn byw, a thrwy dderbyn o'i gyflawnder ef. "Nid yw yn pechu." Dangoswyd o'r blaen, yn *pen.* i. 8, 10, ac yn *pen.* ii. 1, 2, fod y rhai sydd yn aros yn Nghrist yn pechu yn ystyr cyffredin y gair. Ond y mae "pechu" yma yn meddu ystyr neilltuol, ac i'w ddeall yn gyfystyr â "gwneuthur pechod" yn *adn.* 4. Golyga bechu yn wirfoddol, yn erbyn goleuni a chydwybod; caru, coledd, a byw mewn pechod. Ond y mae rhai o'r esbonwyr goreu yn golygu yn wahanol i hyn, ac yn cymmeryd y gair "pechu" yn ei ystyr syml. Yn ol y golygiad hwn, y meddwl ydyw—I'r graddau y mae un yn aros yn Nghrist, y mae i'r un graddau yn peidio a phechu. Y mae y ddau yn anghymmodadwy; y naill yn cau allan y llall. "Y mae plentyn Duw yn casau pechod, y mae plentyn y diafol yn ei garu; y mae pob gweithred a wneir yn rhinwedd y naill ystad, neu y llall, yn cael ei gwneuthur yn hollol ar un ochr neu yn hollol ar yr ochr arall. Os syrth plentyn Duw i bechod, y mae hyny yn weithred yn erbyn natur, o duedd ddinystriol, anhawdd ei dioddef, ac yn dwyn edifeirwch chwerw; y mae fel cymmeryd gwenwyn, yr hwn, os na wrthweithir ef gan feddyginiaeth, a sycha i fyny ffynnonau bywyd. Felly, nid oes dim gwir anghyssondeb rhwng hyn a *pen.* i. 8, 10, a ii. 2, lle y mae y syrthiad hwn i bechod o eiddo plentyn Duw yn cael ei ddal, a'r feddyginiaeth yn cael ei gosod allan."—*Alford.* *Pob un a'r sydd yn pechu, nis gwelodd ef, ac nis adnabu ef.*—Yr un gwirionedd ag sydd yn y rhan flaenaf o'r adnod, ond yn cael ei gyflwyno yma yn ei wedd nacaol. Y mae y geiriau hyn, feddyliem, yn cadarnhau cywirdeb y cyntaf o'r ddau olygiad a nodwyd ar y rhan flaenaf o'r adnod. "Pob un a'r sydd yn pechu," yn yr ystyr a grybwyllwyd o'r blaen—yn wirfoddol, ac o ymhyfrydiad mewn pechod—y mae hyn yn brawf nad ydyw wedi ei aileni, nac wedi profi cyfnewidiad calon. Y mae rhai yn rhoddi ystyr uwch i neb chwi. Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn, megys y mae yntau yn gyfiawn:

[h] Mat. 13. 38; Ioan 8. 44. [i] 2 Pedr 2. 4; Iudas 7.

8 [h]Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, [i]o ddiafol y mae; canys y mae diafol yn pechu o'r "gweled" nag i "adnabod," fel yn golygu sylweddoliad o bersonoliaeth Crist ac o hanfodiad pethau nefol, yr hwn sydd yn ffrwyth gwybodaeth ysbrydol:—"nid yw wedi gweled Crist, nac hyd yn oed wedi ei adnabod." Dywed ereill fod y syniad o "weled" yn cael ei berfeithio yn yr "adnabod:" "gweled," yn arwyddo edrych ar Grist megys ar y goleuni; ac "adnabod," yn golygu adnabyddiaeth cariad, drwy yr hon yr ydym yn derbyn natur Crist i'n personau ein hunain; *pen.* ii. 3.

7, 8.—Y cyferbyniad yn cael ei osod allan eilwaith; ac yn unol âg arddull Ioan, syniad newydd yn cael ei ddwyn i mewn ynglŷn â hyny, ac yn cael ymdrin âg ef yn yr adnodau dilynol.

7. *O blant bychain! na thwylled neb chwi.*—Cyfeiriad pennodol, dybygid, at athrawiaethau Antinomaidd y Gnosticiaid. Cymmer i fewn yr un pryd bob golygiad ar yr efengyl sydd yn arwain i benrhyddid, ac yn ysgaru sancteiddrwydd buchedd oddi wrth y bywyd Cristionogol. *Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder.*—Cyferbyniad i'r "gwneuthur pechod," yn *adn.* 4. *Sydd gyfiawn, megys y mae yntau yn gyfiawn.*—Nid yr ystyr ydyw, fel yr haera yr esbonwyr Pabaidd, fod ei weithredoedd o gyflawnder yn ei wneuthur yn gyflawn ger bron Duw. Ac nid chwaith fod "gwneuthur cyfiawnder" yn profi ei fod wedi dyfod i gyflwr o gyflawnhâd. Nid oes yma un cyfeiriad at yr athrawiaeth o gyflawnhâd trwy ffydd. Y meddwl yma ydyw, dybygid, fod yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder yn cyfranogi o natur Crist, ac yn dwyn ei ddelw, fel y mae y cyferbyniad i hyn yn cael ei ddadgan yn yr adnod nesaf. Y mae yr "yntau," dybygid, yn cyfeirio at Grist, yn unol âg *adn.* 3. Cymmhwysir ef gan ereill at Dduw, fel ffynnonell ein genedigaeth ysbrydol.

8. *Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod.*—Yn gyferbyniol i "wneuthur cyfiawnder," yn *adn.* 7. Nid gweithredoedd pennodol a olygir yn benaf, ond cyfiwr. *O ddiafol y mae.*—Y mae yn blentyn diafol, yn cyfranogi o'i natur a'i gymmeriad: *Ioan* viii. 44. Y mae adenedigaeth yn gyfnod newydd yn mywyd plant Duw; ond nid yw y geni o ddiafol yn gyfnod cyfattebol yn mywyd plant diafol. Nid yw bywyd naturiol dynion yn cael ei gyfnewid gan had diafol, fel y mae gan had Duw. Yn hytrach, y mae pechod wedi gwneyd fod genedigaeth naturiol dyn yn enedigaeth o'r diafol. Fel y mae Bengel yn sylwi, "llygriad, ac nid cenhedliad," ydyw yr enedigaeth hono mewn ystyr foesol. Nid oes dim tebyg i *physical dualism* yn athrawiaeth Ioan: yn lle hyny, dengys Ioan fod plant Duw wedi dyfod felly o fod yn blant diafol: *Ioan* i. 12. *Canys y mae diafol yn pechu o'r dechreuad.*—Cyfeirir yma at *Ioan* viii. 44, lle y ceir eglurhâd ar feddwl yr ymadroddion hyn. Y mae gwahanol farnau ar ystyr y gair "o'r dechreuad." O ddechreuad hanfodiad y diafol, medd rhai; o gyfnod ei gwymp, medd Bengel; o ddechreuad hanes dyn, medd Calvin, Lange, &c. Wrth edrych ar yr ymadrodd hwn yn ngoleuni *Ioan* viii. 44, yr ydym yn tueddu i feddwl

[k] Gen. 3. 15; Esa. 27. 1; Luc 10. 18; Ioan 26. 11; Rhuf. 16. 20.
[l] Ioan 1. 13.

dechreuad. [k] I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd diafol.

9 Pob un a [l] aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; o blegid y mae ei had ef yn aros ynddo ef, ac ni all efe bechu, am ei eni ef o Dduw.

[m] Luc 6. 3; Eph. 5. 1. [n] Mat. 13. 38; Ioan 8. 44.

10 Yn hyn [m] y mae yn amlwg plant Duw, [n] a phlant diafol: Pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.

[o] Ioan 13. 34, 35; Eph. 10. 2; 1Pedr 1. 22.

11 O blegid hon yw y genadwri a glywsoch o'r dechreuad; [o] bod i ni garu ein gilydd.

mai golygiad Lücke, De Wette, Brückner, Düsterdieck, a Neander—â'r hwn y mae Alford yn cyttuno—yw y goreu; sef, o ddechreuad pechod ei hunan. Ynddo ef y dechreuodd pechod, o ran meddwl a gweithred—efe yw y temtiwr i bechod; y ffynnonell o ba un y deilliodd pechod, fel y mae Duw yn ffynnonell cyfiawnder. *I hyn yr ymddangosodd Mab Duw.*—Yr ymgnawdoliad a'i holl ganlyniadau. *Fel y dattodai weithredoedd diafol.*—Gweithredoedd pechadurus. Ymddengys nad ydyw canlyniadau pechod, megys poen, trueni, ac angeu, yn cael eu golygu yma—ond y gweithredoedd sydd yn dwyn delw y diafol, y rhai y mae efe yn eu gweithio mewn dynion (*Eph.* ii. 14), a thrwy ddynion. Y mae y diafol yn pechu ei hunan, yn gwneyd dim ond pechu, ac yn temtio dynion i bechu. Ei natur ef sydd yn cael ei hamlygu yn mhechodau ei blant: felly, pechodau ydyw gweithredoedd diafol. Dyben mawr ymgnawdoliad ac angeu Mab Duw ydoedd "dattod" y gweithredoedd hyn—eu dinystrio, eu chwalu, a'u tynu i lawr (fel un adeilad neu gyfundrefn), neu ddirymu pechod fel deddf oedd yn dal plant dynion yn gaeth; mewn gair, "dibenu camwedd." Gwnaeth hyn yn benaf trwy ei angeu, pan yr ysigodd ben y gelyn, ac y dadsylfaenodd ei lywodraeth.

9, 10. Y cyferbyniad yn cael ei gymmeryd i fyny etto; ac yn ol dull Ioan, mater newydd yn cael ei ddwyn i mewn (yn niwedd *adn.* 10) fel arweiniad i'r hyn sydd yn canlyn.

9. *Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod.*—Yr un gosodiad ag yn *adn.* 6, ond yma yn ei ffurf fwyaf noeth—geni o Dduw, a phechu, yn cau allan eu gilydd. *O blegid y mae ei had ef yn aros ynddo ef.*—Wrth hyn, golyga rhai, "ei had ef," sef y saint yn "aros ynddo ef;" sef, yn Nuw. Ond y mae y rhan fwyaf o lawer yn deall wrth "ei had ef," nid personau y saint yn yr ystyr o blant, ond hedyn y bywyd newydd a dwyfol trwy yr hwn yr adgenhedlwyd hwynt, y mae yr had dwyfol hwn yn aros "ynddo ef;" sef, yr ail anedig, ac yn cynnyddu i sancteiddrwydd perffaith. Mae llawer o ddadleu ar y cwestiwn, beth ydyw yr "had" hwn? Gair Duw, medd rhai [*Augustin, Luther, Bengel*]: yr Ysbryd Glân, medd ereill [*Calvin, Beza*]. Golyga ereill mai egwyddor y bywyd newydd a blenir yn yr enaid gan yr Ysbryd Glân, trwy y Gair, a olygir—natur neu fywyd Crist: "yr hwn ydyw Crist ynoch chwi"—"hyd oni ffurfier Crist ynoch." Dadleua Alford yn erbyn y golygiad olaf, mai y peth a genhedlir ydyw y bywyd ysbrydol; ac mai rhywbeth ydyw yr "had" rhwng yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn cenhedlu, a'r bywyd a genhedlir ganddo: sef, Gair Duw yn cael ei ymsylweddu gan enaid dyn, trwy allu dwyfol, ac yn dadblygu y bywyd newydd yn barhaus. *Ac ni all efe bechu.*—Oddi wrth y bywyd hwn y mae yn canlyn, nas gall ei berchen yn wybodol a gwirfoddol weithredu yn groes i ewyllys Duw. Dywedwyd o'r blaen nad ydyw efe yn pechu; dyma wirionedd mwy mewnol etto—nis gall efe bechu. *Am ei eni ef o Dduw.*—Y mae adenedigaeth yn ei wneuthur yn beth ammhossibl, yn ol natur pethau, i'r neb a'i profodd bechu, yn yr ystyr (fel yr eglurwyd o'r blaen) ag y mae y dyn di-adgenedledig yn pechu. Dengys hyn, y tu hwnt i bob dadl, yr ammhossibilrwydd i'r ailanedig syrthio ymaith yn hollol a thragwyddol oddi wrth ras. Yr un pryd, dylid crybwyll, fel yr awgrymwyd o'r blaen, fod dosbarth o esbonwyr yn edrych ar y darluniad hwn o eiddo Ioan fel yr *ideal* o'r bywyd Cristionogol—y drychfeddwl perffaith o'r hyn a ddylai fod, ac y dylid cyrchu ato—ond yn gyfryw ag sydd uwch law bywyd gweithredol Cristionogion fel y mae, yn yr hwn nid yw y safon yn cael ei sylweddoli ond yn ammherffaith.

10. *Yn hyn.*—Yn y ffaith hon, y gwahaniaeth hwn: edrycha y gair yn mlaen, ac nid yn ol. "Yn" ydyw y goreu yma, yn hytrach na 'trwy;' yr hyn a fuasai yn awgrymu mai dyma yr unig arwydd. *Y mae yn amlwg plant Duw, a phlant diafol.*—Gofynwyd. I bwy? Dywed rhai, mai i lygad anffaeledig Duw ei hunan. Gwir, yn ystyr dyfnaf y dywediad; ond i'r graddau yr amlygir pechod, neu sancteiddrwydd, yn y cymmeriad, y mae yn amlwg i ddynion. Ac y mae yr arwydd neilltuol a nodir, sef y pechod o gasineb, yn un amlwg i bawb yn ei effeithiau. *Pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder.*—Gwel ar *adn.* 7. *Nid yw o Dduw.*—Yn blentyn Duw, wedi ei eni o Dduw:—yr un gosodiad ag sydd yn nechreu *adn.* 8, ond yma mewn ffurf nacaol. *Na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.*—Dyma ddadblygiad pellach ar y mater; un o nodau amlycaf y bywyd newydd yw cariad brawdol. "Ei frawd" tybiedig; yr un a fuasai yn frawd iddo, pe buasai efe ei hun yn blentyn Duw. A siarad yn fanwl, am yr hwn nad yw yn caru ei frawd, nid oes ganddo frawd i'w garu. Nid yw ond mewn proffes yn nheulu Duw.

11—24. Y mae yr adran hon, o hyn i ddiwedd y bennod, yn ymdrin â chariad brawdol fel swm a hanfod "cyfiawnder." Fel y crybwyllwyd uchod, y golygiad mwyaf cyffredin ar y cariad hwn yw, mai cariad y saint at eu gilydd a olygir; ac felly, fod yr hwn sydd o ran proffes ac ymddangosiad yn mhlith y saint, ond heb eu caru, yn profi trwy hyny nad yw ei broffes ond rhagrith. Ond y mae esbonwyr galluog ereill yn barnu mai cariad cyffredinol dyn at ddyn a olygir yma—fod y gair "brawd" i'w ddeall, yn ei ystyr eangaf, yn gyfystyr â'r gair "cymmydog" yn *Luc* x. 36.

11. *O blegid.*—Dyma y prawf fod y diffyg o gariad brawdol yn cau allan o deulu Duw. *Hon yw y genadwri a glywsoch o'r dechreuad.*—O ddechreuad amser, yn unol âg *adn.* 12, lle yr eir yn ol at foreu hanes y ddynoliaeth:—dyna olygiad y rhai sydd yn dal mai cariad cyffredinol dynion at eu gilydd a feddylir. Y mae y rhai sydd yn dal mai cariad brawdol y saint at eu gilydd yw

12 Nid fel Cain, *yr hwn* oedd o'r drwg, ac a laddodd ei frawd. A pha ham y lladdodd ef? O blegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda.

13 Na ryfeddwch, fy mrodyr, os yw y byd yn eich casau chwi.

[p] 2 Cor. 5. 1. 14 [p] Nyni a wyddom ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, o blegid ein bod yn caru y brodyr. Yr hwn nid yw yn caru *ei* frawd, y mae yn aros yn marwolaeth.

15 Pob un [q] a'r sydd yn casau ei frawd, lleiddiad dyn yw: a chwi a wyddoch nad oes i un lleiddiad dyn fywyd tragwyddol yn aros ynddo.

[q] Gen. 32. 41; Diar. 26. 24—26; Mat. 5. 21, 22, 28; Act. 23. 12—14.

16 Yn hyn yr adnabuom gariad Duw, o blegid dodi o hono ef ei

---

yr ystyr, yn deall hyn am ddechreuad pregethiad yr efengyl. Y mae y "genadwri" yn "orchymyn;" ond fel y mae y gorchymyn yn cael ei gyfleu mewn geiriau, a thrwy genhadon, y mae yn "genadwri." *Bod i ni garu ein gilydd.*—Dyma sylwedd neu fater y genadwri.

12. *Nid fel Cain, yr hwn oedd o'r drwg, ac a laddodd ei frawd.*—O'r diafol: *adn.* 10. Er mwyn cyferbyniad, nodir yma yr enghraifft gyntaf a fu yn y byd o gasineb. Y mae y cyssylltiad grammadegol braidd yn llac yma. Rhaid cyflenwi rhyw air neu eiriau, i gwblhau y synwyr yn eglur:—'nid i gasau ein gilydd fel Cain;' neu, 'ac nid fel y gwnaeth Cain,' &c. *A pha ham y lladdodd ef? O blegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda.*—Tuag at ddeall y rheswm am chwanegu hyn at y crybwylliad am Cain, rhaid i ni edrych yn mlaen at *adn.* 13. Arwain i'r mater hwnw y mae yr apostol yn y geiriau hyn—dangos fod y byd o'r dechreuad yn casau plant Duw. Megys ag y mae yn gâs gan blant y diafol Dduw ei hun, felly y maent yn casau ei gymmeriad a'i ddelw sanctaidd ef yn ei blant. Dyma enghraifft o "beidio caru" wedi cyrhaedd ei eithaf—casau, lladd. Beth bynag oedd yr achos uniongyrchol o lofruddiad Abel, dyma y gwreiddyn—casineb y byd at Dduw a'i ddelw.

13. *Na ryfeddwch, fy mrodyr, os yw y byd yn eich casau chwi.*—Nid yw yr "os" yn un o amheuaeth—y mae y dybiaeth wedi ei chyflawni. Y mae y cyssylltiad yn agos ac amlwg â'r adnod flaenorol:—cymmerir Cain fel rhag-gynllun o gasineb y byd: dechreuodd plant y diafol gasau, ac ant yn mlaen o hyd yr un fath. Nid yw yn beth newydd, neu i ryfeddu ato. Rhaghysbysywyd ef gan ein Harglwydd: *Ioan* xv. 18, 19; xvii. 14; *Mat.* x. 22; xxiv. 9; *Marc* xiii. 13; *Luc* xxi. 17.

14. *Nyni a wyddom ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, o blegid ein bod yn caru y brodyr.*—Dygir hyn yn mlaen, nid yn unig i egluro *adn.* 13—i ddangos nad oes achos rhyfeddu am y peth yn ddeallol—ond i attal cythrybliad y galon yn ngwyneb hyny; yr hyn hefyd a gynnwysir yn y "rhyfeddu" (ac yn benaf, fe allai, yma), trwy roddi defnydd cysur i'r saint. Y maent hwy mewn bywyd, a'r byd yn marwolaeth. Y mae y fannod yn y Groeg: *y* farwolaeth, yr hon sydd yn teyrnasu ar y di-adgenedledig; *y* bywyd, yr hwn a ddadguddir yn Nghrist. Y frawdoliaeth Gristionogol yn ddiau a olygir yma: yr oedd "y brodyr" yn ymadrodd arferedig am y corph o Gristionogion. *Yr hwn nid yw yn caru ei frawd.*—Gwrthodir "ei frawd" gan liaws o feirniaid, fel chwanegiad at y testyn; a bod mynegiad yr apostol yn gyffredinol—"Yr hwn nid yw yn caru." *Y mae yn aros yn marwolaeth.*—Yn nhiriogaeth marwolaeth, yn yr hon y mae pawb wrth natur. Ni roddir absennoldeb

cariad fel y rheswm pa ham y mae yn aros yn marwolaeth, ond fel y prawf o hyny.

15. *Pob un a'r sydd yn casau ei frawd, lleiddiad dyn yw.*—Y mae hyn yn cynnwys dau beth. 1. Y mae "pob un a'r sydd yn casau ei frawd" yn gyferbyniol, neu yn hytrach yr un peth—yn gyfystyr â "yr hwn nid yw yn caru ei frawd" yn *adn.* 14. Y mae y naill yn cynnwys y llall. Nid oes lle canol, yn y golygiad a gymmer yr apostol yma, rhwng cariad a gras, mwy na rhwng bywyd ac angeu. Y mae yr hwn nid yw yn caru yn casau. 2. Y mae yr hwn sydd yn casau yn llofrudd. Mae esampl Cain (*adn.* 12) yn dangos beth ydyw natur casineb yn ei eithaf: ac y mae yr apostol (fel yr oedd ein Hiachawdwr ei hun: *Mat.* v. 21, 27, &c) yn edrych ar un a syrthio o dan unrhyw gyfiwr, mewn gwirionedd yn syrthio o dan ganlyniadau y cyfiwr hwnw, wedi cyrhaedd i'w heithafion pellaf. Nid enghraifft unigol oedd amgylchiad Cain, ond hanes o natur gysgodol. Yn ymddygiad Cain, fe ddaeth y peth hwnw allan i amlygiad eglur ag sydd yn perthyn i natur pob casineb. Y darnodiad tyneraf o gasineb ydyw ein bod yn "methu dioddef" un: dyma natur pob casineb—methu dioddef hanfodiad un arall; ac yn mha ffordd bynag y bydd hyn yn cael ei ddangos, pa un bynag ai trwy gymmeryd ei fywyd ymaith, neu ei niweidio yn ei fywyd, nid ydyw hyny ond yn ymddibynu ar amgylchiadau allanol. Dywed Awstin fod pob casineb yn "llofruddiaeth yn y galon." Lle y mae casineb yn trigo yn y galon, nid yw yn un rhinwedd yn yr hwn sydd yn casau fod ffrwyth priodol llofruddiaeth heb aeddfedu ar y pren: dyna ffrwyth naturiol y pren er hyny. *A chwi a wyddoch nad oes i un lleiddiad dyn fywyd tragwyddol yn aros ynddo.*—Nid cyfeiriad sydd yma at dynged y llofrudd yn y byd a ddaw, ond appeliad at wirioneddau hunan-brofedig: "chwi a wyddoch"—y mae y peth yn amlwg—nad oes ganddo fywyd tragwyddol yn aros yndo yn awr. Cariad ydyw ffrwyth y bywyd tragwyddol sydd yn aros yn mhlant Duw, yr hwn yw tyfiant bywiol hâd Duw ynddynt: yn awr, os ydyw dynladdiad, ffrwyth eithaf a mwyaf ysgeler casineb yn bresennol, nis gall y bywyd hwnw gydhanfodi âg ef. Y mae yr hyn sydd yn amlwg i bawb yn y weithred o lofruddiaeth yr un mor wir am gasineb—yr egwyddor o lofruddiaeth.

16—18. GWIR GARIAD YN CAEL EI DDISGRIFIO A'I ARGYMMHELL.

16. Esampl o wir gariad yn Nghrist, a chymmhelliad o hono arnom ni. *Yn hyn:*—sef, yr hyn a nodir yn y frawddeg nesaf. *Yr adnabuom gariad Duw.*—Mewn llythyrenau Italaidd y mae y gair "Duw" yn y cyfieithiad Cymraeg, ac nid oes nemawr ddim awdurdod drosto fel rhau o'r testyn gwreiddiol. "Yn hyn yr adnabuom gariad"—dyma yr enghraifft uchaf o gariad. *O blegid dodi o hono ef ei einioes drosom ni.*—Crist,

einioes drosom ni: a ninnau a ddylem ddodi *ein* heinioes dros y brodyr.

17 Eithr yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisieu, ac a gauo ei dosturi oddi wrtho; pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?

18 Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod *yn unig*, eithr mewn gweithred a gwirionedd.

19 Ac wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, [r]ac y sicrhawn ein calonau ger ei fron ef.

20 O blegid os ein calon a'n condemnia, [s]mwy yw Duw na'n calon, [t]ac efe a wyr bob peth.

[r] Esa. 32. 17; Heb. 6. 10, 11.
[s] Iob 33. 12; Ioan 10. 29, 30; Heb. 6. 13.
[t] Ioan 21. 17. Heb. 4. 13.

fel y dengys y geiriau yn amlwg. Nid y meddwl yw, 'Trwy waith Crist yn dodi ei einioes drosom y gwybuom gyntaf ei fod yn ein caru ni; ond yn hytrach, 'Yn ngoleuni marwolaeth Crist drosom ni yr adnabuom beth ydyw gwir gariad —cariad yn ei wir natur.' Gallai fod meddwl pellach i'r geiriau, yr un a amddiffynir gan Ebrard:—'Y mae angen Crist wedi ein dwyn i adnabod mai yn hyn y mae cariad yn gynnwysedig —ei fod ef wedi rhoddi ei einioes drosom ni.' Y mae yr adnod fel hyn yn gyferbyniol i *adn.* 15. Gwir natur casineb ydyw lladd, cymmeryd ymaith fywyd ei wrthddrych; cariad drachefn, yn ei hanfod mwyaf mewnol, yw rhoddi ein bywyd o'n bodd yn aberth dros arall. *A ninnau a ddylem ddodi ein heinioes dros y brodyr.*—Os yw ei gariad ef ynom, y mae o ran ei egwyddor yn gyfryw ag a'n galluogai i roddi ein bywyd yn aberth, pe byddai angen am hyny. Fel y mae pob casineb yn llofruddiaeth yn ei natur, felly y mae pob gwir gariad yn hunan-aberthiad yn ei natur. Dadleua Ebrard fod yn amlwg erbyn hyn mai y byd—ein brodyr o ddynolryw—a feddylir trwy y paragraph, gan mai yr esampl a osodir ger ein bron yw, Crist yn marw dros ei elynion—yn rhoddi ei gnawd dros fywyd y byd.

17. *Eithr yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn.* —*bios*—y bywyd naturiol, a'r hyn sydd yn angenrheidiol i'w gynnal; yn gyferbyniol i *zóé*, yr hwn yw y gair am fywyd yn ei ystyron uchaf. *Ac a welo ei frawd mewn eisieu.*—Y mae y gair a gyfieithir yma "gweled," yn cynnwys mwy na golwg ddamweiniol: arwydda yn hytrach edrych, syllu, craffu, a sefyll i edrych; ac felly, y mae y weithred yn cynnwys y meddwl yn gystal a'r llygad. Fel hyn, y mae y dyn annbrugarog hwn nid yn unig yn hysbys o gyfyngder ei frawd, ond yn gallu sefyll i edrych arno yn ddidaro. *Ac a gauo.*—Saesneg, 'a gauo i fyny;' y mae y ffurf sydd ar y gair gwreiddiol yn awgrymu fod y "cau" yn cymmeryd lle ar y pryd hwnw: nid calon-galedwch naturiol yn unig, ond gweithred hamddenol o attal cydymdeimlad, newydd fod yn edrych ar drueni ei frawd. *Ei dosturi oddi wrtho.*—Groeg, 'ei ymysgaroedd'—ei galon, eisteddle cydymdeimlad. *Pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?*—Cariad at Dduw, medd rhai: cariad Duw yn Nghrist tuag atom ni, medd ereill, wedi ei sylweddoli yn y galon. Y mae y gofyniad yn ddull cryf o awgrymu fod y peth yn ammhossibl. Gallai fod y ddau beth canlynol yn gynnwysedig yn nghyssylltiad yr adnod hon â'r un flaenorol:—1. Os ydyw yn natur gwir gariad i wneyd aberth mor fawr a rhoddi ein heinioes dros ein brawd, mor bell raid fod y dyn hwnw o feddu cariad nas gwna beth mor fychan a thosturio wrth ei frawd mewn eisieu, trwy gyfranu iddo ychydig o'i helaethrwydd ei hun? 2. Gallai rhywrai gasglu oddi wrth yr adnod flaenorol, nad oedd cariad i'w amlygu ond ar achlysuron mawr, ac mewn gweithredoedd gwronaidd. Yr oedd y Cristionogion dan demtasiwn neilduol i feddwl hyny mewn amseroedd o erledigaeth. Ond cariad balch a fuasai hwnw, ac felly ni buasai yn gariad o gwbl. Dengys yr apostol yma fod gwir gariad yn dyfod i'r golwg yn llawn cymmaint, os nad yn fwy, mewn cymmwynasau bychain, ag mewn gweithredoedd mawr. Y mae cariad yn ddigon mawr i gynnwys y mwyaf, ac i beidio cau allan y lleiaf.

18. Annogaeth i wir gariad brawdol, yn canlyn yn naturiol ar ol yr esampl o'r diffyg o hono yn yr adnod flaenorol. *Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd.*—Gall un "garu ar air," heb weithredoedd, ac etto y geiriau yn cael eu llefaru ar y pryd yn gywir, ac oddi ar wir deimlad. Y mae "caru ar dafod" yn arwyddo nad ydyw hyd yn oed y geiriau yn gywir—y tafod, heb y galon. Gosodir "gweithred" yn gyferbyniol i "air," a "gwirionedd" yn gyferbyniol i "dafod."

19—24. EFFEITHIAU GWERTHFAWR CARIAD BRAWDOL, FEL PRAWF O WIRIONEDD EIN CREFYDD.

19. *Ac wrth hyn:*—sef, wrth gyddfurfio â'r annogaeth yn yr adnod flaenorol. *Y gwyddom.*—Y cawn wybod (yr amser dyfodol). *Ein bod o'r gwirionedd:*—sef, bod o Dduw: *adn.* 9, 10. Y mae bod o Dduw yn cael edrych arno yma—nid fel yn *adn.* 14, o dan y dosbarthiad o fywyd a marwolaeth, ond o dan y dosbarthiad o wirionedd a chelwydd: yn un peth, am fod yr apostol newydd fod yn gosod gwirionedd yn gyferbyniol i'r "tafod yn unig;" ac hefyd, fe allai, am fod yma gyfeiriad distaw trwy y paragraph hwn at Gnosticiaeth fel cyfundrefn o gelwydd. Yr un meddwl sydd yma ag yn *adn.* 14; sef, fod cariad brawdol yn un o nodau pendant cyfiwr o ras. *Ac y sicrhawn ein calonau ger ei fron ef.*—Y 'perswadiwn' ein calonau; trwy yr un arwydd y gallwn ddistewi ymofynion pryderus y galon ger bron Duw, a chael sicrwydd ein bod yn wir blant iddo ef.

20. Cymmer yr apostol i fyny y pwngc hwn o berswadio y galon, gan ddangos ei ystyr a'i bwysigrwydd. *O blegid os ein calon a'n condemnia.* —Cydwybod y dyn ei hun yn cyhoeddi barn o gondemniad arno. Y mae y gair a gyfieithir yma "condemnio" yn arwyddo hunan-ymwybyddiaeth euog—'gwybod rhywbeth yn ein herbyn.' *Mwy yw Duw na'n calon, ac efe a wyr bob peth.*—Tybia rhai, fod hyn yn cael ei ddyweyd mewn ffordd o gysur; mawredd Duw a'i anfeidrol drugaredd yn lliniaru condemniad y galon. Ond y golygiad arall a gymmerir yn fwyaf cyffredin; sef, nad yw tystiolaeth gondemniol ein cydwybod yn sefyll ar ei phen ei hun, ond y mae yn arwyddo un yn eistedd uwch ben ein cydwybod, ac yn fwy na'n cydwybod; canys nid ydyw

21 Anwylyd, os ein calon ni'n condemnia, y mae genym hyder ar Dduw.

22 A pha beth bynag a ofynom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef; o blegid ein bod yn cadw ei [u]Ioan 6. 29; Heb. 13. 2. orchymynion ef, ac yn [u]gwneuthur y pethau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.

23 A hwn yw ei orchymyn ef; Gredu o honom yn enw ei Fab ef [x]1Pedr1. 22. Iesu Grist, [x]a charu ein gilydd, megys y rhoes efe orchymyn i ni.

24 A'r hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef, [y]sydd yn trigo yn ddo ef, ac yntau ynddo yntau. Ac wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, *sef* o'r Ysbryd a roddes efe i ni. [y]Ioan 6. 54—56; 2 Cor. 6. 16.

PENNOD IV.

1 *Y mae efe yn eu rhybuddio hwynt na wnaent goel ar bob athraw sydd yn ymffrostio o'r Ysbryd, eithr eu profi hwy yn hytrach trwy reolau y ffydd gatholig. 7 Ac y mae efe trwy annrhyw resymau yn eu hannog hwy i cariad brawdol.* B. A. 95.

[a]ANWYLYD, na chredwch bob ysbryd, eithr [a]profwch yr [a]Luc. 12. 57; Act. 17. 11; 1 Thes. 5. 21.

ein cydwybod ond adsain gwan o'i lais ef, yr hwn sydd yn gwybod pob peth. Os ydyw hi yn ein condemnio, pa faint mwy efe?

21. *Anwylyd, os ein calon ni'n condemnia, y mae genym hyder ar Dduw.*—Hyder tuag at, a cher bron Duw, yn ein perthynas âg ef. Dylid coño fod hyn yn cael ei ddyweyd mewn cyfeiriad at gyflwr ac agwedd rasol, lle y mae y gydwybod wedi ei deffro a'i goleuo, lle y mae tystiolaeth yr Ysbryd mewn grym, a lle nad yw hunan-dwyll y galon yn dyfod i mewn i anghywiro y cyfrif.

22. *A pha beth bynag a ofynom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef.*—Trwy aros a rhodio mewn cariad y gallwn yn unig gael y gymmeradwyaeth hono o eiddo ein cydwybod fel plant i Dduw, yr hon sydd yn dwyn gyda hi wir hyder ynddo ef, a gwir gymmundeb âg ef mewn gweddi—yr hwn gymmundeb sydd yn ganlyniad ac yn brawf o'r hyder. Y mae rhai esbonwyr yn deall y geiriau hyn mewn ystyr syml, yn eu holl eangder—yn unol â'r syniad y cyfeiriwyd ato o'r blaen—fod Ioan yn darlunio sefyllfa y Cristion, nid fel y mae mewn ffaith, ond yn yr *ideal*—yn y drychfeddwl perffaith o honi. Y mae ereill yn esbonio y geiriau gydag ammodau terfynol yn cael eu deall—megys ein bod yn gofyn mewn ffydd, ac yn ol yr ewyllys ddwyfol, &c. *O blegid ein bod yn cadw ei orchymynion ef, ac yn gwneuthur y pethau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.*—Nid ein hufudd-dod ydyw yr achos haeddiannol o wrandawiad ein gweddïau, fel y mae yr esbonwyr Pabaidd yn dal; ond y mae ein gweithredoedd da a wneir trwy ffydd yn Nghrist, yn arwydd ac yn ffrwyth o fywyd Crist yn gweithio ynom, ac yn fesur o'n cynnydd Cristionogol. Y maent yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn fesur o'n dyneiad ato, a'n gwobrwyad ganddo.

23. Yr holl orchymynion hyn yn cael eu symio i fyny i un; ffydd yn Nghrist, a chariad brawdol yn ol gorchymyn Crist. *A hwn yw ei orchymyn ef.* — Un gorchymyn mawr yr efengyl sydd yn cynnwys yn rhinweddol y cwbl ereill. *Gredu o honom yn enw ei Fab ef Iesu Grist, a charu ein gilydd, megys y rhoes efe orchymyn i ni.*—Edrychir ar gredu yn Nghrist a charu y brodyr yma fel un gorchymyn; o blegid ile y mae gwir ffydd, y mae yno gariad, mor sicr a bod goleuni yn deilliaw o'r haul. Yr "efe," yn niwedd yr adnod, yw Crist. Y mae amseriad y ddwy ferf "credu" a "charu" yn yr adnod hon heb fod yn hollol yr un. Math o orphenol ydyw y gyntaf, yn cyfeirio at yr un act gyntaf o dderbyn Crist; y mae y llall yn y presennol, yn golygu arferiad wastadol.

24. Dychweliad at gyweirnod yr Epistol:—Aros ynddo ef. *A'r hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef, sydd yn trigo ynddo ef, ac yntau ynddo yntau.*—Wrth yr "ef," a'r olaf o'r ddau 'yntau,' y mae rhai yn golygu Crist; ond gwell ydyw eu cymmhwyso at y prif destyn—Duw—er nad yw y gwahaniaeth yn yr ystyr yn nemawr, neu ddim. *Ac wrth hyn y gwyddom ei fod yn aros ynom, sef o'r Ysbryd a roddes efe i ni.*—Gall fod yma gyfeiriad pendant at y weithred o roi yr Ysbryd Glân i'r eglwys ar ddydd y Pentecost: y mae amseriad y ferf yn awgrymu hyny. Preswyliad yr Ysbryd yn y credadyn ydyw ffynonell ei fywyd ysbrydol, prawf sicr o'i fabolaeth, ac o'i undeb â Duw yn Nghrist.

Pennod iv.

1—6. Rhybudd rhag gau athrawiaeth, a'r nodau wrth ba rai i'w hadnabod. Y mae y rhybudd hwn yn y rhan hon o'r Epistol yn cyfatteb i'r rhybudd a roddasid o'r blaen yn y rhan arall: *pen.* ii. 18, &c. Y mae cyssylltiad agos rhwng hyn a diwedd y bennod o'r blaen. Yno, dangoswyd fod cariad brawdol yn brawf ein bod o'r gwirionedd (*pen.* iii. 19); ac mai yr arwydd o'i fod ef yn aros ynom ydyw yr Ysbryd a roddes efe i ni: *adn.* 24. Y mae o bwys mawr, gan hyny, i ni adnabod yr Ysbryd hwn; sef, Ysbryd y gwirionedd, fel ag i beidio cael ein camarwain gan unrhyw ysbrydion twyllodrus sydd yn gwneuthur honiadau gau o fod yn meddu ei gymmeriad a'i swydd ef. Y mae y cyfryw ysbrydion twyllodrus yn bod, y rhai nad ydynt o Dduw, ond o'r byd; a'r rhai ydynt yn gwneyd i fyny ysbryd anghrist, am yr hwn y mae prophwydoliaeth wedi rhagfynegu.

1. *Anwylyd.*—Y mae y gair hwn yn dangos fod yr apostol yn symmud oddi wrth y testyn blaenorol at fater arall, yr hwn y dymuna yn serchog alw eu sylw difrifol ato. *Na chredwch bob ysbryd.*—Y rheswm pa ham y mae lliosogrwydd o ysbrydion ydyw, fod Ysbryd y gwirioniedd, ac ysbryd y cyfeiliorni, yn llefaru trwy ddynion fel eu hofferynau. *Eithr profwch yr ysbrydion.*—Nid yr eglwys yn ei phreladiaid yn unig sydd i wneyd hyn, fel yr haera yr esbonwyr Pabaidd, ond yr holl credinwyr. Hawlfraint a dyledswydd pob dyn ydyw barnu drosto ei hunan pa beth sydd wirionedd; ond y mae hyn yn berffaith gysson â gwir undeb eglwysig, ac â phob mynegiad cyhoeddus o'r gwirionedd gan yr eglwys trwy ei swyddogion awdurdodedig. *Ai o Dduw y maent.*—Yn dwyn y cymmeriad o fod wedi deilliaw oddi wrtho ef. *O blegid.*—Y rheswm dros yr angenrheidrwydd am wneyd y prawf. *Y mae gau-brophwydi lawer.* — "Pro-

ysbrydion ai o Dduw y maent: o blegid y mae gau brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd.

2 Wrth hyn adnabyddwch Ysbryd Duw: [b] Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn [c] y cnawd, [o] o Dduw y mae.

3 A [d] phob ysbryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd nid yw o Dduw. [e] Eithr hwn yw *ysbryd* anghrist, yr hwn y clywsoch ei fod yn dyfod, a'r awrhon y mae *efe* yn y byd eisoes.

4 Chwychwi ydych o Dduw, blant bychain, ac a'u gorchfygasoch hwy: o blegid [f] mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd.

5 Hwynt-hwy o'r byd y maent: am hyny y llefarant am y byd, a'r byd a wrendy arnynt.

6 [g] Nyni o Duw yr ydym. [h] Yr hwn sydd yn adnabod Duw, sydd yn ein gwrandaw ni: yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrandaw ni. Wrth hyn yr adwaenom [i] ysbryd y gwirionedd [k] ac ysbryd y cyfeiliorni.

[a] Ioan 16. 13—15; 1 Cor. 12. 3.
[b] 1 Ioan 1. 14; 1 Tim. 3. 16.
[c] 1 Ioan 2. 23.
[d] 2 Thes. 2. 7, 8; 2 Ioan 7.
[e] 1 Ioan 10. 27—30; 14. 1—23; 17. 23; Rhuf. 8. 10, 11; 1 Cor. 6. 19; 2 Cor. 6. 16; Eph 3. 17.
[f] 1 Cor. 2. 12—14; 2 Pedr 3. 2; Iudas 17.
[g] Ioan 8. 45—55; 10. 27; 2 Thes. 1. 8; 1 Ioan 14. 17; 15. 26.
[h] Rhuf. 11. 8; 2 Thes. 2. 9—11.

---

phwydi;" nid fel rhagfynegwyr pethau dyfodol, ond fel geneuau yr "ysbryd" oedd yn eu cynhyrfu. Yn 2 *Pedr* ii. 1, gelwir y cyfeiliornwyr hyn dan y Testament Newydd yn "gau-athrawon," yn cyfatteb i'r "gau-brophwydi" dan yr Hen Destament. *Wedi myned allan i'r byd.*—Naill ai oddi wrth yr hwn oedd yn eu hanfon, fel y dywedir am yr Iesu ei hunan, ei fod wedi ei anfon oddi wrth Dduw (*Ioan* viii. 42; xiii. 3; xvi. 27, 28), neu ynte allan o'r eglwys: *pen.* ii. 19.

2, 3. Y RHEOL WRTH BA UN Y MAE YR YSBRYDION I'W PROFI.

2. *Wrth hyn adnabyddwch.*—Y modd gorchymynol. *Ysbryd Duw:*—sef, yr Ysbryd Glân yn bresennol yn gweithio yn a thrwy ysbrydoedd dynion. *Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu.*—Yn dal allan mewn proffes gyhoeddus o ffydd. *Ddyfod Iesu Grist yn y cnawd.*—Y mae y geiriau yn tybied ei raghanfodiad a'i Dduwdod, ac yn hôni yn bendant wirionedd ei ymgnawdoliad, yn gyferbyniol i gyfeiliornadau y Gnosticiaid. *O Dduw y mae.*—Wedi deilliaw o hono ef, ac yn cael ei ysbrydoli ganddo ef trwy ei Ysbryd.

3. *A phob ysbryd a'r nid yw yn cyffesu.*—Y mae hyn yn cynnwys mwy na bod heb gyffesu: golyga wrthod cyffesu, a chyffesu y gwrthwyneb. Y mae mater y cyffes, "ddyfod Iesu Grist yn y cnawd," yn cynnwys fod y person yn gyflawn wedi dyfod yn wirioneddol i'r cnawd, yn wrthwyneb i athrawiaeth Cerinthus—nad oedd Iesu ond dyn, yn trigo ar y ddaear; a bod Crist wedi myned i mewn i'r dyn hwnw, ond nid fel wedi dyfod yn y cnawd i'r byd. Mae yma ddau wirioneddau yn cael eu gosod allan mewn gwrthwynebiad i Gnosticiaeth Cerinthus:—yn gyntaf, dangosir Iesu Grist fel yr un a'r unrhyw berson; yn ail, fod y person hwn wedi dyfod yn ddyn gwirioneddol ar y ddaear. *Nid yw o Dduw.*—Gwel ar *adn.* 1, 2. Dylid crybwyll fod darlleniad hynod arall ar y rhan hon o'r adnod: "Pob ysbryd sydd yn dattod (neu yn dinystrio) yr Iesu, nid yw o Dduw." Ond nid oes iddo ddim awdurdod allanol na thufewnol; nid yw i'w gael mewn cymmaint ag un ysgrif; ni cheir ef ond yn y *Vulgate*, a chan dadau y bedwaredd ganrif. Diau nad yw ond arnodiad rhyw esboniwr. *Eithr hwn yw ysbryd anghrist, yr hwn y clywsoch ei fod yn dyfod, a'r awrhon y mae efe yn y byd eisoes.*—Rhoddwyd y gair "ysbryd" i mewn, fel y gwelir, gan y cyfieithwyr—ac yn dra phriodol, canys dyna yn amlwg ydyw y meddwl. Yr oedd Ioan wedi rhybuddio ei ddarllenwyr fod anghrist i ddyfod rywbryd yn gorphoredig mewn person; ond o ran ei ysbryd yr oedd yn y byd eisoes, ac yn ei amlygu ei hun yn y gwahanol ysbrydion twyllodrus oedd wedi myned allan i'r byd. Gwel ar *pen.* ii. 18, 22.

4. *Chwychwi ydych o Dduw, blant bychain.*—Fel hyn y mae efe yn wastad yn cyfarch ei ddarllenwyr, megys plant Duw: *pen.* iii. 1, 13, 19, 24, &c. Gesyd hwynt yma yn gyferbyniol i'r athrawon anghristaidd. *Ac a'u gorchfygasoch hwy.*—Y "gau brophwydi lawer," y rhai oeddynt yr un peth ag anghrist. Y mae y "gorchfygu" yn cael ei roddi yma yn yr amser gorphenol. Y mae y fuddugoliaeth wedi ei hennill eisoes yn rhinweddol yn yr hwn a ddywedodd, "Myfi a orchfygais y byd;" *Ioan* xvi. 33. Yn y sicrwydd o'r fuddugoliaeth, y mae ffydd yn rhedeg o flaen golwg, ac yn edrych ar yr eglwys eisoes yn goncwerwyr. *O blegid mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd.*—Crist, medd rhai; Duw, medd ereill. Y maent yn dyfod i'r un peth o ran sylwedd; ond o ran ffurf, yr olaf sydd yn fwyaf cysson â'r rhan flaenaf o'r adnod. Megys y mae credinwyr o Dduw, y mae Duw yn preswylio ynddynt hwythau trwy ei Ysbryd, yr hwn sydd yn Ysbryd Crist; ac felly, y mae Crist yn trigo ynddynt, a'i fywyd ef yn cael ei fyw ganddynt a thrwyddynt. "Yr hwn sydd yn y byd" ydyw y diafol—tywysog y byd hwn.

5. Yn awr, y mae yr apostol yn myned i unoli y gau athrawon uchod â'r byd. *Hwynt-hwy o'r byd y maent.*—Tarddle a ffynnonell yr hyn ydynt, a'r hyn a ddysgant, ydyw y byd—y natur ddynol ddiadgenedledig, yn cael ei llywodraethu a'i meddiannu gan y diafol—tywysog a duw y byd hwn. *Am hyny y llefarant am y byd.*—Neu yn hytrach, 'y llefarant o'r byd' (*ec tou cosmou*). Yn y byd y mae defnydd yr hyn a lefarant. *A'r byd a wrendy arnynt.*—O blegid y mae y byd yn caru yr eiddo ei hun, y rhai ydynt o hono: *Ioan* xv. 18:—o ba le yr ymddengys fod yr adnod hon yn benaf wedi ei chymmeryd.

6. Cyferbyniad. *Nyni.*—Yn bwysleisiol, mewn cyferbyniad iddynt hwy. Y mae y cyd-destyn yn ffafrio y golygiad mai nid credinwyr yn gyffredinol a feddylir yma—y mae hyny newydd gael ei ddywedyd o'r blaen, yn *adn.* 4—ond yr apostolion, a'u cydlafurwyr yn yr efengyl, fel rhai yn dysgu y gwirionedd; yn gyferbyniol i'r gau athrawon. *O Dduw yr ydym.*—Gwel eglurhadau blaenorol ar yr ymadrodd hwn. *Yr hwn sydd yn adnabod Duw, sydd yn ein gwrandaw ni: yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrandaw ni. Wrth hyn yr adwaenom ysbryd y gwirionedd, ac ysbryd y cyfeiliorni.*—Nid rhoddi nod y mae yr apostol yma i wahaniaethu rhwng plant Duw a phlant diafol, ond rhwng ysbryd y gwirionedd" ac "ysbryd y cyfeiliorni." Y mae

7 Anwylyd, carwn ein gilydd: o blegid cariad, o Dduw y mae; a phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw.

8 Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw: o blegid [l]Duw, cariad yw.

9 Yn hyn yr eglurwyd cariad [m]Duw tuag atom ni, o blegid [m]danfon o Dduw ei uniganedig Fab i'r byd, [n]fel y byddem fyw trwyddo ef.

10 Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, [o]ac anfon ei Fab *i'* [o]Rhuf. 8. 25, 26. *fod* yn iawn dros ein pechodau.

11 Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd.

[l] Exod. 34. 6, 7; Eph. 2 4; Heb 12.29.
[m] Luc 4 18; Ioan 5. 23.
[n] Ioan10.10, 58-30; Col. 3. 3, 4.

dysgawdwyr y gwirionedd yn cael eu gwrandaw a'u derbyn gan y rhai sydd yn adnabod Duw; y rhai sydd yn eu gwrthod yw y rhai nad ydynt o Dduw. Y mae y rhai sydd o Dduw, a'r rhai sydd o'r byd, yn ddau ddosbarth cyferbyniol, a'r gwahaniaeth rhyngddynt yn amlwg a phendant; y mae gwahanol agweddiad y ddau ddosbarth hyn tuag at y gwahanol ddysgawdwyr yn profi pwy sydd yn dysgu y gwirionedd. Ceir geiriau cyfattebol, ac yn wir yr agoriad i'r adnod hon, yn nywediad ein Hiachawdwr wrth Pilat: *Ioan* xviii. 37.

7—21. Y mae yr apostol yn dychwelyd at ei annogaethau i gariad brawdol; ond y mae yn edrych ar y pwngc yn awr mewn cyssyllt iad dyfnach—â'n genedigaeth o Dduw, ac â'n hadnabyddiaeth o'r hwn sydd ei hunan yn gariad.

7. *Anwylyd, carwn ein gilydd.*—Defnyddia yr apostol y dull serchog hwn o gyfarch ei ddarllenwyr yn arwydd o'i fod yn troi atynt etto mewn annogaeth ddifrifol. Y mae y cyfarchiad yn meddu priodoldeb neilltuol yn y lle hwn, fel yn dangos fod ei galon ef ei hunan yn llawn o'r cariad a gymmhellai arnynt hwy. *O blegid cariad, o Dduw y mae.*—Gesyd yr apostol yr annogaeth i orphwys yma ar ei sylfaen ddyfnaf. "Cariad" fel egwyddor, yn ei ystyr mwyaf eang—y mae ei darddle a'i ffynnonell yn Nuw. Efe yw gwreiddyn a chanolbwynt pob cariad. *A phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef.*—Y mae wedi derbyn iddo ei hun y bywyd newydd ysbrydol sydd o Dduw. *Ac y mae efe yn adnabod Duw.* Yn rhinwedd yr enedigaeth a'r bywyd newydd, y mae efe yn adnabod ac yn cymdeithasu â Duw yn ei rodiad beunyddiol, ac yn mhob amlygiad a ddyry efe o hono ei hun.

8. Cyferbyniad, ond gydag amrywiad. *Yr hwn nid yw yn caru.*—Y ffurf gyffredinol, heb ddim gwrthddrych yn cael ei nodi, 'yr hwn nad yw yr egwyddor o gariad ynddo.' *Nid adnabu Dduw.*—Yr amser gorphenol, yr hwn sydd yn gwneyd cyferbyniad yn gryfach yma na phe buasai yn y presennol: y mae y ffurf hon ar yr amser gorphenol (yr *aorist*) yn cynnwys, 'Nid adnabu Duw erioed; ni bu ynddo o gwbl hyd yn oed ddechreuadau adnabyddiaeth o Dduw.' *O blegid Duw, cariad yw.*—Cariad, heb y fannod: nid priodoledd yn unig yn Nuw yw cariad, ond dyma ei wir hanfod. Dyma egwyddor fwyaf tufewnol y natur ddwyfol: gellir edrych ar bob priodoledd arall fel ffurf ar gariad. Y mynegiad sydd yn y gwirionedd dwfn cynnwysfawr hwn ydyw cnewyllyn yr efengyl. Ond nid dyma y lle i ymdrin âg ystyr a chyssylltiadau duwinyddol yr ymadrodd hwn. Y mae yn debyg fod yr apostol yn cyssylltu dau ddyheu yn yr adnod hon a'r un flaenorol—annog y saint i gariad brawdol, ac ar yr un pryd, rhoddi ar ddeall fod yr amddifadrwydd o gariad yn un o nodau ysbryd anghrist.

9, 10. Y PRAWF, YN EI BERTHYNAS A NI, MAI DUW CARIAD YW.

9. *Yn hyn:*—sef, yn yr hyn sydd yn canlyn—anfoniad y Mab. *Yr eglurwyd cariad Duw tuag atom ni.*—Y mae "tuag atom ni" i'w gyssylltu â'r "eglurwyd," ac nid â'r "cariad." 'Yn hyn y mae cariad Duw wedi ei egluro tuag atom ni.' Yn llythyrenol, 'ynom ni;' mewn perthynas i ni, fel yn *Ioan* ix. 3; nid i ni fel erchywyr, ond yn ein personau a'n hachos ni. *O blegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo ef.*—Edrychir ar yr eglurhâd fel un weithred; sef, anfoniad y Mab—yr hyn oedd mewn ystyr yn cynnwys y cwbl a gymmerodd le mewn canlyniad: ond edrychir ar yr anfoniad yn ei effeithiau presennol parhaus, trwy y rhai y gwnaethpwyd pob peth o newydd. Y mae yn anhawdd meddwl am brawf mwy pendant o raghanfodiad a Duwdod y Mab. Y ddau air pwysleisiol yn yr adnod yw "unig-anedig" a "byw." Dyna oedd y prawf mawr o gariad—fod y fath Fab wedi ei anfon fel y byddem ni byw.

10. Yr un prawf yn cael ei fanylu i'w bwynt uchaf ac ardderchocaf: sef, yr Iawn. *Yn hyn y mae cariad.*—Yn yr achos hwn. *Nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni.*—Cynnwysa hyn fod mawredd y cariad yn dyfod i'r golwg yn y ffaith ei fod i gyd o un ochr, a hono yn ochr Duw—y blaid uchaf, a'r blaid y pechwyd i'w herbyn. Nid oedd ynom ni ddim i deilyngu y cariad dwyfol, ond pob peth i'r gwrthwyneb: yr oeddym yn "elynion," yn "bechaduriaid," fel y dengys y frawddeg nesaf. *Ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau.*—Gwel ar *pen.* ii. 2. Cynnwysa hyn ei farwolaeth, trwy yr hon y daeth efe i fod yn iawn. Dyma oedd gweithred uchaf a choron cariad Duw—anfon ei unig-anedig Fab i farw dros bechaduriaid; a thrwy hyny, i fod yn iawn dros ein pechodau, fel y byddem ni fyw byth trwyddo ef.

11. Cymmhwysiad o'r esampl hon atom ni, fel cymmhelliad i gariad brawdol. *Anwylyd.*—Dull arferol yr apostol o ddechreu cyfarchiad gwresog a difrifol. *Os felly y carodd Duw ni.*—Nid hawdd rhoddi grym yr "os" yma yn y Gymraeg. ar un llaw, nid arwydd o ansicrwydd ydyw; ac Ar y llaw arall, nid ydyw yn hollol gyfystyr â 'gan,' neu 'yn gymmaint a.' Gellir ei alw yn sicrwydd wedi ei gyfleu yn ffurf ammheuaeth, er mwyn i feddwl y gwrandâwr gymmeryd gafael ar y sicrwydd iddo ei hunan, ac nid ei gymmeryd oddi wrth y llefarwr. Yr amgylch-eiriad agosaf ato, hwyrach, a fyddai, 'os gwir yw.' *Ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd.*—Y mae y rhwymedigaeth hon yn deilliaw oddi ar ein bod wedi ein geni o Dduw; pâr hyny fod ei gariad ef ynom ni, yn ein dwyn i'w garu ef, a'r rhai a genhedlwyd o hono. Ein hadnabyddiaeth fyw-iol o'i gariad ef tuag atom ni, yw y cymmhelliad a'r mesur o'n cariad ni at Dduw a'i blant.

[p] Exod. 33. 20; Ioan 1. 18.
[q] 1 Ioan 2. 5.

12 Ni [p] welodd neb Dduw erioed. Os carwn ni ein gilydd, y mae Duw yn trigo ynom, [q] ac y mae ei gariad ef yn berffaith ynom.

13 Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd.

[r] Adn. 10.

14 A ninnau a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ddarfod [r] i'r Tad ddanfon y Mab *i fod* yn Iachawdwr i'r byd.

15 Pwy bynag a [s] gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, [t] y mae Duw [u] yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw.

[s] Mat. 10. 32; Luc 12. 8. [t] Ioan 3. 24.

16 A nyni a adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tuag atom ni. [u] Duw, cariad yw: [v] a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau.

[v] Adn. 13.

17 Yn hyn y perffeithiwyd ein cariad ni, fel [x] y caffom hyder ddydd y farn: o blegid megys ag

[x] Iago 2. 13.

12. *Ni welodd neb Dduw erioed.*—Y mae y dywediad hwn yn dyfod i mewn yn sydyn ac annisgwyliadwy. Yr agoriad iddo, dybygem, i dyw *adn.* 20—yr anweledig yn cael ei amlygu trwy y gweledig, a'r dwyfol trwy y dynol. Y mae yr adnod hon yn eglurhâd ar yr un flaenorol. Dywedir yno fod cariad Duw tuag atom ni yn ein rhwymo ni i garu ein gilydd. Pa ham na ddywedasid 'yn ein rhwymo ni i garu Duw?' Yr atteb ydyw, yn ol yr adnod hon—Y mae Duw yn anweledig; y mae ein cariad ato ef yn cael ei brofi a'i amlygu trwy ein cariad at ein brodyr. *Os carwn ni ein gilydd, y mae Duw yn trigo ynom:*—o blegid y mae caru ein gilydd yn brawf ein bod yn caru Duw, ac felly yn aros yn Nuw, a Duw ynom ninnau: *adn.* 16. *Ac y mae ei gariad ef yn berffaith ynom:—h.y.*, nid ei gariad ef tuag atom ni, ond ein cariad ni tuag ato ef, fel yn *pen.* ii. 5; ac fel y mae y cyd-destyn yn dangos yn amlwg—o blegid mater yr adnodau hyn ydyw, ein cariad at ein gilydd yn brawf ac yn fesur o'n cariad at Dduw. "Yn berffaith:" —neu yn berffeithiedig, wedi ei berffeithio. Gwel *pen.* ii. 5. Yma, megys yno, arwydda ei fod wedi cyrhaedd i'w lawn aeddfedrwydd; o'r hyn y mae caru ein gilydd yn ffrwyth ac yn amlygiad.

13. *Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd.*—Gwel ar *pen.* iii. 24; o'r hon y mae yr adnod yma bron yn ail adroddiad. Ymddengys mai dyben yr adnod hon yn y cyssylltiad yma ydoedd hyn:—sicrhawyd yn yr adnod flaenorol, os byddem yn caru ein gilydd, fod Duw yn trigo ynom—ond y mae Duw yn anweledig: *adn.* 12. Trwy ba arwydd, gan hyny, yr ydym i adnabod preswyliad y Duw anweledig o'n mewn? Y mae yr adnod hon yn atteb:—y mae efe yn rhoddi tystiolaeth o'i gyd-breswyliad ef a ninnau, y naill yn y llall, trwy "roddi i ni o'i Ysbryd." Blaenffrwyth yr Ysbryd yw cariad; ac y mae ei bresenoldeb ef yn brawf o gariad, ac felly o'r preswyliad dwyfol. Ofer ydyw ceisio gwadu personoliaeth yr Ysbryd Glân oddi wrth y cyfryw ymadroddion a hyn—"rhoddi o'i Ysbryd." Cymmharer *Act.* ii. 17; *Ioel* iii. 1.

14—16. Ymddengys mai fel hyn yr ydym i ddeall cyssylltiad yr adnodau hyn:—Y dystiolaeth dufewnol o fod Duw yn trigo ynom ni, a ninnau ynddo yntau, ydyw y rhoddiad o'i Ysbryd. Ond nid dyma yr unig dystiolaeth, neu brawf, sydd genym. Y mae y dystiolaeth dufewnol hon yr cyssylltiedig â, ac yn cael ei gwneuthur ei hunan yn bossibl gan (*adn.* 19) ein hadnabyddiaeth o gariad y Tad yn anfon ei Fab i fod yn Iachawdwr; ac y mae hon yn ffaith sydd yn cael ei gwirio gan dystiolaeth ddynol. Y mae y gydnabyddiaeth hon o gariad Duw yn ammod o'n harosiad ni ynddo ef, ac yntau ynom ninnau. Dyma yw "aros yn ei gariad ef"—yr hyn sydd yr un peth ag aros ynddo ef.

14. *A ninnau a welsom, ac ydym yn tystiolaethu.*—Y mae y "ninnau" yn dwyn i sylw arbenig yr apostolion fel dosbarth wedi eu horbeinio gan Grist i fod yn dystion iddo ef: *Ioan* xv. 27; *Act.* i. 8. Yr oeddynt yn llygad-dystion o'r efengyl, yn ei gwrthddrych a'i ffeithiau, ac i ddwyn tystiolaeth gyfatteb'ol iddi yn eu gweinidogaeth. *Ddarfod i'r Tad ddanfon y Mab i fod yn Iachawdwr i'r byd.*—Nid yn unig yn tystiolaethu i hyn fel ffaith hanesyddol wedi myned heibio, ond i'w dylanwad arosol—yr hyn a awgrymir yn niwedd yr adnod. Y maent yn tystiolaethu i'r gwirionedd parhaus fod y Mab yn Iachawdwr y byd.

15. *Pwy bynag a gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw.*—Edrychir ar y gyffes yma yn yr *ideal* uchel o honi, fel y dylai fod: cyffes gyhoeddus, yn tarddu o ddirnadaeth grediniol y galon o wirionedd yr efengyl, fel y gosodir ef allan yn yr adnod flaenorol. Nid yw cyffes ragrithiol â'r genau yn cael ei chydnabod yma o gwbl. Y mae cydnabyddiaeth ffyddiog o ffaith fawr yr efengyl yn ammod ac yn brawf o'n trigias yn Nuw.

16. *A nyni.*—Nid y corph apostolaidd yn unig sydd yma, ond yr apostol a'i ddarllenwyr. *A adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tuag atom ni.*—Adnabod a chredu ydyw dau wreiddyn y "cyffesu." Y mae adnabod a chredu, yn iaith Ioan, yn dwyn perthynas agos â'u gilydd. Dywed Lücke mai "gwir ffydd, yn ol Ioan, ydyw ffydd o wybodaeth a phrofiad; ac mai gwir wybodaeth ydyw gwybodaeth o ffydd." "Tuag atom ni."—Mewn perthynas i ni: yn llythyrenol, 'ynom ni,' fel yn *adn.* 9. *Duw, cariad yw; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau.*—Dyma adgrynhoad difrifol a ffurfiol o sylwedd y paragraph hwn, o *adn.* 7 hyd yma. Ac yma, fel yno, y mae "cariad" i'w ddeall yn ei ystyr eangaf, fel egwyddor. Yr amlygiad mawr o hono, o'i du ef, ydoedd anfoniad y Mab: y ddau brif amlygiad o'n tu ninnau ydyw, cariad at Dduw, ac at ein gilydd. Ffrwyth ei gariad ef tuag atom ni ydyw ein cariad ni tuag ato ef; a chanlyniad bendigedig y ddau yw ei arosiad ef ynom ni, a ninnau ynddo yntau.

17, 18. Y mae yr adnodau hyn, y rhai ydynt yn cyfatteb i *pen.* iii. 19—21, yn gosod allan yr hyder a ddyry perffaith gariad i'r credadyn yn nydd y farn.

y mae efe, yr ydym ninnau hefyd
[y] Luc 1. 74, yn y byd hwn.
75; Rhuf. 8.15. 18 [z] Nid oes ofn mewn cariad;

17. *Yn hyn y perffeithiwyd ein cariad ni, fel y caffom hyder ddydd y farn.*—Yn lle "ein cariad ni," y cyfeithad goreu ydyw 'cariad gyda ni' (*meth' hémôn*). Y mae "gyda ni" i'w gyssylltu â'r sylweddair "cariad," ac nid â'r ferf "perffeithiwyd," ac yn golygu y cariad rhwng Duw a ni. Y prif gwestiwn yn yr adnod hon ydyw, At ba beth y cyfeiria y geiriau cyntaf ynddi?—"yn hyn." Yn mha beth? Y mae tri golygiad ar hyn:—yn laf, Y mae rhai yn dal fod yr ymadrodd "yn hyn" yn edrych yn ol at ddiwedd *adn.* 16, ac yn golygu cydarosiad Duw a'r credadyn y naill yn y llall. Ond ni buasai y mynegiad fod cariad yn cael ei berffeithio trwy aros mewn cariad, neu aros yn Nuw, &c. yn rhoddi unrhyw ystyr cysurlawn, neu o duedd i gynnyrchu hyder. Y mae yn anhawdd gweled, yn ol y golygiad hwn, pa fodd y gellir cyssylltu y frawddeg "fel y caffom hyder," &c., â'r un o'i blaen. Yn 2il, y mae ereill yn deall yr ymadrodd "yn hyn" fel yn edrych yn mlaen at ddiwedd yr adnod: "o blegid megys ag y mae efe," &c., ac felly, yn gwneyd tebygolrwydd i Grist yn berffeithiad y cariad, ac yn ddefnydd yr hyder. Y mae y golygiad hwn yn rhoddi ystyr dda arni ei hunan, a gwir o ran sylwedd: ond y mae cystrawiad yr adnod, ei chyssylltiad âg *adn.* 18, ynghyd âg arddull gyffredin Ioan, yn myned yn erbyn yr esboniad hwn. Yn 3ydd, Y golygiad cywir, feddyliem, ydyw, fod "yn hyn" i'w gyssylltu yn uniongyrchol â'r darn dilynol o'r frawddeg—"fel y caffom hyder ddydd y farn." Nid yw y gair "fel" (*heina*) yn cael ei ddefnyddio yma yn ei ystyr o ddyben (*y telic force*); ond yr ystyr arall, sydd mor fynych i'r gair yn ysgrifeniadau Ioan, o ddwyn i mewn yn eglurhaol fater, yr hyn y cyfeirir ato yn y frawddeg flaenorol: dyma y defnydd a wneir o'r gair yn *pen.* iii. 1, 11, 13, &c. Yr ystyr, gan hyny, ydyw, mai perffeithiad cariad yw caffael hyder ddydd y farn. Ond y mae yma anhawsder yn cyfodi:—Pa fodd y gellir penderfynu gweithred orphenol; sef, fod cariad wedi ei berffeithio, trwy amgylchiad dyfodol?—sef, meddu hyder yn nydd y farn. Mewn attebiad i hyn, rhaid i'r gorphenol a'r dyfodol gael eu cyssylltu â'u gilydd trwy y presennol. Y mae gan y saint ryw fesur o hyder yn awr yn y rhagolwg ar ddydd y farn, sydd yn ernes neu yn flaenbrawf o hyder cyflawn yn nydd y farn ei hunan. Y mae Ebrard yn arall-eirio ystyr yr adnod fel hyn':—Y mae Duw yn ewyllysio ar fod i ni gael hyder yn nydd y farn; y mae yr ewyllys hono yn cael ei dadguddio i ni yn dumewnol, ac yn profi ei hunan eisoes yn allu o hyder o'n mewn: yn hyn y dangosir fod y berthynas o gariad rhwng Duw a ninnau wedi ei pherffeithio. *O blegid megys ag y mae efe, yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn.*—Dyma reswm neu sail yr hyder. Ond pa fodd y mae hyn yn sail yr hyder, neu yn rheswm am dano? Rhaid addef fod anhawsder neilduol yn y geiriau hyn; ac nid yw yn rhyfedd fod esbonwyr wedi ymddyrysu cymmaint gyda hwynt. Addefir yn gyffredin fod yr "efe" yn cyfeirio at Grist: ond yr anhawsder ydyw, penderfynu grym neu ystyr pendant y geiriau "yn y byd hwn:"—a ydynt i'w cyssylltu âg "efe," yn gystal ag â "ninnau?" Yn mha beth y mae y tebygolrwydd a nodir yma yn gynnwysedig? A pha fodd y mae yn dyfod yn rheswm

eithr y mae perffaith gariad yn
bwrw allan ofn: o blegid y mae i
ofn boenedigaeth. [z] *A'r* hwn sydd [a] Adn. 10.

dros feddu hyder yn nydd y farn? Nodwn yn fyr yma amryw olygiadau:—1af, Y mae un esboniwr, bron mewn anobaith, yn gwneyd mor hyf ag awgrymu, heb broffesu dim awdurdod beirniadol dros hyny, y priodoldeb o ddarllen *outós* (yr un modd, neu fel) yn lle *estín* (y mae). Yn ol hyn, dyna fyddai yr ystyr:—'Yr ydym ni, megys ag yr oedd Crist unwaith, yn y byd drwg hwn, ond heb fod o'r byd; felly, gallwn edrych gyda hyder at ei ddyfodiad ef i farn.' 2il, Rhoddir ystyr gorphenol i "mae" (*historical present*): 'Megys ag y mae Crist yn sefyll ger bron ein llygaid yn yr hanes sanctaidd, yn dioddef ac yn cael ei erlid, felly yr ydym ninnau yn y byd drwg hwn; ac am hyny yn llawenychu yn y gobaith am waredigaeth.' 3ydd, 'Yr ydym ni yn awr, "yn y byd hwn," yn debyg i Grist. Y tebygolrwydd hwn yw y prawf o'n perthynas â Duw, a'n cariad ato fel ei blant: y mae hyn, gan hyny, yn rhoddi hyder ynom yn y rhagolwg ar ddydd y farn.' Yn ol y golygiad yma, ufudd-dod i'r gorchymynion ydyw y rheswm am yr "hyder," fel yn *adn.* 21, 22. 4ydd, 'Megys ag y mae Crist ei hun yn cael ei erlid etto yn y byd, yn ei eglwys, ac yn mhersonau ei bobl, felly yr ydym ninnau, gan hyny, yn dioddef drosto ef, a chydag ef; nid ydym ni yn y byd, ac o dan erledigaeth, ond yn yr un ystyr ag y mae efe yn y byd, ac yn dioddef ynom ni. Felly mae genym ni sail i edrych gyda hyder ar ei ddyfodiad ef i farnu y byd.' Gallem feddwl mai y trydydd golygiad a nodwyd yw yr un mwyaf syml, ac sydd yn ymasio oreu â'r cyddestyn. Yr unig anhawsder ynglŷn â'r golygiad hwn ydyw, fod yr amser presennol syml yn cael ei ddynodi trwy ffurf mor bendant neu arbenig, â'r geiriau "yn y byd hwn."

18. *Nid oes ofn mewn cariad; eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn.*—Dadblygiad pellach o'r un meddwl; sef, mai perffeithiad cariad ydyw hyder. Y mae yr esbonwyr hyny yn camsynio, feddyliem, sydd yn cyfyngu y cariad i gariad Duw tuag atom ni, neu i'n cariad ni tuag at Dduw, neu i'n cariad tuag at y brodyr. Cyferbynu ofn â chariad y mae yr apostol, o ran eu natur, fel dwy egwyddor yn eu hystyr mwyaf eang. O ran eu natur a'u hanfod, y mae y naill deimlad yn cau y llall allan; lle y mae perthynas o gariad wedi ei sefydlu, nid oes le i ofn. O blegid hyn y dywedir yn yr adnod o'r blaen, fod y berthynas o gariad rhyngom ni a Duw wedi ei pherffeithio mewn hyder. *O blegid y mae i ofn boenedigaeth.*—Mae y gair a gyfleithir "poenedigaeth" yn golygu yn ei ystyr priodol gospedigaeth. Felly, dywed rhai mai dyna yr ystyr yma—fod i ofn gospedigaeth; *h.y.*, fod ofn yn cynnwys cospedigaeth trwy yr ymwybyddiaeth o haeddu cosp: y mae y gosp yn cael ei chario i fesur yn awr yn y blaenbrawf o honi. Golyga ereill, megys Luther, a Bengel, &c., er mai cosp ydyw ystyr y gair, ei fod, yn y lle hwn, yn meddwl poen—trwy roddi yr effaith am yr achos. *A'r hwn sydd yn ofni, ni pherffeithiwyd mewn cariad.*—Gosodiad cyferbyniol i'r frawddeg o'r blaen: "y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn." Gyda golwg ar absennoldeb ofn o gariad y Cristion, dywed Œcumanius fod dau fath o ofn duwiol:—Yr ofn parotoawl, yr hwn sydd yn trallodi dynion â theimlad o euogrwydd, ac âg arswyd digofaint

yn ofni, ni pherfeithiwyd mewn cariad.

[a] Luc 7. 47; Ioan 3. 16.

19 [a] Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.

20 Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, ac efe yn casau ei frawd, celwyddog yw: canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd?

21 A'r gorchymyn hwn sydd genym oddi wrtho ef; Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd.

PENNOD V.

1 *Y neb sydd yn caru Duw, sydd yn caru ei blant ef hefyd, ac yn cadw ei orchymynion ef,* 3 *y rhai sydd ysgafn, ac nid trymion, i'r fyddloniaid.* 9 *Y mae Iesu yn Fab Duw, ac yn abl i'n hachub ni;* 14 *ac i urandaw ein gweddïau, y rhai yr ydym yn eu gwneuthur drosom ein hunain, a thros ereill.* B. A. 95.

[a] Mat. 16. 16; Ioan 1. 12, 13.

[b] 1 Ioan 2. 22; 3. 9: 4 7.

POB un [a] a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, [b] o Dduw y

Duw; nid yw hwn i barhau ond dros amser. Y llall yw yr ofn sydd yn perfeithio, am yr hwn y dywedir. "Ofn yr Arglwydd sydd lân, ac yn parhau yn dragywydd:" *Salm* xix. Dywed Bengel:—"Y mae cyflwr dynion yn amrywiol: heb ofn na chariad, gydag ofn heb gariad, gydag ofn a chariad, heb ofn a chyda chariad."

19. *Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.*—Yr un meddwl, o ran sylwedd, ag yn *adn.* 11. Yr ydym yn caru Duw yn gystal a'n gilydd, "am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." Fel hyn y mae Ebrard yn cyssylltu yr adnod hon â'r rhai blaenorol:—Nid oes ofn mewn cariad, y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn; canys y mae i ofn bob amser boen (arswyd pryderus y gosp), yr hwn sydd yn anghymmodadwy â chariad. Yn awr, nid oes genym ni ofn: yr ydym yn byw ac yn symmud mewn cariad, a hyny am fod Duw yn gyntaf wedi ein caru ni (yn anfoniad Gwaredwr); o ganlyniad, ni raid i ni ofni unrhyw gospedigaeth ddyfodol. Y mae rhai yn dal fod y gair "caru" yma yn y modd gorchymynol—'Bydded i ni ei garu ef;' ond y mae yn fwy naturiol ac yn fwy cyddweddol â'r mater i'w ddeall yn y modd mynegol. Cariad Duw tuag atom ni ydyw yr achos gwreiddiol o'n bod ni yn ei garu ef; a phrofiad o'r cariad hwnw ydyw yr achos offerynol ac effeithiol sydd yn ein dwyn ni i garu Duw. Fel hyn, yn ol natur pethau, y mae cariad yn rhydd oddi wrth ofn, ac yn llawn o hyder, fel y mae yn tarddu o brofiad o'i gariad ef tuag atom ni.

20. *Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, ac efe yn casau ei frawd, celwyddog yw: canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd?*—Dangosodd yr apostol o'r blaen (12—16), y berthynas fywiol oedd rhwng cariad at Dduw a'r gyffes grediniol o Iesu Grist. Dengys yn awr y berthynas fywiol sydd rhwng cariad at Dduw a chariad at y brodyr. Nid yw grym yr ymresymiad yn gorwedd yn hyn—fod yn haws caru bŏd gweledig nag un gweledig, a bod yr hwn sydd heb wneyd y cyntaf yn sicrach fyth o beidio gwneyd yr olaf. Nid yw hyn ynddo ei hunan yn wirionedd. Yn yr ymresymiad hwn o eiddo yr apostol, nid yw y cwestiwn yn troi ar 'hawddach' ac 'anhawddach.' Llai fyth yr ydym i olygu, fel y dywed rhai, fod yr apostol yn dysgu nas gellir caru unrhyw wrthddrych heb iddo fod yn weledig: pe felly, byddai cariad at Dduw yn ammhossibl. Y mae grym yr ymresymiad yn gorwedd yn *adn.* 12. Dangosir i ni fyno—am nas gallwn weled Duw â'n llygaid, nad oes genym unrhyw gyfleusdra i ddangos ein cariad yn weithredol ato ef, ond trwy ddangos ein cariad at y rhai y mae efe yn trigo ynddynt. Felly y dywed Sander:—"Yr hwn nad yw yn adwaen ac yn anrhydeddu delw

PENNOD V.

1 *Y neb sydd yn caru Duw, sydd yn caru ei blant ef hefyd, ac yn cadw ei orchymynion ef,* 3 *y rhai sydd ysgafn, ac nid trymion, i'r fyddloniaid.* 9 *Y mae Iesu yn Fab Duw, ac yn abl i'n hachub ni;* 14 *ac i urandaw ein gweddïau, y rhai yr ydym yn eu gwneuthur drosom ein hunain, a thros ereill.*

POB un [a] a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, [b] o Dduw y

Duw yn ei frawd, sydd trwy hyny yn dirmygu y gwrthgysgod, sef Duw ei hun." Felly Calvin:—"Tybia yr apostol yma fod Duw yn cyflwyno ei hun i ni yn mhersonau dynion, y rhai ydynt yn dwyn ei ddelw ef arnynt. Nid ydyw Ioan yn meddwl dim mwy na bod y dyn hwnw yn gwneyd ymffrost gwag, sydd yn proffesu caru Duw, tra yn esgeuluso delw Duw o flaen ei lygaid. Felly nid ymresymiad o'r lleiaf i'r mwyaf sydd yma, fel pe dywedasid—'Yr hwn nis gall garu ei frawd gweledig, llawer llai y gall garu y Duw anweledig.' Nid yw fod un yn weledig, a'r llall yn anweledig yn cael ei ddwyn yn mlaen yma i ddangos mawredd y pellder neu y gwahaniaeth rhwng Duw a'r brodyr; ond y mae y "gweledd" a'r "nis gwelodd" yn edrych yn ol at *adn.* 12, ac yn dangos y berthynas rhwng y Duw anweledig a'r delweddau gweledig sydd yn ei gynnrychioli ef, ar y rhai y mae efe am i ni ddangos ein cariad tuag ato ef. Felly y meddwl ydyw—'Yr hwn nid yw yn caru ei frawd, yr hwn a welodd, nis gall efe garu Duw, yr anweledig; o blegid rhaid i'r hwn sydd yn caru Duw garu natur Duw hefyd pan ei cyfiwynir yn weledig ger ei fron.' Y mae yn debyg mai ystyr uniongyrchol y "brodyr" yn yr adnodau hyn ydyw Cristionogion—rhai wedi eu geni o Dduw, brodyr yn Nghrist. Ar yr un pryd nis gallwn lai na meddwl gydag Ebrard, fod yma wirionedd mwy cyffredinol yn gorwedd o dan yr ymdriniaeth; sef, y ddyledswydd o garu dynion yn gyffredinol, yn unol â dysgeidiaeth ein Hiachawdwr (cymmharer *Ioan.* xiii. 34, â *Luc* x. 27—37), fel rhai wedi eu creu ar ddelw Duw; a bod ein cariad ar un llaw i esgyn trwy y dynol at y dwyfol, fel y mae ar y llaw arall i gael ei adlewyrchu o'r dwyfol at y dynol.

21. *A'r gorchymyn hwn sydd genym oddi wrtho ef.*—Duw, medd rhai: Crist, medd ereill. *Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd.*—Nid yn unig y mae cariad brawdol yn ddyledswydd i'w hymresymu allan oddi wrth natur crefydd, ond yn fater o orchymyn pennodol. Y mae y gorchymyn hwn i'w gael yn y crynodeb a roddodd ein Hiachawdwr o'r gyfraith, ac yn ei ddysgeidiaeth gyffredinol: *Mat.* xxii. 37—39; *Ioan* xiii. 34; *Luc* x. 27—37.

PENNOD V.

1. *Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef.*—Yr oedd Cerinthus a'i blaid yn gwadu erthygl fawr ffydd yr efengyl, trwy ddadgyssylltu y dyn Iesu oddi wrth y Crist. Felly gosodir hyn i lawr yma fel erthygl sylfaenol Cristionogaeth—fod Iesu yr un a Christ: "Mai Iesu yw y Crist." Y mae y gosodiad hwn, fod perchen ffydd wedi ei eni o Dduw, i'w weled yn amlwg trwy gymmharu *pen.* iv. 15, 16, â *pen.* ii. 29, a iii. 1, &c. *A phob un a'r sydd yn caru yr*

ganed ef: a phob un a'r sydd yn caru yr hwn a genhedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd o hono.

2 Yn hyn y gwyddom ein bod yn caru plant Duw, pan fyddom yn caru Duw, ac yn cadw ei orchymynion ef.

3 Canys hyn yw cariad Duw; bod i ni gadw ei orchymynion: a'i orchymynion ef nid ydynt drymion.

4 O blegid beth bynag a aned o Dduw, y mae yn gorchfygu y byd: a hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, *sef* ein ffydd ni.

5 Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw?

hwn a genhedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd o hono.—Yr ymresymiad yw hyn:—Y mae yr hwn sydd yn credu wedi ei eni o Dduw, ac felly o angenrheidrwydd yn caru Duw. Y mae yr hwn sydd fel credadyn yn caru Duw, o angenrheidrwydd yn caru hefyd yr holl greduriaid; o blegid y mae y rhai hyn hefyd wedi eu geni o Dduw, ac felly yn gydgyfranogion o'r un natur ddwyfol—yn frodyr yn yr ystyr uchaf. Y mae yr adnod hon yn atteb cwestiwn a allasai gyfodi yn naturiol o'r adnod flaenorol:—A phwy yw ein brawd? A pha ham y mae yr enw "brawd" yn cario gydag ef y fath rwymedigaeth i gariad?

2. *Yn hyn y gwyddom ein bod yn caru plant Duw, pan fyddom yn caru Duw, ac yn cadw ei orchymynion ef.*—Dangoswyd, yn *pen.* iv. 20, fod caru ein brodyr yn arwydd ac yn ammod angenrheidiol o'n cariad at Dduw; felly dangosir yma, o'r ochr arall, fod ein cariad at Dduw, yr hwn a amlygir trwy gadw ei orchymynion ef—fod hwnw ei hunan hefyd yn fesur o'n cariad at blant Duw. Dangoswyd mewn amryw adnodau yn y bennod o'r blaen am ffydd a chariad brawdol, fod y naill a'r llall yn arwydd o "Ysbryd Duw." Dangosir yma eu bod hefyd yn arwydd o'u gilydd. Lle nad oes gariad brawdol, nis gall fod gwir ffydd a gwir gariad at Dduw; a lle nad oes gwir ffydd a gwir gariad at Dduw (yn dyfod i'r golwg trwy gadw ei orchymynion ef), nis gall fod yno gariad brawdol. Y mae presennoldeb y naill yn brawf sicr o'r llall.

3. *Canys hyn yw cariad Duw; bod i ni gadw ei orchymynion.*—Yr ydoedd cariad at Dduw, a "chadw ei orchymynion," wedi eu cyssylltu yn niwedd yr adnod o'r blaen. Yn awr, rhoddir y rheswm am y cyssylltiad hwn:—y mae cariad at Dduw, o ran ei ffrwyth a'i brofion gweledig, yn gynnwysedig mewn cadw ei orchymynion ef.—*A'i orchymynion ef nid ydynt drymion.*—Rhoddir y rheswm pa ham nad ydynt drymion yn yr adnod nesaf. Y mae rhai o'r esbonwyr Pabaidd wedi gwneyd defnydd o'r geiriau hyn, yn gystal ag o *pen.* iii. 9, i feio yn dôst y gosodiad y mae Protestaniaid yn ei ddal ar hyn—nas gall neb gadw gorchymynion Duw. Y mae yr atteb yn hawdd. Dengys yr apostol, yn yr adnod nesaf, mai y rheswm am nad yw y gorchymynion yn drymion ydyw, fod y rhai sydd wedi eu geni o Dduw yn gorchfygu y byd trwy ffydd. Yn yr ystâd fuddugoliaethus hon, ac i'r graddau y maent wedi myned i mewn iddi—mewn geiriau ereill, i'r graddau y mae y bywyd dwyfol wedi ei ddadblyguac yn llywodraethu ynddynt—y maent yn profi nad yw gorchymynion Duw yn drymion. Y dywediad hwn ydyw y cyfrwng, yr hwn sydd, fel pont, yn ein trosglwyddo i fater newydd, yr hwn sydd yn ffurfio y gyfran olaf o'r Epistol.

4—21. Y DRYDEDD RAN, A'R OLAF O'R EPISTOL.

4. *Ffydd yn gorchfygu y byd.*—Yr oedd y cwbl, o *pen.* iv. 1 hyd yma, yn troi o amgylch cyffesu Iesu Grist, a chariad brawdol. Dangoswyd fod pob un o'r ddwy elfen yma ynddi ei hunan yn arwydd o Ysbryd Duw, ac o fywyd yn Nuw; yna eglurwyd hwynt yn eu perthynas fywiol â'u gilydd, ac fel yr oedd y naill yn brawf o'r llall. Felly, oddi yma i ddiwedd yr Epistol, y mae y cwbl yn troi o amgylch y drychfeddwl o ffydd fel buddugoliaeth ar y byd. Ond edrychir ar y ffydd hon mewn amrywiol agweddau. O *adn.* 6 hyd 8, edrychir arni o ran ei mater, neu ei chynnwysiad allanol; o *adn.* 9 hyd 12, yn ei sicrwydd, a'i grym tumewnol; ac o *adn.* 13 hyd y diwedd, yn ei hamrywiol effeithiau. *O blegid beth bynag a aned o Dduw, y mae yn gorchfygu y byd.*—Nid ffydd a feddylir wrth y "beth bynag" yma, ond Cristionogion. Y mae Ioan yma, fel yn fynych, yn crynhoi y "ni" o'r adnod o'r blaen ynghyd yn un dosbarth, fel 'peth' (*neuter*), dan yr enw "beth bynag a aned o Dduw." "Y byd"—teyrn• as pechod o dan ei thywysog, diafol, gelyn Duw. Dyma yr ymresymiad, dybygid:—Nid yw gorchymynion Duw yn drymion; canys er fod eu cadw yn ymdrechfa barhaus, etto y mae yr ymdrechfa hono yn wastad yn dybenu mewn buddugoliaeth; felly ni raid i neb lwfrhau na diffygio yn yr ymdrech. *A hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni.*—Y mae y "gorchfygu," yn y rhan flaenaf o'r adnod, yn yr amser presennol, yn gosod allan arferiad, ac i ddangos parhâd y frwydr; ond yma, y mae y gair yn y gwreiddol yn yr amser gorphenol—"sydd wedi gorchfygu:" i arwyddo fod y fuddugoliaeth eisoes ar ryw gyfrifon pwysig wedi ei hennill, a'r sicrwydd yr ennillir hi yn llwyr yn y diwedd. Y mae gwneyd ffydd a'r fuddugoliaeth yr un peth a'u gilydd ("hon yw") yn ddull cryf o ddangos y cyssylltiad anwahanol sydd rhyngddynt. Nid oes buddugoliaeth heb ffydd: nid oes ffydd heb fuddugoliaeth. Rhaid cofio, yr un pryd, nad ffydd fel egwyddor dumewnol, wrthi ei hunan, sydd yn gorchfygu; ond "ein ffydd ni," fel y mae yn cynnwys ei gwrthddrych, Iesu Grist. Ei nerth dwyfol ef, fel goleuni a bywyd yn gweithio trwy ffydd ynom a thrwom ni, sydd yn gorchfygu pob peth croes iddo ei hunan.

5. *Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw?*—Y mae yr adnod hon yn profi gwirionedd y sylw diweddaf ar *adn.* 4. Dyma y rheswm am nerth ffydd i orchfygu y byd: am ei bod yn dyfod â ni i undeb âg Iesu Grist, Mab Duw, gan ein gwneuthur yn gyffelyb iddo ef, ac yn gyfranogion o'i fuddugoliaeth ef: *Ioan* xvi. 33. Trwy y greduriaeth hon, genir ni o newydd yn feibion i Dduw: yna y mae eic ynom. "Un cryfach na'r hwn sydd yn y byd:" *pen.* iv. 4. Crist ei hun, yn cael ei dderbyn trwy ffydd, ac yn dyfod yn allu tumewnol yn y credinwyr, sydd yn gorchfygu y byd. Rhoddir y gwirionedd hwn yma yn y ffurf o gwestiwn buddugoliaethus:—Pwy arall a all

[a] Ioan 19. 34, 35. 6 Dyma [a]yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, *sef* Iesu Grist; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed. A'r Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu, o blegid yr Ysbryd sydd wirionedd.

orchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu hyn? Pwy yn credu hyn a all beidio gorchfygu? "Mai Iesu yw Mab Duw:"—dyma gyflwyniad etto o'r efengyl yn y ffurf gyfaddas i wrthweithio cyfeiliornad Gnosticiaeth.

6. *Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, sef Iesu Grist; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed.*—"Dyma:" sef, y person y lleferir am dano yn yr adnod o'r blaen—Iesu. Rhaid addef fod anhawsderau neilldiol yn perthyn i ddeongliad yr adnod hon, fel y tystiolaetha yr amrywiaeth mawr o olygiadau sydd yn mhlith esbonwyr ar ei hystyr. Y mae yr anhawsder hwn yn perthyn i gynnwys yr adnod arni ei hunan, ac hefyd i'w chyssylltiad â'r adnodau o'i hamgylch. Iaf, Y cwestiwn o barth i'w chyssylltiad â'r adnod flaenorol, ydyw—Pa un o'r ddau osodiad, yn *adn.* 5, y mae yr adnod dan sylw yn ei brofi a'i egluro? Pa un ai y gosodiad lleiaf, sef "mai Iesu yw Mab Duw"—ai ynte y prif osodiad, sef mai ffydd yn y gwirionedd am Grist yw y gallu sydd yn gorchfygu y byd? Yr ydym yn credu gydag Ebrard mai yr olaf ydyw gwir gyssylltiad yr adnod, am y rheswm canlynol:—(1.) Nid oedd angen yn awr am i Ioan brofi y gosodiad cyffredinol mai Iesu oedd Mab Duw; o blegid yr ydoedd wedi profi y gosodiad hwn yn helaeth yn *pen.* iv., gan egluro i gyssondeb â holl egwyddorion ein gwybodaeth am Dduw. (2.) Ceir gweled yn ein hymchwiliad i ystyr yr adnod nad yw ei chynnwys yn gwasanaethu i brofi y gosodiad mai Iesu yw Mab Duw. (3.) Yr ydym yn barnu y gwelir ar y llaw arall fod yr hyn a ddywedir yn *adn.* 6 yn profi neu yn egluro y prif osodiad yn *adn.* 5; sef, fod ffydd yn derbyn ei grym i orchfygu y byd oddi wrth ei chyssylltiad bywiol â'r person ag y mae iachawdwriaeth ynddo, sef "yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed." (4.) Yr ydym yn meddwl mai yr un golygiad ag sydd yn ei chyssylltu â'r adnod o'i blaen, yn unol â'r eglurhâd uchod, sydd hefyd yn ei chyssylltu yn fwyaf naturiol â'r adnodau ar ei hol. Yr hyn sydd yn dangos fod iachawdwriaeth yn mherson Crist, ac felly yn rhoddi cyfrif am ddylanwad ffydd ynddo i orchfygu y byd, yn unol âg *adn.* 5, sydd hefyd yn dangos, yn unol âg *adn.* 7, 8, beth yw natur y tystion sydd yn aros i wirionedd tystiolaeth yr efengyl—fod bywyd tragwyddol i bechadur yn Nghrist. 2il, Ceisiwn yn awr edrych i ystyr *adn.* 6 wrthi ei hunan. Pa beth yw yr hyn a ddywedir ynddi? Beth yw ystyr yr ymadrodd "dyfod trwy?" Beth yw y "dwfr" a'r "gwaed?" Pa beth yw ystyr y pwys neilldiol a osodir ar y ffaith, "nid trwy ddwfr yn unig?" Pa fodd y mae y dwfr a'r gwaed yn tystiolaethu? ac o ba beth y maent yn dystiolaeth? Byddai yn afreidiol, yn gystal ag yn rhy faith, i nodi yr holl olygiadau gwahanol a gynnygiwyd gan esbonwyr ar yr adnod hon. Gallem nodi yn fyr, fel enghraifft o'r amrywiaeth hwn, rai o'r syniadau a ddygwyd yn mlaen ar ystyr y "dwfr a'r gwaed." Yn ol Grotius, arwydda y "dwfr" sancteiddrwydd pur yr Iesu, a'r "gwaed" ei angeu. Dywed Wahl, mai y dwfr ydoedd y llef o'r nef yn medydd Crist. Dealla Stroth, wrth y gwaed, dystiolaeth y canwriad Cenhedlig wrth y groes. Gwna Zeigler y ddau i arwyddo adgyfodiad ac esgyniad y Gwaredwr. Esbonia Clemens Alexandrinus y dwfr fel adgenhediad, a'r gwaed fel gwybodaeth; ac felly yn mlaen yn ddiderfyn. Nodwn etto ddau olygiad ar yr adnod, heblaw yr un a ystyriwn ni y goreu. Iaf, Yn ol Awstin, Vatablus, Bain, ac ereill, yr hyn a olygai Ioan wrth y "dwfr a'r gwaed" oedd, y dwfr a'r gwaed a lifodd allan o ystlys yr Iesu ar y groes, wedi ei thrywanu â'r waywffon. Ymddengys y golygiad hwn i ni yn un hynod o ddisail ac arwynebol. (1.) Y mae yn rhywbeth yn erbyn y golygiad hwn fod cyfeiad y ddau yn wahanol yn hanes y croeshoeliad i'r hyn ydyw yma:—"gwaed a dwfr" yw y drefn y gosodir y ddau yn yr hanes. Ond y mae yn anhawdd darllen yr adnod hon yn ystyriol heb deimlo mai y dwfr oedd yn gyntaf, a bod rhyw ystyr i hyny, yn y peth y cyfeiria yr adnod ato, beth bynag oedd hwnw. (2.) Y mae yn wir fod Ioan, yn ei Efengyl, yn dwyn tystiolaeth mewn modd arbenig a difrifol i'r ffaith, fod gwaed a dwfr wedi dyfod allan o ystlys yr Iesu ar y groes; ond y mae yn amlwg fod yr efengylwr yn rhoddi pwys ar y ffaith hon yn yr hanes, yn unig fel yr oedd yn brawf o wirionedd ei farwolaeth ef, ac nid am fod unrhyw ystyr allegawl neu gyfriniol i'r gwaed a'r dwfr yn y cyssylltiad hwnw. Ond y mae yn amlwg mai nid am wirionedd marwolaeth Crist, fel ffaith hanesyddol, y sonia yr apostol yn yr adnodau hyn, ond am fater arall hollol wahanol. Buasai hyny yn hollol anmherthynasol i'r mater sydd ganddo dan sylw yma. (3.) Pwy byth a fuasai yn meddwl am ddefnyddio y fath ymadrodd a hwn—"dyfod trwy ddwfr a gwaed," i osod allan y ffaith syml fod gwaed a dwfr wedi llifo allan o gorph y Gwaredwr? (4.) Ar y dybiaeth mai at y gwaed a'r dwfr yn y croeshoeliad y cyfeirir yma, ymddengys i ni yn hollol anamgyffredadwy pa ham y dywedai Ioan "nid trwy ddwfr yn unig." A ddarfu i rywun erioed haeru na ddaeth allan o'i ystlys ond dwfr yn unig? Ni buasai yr apostol yn rhoddi y geiriau hyn i lawr, "nid trwy ddwfr yn unig," oni buasai fod rhyw ystyr neilldiol iddynt, a'i fod yn cyfeirio at rywbeth arbenig trwyddynt. (5.) Ymddengys fod yr apostol yn rhoddi i lawr y "dwfr" a'r "gwaed" yma, nid fel dau beth yn unig—nid fel chwanegiad rhifyddol, yr ail at y cyntaf; ond ei fod yn awgrymu cyferbyniad rhwng y ddau â'u gilydd—yn gosod y "gwaed" ar gyfer y "dwfr." Gellir gofyn, pa rym neu ystyr a allasai fod i'r cyferbyniad hwn ar y dybiaeth mai y dwfr a'r gwaed a ddaeth allan o'r archoll a feddylir? 2il, Golygiad arall ydyw yr eiddo Olshausen, Wolf, Carpzov, ac ereill; sef, fod y "dwfr" yma yn golygu y bedydd Cristionogol; a'r "gwaed" yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd. Er nad ydym yn meddwl fod y golygiad hwn yn hollol gywir, etto barnwn ei fod yn agosbâd nes at y gwir feddwl nag un o'r rhai a grybwyllwyd. Y mae y golygiad hwn, feddyliem, yn gywir, cyn belled ag y mae yn cyrhaedd; ond y mae yn rhy gyfyng. Nid cyferbynu y ddwy ordinhâd yn uniongyrchol â'u gilydd y mae yr apostol, ond gwirioneddau eangach sydd yn gorwedd danynt, ac ar yr un pryd mewn rhan yn cael eu hamlygu trwyddynt. 3ydd, Y golygiad cywiraf, i'n tyb ni, yw yr un canlynol. Y mae y "dyfod trwy" yn golygu dyfodiad buddugoliaethus yr Arglwydd Iesu fel gorchfygwr y byd.

[d] Ioan 8. 13. 14. [e] Salm 33. 6; Esa. 61. 1; Mat. 28. 19. [f] 1 Ioan 1. 1.

7 O blegid y mae tri yn [d] tystiolaethu yn y nef; [e]y Tad, [f]y Gair, [g] a'r Ysbryd Glân: [h] a'r tri hyn un ydynt. [g] Adn 6. [h] Mat. 28. 19; Ioan 10. 30.

8 Ac y mae tri yn tystiolaethu

Ond fe ddaeth i orchfygu y byd trwy ei achub—i'w orchfygu trwy ei waed. Fe ddaeth ereill i ddangos i'r byd yr angen yr oedd ynddo am iachawdwriaeth; ond nid oedd yn eu gallu i roddi yr iachawdwriaeth hono. Gwnaeth Crist y naill a'r llall. Dyma oedd ei ragoriaeth mawr ar ei ragflaenor, Ioan Fedyddiwr. A dyma, medd Ebrard (ac yr ydym yn credu ei fod yn gywir) ydyw gwir ystyr y cyferbyniad rhwng y dwfr a'r gwaed. Daeth Ioan Fedyddiwr gyda dwfr yn unig:—galwai ar yr Israeliaid, trwy yr arwydd yn y bedydd dwfr, i edifeirwch, ac i gyffesu eu bod yn haeddu marw. Fel hyn, yr oedd Ioan yn dyfod â'r gyfraith, ac yn eu harwain i adnabod pechod. Nis gallai efe eu dwyn yn mhellach na hyn. Ond daeth Crist, ar y llaw arall, "nid trwy ddwfr yn unig:" efe a ddaeth yn wir trwy ddwfr—fe'i bedyddiwyd gan Ioan, fe sefydlodd ei hunan y bedydd Cristionogol. Ond nid bedyddio â dwfr yn unig yr oedd efe: *Ioan* i. 33; *Mat.* iii. 11. Efe a ddaeth fel "Oen Duw" i "dynu ymaith bechodau y byd:" *Ioan* i. 29. Efe a fu farw i fod yn Iawn i Ddduw, ac yn fywyd i'r byd. Bedyddiwyd ef yn nechreu ei weinidogaeth â bedydd dwfr, ac yn ei diwedd â bedydd y groes. Fel hyn, nid y dwfr, neu yr arwydd yn unig oedd ganddo; ond y gwaed hefyd yr hwn oedd y sylwedd. Yr oedd y "dyfod trwy ddwfr" yn elfen berthynol i Ioan Fedyddiwr a Christ, ond aeth Crist y tu hwnt i'r hyn oedd yn gyffredin i'r ddau. Efe a fu farw y farwolaeth Iawnol; a thrwy hyny efe a ddaeth, "nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed." Yn awr, y mae y "dwfr" mewn ystyr eang yn uno y ffaith hanesyddol o fedydd ein Harglwydd â'r ordinhâd o fedydd a seiliodd efe arno, a'r hwn sydd yn aros etto yn yr eglwys Gristionogol yn dystiolaeth o wirionedd Cristionogaeth, ac yn fath o gynnrychioliad o foddion gras. Y mae y "gwaed," drachefn, yn cynnwys y ffaith hanesyddol o farwolaeth ein Hiachawdwr fel Iawn, yr iachawdwriaeth a ddaeth i'r byd trwy y farwolaeth hono, a chydgyfranogiad yr eglwys yn nghymdeithas ei ddioddefiadau ef. Y mae angeu y groes fel tystiolaeth o fywyd tragwyddol trwy Grist, ac o undeb y saint âg ef, ac â'u gilydd yn ei ddioddefiadau a'i ogoniant, yn cael ei bresenoli yn barhaus yn yr eglwys drwy yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Y mae y golygiad hwn, feddyliem, yn dyfod i fyny â'r ddwy reol o esboniadaeth (*canons of interpretation*) a osododd Düsterdieck i lawr gyda golwg ar yr adnod hon:—1. Rhaid i'r "dwfr" a'r "gwaed" gyfeirio, y naill yn gystal a'r llall, at ryw ffeithiau hanesyddol yn mywyd ein Hiachawdwr ar y ddaear, ac hefyd at ryw dystion presennol etto dros Grist. 2. Nid ydynt i'w hesbonio yn allegawl, ond i'w deall am rywbeth mor sylweddol a grymus, fel ag y mae tystiolaeth Duw yn cael ei roddi trwyddynt i gredinwyr, a bywyd tragwyddol yn cael ei sicrhau iddynt. Hwyrach y dylasem grybwyll, fod yr arddodiad yn wahanol yn y testyn gwreiddiol yn yr ail frawddeg, ac nid yr un yn yr ail a'r gyntaf, fel y Gymraeg: "trwy" (*dia*) sydd yn y frawddeg gyntaf, fel yn ein cyfieithiad ni; ond "yn," neu "gyda" (*en*), sydd yn yr ail:—'nid yn (neu gyda) y dwfr yn unig, ond yn (neu gyda) y dwfr a'r gwaed.' *A'r Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu, o blegid yr Ysbryd sydd wirionedd.*—Wrth yr "Ysbryd," yma, yr ydym i ddeall yn ddiammheu yr "Ysbryd Glân:" er fod golygiadau ereill eu cynnyg, nid ydynt yn werth eu henwi. Ond pa fodd, ac i ba beth y mae yn tystiolaethu? Dywed rhai, mai y rhan olaf o'r frawddeg, "yr Ysbryd sydd wirionedd," ydyw mater ei dystioleath—tystiolaethu i'w wirionedd ei hun. Dyry y rhai hyn yr ystyr o 'mai' i *hoti*, yn lle "o blegid:"—'mai yr Ysbryd sydd wirionedd.' Y mae y golygiad hwn ynddo ei hunan yn wan, ac hefyd yn dra ammherthynasol i'r mater. Rhwng y ddau olygiad canlynol, feddyliem, yr ydym i ddewis. Yn ol rhai, y mae yr Ysbryd yn ffurfio tyst chwanegol—trydydd tyst—at y dwfr a'r gwaed, i brofi Messiaeth yr Iesu—"mai Iesu yw Mab Duw;" ac felly yn tystiolaethu i'r gwirionedd, fod Duw wedi rhoddi i ni fywyd tragwyddol ynddo ef. Yn ol y golygiad arall, wrth fod yr Ysbryd yn tystiolaethu, yr ydym i ddeall, ei waith ef yn defnyddio y gwirionedd am Grist—am "y dwfr a'r gwaed," *h.y.*, yr efengyl—i achub dynion; a thrwy hyny i "orchfygu y byd," yn rhinwedd y "broselytiaeth sanctaidd" hon sydd yn gwaredu pechaduriaid oddi wrth y "byd drwg presennol" ac yn eu dwyn i mewn i'r eglwys. Dylid crybwyll, fod rhai o'r sawl sydd sydd yn dal y golygiad hwn (megys Ebrard) yn cyfuno âg ef yr un a grybwyllwyd gyntaf:—rhoddi yr ystyr o 'mai' i *hoti*, gan ddeall 'mai yr Ysbryd sydd wirionedd,' fel gwrthddrych neu fater y dystioleath. Ond rheswm ydyw y frawddeg hon, feddyliem, —"o blegid yr Ysbryd sydd wirionedd"—i ddangos mai swydd arbenig yr Ysbryd ydyw "tystiolaethu," ac i ddangos pwysigrwydd ei dystioleath.

7. *O blegid y mae tri yn tystiolaethu:*—neu, 'y rhai sydd ydynt dri.' Ystyrir y tystion hyn fel yn fyw ac yn llefaru. Trwy fod yn dri, y maent yn dyfod i fyny â gofyniadau y gyfraith o berthynas i dystioleath gyflawn: *Deut.* xvii. 6; xix. 15; *Mat.* xviii. 16; 2 *Cor.* xiii. 1.....*Yr Ysbryd, y dwfr, a'r gwaed.*—Yn awr, rhoddir yr Ysbryd yn gyntaf o ran trefn; ac nid heb reswm. A siarad yn briodol, yr Ysbryd ydyw yr unig dyst bywiol a gweithredol o'r tri. Nid yw y dwfr a'r gwaed chwaith yn dystion effeithiol hebddo ef; tra y mae efe, yn annibynol arnynt hwy, yn gallu tystiolaethu drwyddynt, neu hebddynt. Yn ol Ebrard—golygiad yr hwn, i'n tyb ni, ydyw y goreu ar y geiriau hyn—wedi i'r apostol ddweyd o'r blaen, yn *adn.* 6, trwy ba bethau yr oedd Crist wedi dyfod yn yr amser a aeth heibio, y mae yn awr yn llefaru am y tystion, trwy ba rai y mae efe yn dyfod i orchfygu y byd yn bresennol. Fel y tyst mawr cyntaf, y mae yr Ysbryd yn cael ei nodi, yr hwn hefyd a ddygwyd i sylw yn niwedd *adn.* 6: ond y mae yr Ysbryd hwn yn gweithio yn y fath fodd, fel nad ydyw y ddau offeryn o fuddugoliaeth, â pha rai yr ymddangosodd Crist ar y ddaear, sef y dwfr a'r gwaed, yn cael eu gosod o'r neilldu, ond yn parhau eu hoffernyloliaeth, ac yn cael eu hadgynnyrchu megys o newydd yn wastadol. Yn gyntaf, y "dwfr." Yr oedd hwn, yn ol *adn.* 6, yn perthyn i Grist ac Ioan Fedyddiwr; hyny yw, bedydd dwfr wedi ei osod gan Grist yn ei nodwedd o sefydliad allanol, fel arwydd neu gysgod; ac felly fel yn cyn-

[1] Mat. 26. 26, 28; 28. 19. [2] Marc 14. 56; Act. 15. 15.

ar y ddaear; [1] yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed: [2] a'r tri hyn yn un y maent *yn cyttuno.*

9 Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei derbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy: canys hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab.

10 Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun: yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, a'i gwnaeth

nrychioli holl foddion gras, yn enwedig pregethiad y Gair, yr hwn sydd yn blaenori bedydd, ac yn anwahanol gyssylltiedig âg ef. Yn ail, y "gwaed:" sef, gwaed Crist—ei farwolaeth iawnol, yr hon sydd yn aros byth yn ei gallu gorchfygol ar galonau dynion. Y mae y gwaed yn aros yn ei haeddiant a'i rinwedd, ac yn parhau hefyd o ran ei ysbryd yn nioddefiadau a chariad hunan-aberthol credinwyr. Gellir edrych ar y gwaed, yn yr holl ystyron hyn, yn cael ei bresennoli yn barhaus yn yr eglwys yn yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd. *A'r tri hyn, yn un y maent yn cyttuno.*—Fel y maent yn un yn eu gwreiddyn, y mae eu tystiolaeth hefyd yn un. Dyma dystiolaeth driphlyg yr Efengyl—"y rhaff dair cainc," nas gellir ei thori. Trwy yr hon y mae yr efengyl yn dadguddio ei chynnwys, ac yn profi ei gwirionedd ar unwaith:—y dwfr, fel arwydd, yn cynnrychioli holl foddion iachawdwriaeth fel y cyfryw: y gwaed, fel sylwedd, sef, iachawdwriaeth mewn Iawn: a'r Ysbryd, fel gweithredydd bywiol, yn cymmhwyso y naill trwy y llall (yr iachawdwriaeth trwy y moddion) yn effeithiol at gyflyrau a chalonau dynion.

NODIAD.—Gwel y darllenydd ein bod yn yr eglurhâd uchod wedi gadael allan y rhan olaf o *adn.* 7, a'r rhan flaenaf o *adn.* 8, sef, y geiriau canlynol:—(7.) ".....yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn un ydynt. (8.) Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear....." Fel y mae yn hysbys yn ddiau i lawer o'n darllenwyr, ein rheswm dros adael y geiriau uchod allan ydyw—fod y beirniaid ysgrythyrol goreu bron yn unfrydol wedi dyfod i'r penderfyniad, ar ol yr ymchwiliad manylaf, nad yw y geiriau crybwylledig yn ffurfio rhan o wir destyn y Testament Newydd; ond mai chwanegiad ydynt at y testyn gwreiddiol, wedi eu rhoddi i mewn gan ryw gopïwr, neu gopïwyr, wrth adysgrifio yr epistol hwn, yn y canrifoedd boreuol, pan oedd yr eglwys yn cael ei chynnhyrfu gan ddadleuon duwinyddol: a bod y geiriau chwanegol hyn wedi ymlithro i mewn yn raddol i'r testyn ei hunan. Os cywir y farn hon, y rhan flaenaf o *adn.* 7, a'r rhan olaf o *adn.* 8, ydyw gwir eiriau y testyn ysbrydoledig; sef, y geiriau canlynol:—"O blegid y mae tri yn tystiolaethu.....yr Ysbryd, y dwfr, a'r gwaed; a'r tri hyn, yn un y maent yn cyttuno." Nis gallwn yma ond nodi yn fyr y rhesymau dros wrthod y geiriau mewn dadl:—1. Y mae yr holl ysgrifau Groeg, cyn dechreuad yr 16eg ganrif, a'r geiriau hyn heb fod ynddynt. 2. Ni ddyfynir hwynt gan un o'r tadau Groegaidd, hyd yn oed pan y maent yn dwyn yn mlaen adnodau i brofi athrawiaeth y Drindod. 3. Y mae yr holl hen gyfieithiadau o'r Testament Newydd yn cynnwys y *Vulgate*, fel y daeth oddi wrth Jerome; a'r cyfieithiad Syriaidd henafol (er eu bod wedi eu rhoddi i mewn yn yr argraphiadau diweddar o'r cyfieithiad hwnw). 4. Y mae lliaws mawr o'r tadau Lladinaidd heb eu cydnabod. Cyn gadael y profion allanol, gellir crybwyll fod 188 o ysgrifau o bob oedran, ac yn cynnwys y rhai hynaf, heb y geiriau dan sylw, yn erbyn dwy ysgrif o'r 16eg ganrif, sydd yn eu cynnwys. 5. Dygir yn mlaen brofion tumewnol yn erbyn eu cywirdeb: megys eu bod yn ammherthynasol i'r cyd-destyn; yn ddigysylltiad; ac yn bradychu llaw wahanol i'r eiddo yr apostol. Yn ngwyneb y profion hyn, y mae y beirniaid ysgrythyrol bron yn unfryd wedi dyfod i'r penderfyniad, nad oes dim sail dros dybied fod y geiriau hyn yn rhan o destyn yr Ysgrythyr. Y mae o bwys i ni gofio, yr un pryd, er colli y geiriau hyn, nad yw hyny yn effeithio i'r gradd lleiaf i wanychu athrawiaeth y Drindod: nid yw gwirionedd yr athrawiaeth hono yn ymddibynu ar adnod unigol. Y mae yr athrawiaeth wedi ei chydwau â'r holl ddadguddiad dwyfol. Y mae yn iawn i ni grybwyll, ar y llaw arall, fod rhai yn dadleu dros ddilysrwydd y geiriau dan sylw: y galluocaf o ba rai, fe allai, ydoedd Bengel. Gall y darllenydd weled manylion y ddadl hon yn *Alford's Greek Testament, cyf.* iv. rhan II.; a cheir crynodeb helaeth o'r rhesymau ar y ddwy ochr i'r ddadl yn *Horne's Introduction, cyf.* iv. td. 355—388.

9. *Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei derbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy.*—O'r blaen, edrychid ar ffydd fel y mae trwy ei gwrthddrych mawr yn gorchfygu y byd; yn awr, dangosir pa fodd y mae y fuddugoliaeth yn cymmeryd lle yn y person unigol. Felly, o *adn.* 9 hyd 12, eglurir nerth a sicrwydd ffydd. Y mae ymresymiad yr adnod hon yn ddadl o'r lleiaf i'r mwyaf, wedi ei seilio ar arferiad dynion, trwy yr hyn y dangosir ein bod yn rhwym o dderbyn tystiolaeth Duw. 'Os ydym ni,' dynolryw yn gyffredinol, pob dyn rhesymol, 'yn derbyn,' fel yr ydym yn gwneyd, 'tystiolaeth dynion'—y mae y gosodiad yn gyffredinol, ac yn golygu tystiolaeth ddynol mewn unrhyw amgylchiad—"y mae tystiolaeth Duw yn fwy;" yn fwy mewn gwerth, mewn pwys, ac mewn sicrwydd. Y mae y casgliad oddi wrth yr ymresymiad hwn yn cael ei adael fel yn ddealledig; sef, 'gan hyny, pa faint mwy y dylem dderbyn tystiolaeth Duw?' *Canys hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab.*—Yn y rhan arall o'r adnod, edrychid ar "dystiolaeth Duw" mewn ystyr gyffredinol—yr un modd ag yr edrychid ar dystiolaeth dynion." Ond yn awr, y mae yr egwyddor hon yn cael ei chymmhwyso at amgylchiad neilldiol—yr enghraifft neilldiol o dystiolaeth Duw y cyfeirir ati yma ydyw, "yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab." Y darlleniad cywiraf, fe allai, ydyw yr un sydd yn rhoddi dau *hoti* yn y frawddeg, yr hon y gellid ei chyfieithu fel hyn:—'Canys hyn yw tystiolaeth Duw, (sef) ei fod ef wedi tystiolaethu am ei Fab.'

10. *Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun.*—Nid ydyw y mater yn terfynu gyda'r dystiolaeth fel y mae wedi ei rhoddi yn yr amser a aeth heibio. "Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw sydd ganddo y dystiolaeth," nid yn unig y tu allan iddo ei hunan, yn yr hanes efengylaidd, ac fel rhywbeth yn perthyn i'r amser gorphenol, ond yn dufewnol,

[1] Mat 25.46; Rhuf 5.21; 6. 23.
[2] 1 Ioan 1. 1—3; Ioan 1. 4; 5. 21.
[3] Ioan 1. 12; 5. 24; Heb. 3. 14.
[4] Marc 16. 16; Ioan 3. 36.

ef yn gelwyddog, o blegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab.

11 A hon yw y dystiolaeth; [1]roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol: a'r [m]bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.

12 Yr hwn [n]y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; [o]a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd.

13 Y pethau hyn a ysgrifenais atoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw; fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragwyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw.

14 A hyn yw yr hyfder sydd genym tuag ato ef; ei fod ef yn

"ynddo ei hun," ac fel gallu gweithredol a dylanwadol. Dywedir i ni beth yw y dystiolaeth yn *adn.* 11. *Yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog, o blegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab.*—Y mae tystiolaeth Duw yn yr efengyl yn troi yn allu tumewnol, i nerthol weithio yn yr hwn sydd yn credu. Ond nid yw yr anghredadyn, ar y llaw arall, yn esgusodol, am ei fod heb y dystiolaeth dumewnol hon; eithr y mae yn aros o dan yr euogrwydd trwm o fod heb gredu y dystiolaeth sicr ag y mae Duw yn ei thystiolaethu am ei Fab yn yr efengyl. Trwy hyn y mae yn gwneyd Duw yn gelwyddog; hyny yw, y mae yn ymddwyn tuag ato fel pe buasai felly: *pen.* i. 10.

11. *A hon yw y dystiolaeth; roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol: a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.*—Gellir deall yr adnod hon mewn un o ddwy ffordd. Edrycha rhai arni fel eglurhâd ar gynnwys tystiolaeth allanol yr efengyl; sef, yr un y cyfeirir ati yn niwedd *adn.* 10—"y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab," yr hon y mae yr anghredadyn yn euog am beidio ei derbyn. 'Hon ydyw y dystiolaeth hono, roddi o Dduw i ni (bechaduriaid) fywyd tragwyddol; ac y mae y bywyd hwn wedi dyfod i ni trwy Grist, ac yn aros yn ei berson ef.' Ond y mae ereill yn edrych ar yr adnod hon fel eglurhâd ar gynnwys y dystiolaeth dufewnol o wirionedd yr efengyl, ac o nerth ffydd sydd gan y credadyn ynddo ei hun, yr hon y cyfeirir ati yn nechreu *adn.* 10: "Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun—a hon yw y dystiolaeth; roddi o Dduw i ni (gredinwyr) fywyd tragwyddol, a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef."

12. *Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd.*—Y mae yr adnod hon yn cadarnhau ac yn egluro yn mhellach y rhan olaf o *adn.* 12. Y mae fod bywyd tragwyddol yn y Mab yn wirionedd mor hollol, fel mai meddu y Mab ydyw meddu bywyd, a bod heb y Mab ydyw bod heb fywyd. Y mae geiriad a threfn yr adnod hon yn deilwng o sylw. Dywed Bengel yn brydferth ar hyn—"Ni ddywedir ond 'y Mab' yn 'y rhan gyntaf o'r adnod, o blegid y mae y credinwyr yn ei adnabod ef; ond yn yr ail ran, yr hon sydd yn perthyn i'r anghredinwyr, chwanegir 'Mab Duw,' i awgrymu iddynt eu colled, a pha mor fawr yw y person y maent hebddo." Y mae y pwyslais yn y rhan gyntaf o'r adnod, yn ol cyflead y geiriau yn y Groeg, i fod ar "y mae ganddo;" ac yn yr ail ran, ar y gair "bywyd." Y mae y cyflead yn y testyn gwreiddiol fel hyn—"Yr hwn sydd ganddo y Mab, sydd ganddo y bywyd; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, y bywyd nid yw ganddo." Golygir yma wir feddiant o'r Mab trwy ffydd, yr hwn y tystiolaethir iddo gan yr Ysbryd, y dwfr, a'r gwaed; a golygir yma hefyd wir feddiant presennol o'r, bywyd tragwyddol—nid yn ei ddadblygiad mwyaf gogoneddus y mae yn wir, ond yn hollol wir a sylweddol. Nis gellir mynedi mewn yma i'r cwestiwn a ydyw "bod heb y Mab" i'w ddeongli yn yr ystyr caethaf;—a ydyw yn cynnwys y rhai na chlywsant erioed am dano, *&c.* Sylwa Düsterdieck fod y geiriad, *ho mé echón* ("yr hwn nid yw ganddo"), yn hytrach na *ho ouc echón*, yn awgrymu fod yr apostol, yn uniongyrchol o leiaf, yn cyfeirio at yr hyn a allasai fod, ac nid at ffaith sicr, ac felly yn cyfarch (yn y lle cyntaf) ei ddarllenwyr fel rhai ag yr oedd tystiolaeth ddwyfol yr efengyl wedi dyfod atynt. Iddynt hwy, meddu y Mab, neu bod heb y Mab, oedd yn penderfynu pa un a oedd yr efengyl iddynt yn "arogl bywyd i fywyd," neu ynte yn "arogl marwolaeth i farwolaeth."

13. *Y pethau hyn a ysgrifenais atoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw; fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragwyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw.*—Y mae yr apostol, yn yr adnod hon, sydd fel dechreuad y diweddglo, yn crynhoi amcan ei Epistol i ychydig eiriau; fel y mae, yn *Ioan* xx. 31, yn symio i fyny amcan ei Efengyl. Pan y mae yr apostol, yn niwedd yr adnod, yn dyweyd "fel y credoch," wrth rai ag yr oedd efe newydd ddyweyd yn y frawddeg o'r blaen eu bod yn credu, yr ystyr, dybygid, ydyw, 'fel y parhaoch i gredu.' Felly ei amcan yn ysgrifenu oedd er mwyn hyder ffydd, a pharhâd ffydd. Ond y mae amryw feirniaid ysgrythyrol yn gwrthod y frawddeg olaf o'r adnod yn hollol—"ac fel y credoch," *&c.* fel un annilys. Y mae y geiriau heb fod i mewn yn rhai o'r ysgrifau hynaf.

14—21. DIWEDDGLO YR EPISTOL.

Gesyd rhai ef i ddechreu yn *adn.* 13. Y ddolen sydd yn cydio yr adnodau hyn wrth *adn.* 13, ydyw yr "hyfder," yr hwn sydd yn cyfodi yn naturiol o'r geiriau yn *adn.* 13—"fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragwyddol." Yr hyfder hwn ydyw grymusder uchaf y bywyd ysbrydol; a'r ymarferiad mwyaf hynod a chysson o hono ydyw cymdeithas & Duw mewn gweddi, drosom ein hunain a'n brodyr: *adn.* 14—17. Yna mae *adn.* 18—20 yn parhau yr eglurhâd ar "y pechod i farwolaeth," a'r "pechod nid yw i farwolaeth," trwy gyferbynu sefyllfa credinwyr â'r eiddo y byd, yn yr hyn y mae gwirionedd eu bywyd tragwyddol yn gynnwysedig. Yna, gyda rhybudd pwysig (*adn.* 21), diwedda yr apostol ei lythyr. Y mae Ebrard yn dal fod drychfeddwl arweiniol y bennod—goruchafiaeth ffydd ar y byd—yn parhau i roddi ei ffurf ar yr adran hon hyd ddiwedd yr Epistol, a bod yr oruchafiaeth hono yn cael ei gosod allan yn yr adnodau 14—17, trwy nerth gweddi.

14, 15. HYDER Y CREDADYN, FEL Y MAE YN CAEL EI DDANGOS MEWN GWEDDI.

14. *A hyn yw yr hyfder sydd genym tuag at ef.*—Y mae hyn yn canlyn fel mater o gasgliad

ein gwrando ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef.

15 Ac os gwyddom ei fod ef yn ein gwrando ni, pa *beth* bynag a ddeisyfom, ni a wyddom ein bod yn cael y deisyfiadau a ddei syfasom ganddo.

[p] Gen. 20. 7, 17; Deut. 9. 18—20; Amos 7. 1, 8; Iago 5. 14.

16 Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid *yw* i farwolaeth, [p] efe a ddeisyf, ac efe a rydd iddo

uniongyrchol oddi wrth y ffaith ein bod yn meddu bywyd ysbrydol: *pen.* iii. 19—21. "Hyder," fe allai, yn hytrach na "hyfder." Yr un gair sydd yma ag a gyfleithir yn *pen.* iv. 17, yn "hyder." *Ei fod ef yn ein gwrando ni.*—Dyma fater neu gynnwys ein hyder—y peth yr ydym yn hyderus o hono. Nid yw hyn chwaith ond un amlygiad neilldiol o'r hyder. *Os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef.*—Wrth yr "ef" yma yr ydym i ddeall y Tad, ac nid y Mab—trwy yr hwn yr ydym yn nesau at y Tad. Nid yw yr ammod hwn—fod yn rhaid i'r deisyfiad fod yn ol ewyllys Duw—mewn gwirionedd, yn unrhyw gyfyngiad ar y sicrwydd o wrandawiad gweddi. O blegid, fel y mae Alford yn sylwi, y mae Ioan drwy yr Epistol hwn yn dueddol i edrych ar fywyd y Cristion, nid fel y mae, yn rhy fynych, yn weithredol, mewn tôn isel—ond fel y dylai fod: y mae yn edrych ar y bywyd yn ei *ideal* uchel. O ganlyniad, yn yr athrawiaeth am wrandawiad gweddi, cymmerir yn ganiataol fod y gweddïwr yn ddyn adgenedledig, ac yn byw yn yr Ysbryd; felly, fod ei holl ddeisyfiadau yn tarddu o ewyllys sydd mewn cydgordiad âg ewyllys Duw. Ewyllys Duw ydoedd yr hyn y darfu i'n Pen gogoneddus ymostwng iddi, a dyma sydd yn rheoli holl gwrs bywyd y Cristion er ein lles ni a'i ogoniant ef. Yr hwn sydd mewn gweddi, neu ryw ffordd arall, yn croesi ewyllys Duw, y mae efe drwy hyny, ac i'r graddau hyny, yn myned allan dros—yn troseddu terfynau ei fywyd yn Nuw: *Iago* iv. 3. Trwy ysbryd o ymostyngiad gwastadol i Dduw, a thrwy gynnydd parhaus mewn gwybodaeth o'r ewyllys hono, cymmedrolir ein gweddïau, ac fe roddir iddynt iawn gyfeiriad. Pe y gwyddem ei ewyllys ef yn berffaith, a phe yr ymostyngem iddi yn galonog, byddai yn ammhossibl i ni ofyn dim i'r enaid na'r corph, na byddai iddo ef ei roddi i ni. Cadw ei olwg ar yr ystâd uchel hon—safon berffaith y bywyd Cristionogol—y mae yr apostol yn fynych yn ei ysgrifeniadau.

15. *Ac os gwyddom ei fod ef yn ein gwrando ni, pa beth bynag a ddeisyfom.*—Nid ydyw yr ammod a nodir yn yr adnod o'r blaen—"os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef"—yn cael ei ail adrodd yma; am y cymmerir yn ganiataol yn awr fod yr ammod hwnw yn cael ei gyflawni. *Ni a wyddom ein bod yn cael y deisyfiadau a ddeisyfasom ganddo.*—Nid yw rhai yn gweled yn yr adnod hon, ond yn unig y mynegiad syml—os yw Duw yn gwrando ein gweddïau, y mae hefyd yn eu hatteb. Ond ni buasai hyn yn ddywedyd dim amgen na hyny—'Os yw ein gweddïau yn cael eu hatteb, y maent yn cael eu hatteb!' hyny yw, ni buasai yr adnod yn dywedyd dim. Y mae yr atteb yn gynnwysedig yn y "gwrando." Bydd ystyr yr adnod hon yn fwy clir, fe allai, wrth roddi "ein bod yn meddu," neu "fod genym" (*echomen*), yn lle "ein bod yn cael." Yn ol y cyfleithiad hwn, y mae yr adnod yn cynnwys dau beth:—1af, Os gwyddom fod Duw yn gwrando ein gweddïau, y mae yr hyn yr ydym yn ei geisio genym eisoes. Mae y wybodaeth fod Duw yn ein gwrandaw yn cynnwys eisoes feddiant o'r hyn y gofynir am dano, hyd yn oed er na bydd cyflawniad ein cais yn cael ei wneyd yn amlwg o flaen ein llygaid ar unwaith. Dyma ogoniant uchaf hyder mewn gweddi—y gall y gweddïwr, heb ddim ammheuaeth, a chyda sicrwydd hollol, ystyried y peth y gweddïodd am dano fel ei fedd iant ei hunan. 2il, Y mae y mynegiad hwn yn cynnwys meddiant presennol o'r gweddïau a aethant heibio: "Ein bod yn meddu y deisyfiadau a ddeisyfasom." Y mae amseriad y ferf olaf hon yn cyrhaedd drwy yr holl weddïau yn yr amser a aeth heibio i fyny hyd y funyd hon. Y mae y cwbl genym yn awr—mewn meddiant. Nid oes un o honynt wedi myned ar goll. Y mae efe wedi eu gwrando, ac wedi eu hatteb oll; y maent oll, mewn rhyw ffurf, genym mewn meddiant presennol.

16, 17. Wrth gyssylltu hyder mewn gweddi â chariad brawdol, yr ydym yn cael y ddyledswydd o weddïo dros ein gilydd—eiriol dros frawd a fyddo wedi myned ar gyfeiliorn. Y mae Ebrard yn dwyn yr adnodau hyn i mewn fel y canlyn:—Dywedwyd o'r blaen, fod gwrandawiad ein gweddi yn sicr, os gofynwn ddim yn ol ewyllys Duw. Os oes unrhyw ddeisyfiad felly, gellid meddwl fod gweddi am ddychweliad ac iachawdwriaeth ein cymmydog felly. Dyma weddi yn tarddu oddi ar gariad—gweddi dros iachawdwriaeth un arall, ac felly dros helaethiad teyrnas Dduw. Felly, gallai un gael ei gamarwain i dybied y byddai pob gweddi am ddychweliad ein cyd-ddyn yn sicr o gael ei gwrando yn mhob amgylchiad. Y mae yr apostol yn yr adnodau hyn yn unioni y camsyniad hwnw. Y mae dychweliad pechadur yn gweithredu mewn cylch pennodol o'r eiddo ei hunan, yn unol â threfn Duw i achub; y tu allan i'r cylch hwnw, ni wna gras Duw weithredu er achubiaeth. Ar ol cyrhaedd rhyw bwynt pennodol, nid oes gan weddi o eiriolaeth un sicrwydd o wrandawiad.

16. *Os gwel neb ei frawd.*—Y mae Alford yn cyfyngu y gair "brawd" yma i frawd Cristionogol. Nid yn unig un yn proffesu yr efengyl, ond un wedi ei eni o Dduw. Y mae dau reswm yn erbyn y golygiad hwn:—1af, Y mae y syniad hwn yn seiliedig ar y dybiaeth fod yn bossibl i Gristion farnu i sicrwydd gyfiwr ysbrydol pob un o'i frodyr proffesedig. 2il, Y mae y syniad hwn yn tybied y possiblrwydd i wir Gristion bechu "y pechod i farwolaeth:" yr hyn i'n tyb ni sydd yn anghysson âg *adn.* 18, ac â'r athrawiaeth ysgrythyrol o barhâd mewn gras. Felly, yr ydym yn mabwysiadu golygiad Ebrard:—mai "brawd" o ran proffes Gristionogol a feddylir yma yn uniongyrchol; ond etto, nid i gau allan y syniad eangaf o ddynion fel brodyr—unrhyw ddyn, yn unol âg addysg ein Iachawdwr: *Luc* x. 30, &c. *Yn pechu pechod nid yw i farwolaeth.* — Gwel yn mlaen ar natur y "pechod i farwolaeth." *Efe a ddeisyf.*—Cynnwysa hyn, nid yn unig ganiatâd, ond gorchymyn. Y mae "deisyf" yn y cyfryw amgylchiad yn ddyledswydd Gristionogol. *Ac efe a rydd iddo fywyd.*—Wrth yr "efe" hwn, medd rhai, yr ydym i ddeall Duw. Y mae yn ddiau mai Duw sydd mewn gwirionedd yn rhoi y bywyd; ond golygir yma fod y gofynwr yn rhoddi, am mai efe, trwy ei weddi dros ei frawd, ydyw yr offeryn yn llaw Duw i roddi bywyd iddo

[q]Num. 15. 30; [1]Sam. 2. 25; Mat. 12. 31, 32; Luc 12. 10; 2 Tim. 4. 14; 2 Pedr 2. 20–22.

fywyd, i'r rhai sydd yn pechu nid i farwolaeth. [q]Y mae pechod i

I'r rhai sydd yn pechu nid i farwolaeth.—Gwel yn mlaen. *Y mae pechod i farwolaeth: nid am hwnw yr wyf yn dywedyd a'r ddeisyf o hono.*—Dylid sylwi mai nid yr un gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol am "ddeisyf" yn nechreu yr adnod hon, a'r un a ddefnyddir yn ei diwedd. Y cyntaf ydyw *aitein*, yr olaf ydyw *erótan*. Golyga y cyntaf yn gyffredin waith yr is-radd yn gofyn, yn deisyf, gan ei uwchradd. Golyga y gair arall y naill blaid yn gofyn i'r llall, pan y mae y ddwy yn gyfartal; neu waith un yn gofyn yr hyn y mae ganddo hawl iddo. Nid ydyw ein Hiachawdwr byth yn defnyddio y cyntaf am ei weddïau ei hunan at ei Dad, ond bob amser yr olaf—y gair mwyaf urddasol: *Ioan* xiv. 16; xvi. 26; xvii. 9, 15, 20. Cyfieithir ef yn yr holl fanau hyn yn "gweddïo." Ceir y ddau air yn un o'r adnodau uchod (*Ioan* xvi. 26): "Y dydd hwnw y gofynwch (*aitein*) yn fy enw; ac nid wyf yn dywedyd i chwi y gweddïaf fi (*erótan*) ar y Tad drosoch." Yn yr achos dan sylw yn yr adnod hon, gorchymynir "deisyf" dros y brawd sydd yn pechu nid i farwolaeth; end ni orchymynir "gweddïo" dros yr hwn sydd yn pechu i farwolaeth. Yn ol Alford, cynnwysa hyn waharddiad i ddeisyf dros yr olaf; a bod rhoddi y gair cryfaf (*erótan*) yn y rhan olaf o'r adnod yn awgrymu y byddai gofyn dros y cyfryw un yn weithred o ryfyg, ac yn tori llwybr i Dduw mewn mater sydd yn gorwedd y tu allan i derfynau ein heiriolaeth frawdol. Y mae Ebrard, o'r ochr arall, yn dadleu yn gryf nad ydyw hyn yn cynnwys gwaharddiad i eiriol neu "ddeisyf" dros yr un sydd yn pechu i farwolaeth. Y mae efe yn dal (ac yn gywir, feddyliem) nad ydyw Ioan yn dyweyd dim pellach na hyn: 'Nid yw gweddïo dros y cyfryw un o fewn cylch y gorchymyn, fel y mae gweddïo dros y llall.' Nid oes gan y gweddïwr yn yr achos hwn yr unrhyw sicrwydd am wrandawiad ag sydd ganddo yn yr achos arall, yn ol *adn.* 14, a'r adnod hon hefyd: yn yr achos hwn, nid yw gweddïo dros y brawd yn cael ei orchymyn, ac nid yw yn cael ei wahardd chwaith; ond yn cael ei adael i deimlad a chydwybod y dyn ei hun rhyngddo a Duw. Yn awr, yr ydym yn dyfod at y cwestiwn pwysig Beth yw y "pechod i farwolaeth?" Y mae hwn yn gwestiwn tra anhawdd, fel y dengys yr amrywiaeth barn sydd yn mhlith esbonwyr o berthynas iddo, a'r tudalenau lawer a ysgrifenwyd arno mewn esboniadau ar yr Epistol hwn. Byddai olrhain yr holl wahanol olygiadau, a'r rhesymau a ddygir drostynt, yn orchwyl rhy faith, ac yn afreidiol. Ceisiwn grynhoi yma y defnyddiau goreu, yn ein barn ni, tuag at gynorthwyo ein darllenwyr i benderfynu y cwestiwn drostynt eu hunain:—Iaf. Barn Ebrard ydyw, fod y "pechod i farwolaeth" yn cynnwys pob pechod drwy yr hyn y mae dyn yn dyfod yn analluog o ddychweliad, neu o ymadnewyddiad pellach i edifeirwch; ac felly, ei fod yn cynnwys y "pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân" y lleferir am dano yn *Mat.* xii. 31, &c.; *h.y.*, gwaith anghredinwyr yn ymgaledu yn benderfynol yn erbyn dylanwadau a chymmhellion gras Duw. Ac hefyd, y pechod o ymadawiad hollol oddi wrth Grist a'r efengyl, o eiddo rhai yn proffesu crefydd, yn ol *Heb.* vi. 4. Mewn attebiad i'r cwestiwn, pa fodd yr ydym i wybod pan y mae un yn pechu "y farwolaeth: nid am hwnw yr wyf yn dywedyd a'r ddeisyf o hono.

17 Pob anghyfiawnder, pechod

pechod i farwolaeth," fel'ag i ddilyn cyfarwyddyd yr apostol yn yr adnod hon (*adn.* 16)—yn yr hon y gorchymynir i ni ddeisyf dros yr hwn nad yw yn pechu felly; tra y dywedir na orchymynir deisyf dros y llall?—y mae Ebrard yn atteb, mai y rheol sydd yn cael ei thybied gan Ioan o dan y cyfarwyddyd ydyw hon:—am bob pechod nad yw i farwolaeth—fod yn bossibl ei adnabod yn sicr fel y cyfryw. Gellir adnabod trwy arwyddion sicr y dyn hwnw nad yw wedi ymgaledu y tu hwnt i iachawdwriaeth—y dyn ag y mae gobaith am ei edifeirwch a'i ddychweliad; ac am bob un o'r cyfryw, gorchymynir i ni weddïo drosto. O'r ochr arall, pan nad ydym yn meddu y sicrwydd hwn—pan y mae achos i farnu fod un wedi pechu y "pechod i farwolaeth"—yna, y mae y weddi hon o eiriolaeth drosto yn darfod: nid yw mwyach yn orchymynedig. Onis gellir edrych ar hyn fel un ran ddïfrifol o gosp y pechod hwn? 2il, Gesyd Düsterdieck y rheolau hyn i lawr i esbonio ystyr yr ymadrodd "pechod i farwolaeth:"—(1.) Ei fod yn gyfryw ag y gellir ei adnabod:—(2.) Nas gellir ei gyflawni ond gan aelod o'r eglwys Gristionogol:—(3.) Nad oes gweddïo i fod dros yr hwn sydd wedi ei gyflawni. Felly, y mae efe yn dyfod i'r penderfyniad nas gall hwn fod yr un a'r "pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân;" canys cyflawnid hwnw gan anghredinwyr (y tu allan i'r eglwys): ac nis gall chwaith olygu anedifeirwch yn parhau hyd angeu naturiol, o blegid na byddai yn bossibl i neb wybod y byddai i unrhyw berson barhau yn anedifeiriol hyd angeu. O blegid hyn, y mae yr esboniwr galluog hwn yn dibenu ei ymchwiliad yn y golygiad mai "y pechod i farwolaeth" ydyw "llongddrylliad am y ffydd"—gwrthgiliad, yn ystyr eithaf y gair—llwyr ymadawiad oddi wrth yr efengyl. Sylwa Düsterdieck yn mhellach, fod yn rhaid fod yr holl ymdriniaeth hon â'r "pechod i farwolaeth" yn llawer mwy dealladwy i ddarllenwyr cyntaf yr Epistol, ac mai y ffurf mwyaf uniongyrchol ar y pechod hwn oedd mewn golwg iddynt a chanddynt hwy, oedd y gwrthgiliad i Gnosticiaeth—"gwadu mai Iesu yw Mab Duw." 3ydd, Y mae Alford yn cyttuno â'r golygiad uchod o ran sylwedd: ond gan fod ei nodiad ar hyn yn well nag arferol, ac yn rhoddi cymmhorth pellach at ddeall y mater anhawdd hwn, dodwn grynodeb o hono yma. Sefydla Alford y pethau canlynol yn y dechreu, fel rheolau esboniadaeth yr ymadrodd—"y pechod i farwolaeth." (1.) Rhaid i'r "farwolaeth" a'r "bywyd" yn yr adnod hon gyfatteb i'w gilydd. Nis gall y blaenaf olygu marwolaeth naturiol, a'r llall fywyd ysbrydol a thragwyddol. Rhaid iddynt fod o'r un natur. Dadymchwela hyn olygiadau yr holl esbonwyr sydd yn dal ei fod yn golygu pechod am yr hwn y mae cyfreithiau dynol yn gweinyddu y gosp o farwolaeth; neu bechod ag y mae Duw yn dwyn afiechyd ac angen corphorol fel cosp uniongyrchol am dano; neu bechod ag y mae dyn yn parhau ynddo hyd ei farwolaeth. (Am yr olaf, fel y dywedwyd o'r blaen, pwy a all ragweled mai felly y bydd?) (2.) Gan fod y pechod hwn fel hyn yn un sydd yn arwain i farwolaeth dragwyddol, a dim eglurhâd pellach ar hyny yn cael ei roddi gan Ioan yma i'w ddarllenwyr, y mae yn rhaid i ni olygu fod yr apostol yn cymmeryd yn ganiataol

yw: ac y mae pechod nid *yw* i farwolaeth.

deallid hyn yn ngoleuni yr hyn a ddywedasai efe o'r blaen am fod yn meddu bywyd neu fod yn marwolaeth. Y mae y darnodiad o hyn wedi ei roddi yn *adn.* 12. Nid rhyw un weithred ysgeler o bechod, megys trosedd moesol—meddwdod neu odineb, neu lofruddiaeth—a feddylir; ond (yn ol *adn.* 12) rhyw fath o wadu Crist. (3.) Yn ol y cyd-destyn, rhaid golygu mai nid cyflwr o bechod, ond rhyw weithred o bechod y gellir ei hadwaen, sydd mewn golwg; o blegid yr hyn sydd yn gyferbyniol iddi ydyw gweithred i'w hadnabod—"Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid yw i farwolaeth." Yn awr, yn ngoleuni rhanau ereill yr Epistol, arweinir ni i benderfynu beth yw y pechod hwn. 'Ein cyflwr ni (Ioan a'i gyd-Gristionogion) ydyw cyflwr o fywyd yn Nghrist. Y mae rhai wedi myned allan oddi wrthym ni heb fod o honom ni (*pen.* ii. 19)—y rhai a elwir 'Anghristiau:' y rhai sydd nid yn unig heb fod Crist ganddynt, ond ydynt yn elynion Crist, yn gwadu y Tad a'r Mab (*pen.* ii. 22), y rhai nad ydym hyd yn oed i'w derbyn i'n tai, nac i'w cyfarch trwy ddywedyd wrthynt 'Duw yn rhwydd:" 2 *Ioan* x. 11. Dyma y personau, dybygid, y cyfeirir atynt yma, a dyma y pechod—gwadu mai Iesu yw y Crist, Mab Duw wedi dyfod i'r cnawd. Hwn, yn anad un pechod, sydd yn dwyn arno yr argraph o ysgariad oddi wrth y person, yr hwn yw y bywyd ei hunan. Megys mai cyffesu Crist, a'r genau ac yn y galon, ydyw iachawdwriaeth i fywyd (*Rhif.* x. 9), felly gwadu Crist a'r genau ac yn y galon, ydyw pechod i farwolaeth. Dyma yr unig olygiad, medd Alford, sydd yn atteb i'r rheolau a osodwyd i lawr. Yn ol hwn, y mae y bywyd a wrthodir, a'r farwolaeth yr eir i'w gafael, yn cyfatteb yn hollol i'w gilydd. Y mae y golygiad yn gysson â'r hyn a ddywedodd Ioan yn flaenorol am fywyd a marwolaeth, ac yn cael ei egluro gan yr adnodau hyny, yn neilluol *adn.* 12. Y mae hon hefyd yn weithred o bechod y gellir ei hadwaen—un y rhybuddiwyd y darllenwyr rhagddi lawer o weithiau o'r blaen: *pen.* ii. 18, &c.; iv. 1, &c.; v. 5, 11, 12. Y mae y golygiad hwn hefyd yn gysson â rhanau ereill o'r Ysgrythyr sydd fel yn nodi allan bechod arbenig—yn cael ei wahaniaethu yr un fath oddi wrth bob un arall: *Mat.* xii. 31, a *Heb.* vi. 4; x. 27. Yn yr achos blaenaf, yr oedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn "gwrthwynebu yr Ysbryd Glân" (*Act.* vii. 51), yr hwn oedd yn amlygu Duw yn y cnawd yn mherson a gwaith Crist. Nid ydyw yr Arglwydd Iesu ei hunan yn gweddïo drostynt hwy (*Luc* xxiii. 34); gwyddent hwy beth yr oeddynt yn ei wneuthur; aethant allan oddi wrth bobl yr Arglwydd, ond nid oeddynt o honynt; cawsant, a gwrthodasant dystiolaeth yr Ysbryd Glân i Fessïaeth yr Iesu. Pwysigrwydd ac anhawsder yr ymadroddion dan sylw yw ein hesgusawd am nodiad mor faith.

17. *Pob anghyfiawnder, pechod yw: ac y mae pechod nid yw i farwolaeth.*—Nid yw yn hawdd gweled ar unwaith beth yw y rheswm am ddyweyd yr hyn a gynnwysir yn yr adnod hon. Y mae y ddau osodiad arnynt eu hunain yn syml ac eglur; ond nid hawdd yw penderfynu beth yw cyssylltiad y meddyliau. Y golygiad a ymddengys i ni yn fwyaf boddhaol ar hyn yw yr un a ganlyn:—y mae yr apostol, yn *adn.* 16, wedi galw sylw neilluol at y gwahaniaeth rhwng y pechod i

18 Ni a wyddom [r]nad yw y neb a aned o Dduw, yn pechu; [r] 1 Ioan 2. 29. Iago 1. 18.

farwolaeth a'r un nid ydyw felly. Gallasai hyn gael yr effaith o wneyd i'r darllenydd deimlo mai y pechod i farwolaeth yn unig sydd i'w arswydo. I gywiro yr olwg yna ar y mater, chwanegir "Pob anghyfiawnder, pechod yw:" nid oes dim croes i sancteiddrwydd yn llai na phechod. Ond i fantoli hyn drachefn, chwanegir, "y mae pechod nid yw i farwolaeth." Tra nad oes dim "anghyfiawnder" nad yw yn dyfod o dan y cwbl sydd yn gynnwysedig yn y gair "pechod," etto y mae pechod nad yw yn dyfod o dan y disgrifiad ofnadwy o "bechod i farwolaeth." Y mae yr apostol fel hyn, yn niwedd yr ymdriniaeth, yn crynhoi y cwbl, y ddwy ochr i'r pwngc, mewn dwy frawddeg syml; y gyntaf yn diogelu rhag rhyfyg, a'r ail, rhag anobaith; yn gyffelyb i'r geiriau cyferbyniol sydd yn ymyl eu gilydd yn *pen.* ii. 1: "fel na phechoch—ac o phecha neb," &c. Y mae "pechod" yn y rhif unigol: nid yn gyferbyniol i'r lliosog, i ddynodi un weithred—ond mewn ystyr eang, yn gosod allan ryw fath o bechu sydd heb fod yn dwyn nodau y "pechod i farwolaeth." Y mae y darnodiad, "pob anghyfiawnder, pechod yw," yn wahanol i'r un a gawsom yn *pen.* iii. 4: "anghyfraith yw pechod." Dengys y gair "anghyfraith" fod pechod yn groes i orchymynion pennodol Duw; ac y mae pob pechod felly yn ol *pen.* iii. 4. Ond dengys y gair "anghyfiawnder" fod pob pechod yn groes i'r perffeithrwydd tragwyddol hwnw yn natur Duw o ba un y mae ei orchymynion yn amlygiad—yn groes i "gyfiawnder" ei natur yn ystyr dyfnaf, a mwyaf tumewnol y gair. Yn ol Ebrard, y mae "anghyfraith" yn "darnodi ansawdd" y syniad o bechod (*qualitative definition*); ac "anghyfiawnder" yn "terfynu ei ansawdd" (*qualitative limitation*); *h. y.*, yn dangos y terfynau.

18—20. Diweddglo yr Epistol.

Y mae y tair adnod, yn dechreu gyda'r geiriau "ni a wyddom," yn amlygu llawn berswâd a sicrwydd. Yn y tri "ni a wyddom," y mae yr apostol yn symio i fyny tri phrif bwngc ei addysg drwy yr holl Epistol:—1. Y rhwymedigaeth a'r rhagorfraint o sancteiddrwydd. 2. Ein gwrthwynebiad i'r byd. 3. Ein perthynas â Pherson Crist.

18. *Ni a wyddom nad yw y neb a aned o Dduw, yn pechu.*—Bron yr un geiriau a *pen.* iii. 9: gwel yr eglurhâd yno. *Eithr y mae yr hwn a aned o Dduw, yn ei gadw ei hun:*—yn ei gadw ei hun fel un wedi ei eni o Dduw; neu yn ei gadw ei hun, yn ystyr filwraidd y gair "cadw"—trwy wyliadwriaeth barhaus rhag ymosodiadau y gelyn. Yr olaf yw y mwyaf naturiol yma. Ond y mae rhai beirniaid yn cyfleithu y frawddeg yn wahanol, a thrwy hyny yn rhoddi ystyr newydd i'r geiriau "ei gadw ei hun." Y cyfleithiad hwnw sydd fel hyn:—"Ond yr hwn sydd wedi ei eni o Dduw, y mae (hyny) yn ei gadw ef;" hyny yw, y mae yr enedigaeth o Dduw yn ei gadw ef. *A'r drwg hwnw nid yw yn cyffwrdd âg ef.*—Nid yw y cyfleithiad Cymraeg yn cyfleu gwir feddwl y geiriau hyn: dylid cyfleithu 'A'r un drwg (*ho ponéros*) nid yw yn cyffwrdd âg ef.' Megys nad oedd i dywysog y byd hwn ddim yn ein Hiachawdwr, felly am y rhai sydd yn byw trwy ac yn ei fywyd ef, er i Satan gael ei oddef i'w temtio, gwneir i'r demtasiwn gael ei throi draw a'i gorchfygu, heb eu niweidio. Y mae y "cyffwrdd" yn

eithr y mae yr hwn a aned o Dduw, yn ei gadw ei hun, a'r drwg hwnw nid yw yn cyffwrdd âg ef.

19 Ni a wyddom ein bod o Dduw, [s]ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni. [s] Ioan 15.18, 19.

20 Ac a wyddom ddyfod Mab

golygu y cyfryw gyffyrddiad ag a archollai y dyn newydd, gan wneyd gwir niwed.

19. *Ni a wyddom ein bod o Dduw, ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni.*—Dangosodd yr adnod flaenorol fel yr oedd ein 'genedigaeth o Dduw yn ein gosod yn wrthwyneb i bechod a diafol; yma, dangosir fod yr enedigaeth hono yn ein gosod mewn gwrthwynebrwydd i'r byd. Rhaid i ni ddyweyd yma etto, er mor gywir ac ardderchog yw y cyfeithiad Cymraeg ar y cyfan, fod y geiriau "yn gorwedd mewn drygioni" yn mhell o osod allan y ffurf bennodol sydd ar y syniad yn y geiriau gwreiddiol, yn ol y beirniaid goreu, er fod y meddwl o ran sylwedd yn dyfod i'r un peth. Yn unol â dull cyffredin Ioan o eirio, y diafol yn bersonol a olygir yma—yr "un drwg," ac nid "drygioni," fel yn y Cymraeg a'r Saesneg. "Y mae yr holl fyd yn gorwedd yn yr un drwg." Y mae bod "yn yr un drwg" yn gyferbyniol i fod "o Dduw" yn nechreu yr adnod. Dywedir yma am y byd, nid yn unig ei fod "o'r un drwg," yn hiliogaeth yr un drwg, ac yn dwyn ei ddelw; ond hefyd, ei fod "yn gorwedd yn yr un drwg," yn gorwedd yn ei fynwes—nid fel y plentyn heb ei eni yn nghroth ei fam [fel y dywed Spener, a Steinhofer], yr hyn ni fuasai ond ffurf arall o fod "o'r un drwg," ac a fuasai hefyd yn ffugr hollol ammhriodol—ond fel baban yn gorwedd yn mynwes ei fam neu ei dad, wedi ei roddi i fyny yn hollol i lywodraeth ei rieni [*Calvin, Bengel, Lucke*]. Y mae hyn yn cynnwys tarddiad a natur y byd, ynghyd â'r dynged sydd yn ei aros. Y mae hyn yn cynnwys yr un pryd gysur i'r "ni," y rhai ydynt "o Dduw."

20. *Ac a wyddom ddyfod Mab Duw.*—Dyma y trydydd "ni a wyddom," yn tarddu o'r ail "ni a wyddom ein bod o Dduw." Yr oedd hwnw yn arwain yn naturiol at y person, trwy gyfryngdod yr hwn yr ydym wedi dyfod yn blant i Dduw. Y mae ymgnawdoliad a gwaith, a phresennoldeb arosol Mab Duw, i ni yn ffaith fywiol. Y mae efe yma—y mae y cwbl yn llawn o hono. *Ac efe a roes i ni feddwl.*—Y mae "meddwl" yma yn golygu, nid y wybodaeth noeth, ond y gallu i wybod (*dianoian*); dirnadaeth ysbrydol; y synwyr mewnol, trwy yr hwn yr ydym yn barnu pethau dwyfol. "Goleuni yw Duw," a "Duw cariad yw;" ac nis gall neb ei adnabod ond y rhai y mae ei oleuni ef wedi treiddio iddynt, a'i gariad wedi cynneu eu calonau. *Fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir.*—Yr un cywir, sef Duw: *Ioan* xvii. 8. Mae y "cywir" (*alēthinon*) yn golygu y gwir (*genuine*), yn gyferbyniol i'r gau; ac felly yn parotoi y ffordd at y rhybudd rhag "eilunod" yn yr adnod nesaf. Saif y gwir Dduw mewn gwrthgyferbyniad i dduwiau gwag y dychymmyg, y rhai nad ydynt yn "oleuni" nac yn "gariad." *Ac yr ydym yn y Cywir hwnw:*—sef, yn Nuw: nid yn unig wedi ein geni o hono. ond ynddo. Y mae Ioan yma yn cyrhaedd coron ac uchelfan holl addysg ei Epistol. Nis gall iaith osod allan yn gryfach na hyn berffeithrwydd undeb y credadyn â Duw. *Sef yn ei Fab ef, Iesu Grist.*—Y mae y gair "sef" mewn llythyrenau Italaidd, i ddangos nad yw yn y testyn gwreiddiol, ond wedi ei roddi gan y cyfeithwyr:—'Yr ydym yn Nuw, trwy fod yn ei Fab ef Iesu Grist.'

Dywedir yn *Ioan* xvii. 33: "Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi"—(ac felly trwy fy nghyfryngdod i, 'Ti ynddynt hwy'); ac o ganlyniad, 'hwy ynof fi ac ynot ti' ("fel y byddont hwythau yr un ynom ni.") *Hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragwyddol.*—Y mae llawer o ddadleu wedi bod yn mhlith esbonwyr ar ystyr y gair "hwn" yn y frawddeg hon. Cyfeiria rhai ef at Dduw "y Cywir," ac ereill at "ei Fab ef, Iesu Grist." Dywed Alford fod eiddigedd dros ddaliadau duwiolyddol wedi dylanwadu ar esbonwyr yn y ddadl hon. Yr oedd tadau yr eglwys, y rhai oeddynt yn ymladd yn erbyn cyfeiliornad yr Ariaid, fel y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr uniongred ar ol hyny, yn dal fod y cyfeiriad at Grist, gan edrych ar y geiriau yn dystiolaeth werthfawr o blaid Duwdod y Mab. Er mwyn gosod y darllenydd mewn mantais deg i farnu drosto ei hunan, rhoddwn yma grynodeb byr o'r rhesymau dros y ddau olygiad. Dygir y rhesymau canlynol dros y golygiad mai at Grist y mae "Hwn" yn cyfeirio. 1. Y mae yn fwy naturiol i'r rhagenw, "Hwn," gyfeirio at yr enw a grybwyllwyd olaf, sef "Iesu Grist." 2. Y mae yr ymadrodd, neu y teitl, "y bywyd tragwyddol," yn perthyn yn fwy naturiol ac uniongyrchol i'r Mab nag i'r Tad. Gosodwyd i lawr mor bendant yn *adn.* 12, fel terfyn eithaf yr holl ymdriniaeth, mai yn y Mab yr ydym yn cael "bywyd," fel y buasai yn naturiol i ni ddisgwyl yma, yn niwedd yr Epistol, rhyw fynegiad cyffelyb i hwn—mai y Mab ydyw y bywyd tragwyddol. 3. Wrth gyfeirio yr "Hwn" at y Tad, y mae y frawddeg yn myned yn aii adroddiad diamcan. Dywedwyd ddwywaith o'r blaen mai Duw oedd y "Cywir;" felly, nid yw yn debyg y chwanegasid y drydedd waith, "Hwn yw y gwir Dduw." 4. Ymddengys ar yr olwg gyntaf yn erbyn y golygiad hwn, fod y fannod wedi ei rhoddi i mewn:—"y gwir Dduw" (*ho alēthinos Theos*). Yr atteb i hyn yw, mai y rheol o barth i'r fannod yn y Groeg ydyw, peidio ei rhoddi i mewn pan mai pwynt y mynegiad yw dywedyd pa beth ydyw y gwrthddrych; ond ei defnyddio os y pwngc ydyw dywedyd pwy yw y gwrthddrych. Dadleua amddiffynwyr y golygiad hwn mai yr olaf ydyw yr amcan yma:—nid hŏni duwdod y Mab yn uniongyrchol, ond dangos ei undod â'r Tad, ynglŷn â'r gwahaniaethiad a wnaethai efe arno o'r blaen oddi wrth y Tad, trwy ei alw, "ei Fab ef, Iesu Grist." Hwn yr un pryd, sef Mab Duw, ydyw "y gwir Dduw" ei hunan. Attebir rhai o'r rhesymau hyn fel y canlyn gan Lücke a Düsterdieck, yn cael eu dilyn gan Alford. 1. Y mae "Hwn" (*outos*) fwy nag unwaith yn cael ei gymmhwyso gan Ioan, nid at yr enw agosaf ato, ond at y prif enw yn y frawddeg flaenorol. Testyn y cyfan yn y lle hwn oedd y Tad. Y mae y Mab yn cael ei gyfeirio yn ol ato ef, "ei Fab ef;" ac felly y cedwir yr "ef," sef y Tad, fel y prif wrthddrych ger bron y meddwl. 2. Y mae yn fwy cysson â'r Ysgrythyr briodoli yr enw, "y bywyd tragwyddol," i'r Tad nag i Grist. Gelwir Crist, y mae yn wir, yn yr Epistol hwn "y Bywyd," ond nid "y bywyd tragwyddol." Yn unol â hyn, dywed ein Hiachawdwr ei hunan: "A hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw; a'r hwn a anfonaist ti,

Duw, ac efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir. Ac yr ydym yn y Cywir hwnw, *sef* yn ei Fab ef, Iesu Grist.

Hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragwyddol.

21 *Y* plant bychain, ymgedwch oddi wrth eilunod. Amen.

Iesu Grist;" *Ioan* xvii. 3. Y mae efe yn fywyd tragwyddol ynddo ei hunan—yn ffynnonell a gwreiddyn o hono; ac y mae felly i ni, canys ei adnabod ef yn ei Fab ydyw y bywyd hwnw. 3. Nid ydyw cyfeirio yr "Hwn" at Dduw yn ail adroddiad. Dangos y mae yr ymadrodd mewn dullwedd ddifrifol mai yr un ydyw "y Cywir," a enwyd o'r blaen, a'r "gwir Dduw," ac felly arweinia i'r rhybudd dilynol yn erbyn gauddnwiau. Fel y mae yr apostol wedi dangos o'r blaen fod bod heb y Mab yn fod heb y Tad hefyd, felly yma, yn niwedd y cwbl, gosodir ger ein bron "y gwir Dduw," ffynnonell y "bywyd tragwyddol," fel yr amcan eithaf ac uchaf, at yr hwn yr ydym yn dyfod, y mae yn wir, trwy y Mab; ond efe yw yr un Tad o'r eiddo ef a ninnau, y rhai ydym yn byw trwyddo ef. Barned y darllenydd rhwng y rhesymau hyn o bob ochr.

21. Rhybudd ymadawol rhag eilunod.

21. *Y plant bychain.*—Y mae yn ffarwelio â hwynt yn y dull o gyfarchiad mwyaf gwresog a serchog a feddai. *Ymgedwch oddi wrth eilunod.* —Yr oedd yr eglwys Gristionogol yn yr oes hono wedi ei haingylchu ar bob llaw gan eilun-addoliaeth; felly rhybuddir y Cristionogion yma rhag gollwng eu gafael o'r unig wir Dduw, yn yr hwn y gallant aros yn unig trwy aros yn ei Fab ef, Iesu Grist. Ond gallai, fel y sylwa Ebrard, fod y drychfeddwl yn un nwy eang na hyn yna ar yr un pryd—ei fod yn cynnwys pob peth gwrthwyneb i'r Duw a ddadguddiwyd yn Nghrist, ac i'w addoliad ef, "mewn ysbryd a gwirionedd." Felly, fel y dywed Ebrard, golygir yn bennodol eilunod gwag a thwyllodrus y gyfundrefn Gnosticaidd, ac anffyddiaeth hen a diweddar, yn gystal a phob ofergoeledd a gwagffurfiau, a phob gau hyder, mewn saint, yn y pab, yr offeiriadaeth, neu mewn gweithredoedd da, neu yn yr eglwys a'i swyddau a'i sacramentau—pa un bynag ai yn Eglwys Rhufain neu allan o honi. Duw yn Nghrist ydyw y bywyd tragwyddol: yr ydym yn dyfod i feddiant o Dduw trwy Grist, ac o Grist trwy ei Ysbryd—nodau yr hwn ydynt, nid gwisgoedd addurniadol offeiriadaeth, ond ffydd a chariad. Yn yr "Hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed" y mae ein bywyd, ac ynddo ef yn unig: felly ni ddylem byth roddi ein hymddiried yn y dwfr yn unig, yn yr arwyddion a'r sefydliadau (yr hyn yw hanfod Pabyddiaeth a defodaeth), ond yn ei farwolaeth iawnol ef, er mwyn dangos yr hon y mae yr arwyddion wedi eu sefydlu. Gyda yr ystyr hwn y mae llef yr apostol yn seinio yn mlaen drwy yr holl oesoedd yn nghlustiau yr holl Gristionogion:—"Blant bychain, ymgedwch oddi wrth eilunod. Amen."

AIL A THRYDYDD EPISTOLAU

I O A N.

EU HAWDURIAETH.

Y MAE wedi bod yn gwestiwn o ddadl yn yr eglwys, pwy a ysgrifenodd y ddau Epistol yma. Ond ni bu yr ammheuaeth lleiaf o barth i un pwynt; sef, fod y ddau wedi eu hysgrifenu gan yr un person. Y maent, fel y dywedodd un, yn debyg i chwaer-efeilliaid:—y mae eu harddull a'u hysbryd yr un, a'u casgliadau yn cyttuno bron air am air. Felly, bydd yr arweiniad hwn yn ymdrin â'r ddau gyda'u gilydd.

Yr ymofyniad ydyw—A ysgrifenwyd y ddau Epistol hyn gan awdwr yr Epistol mwyaf, a chyntaf? Attebwyd y cwestiwn hwn yn gadarnhaol gan rai beirniaid Almaenaidd, y rhai a wadent fod Ioan wedi ysgrifenu yr Epistol Cyntaf. I ni, sydd yn credu mai Ioan ydyw awdwr yr Epistol Cyntaf, y mae rhesymau y beirniaid hyn yn gwasanaethu i ddyben gwahanol i'r hyn a fwriadent hwy. Ond yn gyffredin, y mae barn y rhai a ammheuent yr awduriaeth wedi cymmeryd ffurf arall. Tra yn priodoli y llythyr cyntaf i Ioan, priodolent y ddau lythyr lleiaf i ryw ysgrifenydd arall: naill ai i Ioan yr Henuriad, neu i ryw ddysgawdwr Cristionogol arall o'r un enw, ond anadnabyddus i ni. Ymddengys nad oedd unrhyw ammheuaeth yn y canol-oesoedd am awduriaeth yr epistolau hyn, hyd nes y darfu i Erasmus adnewyddu y syniad eu bod yn waith Ioan yr Henuriad. Y mae bodolaeth y cyfryw berson ag Ioan yr Henuriad yn beth hollol ammheus. Ac nid yw y ffaith fod yr awdwr yn galw ei hunan yn "henuriad" yn dywedyd dim, fel y myn rhai, yn erbyn y gred mai yr apostol Ioan yw eu hawdwr. Geilw Pedr ei hun, pan yn cyfarch yr henuriaid, yn "gyd-henuriad:" 1 *Pedr* v. 1. Gallai Ioan fod wedi defnyddio y gair ar gyfrif ei oedran. Y mae tystiolaeth gysson yr hen dadau, ynghyd â'r absennoldeb o unrhyw reswm digonol dros dybied fod y teitl "henuriad" yn cyfeirio at neb arall amgen na'r apostol ei hun, yn ein harwain i'r penderfyniad hwn—fod yr Ail a'r Trydydd Epistol wedi eu hysgrifenu, fel y Cyntaf, gan Ioan, yr Efengylwr a'r Apostol.

AT BWY YR YSGRIFENWYD HWYNT.

1. Nid oes unrhyw ammheuaeth at bwy yr ysgrifenwyd y Trydydd Epistol. Cyfeirir ef at un Gaius. Y mae yn ammhossibl penderfynu a ydyw y Gaius hwn yr un person a Gaius o Macedonia (*Act.* xix. 29), a Gaius o Corinth (1 *Cor.* i. 14; *Rhuf.* xvi. 23), neu a Gaius o Derbe (*Act.* xx. 4). Yr oedd yr enw yn un o'r rhai mwyaf cyffredin: ac y mae yn bossibl, fel y sylwa Lücke, fod y dynion a berthynent i gyfnod Ioan o'r gwaith apostolaidd yn Asia yn hollol wahanol i'r eiddo cyfnod yr apostol Paul. Crybwyllir am un Gaius yn yr *Apostolic Constitutions* [vii. 40], fel esgob Pergamus: barna Mill a Whiston, mai y person hwn yw yr un y cyfeiria Ioan y Trydydd Epistol ato.

2. Nid ydyw mor amlwg at bwy yr ysgrifenwyd yr Ail Epistol. Y cyfarchiad ydyw:—"At yr etholedig arglwyddes, a'i phlant." Cyfeirir at ei phlant yn *adn.* 4; ceir y cyfarchiad "arglwyddes" yn *adn.* 5; a dywedir yn *adn.* 13, fod "plant dy chwaer etholedig" yn anfon eu hanerch.

Oddi ar hyn o ddefnyddiau y mae yr ymofynion canlynol yn cyfodi. Ai arglwyddes bersonol yw yr un a gyferchir? Os felly, pa un o'r ddau air ydyw yr enw priodol, *eclecte* ("etholedig") ai *curia* ("arglwyddes")? Neu ynte, ai eglwys ydyw—yn cael ei galw fel hyn wrth enw ffugrol? Ac os felly, ai rhyw gorph pennodol o Gristionogion ydoedd? ai ynte yr eglwys gyffredinol?

Ceid amrywiaeth mawr yn yr attebion i'r cwestiynau hyn hyd yn oed yn yr oesoedd boreuol. Barn lliaws o ysgrifenwyr oddi yno i lawr hyd ein hamser ni ydoedd—mai person unigol oedd yr "arglwyddes." Yr oedd un traddodiad, mai Drusia neu Drusiana ydoedd; tybiai Carpzov mai Martha, chwaer Lazarus a Mair, ydoedd; ac y mae ereill wedi bod yn dyfalu mai Mair, mam ein Iachawdwr, ydoedd. Y mae amryw, o Jerome i lawr at Huther a Whitby, yn dadleu ar y llaw arall mai ystyr eglwysig sydd i'r gair "arglwyddes" yma; ac y mae rhai o honynt wedi myned mor fanwl a nodi pa un oedd yr eglwys neilduol y cyfeiriwyd y llythyr ati:—rhai Corinth, ereill Philadelphia, ereill Jerusalem, &c.

Y mae y cyfarchiad yn nechreu y llythyr, ac yn *adn.* 5, a'r anerch yn y diwedd, yn ei wneyd yn dra thebyg mai at "arglwyddes" bersonol yr ysgrifenai yr apostol. Ymddengys hefyd, oddi ar ymchwiliad manwl i'r ddau air "etholedig" ac "arglwyddes," mai yr olaf oedd ei henw priodol: —*curia* yn cael ei ysgrifenu fe allai yn *cyria*, o'r hwn air y mae "arglwyddes" yn gyfieithiad. Ceir yr enw mewn llyfrau neu ysgrifeniadau ereill.

Arweinir ni gan hyny i farnu fod y *Cyria* hon yn fam Gristionogol, yn adnabyddus ac yn anwyl gan y brodyr yn gyffredinol: fod ganddi blant, a bod yr apostol wedi cael (ar ymweliad blaenorol â hi, fe allai) fod rhai o honynt yn rhodio mewn gwirionedd. Yr oedd ganddi chwaer oedd hefyd yn fam Gristionogol, plant yr hon oedd gyda'r apostol, fel y mae yn ymddangos, pan ydoedd yn ysgrifenu yr Epistol hwn.

Crybwyllir yn y Trydydd Epistol am Demetrius gyda chanmoliaeth; ac am Diotrephes gydag anghymmeradwyaeth, fel dyn terfysglyd, ac yn gwrthsefyll awdurdod yr apostol. Ofer ydyw dyfalu dim am hanes yr enwau hyn. Nis gwyddom ddim yn eu cylch.

Y mae achlysur ac amcan yr Epistolau hyn yn cael eu gosod allan mor amlwg yn y llythyrau eu hunain fel mai afreidiol ydyw chwanegu ar hyny.

YR AMSER A'R LLE YR YSGRIFENWYD HWYNT.

Nis gellir penderfynu y naill na'r llall o'r pethau hyn i sicrwydd. Gan fod y fath debygrwydd yn arddull y ddau, ysgrifenwyd hwynt, y mae yn debyg, tua'r un adeg. Gallai mai yr un oedd y laithiau a grybwyllir yn 2 *Ioan* 12, a 3 *Ioan* 10, 14. Tybir, oddi ar ryw grybwylliad gan Eusebius, fod y ddau yn perthyn i ddiwedd oes yr apostol, ac wedi eu hysgrifenu ar ol Llyfr y Dadguddiad.

O berthynas i'r lle yr ysgrifenwyd hwynt, y mae Ephesus yn ymddangos y mwyaf tebygol.

AIL EPISTOL CYFFREDINOL IOAN.

Y mae efe yn annog rhyw arglwyddes urddasol a'i phlant, i barhau mewn cariad a ffydd Crist, 8 rhag iddynt golli gwobr eu profes o'r blaen; 10 ac na byddai iddynt a wnelent â'r twyllwyr nid oedd yn dysgu gwir athrawiaeth Crist Iesu.

B. A. 95.

Eph. 1. 4, b; 2 Thes. 2. 13, 14.

1 Pedr 1. 22, 23; 1 Ioan 3. 18.

YR henuriad at yr [a] etholedig arglwyddes, a'i phlant, [b] y rhai yr wyf fi yn eu caru yn y gwirionedd; ac nid myfi yn unig, ond pawb hefyd a adnabuant y gwirionedd;

[a] Ioan 15. 7; Col. 3. 16; 1 Pedr 1. 23—25.

2 Er mwyn y gwirionedd, [c] yr hwn sydd yn aros ynom ni, ac a fydd gyda ni yn dragywydd.

[a] Rhuf. 1. 7; 1 Tim. 1. 2.

3 Bydded [d] gyda chwi ras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, ac oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist, [c] Mab y Tad, [f] mewn gwirionedd a chariad.

[c] 1 Ioan 4. 10.

[f] Gal. 5. 6; 1 Tim. 1. 14.

4 Bu lawen iawn genyf i mi gael o'th blant di *rai* [g] yn rhodio mewn gwirionedd, fel y derbyniasom orchymyn gan y Tad.

[g] Hos. 14. 9; Eph. 5. 2, 8; 1 Ioan 2. 6.

5 Ac [h] yn awr yr wyf yn attolwg i ti, arglwyddes, nid fel *un* yn ysgrifenu gorchymyn newydd i ti, eithr yr hwn oedd genym o'r dechreuad, garu o honom ein gilydd.

[h] Ioan 14. 15, 21.

6 A hyn yw y cariad; bod i ni rodio yn ol ei orchymynion ef.

1—3. Y CYFEIRIAD, A'R ANERCH.

1. *Yr henuriad at yr etholedig arglwyddes, a'i phlant.* Gwel yr arweiniad. *Y rhai.*—Y mae y rhagenw yn y gwreiddiol yn y rhyw gwrywaidd; yn cynnwys, y mae yn debyg, y fam, a'r plant o'r ddau ryw. *Yr wyf fi yn eu caru yn y gwirionedd.*—Nid yn unig "mewn gwirionedd," yn gywir a didwyll, ond yn ngwirionedd yr efengyl. *Ac nid myfi yn unig, ond pawb hefyd a adnabuant y gwirionedd.*—Wrth y "pawb" yma, y mae yn rhaid i ni ddeall—nid Cristionogion pob gwlad, fel y dywed rhai; ond yr holl Gristionogion hyny oeddynt wedi dyfod i ryw fath o gyfarfyddiad â Cyria.

2. *Er mwyn y gwirionedd.*—Y gwirionedd allanol: gwirionedd Duw, wedi ei ddadguddio yn ei Fab: 1 *Ioan* ii. 4. *Yr hwn sydd yn aros ynom ni, ac a fydd gyda ni yn dragywydd.*—Nid dymuniad ydyw hyn, ond dadganiad o hyder.

3. *Bydded gyda chwi.*—Yn ol darlleniad arall, "gyda ni;" cyfeithir "bydd" hefyd (*estai*) yn lle "bydded." Dadganiad o hyder etto; neu ddymuniad yn cael ei ddadgan trwy hôniad hyderus o'i gyflawniad. *Ras, trugaredd, a thangnefedd.*—Y mae "gras" yn cyfeirio at bechodau dynion, "trugaredd" at eu trueni. Cyfrana Duw ei ras i ddynion fel y maent yn euog, a'i drugaredd fel y maent yn druenus: fel hyn, y mae "gras" bob amser yn gyntaf, canys rhaid symmud euogrwydd cyn y gellir lliniaru trueni. "Tangnefedd" ydyw holl swm a sylwedd y meddiant a'r mwynhâd o ras a thrugaredd Duw. *Oddi wrth Dduw Dad, ac oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist, Mab y Tad.*—Oddi wrth Dduw Dad, fel ffynnonell fawr y bendithion; ac oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist, fel eu cyfrwng. Chwanegir "Mab y Tad," i roddi mynegiad difrifol i undod yr Iesu â'r Tad yn yr hanfod ddwyfol. *Mewn gwirionedd a chariad.*—Yr elfen ammodol, yn yr hon y mae y gras, y trugaredd, a'r tangnefedd i'w mwynhau.

4—11. GWIRIONEDD A CHARIAD. DYMA DDAU BEGWN YR EPISTOL.

4. *Bu lawen iawn genyf i mi gael o'th blant di rai yn rhodio mewn gwirionedd.*—Nid yn unig mewn gonestrwydd ac uniondeb moesol, ond yn ngwirionedd yr efengyl—ei hysbryd a'i rhinweddau. Nid yw y "cael" yn cynnwys fod hyn yn ffrwyth prawf ac ymchwiliad, fel y dywed rhai; ond awgryma fod yr apostol wedi dyfod o hyd iddynt mewn rhywle ag yr oedd efe yn dyfod iddo ar ei daith, dybygid, ac yn anfon yn awr i'w mham yr adroddiad ffafriol hwn am danynt. Nid yw hyn chwaith yn awgrymu yn y mesur lleiaf nad oedd y lleill o'i phlant yn rhodio yr un modd. *Fel y derbyniasom orchymyn gan y Tad:*—sef, i rodio yn y gwirionedd.

5. *Ac yn awr.*—Arwydda y gair hwn fod yr apostol yn myned yn mlaen i ymafiyd yn mhrif bwngc y llythyr. *Yr wyf yn attolwg i ti, arglwyddes.*—Ar y geiriau *erotaó* ac *aiteó*, gweler 1 *Ioan* v. 15, 16. Y cyntaf sydd yma, yn awgrymu fod gan yr apostol hawl i attolygu. *Nid fel un yn ysgrifenu gorchymyn newydd i ti, eithr yr hwn oedd genym o'r dechreuad.*—Y meddwl yw, fod y gorchymyn yn un hollol adnabyddus i Cyria, ac nad ydoedd yr apostol yn gofyn dim newydd; ond yn dwyn ar gof y ddyledswydd fawr o gariad. *Garu o honom ein gilydd.*—Y mae ei waith yn rhoddi ei hunan i mewn yn arwydd o dynerwch boneddigaidd.

6. *A hyn yw y cariad.*—Mewn ystyr eang, fel yn cynnwys swm a sylwedd holl orchymynion Duw. *Bod i ni rodio yn ol ei orchymynion ef. Hwn yw y gorchymyn; Megys y clywsoch o'r dechreuad, fod i chwi rodio ynddo.*—Gorchymyn

Hwn yw y gorchymyn ; Megys y clywsoch o'r dechreuad, fod i chwi rodio ynddo.

7 O blegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, [1] y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw y twyllwr a'r anghrist.

8 Edrychwch arnoch eich hunain, fel na chollom y pethau a [k] wnaethom, ond [k] bod i ni dderbyn llawn wobr.

9 Pob un a'r sydd yn troseddu, [l] ac heb aros yn nysgeidiaeth Crist. [m] nid yw Duw ganddo ef. Yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, [n] hwnw y mae y Tad a'r Mab ganddo.

10 Od oes neb yn dyfod atoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon, na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch, Duw yn rhwydd, wrtho.

11 Canys yr hwn sydd yn dywedyd wrtho, Duw yn rhwydd, sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef.

12 Er bod genyf lawer o bethau i'w hysgrifenu atoch, nid oeddwn yn ewyllysio *ysgrifenu* â phapur ac inge: eithr gobeithio yr ydwyf ddyfod atoch, a llefaru wyneb yn wyneb, fel y byddo ein llawenydd yn gyflawn.

13 Y mae plant dy chwaer etholedig yn dy anerch. Amen.

---

1 Ioan 1. 14.

k Ioan 4 36; 1 Cor. 15. 58

l 1 Ioan 2. 22—24.

m Luc 10. 22.

n Ioan 1. 3.

---

cariad yw yr un sydd yn cynnwys y cwbl o orchymynion Duw.

7. *O blegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd.*—Ammod cariad ydyw gwirionedd. A'r hyn sydd yn ei wneyd yn angenrheidiol i annog yn adnewyddol i rodio yn y cariad hwnw, sydd â'i sail mewn gwirionedd, ydyw y ffaith fod 'twyllwyr lawer wedi myned allan" (yr hwn fe aliai, yw y cyfeithiad mwyaf cywir) i'r byd. *Y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd.*—Y mae y ferf heb amseriad iddi, yn golygu eu bod yn gwadu gwirionedd mawr yr ymgnawdoliad ei hunan, yn ei gwbl. *Hwn yw y twyllwr a'r anghrist.*—Gwel ar 1 *Ioan* ii. 18, 22.

8. *Edrychwch arnoch eich hunain.*—Dygir y rhybudd i mewn yn sydyn, ac felly yn fwy tarawiadol. *Fel na chollom y pethau a wnaethom.* —Y darlleniad cywiraf, dybygid, ydyw — 'fel na cholloch y pethau a wnaethom :'—fel na byddai i'r dychweledigion Cristionogol golli yr ystâd o wirionedd a chariad, yr hon yr oedd yr apostolion fel llafurwyr Duw wedi ei gweithio ynddynt. 'Y pethau a weithiasom :' y gwaith mawr oedd dwyn dynion i gredu yn Nghrist; ac yr oedd y gau-athrawon yn rhoddi y gwaith hwn mewn perygl. *Ond bod i ni dderbyn llawn wobr:* —sef, y rhai a ddychwelwyd trwyddynt at Gristionogaeth. Dyma y rhai yr edrychent atynt i fod yn "goron eu gorfoledd yn nydd Crist."

9. *Pob un a'r sydd yn troseddu.*—Cyfieitha Alford y gair hwn (*proagón*)— "yn myned o'ch blaen chwi ;" yn gosod ei hunan i fyny fel eich dysgawdwr, fel y bugail yn arwain y praidd : *Ioan* x. 4. Y mae yr esbonwyr sydd yn cymeradwyo y darlleniad hwn, yn deall y gair am "fyned yn mlaen yn rhy gyflym," neu "fyned yn mlaen mewn camrau cyfeiliornus." *Ac heb aros yn nysgeidiaeth Crist.*—Gellir deall yma y ddysgeidiaeth am Grist, neu y ddysgeidiaeth a ddysgodd Crist. Yr olaf, medd Alford, ac ereill ; y blaenaf, medd Lücke, Bengel, &c. *Nid yw Duw ganddo ef.*—Gwel 1 *Ioan* ii. 23 ; v. 12. *Yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, hwnw y mae y Tad a'r Mab ganddo.*—Darllena rhai copïau, "y Mab a'r Tad." Y drefn yn ein testyn ni ydyw yr un duwinyddol :—y Tad yn gyntaf. Y drefn arall ydyw yr un seiliedig ar resymeg, ac ar y cyd-destyn :—Gan mai y maen prawf ydyw Crist, trwy ei feddu ef yr ydym yn meddu y Tad.

10. *Od oes neb yn dyfod atoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon.*—Y mae y ffurf sydd ar eiriad y frawddeg hon yn y gwreiddiol yn dangos mai nid amgylchiad tybiedig yn unig oedd hwn ; ond fod y cyfryw bersonau yn bod, ac yn sicr o ddyfod atynt. *Na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch, Duw yn rhwydd, wrtho.*—Nid oedd y rhai hyn i gael y derbyniad caredig, llettygar, ag yr oedd yr holl frodyr Cristionogol t'w dderbyn. Ni buasai y cyfryw dderbyniad ond yn agor y drws i'w dylanwad gwenwynig.

11. *Canys yr hwn sydd yn dywedyd wrtho, Duw yn rhwydd, sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef.*—Y mae yr hwn sydd yn ei dderbyn i'w dŷ, ac yn ymgyfathrachu âg ef, nid yn unig mewn perygl o dderbyn niwed oddi wrth ei ddylanwad, ond yn tynu arno ei hun yr euogrwydd o gydgyfranogi yn ei ddrygioni.

12, 13. Y DIWEDDGLO.

12. *Er fod genyf lawer o bethau i'w hysgrifenu atoch, nid oeddwn yn ewyllysio ysgrifenu á phapur ac inge.*—Y "papur" medd Lücke, oedd *papyrus* yr Aipht : y mae yn debyg mai yr un a elwid "yr Augustaidd" neu "y Claudiaidd." Yr "inge" a wneid yn gyffredin o huddugl a dwfr wedi ei dewychu â glyd (*gum*). *Ho chartés*—y papur : *to melan*—yr inge : a *ho calamos*—y gorsen ysgrifenu, wedi ei hollti y mae yn debyg :— dyma oedd y defnyddiau ysgrifenu y sonir am danynt yn y Testament Newydd. *Eithr gobeithio yr ydwyf ddyfod atoch, a llefaru wyneb yn wyneb, fel y byddo ein llawenydd yn gyflawn.*—Yn llythyrenol, "enau wrth enau." Darllena rhai 'eich llawenydd :'—wrth i'r arglwyddes glywed o enau yr apostol ei hunan y cenadwriaethau hyny o fywyd a gwirionedd ag yr oedd efe yn awr yn ymatial rhag eu hysgrifenu.

13. *Y mae plant dy chwaer etholedig yn dy anerch. Amen.*—Esbonir yr adnod mewn ffyrdd gwahanol, yn ol fel y deallir yr "arglwyddes"— am berson, neu am eglwys. Dywed Alford, yr hwn sydd yn dal yr ystyr personol, ei fod yn tueddu i ffafrio y golygiad arall—nad ydyw y "chwaer etholedig" ei hun yn cael ei chrybwyll fel yn anfon yr anerch ynghyd â'r plant. Eglura Ebrard hyn trwy dybied fod yn rhaid fod plant y chwaer hon yn byw yn Ephesus, a'r chwaer ei hun yn byw yn rhywle arall, neu wedi marw. Y mae yr "Amen" yn y diwedd yn chwanegiad diawdurdod ; nid yw yn rhan o'r testyn gwreiddiol.

TRYDYDD EPISTOL CYFFREDINOL IOAN.

[Ceir yr Arweiniad i'r Epistol hwn gyda'r llall—o flaen yr ail.]

1 *Y mae efe yn canmawl Gaius am ei dduwioldeb, 5 ac am groesawu pregethwyr. 9 Y mae efe yn achwyn rhag angharedigrwydd ac uchder Diotrephes, 11 yr hwn ni ddylid dilyn ei ddrwg esampl. 12 Y mae efe yn rhoi canmoliaeth mawr i Demetrius.*

B. A. 95.

[a] 2 Ioan 1. [b] Act. 19. 29; 20. 4; Rhuf. 16. 23; 1 Cor. 1. 14. [c] 2 Ioan 1; 11 an 3. 18.

YR [a] henuriad at [b] yr anwyl Gaius, [c] yr hwn yr wyf yn ei garu mewn gwirionedd.

2 *Yr* anwylyd, yr ydwyf yn benaf dim yn dymuno dy fod yn llwyddo ac yn iach, fel y mae dy enaid yn llwyddo.

3 Canys mi a lawenychais yn fawr, pan ddaeth y brodyr, a thystiolaethu am dy wirionedd di, megys ag yr ydwyt yn rhodio mewn gwirionedd.

4 Mwy llawenydd na hyn nid oes genyf, sef cael clywed bod [d] fy mhlant yn rhodio mewn gwirionedd.

[d] 1 Cor. 4. 15; Gal. 4. 19.

5 *Yr* anwylyd, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlawn yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur, tuag at y brodyr, a thuag at ddyeithriaid;

[e] Philem. 5, 7.

6 Y rhai [e] a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys: y rhai os hebryngi fel y gweddai i Dduw, [f] da y gwnai.

[f] Gen. 4 7; Mat. 25. 21—23; Act. 15. 29.

7 Canys er mwyn ei enw yr

---

1. *Yr henuriad at yr anwyl Gaius.*—Gwel yr arweiniad. *Yr hwn yr wyf yn ei garu mewn gwirionedd:* neu, yn y gwirionedd, fel 2 *Ioan* 1. Ymddengys fod Gaius yn cael ei garu yn gyffredinol.

2. *Yr anwylyd.*—Y mae yn ail adrodd hyn, am mai yn awr y mae yn dechreu ei gyfarchiad mewn ffurf bersonol uniongyrchol. *Yr ydwyf yn benaf dim yn dymuno dy fod yn llwyddo ac yn iach, fel y mae dy enaid yn llwyddo.*—Y mae "yn benaf dim," yn ol y beirniaid goreu, yn gam-gyfieithiad. Ni buasai yn naturiol i'r apostol ddymuno llwyddiant ei gorph a'i amgylchiadau "yn benaf dim," neu uwch law pob peth. Y meddwl yn ddiau ydyw, ac felly y dylid cyfieithu, "dy fod gyda golwg ar bob peth yn llwyddo" (*peri panton*). "Ac yn iach :"—iechyd corphorol, fel y gwelir wrth y cyferbyniad â'r frawddeg nesaf; "fel y mae dy enaid yn llwyddo." Llwyddiant ysbrydol ydyw parhâd a chynnydd mewn gras a defnyddioldeb.

3. *Canys mi a lawenychais yn fawr, pan ddaeth y brodyr, a thystiolaethu am dy wirionedd di.*—'Dy gyfran di o'r gwirionedd yn yr hwn yr ydwyt yn rhodio.' *Megys ag yr ydwyt yn rhodio mewn gwirionedd.*—Y mae y frawddeg hon yn egluro y llall. Dyna oedd yn profi fod y gwirionedd gan Gaius—ei fod yn rhodio yn y gwirionedd.

4. *Mwy llawenydd na hyn nid oes genyf.*—Yn llythyrenol, 'na'r pethau hyn.' Rhoddir y lliosog (*tauta*) yn fynych pryd nad oes ond un peth yn cael ei olygu. *Sef cael clywed bod fy mhlant yn rhodio mewn gwirionedd.*—Y mae rhai yn gweled yn yr ymadrodd, "fy mhlant," awgrym o gadarnhâd i'r farn mai at eglwys y cyfeiriwyd yr Ail Epistol (gwel yr arweiniad). Ond gallai Ioan olygu Gaius yn bersonol, tra yn defnyddio y rhif lliosog—yn ol un o'r dulliau mwyaf arferedig o lefaru. Ar y dybiaeth ei fod mewn oedran mawr yn ysgrifenu y llythyr hwn, buasai yn naturiol iddo son am, neu gyfarch credinwyr yn mhob man fel ei blant.

5. *Yr anwylyd, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlawn yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur:*—neu, 'pa beth bynag yr ydwyt yn ei weithio.' *Tuag at y brodyr, a thuag at ddyeithriaid.*—Canmolir ef yma am ei lettygarwch. Gosodir allan lettygarwch yn y Testament Newydd bob amser fel un o nodau arbenig cariad Cristionogol: *Rhuf.* xii. 13; 1 *Tim.* iii. 2; *Titus* i. 8; *Heb.* xiii. 2; 1 *Pedr* iv. 9.

6. *Y rhai a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys; y rhai, os hebryngi fel y gweddai i Dduw, da y gwnai.*—Dygai y rhai hyn dystiolaeth i garedigrwydd Gaius yn mhresenoldeb yr eglwys lle yr oedd Ioan ar y pryd hwn. Efengylwyr oeddynt, dybygid, yn ol *adn.* 7; ac felly yr oeddynt yn naturiol yn rhoddi i'r eglwys hanes eu taith genhadol, yn ystod yr hon yr oeddynt wedi cael ymddwyn tuag atynt mor garedig a llettygar gan Gaius. "Y rhai os hebryngi," &c.—Nid yw yr amser dyfodol yn y fan hon yn golygu y byddai y cenhadon hyn yn myned yn ol etto at Gaius; ond dull moesgar ydyw o annog mewn ffordd gyffredinol i'r ddyledswydd o lettygarwch. 'Bydd dy waith bob amser yn gweini i gyfreidiau y cyfryw rai, mewn dull teilwng o hono ef, i'r hwn y maent yn genhadau, 'fel y gweddai i Dduw'—yn waith canmoladwy.' Y mae ereill yn deall y geiriau, er eu bod yn yr amser dyfodol o ran

[f] 1 Cor. 9. 12—15. aethant allan [g] heb gymmeryd dim gan y Cenhedloedd.

8 Ni a ddylem gan hyny dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gyd-gynnorthwywyr i'r gwirionedd.

9 Mi a ysgrifenais at yr eglwys: eithr Diotrephes, yr hwn sydd yn chwennych y blaen yn eu plith [h] hwy, [h] ni dderbyn ddim o honom.

[b] Mat. 10. 40—42; Luc 9. 48.

10 O herwydd hyn, os deuaf, mi a ddygaf ar gof ei weithredoedd y mae efe yn eu gwneuthur, gan wâg-siarad i'n herbyn â geiriau drygionus: ac heb fod yn foddlawn ar hyny, nid yw efe ei hun yn derbyn y brodyr; a'r rhai [i] sydd yn ewyllysio, y mae yn eu [k] gwahardd, [i] ac yn *eu* bwrw allan o'r eglwys.

[i] Luc 6. 22; Ioan 9. 22, 34, 35. [k] Esa. 1. 16, 17; Ioan 10. 27.

11 Anwylyd, [k] na ddilyn yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda. [l] Yr hwn sydd yn gwneuthur daioni, o Dduw y mae: ond [m] yr hwn sydd yn gwneuthur drygioni, ni welodd Dduw.

[l] 1 Pedr 3. 11. [m] Ioan 3. 2ª

12 Y mae i Demetrius air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun: a ninnau *hefyd ein hunain* ydym yn tystiolaethu; a chwi a wyddoch fod ein tystiolaeth ni yn wir.

[n] Gen. 43. 23. [o] Rhuf. 16. 10, 11. [p] Rhuf. 16. 1—15.

13 Yr oedd genyf lawer o bethau i'w hysgrifenu, ond nid wyf yn chwennych ysgrifenu âg ingc a phin atat ti:

14 Eithr gobeithio yr ydwyf gael dy weled ar fyrder, ac ni a ymddyddanwn wyneb yn wyneb.

15 Tangnefedd i ti. Y mae y cyfeillion i'th anerch. Anerch y cyfeillion wrth eu henwau.

---

ffurf, yn golygu yr hyn oedd wedi cymmeryd lle, yn unol â'r *German future*—'bydd yn beth da, &c., dy fod wedi gwneyd, &c.

7. *Canys er mwyn ei enw yr aethant allan heb gymmeryd dim gan y Cenhedloedd.*—Y mae y gair yn arwyddo yn hollol fel y cyfeithiad Cymraeg —nid eu bod heb gael dim, ond na chymmerent ddim—mai dyna oedd eu cynllun a'u penderfyniad. Barna Ebrard mai wedi myned ar genadaeth dros yr apostol Ioan yr oeddynt, gyda llythyr at yr eglwys yr oedd Diotrephes ynddi; ond nad oeddynt yno wedi cael derbyniad na lletty. Ond ni fynent hawlio dim, na derbyn, o dan yr amgylchiadau hyn, lettygarwch y Cenhedloedd; ac felly eu bod wedi myned i dŷ Gaius, yr hwn oedd yn byw heb fod yn mhell iawn oddi yno, yr hwn oedd wedi eu derbyn yn "deilwng o Dduw," yr hwn a wasanaethent.

8. *Ni a ddylem gan hyny dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gyd-gynnorthwywyr i'r gwirionedd.*—Eu derbyn yn llettygar, a'u noddi yn mhob modd: o blegid wrth gynnorthwyo cenhadon y gwirionedd, yr ydym yn gwasanaethu y gwirionedd ei hun.

9. *Mi a ysgrifenais at yr eglwys.*—Nid oes un awgrym yn cael ei roddi am gynnwys yr Epistol hwn. Yr "eglwys," y mae yn debyg, oedd yr un o'r hon yr oedd Gaius yn aelod; ac nid, fel y dywed Bengel, yr un ag yr aethai y cenhadon (*adn.* 7) allan o honi. *Eithr Diotrephes, yr hwn sydd yn chwennych y blaen yn eu plith hwy, ni dderbyn ddim o honom.*—Dyn uchelfrydig ac uchelgeisiol oedd, yr hwn a fynai lywodraethu yr eglwys ei hunan—ac nid yr apostol. Nid yw yn "derbyn dim o honom:"—nid yw yn cydnabod ein hawdurdod.

10. *O herwydd hyn, os deuaf, mi a ddygaf ar gof ei weithredoedd y mae efe yn eu gwneuthur.*—Dengys y frawddeg nesaf beth oedd y gweithredoedd hyn. *Gan wâg-siarad i'n herbyn â geiriau drygionus.*—Yr oedd ei eiriau yn erbyn yr apostol yn "wâg" (sef yn ffol), ac yn ddrygionus. *Ac heb fod yn foddlawn ar hyny, nid yw efe ei hun yn derbyn y brodyr.*—Nid yw ei drahâ yn dybenu mewn geiriau: y mae yn attal llettygarwch oddi wrth genhadon Duw, am eu bod wedi dyfod oddi wrth yr apostol. *A'r rhai sydd yn ewyllysio, y mae yn eu gwahardd, ac yn eu bwrw allan o'r eglwys.*—Heb fod yn foddlawn ar ddirmygu y cenhadon ei hun, y mae yn gwahardd i neb eu derbyn, na dangos dim caredigrwydd iddynt, dan boen esgymundod o'r eglwys. Yr oedd ei ddylanwad, a'i swydd fe allai—wedi ei thraws-feddiannu drwy hyfdra a hunan—yn rhoddi yr awdurdod hon iddo.

11. *Anwylyd, na ddilyn yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda.*—Annogaeth i Gaius i beidio a dilyn esampl ddrwg Diotrephes, ond esampl ragorol Demetrius. *Yr hwn sydd yn gwneuthur daioni, o Dduw y mae.*—Mae wedi ei eni o Dduw; a'i anfoniad a'i rym o Dduw. *Ond yr hwn sydd yn gwneuthur drygioni, ni welodd Dduw.*—Gwel ar yr ymadrodd cyffelyb yn 1 *Ioan* iii. 6.

12. *Y mae i Demetrius air da gan bawb.*—Pawb o'r brodyr, oedd yn ei adnabod ac wedi dwyn tystiolaeth am dano. *A chan y gwirionedd ei hun.*—Y gwirionedd oedd yn ei amlygu ei hun yn allu bywiol yn mywyd Demetrius; ac yr oedd y "gwirionedd," gellid meddwl, wedi dangos ei hun yn nerthol yn yr amgylchiadau oedd wedi cymmeryd lle yn ddiweddar—yn ymddygiad y gŵr hwn tuag at Diotrephes, o bossibl. Gallai ei fod wedi dioddef llawer er mwyn y gwirionedd yn yr helynt hwnw—wedi dioddef yr esgymundod fe allai, y cyfeirir ato yn *adn.* 10. *A ninnau hefyd ein hunain ydym yn tystiolaethu; a chwi a wyddoch fod ein tystiolaeth ni yn wir.*—Tystiolaeth bersonol yr apostol, yn lleiaru am dano ei hun, fel y gwneir yn fynych, yn y rhif liosog.

13—15. DIWEDDGLO YR EPISTOL.

13. *Yr oedd genyf, &c.*—Gwel 1 *Ioan* 12.

14. *Eithr gobeithio, &c.*—Gwel ar 2 *Ioan* 12.

15. *Tangnefedd i ti.*—Yn unol â chymmunrodd ein Hiachawdwr i'w eglwys (*Ioan* xiv. 27), a'i gyfarchiad ar ol ei adgyfodiad. Y mae Lyra yn arall-eirio y frawddeg yn brydferth: "Tangnefedd oddi mewn, yn y gydwybod; tangnefedd o amgylch, yn y frawdoliaeth; a thangnefedd uwch ben, yn y gogoniant." *Y mae y cyfeillion i'th anerch. Anerch y cyfeillion wrth eu henwau.*—Arfera y gair "cyfeillion," ac nid "brodyr," yma, yn ol ei arfer, am fod yr Epistol wedi ei anfon, nid fel oddi wrth apostol at eglwys, ond megys oddi wrth gyfaill at gyfaill.

EPISTOL CYFFREDINOL IUDAS.

AWDURIAETH YR EPISTOL.

Y MAE awdwr yr Epistol hwn yn galw ei hun yn yr anerchiad yn "wasanaethwr Iesu Grist, a brawd Iago." Yr un person oedd Iago yr apostol, ac Iago "brawd yr Arglwydd." Cadarnheir hyn gan *Gal.* i. 19. Felly hefyd ymddengys mai yr un person oedd Iudas brawd ein Harglwydd, ac Iudas yr apostol. Haera Jerome—ond y mae yn ammheus—mai wrth frodyr yr Arglwydd y meddylir ei gefnderyd, plant Mair a Cleophas (Alpheus). Oddi wrth 1 *Cor.* ix. 5 (gan fod "brodyr yr Arglwydd" yn sefyll rhwng "apostolion ereill" a "Cephas"), ymddengys ei bod yn naturiol i ni feddwl mai oddi wrth yr apostolion yn unig y gwahaniaethid brodyr yr Arglwydd; a hyny o herwydd nad oedd ei holl frodyr yn apostolion—dim ond Iago ac Iudas. Rheswm Iudas dros alw ei hun yn "frawd Iago," oedd fod Iago fel esgob Ierusalem, yn fwy hysbys nag efe ei hun. Nid yw ei fod heb grybwyll am ei apostoliaeth yn un prawf nad oedd efe yn apostol: canys felly y mae Iago yn ei adael allan o benawd ei Epistol, ac y mae Paul hefyd yn ei adael allan o'i Epistolau at y Philippiaid, Thessaloniaid, a Philemon. Pe buasai yr ysgrifenydd yn ffugio yr apostol Iudas, yn ol pob tebygolrwydd, buasai yn galw ei hun yn "apostol." Gelwid ef hefyd yn Lebbeus a Thaddeus, o'w wahaniaethu, y mae yn debygol, oddi wrth Iudas Iscariot, y bradwr. Y mae Luc ac Ioan, y rhai oeddynt yn ysgrifenu yn ddiweddarach na Matthew, pan na theimlid un anhawsder i'w wahaniaethu oddi wrth Iudas Iscariot, yn rhoi yr enw Iudas yn unig arno. Yr unig amgylchiad a grybwyllir yn yr Efengylau am dano ydyw yr un yn *Ioan* xiv. 22; "Dywedodd Iudas wrtho (nid yr Iscariot), Arglwydd, pa beth yw yr achos yr wyt ar fedr dy eglurhau dy hun i ni, ac nid i'r byd?" &c. Dywed Jerome ei fod wedi ei anfon i Edessa, at Abgarus, brenin Osroene (neu Edesea), a'i fod wedi pregethu yn Syria, Arabia, Mesopotamia, a Persia, lle hefyd y dioddefodd ferthyrdod: ond nid oes genym un sicrwydd ynghylch maes ei lafur, na chwaith ei fod wedi marw yn ferthyr.

Adroddir yr hanes ar awdurdod Eusebius, fod Abgarus, ar ei glaf wely, ar ol clywed am allu yr Iesu i iachau, wedi anfon i erfyn arno i ddyfod ato a'i iachau ef; i'r hyn yr attebodd yr Arglwydd, gan ganmawl ei ffydd, er nad oedd efe wedi gweled y Gwaredwr, etto ei fod wedi credu ynddo: gan chwanegu, 'Gyda golwg ar yr hyn a ysgrifenaist, ar i mi ddyfod atat ti,—y mae yn angenrheidiol i'r holl bethau y'm hanfonwyd i'w gwneyd gael eu cyflawni genyf fi yn y lle hwn'; ac wedi eu cyflawni hwynt, i mi gael fy nerbyn i fyny gan yr Hwn a'm hanfonodd. Gan hyny, wedi i mi gael fy nerbyn i'r nefoedd, mi a anfonaf atat ti ryw un o fy nysgyblion, yr hwn a iacha dy glefyd, ac a rydd fywyd i ti, ac i'r rhai sydd gyda thi.' Am hyny, dywedir fod Thomas wedi cael ei gynhyrfu gan yr Ysbryd Glân i anfon Thaddeus i iachau a bedyddio Abgarus. Dywedir i'r llythyrau gael eu dangos i Thaddeus yn mhlith cofnodion Edessa. Y mae yn bossibl fod y cyfryw genadwri wedi ei hanfon mewn geiriau, a bod ei sylwedd wedi ei gofnodi mewn ysgrifen ar ol hyny (cymmharer 2 *Bren.* v., a *Mat.* xv. 22). Dywed *Hegesippus* [yn *Eusebius*, "Hanes yr Eglwys," iii. 20], pan y gofynodd Domitian am hiliogaeth Dafydd, fod rhai o ŵyrion Iudas, a elwid brawd yr Arglwydd, wedi eu dwyn i'w wyddfod. Pan ofynwyd iddynt am eu meddiannau, hwy a ddywedasant fod ganddynt bedair ar bymtheg ar hugain o erwau o dir, gwerth 9000 o geiniogau, allan o ba rai yr oeddynt yn talu trethi iddo ef, ac yn byw wrth eu llafurio; ac fel prawf o hyny, dangosasant galedwch eu dwylaw. Pan holwyd hwynt ynghylch Crist a'i deyrnas, hwy a attebasant, nad ydoedd o'r byd hwn, ond mai un nefol ydoedd; ac yr amlygid hi yn y diwedd, pan y deuai efe mewn gogoniant i farnu y byw a'r meirw.

EI AWDURIAETH.

Y mae Eusebius yn cyfrif yr Epistol hwn yn mhlith yr Ysgrythyrau yr ammheuid eu dilysrwydd, "er ei fod yn cael ei dderbyn fel un dilys gan y mwyafrif." Barna Jerome, mai y cyfeiriad at ymdrechfa Michael, yr archangel, gyda'r diafol, am gorph Moses, yr hyn nid ydyw yn cael ei grybwyll mewn un lle arall yn yr Hen Destament, ond a geir yn Llyfr Enoch, a gynnyrchodd ammheuaeth o barth i'w ddilysrwydd. Hefyd, ymddengys fod y ffaith nad ydyw wedi ei gyfeirio at un eglwys na pherson neilldiol wedi bod yn rhwystr iddo gael ei gydnabod yn ddioed fel un canonaidd. Nid ydyw yn debyg y buasai ffugiwr yn adrodd hanes nad ydyw i'w gael yn yr Hen Destament, a'r hwn y gallesid ammheu ei wirionedd.

Gyda golwg ar Lyfr Enoch, er ei fod yn cael ei ddyfynu gan Iudas, nid ydyw ei ddyfyniad yn rhoddi nawdd ysbrydoliaeth ond yn unig i wirionedd y darn a ddyfynir o hono, ac nid i'r holl lyfr; yn gwbl fel y mae Paul, trwy ddwyfol ysbrydoliaeth, yn amlygu cymmeradwyaeth o syniadau

neillduol o *Aratus*, *Epimenides*, a *Menander*, ond nid o'u holl ysgrifeniadau. Yn hytrach, gan fod ychydig o wahaniaeth rhwng adroddiad Iudas ac adroddiad Llyfr Enoch, y mae Iudas, er ei bod yn debygol nad oedd efe yn anwybodus am Lyfr Enoch, yn rhoddi cymmeradwyaeth ysbrydoledig i'r traddodiad a ledaenid yn mhlith yr Iuddewon gyda golwg ar brophwydoliaethau Enoch; yn union fel y mae Paul yn crybwyll enwau y swynwyr Aiphtaidd, "Iannes ac Iambres," er na cheir dim o'u hanes yn yr Hen Destament. Beth bynag, prophwydoliaeth Enoch mewn gwirionedd oedd yr un a briodolid iddo, gan ei bod yn cael ei henwi-fel y cyfryw gan yr ysgrifenydd ysbrydoledig allan o'r pentwr o bridd oedd yn ei amgylchynu, a'i gosod yn y gyfrol ysbrydoledig. Felly cyhoeddir, trwy awdurdod ysbrydoledig Iudas, fod y traddodiad (cymhl. *Deut.* xxxiv. 6) gyda golwg ar ddadl Michael, yr archangel, â'r diafol ynghylch corph Moses yn wirionedd. Dyfynir o Justyn Ferthyr, Irenæus, Clement o Alexandria, &c. Dygodd Buce, y teithiwr yn Abyssinia, dri chopi yn Ethiopaeg o Alexandria, yr hwn a gyfieithwyd i'r Saesneg gan yr archesgob Lawrence. Cyfieithiad o'r Groeg oedd yr Ethiopaidd, a'r Groeg yn gyfieithiad o'r Hebraeg, fel y dengys enwau yr angylion ynddo. Sicrhaodd yr *Apostolic Constitutions*, Origen, Jerome, ac Awstin, nad ydyw yn canonaidd: etto y mae yn adeiladol, yn amddiffyn llywodraeth Duw ar y byd, naturiol ac ysbrydol: ac nid yw yn cynnwys dim yn groes i'r Ysgrythyr. Nid ydyw yr enw "Iesu" byth yn dygwydd ynddo, er fod "Mab y dyn," enw a roddir mor fynych i'r Messiah yn yr Efengylau, yn aml; a defnyddir geirian yn gosod allan ei urddas, ei gymmeriad, a'i weithredoedd, yn eglurach a chywirach mewn unrhyw lyfr Iuddewig arall. Ymddengys mai Iuddew tra chydnabyddus âg ysgrifeniadau sanctaidd Daniel oedd yr ysgrifenydd. Er fod llawer o gyd-darawiadau rhwng ei syniadau â'r Testament Newydd, nid ydyw y rhanau hyny sydd yn cyfeirio at y Messiah yn ddigon eglur i brofi fod yr ysgrifenydd yn gwybod am y Testament Newydd. Yn hytrach, ymddengys ei fod wedi ei gyfansoddi ychydig cyn ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd, o ddeutu amser Herod Fawr; ac felly, y mae yn rhoddi crynodeb dyddorol o syniadau yr Iuddewon crediniol yn yr oes hono. Cydnabyddir athrawiaeth y Drindod: *pen.* lx. 13, 14. Y Messiah ydyw yr "Un Ethol-edig" sydd yn hanfodi erioed: *pen.* xlviii. 2, 3, 5. "Holl frenhinoedd y ddaear a syrthiant i lawr o flaen, a addolant, ac a obeithiant yn Mab y dyn hwn;" *pen.* lxi. 10—13; lxviii. 3, 4. Efe ydyw Barnwr pawb oll: *pen.* lx. 10, 11; lxviii. 38, 39. Cospir yr annuwiolion: *pen.* xciii. 8, 9; xciv. 2, 4. Tragwyddol barhâd cospedigaeth yr annuwiol: *pen.* ciii. 5. Dyfynir ef yn *Llyfr Zohar*, cyn amser Crist. Ond y mae yn ammheus ai yr un ydyw y *Llyfr Enoch* sydd genym ni a'r un a ddyfynir yn *Zohar*. Cynnwysa lawer sydd yn proffesu bod yn brophwydoliaethau Noah, heblaw Enoch. Tybia Volkmar yn *Alford*, fod y llyfr wedi ei ysgrifenu yn amser gwrthryfel Barchochebas, yn y flwyddyn 132 o oedran yr Arglwydd, gan un o ganlynwyr Rabbi Akiba, anddiffynwr y twyllwr hwn. Fe wnai hyn y llyfr yn wrth-Gristionogol o ran ei wreiddyn. Os ydyw y dyddiad hwn yn gywir, y mae yn ddiammheu ei fod wedi copïo rhai pethau o Epistol Iudas, gan roddi iddynt wedi Iuddewig, ac nid Cristionogol.

Cyfeirir at yr Epistol hwn gan Clement o Alexandria, yn y ganrif gyntaf; gan Tertullian, yn yr ail; gan Origen, yn y drydedd, gan ei ddisgrifio fel "gwaith brawd yr Arglwydd;" a chan llawer yn y bedwaredd ganrif, yn y dwyrain a'r gorllewin. Cyfrifa Jerome ef yn mhlith yr Ysgrythyrau. Dyfynir ef gan Malchian, un o henuriaid Antiochia, mewn llythyr at esgobion Alexandria a Rhufain; a chan Palladius, cyfaill Chrysostom; a chynnwysir ef yn y copïau Laodiceaidd, Carthagenaidd, ac yn y rhestr a elwir "Rhestr Apostolaidd," yn gystal ag yn y rhai a ddeilliasant oddi wrth eglwysi y dwyrain a'r gorllewin, gyda'r eithriad o restrau Chrysostom, a Cassiodorus, ac Ebed Iesu.

Gellir rhoddi amryw o resymau dros yr oediad yn nerbyniad yr Epistol hwn, a'r ammheuon a ffynasant am amser maith gyda golwg arno. Ymddengys fod yr ansicrwydd ynghylch ei awdwr, a'i setyllia yn yr eglwys: natur ddibwys ei gynnwysiad, a'i debygolrwydd neillduol i 2 *Pedr* ii: a'r dyfyniad tybiedig o lyfrau anghanonaidd—oll yn tueddu i greu rhagfarn yn ei erbyn, yr hwn nis gallai dim ond amser, a'r ffaith fod y prif eglwysi wedi dyfod yn raddol i gydnabod ei ddilysrwydd, ei symmud ymaith.

Yn y Diwygiad Protestanaidd, ail godwyd yr ammheuon ynghylch awdurdod canonaidd yr Epistol hwn; ac y mae nifer o esbonwyr diweddar wedi cyfranogi o honynt. Coleddid hwynt, i raddau mwy neu lai, gan Grotius, Luther, Calvin, Bergen, Bolten, Dahl, Michaelis, a Centuriators Magdeburg. Amddiffynwyd ef yn alluog gan Jessien, o Germany.

AT BWY YR ANFONWYD EF.

Oddi wrth y cyfeiriadau sydd ynddo at hanesiaeth yr Hen Destament, yn *adn.* 5, 7, ac at y traddodiadau Iuddewig (*adn.* 14, &c.) cesglir ei fod wedi ei anfon yn benaf at Iuddewon Cristionogol, (er ei fod yn cymmeryd i mewn Gristionogion yn gyffredinol), megys yr anfonwyd epistol cyffelyb (2 *Pedr*) yn benaf at yr unrhyw. Nid pobl benrhydd yn unig oedd y personau a geryddid ganddo, er fod penrhyddid yn un o'u prif nodweddau: ond hereticiaid mewn athrawiaeth, "yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Iesu Grist." O herwydd hyn, y mae yn taer annog credinwyr i "ymdrech yn mhlaid y ffydd, yr hon a roddid unwaith i'r saint." Anufudd-dod, hunanoldeb, a phenrhyddid, ffrwyth addysg yr athrawon Antinomaidd, oeddynt y drygau yn erbyn y rhai y mae Iudas yn rhybuddio ei ddarllenwyr. Nodweddir y dyddiau diweddaf o flaen dydd y farn gan yr un drygau, ynghyd âg anffyddiaeth wawdus—fel yn y dyddiau pan rybuddiodd Enoch yr annuwiolion am y diluw oedd ar ddyfod. Gan fod Pedr yn Babilon pan yn ysgrifenu 1 *Pedr* v. 13—ac yno yr oedd efe hefyd, yn ol pob tebygolrwydd. pan oedd yn ysgrifenu 2 *Pedr*—y mae yn ymddangos yn debygol fod Iudas wedi anfon ei Epistol yn benaf at yr Iuddewon Gristionogol yn ac o amgylch Babilon, Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia; sef, yr un personau ag yr anfonodd Pedr ei Epistol atynt. Canys dywed Jerome yn bendant fod Iudas wedi bod yn pregethu yn Mesopotamia; ac nid ydyw ei Epistol, er byred ydyw, yn cynnwys dim llai nag un ar ddeg o frawddegau o 2 *Pedr*. Y mae yn debygol fod *adn.* 4 yn brawf o gyflawniad prophwydoliaeth Pedr

"Canys y mae rhyw ddynion wedi ymlusgo i mewn, y rhai a ragordeiniwyd er's talm (Groeg, "a ragysgrifenwyd," *h.y.*, a gyhoeddwyd yn mlaen llaw—trwy brophwydoliaeth ysgrifenedig yr apostol Pedr) i'r farnedigaeth hon: annuwiolion yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch, ac yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Iesu Grist." Cymmharer 2 *Pedr* ii. 1; "Bydd gau-athrawon yn eich plith chwithau, y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol, a chan wadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwynt, ydynt yn tynu arnynt eu hunain ddinystr buan." Hefyd, y mae *adn.* 17, a 18, yn cyfeirio at y geiriau sydd yn 2 *Pedr* iii, 3; "Gan wybod yn gyntaf, y daw yn y dyddiau diweddaf watwarwyr, yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain." Y mae hyn yn profi mai ar ol Epistol Pedr yr ysgrifenwyd Epistol Iudas, ac felly y mae yn cadarnhau ei ysbrydoliaeth, fel y mae Pedr yn cadarnhau ysbrydoliaeth epistol Paul: 2 *Pedr* iii 15. Y mae Iudas yn rhoddi disgrifiad o wrthwynebwyr Cristionogaeth yn gyffredinol; a Phedr o athrawon hereticaidd yn neilldnol.

Disgrifir corph yr Epistol gan Alford fel ymosodiad ffyrnig a goganus, yn yr hwn y mae yr ysgrifenydd yn prysuro yn mlaen, gan gasglu esampl ar ol esampl o ddwyfol ddialedd ar yr annuwiolion; a phentyru enw ar enw, a chyffelybiaeth ar gyffelybiaeth, a gwneuthur ymdrech egniol am eiriau a chyffelybiaethau digon cryfion, i osod allan gymmeriad halogedig y gwrthgilwyr penrhydd, yn erbyn y rhai y mae efe yn rhybuddio yr eglwys; ac y mae yn dychwelyd drachefn a thrachefn at y pwngc, fel pe buasai pob iaith yn annigonol i roddi syniad cyfaddas am eu hanfadrwydd, ac i amlygu ei elyniaeth angerddol tuag at eu hysbryd annuwiol a'u cyfeiliornadau dinystriol.

AMSER A LLE EI GYFANSODDIAD.

Nis gellir penderfynu yn sicr pa bryd yr ysgrifenwyd yr Epistol hwn. Y mae pob lle i gredu ei fod wedi ei ysgrifenu cyn dinystr Ierusalem. Sylwa Alford, wrth ystyried fod Iudas yn ysgrifenu at Iuddewon, ac yn dyfynu engreifftiau hynod o ddwyfol ddialedd, nad ydyw yn debyg y buasai yn peidio cyfeirio at ddinystr Ierusalem, pe buasai yn ysgrifenu ar ol y dygwyddiad hwnw, yr hwn a fwyr ddymchwelodd wladwriaeth Israel. Tybia efe, oddi wrth dôn yr epistol, a'r cyfeiriadau sydd ynddo, fod yr ysgrifenydd yn byw yn Palestina. Yn y wlad lle yr oedd Iago fel esgob yn hollol adnabyddus y deallid oreu y teitl "brawd Iago." Ond gyda golwg ar y blaenaf, y mae tystiolaeth nacaol yn ammheus; canys nid yw Ioan chwaith yn cyfeirio yn ei epistolau, y rhai a ysgrifenwyd ar ol dinystr Ierusalem, at y dygwyddiad hwnw. Tybia Lardner i Ail Epistol Pedr gael ei ysgrifenu yn y fl. 64, a thueddwyd ef i farnu fod Iudas wedi ysgrifenu ei lythyr yn yr un flwyddyn, neu yn fuan ar ol hyny (yn 65 neu 66); o herwydd fod sefyllfa pethau yn yr eglwys, neu mewn rhyw ran o honi, yn hollol yr un fath pan yr oedd y naill a'r llall o'r llythyrau hyn yn cael eu hysgrifenu. Barna Davidson iddo gael ei ysgrifenu cyn 70; Credner, yn 80; Calmet, Estius, Witsius, Neander, a Mill, ar ol marwolaeth yr holl apostolion, oddi eithr Ioan, ac hwyrach ar ol dinystr Ierusalem—er fod cryn bwys i'w roddi ar ymresymiad De Wette; sef, os oedd dinystr Ierusalem eisoes wedi cymmeryd lle, y buasai rhyw rybudd yn cael ei dynu oddi wrth arwydd mor nodedig o ddialedd Duw ar yr "annuwiolion."

EPISTOL CYFFREDINOL IUDAS.

1 *Y mae yn eu hannog i broffesu ffydd Crist yn ddianwadal:* 4 *bod gau athrawon wedi ymlusgo i mewn i'w hudo hwynt;* 5 *a bod dinistr creulawn wedi ei ddirparu i'w hathrawiaeth a'u cynheddfau melldigedig hwynt:* 20 *ond bod y rhai duwiol, trwy gynnorthwy yr Ysbryd Glân, a thrwy weddïo ar Dduw, yn abl i barhau, ac i gynnyddu mewn gras; ac i'w cadw eu hunain, ac i achub ereill rhag maglau y twyllwyr hyny.*

B. A. 66.

IUDAS, gwasanaethwr Iesu Grist, a brawd Iago, at y rhai [b]a sancteiddiwyd gan Ddduw Dad, ac [b]a gadwyd yn Iesu Grist, *ac* a alwyd:

2 Trugaredd i chwi, a thangnefedd, a chariad a liosoger.

3 Anwylyd, pan roddais bob diwydrwydd ar ysgrifenu atoch am yr [c]iachawdwriaeth gyffredinol, angenrhaid oedd i mi ysgrifenu atoch, gan eich [d]annog i ymdrech yn mhlaid y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint.

4 Canys y mae rhyw ddynion wedi ymlusgo i mewn, y rhai a ragordeiniwyd er's talm i'r farn-[e]edigaeth hon; annuwiolion, [c]yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch, ac [f]yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Iesu Grist.

Ioan 17. 17, 19; 1 Cor. 6. 11; Eph. 5. 26; 1 Thes. 5. 23.

[b] Ioan 6. 39; 10. 28—30; 17. 11, 12; 1 Pedr 1. 5.

[c] Esa. 45. 17, 22; Act. 28. 28; Gal. 3. 23; Titus 1. 4.

[d] Neh. 13. 25; Act. 9. 22; 17. 3; Phil. 1. 27; 2 Tim. 1. 13; 4. 7, 8. Rhuf. 6. 1, 2; Titus 1, 12.

[e] 2 Pedr. 2. 1.

1. *Gwasanaethwr Iesu Grist*:—fel ei weinidog, e'i apostol. *Brawd Iago*:—a adnabyddid yn fwy cyffredinol fel esgob Ierusalem, a "brawd yr Arglwydd." Barnai llawer yn yr hen amseroedd, a'r Eglwys Babaidd oll, mai cefnder neu lysfrawd ydoedd. Ond y mae y syniad gwrthwynebol yn ennill tir yn mysg dysgedigion; sef, fod "Iago ac Ioses, Simon ac Iudas," yn feibion gwirioneddol i Ioseph a Mair. Pa un bynag, y mae Iudas, yn ostyngedig yn galw ei hun yma yn "frawd Iago," ac nid yn "frawd yr Arglwydd." *At y rhai a sancteiddiwyd gan (yn) Ddduw Dad* —Y mae y *Vulgate*, Origen, ac ereill, yn rhoddi 'anwylyd' am "a sancteiddiwyd." Cymmharer *Col.* i. 12; 1 *Pedr* i. 2. Gr. *en.*—Nid "gan," ond 'yn.' Cariad y Tad ydyw yr elfen yn yr hon y maent yn 'anwyl.' Y mae y diweddglo yn *adn*, 21 yn cyfatteb i hyn: "Ymgedwch yn ngharîad Duw." *A gadwyd yn.* —Yn ol y Groeg, 'i Iesu Grist,' ac nid "yn Iesu Grist." [a]A gadwyd yn wastadol,' ydyw yr ystyr, yn ol yr amser gorphenol, 'gan Dduw Dad i Iesu Grist,' erbyn dydd ei ddyfodiad. Y mae Iudas yn mlaen llaw yn crybwyll ffynonell a sicrwydd gorpheniad iachawdwriaeth y credadyn, rhag iddynt gymmeryd eu digaloni gan y drygau a gyhoeddir ganddo.—*Bengel. A alwyd.*—Galwedigaeth effeithiol Duw sydd yn sicrhau eu diogelwch tragwyddol.

2. *Trugaredd.*—Mewn amser o adfyd a thrueni. *Tangnefedd.*—Yn yr Ysbryd Glân (*adn.* 20). *Cariad.*—Duw (*adn.* 21). Y mae y tair bendith werthfawr hyn yn cyfatteb i'r Drindod. *A liosoger*:—ynoch, a thuag atoch.

3. *Pob diwydrwydd* (2 *Pedr* i. 5).—Fel y mae y gweinidog i arfer pob diwydrwydd i gynghori, felly dylai y bobl arfer pob diwydrwydd yn yr ymarferiad â'r moddion ordeiniedig i gael pob gras, ac i wneyd eu galwedigaeth yn sicr. *Yr iachawdwriaeth gyffredinol.*—Gelwir hi yn "gyffredinol," am fod ei hangen ar bawb, am ei bod yn ddigonol i bawb, ac i gael ei phregethu i bawb. *Angenrhaid oedd i mi.*—Teimlais ei bod yn angenrheidiol i mi ysgrifenu yn neilduol atoch ar unwaith "gan eich annog." Ceir y rheswm dros yr "angenrhaid" arbenig hwn yn *adn.* 4: "Canys y mae rhyw ddynion wedi ymlusgo i mewn," &c. Yr oedd efe wedi bwriadu ysgrifenu atynt yn gyffredinol am "yr iachawdwriaeth gyffredinol," ond cafodd ei bod yn angenrheidiol iddo, o herwydd y drygau a ffynent ar y pryd yn eu plith, i ysgrifenu atynt mewn modd neilduol i'w hannog i "ymdrech yn mhlaid y ffydd" yn erbyn y drygau hyny. *A rodded unwaith*:—hyny yw, a rodded unwaith am byth. Nid oes un grefydd arall i gymmeryd lle. Yr oedd yn ammhossibl cael rheswm cryfach na hwn dros wrthwynebu athrawiaethau hereticaidd: *adn.* 4. Y mae credinwyr, fel gweithwyr Nehemiah, âg un llaw yn "adeiladu eu hunain yn y sancteiddiaf ffydd," ac â'r llall i "ymdrechu yn mhlaid y ffydd," yn erbyn ei gelynion. *I'r saint.*—I'r holl Gristionogion.

4. *Rhyw ddynion.*—Arferir y dull hwn o ymadroddi mewn trefn i osod allan eu cymmeriad isel a dirmygiedig. *Ymlusgo i mewn*:—yn ddirgelaidd. Gwel y sylw ar 2 *Pedr* ii. 1. *A ragordeiniwyd*:—'a ragysgrifenwyd;' sef, yn mhrophwydoliaeth Pedr (*adn.* 17, 18), ac yn mhrophwydoliaethau Paul; 1 *Tim.* iv. 1; 2 *Tim.* iii. 1. *I'r farnedigaeth hon.*—Y mae Iudas yma yn gosod eu dedfryd o flaen eu llygaid—"hon." Cynnwysa brophwydoliaeth Enoch "annuwiolion" y dyddiau diweddaf o flaen ail ddyfodiad Crist, yn gystal a'u rhagflaenoriaid, yr "annuwiolion" o flaen y diluw—cysgod o'r farn ddiweddaf; *Mat.* xxiv. 37—39; 2 *Pedr* iii. 3—7. Y mae pechodau a dedfryd y naill a'r llall yn cyfatteb. *Gras ein Duw.*—Ymadrodd yn dynodi yr efengyl; ac y

5 Ewyllysio gan hyny yr ydwyf eich coffau chwi, gan eich bod unwaith yn gwybod hyn; i'r Arglwydd, wedi iddo waredu y bobl o dir yr Aipht, ddistrywio eilwaith y rhai ni chredasant.

6 Yr angylion hefyd y rhai ni chadwasant eu dechreuad, eithr a

7 Megys y mae Sodom a Gomorrah, a'r dinasoedd o'u hamgylch mewn cyffelyb fodd â hwynt, wedi puteinio, a myned

[a] Mat. 25. 41. 2 Pedr 2. 4.

[b] Mat. 8. 29

mae yn ddiammheu ei fod yn un hynod o hyfryd gan gredinwyr, y rhai sydd yn hawlio Duw yn Nghrist fel "ein Duw ni," ac felly yn mwyhau pechod y rhai sydd yn cymmeryd gras yr efengyl yn achlysur i fyw yn benrhydd, fel pe buasai rhyddhâd oddi wrth gondemniad y ddeddf yn rhoddi rhyddid i bechu. *Yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw.*—'Yr unig Feistr;' yma, Iesu Grist, yr hwn sydd ar unwaith yn 'Feistr' ac yn "Arglwydd." O herwydd fod Crist yn un â'r Tad, gelwir ef yma "yr unig Dduw" a 'Meistr.' Y mae y gair 'Meistr' yn cynnwys hawl hollol Duw i wneuthur fel y myno â'i greaduriaid.

5. *Gan hyny.*—Yn ol y *Vulgate,* 'eithr;' mewn cyferbyniad i'r annuwiolion, *adn.* 4. *Gan eich bod unwaith yn gwybod.*—'Ewyllysiaf ddwyn ar gof i chwi, gan eich bod yn gwybod pob peth;' sef, pob peth yr ydwyf yn cyfeirio atynt. Yn ol y *Vulgate,* 'unwaith am byth.' Gan eu bod eisoes yn gwybod y ffeithiau, nid oedd eisieu ildio ond yn unig eu "dwyn ar gof" iddynt. *Arglwydd.*—Yn ol y *Vulgate,* 'Iesu;' sef y gwir Iesuah, y Duw-Waredwr. Felly Iesu Grist (1 *Cor.* x. 4) a ganlynodd yr Israeliaid yn yr anialwch. Yr un ydyw "Iesu" ag angel dwyfol y cyfammod (*Exod.* xxiii.20—23; xxxii. 34; xxxiii. 2, 4)—Duw y ddwyfliwiaeth luddewig. *Wedi iddo waredu:*—*h. y.,* wedi iddo eu dwyn i sefyllfa o ddiogelwch. *Eilwaith.* — Defnyddir y gair hwn yma mewn trefn i gyferbynu ei waith yn eu distrywio hwynt yn awr â'r ffaith o'i fod ef unwaith wedi eu hachub hwynt. Cymmharer 1 *Cor.* ix. 26, 27.

6. *Y rhai ni chadwasant eu dechreuad:*—hyny yw, eu sefyllfa wreiddiol. Yn ol y *Vulgate,* "eu tywysogaeth eu hun;" yr hyn a gefnogir gan y ffaith fod yr angylion yn cael eu galw mewn lle arall yn "dywysogaethau." Y mae "eu hun" yn cynnwys, gan na ddarfu iddynt foddloni i aros yn y sefyllfa urddasol y gosodwyd hwynt ynddi, eu bod wedi ymgeisio am sefyllfa uwch. Tybia Alford mai at *Gen.* vi. 2, y cyfeirir; ac nid at gwymp y diafol a'r angylion, ac y mae yn tybied fod yr ymadrodd "puteinio" (*adn.* 7) yn profi hyn. Cymmharer y gwreiddiol, *ton homoion me toutous tropon,* "yr un modd â'r rhai hyn;" sef, yr angylion yn yr adnod hon. Mae yn ŵy cywir i ni gymmeryd "meibion Duw" (*Gen.* vi. 2) am y Sethiaid, nag am yr angylion; y rhai, fel "ysbrydion," nis gallent gyfiawni y pechod o odineb. Nid oes dim sydd amlycach na bod yr adnod gyfochrog (2 *Pedr* ii. 4) yn cyfeirio at gwymp yr angylion syrthiedig. Y mae "mewn cyffelyb fodd â hwynt," *adn.* 7, yn cyfeirio at waith trigolion Sodom a Gomorrah, a'r "dinasoedd o'u hamgylch," yn pechu yn yr un dull ag y gwnaethant hwy [*Estius*]. Hyd yn oed os ydyw "hwynt," *adn.* 7, yn cyfeirio at yr angylion, y mae "mewn cyffelyb fodd â hwynt" yn arwyddo—nid fod yr angylion wedi godinebu yn gnawdol gyda merched dynion; ond fod eu huchelgais, trwy yr hyn y cliodd eu serchiadau oddi wrth Dduw, ac y syrthiasant, yn bechod o natur cyffelyb mewn

adawsant eu trigfa eu hun, [a] gadwodd efe mewn cadwynau tragwyddol dan dywyllwch, [b] farn y dydd mawr.

ystyr ysbrydol, a gwaith Sodom yn cilio oddi wrth drefn natur ar ol cnawd arall; y mae pechod yr angylion syrthiedig yn ol eu rhyw, yn gyffelyb i bechod y Sodomiaid yn ol eu rhyw. Y mae *Llyfr Enoch* yn esbonio *Gen* vi. 2, yr un fath ag Alford. Ond er fod Iudas yn cyttuno âg ef mewn rhai pethau, nid ydyw yn canlyn ei fod yn cyttuno âg ef yn mhob peth. Yr enwau a roddir gan yr Hebreaid ar yr angylion syrthiedig ydyw Aza ac Azael. *A adawsant:*—o'u gwirfodd, neu o'u hewyllys eu hunain. *Eu trigfa.*—Y nefoedd, yr hon sydd yn wlad ogoneddus a disglaer, mewn cyferbyniad i'r "tywyllwch" y maent ynddo yn awr. Ymddengys fod eu bwriadau uchelgeisiol yn dal perthynas neilltuol â'r ddaear hon; rhaglaw yr hon, y mae yn debygol, oedd Satan cyn ei gwympo. Oddi wrth hyn y mae ei gyssylltiad dilynol â hi yn codi, yn gyntaf, fel temtiwr, yna fel "tywysog y byd hwn." *A gadwodd efe.*—Gan na chadwasant hwy eu dechreuad, cadwodd yr Arglwydd hwythau "mewn cadwynau tragwyddol," &c., fel cospedigaeth arnynt. Efe a'u cadwodd hwynt yn ei arfaeth: dyna ydyw eu tynged sicr. Hyd yma, y mae y diafol a'i angylion yn rhydd ar y ddaear. Ernes o'u cospedigaeth ydyw eu bod wedi eu bwrw allan o'r nefoedd: y maent eisoes yn cael eu cadw yn "nhywyllwch y byd presennol"—yr awyr sydd yn amgylchu y ddaear, eu helfen neilltuol. Y maent yn llechu mewn lleoedd tywyll, gan edrych yn mlaen gydag ofn poenus at eu cospedigaeth dragwyddol yn y pwll diwaelod. Nid "cadwynau" a "thywyllwch" llythyrenol a olygir, ond ffugrol, yn y byd hwn; lle y maent, gyda chyfyngiad ar eu rhyddid er pan fwriwyd hwynt allan o'r nefoedd, fel carcharorion condemniedig, yn disgwyl am gyflawn weinyddiad o'u dedfryd. Nis gallant hyd yn oed yn awr, fel cŵn mewn cadwynau, fyned yn mhell-ach na hyd eu cadwen. *Tragwyddol.*—Rhag i neb ammheu a ydyw y gair *aionios* yn arwyddo "tragwyddol," yma *aidios,* o *aei,* gwastadol a ddefnyddir, yr hwn nis gall arwyddo dim ond tragwyddol.

7. *Sodom,* &c.—2 *Pedr* ii. 6. *Wedi puteinio:*—mewn dull anghyffredin: *h. y.,* allan o drefn natur. Ar *mewn cyffelyb fodd a hwynt,* cymmharer y sylw ar *adn.* 6. *Myned ar ol cnawd arall.*—Ymadael oddi wrth drefn natur, a myned ar ol yr hyn sydd annaturiol. Mewn amserau diweddarach, yr oedd y paganiaid mwyaf goleuedig yn cyflawni pechod y Sodomiaid yn y modd mwyaf cyhoeddus a digywilydd. *Wedi eu gosod yn esampl:*—o flaen eu llygaid. *Gan ddioddef:*—hyd beddyw o dan ludw tân llosgfalus, yn y Môr Marw. *Dialedd:*—cyflawn daledigaeth. *Tân tragwyddol.*—Y mae arwyddion oesol y tân a ddifaodd y dinasoedd yn anadferadwy yn gysgod o'r tân tragwyddol i ba un y bwriwyd y trigolion. Yn ol cyfieithiad Bengel, "gan ddioddef y gospedigaeth:" yr hon a ddioddefir ganddynt fel esampl o'r tân tragwyddol yr hwn a ddifa y drygionus. Gwel *Ezec.* xvi. 53—55.

ar ol cnawd arall, wedi'eu gosod
yn esampl, gan ddioddef dialedd
[1] Esa. 33. 14. [1] tân tragwyddol.

[k] Ier. 23. 25—28. 8 Yr un ffunud hefyd [k] y mae y breuddwydwyr hyn yn halogi y cnawd, yn diystyru llywodraeth, ac yn cablu y rhai sydd mewn awdurdod.

9 Eithr Michael yr archangel, pan oedd efe, wrth ymddadleu â diafol, yn ymresymu ynghylch corph Moses, [l] ni feiddiodd ddwyn barn gablaidd arno, eithr *efe* a ddywedodd, [m] Cerydded yr Arglwydd dydi.

[l] Esa. 36. 18—fi; Marc 15. 29. [m] Esa. 37, 10—20; Zech. 3. 2.

10 Eithr y rhai hyn sydd yn cablu y pethau nis gwyddant: a pha bethau bynag y maent yn anianol, fel anifeiliaid direswm, yn *eu* gwybod, [n] yn y rhai hyny ymlygru y maent.

[n] Rhuf. 1. 21, 22.

11 Gwae hwynthwy: [o] o blegid

8. *Yr un ffunud hefyd.*—Er gwaethaf yr esamplau rhyfeddol hyn [*Alford*]. *Y breuddwydwyr hyn.*—Ymddengys fod yr ymadrodd hwn yn perthyn i'r holl ferfau—"halogi," &c.; "diystyru," &c.; "cablu," &c. Y mae yr holl annuwiolion yn cysgu mewn ystyr ysbrydol; nid ydyw eu holl fywiogrwydd cnawdol ond fel breuddwyd: 1 *Thess.* v. 6, 7. Y maent yn "cablu y rhai sydd mewn awdurdod," am eu bod yn "breuddwydio," ac nas gwyddant pa bethau y maent yn eu cablu (*adn.* 10). "Fel y mae dyn pan y bydd yn breuddwydio yn meddwl ei fod yn gweled ac yn clywed llawer o bethau, felly y mae nwydau dyn anianol yn cael eu cynnhyrfu gan lawenydd, cyfyngder, ofn, ynghyd âg amryw o bethau ereill. Ond y mae yn hollol amddifad o hunan-lywodraeth. O herwydd hyn, er iddo roddi holl alluoedd ei reswm ar waith, nis gall ddeall y gwir ryddid a fwynheir gan blant y goleuni, y rhai sydd yn effro ac yn y goleuni."—*Bengel. Halogi y cnawd:*—*adn.* 7. *Llywodraeth:*—arglwyddiaeth. *Awdurdod:*—urddas: yn ddaearol ac yn ysbrydol.

9. *Michael yr archangel.*—Nid yw y gair byth yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyr yn y rhif liosog, 'archangylion;' ond bob amser yn y rhif unigol, 'archangel.' Yr unig le arall yn y Testament Newydd y mae yn digwydd ynddo ydyw 1 *Thes.* iv. 16; lle y mae Crist yn cael ei wahaniaethu oddi wrth yr archangel, gyda "bloedd a llef," yr hwn y disgyna efe i godi y meirw: gan hyny nid Crist ydyw Michael. Ystyr yr enw ydyw, 'Pwy sydd fel Duw?' Yn *Dan.* x. 13, gelwir ef "un o'r tywysogion penaf" (neu yn ol ymyl y ddalen, "y blaenaf"); "eich tywysog chwi," sef, yr Iuddewon; "y tywysog mawr;" "archangel;" "Michael a'i angylion." *Ymddadleu:*—ymryson neu ddadl; neu yn ol y gwreiddiol, ymresymu. *Ynghylch corph Moses:*—ei gorph yn llythyrenol. Tybia rhai y mynai y diafol i gorph Moses beidio cael ei gladdu, o ammharch iddo, neu er mwyn ei ddefnyddio i eilunaddoliaeth. Modd bynag, mynodd Duw ei gladdu, o barch i'w was ffyddlawn, ac i attal y bobl, a Satan, rhag gwneuthur camddefnydd o hono. Y mae *Targum Jonathan* yn priodoli claddedigaeth Moses i angylion Duw, ac yn enwedig i'r archangel Michael, fel gwarcheidwad Israel. Y mae traddodiadau diweddarach yn gosod allan pa fodd y dadleuodd Satan yn erbyn ei gladdu, gan hawlio y corph marw iddo ei hun o herwydd i Moses ladd yr Aiphtwr. Barna ereill mai pwngc y ddadl oedd adgyfodiad corph Moses. Gan fod y diafol yn meddu "nerth marwolaeth" (*Heb.* ii. 14), efe a ddadleuodd yn erbyn iddo gael ei adgyfodi (neu ynte iddo gael ei gadw rhag llygredigaeth: cymmharer *Deut.* xxxiv. 6), o herwydd pechod Moses yn Meribah, a'i waith yn lladd yr Aiphtwr. Fod corph Moses wedi ei godi, a ymddengys oddi wrth ei bresenoldeb gydag Elias a'r Iesu (y rhai oeddynt yn y corph) ar y gweddnewidiad: ac y mae yn ddiau eu bod i'w hystyried fel esampl ac ernes o deyrnas ddyfodol yr adgyfodiad, yr hon oedd i gael ei dwyn i mewn gan waith Michael yn sefyll i fyny dros bobl Dduw: *Dan.* xii. 1, 2. Fel hyn rhoddwyd o dan bob goruchwyliaeth wystl o'r adgyfodiad dyfodol—Enoch, o dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd; Moses, o dan yr oruchwyliaeth Lefiaidd; Elias, dan yr oruchwyliaeth brophwydol; a Christ, y blaenffrwyth, o dan yr oruchwyliaeth Gristionogol. Y mae yn deilwng o sylw fod yr un cerydd wedi ei ddefnyddio gan Angel yr Arglwydd, neu Iehofah, yr Ail Berson, wrth ddadleu o blaid Iosuah yr archoffeiriad, cynnrychiolydd yr eglwys Iuddewig, yn erbyn Satan, yn *Zech.* iii. 2: o herwydd hyn, meddylia rhai fod "corph Moses" yma hefyd yn arwyddo yr eglwys Iuddewig, yn cael ei chyhuddo gan Satan, ger bron Duw, o herwydd ei haflendid; am ba achos y mae yn gofyn am i gyfiawnder dwyfol gael cymmeryd ei gwrs yn erbyn Israel. Ond y mae yn cael ei geryddu gan yr Arglwydd, yr hwn a "ddewisodd Ierusalem:" felly, gan mai "corph Crist" yw yr eglwys Gristionogol, felly "corph Moses" ydyw yr eglwys Iuddewig. Ond y corph yn llythyrenol a feddylir yma (er, mewn ystyr eilraddol, fod yr eglwys Iuddewig yn cael ei chysgodi gan gorph Moses, fel yr oedd yno yn cael ei chynnrychioli gan Iosuah yr archoffeiriad): ac y mae Michael, cyssylltiad yr hwn sydd mor agos âg Iehofah-Fessiah, ac âg Israel, yn naturiol yn arfer yr un iaith a'i Arglwydd. Fel y mae Satan (gwrthwynebydd mewn llys barn), neu y diafol (cyhuddwr), yn cyhuddo yr eglwys fel corph, a'r brodyr yn bersonol, felly y mae Crist yn dadleu drosom ni fel ein Dadleuwr; 1 *Ioan* ii. 1. *Ni feiddiodd:*—o barch i urddas gwreiddiol Satan: *adn.* 8. *Ddwyn barn gablaidd arno.*—Er fod y diafol yn haerllug am gael ei ewyllys gyda golwg ar gorph Moses, etto "ni feiddiodd," neu yn ol y gwreiddiol, 'ni chymmerodd arno,' gyhoeddi barn yn ei erbyn am ei gabledd; neu ei farnu a beio arno â chabledd; eithr dywedodd, "Cerydded yr Arglwydd dydi;" a thrwy hyny dangosodd ei fod yn annhebyg iawn i'r diafol. Nid ofn y diafol a barodd i Michael beidio dwyn barn o gabledd arno; ond parch i Dduw, rhaglaw yr hwn yn y byd hwn a fu Satan unwaith.

10. (2 *Pedr* ii. 12.) *Pethau nis gwyddant.*—Yn ol y gwreiddiol, 'cynnifer bynag o bethau ag nad ydynt yn eu deall;' sef, pethau y byd ysbrydol, *A pha bethau bynag y maent yn anianol.....yn eu gwybod.*—Hyny yw, 'cynnifer o bethau ag y maent yn naturiol (trwy reddf ddall) fel anifeiliaid direswm, yn eu gwybod," &c. Mae y "gwybod" blaenaf yn cynnwys gwybodaeth ddyfnach; a'r "gwybod" olaf yn cynnwys gwybodaeth trwy gyfrwng y synwyrau a'r cynneddfau anifeiliaidd.

hwy a gerddasant yn ffordd Cain,
[p] Num. 22; Deut. 23.4. [q] Num. 16.1, &c. [p] ac a'u collwyd trwy dwyll gwobr Balaam, ac [q] a'u dyfethwyd yn ngwrth-ddywediad Core.

12 Y rhai hyn sydd frychau yn eich cariad-wleddoedd chwi, yn cydwledda â chwi, yn ddiofn yn

---

11. *Gwae.*—Gwel y sylw ar 2 *Pedr* ii. 14, "plant y felldith." *Cain*:—y llofrudd: gwreiddyn pechod yr hwn oedd gelyniaeth a chenfigen tuag at y duwiol; a dyma hefyd oedd pechod y twyllwyr hyn. *Ac a'u collwyd trwy dwyll gwobr Balaam.*—Ar ymyl y ddalen, 'a thrwy dwyll gwobr Balaam a redasant allan"—fel afon yn tori dros ei glenydd. Er y gwyddant y collant ffafr Duw a'r nefoedd, rhuthrant yn mlaen ar ol elw, fel Balaam. *Ac a'u dyfethwyd yn ngwrthddywediad Core.*—Gwel y sylw ar *adn.* 12. Wrth ddarllen am Core yn cael ei ddyfetha trwy wrthddywedyd, yr ydym hefyd yn darllen am y rhai hyn yn cael eu dyfetha o achos yr un peth; canys y mae yr un had yn dwyn yr un ffrwyth.

12. *Brychau.*—Felly 2 *Pedr* ii. 13, *spiloi*; yma, *spilades*, yr hyn, mewn ysgrifeniadau bydol, a arwydda creigiau; sef, ar ba rai yr oedd cariad-wleddoedd y Cristionogion mewn perygl o fyned yn llongddrylliad. Cyfeithir y gair gan rai yn 'greigiau.' Y mae y cyfeiriad at "gymmylau... gwyntoedd...tonau," yn cydweddu â 'chreigiau.' Ystyr cyffredin y gair yw 'pechodau,' y rhai sydd yn anurddo ac yn dinystrio dyn ger bron Duw a dynion; ac o herwydd yr undeb sydd rhwng dynion a'u pechodau, gelwir hwynt "brychau." *Cariad-wleddoedd.*—Gwledd, o'r hon y cyfranogai yr aelodau tlotaf o'r eglwys, a ddarperid trwy gyfraniadau Cristionogion a gyrchent i Swper yr Arglwydd—ond pa un ai o'i flaen, ai ar ei ol, ni wyddys yn sicr. Y mae yn debygol mai yr hanes cywir am y mater ydyw yr un a roddir gan Chrysostom; yr hwn a ddywed fod yr aelodau cyfoethocaf, wedi i'r eiddo cyffredin ddarfod, yn dwyn i'r eglwys roddion o fwyd a diod, o'r rhai, ar ol gweinyddiad y sacrament, y cyfranogai pawb gyda'u gilydd; a thrwy hyny meithrinent yr egwyddor o gariad yn eu plith. Ac er i'r cariad-wleddoedd gael eu llygru yn lled fuan, ystyrir eu bod ar eu sefydliad cyntaf yn cyfiawn haeddu y ganmoliaeth a roddodd Ioan Aurenau iddynt:—"Arferiad o'r fath fwyaf prydferth a buddiol; o blegid yr oedd yn gynnorthwy i gariad, yn ddiddanwch mewn tlodi, yn gymmedrolydd cyfoeth, ac yn ddysgyblaeth i ostyngeiddrwydd." Ymgynnullai y Cristionogion cyntaf mewn tai yn feunyddiol i "dori bara" (*Act.* ii. 42, 46); *h. y.*, i gymmeryd y prydau cyffredin hyn, ac i gofio am angeu eu Harglwydd; a diweddai y cyfan â chusan brawdol (cusan sanctaidd, cusan cariad; *Rhuf.* xvi. 16; 1 *Cor.* xvi. 20; 1 *Thess.* v. 26; 1 *Pedr* v. 14). Trwy yr annhrefn a ddygwyd i mewn gyda hwynt yn eglwys Corinth, collasant eu cymmeriad o "gariad-wleddoedd;" bwytaent Swper yr Arglwydd yn annheilwng, cymmerent fantais i ymffrostio yn y gwahaniaeth sefyllfaoedd bydol oedd rhyngddynt, a hyny yn y man mwyaf ammhriodol i wneyd hyny—wrth gofio am angeu eu Harglwydd; 1 *Cor.* xi. 20, &c. Rhydd Tertullian y disgrifiad canlynol o'r dull y cynnelid y gleddoedd hyn yn ei amser ef, tua diwedd yr ail ganrif:—"Nid ydym yn eistedd i fwyta hyd oni weddïom yn gyntaf ar Dduw. Yr ydym yn bwyta eu pesgi eu hunain: cymmylau diddwfr *ydynt*, a gylch-arweinir gan wyntoedd; prenau diflanedig, heb ffrwyth, dwywaith yn feirw, wedi eu diwreiddio;

13 Tonau cynddeiriog y môr, yn ewynu allan eu cywilydd eu

---

i ddiwallu ein heisieu: nid ydym yn yfed mwy nag sydd yn weddus ac yn angenrheidiol i ni. Yr ydym yn gwledda fel rhai yn cofio ein bod i dreulio y noson mewn defosiwn; yr ydym yn ymddiddan â'n gilydd fel rhai yn gwybod fod Duw yn ein clywed. Ar ol dwyn dwfr i olchi y dwylaw, a goleuni i mewn, gofynir i bob un ganu rhywbeth yn fawl i Dduw, naill ai o'r Ysgrythyr neu o'i fyfyrdodau ei hun; a thrwy hyn, os bydd rhywun wedi ymroddedi i ormodedd, y mae hyny yn cael ei amlygu. Diweddir y wledd â gweddi." *Yn ddiofn.*—Dylid gweinyddu gwleddoedd cysegredig bob amser gydag ofn. Nid yw gwledda yn bechod ynddo ei hun [*Bengel*], ond dylid gwneuthur hyny bob amser gydag ofn anghofio Duw, fel Iob (*pen.* i. 5) yn ngwleddoedd ei feibion. *Cymmylau*:—oddi wrth y rhai y gellid disgwyl gwlaw maethlawn; ond "diddwfr" oeddynt (2 *Pedr* ii. 17). Yr oeddynt yn proffesu crefydd, ond yn amddifad o ffrwythau crefydd. *A gylch-arweinir*:—allan o ffordd uniawn Cristionogaeth. Yr oedd eu dull diofal, anystyriol, a moethus o fyw yn eu gwneyd yn rhai hawdd i'w harwain ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd. *Prenau diflanedig.*—Yn ol y cyfeithiad Saesneg, "prenau y mae eu ffrwyth yn gwywo." Yn ol Dr. Morgan, "prenau llygredig;" neu yn ol William Salisbury, "prenau gwywion, crinion." Arwydda y gair Groeg, y tymmor Hydref, pan y mae y ffrwythau wedi eu casglu oddi ar y prenau, a'u dail wedi syrthio, a hwythau, wedi colli eu holl hyfrydwch a'u harddwch, yn ymddangos yn wywedig, ac fel yn feirw. Gan hyny, "prenau diflanedig" yw prenau fel y maent yn ymddangos yn y tymmor hwnw—heb na blodau, na ffrwythau, na dail arnynt. Barna Phavorinus fod y gair Groeg, *phthinopóron*, yn arwyddo rhyw fath o afiechyd ar brenau ag sydd yn attal eu ffrwyth rhag dyfod i berffeithrwydd; ond yn peri iddynt wywo, gwaethygu, pydru, a syrthio. Pa un bynag o'r ddau olygiad ar y gair a gymmerir, y mae yn dynodi gau-athrawon a phroffeswyr cnawdol, diffrwyth; y rhai ydynt ddiffrwyth eu hunain, ac hefyd yn diffrwytho pawb o'u hamgylch. *Heb ffrwyth*:—heb ffrwyth da. *Dwywaith yn feirw*:—yn gyntaf, pan fwriant eu dail, yn Hydref, ac yr ymddangosant yn ystod y gauaf yn feirw, ond adfywiant drachefn yn y gwanwyn; yn ail, pan y tynir hwynt i fyny o'r gwraidd. Felly y gwrthgilwyr hyn—yr oeddynt unwaith yn feirw mewn anghrediniaeth; yna, trwy eu proffes fe'u codwyd o farwolaeth pechod i fywyd o gyfiawnder; ond yn awr, y maent wedi dyfod yn feirw drachefn trwy wrthgiliad; ac felly yn feirw diobaith. Nid yn unig yr oeddynt heb ddail, fel prenau yn ddiweddar yn yr Hydref, ond heb ffrwyth; ac nid yn unig felly, ac i goroni y cwbl, y maent "wedi eu diwreiddio."

13. *Cynddeiriog*:—gwyllt. Diau fod *Esa.* lvii 20, yn meddwl Iudas pan oedd yn defnyddio y gair hwn. *Ewynu*:—yn glafoeri fel creaduriaid gwallgof. *Eu cywilydd*:—yn arddangos y fath ysbryd cynnhenus, cythryblus, ac aflonydd, a

[r] 2Pedr 2.17; Jud. 20.10; 21. 8.

hunain; sêr gwibiog, [r] i'r rhai y cadwyd niwl y tywyllwch yn dragywydd.

14 Ac Enoch hefyd, y seithfed o Adda, a brophwydodd am y rhai hyn, gan ddywedyd, [s] Wele, y mae yr Arglwydd yn dyfod gyda myrddiwn o'i saint,

[s] Deut. 33.2. [t] Salm 37. 1—6; Ioan 5. 22, 23, 27; Act. 17.31; Rhuf 2 16. Rhuf. 2.5; 3. 19, 20; Exod. 16.8;

15 I [t] wneuthur barn yn erbyn pawb, ac [u] i lwyr argyhoeddi yr holl rai annuwiol o honynt am holl weithredoedd eu hannuwioldeb yn profi eu bod o gymmeriad drygionus; yr oedd eu gweithredoedd yn dangos yn amlwg y drygioni oedd yn eu calonau. "Fel tonau cyndderiog y môr, yr oeddynt yn ymchwyddo yn uchel, yn amcanu, ac yn bygwth dymchwelyd y gwirionedd, a distrywio y wir eglwys; fel tonau y môr, yr oeddynt yn ewynu llaid llygredig, ac ewyn disylwedd; fel yr un tonau, yr oeddynt yn dymchwelyd arnynt eu hunain, ac yn myned, ér eu mawr gywilydd, yn ddiddim; ond y mae y gwirionedd, fel creigiau ansymmudol, yn sefyll yn gryf ac yn ogoneddus, wedi i'w holl gynddeiogrwydd hwy ddarfod." *Sêr gwibiog.*—Yn lle ymsymmud yn mlaen mewn cylchdro rheolaidd, fel goleuadau i'r byd, yr oeddynt yn crwydro o'u llwybr fel sêr gwibiog, neu yn hytrach fel gorchuddion tanllyd, gyda goleuni dyeithr, wedi eu dedfrydu i syrthio yn ol drachefn i dywyllwch du.

[u] Salm 31.18 Esa. 37. 2.

14. Gwel y Rhagarweiniad, ar y ffynnonell o'r hon y cafodd Iudas y brophwydoliaeth hon. Fe seliodd yr Ysbryd Glân, trwy Iudas, wirionedd cymmaint a hyn o Lyfr Enoch, er ei bod yn debygol fod y llyfr hwnw, yn gystal ag Iudas, wedi ei gael trwy draddodiad. Cyfeirir at ffeithiau nad ydynt yn cael eu cofnodi yn yr Hen Destament gan Paul hefyd: 2 *Tim.* iii. 8; *Gal.* iii. 19; *Heb.* xi. 24. Y mae lle i dybied fod Llyfr Enoch yn y ffurf y mae genym ni yn awr, wedi ei gopïo o Iudas, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Y mae y prophwydoliaethau boreuaf am y Gwaredwr yn sefyll ar ei ail ddyfodiad mewn gogoniant, yn hytrach nag ar ei ddyfodiad cyntaf mewn cyflwr o ddarostyngiad. Cymmharer *Gen.* iii. 15, â *Rhuf.* xvi. 20. Yr oedd Enoch, yn ei symmudiad heb brofi marwolaeth, yn egluro yr hyn yr oedd efe wedi ei bregethu ar hyd ei oes i'r byd anghrediniol—sicrwydd dyfodiad yr Arglwydd, ac adgyfodiad y meirw—fel meddyginiaeth i wrthweithio y duedd anghrediniol oedd yn eu calonau. *Ac [de cai]*:—'yn mhellach hefyd, Enoch,' &c. *Y seithfed o Adda.*—Y mae Iudas yma yn awgrymu hynafiaeth ei brophwydoliaeth. Yn Enoch y mae rhyddid oddi wrth farwolaeth a'r nifer cyssegredig wedi eu huno; canys rhoddir gwerth arbenig ar bob seithfed gwrthddrych. Nid oedd dim ond pump o dadau rhwng Enoch ac Adda. "Y seithfed o Adda a brophwydodd y pethau a derfynant seithfed oes y byd."—*Bengel. Am y rhai hyn.*—Nid at y cynddiluwiaid yn unig yr oedd yn cyfeirio, ond at yr holl annuwiolion: *adn.* 15. Yr oedd ei brophwydoliaeth yn gyntaf at y diluw, ac yna at y farn olaf. *Yn dyfod.*—Yn ol y gwreiddiol, 'daeth.' Y mae prophwydoliaeth yn edrych ar y dyfodol mor sicr a phe byddai wedi myned heibio. Y mae llawer yn cyssoni â hyn yr adroddiad pendant y daw yr Arglwydd, ac y cipir ei etholedigion i fyny i'w gyfarfod ef yn yr awyr (1 *Thes.* iv. 17), deb, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol, [x] ac am yr holl *eiriau* caledion, y rhai a lefarodd pechaduriaid annuwiol yn ei erbyn ef.

[x] Salm31.18 Esa. 37. 2.

16 Y rhai hyn sydd rwgnachwyr, tuchanwyr, yn cerdded yn ol eu chwantau eu hunain; ac y mae eu genau yn llefaru *geiriau* chwyddedig, yn mawrygu wynebau dynion er mwyn budd.

17 Eithr chwi, *O* rai anwyl!

trwy dybied y bydd i'w ddyfodiad yn yr awyr, i'w dwyn hwynt (*Zeph.* ii. 3) allan o'u cyfyngder olaf, gymmeryd lle rhyw gymmaint o amser o flaen ei ddyfodiad gyda hwynt i Fynydd yr Olewydd (*Zech.* xiv. 4; a *Dad.* xix. 14), i achub yr Iuddewon etholedig. Cymmharer *Esa.* xxvi. 20; lxi. 3; *Ioan* xiv. 3; a *Dad.* iii. 10. Er hyny, rhaid i'r saint fod am amser yn nwylaw y corn bychan (*Dan.* vii. 25—27): ond dichon mai Rhufain yw y corn bychan; ac nid yr anghrist diweddaf. Y mae *Mat.* xxiv. 22—24, 31, yn cyfeirio at yr Iuddewon etholedig (nis gellir cymmhwyso y disgwyliad am "Grist" ond yn unig at yr Iuddewon: *Ier.* xxx. 7). Bydd yr Iuddewon, fel Noah yn y diluw, yn y cyfyngder; ond achubir hwynt o hono: *Esa.* lv. 9. Caiff yr eglwys etholedig, fel Enoch, ei chipio i fyny, a'i newid, cyn y cyfyngder: 2 *Cor.* iv. 14; 1 *Thes.* v. 9; yn enwedig *Luc* xxi. 28, 35, 36. O'r braidd y buasai y rhybudd i "bawb oll a'r sydd yn trigo ar wyneb yr holl ddaear" i "wylio," am fod y dydd yn dyfod fel 'magl,' yn briodol, pe byddai derbyniad yr Iuddewon o anghrist i flaenori y dyfodiad; canys felly cyhoeddid dyfodiad y dydd gan anghrist fel rhagredegydd. *Saint.*—Angylion sanctaidd. Cymmharer *Deut.* xxxii. 2; *Dan.* vii, 10; *Zech.* xiv. 5; *Mat.* xxv. 31.

15. *I lwyr argyhoeddi.*—I brofi eu bod yn euog, ac i gyhoeddi dedfryd arnynt. *Geiriau caledion.*—Y rhai a welir yn *adn.* 8, 10, 16. *Pechaduriaid annuwiol*:—nid yn unig pechaduriaid, ond dirmygwyr Duw. *Yn ei erbyn ef.*—Y mae y rhai sydd yn llefaru yn erbyn plant Duw yn llefaru yn erbyn Duw ei hun.

16. [*Grwgnachwyr*:—yn erbyn ordinhadau a gweinidogion Duw yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Cymmharer *adn.* 8, 15. *Tuchanwyr*:—byth yn anfoddlawn ar eu rhan: *Num.* xi. 1. Cymmharer y gospedigaeth, yn *Deut.* xxviii. 47, 48. *Yn cerdded yn ol eu chwantau eu hunain.*—*Adn.* 18. *Geiriau chwyddedig.*—2 *Pedr* ii. 18. *Wynebau dynion.*—Eu sefyllfa allanol yn y byd. *Er mwyn budd*:—er mwyn yr hyn a gânt ganddynt. Tra y maent yn llefaru "geirian chwyddedig," wrth y mawrion a'r cyfoethogion, y maent mewn gwirionedd yn elynion calon iddynt. Nid ydyw eu holl broffes o barch tuag atynt ond twyll a rhagrith.

17. *Eithr chwi, O rai anwyl!*—Mewn cyferbyniad i'r gau-athrawon rhagrithiol. *Cofiwch.*—Yr oedd ei ddarllenwyr wedi bod yn gydoeswyr â'r apostolion: canys y mae Pedr yn arfer yr un ffurf gyfarchiadol wrth ddwyn ar gof i'w gydoeswyr ef a'r apostolion ereill. *A ragddywedwyd:*—eisoes, cyn hyn. *Apostolion.*—Pedr (gwel y sylw ar 2 *Pedr* iii. 2, 3), a Phaul o flaen Pedr: *Act.* xx. 29; 1 *Tim.* iv. 1; 2 *Tim.* iii. 1. Y mae adas yn cynnwys ei hun yn mhlith yr apos-

cofiwch y geiriau a rag-ddywedwyd gan apostolion ein Harglwydd Iesu Grist;

18 Ddywedyd o honynt i chwi, y bydd yn yr amser diweddaf
[y] Salm 14. 1, 2. watwarwyr, [y] yn cerdded yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain.

19 Y rhai hyn yw y rhai sydd yn eu didoli eu hunain, yn anian-
[z] Ioan 3. 5, 6; 1 Cor. 6. 19. ol, [z] heb fod yr Ysbryd ganddynt.

20 Eithr chwychwi, anwylyd,
Act. 9. 31. [a] gan eich adeiladu eich hunain

tolion; canys yn *adn.* 18, dywed, "Ddywedyd o honynt i chwi," nid i ni; neu, yn ol y gwreiddiol, 'arferent ddywedyd i chwi.' Yr oedd darllenwyr Iudas yn gydoeswyr â'r apostolion, y rhai a arferent ddywedyd y pethau hyn wrthynt.

18. *Gwatwarwyr.*—Gwel y sylw ar 2 *Pedr* iii. 3. Fe welir fod Iudas yma yn dyfynu hyd yn oed geiriau Pedr, fel y rhai yr arferai yr apostolion eu defnyddio i siarad wrth y bobl yr oedd efe (Iudas) yn ysgrifenu atynt.

19. *Y rhai hyn yw y rhai:*—sydd yn dangos fod eu cymmeriad yn gyfryw ag y rhagfynegodd Pedr a Phaul. *Yn eu didoli eu hunain:*—oddi wrth gymmundeb eglwysig gwirioneddol a sylweddol: yr oeddynt yn cymmeryd rhan yn allanol mewn ordinhadau crefydd: *adn.* 12. Y mae y *Vulgate* yn gadael "eu hunain" allan: yna y mae "didoli" yn arwyddo aelodau wedi eu bwrw allan o'r eglwys trwy esgymmundod: *Esa.* lxv. 5; lxvi. 5; *Luc* vi. 22; *Ioan* ix. 34; 3 *Ioan* 10. Ond y syniad tebycaf o fod yn gywir, ydyw eu bod yn coledd y fath feddyliau uchel am eu sancteiddrwydd, eu doethineb, a'u hathrawiaethau eu hunain, rhagor ereill, fel yr oeddynt yn eu hymchwydd ffol yn ymddidoli oddi wrthynt. *Yn anianol.*—Yn ol y gwreiddiol, 'eneidiau anifeilaidd,' yn gyferbyniol i "ysbrydol;" 1 *Cor.* ii. 14. Yn natur driphlyg dyn—corph, enaid, ac ysbryd—y trefniant dwyfol ydyw, fod i'r "ysbryd," derbynydd yr Ysbryd Glân, a'r hwn sydd yn uno dyn â Duw, fod yn gyntaf, a llywodraethu yr enaid, yr hwn sydd yn sefyll yn y canol rhwng y corph a'r ysbryd; ond yn y dyn anifeilaidd neu naturiol, y mae ysbryd yn is-wasanaethgar i'r enaid anifeilaidd, yr hwn sydd yn ddaearol o ran ei amcanion. Y mae yr "anianol" yn sudd yn is; canys yn y rhai hyn, y cnawd, yr elfen isaf a llygredig o natur gorphorol dyn, sydd yn llywodraethu yn oruchaf. *Heb fod yr Ysbryd ganddynt.*—Yn y dyn anifeilaidd, neu naturiol, nid ydyw ysbryd, ei ran uchaf, yr hwn a ddylai fod yn eisteddle yr Ysbryd Glân, yn oruchaf; am hyny, gan nad ydyw ei Ysbryd yn ei sefyllfa briodol, dywedir ei fod heb yr Ysbryd. Cymmharer *pen.* iii. 5, 9.

20. *Gan eich adeiladu eich hunain.*—Mewn cyferbyniad i "ddidoli eu hunain" (*adn.* 19); fel y mae "yn yr Ysbryd Glân" yn gyferbyniol i "heb fod yr Ysbryd ganddynt." *Ar.*—Megys ar sylfaen. Adeiladu ar y ffydd ydyw adeiladu ar Grist—ei gwrthddrych. *A gweddïo yn yr Ysbryd Glân.*—*Rhuf.* viii. 26. Y mae yr Ysbryd Glân yn dysgu beth yr ydym i weddïo am dano, a pha fodd i weddïo. Nis gall neb weddïo yn iawn ond trwy fod yn yr Ysbryd.

21. Yn *adn.* 20, 21, y mae Iudas yn cyssylltu y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. *Ymgedwch.*—Nid yn eich nerth eich hunain, ond yn "nghar eich sanctеiddiaf ffydd, a gweddïo yn yr Ysbryd Glân,

21 [b] Ymgedwch yn ngharіad [b] Ioan 14. 2; 1 Ioan 4. 16, Duw, [c] gan ddisgwyl trugaredd [c] Iob 14. 14. ein Harglwydd Iesu Grist i fywyd tragwyddol.

22 A thrugarhewch wrth rai, gan wneuthur rhagor:

23 Eithr rhai cedwch trwy ofn, gan *eu* cipio *hwy* allan o'r tân; gan gasáu hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd.

iad Duw;" hyny yw, caria'l Duw tuag atoch chwi a'r holl gredinwyr, fel yr unig ffordd i ymgadw mewn cariad tuag ato yntau. Y mae y gair yn cynnwys ymgadw mewn cymdeithas â'i gariad ef. parhau i fyfyrio arno, a gochelyd pob peth a fyddo o duedd i'w oeri. Y mae yr annogaeth yn cynnwys fod eisieu i ddyn wylio; ond nis gall efe gadw ei hun, oddi eithr i Dduw yn ei gariad ei gadw ef. *Gan ddisgwyl.*—Mewn gobaith: *Titus* ii. 13. *Trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist:*—i gael ei chyflawn amlygu yn ei ddyfodiad. Yn gyffredin, priodolir trugaredd i'r Tad; yma, i'r Mab; gan fod y Personau Dwyfol yn un yn yr ystyr perffeithiaf: *Mat.* xxv. 34.

22. Nid oes neb ond y rhai a gadwant eu hunain (*adn.* 21) yn debyg o fod yn offerynol i achub ereill. *A thrugarhewch.*—Yn ol y *Vulgate*, 'Gwrthbrofwch hwynt yn y fath fodd nes eu hargyhoeddi.' *Gan wneuthur rhagor.*—Yn ol rhai o'r llaw-ysgrifau a'r cyfieithiadau hynaf, 'pan yn didoli eu hunain' [*Wahl*], gan gyfeirio at *adn.* 19; neu, 'pan yn ymddadleu â chwi,' fel y cyfieithir y Groeg, *adn.* 9.

23. *Cedwch trwy ofn.*—Nid ydyw y llawysgrifau hynaf yn darllen "trwy ofn" yn y fan yma: ond ar ol eu "cipio hwy allan o'r tân" (â'r hyn cymmharer *Amos* iv. 11; 1 *Cor.* iii. 15; *Zech.* iii. 2), chwanegant y geiriau canlynol, gan ffurfio trydydd dosbarth—'a thrugarhewch wrth ereill trwy (mewn) ofn.' Y mae tri math o gleifion yn gofyn tri math o driniaeth feddygol. Dywedir fod gweinidogion a Christionogion yn "cadw" y rhai y gwneir hwynt yn offerynol i'w cadw; y mae y gair Groeg a ddefnyddir yma am "gadw" yn yr amser presennol, ac felly yn arwyddo "ceisio cadw." Yr oedd Iudas eisoes (*adn.* 9), wedi cyfeirio at yr un adnod: *Zech.* iii. 1—3. Y tri dosbarth ydynt—(1.) Y rhai sydd yn ymddadleu â chwi, y rhai y dylech eu hargyhoeddi. (2.) Y rhai sydd fel pentewynion eisoes yn y tân: diwedd yr hwn fydd tân uffern. Dylech geisio achub y rhai hyn "trwy eu cipio hwynt allan." (3.) Y rhai sydd yn wrthddrychau "trugaredd;" wrth y rhai am hyny y dylech "drugarhau" (eu cynnorthwyo os cewch gyfleusdra); ond ar yr un pryd, na adewch i'ch trugaredd beri i chwi oddef eu cyfeiliornadau. Yr ydych i drugarhau wrthynt 'mewn ofn,' rhag i chwi mewn un modd gael eich halogi ganddynt. *Gan gasau.*—Y mae gan hyd yn oed casineb ei faes cyfreithlawn i weithredu. Pechod ydyw yr unig beth y mae Duw yn ei gasau; felly, ni ddylem ninnau gasau dim arall. *Hyd yn oed y wisg.*—Ymadrodd diarebol, gan ochelyd y cyffyrddiad lleiaf â phechod, a chasau pob peth sydd yn terfynu arno, neu yn debyg iddo. Megys yr oedd gwisgoedd yr apostolion yn iachau pobl yn wyrthiol a gyffyrddent â hwynt (*Act.* xix. 12), felly y mae hyd yn oed

[d] Ioan 10. 29, 30.

24 Eithr i'r hwn a [d] ddichon eich cadw chwi yn ddigwymp,

[e] Dad. 14. 5. [f] Mat 16. 27.

[e] a'*ch* gosod ger bron ei ogoniant ef [f] yn ddifeius mewn gorfoledd,

[g] Salm 104. 24.

[h] Dan. 4.31; Eph. 3. 27; 1Pedr 4.12.

25 I'r [g] unig ddoeth Dduw, ein Hiachawdwr ni, [h] *y byddo* gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod, yr awrhon ac yn dragywydd. Amen.

gwisgoedd pechaduriaid yn gyffelybiaethol (*h.y.*, pob peth a ddygir i gyffyrddiad â'u halogedigaeth) i'w gochelyd. Cymmharer y modd yr halogid gwahangleifion a phersonau ereill: *Lef.* xiii. 52—57; xv. 4—17. Ystyrid y gwisgoedd yn halogedig; ac yr oedd pwy bynag a gyffyrddai â hwynt i gael ei gau allan, hyd nes y purid ef oddi wrth bob cymmundeb crefyddol a gwladol â'r Israeliaid.

24. *Cadw*:—rhag syrthio: yn hytrach eu cadw heb syrthio, neu dramgwyddo. Cymmharer *Esa.* xxvii. 3; 1 *Pedr* i. 5. *Ger bron ei ogoniant ef*:—hyny yw, ger ei fron ef ei hun pan yr ymddengys efe mewn gogoniant: *Mat.* xxv. 31; *Titus* ii. 3. *Yn ddifeius*—yn hollol ddibechod, neu yn berffaith sanctaidd: *Eph.* i. 4; v. 27; *Col.* i. 22. *Mewn gorfoledd*:—fel rhai yn llamu gan lawenydd: *Luc* vi. 23.

25. *I'r unig...Dduw, ein Hiachawdwr.*—Y mae y copïau hynaf yn chwanegu, "trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Gan fod yr adysgrifwyr yn tybied mai at Grist yn unig y cymmhwysir y gair "Iachawdwr," hwy a adawsant y geiriau allan. Yr ystyr ydyw, 'I'r unig Dduw (y Tad) yr hwn yw ein Hiachawdwr (*h. y.* trwy gyfryngdod) Iesu Grist ein Harglwydd.' *Gallu*:—nerth, hawl, a braint. *Awdurdod*:—*h. y.*, yr awdurdod gyfreithlawn. Mewn rhai o'r copïau hynaf, ar ol "gallu;" dodir 'cyn yr holl oesoedd,' *h. y.*, cyn yr holl amser a aeth heibio. *Yr awrhon*:—yr amser presennol. *Ac yn dragywydd*:—am byth yn y dyfodol.

LLYFR Y DADGUDDIAD.

EI AWDURIAETH.

Ymddengys fod y llyfr yn cael ei gyfrif i Ioan yr apostol a'r efengylwr, yn y ddwy ganrif gyntaf gan bawb yn ddiwahaniaeth. Dywed Smith [*Dictionary of the Bible*], mai y cyntaf i ddefnu amheuon am gywirdeb y farn gyffredin oedd Dionysius o Alexandria. Cymmeradwywyd ei olygiad gan amryw mewn oesoedd diweddarach, ac yn eu plith Luther; ac y mae llawer mawr o feirniaid Germany, ac yn eu mysg Lucke, un o'r esbonwyr mwyaf manylgraff ar y rhan hon o'r gair sanctaidd, yn gwrthod cyfrif awduriaeth y llyfr i'r apostol Ioan. Ymddengys i ni, fodd bynag, fod y tystiolaethau o blaid y farn gyffredin, oddi wrth draddodiad hanesyddol, ac oddi wrth honiadau mewnol y llyfr, yn gryfion dros ben, ac yn wir yn anwrthwynebol. Ceir crynhoad rhagorol o'r tystiolaethau hanesyddol yn ngweithiau Elliot, Hengstenberg, Stuart, Alford, &c. Boddlonwn ar roddi yma rai enghreifftiau o honynt. Cyfeiria Justin Martyn (B. A. 140 a 161) at y llyfr a'i awdwr yn y geiriau hyn:—"A dyn o'n mysg o'r enw Ioan, un o apostolion Crist, mewn dadguddiad a roddwyd iddo, a brophwydodd y byddai i gredinwyr yn Nghrist fyw fil o flynyddoedd yn Ierusalem; ac wedi hyny y byddai yr adgyfodiad, a'r farn gyffredinol a thragwyddol." Irenæus, yr hwn a fu farw o ddeutu B. A. 180, ac o herwydd ei gyssylltiad â Polycarp, sydd yn dyst o'r radd uchaf, a lefara am awdwr y Dadguddiad fel "dysgybl ein Harglwydd, yr hwn a bwysai ar ei fynwes, yr hwn hefyd a anfonodd allan yr Efengyl sydd yn dwyn ei enw, pan oedd yn trigo yn Ephesus." Dywed Alford fod geiriau cyffelyb yn digwydd yn aml iawn yn ei ysgrifeniadau, y rhai ydynt o'r nodwedd cadarnaf. Y mae tystiolaethau Tertullian yr un mor benderfynol. Sonia yn aml am awdwr y llyfr dan yr enw *Apostolus Iohannes*. Hippolytus hefyd a gadarnha yr un dystiolaeth. Mewn un o'i ysgrifau, y mae mewn dwys deimlad yn llefaru fel hyn:—"Dywed i mi, O! fendigaid Ioan, apostol a dysgybl yr Arglwydd, yr hyn a welaist ac a glywaist am Babilon;" gan ddyfynu, yn y llinellau nesaf, *Dad.* xvii. 1—18. Y mae Origen hefyd, yn ei esboniad ar y llyfr, yn dyweyd am yr apostol Ioan—"Ysgrifenodd efe hefyd y Dadguddiad." Y mae tystiolaethau yr ysgrifenwyr eglwysig yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif yn fwy lliosog fyth; ac yn eu mysg y mae yr enwau canlynol, Methodius, Victorinus, Ephrem Syrus, Epiphanius, Basil, Hilary, Athanasius, Gregory, Didymus, Augustine, Ambrose, a Jerome. Y mae ereill hefyd, y rhai sydd heb wneuthur un cyfeiriad at awduriaeth y llyfr, yn dwyn tystiolaethau i'w awdurdod ganonaidd. Y mae Papias, yr hwn a ddisgrifir gan Irenæus fel dysgybl i Ioan a chyfaill i Polycarp, yn cael cyfeirio ato gan Andreas o Cappadocia, yr hwn hefyd sydd yn gwneuthur defnydd o'i eiriau i gadarnhau ysbrydoliaeth dwyfol y llyfr. Dyfynir o'r llyfr gan Cyprian fel rhan o'r Ysgrythyrau canonaidd. Er nad yw Ioan Aurenau yn gwneuthur un cyfeiriad ato yn yr ysgrifeniadau o'i eiddo sydd ar gael; etto, sicrheir gan Suidas ei fod yn ei dderbyn fel rhan o'r gair dwyfol. Ac er iddo gael ei adael allan o restr y llyfrau canonaidd yn nghynghorfa Laodicea, cafodd ei dderbyn i mewn yn nhrydedd gynghorfa Carthage, yn B. A. 397. Yn erbyn y tystiolaethau uchod, rhoddir pwys gan lawer o feirniaid galluog ar ysgrif o eiddo Dionysius o Alexandria (B. A. 240,—y mwyaf ei allu a'i ddylanwad o esgobion ei oes. Dywed efe fod rhai ysgrifenwyr o flaen ei ddyddiau ef yn ymwrthod â'r Dadguddiad fel ffug-ysgrif o eiddo Cerinthus; etto, fod lliaws o'r brodyr yn ei werthfawrogi yn fawr; ac nid anturiai Dionysius ei hun ei wrthod; ond derbyniai ef mewn ffydd, fel yn cynnwys pethau rhy ddyinion ac uchel i'w ddeall ef. Y mae yn dyfynu y llyfr gyda'r un parch ag y gwna gyda'r Ysgrythyrau ereill. Derbynia dystiolaeth y llyfr ei hunan, ddarfod iddo gael ei ysgrifenu gan Ioan; etto, dywed fod y duli yr arweinir yr enw i mewn, a nodweddion cyffredin yr arddull, yn annhebyg i'r hyn a ddisgwyliasem oddi wrth yr efengylwr a'r apostol; ac fod llawer o Ioanau yn yr oes hono. Ni ryfygai ddyweyd mai Ioan a gyfenwid Marc oedd yr awdwr, gan nad yw yn hysbys ei fod yn Asia. Rhyw Ioan a drigai yn Asia ydoedd; a dywed fod dau feddrod yn Ephesus, ac enw Ioan ar bob un. Dywed fod arddull yr Efengyl a'r Epistol cyntaf yn rhagori yn fawr ar arddull y Dadguddiad. Nid ydyw gwrthwynebiad Dionysius yn gryfach na hyn. Rhoddir pwys hefyd ar y ffaith fod y llyfr yn absennol o'r hen gyfleithiad Peshito, ac ar ddywediad Jerome, fod yr eglwysi Groegaidd yn teimlo y cyffelyb anhawsder gyda golwg ar y Dadguddiad ag a deimlai yr eglwysi Lladinaidd gyda golwg ar yr Epistol at yr Hebreaid. Dylid crybwyll hefyd fod amryw o'r tadau heb wneuthur defnydd o'r llyfr, oddi ar eu bod, y mae yn debygol, yn cyfranogi o'r un ammheuaeth a Dionysius. Ond y mae yn amlwg, fel y sylwa Deon Alford, nad oes fawr o nerth yn yr ystyriaethau uchod pan osodir hwy ar gyfer tystiolaethau mor liosog a chedyrn i'r gwrthwyneb. Ac nid oedd ysgrifenwyr Cristionogol y drydedd

a'r bedwaredd ganrif yn teimlo un grym yn ngwrthddadleuon Dionysius. Y mae Hengstenberg yn crynhoi y ddadl yn y geiriau canlynol:—"Y mae y tystiolaethau dros ddilysedd y Dadguddiad yn ymestyn yn ol hyd amser ei gyfansoddiad: y maent wedi eu casglu o bob parth o'r byd Cristionogol. Cydnabyddid ef fel gwaith yr apostol Ioan hyd ganol y drydedd ganrif: a'r cwbl a wnaeth yr ammheuon a'r gwrthddadleuon a goleddid ar ol hyny o barth ei ddilysedd oedd gwneyd y derbyniad o hono yn fwy amlwg gan yr eglwys."

Ond y mae y tystiolaethau o fewn y llyfr ei hun yn gryfach, pe bae bossibl, na'r rhai hanesyddol. Tra yr addefir fod sylwadau Dionysius ar wahaniaeth arddull y Dadguddiad, ac ysgrifeniadau ereill yr apostol, ar y cyfan yn gywir; etto, barna amryw fod yn hawdd rhoddi cyfrif boddhaol am dano. Os oes mwy o ammherffeithiau mewn arddull ganddo, dywedir fod hyny yn hawdd i'w esbonio ar y ddwy ystyriaeth ganlynol:—(1). Gan fod y llyfr yn brophwydol, fod yr Ysbryd Glân yn gweled yn dda ddefnyddio yr un ffurfiau ieithyddol ag a ddefnyddir gan brophwydi yr Hen Destament; ac achosai hyny fod mwy o Hebreigiaeth yn yr arddull. (2.) Gan fod iaith brophwydol yn y cyffredin yn llai coeth, o ran tlysni ac eglurder, na ddylem synu os cyfarfyddwn âg esgeulusdra grammadegol ynddi. Pan y mae ysgrifenwr â'i feddwl yn orlawn o'r dirgeledigaethau a drosglwyddir ganddo, gellid yn briodol edrych am lai o ofal am ieithwedd na phan yn cyfansoddi hanes neu epistol. Sylwa Guericke, ar yr un mater, fod Efengyl Ioan wedi cael ei meddwl a'i chyfansoddi "yn y deall," ond y Dadguddiad "yn yr Ysbryd." Wrth drin mater hanesyddol, "y mae yr ysgrifenydd," fel y sylwa Alford, "dan ddwyfol arweiniad yn trefnu ei ddefnyddiau mewn pwyll, mewn hunan ymwybyddiaeth cyflawn; ond wrth ymdrin â materion prophwydol, y mae y gweledydd mewn math o berlewyg, yn cael ei gario rhagddo o weledigaeth i weledigaeth, ac yn llefaru mewn tiriogaeth ac mewn cymmeriad hollol wahanol." Defnyddia Ebrard hefyd eiriau cyffelyb. Disgrifia Ioan fel yn cael ei "orchfygu" gan yr adgofion o'r golygfeydd a welodd, ac yn analluog i gael un arddull neu ieithwedd arall i fynegu y rhyfeddodau mawreddog hyn heb law yr eiddo yr hen brophwydi; felly y mae gwrthddadl Dionysius, yr hon a ddefnyddiwyd gan laweroedd ar ei ol, yn colli ei holl nerth. Yn lle bod y gwahaniaeth arddull rhwng y Dadguddiad ac ysgrifeniadau addefedig yr apostol yn cyfeirio at ryw awdwr arall i'r cyntaf, yr ydym yn gweled fod y cyfryw wahaniaeth yn beth i'w ddisgwyl oddi wrth hyn-odrwydd y llyfr ei hun.

Ond y mae Hengstenberg wedi llwyddo i ddangos fod y cyffelybrwydd yn yr arddull yn llawer mwy, ac yn gorwedd yn ddyfnach, na'r gwahaniaeth. Ofer fyddai i ni yma ddilyn yr awdwr llafurfawr hwn. Boddlonwn yn unig ar nodi ychydig enghreifftiau. Dywed fod lliaws o debygiadau grammadegol. Arferir yn y llyfr hwn eiriau priodol i Ioan:—y "Gair," fel enw ar Grist; hefyd y geiriau "gorchfygu," "gwir" (*alethinos*), yr hwn a geir ddeg o weithiau yn y Dadguddiad, naw gwaith yn yr Efengyl, pedair gwaith yn yr Epistol Cyntaf; tra nad yw ond unwaith gan Luc, a dim unwaith gan Paul. Ceir yr enw "Oen" am Grist naw ar hugain o weithiau, yr hwn ni ddefnyddir fel teitl gan neb ond gan Ioan. Yn 1 *Pedr* i. 19, defnyddir ef fel cymhariaeth—nid fel teitl. Ceir yma hefyd gyffelybrwydd o ran athrawiaeth. Drychfeddyliau mawrion Ioan ydyw Duwdod Crist; a'r rhyfel parhaus sydd rhwng drwg a da, tywyllwch a goleuni. A gwelir y drychfeddyliau hyn yn rhedeg trwy y Dadguddiad, fel trwy ysgrifeniadau ereill yr apostol.

Prawf sicrach fyth ydyw yr arwyddion sydd yma o neillduolion Ioan. Tra yn 'apostol cariad,' y mae hefyd, yn ei holl ysgrifeniadau, yn 'fab y daran.' Y mae ei gariad dwfn at ei Arglwydd yn cymmeryd y ffurf o eiddigedd tanllyd tuag at elynion ei Arglwydd. Oddi ar hyn y mae yn gosod Cristionogaeth mewn gwrthwynebiad i bob crefydd arall; gwna hyny yn fwy nag un o ysgrifenwyr yn y Testament Newydd. Yn ei olwg ef Cristionogaeth yn unig sydd wirionedd; "y celwydd" ydyw pob cyfundrefn arall; ynddi hi y mae pob 'bywyd' a phob 'goleuni' wedi eu crynhoi, a'r tu allan i'w therfynau hi nid oes ond 'tywyllwch' a 'marwolaeth.' Canfyddir hyn yn ei holl ysgrifeniadau, ac yn y Dadguddiad yn gymmaint ag yn un o honynt. Dywed Ebrard fod yr awgrymau o nodweddion personol yr apostol Ioan mor amlwg yn y llyfr hwn fel y mae yn beth syn fod y feirniadaeth ddiweddar wedi gallu petruso o barth ei ddilysedd.

Gwelir y pethau canlynol yn y llyfr, y rhai a gyfeiriant yn amlwg at Ioan fel ei awdwr (*a*) disgrifiad yr awdwr o hono ei hun yn *pen.* i. a xxii. (*b*) Geilw ei hun Ioan—enw, pan yn sefyll fel hyn arno ei hun, heb un dynodiad yn gyssyllttiedig âg ef, a gymmerid y pryd hyny yn Asia am yr apostol. (*c*) Disgrifir ef fel llygad-dyst o air Duw a thystiolaeth Iesu Grist (cymmharer â *Ioan* xix. 35; 1 *Ioan* i. 2). (*d*) Dywedir ei fod yn Patmos, yr hyn sydd yn unol â thraddodiadau am yr apostol. (*e*) Y mae yn gyfrwng trosglwyddiad y cenadwriaethau pwysicaf at saith eglwys Asia, ar y rhai yr oedd yr apostol ar y pryd yn olygwr. (*f*) Yr oedd yn gydwas ag angylion a phrophwydi—teitl llawer mwy addas i un o urddas apostolion Iesu Grist. [*Smith's Dictionary of the Bible.*]

LLE AC AMSER CYFANSODDIAD Y LLYFR.

Amser y Dadguddiad, yn ol barn y nifer mwyaf, ydyw B. A. 95—97. Tystiolaeth Irenæus yw, "Derbyniwyd y Dadguddiad heb fod yn mhell oddi wrth ein hamser ni—o'r bron yn yr oes hon, yn niwedd teyrnasiad Domitian." Cofnoda Eusebius y traddodiad a ymddangosai iddo yn gredadwy—fod Ioan, yr apostol a'r efengylwr, yn fyw yn amser yr erlidigaeth dan Domitian, ac iddo gael ei alltudio i ynys Patmos am ei dystiolaeth i air Duw. Y mae cyfeiriadau cyffelyb yn ysgrifeniadau Clement o Alexandria, Victorinus, Jerome, a Sulpicius Severus. Nid oes un crybwylliad mewn un o awdwyr y tair canrif cyntaf am un lle nac amser gwahanol; er fod rhai ysgrifenwyr mewn amseroedd diweddarach yn dyweyd mai yn nyddiau Nero y cafodd Ioan ei alltudio. Ond y mae rhai ysgrifenwyr diweddar yn ffafrio y golygiad hwn; os felly, cafodd y llyfr ei ysgrifenu cyn dinystr Ierusalem. Ond ymddengys i ni fod hyn yn bur annhebyg i wirionedd. Ammhossibl ydyw meddwl y buasai digwyddiad mor bwysig a'r dinystr hwnw heb ei ragfynegu mewn llyfr ag y mae ei gynnwysiad yn cymmeryd i mewn "y pethau a ddeuent ar

fyrder." Ond os yn amser Domitian y cafodd ei ysgrifenu, yr oedd y trychineb hwnw wedi myned heibio, ac nid oedd achos cyfeirio ato. Y mae rhai yn casglu, oddi wrth *pen.* i. 2, 9, 10, mai yn Ephesus, yn ddioed ar ol dychweliad yr apostol o Patmos, y cafodd y llyfr ei ysgrifenu. Ond prin y mae y geiriau yn rhoddi hyny ar ddeall. Y mae y dull yr anfona y cenadwriaethau at y saith eglwys yn cyfeirio yn hytrach at Patmos fel y lle tebycaf.

CYNNWYSIAD Y LLYFR.

Dangosir pa beth ydyw amcan y llyfr yn ei ddechreu: "Dadguddiad Iesu Crist" yw, "yr hwn a roddwyd iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder." Cyhoeddir dedwyddwch i'r rhai sydd yn darllen, yn gwrandaw, ac yn cadw geiriau y brophwydoliaeth. Perthyna defnydd dyblyg iddo:—cynnwysa brophwydoliaeth, a gorchymynion i'w cadw a'u gwneuthur. Rhoddir y llyfr i gyfarwyddo yr eglwys mewn oesoedd i ddyfod. Yn *pen.* i. 5—9, y mae yr awdwr yn nodi y gwirioneddau mawrion ar ba rai y mae llywodraeth y byd a'r eglwys yn gorphwys:—Person Crist, y prynedigaeth trwy ei waed, ei ddyfodiad yr ail waith i farnu y byd, a chyflwr y saint yn y byd hwn—y gwirioneddau oedd yn llanw meddwl yr apostol yn ei alltudiaeth cyn derbyn o hono y gweledigaethau. Drychfeddwl mawr y llyfr ydyw dyfodiad Crist, yn cynnwys y prif ddigwyddiadau yn hanes yr eglwys a hanes y byd a ragflaenent y dyfodiad hwnw. Geilw un y llyfr yn brophwydoliaeth ymarferol, wedi ei bwriadu i uno dau ymddangosiad mawr yr Arglwydd Iesu—yn edrych yn barhaus yn ol at y naill, ac yn mlaen at y llall. Geilir edrych ar y llyfr yn ddwy ran—anghyfartal o ran hyd; y gyntaf yn gyfyngedig i'r tair pennod gyntaf, ac yn cynnwys yn benaf y llythyrau at saith eglwys Asia; yr ail yn cynnwys y gweddill o'r llyfr, yn cymmeryd i mewn yr holl weledigaethau, oddi eithr y gyntaf—gweledigaeth Mab y dyn ynghanol y saith ganwyllbren aur. Y rhan gyntaf ydyw yr egluraf a'r fwyaf ymarferol: a'r olaf ydyw y fwyaf prophwydol; ac o herwydd amrywiaeth ei arwyddluniau, y fwyaf tywyll ac anhawdd ei deall. Eto y mae y gyntaf yn cynnwys prophwydoliaethau; ac nid yw yr olaf yn ddiffygiol o hyfforddiadau ac annogaethau ymarferol. Bernir yn wir, gan amryw, fod y dosbarthiad yma ar y llyfr i ddwy ran yn anghywir, yn gymmaint ag y gellir golygu yr ail fel dadblygiad o'r gyntaf—mai y weledigaeth gyntaf, a'r llythyrau at y saith eglwys, ydyw hedyn y cwbl sydd yn canlyn. Y mae y rhybuddion ymarferol ar unwaith yn rhagfynegiadau: *pen.* ii. 10, 16, 18. Ni a roddwn yma gynllun y llyfr allan o esboniad y deon Alford.

I. Arweiniad gyffredinol i'r holl lyfr: *pen.* i. 1—3.

II. Y rhan a gynnwysa y llythyrau at y saith eglwys: *pen.* i. 4—iii. 22; ac y mae y rhan hon yn cynnwys:—

a. Yr anerchiad a'r rhagymadrodd: *pen.* i. 4—8.
b. Y weledigaeth arweiniol: *pen.* i. 9—20.
c. Y saith llythyr: *pen.* ii. 1—iii. 22.

III. Yr adran brophwydol: *pen.* iv. 1—xxii. 5. Ceir yn hon—

a. Golygfa nefol y weledigaeth: *pen.* iv. 1—11.
b. Y llyfr seliedig, a'r Oen; *pen.* v. 1—14: y saith sel yn cael eu hagoryd; *pen.* vi. 1—viii. 5: a'r pethau a ddigwyddasant ar ol hyny; selio gwasanaethwyr Duw—eu nifer.
c. Y saith udgorn, yn cyrhaedd o *pen.* viii. 6, hyd *pen.* xi. 19. Dau amgylchiad rhwng udganiad y chweched a'r seithfed udgorn—1. Y llyfr bychan: *pen.* x. 1—11. 2. Y ddau dyst: *pen.* xi. 1—14.
d. Y wraig a'i gelynion:—1. Y ddraig: *pen.* xii. 1—17. 2. Y bwystfil: *pen.* xii. 18—xiii. 10, 3. Yr ail fwystfil, neu y gau brophwyd: *pen.* xiii. 11—18.
e. Yr arweiniad i'r ffuddugoliaeth, a'r dial arnynt: *pen.* xiv. 1—20:—yn cynnwys, 1. Yr Oen a'i fintai: *pen.* xiv. 1—5. 2. Y tri angel yn rhagfynegu barnau Duw, a chwymp Babilon; a llef yn cyhoeddi gwyn fyd y meirw yn yr Arglwydd: *pen.* xiv. 6—13. 3. Cynhauaf y byd: y gwin gynhauaf: *pen.* xiv. 14—20.
f. Tywallt'iad y phïolau: *pen.* xv. 1—xvi. 21.
g. Barn Babilon Fawr: *pen.* xvii. 1—xviii. 24.
h. Y ffuddugoliaeth ddiweddol: *pen.* xix. 1—xxii. 5: yn cynnwys:—1. Cân yr eglwys: *pen.* xix. 1—10. 2. Yr Arglwydd a'i ganlynwyr yn myned allan i ryfel: *pen.* xix. 11—16. 3. Dinystr y bwystfil a'r gau-brophwyd, a brenhinoedd y ddaear: *pen.* xix. 17—21. 4. Rhwymo y ddraig, a'r mil blynyddoedd: *pen.* xx. 1—6. 5. Gollyngiad Satan yn rhydd, a'i lwyr ddinystr yn y diwedd: *pen.* xx. 7—10. 6. Y farn gyffredinol: *pen.* xx. 11—15. 7. Y nefoedd a'r ddaear newydd, a gogoniant yr Ierusalem nefol: *pen.* xxi. 1—xxii. 5.

IV. Y diwedd: *pen.* xxii. 6—21.

EGLURHADAETH Y LLYFR.

Y mae esbonio y fath lyfr a'r Dadguddiad yn rhwym o fod yn orchwyl anhawdd dros ben. Y mae ei fod yn brophwydoliaeth yn peri ei fod felly; ac y mae amlder ei arwyddluniau yn chwanegu yr anhawsder. Y mae yn orchwyl anhawdd egluro rhanau prophwydol yr Hen Destament; pa faint mwy llyfr y Dadguddiad, lle y mae y dull arwyddluniol yn cael ei ddefnyddio yn llawer helaethach. Gyda golwg ar yr egwyddorion y dylid eu dilyn wrth ddeongli y llyfr, y mae Ebrard yn gwneuthur y sylwadau canlynol:—"Nid gorchwyl y deonglydd ydyw ymofyn yn gyntaf am gyflawniad o brophwydoliaethau y llyfr. Y cwbl sydd ganddo i'w wneuthur ydyw chwilio i gynnwysiad y llyfr ei hun:"—ymofyn pa ystyr a gyflwyna y rhagfynegiadau wrth eu cymmharu â'u gwreiddiau yn yr Hen Destament, ac â'r naill y llall; a pha mor bell y mae Ioan ei hun yn eu hesbonio, neu yn rhoddi awgrymau cynnorthwyol i'w hesbonio. Dylid ystyried prophwydoliaethau

y llyfr yn eu perthynas â phrophwydoliaethau ereill, yn Ezeciel, Daniel, a Zechariah, ac â rhagfynegiadau yr Iachawdwr. Dylid hefyd gymmharu adranau cyffelyb yn y llyfr ei hun, y rhai a ddigwyddant yn amil ynddo. Cymmharer y bwystfil yn *pen.* xvii. â'r bwystfil yn *pen.* xiii., ac a'r ddwy ddraig yn *pen.* xii. Y mae y tri mewn llawer o bethau yn debyg, ac mewn llawer yn annhebyg i'w gilydd. Cynnorthwyon mwy gwerthfawr etto ydyw yr eglurhadaeth sydd yn y llyfr ei hun (gwel *pen.* ix. 11, a xvii. 9—18); y rhai a wasanaethant i ddeongli y Dadguddiad yn debyg fel y gwna y deongliad gan yr Iachawdwr o ambell ddammeg egluro dammegion ereill.

Y mae amryw achosion wedi bod yn cydweithio i alw sylw yr eglwys yn mhob oes Gristionogol at Lyfr y Dadguddiad. Cyhoeddir gwynfyd ar y rhai sydd yn ei ddarllen, ei gadw, a'i wneuthur. Y mae y credadyn unigol yn sicr o gael blas mawr ar, ac ymgeleddsydd trwy ei weledigaethau: denir ereill ato gan odidowgrwydd ei gynnwysiad: ac i ereill y mae yr anhawsder i'w ddeall yn symbyliad i'w astudio. O herwydd y pethau hyn, y mae ei esbonwyr yn lleng. Dywed Ebrard fod pedwar ugain o esboniadau rheolaidd arno, tra y mae yr ysgrifeniadau mwyaf diwerth ar ei gynnwysiad yn rhy liosog i'w rhifo. Etto, gellir rhestru yr holl ddeonglwyr yn dri neu bedwar dosbarth, y rhai a ddynodir yn Saesneg fel y canlyn:—*the Futurists, the Preterists, the continuous historical, and the idealogical.* Etto, prin y gellir ystyried yr olaf, y bedwaredd, ar yr un tir a'r tair ysgol gyntaf. Ei chredo hi, ebe un awdwr, ydyw, fod holl gynnwys y llyfr yn arwyddluniol o ddrychfeddyliau a goleddid yn yr eglwys foreuol gyda golwg ar ddigwyddiadau dyfodol a gymmerent le. Rhesymolwyr Germany ydyw cefnogwyr y golygiad hwn; ac y maent hwy yn gwadu prophwydoliaeth yn ei gwedd oruwchnaturiol: yr hyn sydd yn un peth a gwadiad hollol o honi.

Barn y dosbarth cyntaf (y *Futurists*) ydyw, fod braidd yr oll o'r llyfr yn edrych yn mlaen at amser sydd etto i ddyfod—at dymmor byr mewn cymmhariaeth, ar fin ail ddyfodiad Crist. Fel hyn, yn ngolwg rhai o'r ysgol hon, y dylid ystyried y saith eglwys, a'r llythyrau atynt: gwadant fod dim hanesyddol yn perthyn iddynt. Yn hytrach na'u bod yn eglwysi adnabyddus yn niwedd yr oes apostolaidd, a'r llythyrau yn cynnwys disgrifiad o'u sefyllfa, ynghyd â'r cyfa wyddiadau priodol iddynt, nid ydynt ond arwyddluniau o'r eglwys fawr gyffredinol yn yr olaf o oesau amser. Etto, nid oes ond ychydig o'r ysgol hon wedi myned i'r fath eithafoedd a hyn. Addefa y rhan fwyaf o honynt fod y saith eglwys, ac hyd yn oed y seliau cyntaf, yn perthyn i'r amser a aeth heibio; ond gyda hyn o eithriadau, y perthyn cyflawniad y prophwydoliaethau i amser sydd etto i ddyfod. Dyma y wedd y deonglid y gweledigaethau yn y canrifoedd cyntaf:—am fod y disgwyliad am ddyfodiad dydd Duw, oedd yn gryf iawn yn oes yr apostolion, etto heb lwyr ddarfod, yr oedd yn naturiol i'r tadau eglwysig gyssylltu y digwyddiadau prophwydol âg ail ddyfodiad Crist. Ond wedi dyddiau Cystenyn, pan beidiodd erlidigaeth, ac y gwanychodd y disgwyliad am ddydd Duw, rhoddwyd y dull hwn o ddeongli y gweledigaethau o'r neilldu, a chafodd lonydd hyd amser y Diwygiad Protestanaidd. Ond y pryd hwnw, pan gymmhwysid rhanau o'r llyfr at y Babaeth, yr oedd yn gyfleus i'r Eglwys Babaidd ddychwelyd at yr hen ddull o esbonio y llyfr, er mwyn gwrthweithio golygiadau y Diwygwyr. Yr oedd Bellarmine yn gryf iawn dros yr hen olygiad; ac y mae amryw o esbonwyr Protestanaidd yn yr oes hon wedi ei adgyfodi.

Y mae yr ail ysgol (*y Preterists*) yn hollol groes i'r gyntaf. Cyfrifa hi fod y rhan fwyaf o lawer o'r llyfr wedi ei gyflawni yn barod. Nid ydym i ddisgwyl unfrydedd, mae yn wir, yn mhawb y gellir eu golygu yn perthyn i'r ysgol hon. Mae Hengstenberg, er enghraifft, yn barnu fod y mil blynyddoedd wedi darfod er 1848, yn gymmaint ag iddo ddechreu gyda theyrnasiad Charlemagne. Y mae hyn wedi ei wrthwynebu yn llwyddiannus gan Auberlen ac Ebrard. Yr un modd yr edrychai Awstin ar y llyfr. Ei olygiad ef oedd fod y mil blynyddoedd wedi dechreu gyda theyrnasiad Cystenyn Fawr. Yr oedd y dull hwn o esbonio yn rhwym o fod yn gymmeradwy gan yr Eglwys Babaidd, yn gystal a'r dull a nodwyd o'r blaen; a chafodd ei amddiffyn yn alluog gan Alcassar, dysgawdwr Jesuitaidd, yn 1614. Dywed Stuart am waith y dysgawdwr hwn ar Lyfr y Dadguddiad, ei fod yn cynnwys un nodwedd newydd. Y mae yn gwneyd y Dadguddiad yn waith parhaol (*continuous*) a chyssylltiol—yn arddangos cynnydd rheolaidd o'r dechreu i'r diwedd, fel rhanau o un cynllun cyffredinol yn meddwl yr ysgrifenydd. Ac yn unol â hyn, y mae ei gynnwysiad wedi bod o wasanaeth mawr i ysgrifenwyr dilynol. Barna fod o *pen.* v. hyd xi. yn perthyn i elynion Iuddewig yr Eglwys Gristionogol; o *pen.* xi. hyd xix. i Rufain baganaidd, a phob gallu bydol a chnawdol; a *pen.* xx. hyd xxii. yn rhagddangos buddugoliaeth yr eglwys yn y diwedd ar ei holl gaseion, a'i gorphwysiad a'i gogoneddiad mewn byd arall. Fe welir fod y dull hwn o esbonio yn dra manteisiol i Eglwys Rhufain, o blegid y mae yn cysgodi yr eglwys hono oddi wrth holl farnedigaethau y brophwydoliaeth. Daeth Alcassar hefyd yn awdurdod uchel yn nghyfrif yr esbonwyr Arminaidd a Rhesymolaidd yn yr ail ganrif ar bymtheg. I'r un ysgol y perthyna Grotius, Hammond, Wetstein, Ewald, Lücke, a De Wette. Ac er fod Stuart a Hengstenberg yn rhydd oddi wrth dueddiadau yr esbonwyr Germanaidd sydd yn gefnogwyr i'r dull hwn, a'r olaf yn wrthwynebwr cryf iddynt, etto perthynant hwy eu dau i ysgol y *Preterists* yn fwy nag i un arall. Y mae adgasedd Hengstenberg at Resymoliaeth, ac yn enwedig ei dueddiadau uchel-eglwysig, yn ei wneuthur yn ei holl weithiau yn rhy ffafriol i Rufain. Creda efe mai gelyn mawr Cristionogaeth ydyw Rhesymoliaeth; mai y gelyn hwn sydd wedi gwneuthur y galanasdra mwyaf mewn eglwys a gwladwriaeth; ac am hyny y mae yn barnu mai disgrifiad o annuwiaeth, anffyddiaeth, a Phantheistiaeth yr oesoedd diweddaf ydyw "anghrist."

Yr ysgol arall, y drydedd, ydyw yr un *hanesyddol.* Yn ol ei golygiad hi, y mae Llyfr y Dadguddiad yn hanes cysson a rheolaidd o eglwys Crist, o'r ganrif gyntaf hyd ddiwedd amser. Prif gefnogwyr y dull hwn ydynt Mede, Syr Isaac Newton, Vitringer, Bengel, Wodehouse, Faber, Elliot, Ebrard, Alford; ac i'r ysgol hon y perthyna Simon Llwyd. Barna yr ysgrifenwyr uchod fod yn dra annhebyg y buasai hanes yr eglwys ar ol cwymp paganiaeth yn yr ymherodraeth Rufeinig heb gael y lle mwyaf mewn llyfr sydd yn proffesu bod yn ddisgrifiad prophwydol o ddyfodol yr eglwys. "Y mae," ebe un awdwr, "yn annhebygol ac afresymol yn y graddau uchaf, y gallasai fod fel hyn; ac ond i ni ystyried llo mawr a phwysigrwydd y digwyddiadau yr aeth yr eglwys trwyddynt yn ystod y pymtheg canrif yma—y cyfnewidiadau rhyfedd o farn a thrugaredd

o lawenydd a thristwch, o ennillion a cholliadau, o lwyddiant ac adfeiliad—y mae yr annhebygolrwydd blaenorol yn cynnyddu i sicrwydd na adawsid y profiad maith yma o oruchwyliaethau Duw tuag at ei eglwys heb gael sylwi arno mewn llyfr o brophwydoliaeth ag y proffesir ynddo ddadguddio y pethau a fyddent hyd ddyfodiad yr Arglwydd." Dywedir mai un o'r rhai cyntaf a deimlodd rym yr ysbryriaeth uchod oedd yr abad Joachim, yr hwn a gyfansoddodd esboniad ar y llyfr yn y 12fed ganrif. Efe oedd y cyntaf i esbonio y 1,260 o ddyddiau fel yn gynnifer o flynyddau. Nid oedd gwaith Joachim yn cael ei gyfeirio yn uniongyrchol yn erbyn y pab a'r Babaeth: ond dywed Stuart fod y cweryl a fu rhwng y pab a'r urdd Franciscaidd, i ba un y perthynai Joachim, wedi bod yn achos i rai o ddysgyblion yr urdd hon i ddodi i mewn yn y llyfr ranau yn erbyn y pab. Darfu i'r Waldensiaid, a chanlynwyr Huss a Wickliffe, ddadblygu y drychfeddwl a awgrymir yn ngwaith Joachim. Gwnaethant allan fod a wnelo y Dadguddiad lawer â chyflwr y Babaeth. Er amser y Diwygiad Protestanaidd, cyfrifir mai y Babaeth ydyw "Babilon Fawr," a'r "butain," gan y rhan fwyaf o'r ysgol hon. Rhufain Babaidd yw Anghrist, a Mab y golledigaeth; felly yr oedd yn nghyfrif y Diwygwyr. Gwelent hwy, ac y mae y rhan fwyaf o'u dilynwyr hyd y dydd hwn yn adnabod yn y Babaeth holl nodau y "y dyn pechod," fel y mae yn cael ei ddisgrifio gan yr apostol Paul yn yr Ail Epistol at y Thessaloniaid. Ac y mae genym bob sicrwydd mai nid golygiadau prysur oedd y rhai hyn ganddynt, yn codi oddi ar wrthwynebiad i'r Babaeth. Araf oedd Luther yn eu derbyn; ac yr oedd Calvin yn ofalus wrth eu dysgu, i wneuthur gwahaniaeth rhwng aelodau a chyfundrefn yr Eglwys Babaidd. Dylid dyweyd fod amryw yn bresennol yn dwyn gwrthddadleuon yn erbyn y dull hanesyddol o esbonio y llyfr. Rhoddir cryn bwys ar y ffaith fod pleidwyr y dull hwn yn amrywio yn fawr oddi wrth eu gilydd; a'u bod, heb ddigon o awdurdod, yn gwneyd y 1,260 o ddyddiau yn gynnifer a hyny o flynyddoedd; a bod ceisiadau y dosbarth hwn o esbonwyr i ragfynegu digwyddiadau dyfodol wedi troi yn fethiadau. Ar yr un pryd, y mae yn ymddangos mai yr ysgol hon, er ei holl fethiadau, sydd wedi dyfod agosaf at feddwl yr Ysbryd yn y rhan bwysig yma o'r gwirionedd dwyfol; ac oddi ar gredu felly, yr ydym yn y nodiadau yn glynu yn agosach wrth yr ysgol hanesyddol, er y ceir awgrymiadau gwerthfawr gan bob un o'r lleill.

LLYFR Y DADGUDDIAD.

PENNOD I.

Ioan yn ysgrifenu ei Ddadguddiad at saith eglwys Asia, y rhai a arwyddoceir wrth y saith ganwyllbren aur. 7 Dyfodiad Crist; 14 a'i allu gogoneddus, a'i arddeerchawgrwydd ef.

B. A. 96.

DADGUDDIAD[a] Iesu Grist, [b]yr hwn a roddes Duw iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder; [c]a chan ddanfon trwy ei angel, efe a'i hysbysodd i'w wasanaethwr Ioan:

[a] Dan. 2. 28, 29.
[b] Ioan 3. 32.
[c] Dan. 8. 16; 9. 21—23.

2 Yr hwn [d]a dystiolaethodd air Duw, a thystiolaeth Iesu Grist, [e]a'r holl bethau a welodd.

[d] Dad 6. 9; 12. 17.
[e] Ioan 3. 11.

3 [f]Dedwydd *yw* yr hwn sydd yn darllen, a'r rhai sydd yn gwrando geiriau y brophwydoliaeth hon, ac yn cadw y pethau sydd yn ysgrifenedig ynddi: canys *y mae* yr amser yn agos.

[f] Dad. 22. 7.

4 IOAN [g]at y saith eglwys sydd yn Asia: Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd, oddi wrth

[g] Dad.2 1,8.

Pennod I.

1—3. Teitl, ffynonell, cynnwys, ac amcan y llyfr.

1. *Dadguddiad Iesu Grist*:—wedi ei roddi gan Iesu Grist. Er fod y llyfr i raddau helaeth yn ddadguddiad am dano, etto dyma y drychfeddwl yma—ei fod yn ddadguddiad oddi wrtho. Efe, nid Ioan, yr ysgrifenydd, yw awdwr y Dadguddiad. Dysgasai Crist lawer o bethau cyn ei ymadawiad o'r byd; ond y pethau hyny yr oedd yn anamserol eu mynegu y pryd hwnw a ddadguddir ganddo yn y llyfr hwn. Cymmharer ei eiriau yn *Ioan* xv. 15, â xvi. 13. Llyfrau ei ymddangosiad cyntaf ydyw yr Efengylau a'r Actau; llyfr ei ail ymddangosiad ydyw y Dadguddiad. *Yr hwn a roddes Duw iddo ef.*—Yn ol y drefn ddirgelaidd o weithredu rhwng y Personau Dwyfol, y mae y Tad yn dadguddio ei hun a'i ewyllys yn a thrwy y Mab: *Mat.* xi. 25, 27; *Marc* xiii. 32; *Ioan* vii. 16; xiv. 10; xvii. 7, 8. Nid yn unig yr oedd y dyn Crist Iesu yn nyddiau ei gnawd, ond y mae hefyd yn awr yn ei ogoniant, yn derbyn gan y Tad y dadguddiad hwnw y mae yn ei weini trwy ei Ysbryd. *I'w wasanaethwyr.*—Nid yn unig i ddangos i Ioan trwy weledigaethau, ond trwy y gweledigaethau hyny i'w holl saint. Sylwa Bengel hefyd ar y rhan yma o'r adnod: "Y mae y ferf 'dangos' yn digwydd etto yn *pen.* xxii. 6. Ac fel hyn y mae gwahanol ranau y llyfr yn dwyn perthynas â'u gilydd. Y mae cyfansoddiad y llyfr drwyddo yn amlygu celfyddwaith dwyfol. A'i hynodrwydd mewn rhan ydyw, ei fod yn cynnwys, mewn crynodeb perffaith, nifer mawr o bethau dyfodol, ac yn y nifer yma bethau yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth eu gilydd; pethau ar fin cymmeryd lle, pethau pell, a phethau yn digwydd rhyngddynt; rhai yn fawrion, a rhai yn fychain; rhai yn arswydus, a rhai yn ddyddanus; digwyddiadau yn cael eu hail adrodd o brophwydoliaethau cynt, a phrophwydoliaethau newyddion, rhai yn feithion, ereill yn fyrion; ac oll yn cael eu cydwau â'u gilydd, rhai mewn gwrthwynebiad, ac ereill mewn cydgordiad â'u gilydd, yn cynnwys ac yn dwyn allan y naill y llall; yn meddu cyfeiriad at eu gilydd o yspeidiau byrion neu feithion; ar amserau yn diflanu megys o'n golwg, ac yna yn ddisymmwth ac annisgwyliadwy, ac etto yn amserol, yn ail ymddangos ger ein bron: a phan y mae y berthynas agos yma rhwng holl ranau amrywiol y llyfr, y mae yn ammhossibl rhoddi at neu dynu oddi wrth ei gynnwysiad, heb anafu yr ystyr, a chyd-berthynas y rhanau â'u gilydd." *Ar fyrder.*—Pa fodd, gan ein bod yn gweled fod y llyfr yn cynnwys darluniad o'r eglwys hyd ail ddyfodiad Crist? Attebiad Hengstenberg ydyw, "Fod ei gynnwysiad i gael dechreu ei gyflawni heb oediad." Gwrthddadleuir i hyn fod y geiriau yn rhoddi ar ddeall fod holl gynnwysiad y llyfr i gael ei ddwyn i ben ar fyrder. Yr attebiad mwyaf unol âg iaith prophwydoliaeth ydyw, fod "ar fyrder" i'w ddeall oddi ar safle llywodraethwr mawr holl ddigwyddiadau amser, gyda'r hwn y mae mil o flynyddoedd fel un dydd, ac un dydd megys mil o flynyddoedd. Ceir allwedd i'r adnod hon yn *Luc* xviii. 7, 8: dywedir yma, "er ei fod yn hir oedi drostynt," etto "y dial efe hwynt ar frys," neu "ar fyrder." O un cyfeiriad ymddengys fel yn oedi, ac yn hir oedi; tra o gyfeiriad arall y mae yn gwneuthur y gwaith ar fyrder. *Efe.*—Iesu Grist. *Trwy ei angel.*—Yr un ag a gyfarfyddwn yn *pen.* xvii. 1, 7, 15; xix. 9; xxi. 9; xxii. 1, 6. Ond y mae yn hynod nad yw yr angel hwn yn ymddangos fel cyfranydd y gweledigaethau hyd *pen.* xvii.—*Alford.*

2. Yn lle *a'r holl bethau a welodd*, darllener "yr holl bethau," &c. Ymddengys y cyfeirir at Cymraeg fel yn chwanegu yr hyn a welodd Ioan at air Duw, &c.; ond y meddwl yw, yr holl bethau a welodd o air Duw a thystiolaeth Iesu Grist. Y mae cyfeithiad newydd Alford fel hyn:—"Who testified the word of God, and the testimony of Jesus Christ, as much as he saw." Y mae y cyfeiriad yn unig at gynnwys y llyfr hwn, ac nid, fel y golyga Ebrard, at ei Efengyl.

yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r
[b] Dad. 3. 1; 4. 5. hwn sydd ar ddyfod; ac [b] oddi wrth y saith Ysbryd sydd ger bron ei orsedd-faingc ef;

[1] Dad. 3. 14. 5 Ac oddi wrth Iesu Grist, [1] *yr hwn yw* y Tyst ffyddlawn, y Cyntaf-anedig o'r meirw, a Thywysog brenhinoedd y ddaear. Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun,

6 Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef; iddo ef *y byddo* y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

7 Wele, y mae efe yn dyfod gyda'r cymmylau; a phob llygad a'i gwel ef, ïe, y rhai a'i gwanasant ef: a holl lwythau y ddaear a alarant o'i blegid ef. Felly, Amen.

4.—III. 22.—ARWEINIAD I'R BROPHWYDOLIAETH.

4. *Ioan at y saith eglwys.*—Yr un ffurf o anerchiad ag a arferir yn llythyrau yr apostol Paul. Nid yw Ioan yn cyffhau am ei apostoliaeth. Yn lle bod hyny yn ddadl yn erbyn y golygiad cyffredin, mai yr apostol Ioan oedd awdwr y llyfr, nid yw absennoldeb ei deitl swyddol ond dangosiad nad oedd angen iddo ei ddefnyddio wrth anerch eglwysi Asia. *Asia* yma, fel bob amser yn y Testament Newydd, a ddynoda *proconsular Asia;* sef, y dalaeth a lywodraethid gan y trafnoddwr Rhufeinaidd, yn cymmeryd i mewn wledydd Phrygia, Mysia, Caria, a Lydia—y deyrnas a roddod Attalus III. i fyny i Rufain. *Gras..a thangnefedd.*—Yr un cyfarchiad apostolaidd ag a arfera Paul: *Rhuf.* i. 7; 1 *Cor.* i. 3. Chwanega Paul "trugaredd" yn ei epistolau bugeiliol. *Oddi wrth yr hwn sydd.*—Ymadroddion alleiriol o'r enw dwyfol Iehofah, yn dwyn cyffelybrwydd i, ac yn meddu cyfeiriad at, yr enw wrth ba un y dadguddiodd Duw ei hun i Moses:—"Ydwyf yr hwn ydwyf;" o ba un y rhydd Targum Ierusalem alleiriad cyffelyb i eiddo yr adnod hon—"Yr hwn oedd, y sydd, ac sydd i ddyfod:" felly hefyd Targum Jonathan ar *Deut.* xxxii. 39. Barna rhai, ond fe allai heb ddigon o reswm, fod yma gyfeiriad at y Drindod:—yr hwn sydd, y Tad; a fu, neu oedd, y Mab; a'r hwn sydd ar ddyfod, yr Ysbryd Glân. *Y saith Ysbryd.*—Cyflawnder, perffeithrwydd, a chyffredinolrwydd gweithrediadau Ysbryd Duw; fel y mae y saith eglwys yn dynodi yr holl eglwys gyffredinol. "Y mae yr Iuddewon, oddi ar *Esa.* ii. 2, yn llefaru llawer am saith ysbryd y Messiah."—*Lightfoot.*

5. *Y Tyst ffyddlawn.*—Gwel *Ioan* xviii. 37. Perthyna y teitl i holl genhadaeth Iesu Grist, ac nid yn unig i'r rhan o'i dystiolaeth a gynnwysir yn y llyfr hwn. "Efe oedd y Tyst ffyddlawn, am ei fod wedi hysbysu yn gyflawn i'w ddysgyblion yr holl bethau a glywsai gan y Tad. Hefyd, am ei fod wedi dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd, ac heb dderbyn wyneb neb. Hefyd, am iddo gadarnhau trwy wyrthiau wirionedd yr hyn a ddysgai mewn geiriau. Hefyd, am na ddarfu iddo wadu tystiolaeth ei Dad am dano hyd yn oed yn ei farwolaeth. Ac yn olaf, am y bydd iddo roddi tystiolaeth gywir am weithredoedd y rhai da a'r rhai drwg yn nydd y farn."—*Richard St. Victor.* *Y Cyntaf-anedig o'r meirw.*—Gwel *Col.* i. 18. Cyfododd Lazarus i farw drachefn: cyfododd Crist nid i farw mwy, ond i fyw byth. Nid bywhâd ar gorph marw oedd ei adgyfodiad ef: yr oedd yn annhraethol fwy—yr oedd yn ddyrchafiad arno i ystâd annhraethol uwch na'r un yr oedd ynddi cyn ei farwolaeth. *A Thywysog, &c.*—Ei swydd frenhinol, yr hon a gyrhaeddodd trwy farw. Ffurfir y teitl o *Salm* lxxxix. 27; gwel hefyd *Esa.* lv. 4. "Y mae yr hyn a ddaliai y temtiwr o flaen yr Iesu, ar yr ammod iddo ei addoli ef, yn awr wedi ei gyrhaeddyd ganddo yn ffordd ei ddarostyngiad hyd angeu. Trwy angeu y bu iddo ennill goruchafiaeth ar y byd."—*De Wette.* Yn awr, wedi aros uwch ben ei deitlau yn goruchel, ac edrych drwy y teitlau hyn ar ei ogoniant, y mae calon Ioan yn gwresogi ynddo nes y tora allan mewn mawl i'n Iachawdwr—"Iddo ef." *A'n carodd ni.*—Yn ol Alford, "sydd yn ein caru." Dengys ei gariad fel yn bresennol trwy yr oesoedd: *Ioan* xiii. 1. *A'n golchodd.*—Y mae rhai o'r llawysgrifau hynaf yn darllen, "a'n rhyddhaodd." Nid oes ond un lythyren o wahaniaeth rhwng y ddau air yn y Groeg. O blaid y darlleniad cyffredin dygir yn mlaen yr ystyriaeth fod yr offeiriaid, cyn ymwisgo yn eu gwisgoedd sanctaidd, yn myned dan olchiadau manwl; ac felly yma, y mae y rhai sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid i Dduw, yn gyntaf yn cael eu golchi oddi wrth fudreddi eu pechodau.

6. *Yn frenhinoedd.*—Yn hytrach "yn deyrnas." *Offeiriaid.*—Gwel *Exod.* xix. 6; 1 *Pedr* ii. 9. *I Dduw:*—fel yn perthyn i. Y Tad yw nôd eithaf y cyfeiriad, yn gymmaint ag mai ei ewyllys ef yw y ffynnonell, a'i ogoniant ef y canlyniad o'r hyn oll a ddygir oddi amgylch trwy waith cyfryngol y Mab.—*Alford.*

7. *Gyda'r cymmylau.*—Cymmylau y nef; gwel *Dan.* vii. 13; *Marc.* xiv. 62. Megys y derbyniwyd ef o'r golwg gan gwmmwl ar ei esgyniad, felly y daw yn nydd y farn i olwg y byd gyda chymmylau. Cyfettyb dull ei ail ddyfodiad i ddull ei esgyniad. Y mae "cymmylau" yn arwyddlun o fawrhydi, ac hefyd o ddigofaint at bechaduriaid: *Salm* xcvii. 2; *Esa.* xix. 1; *Neh.* i. 3. *Pob llygad.*—Yr hyn sydd yn arwyddo mai am ei ddyfodiad personol a gweledig y lleferir. *Ië.*—Nid yn chwanegu at, ond yn dynodi dosbarth neilldiol o blith pawb a'i gwelant; gwelir ef gan y rhai a'i gwanasant ef. Gwnaeth y digwyddiad hwn (*Ioan* xix. 36) argraph ddwys ar y pryd ar feddwl Ioan. Barna Alford na ddylid estyn meddwl yr ymadrodd hwn at holl gaseion Crist, gan eu bod hwy yn cael eu cymmeryd i mewn mewn ymadroddion ereill yn yr adnod: ond y golygir ei lofruddion, yn Iuddewon a Rhufeiniaid. *A alarant.*—Bydd eu galar yn cael ei gyfeirio ato ef fel ei wrthddrych, mewn ofn am danynt eu hunain gyda golwg ar ganlyniadau ei ddyfodiad. Y mae cyfeiriad yn y brophwydoliaeth at *Mat.* xxiv. 30; a'i hystyr yw, y bydd pawb, hyd yn oed y sancteiddiaf o ddynion, yn galaru ar agoshad gweledig y dydd hwnw.—*Alford.* Mae Bengel yn sylwi y bydd y pryd hwnw ddau achos o alar; dychryn gelyniaethol, a dychryn edifeiriol. O'r cyntaf y cyfranoga y byd diofal a diedifeiriol; a theimlir yr olaf hyd yn oed gan yr eglwys lawen a gorfoleddus. Llawenydd mewn dychryn, mewn modd arbenig, fydd llawenydd y

[k] Esa. 41. 4; 43. 10; 44. 6; 48. 12. [l] Adn. 4; Dad. 4. 8; 11. 17; 6. 5.

8 Mi yw [k] Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd, [l]yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Hollalluog.

9 Myfi Ioan, yr hwn *wyf* hefyd

saint yn nydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd. *Felly, Amen.*—Neu, 'Ië, Amen.' Sêl Duw ar ei air, yn debyg i "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," gan y prophwydi. Y mae y rhybudd o nesâd Duw i farn yn dechreu gyda "Wele," i alw sylw ato fel amgylchiad o annhraethol bwys; ac yn diweddu gydag "Ie, Amen," i gadarnhau ei wirionedd. Dywed rhai esbonwyr fod y gair gwreiddiol am "Ië," yn dynodi anghyfnewidioldeb yr hyn y lleferir am dano; ac "Amen," yn sicrhau nad all un rhwystr godi i luddias ei ddyfod i ben.

8. Geiriau wedi eu llefaru gan y Tad. Mewn manau ereill, y mae Crist yn llefaru pethau cyffelyb am dano ei hun, yr hyn a brawf ei fod o'r un natur a'r Tad. Y mae y teitlau hyn yn arwyddo perffeithrwydd. *Alpha ac Omega* ydyw y llythyrenau cyntaf ac olaf o wyddor yr iaith Roeg. Cynnwysa Duw y dechreu a'r diwedd, a'r cwbl sydd yn dyfod rhwng y dechreu a'r diwedd. Crybwylla Schottgen fod esamplau cyffelyb i hon yn Hebraeg, "O Aleph hyd Tau" a arwydda yn llwyr; yr oedd *A—th* yn enw ar ogoniant Duw, am ei fod yn cynnwys yr holl lythyrenau. Yr hyn a awgrymir trwy ddefnyddiad yr enw yma ydyw fod Duw yn cwblhau y gwaith a ddechreuodd.

9. *Myfi Ioan.*—Cyffelyb i "Myfi Daniel" (*Dan.* vii. 28; ix. 2; x. 2), yn arddull brophwydol yr Hen Destament. *Eich brawd.*—Ni feddylia neb diragfarn fod defnyddiad y gair mewn cyssylltiad âg ef ei hun yn ffurfio dadl yn erbyn cyfrif awduriaeth y Dadguddiad i'r apostol. Nid yw yn dwyn ei enw i'r golwg o gwbl yn ei Efengyl; gan iddo wneyd hyn yma, naturiol yw meddwl y gwnaethai hyny yn y dull mwyaf anymhongar a gostyngedig. *Mewn cystudd.*—Mae "cystudd," yr un fath a'r ddau air dilynol, yn perthyn i Iesu Grist. Dylid darllen "A'ch cydymaith yn nghystudd, a theyrnas, ac amynedd Iesu Grist." Y mae cyssylltiad hanfodol rhwng y tri a'u gilydd. Trwy orthrymderau (cystudd) y mae yn rhaid i ni fyned i mewn i deyrnas Dduw: felly yr aeth y Brenin i'w deyrnas, ac nid gweddus i'w ddeiliaid gael cyfranogi o'i ogoniant ar hyd llwybr gwahanol. Yr oedd Ioan yn y cystudd, ac yn y deyrnas; etto nid oedd y deyrnas wedi dyfod i'w nerth, ac felly yr oedd yn angenrheidiol chwanegu "amynedd"—parhâd amyneddus hyd y diwedd. "Y mae Ioan yn nodi tair rhan o'r etifeddiaeth, o ba rai yr oedd efe yn gyfranog. Ond nis gellir meddiannu y ganol o'r tair—y deyrnas—oddi eithr yn y profiad o gystudd ar y naill law, a chyda'r amddiffyniad o amynedd ar y llaw arall." "Y mae i 'ymaros gobaith' gyflawnder o faeth yn Llyfr y Dadguddiad. Y mae trefn cyfiead y geiriau yn deilwng o sylw—cystudd, a theyrnas, ac amynedd; ynghyd â'r cyntaf a'r olaf, rhoddir yr ail hefyd."—*Bengel. Patmos.*—Un o'r amryw ynysoedd sydd yn y Môr Ægeaidd, a elwid gynt y Sporades. Y mae ei chylchfesur ynghylch 30 milldir. Nid oes mwy na chrybwylliad am ei henw gan yr hen ddaearyddwyr, Pliny a Strabo. Gelwir hi yn awr Patmo: ei henw yn y canoloesoedd oedd Palmosa. Mae yr ynys yn cael ei rhanu i ddwy ran—braidd yn

[m] Rhuf. 8. 25; Heb. 10. 36; Iago 5. 7, 8. [n] Dad. 12. 11, 17; 19. 10. [o] Mat. 22. 43; Act. 10. 10.

eich brawd, a'ch cydymaith mewn [m] cystudd, ac yn [m] nheyrnas ac amynedd Iesu Grist, oeddwn yn yr ynys [n] a elwir Patmos, [n] am air Duw, ac am dystiolaeth Iesu Grist.

10 Yr oeddwn [o] i yn yr ysbryd

gyfartal, gogleddol a deheuol—gan wddf cul o dir. Ar fryn yn y rhan ddeheuol y saif y fynachlog sydd yn dwyn enw "Ioan y Difeinydd." Hanner y ffordd at y fynachlog o waelod y bryn y mae ogof, yn yr hon, ebe y traddodiad, y derbyniodd Ioan y gweledigaethau, a'r hon a elwir "Ogof y Dadguddiad." Golwg bruddaidd a noethlwm sydd ar yr ynys. Yr arfer yn yr oesoedd hyny oedd anfon alltudion i'r ynysoedd mwyaf creiglyd ac anghyfannedd. O fewn yr ynys fechan, dlodaidd, anhyfryd hon y caethiwid yr apostol; ond, fel y sylwa un, yr oedd yn weddus, pan warafunid iddo i fyned tu hwnt i derfynau neillduol o'r ddaear, iddo gael caniatâd i dreiddio i mewn i ddirgeledigaethau y nef. *Am air Duw.*—Nid myned i Patmos o'i ddewisiad a wnaeth; ond cael ei alltudio yno. Y mae y gair gwreiddiol a gyfieithir yma "am" wedi achosi dyryswch i rai esbonwyr. Dealla rhai ef yn yr ystyr o 'er mwyn;' sef, er mwyn derbyn y dadguddiadau: ond y farn gyffredin yw yr un a drosglwyddir gan y cyfieithiad Cymraeg i feddwl pob darllenydd; sef, ei fod yno fel un yn dioddef o herwydd gair neu efengyl Duw. Fel hyn y deallid yr adnod gan rai oedd yn byw yn agos mewn cymharlaieth i'r amser hwn. Dywed Origen "Efe a gondemniodd Ioan am Air Duw i ynys Patmos." Mewn amser o erlidigaeth y cafwyd Llyfr y Dadguddiad, ac y mae Bengel yn sylwi mai gan yr eglwys mewn cystudd y mae y llyfr hwn yn cael ei werthfawrogi fwyaf—fod yr eglwys yn Asia ar yr amser llwyddiannus dan Cystenyn yn ei werthfawrogi yn llai, ond fod eglwys Affrica, yr hon oedd yn wastad yn druan helbulus gan dymmhestl, yn gwneyd yn fawr o hono.

10. *Yr oeddwn i yn yr ysbryd:*—neu, daethum. Arwydda "yn yr ysbryd" sefyllfa gyffelyb i'r hon yr oedd Pedr yndd pan dderbyniodd y weledigaeth, yn flaenorol i'w waith yn pregethu i'r Cenhedloedd: *Act.* x. 10. Math o lewyg ysbrydol yn ddiau a feddylir, yn yr hon yr oedd yr apostol yn addas i dderbyn y gweledigaethau canlynol. Dattodid ef oddiwrth y byd oddi allan, a dygid ef i gymmundeb agos â'r ysbrydol. Yr un peth a olygir yma ag yn *pen.* iv. 2, ac y mae yr ystyr yno yn ddigon amlwg. *Ar ddydd yr Arglwydd.*—"Yr Arglwydd" yw Iesu Grist, a'r "dydd" yw y dydd cyntaf o'r wythnos, yr hwn a gedwid gan y Cristionogion apostolaidd yn ŵyl goffadwriaeth ol am adgyfodiad eu Harglwydd. Dyma y waith gyntaf y defnyddir y gair hwn am y dydd. Fod y dydd cyntaf o'r wythnos wedi cael ei neilldua i addoliad Cristionogol cyn hyn a welir yn y manau canlynol:—*Act.* xx. 7; 1 *Cor.* xvi. 2; *Ioan* xx. 19—26. Mae yr enw yn cyfatteb i enw arall, sydd yr un mor briodol—bwdd yr Arglwydd. Cyfeiria amryw o'r tadau at y dydd cyntaf o'r wythnos fel dydd yr Arglwydd. Y mae y geiriau canlynol o eiddo Justin Martyr yn werth eu dyfynu:—"Ar ddydd Sul yr ydym oll yn cadw ein cyfarfodydd; o blegid y dydd cyntaf yw yr un y darfu i Dduw arno symmud ymaith y tywyllwch a'r tryblith, creu y byd, ac y darfu hefyd i Iesu Grist ein Gwaredwr adgyfodi o'r bedd. Ar y diwrnod cyn dydd Sadwrn y croeshoeliasant ef, ac ar y

ar ddydd yr Arglwydd; ac a
[p] Dad. 10. 3 —8. glywais o'r tu ol i mi lef fawr [p] fel *llais* udgorn,

11 Yn dywedyd, Mi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf: a'r hyn yr wyt yn ei weled, ys-
[q] Dad. 2. 1; 8, 12, 18; 3. 1, 7, 14. [r] Act. 18. 19; 21. 24; 1Cor. 15. 32; 16. 18. [s] Col. 4. 15, 16. grifena mewn llyfr, a danfon [q] i'r saith eglwys y rhai sydd yn Asia; i [r] Ephesus, ac i Smyrna, ac i Pergamus, ac i Thyatira, ac i Sardis, a Philadelphia, a [s] Laodicea.

12 Ac mi a droais i weled y llef

a lefarai wrthyf. Ac wedi i mi droi, mi a welais saith ganwyllbren aur;

13 Ac yn nghanol y saith ganwyllbren, *un* [t] tebyg i Fab y dyn, wedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu yn nghylch ei fronau â gwregys aur.
[t] Ezec. 1. 26; Dan. 7. 13

14 Ei ben ef a'i wallt *oedd* wynion fel gwlân, cyn wyned a'r eira; a'i lygaid fel fflam dân;

15 A'i draed yn debyg i bres

dydd ar ol y Sadwrn, sef dydd Sul, yr ymddangosodd efe i'w ddysgyblion ac y dysgodd y pethau hyn." At "ddydd yr Arglwydd" hefyd y cyfeiria Pliny yn un o'i lythyrau, pan ddywed fod "y Cristionogion ar ddydd nodedig yn ymgyfarfod cyn toriad y wawr i ganu emyn i Grist fel Duw." Ysgrifenodd Melito, esgob Sardis, lyfr "ar ddydd yr Arglwydd." Nid ydyw y golygiad mai dydd ail ddydd Crist a feddylir yn cael ei gefnogi ond gan ychydig, ac ni chyfrifir eu rhesymau o fawr o werth. Y mae yn deilwng o sylw nad yw y Groeg am "ddydd yr Arglwydd," yn 2 *Pedr* iii. 10, yr un ag ydyw yma. *Lef fawr fel llais udgorn.*—Yn galw sylw difrifol: gwel *Esa.* xxx. 22. Yr udgorn oedd yn cyhoeddi y gŵyliau yn Israel: *Num.* x. 10; *Joel* ii. 15. Yr oedd hefyd yn arwyddo dynesiad Duw: *Exod.* xix. 19; *Mat.* xxiv. 31. Yr oedd gan yr "udgorn" wasanaeth yn rhoddiad y gyfraith ar Sinai, ac udgenir ef etto i alw dynolryw ynghyd i farn: "Efe a ddenfyn ei angylion â mawr sain udgorn." Yr oedd y sain yma yn uchel a chlir, fel sain udgorn.

11. *I'r saith eglwys.*—Yr oedd eglwysi ereill yn Asia (megys Meletus, Magnesia, Tralles, &c.), heb law y saith a nodir yma. Nodir saith, ar gyfrif arwyddocâd cyfriniol y rhif saith, yn gosod allan berffeithrwydd a chyffredinolrwydd. Golygir y saith hyn fel yn cynnrychioli yr eglwys gyffredinol, ac yn cymmeryd i fewn rhyngddynt ei holl nodweddion, da a drwg, yn mhob gwlad, ac yn mhob oes. Yn eglwys Smyrna, ni a welwn yr eglwys dan erlidigaeth:—yn Sardis, eglwys ffurfiol, yn meddu enw o fod yn fyw, ac etto yn farw:—yn Laodicea, eglwys uchel-dybus; yn fawr yn ei golwg ei hun, yn tybied ei bod yn oludog, er hyny yn dlawd:—yn Philadelphia, eglwys heb ond ychydig nerth, etto yn ffyddlawn a defnyddiol:—yn Ephesus, eglwys eiddigeddus dros burdeb, etto wedi ymadael â'i chariad cyntaf:—ac yn Thyatira, eglwys gyfoethog mewn cariad, gweithredoedd, a ffydd, ac etto yn goddef y gau-brophwydes i lithio llaweroedd. Yn ol disgrifiad arall, edrychir ar Ephesus mewn ymrysonfa â rhyddid gau:—Pergamus mewn sefyllfa gyffelyb: Philadelphia mewn ymrysonfa â'r synagog Iuddewig—ysbryd caethiwus y ddeddf: Sardis a Laodicea mewn esmwythyd—eu hymadferth heb ei alw allan gan un gwrthwynebiad, yr hyn oedd yn anfantais o'r mwyaf iddynt. O gyfeiriad arall, gellir rhanu yr eglwysi yn dri dosbarth—un dosbarth yn bur a difrycheulyd, wrth fodd y Pen Mawr: un yn gymmysglyd—yn feddiannol ar rinweddau lawer, etto yn cael ei hanurddo gan rai brychau: ac un wedi myned i'r ystâd bellaf o ddirywiad, ac ar fin cael ei diarddelwi gan ei Phen a'i Pherchen. Ceir golwg fanylach ar agwedd ysbrydol pob un yn mlaen.

12. *Saith ganwyllbren aur.*—Yn *Exod.* xxv. 31, 32, a'r un modd yn *Zech.* iv. 2, 11, y mae y saith ganwyllbren yn un darn, ac felly yn dynodi undod yr Eglwys Iuddewig: yma, mae y saith ar wahân, yn dangos nad yw yr eglwys mwyach yn cael ei chyfyngu i un lle, nac yn rhwym o ddilyn yr un defodau allanol unffurf. "Y mae gan bob eglwys leol ei chanwyllbren—i'w chadw neu i gael ei symmud o'i lle, yn ol ei gweithredoedd." —*Alford.* Etto, er fel hyn, ar wahân, y maent mewn undeb â'u gilydd, trwy breswyliad Mab Duw yn eu canol. Gwelir yma beth yw gwaith yr eglwys—dal goleuni yr Arglwydd i'r byd. Eiddo yr Arglwydd yw y goleuni a ddelir gan y ganwyllbren; ganddo ef y mae yn ei dderbyn: *Salm* cxix. 105, ac *Eph.* v. 8, 14. "Yr oedd y ganwyllbren yn sefyll yn y lle sanctaidd; yr hwn oedd yn gysgod o'r eglwys ar y ddaear, fel yr oedd y sancteiddiolaf yn gysgod o'r eglwys yn y nef. Derbyniai y lle sanctaidd ei oleuni yn unig oddi wrth y ganwyllbren, gan fod goleuni y dydd yn cael ei gau allan o hono. Yr un modd yr Arglwydd Dduw ydyw unig oleuni yr eglwys; goleuni gras, nid goleuni natur, ydyw ei hunig oleuni hi. Dynoda 'aur' ddrudfawredd a chysegredigaeth."—*Trench.*

13. *Yn nghanol:*—yn arwyddo presennoldeb a gweithgarwch gwastadol yr Arglwydd Iesu yn ei eglwys. Y mae *gwisg laes* yn arwyddlun o dras neu swydd urddasol; *Marc* xii. 38. Gwel *Dan.* x. 5. Yr oedd y wisg a'r gwregys yn arwyddlun o'r offeiriadaeth: *Exod.* xxviii. 2, 4, 31. Dywed Bengel fod yma gyfeiriad, yn llaesder y wisg a phethau ereill, at wisgoedd Aaron. Y mae y ffaith ei fod yn ymddangos yn nghanol y saith ganwyllbren, ac felly mewn teml, yn dangos mai fel offeiriad, neu frenin offeiriadol, y mae yn cael ei wisgo. Dangosir, yn *pen.* xv. 6, fod yr angylion yn gwisgo yn debyg i'w Harglwydd. *Yn nghylch ei fronau:*—yn arwyddo urddas a thawelwch. "Yn nghylch ei fronau," ebe Josephus, "yr ymwregysai yr archoffeiriad." Y mae "gwregysu y lwynau" yn arwyddo gweithgarwch dibaid. Er mai bywyd o waith yw bywyd Crist yn y nef, etto tawelwch a gogoniant y bywyd hwnw a ddangosir yn yr arwyddlun yma. Yr oedd llafur yn perthyn i'w waith ar y ddaear: yn y nef, y mae ei weithgarwch dibaid ar ran ei eglwys yn unol â thawelwch urddasol—tawelwch fel yr eiddo y Duwdod.

14. *Ei ben.*—Ei dalcen. *Fel gwlân, cyn wyned a'r eira:*—yn dynodi purdeb a gogoniant. *Fel fflam dân.*—Treiddgarwch y meddwl dwyfol, yn gweled i ddyfnderoedd pob dirgelwch.—*Vitringa.* Arwydda hefyd, fe allai, ymadferth diflino, yn gystal a llidiogrwydd tuag at bob drwg.

15. *I bres coeth.*—Y mae y gair gwreiddiol yn cael ei ffurfio o ddau air, sef "pres," a "thus."

coeth, megys yn llosgi mewn ffwrn; a'i lais fel sŵn llawer o ddyfroedd.

[x] Iob 38. 7; Dan. 8. 10; 12. 3. [y] Esa. 11. 4; 49. 2; Eph. 6. 17. [z] Esa. 24. 23; 60. 19, 20; Mal. 4. 2; Act. 26. 13. [a] Ezec. 1. 28; Dan. 8. 18; 10. 8, 9, 17—19; Hab. 3. 16.

16 [u] Ac *yr oedd* ganddo yn ei law ddehau saith seren: [x] ac o'i enau yr oedd cleddyf llym dauniog yn dyfod allan: [y] a'i wynebpryd fel yr haul yn dysgleirio yn ei nerth.

17 A phan welais ef, [z] mi a syrthiais wrth ei draed ef fel marw. Ac efe a osododd ei law ddehau arnaf fi, gan ddywedyd

[b] Rhuf. 14. 8, 9; 2 Cor. 5. 14, 15. [c] Heb. 7. 16, 25. [d] Salm 68. 20; Esa. 22. 22; Mat 16. 19. [e] Adn. 2, 3. [f] Dad. 4. 22.

wrthyf, Nac ofna; [a] myfi yw y cyntaf a'r diweddaf;

[a] Adn. 8.

18 *A*'r hwn *wyf* fyw, ac a [b] fûm farw; [c] ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen; ac y mae genyf [d] agoriadau uffern a marwolaeth.

19 Ysgrifena y pethau a welaist, [e] a'r pethau sydd, [f] a'r pethau a fydd ar ol hyn,

20 Dirgelwch y saith seren a welaist yn fy llaw ddehau, a'r saith ganwyllbren aur. Y saith

---

Dywed Alford fod y gair wedi dyrysu esbonwyr hyd yn hyn. Etto bernir fod y cyfieithiad Cymraeg yn cyfleu drychfeddwl agos iawn i'r gwreiddiol; yr hyn a ymddengys wrth ei gymmharu âg *Ezec.* i. 7, a *Dan.* x. 6.

16. *Yn ei law ddehau saith seren.*—Daliai hwynt â'i "law ddehau" fel garlant, neu dalaith frenhinol,' fel eu meddiannydd a'u cynnalydd. *Cleddyf llym dau-finiog yn dyfod allan* —Gwel *Esa.* xi. 4; xlix. 2. Ei air a olygir (2 *Thes.* ii. 8). Cymmharer *Heb.* iv. 12, âg *Eph.* vi. 17. Golygir ei effeithiolrwydd yn yr eglwys: mewn manau ereill, y mae y drychfeddwl o allu barnol a dinystriol y gair yn fwy arbenig. Dichon fod yr ansoddair "dau-finiog" yn cyfeirio at nerth dyblyg y gair mewn bywhau a lladd; neu yn golygu y graddau uchaf o effeithiolrwydd. Y mae y gair gwreiddiol am "gleddyf" (*romphaia*), yn dynodi cleddyf mawr a thrwm.

17. Effaith yr ymddangosiad dwyfol—fel yn *Exod.* iii. 6; xxxiii. 18, 20; *Barn.* xiii. 20, 22; *Iob* xlii. 5, 6; *Esa.* vi. 5, a *Dan.* viii. 17. *Y cyntaf a'r diweddaf.*—Yr un ystyr ag yn *adn.* 11. Yr un drychfeddwl ag yn yr ymadrodd, "Duw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb." "Y cyntaf trwy greadigaeth, y diweddaf trwy wneuthur barn: y cyntaf, am nad oedd Duw o'm blaen; y diweddaf, am na bydd Duw ar ŷ ol: y cyntaf, am mai oddi wrthyf fi y mae pob peth; y diweddaf, am mai ataf fi y dychwel pob peth."—*Richard St. Victor.* Rhagfarn Socinaidd yn unig a all esbonio yr ymadrodd mawreddog yma fel yn gyfystyr â "yr uchaf mewn urddas, a'r iselaf mewn darostyngiad."

18. *A'r hwn wyf fyw.*—Dichon fod y cyfieithiad Saesneg yn well—*the living one.* Y mae yn gyfystyr â "y tragwyddol." *Byw ydwyf:*—nid yn unig yn meddu bywyd anfarwol ei hun, ond yn ffynnonell y cyffelyb fywyd i ereill. "Iddo ef y perthyn hanfodiad hollol (*absolute*), mewn cyferbyniad i hanfodiad cymmhariaethol creadur. Gall ereill gyfranogi o anfarwoldeb, ond y mae anfarweldeb ganddo ef (1 *Tim.* vi. 16); gan ei fod o ran hanfod, nid o herwydd cyfranogiad, yn anfarwol."—*Theodoret. Agoriadau uffern a marwolaeth.* — Agoriadau ydynt arwyddlun o awdurdod: *pen.* iii. 7, a *Deut.* xxxii. 39. Dywed Targum Jonathan ar *Deut.* xxviii. 12; "Y mae pedwar agoriad yn llaw yr Arglwydd; agoriad bywyd, y beddau, ymborth, a'r gwlaw."—*Alford.* Wrth "uffern" y meddylir *Hades,* neu *Sheol* yr Hebreaid—y sefyllfa ddirgel anweledig. Nid yw y gair byth yn golygu carchar y damnedigion, neu Gehenna. "Gallaf ryddhau y sawl a fynaf o fyd anweledig yr ysbrydion, ac oddi wrth farwolaeth." Rhoddir "marwolaeth" gan rai llawysgrifau o flaen *Hades,* ac y mae y cyflëad yn unol â threfn, o blegid marwolaeth sydd yn poblogi *Hades.* Yn *Salm* ix. 14, ystyrir pyrth marwolaeth, ac yn *Mat.* xvi. 16, pyrth *Hades,* yn elynol i byrth merch Seion.

19. *Ysgrifena.*—Ysgrifena, gan hyny [*Alford*], gan i mi roddi y weledigaeth hon, "ysgrifena," &c. *A'r pethau sydd.*—Y pethau y mae yr hyn a welaist yn arwyddo. *A'r pethau a fydd ar ol hyn.* —Gweledigaethau a roddid iddo yn y canlyniad. Dyna olygiad Alford, &c. Ond y mae ereill yn gryf o'r farn mai wrth "y pethau sydd," y golygir agwedd bresennol yr eglwysi; "a'r pethau a fydd ar ol hyn," y gweledigaethau a ddygent berthynas â chyflwr dyfodol yr eglwys.

20. *Dirgelwch.*—Y gwirionedd a orweddai yn guddiedig o dan yr arwyddlun, oedd yn awr yn cael ei ddadguddio. *Angylion,* &c.—Y mae yn rhyfedd fod Alford (yn dilyn Origen) yn barnu mai gwir angel a feddylir—fod gan bob un o'r eglwysi, fel person unigol, ei hangel gwarcheidwawl. Y mae gwrthddadl Brown yn ymddangos i ni yn benderfynol yn erbyn y golygiad; sef, fod angylion yr eglwysi yn cael eu dal yn gyfrifol am golliadau yr eglwysi. Pa fodd y gellid dal angylion sanctaidd yn gyfrifol am danynt, sydd yn rhy anhawdd ei amgyffred. Yr oedd yr angylion hyn yn arolygu yr eglwysi oedd dan eu gofal. Nid oes yma un sail chwaith i feddwl mai esgob, yn ystyr presennol y gair yn yr eglwysi esgobyddol, a feddylir. Y mae Alford ei hun yn cydnabod nad oes genym reswm dros gredu fod y swydd esgobyddol yn y wedd yma etto mewn bod. A'r un ydyw addefiad Stillingfleet. Gweinidog, neu fugail, yr eglwys oedd yr angel; yr hwn a olygir fel ei chynnrychiolydd, ac â'r hwn yr oedd pob ymdrafod ar ran yr eglwys i gael ei wneuthur. I gadarnhau y golygiad hwn, dygir yn mlaen yr ystyriaethau canlynol: —Fod y gair "angel" yn cael ei ddefnyddio yn yr Hen Destament i ddynodi prophwyd ac offeiriad, fel rhai anfonedig gan Dduw; ac fod yr un mor briodol ei gymmhwyso at weinidog ar eglwys Gristionogol. Y mae yr enw hefyd yn addas i osod allan barchedigaeth a chyfrifoldeb swydd y gweinidog. "Yr esgob, neu yr henuriad, y prif fugail, a raid fod yr angel yma. O blegid er fod amryw henuriaid yn mhob un o'r eglwysi mwyaf, nid oedd ond un angel, yr hwn a ystyriai y Pen bugail ac Esgob eneidiau yn gyfrifol am agwedd ysbrydol yr eglwys dan ei ofal. Y mae yr enw "angel," yr hwn sydd yn dynodi swydd, yn unol âg arwyddluniaeth y llyfr hwn, yn cael ei drosglwyddo oddi wrth weinidogion uchaf Iehofah yn y nef, i'w weinidogion uchaf ar y ddaear; yr hyn sydd yn dwyn ar gof iddynt y

seren, angylion y saith eglwys ydynt: a'r saith ganwyllbren a welaist, y saith eglwys ydynt.

PENNOD II.

Pa beth a orchymynir ei ysgrifenu at angylion, hyny ydyw, gweinidogion eglwysi, 1 Ephesus, 8 Smyrna, 12 Pergamus, 18 Thyatira; a pha beth sydd ganmoladwy, neu ddiffygiol yndynt.

B. A. 96. A T angel yr eglwys sydd yn Ephesus, ysgrifena; Y pethau hyn y mae yr hwn sydd yn dal y saith seren yn ei law ddeheu, yr hwn sydd yn rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur, yn eu dywedyd;

2 [a]Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th lafur, a'th amynedd, ac na elli oddef y rhai drwg: a phrofi o honot y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn apostolion, ac nid ydynt; a chael o honot hwynt yn gelwyddog:

3 A thi a oddefaist, ac y mae amynedd genyt, ac a gymmeraist boen er mwyn fy enw i, ac ni ddiffygiaist.

4 Eithr [b]y mae genyf *beth* yn dy erbyn, [c]am i ti ymadael â'th gariad cyntaf.

5 Cofia gan hyny o ba le [d]y syrthiaist, [e]ac edifarhâ, [f]a gwna

[a] Mat. 7. 23; 1 Thes. 1. 3; 2 Tim 2. 19; Heb. 6. 10.

[b] Dad. 14. 20.

[c] Ier. 2. 2-5; Phil. 3. 13—16; 1 Thes. 4. 9, 10; Heb. 6. 10, 11.

[d] Esa 14. 12; Gal. 5. 4; Judas 24.

[e] Act. 17. 30, 31.

[f] Esa 1. 26; Luc 1. 17.

dylent hwythau isod, fel yr angylion nefol uchod, gyflawni gwasanaeth Duw yn selog, yn barod, ac yn effeithiol. 'Gwneler dy ewyllys ar y ddaear, megys y mae yn y nefoedd.'"—*Brown.*

Pennod II.

1—III. 22. Y LLYTHYRAU AT Y SAITH EGLWYS. Y MAE y llythyrau hyn mewn amryw bethau yn eu cyfansoddiad yn debyg i'w gilydd. 1. Gorchymyn i ysgrifenu at angel yr eglwys. 2. Teitl dyrchafedig ar yr Arglwydd Iesu. Benthycir y teitl yn mhob llythyr oddi wrth rywbeth yn ymddangosiad Mab y dyn yn y weledigaeth yn *pen.* i. Y mae addasrwydd yn y teitl i'r hyn sydd yn canlyn—naill ai i ryw agwedd yr oedd yr eglwys ynddi, neu i'r cerydd, y bygythiad, neu yr addewid a roddid iddi. 3. Rhoddir anerchiad i angel yr eglwys, yr hwn sydd yn dechreu gyda'r gair "Mi a adwaen." Cynnwysa yr anerchiad ddisgrifiad o sefyllfa yr eglwys. 4. Cynnwysa yr anerchiad gerydd, canmoliaeth, rhybudd, by gythiad, neu addewid; ceir mwy nag un o'r pethau hyn yn rhai o'r llythyrau. 5. Diweddir pob llythyr gydag addewid "i'r hwn sydd yn gorchfygu," a galwad ddifrifol i astudrwydd: "Y neb sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed." Dywedir fod trefn y llythyrau ar unwaith yn eglwysig, gwladol, a daearyddol. Anfonir y llythyr cyntaf at eglwys Ephesus, yr hon a ystyrid fel prif ddinas Asia: hi hefyd oedd yr agosaf i Patmos, ac â'r eglwys yn y ddinas hon yr oedd Ioan yn y cyssylltiad agosaf. Eir oddi wrth eglwys Ephesus at eglwysi y dinasoedd a orweddent ar arfordir gorllewinol Asia, ac yna at eglwysi y dinasoedd oeddynt yn y wlad. Y mae cryn ddadl o barth cynnwysiad y llythyrau. Ystyrir hwynt gan rai fel yn gwbl hanesyddol; gan ereill yn gwbl brophwydol; a chan ereill yn cyfuno y ddwy elfen. Gwrthoda Bengel yr ystyr prophwydol a briodolir iddynt; ac yn wir, nid ymddengys ond ychydig iawn o sail i feddwl fod y saith eglwys yn bortreadau o saith cyfnod ar yr eglwys gyffredinol. Yr un pryd, y mae yr epistolau hyn yn addas, ac yn ddiau yn cael eu bwriadu, er arweiniad, argyhoeddiad, rhybudd, a chalondid, i'r eglwys gyffredinol hyd ddiwedd amser; ac nid yw yn bossibl, fe allai, i'r eglwys fyned i un sefyllfa, pa un bynag ai o gystudd ai ffyddlondeb, ynte bydolrwydd, ffurfioldeb ac ammhurdeb, nad all weled darlun o honi ei hun a chael gwybodaeth o'i dyledswydd yn y naill neu y llall o'r llythyrau. Yr oedd Smyrna a Philadelphia yn forwynion pur i Iesu Grist: yr oeddynt wrth fodd eu pen a'u meddiannydd: nid oedd yr hwn y mae ei lygaid fel fflam dân yn canfod yndynt ddim i'w anghymmeradwyo. Ar y llaw arall, nid oedd yn Sardis a Laodicea ddim i'w gymmeradwyo; ni dderbyniant ond condemniad llwyr. Yn Ephesus, Pergamus, a Thyatira, yr oedd pethau i'w canmawl a'u condemnio: y cyntaf yn fwy yn Pergamus a Thyatira, a'r olaf yn Ephesus.

1—7. AT EGLWYS EPHESUS.

1. *Yr hwn sydd yn dal,* &c.—Y mae Crist yn y teitl hwn yn hôni mai efe ydyw unig Arglwydd a chynnaliwr yr eglwys. Y mae y teitl yn dra phriodol i ddechreu y cyntaf o'r llythyrau. *Yn rhodio,* &c.—Yn arwyddo ei bresennoldeb yn yr eglwys, a hwnw yn bresennoldeb gweithgar: y mae yn rhodio i arolygu ei eglwys, i ddyfal sylwi ar ei gweithrediadau, ac i ofalu am dani.

2. *Mi a adwaen.*—Yn dynodi gwybodaeth, yn hytrach na chymmeradwyaeth. *Dy weithredoedd.*—Fel hyn yn yr holl lythyrau, oddi eithr y rhai at Smyrna a Pergamus. *A'th lafur.*—Yn golygu llafur hyd ludded. *A'th amynedd:*—neu oddefgarwch (*endurance*). Y mae "llafur" ac "amynedd" yn ffurfio dwy ran bwysig y cymmeriad Cristionogol—y gweithredoi a'r goddefol. Y mae "gweithredoedd" yn y dechreu yn cynnwys y ddwy ran. *Ac na elli oddef.*—Dwyn. Saesneg: *bear.* Awgryma y gair fod dynion drwg yn faich trwm a blin ar eglwys. *A phrofi.*—Gwelir yma fod yr hyn a ragddywedodd Paul wrth henuriaid Ephesus wedi dyfod i ben: *Act.* xx. 28, 30. Ac yr oedd yr eglwys wedi ei dwyn i wylio trwy ei rybuddion ef.

3. *A oddefaist.*—Canmoliaeth uchel: ni oddefai ddrwg, ond goddefai gystudd.

4. Nid oes angen *beth* yn y darlleniad Cymraeg. "Y mae genyf yn dy erbyn, i ti ymadael â'th gariad cyntaf." Y mae *somewhat* yn Saesneg, a 'beth' yn Gymraeg, yn lled awgrymu mai dibwys mewn cymmhariaeth ydyw y gŵyn; pan, mewn gwirionedd, y mae amddifadrwydd o gariad y golled fwyaf mewn bod. *A'th gariad cyntaf.*—Wedi rhoddi iddi bob canmoliaeth oedd yn bossibl, a rhifo ei rhinweddau gyda hyfrydwch calon, y mae yn awr yn hysbysu yn mha beth yr oedd yn ddiffygiol. Gwel ar gariad cyntaf yr Ephesiaid: *Eph.* i. 15. Ei chariad at Grist fel ei phriod a olygir; y mae y cyfeiriad at gariad priodasol: *Ier.* ii. 2. Cyfiwr yr eglwys hon oedd fod teimlad sanctaidd, brwdfrydig—ymlyniad cryf wrth berson yr Arglwydd Iesu—wedi llaesu, a rhoddi lle i uniawngredodd oeraidd a ffurfiol.

5. *O ba le y syrthiaist.*—Cariad gwresog ydyw

[c] Mat. 21. 41–43; 24. 48–51.

y gweithredoedd cyntaf: ac [5] onid è, yr wyf fi yn dyfod atat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganwyllbren di allan o'i le, oni edifarhai di.

6 Ond hyn sydd genyt ti, dy fod ti yn casau gweithredoedd y Nicolaiaid, y rhai yr wyf fi hefyd yn eu casau.

7 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed pa beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; [h] I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwyta o bren y bywyd, yr hwn sydd yn nghanol [i] paradwys Duw.

[h] Iaon16.23; 1 Ioan 5. 4, 5.

[i] Luc 23. 43.

8 ¶ Ac at [k] angel yr eglwys sydd yn Smyrna, ysgrifena; Y pethau hyn y mae [l] y cyntaf a'r diweddaf, yr hwn a fu farw, ac sydd fyw, yn eu dywedyd;

[k] Adn. 1.

[l] Dad. 1. 8, 11, 17, 18.

9 Mi a adwaen dy weithredoedd di, [m] a'th gystudd, [n] a'th [o] dlodi (eithr [o] cyfoethog wyt) ac

[m] Ioan 16. 33.

[n] Luc 4. 18; 2 Cor. 8. 2, 9.

[o] Luc 12. 21.

[5] yr uchder mwyaf y gall eglwys ei gyrhaedd. *Edifarhá.*—Yn ddiattreg ac effeithiol; yr hyn a osodir allan gan amser y ferf yn y gwreiddiol.—*Alford. Y gweithredoedd cyntaf.*—Y gweithredoedd a gyfodent oddi ar y cariad cyntaf. Gwna y gweithredoedd er mwyn dyfod yn ol i'r hen deimlad. *Yn dyfod atat.*—Mewn barnedigaeth neilltuol. *A symmudaf.*—"Symmudiad y canwyl bren, ac nid diffoddiad y ganwyll, a fygythir yma; barnedigaeth ar rai, ond y farnedigaeth hono yn achlysur trugareddi i ereill. Felly y mae wedi bod. Y mae eisteddle yr eglwys wedi newid, ond y mae yr eglwys ei hun yn aros. Yr hyn a gollodd y dwyrain a enillodd y gorllewin. Ni chafodd ymwelydd diweddar âg Ephesus afael o'r un ar dri o Gristionogion yno, a'r tri mor anwybodus fel mai prin y gwyddent enwau St. Paul na St. Ioan."—*Trench.*

6. *Ond hyn sydd genyt ti.*—Enghraifft neilltuol o dynerwch yr Iesu. Y mae gyda hyfrydwch yn nodi yr unig beth canmoladwy a welai yn yr eglwys, ac yn dangos mwy o barodrwydd i ganmawl nag i geryddu. Y mae yn hyn yn esampl i ninnau. *Gweithredoedd*;—nid yn casau eu personau. *Y Nicolaiaid.*—Yn ol amryw o'r tadau, megys Irenæus, Tertullian, y rhai hyn oeddynt canlynwyr Nicolas, un o'r seithwyr: *Act.* vi. Ond amlygwyd tuedd yn foreu i ammheu hyn; oddi ar ba sail, nis gwyddom. Crybwylla Alford am Actau Apocryphaidd sydd yn son am un arall o'r enw; brodor o Corinth, ac yn ddyn o arferion afiau, yr hwn a dybir oedd sylfaenydd plaid y Nicolaiaid. Barn Michaelis ac ereill yw, fod yr enw, nid yn llythyrenol, ond yn arwyddluniol. Y mae 'Nicolas' yn air o'r un ystyr yn Groeg ag ydyw 'Balaam' yn Hebraeg—gorchfygwr, neu ddinystrydd y bobl. Oddi wrth hyn, cesglir fod y Nicolaiaid yr un a'r "rhai yn dal athrawiaeth Balaam," yn *adn.* 14. O blaid y golygiad hwn, rhoddir pwys ar y ffaith fod amryw enghreifftiau yn y llyfr hwn o enwau Groeg a Hebraeg ar yr un gwrthddrychau, megys Apollyon, Abbadon; diafol, Satan; Ie, Amen; hefyd, fod ynddo lawer o enwau arwyddluniol, megys yr Aipht, Sodom, a Babilon. O blaid y golygiad arall, dywedir fod *adn.* 14, 15, yn dangos nad yr un rhai oedd canlynwyr Balaam a'r Nicolaiaid; ac nad oes reswm digonol dros beidio deall yr enw fel enw ar berson neilltuol; os yw y llythyr yn cynnwys darluniad o agwedd wirioneddol eglwys oedd yn bod y pryd hyny, fod ei holl gynnwysiad o angenrheidrwydd yn hanesyddol; fod yr un rheswm dros ystyried Nicolas yn berson ag sydd dros feddwl fod Antipas, yn *adn.* 13, felly. Dyma olygiad Alford ac amryw ereill, er fod tuedd yr esbonwyr presennol yn fwy at y farn arall. Gyda golwg ar ddaliadau y Nicolaiaid, dywed Irenæus eu bod yn dysgu fod yn gyfreithlawn dal ymgyfathrach â gwragedd yn gyffredin, a bwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod; a sonia Eusebius am drasddodiad ynghylch Nicolas—fod ganddo wraig brydweddol, a'i fod yn ddrwgdybus o honi; ac iddo, ar ol ei gadael, fyned i ddysgu y daliadau mwyaf penrhydd ar berthynas y rhywiau â'u gilydd. Tra y dywed Mosheim fod hanes y Nicolaiaid yn cael ei amgylchynu gan anhawsderau, y rhai nas gellir eu symmud, y mae Neander, er hyny, yn barnu fod yn ddigon amlwg, oddi wrth yr awgrymiadau a geir am danynt, mai math o Antinomiaid oeddynt; etto, dywed fod yn dra ammheus a fu sect yn dwyn yr enw yma. Yr ydym ni yn tueddu i farnu gyda'r rhai sydd yn dal fod Nicolas yn enw ar berson—yr hwn a ddysgai syniadau penrhydd, a gariai ryddid Cristionogaeth i eithafion pechadurus; ond etto, nad oedd y Nicolaiaid yn gyfryw ag y gellid eu hystyried yn blaid neilltuol.

7. *Rhoddaf iddo fwyta.*—Y mae y mwynhâd a addewir yn cyfatteb i'r math o ffyddlondeb a ddangosir ganddynt. Temtid hwynt gan y Nicolaiaid i ymdaflu i foethusrwydd a melusweddau cnawd; gwrthsafent hwythau y demtasiwn, a dangosent hunanymwadiad canmoladwy; ac yn wobr am y cyfryw hunan-ymwadiad, addewir iddynt gyflawnder o fwyniant ysbrydol.

8—11. *At Smyrna.*—Smyrna oedd ddinas yn Ionia, ychydig i'r gogledd o Ephesus. Mae amryw o'r hen esbonwyr yn barnu fod Polycarp yn cael ei anerch yn y llythyr hwn; mai efe oedd angel yr eglwys. Cafodd ei ferthyru yn 168 B.A., yn mhen 86 mlynedd ar ol ei ddychweliad i ffydd Crist. Pa un bynag a yw y dybiaeth mai efe a anerchir yma yn gywir, ai peidio, cydnabyddir fod y cyfeiriadau yn y llythyr at erlidiagaeth a ffyddlondeb hyd angeu, yn hollol unol â'r dybiaeth. Y mae yn amlwg, oddi wrth lythyr a anfonodd Ignatius ato, fod Polycarp yn esgob neu henuriad yn Smyrna yn 108 B. A.; ac os oedd yno ddeg neu ddeuddeng mlynedd cyn hyny, yr oedd yno pan ysgrifenwyd yr epistol hwn at yr eglwys. Dywed Tertullian ac Irenæus (yr hwn oedd wedi bod yn siarad â Polycarp) fod Polycarp wedi cael ei ordeinio gan yr apostol Ioan yn fugail ar yr eglwys yn Smyrna.—*Brown.*

8. Y mae y teitl yma yn cydweddu â'r addewid yn *adn.* 10, 11.

9. *A'th gystudd a'th dlodi.*—Tlodi tymmorol, yn cael ei achosi gan y cystudd, neu erlidiagaeth. *Cyfoethog wyt*:—mewn ystyr ysbrydol: 2 *Cor.* vi. 10; *Iago* ii. 5. Mor wahanol i eglwys Laodicea, yr hon oedd yn oludog yn ei golwg ei hun, ac yn ngolwg y byd, ond yn dlawd mewn gwirionedd, ac yn nghyfrif Duw! *Yn luddewon*:—o ran hanaiad, ond nid yn 'Israeliaid yn wir'—nid o'r gwir enwaediad. Ceir yr un gwrthgyferbyniad mewn

[p] Luc 22. 65; 1 Tim. 1. 13. *mi a adwaen* [p] gabledd y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt ond [q] synagog Satan.

[q] Dad. 3. 9.

10 Nac ofna ddim o'r pethau [r] Dan. 3. 16—18; Luc 12. 4—7. yr ydwyt [r] i'w dioddef. Wele, [s] y cythraul a fwrw rai o honoch [s] Luc 21. 12; Ioan 13. 2. [t] Adn. 9. chwi i garchar, fel y'ch profer; a [t] chwi a gewch gystudd ddeng niwrnod. [u] Bydd ffyddlawn hyd [v] Mat. 10. 22. angeu, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd.

11 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; Yr hwn sydd yn gorchfygu, ni chaiff ddim niwed gan yr ail farwolaeth.

[x] Dad. 1. 11. 12 ¶ Ac [x] at angel yr eglwys sydd yn Pergamus, ysgrifena; Y [y] Esa. 11. 4; Heb. 4. 12, 13. pethau hyn y mae yr hwn [y] sydd ganddo y cleddyf llym dau-finiog, yn eu dywedyd;

13 Mi a adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt yn trigo; *sef* lle *mae* [z] gorseddfaingc Satan: ac [a] yr wyt yn dal fy enw i, ac ni [b] wedaist ffydd i, ïe, yn y dyddiau *y bu* Antipas [c] yn ferthyr ffyddlawn i mi, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi, lle y mae Satan yn trigo.

[z] Dad. 3. 9. [a] 2 Tim. 1. 13; Heb. 3. 6. [b] 1 Tim. 6. 8; 2 Tim. 2. 12; Judas 3, 4. [c] Act. 22. 20.

14 Eithr y mae genyf ychydig bethau yn dy erbyn di, o blegid bod genyt yno *rai* yn dal athrawiaeth Balaam, yr hwn a ddysgodd i Balac fwrw rhwystr ger bron meibion Israel, i [d] fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod, ac [e] i odinebu.

[d] Act. 15. 20, 21, 29; 1 Cor. 8. 4—13; 10. 18—31. [e] 1 Cor. 6. 13—18; Heb. 13. 4.

15 Felly y mae genyt tithau hefyd *rai* yn dal [f] athrawiaeth y Nicolaiaid, yr hyn beth yr wyf fi yn ei gasau.

[f] Adn. 6.

16 Edifarhâ; ac os amgen, yr wyf fi yn dyfod atat ar frys, ac [g] a

[g] Esa. 11. 4; Eph. 6. 17; 2 Thes. 2. 8.

---

manau ereill: *Ioan* viii. 33; *Rhuf.* ii. 28, 29; *Phil.* iii. 2—4. Yr oedd yr Iuddewon yn Smyrna, fel mewn manau ereill, yn dangos y chwerwder mwyaf at Gristionogaeth. Ar adeg merthyrdod Polycarp, ymunent â'r eilunaddolwyr yn eu cri am ei fwrw i'r llewod; a phan oedd rhwystr ar ffordd hyny, crochfloeddient am ei losgi yn fyw, a pharod oeddynt i gludo tanwydd i'w losgi.

10. *Y cythraul.*—Y diafol, yn gweithredu trwy yr Iuddewon gelynol. *I garchar.*—Ynglŷn yn wastad âg erlidigaeth: *Act.* xii. 3; xvi. 23. *Fel y'ch profer.*—Amcan y diafol wrth eu bwrw i garchar; sef, eu temtio i syrthio ymaith. *Deng niwrnod.*—Amser byr a therfynedig: *Gen.* xxiv. 55; *Barn.* xi. 19; *Dan.* i. 12; *Iob* xix. 3; *Act.* xxv. 6. "Deg ydyw rhif y galluoedd daearol gelynol i'r eglwys; felly deg corn." — *Brown. Hyd angeu.*—Nid yn dynodi amser, ond dwysder y ffyddlondeb: — Na fydded i dy ffyddlondeb syrthio yn fyr o ddioddef angeu ei hun. *Goron y bywyd.*—Bywyd nefol a thragywyddol.

11. *Yr ail farwolaeth.*—Y "llyn o dân:" *pen.* xx. 14.

12—17.—At eglwys Pergamus.

Yr oedd Pergamus yn sefyll ar yr afon Caicus. Pergamus oedd prif ddinas teyrnas Attalus II. yr hon a roddwyd iddo gan y Rhufeiniaid. Hynodid hi gan ei themi orwych i Æsculapius. Yr oedd yn eisteddle llenyddiaeth a'r celfyddydau. Chwanegodd Eumenus ei llyfrgell hyd 200,000 o gyfrolau. O'r enw 'Pergamus' y daeth y gair *parchment*, am mai yno y perffeithiwyd y dull o'i wneuthur. Golwg wael sydd yn awr ar y ddinas: nid oes yno ond bythod bychain o goed, ac adfeilion hen eglwysydd. *Y cleddyf llym.*—Gyda chyfeiriad at y bygythiad yn *adn.* 16.

13. *Gorseddfaingc Satan.*—Dywed Arethas, yn y 12fed ganrif—"Y mae yn galw Pergamus yn orseddfaingc Satan, am ei bod yn fwy eilunaddolgar na'r gweddill o Asia." Golygiad Lyra a gymmeradwyir gan Alford: "Gorseddfaingc Satan ydyw ei allu, yr hwn a amlygid yn ngwaith yr anghredinwyr yn erlid yr eglwys." Yn *adn.* 10, priodolir cystudd y saint i Satan; a gwelir yma ddarfod i'r gelyn gario ei allu mor bell nes gosod Antipas i farwolaeth. Ceir traddodiad fod addolwyr Æsculapius wedi dylanwadu ar yr ynadon paganaidd i'w ferthyru. *Y bu Antipas.*—Darllena Alford: "Yn nyddiau Antipas, fy nhyst, fy un ffyddlawn." Barna Hengstenberg mai enw arwyddluniol ydyw "Antipas," yn arwyddo un yn sefyll allan yn erbyn pawb. Ond nid yw hyn yn cael ei gefnogi gan nemawr neb: dadleuir yn erbyn y priodoldeb o roddi ystyron arwyddluniol i enwau ag y mae pob darllenydd yn naturiol yn eu cymmeryd fel enwau hanesyddol. Heb law hyny, nid yw yr arwyddocâd uchod yn unol â geiryddiaeth yr enw: ffurf arall o'r gair Antipater yw Antipas, fel Lucas a Silas o Lucanus a Silfanus [*Alford*]. Nid oes un hanes sicr am y merthyr hwn, er fod Andreas (6ed ganrif) yn dyweyd iddo ddarllen hanes ei ferthyrdod, ac fod Simeon Metaphrastes yn dyweyd mai esgob Pergamus ydoedd; ac iddo fyw i fyned yn bur hen, a chael ei ferthyru yn yr erlidigaeth dan Domitian trwy gael ei losgi o fewn tarw o bres wedi ei boethi.

14. *Ychydig bethau.* — Ychydig, mewn cymhariaeth i'r llawer o bethau oedd ganddi yn ennill ei gymmeradwyaeth. *Yr hwn a ddysgodd i Balac.*—Er na ddywedir yn bendant yn *Num.* xxxi. etto awgrymir yno i Balaam wneuthur hyn. Dywed Josephus [*Hyn.* iv. 6, 6] yr un peth. *Rhwystr.*—Arwydda y gwreiddiol y rhan hwnw o'r delm (*trap*) ar ba un y dodir yr abwyd; a'r hwn, pan gyffyrddir âg ef, sydd yn gwneyd iddo gau ar yr ysglyfaeth; yna, unrhyw fagl i'r troed. Achlysur pechod ydyw y meddwl yma. *I fwyta pethau.*—Yr hyn a wneid gan yr Israeliaid gynt, a chan y Nicolaiaid yn nyddiau Ioan—yr oeddynt yn debyg i'w gilydd yn y peth hwn. Ond yr oedd yr Israeliaid, yn chwanegol at hyny, yn aberthu i eilunod: *Num.* xxv. 1, 2. Ni sonir am hyny yma, am nad oedd y Nicolaiaid yn gwneuthur yr un peth.

15. *Tithau hefyd.*—Nid "tithau hefyd," yn gystal ag Ephesus; ond "tithau hefyd," fel y rhai gynt. Y mae yn amlwg mai â Balaam a Balac yr awgrymir cymmhariaeth. Mae y pechodau a briodolir i'r Nicolaiaid i'w deall yn llythyrenol.

ryfelaf yn eu herbyn hwynt â chleddyf fy ngneuau.

17 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf [b]iddo fwyta o'r manna cuddiedig, ac a roddaf iddo gareg wen, ac ar y gareg enw newydd wedi ei ysgrifenu, yr hwn nid edwyn neb, ond yr hwn sydd yn *ei* dderbyn.

[b] Salm 25. 14; Diar. 3. 32; Esa. 65. 13; Ioan 4. 32; 6. 48—58; Col. 3. 3.

ac nid yn gyfriniol; er esampl, nid ystyr arwyddluniol am eilunaddoliaeth sydd i "odineb" yn y geiriau.

16. *Edifarhâ.*—Galwad, nid yn unig ar y Nicolaiaid, ond hefyd ar yr holl eglwys: o blegid nid oedd Pergamus yn casau eu gweithredoedd, fel yr oedd eglwys Ephesus. *A chledduf fy ngneuau.*—Wedi ei gymmeryd o'r olygfa yn y bennod gyntaf: *adn.* 16. Etto, y mae rhai yn tybied y cyfeirir at y cleddyf noeth yn llaw yr angel a gyfarfu â Balaam, neu at ei farwolaeth trwy y cleddyf: *Num.* xxxi. 8; *Ios.* xiii. 22. Gwell genym ni gyfyngu y cyfeiriad at yr hyn a nodwyd gyntaf.

17. *Manna cuddiedig.*—Cyfeiriad at ymborth nefol plant Israel, fel yn gyferbyniol i'r bwyd anghyssegredig a aberthid i eilunod. Dichon hefyd fod yma gyfeiriad at ymadroddion Iesu Crist yn *Ioan* vi.—y lle y llefara am dano ei hun fel y gwir fara o'r nef. "Yr oedd y manna cuddiedig yn y cyssegr yn cael ei gadw gan allu dwyfol rhag llygredigaeth, a'r un modd y mae Crist, yn ei gorph anllygredig, wedi myned i'r nefoedd, ac yno yn guddiedig hyd amser ei ymddangosiad." Y "manna cuddiedig" ydyw Crist ei hun. Y mae ymborth ysbrydol *yr hwn sydd yn gorchfygu*, fel yr oedd y manna yn y cyssegr, yn anllygredig, yn hollol wahanol o ran natur a pharhâd i fwynderau anianol y byd a'r cnawd. Y mae natur oruchel a nefol y ddarpariaeth yn cael ei ddangos yn y gair "manna," a'i pharhâd yn yr ansoddair "cuddiedig." Er fod cyfeiriad yn yr ansoddair "cuddiedig" at guddiad y "crochan aur, a'r manna ynddo," yn yr arch yn y sancteiddiolaf," etto ystyr y cyfeiriad yw, fod ein bywyd, a'n maeth, a'n mwynhâd ysbrydol, yn nghadw yn nghudd gyda Christ yn Nuw: *Col.* iii. 3; gwel hefyd *Salm* lxxviii. 24; cv. 40. *Gareg wen.*—Y mae y golygiadau ar yr ymadrodd hwn yn rhy lïosog i ni nodi ond ychydig o honynt. Ymofynir am egluriadau arno allan o arferion yr Hebreaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Ymddengys fod y gair gwreiddiol am "gareg" yn arwyddo careg fechan lefn—wedi ei chaboli. Yr oedd careg o'r fath yn cael ei harfer gan y Groegiaid i amryw ddybenion. Defnyddid hi fel *dice*, neu gytyssau, mewn math o gyfaredd. Defnyddid hefyd geryg gwynion a duon mewn etholiadau—y rhai gwynion er cymmeradwyaeth, a'r rhai duon er condemniad. Barna rhai fod y cyfeiriad yma at arfer yr ymherawdwyr Rhufeinig mewn chwareyddiaethau cyhoeddus o daflu ceryg bychain i fysg yr edrychwyr, ar y rhai y byddai yn argraphedig *frumentum, vestes,* &c. (ŷd, dillad): a phwy bynag a gai un o'r ceryg, rhoddid iddo gan yr ymherawdwr yr hyn oedd yn ysgrifenedig arni. Tybia ereill fod y cyfeiriad at ŵrw coelbrenau. Yr oedd y "gareg wen" yn arwyddlun o ffawd dda a llwyddiant; a dywedid yn mysg y Groegiaid am bersonau o rinwedd nodedig, eu bod wedi derbyn "careg" gan y duwiau; yr hyn a arwyddai gymmeradwyaeth y duwiau iddynt. Barna Stuart fod cyfeiriad at feitr yr archoffeiriad, ar yr hwn yr oedd yn ysgrifenedig "Sancteiddrwydd i'r Arglwydd;" ac mai yr hyn a ddysgir yw, fod "yr hwn sydd yn gorchfygu" yn frenin ac offeiriad i Dduw. Y mae rhai wedi cyssylltu yr ymadrodd hwn â'r crybwylliad blaenorol am y "manna," gan roddi pwys ar y traddodiad Rabbinaidd, fod meini a pherlau gwerthfawr yn syrthio o'r nef gyda'r manna. Y mae ereill a dybiant fod y cyfeiriad at y meini gwerthfawr ar ddwyfroneg yr archoffeiriad yn dwyn enwau y deuddeg llwyth. Sylwa Ebrard, fod y "gareg wen" yn wobr am ymattaliad oddi wrth odineb, fel yr oedd y "manna cuddiedig" am ymattaliad oddi wrth fwyd wedi ei aberthu i eilunod. Esbonwyr ereill a olygant y "gareg wen" fel tocyn derbyniad i'r wlad nefol, fel yr oedd y gareg yn y chwaréyddiaethau yn rhoddi hawl i'r ymdrechydd i gael ei gynnal ar draul y wlad. Fel hyn, y mae y golygiadau ar ystyr manwl yr ymadrodd yn lïosog, a byddai yn hawdd dangos nad oes un o'r arferion a nodwyd yn cyd-daraw yn hollol â'r oll a ofynir er mwyn ei egluro. Nid tocyn derbyniad i wledd ydyw y "gareg wen;" o blegid y mae y wledd yn cael ei chrybwyll ar wahân yn y rhodd o'r "manna cuddiedig." Llawer llai y gall olygu y "gareg wen" o ryddhâd mewn barn: addewid ydyw hon i un wedi ei wneuthur yn rhydd, ac yn yr ymwybyddiaeth o heddwch â Duw wedi ymladd brwydrau lawer, a gorchfygu ei holl elynion. Golygiad Bengel, Hengstenberg, Alford, ac ereill, ydyw, fod y ffugr wedi ei gymmeryd oddi wrth yr arferiad o ddefnyddio ceryg bychain, gydag ysgrifen arnynt, i wahanol ddybenion; ond nad oes angen cario y cyfeiriad yn mhellach, fel ag i feddwl ei fod yn golygu yr arferiad hwn, neu yr arferiad arall. Cyffelyb yw golygiad Barnes: "Y mae yn bossibl fod gormod o drafferth wedi ei gymmeryd i gael allan yr holl amgylchiadau y cyfeirir yma atynt mewn rhyw hen arferiad. Dichon fod rhyw ffaith neu arferiad adnabyddus wedi awgrymu y meddwl yn ei wedd gyffredinol, ac yna fod y manylion yn perthyn i'r amgylchiad yma yn unig." Yn hytrach na thrwyddedi i wledd, neu arwydd o arbediad a rhyddid, gallem feddwl fod "careg wen" yn arwydd o fuddugoliaeth. Buddugoliaeth sydd yn cael ei gosod allan yn y llyfr gan y llïw gwyn: felly "march gwyn," a "dillad gwynion." "A'r lluoedd oedd yn y nef a'i canlynasant ef ar feirch gwynion, wedi eu gwisgo â lïan main, gwyn, a glân:" xix. 14. Mae Trench yn dadleu dros fwy o fanylder yn y cyfeiriad nag y gwna Alford. Y "gareg wen" sydd berl dysglaer—yr Urim a Thummim a ddygid gan yr archoffeiriad o fewn y ddwyfroneg, yr hon oedd yn agosaf i'w galon. Arwydda y gair 'Urim' oleuni, yr hyn sydd yn cyfatteb i wŷn. Nid oedd neb ond yr archoffeiriad yn adwaen yr enw oedd arni—enw anghyfranogol Iehofah, mae yn debygol. Yr "enw newydd" yw enw Crist (*pen.* iii. 12): rhyw ddadguddiad newydd a addewir i'r saint, yr hwn nas gall neb ei dderbyn ond hwy yn unig. Y mae y "gareg wen," wedi ei deall yn y modd yma, yn sefyll mewn cyssylltiad â'r "manna cuddiedig." Nid oedd yn rhydd i neb ond yr archoffeiriad gael mynediad at y "manna cuddiedig" yn y sancteiddiolaf; ond gan fod yr

[l] Dad. 1. 11. 18 ¶ Ac [l]at angel yr eglwys sydd yn Thyatira, ysgrifena; Y
[k] Salm 2. 7; Mat. 17. 5; Luc 1. 35; Ioan 1. 14. 49; 3. 16, 18, 35, 36; 10. 36; Rhuf. 1. 4; 8. 32. pethau hyn y mae [k]Mab Duw yn eu dywedyd, [l]yr hwn sydd â'i lygaid fel fflam dân, a'i draed yn debyg i bres coeth;

[l] Adn. 14, 15. [m] Salm 92. 14; Diar. 4. 18; Ioan 15. 2; 2 Pedr 3. 18. 19 Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th gariad, a'th wasanaeth, a'th ffydd, a'th amynedd di, a'th weithredoedd; a [m]*bod* y rhai diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf.

20 Eithr y mae genyf ychydig bethau yn dy erbyn, o blegid dy fod yn gadael i'r wraig hono, Iezebel, yr hon sydd yn ei galw ei hun yn brophwydes, ddysgu, a thwyllo fy ngwasanaethwyr i odinebu, ac i fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod.

21 Ac mi a roddais iddi amser i edifarhau am ei godineb; ac ni edifarhaodd hi.

[n] Ezec. 16 37–41; 23. 45–48. 22 Wele, yr wyf fi yn ei bwrw hi ar wely, [n]a'r rhai sydd yn godinebu gyda hi, i gystudd mawr, onid edifarhânt am eu gweithredoedd.

23 A'i phlant hi a laddaf â marwolaeth: a'r holl eglwysi a gânt

---

holl greðinwyr yn offeiriaid ysbrydol i Dduw, a bod iddynt ryddid i fyned i'r cyssegr trwy waed Iesu, rhoddir iddynt fwynhau sylwedd nefol y "manna cuddiedig" a'r Urim Megys y cafodd Phinees ei obrwyo âg "offeiriadaeth dragwyddol" (*Num.* xxv. 13) am ei eiddigedd yn erbyn y pechodau ag y temtiwyd Israel iddynt gan Balaam, felly y mae yr offeiriadaeth nefol yn cael ei haddaw yma yn wobr i'r rhai a wrthsafent athrawiaeth Balaam dan y Testament, yr hyn oedd yn arwain i'r un pechodau. Y mae Stier hefyd yn gryf o'r farn mai nid at arferion Cenhedlig, ond at bethau cyssegr Iehofah—dwyfroneg neu feitr yr archoffeiriad—y mae y cyfeiriad. Dywed hefyd fod yr enw newydd yn cael ei esbonio yn *pen.* iii. 12; xix. 12; xxi. 2. Y mae dirgelwch yr enw yn cyfatteb i'r argraph oedd ar dalcen yr archoffeiriad—"Sancteiddrwydd i'r Arglwydd." Nid ydyw, fel enwau ereill, yn nôd i ddynodi eu personau i ereill, ond yn addewid a chyflawniad o'u sefyllfa ddedwydd a gogoneddus, am yr hon y gellir dyweyd nad oes neb yn ei hadwaen ond y sawl sydd yn ei meddu. Er fod llawer o anhawsder, fel y gwel y darllenydd, yn perthyn i fanylion yr ymadrodd, etto y mae y prif ddrychfeddwl a orwedd o dan y cyfeiriad yn ddigon eglur. Yr hyn a ddangosir yw, fod "yr hwn sydd yn gorchfygu" i dderbyn, fel gwobr am ei ffyddlondeb, y mwynhâd ysbrydol helaethaf, a'r dystiolaeth sicraf yn ei galon ei hun o ffafr a chymmeradwyaeth—yr hon sydd yn gyfryw dystiolaeth nas gellir ei rhoddi i, na'i derbyn gan neb ond y Cristion ffyddlawn ac ymdrechgar.

18—29. Y LLYTHYR AT THYATIRA.

Thyatira oedd ddinas yn Asia Leiaf, ar derfyn gogleddol Lydia—tua 27ain milldir o Sardis, yn agos ar y ffordd yno o Pergamus. Adnabyddid hi yn foreuach wrth yr enw Pelopia. Ei henw presennol ydyw Ak-hissar. Dywed Strabo mai trefedigaeth berthynol i Macedonia ydoedd.

19. *A'th wasanaeth*:—I'r afiach a'r anghenus—y prawf naturiol o'i ffydd a'i chariad. Y mae "gwasanaeth" yn arddangosiad, yn fwyaf neilltuol, o gariad; ac 'amynedd' (goddefgarwch mewn cystuddiau) yn arddangosiad o ffydd. *Yn fwy na'r rhai cyntaf.*—Yn fwy mewn nifer neu mewn pwysigrwydd: fe allai y ddau. Gwelir yma fod agwedd eglwys Thyatira yn wahanol i'r eiddo Ephesus.

20. *I'r wraig hono, Iezebel.*—Yn ol y ddwy lawysgrif hynaf, "Dy wraig, Iezebel." Dadleua Alford dros y darlleniad hwn. Glyna Bengel wrth y darlleniad cyffredin. Arwyddluniol, yn ddiammheu, ydyw yr enw yma. Yr oedd yn eglwys Thyatira ryw blaid neu berson oedd yn dylanwadu yn gyffelyb arni hi i'r hyn oedd Iezebel ar ei gŵr Ahab (1 *Bren.* xxi. 25). "Diau na bu neb fel Ahab, yr hwn a ymweithiodd i wneuthur drwg yn ngolwg yr Arglwydd; o herwydd Iezebel ei wraig a'i hannogai ef." Pwy oedd yr Iezebel yma?—ai benyw yn hôni bod yn brophwydes, ynte plaid o gyfeiliornwyr llygredig, sydd ammhossibl ei benderfynu. Mae y dyb mai gwraig prif swyddog yr eglwys ydoedd, yn ymddangos yn hollol ddisail. Yr oedd, yn ddiammheu, mewn cyssylltiad agos âg ef, ac yn meddu dylanwad mawr arno, fel Iezebel ar Ahab; etto ni raid i ni goelio y dybiaeth uchod—yn un peth, am yr edrychir arno nid yn ei gymmeriad personol, ond fel cynnrychiolydd yr eglwys. Wrth alw Iezebel yn wraig iddo ef, yr hyn a olygir yw, ei bod yn sefyll mewn perthynas agos iddo ef ac i'r eglwys yn Thyatira. Fel yr oedd Balaam yn hudo Israel mewn un cyfnod, ac yn gynnrychioldd o holl hudolion yr eglwys yn y cyfnod hwnw, felly yr oedd Iezebel mewn cyfnod diweddarach. Yr oedd hi yn ferch i Ethbaal, brenin Sidon, yr hwn oedd unwaith yn offeiriad Astaroth; ac ymddengys ei bod hithau yn offeiriades i Baal. Yr un oedd Astaroth y Phœniciaid a Venus y Groegiaid, ac yr oedd aflendid a phuteindra yn rhan o'i haddoliad. Fel y gwnai hi âg Israel, felly y gwnai y person neu y blaid a elwir wrth ei henw â'r eglwys yn Thyatira. Trwy honiadau gau i ysbrydoliaeth, yr oedd yn llwyddo i lithio "gwasanaethwyr" Duw yn Thyatira i'r un rhysedd ac aflendid ag eiddo y Nicolaiaid, a'r rhai a ddalient athrawiaeth Balaam yn yr eglwysi ereill. Yr oedd y cyfeiliornwyr hyn yn yr oesoedd boreuaf, dan rith ysbrydolrwydd, yn rhoddi y gefnogaeth fwyaf i bob "trachwant cnawdol." Dysgent fod y gweithredoedd a gyflawnid yn a thrwy y cnawd yn gorwedd y tu allan i'r dyn gwirioneddol—nad oedd yr ysbryd yn cael ei halogi drwyddynt. Yr oedd Thyatira yn hollol wrthwyneb i Ephesus. Yr oedd yn Ephesus lawer o sel dros y wir athrawiaeth, ond ychydig o gariad. Yr oedd yn Thyatira ffydd a chariad gweithgar, ond ychydig o eiddigedd dros ddysgyblaeth ac athrawiaeth sanctaidd; ac yr oedd hi yn euog o ddangos goddefgarwch beius iawn tuag at gyfeiliornad.—*Trench.*

22. *Wele.*—I alw ei sylw, ac i barotoi y ffordd i fynegiad o rywbeth annisgwyliadwy ac arswydus.—*Alford. Ar wely.*—Gwely cystudd, mewn cyferbyniad i wely godineb. *A'r rhai sydd.*—Y rhai, yn Thyatira, oedd yn ei goddef, ac felly yn gyfranog o'i phechod.

[c] 1Sam.16.7; 1 Cron. 28. 9.
[d] Salm 62. 12; Esa. 3. 10, 11.
wybod mai [c]myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arenau a'r calonau: [d]ac mi a roddaf i bob un o hon-och yn ol eich gweithredoedd.

24 Eithr wrthych chwi yr wyf yn dywedyd, ac wrth y lleill yn Thyatira, Y sawl nid oes ganddynt y ddysgeidiaeth hon, a'r

[e] 2 Cor. 2.11; 11. 3, 13-15.
rhai ni adnabuant [e]ddyfnderau Satan, fel y dywedant; ni fwriaf arnoch faich arall.

[f] Joan 14. 3; 1 Cor. 4. 5; 11. 26.
25 Eithr yr hyn sydd geny[f]h, deliwch [f]hyd oni ddelwyf.

[g] Luc 3. 13—15; Joan 8. 31, 32
[h] Luc 22. 29, 30.
[i] Dad. 19. 15.
26 A'r hwn sydd yn gorchfygu, [g]ac yn cadw fy ngweithredoedd hyd y diwedd, [h]mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedloedd:

27 (Ac [i]*efe* a'u bugeilia hwy â gwialen haiarn: fel llestri pridd y dryllir hwynt) [k]fel y derbyniais innau gan fy nhad:

[k] Mat. 11. 27.

28 Ac mi [l]a roddaf iddo y seren foreu.

[l] Luc 1. 78, 79.

29 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

PENNOD III.

2 *Argyhoeddi angel eglwys Sardis, 3 a'i annog ef i edifarhau; a'i fygwth onid edifarha. 8 Angel eglwys Philade'phia 10 yn cael ei ganmol am ei ddiwydrwydd a'i amynedd. 15 Angel Laodicea yn cael ei geryddu am na bae na brwd nac oer: 19 a'i rybuddio i fod yn fwy ei sel. 20 Crist yn sefgil wrth y drws, ac yn curo.*

AC at angel yr eglwys sydd yn Sardis, ysgrifena; Y pethau B. A. 96.

2 *A'i phlant.*—I'w gwahaniaethu oddi wrth y rhai a nodir yn *adn.* 22. Y rhai a'i goddefent a deflid i gystudd mawr; ond ei "phlant," y rhai a gr[g]hnedlwyd ganddi, ei chanlynwyr priodol, a leddid â marwolaeth. Defnyddir yr ymadrodd "lladd â marwolaeth" yn *Lef.* xx. 10, am gosp godineb. *A'r holl eglwysi.*—Holl eglwysi y byd trwy yr oesoedd. Nid eglwysi Asia yn unig.—*Alford. Sydd yn chwilio.*—Gwybodaeth a feddiennir gan Dduw yn unig. Yr *arenau*, yn iaith yr Hen Destament, ydyw eisteddle y dymuniadau; a'r *calonau*, eisteddle y meddyliau.

24. Dylid darllen, 'Eithr wrthych chwi yr wyf yn dywedyd, wrth y lleill,' &c. Nid oes yma ddau ddosbarth, fel yr arweinir ni i feddwl gan y da[h]leniad Cymraeg. Y lleill ydyw, y gweddill o'r eglwys—y rhai yr oedd hudolion Iezebel heb eu cyffwrdd. *Ddyfnderau Satan.*—Yr oedd y dysgawdwyr gau y sonir yma am danynt, yn bostio fod dyfnderau mawrion yn eu gwybodaeth—eu bod yn gwybod y dirgeledigaethau. Ceir yr un fôst yn yr enw a roddid ar yr un dysgawdwyr—o leiaf eu holynwyr; sef, *Gnostics*, Gwybeddyddion. Tertullian a ddywed, wrth gyhuddo y Valentiniaid o weithredoedd drwg yn y dirgel, os gofyna rhywun gwestiynau eglur ynghylch eu dirgeledigaethau, eu bod yn crychu eu haeliau, ac yn atteb, "Mae yn ddwfn." *Fel y dywedant.*—Pwy? Barna Hengstenberg, ac ereill, fod yr hereticiaid eu hunain hefyd yn eu galw yn "ddyfnderau Satan"—eu bod yn hôni gallu i blymio ei ddyfnderau; y gallent roddi pob rhyddid i'w chwantau llygredig, heb dderbyn niwed oddi wrth hyny. Y mae yn wir eu bod yn gwneuthur honiadau llygredig o'r fath; etto y mae yn ammheus a alwent hwy y dyfnderau ag y bostient eu gwybod yn "ddyfnderau Satan." Eu hymffrost hwy oedd eu bod yn deall dirgelion dyfnion Duw. Mŵy tebyg yw fod "fel y dywedant" yn cyfeirio at y gair "dyfnderau" yn unig; ac yn lle y chwanegiad "Duw," yn ol eu meddwl hwy, y mae Mab Duw yn rhoddi "Satan" yn ei le. *Faich arall.*—Yr un baich yn chwaneg na'r gorchymyn iddynt i ymattal rhag godineb, ac oddi wrth fwydydd wedi eu haberthu i eilunod. Dyma y pethau a waharddwyd i'r dychweledigion Cenhedlig yn mhenderfyniad y cynghor yn Ierusalem; ac at y penderfyniad hwn y cyfeirir yn ddiammheu yma. Ceir y gair "baich" yno, fel yma. "Y weithred yma o ufudd-dod syml, ac nid rhyw bethau dyfnion tu hwnt i'w cyrhaedd, a ofynid oddi wrthynt gan yr Arglwydd."—*Alford.* Y mae y golygiad hwn yn llawer mwy tebygol na'r golygiad, "Ni fwriaf arnoch faich arall heb law yr un yr ydych eisoes dano, oddi ar fod Iezebel a'i phlant yn eich mysg, ac yn aflonyddu arnoch."

28. *Y seren foreu.*—Crist ei hun: *pen.* xxii. 16. 'Caiff gyfranogi o'm disgleirdeb a'm gogoniant.' Crist ei hun ydyw swm holl roddion Crist; efe ydyw y "manna cuddiedig," ac efe ydyw y "seren foreu." Y mae holl ragorfreintiau y saint yn gynnwysedig yn y cyflawnder sydd yn trigo ynddo ef. Barna Grotius mai y disgleirdeb a'r gogoniant mwyaf a feddylir—fel y mae y "seren foreu" yn ddisgleiriach na'r holl ser ereill.

Pennod III.

1—7. Y LLYTHYR AT EGLWYS SARDIS.

Sardis ydoedd brif ddinas Lydia. Safai wrth droed mynydd Timolus, ar wastadedd hyfryd a ddyfrheid gan yr afon Pactolus. Yn y ddinas hon y trigai Crœsus, yr hwn yr oedd ei gyfoeth yn ddiarebol. Cymmerwyd hi gan Cyrus yn c. c. 548, pan yr oedd hi yn un o ddinasoedd mwyaf prydferth a chyfoethog y dwyrain. Syrthiodd wedi hyny i ddwylaw y Rhufeiniaid: yn amser Tiberius, cafodd ei dinystrio gan ddaeargryn, ond ail adeiladwyd hi trwy orchymyn yr ymherawdwr. Yr oedd yn nodedig am ei gloddest a'i haflendid; a thybiai rhai fod cyfeiriad at hyny yn y llythyr hwn yn y geiriau, "Ie, yn Sardis." Y mae yn garneddau yn awr, er y dengys ei hadfeilion ei bod unwaith yn enwog. Ei henw presennol yw Sart: ni chynnwysa ond ychydig o fythynod tlodion. yn cael eu cyfanneddu gan Roegiaid a Thyrciaid. Dywed y teithiwr Arundel am dani fel hyn:—"Pe gofynid i mi beth yw yr argraph ddwysaf ar y meddwl wrth edrych ar Sardis, mi a ddywedwn mai ei hunigrwydd annisgrifiadwy, cyffelyb i dywyllwch yr Aipht—tywyllwch y gellid ei deimlo. Felly y mae unigedd dwfn y lle oedd unwaith yn "bendefiges teyrnasoedd" yn cynnyrchu teimlad cyfattebol o anghyfanedd-dra yn y meddwl, yr hwn nas gellir byth ei anghofio." Y mae y llythyr at yr eglwys yn Sardis yn cael ei hynodi gan lymder mawr. Ymddengys fod y dôn lem ac argyhoeddiadol yma wedi atteb yr amcan i ryw fesur; o blegid yr oedd Melito, esgob Sardis, yn yr ail ganrif, yn ddyn hynod am ei dduwioldeb, yn gystal ag am ei ddysgeidiaeth.

hyn y mae yr hwn sydd â saith Ysbryd Duw, a'r saith seren ganddo, yn eu dywedyd; Mi a adwaen dy weithredoedd di, o blegid [a] Eph.2.1,5; Col. 2. 13. y mae genyt enw dy fod yn fyw, [b] Deut. 3.28; a marw ydwyt.

Esa. 35. 3. [c] 1 Bren. 15. 3; Mat. 23. 5, 25—28. [d] Ezec.16.61 —63; 2Pedr1.13; 3. 3. [e] Dad. 2. 5, 21, 22. [f] Mat. 24. 42, 43.

2 Bydd wyliadwrus, a [b]sicrhâ y pethau sydd yn ol, y rhai sydd barod i farw: canys ni chefais dy weithredoedd [c]yn gyflawn ger bron Duw.

3 [d]Cofia gan hyny pa fodd y derbyniaist ac y clywaist, a chadw, ac [e]edifarhâ. Os tydi gan hyny ni wyli, [f]mi a ddeuaf arnat ti fel lleidr, ac [g]ni chai di wybod pa awr y deuaf atat.

[g] Mat.25.13.

4 Eithr y mae genyf ychydig enwau, ïe, yn Sardis, [h]y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy [i]a rodiant gyda mi mewn *dillad* gwynion: [k]oblegid teilwng ydynt.

[h] Esa. 61. 3, 10; Zec 3. 3-5. [i] Esther 8. 15. [k] Luc21. 26.

5 Yr hwn sydd yn gorchfygu, hwnw a wisgir mewn dillad gwynion; [l]ac ni ddileaf ei enw ef allan o lyfr y bywyd, ond mi a [m]gyffesaf ei enw ef ger bron fy Nhad, a cher bron ei angylion ef.

[l] Exod. 32. 32, 33; Salm69.28. [m] Mal. 3.17; Luc 12. 8; Iudas 25.

6 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ys-

1. *Sydd â saith Ysbryd Duw.*—Sonir, yn *pen.* i. 4, am "y saith ysbryd sydd ger bron ei orseddfaingc ef;" yr hyn a arwydda gyflawnder y Duwdod yn ei holl berffeithiau. Y mae y meddiant sydd gan Iesu Grist o holl gyflawnder yr Ysbryd yn brawf o'i Dduwdod. "Y mae yr enw hwn yn gosod allan ei allu anfeidrol, trwy yr Ysbryd, i argyhoeddi o bechod, ac i ddwyn i'r amlwg bob broffes ragrithiol." Y mae yr ail deitl yn ymddibynu ar y cyntaf; y mae y saith seren ganddo, am fod ganddo "saith Ysbryd Duw." Ffrwyth cyflawnder yr Ysbryd, yr hwn sydd yn eiddo Crist, yw gweinidogaeth a gweinidogion yr efengyl: *Ioan* xx. 22, ac *Eph.* iv. 7—12. Y mae yn amlwg fod y cymmhwysder mwyaf yn y teitl hwn i gyfarfod agwedd eglwys Sardis. "Y mae Arglwydd yr eglwys yn dyfod, wedi ei arfogi â holl nerthoedd yr Ysbryd, yn chwilio dyfnderoedd rhagrith, ac yn barnu gwagder y gweithredoedd hyny sydd heb gyfodi oddi ar ffydd."—*Alford.* *Enw.*—Barna rhai fod "enw" yn gyfystyr âg enwogrwydd, ac yn golygu fod Sardis yn cael ei chyfrif yn uchel gan eglwysi ereill mewn bywyd ysbrydol. Mwy tebyg ydyw, nad yw yn arwyddo mwy na'i bod yn fyw mewn enw, proffes, ac ymddangosiad, ac heb fod felly mewn gwirionedd.

2. *Bydd wyliadwrus.*—Y mae y gair a gyfieithir fel hyn yn arwyddo cyfnewidiad yn cael ei orchymyn arni. *Become;* nid *be*:—bydd yr hyn nid ydwyt yn awr. *Y pethau sydd yn ol*:—sydd yn aros; yn golygu pethau, nid personau. Cadanrhâ yr ychydig rasau a rhinweddau sydd yn ol, y rhai ydynt etto heb lwyr farw. *Ger bron Duw.*—Y mae sail i'r darlleniad "ger bron fy Nuw." Os ydwyt yn ngolwg ereill yn gyflawn, nid wyt felly ger bron fy Nuw.

3. *Pa fodd.*—Nid yn cyfeirio at ei theimlad wrth dderbyn, ond at werth yr hyn a dderbyniodd. Gwelir y teimlad mewnol yn *Gal.* iv. 13—15, a 1 *Thes.* i. 5—10; gwelir y gwerth gwrthddrychol yn 1 *Cor.* xv. 11, ac *Eph.* iv. 20. "Cofia pa fodd y derbyniaist ac y clywaist;" *h.y.*, ystyria werth annhraethol y trysor nefol sydd wedi ei ymddiried i ti. *Mi a ddeuaf arnat ti.*—Mewn barn neillduol ar aelodau yr eglwys. *Fel lleidr.*—Yn ddisymmwth, heb roddi un rhybudd o'i ddyfodiad. Y mae pob dyfodiad barnol o eiddo Crist yn debyg i'w ddyfodiad yn y dydd olaf, mewn sydynrwydd annisgwyliadwy.

4. *Ychydig enwau.*—Dynion y gellid eu cyfrif wrth eu henwau: *Act.* i. 15. Ni fuasai yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio ond am nifer bychan. Sylwa Bengel nad oedd yr ychydig hyn wedi ymneillduo oddi wrth yr eglwys, a bod ei sefyllfa yn dra dirywiedig. *Ni halogasant eu dillad.*—A gadwasant eu cymmeriad Cristionogol yn ddifrycheulyd. *Mewn dillad gwynion.*—Yn wobr am gadw eu dillad yn ddihalog. Golyga eu dillad presennol, oedd heb eu halogi, eu cymmeriad duwiol yn nghanol proffeswyr ffurfiol a llygredig: golyga y "dillad gwynion" a addewir iddynt fuddugoliaeth a gogoniant mewn byd arall. Dichon fod yma gyfeiriad at *Zech.* iii. 3. *O blegid teilwng ydynt.*—Dyna y teilyngdod: cydrywiaeth, yn hytrach na haeddiant—cydrywiaeth rhwng eu sefyllfa ar y ddaear a'u sefyllfa yn y nef. Ceir esampl o'r un peth yn *pen.* xvi. 5, 6: "Gwaed saint a phrophwydi a dywalltasant hwy, a gwaed a roddaist iddynt i'w yfed." Y mae yr un modd yn weddus i'r rhai a gadwasant eu dillad yn ddihalog gael eu gwisgo yn nillad gwynion y gorchfygwr. Y mae "dillad gwynion" yn arwyddo rhai gwynion, disglaer, cyffelyb i ddillad yr Iachawdwr ar fynydd y gweddnewidiad.

5. *Ni ddileaf ei enw.*—Gyda chyfeiriad at "y mae genyt enw dy fod yn fyw." Dilëir enwau y rhai yr oedd ganddynt "enw eu bod yn fyw, ac yn farw," allan o lyfr y bywyd: efe yn unig, yr hwn sydd yn fyw, a gaiff ei enw ar lyfr y bywyd. Cedwid coflyfr mewn hen ddinasoedd, yn cynnwys enwau y dinasyddion. Yr oedd enwau y rhai fyddent feirw yn cael eu dileu. Felly gyda llyfr y bywyd; enwau Cristionogion byw yn unig a geir ynddo. *A gyffesaf ei enw.*—Dydd y farn fydd yr adeg i wneyd yr holl enwau yn llyfr y bywyd yn gyhoeddus.

7—13. Y LLYTHYR AT PHILADELPHIA.

Dinas yn Lydia oedd Philadelphia, ynghylch wyth milldir ar hugain i'r de-ddwyrain o Sardis. Adeiladwyd hi gan Attalus Philadelphus, brenin Pergamus. Bu yn agos a chael ei distrywio gan ddaeargryn yn nheyrnasiad Tiberius. Yr ydoedd yr ail ddinas yn Lydia. Nid ydyw ei chyfiwr presennol mor adfeiliedig ag eiddo y lleill o'r dinasoedd lle yr oedd yr eglwysi boreuol ynddynt. Y mae ynddi rai miloedd o dai, y rhai a drigiennir gan y Tyrciaid yn benaf, a chan nifer o Roegwyr. Y mae ynddi bump o eglwysydd. Yn mysg ei hadfeilion y mae un golofn ar ei phen ei hun—yr hon sydd yn adgofio y teithwyr o'r gair yn y llythyr at yr eglwys foreuol yn y ddinas—"Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i." Yr oedd yr eglwys hon mewn cyffyrddiad agos â'r Iuddewon oedd yn trigo yn y ddinas; yr hyn, yn ol barn amryw esbonwyr, sydd yn rhoddi cyfrif am y cyfeiriadau yn y llythyr at bethau perth-

bryd yn ei ddywedyd wrth yr
eglwysi.
7 ¶ Ac at angel yr eglwys sydd
yn Philadelphia, ysgrifena; Y
pethau hyn y mae y Sanctaidd, y
Cywir, yn eu dywedyd; Yr hwn
[n] Esa. 22. 22; Luc 1. 32. sydd ganddo [n] agoriad Dafydd;
[o] Iob 12. 14; Mat. 16. 19. [o] yr hwn sydd yn agoryd, ac nid
yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid
yw neb yn agoryd:
8 Mi a adwaen dy weithred-
oedd: wele, rhoddais ger dy
fron ddrws agored, ac ni ddichon
neb ei gau: canys y mae genyt
ychydig nerth, a thi a gedwaist
fy ngair, ac ni wedaist fy enw.
9 Wele, mi a wnaf iddynt hwy
o [p] synagog Satan (y rhai sydd yn [p] Dad. 2. 9.
dywedyd eu bod yn Iuddewon,
ac nid ydynt, ond dywedyd cel-
wydd y maent) wele, *meddaf*,
[q] gwnaf iddynt ddyfod ac addoli [q] Esther 8. 17.
o flaen dy draed, a gwybod fy mod
i yn dy garu di.
10 O achos cadw o honot air fy
amynedd i, [r] minnau a'th gadwaf [r] Mat. 6. 13.
di oddi wrth awr y brofedigaeth,
yr hon a ddaw ar yr holl fyd, [s] i [s] 1 Pedr 4. 12.

---

ynol i'r Hen Destament. Yr eglwys hon, ynghyd â'r eiddo Smyrna, ydyw yr unig ddwy sydd yn derbyn cymmeradwyaeth gyflawn.

7. *Y Sanctaidd.*—Mewn cyferbyniad i "synagog Satan," yn *adn.* 9. Yr un teitl a "Sanct Israel" yn yr Hen Destament. Yr un yw Iesu ag Iehofah cenedl Israel. *Y Cywir.*—Groeg, *aléthinos;* nid *aléthes.* Cymmhwysir yr arddodair cyntaf at Dduw a Christ, i'w gwahaniaethu oddi wrth dduwiau gau; a dynoda y gwirioneddol, dilys, neu trwyadl, mewn cyferbyniad i'r gau. Y mae yn y teitl yn y fan hon gyfeiriad at y geiriau yn *adn.* 9: "y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt." Pa enwau bynag a rydd Iesu Grist arno ei hun, neu a roddir arno yn yr Ysgrythyr, y mae yn sylweddoli holl arwyddocâd yr enwau hyny. Y mae ei natur yn atteb i'w enw. Y mae yr arddodair *aléthes* yn arwyddo un yn canu ac yn llefaru gwirionedd.—*Trench. Sydd ganddo agoriad Dafydd.*—Perchenog a brenin ei deyrnas ddisigl ei hun, o'r hwn yr oedd Dafydd, fel brenin y ddwyflywiaeth, yn un o'r prif gysgodau. Y mae yn y teitl gyfeiriad amlwg at *Esa.* xxii. 22: gwel y geiriau. Y mae awdurdod goruchaf yr eglwys yn llaw yr Iesu. Arwyddlun o awdurdod ydyw "agoriad." Efe yw y Mab ar ei dŷ ei hun. Efe sydd yn rhoddi derbyniad i'r eglwys; efe sydd yn cau allan o honi, yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw. Er iddo drosglwyddo yr awdurdod mewn rhyw ystyr i'r apostolion, etto efe ydyw ffynnonell yr awdurdod; ac oddi wrtho ef yn uniongyrchol, fel yr un sydd gyda'r bobl bob amser hyd ddiwedd y byd, y mae yr awdurdod yn dyfod yn barhaus i'r eglwys a'i swyddogion. Y mae yn dyfod iddynt oddi wrtho ef yn ddigyfrwng, ac nid trwy linell yr olyniaeth. Y mae efe mewn undeb digyfrwng â'r eglwys yn yr oes hon, am ei fod yn preswylio ynddi: nid trwy gyfrwng llinell ddidor o swyddogion er dyddiau yr apostolion. Y mae teitl yr Iesu yn y llythyr hwn, fel yn y llythyrau ereill, yn cyfatteb i'r addewid a roddir ganddo. *Yn agoryd.*—Yn cynnwys ei awdurdod yn yr eglwys yn ei gwedd fwyaf cyffredinol.

8. *Ddrws agored.*—Y mae amryw eiriau yn y Testament Newydd (1 *Cor.* xvi. 9; 2 *Cor.* ii. 12; *Col.* iv. 3) yn dangos mai y meddwl yw, fod Crist, yn nhrefn rhagluniaeth, wedi estyn iddi gyfleusderau mawrion o ddefnyddioldeb yn ei chyhoeddiad o'r efengyl. *Ychydig nerth.*—Yn fwy cywir, "nid oes genyt ond ychydig o nerth:"—nacaol ydyw yr ystyr, ac nid cadarnhaol. Dywed rhai mai cyfeirio a wneir at brinder y doniau gwyrthiol yn yr eglwys. Barna ereill [Trench, Alford, &c.] mai bychander mewn nifer ac iselder mewn sefyllfa, a feddyiir. Ereill: am ei bod yn wan yn ei chyfrif ei hun, yr oedd yn fwy addas fel gwrthddrych i nerth Duw orphwys arni, ac i'r Arglwydd weithio trwyddi, fel y byddai godidogrwydd y gallu o hono ef. Mae yr ail olygiad yn fwy tebygol. Y cyssylltiad yw: gan fod yr eglwys hon, a hi yn wan mewn nifer a chyfoeth, wedi cadw y gair, rhoddes yr Arglwydd anrhydedd arni trwy agor drws o ddefnyddioldeb o'i blaen.

9. Cyfeiriad at eiriau yn yr Hen Destament. Gwel *Esa.* lx. 14, yn benaf; hefyd *Esa.* xlix. 23; *Zech.* viii. 20—23. *A wnaf iddynt.*—Mae yr addewid i Philadelphia yn fwy cyflawn na'r addewid i Smyrna. I'r olaf, addewir na byddai i synagog Satan gael goruchafiaeth arni; i'r gyntaf, y byddai iddi lwyddo i gael rhai o synagog Satan i addoli o flaen ei thraed. Dengys hyn pa fodd y rhoddodd yr Iesu ddrws agored o'i blaen, trwy fod lliaws o'i gwrthwynebwyr mwyaf ystyfnig yn cael eu dwyn i ufuddhau i'r ffydd. Mae "addoli o flaen ei thraed" yn golygu y byddai y dychweledigion Iuddewig yn foddlawn ar y sefyllfa iselaf yn yr eglwys, gan ddangos yr ymostyngiad mwyaf i'r rhai y buont unwaith yn eu herlid. Felly yr oedd ceidwad carchar Philippi ger bron Paul: *Act.* xv. 23—29.—*Brown. A gwybod fy mod i yn dy garu di.*—Daw y dychweledigion hyn i wybod a chydnabod y cariad â pha un y carodd Crist yr eglwys yn Philadelphia, yr hwn a ddangoswyd tuag ati trwy ei gwneuthur mor ddefnyddiol yn nhröedigaeth ereill. Prawf o gariad neillduol Duw tuag at berson unigol ydyw ei wneuthur yn offeryn dychweliad ereill, a'r un modd tuag eglwys.

10. *Air fy amynedd i.*—Y gair a bregethwyd i ti, yr hwn sydd yn argymmhell yr amynedd sydd yn perthyn i mi, ac i'r eiddof fi.—*Alford.* Yr amynedd yr wyf yn ei ofyn, ac yr wyf fy hun yn ei arfer. Y mae yr Iesu wedi rhoddi esampl o'r holl rinweddau a ddisgwylia oddi wrth ei bobl. *Minnau a'th gadwaf di.*—Am iddi hi gadw y mae yr Iesu yntau yn addaw cadw; y mae y wobr yn cyfatteb i'r gwaith. Gall y da a'r drwg ddywedyd yn y diwedd, "Megys y gwnaethum y talodd Duw i mi." *Oddi wrth.*—Dywed Alford nad yw y gair yn dangos yn ddigon eglur pa un a feddylir, ai ei chadw *rhag*, ynte *yn* y brofedigaeth, fel ag i'w dwyn yn ddiangol trwyddi. *Ar yr holl fyd.*—Yr un brofedigaeth neu gyfyngder ag a fynegir yn *Mat.* xxiv. 21, &c. Gwasanaetha awr y brofedigaeth i ddwyn allan ffyddlondeb a dyfalbarhâd y saint, ac i galedu gelynion Crist a'i achos. Mae gwahanol farnau gan esbonwyr ar "awr y brofedigaeth." Yr arwyddocâd eang

brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear.

[a] Iago 5. 9. [b] Dad. 2. 13. [c] 1 Cor. 9. 25. 11 Wele, [t]yr wyf yn dyfod ar frys: [u]dal yr hyn sydd genyt, fel na ddygo neb [x]dy goron di.

12 Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid ä [y] efe mwyach: ac [y]mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw [z]dinas fy Nuw i, *yr hon ydyw* Ierusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i: ac *mi a ysgrifenaf arno ef* [a]fy enw newydd i.

[y] Dad. 22. 4. [z] Salm 87. 3. [a] Esa. 65. 15; Eph. 3. 15.

13 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

14 ¶ Ac at angel eglwys y Laodiceaid, ysgrifena; Y pethau hyn y mae Amen yn eu dywedyd, [b]y Tyst ffyddlawn a chywir, [c]dechreuad creadigaeth Duw;

[b] Esa. 55. 4; Ier. 42. 5. [c] Col. 1. 15. [d] Mat. 24. 13; Phil. 1. 9; 1 Pedr 1. 22

15 Mi a adwaen dy weithredoedd di, [d]nad dwyt nac oer na

---

uchod a gymmeradwyir gan Alford—"yr amser o gyfyngder a ragflaena ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu." Barna ereill, y golygir rhyw gyfyngder oedd yn agos, ac a gyrhaeddai dros driogaeth eang; yr hwn, fel yr oedd dinystr Ierusalem, fyddai yn fath o gysgod o gyfyngder cyffredinol y dydd olaf; ac y gallai fod yn erlidigaeth, neu ddaeargryn, neu newyn. Crybwylla Tacitus am ddaeargryn, yr hwn a ddinystriodd ddeudeg o ddinasoedd yn Asia Leiaf mewn un noswaith, ac ni ddiangodd Philadelphia rhag teimlo yn dost oddi wrthe. Grotius a feddylia y cyfeiria at yr erlidigaeth dan Domitian, yr hon oedd eisoes wedi tori allan: ereill, yr erlediagaeth dan Trajan: ereill, y blinderau a gyfodent o herwydd anghrist. Mwy diogel, dybygid, ydyw deall y geiriau yn yr ystyr eang uchod.

12. *Yn golofn.*—Addewid o safle sefydlog ac anrhydeddus yn yr eglwys berffaith mewn gogoniant. Nid yn unig hwy fyddant yn feini bywiol yn y deml ysbrydol, ond hefyd yn golofnau o'i mewn. *Ac allan nid ä efe mwyach.*—"Pwy a beidiai hiraethu am y ddinas nad oes un cyfaill yn ymadael o honi, nac un gelyn yn dyfod i mewn iddi."—*Awstin.* Mae rhai esbonwyr yn barnu mai am yr eglwys filwriaethus y lleferir yma: "Nid ä allan, trwy wrthgiliad na thrwy esgymmundod."—*Lyra.* Ond y golygiad arall ydyw y goreu. Y mae holl addewidion y llythyrau yn edrych yn mlaen at ddaioni a dedwyddwch sefyllfa y gorchfygwr mewn gogoniant, wedi i'r rhyfel fyned drosodd—yr holl elynion wedi eu gorchfygu, ac yntau wedi myned tu hwnt i bob perygl. Y mae priodoldeb mawr yn yr addewid hon i eglwys Philadelphia. Yr oedd y ddinas hon yn hynod am y dinystr a wneid arni gan ddaeargrynfäau. "Nis gall Philadelphia ymddiried yn ei muriau; ond y maent, ddydd ar ol dydd, yn cael eu siglo a'u dryllio i raddau mwy neu lai. Ac y mae y trigolion yn wastad yn cymmeryd y damweiniau hyn i ystyriaeth wrth adeiladu."—*Strabo.* Felly, yr oedd yr addewid yma o ddiysgogrwydd a chadernid yn derbyn gwerth arbenig trwy gymmhariaeth âg ansicrwydd meddiannau daearol. *Enw fy Nuw i:*—Fel yn perthyn i Dduw mewn modd neilltuol: gwel *pen.* xxii. 4. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at yr argraph ar feitr yr archoffeiriad, "Sancteiddrwydd i'r Arglwydd," ac felly fod y gair yn dynodi cyssegredigaeth i Dduw; sef, y byddai y gorchfygwr yn offeiriad iddo; ond y prif ddrychfeddwl yw, perthynas neilltuol a thragwyddol â Duw, ac nid cyssegredigaeth iddo. *Enw dinas,* &c.—Yn dynodi hawl ddinasyddol y gorchfygwr. *Ierusalem newydd.*—Gwel *pen.* xxi. 2, 3. "Mae Ioan, yn ei Efengyl, yn defnyddio am yr hen ddinas, yr enw Groeg, *Hierosolyma.* Ond yn y llyfr hwn bob amser, am y ddinas nefol, yr enw Hebraeg, *Hierusalem.* Yr enw Groeg ydyw yr enw gwreiddiol, a'r enw mwyaf sanctaidd: yr enw Groeg ydyw yr enw diweddar, a'r enw mwya bydol a pholiticaidd."—*Bengel. Fy enw newydd i.*—Yr enw y sonir am dano yn *pen.* xix. 12, "yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun:" nid yr enw yn *pen.* xix. 16, yr hwn sydd yn amlwg a gwybyddus. Y mae fod yr enw hwn, a addewir i'n gorchfygwr, etto yn anadnabyddus, yn cael ei ddangos yn y gair "newydd." Bydd yn newydd pan gaiff ei ysgrifenu. Nid oedd o'r blaen yn hysbys; ond trwy ei ysgrifenu ar y gorchfygwr, fel ar golofn, caiff ei amlygu. Bydd ysgrifeniad enw newydd Crist arno yn ddangosiad ei fod yn eiddo tragwyddol iddo yn ei ogoniant.

14—22. Y LLYTHYR AT LAODICEA.

Laodicea oedd ddinas yn mharth de-orllewinol Phrygia, ar yr afon Lycus: nid oedd yn mhell o Colossa, yn gorwedd rhyngddi a Philadelphia, ac o ddeutu deugain milldir o Ephesus. Bu unwaith yn ddinas fawr a blodeuog. Dinystriwyd hi gan ddaeargryn yn B. A. 62. Cafodd wedi hyny ei hail adeiladu gan y dinasyddion cyfoethog ar eu traul eu hunain. Y mae yn awr yn adfeilion, ond y mae yr adfeilion hyn yn dangos y bu gynt yn ddinas fawr a chyfoethog. Dywed Leake nad oes yno fwy na thrigain o bobl yn byw.

14. Gelwid Iehofah gan yr Hebreaid yn "Dduw Amen." "Duw Amen" ydyw y gwreiddiol am "Dduw y gwirionedd," yn *Esa.* xlv. 16. Dïau fod yma gyfeiriad at y lle hwnw. Yn 1 *Cor.* i. 20, y mae "Amen" yn cyfeirio at ffyddlondeb Duw i'w addewidion; yma at wirionedd a sicrwydd ei holl eiriau. Y mae y gair *cywir* (*alēthinos*) yn golygu, nid yn unig ei eirwiredd fel tyst, ond ei fod yn sylweddoli i berffeithrwydd y cwbl a gynnwysir yn yr enw "tyst;" ac y mae tri pheth yn angenrheidiol i hyn: (1.) Ei fod wedi gweled â'i lygaid ei hun yr hyn y tystiolaetha am dano: (2.) Ei fod yn abl i'w fynegu i ereill: (3.) Ei fod yn ewyllysio rhoddi adroddiad cywir. Cyferfydd y tri pheth yn Nghrist.—*Trench. Dechreuad creadigaeth Duw.*—Gwel *Col.* i. 15. Er nad yw y gair "dechreuad" ynddo ei hun, etto y mae ei gyssylltiadau yn dangos mai ei ystyr yw, mai Iesu Grist ydyw ffynnonell y greadigaeth—mai efe a roddes fodolaeth iddi. Ni fuasai yr holl greadigaeth yn cael ei darlunio fel yn ei addoli ef (*pen.* v. 13; xix. 10; *Eph.* iii. 9) pe na buasai yn fwy na'r cyntaf o greaduriaid Duw.

15, 16.—Y mae *oer, brwd,* a *chlauar,* yn dynodi yr holl agweddau possibl tuag at bethau dwyfol. Y cyntaf a'r ail a arwydda y ddwy sefyllfa eithafol. Gan fod "brwd" yn golygu gwresogrwydd

[a] Ier. 13. 1–4.
[b] Diar. 13. 7; Luc 18. 11; Rhuf. 11. 20, 28;
[c] 1 Cor. 4. 8.
[d] Deut 8. 12—14; Ier. 2. 31; Mat. 9. 12.

brwd: mi a fynwn pe bait oer neu frwd.

16 Felly, am dy fod yn glauar, ac nid yn oer nac yn frwd, [c]mi a'th chwydaf di allau o'm genau:

17 Oblegid dy fod yn dywedyd, —[d]Goludog wyf, ac mi a gyfoethogais, ac [e]nid oes arnaf eisieu dim; ac [h]ni wyddost dy fod yn druan, ac yn resynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth.

[h] Rhuf. 2. 17—23.

18 Yr wyf yn dy gynghori i [i]brynu genyf fi aur wedi ei buro trwy dân. fel y'th gyfoethoger; a dillad gwynion, fel y'th wisger, ac *fel* [k]nad ymddangoso gwarth

[i] Diar 23. 23 Esa. 55. 1; Mat. 25. 9.
[k] Esa. 47. 3· Dan. 12. 2.

a difrifoldeb gyda chrefydd—yr unig agwedd ar y galon sydd yn addas tuag at y pethau mwyaf eu pwys a'u gwerth; y mae *oer* yn dynodi, nid y sefyllfa sydd yn syrthio yn fyr o'r gwresogrwydd a ofynir oddi wrthym, ond y sefyllfa hollol wrthwynebol iddi. Mynych y mae gwir dduwiolion yn achwyn oblegid oerfelgarwch eu calon, ac y ceir hwynt yn brin yn y cariad sydd yn gweddu iddynt. Eto nid yr oerfelgarwch hwn a feddylir yma: nid amddifadrwydd o grefydd, ond gwrthdarawiad penderfynol iddi. Yr "oer" yw yr un sydd yn perthyn yn amlwg i'r byd, yr hwn y mae ei feddwl heb gael ei gyffwrdd gan bethau dwyfol; oer, heb gael ei dwymno erioed. "Yr oedd y Laodiceaid yn oer mewn ystyr gymmhariaethol; ond nid oeddynt yn oer fel y byd oddi allan, ac fel y rhai na fuont erioed yn perthyn i'r eglwys."—*Brown.* Mae y "clauar" sydd ar y ffordd i fyned yn ferwedig, yn sefyllfa ddymunol; ond y mae yn sefyllfa o'r perygl mwyaf pan y mae dyn wedi ymsefydlu ynddi; a'r hyn sydd yn ei gwneuthur yn beryglus yw, ei bod yn wastad yn gyssylltiedig â hunan-dwyll a hunan-ddigonedd. Y mae y "clauar" yn cymmharu ei hun â'r "oer," ac yn ymchwydo wrth dybied ei fod yn tra rhagori arno. Gwelir yma fod eglwys glauar Laodicea yn ymffrostio yn ei gras:—"Goludog wyf," &c. Dymunasai Crist iddi fod yn "oer," yn hytrach nag yn "glauar:" perthyna i'r "oer" ryw fath o gyssondeb, y mae ei galon a'i ymddygiad yr un a'i broffes. Mae y dyn sydd o ddifrif, pa un bynag ai drwg ai da, yn well dyn na'r hwn sydd yn proffesu bod yr hyn nid yw; ac y mae rhagrith yn fwy anghymmeradwy gan Dduw y gwirionedd nag un pechod. Y mae hefyd well gobaith am yr "oer." Y dosbarth mwyaf diobaith ydyw y rhai "clauar," ar ol unwaith eu twymno; ymddibynant ar y teimladau a fwynhasant o'r blaen, gan wenieithio iddynt eu hunain eu bod yn ddigon. Mae gan y diafol a'r galon dwyllodrus fwy o fantais o lawer i'w camarwain nag i gamarwain yr "oer." Meddant ddigon o grefydd i suo y gydwybod mewn diogelwch gau; ond nid digon i'w sancteiddio a'u cadw i fywyd tragwyddol. *Am dy fod yn glauar.*—Mae effaith dwfr clauar i beri chwydiad yn adnabyddus. *Mi a'th chwydaf.*—Megys y chwydodd Canaan ei hen drigolion: *Lef.* xviii. 28. Yr oedd diodydd oerion a phoethion yn gyffredin mewn gwleddoedd, ond byth ddiodydd clauar. Y mae y gymmhariaeth yn dangos fod Duw yn llwyr ymwrthod, ïe, yn ffieiddio yr agwedd hon—yn teimlo gwrthdarawiad cryfach iddi nag i un agwedd, ac nid oedd modd cyfieu hyny mewn dull cryfach nag y gwneir yma. Dylid darllen yma, 'Mi a'th chwydaf ar fyrder,' &c.—lle yr awgrymir yn dirion fod yn bossibl troi y bygythiad etto yn ei ol os gwelid cyfnewidiad ynddi.

17,18.—Disgrifiad helaethach o'r clauarineb a'i ganlyniadau: dellid yr eglwys ganddo i'w hangonion, a llenwid hi á gau dybiau am ei llawnder. Er fod Laodicea yn hynod am ei chyfoeth, ac am ei hymffrost ynddo, etto nid oes sáil i feddwl mai yn ei chyfoeth bydol yr ymffrostiai yr eglwys ond yn y cyfoeth ysbrydol a dybiai fod ganddi; etto yr oedd ei hunan-ddigonedd yn cael ei attegu gan lwyddiant bydol. Un o brif beryglon goludog byd hwn ydyw balchder: y mae y cyfoethog yn fwy tueddol na'r tlawd i ddywedyd, "Nid oes arnaf eisieu dim" (*Luc* xviii. 24, 25): ac y mae tlodi bydol yn fanteisiol yn hytrach i dlodion yn yr ysbryd. "Gwyn eich byd y tlodion," ydyw adroddiad Luc (*pen.* vi. 20) o'r geiriau a geir yn *Mat.* v. 3, "Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd." Digon o brawf mai nid cyfoeth daearol a olygir ydyw, fod hwn yn ei meddiant; tra mai tyb hollol wrthwyneb i ffaith oedd y dybhon. Sylwa Alford fod y geiriau a roddir yn ngenau Laodicea yn ffurfio esgyneb:—*Goludog wyf,* dyna y sefyllfa o fod yn gyfoethog. *Mi a gyfoethogais:*—ei bod wedi myned felly: yr hyn a gynnwysa hunan-fawrygiad. Gwel *Hosea* xii. 8. *Nid oes arnaf eisieu dim.*—Canlyniad ei hymgyfoethogiad yn ymddangos mewn hunan-ddigonedd. *Ac ni wyddost dy fod.*—Y mae pwys yn perthyn i "dy fod:"—'Dy fod di, yn enwedigol; ti, o bawb: yr wyt yn dlotach na neb; yn y cyflwr dyfnaf o dlodi: yn fwy gresynus nag un o'r eglwysi.' Cyfleitha Alford, "Thou art the wretched and pitiable one." Mor wahanol ydyw barn Crist am ddynion i'w barnau am danynt eu hunain! *Yr wyf yn dy gynghori.*—Y mae yma wawdiaith ddofn, etto tyner. Mae yr eglwys a ddywedai nad oedd arni eisieu dim mewn angen am gynghor o barth angenrheidiau cyffredin bywyd. Yr oedd Laodicea yn ddinas enwog am ei thrafnidiaeth; felly y mae Crist yn ymostwng at ei syniadau mwyaf cyffredin—sonia am gaffaeliad bendithion ysbrydol gyda'r gymhariaeth o brynu. *I brynu genyf.*—Yn yr hwn, yn ol geiriau yr epistol at eglwys Colossa, yr hwn oedd hefyd i'w ddarllen i eglwys Laodicea, y mae "holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig;" *Col.* ii. 1, 3; iv. 16.—*Brown.* Nid yw y gair "prynu" yn arwyddo y gall dyn ennill neu haeddu doniau Duw. Yr oedd y Laodiceaid heb ymwrthod â'u golud gau a'u tybiau hunan-ddigonol. "Pryn, ar gost dy dybiau da am danat dy hun."—*Alford.* Y mae yn rhaid mai prynu "heb arian ac heb werth" a olygir; o blegid argyhoeddir yr eglwys yn *adn.* 17, o fod heb ddim. Pa fodd y gall yr un sydd resynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth, brynu, ond yn unig ar delerau yr efengyl? Felly, fel y sylwa Alford, y mae dull yr esbonwyr Pabaidd o esbonio y gair "prynu" yn arddangos ymlyniad annheilwng wrth eu hopiniynau eu hunain, a diffyg golygiadau cywir ar feddwl Duw yn ei air, yn gystal ag ar agwedd ysbrydol yr eglwys hon. "Prynu gyda gweithredoedd da," ebe un. Dywed un arall fod y gair "prynu" yn arwyddo fod yn rhaid i ddyn wneuthur a chyfranu llawer o bethau mewn trefn i fod yn gymmhwys i dderbyn y rhoddion hyn gan Dduw. *Aur wedi ei buro.*— Newydd ddyfod o'r ffwrnes: "aur-

dy noethder di; ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelech.

[d] Deut. 8. 5; Diar. 3. 11, 12; Ier. 2. 30; 1 Cor. 11. 32; Heb. 12. 5—11.

19 [l] Yr wyf fi yn argyhoeddi, ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru: am hyny bydded genyt sêl, ac edifarhâ.

[m] Can. 5. 2—4; Luc 12. 36.

20 Wele, [m] yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo. Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef, ac a swperaf gydag ef, ac a fydd yntau gyda minnau.

puredig newydd ddyfod o'r tân." Dynoda bob cyfoeth ysbrydol; cyfoeth o werth sylweddol, mewn gwrthgyferbyniad i olud dychymmygol y Laodiceaid. *A dillad gwynion.*—Yn golygu yr un peth, mewn cymmhariaeth arall, â'r "aur wedi ei buro:"—cyfiawnder cyfrifol yn dieuogi y person, a chyfiawnder tufewnol yn ei wneuthur yn sanctaidd. *Fel nad ymddangoso:*—yn nyfodiad Crist, pan wneir pob peth yn amlwg ger bron ei frawdle ef. *Eli llygaid.*—Yn y gwreiddiol, *collourion*, yr hwn a elwid felly oddi wrth ei ffurf—rhôl o enaint i'r llygaid. Meddylir yma eneiniad yr Ysbryd Glân. "Mae eneiniad yr Ysbryd, fel enaint yr amseroedd gynt, yn briwo yn gyntaf trwy argyhoeddiad o bechod, ac yna yn iachau. Agora ein llygaid yn mlaenaf i adnabod ein hunain, ac yna i weled y Gwaredwr yn ei werth."—*Brown.* Y mae Trench yn sylwi mai y ddwy eglwys fwyaf dirywiedig o'r saith—sef, Sardis a Laodicea—ydyw y rhai na sonir am elynion iddynt oddi allan, nac am heresiau o'u mewn. Mae yr eglwys dan ddyled fawr i Dduw; yr hwn, yn ei ragluniaeth ddoeth a hollalluog, sydd mor fynych wedi goruwchreoli caseion oddi mewn ac oddi allan, er eu gwaethaf, i hyrwyddo ei achos, trwy ddwyn allan ei nerth mewn ymdrech yn mhlaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint. Y mae heddwch yn cael ei brynu yn ddrud, ar gôst marweidd-dra ysbrydol, yn yr eglwys hono lle nad oes digon o ddyddordeb yn cael ei deimlo mewn crefydd i ymdrechu dim o'i phlaid.—*Trench.*

19. Prawf o gariad Crist at y Laodiceaid oedd ei geryddon a'i argyhoeddiadau llymion iddynt. *Yr wyf fi.*—Rhoddir pwys yn y gwreiddiol ar y rhagenw "fi:"—'Gan nad beth yw ffordd ac arfer dyn, dyma fy ffordd a'm harfer i.' Mae yr adnod hon yn galondid i'r eglwys rhag syrthio o honi i anobaith. *Yn eu caru.*—Nid yr un gair sydd yma am "garu" ag yn y llythyr at eglwys Philadelphia:—"A gwybod fy mod i yn dy garu di." Gwelir yr un gwahaniaeth ag yn ymddiddan Crist â Phedr: *Ioan* xxi. 15, 16. Yma, dynodir y cariad sydd heb un sail iddo yn y gwrthddrych a gerir—y cariad sydd yn amlygu ei hun mewn ymysgaroedd tosturiaethau tuag at y truenus. Yn *adn.* 9, dynoda y cariad sydd yn ymhyfrydu yn ei wrthddrych—y cariad sydd yn seiliedig ar farn.—*Brown.*

20. Cyfeiriad diammheuol at *Ganiadau Solomon* v. 2; ac y mae y geiriau yno a'r geiriau yma yn golygu y berthynas briodasol rhwng Crist a'i eglwys. Awgrymir yn yr ymadrodd hwn, yr hyn a brofir gan lawer o ystyriaethau ereill, y dylid edrych ar Ganiad Solomon fel portread o'r undeb agos a chu rhwng Crist a'r credinwyr. Y mae y crybwylliad am Grist "yn sefyll wrth y drws," yn dwyn ar gof i'r Laodiceaid ei bresennoldeb

[n] Dad. 2. 7.

21 [n] Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo ef eistedd gyda mi ar fy ngorseddfainge, megys y gorchfygais innau, [o] ac yr eisteddais gyda'm Tad ar ei orseddfainge ef.

[o] Dan. 7. 13, 14; Mat. 28. 18; Eph. 1. 20, 23; Phil. 2. 9—11.

22 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

PENNOD IV.

2 Ioan yn gweled gorseddfainge Duw yn y

gwastadol, yn ei sylw arni, ei ofal am dani, a'i gariad ati: ac nid allai fod un ystyriaeth fwy grymus i ymlid ymaith ei chlauarineb. Ei bresennoldeb ef a anghofid ganddi, o'r hyn y cyfodai ei diofalwch; a'r ystyriaeth o'i fod ef yn sefyll wrth y drws a lwyddai i'w gwneuthur yn wresog a diffrifol. *Ac yn curo.*—Trwy y ceryddon a'r rhybuddion hyn: *Caniad Solomon* v. 2. *Fy llais.*—Mwy na churo: y mae hefyd yn ymbil am dderbyniad i mewn:—"Llais fy anwylyd yw yn curo, gan ddywedyd, Agor i mi." *Ac a swperaf.*—Yn naturiol, yr ymwelydd sydd yn swpera gyda'r llettywr sydd yn ei dderbyn i mewn: yn ysbrydol, yr ymwelydd, Crist, sydd yn darpar y wledd; efe ei hun ydyw y wledd; efe yw bara y bywyd. Y mae *yntau gyda minnau* yn dynodi y cyfeillgarwch a'r cymmundeb o'r ddwy ochr. "Fy anwylyd sydd eiddof fi, a minnau yn eiddo fy anwylyd." Y mae edifeirwch y pechadur yn wledd i'r Gwaredwr; fel y mae maddeuant a gras y Gwaredwr yn wledd i'r pechadur. Y mae y cydgyfranogiad hwn rhwng Crist a phechadur â'u gilydd yn wirionedd hoff gan Ioan: *pen.* xiv. 20; xv. 4, 5; xvii. 21, 26.

21. I'r eglwys fwyaf dirywiedig y rhoddir yr addewid fwyaf cyfoethog. Gwneir felly, medd Ebrard, am fod yn angenrheidiol rhoddi yr arddangosiad mwyaf o gariad er mwyn gorchfygu clauarineb yr eglwys hon. Y prif reswm, fe allai ydyw, mai hwn yw y llythyr olaf o'r saith, ac fod yr holl addewidion ereill yn cael eu crynhoi yma mewn un addewid fawr. *Megys y gorchfygais innau.*—Dynodir yma fawredd y gogoniant, sicrwydd y rhoddiad o hono, a'r drefn i'w gyrhaedd. Tybia rhai y gellir gweled yn y bendithion a addewir "i'r hwn sydd yn gorchfygu," yn-y llythyrau hyn, gyfeiriad at wahanol sefyllfaoedd neu ddigwyddiadau yn hanes yr eglwys, gan ddilyn y drefn yn mha un yr oeddynt yn cymmeryd lle. Y mae cyfeiriad yn yr addewid yn y llythyr cyntaf at sefyllfa dyn yn Mharadwys (*pen.* ii. 7); yn yr ail, at ganlyniadau y cwymp—"yr ail farwolaeth" (*pen.* ii. 11); yn y trydydd, at Israel yn yr anialwch, a goruchwyliaeth Moses (*pen.* ii. 17); yn y pedwerydd, at ryfeloedd a buddugoliaethau Israel yn amser y frenhiniaeth (*pen.* ii. 26, 27); yn y pummed, at ddygiad goruchwyliaeth yr efengyl i mewn—bywyd ac anllygredigaeth, etholedigaeth gras, cyfiawnhâd, &c. (*pen.* iii. 5); yn y chweched, at sefydliad yr eglwys fel y wir deml, y Seion ysbrydol (*pen.* iii. 12); ac yn y seithfed, at sefyllfa ogoneddus yr eglwys yn y nef am dragwyddoldeb: *pen.* iii. 2.

Pennod iv.

Yma y mae y Dadguddiad yn briodol yn dechreu, ac yn cyrhaedd hyd ddiwedd y llyfr. Hyd ddiwedd *pen.* xi. y ceir yr adran fawr gyntaf:—agor-

nef: 4 y pedwar henuriad ar hugain: 6 y pedwar anifail yn llawn llygaid, yn mlaen ac yn ol: 10 yr henuriaid yn bwrw i lawr eu coronau, ac yn addoli yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc.

B. A. 96.

[a]Exec. 1. 1. [b]Dad. 1. 10; 16. 17.

A Rol y pethau hyn yr edrychais; ac wele, [a]ddrws wedi ei agoryd yn y nef: [b]a'r llais cyntaf a glywais, *oedd* fel *llais* udgorn yn ymddiddan â mi; gan ddywedyd, Dring i fyny yma, a mi a ddangosaf i ti y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn.

2 Ac yn y man yr oeddwn yn [c]Dad. 20. 11. yr ysbryd: ac wele, [c]yr oedd gorseddfaingc wedi ei gosod yn y nef, ac *yn* yn eistedd ar yr orseddfaingc.

3 A'r hwn oedd yn eistedd, oedd yn debyg yr olwg arno i faen iaspis a sardin: ac *yr oedd* enfys o amgylch yr orseddfaingc, yn debyg yr olwg arno i smaragdus.

4 Ac ynghylch yr orseddfaingc *yr oedd* pedair gorseddfaingc ar hugain: ac yr y gorseddfaingciau y gwelais bedwar henuriad ar hugain yn eistedd, wedi eu gwisgo

iad y seliau, ac udganiad yr udgyrn. Yn *pen.* iv. a v., disgrifir yr olygfa lle y cymmerodd y gweledigaethau le; yn *pen.* iv. y ceir yr olygfa briodol, neu faes y gweledigaethau; yn *pen.* v. y darpariadau i agoriad y sêl. Yn *adn.* 1—11, gosodir o'n blaen y weledigaeth arddunol yn nghylch presennoldeb Duw yn y nef.—*Alford.*

1. *Ar ol y pethau hyn.*—Yn arwyddo olyniad y weledigaeth, ac nid o angenrheidrwydd, fod cyfwng o amser yn bod rhwng y naill weledigaeth a'r llall. *Yr edrychais.*—Yn hytrach, 'gwelais.' Nid gyda llygad ei gorph yr oedd yn gweled, ond mewn ystâd berlewygawl (*ecstatic*), briodol i'r prophwydi o'i flaen: gwel *Esec.* i. 1. Y mae yn debyg fod attaliad ar ddefnyddiad naturiol synwyrau y corph yn y sefyllfa hon. Cyffelyb sodd sefyllfa Stephan ar ei ferthyrdod: *Act.* vii. 56. *A'r llais cyntaf:*—y llais blaenorol; cyfeiriad at *pen.* i. 10. *Wedi ei agoryd:*—yn cael ei agoryd. Yr oedd Ioan yn ei weled yn cael ei agor:—nid wedi ei agor. Nid eiddo Crist oedd y llais, ond eiddo rhyw angel; felly hefyd yn *pen.* i. 10. Y mae Stier, fodd bynag, ar bwys y geiriau "A mi a ddangosaf i ti," &c., yn barnu mai Crist sydd yma yn llefaru. Ond dywed Alford fod geiriau ereill yn y llyfr yn milwrio yn gryf yn erbyn y dybiaeth; megys *pen.* xxi. 9, 10; xxii. 8, 9.

2. *Un yn eistedd:*—y Tad. Gwahaniaethir yr "Un" hwn, yn *pen.* vi. 16, oddi wrth y Mab; ac yn *adn.* 5 o'r bennod hon, oddi wrth yr Ysbryd. Yn y disgrifiad o'r orsedd, a'r hwn sydd yn eistedd arni, ceir cyfeiriad amlwg at y tabernacl a'r deml, a'r gwasanaeth oedd ynddynt.

3. *Iaspis a sardin.*—"Iaspis," neu iaspen, oedd faen gwerthfawr, amryliw; arwyddlun o burdeb perffaith a rhagoriaeth anghymmharol y natur ddwyfol. Careg goch oedd "sardin," o liw gwaed: yr oedd yn adnabyddus i'r Groegiaid yn Sardis, ond yr oedd sardin Babilon o fwy o werth. Ymddengys ei bod yma yn arwyddlun o gyfiawnder dialeddol. Y mae llawer iawn wedi ei ysgrifenu ar yr ystyr arwyddluniol; ond nid oes dim yn ymddangos i ni yn fwy tebygol na'r golygiadau uchod. *Enfys o amgylch yr orseddfaingc, yn debyg yr olwg arno i smaragdus.*—Yr un yw smaragdus a'r emerald, yr hwn sydd yn faen o liw gwyrdd tyner. Cynnwysai yr hynafiaid bob gem o'r lliw yma dan y gair 'smaragdus.' Gwel *Exod.* xxviii. 17—20; *Exec.* xxviii. 13; *Dad.* xxi. 19, 20. Y mae y dadguddiad a roddir o drugaredd Duw yn y cyfammod gras yn adfywio y galon, megys y mae y lliw gwyrdd yn hyfryd i'r llygad pan flinir ef gan gryfder lliwiau ereill. Y mae yr holl esbonwyr yn cydfarnu fod yr enfys yn arwyddlun o gyfammod grasol Duw, ac fod yma gyfeiriad at *Gen.* ix. 12—17. "Y mae dysgleirdeb gogoniant Duw, a thanbeidrwydd ei farn, yn cael eu hamgylchu yn wastadol gan fendithion a diogelwch ei ras a'i ddaioni."—*Alford.* Y mae y weledigaeth sylfaenol hon, ebe Dusterdieck, yn cynnwys yr oll ag a all wasanaethu i beri dychryn i elynion, a chysur i gyfeillion yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc. "Yn yr enfys sydd yn amgylchu yr orseddfaingc ddwyfol, yr oedd yr eglwys foreuol yn canfod arwyddlun o doster Duw, wedi ei gymmhlethu â'i gariad; cawodydd duon ei farnedigaethau, yn cael eu goreuro gan belydrau goleu ei drugaredd. Yr oedd y bŵa nefol yn llefaru wrthi am y diluw, am ddinystr y byd am bechod; ond yr oedd hefyd yn llefaru wrthi am dawelwch a thywyniad haul ar ol y dymmestl."—*Wordsworth.*

4. *Pedair gorseddfaingc ar hugain:*—gorseddfeingciau o faintioli llai, ac ar safle is. *Bedwar henuriad ar hugain.*—Pwy bynag a olygir wrth yr "henuriaid," y mae yn amlwg fod eu "dillad gwynion" yn dynodi eu cymmeriad offeiriadol, a'r "coronau aur" oedd ar eu penau, eu cymmeriad brenhinol. Nid oes fawr o sail dros dybied mai angylion oedd yr henuriaid. Y mae eu gwisgoedd a'u coronau yn profi yn wahanol, yn gymmaint ag yr edrychir yn y llyfr hwn ar y pethau hyny fel gwobrwyon ffyddlondeb trwy anhawsderau, a dyfal-barhâd yn ngwyneb gwrthwynebiadau. Gwel *pen.* iii. 5; ii. 10. Heblaw hyny, y mae yr henuriaid a'r angylion yn cael eu gwahaniaethu yn *pen.* v. 11. Tybia Elliot fod *pen.* v. 9 yn benderfynol ar y cwestiwn; a thybiwn ninnau felly, er fod Alford yn tafiu ammheuaeth ar y peth. Ond y mae yn amlwg fod y pedwar henuriad ar hugain yn canu y ganiad newydd i'r Oen, yn yr hon y moliannant ei fel yr hwn a'u "prynodd allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl." Ymddengys i ni fod Barnes yn gwneuthur rhai sylwadau rhagorol er profi mai cynnrychiolwyr rhyw ddosbarth ydyw y pedwar henuriad ar hugain; ond y mae yn llai hapus yn ei ymgais i ddangos pwy y maent yn eu cynnrychioli. Y mae bychander eu nifer yn dangos mai cynnrychioli rhyw ddosbarth y maent. Y maent yn ymyl gorsedd Duw, gyda'r "pedwar anifail," y rhai nid all fod ammheuaeth mai cynnrychiolwyr ydynt. Ymddengys hefyd mai dynion ydynt, a'u bod yn cynnrychioli y prynedigion o'r ddaear: *pen.* v. 9. Edrychir arnynt, yn mhellach, fel yn cynnrychioli yr eglwys yn mhob oes, yn mhob gwlad, ac allan o fysg pob cenedl: *pen.* v. 9. Ac y maent yn arddangos yr eglwys yn ei chyflwr gogoneddus a buddugoliaethus. Y mae y daioni a addewir "i'r hwn sydd yn gorchfygu," yn y

mewn dillad gwynion; ac yr oedd ganddynt ar eu penau goronau aur.

5 Ac yr oedd yn dyfod allan o'r orseddfainge fellt, a tharanau, [d] a lleisiau. Ac *yr oedd* [d] saith o lampau tân yn llosgi ger bron yr [e] orseddfainge, [e] y rhai yw saith ysbryd Duw.

[d] Exod. 27. 23; Ezec. 1. 13. [e] Dad 3. 1; 5. 6. Mat. 3. 11.

6 Ac o flaen yr orseddfainge *yr ydoedd* [f] môr o wydr, yn debyg i grystal: ac yn nghanol yr orseddfainge, ac yn nghylch yr orseddfainge, *yr oedd* pedwar anifail [g] yn llawn o lygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol.

[f] 1 Bren. 7. 23. [g] Ezec. 1. 18, 10. 12.

7 A'r anifail cyntaf *oedd* debyg i lew, a'r ail anifail yn debyg i

pennodau blaenorol, wedi ei gyrhaeddyd ganddynt hwy; o blegid gwisgir hwynt mewn dillad gwynion; eisteddant ar orseddfeingcian, ac y mae ganddynt goronau ar eu penau. Ond y mae golygiad Barnes, fod y nifer "pedwar ar hugain" yn meddu cyfeiriad at ddyddgylchoedd yr offeiriaid, y rhai oeddynt o'r un nifer, yn ymddangos i ni yn hollol ddisail, ac yn amddifadu yr arwyddlun o'r ystyr uchel a ddysgwyliasem ei gael ynddo. Y meddwl ydyw yr eiddo yr esboniwr boreuaf ar y llyfr—Victorinus: "y deuddeg apostol, a'r deuddeg patriarch." Dyma y golygiad a gymmeradwyir gan yr esbonwyr goreu. "Y maent yn cynnrychioli penaethiaid eglwysi yr Hen Destament a'r Newydd:—y deuddeg patriarch, nid yn eu cymmeriad personol, ond yn eu cymmeriad arwyddluniol (gwel *pen.* vii. 5—8); a'r deuddeg apostol."—*Brown.* Ceir amryw ymadroddion yn y llyfr hwn, ac mewn ysgrythyrau ereill, sydd yn cadarnhau y golygiad yma. Y mae yn cyfatteb i eiriau yr Iachawdwr yn *Mat.* xix. 28; *Luc* xxii. 30. Lleferir am yr eglwys fel yn cael ei gwneyd i fyny o seintiau yr Hen Destament a seintiau y Testament Newydd—" A chanu y maent gân Moses, a chân yr Oen;" *pen.* xv. 3. Y mae enw y deuddeg llwyth ar ddeuddeg porth yr Ierusalem newydd, ac enwau y deuddeg apostol ar ei deuddeg sylfaen.—*Alford*, a *Burton*. Y mae golygiad Webster a Wilkinson ychydig yn wahanol: sef, fod deuddeg o'r pedwar ar hugain cynnrychioli llwythau Israel, a'r deuddeg rall yr holl fyd Cenhedlig.

5. Yr oedd yn dyfod allan.—Yn hytrach, "y mae yn dyfod allan:"—yr amser presennol, nid y mynedol. Gosoda allan y tragwyddol bresennol sydd yn perthyn i'r hwn nad oes na mynedol na dyfodol iddo. *Fellt, a tharanau, a lleisiau:*—yn arwyddo "addysgiadau ei ddeddf, cefnogaeth ei addewidion, a rhybudd ei farnedigaethau." Yn debyg i arwyddion presennoldeb Iehofah yn rhoddiad y ddeddf (*Exod.* xix. 16); sef, arwyddion o arglwyddiaeth a hollalluogrwydd Duw.—*Alford.* "Y mae 'taranau' yn gosod allan fygythion Duw yn erbyn yr annuwiol: y mae 'lleisiau' yn y taranau yn dangos, nid yn unig ei fod yn bygwth yn gyffredinol, ond hefyd yn rhagfynegu barnedigaethau neilluol."—*Grotius. Saith o lampau*, &c.—Yr Ysbryd Glân yn holl amrywiaeth ei weithrediadau, fel y mae yn goleuo ac yn diddanu, yn gystal ag yn puro ac yn ysu. Y mae yr oll o'r weledigaeth yn meddu natur ddyblyg: y mae ynddi gysur a dychryn wedi eu cymmhlethu—tân cariad gyda thân barnedigaeth.—*Alford.*

6. Môr o wydr.—Yn dawel a thryloew fel grisial. Y rheswm dros chwanegu, "yn debyg i risial," yw fod *rock crystal* yn hynod dlws, ac yn dryloew; ond yr oedd y gwydr cyffredin heb fod felly. Y mae *Exod.* xxiv. 10, ac *Esec.* i. 22, yn cynnorthwyo i ddeall arwyddocâd yr olygfa. Cymmharer hefyd â *pen.* xvii. 1, y lle y dangosir

y buttain fawr yn eistedd ar "ddyfroedd lawer"—dyfroedd cynnhyrfus. Y mae y disgrifiad yma o'r lle y safai yr orseddfaingc arno yn dynodi purdeb, tawelwch, a mawrhydi arglwyddiaeth Duw. *Pedwar anifail.*—Cyfieithiad anhapus iawn; ond nid yn gymmaint felly a'r Saesneg—*beasts.* Buasai y gair a arferir yn Ezeciel "pethau byw" yn addas yma. *Yn llawn o lygaid.*—Yn arwyddo gwybodaeth, dochtineb, a rhagwelediad.

7. Y mae y *llew* yn arwyddlun o fawrfrydigrwydd a gwroldeb; *llo* neu ych, o ddianwadalwch, amynedd, dyfalbarhâd; *wyneb dyn*, o synwyr, cymmesuredd, a thosturi; *eryr yn ehedeg*, o dreiddgarwch i bethau dyfnion. Ond pwy a arddangosir yn yr arwyddlun yma? Y mae Alford yn nodi uwch law deg o wahanol olygiadau ar ystyr yr arwyddlun, a hawdd fyddai dyblu y nifer; ond diiudd fyddai gwneuthur hyny. Yr oedd yr esbonwyr boreuol, gan ddilyn Victorinus, yn barnu fod y pedwar peth byw yn arwyddluniau o'r pedwar efengylwr; ond gwahaniaethent ynghyich pa un oedd pob un. Yn ol Victorinus, Marc oedd y llew, Matthew oedd y dyn, Luc oedd yr ych, ac Ioan oedd yr eryr. Y mae Irenæus yn gwneyd Ioan i gyfatteb i'r llew, Matthew i ddyn, Marc i eryr. Yn ol Awstin, y llew oedd Matthew, y dyn oedd Marc, yr ych oedd Luc, a'r eryr oedd Ioan. Ond er fod y dull yma o esbonio yn nodedig am blentynrwydd, y mae amryw o esbonwyr hen a diweddar yn dilyn y tadau yn y golygiad hwn. Yn eu mysg, y mae Bede a Wordsworth. Y mae ereill yn golygu wrth y pedwar anifail, y pedair elfen; y pedwar prif rinwedd; pedwar gallu yr enaid dynol; y pedair prif eglwys, Ierusalem, Antiochia, Alexandria, a Caer Cystenyn. Gwel esboniad Alford ac Elliot. Cynnygir amryw o olygiadau ereill, teilyngach o sylw na'r rhai uchod. Er enghraifft, barna Elliot fod yr henuriaid a'r anifeiliaid ynghyd yn arddangos yr eglwys, neu holl gorph saint Duw—fod yr eglwys ogoneddus yn Mharadwys yn cael ei harddangos yn y cyntaf, yr henuriaid; a'r eglwys filwriaethus ar y ddaear yn yr olaf, yr anifeiliaid. Mede hefyd a ddywed fod yr anifeiliaid yn cynnrychioli yr eglwys sydd yn addoli ar y ddaear. Webster a Wilkinson, gweinidogion yr eglwys ar y ddaear; a'r un modd Vitringa. Golygiad Moses Stuart, yr hwn a ddilynir gan Barnes, ydyw mai priodoliaethau Duw a feddylir. Y mae geiriau yr olaf yn deilwng o'u dyfynu:—"Y mae yn amlwg mai dynolryw a olygir wrth yr henuriaid; y rhai, gan hyny, sydd yn cynnrychioli yr eglwys. Yn *pen.* v. 11, dygir yr angylion ger ein bron fel yn cymmeryd rhan arbenig yn ngwasanaeth y nef; felly mis gall y pethau byw, neu yr anifeiliaid, olygu dynion nac angylion. Yn Ezeciel, y maent yn cael eu bwriadu fel portreadau barddonol, naill ai o fawrhydi Duw, neu o'i lywodraeth ragluniaethol, gan ddangos beth sydd yn cynnal i fyny ei orsedd-

lo, a'r trydydd anifail oedd ganddo wyneb fel dyn, a'r pedwerydd anifail *oedd* debyg i eryr yn ehedeg.

8 A'r pedwar anifail oedd ganddynt, bob un o honynt, chwech o adenydd o'u hamgylch; ac *yr oeddynt* oddi fewn yn llawn llygaid: ac nid oeddynt yn gorphwys ddydd a nos, gan ddywedyd,

[a] Dad. 3. 7; Exod. 15. 11; Esa. 6. 3.
[b] Sanct, Sanct, Sanct, [i] Arglwydd Dduw Hollalluog, [k] yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod.

[i] Dad. 1. 8; 21. 22; Gen. 17. 1; Joel 1. 15; 2 Cor. 6. 18.
[k] Heb. 13. 8.

9 A phan fyddo yr anifeiliaid yn rhoddi gogoniant, ac anrhydedd, a diolch, i'r hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd,

10 Y mae y pedwar henuriaid ar hugain yn syrthio ger bron yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac yn addoli yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, ac yn bwrw eu coronau ger bron yr orseddfaingc, gan ddywedyd,

11 [l] Teilwng wyt, O Arglwydd! [m] i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu: [n] canys ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crewyd hwynt.

[l] 2 Sam. 2. 24; Salm 18. 3.
[m] Dad. 14. 7; Deut. 32. 4; Iob 36. 3; Salm 96. 7, 8.
[n] Gen. 1. 1; Esa. 40. 26, 28; Ioan 1. 1—3; Act. 17. 24; Heb. 1. 2 10.

PENNOD V.

1 *Y llyfr wedi ei selio â saith sêl; 9 yr hwn yr oedd yr Oen a laddesid, yn unig yn deilwng i'w agoryd.* 12 *Yr henuriaid o ran hyny yn ei foliannu ef, 9 ac yn cyfaddef mai efe a'u prynasai hwy â'i waed.*

AC mi a welais yn neheulaw yr hwn [a] oedd yn eistedd ar

[a] Dad. 4. 3.

B. A. 96.

faingc—arwyddluniau yn dynodi deall neu wybodaeth, gwyliadwriaeth, y cyflymdra a'r cyfeirioldeb gyda'r hwn y mae gorchymynion Duw yn cael eu gweinyddu, a'r nerth a'r dianwadalwch â pha rai y mae llywodraeth Duw yn cael ei dwyn yn mlaen." Tueddir ni, pa fodd bynag, i dderbyn y golygiad a gefnogir gan De Burgh, Alford, Brown, &c. Dywed yr olaf, y dangosir yn yr arwyddlun berthynas yr eglwys ar y ddaear â'r byd anifeilaidd, yn yr hwn y saif dyn yn ben ar yr holl greaduriaid, y llew yn frenin y bwystfilod, yr ych yn ben ar yr anifeiliaid dofion, a'r eryr yn frenin yr adar a chreaduriaid y dyfroedd: *Gen.* i. 20, 21. Dangosir, yn *pen.* v. 8—10, fod y pedwar anifail yn gydgyfranog â'r henuriaid yn mendithion cyfryngdod Crist. Megys y mae pechod wedi darostwng y creaduri oferedd, felly yr adferir ef o hono, ac y dyrchefir ef uwch law iddo, trwy y drefn sydd yn gwaredu oddi wrth bechod. Gwel *Esa.* xi. 6, 8; lxv. 25. Dyfyna Schöttgen [gwel Alford] frawddeg o'r Rabbiniaid sydd yn allwedd i'r geiriau: "Y mae pedwar yn dal y flaenoriaeth yn y byd hwn:—dyn yn mysg yr holl anifeiliaid; yr eryr yn mysg adar; yr ych yn mysg anifeiliaid dofion; a'r llew yn mysg gwylltfilod." Y mae y 'cerubiaid' yn Ezeciel, a'r 'anifeiliaid' yma, yn ol pob tebyg, yn gosod allan y greadigaeth fyw, deimladol, yr hon a ddisgrifir, gyda'r eglwys, yn talu gwarogaeth i'w Chreawdwr. Y mae hyn yn gysson âg *adn.* 11 yn y bennod, ac â'r disgrifiad o'r pethau byw fel yn llawn llygaid: y mae ganddynt chwe aden, fel y cerubiaid yn *Esa.* vi., y rhai a arwyddant barch, gostyngeiddrwydd, ufudd-dod, a pharodrwydd y pethau byw. Felly y mae gorsedd Duw yn cael ei chylchynu gan y pryngedigion, yr angylion, a'r greadigaeth—oll yn ei addoli, a'r un ufuddhau i'w orchymynion.

8—11. Yn *pen.* v. 11, rhoddir yr un mawl i'r Oen. Yr hyn a ddywedir am y Tad yma, a ddywedir am y Mab yno. Y mae y mawl hefyd yn debyg i'r mawl a roddir i'r Iehofah yn yr Hen Destament: 1 *Cron.* xxix. 10—13; *Salm* xxviii. 2, 3, 7—10. *A phan fyddo yr anifeiliaid.*—Y mae y ferf "fyddo" yn yr amser dyfodol, ac yn cynnwys y ddau syniad yma:—(1.) "Pan fyddo"—pa bryd bynag, pa mor aml bynag y byddo. (2.) Fod y gân hon yn gân barhaus, dragwyddol. Y pedwar anifail sydd yma yn cymeryd y blaen yn y mawl, a'r henuriaid yn ymuno â hwy. Mawl i'r Creawdwr yn ngwyneb yr amlygiad o'i allu yn ngwaith y greadigaeth ydyw y mawl yn y bennod hon. Yn y bennod nesaf, cyflwynir mawl iddo fel Prynwr. *Ac yn bwrw eu coronau:* — fel dangosiad o'u gwarogaeth. Rhoddion yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc ydyw eu coronau: a rhoddion grasol i rai yn ymwybodol o'u hannheilyngdod.

Pennod v.

1—14. Y LLYFR:—NEB YN DELLWNG I'W AGOR OND YR OEN: MAWL Y LLU NEFOL.

1. *Yn neheulaw.*—Groeg, 'ar ddeheulaw.' Yr oedd llaw ddeheu yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc yn agored; a'r llyfr yn gorwedd ar y llaw agored; yr hyn a ddangosai nad yd-oedd, ar du Dduw, ddim yn attal y dadguddiad o'i fwriadau fel y cynnwysid hwynt yn y llyfr. "Yr unig beth a luddiai agoriad y seliau oedd yr hyn a nodir yn *adn.* 3; sef, anallu holl greaduriaid Duw i agor y llyfr."—*Alford. Oddi fewn ac oddi allan.*—Yr oedd y rhôl wedi ei ysgrifenu ar y ddau du. Yr arferiad oedd ysgrifenu ar un tu yn unig. Pan ymadewid oddi wrth yr arferiad yma, yr achos fyddai prinder memrwn, neu gyflawnder mater. Y mae y ffaith fod y rhôl yn llawn ysgrifen, ar y ddau du, yn gosod allan gyflawnder ei chynnwysiad. Y mae y bwriadau dwyfol gyda golwg ar "y pethau a fydd ar ol hyn," i'w cael yn gyflawn ynddi. Nid oedd lle i chwanegu dim at yr hyn oedd eisoes wedi ei ysgrifenu. *Wedi ei selio â saith sél.*—Y golygiad cyffredin ar y dull yr oedd y rhol wedi ei selio, er nad yw yn cael ei egluro yn y geiriau, ydyw fod y seliau wedi eu dodi yn y fath fodd ar y llyfr fel yr oedd un sêl yn cau i fyny un adran o hono; a phan fyddai un sêl wedi ei thori, a'r rhan a gauesid ganddi wedi ei ddadblygu, byddai wedi hyny sêl arall, yr hon yr oedd raid ei thori mewn trefn i ddarllen yr adran nesaf. Er fod y sêl nesaf yn cau yr holl rol i fyny, etto, wedi agor hono, ni byddai ond y seithfed ran o'r rhol yn agored. Yn debyg yr ysgrifenu amryw o'r esbonwyr, ac yn eu plith Bede, Elliot, a Wordsworth. Dywed Wordsworth:—"Tuag at ddeall y weledigaeth, rhaid i ni ddychymygu am rôl o femrwn

yr orseddfaingc, lyfr wedi ei ysgrifenu oddi fewn ac oddi allan, wedi ei selio â saith sêl.

2 Ac mi a welais angel cryf yn cyhoeddi â llef uchel, Pwy sydd deilwng i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei seliau ef?

3 Ac nid oedd neb yn y nef, nac yn y ddaear, na than y ddaear, yn gallu agoryd y llyfr, nac edrych arno.

4 Ac mi a wylais lawer, o achos na chaed neb yn deilwng i agoryd, ac i ddarllen y llyfr, nac i edrych arno.

5 Ac un o'r henuriaid a ddy- [b] Gen. 49. 9, 10; Num. 24. 9; Heb. 7. 14.
wedodd wrthyf, Nac wyla; wele, [b] y Llew yr hwn sydd o lwyth

---

wedi ei dro-blygu o amgylch ffon. Y mae Ioan yn ei alw yn mlaen llaw yn rhôl 'wedi ei selio â saith sêl;' hyny ydyw, nid oedd yn gweled etto ond un sêl—y sêl nesaf allan. Nid oedd yn bossibl gweled fod iddo saith sêl, hyd oni chai ei ddadblygu. Yr oedd y seliau yn cael eu tori y naill ar ol y llall, fel yr oedd y rhôl yn cael ei ddadblygu mewn adranau gwahanol." Y mae Alford, fodd bynag, yn dadleu yn gryf mai un rôl a feddylir—"wedi ei selio â saith sêl" yn y fath fodd, fel yr oedd y saith yn weledig i'r apostol, ac fod yn rhaid tori y saith cyn fod dim o'r cynnwysiad yn wybyddus. Y mae llawer wedi ei ysgrifenu ar y cwestiwn, Pa beth a olygir wrth y llyfr? Y golygiad a ymddengys yn fwyaf tebygol ydyw, mai y Dadguddiad ei hun—y gweledigaethau yn *pen.* vi. ac hyd ddiwedd y llyfr, a feddylir. Cyfynga ereill yr ystyr i'r rhan o'r llyfr sydd yn rhoddi hanes agoriad y seliau: ond y mae y golygiad hwn, fel y sylwa Alford, yn ddiffygiol, yn gymmaint a bod agoriad y seithfed sêl yn dwyn allan ddigwyddiadau sydd yn ymestyn hyd ddiwedd y llyfr. Y mae ereill yn gwneuthur yr ystyr yn eangach, fel ag i gynnwys holl gynghorion y meddwl dwyfol gyda golwg ar ddyfodol yr eglwys:—bwriadau Duw ar ran yr eglwys a'r byd, o ddiwedd yr oes apostolaidd hyd ddiwedd amser, y rhai y mae eu gweinyddiad wedi ei ymddiried i'r Arglwydd Iesu. "Y mae y llyfr yn arwyddo hanes trallodion ac ymdrech yr eglwys, o ddyddiau Ioan hyd ddydd y farn."—*Wordsworth.* "Golyga ymdrechion, a buddugoliaeth ddyfodol yr eglwys." — *Bede.* Golygiad De Burgh ydyw, fod y llyfr yn arwyddlun "o hawl-weithred (*title deed*) etifeddiaeth dyn," wedi ei phrynu gan Grist; ac yn cynnwys y camrau olynol trwy ba rai y bydd iddo ef adennill yr etifeddiaeth oddi ar ei thrawsfeddiannydd, a chyrhaeddyd medduant gweithredol o'r deyrnas sydd eisoes wedi ei phwrcasu (*Eph.* i. 14) iddo ei hun ac i'w bobl etholedig. Ni ddywedir fod un rhan o'r rhôl wedi ei ddadblygu a'i ddarllen; ond yn unig fod y seliau yn cael eu dattod y naill ar ol y llall. Ond ni ddarllenir y cynnwysiad hyd oni bydd y digwyddiadau a arwyddoceir gan y seliau wedi myned heibio, pan y bydd *Eph.* iii. 10, wedi derbyn ei lwyr gyflawniad, ac y dadguddia y Mab gynlluniau rhagluniaethol Duw yn eu cyssylltiad â'r prynedigaeth yn eu holl brydferthion amrywiol. Nid oes neb yn deilwng i agoryd y llyfr ond yr Oen; o blegid efe, fel yr Oen a laddwyd, sydd wedi pwrcasu etifeddiaeth dyn, yr hon oedd wedi ei fforffetio. Y cwestiwn yw, nid fel y meddylir yn gyffredin, Pwy a fynega dynged yr eglwys? Gallesid gwneyd hyny trwy brophwyd ysbrydoledig. Ond y cwestiwn yw, Pwy sydd yn meddu y teilyngdod i roddi i ddyn hawl-weithred newydd yn yr etifeddiaeth a gollodd? Y mae y golygiad hwn, yn ddiau, yn deilwng o ystyriaeth; ond ymddengys y llall yn fwy cysson. Y mater mawr yn y pennodau hyn ydyw dadguddiad o'r hyn a ddigwydd ar ol hyn; ac y mae gwrthddadl De Burgh, y gallesid rhoddi y dadguddiad hwn trwy brophwyd, yn colli ei nerth pan feddyliom fod y teilyngdod i gymmeryd y llyfr ac i agoryd ei seliau yn golygu, nid yn unig y gallu i wybod a dadguddio y dyfodol, ond hefyd y gallu a'r doethineb oedd yn angenrheidiol i weinyddu holl gynnwysiad y llyfr; ac yn sicr nid yw y gallu i'r naill mwy na'r llall yn perthyn i neb ond i'r Oen.

2. *Angel cryf.*—Yr oedd yn rhaid ei gael yn gryf, gan fod eisieu i'w gyhoeddiad dreiddio trwy y greadigaeth. "Y mae Homer yn darlunio ei *heralds* fel dynion cryfion, mewn trefn i fod yn gysson wrth briodoli iddynt leisiau dwfndonaidd a grymus."—*Stuart.*

3. *Na than y ddaear.*—Yn *Hades:* dywedir hyn i wneyd y drychfeddwl o gyffredinoldrwydd yn gyflawn. Ceir yr un dosbarthiad yn *Phil.* ii. 10.

4. Wylai Ioan, am yr addawyd iddo (*pen.* iv. 1) y cai wybod "y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn;" ac ymddangosai iddo fod hyny yn anobeithiol, am na cheid neb yn deilwng i agor y llyfr. "Rhoddir esampl ragorol i ni gan Ioan, yr hwn sydd yn sefyll yma o'n blaen fel un awyddus a gostyngedig i ddysgu cynnwys y Dadguddiad."—*Bengel.*

5. "Dywed rhai," ebe Lyra, "mai Matthew yr efengylwr oedd yr henuriad hwn, yr hwn a ddywedodd yn mherson Crist, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." Barna Lyra ei hun mai Pedr ydoedd; yr hwn, cyn hyn, a ddioddefasai ferthyrdod, ac oedd y cyntaf yn mysg yr apostolion. Nid oes ammheuaeth, ebe Bengel, mai un o'r rhai a gyfodasant gyda Christ, ac a aethant i'r nef, ydoedd: *Mat.* xxvii. 52. Dywed Gerhard mai y patriarch Iacob oedd, am mai yn ei brophwydoliaeth ef y rhoddir yr enw 'llew' i Grist. Ond y mae y tybiau hyn oll yn groes i nodwedd y weledigaeth fel gweledigaeth. Nid oes un sail i feddwl mai personau neilldiol yn mysg y gwarediglon ydyw yr henuriaid. Nid un o'r angylion, ond un o'r henuriaid a anfonwyd i gysuro Ioan: y mae dyn yn cydymdeimlo yn fwy nag angel â dyn. Y mae yr eglwys ogoneddus yn y nef yn adnabod Crist a'i deyrnas yn well na'r uchaf yn yr eglwys filwriaethus ar y ddaear. *Y Llew:*—yn dynodi nerth a gwroldeb buddugoliaethus. *O lwyth Iudah.*—Crist yr addewid, wedi dyfod o blith brodyr y Gweledydd Ioan; yr oedd yn yr enw yma ddefnydd cysur i Ioan. Cyfeirir at *Gen.* xlix. 9. *Gwreiddyn Dafydd.*—Cyfeiriad, yn ol Alford ac ereill, at *Esa.* xi. 1, 10—y lle y gelwir Crist yn "wialen o gyff Iesse," ac yn "flaguryn yn tyfu o'i wraidd." Gwraidd-flaguryn, a chynnrychiolydd yr hen gyff. Tarddodd allan o'r hen foncyff cyn ei adfeiliad. Y mae ereill yn deall y gair yn yr ystyr a ymddengys yn fwyaf naturiol; sef, mai yr Iesu, yr hwn a ddaeth o had Dafydd, o ran y cnawd, oedd gwreiddyn Dafydd. Efe, fel Mab Duw, a

[c] Esa. 11. 1, 10; Rhuf. 1. 3; 15. 12.
[d] Dad. 6. 1.

Iudah, [c]Gwreiddyn Dafydd, [d]a orchfygodd i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei saith sêl ef.

6 Ac mi a edrychais; ac wele, yn nghanol yr orseddfaingc a'r pedwar anifail, ac yn nghanol yr henuriaid, *yr oedd* [e] Oen yn sefyll megys wedi ei ladd, a chanddo saith gorn, a saith lygad, y rhai ydyw saith Ysbryd Duw, wedi eu danfon allan i'r holl ddaear.

[e] Esa. 53. 7, 8; Ioan 1. 29, 36; Act. 8. 32.

7 Ac efe a ddaeth, ac a gymmerth y llyfr o ddeheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc.

8 A phan gymmerth efe y llyfr, y pedwar anifail a'r pedwar henuriad ar hugain a syrthiasant ger bron yr Oen; a chan bob un o honynt yr oedd telynau, a phïalau aur, yn llawn o arogldarth, y rhai ydyw [f] gweddïau y saint.

[f] Salm 141. 2.

9 A hwy a [g] ganasant ganiad newydd, gan ddywedyd, [h] Teilwng wyt ti i gymmeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef: [i] o blegid ti a laddwyd, [k] ac a'n prynaist ni i Dduw trwy dy waed, [l] allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl;

[g] Salm 33. 3; 40. 3; Esa. 42. 10.
[h] Dad. 2. 3.
[i] Dad. 13. 8.
[k] Mat. 26. 28; Act. 20. 28; Rhuf 3. 24—26; Eph. 1. 7; Heb. 9. 12—14.
[l] Dan. 4. 1; 6. 25; Marc 16. 15, 16.

10 Ac a'n gwnaethost ni i'n Duw ni, yn frenhinoedd, ac yn offeiriaid: ac ni a deyrnaswn ar y ddaear.

---

roddodd fod i Dafydd, a'i frenhiniaeth. Ceir y ddau syniad yn y geiriau "Arglwydd" a "Mab" Dafydd, yn *Mat.* xxii. 42—45. Ymddengys mai y cyntaf ydyw y meddwl yma. Fel y disgrifir ef wedi codi o lwyth Iudah yn y teitl cyntaf; felly hefyd y darlunir ef yn yr ail wedi codi o dylwyth Dafydd. Nid ar ei Ddiwdod y sylwir yma yn benaf, ond ar ei gyfryngdod, ac ar ei fuddugoliaeth trwy ddioddefiadau. *A orchfygodd.* — Llawer gwell cyfleithiad na'r Saesneg, *prevailed;* yn yr hwn y collir golwg ar fuddugoliaeth Crist. Buddugoliaeth Crist ar Galfaria sydd yn cyfansoddi ei deilyngdod i agoryd y llyfr. Gorchfygodd, fel ag i fod yn deilwng i agoryd y llyfr.

6. Wedi derbyn y newydd hyfryd, sychodd Ioan ei ddagrau, a chododd ei olygon eilwaith i fyny tua'r orseddfaingc. *Yn nghanol yr orseddfaingc.*—Nid ar yr orseddfaingc; o blegid ar ol hyn (*adn.* 7) yr esgynodd i fyny grisiau yr orseddfaingc—ond "yn nghanol" y cwmni oedd ger bron "yr orseddfaingc;" neu, gyferbyn â'i chanol, ar y môr o wydr, y mae yn debyg, ac yn agosach ati na'r henuriaid. *Oen.*—Yn y gwreiddiol, 'Oen bach:' ni cheir yr un gair am ein Harglwydd yn un man arall: ffurf arall sydd yn *Ioan* i. 29, 36; 1 *Pedr* i. 19; *Act.* viii. 32. Dichon mai y rheswm am y ffurf yma ydyw fod y drychfeddwl o addfwynder a diniweidrwydd yn cael ei ddwyn i fwy o arbenigrwydd.—*Alford.* Dynoda yr anwyldeb, a'r berthynas garuaidd rhwng Crist yn awr a'i bobl, fel canlyniad ei berthynas flaenorol fel Oen aberthawl.—*Brown.* Barna Bengel fod y gair yn y ffurf yma yn cynnwys y syniad o oen yn cymmeryd y blaen ar y ddeadell. Dywed ereill fod yr enw hwn, 'Oen bach,' yn ei osod mewn gwrthgyferbyniad mwy tarawiadol â'r bwystfil a ddygir ger ein bron wrth fyned rhagom. Nid oedd yr "Oen" yn farw:—dywedir ei fod yn "sefyll," etto yn dwyn nodau marwolaeth arno; yr oedd y clwyfau fel wedi eu gwneyd yn ddiweddar. *Saith gorn:*—ydynt arwyddlun cyffredin o allu: dynoda "saith" allu perffaith—gallu nad ydyw yn bossibl chwanegu ato. Gwel 1 *Sam.* ii. 10; *Salm* cxii. 9; *Dan.* vii. 1, 20, &c. "Y mae y rhif perffaith, 'saith,' yn dangos fod pob awdurdod wedi ei roddi iddo yn y nef ac ar y ddaear." Megys y mae y "saith" o lampau tân sydd yn llosgi ger bron yr orseddfaingc (*pen.* iv. 5) yn golygu yr Ysbryd fel y mae yn Nuw, felly y mae y "saith lygad" gan yr Oen, yn arwyddo yr un Ysbryd fel y mae yn dylifo allan o Grist, ac yn gweithredu trwy yr holl greadigaeth er amddiffyniad ac adeiladaeth i'r eglwys. Yn arddull y dwyreinwyr, y dull i ddangos perffeithrwydd peth oedd cymmhwyso ato y rhif saith:—dull ymadrodd wedi ei gymmeryd, fe allai, oddi wrth banes y greadigaeth, neu raniad amser i wythnosau, a'r parch cyntefig i'r Sabbath. Fel hyn y gosodir allan gyfyngder eithafol (*Iob* v. 19); puredigaeth cyflawn ar fetteloedd (*Salm* xii. 6); y drygioni eithaf (*Diar.* vi. 16; xxvi. 25); y cyrhaeddiadau uchaf mewn doethineb (*Diar.* xxvi. 16); perffeithrwydd rhagoriaeth doethineb (*Diar.* ix. 1); a hollwybodaeth Duw (*Zech.* iii. 9; iv. 2, 10: saith o lygaid, a saith lamp).

8. *Ger bron yr Oen:*—yr hwn sydd yn awr yn gydgyfranog â'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc o anrhydedd ac addoliad y llu nefol. *A chan bob un.*—Y mae arwyddocâd yr arwyddluniau yn ein tueddu i feddwl fod hyn i'w gyfyngu i'r henuriaid. Os cynnrychioli y greadigaeth fyw y mae y pedwar anifail, nid ydyw yn gysson meddwl eu bod hwy yn cyflwyno mawl a gweddïau yr eglwys. Dylid crybwyll fod yr esbonwyr sydd yn dal fod y pedwar anifail, yn gystal a'r henuriaid, yn arddangos yr eglwys, yn ystyried yr adnod hon yn cefnogi y golygiad hwnw. *Phialau aur.*—Nid ydyw y gair 'phiol' gyda ni yn cyfleu ystyr y gwreiddiol. Arwydda 'phiol' math o botel fechan gyda gwddf cul. Yma, thuser a olygir (*bowl or goblet*); llestr mwy llydan ac agored, na dwfn. Dengys *Salm* cxl. 2—"Cyfeirier fy ngweddi ger dy iron fel arogldarth"—fod yr ystyr yma i'r arwyddlun yn ngwasanaeth y demi. Y mae "telynau" yn arwyddo mawl, a "phialau," weddïau y saint. Nid oes yma y sail leiaf dros dybied fod y saint mewn gogoniant yn eiriol dros yr eglwys ar y ddaear. Nid cyfryngwyr ydyw yr henuriaid, ond cynnrychiolwyr.

9, 10. *Ganiad newydd.*—Y mae y gair gwreiddiol a gyfleithir "newydd," yn dynodi rhagorol, perffaith.—*Schleusner.* Geilw y Beibl bethau yn newyddion, am eu bod yn wahanol o ran math, a rhagorach mewn gwerth, na phethau ereill, er nad ydynt bob amser yn fwy diweddar mewn gwneuthuriad. Felly y mae y gorchymyn newydd i garu ein gilydd (1 *Ioan* ii. 7, 8) wedi ei adnewyddu trwy resymau mwy cedyrn. Yr oedd y gân hon yn newydd ar gyfrif ei hachlysur a'i chyfansoddiad. "Yr oedd yr achlysur yn newydd. Yr oedd yr arddangosiad o deilyngdod yr Oen yn galw allan eiriau newyddion, yn codi o feddyliau newyddion."—*Alford.* Yn lle "can-

11 Ac mi a edrychais, ac a
[m] 2 Bren. 6. 16–18; Salm 103. 20; 148. 2. glywais lais [m] angylion lawer yn nghylch yr orseddfaingc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid: a'u rhifedi
[n] Deut. 33. 2; Salm 68. 17; Dan. 7. 10; Heb. 12. 22. oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd;
[o] Zech. 13. 7. 12 Yn dywedyd â llef uchel, • Teilwng yw yr Oen, yr hwn a
[p] Mat. 28. 18; Ioan 3. 35; 17. 2; 2 Cor. 8. 9. laddwyd, [p] i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a
[q] 1 Cron. 29. 11; Salm 72. 18, 19; Mat. 6. 13; Rhuf. 11. 36; Eph. 3. 21; Judas 25. bendith.
[r] Dad. 4. 2, 3. 13 A phob creadur a'r sydd yn y nef, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r pethau sydd yn y môr, ac oll a'r sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, [q] I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, [r] ac i'r Oen, *y byddo* [s] y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd.

[s] Dad. 7. 10.

14 A'r pedwar anifail a ddywedasant, Amen. A'r pedwar henuriad ar hugain a syrthiasant i lawr, ac a addolasant yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

PENNOD VI.

1 *Agoryd y seliau, y n ill ar ol y llall: a pha beth a ddigwyddodd ar hyny: yr hyn sydd yn cynnwys prophwydoliaeth hyd ddiwedd y byd.* B. A. 96.

AC mi a welais [a] pan agorodd [b] yr Oen un o'r seliau, ac mi a glywais un o'r pedwar anifail yn dywedyd, fel trwst taran, Tyred, a gwel.

[a] Dad. 5. 5—7.

---

asant," dylid darllen, 'a chanu y maent ganiad newydd:'—y presennol, nid y mynedol; yn cyfleu y drychfeddwl mai dyma eu gorchwyl parhaus: dechreuasant ei chanu, ac y maent o hyd yn ei chanu. Y mae rhai llaw-ysgrifau yn darllen yn wahanol mewn dau beth oddi wrth yr hyn yw y testyn yn Gymraeg. Yn lle "a'n prynaist ni," &c., darllenant, "ac a brynaist i Dduw trwy dy waed, allan o bob llwyth, &c., ac a'u gwnaethost hwy yn frenhiniaeth ac offeiriaid," &c. Gadewir allan "ni," ac "i'n Duw ni;" ac yn lle 'brenhinoedd,' darllenir 'brenhiniaeth.' Nid yw yr henuriaid yn galw y saint, o'r rhai y maent hwy yn gynnrychiolwyr, yn frenhinoedd, pan yn sefyll yn ngŵydd Duw, y Brenin Tragwyddol:—boddlonant ar yr enw 'teyrnas,' neu 'frenhiniaeth.' Os yw y darlleniad uchod yn gywir, fel y mae amryw o'r prif feirniaid yn tueddu i feddwl, nid oes yma felly un sail dros ystyried y pedwar anifail fel cynnrychiolwyr yr eglwys. Y mae y pedwar gair, "llwyth, iaith, pobl, a chenedl," yn dynodi cangder a chyffredinolrwydd. *Ni a deyrnaswn ar y ddaear.*—Esbonir hyn gan rai fel yn golygu teyrnasiad personol, gweledig, Crist, a'i saint gydag ef, ar y ddaear. Ond nid ydym yn gweled fod un rheswm am ddeall yr amser presennol (*and they reign* [*Alford*]:—nid *shall reign*—"ni a deyrnaswn"—ond "teyrnasu y maent") am yr amser dyfodol. Y mae y saint yn awr yn teyrnasu. Lleferir yn wastad am yr eglwys fel corph dirgeledig Crist. Y mae y fath undeb rhyngddi a'i phen ag sydd yn peri fod llawer o bethau sydd yn perthyn yn arbenig iddo ef yn cael eu dywedyd yr un modd am dani hi: 1 *Pedr* ii. 9; *Dad.* i. 5, 6; xii. 1. "Y mae yr oll o'r weledigaeth hon yn bresennol—nid yn ddyfodol. Lleferir am y byd a'r eglwys megys y maent yn bod yn awr. Y mae yr eglwys yn bresennol yn teyrnasu yn Nghrist, ei phen: y mae pob peth wedi ei ddarostwng dan ei draed ef."—*Alford.* Os priodol yw galw y saint yn y byd hwn yn frenhinoedd, y mae yr un mor briodol dywedyd eu bod yma yn teyrnasu.

11. Nid yn unig y mae "yr angylion lawer" yn nghylch yr orseddfaingc, ond hefyd yn nghylch y pedwar anifail a'r henuriaid. Eistedda yr henuriaid — cynnrychiolwyr y prynedigion—ar orseddau o flaen yr orseddfaingc; ac mewn cylch y tu allan iddynt y saif yr angylion.

12. *I ddderbyn.*—Nid yw y cyfryw gyfiwyniad o fawl i'w ddeall fel yn arddodi y priodoleddau ar y gwrthddrych, ond fel dadganiad o'u bod eisoes yn trigo ynddo, ac i'w cydnabod felly gyda'r amlygiadau priodol o ddiolchgarwch a chariad. Nodir yma saith o berffeithiau yn yr Oen, i arwyddo nas gall ei ragoriaethau fod yn fwy mewn nifer, nac yn uwch mewn graddau. Arferai yr Iuddewon, yn eu defosiynau mwyaf difrifol, enwi perffeithiau y Duwdod, ynghyd â'r amlygiadau mwyaf nodedig o honynt. A thystiolaetha y Rabbiniaid yr ystyrient yn beth rhagorol yn yr addolydd nodi saith o honynt. Y mae Dr. Pye Smith, yn ei "*Testimony to the Messiah*," yn gwahaniaethu y perffeithiau hyn fel y canlyn:—*Gallu*:—modd i weithio allan holl fwriadau cyflawnder a doethineb. *Cadernid*:—gallu yn cael ei ddangos mewn gweithred. *Cyfoeth*:—cyflawnder o bob daioni; y meddiant o bob moddion i'w wneuthur yn ddedwydd. *Doethineb*:—y cymmhwysiad ymarferol o wybodaeth, mewn undeb â sancteiddrwydd a gallu, yn nhrefniad a chyflëad pob creadur a phob amgylchiad i gyrhaedd yr amcanion goreu. *Anrhydedd*:—rhagoriaeth cynnwynol (*intrinsic*) y perffeithrwydd uchaf. *Gogoniant*:—yr amlygiad i'r greadigaeth resymol o'r rhagoriaeth uchaf yn mhob prydferthwch a mawredd moesol. *Bendith*:—cyfiwyniad o fawl a diolch oddi wrth yr holl fodau sanctaidd a dedwydd.

13. Nodir yma etto bedwar o'r un perffeithiau, y rhai a briodolir i'r Oen mewn undeb â'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc.

Pennod VI.

1—17. Agoriad chwech o'r seliau.

1. *Un o'r pedwar anifail.*—Y cyntaf o honynt, "yr hwn oedd debyg i lew" (*pen.* iv. 7); yr oedd ei lais, yr hwn oedd fel trwst taran, yn gyfryw ag a allesid ei ddisgwyl oddi wrtho ef, yn hytrach nag un o'r lleill. Y mae yr esbonwyr sydd yn deall yr arwyddlun canlynol am gyhoeddiad yr efengyl gan yr eglwys, yn barnu y dangosir yma yr eofndra llewaidd gyda pha un y dygai y dysgyblaeth am Grist ger bron y byd. *Tyred a gwel.*—Dywedir hyn ar agoriad pob un o'r pedair sêl cyntaf gan bob un o'r pedwar anifail. Rhoddir y golygiadau mwyaf gwahanol ar y gwahoddiad hwn. Ymddengys i ni mai golygiad Grotius yw y mwyaf tebygol; sef, nad yw yn ddim chwaneg na galwad ar Ioan i roddi y sylw a'r ystyriaeth fwyaf astud i'r pethau a ddangosid iddo. Y mae Alford, Brown, &c., yn dadleu yn erbyn hyn, am

[b] Salm 45. 3—5. [c] Zech. 6. 11—13; Mat. 23. 18. [d] Salm 98. 1; 1 Cor. 15. 25, 55—57.

2 Ac mi a welais; ac wele farch gwyn: [b] a'r hwn oedd yn eistedd arno, â bwa ganddo; [c] a rhoddwyd iddo goron: [d] ac efe a aeth allan yn gorchfygu, ac i orchfygu.

3 A phan agorodd efe yr ail sêl, mi a glywais yr ail anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel.

[e] Exod. 9. 16. 17; Esa. 37. 36, 37; Ezec. 29. 18; Ioan 19. 11.

4 Ac fe aeth allan farch arall, *un* coch: [e] a'r hwn oedd yn eistedd arno, y rhoddwyd iddo gymeryd heddwch oddi ar y ddaear, fod y gair "tyred" yn rhoddi ar ddeall y disgwylid i Ioan symmud o'r fan y safai, a myned yn agosach i'r orseddfaingc. "I ba le yr oedd Ioan i fyned?—gan ei fod yn cael ei wahanu oddi wrth yr orseddfaingc gan y môr gwydr, y gelwid arno i'w groesi?"—*Alford.* Nis gallwn gydsynio â'r golygiad mai cri y prynedigion ar y Prynwr ydyw y geiriau;—'Tyred, a rhyddhâ y creadur sydd yn ocheneidio yn y dwys deimlad o'r oferedd y darostyngwyd ef iddo, oddi wrth gaethiwed llygredigaeth;' a llawer llai â'r golygiad a gefnogir gan y sawl a ddeallant y pethau byw fel yn arwyddocau y Pedair Efengyl, y rhai sydd yn gwahodd pawb i dderbyn yr iachawdwriaeth yn yr amser cymmeradwy, yn gymmaint a bod agoriad y seliau yn dwyn y diwedd yn agosach. "Os ydym i olygu fod y pethau byw yn gosod allan y weinidogaeth Gristionogol, gallwn ddyweyd y portreadir yma ei gorchwyl pwysig o wahodd dynion i dalu sylw i ddadguddiad y gair ysgrifenedig, ac i weithrediadau rhagluniaeth ddwyfol yn hanes y byd."—*Webster,* a *Wilkinson.* Yn ol y golygiadau uchod, Crist, neu ddynolryw, ydyw gwrthddrych y gwahoddiad:—erfyniad taer y saint ar Ben yr eglwys i gyfryngu ar ran yr eglwys, neu wahoddiad diffrifol yr efengyl ar ddyn. Ond y mae yn amlwg mai Ioan a gyferchir. Ymddengys i ni fod y geiriau eu hunain yn dangos hyny:—"Tyred a gwel. Ac mi a welais."

2. Cymmharer â gweledigaeth y "meirch" yn y bennod hon, y weledigaeth gyffelyb yn *Zech.* i. 8—11; vi. 1—8. *Mi a welais.* — Tybia rhai iddo weled yr arwyddluniau a ddisgrifir ar y llyfr eilhun. Mwy tebyg o lawer ydyw iddo, ar yr achlysur o agoriad y seliau, ganfod, oddi ar ryw safle fanteisiol y gwahoddwyd ef iddo ("Tyred"), y golygfeydd yn myned heibio o flaen ei lygaid. Nid argraphedig oeddynt ar y llyfr: pe felly, nis gallasai eu gweled; nid oedd y llyfr ond bychan, nid oedd yntau yn ddigon agos i'r orseddfaingc i allu deall yr hyn oedd arno; ac nid oes un awgrym yn y disgrifiad fod dim ond ysgrifen ar y llyfr. Heb law hyny, rhagorfraint yr Oen yn unig oedd darllen y llyfr, yn gystal ag agoryd ei seliau. Gweled y golygfeydd yr oedd Ioan mewn lle. Sicrheir hyn yn mhellach gan y ffaith ei fod yn gweled actau, yn gystal a phethau. Nid golygfa lonydd oedd: "rhoddwyd iddo goron; ac efe a aeth allan," &c.—geiriau sydd yn rhoddi ar ddeall fod yr hyn a welai Ioan, nid yn arwyddluniau meirwon ar femrwn, ond yn ymddangosiadau byw o flaen ei lygaid. Ac y mae yn sicr nas gallasai y pethau a ddisgrifir ar agoriad y bummed sêl, a'r seliau dilynol, gael eu harddangos ar femrwn. *Goron:*—nid "coron" y brenin (*diadem*), ond garlant y gorchfygwr. Arwyddlun o fuddugoliaeth hefyd ydyw, "y march gwyn." O herwydd y defnyddiad o feirch mewn rhyfeloedd, at yr hyn y ceir cyfeiriadau aml yn y Beibl, ac mewn ysgrifenwyr cyffredin, daeth y march i gael ei gyfrif fel arwyddlun o fuddugoliaeth, fel yr oedd yr ych o amaethyddiaeth. Ceir y geiriau canlynol yn Justinian, gyda golwg ar sylfaeniad Carthage: "Wrth osod sylfeini y ddinas, cafwyd pen ych; yr hwn a ystyrid fel arwyddlun o dir ffrwythlawn, ac hefyd o'r angenrheidrwydd am lafur, ac o ymddibyniad; ac ar y cyfrif hwn, symmudwyd y ddinas i le arall. Yna cafwyd pen march, a chyfrifwyd hyn fel coel hapus y byddai y ddinas yn rhyfelgar a llwyddiannus." Yr oedd y march hefyd yn arwyddlun o gyflymdra a nerth: *Ioel* ii. 4; *Ier.* iv. 13; *Salm* cxlvii. 10. Wrth ei gyssylltu â march, y mae yn amlwg mai arwyddo buddugoliaeth y mae "gwyn." Eisteddai y gorchfygwr Rhufeinaidd mewn cerbyd, yn cael ei dynu gan bedwar o feirch gwynion. Y mae y rhai sydd yn esbonio y weledigaeth hon am lwyddiant gweinidogaeth yr efengyl yn barnu fod 'gwyn' yn gosod allan natur heddychlawn ei buddugoliaethau hi. Obarth i ystyr yr arwyddlun, gellid dyweyd fod braidd cynnifer o olygiadau arno ag sydd o ysgrifenwyr. Y mae cywirdeb amryw o'r golygiadau yn cael ei benderfynu gan y tybiau am amser cyfansoddiad y llyfr. Er enghraifft, y mae yr holl bennod, yr holl seliau, ynghyd â'r digwyddiadau yn y pennodau canlynol, hyd *pen.* xi, yn cael eu hesbonio gan amryw am ddinystr Ierusalem, ac anrheithiad Iudea, gan y Rhufeiniaid; ac yn fwyaf neilduol dinystr yr Iuddewon hyny a gymmerasant fwyaf o ran yn erlidigaeth yr eglwys Gristionogol. Y mae yr esboniad hwn yn gorphwys ar y dybiaeth fod y Dadguddiad wedi ei roddi yn flaenorol i ddinystr Ierusalem; ond gan fod y dybiaeth hon wedi ei phrofi yn ddisail, y mae yr esboniad yn syrthio i'r llawr. Golygiad y rhai sydd yn sefydlu cyfansoddiad y llyfr o ddeutu B. A. 96, yn amser Domitian, ydyw, fod y weledigaeth yn cyfeirio at ddigwyddiadau yn ymherodraeth Rhufain ar ol y ganrif gyntaf. Hwn a gefnogir gan Mede, Elliot, a lliaws o'r esbonwyr. Y mae eglurhâd Elliot yn ei *Horæ Apocalypticæ,* i'r hwn yr ydym yn cydnabod ein dyled yn nghyfansoddiad y nodiadau hyn, yn ymddangos i ni yn drachyflawn, ac yn fwy tebygol nag un golygiad arall. Ni a roddwn yma grynodeb o hono:—Nodweddir y pedair sêl cyntaf gan yr arwyddlun o farch, yr hwn sydd yn arddangos un gwrthddrych. Y gwrthddrych hwn ydyw—nid yr eglwys Gristionogol, dan reolaeth Crist; ond cenedl, neu ymherodraeth. Yr ymherodraeth hon ydyw yr un Rufeinig, yr hon a gymmerodd y march fel ei harwyddluu cenedlaethol, megys y cymmerodd Persia yr hwrdd, a Macedonia yr afr. Yr oedd llun march ar fanerau ac arian yr ymherodraeth. Y mae y gwahanol liwiau, yn y gwahanol weledigaethau, yn cyfeirio at natur wahanol y digwyddiadau a gymmerasant le yn yr ymherodraeth; ac arwydda y marchogion y prif offerynoliaeth, neu y prif bersonau yn y digwyddiadau hyny, megys yr ymherawdwyr, &c.; ac y mae y goron, y bŵa, y cleddyf mawr, a'r clorian, yn gwasanaethu yn fwy neilduol er dangos pwy oedd yr offerynau, ac ar ba adegau yr oeddynt yn byw. Wrth esbonio lliwiau y meirch, yn unol â'r ystyr a roddid iddynt gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, bernir eu bod i'w deall fel y canlyn:—y gwyn, cyflwr o uchafiaeth, llwyddiant, a hap-

fel y lladdent eu gilydd: a rhoddwyd iddo ef gleddyf mawr.

[t] Dad. 4. 6,7. 5 A phan [t]agorodd efe y drydedd sêl, mi a glywais y trydydd anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel. Ac mi a welais; ac wele usrwydd cenhedlaethol; y coch, rhyfel cartrefol gwaedlyd; y du, prinder a newyn; y gwelwlas, marwolaethau mawrion drwy y cleddyf, newyn, heintiau, gwyllt filod, a moddion ereill, fel ag i gyfatteb i liw y march, yr hwn a ymddangosai yn nhranc marwolaeth. Oddi ar benderfynu ystyron yr arwyddluniau fel hyn, bernir y dylid ymofyn am gyfnodau olynol o lwyddiant, rhyfel cartrefol, newyn, a marwolaeth, yn hanes ymherodraeth Rhufain: y cyfnod cyntaf i ddechreu ar fyrder, yn unol â geiriau yr angel yn *pen.* iv. 1. Yn awr, wrth droi at hanes yr ymherodraeth, yr ydym yn dyfod o hyd i gyfattebrwydd o'r fath. Y mae Elliott yn gwneuthur llawer o ddefnydd o waith Gibbon ar yr ymherodraeth; ac y mae yn hysbys fod yr hanesydd hwn heb un amcan, wrth ysgrifenu, o ddwyn dim i'r golau a fyddai yn fantais i Gristionogaeth. Y mae Gibbon yn nodi pedwar cyfnod yn hanes yr ymherodraeth, y rhai sydd yn cyttuno yn y modd mwyaf tarawiadol â'r bennod hon, wrth ei hegluro yn y dull crybwylledig. Y cyfnod cyntaf oedd yn un o uchafiaeth, heddwch, a llwyddiant nodedig: a dywed yr hanesydd na welsid ei gyffelyb erioed yn hanes dynolryw. Dechreuodd yn amser esgyniad Nerva i'r orsedd—yr hyn a gymmerodd le yn mhen blwyddyn ar ol rhoddi gweledigaethau y llyfr hwn i Ioan yn Patmos—a pharhaodd am bedwar ugain mlynedd, hyd farwolaeth Antonine yr ail. Dechreuodd yr ail gyfnod, yr hwn a hynodid gan derfysgoedd a thywallt gwaed, yn llofruddiad mab ac olynydd Antonine, Commodus, tua diwedd yr ail ganrif, ac a gyrhaeddodd yn mhell i'r amserau a osodir allan yn y ddwy sêl nesaf. Y trydydd oedd yn gyfnod o ormes mawr, yr hwn a dlodai y deilliaid, ac a'u darostyngai i iselder dwfn. Achosid hyn gan ddeddf ymherodrol o natur gaethiwus, yr hon oedd yn un prif achos o adfeiliad yr ymherodraeth. Dechreuodd y pedwerydd yn mhen ugain mlynedd ar ol y trydydd; yr hwn a hynodid gan amlder marwolaethau—y cyfryw na welwyd ei debyg mewn un oes. Yr oedd gan yr ymherawdwyr ddylanwad mawr er dwyn yr ymherodraeth i'r cyfyrau hyn. Yr oedd ymherawdwyr y cyfnod cyntaf yn llywodraethwyr doeth a da: llywodraethwyr yr ail gyfnod yn ymddibynu ar allu milwrol. Dywed Sismondi, gyda golwg ar y cyfnod hwn, fod heddwch a llwyddiant wedi difianu o'r ymherodraeth ar farwolaeth Commodus—fod deuddeg a phedwar ugain o flynyddoedd o gynnhyrfiadau cartrefol dibaid wedi dysgu y byd pa mor ansicr oedd y sylfaen ag yr adeiladwyd hapusrwydd yr hymherodraeth arni gan rinweddau yr Antonines—ac fod, yn ystod y blynyddoedd hyn, gynnifer a deuddeg ar hugain o ymherawdwyr, a saith ar hugain o drawsfeddianwyr wedi bwrw eu gilydd, y naill ar ol y llall, oddi ar yr orsedd trwy ryfeloedd diorphwys. Drachefn, yr oedd llywodraethwyr y trydydd cyfnod yn rhai hynod am eu gormes. Gosodent feichiau trymion ar y bobl, y rhai a ddihoenent danynt. Y mae yr adroddiad canlynol, allan o un o weithiau Lactantius, yr hwn oedd yn Rhufeinwr, yn rhoddi golwg ar sefyllfa pethau yn farch du: a'r hwn oedd yn eistedd arno, â chlorian ganddo yn ei law.

6 Ac mi a glywais lais yn nghanol y pedwar anifail, yn dywedyd, Mesur o wenith er ceinamser Galerius, yr hwn oedd yn teyrnasu yn y cyfnod hwn:—"Anfonid heidiau o ofynwyr i'r taleithiau a'r dinasoedd, y rhai yr oedd eu presennoldeb yn eu llanw â chynnwrf a dychryn, fel pe buasai gelyn buddugol yn eu harwain i gaethiwed. Yr oedd y meusydd yn cael eu mesur, y coedydd a'r gwinwydd, a'r minteioedd anifeiliaid yn cael eu cyfrif, ac archwiliad yn cael ei wneuthur ar y dynion. Llenwid yr heolydd gan deuluoedd, a gorfodid pob pen teulu i ymddangos, a'i deulu gydag ef....Ni dderbynid oedran nac afiechyd fel esgus dros beidio ymddangos. Dygid yr afiach a'r eiddil i le y cofrestriad, gwneid nodiad o oedran pob un, chwanegid blwyddi at oedran y rhai ieuainge, a thynid rhai oddi wrth oedran yr hen, i'r dyben o'u gosod dan dreth drymach nag a ofynai y gyfraith. Yr oedd yr holl olygfa yn llawn o brudd-der a gofid. Yn y cyfamser, yr oedd personau yn meirw, a'r anifeiliaid yn lleihau mewn nifer, etto yr oedd y dreth yn cael ei chodi ar ran y meirw; yr oedd y marw fel y byw yn cael ei drethu. Nid oedd neb ond begeriaid yn cael bod yn rhydd: nid oedd ganddynt hwy ddim ag y gallesid ei wasgu oddi wrthynt, gan fod trueni wedi eu gwneuthur yn gyfryw nas gallesid eu darostwng yn is. Ond cymmerai yr ymherawdwr arno dosturio wrthynt; a rhag y byddai iddynt ddioddef eisieu, gorchymynid eu casglu ynghyd, a'u dwyn ymaitb mewn llongau, a'u bwrw oll i'r môr." Chwanegs Barnes ar y sefyllfa hon:—"Y mae y ffeithiau crybwylledig mewn perthynas i lymder y trethiad, a natur greulawn y gyfraith i godi y dreth, am ffynnonellau y cyllid a gesglid o'r taleithiau, a'r gofal a ddangosid na byddai i un ffynnonell gael ei lleihau, ac am y gallu oedd gan y pethau hyn i hyrwyddo adfeiliad a chwymp yr ymherodraeth, mor gymmhwysadwy at yr arwyddlun a ddefnyddir yma, fel os meddylir ei fod wedi ei fwriadu i gyfeirio atynt, nas gallesid defnyddio arwyddlun mwy naturiol a phriodol yn mhob peth. Pe meddylid fod yr hanesydd yn bwriadu rhoddi adroddiad o gyflawniad y brophwydoliaeth, prin y gellir meddwl pa fodd y gwnaethai ymchwiliad a gyfattebai yn well i'r arwyddlun." Gyda golwg ar y pedwerydd cyfnod, yr oedd yn cyfatteb i'r manylrwydd mwyaf i'r hyn a osodir allan yn y pedwerydd arwyddlun: *adn.* 8. Rhoddwyd i farchog y march gwelwlas "awdurdod i ladd â chleddyf, ac a newyn, ac â marwolaeth, ac â bwystfilod y ddaear." Ceir y ffeithiau canlynol yn ngwaith Gibbon, a haneswyr ereill. Y pryd hwn yr ymosododd y Gothiaid y waith gyntaf ar yr ymherodraeth. Yr oedd holl amser teyrnasiad Valerian a Gallienus yn un gyfres ddiseibiant o annhrefn a thrychineb. Yr oedd yr ymherodraeth ar yr un amser, ac o bob cyfeiriad, yn wrthddrych ymosodiad oddi wrth gynddaredd dall gelynion oddi allan, a thrawsfeddiannwyr oddi mewn. Rhwng y ddau allu cafodd yr ymherodraeth ei dadgymalu, a'i darostwng i'r sefyllfa isaf o waradwydd a thrueni: yr oedd wedi syrthio mor isel, fel yr ymddangosai ei hadferiad byth yn ammhossibl. Dywed Gibbon, wrth ddisgrifio gwarchae Philippolis,

iog, a thri mesur o haidd er ceiniog; a'r olew a'r gwin, na wna niwed iddynt.

Adn. 1, 5. 7 A [g]phan agorodd efe y bedwaredd sêl, mi a glywais lais y pedwerydd anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel.

[h] Esa. 25. 8; Hos. 13. 14; 1 Cor. 15. 55. [i] Dad. 9. 15, 18; 12. 4. [k] Lef. 26. 22—33; Ier. 15. 23; Ezec. 5. 15—17.

8 Ac mi a edrychais; ac wele farch gwelwlas: ac enw yr hwn oedd yn eistedd arno [h]oedd Marwolaeth; ac yr oedd uffern yn canlyn gydag ef. A rhoddwyd iddynt [i]ar y bedwaredd ran o'r ddaear, [k]i ladd â chleddyf, ac â newyn, ac â marwolaeth, ac â bwystfilod y ddaear.

[l] Lef. 4. 7; Phil. 2. 17.

9 A phan agorodd efe y bummed sêl, [l]mi a welais dan yr allor eneidiau y rhai a laddesid am air Duw, ac am y dystiolaeth oedd ganddynt.

[m] Esa. 61. 2; Luc 21. 22; Rhuf. 12. 19; 2 Thes. 1. 6—8.

10 A hwy a lefasant â llef uchel, gan ddywedyd, Pa hyd, Arglwydd, sanctaidd a chywir, [m]nad ydwyt yn barnu, ac yn dial ein gwaed ni ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear?

11 A gynau gwynion a roed i

fod can mil wedi eu lladd yn y ddinas hono. Yr oedd y dinystr trwy newyn yn llawn cymmaint a'r dinystr trwy y cleddyf. Yr oedd y newyn yn ymledu yn gyffredinol dros yr ymherodraeth, ac yn parhau am amser maith. Ac y mae heintiau yn wastad yn dilyn drudaniaeth a phrinder ymborth. O'r flwyddyn 260 hyd 265, yr oedd pla arswydus yn dinystrio yn mhob talaeth, yn mhob dinas, ac yn mhob teulu yn yr ymherodraeth. Dros ryw ysbaid o amser, cyfrifid fod pum mil yn marw bob dydd yn Rhufain; ac yr oedd llawer o ddinasoedd a ddiangasant rhag cleddyf y barbariaid yn cael eu llwyr ddiboblogi gan y pla. Nid yw Gibbon yn sôn am yr anrhaith a wneid gan fwystfilod; ond y mae Arnobius, hanesydd Rhufeinig, yn llefaru am y difrod a wneid ganddynt. Yr ydym hefyd yn darllen fod y gair yn y brophwydoliaeth am gyffredinolrwydd y dinystr—"A rhoddwyd iddynt awdurdod ar y bedwaredd ran o'r ddaear",—wedi ei wirio yn y trychineb a ddisgynodd ar yr ymherodraeth. Y mae Gibbon yn myned mor bell a dywedyd y gallai fod hanner poblogaeth y byd wedi ei ddinystrio yn y cyfnod hwn. Ymddengys y golygiadau uchod yn llawer mwy tebygol na'r un sydd yn esbonio y "march gwyn" am oruchafiaeth yr efengyl yn y canrifoedd boreuaf. Yr ydym yn diogelu unoliaeth yr arwyddlun wrth olygu fod y pedwar march yn arwyddo pedair o sefyllfaoedd gwahanol ar yr un ymherodraeth.

8. *I ladd â chleddyf*, &c.—Dyma brif farnau Duw ar drigolion y byd. Gwel *Ezec.* xiv. 13, 15, 17, 19, 21.

9—11. AGORIAD Y BUMMED SÊL.—Cyfeiria yn fwyaf neilldiol at yr erledigaeth drom fu ar yr eglwys dan deyrnasiad Diocletian. Y mae agoriad y seliau yn cymmeryd lle yn ddilynol; ac yr ydym wedi gweled fod yr arwyddluniau oedd yn cydfyned â'u hagoriad yn cyfatteb i gyfnodau olynol yn hanes yr ymherodraeth Rufeinig. Yn unol â'r olwg yma, y mae yn naturiol disgwyl cyfattebiad yn nghyflwr eglwys Crist yn yr ymherodraeth Rufeinig i'r hyn a ddisgrifir yn yr adnodau hyn, mewn cyfnod mwy diweddar na'r un a welsom yn cyfatteb i'r digwyddiadau a ragfynegir dan agoriad y bedwaredd sêl. Yr oedd y pedair sêl gyntaf yn ddarluniad o un gwrthddrych, mewn cyfnodau a chyflyrau gwahanol. Nid y gwrthddrych hwnw a ddisgrifir yma; y mae y gwahaniaeth yn natur yr arwyddluniau yn awgrymu hyny. Dangosir hefyd yn amlwg mai yr eglwys—y merthyron—a olygir. Yr un pryd, y mae yn fwy naturiol eglurhau yr arwyddlun, os yw hyny yn bossibl, fel ag i osod allan gyfnod neilldiol yn hanes yr eglwys—a'r cyfnod hwnw yn canlyn yr un a osodir allan yn agoriad y bedwaredd sêl—nag edrych arno, fel y gwna rhai esbonwyr, fel dadganiad o wirionedd cyffredinol yn unig, heb ynddo un cyfeiriad at adeg neilldiol. Y mae Elliott, ac amryw esbonwyr ereill, yn barnu fod y cyfeiriad at yr adeg a grybwyllwyd eisoes. Dan deyrnasiad Diocletian [B. A. 284 hyd 304] y cymmerodd y ddegfed erledigaeth le; a hon oedd yr olaf dan y gallu Rhufeinaidd. Trwy esgyniad Cystenyn i'r orsedd, fe roddwyd terfyn ar erledigaethau Rhufain baganaidd. Yr erledigaeth hon oedd y drymaf o'r deg, fel y dengys Gibbon yn ei hanes. Ei hamcan oedd llesteirio cynnydd Cristionogaeth; fe, ei llwyr ddinystrio o'r byd. Ystyrid hi fel y cais olaf a mwyaf penderfynol i lwyr ddileu Cristionogaeth:—"Yr oedd y gyfraith yn erbyn y Cristionogion," ebe Gibbon, "yn cael ei bwriadu i fod yn gyfraith gyffredinol drwy yr holl ymherodraeth." "Yr oedd pob ymdrech arall wedi ffaelu. Yr oedd Cristionogaeth yn cynnyddu er gwaethaf cynddaredd naw o erledigaethau blaenorol. Penderfynwyd gwneuthur un cais egniol yn rhagor; a hwn a fwriedid gan yr erlidwyr i fod yr olaf, yn y gobaith y darfyddai yr enw Cristionogol o fodolaeth. Yn nhrefn Rhagluniaeth Duw, yr olaf ydoedd; o blegid y pryd hyny y daeth y galluoedd gwrthwynebus hyn yn argyhoeddedig nas gellid ei distrywio yn y modd yma; a chan fod yr erledigaeth hon yn achlysur i ddwyn hyn i'r golau, yr oedd yn ddigwyddiad o bwysigrwydd digonol i gael ei arwyddocau trwy agoriad un o'r seliau." Y mae disgrifiadau Gibbon o lymdostedd yr erledigaeth hon yn cydweddu yn berffaith â'r pethau a ddangosir yn yr arwyddlun. Dywed fod digofaint neu ofnau Diocletian wedi ei yru dros derfynau pob cymmesuredd; ac iddo fynegu, mewn cyfres o gyhoeddiadau, ei fwriad o ddifodi enw Crist. Llefara Neander hefyd am yr erlidigaeth hon fel y canlyn:—"Gwaherddid pob ymgyfarfyddiad ar du y Cristionogion i amcanion crefyddol. Yr oedd y temlau Cristionogol i gael eu distrywio hyd eu sylfeini: a phob llawysgrif o'r Beibl i'w losgi. Yr oedd yn rhaid i bawb a lanwent leoedd uchel, un ai gadael eu crefydd, neu gymmeryd eu diraddio: mewn achosion cyfreithiol, yr oedd yn rhydd gosod y Cristionogion, o bob sefyllfa, dan arteithiau; ac am y Cristionogion o radd isel, yr oeddynt i gael eu diosg o'u holl iawnderau fel rhydd-ddinasyddion; ac yr oedd y caethion Cristionogol yn cael eu gosod ar dir ag yr oedd yn ammhossibl iddynt dderbyn eu rhyddid tra y parhaent yn Gristionogion. Er fod yn y pethau hyn lymdostedd mawr, etto nid oedd y

bob un o honynt; a dywedwyd wrthynt, ar iddynt orphwys etto ychydig amser, hyd oni chyflawnid *rhif* eu cydweision, a'u brodyr, y rhai oedd i gael eu lladd, megys ag *y cawsent* hwythau.

12 Ac mi a edrychais pan agorodd efe y chweched sêl; ac wele, cwbl ond a gynnwysid yn y gyfraith ymherodrol gyntaf yn erbyn y Cristionogion; ac yr oedd pob cyfraith a gyhoeddid ar ol hon yn chwanegu y llymder a'r creulondeb. Gyda golwg ar lymder y cyfreithiau, y mae y dystiolaeth ganlynol allan o hanesiaeth Gibbon yn ddigon i ni ddyfynu yma: — "Byddai yn orchwyl hawdd cynnull ynghyd allan o hanesiaeth Eusebius, o dystiolaethau Lactantius, ac o'r actau hynaf, gyfres faith o bortreadau arswydus, a llanw llawer o dudalenau gydag arteithiau, a fflangellau, gyda bachau heiyrn a gwelyau wedi eu poethi yn wynias, a chyda'r amrywiaeth o boenydiau a allai tân a dwfr, bwystfilod creulawn, a dienyddwyr mwy creulawn, ddwyn y corph dynol danynt." Dywed yr esgob Newton, fod y ddegfed erledigaeth, yr hon a ddechreuwyd dan Diocletian, wedi parhau yn hwy, ac ymledu yn fwy cyffredinol, a chynnyddu i fwy o lymder, a pheri llawer mwy o dywallt gwaed diniwed, nag un o'r lleill; ac mai y pethau hyn oedd yr achos iddi dderbyn sylw neilduol yn y brophwydoliaeth hon. Y mae Eusebius a Lactantius, y rhai oeddynt lygaid-dystion eu hunain, wedi ysgrifenu adroddiadau helaeth o honi. Sicrhâ Orosius ei bod yn feithach ac yn fwy creulawn na'r holl rai o'i blaen: o blegid parhaodd heb seibiant am ddeng mlynedd:—llosgid y temlau: ysbeilid y diniwed o'i holl hawlfreintiau dinasyddol; a rhoddid niferi mawrion i farwolaeth yn y dull mwyaf creulawn. Disgrifir hi hefyd gan Sulpicius Severus fel y fwyaf chwerw o'r cwbl, a dywed fod yr holl fyd o'r bron wedi ei gochi â gwaed sanctaidd y merthyron—y fath na chafodd erioed ei ddyhysbyddu yn fwy, os yn gymmaint, gan ryfeloedd. Daeth y blynyddoedd hyn yn gyfnod i'w gofio gan y Cristionogion, wrth yr enw Cyfnod (*era*) Diocletian, neu Gyfnod y Merthyron. Gwel yr hanesion eglwysig ar y cyfnod hwn, ynghyd âg esboniad Elliot; ac yn neilduol *The Church in the Catacombs*, gan Maitland. Dywed Maitland: "Er na chymmerodd yr eglwys ond ychydig o ofal i gofnodi ei dioddefiadau dan Diocletian, etto y mae genym brofion digonol o'r llymder mawr a chyffredinol yn y cof-ergryff a godwyd gan yr ymherawdwr hwnw a'i gydweithwyr." *Dan yr allor.*—Dan yr allor y tywelltid gwaed yr ebyrth (*Lef.* viii. 15): yr un modd, y mae eneidiau y rhai hyny a offrymwyd ar allor tystiolaeth Crist yn cael eu harddangos yn yr arwyddlun hwn fel o dan yr allor yn y nef.—*Brown.* Yr allor oedd y fan lle y gwneid cymmod am bechod, ac yr oedd yn naturiol dangos mai yno y cai y merthyron prynedig hyn eu noddfa. Yr oedd cyssyltiad hefyd rhwng yr allor a gweddi—gweddi ar sail aberth. Dangosir yma, felly, mai mewn aberth iawnol, a thrwy weddi lwyddiannus ar sail yr aberth hwnw, y ceir ymwared mewn cystudd. *Eneidiau.*—Awgrym nad yw yr enaid yn peidio a bod wedi ei ysgaru oddi wrth y corph. Hefyd, y mae yr ymadrodd, "a gynau gwynion a roed i bob un o honynt," yn arwyddo bu daeargryn mawr; [b] a'r haul a aeth yn ddu fel sachlen flew, a'r lleuad a aeth fel gwaed.

[a] Esa. 13. 9, 10; Ezec. 32. 7, 8; Luc 23. 44, 45.

13 A [c]sêr y nef a syrthiasant ar y ddaear, fel y mae y ffigysbren yn bwrw ei ffigys gleision, pan ei hysgydwer gan wynt mawr.

[c] Ezec. 32. 7; Dan. 8. 10; Luc 21. 25.

14 [d]A'r nef a aeth heibio fel eu bod yn cael eu derbyn ar unwaith fel rhai cyfiawn a sanctaidd i sefyllfa o wynfyd. Y mae y "gynau gwynion" yn ddangosiad o'u cymmeradwyaeth gyda Duw. Annogir hwynt "i orphwys etto ychydig amser, hyd oni chyflawnid rhif eu cydweision,"—y pryd hyny, hwy a dderbyniant eu llawn daledigaeth. Y mae sefyllfa bresennol y saint yn y nef yn sefyllfa o wynfyd; etto, bydd y gogoniant yn fwy pan berffeithir yr eglwys, ac y dinystrir ei holl elynion. *Hyd oni chyflawnid.*—Dywed Elliot, fod yr eglwys a'r dysgawdwyr Cristionogol, ar ddiwedd y tymmor a osodir allan yn y bummed sêl, a'r erledigaethau y cyfeirir atynt yndd, yn meddu argraph ddofn ar eu meddyliau—mor ddofn a phe buasai wedi ei wneuthur gan ddadguddiad o'r nef—y byddai cyfres arall o ferthyron yn dilyn y gyfres dan yr erledigaethau paganaidd; sef, y gyfres dan Anghrist; ac wedi cyflawni hono, yr ymddangosai y Gwaredwr ar fyrder, er dinystr llwyr i elynion yr eglwys. *Gynau gwynion.* — Arwyddlun o oleuni, dedwyddwch, a buddugoliaeth; hefyd, o burdeb a chyssegredigaeth. Dywed Maimonides yr arferai yr Iuddewon wisgo yr offeiriaid, wedi iddynt gael eu cymmeradwyo, mewn dillad gwynion.

[d] Heb. 1. 11, 12.

12—17. AGORIAD Y CHWECHED SEL. Y mae cymmaint o wahaniaeth barnau ar arwyddocâd y weledigaeth hon ag ar un ran o'r llyfr. Meddylia rhai, mai dinystr Ierusalem a olygir; ereill, mai rhyw ddigwyddiadau yn yr oesoedd diweddar; ereill, fod y brophwydoliaeth heb ei chyflawni etto. Barna yr olaf fod y "ddaeargryn mawr," dan y chweched sêl, yn cael ei ddarlunio yn fwy cyflawn dan y chweched udgorn (*pen.* xi. 13); ac yn gyffelyb dan y seithfed phiol: *pen.* xvi. 17—21. Yn ol y golygiad hwn, y mae agoriad y sêl hon yn rhagddangos y cynnhyrfiadau gwladol ac eglwysig a ddibenant yn ninystr llwyr gelynion Duw a'i deyrnas, yn uchafiaeth yr eglwys yn y byd. Estyna ereill yr amser yn mhellach etto, gan feddwl fod y geiriau yn disgrifio diwedd y byd, llvvyr oruchafiaeth teyrnas Dduw, a dinystr olaf y diafol a'i deyrnas: *Mat.* xxiv. 29. Golygiad Elliot ac ereill ydyw, fod y weledigaeth yn gosod allan ryw chwyldroad disymmwth ac anghyffredinol yn ymherodraeth Rhufain, o ran amser yn dilyn "cyfnod y merthyron," yr hwn a ddisgrifir yn agoriad y bummed sêl; ac mai nodwedd y chwyldroad hwn fyddai uchafiaeth Crist ar ei elynion. "Wrth edrych â golwg ddynol, y mae yn rhaid yr ymddangosai yn gwbl annhebyg y byddai i'r fath gyfnewidiad gael ei ddwyn oddi amgylch, a hyny ar y fath amser; sef, pan nad oedd y Cristionogion yn cyfansoddi ond lleiafrif bychan o'r boblogaeth, a phan yr oeddynt wedi eu darostwng trwy yr erledigaethau meithion blaenorol i'r gwendid mwyaf. Ond beth yw anhawsderau iddo ef, yr hwn sydd yn llywodraethu pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear yn ol ei ewyllys ei hun? Pa nerth sydd mewn anhawsderau i luddias ei gynghor

[q]Dad.16.20. llyfr wedi ei blygu ynghyd; [q]a phob mynydd ac ynys a symmudwyd allan o'u lleoedd.

15 A brenhinoedd y ddaear, a'r gŵŷr mawr, a'r cyfoethogion, a'r pen capteniaid, a'r gŵŷr cedyrn, a phob gŵr caeth, a phob gŵr rhydd, a ymguddiasant yn yr ogofeydd, ac yn nghreigiau y mynyddoedd;

16 Ac a ddywedasant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, [r]Syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o wŷdd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainge, [s]ac oddi wrth lid yr Oen:

[r]Ier. 8. 3; Hos. 10. 8 Luc 23. 30

[s]Mat.26.64 2 Thes. 1 7—9.

ef?" Y mae yn rhaid addef mai un o ffeithiau mwyaf rhyfedd hanesyddiaeth ydyw yr un a ddilynodd y merthyriadau dan Diocletian, yr hon sydd yn cyfatteb i'r amser a ddangosir yn y weledigaeth hon; sef, y chwyldroad yn yr ymherodraeth Rufeinig. Disgrifia Elliot y chwyldroad hwn fel un disymmwth, yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy ryfeloedd arswydus, yn y rhai yr oedd y byddinoedd yn cael edrych arnynt fel campwyr paganiaeth ar un ochr, a champwyr Cristionogaeth ar yr ochr arall. Canlyniad y chwyldroad oedd i baganiaeth golli ei gallu yn y ffurfafen wleidyddol; ac yn mhen trigain mlynedd, yr oedd yr holl ymherodraeth, o ran proffes allanol, yn ymherodraeth Gristionogol. Fel attebiad i'r wrthddadl, fod yr ymadroddion a ddefnyddir yma yn rhy gryfion i osod allan y chwyldroad hwn, y mae Elliot yn cyfeirio at eiriau ereill yn yr Ysgrythyr, y rhai a gydnabyddir fel yn dwyn perthynas â digwyddiadau cyffelyb. Gwel *Esa.* xiii. 9; *Ier.* iv. 23; *Ezec.* xxxii. 7, 8, 11; *Hosea* x. 8. Fel dadl yn erbyn y golygiad mai digwyddiadau mawrion sydd i fod etto a arwyddoceir yn y weledigaeth, dygir yn mlaen yr ystyriaeth fod ysbaid mawr iawn o amser, yn ol y golygiad hwn, rhwng y bummed a'r chweched sêl, tra yr oedd y digwyddiadau a ddisgrifir yn y pum sêl gyntaf yn cymmeryd lle yn olynol. Cyfarfyddir â'r wrthddadl hon trwy ddyweyd, fod digwyddiadau y cyfwng yma yn cael eu darlunio yn udganiad y saith udgorn a thywalltiad y saith phiol; ac fod trefn amseriad olynol digwyddiadau y llyfr yn cael tori arni mewn gweledigaethau ereill: er enghraifft, rhwng y chweched a'r seithfed udgorn, a rhwng y seithfed udgorn a thywalltiad y phialau. Mewn attebiad i hyn, dywedir nad ydyw y toriadau hyn ar amseriad olynol y digwyddiadau mewn un modd yn debyg i'r dyspeidiad a dybir gan rai esbonwyr sydd yma. Y mae y chweched sêl yn dilyn y bummed heb ddim oediad, yr un modd ag y mae y bummed yn dilyn y bedwaredd, a'r bedwaredd y drydedd; ac ymddengys i ni yn annaturiol meddwl fod ysbaid o filoedd o flynyddoedd, neu lawer mwy, rhwng y bummed a'r chweched, tra yr oedd y lleill yn dilyn y naill y llall mewn amser byr. Pe meddyliem felly, byddai dau arwyddlun yn ymyl eu gilydd yn gosod allan ddigwyddiadau pell oddi wrth eu gilydd o ran amser, ac heb un cyssylltiad â'u gilydd fel achos ac effaith. Nid ydym yn credu fod un esboniad a foddlona y darllenydd diragfarn, oddi eithr yr un sydd yn edrych ar y digwyddiadau dan y ddwy sêl fel rhai agos i'w gilydd mewn amser. Ac y mae yn naturiol deall y chweched, fel y seliau ereill, am ymherodraeth Rhufain; ac ar ol disgrifio gwahanol sefyllfaoedd yr ymherodraeth yn y seliau ereill, naturiol oedd disgrifio ei chwymp mewn sêl pennodol. Cwymp paganiaeth yr ymherodraeth a olygir gan rai wrth y dinystr a bortreadir mor fywiog yma: a chwymp yr ymherodraeth ei hun a olygir gan ereill. "Y cyfnod a osodir allan gan y ddaear-

gryn, y cynnhyrfiadau, y tywyllwch, a'r dychryw yw dinystr ymherodraeth Rhufain. Y cyfnod ddarlunir mewn ffugrau cyffelyb dan y seithfed phiol ydyw toriad i fyny allu Rhufain Babaidd; ac y mae gweledigaeth y 144,000 ar fynydd Seion yn dal yr un cyssylltiad â'r cyfnod hwnw ag a ddalia seliad y 144,000 â digwyddiadau y chweched sêl."—*Webster a Wilkinson.* Y mae eglurhâd Alford ar holl weledigaethau y bennod hon yn llawer llai pennodol nag eglurhâd Elliot, ac esbonwyr ereill o'r un ysgol. Nid yw yn cymmhwyso y gweledigaethau at amserau a digwyddiadau neilduol; ond edrycha arnynt fel portreadau o ddigwyddiadau mawrion yn cymmeryd lle, dro ar ol tro, yn oesoedd y byd, hyd y diwedd. Er enghraifft, y mae agoriad y sêl gyntaf yn gosod allan fuddugoliaeth yr eglwys ar byrth uffern—y fuddugoliaeth sydd yn cael ei chario yn mlaen yn mhob oes, ac a gyflawnir yn ail ymddangosiad Crist: y fuddugoliaeth hon ydyw mater mawr y llyfr hwn. Nid yw y weledigaeth yn cyfeirio at adeg neilduol, ond yn hytrach yn arddangos gwirionedd mawr mewn perthynas i'r eglwys yn yr holl oesoedd. Gyda golwg ar y pedair sêl, neu y pedair gweledigaeth gyntaf, dywed:—"Y mae y pedair yn farnau ar y ddaear: darostyngiad gallu daearol; dinystriad heddwch daearol; dyhysbyddiad cyfoeth daearol; distryw ar fywyd daearol." Y mae yn anghymmeradwyo y dull manwl o esbonio ystyr yr arwyddluniau, ac yn dyweyd y dylid eu gadael yn y wedd ammhenodol yn yr hon eu ceir, heb ymofyn am gyflawniadau neilduol mewn adegau neu ddigwyddiadau hynod. Dywed, gyda golwg ar agoriad yr ail sêl, fod pob cyfyngiad ar yr ystyr yn anghywir—nad yw yn cyfeirio at erlidigaeth ar y Cristionogion, nac at un cyfnod o amser, hen na diweddar. Er fod y march coch yn golygu rhyfel; etto, nid ydyw yn golygu un ryfel, na chyfres o ryfeloedd neilduol; ac ni feddylia fod yma un cyfeiriad at ddim oll yn ymherodraeth Rhufain, mwy nag at ddigwyddiadau o'r un natur mewn gwledydd ac mewn oesoedd ereill. Yn wahanol i'r esbonwyr hanesyddol gan mwyaf, barna hefyd fod y gweledigaethau yn y bennod hon yn arwyddo pethau a ddigwyddant ar yr un amser, yn hytrach na'u bod yn dilyn eu gilydd yn olynol:—"Yr wyf yn credu eu bod yn digwydd ar yr un amser, a bod pob un o honynt yn ymestyn trwy holl barhâd yr eglwys ar y ddaear." Y mae yr amrywiaeth yma yn marnau yr esbonwyr goreu yn dangos pa mor anhawdd yw deall y llyfr hwn, a pha mor briodol ydyw ymdrin âg ef gyda gorchwileddau. Y mae llefaru yn benderfynol am arwyddocâd y pethau sydd ynddo yn anhawdd eu deall, yn amlygu amddifadrwydd mawr o'r gwylder a'r parch a weddai uwch ben gweledigaethau mor ddirgel a mawreddog. Nid oes modd peidio cymmeradwyo ysbryd gwylaidd Alford wrth ymdrin âg anhawsderau y llyfr. Etto, y mae ei esboniad yn ymddangos i ni yn dra anfoddhaol. Dichon mai y rheswm am hyny ydyw, ein bod yn

[a] Ier. 30. 7; Joel 2. 31; Rhuf. 2. 5; Judas 6.

17 Canys [b] daeth dydd mawr ei ddigter ef; a phwy a ddichon sefyll?

PENNOD VII.

3 *Angel yn selio gwasanaethwyr Duw yn eu talcenau.* 4 *Nifer y rhai a seliwyd: o lwythau Israel rhifedi hysbysol: 9 o bob cenhedloedd ereill tyrfa anrhif, y rhai sydd yn sefyll ger bron yr orsedd faingc, â gynau gwynion am danynt, ac â phalmwydd yn eu dwylaw.* 14 *Bod eu gynau wedi eu golchi yn ngwaed yr Oen.*

B. A. 96.

AC ar ol y pethau hyn, mi a welais bedwar angel yn sefyll ar bedair congl y ddaear, yn dal pedwar gwynt y ddaear, fel na chwythai y gwynt ar y ddaear, nac ar y môr, nac ar un pren.

2 Ac mi a welais angel arall yn dyfod i fyny oddi wrth godiad haul, [a] a sêl y Duw byw ganddo. Ac efe a lefodd â llef uchel ar y pedwar angel, i'r rhai y rhoddasid *gallu* i ddrygu y ddaear a'r môr,

[a] Dad. 3. 1; 10. 4; Ioan 6. 27.

[b] Mat. 24. 22, 31.

3 Gan ddywedyd, [b] Na ddrygwch y ddaear, na'r môr, na'r prenau, [c] nes darfod i ni selio gwasanaethwyr ein Duw ni yn eu talcenau.

[c] Exo 12. 13, 23; Zeph. 2.

4 Ac mi a glywais nifer y rhai a seliwyd: *yr oedd* wedi eu selio gant a phedair a deugain o filoedd o holl lwythau meibion Israel.

5 O lwyth Iudah *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Reuben *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Gad *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

6 O lwyth Aser *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Naphthali *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Manasses *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

7 O lwyth Simeon *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Lefi *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Issachar *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

8 O lwyth Zabulon *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth

ymofyn am eglurhâd rhy bennodol ar yr arwyddluniau. Ond y mae yntau, wrth eu gwrthod, heb roddi un rheswm dros y gwrthodiad. Tra yn anghymmeradwyo y cymmhwysiad o'r pedair gweledigaeth gyntaf at ymherodraeth Rhufain mewn gwahanol sefyllfaoedd, y mae y ffaith yn aros, fod cyfattebrwydd neilduol rhwng yr arwyddluniau, fel yr esbonir hwy gan Elliot, &c., a hanes olynol ymherodraeth Rhufain, o ddyddiau Ioan hyd ei chwymp; ac nad oes neb wedi bod yn fwy offerynol i gynnorthwyo i weled y cyfattebiad hwn na'r hanesydd anffyddol Gibbon. Dadleua amryw fod y geiriau mawrion yn hanes agoriad y chweched sêl—"dydd mawr ei ddigter ef"—yn rhy gryfion i'w cymmhwyso at gwymp paganiaeth yn yr ymherodraeth, ac hyd yn oed at ddiwystr yr ymherodraeth ei hunan: ond dylid cofio fod ymadroddion cyffelyb yn cael eu defnyddio gan yr Iachawdwr am ddinystr Ierusalem; ac fod y dinystr hwnw, a chwymp paganiaeth, a phob trychineb arall cyffelyb mewn oesoedd diweddarach, yn fath o bortreadau o lwyr fuddugoliaeth yr eglwys, a dinystr olaf ei gelynion yn nydd y farn ddiweddaf.

PENNOD VII.

1—17. SELIO GWASANAETHWYR DUW. Y DYRFA FAWR. Y mae y ddwy weledigaeth yn dyfod rhwng y chweched a'r seithfed sêl.

1. *Fel na chwythai.*—Mae y barnau yn disgyn fel attebion i ymbiliau y merthyron dan y pummed udgorn. Y rhai sydd wedi eu selio yno, fel yma, sydd yn rhydd oddi wrthynt: *pen.* ix. 4.

2. *Oddi wrth godiad haul.*—Plentynrwydd yw meddwl mai Iesu Grist, neu yr Ysbryd Glân, a olygir. Rhoddir yn ngenau yr angel y geiriau, "Ein Duw ni." O'r dwyrain, neu "godiad haul," y mae gogoniant Duw yn ymddangos fynychaf: *Esec.* xliii. 2; *Zech.* xiv. 4; *Mal.* iv. 2. Gwelai Ioan yr angel yn dyfod i fyny oddi wrth godiad haul, am fod ei safle ef yn y nef, o'r lle yr edrychai i lawr ar y ddaear.

3. *Na ddrygwch:*—trwy ollwng allan y gwyntoedd dinystriol. *Nes darfod.*—Gwel *Mat.* xxiv. 31. Nis gall Duw wneuthur dim mewn ffordd o farn cyn y byddo ei bobl yn ddiogel. Rhaid cael Lot i Soar cyn dechreu o'r gawod dân ar Sodom: *Gen.* xix. 22. *Yn eu talcenau.*—Y rhan fwyaf ardderchog, yn gystal a'r mwyaf amlwg, o'r corph dynol.

4—8. Deuddeg ydyw rhif y llwythau. Mae y rhai sydd yn talu llawer o sylw i rifau ac arwyddluniau y Beibl yn ymddangos i ni yn rhedeg yn ormod gyda'u dychymygion wrth egluro ystyr y rhifedi hwn, yn gystal a rhifedi ereill. Dywedant fod deuddeg yn briodol fel rhif yr eglwys, nid yn unig o herwydd rhif llwythau Israel, ond hefyd ar gyfrif arall. Tri yw y rhif dwyfol, meddant; pedwar y rhif daearol—y ffigiwr a ddynoda cyffredinolrwydd yn ein byd ni: pedwar gwynt y nefoedd. 12 ydyw 4 wedi ei liosogi â 3: mae 12 gwaith 12 yn arwyddo cyflawnder a sefydlogrwydd; ac y mae hyn etto yn cael ei liosogi â 1000, i wneyd y nifer o 144,000. *O holl lwythau*:—12,000 o bob llwyth. Iudah sydd yn sefyll ar ben y rhestr, a Beniamin yn y gwaelod. Daw Reuben, y cynfab, yn agosaf i Iudah, y llwyth brenhinol, ac o'r hwn yr hanodd Crist yn ol y cnawd; Iudah a ddaeth yn lle Reuben, yr hwn a gollodd yr enedigaeth-fraint trwy ei bechod. Gadewir Dan allan, am mai y llwyth hwn oedd y cyntaf i syrthio i eilunaddoliaeth: *Barn.* xviii. Dywed y tadau mai o'r llwyth hwn yr oedd anghrist hefyd i gyfodi. Dywed ereill, ac yn eu mysg Grotius, fod y llwyth hwn wedi ei adael allan, am ei fod er's talm wedi ei lwyr golli. Dy fyna draddodiad Iuddewig o blaid hyn. Cefnogh y golygiad hwn gan y ffaith fod llwyth Dan yn cael ei adael allan o 1 *Cron.* iv.—y lle y mae teuluoedd holl Israel yn cael eu rhifo. Ni sonir chwaith am Ephraim:—ceir Ioseph yn ei le. Rhoddir yr un rheswm am hyn ag a rydd y mwyafrif am adawiad Dan allan, sef eilunaddoliad y llwyth: *Barn.* xvii; *Hosea* iv. 17. Ond fel y sylwa

Ioseph *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Beniamin *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

9 Wedi hyn mi a edrychais; ac wele [d] dyrfa fawr, yr hon ni allai neb ei rhifo, o bob cenedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd, [e] yn sefyll ger bron yr orseddfaingc, a cher bron yr Oen, [f] wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion, a phalmwydd yn eu dwylaw;

10 Ac yn llefain â llef uchel, gan ddywedyd, [g] Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen.

11 A'r holl angylion a safasant o amgylch yr orseddfaingc, a'r henuriaid, a'r pedwar anifail, [h] ac a syrthiasant ger bron yr orseddfaingc ar eu hwynebau, ac a addolasant Dduw,

12 Gan ddywedyd, Amen: Y fendith, [i] a'r gogoniant, a'r doethineb, a'r diolch, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nerth, *a fyddo* i'n Duw ni yn oes oesoedd. Amen.

13 Ac un o'r henuriaid a attebodd, gan ddywedyd wrthyf, Pwy ydyw y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion? ac o ba le y daethant?

14 Ac mi a ddywedais wrtho

[d] Gen. 49. 10; Salm 22. 27; Ier. 16. 19; Zech. 2. 11; Rhuf. 15. 9—12.
[e] Luc 21. 36.
[f] Dad. 3. 4; 6. 18.
[g] Salm 3. 8; 37. 39; Esa. 43. 11; Hos. 13. 4.
[h] Dad. 11. 16.

Alford, y mae Israel edifeiriol, yn gystal ag Israel eilunaddolgar, yn cael ei galw wrth yr enw Ephraim gan y prophwyd Hosea. Dichon mai y rheswm dros adawiad Ephraim allan ydyw fod galw llwyth Ephraim yn llwyth Ioseph yn arferiad yn yr amser yma. Enwir llwyth Lefi, ebe Bengel, am fod y seremoniau Lefiaidd erbyn hyn wedi eu diddymu, ac fod pob gwir Israeliad yn offeiriad i Dduw. Ond nid yw Lefi yn cael ei adael allan o holl restrau yr Hen Destament. Mae yn deilwng o sylw na chedwir at un drefn neilldiol yn y rhifiad hwn o'r llwythau. Dichon mai yr hyn a noda Grotius yw y rheswm—"Ni lynir wrth unrhyw drefn, am eu bod oll yn gydradd yn Nghrist." Y mae un dosbarth o esbonwyr yn barnu fod yn y weledigaeth hon gyfeiriad at oes Cystenyn, pan gymmerodd y boblogaeth yn gyffredinol broffes o Gristionogaeth. Dealla ereill y dyrfa fawr fel yn cynnrychioli yr holl waredigion. Ereill a feddyliant ei bod yn arwyddo Iuddewon crediniol y cyfnod hwn; y rhai hyny o dŷ Israel oeddynt mewn oes o ddirywiad a gwrthgiliad yn cyffesu yr Iesu fel Messiah, y rhai a dderbynient y cyfammod newydd a'i seliau. Y rhai hyn a ddynodir gan Paul yn "weddill yn ol etholedigaeth gras" (*Rhuf.* xi. 5, 7); a chan y prophwydi, "y gweddill a achubir" (*Esa.* x. 20—22; lv. 8, 9). Dadleuir fod y manylder gyda pha un yr enwir yr holl lwythau yn ffafrio y golygiad fod yma gyfeiriad neilldiol at Israel yn ol y cnawd. Dywed Brown fod yr ystyriaeth yma yn myned yn mhell i brofi mai ystyr llythyrenol sydd i enwau y llwythau, ac nid ystyr cyfriniol. Y mae y rhai sydd yn dal mai ail ddyfodiad Crist a osodir allan yn y bennod, yn barnu mai adferiad Israel a olygir. "Y mae cyfnod maith absennoldeb yr Arglwydd wedi bod yn wagnod yn hanes yr Iuddewon fel cenedl. Felly, gan mai llyfr yr ail ddyfodiad yw y Dadguddiad, y mae yn naturiol fod crybwylliad am ffafr adnewyddol Duw i Israel yn digwydd yn mysg yr amgylchiadau a ddygant i mewn yr ail ddyfodiad."—*De Burgh.* Y mae Alford yn gryf yn erbyn y golygiad hwn; a dywed nad ydyw arwyddluniaeth y llyfr yn galw am y fath eglurhad, ond yn milwrio yn eiserbyn. Y mae enwau y deuddeg llwyth ar ddeuddeg porth y Ierusalem newydd; ond ni feddylia neb fod hyny yn rhoddi hawlfraint arbenig i Israel yn ol y cnawd yn y ddinas hono. Israel Duw, mewn ystyr ysbrydol, nid yr Iuddewon yn ol y cnawd, a olygir trwy y llyfr; ac y mae y peth nesaf i sicrwydd mai hwy hefyd a feddylir yma wrth y deuddeng mil o bob llwyth oeddynt wedi eu selio. Y mae Elliot, ac ereill o'r un ysgol, yn cymmhwyso y rhan gyntaf o'r bennod at ymherodraeth Rhufain, a Christionogaeth o fewn yr ymherodraeth. Rhoddant ddarluniad o adfeiliad Cristionogaeth yn yr ymherodraeth, wedi iddi ddyfod yn grefydd wladol dan Cystenyn—fel yr oedd yn gwywo yn gyflym, ffurfioldeb yn ymledu, ac ysbrydolrwydd yn colli, dan wenau y llywodraeth, tra, yn yr erledigaeth flaenorol, yr oedd yn gwreiddio yn ddyfnach ac yn dyfod yn fwy pur y naill oes ar ol y llall. Yn ganlynol i'r ymlygriad yna, gorchymynwyd i bedwar gwynt y nefoedd fyned allan:—arwyddlun o farnau Duw. Yn *pen.* viii. disgrifir y difrod a wneid ganddynt. Yn y bennod hon dangosir fod attaliad arnynt am dymmor:—yr oedd pedwar angel yn dal y pedwar gwynt, fel na chwythent. Cyfryngai angel arall (*adn.* 2, 3), er mwyn oedi y rhuthr. Dyfyna Elliot eiriau Gibbon i ddangos fel yr oedd digwyddiadau yn hanes yr ymherodraeth yn cyfatteb i hyn:—"Yr oedd y dymmhestl fygythiol trwy ymgyrch y barbariaid, yr hon mor ebrwydd a ddymchwelodd sylfeini mawredd yr ymherodraeth, yn cael ei chadw yn ol, a'i hattal o hyd ar y terfynau." Yr achos o'r attaliad yma a nodir yn *adn.* 2, 3. Yr oedd angel arall yn llefain, "Na ddrygwch y ddaear," &c. Yr un golygiad a gymmeradwyir gan Barnes, ac yn wir gan y rhan fwyaf o esbonwyr yr oes hon yn Mhrydain ac America. Dywedant fod y rhan hon o'r bennod yn ddarlun cywir o sefyllfa yr ymherodraeth yn y cyfnod a ddilynodd yr un a olygant yn cyfatteb i agoriad y chweched sêl. Nodwedd y cyfnod hwn oedd, dinystr mawr yn bygwth yr ymherodraeth, ac etto y dinystr hwnw yn cael ei oedi a'i attal am ryw dymmor. Yr oedd y cenhedloedd a ddinystriasant yr ymherodraeth yn y diwedd, yn hir yn ei hamgylchu, yn gwneyd ymgyrchiadau yn aml i mewn iddi, ac ar rai prydiau yn nesau i Rufain ei hun, ac etto yn ymattal rhag rhoddi y dyrnod. Ymddangosai Rhagluniaeth fel yn gwahardd y barbariaid i fyned rhagddynt, hyd oni chyflawnid rhyw amcan yn gyntaf. Ceir dyfyniadau helaeth o Gibbon ar y cyfnod hwn yn "*Esboniad Barnes.*"

9. *Ni allai neb*:—pe ceisiai.

13. *A attebodd*:—nid i un cwestiwn oedd wedi ei ofyn, ond i feddyliau oedd yn rhwym o godi dan y fath amgylchiadau. Un o'r henuriaid, y rhai a gynnrychiolent yr eglwys, oedd esboniwr y weledigaeth.

ef, Arglwydd, ti a wyddost. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Y rhai hyn yw y rhai a [i] ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac a olchasant eu gynau, ac a'u cànasant hwy [k] yn ngwaed yr Oen.

15 Ô herwydd hyny [l] y maent ger bron gorseddfaingc Duw, [m] ac yn ei wasanaethu ef ddydd a nos yn ei deml: a'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc a drig yn eu plith hwynt.

16 [n] Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach; [o] ac

Ioan 16.33; Rhuf. 5. 3.
[i] Heb. 13.12; 1 Pedr 1.19.
[k] Heb. 8. 1; 12. 2.
[l] Salm 134. 1, 2.
[m] Salm 42. 2; 63. 1; Esa. 41.17; 49.10; 55.13.
[n] Salm 121.6; Preg. 1. 6; Esa. 4 5,6; 25. 4; 32. 2; Ioan 4. 8.

14. *Arglwydd.*—Gair o gyfarchiad, yn dynodi y parch a'r gwyldor a deimlai Ioan yn mhresennoldeb un o'r bodau nefol.—*Alford.* Gwelir terfynau y parch yma yn *pen.* xix. 10; xxii. 8, 9. *Ti a wyddost*:—nid yn golygu nad oedd gan Ioan rywfaint o wybodaeth ei hun ar arwyddocâd y weledigaeth, ond nad oedd ei wybodaeth yn deilwng o'i chymmharu âg eiddo yr henuriad. *A ddaethant allan*:—'yw y rhai sydd yn dyfod allan;' etto, nid ydyw y darlleniad Cymraeg yn cyfleu meddwl anghywir. *Ac a'u cànasant.*—Golyga Hengstenberg fod golchi yn dynodi maddeuant pechodau; "cànu," sanctei ddhâd. Mwy cywir yw y golygiad, 'golchi yn gwbl lân'—golchi ar hyd eu hoes, fel ag i'w cael o'r diwedd yn berffaith wynion.

15. *O herwydd hyny*:—o herwydd fod eu gynau wedi eu cànu yn ngwaed yr Oen. Y perffaith lân a all sefyll yn y fan y safant hwy. "Nid â i mewn yno ddim afiaa." *Ddydd a nos.*—Dull o osod allan dragwyddoldeb mewn iaith ddynol.—*Bede.* Dynoda y geiriau barhâd diball; o blegid "ni bydd nos yno." *A drig*:—a dabernacla. Mae yr ymadrodd yn dra mawreddog yn y gwreiddiol: "Spread as a tabernacle over them."—*W. a W.* "Spread his habitation over them."—*Alford.* Dynoda bresennoldeb a nodded; cyffelyb i "gysgod adenydd yr Hollalluog," yn *Salm* xci. 1. Yma cyflawnir addewidion goruchel yr Hen Destament; megys *Lef.* xxvi. 11; *Esa.* iv. 5, 6; *Esec.* xxxvii. 27.

16. *Na dim gwres*:—megys y gwynt difaol, y *sirocco*, yr hwn a ddefnyddir yn *Esa.* xlix. 10; o'r lle y mae yr holl frawddeg wedi ei chymmeryd. Y mae y geiriau yn ddarluniad digyffelyb o gyflwr y saint yn y nef, wedi myned yn ddiogel trwy eu holl gystuddiau. Rhoddir y weledigaeth i Ioan i'r dyben o gario ei feddwl uwchlaw terfysgoedd blinion y byd hwn, a'r erledigaeth a ddioddefa yr eglwys ynddo. Cyn rhoddi y gweledigaethau yn y pennodau canlynol iddo—pan oedd y barnau yn cael eu hoedi a'u hattal am dymmor—cafodd ei ddwyn i olwg y diwedd; cafodd olwg ar y prynedigion ger bron Duw, mewn cyflwr o dangnefedd, a diogelwch, a gogoniant tragwyddol. Yn hytrach na bod "y cystudd mawr" yn cyfeirio at gyfyngderau y Cristionogion dan yr erledigaethau paganaidd, fel y meddylia Webster a Wilkinson, tueddir ni i feddwl, gydag Alford, eu bod yn golygu, mewn modd cyffredinol, holl brofedigaethau y saint yn y byd hwn—yn awr wedi myned heibio am byth.

17 O blegid yr Oen, [p] yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfaingc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynnonau bywiol o ddyfroedd: a [q] Duw a sych ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt.

[p] Adn. 5, 6.
[q] Esa. 25. 8; 35.10, 60.20.

PENNOD VIII.

1 *Wrth agoryd y seithfed sêl,* 2 *y rhoddwyd saith o udgyrn i saith o angylion.* 6 *Pedwar o honynt yn udganu â'u hudgyrn;*

ADAU I UDGANIAD YR UDGYRN; UDGANIAD PEDWAR O HONYNT.

Nid yw agoriad y seithfed sêl yn cael ei ddilyn â dadguddiad o'r digwyddiadau a gynnwysid ynddi, yn hollol yn yr un dull ag y ceir gydag agoriad y seliau blaenorol. Yn lle hyny, dilynir agoriad y sêl hon gan gyfres o ddigwyddiadau, yn cael eu gosod allan gan arwyddluniau gwahanol: sef, saith o udgyrn. Yn lle bod gweledigaethau yn cael eu cofnodi am agoriad y seithfed sêl, yr hyn a gymmerodd le ydoedd "gosteg yn y nef megys am hanner awr;" yr hyn, y mae yn debygol, a arwyddai bwysigrwydd annhraethadwy y digwyddiadau oedd i ganlyn. Y mae dau olygiad tra gwahanol i'w gilydd yn cael eu rhoddi ar agoriad y seithfed sêl. Y mae y rhai a gymmhwysaut y disgrifiad dan y chweched at y farn ddiweddaf, yn barnu, o angenrheidrwydd, fod agoriad y seithfed yn dwyn i mewn ystâd berffaith yr eglwys mewn gogoniant; ac felly, fod tagnefedd yr eglwys yn yr ystâd dragwyddol hono yn cael ei osod allan yn y "gosteg yn y nef." Dyma olygiad y cyntaf o esbonwyr y Dadguddiad, sef Victorinus:—"Wrth y gosteg yma yn y nef am hanner awr y meddylir dechreuad y tawelwch tragwyddol. Ar ol i'r eglwys fyned trwy ei chwe diwrnod o lafur y dechreua heddwch a gorphwysdra y Sabbath tragwyddol." Yn ol y golygiad hwn, nid oes un cyssylltiad rhwng *adn.* 1 a 2 yn y bennod, ac y mae yr holl ddigwyddiadau dan y seithfed sêl yn cael eu cynnwys yn yr adnod gyntaf yn unig. Y "gosteg megys dros hanner awr" ydyw cynnwys y seithfed sêl, yn ol y golygiad hwn; o blegid nid oes un cyfeiriad ar ol hyn at ei chynnwysiad hi, mwy nag at gynnwysiad y seliau blaenorol. Nid oes un sail i olygiad rhai esbonwyr, mai cynnwysiad y seithfed sêl a osodir o'n blaen yn *pen.* xxi. a xxii. Heblaw hyny, y mae yn dra annhebyg y buasai gwynfyd tragwyddol y nef yn cael ei osod allan trwy beth mor gyffredin a gosteg, a'r gosteg hwnw heb barhau mwy na hanner awr. Mwy naturiol yw golygu y gosteg fel rhyw ddyspeidiad dirifol, rhyw sefyllfa ddisgwylgar a phryderus, yn rhagflaenu y dadguddiadau arswydus oedd i ganlyn. Yn ol y golygiad cyntaf, nid ydyw yr udgyrn yn dynodi digwyddiadau newyddion. Ni byddent amgen nag arwyddluniau newyddion o'r un digwyddiadau ag a gymmerent le dan agoriad y seliau. Os ydyw y saith sêl yn ymestyn hyd ddiwedd amser, mae yn rhaid nad ydyw yr udgyrn yn dynodi amgylchiadau dilynol i agoriad y seliau. Yn ol y golygiad arall, yr hwn, fel yr addefir yn gyffredin, sydd yn llawer mwy cysson, y mae yr holl bennod hon yn cynnwys y

B. A. 96.

a phlâu mawr yn canlyn. 3 *Angel arall yn rhoddi arogldarth at weddïau y saint ar yr allor aur.*

[a] Dad. 6. 1, 3, 5, 7, 9, 12.

APHAN agorodd efe y seithfed sêl, yr ydoedd gosteg yn y nef megys dros hanner awr.

[b] Mat 18. 10; Luc 1. 19.

[c] Gen. 48. 15, 16; Exod. 3. 2—18.

2 Ac mi a welais y [b]saith angel y rhai oedd yn sefyll ger bron Duw: a rhoddwyd iddynt saith o udgyrn.

[d] Lef. 16. 12; 1 Bren. 7. 50.

3 Ac [c]angel arall a ddaeth, ac a safodd ger bron yr allor, [d]a thuser aur ganddo: a rhoddwyd iddo arogldarth lawer, fel yr offrymai *ef* [c]gyda gweddïau yr holl saint ar yr allor aur, yr hon oedd ger bron yr orseddfaingc.

[c] Salm 141. 2; Luc 1. 10; Heb. 4. 15 16; 10. 19—22; 1 Ioan 2. 1, 2.

4 Ac fe aeth mŵg yr arogldarth gyda gweddïau y saint, o law yr angel, i fyny ger bron Duw.

[f] Esa. 66. 6, 14—16; Ier. 51. 11; Ezec. 10. 2—7.

5 A'r angel a gymmerth y thuser, [f]ac a'i llanwodd hi o dân yr allor, ac a'i bwriodd i'r ddaear:

pethau a gymmerasant le dan y seithfed sêl. Y mae y seithfed sêl yn cael ei dosbarthu i saith o gyfnodau, a'r cyfnodau hyny yn cael eu gosod allan trwy saith o udgyrn; ac y mae udganiad yr udgyrn yn cymmeryd lle ar ol agoriad y chweched sel. Y mae y gair, "mi a welais," yn *adn.* 2, yn arwyddo fod Ioan yn mynegu y gweledigaethau a gafodd ar agoriad y seithfed sêl. Barna yr esbonwyr sydd yn gweled eu ffordd yn glir i gymmhwyso y gwahanol weledigaethau at ddigwyddiadau neilluol, fod rhyw reswm yn y digwyddiadau eu hunain dros y gwahanol ddosbarthiadau yn y pennodau hyn: er enghraifft yn lle gosod allan ddigwyddiadau olynol oll dan yr arwyddlun o seliau yn cael eu hagor, dewisir yn hytrach newid yr arwyddlun—saith o seliau, a saith o udgyrn yn gynnwysedig yn yr olaf o'r seliau: ac megys y ceir unoliaeth yn cyssylltu y pedair sêl gyntaf, felly hefyd y ceir y cyffelyb yn y pedwar cyntaf o'r udgyrn.

1. *Megys dros hanner awr.*—Nid allai ddywedyd yn fanwl am ba hyd y parhaodd y gosteg. Nid oedd ond byr; ond dan yr amgylchiadau, ymddangosai iddo yn faith. I feddwl petrusgar a phryderus y mae adeg fer yn myned heibio yn araf, ac yn ymddangos yn faith. Yr hyn a achosai y pryder a'r petrusder oedd pwysigrwydd digyffelyb y digwyddiadau a ddisgwylid, yn gymmaint mai hon oedd yr olaf o'r seliau. Y mae amryw dybiau disail ar ystyr y "gosteg" hwn; megys ei fod yn golygu y rhyddid a fwynhaodd yr eglwys dan deyrnasiad Cystenyn; neu heddwch a thawelwch y mil blynyddoedd, &c. Ond y golygiad uchod sydd yn ymddangos i ni yn fwy cysson—y pryder yr oedd yn naturiol i'r rhai oedd yn y nef ei deimlo wrth edrych yn mlaen at y digwyddiadau a gymmerent le dan agoriad yr olaf o'r saith sêl.

2. *Ac mi a welais.*—Disgrifir yma y pethau a ddigwyddasant yn ystod y gosteg. *Y saith angel,* &c.—Yn llyfr Tobit [*pen.* xii. 15] llefara Raphael am dano ei hun "fel un o'r saith angel sanctaidd sydd yn offrymu gweddïau y saint." Ond yma, nid un o'r saith, ond angel arall, sydd yn gwneuthur hyny. Y mae yr hyn a ddywedir yn *adn.* 3, am wasanaeth yr "angel arall," yn unol a'r hyn a gredid yn mysg yr Iuddewon am wasanaeth angylion.

3. *Yr angel arall,* yn ol barn Bede, Vitringa, Calovius—ac yn ein dyddiau ni, Elliot—yw Crist, yr Eiriolwr gyda'r Tad. Ond y mae y golygiad hwn, fel y sylwa Alford, yn dinystrio trefn yr olygfa. Lle Crist, yr Oen, ydyw yn nghanol yr orseddfaingc, ac nid yn gwasanaethu o flaen yr allor. Yn *pen.* v. 8, yr ydym yn cael yr henuriaid gyda "phiolau aur yn llawn o arogldarth, y rhai ydyw gweddïau y saint:" yma, yr ydym yn cael angel yn gwneuthur yr un peth. Yr anhawsder, yn nghyfrif Elliot, ac ereill, dros feddwl mai angel crëedig a olygir, ydyw fod y gorchwyl a briodolir iddo yn rhy oruchel i neb llai na'r unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu. Ond y mae *pen.* v. 8, yn agored i'r un wrthddadl; ac y mae ei gwendid gyda golwg ar *pen.* v. 8, yn dangos na fedd fawr o ŷm gyda golwg ar yr adnod hon. Y mae "angel arall," yn *pen.* vii. 2, yn golygu angel crëedig; ac nid ydyw Crist yn myned dan yr enw yn un man yn y llyfr. Etto, nid yw y gwaith a briodolir yma i'r "angel arall" yn rhoddi un sail i addoliad angylion. Trwy Grist, a thrwyddo ef yn unig, y mae gweddïau y saint yn gymmeradwy. Ymadroddion eglur y Beibl sydd i benderfynu materion mewn dadl: nid dammegion neu arwyddluniau. Nid yw yr angel yma yn amgen nag un o'r ysbrydion gwasanaethgar, yn llanw lle cyffelyb i'r henuriaid yn *pen.* v. 8. Beth ydyw natur gwasanaeth angylion yn y peth hwn, nid ydym mewn mantais i wybod: ond y mae genym dystiolaethau sicr nad ydynt i'w haddoli: *pen.* xix. 10; xxii. 8, 9. Nid eiddo yr angel ydyw yr arogldarth; ond cael "ei roddi" iddo y mae. Er fod Crist yn cael ei alw yn angel mewn rhai lleoedd yn y Beibl, etto y mae yn rhy ammheus y buasid yn ei arwain ger ein bron dan yr enw "angel arall," newydd son am saith o angylion crëedig. *Gyda gweddïau.*—Yr oedd mŵg yr arogldarth yn arfer esgyn pan fyddai yr addolwyr yn y deml yn gweddïo. *Yr holl saint*:—yr eneidiau dan yr allor yn y nef, a'r saint ar y ddaear. Mae yr udgyrn sydd yn canlyn yn attebiad i'w gweddïau.

5. Wedi defnyddio y thuser i arogldarthu âg ef (*adn.* 4), wele ddefnydd arall yn cael ei wneuthur o hono gan yr angel. *Ac a'i bwriodd.*—Nid y thuser ei hun, ond y marwor tân llosgedig oedd ynddi. *I'r ddaear*:—yn arwyddo fod y gweddïau ar gael eu hatteb, ac mai y modd yr attebid hwynt y byddai trwy dân dïaledd Duw. "Trwy rinwedd gweddïau y saint, y rhai a weddïant am ddïal ar yr annuwiolion, ac ar yr erlidwyr, y mae tân dialedd—sef, taranau, mellt, a phlâu dilynol y saith angel, a'r saith udgorn—yn cael eu harllwys i lawr ar yr annuwiolion." *A bu lleisiau,* &c.—effeithiau unionyrchol disgyniad tân yr allor; a'r arwyddluniau a flaenorent y barnedigaethau dwyfol oedd i gael eu gweinyddu. Mae yn ammhossibl peidio edrych ar y weledigaeth hon mewn cyferbyniad i'r un dan agoriad y bummed sêl. Y mae yr holl saint yn gweddïo yma: mae eneidiau y merthyron yn llefain yno dan yr allor. Yr un ydyw testyn y gweddïau yn y naill a'r llall. Yn y ddwy weledigaeth, ceir yr allor, y saint, a'r gweddïau; ac yn y weledigaeth flaenorol cymmera y weddi y ffurf o erfyniad am ddïal; ond yn hono, attebir i'r eneidiau dan yr allor "am iddynt orphwys etto ychydig amser, hyd oni chyflawnid rhif eu cydweision." Nid oedd yr adeg wedi dyfod etto i

a bu lleisiau, a tharanau, a mellt,
[f] 2 Sam. 22. 7—9; Salm 18. 18; Esa. 30. 30; Heb. 12. 18, 19.
a [g] daear-gryn.
6 A'r [h] saith angel, y rhai oedd â'r saith udgorn ganddynt, a ymbarotoisant i udganu.
[h] Adn. 2.
7 A'r angel cyntaf a udganodd; a bu cenllysg a thân wedi eu cymysgu â gwaed, a hwy a fwriwyd
[i] Dad. 6. 8; Esa. 2. 12, 13; 40. 7.
i'r ddaear: a [i] thraian y prenau a losgwyd, a'r holl laswellt a losgwyd
8 A'r ail angel a udganodd; a megys mynydd mawr [k] yn llosgi
[k] Amos 7. 4.
[l] Exod. 7. 17—20.
gan dân a fwriwyd i'r môr: [l] a thraian y môr a aeth yn waed;
[m] Zech. 13. 8.
9 A bu farw [m] traian y creaduriaid y rhai oedd yn y môr, ac â byw ynddynt; a thraian y llongau a ddinystriwyd.
10 A'r trydydd angel a udganodd; a syrthiodd o'r nef [n] seren fawr yn llosgi fel lamp, a hi a syrthiodd ar draian yr afonydd, ac ar [o] ffynnonau y dyfroedd:
[n] Judas 13.
[o] Exod. 7. 20, 21.
11 Ac enw y seren a elwir Wermod: ac aeth traian y dyfroedd yn wermod; a [p] llawer o ddynion a fuant feirw gan y dyfroedd, o blegid eu myned yn chwerwon.
[p] Exod. 15. 23.
12 A'r pedwerydd angel a udganodd; a tharawyd traian yr

Dduw ddial eu gwaed. Ond wedi agor y chweched sêl, yr oedd yr amser wedi ei gyflawni. Mae y gweddïau unwaith etto yn cael eu hoffrymu, ac y mae yr adeg i'w hatteb wedi dyfod, a barnau Duw yn disgyn ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear. Dengys hyn, yn chwanegol at yr ystyriaethau a nodwyd o'r blaen, fod agoriad y seithfed sêl yn dwyn i mewn ddigwyddiadau diweddarach, yn canlyn yr eiddo y chweched sêl, ac fod y digwyddiadau dan y seithfed sêl yn cael eu gosod allan drwy yr udgyrn.

6, 7. Ystyria rhai fod yn y saith udgorn gyfeiriad at gwymp Iericho; yr hyn a 'ganlynwyd gan ymgyrch Israel dan Iosuah i feddiannu Gwlad yr Addewid. *A ymbarotoisant*, &c.:—yn arwyddo ofnadwyaeth y barnau oedd i ganlyn. Mae udganiad yr udgyrn yn cymmeryd lle ar ol amryw barotoadau. Mae y pläau hyn yn debyg i'r rhai a ddisgynodd ar yr Aipht. *A thraian.*—Mae y dinystr a'r anghyfannedd-dra yn eang, etto yn rhanol. Mae'yr un cyfartaledd, *traian*, yn rhedeg trwy holl weledigaethau y chwech udgorn cyntaf —yn dynodi trallodau mwy cyffredinol na'r rhai dan agoriad y pedair sêl gyntaf; o blegid "ar y bedwaredd ran o'r ddaear" y rhoddwyd i farwolaeth ac uffern awdurdod. Ond bydd y distryw dan dywalltiad y phiolau yn fwy èang fyth (gwel *pen.* xvi); nid oes un cyfartaledd, fel y bedwaredd neu y drydedd ran, yn cael ei roddi danynt hwy. *Y prenau*:—yn iaith prophwydoliaeth, a arwyddant ddynion o enwogrwydd mewn gallu milwrol, awdurdod gwladol, neu mewn crefydd: *Esa.* x. 19; *Esec.* xvii. 22—24; xxxi. 15—18; *Esa.* lv. 13; lxi. 3. *A'r holl luswellt a losgwyd.*—Y bobloga eth yn gyffredinol: *Esa.* xl. 6, 7; xliv. 4; *Salm* lxxii. 16; xcii. 7.

8, 9. *A megys mynydd mawr.*—Ymgyrch mawr gan genhedloedd barbaraidd, yn gwneyd y difrod mwyaf. Y mae hanes y drydedd ganrif mor lawn o'r cyfryw, fel y mae yn afreidiol dwyn tystiolaethau allan o awdwyr neilldiol.—*Bengel.* Y mae yr arwyddlun o fynydd tanllyd yn syrthio i'r môr yn gosod allan ddirgryniadau rhyw allu dinystriol mawr.—*W. & W.* Gwel *Zech.* iv. 7. Gelwir Babilon yn "fynydd dinystriol," ac yn "fynydd llosg:" *Ier.* li. 25. *A aeth yn waed*:—yr un modd ag afonydd yr Aipht yn amser y pläau. Y barnedigaethau a dywalltwyd dan udganiad y ddau udgorn cyntaf yw y rhai a gedwid yn ol hyd oni chaffai gwasanaethwyr Duw eu selio. Gwel *pen.* vii. 3. Erbyn hyn y mae yr amser wedi dyfod i "ddrygu y ddaear, a'r môr, a'r prenau."

10, 11. *Wermod*:—Groeg: *Apsinthos.* Yr oedd defnydd meddygol y planhigyn hwn yn adnabyddus i'r hynafiaid. Yn Marah, gwnaed y dyfroedd 'chwerwon yn beraidd; yma, y mae dyfroedd peraidd yn cael eu troi yn chwerwon. "Mae yn ammhossibl darllen am y pla yma heb feddwl am effeithiau marwol y gwirodydd cryfion, y rhai nid ydynt yn ddim amgen na dwfr wedi ei droi yn wenwyn. Y mae yr enw *absinthe* yn adnabyddus iawn yn mysg yfwyr y gwirodydd hyn." Gwel Alford, yr hwn sydd yn coffhau hyn yn fwy fel cymmhariaeth nag fel esboniad. Y mae "y seren fawr," Wermod, yn "syrthio o'r nef;" a'r nef, yn y llyfr hwn, yw yr eglwys; preswylwyr y ddaear ydyw dynion bydol.—*Lightfoot.*

12. Y mae y diffyg a nodir ar yr haul, y lleuad, a'r sêr, yn arwyddo lleihad pwysig ar fawredd a dylanwad galluoedd gwladol — terfysgoedd ac aflywodraeth mewn sefydliadau gwladol ac eglwysig; y cyfryw ag a flynent yn y canrifoedd 500, 600, a 700. At ba ddigwyddiadau y mae y pedwar udgorn cyntaf yn cyfeirio, teimlwn yr anhawsder mwyaf i wneyd ein meddwl i fyny. Ymddengys i ni fod pob cais a wnaed yn mheli o fod yn foddhaol. Y cwbl a amcanwn ei wneyd ydyw nodi golygiadau rhai o'r prif esbonwyr. Barna Alford fod yr udgyrn hyn yn gosod allan ddarostyngiad graddol y ddaear i Iesu Grist, i'r hwn y mae i ddyfod yn y diwedd yn deyrnas; ac y mae y darostyngiad hwn yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy farnau ar annuwiolion, y rhai sydd yn dinystrio moddion cyffredin cynnaliaeth a chysur plant dynion. Addefa Alford fod llawer o bethau yn manylion y barnau hyn nas gall efe eu hegluro, ac awgryma na ddylid eu hystyried ond fel addurniadau perthynol i ymadroddion arwyddluniol prophwydoliaeth, ac nad ydym i ymofyn am ddigwyddiadau i gyfatteb iddynt. Dywed yn mhellach, nad yw wedi cyfarfod âg un eglurhâd arnynt nad yw yn treisio y geiriau o'u meddwl priodol. Y mae esbonwyr ereill, hen a diweddar, yn llefaru yn llawer mwy hyderus, ac yn barnu fod udganiad y pedwar udgorn yn gosod allan ddigwyddiadau olynol o fewn terfynau ymherodraeth Rhufain. Barna amryw y portreadir yma gyda llawer o eglurder bedwar o oresgyniadau ar yr ymherodraeth: ac y rhoddir arbenigrwydd mewn hanesyddiaeth i'r pedwar yma. Y cyntaf oedd ymgyrch y Gothiaid, yn nechreu y bummed ganrif, dan Alaric. Yr ail oedd ymgyrch Attila, brenin yr Huniaid, B.A. 447: gelwid Alaric yn "ffrewyll Duw." Y trydydd oedd anrheithiad Rhufain gan Genseric, brenin y Vandaliaid, B.A. 455: a'r pedwerydd oedd yr ymosodiad mawr, dan Odoacer, yr hwn a derfynodd yn

haul, a thraian y lleuad, a thraian y sêr; fel y tywyllwyd eu traian hwynt, ac ni lewyrchodd y dydd ei draian, a'r nos yr un ffunud.

13 Ac mi a edrychais, ac a glywais angel yn ehedeg yn nghanol y nef, gan ddywedyd â [1] llef uchel, [2] Gwae, gwae, gwae, i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, rhag lleisiau ereill udgorn y tri angel, y rhai sydd etto i udganu.

[1] Dad. 11. 14. Ezec. 2. 10.

PENNOD IX.

1 *Seren yn syrthio o'r nef, wrth udganu o'r pummed angel, i'r hwn y rhoddwyd agoriad y pwll heb waelod:* 2 *yntau yn agoryd y pwll, a locustiaid fel ysgorpionau yn dyfod allan.* 12 *Y mae y wae cyntaf wedi myned heibio.* 13 *Y chweched udgorn yn canu:* 14 *a gollwng pedwar angel yn rhydd, y rhai oedd wedi eu rhwymo.*

A'R [a] pummed angel a udganodd; ac mi a welais [b] seren yn syrthio o'r nef i'r ddaear: a rhoddwyd iddo ef agoriad [c] y pydew heb waelod.

[a] Dad. 8. 6, 7, 8, 10, 12; 11. 14, 15. [b] Esa. 14 12; Luc 10. 18; 2 Thes. 2. —8; 2 Tim. 3. 1—5. [c] Luc 8. 31; Rhuf. 10. 7.

2 Ac efe a agorodd y pydew heb waelod; a chododd mŵg o'r pydew, fel mŵg ffwrn fawr; [d] a thywyllwyd yr haul a'r awyr gan fŵg y pydew.

[d] Exod. 10. 21—22; Ioel 2. 2, 10.

3 Ac o'r mŵg y daeth allan locustiaid ar y ddaear; a rhoddwyd awdurdod iddynt, [e] fel y mae gan ysgorpionau y ddaear awdurdod.

[e] Deut. 8. 15; 1 Bren. 12. 11; Ezec. 2. 6; Luc 10. 19.

4 A dywedwyd wrthynt, na

---

ngwaith y cadlywydd hwn yn teitlo ei hun yn "frenin Italy." Yr oedd y digwyddiadau hyn, ebe Barnes, yn rhai pwysig iawn yn eu perthynas â chwymp yr ymherodraeth; ac y maent yn cyfatteb i'r amser ag y gellid disgwyl cyfeiriad ato yn udganiad y pedwar udgorn. Dywed Webster a Wilkinson am yr udgorn cyntaf, ei fod yn dra thebygol fod helbulon ymherodraeth Rhufain ar ei goresgyniad cyntaf gan y Gothiaid ar ddiwedd y bedwaredd ganrif yn cael eu rhagfynegi yma. Dinystriwyd llawer o'i gwŷr mawrion, ei thywysogion, ei chadbeniaid, a'i gwladweinwyr, ac yr oedd dioddefiadau y boblogaeth gyffredin trwy dân, y cleddyf, a newyn, tu hwnt i ddisgrifiad. Dywed W. & W. ar udganiad yr ail udgorn, pan nodir fel un o'r effeithiau fod "traian y môr wedi myned yn waed," fod celanedd arswydus yn canlyn adfeiliad a chwymp yr ymherodraeth; fod y Gothiaid a'r Vandaliaid yn dal heresi Arius, yr hwn a ledaenent trwy nerth y cleddyf; a'u bod, fel hyn, yn achosi dinystr ysbrydol yn gystal a dinystr tymmorol i luoedd afrifed. Barna amryw, mai wrth y seren "Wermod" y golygir gweinidog yn yr eglwys. Y mae seren yn syrthio yn arwyddocau dysgawdwr cyfeiliornus; y cyfryw, yn mysg yr Iuddewon, oedd Bar-cochba. Pan ddywedir fod traian yr afonydd wedi eu troi yn wermod, gosodir allan, ebe Aquinas, athrawiaethau y "prophwydi," yr efengylwyr, a'r apostolion, yr hon ydyw ffynnonell neu wreiddyn ffydd ac ymarferiadau. A wermod ydyw athrawiaeth hereticaidd. Mae Dr. Wordsworth, gan ddilyn Joachim, un o'r hen esbonwyr ar y llyfr, yn deall y seren Wermod "naill ai yn golygu Arius, neu Nestorius, neu Eutychus, a hereticiaid ereill—a wibient o'u cylchoedd yn yr eglwys, ac a wenwynent ffynnonau iachawdwriaeth â chyfeiliornadau dinystriol ynghylch person a natur Mab Duw. Y mae Elliot, ac ereill o'r un ysgol, yn gwrthod y golygiad uchod, ac yn barnu ei fod yn fwy unol âg arwyddocâd yr udgyrn ereill i olygu hwn fel yn cyfeirio at ryw anrheithiad gwladol. Dadleuir fod yr arwyddlun o "seren fawr yn llosgi fel lamp" yn neilldaol o gyfaddas fel disgrifiad o'r cyfryw goncwerwr ag oedd Attila—"ffrewyll Duw." Dylid crybwyll fod Bengel yn ffafrio y golygiad cyntaf: "Ariaeth, yn llawn o chwerwder." Y mae yr un awdwr yn cymmhwyso y pedwerydd udgorn at oresgyniad Italy gan genhedloedd tramor yn y bummed ganrif, a'r canrifoedd dilynol. Dinystriwyd y llywodraeth yn y rhan orllewinol o'r ymherodraeth, diddymwyd y senedd yn fuan wed'yn, a darostyngwyd Rhufain i fod yn ddueiaeth dan awdurdod Ravenna.

Pennod IX.

IX.—XI. Y tri udgorn diweddaf.

Gelwir y rhai hyn yn udgyrn y gwaeau, gyda chyfeiriad at *pen.* viii. 13. Nodweddir y rhai hyn, fel y pedwar cyntaf, gan bethau priodol iddynt eu hunain, yn debyg fel y tair sêl olaf. Y mae y pethau a ddigwyddasant danynt yn wahanol y naill oddi wrth y llall, ac nid yn cyfatteb i'w gilydd fel y pedwar cyntaf. Ac y mae y seithfed udgorn, yr un modd a'r seithfed sêl, yn fath o derfyniad difrifol ar y lleill, yn hytrach nag yn farn bennodol. Ac y mae y seithfed udgorn, fel y seithfed sêl, yn cael ei arwain i mewn gan ddwy adran, yn cynnwys cyfeiriad at y gweledigaethau sydd i ganlyn.—*Alford.*

1—12. *Yn syrthio*:—neu, 'wedi syrthio.' Yr oedd Ioan yn gweled y seren wedi disgyn ar y ddaear. Y mae yma gyfeiriad at gwymp Lucifer yn *Esa.* xiv. 12; ac at *Luc* x. 18; "Mi a welais Satan megys meilten yn syrthio o'r nef." Y mae hefyd yn ddolen gyssylltiol â *pen.* xii. 9, lle y dangosir Satan fel yn cael ei fwrw o'r nef.—*Alford. Y pydew heb waelod*:—yn y llyfr hwnydyw trigle y diafol a'r angylion. *Fel mwg ffwrn fawr.*—Gwel *Gen.* xix. 28. *Ysgorpionau y ddaear.*—Nid yn golygu fod gwahaniaeth rhwng ysgorpionau y ddaear ac ysgorpionau y dwfr; ond am fod ysgorpionau yn naturiol yn perthyn i'r ddaear, tra y mae y locustiaid hyn yn uffernol, a thu allan i derfynau natur.—*Alford. I laswellt y ddaear, &c.*—Rhoddwyd y gwaharddiad iddynt, am mai y pethau hyn yr arfera locustiaid eu dinystrio. Gwel *Exod.* x. 13. *Bum mis*:—o blegid dros bum mis o'r flwyddyn y mae anrhaith y locustiaid yn gyffredin yn parhau. Awgryma hyn nad ydym i ymofyn am gyflawniad hanesyddol o'r "pum mis" yma. *Y cais dynion farwolaeth*:—er mwyn cael esmwythyd oddi wrth boen dirfawr y brathiadau. *Debyg i feirch.*—Cymmharer *Ioel* ii. 4. Dywed Ewald, fod un o'r enwau Ellmynaidd ar y locust yn arwyddo glaswellt-farch. Y mae arfogaeth march rhyfel yn debyg i gragen y locust. *Fel wynebau dynion.*—Nid fod ganddynt wynebau dynol, ond yn debyg. Y mae tebygolrwydd yn ngwyneb y locust naturiol i wyneb dyn, ond y mae y tebygolrwydd yn

wnaont niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwyrddlas, nac i un pren; ond yn unig i'r dynion[f] oedd heb sêl Duw yn eu talcenau.

Exod. 12. 23: Ezec. 9. 4, 6; Eph. 4. 30.

5 A rhoddwyd iddynt [g]na laddent hwynt, ond bod iddynt eu blino hwy bum mis: [h]ac *y byddai* eu gofid hwy fel gofid oddi wrth ysgorpion, pan ddarfyddai iddi frathu dyn.

g Iob 2. 6. h Adn. 3.

6 Ac yn y dyddiau hyny [i]y cais dynion farwolaeth, ac nis cânt; ac a chwennychant farw, a marwolaeth a gilia oddi wrthynt.

i 2 Sam. 1. 9; Iob 3. 20, 21. 7. 15, 16; Ier. 8. 3; Hos. 10. 8; Ionah 4. 8, 9; Luc 23. 30.

7 A dull y locustiaid *oedd* debyg i feirch wedi eu parotoi i ryfel; ac *yr oedd* ar eu penau megys coronau yn debyg i aur, a'u hwynebau fel wynebau dynion.

8 A gwallt oedd ganddynt fel gwallt gwragedd, a'u dannedd oedd fel *dannedd* llewod.

9 Ac yr oedd ganddynt lurigau fel llurigau haiarn; [k]a llais eu hadenydd *oedd* fel llais cerbydau llawer o feirch yn rhedeg i ryfel.

k Iob 39. 25; Esa. 9. 5; Ioel 2. 5, 7; Nah. 2. 4, 5.

10 Ac yr oedd ganddynt gynffonau tebyg i ysgorpionau, ac yr oedd colynau yn eu cynffonau hwy: a'u gallu *oedd* i ddrygu dynion bum mis.

11 Ac yr oedd ganddynt frenin arnynt, *sef* angel y pydew diwaelod: a'i enw ef yn Hebraeg

---

fwy yn ngwyneb y locust hwn. *Fel gwallt gwragedd.*—Gwallt llaes: 1 *Cor.* xi. 14. Y mae gan yr Arabiaid ddiareb, yn yr hon y cyffelybir blew locustiaid i wallt genethod. Sonia Ieremiah (*pen.* li. 27) am "lindys blewog." *Fel dannedd llewod*:—yr hyn a ddywedir hefyd am y locustiaid yn *Ioel* i. 6. *Llurigau haiarn*:—cyfeiriad at y rhan o'r locust sydd yn amddiffyn ei fynwes. *Frenin arnynt*:—yn wahanol i locustiaid naturiol, y rhai nid oes ganddynt frenin: *Diar.* xxx. 27. *Abadon*:—yn arwyddo colledigaeth, neu ddistryw: yn cael ei arfer yn yr Hen Destament am le colledigaeth (*Iob* xxvi. 6; *Diar.* xxvii. 20: "uffern a distryw.") *Apolyon* (o *apoleia*):—y gair a ddefnyddir gan y Deg a Thrigain am Abadon. Dichon mai nid Satan yw yr angel hwn, ond un o'r rhai penaf yn mysg yr angylion drwg. Nid oes un rhan o'r Dadgudduiad yn fwy anhawdd ei hegluro na'r rhan yma. Mae Alford, De Burgh, Brown, &c., yn barnu fod y locustiaid o'r pydew heb waelod yn gosod allan y barnau a ddisgynant ar yr annuwiolion ar fin ail ddyfodiad Crist. Dywed Alford fod yr esboniadau sydd yn ei golygu fel wedi myned heibio yn hollol anfoddhaol; ac y mae yn rhaid addef ei fod wedi llwyddo i ddangos anghyssondeb golygiadau Elliot, ac esbonwyr ereill o'r un ysgol. Fel enghreifftiau o'r eglurhadau hanesyddol, nodwn y rhai canlynol:—Wrth y "mwg o'r pydew" y dealla Burton yr athrawiaeth gau, ac yn neilltuol Gnosticiaeth, trwy ba un y cymmylwyd goleuni yr efengyl; neu, yn ol ereill, y ffynnonell ddirgel, o'r hon y cyfododd y llygriadau Gnosticaidd a Phabaidd: "Syrthiodd Cristionogion y seithfed ganrif i gyflwr nid annhebyg i eiddo y paganiaid. Tywyllwyd gorsedd yr Anfeidrol gan lu o ferthyron, seintiau ac angylion, a gwisgwyd y forwyn âg enw ac anrhydedd duwies." Mae y tybiau yn dra amryw iol ar ystyr *y seren* oedd wedi syrthio o'r nef. Yn mysg ereill, y mae yr esbonwyr Pabaidd (yn dilyn Bellarmine) yn barnu mai arwyddlun ydyw o Luther! Y mae cryn untrydedd yn mysg un dosbarth o esbonwyr, yn mha un y gellir ystyried Elliot y mwyaf galluog, yn y farn fod cyfeiriad yr udgorn yma at sefyllfa y byd ar ol darostyngiad ymherodraeth Rhufain, ac y dangosir cyfodiad gallu arall trwy gyfres o arwyddluniau newyddion. Y gallu hwn ydyw yr un Saracenaidd neu Fahometanaidd. Bernir fod manylion yr arwyddlun yn cyfatteb mewn modd hynod i gyfodiad a goruchafiaeth y gallu hwn. Fel esamplau o'r cyfattebiad hwn, ni a nodwn y rhai canlynol:—Rhoddwyd gorchymynion i'r locustiaid "na wnaient niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwyrddlas, nac i un pren;" *adn.* 4. Yn awr, gwelir yma gyttundeb â gorchymyn pendant yn y *Coran*:—"Cofiwch eich bod yn wastadol yn mhresennoldeb Duw, ar fin angeu, wedi eich tynghedu i farn, ac yn y gobaith o baradwys. Gochelwch anghyfiawnder a thrais hefyd; ymgynghorwch â'ch brodyr, a rhoddwch eich bryd ar ennill serch ac ymddiried eich milwyr. Pan fyddoch yn ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd, ymddygwch fel dynion, heb droi eich cefnau; ond na fydded i'r fuddugoliaeth gael ei difwyno gan waed gwragedd a phlant. Na ddinystriwch ddim palmwydd, ac na losgwch feusydd ŷd. Peidiwch a thori i lawr brenau ffrwythau, na dyfetha anifeiliaid, oddi eithr y rhai a leddir genych yn fwyd." Sylwa Gibbon, gyda chyfeiriad at y gorchymyn uchod, fod Mahomet, yn ngwarchaead Tayaf, drigain milldir o Mecca, wedi troseddu ei gyfreithiau ei hun, trwy ddinystrio coed ffrwythau. Amcenir cael allan liaws o gyfattebiadau cyffelyb yn hanes buddugoliaethau y Saraceniaid i fanylion yr arwyddlun hwn. Sylwa Dr. Wordsworth ar yr amddiffyn a daena y gorchymyn (*adn.* 4) ar y rhai yr oedd sêl Duw yn eu talcenau—"fod Mahometaniaeth wedi bod, ac etto yn parhau, yn fflangell ar y byd am ei esgeulusdra a'i gamdriniaeth o Gristionogaeth. Plentyn uffern ydyw; etto y mae yn gosp ar ddynion am eu camymddygiad tuag at achos y nef. Ond ni niweidiodd y rhai a feddent y sêl. Yn lle hyny yr oedd yn dwyn eu ffydd a'u gwroldeb i weithrediad, ac yn achlysur cryfhâd iddynt, a hefyd yn deffro eu gwyliadwriaeth." Y mae amryw yn sylwi fod y gwledydd hyny a safasant yn ffyddlawn i'r gwirionedd wedi cael eu hamddiffyn mewn modd arbenig rhag, neu eu gwaredu oddi wrth oresgyniadau y Mahometaniaid; a nodir Savoy, Piedmont, a deheudir Ffrainge, fel enghreifftiau. Yr esboniad a roddir ar y gair, *A rhoddwyd iddynt na laddent hwynt*, ydyw, er y byddai iddynt eu lladd fel personau, etto na byddai iddynt eu lladd fel cyfangorph gwladol—fel gwladwriaeth neu ymherodraeth; na byddai iddynt ddiweiddio yr eglwysi Groeg a Ladin. Y mae yn rhaid cydnabod fod yr eglurhâd hwn yn anfoddhaol. Esbonir yr ymadrodd yn *adn.* 5, "a rhoddwyd iddynt na laddent hwynt," fel yn golygu na byddai i'r locustiaid Mahometan-

ydyw Abadon, ac yn Roeg y mae iddo enw Apolyon.

[l] Adn. 1, 2. 12 Un [l] wae a aeth heibio; wele, y mae yn dyfod etto ddwy wae ar ol hyn.

13 A'r chweched angel a ud-
[m] Dad. 8. 3. [m] ganodd; ac mi a glywais lef allan o bedwar corn yr allor aur, yr hon sydd ger bron Duw,

14 Yn dywedyd wrth y chwech-
ed angel, yr hwn oedd â'r udgorn
[o] Dad. 16. 12. ganddo, [n] Gollwng yn rhydd y pedwar angel sydd yn rhwym yn yr afon fawr Euphrates.

15 A gollyngwyd y pedwar angel, y rhai oedd wedi eu paro-

toi erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn, [o] fel y lladdent y traian o'r dynion. [o] Dad. 8. 7, 9, 11, 12.

16 A [p] rhifedi y llu o wŷr meirch *oedd* ddwy fyrddiwn o fyrddiynau: ac mi a glywais eu rhifedi hwynt. [p] Salm 68. 17; Dan. 7. 10.

17 Ac fel hyn y gwelais i y meirch yn y weledigaeth, a'r rhai oedd yn eistedd arnynt, [q] a chan- [q] Adn. 9. ddynt lurigau tanllyd, ac o *liw* hyacinth a brwmstan: a phenau y meirch *oedd* fel penau llewod; ac yr oedd yn myned allan o'u safnau, dân, a mŵg, a brwmstan.

18 Gan y tri hyn y llâs traian

---

aidd "eu difodi fel cyfangorph Cristionogol politicaidd." Ond ymadewir â'r drychfeddwl o "gyfangorph Cristionogol politicaidd" wrth eglurο *adn.* 6; *Ac yn y dyddiau hyny y cais dynion farwolaeth, ac nis cânt.* Edrychir yma ar ddynion fel personau unigol. Sylwa Alford fod yr esbonwyr hanesyddol yn rhwym o ddilyn yr un rheol wrth egluro *adn.* 6, ag a ddilynant gydag *adn.* 5. Os y corph gwladol a olygir yn y naill, y corph gwladol a olygir hefyd yn y llall; ac os felly, y mae yn canlyn fod y galluoedd Cristionogol yn cael eu molestu mor dôst gan y locustiaid Mahometanaidd nes dyheu yn ofer am gael eu dinystrio. Y mae hanesiaeth yn profi fod llawer o Gristionogion mewn enw wedi cael eu dinystrio gan y Saraceniaid; ond gan fod hyn yn peri fod yn anhawdd deall y gorchymyn i'r locustiaid i beidio eu lladd, amcenir ysgoi yr anhawsder gyda'r dybiaeth mai nid eu lladd fel personau, ond eu dinystrio fel corph gwladol a feddylir. Caniatäer hyny—ac os felly, am danynt fel corph gwladol y lleferir yn *adn.* 6, pan ddywedir fod dynion yn ceisio marwolaeth, ac heb ei gael. Ond y mae deall *adn.* 6 yn y wedd yma yn arwain i wrthuni; ac y mae gwrthuni y golygiad, wedi ei gymmhwyso at *adn.* 6, yn dangos mai annheg ac annaturiol yw ei gymmhwyso at *adn.* 5. Y mae y ceisiadau i egluro ystyr y "*pum mis*" a roddwyd i'r locustiaid i flino dynion yn ymddangos i ni yn annaturiol a phlentynaidd. Y mae y cyfnod hwn yn arwyddo 150 o flynyddoedd, yn ol barn amryw—tymmor parhâd Gnosticiaeth, ebe Dr. Burton: yn ol ereill, yr ysbaid rhwng cyfodiad Mahometaniaeth (B. A. 612) a sylfaeniad dinas Bagdad (B. A. 762), pan y rhoddwyd attalfa ar ledaeniad y gallu Saracenaidd. Barna ereill, mai yr ysbaid a olygir wrth "bum mis" ydyw yr ysbaid hwnw o amser ag sydd yn dwyn yr un cyfartaledd i'r holl gyfnod Cristionogol ag a ddyga pum mis i flwyddyn—sef, yn agos i'r hanner. Heb law fod y golygiadau hyn, ynghyd âg ereill o'r un natur a allesid eu nodi, yn agored i wrthddadleuon pwysig, y mae yn ymddangos i ni fod y cais i esbonio manylion yr arwyddlun yn groes i reolau cywir deongliadaeth. Y mae yn ammhossibl meddwl fod y ffaith mai dros bum mis o'r flwyddyn y mae difrod locustiaid yn parhau, yn golygu cyfnod o 150 o flynyddoedd, neu ysbaid agos i hanner y cyfnod Cristionogol. Y mae yr ystyron a roddir ar *goronau* a *chynffonau* y locustiaid yn agored i'r un wrthddadl. Y "coronau," ebe amryw, oedd y capiau (*turbans*) a wisgai y milwyr Saracenaidd

am eu penau; neu y teyrnasoedd a ddarostyngid ganddynt. Cymmhwysa y deon Woodhouse yr arwyddlun at y Gnosticiaid; "Y mae ganddynt bethau cyffelyb i goronau; hyny yw, y maent yn ymgoneddu mewn ymddangosiad o grefydd, ond heb feddu ei gwirionedd a'i grym." Gwna Scott y sylw hwn:—"Yr oedd y niwed mwyaf yn cael ei wneuthur gan eu cynffonau. Pa le bynag y dygent eu buddugoliaethau, gadawent ar eu holau wenwyn eu crefydd ffiaidd; y fath fel yr oedd canlyniadau eu buddugoliaeth yn llawer mwy niweidiol na'r gelanedd a wneid ganddynt."

13—21. *Lef*:—yn llythyrenol, 'un llef.' "Yr oedd y pedwar corn yn rhoddi allan ar unwaith un llef; nid amrywiol lefau."—*Vitringa*, a'r un modd Hengstenberg. Rhydd yr esbonwyr mwyaf alegoraidd ystyron hynod i'r "llef" hon:—cytundeb y pedair efengyl; gweddïau yr Iuddewon mewn alltudiaeth, &c. Edrycha yr esgob Newton ar hyn fel arwydd neilluol o ŵg Duw:—"Y mae yn rhaid fod pechodau dynion yn fawrion iawn, pan oedd yr allor, yr hon oedd eu hamddiffyn a'u noddfa, yn galw yn uchel am ddialedd." Cymmera Dr. Wordsworth olwg wahanol:—"Gan fod y llef yn dyfod allan o allor yr aroglarth, yr oedd gollyngiad y pedwar angel yn rhydd yn attebiad grasol i weddïau y saint." Yr un â'r olaf ydyw golygiad Alford; yr hyn a brofir, yn ol ei farn ef, trwy gymmharu yr adnod hon â *pen.* vi. 9, a xvi. 7. Dadleua efe nad oes un sail i dybied fod y llef o'r allor yn arwyddo unrhyw allor ar ba un y cyflawnwyd rhyw gamwedd neilluol; ac na ellir meddwl fod yma gyfeiriad at lygriad Cristionogaeth trwy ddefodau y Babaeth. Y mae y cyfryw syniad yn cymmysgu holl arwyddluniaeth y weledigaeth. Yr allor y sonir yma am dâni yw "yr allor aur oedd ger bron Duw," ar yr hon yr offrymid gweddïau y saint (*pen.* viii. 3, 5); ac effaith y gweddïau hyny ydyw y llef, ac attebiad i'r gweddïau ydyw y barnedigaethau sydd yn cael eu gweiniyddu. *O bedwar corn yr allor.*—Barn Mede a Newton y golygir y pedwar Sultan, arweinwyr y Tyrciaid, y rhai a luddiwyd rhag eangu eu buddugoliaethau hyd ar ol y croesgadau yn niwedd y 13eg ganrif, pryd yr ennillodd y Tyrciaid amryw o fuddugoliaethau ar y Tartariaid a'r Cristionogion, ac y sylfaenodd Othman ymherodraeth newydd. Barna ereill, nad oes iddynt un arwyddocâd neilluol, ond mai perthyn y maent i gyfander a phrydferthwch yr arwyddlun. Y cwbl a ddangosir ydyw, fod y llef yn dyfod oddi ar wyneb yr allor, ar yr hon yr offrymwyd y gweddïau; a nodir y pedwar corn yn

y dynion, gan y tân, a chan y mŵg, a chan y brwmstan, oedd yn dyfod allan o'u safnau hwynt.

19 Canys eu gallu hwy sydd yn eu safn, ac yn eu cynffonau: canys y cynffonau *oedd* debyg i seirph, a phenau ganddynt: ac â'r rhai | hyny y maent yn drygu.

20 A'r dynion ereill, y rhai ni laddwyd gan y plâau hyn, [r]nid edifarhasant oddi wrth weithredoedd eu dwylaw eu hun, fel nad [s]addolent gythreuliaid, [t]a delwau aur, ac arian, a phres, a main, a phrenau, y rhai ni allant na gweled, na chlywed, na rhodio: [r] Ier. 8. 4-6; Mat. 21. 32. [s] Lef. 17. 7; Esa. 2. 8; Ier. 44. 8; Act. 19. 26. [t] Salm 115. 4—8; 135. 15—18;

21 Ac nid edifarhasant oddi wrth eu llofruddiaeth, nac oddi wrth eu cyfareddion, nac oddi Esa. 41. 7. Ier. 10. 3, 5. Dan. 5. 23; Act. 17. 29.

unig, am mai hwy oedd terfynau yr allor. *Yr afon fawr Euphrates.*—Y mae yr afon hon, fel Babilon, i'w deall mewn ystyr ffugrol. Yn ol Wordsworth, "mewn rhyw ystyr, y mae yr efengyl wedi bod yn rhwym yn yr afon Euphrates—y Babilon gyfriniol, Eglwys Rhufain—o blegid y mae y ddinas fawr hono wedi rhwymo gair Duw mewn llyfrethciriau." Y mae y golygiad hwn yn amlygu amddifadrwydd galarus o allu i ddeall yr arwyddlun. Gweithred o ddaioni annhraethol i'r byd ydyw rhyddhau gair Duw o bob llyfrethair: ond gweinyddwyr barn a dialedd ydyw y pedwar angel yn y weledigaeth. A all Dr. Wordsworth dybied fod yr efengyl, ar ol ei rhyddhau o gadwynau Rhufain, wedi lladd "traian" o'r dynion a drigent ar y ddaear? Y mae Düsterdieck, &c., yn dadleu fod yn rhaid rhoddi ystyr cyfriniol i Euphrates; yr hyn y mae yn rhaid cydnabod sydd yn gydweddol âg arwyddluniaeth y llyfr:—"Gan fod y gweddill o'r weledigaeth yn meddu arwyddocâd cyfriniol, mae yn rhaid i ni ddeall yr afon Euphrates felly hefyd." Dengys Elliot, fodd bynag, nad yw hyny yn angenrheidiol; gan fod cysylltu lleoedd ac amserau llythyrenol â darluniadau cyfriniol yn arferedig yn alegorïau y Beibl. Nodir *Salm* lxxx. 8, 11, fel enghraifft o hyn. Yr un pryd, y mae arwyddluniaeth y Dadguddiad yn dangos, er fe allai nad yw yn rhaid, fel y dywed Düsterdieck, etto fod yn fwy naturiol deall yr afon fawr Ephrates, yr un modd a Babilon a'r Aipht, mewn ystyr cyfriniol. Ond beth ydyw yr ystyr hwnw, y mae yn rhy anhawdd penderfynu. Y dyb sydd yn ffynu yn mysg y dosbarth y medda Newton, Elliot, &c., le arbenig ynddo ydyw, mai y gallu Tyrcaidd a feddylir; a bernir fod yr udgorn hwn yn arwyddo y digwyddiadau a gymmerasant le dan y gallu Tyrcaidd yn y cyfnod sydd yn ymestyn o ymddangosiad cyntaf y Tyrciaid yn nghymmydogaeth yr Euphrates, hyd goncwest olaf Caer Cystenyn, yn 1453. Y mae y golygiad yn cael ei seilio ar yr ystyriaethau canlynol:—Gan y bernir fod y pummed udgorn yn arwyddo cyfodiad y gallu Mahometanaidd yn mysg yr Arabiaid, a chan mai gallu y Twrc sydd yn dyfod yn nesaf i'r gallu hwnw, y mae yn naturiol disgwyl rhagfynegiad o gyfodiad gallu y Twrc yn y chweched udgorn. A'r gallu hwn, yr hwn a gyfodwyd ar adfeilion yr eiddo Arabia, ydoedd y gallu nesaf iddo mewn amser i osod ei argraph ar hanes y byd. Hefyd, yr oedd eisteddle y gallu hwn, fel ei ragflaenor, yn y dwyrain; yr hyn sydd yn cyttuno âg arwyddluniau y weledigaeth. Ac yn olaf, yr oedd gan allu y Twrc ran yn nygiad oddi amgylch ddymchweliad ymherodraeth Rhufain. *Erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn.*—Nid yw yr amserau hyn i'w gwahanu, eithr y mae y naill o fewn y llall: yr awr yn y diwrnod, y diwrnod yn y mis, a'r mis yn y flwyddyn. *Y traian o'r dynion*:—y rhai a nodir yn *pen.* viii. 13; "y rhai sydd yn trigo ar y ddaear:" ac nid neb o'r rhai yr oedd sêl Duw yn eu talcenau. *Ddwy fyrddiwn o fyrddiynau.*—20,000 x 10,000 =200,000,000=dau can miliwn. Bernir fod cyfeiriad yn y rhif at *Salm* lxviii. 17; *Dan.* vii. 10. Meddylia rhai fod maint aruthrol y nifer yn ein rhwymo i olygu lluoedd Duw—nid meirchfilwyr y ddaear. Dealla ereill fyddinoedd o'r dwyrain, o Arabia, a Persia, y tiriogaethau lle y llwyddodd Mahometaniaeth fwyaf; a rhoddant gryn bwys ar rai ffeithiau a gofnodir gan Gibbon, megys fod meirchfilwyr y Twrc yn gorchuddio terfyndir o chwe chan milldir, ac y byddai y gallu hwn yn cyfrif ei filwyr, nid wrth y miloedd, ond wrth y myrddiynau (*tomans*). Etto, pa mor liosog bynag oeddynt, y mae y nifer a nodir mor uchel fel na chyrhaeddodd y byddinoedd mwyaf a welwyd erioed uwchlaw y ddeucanfed ran o hono. Canfydda rhai gyffelybrwydd yn y milwyr Tyrcaidd i'r darluniad o'r meirch a'r marchogion yn *adn.* 17. Crybwyllir y ffaith fod y Tyrciaid yn hoff o'r lliwiau coch, glas, a melyn yn eu dillad milwrol, a meddylir fod yn y geiriau, "yr oedd yn myned allan o'u safnau dân, a mŵg, a brwmstan," gyfeiriad at y tân-ddrylliau newyddion a ddefnyddid yn ngwarchaead Caer Cystenyn, yn B. A. 1453. Barna rhai, fod yr ymadrodd hwn, "eu gallu hwy sydd yn eu safn, ac yn eu cynffonau," yn meddu cyfeiriad at y cynffonau meirch a ddygid oddi amgylch gan y Pachas Tyrcaidd, fel arwyddlun o awdurdod! Llawer llai plentynaidd yw golygiad Esgob Newton, yr hwn a ddywed fod y "Tyrciaid yn tynu ar eu holau yr un gynffon a'r Saraceniaid." Y maent yn proffesu ac yn lledaenu yr un twyll, ac yn gwneuthur niwed, nid yn unig trwy eu buddugoliaethau, ond hefyd trwy yr athrawiaethau gau a ledaenir ganddynt." *A'r dynion ereill.*—Y Cristionogion gorllewinol, medd rhai. Er iddynt weled yr eglwys ddwyreiniol yn cael ei chospi yn y modd y darlunir yma; sef, trwy ymgyrch y Tyrciaid Mahometanaidd, etto glynu a wnaethant hwy wrth eu defodau eilunaddolgar; "ac nid edifarhasant." Yn unol â'r golygiad hwn, y mae y gwahanol bethau a nodir yn *adn.* 20, 21, yn cael eu hesbonio am ddefodau y Babaeth. Er enghraifft, cyfeiria "llofruddiaeth" at laddiadau y Chwilys.

Pennod x.

1—11. Gweledigaeth y llyfr bychan.

Megys y cawn yn hanes agoriad y seliau ddigwyddiadau yn cael eu dwyn i mewn rhwng y chweched a'r seithfed sêl, yn meddu cyfeiriad at gyflwr yr eglwys, felly hefyd yr ydym yma yn cyfarfod â digwyddiadau o natur gyffelyb rhwng y chweched a'r seithfed udgorn; ac y mae yn amlwg mai helyntion yr eglwys a osodir allan yn y digwyddiadau a arwyddoceir yn y gweledigaethau o ddechreu y bennod hon hyd *pen.* xi. 15: a hyny mewn cyferbyniad i'r barnau a dywelltid

wrth eu godineb, nac oddi wrth eu lladrad.

PENNOD X.

1 *Angel cryf cadarn yn ymddangos, a llyfr agored yn ei law:* 6 *ac yn tyngu i'r hwn sydd yn byw yn dragywyddd, na bydd amser mwy.* 9 *Gorchymyn i Ioan gymmeryd y llyfr, a'i fwyta.*

B. A. 96.

[a] Dad. 5. 2; 7. 1, 2; 8. 2—5.

AC mi a welais [a] angel cryf arall yn disgyn o'r nef, wedi ei wisgo â chwmmwl: ac enfys *oedd* ar ei ben, a'i wyneb *ydoedd* fel yr haul, a'i draed fel colofnau o dân:

2 Ac yr oedd ganddo yn ei law [b] Dad. 6. 1, 3. [b] lyfr bychan wedi ei agoryd. Ac efe a osododd ei droed dehau ar y môr, a'i aswy ar y tir;

3 Ac a lefodd â llef uchel, fel y rhua llew: ac wedi iddo lefain, y saith daran a lefarasant eu llefau hwythau.

4 Ac wedi darfod i'r saith daran lefaru eu llefau, yr oeddwn ar fedr ysgrifenu: ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, [c] Sêlia y pethau a lefarodd y saith daran, ac na ysgrifena hwynt. [c] Deut. 29. 29; Dan. 8. 26.

5 A'r angel yr hwn a welais yn sefyll ar y môr, ac ar y tir, a gododd ei law i'r nef,

ar "y rhai sydd yn trigo ar y ddaear:" sef, ar elynion yr eglwys, yn y pummed a'r chweched udgorn. Bernir fod cyfeiriad diammheuol yn *adn.* 6 o'r bennod hon at *pen.* vi. 11. Yn *pen.* vi. 11, dywedwyd wrth eneidiau y merthyron, y rhai a lefent am ddial, "am iddynt orphwys etto ychydig amser, hyd oni chyflawnid rhif eu cydweision a'u brodyr;" ac yma (*adn.* 6), y maent yn cael eu hysbysu "na byddai amser mwyach;" hyny yw, fod cyfrwng yr oediad drosodd, ac yr attebid eu gweddïau hwythau "yn nyddiau llef y seithfed angel, pan y gorphenir dirgelwch Duw." Gwel ar y geiriau.

1. *Angel cryf arall:*—i'w wahaniaethu oddi wrth yr angel cryf yn *pen.* v. 2, yr hwn oedd a wnelai â llyfr arall, o faintioli mwy. Barna rhai mai y Duwdod ei hun a olygir: yn gymmaint a bod arwyddlun cyfiawnder a thrugaredd ddwyfol yn gorphwys arno, "angel y cyfammod ydyw." Dywedir fod yr ymadrodd, "a'i wyneb ydoedd fel yr haul," wrth ei gymmharu â *pen.* i. 16, yn cefnogi y golygiad. Y mae y darluniad o hono fel hefyd "wedi ei wisgo â chwmmwl" yn ymddangos i Elliot, ac ereill, yn rhy fawreddog i greadur. Y mae Alford, fodd bynag, yn gryf o farn wahanol; ac yn dadleu nad oes un sail i feddwl fod un o bersonau y Drindod yn cael ei arddangos yn ngweledigaethau y llyfr hwn fel angel; ac fod yn briodol gwisgo angel crëedig â'r arwyddion mawreddog yr arferir yn y Beibl eu cyssylltu â'r mawredd dwyfol, yn unig am fod y gorchwyl o weithio allan fwriadau Duw wedi ei ymddiried iddo. Yn ol y golygiad hwn, yr hwn sydd yn ymddangos i ni yn fwyaf cysson âg arwyddluniau y llyfr, y mae fod yr angel wedi ei wisgo â chwmmwl, yn dynodi ei fod yn genad i weinyddu y barnedigaethau dwyfol—fod enfys ar ei ben, yn arwyddo trugaredd gyfammodol Duw tuag at ei bobl yn nghanol gweinyddiad ei farnau ar ei elynion. Y mae yr arwyddion sydd yn cylchynu yr angel hwn, yn dynodi barn wedi ei thymmheru â thrugaredd.

2. *Llyfr bychan:*—mewn cymmhariaeth i'r rhôl fawr yn *pen.* v. Barna Wordsworth, y cyfeirir yma at swydd Ioan fel yr un yr ymddiriedwyd iddo gyflawni cyfrol y Testament Newydd. Y gweddill o'r Dadguddiad: "dirgelwch Duw" yn *adn.* 7.—*Alford.* Ereill a olygant wrtho gynnwys y bennod hon. "Y mae yn sicr fod y "llyfr bychan" hwn yn golygu prophwydoliaeth chwanegol, yn dwyn i mewn yma adroddiad cyflawnach o gyfodiad, cynnydd, adfeiliad, ac adferiad Cristionogaeth yn rhagbarotoawl i ddadguddiadau y seithfed udgorn."—*W. a Wilkinson.*

3. Y mae yr holl ddisgrifiad o'r angel—y man y safai, ac uchder ei lef—yn gosod allan fawrhydi a gogoniant yr hwn yr oedd yr angel yn genad iddo.—*Alford.* Y mae y rhai sydd yn barnu mai Crist a feddylir wrth yr angel, yn tybied fod cyfeiriad yn yr ymadrodd, "fel y rhua llew," ato ef fel y llew o lwyth Iudah. Ond y mae y golygiad arall yn well. *Y saith daran.*—Saif y fannod o flaen "saith daran," am eu bod, fel y saith seren, yr eglwysi, y seliau, yr udgyrn, a'r phialau, yn ffurfio rhan gyfan o wahanol wrthddrychau y golygfeydd yn y llyfr hwn. Nid yw ystyr "y saith daran" yn cael ei egluro, am y rheswm nad yw yr ystyr wedi ei ddadguddio.—*Alford.* Y mae Wordsworth yn esbonio "y saith daran" am saith ysgrifenydd y Testament Newydd, o flaen Ioan; ac ereill, am anathemau y Pab yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Ond y mae yn ymddangos fod pob cais o'r fath i wybod eu harwyddocâd yn hollol groes i'r gorchymyn i Ioan yn *adn.* 4: "Selia y pethau a lefarodd y saith daran, ac na ysgrifena hwynt." Nid yw ystyr y taranau, na chynnwys eu lleferydd, i'w hesbonio o gwbl: nid oedd y pethau a lefarai y taranau i'w cyhoeddi, fel y gweddill o'r pethau a welai ac a glywai Ioan. "Y mae ceisio dychymygu beth yw y pethau hyn, pan y mae yr Ysbryd Glân yn fwriadol wedi eu cuddio, yn sawru yn hytrach o wagedd a rhyfyg nag o wybodaeth a doethineb."—*Esgob Newton.*

5. *Ar y 'môr, ac ar y tir.*—Chwanegir "ar y môr" i ddynodi cyffredinolrwydd. Y mae y brophwydoliaeth a gynnwysir yn y llyfr bychan yn dwyn perthynas â'r holl fyd. Gwel *adn.* 11. *A gododd ei law i'r nef.*—Dull difrifol o gymeryd llŵ: *Gen.* xiv. 22; *Dan.* xii. 7.

6. *Na byddai amser mwyach.* — Na byddai oediad mwyach; gyda chyfeiriad at gri y merthyron yn *pen.* vi. 11. Yr oedd y saith udgorn yn cael eu hudganu mewn attebiad i'r cri yma; ac yn awr y mae y dialedd y gweddïid am dano ar fin cael ei gyflawni yn llwyr—y mae yr oediad ar ben. Nid oes sail i'r golygiad a ymddengys yn fwyaf naturiol oddi wrth y darlleniad Cymraeg; sef, y mynegir yma ddiwedd amser a dechreuad tragwyddoldeb. Y mae cyssylltiad yr adnod hon âg *adn.* 7, yn dangos mai y cyntaf ydyw y meddwl: pan yr udgana y seithfed angel, daw tymmor yr oediad i ben.

7. *Dirgelwch Duw.*—O'r un arwyddocâd a'r gair yn *Rhuf.* xvi. 25. "Dirgelwch y deyrnas, fel y mae yn cael ei ddadblygu yn nghwrs goruchwyliaeth yr efengyl; yr hyn a welir yn eglur oddi wrth y mawl a'r diolch a gyflwynir ar ol

[d] Dad. 1. 18; 4. 9, 10. [e] Dad. 16. 17; Dan. 12. 7. [f] Rhuf. 11. 25.

6 Ac a dyngodd [d] i'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, yr hwn a greodd y nef a'r pethau sydd ynddi, a'r ddaear a'r pethau sydd ynddi, a'r môr a'r pethau sydd ynddo, [e] na byddai amser mwyach:

7 Ond yn nyddiau llef y seithfed angel, pan ddechreuo efe udganu, [f] gorphenir dirgelwch Duw, fel y mynegodd efe i'w wasanaethwyr y prophwydi.

8 A'r llef a glywais o'r nef, a lefarodd drachefn wrthyf, ac a ddywedodd, Dos, cymmer y llyfr bychan sydd wedi ei agoryd yn llaw yr angel yr hwn sydd yn sefyll ar y môr, ac ar y tir.

9 Ac mi a aethum at yr angel, gan ddywedyd wrtho, Moes i mi y llyfr bychan. Ac efe a ddywedodd wrthyf, [g] Cymmer, a bwyta ef yn llwyr: ac efe a chwerwa dy fol di, eithr yn dy enau y bydd yn felus fel mêl.

[g] Iob 23. 12; Col. 3. 16.

10 Ac mi a gymmerais y llyfr bychan o law yr angel, ac a'i bwyteais ef: ac yr oedd efe yn fy ngenau megys mêl yn felus: ac wedi i mi ei fwyta ef, fy mol a aeth yn chwerw.

11 Ac efe a ddywedodd wrthyf, [h] Rhaid i ti drachefn brophwydo i bobloedd, a chenhedloedd, ac ieithoedd, a brenhinoedd lawer.

[h] Dad. 11. 9; 14. 6.

PENNOD XI.

3 Y ddau dyst yn prophwydo 6 bod ganddynt awdurdod i gau y nef, rhag iddi wlawio: 7 yr ymladd y bwystfil yn eu

udganiad y seithfed udgorn: *pen.* xi. 15."—*Alford.* Yr un hefyd yw golygiad Brown, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr. Yr un o ran sylwedd yw y golygiad mai y "dirgelwch" ydyw cynnwysiad y llyfr bychan, a'r gweddill o'r Dadguddiad.

9. *Ac mi a aethum.*—Yn llythyrenol, 'Mi a aethum ymaith.' Gadawodd Ioan y nef, y lle y safai hyd yma i weled y gweledigaethau, i fod yn ymyl yr angel oedd yn sefyll ar y môr a'r tir. *Cymmer a bwyta ef yn llwyr.* — Cymmharer *Ezec.* iii. 1. Ni sonir, yn hanes Ezeciel yn bwyta y llyfr, ond yn unig am ei felusder yn y genau. Y mae fod y gweledydd yn profi y llyfr, wedi ei fwyta, yn felus ar y cyntaf, yn eyfodi oddi ar yr ymwybyddiaeth oedd o'i fewn ei fod yn cyflawni ewyllys Duw; a'i fod yn ystyried ei ewyllys ef, fel ewyllys doeth, cyfiawn, a da, yn hyfryd ac yn ddymunol. Yr ydoedd Ioan yn teimlo, wrth gael ei ddwyn i wybod chwaneg o ewyllys sanctaidd Duw, yn debyg i'r Salmydd, yr hwn a ddywedai (*Salm* cxix. 103)—"Mor felus yw dy eiriau i'm genau! melusach na mêl i'm safn!" Ond ar ol bwyta y llyfr, pan oedd y cylla yn ei dreulio, yr oedd yr hyn a fuasai yn felus erbyn hyny yn chwerw: yr oedd cynnwysiad y llyfr yn achosi teimladau anhyfryd o'i fewn. Yr oedd yr erledigaethau ar yr eglwys, a'r gwrthgiliadau, ynghyd â barnau Duw ar y byd, yn ymlid ymaith y teimlad o lawenydd, ac yn llanw meddwl y gweledydd â phrudd-der a gofid yn ei le. "Yr oedd y meddwl y byddai i Dduw gael ei ogoneddu yn rhoddi y pleser melusaf iddo: etto, yr oedd ei fol, neu ei deimlad cnawdol naturiol, yn cael ei chwerwi gan ofid yn ngwyneb y rhagfynegiad o erledigaethau trymion ar yr eglwys: *pen.* xi. 7—10."—*Brown.*

11. *Rhaid i ti*:—yn golygu y rhwymedigaeth oedd arno fel gwas a chenad Duw. *Drachefn*:—fel y gwnaethai eisoes yn y rhan flaenorol o'r llyfr. *I bobloedd.* — Yn fwy cywir 'am,' neu 'ynghylch pobloedd,' yn eu perthynas â'r eglwys. Y mae bwyta y llyfr yn dynodi adnewyddiad ar gommissiwn Ioan i fynegu ewyllys Duw gyda golwg ar yr eglwys. Dylid, fe allai, nodi fod amryw o'r esbonwyr hanesyddol yn barnu fod y bennod hon yn cyfeirio at y Diwygiad Protestanaidd. Dywedant fod *pen.* ix. yn ol esboniad yr ysgol hon, yn dwyn yr hanes i lawr hyd warchaead Caer Cystenyn gan y Tyrciaid, a llwyr ddymchweliad ymherodraeth Rhufain trwy y digwyddiad hwnw, yr hyn a gymmerodd le yn 1453: hefyd, fod yr adnodau olaf yn *pen.* ix. yn wir ddisgrifiad o'r byd Cristionogol yn yr adeg yma; na ddarfu i'ddymchweliad ymherodraeth Rhufain effeithio un cyfnewidiad er gwell yn moesau dynion; ond fod y byd yn ymddangos fel yn ymgadarnhau fwy-fwy yn y drygau a nodir. Yr oeddynt yn aros yn Eglwys Rhufain ar ol a chyn goresgyniad yr ymherodraeth ddwyreiniol gan allu y Twrc. Hefyd, y digwyddiad mawr agosaf o ran amser i warchaead Caer Cystenyn oedd toriad allan y Diwygiad Protestanaidd. Dadleuant yn mhellach fod arwyddluniau y bennod hon yn neilldiol o addas i arddangos y Diwygiad. Y mae urddas a mawrhydi yr angel yn gosod allan fawredd y gwaith a wnaed yn y Diwygiad;—y enfys ar ei ben yn arwyddo cymmeriad heddychol y Diwygiad; a disgleirdeb ei ymddangosiad yn gosod allan y goleuni gwybodaeth a daenid gan y Diwygiad. Yr un modd, y mae "y llyfr bychan wedi ei agoryd" yn cael ei farnu fel yr arwyddlun mwyaf addas; yn gymmaint felly fel y mae yn hynod darawiadol o'r Diwygiad. Prif offeryn y Diwygiad oedd llyfr—sef, y Beibl. Yr oedd Wycliffe wedi cyfieithu y Testament Newydd i'r iaith Saesnig; ac er iddo gael ei wahardd, etto bu iddo wneuthur llawer i barotoi lliaws o bobl i'r Diwygiad; a gellir olrhain y cwbl a wnaeth Luther i'w ddarganfyddiad o'r Beibl, ac i'r defnydd a wnaeth o hono. Yr oedd y llyfr hefyd yn guddiedig o'r blaen—neu yn gauedig. Ychydig hyd yn oed o'r offeiriaid oedd yn gwybod dim o hono, ac yr oedd llawer o honynt heb brin fedru ei ddarllen. Ond yn y Diwygiad, daeth yn llyfr agored, a'r mwyaf poblogaidd o holl lyfrau y byd. Dygwyd hyn oddi amgylch trwy y ddyfais o argraphu, a thrwy yr arbenigrwydd a roddid i'r Beibl fel rheol ffydd ac ymarweddiad. Yn yr un dull yr amcenir dangos priodoldeb yr arwyddluniau ereill.

PENNOD XI.

MESURIAD Y DEML: Y DDAU DYST: Y DDAEARGRYN: Y SEITHFED UDGORN.

Cydnabyddir y bennod hon fel yr anhawddaf yn y llyfr; ac yr ydym yn anobeithio cael allan ei harwyddocâd. Byddai crynodeb o hanes ei dëonglyddiaeth yn llawer rhy faith yn y tudal-

herbyn, ac y lladd hwynt; 8 *hwythau yn gorwedd heb eu claddu,* 11 *ac ar ol tridiau a hanner yn adgyfodi.* 14 *Yr ail wae yn myned heibio.* 15 *Y seithfed udgorn yn canu.*

B. A. 96.

ARHODDWYD i mi gorsen debyg i wïalen. A'r angel a safodd, gan ddywedyd, Cyfod, a [a]mesura deml Dduw, a'r allor, a'r rhai sydd yn addoli ynddi.

[a] Ezec. 40. 48; Eph. 2. 20, 22.

2 Ond y cyntedd sydd o'r tu allan i'r deml, bwrw allan, ac na fesura ef: o blegid [b]*efe* a roddwyd i'r Cenhedloedd: [c]a'r ddinas sanctaidd a fathrant hwy ddeufis a deugain.

[b] Dad. 13. 18; Luc 21 24; 2 Thes. 2. 3—12. [c] Esa. 48. 2; Mat. 4. 5. [d] Num. 35. 30; Mat. 18. 16.

3 Ac mi a roddaf *allu* i'm [d]dau enau hyn. Y golygiad goreu arni ydyw, ei bod yn rhagflaeniad o, neu arweiniad i'r gweledigaethau dilynol, ac yn fath o grynodeb o honynt hyd ddiwedd *pen.* xx. Dyma yr olwg a gymmer Brown, Alford, &c., arni. Ceir ynddi gyfeiriadau yn mlaen llaw at bethau a ddangosir yn fwy helaeth ar ol hyn; megys y "bwystfil," yn *adn.* 7, a'r "ddinas fawr," yn *adn.* 8.

1. *Deml Dduw.*—Eglwys Dduw. Y mae y gair Groeg, *naon,* yn golygu y lle sanctaidd; ac felly "yr allor" ydyw allor yr aroglarth. Y mae golygu mai yr eglwys a feddylir yma yn unol âg arwyddluniaeth gyffredin y Beibl: 1 *Cor.* iii. 16, 17. *A'r allor:*—arwyddlun o addoliad yr eglwys.

2. *Ond y cyntedd:*—pob lle tu allan i'r deml, yr oedd i'w gyfrif yn anghyssegredig. *Cenhedloedd.*—Y rhai sydd y tu allan i'r eglwys. "O'r rhai hyn y ffurfir yr eglwys allanol, ymddangosiadol, yn gymmysg â'r byd: yn eu mysg hwy, er heb fod yn gydfesurol â hwynt, y mae Babilon, a theyrnasiad y bwystfil, a gweithrediad y gau brophwyd. Hwynthwy ydyw y rhai sydd yn trigo ar y ddaear; ac arnynt hwy y mae barn a thrugaredd yn cael eu gweinyddu yn y gweddill o'r llyfr: y maent hefyd yn sefyll mewn cyferbyniad i bobl Dduw, y rhai sydd wedi ac i gael eu casglu ynghyd o'u mysg."—*Alford.* Megys y mae y gair "Iuddew" (*pen.* iii. 9) yn cael ei esbonio fel yn golygu yr un sydd yn gwir gyffesu y ffydd, felly y mae y gair "Cenedl-ddyn" yn golygu aelod o'r eglwys Gristionogol, mewn gair, nid mewn gweithred.—*Webster a Wilkinson. A fathrant:*—bydd yr eglwys mewn darostyngiad iddynt: *Luc* xxi. 24; *Dan.* viii. 13. Ond y mae Webster a Wilkinson yn rhoddi ystyr arall: "a rodiant yn"—a fynychant; a fyddant yn aelodau o'r eglwys weledig. Gwel *Esa.* l. 12.

3. Yr un cyfnod a nodir yma a'r un yr arosa y wraig yn y diffeithwch: *pen.* xii. 6. Bernir y cyfeirir yn y ddau le at yr un amgylchiad. Nid yw y gair *allu* yn y gwreiddiol; ond barna Webster a Wilkinson ei fod yn chwanegiad priodol. Darllena Beza: "A mi a roddaf y ddinas sanctaidd i'm dau dyst." Nid ydyw Alford yn chwanegu y naill na'r llall, ond yn ystyried y dull-ymadrodd yn Hebreigiaeth:—'A mi a roddaf, neu a ganiatâf, i'm dau dyst, fel y prophwydant.' *Dau dyst.*—Prin y mae un eglurhâd yn gwbl foddhaol ar eu hystyr. Deallir hwy gan rai yn llythyrenol, a chan ereill yn arwyddluniol. Y ddau destament, neu y ddeddf a'r efengyl, a olygir gan rai. Y golygiad mwyaf naturiol ydyw, mai dysgawdwyr ffyddlawn a feddylir; y rhai a dyst, a hwy a brophwydant fil a deucant *a* thrigain o ddyddiau, wedi ymwisgo â sachlïan.

4 Y rhai hyn yw y ddwy olewydden, a'r ddau ganwyllbren [e]sydd yn sefyll ger bron Duw y ddaear.

[e] Deut. 10. 8; 1 Bren. 17. 1.

5 Ac os ewyllysia neb wneuthur niwed iddynt, y mae tân yn myned allan o'u genau hwy, ac yn dyfetha eu gelynion: ac os ewyllysia neb eu drygu hwynt, fel hyn y mae yn rhaid ei ladd ef.

6 Y mae gan y rhai hyn [f]awdurdod i gau y nef, fel na wlawio hi yn nyddiau eu prophwydoliaeth

[f] 1 Bren. 17. 1; Luc 4. 25.

gyhoeddent wirionedd Duw, ac a wrthdystient yn erbyn llygriadau a chyfeiliornadau yr eglwys dros ysbaid yr amser y methrid y ddinas sanctaidd, neu yr eglwys weledig, gan luoedd afrifed o Gristionogion mewn enw. Nid oes ond dau o honynt: nifer bychan, etto digonol. Gwel *Num.* xxxv. 30; *Mat.* xviii. 3. Megys yr oedd yr Arglwydd yn codi prophwydi yn yr eglwys Iuddewig i ddwyn eu tystiolaeth yn erbyn y llygriadau ar grefydd, felly hefyd y sicrheir yma y byddai yn mhob oes o'r cyfnod Cristionogol rai i godi eu llef yn erbyn llygredigaeth eu hamseroedd. *Fil a deucant a thrigain o ddyddiau:*—yr un tymmor ag a ddynoda Daniel (vii. 25) yn "amser, ac amseroedd, a rhan amser;" a'r un a'r "deufis a deugain" yn *adn.* 2. Y mae Dusterdieck yn sylwi y sonir am y cyfnod wrth ddyddiau, yn lle misoedd, er mwyn dangos y byddent yn prophwydo yn gysson ddydd ar ol dydd. *A sachlïan:*—yn arwyddo y driniaeth ddirmygus a dderbynient oddi wrth fyd anniolchgar; neu fel arwyddlun o alar. Yr oeddynt i ddwyn eu tystiolaeth mewn gofid; gelwid arnynt i brophwydo yn erbyn y byd, ac i ddangos yr angen am edifeirwch. Y mae yma gyfeiriad at ddillad blewog y prophwydi: 2 *Bren.* i. 8; *Zech.* xiii. 4; *Esa.* xx. 2; *Mat.* iii. 4.

4. *Y rhai hyn.*—Y mae y ddwy olewydden a'r ddau ganwyllbren yn arwyddluniau o honynt. Diau fod yma gyfeiriad at *Zech.* iv. 3, 11, 14, er nad yw yr arwyddluniau yn y ddau le yn hollol fel eu gilydd. Nid oes yno ond un ganwyllbren â saith o oleuadau; ond yma, ddau ganwyllbren.

5. Cyfeiriad at amgylchiad yn hanes Elias (2 *Bren.* i. 10); ac at eiriau yr addewid yn *Ier.* v. 14. Unir yr hanes â'r brophwydoliaeth yma.

6. Cyfeiriad etto at hanes Elias: 1 *Bren.* xvii. 1; *Iago* v. 17. *Ar y dyfroedd:*—cyfeiriad at wyrthiau yr Aipht. Gwneid y gwyrthiau gynt i gadarnhau tystiolaeth y prophwydi. A ydyw y geiriau hyn i'w deall fel yn addaw gwyrthiau llythyrenol, y mae yn anhawdd penderfynu. Os ydynt, llefara Alford yn gryf na cheir yn hanes yr eglwys yn yr oesoedd diweddar wiriadau o'r brophwydoliaeth hon. Dichon mai yr hyn a olygir yw, y rhoddai Duw ei sêl ar dystiolaeth ei weision. Y dull y gwnai hyny dan yr Hen Destament oedd trwy amddiffyn bywydau ei dystion, a rhoddi gallu iddynt trwy wyrthiau i ddial ar eu gwrthwynebwyr: ac yn y fan hon, defnyddir ffugrau yr Hen Destament i osod allan wirionedd mwy cydnaws âg ysbryd y Testament Newydd.

hwynt: ac awdurdod sydd ganddynt ar y dyfroedd, i'w troi hwynt yn waed, ac i daro y ddaear â phob pla, cyn fynyched ag y mynont.

7 A phan ddarfyddo iddynt [g] 2 Thes. 2. 8, 9. orphen eu tystiolaeth, [g] y bwystfil, yr hwn sydd yn dyfod allan

7. Y mae Alford yn sylwi fod yr adnod hon yn gosod anhawsder mawr yn ffordd yr esbonwyr alegoriaidd. Dangosir ynddi y bydd cyfnod y tystion ar ben cyn y digwydda yr amgylchiad arall a nodir yn yr adnod. Ond y mae ereill [*Stuart*, a *Webster* a *Wilkinson*] yn dadleu nad yw y darlleniadau cyffredin yn gywir, ac nad oes yma gyfeiriad at amser; ond at amcan neu gyflawnder y dystiolaeth—"pa bryd bynag y cyflawnont, neu y traddodont eu tystiolaeth yn effeithiol." Y mae effeithiolrwydd a llwyddiant eu pregethiad, mewn gwahanol adegau yn y cyfnod a nodir, yn deffro malais y bwystfil nes y mae yn rhyfela yn eu herbyn. Darllena Wordsworth: "Tra y maent yn cyflawni eu swydd." *Y bwystfil.*—Y mae y fannod yn dynodi gwrthddrych oedd yn adnabyddus i feddwl yr ysgrifenydd, fel un oedd eisoes yn weledig iddo, er nad yw cyn hyn wedi ei grybwyll: neu, dynoda wrthddrych oedd yn adnabyddus trwy ei fod wedi ei ddisgrifio gan ysgrifenydd arall. Am y bwystfil hwn y lleferir yn *Dan.* vii. 11. Nodau y bwystfil, fel y gosodir ef ger ein bron yn y llyfr hwn, ydynt y rhai canlynol:—(1.) Y mae wedi dyfod allan oddi isod—o'r pwll diwaelod, o'r môr, o'r ddaear: *pen.* xi, 7; xiii. 1, 11. (2.) Mae ganddo allu mawr: *pen.* i. 13; iv. 4, 12; xvii. 12, 13. (3.) Hôna a derbynia addoliad: *pen.* xiii. 3, 12, 14, 15; xiv. 9, 11. (4.) Y mae ganddo orsedd, o'r lle yr enfyn allan ei nerth: *pen.* xvi. 10. (5.) Y mae o liw ysgarlad: *pen.* xvii. 3. (6.) Y mae ganddo allu wedi ei roddi iddo gan frenhinoedd y ddaear: *pen.* xvii. 13. (7.) Y mae ganddo nôd, wrth ba un y gellir ei adnabod: *pen.* xiii. 17; xix. 20. (8.) Y mae ganddo rifedi. Y mae eglurhadaeth o'r nodau hyn yn arwain yr ysgol fwyaf hanesyddol o esbonwyr y Dadguddiad i feddwl mai Rhufain Babaidd a olygir. *O'r pwll diwaelod:*—yn gosod allan darddiad uffernol y gallu.

8. *Y ddinas fawr.*—Sonir hefyd am dani yn *pen.* xiv. 8; xvi. 19; xvii. 18; xviii. 20, 21. Nid ydym yn gweled rhesymau digonol yn erbyn y golygiad cyffredin, mai wrth y ddinas fawr y meddylir Rhufain, yn ei gallu daearol ac ysbrydol. Y bwystfil ydyw y gallu gwladol ac eglwysig, yr hwn a ddefnyddiwyd ganddi i amcanion ansanctaidd a chreulawn. *Sodoma, &c.*—Cymmharer *Esa.* i. 10. *Lle hefyd y croeshoeliwyd.*—Y mae yn amlwg nad yw y gair "lle" yn golygu yn llythyrenol y man y croeshoeliwyd Crist, ond yn hytrach canolbwynt yr eglwys weledig. Croeshoeliwyd Crist yn nghanol eglwys weledig Duw, oedd yn bod y pryd hyny; a'r un modd merthyrwyd ei dystion yn nghanol, yn mhrif eisteddle, y cyfundeb oedd mewn enw yn cyfansoddi yr eglwys Gristionogol. Yn Rhufain, yn anad un man ar y ddaear, yr ail groeshoeliwyd Mab Duw. Nodwedd Sodoma oedd aflendid; nodwedd yr Aipht oedd trais; nodwedd Ierusalem oedd gwrthgiliad; y mae y tri yn cyfarfod yn hanes Rhufain Babaidd. Po fwyaf yr ystyriom y geiriau blaenorol—y darluniad a

o'r pwll diwaelod, a ryfela â hwynt, ac a'u gorchfyga hwynt, ac a'u lladd hwynt.

8 A'u cyrph hwynt *a orwedd* ar heolydd y ddinas fawr, yr hon yn ysbrydol a elwir Sodom a'r Aipht; lle hefyd [h] yn croeshoeliwyd ein Harglwydd ni. [h] Luc 13. 33, 34; Act. 9. 4.

roddir o'r tystion—mwyaf yr argyhoeddir ni o gywirdeb y golygiad cyffredin ar eu hystyr. Y mae y gwrthddadleuon cryfaf yn erbyn y golygiad mai yr eglwys orliewinol a'r eglwys ddwyreiniol a feddylir; ac y mae y dybiaeth a gefnogir gan Wordsworth, ac ereill, yn ymddangos i ni yn hynod blentynaidd; sef, mai llyfrau y ddau Destament a feddylir. Y mae y nifer mwyaf o'r arwyddluniau yn ammhossibl i gyssylltu un synïad sobr â hwy, ar y dybiaeth yma. Y golygiad mwyaf tebygol yw, mai y tystion oedd personau, neu gymleithasau Cristionogol, a lynent yn ffyddlawn wrth ffydd Crist yn nghanol ymadawiad mawr yr oesoedd oddi wrthi; ac a gyhoeddent eu tystiolaeth yn erbyn llygredigaethau y cyfundeb mawr a gyfrifai ei hun fel unig eglwys Crist. Y mae yr haneswyr eglwysig, Mosheim, Neander, Milman, yn dangos fod y cyfryw dystion eofn i'w cael yn mhob gwlad ac yn mhob oes. Bernir, er hyny, fod un cyfwng mor isel ar grefydd ysbrydol, fel y gellid yn briodol ei olygu fel yr amser yr oedd y tystion wedi eu lladd, a'u cyrph yn gorwedd ar heolydd y ddinas fawr. "Ar ddechreuad yr 16eg ganrif," ebe un ysgrifenydd, "yr oedd ymgyrchfeydd y Babaeth, yn ymddangosiadol o leiaf, wedi diwreiddio y tystion hyn i Grist oddi ar y ddaear. Nid oedd un ymosodiad oddi allan, nac un sism oddi fewn, yn aflonyddu ar dawelwch yr eglwys wrthgiliedig. Yr oedd gallu y pab mewn gweithred, yn gystal ag mewn gair, yn orucha[f] ar y byd Cristionogol. Y tywysogion a'r preladiaid, y rhai oedd wedi ymgynnull ynghyd yn y gynghorfa yn Rhufain, B. A. 1512—17, a ymwahanasant gyda boddhâd a hyder digymmysg, gan longyfarch eu gilydd am fod heddwch, undeb, a phurdeb yr eglwys yn gorphwys ar y seiliau mwyaf diogel." Dywed yr hanesydd Milner am yr adeg hon:—"Dechreuodd yr unfed ganrif ar bymtheg gyda'r rhagolygon tywyllaf yn nghyfrif pob gwir Gristion. Yr oedd llygredigaeth mewn athrawiaeth ac mewn moesau wedi ymledu tu hwnt i bob terfynau; ac yr oedd holl wyneb Ewrop, er fod enw Crist yn cael ei broffesu yn mhob man, heb feddu ar ddim teilwng o'r broffes. Yr oedd y Waldensiaid yn rhy egwan i fo estu y Babaeth; ac yr oedd canlynwyr Huss, trwy ymraniadau yn eu plith eu hunain, wedi eu darostwng i ddistawrwydd. Er fod yn mysg y naill a'r llall personau o dduwioldeb diammheuol, etto yr oeddynt yn rhy weiniaid i roddi argraph effeithiol ar deyrnas yr Anghrist. Yr oedd y pabau yn noddwyr pob annuwioldeb; nid oedd troseddau ysgeler Alexander VI., na chreulondeb milwrol Julius II., yn effeithiol i beidio dim ar awdurdod Rhufain, nac i agor llygaid dynion fel ag i beri iddynt wneyd ymchwiliad sobr i natur gwir grefydd." Y mae llaweroedd o dystiolaethau cyffelyb am natur y cyfnod hwn wrth ein llaw. Bwriadlonwn yn nesaf ar ddiwedd yr ail bennod ach. Dywed yr *Encyclopædia Britannica*, yn yr erthygl ar y Diwygiad Protestanaidd, ar yr adeg cyn iddo dori allan:

[1] Dad. 13. 7; 17. 15.

9 A'r rhai [1] o'r bobloedd, a'r llwythau, a'r ieithoedd, a'r cenhedloedd, a welant eu cyrph

[*] Preg. 6. 3; Mat. 7. 2.

hwynt dridiau a hanner, [k] ac ni oddefant roi eu cyrph hwy mewn beddau.

[l] Mat. 10. 22.

10 A'r rhai sydd [1] yn trigo ar y ddaear a lawenychant o'u plegid, ac a ymhyfrydant, ac a anfonant roddion i'w gilydd; o blegid y ddau brophwyd hyn oedd yn poeni y rhai oedd yn trigo ar y ddaear.

11 Ac ar ol tridiau a hanner, [m] Ysbryd bywyd oddi wrth Dduw a aeth i mewn iddynt hwy: a hwy a safasant ar eu traed; ac ofn mawr a syrthiodd ar y rhai a'u gwelodd hwynt.

[m] Gen. 2. 7; Rhuf. 8. 2, 11.

12 A hwy a glywsant lef uchel o'r nef yn dywedyd wrthynt, Deuwch i fyny yma. [n] A hwy a aethant i fyny i'r nef mewn cwmmwl; [o] a'u gelynion a edrychasant arnynt.

[n] 2 Bren. 2. 11; Act. 1. 9.
[o] Exod. 14. 25; Salm 68. 17; Luc 16. 23.

13 Ac yn yr awr hono y bu

—"Yr oedd pob peth yn dawel. Yr oedd pob heretic wedi ei ddiwreiddio, ac yr oedd yr holl fyd Cristionogol yn ymfoddioni ar y ffoleddau mawrion a ddysgid ac a orchymynid gan Eglwys Rhufain." Y mae hefyd yn ffaith ddarfod i'r pab Adrian, yn 1523, ysgrifenu at y gynnadledd yn Nuremberg:—"Y mae yr hereticiaid, Huss a Jerome, yn awr yn fyw drachefn, yn mherson Martin Luther." Rhydd rhai bwys ar y ffaith fod yr enw "Protestaniaid," yr hwn a gymmerodd y Diwygwyr arnynt eu hunain, yn cynnwys y drychfeddwl o dystion. Cadarnheir cywirdeb y golygiad hefyd gan yr ystyriaethau canlynol:—Y mae y tystion yn cael eu gosod allan yn yr arwyddlun o ddau ganwyllbren (*adn.* 4); ac y mae yr arwyddlun hwn, fel y gwelir yn *pen.* i. 20, yn gosod allan eglwysi, neu gymmundebau Cristionogol. Mae ymostyngiad—"gwisgo sachlian"—merthyrdod, adgyfodiad, a dyrchafiad, yn llawer mwy addas i'w cymmhwyso at bersonau nag at ddim arall; er enghraifft, na'r ddau Destament. Darlunir y gallu gelynol hefyd fel yn rhyfela yn eu herbyn. Yn y weledigaeth gyffelyb yn *pen.* xii, disgrifir y ddraig fel yn gwneuthur rhyfel yn erbyn "y lleill o had y wraig," y rhai a ddynodir fel "y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, ac sydd â thystiolaeth Iesu Grist ganddynt." Ymddengys i ni yn nesaf i sicr mai yr un yw y rhai hyn a'r ddau dyst yn y bennod hon. Dywedir hefyd yma fod y bwystfil yn rhyfela â'r tystion, yn eu gorchfygu, ac yn eu lladd; tra y dywedir yn *pen.* xiii. 7, y "rhoddwyd iddo wneuthur rhyfel â'r saint, a'u gorchfygu hwynt."

9. *A'r rhai o'r bobloedd.*—Cynnrychiolwyr y bobloedd.—*Elliot.* Tybia yr esboniwr hwn fod y rhagfynegiad yma wedi cael ei gyflawni yn ngoruchafiaeth Rhufain Babaidd yn ystod y gynghorfa yn Rhufain yn 1512—1517. *Dridiau a hanner.*—Yn ol y dull o esbonio diwrnod am flwyddyn, byddai yn dair blynedd a hanner. Ceisia amryw esbonwyr ganfod adeg o'r ysbaid yma yn hanes yr eglwys; sef, pan oedd ei dynion goreu wedi eu distewi. Y mae Elliot mor fanwl fel ag i osod yr adeg rhwng Mai 5ed, 1514, dechreuad nawfed eisteddiad y cynghor dywededig (*the fifth Lateran Council*) a Hydref 31ain, 1517, y dydd y dododd Luther ei osodiadau (*theses*) yn Wittemberg. Y mae ereill yn dra ammheus o gywirdeb yr esboniad hwn. Ammheuant y priodoldeb o gymmeryd diwrnod yma am flwyddyn, a dadleuant fod yn ammheus y byddai i ran mor fawr o'r brophwydoliaeth gyfatteb i adeg mor fer a thair blynedd a hanner. Dywedir hefyd nad oes un safon a ellir ei chymmhwyso at holl arwyddluniau amseryddol y llyfr hwn: cymmharer y deng niwrnod yn *pen.* ii. 10; y pum mis yn *pen.* ix. 5; yr awr, y diwrnod, y mis, a'r flwyddyn yn *pen.* ix. 15; yr un awr yn *pen.* xvii. 12. Golygiad yr esbonwyr hyn yw, mai cyfnod cymmhariaethol byr a feddylir wrth y "tridiau a hanner." Nodau y cyfnod ydynt, ei fod yn cael ei ddwyn i mewn gan erledigaeth dost; ei fod, tra yn parhau, yn dymmor o iselder ar y dystiolaeth Gristionogol, ac yn cael ei ganlyn gan adfywiad rhyfeddol ac â goruchafiaeth gref i allu y wir eglwys fel tyst dros Dduw yn y byd, a chan adfeiliad cyfattebol ar allu y bwystfil. Addefir yn gyffredin, hyd yn oed gan esbonwyr sobr—esbonwyr sydd yn rhy ofalus i bennodi yr 'amserau a'r prydiau'—nad oes un adeg yn hanes y byd yn y cyfnod Cristionogol yn cyfatteb yn gystal i ddisgrifiad prophwydol y bennod hon a'r adeg flaenorol i doriad allan y Diwygiad Protestanaidd. *Mewn beddau.*—Mae y gair gwreiddiol, *mnéma*, yn cael ei ddefnyddio yn aml yn y Testament Newydd am feddau cyffredin. Nid oes un sail dros ei gyfleithu yma 'cofadeiliau.' Yr hyn a ddangosir yw, y trinid y cyffeswyr yn ammharchus, yn farw fel yn fyw: ni roddid claddedigaeth iddynt. Gorchymynwyd tafiu lludw John Huss i'r Rhine.

10. *Y rhai sydd yn trigo ar y ddaear*:—y rhai oddi allan i furiau y wir eglwys—ei gelynion, a dyeithriaid iddi; pawb oedd heb eu selio yn eu talcenau; yr un rhai a'r Cenhedloedd yn *adn.* 2, mewn cyferbyniad i'r rhai sydd yn addoli yn y deml yn *adn.* 1. *Roddion i'w gilydd*:—arwydd arferol o lawenydd: *Esther* ix. 19—23; *Neh.* viii. 10—12. *Oedd yn poeni*:—trwy y pläau a anfonent, neu lymder eu tystiolaeth. Poenent hwy y byd yn yr un modd ag yr oedd Elias yn elyn i Ahab, ac fel y dywedir am yr apostolion eu bod yn aflonyddu y byd. Y mae argyhoeddwyr y byd bob amser yn ei boeni.

11. *Ysbryd bywyd.*—Gali fod yma gyfeiriad at yr anadl oddi wrth y pedwar gwynt yn ngweledigaeth yr esgryn sychion.

12. *Mewn cwmmwl.*—Yn llythyrenol, 'yn y cwmmwl.' Ond nid oes bwys i'w roddi yma ar y faunod, yn ol barn Alford. Tybia Brown fod yma gyfeiriad at y cwmmwl a dderbyniodd yr Iesu ar ei esgyniad; ac felly yr awgrymir y cyffelybrwydd oedd rhwng eu gogoneddiad hwy a'i ogoneddiad ef, megys yr oeddynt yn gyffelyb iddo hefyd yn eu ffyddlondeb fel tystion, ac yn eu dioddefiadau. Y mae eu hesgyniad i'r nef yn arwyddlun o'u llwyddiant a'u goruchafiaeth.

13. Y mae y ddaeargryn a'i chanlyniadau yn cael eu deall am ddarostyngiad Eglwys Rhufain trwy y Diwygiad. Collodd lawer iawn o'i gallu, a nifer mawr o'i dysgyblion: y mae awdurdod y

daeargryn mawr, a degfed ran y ddinas a syrthiodd; a lladdwyd yn y ddaeargryn saith mil o wŷr: a'r lleill a ddychrynasant, ac a roddasant ogoniant i Dduw y nef.

[p] Ier. 13. 16; Mal. 2. 2.

[q] Dad. 15. 1; 16. 1, &c.

14 Yr [q]ail wae a aeth heibio; wele, y mae y drydedd wae yn dyfod ar frys.

[r] Dad. 8. 2—6, 12.

15 [r]A'r seithfed angel a udganodd; a bu llefau uchel yn y nef, yn dywedyd, [s]Aeth teyrnasoedd y byd *yn ciddo* ein Harglwydd ni, a'i Grist ef; [t]ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd.

[s] Salm 22. 27, 28; Dan. 2. 44, 45; Zech. 8. 20—23.

[t] Exod. 15. 18; Salm 110. 4; Esa. 9. 7; Dan. 2. 44; Mat. 6. 13; Luc 1. 33.

16 [u]A'r pedwar henuriad ar hugain, y rhai oedd ger bron Duw yn eistedd ar eu gorseddfeingciau, a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a addolasant Dduw,

[u] Dad. 5. 5—8, 14; 19. 4.

17 Gan ddywedyd, Yr ydym yn diolch i ti, [x]O Arglwydd Dduw Hollalluog! yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn wyt yn dyfod; o blegid [y]ti a gymmeraist dy allu mawr, ac a deyrnasaist.

[x] Dad. 16. 5

[y] Adn. 15.

18 A'r cenhedloedd a ddigiasant; a daeth dy ddig di, [z]a'r amser i farnu y meirw, [a]ac i roi gwobr i'th wasanaethwyr y prophwydi, ac i'r saint, [b]ac i'r rhai sydd yn ofni dy enw, fychain a mawrion; [c]ac i ddyfetha y rhai sydd yn dyfetha y ddaear.

[z] Dad. 6. 15—17.

[a] Mat. 5. 12.

[b] Salm 85. 9; Preg. 8. 12; Luc 1. 50; 12. 13;

[c] Dad. 18. 16—24; Dan. 7. 26.

19 Ac [d]agorwyd teml Dduw yn y nef; a gwelwyd [e]arch ei gyfammod ef yn ei deml ef: a bu mellt, a llefau, a tharanau, a daeargryn, a chenllysg mawr.

[d] Dad. 15. 5—8; Esa. 6. 1-4.

[e] Exod. 25. 2—22; Num. 4 5, 15: 10. 23; Heb. 9. 4-8.

PENNOD XII.

1 *Gwraig wedi ei gwisgo â'r haul yn trafaelu ar ei thymp i esgor.* 4 *Y ddraig fawr goch yn sefyll o'i blaen hi i ddifa ei phlentyn hi.* 6 *Wedi iddi esgor, y mae hi yn cilio i'r diffeithwch.* 7 *Michael a'i angylion yn ymladd â'r ddraig, ac yn myned yn drech na hi.* 13 *Y ddraig, wedi ei thaflu i'r ddaear, yn erlid y wraig.*

B. A. 96.

[a] Esa. 49. 14—23; Ioan 3. 29.

ARHYFEDDOD mawr a welwyd yn y nef; [a]gwraig wedi ei gwisgo â'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren:

Babaeth yn lleihau byth er y digwyddiad mawr hwnw. Dichon fod y geiriau, *A degfed ran y ddinas a syrthiodd*, yn golygu enciliad Lloegr a gwledydd ereill o gymmundeb Eglwys Rhufain. *Saith mil o wŷr.*—Gall hyn olygu dinystr gwleidyddol saith o dywysogaethau neu daleithiau.—*Webster* a *Wilkinson.* Y mae Elliot yn nodi saith o daleithiau a gollodd y Babaeth; ond y mae y fath fanylder a hyny yn rhedeg i orfanylder. Gwell cymmeryd y rhif "saith" yn yr ystyr arferol mewn prophwydoliaeth.

14. *Y drydedd wae:*—sef, tywalltiad y saith phiol, yr hyn a gymmer le dan udganiad y seithfed udgorn, megys yr oedd udganiad y saith udgorn yn cymmeryd lle dan agoriad y seithfed sêl. Y drydedd wae ydyw y dinystr a ddygir ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, a dymchweliad llwyr y gallu Anghristaidd. Ar hyn y mae yr henuriaid, cynnrychiolwyr yr eglwys, yn moliannu Duw am roddi amlygiad anghyffredinol o'i allu. Ni roddir yma ond crynodeb byr, ebe yr esgob Newton, o ddigwyddiadau y seithfed udgorn.

19. Dywed Webster a Wilkinson fod yr adnod hon, wrth ei chymmharu â *pen.* xv. 5, a xvi. 18, 21, yn cyssylltu cyfnod y seithfed udgorn â chyfnod y saith phiol. *Agorwyd teml Dduw.*—Rhoddwyd i'r gweledydd ddadguddiadau eglurach: gwel *pen.* xv. 5. Gwelodd Ioan arch y cyfammod, yr hon oedd yn arwydd o ffyddlondeb Duw i'w bobl, ac felly o'i ddialedd ar ei elynion ef a hwythau. Yma y terfyna barnedigaethau yr udgyrn. Cyfammod Duw ydyw ffynnonell ei farnau ar y byd, a'i waredigaethau i'w saint. Y mae y weledigaeth hon yn cyfatteb i'r weledigaeth arall, ar ddiwedd agoriad y seliau, a dechreu udganiad yr udgyrn: *pen.* viii. 3.

---

[a] Esa. 53.11; Micah 5.3; Ioan 16.21.

[b] gan fod mewn gwewyr, a gofid i esgor.

[c] Esa. 27. 1; 51. 9.

3 A gwelwyd rhyfeddod arall yn y nef; ac wele, [c] ddraig goch fawr, â saith ben iddi, a deg corn; ac ar ei phenau saith goron.

4 A'i chynffon hi a dynodd draian sêr y nef, ac a'u bwriodd hwynt i'r ddaear. [d] A'r ddraig a safodd ger bron y wraig yr hon ydoedd yn barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi, pan esgorai hi arno.

[d] Exod. 1. 16; Mat. 2. 3—16.

5 A [e] hi a esgorodd ar fab gwryw, yr hwn oedd i fugeilio yr holl

[e] Esa. 7. 14; Mat. 1. 25.

Y mae cyfeiriad yn yr arwyddlun at *Caniadau Solomon* vi. 10. *Deuddeg seren.*—Gyda chyfeiriad at y deuddeg llwyth fel y cynrychiolent holl Israel Duw, neu at y deuddeg apostol fel y cynnrychiolent y weinidogaeth Gristionogol. Y mae yr olaf yn fwy unol âg arwyddluniaeth y dlyfr: *pen.* i. 20; *Dan.* xii. 3.

2. Gellir golygu yr eglwys fel mewn gofidiau esgor o'r dechreuad, pan y rhoddwyd yr addewid am Grist i'n rhieni cyntaf. Crist yw gwir had yr addewid, a phlentyn gweddiau yr eglwys: *Esa.* ix. 6; xxvi. 16—18; *Micah* iv. 10; v. 3; *Rhuf.* viii. 22.—*Webster* a *Wilkinson.* Y mae ereill o'r esbonwyr yn gwrthod y cyfeiriad a dybir sydd yma at Grist: dywedant y rhaid i ni, yn unol â'r golygiad hwn, esbonio y "wraig" fel yn golygu yr eglwys Iuddewig, am mai ei phlentyn hi oedd y Messiah; mai rhy brin, yn wir, y gellir golygu Crist fel plentyn yr eglwys o gwbl—mai fel priod yr eglwys y gosodir ef allan yn iaith y Beibl. Felly, y maent yn dadleu mai rhagfynegiad yw y weledigaeth o gyfiwr llwyddiannus yr eglwys Gristionogol, pan enid iddi lawer o feibion—fod yr esboniad yma yn unol âg ymadroddion ereill yn yr Hen Destament, megys *Esa.* lxvi. 78; lxiv. 1: xlix. 20—fod cymmharu yr eglwys yn ei llwyddiant i fam plant, ac yn ei bafiwyddiant i wraig ammhlantadwy, yn beth arferol; fod hanes dyfodol y fam a'r plentyn yn cyttuno â'r golygiad hwn—"cymmeryd y plentyn i fyny at Dduw, ac at ei orseddfaingc ef," yr hyn a olygir fel yn arwyddluniol o amddiffyniad Duw i'w eglwys, ac fel sicrhâd na byddai iddo oddef i'w chynnydd gael ei luddias. Dywedir hefyd fod y wraig yn ffoi i'r diffeithwch (*adn.* 14), "y lle y maethir hi dros amser, ac amseroedd, a hanner amser," yr hyn sydd yn gosod allan ddinodedd y wir eglwys am dymmor maith; ac etto y nawdd a daenid drosti, a'r gofal a ddangosid am dani yn y dinodedd a'r neilluaeth hwnw. Amcan y weledigaeth, felly, yn ol y golygiad hwn, ydyw dangos y perygl y byddai yr eglwys ynddo yn nynesiad amser ei chynnydd a'i lliosogiad; yr ymosodiadau arni yn nyddiau ei llwyddiant; ac y codai ei pherygl oddi wrth ymddangosiad gelyn arswydus—"y ddraig," y diafol, mewn rhyw ymrithiad arbenig o'i eiddo. Edrychir yn naturiol ar gyfodiad y gelyn hwn fel yn rhagarwyddo cyfodiad y Babaeth, a hyny ar adeg, pe na buasai am ymddangosiad a gallu y gelyn, ag y gallesid disgwyl i'r eglwys ennill yr holl fyd dan ei haden. "Y mab gwryw a olyga genhedlaeth o wir gredinwyr, cenhedlaeth gref ac unedig, yn dwyn delw Crist, ac yn cael ei bwriadu fel yntau, i fugeilio y Cenhedloedd â gwialen haiarn." I gyfarfod â'r wrthddadl fod y "mab gwryw" yn cael ei ddisgrifio, yn ei fawredd a'i allu, ac yn amgylchiadau ei hanes, mor debyg i Grist, fel y mae y darllenydd yn naturiol yn meddwl mai efe a olygir, attebir fod y drychfeddwl o gyffelybrwydd y saint i Grist, oddi ar eu hundeb âg ef—drychfeddwl y rhoddir arbenigrwydd mawr iddo yn y llyfr hwn—yn ddigon i symmud yr wrthddadl. Y mae Alford yn gryf o'r farn mai Crist a feddylir: "Y mab gwryw yw yr Arglwydd Iesu Grist—a neb arall." Dadleua hefyd fod ei enedigaeth, a'i ddyrchafiad i'r nef, i'w deall yn llythyrenol a hanesyddol:—ei enedigaeth yn Bethlehem, a'i esgyniad oddi ar yr Olewydd. Dywed fod prif gyfeiriad y gair, yn *adn.* 4, fod y ddraig "yn sefyll ger bron y wraig, yr hon ydoedd yn barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi, pan esgorai hi arno," at waith y diafol yn cyffroi Herod Fawr i ddinystrio y mab bychan, ac at yr holl adgasedd a ddangosid at Crist yn nyddiau ei gnawd.

3. *Ddraig goch fawr*:—ar ei hystyr, gwel *adn.* 9. Etto, tybir fod yma gyfeiriad at Rufain. Porphor neu ysgarlad oedd lliw gwahaniaethol ymherawdwyr Rhufain, ac wedi hyny y pab a'r cardinaliaid. A'r un oedd eiddo y butain fawr: *pen.* xvii. 34. *A saith ben iddi, a deg corn.*—Y saith bryn ar ba rai yr adeiladwyd Rhufain, yw yr esboniad cyffredin; neu, yn ol ereill, y saith ffurf o lywodraeth a fu yno.—*Webster* a *Wilkinson.* Dywed Tertullian yn un o'i ysgrifeniadau: "Yr wyf yn appelio at ddinasyddion Rhufain, y bobl sydd yn preswylio ar y saith bryn." Jerome hefyd a ddywed, wrth annog Marcella i adael Rhufain am Bethlehem;—"Darllen yr hyn a ddywedir yn y Dadguddiad am y saith bryn," gyda chyfeiriad, mae yn amlwg, at y lle hwn. Arwyddlun o allu neu awdurdod ydyw "corn;" a dangosir yma fod deg ffynnonell i'r gallu hwnw. Cyfeirir at yr un peth yn *Daniel* vii. 7, 8, 20, 24. Er mai Diafol a Satan (*adn.* 9) ydyw y ddraig, etto nid yw y rhai sydd yn edrych am gyfatteb-iad yn Rhufain iddi yn euog o un amryfusedd, am yr edrychir ar y ddinas hono fel y lle yr oedd Satan, fel gelyn teyrnas Dduw, wedi codi ei orseddfaingc.

4. *A'i chynffon hi.*—Yr oedd cryfder y dreigiau y sonir am danynt mewn chwedlau yn gyffelyb i gryfder anghenfilod gwirioneddol y môr, yn trigo yn eu cynffonau.—*Webster a Wilkinson. Draian sêr y nef.*—Darostyngodd y drydedd ran o dywysogion y ddaear. Dywed Webster a Wilkinson fod y gair a gyfleithir "dynodd" yn gosod allan y gallu anorchfygol gyda pha un yr oedd yr awdurdod Rhufeinig yn ysgubo ymaith lywodraethau. *A'r ddraig a safodd*:—yn sefyll yr arddangosir y ddraig bob amser, ac nid fel sarph, ar ei thôr. *Pan esgorai*:—neu, 'pa bryd bynag yr esgorai:' yn arwyddo amryw o esgoriadau yn olynol.—*Webster* a *Wilkinson. I ddifa ei phlentyn hi.*—"Megys yr oedd Pharoah yn taenu maglau i blant gwryw yr Hebreaid, a Herod i'r baban Iesu, felly y gwnai y ddraig Rufeinig i'r Crist dirgeledig."—*Newton.*

5. *Ar fab gwryw.*—Gwel ar *adn.* 2. Y mae Webster a Wilkinson yn cyfuno y ddau olygiad. Arwydda y mab gwryw, yn ei ystyr manwl, Grist yn unig; ond y mae yr hyn sydd, yn ei ystyr cyntaf, yn wir am Grist yn unig, yn cael ei gym-

genhedloedd â gwialen haiarn: a'i
[f] Marc 16. 19. phlentyn hi a [f]gymmerwyd i fyny
at Dduw, ac *at* ei orseddfaingc ef.
[g] Adn. 14. 6 [g]A'r wraig a ffodd i'r diffeithwch, lle mae ganddi le wedi
ei barotoi gan Dduw, fel y porthent hi yno fil a deucant *a* thrigain o ddyddiau.
[h] Dad. 19. 11—20; Eph. 6. 12. 7 A bu [h]rhyfel yn y nef; Michael a'i angylion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd â'i hangylion hithau,

8 Ac ni orfuant; a'u lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef.

[i] Dad. 3. 7. [k] Gen. 3. 1, 4, 13; Esa. 65. 25. [l] Dad. 18. 23; 19. 20; Mat. 24. 24; 2 Cor. 11. 3; Eph. 4. 14. [m] Ezec. 28. 16; Ioan 12. 31.

9 [i]A bwriwyd allan y ddraig fawr, [k]yr hen sarph, yr hon a elwir Diafol a Satan, yr hwn [l]sydd yn twyllo yr holl fyd: efe a [m]fwriwyd allan i'r ddaear, a'i angylion a fwriwyd allan gydag ef.

10 Ac mi a glywais lef uchel yn dywedyd yn y nef, Yr awrhon y daeth iachawdwriaeth, a nerth,

---

mhwyso at aelodau ei gorph dirgeledig. Mewn ystyr ffugrol, y mae yr eglwys mewn [g]wewyr ar blant hyd oni ffurfir Crist ynddynt. *A gwialen haiarn*:—goruchafiaeth gair Duw ar y byd. Gwel y geiriau cyfochrog yn *pen.* ii. 27, yn y rhai hefyd, yr un modd ag yma, yr estynir cymmhwysiad yr arwyddlun oddi wrth Grist at ei ddilynwyr, y rhai ydynt yn gyfranog o'r un glewder buddugoliaethus ag yntau. Etto, mae yn bur debygol fod golwg gyntaf y weledigaeth at enedigaeth, dioddefiadau, ac esgyniad ein Harglwydd.

6. *A ffodd.* — Dichon fod yma gyfeiriad at ffoedigaeth Mair gyda'r mab bychan i'r Aipht, fel yn arwyddluniol o sefyllfa helbulus yr eglwys am 1260 o ddyddiau. *Fil a deucant a thrigain o ddyddiau.*—"Yn ol y rhan fwyaf o'r hen esbonwyr, y mae rhifau y Dadguddiad, ac yn enwedig y rhai sydd yn cyfeirio at amserau dyfodol, yn gosod allan ddrychfeddyliau neilluol, ac nid symiau manwl. Mae y 1260 o ddyddiau yn cael eu galw yn 42 o fisoedd yn *pen.* xi. 2; ac yn amser, amseroedd, a hanner amser, neu dair blynedd a hanner, yn *pen.* xii. 14. Y cyfnod hwn ydyw yr arwyddlun amseryddol o lafur, pererindod, ac erledigaeth: cymmharer y tair blynedd a hanner newyn yn amser Elias (*Luc* iv. 25; *Iago* v. 17), ac ysbaid parhâd erledigaeth yr Iuddewon dan Antiochus Epiphanes. Y mae y ddau dyst hefyd yn gorwedd yn farw am dridiau a hanner. Pa fodd bynag, y mae y ffaith fod y tymmor yn cael llefaru am dano dan ddyddiau yn peri i'r rhan fwyaf o esbonwyr diweddar gymmeryd y rhifedi am gyfnod pennodol. Dichon fod y cyfnod i ddechreu o amser rhoddiad y Dadguddiad, sef ynghylch B. A. 96 neu 98. Yn ol yr olwg yma, dygai 1260 o flynyddoedd ni hyd ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg: dechreuad cyfnod sydd yn hynod mewn hanesiaeth am erlidiau llymdost, ac ymddangosiadol lwyddiannus, ar y tystion dros wirioneddDuw—cyfnod y merthyriadau Protestanaidd ar y Cyfandir ac yn Mhrydain. Dichon fod y tridiau a hanner wedi myned heibio yn amser y diwygiad mawr—y Diwygiad Protestanaidd."—*Webster* a *Wilkinson.*

7—12. Gellir edrych ar yr adran yma fel rhwng cromfachau. Adrodda ddigwyddiadau wedi cymmeryd lle yn flaenorol i'r digwyddiadau yn yr adnodau o'r blaen. *Michael.*—Angel gwarcheidiol yr eglwys Iuddewig: *Dan.* x. 21; xii. 1. "Y mae y rhyfel yma yn darlunio y frwydr rhwng Cristionogaeth a phaganiaeth, yn cael ei harddangos fel pe byddai hefyd yn cael ei chario yn mlaen rhwng y gallu oedd ysbrydol sydd yn rheoli y ddwy gyfundrefn wrthwynebol, a'i phenderfynu o ochr y cyntaf cyn i'r pleidiau ddyfod i wrthdarawiad."—*Webster* a *Wilkinson.*

Y mae Alford yn gryf o'r farn mai disgrifiad sydd yma o'r frwydr fawr yn [y byd ysbrydol, at yr hon y ceir cyfeiriadau aml yn yr Efengylau—y frwydr rhwng Crist a'r diafol. Gwel *Luc* x. 18; *Ioan* xii. 31:—"Yn awr y mae barn y byd hwn; yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn." "Y mae dymchweliad Satan o'i le yn y nef, fel cyhuddwr y brodyr, yn meddu cyssylltiad amlwg â'r cyfiawnhâd sydd yn dyfod trwy y prynedigaeth. Nid yw ei lais i'w glywed ger bron Duw mwyach; ac y mae ei angylion, sef yr ysbrydion gwrthryfelgar a hudwyd ganddo, yn cael eu bwrw i lawr gydag ef, i'r ddaear—y lle yn awr y mae yr ymrysonfa yn cael ei dwyn yn mlaen rhwng yr esgyniad a'r ail ddyfodiad, pan y caiff ei rwymo." Dadleua Alford yn mhellach fod gwedd arddunol yr holl ddarluniad yn gwneuthur yn anhawdd ei gymmhwyso at ddymchweliad paganiaeth o orsedd ymherodrol Rhufain. Ar y llaw arall, dadleuir o blaid y golygiad mai cwymp paganiaeth a olygir, ac nad oes genym y sail leiaf dros gymmhwyso yr enw Michael at Grist: nid oes un sail dros hyny yn y manau yn Llyfr Daniel lle y cyfarfyddir â'r enw; pe Crist a feddylid yma, y cyfeiriasid ato wrth un o'i enwau arferol yn y llyfr. Heb law hyny, gweledigaeth arwyddluniol ydyw hon, yn arddangos un o ddigwyddiadau mawrion yr eglwys yn y dyfodol; tra y mae yr esboniad arall yn cyfeirio at amgylchiad gwirioneddoi oedd wedi cymmeryd lle cyn rhoddiad y Dadguddiad. Yn mhellach, yr oedd y diafol yn gweithredu yn arbenig fel "cyhuddwr y brodyr" yn yr erlidiau paganaidd. Y mae yn wir fod cyfeiriad eglur yn y disgrifiad hwn at ddymchweliad gallu y diafol gan Grist yn bersonol, yn ei fywyd a'i farwolaeth; ond y mae hyny yn naturiol, o blegid y fuddugoliaeth arno gan Grist yw sail a defnydd pob buddugoliaeth ddilynol arno. *Yr hen sarph*:—cyfeiriad amlwg at demtiad a chwymp dyn (*Gen.* iii. 1), a phrawf mai y sarph oedd yr un drwg yn rhith y bwystfil hwnw.

10. Y mae yr oruchafiaeth a gafwyd yn y nef gan Michael a'i angylion i gael ei hennill hefyd ar y ddaear, trwy ffydd, cyhoeddiad y gair, ac amynedd hyd y diwedd. *Cyhuddwr ein brodyr.*—Y mae yr Ysbryd Glân, yr hwn ydyw y Dddanydd, yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad i'r ysbryd aflan, yr hwn ydyw y cyhuddwr.—*Grotius.* Mae y gair "ein"—"cyhuddwr ein brodyr"—yn dangos fod y mawl mewn "llef uchel" yn dyfod oddi wrth y saint yn y nef, y rhai a brynwyd o fysg dynion. *Yn eu cyhuddo hwy ger bron Duw.*—Y mae yma gyfeiriad at eiriau yn yr Hen Destament, lle y mae Satan yn cael ei ddarlunio fel yn cyhuddo y saint ger bron Duw. Gwel *Iob* i., a *Zech.* iii. Yn y naill, yr ydym yn ei gael yn mhresennoldeb Duw, yn gwrthwynebu Iob; ac

[a] 1 Cron. 29. 11; Salm 22. 28; Dan 2. 44; [b] Mat. 6. 10. [c] Salm 2. 8—12; Mat. 26. 64; 1 Cor. 5. 4; 2 Cor. 12. 9. [d] Ioan 16. 33; Rhuf. 8. 34—39; 2 Cor. 10. 3—5; Eph. 6. 13; Heb. 2. 14, 15. [e] Dad. 6. 9. [f] Dad. 20. 4.

a [b] theyrnas ein Duw ni, a [c] gallu ei Grist ef: canys cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr, yr hwn oedd yn eu cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni ddydd a nos.

11 A [d] hwy a'i gorchfygasant ef trwy waed yr Oen, a thrwy [a] air eu tystiolaeth hwynt; ac ni charasant eu [f] heinioes hyd angeu.

12 O herwydd hyn llawenhewch, y nefoedd, a'r rhai ydych yn trigo ynddynt. Gwae y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, a'r môr: canys y diafol a ddisgynodd atoch chwi, a chanddo lid mawr, o herwydd ei fod yn gwybod nad oes iddo ond ychydig amser.

13 A phan welodd y ddraig ei bwrw i'r ddaear, hi a erlidiodd y wraig a esgorasai ar y mab.

14 A rhoddwyd i'r wraig ddwy

yn y llall, saif ger bron Duw, ac ar ei ddeheulaw ef, i gyhuddo Iosuah yr archoffeiriad.

11. *Trwy waed yr Oen, a thrwy air eu tystiolaeth hwynt.*—Gorchfygasant, am fod Crist wedi marw drostynt (*pen.* vii. 14), a thrwy eu ffydd yn ei waed ef. Hefyd, trwy y gair, am eu bod yn y gair yn meddu y gwirionedd; ac yr oedd pregethiad y gair yn foddion i ddwyn dynion yn rhydd o allu a meddiant y diafol. Y mae *a hwy*, yn nechreu yr adnod, yn meddu ar bwys neillduol:—"hwy" yn arbenig; "hwy," a neb ond hwy. Y mae Satan a'i angylion yn gryfach na phawb o ddynolryw, ond Had y wraig. "Trwy waed yr Oen."—Nid yw y cyfeithiad yma yn trosglwyddo ystyr y gwreiddol; dylai fod, 'ar gyfrif gwaed yr Oen.' Nid y meddwl ydyw, mai gwaed yr Oen ydyw yr offeryn oliaeth trwy ba un y gorchfygasant y diafol, ond gwaed yr Oen yw achos yr oruchafiaeth; ei farwolaeth aberthol ef ydoedd ei sail; effaith uniongyrchol ei angeu ef ydoedd eu buddugoliaeth. Nid oedd eu buddugoliaeth hwy arno ond buddugoliaeth yr Iesu ar Galfaria, yn cael ei sylweddoli yn eu personau hwy eu hunain. Ei aberth ef dros eu pechodau a gynnwysa yr unig attebiad i gyhuddiadau y diafol; heb y ddadl sydd yn ei waed ef, byddai yn ammhossibl i bechadur gyfarfod â, a distewi edliwiadau y diafol; ond y mae ei waed ef yn cyfarfod pob cyhuddiad. Y mae Schœtgenn yn crybwyll traddodiad Rabbinaidd, i'r ystyr fod Satan yn cyhuddo dynion trwy holl ddyddiau y flwyddyn, oddi eithr un dydd, a hwnw ydoedd dydd mawr y cymmod. Gan fod rhinwedd aberth Crist yn ymestyn dros holl amser a thragwyddoldeb, y mae yn amddifadu Satan o'i ddadleuon yn erbyn y pechadur a gredo yn Mab Duw yn llwyr ac am byth. *A thrwy air eu tystiolaeth hwynt.*—Yr un grym sydd yn y gair a gyfeithir yma hefyd yn "trwy:" "ar gyfrif eu tystiolaeth hwynt." Ar gyfrif eu tystiolaeth ffyddlawn hyd angeu, y maent yn wir orchfygwyr ar y diafol. "Yr oedd eu tystiolaeth yn profi eu goruchafiaeth arno trwy waed yr Oen." —*Brown.* Gwaed aberthol y Cyfryngwr oedd sail eu buddugoliaeth; a'u ffyddlondeb yn nygiad eu tystiolaeth iddo oedd y prawf o'u buddugoliaeth. Ond nid yw yr eglurhâd hwn yn rhoddi ei rym priodol i'r Groeg, *dia*—ar gyfrif. Ystyrir eu ffyddlondeb yn nygiad eu tystiolaeth fel achos o'u goruchafiaeth, yr un modd a gwaed yr Oen. Y meddwl yw, fod y naill yn golygu yr achos gwrthddrychol o'u goruchafiaeth, a'r llall yr achos mewnol. Nid ydyw marwolaeth aberthol Crist yn sicrhau goruchafiaeth i ddyn ar y diafol, oddi eithr iddo ef, trwy ffydd, gael ei ddwyn i undeb â Christ, ac felly ddyfod yn gyfranog o'i oruchafiaeth ef; a'r elfen hon yw achos yr oruchafiaeth a osodir ger ein bron yn "ar gyfrif eu tystiolaeth hwynt." Am yr un oruchafiaeth ar y diafol y lleferir drwy yr holl Feibl. Y mae y drychfeddwl yma am yr iachawdwriaeth—rhyfel a buddugoliaeth—yn un o hoff ddrychfeddyliau Ioan, yn ei holl ysgrifeniadau. Yn ei Efengyl, darlunia yr oruchafiaeth yn mywyd a marwolaeth Crist ei hun; yn ei Epistol, yn mywyd y credadyn yn bersonol; ac yn y Dadguddiad, yn hanes yr eglwys. Sylwa un awdwr fod pedair gradd yn nymchweliad y diafol:—Yn y gyntaf, y mae yn cael ei amddifadu o'i fawredd a'i urddas nefol; ettto, y mae iddo fynedfa i'r nef fel cyhuddwr y brodyr, hyd oni ddaeth Crist i'r cnawd. Meddylir fod y geiriau yn Iob a Zechariah yn rhoddi sail ddigonol i'r golygiad yma. Megys nad oedd y nefoedd wedi ei chwbl agor etto i ddyn; felly, nid oedd wedi ei chau yn llwyr yn erbyn y diafol. Nis gallai hyny o oleuni a gras oedd dan yr Hen Destament ei lwyr orchfygu. Yn yr ail radd, sef o ymddangosiad Crist yn y cnawd hyd y mil blynyddoedd, ni a'i gwelwn wedi ei fwrw i lawr o'r nef, yn farnol, fel cyhuddwr y brodyr. Wedi colli ei sedd yn y nef, y mae ei falais ar y ddaear yn fwy; y mae ei allu wedi cael ei grynhoi i lai o le, ac y mae ei gynddaredd o hyd yn cynnyddu, "o herwydd ei fod yn gwybod nad oes iddo ond ychydig amser." Yn y drydedd radd, y mae wedi ei rwymo: hwn yw cyfnod y mil blynyddoedd. Y bedwaredd radd ydyw ei ddinystr llwyr a thragwyddol, pan y bydd y farn a gyhoeddwyd arno ar Galfaria gan Hâd y wraig wedi ei dwyn i lwyr weithrediad, ac y bydd yntau wedi ei fwrw i'r llyn o dân, lle y poenir ef, gyda'r bwystfil a'r gau brophwyd, yn oes oesoedd: *pen.* xx. 1—3.

12. Wrth *y nefoedd, a'r rhai ydych yn trigo ynddynt,* y meddylir yr eglwys a'i gwir aelodau. Wrth *y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, &c.*, y meddylir cenhedloedd paganaidd ymherodraeth Rhufain. *Ond ychydig amser*:—y tymmor a derfynodd yn sefydliad a llwyddiant cyffredinol Cristionogaeth.

13. Dychwelir yma at y cyfnod a ddisgrifir yn *adn.* 4—6. Wedi ei ddymchweliad o'r nef yn y dechreuad, trodd y diafol ei falais yn erbyn y dyn sanctaidd a dedwydd yn Eden; a'r un modd, yn ngweledigaethau y bennod hon, wedi i'r ddraig gael ei bwrw i lawr o'r nef gan Michael, hi a erlidiodd y wraig. *Y wraig a esgorasai ar y mab.*—Yr oedd y mab ei hun yn ddiogel, o blegid yr oedd wedi ei gymmeryd i fyny at Dduw; ond yr oedd y fam etto ar y ddaear yn y perygl. Oddi wrth hyn, gwneir y sylw gan rai, fod diogelwch a llwyddiant yr eglwys yn sicr; nas gallai gelyniaeth y diafol lesteirio ei chynnydd; a'r cwbl oedd yn ei allu oedd ei molestu.

14 *Ddwy o adenydd eryr mawr*:—yn arwyddo, fe allai, yr amddiffyn mawr a roddid iddi gan

o adenydd eryr mawr, fel yr ehedai hi i'r diffeithwch, i'w lle ei hun: lle yr ydys yn ei maethu hi yno dros amser, ac amseroedd, a hanner amser, oddi wrth wyneb y sarph.

15 A'r sarph a fwriodd allan o'i safn, ar ol y wraig, ddwfr megys afon, fel y gwnai ei dwyn hi ymaith gyda'r afon.

16 A'r ddaear a gynnorthwyodd y wraig; a'r ddaear a agorodd ei genau, ac a lyngcodd yr afon, yr hon a fwriodd y ddraig allan o'i safn.

17 A llidiodd y ddraig wrth y wraig, ac a aeth [s]i wneuthur rhyfel â'r lleill o'i had hi, [t]y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, [u]ac sydd â thystiolaeth Iesu Grist ganddynt.

[s] Dan.7. 23-26; 11. 36. [t] Mat.28.20. [u] Adn. 6-9; Dad. 20. 4.

PENNOD XIII.

1 *Bwystfil yn cyfodi allan o'r môr, â saith ben ganddo, a deg corn; i'r hwn y mae y ddraig yn rhoddi ei gallu.* 11 *Bwystfil arall yn dyfod i fyny allan o'r ddaear;* 14 *ac yn peri gwneuthur delw y [bwystfil cyntaf;* 15 *ac yn peri i ddynion ei addoli ef,* 16 *a derbyn ei nôd ef.*

B. A. 93.

AC mi a sefais ar dywod y môr, ac a welais fwystfil yn codi o'r môr, a chanddo saith ben,

---

Ragluniaeth ddwyfol. Y mae y golygiad hwn yn unol âg ymadroddion ffugrol y Beibl: *Exod.* xix. 4; *Deut.* xxxii. 11; *Esa.* xl. 31. Yr eryr ydyw y cryfaf o'r adar, ac un o'r rhai cyflymaf ar ei aden. *I'r diffeithwch.*—Nid yw yn arwyddo lle anghyfannedd ac anhyfryd, yn gymmaint a lle o ddiogelwch. Lleferir am ddiffeithleoedd fel manau diogel rhag ymlidwyr: 1 *Sam.* xxiii. 14, 15; 1 *Bren.* xix. 4. Y meddwl yw, y darperid noddfa i'r eglwys rhag peryglon. Cyssyllta ereill y syniad o anghyfannedd-dra digysur â'r gair "diffeithwch." Meddyliant wrtho wlad y paganiaid, hwnw cyferbyniad i Palestina—y tir hyfryd a dymunol: *Ier.* iii. 19; *Ezec.* xx. 6, 15; *Dan.* viii. Gelwir Babilon yn "anialwch y môr." "Y mae y gwledydd paganaidd, gan eu bod heb Dduw, yn anialwch anghyfannedd. Felly y mae ffôedigaeth y wraig i'r diffeithwch yn arwyddo mynediad teyrnas Dduw oddi wrth yr Iuddewon at y Cenhedloedd, yr hyn a welir mewn cysgod yn ffôedigaeth Mair a'i mab o Iudea i'r Aipht." Meddylia rhai fod cyfeiriad yn y geiriau, "i'w lle ei hun," at fynediad Cristionogaeth i Rufain, prif ddinas y byd y pryd hyny. Mynediad yr efengyl o brif ddinas Iuddewiaeth i brif ddinas y byd ydyw drychfeddwl Actau yr Apostolion. Y nawdd Rhufeinig oedd aden yr eryr oedd yn cysgodi Paul yn fynych oddi wrth gaseion Iuddewig. Mewn amser, daeth "lle" yr eglwys yn fwy diogel iddi, pan ddaeth yr ymherodraeth yn Gristionogol dan Cystenyn. Gwell genym ni yr esboniad mwy syml, fod diffeithwch yn dynodi y neilluaeth diogel a gafodd yr eglwys: a'i *lle ei hun*, y lle hyny a appwyntiodd yr Arglwydd iddi.

15. *Ddwfr megys afon.*—"Llifeiriant erledigaeth Rhufeinig, â'r hwn y ceisiodd y diafol orchuddio yr eglwys yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth." Dywed rhai fod y ffugr hwn yn addas i osod allan falais diorphwys y Babaeth yn erbyn y wir eglwys, yn yr oesoedd hyny pan ymguddiai o'r golwg megys mewn diffeithwch. Nid oedd y malais hwnw byth yn huno, ond yn wastad yn ei amlygu ei hun mewn ffurfiau newyddion, ac yn dangos mai amcan y Babaeth oedd ei llwyr ddileu oddi ar wyneb y ddaear.

16. *A'r ddaear a gynnorthwyodd.*—Y mae y rhai sydd yn barnu fod y bennod hon yn cyfeirio yn fwyaf neilluol at Rufain baganaidd, yn esbonio y cynnorthwy a roddes y ddaear i'r wraig am y nawdd a daenodd y gallu gwladol dros Gristionogaeth, ar ol i'r ymherodraeth ddyfod yn allu Cristionogol. Y mae ereill yn gweled yma fynegiad o wirionedd cyffredinol—fod cydgyfarfyddiadau hapus mewn Rhagluniaeth yn fynych yn darparu manteision i grefydd bur. *A lyngcodd yr afon:*—cymmerir y ffugr oddi wrth beth sydd i'w weled mewn parthau o'r byd —afonydd yn cael eu llyngcu gan y ddaear. "Mynych y codai Rhagluniaeth bersonau i gynnorthwyo yr eglwys yn nghanol angerddoldeb erledigaethau."—*Lowman.*

17. Ennynai afiwyddiant a siomedigaeth ei llid fwy-fwy. *A'r lleill o'i had hi:*—y gweddill. Y mae y gair yn rhoddi ar ddeall fod nifer y ffyddloniaid yn fychan: *Rhuf.* ix. 27, 29; xi. 5. Y mae y gair "gweddill," yr un yn y Deg a Thrigain ag a gyfeithir yma "lleill," yn cael ei ddefnyddio yn aml yn y prophwydi. "Nis gallai y ddraig ddinystrio yr eglwys fel y cyfryw; o herwydd hyny trodd ei llid yn erbyn Cristionogion unigol, i ddwyn i farwolaeth gynnifer ag a allai o honynt hwy."—*De Wette.* Gwel rhai gyfeiriad yma at greulonderau y Babaeth at bersonau neilluol —megys Huss, Jerome, Wycliffe, &c. Y mae y bennod bwysig hon, yn ol golygiad lled unfrydol yr ysgol hanesyddol o esbonwyr, yn cynnwys dariuniad o'r ffurfiau amrywiol a lliosog o wrthwynebiad a ddangosai y diafol, o oes i oes, tuag at y wir eglwys—o dan baganiaeth, a thrwy Babyddiaeth—ac y maent yn dra hyderus yn y farn hon. Dywedant y buasai yn ammhossibl cael arwyddluniau mwy addas i osod allan y gwrthwynebiad hwn. Yn y rhanau canlynol o'r llyfr, gwelant elyniaeth y Babaeth i grefydd bur yn cael ei ddangos yn fwy yn manylion ei weithrediadau.

PENNOD XIII.
Y DDAU FWYSTFIL.

Cymmharer y bennod hon â *Dan.* vii. 7, 8, 19—27. Y mae cryn unfrydedd yn y farn y golyga y bwystfil cyntaf—yr un a gyfododd o'r môr—baganiaeth Rhufain, yn ei wrthwynebiad i Gristionogaeth; yr un ag a ragfynegir yn *pen.* xi. 7, a'r un a'r ddraig—o leiaf, y ddraig yn ei gwrthwynebiad i'r wraig, yn *pen.* xii. 13. Wrth gymharu y disgrifiad yn y bennod hon o hono â'r geiriau yn Daniel, gwelwn ei fod yn meddu prif hynodion y pedwar bwystfil yn ngweledigaeth Daniel—y llew, yr arth, y llewpard, a'r bwystfil â chanddo ddeg corn: etto, y mae yn amlwg mai yr un ydyw y bwystfil hwn a'r pedwerydd bwystfil yn y weledigaeth hono; yr hyn a wêl y darllenydd wrth gymmharu y ddau ddarluniad. Ond y mae yn eglur mai y pedwerydd bwystfil yn Daniel ydyw y gallu neu y deyrnas a olygir yn

a deg corn; ac ar ei gyrn ddeg coron, ac ar ei benau enw cabledd.

2 A'r bwystfil a welais i oedd debyg i lewpard, a'i draed fel *traed* arth, a'i safn fel safn llew: [a] a'r ddraig a roddodd iddo ef ei gallu, a'i gorseddfaingc, ac awdurdod mawr.

[a] Dad. 12. 3, 4. 9, 13, 15.

[b] Dad. 17. 10.

3 Ac mi a [b] welais un o'i benau ef megys wedi ei ladd yn farw; [c] a'i friw marwol ef a iachawyd: [d] a'r holl ddaear a ryfeddodd ar ol y bwystfil.

[c] Ezec. 30. 24.

[d] Luc 2. 1; Ioan 12. 19.

4 A hwy a addolasant y ddraig, yr hon a roes allu i'r bwystfil: [e] ac a addolasant y bwystfil, gan ddywedyd, [f] Pwy *sydd* debyg i'r bwystfil? pwy a ddichon ryfela âg ef?

[e] Dan. 11. 36, 37.

[f] Dad. 18. 18; Exod. 15. 11.

5 A rhoddwyd iddo ef [g] enau yn llefaru pethau mawrion, a chabledd; a rhoddwyd iddo awdurdod i weithio dau fis *a* deugain.

[g] Dan. 7. 8, 11.

6 Ac efe a agorodd ei enau mewn cabledd yn erbyn Duw, i gablu ei enw ef, a'i dabernacl, a'r rhai sydd yn trigo yn y nef.

7 A rhoddwyd iddo wneuthur rhyfel â'r saint, a'u gorchfygu hwynt: a rhoddwyd iddo awdurdod ar bob llwyth, ac iaith, a chenedl.

8 A [h] holl drigolion y ddaear a'i haddolant ef, [i] y rhai nid yw eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen *yr hwn* a laddwyd, er dechreuad y byd.

[h] Adn. 3, 4—14, 15.

[i] Dan. 12. 1; Luc 10. 20; Phil. 4. 3.

9 Od oes gan neb glust, gwrandawed.

[k] Exod. 21. 23—25; Esa 14. 2; 33. 1; Mat. 7. 2. Galar. 3. 26; Heb. 2. 3; Luc 18. 1-8; Heb. 12. 3, 4.

10 [k] Os yw neb yn tywys i gaethiwed, efe a â i gaethiwed. Os yw neb yn lladd â chleddyf, rhaid yw ei ladd yntau â chleddyf. [l] Dyma amynedd a ffydd y saint.

---

yr arwyddlun yn *Dan.* ii. 33, 40—44—y deyrnas a arwyddoceir gan goesau haiarn y ddelw, yr hon hefyd yr oedd ei thraed beth o haiarn, a pheth o bridd. "Y pedwerydd bwystfil fydd y bedwaredd frenhiniaeth ar y ddaear, yr hon a fydd amryw oddi wrth yr holl frenhiniaethau, ac a ddifa yr holl ddaear, ac a'i sathr hi, ac a'i dryllia." Yn awr, nid oes le i ammheuaeth nad ymherodraeth Rhufain ydyw hon. Yr un yw y pedwerydd bwystfil a'r bwaredd frenhiniaeth, fel y dywedir yn *Dan.* vii. 23; a'r un yw y naill a'r llall ag ymherodraeth Rhufain. Dengys *Dan.* ii. 44, fod nodweddau arbenig y tair brenhiniaeth gyntaf yn cydgyfarfod yn y bedwaredd.

1. *Fwystfil* :—a nodir yn flaenorol mewn rhagfynegiad : *pen* xi. 7. Dywedir yno ei fod i ddyfod o'r pwll diwaelod—yma, o'r môr. Barna Stuart mai y rheswm pa ham y darlunir ef fel yn codi o'r môr ydyw, am yr ystyrid mai y môr ydyw priodol drigle pob anghenfil. Yn iaith prophwydoliaeth, y mae bwystfil yn dynodi llywodraeth ormesol ac eilunaddolgar. Gan fod Ioan wedi gweled y bwystfil hwn yn codi, a chan fod ymherodraeth Rhufain yn bod cyn hyn, meddylia rhai mai yr ymherodraeth Rufeinaidd-Gothaidd yn y chweched ganrif a feddylir, yr hon a gynnwysai deg brenhiniaeth; ond mewn attebiad, dywedir fod yn hollol gysson golygu y weledigaeth fel yn cyfeirio at amser a aeth heibio, yr un modd a'r rhan yn ngweledigaeth Daniel am gyfodiad y deyrnas gyntaf : *Dan.* vii. 2, 17. Bernir nad oes gyfeiriad yn y gair "o'r môr" at darddiad; ond yn hytrach at cangder, cyfleusderau, moddion, a gallu, ymherodraeth Rhufain. *Saith ben, a deg corn* :—yr un modd a'r ddraig, yn *pen.* xii. 3. Y gwahaniaeth rhyngddynt yw, fod gan y bwystfil ddeg coron ar ei ddeg corn, tra yr oedd i'r ddraig saith goron ar ei phenau. Nid yr un oeddynt, o blegid gwahaniaethir hwynt yn *adn.* 2; "a'r ddraig a roddodd iddo ef ei gallu," &c. Y maent yn cael eu darlunio yn gyffelyb i'w gilydd, er mwyn dangos fod yr un drwg yn cael yn y gallu hwn y cyfrwng mwyaf addas i roddi allan ei holl nerth a'i falais, fel y dangosir yn *adn.* 2. Barna Webster a Wilkinson y gall y ffaith fod coronau y bwystfil ar ei ddeg corn arwyddo y trosglwyddiad o holl allu yr ymherodraeth i'r galluoedd oedd i gyfodi ar ei hol: gwel *pen.* xvii. 12. *Enw cabledd* :—a esbonir yn gyffredin am waith yr ymherawdwyr, ac ar eu hol y pabau, yn cymmeryd arnynt eu hunain enwau, ac yn hawlio iddynt eu hunain anrhydedd dwyfol. Os ydyw yr ail fwystfil yn y bennod hon yn arwyddo y gallu Rhufeinig eglwysig, fel yr oedd yn molestu y wir eglwys, mwy cysson, dybygid, yw meddwl fod y cyfeiriad yn y fan hon at yr anrhydedd dwyfol a ofynai yr ymherawdwyr paganaidd. Galwent eu hunain, a gelwid hwy gan eu deiliaid, yn "Frenhinoedd yr holl ddaear," a'r cyffelyb; ac ni phetrusent gyssylltu yr enwau "Deus," a "Divus," â'u personau. Cariwyd y cabledd yma yn mhellach fyth gan Rufain Babaidd.

2. Y mae y bwystfil hwn yn debyg i'r pedwerydd yn ngweledigaeth Daniel, yn yr hwn y cyfunid ffyrnigrwydd, creulondeb, a chryfder y tri cyntaf. *A roddodd iddo.*—Gwnaeth y diafol ef yn rhaglaw iddo ei hun ar y ddaear. Cyfeirir yma yn benaf at Rufain baganaidd. Ond y mae yr un peth yn wir am Rufain Babaidd. Pan nad ellid yn hwy gynnal i fyny yr hen eilunaddoliaeth, dyfeisiwyd math newydd. Dilynwyd duwiau a hanner-duwiau gan angylion a seintiau. Rhydd y ddraig yn y lle hwn i'r bwystfil y gallu a'r awdurdod a gynnygiai i'r Iesu : *Luc.* iv. 6.

3. *Megys wedi ei ladd* :—a esbonir gan y rhan fwyaf am ddarostyngiad y gallu ymherodrol yn amser Augustulus, B. A. 476, pan y daeth Rhufain yn ddugiaeth dan Ravenna. *A iachawyd* :—yn cyfeirio at adnewyddiad Rhufain dan lywodraeth y Gothiaid; neu yn hytrach, at adsefydliad y gallu gwladol mewn undeb â'r un eglwysig dan y pabau.

4. *A addolasant.*—Y mae y gair gwreiddiol yn digwydd ddeg o weithiau yn y llyfr hwn i ddynodi addoliad i Dduw, a naw o weithiau i ddynodi addoliad i'r bwystfil. *Pwy sydd debyg?* —Efelychiad o'r mawl a delir i Dduw : *Salm* xxxv. 10; lxxi. 19; cxiii. 5.

11 Ac mi a welais fwystfil arall
[m] Dad.11.7; 17. 8. [m] yn codi o'r ddaear; ac yr oedd ganddo ddau gorn tebyg i oen, a llefaru yr oedd fel draig.

12 A holl allu y bwystfil cyntaf y mae efe yn ei wneuthur ger ei fron ef, ac yn peri i'r ddaear, ac i'r rhai sydd yn trigo ynddi, addoli y bwystfil cyntaf, yr hwn yr iachawyd ei glwyf marwol.

13 Ac y mae efe yn gwneuthur [n] rhyfeddodau mawrion, hyd onid [n] yw yn peri i dân ddisgyn o'r nef i'r ddaear, yn ngolwg dynion;

14 Ac [o] y mae *efe* yn twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, trwy y rhyfeddodau y rhai a roddwyd iddo ef eu gwneuthur ger bron y bwystfil; gan ddywedyd [p] wrth drigolion y ddaear, [p] am iddynt wneuthur delw i'r bwyst-

[n] Num. 16. 35; 2 Bren. 1. —14; Mat. 16. 1.
[o] Adn. 9; Dad. 18.23; 19. 20; 20. 3, 10; Esa. 44. 20; 2 Thes. 2. 10—12.
[p] Dad. 14.9, 11; Ezec. 8. 10; Dan. 6. 7.

11. Yr ail fwystfil. *Ac mi a welais fwystfil arall yn codi o'r ddaear.*—Y mae y ddau fwystfil yn debyg i'w gilydd;—mae y ddau yn wylltfilod ffyrnig a chreulawn, ac yn elyniaethus i Dduw a'i bobl. Etto, y maent yn amrywio oddi wrth eu gilydd. Y mae y cyntaf yn codi o'r môr—allan o donau cynddeiriog pobloedd ac ieithoedd (*pen.* xvii. 15); neu, yn ol arwyddluniaeth Daniel, y mae yn golygu ymherodraeth wedi codi o gymmysgfa i drefn.—*Alford.* Y mae yr ail fwystfil yn codi o'r ddaear; sef, o gyflwr blaenorol o drefn gymdeithasol—o'r gyfundrefn a arwyddoceir yn llywodraeth y bwystfil cyntaf. Y mae y ddaear, o'r hon y cyfododd yr ail fwystfil, yn arwyddo, ebe Brown, gyfundrefn reolaidd y Cenhedloedd, gyda'i hamaethiad a'i dysgeidiaeth. Dangosir hefyd fod gwasanaeth a gallu yr ail fwystfil, yn israddol a darostyngedig i'r cyntaf: *adn.* 12. Saif yn mhresennoldeb y cyntaf, ac arfera ei holl allu: gwna i breswylwyr y ddaear ei addoli; megys y mae y cyntaf yn fath o raglaw i'r ddraig, yn dwyn ei delw, yn gwneuthur ei hewyllys, ac yn defnyddio ei gallu, felly hefyd y mae yr ail i'r cyntaf; gweithreda trwy ei allu, gwna wyrthiau yn ei enw, pâr i ddynion wneuthur delw iddo, a'i haddoli; ac y mae yn colli ei bersonoliaeth ei hun yn eiddo y bwystfil cyntaf. Ond y prif wahaniaeth rhyngddynt ydyw, fod gan yr ail "ddau gorn tebyg i oen," i'r hyn nid oedd gan y cyntaf ddim yn gyffelyb. Etto, y mae gwir gymmeriad yr ail yr un ag eiddo y cyntaf; o blegid, er fod ganddo ddau gorn tebyg i oen, yr oedd "yn llefaru fel draig." Ymddangosai y cyntaf y peth ydoedd mewn gwirionedd: yr oedd yr olwg arno yn fyngiad o'i wir natur. Ond ffugiai y llall addfwynder a thynerwch: y mae ei orchymynion yn greulawn, er yr ymgais a wneir ganddo i ymddangos yn dyner a charedig. Ar arwyddocâd yr ail fwystfil, llefara Alford fel y canlyn:—"Yr wyf yn appelio at y darllenydd, ac yn gofyn, Onid yw yr holl bethau hyn yn cyfarfod yn y gallu mawr dinystriol hwnw a gyfododd, nid allan o annhrefn a chongcwest, ond allan o fywyd ac arferion beunyddiol dynion, allan o, ac yn mhresennoldeb ffurf ddiweddaf y gallu bydol—ymherodraeth Rhufain baganaidd? Yr wyf yn golygu y gallu erlidus offeiriadol, yr hwn oedd yn dyner yn ei ymddangosiad a'i broffesiadau, etto yn greulawn yn ei weithredoedd; yr hwn a gyflawnai holl weithredoedd yr ymherodraeth, yn ei phresennoldeb, a gadwai ei delw, ei chyfreithiau, ei ffurfiau, a'i theitlau; yr hwn, megys y daeth i mewn trwy offeiriadaeth lygredig ac uchelgeisiol, a dwyllodd y rhai a drigent ar y ddaear â gwyrthiau gau, a thrwyddynt hwy a gynnaliodd ddelw y gallu bydol gormesol." Y gallu hwn, sef yr eglwys Ladinaidd, yn ei gymeriad gwladol ac eglwysig, a osododd y wraig, y butain fawr, ar y bwystfil o liw ysgarlad: *pen.* xvii. Hwn a elwir yn gau brophwyd yn *pen.* xix. 20, am fod ei ddylanwad i'w briodoli yn benaf i dwyll, a honiadau gau o uchafiaeth ac awdurdod ysbrydol. Nid yw Alford yn cyfynguarwyddocâd yr ail fwystfil trwy wahanu y gallu offeiriadol paganaidd a'r un Cristionogol oddi wrth eu gilydd. Dywed nad oes un sail dros ei gymmhwyso at y cyntaf—fod pwysigrwydd y brophwydoliaeth yn gwrthod caniatau y fath gyfyngiad ar yr ystyr. Y mae hefyd yn anghytuno âg Elliot, yr hwn sydd yn ei gyfyngu at offeiriadaeth y Babaeth; dywed nad yw y golygiad hwn yn gallu rhoddi ystyr i'r gweithredoedd a briodolir i'r bwystfil, megys ei fod yn peri i ddynion wneuthur delw i'r bwystfil cyntaf, a'i addoli. Yn ngwyneb yr anhawsderau hyn, y mae yn barnu fod yr ail fwystfil, yn y lle cyntaf, yn gosod allan y gallu offeiriadol paganaidd: y gallu hwn a wnaeth ddelw o'r ymherawdwyr, a orfododd y Cristionogion i addoli y ddelw hono, ac a wnaeth arwyddion a rhyfeddodau trwy ei chyfaredd a'i swynion. Ond gan fod y bwystfil cyntaf wedi ei draws-newid o fod yn allu gwladol paganaidd i fod yn allu gwladol Cristionogol, gwnaed trawsffurfiad cyffelyb ar yr ail: daeth yr offeiriadaeth Gristionogol yn wir etifedd defodau, delwau, ac ofergoelion paganaidd; cadwodd yr un addoliad o dan enw gwahanol, yn yr un lleoedd; addoliad y Forwyn, yn lle yr eiddo Gwener, a delw Pedr, yn lle yr eiddo Iau. Yr oedd yn debyg i oen mewn proffes, a chanddi enwau ac ymddangosiadau Cristionogaeth, ond yn debyg i ddraig mewn geiriau a gweithredoedd. Golygiad Alford, felly, ar y ddau fwystfil, ydyw, mai y cyntaf ydyw y gallu gwladol erledigaethus—paganaidd, a Christionogol; a'r ail, y gallu offeiriadol, neu eglwysig, erledigaethus—paganaidd, a Christionogol. Y mae y golygiad uchod yn ymddangos i ni yn gysson a natur'ol. Y mae rhai yn barnu fod cyfeiriad yn y ddau gorn at y galluoedd Mahometanaidd a Phabaidd, y rhai a gyfodasant o ddeutu yr un amser yn y seithfed ganrif. Dywed Wordsworth ar yr ail fwystfil, yr hwn oedd ganddo ddau gorn fel oen, ei fod yn cyfuno ymddangosiad allanol fel yr eiddo Crist âg ysbryd creulawn yr un drwg; nas gall olygu gallu paganaidd neu annuwiaidd, ond rhyw ffurf o Gristionogaeth. Gan mai yn ei leferydd yr oedd y bwystfil hwn yn debyg i ddraig, y mae amryw yn gweled yn hyn ragfynegiad o benderfyniadau cynghorau Rhufain, ac anathemau a melldithion y pab. Y mae yr awdurdodau Pabaidd wedi bod, fel y mae banesiaeth yn profi, yn wrthwynebus i ryddid gwladol, ac yn bleidiol i'r ormes mwyaf anghyfiawn. Cefnogir y Babaeth gan y llywodraethau gwladol gormesol, ac attega

fil yr hwn a gafodd friw gan gleddyf, ac a fu fyw.

15 A chaniatawyd iddo ef [p]roddi anadl i ddelw y bwystfil, fel y llefarai delw y bwystfil he- [q]fyd, ac [q]y parai gael o'r sawl nid addolent ddelw y bwystfil eu lladd.

[p]Dad. 16. 5, 6; 17. 6, 15, 17; Dan. 7. 20, 21, 25.

16 Ac y mae yn peri i bawb, fychain a mawrion, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion, dderbyn [r]nôd ar eu llaw ddehau, neu ar eu talcenau:

[r]Dad. 14. 9—11; Zech. 13. 9.

17 Ac na allai neb na phrynu na gwerthu, ond yr hwn a fyddai

hithau hwythau; y mae yn caethiwo cydwybodau dynion, ac yn annog ac yn cynnorthwyo gormeswyr i gaethiwo eu personau. Dywedir fod y bwystfil hwn yn twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, trwy ryfeddodau; ac y mae yn ffaith nodedig mai atteg cadarnaf y gallu offeiriadol, paganaidd a Phabaidd, ydyw yr hôniad o ddawn i wneuthur gwyrthiau. "Gwyrthiau, gweledigaethau, a dadguddiadau, ydynt destynau penaf ymffrost Eglwys Rhufain, a dyfeisiau offeiriadaeth ddichellgar i dwyllo y bobl ehud ac anwybodus."—*Esgob Newton.* Y mae yn amlwg nas gall dim fod yn fwy disgrifiadol na hyn o'r Babaeth. Y mae y sefydliad wedi cael ei gynnal trwy yr oesoedd trwy dwyll, a thrwy hôniadau gau o allu gwyrthiol; ac megys y mae wedi bod er's oesoedd, felly y mae yn parhau hyd yr awr hon. Pan y llefara Gibbon am benogaeth Gregory Fawr, dywed fod ofergoeledd neu gyfrwysdra Gregory yn ei arwain yn wastad i gadarnhau gwirionedd crefydd â phrofion oddi wrth ymddangosiad ysbrydion, gwyrthiau, a bywhâd dynion o feirw. Mae y "*Breviary*" wedi ei fritho â siamplau o arwyddion wedi eu gwneuthur gan y seintiau. Nodir amryw o honynt gan Barnes. Hônir ddarfod i St. Francis Xavier droi dwfr hallt yn groew i achub bywydau pum cant o deithwyr oeddynt yn marw o syched, a bod y gweddill o'r dwfr hwnw wedi cael ei gludo i wahanol ranau o'r byd, a bod yn offerynol i iachau llawer o glefydau. "Gellid llanw tudalenau lawer âg adroddiadau o wyrthiau gau, o'r natur mwyaf afresymol, etto a gredir gan y Pabyddion; a dyma un o'r prif foddion trwy ba rai y mae y Babaeth yn twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, ac yn cadw ei huchafiaeth arnynt." Dywedir fod y bwystfil hwn yn "peri i dân ddisgyn o'r nef i'r ddaear, yn ngolwg dynion;" *adn.* 13. Cyfeirir yma yn ddiau at nerth Elias, drwy yr hwn y gwnai y prophwyd wyrthiau o'r fath: 1 *Bren.* xviii. 36—39; 2 *Bren.* i. 9—12. Ceisiai y gau brophwyd ffugio gwyrthiau y gwir brophwyd. Nid ydym yn rhwym o feddwl iddo wneuthur hyn mewn gwirionedd, mwy na bod y gwyrthiau ereill a hônir ganddo yn wir wyrthiau. Nodir hyn yn mysg y rhyfeddodau, am ei fod yn un o'r rhai mwyaf tarawiadol o honynt; rhyfeddod a ymddangosai fel yn gorwedd yn amlwg y tu allan i gylch y gallu dynol. Dywedir fod hyn yn cael ei wneuthur "yn ngolwg dynion," er mwyn dangos mai enill sylw cyhoeddus, a gwneuthur i'r lliaws ryfeddu, oedd amcan y rhyfeddodau. Y mae eglurhâd Faber, fodd bynag, yn wahanol. Meddylia efe fod y nef yn arwyddlun o'r eglwys, a'r ddaear o'r ymherodraeth; a bod y tân a ddisgynai o'r nef yn arwyddo yr ysgymmundodau a'r melldithion a gyhoeddid ar y rhai a wrthsafent awdurdod y bwystfil. Gorchymyna yr ail fwystfil i drigolion y ddaear wneuthur delw o'r bwystfil cyntaf (*adn.* 14); ac y mae amryw ffeithiau ynglŷn â phaganiaeth a Phabyddiaeth yn meddu cyfattebiad tarawiadol i hyn. Gosododd Nebuchodonozor ddelw aur ar wastadedd Dura; yr hon, yn ol pob tebyg (*Dan.* ii. 38), oedd yn ddelw o hono ef ei hun. Yr oedd yn debyg yn ymherodraeth Rhufain. Dywed Pliny, mewn llythyr at Trajan, ddarfod iddo ddedfrydu i gospedigaeth y Cristionogion a ommeddasant addoli ei ddelw gydag offrymau o win ac arogldarth. Gosododd Julian y gwrthgiliwr ei ddelw ei hun yn mysg eilunod y byd paganaidd yn y Forum, fel y byddai i'r Cristionogion, wrth dalu gwarogaeth iddi, ymddangos fel yn addoli yr eilunod. Gosodwyd hefyd ddelw o Charlemagne i fyny; i'r hon y talodd y pab warogaeth a ymlai ar yr addoliad sydd yn ddyledus i Dduw. Dangosir yma y bu gwneuthur delw o'r bwystfil cyntaf yn adfywiad ar ei allu. Yr oedd y bwystfil 'wedi cael briw gan gleddyf;' ond yn lle marw o'r briw 'efe a fu fyw, a chaniatawyd i'r ail fwystfil roddi anadl i ddelw y bwystfil cyntaf.' Y mae yn ammhossibl, dybygid, cael arwyddlun mwy tarawiadol o'r gallu Rhufeinig, fel y cafodd ei ddarostwng yn nghwymp yr ymherodraeth orllewinol, ond a adfywiwyd yn y ddwy ffurf o allu ymherodrol a gallu Pabaidd. Dangosir gan Elliot, ac ereill, y modd y gallai yr arwyddlun gael ei sylweddoli yn y modd cyflawnaf: pe y gwelem, wrth sylwi ar hanes ymherodraeth Rhufain, fod y gallu gwladol, ar un adeg, mewn cyflwr isel o wywdra, yn debyg i fwystfil wedi cael briw gan gleddyf, ac yn y cyflwr hwn yn rhy egwan i ddylanwadu ar y Cenhedloedd, fel y gwnaethai o'r blaen; ac yna fod rhyw allu arall yn cyfodi, ac yn rhoddi adfywiad iddo, a'r gallu olaf yn meddu llawer o'r un nodweddau a'r cyntaf. Yn awr, y mae hyn wedi ei wirio mewn hanesyddiaeth. Gwywodd gallu yr ymherodraeth, yn gyffelyb i fwystfil a gawsai friw â chleddyf. Ymadfywiodd drachefn dan y Babaeth. Cyfododd llywodraeth wladol newydd o nodweddau cyffelyb i'r gyntaf, yr hon a dderbyniai ei bywyd a'i nerth o'r Babaeth; a'r hon, fel ad-daliad, a estynai iddi hithau ei nawdd a'i chynnorthwy. Yn nyddiau Charlemagne, ni a ganfyddwn wir ddelw o hen allu gwladol yr ymherodraeth; a'r atteg cadarnaf o'r gallu hwn ydoedd y Babaeth. Yr ail fwystfil—sef, y gallu offeiriadol—a barai i ddynolryw i addoli y bwystfil cyntaf; sef, y gallu gwladol. "Ar alltudiad mab Orestes, yr hwn a elwid o ddiystyrwch Augustulus, syrthiodd y llywodraeth i law Odoacer—y barbariad cyntaf a deyrnasodd yn Italy; ac yna rhanwyd yr awdurdod rhwng y tywysogaethau a gyfodasant mewn canlyniad i fuddugoliaethau y barbariaid, hyd oni adnewyddwyd yr ymherodraeth yn amser ac yn mherson Charlemagne." Cafodd Rhufain friw gan gleddyf: archollwyd y gallu ymherodrol, ebe Gibbon, "â chlwyf marwol" gan ymgyrch y lluoedd barbaraidd o'r Gogledd; ond adferwyd yr ymherodraeth gan y Babaeth, yr hon a roddodd fywyd i'r gyfundrefn wladol a ymdebygolai gymmaint i'r hen ymherodraeth. Par yr ail fwystfil i bawb dderbyn nôd ar ei llaw ddeheu, neu ar eu talcenau (*adn.* 16):—"Ac ni allai neb na phrynu na gwerthu, ond yr hwn a fyddai

ganddo nôd, neu enw y bwystfil, neu rifedi ei enw ef.

ganddo nôd, neu enw y bwystfil, neu rifedi ei enw ef." Arferai y meistr osod nôd o'r fath ar ei weision, a brenin ar ei filwyr; at yr hyn y cyfeirir yn *Gal.* vi. 17. Gorchymynodd Ptolemy Philopater i'r Iuddewon yn Alexandria gael eu dwyn yn erbyn eu hewyllys i'r fyddin, a'u nodi ar eu cnawd â haiarn poeth âg arwydd Bacchus; a sonia Philo am eilunaddolwyr a losgent mewn rhanau o'u cyrph nodau annileadwy.—*Alford.* Ni olygir yma fod yr ail fwystfil, neu y gallu offeiriadol, pa un bynag ai paganaidd ynte Pabaidd, yn rhoddi nôd gweledig ar gyrph dynion; ond y byddai rhywbeth yn cael ei arosod, wrth ba un y gellid eu hadnabod. Ac y mae hyn yn nodweddiadol o'r Babaeth. Y mae y gofal mwyaf wedi ei ddangos trwy yr oesoedd i ddynodi y rhai sydd yn perthyn iddi; er y mae yn bur hawdd gwybod pwy sydd, a phwy sydd heb fod yn mysg ei deiliaid. Cyttunir yn lled unfrydol fod *adn.* 17 yn cyfeirio at y gwaharddiadau a'r deddfau caethion gyda golwg ar ryddfasnach, y rhai sydd yn hysbys i bawb sydd yn gyfarwydd â hanesiaeth; rhoddid y cyfryw waharddiadau gan yr ymherawdwyr paganaidd, a chan y pabau: ac nid yw hanes Protestaniaeth ei hun yn lân oddi wrth yr un peth. Y mae Anghyddfurfwyr â'r grefydd sefydledig, pa un bynag ai yn Rhufain paganaidd, yn Rhufain Babaidd, neu yn Mhrydain Brotestanaidd, wedi cael eu dwyn dan lawer o anfanteision gwladol a chymdeithasol. Mae hyn wedi bod yn nodweddd arbenig o'r Babaeth. Yr oedd yn beth cyffredin yn Eglwys Rhufain gwarafun pob trafodaeth fasnachol â hereticiaid. Un o ganonau y gynghorfa a gynaliwyd dan lywyddiad y pab Alexander III. yw, "na byddai i neb groesawu hereticiaid i'w dŷ, nac ar ei dir, na masnachu gyda hwynt." Cymmanfa Tours hefyd a anfonodd allan gyfraith yn gwahardd i'r ffyddloniaid dderbyn neu groesawu hereticiaid, na gwneyd cymmaint a chynnal trafodaeth â hwynt mewn prynu a gwerthu.—*Elliot.*

18. *Yma y mae doethineb.*—Gelwir sylw yma at y gwahoddiad sydd yn canlyn:—"Yr hwn sydd ganddo ddeall, bwried (cyfrifed) rifedi y bwystfil." Mae ffurf *pen.* xiv. 12, yn gyffelyb. Y meddwl yw, y byddai cael allan enw y bwystfil oddi wrth y rhifedi yn ddangosiad o ddoethineb. Dywed Alford fod geiriau y gwahoddiad i 'fwrw' rhifedi y bwystfil, yn dangos fod hyny, er yn anhawdd, etto yn bossibl. "Gellir cyfrif y rhifedi, ac y mae yn cael ei fwriadu i'w wybod." Pa beth ydyw?—y mae y gwahanol dybiau yn rhy liosog i nodi y ddegfed ran o honynt. *Canys rhifedi dyn ydyw.*—Rhoddir amryw olygiadau ar ystyr y geiriau hyn. "Y mae y rhifedi yn fychan—yn gyfryw ag y gellir ei wneyd allan gan ddyn."—*Clericus.* "Y mae y rhifedi yn golygu dyn, neu genhedlaeth neilluol o ddynion."—*Rosenmüller.* Y golygiad canlynol a gymmeradwyir gan Barnes:—"Nid ydyw y rhifedi yn perthyn i fwystfil, nac i fodau angylaidd." "Y mae y rhifedi i'w gyfrif yn ol dull dyn—nid yn ol dull angel."—*Stuart.* "Y mae y cyfryw rifedi ag a gyfrifir yn gyffredin yn mysg dynion."—*De Wette.* "Rhifedi dyn ydyw—nid rhifedi Duw; ymddyrchafa uwch law gallu y Duwdod, fel y dyn pechod."—*Aquinas.* "Er ei fod yn efelychiad o'r enw dwyfol, etto nid yw ond dynol."—*Brown.* Ymddengys i ni mai golygiad De

18 "Yma y mae doethineb. Yr hwn sydd ganddo ddeall, bwried Dad. 17. 9, Salm 107. 43.

Wette, ac mewn rhan yr eiddo Clericus a Stuart, ydyw y mwyaf unol â'r cyssylltiad. Hwn hefyd a dderbynir gan Alford. Y mae y geiriau yn rheswm pa ham y gellir gwneuthur y cyfrifiad:—"Bwried rifedi y bwystfil." Er fod ynddo ddyfnderoedd doethineb, etto nid ydyw yn ammhossibl eu plymio, "canys rhifedi dyn yw;" neu rhifedi ydyw a gyfrifir yn gyffredin gan ddynion. *Chwe chant a thrigain a chwech.*—Y mae rhai llaw-ysgrifau yn rhoddi y rhifedi uchod yn gyflawn yn y Groeg; tra y mae ereill yn rhoddi y tair llythyren Groeg sydd yn sefyll am y rhifedi. Y mae un llaw-ysgrif yn rhoddi 616; ond y mae Irenæus, yn yr ail ganrif, yn gwrthwynebu hyn, ac yn sefyll at y rhif 666; a'r golygiad a awgrymir ganddo ef ar ei arwyddocâd sydd yn cael ei dderbyn yn fwyaf cyffredin. Dywed fod y rhifedi 666 yn cael ei gynnwys yn llythyrenau Groeg y gair *Lateinos*:—

L	A	T	E	I	N	O	S
30	1	300	5	10	50	70	200

Y mae yr enw hwn yn ddisgrifiad o'r ymherodraeth baganaidd, ac o'r gallu Pabaidd. "Yr ymherodraeth Ladinaidd, yr Eglwys Ladinaidd, Cristionogaeth Ladinaidd," sydd wedi bod yn enwau arferol ar y naill a'r llall. Lladin oedd yr iaith, mewn pethau gwladol ac eglwysig. Nid oes un gair arall yn disgrifio ei chymmeriad mor gyflawn, ac ar yr un pryd yn cyfuno nodweddau y ddau fwystfil.—*Alford.* Yr oedd y gair *Lateinos* yn cael ei gymmhwyso ar y cyntaf at yr iaith yn unig, ond mewn amser daeth i gael ei arfer am braidd bob peth perthynol i'r ymherodraeth. Ceir ef yn gyssylltiedig â'r deyrnas, y llywodraeth, yr eglwys, y patriarch, yr offeiriadaeth, y cynghorau, &c. "Y maent," ebe More, "yn dwyn pob peth yn mlaen yn Lladin:—yr offeren, y gweddïau, yr hymnau, y gwasanaeth, y canonau, y penderfyniadau, yr anathemau a weinyddir yn Lladin. Y mae y cynghorau Pabaidd yn llefaru yn Lladin, a'r merched eu hunain yn gweddïo yn Lladin. Nid yw yr Ysgrythyrau yn cael eu darllen o dan y Babaeth mewn un iaith ond Lladin. Mewn gair, Lladin yw pob peth." Cynnygir esboniadau ereill; yn y naill ffurf neu y llall, ceir yr enwau canlynol yn cyfatteb i'r rhifedi 666—Cesar Nero, Diocletian, Julian y Gwrthgiliwr, Luther, y deyrnas Ladinaidd, yr eglwys Italaidd, Y Gwrthgiliwr, Rhufeinwr, &c. Y mae golygiad Hengstenberg yn newydd, ac yn hynod:—"Yn yr holl Hen Destament, nid oes ond un enghraifft, yn mha un y mae y rhifedi 666 yn digwydd mewn cyssylltiad âg enw. Dywedir yn *Ezra* ii. 13; 'A meibion Adonicam 666.'" Rhaid, gan hyny, mai yr enw Adonicam ydyw enw y bwystfil. Y mae yn addas i fod felly. Arwydda, 'Y mae yr Arglwydd yn cyfodi;' ac y mae rhwng yr arwyddocâd yma gyddweddiad hynod â geiriau addolwyr y bwystfil:—"Pwy sydd debyg i'r bwystfil? Pwy a ddichon ryfela âg ef? Y mae yn enw cabledd; cyttuna â'r gorchymyn ar drigolion y ddaear i addoli y bwystfil; a hefyd â'r disgrifiad yn 2 *Thes.* ii. 4." Dylid cofio fod Hengstenberg, fel y gallesid disgwyl oddi wrth ei olygiadau uchel-eglwysig, yn ymwrthod â'r golygiad cyffredin—fod cyfeiriad neilluol yn y llyfr, ac yn yr ail fwystfil, at y Babaeth. Barna efe mai y bwystfil ydyw gallu annuwiaidd y byd.

rifedi y bwystfil: canys rhifedi dyn ydyw; a'i rifedi ef yw, Chwe chant a thrigain *a* chwech.

PENNOD XIV.

1 *Tra yr oedd yr Oen yn sefyll ar fynydd Seion cyda'i fintai, 6 angel yn prescthu yr efengyl. 8 Cwymp Babilon. 15 Cynhauaf y byd, a dodiad y cryman i mewn. 20 Gwin-pynhauof, a gwinwryf digofaint Duw.*

B. A. 96. AC mi a edrychais; ac wele, [a]Oen yn sefyll ar fynydd Seion, a chyd âg ef bedair mil *a* saith ugein-mil, [b]a chanddynt enw ei Dad ef yn ysgrifenedig yn eu talcenau.

2 Ac mi a glywais [c]lef o'r nef, fel llef dyfroedd lawer, ac fel llef taran fawr: ac mi a glywais lef telynorion yn canu ar eu telynau:

3 A hwy a ganasant megys [d]caniad newydd ger bron yr orseddfaingc, a cher bron y pedwar anifail, a'r henuriaid: ac ni allodd neb ddysgu y gân, ond y pedair mil *a'r* saith ugein-mil, y rhai a [e]brynwyd oddi ar y ddaear.

4 Y rhai hyn yw y rhai ni halogwyd â gwragedd: canys gwyryfon ydynt. [f]Y rhai hyn yw y rhai sydd yn dilyn yr Oen pa le bynag yr elo. Y rhai hyn [g]a brynwyd oddi wrth ddynion, yn flaenffrwyth i Dduw, ac i'r Oen.

5 Ac yn eu genau ni chaed twyll: canys difai ydynt ger bron gorseddfaingc Duw.

6 Ac mi a welais angel arall yn ehedeg yn nghanol y nef, [h]â'r efengyl dragwyddol ganddo, i efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, ac i bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl;

7 Gan ddywedyd â llef uchel, [i]Ofnwch Dduw, [k]a rhoddwch iddo ogoniant; o blegid [l]daeth awr ei farn ef: ac [m]addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r môr, a'r ffynnonau dyfroedd.

[a] Dad. 5. 6—9. 12. 13; 7. 9—17.
[b] Dad. 13. 16, 17; Luc 12. 8.
[c] Dad. 11. 12, 15; 19. 1-7.
[d] Dad 15. 3; Salm 33. 3; Esa. 42. 10.
[e] Dad. 5. 9.
[f] Dad. 7. 15—17; 17. 14; Luc 9. 57—62.
[g] Dad. 5. 9.
[h] 2Sam 23. 5; Salm 119. 142.
[i] Gen. 22. 12; Preg. 12. 13, 14.
[k] Dad. 4. 9; 15. 9; Luc 17. 18.
[l] Dad. 18. 10, 17, 19; Mat. 25. 13.
[m] Exod. 20. 11; Neh. 9. 6; Salm 95. 5; Luc. 10. 20—12.

Pennod xiv.

1—3. Ceir yma bortread golen a hyfryd, mewn gwrthgyferbyniad i'r darluniadau tywyllion yn y pennodau blaenorol. Gelwir arnom i droi ein llygaid oddi wrth gyflwr adfydus yr eglwys dan rwysg y bwystfilod, i edrych arni mewn dedwyddwch a gogoniant yn nghwmni yr Oen ar fynydd Seion. Pan ddywedir fod canlynwyr yr Oen yn sefyll ar fynydd Seion, dangosir mai hwynthwy sydd yn cyfansoddi y wir eglwys—mai hwy yw gwir Israel Duw. Mae dyfod i fynydd Seion yn arwyddo, yn iaith y Testament Newydd, derbyniad i mewn i'r wir eglwys: *Heb.* xii. 22. *Bedair mil,* &c.—Nid "*y* pedair mil," &c., fel pe cyfeiriasid at yr un rhifedi yn *pen.* vii. 4. Er fod y rhifedi yr un, etto nid yr un personau a feddylir. Perthyna y 144,000, yn *pen.* vii. 4, sef y rhai oedd wedi eu selio, i gyfnod Rhufain baganaidd; perthyna y 144,000 yn y bennod hon i gyfnod rhwysg Rhufain Babaidd. Etto y mae y ffaith fod y rhifedi yr un faint yn y ddau amgylchiad yn arwyddo unrhywiaeth cyflwr a chymmeriad. *Enw ei Dad ef*:—mewn gwrthgyferbyniad i'r rhai yr oedd ganddynt enw y bwystfil: *pen.* xiii. 16. Y mae y 144,000 yn cynnwys yr un rhai a'r ddau dyst, dan arwyddlun arall (*pen.* xi. 3—12), a'r "lleill o had" y wraig: *pen.* xii. 17. Y mae gweledigaethau hyfryd a gogoneddus y bennod hon yn canlyn yr adroddiad am drais a chreulondeb y galluoedd erledigaethus; ac felly, y maent yn dwyn cyfatebrwydd i weledigaeth y rhai oedd ynt wedi eu selio, yn *pen.* vii. 4; yr hon sydd yn rhoddi disgrifiad o ferthyriadau yr eglwys, foreuol, ac o ddial Duw ar y gallu erledigaethus; sef, Rhufain baganaidd. Ceir yma hefyd (*adn.* 7) fynegiad o farn Duw ar allu diweddarach oedd yn gorthrymu y wir eglwys. Y 144,000 yn y weledigaeth flaenorol oedd y ffyddloniaid dan yr erlidiau paganaidd, a'r 144,000 yn y weledigaeth hon ydyw y ffyddloniaid yn ystod rhwysg y gallu Pabaidd. *A hwy a ganasant megys caniad newydd.*—"Megys:" yr oedd y beroriaeth yn taraw clust y gweledydd fel peroriaeth na chlywsai ei bath o'r blaen. Nid ydym yn gweled dim sail dros dybiaeth Alford, ar yr hon y rhydd gryn bwys, fod y telynorion a'r 144,000 yn ddosbeirth gwahanol—y cyntaf yn y nefoedd, a'r olaf ar y ddaear. Cymmharer *pen.* xv. 2, 3, y lle y mae gorchfygwyr y bwystfil yn sefyll ar y môr gwydr, â thelynau Duw ganddynt, y rhai sydd yn canu cân Moses a chân yr Oen. *Ac ni allodd neb ddysgu.*—Nis gall hyd yn oed yr angylion ei dysgu, o blegid nis gwyddant hwy oddi ar brofiad am y cystudd mawr, ac am rinwedd gwaed yr Oen yn golchi eu gynau. "Y mae y gân yn meddu cyfeiriad at brawf a buddugoliaeth, yn cynnwys llawenydd dwfn a phurdeb nefol, y rhai nis gellir eu dirnad gan neb yn mysg dynion, oddi eithr y rhai sanctaidd hyn."

4. *Ni halogwyd.*—Dengys yr amser gorphenol fod eu gyrfa drosodd, ac yr edrychir yma arni fel wedi ei rhedeg. Tybia Alford fod hyn yn ddigon i ddangos fod yr esboniad hwnw sydd yn edrych arnynt fel saint mewn cystudd, yn anghywir. Gelwir hwy yn 'wyryfon,' neu forwynion (*Mat.* xxv. 1), i ddynodi eu purdeb ysbrydol, mewn gwrthgyferbyniad i'r eglwys wrthgiliedig, Babilon—y butain fawr (*pen.* xvii. 1—5). Ymgadwasant yn bur oddi wrth lwgr eilunaddoliaeth, yr hyn sydd butteindra ysbrydol. *Pa le bynag yr elo*:—mewn gogoniant. Y maent yn agos ato, ac yn cyfranogi o'i holl ogoniant: cyfryngol, yr hyn sydd yn wobr iddynt am eu ffyddlondeb ar y ddaear: *Luc* ix. 23; *Ioan* xxi. 19. *Yn flaenffrwyth.*—Wedi eu cyssegru fel blaenffrwyth crefydd bur a diwygiedig; yn sicrhâd ac ernes o gynhauaf mwy toreithiog.—*Webster a Wilkinson.* Nid yw 144,000 yn cynnwys yr holl brynedigion, ond cynnrychiolwyr o honynt.

6, 7. Y mae amcan y weledigaeth hon yr un ag eiddo y weledigaeth flaenorol—llawenhau meddyliau, ac attegu amynedd a ffydd y saint yn ngwyneb y blinderau oedd ar ol hyn i gyfarfod yr eglwys; a gwneir hyny sicrhau llwyddiant yr efengyl. *Angel arall*:—gyda chyfeiriad, fe allai, at angel y seithfed udgorn: *pen.* xi. 15.

8 Ac angel arall a ddilynodd, [a]Dad.16.19; 17. 5, 18; Esa. 21. 9. gan ddywedyd,[n] Syrthiodd, syrthiodd Babilon, y ddinas fawr hono; [o]o blegid hi a ddiododd yr holl genhedloedd â gwin llid ei godineb. [o]Dad.17.2—4; 18. 3.

Yn nghanol y nef.—Disgrifir angel arall yn ehedeg yn nghanol y nef (*pen.* viii. 13), i gyhoeddi gwae: ond heddwch a llawenydd ydyw cenadwri yr angel hwn. *Efengyl dragwyddol.*—Mewn gwrthgyferbyniad, ebe rhai, i'r ddinas sydd yn cyssylltu yr enw "tragwyddol" â hi ei hun, neu âg athrawiaethau y bwystfil a'r gau brophwyd. Ond y mae yn fwy tebyg na fwriedir gwneuthur un gwrthgyferbyniad. Defnyddir y gair "tragwyddol" i osod allan fawredd a rhagoriaeth yr efengyl, ynghyd â'r sicrwydd sydd yn perthyn i'w natur hi ei hun o'i llwyddiant a'i goruchafiaeth. Nid yw y rhwystrau ar ei ffordd, a'r gelynion a gyfodant yn ei herbyn, ond diflanedig; ond y mae hi ei hun yn dragwyddol. Y mae yn ddadguddiad o fwriadau tragwyddol Duw; y mae ganddi, fel trefn dragwyddol, barhâd digyfnewid: ac fe erys ei ffrwyth a'i heffeithiau dros byth. *Rhoddwch iddo ogoniant*:—trwy edifeirwch a dychweliad ato, a thrwy gydnabod y gwirionedd: *pen.* xi. 13. Rhoddwch iddo ef ogoniant. Nid i'r bwystfil: *pen.* xiii. 4. Y rheswm dros yr alwad ydyw, "Daeth awr ei farn ef." Hyn ydyw arfer Duw, rhoddi galwad i edifeirwch "cyn i'r ddeddf esgor," ac i'r dinystr ddechreu. Rhoddes y prophwydi un cyfleusdra olaf i edifarhau i Ierusalem cyn iddi gael ei dinystrio gan y Babiloniaid, a'r un modd yr Arglwydd Iesu a'r apostolion cyn i'r ddinas sanctaidd gael ei dyfetha gan y Rhufeiniaid. Y mae amryw o'r esbonwyr mwyaf sobr a gwylaidd yn barnu fod y weledigaeth hon yn cyfeirio at yr oes brèsennol. Un o nodweddion arbenig Cristionogaeth yr oes hon ydyw, yr ymdrechion a wneir gan yr eglwys i ledaenu yr efengyl dros y byd. Un o ffrwythau y Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr, a Chymru, ac America, ydyw y gweithgarwch a'r haelioni a ddangosir gyda'r gwaith o anfon Gair a chenhadau Duw i dywyll-leoedd y ddaear. Y mae safle amserydd ol y weledigaeth hon, yn ol y wedd a gymmerasom yn y pennodau o'r blaen ar olyniad y digwyddiadau, yn ffafrio y golygiad hwn. Daw yn ddilynol i'r weledigaeth sydd yn arddangos gormes ysbrydol yr offeiriadaeth yn ei bwynt uchaf—neu gyfnod cyfuniad gormes gwladol â thrais eglwysig; dilyna hefyd adgyfodiad y tystion, yr hyn sydd yn cyfatteb, yn ol pob tebyg, i'r Diwygiad Protestanaidd: ac y mae y weledigaeth ynddi ei hun yn arddangos cyhoeddiad eang o'r efengyl; ac nid oes ammheuaeth nad y cyfnod presennol—y cyfnod cenhadol—sydd yn cyfatteb oreu, o holl gyfnodau Cristionogaeth, i'r hyn a ofynir yn y weledigaeth. Y mae yr angel yn dywedyd, "Addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r môr, a'r ffynnonau dyfroedd:" yr hyn sydd yn awgrymu fod cyhoeddiad yr efengyl yn cael ei wneuthur i eiluaddolwyr, addolwyr "duwiau lawer ac arglwyddi lawer." Defnyddia yr angel laith gyffelyb am Dduw i'r hon a arferai yr apostolion yn eu pregethau i baganiaid: *Act.* xiv. 15, 17, 24. Cyhoeddir ef fel y gwir achos o'r holl bethau da a ddarperir i ddyn yn y greadigaeth faterawl, mewn gwrthgyferbyniad i addoliad ail achosion, megys y Nilus a'r Ganges, ar gyfrif y budd a ddeilliai oddi wrthynt.—*Webster* a *Wilkinson.*

8. *Ac angel arall a ddilynodd.*—"*And another second angel followed.*"—*Alford.* Fel hyn y darllena hen lawysgrifau. Rhoddir lle pennodol i bob un o'r cyhoeddiadau hyn, er gosod allan eu pwysfawredd. *A gwin llid ei godineb.*—Unir dau beth, "gwin" a "llid:"—yr olaf ydyw eosp y cyntaf. Mae y gwin yn troi yn llid; gorwedda y gosp yn guddiedig yn y pechod, yr hwn a archwaethir yn felus ar y dechreu. Y mae Babilon, trwy ddiodi y Cenhedloedd â gwin ei godineb, wedi bod yn achos iddynt i yfed gwin digofaint Duw. Dyma y crybwylliad cyntaf am Babilon yn y llyfr hwn: ymdrinir yn helaethach â hi yn *pen.* xvii. Y mae yn y darluniadau o honi gyfeiriadau amlwg at hanes a chwymp Babilon yn y prophwydi. Gwel *Ier.* li. 7, 8. Crybwyllir amryw weithiau yn y Testament Newydd am y Fabilon lythyrenol: *Mat.* i. 11—13; *Act.* vii. 43, &c. Sonia Pedr (1 *Pedr* v. 13) am yr eglwys yn Babilon. Mae yr esbonwyr Pabaidd yn barnu mai Babilon gyfriniol a olygir yma gan Pedr; sef Rhufain baganaidd. Ond ymddengys hyny yn dra annhebyg i bob meddwl diduedd. Nis gellir meddwl am un rheswm pa ham y cuddiasai yr apostol, dan orchudd enw ffugrol o'r fath, y lle o ba un yr oedd yn ysgrifenu; ac y mae yn annhebygol i'r graddau eithaf y buasai, ar ddiwedd epistol a nodweddir gan symledd a chyfeirioldeb, yn nodi y man y trigai ar y pryd mewn dull cyfriniol. Ond yr ydym i ddisgwyl ymadroddion cyfriniol o'r fath yn Llyfr y Dadguddiad. Fe welir mai amcan yr esbonwyr Pabaidd, wrth gyssylltu ystyr ffugrol â Babilon yn 1 *Pedr* v. 13, ydyw attegu y golygiad y dadleuant drosto o barth arwyddocâd yr enw yn y llyfr hwn. Y mae yr esbonwyr Pabaidd a Phrotestanaidd o'r un farn, mai nid y Fabilon lythyrenol a feddylir: nis gallai olygu hyny. Nid oedd yr hen Fabilon mewn bod: yr oedd wedi ei dinystrio er's talm, a dinystriwyd hi, nid i'w hadeiladu drachefn; cafodd prophwydoliaethau yr Hen Destament eu gwirio yn hynod yn ei chwymp: *Esa.* xiii. 20—22. Cyttuna y ddau ddosbarth hefyd mai Rhufain, mewn rhyw gyfnod o'i hanes, a olygir. Yr oedd yr hen Fabilon yn hynod yn ei dydd am ei balchder, ei hucheldrem, rhyfyg ei honiadau, a'i gormes. "Yr oedd yn cael ei chadw mewn côf gan yr Hebread fel y gallu a oresgynodd ei wlad, a ddinystriodd ei phrifddinas, ac a wnaeth ei theml yn garneddau; a ysbeiliodd ei wlad o'i hannibyniaeth, ac a'i darostyngodd i fod yn dalaeth anenwog; ac a gludodd ei thrigolion ymaith i gaethiwed maith a blin. O herwydd hyny, golygid Babilon fel arwyddlun o'r hyn oll sydd falch a gormesol, ac o bob gallu sydd yn cyfodi yn erbyn eglwys Dduw." Hynodid Rhufain mewn mwy nag un cyfnod o'i hanes gan yr un pethau:—yr oedd yn uchelgeisiol, yn falch, a gormesol. Yr oedd, fel Babilon, yn enwog am ei buddugoliaethau, ac am gymmeryd mantais o honynt i ddarostwng cenhedloedd dan ei hawdurdod. Dinystriwyd Ierusalem ganddi hithau, yr un modd a chan Babilon. Prif wrthwynebydd yr eglwys dan yr Hen Destament oedd Babilon; ei phrif elyn dan y Newydd ydyw Rhufain. Y mae *pen.* xvii. 5, "Ac ar ei thalcen yr oedd enw wedi ei ysgrifenu, Dirgelwch Babilon Fawr," yn dangos tu hwnt i ddadl mai meddwl cyfriniol sydd i'r enw Babilon yn y llyfr hwn. Etto, nid Rhufain yn ei chyfnod paganaidd a olygir; ond

9 A'r trydydd angel a'u dilyn-
odd hwynt, gan ddywedyd â llef
[a] Dad 13.3-6, 11-17. uchel, [b] Os addola neb *y* bwystfil,
a'i ddelw ef, a derbyn *ei* nôd *ef*
yn ei dalcen, neu yn ei law;
10 Hwnw *hefyd* a ŷf o win dig-

Rhufain, fel parhâd o'r hen ymherodraeth, wedi ei hadfywio a'i hadnewyddu yn ei ffurf Babaidd. Fel un gallu, mewn ffurfiau a chyfnodau gwahanol, yr edrychir ar Rufain yn y llyfr hwn, yr un fath ag yn Llyfr Daniel; ac edrychir arni fel y prif elyn i'r wir eglwys, a'r ymgorphoriad penaf o allu a malais y diafol ar y ddaear. Etto, er y golygir Rhufain fel un gallu gelynol, gwahaniaethir rhwng ffurfiau y gallu hwnw ar wahanol amserau. Y mae ar un adeg yn baganaidd, ac ar adeg arall yn Babaidd: y mae yn awr yn cael ei ddarlunio fel yn gweithio trwy yr awdurdod wladol, a phrydiau ereill trwy ormes eglwysig; etto y mae yn mhob ffurf yn offeryn yn llaw Satan, ac yn gynnrychiolydd gweledig o'i allu. Y mae mewn oes ddiweddarach yn barhâd o'r hyn ydoedd mewn cyfnod boreuach; ac fel y mae yn y naill yn amlygu yr un nodweddau ag a'i hynodai yn y llall, golygir hi, yn ei holl gyfnewidiadau, fel un gallu. Portrëadir Babilon, fel y cawn weled wrth fyned yn mlaen, fel gallu gormesol, cableddus, ac aflan. Hi ydyw "mam puteiniaid, a ffieidd-dra y ddaear!" Dan yr arwyddlun o wraig odinebus, disgrifir hi fel yn feddw gan waed y saint, ac yn eistedd ar y bwystfil â chanddo saith ben a deg corn; yr hyn sydd yn gosod allan chwerwder erledigaethus y gallu sydd mewn golwg, a'r dylanwad mawr a weithreda ar alluoedd y byd. Wrth edrych ar holl deithi Babilon Fawr, y mae braidd yn ammhossibl peidio meddwl mai eglwys wrthgiliedig a arwyddoceir. Ar y cyntaf, ymddangosai yr eglwys i'r gweledydd fel gwraig bur, ac yn ffyddlawn i'w hadduned briodasol; gwelodd hi yn ffoi i'r diffeithwch, i'r dyben o ddiogelu ei phurdeb a'i ffyddlondeb: *pen.* xii. 1, 14. Ond mewn amser, newidiodd yn drwyddi: daeth yn Babilon ormesol, ac yn butain; a thra yn parhau mewn proffes yn Gristionogol, yr oedd mewn gwirionedd yn wrthwynebydd i Gristionogaeth bur. Cadarnheir gwirionedd yr ystyr yma a roddir i'r arwyddlun gan lawer o bethau yn y pennodau canlynol, ar y rhai y cawn sylwi yn y drefn briodol. Er enghraifft, yn y diffeithwch y gwelwyd y wraig buteinllyd y waith gyntaf: *pen.* xvii. 3. Y diffeithwch fuasai y lle mwyaf anghyfaddas i edrych am y gallu gwleidyddol goruchaf ar y ddaear, neu am ddinas a olygid fel canolbwynt awdurdod daearol. Ond cyttuna hyn yn hollol â'r meddwl mai eglwys wrthgiliedig a olygir: gallu ysbrydol ydyw gwir allu yr eglwys; a chyssyllta hyn le y butain fawr â'r lle y ffodd y wraig iddo: *pen.* xii. 1, 14. Y mae y rhan fwyaf o fanylion y portread yn gyfryw fel y mae yn ammhossibl adnabod Rhufain baganaidd ynddo; ond y maent yn cyfateb yn hynod â sefyllfa Rhufain Babaidd, neu â'r gyfundrefn a gynnrychiolir gan y pab, yr hon y mae ei heisteddle wedi bod trwy yr oesoedd yn ninas Rhufain. Ac i'r graddau y mae unrhyw eglwys yn ymdebygu i'r Eglwys Babaidd, pa un bynag ai mewn balchder, ai mewn ysbryd erledigaethus, i'r graddau hyny y mae Babilon Fawr yn arwyddlun o honi. Os ydyw y Dadguddiad yn cynnwys rhagfynegiadau o alluoedd a sefydliadau, y mae

ofaint Duw, yr hwn yn ddigymmysg a dywalltwyd yn phiol ei
lid ef: ac efe a boenir mewn tân a
brwmstan yn ngolwg yr angylion [a] Dad. 18. 18; Gen. 19. 28; Luc 16. 23, 24. sanctaidd, ac yn ngolwg yr Oen:
11 A [c] mŵg eu poenedigaeth

hefyd, mewn modd arbenig, yn portreadu egwyddorion; a thra yn cymmhwyso amryw o'r arwyddluniau at y Babaeth, ni a ddylem gofio'fod hanes yr Eglwys Babaidd yn llawn o rybuddion a gochelladau i eglwysi ereill. Yr hyn yr ydym yn ei ddal ydyw, fod cyfeiriad neilluol yn rhai o arwyddluniau y llyfr hwn, ac yn enwedigol yn yr ail fwystfil, Babilon, a'r butain fawr, at y sefydliad eglwysig hwnw, sydd, yn anad pob un arall, wedi gwarthruddo ac attal cynnydd Cristionogaeth bur. Y mae y cyhoeddiad o gwymp Babilon Fawr yn dilyn ehediad yr angel yn nghanol y nef, â'r efengyl dragwyddol ganddo. A gellid tybied fod y ddau gyhoeddiad i gymmeryd lle yn agos i'w gilydd o ran amser, o blegid dywedir fod "y trydydd angel yn eu dilyn hwynt" (*adn.* 9); yr hyn sydd yn awgrymu fod y ddau angel cyntaf yn gwneuthur eu cyhoeddiadau bron yn yr un amser. Ac y mae y cyssyllt iad sydd rhyngddynt a'u gilydd yn fwy na chyssylltiad amser: y mae yn gyssylltiad achos ac effaith. Lledaeniad yr efengyl dragwyddol ydyw yr achos o gwymp y Babilon gyfriniol. Y mae hyny wedi ei brofi mewn rhan eisoes. Y mae lledaeniad yr Ysgrythyrau yn iaith y bobl, a chyhoeddiad yr efengyl, wedi bod yn allu cryf er gwanychu nerth y Babaeth, a gweithio o dan ei sylfeini. Y diwedd—canlyniad mawr amryw o ddylanwadau er dinystr, yn ymestyn dros lawer o genhedlaethau—a osodir allan yn y cyhoeddiad, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr!" ond mae y cwymp hwn yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn hanesiaeth yn raddol. O ychydig i ychydig y dinystrir Babilon. Y mae y dinystr yma yn myned yn mlaen er's oesoedd. Dangosir, yn wir, yn ngweledigaethau y llyfr hwn mai nid mewn un dymchweliad y cymmer le. Yn *pen.* xi. 13, dywedir i'r ddegfed ran o'r ddinas syrthio; yr hyn, yn ol fel y bernir yn gyffredin, a gymmerodd le yn y Diwygiad Protestanaidd. Yma, etto, rhoddir dyrnod trwm i'w gallu, trwy gyhoeddiad yr efengyl, a lledaeniad Gair Duw; y mae y dyrnod a roddir i'r gelyn yn nghenadaethau yr oes hon yn llawn mor bwysig a'r un a roddwyd iddo yn y Diwygiad, ac edrychir arno fel ernes o'r dinystr llwyr: "Syrthiodd, syrthiodd!" Yna y mae y ddinas fawr yn cael ei rhanu yn dair rhan (*adn.* 16, 19); yr hyn a arwydda rhyw ymraniad o'i mewn. Yn *pen.* xviii. 8, rhagfynegir ei llwyr losgiad â thân, er galar a gofid i frenhinoedd y ddaear. Yn olaf, teflir maen, megys maen melin mawr, i'r môr, a chwblheir barn Babilon; yr hyn fydd yn destyn cân tyrfa fawr yn y nef: *pen.* xviii. 21, 22; xix. 1—3.

9—12. Y mae rhai yn barnu fod yma gyfeiriad at waith y Diwygwyr yn condemnio athrawiaethau a defodau Eglwys Rhufain. Y mae y cyfleusdra i wrandaw yr efengyl yn ei phurdeb yn gwneuthur yr ymlyniad wrth y Babaeth yn fwy pechadurus a pheryglus. Nid oes dim tebyg i'r rhybudd yma yn *pen.* xiii. 10—17; lle y cyfeirir, fel y bernir, at y canoloesoedd, pryd yr oedd y Babaeth yn meddu uchafiaeth diwrthwynebiad. *Yr hwn yn ddigymmysg.*—Yr oedd gwin yn cael ei gymmysgu mor gyffredin â dwfr, fel yr oedd yr

hwy sydd yn myned i fyny yn oes oesoedd: ac nid ydynt hwy yn cael gorphwysdra ddydd na nos, y rhai sydd yn addoli y bwystfil a'i ddelw ef, ac os yw neb yn derbyn nôd ei enw ef.

[1] Dad. 13. 10. [2] Dad. 12. 17. [3] 2 Tim. 4. 7. [4] 12 Yma [r]y mae amynedd y saint: [s]yma *y mae* y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, a [t]ffydd Iesu.

[5] Dad. 20. 6; 2 Cor. 5. 8. [u] 13 Ac mi a glywais lef o'r nef, yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel [x] Dad 6. 11; 7. 14—17; Iob 3. 17—19; Luc 16. 25. [y] Salm 19. 11; 85. 13; Mat. 25. 35—40. [z] Ezec. 1. 26; Dan. 7. 13. [x]gorphwysont oddi wrth eu llafur; [y]a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt.

14 Ac mi a edrychais; ac wele gwmmwl gwyn; ac ar y cwmmwl *un* yn eistedd [z]tebyg i Fab y dyn, a chanddo ar ei ben goron o aur, ac yn ei law gryman llym.

15 Ac angel arall a ddaeth allan o'r deml, gan lefain â llef uchel wrth yr hwn oedd yn eistedd ar y cwmmwl, Bwrw dy gryman i mewn, a meda: canys daeth yr amser i ti i fedi; [a]o blegid addfedodd cynhauaf y ddaear. [a] Jer. 51. 33; Mat. 13. 30, 39.

16 A'r hwn oedd yn eistedd ar y cwmmwl a fwriodd ei gryman ar y ddaear; a'r ddaear a fedwyd.

17 Ac angel arall a ddaeth allan o'r deml sydd yn y nef, a chanddo yntau hefyd gryman llym.

18 Ac angel arall a ddaeth allan oddi wrth yr allor, yr hwn oedd â gallu ganddo ar y tân; ac a lefodd a bloedd uchel ar yr hwn oedd â'r cryman llym ganddo, gan ddywedyd, Bwrw i mewn dy gryman llym, a chasgl ganghenau gwinwydden y ddaear; o blegid addfedodd ei grawn hi.

19 A'r angel a fwriodd ei grymman ar y ddaear, ac a gasglodd winwydden y ddaear, [b]ac a'i bwriodd i gerwyn fawr digofaint Duw. [b] Dad. 19. 15—21.

20 [c]A'r gerwyn a sathrwyd o'r tu allan i'r ddinas; a gwaed a ddaeth allan o'r gerywn, hyd at ffrwynau y meirch, ar hyd mil *a* chwe chant o ystadau. [c] Esa. 63. 1-5.

---

ymadrodd 'cymmysgu gwin' yn cael ei arfer yn y Groeg am ei dywallt allan. Ond y mae y gwin yma yn ddigymmysg—nid oes ynddo un dafn o ddwfr: nid oes dafn o drugaredd yn nghwpan y farnedigaeth. *Yma y mae amynedd y saint.*—Attegir amynedd y saint yn eu blinderau gyda'r sicrhâd fod eu gelyn i gael ei ddinystrio.

13. *O'r nef*:—ni ddywedir oddi wrth bwy. Oddi wrth ysbrydoedd y cyflawn, y rhai a berffeithiwyd.—*Hengstensberg.* Oddi wrth Grist ei hun, ebe ereill. Oddi wrth un o'r henuriaid, cynrychiolwyr yr eglwys, ebe ereill. Meddylia Alford mai oddi wrth yr angel a roddai y gweledigaethau i Ioan. *Y rhai sydd yn marw.*—Nid yw y cyssylltiad yn anhawdd. Y mae y crybwylliad am amynedd y saint yn dwyn i'w ganlyn y sicrwydd y caent eu herlid hyd angeu. Mynega y cyhoeddiad presennol wynfydedigrwydd pawb sydd yn marw, nid yn unig dan erledigaeth, ond mewn rhyw ddull, yn yr Arglwydd—yn ffydd ac ufudd-dod Crist. Ac y mae y gorchymyn pennodol i ysgrifenu hyn yn trosglwyddo cysur pennodol i bawb yn holl oesoedd yr eglwys a'i darllenont.—*Alford. O hyn allan.*—O'r amser y byddai i gredinwyr ddeall y gwirionedd cysurlawn hwn, ebe rhai. Yn ol ereill, o'r amser y byddant feirw: ar ol marw, daw gwynfydedigrwydd. Ond y mae yn fwy tebyg fod yma ryw feddwl dyfnach. Y mae y gwynfydedigrwydd yn fwy ar ol yr amser y gwneir y cyhoeddiad hwn nag ydoedd o'r blaen. Ymddengys hyn wrth ystyried yr amser neilluol y dywedir hyn; yr amser hwnw ydyw cynhauaf y byd, a'r gwin gynnauaf; a'r pryd hwn y dechreua gwynfydedigrwydd cyflawn eneidiau y saint, ac y cyflawnir rhif eu brodyr. Dyma olygiad Alford, Brown, &c. *Yn eu canlyn*:—mewn adgofion dedwydd o honynt. Nodir eu gweithredoedd, gyda chyfeiriad at y farn sydd i ganlyn, yn yr hon y rhoddir sylw i weithredoedd pawb.

14—20. Y CYNHAUAF, A'R GWIN-GYNHAUAF. Gwelir yma pa ham y cyhoeddir gwynfyd uwch y rhai fuont feirw yn yr Arglwydd, a pha ham "o hyn allan." Y mae Mab y dyn ar ddyfod ar y cwmmwl gwyn i'w casglu fel cynhauaf addfed i'r ysgubor. Y mae *cwmmwl gwyn* yn arwyddlun o farn ddwyfol. *Goron o aur.*—Arwyddlun o fuddugoliaeth wedi ei hennill. Arwydda y gair a gyfeithir "coron," dalaith y buddugoliaethwr, yn hytrach na choron y brenin. *Gryman llym*:—cyfeiriad at eiriau Crist ei hun, yn *Marc* iv. 29. *A'r ddaear a fedwyd.* Wrth yr hyn y golygir, medd rhai, gynnulliad ynghyd y drygionus: ereill, y rhai da: ereill, y naill a'r llall. "Y mae gweledigaeth y gwin gynhauaf, yn *adn.* 17—20, a'r weledigaeth hon hefyd, yn cael eu deall yn gyffredin am ryw farn neilduol ar elynion yr eglwys, ac nid am y farn ddiweddaf."—*Webster* a *Wilkinson.* Ond y mae yn fwy tebyg fod cynhauaf y ddaear yn arwyddo cynnulliad y Cenhedloedd ynghyd i ysgubor y wir eglwys. Crist, Mab y dyn, sydd yn medi: angel sydd yn gweinyddu yn y gwin-gynhauaf yn yr adnodau dilynol. Y mae cynhauaf y ddaear yn cyfatteb i gyhoeddiad yr efengyl (*adn.* 6, 7); tra y mae casgliad canghenau gwinwydden y ddaear yn gyflawniad o'r digofaint a fygythir ar addolwyr y bwystfil yn *adn.* 8, 11. Y mae y golygiad yma hefyd yn cyfatteb i eiriau Crist yn y ddammeg yn *Marc* iv. 29. *Oddi wrth yr allor.*—Yr allor hono a grybwyllir amryw weithiau (*pen.* vi. 9; viii. 3; xvi. 7) mewn cyssylltiad â barnau Duw, mewn attebiad i weddïau y saint. *Ar y tân*:—sef, ar y tân oedd ar yr allor. Yr un yw hwn a'r angel a arweinir ger ein bron yn *pen.* viii. 3—5, yr hwn a gyflwyna weddïau y saint, ac a deifl y thuser i'r ddaear, fel arwyddlun o'r barnau ar udganiad yr udgyrn. Y mae Alford yn sylwi fod yr holl ddisgrifiad o'r angel hwn yn bur wahanol i bob peth a geir yn y rhan flaenaf o'r

PENNOD XV.

1 *Y saith angel d'r saith bla diweddaf.* 3 *Caniad y rhai a orchfygant y bwystfil.* 7 *Y saith phiol yn llawn o ddigofaint Duw.*

B. A. 96.

[a] Mat. 13. 41, 42, 49, 50.

[b] Dan. 12. 6, 7.

AC mi a welais arwydd arall yn y nef, mawr a rhyfeddol; [a] saith angel a chanddynt y saith bla diweddaf: o blegid ynddynt [b] hwy y cyflawnwyd llid Duw.

2 Ac mi a welais megys môr o wydr wedi ei gymmysgu â thân; [c] Dad. 12. 11; 13. 14—18. a'r rhai [c] oedd yn cael y maes ar y bwystfil, ac ar ei ddelw ef, ac ar ei nôd ef, *ac* ar rifedi ei enw ef, [d] Dad. 19. 1—7. yn sefyll ar y môr gwydr, [d] a thelynau Duw ganddynt.

3 A chanu y maent gân Moses gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen; gan ddywedyd, [e] Mawr a rhyfedd *yw* dy weithredoedd, *O* Arglwydd Dduw Hollalluog; cyfiawn [f] a chywir *yw* dy ffyrdd di, [g] Brenin y saint.

[e] Exod. 15. 11; Iob 5. 9; Salm 105. 5; Dan. 4. 2, 3. Dad. 16. 5—7; Salm 85. 10, 11.

4 [g] Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, ac *ni* ogonedda dy enw? o blegid [h] *tydi* yn unig *wyt* sanctaidd: [i] o blegid yr holl genhedloedd a ddeuant ac a addolant ger dy fron di; [k] o blegid dy farnau di a eglurwyd.

[f] Salm 89. 7; Luc 12. 4. 5. [h] 1 Sam. 2. 2; Esa. 6. 3; 57. 15. [i] Salm 22. 27; Zech. 8. 20—23. [k] Esa. 26. 9; Salm 75. 8.

5 Ac ar ol hyn mi a edrychais, ac wele, yr ydoedd teml pabell y dystiolaeth yn y nef yn agored:

---

weledigaeth, [a] bod hyn yn cefnogi y golygiad fod y gwin gynhauaf yn meddu ystyr gwahanol i'r eiddo cynhauaf y ddaear. *A'r angel a fwriodd ei gryman.*—Yn *adn.* 16, ceir y geiriau hyn, "A'r hwn oedd yn eistedd ar y cwmmwl a fwriodd ei gryman;" yr hyn hefyd sydd yn cadarnhau y golygiad fod meddwl gwahanol i'r ddau gynhauaf. Ac nid oes yn nisgrifiad cynhauaf y ddaear ddim tebyg i'r geiriau:—*Ac a'i bwriodd i gerwyn fawr digofaint Duw.* Y mae sathru y gwinwryf yn ffugr prophwydol o ddinystr: *Esa.* lxiii. 3. Mae yr arwyddlun wedi ei gymmeryd o'r prophwydi. Y mae hefyd yn cyssylltu y weledigaeth hon â *pen.* xix. 15. *O'r tu allan i'r ddinas.*—Byddai y gwinwryfoedd mwyaf y tu allan i ddinasoedd yn gyffredin. Yr un yw y "ddinas" ag yn *pen.* xi. 2. Ierusalem yw lle gweledigaethau y bennod hon:—mynydd Seion yn *adn.* 1. *A gwaed:*—yn gydweddol â'r Hen Destament: *Esa.* lxiii. 3. *Hyd at ffrwynau y meirch.*—Gormodiaith priodol, i osod allan y dinystr helaethaf ar fywydau dynion. *Ar hyd mil a chwe chant o ystadau:*—yn dynodi eangder a chyfanrwydd y dinystr. Ymddengys i ni fod pob cais i gael ystyr manylach i'r rhifedi yma yn gwbl ofer.

Pennod xv.

Y mae y bennod hon yn rhagarweiniad i dywalltiad y phiolau. Ceir sicrhâd cyffredinol yn y bennod o'r blaen o oruchafiaeth yr eglwys, a darostyngiad ei gelynion. Yn y bennod hon dangosir y modd y dygir hyny oddi amgylch: yn y pennodau nesaf, rhoddir manylion y dinystr.

1. *Arwydd.*—Gwel ar *pen.* xii. 1. Mae y saith bla yn cael eu cynnwys oll dan y seithfed udgorn. Y mae y gair a gyfeithir "pla," yn y fan hon, yn cael ei ddarllen yn *Luc* xii. 48, "ffonnod;" yn *Act.* xvi. 23, 33, "gwïalenodiau, a briwiau;" yn 2 *Cor.* vi. 5; xi. 23, "gwialenodiau;" yn y llyfr hwn, "briw, a pla." Ei ystyr cyntaf ydyw briw neu archoll wedi ei achosi gan guriad gwialen, neu ddyrnod. *Y saith bla diweddaf.*—'Y saith bla, y rhai ydynt y rhai diweddaf.' Y rheswm mai hwy yw y diweddaf ydyw, mai "ynddynt hwy y cyflawnwyd llid Duw." Y saith bla diweddaf ar y bwystfil a feddylir—y pläau a derfynant yn ei ddinystr. Daw y farn ddiweddaf ar ol y pläau: *pen.* xix. 11. Crynhoad rhagflaenol ydyw yr adnod hon o'r hyn sydd i ganlyn. Yn *adn.* 6, 7, y mae y saith angel yn derbyn eu commisiwn.

2. Gwel *pen.* iv. 6. Y mae y geiriau *wedi ei gymmysgu â thân,* yn cynnwys chwanegiad at yr arwyddlun blaenorol, "y môr o wydr," —sydd yn addas i'r amgylchiad presennol, yn yr hwn y mae barnedigaeth ddwyfol yn meddu lle arbenig. Y mae y *môr gwydr* yn dynodi heddwch a thawelwch y nef, a'r *tân* sydd wedi ei gymmysgu â rhanau o hono yn arwyddlun o farnau Duw ar elynion yr eglwys. Mae y golygiad olaf yn well na'r eiddo Webster a Wilkinson—fod y 'tân' yn arddangos y prawf tanllyd yr aeth y saint drwyddo. Yr oedd gorchfygwyr y bwystfil "yn sefyll ar y môr gwydr:" nid ar wyneb y môr, ond ar ei draeth, ebe Alford. Ond nid ydym yn gweled fod cyssondeb yr arwyddlun yn galw am y fath esboniad. Pan ddywedir eu bod yn sefyll ar y môr, y meddwl yw, eu bod yn agos i'r orseddfaingc, a cher bron Duw.

3, 4. Cân gyffelyb i'r gân hono o ddiddugoliaeth a ganodd Moses a phlant Israel ar ol eu dygiad yn ddiogel drwy y môr, a'u gwaredigaeth o'r Aipht: *Exod.* xv. Yr oedd y waredigaeth o'r Aipht, a rhag llid Pharaoh, yn llanw lle cyffelyb yn iachawdwriaeth yr eglwys dan yr Hen Destament i'w gwaredigaeth dan y Newydd oddi wrth allu y bwystfil Anghristaidd. *Gwasanaethwr Duw.*—Teitl cynnefin ar Moses yn yr Hen Destament: *Deut.* xxxiv. 5; *Ios.* i. 1; 1 *Cron.* vi. 49; *Neh.* x. 29. *Cywir yw dy ffyrdd.*—Gwirioneddol: mewn cydweddiad perffaith â dy briodoliaethau a dy natur—yn adlewyrchiad cywir o honot. Gwneir y gân i fyny o'r Hen Destament. Gwel *Salm* cxi. 2; cxxxix. 14; cxlv. 17; *Deut.* xxxii. 4; *Ier.* x. 7. Y mae rhai geiriau o honi allan o gân Moses. *Brenin y saint.*—Yn yr holl hen law-ysgrifau, oddi eithr un, 'Brenin y Cenhedloedd;' barn Duw ar y Cenhedloedd ydyw testyn y gân. Dangosir hefyd ganlyniad y farn:—"Yr holl Genhedloedd a ddeuant ac a addolant ger dy fron di."

5. Gwel *pen.* xi. 19; xvi. 17. Wrth y *deml* y meddylir y cyssegr, y lle sanctaidd—y lle y cedwid arch y cyfammod. Chwanegir *y dystiolaeth* er mwyn dangos fod tystiolaeth a chyfammod Duw i dderbyn eu cyflawniad. Meddylia rhai yr arwyddoceir yma yr un gwirioneddau ag yn *pen.* xiv. 6, 7. Fel y ceir yno weledigaeth am gyhoeddiad yr efengyl o flaen y cyhoeddiad o gwymp Babilon, felly y mae y deml agored yn y nef yn blaenori tywalltiad y phiolau; yr hyn sydd yn gosod allan amlygiad cyhoeddus ac agored o wirioneddau mawrion y cyfammod newydd.

6 A daeth y saith angel, y rhai yr oedd y saith bla ganddynt, allan o'r deml, wedi eu gwisgo mewn lliân pur a disglaer, a gwregysu eu dwyfronau â gwregysau aur.

7 Ac un o'r pedwar anifail a [l]Ier. 25. 15. roddodd i'r saith angel [l]saith phïol aur, yn llawn o ddigofaint Duw, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

8 A llanwyd y deml o fŵg [m] oddi wrth ogoniant Duw, ac oddi wrth ei nerth ef: ac ni allai neb fyned i mewn i'r deml, nes darfod cyflawni saith bla y saith angel. [m]2Thes. 1. 9.

PENNOD XVI.

1 *Yr angylion yn tywallt allan ei phioleidiau digofaint.* 2 *Y pïau yn canlyn ar hyn.* 15 *Crist yn dyfod fel lleidr. Gwyn eu byd y rhai a wyliant.* B. A. 96.

AC mi a glywais lef uchel allan o'r deml, yn dywedyd wrth

6, 7, 8. Y mae parotoadau angylion y phiolau yn debyg i barotoadau angylion yr udgyrn: *pen.* viii. 1—6. Gwelir hwy ar y cyntaf yn y nef; yna y mae golygfeydd ac actau neilltuol yn cymmeryd lle; yna ant rhagddynt i gyflawni eu gwasanaeth. *Allan o'r demt.*—Y mae barn y gelynion a gwaredigaeth yr eglwys yn dyfod o'r un man—o'r deml. Y mae dinystr Anghrist a'r dadguddiad o ras a gwirionedd yr Iesu yn dyfod o'r santeiddiolaf. Crist ei hun ydyw gweinyddwr iachawdwriaeth a dïal:—"Dydd dïal sydd yn fy nghalon, a blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth;" *Esa.* lxiii. 4. Y mae y saith angel wedi eu gwisgo fel archoffeiriaid. *Llian pur a disglaer.*—Arwyddlun o uniondeb eu barnau. *A gwregysu eu dwyfronau.*—Arwyddlun o urddas tawel; yn debyg yn hyn i'w Harglwydd: *pen.* i. 13. Y mae y wisg o "lian pur a disglaer" yr un ag eiddo bodau nefol mewn manau ereill o'r Testament Newydd: *Mat.* xvii. 2; xxviii. 3. *Un o'r pedwar anifail.*—Yr oedd yn hyn addasrwydd arbenig. Os cynnrychiolwyr o'r greadigaeth yw y pethau byw, dangosir yn y bennod ganlynol mai ar wrthddrychau y greadigaeth y tywelltir y phiolau. Os arwyddluniau ydynt o egwyddorion mawrion llywodraeth Duw, y mae y phiolau yn gosod allan weinyddiadau neilltuol yn y llywodraeth hono, yn y rhai yr amddiffynir ei anrhydedd a'i achos ar y ddaear. *O fŵg.*—Arwyddlun arbenig o'r presennoldeb dwyfol: *Exod.* xvi. 10; xl. 34; *Lef.* xvi. 2; 1 *Bren.* viii. 10; *Esa.* vi. 4. *Ac ni allai neb,* &c.—Y mae y geiriau canlynol, "nes darfod cyflawni saith bla y saith angel," mewn cyssylltiad â *Salm* xviii. 8, a lxv. 5, yn rhoddi y rheswm:—pan y mae Duw yn rhoddi arwyddion amlwg o'i bresennoldeb, ac yn gweithio gwaith anghyffredinol, nis gall un creadur agoshau ato. Gwel *Exod.* xix. 21. Wedi i'r barnau hyn fyned heibio, ac i Dduw dynu ymaith yr amlygiad digofus a dialeddol o hono ei hun, gellir myned drachefn i mewn i'r deml. Ymddengys hyn yn fwy naturiol na golygiadau ereill a gynnygir; megys, na chaniateir i neb fyned i mewn i'r deml, i eiriol â Duw am arbediad, gan ei fod weli llawn benderfynu ar ddïaledd; neu, y 'caiff y wir eglwys drigo mewn diogelwch hyd onid el y llid heibio.' Yn ol y golygiad olaf, y mae y saint yn trigo yn y deml fel eu cartref; tra y dywedir nas gall neb fyned iddi, gan mor ofnadwy yw yr amlygiad o bresennoldeb Duw.

Pennod xvi.

1—21. Y PHIOLAU, A'R PLAAU YN CANLYN.

Gelwir y barnau sydd yn dilyn tywalltiad y phiolau "y saith bla diweddaf" (*pen.* xv. 1); yr hyn sydd yn ymddangos i rai esbonwyr fel yn arwyddo fod cyfnod y phiolau i barhau hyd amser y diwedd, ac mai yn agos i ddiwedd y byd y cânt oll eu tywallt. Ond meddylia y rhan fwyaf fod hyn yn gasgliad annhêg, a'u bod yn cyfeirio, nid at ddigwyddiadau yn niwedd y byd, ond at y barnau dwyfol a ddygent oddi amgylch ddymchweliad llwyr gallu y bwystfil. Un prawf o hyn ydyw, fod cyfeiriad yn mhob un o'r phiolau at addolwyr y bwystfil fel gwrthddrychau y farn. Y mae gwahaniaeth cyffelyb rhwng y pedair phiol gyntaf a'r tair diweddaf, i'r gwahaniaeth a welir yn yr udgyrn a'r sêliau. Y mae y pedair gyntaf yma, fel yn y lleill, yn dwyn perthynas â'r ddaear, y môr, y ffynnonau dyfroedd, a'r haul: y mae eu gwrthddrychau yn fwy cyffredinol nag eiddo y tair olaf. Y mae gwrthddrychau y tair olaf yn fwy neilltuol:—gwrthddrychau y rhai hyn ydyw gorsedd y bwystfil, a'r afon Euphrates; ac y mae caritor yr olaf yn fwy amhenodol, fel yr olaf o'r sêliau ac o'r udgyrn. Y mae yr esbonwyr hanesyddol yn barnu fod yr udgyrn a'r phiolau yn dwyn perthynas â'r un gallu Anghristaidd; etto, fod yr amser a arwyddocelr yn nigwyddiadau pob un yn wahanol. Y mae yr arwyddluniau dan yr udgyrn yn dynodi cyfnodau cynaraf yr ymgyrch rhwng y gallu Anghristaidd ac eglwys Dduw—cyfnodau yn ymestyn dros amryw o ganrifoedd; tra y mae y phiolau yn gosod allan amseroedd diweddarach. Yn ystod cyfnodau yr udgyrn, yr oedd y bwystfil a'i ganlynwyr—yr ail fwystfil, neu y gau brophwyd, —yn llwyddiannus yn eu hymosodiad ar y saint: yn nghyfnod y phiolau, y mae y rhyfel wedi troi o blaid yr eglwys, a dialedd dwyfol yn ymlid y gallu gelynol, yn ei orchfygu dro ar ol tro, nes o'r diwedd sicrhau ei ddymchweliad a'i ddinystr llwyr. Y mae Bengel yn sylwi fod cyfnodau yr udgyrn yn feithach—fod dinystr y gallu bydol, gwrthwyneb i'r eglwys, yn ymddangos ynddynt hwy yn cymmeryd lle yn araf; ond fod y phiolau yn dinystrio teyrnas y bwystfil, yr hwn a attegai ei allu â nerth gwladol, yn llawer mwy cyflym a disymmwth. Yn ol yr esboniad cyffredin, y mae y phiolau yn gosod allan y digwyddiadau canlynol:—Y gyntaf, yr hon a dywalltwyd ar y ddaear, sydd yn dynodi cyfandir Ewrop—maes uchaflaeth a llwyddiant Eglwys Rhufain: yr ail, yr hon a dywalltwyd ar y môr—gallu morwrol a masnachol y Cenhedloedd a olygir fel gwrthddrychau y barnau a ragfynegir: y drydedd, yr hon a dywalltwyd ar yr afonydd a'r ffynnonau—y gwledydd y llifeiria prif afonydd Ewrop, megys y Rhine a'r Danube, drwyddynt: y bedwaredd, yr hon a dywalltwyd ar yr haul—y gallu gwladol a gynnaliai y bwystfil; o blegid arwyddlun ydyw yr haul o allu brenhinol neu ymherodrol: y bummed, ar orseddfa y bwystfil, Rhufain: y

[a] Esec. 9. 5-8; Mat. 13. 41, 42. y saith angel, Ewch ymaith, [a]a thywelltwch phïolau digofaint Duw ar y ddaear.

2 A'r cyntaf a aeth, ac a dywalltodd ei phïol ar y ddaear; a bu cornwyd drwg a blin ar y dynion oedd â nôd y bwystfil arnynt, a'r rhai a addolasent ei ddelw ef.

3 A'r ail angel a dywalltodd ei phïol ar y môr; ac efe a aeth fel [b] Gen. 7. 22. gwaed dyn marw: [b]a phob enaid byw a fu farw yn y môr.

4 A'r trydydd angel a dywalltodd ei phïol ar yr afonydd ac *ar* [c] Exod. 7. 20; 8. 5; Esa. 1. 2. Esec. 35. 8; Hos. 13. 15. *y* ffynnonau dyfroedd; [c]a hwy a aethant yn waed.

5 Ac mi a glywais angel y dyfroedd yn dywedyd, [d]Cyfiawn, O Arglwydd! ydwyt ti, [e] yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn a fyddi; o blegid barnu o honot y pethau hyn. [d] Gen. 18. 25; Galar 1. 18; Dan. 9. 14; Rhuf. 2. 5. [e] Dad. 4. 8; 11. 17.

6 O blegid gwaed saint a phrophwydi a dywalltasant hwy, a gwaed a roddaist iddynt i'w yfed; [f]canys y maent yn ei haeddu. [f] Ier. 26. 11, 16; Luc 12. 48.

7 Ac mi a glywais un arall allan o'r allor yn dywedyd, Ïe, Arglwydd Dduw Hollalluog, [g] cywir a chyfiawn *yw* dy farnau di. [g] Dad. 13. 10; 19. 2.

8 A'r pedwerydd angel a dywalltodd ei phïol ar yr haul; [h]a gallu a roed iddo i boethi dynion â thân. [h] Ionah 4. 8; Mat. 13. 6.

chweched, ar yr afon Euphrates—terfynau dwyreiniol gallu y Twrc: yr olaf, ar yr awyr, yr awyrgylch wleiddyddol, yn peri cyffroadau cymdeithasol. Dyma yr olwg fwyaf cyffredin ar ystyr y digwyddiadau a osodir allan yn y phiolau; er nad oes dim tebyg i unfrydedd i'w gael yn mysg esbonwyr un ysgol, heb sôn am esbonwyr o ysgolion gwahanol. Yn y nodiadau canlynol, ni a grybwyllwn olygiadau gwahanol a gynnygir gan esbonwyr a ystyrir yn alluog.

1. *Lef uchel allan o'r deml.*—Oddi wrth Dduw. Gan fod y deml yn llawn o fŵg oddi wrth ogoniant Duw, ac nad allai neb fyned i mewn iddi, nis gallasai y llef ddyfod oddi wrth neb ond efe. *Ar y ddaear*:—yn gyffelyb i'r peth a ddigwyddodd yn *pen.* viii. 5.

2. *A aeth.*—Y mae pob un o'r saith angel, fel y mae ei dro yn dyfod, yn gadael y nef, ac yn y gwagle rhwng nef a daear, yn tywallt ei phiol allan.—*Alford. Cornwyd.*—Gyda chyfeiriad at chweched pla yr Aipht: *Exod.* ix. 8. Y mae golygiadau esbonwyr yn dra amrywiol ar ystyr yr arwyddlun. Arwydda afiechyd ysbrydol mawr; proffes lygredig o'r ffydd.—*Webster* a *Wilkinson.* Gan fod pla y cornwydydd wedi blino y swynwyr yn yr Aipht, fel nad allasent sefyll o flaen Moses, y mae rhai yn tybied fod y farn yna yn cael ei chyfeirio yn benaf at y gauathrawon—at y rhai a wnaent ryfeddodau gau yn yr Aipht ysbrydol. Y mae Elliot, Keith, Faber, &c., yn meddwl fod yma gyfeiriad at ddigwyddiadau dan Chwyldroadau Ffrainge, fel digwyddiadau pwysig i wanychu gallu y Babaeth. Meddylia ereill fod hwn yn ddisgrifiad o sefyllfa druenus ac isel y cenhedloedd dan awdurdod y Babaeth, ar ol toriad allan y Diwygiad.

3. *Ar y môr.*—"Y mae y cenhedloedd sydd wedi eu llygru gan ofergoelion Pabaidd, yn cael eu cynnhyrfu gan wyntoedd a thonau cyffroadau chwyldroadol, a'u gorlifo â gwaed."—*Wordsworth.* Mwy tebygol yw y golygiad a nodasom yn y nodiadau arweiniol ar y bennod. Y mae Elliot yn gwneuthur sylwadau meithion ar y dinystr fu yn y ganrif ddiweddaf ar allu morwrol rhai o'r teyrnasoedd a gynnalient y Babaeth, ac yn dangos fel yr oedd y dinystr hwnw yn wanychdod ar ddylanwad y Babaeth. Dywed nad ydyw holl hanes y byd yn cynnwys cyfnod arall o'r fath ddinystr a thywallt gwaed ar y môr. *Fel gwaed dyn marw.*—Y mae y disgrifiad wedi ei gymmeryd o *Exod.* vii. 20, 21, ac yn dynodi difrod mawr ar fywydau dynol. "Naill ai yn bur waedlyd, fel celain wedi ei doluro a'i harcholli yn dost, neu megys wedi ei liwio â gwaed tywyll dyn marw."—*Stuart.* Yr olaf, y mae yn debyg, ydyw y meddwl.

4. Yn dwyn cyffelybrwydd i udganiad y trydydd udgorn: *pen.* viii. 10, 11. Gwel y nodiadau arweiniol ar y bennod. Nid ydym yn gweled un sail i olygiad Wordsworth:—"Afonydd a ffynnonau gwleddydd cred ydynt yr Ysgrythyrau a'r sacramentau. Yn yr ymherodraeth ysbrydol y mae y rhai hyn yn cael eu gwenwyno gan ddeongliadau cyfeiliornus, y fath ag i gyfiawnhau hŏniadau y pab o anffaeledigrwydd, ac o uchafiaeth bydol ac ysbrydol." Gellir sylwi, fel gwrthddadl i'r golygiad hwn, mai arwyddluniau ydyw y phiolau o farnau Duw ar y bwystfil ei hun, yn sicrhau ei ddinystr—ac nid o'r niwed a wnai y bwystfil i ddynion.

5. *Angel y dyfroedd.*—Yr angel a lywodraethai ar y dyfroedd; gyda chyfeiriad at y dyb gyffredin yn mysg yr Hebreaid, fod yr angyllon yn rheoli yr elfenau, a phob un yn rheolydd ar ryw elfen neilduol. Dichon mai yr un yw a'r angel yn y weledigaeth yn *pen.* x.

7. *Un arall allan o'r allor.*—Y mae y pedwar gair cyntaf, "un arall allan o" heb awdurdod drostynt. Nid ydynt i'w cael mewn un o'r llawysgrifau hynaf; ceir hwynt yn unig mewn llawysgrif o'r ddeuddegfed ganrif. Y darlleniad cywir ydyw, 'Ac mi a glywais yr allor yn dywedyd.' Y mae yr allor yn cael ei phersonoli. Ar yr allor y mae gweddïau y saint; o dan yr allor y mae eneidiau y merthyron yn llefain am ddial eu gwaed. Pan ddywedir felly fod yr allor yn llefain, golygir tystiolaeth y rhai sydd yn llefaru drwyddi.—*Alford.* Deallir wrth yr "allor' y rhai oedd yn ymyl yr allor—yr eneidiau a nodir yn *pen.* vi. 10.—*Webster* a *Wilkinson.* Yr oeddynt o'r blaen yn llefain am ddïal eu gwaed; gwelent yn awr fod dydd dïal wedi dyfod; ac y maent hwythau, yn ngwyneb hyny, yn cydnabod cyfiawn farn Duw. *Cywir.*—Gwirioneddol: yn gydweddol â gwirionedd—yn unol â'r hyn yw dy natur. Y mae barnau Duw yn amlygiadau gwirioneddol o'i natur. Y mae y gair "cywir" yn un tra chyffredin yn ysgrifeniadau Ioan.

8, 9. Y mae yr *haul* yn arwyddo y gallu gwladol uchaf; awdurdod ymherodrol neu frenhinol wedi cyrhaedd eithafion gormes a thrais, yn gorthrymu y genedl trwy gaethiwed, rhyfeloedd,

9 A phoethwyd y dynion â gwres mawr; a hwy a gablasant enw Duw, yr hwn sydd âg awdurdod ganddo ar y pläau hyn: [1] ac nid edifarhasant, i roi gogoniant iddo ef.

[1] Dan. 5. 22, 23; Luc 13. 3, 5.

10 A'r pummed angel a dywalltodd ei phïol ar orseddfaingc y bwystfil; a'i deyrnas ef a aeth yn [k] dywyll: a hwy a gnoisant eu tafodau gan ofid,

[k] Dad. 18. 11–19; Exod. 10. 21–23; Salm 78. 49; Mat. 8. 12; 2 Pedr 2. 17.

11 Ac a[l] gablasant Dduw y nef, o herwydd eu poenau, ac o herwydd eu cornwydydd; [m] ac nid edifarhasant oddi wrth eu gweithredoedd.

[l] Adn 9. [m] 2 Tim. 3. 13.

12 A'r chweched angel a dywalltodd ei phïol ar afon fawr Euphrates; [n] a sychodd ei dwfr

trethi, a chyfreithiau llymdost o natur wladol ac eglwysig. *A roed iddo:*—sef, i'r haul. I'r angel, ebe Benget, Hengstenberg, &c. Bernïr fod yn yr arwyddlun yma gyfeiriad at ryfeloedd Ewrop yn ganlynol i chwyldroad Ffraingc—y rhyfeloedd a gymmerasant le yn flaenorol i'r ymosodiadau uniongyrchol ar y Babaeth yn y ganrif bresennol, y rhai sydd wedi terfynu yn nymchweliad galiu gwladol y Babaeth.

10. Y mae hyn yn gosod allan gyflwr o ddyryswch, cyfyng-gynghor, ac anobaith, yn nghanolbwynt gallu y bwystfil. Y mae y phïol yn cael ei thywallt ar ei orseddfaingc: *Exod.* x. 21; *Micah* iii. 6. Y mae peth o'r arwyddlun wedi ei fenthyca o'r nawfed pla ar yr Aipht—*ei deyrnas a aeth yn dywyll,* fel yr aeth yr Aipht dan y nawfed pla. Y mae tywyllwch yn arwyddlun cyffredin o gyfyng-gynghor ac ing yn mysg cenhedloedd: *Esa.* lix. 9, 10; *Ier.* xiii. 16; *Ezec.* xxx. 18; xxxii. 7, 8; xxxiv. 12; *Joel* ii. 2.

11. *Ac a gablasant.*—Yr un effaith ag a ganlynodd dywalltiad y bedwaredd phïol. Y mae y barnau a ganlynodd dywalltiad y phïol wedi eu cyflawni dro ar ol tro yn hanes y Babaeth; ond nid yn fwy felly ar un adeg na'r adeg bresennol. Ni bu amser erioed ar Eglwys Rhufain yn cyfatteb yn fwy i'r geiriau, "A'i deyrnas ef a aeth yn dywyll."

12. Y mae amrywiaeth mawr yn ngolygiadau esbonwyr ar ystyr y *phïol* hon. Meddylia rhai fod yr afon Euphrates i'w deall yn ffugrol, fel y deallir yr Aipht a Babilon yn y llyfr hwn. Cymerwyd y Fabilon lythyrenol gan Cyrus ar ol sychu yr Euphrates: megys yr oedd yr afon hono yn amddiffyn i'r ddinas, felly y mae uchafiaeth daearol ac ysbrydol y Babaeth yn gynnaliaeth iddi hithau. Wrth *sychu yr afon Euphrates,* gan hyny, y golygir lleihâd a darostyngiad y gallu dyblyg yma. Wrth *frenhinoedd y dwyrain* y meddylia amryw y saint, y rhai ydynt yn gydetifeddion â Christ yn ei deyrnas. Bydd i adfeiliad gallu Rhufain barotoi y ffordd i arddangosiad newydd a gogoneddus o nerth yr efengyl yn iachawdwriaeth dynion.—*Wordsworth.* Y mae y rhan fwyaf o esbonwyr yn ystyried yr afon Euphrates fel arwyddlun o ryw allu dwyreiniol mawr; ac y mae yn rhaid addef fod y golygiad hwn yn unol âg amryw eiriau yn yr Hen Destament, y rhai sydd yn edrych arni fel arwyddlun o'r ymherodraeth Assyriaidd neu Fabilonaidd: *Esa.* viii. 7. Y mae "sychu" yr afon yn arwyddo dyhysbyddiad y gallu gwladol: *Esa.* xi. 15; xlii. 15; xliv. 27; *Zech.* x. 11. Y mae "brenhinoedd y dwyrain" yn arwain ein meddyliau at y prophwydoliaethau gogoneddus am ddychweliad y Cenhedloedd: *Esa.* xlix. 6, 7; lx. 3, 5, 10. "Ymddengys felly yn debygol mai ymherodraeth y Twrc sydd yma mewn golwg, neu allu tymmhorol ac ysbrydol Mahometaniaeth. Ac y mae y gair 'sychu' yn nodedig o briodol i osod allan adfeiliad parhaus, ac etto cyflym y grefydd a'r awdurdod Fahometanaidd. Dichon fod "brenhinoedd y dwyrain" yn cael eu golygu yma fel cynnrychiolwyr y Cenhedloedd dwyreiniol, ac mai eu *ffordd* ydyw eu tröedigaeth i'r Seion ysbrydol (*Esa.* ii. 1, 2), i'r hon y bydd adfeiliad Mahometaniaeth yn barotoad. Dylid sylwi y rhoddir disgrifiad, dan y chweched udgorn, fel y bernïr yn gyffredin, o lwyddiant byddinoedd y Twrc, a'r trychineb a ddygent ar genhedloedd y byd; yr hyn a ganlynodd ollyngiad yn rhydd y pedwar angel oedd yn rhwym yn yr afon fawr Euphrates.—*Woodhouse.* Golyga ereill wrth "frenhinoedd y dwyrain," y genedl Iuddewig; ac wrth eu "ffordd," eu dychweliad i Palestina. Sylfaenir y golygiad hwn ar *Zech.* x. 10, 11. Ond y mae yn amlwg y cyflawnwyd y rhagfynegiadau yn Zechariah yn nychweliad y gaethglud o Babilon a'r Aipht: *Esa.* xi. 11—16. *Webster* a *Wilkinson.* Rhydd Barnes grynodeb da o'r golygiadau cyffredin ar yr adnod hon:—dywed y dangosir yma fod y personau a ddynodir fel "brenhinoedd y dwyrain" yn barod i symmud tua'r gorllewin, ond fod afon yr Euphrates ar eu ffordd. Ni ddywedir pwy yw y brenhinoedd hyn? Y dybiaeth fwyaf naturiol, ebe Barnes, ydyw, fod yr enw i'w ddeall yn llythyrenol. Ni ddywedir chwaith pa ham, nac i ba amcanion y deuent o'r dwyrain i'r gorllewin; pa un ai i orchfygu y gorllewin, ynte i ddwyn offrymau i'r Ierusalem ysbrydol, yn unol â lleferydd y prophwydi: *Salm* lxxii. 10, 11; *Esa.* lx. 4, 6, 9—11. Ymddengys y dybiaeth olaf yn fwy tebygol i'r esboniwr hwn. Dangosir hefyd fod rhwystr ar eu ffordd, naill ai ar ffordd eu buddugoliaethau, neu ar ffordd eu dychweliad at Gristionogaeth. Cyfodai yr attalfa oddi wrth allu y Twrc; "mewn geiriau ereill, dychwelid hwy i'r wir ffydd oni bae am ddylanwad y gallu hwn." Gwelir hefyd y byddai i ddinystr y gallu Tyrcaidd symmud ymaith yr attalfa, a pharotoi y ffordd iddynt; yr ydym, gan hyny, i edrych am y cyfryw adfeiliad ar yr ymherodraeth Fahometanaidd ag a ddilynïr gan dröedigaeth llywodraethwyr y dwyrain at Gristionogaeth. Y mae dosbarth arall o esbonwyr [*Bleek, Ewald, De Wette, Alford*] yn ymwrthod yn llwyr â'r golygiadau uchod, ac y mae eu gwrthddadleuon iddynt yn ymddangos i ni yn gryfion. Gwelir oddi wrth y digwyddiadau a nodïr yn *adn.* 14, 15, 16—digwyddiadau dan yr un phïol—fod brenhinoedd yr holl ddaear yn cael eu casglu ynghyd i ryfel, yn nydd mawr yr Hollalluog." Y mae y rhyfel hon yn cael ei hymladd yn erbyn Duw, ond yn terfynu yn ninystr llwyr ei elynion. Y mae yr amser wedi dyfod i'w casglu ynghyd i ryfel; ac y mae ffordd y brenhinoedd a ddeuant o'r dwyrain i gael ei pharotoi trwy sychu yr afon fawr Euphrates. Dadleuir fod edrych ar y geiriau fel prophwydoliaeth am dröedigaeth y Cenhedloedd dwyreiniol, neu grynhoad brenhinoedd Cristionogol at eu gilydd i amcanion heddychol, yn

[a] Ier. 1. 33-40; 51. 36 [b] 2 Thes. 2. 9-11; 1 Tim. 4. 1-3; 2 Tim. 3. 1-6. [c] Dad. 19. 20; 20. 10. [d] Mat. 24. 24; Marc 13. 22. [e] Dad 19. 19; 20. 8; Esa. 34. 1-8; Ioel 3. 11-14. [f] Mat. 24. 43; 1 Thes. 5. 2, 3; 2 Pedr 3. 10. [g] Mat. 24. 42; 25. 13. 26. 41; Luc 21. 26.

hi, fel y parotöid ffordd brenhin- oedd y dwyrain.

13 Ac mi a welais [c] dri ysbryd aflan tebyg i lyffaint *yn dyfod* allan o safn y ddraig, ac allan o [c] safn y bwystfil, ac allan o enau [c] y gau brophwyd.

14 Canys ysbrydion cythreul- iaid, [d] yn gwneuthur gwyrthiau, ydynt, y rhai sydd yn myned allan at frenhinoedd y ddaear, a'r holl fyd, [e] i'w casglu hwy i ryfel y dydd hwnw, *dydd* mawr Duw Hollalluog.

15 Wele, [f] yr wyf fi yn dyfod fel lleidr. [g] Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio, ac yn cadw ei

[h] Ioan 5. 2; 19. 13, 17.

17 A'r seithfed angel a dywallt- odd ei phïol i'r awyr; a daeth llef uchel allan o deml y nef, oddi wrth yr orseddfaingc, yn dywedyd, [i] Darfu.

[i] Dad. 21. 6; Ioan 19. 30.

18 Ac yr oedd lleisiau, a thar- anau, a mellt; ac yr oedd daear- gryn mawr, y fath ni bu er pan yw dynion ar y ddaear, cymmaint daeargryn, *ac* mor fawr.

19 A gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan, a dinasoedd

anghydweddol hollol âg arwyddluniau y bennod; o blegid "y saith bla diweddaf" a osodir allan yn y phiolau, ac nid digwyddiadau cysurus mewn cyssylltiad âg eangiad crefydd bur ar y ddaear.

13, 14. Y mae y ddraig yn parhau o hyd i roddi gallu i'r bwystfil: *pen.* xiii. 2. *Dri ysbryd aflan tebyg i lyffaint*:—yn cyfeirio at un o bläau yr Aipht. Sylwa Alford nad yw arwyddluniaeth yr Ysgrythyrau yn rhoddi cynnorthwy i ni i esbonio y weledigaeth hon; etto, y mae yn debygol mai rhyw ddylanwadau aflan, cwbl wrthwyneb i archwaeth sanctaidd, a feddylir. Bernir ar sail y geiriau hyn, *Canys ysbrydion cythreuliaid, yn gwneuthur gwyrthiau, ydynt*, na olygir un dosbarth neu sect o ddynion. Y mae y Beibl, fodd bynag, mewn llawer o fanau yn rhagfynegu am y gallu anghristaidd, y byddai iddo lwyddo i ennill dylanwad mawr ar y byd, trwy ei dwyllo â gwyrthiau gau. Y mae y tri ysbryd aflan yn dyfod allan—un *o safn y ddraig*, un *o safn y bwystfil*, ac un *o enau y gau brophwyd*. Pan ddywedir eu bod yn dyfod allan o'u safnau, neu eu geneuau, awgrymir mai ymadroddion—opiniynau neu syniadau cyhoeddedig—ydynt. Gwahaniaethir yr ysbrydion aflan oddi wrth eu gilydd, yn unol â charitor y bodau arwyddluniol y deilliant oddi wrthynt:—yr ysbryd aflan sydd yn dyfod yn unïongyrchol oddi wrth y ddraig a arwydda egwyddorion o natur atheistaidd, cableddus, a halogedig: yr ysbryd aflan o safn y bwystfil, yr hwn sydd yn dynodi y gallu gwladol, a olyga egwyddorion gwleidyddol drygionus, pa un bynag ai egwyddorion caethiwus, ai rhai chwyldroadol: a'r ysbryd aflan sydd yn dyfod allan o enau y gau brophwyd, a ddynoda syniadau ofergoelus a chyfeiliornus. Y mae y tri ysbryd aflan yn cydweithredu â'u gilydd:—*y maent yn myned allan at frenhinoedd y ddaear*. Meddylia rhai y rhagfynegir yma ymgynghreiriad rhwng gallu- oedd anffyddol a Phabaidd. "Bydd cynghrair rhwng crefydd lygredig ac anffyddiaeth a chabl- edd."—*Wordsworth*. Y mae Webster a Wilkinson yn sylwi ar yr ymadrodd "tebyg i lyffaint," mai pla y llyffaint oedd cais diweddaf y swynwyr, ac fod amryw bethau yn natur y creaduriaid hyn sydd yn eu gwneyd yn arwyddlun addas o gyfundrefn dwyllodrus. *Frenhinoedd y ddaear*:—yn arwyddo amryw ffurfiau o lywodraeth.

15. Y mae y gymmhariaeth wedi ei chymmer- yd oddi wrth un sydd yn cysgu, a'i ddillad yn cael eu dwyn oddi arno. *Wele, yr wyf fi yn dyfod fel lleidr.*—Rhybudd oddi wrth Grist, barnwr

y byd; etto, yr un modd a *pen.* iii. 3, yn cyfeirio at ddyfodiad o'i eiddo, gwahanol a blaenorol i'w ddyfodiad yn niwedd y byd.

16. *Ac efe a'u casglodd*:—yn fwy cywir, 'a hwy a'u casglasant,' sef, yr ysbrydion aflan. Dangosir yn *adn.* 14, mai eu hamcan yn myned at frenhinoedd y ddaear oedd en casglu hwynt i ryfel. *Armagedon*:—mae yn amlwg fod priod- oldeb yr enw yn gorwedd yn ei ystyr—lladdfa. Yn Harmagido, neu ar fynydd Megido, y dym- chwelwyd brenhinoedd Canaan gan Barac (*Barn.* v. 19), ac ar yr achlysur hwnw y canwyd un o'r ddwy gân fuddugol a gofnodir yn yr Hen Destament. Y mae yr enw hwn, gan hyny, yn nodedig o addas i osod allan ddymchweliad olaf y gallu- oedd a ymfyddinant yn erbyn teyrnas Crist. Sonir am Megido hefyd fel lle o ddinystr i ddau o frenhinoedd Israel, sef Iosiah ac Ahaziah: 2 *Bren.* xxiii. 29; ix. 27. Defnyddir yr enw yma i osod allan weinyddiad barnau Duw mewn graddau anghyffredinol ar ei elynion.

17. *Fe a wyr*:—y lle y mae Satan yn llywodr- aethu, yr hwn a elwir yn "dywysog llywodraeth yr awyr." Neu, fe allai y dangosir fod y dinystr i ddyfod oddi wrth ddylanwadau goruwchnatur- iol, fel pe bae yr holl awyrgylch wedi ei lanw âg elfenau difrod a distryw. *A daeth llef.*—O'r deml y mae y llef hon yn dyfod—o'r lle y mae arch y cyfammod, ac hefyd oddi wrth yr orsedd- faingc. Yr un llais ydyw ag a ddolefodd "Gor- phenwyd!" ar y groes.

18. *Lleisiau, a tharanau, a mellt*:—yr un modd ag yn *pen.* viii. 5, a xi. 19; ac yn gyffelyb mewn arwyddocâd. Diammheu fod cyfeiriad yn y dar- luniad a roddir yn *adn.* 18, at yr arwyddion ar- swydus oedd yn cydfyned â rhoddiad y gyfraith ar Sinai. Yma y maent yn arwyddluniau o farn a dialedd. *Daeargryn mawr*:—arwyddlun o gynnhyrfiadau gwladol.

19. *A gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan*:—fel effaith y ddaeargryn na fu o'r blaen ei bath. Meddylir fod y geiriau hyn yn gosod allan ymraniadau pwysig, o natur wladol ac eglwysig, yn meddu effaith ddwys ar gyflwr y Babaeth; a'r rhai hyn yn dal cyssylltiad â chyf- newidiadau pwysig mewn gallu oedd tymmhorol. Pan y mae y ddinas yn cael ei gwneyd yn dair rhan, y mae *dinasoedd y cenhedloedd* hefyd yn syrthio.

20. *A phob ynys.*—Rhyw gyfwng pwysig yn hanes yr eglwys, cyffelyb i'r un a ddisgrifir dan y chweched sêl: *Hag.* ii. 7, 8.

y cenhedloedd a syrthiasant: a
[7] Esa. 49.26; Ier 25, 15, 16, 26. Babilon fawr a ddaeth [7]mewn
cof ger bron Duw, i roddi iddi
gwpan gwin digofaint ei lid ef.
20 A phob ynys a ffodd ymaith,
ac ni chafwyd y mynyddoedd.
21 A chenllysg mawr, fel talentau, a syrthiasant o'r nef ar
[8] Esa. 8. 21. ddynion: [8]a dynion a gablasant
Dduw am bla y cenllysg; o blegid
mawr iawn ydoedd eu pla hwynt.

PENNOD XVII.

3, 4 *Gwraig wedi ei gwisgo â phorphor ac ysgarlad, â chwpan aur yn ei law, yn eistedd ar y bwystfil:* 5 *yr hon yw Babilon fawr, mam pob ffieidd-dra.* 9 *Dêongiad y saith ben,* 12 *a'r dec corn.* 14 *Gorucheifiaeth yr Oen.* 16 *Cospedigaeth y butain.*

A DAETH [a]un o'r saith angel oedd â'r saith phiol ganddynt, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd wrthyf, Tyred, [b]mi a ddangosaf i ti farnedigaeth y butain fawr sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer;

[a] Dad. 16. 1-17; 21. 9.

[b] Dad. 16. 19; 18. 16—19.

2 Gyda'r hon y puteiniodd brenhinoedd y ddaear, ac y meddwyd y rhai sydd yn trigo ar y ddaear gan win ei phuteindra hi.

3 [c]Ac efe a'm dygodd i i'r diffeithwch yn yr ysbryd: ac mi a welais [d]wraig yn eistedd ar

[c] 1 Bren. 18. 12; Act. 8. 39.

[d] Dad. 12. 3.

21. *A chenllysg mawr*:—gyda chyfeiriad at un o blâau yr Aipht: *Exod.* ix. 24. *Fel talentau*:—yn eu pwysau. Ffugr cryf i ddynodi llymder y barnau dwyfol: *Ios.* x. 11. Y dalent Iuddewig oedd 114 o bwysau. *A dynion*:—yr un rhai a'r "rhai sydd yn trigo ar y ddaear," sef y rhai oddi allan i'r wir eglwys.

Pennod xvii.

Y mae y bennod hon yn cynnwys disgrifiad mwy manwl o ddinystr y gallu anghristaidd, yn yr hon yr edrychir ar y gallu hwnw dan ffugr gwahanol. Y mae ynddi adroddiad o dywalltiad y seithfed phiol, a chyrhaedda y disgrifiad hyd ddiwedd *pen.* xix. Y mae cwymp Babilon wedi ei gyhoeddi eisoes. Gwel *pen.* xiv. 8; xvi. 17:—"Darfu." Ond yn flaenorol i'r disgrifiad manwl a geir yma o'i chwymp, rhoddir darluniad o'i chymmeriad, rhag bod un camsyniad o barth i gymmhwysiad yr arwyddlun. Y mae cwymp a dinystr y gallu anghristaidd yn fater o gymmaint pwys, fel y mae yr Ysbryd Glân wedi ei osod ger ein bron dan amrywiaeth o ffugrau.

1. *Y butain fawr.*—Y mae yn beth cyffredin yn yr Ysgrythyrau i osod allan ddinas trwy y ffugr o wraig: dinas sanctaidd yn debyg i wraig bur, ddiwair; a dinas halogedig ac eilunaddolgar yn debyg i wraig anffyddlawn i'w hadduned briodasol: *Esa.* i. 8, 21; *Ier.* ii. 20. Cymmhwysir y ffugr at yr Eglwys Iuddewig. Cymmhwysir ef yma at gangen o'r Eglwys Gristionogol sydd wedi dwfn ymlygru. Cymmharer y manau canlynol: —*Exod.* xxxiv. 15; *Lef.* xvii. 7; *Salm* lxxiii. 27; *Ier.* iii. 1—10; *Esec.* xvi. 23; *Hos.* i. 3. Gwel y disgrifiad o Tyrus, yn *Esa.* xxiii. 15. *Yn eistedd ar ddyfroedd lawer*:—yr hyn sydd yn cael ei esbonio yn *adn.* 15:—"Y dyfroedd a welaist, lle y mae y butain yn eistedd, pobloedd a thorfeydd ydynt, a chenhedloedd ac ieithoedd." Gwel yr un iaith yn cael ei defnyddio am hen ddinas Babilon: *Ier.* li. 13; *Nah.* iii. 8. Ymddengys i ni, yn ngwyneb fod y bennod hon ei hun (*adn.* 15) yn cynnwys yr esboniad ar ystyr y "dyfroedd lawer," fod amryw o'r esbonwyr hanesiol yn amlygu diffyg mawr mewn gallu dêongliyddol pan yn meddwl fod yma gyfeiriad at yr afon Tiber, ar yr hon y mae dinas Rhufain.

2. *Y puteiniodd*, &c.—Yn arwyddo puteindra ysbrydol. Y mae y gallu anghristaidd, nid yn unig wedi bod ei hun yn anffyddlawn, ond hefyd wedi hudo llywiawdwyr y byd i'r un anffyddlondeb a llygredigaeth. Y mae yr ymadrodd hwn wedi cael ei wirio, i raddau neilltuol, yn hanes Eglwys Rhufain; o blegid yr oedd holl frenhinoedd a thywysogion Ewrop, yn ystod y canoloesoedd, yn gwbl dan awdurdod y pab, ac yn weision parod i gyflawni ei ewyllys. Y mae Vitringa, wrth sylwi ar ysgrifeniadau Bossuet er diffyniad i'r Babaeth, yn gwneyd defnydd galluog iawn o r ymadrodd hwn:—"Dywedir yn mhellach am y butain hon, 'fod brenhinoedd y ddaear yn puteinio gyda hi.' Ond gallwn ofyn, Os Rhufain baganaidd a olygir wrthi, pwy, a pha beth ydyw y brenhinoedd hyn, a pha beth a osodir allan yn y mynegiad ei bod yn wrthddrych eu dymuniadau trachwantus? Yn nyddiau Rhufain ymherodrol, nid oedd dim brenhinoedd annibynol, oddieithr yn Parthia a Persia." O herwydd yr ystyriaeth yma, ac amryw ystyriaethau ereill a ddeuant i'r golwg yn y dariuniad a geir yn y bennod hon o'r butain fawr, y mae hyd yn oed Alford, yr hwn nid yw yn perthyn i'r un ysgol o esbonwyr â Woodhouse, Mede, Newton, Elliot, &c., yn barnu, er hyny, nas gall arwyddo dim ond Rhufain Babaidd. *Ac y meddwyd*, &c.—Ystyrir yr ymadrodd hwn yn ddisgrifiad cywir a tharawiadol o ddylanwad y Babaeth ar y werin. Trwy ei thwyll a'i hudoliaeth digyffelyb, y mae yn gwneuthur y lliaws yn yr holl wledydd ag y medda uchafiaeth ynddynt yn analluog i arfer barn sobr ar un cwestiwn gwladol neu grefyddol; y mae yn dwyn eu rheswm yn gaeth trwy fath o feddwdod ysbrydol.

3. *Yr diffeithwch.*—Y lle y dygwyd y gweledydd, a'r lle y gwelodd yntau y wraig. Nid yw yn hawdd penderfynu pa ham y dywedir fod y wraig yno. Barna De Wette, Stuart, ac ereill, mai am fod y ffugr yn addas i osod allan gyflwr dyfodol y Babaeth. Ereill a feddyliant, mai am fod y gallu Pabaidd wedi cyfodi mewn adeg pan oedd ymherodraeth Rhufain mewn cyflwr isel—fel mewn diffeithwch. Meddylia ereill, fod y disgrifiad o le y butain yn dal cyssylltiad â *pen.* xii. 6—lle y dywedir i'r "wraig ffoi i'r diffeithwch." Y wraig yno ydyw y wir eglwys—yr eglwys ddiwair, y forwyn bur i Iesu Grist. Dyga y butain yma berthynas allanol â'r wraig bur hono: fel eglwys i Grist yr adnabyddir hithau, ac yr hôna ei hunan fod. Yr ydym yn ei chael yn yr un lle ag y gwelsom y wir eglwys yn *pen.* xii. 6. Y mae yr eglwys lygredig a dirywiedig, "mam puteindra y ddaear," yn dwyn enw a phroffes yr eglwys bur. Y golygiad goreu, yn ein barn ni, ydyw yr un a gefnoga Alford; sef, fod y gweledydd yn cael ei ddwyn i'r diffeithwch,

fwystfil o liw ysgarlad, yn llawn o enwau cabledd, â saith ben iddo, a deg corn.

4 A'r wraig oedd wedi ei dilladu a phorphor ac ysgarlad, ac wedi ei gwychu âg aur, ac â main gwerthfawr, a pherlau, a chauddi gwpan aur yn ei llaw, yn llawn o ffieidd-dra ac afiendid ei phuteindra.

[a] Esa. 3. 9; Phil. 3. 19. [f] 2 Thes. 2. 7. [g] Ier. 51. 47, 48. [h] Dad. 18. 9; 19. 2. [i] Dad. 18. 20—24; Dan. 7. 21, 25. [k] Act. 22. 20.

5 Ac [a]ar ei thalcen *yr oedd* enw wedi ei ysgrifenu, [f]DIRGELWCH, BABILON FAWR, [h]MAM PUTEINIAID, A FFIEIDD-DRA Y DDAEAR.

6 Ac mi a welais y wraig [i]yn feddw gan waed y saint, a chan waed [k]merthyron Iesu: a phan

[l] Dad. 16. 18; 19. 15—21; 20. 10; Dan. 7. 11, 26; 11. 45; 2 Thes. 2. 3—8. [m] Dad. 13. 8; 20. 12. 15. [n] Mat. 25. 34; Ioan 17. 24; Eph. 1. 4; Titus 1. 2. [o] Dad. 13. 1—4, 11, 12.

7 A'r angel a ddywedodd wrthyf, Paham y rhyfeddaist? myfi a ddywedaf i ti ddirgelwch y wraig, a'r bwystfil sydd yn ei dwyn hi, yr hwn sydd â'r saith ben ganddo, a'r deg corn.

8 Y bwystfil a welaist, a fu, ac [l]nid yw: a bydd iddo ddyfod i fyny o'r pydew heb waelod, a [l]myned i ddistryw: a rhyfeddu a wna y rhai sydd yn trigo ar y [m]ddaear, [m]y rhai nid ysgrifenwyd [n]eu henwau yn llyfr y bywyd [n]er seiliad y byd, pan welont [o]y bwystfil, yr hwn a fu, ac nid yw, [o]er ei fod.

yr hyn sydd yn arwyddo ei fod yn cael ei osod mewn lle cyfleus i weled Babilon, yr hon oedd yn y diffeithwch; ac y mae ei chwymp, yn y brophwydoliaeth y cymmerir y geiriau, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon" (*Esa.* xxi. 9), o honynt, yn meddu y penawd "Gweledigaeth y diffeith wch." Felly, yn unol âg iaith prophwydoliaeth, y mae yn rhaid myned i'r diffeithwch i weled cwymp Babilon. *Wraig yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad.*—Arweinir y bwystfil ger ein bron yma fel am y tro cyntaf; ond y mae yn amlwg mai yr un yw a'r "bwystfil" yn *pen.* xiii. 1. Y mae nodau y ddau yr un: heb law hyny, lleferir am dano ar ol hyn fel "y bwystfil." Ac yn *pen.* xix. 19, 20, dangosir yn amlwg mai yr un ydyw. Cyssylltir ef yno â'r gau brophwyd, yr hwn a weithredai wyrthiau ger ei fron; yr hyn sydd yn profi tu hwnt i ddadl mai yr un ydyw a'r bwystfil yn *pen.* xiii. Etto, y mae gwahaniaeth yn ei ymddangosiad yn y ddau le. Disgrifir ef yma "o liw ysgarlad;" yr hyn, fel y tybir, sydd yn cyfeirio at y porphor ymherodrol. "Wrth fod y wraig yn eistedd ar y bwystfil yr arwyddoceir y gallu hwnw i reoli ac arwain, yr hwn a addas gael ei ddefnyddio i arddangos yr uchafiaeth a hawlir ac a arferir gan esgobaeth Rhufain ar deyrnasoedd daearol gwledydd ored."—*Alford.* Y mae un awdwr yn sylwi ei fod yn ddangosiad o amryfusedd mawr, ar ol y cyfryw ddarluniad a hwn, fod Eglwys Rhufain wedi defnyddio y lliw ysgarlad fel lliw gwahaniaethol gwisgoedd ei chardinaliaid. *Enwau cabledd.*—O'r blaen, nid oedd yr enwau hyn ond ar benau y bwystfil yn unig, ond erbyn hyn y maent yn ei orchuddio drosto. "Fel y mae yn cael ei farchogaeth gan y butain, y mae yn ddengwaith mwy cableddus yn ei deitlau nag oedd o'r blaen. Tra nad oedd y byd paganaidd yn cymmhwyso yr enw 'duw,' ond at ei Cæsariaid, a dynion o enwogrwydd a ddwyfeiddid ganddo, y mae gan Gred ei brenhinoedd "Cristioneiddiaf" a "ffyddlonaf," megys Louis xiv. a Phylip ii.: ei "hamddiffynwyr y ffydd," y cyfryw a Siarl ii. a James ii.: y mae ganddi gymdeithas o ddynion ystrywgar, diegwyddor, yn cael ei galw ar ol enw cyssegredig ein Hargiwydd, ac yn gwneuthur gweithredoedd Satan "i ogoniant penaf Duw:" y mae ganddi hefydei "chwilys sanctaidd," gyda'i ffausu creulawn: ei "threftadaeth Pedr," a'i "hymerodraeth Rufeinig sanctaidd"—oll yn enwau newyddion o gabledd, â'r rhai y mae y wraig wedi gwisgo y bwystfil. Awn i'r lle a fynom yn y gwledydd Pabaidd, ni a gyfarfyddwn âg "enwau cabledd." Y mae y tafarnau, y masnachdai, ac enwau dynion a lleoedd yn llawn o honynt.—*Alford.*

4. Disgrifiad o honi fel putain, wedi ymdrwsio i'r dyben o ddenu dynion. *Cwpan aur.*—Yn cyfeirio at arferiad puteiniaid o ennynu chwantau eu canlynwyr â diodydd cryfion cariad.

5. *Dirgelwch:*—*pen.* i. 20; cymmharer 2 *Thes.* ii. 7. Dichon fod yn y teitl gyfeiriad at y dirgelwch sydd yn nodweddu credo a gwasanaeth Eglwys Rhufain, ei defodau, ei harwyddion, a'i sacramentau. Nis gellir cymmhwyso hyn o gwbl at Rufain baganaidd. *Mam puteiniaid.*—Nid yn unig y benaf o honynt, ond eu mam hwynt oll. Y mae pob puteindra ysbrydol i'w briodoli i'w haddysg a'i hesampl hi.

6. *Gan waed y saint:*—yr oedd hyn yn wir am Rufain baganaidd, ond y mae Rhufain Babaidd yn teilyngu y cymmeriad erchyll hwn yn fwy hyd yn oed na hi. Y mae ei herlidiau wedi bod yn helaethach. Y mae y chwanegiad, *A phan ei gwelais, mi a ryfeddais â rhyfeddod mawr,* yn profi tu hwnt i ammheuaeth mai yr olaf yn unig sydd mewn golwg yma, yn gymmaint ag nad yw yn beth rhyfedd fod gallu paganaidd yn erlid Cristionogaeth, tra y mae yn destyn "rhyfeddod mawr" fod gallu sydd yn proffesu ei hun yn Gristionogol yn feddw ar waed y saint.

8: *A fu, ac nid yw; a bydd iddo ddyfod.*—Dengys hyn fod adeg cyfodiad y bwystfil i fod yn ganlynol i gyhoeddiad y brophwydoliaeth hon, er y dywedir ei fod yn bod o'r blaen. Y mae hyn yn briodol i'w gymmhwyso at Rufain yn ei gallu dyblyg—gwladol ac eglwysig. "A fu:"—yr oedd yn bod yn ei ffurf wreiddiol, yr hyn oedd yn ddaearol ac ymherodrol. "Nid yw:"—yn cyfeirio at ei derfyniad yn adfeiliad a chwymp yr ymherodraeth: cafodd "friw marwol," fel y dangosir yn *pen.* xiii. 3. "Bydd iddo ddyfod i fyny:"—yn nghyfodiad y gallu Pabaidd, pryd y mae "y briw marwol" yn cael ei iachau. *A rhyfeddu:*—yn dynodi yr edmygedd a'r gwarogaeth ofergoelus a delir i'r gallu eglwysig gan *y rhai sydd yn trigo ar y ddaear;* sef, y rhai y tu allan i'r wir eglwys: cymmharer *pen.* xiii. 3, 4. Y mae y Babaeth yn derbyn parch ar gyfrif ei

9 Dyma y meddwl sydd â doethineb ganddo. Y saith ben, saith fynydd ydynt, lle mae y wraig yn eistedd arnynt.

10 Ac y mae saith frenin: pump a gwympasant, ac un sydd, *a'r* llall ni ddaeth etto; a phan ddêl, rhaid iddo aros ychydig.

11 A'r bwystfil, yr hwn oedd, ac nid ydyw, yntau yw yr wythfed, ac o'r saith y mae, ac i ddistryw y mae yn myned.

12 A'r deg corn a welaist, deg brenin ydynt, y rhai ni dderbyniasant frenhiniaeth etto; eithr awdurdod fel brenhinoedd, un awr, y maent yn ei dderbyn gyd a'r bwystfil.

henafiaeth, ei huchafiaeth, ei hawdurdod. *Yr hwn a fu.*—Yr oedd yr ymherodraeth yn eiluniaddolgar dan yr ymherawdwyr paganaidd: peidiodd a bod felly dan yr ymherawdwyr Cristionogol; a daeth felly eilwaith dan y pabau.

9. Yn yr adnod hon, yr un fath ag yn *pen.* xiii. 18, gelwir sylw, a gofynir dirnadaeth ysbrydol at yr hyn sydd yn canlyn.—*Alford.* Yma y mae y peth sydd yn gofyn doethineb i'w esbonio. Neu yma y mae peth ag y mae y meddwl sydd yn abl i'w ddeongli yn arddangos gwir graffder. Y gair a gyfieithir *meddwl* ydyw *nous*—y meddwl, y deall. Dangosir fod y peth yn ddealladwy, ond yn ddealladwy yn unig i ddoethineb ysbrydol. Darllena y *Vulgate, et hic est sensus*—a dyma y meddwl, neu yr ystyr. *Saith fynydd.*—Y mae yma gyfeiriad amlwg at Rufain, yr hon a elwid yn nyddiau Ioan *Urbs septicollis*, y ddinas ar saith fryn; rhoddid enw cyffelyb ar ŷl genedlaethol iddi—*septimontium.* Y mae y cyfeiriad yma at ddinas Rhufain mor eglur a'r un yn *adn.* 18; "A'r wraig a welaist yw y ddinas fawr, sydd yn teyrnasu ar frenhinoedd y ddaear." Y mae yn ffaith hynod fod Propertius yn cyfuno y ddau ddisgrifiad mewn un frawddeg, "Y ddinas ar saith o fryniau, yr hon sydd yn teyrnasu ar yr holl fyd." Sylwa Alford fod y beirdd Lladinaidd a'r ysgrifenwyr rhyddieithol hefyd yn llawn o ddisgrifiadau cyffelyb o honi.

10. *Saith frenin:*—yn golygu, yn ol rhai esbonwyr, saith ffurflywodraeth. Y *pump* oedd eisoes wedi cwympo oedd brenhiniaeth, trafnoddwyr (*consuls*), llywodraethwyr (*dictators*), *decemvirs*, ac awdurdodau milwrol (*military tribunes*). *Ac un sydd.*—Yr oedd llywodraeth yr ymherawdwyr yn bod y pryd hyny. *A'r llall ni ddaeth etto*:—teyrnas Gothaidd Italy o dan Theodoric, ac Ecsarchaeth Ravenna, yr hon a ddaeth i mewn yn y cyfwng rhwng dymchweliad yr ymherodraeth a sefydliad yr awdurdod Pabaidd. Dywedir fod yr wythfed, yn *adn.* 11, yn cyfatteb i'r ymherodraeth Babaidd. Y bwystfil yw yr wythfed, ac y mae wedi dyfod allan o'r saith blaenorol; yr hyn sydd yn cyfatteb i hanes cyfodiad y Babaeth fel y ffurf o lywodraeth a ddilynodd ddiflaniad y seithfed. Y mae yn rhaid i'r mynydd Rhufeinaidd gael ei fwrw yn gyntaf i'r môr (*pen* viii. 8), ac yna cyfyd y bwystfil allan o'r tonau: *pen.* xiii. 1. Y mae lliaws o'r esbonwyr hanesyddol yn cyttuno â'r golygiad hwn o ran sylwedd, ond yn gwahaniaethu oddi wrtho ar rai o'r manylion: er enghraifft, deallant wrth y "saith brenin" saith o ymherawdwyr olynol, yn hytrach na saith ffurf o lywodraeth. Y mae golygiad Alford yn wahanol. Dealla saith o ymherodraethau; pob un yn ei dydd yn gynnrychiolydd y gallu daearol annuwiaidd, ac oll wedi eu dadymchwel. Y mae yr Aipht wedi syrthio, yr hon oedd y gyntaf o benau y bwystfil i erlid pobl Dduw: *Esec.* xxix. xxx. Y mae Ninefeh, y ddinas waedlyd, wedi syrthio: *Nahum* iii. 1—19. Felly hefyd Babilon, prif elyn Israel: *Esa.* xxi. 9. A'r un modd Persia a Groeg: *Dan.* x. 13; xi. 2, 3, 4. Wrth yr "un sydd," y meddylia y gallu Rhufeinig, a'r "un ni ddaeth etto," yr ymherodraeth Gristionogol, i ddechreu gyda Cystenyn. Sylwa hefyd ar yr ymadrodd "A'r bwystfil, yr hwn oedd, ac nid ydyw;" y cyfeirir yma at yr attaliad a roddid ar allu y bwystfil yn ystod yr amser yr oedd yr ymherodraeth yn Gristionogol.

11. *Ac i ddistryw y mae yn myned.*—Nid yw yn cwympo yr un modd a'r lleill: ondfy mae yn myned rhagddo ac yn cyfarfod â'i ddinystr oddi ar law yr Arglwydd ei hun. Y mae hyn yn cyfatteb i'r disgrifiad yn 2 *Thes.* ii. o ddinystr "yr anwir hwnw." Dywedir yma am "y bwystfil, yr hwn oedd, ac nid yw," mai yr wythfed yw, a'i fod o'r saith. Y mae yr esbonwyr hanesyddol yn gweled gwiriad tarawiadol o hyn yn hanes Rhufain ar ol cwympo yr ymherodraeth. Cymhwysant y disgrifiad at y ffurf o lywodraeth a weinyddid yn Rhufain gan Ecsarchaeth Ravenna. Dilynodd y ffurflywodraeth hono gwympo yr ymherodraeth. Ni pharhaodd ond dros "un awr." Byr oedd ei pharhad wrth ei gymmharu â pharhâd yr ymherodraeth. Dywed Gibbon nad ymestynodd dros gyfnod hwy na dau cant o flynyddoedd; tra y parhaodd yr ymherodraeth bum cant, a'r Babaeth, o'i dechreuad hyd yn awr, dros ddeuddeg cant. "Am ysbaid o ddau can mlynedd," ebe Gibbon, "yr oedd Italy wedi ei rhanu yn anghyfartal rhwng teyrnas y Lombardiaid ac Ecsarchaeth Ravenna. Cynnysgaeddwyd deunaw o *exarchiaid* yn olynol, yn amser adfeiliad yr ymherodraeth, â'r cyfan oedd yn ngweddill o'r gallu gwladol, milwrol, ac eglwysig." Y mae Barnes yn sylwi fod "Hanesiaeth" Gibbon ar y cyfnod hwn yn hanes Rhufain yn cynnwys yr eglurhâd goreu ar y geiriau hyn. Dangosir yma am yr wythfed ben, nad un o'r saith wedi ei adferu ydyw; ond gallu newydd yn dyfod allan o'r saith, ac yn corphori holl nodweddau gwrthdduwiaidd y saith ynddo ei hun. O blegid hyn ni ddywedir fod wyth ben, ond saith: nid yw yr wythfed ond corphoriad o'r saith.

12. Cymmharer *Dan.* vii. 23, &c. Codant allan o'r bedwaredd deyrnas yno. Deg o alluoedd Ewropaidd, y rhai, yn y dyddiau diweddaf, mewn undeb â'r gallu anghristaidd, a darostyngiad iddo, a ryfelant yn erbyn Crist.—*Alford.* Barna efe nad ydynt wedi ymddangos etto, yn y nifer a'r ffurf a nodir yma. Y golygiad mwyaf cyffredin ydyw, mai y llywodraethau a gyfodasant ar ol goresgyniad y llu oedd o'r gogledd a feddylir. Yr oeddynt yn fyr eu parhâd—"un awr," gan mwyaf; a dilynwyd hwynt gan ffurfiau mwy parhaus o lywodraeth. Y mae Syr Isaac Newton yn nodi deg brenhiniaeth yn y cyfnod hwn.

13. *Yr un meddwl:*—y maent yn un â'u gilydd yn hyrwyddiad yr un amcan. Er fod y teyrnasoedd y cyfeiriwyd eisoes atynt [gwel nodiadau ar

13 Yr un meddwl sydd i'r rhai hyn, a *hwy* a roddant eu nerth a'u hawdurdod i'r bwystfil.

[p] Dan. 7. 21, 25; Zech. 2. 8; Mat. 25. 40. [q] Dad. 6. 12—17 Salm 2. 8, 9; Dan. 2. 44; 1 Cor. 15. 24, 25. [r] Salm 136. 2, 3; Dan. 2. 47. [s] Salm 149. 5—9; Ioan 15. 16.

14 Y rhai hyn [p]a ryfelant â'r Oen, [q]a'r Oen a'u gorchfyga hwynt: o blegid [r]Arglwydd arglwyddi ydyw, a Brenin brenhinoedd; [s]a'r rhai sydd gydag ef, *sydd* alwedig, ac etholedig, a ffyddlawn.

15 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Y dyfroedd a welaist, lle y mae y butain yn eistedd, pobloedd a thorfeydd ydynt, a chenhedloedd ac ieithoedd.

[t] Adn. 2, 10, 12. [u] Esa. 13. 17, 18. [x] Dad. 18. 16, 17; Ezec. 16. 37—42.

16 [t]A'r deg corn a welaist ar y bwystfil, [u]y rhai hyn a gasânt y butain, ac a'i gwnant hi yn unig [x]ac yn noeth, a'i chnawd hi a fwytânt hwy, ac a'i llosgant hi a thân.

17 Canys Duw a roddodd yn eu calonau hwynt wneuthuur ei ewyllys ef, a gwneuthur yr un ewyllys, a rhoddi eu teyrnas i'r bwystfil, [y]hyd oni chyflawner geiriau Duw.

[y] Dad. 10. 7; Diar. 19. 21; Ezec. 38. 16, 17; Ioan 10. 35.

18 A'r wraig a welaist, yw y ddinas fawr, sydd yn teyrnasu ar frenhinoedd y ddaear.

---

adn. 12], yn alluoedd annibynol ar eu gilydd, ac nid yn anfynych mewn ymryson â'u gilydd, etto yr oeddynt yn un yn y warogaeth a'r cynnorthwy a roddent i'r gallu Pabaidd.

14. Profa yr adnod hon Dduwdod yr Oen. Dangosir yn *adn.* 13, fod y bwystfil yn gosod ei hun i fyny fel brenin brenhinoedd: y mae y deg corn, neu y deg brenin yn rhoddi eu hawdurdod i'r bwystfil: ond yma, y mae y person sydd mewn gwirionedd yn "Frenin brenhinoedd" yn ymddangos yn ei erbyn, ac yn hyrddio y bwystfil, a'r brenhinoedd a dalent warogaeth iddo, i ddinystr.

15. Dywedir fod y butain yn eistedd ar y dyfroedd, i osod allan honiad annuwiol a chableddus y gallu Pabaidd o fawrhydi cyffelyb i'r eiddo Iehofah, yr hwn a ddisgrifir yn yr Hen Destament fel "yn eistedd ar yllifeiriant:" *Salm* xxix. 10. *Pobloedd a thorfeydd ydynt.*—Yn arwyddo cyffredinolrwydd y gwrthgiliad a'r ymlygriad. Dywed Auberlen fod *ieithoedd* yn ein hadgofio o'r hen Babel, a chymmysgiad yr ieithoedd yno. Babel oedd dechreuad Babilon yr Hen Destament, a dechreuad y gwrthgiliad eilunaddolgar ar ol y diluw; ac felly, y mae Babilon yn enw addas ar y butain. Y mae y pab, fel prif gynnrychiolydd y butain, yn hôni uchafiaeth dyblyg ar y bobloedd a'r cenhedloedd; uchafiaeth ysbrydol fel yr esgob cyffredinol, o'r hon y mae y meitr yn arwyddlun; ac uchafiaeth tymmhorol, o'r hon y mae y *tiara* yn arwyddlun. "Y mae y nifer o eiriau sydd yn yr adnod hon, oll yn y rhif liosog—"pobloedd, torfeydd, cenhedloedd, ieithoedd"—yn gosod allan eangder a gallu yr awdurdod Pabaidd. Y mae yn un o nodweddau y gallu hwn, fod ei awdurdod heb ei gyfyngu i'w ddeiliaid uniongyrchol ei hun; ond ei fod yn ymestyn dros bob gwlad a phob cenedl sydd yn proffesu yr un grefydd."—*Newton.*

16. *Y rhai hyn.*—Dywed Webster a Wilkinson fod y rhagenw yma yn rhoddi ar ddeall mai personau a feddylir wrth gyrn y bwystfil. Dywedir hefyd eu bod yn casau y butain; yr hyn sydd yn cydfyned â'r dybiaeth mai personau neu gorphoriaethau sydd mewn golwg. Dangosir yr ymgynghreiria meddiannwyr gallu gwladol yn erbyn gallu eglwysig y butain. Daw y cenhedloedd o'r diwedd i deimlo ei gormes ysbrydol, ac ymunant i ddadymchwel y gallu ag y buont am hir amser yn ei attegu. Y mae hyn wedi dyfod i ben mewn graddau nodedig yn yr oes hon. Y mae poblogaeth Rhufain ei hun yn casau y bwystfil. *Yn unig ac yn noeth:*—a'i diosgant o'i gallu a'i swynion. Saif hyn mewn gwrthgyferbyniad âg *adn.* 4. Esgeulusir hi gan ei chariadau blaenorol: nid ymwelant â hi mwyach, ac nid attebant ei galwadau: diosgir hi o'i haddurniadau, cyll ei gallu ysbrydol ar y rhai a odinebent â hi, a'i gallu tymmhorol, trwy ba un yr addurnai ei hun. *Gwnant hi yn unig:*—bydd yn rhaid iddi wedi hyny fyw ar ei hadnoddau ei hun. *A'i chnawd hi a fwytânt.*—Ysbeiliant hi o'i chyfoeth, a dygant ei thiriogaethau oddi arni. Neu, yn unol â *Salm* xxii. 2, a *Micah* iii. 2, y mae yr ymadrodd yn dynodi gweinyddiad eithafion dialedd tuag ati. *Ac a'i llosgant hi â thân.*—Cospedigaeth putain: *Gen.* xxxviii. 24; *Lef.* xxi. 9. Nid oes un sail i olygiad Düsterdieck, yr hwn a ddywed fod y ffugr yn cael ei newid o wraig i ddinas. Llosgi putain a feddylir. "Byddai llosgiad y ddinas," ebe Alford, "yn gyflawniad hynod o'r brophwydoliaeth; etto nis gallwn fod yn sicr mai hyny, a hyny yn unig, a olygir."

17. Y mae yr adnod yn gadarnhâd o *Esa.* xiv. 24; xlvi. 10—"Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Y mae y gair a gyfeithir "ewyllys" yn arwyddo bwriad, cynghor, penderfyniad. Y maent, er yn anymwybodol, yn cyflawni ei fwriad ef. Y maent yn gwneuthur "yr un ewyllys;" er heb gyttuno â'u gilydd, ac yn amddifad o bob amcan i wneuthur ewyllys Duw, etto y maent, yn y diwedd, yn cwblhau yr un ewyllys ddwyfol. Y mae calonau brenhinoedd yn ei law, a mynych y pâr efe i'w cyndderedd ei foliannu. Wedi iddynt fod am oesoedd yn un â'u gilydd yn y gynnaliaeth a roddent i'r bwystfil. Y maent yr un mor unedig yn dwyn ei ddymchweliad o amgylch. *Ei ewyllys:*—tra na feddyliant am ddim uwch na chyflawni eu hewyllysiau eu hunain.

18. Ymddengys i ni yn sicr oddi wrth yr adnod hon fod gweledigaethau y pennodau hyn yn cyfeirio at Rufain Babaidd. Y mae Alford, yr hwn sydd yn llefaru yn gryf yn erbyn amryw o ddeongliadau yr esbonwyr hanesyddol, yn llawn mor benderfynol a hwythau mai y gallu Pabaidd a feddylir yma. "Yr ydym wedi gweled o'r blaen fod y brophwydoliaeth yn dynodi Rhufain, baganaidd a Phabaidd; ond oddi wrth y ffugr o butain, ac oddi wrth natur y rhagfynegiadau eu hunain, yr olaf yn fwy na'r gyntaf." Tra y mae Düsterdieck ac ereill yn dadleu fod yr adnod hon yn cefnogi y dybiaeth mai Rhufain baganaidd sydd mewn golwg, y mae Alford, Elliot, &c., yn dangos i foddlonrwydd, fel y mae yn ymddangos i ni, ei bod yn benderfynol o blaid y golygiad arall. "Os wrth y wraig, fel y dywed rhai esbonwyr, y meddylir muriau a thai y ddinas, pa

PENNOD XVIII.

2 *Cwymp Babilon: 4 gorchymyn pobl Duw i gilio allan o honi hi: 9 orenhinoedd y ddaear, 11 gyda'r marsiandwyr, a'r llongwyr, yn ddrwg ganddynt drosti hi. 20 Y saint yn llawenychu, o achos barn Duw arni hi.*

B. A. 96. AC ar ol y pethau hyn mi a welais angel arall yn dyfod i waered o'r nef, âg awdurdod mawr ganddo; a'r ddaear a oleuwyd gan ei ogoniant ef.

2 Ac efe a lefodd yn groch â llef uchel, gan ddywedyd, [a] Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr hono, ac aeth yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwraeth pob ysbryd aflan, ac yn gadwraeth pob aderyn aflan ac adgas.

3 O blegid yr holl genhedloedd a yfasant o win digofaint ei godineb hi, a brenhinoedd y ddaear a buteiniasant gyda hi, a marchnatäwyr y ddaear a gyfoethogwyd gan amlder ei moethau hi.

4 Ac mi a glywais lef arall o'r nef yn dywedyd, [b] Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, fel na byddoch [c] gydgyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phläau hi.

[a] Dad. 14. 8; 16. 19; Ier. 51. 8, 60—64.

[b] Gen. 19. 12, 13; Num. 16. 26, 27; Mat. 24. 15, 16.

[c] Salm 1. 18; Mat. 23. 30; 1Tim. 5. 22.

---

angen sydd am yr enw 'dirgelwch' ar ei thalcen? pa briodoldeb sydd yn y defnyddiad o'r holl gymmhariaethau ysgrythyrol o buteindra ysbrydol —cymmhariaethau yr oedd pobl Dduw yn hen gynnefin â hwynt? Os dinas Rhufain baganaidd a feddylir, pa esboniad a roddir i'r rhyfel â'r Oen? —yn mha le y ceir cyflawniad o'r rhan leiaf o'r brophwydoliaeth? Os deallwn y geiriau yn y modd yma, bydd yn rhaid i ni gyttuno â golygiad rhai o'r ysgol hon, mai dymuniad calon y gweledydd a roddasant fod i'r rhagfynegiad, a bod y rhagfynegiad heb gael ei wirio gan ffanesiaeth." —*Alford.*

Pennod xviii.

1—3. Hysbysiad o gwymp Babilon.

Nid yw y gweledydd yn llygad-dyst o'i dinystr: rhagfynegir y dinystr iddo yn *pen.* xvii.; ac yma, ebe Alford, y mae yn cael ei hysbysu fel wedi cymmeryd lle. Tueddir ni i feddwl yn wahanol: nid yw ei chwymp wedi ei gwblhau etto, yr hyn a welir oddi wrth y ffaith fod pobl Dduw yn cael eu galw, yn *adn.* 4, i ddyfod allan o honi. Y mae ei dinystr, yn wir, yn awr wrth y drws; ond lleferir am dano fel wedi cymmeryd lle, yr un modd ag y gwneir yn *pen.* xiv. 8. Y mae cwymp y Babilon gyfriniol yn cael ei ddisgrifio yn yr un arddull arddunol ag a ddefnyddir gan Esaiah, Ieremiah, ac Eseciel, i ddisgrifio cwymp Babilon a Thyrus yr Hen Destament.

1. *Angel arall.*—Un arall gwahanol i'r un a ddangosai iddo y weledigaeth yn *pen.* xvii.; neu fe allai, gyda chyfeiriad at yr angel cryf a ddisgynodd o'r nef, yn *pen.* x. 1. *Ag awdurdod mawr ganddo.*—Angel yn meddu urddas a mawrhydi anghyffredinol, ac yn meddu ar orchwyl pwysig i'w gyflawni. Barna Elliot y dywedir hyn gyda golwg ar ei swydd fel gweinyddwr y farn yr anfonwyd ef i roddi hysbysiad o honi—ei fod, nid yn unig yn hysbysu cwymp Babilon fawr, ond hefyd yn dwyn ei chwymp oddi amgylch. Gwel *adn.* 21. Cyttuna hyn â'r golygiad mai rhagflaeniad prophwydol o'i chwymp a gynnwysa yr adnodau hyn, yn hytrach na mynegiad o'r ffaith wedi cymmeryd lle. *A'r ddaear a oleuwyd gan:* —neu, 'allan o'i ogoniant ef:' *Esec.* xliii. 2.

2. *Drigfa cythreuliaid.*—Y mae y gair wedi ei gymmeryd o *Esa.* xiii. 21, lle y darllenir 'cythreuliaid' gan y Deg a Thrigain; ac nid, fel yn ein cyfieithiad ni, "anifeiliaid gwyllt ion." A'r un modd *Ier.* l. 39. *Gadwraeth:*—carchar, yn ol y gwreiddiol; Saes., "*hold.*" Gwel y brophwydoliaeth am Babilon, yn *Ier.* l. 39. Y mae y darlun wedi ei gymmeryd oddi wrth ganlyniadau distrywiad unrhyw ddinas yn y dwyrain; yr hon, mor gynted ag y cilia dynion o honi, sydd yn myned yn gyrchfan pob math o wylltfilod ac adar ysglyfaethus.

3. *Marchnatawyr:*—marsiandwyr mawrion i wledydd tramor. Nid y masnachwyr bychain a brynent gan farsiandwyr mwy. Dywed Webster a Wilkinson mai y farsiandiaeth ysbrydol, trwy ba un y mae llaweroedd yn byw mewn helaethrwydd a moethusrwydd ar bechodau a ffoleddau pliant dynion, a olygir yn benaf. Y mae Babilon fawr, neu Rhufain Babaidd, yn cael ei phortreadu yma fel dinas gyfoethog a moethus; a phan y mae hi yn syrthio, y mae y rhai sydd wedi bod yn ymddibynol arni, ac wedi ymgyfoethogi ar ei thraul, yn dioddef yn dost yn ei dinystr. Ni raid i ni ymofyn am gyflawniad llythyrenol o hyn. Y drychfeddwl yw—fod y gallu a osodir yma allan dan y gymmhariaeth o ddinas fawr yn cael ei ddymchwelyd, a bod pawb a 'phob dosbarth sydd yn gyssylltiedig â'r gallu hwn, ac yn ddibynol arno, i gydgyfranogi âg ef yn ei gwymp.

4—8. Rhybudd i bobl dduw i adael Babilon fawr, ar gyfrif y pechodau a gyflawnodd, a'r barnau oedd ar ddisgyn arni.

4. *Lef arall:*—oddi wrth angel, yn enw Duw. Tybia rhai, ar bwys y geiriau, "Fy mhobl i," mai Duw Dad, neu Crist, sydd yn llefaru; ond y mae cofio mai trwy awdurdod ac yn enw Duw y cyhoeddir y rhybudd yn symmud yr anhawsder yma. Yn *pen.* xi. y mae yr angel sydd yn llefaru yn dywedyd, "fy nau dyst" (*adn.* 3). *Derwch allan.*—Yr oedd y prophwydi mewn ymadroddion cyffelyb yn rhybuddio Israel i ffoi o Babilon. Gwel *Esa.* xlviii. 20; lii. 11, 12; *Ier.* l. 7, 8; li. 6, 45; hefyd, 2 *Cor.* vi. 17. Galwad sydd yma i ddiwygiad, ac i ymadawiad o'r eglwys lygredig a gwrthgiliedig. Ceir galwad gyffelyb, er heb fod mor gyfeiriol, yn *pen.* xiv. 9. Gwelir, wrth y fath alwad ar y fath adeg, yr erys duwiolion yn y Fabilon gyfriniol hyd adeg ei dinystr. Sylwa Alford fod gwahaniaeth rhwng y rhybudd yn y fan hon a'r rhybuddion cyffelyb yn Esaiah, trwy fod gwahaniaeth yn yr amgylchiadau: yn y naill, gwahoddiad llawen oedd yr alwad; yn y llall, rhybudd difrifol ydyw, yn cyfeirio at berygl. Y mae yr alwad yma yn debycach i *Mat.* xxiv. 16; neu i'r rhybuddion, yn yr Hen Destament, i Lot i ffoi o Sodom, ac i bobl Israel i gilio oddi wrth bebyll Dathan ac Abiram: *Gen.* xix. 15—22; *Num.* xvi. 23—26. Byddai eu perygl, o aros yn ddi, yn ddyblyg; sef, trwy gydoddefiad a chydymffurfiad â hi, iddynt fod yn gyfranog o'i phechodau; a thrwy fod mewn undeb â hi, heb fod yn gyfranog o'i phechodau, iddynt fod yn

5 O blegid ei phechodau hi a
[d]Dad 16.19. gyrhaeddasant hyd y nef, [d] a Duw
[e]Exod. 21. 23—25; [2]Tim. 4.14. a gofiodd ei hanwireddau hi.

6 [e]Telwch iddi fel y talodd hithau i chwi, a dyblwch iddi y dau cymmaint yn ol ei gweithredoedd: yn y cwpan a lanwodd hi, llenwch iddi yn ddauddyblyg.

7 Cymmaint ag yr ymgonedd-odd hi, ac y bu mewn moethau, y cymmaint arall rhoddwch iddi o ofid a galar: o blegid y mae hi yn dywedyd yn ei chalon, Yr wyf yn eistedd yn frenhines; a gweddw nid ydwyf, a galar nis gwelaf ddim.

8 Am hyny [f]yn un dydd y daw ei phläau hi, *sef* marwolaeth, a galar, a newyn; [g]a hi a lwyr losgir à thân: [h]o blegid cryf *yw* yr Ar-glwydd Dduw, yr hwn sydd yn ei barnu hi.

[f]Esa. 47. 9—11; Ier. 51. 6. [g]Dad. 17. 16; 19. 3; Ier. 51. 58. [h]Iob 9. 19; Esa. 27. 1; Ier. 50. 31—34; 1Cor. 10. 22.

9 Ac wylo am dani, a galaru drosti, a wna brenhinoedd y

---

gyfranog o'i chospedigaeth. Syrthiodd barn Duw ar wraig Lot o herwydd ymlyniad ei chalon wrth Sodom.

5. *Ei phechodau hi a gyrhaeddasant hyd y nef.*—Y mae amryw o'r beirniaid goreu yn barnu mai gair arall gwahanol i'r un a gyfeithir yma "cyrhaedd," etto yn debyg yn ei ffurf, ac heb wahaniaethu llawer yn ei ystyr, oedd yn yr ysgrif wreiddiol. Ystyr y gair hwn ydyw 'glynu'—glynu wrth beth, fel ag i fod yn rhan o'i sylwedd. Darllena Tregelles, "Ei phechodau hi a gydadeiladwyd hyd y nef, neu a ymlynasant wrth eu gilydd hyd oni chyrhaeddasant y nef." A'r un modd Alford:—"Nid fel De Wette, gwaedd ei phechodau: y drychfeddwl yw, fod y pechodau fel pentwr."

6. *Telwch iddi.*—Geiriau yn cael eu cyfeirio at weinyddwyr y farn. *A dyblwch.*—Mewn achos o ladrad, gofynai y gyfraith i'r lleidr adferu yn ddyblyg yr hyn a ladrataodd. Y mae hyn yn unol â goruchwyliaethau barnol Duw:—"Derbyniodd o law yr Arglwydd yn ddau-ddyblyg am ei holl bechodau:" *Esa.* xl. 2. Arferir yma eiriau cyffelyb, am gosp y Fabilon gyfriniol, i'r rhai a geir yn *Salm* cxxxvii. 8, am y Fabilon hanesyddol.

7. *Yr wyf yn eistedd yn frenhines.*—Yn *Esa.* xlvii. 7, 8, ceir yr un fôst o enau Babilon. Ymffrostia Tyrus yn debyg: *Esec.* xxvii. 1.

8. *Yn un dydd.*—Mewn manau ereill o'r bennod, "mewn un awr;" yn dynodi sydynrwydd annisgwyliadwy ei chwymp. Onid yw y pethau a ddigwyddasant i Rufain Babaidd yn yr oes hon, i wanychu ei hawdurdod, wedi bod yn ddigwyddiadau disymmwth ac annisgwyliadwy. Wrth gymmharu y cyfeiriadau at ddinystr yr hen Babilon â'r disgrifiad hwn o gwymp Babilon fawr, ni a welwn fod dinystr yr olaf yn fwy alaethus; ac y mae y dinystr hwnw yn cyfatteb i'w sefyllfa a'i bôst flaenorol; tra y diystyrai y meddwl am fod yn weddw, cospir hi, nid â'r gweddwdod y tybiai ei hun yn ddiogel rhagddo, ond â marwolaeth: yn lle ei moethau, derbynia alar; ac yn lle cyfoeth a phob digonedd, newyn. *A thân.*—Y mae rhai yn tybied fod yma ragfynegiad o ddinystr dinas Rhufain â thân; ond mwy cebygol ydyw, ein bod i ddeall yr ymadrodd fel rhagfynegiad cyffredinol o ddinystr. Cydwedda hyn yn well â nodwedd cyfriniol y brophwydoliaeth. Nid dinas Rhufain a olygir wrth Babilon fawr, ond y gyfundrefn Anghristaidd—er, yn ddiau, fod cyfeiriadau aml yn y llyfr at y dinas fel canolbwynt y gyfundrefn. Y mae ereill yn tueddu i feddwl y dylid deall y rhagfynegiad yn fwy llythyrenol; ei fod, nid yn unig yn cyfeirio at ddymchweliad y gallu Anghristaidd, ond hefyd at ryw ddinystr ofnadwy ar y ddinas sydd wedi bod am oesoedd yn brif eisteddle y gallu hwnw. Yr oedd crediniaeth yn mysg y dysgawdwyr Iuddewig yn foreu fod Rhufain i gael ei dinystrio. "Y mae y bennod hon," ebe Kimchi ar *Esa.* xxxiv., "yn cyfeirio at ddymchweliad dyfodol Rhufain, yr hon a elwir yma Bozra; o blegid yr oedd Bozra yn un o ddinasoedd mawrion yr Edomiaid." Barnai Kimchi fod Edom, yn y bennod, yn golygu Rhufain. Unig werth y dyfyniad hwn ydyw, ei fod yn dangos fod yr Iuddewon yn coledd y cyfryw dybiaeth, ac nid fod y geiriau a esbonir yn rhoddi un sail i'r dybiaeth. Yr oedd yr un disgwyliad hefyd yn ffynu yn mhlith y Cristionogion boreuol, yr hyn a ddangosir gan Gibbon: dywed y disgwylient ddymchweliad yr ymherodraeth a dinystr llwyr y ddinas. Credid yr un syniad gan Gregori Fawr, un o'r rhai galluocaf o'r pabau: dywed y dinystrid hi, nid gan luoedd pobloedd, ond gan dymmhestloedd, cynnhyrfiadau, a daeargrynfäau. I gefnogi y syniad, dygir yn mlaen yr ystyriaeth fod sefyllfa y ddinas yn gwneyd y cyfryw ddinystr yn debygol:—"*The great Apennine mountain-chain is mainly volcanic in its character, and the country of Rome more especially as strikingly so almost as that of Sodom itself.*" Ceir tystiolaethau o'r un natur yn ngweithiau Gibbon, Lyell, &c. Dywed Townsend [*Tour in Italy in* 1850]: "Yr wyf yn canfod yn mhob man—yn Rhufain, o amgylch Rhufain, a thrwy yr holl diriogaeth o Rufain i Naples—y prawf mwyaf hynod, nid yn unig o'r possibl-rwydd, ond o'r tebygolrwydd y bydd i holl ganolbarth Italy gael ei ddinystrio ryw ddiwrnod gan ddaeargrynfäau. Y mae daear Rhufain yn *tufa*, yn yr hon y mae llosgiad yn cymmeryd lle. Yn Naples, gellir gweled yr ufel berwedig yn codi yn agos i wyneb y ddaear. Pan dynais ffon ar hyd y tir, yr oedd mwg ufelaidd yn dilyn ei holion; ac ni synwn ddim pe clywn fod gorynys ddeheuol Italy wedi ei llwyr ddinystrio. Ymddengys ei fod wedi ei barotoi i'r ffiamau mor sicr ag y mae y coed a'r glô ar yr aelwyd wedi eu parotoi i'r ganwyll a gynneua y tân i'w llosgi. Y mae yn ymddangos i mi mai y llaw ddwyfol yn unig sydd yn attal yr elfen dân trwy wyrth mor fawr a'r un a amddiffynai ddinasoedd y gwastadedd hyd oni chyrhaeddodd Lot y mynydd." Gwel Barnes ar yr adnod.

9—20. GALAR BRENHINOEDD Y DDAEAR AM DANI.

9, 10. Gwelir yma y bydd rhai o'r brenhinoedd yn glynu yn ffyddlawn wrth Rufain, er fod y lleill yn ymuno i'w dinystrio. Cymmharer galar y tywysogion am Tyrus: *Ezec.* xxvi. 16—21; xxvii. 35. *Gwae, gwae.*—Yma y cwblheir y drydedd wae; *gen.* xi. 13, 14. Dywedir y bydd y

ddaear, y rhai a buteiniasant ac
a fuant fyw yn foethus gyda hi,
pan welont fŵg ei llosgiad hi,

10 Gan sefyll o hirbell, gan ofn
ei gofid hi, a dywedyd, Gwae,
[i] Dad. 14. 8; Esa. 21. 9. [k] Ier. 51. 8, 9. gwae, y ddinas fawr hono, [i] Babilon, y ddinas gadarn! [k] o blegid
mewn un awr y daeth dy farn di.

11 A marchnatäwyr y ddaear
a wylant ac a alarant drosti; o
blegid nid oes neb mwyach yn
prynu eu marsiandïaeth hwynt:

12 Marsiandïaeth o aur, ac ar-
ian, a meini gwerthfawr, a pherl-
au, a llian main, a phorphor, a
sidan, ac ysgarlad, a phob coed
thynon, a phob llestr o ifori, a
phob llestr o goed gwerthfawr
iawn, ac o bres, ac o haiarn, ac o
faen marmor,

13 A sinamon, a pheraroglau,
ac enaint, a thus, a gwin, ac olew,
a pheilliaid, a gwenith, ac ys-
grubliaid, a defaid, a meirch, a
cherbydau, a chaethweision, [l] ac eneidiau dynion. [l] 2 Pedr 2. 3.

14 A'r aeron a chwennychodd
[m] dy enaid a aethant ymaith oddi wrthyt, a phob peth dan-
teithiol a gwych a aethant ym-
aith oddi wrthyt; ac ni chai
hwynt ddim mwyach. [m] Num. 11. 4, 34; Salm 78. 18; 106. 14; 1 Cor. 10. 6; Iago 4. 2; 1 Ioan 2. 16, 17.

15 Marchnatäwyr y pethau hyn
y rhai a gyfoethogwyd ganddi, a
safant o hirbell oddi wrthi, gan
ofn ei gofid hi, gan wylo a galaru,

16 A dywedyd, [n] Gwae, gwae, [n] Dad. 17. 4; Luc 16. 19.
y ddinas fawr hono, yr hon oedd
wedi ei gwisgo â llian main, a
phorphor, ac ysgarlad, ac wedi ei
gwychu âg aur, a meini gwerth-
fawr, a pherlau!

17 O blegid [o] mewn un awr yr [o] Esa. 47. 9; Galar. 4. 6.
anrheithiwyd cymmaint cyfoeth.

---

brenhinoedd yn "gweled mŵg llosgiad y ddinas;" yr hyn a dybir sydd yn wrthddadl i'r ystyr llythyrenol a roddir i'r darluniad. "Rhy brin y gellir meddwl y bydd y brenhinoedd yn sefyll o hirbell, ac yn edrych arni, fel y disgrifir yma; yn gymmaint ag nad oes un cydgyfarfyddiad o ddigwyddiadau tuag at eu cynnull ynghyd wedi ei nodi yn y brophwydoliaeth."—*Alford.*

11—14. *Marsiandïaeth.*—Alford, '*cargo:*' Webster a Wilkinson, '*freight.*' Esgyna y rhestr o bethau gwerthfawr i fyny at gyrph ac eneidiau dynion. Meddylir fod y disgrifiad, yn ei noddweddau barddonol, yn cael ei gymmeryd oddi wrth berthynas Rhufain â'r byd, fel yr oedd y ptyd hwnw, yn hytrach nag oddi wrth ei pherthynas âg ef yn yr amser dyfodol y cyfeirir ato yn y brophwydoliaeth. Etto, teimlir fod yma beth anhawsder, wrth gymmhwyso y disgrifiad at Rufain, yn ei sefyllfa baganaidd yn gystal a Phabaidd; a hyny am na bu Rhufain erioed, ac nas gallai fod, o herwydd ei sefyllfa, yn ddinas enwog mewn marsiandïaeth. Y mae y darluniad gan mwyaf wedi ei gymmeryd oddi wrth y rhagfynegiadau am ddinas Tyrus, yn *Ezec.* xxvii.; ond yr oedd yn addas i'w gymmhwyso at y ddinas hono fel dinas arfordirol a masnachol. Ymddengys i ni fod yr anhawsder hwn yn cael ei symmud pan ystyriom nad dinas Rhufain a olygir yn fwyaf neilltuol, ond y gyfundrefn anghristaidd; ac y mae yn wybyddus am y gyfundrefn hono ei bod, trwy yr oesoedd, wedi meddïannu pob cyfoeth, gwychder, a moethau ag a allasai ddymuno. *Meini gwerthfawr, a pherlau.*—Nwyddau pwysig bob amser yn marsiandïaeth y byd. Sonia Gibbon am danynt fel yn uchel eu bri yn Rhufain yn amser yr Antonines. *Llian main.*—Yr hwn a ddygid yn benaf o'r Aipht. Gwisgid llian main gan y rhai cyfoethog: *Exod.* xxviii. 42; *Luc* xvi. 19. Math o gotwm oedd y defnydd, yr hwn a brisid yn uchel gan yr hynafiaid. *Sidan.*—Dywed Gibbon fod pwys o hono yn cael ei gyfrif yn gydwerth yn Rhufain yn amser yr Antonines, a phwys o aur. *Coed thynon.*—'Coed thyon:' yr un a *citrus* y Rhufeiniaid, a ddefnyddid at fyrddau a drysau drudfawr. *Sinamon.*—Nid ydyw yn sicr, ebe Alford, mai yr un oedd a'. eiddom ni. Bernir ei fod wedi dyfod o India; a dyma dystiolaeth Herodotus. Yn *Exod.* xiii. 23, nodir ef fel un o elfenau yr olew sanctaidd: yn *Diar.* vii. 17, fel un o beraroglau gwely y fenyw buteinllyd: yn *Caniadau Solomon* iv. 14, fel un o'r planhigion yn ngardd yr Anwylyd. *A pheraroglau:—amonium,* enaint gwerthfawr yn cael ei barotoi o fanwydd Asiaidd ac yn cael ei ddefnyddio at y gwallt. *A chaethweision, ac eneidiau dynion.*—Barna Bengel, Hengstenberg, ac ereill, mai y gwahaniaeth rhyngddynt yw—fod y cyntaf yn dynodi y caethion hyny a berthynent i'r meirch a'r cerbydau, a'r olaf gaethweision yn gyffredinol. Meddylia rhai fod lled gyfeiriad yn y gair olaf at werthiad maddeuant-lythyrau, a'r fasnach helaeth a ddygir yn mlaen yn Eglwys Rhufain er rhyddhâd eneidiau o'r purdan. Yr oedd y fasnach yn mhersonau, neu "eneidiau dynion," yn hynodi Tyrus: *Ezec.* xxvii. 13. *A'r aeron.*—Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo y tymmor yn mha un y mae y ffrwythau yn aeddfedu, yna y ffrwythau eu hunain. *Danteithiol a gwych.*—Pob math o ddodrefn, a gwisgoedd goreuredig ac addurnedig.

15. Darlunir hwynt mor lawn o arswyd yn ngolwg ei dinystr, fel yr ofnent fyned yn agos ati—*safent o hirbell.*

17—20. Cymmharer â'r adnodau hyn y disgrifiad yn *Ezec.* xxvii. 29—32. Ceir yma alar y morwyr, y rhai a lenwir â gofid yn yr olwg ar ddymchweliad dinas yr arferent fasnachu â hi, ac yr ymgyfoethogent gymmaint trwy y fasnach hono. *A phob cwmpeini mewn llongau.*—Y mae y darlleniad hwn yn unol â'r testyn cyffredin; ond y mae y darlleniad yn Greisbach, Hahn, a Tittman, yr hwn sydd yn unol â'r llawysgrifau hynaf, yn cael ei gymmeradwyo yn fwy yn bresennol:—"*He who sails to a place.*" *Stuart:—coasters.* Y llongwyr sydd yn morio ger y glanau, ac nid yn anturio yn mhell i'r môr: dosbarth israddol o forwyr. Cyfeithiad Alford o'r geiriau ydyw, "*And every pilot, and every one who saileth any whither, and shipmen.*" *Lwch ar eu penau.*—Arwydd cyffredin o alar yn mysg y dwyreinwyr. *Llawenhâ.*—Sylwer ar y gwrthgyferbyniad rhwng yr ymadroddion hyn a'r rhai blaenorol. Iaith y

A phob llong-lywydd, a phob cwmpeini mewn llongau, a llongwyr, a chynnifer ag y sydd â'u gwaith ar y môr, a safasant o hirbell,

18 Ac a lefasant, pan welsant fŵg ei llosgiad hi, gan ddywedyd, [p] Pa *ddinas* debyg i'r ddinas fawr hono!

19 A hwy a fwriasant lwch ar eu penau, ac a lefasant, gan wylo a galaru, *a* dywedyd, Gwae, gwae y ddinas fawr hono, yn yr hon y cyfoethogodd yr holl rai oedd ganddynt longau ar y môr, trwy ei chost hi! o blegid mewn un awr yr anrheithiwyd *hi*.

20 [q] Llawenha o'i phlegid hi, y nef, [r] a chwi, apostolion sanctaidd a phrophwydi; o blegid [s] dialodd Duw arni drosoch chwi.

21 Ac angel cadarn a gododd faen megys maen melin mawr, ac a'i bwriodd i'r môr, gan ddywedyd, [t] Fel hyn gyda rhuthr y teflir Babilon, y ddinas fawr, ac ni cheir hi mwyach.

22 A llais telynorion, a cherddorion, a phibyddion, ac udganwyr, ni chlywir ynot mwyach; ac un crefftwr, o ba grefft bynag *y bo*, ni cheir ynot mwyach; a thrwst maen melin ni chlywir ynot mwyach;

23 A llewyrch canwyll ni welir ynot mwyach; a llais priodasfab a phriodasferch ni chlywir ynot mwyach: oblegid dy farchnatäwyr [u] di oedd wŷr mawr y ddaear; [v] o blegid trwy dy swyngyfaredd di y twyllwyd yr holl genhedloedd.

24 Ac [x] ynddi y caed gwaed prophwydi a saint, a phawb a'r a laddwyd ar y ddaear.

[p] Ezec. 27. 31.

[q] Barn. 5. 31; Salm 48. 11; 58. 10; Diar. 11. 10; Esa. 44. 23; Ier. 51. 47, 48.

[r] Eph. 2. 20; 3. 5; 4. 11; 2 Pedr 3. 2; Iudas 17.

[s] Deut. 32. 43; Salm 18. 47; Esa. 26. 21; Luc 11. 49, 50.

[t] Exod. 15. 5; Neh. 9. 11; Ier. 51. 63, 64.

[u] Dad. 13. 13—16; 2 Bren. 9. 22; Act. 8. 11.

[v] Dad. 17. 6; 19. 2; Dan. 7. 21; Luc 11. 47 51.

---

rhai a ymgyfoethogasant ar ei thraul a geir yn yr adnodau o'r blaen: ond iaith y rhai a ddiodd efasant erledigaeth oddi wrthi sydd yn yr adnod hon. Iaith gorfoledd, yn hytrach nag iaith dïaledd. Rhagfynegir gorfoledd cyffelyb ar gwymp Babilon: *Ier.* li. 48. Gelwir ar yr *apostolion sanctaidd* i lawenhau. Dyma yr un rhai ag y rhoddir addoliad iddynt yn Eglwys Rhufain yn llawenhau am ei chwymp! Y mae yn rhaid, dybygid, mai Rhufain Babaidd a olygir yma; o blegid pa achos oedd gan Gristionogion i lawenhau am ddinystr Rhufain baganaidd, pan yr oeddynt hwy eu hunain yn dioddef yn y dinystr hwnw?—*Webster* a *Wilkinson*. Y mae mwy o lawenydd yn y nef o blegid cwymp y butain nag o blegid dinystr y ddau fwystfil; am mai y pechod mwyaf ysgeler mewn bod ydyw pechod y rhai hyny sydd yn adnabod gair Duw, ac heb ei gadw; bydolrwydd yr eglwys ydyw y mwyaf bydol o bob bydolrwydd. Felly, y mae Babilon Llyfr y Dadguddiad, nid yn unig yn meddu pechodau Israel, ond pechodau y Cenhedloedd hefyd; ac y mae loan yn sefyll yn hwy uwch ben ysgelerder a dryntni y butain, a barnedigaethau Duw arni, nag uwch ben eiddo y bwystfil. Y mae y gair "putain" yn gosod allan gymmeriad hanfodol yr eglwys wrthgiliedig. Y mae yn cadw ei ffurf ddynol, fel y 'wraig'—nid yw yn cael ei thrawsffurfio i fwystfil: y mae ganddi rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi: 2 *Tim.* iii. 5—8. Nid ei gwir briod, yr hwn a fedd hawl ynddi, a lawenydd a phethau ei dŷ, ydynt yr oll yn oll ganddi mwyach: ond y mae yn rhedeg ar ol pethau gweledig a disylwedd y byd; yn eu hamrywiol ffurfiau. Ffurf gyflawnaf ei phuteindra a ynnwysir yn ei dymuniad am fod ei hunan yn llu bydol, yn ei gwaith yn defnyddio gwleidiadeth a diplomyddiaeth, yn pwyso ar fraich o nawd, yn arfer moddion ansanctaidd i gyrhaedd mcanion sanctaidd, yn eangu ei hawdurdod trwy y cleddyf neu trwy arian, yn hud-ddenu lynion trwy ddefodau allanol a chnawdol, nes lyfod o honi yn feistres y seremoniau i urddaslion y byd, yn gweinoithio i dywysogion a hobloedd, ac yn gyffelyb i Israel, yn ceisio ffafr chynnorthwy un gallu daearol yn erbyn y perygl a'i bygythia oddi wrth allu arall —*Auberlen.*

21. *Angel cadarn.*—Nid yr un angel ag yn *adn.* 1, er ei fod, fel hwnw, yn meddu gallu mawr. *Megys maen melin mawr.*—Cyfeirir at yr isaf o ddau faen y felin, yr hwn oedd yn llawer trymach na'r uchaf. Yn *Ier.* li. 63, 64, arddangosir cwymp Babilon trwy faen yn cael ei daflu i'r afon Euphrates. Cymmharer hefyd y geiriau sydd yn disgrifio dinystr yr Aiphtiaid yn y Môr Coch: *Exod.* xv. 5, 10; *Neh.* ix. 11. *Gyda rhuthr.*—Dinystrir hi, nid trwy adfeiliad neu ymollyngiad graddol o honi ei hun, ond trwy ymosodiad arni gan allu y tu allan iddi; a dygir hyn oddi amgylch gyda'r fath sydynrwydd nes peri i'r byd ryfeddu. Dengys yr adnod hon y golygir cwymp Babilon o hyd yn y brophwydoliaeth fel heb gymmeryd lle.

22, 23. Y mae ei dinystr yn cael ei bortreadu yma yn y fath fodd ag i ddangos y bydd yn y canlyniad yn anghyfannedd: ni bydd na chyfoethog na thlawd yn abl i drigo yn Babilon fawr mwyach: ni phoblogir hi gan briodasau newyddion; erys yn anghyfannedd-dra heb drigiannydd. Meddylia rhai, fel y nodwyd eisoes, fod hyn oll i'w gymmhwyso at ddinas Rhufain ei hun; ond ymddengys i ni ei fod yn fwy cysson â nodwedd arwyddluniol y llyfr i ddeall y disgrifiad am y gyfundrefn Anghristaidd am eglwys Rhufain, a'i olygu fel rhagfynegiad o ddifianiad y defodau a'r gwasanaeth rhwysgfawr a berthyn iddi, a'i hymyriad annheilwng âg achosion gwladol, cymdeithasol, a theuluaidd. *A llewyrch canwyll ni welir ynot mwyach.*—Sylwer ar y gwrthgyferbyniad yn ninas Duw:—*pen.* xxii. 5; "Ni raid iddi wrth ganwyll." *A llais priodasfab a phriodasferch*, &c.—Cymmharer â hyn y ddinas nefol, gyda'i phriodfab, ei phriodasferch, a'i neithior: *pen.* xix. 7, 9; xxi. 2, 9; *Esa.* lxii. 4, 5.

24. Cymmharer geiriau Crist am yr Iuddewon yn yr oes yr oedd efe yn byw ynddi:—"Fel y gofyner i'r genhedlaeth hon waed yr holl brophwydi, yr hwn a dywalltwyd o ddechreuad y byd" (*Luc* xi. 50); yr un modd y mae euogrwydd yr holl greulonderau a ddangoswyd at bobl Dduw mewn amserau paganaidd a Phabaidd yn

PENNOD XIX.

1 *Clodfori Duw yn y nefoedd am farnu y butain fawr, a dïal gwaed ei saint.* 7 *Priodas yr Oen.* 10 *Yr angel heb fynu ei addoli.* 17 *Galw yr ehediaid i'r lladdfa fawr.*

B. A. 96.

AC ar ol y pethau hyn mi a glywais megys llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef, yn dywedyd,

[a] Salm 106. 1; 111. 1. [b] 1 Cron. 29. 11; Salm 3. 8; Mat. 6. 13. [c] Salm 19. 9.

[a] Aleluwia; [b] Iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni:

2 O blegid [c] cywir a chyfiawn *yw* ei farnau ef: o blegid efe a farnodd y butain fawr, yr hon a lygrodd y ddaear â'i phuteindra,

[d] Deut. 32. 35, 43.

[d] ac a ddïalodd waed ei weision ar ei llaw hi.

3 Ac eilwaith y dywedasant, Aleluwia. A'i mŵg hi a gododd yn oes oesoedd.

4 A syrthiodd y pedwar henuriad ar hugain a'r pedwar anifail i lawr, ac a addolasant Dduw, yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc; gan ddywedyd, Amen, Aleluwia.

5 A llef a ddaeth allan o'r orseddfaingc, yn dywedyd, [e] Moliennwch ein Duw ni, ei holl weision ef, a'r rhai ydych yn ei ofni ef, bychain a mawrion hefyd.

[e] Salm 103. 20-22; 134. 1; 135. 19, 20.

6 Ac mi a glywais megys llef tyrfa fawr, ac megys llef dyfroedd lawer, ac megys llef taranau cryf-

---

gorwedd yn llwyth trwm ar Eglwys Rhufain. Y mae rhai esbonwyr yn sylwi, ar bwys yr ymadrodd, *Ynddi y caed gwaed prophwydi a saint, a phawb a'r a laddwyd ar y ddaear*—fod arwyddocâd Babilon fawr yn fwy eang na Rhufain, ac hyd yn oed na'r gyfundrefn Babaidd, er mai y gyfundrefn hon ydyw prif gynnrychiolydd y gwrthgiliad Anghristaidd. Y mae Babilon yn arwyddo yr oll o'r eglwys anffyddlawn dan yr Hen Destament, yn gystal a than y Newydd, yr un modd ag y mae y wraig (*pen.* xii, 1) yn golygu yr holl wir eglwysdrwy yr oesoedd. Gyda golwg ar y ddinas, dywed Aringhus mai Rhufain bagandid oedd y gigyddfa fawr lle y lleddid defaid Crist. Cyfrifa Seyler fod Rhufain Babaidd, rhwng 1540 a 1580—tymmor o ddeugain mlynedd—wedi lladd yn agos i filiwn o Brotestaniaid.—*Bengel.* Nodir tri pheth oedd yn galw am ddinystr Babilon fawr:—1. Gwychder a mawredd bydol ei marsiandwyr; yr hyn a gyfodai oddi ar drafnidiaeth lygredig mewn pethau sanctaidd. 2. Ei swyngyfaredd, a'i hudolion, trwy y rhai y twyllai y Cenhedloedd. 3. Ei gwaith yn tywallt gwaed y prophwydi a'r saint.

Pennod xix.

1—8. Mawl yr eglwys am farnu y butain fawr.

Perthyna 'caniad newydd' i bob un o ddigwyddiadau mawrion y llyfr hwn, megys y gwaredigaethau i'r eglwys, neu y barnau ar ei gelynion. Ond y mae y gân hon yn fwy ffurfiol a difrifol nag un o honynt, am fod barn olaf y nefoedd wedi ei gweinyddu ar brif elyn yr eglwys. Yr un fath ag yn nechreuad y brophwydoliaeth (*pen.* iv. 8; v. 9), felly yma, ar ddiwedd y benaf o'r gweledigaethau, cyflwynir cân o fawl i Dduw. Gweler hefyd ar ddiwedd y seliau (*pen.* vii. 10); diwedd yr udgyrn (*pen.* xi. 15—18), a goruchafiaeth y saint ar y bwystfil: (*pen.* xv. 3).

1. *Aleluwia.*—Yn fwy cywir 'Halleluiah;' y mae *Iah*, yr enw Dwyfol, yn cael ei golli yn y ffurf a roddir i'r gair Hebraeg yn y Groeg, y Lladin, y Saesneg, a'r Gymraeg. Ystyr y gair yw 'Molwch Iah, Iehofah,' neu 'yr Arglwydd." Digwydda y gair yn aml yn Llyfr y Salmau. Ymddengys nad oes ddigon o sail i dybiaeth Elliot fod y ffurf Hebraeg (Aleluia) o gyflwyno mawl yn awgrymu fod gan yr Iuddewon ran arbenig yn y cyflwyniad yma. "Rhaid," ebe Alford, "fod y ffurf yma wedi cael ei gymmeryd o'r Salmau gan yr eglwys Gristionogol. Y mae Brown yn sylwi mai nid byrhâd o'r gair "Iehofah" yw *Iah;* prawf o hyny ydyw ei fod yn cael ei ddefnyddio weithiau mewn undeb â Iehofah: *Esa.* xii. 2. Ei ystyr ydyw, 'yr hwn sydd,' tra mai ystyr Iehofah ydyw, 'yr hwn a fydd, sydd, ac oedd.' Cynnwysa *Iah* y syniad o fod Duw yn cael ei brofi fel cymmhorth cyfamserol; ac yn unol â hyn y mae Kimchi yn sylwi fod Halleluiah yn dîgwydd gyntaf yn y Salmau ar yr amgylchiad o ddinystr caseion Duw: *Salm* civ. 35. *Iachawdwriaeth.*—Dadganiad o orfoledd y saint o blegid cwymp Babilon. Gwel *pen.* vii. 10.

2. *Cywir.*—Yn ngweinyddiad ei fygythion a'i addewidion. *A chyfiawn.*—Yn nghyfraniad unawn ei farnau. *Yr hon a lygrodd.*—Y mae y ferf yn cyfleu y drychfeddwl hwn—'yr hon oedd yn yr arferiad o lygru. *Ac a ddialodd.*—Y mae y geiriau bron yr un, air am air, ag a ddywedir am Iezebel: 2 *Bren.* ix. 7. "Edrychir yma ar y 'dïal' fel ad-daliad a wesgir allan o law anewyllysgar."—*Alford.*

3. *A'i mŵg hi.*—Rheswm am y mawl a gyflwynir.

4. *A syrthiodd,* &c.—Gan ymuno â, a chadarnhau y gân o fawl oddi wrth y "dyrfa fawr."

5. *O'r orseddfaingc.*—Barna Alford nad yw "o'r" yn arwyddo dim mwy nag o gyfeiriad yr orseddfaingc. Y mae ereill [*Brown,* &c.], yn darllen "allan o'r orseddfaingc." Meddylir nas gall y llef ddyfod oddi wrth y Mab, am fod y geiriau "ein Duw ni" yn anghysson â'i ddull ef o lefaru. Gwel *Ioan* xx. 17; "Fy Nuw i, a'ch Duw chwithau." Tebygol yw, mai oddi wrth y pedwar anifail y daeth y llef, am y rhai y dywedir eu bod 'yn nghanol yr orseddfaingc, ac yn nghylch yr orseddfaingc.' *Moliennwch ein Duw ni.*—Geiriau o fawl a arferid gan y Lefiaid, yn enwedigol pan y byddai y deml wedi ei llanw â'r gogoniant dwyfol: 1 *Cron.* xvi. 36; xxiii. 5; 2 *Cron.* v. 13; xx. 19; *Esec.* iii. 11. Yma y mae yr holl saint, fel offeiriaid i Dduw, yn defnyddio yr un geiriau.

6. *Megys llef tyrfa fawr.*—Llef yn debyg i lef tyrfa fawr—nid oedd mor eglur a'r llef yn *adn.* 1; llef yn dyfod o fwy o bellder, ac yn debyg i sŵn dyfroedd lawer, a sŵn taranau cryfion. Cymmhariaeth gyffredin yn y Beibl, ac mewn amryw o'r ysgrifenwyr Groegaidd, ydyw y gymmhariaeth o leisiau torf o ddynion i sŵn dyfroedd: *Esa* xvii. 12. *O blegid teyrnasodd.*—Y mae ei deyrn-

[f] Salm 47. 2, 7; Esa. 52. 7; Mat. 6. 13. ion, yn dywedyd, Aleluwia: [f] o blegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog.

[g] Salm 45. 10—16; Hos. 2. 19, 20; Mat. 22. 1; 2 Cor. 11. 2. 7 Llawenychwn, a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo ef: [g] o blegid daeth priodas yr Oen, a'i wraig ef a'i parotodd ei hun.

8 A chaniatawyd iddi gael ei gwisgo â llian main glân a disglaer: canys y llian main ydyw cyfiawnder y saint.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf, [h] Bendigedig *yw* y rhai a elwir i swper neithior yr Oen. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn.

[h] Mat. 22. 2—4; Luc 14. 15.

10 Ac mi a syrthiais wrth ei draed ef, i'w addoli ef. Ac efe a ddywedodd wrthyf, [i] Gwêl na *wnelych hyn:* cyd-was ydwyf i ti, ac i'th frodyr y rhai sydd gan-ddynt dystiolaeth Iesu. [k] Addola Dduw: canys tystiolaeth Iesu ydyw ysbryd y brophwydoliaeth.

[i] 2 Cor. 8. 7; Eph. 5. 15, 33; Heb. 10. 25. [k] Exod. 34. 14; Mat. 4. 10; Ioan 4. 22—24. [l] Luc 24. 25—27, 44; 1 Pedr 1. 11, 12.

asiad wedi ei sefydlu am byth. Y mae Babilon wedi ei dinystrio, ac felly y mae y rhwystr penaf i'w deyrnasiad wedi ei symmud o'r ffordd. Y mae ei chwymp wedi rhwyddhau y ffordd i'w deyrnasiad cyffredinol ar y ddaear. Gellir casglu oddi wrth hyn, nad ydym i feddwl mai Rhufain Babaidd yn unig ydyw Babilon a'r butain; ond yr egwyddorion Anghristaidd yn mhob eglwys; er mai y Babaeth ydyw y prif gorphoriad o'r egwyddorion hyny.

7. Arweinir ni yma i olwg cyfres newydd o weledigaethau yn dwyn perthynas âg undeb yr eglwys â Christ. Dechreua y gyfres yn *adn.* 11, a chynnwysa ddymchweliad brenhinoedd y ddaear, rhwymiad Satan, y mil blynyddoedd, dinystr olaf y gelyn, a'r farn gyffredinol.—*Alford. Daeth priodas yr Oen.*—Y parotoadau iddi. Yn nghylch y "briodas" ei hun, gwel *pen.* xxi. 9. *A'i parotodd ei hun.*—"A ddechreuodd gan ei barotoi ei hun."—*Bengel.* Un o ffugrau mwyaf arferol y Beibl ydyw priodas, i osod allan undeb Crist â'r eglwys, a chariad Crist a'i eglwys at eu gilydd. Defnyddir ef i arddangos y berthynas rhwng Duw ac Israel (*Esa.* liv. 1—8; *Ezec.* xvi. 7; *Hos.* ii. 19); ac undeb Crist â'r credadyn: *Mat.* ix. 15; xxii. 2; xxv. 1; *Ioan* iii. 29; *Eph.* v. 25. Dywed Alford ei fod yn treiddio trwy y meddyliau a'r iaith yn y Beibl am Grist a'r eglwys. Dywedir fod yr un ffugr yn cael ei ddefnyddio yn marddoniaeth yr Arabiaid a'r Persiaid, i osod allan berthynas y duwiau â dynion. Y mae priodoldeb arbenig yn ei ddygiad i mewn yma, am fod y gyfundrefn Anghristaidd wedi cael ei phortreadu dan y ffugr o wraig anffyddlawn a phuteinllyd.

8. *Llian main, glân a disglaer.*—Addurniadau sobr a gweddus gwraig ddiwair: nid ymdrwsiad ymddangosiadus a gorwych putain.—*Grotius. Cyfiawnder y saint.*—Yn y gwreiddiol, 'cyfiawnderau.' Eu cyfiwr pur â sanctaidd, yr hwn a gyrhaeddasant trwy olchi a chanu eu gŵnau yn ngwaed yr Oen: *pen.* vii. 14. Meddylia rhai fod y lliosog, "cyfiawnderau," yn arwyddo gweithredoedd da:—"y gweithredoedd da hyny sydd yn brofion o'u ffydd fywiol."—*Beza.* Y syniad cywir ydyw, fod gan bob un o'r saint gyfiawnder fel gwisg am dano. Nid un cyfiawnder yn perthyn i'r eglwys yn gynnulleidg, ond un cyfiawnder i bob aelod o honi. Cyfiawnder tufewnol a feddylir yma, yn ol Alford: ond nid oes ganddo un rheswm dros y golygiad. Ymddengys i ni yn ammhosibl cau allan gyfiawnder cyfrifol y Meichnïydd o'r adnod hon.

9. *Ac efe.*—Yr angel a arweinir ger ein bron yn *pen.* xvii. 1, yr hwn, ar ol hyn, a ddangosodd iddo y briodasferch, gwraig yr Oen (*pen.* xxi. 9), a'r hwn y syrthiodd i lawr wrth ei draed i'w addoli: *pen.* xxii. 8. Nid yw yn ymddangos fod y sail leiaf i dybiaeth Ebrard ac Ewald, fod rhyw angel yn wastad gydag Ioan yn yr holl weledigaethau. *Ysgrifena.*—Yn gosod pwysigrwydd arbenig ar yr hyn sydd yn canlyn fel testyn ddyddanwch i'r eglwys yn ei thrallodau. Gwel *pen.* xiv. 13. *A elwir.*—Nid yn unig a wahoddir, ond a elwir yn effeithiol. Y mae yr un grym yn y gair yn y fan hon ag sydd iddo yn *pen.* xvii. 14; "A'r rhai sydd gydag ef sydd alwedig, etholedig, a ffyddlawn." *Swper neithior.*—'Swper priodas.' Yr oedd y ffugr o wledd briodasol yn un arferol yn mysg yr Iuddewon i osod allan wynfyd y nef. Ceir ef yn fynych yn nammegion yr Iachawdwr: *Mat.* xxii. 1; xxv. 1. Gwel hefyd *pen.* iii. 20. *Ac efe a ddywedodd wrthyf.*—Y mae ail adroddiad yr un ffurf yn yr un adnod yn dangos fod yr hyn sydd yn canlyn yn newydd a phwysig. Y mae y cwbl yn cael ei gadarnhau yn y modd mwyaf difrifol: y mae pwysigrwydd yr hyn a ddywedir, y dymunoldeb o argraphu y peth yn ddwfn ar y meddwl, y defnydd cysur sydd ynddo i'r eglwys yn nghanol ei blinderau, yn gwneyd y dadganiad difrifol yma, "Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn," yn dra phriodol. Yn holl drallodau y wir eglwys, y mae yn 'un o'r cysuron penaf y bydd i Gristionogaeth a'r eglwys fod yn y diwedd yn fuddugoliaethus. Dealla rhai y mynegiad hwn fel cadarnhâd o gyflawniad holl ragfynegiadau y Dadguddiad; ond os yr angel, yn *pen.* xvii. 1, ydyw y llefarydd, mwy naturiol ydyw cyfyngu y mynegiad at y prophwydoliaethau a'r dadguddiadau a roddwyd i'r gweledydd o ddechreu *pen.* xvii 1, hyd ddiwedd y llyfr.

10. *A syrthiais wrth ei draed:*—agwedd arferol addolwyr yn y dwyrain. *I'w addoli ef:*—nid arddangosiad o barch fel ag a delir gan israddolion i uwchraddolion; ond y parch addoliadol a gyflwynir i Dduw. Diau mai yr achos o hyn oedd fod y gweledydd wedi ei orchfygu gan urddas mawreddog yr angel, ac yn enwedigol gan arddercholgrwydd y gweledigaethau a roddai iddo. Awgrymir hyn yn *pen.* xxii. 8; "A phan ddarfu i mi glywed a gweled, mi a syrthiais i lawr i addoli ger bron traed yr angel oedd yn dangos i mi y pethau hyn." "Yr oedd yr angel a gadarnhäai iddo fel hyn, yn enw Duw, wirionedd a sicrwydd y dadguddiadau mawrion yma, yn ymddangos iddo yn deilwng o rywfaint o'r parch a berthynai i Dduw ei hun." Barna rhai mai y rheswm fod Ioan yn cynnyg ei addoli yw, ei fod yn meddwl ar y pryd mai yr Arglwydd ei hun ydoedd. Nid yw gwrthddadl Alford i'r dybiaeth yma yn ymddangos i ni yn ddigon. Y mae yn wir y dywedir yn *pen.* xvii. 1, mai un o'r saith angel sydd yn llefaru, ac y dangosir yn *pen.* xxii. mai angel yw; etto, nid oes dim yn annhebygol yn y dybiaeth

11 Ac mi a welais y nef yn agored, ac wele farch gwyn; a'r hwn oedd yn eistedd arno a elwid [m]Ffyddlawn a Chywir,[n] ac mewn cyfiawnder y mae efe yn barnu ac yn rhyfela.

12 A'i lygaid *oedd* fel fflam dân, ac ar ei ben yr oedd coronau lawer: ac yr oedd ganddo enw yn ysgrifenedig, yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun:

[m] Ioan 14. 6, [n] Salm 45. 3—7; 1. 6; 96. 13; 98. 9; Esa. 45. 21; 63. 1—5; Ier. 23. 5, 6; 33. 15; Zech. 9. 10; Heb. 7. 1, 2.

13 Ac *yr oedd* [o] wedi ei wisgo â gwisg wedi ei throchi mewn gwaed: a gelwir ei enw ef, [p]Gair Duw.

14 A'r lluoedd oedd yn y nef a'i canlynasant ef ar feirch gwynion, wedi eu gwisgo â llian main, gwyn, a glân.

15 Ac [q]allan o'i enau ef yr oedd yn dyfod gleddyf llym, i daro y cenhedloedd âg ef: [r]ac

[o] Salm 58. 10; Esa. 9. 5; 34. 3—5; 63. 1—6. [p] Ioan 1. 1, 14; 1 Ioan 1. 1; 5. 7.

[q] Esa. 11. 4; 30. 33; 2 Thes. 2. 8 [r] Salm 2. 9.

---

fod mawredd y dadguddiadau yn peri i'r gweledydd anghofio ar y funyd pwy a lefarai wrtho. *Canys tystiolaeth Iesu*, &c.—Y dystiolaeth am Iesu, yr hon y mae Crist yn destyn ac yn wrthddrych iddi. Y dystiolaeth am Iesu yw ffrwyth yr un ysbryd prophwydoliaeth ynwyf fi ac ynot ti. Y mae angylion, prophwydi, ac apostolion yn dwyn tystiolaeth i'r un Iesu trwy weithredïad yr un a'r unrhyw Ysbryd—yr un Ysbryd ag a allu ogai yr angel i'w dangos, oedd hefyd yn arwain Ioan i'w hysgrifenu mewn llyfr; gan hyny, cydweision oedd yr angel a'r gweledydd; ac felly nid gweddus oedd i'r angel dderbyn parch un israddol i un uwch oddi wrth Ioan, heb son am yr addoliad sydd yn deilwng i Dduw yn unig. Ér fod y gair hwn yn wirionedd cyffredinol am brophwydoliaeth, yn ei ffynnonell a'i hamcan, yn yr Hen Destament a'r Newydd, etto fe ddywedir hyn gan yr angel er dangos fod Ioan ac yntau yn gydradd:—"Cydwas ydwyf i ti, ac i'th frodyr, y prophwydi." Yr oeddynt oll wedi "eu diodi i'r un Ysbryd." "Y mae yr angel yn gwrthod yr addoliad, i'r dyben o osod gweinidogaeth y prophwydi a'r apostolion ar dir mor uchel ag eiddo yr angylion."—*Bossuet.*

11—13. Cyfrifir y geiriau hyn fel yn arwain i mewn gyfnod pwysig yn ngweledigaethau y llyfr. Y mae y *nef yn agored* yn awgrymu pwysigrwydd yr hyn sydd yn canlyn. Hefyd, y mae *y march gwyn* yn edrych yn ol at *pen.* vi. 2. Hwn yw y pwynt at ba un y mae y gweledigaethau blaenorol yn tueddu, ac yn yr hwn y maent yn cael eu cyflawniad; yma yr ymgyferfydd ac yr ymuna y seliau, yr udgyrn, a'r phiolau. Y mae Alford yn galw yr adran, o *adn.* 11 hyd *pen.* xxii. 5, "Y diwedd;" a dechreuad y diwedd hwn ydyw dyfodiad buddugol Mab Duw allan o'r nef. *Coronau lawer:*—coronau brenin; nid garlantau y gorchfygwr. Mae y "coronau" hyn yn cyfatteb i'r goron yn *pen.* vi. 2, a xiv. 14; ac y mae eu lliosogrwydd yn cyfatteb i'r enw "Brenin brenhinoedd, ac Arglwydd arglwyddi." Y mae yn ddynt hefyd gyfeiriad gwrthgyferbyniol at ddeg corn y bwystfil. Y mae yr un, yr hwn sydd ganddo goronau lawer, yn annhraethol uwch a chryfach na'r hwn ag oedd ganddo ddeg corn, ac ond un goron ar bob corn. Pan ddigalonir ni gan goronau y deg brenin, edrychwn ar yr un pen disglaer gyda'r coronau lawer; edrychwn ato ef, yr hwn y mae pob awdurdod yn y nef a'r ddaear wedi ei roddi iddo.—*Hengstenberg.* Barn rhai yw, fod cyfeiriad yn y "coronau lawer" at fuddugoliaethau Crist—mai coronau y brenhinoedd sydd wedi eu dymchwelyd ganddo ydynt; ac i gefnogi y golygiad, appeliant at 2 *Sam.* xii. 30, y lle y mae Dafydd yn gwisgo coron brenin gorchfygedig yr Ammoniaid; ac at 1 *Macc.* xi. 13, hefyd, lle y mae Ptolemy yn dodi ar ei ben ddwy goron—coron yr Aipht, a choron teyrnas Asia. *Enw.*—Y mae Ioan yn gweled yr enw. Ymddengys yr enw iddo wedi ei ysgrifenu; ond nis gall ei ddarllen a'i fynegu. Yr oll y mae yn ei weled ydyw, ei fod yn enw llawn o ogoniant annisgrifiadwy; ond y mae yn cael ei ddallu gan ei ddisgleirdeb fel nad ydyw yn alluog i'w ddarllen a'i hysbysu. "Nid edwyn neb y Mab ond y Tad" (*Mat.* xi. 27); ond gall yr eglwys wybod ei ogoniant tra rhagorol er nad yw yn abl i'w amgyffred. Y mae yr enw, yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun, yn cyfatteb i urddas anghymmharol y Mab, yr hwn sydd yn wirionedd a ddysgir yn aml yn Efengyl Ioan.—*Hengstenberg.* Y mae yn sicr mai nid yr enw a nodir yn *adn.* 13, ydyw yr enw hwn; ac nid yr ystyr yw, mai efe ei hun yn unig a wyr y dirgelwch sydd gynnwysedig yn yr enw hwnw. "Yr enw newydd," yn *pen* iii. 12, fe allai, ydyw; rhyw enw newydd yn dynodi cwblhâd yr undeb rhyngddo ef a'i bobl, a pherffeithrwydd ei oruchafiaeth ar ei elynion. Nid oedd Ioan etto yn ei wybod, ond deuai amser pryd y dadguddid ef iddo ef, ac i'r eglwys yn gyffredinol. "Enw ydyw y gellir ei ddeall yn ei lawn ystyr pan y bydd ei undeb â'r saint a'i fuddugoliaeth ef a hwythau ar eu gelynion yn cael eu dadguddio yn berffaith yn ei ail ddyfodiad a'i deyrnas."—*Brown. Wedi ei throchi mewn gwaed:*—gyda chyfeiriad at *Esa.* lxiii. 2, 3. Barna Alford, yr hyn sydd yn ymddangos yn debyg, mai gwaed ei elynion, ac nid ei waed ei hun, a feddylir. Am Grist fel gorchfygwr y lleferir: nid am dano fel aberth. *Gair Duw.*—Yr un enw ar Fab Duw ag a geir yn Efengyl Ioan. Y mae y rhai a ammheuant ddilysrwydd Llyfr y Dadguddiad yn ceisio amddifadu yr enw, fel y mae yma, o'i ystyr naturiol. Dangosir yn y bennod gyntaf o'r Beibl, ebe Hengstenberg, pa beth y mae "Gair Duw" yn alluog i'w wneuthur: trwyddo ef y galwyd nefoedd a daear i fodolaeth: *Salm* xxxiii. 6. Os Crist ydyw Gair personol Duw—gan nad yw pob peth arall a elwir yn Air, ond cyfran fechan o'i natur—pa fodd y gall neb feddwl y dichon dim crëedig sefyll o'i flaen! Y mae yn rhaid y diflana y deg brenin fel niwl wrth swn ei enw ofnadwy. "Ni ddywedir yma y gelwir ei enw ef 'Iesu,' o blegid y mae yn ei amlygu ei hun yn yr amgylchiad hwn, nid fel Gwaredwr ei bobl, ond fel dinystrydd ei elynion. Felly gelwir ef yma wrth yr enw 'Gair Duw,' yr hwn sydd hynach na'r enw 'Iesu.' Y mae yr enw 'Iesu,' mewn modd arbenig, yn arddangos ei ras, a'r enw 'Gair Duw' ei fawrhydi."—*Bengel.*

14. Y *lluoedd oedd yn y nef*, ydynt yr un a'r "rhai sydd gydag ef," yn *pen.* xvii. 14; sef, y saint mewn gogoniant, y "rhai galwedig, etholedig, a ffyddlawn." *Ar feirch gwynion*:—yn dynodi eu hundeb âg ef, eu cyffelybrwydd iddo, a'u cyd-

efe a'u bugeilia hwynt â gwialen haiarn: [a]ac efe sydd yn sathru cerwyn win digofaint a llid Duw Hollalluog.

16 Ac y mae ganddo [b]ar ei wisg, ac ar ei forddwyd, enw wedi ei ysgrifenu, [c]BRENIN BRENHINOEDD, AC ARGLWYDD ARGLWYDDI.

17 Ac mi a welais angel yn sefyll yn yr haul; ac efe a lefodd â llef uchel, gan ddywedyd wrth yr holl adar oedd yn ehedeg trwy ganol y nef, Deuwch ac ymgesglwch ynghyd i swper y Duw mawr;

18 Fel y bwytaoch gig brenhinoedd, a chig pen-capteniaid, a chig y cedyrn, a chig meirch, a'r rhai sydd yn eistedd arnynt, a chig holl ryddion a chaethion, a bychain a mawrion.

19 Ac mi a welais y bwystfil, a brenhinoedd y ddaear, a'u lluoedd, wedi ymgynnull ynghyd i wneuthur rhyfel yn erbyn yr hwn oedd yn eistedd ar y march, ac yn erbyn ei lu ef.

20 A [z]daliwyd y bwystfil, a chydag ef [y]y gau brophwyd, yr hwn a wnaeth wyrthiau ger ei fron ef, trwy y rhai y twyllodd efe y rhai a dderbyniasent nôd y bwystfil, a'r rhai a addolasent ei ddelw ef. [z]Yn fyw y bwriwyd hwy ill dau i'r llyn tân yn llosgi â brwmstan.

21 A'r lleill a laddwyd â chledd-

[a] Esa. 63. 2-6.
[b] Dad. 12. 12.
[c] Salm 72. 11; Phil. 2. 9—11; 1 Tim. 6. 15.
[z] Dan. 7. 7 12—14, 19—21, 23, 24.
[y] Dan. 7. 8-11; 8. 24, 25; 2 Thes. 2. 8—11.
[z] Dan. 7. 11; 11. 45.

gyfranogiad âg ef yn yr ymdrech a'r fuddugoliaeth.

15. Ar wahanol ranau yr adnod, gwel *pen.* i. 16; ii. 12, 16, 27; xii. 5; xvi. 19.

16. Tra y mae yr enw nad adwaenai neb ond efe ei hun yn ysgrifenedig ar ei ben, y mae yr enw hwn yn ysgrifenedig ar ei wisg ac ar ei forddwyd. Y mae y ffugr yma yn unol âg arferiad oedd yn adnabyddus. Disgrifia Cicero ddelw o Apollo, ar forddwyd pa un yr oedd yn gerfiedig mewn llythyrenau arian bychain enw y gwneuthurwr, Myro. Dywed Barnes, fod y cyfeiriad at yr arferiad o ysgrifenu enw dyn urddasol ar ei ddillad, fel y byddai yn hawdd ei adnabod. Sonia Herodotus am gerfiun Sesostris yn Iona, a dywed fod ar draws ei ddwyfron, o ysgwydd i ysgwydd, ysgrifen yn llythyrenau cyssegredig yr Aipht, "Mi a orchfygais y wlad hon trwy rym fy arfau."

17—21. Dinystr y bwystfil a'r gau brophwyd, a brenhinoedd y ddaear. Gwelir wrth gymmharu *pen.* xiii. 12, âg *adn.* 20, mai yr un ydyw yr ail fwystfil a'r gau brophwyd. Dywedir am yr ail fwystfil, ei fod yn gwneuthur holl allu y bwystfil cyntaf ger ei fron ef, a'i fod yn gwneuthur rhyfeddodau mawrion; ac yma fod "y gau brophwyd yn gwneuthur gwyrthiau ger bron y bwystfil." Yn ol y rhan fwyaf o'r esbonwyr hanesyddol, y bwystfil cyntaf ydyw gallu tymmorol y Babaeth; 'r ail fwystfil, neu y gau brophwyd, y gallu eglwysig. Yr achos fod yr enw yn cael ei newid o "bwystfil arall" i "gau brophwyd" yw, mai yr oll a erys o'r Babaeth, ar ol y farn ar y butain, fydd y gallu sydd ganddi i dwyllo. Tybia ereill mai rhyw ganlynydd i'r Babaeth yn ei honiadau ysbrydol fydd y gau brophwyd: ereill, mai y gau brophwyd ydyw Mahometaniaeth. Ymddengys y golygiad cyntaf yn fwy tebygol. *Yn yr haul:*—fel canolbwynt goleuni; sefyllfa yn gweddu i fynegydd buddugoliaeth mor fawr. Hefyd, fel lle priodol i wneuthur y cyhoeddiad cyffredinol a ganlyn, yr hwn a gyfeirir at yr holl adar oedd yn ehedeg trwy ganol y nef. Saif yr angel yn weledig i bawb. Bydd y barnau a gyhoeddir yn cael eu gweinyddu yn ngolwg yr holl fyd. *Deuwch.*—Cymmharer *Esec.* xxxix. 17, &c., o'r lle y mae y geiriau wedi eu cymmeryd: gwel hefyd *Mat.* xxiv. 28. *Fel y bwytaoch.*—Wrth yr adar y meddylir pawb yn ddiwahaniaeth, heb gyfeiriad at eu perthynas flaenorol âg anghrist, y rhai yr hyrwyddir eu buddiannau ysbrydol yn gystal a thymmhorol trwy ei ddinystr.—*Webster* a *Wilkinson.* Y mae amryw o'r esbonwyr yn rhoddi ystyron i fanylion y disgrifiad:—Yr angylion a feddylir wrth yr adar [*Primasius*]: cenhedloedd ac eglwysi [*Brightman*]. Mwy cysson âg arwyddluniaeth y llyfr ydyw golygu y geiriau fel darluniad o fawredd a chyffredinolrwydd y dinystr a'r difrod. *Gig brenhinoedd:*—eu meddiannau: *pen.* xvii. 16. *I wneuthur rhyfel:*—fel uchod, dan y chweched phiol (*pen.* xvi. 12) ar faes Armagedon. Darllena Alford, "i wneuthur eu rhyfel," sef y rhyfel a ragfynegir yn flaenorol: *pen.* xvi. 14, xvii. 14. *Ei lu ef.*—Un yw ei fyddin ef, a than un pen: y mae y gelynion yn amryw, a chanddynt amryw arweinwyr.—*Alford. A chydag ef y gau brophwyd:*—Cymmeradwya Alford ddarlleniad y llawysgrif Alexandriaidd: "A daliwyd y bwystfil, a'r rhai oedd gydag ef, a'r gau brophwyd." Y rhai oedd gydag ef oedd y gau brophwyd, a'r "lleill" yn *adn.* 21. *Brenhinoedd y ddaear,* ydyw y galluoedd hyny—galluoedd brenhinol neu ymherodrol gan mwyaf, y rhai ydynt brif attegion y Babaeth. Dichon mai milwrol ydyw y lluoedd a berthyn iddynt, ac y mae hanesiaeth yn dangos fod lluoedd milwrol wedi cael eu defnyddio gan frenhinoedd y ddaear i gefnogi y Babaeth; ond meddylir hefyd lluoedd eglwysig, llenyddol, ac addysgawl. Etto, y mae y rhai hyn, neu lawer o honynt, yn troi yn erbyn y gormes anghristiadd yn y rhyfel, ac yn estyn cynnorthwy er ei dinystrio: *pen.* xvii. 14—16. Y mae De Wette, ar bwys *adn.* 21, "â chleddyf yr hwn oedd yn eistedd ar y march," yn dadleu mai goruchafiaeth o natur ysbrydol a ragfynegir: nad ymddengys fod un frwydr yn cymmeryd lle, ond fod yr Arglwydd ei hunan, fel y dangosir yn 2 *Thess.* ii. 8, yn dinystrio y gelynion â chleddyf ei enau ei hun. Ond, fel y sylwa Alford, nid oes genym un sail i ysbrydoli holl fanylion y disgrifiad. Pa beth y mae yr ymgynnulliad o frenhinoedd y ddaear ynghyd yn ei olygu, yn ol dull De Wette o esbonio y rhyfel? Y mae yn bur debygol, ebe Webster a Wilkinson, fod brwydrau a difrod llythyrenol yn cael eu rhagfynegu yn y cyhoeddiad hwn, fel yn offerynol i ryw raddau yn nymchweliad anghrist a'i gynorthwywyr. Y mae yn wir fod anghrist yn allu egiwysig ac ysbrydol; etto y mae wedi ymffurfio

yf yr hwn oedd yn eistedd ar y march, yr hwn oedd yn dyfod allan o'i enau ef: a'r holl adar a gawsant eu gwala o'u cig hwynt.

PENNOD XX.

2 *Rhwymo Satan dros fil o flynyddoedd.* 5 *Yr adgyfodiad cyntaf:* 6 *mai gwyn eu byd y rhai sydd iddynt gyfran ynddo.* 7 *Gollwng Satan yn rhydd drachefn.* 8 *Gog a Magog.* 10 *Bwrw diafol i'r pwll o dân a brwmstan.* 12 *Yr adgyfodiad diweddaf cyffredinol.*

B. A. 96.

[a] Dad. 10. 1; 18. 1.

[b] Dad. 1. 18; Luc 8. 31.

AC [a]mi a welais angel yn disgyn o'r nef, [b]a chanddo agoriad y pydew diwaelod, a chadwyn fawr yn ei law.

2 Ac efe a ddaliodd y ddraig, yr hen sarph, yr hon yw Diafol a Satan, ac a'i rhwymodd ef *dros* fil o flynyddoedd,

[c] Dad. 17. 8.

3 Ac [c]a'i bwriodd ef i'r pydew diwaelod, ac a gauodd arno, ac a seliodd arno ef, fel [d]na thwyllai efe y cenhedloedd mwyach, nes cyflawni y mil o flynyddoedd: ac ar ol hyny rhaid yw ei ollwng ef yn rhydd *dros* ychydig amser.

[d] Dad. 12. 9; 13. 14; Mat. 24. 24.

4 Ac mi a welais orseddfeinge-iau, a hwy a eisteddasant arnynt, a barn a roed iddynt hwy: ac *mi a welais* [e]eneidiau y rhai a dorwyd eu penau am dystiolaeth Iesu, ac am air Duw, [f]a'r rhai ni addolasent y bwystfil na'i ddelw ef, ac ni dderbyniasent ei nôd ef

[e] Mal. 4. 5; Mat. 17. 10—13.

[f] Dad. 13. 12—17; 14. 11.

mewn gormeslywodraeth gwladol. Ei ddinystr yw dymchweliad ysbrydol, poen, a marwolaeth; etto y mae yn cynnwys trychineb gwladol a thymmhorol. Y prif offeryniaeth i'w ddinystrio yw "cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw Gair Duw;" ond y mae effeithiolrwydd defnyddiad yr offerynoliaeth hwn yn dibynnu, i raddau mawr, ar weithrediadau parotoawl Rhagluniaeth mewn cyffroadau gwladol. Y mae cynnhyrfu ac ysgwyd y ddaear, mewn ystyr gwladyddol, yn arfer rhagflaenu cyfnewidiadau o bwys yn y byd moesol.

PENNOD XX.

1—10. Y FUDDUGOLIAETH AR SATAN.

1. *Angel.*—Angel crëedig, fel yn holl weledigaethau y llyfr: nid Iesu Grist. *Y pydew diwaelod*:—trigle y diafol a'i angylion (*pen.* ix. 1). Nid yr un ydyw y "pydew" a'r "llyn o dân;" (gwel *adn.* 10): mae y llyn o dân yn lle o gospedigaeth mwy ofnadwy. Yr oedd agoriad y pydew heb waelod wedi ei roddi i Satan o'r blaen, a chanddo ef y gollyngwyd y locustiaid allan (*pen.* ix. 1—11); ond yn awr y mae yr agoriad yn cael ei ymddiried i un arall, ac i ddybenion ereill.—*Alford.*

2. *Dros fil o flynyddoedd.*—Y mae amryw o esbonwyr, hen a diweddar, yn ystyried y rhan flaenaf o'r bennod hon yn cyfeirio at gyfnod boreu yn hanes yr eglwys. Dyma farn y rhan fwyaf o'r tadau, ac yn eu plith Jerome, Origen, Augustine, i lawr hyd Bede ac Aquinas. Ond barna y rhan fwyaf fod digwyddiadau y bennod hon i gymmeryd lle yn ddilynol i'r digwyddiadau a ragfynegir yn niwedd y bennod o'r blaen. Y prif reswm dros y golygiad hwn ydyw, nad ymddengys fod un cyfnod yn hanes yr eglwys, o'i sefydliad hyd y dydd hwn, yn cyfatteb i rwymiad a charchariad Satan dros fil o flynyddoedd. Y mae y cyfryw attaliad ar weithrediad ei allu yn hollol anghysson â'i sefyllfa o uchafiaeth, fel y disgrifir ef yn ngweledigaethau blaenorol y llyfr hwn, yn ei berthynas â'r eglwys a chenhedloedd y ddaear. Nis gellir meddwl fod y digwyddiadau echryslawn dan agoriad y seliau, udganiad yr udgyrn, a thywalltiad y phiolau, wedi cymmeryd lle ar y ddaear pan oedd y diafol yn rhwym am fil o flynyddoedd. Nid yw yn bossibl fod y cyfnod hwn yn cyfatteb i'r cyfnodau a nodir yn *pen.* xii. 9, pan erlidiai Satan y wraig, a'r lleill o'i hâd hi; nac i'r sefyllfa a ddisgrifir yn *pen.* xiii., pan "roddwyd iddo wneuthur rhyfel â'r saint, a'u gorchfygu hwynt:" nac i dystiolaeth y tystion, yr hon a ddygent mewn sachlian, y rhyfel yn erbyn, a'u lladdiad; nac i gyfnod uchafiaeth Babilon a'r butain. Nis gallasai y ddraig fod wedi ei rhwymo, a'i charcharu yn y pwll diwaelod, yn yr adeg ag y daeth ysbrydion aflan, tebyg i lyffaint, allan o'i genau—yr ysbrydion cythreuliaid a annogent alluoedd y byd i ryfel fawr Armagedon. Y tymmhorau yr ydym wedi darllen am danynt hyd yma yn y llyfr, yr ydym yn cael fod y bwystfil, neu y gau brophwyd, y ddraig, mewn rhyw ffurf neu gilydd, yn meddu gallu ac awdurdod ar y rhai oedd yn trigo ar y ddaear, ac fod y cenhedloedd yn cael eu tywyllo ganddi; ond yn ystod y mil blynyddoedd, bydd gweithrediad y gallu hwnw wedi ei attal: ni bydd yn twyllo y cenhedloedd mwyach. Nis gall tymmhor adgyfodiad a theyrnasiad y merthyron fod yr un a thymmhor eu merthyrdod. Y mae yn rhaid felly, os nad ydym yn barod i dderbyn y tybiau uchod, y rhai sydd yn ymddangos i ni yn gwbl anghysson, i ni farnu fod y mil blynyddoedd yn golygu rhyw gyfnod o amser a ganlyna ddinystr y bwystfil a'r gau brophwyd: *pen.* xix. 20, 21. Y mae rhai esbonwyr, ar bwys camddeongliad o 2 *Pedr* iii. 8—geiriau a fernir ganddynt yn cyfeirio at y mil blynyddoedd—yn golygu y bydd y cyfnod yn ymestyn dros 365,000 o flynyddoedd. Ychydig, fodd bynag, sydd yn cefnogi y golygiad hwn. Ni sonir am flynyddoedd yn ngweledigaethau y Dadguddiad oddi eithr mewn un lle (*pen.* ix. 15), ac nid oes digon o sail dros feddwl fod blwyddyn yno yn arwyddo 365 o flynyddoedd. Dadleua Webster a Wilkinson fod y cyfattebiaeth sydd yn cyfodi oddi wrth barhâd cyfnodau mawrion ereill yn y llyfr hwn yn fwy ffafriol i'r dybiaeth mai deg o ganrifoedd a feddylir wrth y mil blynyddoedd. Rhydd ereill ystyr cyfriniol i'r rhif:—"Megys y mae saith yn arwyddo cyffredinolrwydd, felly y mae mil yn arwyddo perffeithrwydd, pa un bynag ai mewn drygioni ai mewn daioni."—*Aquinas.* Y mae 'mil' yn arwyddo fod y byd wedi ei lefeinio yn berffaith gan y Dwyfol. Y rhif mil ydyw deg, wedi ei godi deirgwaith—10 x 10 x 10—a'r rhif tri ydyw rhifedi Duw.—*Auberlen.* Y mae y golygiad cyffredin, mil o flynyddoedd yn yr ystyr llythyrenol, yn ymddangos i ni yn fwy tebygol nag un o'r lleill.

4—6. *Yr adgyfodiad cyntaf.*—Y mae y weledigaeth hon yn gyffelyb mewn llawer o bethau i weledigaeth Daniel, yn *pen.* vii. 9: cymmharer hefyd *Mat.* xix. 28. Trwy gymmhariaeth o'r weledigaeth yn Daniel, gwelir fod digwyddiadau

ar eu talcenau, neu ar eu dwy-
[g] Rhuf. 8. 17. law; a [g] hwy a fuant fyw ac a
deyrnasasant gyda Christ fil o
flynyddoedd.
5 Eithr y lleill o'r meirw ni
fuant fyw drachefn, nes cyflawni
y mil blynyddoedd. [h] Dyma yr [h] Dad. 11. 11, 15; Rhuf. 11. 15.
adgyfodiad cyntaf.
6 [i] Gwynfydedig a sanctaidd
yw yr hwn sydd â rhan iddo yn [i] Dad. 22. 7; Luc 14. 15.
yr adgyfodiad cyntaf: y rhai hyn
nid oes i'r ail farwolaeth awdur-

---

y bennod hon yn sefyll mewn cyssylltiad agos mewn amser âg eiddo y bennod o'r blaen. *A hwy a eisteddasant:*—"hwy," sef, y rhai a nodir yn *pen.* i. 6; "Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid. Gw. hefyd *pen.* v. 10, yr henuriaid, cynnrychiolwyr y prynedigion. Gan mai ysbrydol ydyw offeiriadaeth y credinwyr, ac nid cnawdol (1 *Pedr* ii. 5), gellid meddwl mai ysbrydol yn unig ydyw eu brenhiniaeth. Gweinyddant yr offeiriadaeth yn y bywyd hwn (*Rhuf.* xii. 1; *Heb.* xiii. 15); ac y maent hefyd yn teyrnasu yn y bywyd hwn. Y mae y gorseddfeingciau yn cyfatteb i'r disgrifiad a ddyry Crist o'i frenhiniaeth (*Ioan* xviii. 36, 37), ac yn arwyddo brenhiniaeth ysbrydol. Bydd y frenhiniaeth hon yn ymestyn dros bob gwlad—yn frenhiniaeth gyffredinol a gogoneddus—yn y mil blynyddoedd. Dyma yr amser y bydd y saint "wedi meddiannu y frenhiniaeth" (*Dan.* vii. 22)—y bydd y bobl yn gyfiawn oll (*Esa.* lx. 11)—a'r eglwys wirioneddol yn ogyfled a'r eglwys weledig, heb un gallu gwrthwynebol iddi ar wyneb yr holl ddaear. *A fuant fyw ac a deyrnasasant.*—Y mae amryw esbonwyr yn deall y geiriau yn llythyrenol. Dywed Alford nas gellir, fodd yn y byd, eu hesbonio yn deg fel ag i olygu adgyfodiad a theyrnasiad ysbrydol. Sonir yma am ddau adgyfodiad; ac os deallir yr olaf yn llythyrenol, dadleuir y dylid deall y cyntaf hefyd felly. Os bywhâd ysbrydol gyda Christ a feddylir wrth y cyntaf, ac adgyfodiad llythyrenol wrth yr ail, y mae Alford yn sylwi, fod y dull yma o esbonio yn ysbeilio iaith y Beibl o bob ystyr, ac nas gellir appelio ato am dystiolaeth bennodol ar un mater. "Os adgyfodiad ysbrydol yw y cyntaf, y mae yn rhaid golygu yr ail hefyd yn ysbrydol; yr hyn ni wneir gan neb. Ond os llythyrenol ydyw yr ail, yna y mae y cyntaf felly; yr hyn yw golygiad yr holl eglwys foreuol, a lliaws o'r esbonwyr diweddar goreu."—*Alford.* Ond ymddengys i ni fod amryw bethau yn yr adnodau dan sylw, yn gystal ag yn athrawiaeth y Beibl yn gyffredinol ar adgyfodiad y meirw, yn milwrio yn gryf yn erbyn y golygiad hwn. Mae Alford yn rhoddi pwys gormodol, yn ein golwg ni, ar farn y tadau ar y cwestiwn, ac o'r braidd anghysson â'i dueddiadau Protestanaidd cryfion ef ei hun. *Eneidiau y rhai a dorwyd eu penau am dystiolaeth Iesu,* a welodd Ioan; yr eneidiau hyn "a fuant fyw, ac a deyrnasasant gyda Christ fil o flynyddoedd." Pe am adgyfodiad llythyrenol y llefarasai Ioan, naturiol fuasai iddo son am gyrph y merthyron, yn hytrach na'u heneidiau. Nis gall "eneidiau" yma olygu dim gwahanol i'r un gair yn *pen.* vi. 9. Y meddwl naturiol a mwyaf syml i'r gair ydyw, y byddai i'r rhai a fuant ffyddlawn hyd angeu fyw eilwaith mewn personau o'r un ysbryd, ac yn cael eu llywodraethu gan yr un egwyddorion a hwy eu hunain. Bywhâd o'r un natur ydyw hwn ag adgyfodiad y tystion: *pen.* xi. 11. "Mor fynych, ac mor briodol," ebe un awdwr, "y lleferir am ferthyron a chyffeswyr fel yn mwynhau goruchafiaeth yn llwyddiant ac eangiad yr egwyddorion hyny, y rhai a amddiffynwyd ac a gadwyd ganddynt trwy eu gwroldeb ysbrydol. Gellir galw y cyfryw oruchafiaeth yn "deyrnasu," pan y bydd llwyddiant eu hegwyddorion yn gyffredinol, a'r genhedlaeth fydd yn eu cofleidio yn cynnwys holl ddynolryw." Nid yw y gair 'teyrnasu' yn ffafrio y dybiaeth am adgyfodiad a theyrnasiad llythyrenol. Y mae yn cael ei ddefnyddio yn fynych mewn ystyr ysbrydol: *Luc* xix. 14; *Rhuf.* v. 14, 21; vi. 12; 1 *Cor.* iv. 8. Ac er y dywedir eu bod yn teyrnasu "gyda Christ," etto nid yw hyn yn rhoddi y sail leiaf i'r dybiaeth; o blegid, cydnabydda y golygiad arall mai yn eu hundeb â Christ y maent wedi eu gwneuthur yn frenhinoedd, yn gystal ag yn offeiriaid. Ac y mae yn deilwng o sylw, na chrybwyllir yma am unrhyw ddyfodiad neu ymddangosiad o eiddo Crist, fel y buasai yn naturiol disgwyl pe y llefaresid am adgyfodiad cyrph y saint. O ran y cwbl a ddywedir yn y geiriau hyn am Grist, gallai bywyd a theyrnasiad y saint fod gydag ef yn ei ystâd bresennol yn y nef. Yr unig ddyfodiad o eiddo Crist y gellir ei gyssylltu â'r adran hon ydyw yr un a ddisgrifir yn *pen.* xix. 11—16; ond y mae hwnw yn cael ei ddeall gan yr holl esbonwyr mewn ystyr ffugrol am ei bresennoldeb ysbrydol a'i weithrediad anweledig. Gwel 2 *Thes.* ii. 8—10. Nid ymddengys i ni fod llawer o rym yn y ddwy brif ddadl a ddygir yn erbyn y golygiad cyffredin:—1af, Fod bywyd y saint hyn yn cyfatteb i'w marwolaeth: ac yn 2il, fod eu bywhâd yn fywhad llythyrenol, am fod adgyfodiad "y lleill o'r meirw," yn *adn.* 5, yn adgyfodiad llythyrenol. Os dadleuir fod y bywhâd i'w ddeall yn llythyrenol, dylid cymmhwyso yr un dull at holl eiriau yr adran hon. Ond y mae amddiffynwyr y dybiaeth o adgyfodiad llythyrenol yn amlygu cryn anghyssondeb, pan y maent yn ymadael â'r dull llythyrenol wrth estyn ystyr y gair "eneidiau" at gyrph y saint, ac wrth gymmhwyso yr ymadrodd "y rhai a dorwyd eu penau" at bob math o ferthyron. Ceir yn Malachi brophwydoliaeth arall sydd yn help i esbonio y brophwydoliaeth hon. Prophwydir am Ioan Fedyddiwr dan yr enw Elias, am ei fod wedi ymddangos yn ysbryd a nerth Elias. Yr oedd yr un mor resymol i'r Iuddewon ddisgwyl gweled Elias yn bersonol fel rhagflaenor i'r Messiah ag ydyw i rai esbonwyr ddëongli y geiriau hyn fel rhagfynegiad o fywhâd corphorol y merthyron: ïe, yr oedd yn fwy rhesymol; o blegid tra y sonir yn Malachi am Elias, yn ei holl berson, ni leferir yma ond am "eneidiau" y merthyron; heb law y gallesid disgwyl y buasai y cyflawniad o brophwydoliaeth Malachi, a'r eglurhâd arni gan yr efengylwr (*Luc* i. 17), yn allwedd digonol i ymadroddion o fath y rhai hyn. Gellir nodi yn mhellach fod Iesu Grist (*Ioan* v. 25—29) yn llefaru am fywhâd ysbrydol ac am fywhâd corphorol bron yn yr un geiriau. Ac yn *Mat.* viii. 22, y mae y gair 'meirw' yn digwydd ddwywaith: yn y naill mewn ystyr ysbrydol, ac yn y llall mewn ystyr llythyrenol neu gorphorol. Wrth "yr adgyfodiad cyntaf," gan hyny, y meddylir rhyw fywhâd ysbrydol mawr, cyffelyb i'r adgyfodiad

dod arnynt, eithr hwy a fyddant offeiriaid i Dduw ac i Grist, ac a deyrnasant gydag ef fil o flynyddoedd.

yn y dydd diweddaf—yn effaith yr un gallu bywiocaol a'r adgyfodiad hwnw. Nid ydyw y gair 'adgyfodiad cyntaf' yn fwy dyeithrol nag ydyw "geni drachefn" i ddynodi adnewyddiad y galon. Yn *Rhuf.* xi. 15, defnyddir yr ymadrodd "bywyd o feirw" am effaith trŏedigaeth yr Inddewon. Sylwer hefyd fod y disgrifiad mwyaf bywiog o adgyfodiad o feirw yn y prophwydi yn golygu, nid adgyfodiad llythyrenol, ond adfywiad ysbrydol a gwleidyddol y genedl Iuddewig o'i sefyllfa randedig a dirywiedig: *Esec.* xxvii. 1—14. Drachefn: nid yw yr Ysgrythyr yn sôn ond am ddau adgyfodiad—bywhâd yr enaid o'i farwolaeth ysbrydol, ac adgyfodiad y corph yn y dydd diweddaf: nid oes un gobaith yn cael ei ddal o'n blaen yn addewidion Duw am fywhâd y corph hyd ddydd yr adgyfodiad cyffredinol, nac am un ymddangosiad personol, gweledig, o eiddo Mab y dyn, ar ol ei ymddangosiad yn y cnawd, hyd ei ymddangosiad ar y cwmwl yn nydd y farn. Yr ymddangosiad hwn ydyw ei ddyfodiad "yr ail waith, heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl er iachawdwriaeth." Dengys yr apostol Paul (1 *Cor.* xv. 54) y llyngcir angeu mewn buddugoliaeth yn adgyfodiad cyrph y saint: "a'r gelyn diweddaf a ddinystrir yw yr angeu." Ni bydd un o elynion yr eglwys yn aros wedi i hwn gael ei ddinystrio: bydd pob awdurdod, a phob pendefigaeth a nerth wedi ei ddileu; ond gwelir yn y bennod hon y cyfyd llawer o elynion i Grist a'i deyrnas ar ol yr adgyfodiad cyntaf, ac y bydd dinystr angeu heb gymmeryd lle am fil o flynyddoedd o leiaf ar ei ol. Yr ydym ni, gan hyny, yn deall yr adgyfodiad cyntaf yn yr ystyr cyffredin a roddir iddo. Bydd sefyllfa pethau, yn nghyfnod y mil blynyddoedd, yn debyg i fel pe byddai y merthyron wedi dyfod eilwaith i fyw i'r ddaear; byddant fel yn cael eu hanrhydeddu, mawrygir eu henwau, dilynir eu hesampl, coleddir eu hegwyddorion: fel yr ymddangosodd Elias y prophwyd eilwaith yn nhir Israel yn mherson Ioan Fedyddiwr, felly yr ymddengys eneidiau y merthyron drachefn yn mhersonau dynion o gyffelyb feddwl iddynt. Dichon y bydd y merthyron yn gwybod, ac wrth wybod yn llawenhau am yr anrhydedd fydd ar eu hegwyddorion trwy yr holl fyd yn y cyfnod yma. Dros y golygiad yma y dadleua Whately:—"Gall y geiriau osod allan, nid bywhâd llythyrenol dynion meirwon, ond adnewyddiad mawr ar sêl Gristionogol ac ar sancteiddrwydd; adfywiad yn yr eglwys, neu mewn rhanau helaeth o honi, ar ysbryd a gweithgarwch yr hen ferthyron ardderchog, fel y daeth Ioan Fedyddiwr yn ysbryd a nerth Elias; y fath ag y bydd egwyddorion Cristionogaeth yn cael eu hamlygu mewn gweithrediad mewn graddau anfeidrol helaethach nag o'r blaen." Y mae y golygiad yma yn gysson â dullwedd yr Ysgrythyrau. Felly am y tystion: *pen.* xi. 11. Yn *Esec.* xxvii, "Wele fi yn agoryd eich beddau, fy mhobl:" ac yn *Hosea* vi. 2; *Luc* xv. 32; *Esa.* xxvi. 19. Un o reolau da dëonglyddiaeth ydyw, fod y rhanau mwyaf aneglur o'r Ysgrythyrau, ac yn enwedig y rhanau arwyddluniol, i gael eu hesbonio yn unol â'r rhanau mwyaf syml ac eglur. Dylai esboniadaeth geiriau arwyddluniol neu ddammegol gael ei reoli gan yr esboniad o eiriau ag y

7 A phan gyflawner y mil blynyddoedd, gollyngir Satan allan o'i garchar;

8 Ac efe a ä allan i dwyllo y

mae eu hystyr heb ei dywyllu gan ffugrau ac arwyddluniau. Yn awr, y mae yr adran dan ein sylw yn perthyn yn ddiammheuol i'r rhanau mwyaf aneglur; ac y mae yn ymddangos i ni fod yr ystyr llythyrenol a gyssylltir â hi yn cael ei wrthddywedyd gan eiriau nad oes le i ddadl am eu meddwl. Gwel *Ioan* v. 29; *Mat.* xxv. 31, 32, 46; 2 *Thes.* i. 7. Nid oes un gair eglur yn y Beibl yn rhoddi ar ddeall y bydd cyfwng mawr o amser rhwng adgyfodiad y cyfiawn ac adgyfodiad y drygionus. Addefir ar bob llaw, os ydyw athrawiaeth bywhâd llythyrenol y saint i deyrnasu gyda Christ yn weledig ar y ddaear dros fil o flynyddoedd yn cael ei dysgu o gwbl yn y Beibl, mai yn y geiriau hyn yn unig y mae yn cael ei dysgu. Ond y mae yn beth dyeithr meddwl mai mewn un adran, a'r adran honno o nodweddau arwyddluniol, y mae y cyfryw athrawiaeth yn cael ei dadguddio. Disgwyliesid y buasai athrawiaeth mor bwysig, pe yn wir, yn cael ei dysgu mewn mwy nag un lle, ac mewn iaith eglur. "Os dywedir," ebe Barnes, "fod hwn yn ddisgrifiad o adgyfodiad y cyfiawnion, fel y cyfryw—yn cynnwys yr oll o'r cyfiawnion—yna y mae yn gwbl annhebyg i'r holl ddisgrifiadau ereill yn y Beibl o adgyfodiad y cyfiawnion. Cyfyngir yr adroddiad yn y lle hwn i'r "rhai a dorwyd eu penau am dystiolaeth Iesu," ac i'r "rhai ni addolasant y bwystfil." Os y cyfiawnion, fel y cyfryw, a olygir yma, pa ham y nodir y dosbarth hwn o honynt—a neb ond hwy? Pa ham na ddefnyddir y terman cyffredinol arferol? Mewn manau ereill o'r Ysgrythyr, y mae yr adroddiad am yr adgyfodiad yn cael ei wneyd yn y geiriau mwyaf cyffredinol." Noda Barnes amryw o ystyriaethau ereill, na oddefa gofod i ni wneuthur sylw o honynt. Ymddengys fod yr adran ddilynol (*adn.* 7—10) yn anhawdd, os nad yn gwbl ammhossibl i'w hesbonio ar un tir, oddi eithr y golygiad cyffredin ar yr adgyfodiad cyntaf. Os bydd Crist yn teyrnasu yn weledig ar y ddaear gyda'r saint dros y mil blynyddoedd, y mae yn anhawdd dirnad pa fodd y gallai y fath ymadawiad oddwrth Dduw—y fath lwydd ag a ragfynegir a dwyll y gelyn—gymmeryd lle. Pwy fydd deiliaid twyll a hudoliaeth y diafol? A fydd Crist a'i saint ar y ddaear, pan fydd Satan yn casglu Gog a Magog ynghyd i ryfel yn ei erbyn ef a hwythau? Oni byddai i'w deyrnasiad ef, mewn nerth a gogoniant, yn yr Ierusalem ddaearol, beri braw a bob gelyn? Onid y ffaith fod ei awdurdod ef ysbrydol ac anweledig sydd yn rhoddi achlysur i ddynion anianol, y rhai sydd yn ddeillion i'r ysbrydol, i ymhyfhau yn ei erbyn, ac i herio ei awdurdod? Pe bae ei awdurdod hollalluog y cymmeryd y ffurf weledig o deyrnasiad daearol fel y byddai ei holl elynion dan orfod i'w hadnabod, ofer fyddai i Satan ei hun geisio dallu cenhedloedd y ddaear i'r fath raddau nes eu cael "amgylchu gwersyll y saint, a'r ddinas anwyl. Ai Crist, fel brenin gweledig, a'r saint gydag ef fydd gwrthddrychau yr ymgynghreiriad a'r rhyfelgyrch a ddisgrifir? Neu, a fydd i'r Arglwydd Iesu a'i saint ddychwelyd i'r nefoedd ar ollyngiad Satan yn rhydd, ac ail ymddangos ar ddydd y farn ddiweddaf? Os felly, pa sail sydd genyn yn y Beibl, yn ei dystiolaethau eglur am ddydd

cenhedloedd sydd yn mhedair
[k] Exod. 38. 20. [l] Dad. 16.14. congl y ddaear, [k]Gog a Magog, [l]i'w casglu hwy ynghyd i ryfel; rhif y rhai *sydd* fel tywod y môr.

9 A hwy a aethant i fyny ar led y ddaear, ac a amgylchasant wersyll y saint, a'r ddinas anwyl: [m]a thân a ddaeth oddi wrth Dduw i waered o'r nef, ac a'u hysodd hwynt.

[n] Gen. 19. 24; Exod. 9. 23, 24; 2 Bren. 1. 10—15; Salm 97. 3; Esa. 30. 33; Ezec. 38. 22; Luc 9. 54. Dad. 2. 3.

10 A [n]diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo hwynt, a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan, lle *y mae* [o]yr anifail a'r gau brophwyd; a hwy a boenir ddydd a nos, yn oes oesoedd.

[o] Gen. 18 25; Salm 4f. 6, 7; Mat. 25. 3[1]. [p] Ier. 4. 23 —26; Mat. 24. 35. [q] Dan. 12. 2; Ioan 5. 23, 29; Act. 24. 15. [r] Rhuf. 14. 10—12; 1 Cor. 4. 5 [s] Dan. 7. 10.

11 Ac [p]mi a welais orsedd-faingc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddi wrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nef; a lle ni chafwyd iddynt.

12 Ac [q]mi a welais y meirw, fychain a mawrion, [r]yn sefyll ger bron Duw; [s]a'r llyfrau a agorwyd: a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw *llyfr* y bywyd: a barnwyd y meirw o'r pethau oedd ysgrifenedig yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd.

13 A'r môr a roddes i fyny y meirw oedd ynddo ef; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fyny y meirw oedd ynddynt hwy: a barnwyd pob un o honynt yn ol eu gweithredoedd.

[t] Esa. 25. 8; Hos. 13. 14; 1 Cor. 15. 26, 54, 55.

14 A marwolaeth ac uffern a [t]fwriwyd i'r llyn tân. Dyma yw'r ail farwolaeth.

15 A phwy bynnag ni chafwyd yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, fe a fwriwyd i'r llyn tân.

[u] Dad. 19. 20; 20. 10.

PENNOD XXI.

1 Y nefoedd newydd a'r ddaear newydd. 2 Y ddinas sanctaidd Jerusalem yn disgyn oddi wrth Dduw. 3 Presenoldeb Duw gyda dynion. 4 Dileu dagrau, a phob gofid, a marwolaeth. 5 Pob peth yn newydd. 6 Duw yn Alpha ac Omega. 7 Y rhai a orchfygant a etifeddant bob peth. 8 Y rhai a gospir yn llyn tân. 9 Y wraig a'r oen. 10 Jerusalem yn disgyn oddi wrth Dduw. 12 Ei muriau, a'i phyrth, a'i seiliau. 15 Mesur y ddinas. 22 Nid oes teml ynddi. 23 Nid oes arni eisiau haul na lleuad. 24 Y cenhedloedd a rodiant yn ei goleuni. 25 Ei phyrth ni chauir byth. 27 Ni ddaw dim halogedig i mewn iddi.

[a] Esa. 65. 17; 66. 22; 2 Pedr 3. 13.

A mi a welais [a]nefoedd newydd a daear newydd: canys aeth y nefoedd gyntaf a'r ddaear gyntaf heibio; ac nid oedd môr mwyach.

[b] Esa. 52. 1; 60. 14; Dad. 3. 12; 22. 14.

2 A mi Ioan a welais y ddinas sanctaidd, Jerusalem newydd, yn disgyn oddi wrth Dduw o'r nef, [b]parod fel priodas-ferch wedi ei haddurno i'w gwr.

[c] Ezec. 37. 27; 2 Cor. 6. 16; Dad. 7. 15.

3 A mi a glywais lef uchel o'r nef yn dywedyd, Wele, [c]pabell Duw *sydd* gyda dynion, ac efe a drig gyda hwynt, a hwy a fyddant yn bobloedd iddo, a Duw ei hun gyda hwynt, *ac* a fydd yn Dduw iddynt.

[d] Esa. 25. 8; 35. 10; Dad. 7. 17.

4 A [d]sychu ymaith a wna Duw bob deigr oddi wrth eu llygaid; ac ni bydd marwolaeth mwyach, ac ni bydd galar, na llefain, na phoen mwyach: canys aeth y pethau gynt heibio.

[e] Esa. 43. 19; 65. 17; 66. 22; 2 Cor. 5. 17.

5 A dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, Wele, [e]mi a wnaf bob peth yn newydd. Dywedodd hefyd wrthyf, Ysgrifena: canys y geiriau hyn *sydd* wir a ffyddlon.

[f] Esa. 44. 6; 48. 12; Dad. 1. 8, 17; 22. 13.

6 Dywedodd hefyd wrthyf, [f]Gwneuthum. Mi *ydwyf* Alpha ac Omega, y dechreuad a'r diwedd. Mi a roddaf o ffynnon dwfr y bywyd yn rhad i'r hwn sydd sychedig.

[g] Dad. 3. 5, 12, 21; 1 Ioan 5. 4, 5.

7 Y neb a orchfygo a etifedda bob peth; a mi a fyddaf Dduw iddo, ac efe a fydd fab i mi.

[h] Dad. 20. 14, 15; 21. 27; 22. 15.

8 Eithr [h]yr ofnus, ac anghredadwy, a ffiaidd, a llofruddion, a phuteinwyr, a dewinwyr, ac eilunaddolwyr, a'r holl gelwyddogion, eu rhan fydd yn llyn yr hwn sydd yn llosgi gan dân a brwmstan: yr hwn yw yr ail farwolaeth.

[i] Dad. 17. 1; 19. 2.

9 A daeth atafi un o'r saith angel a'r saith fiol llawn o'r saith bla diweddaf, ac a ymddiddanodd a mi, gan ddywedyd, Tyred yma, mi a ddangosaf i ti briodas-ferch, gwraig yr Oen.

[k] Dad. 17. 3.

10 Ac efe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr honno Jerusalem, yn disgyn oddi wrth Dduw o'r nef,

11 Yn meddu gogoniant Duw: a'i disgleirdeb hi *oedd* debyg i faen gwerthfawr iawn, megis i faen iaspis, yn glir fel crystal;

12 Ac a chanddi fur mawr uchel, ac a chanddi ddeuddeg porth, ac ar y pyrth ddeuddeg angel, ac enwau ysgrifenedig arnynt, sef enwau deuddeg llwyth meibion Israel:

13 Tair porth o'r dwyrain, a thair porth o'r gogledd, a thair porth o'r deau, a thair porth o'r gorllewin.

14 A mur y ddinas *oedd* a deuddeg sylfaen iddi, ac ynddynt enwau deuddeg apostol yr Oen.

15 A'r hwn oedd yn ymddiddan a mi *oedd* a chorsen aur ganddo, i fesur y ddinas, a'i phyrth, a'i mur.

16 A'r ddinas a orwedd yn sgwar, a'i hyd *hi* sydd cyn faint a'i lled: a mesurodd y ddinas a'r gorsen â mesur, deuddeng mil o ystadau. Ei hyd a'i lled a'i huchder *hi* *oedd* yn gyfuwch.

17 A mesurodd ei mur hi, cant pedair a deugain o gufyddau, mesur dyn, hwnw yw mesur yr angel.

18 A'r muriau *oedd* o iaspis: a'r ddinas *oedd* o aur pur, tebyg i wydr pur.

19 A seiliau mur y ddinas *oedd* addurnedig â phob maen gwerthfawr. Y sail gyntaf *oedd* iaspis; yr ail, saffir; y drydedd, calcedon; y bedwaredd, emrallt;

20 Y pumed, sardonics; y chweched, sardis; y seithfed, crysolit; yr wythfed, beryl; y nawfed, topas; y degfed, crysoprasus; yr unfed ar ddeg, hyacinth; y deuddegfed, amethyst.

21 A'r deuddeg porth *oedd* deuddeg perl; pob un o'r pyrth *oedd* o un perl: a heol y ddinas *oedd* o aur pur, fel gwydr tryloew.

22 A themlau ni welais ynddi: canys yr Arglwydd Dduw hollalluog a'r Oen *ydynt* deml iddi.

23 A'r ddinas nid oes eisiau haul arni, na lleuad, i lewyrchu ynddi: canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'r Oen *ydyw* ei llusern hi.

24 A'r cenhedloedd a rodiant yn ei goleuni hi: a brenhinoedd y ddaear a ddygant eu gogoniant a'u hanrhydedd iddi.

25 A'i phyrth ni chauir byth mewn dydd: canys nos ni bydd yno.

26 A dygant ogoniant ac anrhydedd y cenhedloedd iddi.

27 Ac ni ddaw dim halogedig i mewn iddi, na'r hwn sydd yn gwneuthur ffieidd-dra a chelwydd: ond y rhai sydd ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen.

PENNOD XXII.

1 Afon dwfr y bywyd. 2 Pren y bywyd. 3 Dim melldith mwyach. 4 Gwelant wyneb Duw. 5 Nid oes nos yno. 6 Y rhai ffyddlon a gwir. 7 Gwyn eu byd y rhai a gadwant eiriau y proffwydoliaeth hon. 8 Ioan yn addoli yr angel. 10 Nid oes selio geiriau y proffwydoliaeth hon. 11 Y rhai anghyfiawn a halogedig a halogant eu hunain. 12 Gwobr pob dyn yn ol ei weithredoedd. 13 Alpha ac Omega. 14 Gwyn eu byd y rhai a olchant eu dillad. 15 Y rhai a gedwir allan o'r ddinas. 16 Jesu a anfonodd ei angel i dystiolaethu. 17 Yr Ysbryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, Tyred. 18 Ni chwanegir at na dileir oddi wrth eiriau y proffwydoliaeth hon. 20 Yr hwn sydd yn tystiolaethu, Yn ddiau mi a ddeuaf yn fuan. Amen. Tyred, Arglwydd Iesu. 21 Gras yr Arglwydd Iesu.

A hefyd efe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i afon dwfr y bywyd, [l]yn glir fel crystal, yn tarddu allan o orsedd-faingc Duw a'r Oen.

[l] Ezec. 47. 1; Ioan 7. 38.

2 Yng nghanol heol y ddinas, ac ar ddeutu yr afon, *yr oedd* pren y bywyd, yn dwyn deuddeg ffrwyth, yn rhoddi ei ffrwyth bob mis: a dail y pren *oedd* i iachau y cenhedloedd.

[m] Gen. 3. 17; Dad. 21. 4.

3 Ac ni bydd dim melldith mwyach: ond gorseddfainc Duw a'r Oen *fydd* ynddi, a'i weision ef a'i gwasanaethant ef:

[n] Mat. 5. 8; 1 Cor. 13. 12; 1 Ioan 3. 2.

4 A hwy a welant ei wyneb ef; a'i enw ef *fydd* ar eu talcennau hwynt.

[o] Esa. 60. 19, 20; Dad. 21. 23, 25.

5 A nos ni bydd yno; ac ni bydd eisiau arnynt oleuni lamp, na goleuni haul: canys yr Arglwydd Dduw a'u goleua hwynt: a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd.

[p] Dad. 19. 9; 21. 5.

6 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Y geiriau hyn *sydd* wir a ffyddlon: a'r Arglwydd Dduw y proffwydi sanctaidd a anfonodd ei angel i ddangos i'w weision y pethau sydd raid eu bod ar fyrder.

[q] Dad. 1. 3; 22. 7, 14.

7 Ac wele, mi a ddeuaf yn fuan. Gwyn ei fyd y neb a gadwo eiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn.

[r] Dad. 1. 1; 22. 16.

8 A mi Ioan *ydwyf* yr hwn a welais ac a glywais y pethau hyn. A phan glywais ac y gwelais, mi a syrthiais i addoli gerbron traed yr angel a ddangosasai i mi y pethau hyn.

[s] Dad. 19. 10.

9 Yna y dywedodd efe wrthyf, Gwel na wnelych: canys cyd-was i ti *ydwyf* fi, ac i'th frodyr y proffwydi, ac i'r rhai a gadwant eiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn: addola Dduw.

[t] Dan. 8. 26; 12. 4, 9; Dad. 10. 4.

10 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Na seliwch eiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn: canys yr amser *sydd* agos.

[u] Dad. 1. 3; 22. 7, 12, 20.

11 Yr hwn sydd anghyfiawn, gadawed iddo fod yn anghyfiawn eto: a'r hwn sydd halogedig, halogedig fyddo eto: a'r hwn sydd cyfiawn, cyfiawned fyddo eto: a'r hwn sydd sanctaidd, sancteiddier eto.

[v] Mat. 16. 27; Rhuf. 2. 6; 1 Pedr 1. 17; Dad. 2. 23; 20. 12.

12 Ac wele, mi a ddeuaf yn fuan; a'm gwobr *sydd* gyda mi, i dalu i bob un yn ol ei waith.

[w] Esa. 55. 1; Dad. 21. 6.

13 Mi *ydwyf* Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf, y dechreuad a'r diwedd.

[x] Dad. 21. 27.

14 Gwyn eu byd y rhai a olchant eu dillad, fel y bo iddynt hawl ar bren y bywyd, ac y mynedant trwy y pyrth i mewn i'r ddinas.

[y] Dad. 21. 8.

15 Canys allan *y mae* cwn, a dewinwyr, a phuteinwyr, a llofruddion, ac eilunaddolwyr, a phob un a garo ac a wnelo gelwydd.

[z] Dad. 1. 1, 2.

16 Mi Iesu a anfonais fy angel i dystiolaethu i chwi y pethau hyn yn yr eglwysi. Mi *ydwyf* wreiddyn a hil Dafydd, a seren ddisglair y bore.

[a] Dad. 22. 6.

17 A'r Ysbryd a'r briodas-ferch a ddywedant, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd sychedig, deued. A'r hwn a ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad.

[b] Dad. 1. 4.

18 Canys mi a dystiolaethaf i bob un sydd yn clywed eiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn, Os chwanega neb atynt, Duw a chwanega atto ef y pla-enau ysgrifenedig yn llyfr hwn:

[c] Deut. 4. 2; 12. 32; Dad. 1. 11.

19 Ac os dilea neb oddi wrth eiriau llyfr y proffwydoliaeth hon, Duw a dyn ei ran ef oddi wrth bren y bywyd, ac oddi wrth y ddinas sanctaidd, a'r pethau ysgrifenedig yn llyfr hwn.

[d] Dad. 1. 4.

20 Y mae'r hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn yn dywedyd, Yn ddiau mi a ddeuaf yn fuan. Amen. Tyred, Arglwydd Iesu.

[e] Rhuf. 16. 20; 1 Cor. 16. 23; 2 Cor. 13. 14; Dad. 1. 4.

21 Gras yr Arglwydd Iesu *fyddo* gyda'r holl saint. Amen.

---

esbonio yr adnod yn llythyrenol. *A'u hysodd i hwynt.*—Iaith arferedig yn y Beibl am ddinystr llwyr gelynion Duw: *Salm* xi. 6; *Esa.* xxix. 6; *Esec.* xxxviii. 22; xxxix. 6.

10. *Lle y mae* :—yn awrddo, nid blaenafiaeth o ran amser, ond fod yr oll yn yr un lle o boenedigaeth, megys yr oeddynt yr un yn eu gallu, eu hamcan, a'u pechod.

11—15. Y FARN GYFFREDINOL.

Ystyrir yr adran hon fel un o'r rhai mwyaf arddunol yn holl Air Duw; ac nid oes dim yn llenyddiaeth gyffredin y byd a all oddef cymharuiaeth am funyd â hi. "Y mae y darluniad mor syml ac eglur fel nad yw yn gofyn deongliad neu aralleiriad, ac mor fawreddog ac aruchel fel y byddai hyny yn gam âg ef."—*Blackwall. Orseddfaingc wen fawr.*—"Fawr," mewn gwrthgyferbyniad â'r "gorseddfeingciau" yn *adn.* 4. "Wen," am ei bod yn ymddangos yn y goleuni puraf, ac yn arwyddlun o gyflawnder perffaith. —*Alford. A'r hwn* :—yr un ag yn *pen.* iv. 3. "Duw y Tad, ffynnonell pob barn."—*Alford.* Ereill a feddyliant y Mab, yr hwn y rhoddwyd pob barn iddo. Meddylia Alford fod yn fwy unol âg arwyddluniaeth y llyfr i olygu y Tad; ond y mae y llyfr yn darlunio Crist yn eistedd ar yr un orseddfainge â'r Tad. Gorseddfainge Duw a'r Oen ydyw: *pen.* xxii. 1. Gan mai un a welir yn awr yn eistedd arni, tueddir ni i feddwl mai Iesu Grist, yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw i farnu byw a meirw, ydyw "yr hwn sydd yn eistedd arni." *Y ffodd* :—gwel 2 *Pedr* iii. 10—12.

12. *Fychain a mawrion.*—I ddangos nas gall neb osgoi y farn. Ni bydd neb mor fach fel ag i gael ei esgeuluso, na neb mor fawr fel ag i gael ei esgusodi. *A'r llyfrau a agorwyd*:—felly hefyd yn ngweledigaeth Daniel: *pen.* vii. 10. Cynnwys y llyfrau hyn ydyw ymddygiadau Duw tuag at ddynion, y deddfau a'r dadguddiadau a roddodd iddynt, ei ddoniau mewn rhagluniaeth a gras; ac ymddygiadau dynion at Dduw, eu hufudd-dod neu eu hanufudd-dod, a'u ffydd neu eu hanghrediniaeth. Agoriad y llyfrau a arwydda y dadleniad llwyr a wna hollwybodaeth y Barnwr o ddirgeloedd dynion—eu meddyliau, eu bwriadau, eu dybenion, a'u cymmhelliadau. *Llyfr y bywyd.*—Llyfr coffadwriaeth arfaethau ac addewidion Duw. Enwau y gwaredigion fydd yn ysgrifenedig yn y llyfr hwn: *pen.* xiii. 8; xvii. 8; xxi. 27; *Exod.* xxxii. 32; *Dan.* xii. 1; *Luc* x. 20; *Phil.* iv. 3; *Heb.* xii. 23. Heb law y llyfrau cyffredinol, yn cynnwys coffadwriaeth o weithredoedd pawb, y mae llyfr neilduol ar gyfer credinwyr, yn yr hwn y mae eu henwau yn ysgrifenedig: nid o herwydd eu gweithredoedd, ond o herwydd gwaith Crist drostynt ac ynddynt;

wyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y liyfrau, yn ol eu gweithredoedd.

[t] 1 Joan 5. 28, 29. [u] Hos. 13. 14; 1 Cor. 15. 50–58.

13 A [t]rhoddodd y môr i fyny y meirw oedd ynddo; [u]a marwolaeth ac uffern a roddasant i fyny y meirw oedd ynddynt hwythau: a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd.

14 A marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân. Hon yw yr ail farwolaeth.

15 A phwy bynag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yn llyfr y bywyd, [x]bwriwyd ef i'r llyn o dân.

[x] Marc 9. 43–48.

PENNOD XXI.

1 *Nef newydd. a daear newydd.* 10 *Ierusalem nefol, a'i chyflawn bortréad.* 23 *Nid rhaid iddi wrth haul: gogoniant Duw yw ei goleuni hi.* 24 *Brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu cyfoeth iddi hi.*

B. A. 96.

AC mi a welais [a]nef newydd, a daear newydd: canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio; a'r môr nid oedd mwyach.

[a] Esa. 65. 17; 2 Pedr 3. 13.

am hyny gelwir y llyfr hwn yn "llyfr bywyd yr Oen." Y mae gras penarglwyddiaethol wedi eu dewis a'u galw allan o fysg dynion. Gwelir yma y ddau wirionedd mawr—barn yn ol gweithredoedd, a chadwedigaeth trwy ras.

13. *Y môr.*—Derbynfa eang lluoedd afrifed o feirwon. *A marwolaeth ac uffern.*—Dau elyn mawr teyrnas Dduw: 1 *Cor.* xv. 26; *Esa.* xxv. 8. Uffern, neu Hades, ydyw dilynydd angeu (fel yn *pen.* vi. 8) a derbynydd ei ysglyfaeth. Y mae y ddau yn cyfranogi o gospedigaeth pechod, am eu bod yn eppil iddo, ac yn un âg ef.—*Alford.* Diddymir marwolaeth naturiol; ac yn amgylchiad y drygionus, tröir ef yn farwolaeth dragywyddol.

PENNOD XXI.

Y mae y bennod hon, a'r pum adnod gyntaf o'r bennod nesaf, yn cynnwys darluniad gogoneddus o gyflwr yr eglwys ar ol dydd y farn. Disgrifir y cyflwr dedwydd hwnw dan y ffugr o ddinas, yn meddu ar bob cyfleusdra, godidogrwydd, a dedwyddwch. Gelwir y ddinas hono "yr Ierusalem newydd;" am fod yr hen Ierusalem yn breswylfa Duw, ac felly yn ddinas sanctaidd, ac yn wrthddrych amddiffyniad a bendith Iehofah. Ar gyfrif hyn, golygid hi gan yr Iuddewon yn arwyddlun addas o'r nef—"y ddinas âg iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Gan fod y bennod o'r blaen yn disgrifio y farn gyffredinol, a chosbedigaeth y rhai drygionus, y mae yn rhaid deall y gweledigaethau o hyn hyd ddiwedd y llyfr fel portread o sefyllfa dragwyddol y cyfiawnion. Heb eu deall yn y modd yma, terfynai y llyfr hwn, ar ol rhoddi tynged olaf yr anghyfiawnion, heb ddadguddio dim o barth i'r sefyllfa yr arweinir y saint iddi ar ol dydd y farn; a byddai yn afresymol meddwl y gallai y fath ddiffyg berthyn i lyfr mor bwysig. Ond y mae yn amlwg iawn oddi wrth amryw eiriau yn y gweledigaethau olaf hyn (*pen.* vii. 8, 27; xxii. 14, 15) fod y sefyllfa o ddedwyddwch a ddisgrifir yndynt yn bod yr un amser a'r ystâd o wae a chospedigaeth a ddarlunir yn *pen.* xx. 15. Ymddengys hefyd, oddi wrth y portread godidog yn *adn.* 4 o'r cyflwr o ddedwyddwch perffaith y dygir y saint iddo, mai "gogoniant a bywyd tragwyddol" y nef ydyw. Y mae y geiriau yn gyfryw nad yw yn bossibl eu cymmhwyso at un ystâd o eiddo yr eglwys yn y byd hwn, pa mor berffaith a dedwydd bynag. Ammhossibl, dybygid, ydyw deall y weledigaeth yn y ddwy bennod yma fel darluniad o sefyllfa yr eglwys yn y mil blynyddoedd. Er y bydd yn y cyfnod hwnw yn anghymmharol uwch nag mewn un cyfnod blaenorol; etto, ni bydd ei phurdeb na'i dedwyddwch yn cyfatteb i'r darluniad a geir yma o honynt. Ac y mae yn ammhossibl meddwl y gallasai yr Ysbryd Glân roddi y fath ddisgrifiadau o gyflwr y saint yn y mil blynyddoedd, a gadael eu cyflwr tragwyddol, yr hwn sydd yn annhraethol fwy pwysig, heb ei gyffwrdd. Heb hyn, fe fuasai drychfeddwl mawr y dadguddiad dwyfol heb ei sylweddoli. Ni buasai genym bortread o Baradwys wedi ei hadennill—o'r hyn a gollwyd yn Eden, wedi ei adferu yn Mharadwys Duw. Ond wrth olygu fod yma ddisgrifiad o gyflwr yr eglwys mewn gogoniant, yr ydym yn cael drychfeddwl mawr y Beibl wedi ei sylweddoli. Y mae holl gylch y dadguddiad dwyfol ger ein bron yn gyflawn; mae melldith y cwymp—y felldith ar ddynoliaeth ac ar y creadur o herwydd pechod—wedi ei dileu ymaith yn llwyr; ac y mae y daioni sydd wedi ei gael yn gorbwyso y daioni a gollwyd. Y mae paradwys Llyfr y Dadguddiad yn rhagori mewn gogoniant ar baradwys Llyfr Genesis. Y mae pechod, ac euogrwydd, poen, melldith, a marwolaeth—am y rhai y darllenwn yn nalenau cyntaf llyfr Duw—wedi diflanu ymaith, pan ddarllenwn am "y nefoedd newydd a'r ddaear newydd" yn ei ddalenau olaf. Y mae y dadguddiad o feddwl a gras Duw wedi ei gwblhau: nid oes dim chwaneg i'w hysbysu. Y mae y dadguddiad yn peidio, a phrophwydoliaeth hefyd yn dystewi, am nad oes dim ar ol hyn i'w fynegu, ac nad oes ar yr eglwys angen hysbysrwydd o ddim arall. Ystyrir fod meddwl Duw wedi ei gyflawn hysbysu yn y gweledigaethau gogoneddus: gwel *pen.* xxii. 18, 19. Hefyd, y mae yr addewidion a roddir yn nechreu y llyfr "i'r hwn sydd yn gorchfygu" yn cael eu cyflawni yma yn ei ddiwedd.

1. *Nef newydd a daear newydd:*—y rhai y sonir am danynt gyntaf yn *Esa.* lv. 17. Cyfeirir ar ol hyn at y geiriau hyn yn *pen.* lvi. 22. Y prif ymadroddion yn y Testament Newydd ar yr un peth ydynt, 2 *Pedr* iii. 13. I'r rhai hyn y mae "yr adenedigaeth," yn *Mat.* xix. 28, yn cyfatteb. Y cam cyntaf yn adnewyddiad y greadigaeth yw adnewyddiad enaid dyn. Megys y dechreuodd yr ymlygriad gyda phersonau, ac yr ymledaenodd oddi wrthynt hwy at ranau ereill o'r greadigaeth, felly hefyd y mae yn rhaid i'r adnewyddiad fyned rhagddo yn yr un ffordd. Gwelir, felly, yr adnewyddiad hwn, yn yr hedyn, yn ymddangosiad cyntaf Crist, ac yn y gallu newydd o fywyd ynddo ef, a thrwyddo ef mewn dynoliaeth. Gwaith ei eglwys am ganrifoedd oedd meithrin a darpar preswylwyr i'r ddaear newydd—dinasyddion i'r Ierusalem newydd. *Canys y nef gyntaf.*—Y mae hyn yn dal cyssyltiad â *pen.* xxi. 11—"y ffodd y ddaear a'r nef." Ni bydd i

[b] Dad. 3. 12; Salm 48. 1—3; Ier. 31. 23; Heb. 11. 10. [c] Gal. 4. 25, 26.

2 A myfi Ioan a welais [b] y ddinas sanctaidd, Ierusalem newydd, [c] yn dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nef, wedi ei pharotoi fel priodasferch wedi ei thrwsio i'w gŵr.

[d] Dad. 7. 15; Lef. 26. 11, 12; Esa. 12. 6; Exec. 37. 27; Ioan 1. 14; 14. 23. [e] Gen. 17. 7, 8; Ier. 31. 33; Zech. 13. 9; 2 Cor. 6. 18. Dad. 7. 17; Esa. 25. 8.

3 Ac mi a glywais lef uchel allan o'r nef, yn dywedyd, [d] Wele, *y mae* pabell Duw gyda dynion, ac efe a drig gyda hwynt, [e] a hwy a fyddant bobl iddo ef, a Duw ei hun a fydd gyda hwynt, *ac a fydd* yn Dduw iddynt.

4 Ac [f] fe sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach: o blegid y pethau cyntaf a aeth heibio.

5 A dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, [g] Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ysgrifena: canys y mae y geiriau hyn yn gywir ac yn ffyddlawn.

[f] Esa. 42. 9; 43. 19.

6 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Darfu. [h] Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd. [i] I'r hwn sydd sychedig, y rhoddaf o ffynnon dwfr y bywyd yn rhad.

[h] Dad. 1. 8; 22. 13. [i] Esa. 12. 3; 55. 1—3; Ioan 4. 10, 14.

7 Yr hwn sydd [k] yn gorchfygu a etifedda bob peth: [l] ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i minnau yn fab.

[k] Dad. 2. 7 11, 17, 26; 1 Ioan 5. 4, 5. [l] Zech. 8. 8. Rhuf. 8. 15—17.

8 Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r puteinwyr, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r eilunaddolwyr, a'r holl gelwyddwyr, *y bydd* eu rhan yn [m] y

[m] Dad. 19. 20; 20. 14, 15.

---

natur gael ei difodi, ond ei phuro: dileir pob llygredigaeth—erys gwaith Duw ei hunan: a'r cwbl a wneir iddo fydd ei ryddhau oddi wrth ei sothach. Gwneir y fath gyfnewidiad arno fel y gellir yn briodol ei alw yn ddinystriad ar yr hyn oedd yn bod o'r blaen. Nid cyfnewidiad bychan fydd y cyfnewidiad, ond cyfnewidiad mawr."—*Berleb. Bible.* Y mae y ffaith mai am "nefoedd a daear newydd" y lleferir, heb ymadroddion ereill i esbonio eu hystyr, yn dangos pa mor ddwfn y mae pechod wedi treiddio drwy y creadur. Mae Vitringa, ac ereill, yn deall y weledigaeth hon fel darluniad o'r eglwys yn ei chyflwr diwygiedig ar y ddaear. Ond y mae *pen.* xx. 11, yn wrthddadl derfynol i'r golygiad hwn. "Mae yr hen nefoedd a daear wedi ffoi ymaith o ŵydd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac fe ddadguddir, yn *pen.* xx. 15, i ba le yr ä y rhai hyny, y rhai nid yw eu henwau yn llyfr y bywyd; felly yr amlygir yn awr i ba le yr anfonir y rhai y mae eu henwau yn ysgrifenedig yn y llyfr hwnw."—*Bengel. A'r mór:*—y mór ydyw mór y bobloedd—y byd drygionus a chynnyrfus. Diflana y mór ar unwaith a'r rhai drygionus: *Esa.* xlvii. 20.—*Hengstenberg.* Dichon fod y mor yn arwyddlun yma o gyfnewidioldeb a therfysgoedd; neu o'r pethau sydd yn ysgaru dynion oddi wrth eu gilydd yn y sefyllfa bresennol. Felly yr ymddangosai y mór i Ioan yn ei unigrwydd yn Patmos.

2. *A myfi Ioan.*—Noda Ioan ei bersonoliaeth ei hunan fel cadarnhad i wirionedd y pethau a welai (*pen.* i. 9; xxii. 8; cymmharer *Ioan* xxi. 24), fel mynegiad o'i foddhâd a'i syndod diolchgar am ei fod ef, oedd yn ddyn marwol yn y byd hwn, yn cael y fraint o dderbyn dadguddiad mor ogoneddus o gyflwr gwynfydedig yr eglwys yn y nef. *Ierusalem.*—Gwna Bengel y sylw, fod Ioan yn wastad yn ei Efengyl yn ysgrifenu *Hierosoluma* am yr hen ddinas; ac yn wastad yn y Dadguddiad *Hierosalem* am y ddinas nefol. A dywed fod rheswm am y gwahaniaeth:—yr olaf yw yr enw Hebraeg, yr enw gwreiddiol a mwyaf sanctaidd; y cyntaf (wedi hyny mewn arferiad cyffredin) ydyw yr enw Groeg, yr hwn a ddefnyddid yn hytrach mewn ystyr wleidyddol. Ceidw Paul hefyd at yr un 'gwahaniaeth mewn rhan: gwel *Gal.* iv. 26; *Heb.* xii. 22; *Col.* i. 17; ii. 1.

Yn dyfod.—Yn dynodi y cyfnewidiad ar yr eglwys, o'i sefyllfa bresennol. Yn awr y mae yr eglwys ddirgeledig yn nefol, ac anweledig i ni; ar ol hyn, bydd yn weledig fel un gynnulleidfa y rhai cyntafanedig: nid mwyach yn ddau gorph, y gweledig a'r anweledig, y milwriaethus a'r gogoneddus; a'r naill mewn un byd, a'r llall mewn byd arall; y naill yn ammherffaith, a'r llall yn berffaith; y naill yn "druan helbulus gan dymmhestl," a'r llall mewn tangnefedd heddychol yn "yr anneddle lonydd;" ond bydd yn awr yn un corph perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist—yn yr un wlad, a phawb o'i haelodau yn yr un sefyllfa berffaith a gwynfydedig. *Fel priodasferch wedi ei thrwsio:*—yn y cyflwr uchaf o brydferthwch. Dengys y geiriau mai yr eglwys yw yr Ierusalem newydd. Y mae yr amcan a nodir yn *Eph.* v. 26, 27, oedd i angeu Crist, yn awr wedi ei gyrhaedd yn y llwyredd mwyaf. Y mae yr eglwys "heb arni na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw."

3. *Ac mi a glywais.*—Y mae y llef hon o'r nef, a'r hyn a ddywedir yn y canlyniad (*pen.* v. 8), yn barotoad i'r weledigaeth a roddir i'r gweledydd: *adn.* 9. *Pabell Duw:*—gyda chyfeiriad at y tabernacl yn yr anialwch—yr esiampl a'r cysgod mwyaf dealladwy o'r presennoldeb dwyfol mewn lle. *A drig:*—a babella, a dabernacla. Yr un gair Groeg ag a ddefnyddir yn *Ioan* i. 14, am breswyliad Person y Gair. *Bobl iddo ef:*—neu 'bobloedd,' am y bydd cenhedloedd lawer (*adn.* 24) yn rhodio yn ngoleuni y ddinas. *Gyda hwynt:*—pryd y sylweddolir yr enw bendigaid Emmanuel yn nghyflawnder ei ystyr. *Yn Dduw iddynt:*—cyflawniad o hen addewidion Duw: *Exod.* xxix. 45; *Lef.* xxv. 11; *Esec.* xxxvii. 27.

6. *Y dechreu a'r diwedd.*—Yr Un digyfnewid a thragwyddol, trwy yr hwn yr oedd yr hen, ac y bydd y newydd; trwy yr hwn y cyflawnir yr hen yn y newydd, ac y cyflawnir pob gobaith a phob addewid.—*De Wette.*

7. Y mae addewid yr adnod hon yn cynnwys ynddi ei hun yr holl ddaioni sydd yn yr holl addewidion blaenorol "i'r hwn sydd yn gorchfygu." Gwel yr un addewid yn 2 *Bren.* vii. 14; yr hon a wnaed i Solomon, ac a gyflawnwyd yn berffaith yn gyntaf yn Mab Dafydd a Mab Duw (*Heb.* i. 5); yn awr y mae yn cael ei chyflawni yn ei frodyr.

llyn sydd yn llosgi â thân a
[a] Dad. 20. 14. brwmstan: [n] yr hwn yw yr ail
farwolaeth.

9 A daeth ataf un o'r saith angel yr oedd y saith phiol ganddynt yn llawn o'r saith bla diweddaf, ac a ymddiddanodd â mi gan ddywedyd, Tyred, mi a
[o] Dad. 19. 7. ddangosaf i ti [o] y briodasferch, gwraig yr Oen.

10 Ac efe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac
Ezec. 48. 15, 22. uchel, ac a ddangosodd i mi [p] y ddinas fawr, Ierusalem sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw,

Dad. 22. 5; Esa. 4. 5; Ezec. 48. 35. 11 A [q] gogoniant Duw ganddi: a'i goleu hi *oedd* debyg i faeu o'r gwerthfawrocaf, megys maen iasp, yn loyw fel grisial;

[r] Dad. 21. 25; Esa. 54. 12; 60. 18. 12 Ac iddi fur mawr ac uchel, *ac* iddi [r] ddeuddeg porth, ac wrth
[s] Dad. 7. 4-8; Num. 2. 2 —32; Act. 26. 7. y pyrth ddeuddeg angel, [s] ac enwau wedi eu hysgrifenu arnynt,

y rhai yw *enwau* deuddeg llwyth plant Israel.

13 O du y dwyrain, tri phorth; o du y gogledd, tri phorth; o du y dehau, tri phorth; o du y gorllewin, tri phorth.

14 Ac *yr oedd* mur y ddinas â deuddeg sylfaen iddo, [t] ac ynddynt enwau deuddeg apostol yr Oen.
[t] Dad. 18 20; Mat. 10. 2 —4; 1 Cor. 3. 10, 11.

15 A'r hwn oedd yn ymddiddan â mi, oedd â chorsen aur ganddo, i fesuro y ddinas, a'i phyrth hi, a'i mur.

16 A'r ddinas sydd wedi ei gosod yn bedeirongl, a'i hyd sydd gymmaint a'i lled. Ac efe a fesurodd y ddinas â'r gorsen, [u] yn ddeuddeng mil o ystadau. A'i hyd, a'i lled, a'i huchder, sydd yn ogymmaint.
[u] Ezec. 48. 8 —19.

17 Ac efe a fesurodd ei mur hi
[x] yn gant *a* phedwar cufydd *a*
[x] Dad. 7. 4; 14. 3. deugain, wrth fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel.

9. Sylwer ar y gwrthgyferbyniad sydd rhwng yr adnod hon a *pen.* xvii. 1. Yno, y mae un o saith angel y saith bla diweddaf yn dywedyd wrth y gweledydd, "Tyred, a mi a ddangosaf i ti farnedigaeth y butain fawr." Yma, y mae yn dangos iddo y wir briodasferch, yn ei phurdeb, ei phryderthwch, a'i gogoniant.

10. Edrychir ar yr eglwys dan y ffugrau o *oriodasferch, gwraig,* ac *Ierusalem sanctaidd.* Oddi wrth amrywiaeth a chymmysgiad y ffugrau y mae Scott yn sylwi mai drychfeddyliau cyffredinol a ddylem gymmeryd oddi wrthynt, a pheidio ymofyn am wirionedd yn cyfatteb i bob un o fanylion y disgrifiad. Dichon nad oes un ystyr neilldnol yn *y mynydd mawr ac uchel.*—Barna Webster a Wilkinson fod y ffugr yma yn ddyledus i berthynas mynydd yr Olewydd ac Ierusalem a'u gilydd. Gwel y weledigaeth gyffelyb yn *Esec.* xl. 2.

11. *A gogoniant Duw oedd ganddi*:—yn gyffelyb i 'gwmwl y gogoniant' uwch ben y tabernacl, ac yn y deml. *A'i goleu hi.*—Ni cheir y gair gwreiddiol yn un man arall yn y Testament, oddi eithr yn *Phil.* ii. 15. Arwydda goleuad, yn hytrach na goleuni; sef, y gwrthddrych sydd yn rhoddi goleuni. Gwel *Gen.* i. 14, yn y Deg a Thrigain, am y goleuadau nefol. Yr un a "gogoniant Duw"—y Shechinah. *Iaspis.*—Gwel *pen.* iv. 3.

12. Gwel *Esa.* lx. 18; xxvi. 1. *Ddeuddeg angel.*—Fel gwarcheidwaid neu borthorion. Nid oedd y fath warcheidwaid yn gwylio pyrth y Baradwys gyntaf: aeth y gelyn i mewn yno. Ond bydd y Baradwys nefol yn ddiogel rhag nesâd un gelyn yn agos iddi. Y mae y muriau a'r angylion, ebe Hengstenberg, yn arwyddluniau o amddiffyniad Duw yn erbyn pob gelyn—y cyfryw ag a allai y dychymyg, wedi ei lanw â dychrynfeydd yn sefyllfa filwrus yr eglwys, roddi bod iddo: o blegid nid oes elynion gwirioneddol i'w cael yn yr Ierusalem newydd. Fod y muriau a'r angylion yn arwyddluniau o ddiogelwch, sydd yn fwy tebygol na golygiad Alford: sef, mai er mwyn cyfarfder a phrydferthwch y darlun y dygir hwy i mewn iddo.

14. *Enwau.*—Mae yr holl ddinas yn sylfaenedig, yn yr ystyr cyntaf, ar Grist ei hun; ac mewn ystyr isaddol, ar y rhai a gyhoeddasant ac a gadarnasant y wir athrawiaeth am dano. Nid â neb i mewn iddi, ond y rhai a ddaliant athrawiaeth yr apostolion.

15—17. Ceir yma fesur y ddinas. Cymmharer *Ezec.* xl. 3—5. Parha yr angel yma i ddangos y ddinas drwy ei mesur hi.—*Bengel.* Y mae *y gorsen o aur* ar gyfrif gogoniant yr hyn sydd yn cael ei fesur. Yn *pen.* xi. 2, rhoddir gwaharddiad i'r angel i fesur y cyntedd o'r tu allan i'r deml; yr hyn a arwyddai ei fod yn cael ei roddi i fyny fel lle cyffredin neu aflan. Yma, i'r gwrthwyneb (cymmharer *Zech.* ii. 2), y mae mesuriad y ddinas yn dynodi cyssegredigaeth yr oll o honi—ei bod yn dyfod i fyny â gofynion manylaf y Duw sanctaidd; a hefyd fod Duw yn penderfynu ei hamddiffyn fel ei ddinas anwyl ei hun, a chadw pob peth aflan allan o honi. Y mae yn debyg mai ei hamgylchedd oedd 12,000 o ystadau—mil rhwng pob porth. Y syniad naturiol oddi wrth y geiriau, *A'i hyd, a'i lled, a'i huchder sydd yn ogymmaint,* ydyw, fod y ddinas yn *cube*—yn meddu ar chwech o ochrau cyfartal. Y mae hyn yn ammhossibl o fod mewn pethau daearol, ac yn dangos mai arwyddluniol ydyw y darluniad. Y mae yn arddangos sefydlogrwydd, cyfartaledd, ac unffurfiaeth pethau nefol, ynghyd â'u natur anamgyffredadwy.—*Webster* a *Wilkinson.* Y drychfeddwl o eangder sydd yn cael ei gyfleu. Bydd nifer y prynedigion yn fawr tu hwnt i ddychymyg.—*Barnes.* Y mae rhai yn deall y mesurau, nid am y ddinas ei hun, ond am dani hi, a'r bryn ar ba un yr oedd wedi ei hadeiladu. Yr oedd hi a'r bryn yn ffurfio corph o'r mesurau hyn. Dyma olygiad Alford, yr hwn a ddywed ei bod, wrth ddeall y darluniad yn y dull yma, yn debyg i'r hen Ierusalem ar y llechwedd uwch ben Cedron. Tybia ereill na ddylid deall yr "ogymmaint" yn y modd manylaf; o d

18 Ac adeilad ei mur hi oedd o faen iaspis; a'r ddinas *oedd* aur pur, yn debyg i wydr gloyw.

19 A seiliau mur y ddinas *oedd* wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr. Y sail cyntaf *oedd* faen iaspis; yr ail, saphir; y trydydd, chalcedon; y pedwerydd, smaragdus;

20 Y pummed, sardonyx; y chweched, sardius; y seithfed, chrysolithus; yr wythfed, beryl; y nawfed, topazion; y degfed, chrysoprasus; yr unfed ar ddeg, hyacinthus; y deuddegfed, amethystus.

21 [y]A'r deuddeg porth, deuddeg perl *oeddynt;* a phob un o'r pyrth oedd o un perl: a heol y ddinas [z]*oedd* aur pur, fel gwydr gloyw.

22 A [a]themi ni welais ynddi: canys [b]yr Arglwydd Dduw Hollalluog, [c]a'r Oen, yw ei themi hi.

23 [d]A'r ddinas nid rhaid iddi

[y] Dad. 17. 4.
[z] Dad. 17. 4; Esa. 60. 17, 18.
[a] 1 Bren. 8. 27; Esa. 66. 1; Ioan 4. 23.
[b] Dad. 1. 8; 4. 8; 11. 17; 15. 3.
[c] Ioan 2. 19—21; Col. 1. 19; Heb. 9. 1.
[d] Dad 22. 5; Esa. 24. 23.

y dangosir fod yr hyd a'r lled yn ogymmaint, a'r uchder yn ogymmaint neu gyfartal, trwy, ac o amgylch y ddinas. Nid oedd rhanau uwch a rhanau is o honi. Ychydig sydd yn derbyn y golygiad hwn, o blegid nid yw yn gasgliad teg oddi wrth y geiriau. Y mae yr holl bortread yn rhoddi ar ddeall y bydd yr eglwys, ar ail ddyfodiad Crist, yn berffaith gyflawn: bydd ei holl fesurau yn ogymmaint. *Ystadau.*—Yr oedd un ystâd yn mesur 201 o latheni Seisnig. Cymmharer mesurau y deml, yn *Esec.* xlviii. 8—20. *Eiddo yr angel.*—Y mesurau a ddefnyddiai yr angel oedd yr un ag a ddefnyddir gan ddynion. Dywedir hyn i gyfarfod â'r dybiaeth a allasai gyfodi, pan ddywedir fod angel yn mesur, y buasai yn naturiol i'w fesurau ef fod yn anadnabyddus i ni; ond gan mai mesur y ddinas y mae er ein mwyn ni ddynion, ac nid er chwanegu at ei wybodaeth ei hun, y mae ei fesur yr un a mesur adnabyddus dyn. Sylwa Bengel mai y syniad a fwriedir ei drosglwyddo yn hyd a lled y ddinas ydyw eangder; ac yn ei huchder, gogoniant.

18—21. Gwel *Esa.* liv. 11, 12. Oddi wrth eiriau y prophwyd y mae y disgrifiad hwn wedi ei ffurfio. *Adeilad ei mur:*—mewn gwrthgyferbyniad i "seiliau y mur," yn *adn.* 19. Yr "adeilad" yma ydyw yr hyn sydd wedi ei godi ar y seiliau. Un defnydd sydd i'r holl adeilad; a'r defnydd hwnw y mwyaf ardderchog o'r holl feini drudfawr—*iaspis:* gwel *pen.* iv. 3. Ynddengys, ebe Hengstenberg, yn hynod fod y maen iaspis, i ba un y mae gogoniant Duw yn cael ei gyffelybu yn *adn.* 11, yn cael ei osod allan yma fel defnydd yr adeilad. Ond pe buasai yr awdwr, gyda golwg ar y bri a rydd, yn *adn.* 11, ar y maen iaspis, yn dewis maen israddol a llai gwerthfawr, gallesid dychymygu am fur arall o nodweddmwy gogoneddus. Ond y mae yn rhaid i ni olygu y mur hwn fel y mwyaf ardderchog a ddichon fod. *Aur pur.*—Y mae lliw gwyn yr iaspis, a'r aur melyn, yn cyfatteb yn rhagorol i'w gilydd.—*Bengel.* Yr oedd y ddinas o aur, ond nid yn dywyll (*opague*) fel y mae aur yn gyffredin, ond yn dryloew fel gwydr—*hualos.* Cyfunir yn y nef y rhagoriaethau hyny sydd [ar y ddaear yn ammhossibl eu cael gyda'u gilydd. Byddant yn ysblenydd a pharhaol fel aur pur, ac yn glir a thryloew fel y gwydr goreu. Fel hyn, ebe un awdwr, y bydd gyda galluoedd y meddwl. Y mae gallu y crebwyll neu y dychymyg yn eang a bywiog, etto yn ddiflanedig ac ansicr. Y mae gallu y deall yn fwy rheolaidd a sylweddol, ond yn fwy cyfyng ac araf. Ond pan gyrhaeddwn tu fewn i'r llen, cyfunir rhagoriaethau yr aur a'r grisial, ac fe lwyr ddiflana ammherffeithiau y naill a'r llall. *A phob rhyw faen gwerthfawr.*—Nid yn unig bydd pob un o'r meini gwerthfawr a nodir yn ffurfio addurn yn y seiliau; ond cyfansoddant y seiliau.—*Bengel.* Y mae yn cael ei ddangos mai hyn ydyw y meddwl yn y dull y nodir y seiliau:—"Y sail cyntaf, oedd faen iaspis;" yr iaspis oedd ei ddefnydd. *Saphir.*—Gem tryloew, yn y cyffredin, o liw y ffurfafen, ac yn hynod galed; o blegid hyny y cyffelybir llawr gorseddfaingo Duw i'r maen hwn: *Exodus* xxiv. 10; *Ezeciel* i. 26. Yr oedd saphir y Groegiaid, yr un a'n *lapis lazuli* ni, o'r un lliw a saphir y Beibl, ond yn llawer meddalach. *Chalcedon.*—Gem yn meddu amrywiaeth mawr: un o ba rai ydyw y *carnelion,* neu yr *agate.* Disgrifir ef fel yn hytrach yn dywyll (*semi-opague*), o liw yr wybr, gydag ysnodenau o liwiau ereill, "fel y coed yn yr Hydref."—*Pliny. Smaragdus:*—*emerald.* Gwel *pen.* iv. 3. *Sardonyx:*—*Exod.* xxxix. 11; *Ezec.* xxviii. 13; "o liw y cnawd dau ewin y bys."—*Pliny. Sardius.* — Gwel *pen.* iv. 3. *Chrysolithus.*—Ffurfir yr enw o ddau air Groeg—y geiriau am 'aur' a 'careg;' careg euraidd. Cymmhwysid yr enw gan yr hynafiaid at bob gem o liw euraidd, neu felyn: yr un hwyrach a'r *topaz: Exod.* xxviii. 20; xxxix. 13. *Beryl:*—*Exod.* xxiv. 10; lle y darllenir 'saphir' yn y cyfeithiad awdurdodedig: yr oedd yn faen o liw gwyrddlas. Y mae rhai yn ei wneyd yr un a'r onyx. *Topazion.*—Gem o liw melyn, yn Arabia ddeheuol; am hyny y gelwir ef Topaz o Ethiopia, neu Cush: *Iob* xxviii. 19. Y mae yn mor-gaingc Arabia ynys yn cael ei galw ynys Topaz. *Chrysoprasus:*—a ffurfir o ddau air, yn arwyddo 'aur' a 'ceninen.' Gem gwerthfawr o liw y geninen, ac yn debyg yn ei liw i'r amethyst. *Hyacinthus.*—O liw coch, porphoraidd. Y mae yr *amethystus* hefyd o liw cyffelyb. Yr un ag a adnabyddir yn bresennol wrth yr enw. Y mae yr enw Groeg *amethystos,* wedi ei gymmeryd oddi wrth yr effaith y tybid ei fod ganddo i wrthweithio effeithiau meddwdod.

21. Y mae Hengstenberg yn sylwi fod yr adnod hon yn dangos fod yn rhaid i ni ochel rhoddi ystyr llythyrenol i'r disgrifiad. Porthëadir y nef ynddi, fel yn holl ranau y disgrifiad, mewn ffugrau wedi eu cymmeryd oddi wrth ba bethbynag sydd fwyaf gogoneddus yn y byd hwn. Pan ddywedir *ei heol hi,* nid ydym i feddwl mai un heol ydoedd. "*The whole of the streets are thrown together into one ideal street.*"

22. *A themi.*—Drychfeddwl gwreiddiol y deml oedd lle preswylfod Duw—lle neilliduol yr amlygiad o hono. Pan fydd pawb yn deimladwy o'i bresennoldeb—pawb yn sylweddoli ei gariad a'i ras—cyflawnder y Duwdod yn treiddio trwy bobaelod o'r eglwys, ni bydd angen am le neilliduol i

wrth yr haul, na'r lleuad, i oleuo
[a] Dad. 18. 1; Esa. 2. 10, 19. 21; Mat. 16. 27; Ioan 17. 24. ynddi: [c] canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, [f] a'i goleuni hi *ydyw* yr Oen.

[b] Luc 2. 32; Ioan 1. 9, 14. 24 A chenedloedd y rhai cadwedig a rodiant yn ei goleuni hi: ac y mae brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant a'u hanrhydedd iddi hi.

25 A'i phyrth hi ni cheuir ddim y dydd: canys ni bydd nos yno.

26 A hwy a ddygant ogoniant ac anrhydedd y cenhedloedd iddi hi.

[a] Lef. 13. 46; Salm 101. 8; Esa. 52. 1; Ioel 3. 17. [a] Dad. 3. 5; 13. 8; Phil. 4. 3. 27 Ac [g] nid ä i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidddra, na chelwydd: ond [h] y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen.

PENNOD XXII.

1 *Afon dwfr y bywyd.* 2 *Pren y bywyd.* 5 *Duw sydd oleuni i'w ddinas ei hun.* 9 *Yr angel heb fynu ei addoli.* 18 *Ni ellir*

Dduw amlygu ei hun. Amddifadrwydd o Dduw a phellder oddi wrtho, a wnai y deml yn angenrheidiol. Edrychir ar y 'deml' yma yn y nodwedd neilduol a berthynai iddi fel teml yr Hen Destament. Y deml oedd coron ardderchogrwydd yr Ierusalem ddaearol, a'r hyn a'i gwnai felly oedd fod Duw wedi rhoddi arwydd ynddi i'w bobl o'i gymmundeb grasol â hwynt. Yn ei deml yr oedd Duw i'w gael i'r sawl a ymofynent am dano: *Exod.* xxv. 8. Ond nid rhagorfraint uchaf yr Hen Destament oedd yr uchaf a allasai Duw ei roddi i ddyn. Nid oedd yr undeb â Duw yn nheml yr Hen Destament ond rhagorfraint ammherffaith, ac i barhau yn unig am amser. Fe awgrymid, ynglŷn â phresennoldeb Duw yn y deml, lawer o ddiffygion i'r meddwl ystyriol. Dangosai yr holl drefniadau "nad oedd y sancteiddiolaf yn agored etto, tra yr oedd y tabernacl cyntaf yn sefyll." Creu disgwyliad, yn hytrach na'i foddloni, yr oedd y breintiau a roddid i'r genedl trwy y rhan fwyaf dyrchafedig o wasanaeth y deml. Fel y dywed Hengstenberg:—"Rhagorfraint yr Hen Destament oedd hefyd ei ddiffyg." Yr oedd gwaith y genedl yn edrych yn mlaen gyda'r fath ddyheuad at y Messiah yn brawf o dlodi yr hen deml. Yn Nghrist ŷ cwblhawyd gwir undeb rhwng Duw â'i bobl. Crist ydyw gwrthgysgod y deml, a'i gwrthgysgod yn ei phrif arddercho grwydd; nid oedd gogoniant penaf y sancteiddiolaf yn ddim mwy na chysgod gwan o undeb y Duwdod â dynoliaeth yn ei berson ef. Ac at y berthynas yma rhwng y cysgod a'r sylwedd y cyfeirir yn *Ioan i.* 14; *Col.* ii. 9. Ond amcan preswyliad y Gair yn y cnawd, yn mherson Crist, ydyw ei breswyliad yn mhersonau dynion; ac nid yw yr olaf yn cael ei sylweddoli ond mewn rhan ac yn dra ammherffaith yn yr eglwys filwriaethus; felly, yn yr eglwys ogoneddus yn y nef y gwelir y cysgod yn sancteiddiolaf yr Hen Destament wedi ei gyflawni yn y graddau uchaf a pherffeithiaf. "Yr ydym yma yn cael mynegiad o ddiddymiad llwyr y ffurf foreuaf ar deyrnas Dduw; ond y fath ddiddymiad ar y ffurf ag sydd yn berffeithiad

rhoddi dim at air Duw, na thynu dim oddi wrtho.

B. A. 96.

AC efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd, disglaer fel grisial, [a] yn dyfod allan o orseddfaingc Duw a'r Oen.

[a] Ioan 14. 16—18; Act. 1. 4, 5.

2 Yn nghanol ei heol hi, ac o ddau tu yr afon, *yr oedd* [b] pren y bywyd, yn dwyn deuddeg *rhyw* ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth: a dail y pren *oedd* i iachau y cenhedloedd:

[b] Gen. 2. 9; 3. 22—24.

3 A [c] phob melldith ni bydd mwyach: [d] ond gorseddfaingc Duw a'r Oen a fydd ynddi hi; [e] a'i weision ef a'i gwasanaethant ef,

[c] Deut. 27 26; Mat. 25. 41; Gal. 3. 10—13. [d] Salm 16. 11. [e] Ioan 12. 23. [f] Exod. 33. 18—20, 23. [g] Dad. 14. 1. [h] Diar. 4. 18, 19; Esa. 60. 19, 20.

4 A [f] hwy a gânt weled ei wyneb ef; [g] a'i enw ef *a fydd* yn eu talcenau hwynt:

5 Ac ni bydd [h] nos yno: ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, na goleuni haul; o blegid y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo idduchaf ar y sylwedd—ymddattodiad tebyg i ymddattodiad y gronyn gwenith, yr hwn sydd yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, fel y dygo ffrwyth lawer: neu, fel eiddo y corph dynol, yr hwn a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth."—*Hengstenberg.* Fe dderfydd moddion gras pan gyrhaeddir amcan gras: 1 *Cor.* xiii. 10. Rhydd yr ordinhadau le i Dduw yr ordinhadau. Bydd i gymmundeb digyfrwng a diball â Duw a'r Oen wneyd cyfrwng yr ordinhadau yn ddiangenrhaid.

23. Gwel *Esa.* lx. 19, 20; *Zech.* xiv. 6, 7. Bydd goleuni a dedwyddwch y nef yn berffaith, a diball, heb ddim tymmhorau o gyfnewidiad yn perthyn iddynt. Y mae yn perthyn i'r byd a lywodraethir gan yr haul a'r lleuad nos yn gystal a dydd, oerni yr un modd a gwres, gauaf yr un modd a haf. Ond ni bydd yn y nef a'r ddaear newydd ond dydd a haf tragwyddol. Nid oes un sail i'r dybiaeth mai gogoniant y Tad ydyw ei haul, ac eiddo yr Oen ydyw ei lleuad.

Pennod xxii.

1—5. Y mae cyfeiriad arbenig yn yr *afon bur* at *Gen.* ii. 9, 10. Yno, fel yma, y mae yr afon a phren y bywyd yn cael eu cyssylltu â'u gilydd. Cymmharer hefyd *Ioel* iii. 18; ac yn enwedig *Esec.* xlvii—lle y mae y dwfr sanctaidd yn dyfod allan o'r cyssegr, ac ar ol ffrwythloni y diffeithwch, yn arllwys i'r Môr Marw. Gwel hefyd *Zech.* xiv. 8. Gwelir y prophwydoliaethau hyn yn yr Hen Destament yn cael eu cyflawniad uchaf yn y weledigaeth hon. Gwrthodir eglurhâd Luther yn gyffredin ar *ddwfr y bywyd.* Nid dwfr bywiol, yn yr ystyr o 'redegog' a olygir: ond bywyd dan y gymmhariaeth o afon—bywyd yn ei gyflawnder. Edrychir ar "ddwfr y bywyd" fel dwfr i'w yfed, i dori syched, am y bydd gogoniant y nef yn llwyr ddiwallu y dyhëad sydd yn y galon am ddedwyddwch. Y mae yr "afon bur o ddwfr y bywyd" yn dyfod allan o orseddfaingc Duw a'r Oen. Eistedda Duw a'r Oen ar yr un orseddfaingc. Cymmharer *pen.* vii. 17, lle y dywedir i ni fod "yr Oen yn nghanol yr orsedd-

[1] Dan. 7. 18, 27; Rhuf 5. 17; 1 Pedr 1. 3, 4. [k] Dad. 21. 5. [l] Dan. 3. 28; 6. 22. [m] Dad. 1. 3.

ynt, [1] a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd.

6 A efe a ddywedodd wrthyf fi, [k] Y geiriau hyn *sydd* ffyddlawn a chywir: ac Arglwydd Dduw y prophwydi sanctaidd a [l] ddanfonodd ei angel i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid iddynt fod ar frys.

7 Wele, yr wyf yn dyfod ar frys: [m] gwyn ei fyd yr hwn sydd yn cadw geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn.

8 A myfi Ioan a welais y pethau hyn, ac a'u clywais. A phan ddarfu i mi glywed a gweled, [n] mi a syrthiais i lawr i addoli ger bron traed yr angel oedd yn dangos i mi y pethau hyn. [n] Dad. 19. 10.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, [o] Gwel na *wnelych:* canys cyd-was ydwyf i ti, ac i'th frodyr y [o] Col. 2. 18. 19; 1 Ioan 5. 21.

faingc." "Yr holl bethau sydd eiddo y Tad ydynt eiddof fi." Yma, ac yn *adn.* 3, y mae gogoniant Crist yn cael ei ddisgrifio yn y modd mwyaf gogoneddus; lleferir am orseddfaingc y Tad fel ei orseddfaingc ef hefyd.—*Bengel. Yn nghanol ei heol hi.*—Y meddwl yw, fod y coed ar bob llaw yn nghanol y lle oedd rhwng yr heol a'r afon.—*Alford.* Rhwng yr heol a'r afon. Y mae yr afon yn rhedeg drwy yr holl ddinas; ac y mae heolydd yn rhedeg yn gyfochrog a'r afon ar bob llaw; ac tyno, ar lanau yr afon, rhwng y dwfr a'r heol, y mae rhes o bren y bywyd yn tyfu ar lanau yr holl afon o'r ddau du.—*Stuart.* Nid ydym ni yn gweled un rheswm dros beidio deall y geiriau yn yr ystyr a godai yn fwyaf naturiol oddi wrth y darlleniad; sef, fod pren y bywyd, nid yn unig yn tyfu ar bob tu i'r afon, ond yn nghanol yr heolydd. Yr oedd i'w gael yn mhob man trwy y ddinas. Fel hyn y deallir hwynt gan Hengstenberg. Yn Ezeciel, ar lanau yr afon yn unig y mae. *Pren y bywyd.*—Nid un pren; ond yr oedd glanau yr afon yn llawn o goed. Dyma y pren cyffredin yn y baradwys nefol: yr oedd yn nghyrhaedd pawb o'r dinasyddion i gyfranogi o hono pan y mynent; nid allent fyned i un cwr o'r ddinas nad oedd eu llygaid yn disgyn ar yr arwyddlun nodedig hwn o fywyd anfarwol a thragwyddol. Yr oedd yma ddwfr y bywyd i dori eu syched, a phren y bywyd i ymlid ymaith newyn. "Rhoddir ffordd rwydd ac agored yn y ddinas sanctaidd at bren y bywyd, yr hwn yr attelid Adda rhag cyffwrdd âg ef."—*Bengel.* Cyfeirir yma hefyd at *Ezec.* xlvii. 7. Y mae y cyfeithiad, "deuddeg rhyw ffrwyth," yn anghywir. Nid amrywiaeth y ffrwyth ydyw y drychfeddwl, ond ei gyflawnder:—y mae "pren y bywyd" yn dwyn ffrwyth ddeuddeg gwaith mewn blwyddyn: Nid deuddeg math o ffrwythau. Nid oedd yn debyg i bren sydd yn dwyn ffrwyth unwaith yn y flwyddyn, neu mewn un tymmhor; ond dygai ffrwyth yn barhaus—bob mis. Nid ydyw yr adgyflenwad byth yn pallu—dail y pren byth yn crino. Pa bryd bynag yr ä y dinesydd ato i ymofyn ffrwyth, ni chaiff ei siomi. 'Deuddeg ffrwyth,' gan hyny, a ddylasai y darlleniad fod. *A dail y pren:*—nid yn unig y mae ei ffrwyth yn cynnal bywyd, ac yn gwneuthur y bywyd yn anfarwol, ond y mae ei ddail hefyd yn iachusol. Nid iachau o afiechyd y maent yn y ddinas nefol, ond cadw afiechyd draw; o blegid, "ni ddywed neb o'r preswylwyr, claf ydwyf." *A'i weision:*—ni ddywedir 'a'u gweision;' sef, gweision Duw a'r Oen: "Myfi a'r Tad un ydym." Y mae eu hawdurdod yr un, fel eu gorseddfaingc. Dywedir am y gweision, y rhai sydd yma yn gwasanaethu, eu bod hefyd yn teyrnasu, yn *adn.* 5. Nid ydynt yn peidio a bod yn weision wrth fod yn frenhinoedd, nac yn peidio a bod yn frenhinoedd wrth fod yn weision. Y dyrchafiad mwyaf ar ddyn ydyw bod yn was—le, yn gacthwas i Dduw a'r Oen. Y mae y berfau yn *adn.* 3—5, yn yr amser dyfodol—*a fydd, a'i gwasanaethant, a gant weled,* ac *a deyrnasant;* yr hyn, ebe Bengel, sydd yn dangos y bydd parhâd tragwyddol yn y pethau gogoneddus sydd yn cael eu disgrifio. Hyd yma, y mae Ioan yn ysgrifenu yr hyn a welodd; ond yma y mae y disgrifiad yn cymmeryd y ffurf o brophwydoliaeth.

6—21. Y DIWEDD.

Yn yr adnodau dilynol, yr un modd ag yn y dechreu, y cyfeirir at ¡bwysigrwydd cynnwysiad y llyfr, ac y cymmhwysir y gwirioneedd cysurlawn am ail ddyfodiad Crist at galonau y saint. Wrth gymmharu yr adnod âg *adn.* 16, ceir y prawf cryfaf o Dduwdod Crist; yn y naill, dywedir "Arglwydd Dduw y prophwydi sanctaidd" a ddanfonodd ei angel; ac yn y llall, "Myfi Iesu a ddanfonais fy angel." *Dduw y prophwydi sanctaidd.*—Rhoddir yr enw yma ar Dduw, i'r dyben o ddangos fod geiriau "y brophwydoliaeth hon" (*adn.* 19) yn meddu ar awdurdod gogyfuwch â phrophwydoliaethau yr Hen Destament: awgrymir hefyd fod perthynas rhyngddynt, fel y mae prophwydoliaethau y llyfr hwn yn seiliedig ar y rhai blaenorol, ac yn cangiad arnynt. Sylwa Hengstenberg fod y cyssylltiad bwriadol sydd rhwng yr adnod hon a'r arweiniad i'r llyfr yn arwyddo fod diweddiad y llyfr yn dechreu yma.

7. Y mae *adn.* 3 o'r arweiniad i'r llyfr, yn cyfatteb i'r adnod hon. Yno, y mae "yr hwn sydd yn darllen" yn cael ei gyhoeddi yn wynfydedig: yma, y mae yn wahanol; am fod yr Iesu yn dyfod ar frys, y mae gwynfyd yn cael ei gyhoeddi uwch ben yr hwn sydd yn cadw geiriau y brophwydoliaeth hon. Y mae y gair *ar frys* yn gosod allan bwysigrwydd y llyfr, gan fod yr addewidion a'r bygythion a gyflawnir ar fyrder yn gofyn yr astudrwydd mwyaf difrifol. *Yr wyf yn dyfod.*—Y mae Crist "yn dyfod" pan y mae unrhyw amlygiad neilduol o'i ymyriad â'i awdurdod yn cymmeryd lle. Y mae pob amlygiad o'r fath yn foddion i barotoi y ffordd i'w ddyfodiad olaf i farn.

8. Geiriau pellach i ddangos pwysigrwydd y llyfr. Tystia Ioan nad o hono ei hun y mae yn llefaru; ac mor oruchel yw cynnwys ei genadwri fel y bu iddo syrthio i lawr wrth draed yr angel a'i hysbysai iddo. Y mae Ioan wedi ysgrifenu ei enw amryw weithiau yn y llyfr. "Megys yr ysgrifena dynion eu henwau mewn ysgrifau gwreiddiol o bwys mawr, i gau allan bob camsyniad yn eu cylch, felly y gwna Ioan yn y llyfr hwn."—*Bengel.* Yn ei Efengyl hefyd, cyfeiria at ei bersonoliaeth (*pen.* xxi 24), fel cadarnhâd o wirionedd yr hyn a welodd ac a glywodd. *Ger bron traed yr angel.*—Gwel *pen.* xix. 10. Llefara

prophwydi, ac i'r rhai sydd yn [p] Dad. 15. 4. cadw geiriau y llyfr hwn. [p] Addola Dduw.

10 Ac efe a ddywedodd wrthyf [q] Esa. 8 16; Dan. 12. 9; Mat. 10. 27. fi, [q] Na selia eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn: [r] o blegid y mae [r] Esa. 13. 6. yr amser yn agos.

[s] Dad. 16. 8 —11. 11 [s] Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn etto; a'r hwn sydd frwnt, bydded frwnt etto; [t] Dad. 7. 13 —15. [t] a'r hwn sydd gyfiawn, bydded gyfiawn etto; a'r hwn sydd sanctaidd, bydded sanctaidd etto.

12 Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr *sydd* gyda [u] Mat. 16. 27; Rhuf. 2. 6 —11. mi, [u] i roddi i bob un fel y byddo [x] Dad. 21. 6. ei waith ef.

13 Myfi yw [x] Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, y cyntaf a'r diweddaf.

14 [y] Gwyn eu byd y rhai sydd [y] Salm 119. 1-6; Gal. 5. 6. yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo [z] iddynt fraint yn [z] Ioan 1. 12; 1 Cor. 8, 9. mhren y bywyd, [a] ac y gallont [a] Ioan 10. 7, 9; 14. 6. fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas.

15 Oddi allan [b] *y mae* y cŵn, [b] 1 Cor. 6. 9, 10. a'r swyn-gyfareddwyr, a'r puteinwyr, a'r llofruddion, a'r eilunaddolwyr, a phob un a'r sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd.

16 [c] Myfi Iesu a ddanfonais fy [c] Adn. 6. angel [d] i dystiolaethu i chwi y [d] Dad. 3. 6 13 22. pethau hyn yn yr eglwysi. [e] Myfi [e] Esa. 11. 1; yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd, [f] a'r Seren foreu eglur. Zech. 6. 12. [f] Dad. 2. 28.

17 Ac y mae [g] yr Ysbryd a'r [g] Esa. 55. 1-3. briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r [h] hwn sydd yn clywed, dy- [h] Salm 34. 8. weded, Tyred. A'r [i] hwn sydd â [i] Esa. 55. 1.

yr angel am dano ei hun yma fel cydwas, nid yn unig â'r prophwydi a'r apostolion, ond hefyd â'r holl ffyddloniaid.

10. *Na selia* :—yn gyfystyr â 'cyhoedda.' Y mae y gorchymyn yn wrthwyneb i'r un a roddwyd i Daniel (*pen.* xii. 4, 9); ac i Ioan ei hun yn *pen.* x. 4. Prawf chwanegol o bwysigrwydd y llyfr. Yr eglwys mewn oesoedd dyfodol yn unig a allai wneyd defnydd o brophwydoliaethau Daniel; am hyny, gorchymynid iddynt gael eu selio. Ond yr oedd y rhai hyn i gael eu cyhoeddi am fod amser eu cyflawniad yn agos. Y rheswm a roddir yn *Dan.* viii. 26, dros selio y weledigaeth ydyw, "o blegid dros ddyddiau lawer y bydd."

11. Y mae yr amser yn agos—y mae y tymmor mor fyr, fel mai prin y mae lle i gyfnewidiad. 'Ymdrechwch am gyfnewidiad calon yn awr, yn yrychydig ennyd sydd yn aros cyn i mi ddyfod; onid ê, fe fydd hyny byth yn ammhossibl.'

12. *A'm gwobr.*—Y mae yr ymadrodd wedi ei gymmeryd o *Esa.* xl. 10, a lxii. 11, lle y mae yn cael ei lefaru gan Iehofah. Yma y mae Iesu Grist yn gwneyd yr un honiad.

14. Dywed Alford mai y darlleniad yn yr holl hen lawysgrifau ydyw, "Gwyn eu byd y rhai a olchant eu gŷnau;" nid "y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef." Nid yw gwahaniaeth yn y gwreiddiol rhwng y ddau ddarlleniad ond ychydig lythyrenau. *Fraint.*—Hawl, hawlfraint. Yn *Ioan* i. 12, cyfieithir yr un gair 'gallu.'

15. *Cwn.*—Dynion ammhur.—*Alford. Phil.* ii. 3. Ymhonwyr hyfion; proffeswyr ansanctaidd ac aflan: 2 *Pedr* ii. 22. Y prif ddrychfeddwl a gyfleir yma yn y gair ydyw 'ammhuredd.' Cyssylltir *puteinwyr* â *llofruddion*, fel y gwneir yn nghyfraith Moses. Dywed Beugel ar hyn:—"Y mae puteindra yn cael meddwl braidd yn llai am dano yn ngwledydd Cred yn bresennol nag ydoedd yn mysg y paganiaid; ond yma, y mae puteinwyr yn dyfod rhwng swyn-gyfareddwyr a llofruddion." Nis gellir disgyn ar un ran o'r Ysgrythyr lle y mae dychrynfeydd a chysuron yn cael eu cymmysgu yn well nag y maent yn y pennodau olaf o'r llyfr hwn. Y mae pob peth i'n hattynu yn y ddinas wynfyddedig; y mae pob peth perthynol iddi yn oludog a gogoneddus; ond y mae pob peth hefyd yn addas i'n llanw âg arswyd; o blegid ni a ganfyddwn fwy o burdeb ynddi nag hyd yn oed o odidogrwydd.—*Bossuet.*

16. Gwel *pen.* v. 5. Y mae y gair a gyfieithir *gwreiddyn*, yn arwyddo, fel y bernir yn gyffredin, blaguryn o'r gwreiddyn neu y boncyff; fel yn *Esa.* xi. 10; "Gwreiddyn Iesse." Ond dywed Webster a Wilkinson y gellir defnyddio y gair yn yr ystyr o wreiddyn—dechreuad, fel yn gyferbyniol i 'hiliogaeth.' Felly y mae y teitl yma yn gyfystyr âg "Alpha ac Omega." "Gwreiddyn Dafydd," ebe Hengstenberg, "ydyw cynnyrch y gwreiddyn—y blaguryn o'r gwreiddyn, yn mhaun y mae tylwyth Dafydd, yr hwn ydoedd wedi suddo i'r iselder dyfnaf, wedi blaguro eilwaith. Am mai yr Iesu ydyw gwreiddyn, efe hefyd ydyw hiliogaeth neu genhedlaeth Dafydd. Ynddo ef yn unig y mae yr hiliogaeth yn cael ei chadw a'i pharhau. Y mae hiliogaeth (*race*) Dafydd yn ŵy na'i eppil. Arwydda y gair y darfyddasai hiliogaeth Dafydd allan o fod, oni buasai am dano ef. Dygir hiliogaeth Dafydd yma ger ein bron ar gyfrif y nerth anorchfygol a'r llywodraeth dragwyddol a addewir iddi gan Dduw; *Luc* i. 32, 33. Gelwir ef hefyd y *Seren foreu eglur*, mewn cyfeiriad at *Esa.* xiv. 12, ar gyfrif ei awdurdod gogoneddus." Gwel hefyd ar *pen.* ii. 28.—*Hengstenberg.*

17—19. Bernir mai geiriau Crist yw y rhai hyn. Cymmharer *pen.* xxi. 6. *Yr Ysbryd*—Nid yr Ysbryd, fel y mae yn preswylio yn y saint; ond fel y mae yn Ysbryd prophwydoliaeth (*pen.* xix. 10); yn Ysbryd y prophwydi sanctaidd (*pen.* xxii. 6); yr Ysbryd yr oedd Ioan ynddo ar ddydd yr Arglwydd (*pen.* i. 10); yr hwn hefyd sydd yn llefaru yn a thrwy Ioan yn *pen.* xiv. 13; ac sydd yn rhoddi yr addewidion yn y llythyrau at yr eglwysi.—*Hengstenberg.* Yr un modd Webster a Wilkinson:—"Ysbryd Duw, yr hwn, yn y llyfr hwn, sydd yn llefaru wrth yr eglwysi." *A'r briodas-ferch.*—Yr eglwys. Gwel *pen.* xix. 7: xxi. 2, 9. Y mae yr eglwys yn adseinio galwad yr Ysbryd. "Y mae yr Ysbryd ei hun, ac Ioan fel ei gyfrwng, yn cyhoeddi 'Tyred' fel cynnrychiolydd yr eglwys."—*Hengstenberg.* Nid yw yr eglwys yn cael ei galw yma yn 'wraig,' ond yn briodasferch neu ddyweddi. Cymmhwysir y teitl cyntaf ati pan edrychir ar holl nifer ei haelodau

syched arno, deued. A'r hwn
[a] Esa. 12. 3. sydd yn ewyllysio, [k] cymmered ddwfr y bywyd yn rhad.
[d] Dad. 3. 14. 18 Canys yr wyf [l] fi yn tystiolaethu i bob un sydd yn clywed geiriau prophwydoliaeth y llyfr
[m] Deut. 4. 2. hwn, [m] Os rhydd neb *ddim* at y
[n] Dad. 14. 10, 11. pethau hyn, [n] Duw a rydd ato ef y pläau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn:

[k] Luc 11. 52.
[l] Dad. 13. 8
[l] Dad. 21. 22 —27.
[m] Dad. 1. 3.

19 Ac o thyn neb ymaith *ddim*
[o] oddi wrth eiriau llyfr y bro-
phwydoliaeth hon, [p] Duw a dyn
ymaith [q] ei ran ef allan o lyfr y
bywyd, ac allan o'r ddinas sanct-
aidd, [r] ac *oddi wrth* y pethau sydd
wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn.

20 Yr hwn sydd yn tystiol-
aethu y pethau hyn, sydd yn

wedi eu cyflawni, a hithau yn eglwys berffaith mewn gogoniant: *pen.* xix. 7; 21. 9. *A'r hwn sydd yn clywed.*—Yr hwn sydd yn clywed yr Ysbryd a'r eglwys yn dywedyd, *Tyred,* ymuned â'r eglwys, deued yn rhan o honi, cyfranoged â hi yn ei phrif ddymuniad. "Neu, gall fod 'clywed' yn gyfystyr âg 'ufuddhau;' o blegid nis gall neb, oddi eithr iddo ufuddhau i'r efengyl, weddïo ar Grist i ddyfod. Yn yr ystyr yma y defnyddir y gair 'clywed' yn *pen.* i. 3; *Ioan* x. 16."—*Brown.* Edrycha ereill ar yr ymadrodd fel yn cynnwys gwahoddiad i bechaduriaid—ei fod yn annog y rhai sydd wedi clywed yr alwad yn achubol i alw ar ereill; ond y mae y golygiad arall yn fwy tebygol. *A'r hwn; sydd yn ewyllysio*:—er nad yw ei ddymuniad mor gryf fel y gellir ei alw yn 'syched.' "Yr hwn a fedd gymmaint o lawenydd fel ag i fod yn abl i ddyweyd, 'Tyred,' dyweded Tyred. A'r hwn nis gall, dysged ei ddywedyd. Crynhöir gallu yr holl efengyl i hyn, fod un yn alluog i atteb i'r alwad 'Tyred,' ac i'w adrodd o'i galon."—*Bengel. Canys yr wyf fi.*—Y mae ein Harglwydd bendigedig yn dwyn dadguddiad y llyfr hwn, a chydag ef yr holl ddadguddiad o ewyllys Duw, i'w derfyniad gyda rhybudd o'r math mwyaf difrifol. Mae y rhybudd yr un o ran sylwedd a'r hwn a roddes yr Arglwydd trwy ei was Moses i Israel: gwel *Deut.* iv. 2; xii. 32. Cynnwysa hysbysiad o ysbrydoliaeth ac awdurdod dwyfol y llyfr, ac o ganlyniad o bwysigrwydd anghymmharol ei gynnwysiad. Dangosir hefyd fod ysbryd prophwydoliaeth yn ymadael—fod prophwydoliaethau yn peidio, yn ol rhagfynegiad yr apostol yn 1 *Cor.* xiii. 8. Ar ol cwblhau teml y dadguddiad dwyfol, rhoddir rhybudd difrifol i bawb rhag ei halogi. Cafwyd profion lawer yn yr ail ganrif o'r angenrheidrwydd am y rhybudd difrifol hwn, yn yr ysgrifau ffugiedig a gyssylltid âg enwau yr apostolion, yr efengylau apocryphaidd, dadguddiadau Pedr, Paul, Thomas, &c. Er fod y rhybudd yn gwahardd y cyfryw ysgrifau ffugiol yn y modd mwyaf pendant, etto nid yw i'w gyfyngu at bethau o'r fath. Mae y rhoddi at, a'r tynu oddi wrth, yn cyfeirio at agwedd y galon at gynnwysiad y llyfr. Dylid derbyn, credu, a sylweddoli y llyfr i gyd, a gofalu rhag rhoddi ystyr annheilwng i'w weledigaethau, neu fethu canfod ynddynt y gwirioneddau a fwriedir, trwy ddylanwad un math o ragfarn. Nis gellir meddwl am eiriau yn dangos yn gryfach y mawr bwys o fod yn deg a gonest wrth drin y Beibl. Golygir yma, ebe Hengstenberg, y cyfryw gymeriadau ag a ddisgrifir yn 2 *Pedr* iii. 4; *Esa.* v. 19; *Dad.* ii. 10; 2 *Tim.* ii. 17. Y mae y llythyrau at eglwysi Asia, yn cynnwys cyfeiriadau at bersonau yn yr Eglwys Gristionogol, mor fuan ag amser y Dadguddiad, y rhai ni phetrusent roddi at, neu dynu oddi wrth eiriau Duw: *pen.* ii. 6. Y mae temtasiwn gref i wneuthur hyny mewn amser o erledigaeth. Yr oedd y neb a ymgadwai at eiriau y llyfr, yn eu purdeb, drwy hyny yn sefyll yn erbyn paganiaeth, ac yn gwneuthur ei hun yn wrthddrych holl adgasedd Anghrist. Y mae pob un sydd yn amddifad o ysbryd merthyr dan orfod i roddi at neu i gymmeryd oddi wrth. Yr oedd yr angen mwyaf, gan hyny, am y rhybudd difrifol yma. Nis gellir ymwid ymaith ofn dyn—yr ofn sydd yn wastad yn rhoddi bod i'r ysbryd penrhydd—ond âg ofn Duw. Mae cyfattebrwydd rhwng y gosp a'r pechod. Am roddi at eiriau Duw, rhydd Duw y pläau at y neb a wnelo hyny: am dynu oddi wrthynt, tyna Duw y bendithion ymaith. Y bendithion hyn, ebe Bengel, ydyw swm yr holl ddaioni a addewir yn nechreu ac yn niwedd y llyfr: *pen.* ii. 7; iii. 12; xxi. 2; xxii. 2. *Llyfr y bywyd.*—Y llyfr sydd yn cynnwys enwau y rhai a gânt fyw gydag ef byth. Fel hyn gosodir allan enwau ei bobl fel wedi eu rhestru mewn llyfr a gedwir ganddo ef—rhestr o'r rhai a gedwir i fywyd tragwyddol. Gelwir ef, yn *pen.* xiii. 8, "llyfr bywyd yr Oen," am mai enw Crist ydyw y cyntaf yn y llyfr, ac enwau ei boblyn canlyn. Ethol wyd hwynt yn ddoe ef, a rhoddwyd hwynt iddo ef, ac efe a'u prynodd hwynt. Defnyddir yr ymadrodd "llyfr y bywyd" yn fynych yn yr Ysgrythyrau i drosglwyddo y drychfeddwl hwn. Pan y dywedir am y neb a dyn ymaith "oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon," y "tyn Duw ei ran ef allan o lyfr y bywyd," y meddwl yw, nid fod ei enw yn ysgrifenedig yn awr; ond y tyn efe ymaith y rhan a allai efe ei gael, neu y rhan y proffesai efe fod ganddo, yn y llyfr hwnw. Dangosai y cyfryw lygriad ganddo o'r oraclau Dwyfol ei fod yn amddifad o wir grefydd, ac y cauid ef allan o'r nefoedd. *Ac allan o'r ddinas sanctaidd.*—Y ddinas; sef, yr Ierusalem nefol a ddisgrifir yn *pen.* xxi. Ni oddefid iddo fyned i mewn i'r ddinas hono, na chael un gyfran yn mhlith y gwaredigion. *Ac oddi wrth y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn.*—Yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr a gyhoeddir yn y llyfr, ynghyd â'r gogoniant a'r dedwyddwch tragwyddol a ddisgrifir ynddo. Dengys mawredd y gospedigaeth fawredd y pechod o dynu dim oddi wrth, neu o chwanegu at Air Duw.

20. GEIRIAU YMADAWOL CRIST AC IOAN.

Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn.—Yr Arglwydd Iesu Grist; canys efe oedd, trwy offerynoliaeth ei angel, wedi dwyn y dystiolaeth ddifrifol hon i wirionedd y pethau hyn; ac yr oedd efe yn bwriadu i'r llyfr hwn gael ei ystyried mewn modd arbenig fel ei ddadguddiad ef ei hun i ddynolryw. Y mae efe yma yn siarad am dano ei hun, ac yn rhoddi sicrwydd am wirionedd a sylweddolrwydd y pethau hyn trwy ddywedyd mai efe sydd yn eu "tystiolaethu." Dengys y ffaith fod yr Iesu ei hun yn rhoddi sicrwydd am wirionedd yr hyn a ddadguddir yma briodoldeb yr hyn a ddywedasai Ioan yn yr adnodau

dywedyd, Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.

blaenorol ynghylch chwanegu ato, neu dynu oddi wrtho. *Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys:—h.y.,* fe ddechreua y dadblygiad o'r digwyddiadau hyn yn ddioed, er y gall eu cwblhad ymestyn i oesoedd pellaf y ddaear, neu hyd yn oed i dragwyddoldeb. *Yn wir:*—Groeg, 'Amen.' Mynegiad o gydsyniad, cymmeradwyaeth, crediniaeth ar ran y gweledydd, a thrwyddo ef ar ran yr eglwys.—*Hengstenberg.* Y mae yr "Amen, tyred Arglwydd Iesu," yn cael ei lefaru gan yr Ysbryd trwy yr Iesu, neu gan Ioan yn yr Ysbryd. Ymddengys i ni mai yr olaf ydyw yr ystyr—yr adsain o ddyfnderau calon y gweledydd, fel cynnrychiolydd y wir eglwys, i gyhoeddiad yr Arglwydd Iesu. Amlygiad o gydsyniad difrifol a siriol o eiddo Ioan ydyw â'r hyn a ddywedasai y Gwaredwr, y byddai iddo ddyfod ar frys. Dymuniad ei galon ef oedd iddo ddyfod. Yr oedd

21 [a]Gras ein Harglwydd ni [b]Rhuf. 1.7. Iesu Grist *fyddo* gyda chwi oll. AMEN.

yn hiraethu am ei ymddangosiad. *Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.*—Y mae Ioan yma yn amlygu dymuniad yn yr un iaith yn hollol ag a ddefnyddiasid gan yr Iesu—calon yn atteb i galon. Y meddwl yma ydyw, 'Tyred, yn yr un dull, ac i'r amcanion y cyfeirir atynt yn y llyfr hwn.' Yr oedd yn briodol i Ioan, yr hwn oedd yn hen ŵr, ac yn dioddef alltudiaeth mewn ynys unigol, weddïo ar i'r Arglwydd Iesu ddyfod ar frys i'w gymmeryd ato ei hun; ac y mae y cyfryw ddymuniad yn ddiweddglo hynod o gymhwys i'r llyfr nodedig hwn.

21 Diwedda y Dadguddiad dwyfol gyda'r un dymuniad ag y byddai Paul yn ei arfer. Tra y mae yr Hen Destament yn diweddu gyda melldith (gwel *Mal.* iv.) y mae y Testament Newydd yn diweddu gyda bendith. *Gras ein Harglwydd ni Iesu Grist fyddo gyda chwi oll.*

RHYNGED BODD I'R YSBRYD TRAGWYDDOL, YR HWN A DDADGUDDIODD I NI EWYLLYS A BWRIADAU GRASOL Y TRI YN UN IEHOFAH, TRWY GYNNHYRFU O HONO Y PROPHWYDI A'R APOSTOLION SANCTAIDD I YSGRIFENU YR YSGRYTHYRAU ER EIN HADDYSG, EIN RHYBUDD, A'N CYSUR, FENDITHIO Y CAIS EGWAN HWN I CHWILIO ALLAN RYWFAINT O'R TRYSORAU DIHYSBYDD SYDD YN GUDDIEDIG YNDDYNT, A PHERI EI FOD O RYW WASANAETH TUAG AT GADW LLYFR DUW YN BRIF LYFR ASTUDIAETH CENEDL Y CYMRY HYD GENEDLAETH A CHENEDLAETH.

ATTODIAD.

HANES GWLADOL A CHREFYDDOL YR IUDDEWON,

o

MALACHI HYD IOAN FEDYDDIWR.

PENNOD I.

Crynodeb o hanes gwladol yr Iuddewon, yn ystod y cyfnod rhwng yr Hen Destament a'r Newydd.

Er nad yw yr Ysgrythyrau yn ein cynnysgaeddu â hanes y cyfnod hwn, ceir cyfeiriadau mynych mewn prophwydoliaeth at y digwyddiadau cyffrous a gymmerasant le ynddo, ac y mae llawer o honynt yn tafiu goleuni ar y Testament Newydd. Cymmerwyd y crynodeb canlynol o'i hanes allan o'r "*Gwyddoniadur Cymreig*," o dan y gair Iuddewon:—

Ar ol marwolaeth Nehemiah, unwyd Iudea â rhaglawiaeth Syria; ond gadawyd gweinyddiad achosion Iuddewig yn nwylaw yr archoffeiriaid, yn ddarostyngedig, pa fodd bynag, i reolaeth y llywyddion taleithiol. Yn y sefyllfa hon y parhaodd yr Iuddewon hyd nes y dymchwelwyd ymherodraeth Persia gan Alexander Fawr, pan y daeth Ierusalem yn ddarostyngedig i'r gorchfygwr galluog hwnw.

Ar farwolaeth Alexander, yn lle y tangnefedd a'r diogelwch a fwynhawyd gan yr Iuddewon o dan lywodraeth y Persiaid, anrheithiwyd y wlad gan ryfeloedd a thywallt gwaed. Yn y rhyfeloedd hyny a gymmerodd le yn mhlith olynwyr Alexander, o blegid ei sefyllfa rhwng Syria a'r Aipht, syrthiodd Iudea yn anrhaith i'r naill a'r llall o'r pleidiau. Yn ol iaith Josephus, yr oedd y genedl Iuddewig yn gyffelyb i long yn cael ei lluchio gan dymmhestl, a'i churo y naill ochr a'r llall gan y tonau—er hyny yn byw yn nghanol y moroedd gwrthwynebus. Ar y cyntaf, daeth eu gwlad i ran Laomedon, ynghyd â Cœlo-Syria a Phœnicia. Ond yr oedd Ptolemy Lagus, brenin yr Aipht, wedi rhoddi ei fryd ar gael holl Syria i'w feddiant. Arweiniodd ei wŷr i Iudea, a dewisodd y dydd Sabbath i wneyd ei ymosodiad ar Ierusalem. Ni chafodd wrthwynebiad oddi wrth y preswylwyr—can mil o ba rai a gymmerwyd ymaith yn gaethion ganddo, a sefydlodd hwy yn Cyrene ac Alexandria; ac fel hyny sylfaenwyd y drefedigaeth Iuddewaidd yn Alexandria, yr hon am bedwar can mlynedd y mae iddi le pwysig yn nghofnodion yr Iuddewon. Gyda'r eithriad o'r adeg y goresgynwyd Iudea gan Antigonus, parhaodd o dan awdurdod Ptolemy—gwladlywiad yr hwn yn mhlith yr Iuddewon oedd yn ddoeth a rhyddfrydig. Yn ystod teyrnasiad y tywysog hwn, Simon y Cyfiawn oedd yn archoffeiriad; yr hwn, yn ol traddodiad Iuddewaidd, oedd yr aelod diweddaf o'r synagog fawr, ac yn y cymmeriad hwn a gwblhaodd y canon cyssegredig. Dilynwyd Ptolemy Lagus gan Ptolemy Philadelphus, fel brenin yr Aipht. Yn ei deyrnasiad ef, dybygid, y dechreuwyd y cyfieithiad Groegaidd o'r Ysgrythyrau Hebraeg (yr hwn a elwir y Deg a Thrigain, oddi ar y dybiaeth fod y nifer hwnw o bersonau wedi eu defnyddio i wneyd y gwaith), er na chwblhawyd mo hono hyd ŷfnod diweddarach. Yn ystod parhâd y rhyfeloedd rhwng Antiochus Fawr a'r Ptolemiaid, dioddefodd preswylwyr Iudea yn llymdost. Anrheithiwyd eu gwlad; ac i ba ochr bynag y gogwyddai y fuddugoliaeth, dioddefwyr oeddynt hwy. Er iddynt dderbyn llawer o ffafrau o dan lywodraeth y Ptolemiaid, pleidiodd yr Iuddewon Antiochus; yr hwn, i amlygu ei ddiolchgarwch, a ysgafnhaodd eu beichiau, a roddes roddion tuag at ddwyn treuliau eu haberthau, ac a ddiogelodd iddynt fwynhâd o'u breintiau crefyddol.

Tra gwahanol ydoedd gwladlywiaeth Antiochus Epiphanes tuag at yr Iuddewon: gwangcusrwydd, dallbleidiaeth, a chreulondeb yr hwn oedd ddiarhebol. Un o weith-

rdoodd cyntaf ei deyrnasiad ydoedd diswyddo Onias yr archoffeiriad, a rhoddi y swydd i Iosuah, brawd Onias, yr hwn a addawsai i'r brenin deyrnged fawr am yr anghyfiawnder hwn. Mabwysiadodd yr archoffeiriad newydd yr enw Groegaidd 'Iason,' a chaniataodd i wasanaeth y deml gael ei esgeuluso, a gwnaeth ei oreu i ennill yr Iuddewon drosodd at baganiaeth. Yn ei dro, dymchwelwyd Iason gan ei frawd Menelaus; yr hwn, mewn cyffelyb fodd, a ymdrechodd gyfnewid yr arferion Iuddewig am arferion Groegaidd. Yn y cyfamser yr oedd sylw Antiochus wedi ei dynu tua'r Aipht: efe a arweiniodd yno fyddin gref, yr hon oedd yn fuddugoliaethus ar bob llaw. Tra yr oedd yno, clywodd adroddiadau fod yr Iuddewon wedi gwrthryfela, a chyfeiriodd ei arfau yn ddiymaros yn erbyn Iudea. Cymmerwyd Ierusalem; a gwerthwyd yn gaethion, neu lladdwyd â'r cleddyf, bedwar ugain mil o'r preswylwyr; a thra yr ysbeiliai efe y deml o'i holl drysorau, amlygodd ei elyniaeth tuag at y grefydd Iuddewig drwy halogi yn y modd adgasaf bob peth a ystyriai yr Iuddewon yn fwyaf cyssegredig. Ar ol hyn, ymosododd eilwaith ar yr Aipht. Am dymmor, yr oedd llwyddiant yn ymddangos yn ammheus; ond appeliodd y blaid wanaf i Rufain, a bu raid i Antiochus ymostwng ac encilio.

Wedi ei somi yn ei fwriadau yn erbyn yr Aipht, dychwelodd Antiochus i'w brifddinas, pan y rhoddodd gyhoeddiad allan yn gorchymyn i holl breswylwyr ei ymherodraeth addoli duwiau y brenin, ac i beidio cydnabod un grefydd arall ond yr eiddo ef. Y mae yn ammheus pa un ai gwangcusrwydd rheibus, ai ynte dallbleidiaeth, y penadur a amlygai ei hun fwyaf yn y gorchymyn hwn. Yr oedd y temlau y pryd hwnw, nid yn unig yn cael eu cyfoethogi gan offrymau y rhai a addolent ynddynt; ond hefyd, o herwydd y cyssegredigrwydd a ystyrid oedd yn gyssylltiedig â hwynt, dygai llawer eu trysorau iddynt er mwyn diogelwch; ac ymddengys fod Antiochus wedi gosod i lawr ei gynllun i'w hysbeilio drwy ei holl diriogaethau yn ganlynol i roddi attalfa ar y gwasanaeth ynddynt. Yn mhlith ei ddeiliaid paganaidd, rhoddwyd ufudd-dod parod i'r gyfraith hon. Nid oedd y cydsyniad yn Iudea, pa fodd bynag, yn gyffredinol; ac arweiniodd y graddau o wrthwynebiad a amlygwyd i'r mesurau creulawn hyny o eiddo Antiochus i gyffroi a bywhau ysbryd y Maccabeaid, pa rai a gyfodasant Duw yn mhlith eu cydwladwyr gwrthgiliedig i amddiffyn ei achos, ac i fod yn esampl i ddynolryw.

Anfonwyd Groegwr, o'r enw Athenæus, i Ierusalem, i addysgu yr Iuddewon yn grefydd yr oeddynt o hyny allan i'w chyffesu a'i pharchu. Yr oedd y gŵr hwn yn berffaith hysbys o ffurfiau y gwasanaeth paganaidd, ac wedi ei wisgo âg awdurdod i orfodi pawb i gydsynio â'r ddeddf. Efe a gyssegrodd y deml i Jupiter Olympus, a gosodwyd i fyny gerfddelw Jupiter ("y ffieidd-dra anghyfanneddol" y cyfeirir at gan y prophwyd Daniel) ar allor yr Iehofah; a chyfodwyd allorau i'r duwiau drwy holl Iudea, ar ba rai y gorfodwyd yr Iuddewon i offrymu aberthau dan boen y cospedigaethau creulonaf. Yr oedd enwaedu, cadw y Sabbath, ac arferion ereill perthynol i'r gyfraith seremoniol, yn cael eu hystyried yn mysg y troseddau mwyaf; a'r holl gopïau y ceid gafael arnynt o'r llyfrau cyssegredig a ddistrywiwyd. Adeiladwyd llwyni hefyd, a chyfodwyd allorau paganaidd yn mhob dinas; ac ar adegau pennodol, gelwid ar y dinasyddion i offrymu aberthau, ac i ymuno yn y gorymdeithiau cyhoeddus: anfonid swyddogion i'r holl drefi, yn cael eu cefnogi gan filwyr arfog, er mynu ufudd-dod i'r gyfraith frenhinol. Ar y cyntaf, ni chawsant wrthwynebiad; ond yn raddol gwnaed gwrthsafiad penderfynol yn eu herbyn. Yr ydym yn deall, oddi wrth Lyfr Cyntaf y Maccabeaid, pan ddaeth swyddogion y brenin Antiochus, wrth deithio Iudea, i dref Modin, i orfodi y bobl i aberthu, gorchymynasant i Mattathias, offeiriad o feibion Ioarib, i ddyfod yn mlaen yn gyntaf i gyflawni gorchymyn y brenin:—"A Mattathias a attebodd, ac a ddywedodd â llefarydd uchel, Pe gwrandawai yr holl genhedloedd ar sydd dan lywodraeth y brenin arno ef, ac ymadaw o bawb allan o grefydd eu hynafiaid, a chytuno â'i orchymynion ef, etto myfi, a'm meibion, a'm brodyr, a rodiwn yn nghyfammod ein tadau. Duw a drugarhao wrthym, rhag gadael o honom y gyfraith a'r deddfau. Ni wrandawn ni ar eiriau y brenin i wyro oddi wrth ein gwasanaeth tua'r llaw ddeheu neu'r llaw aswy. Pan beidiodd efe a dywedyd y geiriau hyn, rhyw Iuddew a ddaeth yn eu gŵydd hwy i aberthu ar yr allor yn Modin, yn ol gorchymyn y brenin. Pan welodd Mattathias hyn, efe a wynfydodd, a'i arenau a grynasant, ac ni fedrodd ymattal rhag dangos ei lid yn ol barn, ac a redodd ac a'i lladdodd ef ar yr allor. Ac efe a laddodd yr amserhwnw wasanaethwr y brenin, yr hwn oedd yn eu cymmhell hwy i aberthu, ac a ddistrywiodd yr allor. Ac efe a ddug sêl tuag at gyfraith Dduw, fel y gwnaeth Phinees Zambri fab Salom. A Mattathias a lefodd yn y ddinas â llef uchel, gan ddywedyd, Pwy bynag sydd yn dwyn sêl i'r gyfraith

ac sydd yn cadw y cyfammod, canlyned fi. Ac efe a'i feibion a ffoisant i'r mynyddoedd, ac a adawsant beth bynag oedd ganddynt yn y ddinas;" 1 *Macc.* ii. 19—28.

Dyna yr amgylchiadau dan ba rai y dechreuwyd yr amddiffyniad ardderchog a wnaeth Mattathias a'i feibion dros grefydd a rhyddid eu gwlad. Wedi iddo ddiangc i'r mynyddoedd, ymunwyd â Mattathias yn fuan gan bobl o bob parth o'r wlad, y rhai nad oedd ganddynt ond eisieu arweinydd er eu cynnhyrfu i wneuthur gwrthsafiad. Nid hir y bu Mattathias fyw i fod yn flaenor arnynt; ond ar ei farwolaeth, gadawodd olynwyr cymmhwys yn ei feibion dewr, y rhai, am ysbaid chwech ar hugain o flynyddau, a ryfelasant â phump o frenhinoedd Syria yn olynol; yr hyn a derfynodd yn sefydliad annibyniaeth eu gwlad. Iudas Maccabeus, trydydd mab Mattathias, oedd y cyntaf i gymmeryd y flaenoriaeth. Bu ei lwyddiant ef am beth amser yn ddidor. O fod yn wrthryfel dibwys, dybygid, ymledodd yr ymdrechfa yn fuan yn rhyfel mawr: gorchfygwyd cadfridogion dewisol Antiochus Epiphanes, a'u lluoedd lluosog; ac mewn llai na thair blynedd, yr oedd Ierusalem unwaith yn rhagor yn nwylaw yr Iuddewon, ei hallorau wedi eu hadgyweirio, ei themi wedi ei phureiddio, ei gwasanaeth cyssegredig wedi ei adferu; ac yn fuan ar ol marwolaeth Antiochus, gorfodwyd y Syriaid i wneyd ammodau heddwch â'r Maccabeaid.

Pe buasai yr Iuddewon yn unol yn eu plith eu hunain, gallasent wrthsefyll holl allu eu gelynion. Ond yr oedd llawer o elfenau anghydfod yn eu plith. Ni bu y Syriaid yn hir heb gymmeryd mantais ar yr ymrysonau mewnol hyn, ac ail ddechreuwyd y rhyfel drachefn. Er fod llawer o ddilynwyr Iudas wedi encilio oddi wrtho, er hyny bu ei arfau yn llwyddiannus; ond lladdwyd ef mewn brwydr â Demetrius, yn agos i Azotus. Cymmerwyd y flaenoriaeth gan Ionathan, ei frawd. Ar y cyntaf, ni bu efe yn llwyddiannus iawn; ond, trwy ei ddoethineb a'i ddewrder anturiaethus, coronwyd ei ymdrechion â llwyddiant yn y diwedd. Yn yr ymrysonfa am goron Syria, a gymmerodd le rhwng Demetrius ac Alexander Balas, yr oedd y ddwyblaid yn awyddus am wneuthur cynghrair âg Ionathan; a galluogwyd ef drwy hyn i osod i lawr y telerau mwyaf ffafriol i Iudea. Ond yn y rhyfeloedd a ddilynodd farwolaeth Balas, lladdwyd ef yn fradwrus drwy offerynoliaeth Tryphon; yr hwn, o dan broffes o gyfeillgarwch, a'i temtiodd i fyned i Ptolemais, heb allu digonol i'w amddiffyn ei hun. Simon yn awr oedd yr unig frawd a adawyd o dŷ Mattathias; ond ni ddigalonwyd ef gan dynged ei deulu: ymgymmerodd yn wrol â'r swydd beryglus y galwyd ef iddi gan ei gydwladwyr. "O achos hyn," medd efe, "y lladdwyd fy mrodyr i oll er mwyn Israel, a mi a adawyd fy hunan. Ac yr awr hon, na atto Duw i mi arbed fy einioes yn amser cystudd; o blegid nid ydwyf fi well na'm brodyr; eithr mi a ddialaf fy nghenedl, a'r cyssegr, a'ch gwragedd a'ch plant chwi;" 1 *Macc.* xiii. 4—6. Cyflawnodd yn ffyddlawn yr ammod hon. Rhoddodd yr holl wlad mewn sefyllfa amddiffynol, gwnaeth gyttundeb â Demetrius, gwrthwynebwr y bradwrus Tryphon, a diogelodd drwy hyny y fath freintiau i'r Iuddewon, fel y dyddir eu gwaredigaeth oddi wrth iau y Syriaid o'r cyfnod hwn: c. c. 143. Etholodd yr Iuddewon Simon yn ethnarch, neu dywysog, yn gystal ag yn archoffeiriad—y swydd i fod yn dreftadol yn ei deulu. Yr oedd llwyddiant Simon yn cael ei noddweddu gan allu a doethineb. Fel ereill o'i deulu, bu farw drwy ddwylaw bradwr: llofruddiwyd ef mewn gwledd gan ei fab yn nghyfraith. Llofruddiwyd dau o'i feibion gydag ef; ond diangodd y trydydd i Ierusalem, lle y cymmerodd y llywodraeth fel olynydd ei dad. Ei enw oedd Ioan Hyrcanus—cyfenw a roddwyd arno mewn canlyniad i'w ymdrechiadau dewr yn Hyrcania. Bu yn llywodraethu am ddeng mlynedd ar hugain yn dra llwyddiannus.

Yr oedd meibion Hyrcanus yn annheilwng o'r teulu enwog yr oeddynt wedi hanu o hono. Ni bu tymmor llywodraeth ei fab hynaf, Aristobulus, ond blwyddyn; ond bu yn euog o droseddau ysgeler. Drwy ei orchymyn ef, carcharwyd ei fam, a newynwyd hi i farwolaeth, a llofruddiwyd ei frawd Antigonus. Yr oedd ei frawd, Alexander Iannæus, ei olynydd, yn ddyn o wroldeb mawr, ond yn greulawn, twyllodrus, a gorthrymus. Y gwaith mwyaf oedd ganddo ef i'w wneyd oedd darostwng y terfysgoedd a ymgodent yn mhlith ei ddeiliaid—yn cael eu hachlysuro mewn rhan gan ysbryd cythryblus y Phariseaid, ond yn benaf gan orthrwm ei lywodraeth ef ei hun. Ychydig cyn ei farwolaeth, yr hyn a brysurwyd trwy ddilyn llwybrau anghymmedroldeb, cymmhellai ei frenhines, Alexandra, i ymuno â'r blaid Phariseaidd, fel yr unig foddion i ddiogelu y deyrnas. Dilynwyd y cynghor yn fanwl gan Alexandra, yr hon a barhaodd i lywodraethu yn alluog a doeth am ysbaid naw mlynedd, a diogelwyd tawelwch i'r wladwriaeth.

Ar farwolaeth Alexandra, yr oedd ei dau fab, Hyrcanus ac Aristobulus, yn ymgeiswyr am yr olyniaeth. Yr oedd Hyrcanus yn ddiffygiol yn yr holl gymmhwysderau angenrheidiol i lywodraethu; a buasai yn

rhoddi lle i'w frawd, dybygid, yn ddiwrthwynebiad, oni bae i Antipater neu Antipas (tad Herod Fawr) ei annog i amddiffyn ei hawliau. Yn ol Josephus, yr oedd Antipas yn hanu o deulu pendefigaidd yn Idumea, ac wedi mabwysiadu y grefydd Iuddewig. Yr oedd ei dad wedi bod yn llywodraethwr Idumea yn amser Alexander Jannæus ac Alexandra. Yr oedd Antipas ei hun wedi ei addysgu yn y llys Iuddewig, lle y cymmerodd blaid y mab hynaf, yr hwn a ystyriai efe yn etifedd yr orsedd. Yr oedd Aristobulus, cyn marwolaeth ei fam, wedi gofalu am gael amryw o'r amddiffynfeydd cryfaf yn Iudea i'w feddiant; ac yr oedd hyn yn attalfa annisgwyliadwy ar ffordd cyfeillion Hyrcanus i gyrhaedd eu hamcan. Yr oedd yr orsedd, pa fodd bynag, yn rhy bwysig i'w cholli, heb wneyd ymdrech yn y byd i'w diogelu; a than ddylanwad Antipas cymmerodd Hyrcanus ran yn yr ymrysonfa am dano. Am beth amser, yr oedd y canlyniadau yn ammheus. O'r diwedd, cyttunodd y brodyr i osod eu hachos ger bron Pompey, i gael ei benderfynu ganddo ef. Oedodd Pompey o bryd i bryd i gyhoeddi ei ddedfryd yn ffafr un o'r pleidiau, nes o'r diwedd i Aristobulus, wedi ei somi yn ei obeithion am gael cefnogaeth Rhufain, gymmeryd ei safle yn Ierusalem, a pharotoi i ryfel. Ar hyn, ymosododd Pompey ar y brifddinas Iuddewig, ac wedi gwarchau o dri mis, cymmerodd hi drwy ruthr. Oni bae y gwrthwynebiad a deimlai yr Iuddewon i wneyd dim ar y Sabbath, gallasai yr amddiffynfa yn ddiau ddal allan yn llawer hwy. Dangoswyd ymlyniad nodedig yr Iuddewon wrth eu seremonïau eyssegredig mewn ystyr arall y pryd hwn. Pan y cymmerwyd y deml, yr oedd yr offeiriaid yn cyffawni gwasanaeth yr aberth dyddiol; ac yn nghanol yr holl ddychrynfeydd a'u cylchynent, aethant yn mlaen yn rheolaidd a digryn, gan ystyried, fel y dywed Josephus, fod yn well iddynt ddioddef pa beth bynag a ddigwyddai iddynt wrth eu hallorau na gadael dim heb ei gyflawni a ofynai y gyfraith ganddynt. Darfu cywreingarwch ei arwain i ymweled â'r holl adeilad eyssegredig, ac aeth i mewn i'r sanctaidd sancteiddiolaf hefyd. Ni chyffyrddodd â llestri cyssegredig y deml, nac ychwaith â'i thrysorau, oedd yn llawn werth dros ddwy fil o dalentau o aur. Rhoddodd hefyd orchymyn i lanhau y deml, ac ar fod i wasanaeth crefyddol gael ei ddwyn yn mlaen yno fel cynt. Efe a appwyntiodd Hyrcanus yn archoffeiriad, gan roddi iddo ar y pryd lywyddiaeth Iudea, dan deyrnged i'r Rhufeiniaid, ond heb y teitl o frenin. Gwahanwyd dinasoedd Phœnicia a Cœlo-Syria, a orchfygasai yr Iuddewon, oddi wrth Iudea, ac unwyd hwy â Syria, yr hon a wnaed yn dalaeth o'r ymherodraeth Rufeinig; tra y darostyngwyd Iudea yn dywysogaeth israddol: c. c. 63.

Dygwyd Aristobulus, a'i ddau fab, Alexander ac Antigonus, a'i ddwy ferch, ymaith yn garcharorion gan Pompey, i anrhydeddu ei fuddugoliaeth, a gadawodd Hyrcanus yn llywydd Iudea. Yr oedd y tywysog egwan hwn yn hollol o dan ddylanwad Antipater, yr Idumead, ar gais yr hwn y gwnaeth efe yr ymdrech a'i dyrchafodd i'r sefyllfa yr oedd ynddi. Ni feddai gymmhwysder ei hun i ddal awenau y llywodraeth; gan hyny, ymddiriedai bob peth i'r ffafr-ddyn cyfrwysgall ac uchelgeisiol yma, yr hwn a appwyntiodd ei ddau fab, Phasælis a Herod, un yn llywodraethwr Ierusalem, a'r llall yn llywodraethwr Galilea, a'r ddau mewn enw yn ddarostyngedig i Hyrcanus. Dechreuodd Herod, yr hwn ar y pryd oedd yn bump ar hugain oed, lywodraethu gyda llymder a ragarwyddai y gorthrymydd dyfodol. Haid o ysbeilwyr a flinent ei dalaeth oeddynt y rhai cyntaf a syrthiasant yn aberth i'w greulondeb; a phan y gwysiwyd ef o flaen y Sanhedrim, yr hwn gynghor a deimlai yn eiddigus wrth allu cynnyddol Antipater a'i feibion, i atteb am ei waith yn camarfer ei awdurdod, efe a aeth i mewn i'r cynghor mewn agwedd mor fygythiol, fel y dychrynwyd yr holl aelodau i ddistawrwydd i gyd, ond un. Ond yr hyn yr oedd yr Iuddewon anfoddog yn arswydo ei wneyd yn agored ac amlwg, hwy a geisiasant ei wneuthur yn ddirgelaidd: llunio dd y dynion blaenaf yn eu mysg fradwriaeth i ddinystrio teulu Antipas. Gwenwynwyd y tad mewn gwledd a roddwyd gan yr archoffeiriad; a phan y diangodd Herod a Phasælis o'r rhwydau a osodwyd iddynt, defnyddiwyd pob moddion a ellid i'w halltudio o serchiadau Hyrcanus. Dyrysodd Herod, pa fodd bynag, y cynllwynion hyn, a dyfeisiodd gynllun i gynnyddu ei ddylanwad gyda'r tywysog hwnw, trwy briodi ei wyres, Miriam, neu Mariamne. Cymmerodd gelynion Herod yn awr blaid Antigonus, mab Aristobulus, yr hwn a lwyddasai i ddiangc o Rufain ychydig amser cyn hyny, ac a gawsai un oedd yn barod i gefnogi ei honiadau i'r orsedd Iuddewig, yn Pacorus, blaenor y Parthiaid. Yn y rhyfel a ddilynodd, Hyrcanus, gyda chefnogaeth dau fab Antipas, oedd yn gyffredin yn llwyddiannus. Ond o dan y esgus o geisio dyfod i delerau heddychol denwyd Hyrcanus a Phasælis i wersyll gelyn, lle y rhoddwyd Phasælis i farwol aeth, ac y gweinyddwyd y gosp farbaraidd o dori ymaith glustiau y llywodraethwr oedranus gan ei nai dideimlad, Antigonus.

Pan y darganfyddwyd y fradwriaeth hon, cynnhyrfwyd egnïon Herod i'r eithaf. Ar ol rhoddi ei deulu, a phob peth oedd werthfawr ganddo, yn Masada—amddiffynfa ar y mynydd yn agos i'r Môr Marw—efe a hwyliodd i Italy, i erfyn am gefnogaeth y Rhufeiniaid. Yn mhob cyfnewidiad a gymmerai le yn Rhufain, yr oedd Herod bob amser yn ochri gyda'r blaid lwyddiannus. Ac y mae yn ddigon o brawf o dalent a dichellion y dyn rhyfeddol hwn, iddo fwynhau ffafr Julius Cæsar, Cassius, a Mark Antony, a'i fod yn cael ei restru yn mhlith cyfeillion Augustus ac Agrippa. Y pryd hwnw, Antony oedd mewn awdurdod yn Rhufain. A phan na cheisiai Herod ond yn unig ar fod i frawd Mariamne gael ei osod ar orsedd Iudea, fel un yn uno yn ei berson ei hun hawliau Hyrcanus ac Aristobulus, enwodd Antony Herod ei hun yn frenin. Cyn diwedd y flwyddyn, yr oedd Herod eilwaith yn Iudea: cyfododd gorph mawr o filwyr, gwaredodd ei bleidwyr yn Massada, ac yr oedd yn barod i gymmeryd y maes yn erbyn Antigonus. Parhaodd y rhyfel am o ddeutu tair blynedd, yn ystod pa rai y safodd Ierusalem warchau maith. Wedi cymmeryd y dref, arferodd y Rhufeiniaid, y rhai oeddynt wedi ffyrnigo am iddi ddal allan cyhyd, y creulondeb mwyaf; a buasent wedi gwneuthur lladdfa gyffredinol, a gosod y dref yn bentwr o ludw, oni buasai i Herod eu lluddias, yr hwn a gŵynai "eu bod am ei wneyd yn frenin ar ddiffeithwch." Cymmerwyd Antigonus yn garcharor gan y cadfridog Rhufeinaidd, ac anfonwyd ef yn rhwym mewn cadwynau at Antony; yr hwn, mewn canlyniad i gais creulawn Herod, a orchymynodd ei roddi i farwolaeth fel drwgweithredwr cyffredin. Gydag Antigonus y terfynodd y frenhiniaeth Asmoneaidd, wedi sefyll am 126 o flynyddau. Y mae Josephus yn ymhyfrydu canmol y tŷ ardderchog hwn, ar gyfrif ei ddisgyniad anrhydeddus, urddas ei archoffeiriadaeth, a'r gorchestion mawrion a gyflawnwyd gan ei hynafiaid.

Ar esgyniad Herod i'r orsedd Iuddewig, dechreuodd ei gymmeriad ymddadblygu yn llawnach. Un o weithredoedd cyntaf ei deyrnasiad ydoedd rhoddi holl aelodau y Sanhedrim i farwolaeth, gydag un neu ddau o eithriadau. Gwnaed un o'r eithriadau hyn yn ffafr Sameas; y person y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, fel yr un a safodd ei hun i gyhuddo Herod yn ei wyneb. Os oedd rhyw gymmaint o haelfrydedd yn ymddygiad Herod tuag at Sameas, fforffetiodd yr holl edmygedd a allai hyny gyffroi, drwy yr eiddigedd annheilwng a goleddai tuag at Aristobulus, brawd ei wraig Mariamne. Pan yr amlygodd y bobl eu teimlad o hoffder tuag at etifedd cyfiawn yr Asmoneaid, canfyddai Herod ynddo gystadleuydd peryglus i'w awdurdod; a thrwy ei orchymyn ef, rhoddwyd yr archoffeiriad ieuangc i farwolaeth. Appeliodd mam Aristobulus at gyfiawnder Antony i ddial llofruddiaeth ei mab. Gwelodd Herod ei berygl, a cheisiodd sicrhau ei ddiogelwch drwy gael cyfle i ymddiddan yn bersonol âg Antony. Rhoddodd brwydr Actium derfyn ar ei obeithion pellach oddi wrth Antony; ac yr oedd ei goron, a hyd yn oed ei fywyd, mewn perygl. Penderfynodd, gan hyny, i gael ymddiddan yn bersonol â'r ymherawdwr Augustus; a phan y cyrhaeddodd y teyrn hwnw yr Aipht, efe a gyflwynodd ei hun iddo; a bu y dichellion hyny a fuasent yn llwyddiannus yn flaenorol gyda chadfridogion Rhufeinaidd yn llwyddiannus unwaith yn rhagor. Ond nid oedd y cymmhwysderau hyny, drwy y rhai yr oedd yn alluog i beri i lawer o ddynion urddasol sefyll yn gyfeillion iddo, y gweithredoedd haelionus a'r anturiaethau tywysogaidd yr ymgymerodd â hwy, ac a daflasant y fath ddisgleirdeb barbaraidd dros ei deyrnasiad, yn ddigonol i wneuthur iawn am y lliaws gweithredoedd gwaedlyd ag y bu yn euog o'u cyflawni. Ni chafodd ei droseddau, pa fodd bynag, ddiangc yn ddigosp. Nid oedd yn gofalu pa faint o drueni a ddioddefid gan ereill, ond iddo gael porthi ei nwydau ei hun; ac yn y nwydau hyn y cafodd ei gamweddau eu dïalwyr.

Pan y gadawodd efe Iudea, i ddadleu ei achos ger bron Antony, rhoddodd y gorchymyn tra nodedig, os byddai iddo gael ei gondemnio, i roddi Mariamne i farwolaeth, er attal y possiblrwydd iddi byth fod yn wraig i un arall. Ac yn ystod ei absennoldeb, pan yn talu ei foesgarwch i Augustus, adnewyddodd y gorchymyn. Yr oedd ei gariad ati y fath fel nas gallai feddwl am iddi fod yn wraig i neb arall—os gellir rhoddi yr enw cariad ar y fath gymmysgedd o or thrwm, a balchder, a hunanoldeb, a nwyd, ag a lanwai ei fynwes euog. Dadguddiwyd y dirgelwch hwn i'r frenhines yn ei absennoldeb ef; ac ar ei ddychweliad cyhuddodd hithau ef o'i greulondeb barbaraidd. Cynnhyrfwyd eiddigedd y gormesdeyrn mewn eiliad; ac yn orwyllt o gynddaredd, rhuthrodd arni â'i gleddyf noeth, gan ofyn a allasai y fath ddirgelwch gael ei ddadguddio gan rywun heb law carwr. Ond aeth y gwyllt-ineb mawr heibio, ac anghofiodd yntau ei ammheuon yn ei ymdrechion i dawelu anfoddlonrwydd y frenhines yn ngwyneb y sarhâd dirfawr a dderbyniodd. Ar ei ddychweliad yr ail waith, deallodd fod y dirgelwch wedi ei ddadguddio drachefn; a thrwy gael ei gymmhell gan elynion

Mariamne, rhoddes orchymyn i'w rhoddi i farwolaeth. Ar ol hyn, cymmerodd euogrwydd dwfn feddiant o'i feddwl. Yr oedd yn osgoi pob cymdeithas; a rhwng dioddefiadau meddyliol a chorphorol, suddodd i sefyllfa o orphwylldra. Nid oedd y gwallgofrwydd hwn, pa fodd bynag, ond am dymmor, er fod ei olion yn aros arno hyd derfyn ei oes.

Fel yr oedd meibion Herod, o Mariamne, yn tyfu i fyny yn wŷr, gwnaed amryw geisiadau i wenwyno meddwl eu tad yn eu herbyn; ac yr oedd y dyddordeb a deimlai y genedl Iuddewig ynddynt yn cynnhyrfu ei eiddigedd yn ddirfawr. O'r diwedd, ar ol amryw frwydrau, yn y rhai yr oedd y gormesdeyrn a'r tad yn ymladd am oruchafiaeth o'i fewn, fe ymddangosodd yn achwynwr ar ei feibion ei hun—yn mlaenaf o flaen Augustus, ac yna ger bron ei ddirprwywyr Saturninus a Volumnius; ac wedi cael caniatâd yr awdurdod Rufeinig, rhoddwyd y brodyr anhapus i farwolaeth trwy orchymyn eu tad creulawn ac annynol. Y mae Macrobius yn coffau dywediad o eiddo Augustus mewn cyfeiriad at ymddygiad annaturiol Herod—"y buasai yn well ganddo fod yn anifail yn perthyn i Herod, nag yn fab iddo." Cafwyd Antipater ei hun, ei fab o briodas flaenorol—yr hwn oedd un o brif gymmhellwyr yr ymosodiadau a wnaed ar ei frodyr—yn euog o lunio bradwriaeth i wenwyno Herod. Cyhoeddwyd dedfryd o farwolaeth yn uniongyrchol arno; ond o blegid i farwolaeth y gormesdeyrn ei hun ddigwydd ar y pryd, ni chariwyd hi allan arno.

Yn nghanol llinellau duon cymmeriad y dyn rhyfeddol hwn, ni ddylid anghofio gweithrediadau ysblenydd ei weinyddiaeth; yr amddiffynfeydd trwy ba rai yr ymdrechai sicrhau diogelwch ei deyrnas, y porthladdoedd a gynlluniodd, y dinasoedd a adeiladodd, y palas ardderchog a gyfododd yn drigfod brenhinol; a'r deml, yr hon a adferodd efe yn mron i'w godidogrwydd cyntefig. Rhaid cydnabod fod ei waith yn ail adeiladu dinas Samaria, yn adeiladu dinas a phorthladd Cesarea, ac yn ail adeiladu y deml, yn gofadeiliau o feddwl tywysogaidd a gwladgarol.

Ar farwolaeth Herod, rhanwyd Palestina rhwng ei dri mab, Archelaus, Antipas, a Phylip. Appwyntiwyd Archelaus yn ethnarch neu yn llywodraethwr Iudea, Idumea, a Samaria; yr hyn a gynnwysai y dosbarth helaethaf o'r dalaeth. Pennodwyd Antipas yn detrarch Galilea, a Phylip yn detrarch Trachonitis. Dilynodd Archelaus lwybrau ei dad, ond yr oedd yn ddiffygiol o'i dalentau a'i ddichellion: a diswyddodd Augustus ef yn y ddegfed flwyddyn o'i deyrnasiad mewn canlyniad i gŵynion parhaus a roddid yn ei erbyn gan ei ddeiliaid ei hun; ac alltudiwyd ef i Vienne, yn Gaul. Gwnaed y gyfran o Palestina, oedd o dan Archelaus y pryd hwn, yn dalaeth Rufeinig, o dan ar-

TAFLEN AMSERYDDOL O'R CYFNOD HWN:

YN CYNNWYS

Y prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn Mhalestina.

Palestina.

C.C.	
413	Iehoiadah, yn archoffeiriad.
373	Iohanan yn archoffeiriad.
351	Ochus, brenin Persia, yn sefydlu trefedigaeth o Iuddewon ger llaw Môr Caspia.
341	Iadua yn archoffeiriad.
332	Alexander, wedi dinystrio Tyrus, yn ymweled âg Ierusalem, ac yn sefydlu Iuddewon yn Alexandria.
324	Alexander yn marw, a'i deyrnas yn cael ei rhanu.
321	Onias yn archoffeiriad.
320	Ptolemy Lagus yn cymmeryd Ierusalem; yn sefydlu Iuddewon yn Alexandria a Cyrene.
312	Seleucus yn meddiannu Syria. Cyfnod y Seleucidæ.
306	Ymherodraeth Alexander yn cael ei rhanu yn bedair teyrnas, megys y rhagfynegwyd gan Daniel.
300	Simon y cyfiawn yn archoffeiriad.
292	Eleazar yn archoffeiriad.

olygiaeth llywodraethwr Rhufeinaidd, yn ddarostyngedig i raglaw Syria. Nid appwyntiwyd llai na thri o'r llywodraethwyr israddol hyn tua diwedd teyrnasiad Augustus. Yn ystod teyrnasiad Tiberius, ni bu ond dau:—Valerius Gratus, B. A. 16, a Pontius Pilat, B. A. 27. Ymddengys mai Pilat oedd y cyntaf a wnaeth ei drigfod yn Ierusalem. Preswyliai ei ragflaenoriaid yn Cesarea. Yr oedd sefyllfa yr Iuddewon o dan y llywodraethwyr Rhufeinig yn dra thruenus. Yr oedd cribddeiliaeth y publicanod—swydd pa rai oedd casglu y dreth —yn ddirfawr; a'u holl weithredoedd yn feichus a gormesol. Ofer oedd gobeithio am esmwythâd oddi wrth y llywodraethwyr; canys yr oedd eu trachwant a'u hanghyfiawnder hwy yn ddiarebol. Yr oedd y ffaith eu bod yn talu teyrnged i lywodraeth genhedlig ynddi ei hun yn cael ei hystyried yn faich annioddefol. Yr oedd y milwyr Rhufeinig wedi eu gwasgaru ar hyd y wlad; ac er eu bod yn attal gwrthryfel cyffredinol, etto yr oedd eu presennoldeb a'u harwyddion o awdurdod yn cythruddo meddyliau yr Iuddewon, ac yn arwain i lawer o derfysgoedd, bradfwriadau, a llofruddiaethau. Gwyddys fod ar y pryd yn Iudea blaid liosog ag yr oedd eu rhagfarnau crefyddol yn wrthwynebus i'r syniad o dalu treth i allu tramor, ac a goleddent y gobaith o adferiad y deyrnas Iuddewig. Gwnaed amryw o geisiadau gan wahanol bersonau, ac yn enwedig gan Iudas y Gauloniad, i annog yr Iuddewon i gyfodi mewn gwrthryfel cyffredinol; ond pan y cyfodasant, darostyngwyd hwy. Yr oedd egwyddorion y blaid hon, pa fodd bynag, wedi ymledu yn fawr, ac yn arwain i greulonderau yn fynych; ac yn y diwedd, i ryw raddau, arweiniasant i lwyr ddinystr Ierusalem.

Nid effeithiodd diswyddiad Archelaus gan y Rhufeiniaid mewn un modd ar ei frodyr. Parhaodd Phylip i lywodraethu Trachonitis hyd ei farwolaeth, pan yr unwyd hi â Syria. Parhaodd Herod Antipas yn detrarch Galilea hyd ar ol esgyniad Caligula i'r orsedd; yr hwn, pan y deallodd ei fod yn coleddu syniadau bradwrus, a ddiswyddwyd ganddo, ac a alltudiwyd i Lyons, yn Gaul.

Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd y cyfnod mwyaf pwysig yn yr hanesiaeth Iuddewig, neu yn hytrach yn holl hanesiaeth y byd. Ychydig cyn marwolaeth Herod Fawr ganwyd Iesu Grist, y Messiah addawedig, yn Bethlehem. Dechreuodd ei weinidogaeth gyhoeddus pan yn ddeg ar hugain mlwydd oed, a'rhoddwyd ef i farwolaeth yn ganlynol i ddedfryd a draddodwyd y llywodraethwr Rhufeinaidd, Pontius Pilat. Y mae yr amgylchiadau sydd yn dwyn cysylltiad â'i fywyd, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad ef, yn perthyn yn hytrach i hanesyddiaeth Gristionogol nag i lenyddiaeth Iuddewig.

TAFLEN AMSERYDDOL O'R CYFNOD HWN:

YN CYNNWYS

Y prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn Persia, Syria, ac Ewrop.

Persia, Syria, a'r Aipht.		Ewrop.	
C. C.		C. C.	
405	Artaxerxes Mnemon.—*Persia.*	404	Euclid.
401	Marw Cyrus yr ieuangaf.	401	Enciliad y Deng mil.
381	Artaxerxes Ochus.—*Persia.*	397	Zeuxis.
350	Yr Aipht yn cael ei hadfeddiannu gan y Persiaid.	389	Plato.
335	Darius Codomanus.—*Persia.*	363	Mantinea, marwolaeth Epaminondas.
331	Alexander yn gorchfygu y Persiaid ar y Granicus, 334; yn Issus, 333. Diwedd yr ymherodraeth Bersiaidd yn ganlynol i frwydr Arbela.	356	Geni Alexander.
		345	Aristotle.
324	Ptolemy Lagus.—*Yr Aipht.*		
312	Seleucus I.; Nicator.—*Syria.*	338	Demosthenes.
312	Ymherodraeth Seleucus yn cyrhaedd o Antioch i'r India.	334	Apelles.
		295	Epicurus.
291	Seleucus ar y Tigris yn cael ei hadeiladu.		
285	Dionysius (Alex.) yn penderfynu y flwyddyn heulog.		

C.C.
285 Dechreu cyfieithiad y Deg a Thrigain yn Alexandria.
251 Onias II. yn archoffeiriad.
246 Plotemy Euergetes yn offrymu aberthau yn Ierusalem.
216 Ptolemy Philopater, wedi ei luddias i fyned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf, yn ymdrechu dyfetha yr Iuddewon yn Alexandria, ond yn cael ei attal bron yn wyrthiol.
203 Antiochus Fawr yn meddiannu Palestina.
200 Sylfaenu y sect Saduceaidd.
199 Scopas, cadfridog Aiphtaidd, yn adfeddiannu Iudea i frenin yr Aipht.
198 Antiochus yn adennill Iudea.
195 Onias III. yn archoffeiriad.
176 Heliodorus yn ceisio ysbeilio y deml, ac yn cael ei attal gan angel.
170 Antiochus Epiphanes yn cymmeryd Ierusalem, yn lladd 40,000 o bersonau, ac yn halogi y deml.
167 Antiochus yn erlid yr Iuddewon.
165 Iudas Maccabeus yn glanhau y deml, ac yn sefydlu y gyssegr-ŵyl.
161 Lladd Iudas Maccabeus; Ionathan ei frawd yn olynydd iddo.
149 Onias yn adeiladu teml yn yr Aipht fel yr hon oedd yn Ierusalem.
144 Llofruddio Ionathan gan Tryphon. Yn cael ei ddilyn gan ei frawd Simon, yr hwn a wnaed yn llywodraethwr gan Demetrius.
141 Yr Iuddewon yn cadarnhau y benaduriaeth a'r offeiriadaeth i Simon a'i hiliogaeth.
135 Y Phariseaid.
135 Llofruddio Simon; Ioan Hyrcanus, ei fab, yn olynydd iddo.
130 Ioan Hyrcanus yn taflu ymaith iau Syria, ac yn cyhoeddi ei hun yn annibynol. Yn dinystrio y deml ar fynydd Gerazim.
110 Yr Esseniaid.
107 Aristobulus yn olynydd i'w dad Hyrcanus, ac yn arfer y teitl o frenin.
106 Alexander Iannæus yn olynydd i'w frawd Aristobulus, ac yn teyrnasu am 27ain o flynyddoedd.
79 Iannæus yn marw. Alexandra ei wraig yn esgyn yr orsedd yn ei le, ac yn gwneyd ei mab Hyrcanus yn archoffeiriad, ac yn dangos pleidgarwch i'r Phariseaid.
70 Marw Alexandra. Hyrcanus yn ei dilyn i'r orsedd, ond yn cael ei orfodi gan ei frawd ieuangach, Aristobulus, i roddi i fyny ei goron iddo ef.
65 Pompey Fawr yn darostwng Syria yn dalaeth Rufeinig. Hyrcanus yn ymdrechu adfeddiannu y goron.
63 Hyrcanus ac Aristobulus yn appelio at Pompey, ac yntau yn pleidio y blaenaf; yn cymmeryd Ierusalem, ac yn ei gosod o dan deyrnged.
57 Aristobulus, a'i fab Alexander, yn cyfodi terfysg, ac yn cael eu gorchfygu gan Gabinius, llywodraethwr Rhufeinaidd Syria.
54 Crassus yn ysbeilio y deml.
47 Antipater, wedi ei appwyntio gan Iulius Cæsar yn rhaglaw Iudea, yn gwneyd ei fab Herod yn llywodraethwr Galilea, a Phasael yn llywodraethwr Ierusalem.
44 Ail adeiladu muriau Ierusalem.
43 Gwenwyno Antipater; Herod a Phasael yn dïal ei farwolaeth.
40 Y Parthiaid, ar ol cymmeryd Ierusalem, yn lladd Phasael, ac yn gosod Antigonus, mab Aristobulus, ar yr orsedd. Herod yn ffoi i Rufain, ac yn cael ei appwyntio yn frenin Iudea.
37 Herod yn cymmeryd Ierusalem, yn tori pen Antigonus, yn cael ei sefydlu yn frenin Iudea, ac yn teyrnasu am 34ain o flynyddoedd.
35 Herod yn gwneyd Aristobulus, brawd ei wraig Mariamne, yn archoffeiriad; ond wedi hyny yn ei lofruddio.
25 Herod yn ail adeiladu Samaria, ac yn ei galw yn Sebaste.
22 Herod yn dechreu adeiladu Cesarea. Trachonitis, Auranitis, a Batanea, yn cael eu chwanegu at ei diriogaethau.
17 Herod, ar ol dwy flynedd o barotoadau, yn dechreu ail adeiladu a helaethu y deml.
6 Zacharias yn derbyn mynegiad o berthynas i enedigaeth Ioan Fedyddiwr. Canon y Testament Newydd yn dechreu.

Yr Aipht.		Syria.		Ewrop.	
C. C.		C. C.		C. C.	
285	P. Philadelph.	280	Antiochus I.	281	Theocritus.
				280	Pyrrhus, brenin Epirus, yn myned i mewn i Italy.
				268	[Berosus.
		261	Antiochus II. Theos.	261	Manetho.—Aiphtiaid.]
				264	Y rhyfel Punicaidd cyntaf.
247	P. Euergetes I.	246	Sel. II. Callinic.	258	Regulus yn garcharor
		226	Sel. III. Keraun.	236	Archimedes.
222	P. Philopater.	223	Ant. III. y Mawr.	230	Plautus.
205	P. Epiphanes.			224	Cawrddelw Rhodes yn cael ei dymchwelyd.
190	Y fyddin Rufeinaidd gyntaf yn Asia.	187	Sel. IV. Philop.	220	Hannibal.
				218	Yr ail ryfel Bunicaidd.
		175	Ant. IV. Epiph.	216	Brwydr Cannæ.
181	P. Philometh.	164	Ant. V. Eup.	210	Zeno.
		162	Gorchfygu a lladd Demetrius Soler.	202	Hannibal yn cael ei orchfygu yn Affrica gan Scipio Affricanus.
		150	Alexander Balas.	190	Scipio Asiaticus.
				149	Y trydydd rhyfel Punicaidd, yr hwn a barhaodd am dair blynedd.
146	P. Physcon.	146	Demet. Nicat.	148	Dinystrio Carthage.
144	P. Physcon.	144	Ant. VI. Theos.	148	Dinystrio Corinth.
		143	Tryphon.	136	Scipio Nascia.
		139	Ant. VII.	133	Tiberius Gracchus.
		130	Demet. Nic. II.	111	Rhyfel Jugurtha, yr hwn a barhaodd am bum mlynedd.
116	P. Lathyrus.	127	Alexander.	100	Geni Iulius Cæsar.
		123	Ant. VIII.	88	Rhyfel cartrefol Marius a Sylla.
		111	Ant. IX.	81	Araeth gyntaf Cicero.
		108	Ant. VIII. a IX.	71	Spartacus.
88	P. Alexander.	93	Phylip ac Ant. X.	69	Lucullus yn gorchfygu Mithridates a Tigranes.
		92	Demetrius Euc.		
81	P. Auletes?	83	Tigranes o Armenia.	63	Bradwriaeth Cataline.
		69	Ant. XI.	60	Y triwŷriaid cyntaf—Pompey, Cæsar, a Crassus.
55	P. Auletes.	65	Pompey yn ei gwneyd yn dalaeth Rufeinig.	60	Catullus.
	Llywodraethwyr Rhufeinaidd.		*Llywodraethwyr Rhufeinaidd.*	57	Sallust.
55	Gabinius.	51	Bibulus.	50	Cornelius Nepos, Varro.
		50	Q. M. Scipio.	49	Brwydr Pharsalia.
51	Cleopatra.	47	S. Cæsar.	46	Cæsar yn diwygio y calendar.
		43	Cassius.	44	Lladd Cæsar. Diodorus Sic.
		38	Ventidius.	42	Brwydr Philippi.
		39	Y Parthiaid yn goresgyn Syria, 50; ac yn cael eu gyru yn ol yn egniol gan Ventidius.	44	Yr ail driwŷriaid—Octavius, Antony, a Lepidus.
				36	Lepidus yn cael ei ddiswyddo.
				33	Rhyfel rhwng Octavius ac Antony.
		34	Plaucus.	31	Brwydr Actium.
30	Yn cael ei gwneyd yn dalaeth Rufeinig gan Octavius.			27	Octavius yn cael ei gyhoeddi yn ymherawdwr, gyda'r teitl Augustus Cæsar.
				31	Mæcenas.
		27	Messala C.	29	Horace.
				27	Propertius.
		22	Agrippa.	25	Livy.
		13	S. Saturninus a T. Volumnius.	21	Tibullus.
				20	Ovid.
				5	Dionysius Hallicarnassus.

PENNOD II.

Crynodeb o hanes foesol a chrefyddol yr Iuddewon, yn ystod y cyfnod rhwng yr Hen Destament a'r Newydd.

YMDDENGYS yr Iuddewon, mewn rhyw ystyr, mewn goleuni newydd yn y tymmor oedd rhwng gorpheniad canon yr Hen Destament a'r dyddiau yr ymddangosodd ein Harglwydd yn y cnawd. Yr oedd y gyfathrach a fu rhyngddynt a'r Babiloniaid a chenhedloedd ereill, a'r ceryddon llymion y buont yn ddarostyngedig iddynt, wedi dinystrio i raddau helaeth, os nad yn hollol, y duedd oedd ynddynt tuag at eilunaddoliaeth, ac wedi eu cadarnhau yn eu ffydd eu hunain. Ymddengys fod y genedl yn ymgynghori mwy â'r Ysgrythyrau nag yr arferent gynt; a sefydlwyd synagogau yn y rhan fwyaf o ddinasoedd Palestina. Yn ystod yr un cyfnod yr oedd cyfathrach yr Iuddewon â Chenhedloedd ereill wedi dyfod yn fwy cyffredinol nag y buasai erioed o'r blaen. Ffurfiwyd trefedigaeth o Iuddewon yn yr Aipht mor foreu a dyddiau caethglud Babilon, er eu bod drwy hyn yn tori y gyfraith (*Deut.* xii.), ac yn gwanhau y rhwymau oedd yn eu huno wrth eu dinas sanctaidd. Naill ai o ddewisiad, neu ynte o angenrheidrwydd, ymsefydlodd Iuddewon yn Asia Leiaf, yn Groeg, yn Affrica, ac yn Italy, fel nad oedd odid wlad o fewn terfynau yr ymherodraeth Rufeinig nad oedd ynddi drefedigaeth o Iuddewon yn yr adeg pan yr ymddangosodd ein Harglwydd.

Fel canlyniad yr ymgyfathrach hwn rhwng yr Iuddewon a chenhedloedd ereill y byd, yr oedd iaith wreiddiol Palestina wedi ei hanghofio gan lawer o honynt, a'r iaith Roeg wedi dyfod mor gyffredin yn nhrefydd Iudea ag ydoedd yr Aramaeg. A hyn yn ddiau oedd y prif reswm dros gyfieithu yr Hen Destament i'r iaith Roeg, ac a fu yn achlysur hefyd i'r Iuddewon i ddwyn i mewn i'w crefydd rai o syniadau afresymol a gwrthun athroniaeth baganaidd. Hwyrach mai i hyn hefyd, yn fwy na dim arall, y gellir priodoli y gydnabyddiaeth eang hon oedd yn mysg y paganiaid â'r Ysgrythyrau Iuddewig, a'r disgwyliad cyffredinol oedd trwy yr holl wledydd dwyreiniol am ddyfodiad y Messïah.

Yr oedd arwyddocâd y rhan fwyaf o ddefodau y gyfraith yn deilliaw o'u nodwedd arwyddluniol. Ymddengys nad oedd rhai o honynt wedi eu bwriadu i ddim ond i gadw yr Iuddewon ar wahân oddi wrth y cenhedloedd cylchynol; ond yr oedd y mwyafrif o lawer wedi eu hamcanu i ddysgu iddynt wersi mewn moesoldeb a chrefydd, neu i gyfeirio eu sylw at swydd a gwaith y Messïah. Tua diwedd y cyfnod hwn, pa fodd bynag, yr oedd yr oll oedd ysbrydol o'r gyfraith yn cael ei esgeuluso; ac i'r defodau yn unig y telid sylw. Y canlyniad o hyn oedd, i amryw sectau ymddangos yn eu mysg, ag y byddai meddu ychydig o wybodaeth am eu daliadau a'u hegwyddorion yn fanteisiol i ganfod cymmhwysder, ac i werthfawrogi y cyfeiriadau a wneir atynt gan ein Harglwydd yn nghwrs ei weinidogaeth. Heb law hyny, y mae y wybodaeth hon yn dra addysgiadol i egluro twyll y galon ddynol, a'i thuedd i wyro at gyfeiliornad yn mhob oes. A gellir sylwi, mewn gwirionedd, dywedyd fod cyflwr Iudea, y pryd hwnw, yn amlygu y cyfeiriad a gymmer y meddwl pan y byddo gwir grefydd yn adfeilio. Fe ymddangosodd y duedd i roddi pwys mawr ar draddodiadau na pherthynai iddynt; ac o blegid hyn yr oedd elfenau dynol yn cael eu cymmysgu â'r hyn oedd o osodiad dwyfol. Gosodwyd pwys gormodol ar ffurfiau allanol: gwnaed y gyfraith yn ddirym trwy draddodiadau a seremoniau. Yn lle hanfod y peth ei hun, ni chyflawnid ond y ddefod farw. Dyma oedd Phariseaeth, neu Iuddewiaeth ddeddfol. Ond y mae eithafion yn aml yn cadarnhau eu gilydd. Tra yr oedd arferion dyeithr yn cael eu dwyn i mewn gan un blaid, condemnid hwynt gan bleidiau ereill; ond wrth ymwrthod â'r hyn oeddynt chwanegiadau diangenrhaid, a gwaeth na diangenrhaid, ymwrthodid yn fynych â'r hyn oedd wir. Yn y fan yma y deuir o hyd i ffynnonell Saduceaeth, neu fel y gellir ei alw Iuddewiaeth rhesymolaidd; yr hyn a derfynai yn aml mewn anffyddiaeth. Pa fodd bynag, nid oedd y gyfundrefn Phariseaidd ar un llaw, na'r Saduceaidd ar y llaw arall, yn cyfarfod tueddfryd a chwaeth dynion o deimladau crefyddol gwresog. Credai y Phariseaid ormod, a'r Saduceaid rhy fach. Yr oedd y naill a'r llall o'r pleidiau hyn yn camddeall cyfarwyddiadau yr Ysgrythyr yn nghyfrif y drydedd blaid; sef, yr Esseniaid —y rhai y gellir edrych arnynt fel cynnrychiolwyr yr egwyddor fynachol drwy yr holl oesau. Peth hawdd ydyw osgoi y cyfeil-

iornadau y disgyna ereill iddynt, ac etto colleddu rhai llawn mor ddinystriol ein hunain.

Ychydig yn ddiweddarach na dyddiau ein Harglwydd, gelwid y tair sect hyn ar enwau gwahanol. Gelwid y Phariseaid yn olynol yn *Rabbiniaid* (hyny yw, disgyblion y Rabbiniaid), *Cabalistiaid* (traddodiadwyr), a *Talmudiaid*. Rhoddwyd yr enw hwn ar y dosbarth o'r Saduceaid a ddalient uchafiaeth ysgrifeniadau Moses—*Caraiaid*, neu *Ysgrythyrwyr*. Gelwir yr Esseniaid mewn hanesyddiaeth yn *Therapeutæ* (hyny yw, meddygon eneidiau); er fod rhai yn haeru mai i sect wahanol, ond cyffelyb ei daliadau, y rhoddwyd yr enw. Tra yr oedd y Phariseaid yn gosod pwys mawr ar draddodiad er cael allan y gwirionedd, yr oedd y Saduceaid, i raddau pell, yn diystyru traddodiadau. Y cwestiwn mawr mewn dadl rhynggddynt oedd, Pa mor bell yr oedd awdurdod traddodiad yn myned? Yr oedd y Saducead, er ei fod yn foddlawn i gael ei ddal gyferbyn â hyny o'r Ysgrythyr yr oedd efe yn ei gredu, etto gwadai ei awdurdod; ond addefai y Pharisead ei awdurdod ddwyfol. Casglwyd ynghyd y corph mawr o'r traddodiadau, ynghylch pa rai yr oedd y dadleuon hyn, yn yr ail ganrif, neu yn ddiweddarach, gan y doctoriaid Iuddewig; ac yn arbenig gan R. Judah, yr hwn, meddir, oedd ddisgynydd o Gamaliel. Gelwir y casgliad hwn *Mishna;* sef, ail adroddiad. Chwanegwyd ato amryw o eglurhadau gan rabbiniaid ereill yn ddiweddarach, o dan yr enw *Gemara;* sef, gorpheniad: a galwyd y ddau ynghyd y *Talmud*. Gelwir y *Mishna*, ynghyd â'r esboniadau a gasglwyd gan rabbiniaid Ierusalem yn y bedwaredd a'r bummed ganrif, *Talmud Ierusalem*. Casglwyd yr esboniadau sydd yn *Nhalmud* Babilon gan rabbiniaid oedd yn byw yn Babilon yn y chweched ganrif. Y mae y *Mishna* yr un fath yn y ddau. Cyfododd y traddodiadau a gynnwysir ynddo, fel y bernir, o ddeutu tri chant o flynyddoedd cyn Crist. Cynnwysa y *Talmud* lawer o sylwadau beirniadol ac eglurhaol, o'r fath ag ydynt, ar destyn yr Ysgrythyrau; pa rai, yn benaf, ydynt gynnyrch ymchwiliadau y Cabalistiaid. Casglwyd yr esboniadau hyn, ynghyd âg ereill a drosglwyddwyd i lawr gan draddodiad, at eu gilydd yn un llyfr o dan yr enw *Masora;* sef, traddodiad. Pa bryd y dechreuodd yr esboniadau Masoreaidd, sydd anhawdd ei benderfynu. Myn rhai ysgrifenwyr Iuddewig fod llawer o honynt mor hen ag amser Moses. Kimchi, ac ereill, a dybiant iddynt gael eu dechreu pan y diwygiwyd y llawysgrifau ysgrythyrol gan Ezra; ac ereill drachefn (yn mhlith y rhai y mae Eben Ezra, B. A. 1150), eu bod wedi cael eu dechreuad gan ysgol Tiberias, rhwng y drydedd a'r chweched ganrif ar ol Crist. Meddylia Eichhorn y gellir profi y tu hwnt i ammheuaeth mai nid cynnyrchion un oes ydynt; eithr eu bod wedi eu hysgrifenu yn awr ac eilwaith, a chyfwng maith o amser rhyngddynt—rhai mewn adeg pur foreu, a'r lleill mewn amseroedd diweddar. Cyhoeddwyd y cyfan yn Meibl Rabbinaidd Bomberg [arg. Venice, 1518—36]. Argraphwyd y sylwadau ar ymyl y dalenau, ac yn niwedd y gwahanol lyfrau.

I'r Masoreaid, dybygid, yr ydym yn ddyledus am yr attalnodau, yr accenion, a'r rhan fwyaf o'r diwygiadau sydd yn y testyn argraphedig o'r Beibl, ynghyd â llawer o wybodaeth gywrain, er nad pwysig iawn, ynghylch geiriau a llythyrenau yr Ysgrythyr. Y mae rhai o'r diwygiadau a wnaethant yn feirniadol, ac ereill yn eglurhaol. Cyfrifwyd ganddynt eiriau a llythyrenau pob llyfr, a sylwent ar amryw o ffeithiau nad ydynt yn bwysig ynddynt eu hunain, ond mor bell ag yr oedd y gofal oedd yn angenrheidiol i'w casglu yn tueddu i gadw purdeb y testyn Beiblaidd. Y maent, er enghraifft, wedi nodi fod llythyren ganol y gyfraith yn *Lef.* xi. 42; y geiriau canol yn *Lef.* x. 23; a'r adnod ganol yn *Lef.* xiii. 13. Yn y Salmau, y mae y llythyren ganol yn *Salm* lxxx. 14, a'r adnod ganol yn *Salm* lxxviii. 36. Y maent wedi cyfrif hefyd pa sawl gwaith y mae pob llythyren i'w chael yn mhob llyfr yn yr holl Feibl.

Y PHARISEAID.

Sect grefyddol oedd y Phariseaid yn mhlith yr Iuddewon, oedd yn eu blodau yn nyddiau ein Harglwydd, a'r fwyaf lliosog o'r sectau Iuddewig. Nid ydyw yr enw *Phariseaid* yn digwydd yn yr Hen Destament, nac yn yr "*Apocrypha;*" ond tybir yn gyffredin eu bod yr un a'r Asideaid (duwiolion) y crybwyllir am danynt yn 1 *Macc.* ii. 42; vii. 13—17, ac yn 2 *Macc.* xiv. 6. Y mae yr enw yn dynodi esbonwyr, neu ymwahanwyr: naill ai am eu bod yn arfer esbonio y gyfraith trwy draddodiad, neu am eu bod yn ymwahanu yn llwyr oddi wrth ereill, ac yn ystyried eu hunain yn fwy sectaidd. Cynnrychioli yr oeddynt hwy yn arbenig yr ysbryd deddfol oedd yn mysg yr Iuddewon. Hwynthwy, ar y pryd, oedd yn adlewyrchu yn fwyaf cywir nodwedd y genedl, a'r fwyaf poblogaidd a lliosog o'r sectau. Y mae meddu gwybodaeth am opiniynau ac ymarferion y blaid hon yn amser Crist, a chyn hyny, o bwysigrwydd mawr mewn trefn i fyned i mewn yn llwyr i wir ysbryd y grefydd Gristionogol. Wrth gymmeryd golwg frysiog ar yr Efeng-

ylau, canfyddir ar unwaith fod yr addysg a gyfrenid gan Iesu Grist, ar ryw olygiadau, yn hollol groes i'r eiddynt hwy. Condemniai y Gwaredwr hwynt yn yr iaith gryfaf; ac yr oedd y cyhuddiadau o ragrith a ddygai yn eu herbyn fel dosbarth yn cynnwys y ceryddon llymaf. I gadarnhau hyn, edrycher *Mat.* xv. 7, 8; xxiii. 5, 13, 14, 15, 23; *Marc* vii. 6; *Luc* xi. 42—44: a chymmharer *Mat.* vii. 1—5; xi. 29; xii. 19, 20; *Luc* vi. 28, 37 - 42.

Y tair ffynnonell o ba rai y mae yn rhaid i ni gasglu ein gwybodaeth am y Phariseaid ydynt: -laf, Ysgrifeniadau Josephus; yr hwn oedd yn Pharisead ei hun. Yn 2il, Y Testament Newydd; yn cynnwys Epistolau Paul, yn gystal a'r Efengylau, ac Actau yr Apostolion. Yn 3ydd, Y rhan gyntaf o'r *Talmud*, neu y *Mishna*. Yma y ceir yr hysbysrwydd helaethaf am y Phariseaid; ac y mae yn ammhossibl o'r bron meddu gwybodaeth hollol gywir a llawn am danynt heb ymgynghori â'r gwaith hwn. Un o egwyddorion sylfaenol y sect oedd, fod, ynghyd â'r gyfraith ysgrifenedig, yr hon a ystyrid yn grynodeb o egwyddorion a deddfau cyffredinol yr Hebreaid, gyfraith lefaredig er esbonio a pherffeithio yr un ysgrifenedig. Un o erthyglau eu ffydd oedd, nad oedd yn Mhum Llyfr Moses un cyfarwyddyd, nac un rheol seremonïol, athrawiaethol, neu ddeddfol, nad oedd Duw wedi rhoddi i Moses yr eglurhâd angenrheidiol er eu cymmhwyso at eu dybenion priodol, gyda'r gorchymyn ar fod iddynt gael eu trosglwyddo i lawr trwy yr oesoedd o enau i enau.—*Klein's Verite sur le Talmud*, td. 9. Yr ymadroddion a ddefnyddir yn y *Mishna* mewn cyfeiriad at hyn sydd fel y canlyn: —"Derbyniodd Moses y gyfraith lefaredig ar Sinai, a throsglwyddodd hi i Iosuah, ac Iosuah i'r henuriaid, a'r henuriaid i'r prophwydi, a'r prophwydi i wŷr y synagog Fawr." Y mae y mynegiad nodedig hwn mor amddifad o'r hyn a ystyrid yn awr yn brawf hanesyddol, fel yr ymddengys yn rhyfedd fod un Iuddew yn barod i roddi crediniaeth ynddo, yn absennoldeb unrhyw gyfeiriad pennodol at y ffaith yn yr Hen Destament. Nid ydym i dybied, pa fodd bynag, fod yr holl draddodiadau, wrth y rhai yr ystyriai y Phariseaid eu bod yn rhwymedig, yn cael eu cydnabod ganddynt fel dadgddiedigaethau uniongyrchol i Moses ar fynydd Sinai. Yn chwanegol at y cyfryw ddadguddiedigaethau, yr oedd tri dosbarth arall o draddodiadau. 1. Barnau ar faterion dadleuol; y rhai oeddynt yn ffrwyth mwyafrif o bleidleisiau. I'r dosbarth hwn y perthynai y cwestiynau ail raddol ar ba rai yr oedd gwahaniaeth barn rhwng ysgolion Hillel a Shamai. 2. Gosodiadau a sefydlwyd, a gorchymynion a roddwyd gan brophwydi a doethion gwahanol oesoedd, mewn cydffurfiad â dywediad a briodolir i wŷr y Synagog Fawr:—"Byddwch bwyllog mewn barn; dysgwch lawer o ddysgyblion, a gwnewch amgaer i'r gyfraith." 3. Penderfyniadau cyfreithiol awdurdodau eglwysig priodol ar wahanol gwestiynau dadleuol. Priodolid rhai o honynt i Moses, rhai i Iosuah, a rhai i Ezra. Ereill i Rabbiniaid oedd yn byw yn ddiweddarach, megys Hillel a Gamaliel. Pa fodd bynag, er nad oedd yr holl draddodiadau hyn yn cael eu hystyried yn ddadguddiedigaethau uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd, nid oes ammheuaeth nad edrychid arnynt oll, i raddau mwy neu lai, fel yn meddu cyssegredigrwydd neilltuol. Wrth edrych arnynt gyda'u gilydd, tybiai y Phariseaid y dylesid eu hefrydu, a thalu sylw iddynt megys i gyfarwyddiadau y Beibl. Un o'r gwirioneddau a ddywedodd yr Arglwydd Iesu Grist wrthynt oedd, eu bod "yn dirymu gair Duw â'u traddodiad eu hunain."

Camgymmeriad, dybygid, ydyw meddwl fod y Phariseaid yn ddosbarth cyfoethog, ac yn byw yn ddanteithiol. Y mae Josephus yn eu cymmharu i'r Stoiciaid Groegaidd. Er fod yn eu mysg yn ddiammheuol lawer o ragrithwyr, hwyrach y byddai yn afresymol eu cyhuddo oll o ragrith yn yr ystyr y defnyddir y gair yn awr. Yr oedd proffes rhai o honynt yn amlygiad o sêl onest wedi ei chamgyfarwyddo: *Rhuf.* x. 3. Y mae un Iuddew dysgedig yn eu cyhuddo yn hytrach o ymddiried mewn sancteiddrwydd gweithredoedd na sancteiddrwydd rhagrithiol. Pa fodd bynag, rhaid eu hystyried fel rhai o'r defodwyr manylaf yn yr holl fyd. Ffrwyth naturiol y fath gyfundrefn ydoedd y sarhâd rhodresgar a amlygwyd tuag at y publican druan, a'r bechadures edifeiriol a eneiniodd draed yr Iesu â'i dagrau.

O berthynas i'r ysbryd proselytio oedd yn mhlith y Phariseaid, y mae yn ddiammheuol ei fod yn gryf iawn yn eu mysg yn nyddiau ein Harglwydd (*Mat.* xxiii. 15); ac fe allai fod hyn wedi bod yn fanteisiol wedi hyny i ledaeniad Cristionogaeth. Yr oedd hyn yn chwanegu yn eu mysg y syched am ymchwiliad a gwybodaeth, ac yn ymarfer yr Iuddewon mewn dadleuon duwinyddol; ac i ryw raddau yn parotoi meddyliau apostolion Crist, ac yn enwedig yr apostol cenhadol penaf o honynt oll—yr hwn oedd Iuddew o genedl, wedi ei addysgu yn Pharisead, yn Roegwr o ran iaith, a dinesydd Rhufeinig o ran genedigaeth—i droi allan i argyhoeddi y byd, a gwneyd ei breswylwyr yn mhob gwlad yn un frawdoliaeth fawr unedig o dan aden y grefydd Gristionogol.

Y SADUCEAID.

Yr oedd y sect Iuddewig hon yn amser Crist, yn gwadu fod y gyfraith lefaredig yn ddadguddiad oddi wrth Dduw i'r Israeliaid, ac ystyrient y gyfraith ysgrifenedig yn unig yn rhwymedig ar y genedl, ac yn meddu awdurdod ddwyfol. Er y crybwyllir yn fynych yn y Testament Newydd am y Saduceaid mewn cyssylltiad â'r Phariseaid, nid ydyw eu hanes yn taflu y fath oleu clir ar ysbryd ac arwyddocâd Cristionogaeth ag y gwna hanes y diweddaf. Oddi gerth ar un achlysur, pan yr ymunasant â'r Phariseaid (*Mat.* xvi. 1, 4, 6) yn fradwrus a dichellgar i ofyn am arwydd o'r nef, nid ymosododd Iesu Grist ar y Saduceaid gyda'r fath lymder a chwerwder ag y gwnaeth efe ar y Phariseaid; ac nid yw yn ymddangos chwaith eu bod hwy, fel y Phariseaid, wedi defnyddio mesurau effeithiol er dwyn oddi amgylch ei farwolaeth. Yn yr ystyr yma, ac mewn llawer o ystyron ereill, ni buont mor ddylanwadol a'r Phariseaid yn hanes y byd; ond etto y maent yn teilyngu sylw, fel plaid yn cynnrychioli syniadau Iuddewaidd cyn i'r Phariseaid ddyfod i'r nerth y daethant iddo wedi hyny; ac eglurant un wedd ar syniadau yr Iuddewon yn yr adeg pan y sefydlwyd y grefydd Gristionogol yn Iudea, yr hon oedd yn dra sicr o greu chwyldroadau mawr yn opiniynau dynion.

O'r un ffynnonellau y ceir hysbysrwydd ynghylch y Saduceaid a'r Phariseaid; ond y mae hyn o wahaniaeth—nad oes yn Efengyl Ioan un crybwylliad am danynt, tra y cyfeirir yn fynych yno at y Phariseaid: *Ioan* vii. 34, 45; xi. 47, 57; xviii. 3; viii. 3, 13—19; ix. 13. Yn ol tyb Geiger, nid ffaith ddibwys yw hon yn ei pherthynas â beirniadaeth ar yr Efengylau. Heb law hyny, nid oes un gwaith llenyddol y gellir credu yn ddiammheuol ei fod wedi ei ysgrifenu gan Saducead wedi ei drosglwyddo i lawr i'n hamser ni; ac o ganlyniad, yr ydym yn rhwym o fod yn ddyledus i'w gwrthwynebwyr am hysbysrwydd yn eu cylch, megys gweithiau Josephus, yr hwn oedd Pharisead; a'r *Mishna*, yr hwn sydd grynodeb o ysgrifeniadau Phariseaidd. Dylid cofio hyn wrth ffurfio barn am eu daliadau a'u cymeriad. Yn ol adroddiad Iuddewig, cawsant eu henw oddi wrth un Sadoc, yr hwn oedd ddisgybl i Antigonus o Socho, am yr hwn y crybwyllir yn y *Mishna* fel un a dderbyniodd y gyfraith lefaredig gan Simon y Cyfiawn—yr olaf o wŷr y Synagog Fawr. Cofnodir am yr Antigonus hwn, yr arferai ddyweyd wrth ei ddilynwyr: "Na fyddwch megys gweision yn gwasanaethu eu meistr er mwyn cael derbyn gwobr; ond byddwch fel gweision yn gwasanaethu eu meistr heb gadw eu golwg ar dderbyn gwobr;" a'r hyn a ddywedir yn gyffredin ydyw, i Sadoc, yr hwn a roddes ei enw i'r Sadociaid, neu y Saduceiaid, gamddeall a chamesbonio y dywediad hwn o eiddo ei athraw mor bell, fel y darfu iddo, nid yn unig ddal y gwirionedd mawr y dylai rhinwedd fod yn rheol ymddygiad yn annibynol ar wobrwyo y person, ond hefyd iddo gyhoeddi yr athrawiaeth nad oes un sefyllfa o wobr a chosp mewn byd arall. Y mae eglurhâd arall, pa fodd bynag, yn cael ei gynnyg ar ddeilliad y gair *Saduceaid* gan Epiphanius; yr hwn a ddywed fod y Saduceaid yn galw eu hunain ar yr enw hwn oddi wrth y gair 'cyfiawnder,' yr hwn sydd gyfeithiad o'r gair Hebraeg *sedec;* "a bod hefyd yn yr amseroedd gynt un Sadoc yn mhlith yr offeiriaid, ond na ddarfu iddynt barhau i lynu wrth athrawiaethau eu blaenor."

O berthynas i ddaliadau y Saduceaid, un o brif nodweddau eu credo oedd eu bod yn ymwrthod â phrif athrawiaeth eu gwrthwynebwyr. Ar un llaw, yr oedd y Phariseaid yn haeru—ac ar y llall, yr oedd y Saduceaid yn gwadu—fod yr Israeliaid mewn meddiant o gyfraith lefaredig, yr hon oedd wedi ei throsglwyddo i lawr o amser Moses; ond y mae yn deilwng o sylw, fod yr athrawiaeth a wrthwynebid gan y Saduceaid bron yn hollol amddifad o brawf hanesyddol drosti. Ymwrthodir â hi yn hollol yn awr gan bob un sydd yn proffesu Cristionogaeth, dybygid, er fod yr Iuddewon mwyaf selog dros yr hen gyfundrefn trwy y byd yn ei chredu. Syniad gwahaniaethol arall a goleddid gan y Saduceaid oedd, gwadu adgyfodiad y corph ar ol marw. Dilynai hyn fel canlyniad naturiol o'u gwaith yn gwadu na ddarfu i Moses ddadguddio i'r Israeliaid y gyfraith lefaredig. O herwydd ar bwngc mor bwysig a bywyd ar ol marw, nid oedd un blaid grefyddol yn mysg yr Iuddewon yn ystyried eu hunain yn rhwym o dderbyn unrhyw athrawiaeth fel erthygl o ffydd, oni bae ei bod wedi ei chyhoeddi gan Moses, eu deddfroddwr mawr; ac yn ol barn y Saduceaid, nid oedd yn Mhum Llyfr Moses un cyfeiriad at yr adgyfodiad o feirw; ond fel y dengys Iesu Grist, gellir tynu casgliad naturiol, hyd yn oed o ysgrifeniadau Moses, o wirionedd yr athrawiaeth hon: *Mat.* xxii. 23—34. Haera rhai o'r Cristionogion boreuol, ac yn eu mysg Epiphanius, Origen, a Jerome (yn eu hesboniadau ar *Mat.* xxii. 32, 33), fod y Saduceaid yn ymwrthod â'r oll o'r Ysgrythyrau Sanctaidd fel dadguddiad dwyfol, oddi gerth Pum Llyfr Moses. Os felly, yr oedd hyny yn wahaniaeth pwysig iawn arall rhyngddynt hwy a'r Phariseaid. Tybir yn awr, pa fodd bynag, nad yw yr haeriad hwn

yn sylfaenedig ar wirionedd, ac o bossibl nad mewn camsyniad y gwreiddiodd, sef trwy gamgymmeryd y Samariaid am y Saduceaid. Y mae Josephus yn hollol ddistaw o berthynas i'r gwahaniaeth hwn rhwng y Saduceaid a'r Phariseaid; ac y mae bron yn ammhossibl dychymygu y buasai yr awdwr hwnw, ar dri o wahanol achlysuron, pan yn cyfeirio at ddaliadau y pleidiau hyn, yn ddistaw am y fath wahaniaeth, pe buasai yn bod mewn gwirionedd. —*Hynaf Iudd.*, xiii. 5, *adr.* 9; xviii. 1, *adr.* 3; *Rhyf. Iudd.*, ii. 8, *adr.* 14.

Ffaith hynod yn ei pherthynas â'r Saduceaid ydyw eu diffaniad oddi ar ddalenau hanesyddiaeth ar ol y ganrif gyntaf, a gorchuafiaeth ddilynol opiniynau y Phariseaid yn mysg yr Iuddewon. Yr oedd dau amgylchiad, yn anuniongyrchol ac effeithiol, yn tueddu i gynnyrchu y canlyniad hwn:—Iaf, Sefyllfa yr Iuddewon ar ol cymmeriad Ierusalem gan Titus: 2il, Cynnydd y grefydd Gristionogol. O barthed i'r pwynt cyntaf, y mae yn anhawdd dychymygu y dychryn a achlysurodd dinystr Ierusalem yn meddyliau Iuddewon crefyddol. Yr oedd eu dinas sanctaidd mewn adfeilion; a'u teml gyssegredig a phryderth, canolbwynt eu gwasanaeth crefyddol, wedi ei llosgi i'r llawr, ac heb gareg wedi ei gadael ar gareg o honi. Ymddangosai pob peth o'u cwmpas fel wedi eu gwisgo â phrudder. Yn awr eu cyfyngder, edrychent yn naturiol am gysur tua sefyllfa ddyfodol, ac ymddangosai athrawiaeth y Saduceaid—sef nad oes byd ar ol hwn—yn anobeithiol a digysur iddynt. Hefyd, tra yr oeddynt wedi suddo i'r dyfnder isaf yn y gofid hwn, yr oedd crefydd oedd yn cael ei chasau ganddynt, a'i dirmygu fel heresi, yn llwyddo, nid yn unig yn Palestina, ond mewn llawer o wledydd ereill o dan deyrnwialen Rhufain. Un o achosion eu llwyddiant yn ddiammheuol oedd crediniaeth ddiysgog yn adgyfodiad Crist, ac o ganlyniad yn adgyfodiad holl ddynolryw—athrawiaeth a dderbyniwyd yn awyddus gan y dychweledigion Cenhedlig. Yr oedd llawer o amgylchiadau, gan hyny, yn ymuno i gymmhell yr Iuddewon nad oeddynt yn Phariseaid, ond er hyny yn ymwrthod â Christionogaeth, i ymgasglu o dan faner y rhai a gredent yn y gyfraith lefaredig; a haerent fod Moses, eu deddfroddwr, wedi trosglwyddo trwy draddodiad y dadguddiad o sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp.

YR YSGRIFENYDDION.

Y mae y lle amlwg a roddir i'r ysgrifenyddion yn yr Efengylau, o hono ei hun, yn dangos fod rhyw gymmaint o wybodaeth am eu bywyd a'u hanes yn angenrheidiol, er cael amgyffrediad clir am waith a gweinidogaeth ein Harglwydd. Cyfundeb dysgedig o ddynion oeddynt, a elwid weithiau yn 'gyfreithwyr'—dylanwad pa rai oedd yn fawr yn mysg yr Iuddewon pan yr ymddangosodd Iesu Grist yn y byd. Gwaith yr ysgrifenyddion oedd cymmeryd gofal am ac ysgrifenu copïau o'r gyfraith; hwyntlwy hefyd oedd yn egluro ac yn esbonio y rhanau tywyll a dyrus o honi, yn dysgu ei hathrawiaethau, ac yn cyflawni amryw o swyddau—megys bod yn geidwaid y cofnodion, yn ymgynghorwyr cyfreithiol, esbonwyr yr ysgrifeniadau cyssegredig, ac yn ddiweddaf, yn ysgolfeistri: ac o ganlyniad, yr oeddynt yn uno mewn un cymmeriad y gwahanol elfenau o ddylanwad deallol, moesol, cymdeithasol, a chrefyddol. Ac erbyn ystyried hyn oll, nid rhyfedd fod eu gallu yn cael ei deimlo yn ddylanwad cryf yn mysg y bobl.

Mor foreu a'r digwyddiadau a goffeir yn *Barn.* v. 14, ceir crybwylliad am "y de[illegible]dfwyr a ddaeth i waered o Machir, yr ysgrifenyddion o Zabulon." Ymddengys fod Zabulon yn enwog am ysgol ei hysgrifenyddion. Yn mhlith uchel swyddogion llys y brenin Dafydd, crybwyllir am "Seraiah yr ysgrifenydd," megys pe buasai yn sefyll ar yr un tir mewn urddas a'r archoffeiriad a chadlywydd y byddinoedd: 2 *Sam.* viii. 16—18. Wrth gymmharu yr hyn a ddywedir yma â rhanau ereill o'r Ysgrythyr (2 *Bren.* xxv. 19; 1 *Cron.* xxvii. 32), canfyddir fod yr ysgrifenyddion yn amser y brenhinoedd yn gorph o bobl ddysgedig, barchus, a thra dylanwadol, yn cael eu cydnabod a'u cynnal gan y wladwriaeth. A thrwy yr oesoedd, i lawr hyd ddyddiau ein Harglwydd, yr oedd y dosbarth yn un gwahaniaethol yn mysg y genedl Iuddewig—weithiau yn uwch, ac weithiau yn is ei fri a'i urddas, yn ol fel y byddai yr amgylchiadau. Yr ydym yn y Testament Newydd yn cael eu bod, mewn undeb â'r Phariseaid a'r archoffeiriaid, yn cyfansoddi y sanhedrim Iuddewig; ac mewn cyssylltiad â'r pleidiau hyny defnyddient eu holl ddylanwad, eu gallu, a'u dysg i geisio rhwydo a dinystrio Gwaredwr y byd. Yr oeddynt yn gwylio yr Iesu yn fanwl, i edrych a dorai efe y gyfraith: fel rhai a gymmerent arnynt egluro dyledswyddau, ni chollent un cyfle i wrthdystio yn erbyn ei ddysgeidiaeth, i feio ei ymddygiadau, ac i gamddarlunio ei foesau; ymdrechent hefyd i'w ddwyn i rwydau eu twyll-resymau, neu i'w ddyrysu â chwestiynau dichellgar. Etto methu yn eu hamcanion a wnaethant, er yr holl ddichellion hyn. Trechai yr Iesu hwynt mewn

ymresymiad. Y mae yr hyn a ddywedir yn *Luc* xx. 19—47 yn llawn o addysg ar y mater hwn. Yn niwedd y gyfran darawiadol hon o'r Ysgrythyr y mae ein Harglwydd yn disgrifio y gwŷr hyn fel y canlyn (*adn.* 46, 47):—"Ymogelwch rhag yr ysgrifenyddion, y rhai a ewyllysiant rodio mewn dillad llaesion, ac a garant gyfarchiadau yn y marchnadoedd, a'r prif gadeiriau yn y synagogau, a'r prif eisteddleoedd yn y gwleddoedd; y rhai sydd yn llwyr fwyta tai gwragedd gweddwon, ac mewn rhith yn hir weddïo." Meddylia Winer eu bod hwy a'r archoffeiriaid fel math o heddgeidwaid yn y deml a'r synagogau: *Luc.* xx. 1; *Act.* vi. 12. Ac nid oedd eu dylanwad yn cael ei gyfyngu i'r brif ddinas; canys, oddi wrth yr hyn a ddywedir yn *Luc* v. 17, gwelir fod aelodau o'r corph hwn i'w cael yn mhob tref yn Galilea ac Iudea. Er fod rhai o honynt yn proffesu Saduceaeth, yr oeddynt gan mwyaf yn ffafriol i'r Phariseaid: *Luc* xi. 44; *Act.* xxiii. 9; *Mat.* v. 20; xii. 38; xv. 1.

YR ESSENIAID.

Yr oedd yr Esseniaid yn gwneyd i fyny un o dair sect fawr yr Iuddewon. Y ddwy ereill oedd y Phariseaid a'r Saduceaid. Fe allai mai y tywyllwch sydd yn gorchuddio dechreuad yr Esseniaid ydyw, eu bod ar y dechreu yn cynnrychioli syniad a thueddiad meddyliol, yn hytrach na sect bennodol. Gwahaniaethir hwynt fel sect gan eu hawydd i gyrhaedd rhyw burdeb dychymygol, yn hytrach na chan unrhyw grynodeb neilldnol o athrawiaethau; ac edrychid arnynt fel cangen o'r Phariseaid oedd yn nodedig am eu sêl dros fanyldeb y gyfraith. Yr oedd yr Esseniaid yn sefyll yn yr un berthynas â'r Phariseaid ag y safent hwythau gyda golwg ar y bobl gyffredin. Ymddengys fod y gwahaniaeth oedd rhyngddynt a'r Phariseaid yn gynnwysedig yn benaf yn llymder eu harferion, ac nid yn erthyglau eu ffydd. Nid ydoedd bodolaeth Essseniaeth mewn cymdeithas gyffredin yn cael ei gyfyngu i unigolion. Nid yn unig yr oedd porth yn Ierusalem yn cael ei enw oddi wrthynt, am yr hwn y sonir gan Josephus [*Rhyf. Iudd.*, v. 4, *adr.* 2], ond y mae traddodiad diweddarach yn crybwyll am gynnulleidfa yn yr un ddinas oedd yn treulio un ran o dair o'r dydd i fyfyrio, yr ail ran o hono i weddïo, a'r drydedd i ddarllen. Ond ar y cyfan, math o feudwyaid oedd yr Esseniaid—yn gochel pleserau cyffredin bywyd, fel yr hyn a ystyrient yn ddrwg moesol, a chredent fod hunan-lywodraeth, a llwyr feistrolaeth ar y nwydau, yn rhinwedd. Yr oeddynt gan mwyaf yn ymattal oddi wrth briodas, gan gymmeryd o blant ereill, ac ymdrechent ddysgu y rhai hyny yn eu hegwyddorion eu hunain; ond yr oedd rhai o honynt yn caniatau priodas. Dirmygent gyfoeth; ac o'r hyn oedd ganddynt, cyfranent yn ewyllysgar i ereill. Mewn gwirionedd, yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin.

Fel y cyfeiriwyd eisoes, nid oeddynt yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth y Phariseaid manylaf. Anrhydeddent Moses yn nesaf at Dduw ei hun. Cadwent y Sabboth gyda manylrwydd arbenig. Yr oeddynt yn astudio ac yn arfer yn dra llwyddiannus, yn ol Josephus, y ddawn brophwydol [*Rhyf. Iudd.*, ii. 8; *Hynaf. Iudd.*, xv. 10, *adr.* 5; *Rhyf. Iudd.*, i. 3, *adr.* 5]; ac yr oedd ymgydnabyddiaeth agos â natur wedi eu cynnysgaeddu â gwybodaeth anianyddol eang. Dywed Philo fod nifer yr Esseniaid tua 4,000; ond ystyria Josephus eu bod yn fwy na hyny, a chyfrif y rhai oedd yn wasgaredig trwy holl Palestina, ac yn y gwahanol ddinasoedd, cystal a'r rhai oedd yn eu sefydliadau pennodol ar lan y Môr Marw. Y mae yn dra nodedig nad oes grybwylliad pendant am y sect hon yn ysgrifeniadau yr apostolion, na chwaith yn yr ysgrifeniadau Talmudaidd, o dan eu henw; ond dywedir mai atynt hwy y cyfeirir yn yr ysgrifeniadau hyny o dan yr enwau "duwiolion," "gweiniaid" (gan fyfyrdod), "a'r ymneillduwyr," &c. Frankel a ddywed fod yr Iuddewon goreu yn ystyried fod perygl mewn Esseniaeth fel cyfundrefn, ac o ganlyniad, eu bod yn ymuno i'w gwrthwyneb. Dychrynent rhag y perygl o gyssylltu meudwyaeth âg awdurdod ysbrydol, a chredent nad oedd y fath athrawiaeth yn cael ei dysgu yn ysgrifeniadau cyssegredig Moses a'r prophwydi. Edrychent yn hytrach gydag ammheuaeth na chyda pharch ar y gallu gwyrthiol a briodolid i gyfrinwyr; a chondemnient eu honiadau i ddoethineb ddwyfol yn y modd mwyaf penderfynol. Yr oedd natur Essseniaeth y fath, yn ei ffurf eithafol, fel nas gallai effeithio ond ychydig ar Gristionogaeth. Yn ei thueddiadau yr oedd yn hollol groes i athrawiaeth yr apostolion, ac yr oedd y peryglon a gynnwysai yn llawer mwy amlwg i lygad y Cristion nag oeddynt i'r doctoriaid Iuddewig.

PROSELYTIAID.

Cymmhwysir yr enw hwn yn y Testament Newydd at ddychweledigion oddi wrth baganiaeth at Iuddewiaeth. Y mae y gair Hebraeg a gyfeithir *proselyt* yn cael

ei gyfeithu yn gyffredin yn "ddyeithrddyn;" *Gen.* xv. 13; *Exod.* ii. 22; *Esa.* v. 17, &c. Yr oedd darpariaeth wedi ei wneyd yn nghyfraith Moses ar gyfer rhoddi derbyniad i broselytiaid, a'r modd i ymddwyn tuag atynt: *Exod.* xii. 48; *Lef.* xvii. 8; *Num.* xv. 5, &c. Ystyrid fod holl wladwriaeth Israel yn cael ei gwneyd i fyny o ddau ddosbarth; sef, Iuddewon, a'r dyeithriaid oedd o fewn eu pyrth, neu y proselytiaid. Y mae wedi bod yn arferiad i wneuthur gwahaniaeth rhwng dau ddosbarth o broselytiaid Iuddewig:—gelwid un yn broselytiaid y porth, a'r llall yn broselytiaid y cyfammod, neu cyfiawnder. O dan yr enw blaenaf y cynnwysid y dychweledigion paganaidd oeddynt wedi ymwrthod mor bell âg eilunaddoliaeth fel ag i fod yn addolwyr y gwir Dduw, ac a ymwrthodent â llawer o bethau a ystyrid yn droseddau o dan y gyfraith, ond nad oeddynt wedi rhestru eu hunain yn aelodau o wladwriaeth Israel. Yr oedd y diweddaf yn gynnwysedig o rai wedi ymostwng i gymmeryd eu henwaedu, ac yn mhob ystyr yn ddychweledigion at Iuddewiaeth. Fod, mewn amseroedd diweddar yn neillduol, lawer yn mysg yr Iuddewon wedi ymwrthod â llawer o bethau erchyllaf a ffieiddiaf paganiaeth, heb ddyfod drosodd yn llwyr at Iuddewiaeth, sydd amlwg; ond a elwid hwy yn 'broselytiaid' sydd agored i ammheuaeth. Hyn sydd sicr, fod y proselytiaid y crybwyllir am danynt yn y Testament Newydd yn bersonau wedi cael enwaedu arnynt, a'u dwyn o fewn y cyfundeb Iuddewaidd; ac yn bersonau oeddynt, yn ol iaith yr Hen Destament, yn Iuddewon: *Esther* viii. 17. Y mae yn debygol fod y gwahaniaeth a grybwyllir uchod wedi ei ddwyn i mewn gan Rabbiniaid diweddarach er mwyn cynnwys yn mhlith y proselytiaid a wnaethai eu crefydd hwy, y rhai hyny, er eu bod, dybygid, yn ddyledus i'r ysgrythyrau Iuddewig am y rhagoriaethau oedd yn eu credo, nad oeddynt er hyny wedi ymostwng i drefniadau a defodau y grefydd Iuddewig, neu i gymmeryd eu himpio i mewn i'r genedl Iuddewig.

Y defodau a arferid pan y derbynid proselyt, yn ol y Rabbiniaid, oeddynt, enwaediad, bedydd, ac offrwm gwirfoddol. O berthynas i'r cyntaf a'r olaf o'r rhai hyn, y mae hen arferion y genedl Iuddewig yn peri i bawb gydnabod mai felly yr oedd; ond y mae wedi bod yn gwestiwn o ddadl a arferid yr ail cyn y cyfnod Cristionogol. Yr oedd yr awyddfryd i wneyd proselytiaid yn gryf iawn yn mysg yr Iuddewon er dyddiau y Maccabeaid, yn enwedig yn mysg y Phariseaid—sêl anghymmedrol pa rai am hyn a geryddir yn llym gan ein Harglwydd: *Mat.* xxiii. 15. Ymddengys fod y rhar liosocaf o'r dychweledigion hyn yn fenywod; yr hyn a briodolir gan rai i'r gwrthwynebiad a deimlai y gwrywod i ymostwng i ddefod yr enwaediad. Dywed Josephus fod yr Iuddewon yn Antiochia yn parhaus brosel ytio nifer mawr o'r Groegiaid, a bod agos holl ferched Damascus yn ymlynu wrth Iuddewiaeth.

Y SAMARIAID.

Ceir yn Llyfrau y Brenhinoedd sylwadau byr ar ddechreuad y bobl a elwir *Samariaid.* Wedi i'r deg llwyth ymgodi mewn gwrthryfel yn nheyrnasiad Rehoboam, mab Soloman, hwy a ddewisasant Ieroboam yn frenin arnynt. Ar ol ei esgyniad ef i'r orsedd, gosododd Ieroboam y lloi aur i fyny, un yn Dan, a'r llall yn Beerseba—rhag i ymweliadau ei ddeiliaid âg Ierusalem, mewn trefn i wasanaethu y gwir Dduw, fod yn foddion i'w harwain i dynu eu gwarogaeth oddi wrtho ef. Ac wedi hyny, ar ol adeiladu Samaria gan Omri, a'i gwneyd yn brif ddinas Israel, yr oedd y rhwyg rhwng Iudah ac Israel wedi ei gwblhau. Cymmerodd y bobl hyn yr enw *Samariaid* oddi wrth eu prif ddinas. Gwarchauwyd ar Samaria yn y nawfed flwyddyn o deyrnasiad Hosea, gan Salmaneser, brenin Assyria; yr hwn a gymmerodd y trigolion ymaith yn garcharorion i derfynau pellaf ei frenhiniaeth, a llanwodd y lle a phobl o blith cenhedloedd ereill, y rhai oeddynt eilunaddolwyr. A chan fod y dyeithriaid hyn yn cael eu blino gan lewod, appeliasant at frenin Assyria am gael offeiriad Israelaidd i'w dysgu yn hen grefydd ac arferion y wlad: ac fe ganiatawyd eu dymuniad. Gan fod ychydig weddillion o'r Israeliaid wedi eu gadael yn y wlad, yr oedd y boblogaeth yn un gymmysg, ac yr oedd eu crefydd hefyd yn un o nodweddgymmysg. Yr oeddynt yn addoli delwau, ac yn proffesu addoli Duw y nefoedd hefyd. Ar ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, ewyllysiai y Samariaid i ymuno â hwynt i ail adeiladu y deml, a dywedasant, "Adeiladwn gyda chwi: canys fel chwithau y ceisiwn eich Duw chwi, canys iddo ef yr ydym ni yn aberthu, er dyddiau Esarhadon, brenin Assyria, yr hwn a'n dug ni i fyny yma;" *Ezra* iv. 12. Gwrthododd yr Iuddewon eu cymmhorth cynnygiedig; ac o hyny allan tafiai y Samariaid bob rhwystr ar eu ffordd. Adeiladwyd teml ar fynydd Garizim, a gosodwyd i lawr sylfaen gelyniaeth rhwng y ddwy genedl, a gynnyddodd i'r fath raddau nes dyfod yn ddiarebol. Tua 109 c. c., darfu i Ioan Hyrcanus ddinystrio teml a

dinas y Samariaid; ond yn y flwyddyn c.c. 25, ail adeiladwyd hwynt gan Herod. Parhaodd y Samariaid, modd bynag, i offrymu eu haberthau, ac i addoli ar fynydd Garizim. Yr oedd eu ffydd a'u hymarferiad hwynt wedi eu sylfaenu ar Bum Llyfr Moses yn unig, gan eu bod yn ymwrthod â'r holl ysgrifeniadau ysbrydoledig ereill. Goruwch-lywodraethwyd y gwahaniaeth hwn er daioni cyffredinol. Y mae y copi Samariaidd o Bum Llyfr Moses wedi ei gadw yn ofalus ganddynt, ac yr oedd yr elyniaeth rhyngddynt hwy a'r Iuddewon yn gwneyd y ddwy blaid yn eiddigus am gadw purdeb eu gwahanol gopïau. Yr oedd y Samariaid, dybygid, yn rhydd oddi wrth y balchder a'r culni oedd yn rhy gyffredin yn nodweddu yr Iuddewon. Yr oeddynt braidd yn barotach i wneyd derbyniad o'r efengyl na'u cymmydogion. Credent y dylasai yr holl genhedloedd fod yn gyfranog o'i bendithion. Derbyniasant hwy un o ddadganiadau pendant blaenaf ein Harglwydd, mai efe oedd y Messiah (*Ioan* iv.), yr hwn, yn ddilynol i hyny, a wnaeth sylw yn fynych o honynt yn nghwrs ei weinidogaeth.

Gan nad oeddynt yn derbyn ond Pum Llyfr Moses yn unig, y mae yn ddyddorol sylwi ar y rhanau hyny ar ba rai, hyd heddyw, y mae eu crediniaeth yn gorphwys am ddyfodiad y Messiah. Y maent yn cyfeirio at *Deut.* xviii. 15—19; ac y maent hefyd yn casglu ei fod yn Waredwr y byd oddi wrth *Gen.* xiii. 3; xxii. 18; xxvi. 4; xxviii. 14, &c. Ar ol amser ein Harglwydd, cododd sect yn eu plith, o ba rai yr oedd dwy wedi eu sylfaenu gan Simon Magus a'i ddysgybl Menander, a pharhasant am ganrifoedd, ac y mae ysgrifenwyr paganaidd boreuol yn aml yn sôn am danynt mewn camgymmeriad, fel pe buasent yn Gristionogion. Ychydig iawn mewn nifer ydyw y Samariaid yn bresennol; er nad oes llawer iawn o amser er y pryd yr hònent fod ganddynt offeiriad wedi disgyn yn unionsyth o deulu Aaron. Yn Gaza, Neapolis, (neu Sichem), Damascus, a Cairo, &c., yr oeddynt yn benaf. Y maent yn awr wedi eu cyfyngu yn mron yn llwyr i Neapolis; ac y mae ganddynt etto gopi o gyfraith Moses.

GALILEAID.

Tebyg i'r Phariseaid, o ran eu syniadau crefyddol, oedd y Galileaid, er yn gwahaniaethu yn eu golygiadau gwleidyddol; a mwy priodol, hwyrach, yw edrych arnynt fel plaid wleidyddol, yn hytrach na sect grefyddol. Dilynwyr oeddynt i un Iudas, brodor o Galilea (Gamala), yr hwn, yn "nyddiau y dreth," a gynnhyrfodd ei gyd-wladwyr, ac amryw ereill o'r Iuddewon, i gymmeryd arfau ac anturio y gwaethaf, yn hytrach na thalu teyrnged i'r Rhufeiniaid, gan ddysgu ei bod yn anysgrythyrol iddynt ymostwng i unrhyw lywodraeth dramor, ac mai Duw yn unig oedd brenin yr Iuddewon. Er i Iudas fod yn aflwyddiannus, ac ar y cynnyg cyntaf i'w blaid gael ei llwyr orchfygu a'i gwasgaru, er hyny yr oedd meddyliau ei ddilynwyr yn cyfranogi cymmaint o'i benboethni ef ei hun, fel na buont yn llonydd nes suddo y ddinas a'r deml mewn dinystr. Gan y tybient ei bod yn anghyfreithlawn iddynt weddïo dros dywysogion tramorol, yr oeddynt yn offrymu eu haberthau ar wahân. Am fod ein Harglwydd a'i ddysgyblion yn dyfod o Galilea, ymdrechodd y Phariseaid i gael gan y byd gredu fod a fyno y Gwaredwr â'r blaid hon.

HERODIANIAID.

Yn eu golygiadau crefyddol yr oedd yr Herodianiaid yn tebygu i'r Saduceaid (cymmhar. *Marc* viii. 15; a *Mat.* xvi. 6), ond yr oeddynt yn hytrach yn blaid wleidyddol, fel y Galileaid, nag yn sect grefyddol. Cymmerasant eu henw a'u golygiadau oddi wrth deulu Herod, yr hwn deulu a dderbyniai ei awdurdod oddi wrth y llywodraeth Rufeinig. Yr egwyddor ar ba un yr oeddynt hwy yn gweithredu oedd, ceisio gwenieithio ac ennill cymmeradwyaeth Rhufain trwy ymostwng hyd lawr iddi, ac yn enwedig trwy ddwyn i mewn i Iudea arferion eu gorchfygwyr. Yr ymuniad hwn âg eilunaddoliaeth, ar y sail fod doethineb gwleidyddol yn galw am dano, dybygid, oedd y surdoes y rhoddai ein Harglwydd ei ddysgyblion ar eu gocheliad rhagddo.

Yn yr hanes a geir yn *Mat.* xxii. 15, &c., a *Marc* xii. 13, &c., o ymdrechion gwahanol bleidiau o'r Iuddewon i brofi Iesu Grist yn euog, mynegir fod yr Herodianiaid yn gweithredu mewn cyssylltiad â'r Phariseaid. Sonia Marc hefyd fod y ddwy blaid yn ymuno i amcan tebyg mewn adeg foreuach (*Marc* iii. 6); ac mewn lle arall (*pen.* viii. 15), cofnoda fod ein Harglwydd wedi gosod "surdoes Herod" a "surdoes y Phariseaid" mewn cyssylltiad agos â'u gilydd. Ond ni wneir un cyfeiriad at yr Herodianiaid o dan eu henw yn Efengyl Luc.

CYNNWYSIAD A CHYSSONDEB YR EFENGYLAU

Rhan I.

DIGWYDDIADAU CYSSYLLTIEDIG A GENEDIGAETH A MABOED EIN HARGLWYDD.

Amser:—*O ddeutu tair blynedd ar ddeg a hanner.*

B. A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
	Luc i. 1—4. .	Rhagymadrodd i Efengyl Luc.
	— i. 5—25. .	Angel yn ymddangos i Zacharias.—Ierusalem; yn y deml, cyn genedigaeth yr Iesu.
	Luc i. 26—38. .	Yr un angel yn ymddangos i Mair.—Nazareth.
	— i. 39—56. .	Mair yn ymweled âg Elisabeth.—Iutta?
	— i. 57—80. .	Genedigaeth Ioan Fedyddiwr.—Iutta?
	Mat. i. 18—25. .	Angel yn ymddangos i Ioseph.—Nazareth.
1	Luc ii. 1—7. .	Genedigaeth yr Iesu.—Bethlehem.
	— ii. 8—20. .	Angel yn ymddangos i'r bugeiliaid.—Yn agos i Bethlehem.
	— ii. 21—38. .	Enwaediad yr Iesu, a'i gyflwyniad yn y deml.—Bethlehem, Ierusalem.
	Mat. ii. 1—12 .	Y Doethion.—Ierusalem, Bethlehem.
	— ii. 13—23 .	Y ffoad i'r Aipht.—Creulondeb Herod. Y dychweliad.—Bethlehem, Nazareth.
	Luc ii. 39, 40 .	
12	— ii. 41—52 .	Yr Iesu yn ddeuddeg oed, yn myned i ŵyl y Pasc.—Ierusalem.
	Mat. i. 1—17 .	Achau Crist.
	Luc iii. 23—38 .	

Rhan II.

CYHOEDDIAD A RHAGARWEINIAD I WEINIDOGAETH GYHOEDDUS EIN HARGLWYDD.

Amser:—*O ddeutu blwyddyn.*

30	Mat. iii. 1—12 .	Gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr. — Y Diffeithwch; yr Iorddonen,
	Marc i. 1—8 .	
	Luc iii. 1—18 .	
31	Mat. iii. 13—17 .	Bedyddio yr Iesu.—Yr Iorddonen.
	Marc i. 9—11 .	
	Luc iii. 21—23 .	
—	Mat. iv. 1—11 .	Y temtiad.—Diffeithwch Iudea.
	Marc i. 12, 13 .	
	Luc iv. 1—13 .	
—	Ioan i. 1—18 . .	Rhagarweiniad i Efengyl Ioan.
—	— i. 19—34 . .	Tystiolaeth Ioan Fedyddiwr am yr Iesu.—Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen.
—	— i. 35—51 . .	Yr Iesu yn ennill dysgyblion.—Yr Iorddonen; Galilea?
—	— ii. 1—12 . .	Y briodas yn Cana Galilea.

[1] Rhoddwyd y digwyddiadau dilynol fel y cymmerasant le o ddechreu oes yr Arglwydd Iesu; ond er eu cael i atteb i'r cyfrif cyffredin, dylid tynu yn agos i bedair blynedd o'r ffugrau canlynol. Er enghraifft, bu yr Iesu farw pan oedd o 33 i 34 mlwydd oed; ond y flwyddyn sydd yn atteb iddi yn y cyfrif cyffredin ydyw 30, &c.

Rhan III.

Pasc cyntaf ein Harglwydd, ynghyd a'r gweithrediadau dilynol hyd yr ail Basc.

Amser :—*Blwyddyn.*

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
31	Ioan ii. 13—25 .	Yr Iesu ar ŵyl y Pasc yn gyru y masnachwyr allan o'r deml. —Ierusalem.
—	— iii. 1—21 .	Ymddiddan ein Harglwydd â Nicodemus.—Ierusalem.
—	— iii. 22—36 .	Yr Iesu yn gadael Ierusalem, yn aros yn Iudea, ac yn bedyddio. Tystiolaeth chwanegol Ioan Fedyddiwr am dano. —Ainon.
—	Mat. iv. 12 . .	Carcharu Ioan, a'r Iesu yn ymadael i Galilea.
	— xiv. 3—5 . .	
	Marc i. 14 . .	
	— vi. 17—20. .	
	Luc iv. 14 . .	
	— iii. 19, 20 .	
	Ioan iv. 1—3 . .	
—	Ioan iv. 4—42 .	Ymddiddan ein Harglwydd â'r wraig o Samaria. Llawer o'r Samariaid yn credu ynddo.—Sychar, sef Sechem, neu Neapolis.
—	Mat. iv. 17 . .	Yr Iesu yn dysgu yn gyhoeddus yn Galilea.
	Marc i. 14, 15 .	
	Luc iv. 14, 15 .	
	Ioan iv. 43—45 .	
—	Ioan iv. 46—54 .	Yr Iesu yn dyfod drachefn i Cana, ac yn iachau mab i bendefig, yr hwn oedd yn gorwedd yn glaf yn Capernaum. — Cana Galilea.
—	Mat. iv. 13—16 .	Yr Iesu drachefn yn Nazareth; yn cael ei wrthod; yn ymadael,
	Luc iv. 16—31. .	ac yn trigo yn Capernaum.
—	Mat. iv. 18—22 .	Galw Simon Pedr ac Andreas, Iago ac Ioan: y ddalfa ryfeddol
	Marc i. 16—20 .	o bysgod.—Wrth fôr Galilea, yn agos i Capernaum.
	Luc v. 1—11 . .	
—	Marc i. 21—28 .	Iachau y dyn oedd âg ysbryd aflan ynddo, yn y synagog.—
	Luc iv. 31—37 .	Capernaum.
—	Mat. viii. 14—17.	Iachau mam gwraig Pedr, ac amryw ereill.—Capernaum.
	Marc i. 29 34. .	
	Luc iv. 38—41. .	
—	Mat. iv. 23—25 .	Yr Iesu a'i ddysgyblion yn ymadael o Capernaum, ac yn myned
	Marc i. 35—39. .	oddi amgylch holl Galilea.
	Luc iv. 42—44 .	
—	Mat. viii. 2—4 .	Iachau y gwahanglwyfus.—Galilea.
	Marc i. 40—45 .	
	Luc v. 12—16 .	
—	Mat. ix. 2—8 .	Iachau y claf o'r parlys.—Capernaum.
	Marc ii. 1—12 .	
	Luc v. 17—26 .	
—	Mat. ix. 9 . .	Galw Matthew.—Capernaum.
	Marc ii. 13, 14 .	
	Luc v. 27, 28 . .	

Rhan iv.

ail basc ein harglwydd, ynghyd a'r gweithrediadau dilynol hyd y trydydd pasc.

Amser:—*Blwyddyn.*

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
32	Ioan v. 1—47 .	Llyn Bethesda; iachau y dyn oedd mewn gwendid; ac ymddiddanion dilynol ein Harglwydd.—Ierusalem.
—	Mat. xii. 1—8 .	Y dysgyblion yn tynu y tywys ŷd ar y Sabbath.—Ar y ffordd
	Marc ii. 23—28 .	i Galilea.
	Luc vi. 1—5 . .	
	Mat. xii. 9—14 .	Iachau y llaw wedi gwywo ar y Sabbath.—Galilea, Capernaum.
	Marc iii. 1—6. .	
	Luc vi. 6—11. .	
	Mat. xii. 15—21.	Yr Iesu yn cyrhaedd môr Tiberias, a'r tyrfaoedd yn ei ddilyn.
—	Marc iii. 7—12 .	
	Mat. x. 2—4 . .	Yr Iesu yn esgyn i'r mynydd, ac yn dewis y deuddeg; y dyrfa
—	Marc iii. 13—19 .	yn ymgynnull ato drachefn.—Yn agos i Capernaum.
	Luc vi. 12—19 .	
	Mat. v. 1; viii. 1	Y bregeth ar y mynydd.—Yn agos i Capernaum.
—	Luc vi. 20—49 .	
	Mat. viii. 5—13 .	Iachau gwas y canwriad.—Capernaum.
—	Luc vii. 1—10. .	
	Luc vii. 11—17 .	Cyfodi mab y weddw.—Nain.
—	Mat. xi. 2—19 .	Ioan Fedyddiwr, pan yn ngharchar, yn anfon dau o'i ddysg-
—	Luc vii. 18—35 .	yblion at yr Iesu.—Galilea, Capernaum.
	Mat. xi. 20—30 .	Adfyfyrdod yr Iesu wrth gyfeirio at ei weithredoedd nerthol.
—		—Capernaum.
	Luc vii. 36—50 .	Eneinio yr Iesu gan wraig, yr hon oedd bechadures, tra yr
—		oedd efe yn eistedd i fwyta yn nhŷ un o'r Phariseaid.—
		Capernaum.
	Luc viii. 1—3 .	Yr Iesu gyda'r deuddeg dysgybl, yn myned yr ail waith trwy
—		Galilea.
	Mat. xii. 22—37.	Iachau un cythreulig; yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn
—	Marc iii. 19—30.	cablu.—Galilea.
	Luc xi. 14, 15, 17 —23.	
	Mat. xii. 38—45.	Yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn gofyn arwydd; adfyfyr-
—	Luc xi. 16, 24 — 36	dodau ein Harglwydd.—Galilea.
	Mat. xii. 46—50.	Crist yn dangos mai ei wir ddysgyblion ydynt ei berthynasau
—	Marc iii. 31—35.	agosaf.—Galilea.
	Luc viii. 19—21.	
	Luc xi. 37—54 .	Yr Iesu, pan yn bwyta wrth fwrdd un o'r Phariseaid, yn cy-
—		hoeddi gwae yn eu herbyn hwy ac ereill.—Galilea.
	Luc xii. 1—59 .	Yr Iesu yn pregethu i'w ddysgyblion, ac i'r tyrfaoedd.
—		—Galilea.
	Luc xiii. 1—9 .	Y Galileaid a laddwyd gan Pilat.—Dammeg y ffigysbren ddi-
—		ffrwyth.—Galilea.
	Mat. xiii. 1—23 .	Dammeg yr hauwr a'r had.—Môr Galilea, yn agos i Capernaum.
—	Marc iv. 1—25 .	
	Luc viii. 4—18 .	
	Mat. xiii. 24—53	Dammeg yr efrau; dammegion ereill.—Yn agos i Capernaum.
—	Marc iv. 26—34 .	
	Mat. viii. 18 27.	Yr Iesu yn gorchymyn myned dros fôr Galilea, digwyddiadau
—	Marc iv. 35—41 .	tawelu yr ystorm.—Môr Galilea.
	Luc viii. 22—25 .	

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
32	Mat. viii. 28—34; a ix. 1	Y ddau ddieflig yn Gadara.—De-ddwyrain arfordir Galilea.
	Marc v. 1—21 .	
	Luc viii. 26—40 .	
—	Mat. ix. 10—17 .	Y wledd yn nhŷ Levi.—Yr ymddiddan ynghylch ymprydio.—
	Marc ii. 15—22 .	—Capernaum.
	Luc v. 29—39. .	
—	Mat. ix. 18—26 .	Crist yn cyfodi merch Iairus, ac yn iachau y wraig o'r diferlif.
	Marc v. 22—43 .	—Capernaum.
	Luc viii. 41—56 .	
—	Mat. ix. 27—34 .	Yr Iesu yn rhoddi eu golwg i ddau ddyn dall, ac yn bwrw y cythraul allan o'r mudan.—Capernaum.
—	Mat. xiii. 54—58	Yr Iesu yn dyfod drachefn i Nazareth, ac yn cael ei wrthod
	Marc vi. 1—6. .	drachefn.
33	Mat. ix. 35—38; a x. 1, 5—42; a xi. 1 . . .	Y drydedd gylchdaith trwy Galilea; addysgu y deuddeg, a'u hanfon i bregethu.—Galilea.
	Marc vi. 6—13 .	
	Luc ix. 1—6 . .	
—	Mat. xiv. 1, 2, a 6—12; . . .	Herod yn tybied mai Ioan Fedyddiwr, yr hwn y torasai efe ei ben, ydoedd yr Iesu.—Galilea; Perea.
	Marc vi. 14—16, a 21—29; . .	
	Luc ix. 7—9 . .	
—	Mat. xiv. 13—21.	Y deuddeg yn dychwelyd, a'r Iesu yn myned gyda hwy dros y
	Marc vi. 30—44 .	llyn; porthi y pum mil.—Capernaum, y gogledd-ddwyrain o
	Luc ix. 10—17;	arfordir Galilea.
	Ioan vi. 1—14 .	
—	Mat. xiv. 22—36.	Yr Iesu yn rhodio ar y mor; yn y nos ar fôr Galilea.—Gen-
	Marc vi. 45—56 .	nesaret.
	Ioan vi. 15—21 .	
—	Ioan vi. 22—71; a vii. 1 . . .	Ein Harglwydd yn Capernaum, yn dysgu y dyrfa yn y synagog; llawer o'i ddysgyblion yn ei adael; Pedr yn proffesu ei ffydd yn yr Iesu.—Capernaum.

Rhan V.

O'R TRYDYDD PASC, YN YSTOD GWEINIDOGAETH EIN HARGLWYDD, HYD EI YMADAWIAD DIWEDDAF O GALILEA, AR WYL Y PEBYLL.

Amser :—*Chwe mis.*

33	Mat. xv. 1—20 .	Ein Harglwydd yn cyfiawnhau ei ddysgyblion am fwyta heb
	Marc vii. 1—23 .	olchi eu dwylaw. Traddodiadau y Phariseaid.—Capernaum.
—	Mat. xv. 21—28 .	Iachau merch y wraig o Syrophenisia.—Goror Tyrus a Sidon.
	Marc vii. 24—30.	
—	Mat. xv. 29—38 .	Iachau un mud a byddar; hefyd, amryw ereill. Porthi y pedair
	Marc vii. 31—37; a viii. 1—9 .	mil.—Decapolis.
—	Mat. xv. 39; a xvi. 1—4 . .	Y Phariseaid a'r Saduceaid yn gofyn arwydd drachefn.—Yn agos i Magdala.
	Marc viii. 10—12	
—	Mat. xvi. 4—12 .	Yr Iesu yn rhybuddio ei ddysgyblion i ymogelyd rhag surdoes
—	Marc viii. 13—21	y Phariseaid, &c.—Arfordir gogledd-ddwyrain môr Galilea.
—	Marc viii. 22—26	Crist yn rhoddi ei olwg i ddyn dall.—Bethsaida (Iulias).
—	Mat. xvi. 13—20	Pedr a'r dysgyblion, drachefn, yn proffesu eu ffydd yn Nghrist.
	Marc viii. 27—30	—Goror Cesarea Philippi.
	Luc ix. 18—21	

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
33	Mat. xvi. 21—28.	Ein Harglwydd yn rhagfynegu ei farwolaeth a'i adgyfodia
	Marc viii. 31—38; a ix. 1 . . .	ynghyd â phrofedigaethau ei ganlynwyr.—Goror Cesare Philippi.
	Luc ix. 22—27 .	
—	Mat. xvii. 1—13.	Y gweddnewidiad. Ymddiddanion dilynol ein Harglwyd
	Marc ix. 2—13 .	gyda'r tri dysgybl.—Bro Cesarea Philippi.
	Luc ix. 28—36 .	
—	Mat. xvii. 14—21	Iachau y lloerig, yr hwn nis gallai y dysgyblion ei iachau.—
	Marc ix. 14—29 .	Goror Cesarea Philippi.
	Luc ix. 37—43 .	
—	Mat. xvii. 22, 23.	Yr Iesu drachefn yn rhagfynegu ei farwolaeth a'i adgyfodiad.
	Marc ix. 30—32 .	—Galilea.
	Luc ix. 43—45. .	
—	Mat. xvii. 24—27	Darparu arian y deyrnged mewn modd gwyrthiol.—Capernaum
	Marc ix. 33 . .	
—	Mat. xviii. 1—35	Y dysgyblion yn ymryson pwy fyddai fwyaf; a'r Iesu yn e
	Marc ix. 33—50 .	hannog i ostyngeiddrwydd, goddefgarwch, a chariad brawd
	Luc ix. 46—50. .	ol.—Capernaum.
—	Luc ix. 51—62 .	Yr Iesu yn myned i fyny i ŵyl y pebyll. Ei ymadawiad di
	Ioan vii. 2—10. .	weddaf o Galilea. Digwyddiadau yn Samaria.
—	Luc x. 1—16 .	Addysgu y deg a thrigain, a'u hanfon allan i bregethu.—
		Samaria.
—	Luc xvii. 11—19.	Iachau deg o wahangleifion.—Samaria.

Rhan vi.

GWYL Y PEBYLL, A'R GWEITHREDIADAU DILYNOL HYD DDYFODIAD EIN HARGLWYDD I BETHANIA, CHWE DIWRNOD CYN Y PEDWERYDD PASC.

Amser: *Chwe mis, ond un wythnos.*

33	Ioan vii. 11—53; a viii. 1 . . .	Yr Iesu yn ngŵyl y pebyll. Ei addysg gyhoeddus.—Ierusa lem.
—	Ioan viii. 2—11 .	Dal y wraig mewn godineb.—Ierusalem.
—	Ioan viii. 12—59.	Ein Harglwydd yn gweinyddu addysg chwanegol i'r bobl; y ceryddu yr Iuddewon anghrediniol, ac yn diange o'u dwylaw hwy.—Ierusalem.
—	Luc x. 25—37. .	Addysgu y cyfreithiwr. Cariad at ein cymmydog yn cael e egluro; dammeg y Samariad trugarog.—Yn agos i Ierusalem
—	Luc x. 38—42. .	Yr Iesu yn nhŷ Martha a Mair.—Bethania.
—	Luc xi. 1—13. .	Yn dysgu ei ddysgyblion pa fodd i weddïo.—Yn agos i Ierusa lem.
	Luc x. 17—24. .	Y deg a thrigain yn dychwelyd.—Ierusalem.
—	Ioan ix. 1—41; a x. 1—21. . .	Yr Iesu ar y Sabbath yn iachau y dyn a anesid yn ddall Ymddiddanion dilynol ein Harglwydd.—Ierusalem.
—	Ioan x. 22—42. .	Yr Iesu yn Ierusalem ar y gyssegr-ŵyl. Yn myned ymaith i tu hwnt i'r Iorddonen.—Ierusalem; Bethabara, tu hwnt i Iorddonen.
34	Ioan xi. 1—46. .	Cyfodi Lazarus o farw.—Bethania.
—	Ioan xi. 47—54. .	Cynghor Caiaphas yn erbyn yr Iesu. Yr Iesu yn ymadael Ierusalem.—Ierusalem; Ephraim.
—	Mat. xix. 1, 2. .	Yr Iesu tu hwnt i'r Iorddonen; y tyrfaoedd yn ei ganlyn. Y
	Marc x. 1 . .	iachau y wraig oedd mewn gwendid ar y Sabbath.—Dyffry
	Luc xiii. 10—21.	yr Iorddonen; Perea.
—	Luc xiii. 22—35.	Ein Harglwydd yn ymdeithio tuag Ierusalem, gan ddysgu bobl. Ei rybuddio am Herod.—Perea.
—	Luc xiv. 1—24. .	Yr Iesu yn bwyta gyda phenaeth y Phariseaid ar y Sabbath Digwyddiadau.—Perea.

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
34	Luc xiv. 25—35 .	Yr hyn a ofynir gan wir ddysgyblion.—Perea.
—	Luc xv. 1—32. .	Dammeg y ddafad a gollasid, &c. Dammeg y mab afradlon. —Perea.
—	Luc xvi. 1—13. .	Dammeg y goruchwyliwr anghyfiawn. —Perea.
—	Luc xvi. 14—31 .	Ceryddu y Phariseaid.—Dammeg y gŵr goludog a Lazarus.— Perea.
—	Luc xvii. 1—10 .	Yr Iesu yn argymmhell cydoddefiad, ffydd, a gostyngeiddrwydd.—Perea.
—	Luc xvii. 20—37.	Y bydd dyfodiad Crist yn ddisymmwth.—Perea.
—	Luc xviii. 1—14 .	Dammegion:—Y weddw daer. Y Pharisead a'r Publican.— Perea.
—	Mat. xix. 3—12 .	Cynghorion ynghylch ysgariaeth.—Perea.
	Marc x. 2—12 .	
—	Mat. xix. 13—15.	Yr Iesu yn derbyn plant bychain, ac yn eu bendithio.—Perea.
	Marc x. 13—16. .	
	Luc xviii. 15—17	
—	Mat. xix. 16—30.	Y gŵr ieuange cyfoethog.—Perea.
	Marc x. 17—31. .	
	Luc xxiii. 18—30	
—	Mat. xx. 1—16. .	Dammeg y gweithwyr yn y winllan.—Perea.
—	Mat. xx. 17—19 .	Yr Iesu, y drydedd waith, yn rhagfynegi ei farwolaeth a'i
	Marc x. 32—34. .	adgyfodiad.—Perea.
	Luc xviii. 31—34	
—	Mat. xx. 20—28.	Dymuniad uchelfrydig Iago ac Ioan.—Perea.
	Marc x. 35—45 .	
—	Mat. xx. 29—34.	Iachau dau ddyn dall yn agos i Iericho.
	Marc x. 46—52 .	
	Luc xviii. 35—43; a xix. 1. .	
—	Luc xix. 2—28. .	Yr ymweliad â Zaccheus. Dammeg y deg darn o arian.— Iericho.
—	Ioan xi: 55—57; a xii. 1, 9—11 .	Yr Iesu yn dyfod i Bethania, chwe diwrnod cyn y Pasc.— Bethania.

Rhan VII.

MYNEDIAD CYHOEDDUS EIN HARGLWYDD I IERUSALEM, A'R DIGWYDDIADAU DILYNOL HYD Y PEDWERYDD PASC.

Amser: *Pum niwrnod.*

34	Mat. xxi. 1—11 a 14—17 . .	Mynediad cyhoeddus ein Harglwydd i Ierusalem.—Bethania; Ierusalem.
	Marc xi. 1—11. .	
	Luc xix. 20—44 .	
	Ioan xii. 12—19 .	
—	Mat. xxi. 12, 13, 18, 19 . . .	Y ffigysbren diffrwyth. Glanhau y deml.—Bethania; Ierusalem.
	Marc xi. 12—19 .	
	Luc xix. 45—48; a xxi. 37, 38. .	
—	Mat. xxi. 20—22	Y ffigysbren ddiffrwyth yn gwywo ymaith.—Rhwng Bethania
	Marc xi. 20—26 .	ac Ierusalem.
—	Mat. xxi. 23—32	Awdurdod Crist yn cael ei ammheu. Dammeg y ddau fab.—
	Marc xi. 27- 33 .	Ierusalem.
	Luc xx. 1—8 . .	

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
34	Mat. xxi. 33—46 Marc xii. 1—12 . Luc xx. 9—19. .	Dammeg y llafurwyr drygionus.—Ierusalem.
—	Mat. xxii. 1—14.	Dammeg priodas mab y brenin.—Ierusalem.
—	Mat. xxii. 15—22 Marc xii. 13—17. Luc xx. 20—26 .	Ymofyniad dichellgar y Phariseaid a'r Herodianiaid: teyrnged i Cesar.—Ierusalem.
—	Mat. xxii. 22—33 Marc xii. 18—27. Luc xx. 27—40 .	Ymholiad twyllodrus y Saduceaid: yr adgyfodiad.—Ierusalem.
—	Mat. xxii. 34—40 Marc xii. 28—34.	Cyfreithiwr yn holi yr Iesu. Y ddau orchymyn mawr.—Ierusalem.
—	Mat. xxii. 41—46. Marc xi. 35—37 . Luc xx. 41—44 .	Pa fodd y mae Crist yn fab Dafydd.—Ierusalem.
—	Mat. xxiii. 1—12. Marc xii. 38—39. Luc xx. 45—46 .	Rhybuddion yn erbyn esamplau drwg yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid.—Ierusalem.
—	Mat.xxiii.13—39. Marc xii. 40 . . Luc xx. 47. . .	Gwaeau yn erbyn yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Galarnad uwch ben Ierusalem.—Ierusalem.
—	Marc xii. 41—44. Luc xxi. 1—4. .	Hatling y weddw.—Ierusalem.
—	Ioan xii. 20—36.	Nifer o'r Groegiaid yn ewyllysio gweled yr Iesu.—Ierusalem.
—	Ioan xii. 37—50.	Adfyfyrion ar anghrediniaeth yr Iuddewon.—Ierusalem.
—	Mat. xxiv. 1—14. Marc xiii. 1—13. Luc xxi. 5—19 .	Yr Iesu ar ei ymadawiad o'r deml yn rhagfynegi ei dinystr, ac erledigaeth ei ddysgyblion.—Ierusalem; Mynydd yr Olewydd.
—	Mat. xxiv.15—42. Marc xiii. 14—37. Luc xxi. 20—36 .	Arwyddion o ddyfodiad Crist i ddinystrio Ierusalem, ac i roddi terfyn ar y llywodraeth a'r oruchwyliaeth Iuddewig.—Mynydd yr Olewydd.
—	Mat. xxiv. 43, 45; a xxv. 1—30 .	Arwyddion dyfodiad diweddaf Crist ddydd y farn. Cynghor i wylio. Dammegion y deng morwyn, a'r pum talent.—Mynydd yr Olewydd.
—	Mat. xxv. 31—41.	Golygfeydd dydd y farn.—Mynydd yr Olewydd.
—	Mat. xxvi. 1—16. Marc xiv. 1—11. Luc xxii. 1—6 . Ioan xii. 2—8 .	Y llywodraethwyr yn cydfwriadu yn erbyn Crist. Y swper yn Bethania. Bradwriaeth Iudas.—Ierusalem; Bethania.

Rhan viii.

y pedwerydd pasc: dioddefaint ein harglwydd, a'r digwyddiadau dilynol, hyd diwedd y sabbath iuddewig.

Amser: *Dau ddiwrnod.*

34	Mat. xxvi.17—19. Marc xiv. 12—16. Luc xxii. 7—13 .	Parotoadau erbyn y Pasc.—Bethania; Ierusalem.
—	Mat. xxvi. 20. . Marc xiv. 17 . . Luc xxii. 14—18, 24—30 . . .	Swper y Pasc. Ymryson yn mhlith y deuddeg.—Ierusalem.
—	Ioan xiii. 1—20 .	Yr Iesu yn golchi traed ei ddysgyblion.—Ierusalem.
—	Mat.xxvi.21—25. Marc xiv. 18—21. Luc xxii. 21—23.	Yr Iesu yn nodi y bradychwr. Iudas yn myned allan.—Ierusalem.

B. A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
34	Mat. xxvi. 31—35. Marc xiv. 27—31. Luc xxii. 31—38. Ioan xiii. 36—38.	Yr Iesu yn rhagddywedyd am gwymp Pedr, a gwasgariad y deuddeg.—Ierusalem.
—	Mat. xxvi. 26—29. Marc xiv. 22—25. Luc xxii. 19, 20. 1 Cor. xi. 23—25.	Swper yr Arglwydd.—Ierusalem.
—	Ioan xiv. 1—31 .	Yr Iesu yn cysuro ei ddysgyblion. Yr addewid o'r Ysbryd Glân.—Ierusalem.
—	Ioan xv. 1—27 .	Crist yw y wir winwydden. Y byd yn casau ei ddysgyblion. —Ierusalem.
—	Ioan xvi. 1—33 .	Rhagfynegi erledigaeth. Addewid am yr Ysbryd Glân. Gweddi yn enw Crist.—Ierusalem.
—	Ioan xvii. 1—26 .	Gweddi ddiweddaf Crist gyda'i ddysgyblion.—Ierusalem.
—	Mat. xxvi. 30, &c. Marc xiv. 26, &c. Luc xxii. 39—46. Ioan xviii. 1 . .	Yr ing yn Gethsemane.—Mynydd yr Olewydd.
—	Mat. xxvi. 47—56. Marc xiv. 43—52. Luc xxii. 47—53. Ioan xviii. 2—12.	Bradychu yr Iesu, a'i wneyd yn garcharor.—Gethsemane.
—	Mat. xxvi. 57, 58, 69—75 . . . Marc xiv. 53, 54, 67—72 . . . Luc xxii. 54—62. Ioan xviii. 13—18 25—27 . . .	Yr Iesu o flaen Caiaphas. Pedr yn ei wadu deirgwaith.—Ierusalem.
-	Mat. xxvi. 59—68. Marc xiv. 55—65. Luc xxii. 63—71. Ioan xviii. 19, &c.	Yr Iesu o flaen Caiaphas a'r Sanhedrim. Yn addef mai efe yw y Crist; ei gondemnio a'i watwar.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 1, 2, 11—14 . . . Marc xv. 1—5 . Luc xxiii. 1—5 . Ioan xviii. 28—38.	Y Sanhedrim yn arwain yr Iesu at Pilat.—Ierusalem.
—	Luc xxiii. 6—12. Mat. xxvii. 15--26. Marc xv. 6—15 . Luc xxiii. 13—25. Ioan xviii. 39—40.	Yr Iesu o flaen Herod.—Ierusalem. Pilat yn ceisio rhyddhau yr Iesu. Yr Iuddewon yn gofyn Barabbas.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 26--30 Marc xv. 15—19. Ioan xix. 1—3 .	Pilat yn traddodi yr Iesu i farw. Ei fflangellu a'i watwar.--Ierusalem.
—	Ioan xix. 4—16 .	Pilat, ar ol ceisio rhyddhau yr Iesu eilwaith, yn ei draddodi i'w groeshoelio.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 3—10 Act. i. 18—19. .	Iudas yn edifarhau, ac yn ymgrogi.—Ierusalem.
—	Mat xxvii. 31—34 Marc xv. 20—23. Luc xxiii. 26—33 Ioan xix. 16-17.	Arwain yr Iesu i'w groeshoelio.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 31, &c. Marc xv. 24—28. Luc xxiii. 33, 34, 38. . . . . Ioan xix. 18—24.	Y croeshoeliad.—Ierusalem.

B.A.	Ysgrythyr.	Cynnwysiad.
34	Mat. xxvii. 39–44 Marc xv. 29–32. Luc xxiii. 35–37, 39–43 . . . Ioan xix. 25–27.	Yr Iuddewon yn gwatwar yr Iesu ar y groes. Yr Iesu yn cyflwyno ei fam i ofal Ioan.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 45, &c. Marc xv. 33–37 . Luc xxiii. 44–46. Ioan xix. 28–30.	Tywyllwch ar yr holl ddaear. Crist yn marw ar y groes.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 51–56 Marc xv. 38–41 . Luc xxiii. 45, 47, 49	Rhwygo llen y demI; agoryd y beddau. Barn y canwriad. Y gwragedd wrth y groes.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 57, &c Marc xv. 42–47 . Luc xxiii. 50–56 Ioan xix. 31–42.	Tynu yr Iesu oddi ar y groes. Ei gladdedigaeth.—Ierusalem.
—	Mat. xxvii. 66. .	Sêlio a gwylio y bedd.—Ierusalem.

Rhan ix.

ADGYFODIAD EIN HARGLWYDD, EI YMDDANGOSIADAU WEDI HYNY, A'I ESGYNIAD.

Amser: *Dengain niwrnod.*

34	Mat. xxviii. 2–4. Marc xvi. 1. . .	Boreu yr adgyfodiad.—Ierusalem.
—	Mat. xxviii. 1 . Marc xvi. 2–4 . Luc xxiv. 1–3 . Ioan xx. 1, 2 . .	Y gwragedd yn ymweled â'r bedd; a Mair Magdalen yn dychwelyd.—Ierusalem.
—	Mat. xxviii. 2–7 Marc xvi. 5–7 . Luc xxiv. 4–8 .	Gweledigaeth o angylion yn y bedd.—Ierusalem.
—	Mat. xxviii. 8–10 Marc xvi. 8 . . Luc xxiv. 9–11 .	Y gwragedd yn dychwelyd i'r ddinas. Yr Iesu yn cyfarfod â hwynt.—Ierusalem.
—	Luc xxiv. 12 . . Ioan xx. 3–10 .	Pedr ac Ioan yn rhedeg at y bedd.—Ierusalem.
—	Marc xvi. 9–11 . Ioan xx. 11–18 .	Mair Magdalen yn gweled ein Harglwydd wrth y bedd.—Ierusalem.
—	Mat. xxviii. 11-15	Adroddiad y wyliadwriaeth.—Ierusalem.
—	1 Cor. xv. 5 . . Marc xvi. 12, 13. Luc xxiv. 13–35	Ein Harglwydd yn ymddangos i Pedr; ac wedi hyny i ddau ddysgybl ar y ffordd i Emmaus.—Ierusalem; Emmaus.
—	1 Cor. xv. 5 . . Marc xvi. 14–18. Luc xxiv. 36–49 Ioan xx. 19–23 .	Ymddangosiad yr Iesu yn nghanol ei ddysgyblion, pan oedd Thomas yn absennol.—Ierusalem.
—	Ioan xx. 24–29 .	Yr Iesu yn ymddangos yn nghanol ei ddysgyblion pan oedd Thomas gyda hwynt.—Ierusalem.
—	Mat. xxviii. 16 . Ioan xxi. 1–24 .	Yr apostolion yn myned i Galilea. Yr Iesu yn ymddangos i naw o honynt wrth fôr Tiberias.—Galilea.
—	Mat. xxviii. 16,20 1 Cor. xv. 6 . .	Yr Iesu yn cyfarfod â'i ddysgyblion, ynghyd â phum cant o frodyr, ar fynydd Galilea.
—	Act. i. 3–8 . . 1 Cor. xv. 7 . .	Ein Harglwydd yn ymddangos i Iago, ac wedi hyny i'r holl apostolion.—Ierusalem.
—	Act. i. 9–12 . . Marc xvi. 19–20 Luc xxiv. 50–53	Yr esgyniad.—Bethania.
—	Ioan xx. 30–31; a xxi. 25 . . .	Terfyniad Efengyl Ioan.